£8-50

57

Helen M. Atkinson
from J. M. D.
Xmas 1936.

Y

BEIBL CYSSEGR-LAN

SEF

YR HEN DESTAMENT

A'R

NEWYDD

CAER GRAWNT
ARGRAPHEDIG YN ARGRAPHDY Y BRIFYSGOL
TROS Y FEIBL GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR
146, QUEEN VICTORIA STREET, LLUNDAIN

Brevier 16mo. 1920 Cum Privilegio

ENWAU A THREFN

LLYFRAU YR HEN DESTAMENT A'R NEWYDD,

A

RHIFEDI PENNODAU POB LLYFR.

LLYFRAU YR HEN DESTAMENT.

	Tud.	Pen.
GENESIS	5	50
Exodus	64	40
Lefiticus	112	27
Numeri	146	36
Deuteronomium	194	34
Josua	236	24
Barnwyr	266	21
Ruth	295	4
I. Samuel	299	31
II. Samuel	338	24
I. Brenhinoedd	371	22
II. Brenhinoedd	409	25
I. Cronicl	445	29
II. Cronicl	478	36
Esra	520	10
Nehemïah	531	13
Esther	548	10
Job	557	42
Psalmau	588	150
Dïarhebion	663	31
Pregethwr	688	12
Caniad Solomon	697	8
Esaiah	701	66
Jeremïah	757	52
Galarnad Jeremïah	822	5
Eseciel	828	48
Daniel	886	12
Hosea	904	14
Jöel	912	3
Amos	915	9
Obadïah	922	1
Jonah	923	4
Michah	925	7
Nahum	930	3
Habacuc	932	3
Sephanïah	934	3
Haggai	937	2
Secharïah	939	14
Malachi	949	4

LLYFRAU Y TESTAMENT NEWYDD.

	Tud.	Pen.
SANT MATTHEW	955	28
Sant Marc	995	16
Sant Luc	1021	24
Sant Ioan	1064	21
Actau yr Apostolion	1098	28
Epistolau Sant Paul:		
At y Rhufeiniaid	1140	16
I. at y Corinthiaid	1157	16
II. at y Corinthiaid	1174	13
At y Galatiaid	1185	6
At yr Ephesiaid	1191	6
At y Philippiaid	1197	4
At y Colossiaid	1201	4
I. at y Thessaloniaid	1205	5
II. at y Thessaloniaid	1208	3
Epistolau Sant Paul:		
I. at Timothëus	1211	6
II. at Timothëus	1215	4
At Titus	1219	3
At Philemon	1221	1
At yr Hebreaid	1222	13
Epistol Iago	1234	5
Epistol I. Pedr	1238	5
II. Epistol Pedr	1243	3
Epistol I. Ioan	1246	5
II. Epistol Ioan	1251	1
III. Epistol Ioan	1251	1
Epistol Judas	1252	1
Datguddiad Ioan	1254	22

LLYFR CYNTAF MOSES,

YR HWN A ELWIR

GENESIS.

PENNOD 1.

1 *Creadwriaeth nef a daear,* 3 *a'r goleuni,* 6 *a'r ffurfafen.* 9 *Neilldio y ddaear oddi wrth y dyfroedd,* 11 *a'i gwneuthur yn ffrwythlawn.* 14 *Yr haul, y lleuad, a'r sêr;* 20 *y pysgod a'r adar,* 24 *a'r anifeiliaid,* 26 *dyn ar lun Duw.* 29 *Ordeinio lluniaeth ac ymborth.*

YN y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.

2 A'r ddaear oedd afluniaidd a gwag, a thywyllwch *oedd* ar wyneb y dyfnder, ac Ysbryd Duw yn ymsymmud ar wyneb y dyfroedd.

3 A Duw a ddywedodd, Bydded goleuni, a goleuni a fu.

4 A Duw a welodd y goleuni, mai da *oedd:* a Duw a wahanodd rhwng y goleuni a'r tywyllwch.

5 A Duw a alwodd y goleuni yn Ddydd, a'r tywyllwch a alwodd efe yn Nos: a'r hwyr a fu, a'r bore a fu, y dydd cyntaf.

6 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Bydded ffurfafen y'nghanol y dyfroedd, a bydded hi yngwahanu rhwng y dyfroedd a'r dyfroedd.

7 A Duw a wnaeth y ffurfafen, ac a wahanodd rhwng y dyfroedd oddi tan y ffurfafen, a'r dyfroedd oddi ar y ffurfafen: ac felly y bu.

8 A'r ffurfafen a alwodd Duw yn Nefoedd: a'r hwyr a fu, a'r bore a fu, yr ail ddydd.

9 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Casgler y dyfroedd oddi tan y nefoedd i'r un lle, ac ymddangosed y sychdir: ac felly y bu.

10 A'r sychdir a alwodd Duw yn Ddaear, a chasgliad y dyfroedd a alwodd efe yn Foroedd: a Duw a welodd mai da *oedd.*

11 A Duw a ddywedodd, Egined y ddaear egin, *sef* llysiau yn hadu had, a phrennau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth, wrth eu rhywogaeth, y rhai *y mae* eu had ynddynt ar y ddaear: ac felly y bu.

12 A'r ddaear a ddug egin, *sef* llysiau yn hadu had wrth eu rhywogaeth, a phrennau yn dwyn ffrwyth, y rhai *y mae* eu had ynddynt wrth eu rhywogaeth: a Duw a welodd mai da *oedd.*

13 A'r hwyr a fu, a'r bore a fu, y trydydd dydd.

14 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Bydded goleuadau yn ffurfafen y nefoedd, i wahanu rhwng y dydd a'r nos; a byddant yn arwyddion, ac yn dymhorau, ac yn ddyddiau, a blynyddoedd.

15 A byddant yn oleuadau yn ffurfafen y nefoedd, i oleuo ar y ddaear: ac felly y bu.

16 A Duw a wnaeth ddau oleuad mawrion; y goleuad mwyaf i lywodraethu y dydd, a'r goleuad lleiaf i lywodraethu y nos: a'r sêr *hefyd a wnaeth efe.*

17 Ac yn ffurfafen y nefoedd y rhoddes Duw hwynt, i oleuo ar y ddaear,

18 Ac i lywodraethu y dydd a'r nos, ac i wahanu rhwng y goleuni a'r tywyllwch: a gwelodd Duw mai da *oedd.*

19 A'r hwyr a fu, a'r bore a fu, y pedwerydd dydd.

20 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Heigied y dyfroedd ymlusgiaid byw, ac eheded ehediaid uwch y ddaear, yn wyneb ffurfafen y nefoedd.

21 A Duw a greodd y môrfeirch mawrion, a phob ymlusgiad byw, y rhai a heigiodd y dyfroedd yn eu rhywogaeth, a phob ehediad asgellog yn ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai da *oedd.*

22 A Duw a'u bendigodd hwynt, gan ddywedyd, Ffrwythwch, ac amlhêwch, a llenwch y dyfroedd yn y moroedd, a lliosoged yr ehediaid ar y ddaear.

23 A'r hwyr a fu, a'r bore a fu, y pummed dydd.

24 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Dyged y ddaear *bob* peth byw wrth ei rywogaeth, yr anifail, a'r ymlusgiad, a bwystfil y ddaear wrth ei rywogaeth: ac felly y bu.
25 A Duw a wnaeth fwystfil y ddaear wrth ei rywogaeth, a'r anifail wrth ei rywogaeth, a phob ymlusgiad y ddaear wrth ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai da *oedd.*
26 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain: ac arglwyddiaethant ar bysg y môr, ac ar ehediad y nefoedd, ac ar yr anifail, ac ar yr holl ddaear, ac ar bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear.
27 Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef: yn wrryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt.
28 Duw hefyd a'u bendigodd hwynt, a Duw a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch, ac amlhêwch, a llenwch y ddaear, a darostyngwch hi; ac arglwyddiaethwch ar bysg y môr, ac ar ehediad y nefoedd, ac ar bob peth byw a ymsymmudo ar y ddaear.
29 ¶ A Duw a ddywedodd, Wele, mi a roddais i chwi bob llysieuyn yn hadu had, yr hwn *sydd* ar wyneb yr holl ddaear, a phob pren yr hwn *y mae* ynddo ffrwyth pren yn hadu had, i fod yn fwyd i chwi.
30 Hefyd i bob bwystfil y ddaear, ac i bob ehediad y nefoedd, ac i bob *peth* a ymsymmudo ar y ddaear, yr hwn *y mae* einioes ynddo, *y bydd* pob llysieuyn gwyrdd yn fwyd: ac felly y bu.
31 A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn *ydoedd:* felly yr hwyr a fu, a'r bore a fu, y chweched dydd.

PENNOD 2.

1 *Y dydd Sabbath.* 4 *Dull y creadwriaeth.* 8 *Plannu gardd Eden,* 10 *a'i hafon.* 17 *Gwahardd pren gwybodaeth yn unig.* 19 *Enwi y creaduriaid.* 21 *Gwneuthur gwraig, ac ordeinio priodas.*

FELLY y gorphenwyd y nefoedd a'r ddaear, a'u holl lu hwynt.
2 Ac ar y seithfed dydd y gorphenodd Duw ei waith, yr hwn a wnaethai efe, ac a orphwysodd ar y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith, yr hwn a wnaethai efe.
3 A Duw a fendigodd y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef: oblegid ynddo y gorphwysasai oddi wrth ei holl waith, yr hwn a greasai Duw i'w wneuthur.
4 ¶ Dyma genhedlaethau y nefoedd a'r ddaear, pan grëwyd hwynt, yn y dydd y gwnaeth yr Arglwydd Duw ddaear a nefoedd,
5 A phob planhigyn y maes cyn ei fod yn y ddaear, a phob llysieuyn y maes cyn tarddu allan: oblegid ni pharasai yr Arglwydd Duw wlawio ar y ddaear, ac nid *ydoedd* dyn i lafurio y ddaear.
6 Ond tarth a esgynodd o'r ddaear, ac a ddyfrhaodd holl wyneb y ddaear.
7 A'r Arglwydd Duw a luniasai y dyn o bridd y ddaear, ac a anadlasai yn ei ffroenau ef anadl einioes: a'r dyn a aeth yn enaid byw.
8 ¶ Hefyd yr Arglwydd Duw a blannodd ardd yn Eden, o du y dwyrain, ac a osododd yno y dyn a luniasai efe.
9 A gwnaeth yr Arglwydd Duw i bob pren dymunol i'r golwg, a daionus yn fwyd, ac i bren y bywyd y'nghanol yr ardd, ac i bren gwybodaeth da a drwg, dyfu allan o'r ddaear.
10 Ac afon a aeth allan o Eden, i ddyfrhâu yr ardd, ac oddi yno hi a rannwyd, ac a aeth yn bedwar pen.
11 Enw y gyntaf *yw* Pison: hon sydd yn amgylchu holl wlad Hafilah, lle *y mae* yr aur:
12 Ac aur y wlad honno sydd dda: yno *mae* bdèliwm a'r maen onix.
13 Ac enw yr ail afon *yw* Gihon: honno sydd yn amgylchu holl wlad Ethiopia.
14 Ac enw y drydedd afon *yw* Hidecel: honno sydd yn myned o du y dwyrain i Assyria: a'r bedwaredd afon *yw* Euphrates.
15 A'r Arglwydd Duw a gymerodd y dyn, ac a'i gosododd ef y'ngardd Eden, i'w llafurio ac i'w chadw hi.
16 A'r Arglwydd Duw a orchymynodd i'r dyn, gan ddywedyd, O bob pren o'r ardd gan fwytta y gelli fwytta:

17 Ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwytta o hono; oblegid yn y dydd y bwyttêi di o hono, gan farw y byddi farw.

18 ¶ Hefyd yr ARGLWYDD DDUW a ddywedodd, Nid da bod y dyn ei hunan; gwnaf iddo ymgeledd cymmwys iddo.

19 A'r ARGLWYDD DDUW a luniodd o'r ddaear holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd, ac a'u dygodd at Adda, i weled pa enw a roddai efe iddynt hwy: a pha fodd bynnag yr enwodd y dyn bob peth byw, hynny *fu* ei enw ef.

20 Ac Adda a enwodd enwau ar yr holl anifeiliaid, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar holl fwystfilod y maes: ond ni chafodd efe i Adda ymgeledd cymmwys iddo.

21 A'r ARGLWYDD DDUW a wnaeth i drwmgwsg syrthio ar Adda, ac efe a gysgodd: ac efe a gymmerodd un o'i asennau ef, ac a gauodd gig yn ei lle hi.

22 A'r ARGLWYDD DDUW a wnaeth yr asen a gymmerasai efe o'r dyn, yn wraig, ac a'i dug at y dyn.

23 Ac Adda a ddywedodd, Hon weithian *sydd* asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i: hon a elwir gwraig, oblegid o ŵr y cymmerwyd hi.

24 O herwydd hyn yr ymedy gŵr â'i dad, ac â'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig: a hwy a fyddant yn un cnawd.

25 Ac yr oeddynt ill dau yn noethion, Adda a'i wraig, ac nid oedd arnynt gywilydd.

PENNOD 3.

1 *Y sarph yn hudo Efa.* 6 *Cywilyddus gwymp dyn.* 9 *Duw yn eu holi ac yn eu barnu hwy.* 14 *Melldigo y sarph.* 15 *Addaw yr had.* 16 *Cospedigaeth dyn.* 21 *Ei wisgad cyntaf;* 22 *a'i fwrw allan o Baradwys.*

A'R sarph oedd gyfrwysach na holl fwystfilod y maes, y rhai a wnaethai yr ARGLWYDD DDUW. A hi a ddywedodd wrth y wraig, Ai dïau ddywedyd o DDUW, Ni chewch chwi fwytta o bob pren o'r ardd?

2 A'r wraig a ddywedodd wrth y sarph, O ffrwyth prennau yr ardd y cawn ni fwytta:

3 Ond am ffrwyth y pren *sydd* y'nghanol yr ardd, DUW a ddywedodd, Na fwyttêwch o hono, ac na chyffyrddwch âg ef, rhag eich marw.

4 A'r sarph a ddywedodd wrth y wraig, Ni byddwch feirw ddim.

5 Canys gwybod y mae DUW, mai yn y dydd y bwyttaoch o hono ef, yr agorir eich llygaid, ac y byddwch megis duwiau, yn gwybod da a drwg.

6 A phan welodd y wraig mai da oedd *ffrwyth* y pren yn fwyd, ac mai teg mewn golwg ydoedd, a'i fod yn bren dymunol i beri deall, hi a gymmerth o'i ffrwyth ef, ac a fwyttaodd, ac a roddes i'w gŵr hefyd gyd â hi, ac efe a fwyttaodd.

7 A'u llygaid hwy ill dau a agorwyd, a hwy a wybuant eu bod yn noethion, ac a wnïasant ddail y ffigysbren, ac a wnaethant iddynt arffedogau.

8 A hwy a glywsant lais yr ARGLWYDD DDUW yn rhodio yn yr ardd, gyd âg awel y dydd; ac ymguddiodd Adda a'i wraig o olwg yr ARGLWYDD DDUW, ym mysg prennau yr ardd.

9 A'r ARGLWYDD DDUW a alwodd ar Adda, ac a ddywedodd wrtho, Pa le *yr wyt* ti?

10 Yntau a ddywedodd, Dy lais a glywais yn yr ardd; a mi a ofnais, oblegid noeth *oeddwn*, ac a ymguddiais.

11 A dywedodd *DUW*, Pwy a fynegodd i ti dy fod yn noeth? ai o'r pren y gorchymynaswn i ti na fwyttâit o hono, y bwytteaist?

12 Ac Adda a ddywedodd, Y wraig a roddaist gyd â mi, hi a roddodd i mi o'r pren, a mi a fwytteais.

13 A'r ARGLWYDD DDUW a ddywedodd wrth y wraig, Paham y gwnaethost ti hyn? A'r wraig a ddywedodd, Y sarph a'm twyllodd, a bwytta a wneuthum.

14 A'r ARGLWYDD DDUW a ddywedodd wrth y sarph, Am wneuthur o honot hyn, melldigediccach *wyt* ti na'r holl anifeiliaid, ac na holl fwystfilod y maes: ar dy dor y cerddi, a phridd a fwyttêi holl ddyddiau dy einioes.

15 Gelyniaeth hefyd a osodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau: efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawdl ef.

16 Wrth y wraig y dywedodd, Gan amlhâu yr amlhâf dy boenau di a'th feichiogi: mewn poen y dygi blant, a'th ddymuniad *fydd* at dy ŵr, ac efe a lywodraetha arnat ti.

17 Hefyd wrth Adda y dywedodd, Am wrandaw o honot ar lais dy wraig, a bwytta o'r pren am yr hwn y gorchymynaswn i ti, gan ddywedyd, Na fwytta o hono; melldigedig *fydd* y ddaear o'th achos di: trwy lafur y bwyttêi o honi holl ddyddiau dy einioes.

18 Drain hefyd ac ysgall a ddwg hi i ti; a llysiau y maes a fwyttêi di.

19 Trwy chwŷs dy wyneb y bwyttêi fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear; oblegid o honi y'th gymmerwyd: canys pridd *wyt* ti, ac i'r pridd y dychweli.

20 A'r dyn a alwodd enw ei wraig Efa; oblegid hi oedd fam pob *dyn* byw.

21 A'r ARGLWYDD DDUW a wnaeth i Adda ac i'w wraig beisiau crwyn, ac a'u gwisgodd am danynt hwy.

22 ¶ Hefyd yr ARGLWYDD DDUW a ddywedodd, Wele y dyn sydd megis un o honom ni, i wybod da a drwg. Ac weithian, rhag iddo estyn ei law, a chymmeryd hefyd o bren y bywyd, a bwytta, a byw yn dragywyddol:

23 Am hynny yr ARGLWYDD DDUW a'i hanfonodd ef allan o ardd Eden, i lafurio y ddaear, yr hon y cymmerasid ef o honi.

24 Felly efe a yrrodd allan y dyn, ac a osododd, o'r tu dwyrain i ardd Eden, y cerubiaid, a chleddyf tanllyd ysgwydedig, i gadw ffordd pren y bywyd.

PENNOD 4.

1 *Genedigaeth, celfyddyd, a chrefydd Cain ac Abel.* 8 *Lladd Abel.* 11 *Melldigo Cain.* 17 *Enoch y ddinas gyntaf.* 19 *Lamech a'i ddwy wraig.* 25 *Genedigaeth Seth,* 26 *ac Enos.*

AC Adda a adnabu Efa ei wraig: a hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar Cain; ac a ddywedodd, Cefais ŵr gan yr ARGLWYDD.

2 A hi a esgorodd eilwaith ar ei frawd ef Abel; ac Abel oedd fugail defaid, ond Cain oedd yn llafurio y ddaear.

3 A bu, wedi talm o ddyddiau, i Cain ddwyn o ffrwyth y ddaear offrwm i'r ARGLWYDD.

4 Ac Abel yntau a ddug o flaenffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt. A'r ARGLWYDD a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm:

5 Ond nid edrychodd efe ar Cain, nac ar ei offrwm ef. A digllonodd Cain yn ddirfawr, fel y syrthiodd ei wynebpryd ef.

6 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Cain, Paham y llidiaist? a phaham y syrthiodd dy wynebpryd?

7 Os da y gwnei, oni chei oruchafiaeth? ac oni wnei yn dda, pechod a orwedd wrth y drws: attat ti hefyd *y mae* ei ddymuniad ef, a thi a lywodraethi arno ef.

8 A Chain a ddywedodd wrth Abel ei frawd: ac fel yr oeddynt hwy yn y maes, Cain a gododd yn erbyn Abel ei frawd, ac a'i lladdodd ef.

9 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Cain, Mae Abel dy frawd di? Yntau a ddywedodd, Nis gwn; ai ceidwad fy mrawd *ydwyf* fi?

10 A dywedodd *DUW*, Beth a wnaethost? llef gwaed dy frawd sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaear.

11 Ac yr awr hon melldigedig wyt ti o'r ddaear, yr hon a agorodd ei safn i dderbyn gwaed dy frawd o'th law di.

12 Pan lafuriech y ddaear, ni chwanega hi roddi ei ffrwyth i ti; gwibiad a chrwydriad fyddi ar y ddaear.

13 Yna y dywedodd Cain wrth yr ARGLWYDD, Mwy *yw* fy anwiredd nag y gellir ei faddeu.

14 Wele, gyrraist fi heddyw oddi ar wyneb y ddaear, ac o'th ŵydd di y'm cuddir: gwibiad hefyd a chrwydriad fyddaf ar y ddaear; *a* phwy bynnag a'm caffo a'm lladd.

15 A dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, Am hynny y dïelir yn saith ddyblyg *ar* bwy bynnag a laddo Cain. A'r ARGLWYDD a osododd nôd ar Cain, rhag i neb a'i caffai ei ladd ef.

16 ¶ A Chain a aeth allan o ŵydd yr ARGLWYDD, ac a drigodd yn nhir Nod, o'r tu dwyrain i Eden.

17 Cain hefyd a adnabu ei wraig; a hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar Enoch: yna yr ydoedd efe yn adeiladu dinas, ac efe a alwodd enw y ddinas yn ol enw ei fab, Enoch.

18 Ac i Enoch y ganwyd Irad: ac Irad a genhedlodd Mehuiael, a Mehuiael a genhedlodd Methusael, a Methusael a genhedlodd Lamech.

19 ¶ A Lamech a gymmerodd iddo ddwy o wragedd: enw y gyntaf *oedd* Adah, ac enw yr ail Silah.

20 Ac Adah a esgorodd ar Jabal; hwn ydoedd dad *pob* preswylydd pabell, a *pherchen* anifail.

21 Ac enw ei frawd ef oedd Jubal; ac efe oedd dad pob teimlydd telyn ac organ.

22 Silah hithau a esgorodd ar Tubal-Cain, gweithydd pob cywreinwaith pres a haiarn: a chwaer Tubal-Cain *ydoedd* Naamah.

23 A Lamech a ddywedodd wrth ei wragedd, Adah a Silah, Clywch fy llais, gwragedd Lamech, gwrandêwch fy lleferydd; canys mi a leddais ŵr i'm harcholl, a llangc i'm clais.

24 Os Cain a ddïelir seithwaith, yna Lamech saith ddengwaith a seithwaith.

25 ¶ Ac Adda a adnabu ei wraig drachefn; a hi a esgorodd ar fab, ac a alwodd ei enw ef Seth: O herwydd Duw (*eb hi*) a osododd i mi had arall yn lle Abel, am ladd o Cain ef.

26 I'r Seth hwn hefyd y ganwyd mab; ac efe a alwodd ei enw ef Enos: yna y dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd.

PENNOD 5.

1 *Achau, oedran, a marwolaeth y patrieirch, o Adda hyd Noah* 24 *Duwioldeb Enoch, a Duw yn ei gymmeryd ef ymaith.*

DYMA lyfr cenhedlaethau Adda: yn y dydd y creodd Duw ddyn, ar lun Duw y gwnaeth efe ef.

2 Yn wrryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt: ac efe a'u bendithiodd hwynt, ac a alwodd eu henw hwynt Adda, ar y dydd y crëwyd hwynt.

3 ¶ Ac Adda a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain a chant, ac a genhedlodd *fab* ar ei lun a'i ddelw ei hun, ac a alwodd ei enw ef Seth.

4 A dyddiau Adda, wedi iddo genhedlu Seth, oedd wyth gan mlynedd, ac efe a genhedlodd feibion a merched.

5 A holl ddyddiau Adda, y rhai y bu efe fyw, oedd naw can mlynedd a deng mlynedd ar hugain; ac efe a fu farw.

6 ¶ Seth hefyd a fu fyw bum mlynedd a chan mlynedd, ac a genhedlodd Enos.

7 A Seth a fu fyw wedi iddo genhedlu Enos, saith mlynedd ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

8 A holl ddyddiau Seth oedd ddeuddeng mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

9 ¶ Ac Enos a fu fyw ddeng mlynedd a phedwar ugain, ac a genhedlodd Cenan.

10 Ac Enos a fu fyw wedi iddo genhedlu Cenan, bymtheng mlynedd ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

11 A holl ddyddiau Enos oedd bum mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

12 ¶ Cenan hefyd a fu fyw ddeng mlynedd a thri ugain, ac a genhedlodd Mahalaleel.

13 A bu Cenan fyw wedi iddo genhedlu Mahalaleel ddeugain mlynedd ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

14 A holl ddyddiau Cenan oedd ddeng mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

15 ¶ A Mahalaleel a fu fyw bum mlynedd a thri ugain mlynedd, ac a genhedlodd Jered.

16 A Mahalaleel a fu fyw wedi iddo genhedlu Jered, ddeng mlynedd ar hugain ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

17 A holl ddyddiau Mahalaleel oedd bymtheng mlynedd a phedwar ugain ac wyth gan mlynedd; ac efe a fu farw.

18 ¶ A Jered a fu fyw ddwy flynedd a thri ugain a chan mlynedd, ac a genhedlodd Enoch.

19 A Jered a fu fyw wedi iddo genhedlu Enoch wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

20 A holl ddyddiau Jered oedd ddwy flynedd a thri ugain a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

21 ¶ Enoch hefyd a fu fyw bum mlynedd a thri ugain, ac a genhedlodd Methuselah.

22 Ac Enoch a rodiodd gyd â Duw wedi iddo genhedlu Methuselah,

dri chant o flynyddoedd, ac a genhedlodd feibion a merched.
23 A holl ddyddiau Enoch oedd bum mlynedd a thri ugain a thri chant o flynyddoedd.
24 A rhodiodd Enoch gyd â Duw, ac ni *welwyd* ef; canys Duw a'i cymmerodd ef.
25 ¶ Methuselah hefyd a fu fyw saith mlynedd a phedwar ugain a chant, ac a genhedlodd Lamech.
26 A Methuselah a fu fyw wedi iddo genhedlu Lamech, ddwy flynedd a phedwar ugain a saith gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.
27 A holl ddyddiau Methuselah oedd naw mlynedd a thri ugain a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.
28 ¶ Lamech hefyd a fu fyw ddwy flynedd a phedwar ugain a chan mlynedd, ac a genhedlodd fab;
29 Ac a alwodd ei enw ef Noah, gan ddywedyd, Hwn a'n cysura ni am ein gwaith, a llafur ein dwylaw, o herwydd y ddaear yr hon a felldigodd yr Arglwydd.
30 A Lamech a fu fyw wedi iddo genhedlu Noah, bymtheng mlynedd a phedwar ugain a phum can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.
31 A holl ddyddiau Lamech oedd ddwy flynedd ar bymtheg a thri ugain a saith gan mlynedd; ac efe a fu farw.
32 A Noah ydoedd fab pum can mlwydd; a Noah a genhedlodd Sem, Cham, a Japheth.

PENNOD 6.

1 *Drygioni y byd, yr hwn a gyffrôdd ddigllonedd Duw, ac a barodd y diluw.* 8 *Noah yn cael ffafr.* 14 *Trefn a phortreiad, a'r achos y gwnaed yr arch.*

YNA y bu, pan ddechreuodd dynion amlhâu ar wyneb y ddaear, a geni merched iddynt,
2 Weled o feibion Duw ferched dynion mai teg *oeddynt* hwy; a hwy a gymmerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant.
3 A dywedodd yr Arglwydd, Nid ymrysona fy Ysbryd i â dyn yn dragywydd, oblegid mai cnawd yw efe: a'i ddyddiau fyddant ugain mlynedd a chant.
4 Cewri oedd ar y ddaear y dyddiau hynny: ac wedi hynny hefyd, pan ddaeth meibion Duw at ferched dynion, a phlanta *o'r rhai hynny* iddynt: dyma y cedyrn *a fu* wŷr enwog gynt.
5 ¶ A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear, a *bod* holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser.
6 Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd wneuthur o hono ef ddyn ar y ddaear, ac efe a ymofidiodd yn ei galon.
7 A'r Arglwydd a ddywedodd, Dileaf ddyn yr hwn a greais oddi ar wyneb y ddaear, o ddyn hyd anifail, hyd yr ymlusgiad, a hyd ehediad y nefoedd: canys y mae yn edifar gennyf eu gwneuthur hwynt.
8 ¶ Ond Noah a gafodd ffafr y'ngolwg yr Arglwydd.
9 ¶ Dyma genhedlaethau Noah: Noah *oedd* ŵr cyfiawn, perffaith yn ei oes: gyd â Duw y rhodiodd Noah.
10 A Noah a genhedlodd dri o feibion, Sem, Cham, a Japheth.
11 A'r ddaear a lygrasid ger bron Duw; llanwasid y ddaear hefyd â thrawsedd.
12 A Duw a edrychodd ar y ddaear, ac wele hi a lygrasid; canys pob cnawd a lygrasai ei ffordd ar y ddaear.
13 A Duw a ddywedodd wrth Noah, Diwedd pob cnawd a ddaeth ger fy mron: oblegid llanwyd y ddaear â thrawsedd trwyddynt hwy: ac wele myfi a'u difethaf hwynt gyd â'r ddaear.
14 ¶ Gwna i ti arch o goed Gopher; yn gellau y gwnei yr arch, a phyga hi oddi fewn ac oddi allan â phyg.
15 Ac fel hyn y gwnei di hi: tri chan cufydd *fydd* hŷd yr arch, deg cufydd a deugain ei lled, a deg cufydd ar hugain ei huchder.
16 Gwna ffenestr i'r arch, a gorphen *hi* yn gufydd oddi arnodd; a gosod ddrws yr arch yn ei hystlys: o dri *uchder* y gwnei di hi.
17 Ac wele myfi, ïe myfi, yn dwyn dyfroedd diluw ar y ddaear, i ddifetha pob cnawd, yr hwn *y mae* anadl einioes ynddo, oddi tan y nefoedd: yr hyn oll *sydd* ar y ddaear a drenga.

18 Ond â thi y cadarnhâf fy nghyfammod; ac i'r arch yr âi di, tydi a'th feibion, a'th wraig, a gwragedd dy feibion gyd â thi.
19 Ac o bob *peth* byw, o bob cnawd, y dygi ddau o bob *rhyw* i'r arch i'w cadw yn fyw gyd â thi; gwrryw a benyw fyddant.
20 O'r ehediaid wrth eu rhywogaeth, ac o'r anifeiliaid wrth eu rhywogaeth, o bob ymlusgiad y ddaear wrth ei rywogaeth; dau o bob *rhywogaeth* a ddaw attat i'w cadw yn fyw.
21 A chymmer i ti o bob bwyd a fwyttêir, a chasgl attat; a bydd yn ymborth i ti ac iddynt hwythau.
22 Felly y gwnaeth Noah; yn ol yr hyn oll a orchymynasai DUW iddo, felly y gwnaeth efe.

PENNOD 7.

1 *Noah a'i deulu a'r creaduriaid byw yn myned i'r arch.* 11 *Dechreuad, cynnydd, a pharhâd y diluw.*

YNA y dywedodd yr ARGLWYDD wrth Noah, Dos di, a'th holl dŷ i'r arch: canys tydi a welais i yn gyfiawn ger fy mron i yn yr oes hon.
2 O bob anifail glân y cymmeri gyd â thi bob yn saith, y gwrryw a'i fenyw; a dau o'r anifeiliaid y rhai nid ydynt lân, y gwrryw a'i fenyw:
3 O ehediaid y nefoedd hefyd, bob yn saith, yn wrryw ac yn fenyw, i gadw had yn fyw ar wyneb yr holl ddaear.
4 Oblegid wedi saith niwrnod etto, mi a wlawiaf ar y ddaear ddeugain niwrnod a deugain nos: a mi a ddileaf oddi ar wyneb y ddaear bob peth byw a'r a wneuthum i.
5 A Noah a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD iddo.
6 Noah hefyd *oedd* fab chwe chan mlwydd pan fu y dyfroedd diluw ar y ddaear.
7 ¶ A Noah a aeth i mewn, a'i feibion, a'i wraig, a gwragedd ei feibion gyd âg ef, i'r arch, rhag y dwfr diluw.
8 O anifeiliaid glân, ac o anifeiliaid y rhai nid *oeddynt* lân, o ehediaid hefyd, ac o'r hyn oll a ymlusgai ar y ddaear,
9 Yr aeth i mewn at Noah i'r arch bob yn ddau, yn wrryw ac yn fenyw, fel y gorchymynasai DUW i Noah.
10 Ac wedi saith niwrnod y dwfr diluw a ddaeth ar y ddaear.
11 ¶ Yn y chwe chanfed flwyddyn o fywyd Noah, yn yr ail mis, ar yr ail dydd ar bymtheg o'r mis, ar y dydd hwnnw y rhwygwyd holl ffynhonnau y dyfnder mawr, a ffenestri y nefoedd a agorwyd.
12 A'r gwlaw fu ar y ddaear ddeugain niwrnod a deugain nos.
13 O fewn corph y dydd hwnnw y daeth Noah, a Sem, a Cham, a Japheth, meibion Noah, a gwraig Noah, a thair gwraig ei feibion ef gyd â hwynt, i'r arch;
14 Hwynt, a phob bwystfil wrth ei rywogaeth, a phob anifail wrth ei rywogaeth, a phob ymlusgiad a ymlusgai ar y ddaear wrth ei rywogaeth, a phob ehediad wrth ei rywogaeth, pob aderyn o bob rhyw.
15 A daethant at Noah i'r arch bob yn ddau, o bob cnawd *a'r oedd* yn ddo anadl einioes.
16 A'r rhai a ddaethant, yn wrryw a benyw y daethant o bob cnawd, fel y gorchymynasai DUW iddo. A'r ARGLWYDD a gauodd arno ef.
17 A'r diluw fu ddeugain niwrnod ar y ddaear; a'r dyfroedd a gynnyddasant, ac a godasant yr arch, a hi a godwyd oddi ar y ddaear.
18 A'r dyfroedd a ymgryfhasant, ac a gynnyddasant yn ddirfawr ar y ddaear; a'r arch a rodiodd ar wyneb y dyfroedd.
19 A'r dyfroedd a ymgryfhasant yn ddirfawr iawn ar y ddaear, a gorchuddiwyd yr holl fynyddoedd uchel oedd tan yr holl nefoedd.
20 Pymtheg cufydd yr ymgryfhaodd y dyfroedd tu ag i fyny: a'r mynyddoedd a orchuddiwyd.
21 A bu farw pob cnawd a ymlusgai ar y ddaear, yn ehediaid, ac yn anifeiliaid, ac yn fwystfilod, ac yn bob *rhyw* ymlusgiad a ymlusgai ar y ddaear, a phob dyn *hefyd.*
22 Yr hyn oll *yr oedd* ffun anadl einioes yn ei ffroenau, o'r hyn oll *oedd* ar y sychdir, a fuant feirw.
23 Ac efe a ddileodd bob sylwedd byw a'r a *oedd* ar wyneb y ddaear, yn ddyn ac yn anifail, yn ymlusgiaid, ac yn ehediaid y nefoedd; ie,

dilëwyd hwynt o'r ddaear : a Noah a'r rhai *oedd* gyd âg ef yn yr arch, yn unig, a adawyd yn fyw.

24 A'r dyfroedd a ymgryfhasant ar y ddaear ddeng niwrnod a deugain a chant.

PENNOD 8.

1 *Y dyfroedd yn llonyddu.* 4 *Yr arch yn gorphwys ar fynyddoedd Ararat.* 7 *Y gigfran a'r golommen.* 15 *Noah, ar orchymyn Duw,* 18 *yn myned allan o'r arch.* 20 *Efe yn adeiladu allor, ac yn aberthu aberth :* 21 *yr hwn y mae Duw yn ei ddderbyn, ac yn addaw na felldithiai y ddaear mwyach.*

A DUW a gofiodd Noah, a phob peth byw, a phob anifail a'r *a oedd* gyd âg ef yn yr arch : a Duw a wnaeth i wynt dramwy ar y ddaear, a'r dyfroedd a lonyddasant.

2 Cauwyd hefyd ffynhonnau y dyfnder a ffenestri y nefoedd ; a lluddiwyd y gwlaw o'r nefoedd.

3 A'r dyfroedd a ddychwelasant oddi ar y ddaear, gan fyned a dychwelyd : ac ym mhen y deng niwrnod a deugain a chant, y dyfroedd a dreiasai.

4 ¶ Ac yn y seithfed mis, ar yr ail ddydd ar bymtheg o'r mis, y gorphwysodd yr arch ar fynyddoedd Ararat.

5 A'r dyfroedd fuant yn myned ac yn treio, hyd y degfed mis : yn y degfed *mis*, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y gwelwyd pennau y mynyddoedd.

6 ¶ Ac ym mhen deugain niwrnod yr agorodd Noah ffenestr yr arch a wnaethai efe.

7 Ac efe a anfonodd allan gigfran ; a hi a aeth; gan fyned allan a dychwelyd, hyd oni sychodd y dyfroedd oddi ar y ddaear.

8 Ac efe a anfonodd golommen oddi wrtho, i weled a dreiasai y dyfroedd oddi ar wyneb y ddaear.

9 Ac ni chafodd y golommen orphwysfa i wadn ei throed ; a hi a ddychwelodd atto ef i'r arch, am *fod* y dyfroedd ar wyneb yr holl dir : ac efe a estynodd ei law, ac a'i cymmerodd hi, ac a'i derbyniodd hi atto i'r arch.

10 Ac efe a arhosodd etto saith niwrnod eraill, ac a anfonodd eilwaith y golommen allan o'r arch.

11 A'r golommen a ddaeth atto ef ar brydnawn ; ac wele ddeilen olew-wydden yn ei gylfin hi, wedi ei thynnu : yna y gwybu Noah dreio o'r dyfroedd oddi ar y ddaear.

12 Ac efe a arhosodd etto saith niwrnod eraill, ac a anfonodd y golommen ; ac ni ddychwelodd hi eilwaith atto ef mwy.

13 ¶ Ac yn yr unfed flwyddyn a chwe chant, yn y *mis* cyntaf, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y darfu i'r dyfroedd sychu oddi ar y tir : a Noah a symmudodd gaead yr arch, ac a edrychodd, ac wele, sychasai wyneb y ddaear.

14 Ac yn yr ail fis, ar y seithfed dydd ar hugain o'r mis, y ddaear a sychasai.

15 ¶ A llefarodd DUW wrth Noah, gan ddywedyd,

16 Dos allan o'r arch, ti, a'th wraig, a'th feibion, a gwragedd dy feibion, gyd â thi.

17 Pob peth byw a'r *sydd* gyd â thi, o bob cnawd, yn adar, ac yn anifeiliaid, ac yn bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear, a ddygi allan gyd â thi : eppiliant hwythau yn y ddaear, a ffrwythant ac amlhânt ar y ddaear.

18 A Noah a aeth allan, a'i feibion, a'i wraig, a gwragedd ei feibion, gyd âg ef.

19 Pob bwystfil, pob ymlusgiad, a phob ehediad, pob peth a ymlusgai ar y ddaear, wrth eu rhywogaethau, a ddaethant allan o'r arch.

20 ¶ A Noah a adeiladodd allor i'r ARGLWYDD, ac a gymmerodd o bob anifail glân, ac o bob ehediad glân, ac a offrymmodd boeth-offrymmau ar yr allor.

21 A'r ARGLWYDD a aroglodd arogl esmwyth ; a dywedodd yr ARGLWYDD yn ei galon, Ni chwanegaf felldithio y ddaear mwy er mwyn dyn : o herwydd bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuengctid : ac ni chwanegaf mwy daro pob *peth* byw, fel y gwneuthum.

22 Pryd hau, a chynhauaf, ac oerni, a gwres, a haf, a gauaf, a dydd, a nos, ni phaid mwy holl ddyddiau y ddaear.

PENNOD 9.

1 *Duw yn bendithio Noah ;* 4 *ym gwahardd gwaed a llofruddiaeth.* 9 *Cyfammod Duw,* 13 *a arwyddocctir trwy yr enfys.* 18 *Noah yn llenwi y byd,* 20 *yn plannu gwinllan,* 21 *yn meddwi, ac yn cael ei watwar gan ei fab ;* 26 *yn melldigo Canaan,* 26 *yn bendithio Sem,* 27 *yn gweddio dros Japheth,* 29 *ac yn marw.*

DUW hefyd a fendithiodd Noah a'i feibion, ac a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch a lliosogwch, a llenwch y ddaear.
2 Eich ofn hefyd a'ch arswyd fydd ar holl fwystfilod y ddaear, ac ar holl ehediaid y nefoedd, a'r hyn oll a ymsymmudo ar y ddaear, ac ar holl bysgod y môr; yn eich llaw chwi y rhoddwyd hwynt.
3 Pob ymsymmudydd yr hwn sydd fyw, fydd i chwi yn fwyd: fel y gwyrdd lysieuyn y rhoddais i chwi bob dim.
4 ¶ Er hynny na fwyttêwch gig ynghyd â'i einioes, *sef* ei waed.
5 Ac yn ddïau gwaed eich einioes chwithau hefyd a ofynaf fi: o law pob bwystfil y gofynaf ef; ac o law dyn, o law pob brawd iddo y gofynaf einioes dyn.
6 A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau, o herwydd ar ddelw DUW y gwnaeth efe ddyn.
7 Ond chwychwi, ffrwythwch ac amlhêwch, eppiliwch ar y ddaear, a lliosogwch ynddi.
8 ¶ A DUW a lefarodd wrth Noah, ac wrth ei feibion gyd âg ef, gan ddywedyd,
9 Ac wele myfi, ïe myfi, ydwyf yn cadarnhâu fy nghyfammod â chwi, ac â'ch had ar eich ol chwi;
10 Ac â phob peth byw yr hwn *sydd* gyd â chwi, â'r ehediaid, â'r anifeiliaid, ac â phob bwystfil y tir gyd â chwi, o'r rhai oll sydd yn myned allan o'r arch, hyd holl fwystfilod y ddaear.
11 A mi a gadarnhâf fy nghyfammod â chwi, ac ni thorrir ymaith bob cnawd mwy gan y dwfr diluw, ac ni bydd diluw mwy i ddifetha y ddaear.
12 A DUW a ddywedodd, Dyma arwydd y cyfammod, yr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi rhyngof fi a chwi, ac â phob peth byw a'r *y sydd* gyd â chwi, tros oesoedd tragywyddol:
13 Fy mwa a roddais yn y cwmmwl, ac efe a fydd yn arwydd cyfammod rhyngof fi a'r ddaear.
14 A bydd, pan godwyf gwmmwl ar y ddaear, yr ymddengys y bwa yn y cwmmwl.
15 A mi a gofiaf fy nghyfammod, yr hwn *sydd* rhyngof fi a chwi, ac â phob peth byw o bob cnawd: ac ni bydd y dyfroedd yn ddiluw mwy, i ddifetha pob cnawd.
16 A'r bwa a fydd yn y cwmmwl; a mi a edrychaf arno ef, i gofio y cyfammod tragywyddol rhwng DUW a phob peth byw, o bob cnawd a'r *y sydd* ar y ddaear.
17 A DUW a ddywedodd wrth Noah, Dyma arwydd y cyfammod, yr hwn a gadarnheais rhyngof fi a phob cnawd a'r *y sydd* ar y ddaear.
18 ¶ A meibion Noah y rhai a ddaeth allan o'r arch, oedd Sem, Cham, a Japheth; a Cham oedd dad Canaan.
19 Y tri hyn *oedd* feibion Noah: ac o'r rhai hyn yr hiliwyd yr holl ddaear.
20 A Noah a ddechreuodd *fod* yn llafurwr, ac a blannodd winllan:
21 Ac a yfodd o'r gwin, ac a feddwodd, ac a ymnoethodd y'nghanol ei babell.
22 A Cham tad Canaan a welodd noethni ei dad, ac a fynegodd i'w ddau frawd allan.
23 A chymmerodd Sem a Japheth ddilledyn, ac a'i gosodasant ar eu hysgwyddau ill dau, ac a gerddasant yn wysg eu cefn, ac a orchuddiasant noethni eu tad; a'u hwynebau yn ol, fel na welent noethni eu tad.
24 A Noah a ddeffrôdd o'i win, ac a wybu beth a wnaethai ei fab ieuangaf iddo.
25 Ac efe a ddywedodd, Melldigedig *fyddo* Canaan; gwas gweision i'w frodyr fydd.
26 Ac efe a ddywedodd, Bendigedig *fyddo* ARGLWYDD DDUW Sem; a Chanaan fydd was iddo ef.
27 DUW a helaetha ar Japheth, ac efe a breswylia ym mhebyll Sem; a Chanaan fydd was iddo ef.
28 ¶ A Noah a fu fyw wedi y diluw dri chan mlynedd a deng mlynedd a deugain.
29 Felly holl ddyddiau Noah oedd naw can mlynedd a deng mlynedd a deugain; ac efe a fu farw.

PENNOD 10.

1 *Cenhedlaethau Noah.* 2 *Meibion Japheth.* 6 *Meibion Cham.* 8 *Nimrod y brenhin cyntaf.* 21 *Meibion Sem.*

A DYMA genhedlaethau meibion Noah: Sem, Cham, a Japheth;

ganwyd meibion hefyd i'r rhai hyn wedi y diluw.

2 ¶ Meibion Japheth *oedd* Gomer, a Magog, a Madai, a Jafan, a Thubal, a Mesech, a Thiras.

3 Meibion Gomer hefyd; Ascenas, a Riphath, a Thogarmah.

4 A meibion Jafan; Elisah, a Tharsis, Cittim, a Dodanim.

5 O'r rhai hyn y rhannwyd ynysoedd y cenhedloedd yn eu gwledydd, pawb wrth eu hiaith eu hun, trwy eu teuluoedd, yn eu cenhedloedd.

6 ¶ A meibion Cham *oedd* Cus, a Misraim, a Phut, a Chanaan.

7 A meibion Cus; Seba, a Hafilah, a Sabtah, a Raamah, a Sabteca: a meibion Raamah; Seba, a Dedan.

8 Cus hefyd a genhedlodd Nimrod: efe a ddechreuodd fod yn gadarn ar y ddaear.

9 Efe oedd heliwr cadarn ger bron yr ARGLWYDD: am hynny y dywedir, Fel Nimrod, heliwr cadarn ger bron yr ARGLWYDD.

10 A dechreuad ei frenhiniaeth ef ydoedd Babel, ac Erech, ac Accad, a Chalneh, y'ngwlad Sinar.

11 O'r wlad honno yr aeth Assur allan, ac a adeiladodd Ninefeh, a dinas Rehoboth, a Chalah,

12 A Resen, rhwng Ninefeh a Chalah; honno *sydd* ddinas fawr.

13 Misraim hefyd a genhedlodd Ludim, ac Anamim, a Lehabim, a Naphtuhim,

14 Pathrusim hefyd a Chasluhim, (o'r rhai y daeth Philistim,) a Chaphtorim.

15 ¶ Canaan hefyd a genhedlodd Sidon ei gyntaf-anedig, a Heth,

16 A'r Jebusiad, a'r Amoriad, a'r Girgasiad,

17 A'r Hefiad, a'r Arciad, a'r Siniad,

18 A'r Arfadiad, a'r Semariad, a'r Hamathiad: ac wedi hynny yr ymwasgarodd teuluoedd y Canaaneaid.

19 Terfyn y Canaaneaid oedd hefyd o Sidon, ffordd yr elych i Gerar, hyd Gasah: y ffordd yr elych i Sodom, a Gomorrah, ac Admah, a Seboim, hyd Lesah.

20 Dyma feibion Cham, yn ol eu teuluoedd, wrth eu hieithoedd, yn eu gwledydd, *ac* yn eu cenhedloedd.

21 ¶ I Sem hefyd y ganwyd plant; yntau *oedd* dad holl feibion Heber, *a* brawd Japheth yr hynaf.

22 Meibion Sem *oedd* Elam, ac Assur, ac Arphaxad, a Lud, ac Aram.

23 A meibion Aram; Us, a Hul, a Gether, a Mas.

24 Ac Arphaxad a genhedlodd Selah, a Selah a genhedlodd Heber.

25 Ac i Heber y ganwyd dau o feibion: enw un *oedd* Peleg; o herwydd yn ei ddyddiau ef y rhannwyd y ddaear; ac enw ei frawd, Joctan.

26 A Joctan a genhedlodd Almodad, a Saleph, a Hasarmafeth, a Jerah,

27 Hadoram hefyd, ac Usal, a Diclah,

28 Obal hefyd, ac Abimael, a Seba,

29 Ophir hefyd, a Hafilah, a Jobab: yr holl rai hyn *oedd* feibion Joctan.

30 A'u preswylfa oedd o Mesa, ffordd yr elych i Sephar, mynydd y dwyrain.

31 Dyma feibion Sem, wrth eu teuluoedd, yn ol eu hieithoedd, yn eu gwledydd, trwy eu cenhedloedd.

32 Dyma deuluoedd meibion Noah, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu cenhedloedd: ac o'r rhai hyn yr ymrannodd y cenhedloedd ar y ddaear wedi y diluw.

PENNOD 11.

1 *Un iaith yn y byd.* 3 *Adeiladaeth Babel.* 5 *Cymmysgu yr ieithoedd.* 10 *Cenhedlaethau Sem.* 27 *Cenhedlaethau Terah tad Abram.* 31 *Terah yn myned o Ur i Haran.*

A'R holl ddaear ydoedd o un iaith, ac o un ymadrodd.

2 A bu, â hwy yn ymdaith o'r dwyrain, gael o honynt wastadedd yn nhir Sinar; ac yno y trigasant.

3 A hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Deuwch, gwnawn briddfeini, a llosgwn yn boeth: ac yr ydoedd ganddynt briddfeini yn lle cerrig, a chlai oedd ganddynt yn lle calch.

4 A dywedasant, Moeswch, adeiladwn i ni ddinas, a thŵr, a'i nen hyd y nefoedd, a gwnawn i ni enw, rhag ein gwasgaru ar hyd wyneb yr holl ddaear.

5 A'r ARGLWYDD a ddisgynodd i weled y ddinas a'r tŵr a adeiladai meibion dynion.

6 A dywedodd yr ARGLWYDD, Wele y bobl yn un, ac un iaith iddynt oll, a dyma eu dechreuad hwynt ar

weithio: ac yr awr hon nid oes rwystr arnynt am ddim oll a'r a amcanasant ei wneuthur.

7 Deuwch, disgynwn, a chymmysgwn yno eu hiaith hwynt, fel na ddeallont iaith eu gilydd.

8 Felly yr ARGLWYDD a'u gwasgarodd hwynt oddi yno ar hyd wyneb yr holl ddaear: a pheidiasant âg adeiladu y ddinas.

9 Am hynny y gelwir ei henw hi Babel; oblegid yno y cymmysgodd yr ARGLWYDD iaith yr holl ddaear, ac oddi yno y gwasgarodd yr ARGLWYDD hwynt ar hyd wyneb yr holl ddaear.

10 ¶ Dyma genhedlaethau Sem: Sem *ydoedd* fab can mlwydd, ac a genhedlodd Arphaxad ddwy flynedd wedi y diluw.

11 A Sem a fu fyw wedi iddo genhedlu Arphaxad, bum can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

12 Arphaxad hefyd a fu fyw bymtheng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Selah.

13 Ac Arphaxad a fu fyw gwedi iddo genhedlu Selah, dair o flynyddoedd a phedwar can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

14 Selah hefyd a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Heber.

15 A Selah a fu fyw wedi iddo genhedlu Heber, dair o flynyddoedd a phedwar can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

16 Heber hefyd a fu fyw bedair blynedd ar ddeg ar hugain, ac a genhedlodd Peleg.

17 A Heber a fu fyw wedi iddo genhedlu Peleg, ddeng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

18 Peleg hefyd a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Reu.

19 A Pheleg a fu fyw gwedi iddo genhedlu Reu, naw o flynyddoedd a dau can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

20 Reu hefyd a fu fyw ddeuddeng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Serug.

21 A Reu a fu fyw wedi iddo genhedlu Serug, saith o flynyddoedd a dau can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

22 Serug hefyd a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Nachor.

23 A Serug a fu fyw wedi iddo genhedlu Nachor, ddau can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

24 Nachor hefyd a fu fyw naw mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Terah.

25 A Nachor a fu fyw wedi iddo genhedlu Terah, onid un flwyddyn chwech ugain mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

26 Terah hefyd a fu fyw ddeng mlynedd a thri ugain, ac a genhedlodd Abram, Nachor, a Haran.

27 ¶ A dyma genhedlaethau Terah: Terah a genhedlodd Abram, Nachor, a Haran; a Haran a genhedlodd Lot.

28 A Haran a fu farw o flaen Terah ei dad, y'ngwlad ei enedigaeth, o fewn Ur y Caldeaid.

29 Yna y cymmerodd Abram a Nachor iddynt wragedd: enw gwraig Abram *oedd* Sarai; ac enw gwraig Nachor, Milcah, merch Haran, tad Milcah, a thad Iscah.

30 A Sarai oedd ammhlantadwy, heb blentyn iddi.

31 A Therah a gymmerodd Abram ei fab, a Lot fab Haran, mab ei fab, a Sarai ei waudd, gwraig Abram ei fab; a hwy a aethant allan ynghyd o Ur y Caldeaid, i fyned i dir Canaan; ac a ddaethant hyd yn Haran, ac a drigasant yno.

32 A dyddiau Terah oedd bum mlynedd a dau can mlynedd: a bu farw Terah yn Haran.

PENNOD 12.

1 Duw yn galw Abram, ac yn ei fendithio ef trwy addewid o Grist. 4 Yntau yn myned gyd â Lot o Haran. 6 Yn tramwy trwy wlad Canaan, 7 yr hon a addewir iddo ef mewn gweledigaeth. 10 Newyn yn ei yrru ef i'r Aipht. 11 Ofn yn peri iddo ef ddywedyd mai ei chwaer oedd ei wraig. 14 Pharaoh, wedi ei dwyn hi oddi arno ef, a gymhellir gan bladu ê'r rhoddi hi yn ei hol.

A'R ARGLWYDD a ddywedodd wrth Abram, Dos allan o'th wlad, ac oddi wrth dy genedl, ac o dŷ dy dad, i'r wlad a ddangoswyf i ti.

2 A mi a'th wnaf yn genhedlaeth fawr, ac a'th fendithiaf, mawrygaf hefyd dy enw; a thi a fyddi yn fendith.

3 Bendithiaf hefyd dy fendithwyr,
a'th felldithwyr a felldigaf: a holl
deuluoedd y ddaear a fendithir ynot
ti.
4 Yna yr aeth Abram, fel y llef-
arasai yr ARGLWYDD wrtho; a Lot
a aeth gyd âg ef: ac Abram *oedd*
fab pymtheng mlwydd a thri ugain
pan aeth efe allan o Haran.
5 Ac Abram a gymmerodd Sarai ei
wraig, a Lot mab ei frawd, a'u holl
olud a gasglasent hwy, a'r eneidiau
a ennillasent yn Haran, ac a aethant
allan i fyned i wlad Canaan; ac a
ddaethant i wlad Canaan.
6 ¶ Ac Abram a dramwyodd trwy
y tir hyd le Sichem, hyd wastadedd
Moreh: a'r Canaanead *oedd* yn y
wlad y pryd hwnnw.
7 A'r ARGLWYDD a ymddangosodd
i Abram, ac a ddywedodd, I'th had
di y rhoddaf y tir hwn: yntau a ad-
eiladodd yno allor i'r ARGLWYDD,
yr hwn a ymddangosasai iddo.
8 Ac efe a dynnodd oddi yno i'r
mynydd, o du dwyrain Bethel, ac a
estynodd ei babell, gan *adael* Bethel
tu a'r gorllewin, a Hai tu a'r dwyr-
ain: ac a adeiladodd yno allor i'r
ARGLWYDD, ac a alwodd ar enw yr
ARGLWYDD.
9 Ac Abram a ymdeithiodd, gan
fyned ac ymdaith tu a'r dehau.
10 ¶ Ac yr oedd newyn yn y tir;
ac Abram a aeth i waered i'r Aipht,
i ymdeithio yno, am drymhâu o'r
newyn yn y wlad.
11 A bu, ac efe yn nesâu i fyned
i mewn i'r Aipht, ddywedyd o hono
wrth Sarai ei wraig, Wele, yn awr
mi a wn mai gwraig lân yr olwg
wyt ti:
12 A phan welo yr Aiphtiaid dydi,
hwy a ddywedant, Dyma ei wraig
ef; a hwy a'm lladdant i, a thi a
adawant yn fyw.
13 Dywed, attolwg, *mai* fy chwaer
wyt ti: fel y byddo da i mi er dy
fwyn di, ac y byddwyf fyw o'th
blegid di.
14 ¶ A bu, pan ddaeth Abram i'r
Aipht, i'r Aiphtiaid edrych ar y
wraig, mai glân odiaeth *oedd* hi.
15 A thywysogion Pharaoh a'i
gwelsant hi, ac a'i canmolasant hi
wrth Pharaoh: a'r wraig a gym-
merwyd i dŷ Pharaoh.
16 Ac efe a fu dda wrth Abram
er ei mwyn hi: ac yr oedd ganddo
ef ddefaid, a gwartheg, ac asynod, a
gweision, a morwynion, ac asenod,
a chamelod.
17 A'r ARGLWYDD a darawodd
Pharaoh a'i dŷ â phläau mawrion,
o achos Sarai gwraig Abram.
18 A Pharaoh a alwodd Abram, ac
a ddywedodd, Paham y gwnaethost
hyn i mi? Paham na fynegaist i mi
mai dy wraig *oedd hi?*
19 Paham y dywedaist, Fy chwaer
yw hi? fel y cymmerwn hi yn wraig
i mi: ond yr awr hon wele dy wraig,
cymmer *hi*, a dos ymaith.
20 A Pharaoh a roddes orchymyn
i'w ddynion o'i blegid ef: a hwy a'i
gollyngasant ef ymaith, a'i wraig,
a'r hyn oll oedd eiddo ef.

PENNOD 13.

1 *Abram a Lot yn dychwelyd o'r Aipht.* 7 *Trwy anghyttundeb yn ymadael â'u gilydd.* 10 *Lot yn myned i Sodom ddrygionus.* 14 *Duw yn adnewyddu y cyfammod i Abram.* 18 *Yntau yn symmudo i Hebron, ac yn adeiladu allor yno.*

AC Abram a aeth i fyny o'r Aipht,
efe a'i wraig, a'r hyn oll *oedd*
eiddo, a Lot gyd âg ef, i'r dehau.
2 Ac Abram *oedd* gyfoethog iawn
o anifeiliaid, *ac* o arian, ac aur.
3 Ac efe a aeth ar ei deithiau, o'r
dehau hyd Bethel, hyd y lle y buasai
ei babell ef ynddo yn y dechreuad,
rhwng Bethel a Hai;
4 I le yr allor a wnaethai efe yno
o'r cyntaf: ac yno y galwodd Ab-
ram ar enw yr ARGLWYDD.
5 ¶ Ac i Lot hefyd, yr hwn a aethai
gyd âg Abram, yr oedd defaid, a
gwartheg, a phebyll.
6 A'r wlad nid oedd abl i'w cynnal
hwynt i drigo ynghyd; am fod eu
cyfoeth hwynt yn helaeth, fel na
allent drigo ynghyd.
7 Cynnen hefyd oedd rhwng bugeil-
ydd anifeiliaid Abram a bugeilydd
anifeiliaid Lot: y Canaaneaid hefyd
a'r Pheresiaid oedd yna yn trigo yn
y wlad.
8 Ac Abram a ddywedodd wrth
Lot, Na fydded cynnen, attolwg,
rhyngof fi a thi, na rhwng fy mu-
geiliaid i a'th fugeiliaid di; o her-
wydd brodyr ydym ni.
9 Onid yw yr holl dir o'th flaen di?
Ymneilldua, attolwg, oddi wrthyf:
os ar y llaw aswy y *troi di*, minnau

a droaf ar y ddehau ; ac os ar y llaw ddehau, minnau *a droaf* ar yr aswy.

10 A Lot a gyfododd ei olwg, ac a welodd holl wastadedd yr Iorddonen, mai dyfradwy *ydoedd* oll, cyn i'r ARGLWYDD ddifetha Sodom a Gomorrah, fel gardd yr ARGLWYDD, fel tir yr Aipht, ffordd yr elych i Soar.

11 A Lot a ddewisodd iddo holl wastadedd yr Iorddonen, a Lot a aeth tu a'r dwyrain : felly yr ymneilluasant bob un oddi wrth eu gilydd.

12 Abram a drigodd yn nhir Canaan ; a Lot a drigodd yn ninasoedd y gwastadedd, ac a luestodd hyd Sodom.

13 A dynion Sodom *oedd* ddrygionus, ac yn pechu yn erbyn yr ARGLWYDD yn ddirfawr.

14 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Abram, wedi ymneilluo o Lot oddi wrtho ef, Cyfod dy lygaid, ac edrych o'r lle yr wyt ynddo, tu a'r gogledd, a'r dehau, a'r dwyrain, a'r gorllewin.

15 Canys yr holl dir a weli, i ti y rhoddaf ef, ac i'th had byth.

16 Gwnaf hefyd dy had di fel llwch y ddaear ; megis os dichon gŵr rifo llwch y ddaear, yna y rhifir dy had dithau.

17 Cyfod, rhodia trwy y wlad, ar ei hŷd, ac ar ei lled ; canys i ti y rhoddaf hi.

18 Ac Abram a symmudodd *ei* luest, ac a ddaeth, ac a drigodd y'ngwastadedd Mamre, yr hwn *sydd* yn Hebron, ac a adeiladodd yno allor i'r ARGLWYDD.

PENNOD 14.

1 *Pedwar brenhin yn rhyfela yn erbyn pump.* 12 *Dala Lot yn garcharor.* 14 *Abram yn ei achub ef.* 18 *Melchisedec yn bendithio Abram.* 20 *Abram yn talu degwm iddo ef.* 22 *Wedi i'w gyfranwyr gael eu rhannau, mae efe yn rhoddi y rhan arall o'r ysglyfaeth i frenhin Sodom.*

ABU yn nyddiau Amraphel brenhin Sinar, Arioch brenhin Elasar, Cedorlaomer brenhin Elam, a Thidal brenhin y cenhedloedd ;

2 Wneuthur o honynt ryfel â Bera brenhin Sodom, ac â Birsa brenhin Gomorrah, â Sinab brenhin Admah, ac â Semeber brenhin Seboim, ac â brenhin Bela, hon *yw* Soar.

3 Y rhai hyn oll a ymgyfarfuant yn nyffryn Sidim : hwnnw yw y môr heli.

4 Deuddeng mlynedd y gwasanaethasant Cedorlaomer, a'r drydedd flwyddyn ar ddeg y gwrthryfelasant.

5 A'r bedwaredd flwyddyn ar ddeg y daeth Cedorlaomer, a'r brenhinoedd y rhai *oedd* gyd âg ef, ac a darawsant y Rephaimiaid yn Asteroth-Carnaim, a'r Susiaid yn Ham, a'r Emiaid yn Safeh-Ciriathaim,

6 A'r Horiaid yn eu mynydd Seir, hyd wastadedd Paran, yr hwn *sydd* wrth yr anialwch.

7 Yna y dychwelasant, ac y daethant i Enmispat, honno *yw* Cades, ac a darawsant holl wlad yr Amaleciaid, a'r Amoriaid hefyd, y rhai oedd yn trigo yn Haseson-tamar.

8 Allan hefyd yr aeth brenhin Sodom, a brenhin Gomorrah, a brenhin Admah, a brenhin Seboim, a brenhin Bela, honno *yw* Soar : ac yn nyffryn Sidim y lluniaethasant ryfel â hwynt ;

9 A Chedorlaomer brenhin Elam, a Thidal brenhin y cenhedloedd, ac Amraphel brenhin Sinar, ac Arioch brenhin Elasar : pedwar brenhin yn erbyn pump.

10 A dyffryn Sidim *oedd* llawn o byllau clai ; a brenhinoedd Sodom a Gomorrah a ffoisant, ac a syrthiasant yno : a'r lleill a ffoisant i'r mynydd.

11 A hwy a gymmerasant holl gyfoeth Sodom a Gomorrah, a'u holl luniaeth hwynt, ac a aethant ymaith.

12 Cymmerasant hefyd Lot *nai* fab brawd Abram, a'i gyfoeth, ac a aethant ymaith ; o herwydd yn Sodom yr ydoedd efe yn trigo.

13 A daeth un a ddïangasai, ac a fynegodd i Abram yr Hebread, ac efe yn trigo y'ngwastadedd Mamre yr Amoriad, brawd Escol, a brawd Aner ; a'r rhai hyn *oedd* mewn cynghrair âg Abram.

14 A phan glybu Abram gaethgludo ei frawd, efe a arfogodd o'i hyfforddus *weision* a anesid yn ei dŷ ef, ddau naw a thri chant, ac a ymlidiodd hyd Dan.

15 Ac efe a ymrannodd yn eu herbyn hwy liw nos, efe a'i weision, ac a'u tarawodd hwynt, ac a'u hymlidiodd hyd Hobah, yr hon *sydd* o'r tu aswy i Damascus.

16 Ac efe a ddug drachefn yr holl

gyfoeth, a'i frawd Lot hefyd, a'i gyfoeth, a ddug efe drachefn, a'r gwragedd hefyd, a'r bobl.

17 ¶ A brenhin Sodom a aeth allan i'w gyfarfod ef, (wedi ei ddychwelyd o daro Cedorlaomer, a'r brenhinoedd oedd gyd âg ef,) i ddyffryn Safeh, hwn yw dyffryn y brenhin.

18 Melchisedec hefyd, brenhin Salem, a ddug allan fara a gwin; ac efe *oedd* offeiriad i DDUW goruchaf:

19 Ac a'i bendithiodd ef, ac a ddywedodd, Bendigedig fyddo Abram gan DDUW goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear:

20 A bendigedig fyddo DUW goruchaf, yr hwn a roddes dy elynion yn dy law. Ac efe a roddes iddo ddegwm o'r cwbl.

21 A dywedodd brenhin Sodom wrth Abram, Dod i mi y dynion, a chymmer i ti y cyfoeth.

22 Ac Abram a ddywedodd wrth frenhin Sodom, Dyrchefais fy llaw at yr ARGLWYDD DDUW goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear,

23 Na chymmerwn o edau hyd garrai esgid, nac o'r hyn oll *sydd* eiddot ti; rhag dywedyd o honot, Myfi a gyfoethogais Abram:

24 Ond yn unig yr hyn a fwyttaodd y llangciau, a rhan y gwŷr a aethant gyd â mi, Aner, Escol, a Mamre: cymmerant hwy eu rhan.

PENNOD 15.

1 Duw yn cysuro Abram. 2 Abram yn cwynno nad oedd ganddo etifedd. 4 Duw yn addaw mab iddo, ac amlhau ei had ef. 6 Abram a gyfiawnhêir trwy ffydd. 7 Addewid o wlad Canaan trachefn, a'i gadarnhau trwy arwydd, 12 a gweledigaeth.

WEDI y pethau hyn, y daeth gair yr ARGLWYDD at Abram mewn gweledigaeth, gan ddywedyd, Nac ofna, Abram; myfi *ydyw* dy darian, dy wobr mawr iawn.

2 A dywedodd Abram, ARGLWYDD DDUW, beth a roddi di i mi? gan fy mod yn myned yn ddiblant, a goruchwyliwr fy nhŷ *yw* Eleasar yma o Damascus.

3 Abram hefyd a ddywedodd, Wele, ni roddaist i mi had; ac wele, fy nghaethwas fydd fy etifedd.

4 Ac wele air yr ARGLWYDD atto ef, gan ddywedyd, Nid hwn fydd dy etifedd, onid un a ddaw allan o'th ymysgaroedd di fydd dy etifedd.

5 Ac efe a'i dug ef allan, ac a ddywedodd, Golyga yn awr y nefoedd, a rhif y sêr, o gelli eu cyfrif hwynt: dywedodd hefyd wrtho, Felly y bydd dy had di.

6 Yntau a gredodd yn yr ARGLWYDD, ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder.

7 Ac efe a ddywedodd wrtho, Myfi *yw* yr ARGLWYDD, yr hwn a'th ddygais di allan o Ur y Caldeaid, i roddi i ti y wlad hon i'w hetifeddu.

8 Yntau a ddywedodd, ARGLWYDD DDUW, trwy ba beth y caf wybod yr etifeddaf hi?

9 Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer i mi anner dair blwydd, a gafr dair blwydd, a hwrdd tair blwydd, a thurtur, a chyw colommen.

10 Ac efe a gymmerth iddo y rhai hyn oll, ac a'u holltodd hwynt ar hyd *eu* canol, ac a roddodd bob rhan ar gyfer eu gilydd; ond ni holltodd efe yr adar.

11 A phan ddisgynai yr adar ar y celaneddau, yna Abram a'u tarfai hwynt.

12 A phan oedd yr haul ar fachludo, y syrthiodd trwmgwsg ar Abram: ac wele ddychryn, *a* thywyllni mawr, yn syrthio arno ef.

13 Ac efe a ddywedodd wrth Abram, Gan wybod gwybydd, y bydd dy had di yn ddïeithr mewn gwlad nid *yw* eiddynt, ac a'u gwasanaethant, a hwythau a'u cystuddiant bedwar can mlynedd.

14 A'r genhedlaeth hefyd yr hon a wasanaethant, a farnaf fi: ac wedi hynny y deuant allan â chyfoeth mawr.

15 A thi a âi at dy dadau mewn heddwch: ti a gleddir mewn henaint teg.

16 Ac *yn* y bedwaredd oes y dychwelant yma; canys ni chyflawnwyd etto anwiredd yr Amoriaid.

17 A bu, pan fachludodd yr haul, a hi yn dywyll, wele ffwrn yn mygu, a lamp danllyd yn tramwyo rhwng y darnau hynny.

18 Yn y dydd hwnnw y gwnaeth yr ARGLWYDD gyfammod âg Abram, gan ddywedyd, I'th had di y rhoddais y wlad hon, o afon yr Aipht hyd yr afon fawr, afon Euphrates:

19 Y Ceneaid, a'r Cenesiaid, a'r
Cadmoniaid,
20 Yr Hethiaid hefyd, a'r Phere-
siaid, a'r Rephaimiaid,
21 Yr Amoriaid hefyd, a'r Canaan-
eaid, a'r Girgasiaid, a'r Jebusiaid.

PENNOD 16.

1 *Sarai, yn ammhlantadwy, yn rhoddi Agar i Abram.* 6 *Agar, wedi ei chystuddio am ddirystyru ei meistres, yn rhedeg i ffordd.* 9 *Angel yn ei danfon hi yn ei hol i'w darostwng ei hun.* 11 *ac yn dywedyd iddi am ei mab.* 16 *Genedigaeth Ismael.*

SARAI hefyd, gwraig Abram, ni
phlantasai iddo; ac yr ydoedd
iddi forwyn o Aiphtes, a'i henw
Agar.
2 A Sarai a ddywedodd wrth Ab-
ram, Wele yn awr, yr ARGLWYDD
a luddiodd i mi blanta: dos, attol-
wg, at fy llaw-forwyn; fe allai y
cair i mi blant o honi hi: ac Abram
a wrandawodd ar lais Sarai.
3 A Sarai, gwraig Abram, a gym-
merodd ei morwyn Agar yr Aiphtes,
wedi trigo o Abram ddeng mlynedd
yn nhir Canaan, a hi a'i rhoddes i
Abram ei gŵr yn wraig iddo.
4 ¶ Ac efe a aeth i mewn at Agar,
a hi a feichiogodd: a phan welodd
hithau feichiogi o honi, yr oedd ei
meistres yn wael yn ei golwg hi.
5 Yna y dywedodd Sarai wrth Ab-
ram, *Bydded* fy ngham i arnat ti:
mi a roddais fy morwyn i'th fynwes,
a hithau a welodd feichiogi o honi, a
gwael ydwyf yn ei golwg hi: barned
yr ARGLWYDD rhyngof fi a thi.
6 Ac Abram a ddywedodd wrth
Sarai, Wele dy forwyn yn dy law
di: gwna iddi yr hyn a fyddo da yn
dy olwg dy hun: yna Sarai a'i cys-
tuddiodd hi, a hithau a ffodd rhag-
ddi hi.
7 ¶ Ac angel yr ARGLWYDD a'i caf-
odd hi wrth ffynnon ddwfr, yn yr
anialwch, wrth y ffynnon yn ffordd
Sur:
8 Ac efe a ddywedodd, Agar, mor-
wyn Sarai, o ba le y daethost? ac
i ba le yr ai di? A hi a ddywedodd,
Ffoi yr ydwyf fi rhag wyneb fy
meistres Sarai.
9 Ac angel yr ARGLWYDD a ddy-
wedodd wrthi, Dychwel at dy feis-
tres, ac ymddarostwng tan ei dwy-
law hi.
10 Angel yr ARGLWYDD a ddywed-
odd hefyd wrthi hi, Gan amlhâu
yr amlhâf dy had di, fel na rifir ef
o liosowgrwydd.
11 Dywedodd angel yr ARGLWYDD
hefyd wrthi hi, Wele di yn feichiog,
a thi a esgori ar fab, ac a elwi ei
enw ef Ismael: canys yr ARGLWYDD
a glybu dy gystudd di.
12 Ac efe a fydd ddyn gwyllt, a'i
law yn erbyn pawb, a llaw pawb
yn ei erbyn yntau; ac efe a drig
ger bron ei holl frodyr.
13 A hi a alwodd enw yr AR-
GLWYDD, yr hwn oedd yn llefaru
wrthi, Ti, O DDUW, wyt yn edrych
arnaf fi: canys dywedodd, Oni
edrychais yma hefyd ar ol yr hwn
sydd yn edrych arnaf?
14 Am hynny y galwyd y ffynnon
Beer-lahai-roi: wele, rhwng Cades
a Bered *y mae hi.*
15 ¶ Ac Agar a ymddûg fab i Ab-
ram: ac Abram a alwodd enw ei
fab a ymddygasai Agar, Ismael.
16 Ac Abram *oedd* fab pedwar ug-
ain mlwydd a chwech o flynydd-
oedd, pan ymddûg Agar Ismael i
Abram.

PENNOD 17.

1 *Duw yn adnewyddu y cyfammod.* 5 *Newidio enw Abram, yn arwydd o fendith fwy.* 10 *Ordeinio enwaediad.* 15 *Newidio enw Sarai, a'i bendithio.* 16 *Addewid o Isaac.* 23 *Enwaedu ar Abraham ac Ismael.*

APHAN oedd Abram onid un
mlwydd cant, yr ymddangos-
odd yr ARGLWYDD i Abram, ac a
ddywedodd wrtho, Myfi *yw* DUW
Hollalluog; rhodia ger fy mron i, a
bydd berffaith.
2 A mi a wnaf fy nghyfammod
rhyngof a thi, ac a'th amlhâf di yn
aml iawn.
3 Yna y syrthiodd Abram ar ei
wyneb; a llefarodd DUW wrtho ef,
gan ddywedyd,
4 Myfi, wele, mi *a wnaf* fy nghyf-
ammod â thi, a thi a fyddi yn dad
llawer o genhedloedd.
5 A'th enw ni elwir mwy Abram,
onid dy enw fydd Abraham; canys
yn dad llawer o genhedloedd y'th
wneuthum.
6 A mi a'th wnaf yn ffrwythlawn
iawn, ac a wnaf genhedloedd o hon-
ot ti, a brenhinoedd a ddaw allan
o honot ti.
7 Cadarnhâf hefyd fy nghyfammod

rhyngof a thi, ac â'th had ar dy ol di, trwy eu hoesoedd, yn gyfammod tragywyddol, i fod yn Duw i ti, ac i'th had ar dy ol di.

8 A mi a roddaf i ti, ac i'th had ar dy ol di, wlad dy ymdaith, *sef* holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragywyddol; a mi a fyddaf yn Duw iddynt.

9 ¶ A Duw a ddywedodd wrth Abraham, Cadw dithau fy nghyfammod i, ti a'th had ar dy ol, trwy eu hoesoedd.

10 Dyma fy nghyfammod a gedwch rhyngof fi a chwi, a'th had ar dy ol di: enwaedir pob gwrryw o honoch chwi.

11 A chwi a enwaedwch gnawd eich dïenwaediad: a bydd yn arwydd cyfammod rhyngof fi a chwithau.

12 Pob gwrryw yn wyth niwrnod oed a enwaedir i chwi trwy eich cenhedlaethau: yr hwn a aner yn tŷ, ac a bryner am arian gan neb dïeithr, yr hwn nid yw o'th had di.

13 Gan enwaedu enwaeder yr hwn a aner yn dy dŷ di, ac a bryner am dy arian di: a bydd fy nghyfammod yn eich cnawd chwi, yn gyfammod tragywyddol.

14 A'r gwrryw dïenwaededig, yr hwn ni enwaeder cnawd ei ddïenwaediad, torrir ymaith yr enaid hwnnw o fysg ei bobl: *oblegid* efe a dorrodd fy nghyfammod i.

15 ¶ Duw hefyd a ddywedodd wrth Abraham, Sarai dy wraig ni elwi ei henw Sarai, onid Sarah *fydd* ei henw hi.

16 Bendithiaf hi hefyd, a rhoddaf i ti fab o honi: ïe bendithiaf hi, fel y byddo yn genhedloedd; brenhinoedd pobloedd fydd o honi hi.

17 Ac Abraham a syrthiodd ar ei wyneb, ac a chwarddodd, ac a ddywedodd yn ei galon, A blentir i fab can mlwydd? ac a blanta Sarah yn ferch ddeng mlwydd a phedwar ugain?

18 Ac Abraham a ddywedodd wrth Duw, O na byddai fyw Ismael ger dy fron di!

19 A Duw a ddywedodd, Sarah dy wraig a ymddŵg i ti fab yn ddïau; a thi a elwi ei enw ef Isaac: a mi a gadarnhâf fy nghyfammod âg ef yn gyfammod tragywyddol, *ac* â'i had ar ei ol ef.

20 Am Ismael hefyd y'th wrandewais: wele, mi a'i bendithiais ef, a mi a'i ffrwythlonaf ef, ac a'i llïosogaf yn aml iawn: deuddeg tywysog a genhedla efe, a mi a'i gwnaf ef yn genhedlaeth fawr.

21 Eithr fy nghyfammod a gadarnhâf âg Isaac, yr hwn a ymddŵg Sarah i ti y pryd hwn, y flwyddyn nesaf.

22 Yna y peidiodd â llefaru wrtho; a Duw a aeth i fyny oddi wrth Abraham.

23 ¶ Ac Abraham a gymmerodd Ismael ei fab, a'r rhai oll a anesid yn ei dŷ ef, a'r rhai oll a brynasai efe â'i arian, pob gwrryw o ddynion tŷ Abraham, ac efe a enwaedodd gnawd eu dïenwaediad hwynto fewn corph y dydd hwnnw, fel y llefarasai Duw wrtho ef.

24 Ac Abraham *oedd* fab onid un mlwydd cant, pan enwaedwyd cnawd ei ddïenwaediad ef.

25 Ac Ismael ei fab ef yn fab tair blwydd ar ddeg, pan enwaedwyd cnawd ei ddïenwaediad ef.

26 O fewn corph y dydd hwnnw yr enwaedwyd Abraham, ac Ismael ei fab.

27 A holl ddynion ei dŷ ef, y rhai a anesid yn tŷ, ac a brynesid âg arian gan neb dïeithr, a enwaedwyd gyd âg ef.

PENNOD 18.

1 Abraham yn derbyn tri angel i'w dŷ. 9 Sarah a geryddir am chwerthin rhyngddi a hi ei hun o ran yr addewid ddïeithr. 17 Duw yn rhybuddio Abraham am ddinystr Sodom. 23 Ac Abraham yn eiriol trostynt.

A'R Arglwydd a ymddangosodd iddo ef y'ngwastadedd Mamre, ac efe yn eistedd *wrth* ddrws y babell, y'ngwres y dydd.

2 Ac efe a gododd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele driwyr yn sefyll ger ei fron: a phan eu gwelodd, efe a redodd o ddrws y babell i'w cyfarfod hwynt, ac a ymgrymmodd tu a'r ddaear,

3 Ac a ddywedodd, Fy Arglwydd, os cefais yn awr ffafr yn dy olwg di, na ddos heibio, attolwg, oddi wrth dy was.

4 Cymmerer, attolwg, ychydig

ddwfr, a golchwch eich traed, a gorphwyswch dan y pren;
5 Ac mi a ddygaf dammaid o fara, a chryfhêwch eich calon; wedi hynny y cewch fyned ymaith: o herwydd i hynny y daethoch at eich gwas. A hwy a ddywedasant, Gwna felly, fel y dywedaist.
6 Ac Abraham a frysiodd i'r babell at Sarah, ac a ddywedodd, Parottoa arfrys dair phïolaid o flawd peillied, tylina, a gwna yn deisennau.
7 Ac Abraham a redodd at y gwartheg, ac a gymmerodd lo tyner a da, ac a'i rhoddodd at y llangc, yr hwn a frysiodd i'w barottôi ef.
8 Ac efe a gymmerodd ymenyn, a llaeth, a'r llo a barottoisai efe, ac a'i rhoddes o'u blaen hwynt: ac efe a safodd gyd â hwynt tan y pren; a hwy a fwyttasant.
9 ¶ A hwy a ddywedasant wrtho ef, Mae Sarah dy wraig? Ac efe a ddywedodd, Wele *hi* yn y babell.
10 Ac *un* a ddywedodd, Gan ddychwelyd y dychwelaf attat ynghylch amser bywiolaeth; ac wele fab i Sarah dy wraig. A Sarah oedd yn clywed *wrth* ddrws y babell, yr hwn *oedd* o'i ol ef.
11 Abraham hefyd a Sarah *oedd* hen, wedi myned mewn oedran; *a* pheidiasai fod i Sarah yn ol arfer gwragedd.
12 Am hynny y chwarddodd Sarah rhyngddi a hi ei hun, gan ddywedyd, Ai gwedi fy heneiddio y bydd i mi drythyllwch, a'm harglwydd yn hen *hefyd?*
13 A dywedodd yr Arglwydd wrth Abraham, Paham y chwarddodd Sarah fel hyn, gan ddywedyd, A blantaf finnau yn wir, wedi fy heneiddio?
14 A fydd dim yn anhawdd i'r Arglwydd? Ar yr amser nodedig y dychwelaf attat, ynghylch amser bywiolaeth, a mab *fydd* i Sarah.
15 A Sarah a wadodd, gan ddywedyd, Ni chwerddais i; o herwydd hi a ofnodd. Yntau a ddywedodd, Nag ê, oblegid ti a chwerddaist.
16 ¶ A'r gwŷr a godasant oddi yno, ac a edrychasant tu a Sodom: ac Abraham a aeth gyd â hwynt, i'w hanfon hwynt.
17 A'r Arglwydd a ddywedodd, A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf?
18 Canys Abraham yn ddïau a fydd yn genhedlaeth fawr a chref, ac ynddo ef y bendithir holl genhedloedd y ddaear.
19 Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn; fel y dygo yr Arglwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am dano.
20 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd, Am *fod* gwaedd Sodom a Gomorrah yn ddirfawr, a'u pechod hwynt yn drwm iawn;
21 Disgynaf yn awr, ac edrychaf, ai yn ol eu gwaedd a ddaeth attaf fi, y gwnaethant yn hollol: ac onid ê, mynnaf wybod.
22 A'r gwŷr a droisant oddi yno, ac a aethant tu a Sodom: ac Abraham yn sefyll etto ger bron yr Arglwydd.
23 ¶ Abraham hefyd a nesaodd, ac a ddywedodd, A ddifethi di y cyfiawn hefyd ynghyd â'r annuwiol?
24 Ond odid y mae deg a deugain o rai cyfiawn yn y ddinas: a ddifethi di *hwynt* hefyd, ac nid arbedi y lle er mwyn y deg a deugain cyfiawn sydd o'i mewn hi?
25 Na byddo i ti wneuthur y cyfryw beth, gan ladd y cyfiawn gyd â'r annuwiol, fel y byddo y cyfiawn megis yr annuwiol; na byddo *hynny* i ti: oni wna Barnydd yr holl ddaear farn?
26 A dywedodd yr Arglwydd, Os caf fi yn Sodom ddeg a deugain yn gyfiawn o fewn y ddinas, mi a arbedaf yr holl fangre er eu mwyn hwynt.
27 Ac Abraham a attebodd, ac a ddywedodd, Wele yn awr y dechreuais lefaru wrth fy Arglwydd, a mi yn llwch ac yn lludw.
28 Ond odid bydd pump yn eisieu o'r deg a deugain cyfiawn: a ddifethi di yr holl ddinas er pump? Yntau a ddywedodd, Na ddifethaf, os caf yno bump a deugain.
29 Ac efe a chwanegodd lefaru wrtho ef etto, ac a ddywedodd, Ond odid cair yno ddeugain. Yntau a ddywedodd, Nis gwnaf er mwyn y deugain.
30 Ac efe a ddywedodd, O na ddig-

ied fy Arglwydd os llefaraf: Cair yno ond odid ddeg ar hugain. Yntau a ddywedodd, Nis gwnaf os caf yno ddeg ar hugain.

31 Yna y dywedodd efe, Wele yn awr y dechreuais lefaru wrth fy Arglwydd: Ond odid cair yno ugain. Yntau a ddywedodd, Nis difethaf er mwyn ugain.

32 Yna y dywedodd, O na ddigied fy Arglwydd, a llefaraf y waith hon yn unig: Ond odid cair yno ddeg. Yntau a ddywedodd, Nis difethaf er mwyn deg.

33 A'r ARGLWYDD a aeth ymaith pan ddarfu iddo ymddiddan âg Abraham: ac Abraham a ddychwelodd i'w le ei hun.

PENNOD 19.

1 *Lot yn derbyn angylion i'w dŷ.* 4 *Taro y Sodomiaid annuwiol â dallineb.* 12 *Danfon Lot t'r mynydd er mwyn ei ddiogelwch.* 18 *Yntau yn cael cennad i fyned i Soar.* 24 *Dinystrio Sodom a Gomorrah.* 26 *Troi gwraig Lot yn golofn halen.* 30 *Lot yn trigo mewn ogof.* 31 *Godinebus fonedd Moab ac Ammon.*

A DAU angel a ddaeth i Sodom yn yr hwyr, a Lot yn eistedd ym mhorth Sodom: a phan welodd Lot, efe a gyfododd i'w cyfarfod hwynt, ac a ymgrymmodd *â'i* wyneb tu a'r ddaear;

2 Ac efe a ddywedodd, Wele yn awr, fy Arglwyddi, trowch, attolwg, i dŷ eich gwas; llettŷwch heno hefyd, a golchwch eich traed: yna codwch yn fore, ac ewch i'ch taith. A hwy a ddywedasant, Nag ê; o herwydd nyni a arhoswn heno yn yr heol.

3 Ac efe a fu daer iawn arnynt hwy: yna y troisant atto, ac y daethant i'w dŷ ef; ac efe a wnaeth iddynt wledd, ac a bobodd fara croyw, a hwy a fwyttasant.

4 ¶ Eithr cyn gorwedd o honynt, gwŷr y ddinas, *sef* gwŷr Sodom, a amgylchasant o amgylch y tŷ, hen ac ieuangc, *sef* yr holl bobl o bob cwr;

5 Ac a alwasant ar Lot, ac a ddywedasant wrtho, Mae y gwŷr a ddaethant attat ti heno? dwg hwynt allan attom ni, fel yr adnabyddom hwynt.

6 Yna y daeth Lot attynt hwy allan i'r drws, ac a gauodd y ddôr ar ei ol;

7 Ac a ddywedodd, Attolwg, fy mrodyr, na wnewch ddrwg.

8 Wele yn awr, *y mae* dwy ferch gennyf fi, y rhai nid adnabuant ŵr; dygaf hwynt allan attoch chwi yn awr, a gwnewch iddynt fel y gweloch yn dda: yn unig na wnewch ddim i'r gwŷr hyn; o herwydd er mwyn hynny y daethant dan gysgod fy nghronglwyd i.

9 A hwy a ddywedasant, Saf hwnt: dywedasant hefyd, Efe a ddaeth i ymdaith yn unig, ac yn awr ai gan farnu y barna efe? yn awr nyni a wnawn fwy o niwed i ti nag iddynt hwy. A hwy a bwysasant yn drwm ar y gŵr, *sef* ar Lot, a hwy a nesasant i dorri y ddôr.

10 A'r gwŷr a estynasant eu llaw, ac a ddygasant Lot attynt i'r tŷ, ac a gauasant y ddôr.

11 Tarawsant hêfyd y dynion oedd *wrth* ddrws y tŷ â dallineb, o fychan i fawr, fel y blinasant yn ceisio y drws.

12 ¶ A'r gwŷr a ddywedasant wrth Lot, A oes gennyt ti yma neb etto? mab y'nghyfraith, a'th feibion, a'th ferched, a'r hyn oll *sydd* i ti yn y ddinas, a ddygi di allan o'r fangre hon.

13 Oblegid ni a ddinystriwn y lle hwn; am fod eu gwaedd hwynt yn fawr ger bron yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a'n hanfonodd ni i'w ddinystrio ef.

14 Yna yr aeth Lot allan, ac a lefarodd wrth ei ddawon, y rhai oedd yn prïodi ei ferched ef, ac a ddywedodd, Cyfodwch, deuwch allan o'r fan yma; o herwydd y mae yr ARGLWYDD yn difetha y ddinas hon: ac y'ngolwg ei ddawon yr oedd efe fel un yn cellwair.

15 ¶ Ac ar godiad y wawr, yr angylion a fuant daer ar Lot, gan ddywedyd, Cyfod, cymmer dy wraig, a'th ddwy ferch, y rhai sydd i'w cael; rhag dy ddifetha di yn anwiredd y ddinas.

16 Yntau a oedd hwyrfrydig, a'r gwŷr a ymaflasant yn ei law ef, ac yn llaw ei wraig, ac yn llaw ei ddwy ferch; am dosturio o'r ARGLWYDD wrtho ef; ac a'i dygasant ef allan, ac a'i gosodasant o'r tu allan i'r ddinas.

17 Ac wedi iddynt eu dwyn hwynt allan, efe a ddywedodd, Dïangc am dy einioes; nac edrych ar dy ol, ac na saf yn yr holl wastadedd: dïangc i'r mynydd, rhag dy ddifetha.

18 A dywedodd Lot wrthynt, O nid *felly*, fy Arglwydd.

19 Wele yn awr, cafodd dy was ffafr yn dy olwg, a mawrheaist dy drugaredd a wnaethost â mi, gan gadw fy einioes; ac ni allaf fi ddïangc i'r mynydd, rhag i ddrwg fy ngoddiweddyd, a marw o honof.

20 Wele yn awr, y ddinas hon yn agos i ffoi iddi, a bechan yw: O gâd i mi ddïangc yno, (onid bechan yw hi?) a byw fydd fy enaid.

21 Yntau a ddywedodd wrtho, Wele, mi a ganiatteais dy ddymuniad hefyd am y peth hyn, fel na ddinystriwyf y ddinas *am* yr hon y dywedaist.

22 Brysia, dïangc yno; o herwydd ni allaf wneuthur dim nes dy ddyfod yno: am hynny y galwodd efe enw y ddinas Soar.

23 ¶ Cyfodasai yr haul ar y ddaear, pan ddaeth Lot i Soar.

24 Yna yr ARGLWYDD a wlawiodd ar Sodom a Gomorrah frwmstan a thân oddi wrth yr ARGLWYDD, allan o'r nefoedd.

25 Felly y dinystriodd efe y dinasoedd hynny, a'r holl wastadedd, a holl drigolion y dinasoedd, a chnwd y ddaear.

26 ¶ Eithr ei wraig ef a edrychodd drach ei chefn o'i du ol ef, a hi a aeth yn golofn halen.

27 ¶ Ac Abraham a aeth yn fore i'r lle y safasai efe ynddo ger bron yr ARGLWYDD.

28 Ac efe a edrychodd tu a Sodom a Gomorrah, a thu a holl dir y gwastadedd; ac a edrychodd, ac wele, cyfododd mwg y tir fel mwg ffwrn.

29 ¶ A phan ddifethodd DUW ddinasoedd y gwastadedd, yna y cofiodd DUW am Abraham, ac a yrrodd Lot o ganol y dinystr, pan ddinystriodd efe y dinasoedd yr oedd Lot yn trigo ynddynt.

30 ¶ A Lot a esgynodd o Soar, ac a drigodd yn y mynydd, a'i ddwy ferch gyd âg ef: o herwydd efe a ofnodd drigo yn Soar; ac a drigodd mewn ogof, efe a'i ddwy ferch.

31 ¶ A dywedodd yr hynaf wrth yr ieuangaf, Ein tad ni *sydd* hen, a gŵr nid oes yn y wlad i ddyfod attom ni, wrth ddefod yr holl ddaear.

32 Tyred, rhoddwn i'n tad win i'w yfed, a gorweddwn gyd âg ef, fel y cadwom had o'n tad.

33 A hwy a roddasant win i'w tad i yfed y noson honno: a'r hynaf a ddaeth ac a orweddodd gyd â'i thad; ac ni wybu efe pan orweddodd hi, na phan gyfododd hi.

34 A thrannoeth y dywedodd yr hynaf wrth yr ieuangaf, Wele, myfi a orweddais neithwyr gyd â'm tad; rhoddwn win iddo ef i'w yfed heno hefyd, a dos dithau a gorwedd gyd âg ef, fel y cadwom had o'n tad.

35 A hwy a roddasant win i'w tad i yfed y noson honno hefyd: a'r ieuangaf a gododd, ac a orweddodd gyd âg ef; ac ni wybu efe pan orweddodd hi, na phan gyfododd hi.

36 Felly dwy ferch Lot a feichiogwyd o'u tad.

37 A'r hynaf a esgorodd ar fab, ac a alwodd ei enw ef Moab: efe yw tad y Moabiaid hyd heddyw.

38 A'r ieuangaf, hefyd, a esgorodd hithau ar fab, ac a alwodd ei enw ef Ben-ammi: efe yw tad meibion Ammon hyd heddyw.

PENNOD 20.

1 Abraham yn ymdaith yn Gerar, 2 yn gwadu ei wraig, ac yn ei cholli hi. 3 Cerydda Abimelech mewn breuddwyd o'i hachos hi. 9 Yntau yn cerydda Abraham, 14 yn rhoddi Sarah yn ei hol, 16 ac yn ei cheryddu hi, 17 ac yn cael ei iachâu trwy weddi Abraham.

AC Abraham a aeth oddi yno i dir y dehau, ac a gyfanneddodd rhwng Cades a Sur, ac a ymdeithiodd yn Gerar.

2 A dywedodd Abraham am Sarah ei wraig, Fy chwaer yw hi: ac Abimelech brenhin Gerar a anfonodd, ac a gymmerth Sarah.

3 Yna y daeth DUW at Abimelech, noswaith, mewn breuddwyd, ac a ddywedodd wrtho, Wele, dyn marw wyt ti am y wraig a gymmeraist, a hithau yn berchen gŵr.

4 Ond Abimelech ni nesasai atti hi: ac efe a ddywedodd, ARGLWYDD, a leddi di genedl gyfiawn hefyd?

5 Oni ddywedodd efe wrthyf fi, Fy chwaer yw hi? a hithau hefyd ei hun a ddywedodd, Fy mrawd yw

efe: ym mherffeithrwydd fy nghalon, ac y'nglendid fy nwylaw, y gwneuthum hyn.

6 Yna y dywedodd DUW wrtho ef, mewn breuddwyd, Minnau a wn mai ym mherffeithrwydd dy galon y gwnaethost hyn; a mi a'th atteliais rhag pechu i'm herbyn: am hynny ni adewais i ti gyffwrdd â hi.

7 Yn awr gan hynny, dod y wraig drachefn i'r gŵr; o herwydd prophwyd yw efe, ac efe a weddïa trosot, a byddi fyw: ond oni roddi hi drachefn, gwybydd y byddi farw yn ddïau, ti a'r rhai oll ydynt eiddot ti.

8 Yna y cododd Abimelech yn fore, ac a alwodd am ei holl weision, ac a draethodd yr holl bethau hyn wrthynt hwy: a'r gwŷr a ofnasant yn ddirfawr.

9 Galwodd Abimelech hefyd am Abraham, a dywedodd wrtho, Beth a wnaethost i ni? a pheth a bechais i'th erbyn, pan ddygit bechod *mor* fawr arnaf fi, ac ar fy nheyrnas? gwnaethost â mi weithredoedd ni ddylesid eu gwneuthur.

10 Abimelech hefyd a ddywedodd wrth Abraham, Beth a welaist, pan wnaethost y peth hyn?

11 A dywedodd Abraham, Am ddywedyd o honof fi, Yn ddïau nid *oes* ofn DUW yn y lle hwn: a hwy a'm lladdant i o achos fy ngwraig.

12 A hefyd yn wir fy chwaer *yw* hi: merch fy nhad yw hi, ond nid merch fy mam; ac y mae hi yn wraig i mi.

13 Ond pan barodd DUW i mi grwydro o dŷ fy nhad, yna y dywedais wrthi hi, Dyma dy garedigrwydd yr hwn a wnei â mi ym mhob lle y delom iddo; dywed am danaf fi, Fy mrawd yw efe.

14 Yna y cymmerodd Abimelech ddefaid, a gwartheg, a gweision, a morwynion, ac a'u rhoddes i Abraham: rhoddes hefyd iddo ef Sarah ei wraig drachefn.

15 A dywedodd Abimelech, Wele fy ngwlad ger dy fron di, trig lle y byddo da yn dy olwg.

16 Ac wrth Sarah y dywedodd, Wele, rhoddais i'th frawd fil o *ddarnau* arian: wele ef yn orchudd llygaid i ti, i'r rhai oll *sydd* gyd â thi, a chyd â phawb *eraill:* fel hyn y ceryddwyd hi.

17 ¶ Yna Abraham a weddïodd ar DDUW: a DUW a iachaodd Abimelech, a'i wraig, a'i forwynion; a hwy a blantasant.

18 O herwydd yr ARGLWYDD gan gau a gauasai ar bob croth yn nhŷ Abimelech, o achos Sarah gwraig Abraham.

PENNOD 21.

1 Genedigaeth Isaac, 4 a'i enwaediad. 6 Llawenydd Sarah. 9 Bwrw Agar ac Ismael allan. 15 Agar mewn cyfyngdra. 17 Yr angel yn ei chysuro hi. 22 Cynghrair rhwng Abimelech ac Abraham yn Beer-seba.

A'R ARGLWYDD a ymwelodd â Sarah fel y dywedasai, a gwnaeth yr ARGLWYDD i Sarah fel y llefarasai.

2 O herwydd Sarah a feichiogodd, ac a ymddûg i Abraham fab yn ei henaint, ar yr amser nodedig y dywedasai DUW wrtho ef.

3 Ac Abraham a alwodd enw ei fab a anesid iddo (yr hwn a ymddygasai Sarah iddo ef) Isaac.

4 Ac Abraham a enwaedodd ar Isaac ei fab, yn wyth niwrnod oed; fel y gorchymynasai DUW iddo ef.

5 Ac Abraham *oedd* fab can mlwydd, pan anwyd iddo ef Isaac ei fab.

6 ¶ A Sarah a ddywedodd, Gwnaeth DUW i mi chwerthin; pob un a glywo a chwardd gyd â mi.

7 Hi a ddywedodd hefyd, Pwy a ddywedasai i Abraham y rhoisai Sarah sugn i blant? canys mi a esgoraïs ar fab yn ei henaint ef.

8 A'r bachgen a gynnyddodd, ac a ddiddyfnwyd: ac Abraham a wnaeth wledd fawr ar y dydd y diddyfnwyd Isaac.

9 ¶ A Sarah a welodd fab Agar yr Aiphtes, yr hwn a ddygasai hi i Abraham, yn gwatwar.

10 A hi a ddywedodd wrth Abraham, Bwrw allan y gaeth-forwyn hon a'i mab; o herwydd ni chaiff mab y gaethes hon gyd-etifeddu â'm mab i Isaac.

11 A'r peth hyn fu ddrwg iawn y'ngolwg Abraham, er mwyn ei fab.

12 ¶ A DUW a ddywedodd wrth Abraham, Na fydded drwg yn dy olwg am y llangc, nac am dy gaeth-forwyn; yr hyn oll a ddywedodd Sarah wrthyt, gwrando ar ei llais: o herwydd yn Isaac y gelwir i ti had.

13 Ac am fab y forwyn gaeth hefyd, mi a'i gwnaf ef yn genhedlaeth, o herwydd dy had di ydyw ef.
14 Yna y cododd Abraham yn fore, ac a gymmerodd fara, a chostrel o ddwfr, ac a'i rhoddes at Agar, gan osod ar ei hysgwydd hi *hynny*, a'r bachgen hefyd, ac efe a'i gollyngodd hi ymaith: a hi a aeth, ac a grwydrodd yn anialwch Beer-seba.
15 A darfu y dwfr yn y gostrel; a hi a fwriodd y bachgen dan un o'r gwŷdd.
16 A hi a aeth, ac a eisteddodd ei hunan ym mhell ar *ei* gyfer, megis ergyd bwa: canys dywedasai, Ni allaf fi edrych ar y bachgen yn marw. Felly hi a eisteddodd ar *ei* gyfer, ac a ddyrchafodd ei llef, ac a wylodd.
17 A Duw a wrandawodd ar lais y llangc; ac angel Duw a alwodd ar Agar o'r nefoedd, ac a ddywedodd wrthi, Beth *a ddarfu* i ti, Agar? nac ofna, o herwydd Duw a wrandawodd ar lais y llangc lle y mae efe.
18 Cyfod, cymmer y llangc, ac ymafael ynddo â'th law; oblegid myfi a'i gwnaf ef yn genhedlaeth fawr.
19 A Duw a agorodd ei llygaid hi, a hi a ganfu bydew dwfr; a hi a aeth, ac a lanwodd y gostrel *o'r* dwfr, ac a ddïododd y llangc.
20 Ac yr oedd Duw gyd â'r llangc; ac efe a gynnyddodd, ac a drigodd yn yr anialwch, ac a aeth yn berchen bwa.
21 Ac yn anialwch Paran y trigodd efe; a'i fam a gymmerodd iddo ef wraig o wlad yr Aipht.
22 ¶ Ac yn yr amser hwnnw, Abimelech, a Phichol tywysog ei lu ef, a ymddiddanasant âg Abraham, gan ddywedyd, Duw *sydd* gyd â thi yn yr hyn oll yr ydwyt yn ei wneuthur.
23 Yn awr gan hynny, twng wrthyf fi yma i Dduw, na fyddi anffyddlawn i mi, nac i'm mab, nac i'm hŵyr: yn ol y drugaredd a wneuthum â thi y gwnei di â minnau, ac â'r wlad yr ymdeithiaist ynddi.
24 Ac Abraham a ddywedodd, Mi a dyngaf.
25 Ac Abraham a geryddodd Abimelech, o achos y pydew dwfr a ddygasai gweision Abimelech trwy drais.
26 Ac Abimelech a ddywedodd, Nis gwybum i pwy a wnaeth y peth hyn: tithau hefyd ni fynegaist i mi, a minnau ni chlywais *hynny* hyd heddyw.
27 Yna y cymmerodd Abraham ddefaid a gwartheg, ac a'u rhoddes i Abimelech; a hwy a wnaethant gynghrair ill dau.
28 Ac Abraham a osododd saith o hespinod *o'r* praidd wrthynt eu hunain.
29 Yna y dywedodd Abimelech wrth Abraham, Beth *a wna* y saith hespin hyn a osodaist wrthynt eu hunain?
30 Ac yntau a ddywedodd, Canys ti a gymmeri y saith hespin o'm llaw, i fod yn dystiolaeth mai myfi a gloddiais y pydew hwn.
31 Am hynny efe a alwodd enw y lle hwnnw Beer-seba: oblegid yno y tyngasant ill dau.
32 Felly y gwnaethant gynghrair yn Beer-seba: a chyfododd Abimelech, a Phichol tywysog ei lu ef, ac a ddychwelasant i dir y Philistiaid.
33 ¶ Ac yntau a blannodd goed yn Beer-seba, ac a alwodd yno ar enw yr Arglwydd Duw tragywyddol.
34 Ac Abraham a ymdeithiodd ddyddiau lawer yn nhir y Philistiaid.

PENNOD 22.

1 *Profi Abraham i aberthu ei fab.* 3 *Yntau yn danyos ei ffydd a'i ufudd-dod.* 11 *Yr angel yn ei rwystro ef.* 13 *Newid Isaac am hwrdd.* 14 *Galw y lle Jehofah-jire.* 15 *Bendithio Abraham drachefn.* 20 *Cenhedlaeth Nachor hyd Rebecah.*

AC wedi y pethau hyn y bu i Duw brofi Abraham, a dywedyd wrtho, Abraham. Yntau a ddywedodd, Wele fi.
2 Yna y dywedodd *Duw*, Cymmer yr awr hon dy fab, sef dy unig *fab* Isaac, yr hwn a hoffaist, a dos rhagot i dir Moriah, ac offrymma ef yno yn boeth-offrwm ar un o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthyt.
3 ¶ Ac Abraham a fore-gododd, ac a gyfrwyodd ei asyn, ac a gymmerodd ei ddau langc gyd âg ef, ac Isaac ei fab; ac a holltodd goed y poeth-offrwm, ac a gyfododd, ac a aeth i'r lle a ddywedasai Duw wrtho.

4 Ac ar y trydydd dydd y dyrchafodd Abraham ei lygaid, ac efe a welai y lle o hirbell.
5 Ac Abraham a ddywedodd wrth ei langciau, Arhoswch chwi yma gyd â'r asyn; a mi a'r llangc a awn hyd accw, ac a addolwn, ac a ddychwelwn attoch.
6 Yna y cymmerth Abraham goed y poeth-offrwm, ac a'i gosododd ar Isaac ei fab; ac a gymmerodd y tân, a'r gyllell yn ei law ei hun: a hwy a aethant ill dau ynghyd.
7 A llefarodd Isaac wrth Abraham ei dad, ac a ddywedodd, Fy nhad. Yntau a ddywedodd, Wele fi, fy mab. Yna eb efe, Wele dân a choed; ond mae oen y poeth-offrwm?
8 Ac Abraham a ddywedodd, Fy mab, DUW a edrych iddo ei hun am oen y poeth-offrwm. Felly yr aethant ill dau ynghyd:
9 Ac a ddaethant i'r lle a ddywedasai DUW wrtho ef; ac yno yr adeiladodd Abraham allor, ac a osododd y coed mewn trefn, ac a rwymodd Isaac ei fab, ac a'i gosododd ef ar yr allor, ar uchaf y coed.
10 Ac Abraham a estynodd ei law, ac a gymmerodd y gyllell i ladd ei fab;
11 Ac angel yr ARGLWYDD a alwodd arno ef o'r nefoedd, ac a ddywedodd, Abraham, Abraham. Yntau a ddywedodd, Wele fi.
12 Ac efe a ddywedodd, Na ddod dy law ar y llangc, ac na wna ddim iddo: o herwydd gwn weithian i ti ofni DUW, gan nad atteliaist dy fab, dy unig *fab*, oddi wrthyf fi.
13 Yna y dyrchafodd Abraham ei lygaid, ac a edrychodd: ac wele o'i ol *ef* hwrdd, wedi ei ddal erbyn ei gyrn mewn dyrysni: ac Abraham a aeth ac a gymmerth yr hwrdd, ac a'i hoffrymmodd yn boeth-offrwm yn lle ei fab.
14 Ac Abraham a alwodd enw y lle hwnnw JEHOFAH-jire; fel y dywedir heddyw, Ym mynydd yr ARGLWYDD y gwelir.
15 ¶ Ac angel yr ARGLWYDD a alwodd ar Abraham yr ail waith o'r nefoedd;
16 Ac a ddywedodd, I mi fy hun y tyngais, medd yr ARGLWYDD, o herwydd gwneuthur o honot y peth hyn, ac nad atteliaist dy fab, dy unig *fab:*
17 Mai gan fendithio y'th fendithiaf, a chan amlhâu yr amlhâf dy had, fel sêr y nefoedd, ac fel y tywod yr hwn *sydd* ar lan y môr; a'th had a feddianna borth ei elynion;
18 Ac yn dy had di y bendithir holl genhedloedd y ddaear: o achos gwrandaw o honot ar fy llais i.
19 Yna Abraham a ddychwelodd at ei langciau; a hwy a godasant, ac a aethant ynghyd i Beer-seba: ac Abraham a drigodd yn Beer-seba.
20 ¶ Darfu hefyd, wedi y pethau hyn, fynegi i Abraham, gan ddywedyd, Wele, dug Milcah hithau hefyd blant i Nachor dy frawd;
21 Hus ei gyntaf-anedig, a Bus ei frawd; Cemuel hefyd tad Aram,
22 A Chesed, a Haso, a Phildas, ac Idlaph, a Bethuel.
23 A Bethuel a genhedlodd Rebeccah: yr wyth hyn a blantodd Milcah i Nachor brawd Abraham.
24 Ei ordderch-wraig hefyd, a'i henw Reumah, a esgorodd hithau hefyd ar Tebah, a Gaham, a Thahas, a Maachah.

PENNOD 23.

1 *Oedran a marwolaeth Sarah.* 3 *Prynu Machpelah,* 19 *lle y claddwyd Sarah.*

AC oes Sarah ydoedd gan mlynedd a saith mlynedd ar hugain; *dyma* flynyddoedd oes Sarah.
2 A Sarah a fu farw yng Nghaer-Arba; honno *yw* Hebron yn nhir Canaan: ac Abraham a aeth i alaru am Sarah, ac i wylofain *am dani* hi.
3 ¶ Yna y cyfododd Abraham i fyny oddi ger bron ei *gorph* marw, ac a lefarodd wrth feibion Heth, gan ddywedyd,
4 Dïeithr ac alltud ydwyf fi gyd â chwi: rhoddwch i mi feddiant beddrod gyd â chwi, fel y claddwyf fy marw allan o'm golwg.
5 A meibion Heth a attebasant Abraham, gan ddywedyd wrtho,
6 Clyw ni, fy arglwydd: tywysog DUW *wyt* ti yn ein plith: cladd dy farw yn *dy* ddewis o'n beddau ni: ni rwystr neb o honom ni ei fedd i ti i gladdu dy farw.
7 Yna y cyfododd Abraham, ac a ymgrymmodd i bobl y tir, *sef* i feibion Heth;

8 Ac a ymddiddanodd â hwynt, gan ddywedyd, Os yw eich ewyllys i mi gael claddu fy marw allan o'm golwg, gwrandêwch fi, ac eiriolwch trosof fi ar Ephron fab Sohar;
9 Ar roddi o hono ef i mi yr ogof Machpelah, yr hon *sydd* eiddo ef, ac *sydd* y'nghwr ei faes; er ei llawn *werth* o arian rhodded hi i mi, yn feddiant beddrod yn eich plith chwi.
10 Ac Ephron oedd yn aros ym mysg meibion Heth: ac Ephron yr Hethiad a attebodd Abraham, lle y clywodd meibion Heth, y'ngŵydd pawb a ddeuent i borth ei ddinas ef, gan ddywedyd,
11 Nag ê, fy arglwydd, clyw fi: rhoddais y maes i ti, a'r ogof *sydd* ynddo, i ti y rhoddais hi; y'ngŵydd meibion fy mhobl y rhoddais hi i ti: cladd di dy farw.
12 Ac Abraham a ymgrymmodd o flaen pobl y tir.
13 Ac efe a lefarodd wrth Ephron lle y clybu pobl y tir, gan ddywedyd, Etto, os tydi *a'i rhoddi*, attolwg, gwrando fi: rhoddaf werth y maes; cymmer gennyf, a mi a gladdaf fy marw yno.
14 Ac Ephron a attebodd Abraham, gan ddywedyd wrtho,
15 Gwrando fi, fy arglwydd; y tir *a dâl* bedwar can sicl o arian: beth yw hynny rhyngof fi a thithau? am hynny cladd dy farw.
16 Felly Abraham a wrandawodd ar Ephron: a phwysodd Abraham i Ephron yr arian, a ddywedasai efe lle y clybu meibion Heth: pedwar can sicl o *arian* cymmeradwy ym mhlith marchnadwyr.
17 ¶ Felly y sicrhâwyd maes Ephron, yr hwn *oedd* ym Machpelah, yr hon *oedd* o flaen Mamre, y maes a'r ogof *oedd* ynddo, a phob pren a'r *a oedd* yn y maes, ac yn ei holl derfynau o amgylch,
18 Yn feddiant i Abraham, yng ngolwg meibion Heth, y'ngŵydd pawb a ddelynt i borth ei ddinas ef.
19 Ac wedi hynny Abraham a gladdodd Sarah ei wraig yn ogof maes Machpelah, o flaen Mamre; honno *yw* Hebron, yn nhir Canaan.
20 A sicrhâwyd y maes, a'r ogof yr hon oedd ynddo, i Abraham, yn feddiant beddrod, oddi wrth feibion Heth.

PENNOD 24.

1 *Abraham yn peri i'w was dymgu.* 10 *Taith y gwas:* 12 *Ei weddi:* 14 *Ei arwydd.* 15 *Rebeccah yn ei gyfarfod ef,* 18 *yn cwblhâu ei arwydd ef,* 22 *yn derbyn llysau,* 23 *ym dangos ei chenedl,* 25 *ac yn ei wahodd ef adref.* 26 *Y gwas yn bendithio Duw.* 29 *Laban yn ei groesawu ef.* 34 *Y gwas yn traethu ei neges.* 50 *Laban a Bethuel yn foddlawn.* 58 *Rebeccah yn cydsymio i fyned.* 62 *Isaac yn cyfarfod â hi.*

AC Abraham oedd hen, wedi myned yn oedrannus; a'r ARGLWYDD a fendithiasai Abraham ym mhob dim.
2 A dywedodd Abraham wrth ei was hynaf *yn* ei dŷ, yr hwn oedd yn llywodraethu ar yr hyn oll a'r *a oedd* ganddo, Gosod, attolwg, dy law dan fy morddwyd:
3 A mi a baraf i ti dyngu i ARGLWYDD DDUW y nefoedd, a DUW y ddaear, na chymmerech wraig i'm mab i o ferched y Canaaneaid, y rhai yr ydwyf yn trigo yn eu mysg:
4 Ond i'm gwlad i yr âi, ac at fy nghenedl i yr âi di, ac a gymmeri wraig i'm mab Isaac.
5 A'r gwas a ddywedodd wrtho ef, Ond odid ni fyn y wraig ddyfod ar fy ol i i'r wlad hon: gan ddychwelyd a ddychwelaf dy fab di i'r tir y daethost allan o hono?
6 A dywedodd Abraham wrtho, Gwylia arnat rhag i ti ddychwelyd fy mab i yno.
7 ¶ ARGLWYDD DDUW y nefoedd, yr hwn a'm cymmerodd i o dŷ fy nhad, ac o wlad fy nghenedl, yr hwn hefyd a ymddiddanodd â mi, ac a dyngodd wrthyf, gan ddywedyd, I'th had di y rhoddaf y tir hwn; efe a enfyn ei angel o'th flaen di, a thi a gymmeri wraig i'm mab oddi yno.
8 Ac os y wraig ni fyn ddyfod ar dy ol di, yna glân fyddi oddi wrth fy llw hwn: yn unig na ddychwel di fy mab i yno.
9 A'r gwas a osododd ei law dan forddwyd Abraham ei feistr, ac a dyngodd iddo am y peth hyn.
10 ¶ A chymmerodd y gwas ddeg camel, o gamelod ei feistr, ac a aeth ymaith: (canys holl ddâ ei feistr *oedd* dan ei law ef;) ac efe a gododd, ac a aeth i Mesopotamia, i ddinas Nachor.
11 Ac efe a wnaeth i'r camelod

orwedd o'r tu allan i'r ddinas, wrth bydew dwfr ar brydnawn, ynghylch yr amser y byddai *merched* yn dyfod allan i dynnu dwfr.

12 Ac efe a ddywedodd, O ARGLWYDD DDUW fy meistr Abraham, attolwg, pâr i mi lwyddiant heddyw; a gwna drugaredd â'm meistr Abraham.

13 Wele fi yn sefyll wrth y ffynnon ddwfr, a merched gwŷr y ddinas yn dyfod allan i dynnu dwfr:

14 A bydded, mai y llangces y dywedwyf wrthi, Gogwydda, attolwg, dy ystên, fel yr yfwyf; os dywed hi, Yf, a mi a ddïodaf dy gamelod di hefyd; honno a ddarperaist i'th was Isaac: ac wrth hyn y caf wybod wneuthur o honot ti drugaredd â'm meistr.

15 ¶ A bu, cyn darfod iddo lefaru, wele Rebeccah yn dyfod allan, (yr hon a anesid i Bethuel fab Milcah, gwraig Nachor, brawd Abraham,) a'i hystên ar ei hysgwydd.

16 A'r llangces *oedd* dêg odiaeth yr olwg, yn forwyn, a heb i ŵr ei hadnabod; a hi a aeth i waered i'r ffynnon, ac a lanwodd ei hystên, ac a ddaeth i fyny.

17 A'r gwas a redodd i'w chyfarfod, ac a ddywedodd, Attolwg, gâd i mi yfed ychydig ddwfr o'th ystên.

18 A hi a ddywedodd, Yf, fy meistr: a hi a frysiodd, ac a ddisgynodd ei hystên ar ei llaw, ac a'i ïododd ef.

19 A phan ddarfu iddi ei ddïodi ef, hi a ddywedodd, Tynnaf hefyd i'th gamelod, hyd oni ddarffo iddynt yfed.

20 A hi a frysiodd, ac a dywalltodd ei hystên i'r cafn, ac a redodd eilwaith i'r pydew i dynnu, ac a dynnodd i'w holl gamelod ef.

21 A'r gŵr, yn synnu o'i phlegid hi, a dawodd, i wybod a lwyddasai yr ARGLWYDD ei daith ef, ai nad do.

22 A bu, pan ddarfu i'r camelod yfed, gymmeryd o'r gŵr glust-dlws aur, yn hanner sicl ei bwys; a dwy freichled i'w dwylaw hi, yn ddeg *sicl* o aur eu pwys.

23 Ac efe a ddywedodd, Merch pwy *ydwyt* ti? mynega i mi, attolwg: a oes lle i ni i lettŷa *yn* nhŷ dy dad?

24 A hi a ddywedodd wrtho, Myfi *ydwyf* ferch i Bethuel fab Milcah, yr hwn a ymddûg hi i Nachor.

25 A hi a ddywedodd wrtho ef, *Y mae* gwellt ac ebran ddigon gennym ni, a lle i lettŷa.

26 A'r gŵr a ymgrymmodd, ac a addolodd yr ARGLWYDD.

27 Ac a ddywedodd, Bendigedig fyddo ARGLWYDD DDUW fy meistr Abraham, yr hwn ni adawodd fy meistr heb ei drugaredd a'i ffyddlondeb: yr *ydwyf* fi ar y ffordd; dug yr ARGLWYDD fi *i* dŷ brodyr fy meistr.

28 A'r llangces a redodd, ac a fynegodd yn nhŷ ei mam y pethau hyn.

29 ¶ Ac i Rebeccah yr *oedd* brawd, a'i enw Laban: a Laban a redodd at y gŵr allan i'r ffynnon.

30 A phan welodd efe y clust-dlws, a'r breichledau am ddwylaw ei chwaer, a phan glywodd efe eiriau Rebeccah ei chwaer yn dywedyd, Fel hyn y dywedodd y gŵr wrthyf fi; yna efe a aeth at y gŵr; ac wele efe yn sefyll gyd â'r camelod wrth y ffynnon.

31 Ac efe a ddywedodd, Tyred i mewn, ti fendigedig yr ARGLWYDD; paham y sefi di allan? canys mi a barottoais y tŷ, a lle i'r camelod.

32 ¶ A'r gŵr a aeth i'r tŷ: ac yntau a ryddhaodd y camelod, ac a roddodd wellt ac ebran i'r camelod; a dwfr i olchi ei draed ef, a thraed y dynion *oedd* gyd âg ef.

33 A gosodwyd *bwyd* o'i flaen ef i fwytta; ac efe a ddywedodd, Ni fwyttâf hyd oni thraethwyf fy negesau. A dywedodd yntau, Traetha.

34 Ac efe a ddywedodd, Gwas Abraham *ydwyf* fi.

35 A'r ARGLWYDD a fendithiodd fy meistr yn ddirfawr, ac efe a gynnyddodd: canys rhoddodd iddo ddefaid, a gwartheg, ac arian, ac aur, a gweision, a morwynion, a chamelod, ac asynod.

36 Sarah hefyd gwraig fy meistr a ymddûg fab i'm meistr, wedi ei heneiddio hi; ac efe a roddodd i hwnnw yr hyn oll *oedd* ganddo.

37 A'm meistr a'm tyngodd i, gan ddywedyd, Na chymmer wraig i'm mab i o ferched y Canaaneaid, y rhai yr ydwyf yn trigo yn eu tir.

38 Ond ti a âi i dŷ fy nhad, ac at

fy nhylwyth, ac a gymmeri wraig i'm mab.
39 A dywedais wrth fy meistr, Fe allai na ddaw y wraig ar fy ol i.
40 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Yr ARGLWYDD yr hwn y rhodiais ger ei fron, a enfyn ei angel gyd â thi, ac a lwydda dy daith di; a thi a gymmeri wraig i'm mab i o'm tylwyth, ac o dŷ fy nhad.
41 Yna y byddi rydd oddi wrth fy llw, os ti a ddaw at fy nhylwyth; ac oni roddant i ti, yna y byddi rydd oddi wrth fy llw.
42 A heddyw y deuthum at y ffynnon, ac a ddywedais, ARGLWYDD DDUW fy meistr Abraham, os ti sydd yr awr hon yn llwyddo fy nhaith, yr hon yr wyf fi yn myned arni:
43 Wele fi yn sefyll wrth y ffynnon ddwfr; a'r forwyn a ddelo allan i dynnu, ac y dywedwyf wrthi, Dod i mi, attolwg, ychydig ddwfr i'w yfed o'th ystên;
44 Ac a ddywedo wrthyf finnau, Yf di, a thynnaf hefyd i'th gamelod: bydded honno y wraig a ddarparodd yr ARGLWYDD i fab fy meistr.
45 A chyn darfod i mi ddywedyd yn fy nghalon, wele Rebeccah yn dyfod allan, a'i hystên ar ei hysgwydd; a hi a aeth i waered i'r ffynnon, ac a dynnodd: yna y dywedais wrthi, Dïoda fi, attolwg.
46 Hithau a frysiodd, ac a ddisgynodd ei hystên oddi arni, ac a ddywedodd, Yf; a mi a ddyfrhâf dy gamelod hefyd. Felly yr yfais; a hi a ddyfrhaodd y camelod hefyd.
47 A mi a ofynais iddi, ac a ddywedais, Merch pwy *yduyt* ti? Hithau a ddywedodd, Merch Bethuel mab Nachor, yr hwn a ymddûg Milcah iddo ef. Yna y gosodais y clust-dlws wrth ei hwyneb, a'r breichledau am ei dwylaw hi:
48 Ac a ymgrymmais, ac a addolais yr ARGLWYDD, ac a fendithiais ARGLWYDD DDUW fy meistr Abraham, yr hwn a'm harweiniodd ar hyd yr iawn ffordd, i gymmeryd merch brawd fy meistr i'w fab ef.
49 Ac yn awr od ydych chwi yn gwneuthur trugaredd a ffyddlondeb â'm meistr, mynegwch i mi: ac onid ê, mynegwch i mi; fel y tröwyf ar y llaw ddehau, neu ar y llaw aswy.
50 Yna yr attebodd Laban a Bethuel, ac a ddywedasant, Oddi wrth yr ARGLWYDD y daeth y peth hyn: ni allwn ddywedyd wrthyt ddrwg, na da.
51 Wele Rebeccah o'th flaen; cymmer *hi*, a dos, a bydded wraig i fab dy feistr, fel y llefarodd yr ARGLWYDD.
52 A phan glybu gwas Abraham eu geiriau hwynt, yna efe a ymgrymmodd hyd lawr i'r ARGLWYDD.
53 A thynnodd y gwas allan dlysau arian, a thlysau aur, a gwisgoedd, ac a'u rhoddodd i Rebeccah: rhoddodd hefyd bethau gwerthfawr i'w brawd hi, ac i'w mam.
54 A hwy a fwyttasant ac a yfasant, efe a'r dynion *oedd* gyd âg ef, ac a lettŷasant dros nos: a chodasant yn fore; ac efe a ddywedodd, Gollyngwch fi at fy meistr.
55 Yna y dywedodd ei brawd a'i mam, Triged y llangces gyd â ni ddeng niwrnod o'r lleiaf; wedi hynny hi a gaiff fyned.
56 Yntau a ddywedodd wrthynt, Na rwystrwch fi, gan i'r ARGLWYDD lwyddo fy nhaith; gollyngwch fi, fel yr elwyf at fy meistr.
57 Yna y dywedasant, Galwn ar y llangces, a gofynwn iddi hi.
58 A hwy a alwasant ar Rebeccah, a dywedasant wrthi, A âi di gyd â'r gŵr hwn? A hi a ddywedodd, Af.
59 A hwy a ollyngasant Rebeccah eu chwaer, a'i mammaeth, a gwas Abraham, a'i ddynion;
60 Ac a fendithiasant Rebeccah, ac a ddywedasant wrthi, Ein chwaer wyt, bydd di fil fyrddiwn; ac etifedded dy had borth ei gaseion.
61 ¶ Yna y cododd Rebeccah, a'i llangcesau, ac a farchogasant ar y camelod, ac a aethant ar ol y gŵr; a'r gwas a gymmerodd Rebeccah, ac a aeth ymaith.
62 Ac Isaac oedd yn dyfod o ffordd pydew Lahai-roi; ac efe oedd yn trigo yn nhir y dehau.
63 Ac Isaac a aeth allan i fyfyrio yn y maes, ym min yr hwyr; ac a ddyrchafodd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele y camelod yn dyfod.
64 Rebeccah hefyd a ddyrchafodd ei llygaid; a phan welodd hi Isaac, hi a ddisgynodd oddi ar y camel.

65 Canys hi a ddywedasai wrth y gwas, Pwy *yw* y gŵr hwn sydd yn rhodio yn y maes i'n cyfarfod ni? A'r gwas a ddywedasai, Fy meistr *yw* efe: a hi a gymmerth orchudd, ac a ymwisgodd.

66 A'r gwas a fynegodd i Isaac yr hyn oll a wnaethai efe.

67 Ac Isaac a'i dug hi i mewn i babell Sarah ei fam; ac efe a gymmerth Rebeccah, a hi a aeth yn wraig iddo, ac efe a'i hoffodd hi: ac Isaac a ymgysurodd ar ol ei fam.

PENNOD 25.

1 *Plant Abraham o Ceturah.* 5 *Rhannu ei dâd ef.* 7 *Ei oedran a'i farwolaeth.* 9 *Ei gladdedigaeth.* 12 *Cenhedlaethau Ismael.* 17 *Ei oedran a'i farwolaeth.* 21 *Isaac yn gweddïo dros Rebeccah, yr hon oedd yn ammhlantadwy.* 22 *Y plant yn ymwthio yn ei chroth hi.* 24 *Genedigaeth Esau a Jacob.* 27 *Y rhagor oedd rhyngddynt hwy.* 29 *Esau yn gwerthu braint ei enedigaeth.*

AC Abraham a gymmerodd eilwaith wraig, a'i henw Ceturah.

2 A hi a esgorodd iddo ef Simran, a Jocsan, a Medan, a Midian, ac Isbac, a Suah.

3 A Jocsan a genhedlodd Seba, a Dedan: a meibion Dedan oedd Assurim, a Letusim, a Lëummim.

4 A meibion Midian *oedd* Ephah, ac Epher, a Hanoch, ac Abidah, ac Eldaah: yr holl rai hyn *oedd* feibion Ceturah.

5 ¶ Ac Abraham a roddodd yr hyn oll *oedd* ganddo i Isaac.

6 Ac i feibion gordderch-wragedd Abraham y rhoddodd Abraham roddion; ac efe a'u hanfonodd hwynt oddi wrth Isaac ei fab, tu a'r dwyrain, i dir y dwyrain, ac efe etto yn fyw.

7 A dyma ddyddiau blynyddoedd einioes Abraham, y rhai y bu efe fyw; can mlynedd a phymtheng mlynedd a thri ugain.

8 Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw mewn oed teg, yn hen, ac yn gyflawn *o ddyddiau;* ac efe a gasglwyd at ei bobl.

9 Ac Isaac ac Ismael ei feibion a'i claddasant ef yn ogof Machpelah, ym maes Ephron fab Sohar yr Hethiad, yr hwn *sydd* o flaen Mamre;

10 Y maes a brynasai Abraham gan feibion Heth: yno y claddwyd Abraham, a Sarah ei wraig.

11 ¶ Ac wedi marw Abraham, bu hefyd i DDUW fendithio Isaac ei fab ef: ac Isaac a drigodd wrth ffynnon Lahai-roi.

12 ¶ A dyma genhedlaethau Ismael, fab Abraham, yr hwn a ymddûg Agar yr Aiphtes, morwyn Sarah, i Abraham.

13 A dyma enwau meibion Ismael, erbyn eu henwau, trwy eu cenhedlaethau: Nebaioth cyntafanedig Ismael, a Chedar, ac Adbeel, a Mibsam,

14 Misma hefyd, a Dumah, a Massa,

15 Hadar, a Themah, Jetur, Naphis, a Chedemah.

16 Dyma hwy meibion Ismael, a dyma eu henwau hwynt wrth eu trefydd, ac wrth eu cestyll; yn ddeuddeg o dywysogion yn ol eu cenhedloedd.

17 A dyma flynyddoedd einioes Ismael; can mlynedd a dwy ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd: yna y trengodd, ac y bu farw, ac y casglwyd ef at ei bobl.

18 Preswyliasant hefyd o Hafilah hyd Sur, yr hon *sydd* o flaen yr Aipht, ffordd yr âi di i Assyria: ac y'ngŵydd ei holl frodyr y bu efe farw.

19 ¶ A dyma genhedlaethau Isaac fab Abraham: Abraham a genhedlodd Isaac.

20 Ac Isaac oedd fab deugain mlwydd pan gymmerodd efe Rebeccah ferch Bethuel y Syriad, o Mesopotamia, chwaer Laban y Syriad, yn wraig iddo.

21 Ac Isaac a weddïodd ar yr ARGLWYDD dros ei wraig, am ei bod hi yn ammhlantadwy: a'r ARGLWYDD a wrandawodd arno ef, a Rebeccah ei wraig ef a feichiogodd.

22 A'r plant a ymwthiasant â'u gilydd yn ei chroth hi: yna y dywedodd hi, Os felly, beth *a wnaf* fi fel hyn? A hi a aeth i ymofyn â'r ARGLWYDD.

23 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthi hi, Dwy genedl *sydd* yn dy groth di, a dau *fath ar* bobl a wahenir o'th fru di; a'r naill bobl fydd cryfach na'r llall, a'r hynaf a wasanaetha yr ieuangaf.

24 ¶ A phan gyflawnwyd ei dyddiau hi i esgor, wele, gefelliaid *oedd* yn ei chroth hi.

25 A'r cyntaf a ddaeth allan yn goch drosto i gyd fel cochl flewog: a galwasant ei enw ef Esau.
26 Ac wedi hynny y daeth ei frawd ef allan, a'i law yn ymaflyd yn sawdl Esau: a galwyd ei enw ef Jacob. Ac Isaac oedd fab tri ugain mlwydd pan anwyd hwynt.
27 A'r llangciau a gynnyddasant: ac Esau oedd ŵr yn medru hela, *a* gŵr o'r maes; a Jacob *oedd* ŵr disyml, yn cyfanneddu mewn pebyll.
28 Isaac hefyd oedd hoff ganddo Esau, am ei fod yn bwytta o'i helwriaeth ef: a Rebeccah a hoffai Jacob.
29 ¶ A Jacob a ferwodd gawl: yna Esau a ddaeth o'r maes, ac efe yn ddiffygiol.
30 A dywedodd Esau wrth Jacob, Gâd i mi yfed, attolwg, o'r *cawl* coch yma; o herwydd diffygiol *wyf* fi: am hynny y galwyd ei enw ef Edom.
31 A dywedodd Jacob, Gwerth di heddyw i mi dy enedigaeth-fraint.
32 A dywedodd Esau, Wele fi yn myned i farw, a pha lês a wna yr enedigaeth-fraint hon i mi?
33 A dywedodd Jacob, Twng i mi heddyw. Ac efe a dyngodd iddo; ac efe a werthodd ei enedigaeth-fraint i Jacob.
34 A Jacob a roddes i Esau fara a chawl ffacbys; ac efe a fwyttaodd, ac a yfodd, ac a gododd, ac a aeth ymaith: felly y diystyrodd Esau ei enedigaeth-fraint.

PENNOD 26.

1 *Isaac o achos newyn yn myned i Gerar.* 2 *Duw yn ei addysgu ac yn ei fendithio ef.* 7 *Abimelech yn ei geryddu ef am wadu ei wraig.* 12 *Efe yn myned yn gyfoethog:* 18 *Yn cloddio ffynnon Esec, Sitnah, a Rehoboth.* 26 *Abimelech yn gwnaethur cynghrair ag ef yn Beer-seba.* 34 *Gwragedd Esau.*

ABU newyn yn y tir, heb law y newyn cyntaf a fuasai yn nyddiau Abraham: ac Isaac a aeth at Abimelech brenhin y Philistiaid i Gerar.
2 A'r ARGLWYDD a ymddangosasai iddo ef, ac a ddywedasai, Na ddos i waered i'r Aipht: aros yn y wlad a ddywedwyf fi wrthyt.
3 Ymdeithia yn y wlad hon, a mi a fyddaf gyd â thi, ac a'th fendithiaf: o herwydd i ti ac i'th had y rhoddaf yr holl wledydd hyn, a mi a gyflawnaf fy llw a dyngais wrth Abraham dy dad di.
4 A mi a amlhâf dy had di fel sêr y nefoedd, a rhoddaf i'th had di yr holl wledydd hyn: a holl genhedlaethau y ddaear a fendithir yn dy had di:
5 Am wrandaw o Abraham ar fy llais i, a chadw fy nghadwriaeth, fy ngorchymynion, fy neddfau, a'm cyfreithiau.
6 ¶ Ac Isaac a drigodd yn Gerar.
7 A gwŷr y lle hwnnw a ymofynasant am ei wraig ef. Ac efe a ddywedodd, Fy chwaer *yw* hi: canys ofnodd ddywedyd, Fy ngwraig *yw*; rhag (*eb efe*) i ddynion y lle hwnnw fy lladd i am Rebeccah: canys *yr ydoedd* hi yn dêg yr olwg.
8 A bu, gwedi ei fod ef yno ddyddiau lawer, i Abimelech brenhin y Philistiaid edrych trwy y ffenestr, a chanfod; ac wele Isaac yn chwarae â Rebeccah ei wraig.
9 Ac Abimelech a alwodd ar Isaac, ac a ddywedodd, Wele, yn ddïau dy wraig *yw* hi: a phaham y dywedaist, Fy chwaer *yw* hi? Yna y dywedodd Isaac wrtho, Am ddywedyd o honof, Rhag fy marw o'i phlegid hi.
10 A dywedodd Abimelech, Paham y gwnaethost hyn â ni? hawdd y gallasai un o'r bobl orwedd gyd â'th wraig di; felly y dygasit arnom ni bechod.
11 A gorchymynodd Abimelech i'r holl bobl, gan ddywedyd, Yr hwn a gyffyrddo â'r gŵr hwn, neu â'i wraig, a leddir yn farw.
12 Ac Isaac a hauodd yn y tir hwnnw, ac a gafodd y flwyddyn honno y can cymmaint. A'r ARGLWYDD a'i bendithiodd ef.
13 A'r gŵr a gynnyddodd, ac a aeth rhagddo, ac a dyfodd hyd onid aeth yn fawr iawn.
14 Ac yr oedd ganddo ef gyfoeth o ddefaid, a chyfoeth o wartheg, a gweision lawer: a'r Philistiaid a genfigennasant wrtho ef.
15 A'r holl bydewau y rhai a gloddiasai gweision ei dad ef, yn nyddiau Abraham ei dad ef, y Philistiaid a'u cauasant hwy, ac a'u llanwasant â phridd.
16 Ac Abimelech a ddywedodd

wrth Isaac, Dos oddi wrthym ni: canys ti a aethost yn gryfach o lawer na nyni.

17 ¶ Ac Isaac a aeth oddi yno, ac a wersyllodd yn nyffryn Gerar, ac a breswyliodd yno.

18 Ac Isaac eilwaith a gloddiodd y pydewau dwfr y rhai a gloddiasent yn nyddiau Abraham ei dad ef, ac a gauasai y Philistiaid wedi marw Abraham; ac a enwodd enwau arnynt, yn ol yr enwau a enwasai ei dad ef arnynt hwy.

19 Gweision Isaac a gloddiasant hefyd yn y dyffryn, ac a gawsant yno ffynnon o ddwfr rhedegog.

20 A bugeiliaid Gerar a ymrysonasant â bugeiliaid Isaac, gan ddywedyd, Y dwfr *sydd* eiddom ni. Yna efe a alwodd enw y ffynnon, Esec; o herwydd ymgynhennu o honynt âg ef.

21 Cloddiasant hefyd bydew arall: ac ymrysonasant am hwnnw: ac efe a alwodd ei enw ef Sitnah.

22 Ac efe a fudodd oddi yno, ac a gloddiodd bydew arall; ac nid ymrysonasant am hwnnw: ac efe a alwodd ei enw ef Rehoboth; ac a ddywedodd, Canys yn awr yr ehangodd yr ARGLWYDD arnom, a ni a ffrwythwn yn y tir.

23 Ac efe a aeth i fyny oddi yno i Beer-seba.

24 A'r ARGLWYDD a ymddangosodd iddo y noson honno, ac a ddywedodd, Myfi *yw* DUW Abraham dy dad di: nac ofna; canys byddaf gyd â thi, ac a'th fendithiaf, ac a lïosogaf dy had er mwyn Abraham fy ngwas.

25 Ac efe a adeiladodd yno allor, ac a alwodd ar enw yr ARGLWYDD; ac yno y gosododd efe ei babell: a gweision Isaac a gloddiasant yno bydew.

26 ¶ Yna y daeth Abimelech atto ef o Gerar, ac Ahussath ei gyfaill, a Phichol tywysog ei lu.

27 Ac Isaac a ddywedodd wrthynt, Paham y daethoch chwi attaf fi; gan i chwi fy nghasâu, a'm gyrru oddi wrthych?

28 Yna y dywedasant, Gan weled ni a welsom fod yr ARGLWYDD gyd â thi: a dywedasom, Bydded yn awr gynghrair rhyngom ni, *sef* rhyngom ni a thi; a gwnawn gyfammod â thi;

29 Na wnei i ni ddrwg, megis na chyffyrddasom ninnau â thi, a megis y gwnaethom ddaioni yn unig â thi, ac y'th anfonasom mewn heddwch; ti yn awr *wyt* fendigedig yr ARGLWYDD.

30 Ac efe a wnaeth iddynt wledd; a hwy a fwyttasant ac a yfasant.

31 Yna y codasant yn fore, a hwy a dyngasant bob un i'w gilydd: ac Isaac a'u gollyngodd hwynt ymaith, a hwy a aethant oddi wrtho ef mewn heddwch.

32 A'r dydd hwnnw y bu i weision Isaac ddyfod, a mynegi iddo ef o achos y pydew a gloddiasent; a dywedasant wrtho, Cawsom ddwfr.

33 Ac efe a'i galwodd ef Seba: am hynny enw y ddinas *yw* Beer-seba hyd y dydd hwn.

34 ¶ Ac yr oedd Esau yn fab deugain mlwydd, ac efe a gymmerodd yn wraig, Judith ferch Beeri yr Hethiad, a Basemath ferch Elon yr Hethiad.

35 A hwy oeddynt chwerwder yspryd i Isaac ac i Rebeccah.

PENNOD 27.

1 *Isaac yn anfon Esau am helwriaeth.* 6 *Rebeccah yn dysgu Jacob i gael y fendith.* 15 *Jacob yn rhôth Esau yn ei chaffael.* 30 *Esau yn dwyn ei saig.* 33 *Isaac yn dychrynu.* 34 *Esau yn cwynofain, a thrivy daerni yn caffael bendith.* 41 *Yn bygwth Jacob.* 42 *Rebeccah yn ei stommi ef.*

ABU, wedi heneiddio o Isaac, a thywyllu ei lygaid fel na welai, alw o hono ef Esau ei fab hynaf, a dywedyd wrtho, Fy mab. Yntau a ddywedodd wrtho ef, Wele fi.

2 Ac efe a ddywedodd, Wele, mi a heneiddiais yn awr, ac nis gwn ddydd fy marwolaeth.

3 Ac yn awr cymmer, attolwg, dy offer, dy gawell saethau, a'th fwa, a dos allan i'r maes, a hela i mi helfa.

4 A gwna i mi flasus-fwyd o'r fath a garaf, a dwg i mi, fel y bwyttâwyf; fel y'th fendithio fy enaid cyn fy marw.

5 A Rebeccah a glybu pan ddywedodd Isaac wrth Esau ei fab: ac Esau a aeth i'r maes, i hela helfa i'w dwyn.

6 ¶ A Rebeccah a lefarodd wrth Jacob ei mab, gan ddywedyd. Wele, clywais dy dad yn llefaru wrth Esau dy frawd, gan ddywedyd,

7 Dwg i mi helfa, a gwna i mi flas-us-fwyd, fel y bwyttâwyf, ac y'th fendithiwyf ger bron yr ARGLWYDD cyn fy marw.
8 Ond yn awr, fy mab, gwrando ar fy llais i, am yr hyn a orchymynaf i ti.
9 Dos yn awr i'r praidd, a chymmer i mi oddi yno ddau fyn gafr da; a mi a'u gwnaf hwynt yn fwyd blasus i'th dad, o'r fath a gâr efe.
10 A thi a'u dygi i'th dad, fel y bwyttao, ac y'th fendithio cyn ei farw.
11 A dywedodd Jacob wrth Rebeccah ei fam, Wele Esau fy mrawd yn ŵr blewog, a minnau yn ŵr llyfn:
12 Fy nhad, ond odid a'm teimla; yna y byddaf yn ei olwg ef fel twyllwr; ac a ddygaf arnaf felldith, ac nid bendith.
13 A'i fam a ddywedodd wrtho, Arnaf fi y *byddo* dy felldith, fy mab, yn unig gwrando ar fy llais; dos a dwg i mi.
14 Ac efe a aeth, ac a gymmerth *y mynnod*, ac a'u dygodd at ei fam: a'i fam a wnaeth fwyd blasus o'r fath a garai ei dad ef.
15 Rebeccah hefyd a gymmerodd hoff-wisgoedd Esau ei mab hynaf, y rhai *oedd* gyd â hi yn tŷ, ac a wisgodd Jacob ei mab ieuangaf.
16 A gwisgodd hefyd grwyn y mynnod geifr am ei ddwylaw ef, ac am lyfndra ei wddf ef:
17 Ac a roddes y bwyd blasus, a'r bara a arlwyasai hi, yn llaw Jacob ei mab.
18 ¶ Ac efe a ddaeth at ei dad, ac a ddywedodd, Fy nhad. Yntau a ddywedodd, Wele fi: pwy wyt ti, fy mab?
19 A dywedodd Jacob wrth ei dad, Myfi *yw* Esau dy gyntaf-anedig: gwneuthum fel y dywedaist wrthyf: cyfod, attolwg, eistedd, a bwytta o'm helfa, fel y'm bendithio dy enaid.
20 Ac Isaac a ddywedodd wrth ei fab, Pa fodd, fy mab, y cefaist mor fuan a hyn? Yntau a ddywedodd, Am i'r ARGLWYDD dy DDUW beri *iddo* ddigwyddo o'm blaen.
21 A dywedodd Isaac wrth Jacob, Tyred yn nês yn awr, fel y'th deimlwyf, fy mab; ai tydi *yw* fy mab Esau, ai nad ê.
22 A nesaodd Jacob at Isaac ei dad: yntau a'i teimlodd; ac a ddywedodd, Y llais *yw* llais Jacob; a'r dwylaw, dwylaw Esau *ydynt*.
23 Ac nid adnabu efe ef, am fod ei ddwylaw fel dwylaw ei frawd Esau, yn flewog: felly efe a'i bendithiodd ef.
24 Dywedodd hefyd, Ai ti yw fy mab Esau? Yntau a ddywedodd, Myfi yw.
25 Ac efe a ddywedodd, Dwg yn nês attaf fi, a mi a fwyttâf o helfa fy mab, fel y'th fendithio fy enaid. Yna y dug atto ef, ac efe a fwyttaodd: dug iddo win hefyd, ac efe a yfodd.
26 Yna y dywedodd Isaac ei dad wrtho ef, Tyred yn nês yn awr, a chusana fi, fy mab.
27 Yna y daeth efe yn nês, ac a'i cusanodd ef; ac a aroglodd arogl ei wisgoedd ef, ac a'i bendithiodd ef, ac a ddywedodd, Wele arogl fy mab fel arogl maes, yr hwn a fendithiodd yr ARGLWYDD.
28 A rhodded DUW i ti o wlith y nefoedd, ac o frasder y ddaear, ac amldra o ŷd a gwin:
29 Gwasanaethed pobloedd dydi, ac ymgrymmed cenhedloedd i ti: bydd di arglwydd ar dy frodyr, ac ymgrymmed meibion dy fam i ti: melldigedig *fyddo* a'th felldithio, a bendigedig a'th fendithio.
30 ¶ A bu, pan ddarfu i Isaac fendithio Jacob, ac i Jacob yn brin fyned allan o ŵydd Isaac ei dad, yna Esau ei frawd a ddaeth o'i hela.
31 Ac yntau hefyd a wnaeth fwyd blasus, ac a'i dug at ei dad; ac a ddywedodd wrth ei dad, Cyfoded fy nhad, a bwyttâed o helfa ei fab, fel y'm bendithio dy enaid.
32 Ac Isaac ei dad a ddywedodd wrtho, Pwy *wyt* ti? Yntau a ddywedodd, Myfi *yw* dy fab, dy gyntaf-anedig Esau.
33 Ac Isaac a ddychrynodd â dychryn mawr iawn, ac a ddywedodd, Pwy? pa le mae yr hwn a heliodd helfa, ac a'i dug i mi, a mi a fwytteais o'r cwbl cyn dy ddyfod, ac a'i bendithiais ef? bendigedig hefyd fydd efe.
34 Pan glybu Esau eiriau ei dad, efe a waeddodd â gwaedd fawr a

chwerw iawn, ac a ddywedodd wrth ei dad, Bendithia fi, ïe finnau, fy nhad.

35 Ac efe a ddywedodd, Dy frawd a ddaeth mewn twyll, ac a ddug dy fendith di.

36 Dywedodd yntau, Onid iawn y gelwir ei enw ef Jacob? canys efe a'm disodlodd i ddwy waith bellach: dug fy ngenedigaeth-fraint; ac wele, yn awr efe a ddygodd fy mendith: dywedodd hefyd, Oni chedwaist gyd â thi fendith i minnau?

37 Ac Isaac a attebodd, ac a ddywedodd wrth Esau, Wele, mi a'i gwneuthum ef yn arglwydd i ti, a rhoddais ei holl frodyr yn weision iddo ef; âg ŷd a gwin y cynheliais ef: a pheth a wnaf i tithau, fy mab, weithian?

38 Ac Esau a ddywedodd wrth ei dad, Ai un fendith sydd gennyt, fy nhad? bendithia finnau, finnau hefyd, fy nhad. Felly Esau a ddyrchafodd ei lef, ac a wylodd.

39 Yna yr attebodd Isaac ei dad, ac a ddywedodd wrtho, Wele, ym mrasder y ddaear y bydd dy breswylfod, ac ym mysg gwlith y nefoedd oddi uchod;

40 Wrth dy gleddyf hefyd y byddi fyw, a'th frawd a wasanaethi: ond bydd *amser* pan feistrolech di, ac y torrech ei iau ef oddi am dy wddf.

41 ¶ Ac Esau a gasaodd Jacob, am y fendith â'r hon y bendithiasai ei dad ef: ac Esau a ddywedodd yn ei galon, Nesâu y mae dyddiau galar fy nhad; yna lladdaf Jacob fy mrawd.

42 A mynegwyd i Rebeccah eiriau Esau ei mab hynaf. Hithau a anfonodd, ac a alwodd am Jacob ei mab ieuangaf, ac a ddywedodd wrtho, Wele, Esau dy frawd sydd yn ymgysuro o'th blegid di, *ar fedr* dy ladd di.

43 Ond yn awr, fy mab, gwrando ar fy llais: cyfod, ffo at Laban fy mrawd, i Haran;

44 Ac aros gyd âg ef ychydig ddyddiau, hyd oni chilio llid dy frawd;

45 Hyd oni chilio digofaint dy frawd oddi wrthyt, ac anghofio o hono ef yr hyn a wnaethost iddo: yna yr anfonaf ac y'th gyrchaf oddi yno. Paham y byddwn yn amddifad o honoch eich dau *mewn* un dydd?

46 Dywedodd Rebeccah hefyd wrth Isaac, Blinais ar fy einioes o herwydd merched Heth: os cymmer Jacob wraig o ferched Heth, fel y rhai hyn o ferched y wlad, i ba beth y *chwennychwn* fy einioes?

PENNOD 28.

1 *Isaac yn bendithio Jacob, ac yn ei anfon ef i Mesopotamia.* 9 *Esau yn priodi Mahalath merch Ismael.* 12 *Gweledigaeth ysgol Jacob.* 18 *Maen Bethel.* 20 *Addunedd Jacob.*

YNA y galwodd Isaac ar Jacob, ac a'i bendithiodd ef: efe a orchymynodd iddo hefyd, ac a ddywedodd wrtho, Na chymmer wraig o ferched Canaan.

2 Cyfod, dos i Mesopotamia, i dŷ Bethuel tad dy fam; a chymmer i ti wraig oddi yno, o ferched Laban brawd dy fam:

3 A Duw Hollalluog a'th fendithio, ac a'th ffrwythlono, ac a'th liosogo, fel y byddech yn gynnulleidfa pobloedd:

4 Ac a roddo i ti fendith Abraham, i ti ac i'th had gyd â thi, i etifeddu o honot dir dy ymdaith, yr hwn a roddodd Duw i Abraham.

5 Felly Isaac a anfonodd ymaith Jacob: ac efe a aeth i Mesopotamia, at Laban fab Bethuel y Syriad, brawd Rebeccah, mam Jacob ac Esau.

6 ¶ Pan welodd Esau fendithio o Isaac Jacob, a'i anfon ef i Mesopotamia, i gymmeryd iddo wraig oddi yno, a gorchymyn iddo wrth ei fendithio, gan ddywedyd, Na chymmer wraig o ferched Canaan;

7 A gwrandaw o Jacob ar ei dad, ac ar ei fam, a'i fyned i Mesopotamia;

8 Ac Esau yn gweled mai drwg oedd merched Canaan y'ngolwg Isaac ei dad;

9 Yna Esau a aeth at Ismael, ac a gymmerodd Mahalath merch Ismael mab Abraham, chwaer Nebaioth, yn wraig iddo, at ei wragedd *eraill.*

10 ¶ A Jacob a aeth allan o Beerseba, ac a aeth tu a Haran.

11 Ac a ddaeth ar ddamwain i fangre, ac a lettŷodd yno dros nos; oblegid machludo yr haul: ac efe a gymmerth o gerrig y lle hwnnw, ac

a osododd dan ei ben, ac a gysgodd
yn y fan honno.
12 Ac efe a freuddwydiodd; ac
wele ysgol yn sefyll ar y ddaear, a'i
phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd:
ac wele angylion DUW yn dringo ac
yn disgyn ar hyd-ddi.
13 Ac wele yr ARGLWYDD yn sef-
yll arni: ac efe a ddywedodd, Myfi
yw ARGLWYDD DDUW Abraham dy
dad, a DUW Isaac; y tir yr wyt ti
yn gorwedd arno, i ti y rhoddaf ef,
ac i'th had.
14 A'th had di fydd fel llwch y
ddaear; a thi a dorri allan i'r gor-
llewin, ac i'r dwyrain, ac i'r gogledd,
ac i'r dehau: a holl deuluoedd y
ddaear a fendithir ynot ti, ac yn dy
had di.
15 Ac wele fi gyd â thi; ac mi a'th
gadwaf pa le bynnag yr elych, ac
a'th ddygaf drachefn i'r wlad hon:
o herwydd ni'th adawaf, hyd oni
wnelwyf yr hyn a leferais wrthyt.
16 ¶ A Jacob a ddeffrôdd o'i gwsg;
ac a ddywedodd, Dïau fod yr AR-
GLWYDD yn y lle hwn, ac nis gwydd-
wn i.
17 Ac efe a ofnodd, ac a ddywed-
odd, Mor ofnadwy yw y lle hwn!
nid *oes* yma onid tŷ i DDUW, a dyma
borth y nefoedd.
18 A Jacob a gyfododd yn fore, ac
a gymmerth y garreg a osodasai efe
dan ei ben, ac efe a'i gosododd hi
yn golofn, ac a dywalltodd olew ar
ei phen hi.
19 Ac efe a alwodd enw y lle
hwnnw, Bethel: ond Lus *fuasai*
enw y ddinas o'r cyntaf.
20 Yna yr addunodd Jacob addun-
ed, gan ddywedyd, Os DUW fydd
gyd â myfi, ac a'm ceidw yn y ffordd
yma, yr hon yr ydwyf yn ei cherdd-
ed, a rhoddi i mi fara i'w fwytta, a
dillad i'w gwisgo,
21 A dychwelyd o honof mewn
heddwch i dŷ fy nhad; yna y bydd
yr ARGLWYDD yn DDUW i mi.
22 A'r garreg yma, yr hon a osodais
yn golofn, a fydd yn dŷ DDUW; ac
o'r hyn oll a roddech i mi, gan ddeg-
ymmu mi a'i degymmaf i ti.

PENNOD 29.

1 Jacob yn dyfod at ffynnon Haran. 9 Yn ymgaredigo â Rahel. 13 Laban yn ei groesawu ef i'w dŷ. 18 Jacob yn gwneuthur ammod am Rahel. 23 Ei siommi ef â Leah. 28 Ynlau yn priodi Rahel, ac yn gwasanaethu am dani hi saith mlynedd eraill. 32 Leah yn dwyn Reuben, 33 Simeon, 34 Lefi, 35 a Judah.

A JACOB a gymmerth ei daith,
ac a aeth i wlad meibion y
dwyrain.
2 Ac efe a edrychodd, ac wele byd-
ew yn y maes, ac wele dair dïadell
o ddefaid yn gorwedd wrtho; o her-
wydd o'r pydew hwnnw y dyfrhâent
y dïadelloedd: a charreg fawr *oedd*
ar enau y pydew.
3 Ac yno y cesglid yr holl ddïad-
elloedd: a hwy a dreiglent y garreg
oddi ar enau y pydew, ac a ddyfr-
hâent y praidd; yna y rhoddent y
garreg drachefn ar enau y pydew
yn ei lle.
4 A dywedodd Jacob wrthynt, Fy
mrodyr, o ba le yr *ydych* chwi? A
hwy a ddywedasant, O Haran yr
ydym ni.
5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, A
adwaenoch chwi Laban fab Nachor?
A hwy a ddywedasant, Adwaenom.
6 Yntau a ddywedodd wrthynt
hwy, A *oes* llwyddiant iddo ef? A
hwy a ddywedasant, *Oes*, llwydd-
iant: ac wele Rahel ei ferch ef yn
dyfod gyd â'r defaid.
7 Yna y dywedodd efe, Wele etto y
dydd yn gynnar, nid *yw* bryd casglu
yr anifeiliaid: dyfrhêwch y praidd,
ac ewch, *a* bugeiliwch.
8 A hwy a ddywedasant, Ni allwn
ni, hyd oni chasgler yr holl ddïadell-
oedd, a threiglo o honynt y garreg
oddi ar wyneb y pydew; yna y dyfr-
hâwn y praidd.
9 ¶ Tra yr ydoedd efe etto yn
llefaru wrthynt, daeth Rahel hefyd
gyd â'r praidd *oedd* eiddo ei thad;
oblegid hi oedd yn bugeilio.
10 A phan welodd Jacob Rahel
ferch Laban brawd ei fam, a phraidd
Laban brawd ei fam; yna y nesa-
odd Jacob, ac a dreiglodd y garreg
oddi ar enau y pydew, ac a ddyfr-
haodd braidd Laban brawd ei fam.
11 A Jacob a gusanodd Rahel, ac
a ddyrchafodd ei lef, ac a wylodd.
12 A mynegodd Jacob i Rahel, mai
brawd ei thad oedd efe, ac mai mab
Rebeccah oedd efe: hithau a redodd,
ac a fynegodd i'w thad.
13 A phan glybu Laban hanes Ja-
cob mab ei chwaer, yna efe a redodd

i'w gyfarfod ef, ac a'i cofleidiodd ef, ac a'i cusanodd, ac a'i dug ef i'w dŷ: ac efe a fynegodd i Laban yr holl bethau hyn.

14 A dywedodd Laban wrtho ef, Yn ddïau fy asgwrn i a'm cnawd ydwyt ti. Ac efe a drigodd gyd âg ef fis o ddyddiau.

15 ¶ A Laban a ddywedodd wrth Jacob, Ai o herwydd mai fy mrawd wyt ti, y'm gwasanaethi yn rhad? mynega i mi beth *fydd* dy gyflog?

16 Ac i Laban *yr oedd* dwy o ferched: enw yr hynaf *oedd* Leah, ac enw yr ieuangaf Rahel.

17 A llygaid Leah *oedd* weiniaid; ond Rahel oedd dêg *ei* phryd, a glandeg yr olwg.

18 A Jacob a hoffodd Rahel; ac a ddywedodd, Mi a'th wasanaethaf di saith mlynedd am Rahel dy ferch ieuangaf.

19 A Laban a ddywedodd, Gwell yw ei rhoddi hi i ti, na'i rhoddi i ŵr arall: aros gyd â mi.

20 Felly Jacob a wasanaethodd am Rahel saith mlynedd: ac yr oeddynt yn ei olwg ef fel ychydig ddyddiau, am fod yn hoff ganddo efe hi.

21 ¶ A dywedodd Jacob wrth Laban, Moes i mi fy ngwraig, (canys cyflawnwyd fy nyddiau,) fel yr elwyf atti hi.

22 A Laban a gasglodd holl ddynion y fan honno, ac a wnaeth wledd.

23 Ond bu yn yr hwyr, iddo gymeryd Leah ei ferch, a'i dwyn hi atto ef; ac yntau a aeth atti hi.

24 A Laban a roddodd iddi Silpah ei forwyn, yn forwyn i Leah ei ferch.

25 A bu, y bore, wele Leah *oedd* hi: yna y dywedodd efe wrth Laban, Paham y gwnaethost hyn i mi? onid am Rahel y'th wasanaethais? a paham y'm twyllaist?

26 A dywedodd Laban, Ni wneir felly yn ein gwlad ni, gan roddi yr ieuangaf o flaen yr hynaf.

27 Cyflawna di wythnos hon, a ni a roddwn i ti hon hefyd, am y gwasanaeth a wasanaethi gyd â mi etto saith mlynedd eraill.

28 A Jacob a wnaeth felly, ac a gyflawnodd ei hwythnos hi: ac efe a roddodd Rahel ei ferch yn wraig iddo.

29 Laban hefyd a roddodd i Rahel ei ferch, Bilhah ei forwyn, yn forwyn iddi hi.

30 Ac efe a aeth hefyd at Rahel, ac a hoffodd Rahel yn fwy na Leah, ac a wasanaethodd gyd âg ef etto saith mlynedd eraill.

31 ¶ A phan welodd yr ARGLWYDD mai cas oedd Leah, yna efe a agorodd ei chroth hi: a Rahel *oedd* ammhlantadwy.

32 A Leah a feichiogodd, ac a esgorodd ar fab, ac a alwodd ei enw ef Reuben: o herwydd hi a ddywedodd, Dïau edrych o'r ARGLWYDD ar fy nghystudd; canys yn awr fy ngŵr a'm hoffa i.

33 A hi a feichiogodd eilwaith, ac a esgorodd ar fab, ac a ddywedodd, Am glywed o'r ARGLWYDD mai cas *ydwyf* fi; am hynny y rhoddodd efe i mi hwn hefyd: a hi a alwodd ei enw ef Simeon.

34 A hi a feichiogodd drachefn, ac a esgorodd ar fab, ac a ddywedodd, Fy ngŵr weithian a lŷn yn awr wrthyf fi, canys plentais iddo dri mab: am hynny y galwyd ei enw ef Lefi.

35 A hi a feichiogodd drachefn, ac a esgorodd ar fab, ac a ddywedodd, Weithian y moliannaf yr ARGLWYDD: am hynny y galwodd ei enw ef Judah. A hi a beidiodd â phlanta.

PENNOD 30.

1 Rahel, gan fod yn ddïgllawn nad oedd yn planta, yn rhoddi Bilhah ei llaw-forwyn i Jacob. 5 Hithau yn dwyn Dan a Nuphtali. 9 Leah yn rhoddi Silpah ei llaw-forwyn, yr hon a ymddŵg Gad ac Aser. 14 Reuben yn cael mandragorau, am y rhai y mae Leah yn prynu ei gŵr gan Rahel. 17 Leah yn dwyn Issachar, Sabulon, a Dinah. 22 Rahel yn dwyn Joseph. 25 Jacob yn dëisyfu cael mynedd ymtith. 27 Laban yn ei attal ef ar gyfammod newydd. 37 Dyfais Jacob, trwy yr hon yr ymgyfoethogodd efe.

PAN welodd Rahel na phlantasai hithau i Jacob, yna Rahel a genfigennodd wrth ei chwaer, ac a ddywedodd wrth Jacob, Moes feibion i mi; ac onid ê mi *a fyddaf* farw.

2 A chynneuodd llid Jacob wrth Rahel; ac efe a ddywedodd, Ai myfi *sydd* yn lle Duw, yr hwn a attaliodd ffrwyth y groth oddi wrthyt ti?

3 A dywedodd hithau, Wele fy llaw-forwyn Bilhah, dos i mewn atti hi; a hi a blanta ar fy ngliniau i,

fel y caffer plant i minnau hefyd o
honi hi.
4 A hi a roddes ei llaw-forwyn
Bilhah iddo ef yn wraig, a Jacob
a aeth i mewn atti.
5 A Bilhah a feichiogodd, ac a ym-
ddûg fab i Jacob.
6 A Rahel a ddywedodd, Duw a'm
barnodd i, ac a wrandawodd hefyd
ar fy llais, ac a roddodd i mi fab:
am hynny hi a alwodd ei enw ef Dan.
7 Hefyd Bilhah, llaw-forwyn Ra-
hel, a feichiogodd eilwaith, ac a
ymddûg yr ail fab i Jacob.
8 A Rahel a ddywedodd, Ymdrech-
ais ymdrechiadau gorchestol â'm
chwaer, a gorchfygais: a hi a alw-
odd ei enw ef Naphtali.
9 Pan welodd Leah beidio o honi
â phlanta, hi a gymmerth ei llaw-
forwyn Silpah, ac a'i rhoddes hi yn
wraig i Jacob.
10 A Silpah, llaw-forwyn Leah, a
ymddûg fab i Jacob.
11 A Leah a ddywedodd, Y mae
tyrfa yn dyfod: a hi a alwodd ei
enw ef Gad.
12 A Silpah, llaw-forwyn Leah, a
ymddûg yr ail fab i Jacob.
13 A Leah a ddywedodd, Yr yd-
wyf yn ddedwydd; oblegid merch-
ed a'm galwant yn ddedwydd: a
hi a alwodd ei enw ef Aser.
14 ¶ Reuben hefyd a aeth yn nydd-
iau cynhauaf gwenith, ac a gafodd
fandragorau yn y maes, ac a'u dug
hwynt at Leah ei fam: yna Rahel
a ddywedodd wrth Leah, Dyro, at-
tolwg, i mi o fandragorau dy fab.
15 Hithau a ddywedodd wrthi, Ai
bychan *yw* dwyn o honot fy ngŵr?
a fynnit ti hefyd ddwyn mandra-
gorau fy mab? A Rahel a ddywed-
odd, Cysged gan hynny gyd â thi
heno am fandragorau dy fab.
16 A Jacob a ddaeth o'r maes yn
yr hwyr; a Leah a aeth allan i'w
gyfarfod ef, ac a ddywedodd, Attaf
fi y deui: oblegid gan brynu y'th
brynais am fandragorau fy mab.
Ac efe a gysgodd gyd â hi y nos
honno.
17 A Duw a wrandawodd ar Leah,
a hi a feichiogodd, ac a ymddûg y
pummed mab i Jacob.
18 A Leah a ddywedodd, Rhodd-
odd Duw fy ngwobr *i mi*, o her-
wydd rhoddi o honof fi fy llaw-for-
wyn i'm gŵr: a hi a alwodd ei enw
ef Issachar.
19 Leah hefyd a feichiogodd etto,
ac a ymddûg y chweched mab i
Jacob.
20 A Leah a ddywedodd, Cynnysg-
aeddodd Duw fyfi â chynnysgaeth
dda; fy ngŵr a drig weithian gyd
â mi, oblegid chwech o feibion a
ymddygais iddo ef: a hi a alwodd
ei enw ef Sabulon.
21 Ac wedi hynny hi a esgorodd
ar ferch, ac a alwodd ei henw hi
Dinah.
22 ¶ A Duw a gofiodd Rahel, a
Duw a wrandawodd arni, ac a a-
gorodd ei chroth hi.
23 A hi a feichiogodd, ac a esgor-
odd ar fab, ac a ddywedodd, Duw a
dynnodd fy ngwarthrudd ymaith.
24 A hi a alwodd ei enw ef Joseph,
gan ddywedyd, Yr Arglwydd a
ddyry yn ychwaneg i mi fab arall.
25 ¶ A bu, wedi esgor o Rahel ar
Joseph, ddywedyd o Jacob wrth
Laban, Gollwng fi ymaith, fel yr
elwyf i'm bro, ac i'm gwlad fy hun.
26 Dyro fy ngwragedd i mi, a'm
plant, y rhai y gwasanaethais am
danynt gyd â thi, fel yr elwyf ym-
aith: oblegid ti a wyddost fy ngwas-
anaeth a wneuthum i ti.
27 A Laban a ddywedodd wrtho,
Os cefais ffafr yn dy olwg, *na syfl:*
da y gwn i'r Arglwydd fy men-
dithio i o'th blegid di.
28 Hefyd efe a ddywedodd, Dogna
dy gyflog arnaf, a mi a'i rhoddaf.
29 Yntau a ddywedodd wrtho, Ti
a wyddost pa ddelw y gwasanaeth-
ais dydi; a pha fodd y *bu* dy ani-
feiliaid di gyd â myfi.
30 Oblegid ychydig *oedd* yr hyn
ydoedd gennyt ti cyn fy *nyfod* i,
ond yn lliosowgrwydd y cynnydd-
odd; o herwydd yr Arglwydd a'th
fendithiodd di er pan ddeuthum i:
bellach gan hynny pa bryd y dar-
paraf hefyd i'm tŷ fy hun?
31 Dywedodd yntau, Pa beth a
roddaf i ti? A Jacob a attebodd,
Ni roddi i mi ddim; os gwnei i mi
y peth hyn, bugeiliaf *a* chadwaf dy
braidd di drachefn.
32 Tramwyaf trwy dy holl braidd
di heddyw, gan neillduo oddi yno

bob llwdn mân-frith a mawr-frith, a phob llwdn coch-ddu ym mhlith y defaid; y mawr-frith hefyd a'r mân-frith ym mhlith y geifr: ac *o'r rhai hynny* y bydd fy nghyflog.

33 A'm cyfiawnder a dystiolaetha gyd â mi o hyn allan, pan ddêl hynny yn gyflog i mi o flaen dy wyneb di: yr hyn oll ni *byddo* fân-frith neu fawr-frith ym mhlith y geifr, neu goch-ddu ym mhlith y defaid, lladrad *a fydd* hwnnw gyd â myfi.

34 A dywedodd Laban, Wele, O na byddai yn ol dy air di!

35 Ac yn y dydd hwnnw y neilldduodd efe y bychod cylch-frithion a mawr-frithion, a'r holl eifr mân-frithion a mawr-frithion, yr hyn oll yr *oedd peth* gwyn arno, a phob coch-ddu ym mhlith y defaid, ac a'u rhoddes dan law ei feibion ei hun.

36 Ac a osododd daith tri diwrnod rhyngddo ei hun a Jacob: a Jacob a borthodd y rhan arall o braidd Laban.

37 ¶ A Jacob a gymmerth iddo wïail gleision o boplys, a chyll, a ffawydd; ac a ddirisglodd ynddynt ddirisgliadau gwynion, gan ddatguddio y gwyn yr hwn *ydoedd* yn y gwïail.

38 Ac efe a osododd y gwïail y rhai a ddirisglasai efe, yn y cwtterydd, o fewn y cafnau dyfroedd, lle y deuai y praidd i yfed, ar gyfer y praidd: fel y cyfebrent pan ddelent hwy i yfed.

39 A'r praidd a gyfebrasant wrth y gwïail; a'r praidd a ddug rai cylch-frithion, a mân-frithion, a mawr-frithion.

40 A Jacob a ddidolodd yr ŵyn, ac a osododd wynebau y praidd tu ag at y cylch-frithion, ac at bob coch-ddu ym mhlith praidd Laban; ac a osododd ddiadellau iddo ei hun o'r neilldu, ac nid gyd â phraidd Laban y gosododd hwynt.

41 A phob *amser* y cyfebrai y defaid cryfaf, Jacob a osodai y gwïail o flaen y praidd yn y cwtterydd, i gael o honynt gyfebru wrth y gwïail;

42 Ond pan fyddai y praidd yn weiniaid, ni osodai efe *ddim:* felly y gwannaf oedd eiddo Laban, a'r cryfaf eiddo Jacob.

43 A'r gŵr a gynnyddodd yn dra rhagorol; ac yr ydoedd iddo ef braidd helaeth, a morwynion, a gweision, a chamelod, ac asynod.

PENNOD 31.

1 *Jacob ar sorriant yn ymadael ym ddirgel.* 19 *Rahel yn lladratta delwau ei thad.* 22 *Laban yn canlyn ar ei ol ef,* 26 *ac yn achwyn rhag y cam.* 34 *Dyfais Rahel i guddio y delwau.* 36 *Jacob yn achwyn o herwydd Laban.* 43 *Y cyfammod rhwng Laban a Jacob yn Galeed.*

AC efe a glybu eiriau meibion Laban yn dywedyd, Jacob a ddug yr hyn oll *oedd* i'n tad ni, ac o'r hyn *ydoedd* i'n tad ni y cafodd efe yr holl anrhydedd hyn.

2 Hefyd Jacob a welodd wynebpryd Laban, ac wele nid *ydoedd* tu ag atto ef megis cynt.

3 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Jacob, Dychwel i wlad dy dadau, ac at dy genedl; a mi a fyddaf gyd â thi.

4 A Jacob a anfonodd, ac a alwodd Rahel a Leah i'r maes, at ei braidd,

5 Ac a ddywedodd wrthynt, Myfi a welaf wynebpryd eich tad chwi, nad yw fel cynt tu ag attaf fi: a DUW fy nhad a fu gyd â myfi.

6 A chwi a wyddoch mai â'm holl allu y gwasanaethais eich tad.

7 A'ch tad a'm twyllodd i, ac a newidiodd fy nghyflog i ddengwaith: ond nis dioddefodd DUW iddo wneuthur i mi ddrwg.

8 Os fel hyn y dywedai; Y mân-frithion a fydd dy gyflog di, yna yr holl braidd a eppilient fân-frithion: ond os fel hyn y dywedai; Y cylch-frithion a fydd dy gyflog di, yna yr holl braidd a eppilient *rai* cylch-frithion.

9 Felly DUW a ddug anifeiliaid eich tad chwi, ac a'u rhoddes i mi.

10 Bu hefyd yn amser cyfebru o'r praidd, ddyrchafu o honof fy llygaid, ac mewn breuddwyd y gwelais, ac wele yr hyrddod, (y rhai oedd yn llammu y praidd,) yn gylch-frithion, yn fân-frithion, ac yn fawr-frithion.

11 Ac angel DUW a ddywedodd wrthyf mewn breuddwyd, Jacob. Minnau a attebais, Wele fi.

12 Yntau a ddywedodd, Dyrchafa weithian dy lygaid, a gwel yr holl hyrddod y rhai ydynt yn llammu y praidd yn gylch-frithion, yn fân-frithion, ac yn fawr-frithion; obleg-

id gwelais yr hyn oll y mae Laban yn ei wneuthur i ti.
13 Myfi *yw* Duw Bethel, lle yr enneiniaist y golofn, *a* lle yr addunaist adduned i mi: cyfod bellach, dos allan o'r wlad hon, dychwel i wlad dy genedl dy hun.
14 A Rahel a Leah a attebasant, ac a ddywedasant wrtho, A *oes* etto i ni rau, neu etifeddiaeth yn nhŷ ein tad?
15 Onid yn estronesau y cyfrifodd efe nyni? oblegid efe a'n gwerthodd; a chan dreulio a dreuliodd hefyd ein harian ni.
16 Canys yr holl olud yr hwn a ddug Duw oddi ar ein tad ni, nyni a'n plant a'i pïau: ac yr awr hon yr hyn oll a ddywedodd Duw wrthyt, gwna.
17 ¶ Yna Jacob a gyfododd, ac a osododd ei feibion a'i wragedd ar gamelod;
18 Ac a ddug ymaith ei holl anifeiliaid, a'i holl gyfoeth yr hwn a ennillasai, *sef* ei anifeiliaid meddiannol, y rhai a ennillasai efe ym Mesopotamia, i fyned at Isaac ei dad, i wlad Canaan.
19 Laban hefyd a aethai i gneifio ei ddefaid: a Rahel a ladrattasai y delwau *oedd* gan ei thad hi.
20 A Jacob a aeth ymaith yn lladradaidd, heb wybod i Laban y Syriad: canys ni fynegodd iddo mai ffoi yr oedd.
21 Felly y ffodd efe â'r hyn oll *oedd* ganddo, ac a gyfododd ac a aeth dros yr afon, ac a gyfeiriodd *at* fynydd Gilead.
22 A mynegwyd i Laban, ar y trydydd dydd, ffoi o Jacob.
23 Ac efe a gymmerth ei frodyr gyd âg ef, ac a erlidiodd ar ei ol ef daith saith niwrnod; ac a'i goddiweddodd ef ym mynydd Gilead.
24 A Duw a ddaeth at Laban y Syriad, liw nos, mewn breuddwyd, ac a ddywedodd wrtho, Cadw arnat rhag yngan o honot wrth Jacob na da na drwg.
25 ¶ Yna Laban a oddiweddodd Jacob: a Jacob a osododd ei babell yn y mynydd; Laban hefyd a wersyllodd ynghyd â'i frodyr ym mynydd Gilead.
26 A Laban a ddywedodd wrth Jacob, Pa beth a wnaethost? oblegid ti a aethost yn lladradaidd oddi wrthyf fi, ac a ddygaist fy merched fel caethion cleddyf.
27 Am ba beth y ffoaist yn ddirgel, ac y lladratteaist oddi wrthyf fi, ac ni fynegaist i mi, fel yr hebryngaswn dydi â llawenydd, ac â chaniadau, â thympan, ac â thelyn?
28 Ac na adewaist i mi gusanu fy meibion a'm merched? Gwnaethost yr awr hon yn ffol, gan wneuthur hyn.
29 Mae ar fy llaw i wneuthur i chwi ddrwg: ond Duw eich tad a lefarodd wrthyf neithwyr, gan ddywedyd, Cadw arnat rhag yngan wrth Jacob na da na drwg.
30 Weithian gan hynny, ti a fynnit fyned ymaith, oblegid gan hiraethu yr hiraethaist am dŷ dy dad. *Ond* paham y lladratteaist fy nuwiau i?
31 A Jacob a attebodd ac a ddywedodd wrth Laban, Am ofni o honof; oblegid dywedais, Rhag dwyn o honot dy ferched oddi arnaf trwy drais.
32 Gyd â'r hwn y ceffych dy dduwiau, na chaffed fyw: ger bron ein brodyr myn wybod pa beth o'r eiddot ti sydd gyd â myfi, a chymmer i ti: ac nis gwyddai Jacob mai Rahel a'u lladrattasai hwynt.
33 A Laban a aeth i mewn i babell Jacob, ac i babell Leah, ac i babell y ddwy law-forwyn, ac nis cafodd hwynt: yna yr aeth allan o babell Leah, ac y daeth i babell Rahel.
34 A Rahel a gymmerasai y delwau, ac a'u gosodasai hwynt yn offer y camel, ac a eisteddasai arnynt; a Laban a chwiliodd yr holl babell, ac nis cafodd.
35 A hi a ddywedodd wrth ei thad, Na ddigied fy arglwydd, am nas gallaf gyfodi ger dy fron di; canys arfer gwragedd *a ddigwyddodd* i mi: ac efe a chwiliodd, ac ni chafodd y delwau.
36 ¶ A Jacob a ddigiodd, ac a roes sen i Laban: a Jacob a attebodd ac a ddywedodd wrth Laban, Pa beth *yw* fy nghamwedd i? pa beth *yw* fy mhechod, gan erlid o honot ar fy ol?
37 Gan i ti chwilio fy holl ddodrefn i, pa beth a gefaist o holl ddodrefn

dy dŷ di? gosod *ef* yma ger bron fy mrodyr i a'th frodyr dithau, fel y barnont rhyngom ni ein dau.

38 Myfi bellach *a fûm* ugain mlynedd gyd â thi; dy ddefaid a'th eifr ni erthylasant, ac ni fwytteais hyrddod dy braidd.

39 Ni ddygais ysglyfaeth attat ti: myfi a'i gwnawn ef yn dda; o'm llaw i y gofynit hynny, yr hyn a ladrattêid y dydd, a'r hyn a ladrattêid y nos.

40 Bûm y dydd, y gwres a'm treuliodd, a rhew y nos; a'm cwsg a giliodd oddi wrth fy llygaid.

41 Felly y bûm i ugain mlynedd yn dy dŷ di: pedair blynedd ar ddeg y gwasanaethais di am dy ddwy ferch, a chwe blynedd am dy braidd; a thi a newidiaist fy nghyflog ddeg o weithiau.

42 Oni buasai *fod* DUW fy nhad, DUW Abraham, ac arswyd Isaac gyd â mi, dïau yr awr hon y gollyngasit fi ymaith yn waglaw. DUW a welodd fy nghystudd a llafur fy nwylaw, ac a'th geryddodd *di* neithwyr.

43 ¶ Laban a attebodd ac a ddywedodd wrth Jacob, Y merched *hyn ydynt* fy merched i, a'r meibion *hyn ŷnt* fy meibion i, a'r praidd *yw* fy mhraidd i; a'r hyn oll a weli, eiddo fi yw: a heddyw pa beth a wnaf i'm merched hyn, ac i'w meibion hwynt y rhai a esgorasant?

44 Tyred gan hynny yn awr, gwnawn gyfammod, mi a thi; a bydded yn dystiolaeth rhyngof fi a thithau.

45 A Jacob a gymmerth garreg, ac a'i cododd hi yn golofn.

46 Hefyd Jacob a ddywedodd wrth ei frodyr, Cesglwch gerrig: a hwy a gymmerasant gerrig, ac a wnaethant garnedd, ac a fwyttasant yno ar y garnedd.

47 A Laban a'i galwodd hi Jeger-Sahadutha: a Jacob a'i galwodd hi Galeed.

48 A Laban a ddywedodd, Y garnedd hon sydd dyst rhyngof fi a thithau heddyw: am hynny y galwodd *Jacob* ei henw hi Galeed,

49 A Mispah; oblegid efe a ddywedodd, Gwylied yr ARGLWYDD rhyngof fi a thithau, pan fôm ni bob un o olwg ein gilydd.

50 Os gorthrymmi di fy merched, neu os cymmeri wragedd heb law fy merched i; nid *oes neb* gyd â ni; edrych, DUW *sydd* dyst rhyngof fi a thithau.

51 Dywedodd Laban hefyd wrth Jacob, Wele y garnedd hon, ac wele y golofn hon a osodais rhyngof fi a thi:

52 Tyst *a fydd* y garnedd hon, a thyst *a fydd* y golofn, na ddeuaf fi dros y garnedd hon attat ti, ac na ddeui dithau dros y garnedd hon na'r golofn hon attaf fi, er niwed.

53 DUW Abraham, a DUW Nachor, a farno rhyngom ni, DUW eu tadau hwynt. A Jacob a dyngodd i ofn ei dad Isaac.

54 Hefyd Jacob a aberthodd aberth yn y mynydd, ac a alwodd ar ei frodyr i fwytta bara: a hwy a fwyttasant fara, ac a drigasant dros nos yn y mynydd.

55 A Laban a gyfododd yn fore, ac a gusanodd ei feibion a'i ferched, ac a'u bendithiodd hwynt: felly Laban a aeth ymaith, ac a ddychwelodd i'w fro ei hun.

PENNOD 32.

1 Gweledigaeth Jacob ym Mahanaim. 3 Ei gennadwriaeth at Esau. 6 Mae efe yn ofni dyfodiad Esau. 9 Yn gweddïo am ymwared. 13 Yn anfon anrheg i Esau. 24 Yn ymdrech dg angel yn Peniel; lle y gelwir ef Israel. 31 Mae efe yn cloffi.

A JACOB a gerddodd i'w daith yntau: ac angylion DUW a gyfarfu âg ef.

2 A Jacob a ddywedodd, pan welodd hwynt, Dyma wersyll DUW; ac a alwodd enw y lle hwnnw Mahanaim.

3 A Jacob a anfonodd genhadau o'i flaen at ei frawd Esau, i wlad Seir, *i* wlad Edom:

4 Ac a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, Fel hyn y dywedwch wrth fy arglwydd Esau; Fel hyn y dywed dy was di Jacob; Gyd â Laban yr ymdeithiais, ac y trigais hyd yn hyn.

5 Ac y mae i mi eidionau, ac asynod, defaid, a gweision, a morwynion: ac anfon a wneuthum i fynegi i'm harglwydd, i gael ffafr yn dy olwg.

6 ¶ A'r cenhadau a ddychwelasant at Jacob, gan ddywedyd, Daethom at dy frawd Esau; ac y mae efe yn

dyfod i'th gyfarfod di, a phedwar cant o wŷr gyd âg ef.
7 Yna Jacob a ofnodd yn fawr, a chyfyng oedd arno: ac efe a rannodd y bobl *oedd* gyd âg ef, a'r defaid, a'r eidionau, a'r camelod, yn ddwy fintai;
8 Ac a ddywedodd, Os daw Esau at y naill fintai, a tharo honno, yna y fintai arall a fydd ddiangol.
9 ¶ A dywedodd Jacob, O Duw fy nhad Abraham, a Duw fy nhad Isaac, O Arglwydd, yr hwn a ddywedaist wrthyf, Dychwel i'th wlad, ac at dy genedl, a mi a wnaf ddaioni i ti!
10 Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di, nac o'r holl wirioned a wnaethost â'th was: oblegid â'm ffon y deuthum dros yr Iorddonen hon; ond yn awr yr ydwyf yn ddwy fintai.
11 Achub fi, attolwg, o law fy mrawd, o law Esau: oblegid yr ydwyf fi yn ei ofni ef, rhag dyfod o hono a'm taro, *a'r* fam gyd â'r plant.
12 A thydi a ddywedaist, Gwnaf ddaioni i ti yn ddïau; a'th had di a wnaf fel tywod y môr, yr hwn o amlder ni ellir ei rifo.
13 ¶ Ac yno y llettŷodd efe y noson honno: ac o'r hyn a ddaeth i'w law ef y cymmerth efe anrheg i'w frawd Esau;
14 Dau gant o eifr, ac ugain o fychod, dau gant o ddefaid, ac ugain o hyrddod,
15 Deg ar hugain o gamelod blithion a'u llydnod, deugain o wartheg, a deg o deirw, ugain o asenod, a deg o ebolion.
16 Ac efe a roddes yn llaw ei weision bob gyr o'r neilldu; ac a ddywedodd wrth ei weision, Ewch trosodd o'm blaen i, a gosodwch encyd rhwng pob gyr a'u gilydd.
17 Ac efe a orchymynodd i'r blaenaf, gan ddywedyd, Os Esau fy mrawd a'th gyferfydd di, ac a ymofyn â thydi, gan ddywedyd, I bwy *y perthyni* di? ac i ba le yr âi? ac eiddo pwy *yw* y rhai hyn o'th flaen di?
18 Yna y dywedi, Eiddo dy was Jacob; anrheg yw wedi ei hanfon i'm harglwydd Esau: ac wele yntau hefyd ar ein hol ni.
19 Felly y gorchymynodd hefyd i'r ail, ac i'r trydydd, ac i'r rhai oll oedd yn canlyn y gyrroedd, gan ddywedyd, Yn y modd hwn y dywedwch wrth Esau, pan gaffoch afael arno.
20 A dywedwch hefyd, Wele dy was Jacob ar ein hol ni. Oblegid (*eb efe*) boddlonaf ei wyneb ef â'r anrheg *sydd* yn myned o'm blaen: ac wedi hynny edrychaf yn ei wyneb ef; ond antur efe a dderbyn fy wyneb innau.
21 Felly yr anrheg a aeth trosodd o'i flaen ef: ac efe a lettŷodd y noson honno yn y gwersyll.
22 Ac efe a gyfododd y noson honno, ac a gymmerth ei ddwy wraig, a'i ddwy law-forwyn, a'i un mab ar ddeg, ac a aeth dros rŷd Jabboc.
23 Ac a'u cymmerth hwynt, ac a'u trosglwyddodd trwy yr afon: felly efe a drosglwyddodd yr hyn *oedd* ganddo.
24 ¶ A Jacob a adawyd ei hunan: yna yr ymdrechodd gŵr âg ef nes codi y wawr.
25 A phan welodd na byddai drech nag ef, efe a gyffyrddodd â chysswllt ei forddwyd ef; fel y llaesodd cysswllt morddwyd Jacob, wrth ymdrech o hono âg ef.
26 A'r *angel* a ddywedodd, Gollwng fi ymaith; oblegid y wawr a gyfododd. Yntau a attebodd, Ni'th ollyngaf, oni'm bendithi.
27 Hefyd efe a ddywedodd wrtho, Beth *yw* dy enw? Ac efe a attebodd, Jacob.
28 Yntau a ddywedodd, Mwyach ni elwir dy enw di Jacob, ond Israel: oblegid cefaist nerth gyd â Duw fel tywysog, a chyd â dynion, ac a orchfygaist.
29 A Jacob a ymofynodd, ac a ddywedodd, Mynega, attolwg, dy enw. Ac yntau a attebodd, I ba beth y gofyni hyn am fy enw i? Ac yno efe a'i bendithiodd ef.
30 A Jacob a alwodd enw y fan Peniel: oblegid gwelais Duw wyneb yn wyneb, a dïangodd fy einioes.
31 A'r haul a gyfodasai arno fel yr oedd yn myned dros Penuel, ac yr *oedd* efe yn gloff o'i glun.
32 Am hynny plant Israel ni fwyttânt y gewyn a giliodd, yr hwn *sydd*

o fewn cysswllt y forddwyd, hyd y dydd hwn: oblegid cyffwrdd â chysswllt morddwyd Jacob ar y gewyn a giliodd.

PENNOD 33.

1 *Caredigrwydd Jacob ac Esau wrth gyfarfod.* 17 *Jacob yn dyfod i Succoth;* 18 *yn prynu maes yn Salem, ac yn adeiladu allor, a'i henwi El-Elohe-Israel.*

A JACOB a ddyrchafodd ei lygaid, ac a edrychodd; ac wele Esau yn dyfod, a phedwar cant o wŷr gyd âg ef: ac efe a rannodd y plant at Leah, ac at Rahel, ac at y ddwy law-forwyn.

2 Ac ym mlaen y gosododd efe y ddwy law-forwyn, a'u plant hwy, a Leah a'i phlant hithau yn ol *y rhai hynny*, a Rahel a Joseph yn olaf.

3 Ac yntau a gerddodd o'u blaen hwynt, ac a ymostyngodd i lawr seithwaith, oni ddaeth efe yn agos at ei frawd.

4 Ac Esau a redodd i'w gyfarfod ef, ac a'i cofleidiodd ef, ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd ef: a hwy a wylasant.

5 Ac efe a ddyrchafodd ei lygaid, ac a ganfu y gwragedd, a'r plant; ac a ddywedodd, Pwy yw y rhai hyn gennyt ti? Yntau a ddywedodd, Y plant a roddes Duw o'i ras i'th was di.

6 Yna y llaw-forwynion a nesasant, hwynt-hwy a'u plant, ac a ymgrymmasant.

7 A Leah a nesaodd a'i phlant hithau, ac a ymgrymmasant: ac wedi hynny y nesaodd Joseph a Rahel, ac a ymgrymmasant.

8 Ac efe a ddywedodd, Pa beth *yw* gennyt yr holl fintai accw a gyfarfum i? Yntau a ddywedodd, *Anfonais hwynt* i gael ffafr yng ngolwg fy arglwydd.

9 Ac Esau a ddywedodd, Y mae gennyf fi ddigon, fy mrawd; bydded i ti yr hyn *sydd* gennyt.

10 A Jacob a ddywedodd, Nag ê; attolwg, os cefais yn awr ffafr yn dy olwg, cymmer fy anrheg o'm llaw i: canys am hynny y gwelais dy wyneb, fel pe gwelswn wyneb Duw, a thi yn foddlawn i mi.

11 Cymmer, attolwg, fy mendith, yr hon a ddygpwyd i ti; oblegid Duw a fu raslawn i mi, ac am fod gennyf fi bob peth. Ac efe a fu daer arno: ac yntau a gymmerodd;

12 Ac a ddywedodd, Cychwynwn, ac awn: a mi a âf o'th flaen di.

13 Yntau a ddywedodd wrtho, Fy arglwydd a ŵyr mai tyner *yw* y plant, a *bod* y praidd a'r gwartheg blithion gyd â myfi; os gyrrir hwynt un diwrnod yn rhy chwyrn, marw a wna yr holl braidd.

14 Aed, attolwg, fy arglwydd o flaen ei was; a minnau a ddeuaf yn araf, fel y gallo yr anifeiliaid *sydd* o'm blaen i, ac y gallo y plant, hyd oni ddelwyf at fy arglwydd i Seir.

15 Ac Esau a ddywedodd, Gadawaf yn awr gyd â thi *rai* o'r bobl *sydd* gyd â mi. Yntau a ddywedodd, I ba beth *y gwnei* hynny? Cafwyf ffafr y'ngolwg fy arglwydd.

16 ¶ Felly Esau y dydd hwnnw a ddychwelodd ar hyd ei ffordd ei hun i Seir.

17 A Jacob a gerddodd i Succoth, ac a adeiladodd iddo dŷ, ac a wnaeth fythod i'w anifeiliaid: am hynny efe a alwodd enw y lle Succoth.

18 ¶ Hefyd Jacob a ddaeth yn llwyddiannus i ddinas Sichem, yr hon *sydd* y'ngwlad Canaan, pan ddaeth efe o Mesopotamia; ac a wersyllodd o flaen y ddinas.

19 Ac a brynodd ran o'r maes y lledasai ei babell ynddo, o law meibion Hemor tad Sichem, am gan darn o arian:

20 Ac a osododd yno allor, ac a'i henwodd El-Elohe-Israel.

PENNOD 34.

1 *Sichem yn treisio Dinah:* 4 *yn ei gofyn hi yn briod.* 13 *Meibion Jacob yn cynnyg i'r Sichemiaid ammod yr enwaediad.* 20 *Hemor a Sichem yn eiriol arnynt am ei dderbyn.* 25 *Meibion Jacob ar y fantais honno yn eu lladd hwynt,* 27 *ac yn yspeilio eu dinas.* 30 *Jacob yn ceryddu Simeon a Lefi.*

A DINAH merch Leah, yr hon a ymddygasai hi i Jacob, a aeth allan i weled merched y wlad.

2 A Sichem mab Hemor yr Hefiad, tywysog y wlad, a'i canfu hi, ac a'i cymmerth hi, ac a orweddodd gyd â hi, ac a'i treisiodd.

3 A'i enaid ef a lynodd wrth Dinah merch Jacob; ïe, efe a hoffodd y llangces, ac a ddywedodd wrth *fodd* calon y llangces.

4 Sichem hefyd a lefarodd wrth

Hemor ei dad, gan ddywedyd, Cymmer y llangces hon yn wraig i mi.
5 A Jacob a glybu *i Sichem* halogi Dinah ei ferch: (a'i feibion ef oedd gyd â'i anifeiliaid ef yn y maes); a Jacob a dawodd â sôn hyd oni ddaethant hwy *adref.*
6 ¶ A Hemor tad Sichem a aeth allan at Jacob, i ymddiddan âg ef.
7 A meibion Jacob a ddaethant o'r maes, wedi clywed o honynt; a'r gwŷr a ymofidiasant, a digiasant yn ddirfawr, oblegid gwneuthur *o Sichem* ffolineb yn Israel, gan orwedd gyd â merch Jacob; canys ni ddylesid gwneuthur felly.
8 A Hemor a ymddiddanodd â hwynt, gan ddywedyd, Glynu a wnaeth enaid Sichem fy mab i wrth eich merch chwi: rhoddwch hi, attolwg, yn wraig iddo ef.
9 Ac ymgyfathrechwch â ni; rhoddwch eich merched chwi i ni, a chymmerwch ein merched ni i chwithau.
10 A chwi a gewch breswylio gyd â ni, a'r wlad fydd o'ch blaen chwi: trigwch a negeseuwch ynddi, a cheisiwch feddiannau ynddi.
11 Sichem hefyd a ddywedodd wrth ei thad hi, ac wrth ei brodyr, Cafwyf ffafr yn eich golwg, a'r hyn a ddywedoch wrthyf a roddaf.
12 Gosodwch arnaf fi ddirfawr gynnysgaeth a rhodd, a mi a roddaf fel y dywedoch wrthyf: rhoddwch chwithau y llangces i mi yn wraig.
13 A meibion Jacob a attebasant Sichem, a Hemor ei dad ef, yn dwyllodrus, ac a ddywedasant, o herwydd iddo ef halogi Dinah eu chwaer hwynt;
14 Ac a ddywedasant wrthynt, Ni allwn wneuthur y peth hyn, gan roddi ein chwaer i ŵr dïenwaededig: oblegid gwarthrudd *yw* hynny i ni.
15 Ond yn hyn y cyttunwn â chwi: Os byddwch fel nyni, gan enwaedu pob gwrryw i chwi;
16 Yna y rhoddwn ein merched ni i chwi, ac y cymmerwn eich merched chwithau i ninnau, a ni a gyd-drigwn â chwi, a ni a fyddwn yn un bobl.
17 Ond oni wrandêwch arnom ni i'ch enwaedu; yna y cymmerwn ein merch, ac a awn ymaith.
18 A'u geiriau hwynt oedd dda y'ngolwg Hemor, ac y'ngolwg Sichem mab Hemor.
19 Ac nid oedodd y llangc wneuthur y peth, oblegid efe a roddasai serch ar ferch Jacob: ac yr oedd efe yn anrhydeddusach na holl dŷ ei dad.
20 ¶ A Hemor, a Sichem ei fab ef, a aethant i borth eu dinas, ac a lefarasant wrth eu dinasyddion, gan ddywedyd,
21 Y gwŷr hyn heddychol *ŷnt* hwy gyd â ni; trigant hwythau yn y wlad, a gwnant eu negesau *ynddi;* a'r wlad, wele, sydd ddigon eang iddynt hwy: cymmerwn eu merched hwynt i ni yn wragedd, a rhoddwn ein merched ninnau iddynt hwy.
22 Ond yn hyn y cyttuna y dynion â ni, i drigo gyd â ni, ar fod yn un bobl, os enwaedir pob gwrryw i ni, fel y maent hwy yn enwaededig.
23 Eu hanifeiliaid hwynt, a'u cyfoeth hwynt, a'u holl ysgrubliaid hwynt, onid eiddo ni *fyddant* hwy? yn unig cyttunwn â hwynt, a hwy a drigant gyd â ni.
24 Ac ar Hemor, ac ar Sichem ei fab ef, y gwrandawodd pawb a'r a oedd yn dyfod allan o borth ei ddinas ef: ac enwaedwyd pob gwrryw, *sef* y rhai oll oedd yn dyfod allan o borth ei ddinas ef.
25 ¶ A bu ar y trydydd dydd, pan oeddynt hwy yn ddolurus, gymmeryd o ddau o feibion Jacob, Simeon a Lefi, brodyr Dinah, bob un ei gleddyf, a dyfod ar y ddinas yn hyderus, a lladd pob gwrryw.
26 Lladdasant hefyd Hemor a Sichem ei fab â min y cleddyf; a chymmerasant Dinah o dŷ Sichem, ac a aethant allan.
27 Meibion Jacob a ddaethant ar y lladdedigion, ac a yspeiliasant y ddinas, am halogi o honynt eu chwaer hwynt.
28 Cymmerasant eu defaid hwynt, a'u gwartheg, a'u hasynod hwynt, a'r hyn *oedd* yn y ddinas, a'r hyn *oedd* yn y maes,
29 A'u holl gyfoeth hwynt; a'u holl rai bychain, a'u gwragedd, a gaethgludasant hwy; ac yspeiliasant yr hyn oll *oedd* yn y tai.
30 A Jacob a ddywedodd wrth

Simeon a Lefi, Trallodasoch fi, gan beri i mi fod yn ffiaidd gan bres-wylwyr y wlad, gan y Canaaneaid a'r Pheresiaid: a minnau yn ychydig o nifer, hwy a ymgasglant yn fy erbyn, a tharawant fi: felly y difethir fi, mi a'm tŷ.

31 Hwythau a attebasant, Ai megis puttain y gwnae efe ein chwaer ni?

PENNOD 35.

1 *Duw yn anfon Jacob i Bethel.* 2 *Mae efe yn glanhâu et dŷ o ddelwau;* 6 *yn adeiladu allor yn Bethel.* 8 *Deborah yn marw yn Alhon-bacuth.* 9 *Duw yn bendithio Jacob yn Bethel.* 16 *Rahel, wrth esgor ar Benjamin, yn marw ar y ffordd i Edar.* 22 *Reuben yn gorwedd gyd â Bilhah.* 23 *Meibion Jacob.* 27 *Jacob yn dyfod at Isaac i Hebron.* 28 *Oedran, marwolaeth, a chladdedigaeth Isaac.*

ADUW a ddywedodd wrth Jacob, Cyfod, esgyn i Bethel, a thrig yno; a gwna yno allor i DDUW, yr hwn a ymddangosodd i ti pan ffoaist o ŵydd Esau dy frawd.

2 Yna Jacob a ddywedodd wrth ei deulu, ac wrth y rhai oll *oedd* gyd âg ef, Bwriwch ymaith y duwiau dïeithr sydd yn eich plith chwi, ac ymlanhêwch, a newidiwch eich dillad;

3 A chyfodwn, ac esgynwn i Bethel: ac yno y gwnaf allor i DDUW, yr hwn a'm gwrandawodd yn nydd fy nghyfyngder, ac a fu gyd â myfi yn y ffordd a gerddais.

4 A hwy a roddasant at Jacob yr holl dduwiau dïeithr y rhai *oedd* yn eu llaw hwynt, a'r clust-dlysau *oedd* yn eu clustiau: a Jacob a'u cuddiodd hwynt dan y dderwen *oedd* yn ymyl Sichem.

5 A hwy a gychwynasant: ac ofn DUW *oedd* ar y dinasoedd y rhai *oedd* o'u hamgylch hwynt, ac nid erlidiasant ar ol meibion Jacob.

6 ¶ A Jacob a ddaeth i Lus, yng ngwlad Canaan, hon *yw* Bethel, efe a'r holl bobl y rhai *oedd* gyd âg ef;

7 Ac a adeiladodd yno allor, ac a enwodd y lle El-bethel, oblegid yno yr ymddangosasai DUW iddo ef, pan ffoisai efe o ŵydd ei frawd.

8 A marw a wnaeth Deborah mammaeth Rebeccah; a hi a gladdwyd îs law Bethel, dan dderwen: a galwyd enw honno Alhon-bacuth.

9 ¶ Hefyd DUW a ymddangosodd eilwaith i Jacob, pan ddaeth efe o Mesopotamia; ac a'i bendithiodd ef.

10 A DUW a ddywedodd wrtho, Dy enw di *yw* Jacob: ni elwir dy enw di Jacob mwy, ond Israel a fydd dy enw di: ac efe a alwodd ei enw ef Israel.

11 Hefyd DUW a ddywedodd wrtho, Myfi *yw* DUW Hollalluog: cynnydda, ac amlhâ; cenedl a chynnulleidfa cenhedloedd a fydd o honot ti; a brenhinoedd a ddaw allan o'th lwynau di.

12 A'r wlad yr hon a roddais i Abraham, ac i Isaac, a roddaf i ti, ac i'th had ar dy ol di y rhoddaf y wlad.

13 A DUW a esgynodd oddi wrtho ef, yn y fan lle y llefarasai efe wrtho.

14 A Jacob a osododd golofn yn y fan lle yr ymddiddanasai efe âg ef, *sef* colofn faen: ac efe a dywalltodd arni ddïod-offrwm, ac a dywalltodd olew arni.

15 A Jacob a alwodd enw y fan lle yr ymddiddanodd DUW âg ef, Bethel.

16 ¶ A hwy a aethant ymaith o Bethel; ac yr oedd etto megis milldir o dir i ddyfod i Ephrath: yno yr esgorodd Rahel, a bu galed *arni* wrth esgor.

17 A darfu, pan oedd galed *arni* wrth esgor, i'r fydwraig ddywedyd wrthi hi, Nac ofna; oblegid dyma hefyd i ti fab.

18 Darfu hefyd, wrth ymadael o'i henaid hi (oblegid marw a wnaeth hi), iddi alw ei enw ef Ben-oni: ond ei dad a'i henwodd ef Benjamin.

19 A Rahel a fu farw, ac a gladdwyd yn y ffordd i Ephrath; hon *yw* Bethlehem.

20 A Jacob a osododd golofn ar ei bedd hi: honno *yw* colofn bedd Rahel hyd heddyw.

21 Yna Israel a gerddodd, ac a ledodd ei babell o'r tu hwnt i Migdal-Edar.

22 A phan ydoedd Israel yn trigo yn y wlad honno, yna Reuben a aeth ac a orweddodd gyd â Bilhah gordderch-wraig ei dad; a chlybu Israel *hynny*. Yna meibion Jacob oeddynt ddeuddeg:

23 Meibion Leah; Reuben, cyntafanedig Jacob, a Simeon, a Lefi, a Judah, ac Issachar, a Sabulon.

24 Meibion Rahel; Joseph a Benjamin.

25 A meibion Bilhah, llaw-forwyn
Rahel; Dan a Naphtali.
26 A meibion Silpah, llaw-forwyn
Leah; Gad ac Aser. Dyma feib-
ion Jacob, y rhai a anwyd iddo ym
Mesopotamia.
27 ¶ A Jacob a ddaeth at Isaac ei
dad i Mamre, i Gaer-Arba, hon *yw*
Hebron, lle yr ymdeithiasai Abra-
ham ac Isaac.
28 A dyddiau Isaac *oedd* gan mlyn-
edd a phedwar ugain mlynedd.
29 Ac Isaac a drengodd, ac a
fu farw, ac a gasglwyd at ei bobl,
yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau:
a'i feibion, Esau a Jacob, a'i cladd-
asant ef.

PENNOD 36.

2 Tair gwraig Esau. 6 Ei symmudiad ef i fynydd Seir. 9 Ei feibion. 15 Y duciaid a ddaethant o'i feibion ef. 20 Meibion a duciaid Seir. 24 Anah ym cael mulod. 31 Brenhinoedd Edom. 40 Y duciaid a ddaethant o Esau.

A DYMA genhedlaethau Esau: efe
yw Edom.
2 Esau a gymmerth ei wragedd o
ferched Canaan; Adah, merch Elon
yr Hethiad, ac Aholibamah, merch
Anah, merch Sibeon yr Hefiad;
3 Basemath hefyd, merch Ismael,
chwaer Nebaioth.
4 Ac Adah a ymddûg Eliphas i
Esau: a Basemath a esgorodd ar
Reuel.
5 Aholibamah hefyd a esgorodd
ar Jeus, a Jalam, a Chorah: dyma
feibion Esau, y rhai a anwyd iddo
y'ngwlad Canaan.
6 Ac Esau a gymmerodd ei wrag-
edd, a'i feibion, a'i ferched, a holl
ddynion ei dŷ, a'i anifeiliaid, a'i
holl ysgrubliaid, a'i holl gyfoeth a
gasglasai efe y'ngwlad Canaan; ac
a aeth ymaith i'r wlad, o ŵydd ei
frawd Jacob.
7 Oblegid eu cyfoeth hwynt oedd
fwy nag y gellynt gyd-drigo: ac nis
gallai gwlad eu hymdaith eu cyn-
nwys hwynt, gan eu hanifeiliaid.
8 Felly y trigodd Esau ym myn-
ydd Seir: Esau *yw* Edom.
9 ¶ A dyma genhedlaethau Esau
tad yr Edomiaid ym mynydd Seir.
10 Dyma enwau meibion Esau:
Eliphas, mab Adah gwraig Esau;
Reuel, mab Basemath gwraig Esau.
11 A meibion Eliphas oedd Teman,
Omar, Sepho, a Gatam, a Chenas.
12 A Thimna oedd ordderch-wraig
i Eliphas, mab Esau, ac a esgorodd
Amalec i Eliphas: dyma feibion
Adah gwraig Esau.
13 A dyma feibion Reuel; Nahath
a Serah, Sammah a Missah: y rhai
hyn oedd feibion Basemath gwraig
Esau.
14 ¶ Hefyd y rhai hyn oedd feibion
Aholibamah merch Anah, merch
Sibeon gwraig Esau: a hi a ymddûg
i Esau, Jeus, a Jalam, a Chorah.
15 ¶ Dyma dduciaid o feibion
Esau; meibion Eliphas cyntaf-
anedig Esau, duc Teman, duc
Omar, duc Sepho, duc Cenas,
16 Duc Corah, duc Gatam, duc
Amalec: dyma y duciaid o Eli-
phas, y'ngwlad Edom: dyma feibion
Adah.
17 ¶ A dyma feibion Reuel mab
Esau; duc Nahath, duc Serah, duc
Sammah, duc Missah: dyma y duc-
iaid o Reuel, y'ngwlad Edom: dyma
feibion Basemath gwraig Esau.
18 ¶ Dyma hefyd feibion Aholiba-
mah gwraig Esau: duc Jeus, duc
Jalam, duc Corah; dyma y duciaid
o Aholibamah, merch Anah, gwraig
Esau.
19 Dyma feibion Esau (hwn yw
Edom), a dyma eu duciaid hwynt.
20 ¶ Dyma feibion Seir yr Hor-
iad, cyfanneddwyr y wlad; Lotan,
a Sobal, a Sibeon, ac Anah,
21 A Dison, ac Eser, a Disan: a
dyma dduciaid yr Horiaid, meibion
Seir, y'ngwlad Edom.
22 A meibion Lotan oedd Hori,
a Hemam: a chwaer Lotan *oedd*
Timna.
23 A dyma feibion Sobal; Alfan,
a Manahath, ac Ebal, Sepho, ac
Onam.
24 A dyma feibion Sibeon; Aiah
ac Anah: hwn *yw* Anah a gafodd
y mulod yn yr anialwch wrth borthi
asynod Sibeon ei dad.
25 A dyma feibion Anah; Dison
ac Aholibamah merch Anah.
26 Dyma hefyd feibion Dison;
Hemdan, ac Esban, ac Ithran, a
Cheran.
27 Dyma feibion Eser; Bilhan, a
Saafan, ac Acan.
28 Dyma feibion Disan; Us ac
Aran.

29 Dyma dduciaid yr Horiaid; duc Lotan, duc Sobal, duc Sibeon, duc Anah,
30 Duc Dison, duc Eser, duc Disan. Dyma dduciaid yr Horiaid, ym mhlith eu duciaid y'ngwlad Seir.
31 ¶ Dyma hefyd y brenhinoedd a deyrnasasant y'ngwlad Edom, cyn teyrnasu brenhin ar feibion Israel.
32 A Bela, mab Beor, a deyrnasodd yn Edom: ac enw ei ddinas ef *oedd* Dinhabah.
33 A Bela a fu farw; a Jobab, mab Serah o Bosrah, a deyrnasodd yn ei le ef.
34 Jobab hefyd a fu farw; a Husam, o wlad Temani, a deyrnasodd yn ei le ef.
35 A bu Husam farw; a Hadad, mab Bedad, yr hwn a darawodd Midian ym maes Moab, a deyrnasodd yn ei le ef: ac enw ei ddinas ef *oedd* Afith.
36 Marw hefyd a wnaeth Hadad; a Samlah, o Masrecah, a deyrnasodd yn ei le ef.
37 A bu Samlah farw; a Saul, o Rehoboth *wrth* yr afon, a deyrnasodd yn ei le ef.
38 A bu Saul farw; a Baalhanan, mab Achbor, a deyrnasodd yn ei le ef.
39 A bu Baalhanan, mab Achbor, farw; a Hadar a deyrnasodd yn ei le ef: ac enw ei ddinas ef *oedd* Pau; ac enw ei wraig Mehetabel, merch Matred, merch Mesahab.
40 A dyma enwau y duciaid o Esau, yn ol eu teuluoedd, wrth eu trigleoedd, erbyn eu henwau; duc Timna, duc Alfah, duc Jetheth,
41 Duc Aholibamah, duc Elah, duc Pinon,
42 Duc Cenas, duc Teman, duc Mibsar,
43 Duc Magdiel, duc Iram. Dyma y duciaid o Edom, yn ol eu preswylfeydd, y'ngwlad eu perchennogaeth: dyma Esau, tad yr Edomiaid.

PENNOD 37.

2 Joseph yn cael ei gasâu gan ei frodyr. 5 Ei ddau freuddwyd ef. 13 Jacob yn ei anfon ef i ymweled â'i frodyr. 18 Hwythau yn cydfuriadu et ladd ef. 21 Reuben yn ei achub ef. 26 Hwynt yn ei werthu ef i'r Ismaeliaid. 31 Ei dad, wedi ei siommi trwy y siacced waedlyd, yn galaru am dano ef. 36 Ei werthu ef i Putiphar yn yr Aipht.

A THRIGODD Jacob y'ngwlad ymdaith ei dad, y'ngwlad Canaan.
2 Dyma genhedlaethau Jacob. Joseph, yn fab dwy flwydd ar bymtheg, oedd fugail gyd â'i frodyr ar y praidd: a'r llangc oedd gyd â meibion Bilhah, a chyd â meibion Silpah, gwragedd ei dad; a Joseph a ddygodd eu drygair hwynt at eu tad.
3 Ac Israel oedd hoffach ganddo Joseph na'i holl feibion, oblegid efe oedd fab ei henaint ef: ac efe a wnaeth siacced fraith iddo ef.
4 A phan welodd ei frodyr fod eu tad yn ei garu ef yn fwy na'i holl frodyr, hwy a'i casasant ef, ac ni fedrent ymddiddan *âg* ef yn heddychol.
5 ¶ A Joseph a freuddwydiodd freuddwyd, ac a'i mynegodd i'w frodyr: a hwy a'i casasant ef etto yn ychwaneg.
6 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Gwrandêwch, attolwg, y breuddwyd hwn a freuddwydiais i.
7 Ac wele, rhwymo ysgubau yr oeddym ni y'nghanol y maes; ac wele, fy ysgub i a gyfododd, ac a safodd hefyd; ac wele, eich ysgubau chwi a safasant o amgylch, ac a ymgrymmasant i'm hysgub i.
8 A'i frodyr a ddywedasant wrtho, Ai gan deyrnasu y teyrnesi arnom ni? ai gan arglwyddiaethu yr arglwyddiaethi arnom ni? A hwy a chwanegasant etto ei gasâu ef, oblegid ei freuddwydion, ac oblegid ei eiriau.
9 ¶ Hefyd efe a freuddwydiodd etto freuddwyd arall, ac a'i mynegodd i'w frodyr, ac a ddywedodd, Wele, breuddwydiais freuddwyd etto; ac wele, yr haul, a'r lleuad, a'r um seren ar ddeg, yn ymgrymmu i mi.
10 Ac efe a'i mynegodd i'w dad, ac i'w frodyr. A'i dad a feiodd arno, ac a ddywedodd wrtho, Pa freuddwyd yw hwn a freuddwydiaist ti? Ai gan ddyfod y deuwn ni, mi, a'th fam, a'th frodyr, i ymgrymmu i lawr i ti?
11 A'i frodyr a genfigennasant wrtho ef; ond ei dad a ddaliodd ar y peth.

12 ¶ A'i frodyr a aethant i fugeilia
praidd eu tad, yn Sichem.
13 Ac Israel a ddywedodd wrth Jo-
seph, Onid *yw* dy frodyr yn bugeilio
yn Sichem? Tyred, a mi a'th anfon-
af attynt. Yntau a ddywedodd
wrtho, Wele fi.
14 A dywedodd wrtho, Dos weith-
ian, edrych *pa* lwyddiant *sydd* i'th
frodyr, a *pha* lwyddiant *sydd* i'r
praidd; a dwg eilchwyl air i mi.
Felly efe a'i hanfonodd ef o ddyffryn
Hebron; ac efe a ddaeth i Sichem.
15 ¶ A chyfarfu gŵr âg ef; ac wele
efe yn crwydro yn y maes: a'r gŵr
a ymofynodd *âg* ef, gan ddywedyd,
Pa beth yr wyt ti yn ei geisio?
16 Yntau a ddywedodd, Ceisio fy
mrodyr yr ydwyf fi; mynega, attol-
wg, i mi, pa le y maent hwy yn
bugeilio?
17 A'r gŵr a ddywedodd, Hwy a
aethant oddi yma; oblegid mi a'u
clywais hwy yn dywedyd, Awn i
Dothan. A Joseph a aeth ar ol ei
frodyr, ac a'u cafodd hwynt yn
Dothan.
18 Hwythau a'i canfuant ef o bell;
a chyn ei ddynesu ef attynt, hwy a
gyd-fwriadasant *yn* ei *erbyn* ef, i'w
ladd ef.
19 A dywedasant wrth eu gilydd,
Wele y breuddwydiwr yn dyfod.
20 Deuwch gan hynny yn awr, a
lladdwn ef, a thaflwn ef yn un o'r
pydewau; a dywedwn, Bwystfil
drwg a'i bwyttaodd ef: yna y cawn
weled beth a ddaw o'i freuddwydion
ef.
21 A Reuben a glybu, ac a'i ha-
chubodd ef o'u llaw hwynt; ac a
ddywedodd, Na laddwn ef.
22 Reuben a ddywedodd hefyd
wrthynt, Na thywelltwch waed;
bwriwch ef i'r pydew hwn *sydd* yn
yr anialwch, ac nac estynwch law
arno: fel yr achubai ef o'u llaw
hwynt, i'w ddwyn eilwaith at ei dad.
23 ¶ A bu, pan ddaeth Joseph at
ei frodyr, iddynt ddïosg ei siacced
oddi am Joseph, *sef* y siacced fraith
ydoedd am dano ef.
24 A chymmerasant ef, a thaflas-
ant i bydew: a'r pydew *oedd* wag
heb ddwfr ynddo.
25 A hwy a eisteddasant i fwytta
bwyd; ac a ddyrchafasant eu llyg-
aid, ac a edrychasant, ac wele fintai
o Ismaeliaid yn dyfod o Gilead, yn
myned i waered i'r Aipht, a'u camel-
od yn dwyn llysiau, a balm, a myr.
26 A dywedodd Judah wrth ei
frodyr, Pa lesâd a *fydd* os lladdwn
ein brawd, a chelu ei waed ef?
27 Deuwch, a gwerthwn ef i'r Is-
maeliaid, ac na fydded ein llaw ni
arno ef; oblegid ein brawd ni a'n
cnawd ydyw efe. A'i frodyr a
gyttunasant.
28 A phan ddaeth y marchnadwyr
o Midian heibio, y tynnasant ac y
cyfodasant Joseph i fyny o'r pydew,
ac a werthasant Joseph i'r Ismael-
iaid er ugain *darn* o arian: hwy-
thau a ddygasant Joseph i'r Aipht.
29 ¶ A Reuben a ddaeth eilwaith
at y pydew; ac wele nid *ydoedd*
Joseph yn y pydew: ac yntau a
rwygodd ei ddillad;
30 Ac a ddychwelodd at ei frodyr,
ac a ddywedodd, Y llangc nid yw
accw; a minnau, i ba le yr âf fi?
31 A hwy a gymmerasant siacced
Joseph, ac a laddasant fyn gafr, ac
a drochasant y siacced yn y gwaed.
32 Ac a anfonasant y siacced fraith,
ac a'i dygasant at eu tad, ac a ddy-
wedasant, Hon a gawsom: myn
wybod yn awr, ai siacced dy fab
yw hi, ai nad ê.
33 Yntau a'i hadnabu hi, ac a ddy-
wedodd, Siacced fy mab *yw hi;*
bwystfil drwg a'i bwyttaodd ef:
gan larpio y llarpiwyd Joseph.
34 A Jacob a rwygodd ei ddillad,
ac a osododd sachlen am ei lwynau,
ac a alarodd am ei fab ddyddiau
lawer.
35 A'i holl feibion, a'i holl ferched,
a godasant i'w gysuro ef; ond efe
a wrthododd gymmeryd cysur, ac a
ddywedodd, Yn ddïau disgynaf yn
alarus at fy mab i'r beddrod: a'i
dad a wylodd *am dano* ef.
36 A'r Midianiaid a'i gwerthas-
ant ef i'r Aipht, i Putiphar tywys-
og Pharaoh, *a'r* distain.

PENNOD 38.

1 *Judah yn cenhedlu Er, Onan, a Selah.* 6 *Er yn priodi Tamar.* 8 *Camcedd Onan.* 11 *Tamar yn aros am Selah;* 16 *yn siommi Judah,* 27 *ac yn dwyn gefelliaid, Phares a Serah.*

AC yn y cyfamser hwnnw, y darfu
i Judah fyned i waered oddi

wrth ei frodyr, a throi at ŵr o Adùlam, a'i enw Hirah.
2 Ac yno y canfu Judah ferch gŵr o Ganaan, a'i enw ef *oedd* Suah; ac a'i cymmerodd hi, ac a aeth atti hi.
3 A hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar fab; ac efe a alwodd ei enw ef Er.
4 A hi a feichiogodd eilwaith, ac a esgorodd ar fab; a hi a àlwodd ei enw ef Onan.
5 A thrachefn hi a esgorodd ar fab, ac a alwodd ei enw ef Selah. Ac yn Chesib yr oedd efe pan esgorodd hi ar hwn.
6 A Judah a gymmerth wraig i Er ei gyntaf-anedig, a'i henw Tamar.
7 Ac yr oedd Er, cyntaf-anedig Judah, yn ddrygionus y'ngolwg yr ARGLWYDD; a'r ARGLWYDD a'i lladdodd ef.
8 A Judah a ddywedodd wrth Onan, Dos at wraig dy frawd, a phrïoda hi, a chyfod had i'th frawd.
9 Ac Onan a wybu nad iddo ei hun y byddai yr had: a phan elai efe at wraig ei frawd, yna y collai efe ei *had* ar y llawr, rhag rhoddi o hono had i'w frawd.
10 A drygionus oedd yr hyn a wnaethai efe y'ngolwg yr ARGLWYDD: am hynny efe a'i lladdodd yntau.
11 Yna Judah a ddywedodd wrth Tamar ei waudd, Trig yn weddw *yn* nhŷ dy dad, hyd oni chynnyddo fy mab Selah: (oblegid efe a ddywedodd, Rhag ei farw yntau fel ei frodyr.) A Thamar a aeth, ac a drigodd *yn* nhŷ ei thad.
12 ¶ Ac wedi llawer o ddyddiau, marw a wnaeth merch Suah, gwraig Judah: a Judah a gymmerth gysur, ac a aeth i fyny i Timnath, at gneifwyr ei ddefaid, efe a'i gyfaill Hirah yr Adùlamiad.
13 Mynegwyd hefyd i Tamar, gan ddywedyd, Wele, dy chwegrwn yn myned i fyny i Timnath, i gneifio ei ddefaid.
14 Hithau a ddïosgodd ddillad ei gweddwdod oddi am dani, ac a'i cuddiodd ei hun â gorchudd, ac a ymwisgodd, ac a eisteddodd yn nrws Enaim, yr hwn *sydd* ar y ffordd i Timnath: oblegid gweled yr oedd hi fyned Selah yn fawr, ac na roddasid hi yn wraig iddo ef.
15 A Judah a'i canfu hi, ac a dybiodd mai puttain ydoedd hi; oblegid gorchuddio o honi ei hwyneb.
16 Ac efe a drodd atti hi i'r ffordd, ac a ddywedodd, Tyred, attolwg, gâd i mi ddyfod attat: (oblegid nid oedd efe yn gwybod mai ei waudd ef *ydoedd* hi.) Hithau a ddywedodd, Beth a roddi i mi, os cai ddyfod attaf?
17 Yntau a ddywedodd, Mi a hebryngaf fyn gafr o *blith* y praidd. Hithau a ddywedodd, A roddi di wystl hyd oni hebryngech?
18 Yntau a ddywedodd, Pa wystl a roddaf i ti? Hithau a ddywedodd, Dy sêl, a'th freichledau, a'th ffon *sydd* yn dy law. Ac efe a'u rhoddes iddi, ac a aeth atti; a hi a feichiogodd o hono ef.
19 Yna y cyfododd hi, ac a aeth ymaith, ac a ddïosgodd ei gorchudd oddi am dani, ac a wisgodd ddillad ei gweddwdod.
20 A Judah a hebryngodd fyn gafr yn llaw yr Adùlamiad ei gyfaill, i gymmeryd y gwystl o law y wraig: ond ni chafodd *hwnnw* hi.
21 Ac efe a ymofynodd â gwŷr y fro honno, gan ddywedyd, Pa le *y mae* y buttain honno a ydoedd yn Enaim wrth y ffordd? A hwythau a ddywedasant, Nid oedd yma *un* buttain.
22 Ac efe a ddychwelodd at Judah ac a ddywedodd, Ni chefais hi; a gwŷr y fro honno hefyd a ddywedasant, Nid oedd yma *un* buttain.
23 A Judah a ddywedodd, Cymmered iddi hi, rhag i ni gael cywilydd: wele, mi a hebryngais y myn hwn, a thithau ni chefaist hi.
24 ¶ Ac ynghylch pen tri mis y mynegwyd i Judah, gan ddywedyd, Tamar dy waudd di a butteiniodd; ac wele, hi a feichiogodd hefyd mewn godineb. A dywedodd Judah, Dygwch hi allan, a llosger hi.
25 Yna hi, pan ddygwyd hi allan, a anfonodd at ei chwegrwn, gan ddywedyd, O'r gŵr bïau y rhai hyn yr ydwyf fi yn feichiog: hefyd hi a ddywedodd, Adnebydd, attolwg, eiddo pwy *yw* y sêl, a'r breichledau, a'r ffon yma.
26 A Judah a adnabu *y pethau hynny*, ac a ddywedodd, Cyfiawnach yw hi na myfi; o herwydd na rodd-

ais hi i'm mab Selah: ac ni bu iddo
ef a wnaeth â hi mwy.
27 ¶ Ac yn amser ei hesgoredigaeth
hi, wele efelliaid yn ei chroth hi.
28 Bu hefyd pan esgorodd hi, i *un*
roddi *allan ei* law: a'r fydwraig a
gymmerth ac a rwymodd am ei law
ef *edau* goch, gan ddywedyd, Hwn
a ddaeth yn gyntaf allan.
29 A phan dynnodd efe ei law yn
ei hol, yna wele, ei frawd ef a ddaeth
allan: a hithau a ddywedodd, Pa
fodd y torraist allan? bid y torriad
hwn arnat ti; am hynny y galwyd
ei enw ef Phares.
30 Ac wedi hynny ei frawd ef a
ddaeth allan, yr hwn *yr oedd yr edau*
goch am ei law: a galwyd ei enw ef
Serah.

PENNOD 39.

1 Codiad Joseph yn nhŷ Putiphar. 7 Ei feistres yn ei demtio ef, ac yntau yn ei gwrthwynebu hi. 13 Achwyn arno ef ar gam. 19 Ei fwrw ef y'ngharchar; 21 a Duw gyd âg ef yno.

A JOSEPH a ddygwyd i waered i'r
Aipht: a Putiphar yr Aiphtwr,
tywysog Pharaoh *a'i* ddistain, a'i
prynodd ef o law yr Ismaeliaid, y
rhai a'i dygasant ef i waered yno.
2 Ac yr oedd yr ARGLWYDD gyd
â Joseph, ac efe oedd ŵr llwydd-
iannus: ac yr oedd efe yn nhŷ ei
feistr yr Aiphtiad.
3 A'i feistr a welodd fod yr AR-
GLWYDD gyd âg ef, a bod yr AR-
GLWYDD yn llwyddo yn ei law ef yr
hyn oll a wnelai efe.
4 A Joseph a gafodd ffafr yn ei
olwg ef, ac a'i gwasanaethodd ef:
yntau a'i gwnaeth ef yn olygwr ar
ei dŷ, ac a roddes *yr hyn* oll oedd
eiddo dan ei law ef.
5 Ac er pan wnaethai efe ef yn olyg-
wr ar ei dŷ, ac ar yr hyn oll *oedd*
eiddo, bu i'r ARGLWYDD fendithio
tŷ yr Aiphtiad, er mwyn Joseph:
ac yr oedd bendith yr ARGLWYDD
ar yr hyn oll oedd eiddo ef, yn y tŷ,
ac yn y maes.
6 Ac efe a adawodd yr hyn oll
oedd ganddo dan law Joseph; ac ni
wyddai oddi wrth ddim a'r *a oedd*
gyd âg ef, oddi eithr y bwyd yr oedd
efe yn ei fwytta: Joseph hefyd oedd
dêg o bryd, a glân yr olwg.
7 ¶ A darfu wedi y pethau hynny,
i wraig ei feistr ef ddyrchafu ei go-
lwg ar Joseph, a dywedyd, Gorwedd
gyd â mi.
8 Yntau a wrthododd, ac a ddy-
wedodd wrth wraig ei feistr, Wele,
fy meistr ni ŵyr pa beth *sydd* gyd â
mi yn y tŷ; rhoddes hefyd yr hyn
oll *sydd* eiddo dan fy llaw i.
9 Nid oes *neb* fwy yn y tŷ hwn na
myfi; ac ni waharddodd efe ddim
rhagof onid tydi; oblegid ei wraig
ef *wyt* ti: pa fodd, gan hynny, y
gallaf wneuthur y mawr-ddrwg hwn,
a phechu yn erbyn DUW!
10 A bu, fel yr oedd hi yn dywedyd
wrth Joseph beunydd, ac yntau heb
wrandaw arni hi, i orwedd yn ei
hymyl hi, neu i fod gyd â hi.
11 A bu, ynghylch yr amser hwnnw,
i Joseph ddyfod i'r tŷ, i wneuthur
ei orchwyl; ac nid *oedd* yr un o
ddynion y tŷ yno yn tŷ.
12 Hithau a'i daliodd ef erbyn ei
wisg, gan ddywedyd, Gorwedd gyd
â mi. Yntau a adawodd ei wisg yn
ei llaw hi, ac a ffodd, ac a aeth
allan.
13 A phan welodd hi adael o hono
ef ei wisg yn ei llaw hi, a ffoi o hono
allan;
14 Yna hi a alwodd ar ddynion ei
thŷ, ac a draethodd wrthynt, gan
ddywedyd, Gwelwch, efe a ddug i ni
Hebrëwr i'n gwaradwyddo: daeth
attaf fi i orwedd gyd â myfi; min-
nau a waeddais â llef uchel;
15 A phan glywodd efe ddyrchafu
o honof fi fy llef, a gweiddi; yna efe
a adawodd ei wisg yn fy ymyl i, ac
a ffodd, ac a aeth allan.
16 A hi a osododd ei wisg ef yn ei
hymyl, hyd oni ddaeth ei feistr ef
adref.
17 A hi a lefarodd wrtho yn y
modd hwn, gan ddywedyd, Yr He-
brëwas, yr hwn a ddygaist i ni, a
ddaeth attaf i'm gwaradwyddo;
18 Ond pan ddyrchefais fy llef, a
gweiddi, yna efe a adawodd ei wisg
yn fy ymyl, ac a ffodd allan.
19 A phan glybu ei feistr ef eiriau
ei wraig, y rhai a lefarodd hi wrtho
ef, gan ddywedyd, Yn y modd hwn
y gwnaeth dy was di i mi; yna yr
ennynodd ei lid ef.
20 A meistr Joseph a'i cymmerth
ef, ac a'i rhoddes yn y carchardy,
yn y lle yr oedd carcharorion y

brenhin yn rhwym. Ac yno y bu efe yn y carchardy.

21 ¶ Ond yr ARGLWYDD oedd gyd â Joseph, ac a ddangosodd iddo ef drugaredd, ac a roddes ffafr iddo y'ngolwg pennaeth y carchardy.

22 A phennaeth y carchardy a roddes dan law Joseph yr holl garcharorion y rhai *oedd* yn y carchardy; a pha beth bynnag a wnaent yno, efe oedd yn ei wneuthur.

23 Nid *oedd* pennaeth y carchardy yn edrych am ddim oll *a'r a oedd* dan ei law ef, am *fod* yr ARGLWYDD gyd âg ef; a'r hyn a wnai efe, yr ARGLWYDD a'i llwyddai.

PENNOD 40.

1 *Bwtler a phobydd Pharaoh y'ngharchar,* 4 *dan siars Joseph.* 5 *Efe yn dehongli eu breuddwydion hwy;* 20 *a'r rhai hynny yn dyfod i ben yn ol ei ddehongliad ef.* 23 *Anniolchgarwch y bwtler.*

ADARFU wedi y pethau hynny, i drulliad brenhin yr Aipht, a'r pobydd, bechu yn erbyn eu harglwydd, brenhin yr Aipht.

2 A Pharaoh a lidiodd wrth ei ddau swyddwr, *sef* wrth y pen-trulliad, a'r pen-pobydd:

3 Ac a'u rhoddes hwynt mewn dalfa, yn nhŷ y distain, *sef* yn y carchardy, y lle yr oedd Joseph yn rhwym.

4 A'r distain a wnaeth Joseph yn olygwr arnynt hwy; ac efe a'u gwasanaethodd hwynt: a buont mewn dalfa dros amser.

5 ¶ A breuddwydiasant freuddwyd ill dau, pob un ei freuddwyd ei hun yn yr un nos, pob un ar ol dehongliad ei freuddwyd ei hun, trulliad a phobydd brenhin yr Aipht, y rhai oedd yn rhwym yn y carchardy.

6 A'r bore y daeth Joseph attynt, ac a edrychodd arnynt; ac wele hwynt yn athrist.

7 Ac efe a ymofynodd â swyddwyr Pharaoh, y rhai *oedd* gyd âg ef mewn dalfa *yn* nhŷ ei arglwydd, gan ddywedyd, Paham *y mae* eich wynebau yn ddrwg heddyw?

8 A dywedasant wrtho, Breuddwydiasom freuddwyd, ac nid *oes* a'i dehonglo. A Joseph a ddywedodd wrthynt, Onid i DDUW *y perthyn* dehongli? mynegwch, attolwg, i mi.

9 A'r pen-trulliad a fynegodd ei freuddwyd i Joseph; ac a ddywedodd wrtho, Yn fy mreuddwyd *yr oeddwn*, ac wele winwydden o'm blaen;

10 Ac yn y winwydden *yr oedd* tair caingc: ac *yr oedd* hi megis yn blaen-darddu; ei blodeuyn a dorrasai allan, ei grawn-sypiau hi a ddug rawnwin addfed.

11 Hefyd *yr oedd* cwppan Pharaoh yn fy llaw: a chymmerais y grawnwin, a gwesgais hwynt i gwppan Pharaoh; a rhoddais y cwppan yn llaw Pharaoh.

12 A Joseph a ddywedodd wrtho, Dyma ei ddehongliad ef. Tri diwrnod yw y tair caingc.

13 O fewn tri diwrnod etto Pharaoh a ddyrchafa dy ben di, ac a'th rydd di eilwaith yn dy le; a rhoddi gwppan Pharaoh yn ei law ef, fel y buost arferol yn y cyntaf, pan oeddyt drulliad iddo.

14 Etto cofia fi gyd â thi, pan fo daioni i ti, a gwna, attolwg, â mi drugaredd, a chofia fi wrth Pharaoh, a dwg fi allan o'r tŷ hwn:

15 Oblegid yn lladrad y'm lladrattäwyd o wlad yr Hebreaid; ac yma hefyd ni wneuthum ddim, fel y bwrient fi y'ngharchar.

16 Pan welodd y pen-pobydd mai da oedd y dehongliad, efe a ddywedodd wrth Joseph, Minnau hefyd *oeddwn* yn fy mreuddwyd; ac wele, dri chawell rhwyd-dyllog ar fy mhen.

17 Ac yn y cawell uchaf *yr oedd* peth o bob bwyd Pharaoh o waith pobydd; a'r ehediaid yn eu bwytta hwynt o'r cawell oddi ar fy mhen.

18 A Joseph a attebodd ac a ddywedodd, Dyma ei ddehongliad ef. Tri diwrnod yw y tri chawell.

19 O fewn tri diwrnod etto y cymmer Pharaoh dy ben di oddi arnat, ac a'th groga di ar bren; a'r ehediaid a fwyttänt dy gnawd di oddi am danat.

20 ¶ Ac ar y trydydd dydd yr oedd dydd genedigaeth Pharaoh: ac efe a wnaeth wledd i'w holl weision: ac efe a ddyrchafodd ben y pen-trulliad, a'r pen-pobydd ym mysg ei weision.

21 Ac a osododd y pen-trulliad eilwaith yn ei swydd; ac yntau a roddes y cwppan i law Pharaoh.

22 A'r pen-pobydd a grogodd efe; fel y dehonglasai Joseph iddynt hwy.

23 Ond y pen-trulliad ni chofiodd Joseph, eithr anghofiodd ef.

PENNOD 41.

1 *Dau freuddwyd Pharaoh.* 25 *Joseph yn eu dehongli hwy:* 33 *yn rhoddi cynghor i Pharaoh.* 38 *Codiad Joseph.* 50 *Mae efe yn cenhedlu Manasseh ac Ephraim.* 54 *Y newyn yn dechreu.*

YNA ym mhen dwy flynedd lawn, y bu i Pharaoh freuddwydio; ac wele efe yn sefyll wrth yr afon.

2 Ac wele, yn esgyn o'r afon, saith o wartheg teg yr olwg, a thewion o gig; ac mewn gweirglodd-dir y porent.

3 Wele hefyd, saith o wartheg eraill yn esgyn ar eu hol hwynt o'r afon, yn ddrwg yr olwg, ac yn gulion o gig; a hwy a safasant yn ymyl y gwartheg *eraill*, ar lan yr afon.

4 A'r gwartheg drwg yr olwg, a chulion o gig, a fwyttasant y saith gwartheg teg yr olwg, a breision. Yna y dihunodd Pharaoh.

5 Ac efe a gysgodd, ac a freuddwydiodd eilwaith: ac wele, saith o dywysennau yn tyfu ar un gorsen, o *rai* breisgion a da.

6 Wele hefyd, saith o dywysennau teneuon, ac wedi deifio gan wynt y dwyrain, yn tarddu allan ar eu hol hwynt.

7 A'r tywysennau teneuon a lyngcasant y saith dywysen fraisg a llawn. A deffrôdd Pharaoh; ac wele breuddwyd *oedd*.

8 A'r bore y bu i'w yspryd ef gynhyrfu; ac efe a anfonodd, ac a alwodd am holl ddewiniaid yr Aipht a'i holl ddoethion hi: a Pharaoh a fynegodd iddynt hwy ei freuddwydion; ond nid *oedd* a'u dehonglai hwynt i Pharaoh.

9 ¶ Yna y llefarodd y pen-trulliad wrth Pharaoh, gan ddywedyd, Yr wyf fi yn cofio fy meiau heddyw.

10 Llidio a wnaethai Pharaoh wrth ei weision; ac efe a'm rhoddes mewn carchar *yn* nhŷ y distain, myfi a'r pen-pobydd.

11 A ni a freuddwydiasom freuddwyd yn yr un nos, mi ac efe: breuddwydiasom bob un ar ol dehongliad ei freuddwyd.

12 Ac *yr oedd* yno gyd â nyni fab ieuange o Hebread, gwas i'r distain; a ni a fynegasom iddo ef: yntau a ddehonglodd i ni ein breuddwydion; i bob un yn ol ei freuddwyd y dehonglodd efe.

13 A darfu, fel y dehonglodd i ni, felly y bu: rhodd fi eilwaith i'm swydd; ac yntau a grogodd efe.

14 ¶ Pharaoh, gan hynny, a anfonodd ac a alwodd am Joseph: hwythau ar redeg a'i cyrchasant ef o'r carchar: yntau a eilliodd *ei wallt*, ac a newidiodd ei ddillad, ac a ddaeth at Pharaoh.

15 A Pharaoh a ddywedodd wrth Joseph, Breuddwydiais freuddwyd, ac nid *oes* a'i dehonglo: a myfi a glywais ddywedyd am danat ti, y medri ddeall breuddwyd i'w ddehongli.

16 A Joseph a attebodd Pharaoh, gan ddywedyd, Nid myfi; DUW a ettyb lwyddiant i Pharaoh.

17 A Pharaoh a ddywedodd wrth Joseph, Wele fi yn fy mreuddwyd yn sefyll ar fin yr afon.

18 Ac wele yn esgyn o'r afon saith o wartheg tewion o gig, a theg yr olwg; ac mewn gweirglodd-dir y porent.

19 Wele hefyd saith o wartheg eraill yn esgyn ar eu hol hwynt, truain, a drwg iawn yr olwg, ac yn gulion o gig: ni welais rai cynddrwg a hwynt yn holl dir yr Aipht.

20 A'r gwartheg culion a drwg a fwyttasant y saith muwch tewion cyntaf.

21 Ac er eu myned i'w boliau, ni wyddid iddynt fyned i'w boliau; ond yr olwg arnynt oedd ddrwg, megis yn y dechreuad. Yna mi a ddeffroais.

22 Gwelais hefyd yn fy mreuddwyd, ac wele saith dywysen lawn a theg yn cyfodi o'r un gorsen.

23 Ac wele saith o dywys mân, teneuon, wedi deifio *gan* ddwyreinwynt, yn tyfu ar eu hol hwynt.

24 A'r tywysennau teneuon a lyngcasant y saith dywysen dda; a mi a ddywedais *hyn* wrth y dewiniaid; ond nid oedd a'i dehonglai i mi.

25 ¶ A dywedodd Joseph wrth Pharaoh, Breuddwyd Pharaoh sydd un: yr hyn y mae DUW yn ei wneuthur a fynegodd efe i Pharaoh.

26 Y saith o wartheg teg, saith mlynedd ydynt; a'r saith dywysen deg, saith mlynedd ydynt: y breuddwyd un *yw.*
27 Hefyd y saith muwch culion a drwg, y rhai *oedd* yn esgyn ar eu hol hwynt, saith mlynedd *ydynt;* a'r saith dywysen wag wedi deifio *gan* y dwyreinwynt, a fyddant saith mlynedd o newyn.
28 Hyn yw y peth a ddywedais i wrth Pharaoh: Yr hyn a wna Duw, efe a'i dangosodd i Pharaoh.
29 Wele, y mae saith mlynedd yn dyfod o amldra mawr, trwy holl wlad yr Aipht.
30 Ond ar eu hol hwynt y cyfyd saith mlynedd o newyn; ac anghofir yr holl amlder trwy wlad yr Aipht: a'r newyn a ddifetha y wlad.
31 Ac ni wybyddir *oddi wrth* yr amldra yn y wlad, o herwydd y newyn hwnnw wedi hynny: oblegid trwm iawn fydd.
32 Hefyd am ddyblu y breuddwyd i Pharaoh ddwywaith, *hynny a fu* oblegid sicrhâu y peth gan Duw, a bod Duw yn brysio i'w wneuthur.
33 Yn awr, gan hynny, edryched Pharaoh *am* ŵr deallgar a doeth, a gosoded ef ar wlad yr Aipht.
34 Gwnaed Pharaoh hyn, a gosoded olygwyr ar y wlad, a chymmered bummed ran *cnwd* gwlad yr Aipht dros saith mlynedd yr amldra.
35 A chasglant holl ymborth y blynyddoedd daionus sydd ar ddyfod, a chasglant ŷd dan law Pharaoh, a chadwant ymborth yn y dinasoedd.
36 A bydded yr ymborth y'nghadw i'r wlad dros y saith mlynedd newyn, y rhai fyddant y'ngwlad yr Aipht, fel na ddifether y wlad gan y newyn.
37 ¶ A'r peth oedd dda y'ngolwg Pharaoh, ac y'ngolwg ei holl weision.
38 A dywedodd Pharaoh wrth ei weision, A gaem ni ŵr fel hwn, yr hwn *y mae* yspryd Duw ynddo?
39 Dywedodd Pharaoh hefyd wrth Joseph, Gan wneuthur o Duw i ti wybod hyn oll, nid mor ddeallgar a doeth neb a thydi.
40 Tydi a fyddi ar fy nhŷ, ac wrth dy air di y llywodraethir fy mhobl oll: *yn* y deyrn-gadair yn unig y byddaf fwy na thydi.
41 Yna y dywedodd Pharaoh wrth Joseph, Edrych, gosodais di ar holl wlad yr Aipht.
42 A thynnodd Pharaoh ei fodrwy oddi ar ei law, ac a'i rhoddes hi ar law Joseph, ac a'i gwisgodd ef mewn gwisgoedd sidan, ac a osododd gadwyn aur am ei wddf ef;
43 Ac a wnaeth iddo farchogaeth yn yr ail gerbyd *oedd* ganddo; a llefwyd o'i flaen ef, Abrec: felly y gosodwyd ef ar holl wlad yr Aipht.
44 Dywedodd Pharaoh hefyd wrth Joseph, Myfi *yw* Pharaoh, ac hebot ti ni chyfyd gŵr ei law na'i droed, trwy holl wlad yr Aipht.
45 A Pharaoh a alwodd enw Joseph, Saphnath-Paaneah; ac a roddes iddo Asnath, merch Potipherah offeiriad On, yn wraig: yna yr aeth Joseph allan dros wlad yr Aipht.
46 ¶ A Joseph *ydoedd* fab deng mlwydd ar hugain pan safodd efe ger bron Pharaoh brenhin yr Aipht: a Joseph a aeth allan o ŵydd Pharaoh, ac a dramwyodd trwy holl wlad yr Aipht.
47 A'r ddaear a gnydiodd dros saith mlynedd yr amldra yn ddyrneidiau.
48 Yntau a gasglodd holl ymborth y saith mlynedd a fu y'ngwlad yr Aipht, ac a roddes ymborth i gadw yn y dinasoedd: ymborth y maes, yr hwn *fyddai* o amgylch pob dinas, a roddes efe i gadw ynddi.
49 A Joseph a gynhullodd ŷd fel tywod y môr, yn dra lliosog, hyd oni pheidiodd â'i rifo: oblegid *yr ydoedd* heb rifedi.
50 Ond cyn dyfod blwyddyn o newyn, y ganwyd i Joseph ddau fab, y rhai a ymddûg Asnath, merch Potipherah offeiriad On, iddo ef.
51 A Joseph a alwodd enw ei gyntaf-anedig, Manasseh: Oblegid (*eb efe*) Duw a wnaeth i mi anghofio fy llafur oll, a thylwyth fy nhad oll.
52 Ac efe a alwodd enw yr ail, Ephraim: Oblegid (*eb efe*) Duw a'm ffrwythlonodd i y'ngwlad fy ngorthrymder.
53 ¶ Darfu y saith mlynedd o amldra, y rhai a fu y'ngwlad yr Aipht.
54 A'r saith mlynedd newyn a ddechreuasant ddyfod, fel y dywedasai Joseph: ac yr oedd newyn yn

yr holl wledydd; ond yn holl wlad yr Aipht yr ydoedd bara.

55 A phan newynodd holl wlad yr Aipht, y bobl a waeddodd ar Pharaoh am fara: a Pharaoh a ddywedodd wrth yr holl Aiphtiaid, Ewch at Joseph; yr hyn a ddywedo efe wrthych, gwnewch.

56 Y newyn hefyd ydoedd ar holl wyneb y ddaear: a Joseph a agorodd yr holl *leoedd* yr *ydoedd ŷd* ynddynt, ac a werthodd i'r Aiphtiaid; oblegid y newyn oedd drwm yng ngwlad yr Aipht.

57 A daeth yr holl wledydd i'r Aipht at Joseph i brynu; oherwydd y newyn oedd drwm yn yr holl wledydd.

PENNOD 42.

1 *Jacob yn anfon ei ddeg mab i'r Aipht i brynu ŷd.* 6 *Joseph yn eu carcharu hwy yn "e ysbiwyr.* 18 *ac yn eu rhyddhâu hwy, dan ondwed iddynt ddwyn Benjamin.* 21 *Eu cydwybod yn eu cyhuddo hwy o achos Joseph.* 24 *Cadw Simeon yn wystl.* 25 *Hwynt yn dychwelyd ây ŷd, a'u harian yn eu sachau;* 29 *ac yn traethu y newyddion i Jacob.* 36 *Jacob yn gwrthod danyon Benjamin.*

PAN welodd Jacob fod ŷd yn yr Aipht, dywedodd Jacob wrth ei feibion, Paham yr edrychwch ar eich gilydd?

2 Dywedodd hefyd, Wele, clywais fod ŷd yn yr Aipht: ewch i waered yno, a phrynwch i ni oddi yno; fel y bôm fyw, ac na byddom feirw.

3 ¶ A deg brawd Joseph a aethant i waered, i brynu ŷd, i'r Aipht.

4 Ond ni ollyngai Jacob Benjamin, brawd Joseph, gyd â'i frodyr: oblegid efe a ddywedodd, Rhag digwydd niwed iddo ef.

5 A meibion Israel a ddaethant i brynu ym mhlith y rhai oedd yn dyfod; oblegid yr ydoedd y newyn y ngwlad Canaan.

6 A Joseph oedd lywydd ar y wlad, ac oedd ei hun yn gwerthu i holl bobl y wlad: a brodyr Joseph a ddaethant, ac a ymgrynmasant i lawr iddo ef *ar eu* hwynebau.

7 A Joseph a ganfu ei frodyr, ac a'u hadnabu hwynt, ac a ymddïeithrodd iddynt hwy, ac a lefarodd wrthynt yn arw, ac a ddywedodd wrthynt. O ba le y daethoch? Hwythau a attebasant, O wlad Canaan, i brynu lluniaeth.

8 A Joseph oedd yn adnabod ei frodyr; ond nid oeddynt hwy yn ei adnabod ef.

9 A Joseph a gofiodd ei freuddwydion a freuddwydiasai efe am danynt hwy; ac a ddywedodd wrthynt, Ysbiwyr *ydych* chwi; i edrych noethder y wlad y daethoch.

10 Hwythau a ddywedasant wrtho ef, Nag ê, fy arglwydd; ond dy weision a ddaethant i brynu lluniaeth.

11 Nyni oll *ydym* feibion un gŵr: *gwŷr* cywir *ydym* ni; nid yw dy weision di ysbiwyr.

12 Yntau a ddywedodd wrthynt hwy, Nag ê; ond i edrych noethder y wlad y daethoch.

13 Hwythau a ddywedasant, Dy weision di *oedd* ddeuddeg brawd, meibion un gŵr y'ngwlad Canaan: ac wele, *y mae* yr ieuangaf heddyw gyd â'n tad ni, a'r llall nid yw *fyw.*

14 A Joseph a ddywedodd wrthynt, Dyma yr hyn a adroddais wrthych, gan ddywedyd, Ysbiwyr *ydych* chwi.

15 Wrth hyn y'ch profir: Myn einioes Pharaoh, *nid* ewch allan oddi yma, onid trwy ddyfod o'ch brawd ieuangaf yma.

16 Hebryngwch un o honoch i gyrchu eich brawd, a rhwymer chwithau; fel y profer eich geiriau chwi, *a oes* gwirionedd ynoch: oblegid onid ê, myn einioes Pharaoh, ysbiwyr yn ddïau *ydych* chwi.

17 Ac efe a'u rhoddodd hwynt i gyd y'ngharchar dridiau.

18 Ac ar y trydydd dydd y dywedodd Joseph wrthynt, Gwnewch hyn, fel y byddoch fyw: ofni Duw yr wyf fi.

19 Os gwŷr cywir *ydych* chwi, rhwymer un o'ch brodyr chwi yn eich carchardy; ac ewch chwithau, dygwch ŷd *rhag* newyn i'ch tylwyth.

20 A dygwch eich brawd ieuangaf attaf fi: felly y cywirir eich geiriau chwi, ac ni byddwch feirw. Hwythau a wnaethant felly.

21 ¶ Ac a ddywedasant wrth eu gilydd, Dïau bechu o honom yn erbyn ein brawd; oblegid gweled a wnaethom gyfyngdra ei enaid ef, pan ymbiliodd efe â ni, ac ni wrandawsom ef: am hynny y daeth y cyfyngdra hwn arnom ni.

22 A Reuben a'u hattebodd hwynt, gan ddywedyd, Oni ddywedais i

wrthych, gan ddywedyd, Na phechwch yn erbyn yr herlod; ac ni wrandawech chwi? wele am hynny ynte y gofynir ei waed ef.

23 Ac nis gwyddynt hwy fod Joseph yn eu deall; am *fod* cyfieithydd rhynggdynt.

24 Yntau a drodd oddi wrthynt, ac a wylodd; ac a ddaeth eilchwyl attynt, ac a lefarodd wrthynt hwy, ac a gymmerth o'u mysg hwynt Simeon, ac a'i rhwymodd ef o flaen eu llygaid hwynt.

25 ¶ Joseph hefyd a orchymynodd lenwi eu sachau hwynt o ŷd, a rhoddi drachefn arian pob un *o honynt* yn ei sach, a rhoddi bwyd iddynt i'w fwytta ar y ffordd: ac felly y gwnaeth iddynt hwy.

26 Hwythau a gyfodasant eu hŷd ar eu hasynod, ac a aethant oddi yno.

27 Ac un a agorodd ei sach, ar fedr rhoddi ebran i'w asyn yn y lletty; ac a ganfu ei arian; canys wele hwynt y'ngenau ei ffettan ef.

28 Ac a ddywedodd wrth ei frodyr, Rhoddwyd adref fy arian; ac wele *hwynt* hefyd yn fy ffettan: yna y digalonnasant hwy, ac a ofnasant, gan ddywedyd wrth eu gilydd, Paham y gwnaeth Duw i ni hyn?

29 ¶ A hwy a ddaethant at Jacob eu tad i wlad Canaan; ac a fynegasant iddo ef eu holl ddamweiniau, gan ddywedyd,

30 Dywedodd y gŵr *oedd* arglwydd y wlad yn arw wrthym ni, ac a'n cymmerth ni fel ysbïwyr y wlad.

31 Ninnau a ddywedasom wrtho ef, Gŵyr cywir *ydym* ni; nid ysbïwyr ydym.

32 Deuddeg o frodyr *oeddym* ni, meibion ein tad ni: un nid *yw fyw*, ac *y mae* yr ieuangaf heddyw gyd â'n tad ni y'ngwlad Canaan.

33 A dywedodd y gŵr oedd arglwydd y wlad wrthym ni, Wrth hyn y caf wybod mai cywir *ydych* chwi; gadêwch gyd â myfi un o'ch brodyr, a chymmerwch *luniaeth i dorri* newyn eich teuluoedd, ac ewch ymaith.

34 A dygwch eich brawd ieuangaf attaf fi, fel y gwybyddwyf nad ysbïwyr *ydych* chwi, ond *eich bod* yn gywir: *yna* y rhoddaf eich brawd i chwi, a chewch farchnatta yn y wlad.

35 ¶ Fel yr oeddynt hwy yn tywallt eu sachau, yna wele godaid arian pob un yn ei sach: a phan welsant y codau arian, hwynt-hwy a'u tad, ofni a wnaethant.

36 A Jacob, eu tad hwynt, a ddywedodd wrthynt hwy, Diblantasoch fi: Joseph nid *yw fyw*, a Simeon yntau nid *yw fyw*, a Benjamin a ddygech ymaith: yn fy erbyn i y mae hyn oll.

37 A dywedodd Reuben wrth ei dad, gan ddywedyd, Lladd fy nau fab *i*, oni ddygaf ef drachefn attat ti: dyro ef yn fy llaw i, a mi a'i dygaf ef attat ti eilwaith.

38 Yntau a ddywedodd, Nid â fy mab i waered gyd â chwi: oblegid bu farw ei frawd, ac yntau a adawyd ei hunan: pe digwyddai iddo ef niwed ar y ffordd yr ewch ar hyddi, yna chwi a barech i'm penwynni ddisgyn i'r bedd mewn tristwch.

PENNOD 43.

1 *Jacob yn ffin ganddo ollwng Benjamin.* 15 *Joseph yn croesawu ei frodyr.* 31 *Yn gwneuthur iddynt wledd.*

A'R newyn *oedd* drwm yn y wlad.
2 A bu, wedi iddynt fwytta yr ŷd a ddygasent o'r Aipht, ddywedyd o'u tad wrthynt hwy, Ewch eilwaith, prynwch i ni ychydig luniaeth.

3 A Judah a attebodd, gan ddywedyd, Gan rybuddio y rhybuddiodd y gŵr nyni, gan ddywedyd, Nac edrychwch *yn* fy wyneb, oni bydd eich brawd gyd â chwi.

4 Os anfoni ein brawd gyd â ni, ni a awn i waered, ac a brynwn i ti luniaeth.

5 Ond os ti nid anfoni, nid awn i waered; oblegid y gŵr a ddywedodd wrthym ni, Nac edrychwch *yn* fy wyneb, oni bydd eich brawd gyd â chwi.

6 Ac Israel a ddywedodd, Paham y drygasoch fi, gan fynegi i'r gŵr *fod* i chwi etto frawd?

7 Hwythau a ddywedasant, Gan ymofyn yr ymofynodd y gŵr am danom ni, ac am ein cenedl, gan ddywedyd, Ai byw eich tad chwi etto? Oes frawd *arall* i chwi? Nin-

nau a ddywedasom wrtho ef ar ol y geiriau hynny: a allem ni gan wybod wybod y dywedai efe, Dygwch eich brawd i waered?

8 Judah a ddywedodd hefyd wrth ei dad Israel, Gollwng y bachgen gyd â mi, ninnau a gyfodwn ac a awn ymaith; fel y byddom byw, ac na byddom feirw, nyni, a thithau, a'n plant hefyd.

9 Myfi a fechnïaf am dano ef; o'm llaw i y gofyni ef: onis dygaf ef attat ti, a'i osod ef ger dy fron di, yna y byddaf euog o fai i'th erbyn byth.

10 Canys, pe na buasem hwyrfrydig, daethem eilchwyl yma ddwy waith bellach.

11 Ac Israel eu tad a ddywedodd wrthynt, Os rhaid yn awr felly, gwnewch hyn; cymmerwch o ddewis ffrwythau y wlad yn eich llestri, a dygwch yn anrheg i'r gŵr, ychydig falm, ac ychydig fêl, llysiau, a myr, cnau, ac almonau.

12 Cymmerwch hefyd ddau cymmaint o arian gyd â chwi; a dygwch eilwaith gyd â chwi yr arian a roddwyd drachefn y'ngenau eich sachau: ond odid amryfusedd *fu* hynny.

13 Hefyd cymmerwch eich brawd, a chyfodwch, ewch eilwaith at y gŵr.

14 A Duw Hollalluog a roddo i chwi drugaredd ger bron y gŵr, fel y gollyngo i chwi eich brawd arall, a Benjamin: minnau fel y'm diblantwyd, a ddiblentir.

15 ¶ A'r gwŷr a gymmerasant yr anrheg honno, a chymmerasant arian yn ddwbl yn eu llaw, a Benjamin *hefyd;* a chyfodasant, ac a aethant i waered i'r Aipht, a safasant ger bron Joseph.

16 A Joseph a ganfu Benjamin gyd â hwynt; ac a ddywedodd wrth yr hwn *oedd olygwr* ar ei dŷ, Dwg y gwŷr hyn i'r tŷ, a lladd laddfa, ac arlwya: oblegid y gwŷr a gânt fwytta gyd â myfi ar hanner dydd.

17 A'r gŵr a wnaeth fel y dywedodd Joseph: a'r gŵr a ddug y dynion i dŷ Joseph.

18 A'r gwŷr a ofnasant, pan ddygpwyd hwynt i dŷ Joseph; ac a ddywedasant, Oblegid yr arian a roddwyd eilwaith yn ein sachau ni yr amser cyntaf, y dygpwyd nyni i mewn; i fwrw hyn arnom ni, ac i ruthro i ni, ac i'n cymmeryd ni yn gaethion, a'n hasynod hefyd.

19 A hwy a nesasant at y gŵr *oedd olygwr* ar dŷ Joseph, ac a lefarasant wrtho, wrth ddrws y tŷ,

20 Ac a ddywedasant, Fy arglwydd, gan ddisgyn y disgynasom yr amser cyntaf i brynu lluniaeth.

21 A bu, pan ddaethom i'r lletty, ac agoryd ein sachau, yna wele arian pob un y'ngenau ei sach; ein harian ni, *meddaf*, yn ei bwys: ond ni a'i dygasom eilwaith yn ein llaw.

22 Dygasom hefyd arian arall i waered yn ein llaw, i brynu lluniaeth: nis gwyddom pwy a osododd ein harian ni yn ein ffettanau.

23 Yntau a ddywedodd, Heddwch i chwi; nac ofnwch: eich Duw chwi, a Duw eich tad, a roddes i chwi drysor yn eich sachau; daeth eich arian chwi attaf fi. Ac efe a ddug Simeon allan attynt hwy.

24 A'r gŵr a ddug y dynion i dŷ Joseph, ac a roddes ddwfr, a hwy a olchasant eu traed; ac efe a roddes ebran i'w hasynod hwynt.

25 Hwythau a barottoisant eu hanrheg erbyn dyfod Joseph ar hanner dydd: oblegid clywsent mai yno y bwyttâent fara.

26 ¶ Pan ddaeth Joseph i'r tŷ, hwythau a ddygasant iddo ef yr anrheg *oedd* ganddynt i'r tŷ, ac a ymgrymmasant iddo ef hyd lawr.

27 Yntau a ofynodd iddynt am eu hiechyd, ac a ddywedodd, Ai iach yr hen ŵr eich tad chwi, yr hwn y soniasoch *am dano?* ai byw efe etto?

28 Hwythau a ddywedasant, Iach yw dy was, ein tad ni; byw *yw* efe etto. Yna yr ymgrymmasant, ac yr ymostyngasant.

29 Yntau a ddyrchafodd ei lygaid, ac a ganfu ei frawd Benjamin, mab ei fam ei hun; ac a ddywedodd, Ai dyma eich brawd ieuangaf chwi, am yr hwn y dywedasoch wrthyf fi? Yna y dywedodd, Duw a roddo ras i ti, fy mab.

30 A Joseph a frysiodd, (oblegid cynnesasai ei ymysgaroedd ef tu ag at ei frawd,) ac a geisiodd *le* i wylo; ac a aeth i mewn i'r ystafell, ac a wylodd yno.

31 Gwedi hynny *efe* a olchodd ei

wyneb, ac a ddaeth allan, ac a ymattaliodd, ac a ddywedodd, Gosodwch fara.

32 Hwythau a osodasant *fwyd* iddo ef wrtho ei hun, ac iddynt hwy wrthynt eu hun, ac i'r Aiphtiaid y rhai oedd yn bwytta gyd âg ef wrthynt eu hunain: oblegid ni allai yr Aiphtiaid fwytta bara gyd â'r Hebreaid; o herwydd ffieidd-dra oedd hynny gan yr Aiphtiaid.

33 Yna yr eisteddasant ger ei fron ef, y cyntaf-anedig yn ol ei gyntafenedigaeth, a'r ieuangaf yn ol ei ieuengctid: a rhyfeddodd y gwŷr bob un wrth eu gilydd.

34 Yntau a gymmerodd seigiau oddi ger ei fron ei hun iddynt hwy: a mwy ydoedd saig Benjamin o bum rhan na seigiau yr un o honynt oll. Felly yr yfasant ac y gwleddasant gyd âg ef.

PENNOD 44.

1 *Dyfais Joseph i attai ei frodyr.* 14 *Ufudd ddeisyfiad Judah at Joseph.*

AC efe a orchymynodd i'r hwn *oedd olygwr* ar ei dŷ ef, gan ddywedyd, Llanw sachau y gwŷr o fwyd, cymmaint ag a allant ei ddwyn, a dod arian pob un y'ngenau ei sach.

2 A dod fy nghwppan fy hun, *sef* y cwppan arian, y'ngenau sach yr ieuangaf, gyd âg arian ei ŷd ef. Yntau a wnaeth yn ol gair Joseph, yr hwn a ddywedasai efe.

3 Y bore a oleuodd, a'r gwŷr a ollyngwyd ymaith, hwynt a'u hasynod.

4 Hwythau a aethant allan o'r ddinas. *Ac* nid aethant neppell, pan ddywedodd Joseph wrth yr hwn *oedd olygwr* ar ei dŷ, Cyfod, *a* dilyn ar ol y gwŷr: a phan oddiweddech hwynt, dywed wrthynt, Paham y talasoch ddrwg am dda?

5 Onid dyma y *cwppan* yr yfai fy arglwydd ynddo, ac yr arferai ddewiniaeth wrtho? Drwg y gwnaethoch yr hyn a wnaethoch.

6 ¶ Yntau a'u goddiweddodd hwynt, ac a ddywedodd y geiriau hynny wrthynt hwy.

7 Y rhai a ddywedasant wrtho yntau, Paham y dywed fy arglwydd y cyfryw eiriau? na atto Duw i'th weision di wneuthur y cyfryw beth.

8 Wele, ni a ddygasom attat ti eilwaith o wlad Canaan yr arian a gawsom y'ngenau ein sachau; pa fodd gan hynny y lladrattâem ni arian neu aur o dŷ dy arglwydd di?

9 Yr hwn o'th weision di y ceffir *y cwppan* gyd âg ef, bydded hwnnw farw; a ninnau hefyd a fyddwn gaeth-weision i'm harglwydd.

10 Yntau a ddywedodd, Bydded yn awr fel y dywedasoch chwi: yr hwn y ceffir *y cwppan* gyd âg ef a fydd was i mi, a chwithau a fyddwch ddïeuog.

11 Hwythau a frysiasant, ac a ddisgynasant bob un ei sach i lawr, ac a agorasant bawb ei ffettan.

12 Yntau a chwiliodd; ar yr hynaf y dechreuodd, ac ar yr ieuangaf y diweddodd: a'r cwppan a gafwyd yn sach Benjamin.

13 Yna y rhwygasant eu dillad, ac a bynniasant bawb ar ei asyn, ac a ddychwelasant i'r ddinas.

14 ¶ A daeth Judah a'i frodyr i dŷ Joseph, ac efe etto yno; ac a syrthiasant i lawr ger ei fron ef.

15 A dywedodd Joseph wrthynt, Pa waith *yw* hwn a wnaethoch chwi? oni wyddech chwi y medr gŵr fel myfi ddewiniaeth?

16 A dywedodd Judah, Pa beth a ddywedwn wrth fy arglwydd? pa beth a lefarwn? pa fodd yr ymgyfiawnhâwn? cafodd Duw allan anwiredd dy weision: wele ni yn weision i'm harglwydd, ïe nyni, a'r hwn y cafwyd y cwppan gyd âg ef hefyd.

17 Yntau a ddywedodd, Na atto *Duw* i mi wneuthur hyn: y gŵr y cafwyd y cwppan yn ei law, efe fydd was i mi; ewch chwithau i fyny, mewn heddwch, at eich tad.

18 ¶ Yna yr aeth Judah atto ef, ac a ddywedodd, Fy arglwydd, caffed, attolwg, dy was ddywedyd gair yng nghlustiau fy arglwydd, ac na ennyned dy lid wrth dy was: o herwydd yr wyt ti megis Pharaoh.

19 Fy arglwydd a ymofynodd â'i weision, gan ddywedyd, A oes i chwi dad, neu frawd?

20 Ninnau a ddywedasom wrth fy arglwydd, Y mae i ni dad, yn hen ŵr; a phlentyn ei henaint ef, un bychan: a'i frawd a fu farw, ac efe a adawyd ei hunan o'i fam ef; a'i dad sydd hoff ganddo ef.

21 Tithau a ddywedaist wrth dy weision, Dygwch ef i waered attaf fi, fel y gosodwyf fy llygaid arno.

22 A ni a ddywedasom wrth fy arglwydd, Y llangc ni ddichon ymadael â'i dad: oblegid os ymedy efe â'i dad, marw fydd ei *dad.*

23 Tithau a ddywedaist wrth dy weision, Oni ddaw eich brawd ieuangaf i waered gyd â chwi, nac edrychwch yn fy wyneb mwy.

24 Bu hefyd, wedi ein myned ni i fyny at dy was fy nhad, mynegasom iddo ef eiriau fy arglwydd.

25 A dywedodd ein tad, Ewch eilwaith, prynwch i ni ychydig luniaeth.

26 Dywedasom ninnau, Nis gallwn fyned i waered: os bydd ein brawd ieuangaf gyd â ni, nyni a awn i waered; oblegid ni allwn edrych *yn* wyneb y gŵr, oni bydd ein brawd ieuangaf gyd â ni.

27 A dywedodd dy was fy nhad wrthym ni, Chwi a wyddoch mai dau a blantodd fy ngwraig i mi;

28 Ac un a aeth allan oddi wrthyf fi; minnau a ddywedais, Yn ddïau gan larpio y llarpiwyd ef; ac nis gwelais ef hyd yn hyn:

29 Os cymmerwch hefyd hwn ymaith o'm golwg, a digwyddo niwed iddo ef; yna y gwnewch i'm penllwydni ddisgyn mewn gofid i fedd.

30 Bellach gan hynny, pan ddelwyf at dy was fy nhad, heb fod y llangc gyd â ni; (gan fod ei hoedl ef y'nglŷn wrth ei hoedl yntau;)

31 Yna pan welo efe na *ddaeth* y llangc, marw fydd efe; a'th weision a barant i benwynnedd dy was ein tad ni ddisgyn mewn gofid i fedd.

32 Oblegid dy was a aeth yn feichiau am y llangc i'm tad, gan ddywedyd, Onis dygaf ef attat ti, yna byddaf euog o fai yn erbyn fy nhad byth.

33 Gan hynny weithian, attolwg, arhosed dy was dros y llangc, yn was i'm harglwydd; ac aed y llangc i fyny gyd â'i frodyr:

34 Oblegid pa fodd yr âf i fyny at fy nhad, a'r llangc heb *fod* gyd â mi? rhag i mi weled y gofid a gaiff fy nhad.

PENNOD 45.

1 Joseph yn ei hysbysu ei hun i'w frodyr: 5 yn eu cysuro hwynt â rhagluniaeth Duw: 9 yn danfon am ei dad. 16 Pharaoh yn sicrhau y peth. 21 Joseph yn gosod allan ei frodyr i'r daith, ac yn eu hannog hwynt i fod yn gyttûn. 25 Jacob yn ymlawenychu wrth y newyddion.

YNA Joseph ni allodd ymattal ger bron y rhai oll oedd yn sefyll gyd âg ef: ac efe a lefodd, Perwch allan bawb oddi wrthyf. Yna nid arhosodd neb gyd âg ef, pan ymgydnabu Joseph â'i frodyr.

2 Ac efe a gododd ei lef mewn wylofain: a chlybu yr Aiphtiaid, a chlybu tŷ Pharaoh.

3 A Joseph a ddywedodd wrth ei frodyr, Myfi *yw* Joseph: ai byw fy nhad etto? A'i frodyr ni fedrent atteb iddo; oblegid brawychasent ger ei fron ef.

4 Joseph hefyd a ddywedodd wrth ei frodyr, Dyneswch, attolwg, attaf fi. Hwythau a ddynesasant. Yntau a ddywedodd, Myfi *yw* Joseph eich brawd chwi, yr hwn a werthasoch i'r Aipht.

5 Weithian gan hynny na thristêwch, ac na ddigiwch wrthych eich hunain, am werthu o honoch fyfi yma; oblegid i achub einioes yr hebryngodd Duw fyfi o'ch blaen chwi.

6 Oblegid dyma ddwy flynedd o'r newyn o fewn y wlad; ac *fe a fydd* etto bum mlynedd, y rhai *a fydd* heb nac âr na medi.

7 A Duw a'm hebryngodd i o'ch blaen chwi, i gadw i chwi hiliogaeth yn y wlad, ac i beri bywyd i chwi, trwy fawr ymwared.

8 Ac yr awr hon nid chwi a'm hebryngodd i yma, ond Duw: ac efe a'm gwnaeth i yn dad i Pharaoh, ac yn arglwydd ar ei holl dŷ ef, ac yn llywydd ar holl wlad yr Aipht.

9 Brysiwch, ac ewch i fyny at fy nhad, a dywedwch wrtho, Fel hyn y dywed dy fab Joseph: Duw a'm gosododd i yn arglwydd ar yr holl Aipht: tyred i waered attaf; nac oeda:

10 A chei drigo y'ngwlad Gosen, a bod yn agos attaf fi, ti a'th feibion, a meibion dy feibion, a'th ddefaid, a'th wartheg, a'r hyn oll *sydd* gennyt:

11 Ac yno y'th borthaf; (oblegid

pum mlynedd o'r newyn *a fydd* etto;) rhag dy fyned mewn tlodi, ti, a'th deulu, a'r hyn oll *sydd* gennyt.

12 Ac wele eich llygaid chwi, a llygaid fy mrawd Benjamin yn gweled, mai fy ngenau i *sydd* yn ymadrodd wrthych.

13 Mynegwch hefyd i'm tad fy holl anrhydedd i yn yr Aipht, a'r hyn oll a welsoch; brysiwch hefyd, a dygwch fy nhad i waered yma.

14 Ac efe a syrthiodd ar wddf ei frawd Benjamin, ac a wylodd; Benjamin hefyd a wylodd ar ei wddf yntau.

15 Ac efe a gusanodd ei holl frodyr, ac a wylodd arnynt: ac ar ol hynny ei frodyr a ymddiddanasant âg ef.

16 ¶ A'r gair a ddaeth i dŷ Pharaoh, gan ddywedyd, Brodyr Joseph a ddaethant: a da oedd *hyn* y'ngolwg Pharaoh, ac y'ngolwg ei weision.

17 A Pharaoh a ddywedodd wrth Joseph, Dywed wrth dy frodyr, Gwnewch hyn; Llwythwch eich ysgrubliaid, a cherddwch, *ac* ewch i wlad Canaan;

18 A chymmerwch eich tad, a'ch teuluoedd, a deuwch attaf fi: a rhoddaf i chwi ddaioni gwlad yr Aipht, a chewch fwytta brasder y wlad.

19 Gorchymyn yn awr a gefaist, gwnewch hyn: cymmerwch i chwi o wlad yr Aipht gerbydau i'ch rhai bach, ac i'ch gwragedd; a chymmerwch eich tad, a deuwch.

20 Ac nac arbeded eich llygaid chwi *ddim* dodrefn; oblegid dâ holl wlad yr Aipht sydd eiddo chwi.

21 A meibion Israel a wnaethant felly: a rhoddodd Joseph iddynt hwy gerbydau, yn ol gorchymyn Pharaoh, a rhoddodd iddynt fwyd ar hyd y ffordd.

22 I bob un o honynt oll y rhoddes bâr o ddillad: ond i Benjamin y rhoddes dri chant *o ddarnau* arian, a phum pâr o ddillad.

23 Hefyd i'w dad yr anfonodd fel hyn; deg o asynod yn llwythog o ddâ yr Aipht, a deg o asenod yn dwyn ŷd, bara, a bwyd i'w dad ar hyd y ffordd.

24 Yna y gollyngodd ymaith ei frodyr: a hwy a aethant ymaith: ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Nac ymrysonwch ar y ffordd.

25 ¶ Felly yr aethant i fyny o'r Aipht, ac a ddaethant i wlad Canaan, at eu tad Jacob;

26 Ac a fynegasant iddo, gan ddywedyd, Y mae Joseph etto yn fyw, ac y mae yn llywodraethu ar holl wlad yr Aipht. Yna y llesgaodd ei galon yntau; oblegid nid oedd yn eu credu.

27 Traethasant hefyd iddo ef holl eiriau Joseph, y rhai a ddywedasai efe wrthynt hwy. A phan ganfu efe y cerbydau a anfonasai Joseph i'w ddwyn ef, yna y bywiogodd yspryd Jacob eu tad hwynt.

28 A dywedodd Israel, Digon *ydyw;* y mae Joseph fy mâb etto yn fyw: âf, fel y gwelwyf ef cyn fy marw.

PENNOD 46.

1 Duw yn cysuro Jacob yn Beer-seba. 5 Efe a'i deulu yn myned oddi yno i'r Aipht. 8 Rhifedi ei deulu ef y rhai a aeth i'r Aipht. 28 Joseph yn cyfarfod Jacob. 31 Mae efe yn dysgu i'w frodyr pa fodd yr attebent Pharaoh.

YNA y cychwynodd Israel, a'r hyn oll oedd ganddo, ac a ddaeth i Beer-seba, ac a aberthodd ebyrth i DDUW ei dad Isaac.

2 A llefarodd DUW wrth Israel mewn gweledigaethau nos, ac a ddywedodd, Jacob, Jacob. Yntau a ddywedodd, Wele fi.

3 Ac efe a ddywedodd, Myfi *yw* DUW, DUW dy dad: nac ofna fyned i waered i'r Aipht; canys gwnaf di yno yn genhedlaeth fawr.

4 Myfi a âf i waered gyd â thi i'r Aipht; a myfi gan ddwyn a'th ddygaf di i fyny drachefn: Joseph hefyd a esyd ei law ar dy lygaid di.

5 A chyfododd Jacob o Beer-seba: a meibion Israel a ddygasant Jacob eu tad, a'u rhai bach, a'u gwragedd, yn y cerbydau a anfonasai Pharaoh i'w ddwyn ef.

6 Cymmerasant hefyd eu hanifeiliaid, a'u golud a gasglasent yn nhir Canaan, ac a ddaethant i'r Aipht, Jacob, a'i holl had gyd âg ef:

7 Ei feibion, a meibion ei feibion gyd âg ef, ei ferched, a merched ei feibion, a'i holl had, a ddug efe gyd âg ef i'r Aipht.

8 ¶ A dyma enwau plant Israel, y rhai a ddaethant i'r Aipht, Jacob a'i feibion: Reuben, cynfab Jacob.

9 A meibion Reuben; Hanoch, a Phàlu, Hesron hefyd, a Charmi.
10 ¶ A meibion Simeon; Jemuel, a Jamin, ac Ohad, a Jachin, a Sohar, a Saul mab Canaanees.
11 ¶ Meibion Lefi hefyd; Gerson, Cohath, a Merari.
12 ¶ A meibion Judah; Er, ac Onan, a Selah, Phares hefyd, a Serah: a buasai farw Er ac Onan yn nhir Canaan. A meibion Phares oedd Hesron a Hamul.
13 ¶ Meibion Issachar hefyd; Tola, a Phufah, a Job, a Simron.
14 ¶ A meibion Sabulon; Sered, ac Elon, a Jaleel.
15 Dyma feibion Leah, y rhai a blantodd hi i Jacob ym Mesopotamia, a Dinah ei ferch: ei feibion a'i ferched *oeddynt* oll dri dyn ar ddeg ar hugain.
16 ¶ A meibion Gad; Siphion, a Haggi, Suni, ac Esbon, Eri, ac Arodi, ac Areli.
17 ¶ A meibion Aser; Jimnah, ac Isuah, ac Isui, a Beriah, a Serah eu chwaer hwynt. A meibion Beriah; Heber a Malchiel.
18 Dyma feibion Silpah, yr hon a roddodd Laban i Leah ei ferch: a hi a blantodd y rhai hyn i Jacob, *sef* un dyn ar bymtheg.
19 ¶ Meibion Rahel, gwraig Jacob, *oedd* Joseph a Benjamin.
20 Ac i Joseph y ganwyd, yn nhir yr Aipht, Manasseh ac Ephraim, y rhai a blantodd Asnath, merch Potipherah offeiriad On, iddo ef.
21 ¶ A meibion Benjamin; Belah, a Becher, ac Asbel, Gera, a Naaman, Ehi, a Ros, Muppim, a Huppim, ac Ard.
22 Dyma feibion Rahel, y rhai a blantodd hi i Jacob; yn bedwar dyn ar ddeg oll.
23 ¶ A meibion Dan *oedd* Husim.
24 ¶ A meibion Naphtali; Jahseel, a Guni, a Jeser, a Silem.
25 Dyma feibion Bilhah, yr hon a roddodd Laban i Rahel ei ferch: a hi a blantodd y rhai hyn i Jacob, yn saith dyn oll.
26 Yr holl eneidiau y rhai a ddaethant gyd â Jacob i'r Aipht, yn dyfod allan o'i lwynau ef, heblaw gwragedd meibion Jacob, *oeddynt* oll chwe enaid a thri ugain.
27 A meibion Joseph, y rhai a anwyd iddo ef yn yr Aipht, *oedd* ddau enaid: holl eneidiau tŷ Jacob, y rhai a ddaethant i'r Aipht, *oeddynt* ddeg a thri ugain.
28 ¶ Ac efe a anfonodd Judah o'i flaen at Joseph, i gyfarwyddo ei wyneb ef i Gosen: yna y daethant i dir Gosen.
29 A Joseph a barottôdd ei gerbyd, ac a aeth i fyny i gyfarfod Israel ei dad i Gosen; ac a ymddangosodd iddo: ac efe a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a wylodd ar ei wddf ef ennyd.
30 A dywedodd Israel wrth Joseph, Byddwyf farw bellach, wedi i mi weled dy wyneb, gan dy fod di yn fyw etto.
31 A dywedodd Joseph wrth ei frodyr, ac wrth deulu ei dad, Mi a âf i fyny, ac a fynegaf i Pharaoh, ac a ddywedaf wrtho, Fy mrodyr, a theulu fy nhad, y rhai *oedd* yn nhir Canaan, a ddaethant attaf fi.
32 A'r gwŷr, bugeiliaid defaid ydynt: canys perchen anifeiliaid ydynt; a dygasant *yma* eu praidd, a'u gwartheg, a'r hyn oll *oedd* ganddynt.
33 A phan alwo Pharaoh am danoch, a dywedyd, Beth *yw* eich gwaith?
34 Dywedwch, Dy weision fuant drinwyr anifeiliaid o'u hieuengctid hyd yr awr hon, nyni a'n tadau hefyd; er mwyn cael o honoch drigo yn nhir Gosen: canys ffieidd-dra yr Aiphtiaid *yw* pob bugail defaid.

PENNOD 47.

1 Joseph yn dwyn pump o'i frodyr, 7 a'i dad, ger bron Pharaoh. 11 Ynlau yn rhoddi iddynt drigfa a modd i fyw. 13 Mae efe yn cael holl arian yr Aiphtiaid, 16 a'u hanifeiliaid, 18 a'u tiroedd, i Pharaoh. 22 Ni phrynwyd mo dir yr offeiriaid. 23 Mae efe yn gosod y tir iddynt er y bummed ran. 28 Oedran Jacob. 29 Mae efe ym peri i Joseph dyngu y claddai efe ef gyd â'i dadau.

YNA y daeth Joseph ac a fynegodd i Pharaoh, ac a ddywedodd, Fy nhad, a'm brodyr, a'u defaid, a'u gwartheg, a'r hyn oll *oedd* ganddynt, a ddaethant o dir Canaan; ac wele hwynt yn nhir Gosen.
2 Ac efe a gymmerth rai o'i frodyr, *sef* pum dyn, ac a'u gosododd hwynt o flaen Pharaoh.
3 A dywedodd Pharaoh wrth ei frodyr ef, Beth *yw* eich gwaith chwi? Hwythau a ddywedasant wrth Pha-

raoh, Bugeiliaid defaid yw dy weision, nyni a'n tadau hefyd.

4 Dywedasant hefyd wrth Pharaoh, I orymdaith yn y wlad y daethom, am nad *oes* borfa i'r defaid gan dy weision; canys trwm *yw* y newyn y'ngwlad Canaan: ac yr awr hon, attolwg, caed dy weision drigo yn nhir Gosen.

5 A llefarodd Pharaoh wrth Joseph, gan ddywedyd, Dy dad a'th frodyr a ddaethant attat.

6 Tir yr Aipht sydd o'th flaen; cyflea dy dad a'th frodyr yn y man goreu yn y wlad; trigant yn nhir Gosen: ac os gwyddost fod yn eu mysg wŷr grymmus, gosod hwynt yn ben-bugeiliaid ar yr eiddof fi.

7 A dug Joseph Jacob ei dad, ac a'i gosododd ger bron Pharaoh: a Jacob a fendithiodd Pharaoh.

8 A dywedodd Pharaoh wrth Jacob, Pa faint *yw* dyddiau blynyddoedd dy einioes di?

9 A Jacob a ddywedodd wrth Pharaoh, Dyddiau blynyddoedd fy ymdaith *ydynt* ddeg ar hugain a chan mlynedd: ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy einioes, ac ni chyrhaeddasant ddyddiau blynyddoedd einioes fy nhadau yn nyddiau eu hymdaith hwynt.

10 A bendithiodd Jacob Pharaoh, ac a aeth allan o ŵydd Pharaoh.

11 ¶ A Joseph a gyfleodd ei dad a'i frodyr, ac a roddes iddynt feddiant y'ngwlad yr Aipht, y'nghwr goreu y wlad, yn nhir Rameses, fel y gorchymynasai Pharaoh.

12 Joseph hefyd a gynhaliodd ei dad, a'i frodyr, a holl dylwyth ei dad, â bara, yn ol *eu* teuluoedd.

13 ¶ Ac nid *oedd* bara yn yr holl wlad: canys y newyn oedd drwm iawn; fel yr oedd gwlad yr Aipht, a gwlad Canaan, yn dyddfu gan y newyn.

14 Joseph hefyd a gasglodd yr holl arian a gawsid yn nhir yr Aipht, ac yn nhir Canaan, am yr ymborth a brynasent hwy: a Joseph a ddug yr arian i dŷ Pharaoh.

15 Pan ddarfu yr arian yn nhir yr Aipht, ac y'ngwlad Canaan, yr holl Aiphtiaid a ddaethant at Joseph, gan ddywedyd, Moes i ni fara: canys paham y byddem ni feirw ger dy fron? o herwydd darfu yr arian.

16 A dywedodd Joseph, Moeswch eich anifeiliaid; a rhoddaf i chwi am eich anifeiliaid, os darfu yr arian.

17 A hwy a ddygasant eu hanifeiliaid at Joseph: a rhoddes Joseph iddynt fara am y meirch, ac am y diadelloedd defaid, ac am y gyrroedd gwartheg, ac am yr asynod; ac a'u cynhaliodd hwynt â bara, am eu holl anifeiliaid, dros y flwyddyn honno.

18 A phan ddarfu y flwyddyn honno, y daethant atto ef yr ail flwyddyn, ac a ddywedasant wrtho, Ni chelwn oddi wrth fy arglwydd ddarfod yr arian, a *myned ein* hysgrubliaid a'n hanifeiliaid at fy arglwydd; ni adawyd *i ni* ger bron fy arglwydd onid ein cyrph a'n tir.

19 Paham y byddwn feirw o flaen dy lygaid, nyni a'n tir? pryn ni a'n tir am fara; a nyni a'n tir a fyddwn gaethion i Pharaoh: dod dithau i ni had, fel y byddom fyw, ac na fyddom feirw, ac na byddo y tir yn anghyfannedd.

20 A Joseph a brynodd holl dir yr Aipht i Pharaoh: canys yr Aiphtiaid a werthasant bob un ei faes; oblegid y newyn a gryfhasai arnynt: felly yr aeth y tir i Pharaoh.

21 Y bobl hefyd, efe a'u symmudodd hwynt i ddinasoedd, o'r naill gwr i derfyn yr Aipht hyd ei chwr *arall*.

22 Yn unig tir yr offeiriaid ni phrynodd efe: canys rhan *oedd* i'r offeiriaid wedi ei phennu iddynt gan Pharaoh, a'u rhan a roddasai Pharaoh iddynt a fwyttasant hwy; am hynny ni werthasant hwy eu tir.

23 Dywedodd Joseph hefyd wrth y bobl, Wele, prynais chwi heddyw, a'ch tir, i Pharaoh: wele i chwi had, heuwch chwithau y tir.

24 A bydded i chwi roddi i Pharaoh y bummed ran o'r cnwd; a bydd y pedair rhan i chwi, yn had i'r maes, ac yn ymborth i chwi, ac i'r rhai *sydd* yn eich tai, ac yn fwyd i'ch rhai bach.

25 A dywedasant, Cedwaist ni yn fyw: gâd i ni gael ffafr y'ngolwg fy arglwydd, a byddwn weision i Pharaoh.

26 A Joseph a osododd hynny yn ddeddf hyd heddyw ar dir yr Aipht, gael o Pharaoh y bummed

ran; ond o dir yr offeiriaid yn unig, yr hwn nid oedd eiddo Pharaoh.

27 ¶ Trigodd Israel hefyd yng ngwlad yr Aipht o fewn tir Gosen, ac a gawsant feddiannau ynddi; cynnyddasant hefyd, ac amlhasant yn ddirfawr.

28 Jacob hefyd a fu fyw yn nhir yr Aipht ddwy flynedd ar bymtheg; felly yr oedd dyddiau Jacob, *sef* blynyddoedd ei einioes ef, yn saith mlynedd a deugain a chan mlynedd.

29 A dyddiau Israel a nesasant i farw: ac efe a alwodd am ei fab Joseph, ac a ddywedodd wrtho, O chefais yn awr ffafr yn dy olwg, gosod, attolwg, dy law dan fy morddwyd, a gwna â mi drugaredd a gwirionedd; na chladd fi, attolwg, yn yr Aipht:

30 Eithr mi a orweddaf gyd â'm tadau; yna dwg fi allan o'r Aipht, a chladd fi yn eu beddrod hwynt. Yntau a ddywedodd, Mi a wnaf yn ol dy air.

31 Ac efe a ddywedodd, Twng wrthyf. Ac efe a dyngodd wrtho. Yna Israel a ymgrymmodd ar ben y gwely.

PENNOD 48.

1 *Joseph a'i ddau fab yn ymweled â'i dad yn ei glefyd.* 2 *Jacob yn ymgryfhau i'w bendithio hwy.* 3 *Yn adrodd yr addewid.* 5 *Yn cymmeryd Ephraim a Manasseh yn eiddo ei hun.* 7 *Yn crybwyll wrtho am fedd ei fam.* 9 *Yn bendithio Ephraim a Manasseh.* 17 *Yn gosod yr ieuangaf o flaen yr hynaf.* 21 *Yn prophwydo am eu dychweliad hwy i Ganaan.*

ABU, wedi y pethau hyn, ddywedyd o un wrth Joseph, Wele, y mae dy dad yn glaf. Ac efe a gymmerth ei ddau fab gyd âg ef, Manasseh ac Ephraim.

2 A mynegodd *un* i Jacob, ac a ddywedodd, Wele dy fab Joseph yn dyfod attat. Ac Israel a ymgryfhaodd, ac a eisteddodd ar y gwely.

3 A dywedodd Jacob wrth Joseph, Duw Hollalluog a ymddangosodd i mi yn Lus, y'ngwlad Canaan, ac a'm bendithiodd:

4 Dywedodd hefyd wrthyf, Wele, mi a'th wnaf yn ffrwythlawn, ac a'th amlhâf, ac yn dyrfa o bobloedd y'th wnaf, a rhoddaf y tir hwn i'th had di ar dy ol di, yn etifeddiaeth dragywyddol.

5 ¶ Ac yr awr hon, dy ddau fab, y rhai a anwyd i ti yn nhir yr Aipht, cyn fy nyfod attat i'r Aipht, eiddof fi *fyddant* hwy: Ephraim a Manasseh fyddant eiddof fi, fel Reuben a Simeon.

6 A'th eppil, y rhai a genhedlych ar eu hol hwynt, fyddant eiddot ti dy hun; ar enw eu brodyr y gelwir hwynt yn eu hetifeddiaeth.

7 ¶ A phan ddeuthum i o Mesopotamia, bu Rahel farw gyd â mi yn nhir Canaan, ar y ffordd, pan oedd etto filldir o dir hyd Ephrath: a chleddais hi yno ar ffordd Ephrath: honno *yw* Bethlehem.

8 A gwelodd Israel feibion Joseph, ac a ddywedodd, Pwy *yw* y rhai hyn?

9 A Joseph a ddywedodd wrth ei dad, Dyma fy meibion i, a roddodd Duw i mi yma. Yntau a ddywedodd, Dwg hwynt, attolwg, attaf fi, a mi a'u bendithiaf hwynt.

10 Llygaid Israel hefyd oedd drymion gan henaint, *fel* na allai efe weled; ac efe a'u dygodd hwynt atto ef: yntau a'u cusanodd hwynt, ac a'u cofleidiodd.

11 Dywedodd Israel hefyd wrth Joseph, Ni feddyliais weled dy wyneb; etto, wele, parodd Duw i mi weled dy had hefyd.

12 A Joseph a'u tynnodd hwynt allan oddi wrth ei liniau ef, ac a ymgrymmodd i lawr ar ei wyneb.

13 Cymmerodd Joseph hefyd hwynt ill dau, Ephraim yn ei law ddehau tu a llaw aswy Israel, a Manasseh yn ei law aswy tu a llaw ddehau Israel; ac a'u nesaodd hwynt atto ef.

14 Ac Israel a estynodd ei law ddehau, ac a'i gosododd ar ben Ephraim, (a hwn oedd yr ieuangaf,) a'i law aswy ar ben Manasseh: gan gyfarwyddo ei ddwylaw trwy wybod; canys Manasseh *oedd* y cynfab.

15 ¶ Ac efe a fendithiodd Joseph, ac a ddywedodd, Duw, yr hwn y rhodiodd fy nhadau Abraham ac Isaac ger ei fron, Duw, yr hwn a'm porthodd er pan ydwyf, hyd y dydd hwn,

16 Yr angel yr hwn a'm gwaredodd i oddi wrth bob drwg, a fendithio y llangciau; fy enw hefyd, ac enw fy nhadau Abraham ac

Isaac, a alwer arnynt: heigiant
hefyd yn lliaws y'nghanol y wlad.
17 Pan welodd Joseph osod o'i dad
ei law ddehau ar ben Ephraim, bu
anfoddlawn ganddo: ac efe a ddal-
iodd law ei dad, i'w symmud hi
oddi ar ben Ephraim, ar ben Ma-
nasseh.
18 Dywedodd Joseph hefyd wrth
ei dad, Nid felly, fy nhad: canys
dyma y cynfab, gosod dy law dde-
hau ar ei ben ef.
19 A'i dad a ommeddodd, ac a ddy-
wedodd, Mi a wn, fy mab, mi a wn:
bydd hwn hefyd yn bobl, a mawr
fydd hwn hefyd; ond yn wir ei
frawd ieuangaf fydd mwy nag ef,
a'i had ef fydd yn lliaws o genhedl-
oedd.
20 Ac efe a'u bendithiodd hwynt
yn y dydd hwnnw, gan ddywedyd,
Ynot ti y bendithia Israel, gan ddy-
wedyd, Gwnaed Duw di fel Eph-
raim, ac fel Manasseh. Ac efe a os-
ododd Ephraim o flaen Manasseh.
21 Dywedodd Israel hefyd wrth
Joseph, Wele fi yn marw; a bydd
Duw gyd â chwi, ac efe a'ch dy-
chwel chwi i dir eich tadau.
22 A mi a roddais i ti un rhan gor-
uwch dy frodyr, yr hon a ddygais
o law yr Amoriaid â'm cleddyf ac
â'm bwa.

PENNOD 49.

1 *Jacob yn galw ei feibion i'w bendithio.* 3 *Bendith pob un o honynt.* 29 *Mae efe yn rhoddi siars arnynt ynghylch ei gladdedigaeth;* 33 *ac yn marw.*

YNA y galwodd Jacob ar ei feib-
ion, ac a ddywedodd, Ymgesgl-
wch, fel y mynegwyf i chwi yr hyn
a ddigwydda i chwi yn y dyddiau
diweddaf.
2 Ymgesglwch, a chlywch, meibion
Jacob; ïe, gwrandêwch ar Israel
eich tad.
3 ¶ Reuben fy nghynfab, tydi *oedd*
fy ngrym, a dechreuad fy nerth,
rhagoriaeth braint, a rhagoriaeth
cryfder.
4 Ansafadwy *oeddit* fel dwfr: ni
ragori di; canys dringaist wely dy
dad: yna yr halogaist *ef:* fy ngwely
a ddringodd.
5 ¶ Simeon a Lefi *sydd* frodyr;
offer creulondeb *sydd yn* eu han-
neddau.
6 Na ddeled fy enaid i'w cyfrinach
hwynt; fy ngogoniant, na fydd un
â'u cynnulleidfa hwynt: canys yn
eu dig y lladdasant ŵr, ac o'u gwir-
fodd y diwreiddiasant gaer.
7 Melldigedig fyddo eu dig, canys
tost *oedd;* a'u llid, canys creulawn
fu: rhannaf hwynt yn Jacob, a
gwasgaraf hwynt yn Israel.
8 ¶ Tithau, Judah, dy frodyr a'th
glodforant di: dy law *fydd* y'ngwar
dy elynion; meibion dy dad a ym-
grymmant i ti.
9 Cenaw llew *wyt ti,* Judah; o'r
ysglyfaeth y daethost i fyny, fy
mab: ymgrymmodd, gorweddodd
fel llew, ac fel hen lew: pwy a'i
cyfyd ef?
10 Nid ymedy y deyrn-wïalen o
Judah, na deddfwr oddi rhwng ei
draed ef, hyd oni ddêl Silo: ac atto
ef *y bydd* cynhulliad pobloedd.
11 Yn rhwymo ei ebol wrth y win-
wydden, a llwdn ei asyn wrth y bêr
winwydden: golchodd ei wisg mewn
gwin, a'i ddillad y'ngwaed y grawn-
win.
12 Coch *fydd* ei lygaid gan win, a
gwyn *fydd* ei ddannedd gan laeth.
13 ¶ Sabulon a breswylia ym
mhorthleoedd y môr; ac efe a fydd
yn borthladd llongau, a'i derfyn
fydd hyd Sidon.
14 ¶ Issachar *sydd* asyn asgyrnog,
yn gorwedd rhwng dau bwn.
15 Ac a wêl lonyddwch mai da yw,
a'r tir mai hyfryd: efe a ogwydda
ei ysgwydd i ddwyn, ac a fydd yn
gaeth dan deyrnged.
16 ¶ Dan a farn ei bobl fel un o
lwythau Israel.
17 Dan fydd sarph ar y ffordd, a
neidr ar y llwybr; yn brathu sodl-
au y march, fel y syrthio ei farchog
yn ol.
18 Am dy iachawdwriaeth di y
disgwyliais, Arglwydd.
19 ¶ Gad, llu a'i gorfydd; ac yn-
tau a orfydd o'r diwedd.
20 ¶ O Aser bras *fydd* ei fwyd ef, ac
efe a rydd ddanteithion brenhinol.
21 ¶ Naphtali *fydd* ewig wedi ei
gollwng, yn rhoddi geiriau teg.
22 ¶ Joseph *fydd* gangen ffrwyth-
lawn, cangen ffrwythlawn wrth ffyn-
non, ceingciau yn cerdded ar hyd
mur.
23 A'r saethyddion fuant chwerw

wrtho ef, ac a saethasant, ac a'i casasant ef.

24 Er hynny arhôdd ei fwa ef yn gryf, a breichiau ei ddwylaw a gryfhasant, trwy ddwylaw grymmus DDUW Jacob: oddi yno y *mae* y bugail, maen Israel:

25 Trwy DDUW dy dad, yr hwn a'th gynnorthwya, a'r Hollalluog, yr hwn a'th fendithia â bendithion y nefoedd oddi uchod, â bendithion y dyfnder yn gorwedd isod, â bendithion y bronnau a'r groth.

26 Rhagorodd bendithion dy dad ar fendithion fy rhieni, hyd derfyn bryniau tragywyddoldeb: byddant ar ben Joseph, ac ar goryn yr hwn a neilluduwyd oddi wrth ei frodyr.

27 ¶ Benjamin a ysglyfaetha *fel* blaidd: y bore y bwytty yr ysglyfaeth, a'r hwyr y rhan yr yspail.

28 ¶ Dyma ddeuddeg llwyth Israel oll; a dyma yr hyn a lefarodd eu tad wrthynt, ac y bendithiodd efe hwynt: pob un yn ol ei fendith y bendithiodd efe hwynt.

29 Yna y gorchymynodd efe iddynt, ac a ddywedodd wrthynt, Myfi a gesglir at fy mhobl: cleddwch fi gyd â'm tadau, yn yr ogof *sydd* ym maes Ephron yr Hethiad;

30 Yn yr ogof *sydd* ym maes Machpelah, yr hon *sydd* o flaen Mamre, y'ngwlad Canaan, yr hon a brynodd Abraham gyd â'r maes gan Ephron yr Hethiad, yn feddiant beddrod.

31 Yno y claddasant Abraham a Sarah ei wraig; yno y claddasant Isaac a Rebeccah ei wraig; ac yno y cleddais i Leah.

32 Meddiant y maes, a'r ogof *sydd* ynddo, *a gaed* gan feibion Heth.

33 Pan orphenodd Jacob orchymyn i'w feibion, efe a dynnodd ei draed i'r gwely, ac a fu farw; a chasglwyd ef at ei bobl.

PENNOD 50.

1 *Arwyl Jacob.* 4 *Joseph yn cael cennad gan Pharaoh i fyned i'w gladdu ef.* 7 *Y gladdedigaeth.* 15 *Joseph yn cysuro ei frodyr, y rhai oedd yn gofyn ei nawdd ef.* 22 *Ei oedran.* 23 *Mae efe yn gweled y drydedd genhedlaeth o'i feibion:* 24 *yn darogan i'w frodyr eu dychweliad:* 25 *yn cymmeryd llw ganddynt am ei esgyrn:* 26 *yn marw, ac yn cael ei roddi mewn arch.*

YNA y syrthiodd Joseph ar wyneb ei dad, ac a wylodd arno ef, ac a'i cusanodd ef.

2 Gorchymynodd Joseph hefyd i'w weision, y meddygon, bêr-arogli ei dad ef: felly y meddygon a bêr-aroglasant Israel.

3 Pan gyflawnwyd iddo ddeugain niwrnod, (canys felly y cyflawnir dyddiau y rhai a bêr-aroglir,) yna yr Aiphtiaid a'i harwylasant ef ddeng niwrnod a thri ugain.

4 Pan aeth dyddiau ei arwyl ef heibio, yna y llefarodd Joseph wrth deulu Pharaoh, gan ddywedyd, Os cefais yr awr hon ffafr yn eich golwg, lleferwch wrth Pharaoh, attolwg, gan ddywedyd,

5 Fy nhad a'm tyngodd, gan ddywedyd, Wele fi yn marw: yn fy medd yr hwn a gloddiais i mi yng ngwlad Canaan, yno y'm cleddi. Ac yr awr hon caffwyf fyned i fyny, attolwg, fel y claddwyf fy nhad; yna mi a ddychwelaf.

6 A dywedodd Pharaoh, Dos i fyny, a chladd dy dad, fel y'th dyngodd.

7 ¶ A Joseph a aeth i fyny i gladdu ei dad: a holl weision Pharaoh, *sef* henuriaid ei dŷ ef, a holl henuriaid gwlad yr Aipht, a aethant i fyny gyd âg ef,

8 A holl dŷ Joseph, a'i frodyr, a thŷ ei dad: eu rhai bach yn unig, a'u defaid, a'u gwartheg, a adawsant yn nhir Gosen.

9 Ac aeth i fyny gyd âg ef gerbydau, a gwŷr meirch hefyd: ac yr oedd yn llu mawr iawn.

10 A hwy a ddaethant hyd lawrdyrnu Atad, yr hwn sydd dros yr Iorddonen; ac a alarasant yno alar mawr, a thrwm iawn: canys gwnaeth alar dros ei dad saith niwrnod.

11 Pan welodd y Canaaneaid, y rhai oedd yn preswylio yn y wlad, y galar yn llawr-dyrnu Atad; yna y dywedasant, Dyma alar trwm gan yr Aiphtiaid: am hynny y galwasant ei enw Abel-Misraim, yr hwn *sydd* dros yr Iorddonen.

12 A'i feibion a wnaethant iddo megis y gorchymynasai efe iddynt.

13 Canys ei feibion a'i dygasant ef i wlad Canaan, ac a'i claddasant ef yn ogof maes Machpelah: yr hon a brynasai Abraham gyd â'r maes, yn feddiant beddrod, gan Ephron yr Hethiad, o flaen Mamre.

14 ¶ A dychwelodd Joseph i'r

Aipht, efe, a'i frodyr, a'r rhai oll a aethant i fyny gyd âg ef i gladdu ei dad, wedi iddo gladdu ei dad.

15 ¶ Pan welodd brodyr Joseph farw o'u tad, hwy a ddywedasant, Joseph ond odid a'n casâ ni, a chan dalu a dâl i ni yr holl ddrwg a wnaethom ni iddo ef.

16 A hwy a anfonasant at Joseph i ddywedyd, Dy dad a orchymynodd o flaen ei farw, gan ddywedyd,

17 Fel hyn y dywedwch wrth Joseph; Attolwg, maddeu yr awr hon gamwedd dy frodyr, a'u pechod hwynt; canys gwnaethant i ti ddrwg: ond yr awr hon, maddeu, attolwg, gamwedd gweision DUW dy dad. Ac wylodd Joseph pan lefarasant wrtho.

18 A'i frodyr a ddaethant hefyd, ac a syrthiasant ger ei fron ef; ac a ddywedasant, Wele ni yn weision i ti.

19 A dywedodd Joseph wrthynt, Nac ofnwch; canys a *ydwyf* fi yn lle DUW?

20 Chwi a fwriadasoch ddrwg i'm herbyn; ond DUW a'i bwriadodd i ddaioni, i ddwyn i ben, fel *y gwelir* heddyw, i gadw yn fyw bobl lawer.

21 Am hynny, nac ofnwch yr awr hon: myfi a'ch cynhaliaf chwi, a'ch rhai bach. Ac efe a'u cysurodd hwynt, ac a lefarodd wrth *fodd* eu calon.

22 ¶ A Joseph a drigodd yn yr Aipht, efe, a theulu ei dad: a bu Joseph fyw gan mlynedd a deg.

23 Gwelodd Joseph hefyd, o Ephraim, orwyrion: maethwyd hefyd blant Machir, fab Manasseh, ar liniau Joseph.

24 A dywedodd Joseph wrth ei frodyr, Myfi sydd yn marw: a DUW gan ymweled a ymwêl â chwi, ac a'ch dwg chwi i fyny o'r wlad hon, i'r wlad a dyngodd efe i Abraham, i Isaac, ac i Jacob.

25 A thyngodd Joseph feibion Israel, gan ddywedyd, DUW gan eich gofwyo a'ch gofwya chwi; dygwch chwithau fy esgyrn i fyny oddi yma.

26 A Joseph a fu farw yn fab deng mlwydd a chant: a hwy a'i pêr-aroglasant ef; ac efe a osodwyd mewn arch yn yr Aipht.

AIL LYFR MOSES,

YR HWN A ELWIR

EXODUS.

PENNOD 1.

1 *Plant Israel, ar ol marwolaeth Joseph, yn amlhâu.* 8 *Po mwyaf y mae y brenhin newydd yn eu gorthrymmu, mwyaf y maent yn amlhâu.* 15 *Duwioldeb y bydwragedd, yn cadw yn fyw y plant gwrryw.* 22 *Pharaoh yn gorchymyn bwrw y plant gwrryw i'r afon.*

DYMA yn awr enwau meibion Israel, y rhai a ddaethant i'r Aipht: gyd â Jacob y daethant, bob un a'i deulu.

2 Reuben, Simeon, Lefi, a Judah,
3 Issachar, Sabulon, a Benjamin,
4 Dan, a Naphtali, Gad, ac Aser.

5 A'r holl eneidiau a ddaethant allan o gorph Jacob oedd ddeng enaid a thri ugain: a Joseph oedd yn yr Aipht.

6 A Joseph a fu farw, a'i holl frodyr, a'r holl genhedlaeth honno.

7 ¶ A phlant Israel a hiliasant ac a gynnyddasant, amlhasant hefyd, a chryfhasant yn ddirfawr odiaeth; a'r wlad a lanwyd o honynt.

8 Yna y cyfododd brenhin newydd yn yr Aipht, yr hwn ni adnabuasai mo Joseph.

9 Ac efe a ddywedodd wrth ei bobl, Wele bobl plant Israel yn amlach, ac yn gryfach, na nyni.

10 Deuwch, gwnawn yn gall â hwynt; rhag amlhâu o honynt, a bod, pan ddigwyddo rhyfel, ymgyssylltu o honynt â'n caseion, a rhyfela i'n herbyn, a myned i fyny o'r wlad.

11 Am hynny y gosodasant arnynt feistriaid-gwaith, i'w gorthrymmu â'u beichiau; a hwy a adeiladasant

i Pharaoh ddinasoedd trysorau, *sef* Pithom a Raamses.
12 Ond fel y gorthrymment hwynt, felly yr amlhâent, ac y cynnyddent: a drwg oedd ganddynt o herwydd plant Israel.
13 A'r Aiphtiaid a wnaeth i blant Israel wasanaethu yn galed.
14 A gwnaethant eu heinioes hwynt yn chwerw trwy y gwasanaeth caled, mewn clai, ac mewn priddfaen, ac ym mhob gwasanaeth yn y maes; a'u holl wasanaeth y gwnaent iddynt wasanaethu ynddo *oedd* galed.
15 A brenhin yr Aipht a lefarodd wrth fydwragedd yr Hebrëesau; o ba rai enw un *oedd* Siprah, ac enw yr ail Puah:
16 Ac efe a ddywedodd, Pan fyddoch fydwragedd i'r Hebrëesau, a gweled o honoch hwynt yn esgor; os mab fydd, lleddwch ef; ond os merch, bydded fyw.
17 Er hynny y bydwragedd a ofnasant Duw, ac ni wnaethant yn ol yr hyn a ddywedasai brenhin yr Aipht wrthynt; eithr cadwasant y bechgyn yn fyw.
18 Am hynny brenhin yr Aipht a alwodd am y bydwragedd, ac a ddywedodd wrthynt, Paham y gwnaethoch y peth hyn, ac y cadwasoch y bechgyn yn fyw?
19 A'r bydwragedd a ddywedasant wrth Pharaoh, Am nad *yw* yr Hebrëesau fel yr Aiphtiesau; oblegid y maent hwy yn fywiog, ac yn esgor cyn dyfod bydwraig attynt.
20 Am hynny y bu Duw dda wrth y bydwragedd: a'r bobl a amlhaodd, ac a aeth yn gryf iawn.
21 Ac o herwydd i'r bydwragedd ofni Duw, yntau a wnaeth dai iddynt hwythau.
22 A Pharaoh a orchymynodd i'w holl bobl, gan ddywedyd, Pob mab a'r a enir, bwriwch ef i'r afon; ond cedwch yn fyw bob merch.

PENNOD 2.

1 Geni Moses, 3 a'i fwrw mewn cawell yn yr hesg. 5 Merch Pharaoh yn ei gael ef, ac yn ei ddwyn i fynu. 11 Efe yn lladd Aiphtiwr: 13 yn cerydddu Hebrëwr: 15 yn ffoi i Midian: 21 yn priodi Sephorah. 22 Genedigaeth Gersom. 23 Duw yn ymyried uchenaid yr Israeliaid.

YNA gŵr o dŷ Lefi a aeth, ac a briododd ferch i Lefi.
2 A'r wraig a feichiogodd, ac a esgorodd ar fab: a phan welodd hi mai tlws ydoedd efe, hi a'i cuddiodd ef dri mis.
3 A phan na allai hi ei guddio ef yn hŵy, hi a gymmerodd gawell iddo ef o lafrwyn, ac a ddwbiodd hwnnw â chlai ac â phyg; ac a osododd y bachgen ynddo, ac a'i rhoddodd ym mysg yr hesg ar fin yr afon.
4 A'i chwaer ef a safodd o bell, i gael gwybod beth a wnaid iddo ef.
5 ¶ A merch Pharaoh a ddaeth i waered i'r afon i ymolchi; (a'i llangcesau oedd yn rhodio ger llaw yr afon;) a hi a ganfu y cawell y'nghanol yr hesg, ac a anfonodd ei llawforwyn i'w gyrchu ef.
6 Ac wedi iddi ei agoryd, hi a ganfu y bachgen; ac wele y plentyn yn wylo: a hi a dosturiodd wrtho, ac a ddywedodd, *Un* o blant yr Hebreaid *yw* hwn.
7 Yna ei chwaer ef a ddywedodd wrth ferch Pharaoh, A âf fi i alw attat fammaeth o'r Hebrëesau, fel y mago hi y bachgen i ti?
8 A merch Pharaoh a ddywedodd wrthi, Dos. A'r llangces a aeth ac a alwodd fam y bachgen.
9 A dywedodd merch Pharaoh wrthi, Dwg ymaith y bachgen hwn, a maga ef i mi, a minnau a roddaf i ti dy gyflog. A'r wraig a gymmerodd y bachgen, ac a'i magodd.
10 Pan aeth y bachgen yn fawr, hi a'i dug ef i ferch Pharaoh; ac efe a fu iddi yn fab: a hi a alwodd ei enw ef Moses; O herwydd (*eb hi*) o'r dwfr y tynnais ef.
11 ¶ A bu yn y dyddiau hynny, pan aeth Moses yn fawr, fyned o hono allan at ei frodyr, ac edrych ar eu beichiau hwynt, a gweled Aiphtwr yn taro Hebrëwr, *un* o'i frodyr.
12 Ac efe a edrychodd yma ac accw; a phan welodd nad *oedd yno* neb, efe a laddodd yr Aiphtiad, ac a'i cuddiodd yn y tywod.
13 Ac efe a aeth allan yr ail ddydd; ac wele ddau Hebrëwr yn ymryson: ac efe a ddywedodd wrth yr hwn oedd ar y cam, Paham y tarewi dy gyfaill?
14 A dywedodd yntau, Pwy a'th osododd di yn bennaeth ac yn frawdwr arnom ni? ai meddwl yr wyt ti fy lladd i, megis y lleddaist

yr Aiphtiad? A Moses a ofnodd, ac a ddywedodd, Dïau y gwyddir y peth hyn.

15 Pan glybu Pharaoh y peth hyn, efe a geisiodd ladd Moses: ond Moses a ffodd rhag Pharaoh, ac a arhosodd yn nhir Midian; ac a eisteddodd wrth bydew.

16 Ac i offeiriad Midian yr ydoedd saith o ferched: a'r *rhai hynny* a ddaethant ac a dynnasant *ddwfr*, ac a lanwasant y cafnau i ddyfrhâu defaid eu tad.

17 Ond y bugeiliaid a ddaethant ac a'u gyrrasant ymaith: yna y cododd Moses, ac a'u cynnorthwyodd hwynt, ac a ddyfrhaodd eu praidd hwynt.

18 Yna y daethant at Reuel eu tad: ac efe a ddywedodd, Paham y daethoch heddyw cyn gynted?

19 A hwy a ddywedasant, Aiphtwr a'n hachubodd ni o law y bugeiliaid; a chan dynnu a dynnodd ddwfr hefyd i ni, ac a ddyfrhaodd y praidd.

20 Ac efe a ddywedodd wrth ei ferched, Pa le *y mae* efe? paham y gollyngasoch ymaith y gŵr? Gelwch arno, a bwyttâed fara.

21 A bu Moses foddlawn i drigo gyd â'r gŵr: ac yntau a roddodd Sephorah ei ferch i Moses.

22 A hi a esgorodd ar fab; ac efe a alwodd ei enw ef Gersom: O herwydd dïeithr (*eb efe*) a fûm i mewn gwlad ddïeithr.

23 ¶ Ac yn ol dyddiau lawer, bu farw brenhin yr Aipht; a phlant Israel a ucheneidiasant oblegid y caethiwed, ac a waeddasant; a'u gwaedd hwynt a ddyrchafodd at Duw, oblegid y caethiwed.

24 A Duw a glybu eu huchenaid hwynt; a Duw a gofiodd ei gyfammod âg Abraham, âg Isaac, ac â Jacob.

25 A Duw a edrychodd ar blant Israel; Duw hefyd a gydnabu *â hwynt.*

PENNOD 3.

1 *Moses yn bugeilio defaid Jethro.* 2 *Duw yn ymddangos iddo mewn perth yn llosgi;* 9 *ac yn ei anfon ef i waredu Israel.* 14 *Enw Duw.* 15 *Ei gennadwriaeth ef at Israel.*

A MOSES oedd yn bugeilio defaid Jethro ei chwegrwn, offeiriad Midian: ac efe a yrrodd ŷ praidd o'r tu cefn i'r anialwch, ac a ddaeth i fynydd Duw, Horeb.

2 Ac angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo mewn fflam dân o ganol perth: ac efe a edrychodd, ac wele y berth yn llosgi yn dân, a'r berth heb ei difa.

3 A dywedodd Moses, Mi a droaf yn awr, ac a edrychaf ar y weledigaeth fawr hon, paham nad yw y berth wedi llosgi.

4 Pan welodd yr Arglwydd ei fod efe yn troi i edrych, Duw a alwodd arno o ganol y berth, ac a ddywedodd, Moses, Moses. A dywedodd yntau, Wele fi.

5 Ac efe a ddywedodd, Na nesâ yma: dïosg dy esgidiau oddi am dy draed; o herwydd y lle yr wyt ti yn sefyll arno sydd ddaear sanctaidd.

6 Ac efe a ddywedodd, Myfi *yw* Duw dy dad, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob. A Moses a guddiodd ei wyneb; oblegid ofni yr ydoedd edrych ar Duw.

7 ¶ A dywedodd yr Arglwydd, Gan weled y gwelais gystudd fy mhobl sydd yn yr Aipht, a'u gwaedd o achos eu meistriaid-gwaith a glywais; canys mi a wn oddi wrth eu doluriau.

8 A mi a ddisgynais i'w gwaredu hwy o law yr Aiphtiaid, ac i'w dwyn o'r wlad honno i wlad dda a helaeth, i wlad yn llifeirio o laeth a mêl; i le y Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Pheresiaid, yr Hefiaid hefyd, a'r Jebusiaid.

9 Ac yn awr wele, gwaedd meibion Israel a ddaeth attaf fi; a hefyd mi a welais y gorthrymder â'r hwn y gorthrymmodd yr Aiphtiaid hwynt.

10 Tyred gan hynny yn awr, a mi a'th anfonaf at Pharaoh; fel y dygech fy mhobl, plant Israel, allan o'r Aipht.

11 ¶ A dywedodd Moses wrth Duw, Pwy ydwyf fi, fel yr awn i at Pharaoh, ac y dygwn blant Israel allan o'r Aipht?

12 Dywedodd yntau, Dïau y byddaf gyd â thi; a hyn a fydd arwydd i ti, mai myfi a'th anfonodd: Wedi i ti ddwyn fy mhobl allan o'r Aipht, chwi a wasanaethwch Duw ar y mynydd hwn.

13 A dywedodd Moses wrth Duw,

Wele, *pan* ddelwyf fi at feibion Israel, a dywedyd wrthynt, Duw eich tadau a'm hanfonodd attoch; os dywedant wrthyf, Beth *yw* ei enw ef? beth a ddywedaf fi wrthynt?

14 A Duw a ddywedodd wrth Moses, YDWYF YR HWN YDWYF: dywedodd hefyd, Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel; YDWYF a'm hanfonodd attoch.

15 A Duw a ddywedodd drachefn wrth Moses, Fel hyn y dywedi wrth feibion Israel; Arglwydd Dduw eich tadau, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob, a'm hanfonodd attoch: dyma fy enw byth, a dyma fy nghoffadwriaeth o genhedlaeth i genhedlaeth.

16 Dos a chynnull henuriaid Israel, a dywed wrthynt, Arglwydd Dduw eich tadau, Duw Abraham, Isaac, a Jacob, a ymddangosodd i mi, gan ddywedyd, Gan ymweled yr ymwelais â chwi, a *gwelais* yr hyn a wnaed i chwi yn yr Aipht.

17 A dywedais, Mi a'ch dygaf chwi i fyny o adfyd yr Aipht, i wlad y Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Pheresiaid, yr Hefiaid hefyd, a'r Jebusiaid; i wlad yn llifeirio o laeth a mêl.

18 A hwy a wrandawant ar dy lais; a thi a ddeui, ti a henuriaid Israel, at frenhin yr Aipht, a dywedwch wrtho, Arglwydd Dduw yr Hebreaid a gyfarfu â ni; ac yn awr gâd i ni fyned, attolwg, daith tri diwrnod i'r anialwch, fel yr aberthom i'r Arglwydd ein Duw.

19 ¶ A mi a wn na edy brenhin yr Aipht i chwi fyned, ond mewn llaw gadarn.

20 Am hynny mi a estynaf fy llaw, ac a darawaf yr Aipht â'm holl ryfeddodau, y rhai a wnaf yn ei chanol; ac wedi hynny efe a'ch gollwng chwi ymaith.

21 A rhoddaf hawddgarwch i'r bobl hyn y'ngolwg yr Aiphtiaid: a bydd, pan eloch, nad eloch yn waglaw;

22 Ond *pob* gwraig a fenthyccia gan ei chymmydoges, a chan yr hon fyddo yn cyttal â hi, ddodrefn arian, a dodrefn aur, a gwisgoedd: a chwi a'u gosodwch *hwynt* am eich meibion ac am eich merched; ac a yspeiliwch yr Aiphtiaid.

PENNOD 4.

1 *Troi gwïalen Moses yn sarph.* 6 *Efe law ef yn gwahan-glwyfo.* 10 *Efe yn ancwyllysgar i'w anfon.* 14 *Appwyntio Aaron i'w helpu ef.* 18 *Moses yn ymadael oddi wrth Jethro.* 21 *Cennadwriaeth Duw at Pharaoh.* 24 *Sephorah yn enwaedu ar ei mab.* 27 *Danfon Aaron i gyfarfod â Moses.* 31 *Y bobl yn credu iddynt.*

A MOSES a attebodd, ac a ddywedodd, Etto, wele, ni chredant i mi, ac ni wrandawant ar fy llais; ond dywedant, Nid ymddangosodd yr Arglwydd i ti.

2 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Beth sydd yn dy law? Dywedodd yntau, Gwïalen.

3 Ac efe a ddywedodd, Tafl hi ar y ddaear. Ac efe a'i taflodd hi ar y ddaear; a hi a aeth yn sarph: a Moses a giliodd rhagddi.

4 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Estyn dy law, ac ymafael yn ei llosgwrn hi. (Ac efe a estynodd ei law, ac a ymaflodd ynddi; a hi a aeth yn wïalen yn ei law ef:)

5 Fel y credant ymddangos i ti o Arglwydd Dduw eu tadau, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob.

6 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrtho drachefn, Dod yn awr dy law yn dy fynwes. Ac efe a roddodd ei law yn ei fynwes: a *phan* dynnodd efe hi allan, wele ei law ef yn wahan-glwyfol fel yr eira.

7 Ac efe a ddywedodd, Dod eilwaith dy law yn dy fynwes. Ac efe a roddodd eilwaith ei law yn ei fynwes, ac a'i tynnodd hi allan o'i fynwes; ac wele, hi a droisai fel ei gnawd *arall* ef.

8 A bydd, oni chredant i ti, ac oni wrandawant ar lais yr arwydd cyntaf, etto y credant i lais yr ail arwydd.

9 A bydd, oni chredant hefyd i'r ddau arwydd hyn, ac oni wrandawant ar dy lais, ti a gymmeri o ddwfr yr afon ac a'i tywelltì ar y sychdir; a bydd y dyfroedd a gymmerech o'r afon yn waed ar y tir sych.

10 ¶ A dywedodd Moses wrth yr Arglwydd, O fy Arglwydd, ni *bûm* ŵr ymadroddus, na chyn hyn, nac er pan leferaist wrth dy was; eithr safndrwm a thafodtrwm ydwyf.

11 A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Pwy a wnaeth enau i ddyn? neu pwy a ordeiniodd fudan, neu

fyddar, neu y neb sydd yn gweled, neu y dall? onid myfi yr ARGLWYDD?

12 Am hynny dos yn awr; a mi a fyddaf gyd â'th enau, ac a ddysgaf i ti yr hyn a ddywedych.

13 Dywedodd yntau, O fy Arglwydd, danfon, attolwg, gyd â'*r hwn* a ddanfonych.

14 Ac ennynodd digofaint yr ARGLWYDD yn erbyn Moses; ac efe a ddywedodd, Onid dy frawd *yw* Aaron y Lefiad? mi a wn y medr efe lefaru yn groyw: ac wele efe yn dyfod allan i'th gyfarfod; a phan y'th welo, efe a lawenycha yn ei galon.

15 Llefara dithau wrtho ef, a gosod y geiriau hyn yn ei enau: a minnau a fyddaf gyd â'th enau di, a chyd â'i enau yntau, a dysgaf i chwi yr hyn a wneloch.

16 A llefared yntau trosot ti wrth y bobl: ac felly y bydd efe yn lle genau i ti, a thithau a fyddi yn lle DUW iddo yntau.

17 Cymmer hefyd y wialen hon yn dy law, yr hon y gwnei wyrthiau â hi.

18 ¶ A Moses a aeth, ac a ddychwelodd at Jethro ei chwegrwn, ac a ddywedodd wrtho, Gâd i mi fyned, attolwg, a dychwelyd at fy mrodyr *sydd* yn yr Aipht, a gweled a ydynt etto yn fyw. A dywedodd Jethro wrth Moses, Dos mewn heddwch.

19 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses ym Midian, Dos, dychwel i'r Aipht; o herwydd bu feirw yr holl wŷr oedd yn ceisio dy einioes.

20 A Moses a gymmerth ei wraig, a'i feibion, ac a'u gosododd hwynt ar asyn, ac a ddychwelodd i wlad yr Aipht: cymmerodd Moses hefyd wialen DUW yn ei law.

21 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Pan elych i ddychwelyd i'r Aipht, gwel i ti wneuthur ger bron Pharaoh yr holl ryfeddodau a roddais yn dy law: ond mi a galedaf ei galon ef, fel na ollyngo ymaith y bobl.

22 A dywed wrth Pharaoh, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD; Fy mab i, *sef* fy nghyntaf-anedig, *yw* Israel.

23 A dywedais wrthyt, Gollwng fy mab, fel y'm gwasanaetho: ond os gwrthodi ei ollwng ef, wele, mi a laddaf dy fab di, *sef* dy gyntaf-anedig.

24 ¶ A bu, ar y ffordd yn y lletty, gyfarfod o'r ARGLWYDD âg ef, a cheisio ei ladd ef.

25 Ond Sephorah a gymmerth gyllell lem, ac a dorrodd ddïenwaediad ei mab, ac a'i bwriodd i gyffwrdd â'i draed ef; ac a ddywedodd, Dïau dy *fod* yn briod gwaedlyd i mi.

26 A'r *ARGLWYDD* a beidiodd âg ef: yna y dywedodd hi, Priod gwaedlyd wyt, oblegid yr enwaediad.

27 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Aaron, Dos i gyfarfod â Moses i'r anialwch. Ac efe a aeth, ac a gyfarfu âg ef ym mynydd DUW, ac a'i cusanodd ef.

28 A Moses a fynegodd i Aaron holl eiriau yr ARGLWYDD, yr hwn a'i hanfonasai ef, a'r holl arwyddion a orchymynasai efe iddo.

29 ¶ A Moses ac Aaron a aethant, ac a gynnullasant holl henuriaid meibion Israel.

30 Ac Aaron a draethodd yr holl eiriau a lefarasai yr ARGLWYDD wrth Moses, ac a wnaeth yr arwyddion y'ngolwg y bobl.

31 A chredodd y bobl: a phan glywsant ymweled o'r ARGLWYDD â meibion Israel, ac iddo edrych ar eu gorthrymder, yna hwy a ymgrymmasant, ac a addolasant.

PENNOD 5.

1 Pharaoh yn rhoddi sen i Moses ac Aaron am eu cennadwriaeth: 5 yn ychwanegu tasg yr Israeliaid: 15 ym eu cerydu hwynt am eu hachwynion. 21 Hwythau yn llefain yn erbyn Moses ac Aaron. 22 Moses yn cwyno wrth Dduw.

AC wedi hynny, Moses ac Aaron a aethant i mewn, ac a ddywedasant wrth Pharaoh, Fel hyn y dywedodd ARGLWYDD DDUW Israel; Gollwng ymaith fy mhobl, fel y cadwont wyl i mi yn yr anialwch.

2 A dywedodd Pharaoh, Pwy *yw* yr ARGLWYDD, fel y gwrandâwn i ar ei lais, i ollwng Israel ymaith? Yr ARGLWYDD nid adwaen, ac Israel ni ollyngaf.

3 A dywedasant hwythau, DUW yr Hebreaid a gyfarfu â ni: gâd i ni fyned, attolwg, daith tridiau yn yr anialwch, ac aberthu i'r ARGLWYDD

ein Duw; rhag iddo ein rhuthro â haint, neu â chleddyf.

4 A dywedodd brenhin yr Aipht wrthynt, Moses ac Aaron, paham y perwch i'r bobl beidio â'u gwaith? ewch at eich beichiau.

5 Pharaoh hefyd a ddywedodd, Wele, pobl y wlad yn awr ydynt lawer, a pharasoch iddynt beidio â'u llwythau.

6 A gorchymynodd Pharaoh, y dydd hwnnw, i'r rhai oedd feistriaid-gwaith ar y bobl, a'u swyddogion, gan ddywedyd,

7 Na roddwch mwyach wellt i'r bobl i wneuthur priddfeini, megis o'r blaen; elant a chasglant wellt iddynt eu hunain.

8 A rhifedi y priddfeini y rhai yr oeddynt hwy yn ei wneuthur o'r blaen a roddwch arnynt; na leihêwch o hynny: canys segur ydynt; am hynny y maent yn gweiddi, gan ddywedyd, Gâd i ni fyned ac aberthu i'n Duw.

9 Trymhâer y gwaith ar y gwŷr, a gweithiant ynddo; fel nad edrychant am eiriau ofer.

10 ¶ A meistriaid-gwaith y bobl, a'u swyddogion, a aethant allan, ac a lefarasant wrth y bobl, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed Pharaoh, Ni roddaf wellt i chwi.

11 Ewch chwi, a cheisiwch i chwi wellt lle y caffoch; er hynny ni leihêir dim o'ch gwaith.

12 A'r bobl a ymwasgarodd trwy holl wlad yr Aipht, i gasglu sofl yn lle gwellt.

13 A'r meistriaid-gwaith oedd yn eu prysuro, gan ddywedyd, Gorphenwch eich gwaith, dogn dydd yn ei ddydd, megis pan oedd gwellt.

14 A churwyd swyddogion meibion Israel, y rhai a osodasai meistriaid-gwaith Pharaoh arnynt hwy; a dywedwyd, Paham na orphenasoch eich tasg, ar wneuthur priddfeini, ddoe a heddyw, megis cyn hynny?

15 ¶ Yna swyddogion meibion Israel a ddaethant ac a lefasant ar Pharaoh, gan ddywedyd, Paham y gwnei fel hyn â'th weision?

16 Gwellt ni roddir i'th weision; a Gwnewch briddfeini i ni, meddant: ac wele dy weision a gurwyd: a'th bobl di dy hun sydd ar y bai.

17 Ac efe a ddywedodd, Segur, segur ydych; am hynny yr ydych chwi yn dywedyd, Gâd i ni fyned *ac* aberthu i'r Arglwydd.

18 Am hynny ewch yn awr, gweithiwch; ac ni roddir gwellt i chwi; etto chwi a roddwch yr *un* cyfrif o'r priddfeini.

19 A swyddogion meibion Israel a'u gwelent eu hun mewn *lle* drwg, pan ddywedid, Na leihêwch *ddim* o'ch priddfeini, dogn dydd yn ei ddydd.

20 ¶ A chyfarfuant â Moses ac Aaron, yn sefyll ar eu ffordd, pan oeddynt yn dyfod allan oddi wrth Pharaoh:

21 A dywedasant wrthynt, Edrychad yr Arglwydd arnoch chwi, a barned; am i chwi beri i'n sawyr ni ddrewi ger bron Pharaoh, a cher bron ei weision, gan roddi cleddyf yn eu llaw hwynt i'n lladd ni.

22 A dychwelodd Moses at yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O Arglwydd, paham y drygaist y bobl hyn? i ba beth y'm hanfonaist?

23 Canys er pan ddeuthum at Pharaoh, i lefaru yn dy enw di, efe a ddrygodd y bobl hyn; a chan waredu ni waredaist dy bobl.

PENNOD 6.

1 *Duw yn adnewyddu ei addewid, trwy ei enw JEHOFAH.* 14 *Achau Reuben,* 15 *Simeon,* 16 *a Lefi, o'r hen y daeth Moses ac Aaron.*

YNA y dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Yn awr y cei weled beth a wnaf i Pharaoh: canys trwy law gadarn y gollwng efe hwynt, a thrwy law gadarn y gyr efe hwynt o'i wlad.

2 Duw hefyd a lefarodd wrth Moses, ac a ddywedodd wrtho, Myfi *yw* JEHOFAH.

3 A mi a ymddangosais i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, dan enw Duw Hollalluog; ond *erbyn* fy enw JEHOFAH ni bûm adnabyddus iddynt.

4 Hefyd mi a sicrheais fy nghyfammod â hwynt, am roddi iddynt wlad Canaan, sef gwlad eu hymdaith, yr hon yr ymdeithiasant ynddi.

5 A mi a glywais hefyd uchenaid plant Israel, y rhai y mae yr Aiphtiaid yn eu caethiwo; a chofiais fy nghyfammod.

6 Am hynny dywed wrth feibion

Israel, Myfi *yw* yr ARGLWYDD; a myfi a'ch dygaf chwi allan oddi tan lwythau yr Aiphtiaid, ac a'ch rhyddhâf o'u caethiwed hwynt; ac a'ch gwaredaf â braich estynedig, ac â barnedigaethau mawrion.

7 Hefyd mi a'ch cymmeraf yn bobl i mi, ac a fyddaf yn DDUW i chwi: a chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW, yr hwn sydd yn eich dwyn chwi allan oddi tan lwythau yr Aiphtiaid.

8 A mi a'ch dygaf chwi i'r wlad, am yr hon y tyngais y rhoddwn hi i Abraham, i Isaac, ac i Jacob; a mi a'i rhoddaf i chwi yn etifeddiaeth: myfi *yw* yr ARGLWYDD.

9 ¶ A Moses a lefarodd felly wrth feibion Israel: ond ni wrandawsant ar Moses, gan gyfyngdra yspryd, a chan gaethiwed caled.

10 A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

11 Dos i mewn; dywed wrth Pharaoh, brenhin yr Aipht, am iddo ollwng meibion Israel allan o'i wlad.

12 A Moses a lefarodd ger bron yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Wele, plant Israel ni wrandawsant arnaf fi; a pha fodd y'm gwrandawai Pharaoh, a minnau yn ddïenwaededig o wefusau?

13 A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses ac Aaron, ac a roddodd orchymyn iddynt at feibion Israel, ac at Pharaoh brenhin yr Aipht, i ddwyn meibion Israel allan o wlad yr Aipht.

14 ¶ Dyma eu pen-cenedl hwynt: meibion Reuben, y cyntaf-anedig i Israel; Hanoch, a Phàlu, Hesron, a Charmi: dyma deuluoedd Reuben.

15 A meibion Simeon; Jemuel, a Jamin, Ohad, a Jachin, Sohar hefyd, a Saul mab y Ganaanees: dyma deuluoedd Simeon.

16 ¶ Dyma hefyd enwau meibion Lefi, yn ol eu cenhedlaethau; Gerson, Cohath hefyd, a Merari: a blynyddoedd oes Lefi *oedd* gant ac onid tair blynedd deugain.

17 Meibion Gerson; Libni, a Simi, yn ol eu teuluoedd.

18 A meibion Cohath; Amram, ac Ishar, Hebron hefyd, ac Ussiel: a blynyddoedd oes Cohath oedd dair ar ddeg ar hugain a chan mlynedd.

19 Meibion Merari *oedd* Mahali a Musi: dyma deuluoedd Lefi, yn ol eu cenhedlaethau.

20 Ac Amram a gymmerodd Jochebed, ei fodryb chwaer ei dad, yn wraig iddo; a hi a ymddûg iddo Aaron a Moses: a blynyddoedd oes Amram *oedd* onid tair deugain a chan mlynedd.

21 ¶ A meibion Ishar; Corah, a Nepheg, a Sicri.

22 A meibion Ussiel; Misael, ac Elsaphan, a Sithri.

23 Ac Aaron a gymmerodd Eliseba, merch Aminadab, chwaer Nahason, yn wraig iddo; a hi a ymddûg iddo Nadab ac Abihu, Eleasar ac Ithamar.

24 Meibion Corah hefyd; Assir, ac Elcanah, ac Abiasaph: dyma deuluoedd y Corahiaid.

25 Ac Eleasar, mab Aaron, a gymmerodd yn wraig iddo *un* o ferched Putiel; a hi a ymddûg iddo ef Phineas: dyma bennau cenedl y Lefiaid, yn ol eu teuluoedd.

26 Dyma Aaron a Moses, y rhai y dywedodd yr ARGLWYDD wrthynt, Dygwch feibion Israel allan o wlad yr Aipht, yn ol eu lluoedd.

27 Dyma y rhai a lefarasant wrth Pharaoh, brenhin yr Aipht, am ddwyn meibion Israel allan o'r Aipht: dyma y Moses ac Aaron hwnnw.

28 ¶ A bu, ar y dydd y llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses yn nhir yr Aipht,

29 Lefaru o'r ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd, Myfi *yw* yr ARGLWYDD: dywed wrth Pharaoh, brenhin yr Aipht, yr hyn oll yr ydwyf fi yn ei ddywedyd wrthyt.

30 A dywedodd Moses ger bron yr ARGLWYDD, Wele fi yn ddïenwaededig o wefusau; a pha fodd y gwrendy Pharaoh arnaf?

PENNOD 7.

1 *Duw yn rhoi calon ym Moses i fyned at Pharaoh.* 7 *Ei oedran ef.* 8 *Ei wialen ef yn troi yn sarph.* 11 *Yr hudolion yn gwneuthur y cyffelyb.* 13 *Caledu calon Pharaoh.* 14 *Cennadwriaeth Duw at Pharaoh.* 19 *Troi yr afon yn waed.*

A'R ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Gwel, mi a'th wneuthum yn dduw i Pharaoh; ac Aaron dy frawd fydd yn brophwyd i tithau.

2 Ti a leferi yr hyn oll a orchy-

mynwyf i ti; ac Aaron dy frawd a lefara wrth Pharaoh, ar iddo ollwng meibion Israel ymaith o'i wlad.

3 A minnau a galedaf galon Pharaoh, ac a amlhâf fy arwyddion a'm rhyfeddodau y'ngwlad yr Aipht.

4 Ond ni wrendy Pharaoh arnoch: yna y rhoddaf fy llaw ar yr Aipht; ac y dygaf allan fy lluoedd, fymhobl, meibion Israel, o wlad yr Aipht, trwy farnedigaethau mawrion.

5 A'r Aiphtiaid a gânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan estynwyf fy llaw ar yr Aipht, a dwyn meibion Israel allan o'u mysg hwynt.

6 A gwnaeth Moses ac Aaron fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD iddynt; *ïe*, felly y gwnaethant.

7 A Moses *ydoedd* fab pedwar ugain mlwydd, ac Aaron yn fab tair blwydd a phedwar ugain, pan lefarasant wrth Pharaoh.

8 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,

9 Pan lefaro Pharaoh wrthych, gan ddywedyd, Dangoswch gennych wyrthiau; yna y dywedi wrth Aaron, Cymmer dy wïalen, a bwrw *hi* ger bron Pharaoh; a hi a â yn sarph.

10 ¶ A Moses ac Aaron a aethant i mewn at Pharaoh, ac a wnaethant felly, megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD: ac Aaron a fwriodd ei wïalen ger bron Pharaoh, a cher bron ei weision; a hi a aeth yn sarph.

11 A Pharaoh hefyd a alwodd am y doethion, a'r hudolion: a hwythau hefyd, *sef* swynwyr yr Aipht, a wnaethant felly trwy eu swynion.

12 Canys bwriasant bob un ei wïalen; a hwy a aethant yn seirph: ond gwïalen Aaron a lyngcodd eu gwïail hwynt.

13 A chalon Pharaoh a galedodd, fel na wrandawai arnynt hwy; megis y llefarasai yr ARGLWYDD.

14 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Caledodd calon Pharaoh; gwrthododd ollwng y bobl ymaith.

15 Dos at Pharaoh yn fore: wele efe a ddaw allan i'r dwfr; saf dithau ar lan yr afon erbyn ei ddyfod ef; a chymmer yn dy law y wïalen a drodd yn sarph.

16 A dywed wrtho ef, ARGLWYDD DDUW yr Hebreaid a'm hanfonodd attat, i ddywedyd, Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont yn yr anialwch: ac wele, hyd yn hyn, ni wrandewit.

17 Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD; Wrth hyn y cei wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD: wele, myfi â'r wïalen *sydd* yn fy llaw a darawaf y dyfroedd *sydd* yn yr afon, fel y tröer hwynt yn waed.

18 A'r pysg *sydd* yn yr afon a fyddant feirw, a'r afon a ddrewa; a bydd blin gan yr Aiphtiaid yfed dwfr o'r afon.

19 ¶ Yr ARGLWYDD hefyd a ddywedodd wrth Moses, Dywed wrth Aaron, Cymmer dy wïalen, ac estyn dy law ar ddyfroedd yr Aipht, ar eu ffrydiau, ar eu hafonydd, ac ar eu pyllau, ac ar eu holl lynnau dyfroedd, fel y byddont yn waed; a bydd gwaed trwy holl wlad yr Aipht, yn eu *llestri* coed a cherrig hefyd.

20 A Moses ac Aaron a wnaethant fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD: ac efe a gododd ei wïalen, ac a darawodd y dyfroedd y rhai *oeddynt* yn yr afon, y'ngŵydd Pharaoh, ac y'ngŵydd ei weision; a'r holl ddyfroedd y rhai *oeddynt* yn yr afon a dröwyd yn waed.

21 A'r pysgod, y rhai oeddynt yn yr afon, a fuant feirw; a'r afon a ddrewodd, ac ni allai yr Aiphtiaid yfed dwfr o'r afon; a gwaed oedd trwy holl wlad yr Aipht.

22 A swynwyr yr Aipht a wnaethant y cyffelyb trwy eu swynion: a chaledodd calon Pharaoh, ac ni wrandawodd arnynt; megis y llefarasai yr ARGLWYDD.

23 A Pharaoh a drodd ac a aeth i'w dŷ, ac ni osododd hyn at ei galon.

24 A'r holl Aiphtiaid a gloddiasant oddi amgylch yr afon am ddwfr i'w yfed; canys ni allent yfed o ddwfr yr afon.

25 A chyflawnwyd saith o ddyddiau, wedi i'r ARGLWYDD daro yr afon.

PENNOD 8.

1 *Danfon llyffaint.* 8 *Pharaoh yn ymbil â Moses.* 12 *A Moses trwy weddi yn eu tynnu hwynt ymaith.* 16 *Troi y llwch yn llau: yr hyn ni allai y swynwyr ei wneuthur.* 20 *Yr heidiau ednog.* 25 *Pharaoh yn lled-foddlawn i'r bobl fyned;* 32 *etto efe a galedir.*

A DYWEDODD yr ARGLWYDD wrth Moses, Dos at Pharaoh,

a dywed wrtho, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

2 Ac os gwrthodi *eu* gollwng, wele, mi a darawaf dy holl derfynau di â llyffaint.

3 A'r afon a heigia lyffaint, y rhai a ddringant, ac a ddeuant i'th dŷ, ac i ystafell dy orweddle, ac ar dy wely, ac i dŷ dy weision, ac ar dy bobl, ac i'th ffyrnau, ac ar dy fwyd gweddill.

4 A'r llyffaint a ddringant arnat ti, ac ar dy bobl, ac ar dy holl weision.

5 ¶ Yr ARGLWYDD hefyd a ddywedodd wrth Moses, Dywed wrth Aaron, Estyn dy law â'th wïalen ar y ffrydiau, ar yr afonydd, ac ar y llynnoedd; a gwna i lyffaint ddyfod i fyny ar hyd tir yr Aipht.

6 Ac Aaron a estynodd ei law ar ddyfroedd yr Aipht; a'r llyffaint a ddaethant i fyny, ac a orchuddiasant dir yr Aipht.

7 A'r swynwyr a wnaethant yr un modd, trwy eu swynion; ac a ddygasant i fyny lyffaint ar wlad yr Aipht.

8 ¶ Yna Pharaoh a alwodd am Moses ac Aaron, ac a ddywedodd, Gweddïwch ar yr ARGLWYDD, ar iddo dynnu y llyffaint ymaith oddi wrthyf fi, ac oddi wrth fy mhobl; a mi a ollyngaf ymaith y bobl, fel yr aberthont i'r ARGLWYDD.

9 A Moses a ddywedodd wrth Pharaoh, Cymmer ogoniant arnaf fi; Pa amser y gweddïaf trosot, a thros dy weision, a thros dy bobl, am ddifa y llyffaint oddi wrthyt, ac o'th dai, a'u gadael yn unig yn yr afon?

10 Ac efe a ddywedodd, Y fory. A dywedodd yntau, Yn ol dy air *y bydd;* fel y gwypech nad *oes neb* fel yr ARGLWYDD ein DUW ni.

11 A'r llyffaint a ymadawant â thi, ac â'th dai, ac â'th weision, ac â'th bobl; yn unig yn yr afon y gadewir hwynt.

12 A Moses ac Aaron a aethant allan oddi wrth Pharaoh. A Moses a lefodd ar yr ARGLWYDD, o achos y llyffaint y rhai a ddygasai efe ar Pharaoh.

13 A'r ARGLWYDD a wnaeth yn ol gair Moses; a'r llyffaint a fuant feirw o'r tai, o'r pentrefydd, ac o'r meusydd.

14 A chasglasant hwynt yn bentyrrau; fel y drewodd y wlad.

15 Pan welodd Pharaoh fod seibiant *iddo*, efe a galedodd ei galon, ac ni wrandawodd arnynt; megis y llefarasai yr ARGLWYDD.

16 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Dywed wrth Aaron, Estyn dy wïalen, a tharo lwch y ddaear, fel y byddo yn llau trwy holl wlad yr Aipht.

17 Ac felly y gwnaethant: canys Aaron a estynodd ei law â'i wïalen, ac a darawodd lwch y ddaear; ac efe a aeth yn llau ar ddyn ac ar anifail: holl lwch y tir oedd yn llau trwy holl wlad yr Aipht.

18 A'r swynwyr a wnaethant felly, trwy eu swynion, i ddwyn llau allan; ond ni allasant: felly y bu y llau ar ddyn ac ar anifail.

19 Yna y swynwyr a ddywedasant wrth Pharaoh, Bys DUW *yw* hyn: a chaledwyd calon Pharaoh, ac ni wrandawai arnynt; megis y llefarasai yr ARGLWYDD.

20 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Cyfod yn fore, a saf ger bron Pharaoh; wele, efe a ddaw allan i'r dwfr: yna dywed wrtho, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD; Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

21 O herwydd, os ti ni ollyngi fy mhobl, wele fi yn gollwng arnat ti, ac ar dy weision, ac ar dy bobl, ac i'th dai, gymmysgbla: a thai yr Aiphtiaid a lenwir o'r gymmysgbla, a'r ddaear hefyd yr hon y maent arni.

22 A'r dydd hwnnw y neilluaf fi wlad Gosen, yr hon y mae fy mhobl yn aros ynddi, fel na byddo y gymmysgbla yno; fel y gwypech mai myfi *yw* yr ARGLWYDD yng nghanol y ddaear.

23 A mi a osodaf wahan rhwng fy mhobl i a'th bobl di: y fory y bydd yr arwydd hwn.

24 A'r ARGLWYDD a wnaeth felly; a daeth cymmysgbla drom i dŷ Pharaoh, ac i dai ei weision, ac i holl wlad yr Aipht; a llygrwyd y wlad gan y gymmysgbla.

25 ¶ A Pharaoh a alwodd am Moses

ac Aaron, ac a ddywedodd, Ewch, aberthwch i'ch Duw yn y wlad.

26 A dywedodd Moses, Nid cymmwys gwneuthur felly; oblegid nyni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw ffieiddbeth yr Aiphtiaid: wele, os aberthwn ffieiddbeth yr Aiphtiaid y'ngŵydd eu llygaid hwynt, oni lapyddiant hwy ni?

27 Taith tridiau yr awn i'r anialwch, a nyni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw, megis y dywedo efe wrthym ni.

28 A dywedodd Pharaoh, Mi a'ch gollyngaf chwi, fel yr aberthoch i'r Arglwydd eich Duw yn yr anialwch; ond nac ewch ym mhell: gweddïwch trosof fi.

29 A dywedodd Moses, Wele, myfi a âf allan oddi wrthyt, ac a weddïaf ar yr Arglwydd, ar gilio y gymmysgbla oddi wrth Pharaoh, oddi wrth ei weision, ac oddi wrth ei bobl, y fory: ond na thwylled Pharaoh mwyach, heb ollwng ymaith y bobl i aberthu i'r Arglwydd.

30 A Moses a aeth allan oddi wrth Pharaoh, ac a weddïodd ar yr Arglwydd.

31 A gwnaeth yr Arglwydd yn ol gair Moses: a'r gymmysgbla a dynnodd efe ymaith oddi wrth Pharaoh, oddi wrth ei weision, ac oddi wrth ei bobl; ni adawyd un.

32 A Pharaoh a galedodd ei galon y waith honno hefyd, ac ni ollyngodd ymaith y bobl.

PENNOD 9.

1 *Haint yr anifeiliaid.* 8 *Pla y cornwydydd llinorog.* 13 *Cennadwriaeth Moses ynghylch y cenllysg.* 22 *Pla y cenllysg.* 27 *Pharaoh yn ymbil â Moses;* 35 *ac er hynny efe a galedir.*

YNA y dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dos i mewn at Pharaoh, a llefara wrtho ef, Fel hyn y dywed Arglwydd Duw yr Hebreaid; Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

2 Oblegid, os gwrthodi *eu* gollwng hwynt ymaith, ac attal o honot hwynt etto,

3 Wele, llaw yr Arglwydd fydd ar dy anifeiliaid, y rhai *sydd* yn y maes; ar feirch, ar asynod, ar gamelod, ar y gwartheg, ac ar y defaid, *y daw* haint trwm iawn.

4 A'r Arglwydd a neilldua rhwng anifeiliaid Israel ac anifeiliaid yr Aiphtiaid; fel na byddo marw dim o gwbl *a'r sydd* eiddo meibion Israel.

5 A gosododd yr Arglwydd amser nodedig, gan ddywedyd, Y fory y gwna yr Arglwydd y peth hyn yn y wlad.

6 A'r Arglwydd a wnaeth y peth hynny drannoeth: a bu feirw holl anifeiliaid yr Aiphtiaid; ond o anifeiliaid meibion Israel ni bu farw un.

7 A Pharaoh a anfonodd; ac wele, ni buasai farw un o anifeiliaid Israel: a chalon Pharaoh a galedwyd, ac ni ollyngodd y bobl.

8 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses ac wrth Aaron, Cymmerwch i chwi lonaid eich llaw o ludw ffwrn, a thaened Moses ef tu a'r nefoedd y'ngŵydd Pharaoh:

9 Ac efe fydd yn llwch ar holl dir yr Aipht; ac a fydd ar ddyn ac ar anifail yn gornwyd llinorog, trwy holl wlad yr Aipht.

10 A hwy a gymmerasant ludw y ffwrn, ac a safasant ger bron Pharaoh: a Moses a'i taenodd tu a'r nefoedd; ac efe a aeth yn gornwyd llinorog ar ddyn ac ar anifail.

11 A'r swynwyr ni allent sefyll ger bron Moses, gan y cornwyd; oblegid yr oedd y cornwyd ar y swynwyr, ac ar yr holl Aiphtiaid.

12 A'r Arglwydd a galedodd galon Pharaoh, fel na wrandawai arnynt; megis y llefarasai yr Arglwydd wrth Moses.

13 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Cyfod yn fore, a saf ger bron Pharaoh, a dywed wrtho, Fel hyn y dywed Arglwydd Duw yr Hebreaid; Gollwng fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

14 Canys y waith hon yr anfonaf fy holl bläau ar dy galon, ac ar dy weision, ac ar dy bobl; fel y gwypech nad oes gyffelyb i mi yn yr holl ddaear.

15 O herwydd yn awr, mi a estynaf fy llaw, ac a'th darawaf di a'th bobl â haint y nodau; a thi a dorrir ymaith oddi ar y ddaear.

16 Ac yn ddïau er mwyn hyn y'th gyfodais di, i ddangos i ti fy nerth; ac fel y myneger fy enw trwy yr holl ddaear.

17 A wyt ti yn ymddyrchafu ar fy mhobl etto, heb eu gollwng hwynt ymaith?

18 Wele, mi a wlawiaf ynghylch yr amser yma y fory genllysg trymion iawn; y rhai ni bu eu bath yn yr Aipht, o'r dydd y sylfaenwyd hi, hyd yr awr hon.

19 Anfon gan hynny yn awr, casgl dy anifeiliaid, a phob dim a'r y sydd i ti yn y maes: pob dyn ac anifail a gaffer yn y maes, ac nis dyger i dŷ, y disgyn y cenllysg arnynt, a byddant feirw.

20 Yr hwn a ofnodd air yr ARGLWYDD o weision Pharaoh, a yrrodd ei weision a'i anifeiliaid i dai;

21 A'r hwn nid ystyriodd air yr ARGLWYDD, a adawodd ei weision a'i anifeiliaid yn y maes.

22 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Estyn dy law tu a'r nefoedd; fel y byddo cenllysg yn holl wlad yr Aipht, ar ddyn ac ar anifail, ac ar holl lysiau y maes, o fewn tir yr Aipht.

23 A Moses a estynodd ei wïalen tu a'r nefoedd: a'r ARGLWYDD a roddodd daranau a chenllysg, a'r tân a gerddodd ar hyd y ddaear; a chafododd yr ARGLWYDD genllysg ar dir yr Aipht.

24 Felly yr ydoedd cenllysg, a thân yn ymgymmeryd y'nghanol y cenllysg, yn flin iawn; yr hwn ni bu ei fath yn holl wlad yr Aipht, er pan ydoedd yn genhedlaeth.

25 A'r cenllysg a gurodd, trwy holl wlad yr Aipht, gwbl a'r *oedd* yn y maes, yn ddyn ac yn anifail; y cenllysg hefyd a gurodd holl lysiau y maes, ac a ddrylliodd holl goed y maes.

26 Yn unig y'ngwlad Gosen, yr hon yr ydoedd meibion Israel ynddi, nid oedd dim cenllysg.

27 ¶ A Pharaoh a anfonodd, ac a alwodd ar Moses ac Aaron, ac a ddywedodd wrthynt, Pechais y waith hon; yr ARGLWYDD sydd gyfiawn, a minnau a'm pobl yn annuwiol.

28 Gweddïwch ar yr ARGLWYDD (canys digon *yw hyn*) na byddo taranau DUW na chenllysg; a mi a'ch gollyngaf, ac ni arhoswch yn hŵy.

29 A dywedodd Moses wrtho, Pan elwyf allan o'r ddinas mi a ledaf fy nwylaw at yr ARGLWYDD: *a'r* taranau a beidiant, a'r cenllysg ni bydd mwy; fel y gwypych mai yr ARGLWYDD biau y ddaear.

30 Ond mi a wn nad wyt ti etto, na'th weision, yn ofni wyneb yr ARGLWYDD DDUW.

31 A'r llin a'r haidd a gurwyd; canys yr haidd *oedd* wedi hedeg, a'r llin wedi hadu:

32 A'r gwenith a'r rhŷg ni churwyd; o herwydd diweddar *oeddynt* hwy.

33 A Moses a aeth oddi wrth Pharaoh allan o'r ddinas, ac a ledodd ei ddwylaw at yr ARGLWYDD; a'r taranau a'r cenllysg a beidiasant, ac ni thywalltwyd gwlaw ar y ddaear.

34 A phan welodd Pharaoh beidio o'r gwlaw, a'r cenllysg, a'r taranau, efe a chwanegodd bechu; ac a galedodd ei galon, efe a'i weision.

35 A chaledwyd calon Pharaoh, ac ni ollyngai efe feibion Israel ymaith; megis y llefarasai yr ARGLWYDD trwy law Moses.

PENNOD 10.

1 Duw yn bygwth anfon locustiaid. 7 Pharaoh, ar ddeisyfiad ei weision, yn lled-foddlawn i'r Israeliaid fyned ymaith. 12 Pla y locustiaid. 16 Pharaoh yn ymbil â Moses. 21 Pla y tywyllwch anferthol. 24 Pharaoh yn ymbil â Moses: 27 etto efe a galon-galedir.

A DYWEDODD yr ARGLWYDD wrth Moses, Dos at Pharaoh: o herwydd mi a galedais ei galon efe, a chalon ei weision; fel y dangoswn fy arwyddion hyn yn ei ŵydd ef:

2 Ac fel y mynegit wrth dy fab, a mab dy fab, yr hyn a wneuthum yn yr Aipht, a'm harwyddion a wneuthum yn eu plith hwynt; ac y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

3 A daeth Moses ac Aaron i mewn at Pharaoh, a dywedasant wrtho, Fel hyn y dywedodd ARGLWYDD DDUW yr Hebreaid; Pa hyd y gwrthodi ymostwng ger fy mron? gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

4 O herwydd os ti a wrthodi ollwng fy mhobl, wele, y fory y dygaf locustiaid i'th fro;

5 A hwynt-hwy a orchuddiant wyneb y ddaear, fel na allo un weled y ddaear: a hwy a ysant y gweddill a adawyd i chwi yn ddïangol gan

y cenllysg; difant hefyd bob pren a fyddo yn blaguro i chwi yn y maes.
6 Llanwant hefyd dy dai di, a thai dy holl weision, a thai yr holl Aipht-iaid, y rhai ni welodd dy dadau, na thadau dy dadau, er y dydd y buont ar y ddaear hyd y dydd hwn. Yna efe a drodd, ac a aeth allan oddi wrth Pharaoh.
7 A gweision Pharaoh a ddywed-asant wrtho, Pa hyd y bydd hwn yn fagl i ni? gollwng ymaith y gwŷr, fel y gwasanaethont yr ARGLWYDD eu DUW: Oni wyddost ti etto ddi-fetha yr Aipht?
8 A dychwelwyd Moses ac Aaron at Pharaoh: ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch, gwasanaethwch yr ARGLWYDD eich DUW: *ond* pa rai sydd yn myned?
9 A Moses a ddywedodd, A'n llangc-iau, ac â'n henafgwyr, yr awn ni; â'n meibion hefyd, ac â'n merched, â'n defaid, ac â'n gwartheg, yr awn ni: oblegid *rhaid* i ni *gadw* gwyl i'r ARGLWYDD.
10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Yr un modd y byddo yr ARGLWYDD gyd â chwi, ag y gollyngaf chwi, a'ch rhai bach: gwelwch, mai ar ddrwg y mae eich bryd.
11 Nid felly; ewch yn awr, y gwŷr, a gwasanaethwch yr ARGLWYDD: canys hyn yr oeddych yn ei geisio. Felly hwy a yrrwyd allan o ŵydd Pharaoh.
12 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Estyn dy law ar wlad yr Aipht am locustiaid, fel y delont i fyny ar dir yr Aipht; ac y bwyt-taont holl lysiau y ddaear, *sef* y cwbl a'r a adawodd y cenllysg.
13 A Moses a estynodd ei wïalen ar dir yr Aipht: a'r ARGLWYDD a ddug ddwyreinwynt ar y tir yr holl ddiwrnod hwnnw, a'r holl nos hon-no; a *phan* ddaeth y bore, gwynt y dwyrain a ddug locustiaid.
14 A'r locustiaid a aethant i fyny dros holl wlad yr Aipht, ac a arhos-asant ym mhob ardal i'r Aipht: blin iawn oeddynt; ni bu y fath locust-iaid o'u blaen hwynt, ac ar eu hol ni bydd y cyffelyb.
15 Canys toisant wyneb yr holl dir, a thywyllodd y wlad; a hwy a ys-asant holl lysiau y ddaear, a holl ffrwythau y coed, yr hyn a weddill-asai y cenllysg: ac ni adawyd dim gwyrddlesni ar goed, nac ar lysiau y maes, o fewn holl wlad yr Aipht.
16 ¶ Yna Pharaoh a alwodd am Moses ac Aaron ar frys; ac a ddy-wedodd, Pechais yn erbyn yr ARGLWYDD eich DUW, ac yn eich erbyn chwithau.
17 Ac yn awr maddeu, attolwg, fy mhechod y waith hon yn unig, a gweddïwch ar yr ARGLWYDD eich DUW, ar iddo dynnu oddi wrthyf y farwolaeth hon yn unig.
18 A *Moses* a aeth allan oddi wrth Pharaoh, ac a weddïodd ar yr AR-GLWYDD.
19 A'r ARGLWYDD a drodd wynt gorllewin cryf iawn, ac efe a gym-merodd ymaith y locustiaid, ac a'u bwriodd hwynt i'r môr coch: ni adawyd un locust o fewn holl derf-ynau yr Aipht.
20 Er hynny caledodd yr AR-GLWYDD galon Pharaoh, fel na oll-yngai efe feibion Israel ymaith.
21 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Estyn dy law tu a'r nefoedd, fel y byddo tywyllwch ar dir yr Aipht, tywyllwch a aller ei deimlo.
22 A Moses a estynodd ei law tu a'r nefoedd: a bu tywyllwch du-dew trwy holl wlad yr Aipht dri diwrnod.
23 Ni welai neb eu gilydd, ac ni chododd neb o'i le dri diwrnod: ond yr ydoedd goleuni i holl feib-ion Israel yn eu trigfannau.
24 ¶ A galwodd Pharaoh am Moses ac Aaron, ac a ddywedodd, Ewch, gwasanaethwch yr ARGLWYDD; ar-hôed eich defaid, a'ch gwartheg yn unig: aed eich rhai bach hefyd gyd â chwi.
25 A dywedodd Moses, Ti a roddi hefyd yn ein dwylaw ebyrth a phoeth-offrymmau, fel yr aberthom i'r ARGLWYDD ein DUW.
26 Aed ein hanifeiliaid hefyd gyd â ni; ni adewir ewin yn ol: oblegid o honynt y cymmerwn i wasanaethu yr ARGLWYDD ein DUW: ac nis gwyddom â pha beth y gwasan-aethwn yr ARGLWYDD, hyd oni ddelom yno.
27 ¶ Ond yr ARGLWYDD a galed-

odd galon Pharaoh, ac ni fynnai eu gollwng hwynt.

28 A dywedodd Pharaoh wrtho, Dos oddi wrthyf, gwylia arnat rhag gweled fy wyneb mwy: oblegid y dydd y gwelych fy wyneb, y byddi farw.

29 A dywedodd Moses, Uniawn y dywedaist, ni welaf dy wyneb mwy.

PENNOD 11.

1 *Cennadwriaeth Duw at yr Israeliaid i fenthyccio llysau gan eu cymmydogion.* 4 *Moses ym bygwth Pharaoh â marwolaeth y cyntafanedig.*

A'R ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Un pla etto a ddygaf ar Pharaoh, ac ar yr Aipht; wedi hynny efe a'ch gollwng chwi oddi yma: pan y'ch gollyngo, gan wthio efe a'ch gwthia chwi oddi yma yn gwbl.

2 Dywed yn awr lle y clywo y bobl; a benthyccied pob gŵr gan ei gymmydog, a phob gwraig gan ei chymmydoges, ddodrefn arian, a dodrefn aur.

3 A'r ARGLWYDD a roddodd i'r bobl ffafr y'ngolwg yr Aiphtiaid: ac *yr oedd* Moses yn ŵr mawr iawn y'ngwlad yr Aipht, y'ngolwg gweision Pharaoh, ac y'ngolwg y bobl.

4 Moses hefyd a ddywedodd, Fel hyn y llefarodd yr ARGLWYDD; Yng nghylch hanner nos yr âf fi allan i ganol yr Aipht.

5 A phob cyntaf-anedig y'ngwlad yr Aipht a fydd marw, o gyntaf-anedig Pharaoh, yr hwn sydd yn eistedd ar ei deyrn-gadair, hyd gyntafanedig y wasanaethferch *sydd* ar ol y felin; a phob cyntaf-anedig o anifail.

6 A bydd gweiddi mawr trwy holl wlad yr Aipht, yr hwn ni bu ei fath, ac ni bydd mwyach ei gyffelyb.

7 Ond yn erbyn neb o blant Israel ni symmud ci ei dafod, ar ddyn nac anifail; fel y gwypoch fod yr ARGLWYDD yn gwneuthur rhagor rhwng yr Aiphtiaid ac Israel.

8 A'th holl weision hyn a ddeuant i waered attaf fi, ac a ymgrymmant i mi, gan ddywedyd, Dos allan, a'r holl bobl *sydd* ar dy ol; ac wedi hynny yr âf fi allan. Felly efe a aeth allan oddi wrth Pharaoh mewn digllonedd llidiog.

9 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Ni wrendy Pharaoh arnoch; fel yr amlhâer fy rhyfeddodau yng ngwlad yr Aipht.

10 A Moses ac Aaron a wnaethant yr holl ryfeddodau hyn ger bron Pharaoh: a'r ARGLWYDD a galedodd galon Pharaoh, fel na ollyngai efe feibion Israel allan o'i wlad.

PENNOD 12.

1 *Nevidio dechreuad y flwyddyn.* 3 *Ordeinio y Pasc.* 11 *Defod y Pasc.* 15 *Bara croyw.* 29 *Marwolaeth y cyntaf-anedig.* 31 *Gyrru yr Israeliaid allan o'r tir.* 37 *Hwythau yn dyfod i Succoth.* 43 *Ordinhâd y Pasc.*

YR ARGLWYDD hefyd a lefarodd wrth Moses ac Aaron yn nhir yr Aipht, gan ddywedyd,

2 Y mis hwn *fydd* i chwi yn ddechreuad y misoedd: cyntaf *fydd* i chwi o fisoedd y flwyddyn.

3 ¶ Lleferwch wrth holl gynnulleidfa Israel, gan ddywedyd, Ar y degfed *dydd* o'r mis hwn cymmerant iddynt bob un oen, yn ol teulu *eu* tadau, *sef* oen dros bob teulu.

4 Ond os y teulu fydd ry fychan i'r oen, efe a'i gymmydog nesaf i'w dŷ a'i cymmer, wrth y rhifedi o ddynion; pob un yn ol ei fwytta a gyfrifwch at yr oen.

5 Bydded yr oen gennych yn berffeith-gwbl, yn wrryw, *ac* yn llwdn blwydd: o'r defaid, neu o'r geifr, y cymmerwch *ef*.

6 A bydded y'nghadw gennych hyd y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis hwn: a lladded holl dyrfa cynnulleidfa Israel ef yn y cyfnos.

7 A chymmerant o'r gwaed, a rhoddant ar y ddau ystlysbost, ac ar gappan drws y tai y bwyttânt ef ynddynt.

8 A'r cig a fwyttânt y nos honno, wedi ei rostio *wrth* dân, a bara croyw; gyd â *dail* surion y bwyttânt ef.

9 Na fwyttêwch o hono yn amrwd, na chwaith wedi ei ferwi mewn dwfr, eithr wedi ei rostio *wrth* dân; ei ben gyd â'i draed a'i ymysgaroedd.

10 Ac na weddillwch *ddim* o hono hyd y bore: a'r hyn fydd yng ngweddill o hono erbyn y bore, llosgwch yn tân.

11 ¶ Ac fel hyn y bwyttêwch ef; wedi gwregysu eich lwynau, a'ch

esgidiau am eich traed, a'ch ffyn yn eich dwylaw: a bwyttêwch ef ar ffrwst; Pasc yr ARGLWYDD *ydyw* efe.

12 O herwydd mi a dramwyaf trwy wlad yr Aipht y nos hon, ac a darawaf bob cyntaf-anedig o fewn tir yr Aipht, yn ddyn ac yn anifail; a mi a wnaf farn yn erbyn holl dduwiau yr Aipht: myfi *yw* yr ARGLWYDD.

13 A'r gwaed fydd i chwi yn arwydd ar y tai lle *byddoch* chwi: a phan welwyf y gwaed, yna yr âf heibio i chwi, ac ni bydd pla dinystriol arnoch chwi, pan darawyf dir yr Aipht.

14 A'r dydd hwn fydd yn goffadwriaeth i chwi; a chwi a'i cedwch ef yn wyl i'r ARGLWYDD trwy eich cenhedlaethau: cedwch ef yn wyl trwy ddeddf dragywyddol.

15 Saith niwrnod y bwyttêwch fara croyw; y dydd cyntaf y bwriwch surdoes allan o'ch tai: o herwydd pwy bynnag a fwyttao fara lefeinllyd o'r dydd cyntaf hyd y seithfed dydd, yr enaid hwnnw a dorrir ymaith oddi wrth Israel.

16 Ar y dydd cyntaf hefyd *y bydd* i chwi gymmanfa sanctaidd, a chymmanfa sanctaidd ar y seithfed dydd: dim gwaith ni wneir ynddynt, onid yr hyn a fwytty pob dyn, hynny yn unig a ellwch ei wneuthur.

17 Cedwch hefyd *wyl* y bara croyw; o herwydd o fewn corph y dydd hwn y dygaf eich lluoedd chwi allan o wlad yr Aipht: am hynny cedwch y dydd hwn yn eich cenhedlaethau, trwy ddeddf dragywyddol.

18 ¶ Yn y *mis* cyntaf, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis yn yr hwyr, y bwyttêwch fara croyw, hyd yr unfed dydd ar hugain o'r mis yn yr hwyr.

19 Na chaffer surdoes yn eich tai saith niwrnod: canys pwy bynnag a fwyttao fara lefeinllyd, yr enaid hwnnw a dorrir ymaith o gynnulleidfa Israel, yn gystal y dieithr a'r priodor.

20 Na fwyttêwch ddim lefeinllyd: bwyttêwch fara croyw yn eich holl drigfannau.

21 ¶ A galwodd Moses am holl henuriaid Israel, ac a ddywedodd wrthynt, Tynnwch a chymmerwch i chwi oen yn ol eich teuluoedd, a lleddwch y Pasc.

22 A chymmerwch dusw o isop, a throchwch ef yn y gwaed a *fyddo* yn y cawg, a rhoddwch ar gappan y drws, ac ar y ddau ystlysbost, o'r gwaed a *fyddo* yn y cawg; ac nac aed neb o honoch allan o ddrws ei dŷ hyd y bore.

23 O herwydd yr ARGLWYDD a dramwya i daro yr Aiphtiaid: a phan welo efe y gwaed ar gappan y drws, ac ar y ddau ystlysbost, yna yr ARGLWYDD a â heibio i'r drws, ac ni âd i'r dinystrydd ddyfod i mewn i'ch tai chwi i ddinystrio.

24 A chwi a gedwch y peth hyn yn ddeddf i ti, ac i'th feibion yn dragywydd.

25 A phan ddeloch i'r wlad a rydd yr ARGLWYDD i chwi, megis yr addawodd, yna cedwch y gwasanaeth hwn.

26 A bydd, pan ddywedo eich meibion wrthych, Pa wasanaeth *yw* hwn gennych?

27 Yna y dywedwch, Aberth Pasc yr ARGLWYDD ydyw, yr hwn a aeth heibio i dai meibion Israel yn yr Aipht, pan darawodd efe yr Aiphtiaid, ac yr achubodd ein tai ni. Yna yr ymgrymmodd y bobl, ac yr addolasant.

28 A meibion Israel a aethant ymaith, ac a wnaethant megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses ac Aaron; felly y gwnaethant.

29 ¶ Ac ar hanner nos y tarawodd yr ARGLWYDD bob cyntaf-anedig y'ngwlad yr Aipht, o gyntaf-anedig Pharaoh yr hwn a eisteddai ar ei frenhinfainge, hyd gyntaf-anedig y gaethes *oedd* yn y carchardy; a phob cyntaf-anedig i anifail.

30 A Pharaoh a gyfododd liw nos, efe a'i holl weision, a'r holl Aiphtiaid; ac yr oedd gweiddi mawr yn yr Aipht: oblegid nid *oedd* dŷ a'r nad *ydoedd* un marw ynddo.

31 ¶ Ac efe a alwodd ar Moses ac Aaron liw nos, ac a ddywedodd, Codwch, ewch allan o fysg fy mhobl, chwi a meibion Israel hefyd; ac ewch, a gwasanaethwch yr ARGLWYDD, fel y dywedasoch.

32 Cymmerwch eich defaid, a'ch gwartheg hefyd, fel y dywedasoch, ac ewch ymaith, a bendithiwch finnau.

33 A'r Aiphtiaid a fuant daerion ar y bobl, gan eu gyrru ar ffrwst allan o'r wlad; oblegid dywedasant, *Dynion* meirw ydym ni oll.

34 A'r bobl a gymmerodd eu toes cyn ei lefeinio, a'u toes oedd wedi ei rwymo yn eu dillad ar eu hysgwyddau.

35 A meibion Israel a wnaethant yn ol gair Moses; ac a fenthycciasant gan yr Aiphtiaid dlysau arian, a thlysau aur, a gwisgoedd.

36 A'r ARGLWYDD a roddasai i'r bobl hawddgarwch y'ngolwg yr Aiphtiaid, fel yr echwynasant iddynt: a hwy a yspeiliasant yr Aiphtiaid.

37 ¶ A meibion Israel a aethant o Rameses i Succoth, y'nghylch chwe chan mil o wŷr traed, heb law plant.

38 A phobl gymmysg lawer a aethant i fyny hefyd gyd â hwynt; defaid hefyd a gwartheg, *sef* dâ lawer iawn.

39 A hwy a bobasant y toes a ddygasant allan o'r Aipht yn deisennau croyw; o herwydd yr oedd heb ei lefeinio: canys gwthiasid hwynt o'r Aipht, ac ni allasant aros, ac ni pharottoisent iddynt eu hun luniaeth.

40 ¶ A phreswyliad meibion Israel, tra y trigasant yn yr Aipht, *oedd* ddeng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd.

41 Ac ym mhen y deng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd, ïe, o fewn corph y dydd hwnnw, yr aeth holl luoedd yr ARGLWYDD allan o wlad yr Aipht.

42 Nos yw hon i'w chadw i'r ARGLWYDD, ar yr hon y dygwyd hwynt allan o wlad yr Aipht: nos yr ARGLWYDD yw hon, i holl feibion Israel i'w chadw trwy eu hoesoedd.

43 ¶ Yr ARGLWYDD hefyd a ddywedodd wrth Moses ac Aaron, Dyma ddeddf y Pasc: na fwyttâed neb dïeithr o hono.

44 Ond pob gwasanaethwr wedi ei brynu am arian, gwedi yr enwaedych ef, a fwytty o hono.

45 Yr alltud, a'r gwas cyflog, ni chaiff fwytta o hono.

46 Mewn un tŷ y bwyttêir ef: na ddwg *ddim* o'r cig allan o'r tŷ; ac na thorrwch asgwrn o hono.

47 Holl gynnulleidfa Israel a wnant hynny.

48 A phan arhoso dïeithr gyd â thi, ac ewyllysio gadw Pasc i'r ARGLWYDD, enwaeder ei holl wrrywiaid ef, ac yna nesâed i wneuthur hynny; a bydded fel yr hwn a aned yn y wlad: ond na fwyttâed neb dïenwaededig o hono.

49 Yr un gyfraith fydd i'r prïodor, ac i'r dïeithr a arhoso yn eich mysg.

50 Yna holl feibion Israel a wnaethant fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses ac Aaron; felly y gwnaethant.

51 Ac o fewn corph y dydd hwnnw y dug yr ARGLWYDD feibion Israel o wlad yr Aipht, yn ol eu lluoedd.

PENNOD 13.

1 Cyssegru y cyntaf-anedig i Dduw. 3 Gorchymyn cadw coffadwriaeth o'r Pasc. 11 Neilldiuo y cyntaf o'r anifeiliaid. 17 Yr Israeliaid wrth fyned allan o'r Aipht yn dwyn esgyrn Joseph gyd â hwynt. 20 Yn dyfod i Etham. 21 Duw yn eu harwain mewn colofn o nivol a cholofn o dân.

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Cyssegra i mi bob cyntaf-anedig, *sef* beth bynnag a agoro y groth ym mysg meibion Israel, o ddyn ac anifail: eiddo fi *yw*.

3 ¶ A dywedodd Moses wrth y bobl, Cofiwch y dydd hwn, *ar* yr hwn y daethoch allan o'r Aipht, o dŷ y caethiwed: oblegid trwy law gadarn y dug yr ARGLWYDD chwi oddi yno: am hynny na fwyttâer bara lefeinllyd.

4 Heddyw yr ydych chwi yn myned allan, ar y mis Abib.

5 ¶ A phan ddygo yr ARGLWYDD di i wlad y Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Amoriaid, yr Hefiaid hefyd, a'r Jebusiaid, yr hon a dyngodd efe wrth dy dadau y rhoddai efe i ti, *sef* gwlad yn llifeirio o laeth a mêl; yna y gwnei y gwasanaeth yma ar y mis hwn.

6 Saith niwrnod y bwyttêi fara croyw; ac ar y seithfed dydd *y bydd* gwyl i'r ARGLWYDD.

7 Bara croywa fwyttêir saith niwrnod: ac na weler bara lefeinllyd gyd â thi; ac na weler gennyt surdoes o fewn dy holl derfynau.

8 ¶ A mynega i'th fab y dydd hwnnw, gan ddywedyd, O herwydd

yr hyn a wnaeth yr ARGLWYDD i mi pan ddeuthum allan o'r Aipht, *y gwneir hyn.*

9 A bydded i ti yn arwydd ar dy law, ac yn goffadwriaeth rhwng dy lygaid; fel y byddo cyfraith yr ARGLWYDD yn dy enau: o herwydd â llaw gadarn y dug yr ARGLWYDD dydi allan o'r Aipht.

10 Am hynny cadw y ddeddf hon, yn ei hamser nodedig, o flwyddyn i flwyddyn.

11 ¶ A phan ddygo yr ARGLWYDD di i wlad y Canaaneaid, megis y tyngodd efe wrthyt, ac wrth dy dadau, a'i rhoddi i ti;

12 Yna y neilldui i'r ARGLWYDD bob cyntaf-anedig: a phob cyntaf i anifail a fyddo eiddot ti, y gwrryw-iaid eiddo yr ARGLWYDD fyddant.

13 A phob cyntaf i asyn a bryni di âg oen; ac oni phryni di *ef*, yna torfynygla ef: a phob dyn cyntaf-anedig o'th feibion a bryni di hefyd.

14 ¶ A phan ofyno dy fab ar ol hyn, gan ddywedyd, Beth *yw* hyn? yna dywed wrtho, A llaw gadarn y dug yr ARGLWYDD ni allan o'r Aipht, o dŷ y caethiwed.

15 A phan oedd anhawdd gan Pharaoh ein gollwng ni, y lladdodd yr ARGLWYDD bob cyntaf-anedig yng ngwlad yr Aipht, o gyntaf-anedig dyn hyd gyntaf-anedig anifail: am hynny yr ydwyf yn aberthu i'r ARGLWYDD bob gwrryw a agoro y groth; ond pob cyntaf-anedig o'm meibion a brynaf.

16 A bydded hynny yn arwydd ar dy law, ac yn rhagdalau rhwng dy lygaid: canys â llaw gadarn y dug yr ARGLWYDD ni allan o'r Aipht.

17 ¶ A phan ollyngodd Pharaoh y bobl, ni arweiniodd yr ARGLWYDD hwynt trwy ffordd gwlad y Philistiaid, er ei bod yn agos: oblegid dywedodd DUW, Rhag i'r bobl edifarhâu pan welant ryfel, a dychwelyd i'r Aipht.

18 Ond DUW a arweiniodd y bobl o amgylch, trwy anialwch y môr coch: ac yn arfogion yr aeth meibion Israel allan o wlad yr Aipht.

19 A Moses a gymmerodd esgyrn Joseph gyd âg ef: o herwydd efe a wnelsai i feibion Israel dyngu trwy lw, gan ddywedyd, DUW a ymwêl â chwi yn ddïau; dygwch chwithau fy esgyrn oddi yma gyd â chwi.

20 ¶ A hwy a aethant o Succoth; ac a wersyllasant yn Etham, yng nghwr yr anialwch.

21 A'r ARGLWYDD oedd yn myned o'u blaen hwynt y dydd mewn colofn o niwl, i'w harwain ar y ffordd; a'r nos mewn colofn o dân, i oleuo iddynt: fel y gallent fyned ddydd a nos.

22 Ni thynnodd efe ymaith y golofn niwl y dydd, na'r golofn dân y nos, o flaen y bobl.

PENNOD 14.

1 *Duw yn hyfforddi yr Israeliaid yn eu taith.* 5 *Pharaoh yn erlid ar eu hol hwynt.* 10 *Yr Israeliaid yn tuchan.* 13 *Moses yn eu cysuro hwy.* 15 *Duw yn dysgu i Moses beth a wnai.* 19 *Y niwl yn symmudo i'r tu ol i'r gwersyll.* 21 *Yr Israeliaid yn myned trwy y môr coch;* 23 *a'r Aiphtiaid yn boddi ymddo.*

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Dywed wrth feibion Israel, am ddychwelyd a gwersyllu o flaen Pihahiroth, rhwng Migdol a'r môr, o flaen Baal-sephon: ar ei chyfer y gwersyllwch wrth y môr.

3 Canys dywed Pharaoh am feibion Israel, Rhwystrwyd hwynt yn y tir; cauodd yr anialwch arnynt.

4 A mi a galedaf galon Pharaoh, fel yr erlidio ar eu hol hwynt: felly y'm gogoneddir ar Pharaoh, a'i holl fyddin; a'r Aiphtiaid a gânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD. Ac felly y gwnaethant.

5 ¶ A mynegwyd i frenhin yr Aipht, fod y bobl yn ffoi: yna y trodd calon Pharaoh a'i weision yn erbyn y bobl; a dywedasant, Beth yw hyn a wnaethom, pan ollyngasom Israel o'n gwasanaethu?

6 Ac efe a daclodd ei gerbyd, ac a gymmerodd ei bobl gyd âg ef.

7 A chymmerodd chwe chant o ddewis gerbydau, a holl gerbydau yr Aipht, a chapteniaid ar bob un o honynt.

8 A'r ARGLWYDD a galedasai galon Pharaoh brenhin yr Aipht, ac efe a ymlidiodd ar ol meibion Israel: ond yr oedd meibion Israel yn myned allan â llaw uchel.

9 A'r Aiphtiaid a ymlidiasant ar eu hol hwynt, *sef* holl feirch *a* cher-

bydau Pharaoh, a'i wŷr meirch, a'i fyddin, ac a'u goddiweddasant yn gwersyllu wrth y môr, ger llaw Pihahiroth, o flaen Baal-sephon.

10 ¶ A phan nesaodd Pharaoh, meibion Israel a godasant eu golwg; ac wele yr Aiphtiaid yn dyfod ar eu hol; a hwy a ofnasant yn ddirfawr: a meibion Israel a waeddasant ar yr ARGLWYDD.

11 A dywedasant wrth Moses, Ai am nad oedd beddau yn yr Aipht, y dygaist ni i farw yn yr anialwch? Paham y gwnaethost fel hyn â ni, gan ein dwyn allan o'r Aipht?

12 Onid dyma y peth a lefarasom wrthyt yn yr Aipht, gan ddywedyd, Paid â ni, fel y gwasanaethom yr Aiphtiaid? canys gwell fuasai i ni wasanaethu yr Aiphtiaid, na marw yn yr anialwch.

13 ¶ A Moses a ddywedodd wrth y bobl, Nac ofnwch; sefwch, ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr ARGLWYDD, yr hwn a wna efe i chwi heddyw; oblegid yr Aiphtiaid y rhai a welsoch chwi heddyw, ni chewch eu gweled byth ond hynny.

14 Yr ARGLWYDD a ymladd drosoch; am hynny tewch chwi â sôn.

15 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Paham y gweiddi arnaf? dywed wrth feibion Israel am gerdded rhagddynt.

16 A chyfod dithau dy wïalen, ac estyn dy law ar y môr, a hollta ef: a meibion Israel a ânt trwy ganol y môr ar dir sych.

17 Wele, fi, ïe myfi a galedaf galon yr Aiphtiaid, fel y delont ar eu hol hwynt: a mi a ogoneddir ar Pharaoh, ac ar ei holl fyddin, ar ei gerbydau ef, ac ar ei farchogion.

18 A'r Aiphtiaid a gânt wybod mai myfi yw yr ARGLWYDD, pan y'm gogoneddir ar Pharaoh, ar ei gerbydau, ac ar ei farchogion.

19 ¶ Ac angel DUW, yr hwn oedd yn myned o flaen byddin Israel, a symmudodd, ac a aeth o'u hol hwynt; a'r golofn niwl a aeth ymaith o'u tu blaen hwynt, ac a safodd o'u hol hwynt.

20 Ac efe a ddaeth rhwng llu yr Aiphtiaid a llu Israel; ac yr ydoedd yn gwmmwl ac yn dywyllwch *i'r Aiphtiaid*, ac yn goleuo y nos *i Israel:* ac ni nesaodd y naill at y llall ar hyd y nos.

21 A Moses a estynodd ei law ar y môr: a'r ARGLWYDD a yrrodd y môr *yn ei ol*, trwy ddwyreinwynt cryf ar hyd y nos, ac a wnaeth y môr yn sychdir, a holltwyd y dyfroedd.

22 A meibion Israel a aethant trwy ganol y môr ar dir sych: a'r dyfroedd *oedd* yn fur iddynt, o'r tu dehau, ac o'r tu aswy.

23 ¶ A'r Aiphtiaid a erlidiasant, ac a ddaethant ar eu hol hwynt; *sef* holl feirch Pharaoh, a'i gerbydau, a'i farchogion, i ganol y môr.

24 Ac ar y wyliadwriaeth fore yr ARGLWYDD a edrychodd ar fyddin yr Aiphtiaid trwy y golofn dân a'r cwmmwl, ac a derfysgodd fyddin yr Aiphtiaid.

25 Ac efe a dynnodd ymaith olwynion eu cerbydau; ac yr oeddynt yn gyrru yn drwm: fel y dywedodd yr Aiphtiaid, Ffown oddi wrth Israel; oblegid yr ARGLWYDD sydd yn ymladd drostynt hwy yn erbyn yr Aiphtiaid.

26 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Estyn dy law ar y môr; fel y dychwelo y dyfroedd ar yr Aiphtiaid, ar eu cerbydau, ac ar eu marchogion.

27 A Moses a estynodd ei law ar y môr; a dychwelodd y môr cyn y bore i'w nerth; a'r Aiphtiaid a ffoisant yn ei erbyn ef: a'r ARGLWYDD a ddymchwelodd yr Aiphtiaid y'nghanol y môr.

28 A'r dyfroedd a ddychwelasant, ac a orchuddiasant gerbydau, a marchogion, a holl fyddin Pharaoh, y rhai a ddaethant ar eu hol hwynt i'r môr: ni adawyd o honynt gymmaint ag un.

29 Ond meibion Israel a gerddasant ar dir sych y'nghanol y môr: a'r dyfroedd *oedd* yn fur iddynt, ar y llaw ddehau, ac ar y llaw aswy.

30 Felly yr ARGLWYDD a achubodd Israel y dydd hwnnw o law yr Aiphtiaid: a gwelodd Israel yr Aiphtiaid yn feirw ar fin y môr.

31 A gwelodd Israel y grymmusder mawr a wnaeth yr ARGLWYDD yn erbyn yr Aiphtiaid: a'r bobl a ofnasant yr ARGLWYDD, ac a gredas-

ant i'r ARGLWYDD, ac i'w was ef Moses.

PENNOD 15.

1 Cân Moses. 22 Y bobl ag eisieu dwfr arnynt. 23 Chwerw ddyfroedd Marah. 25 Pren yn eu peredidio hwy. 27 Deuddeg ffynnon o ddwfr, a deg palmwyden a thri ugain, yn Elim.

YNA y canodd Moses a meibion Israel y gân hon i'r ARGLWYDD, ac a lefarasant, gan ddywedyd, Canaf i'r ARGLWYDD; canys gwnaeth yn rhagorol iawn: taflodd y march a'i farchog i'r môr.

2 Fy nerth a'm cân *yw* yr ARGLWYDD; ac y mae efe yn iachawdwriaeth i mi: efe yw fy NUW, efe a ogoneddaf ti; DUW fy nhad, a mi a'i dyrchafaf ef.

3 Yr ARGLWYDD *sydd* ryfelwr: yr ARGLWYDD *yw* ei enw.

4 Efe a daflodd gerbydau Pharaoh a'i fyddin yn y môr: ei gapteniaid dewisol a foddwyd yn y môr coch.

5 Y dyfnderau a'u toisant hwy; disgynasant i'r gwaelod fel carreg.

6 Dy ddeheulaw, ARGLWYDD, sydd ardderchog o nerth; a'th ddeheulaw, ARGLWYDD, a ddrylliodd y gelyn.

7 Ym mawredd dy ardderchowgrwydd y tynnaist i lawr y rhai a gyfodasant i'th erbyn: dy ddigofaint a anfonaist allan, *ac* efe a'u hysodd hwynt fel sofl.

8 Trwy chwythad dy ffroenau y casglwyd y dyfroedd ynghyd: y ffrydiau a safasant fel pentwr; y dyfnderau a geulasant y'nghanol y môr.

9 Y gelyn a ddywedodd, Mi a erlidiaf, mi a oddiweddaf, mi a rannaf yr yspail: caf fy ngwynfyd arnynt; tynnaf fy nghleddyf, fy llaw a'u difetha hwynt.

10 Ti a chwythaist â'th wynt; y môr a'u todd hwynt: soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion.

11 Pwy *sydd* debyg i ti, O ARGLWYDD, ym mhlith y duwiau? pwy fel tydi yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd, yn ofnadwy mewn moliant, yn gwneuthur rhyfeddodau?

12 Estynaist dy ddeheulaw; llyngcodd y ddaear hwynt.

13 Arweiniaist yn dy drugaredd y bobl y rhai a waredaist: yn dy nerth y tywysaist *hwynt* i anneddle dy sancteiddrwydd.

14 Y bobloedd a glywant, *ac* a ofnant: dolur a ddeil breswylwyr Palestina.

15 Yna y synna ar dduciaid Edom: cedyrn hyrddod Moab, dychryn a'u deil hwynt: holl breswylwyr Canaan a doddant ymaith.

16 Ofn ac arswyd a syrth arnynt; gan fawredd dy fraich y tawant fel carreg, nes myned trwodd o'th bobl di, ARGLWYDD, nes myned o'r bobl a ennillaist ti trwodd.

17 Ti a'u dygi hwynt i mewn, ac a'u plenni hwynt ym mynydd dy etifeddiaeth, y lle a wnaethost, O ARGLWYDD, yn anneddle i ti; y cyssegr, ARGLWYDD, a gadarnhaodd dy ddwylaw.

18 Yr ARGLWYDD a deyrnasa byth ac yn dragywydd.

19 O herwydd meirch Pharaoh, a'i gerbydau, a'i farchogion, a aethant i'r môr; a'r ARGLWYDD a ddychwelodd ddyfroedd y môr arnynt: ond meibion Israel a aethant ar dir sych y'nghanol y môr.

20 ¶ A Miriam y brophwydes, chwaer Aaron, a gymmerodd dympan yn ei llaw, a'r holl wragedd a aethant allan ar ei hol hi, â thympanau ac â dawnsiau.

21 A dywedodd Miriam wrthynt, Cenwch i'r ARGLWYDD; canys gwnaeth yn ardderchog: bwriodd y march a'r marchog i'r môr.

22 Yna Moses a ddug Israel oddi wrth y môr coch; ac aethant allan i anialwch Sur: a hwy a gerddasant dri diwrnod yn yr anialwch, ac ni chawsant ddwfr.

23 ¶ A phan ddaethant i Marah, ni allent yfed dyfroedd Marah, am eu bod yn chwerwon: o herwydd hynny y gelwir ei henw hi Marah.

24 A'r bobl a duchanasant yn erbyn Moses, gan ddywedyd, Beth a yfwn ni?

25 Ac efe a waeddodd ar yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a ddangosodd iddo ef bren; ac efe a'i bwriodd i'r dyfroedd, a'r dyfroedd a bereiddiasant: yno y gwnaeth efe ddeddf a chyfraith, ac yno y profodd efe hwynt,

26 Ac a ddywedodd, Os gan wrandaw y gwrandewi ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW, ac os gwnei di yr hyn

sydd uniawn yn ei olwg ef, a rhoddi clust i'w orchymynion ef, a chadw ei holl ddeddfau ef; ni roddaf arnat un o'r clefydau a roddais ar yr Aiphtiaid; o herwydd myfi *yw* yr ARGLWYDD dy iachawdwr di.

27 ¶ A daethant i Elim; ac yno yr oedd deuddeg ffynnon o ddwfr, a deg palmwydden a thri ugain: a hwy a wersyllasant yno wrth y dyfroedd.

PENNOD 16.

1 *Yr Israeliaid yn dyfod i Sin: 2 ac yn tuchan o eisieu bara.* 4 *Duw yn addaw iddynt fara o'r nefoedd.* 11 *Danfon soflieir.* 14 *a manna.* 16 *Trefn y manna.* 25 *Na cheid ef ar y dydd Sabbath.* 32 *Cadw llonaid omer o hono ef.*

AHWY a symnudasant o Elim; a holl gynnulleidfa meibion Israel a ddaethant i anialwch Sin, yr hwn *sydd* rhwng Elim a Sinai, ar y pymthegfed dydd o'r âil fis, wedi iddynt fyned allan o wlad yr Aipht.

2 A holl gynnulleidfa meibion Israel a duchanasant yn erbyn Moses ac Aaron yn yr anialwch.

3 A meibion Israel a ddywedasant wrthynt, O na buasem feirw trwy law yr ARGLWYDD y'ngwlad yr Aipht, pan oeddym yn eistedd wrth y crochanau cig, ac yn bwytta bara ein gwala: ond chwi a'n dygasoch ni allan i'r anialwch hwn, i ladd yr holl dyrfa hon â newyn.

4 ¶ Yna y dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Wele, mi a wlawiaf arnoch fara o'r nefoedd: a'r bobl a ânt allan, ac a gasglant ddogn dydd yn ei ddydd; fel y gallwyf eu profi, a rodiant yn fy nghyfraith, ai nas *gwnant.*

5 Ond ar y chweched dydd y darparant yr hyn a ddygant i mewn; a *hynny* fydd dau cymmaint ag a gasglant beunydd.

6 A dywedodd Moses ac Aaron wrth holl feibion Israel, Yn yr hwyr y cewch wybod mai yr ARGLWYDD a'ch dug chwi allan o wlad yr Aipht.

7 Y bore hefyd y cewch weled gogoniant yr ARGLWYDD; am iddo glywed eich tuchan chwi yn erbyn yr ARGLWYDD: a pha beth ydym ni, i chwi i duchan i'n herbyn?

8 Moses hefyd a ddywedodd, *Hyn fydd* pan roddo yr ARGLWYDD i chwi yn yr hwyr gig i'w bwytta, a'r bore fara eich gwala; âm glywed o'r ARGLWYDD eich tuchan chwi, yr hwn a wnaethoch yn ei erbyn ef: o herwydd beth *ydym* ni? nid yn ein herbyn ni *y mae* eich tuchan, ond yn erbyn yr ARGLWYDD.

9 ¶ A Moses a ddywedodd wrth Aaron, Dywed wrth holl gynnulleidfa meibion Israel, Deuwch yn nês ger bron yr ARGLWYDD: o herwydd efe a glywodd eich tuchan chwi.

10 Ac fel yr oedd Aaron yn llefaru wrth holl gynnulleidfa meibion Israel, yna yr edrychasant tu a'r anialwch; ac wele, gogoniant yr ARGLWYDD a ymddangosodd yn y cwmmwl.

11 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

12 Clywais duchan meibion Israel: llefara wrthynt, gan ddywedyd, Yn yr hwyr y cewch fwytta cig, a'r bore y'ch diwellir o fara: cewch hefyd wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.

13 Felly yn yr hwyr y soflieir a ddaethant, ac a orchuddiasant y wersyllfa; a'r bore yr oedd caenen o wlith o amgylch y gwersyll.

14 A phan gododd y gaenen wlith, wele ar hyd wyneb yr anialwch dippynau crynion cyn faned a'r llwydrew ar y ddaear.

15 Pan welodd meibion Israel *hynny,* hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Manna *yw:* canys ni wyddent beth *ydoedd.* A dywedodd Moses wrthynt, Hwn *yw* y bara a roddodd yr ARGLWYDD i chwi i'w fwytta.

16 ¶ Hyn yw y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD; Cesglwch o hono bob un yn ol ei fwytta: omer i bob un yn ol rhifedi eich eneidiau; cymmerwch bob un i'r rhai fyddant yn ei bebyll.

17 A meibion Israel a wnaethant felly; ac a gasglasant, rhai fwy, a rhai lai.

18 A phan fesurasant wrth yr omer, nid oedd gweddill i'r hwn a gasglasai lawer, ac nid oedd eisieu ar yr hwn a gasglasai ychydig: casglasant bob un yn ol ei fwytta.

19 A dywedodd Moses wrthynt, Na weddilled neb ddim o hono hyd y bore.

20 Er hynny ni wrandawsant ar Moses, ond gadaw a wnaeth rhai o

hono hyd y bore; ac efe a fagodd bryfed, ac a ddrewodd: am hynny Moses a ddigiodd wrthynt.

21 A hwy a'i casglasant ef bob bore, pob un yn ôl ei fwytta: a phan wresogai yr haul, efe a doddai.

22 ¶ Ac ar y chweched dydd y casglent ddau cymmaint o fara, dau omer i un: a holl bennaethiaid y gynnulleidfa a ddaethant ac a fynegasant i Moses.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Hyn yw y peth a lefarodd yr ARGLWYDD; Y fory *y mae* gorphwysfa Sabbath sanctaidd i'r ARGLWYDD: pobwch *heddyw* yr hyn a boboch, a berwch yr hyn a ferwoch; a'r holl weddill, rhoddwch i gadw i chwi hyd y bore.

24 A hwy a'i cadwasant hyd y bore, fel y gorchymnasai Moses: ac ni ddrewodd, ac nid oedd pryf ynddo.

25 A dywedodd Moses, Bwyttêwch hwn heddyw; oblegid Sabbath *yw* heddyw i'r ARGLWYDD: ni chewch hwn yn y maes heddyw.

26 Chwe diwrnod y cesglwch chwi ef; ond ar y seithfed dydd, yr hwn *yw* y Sabbath, ni bydd efe.

27 ¶ Etto *rhai* o'r bobl a aethant allan ar y seithfed dydd, i gasglu; ond ni chawsant ddim.

28 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Pa hyd y gwrthodwch gadw fy ngorchymynion a'm cyfreithiau?

29 Gwelwch mai yr ARGLWYDD a roddodd i chwi y Sabbath; am hynny efe a roddodd i chwi y chwechedd dydd fara dros ddau ddydd: arhoswch bawb gartref; nac aed un o'i le y seithfed dydd.

30 Felly y bobl a orphwysasant y seithfed dydd.

31 A thŷ Israel a alwasant ei enw ef Manna: ac yr oedd efe fel had coriander, yn wyn, a'i flas fel afrllad o fêl.

32 ¶ A Moses a ddywedodd, Dyma y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD; Llanw omer o hono, i'w gadw i'ch cenhedlaethau; fel y gwelont y bara y porthais chwi âg ef yn yr anialwch, pan y'ch dygais allan o wlad yr Aipht.

33 A Moses a ddywedodd wrth Aaron, Cymmer grochan, a dod ynddo lonaid omer o'r manna; a gosod ef ger bron yr ARGLWYDD y'nghadw i'ch cenhedlaethau.

34 Megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD i Moses, felly y gosododd Aaron ef i gadw ger bron y dystiolaeth.

35 A meibion Israel a fwyttasant y manna ddeugain mlynedd, nes eu dyfod i dir cyfanneddol: manna a fwyttasant nes eu dyfod i gwr gwlad Canaan.

36 A'r omer ydoedd ddegfed ran ephah.

PENNOD 17.

1 Y bobl yn tuchan am ddwfr yn Rephidim. 5 Duw yn ei hanfon hwy am ddwfr i'r graig yn Horeb. 8 Gorchfygu Amalec trwy ddal dwylaw Moses i fyny. 15 Moses yn adeiladu yr allor JEHOFAH-Nissi.

A HOLL gynnulleidfa meibion Israel a aethant o anialwch Sin, wrth eu teithiau, yn ol gorchymyn yr ARGLWYDD; ac a wersyllasant yn Rephidim: ac nid oedd dwfr i'r bobl i yfed.

2 Am hynny y bobl a ymgynhennasant â Moses, ac a ddywedasant, Rhoddwch i ni ddwfr i yfed. A dywedodd Moses wrthynt, Paham yr ymgynhennwch â mi? Paham y temtiwch yr ARGLWYDD?

3 A'r bobl a sychedodd yno am ddwfr; a thuchanodd y bobl yn erbyn Moses, ac a ddywedodd, Paham y peraist i ni ddyfod i fyny o'r Aipht, i'n lladd ni, a'n plant, a'n hanifeiliaid, â syched?

4 A Moses a lefodd ar yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Beth a wnaf i'r bobl hyn? ar ben ychydig etto hwy a'm llabyddiant i.

5 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Cerdda o flaen y bobl, a chymmer gyd â thi o henuriaid Israel: cymmer hefyd dy wialen yn dy law, yr hon y tarewaist yr afon â hi, a cherdda.

6 Wele, mi a safaf o'th flaen yno ar y graig yn Horeb; taro dithau y graig, a daw dwfr allan o honi, fel y gallo y bobl yfed. A Moses a wnaeth felly y'ngolwg henuriaid Israel.

7 Ac efe a alwodd enw y lle Massah, a Meribah; o achos cynnen meibion Israel, ac am iddynt demtio yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

A ydyw yr ARGLWYDD yn ein plith,
ai nid *yw?*
8 ¶ Yna y daeth Amalec, ac a ym-
laddodd âg Israel yn Rephidim.
9 A dywedodd Moses wrth Josua,
Dewis i ni wŷr, a dos allan ac ym-
ladd âg Amalec: y fory mi a safaf
ar ben y bryn, â gwialen DUW yn
fy llaw.
10 Felly Josua a wnaeth fel y dy-
wedodd Moses wrtho; ac a ymladd-
odd âg Amalec: a Moses, Aaron, a
Hur a aethant i fyny i ben y
bryn.
11 A phan godai Moses ei law, y
byddai Israel yn drechaf; a phan
ollyngai ei law i lawr, Amalec a
fyddai drechaf.
12 A dwylaw Moses oedd drym-
mion; a hwy a gymmerasant faen,
ac a'i gosodasant dano ef; ac efe a
eisteddodd arno: ac Aaron a Hur
a gynhaliasant ei ddwylaw ef, un ar
y naill du, a'r llall ar y tu arall;
felly y bu ei ddwylaw ef sythion
nes machludo yr haul.
13 A Josua a orchfygodd Amalec
a'i bobl â min y cleddyf.
14 A'r ARGLWYDD a ddywedodd
wrth Moses, Ysgrifena hyn mewn
llyfr, yn goffadwriaeth; a mynega
i Josua: canys gan ddileu y dileaf
goffadwriaeth Amalec oddi tan y
nefoedd.
15 A Moses a adeiladodd allor, ac
a alwodd ei henw hi JEHOFAH-
Nissi.
16 Canys efe a ddywedodd, O her-
wydd tyngu o'r ARGLWYDD, *y bydd*
i'r ARGLWYDD ryfel yn erbyn Ama-
lec o genhedlaeth i genhedlaeth.

PENNOD 18.

1 Jethro yn dwyn at Moses ei wraig a'i ddau fab. 7 Moses yn ei groesawu ef. 13 Yntau yn derbyn cynghor Jethro. 27 Jethro yn ymadael.

PAN glywodd Jethro, offeiriad
Midian, chwegrwn Moses, yr
hyn oll a wnaethai DUW i Moses,
ac i Israel ei bobl, a dwyn o'r AR-
GLWYDD Israel allan o'r Aipht;
2 Yna Jethro, chwegrwn Moses, a
gymmerodd Sephorah gwraig Mo-
ses, (wedi ei hebrwng hi yn ei hol,)
3 A'i dau fab hi; o ba rai enw un
oedd Gersom: oblegid efe a ddy-
wedasai, Dieithr fûm mewn gwlad
estronol.
4 Ac enw y llall *oedd* Elieser: o
herwydd DUW fy nhad *oedd* gyn-
northwy i mi (*eb efe*), ac a'm ha-
chubodd rhag cleddyf Pharaoh.
5 A Jethro, chwegrwn Moses,
a ddaeth â'i feibion a'i wraig at
Moses i'r anialwch, lle yr ydoedd
efe yn gwersyllu *ger llaw* mynydd
DUW.
6 Ac efe a ddywedodd wrth Moses,
Myfi Jethro, dy chwegrwn di, sydd
yn dyfod attat ti, a'th wraig a'i dau
fab gyd â hi.
7 ¶ A Moses a aeth allan i gyfar-
fod â'i chwegrwn; ac a ymgrym-
modd, ac a'i cusanodd; a chyfarch-
asant well bob un i'w gilydd: a
daethant i'r babell.
8 A Moses a fynegodd i'w chwegr-
wn yr hyn oll a wnaethai yr AR-
GLWYDD i Pharaoh ac i'r Aiphtiaid,
er mwyn Israel; a'r holl flinder a
gawsent ar y ffordd, ac achub o'r
ARGLWYDD hwynt.
9 A llawenychodd Jethro o her-
wydd yr holl ddaioni a wnaethai
yr ARGLWYDD i Israel; yr hwn a
waredasai efe o law yr Aiphtiaid.
10 A dywedodd Jethro, Bendiegig
fyddo yr ARGLWYDD, yr hwn a'ch
gwaredodd o law yr Aiphtiaid, ac o
law Pharaoh; yr hwn a waredodd y
bobl oddi tan law yr Aiphtiaid.
11 Yn awr y gwn mai mwy ydyw
yr ARGLWYDD na'r holl dduwiau:
oblegid yn y peth yr oeddynt falch
o hono, *yr oedd efe* yn uwch na
hwynt.
12 A Jethro, chwegrwn Moses, a
gymmerodd boeth-offrwm ac ebyrth
i DUW: a daeth Aaron, a holl
henuriaid Israel, i fwytta bara
gyd â chwegrwn Moses, ger bron
DUW.
13 ¶ A thrannoeth Moses a eis-
teddodd i farnu y bobl: a safodd
y bobl ger bron Moses, o'r bore
hyd yr hwyr.
14 A phan welodd chwegrwn Moses
yr hyn oll yr ydoedd efe yn ei
wneuthur i'r bobl, efe a ddywedodd,
Pa beth *yw* hyn yr wyt ti yn ei
wneuthur i'r bobl? Paham yr eis-
teddi dy hun, ac y saif yr holl
bobl ger dy fron di, o'r bore hyd
yr hwyr?
15 A dywedodd Moses wrth ei

chwegrwn, Am fod y bobl yn dyfod attaf i ymgynghori â DUW.

16 Pan fyddo iddynt achos, attaf fi y deuant; a myfi sydd yn barnu rhwng pawb a'u gilydd, ac yn hysbysu deddfau DUW a'i gyfreithiau.

17 A dywedodd chwegrwn Moses wrtho, Nid da y peth yr ydwyt ti yn ei wneuthur.

18 Tydi a lwyr ddiffygi, a'r bobl yma hefyd y rhai sydd gyd â thi: canys rhy drwm yw y peth i ti; ni elli ei wneuthur ef dy hun.

19 Gwrando ar fy llais i yn awr; mi a'th gynghoraf di, a bydd DUW gyd â thi: Bydd di dros y bobl ger bron DUW, a dwg eu hachosion at DDUW.

20 Dysg hefyd iddynt y deddfau a'r cyfreithiau; a hysbysa iddynt y ffordd a rodiant ynddi, a'r gweithredoedd a wnant.

21 Ac edrych dithau allan o'r holl bobl am wŷr nerthol, yn ofni DUW, gwŷr geirwir, yn casâu cybydd-dod; a gosod *y rhai hyn* arnynt hwy, yn dywysogion ar filoedd, yn dywysogion ar gannoedd, ac yn dywysogion ar ddegau a deugain, ac yn dywysogion ar ddegau.

22 A barnant hwy y bobl bob amser: ond dygant bob peth mawr attat ti, a barnant eu hun bob peth bychan: felly yr ysgafnhêi arnat dy hun, a hwynt-hwy a ddygant *y baich* gyd â thi.

23 Os y peth hyn a wnei, a'i orchymyn o DDUW i ti; yna ti a elli barhâu, a'r holl bobl hyn a ddeuant i'w lle mewn heddwch.

24 A Moses a wrandawodd ar lais ei chwegrwn; ac a wnaeth yr hyn oll a ddywedodd efe.

25 A Moses a ddewisodd wŷr grymmus allan o holl Israel, ac a'u rhoddodd hwynt yn bennaethiaid ar y bobl; yn dywysogion ar filoedd, yn dywysogion ar gannoedd, yn dywysogion ar ddegau a deugain, ac yn dywysogion ar ddegau.

26 A hwy a farnasant y bobl bob amser: y pethau caled a ddygent at Moses, a phob peth bychan a farnent hwy eu hunain.

27 ¶ A Moses a ollyngodd ymaith ei chwegrwn; ac efe a aeth adref i'w wlad.

PENNOD 19.

1 Y bobl yn dyfod i Sinai. 3 Cennadwriaeth Duw at y bobl trwy law Moses allan o'r mynydd. 8 Dwyn atteb y bobl at Dduw. 10 Paratôi y bobl erbyn y trydydd dydd. 12 Ni wasanaetha cyffordd â'r mynydd. 16 Dychrynllyd bresennoldeb Duw ar y mynydd.

YN y trydydd mis, wedi dyfod meibion Israel allan o wlad yr Aipht, y dydd hwnnw y daethant i anialwch Sinai.

2 Canys hwy a aethant o Rephidim, ac a ddaethant i anialwch Sinai; gwersyllasant hefyd yn yr anialwch: ac yno y gwersyllodd Israel ar gyfer y mynydd.

3 A Moses a aeth i fyny at DDUW: a'r ARGLWYDD a alwodd arno ef o'r mynydd, gan ddywedyd, Fel hyn y dywedi wrth dŷ Jacob, ac y mynegi wrth feibion Israel;

4 Chwi a welsoch yr hyn a wneuthum i'r Aiphtiaid; y modd y codais chwi ar adenydd eryrod, ac y'ch dygais attaf fi fy hun.

5 Yn awr, gan hynny, os gan wrandaw y gwrandêwch ar fy llais, a chadw fy nghyfammod, chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi o fiaen yr holl bobloedd: canys eiddo fi yr holl ddaear.

6 A chwi a fyddwch i mi yn freniniaeth o offeiriaid, ac yn genhedlaeth sanctaidd. Dyma y geiriau a lefari di wrth feibion Israel.

7 ¶ A daeth Moses, ac a alwodd am henuriaid y bobl; ac a osododd ger eu bron hwynt yr holl eiriau hyn a orchymynasai yr ARGLWYDD iddo.

8 A'r holl bobl a gyd-attebasant, ac a ddywedasant, Nyni a wnawn yr hyn oll a lefarodd yr ARGLWYDD. A Moses a ddug drachefn eiriau y bobl at yr ARGLWYDD.

9 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Wele, mi a ddeuaf attat mewn cwmmwl tew, fel y clywo y bobl pan ymddiddanwyf â thi, ac fel y credont i ti byth. A Moses a fynegodd eiriau y bobl i'r ARGLWYDD.

10 ¶ Yr ARGLWYDD hefyd a ddywedodd wrth Moses, Dos at y bobl, a sancteiddia hwynt heddyw ac y fory; a golchant eu dillad,

11 A byddant barod erbyn y trydydd dydd: o herwydd y trydydd dydd y disgyn yr ARGLWYDD y'ngolwg yr holl bobl ar fynydd Sinai.

12 A gosod derfyn i'r bobl o amgylch, gan ddywedyd, Gwyliwch arnoch, rhag myned i fyny i'r mynydd, neu gyffwrdd â'i gwr ef: pwy bynnag a gyffyrddo â'r mynydd a leddir yn farw.

13 Na chyffyrdded llaw âg ef, ond gan labyddio llabyddier ef, neu gan saethu saether ef; pa un bynnag ai dyn ai anifail fyddo, ni chaiff fyw: pan gano yr udgorn yn hirllaes, deuant i'r mynydd.

14 ¶ A Moses a ddisgynodd o'r mynydd at y bobl, ac a sancteiddiodd y bobl; a hwy a olchasant eu dillad.

15 Ac efe a ddywedodd wrth y bobl, Byddwch barod erbyn y trydydd dydd; nac ewch yn agos at eich gwragedd.

16 A'r trydydd dydd, ar y boreddydd, yr oedd taranau, a mellt, a chwmmwl tew ar y mynydd, a llais yr udgorn ydoedd gryf iawn; fel y dychrynodd yr holl bobl oedd yn y gwersyll.

17 A Moses a ddug y bobl allan o'r gwersyll i gyfarfod â Duw; a hwy a safasant y'ngodre y mynydd.

18 A mynydd Sinai oedd i gyd yn mygu, o herwydd disgyn o'r Arglwydd arno mewn tân: a'i fwg a ddyrchafodd fel mwg ffwrn, a'r holl fynydd a grynodd yn ddirfawr.

19 Pan ydoedd llais yr udgorn yn hir, ac yn cryfhâu fwyfwy, Moses a lefarodd; a Duw a attebodd mewn llais.

20 A'r Arglwydd a ddisgynodd ar fynydd Sinai, ar ben y mynydd: a galwodd yr Arglwydd Moses i ben y mynydd; a Moses a aeth i fyny.

21 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dos i waered, gorchymyn i'r bobl; rhag iddynt ruthro at yr Arglwydd i hylldremmu, a chwympo llawer o honynt.

22 Ac ymsancteiddied yr offeiriaid hefyd, y rhai a nesânt at yr Arglwydd; rhag i'r Arglwydd ruthro arnynt.

23 A dywedodd Moses wrth yr Arglwydd, Ni ddichon y bobl ddyfod i fyny i fynydd Sinai: oblegid ti a dystiolaethaist wrthym, gan ddywedyd, Gosod derfyn ynghylch y mynydd, a sancteiddia ef.

24 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Dos, cerdda i waered; a thyred i fyny, ac Aaron gyd â thi: ond na ruthred yr offeiriaid a'r bobl, i ddyfod i fyny at yr Arglwydd; rhag iddo yntau ruthro arnynt hwy.

25 Yna yr aeth Moses i waered at y bobl, ac a ddywedodd wrthynt.

PENNOD 20.

1 *Y deg gorchymyn.* 18 *Y bobl yn ofni.* 20 *Moses yn eu cysuro hwy.* 22 *Gwaharddd gau-dduwiaeth.* 24 *Portreiad yr allor.*

ADUW a lefarodd yr holl eiriau hyn, gan ddywedyd,

2 Myfi *yw* yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aipht, o dŷ y caethiwed.

3 Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mron i.

4 Na wna i ti ddelw gerfiedig, na llun dim a'r *y sydd* yn y nefoedd uchod, nac a'r *y sydd* yn y ddaear isod, nac a'r *sydd* yn y dwfr tan y ddaear.

5 Nac ymgrymma iddynt, ac na wasanaetha hwynt: oblegid myfi yr Arglwydd dy Dduw, *wyf* Dduw eiddigus; yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd *genhedlaeth* o'r rhai a'm casânt;

6 Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

7 Na chymmer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer: canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei enw ef yn ofer.

8 Cofia y dydd Sabbath, i'w sancteiddio ef.

9 Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith:

10 Ond y seithfed dydd *yw* Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: na wna *ynddo* ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th ddieithr ddyn a fyddo o fewn dy byrth:

11 O herwydd *mewn* chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr, a'r hyn oll *sydd* ynddynt; ac a orphwysodd y seithfed dydd: am hynny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd Sabbath, ac a'i sancteiddiodd ef.

12 ¶ Anrhydedda dy dad a'th fam; fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear, yr hon y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei rhoddi i ti.
13 Na ladd.
14 Na wna odineb.
15 Na ladratta.
16 Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog.
17 Na chwennych dŷ dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmydog, na'i wasanaethwr, na'i wasanaethferch, na'i ŷch, na'i asyn, na dim a'r *sydd* eiddo dy gymmydog.
18 ¶ A'r holl bobl a welsant y taranau, a'r mellt, a sain yr udgorn, a'r mynydd yn mygu: a phan welodd y bobl, ciliasant, a safasant o hirbell.
19 A dywedasant wrth Moses, Llefara di wrthym ni, a nyni a wrandâwn: ond na lefared DUW wrthym, rhag i ni farw.
20 A dywedodd Moses wrth y bobl, Nac ofnwch; o herwydd i'ch profi chwi y daeth DUW, ac i fod ei ofn ef ger eich bronnau, fel na phechech.
21 A safodd y bobl o hirbell; a nesaodd Moses i'r tywyllwch, lle *yr ydoedd* DUW.
22 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Fel hyn y dywedi wrth feibion Israel; Chwi a welsoch mai o'r nefoedd y lleferais wrthych.
23 Na wnewch gyd â mi dduwiau arian, ac na wnewch i chwi dduwiau aur.
24 ¶ Gwna i mi allor bridd, ac abertha arni dy boeth-ebyrth a'th offrymmau hedd, dy ddefaid, a'th eidionau: ym mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf attat, ac y'th fendithiaf.
25 Ond os gwnei i mi allor gerrig, na wna hi o gerrig nadd: pan gottech dy forthwyl arni, ti a'i halogaist hi.
26 Ac na ddos i fyny ar hyd grisiau i'm hallor; fel nad amlyger dy noethni wrthi.

PENNOD 21.

1 *Cyfreithiau gweision.* 5 *Am y gwas a dyller ei glust.* 7 *Am forwynion.* 12 *Am lofruddiaeth.* 16 *Am ladron dynion.* 17 *Am y rhai a felldithio eu rhieni.* 18 *Am daravwyr.* 22 *Am friw damwain.* 28 *Am ych a gornio.* 33 *Am yr hwn a fo achos o niwed i craill.*

DYMA y barnedigaethau a osodi di ger eu bron hwynt.
2 Os pryni was o Hebread, gwasanaethed chwe blynedd; a'r seithfed y caiff yn rhad fyned ymaith yn rhydd.
3 Os ar ei ben ei hun y daeth, ar ei ben ei hun y caiff fyned allan: os perchen gwraig fydd efe, aed ei wraig allan gyd âg ef.
4 Os ei feistr a rydd wraig iddo, a hi yn planta iddo feibion, neu ferched; y wraig a'i phlant fydd eiddo ei meistr, ac aed efe allan ar ei ben ei hun.
5 Ac os gwas gan ddywedyd a ddywed, Hoff gennyf fi fy meistr, fy ngwraig, a'm plant; nid âf fi allan yn rhydd:
6 Yna dyged ei feistr ef at y barnwyr; a dyged ef at y ddôr, neu at yr orsin: a thylled ei feistr ei glust ef â mynawyd; ac efe a'i gwasanaetha ef byth.
7 ¶ Ac os gwerth gŵr ei ferch yn forwyn gaeth, ni chaiff hi fyned allan fel yr êl y gweision caeth allan.
8 Os heb ryglyddu bodd y'ngolwg ei meistr y bydd hi, yr hwn a'i cymmerodd hi yn ddyweddi; yna gadawed ei hadbrynu hi: ni bydd rhydd iddo ei gwerthu hi i bobl ddïeithr, wedi iddo ef ei thwyllo hi.
9 Ac os i'w fab y dyweddïodd efe hi, gwnaed iddi yn ol deddf y merched.
10 Ac os arall a brïoda efe, na wnaed yn llai ei hymborth, ei dillad, na'i dyled priodas.
11 Ac os y tri hyn nis gwna efe iddi; yna aed hi allan yn rhad heb arian.
12 ¶ Rhodder i farwolaeth y neb a darawo ŵr, fel y byddo marw.
13 Ond yr hwn ni chynllwynodd, ond rhoddi o DDUW ef yn ei law ef, mi a osodaf i ti fan lle y caffo ffoi.
14 Ond os daw dyn yn rhyfygus ar ei gymmydog, i'w ladd ef trwy dwyll; cymmer ef i farwolaeth oddi wrth fy allor.
15 ¶ Y neb a darawo ei dad, neu ei fam, rhodder ef i farwolaeth.
16 ¶ Yr hwn a ladrattao ddyn, ac a'i gwertho, neu os ceir ef yn ei law ef, rhodder ef i farwolaeth.

17 ¶ Rhodder i farwolaeth yr hwn a felldithio ei dad, neu ei fam.

18 ¶ A phan ymrysono dynion, a tharo o'r naill y llall â charreg, neu â dwrn, ac efe heb farw, ond gorfod iddo orwedd;

19 Os cyfyd efe, a rhodio allan wrth ei ffon; yna y tarawydd a fydd diangol: yn unig rhodded ei golled am ei waith, a chan feddyginiaethu meddyginiaethed ef.

20 ¶ Ac os tery un ei wasanaethwr, neu ei wasanaetherch, â gwialen, fel y byddo farw dan ei law ef; gan ddial dialer arno.

21 Ond os erys ddiwrnod, neu ddau ddiwrnod, na ddialer arno; canys *gwerth* ei arian ei hun ydoedd efe.

22 ¶ Ac os ymrafaelia dynion, a tharo o honynt wraig feichiog, fel yr êl ei beichiogi oddi wrthi, ac heb fod marwolaeth: gan gospi cosper ef, fel y gosodo gŵr y wraig arno; a rhodded *hynny* trwy farnwyr.

23 Ac os marwolaeth fydd; rhodder einioes am einioes,

24 Llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed,

25 Llosg am losg, archoll am archoll, a chlais am glais.

26 ¶ Os tery un lygad ei wasanaethwr, neu lygad ei wasanaetherch, fel y llygro ef; gollynged ef yn rhydd am ei lygad:

27 Ac os tyr efe ymaith ddant ei wasanaethwr, neu ddant ei wasanaetherch; gollynged ef yn rhydd am ei ddant.

28 ¶ Ac os ych a gornia ŵr neu wraig, fel y byddo farw: gan labyddio llabyddier yr ych, ac na fwyttâer ei gig ef; ac aed perchen yr ych yn rhydd.

29 Ond os yr ych oedd yn cornio o'r blaen, a *hynny* trwy dystion wedi ei hysbysu i'w berchennog; ac efe heb ei gadw ef, ond lladd o hono ŵr neu wraig: yr ych a labyddir, a'i berchennog a roddir i farwolaeth hefyd.

30 Os iawn a roddir arno, rhodded werth am ei einioes, yn ol yr hyn oll a osoder arno.

31 Os mab a gornia efe, neu ferch a gornia efe; gwneler iddo yn ol y farnedigaeth hon.

32 Ond os gwasanaethwr neu wasanaetherch a gornia yr ych; rhodded i'w perchennog ddeg sicl ar hugain o arian, a llabyddier yr ych.

33 ¶ Ac os egyr gŵr bydew, neu os cloddia un bydew, ac heb gau arno; a syrthio yno ych, neu asyn;

34 Perchen y pydew a dâl *am danynt:* arian a dâl efe i'w perchennog; a'r *anifail* marw a fydd iddo yntau.

35 ¶ Ac os ych gŵr a dery ych ei gymmydog, fel y byddo efe farw; yna gwerthant yr ych byw, a rhannant ei werth ef, a'r *ych* marw a rannant hefyd.

36 Neu os gwybuwyd ei fod ef yn ych hwyliog o'r blaen, a'i berchennog heb ei gadw ef; gan dalu taled ych am ych, a bydded y marw yn eiddo ef.

PENNOD 22.

1 *Am ladrad.* 5 *Am golled.* 7 *Am sarhâd.* 14 *Am fenthyg.* 16 *Am anniweirdeb.* 18 *Am ddewiniaeth;* 19 *Am orwedd gyd âg anifail.* 20 *Am ddelw-addoliaeth.* 21 *Am ddieithriaid, a gweddwon, ac amddifaid.* 25 *Am usuriaeth.* 26 *Am wystlon.* 28 *Am barch i swyddogion.* 29 *Am flaenffrwythau.*

OS lladratta un ych neu ddafad, a'i ladd, neu ei werthu; taled bum ych am ych, a phedair dafad am ddafad.

2 ¶ Os ceir lleidr yn torri *tŷ*, a'i daro fel y byddo farw; na *choller* gwaed am dano.

3 Os bydd yr haul wedi codi arno, *coller* gwaed am dano; efe a ddyly gwbl-dalu: oni bydd dim ganddo, gwerther ef am ei ladrad.

4 Os gan gael y ceir yn ei law ef y lladrad yn fyw, o eidion, neu asyn, neu ddafad; taled yn ddwbl.

5 ¶ Os pawr un faes, neu winllan, a gyrru ei anifail i bori maes un arall; taled o'r hyn goreu yn ei faes ei hun, ac o'r hyn goreu yn ei winllan ei hun.

6 ¶ Os tân a dyr allan, ac a gaiff afael mewn drain, fel y difâer dâs o ŷd, neu ŷd ar ei droed, neu faes; cwbl-daled yr hwn a gynneuodd y tân.

7 ¶ Os rhydd un i'w gymmydog arian, neu ddodrefn i gadw, a'i ladratta o dŷ y gŵr; os y lleidr a geir, taled yn ddwbl:

8 Os y lleidr ni cheir, dyger perchennog y tŷ at y swyddogion *i dyngu*, a estynodd efe ei law at ddâ ei gymmydog.

9 Am bob math ar gamwedd, am eidion, am asyn, am ddafad, am ddilledyn, *ac* am bob peth a gollo yr hwn a ddywedo *arall* ei fod yn eiddo: deued achos y ddau ger bron y barnwyr; a'r hwn y barno y swyddogion yn ei erbyn, taled i'w gymmydog yn ddwbl.

10 Os rhydd un asyn, neu eidion, neu ddafad, neu un anifail, at ei gymmydog i gadw, a marw o hono, neu ei friwo, neu ei yrru ymaith heb neb yn gweled:

11 Bydded llw yr ARGLWYDD rhyngddynt ill dau, na roddes efe ei law at ddâ ei gymmydog; a chymmered ei berchennog *hynny*, ac na wnaed *y llall* iawn.

12 Ac os gan ladratta y lladrattêir ef oddi wrtho; gwnaed iawn i'w berchennog.

13 Os gan ysglyfaethu yr ysglyfaethir ef; dyged ef yn dystiolaeth, *ac* na thaled am yr hwn a ysglyfaethwyd.

14 ¶ Ond os benthyccia un gan ei gymmydog *ddim*, a'i friwo, neu ei farw, heb *fod* ei berchennog gyd âg ef; gan dalu taled.

15 Os ei berchennog *fydd* gyd âg ef, na thaled: os llog *yw* efe, am ei log y daeth.

16 ¶ Ac os huda un forwyn yr hon ni ddyweddïwyd, a gorwedd gyd â hi; gan gynnysgaedd cynnysgaedded hi yn wraig iddo ei hun.

17 Os ei thad a lwyr-wrthyd ei rhoddi hi iddo, taled arian yn ol gwaddol morwynion.

18 ¶ Na chaffed hudoles fyw.

19 ¶ Llwyr-rodder i farwolaeth bob un a orweddo gyd âg anifail.

20 ¶ Lladder yn farw a abertho i dduwiau, onid i'r ARGLWYDD yn unig.

21 ¶ Na orthrymma, ac na flina y dïeithr: canys dïeithriaid fuoch chwithau yn nhir yr Aipht.

22 ¶ Na chystuddiwch un weddw, nac amddifad.

23 Os cystuddiwch hwynt mewn un modd, a gwaeddi o honynt ddim arnaf; mi a lwyr-wrandawaf eu gwaedd hwynt;

24 A'm digofaint a ennyn, a mi a'ch lladdaf â'r cleddyf; a bydd eich gwragedd yn weddwon, a'ch plant yn amddifaid.

25 ¶ Os echwyni arian i'm pobl *sydd* dlawd yn dy ymyl, na fydd fel ocrwr iddynt: na ddod usuriaeth arnynt.

26 Os cymmeri ddilledyn dy gymmydog ar wystl, dyro ef adref iddo erbyn machludo haul:

27 O herwydd hynny yn unig *sydd* i'w roddi arno ef; hwnnw yw ei ddilledyn am ei groen ef: mewn pa beth y gorwedd? A bydd, os gwaedda efe arnaf, i mi wrandaw; canys trugarog *ydwyf* fi.

28 ¶ Na chabla y swyddogion; ac na felldithia bennaeth dy bobl.

29 ¶ Nac oeda *dalu* y cyntaf o'th ffrwythau addfed, ac o'th bethau gwlybion: dod i mi y cyntaf-anedig o'th feibion.

30 Felly y gwnei am dy eidion, *ac* am dy ddafad; saith niwrnod y bydd gyd â'i fam, a'r wythfed dydd y rhoddi ef i mi.

31 ¶ A byddwch yn ddynion sanctaidd i mi: ac na fwyttêwch gig wedi ei ysglyfaethu yn y maes; teflwch ef i'r ci.

PENNOD 23.

1 Am enllib, a gaw-dystiolaeth. 3, 6 Am gyfiawnder. 4 Am gymmydogaeth. 10 Am y flwyddyn orphwys. 12 Am y Sabbath. 13 Am ddelw-addoliaeth. 14 Am y tair gwyl. 18 Am waed a brasder yr aberth. 20 Addaw angel, a bendithio, os hwy a'u uddhant.

NA chyfod enllib; na ddod dy law gyd â'r annuwiol i fod yn dyst anwir.

2 ¶ Na ddilyn lïaws i *wneuthur* drwg; ac nac atteb mewn ymrafael, gan bwyso yn ol llaweroedd, i ŵyro *barn*.

3 ¶ Na pharcha y tlawd chwaith yn ei ymrafael.

4 ¶ Os cyfarfyddi âg eidion dy elyn, neu â'i asyn, yn myned ar gyfrgoll; dychwel ef adref iddo.

5 Os gweli asyn yr hwn a'th gasâ yn gorwedd dan ei bwn; a beidi â'i gynnorthwyo? gan gynnorthwyo cynnorthwya gyd âg ef.

6 Na ŵyra farn dy dlawd yn ei ymrafael.

7 Ymgadw ym mhell oddi wrth gam-fatter: na ladd chwaith na'r gwirion na'r cyfiawn: canys ni chyfiawnhâf fi yr annuwiol.

8 ¶ Na dderbyn wobr: canys

gwobr a ddalla y rhai sydd yn gweled, ac a ŵyra eiriau y cyfiawn.
9 ¶ Na orthrymma y dïeithr : chwi a wyddoch galon y dïeithr; o herwydd chwi a fuoch ddïeithriaid yn nhir yr Aipht.
10 Chwe blynedd yr heui dy dir, ac y cesgli ei ffrwyth :
11 A'r seithfed paid âg ef, a gâd ef yn llonydd; fel y caffo tlodion dy bobl fwytta : a bwyttâed bwystfil y maes eu gweddill hwynt. Felly y gwnei am dy winllan, ac am dy olew-wydden.
12 Chwe diwrnod y gwnei dy waith; ac ar y seithfed dydd y gorphwysi : fel y caffo dy ych a'th asyn lonyddwch, ac y cymmero mab dy forwyn gaeth, a'r dïeithr ddyn, ei anadl atto.
13 Ac ymgedwch ym mhob peth a ddywedais wrthych : na chofiwch enw duwiau eraill; na chlywer *hynny* o'th enau.
14 ¶ Tair gwaith yn y flwyddyn y cedwi wyl i mi.
15 Gwyl y bara croyw a gedwi : saith niwrnod y bwyttêi fara croyw, fel y gorchymynais i ti, ar yr amser gosodedig o fis Abib : canys ynddo y daethost allan o'r Aipht : ac nac ymddangosed *neb* ger fy mron yn waglaw :
16 A gwyl cynhauaf blaenffrwyth dy lafur, yr hwn a heuaist yn y maes; a gwyl y cynnull yn niwedd y flwyddyn, pan gynhullech dy lafur o'r maes.
17 Tair gwaith yn y flwyddyn yr ymddengys dy holl wrrywiaid ger bron yr Arglwydd *dy* Duw.
18 Nac abertha waed fy aberth gyd â bara lefeinllyd; ac nac arhôed brasder fy aberth dros nos hyd y bore.
19 Dwg i dŷ yr Arglwydd dy Duw y cyntaf o flaenffrwyth dy dir. Na ferwa fyn yn llaeth ei fam.
20 ¶ Wele fi yn anfon angel o'th flaen i'th gadw ar y ffordd, ac i'th arwain i'r man a barottoais.
21 Gwylia rhagddo, a gwrando ar ei lais ef; na chyffroa ef : canys ni ddïoddef eich anwiredd : oblegid *y mae* fy enw ynddo ef.
22 Os gan wrandaw y gwrandewi ar ei lais ef, a gwneuthur y cwbl a lefarwyf; mi a fyddaf elyn i'th elynion, ac a wrthwynebaf dy wrthwynebwyr.
23 O herwydd fy angel a â o'th flaen di, ac a'th ddwg di i mewn at yr Amoriaid, a'r Hethiaid, a'r Pheresiaid, a'r Canaaneaid, yr Hefiaid, a'r Jebusiaid; a mi a'u difethaf hwynt.
24 Nac ymgrymma i'w duwiau hwynt, ac na wasanaetha hwynt, ac na wna yn ol eu gweithredoedd hwynt; ond llwyr-ddinystria hwynt, dryllia eu delwau hwynt yn gandryll.
25 A chwi a wasanaethwch yr Arglwydd eich Duw, ac efe a fendithia dy fara, a'th ddwfr; a mi a dynnaf ymaith *bob* clefyd o'th fysg.
26 ¶ Ni bydd yn dy dir di ddim yn erthylu, na heb hilio : mi a gyflawnaf rifedi dy ddyddiau.
27 Mi a anfonaf fy arswyd o'th flaen, ac a ddifethaf yr holl bobl y deui attynt, ac a wnaf i'th holl elynion droi eu gwarrau attat.
28 A mi a anfonaf gaccwn o'th flaen, a hwy a yrrant yr Hefiaid, a'r Canaaneaid, a'r Hethiaid, allan o'th flaen di.
29 Ni yrraf hwynt allan o'th flaen di mewn un flwyddyn; rhag bod y wlad yn anghyfannedd, ac i fwystfilod y maes amlhâu yn dy erbyn di.
30 O fesur ychydig ac ychydig y gyrraf hwynt allan o'th flaen di, nes i ti gynnyddu ac etifeddu y tir.
31 A gosodaf dy derfyn o'r môr coch hyd fôr y Philistiaid, ac o'r diffaethwch hyd yr afon : canys mi a roddaf yn eich meddiant breswylwyr y tir; a thi a'u gyrri hwynt allan o'th flaen.
32 Na wna ammod â hwynt, nac â'u duwiau.
33 Na âd iddynt drigo yn dy wlad; rhag iddynt beri i ti bechu i'm herbyn : canys os gwasanaethi di eu duwiau hwynt, diau y bydd *hynny* yn dramgwydd i ti.

PENNOD 24.

1 *Galw Moses i'r mynydd.* 3 *Y bobl yn addaw ufudd-dod.* 4 *Moses yn adeiladu allor, a deuddeg colofn :* 6 *yn taenellu gwaed y cyfammod.* 14 *Aaron a Hur â siars y bobl arnynt.* 15 *Moses yn myned i'r mynydd; lle y mae efe yn aros ddeugain niwrnod a deugain nos.*

AC efe a ddywedodd wrth Moses, Tyred i fyny at yr ARGLWYDD, ti ac Aaron, Nadab ac Abihu, a'r deg a thri ugain o henuriaid Israel; ac addolwch o hirbell.

2 Ac aed Moses ei hun at yr ARGLWYDD; ac na ddelont hwy, ac nac aed y bobl i fyny gyd âg ef.

3 ¶ A Moses a ddaeth, ac a fynegodd i'r bobl holl eiriau yr ARGLWYDD, a'r holl farnedigaethau. Ac attebodd yr holl bobl yn un-air, ac a ddywedasant, Ni a wnawn yr holl eiriau a lefarodd yr ARGLWYDD.

4 A Moses a ysgrifenodd holl eiriau yr ARGLWYDD; ac a gododd yn fore, ac a adeiladodd allor îs law y mynydd, a deuddeg colofn, yn ol deuddeg llwyth Israel.

5 Ac efe a anfonodd langciau meibion Israel; a hwy a offrymmasant boeth-offrymmau, ac a aberthasant fustych yn ebyrth hedd i'r ARGLWYDD.

6 A chymmerodd Moses hanner y gwaed, ac a'i gosododd mewn cawgiau, a hanner y gwaed a daenellodd efe ar yr allor.

7 Ac efe a gymmerth lyfr y cyfammod, ac a'i darllenodd lle y clywai y bobl. A dywedasant, Ni a wnawn, ac a wrandâwn yr hyn oll a lefarodd yr ARGLWYDD.

8 A chymmerodd Moses y gwaed, ac a'i taenellodd ar y bobl; ac a ddywedodd, Wele waed y cyfammod, yr hwn a wnaeth yr ARGLWYDD â chwi, yn ol yr holl eiriau hyn.

9 ¶ Yna yr aeth Moses i fyny, ac Aaron, Nadab ac Abihu, a deg a thri ugain o henuriaid Israel.

10 A gwelsant DDUW Israel; a than ei draed megis gwaith o faen saphir, ac fel corph y nefoedd o ddisgleirder.

11 Ac ni roddes ei law ar bendefigion meibion Israel; ond gwelsant DDUW, a bwyttasant ac yfasant.

12 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Tyred i fyny attaf i'r mynydd, a bydd yno: a mi a roddaf i ti lechau cerrig, a chyfraith, a gorchymynion, y rhai a ysgrifenais, i'w dysgu hwynt.

13 A chododd Moses, a Josua ei weinidog; ac aeth Moses i fyny i fynydd DUW.

14 Ac wrth yr henuriaid y dywedodd, Arhoswch ni yma, hyd oni ddelom ni attoch drachefn: ac wele, Aaron a Hur gyd â chwi; pwy bynnag *a fyddo* ag achos iddo, deued attynt hwy.

15 A Moses a aeth i fyny i'r mynydd; a chwmmwl a orchuddiodd y mynydd.

16 A gogoniant yr ARGLWYDD a arhôdd ar fynydd Sinai, a'r cwmmwl a'i gorchuddiodd chwe diwrnod: ac efe a alwodd am Moses y seithfed dydd o ganol y cwmmwl.

17 A'r golwg ar ogoniant yr ARGLWYDD *oedd* fel tân yn difa ar ben y mynydd, y'ngolwg meibion Israel.

18 A Moses a aeth i ganol y cwmmwl, ac a aeth i fyny i'r mynydd: a bu Moses yn y mynydd ddeugain niwrnod a deugain nos.

PENNOD 25.

1 *Pa beth sydd raid i'r Israeliaid ei offrwm tu ag at uneuthur y babell.* 10 *Dull yr arch.* 17 *Y drugaredâfa a'r cerubiaid.* 23 *Y berdd a'i arlwy.* 31 *Y canhwyllbren a'i offer.*

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Dywed wrth feibion Israel, am ddwyn o honynt i mi offrwm: gan bob gŵr ewyllysgar ei galon y cymmerwch fy offrwm.

3 A dyma yr offrwm a gymmerwch ganddynt; aur, ac arian, a phres,

4 A *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llïan main, a *blew* geifr,

5 A chrwyn hyrddod yn gochion, a chrwyn daearfoch, a choed Sittim,

6 Olew i'r goleuni, llysieuau i olew yr ennaint, ac i'r pêr-arogl-darth,

7 Meini onix, a meini i'w gosod yn yr ephod, ac yn y ddwyfronneg.

8 A gwnant i mi gyssegr; fel y gallwyf drigo yn eu mysg hwynt.

9 Yn ol holl waith y tabernacl, a gwaith ei holl ddodrefn y rhai yr ydwyf yn eu dangos i ti, felly y gwnewch.

10 ¶ A gwnant arch o goed Sittim, o ddau gufydd a hanner ei hŷd, a chufydd a hanner ei lled, a chufydd a hanner ei huchder.

11 A gwisg hi âg aur coeth; o fewn ac oddi allan y gwisgi hi: a gwna arni goron o aur o amgylch.

12 Bwrw iddi hefyd bedair modrwy aur, a dod ar ei phedair congl; dwy

fodrwy ar un ystlys iddi, a dwy fodrwy ar yr ystlys arall iddi.
13 A gwna drosolion o goed Sittim, a gwisg hwynt âg aur.
14 A gosod y trosolion trwy y modrwyau gan ystlys yr arch, i ddwyn yr arch arnynt.
15 Ym modrwyau yr arch y bydd y trosolion; na symmuder hwynt oddi wrthi.
16 A dod yn yr arch y dystiolaeth a roddaf i ti.
17 A gwna drugareddfa o aur coeth, o ddau gufydd a hanner ei hŷd, a chufydd a hanner ei lled.
18 A gwna ddau gerub o aur; o gyfanwaith morthwyl y gwnei hwynt, yn nau gwr y drugareddfa.
19 Un cerub a wnei yn y naill ben, a'r cerub arall yn y pen arall: o'r drugareddfa ar ei dau ben hi y gwnewch y cerubiaid.
20 A bydded y cerubiaid yn lledu *eu* hesgyll i fyny, gan orchuddio y drugareddfa â'u hesgyll, a'u hwynebau bob un at eu gilydd: tu a'r drugareddfa y bydd wynebau y cerubiaid.
21 A dod y drugareddfa i fyny ar yr arch, ac yn yr arch dod y dystiolaeth a roddaf i ti.
22 A mi a gyfarfyddaf â thi yno, ac a lefaraf wrthyt oddi ar y drugareddfa, oddi rhwng y ddau gerub y rhai a fyddant ar arch y dystiolaeth, yr holl bethau a orchymynwyf wrthyt i feibion Israel.
23 ¶ A gwna di fwrdd o goed Sittim, o ddau gufydd ei hŷd, a chufydd ei led, a chufydd a hanner ei uchder.
24 A gosod aur coeth drosto, a gwna iddo goron o aur o amgylch.
25 A gwna iddo wregys *o led* llaw o amgylch, a gwna goron aur ar ei wregys o amgylch.
26 A gwna iddo bedair modrwy o aur, a dod y modrwyau wrth y pedair congl y rhai *a fyddant* ar ei bedwar troed.
27 Ar gyfer y cylch y bydd y modrwyau, yn lleoedd i'r trosolion i ddwyn y bwrdd.
28 A gwna y trosolion o goed Sittim, a gwisg hwynt âg aur, fel y dyger y bwrdd arnynt.
29 A gwna ei ddysglau ef, a'i lwyau, a'i gaeadau, a'i phïolau, y rhai y tywelltir â hwynt: o aur coeth y gwnei hwynt.
30 A dod ar y bwrdd y bara dangos ger bron fy wyneb yn wastadol.
31 ¶ Gwna hefyd ganhwyllbren: o aur pur yn gyfanwaith y gwneir y canhwyllbren; ei baladr, ei geingciau, ei bedyll, ei gnapiau, a'i flodau, a fyddant o'r un.
32 A *bydd* chwe chaingc yn dyfod allan o'i ystlysau; tair caingc o'r canhwyllbren o un tu, a thair caingc o'r canhwyllbren o'r tu arall.
33 Tair padell o waith almonau, cnap a blodeuyn ar un gaingc; a thair padell o waith almonau, cnap a blodeuyn ar gaingc arall: felly ar y chwe chaingc *a fyddo* yn dyfod allan o'r canhwyllbren.
34 Ac yn y canhwyllbren y bydd pedair padell ar waith almonau, a'u cnapiau a'u blodau.
35 A bydd cnap dan ddwy gaingc o hono, a chnap dan ddwy gaingc o hono, a chnap dan ddwy gaingc o hono, yn ol y chwe chaingc a ddeuant o'r canhwyllbren.
36 Eu cnapiau a'u ceingciau a fyddant o'r un: y cwbl *fydd* aur coeth o un cyfanwaith morthwyl.
37 A thi a wnei ei saith lusern ef, ac a oleui ei lusernau ef, fel y goleuo efe ar gyfer ei wyneb.
38 A *bydded* ei efeiliau a'i gafnau o aur coeth.
39 O dalent o aur coeth y gwnei ef, a'r holl lestri hyn.
40 Ond gwel wneuthur yn ol eu portreiad hwynt, a ddangoswyd i ti yn y mynydd.

PENNOD 26.

1 *Deg llen y tabernacl.* 7 *Yr un llen ar ddeg o ffew geifr.* 14 *Y babell-len o gwyn hyrddod.* 15 *Byrddau y tabernacl, gyd â'u morteisiau a'u barrau.* 31 *Y wahanlen i'r arch.* 36 *Y gaeadlen i'r drws.*

Y TABERNACL hefyd a wnei di o ddeg llen o lïan main cyfrodedd, ac o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad: yn gerubiaid o gywreinwaith y gwnei hwynt.
2 Hŷd un llen *fydd* wyth gufydd ar hugain, a lled un llen *fydd* pedwar cufydd: yr un mesur a fydd i'r holl lenni.
3 Pum llen a fyddant y'nglŷn bob un wrth eu gilydd; a phum llen

eraill a fyddant y'nglŷn wrth eu gilydd.

4 A gwna ddolennau o *sidan* glas ar ymyl un llen, ar y cwr, yn y cydiad; ac felly y gwnei ar ymyl eithaf llen arall, yn yr ail gydiad.

5 Deg dolen a deugain a wnei di i un llen, a deg dolen a deugain a wnei ar gwr y llen *a fyddo* yn yr ail gydiad: y dolennau a dderbyniant bob un eu gilydd.

6 Gwna hefyd ddeg bach a deugain o aur, a chydia â'r bachau y llenni bob un wrth eu gilydd; fel y byddo yn un tabernacl.

7 ¶ A gwna lenni o *flew* geifr, *i fod* yn babell-len ar y tabernacl: un llen ar ddeg a wnei.

8 Hŷd un llen *fydd* deg cufydd ar hugain, a lled un llen *fydd* pedwar cufydd; a'r un mesur *fydd* i'r un llen ar ddeg.

9 A chydia bum llen wrthynt eu hun, a chwe llen wrthynt eu hun: a dybla y chweched len ar gyfer wyneb y babell-len.

10 A gwna ddeg dolen a deugain ar ymyl y naill len, ar y cwr, yn y cydiad *cyntaf*: a deg dolen a deugain ar ymyl y llen *arall*, yn yr ail gydiad.

11 A gwna ddeg bach a deugain o bres; a dod y bachau yn y dolennau, a chylymma y babell-len, fel y byddo yn un.

12 A'r gweddill a fyddo dros ben o lenni y babell-len, *sef* yr hanner llen weddill, a fydd y'ngweddill ar du cefn y tabernacl;

13 Fel *y byddo* o'r gweddill gufydd o'r naill du, a chufydd o'r tu arall, o hŷd y babell-len: bydded hynny dros ddau ystlys y tabernacl, o'r tu yma ac o'r tu acew, i'w orchuddio.

14 A gwna dô i'r babell-len o grwyn hyrddod wedi eu lliwio yn gochion, a thô o grwyn daearfoch yn uchaf.

15 ¶ A gwna i'r tabernacl ystyllod o goed Sittim, yn eu sefyll.

16 Deg cufydd fydd hŷd ystyllen, a chufydd a hanner cufydd fydd lled pob ystyllen.

17 *Bydded* dau dyno i un bwrdd, wedi eu gosod mewn trefn, bob un ar gyfer eu gilydd: felly y gwnei am holl fyrddau y tabernacl.

18 A gwna ystyllod i'r tabernacl, ugain ystyllen o'r tu dehau, tu a'r dehau.

19 A gwna ddeugain mortais arian dan yr ugain ystyllen; dwy fortais dan un ystyllen i'w dau dyno, a dwy fortais dan ystyllen arall i'w dau dyno.

20 A *gwna* i ail ystlys y tabernacl, o du y gogledd, ugain ystyllen,

21 A deugain mortais o arian: dwy fortais dan un ystyllen, a dwy fortais dan ystyllen arall.

22 Hefyd i ystlys y tabernacl, o du y gorllewin, y gwnei chwech ystyllen.

23 A dwy ystyllen a wnei i gonglau y tabernacl, yn y ddau ystlys.

24 A byddant wedi eu cyssylltu oddi tanodd; byddant hefyd wedi eu cyd-gydio oddi arnodd wrth un fodrwy: felly y bydd iddynt ill dau; i'r ddwy gongl y byddant.

25 A byddant yn wyth ystyllen, a'u morteisiau arian yn un fortais ar bymtheg: dwy fortais dan un ystyllen, a dwy fortais dan ystyllen arall.

26 ¶ Gwna hefyd farrau o goed Sittim, pump i ystyllod un ystlys i'r tabernacl,

27 A phum bar i ystyllod ail ystlys y tabernacl, a phum bar i ystyllod ystlys y tabernacl i'r ddau ystlys tu a'r gorllewin.

28 A'r bar canol y'nghanol yr ystyllod, a gyrhaedd o gwr i gwr.

29 Gosod hefyd aur dros yr ystyllod, a gwna eu modrwyau o aur, i osod y barrau trwyddynt: gwisg y barrau hefyd âg aur.

30 A chyfod y tabernacl wrth ei bortreiad, yr hwn a ddangoswyd i ti yn y mynydd.

31 ¶ A gwna wahanlen o *sidan* glas, porphor, ac ysgarlad, ac o lïan main cyfrodedd: â cherubiaid o waith cywraint y gwnei hi.

32 A dod hi ar bedair colofn o *goed* Sittim wedi eu gwisgo âg aur; a'u pennau o aur, ar bedair mortais arian.

33 ¶ A dod y wahanlen wrth y bachau, fel y gellych ddwyn yno, o fewn y wahanlen, arch y dystiolaeth: a'r wahanlen a wna wahan i chwi rhwng y cyssegr a'r cyssegr sancteiddiolaf.

34 Dod hefyd y drugareddfa ac

arch y dystiolaeth yn y cyssegr sancteiddiolaf.

35 A gosod y bwrdd o'r tu allan i'r wahanlen, a'r canhwyllbren gyferbyn â'r bwrdd ar y tu dehau i'r tabernacl: a dod y bwrdd ar du y gogledd.

36 A gwna gaeadlen i ddrws y babell o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, ac o lïan main cyfrodedd o wnïaddwaith.

37 A gwna i'r gaeadlen bum colofn *o goed* Sittim, a gwisg hwynt âg aur; a'u pennau fydd o aur: a bwrw iddynt bum mortais bres.

PENNOD 27.

1 *Allor y poeth-offrwm, a'i llestri.* 9 *Cynteddfa y tabernacl wedi ei gau â llenni ac â cholofnau.* 18 *Mesur y cynteddfa.* 20 *Yr olew i'r lamp.*

GWNA hefyd allor o goed Sittim, o bum cufydd o hŷd, a phum cufydd o led: yn bedairongl y bydd yr allor, a'i huchder o dri chufydd.

2 A gwna ei chyrn ar ei phedair congl: o'r un y bydd ei chyrn: a gwisg hi â phres.

3 Gwna hefyd iddi bedyll i dderbyn ei lludw, a'i rhawiau, a'i chawgiau, a'i chigweiniau, a'i phedyll tân: ei holl lestri a wnei o bres.

4 A gwna iddi alch o bres, ar waith rhwyd; a gwna ar y rhwyd bedair modrwy o bres ar ei phedair congl.

5 A dod hi dan amgylchiad yr allor oddi tanodd, fel y byddo y rhwyd hyd hanner yr allor.

6 A gwna drosolion i'r allor, *sef* trosolion o goed Sittim; a gwisg hwynt â phres.

7 A dod ei throsolion trwy y modrwyau; a bydded y trosolion ar ddau ystlys yr allor, i'w dwyn hi.

8 Gwna hi âg ystyllod yn gau: fel y dangoswyd i ti yn y mynydd, felly y gwnant hi.

9 ¶ A gwna gynteddfa y tabernacl ar y tu dehau, tu a'r dehau: llenni y cynteddfa a fyddant lïan main cyfrodedd, o gan cufydd o hŷd, i un ystlys.

10 A'i hugain colofn, a'u hugain mortais, *fydd* o bres: pennau y colofnau, a'u cylchau, *fydd* o arian.

11 Felly o du y gogledd ar hŷd, y bydd llenni o gan *cufydd* o hŷd, a'u hugain colofn, a'u hugain mortais, o bres; a phennau y colofnau, a'u cylchau, o arian.

12 ¶ Ac i led y cynteddfa, o du y gorllewin, *y bydd* llenni o ddeg cufydd a deugain: eu colofnau *fyddant* ddeg, a'u morteisiau yn ddeg.

13 A lled y cynteddfa, tu a'r dwyrain, o godiad haul, *a fydd* ddeg cufydd a deugain.

14 Y llenni o'r *naill* du *a fyddant* bymtheg cufydd; eu colofnau yn dair, a'u morteisiau yn dair.

15 Ac i'r ail du *y bydd* pymtheg llen; eu tair colofn, a'u tair mortais.

16 ¶ Ac i borth y cynteddfa *y gwneir* caeadlen o ugain cufydd, o *sidan* glas, porphor, ac ysgarlad, ac o lïan main cyfrodedd o wnïaddwaith; eu pedair colofn, a'u pedair mortais.

17 Holl golofnau y cynteddfa o amgylch a gylchir âg arian; a'u pennau yn arian, a'u morteisiau yn bres.

18 ¶ Hŷd y cynteddfa *fydd* gan cufydd, a'i led yn ddeg a deugain o bob tu; a phum cufydd o uchder o lïan main cyfrodedd, a'u morteisiau o bres.

19 Holl lestri y tabernacl yn eu holl wasanaeth, a'i holl hoelion hefyd, a holl hoelion y cynteddfa, fyddant o bres.

20 ¶ A gorchymyn dithau i feibion Israel ddwyn o honynt attat bur olew yr olew-wydden coethedig, yn oleuni, i beri i'r lamp losgi yn wastad.

21 Ym mhabell y cyfarfod, o'r tu allan i'r wahanlen, yr hon *fydd* o flaen y dystiolaeth, y trefna Aaron a'i feibion hwnnw, o'r hwyr hyd y bore, ger bron yr ARGLWYDD: deddf dragywyddol fydd, trwy eu hoesoedd, gan feibion Israel.

PENNOD 28.

1 *Neillduo Aaron a'i feibion i swydd yr offeiriaid.* 2 *Gorchymyn gwisgoedd sanctaidd.* 6 *Yr ephod.* 15 *Y ddwyfronneg a'r deuddeg maen gwerthfawr.* 30 *Yr Urim a'r Thummim.* 31 *Mantell yr ephod, gyd â'i phomgranadau a'i chlych.* 36 *Dalen y meitr.* 39 *Y bais wniaddwaith.* 40 *Gwisgoedd meibion Aaron.*

ACHYMMER Aaron dy frawd attat, a'i feibion gyd âg ef, o blith meibion Israel, i offeiriadu i mi; *sef* Aaron, Nadab ac Abihu, Eleasar ac Ithamar, meibion Aaron.

2 Gwna hefyd wisgoedd sanctaidd

i Aaron dy frawd, er gogoniant a harddwch.

3 A dywed wrth yr holl rai doeth o galon, y rhai a lenwais i âg yspryd doethineb, am wneuthur o honynt ddillad Aaron i'w sanctteiddio ef; i offeiriadu i mi.

4 A dyma y gwisgoedd a wnant. Dwyfronneg, ac ephod, mantell hefyd, a phais o waith edau a nodwydd, meitr, a gwregys: felly y gwnant wisgoedd sanctaidd i Aaron dy frawd, ac i'w feibion, i offeiriadu i mi.

5 Cymmerant gan hynny aur, a *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llïan main.

6 ¶ A gwnant yr ephod o aur, *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llïan main cyfrodedd, o waith cywraint.

7 Dwy ysgwydd fydd iddi wedi eu cydio wrth ei dau gwr; ac felly y cydir hi ynghyd.

8 A gwregys cywraint ei ephod ef yr hwn fydd arni, fydd o'r un, yn un-waith â hi; o aur, *sidan* glas, a phorphor, ysgarlad hefyd, a llïan main cyfrodedd.

9 Cymmer hefyd ddau faen onix, a nadd ynddynt enwau meibion Israel:

10 Chwech o'u henwau ar un maen, a'r chwech enw arall ar yr ail faen, yn ol eu genedigaeth.

11 A gwaith naddwr mewn maen, fel naddiadau sêl, y neddi di y ddau faen, âg enwau meibion Israel: gwna hwynt â boglynau o aur o'u hamgylch.

12 A gosod y ddau faen ar ysgwyddau yr ephod, yn feini coffadwriaeth i feibion Israel. Ac Aaron a ddwg eu henwau hwynt ger bron yr ARGLWYDD ar ei ddwy ysgwydd, yn goffadwriaeth.

13 ¶ Gwna hefyd foglynau aur;

14 A dwy gadwyn o aur coeth yn eu pennau: o blethwaith y gwnei hwynt; a dod y cadwynau plethedig y'nglŷn wrth y boglynau.

15 ¶ Gwna hefyd ddwyfronneg barnedigaeth, o waith cywraint; ar waith yr ephod y gwnei hi: o aur, *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llïan main cyfrodedd, y gwnei hi.

16 Pedairongl fydd hi *yn* ddau ddyblyg; yn rhychwant ei hŷd, ac yn rhychwant ei lled.

17 Llanw hi yn llawn o feini, *sef* pedair rhes o feini: un rhes fydd sardius, a thopas, a smaragdus: hyn fydd y rhes gyntaf.

18 A'r ail res *fydd* carbuncl, saphir, ac adamant.

19 A'r drydedd res *fydd* lygur, ac acat, ac amethyst.

20 Y bedwaredd res *fydd* beryl, ac onix, a jaspis: byddant wedi eu gosod mewn aur yn eu lleoedd.

21 A'r meini fyddant âg enwau meibion Israel, yn ddeuddeg, yn ol eu henwau hwynt; o naddiad sêl, bob un wrth ei enw y byddant, yn ol y deuddeg llwyth.

22 ¶ A gwna ar y ddwyfronneg gadwynau ar y cyrrau, yn blethwaith, o aur coeth.

23 Gwna hefyd ar y ddwyfronneg ddwy fodrwy o aur, a dod y ddwy fodrwy wrth ddau gwr y ddwyfronneg.

24 A dod y ddwy gadwyn blethedig o aur trwy y ddwy fodrwy ar gyrrau y ddwyfronneg.

25 A'r ddau ben arall i'r ddwy gadwyn blethedig dod y'nglŷn wrth y ddau foglyn, a dod ar ysgwyddau yr ephod o'r tu blaen.

26 ¶ Gwna hefyd ddwy fodrwy o aur, a gosod hwynt ar ddau ben y ddwyfronneg, ar yr ymyl *sydd* ar ystlys yr ephod o'r tu mewn.

27 A gwna ddwy fodrwy o aur, a dod hwynt ar ddau ystlys yr ephod oddi tanodd, tu a'i thu blaen, ar gyfer ei chydiad, oddi ar wregys yr ephod.

28 A'r ddwyfronneg a rwymant â'u modrwyau wrth fodrwyau yr ephod â llinyn o *sidan* glas, fel y byddo oddi ar wregys yr ephod, fel na ddattoder y ddwyfronneg oddi wrth yr ephod.

29 A dyged Aaron, yn nwyfronneg y farnedigaeth, enwau meibion Israel ar ei galon, pan ddelo i'r cyssegr, yn goffadwriaeth ger bron yr ARGLWYDD yn wastadol.

30 ¶ A dod ar ddwyfronneg y farnedigaeth, yr Urim a'r Thummim; a byddant ar galon Aaron pan elo i mewn ger bron yr ARGLWYDD: ac Aaron a ddwg farnedigaeth meib-

ion Israel ar ei galon, ger bron yr ARGLWYDD, yn wastadol.

31 ¶ Gwna hefyd fantell yr ephod oll o *sidan* glas.

32 A bydd twll yn ei phen uchaf hi, ar ei chanol: gwrym o waith gwehydd o amgylch y twll, megis twll llurig, fydd iddi, rhag rhwygo.

33 ¶ A gwna ar ei godrau hi bomgranadau o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, ar ei godrau o amgylch; a chlych o aur rhyngddynt o amgylch.

34 Cloch aur a phomgranad, *a* chloch aur a phomgranad, ar odrau y fantell o amgylch.

35 A hi a fydd am Aaron wrth weini: a cheir clywed ei swn ef pan ddelo i'r cyssegr, ger bron yr ARGLWYDD, a phan elo allan; fel na byddo farw.

36 ¶ Gwna hefyd ddalen o aur coeth; a nadd arni, fel naddiadau sêl, SANCTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD.

37 A gosod hi wrth linyn o *sidan* glas, a bydded ar y meitr: o'r tu blaen i'r meitr y bydd.

38 A hi a fydd ar dalcen Aaron, fel y dygo Aaron anwiredd y pethau sanctaidd a gyssegro meibion Israel yn eu holl roddion sanctaidd: ac yn wastad y bydd ar ei dalcen ef, fel y byddo iddynt ffafr ger bron yr ARGLWYDD.

39 ¶ Gweithia âg edau a nodwydd y bais o lïan main; a gwna feitr o lïan main; a'r gwregys a wnei o wnïadwaith.

40 ¶ I feibion Aaron hefyd y gwnei beisiau, a gwna iddynt wregysau; gwna hefyd iddynt gapiau, er gogoniant a harddwch.

41 A gwisg hwynt am Aaron dy frawd, a'i feibion gyd âg ef: ac enneinia hwynt, cyssegra hwynt hefyd, a sancteiddia hwynt, i offeiriadu i mi.

42 Gwna hefyd iddynt lodrau llïan i guddio eu cnawd noeth: o'r lwynau hyd y morddwydydd y byddant.

43 A byddant am Aaron, ac am ei feibion, pan ddelont i mewn i babell y cyfarfod, neu pan ddelont yn agos at yr allor i weini yn y cyssegr; fel na ddygont anwiredd, a marw. *Hyn fydd* deddf dragywyddol iddo ef, ac i'w had ar ei ol.

PENNOD 29.

1 *Yr aberth a'r seremonïau a arferid wrth gyssegru yr offeiriaid.* 38 *Y llosg-offrom gwastadol.* 45 *Addewid Duw ar drigo ym mhlith plant Israel.*

DYMA hefyd yr hyn a wnei di iddynt i'w cyssegru hwynt, i offeiriadu i mi. Cymmer un bustach ieuangc, a dau hwrdd perffeithgwbl,

2 A bara croyw, a theisennau croyw wedi eu cymmysgu âg olew, ac afrllad croyw wedi eu hiro âg olew: o beillied gwenith y gwnei hwynt.

3 A dod hwynt mewn un cawell, a dwg hwynt yn y cawell, gyd â'r bustach a'r ddau hwrdd.

4 Dwg hefyd Aaron a'i feibion i ddrws pabell y cyfarfod, a golch hwynt â dwfr.

5 A chymmer y gwisgoedd, a gwisg am Aaron y bais, a mantell yr ephod, a'r ephod hefyd, a'r ddwyfronneg; a gwregysa *ef* â gwregys yr ephod.

6 A gosod y meitr ar ei ben ef, a dod y goron gyssegredig ar y meitr.

7 Yna y cymmeri olew yr enneiniad, ac y tywellti ar ei ben ef, ac yr enneini ef.

8 A dwg ei feibion ef, a gwisg beisiau am danynt.

9 A gwregysa hwynt â gwregysau, *sef* Aaron a'i feibion, a gwisg hwynt â chapiau: a bydd yr offeiriadaeth iddynt yn ddeddf dragywyddol: a thi a gyssegri Aaron a'i feibion.

10 A phâr ddwyn y bustach ger bron pabell y cyfarfod; a rhodded Aaron a'i feibion eu dwylaw ar ben y bustach.

11 A lladd y bustach ger bron yr ARGLWYDD, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod.

12 A chymmer o waed y bustach, a dod ar gyrn yr allor â'th fys; a thywallt yr holl waed *arall* wrth droed yr allor.

13 Cymmer hefyd yr holl frasder a fydd yn gorchuddio y perfedd, a'r rhwyden *a fyddo* ar yr afu, a'r ddwy aren, a'r brasder *a fyddo* arnynt, a llosg ar yr allor.

14 Ond cig y bustach, a'i groen, a'i fiswail, a losgi mewn tân, o'r tu allan i'r gwersyll: aberth dros bechod *yw.*

15 ¶ Cymmer hefyd un hwrdd; a

gosoded Aaron a'i feibion eu dwylaw ar ben yr hwrdd.

16 A lladd yr hwrdd; a chymmer ei waed ef, a thaenella ar yr allor o amgylch.

17 A thor yr hwrdd yn ddarnau; a golch ei berfedd, a'i draed, a dod hwynt ynghyd â'i ddarnau, ac â'i ben.

18 A llosg yr hwrdd i gyd ar yr allor: poeth-offrwm i'r ARGLWYDD *yw:* arogl peraidd, aberth tanllyd i'r ARGLWYDD *yw.*

19 ¶ A chymmer yr ail hwrdd; a rhodded Aaron a'i feibion eu dwylaw ar ben yr hwrdd.

20 Yna lladd yr hwrdd, a chymmer o'i waed, a dod ar gwr isaf clust ddehau Aaron, ac ar gwr isaf clust ddehau ei feibion, ac ar fawd eu llaw ddehau hwynt, ac ar fawd eu troed dehau hwynt; a thaenella y gwaed *arall* ar yr allor o amgylch.

21 A chymmer o'r gwaed a fyddo ar yr allor, ac o olew yr enneiniad, a thaenella ar Aaron, ac ar ei wisgoedd, ar ei feibion hefyd, ac ar wisgoedd ei feibion gyd âg ef: felly sanctaidd fydd efe a'i wisgoedd, ei feibion hefyd, a gwisgoedd ei feibion gyd âg ef.

22 Cymmer hefyd o'r hwrdd, y gwer a'r gloren, a'r gwer sydd yn gorchuddio y perfedd, a rhwyden yr afu, a'r ddwy aren, a'r gwer *sydd* arnynt, a'r ysgwyddog ddehau; canys hwrdd cyssegriad *yw:*

23 Ac un dorth o fara, ac un deisen o fara olewedig, ac un afrlladen o gawell y bara croyw, yr hwn *sydd* ger bron yr ARGLWYDD.

24 A dod y cwbl yn nwylaw Aaron, ac yn nwylaw ei feibion: a chyhwfana hwynt yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD.

25 A chymmer hwynt o'u dwylaw, a llosg ar yr allor yn boeth-offrwm, yn arogl peraidd ger bron yr ARGLWYDD: aberth tanllyd i'r ARGLWYDD *yw.*

26 Cymmer hefyd barwyden hwrdd y cyssegriad yr hwn *fyddo* dros Aaron, a chyhwfana hi yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD; a'th ran di fydd,

27 A sancteiddia barwyden yr offrwm cyhwfan, ac ysgwyddog yr offrwm dyrchafael, yr hon a gyhwfanwyd, a'r hon a ddyrchafwyd, o hwrdd y cyssegriad, o'r hwn *a fyddo* dros Aaron, ac o'r hwn *a fyddo* dros ei feibion.

28 Ac eiddo Aaron a'i feibion fydd trwy ddeddf dragywyddol oddi wrth feibion Israel: canys offrwm dyrchafael *yw;* ac offrwm dyrchafael a fydd oddi wrth feibion Israel o'u haberthau hedd, *sef* eu hoffrwm dyrchafael i'r ARGLWYDD.

29 ¶ A dillad sanctaidd Aaron a fyddant i'w feibion ar ei ol ef, i'w henneinio ynddynt, ac i'w cyssegru ynddynt.

30 Yr hwn o'i feibion ef a fyddo offeiriad yn ei le ef, a'u gwisg hwynt saith niwrnod, pan ddelo i babell y cyfarfod i weini yn y cyssegr.

31 ¶ A chymmer hwrdd y cyssegriad, a berwa ei gig yn y lle sanctaidd.

32 A bwyttâed Aaron a'i feibion gig yr hwrdd, a'r bara yr hwn *fydd* yn y cawell, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod.

33 A hwy a fwyttânt y pethau hyn y gwnaed y cymmod â hwynt, i'w cyssegru hwynt ac i'w sancteiddio: ond y dieithr ni chaiff eu bwytta; canys cyssegredig ydynt.

34 Ac os gweddillir o gig y cyssegriad, neu o'r bara, hyd y bore; yna ti a losgi y gweddill â thân: ni cheir ei fwytta, oblegid cyssegredig *yw.*

35 A gwna fel hyn i Aaron, ac i'w feibion, yn ol yr hyn oll a orchymynais i ti: saith niwrnod y cyssegri hwynt.

36 A phob dydd yr aberthi fustach yn aberth dros bechod, er cymmod: a glanhâ yr allor, wedi i ti wneuthur cymmod drosti, ac enneinia hi, i'w chyssegru.

37 Saith niwrnod y gwnei gymmod dros yr allor, ac y sancteiddi hi: felly yr allor fydd sanctaidd: pob peth a gyffyrddo â'r allor, a sancteiddir.

38 ¶ A dyma yr hyn a offrymmi ar yr allor. Dau oen blwyddiaid, bob dydd yn wastadol.

39 Yr oen cyntaf a offrymmi di y bore; a'r ail oen a offrymmi di yn y cyfnos.

40 A chyd â'r naill oen ddegfed ran

o beillied wedi ei gymmysgu â phedwaredd ran hin o olew coethedig; a phedwaredd ran hin o win, yn ddïod-offrwm.

41 A'r oen arall a offrymmi di yn y cyfnos, ac a wnei iddo yr un modd ag i fwyd-offrwm y bore, ac i'w ddïod-offrwm, i fod yn arogl peraidd, yn aberth tanllyd i'r ARGLWYDD:

42 Yn boeth-offrwm gwastadol trwy eich oesoedd, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod, ger bron yr ARGLWYDD; lle y cyfarfyddaf â chwi, i lefaru wrthyt yno.

43 Ac yn y lle hwnnw y cyfarfyddaf â meibion Israel; ac *efe* a sancteiddir trwy fy ngogoniant.

44 A mi a sancteiddiaf babell y cyfarfod a'r allor; ac Aaron a'i feibion a sancteiddiaf, i offeiriadu i mi.

45 ¶ A mi a breswyliaf ym mysg meibion Israel, ac a fyddaf yn DDUW iddynt.

46 A hwy a gânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD eu DUW, yr hwn a'u dygais hwynt allan o dir yr Aipht, fel y trigwn yn eu plith hwynt: myfi *yw* yr ARGLWYDD eu DUW.

PENNOD 30.

1 *Allor yr arogl-darth.* 11 *Yr iawn dros bob eneid.* 17 *Y golch-lestr pres.* 22 *Yr olew sanctaidd i eneinio.* 34 *Defnydd yr arogl-darth.*

GWNA hefyd allor i arogl-darthu arogl-darth: o goed Sittim y gwnei di hi.

2 Yn gufydd ei hŷd, ac yn gufydd ei lled, (pedairongl fydd hi,) ac yn ddau gufydd ei huchder: ei chyrn *fyddant* o'r un.

3 A gwisg hi âg aur coeth, ei chefn a'i hystlysau o amgylch, a'i chyrn: a gwna hefyd iddi goron o aur o amgylch.

4 A gwna iddi ddwy fodrwy aur oddi tan ei choron, wrth ei dwy gongl: ar ei dau ystlys y gwnei *hwynt;* fel y byddant i wisgo am drosolion, i'w dwyn hi arnynt.

5 A'r trosolion a wnei di o goed Sittim: a gwisg hwynt âg aur.

6 A gosod hi o flaen y wahanlen *sydd* wrth arch y dystiolaeth; o flaen y drugareddfa *sydd* ar y dystiolaeth, lle y cyfarfyddaf â thi.

7 Ac arogl-darthed Aaron arni arogl-darth llysieuog bob bore: pan daclo efe y lampau, yr arogl-dartha efe.

8 A phan oleuo Aaron y lampau yn y cyfnos, arogl-darthed arni arogl-darth gwastadol ger bron yr ARGLWYDD, trwy eich cenhedlaethau.

9 Nac offrymmwch arni arogl-darth dïeithr, na phoeth-offrwm, na bwyd-offrwm; ac na thywelltwch ddïod-offrwm arni.

10 A gwnaed Aaron gymmod ar ei chyrn hi unwaith yn y flwyddyn, â gwaed pech-aberth y cymmod: unwaith yn y flwyddyn y gwna efe gymmod arni trwy eich cenhedlaethau: sancteiddiolaf i'r ARGLWYDD *yw* hi.

11 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

12 Pan rifech feibion Israel, dan eu rhifedi; yna rhoddant bob un iawn am ei einioes i'r ARGLWYDD, pan rifer hwynt: fel na byddo pla yn eu plith, pan rifer hwynt.

13 Hyn a ddyry pob un a elo dan rif. Hanner sicl, yn ol sicl y cyssegr: ugain gerah *yw* y sicl: hanner sicl *fydd* yn offrwm i'r ARGLWYDD.

14 Pob un a elo dan rif, o fab ugeinmlwydd ac uchod, a rydd offrwm i'r ARGLWYDD.

15 Ni rydd y cyfoethog fwy, ac ni rydd y tlawd lai, na hanner sicl, wrth roddi offrwm i'r ARGLWYDD, i wneuthur cymmod dros eich eneidiau.

16 A chymmer yr arian cymmod gan feibion Israel, a dod hwynt i wasanaeth pabell y cyfarfod; fel y byddant yn goffadwriaeth i feibion Israel ger bron yr ARGLWYDD, i wneuthur cymmod dros eich eneidiau.

17 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

18 Gwna noe bres, a'i throed o bres, i ymolchi: a dod hi rhwng pabell y cyfarfod a'r allor: a dod ynddi ddwfr.

19 A golched Aaron a'i feibion o honi eu dwylaw a'u traed.

20 Pan ddelont i babell y cyfarfod, ymolchant â dwfr, fel na byddont feirw; neu pan ddelont wrth yr allor i weini, gan arogl-darthu aberth tanllyd i'r ARGLWYDD.

21 Golchant eu dwylaw a'u traed, fel na byddont feirw: a bydded *hyn* iddynt yn ddeddf dragywyddol, iddo ef, ac i'w had, trwy eu cenhedlaethau.

22 ¶ Yr Arglwydd hefyd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

23 Cymmer i ti ddewis lysiau, o'r myr pur, *bwys* pum can sicl, a hanner hynny o'r sinamon peraidd, *sef pwys* deucant a deg a deugain *o siclau*, ac o'r calamus peraidd *pwys* deucant a deg a deugain *o siclau;*

24 Ac o'r casia *pwys* pum cant *o siclau*, yn ol sicl y cyssegr; a hin o olew olew-wydden.

25 A gwna ef yn olew enneiniad sanctaidd, yn ennaint cymmysgadwy o waith yr apothecari: olew enneiniad sanctaidd fydd efe.

26 Ac enneinia âg ef babell y cyfarfod, ac arch y dystiolaeth,

27 Y bwrdd hefyd a'i holl lestri, a'r canhwyllbren a'i holl lestri, ac allor yr arogl-darth,

28 Ac allor y poeth-offrwm a'i holl lestri, a'r noe a'i throed.

29 A chyssegra hwynt, fel y byddant yn sancteiddiolaf: pob peth a gyffyrddo â hwynt, a fydd sanctaidd.

30 Enneinia hefyd Aaron a'i feibion, a chyssegra hwynt, i offeiriadu i mi.

31 A llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Olew enneiniad sanctaidd a fydd hwn i mi, trwy eich cenhedlaethau.

32 Nac enneinier âg ef gnawd dyn, ac ar ei waith ef na wnewch ei fath: sanctaidd *yw*, bydded sanctaidd gennych.

33 Pwy bynnag a gymmysgo ei fath, a'r hwn a roddo o hono ef ar *ddyn* dieithr, a dorrir ymaith oddi wrth ei bobl.

34 ¶ Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Cymmer i ti lysiau peraidd, *sef* stacte, ac onycha, a galbanum; y llysiau *hyn*, a thus pur; yr un faint o bob un.

35 A gwna ef yn arogl-darth arogl-bêr o waith yr apothecari, wedi ei gyd-dymheru, yn bur ac yn sanctaidd.

36 Gan guro cur yn fân beth o hono, a dod o hono ef ger bron y dystiolaeth o fewn pabell y cyfarfod, lle y cyfarfyddaf â thi: sancteiddiolaf fydd efe i chwi.

37 A'r arogl-darth a wnelech, na wnewch i chwi eich hunain ei fath ef: bydded gennyt yn sanctaidd i'r Arglwydd.

38 Pwy bynnag a wnel ei fath ef, i arogli o hono, a dorrir ymaith oddi wrth ei bobl.

PENNOD 31.

1 *Galw Besaleel ac Aholïab, a'u gwneuthur yn gymmwys i waith y tabernacl.* 12 *A'u orchymyn cadw y Sabbath.* 18 *Moses yn derbyn y ddwy lech.*

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Gwel, mi a elwais wrth *ei* enw ar Besaleel fab Uri, fab Hur, o lwyth Judah;

3 Ac a'i llenwais ef âg yspryd Duw, mewn doethineb, ac mewn deall, ac mewn gwybodaeth hefyd, ac ym mhob rhyw waith,

4 I ddychymmygu cywreinrwydd, i weithio mewn aur, ac mewn arian, ac mewn pres,

5 Ac mewn cyfarwyddyd, i *osod* meini, ac mewn saernïaeth pren, i weithio ym mhob gwaith.

6 Ac wele, mi a roddais gyd âg ef Aholïab fab Achisamach, o lwyth Dan: ac y'nghalon pob doeth o galon y rhoddais ddoethineb i wneuthur yr hyn oll a orchymynais wrthyt.

7 Pabell y cyfarfod, ac arch y dystiolaeth, a'r drugareddfa yr hon *sydd* arni, a holl lestri y babell,

8 A'r bwrdd a'i lestri, a'r canhwyllbren pur a'i holl lestri, ac allor yr arogl-darth,

9 Ac allor y poeth-offrwm a'i holl lestri, a'r noe a'i throed,

10 A gwisgoedd y weinidogaeth, a'r gwisgoedd sanctaidd i Aaron yr offeiriad, a gwisgoedd ei feibion ef, i offeiriadu *ynddynt*,

11 Ac olew yr enneiniad, a'r arogl-darth peraidd i'r cyssegr; a wnant yn ol yr hyn oll a orchymynais wrthyt.

12 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

13 Llefara hefyd wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Diau y cedwch fy Sabbathau: canys arwydd yw rhyngof fi a chwithau, trwy eich

cenhedlaethau; i wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, *sydd* yn eich sancteiddio.

14 Am hynny cedwch y Sabbath; oblegid sanctaidd *yw* i chwi: llwyrrodder i farwolaeth yr hwn a'i halogo ef; o herwydd pwy bynnag a wnelo waith arno, torrir ymaith yr enaid hwnnw o blith ei bobl.

15 Chwe diwrnod y gwneir gwaith, ac ar y seithfed dydd *y mae* Sabbath gorphwysdra sanctaidd i'r ARGLWYDD: pwy bynnag a wnelo waith y seithfed dydd, llwyr-rodder ef i farwolaeth.

16 Am hynny cadwed meibion Israel y Sabbath, gan gynnal Sabbath trwy eu cenhedlaethau, yn gyfammod tragywyddol.

17 Rhyngof fi a meibion Israel, y mae yn arwydd tragywyddol, mai mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr ARGLWYDD y nefoedd a'r ddaear; ac *mai* ar y seithfed dydd y peidiodd, ac y gorphwysodd efe.

18 ¶ Ac efe a roddodd i Moses, wedi iddo orphen llefaru wrtho ym mynydd Sinai, ddwy lech y dystiolaeth; *sef* llechau o gerrig, wedi eu hysgrifenu â bys DUW.

PENNOD 32.

1 Y bobl, yn absen Moses, ymperi i Aaron wneuthur llo; 7 a hynny yn digio Duw: 11 ac ymtau, ar ymbil Moses, yn didaigio. 15 Moses yn dyfod i waered d'r llechau: 19 yn eu torri hwy: 20 yn difetha y llo. 22 Esgus Aaron drosto ei hun. 25 Moses yn gorchymyn lladd y deiw-addolwyr, 30 ac yn gweddio dros y bobl.

PAN welodd y bobl fod Moses yn oedi dyfod i waered o'r mynydd; yna yr ymgasglodd y bobl at Aaron, ac y dywedasant wrtho, Cyfod, gwna i ni dduwiau i fyned o'n blaen: canys y Moses hwn, y gŵr, a'n dug ni i fyny o wlad yr Aipht, ni wyddom beth *a ddaeth* o hono.

2 A dywedodd Aaron wrthynt, Tynnwch y clust-dlysau aur *sydd* wrth glustiau eich gwragedd, a'ch meibion, a'ch merched, a dygwch attaf fi.

3 A'r holl bobl a dynnasant y clust-dlysau aur *oedd* wrth eu clustiau, ac a'u dygasant at Aaron.

4 Ac efe a'*u* cymmerodd o'u dwylaw, ac a'i lluniodd â chŷn, ac a'i gwnaeth yn llo tawdd: a hwy a ddywedasant, Dyma dy dduwiau di, Israel, y rhai a'th ddug di i fyny o wlad yr Aipht.

5 A phan ei gwelodd Aaron, efe a adeiladodd allor ger ei fron ef: ac Aaron a gyhoeddodd, ac a ddywedodd, *Y mae* gwyl i'r ARGLWYDD y fory.

6 A hwy a godasant yn fore drannoeth, ac a offrymmasant boeth-offrymmau, ac a ddygasant aberthau hedd: a'r bobl a eisteddasant i fwytta ac i yfed, ac a godasant i fyny i chwarae.

7 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Cerdda, dos i waered: canys ymlygrodd dy bobl a ddygaist i fyny o dir yr Aipht.

8 Buan y ciliasant o'r ffordd a orchymynais iddynt: gwnaethant iddynt lo tawdd, ac addolasant ef, ac aberthasant iddo; dywedasant hefyd, Dyma dy dduwiau di, Israel, y rhai a'th ddygasant i fyny o wlad yr Aipht.

9 Yr ARGLWYDD hefyd a ddywedodd wrth Moses, Gwelais y bobl hyn; ac wele, pobl war-galed ydynt.

10 Am hynny yn awr gâd i mi lonydd, fel yr ennyno fy llid yn eu herbyn, ac y difethwyf hwynt: a mi a'th wnaf di yn genhedlaeth fawr.

11 A Moses a ymbiliodd ger bron yr ARGLWYDD ei DDUW, ac a ddywedodd, Paham, ARGLWYDD, yr ennyna dy ddigofaint yn erbyn dy bobl, y rhai a ddygaist allan o wlad yr Aipht, trwy nerth mawr, a llaw gadarn?

12 Paham y caiff yr Aiphtiaid lefaru, gan ddywedyd, Mewn malais y dygodd efe hwynt allan, i'w lladd yn y mynyddoedd, ac i'w difetha oddi ar wyneb y ddaear? Tro oddi wrth angerdd dy ddigofaint, a bydded edifar gennyt y drwg *a amcenaist* i'th bobl.

13 Cofia Abraham, Isaac, ac Israel, dy weision, y rhai y tyngaist wrthynt i ti dy hun, ac y dywedaist wrthynt, Mi a amlhâf eich had chwi fel sêr y nefoedd; a'r holl wlad yma yr hon a ddywedais, a roddaf i'ch had chwi, a hwy a'i hetifeddant byth.

14 Ac edifarhaodd ar yr ARGLWYDD

am y drwg a ddywedasai efe y gwnai i'w bobl.

15 ¶ A Moses a drodd, ac a ddaeth i waered o'r mynydd, a dwy lech y dystiolaeth yn ei law: y llechau a ysgrifenasid o'u dau du; hwy a ysgrifenasid o bob tu.

16 A'r llechau hynny *oedd* o waith DUW: yr ysgrifen hefyd *oedd* ysgrifen DUW yn ysgrifenedig ar y llechau.

17 A phan glywodd Josua swn y bobl yn bloeddio, efe a ddywedodd wrth Moses, Y *mae* swn rhyfel yn y gwersyll.

18 Yntau a ddywedodd, Nid llais bloeddio am oruchafiaeth, ac nid llais gwaeddi am golli y maes; ond swn canu a glywaf fi.

19 ¶ A bu, wedi dyfod o hono yn agos i'r gwersyll, iddo weled y llo a'r dawnsiau: ac ennynodd digofaint Moses: ac efe a daflodd y llechau o'i ddwylaw ac a'u torrodd hwynt îs law y mynydd.

20 Ac efe a gymmerodd y llo a wnaethent hwy, ac a'i llosgodd â thân, ac a'i malodd yn llwch, ac a'i taenodd ar wyneb y dwfr, ac a'i rhoddes i'w yfed i feibion Israel.

21 A dywedodd Moses wrth Aaron, Beth a wnaeth y bobl hyn i ti, pan ddygaist arnynt bechod *mor* fawr?

22 A dywedodd Aaron, Nac ennyned digofaint fy arglwydd: ti a adwaenost y bobl, mai ar ddrwg y maent.

23 Canys dywedasant wrthyf, Gwna i ni dduwiau i fyned o'n blaen: canys y Moses hwn, y gŵr a'n dug ni i fyny o wlad yr Aipht, ni wyddom beth *a ddaeth* o hono.

24 A dywedais wrthynt, I'r neb *y mae* aur, tynnwch ef: a hwy a'i rhoddasant i mi: a mi a'i bwriais yn tân, a daeth y llo hwn allan.

25 ¶ A phan welodd Moses fod y bobl yn noeth, (canys Aaron a'u noethasai hwynt, i'w gwaradwyddo ym mysg eu gelynion;)

26 Yna y safodd Moses ym mhorth y gwersyll, ac a ddywedodd, Pwy sydd ar du yr ARGLWYDD? *dewed* attaf fi. A holl feibion Lefi a ymgasglasant atto ef.

27 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel; Gosodwch bob un ei gleddyf ar ei glun, ac ewch, cynniweiriwch o borth i borth trwy y gwersyll, a lleddwch bob un ei frawd, a phob un ei gyfaill, a phob un ei gymmydog.

28 A meibion Lefi a wnaethant yn ol gair Moses: a chwympodd o'r bobl y dydd hwnnw ynghylch tair mil o wŷr.

29 Canys dywedasai Moses, Cyssegrwch eich llaw heddyw i'r ARGLWYDD, bob un ar ei fab, ac ar ei frawd; fel y rhodder heddyw i chwi fendith.

30 ¶ A thrannoeth y dywedodd Moses wrth y bobl, Chwi a bechasoch bechod mawr: ac yn awr mi a âf i fyny at yr ARGLWYDD; ond odid mi a wnaf gymmod dros eich pechod chwi.

31 A Moses a ddychwelodd at yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Och! pechodd y bobl hyn bechod mawr, ac a wnaethant iddynt dduwiau o aur.

32 Ac yn awr, os maddeui eu pechod; ac os amgen, dilea fi, attolwg, allan o'th lyfr a ysgrifenaist.

33 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Pwy bynnag a bechodd i'm herbyn, hwnnw a ddileaf allan o'm llyfr.

34 Am hynny dos yn awr, arwain y bobl i'r *lle* a ddywedais wrthyt: wele, fy angel a â o'th flaen di; a'r dydd yr ymwelwyf, yr ymwelaf â hwynt am eu pechod.

35 A'r ARGLWYDD a darawodd y bobl, am iddynt wneuthur y llo a wnaethai Aaron.

PENNOD 33.

1 Yr Arglwydd yn gwrthod myned gyd â'r bobl, fel yr addawsai. 4 Y bobl yn galaru am hynny. 7 Symmudo y tabernacl allan o'r gwersyll. 9 Yr Arglwydd yn llefaru wrth Moses wyneb yn wyneb. 12, 18 Moses yn deisyfu cael gweled gogoniant Duw.

A'R ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Cerdda, dos i fyny oddi yma, ti a'r bobl a ddygaist i fyny o wlad yr Aipht, i'r wlad *am* yr hon y tyngais wrth Abraham, Isaac, a Jacob, gan ddywedyd, I'th had di y rhoddaf hi.

2 A mi a anfonaf angel o'th flaen di; ac a yrraf allan y Canaanead, yr Amoriad, a'r Hethiad, y Pheresiad, yr Hefiad, a'r Jebusiad:

3 I wlad yn llifeirio o laeth a mêl:

o herwydd nid âf fi i fyny yn dy blith; oblegid pobl war-galed wyt: rhag i mi dy ddifa ar y ffordd.

4 ¶ A phan glywodd y bobl y drwg chwedl hwn, galaru a wnaethant: ac ni wisgodd neb ei harddwisg am dano.

5 Oblegid yr ARGLWYDD a ddywedasai wrth Moses, Dywed wrth feibion Israel, Pobl war-galed *ydych* chwi; yn ddisymmwth y deuaf i fyny i'th ganol di, ac y'th ddifethaf: am hynny yn awr diosg dy harddwisg oddi am danat, fel y gwypwyf beth a wnelwyf i ti.

6 A meibion Israel a ddiosgasant eu harddwisg wrth fynydd Horeb.

7 A Moses a gymmerodd y babell, ac a'i lledodd o'r tu allan i'r gwersyll, ym mhell oddi wrth y gwersyll; ac a'i galwodd, Pabell y cyfarfod; a phob un a geisiai yr ARGLWYDD, a âi allan i babell y cyfarfod, yr hon *ydoedd* o'r tu allan i'r gwersyll.

8 A phan aeth Moses i'r babell, yr holl bobl a godasant, ac a safasant bob un *ar* ddrws ei babell; ac a edrychasant ar ol Moses, nes ei ddyfod i'r babell.

9 A phan aeth Moses i'r babell, y disgynodd colofn y cwmmwl, ac a safodd *wrth* ddrws y babell: a'r *ARGLWYDD* a lefarodd wrth Moses.

10 A gweledd yr holl bobl golofn y cwmmwl yn sefyll *wrth* ddrws y babell: a'r holl bobl a gododd, ac a addolasant bob un *wrth* ddrws ei babell.

11 A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses wyneb yn wyneb, fel y llefarai gŵr wrth ei gyfaill. Ac efe a ddychwelodd i'r gwersyll: ond y llangc Josua, mab Nun, ei weinidog ef, ni syflodd o'r babell.

12 ¶ A Moses a ddywedodd wrth yr ARGLWYDD, Gwel, ti a ddywedi wrthyf, Dwg y bobl yma i fyny; ac ni ddangosaist i mi yr hwn a anfoni gyd â mi: a thi a ddywedaist, Mi a'th adwaen wrth *dy* enw, a chefaist hefyd ffafr yn fy ngolwg.

13 Yn awr gan hynny, o chefais ffafr yn dy olwg, hysbysa i mi dy ffordd, attolwg, fel y'th adwaenwyf, ac fel y caffwyf ffafr yn dy olwg: gwel hefyd mai dy bobl di *yw* y genedl hon.

14 Yntau a ddywedodd, Fy wyneb a gaiff fyned *gyd â thi*, a rhoddaf orphwysdra i ti.

15 Ac efe a ddywedodd wrtho, Onid â dy wyneb *gyd â ni*, nac arwain ni i fyny oddi yma.

16 Canys pa fodd y gwyddir yma gael o honof fi ffafr yn dy olwg, mi a'th bobl? onid trwy fyned o honot ti gyd â ni? Felly myfi a'th bobl a ragorwn ar yr holl bobl *sydd* ar wyneb y ddaear.

17 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Gwnaf hefyd y peth hyn a leferaist: oblegid ti a gefaist ffafr yn fy ngolwg, a mi a'th adwaen wrth *dy* enw.

18 Yntau a ddywedodd, Dangos i mi, attolwg, dy ogoniant.

19 Ac efe a ddywedodd, Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb, a chyhoeddaf enw yr ARGLWYDD o'th flaen di: a mi a drugarhâf wrth yr hwn y cymmerwyf drugaredd arno, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf.

20 Ac efe a ddywedodd, Ni elli weled fy wyneb: canys ni'm gwel dyn, a byw.

21 Yr ARGLWYDD hefyd a ddywedodd, Wele fan yn fy ymyl, lle y cei sefyll ar graig.

22 A thra yr elo fy ngogoniant heibio, mi a'th osodaf o fewn agen yn y graig; a mi a'th orchuddiaf â'm llaw, nes i mi fyned heibio.

23 Yna y tynnaf ymaith fy llaw, a'm tu cefn a gei di ei weled: ond ni welir fy wyneb.

PENNOD 34.

1 Adnewyddu y llechau. 5 Cyhoeddi Enw yr Arglwydd. 8 Moses yn ymbil â Duw ar iddo fyned gyd â hwy. 10 Duw yn gwneuthur cyfammod â hwynt, ac yn ail-adrodd rhai o orchymynion y llech gyntaf. 28 Moses, wedi bod ddeugain niwrnod yn y mynydd, yn dyfod i lawr â'r llechau. 29 Ei wyneb ef yn disgleirio; ac ymtau yn rhoddi llen gudd arno.

A DYWEDODD yr ARGLWYDD wrth Moses, Nadd i ti ddwy o lechau cerrig, fel y rhai cyntaf: a mi a ysgrifenaf ar y llechau y geiriau oedd ar y llechau cyntaf, y rhai a dorraist.

2 A bydd barod erbyn y bore; a thyred i fyny yn fore i fynydd Sinai, a saf i mi yno ar ben y mynydd.

3 Ond na ddeued neb i fyny gyd â thi, ac na weler neb ar yr holl

fynydd: na phored hefyd na dafad, nac eidion, ar gyfer y mynydd hwn.
4 ¶ Ac efe a naddodd ddwy o lechau cerrig, o fath y rhai cyntaf: a Moses a gyfododd yn fore, ac a aeth i fynydd Sinai, fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD iddo; ac a gymmerodd yn ei law y ddwy lech garreg.
5 A'r ARGLWYDD a ddisgynodd mewn cwmmwl, ac a safodd gyd âg ef yno, ac a gyhoeddodd enw yr ARGLWYDD.
6 A'r ARGLWYDD a aeth heibio o'i flaen ef, ac a lefodd, JEHOFAH, JEHOFAH, y DUW trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd;
7 Yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, a heb gyfrif *yr anwir* yn gyfiawn; yr hwn a ymwêl âg anwiredd y tadau ar y plant, ac ar blant y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth.
8 A Moses a frysiodd, ac a ymgrymmodd tu a'r llawr, ac a addolodd;
9 Ac a ddywedodd, Os cefais yn awr ffafr yn dy olwg, O Arglwydd, eled fy Arglwydd, attolwg, yn ein plith ni, (canys pobl war-galed *yw*,) a maddeu ein hanwiredd, a'n pechod, a chymmer ni yn etifeddiaeth i ti.
10 ¶ Yntau a ddywedodd, Wele fi yn gwneuthur cyfammod y ngŵydd dy holl bobl: gwnaf ryfeddodau, y rhai ni wnaed yn yr holl ddaear, nac yn yr holl genhedloedd; a'r holl bobl yr wyt ti yn eu mysg a gânt weled gwaith yr ARGLWYDD: canys ofnadwy *yw* yr hyn a wnaf â thi.
11 Cadw yr hyn a orchymynais i ti heddyw: wele, mi a yrraf allan o'th flaen di yr Amoriad, a'r Canaanead, a'r Hethiad, a'r Pheresiad, yr Hefiad hefyd, a'r Jebusiad.
12 A chadw arnat, rhag gwneuthur cyfammod â phreswylwyr y wlad yr wyt yn myned iddi; rhag eu bod yn fagl yn dy blith.
13 Eithr dinystriwch eu hallorau hwynt, drylliwch eu delwau hwynt, a thorrwch i lawr eu llwynau hwynt.
14 Canys ni chei ymgrymmu i dduw arall: oblegid yr ARGLWYDD, Eiddigus *yw* ei enw; DUW eiddigus *yw* efe;
15 Rhag i ti wneuthur cyfammod â phreswylwyr y tir; ac iddynt butteinio ar ol eu duwiau, ac áberthu i'w duwiau, a'th alw di, ac i tithau fwytta o'u haberth;
16 A chymmeryd o honot o'u merched i'th feibion; a phutteinio o'u merched ar ol eu duwiau hwynt, a gwneuthur i'th feibion di butteinio ar ol eu duwiau hwynt.
17 Na wna i ti dduwiau tawdd.
18 ¶ Cadw wyl y bara croyw: saith niwrnod y bwyttêi fara croyw, fel y gorchymynais i ti, ar yr amser ym mis Abib: oblegid ym mis Abib y daethost allan o'r Aipht.
19 Eiddof fi yw pob peth a agoro y groth; a phob *gwrryw* cyntaf o'th anifeiliaid, yn eidionau, ac yn ddefaid.
20 Ond y cyntaf i asyn a bryni di âg oen; ac oni phryni, tor ei wddf: pryn hefyd bob cyntaf-anedig o'th feibion: ac nac ymddangoss *neb* ger fy mron yn waglaw.
21 ¶ Chwe diwrnod y gweithi; ac ar y seithfed dydd y gorphwysi: yn amser aredig, ac yn y cynhauaf, y gorphwysi.
22 ¶ Cadw i ti hefyd wyl yr wythnosau, o flaenffrwyth y cynhauaf gwenith; a gwyl y cynnull, *ar* ddiwedd y flwyddyn.
23 ¶ Tair gwaith yn y flwyddyn yr ymddengys dy holl wrrywiaid ger bron yr ARGLWYDD DDUW, DUW Israel.
24 Canys mi a yrraf y cenhedloedd allan o'th flaen di, ac a helaethaf dy derfynau di: ac ni chwennych neb dy dir di, pan elych i fyny i ymddangos ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, dair gwaith yn y flwyddyn.
25 Nac offrymma waed fy aberth gyd â bara lefeinllyd; ac nac arhôed aberth gwyl y Pasc dros nos hyd y bore.
26 Dwg y goreu o flaenffrwyth dy dir i dŷ yr ARGLWYDD dy DDUW. Na ferwa fyn yn llaeth ei fam.
27 Yr ARGLWYDD hefyd a ddywedodd wrth Moses, Ysgrifena i ti y geiriau hyn: oblegid yn ol y geiriau hyn y gwneuthum gyfammod â thi, ac âg Israel.
28 Ac efe a fu yno gyd â'r ARGLWYDD ddeugain niwrnod a deu-

gain nos; ni fwyttaodd fara, ac nid yfodd ddwfr: ac efe a ysgrifenodd ar y llechau eiriau y cyfammod, *sef* y deg gair.

29 ¶ A phan ddaeth Moses i waered o fynydd Sinai, a dwy lech y dystiolaeth yn llaw Moses, pan ddaeth efe i waered o'r mynydd, ni wyddai Moses i groen ei wyneb ddisgleirio wrth lefaru o hono ef wrtho.

30 A phan welodd Aaron a holl feibion Israel Moses, wele, yr oedd croen ei wyneb ef yn disgleirio; a hwy a ofnasant nesâu atto ef.

31 A Moses a alwodd arnynt. Ac Aaron a holl bennaethiaid y gynnulleidfa a ddychwelasant atto ef: a Moses a lefarodd wrthynt hwy.

32 Ac wedi hynny nesaodd holl feibion Israel: ac efe a orchymynodd iddynt yr hyn oll a lefarasai yr ARGLWYDD ym mynydd Sinai.

33 Ac *nes* darfod i Moses lefaru wrthynt, efe a roddes len gudd ar ei wyneb.

34 A phan ddelai Moses ger bron yr ARGLWYDD i lefaru wrtho, efe a dynnai ymaith y llen gudd nes ei ddyfod allan: a phan ddelai efe allan, y llefarai wrth feibion Israel yr hyn a orchymynid iddo.

35 A meibion Israel a welsant wyneb Moses, fod croen wyneb Moses yn disgleirio: a Moses a roddodd drachefn y llen gudd ar ei wyneb, hyd oni ddelai i lefaru wrth DDUW.

PENNOD 35.

1 *Y Sabbath.* 4 *Ewyllysgar offrymmau i'r tabernacl.* 20 *Parodrwydd y bobl i offrymmu.* 30 *Galw Besaleel ac Aholiab i'r gwaith.*

CASGLODD Moses hefyd holl gynnulleidfa meibion Israel, a dywedodd wrthynt, Dyma y pethau a orchymynodd yr ARGLWYDD eu gwneuthur.

2 Chwe diwrnod y gwneir gwaith; ar y seithfed dydd y bydd i chwi ddydd sanctaidd, Sabbath gorphwys i'r ARGLWYDD: llwyr-rodder i farwolaeth pwy bynnag a wnelo waith arno.

3 Na chynneuwch dân yn eich holl anneddau ar y dydd Sabbath.

4 ¶ A Moses a lefarodd wrth holl gynnulleidfa meibion Israel, gan ddywedyd, Dyma y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

5 Cymmerwch o'ch plith offrwm yr ARGLWYDD: pob un ewyllysgar ei galon dyged hyn yn offrwm i'r ARGLWYDD; aur, ac arian, a phres,

6 A *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llîan main, a *blew* geifr,

7 A chrwyn hyrddod wedi eu lliwio yn gochion, a chrwyn daearfoch, a choed Sittim,

8 Ac olew i'r goleuni, a llysiau i olew yr ennaint, ac i'r arogl-darth peraidd,

9 A meini onix, a meini i'w gosod yn yr ephod, ac yn y ddwyfronneg.

10 A phob doeth ei galon yn eich plith, deuant a gweithiant yr hyn oll a orchymynodd yr ARGLWYDD;

11 Y tabernacl, ei babell-len a'i dô, ei fachau a'i ystyllod, ei farrau, ei golofnau, a'i forteisiau,

12 Yr arch, a'i throsolion, y drugareddfa, a'r wahanlen, yr hon *a'i* gorchuddia,

13 Y bwrdd, a'i drosolion, a'i holl lestri, a'r bara dangos,

14 A chanhwyllbren y goleuni, a'i offer, a'i lampau, ac olew y goleuni,

15 Ac allor yr arogl-darth, a'i throsolion, ac olew yr enneiniad, a'r arogl-darth peraidd, a chaeadlen y drws i fyned i'r tabernacl,

16 Allor y poeth-offrwm a'i halch bres, ei throsolion, a'i holl lestri, y noe a'i throed,

17 Llenni y cynteddfa, ei golofnau, a'i forteisiau, caeadlen porth y cynteddfa,

18 Hoelion y tabernacl, a hoelion y cynteddfa, a'u rhaffau hwynt,

19 A gwisgoedd y weinidogaeth i weini yn y cyssegr, sanctaidd wisgoedd Aaron yr offeiriad, a gwisgoedd ei feibion ef, i offeiriadu *ynddynt.*

20 ¶ A holl gynnulleidfa meibion Israel a aethant allan oddi ger bron Moses.

21 A phob un yr hwn y cynhyrfodd ei galon ef, a phob un yr hwn y gwnaeth ei yspryd ef yn ewyllysgar, a ddaethant, *ac* a ddygasant offrwm i'r ARGLWYDD, tu ag at waith pabell y cyfarfod, a thu ag at ei holl wasanaeth hi, a thu ag at y gwisgoedd sanctaidd.

22 A daethant yn wŷr ac yn wrag-

edd; pob un a'r a oedd ewyllysgar ei galon a ddygasant freichledau, a chlust-dlysau, a modrwyau, a chadwynau, pob math ar dlysau aur; a phob gŵr a'r a offrymmodd offrwm, *a offrymmodd* aur i'r ARGLWYDD.

23 A phob un a'r y caed gyd âg ef *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lliïan main, a *blew* geifr, a chrwyn hyrddod wedi eu lliwio yn gochion, a chrwyn daearfoch, a'u dygasant.

24 Pob un a'r a offrymmodd offrwm o arian a phres, a ddygasant offrwm i'r ARGLWYDD: a phob un a'r y caed gyd âg ef goed Sittim i ddim o waith y gwasanaeth a'i dygasant.

25 A phob gwraig ddoeth o galon a nyddodd â'i dwylaw; ac a ddygasant yr edafedd *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lliïan main.

26 A'r holl wragedd y rhai y cynhyrfodd eu calonnau hwynt mewn cyfarwyddyd, a nyddasant *flew* geifr.

27 A'r pennaethiaid a ddygasant feini onix, a meini i'w gosod ar yr ephod, ac ar y ddwyfronneg;

28 A llysiau, ac olew i'r goleuni, ac i olew yr ennaint, ac i'r arogldarth peraidd.

29 Holl blant Israel, yn wŷr ac yn wragedd, y rhai a glywent ar eu calon offrymmu tu ag at yr holl waith a orchymynasai yr ARGLWYDD trwy law Moses ei wneuthur, a ddygasant i'r ARGLWYDD offrwm ewyllysgar.

30 ¶ A dywedodd Moses wrth feibion Israel, Gwelwch, galwodd yr ARGLWYDD erbyn ei enw, Besaleel, fab Uri, fab Hur, o lwyth Judah:

31 Ac a'i llanwodd ef âg yspryd DUW, mewn cyfarwyddyd, mewn deall, ac mewn gwybodaeth, ac mewn pob gwaith;

32 I ddychymmygu cywreinrwydd, i weithio mewn aur, ac mewn arian, ac mewn pres,

33 Ac mewn cyfarwyddyd i osod meini, ac mewn saernïaeth pren, i weithio ym mhob gwaith cywraint.

34 Ac efe a roddodd yn ei galon ef ddysgu *eraill;* efe, ac Aholïab, mab Achisamach, o lwyth Dan.

35 Efe a'u llanwodd hwynt â doethineb calon, i wneuthur pob gwaith saer a chywreinwaith, a gwaith edau a nodwydd, mewn *sidan* glas, ac mewn porphor, ac mewn ysgarlad, ac mewn lliïan main, ac i wau, gan wneuthur pob gwaith, a dychymmygu cywreinrwydd.

PENNOD 36.

1 *Rhoddi offrwm y bobl yn llaw y gweithwyr.* 5 *Gorfod gwahardd haelioni y bobl.* 8 *Llenni y cerubiaid.* 14 *Y llenni o flew geifr.* 19 *Y babellen o grwyn.* 20 *Y byrddau a'u morteisiau.* 31 *Y barrau.* 36 *Y wahanlen.* 37 *Y gaeadlen i'r drws.*

YNA y gweithiodd Besaleel ac Aholïab, a phob gŵr doeth o galon, y rhai y rhoddasai yr ARGLWYDD gyfarwyddyd a deall ynddynt, i fedru gwneuthur holl waith gwasanaeth y cyssegr, yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD.

2 A Moses a alwodd Besaleel ac Aholïab, a phob gŵr celfydd, y rhoddasai yr ARGLWYDD gyfarwyddyd iddo; pob un yr hwn y dug ei galon ei hun ef i nesâu at y gwaith i'w weithio ef.

3 A chymmerasant gan Moses yr holl offrwm a ddygasai meibion Israel i waith gwasanaeth y cyssegr, i'w weithio ef. A hwy a ddygasant atto ef ychwaneg o offrwm gwirfodd bob bore.

4 A'r holl rai celfydd, a'r oedd yn gweithio holl waith y cyssegr, a ddaethant bob un oddi wrth ei waith, yr hwn yr oeddynt yn ei wneuthur.

5 ¶ A llefarasant wrth Moses, gan ddywedyd, Y mae y bobl yn dwyn mwy na digon er gwasanaeth i'r gwaith a orchymynodd yr ARGLWYDD ei wneuthur.

6 A Moses a roes orchymyn; a hwy a barasant gyhoeddi trwy y gwersyll, gan ddywedyd, Na wnaed na gŵr na gwraig waith mwy tu ag at offrwm y cyssegr. Felly yr attaliwyd y bobl rhag dwyn *mwy.*

7 Canys yr ydoedd digon o ddefnydd i'r holl waith i'w wneuthur, a gweddill.

8 ¶ A'r holl rai celfydd, o'r rhai oedd yn gweithio gwaith y tabernacl, a wnaethant ddeg llen o lïan main cyfrodedd, a *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad: â cherubiaid o waith cywraint y gwnaethant hwynt.

9 Hŷd un llen *oedd* wyth gufydd ar hugain; a lled un llen pedwar

cufydd: yr un mesur *oedd* i'r holl lenni.

10 Ac efe a gydiodd bum llen wrth eu gilydd; ac a gydiodd y pum llen *eraill* wrth eu gilydd.

11 Ac efe a wnaeth ddolennau o *sidan* glas ar ymyl un llen, ar *ei* chwr eithaf yn y cydiad: felly y gwnaeth efe ar ymyl llen arall, y'nghydiad yr ail.

12 Deg dolen a deugain a wnaeth efe ar un llen, a deg dolen a deugain a wnaeth efe yn y cwr eithaf i'r llen ydoedd y'nghydiad yr ail: y dolennau oedd yn dal y naill *len* wrth y llall.

13 Ac efe a wnaeth ddeg a deugain o fachau aur, ac a gydiodd y naill len wrth y llall â'r bachau; fel y byddai yn un tabernacl.

14 ¶ Efe a wnaeth hefyd lenni *o flew* geifr, *i fod* yn babell-len ar y tabernacl: yn un llen ar ddeg y gwnaeth efe hwynt.

15 Hŷd un llen oedd ddeg cufydd ar hugain, a lled un llen *oedd* bedwar cufydd: a'r un mesur oedd i'r un llen ar ddeg.

16 Ac efe a gydiodd bum llen wrthynt eu hunain, a chwe llen wrthynt eu hunain.

17 Efe a wnaeth hefyd ddeg dolen a deugain ar ymyl eithaf y llen yn y cydiad; a deg dolen a deugain a wnaeth efe ar ymyl y llen y'nghydiad yr ail.

18 Ac efe a wnaeth ddeg a deugain o fachau pres, i gydio y babell-len i fod yn un.

19 Ac efe a wnaeth dô i'r babell-len o grwyn hyrddod wedi eu lliwio yn gochion, a thô o grwyn daearfoch yn uchaf.

20 ¶ Ac efe a wnaeth ystyllod i'r tabernacl o goed Sittim, yn eu sefyll.

21 Deg cufydd *oedd* hŷd ystyllen; a chufydd a hanner cufydd lled pob ystyllen.

22 Dau dyno *oedd* i'r un ystyllen, wedi eu gosod mewn trefn, y naill ar gyfer y llall: felly y gwnaeth efe i holl ystyllod y tabernacl.

23 Ac efe a wnaeth ystyllod i'r tabernacl; ugain ystyllen i'r tu dehau, tu a'r dehau.

24 A deugain mortais arian a wnaeth efe dan yr ugain ystyllen: dwy fortais dan un ystyllen i'w dau dyno, a dwy fortais dan ystyllen arall i'w dau dyno.

25 Ac i ail ystlys y tabernacl, o du y gogledd, efe a wnaeth ugain ystyllen,

26 A'u deugain mortais o arian; dwy fortais dan un ystyllen, a dwy fortais dan ystyllen arall.

27 Ac i ystlysau y tabernacl, tu a'r gorllewin, y gwnaeth efe chwech ystyllen.

28 A dwy ystyllen a wnaeth efe y'nghonglau y tabernacl i'r ddau ystlys.

29 Ac yr oeddynt wedi eu cydio oddi tanodd; ac yr oeddynt hefyd wedi eu cydio oddi arnodd wrth un fodrwy: felly y gwnaeth iddynt ill dwy yn y ddwy gongl.

30 Ac yr oedd wyth ystyllen; a'u morteisiau oedd un ar bymtheg o forteisiau arian: dwy fortais dan bob ystyllen.

31 ¶ Ac efe a wnaeth farrau o goed Sittim: pump i ystyllod un ystlys i'r tabernacl,

32 A phum bar i ystyllod ail ystlys y tabernacl, a phum bar i ystyllod y tabernacl i'r ystlysau o du y gorllewin.

33 Ac efe a wnaeth y bar canol i gyrhaeddyd trwy yr ystyllod o gwr i gwr.

34 Ac efe a osododd aur dros yr ystyllod, ac a wnaeth eu modrwyau hwynt o aur, i fyned am y barrau; ac a wisgodd y barrau âg aur.

35 ¶ Ac efe a wnaeth wahanlen o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llïan main cyfrodedd: â cherubiaid o waith cywraint y gwnaeth efe hi.

36 Ac efe a wnaeth iddi bedair colofn *o goed* Sittim, ac a'u gwisgodd hwynt âg aur; a'u pennau *oedd* o aur: ac efe a fwriodd iddynt bedair mortais o arian.

37 ¶ Ac efe a wnaeth gaeadlen i ddrws y tabernacl o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llïan main cyfrodedd, o waith edau a nodwydd;

38 A'i phum colofn, a'u pennau; ac a oreurodd eu pennau hwynt, a'u cylchau, âg aur: ond eu pum mortais *oedd* o bres.

PENNOD 37.

1 *Yr arch.* 6 *Y drugareddfa a'r cerubiaid.* 10 *Y bwrdd a'i lestri.* 17 *Y canhwyllbren, a'i lampau, a'i offer.* 25 *Allor yr arogl-darth.* 29 *Olew yr enneniad, a'r pêr-arogl-darth.*

A BESALEEL a wnaeth yr arch o goed Sittim; o ddau gufydd a hanner ei hŷd, a chufydd a hanner ei lled, a chufydd a hanner ei huchder.

2 Ac a'i gwisgodd hi âg aur pur o fewn ac oddi allan; ac a wnaeth iddi goron o aur o amgylch.

3 Ac a fwriodd iddi bedair modrwy o aur ar ei phedair congl: sef dwy fodrwy ar ei naill ystlys, a dwy fodrwy ar ei hystlys arall.

4 Efe a wnaeth hefyd drosolion o goed Sittim, ac a'u gwisgodd hwynt âg aur.

5 Ac a osododd y trosolion trwy y modrwyau ar ystlysau yr arch, i ddwyn yr arch.

6 ¶ Ac efe a wnaeth y drugareddfa o aur coeth; o ddau gufydd a hanner ei hŷd, a chufydd a hanner ei lled.

7 Ac efe a wnaeth ddau gerub aur: o un dryll cyfan y gwnaeth efe hwynt, ar ddau ben y drugareddfa;

8 Un cerub ar y pen o'r tu yma, a cherub arall ar y pen o'r tu arall: o'r drugareddfa y gwnaeth efe y cerubiaid, ar ei dau ben hi.

9 A'r cerubiaid oeddynt, gan ledu esgyll tu ag i fyny, a'u hesgyll yn gorchuddio y drugareddfa, a'u hwynebau bob un at eu gilydd: wynebau y cerubiaid *oedd* tu ag at y drugareddfa.

10 ¶ Ac efe a wnaeth fwrdd o goed Sittim: dau gufydd ei hŷd, a chufydd ei led, a chufydd a hanner ei uchder.

11 Ac a osododd aur pur drosto, ac a wnaeth iddo goron o aur o amgylch.

12 Gwnaeth hefyd iddo gylch o amgylch o led llaw; ac a wnaeth goron o aur ar ei gylch o amgylch.

13 Ac efe a fwriodd iddo bedair modrwy o aur; ac a roddodd y modrwyau wrth ei bedair congl, y rhai *oedd* yn ei bedwar troed.

14 Ar gyfer y cylch yr oedd y modrwyau, yn lle i'r trosolion i ddwyn y bwrdd.

15 Ac efe a wnaeth drosolion o goed Sittim, ac a'u gwisgodd hwynt âg aur i ddwyn y bwrdd.

16 Efe a wnaeth hefyd y llestri *fyddai* ar y bwrdd, ei ddysglau ef, a'i lwyau, a'i phïolau, a'i gaeadau i gau â hwynt, o aur pur.

17 ¶ Ac efe a wnaeth ganhwyllbren o aur coeth; o un dryll cyfan y gwnaeth efe y canhwyllbren, ei baladr, ei geingciau, ei bedyll, ei gnapiau, a'i flodau, oedd o'r un.

18 A chwech o geingciau yn myned allan o'i ystlysau: tair caingc o'r canhwyllbren o un ystlys, a thair caingc o'r canhwyllbren o'r ystlys arall.

19 Tair padell ar waith almonau, cnap a blodeuyn *oedd* ar un gaingc; a thair padell o waith almonau, cnap a blodeuyn ar gaingc arall: yr un modd *yr oedd* ar y chwe chaingc, y rhai oedd yn dyfod allan o'r canhwyllbren.

20 Ac ar y canhwyllbren *yr oedd* pedair padell o waith almonau, ei gnapiau a'i flodau.

21 A chnap dan ddwy gaingc o hono, a chnap dan ddwy gaingc o hono, a chnap dan ddwy gaingc o hono; yn ol y chwe chaingc oedd yn dyfod allan o hono.

22 Eu cnapiau a'u ceingciau oedd o'r un: y cwbl o hono *ydoedd* un dryll cyfan o aur coeth.

23 Ac efe a wnaeth ei saith lamp ef, a'i efeiliau, a'i gafnau, o aur pur.

24 O dalent o aur coeth y gwnaeth efe ef, a'i holl lestri.

25 ¶ Gwnaeth hefyd allor yr arogl-darth o goed Sittim: o gufydd ei hŷd, a chufydd ei lled, yn bedairongl: ac o ddau gufydd ei huchder: ei chyrn oedd o'r un.

26 Ac efe a'i gwisgodd hi âg aur coeth, ei chaead, a'i hystlysau o amgylch, a'i chyrn; ac efe a wnaeth iddi goron o aur o amgylch.

27 Ac efe a wnaeth iddi ddwy fodrwy o aur wrth ei dwy gongl, ar ei dau ystlys, oddi tan ei choron, i fyned am drosolion i'w dwyn arnynt.

28 Ac efe a wnaeth drosolion o

goed Sittim; ac a'u gwisgodd hwynt âg aur.

29 ¶ Ac efe a wnaeth olew yr enneiniad sanctaidd, a'r arogl-darth llysieuog pur, o waith yr apothecari.

PENNOD 38.

1 *Allor y poeth-offrwm.* 8 *Y noe bres.* 9 *Y cynteddfa.* 21 *Cyfrif o offrymmau y bobl.*

AC efe a wnaeth allor y poeth-offrwm o goed Sittim: o bum cufydd ei hŷd, a phum cufydd ei lled, yn bedairongl; ac yn dri chufydd ei huchder.

2 Gwnaeth hefyd ei chyrn hi ar ei phedair congl: ei chyrn hi oedd o'r un; ac efe a'i gwisgodd hi â phres.

3 Efe a wnaeth hefyd holl lestri yr allor, y crochanau, a'r rhawiau, a'r cawgiau, a'r cigweiniau, a'r pedyll tân: ei holl lestri hi a wnaeth efe o bres.

4 Ac efe a wnaeth i'r allor alch bres, ar waith rhwyd, dan ei chwmpas oddi tanodd hyd ei hanner hi.

5 Ac efe a fwriodd bedair modrwy i bedwar cwr yr alch bres, i fyned am drosolion.

6 Ac efe a wnaeth drosolion o goed Sittim; ac a'u gwisgodd hwynt â phres.

7 Ac efe a dynnodd y trosolion trwy y modrwyau ar ystlysau yr allor, i'w dwyn hi arnynt: yn gau y gwnaeth efe hi âg ystyllod.

8 ¶ Ac efe a wnaeth noe bres, a'i throed o bres, o ddrychau *gwraged*d, y rhai a ymgasglent *yn finteioedd* at ddrws pabell y cyfarfod.

9 ¶ Ac efe a wnaeth y cynteddfa: ar yr ystlys dehau, tu a'r dehau, llenni y cynteddfa *oedd* o lïan main cyfrodedd, o gan cufydd:

10 A'u hugain colofn, ac a'u hugain mortais, o bres: a phennau y colofnau a'u cylchau, o arian *yr oeddynt.*

11 Ac ar du y gogledd, *y llenni oedd* gan cufydd; eu hugain colofn, a'u hugain mortais, o bres: a phennau y colofnau a'u cylchau o arian.

12 Ac o du y gorllewin, llenni o ddeg cufydd a deugain: eu deg colofn, a'u deg mortais, a phennau y colofnau, a'u cylchau, o arian.

13 Ac i du y dwyrain tu a'r dwyrain *yr oedd llenni* o ddeg cufydd a deugain.

14 Llenni o bymtheg cufydd *a wnaeth efe* o'r *naill* du i'r porth; eu tair colofn, a'u tair mortais.

15 Ac *efe a wnaeth* ar yr ail ystlys, o ddeutu drws porth y cynteddfa, lenni o bymtheg cufydd; eu tair colofn, a'u tair mortais.

16 Holl lenni y cynteddfa o amgylch *a wnaeth efe* o lïan main cyfrodedd.

17 A morteisiau y colofnau, *oedd* o bres; pennau y colofnau, a'u cylchau, o arian; a gwisg eu pennau, o arian; a holl golofnau y cynteddfa oedd wedi eu cylchu âg arian.

18 A chaeadlen drws y cynteddfa *ydoedd* waith edau a nodwydd o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llïan main cyfrodedd; ac yn ugain cufydd o hŷd, a'i huchder o'i lled yn bum cufydd, ar gyfer llenni y cynteddfa.

19 Eu pedair colofn hefyd, a'u pedair mortais, *oedd* o bres; a'u pennau o arian; gwisg eu pennau hefyd a'u cylchau *oedd* arian.

20 A holl hoelion y tabernacl, a'r cynteddfa oddi amgylch, *oedd* bres.

21 ¶ Dyma gyfrif *perthynasau* y tabernacl, *sef* tabernacl y dystiolaeth, y rhai a gyfrifwyd wrth orchymyn Moses, *i* wasanaeth y Lefiaid, trwy law Ithamar, mab Aaron yr offeiriad.

22 A Besaleel, mab Uri, mab Hur, o lwyth Judah, a wnaeth yr hyn oll a orchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses.

23 A chyd âg ef yr ydoedd Aholïab, mab Achisamach, o lwyth Dan, saer cywraint, a gwnïedydd mewn *sidan* glas, ac mewn porphor, ac mewn ysgarlad, ac mewn llïan main.

24 Yr holl aur a weithiwyd yn y gwaith, *sef* yn holl waith y cyssegr, sef aur yr offrwm, ydoedd naw talent ar hugain, a saith gan sicl a deg ar hugain, yn ol sicl y cyssegr.

25 Ac arian y rhai a gyfrifwyd o'r gynnulleidfa, *oedd* gan talent, a mil a saith gant a phymtheg sicl a thri ugain, yn ol sicl y cyssegr.

26 Becah am bob pen; *sef* hanner sicl, yn ol sicl y cyssegr, am bob un a elai heibio dan rif, o fab ugeinmlwydd ac uchod: *sef* am chwe

chan mil a thair mil a phum cant
a deg a deugain.
27 Ac o'r can talent arian y bwr-
iwyd morteisiau y cyssegr, a mor-
teisiau y wahanlen; can mortais o'r
can talent, talent i bob mortais.
28 Ac o'r mil a saith gant a phym-
theg *sicl* a thri ugain, y gwnaeth efe
bennau y colofnau; ac y gwisgodd
eu pennau, ac y cylchodd hwynt.
29 A phres yr offrwm *oedd* ddeg
talent a thri ugain, a dwy fil a
phedwar cant o siclau.
30 Ac efe a wnaeth o hynny for-
teisiau drws pabell y cyfarfod, a'r
allor bres, a'r alch bres yr hon
oedd iddi, a holl lestri yr allor;
31 A morteisiau y cynteddfa o
amgylch, a morteisiau porth y cyn-
teddfa, a holl hoelion y tabernacl,
a holl hoelion y cynteddfa o am-
gylch.

PENNOD 39.

1 *Gwisgoedd y weinidogaeth, a'r gwisgoedd sanct-
aidd.* 2 *Yr ephod.* 8 *Y ddwyfronneg.* 22
Mantell yr ephod. 27 *Y peisiau, y meitr, a'r
gwregys o lian main.* 30 *Taflaith y goron sanct-
aidd.* 32 *Moses yn golygu y cwbl, ac yn eu
bendithio.*

AC o'r *sidan* glas, a'r porphor, a'r
ysgarlad, y gwnaethant wisg-
oedd gweinidogaeth, i weini yn y
cyssegr: gwnaethant y gwisgoedd
sanctaidd i Aaron; fel y gorchy-
mynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
2 Ac efe a wnaeth yr ephod o aur,
sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad,
a llian main cyfrodedd.
3 A gyrrasant yr aur yn ddalen-
nau teneuon, ac a'i torrasant yn
edafedd, i weithio yn y *sidan* glas,
ac yn y porphor, ac yn yr ysgarlad,
ac yn y llian main, yn waith cyw-
raint.
4 Ysgwyddau a wnaethant iddi
yn cydio: wrth ei dau gwr y cyd-
iwyd hi.
5 A gwregys cywraint ei ephod ef,
yr hwn oedd arni, *ydoedd* o'r un, yn
un-waith â hi; o aur, *sidan* glas, a
phorphor, ac ysgarlad, a llian main
cyfrodedd: megis y gorchymynasai
yr ARGLWYDD wrth Moses.
6 ¶ A hwy a weithiasant feini
onix wedi eu gosod mewn boglynau
aur, wedi eu naddu â naddiadau sêl,
âg enwau meibion Israel *ynddynt.*
7 A gosododd hwynt ar ysgwyddau
yr ephod, yn feini coffadwriaeth i
feibion Israel; megis y gorchymyn-
odd yr ARGLWYDD wrth Moses.
8 ¶ Efe a wnaeth hefyd y ddwy-
fronneg o waith cywraint, ar waith
yr ephod; o aur, *sidan* glas, por-
phor hefyd, ac ysgarlad, a llian main
cyfrodedd.
9 Pedairongl ydoedd; yn ddau
ddyblyg y gwnaethant y ddwyfron-
neg: o rychwant ei hŷd, a rhych-
want ei lled, yn ddau ddyblyg.
10 A gosodasant ynddi bedair rhes
o feini: rhes o sardius, topas, a
smaragdus, *ydoedd* y rhes gyntaf.
11 A'r ail res *oedd*, carbuncl, sa-
phir, ac adamant.
12 A'r drydedd res *ydoedd*, lygur,
acat, ac amethyst.
13 A'r bedwaredd res *ydoedd*, beryl,
onix, a jaspis; wedi eu hamgylchu
mewn boglynau aur yn eu lleoedd.
14 A'r meini *oedd* yn ol enwau
meibion Israel, yn ddeuddeg, yn ol
eu henwau hwynt; pob un wrth ei
enw *oeddynt*, o naddiadau sêl, yn
ol y deuddeg llwyth.
15 A hwy a wnaethant ar y ddwy-
fronneg gadwynau ar y cyrrau, yn
blethwaith o aur pur.
16 A gwnaethant ddau foglyn aur,
a dwy fodrwy o aur; ac a rodd-
asant y ddwy fodrwy ar ddau gwr y
ddwyfronneg.
17 A rhoddasant y ddwy gadwyn
blethedig o aur trwy y ddwy fodrwy
ar gyrrau y ddwyfronneg.
18 A deupen y ddwy gadwyn bleth-
edig a roddasant y'nglŷn yn y ddau
foglyn; ac a'u gosodasant ar ys-
gwyddau yr ephod, o'r tu blaen.
19 Gwnaethant hefyd ddwy fodrwy
o aur, ac a'u gosodasant ar ddau
ben y ddwyfronneg, ar yr ymyl sydd
ar ystlys yr ephod, o'r tu mewn.
20 A hwy a wnaethant ddwy fodrwy
aur, ac a'u gosodasant ar ddau
ystlys yr ephod, oddi tanodd tu a'i
thu blaen, ar gyfer ei chydiad, oddi
ar wregys yr ephod.
21 Rhwymasant hefyd y ddwyfron-
neg, erbyn ei modrwyau, wrth fod-
rwyau yr ephod, â llinyn o *sidan*
glas, i fod oddi ar wregys yr ephod,
fel na ddattodid y ddwyfronneg
oddi wrth yr ephod; megis y
gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth
Moses.

22 ¶ Ac efe a wnaeth fantell yr ephod i gyd o *sidan* glas, yn weuadwaith.
23 A thwll y fantell *oedd* yn ei chanol, fel twll llurig, a gwrym o amgylch y twll, rhag ei rhwygo.
24 A gwnaethant ar odrau y fantell bomgranadau, o *sidan* glas, porphor, ac ysgarlad, a lliân cyfrodedd.
25 Gwnaethant hefyd glych o aur pur, ac a roddasant y clych rhwng y pomgranadau, ar odre y fantell, o amgylch, ym mysg y pomgranadau,
26 Cloch a phomgranad, a chloch a phomgranad, ar odre y fantell o amgylch, i weini *ynddynt:* megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Mosês.
27 ¶ A hwy a wnaethant beisiau o lïan main, o weuadwaith, i Aaron ac i'w feibion.
28 A meitr o lïan main, a chapiau hardd o lïan main, a llodrau llïan o lïan main cyfrodedd,
29 A gwregys o lïan main cyfrodedd, ac o *sidan* glas, porphor, ac ysgarlad, o waith edau a nodwydd; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
30 ¶ Gwnaethant hefyd dalaith y goron sanctaidd o aur pur; ac a ysgrifenasant arni ysgrifen, fel naddiad sêl: SANCTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD.
31 A rhoddasant wrthi linyn o *sidan* glas, i'w dal hi i fyny ar y meitr; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
32 ¶ Felly y gorphenwyd holl waith y tabernacl, *sef* pabell y cyfarfod: a meibion Israel a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses; felly y gwnaethant.
33 ¶ Dygasant hefyd y tabernacl at Moses, y babell a'i holl ddodrefn, ei bachau, ei hystyllod, ei barrau, a'i cholofnau, a'i morteisiau,
34 A'r tô o grwyn hyrddod wedi eu lliwio yn gochion, a'r tô o grwyn dâearfoch, a'r llen wahan yr hon oedd yn gorchuddio;
35 Arch y dystiolaeth, a'i throsolion, a'r drugareddfa;
36 Y bwrdd hefyd, a'i holl lestri, a'r bara dangos;
37 Y canhwyllbren pur, a'i lampau, a'r lampau i'w gosod mewn trefn, ei holl lestri, ac olew i'r goleuni;
38 A'r allor aur, ac olew yr enneiniad, a'r arogl-darth llysieuog, a chaeadlen drws y babell;
39 Yr allor bres, a'r alch bres yr hon *oedd* iddi, ei throsolion, a'i holl lestri; y noe a'i throed;
40 Llenni y cynteddfa, ei golofnau, a'i forteisiau, a chaeadlen porth y cynteddfa, ei rhaffau, a'i hoelion, a holl ddodrefn gwasanaeth y tabernacl, *sef* pabell y cyfarfod;
41 Gwisgoedd y weinidogaeth i weini yn y cyssegr, sanctaidd wisgoedd Aaron yr offeiriad, a gwisgoedd ei feibion ef i offeiriadu.
42 Yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses, felly y gwnaeth meibion Israel yr holl waith.
43 A Moses a edrychodd ar yr holl waith; ac wele, hwy a'i gwnaethant megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD, felly y gwnaethent: a Moses a'u bendithiodd hwynt.

PENNOD 40.

1 Gorchymyn codi y tabernacl, 9 a'i enneinio; 13 a sancteiddio Aaron a'i feibion. 16 Moses yn gwneuthur fel y gorchymynasid iddo. 34 Cwmmwl yn gorchuddio y babell.

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Yn y mis cyntaf, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y cyfodi y tabernacl, pabell y cyfarfod.
3 A gosod yno arch y dystiolaeth; a gorchuddia yr arch â'r wahanlen.
4 Dwg i mewn hefyd y bwrdd, a threfna ef yn drefnus: dwg i mewn hefyd y canhwyllbren, a goleua ei lampau ef.
5 Gosod hefyd allor aur yr arogldarth ger bron arch y dystiolaeth; a gosod gaeadlen drws y tabernacl.
6 Dod hefyd allor y poeth-offrwm o flaen drws tabernacl pabell y cyfarfod.
7 Dod hefyd y noe rhwng pabell y cyfarfod a'r allor, a dòd ynddi ddwfr.
8 A gosod hefyd y cynteddfa oddi amgylch; a dod gaeadlen *ar* borth y cynteddfa.
9 A chymmer olew yr enneiniad, ac enneinia y tabernacl, a'r hyn

oll *sydd* ynddo, a chyssegra ef a'i holl lestri; a sanctaidd fydd.
10 Enneinia hefyd allor y poeth-offrwm, a'i holl lestri; a'r allor a gyssegri: a hi a fydd yn allor sancteiddiolaf.
11 Enneinia y noe a'i throed, a sancteiddia hi.
12 A dwg Aaron a'i feibion i ddrws pabell y cyfarfod, a golch hwynt â dwfr.
13 A gwisg am Aaron y gwisgoedd sanctaidd; ac enneinia ef, a sancteiddia ef, i offeiriadu i mi.
14 Dwg hefyd ei feibion ef, a gwisg hwynt â pheisiau.
15 Ac enneinia hwynt, megis yr enneiniaist eu tad hwynt, i offeiriadu i mi: felly bydd eu henneiniad iddynt yn offeiriadaeth dragywyddol, trwy eu cenhedlaethau.
16 Felly Moses a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynodd yr ARGLWYDD iddo; felly y gwnaeth efe.
17 ¶ Felly yn y mis cyntaf o'r ail flwyddyn, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y codwyd y tabernacl.
18 A Moses a gododd y tabernacl, ac a sicrhaodd ei forteisiau, ac a osododd i fyny ei ystyllod, ac a roddes i mewn ei farrau, ac a gododd ei golofnau;
19 Ac a ledodd y babell-len ar y tabernacl, ac a osododd dô y babell-len arni oddi arnodd; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
20 ¶ Cymmerodd hefyd a rhoddodd y dystiolaeth yn yr arch, a gosododd y trosolion wrth yr arch, ac a roddodd y drugareddfa i fyny ar yr arch.
21 Ac efe a ddug yr arch i'r tabernacl, ac a osododd y wahanlen orchudd, i orchuddio arch y dystiolaeth; megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
22 ¶ Ac efe a roddodd y bwrdd o fewn pabell y cyfarfod, ar ystlys y tabernacl, o du y gogledd, o'r tu allan i'r wahanlen.
23 Ac efe a drefnodd yn drefnus arno ef y bara, ger bron yr ARGLWYDD; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
24 ¶ Ac efe a osododd y canhwyllbren o fewn pabell y cyfarfod, ar gyfer y bwrdd, ar ystlys y tabernacl, o du y dehau.
25 Ac efe a oleuodd y lampau ger bron yr ARGLWYDD; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
26 ¶ Efe a osododd hefyd yr allor aur ym mhabell y cyfarfod, o flaen y wahanlen.
27 Ac a arogl-darthodd arni arogl-darth peraidd; megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
28 ¶ Ac efe a osododd y gaeadlen *ar* ddrws y tabernacl.
29 Ac efe a osododd allor y poeth-offrwm *wrth* ddrws tabernacl pabell y cyfarfod; ac a offrymmodd arni boeth-offrwm a bwyd-offrwm; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
30 ¶ Efe a osododd y noe hefyd rhwng pabell y cyfarfod a'r allor, ac a roddodd yno ddwfr i ymolchi.
31 A Moses, ac Aaron, a'i feibion, a olchasant yno eu dwylaw a'u traed.
32 Pan elent i babell y cyfarfod, a phan nesâent at yr allor, yr ymolchent; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
33 Ac efe a gododd y cynteddfa o amgylch y tabernacl a'r allor, ac a roddodd gaeadlen *ar* borth y cynteddfa. Felly y gorphenodd Moses y gwaith.
34 ¶ Yna cwmmwl a orchuddiodd babell y cyfarfod: a gogoniant yr ARGLWYDD a lanwodd y tabernacl.
35 Ac ni allai Moses fyned i babell y cyfarfod; am fod y cwmmwl yn aros arni, a gogoniant yr ARGLWYDD yn llenwi y tabernacl.
36 A phan gyfodai y cwmmwl oddi ar y tabernacl, y cychwynai meibion Israel i'w holl deithiau.
37 Ac oni chyfodai y cwmmwl, yna ni chychwynent hwy hyd y dydd y cyfodai.
38 Canys cwmmwl yr ARGLWYDD *ydoedd* ar y tabernacl y dydd, a thân ydoedd arno y nos, y'ngolwg holl dŷ Israel, yn eu holl deithiau hwynt.

LEFITICUS.

PENNOD 1.

1 *Trefn y poeth-offrymmau,* 3 *o eidionau,* 10 *o ddefaid, neu eifr,* 14 *ac o adar.*

A'R ARGLWYDD a alwodd ar Moses, ac a lefarodd wrtho o babell y cyfarfod, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddygo dyn o honoch offrwm i'r ARGLWYDD, o anifail, *sef* o'r eidionau, neu o'r praidd, yr offrymmwch eich offrwm.
3 Os poeth-offrwm o eidion *fydd* ei offrwm ef, offrymmed ef yn wrryw perffeith-gwbl; a dyged ef o'i ewyllys ei hun i ddrws pabell y cyfarfod, ger bron yr ARGLWYDD.
4 A gosoded ei law ar ben y poeth-offrwm; ac fe a'i cymmerir ef yn gymmeradwy ganddo, i wneuthur cymmod drosto.
5 Lladded hefyd yr eidion ger bron yr ARGLWYDD; a dyged meibion Aaron, yr offeiriaid, y gwaed, a thaenellant y gwaed o amgylch ar yr allor, yr hon *sydd wrth* ddrws pabell y cyfarfod.
6 A blinged y poeth-offrwm, a thorred ef yn ei ddarnau.
7 A rhodded meibion Aaron yr offeiriad dân ar yr allor, a gosodant goed mewn trefn ar y tân.
8 A gosoded meibion Aaron, yr offeiriaid, y darnau, y pen, a'r brasder, mewn trefn ar y coed *a fyddant* ar y tân *sydd* ar yr allor.
9 Ond ei berfedd a'i draed a ylch efe mewn dwfr: a'r offeiriad a lysg y cwbl ar yr allor, yn boeth-offrwm, yn aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.
10 ¶ Ac os o'r praidd, *sef* o'r defaid, neu o'r geifr, *yr offrymma efe* boeth-offrwm; offrymmed ef yn wrryw perffeith-gwbl.
11 A lladded ef ger bron yr ARGLWYDD, o du y gogledd i'r allor; a thaenelled meibion Aaron, yr offeiriaid, ei waed ef ar yr allor o amgylch.
12 A thorred ef yn ei ddarnau, gyd â'i ben a'i frasder; a gosoded yr offeiriad hwynt ar y coed *a fyddant* ar y tân *sydd* ar yr allor.
13 Ond golched y perfedd a'r traed mewn dwfr: a dyged yr offeiriad y cwbl, a llosged ar yr allor. Hwn *sydd* boeth-offrwm, aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.
14 ¶ Ac os poeth-offrwm o aderyn *fydd* ei offrwm ef i'r ARGLWYDD; yna dyged ei offrwm o durturau, neu o gywion colommennod.
15 A dyged yr offeiriad ef at yr allor, a thorred ei ben ef, a llosged ef ar yr allor; a gwasger ei waed ef ar ystlys yr allor.
16 A thynned ymaith ei grombil ef ynghyd â'i blu, a bwried hwynt ger llaw yr allor, o du y dwyrain, i'r lle *y byddo* y lludw.
17 Hollted ef, a'i esgyll hefyd; *etto* na wahaned *ef:* a llosged yr offeiriad ef ar yr allor, ar y coed *a fyddant* ar y tân. Dyma boeth-offrwm, aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

PENNOD 2.

1 *Y bwyd-offrwm tanllyd gyd âg olew ac arogldarth;* 4 *naill ai wedi ei bobi mewn ffwrn,* 5 *ai ar radell,* 7 *ai mewn padell ffrio:* 12 *neu o'r blaenffrwyth yn y dywysen.* 13 *Halen y bwyd-offrwm.*

PAN offrymmo dyn fwyd-offrwm i'r ARGLWYDD, bydded ei offrwm ef o beillied; a thywallted olew arno, a rhodded thus arno.
2 A dyged ef at feibion Aaron, yr offeiriaid: a chymmered efe oddi yno lonaid ei law o'i beillied, ac o'i olew, ynghyd â'i holl thus; a llosged yr offeiriad ei goffadwriaeth ar yr allor, yn offrwm tanllyd o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.
3 A *bydded* gweddill y bwyd-

offrwm i Aaron ac i'w feibion: sancteiddbeth o danllyd offrymmau yr ARGLWYDD *ydyw.*

4 ¶ Hefyd pan offrymmech fwyd-offrwm, wedi ei bobi *mewn* ffwrn, teisen beillied groyw, wedi ei chymmysgu trwy olew, neu afrllad croyw wedi eu henneinio âg olew, a fydd.

5 ¶ Ond os bwyd-offrwm ar radell *fydd* dy offrwm di, bydded o beillied wedi ei gymmysgu yn groyw trwy olew.

6 Tor ef yn ddarnau, a thywallt arno olew: bwyd-offrwm *yw.*

7 ¶ Ac os bwyd-offrwm padell *fydd* dy offrwm, gwneler o beillied trwy olew.

8 A dwg i'r ARGLWYDD y bwyd-offrwm, yr hwn a wneir o'r rhai hyn: ac wedi y dyger at yr offeiriad, dyged yntau ef at yr allor.

9 A choded yr offeiriad ei goffadwriaeth o'r bwyd-offrwm, a llosged ef ar yr allor; yn offrwm tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

10 A *bydded* i Aaron ac i'w feibion weddill y bwyd-offrwm: sancteiddbeth o danllyd offrymmau yr ARGLWYDD *ydyw.*

11 Na wneler yn lefeinllyd ddim bwyd-offrwm a offrymmoch i'r ARGLWYDD; canys dim surdoes, na mêl, ni losgwch yn offrwm tanllyd i'r ARGLWYDD.

12 ¶ Offrymmwch i'r ARGLWYDD offrwm y blaenffrwyth; ond na losger hwynt ar yr allor yn arogl peraidd.

13 Dy holl fwyd-offrwm hefyd a hellti di â halen; ac na phalled halen cyfammod dy DDUW o fod ar dy fwyd-offrwm: offrymma halen ar bob offrwm i ti.

14 Ac os offrymmi i'r ARGLWYDD fwyd-offrwm y ffrwythau cyntaf; tywysennau irion wedi eu crasu wrth y tân, *sef* ŷd a gurir allan o'r dywysen lawn, a offrymmi di yn fwyd-offrwm dy ffrwythau cyntaf.

15 A dod olew arno, a gosod thus arno: bwyd-offrwm *yw.*

16 A llosged yr offeiriad ei goffadwriaeth ef o'i ŷd wedi ei guro allan, ac o'i olew, ynghyd â'i holl thus: offrwm tanllyd i'r ARGLWYDD *yw.*

PENNOD 3.

1 Yr aberth hedd o eidion, 6 o'r praidd: 7 naill ai oen, 12 ai gafr.

AC os aberth hedd *fydd* ei offrwm ef, pan offrymmo efe eidion, offrymmed ef ger bron yr ARGLWYDD yn berffeith-gwbl; pa un bynnag ai yn wrryw ai yn fenyw.

2 A rhodded ei law ar ben ei offrwm, a lladded ef *wrth* ddrws pabell y cyfarfod: a thaenelled meibion Aaron, yr offeiriaid, y gwaed ar yr allor o amgylch.

3 Ac offrymmed o'r aberth hedd aberth tanllyd i'r ARGLWYDD; *sef* y weren fol, a'r holl wer a fydd ar y perfedd;

4 A'r ddwy aren, a'r gwer *a fyddo* arnynt hyd y tenewyn, a'r rhwyden hefyd *a fydd* oddi ar yr afu, a dyn efe ymaith, ynghyd â'r arennau.

5 A llosged meibion Aaron hynny ar yr allor, ynghyd â'r offrwm poeth *sydd* ar y coed *a fyddant* ar y tân, yn aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

6 ¶ Ac os o'r praidd y *bydd* yr hyn a offrymmo efe yn hedd-aberth i'r ARGLWYDD, offrymmed ef yn wrryw neu yn fenyw perffeith-gwbl.

7 Os oen a offrymma efe yn ei offrwm; yna dyged ger bron yr ARGLWYDD.

8 A gosoded ei law ar ben ei offrwm, a lladded ef o flaen pabell y cyfarfod; a thaenelled meibion Aaron ei waed ef ar yr allor oddi amgylch.

9 Ac offrymmed o'r aberth hedd yn aberth tanllyd i'r ARGLWYDD; ei weren, a'r gloren i gyd: torred hi ymaith wrth asgwrn y cefn, ynghyd â'r weren fol, a'r holl wer *a fyddo* ar y perfedd;

10 A'r ddwy aren, a'r gwer *a fyddo* arnynt, hyd y tenewyn, a'r rhwyden oddi ar yr afu, ynghyd â'r arennau, a dyn efe ymaith.

11 A llosged yr offeiriad hyn ar yr allor: bwyd-aberth tanllyd i'r ARGLWYDD *ydyw.*

12 ¶ Ac os gafr *fydd* ei offrwm ef; dyged hi ger bron yr ARGLWYDD.

13 A gosoded ei law ar ei phen, a lladded hi o flaen pabell y cyfar-

fod; a thaenelled meibion Aaron ei gwaed hi ar yr allor o amgylch.
14 Ac offrymmed o hynny ei offrwm o aberth tanllyd i'r ARGLWYDD; sef y weren fol, a'r holl wer *a fyddo* ar y perfedd;
15 A'r ddwy aren, a'r gwer *a fyddo* arnynt, hyd y tenewyn, a'r rhwyden oddi ar yr afu, ynghyd â'r arennau, a dyn efe ymaith.
16 A llosged yr offeiriad hwynt ar yr allor: bwyd-aberth tanllyd o arogl peraidd *ydyw.* Yr holl wer *sydd eiddo* yr ARGLWYDD.
17 Deddf dragywyddol trwy eich cenhedlaethau yn eich holl anneddau, *yw:* na fwyttaoch ddim gwer, na dim gwaed.

PENNOD 4.

1 *Aberthau dros bechod,* 3 *a wnelai yr offeiriad,* 13 *neu yr holl gynnulleidfa,* 22 *neu y pennaeth,* 27 *neu y bobl, mewn anwybod.*

LLEFARODD yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pan becho dyn mewn anwybod yn erbyn yr un o orchymynion yr ARGLWYDD, a gwneuthur yn erbyn un o honynt y pethau ni ddylid eu gwneuthur:
3 Os offeiriad enneiniog a becha yn ol pechod y bobl; offrymmed, dros ei bechod a wnaeth, fustach ieuangc perffeith-gwbl, yn aberth dros bechod i'r ARGLWYDD.
4 A dyged y bustach i ddrws pabell y cyfarfod, ger bron yr ARGLWYDD, a gosoded ei law ar ben y bustach, a lladded y bustach ger bron yr ARGLWYDD.
5 A chymmered yr offeiriad enneiniog o waed y bustach, a dyged ef i babell y cyfarfod.
6 A throched yr offeiriad ei fys yn y gwaed, a thaenelled o'r gwaed ger bron yr ARGLWYDD seithwaith, o flaen gwahanlen y cyssegr.
7 A gosoded yn offeiriad *beth* o'r gwaed ger bron yr ARGLWYDD ar gyrn allor yr arogl-darth peraidd, yr hon *sydd* ym mhabell y cyfarfod; a thywallted holl waed *arall* y bustach wrth droed allor y poeth-offrwm, yr hon *sydd wrth* ddrws pabell y cyfarfod.
8 A thynned holl wer bustach yr aberth dros bechod oddi wrtho; y weren fol, a'r holl wer *fyddo* ar y perfedd;
9 A'r ddwy aren, a'r gwer *a fyddo* arnynt, hyd y tenewyn, a'r rhwyden oddi ar yr afu, a dyn efe ymaith, ynghyd â'r arennau;
10 Megis y tynnodd o fustach yr aberth hedd: a llosged yr offeiriad hwynt ar allor y poeth-offrwm.
11 Ond croen y bustach, a'i holl gig, ynghyd â'i ben, a'i draed, a'i berfedd, a'i fiswail,
12 A'r holl fustach hefyd, a ddwg efe allan i'r tu allan i'r gwersyll, i le glân, wrth dywalltfa y lludw; ac a'i llysg ar goed yn tân; wrth dywalltfa y lludw y llosgir ef.
13 ¶ Ac os holl gynnulleidfa Israel a becha mewn anwybod, a'r peth yn guddiedig o olwg y gynnulleidfa, a gwneuthur o honynt yn erbyn yr un o orchymynion yr ARGLWYDD, ddim o'r hyn ni ddylid eu gwneuthur, a myned yn euog:
14 Pan wypir y pechod y pechasant ynddo; yna offrymmed y gynnulleidfa fustach ieuangc dros y pechod, a dygant ef o flaen pabell y cyfarfod.
15 A gosoded henuriaid y gynnulleidfa eu dwylaw ar ben y bustach ger bron yr ARGLWYDD, a lladdant y bustach ger bron yr ARGLWYDD.
16 A dyged yr offeiriad enneiniog o waed y bustach i babell y cyfarfod.
17 A throched yr offeiriad ei fys yn y gwaed, a thaenelled ger bron yr ARGLWYDD seithwaith, o flaen y wahanlen.
18 A gosoded o'r gwaed ar gyrn yr allor *sydd* ger bron yr ARGLWYDD, *sef* yr hon *sydd* ym mhabell y cyfarfod; a thywallted yr holl waed *arall* wrth waelod allor y poeth-offrwm, yr hon sydd wrth ddrws pabell y cyfarfod.
19 A thynned ei holl wer allan o hono, a llosged ar yr allor.
20 A gwnaed i'r bustach hwn megis y gwnaeth i fustach y pech-aberth; felly gwnaed iddo: a'r offeiriad a wna gymmod drostynt; ac fe a faddeuir iddynt.
21 A dyged y bustach allan i'r tu allan i'r gwersyll, a llosged ef fel y llosgodd y bustach cyntaf. Dyma aberth dros bechod y gynnulleidfa.

22 ¶ Os pecha pennaeth, a gwneuthur mewn anwybod yn erbyn yr un o orchymynion yr ARGLWYDD ei DDUW, ddim o'r hyn ni ddylid eu gwneuthur, a bod yn euog;
23 Neu os daw i wybod ei fai yr hwn a wnaeth: dyged ei offrwm o lwdn gafr gwrryw perffeith-gwbl.
24 A gosoded ei law ar ben y llwdn, a lladded ef yn y lle *y lleddir* y poeth-offrwm, ger bron yr ARGLWYDD. Dyma aberth dros bechod.
25 A chymmered yr offeiriad o waed yr aberth dros bechod â'i fys, a gosoded ar gyrn allor y poeth-offrwm, a thywallted ei waed ef wrth waelod allor y poeth-offrwm.
26 A llosged ei holl wer ar yr allor, fel gwer yr aberth hedd: a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto am ei bechod; a maddeuir iddo.
27 ¶ Ac os pecha neb o bobl y wlad mewn anwybod, gan wneuthur yn erbyn yr un o orchymynion yr ARGLWYDD, ddim o'r *pethau* ni ddylid eu gwneuthur, a bod yn euog;
28 Neu os ei bechod yr hwn a bechodd a ddaw i'w wybodaeth ef: yna dyged ei offrwm o lwdn gafr fenyw berffeith-gwbl dros ei bechod a bechodd efe.
29 A gosoded ei law ar ben yr aberth dros bechod, a lladded yr aberth dros bechod yn y lle *y lleddir* y poeth-offrwm.
30 A chymmered yr offeiriad o'i gwaed hi â'i fys, a rhodded ar gyrn allor y poeth-offrwm, a thywallted ei holl waed hi wrth waelod yr allor.
31 A thynned ei holl wer hi, fel y tynnir y gwer oddi ar yr aberth hedd; a llosged yr offeiriad *ef* ar yr allor, yn arogl peraidd i'r ARGLWYDD: a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto; a maddeuir iddo.
32 Ac os dwg efe ei offrwm dros bechod o oen, dyged hi yn fenyw berffeith-gwbl.
33 A gosoded ei law ar ben yr aberth dros bechod, a lladded hi dros bechod yn y lle y lleddir y poeth-offrwm.
34 A chymmered yr offeiriad â'i fys o waed yr aberth dros bechod, a gosoded ar gyrn allor y poeth-offrwm, a thywallted ei holl waed hi wrth waelod yr allor.
35 A thynned ei holl wer hi, fel y tynnir gwer oen yr aberth hedd; a llosged yr offeiriad hwynt ar yr allor, fel aberth tanllyd i'r ARGLWYDD: a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto am ei bechod yr hwn a bechodd; a maddeuir iddo.

PENNOD 5.

1 Y neb a bechodd trwy gelu yr hyn a wypo, 2 trwy gyffwrdd â dim aflan; 4 neu trwy lw. 6 Ei offrwm dros ei gamwedd, 6 o'r praidd, 7 o'r adar, 11 o beillied. 14 Yr offrwm dros gamwedd mewn cyssegr-ladrad, 17 ac mewn pechodau o anwybod.

OS pecha dyn, a chlywed llais llw, ac yntau yn dyst, naill ai yn gweled ai yn gwybod; oni fynega, yna efe a ddwg ei anwiredd.
2 Os dyn a gyffwrdd â dim aflan, pa un bynnag ai burgyn bwystfil aflan, ai burgyn anifail aflan, ai burgyn ymlusgiad aflan; er *bod y peth* yn guddiedig oddi wrtho ef, aflan ac euog yw efe.
3 Neu pan gyffyrddo âg aflendid dyn, pa aflendid bynnag iddo, yr hwn y bydd efe aflan o'i blegid, a'r *peth* yn guddiedig rhagddo; pan gaffo wybod, yna euog yw.
4 Neu os dyn a dwng, gan draethu â'r gwefusau ar wneuthur drwg, neu wneuthur da; beth bynnag a draetho dyn trwy lw, a'r *peth* yn guddiedig rhagddo; pan gaffo efe wybod, euog yw o un o hyn.
5 A phan fyddo efe euog o un o hyn; yna cyffesed yr hyn y pechodd ynddo:
6 A dyged i'r ARGLWYDD ei offrwm dros gamwedd am ei bechod yr hwn a bechodd; *sef* benyw o'r praidd, oen neu fyn gafr, yn aberth dros bechod: a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto am ei bechod.
7 Ond os ei law ni chyrhaedd werth oen, dyged i'r ARGLWYDD, am ei gamwedd yr hwn a bechodd, ddwy durtur, neu ddau gyw colommen; y naill yn aberth dros bechod, a'r llall yn boeth-offrwm.
8 A dyged hwynt at yr offeiriad; ac offrymmed efe yr hwn *sydd* dros bechod yn gyntaf, a thorred ei ben wrth ei wegil; ond na thorred ef ymaith.
9 A thaenelled o waed yr aberth dros bechod ar ystlys yr allor; a gwasger y rhan arall o'r gwaed

wrth waelod yr allor. Dyma aberth dros bechod.

10 A'r ail a wna efe yn offrwm poeth, yn ol y ddefod: a'r offeiriad a wna gymmod drosto am ei bechod yr hwn a bechodd; a maddeuir iddo.

11 ¶ Ac os ei law ni chyrhaedd ddwy durtur, neu ddau gyw colommen; yna dyged yr hwn a bechodd ei offrwm o ddegfed ran ephah o beillied yn aberth dros bechod: na osoded olew ynddo, ac na roddded thus arno; canys aberth dros bechod *yw.*

12 A dyged hynny at yr offeiriad: a chymmered yr offeiriad o hono lonaid ei law yn goffadwriaeth, a llosged ar yr allor, fel ebyrth tanllyd i'r ARGLWYDD. Dyma aberth dros bechod.

13 A gwnaed yr offeiriad gymmod drosto ef am ei bechod a bechodd efe yn un o'r rhai hyn, a maddeuir iddo: a bydded i'r offeiriad y gweddill, megis *o'r* bwyd-offrwm.

14 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

15 Os gwna dyn gamwedd, a phechu trwy amryfusedd, yn y pethau a gyssegrwyd i'r ARGLWYDD; yna dyged i'r ARGLWYDD dros ei gamwedd, hwrdd perffeith-gwbl o'r praidd, gyd â'th bris di o siclau arian, yn ol sicl y cyssegr, yn aberth dros gamwedd.

16 A thaled am y niwed a wnaeth *yn* y peth cyssegredig, a rhodded ei bummed ran yn ychwaneg atto, a rhodded ef at yr offeiriad: a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto â hwrdd yr offrwm dros gamwedd; a maddeuir iddo.

17 ¶ Ac os pecha enaid, a gwneuthur *yn erbyn* gorchymynion yr ARGLWYDD, ddim o'r hyn ni ddylid eu gwneuthur; er na wyddai, etto euog fydd, a'i anwiredd a ddwg.

18 A dyged hwrdd perffeith-gwbl o'r praidd, gyd â'th bris di, at yr offeiriad, yn offrwm dros gamwedd: a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto am ei amryfusedd a gamgymmerodd efe, ac yntau heb wybod; a maddeuir iddo.

19 Aberth dros gamwedd *yw* hyn: camwedd a wnaeth yn ddiau yn erbyn yr ARGLWYDD.

PENNOD 6.

1 *Yr offrwm dros gamwedd mewn pechodau a wneler trwy wybod.* 8 *Cyfraith y poeth-offrwm,* 14 *a'r bwyd-offrwm.* 19 *Yr offrwm wrth gyssegru offeiriad.* 24 *Cyfraith y pech-offrwm.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Os pecha dyn, a gwneuthur camwedd yn erbyn yr ARGLWYDD, a dywedyd celwydd wrth ei gymmydog am yr hyn a rodded atto i'w gadw, neu am yr hyn y rhoddes efe ei law, neu yn yr hyn trwy drawsder a ddygodd efe, neu yn yr hyn y twyllodd ei gymmydog;

3 Neu os cafodd beth gwedi ei golli, a dywedyd celwydd am dano, neu dyngu yn anudon; am ddim o'r holl bethau a wnelo dyn, gan bechu ynddynt:

4 Yna, am iddo bechu, a bod yn euog; bydded iddo roddi yn ei ol y trais a dreisiodd efe, neu y peth a gafodd trwy dwyll, neu y peth a adawyd i gadw gyd âg ef, neu y peth wedi ei golli a gafodd efe,

5 Neu beth bynnag y tyngodd efe anudon am dano; taled hynny erbyn ei ben, a chwaneged ei bummed ran atto: ar y dydd yr offrymmo dros gamwedd, rhodded ef i'r neb a'i piau.

6 A dyged i'r ARGLWYDD ei offrwm dros gamwedd, hwrdd perffeith-gwbl o'r praidd, gyd â'th bris di, yn offrwm dros gamwedd, at yr offeiriad.

7 A gwnaed yr offeiriad gymmod drosto ger bron yr ARGLWYDD: a maddeuir iddo, am ba beth bynnag a wnaeth, i fod yn euog o hono.

8 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

9 Gorchymyn i Aaron, ac i'w feibion, gan ddywedyd, Dyma gyfraith y poeth-offrwm: (poeth-offrwm *yw,* o herwydd y llosgi ar yr allor ar hyd y nos hyd y bore, a thân yr allor a gynneuir arni.)

10 Gwisged yr offeiriad hefyd ei liein-wisg am dano, a gwisged lodrau llian am ei gnawd, a choded y lludw lle yr ysodd y tân y poeth-aberth ar yr allor, a gosoded ef ger llaw yr allor.

11 A diosged ei wisgoedd, a gwisged ddillad eraill, a dyged allan y

lludw i'r tu allan i'r gwersyll, i le glân.

12 A chynneuer y tân *sydd* ar yr allor arni; na ddiffodded: ond llosged yr offeiriad goed arni bob bore; a threfned y poeth-offrwm arni, a llosged wer yr aberth hedd arni.

13 Cynneuer y tân bob amser ar yr allor; na ddiffodded.

14 ¶ Dyma hefyd gyfraith y bwyd-offrwm. Dyged meibion Aaron ef ger bron yr ARGLWYDD, o flaen yr allor:

15 A choded o hono yn ei law o beillied y bwyd-offrwm, ac o'i olew, a'r holl thus yr hwn *fydd* ar y bwyd-offrwm; a llosged ei goffadwriaeth ef ar yr allor, yn arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

16 A'r gweddill o hono a fwytty Aaron a'i feibion: yn groyw y bwyttêir ef: yn y lle sanctaidd o fewn cynteddfa pabell y cyfarfod y bwyttânt ef.

17 Na phober ef trwy lefain. Rhoddais ef yn rhan *iddynt* o'm haberthau tanllyd: peth sanctaiddiolaf *yw* hyn, megis yr aberth dros bechod, a'r aberth dros gamwedd.

18 Pob gwrryw o blant Aaron a fwyttânt hyn: deddf dragywyddol fydd yn eich cenhedlaethau am aberthau tanllyd yr ARGLWYDD: pob un a gyffyrddo â hwynt, fydd sanctaidd.

19 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

20 Dyma offrwm Aaron a'i feibion, yr hwn a offrymmant i'r ARGLWYDD, ar y dydd yr enneinier ef. Degfed ran ephah o beillied yn fwyd-offrwm gwastadol, ei hanner y bore, a'i hanner brydnawn.

21 Gwneler ef trwy olew mewn padell: *yna* y dygi ef i mewn wedi ei grasu; ac offrymma ddarnau y bwyd-offrwm wedi ei grasu, yn arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

22 A'r offeiriad o'i feibion ef, yr hwn a enneinir yn ei le ef, gwnaed hyn, *trwy* ddeddf dragywyddol: llosger y cwbl i'r ARGLWYDD.

23 A phob bwyd-offrwm dros yr offeiriad a fydd wedi ei losgi oll: na fwyttâer ef.

24 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

25 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion, gan ddywedyd, Dyma gyfraith yr aberth dros bechod. Yn y lle y lleddir y poeth-offrwm, y lleddir yr aberth dros bechod ger bron yr ARGLWYDD: sancteiddiolaf *yw* efe.

26 Yr offeiriad a'i hoffrymmo dros bechod, a'i bwytty: yn y lle sanctaidd y bwyttêir ef, y'nghynteddfa pabell y cyfarfod.

27 Beth bynnag a gyffyrddo â'i gig ef, a fydd sanctaidd: a phan daeneller o'i waed ef ar ddilledyn, golch yn y lle sanctaidd yr hyn y taenellodd *y gwaed* arno.

28 A thorrer y llestr pridd y berwer ef ynddo: ond os mewn llestr pres y berwir ef, ysgwrier a golcher ef mewn dwfr.

29 Bwyttâed pob gwrryw ym mysg yr offeiriaid ef: sancteiddiolaf *yw* efe.

30 Ac na fwyttâer un offrwm dros bechod, yr hwn y dyger o'i waed i babell y cyfarfod, i wneuthur cymmod yn y lle sanctaidd; *ond* llosger mewn tân.

PENNOD 7.

1 *Cyfraith yr offrwm dros gamwedd,* 11 *a'r aberthau hedd:* 12 *pa un bynnag fo ai aberth diolch,* 16 *ai addunedol, ai rhodd o wirfodd.* 22 *Gwaharddâ y brasder,* 26 *a'r gwaed.* 28 *Rhan yr offeiriad o'r aberthau hedd.*

DYMA hefyd gyfraith yr offrwm dros gamwedd: sancteiddiolaf *yw.*

2 Yn y man lle y lladdant y poeth-offrwm, y lladdant yr aberth dros gamwedd; a'i waed a daenella efe ar yr allor o amgylch.

3 A'i holl wer a offrymma efe o hono; y gloren hefyd, a'r weren fol.

4 A'r ddwy aren, a'r gwer *fyddo* arnynt, hyd y tenewyn, a'r rhwyden oddi ar yr afu, ynghyd â'r arennau, a dyn efe ymaith.

5 A llosged yr offeiriad hwynt ar yr allor, yn aberth tanllyd i'r ARGLWYDD: aberth dros gamwedd *yw.*

6 Pob gwrryw ym mysg yr offeiriaid a'i bwytty: yn y lle sanctaidd y bwyttêir ef: sancteiddiolaf *yw.*

7 Fel *y mae* yr aberth dros bechod, felly *y bydd* yr aberth dros gamwedd; un gyfraith *sydd* iddynt: yr offeiriad, yr hwn a wna gymmod âg ef, a'i piau.

8 A'r offeiriad a offrymmo boeth-

offrwm neb, yr offeiriad a gaiff iddo ei hun groen y poeth-offrwm a offrymmodd efe.

9 A phob bwyd-offrwm a graser mewn ffwrn, a'r hyn oll a wneler mewn padell, neu ar radell, fydd eiddo yr offeiriad a'i hoffrymmo.

10 A phob bwyd-offrwm wedi ei gymmysgu trwy olew, neu yn sych, a fydd i holl feibion Aaron, bob un fel eu gilydd.

11 Dyma hefyd gyfraith yr ebyrth hedd a offrymma efe i'r ARGLWYDD.

12 Os yn lle dïolch yr offrymma efe hyn; offrymmed gyd â'r aberth dïolch deisennau croyw, wedi eu cymmysgu trwy olew; ac afrllad croyw, wedi eu hiro âg olew; a pheillied wedi ei grasu yn deisennau, wedi eu cymmysgu âg olew.

13 Heb law y teisennau, offrymmed fara lefeinllyd, *yn* ei offrwm, gyd â'i hedd-aberth o ddïolch.

14 Ac offrymmed o hyn un *dorth* o'r holl offrwm, yn offrwm dyrchafael i'r ARGLWYDD; *a* bydded *hwnnw* eiddo yr offeiriad a daenello waed yr ebyrth hedd.

15 A chig ei hedd-aberth o ddïolch a fwyttêir y dydd yr offrymmir ef: na adawer *dim* o hono hyd y bore.

16 Ond os adduned, neu offrwm gwirfodd, fydd aberth ei offrwm ef; y dydd yr offrymmo efe ei aberth, bwyttâer ef: a thrannoeth bwyttâer yr hyn fyddo yn weddill o hono.

17 Ond yr hyn a fyddo o gig yr aberth yn weddill y trydydd dydd, llosger yn tân.

18 Ac os bwyttêir dim o gig offrwm ei ebyrth hedd ef o fewn y trydydd dydd, ni byddir boddlawn i'r hwn a'i hoffrymmo ef, *ac* nis cyfrifir iddo, ffieiddbeth fydd: a'r dyn a fwytty o hono, a ddwg ei anwiredd.

19 A'r cig a gyffyrddo â dim aflan, ni fwyttêir; mewn tân y llosgir ef: a'r cig *arall*, pob glân a fwytty o hono.

20 A'r dyn a fwyttao gig yr hedd-aberth, yr hwn *a berthyn* i'r ARGLWYDD, a'i aflendid arno; torrir ymaith y dyn hwnnw o fysg ei bobl.

21 Ac os dyn a gyffwrdd â dim aflan, *sef* âg aflendid dyn, neu âg anifail aflan, neu âg un ffieiddbeth aflan, a bwytta o gig yr hedd-aberth, yr hwn *a berthyn* i'r ARGLWYDD; yna y torrir ymaith y dyn hwnnw o fysg ei bobl.

22 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

23 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Na fwyttêwch ddim gwer eidion, neu ddafad, neu afr.

24 Etto gwer burgyn, neu wer ysglyfaeth, a ellir ei weithio mewn pob gwaith; ond gan fwytta na fwyttêwch *ef*.

25 O herwydd pwy bynnag a fwyttao wer yr anifail, o'r hwn yr offrymmir aberth tanllyd i'r ARGLWYDD; torrir ymaith yr enaid a'i bwyttao o fysg ei bobl.

26 Na fwyttêwch chwaith ddim gwaed o fewn eich cyfanneddau, o'r eiddo aderyn, nac o'r eiddo anifail.

27 Pob enaid a fwyttao ddim gwaed, torrir ymaith yr enaid hwnnw o fysg ei bobl.

28 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

29 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Y neb a offrymmo ei aberth hedd i'r ARGLWYDD, dyged ei rodd o'i aberth hedd i'r ARGLWYDD.

30 Ei ddwylaw a ddygant ebyrth tanllyd yr ARGLWYDD; y gwer ynghyd â'r barwyden a ddwg efe; y barwyden *fydd* i'w chyhwfanu, yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD.

31 A llosged yr offeiriad y gwer ar yr allor: a bydded y barwyden i Aaron ac i'w feibion.

32 Rhoddwch hefyd y balfais ddehau yn offrwm dyrchafael i'r offeiriad, o'ch ebyrth hedd.

33 Yr hwn o feibion Aaron a offrymmo waed yr ebyrth hedd, a'r gwer; bydded iddo ef yr ysgwydd-og ddehau yn rhan.

34 O herwydd parwyden y cyhwfan, ac ysgwyddog y dyrchafael, a gymmerais i gan feibion Israel o'u hebyrth hedd, ac a'u rhoddais hwynt i Aaron yr offeiriad, ac i'w feibion, trwy ddeddf dragywyddol oddi wrth feibion Israel.

35 ¶ Hyn yw *rhan* enneiniad Aaron, ac enneiniad ei feibion, o ebyrth tanllyd yr ARGLWYDD, yn y dydd y nesaodd efe hwynt i offeiriadu i'r ARGLWYDD;

36 Yr hwn a orchymynodd yr ARGLWYDD ei roddi iddynt, y dydd yr enneiniodd efe hwynt allan o feibion Israel, *trwy* ddeddf dragywyddol, trwy eu cenhedlaethau.

37 Dyma gyfraith y poeth-offrwm, y bwyd-offrwm, a'r aberth dros bechod, a'r aberth dros gamwedd, a'r cyssegriadau, a'r aberth hedd;

38 Yr hon a orchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses ym mynydd Sinai, yn y dydd y gorchymynodd efe i feibion Israel offrymmu eu hoffrymmau i'r ARGLWYDD, yn anialwch Sinai.

PENNOD 8.

1 *Moses yn cyssegru Aaron a'i feibion.* 14 *Eu haberth dros bechod.* 18 *Eu poeth-offrwm.* 22 *Hwrdd y cyssegriadau.* 31 *Y lle a'r amser y cyssegrid hwynt.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Cymmer Aaron a'i feibion gyd âg ef, a'r gwisgoedd, ac olew yr enneiniad, a bustach yr aberth dros bechod, a dau hwrdd, a chawell y bara croyw:

3 A chasgl yr holl gynnulleidfa ynghyd i ddrws pabell y cyfarfod.

4 A gwnaeth Moses fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD iddo: a chasglwyd y gynnulleidfa i ddrws pabell y cyfarfod.

5 A dywedodd Moses wrth y gynnulleidfa, Dyma y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD ei wneuthur.

6 A Moses a ddug Aaron a'i feibion, ac a'u golchodd hwynt â dwfr.

7 Ac efe a roddes am dano ef y bais, ac a'i gwregysodd ef â'r gwregys, ac a wisgodd y fantell am dano, ac a roddes yr ephod am dano, ac a'i gwregysodd â gwregys cywraint yr ephod, ac a'i cauodd am dano ef.

8 Ac efe a osododd y ddwyfronneg arno, ac a roddes yr Urim a'r Thummim yn y ddwyfronneg.

9 Ac efe a osododd y meitr ar ei ben ef; ac a osododd ar y meitr, ar ei dalcen ef, y dalaith aur, y goron sanctaidd; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD i Moses.

10 A Moses a gymmerodd olew yr enneiniad, ac a enneiniodd y tabernacl, a'r hyn oll *oedd* ynddo; ac a'n cyssegrodd hwynt.

11 Ac a daenellodd o hono ar yr allor saith waith, ac a enneiniodd yr allor a'i holl lestri, a'r noe hefyd a'i throed, i'w cyssegru.

12 Ac efe a dywalltodd o olew yr enneiniad ar ben Aaron, ac a'i henneiniodd ef, i'w gyssegru.

13 A Moses a ddug feibion Aaron, ac a wisgodd beisiau am danynt, a gwregysodd hwynt â gwregysau, ac a osododd gapiau am eu pennau; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

14 Ac efe a ddug fustach yr aberth dros bechod: ac Aaron a'i feibion a roddasant eu dwylaw ar ben bustach yr aberth dros bechod;

15 Ac efe *a'i* lladdodd: a Moses a gymmerth y gwaed, ac a'i rhoddes ar gyrn yr allor o amgylch â'i fys, ac a burodd yr allor; ac a dywalltodd y gwaed wrth waelod yr allor, ac a'i cyssegrodd hi, i wneuthur cymmod arni.

16 Efe a gymmerodd hefyd yr holl wer *oedd* ar y perfedd, a'r rhwyden oddi ar yr afu, a'r ddwy aren a'u gwer; a Moses a'i llosgodd ar yr allor.

17 A'r bustach, a'i groen, a'i gig, a'i fiswail, a losgodd efe mewn tân o'r tu allan i'r gwersyll: fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

18 ¶ Ac efe a ddug hwrdd y poeth-offrwm: ac Aaron a'i feibion a osodasant eu dwylaw ar ben yr hwrdd:

19 Ac efe a'i lladdodd; a Moses a daenellodd y gwaed ar yr allor o amgylch.

20 Ac efe a dorrodd yr hwrdd yn ei ddarnau; a llosgodd Moses y pen, y darnau, a'r gwer.

21 Ond y perfedd a'r traed a olchodd efe mewn dwfr; a llosgodd Moses yr hwrdd oll ar yr allor. Poeth-offrwm *yw* hwn, i *fod* yn arogl peraidd ac yn aberth tanllyd i'r ARGLWYDD; fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD i Moses.

22 ¶ Ac efe a ddug yr ail hwrdd, sef hwrdd y cyssegriad: ac Aaron a'i feibion a osodasant eu dwylaw ar ben yr hwrdd.

23 Ac efe a'i lladdodd; a Moses a gymmerodd o'i waed, ac a'i rhoddes ar gwr isaf clust ddehau Aaron,

ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed dehau.

24 Ac efe a ddug feibion Aaron: a Moses a roes o'r gwaed ar gwr isaf eu clust ddehau, ac ar fawd eu llaw ddehau, ac ar fawd eu troed dehau; a thaenellodd Moses y gwaed ar yr allor oddi amgylch.

25 Ac efe a gymmerodd hefyd y gwer, a'r gloren, a'r holl wer *oedd* ar y perfedd, a'r rhwyden oddi ar yr afu, a'r ddwy aren a'u brasder, a'r ysgwyddog ddehau.

26 A chymmerodd o gawell y bara croyw, yr hwn *oedd* ger bron yr ARGLWYDD, un deisen groyw, ac un deisen o fara olewedig, ac un afrlladen; ac a'u gosododd ar y gwer, ac ar yr ysgwyddog ddehau:

27 Ac a roddes y cwbl ar ddwylaw Aaron, ac ar ddwylaw ei feibion, ac a'u cyhwfanodd hwynt yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD.

28 A Moses a'u cymmerth oddi ar eu dwylaw hwynt, ac a'u llosgodd ar yr allor, ar yr offrwm poeth. Dyma gyssegriadau o arogl peraidd: dyma aberth tanllyd i'r ARGLWYDD.

29 Cymmerodd Moses y barwyden hefyd, ac a'i cyhwfanodd yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD: rhan Moses o hwrdd y cyssegriad oedd hi; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

30 A chymmerodd Moses o olew yr enneiniad, ac o'r gwaed *oedd* ar yr allor, ac a'i taenellodd ar Aaron, ar ei wisgoedd, ar ei feibion hefyd, ac ar wisgoedd ei feibion ynghyd âg ef: ac efe a gyssegrodd Aaron, a'i wisgoedd, a'i feibion hefyd, a gwisgoedd ei feibion ynghyd âg ef.

31 ¶ A dywedodd Moses wrth Aaron, ac wrth ei feibion, Berwch y cig *wrth* ddrws pabell y cyfarfod: ac yno bwyttêwch ef, a'r bara hefyd *sydd* y'nghawell y cyssegriadau; megis y gorchymynais, gan ddywedyd, Aaron a'i feibion a'i bwytty ef.

32 A'r gweddill o'r cig, ac o'r bara, a losgwch yn tân.

33 Ac nac ewch dros saith niwrnod allan o ddrws pabell y cyfarfod, hyd y dydd y cyflawner dyddiau eich cyssegriadau: o herwydd saith niwrnod y bydd efe yn eich cyssegru chwi.

34 Megis y gwnaeth efe heddyw, y gorchymynodd yr ARGLWYDD wneuthur, i wneuthur cymmod drosoch.

35 Ac arhoswch *wrth* ddrws pabell y cyfarfod saith niwrnod, ddydd a nos, a chedwch wyliadwriaeth yr ARGLWYDD, fel na byddoch feirw: canys fel hyn y'm gorchymynwyd.

36 A gwnaeth Aaron a'i feibion yr holl bethau a orchymynodd yr ARGLWYDD trwy law Moses.

PENNOD 9.

1 Yr offrymmau cyntaf a offrymmodd Aaron drosto ei hun a'r bobl. 8 Y pech-offrwm, 12 a'r poeth-offrwm drosto ei hun. 15 Yr offrymmau dros y bobl. 23 Moses ac Aaron yn bendithio y bobl. 24 Tân yn dyfod oddi wrth yr Arglwydd ar yr allor.

YNA y bu, ar yr wythfed dydd, i Moses alw Aaron a'i feibion, a henuriaid Israel;

2 Ac efe a ddywedodd wrth Aaron, Cymmer i ti lo ieuangc yn aberth dros bechod, a hwrdd yn boeth-offrwm, o rai perffeith-gwbl, a dwg *hwy* ger bron yr ARGLWYDD.

3 Llefarodd hefyd wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Cymmerwch fyn gafr, yn aberth dros bechod; a llo, ac oen, blwyddiaid, perffeith-gwbl, yn boeth-offrwm;

4 Ac eidion, a hwrdd, yn aberth hedd, i aberthu ger bron yr ARGLWYDD; a bwyd-offrwm wedi ei gymmysgu trwy olew: o herwydd heddyw yr ymddengys yr ARGLWYDD i chwi.

5 ¶ A dygasant yr hyn a orchymynodd Moses ger bron pabell y cyfarfod: a'r holl gynnulleidfa a ddaethant yn agos, ac a safasant ger bron yr ARGLWYDD.

6 A dywedodd Moses, Dyma y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD i chwi ei wneuthur; ac ymddengys gogoniant yr ARGLWYDD i chwi.

7 Dywedodd Moses hefyd wrth Aaron, Dos at yr allor, ac abertha dy aberth dros bechod, a'th boeth-offrwm, a gwna gymmod drosot dy hun, a thros y bobl; ac abertha offrwm y bobl, a gwna gymmod drostynt; fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD.

8 ¶ Yna y nesaodd Aaron at yr allor, ac a laddodd lo yr aberth

dros bechod, yr hwn *oedd* drosto ef ei hun.

9 A meibion Aaron a ddygasant y gwaed atto: ac efe a wlychodd ei fys yn y gwaed, ac a'i gosododd ar gyrn yr allor, ac a dywalltodd y gwaed *arall* wrth waelod yr allor.

10 Ond efe a losgodd ar yr allor o'r aberth dros bechod y gwer a'r arennau, a'r rhwyden oddi ar yr afu; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

11 A'r cig a'r croen a losgodd efe yn tân, o'r tu allan i'r gwersyll.

12 Ac efe a laddodd y poeth-offrwm: a meibion Aaron a ddygasant y gwaed atto; ac efe a'i taenellodd ar yr allor o amgylch.

13 A dygasant y poeth-offrwm atto, gyd â'i ddarnau, a'i ben hefyd; ac efe a'u llosgodd hwynt ar yr allor.

14 Ac efe a olchodd y perfedd a'r traed, ac a'u llosgodd hwynt ynghyd â'r offrwm poeth ar yr allor.

15 ¶ Hefyd efe a ddug offrwm y bobl; ac a gymmerodd fwch yr aberth dros bechod y bobl, ac a'i lladdodd, ac a'i hoffrymmodd dros bechod, fel y cyntaf.

16 Ac efe a ddug y poeth-offrwm, ac a'i hoffrymmodd yn ol y ddefod.

17 Ac efe a ddug y bwyd-offrwm; ac a lanwodd ei law o hono, ac a'i llosgodd ar yr allor, heb law poeth-offrwm y bore.

18 Ac efe a laddodd y bustach a'r hwrdd, yn aberth hedd, yr hwn *oedd* dros y bobl: a meibion Aaron a ddygasant y gwaed atto; ac efe a'i taenellodd ar yr allor o amgylch.

19 *Dygasant* hefyd wer y bustach a'r hwrdd, y gloren, a'r weren fol, a'r arennau, a'r rhwyden oddi ar yr afu.

20 A gosodasant y gwer ar y parwydennau; ac efe a losgodd y gwer ar yr allor.

21 Y parwydennau hefyd, a'r ysgwyddog ddehau, a gyhwfanodd Aaron yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD; fel y gorchymynodd Moses.

22 A chododd Aaron ei law tu ag at y bobl, ac a'u bendithiodd; ac a ddaeth i waered o wneuthur yr aberth dros bechod, a'r poeth-offrwm, a'r ebyrth hedd.

23 A Moses ac Aaron a aethant i babell y cyfarfod; a daethant allan, ac a fendithiasant y bobl: a gogoniant yr ARGLWYDD a ymddángosodd i'r holl bobl.

24 A daeth tân allan oddi ger bron yr ARGLWYDD, ac a ysodd y poeth-offrwm, a'r gwer, ar yr allor: a gwelodd yr holl bobl; a gwaeddasant, a chwympasant ar eu hwyneb au.

PENNOD 10.

1 Nadab ac Abihu, am offrymmu tân dieithr, a losgir gan dân. 6 Gwarafun i Aaron ac i'w feibion alaru am danynt. 8 Gwahardd gwin i'r offeiriaid pan fônt ar fyned i'r babell. 12 Y gyfraith ynghylch bwytta pethau sanctaidd. 19 Esgus Aaron am ei throseddu.

YNA Nadab ac Abihu, meibion Aaron, a gymmerasant bob un ei thusser, ac a roddasant dân ynddynt, ac a osodasant arogl-darth ar hynny; ac a offrymmasant ger bron yr ARGLWYDD dân dïeithr yr hwn ni orchymynasai efe iddynt.

2 A daeth tân allan oddi ger bron yr ARGLWYDD, ac a'u difaodd hwynt; a buant feirw ger bron yr ARGLWYDD.

3 A dywedodd Moses wrth Aaron, Dyma yr hyn a lefarodd yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Mi a sanctei ddir yn y rhai a nesânt attaf, a cher bron yr holl bobl y'm gogoneddir. A thewi a wnaeth Aaron.

4 A galwodd Moses Misael ac Elsaphan, meibion Ussiel, ewythr Aaron, a dywedodd wrthynt, Deuwch yn nês; dygwch eich brodyr oddi ger bron y cyssegr, allan o'r gwersyll.

5 A nesâu a wnaethant, a'u dwyn hwynt yn eu peisiau allan o'r gwersyll; fel y llefarasai Moses.

6 A dywedodd Moses wrth Aaron, ac wrth Eleasar ac wrth Ithamar ei feibion, Na ddïosgwch oddi am eich pennau, ac na rwygwch eich gwisgoedd; rhag i chwi farw, a dyfod digofaint ar yr holl gynnulleidfa: ond wyled eich brodyr chwi, holl dŷ Israel, am y llosgiad a losgodd yr ARGLWYDD.

7 Ac nac ewch allan o ddrws pabell y cyfarfod; rhag i chwi farw: o herwydd *bod* olew enneiniad yr ARGLWYDD arnoch chwi. A gwnaethant fel y llefarodd Moses.

8 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrth Aaron, gan ddywedyd,
9 Gwin a dïod gadarn nac ŷf di, na'th feibion gyd â thi, pan ddeloch i babell y cyfarfod; fel na byddoch feirw. Deddf dragywyddol trwy eich cenhedlaethau *fydd hyn:*
10 A *hynny* er gwahanu rhwng cyssegredig a digyssegredig, a rhwng aflan a glân;
11 Ac i ddysgu i feibion Israel yr holl ddeddfau a lefarodd yr ARGLWYDD wrthynt trwy law Moses.
12 ¶ A llefarodd Moses wrth Aaron, ac wrth Eleasar ac wrth Ithamar, y rhai a adawsid o'i feibion ef, Cymmerwch y bwyd-offrwm sydd y'ngweddill o ebyrth tanllyd yr ARGLWYDD, a bwyttêwch yn groyw ger llaw yr allor: o herwydd sanctteiddiolaf *yw.*
13 A bwyttêwch ef yn y lle sanctaidd: o herwydd dy ran di, a rhan dy feibion di, o ebyrth tanllyd yr ARGLWYDD, *yw* hyn: canys fel hyn y'm gorchymynwyd.
14 Y barwyden gyhwfan hefyd, a'r ysgwyddog ddyrchafael, a fwyttêwch mewn lle glân; tydi, a'th feibion, a'th ferched, ynghyd â thi: o herwydd hwynt a roddwyd yn rhan i ti, ac yn rhan i'th feibion di, o ebyrth hedd meibion Israel.
15 Yr ysgwyddog ddyrchafael, a'r barwyden gyhwfan, a ddygant ynghyd âg ebyrth tanllyd o'r gwer, i gyhwfanu offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD: a bydded i ti, ac i'th feibion gyd â thi, yn rhan dragywyddol; fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD.
16 ¶ A Moses a geisiodd yn ddyfal fwch yr aberth dros bechod; ac wele ef wedi ei losgi: ac efe a ddigiodd wrth Eleasar ac Ithamar, y rhai a adawsid o feibion Aaron, gan ddywedyd,
17 Paham na fwyttasoch yr aberth dros bechod yn y lle sanctaidd; o herwydd sancteiddiolaf *yw,* a *DUW* a'i rhoddodd i chwi, i ddwyn anwiredd y gynnulleidfa, gan wneuthur cymmod drostynt, ger bron yr ARGLWYDD?
18 Wele, ni ddygwyd ei waed ef i fewn y cyssegr: ei fwytta a ddylasech yn y cyssegr; fel y gorchymynais.
19 A dywedodd Aaron wrth Moses, Wele, heddyw yr offrymmasant eu haberth dros bechod, a'u poethoffrwm, ger bron yr ARGLWYDD; ac fel hyn y digwyddodd i mi; am hynny os bwyttâwn aberth dros bechod heddyw, a fyddai hynny dda y'ngolwg yr ARGLWYDD?
20 A phan glybu Moses *hynny,* efe a fu foddlawn.

PENNOD 11.

1 Pa anifeiliaid a eltir, 4 a pha rai ni ellir eu bwytta. 9 Pa bysgod hefyd, 13 a pha adar. 29 Pa ymlusgiaid sydd aflan.

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd wrthynt,
2 Llefarwch wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Dyma yr anifeiliaid a fwyttêwch, o'r holl anifeiliaid *sydd* ar y ddaear.
3 Beth bynnag a hollto yr ewin, ac a fforchogo hollt yr ewinedd, ac a gno ei gil, o'r anifeiliaid; hwnnw a fwyttêwch.
4 Ond y rhai hyn ni fwyttêwch; o'r rhai a gnoant eu cil ac o'r rhai a holltant yr ewin: y camel, er ei fod yn cnoi *ei* gil, am nad yw yn hollti yr ewin; aflan *fydd* i chwi.
5 A'r gwningen, am ei bod yn cnoi *ei* chil, ac heb fforchogi yr ewin; aflan *yw* i chwi.
6 A'r ysgyfarnog, am ei bod yn cnoi *ei* chil, ac heb fforchogi yr ewin; aflan *yw* i chwi.
7 A'r llwdn hwch, am ei fod yn hollti yr ewin, ac yn fforchogi fforchogedd yr ewin, a heb gnoi *ei* gil; aflan *yw* i chwi.
8 Na fwyttêwch o'u cig hwynt, ac na chyffyrddwch â'u burgyn hwynt: aflan *ydynt* i chwi.
9 ¶ Hyn a fwyttêwch o bob dim a'r sydd yn y dyfroedd: pob peth *y mae* iddo esgyll a chen, yn y dyfroedd, yn y moroedd, ac yn yr afonydd; y rhai hynny a fwyttêwch.
10 A phob dim nid *oes* iddo esgyll a chen, yn y moroedd, ac yn yr afonydd, o bob dim a ymsymmudo yn y dyfroedd, ac o bob peth byw, y rhai *fyddant* yn y dyfroedd; byddant ffiaidd gennych.
11 Byddant ffiaidd gennych: na

fwyttêwch o'u cig hwynt, a ffieiddiwch eu burgyn hwy.
12 Yr hyn oll yn y dyfroedd ni *byddo* esgyll a chen iddo, ffieiddbeth fydd i chwi.
13 ¶ A'r rhai hyn a ffieiddiwch chwi o'r adar; na fwyttêwch *hwynt*, ffieidd-dra ydynt: sef yr eryr, a'r wyddwalch, a'r fôr-wennol;
14 A'r fwltur, a'r barcud yn ei ryw;
15 Pob cigfran yn ei rhyw;
16 A chyw yr estrys, a'r fran nos, a'r gog, a'r gwalch yn ei ryw;
17 Ac aderyn y cyrph, a'r fulfran, a'r dylluan,
18 A'r gogfran, a'r pelican, a'r bïogen,
19 A'r ciconia, a'r crŷr yn ei ryw, a'r gornchwigl, a'r ystlum.
20 Pob ehediad a ymlusgo *ac* a gerddo ar bedwar troed, ffieidd-dra yw i chwi.
21 Ond hyn a fwyttêwch, o bob ehediad a ymlusgo, ac a gerddo ar bedwar *troed*, yr hwn y byddo coesau iddo oddi ar ei draed, i neidio wrthynt ar hyd y ddaear;
22 O'r rhai hynny y rhai hyn a fwyttêwch: y locust yn ei ryw, a'r selam yn ei ryw, a'r hargol yn ei ryw, a'r hagab yn ei ryw.
23 A phob ehediad *arall* a ymlusgo, yr hwn *y mae* pedwar troed iddo, ffieidd-dra fydd i chwi.
24 Ac am y rhai hyn y byddwch aflan: pwy bynnag a gyffyrddo â'u burgyn hwynt, a fydd aflan hyd yr hwyr.
25 A phwy bynnag a ddygo ddim o'u burgyn hwynt, golched ei ddillad; ac aflan fydd hyd yr hwyr.
26 Am bob anifail fydd yn holltì yr ewin, ac heb ei fforchogi, ac heb gnoi ei gil, aflan yw y rhai hynny i chwi; aflan fydd pob un a gyffyrddo â hwynt.
27 Pob un hefyd a gerddo ar ei balfau, o bob anifail a gerddo ar bedwar *troed*, aflan ydynt i chwi: pob un a gyffyrddo â'u burgyn, a fydd aflan hyd yr hwyr.
28 A'r hwn a ddygo eu burgyn hwynt, golched ei ddillad; a bydded aflan hyd yr hwyr: aflan ydynt i chwi.
29 ¶ A'r rhai hyn sydd aflan i chwi o'r ymlusgiaid a ymlusgo ar y ddaear: y wengci, a'r llygoden, a'r llyffant yn ei ryw;
30 A'r draenog, a'r lysárd, a'r ystelio, a'r falwoden, a'r wadd.
31 Y rhai hyn ydynt aflan i chwi o bob ymlusgiaid: pob dim a gyffyrddo â hwynt pan fyddant feirw, a fydd aflan hyd yr hwyr.
32 A phob dim y cwympo *un* o honynt arno, wedi marw, a fydd aflan; pob llestr pren, neu wisg, neu groen, neu sach, pob llestr y gwnelir dim gwaith ynddo, rhoddder mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr: felly y bydd lân.
33 A phob llestr pridd yr hwn y syrthio *un* o'r rhai hyn i'w fewn, aflan fydd yr hyn oll *fydd* o'i fewn; a thorrwch yntau.
34 Aflan fydd pob bwyd a fwyttêir, o'r hwn y dêl dwfr *aflan* arno; ac aflan fydd pob dïod a yfir mewn llestr *aflan*.
35 Ac aflan fydd pob dim y cwympo *dim* o'u burgyn arno; y ffwrn a'r badell a dorrir: aflan ydynt, ac aflan fyddant i chwi.
36 Etto glân fydd y ffynnon a'r pydew, lle mae dyfroedd lawer: ond yr hyn a gyffyrddo â'u burgyn, a fydd aflan.
37 Ac os syrth *dim* o'u burgyn hwynt ar ddim had hauedig, yr hwn a heuir; glân *yw* efe.
38 Ond os rhoddir dwfr ar yr had, a syrthio dim o'u burgyn hwynt arno ef; aflan *fydd* efe i chwi.
39 Ac os bydd marw un anifail a'r sydd i chwi yn fwyd; yr hwn a gyffyrddo â'i furgyn ef, a fydd aflan hyd yr hwyr.
40 A'r hwn a fwytty o'i furgyn ef, golched ei ddillad; a bydded aflan hyd yr hwyr; a'r hwn a ddygo ei furgyn ef, golched ei ddillad; a bydded aflan hyd yr hwyr.
41 A phob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear, fydd ffieidd-dra: na fwyttâer ef.
42 Pob peth a gerddo ar ei dor, a phob peth a gerddo ar bedwar *troed*, a phob peth aml ei draed, o bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear, na fwyttêwch hwynt: canys ffieidd-dra *ydynt*.
43 Na wnewch eich eneidiau yn

ffiaidd oblegid un ymlusgiad a ymlusgo, ac na fyddwch aflan o'u plegid, fel y byddech aflan o'u herwydd.

44 O herwydd myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi: ymsanctei ddiwch a byddwch sanctaidd; o herwydd sanctaidd *ydwyf* fi: ac nac aflanhêwch eich eneidiau wrth un ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear.

45 Canys myfi *yw* yr ARGLWYDD, yr hwn a'ch dug chwi o dir yr Aipht, i fod yn DDUW i chwi: byddwch chwithau sanctaidd; canys sanctaidd *ydwyf* fi.

46 Dyma gyfraith yr anifeiliaid, a'r ehediaid, a phob peth byw a'r sydd yn ymsymmud yn y dyfroedd, ac am bob peth byw a'r sydd yn ymlusgo ar y ddaear;

47 I wneuthur gwahan rhwng yr aflan a'r glân, a rhwng yr anifail a fwyttêir a'r hwn nis bwyttêir.

PENNOD 12.

1 *Puredigaeth gwraig ar ol esgor.* 6 *Ei hoffrymmau am ei phuredigaeth.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Os gwraig a feichioga, ac a esgor ar wrryw; yna bydded aflan saith niwrnod: fel dyddiau gwahaniaeth ei mis-glwyf y bydd hi aflan.

3 A'r wythfed dydd yr enwaedir ar gnawd ei ddienwaediad ef.

4 A thri diwrnod ar ddeg ar hugain yr erys y'ngwaed ei phuredigaeth: na chyffyrdded â dim sanctaidd, ac na ddeued i'r cyssegr, nes cyflawni dyddiau ei phuredigaeth.

5 Ond os ar fenyw yr esgor hi; yna y bydd hi aflan bythefnos, megis *yn* ei gwahaniaeth: a chwe diwrnod a thri ugain yr erys yng ngwaed ei phuredigaeth.

6 A phan gyflawner dyddiau ei phuredigaeth ar fab neu ferch; dyged oen blwydd yn offrwm poeth, a chyw colommen, neu durtur, yn aberth dros bechod, at yr offeiriad, i ddrws pabell y cyfarfod:

7 Ac offrymmed efe hynny ger bron yr ARGLWYDD, a gwnaed gymmod drosti: a hi a lanhêir oddi wrth gerddediad ei gwaed. Dyma gyfraith yr hon a esgor ar wrryw neu ar fenyw.

8 Ac os ei llaw ni chyrhaedd werth oen, yna cymmered ddwy durtur, neu ddau gyw colommen; y naill yn offrwm poeth, a'r llall yn aberth dros bechod: a gwnaed yr offeiriad gymmod drosti; a glân fydd.

PENNOD 13.

1 *Y deddfau a'r arwyddion wrth ba rai y cyfarwyddir yr offeiriad i adnabod y gwahan-glwyf.*

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,

2 Dyn (pan fyddo y'nghroen ei gnawd chŵydd, neu grammen, neu ddisgleirder, a bod y'nghroen ei gnawd ef *megis* pla y clwyf gwahanol,) a ddygir at Aaron yr offeiriad, neu at un o'i feibion ef yr offeiriaid.

3 A'r offeiriad a edrych ar y pla y'nghroen y cnawd: os y blewyn yn y pla fydd wedi troi yn wyn, a gwelediad y pla yn ddyfnach na chroen ei gnawd ef; pla gwahanglwyf *yw* hwnnw: a'r offeiriad a'i hedrych, ac a'i barn yn aflan.

4 Ond os y disgleirdeb fydd gwyn y'nghroen ei gnawd ef, ac heb fod yn îs ei welediad na'r croen, a'i flewyn heb droi yn wyn; yna caued yr offeiriad ar y clwyfus saith niwrnod.

5 A'r seithfed dydd edrycher yr offeiriad ef: ac wele, os sefyll y bydd y pla yn ei olwg ef, heb ledu o'r pla yn y croen; yna caued yr offeiriad arno saith niwrnod eilwaith.

6 Ac edrycher yr offeiriad ef yr ail seithfed dydd: ac wele, *os bydd* y pla yn odywyll, heb ledu o'r pla yn y croen; yna barned yr offeiriad ef yn lân: crammen *yw* honno: yna golched ei wisgoedd, a glân fydd.

7 Ac os y grammen gan ledu a leda yn y croen, wedi i'r offeiriad ei weled, i'w farnu yn lân; dangoser ef eilwaith i'r offeiriad.

8 Ac *os* gwel yr offeiriad, ac wele, ledu o'r grammen yn y croen; yna barned yr offeiriad ef yn aflan: gwahan-glwyf *yw*.

9 ¶ Pan fyddo ar ddyn bla gwahanglwyf, dyger ef at yr offeiriad;

10 Ac edrycher yr offeiriad: yna, *os* chŵydd gwyn *a fydd* yn y croen, a

hwnnw wedi troi y blewyn yn wyn, a dim cig noeth byw yn y chŵydd;
11 Hen wahan-glwyf *yw* hwnnw y'nghroen ei gnawd ef; a barned yr offeiriad ef yn aflan: na chaued arno; o herwydd y mae efe yn aflan.
12 Ond os y gwahan-glwyf gan darddu a dardda yn y croen, a gorchuddio o'r gwahan-glwyf holl groen y clwyfus, o'i ben hyd ei draed, pa le bynnag yr edrycho yr offeiriad;
13 Yna edrychedd yr offeiriad: ac wele, *os* y gwahan-glwyf fydd yn cuddio ei holl gnawd ef; yna barned *yr offeiriad* y clwyfus yn lân: trodd yn wyn i gyd: glân *yw*.
14 A'r dydd y gwelir ynddo gig byw, aflan fydd.
15 Yna edrychedd yr offeiriad ar y cig byw, a barned ef yn aflan: aflan *yw* y cig byw hwnnw; gwahan-glwyf *yw*.
16 Neu os dychwel y cig byw, a throi yn wyn; yna deued at yr offeiriad:
17 Ac edrychedd yr offeiriad arno: ac wele, *os* trodd y pla yn wyn; yna barned yr offeiriad y clwyfus yn lân: glân *yw* efe.
18 ¶ Y cnawd hefyd y bu ynddo gornwyd yn ei groen, a'i iachâu;
19 A bod yn lle y cornwyd chŵydd gwyn, neu ddisgleirder gwyn-goch, a'i ddangos i'r offeiriad:
20 Os, pan edrycho yr offeiriad arno, y gwelir ef yn îs na'r croen, a'i flewyn wedi troi yn wyn; yna barned yr offeiriad ef yn aflan: gwahan-glwyf *yw* efe wedi tarddu o'r cornwyd.
21 Ond os yr offeiriad a'i hedrych; ac wele, ni bydd ynddo flewyn gwyn, ac ni bydd îs na'r croen, ond ei fod yn odywyll; yna caued yr offeiriad arno saith niwrnod.
22 Ac os gan ledu y lleda yn y croen; yna barned yr offeiriad ef yn aflan: pla *yw* efe.
23 Ond os y disgleirder a saif yn ei le, heb ymledu, craith cornwyd *yw* efe; a barned yr offeiriad ef yn lân.
24 ¶ Os cnawd fydd a llosgiad yn y croen, a bod i'r cig byw sydd yn llosgi, ddisgleirder gwyn-goch, neu wyn;
25 Yna edrychedd yr offeiriad ef: ac wele, *os* blewyn yn y disgleirdeb fydd wedi troi yn wyn, ac yn îs i'w weled na'r croen; gwahan-glwyf *yw* hwnnw yn tarddu o'r llosgiad; a barned yr offeiriad ef yn aflan: pla gwahan-glwyf *yw* hwnnw.
26 Ond os yr offeiriad a'i hedrych; ac wele, ni *bydd* blewyn gwyn yn y disgleirder, ac ni *bydd* îs na'r croen, ond ei fod yn odywyll; yna caued yr offeiriad arno saith niwrnod.
27 Ac edrychedd yr offeiriad ef y seithfed dydd: os gan ledu y lledodd yn y croen; yna barned yr offeiriad ef yn aflan: pla gwahan-glwyf *yw* hwnnw.
28 Ac os y disgleirdeb a saif yn ei le, heb ledu yn y croen, ond ei fod yn odywyll; chŵydd y llosgiad *yw* efe; barned yr offeiriad ef yn lân: canys craith y llosgiad *yw* hwnnw.
29 ¶ Os bydd gŵr neu wraig a phla arno mewn pen neu farf;
30 Yna edrychedd yr offeiriad y pla: ac wele, os îs y gwelir na'r croen, a blewyn melyn main ynddo; yna barned yr offeiriad ef yn aflan: y ddufrech *yw* hwnnw; gwahan-glwyf pen neu farf *yw*.
31 Ac os yr offeiriad a edrych ar bla y ddufrech; ac wele, ni bydd yn îs ei weled na'r croen, ac heb flewyn du ynddo; yna caued yr offeiriad ar *yr hwn y bo arno* y ddufrech, saith niwrnod.
32 Ac edrychedd yr offeiriad ar y pla y seithfed dydd: ac wele, *os* y ddufrech ni bydd wedi lledu, ac ni bydd blewyn melyn ynddi, a heb fod yn îs gweled y ddufrech na'r croen;
33 Yna eillier ef, ac nac eillied *y fan y byddo* y ddufrech; a chaued yr offeiriad ar *berchen* y ddufrech saith niwrnod eilwaith.
34 A'r seithfed dydd edrychedd yr offeiriad ar y ddufrech: ac wele, *os* y ddufrech ni ledodd yn y croen, ac ni bydd îs ei gweled na'r croen; yna barned yr offeiriad ef yn lân, a golched ei ddillad, a glân fydd.
35 Ond os y ddufrech gan ledu a leda yn y croen, wedi ei lanhâu ef;
36 Yna edrychedd yr offeiriad ef: ac wele, os lledodd y ddufrech yn y croen, na chwilied yr offeiriad am y blewyn melyn: *y mae* efe yn aflan.

37 Ond os sefyll y bydd y ddufrech yn ei olwg ef, a blewyn du wedi tyfu ynddi; aeth y ddufrech yn iach, glân *yw* hwnnw; a barned yr offeiriad ef yn lân.

38 ¶ Os bydd y'nghroen cnawd gŵr neu wraig lawer o ddisglaer fannau gwynion;

39 Yna edrycheb yr offeiriad: ac wele, *os* bydd y'nghroen eu cnawd hwynt ddisgleiriadau gwynion wedi gordduo; brychni *yw* hynny yn tarddu yn y croen: glân *yw* efe.

40 A gŵr pan syrthio gwallt ei ben, moel *yw; etto* glân fydd.

41 Ac os o du ei wyneb y syrth gwallt ei ben, efe a fydd tal-foel; *etto* glân *fydd* efe.

42 Ond pan fyddo anafod gwyngoch yn y pen-foeledd neu yn y tal-foeledd; gwahan-glwyf *yw* efe yn tarddu yn ei ben-foeledd, neu yn ei dal-foeledd ef.

43 Ac edrycheb yr offeiriad arno: ac wele, *os* bydd chŵydd yr anafod yn wyn-goch, yn ei ben-foeledd, neu yn ei dal-foeledd ef, fel gwelediad gwahan-glwyf y'nghroen y cnawd;

44 Gŵr gwahan-glwyfus *yw* hwnnw, aflan *yw;* a'r offeiriad a'i barna ef yn llwyr-aflan: yn ei ben *y mae* ei bla.

45 A'r gwahan-glwyfus yr hwn y byddo pla arno, bydded ei wisgoedd ef wedi rhwygo, a'i ben yn noeth, a rhodded gaead ar ei wefus uchaf, a llefed, Aflan, aflan.

46 Yr holl ddyddiau *y byddo* y pla arno, bernir ef yn aflan: aflan *yw* efe: triged ei hunan; *bydded* ei drigfa allan o'r gwersyll.

47 ¶ Ac os dilledyn fydd a phla gwahan-glwyf ynddo, o ddilledyn gwlan, neu o ddilledyn llin,

48 Pa un bynnag ai yn yr ystof, ai yn yr anwe, o lin, neu o wlan, neu mewn croen, neu mewn dim a wnaed o groen;

49 Os gwyrddlas neu goch fydd yr anafod yn y dilledyn, neu yn y croen, neu yn yr ystof, neu yn yr anwe, neu mewn dim o groen: pla y gwahan-glwyf *yw* efe; a dangoser ef i'r offeiriad.

50 Ac edrycheb yr offeiriad ar y pla; a chaued ar y peth y bo y pla arno, saith niwrnod.

51 A'r seithfed dydd edrycheb ar y pla: os y pla a ledodd yn y dilledyn, pa un bynnag ai mewn ystof, ai mewn anwe, ai mewn croen, neu beth bynnag a wnaed o groen; gwahan-glwyf ysol *yw* y pla; aflan *yw.*

52 Am hynny llosged y dilledyn hwnnw, pa un bynnag ai ystof, ai anwe, o wlan, neu o lin, neu ddim o groen, yr hwn y byddo pla ynddo: canys gwahan-glwyf ysol *yw* efe; llosger yn tân.

53 Ac os edrych yr offeiriad; ac wele, ni ledodd y pla mewn dilledyn, mewn ystof, neu mewn anwe, neu ddim o groen;

54 Yna gorchymyned yr offeiriad iddynt olchi *yr hyn y byddo* y pla ynddo, a chaued arno saith niwrnod eilwaith.

55 Ac edrycheb yr offeiriad ar y pla wedi ei olchi: ac wele, *os* y pla ni throdd ei liw, ac ni ledodd y pla; efe *a fydd* aflan; llosg ef yn tân; ysiad *yw,* pa un bynnag y bo yn llwm ai o'r tu mewn ai o'r tu allan.

56 Ac os edrych yr offeiriad; ac wele y pla yn odywyll, ar ol ei olchi; yna torred ef allan o'r dilledyn, neu o'r croen, neu o'r ystof, neu o'r anwe.

57 Ond os gwelir ef etto yn y dilledyn, yn yr ystof, neu yn yr anwe, neu mewn dim o groen; tarddu y mae efe: llosg yr hwn *y mae* y pla ynddo yn tân.

58 A'r dilledyn, neu yr ystof, neu yr anwe, neu pa beth bynnag o groen, y rhai a olcher, os ymadawodd y pla â hwynt, a olchir eilwaith; a glân *fydd.*

59 Dyma gyfraith pla gwahan-glwyf, mewn dilledyn gwlan, neu lin, mewn ystof, neu anwe, neu pa beth bynnag o groen, i'w farnu yn lân, neu i'w farnu yn aflan.

PENNOD 14.

1 Y seremoniau a'r aberthau wrth lanhau y gwahan-glwyfus. 33 Arwyddion y gwahan-glwyf mewn tŷ. 48 Y modd y glanhêir y tŷ hwnnw.

LLEFARODD yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Dyma gyfraith y gwahan-glwyfus, y dydd y glanhêir ef. Dyger ef at yr offeiriad:

3 A'r offeiriad a ddaw allan o'r

gwersyll; ac edryched yr offeiriad: ac wele, *os* pla y gwahan-glwyf a iachaodd ar y gwahan-glwyfus;

4 Yna gorchymyned yr offeiriad i'r hwn a lanhêir, gymmeryd dau aderyn y tô, byw *a* glân, a choed cedr, ac ysgarlad, ac isop.

5 A gorchymyned yr offeiriad ladd y naill aderyn y tô mewn llestr pridd, oddi ar ddwfr rhedegog.

6 A chymmered efe yr aderyn byw, a'r coed cedr, a'r ysgarlad, a'r isop, a throched hwynt a'r aderyn byw hefyd y'ngwaed yr aderyn a laddwyd oddi ar y dwfr rhedegog.

7 A thaenelled seithwaith ar yr hwn a lanhêir oddi wrth y gwahanglwyf, a barned ef yn lân; yna gollynged yr aderyn byw yn rhydd ar wyneb y maes.

8 A golched yr hwn a lanhêir ei ddillad, ac eillied ei holl flew, ac ymolched mewn dwfr; a glân fydd: a deued wedi hynny i'r gwersyll, a thriged o'r tu allan i'w babell saith niwrnod.

9 A'r seithfed dydd bydded iddo eillio ei holl flew, *sef* ei ben, a'i farf, ac aeliau ei lygaid; ïe, eillied ei holl flew; a golched ei ddillad, a golched ei gnawd mewn dwfr; a glân fydd.

10 A'r wythfed dydd cymmered ddau oen perffeith-gwbl, ac un hespin flwydd berffeith-gwbl, a thair degfed ran o beillied, yn fwydd-offrwm, wedi ei gymmysgu trwy olew, ac un log o olew.

11 A gosoded yr offeiriad a lanhao, y gŵr a lanhêir, a hwynt hefyd, ger bron yr ARGLWYDD, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod.

12 A chymmered yr offeiriad un hespwrn, ac offrymmed ef yn aberth dros gamwedd, a'r log o olew, a chyhwfaned hwynt yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD.

13 A lladded ef yr oen yn y lle y lladder y pech-aberth, a'r poeth-offrwm; *sef* yn y lle sanctaidd: o herwydd yr aberth dros gamwedd *sydd* eiddo yr offeiriad, yn gystal a'r pech-aberth: sancteiddiolaf *yw*.

14 A chymmered yr offeiriad o waed yr aberth dros gamwedd, a rhodded yr offeiriad ef ar gwr isaf clust ddehau yr hwn a lanhêir, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed dehau ef.

15 A chymmered yr offeiriad o'r log olew, a thywallted ar gledr ei law aswy ei hun:

16 A gwlyched yr offeiriad ei fys dehau yn yr olew *fyddo* ar ei law aswy, a thaenelled o'r olew â'i fys seithwaith ger bron yr ARGLWYDD.

17 Ac o weddill yr olew *fyddo* ar ei law, y dŷd yr offeiriad ar gwr isaf clust ddehau yr hwn a lanhêir, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed dehau, ar waed yr offrwm dros gamwedd.

18 A'r rhan arall o'r olew *fyddo* ar law yr offeiriad, a rydd efe ar ben yr hwn a lanhêir; a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto ger bron yr ARGLWYDD.

19 Ïe, offrymmed yr offeiriad aberth dros bechod, a gwnaed gymmod dros yr hwn a lanhêir oddi wrth ei aflendid; ac wedi hynny lladded y poeth-offrwm.

20 Ac aberthed yr offeiriad y poeth-offrwm, a'r bwyd-offrwm, ar yr allor; a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto; a glân fydd.

21 Ond os tlawd *fydd*, a'i law heb gyrhaeddyd *hyn*; yna cymmered un oen, yn aberth dros gamwedd, i'w gyhwfanu, i wneuthur cymmod drosto, ac un ddegfed ran o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew yn fwyd-offrwm, a log o olew;

22 A dwy durtur, neu ddau gyw colommen, y rhai a gyrhaeddo ei law; a bydded un yn bech-aberth, a'r llall yn boeth-offrwm.

23 A dyged hwynt yr wythfed dydd i'w lanhâu ef at yr offeiriad, wrth ddrws pabell y cyfarfod, ger bron yr ARGLWYDD.

24 A chymmered yr offeiriad oen yr offrwm dros gamwedd, a'r log olew, a chyhwfaned yr offeiriad hwynt yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD.

25 A lladded oen yr offrwm dros gamwedd; a chymmered yr offeiriad o waed yr offrwm dros gamwedd, a rhodded ar gwr isaf clust ddehau yr hwn a lanhêir, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed dehau.

26 A thywallted yr offeiriad o'r olew ar gledr ei law aswy ei hun:
27 Ac â'i fys dehau taenelled yr offeiriad, o'r olew *fyddo* ar gledr ei law aswy, seithwaith ger bron yr ARGLWYDD.
28 A rhodded yr offeiriad o'r olew *a fyddo* ar gledr ei law, ar gwr isaf clust ddehau yr hwn a lanhêir, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed dehau, ar y man *y byddo* gwaed yr offrwm dros gamwedd.
29 A'r rhan arall o'r olew *fyddo* ar gledr llaw yr offeiriad, a rydd efe ar ben yr hwn a lanhêir, i wneuthur cymmod drosto ger bron yr ARGLWYDD.
30 Yna offrymmed un o'r turturau, neu o'r cywion colommennod, *sef* o'r rhai a gyrhaeddo ei law ef;
31 Y rhai, *meddaf*, a gyrhaeddo ei law ef, un yn bech-aberth, ac un yn boeth-offrwm, ynghyd â'r bwydoffrwm: a gwnaed yr offeiriad gymmod dros yr hwn a lanhêir ger bron yr ARGLWYDD.
32 Dyma gyfraith yr un *y byddo* pla y gwahan-glwyf arno, yr hwn ni chyrhaedd ei law yr hyn a berthyn i'w lanhâd.
33 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,
34 Pan ddeloch i dir Canaan, yr hwn yr ydwyf yn ei roddi i chwi yn feddiant, os rhoddaf bla gwahanglwyf ar dŷ *o fewn* tir eich meddiant;
35 A dyfod o'r hwn biau y tŷ, a dangos i'r offeiriad, gan ddywedyd, Gwelaf megis pla yn y tŷ:
36 Yna gorchymyned yr offeiriad iddynt arloesi y tŷ, cyn dyfod yr offeiriad i weled y pla; fel na haloger yr hyn oll *a fyddo* yn tŷ: ac wedi hynny deued yr offeiriad i edrych y tŷ;
37 Ac edrychedar y pla: ac wele, *os* y pla *fydd* ym mharwydydd y tŷ, yn agennau gwyrddleision, neu gochion, a'r olwg arnynt yn îs na'r pared;
38 Yna aed yr offeiriad allan o'r tŷ, i ddrws y tŷ, a chaued y tŷ saith niwrnod.
39 A'r seithfed dydd deued yr offeiriad drachefn, ac edrychedd: ac *os* lledodd y pla ym mharwydydd y tŷ;
40 Yna gorchymyned yr offeiriad iddynt dynnu y cerrig *y byddo* y pla arnynt, a bwriant hwynt allan o'r ddinas i le aflan.
41 A phared grafu y tŷ o'i fewn o amgylch; a thywalltant y llwch a grafont, o'r tu allan i'r ddinas i le aflan.
42 A chymmerant gerrig eraill, a gosodant yn lle y cerrig hynny; a chymmered bridd arall, a phriddded y tŷ.
43 Ond os daw y pla drachefn, a tharddu yn y tŷ, wedi tynnu y cerrig, ac wedi crafu y tŷ, ac wedi priddo;
44 Yna doed yr offeiriad, ac edrychedd: ac wele, *os* lledodd y pla yn y tŷ, gwahan-glwyf ysol *yw* hwnnw yn y tŷ: aflan *yw* efe.
45 Yna tynned y tŷ i lawr, ei gerrig, a'i goed, a holl bridd y tŷ; a bwried i'r tu allan i'r ddinas i le aflan.
46 A'r hwn a ddêl i'r tŷ yr holl ddyddiau y parodd efe ei gau, efe a fydd aflan hyd yr hwyr.
47 A'r hwn a gysgo yn y tŷ, golched ei ddillad: felly yr hwn a fwyttao yn y tŷ, golched ei ddillad.
48 Ac os yr offeiriad gan ddyfod a ddaw, ac a edrych; ac wele, ni ledodd y pla yn y tŷ, wedi priddo y tŷ: yna barned yr offeiriad y tŷ yn lân, o herwydd iachâu y pla.
49 A chymmered i lanhâu y tŷ ddau aderyn y tô, a choed cedr, ac ysgarlad, ac isop.
50 A lladded y naill aderyn mewn llestr pridd, oddi ar ddwfr rhedegog.
51 A chymmered y coed cedr, a'r isop, a'r ysgarlad, a'r aderyn byw, a throched hwynt y'ngwaed yr aderyn a laddwyd, ac yn y dwfr rhedegog, a thaenelled ar y tŷ seithwaith.
52 A glanhâed y tŷ â gwaed yr aderyn, ac â'r dwfr rhedegog, ac â'r aderyn byw, ac â'r coed cedr, ac â'r isop, ac â'r ysgarlad.
53 A gollynged yr aderyn byw allan o'r ddinas ar wyneb y maes, a gwnaed gymmod dros y tŷ; a glân fydd.
54 Dyma gyfraith am bob pla y clwyf gwahanol, ac am y ddufrech,
55 Ac am wahan-glwyf gwisg, a thŷ,

56 Ac am chŵydd, a chrammen, a disgleirdeb;
57 I ddysgu pa bryd *y bydd* aflan, a pha bryd *yn* lân. Dyma gyfraith y gwahan-glwyf.

PENNOD 15.

1 *Aflendid gwŷr yn eu diferlif.* 13 *Eu puredigaeth.* 19 *Aflendid gwragedd yn eu diferlif;* 28 *a'u puredigaeth.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,
2 Llefarwch wrth feibion Israel, a dywedwch wrthynt, Pob un pan fyddo diferlif yn rhedeg o'i gnawd, *a fydd* aflan oblegid ei ddiferlif.
3 A hyn fydd ei aflendid yn ei ddiferlif: os ei gnawd ef a ddifera ei ddiferlif, neu ymattal o'i gnawd ef oddi wrth ei ddiferlif; ei aflendid ef *yw* hyn.
4 Pob gwely y gorweddo ynddo un diferllyd, a fydd aflan; ac aflan fydd pob peth yr eisteddo efe arno.
5 A'r neb a gyffyrddo â'i wely ef, golched ei ddillad, ac ymdroched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
6 A'r hwn a eisteddo ar ddim yr eisteddodd y diferllyd arno, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
7 A'r hwn a gyffyrddo â chnawd y diferllyd, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
8 A phan boero y diferllyd ar un glân, golched *hwnnw* ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
9 Ac aflan fydd pob cyfrwy y marchogo y diferllyd ynddo.
10 A phwy bynnag a gyffyrddo â dim a fu dano, bydd aflan hyd yr hwyr: a'r hwn a'u dycco hwynt, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
11 A phwy bynnag y cyffyrddo y diferllyd âg ef, heb olchi ei ddwylaw mewn dwfr, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
12 A'r llestr pridd y cyffyrddo y diferllyd âg ef, a ddryllir: a phob llestr pren a olchir mewn dwfr.
13 A phan lanhêir y diferllyd oddi wrth ei ddiferlif; yna cyfrifed iddo saith niwrnod i'w lanhâu, a golched ei ddillad, a golched ei gnawd mewn dwfr rhedegog, a glân fydd.
14 A'r wythfed dydd cymmered iddo ddwy durtur, neu ddau gyw colommen, a deued ger bron yr ARGLWYDD, i ddrws pabell y cyfarfod, a rhodded hwynt i'r offeiriad.
15 Ac offrymmed yr offeiriad hwynt, un yn bech-aberth, a'r llall yn boeth-offrwm: a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto ef am ei ddiferlif, ger bron yr ARGLWYDD.
16 Ac os gŵr a ddaw oddi wrtho ddisgyniad had; yna golched ei holl gnawd mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
17 A phob dilledyn, a phob croen, y byddo disgyniad had arno, a olchir mewn dwfr, ac a fydd aflan hyd yr hwyr.
18 A'r wraig y cysgo gŵr *mewn* disgyniad had gyd â hi; ymolchant mewn dwfr, a byddant aflan hyd yr hwyr *ill dau.*
19 ¶ A phan fyddo gwraig a diferlif arni, a bod ei diferlif yn ei chnawd yn waed; bydded saith niwrnod yn ei gwahaniaeth: a phwy bynnag a gyffyrddo â hi, bydd aflan hyd yr hwyr.
20 A'r hyn oll y gorweddo hi arno yn ei gwahaniaeth, fydd aflan; a'r hyn oll yr eisteddo hi arno, a fydd aflan.
21 A phwy bynnag a gyffyrddo â'i gwely hi, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
22 A phwy bynnag a gyffyrddo â dim yr eisteddodd hi arno, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.
23 Ac os ar y gwely *y bydd* efe, neu ar ddim y byddo hi yn eistedd arno, wrth gyffwrdd âg ef; hyd yr hwyr y bydd efe aflan.
24 Ond os gŵr gan gysgu a gwsg gyd â hi, fel y byddo o'i mis-glwyf hi arno ef; aflan fydd efe saith niwrnod, ac aflan fydd yr holl wely y gorwedd efe arno.
25 A phan fyddo diferlif ei gwaed yn rhedeg ar wraig lawer o ddyddiau, allan o amser ei hanhwyl, neu

pan redo diferlif arni ar ol ei hanhwyl; bydded holl ddyddiau diferlif ei haflendid hi megis dyddiau ei gwahaniaeth: aflan *fydd* hi.

26 Pob gwely y gorweddo hi arno holl ddyddiau ei diferlif, *fydd* iddi fel gwely ei mis-glwyf; a phob dodrefnyn yr eisteddo hi arno fydd aflan, megis aflendid ei mis-glwyf hi.

27 A phwy bynnag a gyffyrddo â hwynt, aflan fydd; a golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

28 Ac os glanhêir hi o'i diferlif; yna cyfrifed iddi saith niwrnod: ac wedi hynny glân fydd.

29 A'r wythfed dydd cymmered iddi ddwy durtur, neu ddau gyw colommen, a dyged hwynt at yr offeiriad, i ddrws pabell y cyfarfod.

30 Ac offrymmed yr offeiriad un yn bech-aberth, a'r llall yn boeth-offrwm; a gwnaed yr offeiriad gymmod drosti ger bron yr ARGLWYDD, am ddiferlif ei haflendid.

31 Felly y neilluwch blant Israel oddi wrth eu haflendid, fel na byddant feirw yn eu haflendid, pan halogant fy mhabell yr hon *sydd* yn eu mysg.

32 Dyma gyfraith yr hwn y byddo y diferlif arno, a'r hwn y daw oddi wrtho ddisgyniad had, fel y byddo aflan o'u herwydd;

33 A'r glaf o'i mis-glwyf, a'r neb y byddo y diferlif arno, o wrryw, ac o fenyw, ac i'r gŵr a orweddo ynghyd â'r hon a fyddo aflan.

PENNOD 16.

1 *Y modd y mae i'r arch-offeiriad fyned i mewn i'r cyssegr.* 11 *Y pech-aberth drosto ei hun.* 15 *Y pech-aberth dros y bobl.* 20 *Yr afr ddiangol.* 29 *Gwyl y cymmod bob blwyddyn.*

LLEFARODD yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, wedi marwolaeth dau fab Aaron, pan offrymmasant ger bròn yr ARGLWYDD, ac y buant feirw;

2 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Llefara wrth Aaron dy frawd, na ddelo bob amser i'r cyssegr o fewn y wahanlen, ger bron y drugareddfa *sydd* ar yr arch; fel na byddo efe farw: o herwydd mi a ymddangosaf ar y drugareddfa yn y cwmmwl.

3 A hyn y daw Aaron i'r cyssegr: â bustach ieuangc yn bech-aberth, ac â hwrdd yn boeth-offrwm.

4 Gwisged bais lïan sanctaidd, a bydded llodrau llïan am ei gnawd, a gwregyser ef â gwregys llïan, a gwisged feitr llïan: gwisgoedd sanctaidd *yw* y rhai hyn; golched yntau ei gnawd mewn dwfr, pan wisgo hwynt.

5 A chymmered gan gynnulleidfa meibion Israel ddau lwdn gafr yn bech-aberth, ac un hwrdd yn boeth-offrwm.

6 Ac offrymmed Aaron fustach y pech-aberth *a fyddo* drosto ei hun, a gwnaed gymmod drosto ei hun, a thros ei dŷ.

7 A chymmered y ddau fwch, a gosoded hwynt ger bron yr ARGLWYDD, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod.

8 A rhodded Aaron goelbrennau ar y ddau fwch; un coelbren dros yr ARGLWYDD, a'r coelbren arall dros y bwch dïangol.

9 A dyged Aaron y bwch y syrthiodd coelbren yr ARGLWYDD arno, ac offrymmed ef yn bech-aberth.

10 A'r bwch y syrthiodd arno y coelbren i fod yn fwch dïangol, a roddir i sefyll yn fyw ger bron yr ARGLWYDD, i wneuthur cymmod âg ef, *ac* i'w ollwng i'r anialwch yn fwch dïangol.

11 A dyged Aaron fustach y pech-aberth *a fyddo* drosto ei hun, a gwnaed gymmod drosto ei hun, a thros ei dŷ; a lladded fustach y pech-aberth *a fyddo* drosto ei hun:

12 A chymmered lonaid thusser o farwor tanllyd oddi ar yr allor, oddi ger bron yr ARGLWYDD, a llonaid ei ddwylaw o arogl-darth peraidd mân, a dyged o fewn y wahanlen:

13 A rhodded yr arogl-darth ar y tân, ger bron yr ARGLWYDD; fel y cuddio mwg yr arogl-darth y drugareddfa, yr hon *sydd* ar y dystiolaeth, ac na byddo efe farw:

14 A chymmered o waed y bustach, a thaenelled â'i fys ar y drugareddfa tu a'r dwyrain: a saith waith y taenella efe o'r gwaed â'i fys o flaen y drugareddfa.

15 ¶ Yna lladded fwch y pech-

aberth *fydd* dros y bobl, a dyged ei waed ef o fewn y wahanlen; a gwnaed *â'i* waed ef megis ag y gwnaeth â gwaed y bustach, a thaenelled ef ar y drugareddfa, ac o flaen y drugareddfa:

16 A glanhâed y cyssegr oddi wrth aflendid meibion Israel, ac oddi wrth eu hanwireddau, yn eu holl bechodau: a gwnaed yr un modd i babell y cyfarfod, yr hon sydd yn aros gyd â hwynt, ym mysg eu haflendid hwynt.

17 Ac na fydded un dyn ym mhabell y cyfarfod, pan ddelo efe *i mewn* i wneuthur cymmod yn y cyssegr, hyd oni ddelo efe allan, a gwneuthur o hono ef gymmod drosto ei hun, a thros ei dŷ, a thros holl gynnulleidfa Israel.

18 Ac aed efe allan at yr allor *sydd* ger bron yr ARGLWYDD, a gwnaed gymmod arni; a chymmered o waed y bustach, ac o waed y bwch, a rhodded ar gyrn yr allor oddi amgylch.

19 A thaenelled arni o'r gwaed seithwaith â'i fys, a glanhâed hi, a sancteiddied hi oddi wrth aflendid meibion Israel.

20 ¶ A phan ddarffo iddo lanhâu y cyssegr, a phabell y cyfarfod, a'r allor, dyged y bwch byw:

21 A gosoded Aaron ei ddwylaw ar ben y bwch byw, a chyffesed arno holl anwiredd meibion Israel, a'u holl gamweddau hwynt yn eu holl bechodau; a rhodded hwynt ar ben y bwch, ac anfoned *ef ymaith* yn llaw gŵr cymmwys i'r anialwch.

22 A'r bwch a ddwg eu holl anwiredd hwynt arno, i dir neilduaeth: am hynny hebrynged efe y bwch i'r anialwch.

23 Yna deued Aaron i babell y cyfarfod, a dïosged y gwisgoedd llïan a wisgodd efe wrth ddyfod i'r cyssegr, a gadawed hwynt yno.

24 A golched ei gnawd mewn dwfr yn y lle sanctaidd, a gwisged ei ddillad, ac aed allan, ac offrymmed ei boeth-offrwm ei hun, a phoeth-offrwm y bobl, a gwnaed gymmod drosto ei hun, a thros y bobl.

25 A llosged wer y pech-aberth ar yr allor.

26 A golched yr hwn a anfonodd y bwch *i fod* yn fwch dïangol, ei ddillad, a golched ei gnawd mewn dwfr; ac yna deued i'r gwersyll.

27 A bustach y pech-aberth, a bwch y pech-aberth, y rhai y dygwyd eu gwaed i wneuthur cymmod yn y cyssegr, a ddwg *un* i'r tu allan i'r gwersyll; a hwy a losgant eu crwyn hwynt, a'u cnawd, a'u biswail, yn tân.

28 A golched yr hwn a'u llosgo hwynt ei ddillad, golched hefyd ei gnawd mewn dwfr; wedi hynny deued i'r gwersyll.

29 ¶ A bydded *hyn* yn ddeddf dragywyddol i chwi: y seithfed mis, ar y degfed *dydd* o'r mis, y cystuddiwch eich eneidiau, a dim gwaith nis gwnewch, y prïodor a'r dïeithr a fyddo yn ymdaith yn eich plith.

30 O herwydd y dydd hwnnw y gwna *yr offeiriad* gymmod drosoch, i'ch glanhâu o'ch holl bechodau, *fel* y byddoch lân ger bron yr ARGLWYDD.

31 Sabbath gorphwysdra *yw* hwn i chwi; yna cystuddiwch eich eneidiau, trwy ddeddf dragywyddol.

32 A'r offeiriad, yr hwn a enneinio efe, a'r hwn a gyssegro efe, i offeiriadu yn lle ei dad, a wna y cymmod, ac a wisg y gwisgoedd llïan, *sef* y gwisgoedd sanctaidd:

33 Ac a lanhâ y cyssegr sanctaidd, ac a lanhâ babell y cyfarfod, a'r allor; ac a wna gymmod dros yr offeiriaid, a thros holl bobl y gynnulleidfa.

34 A bydded hyn yn ddeddf dragywyddol i chwi, i wneuthur cymmod dros feibion Israel, am eu pechodau oll, un waith yn y flwyddyn. Ac efe a wnaeth megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses.

PENNOD 17.

1 *Rhaid yw offrwm i'r Arglwydd, wrth ddrws y babell, waed yr holl anifeiliaid a leddir.* 7 *Ni wasanaetha iddynt aberthu i gythreuliaid.* 10 *Gwaharddir bwytta gwaed,* 15 *a phob peth a fo marw ei hun, neu a ysgliwfaethwyd.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth Aaron, ac wrth ei feibion, ac wrth holl feibion Israel, a dywed wrthynt, Dyma y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

3 Pob un o dŷ Israel a laddo ŷch, neu oen, neu afr, o fewn y gwersyll, neu a laddo allan o'r gwersyll,
4 Ac heb ei ddwyn i ddrws pabell y cyfarfod, i offrymmu offrwm i'r ARGLWYDD, o flaen tabernacl yr ARGLWYDD; gwaed a fwrir yn erbyn y gŵr hwnnw; gwaed a dywalltodd efe: a thorrir y gŵr hwnnw ymaith o blith ei bobl.
5 O herwydd yr hwn beth, dyged meibion Israel eu haberthau y rhai y maent yn eu haberthu ar wyneb y maes; ïe, dygant hwynt i'r ARGLWYDD, i ddrws pabell y cyfarfod, at yr offeiriad, ac aberthant hwynt yn aberthau hedd i'r ARGLWYDD.
6 A thaenelled yr offeiriad ygwaed ar allor yr ARGLWYDD, wrth ddrws pabell y cyfarfod, a llosged y gwer yn arogl peraidd i'r ARGLWYDD.
7 Ac nac aberthant eu haberthau mwy i gythreuliaid, y rhai y buant yn putteinio ar eu hol. Deddf dragywyddol fydd hyn iddynt, trwy eu cenhedlaethau.
8 ¶ Dywed gan hynny wrthynt, Pwy bynnag o dŷ Israel, ac o'r dïeithriaid a ymdeithio yn eich mysg, a offrymmo boeth-offrwm, neu aberth,
9 Ac nis dwg ef i ddrws pabell y cyfarfod, i'w offrymmu i'r ARGLWYDD; torrir ymaith y gŵr hwnnw o blith ei bobl.
10 ¶ A phwy bynnag o dŷ Israel, ac o'r dïeithriaid a ymdeithio yn eich mysg, a fwyttao ddim gwaed; myfi a osodaf fy wyneb yn erbyn yr enaid a fwyttao waed, a thorraf ef ymaith o fysg ei bobl.
11 O herwydd einioes y cnawd sydd yn y gwaed; a mi a'i rhoddais i chwi ar yr allor, i wneuthur cymmod dros eich eneidiau; o herwydd y gwaed hwn a wna gymmod dros yr enaid.
12 Am hynny y dywedais wrth feibion Israel, Na fwyttâed un enaid o honoch waed; a'r dïeithr a ymdeithio yn eich mysg, na fwyttâed waed.
13 A phwy bynnag o feibion Israel, neu o'r dïeithriaid a ymdeithio yn eu mysg, a helio helfa o fwystfil, neu o aderyn a fwyttâer; tywallted ymaith ei waed ef, a chuddied ef â llwch.
14 O herwydd einioes pob cnawd yw ei waed; yn lle ei einioes ef y mae: am hynny y dywedais wrth feibion Israel, Na fwyttêwch waed un cnawd; o herwydd einioes pob cnawd yw ei waed: pwy bynnag a'i bwyttao, a dorrir ymaith.
15 A phob dyn a'r a fwyttao y peth a fu farw o *hono ei hun*, neu ysglyfaeth, pa un bynnag ai prïodor, ai dïeithrddyn; golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr: yna glân fydd.
16 Ond *os* efe nis gylch *hwynt*, ac ni ylch ei gnawd; yna y dwg efe ei anwiredd.

PENNOD 18.

1 Priodasau anglyfreithlawn. 19 Chwantau anglyfreithlawn.

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW.
3 Na wnewch yn ol gweithredoedd gwlad yr Aipht, yr hon y trigasoch ynddi; ac na wnewch yn ol gweithredoedd gwlad Canaan, yr hon yr ydwyf yn eich dwyn chwi iddi; ac na rodiwch yn eu deddfau hwynt.
4 Fy marnedigaethau i a wnewch, a'm deddfau a gedwch, i rodio ynddynt: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW.
5 Ië, cedwch fy neddfau a'm barnedigaethau: a'r dyn a'u cadwo, a fydd byw ynddynt: myfi *yw* yr ARGLWYDD.
6 ¶ Na nesâed neb at gyfnesaf ei gnawd, i ddinoethi *eu* noethni: myfi *yw* yr ARGLWYDD.
7 Noethni dy dad, neu noethni dy fam, na ddinoetha: dy fam yw hi, na ddinoetha ei noethni.
8 Na ddinoetha noethni gwraig dy dad: noethni dy dad *yw*.
9 Noethni dy chwaer, merch dy dad, neu ferch dy fam, yr hon a anwyd gartref, neu a anwyd allan; na ddinoetha eu noethni hwynt.
10 Noethni merch dy fab, neu ferch dy ferch; na ddinoetha eu noethni hwynt: canys dy noethni di *ydyw*.
11 Noethni merch gwraig dy dad, plentyn dy dad, dy chwaer dithau *yw* hi; na ddinoetha ei noethni hi.

12 Na ddinoetha noethni chwaer dy dad: cyfnesaf dy dad *yw* hi.
13 Na ddinoetha noethni chwaer dy fam: canys cyfnesaf dy fam *yw* hi.
14 Na noetha noethni brawd dy dad; sef na nesâ at ei wraig ef: dy fodryb *yw* hi.
15 Na noetha noethni dy waudd: gwraig dy fab *yw* hi; na noetha ei noethni hi.
16 Na ddinoetha noethni gwraig dy frawd: noethni dy frawd *yw*.
17 Na noetha noethni gwraig a'i merch; na chymmer ferch ei mab hi, neu ferch ei merch hi, i noethi ei noethni hi: ei chyfnesaf hi *yw* y rhai hyn: ysgelerder *yw* hyn.
18 Hefyd na chymmer wraig ynghyd â'i chwaer, i'w chystuddio *hi*, gan noethi noethni honno gyd â'r llall, yn ei byw hi.
19 Ac na nesâ at wraig yn neilldduaeth ei haflendid, i noethi ei noethni hi.
20 Ac na chyd-orwedd gyd â gwraig dy gymmydog, i fod yn aflan o'i phlegid.
21 Ac na ddod o'th had i fyned trwy *dân* i Moloch: ac na haloga enw dy DDUW: myfi *yw* yr ARGLWYDD.
22 Ac na orwedd gyd â gwrryw, fel gorwedd gyd â benyw: ffieiddra *yw* hynny.
23 Ac na chyd-orwedd gyd âg un anifail, i fod yn aflan gyd âg ef; ac na safed gwraig o flaen un anifail i orwedd dano; cymmysgedd *yw* hynny.
24 Nac ymhalogwch yn yr un o'r pethau hyn: canys yn y rhai hyn oll yr halogwyd y cenhedloedd yr ydwyf yn eu gyrru allan o'ch blaen chwi:
25 A'r wlad a halogwyd: am hynny yr ydwyf yn ymweled â'i hanwiredd yn ei herbyn, fel y chwydo y wlad ei thrigolion.
26 Ond cedwch chwi fy neddfau a'm barnedigaethau i, ac na wnewch ddim o'r holl ffiaidd bethau hyn; na'r priodor, na'r dieithrddyn sydd yn ymdaith yn eich mysg:
27 (O herwydd yr holl ffiaidd bethau hyn a wnaeth gwŷr y wlad, y rhai *a fu* o'ch blaen, a'r wlad a halogwyd;)
28 Fel na chwydo y wlad chwithau, pan halogoch hi, megis y chwydodd hi y genedl *oedd* o'ch blaen.
29 Canys pwy bynnag a wnel ddim o'r holl ffiaidd bethau hyn; torrir ymaith yr eneidiau a'u gwnelo o blith eu pobl.
30 Am hynny cedwch fy neddf i, heb wneuthur *yr un* o'r deddfau ffiaidd a wnaed o'ch blaen chwi, ac nac ymhalogwch ynddynt: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.

PENNOD 19.

Ail-adrodd amryw gyfreithiau.

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth holl gynnulleidfa meibion Israel, a dywed wrthynt, Byddwch sanctaidd: canys sanctaidd *ydwyf* fi, yr ARGLWYDD eich DUW chwi.
3 ¶ Ofnwch bob un ei fam, a'i dad; a chedwch fy Sabbathau: yr ARGLWYDD eich DUW *ydwyf* fi.
4 Na throwch at eilunod, ac na wnewch i chwi dduwiau tawdd: yr ARGLWYDD eich DUW *ydwyf* fi.
5 ¶ A phan aberthoch hedd-aberth i'r ARGLWYDD, yn ol eich ewyllys eich hun yr aberthwch hynny.
6 Ar y dydd yr offrymmoch, a thrannoeth, y bwyttêir ef: a llosger yn tân yr hyn a weddillir hyd y trydydd dydd.
7 Ond os gan fwytta y bwyttêir ef o fewn y trydydd dydd, ffiaidd *fydd* efe; ni bydd gymmeradwy.
8 A'r hwn a'i bwyttao a ddwg ei anwiredd, am iddo halogi cyssegredig *beth* yr ARGLWYDD; a'r enaid hwnnw a dorrir ymaith o blith ei bobl.
9 ¶ A phan gynhauafoch gynhauaf eich tir, na feda yn llwyr gonglau dy faes, ac na chynnull loffion dy gynhauaf.
10 Na loffa hefyd dy winllan, ac na chynnull rawn gweddill dy winllan; gâd hwynt i'r tlawd ac i'r dieithr: yr ARGLWYDD eich DUW chwi *ydwyf* fi.
11 ¶ Na ladrattêwch, ac na ddywedwch gelwydd, ac na thwyllwch bob un ei gymmydog.
12 ¶ Ac na thyngwch i'm henw i

yn anudon, ac na haloga enw dy DDUW: yr ARGLWYDD *ydwyf* fi.
13 ¶ Na cham-attal oddi wrth dy gymmydog, ac na yspeilia ef: na thriged cyflog y gweithiwr gyd â thi hyd y bore.
14 ¶ Na felldiga y byddar, ac na ddod dramgwydd o flaen y dall; ond ofna dy DDUW: yr ARGLWYDD *ydwyf* fi.
15 ¶ Na wnewch gam mewn barn; na dderbyn wyneb y tlawd, ac na pharcha wyneb y cadarn: barna dy gymmydog mewn cyfiawnder.
16 ¶ Ac na rodia yn athrodwr ym mysg dy bobl; na saf yn erbyn gwaed dy gymmydog: yr ARGLWYDD *ydwyf* fi.
17 ¶ Na chasâ dy frawd yn dy galon: gan geryddu cerydda dy gymmydog, ac na ddïoddef bechod ynddo.
18 ¶ Na ddïala, ac na chadw lid i feibion dy bobl; ond câr dy gymmydog megis ti dy hun: yr ARGLWYDD *ydwyf* fi.
19 ¶ Cedwch fy neddfau: na âd i'th anifeiliaid gydio o amryw rywogaeth, ac na haua dy faes âg amryw had; ac nac aed am danat ddilledyn cymmysg o lin a gwlan.
20 ¶ A phan fyddo i ŵr a wnelo â benyw, a hithau yn forwyn gaeth wedi ei dyweddïo i ŵr, ac heb ei rhyddhâu ddim, neu heb roddi rhyddid iddi; bydded *iddynt* gurfa; ac na ladder hwynt, am nad oedd hi rydd.
21 A dyged efe yn aberth dros ei gamwedd i'r ARGLWYDD, i ddrws pabell y cyfarfod, hwrdd dros gamwedd.
22 A gwnaed yr offeiriad gymmod drosto â'r hwrdd dros gamwedd, ger bron yr ARGLWYDD, am ei bechod a bechodd efe: a maddeuir iddo am ei bechod a wnaeth efe.
23 ¶ A phan ddeloch i'r tir, a phlannu o honoch bob pren ymborth; cyfrifwch yn ddïenwaededig ei ffrwyth ef; tair blynedd y bydd efe megis dïenwaededig i chwi: na fwyttâer o hono.
24 A'r bedwaredd flwyddyn y bydd ei holl ffrwyth yn sanctaidd i foliannu yr ARGLWYDD *âg ef.*
25 A'r bummed flwyddyn y bwyttêwch ei ffrwyth, fel y chwanego efe ei gnwd i chwi: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW.
26 ¶ Na fwyttêwch ddim ynghyd â'i waed: nac arferwch na swynion, na choel ar frudiau.
27 Na thalgrynnwch odre eich pen, ac na thor gyrrau dy farf.
28 Ac na wnewch dorriadau yn eich cnawd am un marw, ac na roddwch brint nôd arnoch: yr ARGLWYDD *ydwyf* fi.
29 ¶ Na haloga dy ferch, gan beri iddi butteinio: rhag putteinio y tir, a llenwi y wlad o ysgelerder.
30 ¶ Cedwch fy Sabbathau, a pherchwch fy nghyssegr: yr ARGLWYDD *ydwyf* fi.
31 ¶ Nac ewch ar ol dewiniaid, ac nac ymofynwch â'r brudwyr, i ymhalogi o'u plegid: yr ARGLWYDD eich DUW *ydwyf* fi.
32 ¶ Cyfod ger bron penwynni, a pharcha wyneb henuriad; ac ofna dy DDUW: yr ARGLWYDD *ydwyf* fi.
33 ¶ A phan ymdeithio dïeithrddyn ynghyd â thi yn eich gwlad, na flinwch ef.
34 Bydded y dïeithr i chwi, yr hwn a ymdeithio yn eich plith, fel yr un a hanffo o honoch, a câr ef fel ti dy hun; o herwydd dïeithriaid fuoch y'ngwlad yr Aipht: yr ARGLWYDD eich DUW *ydwyf* fi.
35 ¶ Na wnewch gam ar farn, ar lathen, ar bwys, nac ar fesur.
36 Bydded i chwi gloriannau cyfiawn, gerrig cyfiawn, ephah gyfiawn, a hin gyfiawn: yr ARGLWYDD eich DUW *ydwyf* fi, yr hwn a'ch dygais allan o dir yr Aipht.
37 Cedwch chwithau fy holl ddeddfau, a'm holl farnedigaethau, a gwnewch hwynt: yr ARGLWYDD *ydwyf* fi.

PENNOD 20.

1 Am yr hwn a roddo ei had i Moloch. 4 Am yr hwn a arbedo y cyfryw. 6 Am ymcadw at frudwyr. 7 Am ymsanctaiddio. 9 Am yr hwn a felldithio ei rient. 10 Am odineb. 11, 14, 17, 19 Am ymlosgach. 13 Am orwedd gyd â gwrryw, 15 neu gyd âg anifail. 18 Am afiendid. 22 Gorchymyn ufudd-dod gyd â sanctaiddrwydd. 27 Rhaid yw rhoddi brudwyr i farwolaeth.

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Dywed hefyd wrth feibion Israel, Pob un o feibion Israel, neu o'r dïeithr a ymdeithio yn Israel, yr

hwn a roddo o'i had i Moloch, a leddir yn farw; pobl y tir a'i llabyddiant ef â cherrig.
3 A mi a osodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnnw, ac a'i torraf o fysg ei bobl; am iddo roddi o'i had i Moloch, i aflanhâu fy nghyssegr, ac i halogi fy enw sanctaidd.
4 Ac os pobl y wlad gan guddio a guddiant eu llygaid oddi wrth y dyn hwnnw, (pan roddo efe ei had i Moloch,) ac nis lladdant ef:
5 Yna y gosodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnnw, ac yn erbyn ei dylwyth, a thorraf ymaith ef, a phawb a ddilynant ei butteindra ef, gan butteinio yn ol Moloch, o fysg eu pobl.
6 ¶ A'r dyn a dro ar ol dewiniaid, a brudwyr, i butteinio ar eu hol hwynt; gosodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnnw hefyd, a thorraf ef ymaith o fysg ei bobl.
7 ¶ Ymsancteiddiwch gan hynny, a byddwch sanctaidd: canys myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.
8 Cedwch hefyd fy neddfau, a gwnewch hwynt: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich sancteiddydd.
9 ¶ Os bydd neb a felldigo ei dad neu ei fam, lladder ef yn farw: ei dad neu ei fam a felldigodd efe; ei waed *fydd* arno ei hun.
10 ¶ A'r gŵr a odinebo gyd â gwraig gŵr *arall, sef yr hwn* a odinebo gyd â gwraig ei gymmydog, lladder yn farw y godinebwr a'r odinebwraig.
11 A'r gŵr a orweddo gyd â gwraig ei dad, a noethodd noethni ei dad: lladder yn feirw hwynt ill dau; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.
12 Am y gŵr a orweddo ynghyd â'i waudd, lladder yn feirw hwynt ill dau: cymmysgedd a wnaethant; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.
13 A'r gŵr a orweddo gyd â gŵr, fel gorwedd gyd â gwraig, ffieiddra a wnaethant ill dau: lladder hwynt yn feirw; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.
14 Y gŵr a gymmero wraig a'i mam, ysgelerder *yw* hynny: llosgant ef a hwythau yn tân; ac na fydded ysgelerder yn eich mysg.
15 A lladder yn farw y gŵr a ymgydio âg anifail: lladdant hefyd yr anifail.
16 A'r wraig a êl at un anifail, i orwedd dano, lladd di y wraig a'r anifail hefyd: ladder hwynt yn feirw; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.
17 A'r gŵr a gymmero ei chwaer, merch ei dad, neu ferch ei fam, ac a welo ei noethni hi, ac y gwelo hithau ei noethni yntau: gwaradwydd *yw* hynny; torrer hwythau ymaith y'ngolwg meibion eu pobl: noethni ei chwaer a noethodd efe; efe a ddwg ei anwiredd.
18 A'r gŵr a orweddo gyd â gwraig glaf o'i mis-glwyf, ac a noetho ei noethni hi; ei diferlif hi a ddatguddiodd efe, a hithau a ddatguddiodd ddiferlif ei gwaed ei hun: am hynny torrer hwynt ill dau o fysg eu pobl.
19 Ac na noetha noethni chwaer dy fam, neu chwaer dy dad; o herwydd ei gyfnesaf ei hun y mae yn ei noethi: dygant eu hanwiredd.
20 A'r gŵr a orweddo gyd â gwraig ei ewythr frawd ei dad, a noetha noethni ei ewythr: eu pechod a ddygant; byddant feirw yn ddiblant.
21 A'r gŵr a gymmero wraig ei frawd, (peth aflan *yw* hynny,) efe a noethodd noethni ei frawd: diblant fyddant.
22 ¶ Am hynny cedwch fy holl ddeddfau, a'm holl farnedigaethau, a gwnewch hwynt; fel na chwydo y wlad chwi, yr hon yr ydwyf yn eich dwyn iddi i breswylio ynddi.
23 Ac na rodiwch yn neddfau y genedl yr ydwyf yn eu bwrw allan o'ch blaen chwi: o herwydd yr holl bethau hyn a wnaethant; am hynny y ffieiddiais hwynt.
24 Ac wrthych y dywedais, Chwi a etifeddwch eu tir hwynt; mi a'i rhoddaf i chwi i'w feddiannu; gwlad yn llifeirio o laeth a mêl: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi, yr hwn a'ch neilduais chwi oddi wrth bobloedd *eraill*.
25 Rhoddwch chwithau wahaniaeth rhwng yr anifail glân a'r aflan, a rhwng yr aderyn aflan a'r glân; ac na wnewch eich eneidiau yn ffiaidd o herwydd anifail, neu o herwydd

aderyn, neu o herwydd dim oll a ymlusgo ar y ddaear, yr hwn a neillduais i chwi i'w gyfrif yn aflan.

26 Byddwch chwithau sanctaidd i mi: o herwydd myfi yr ARGLWYDD *ydwyf* sanctaidd, ac a'ch neillduais chwi oddi wrth bobloedd *eraill*, i fod yn eiddof fi.

27 ¶ Gŵr neu wraig a fo ganddynt yspryd dewiniaeth, neu frud, hwy a leddir yn farw: â cherrig y llabyddiant hwynt; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.

PENNOD 21.

1 *Am alar yr offeiriaid.* 6 *Am eu sancteiddrwydd.* 9 *Am eu cymmeriad.* 7, 13 *Am eu priodasau.* 16 *Ni chaiff yr offeiriaid a fo arnynt anaf weini yn y cyssegr.*

A DYWEDODD yr ARGLWYDD wrth Moses, Llefara wrth yr offeiriaid, meibion Aaron, a dywed wrthynt, Nac ymhaloged *neb* am y marw ym mysg ei bobl.

2 Ond am ei gyfnesaf agos iddo; am ei fam, am ei dad, ac am ei fab, ac am ei ferch, ac am ei frawd,

3 Ac am ei chwaer o forwyn, yr hon sydd agos iddo, yr hon ni fu eiddo gŵr: am honno y gall ymhalogi.

4 Nac ymhaloged pennaeth ym mysg ei bobl, i'w aflanhâu ei hun.

5 Na wnant foelni ar eu pennau, ac nac eilliant gyrrau eu barfau, ac na thorrant dorriadau ar eu cnawd.

6 Sanctaidd fyddant i'w DUW, ac na halogant enw eu DUW: o herwydd offrymmu y maent ebyrth tanllyd yr ARGLWYDD, *a* bara eu DUW; am hynny byddant sanctaidd.

7 Na chymmerant butteinwraig, neu un halogedig, yn wraig: ac na chymmerant wraig wedi ysgar oddi wrth ei gŵr; o herwydd sanctaidd *yw* efe i'w DDUW.

8 A chyfrif di ef yn sanctaidd; o herwydd bara dy DDUW di y mae efe yn ei offrymmu: bydded sanctaidd i ti; o herwydd sanctaidd *ydwyf* fi yr ARGLWYDD eich sancteiddydd.

9 ¶ Ac os dechreu merch un offeiriad butteinio, halogi ei thad y mae: llosger hi yn tân.

10 A'r offeiriad pennaf o'i frodyr, yr hwn y tywalltwyd olew yr enneiniad ar ei ben, ac a gyssegrwyd i wisgo y gwisgoedd, na ddïosged oddi am ei ben, ac na rwyged ei ddillad:

11 Ac na ddeued at gorph un marw, nac ymhaloged am ei dad, nac am ei fam:

12 Ac nac aed allan o'r cyssegr, ac na haloged gyssegr ei DDUW; am *fod* coron olew enneiniad ei DDUW arno ef: myfi *yw* yr ARGLWYDD.

13 A chymmered efe wraig yn ei morwyndod.

14 Gwraig weddw, na gwraig wedi ysgar, nac un halogedig, *na* phuttain; y rhai hyn na chymmered: ond cymmered forwyn o'i bobl ei hun yn wraig.

15 Ac na haloged ei had ym mysg ei bobl: canys myfi *yw* yr ARGLWYDD ei sancteiddydd ef.

16 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

17 Llefara wrth Aaron, gan ddywedyd, Na nesâed un o'th had di trwy eu cenhedlaethau, yr hwn y byddo anaf arno, i offrymmu bara ei DDUW:

18 Canys ni chaiff un gŵr y byddo anaf arno nesâu; y gŵr dall, neu y cloff, neu y trwyndwn, neu y neb y byddo dim gormod ynddo;

19 Neu y gŵr y byddo iddo droed twn, neu law don;

20 Neu a fyddo yn gefngrwm, neu yn gor, neu â magl neu bysen ar ei lygad, neu yn grachlyd, neu yn glafrllyd, neu wedi ysigo ei eirin.

21 Na nesâed un gŵr o had Aaron yr offeiriad, yr hwn y byddo anaf arno, i offrymmu ebyrth tanllyd yr ARGLWYDD: anaf sydd arno; na nesâed i offrymmu bara ei DDUW.

22 Bara ei DDUW, o'r *pethau* sanctaidd cyssegredig, ac o'r *pethau* cyssegredig, a gaiff efe ei fwytta.

23 Etto nac aed i mewn at y wahanlen, ac na nesâed at yr allor, am *fod* anaf arno; ac na haloged fy nghyssegroedd: canys myfi *yw* yr ARGLWYDD eu sancteiddydd hwynt.

24 A llefarodd Moses *hynny* wrth Aaron ac wrth ei feibion, ac wrth holl feibion Israel.

PENNOD 22.

1 *Rhaid i'r offeiriaid yn eu haflendid ymgadw oddi wrth y pethau cyssegredig.* 6 *Y modd y mae eu puro hwynt.* 10 *Pwy yn nhŷ yr offeiriaid a all fwytta o'r pethau cyssegredig.*

17 *Rhaid i'r aberthau fod yn ddïanaf.* 26 *Oedran yr aberth.* 29 *Y gyfraith am fwytta yr aberth dïolch.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth Aaron, ac wrth ei feibion, am iddynt ymneilldu oddi wrth bethau cyssegredig meibion Israel, ac na halogant fy enw sanctaidd, *yn y pethau* y maent yn eu cyssegru i mi: myfi *yw* yr ARGLWYDD.
3 Dywed wrthynt, Pwy bynnag o'ch holl hiliogaeth, trwy eich cenhedlaethau, a nesao at y pethau cyssegredig a gyssegro meibion Israel i'r ARGLWYDD, a'i aflendid arno; torrir ymaith yr enaid hwnnw oddi ger fy mron: myfi *yw* yr ARGLWYDD.
4 Na fwyttâed neb o hiliogaeth Aaron o'r pethau cyssegredig, ac yntau yn wahan-glwyfus, neu yn ddiferllyd, hyd oni lanhâer ef: na'r hwn a gyffyrddo â dim wedi ei halogi wrth y marw, na'r hwn yr êl oddi wrtho ddisgyniad had;
5 Na'r un a gyffyrddo âg un ymlusgiad, trwy yr hwn y gallo fod yn aflan, neu â dyn y byddai aflan o'i blegid, pa aflendid bynnag fyddo arno:
6 A'r dyn a gyffyrddo âg ef, a fydd aflan hyd yr hwyr; ac na fwyttâed o'r pethau cyssegredig, oddi eithr iddo olchi ei gnawd mewn dwfr.
7 A phan fachludo yr haul, glân fydd; ac wedi hynny bwyttâed o'r pethau cyssegredig: canys ei fwyd ef *yw* hwn.
8 Ac na fwyttâed o ddim wedi marw ei hun, neu wedi ei ysglyfaethu, i fod yn aflan o'i blegid: myfi *yw* yr ARGLWYDD.
9 Ond cadwant fy neddf i, ac na ddygant bechod *bob un* arnynt eu hunain, i farw o'i blegid, pan halogant hi: myfi *yw* yr ARGLWYDD eu sancteiddydd hwynt.
10 Ac na fwyttâed un alltud o'r peth cyssegredig: dïeithrddyn yr offeiriad, a'r gwas cyflog, ni chaiff fwytta y peth cyssegredig.
11 Ond pan brynô yr offeiriad ddyn am ei arian, hwnnw a gaiff fwytta o hono, a'r hwn a aner *yn* ei dŷ ef: y rhai hyn a gânt fwytta o'i fara ef.
12 A merch yr offeiriad, pan fyddo hi eiddo gŵr dïeithr, ni chaiff hi fwytta o offrwm y pethau cyssegredig.
13 Ond merch yr offeiriad, os gweddw fydd hi, neu wedi ysgar, a heb blant iddi, ac wedi dychwelyd i dŷ ei thad, a gaiff fwytta o fara ei thad, megis *yn* ei hieuengctid; ac ni chaiff neb dïeithr fwytta o hono.
14 ¶ A phan fwyttao un beth cyssegredig mewn anwybod; yna chwaneged ei bummed ran atto, a rhodded gyd â'r peth cyssegredig i'r offeiriad.
15 Ac na halogant gyssegredig bethau meibion Israel, y rhai a offrymmant i'r ARGLWYDD.
16 Ac na wnant iddynt ddwyn cosp camwedd, pan fwyttaont eu cyssegredig bethau hwynt: o herwydd myfi *yw* yr ARGLWYDD eu sancteiddydd.
17 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
18 Llefara wrth Aaron, ac wrth ei feibion, ac wrth holl feibion Israel, a dywed wrthynt, Pwy bynnag o dŷ Israel, ac o ddïeithr yn Israel, a offrymmo ei offrwm yn ol ei holl addunedau, ac yn ol ei holl roddion gwirfodd, y rhai a offrymmant i'r ARGLWYDD yn boeth-offrwm;
19 *Offrymmwch* wrth eich ewyllys eis ich hun, un gwrryw perffeithgwbl, o'r eidionau, o'r defaid, neu o'r geifr.
20 Nac offrymmwch ddim *y byddo* anaf arno; o herwydd ni bydd efe gymmeradwy drosoch.
21 A phan offrymmo gŵr aberth hedd i'r ARGLWYDD, gan neilldu *ei* adduned, neu rodd ewyllysgar o'r eidionau, neu o'r praidd, bydded berffeith-gwbl, fel y byddo gymmeradwy: na fydded un anaf arno.
22 Y dall, neu yr ysig, neu yr anafus, neu y dafadenog, neu y crachlyd, neu y clafrllyd, nac offrymmwch hwy i'r ARGLWYDD, ac na roddwch aberth tanllyd o honynt ar allor yr ARGLWYDD.
23 A'r eidion, neu yr oen a fyddo gormod neu ry fychain ei aelodau, gellwch ei offrymmu yn offrwm gwirfodd; ond dros adduned ni bydd cymmeradwy.

24 Nac offrymmwch i'r ARGLWYDD
ddim wedi llethu, neu ysigo, neu
ddryllio, neu dorri; ac na wnewch
yn eich tir y *fath beth.*
25 Ac nac offrymmwch o law un dï-
eithr fwyd eich DUW o'r holl beth-
au hyn: canys *y mae* eu llygredig-
aeth ynddynt; anaf *sydd* arnynt:
ni byddant gymmeradwy drosoch.
26 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD
wrth Moses, gan ddywedyd,
27 Pan aner eidion, neu ddafad,
neu afr, bydded saith niwrnod dan
ei fam; o'r wythfed dydd ac o hyn-
ny allan y bydd cymmeradwy yn
offrwm o aberth tanllyd i'r AR-
GLWYDD.
28 Ac am fuwch neu ddafad, na
leddwch hi a'i llwdn yn yr un dydd.
29 A phan aberthoch aberth diolch
i'r ARGLWYDD, offrymmwch wrth
eich ewyllys eich hunain.
30 Y dydd hwnnw y bwyttêir ef;
na weddillwch o hono hyd y bore:
myfi *yw* yr ARGLWYDD.
31 Cedwch chwithau fy ngorchy-
mynion, a gwnewch hwynt: myfi
yw yr ARGLWYDD.
32 Ac na halogwch fy enw sanct-
aidd, ond sancteiddier fi ym mysg
meibion Israel: myfi *yw* yr AR-
GLWYDD eich sancteiddydd,
33 Yr hwn a'ch dygais chwi allan
o dir yr Aipht, i fod yn DDUW i
chwi: myfi *yw* yr ARGLWYDD.

PENNOD 23.

1 *Gwyliau yr Arglwydd.* 3 *Y Sabbath.* 4 *Y Pasc.* 9 *Yr ysgub flaenffrwyth.* 15 *Gwyl y Sulgwyn.* 22 *Rhaid yw gadael peth i'r tlodion i'w lafa.* 23 *Gwyl yr udgyrn.* 26 *Y dydd cymmod.* 33 *Gwyl y pebyll.*

LLEFARODD yr ARGLWYDD hef-
yd wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth feibion Israel, a
dywed wrthynt, Gwyliau yr AR-
GLWYDD, y rhai a gyhoeddwch yn
gymmanfeydd sanctaidd, *ydyw* fy
ngwyliau hyn.
3 Chwe diwrnod y gwneir gwaith;
a'r seithfed dydd y bydd Sabbath
gorphwysdra, *sef* cymmanfa sanct-
aidd; dim gwaith nis gwnewch:
Sabbath *yw* efe i'r ARGLWYDD yn
eich holl drigfannau.
4 ¶ Dyma wyliau yr ARGLWYDD,
y cymmanfeydd sanctaidd, y rhai
a gyhoeddwch yn eu tymmor.
5 O fewn y mis cyntaf, ar y ped-
werydd *dydd* ar ddeg o'r mis, yn y
cyfnos, *y bydd* Pasc yr ARGLWYDD.
6 A'r pymthegfed dydd o'r mis
hwnnw y bydd gwyl y bara croyw
i'r ARGLWYDD: saith niwrnod y
bwyttêwch fara croyw.
7 Ar y dydd cyntaf y bydd i chwi
gymmanfa sanctaidd: dim caeth-
waith ni chewch ei wneuthur.
8 Ond offrymmwch ebyrth tanllyd
i'r ARGLWYDD saith niwrnod: ar y
seithfed dydd *bydded* cymmanfa
sanctaidd; na wnewch ddim caeth-
waith.
9 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth
Moses, gan ddywedyd, Llefara wrth
feibion Israel, a dywed wrthynt,
10 Pan ddeloch i'r tir a roddaf i
chwi, a medi o honoch ei gynhauaf;
yna dygwch ysgub blaenffrwyth
eich cynhauaf at yr offeiriad.
11 Cyhwfaned yntau yr ysgub ger
bron yr ARGLWYDD, i'ch gwneuthur
yn gymmeradwy: trannoeth wedi y
Sabbath y cyhwfana yr offeiriad hi.
12 Ac offrymmwch ar y dydd y
cyhwfaner yr ysgub, oen blwydd,
perffeith-gwbl, yn boeth-offrwm i'r
ARGLWYDD.
13 A'i fwyd-offrwm *o* ddwy ddeg-
fed ran o beillied wedi ei gymmysgu
âg olew, yn aberth tanllyd i'r AR-
GLWYDD, yn arogl peraidd: a'i
ddiod-offrwm *fydd* o win, pedwaredd
ran hin.
14 Bara hefyd, nac ŷd wedi ei
grasu, na thywysennau îr, ni chewch
eu bwytta hyd gorph y dydd hwn-
nw, nes dwyn o honoch offrwm
eich DUW. Deddf dragywyddol
trwy eich cenhedlaethau, yn eich
holl drigfannau, *fydd hyn.*
15 ¶ A chyfrifwch i chwi o dran-
noeth wedi y Sabbath, o'r dydd y
dygoch ysgub y cyhwfan; saith
Sabbath cyflawn fyddant:
16 Hyd drannoeth wedi y seithfed
Sabbath, y cyfrifwch ddeng niwr-
nod a deugain; ac offrymmwch
fwyd-offrwm newydd i'r ARGLWYDD.
17 A dygwch o'ch trigfannau ddwy
dorth gyhwfan, dwy ddegfed ran o
beillied fyddant: yn lefeinllyd y
pobir hwynt, yn flaenffrwyth i'r
ARGLWYDD.
18 Ac offrymmwch gyd â'r bara
saith oen blwyddiaid, perffeith-

gwbl, ac un bustach ieuangc, a dau hwrdd: poeth-offrwm i'r ARGLWYDD fyddant hwy, ynghyd â'u bwyd-offrwm a'u diod-offrwm; *sef* aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

19 Yna aberthwch un bwch geifr yn bech-aberth, a dau oen blwyddiaid yn aberth hedd.

20 A chyhwfaned yr offeiriad hwynt, ynghyd â bara y blaenffrwyth, yn offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD, ynghyd â'r ddau oen: cyssegredig i'r ARGLWYDD *ac* eiddo yr offeiriad fyddant.

21 A chyhoeddwch, o fewn corph y dydd hwnnw, y bydd cymmanfa sanctaidd i chwi; dim caethwaith nis gwnewch. Deddf dragywyddol, yn eich holl drigfannau, trwy eich cenhedlaethau, *fydd hyn.*

22 ¶ A phan fedoch gynhauaf eich tir, na lwyr-feda gyrrau dy faes, ac na loffa loffion dy gynhauaf; gâd hwynt i'r tlawd a'r dieithr: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.

23 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

24 Llefara wrth feibion Israel gan ddywedyd, Ar y seithfed mis, ar *y dydd* cyntaf o'r mis, y bydd i chwi Sabbath, yn goffadwriaeth caniad udgyrn, *a* chymmanfa sanctaidd.

25 Dim caethwaith nis gwnewch; ond offrymmwch ebyrth tanllyd i'r ARGLWYDD.

26 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

27 Y degfed *dydd* o'r seithfed mis hwn, *y bydd* dydd cymmod; cymmanfa sanctaidd fydd i chwi: yna cystuddiwch eich eneidiau, ac offrymmwch ebyrth tanllyd i'r ARGLWYDD.

28 Ac na wnewch ddim gwaith o fewn corph y dydd hwnnw: o herwydd dydd cymmod *yw*, i wneuthur cymmod drosoch ger bron yr ARGLWYDD eich DUW.

29 Canys pob enaid a'r ni chystuddier o fewn corph y dydd hwn, a dorrir ymaith oddi wrth ei bobl.

30 A phob enaid a wnelo ddim gwaith o fewn corph y dydd hwnnw, difethaf yr enaid hwnnw hefyd o fysg ei bobl.

31 Na wnewch ddim gwaith. Deddf dragywyddol, trwy eich cenhedlaethau, yn eich holl drigfannau, *yw hyn.*

32 Sabbath gorphwysdra *yw* efe i chwi; cystuddiwch chwithau eich encidiau ar y nawfed *dydd* o'r mis, yn yr hwyr: o hwyr i hwyr y cedwch eich Sabbath.

33 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses gan ddywedyd,

34 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis hwn *y bydd* gwyl y pebyll saith niwrnod i'r ARGLWYDD.

35 Ar y dydd cyntaf *y bydd* cymmanfa sanctaidd: dim caethwaith nis gwnewch.

36 Saith niwrnod yr offrymmwch aberth tanllyd i'r ARGLWYDD: ar yr wythfed dydd y bydd cymmanfa sanctaidd i chwi; a chwi a offrymmwch aberth tanllyd i'r ARGLWYDD: uchel wyl *yw* hi; na wnewch ddim caethwaith.

37 Dyma wyliau yr ARGLWYDD, y rhai a gyhoeddwch yn gymmanfeydd sanctaidd, i offrymmu i'r ARGLWYDD aberth tanllyd, offrwm poeth, bwyd-offrwm, aberth, a diod-offrwm; pob peth yn ei ddydd:

38 Heb law Sabbathau yr ARGLWYDD, ac heb law eich rhoddion chwi, ac heb law eich holl addunedau, ac heb law eich holl offrymmau gwirfodd, a roddoch i'r ARGLWYDD.

39 Ac ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis, pan gynhulloch ffrwyth eich tir, cedwch wyl i'r ARGLWYDD saith niwrnod: *bydded* gorphwysdra ar y dydd cyntaf, a gorphwysdra ar yr wythfed dydd.

40 A'r dydd cyntaf cymmerwch i chwi ffrwyth pren prydferth, canghennau palmwydd, a brig pren caeadfrig, a helyg afon; ac ymlawenhêwch ger bron yr ARGLWYDD eich DUW saith niwrnod.

41 A chedwch hon yn wyl i'r ARGLWYDD saith niwrnod yn y flwyddyn: deddf dragywyddol yn eich cenhedlaethau *yw;* ar y seithfed mis y cedwch hi *yn wyl.*

42 Mewn bythod yr arhoswch saith niwrnod; pob priodor yn Israel a drigant mewn bythod:

43 Fel y gwypo eich cenhedlaeth-

au chwi mai mewn bythod y perais i feibion Israel drigo, pan ddygais hwynt allan o dir yr Aipht: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW.
44 A thraethodd Moses wyliau yr ARGLWYDD wrth feibion Israel.

PENNOD 24.

1 *Olew y llusernau.* 5 *Y bara gosod.* 10 *Mab Selomith yn cablu.* 13 *Cyfraith cabledd,* 17 *a llofruddiaeth.* 18 *Am golled.* 23 *Llabyddio y cabluwr.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Gorchymyn i feibion Israel ddwyn attat olew olew-wydden pur, coethedig, i'r goleuni, i beri i'r lampau gynneu bob amser.
3 O'r tu allan i wahanlen y dystiolaeth, ym mhabell y cyfarfod, y trefna Aaron ef o hwyr hyd fore, ger bron yr ARGLWYDD, bob amser. Deddf dragywyddol trwy eich cenhedlaethau *fydd hyn.*
4 Ar y canhwyllbren pur y trefna efe y lampau ger bron yr ARGLWYDD bob amser.
5 ¶ A chymmer beillied, a phoba ef yn ddeuddeg teisen: dwy ddegfed ran fydd pob teisen.
6 A gosod hwynt yn ddwy res, chwech *yn* y rhes, ar y bwrdd pur, ger bron yr ARGLWYDD.
7 A dod thus pur ar bob rhes, fel y byddo ar y bara, yn goffadwriaeth, *ac* yn aberth tanllyd i'r ARGLWYDD.
8 Ar bob dydd Sabbath y trefna efe hyn ger bron yr ARGLWYDD bob amser, yn gyfammod tragywyddol oddi wrth feibion Israel.
9 A bydd eiddo Aaron a'i feibion; a hwy a'i bwytty yn y lle sanctaidd: canys sancteiddiolaf *yw* iddo ef o ebyrth tanllyd yr ARGLWYDD, *trwy* ddeddf dragywyddol.
10 ¶ A mab gwraig o Israel, a hwn yn fab gŵr o'r Aipht, a aeth allan ym mysg meibion Israel; a mab yr Israelees a gŵr o Israel a ymgynhennasant yn y gwersyll.
11 A mab y wraig o Israel a gabloddd enw *yr ARGLWYDD,* ac a felldigodd: yna y dygasant ef at Moses: ac enw ei fam oedd Selomith, merch Dibri, o lwyth Dan.
12 A gosodasant ef y'ngharchar, fel yr hysbysid iddynt o enau yr ARGLWYDD *beth* a *wnaent.*
13 A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
14 Dwg y cablydd i'r tu allan i'r gwersyll: a rhodded pawb a'i clywsant ef eu dwylaw ar ei ben ef, a llabyddied yr holl gynnulleidfa ef.
15 A llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pwy bynnag a gablo ei DDUW, a ddwg ei bechod.
16 A lladder yn farw yr hwn a felldithio enw yr ARGLWYDD; yr holl gynnulleidfa gan labyddio a'i llabyddiant ef: lladder yn gystal y dïeithr a'r prïodor, pan gablo efe enw yr ARGLWYDD.
17 ¶ A'r neb a laddo ddyn, lladder yntau yn farw.
18 A'r hwn a laddo anifail, taled am dano; anifail am anifail.
19 A phan wnelo un anaf ar ei gymmydog; fel y gwnaeth, gwneler iddo:
20 Torriad am dorriad, llygad am lygad, dant am ddant: megis y gwnaeth anaf ar ddyn, felly gwneler iddo yntau.
21 A'r hwn a laddo anifail, a dâl am dano: a laddo ddyn, a leddir.
22 Bydded un farn i chwi; bydded i'r dïeithr, fel i'r prïodor: myfi *ydwyf* yr ARGLWYDD eich DUW.
23 ¶ A mynegodd Moses *hyn* i feibion Israel: a hwynt a ddygasant y cablydd i'r tu allan i'r gwersyll, ac a'i llabyddiasant ef â cherrig. Felly meibion Israel a wnaethant megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses.

PENNOD 25.

1 *Sabbath y seithfed flwyddyn.* 8 *Y Jubili yn y ddegfed flwyddyn a deugain.* 14 *Am orthrymmu.* 18 *Bendith am ufudd-dod.* 23 *Gollyngiad tiroedd,* 29 *a thai.* 35 *Tosturio wrth y tlawd.* 39 *Esmwyth drin caethion.* 47 *Adbrynu gweision.*

LLEFARODD yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, ym mynydd Sinai, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddeloch i'r tir yr hwn a roddaf i chwi; yna gorphwysed y tir Sabbath i'r ARGLWYDD.
3 Chwe blynedd yr heui dy faes, a chwe blynedd y torri dy winllan, ac y cesgli ei chnwd.
4 Ac ar y seithfed flwyddyn y bydd Sabbath gorphwysdra i'r tir,

sef Sabbath i'r ARGLWYDD: na haua dy faes, ac na thor dy winllan.

5 Na chynhauafa yr hyn a dyfo o hono ei hun, ac na chasgl rawnwin dy winwydden ni theclaist: bydd yn flwyddyn orphwysdra i'r tir.

6 Ond bydded *ffrwyth* Sabbath y tir yn ymborth i chwi; *sef* i ti, ac i'th wasanaethwr, ac i'th wasanaethferch, ac i'th weinidog cyflog, ac i'th alltud yr hwn a ymdeithio gyd â thi,

7 I'th anifail hefyd, ac i'r bwystfil *fydd* yn dy dir, y bydd ei holl gnwd yn ymborth.

8 ¶ Cyfrif hefyd i ti saith Sabbath o flynyddoedd, *sef* saith mlynedd seithwaith; dyddiau y saith Sabbath o flynyddoedd fyddant i ti yn naw mlynedd a deugain.

9 Yna pâr ganu i ti udgorn y jubili ar y seithfed mis, ar y degfed *dydd* o'r mis; ar ddydd y cymmod cenwch yr udgorn trwy eich holl wlad.

10 A sancteiddiwch y ddegfed flwyddyn a deugain, a chyhoeddwch ryddid yn y wlad i'w holl drigolion: jubili fydd hi i chwi; a dychwelwch bob un i'w etifeddiaeth, ïe, dychwelwch bob un at ei deulu.

11 Y ddegfed flwyddyn a deugain honno fydd jubili i chwi: na heuwch, ac na fedwch ei chnwd a dyfo o hono ei hun; ac na chynhullwch ei gwinwydden ni thaclwyd.

12 Am ei *bod* yn jubili, bydded sanctaidd i chwi: o'r maes y bwyttêwch ei ffrwyth hi.

13 O fewn y flwyddyn jubili hon y dychwelwch bob un i'w etifeddiaeth.

14 Pan werthech ddim i'th gymmydog, neu brynu ar law dy gymmydog, na orthrymmwch bawb eich gilydd.

15 Pryn gan dy gymmydog yn ol rhifedi y blynyddoedd ar ol y jubili; a gwerthed efe i tithau yn ol rhifedi blynyddoedd y cnydau.

16 Yn ol amldra y blynyddoedd y chwanegi ei bris, ac yn ol anamldra y blynyddoedd y lleihêi di ei bris: o herwydd rhifedi y cnydau y mae efe yn ei werthu i ti.

17 Ac na orthrymmwch bob un ei gymmydog; ond ofna dy DDUW: canys myfi *ydwyf* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.

18 ¶ Gwnewch chwithau fy neddfau, a chedwch fy marnedigaethau, a gwnewch hwynt; a chewch drigo yn y tir yn ddïogel.

19 Y tir hefyd a rydd ei ffrwyth; a chewch fwytta digon, a thrigo ynddo yn ddïogel.

20 Ac hefyd os dywedwch, Beth a fwyttâwn y seithfed flwyddyn? wele, ni chawn hau, ac ni chawn gynnull ein cnwd:

21 Yna mi a archaf fy mendith arnoch y chweched flwyddyn; a hi a ddwg ei ffrwyth *i wasanaethu* dros dair blynedd.

22 A'r wythfed flwyddyn yr heuwch; ond bwyttêwch o'r hen gnwd hyd y nawfed flwyddyn: nes dyfod ei chnwd hi, y bwyttêwch o'r hen.

23 ¶ A'r tir ni cheir ei werthu yn llwyr: canys eiddof fi *yw* y tir; o herwydd dïeithriaid ac alltudion *ydych* gyd â mi.

24 Ac yn holl dir eich etifeddiaeth rhoddwch ollyngdod i'r tir.

25 ¶ Os tloda dy frawd, a gwerthu *dim* o'i etifeddiaeth, a dyfod ei gyfnesaf i'w ollwng; *yna* efe a gaiff ollwng yr hyn a werthodd ei frawd.

26 Ond os y gŵr ni bydd ganddo neb a'i gollyngo, a chyrhaeddyd o'i law ef ei hun gael digon i'w ollwng:

27 Yna cyfrifed flynyddoedd ei werthiad, a rhodded drachefn yr hyn fyddo dros ben i'r gŵr yr hwn y gwerthodd ef iddo; felly aed eilwaith i'w etifeddiaeth.

28 Ac os ei law ni chaiff ddigon i dalu iddo; yna bydded yr hyn a werthodd efe yn llaw yr hwn a'i prynodd hyd flwyddyn y jubili; ac yn y jubili yr â yn rhydd, ac efe a ddychwel i'w etifeddiaeth.

29 A phan wertho gŵr dŷ annedd *o fewn* dinas gaerog; yna bydded ei ollyngdod hyd *ben* blwyddyn gyflawn wedi ei werthu: *dros* flwyddyn y bydd rhydd ei ollwng ef.

30 Ac oni ollyngir cyn cyflawni iddo flwyddyn gyfan; yna sicrhâer y tŷ, yr hwn *fydd* yn y ddinas gaerog, yn llwyr i'r neb a'i prynodd, *ac* i'w hiliogaeth: nid â yn rhydd yn y jubili.

31 Ond tai y trefi nid oes caerau o amgylch iddynt, a gyfrifir fel meusydd: bid gollyngdod iddynt, ac yn y jubili yr ânt yn rhydd.

32 Ond dinasoedd y Lefiaid, a thai dinasoedd eu hetifeddiaeth hwynt, bid i'r Lefiaid eu gollwng bob amser.

33 Ac os pryn un gan y Lefiaid; yna aed y tŷ a werthwyd, a dinas ei etifeddiaeth ef, allan yn y jubili: canys tai dinasoedd y Lefiaid *ydyw* eu hetifeddiaeth hwynt ym mysg meibion Israel.

34 Ac ni cheir gwerthu maes pentrefol eu dinasoedd hwynt: canys etifeddiaeth dragywyddol *yw* efe iddynt.

35 ¶ A phan dlodo dy frawd gyd â thi, a llesgâu o'i law; cynnorthwya ef, fel y byddo byw gyd â thi; *er ei fod* yn ddïeithrddyn, neu yn alltud.

36 Na chymmer ganddo ocraeth na llog; ond ofna dy Duw: a gâd i'th frawd fyw gyd â thi.

37 Na ddod dy arian iddo ar usuriaeth, ac na ddod dy fwyd iddo ar log.

38 Myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw chwi, yr hwn a'ch dygais allan o dir yr Aipht, i roddi i chwi dir Canaan, *ac* i fod yn Duw i chwi.

39 ¶ A phan dlodo dy frawd gyd â thi, a'i werthu ef i ti; na wna iddo wasanaethu yn gaethwas.

40 Bydded gyd â thi fel gweinidog cyflog, fel ymdeithydd; hyd flwyddyn y jubili y caiff wasanaethu gyd â thi.

41 Yna aed oddi wrthyt ti, efe a'i blant gyd âg ef, a dychweled at ei dylwyth, ac aed drachefn i etifeddiaeth ei dadau.

42 Canys fy ngweision i ydynt, y rhai a ddygais allan o dir yr Aipht: na werther hwynt fel caethweision.

43 Na feistrola arno ef yn galed; ond ofna dy Duw.

44 A *chymmer* dy wasanaethwr, a'th wasanaethferch, y rhai fyddant i ti, o fysg y cenhedloedd y rhai *ydynt* o'ch amgylch: o honynt y prynwch wasanaethwr a gwasanaethferch.

45 A hefyd o blant yr alltudion y rhai a ymdeithiant gyd â chwi, prynwch o'r rhai hyn, ac o'u tylwyth y rhai *ŷnt* gyd â chwi, y rhai a genhedlasant hwy yn eich tir chwi: byddant hwy i chwi yn feddiant.

46 Ac etifeddwch hwynt i'ch plant ar eich ol, i'w meddiannu *hwynt* yn etifeddiaeth; gwnewch iddynt eich gwasanaethu byth: ond eich brodyr, meibion Israel, na feistrolwch yn galed y naill ar y llall.

47 ¶ A phan gyrhaeddo llaw dyn dïeithr neu ymdeithydd *gyfoeth* gyd â thi, ac i'th frawd dlodi yn ei ymyl ef, a'i werthu ei hun i'r dïeithr yr hwn *fydd* yn trigo gyd â thi, neu i un o hiliogaeth tylwyth y dïeithrddyn:

48 Wedi ei werthu, ceir ei ollwng yn rhydd; un o'i frodyr a gaiff ei ollwng yn rhydd;

49 Naill ai ei ewythr, ai mab ei ewythr, a'i gollwng ef yn rhydd; neu *un* o'i gyfnesaf ef, o'i dylwyth ei hun, a'i gollwng yn rhydd; neu, os ei law a gyrhaedd, gollynged efe ef ei hun.

50 A chyfrifed â'i brynwr, o'r flwyddyn y gwerthwyd ef, hyd flwyddyn y jubili: a bydded arian ei werthiad ef fel rhifedi y blynyddoedd; megis dyddiau gweinidog cyflog y bydd gyd âg ef.

51 Os llawer *fydd* o flynyddoedd yn ol; taled ei ollyngdod o arian ei brynedigaeth yn ol hynny.

52 Ac os ychydig flynyddoedd fydd yn ol hyd flwyddyn y jubili, pan gyfrifo âg ef; taled ei ollyngdod yn ol ei flynyddoedd.

53 Megis gwas cyflog o flwyddyn i flwyddyn y bydd efe gyd âg ef: ac na feistroled arno yn galed yn dy olwg di.

54 Ac os efe ni ollyngir o fewn *y blynyddoedd* hyn; yna aed allan flwyddyn y jubili, efe a'i blant gyd âg ef.

55 Canys gweision i mi *yw* meibion Israel; fy ngweision ydynt, y rhai a ddygais o dir yr Aipht: myfi *ydwyf* yr Arglwydd eich Duw chwi.

PENNOD 26.

1 *Am ddelw-addoliaeth.* 2 *Am grefydd.* 3 *Bendith i'r rhai a gadwant y gorchymmion;* 14 *a melldith i'r rhai a'u torrant.* 40 *Duw yn addaw cofio y rhai a edifarhant.*

NA wnewch eilunod i chwi, ac na chodwch i chwi ddelw

gerfiedig, na cholofn, ac na roddwch ddelw faen yn eich tir i ymgrymmu iddi: canys myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.

2 Fy Sabbathau i a gedwch, a'm cyssegr i a berchwch: myfi *ydwyf* yr ARGLWYDD.

3 ¶ Os yn fy neddfau i y rhodiwch, a'm gorchymynion a gedwch, a'u gwneuthur hwynt;

4 Yna mi a roddaf eich gwlaw yn ei amser, a rhydd y ddaear ei chynnyrch, a choed y maes a rydd eu ffrwyth.

5 A'ch dyrnu a gyrhaedd hyd gynhauaf y grawnwin, a chynhauaf y grawnwin a gyrhaedd hyd amser hau; a'ch bara a fwyttêwch yn ddigonol, ac yn eich tir y trigwch yn ddïogel.

6 Rhoddaf heddwch hefyd yn y tir, a gorweddwch hefyd heb ddychrynydd: a gwnaf i'r bwystfil niweidiol ddarfod o'r tir; ac nid â cleddyf trwy eich tir.

7 Eich gelynion hefyd a erlidiwch, a syrthiant o'ch blaen ar y cleddyf.

8 A phump o honoch a erlidia gant, a chant o honoch a erlidia ddengmil; a'ch gelynion a syrth o'ch blaen ar y cleddyf.

9 A mi a edrychaf am danoch, ac a'ch gwnaf yn ffrwythlawn, ac a'ch amlhâf, ac a gadarnhâf fy nghyfammod â chwi.

10 A'r hen ystôr a fwyttêwch, ïe, yr hen a fwriwch chwi allan o achos y newydd.

11 Rhoddaf hefyd fy nhabernacl yn eich mysg; ac ni ffieiddia fy enaid chwi.

12 A mi a rodiaf yn eich plith; a byddaf yn DDUW i chwi, a chwithau a fyddwch yn bobl i mi.

13 Myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW, yr hwn a'ch dygais chwi allan o dir yr Aipht, rhag eich bod yn gaethweision iddynt; a thorrais rwymau eich iau, a gwneuthum i chwi rodio yn sythion.

14 ¶ Ond os chwi ni wrandêwch arnaf, ac ni wnewch yr holl orchymynion hyn;

15 Os fy neddfau hefyd a ddirmygwch, ac os eich enaid a ffieiddia fy marnedigaethau, heb wneuthur fy holl orchymynion, ond torri fy nghyfammod;

16 Minnau hefyd a wnaf hyn i chwi: gosodaf yn oruchaf arnoch ddychryn, darfodedigaeth, a'r cryd poeth, y rhai a wna i'r llygaid ballu, ac a ofidiant eich eneidiau: a heuwch eich had yn ofer; canys eich gelynion a'i bwytty:

17 Ac a osodaf fy wyneb i'ch erbyn, a chwi a syrthiwch o flaen eich gelynion; a'ch caseion a feistrola arnoch; ffowch hefyd pan na byddo neb yn eich erlid.

18 Ac os er hyn ni wrandêwch arnaf, yna y chwanegaf eich cospi chwi saith mwy am eich pechodau.

19 A mi a dorraf falchder eich nerth chwi; a gwnaf eich nefoedd chwi fel haiarn, a'ch tir chwi fel pres:

20 A'ch cryfder a dreulir yn ofer: canys eich tir ni rydd ei gynnyrch, a choed y tir ni roddant eu ffrwyth.

21 ¶ Ac os rhodiwch y'ngwrthwyneb i mi, ac ni fynnwch wrandaw arnaf fi; mi a chwanegaf bla saith mwy arnoch yn ol eich pechodau.

22 Ac anfonaf fwystfil y maes yn eich erbyn, ac efe a'ch gwna chwi yn ddiblant, ac a ddifetha eich anifeiliaid, ac a'ch lleihâ chwi; a'ch ffyrdd a wneir yn anialwch.

23 Ac os wrth hyn ni chymmerwch ddysg gennyf, ond rhodio yn y gwrthwyneb i mi;

24 Yna y rhodiaf finnau yn y gwrthwyneb i chwithau, a mi a'ch cospaf chwi hefyd etto yn saith mwy am eich pechodau.

25 A dygaf arnoch gleddyf, yr hwn a ddial fy nghyfammod: a phan ymgasgloch i'ch dinasoedd, yna yr anfonaf haint i'ch mysg; a chwi a roddir yn llaw y gelyn.

26 A phan dorrwyf ffon eich bara, yna deg o wragedd a bobant eich bara mewn un ffwrn, ac a ddygant eich bara adref dan bwys: a chwi a fwyttêwch, ac nis digonir chwi.

27 Ac os er hyn ni wrandêwch arnaf, ond rhodio y'ngwrthwyneb i mi;

28 Minnau a rodiaf y'ngwrthwyneb i chwithau mewn llid; a myfi, ïe myfi, a'ch cospaf chwi etto saith mwy am eich pechodau.

29 A chwi a fwyttêwch gnawd eich meibion, a chnawd eich merched a fwyttêwch.

30 Eich uchelfeydd hefyd a ddinystriaf, ac a dorraf eich delwau, ac a roddaf eich celaneddau chwi ar gelaneddau eich eilunod, a'm henaid a'ch ffieiddia chwi.

31 A gwnaf eich dinasoedd yn anghyfannedd, ac a ddinystriaf eich cyssegroedd, ac ni aroglaf eich aroglau peraidd.

32 A mi a ddinystriaf y tir; fel y byddo aruthr gan eich gelynion, y rhai a drigant ynddo, o'i herwydd.

33 Chwithau a wasgaraf ym mysg y cenhedloedd, a gwnaf dynnu cleddyf ar eich ol; a'ch tir fydd ddiffaethwch, a'ch dinasoedd yn anghyfannedd.

34 Yna y mwynhâ y tir ei Sabbathau yr holl ddyddiau y byddo yn ddiffaethwch, a chwithau *a fyddwch* yn nhir eich gelynion; yna y gorphwys y tir, ac y mwynhâ ei Sabbathau.

35 Yr holl ddyddiau y byddo yn ddiffaethwch y gorphwys; o herwydd na orphwysodd ar eich Sabbathau chwi, pan oeddych yn trigo ynddo.

36 A'r hyn a weddillir o honoch, dygaf lesgedd ar eu calonnau yn nhir eu gelynion; a thrwst deilen yn ysgwyd a'u herlid hwynt; a ffoant fel ffoi rhag cleddyf; a syrthiant hefyd heb neb yn *eu* herlid.

37 A syrthiant bawb ar eu gilydd, megis o flaen cleddyf, heb neb yn eu herlid: ac ni ellwch sefyll o flaen eich gelynion.

38 Difethir chwi hefyd ym mysg y cenhedloedd, a thir eich gelynion a'ch bwytty.

39 A'r rhai a weddillir o honoch, a doddant yn eu hanwireddau yn nhir eich gelynion; ac yn anwireddau eu tadau gyd â hwynt y toddant.

40 Os cyffesant eu hanwiredd, ac anwiredd eu tadau, ynghyd â'u camwedd yr hwn a wnaethant i'm herbyn, a hefyd rhodio o honynt yn y gwrthwyneb i mi;

41 A rhodio o honof finnau yn eu gwrthwyneb hwythau, a'u dwyn hwynt i dir eu gelynion; os yno yr ymostwng eu calon ddienwaededig, a'u bod yn foddlawn am eu cospedigaeth:

42 Minnau a gofiaf fy nghyfammod â Jacob, a'm cyfammod hefyd âg Isaac, a'm cyfammod hefyd âg Abraham a gofiaf; ac a gofiaf y tir hefyd.

43 A'r tir a adewir ganddynt, ac a fwynhâ ei Sabbathau, tra fyddo yn ddiffaethwch hebddynt: a hwythau a foddlonir am eu cospedigaeth; o achos ac o herwydd dirmygu o honynt fy marnedigaethau, a ffieiddio o'u henaid fy neddfau.

44 Ac er hyn hefyd, pan fyddont yn nhir eu gelynion, nis gwrthodaf ac ni ffieiddiaf hwynt i'w difetha, gan dorri fy nghyfammod â hwynt: o herwydd myfi *ydyw* yr ARGLWYDD eu DUW hwynt.

45 Ond cofiaf er eu mwyn gyfammod y rhai gynt, y rhai a ddygais allan o dir yr Aipht y'ngolwg y cenhedloedd, i fod iddynt yn DDUW: myfi *ydwyf* yr ARGLWYDD.

46 Dyma y deddfau, a'r barnedigaethau, a'r cyfreithiau, y rhai a roddodd yr ARGLWYDD rhyngddo ei hun a meibion Israel, ym mynydd Sinai, trwy law Moses.

PENNOD 27.

1 Yr hwn a wnelo addüned hysbysol, eiddo yr Arglwydd ydd. 3 Pris y cyfryw addüned. 9 Am anifail a rodder trwy addüned. 14 Am dŷ. 16 Am faes, a'i ollyngiad. 28 Ni rydâhêir un diofryd-beth. 32 Nid rhydd newid y degwm.

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan addunedo neb adduned neilduol, y dynion *fydd* eiddo yr ARGLWYDD, yn dy bris di.

3 A bydd dy bris, am wrryw o fab ugain mlwydd hyd fab tri ugain mlwydd, ie, bydd dy bris ddeg sicl a deugain o arian, yn ol sicl y cyssegr.

4 Ac os benyw *fydd*, bydded dy bris ddeg sicl ar hugain.

5 Ac o fab pum mlwydd hyd fab ugain mlwydd, bydded dy bris am wrryw ugain sicl, ac am fenyw ddeg sicl.

6 A bydded hefyd dy bris am wrryw o fab misyriad hyd fab pum

mlwydd, bum sicl o arian; ac am fenyw dy bris *fydd* tri sicl o arian.

7 Ac o fab tri ugeinmlwydd ac uchod, os gwrryw *fydd*, bydded dy bris bymtheg sicl, ac am fenyw ddeg sicl.

8 Ond os tlottach fydd efe na'th bris di; yna safed ger bron yr offeiriad, a phrisied yr offeiriad ef: yn ol yr hyn a gyrhaeddo llaw yr addunedydd, *felly* y prisia yr offeiriad ef.

9 ¶ Ond os anifail, yr hwn yr offrymmir o hono offrwm i'r ARGLWYDD, *fydd ei adduned;* yr hyn oll a roddir o'r cyfryw i'r ARGLWYDD, sanctaidd fydd.

10 Na rodded un arall am dano, ac na newidied ef, y da am y drwg, neu y drwg am y da: ac os gan newidio y newidia anifail am anifail; bydded hwnnw a bydded ei gyfnewid hefyd yn sanctaidd.

11 Ac os *adduneda efe* un anifail aflan, yr hwn ni ddylent offrymmu o hono offrwm i'r ARGLWYDD; yna rhodded yr anifail i sefyll ger bron yr offeiriad:

12 A phrisied yr offeiriad ef, os da os drwg *fydd:* fel y prisiech di yr offeiriad *ef*, felly y bydd.

13 Ac os efe gan brynu a'i pryn; yna rhodded at dy bris di ei bummed *ran* yn ychwaneg.

14 ¶ A phan sancteiddio gŵr ei dŷ yn sanctaidd i'r ARGLWYDD; yna yr offeiriad a'i prisia, os da os drwg fydd: megis y prisio yr offeiriad ef, felly y saif.

15 Ac os yr hwn a'i sancteiddiodd a ollwng ei dŷ yn rhydd; yna rhodded bummed *ran* arian dy bris yn ychwaneg atto, a bydded eiddo ef.

16 ¶ Ac os o faes ei etifeddiaeth y sancteiddia gŵr i'r ARGLWYDD; yna bydded dy bris yn ol ei hauad: hauad homer o haidd *fydd* er deg sicl a deugain o arian.

17 Os o flwyddyn y jubili y sancteiddia efe ei faes, yn ol dy bris di y saif.

18 Ond os wedi y jubili y sancteiddia efe ei faes; yna dogned yr offeiriad yr arian iddo, yn ol y blynyddoedd fyddant yn ol, hyd flwyddyn y jubili, a lleihâer ar dy bris di.

19 Ac os yr hwn a'i sancteiddiodd gan brynu a bryn y maes; yna rhodded bummed *ran* arian dy bris di yn ychwaneg atto, a bydded iddo ef.

20 Ac onis gollwng y maes, neu os gwerthodd y maes i ŵr arall; ni cheir ei ollwng mwy.

21 A'r maes fydd, pan elo efe allan yn y jubili, yn gyssegredig i'r ARGLWYDD, fel maes diofryd: a bydded yn feddiant i'r offeiriad.

22 Ac os ei dir pryn, yr hwn ni *bydd o* dir ei etifeddiaeth, a sancteiddia efe i'r ARGLWYDD;

23 Yna cyfrifed yr offeiriad iddo ddogn dy bris di, hyd flwyddyn y jubili; a rhodded yntau dy bris di yn gyssegredig i'r ARGLWYDD, y dydd hwnnw.

24 Y maes a â yn ei ol, flwyddyn y jubili, i'r hwn y prynasid ef ganddo, *sef* yr hwn *oedd* eiddo etifeddiaeth y tir.

25 A phob pris i ti fydd wrth sicl y cyssegr: ugain gerah fydd y sicl.

26 ¶ Ond y cyntaf-anedig o anifail, yr hwn sydd flaenffrwyth i'r ARGLWYDD, na chyssegred neb ef, pa un bynnag ai eidion ai dafad *fyddo:* eiddo yr ARGLWYDD *yw* efe.

27 Ond os *ei adduned ef fydd* o anifail aflan; yna rhyddhâed ef yn dy bris di, a rhodded ei bummed *ran* yn ychwaneg atto: ac onis rhyddhâ, yna gwerther ef yn dy bris di.

28 ¶ Ond pob diofryd-beth a ddiofrydo un i'r ARGLWYDD, o'r hyn oll *a fyddo* eiddo ef, o ddyn neu o anifail, neu o faes ei etifeddiaeth, ni werthir, ac ni ryddhêir: pob diofryd-beth *sydd* sancteiddiolaf i'r ARGLWYDD.

29 Ni cheir gollwng yn rhydd un *anifail* diofrydog, yr hwn a ddiofryder gan ddyn: lladder yn farw.

30 ¶ A holl ddegwm y tir, o had y tir, *ac* o ffrwyth y coed, yr ARGLWYDD a'u piau: cyssegredig i'r ARGLWYDD *yw.*

31 Ac os gŵr gan brynu a bryn ddim o'i ddegwm, rhodded ei bummed *ran* yn ychwaneg atto.

32 A phob degwm eidion, neu ddafad, yr hyn oll a elo dan y wialen; y degfed fydd cyssegredig i'r ARGLWYDD.

33 Nac edryched pa un ai da ai drwg *fydd efe*, ac na newidied ef: ond os gan newidio y newidia efe hwnnw, bydded hwnnw a bydded ei gyfnewid ef hefyd yn gysegredig; ni ellir ei ollwng yn rhydd.

34 Dyma y gorchymynion a orchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses, i feibion Israel, ym mynydd Sinai.

PEDWERYDD LLYFR MOSES, YR HWN A ELWIR

NUMERI.

PENNOD 1.

1 Duw yn peri rhifo y bobl. 5 Capteniaid y llwythau. 17 Rhifedi pob llwyth. 47 Neilldio y Leiaid i wasanaeth yr Arglwydd.

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, yn anialwch Sinai, ym mhabell y cyfarfod, ar y *dydd* cyntaf o'r ail fis, yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwy allan o dir yr Aipht, gan ddywedyd,

2 Cymmerwch nifer holl gynnulleidfa meibion Israel, yn ol eu teuluoedd, wrth dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, pob gwrryw wrth eu pennau;

3 O fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a allo fyned i ryfel yn Israel: ti ac Aaron a'u cyfrifwch hwynt yn ol eu lluoedd.

4 A bydded gyd â chwi ŵr o bob llwyth; sef y gŵr pennaf o dŷ ei dadau.

5 ¶ A dyma enwau y gwŷr a safant gyd â chwi. O *lwyth* Reuben; Elisur mab Sedëur.

6 O *lwyth* Simeon; Selumiel mab Surisàdai.

7 O *lwyth* Judah; Nahson mab Aminadab.

8 O *lwyth* Issachar; Nethaneel mab Suar.

9 O *lwyth* Sabulon; Eliab mab Helon.

10 O feibion Joseph: dros Ephraim, Elisama mab Ammihud; dros Manasseh, Gamaliel mab Pedasur.

11 O *lwyth* Benjamin; Abidan mab Gideoni.

12 O *lwyth* Dan; Ahïeser mab Ammisàdai.

13 O *lwyth* Aser; Pagïel mab Ocran.

14 O *lwyth* Gad; Eliasaph mab Deuel.

15 O *lwyth* Naphtali; Ahira mab Enan.

16 Dyma rai enwog y gynnulleidfa, tywysogion llwythau eu tadau, pennaethiaid miloedd Israel *oeddynt* hwy.

17 ¶ A chymmerodd Moses ac Aaron y gwŷr hyn a hysbysasid wrth *eu* henwau;

18 Ac a gasglasant yr holl gynnulleidfa ynghyd ar y *dydd* cyntaf o'r ail fis; a rhoddasant eu hachau, trwy eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, erbyn eu pennau.

19 Megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD i Moses, felly y rhifodd efe hwynt yn anialwch Sinai.

20 ¶ A meibion Reuben, cyntafanedig Israel, wrth eu cenedl eu hun, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, erbyn eu pennau, pob gwrryw o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a allai fyned i ryfel;

21 Y rhai a rifwyd o honynt, *sef* o lwyth Reuben, *oedd* chwe mil a deugain a phum cant.

22 ¶ O feibion Simeon, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, eu rhifedigion *oedd*, dan rif *eu* henwau, erbyn eu pennau, pob gwrryw o fab ugain mlwydd ac uchod, *sef* pob un a'r a allai fyned i ryfel;

23 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Simeon, *oedd* onid un fil tri ugain mil a thri chant.

24 ¶ O feibion Gad, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu lluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a allai fyned i ryfel;
25 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Gad, *oeddynt* bum mil a deugain a chwe chant a deg a deugain.
26 ¶ O feibion Judah, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pawb a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;
27 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Judah, *oedd* bedair mil ar ddeg a thri ugain a chwe chant.
28 ¶ O feibion Issachar, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;
29 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Issachar, *oedd* bedair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.
30 ¶ O feibion Sabulon, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel;
31 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Sabulon, *oedd* ddwy fil ar bymtheg a deugain a phedwar cant.
32 ¶ O feibion Joseph, *sef* o feibion Ephraim, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel;
33 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Ephraim, *oedd* ddeugain mil a phum cant.
34 ¶ O feibion Manasseh, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;
35 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Manasseh, *oedd* ddeuddeng mil ar hugain a dau gant.
36 ¶ O feibion Benjamin, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;
37 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Benjamin, *oedd* bymtheg mil ar hugain a phedwar cant.
38 ¶ O feibion Dan, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;
39 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Dan, *oeddynt* ddwy fil a thri ugain a saith gant.
40 ¶ O feibion Aser, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;
41 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Aser, *oeddynt* un fil a deugain a phum cant.
42 ¶ O feibion Naphtali, wrth eu cenhedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel;
43 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Naphtali, *oedd* dair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.
44 Dyma y rhifedigion, y rhai a rifodd Moses, ac Aaron, a thywysogion Israel; *sef* y deuddeng-wr, *y rhai oedd* bob un dros dŷ eu tadau.
45 Felly yr ydoedd holl rifedigion meibion Israel, wrth dŷ eu tadau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel yn Israel;
46 A'r holl rifedigion oedd chwe chan mil a thair mil a phum cant a deg a deugain.
47 ¶ Ond y Lefiaid, trwy *holl* lwythau eu tadau, ni rifwyd yn eu mysg hwynt:
48 Canys llefarasai yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
49 Ond na chyfrif lwyth Lefi, ac na chymmer eu nifer hwynt, ym mysg meibion Israel.
50 Ond dod i'r Lefiaid awdurdod ar babell y dystiolaeth, ac ar ei holl ddodrefn, ac ar yr hyn oll *a berthyn* iddi: hwynt-hwy a ddygant y babell, a'i holl ddodrefn, ac a'i gwasanaethant, ac a wersyllant o amgylch i'r babell.
51 A phan symmudo y babell, y Lefiaid a'i tyn hi i lawr; a phan arhoso y babell, y Lefiaid a'i gesyd

hi i fyny: lladder y dïeithr a ddelo yn agos.

52 A gwersylled meibion Israel bob un yn ei wersyll ei hun, a phob un wrth ei lumman ei hun, trwy eu lluoedd.

53 A'r Lefiaid a wersyllant o amgylch pabell y dystiolaeth, fel na byddo llid yn erbyn cynnulleidfa meibion Israel: a chadwed y Lefiaid wyliadwriaeth pabell y dystiolaeth.

54 A meibion Israel a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses; felly y gwnaethant.

PENNOD 2.

Trefn y llwythau yn eu pebyll.

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywedyd,

2 Meibion Israel a wersyllant bob un wrth ei lumman ei hun, dan arwyddion tŷ eu tadau: o amgylch pabell y cyfarfod y gwersyllant o hirbell.

3 ¶ A'r rhai a wersyllant o du y dwyrain tu a chodiad haul, *fydd gwŷr* llumman gwersyll Judah, yn ol eu lluoedd: a chapten meibion Judah *fydd* Nahson mab Aminadab.

4 A'i lu ef, a'u rhai rhifedig hwynt, *fyddant* bedair mil ar ddeg a thri ugain a chwe chant.

5 A llwyth Issachar a wersyllant yn nesaf atto: a chapten meibion Issachar *fydd* Nethaneel mab Suar.

6 A'i lu ef, a'i rifedigion, *fyddant* bedair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.

7 *Yna* llwyth Sabulon: ac Elïab mab Helon *fydd* capten meibion Sabulon.

8 A'i lu ef, a'i rifedigion, *fyddant* ddwy fil ar bymtheg a deugain a phedwar cant.

9 Holl rifedigion gwersyll Judah *fyddant*, yn ol eu lluoedd, yn gan mil a phedwar ugain mil a chwe mil a phedwar cant. Yn flaenaf y cychwyn y rhai hyn.

10 ¶ Llumman gwersyll Reuben *fydd* tu a'r dehau, yn ol eu lluoedd: a chapten meibion Reuben *fydd* Elisur mab Sedëur.

11 A'i lu ef, a'i rifedigion, *fyddant* chwe mil a deugain a phum cant.

12 A'r rhai a wersyllant yn ei ymyl ef *fydd* llwyth Simeon: a chapten meibion Simeon *fydd* Selumiel mab Surisàdai.

13 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fydd* onid un tri ugain mil a thri chant.

14 Yna llwyth Gad: a chapten meibion Gad *fydd* Elïasaph mab Reuel.

15 A'i lu ef, a'u rhifedigion hwynt, *fyddant* bum mil a deugain a chwe chant a deg a deugain.

16 Holl rifedigion gwersyll Reuben *fyddant* gan mil ac un ar ddeg a deugain o filoedd, a phedwar cant a deg a deugain, yn ol eu lluoedd. Ac yn ail y cychwynant hwy.

17 ¶ A phabell y cyfarfod a gychwyn y'nghanol y gwersylloedd, *gyd â* gwersyll y Lefiaid: fel y gwersyllant, felly y symmudant, pob un yn ei le, wrth eu llummanau.

18 ¶ Llumman gwersyll Ephraim *fydd* tu a'r gorllewin, yn ol eu lluoedd: a chapten meibion Ephraim *fydd* Elisama mab Ammihud.

19 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* ddeugain mil a phum cant.

20 Ac yn ei ymyl ef llwyth Manasseh: a chapten meibion Manasseh *fydd* Gamaliel mab Pedasur.

21 A'u lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* ddeuddeng mil ar hugain a dau gant.

22 Yna llwyth Benjamin: a chapten meibion Benjamin *fydd* Abidan mab Gideoni.

23 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* bymtheng mil ar hugain a phedwar cant.

24 Holl rifedigion gwersyll Ephraim *fyddant*, yn ol eu lluoedd, gan mil ac wyth mil a chant. Ac a gychwynant yn drydydd.

25 ¶ Llumman gwersyll Dan *fydd* tu a'r gogledd, yn ol eu lluoedd: a chapten meibion Dan *fydd* Ahïeser mab Ammisàdai.

26 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* ddwy fil a thri ugain a saith gant.

27 A'r rhai a wersyllant yn ei ymyl ef *fydd* llwyth Aser: a chapten meibion Aser *fydd* Pagïel mab Ocran.

28 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* un fil a deugain a phum cant.
29 Yna llwyth Naphtali: a chapten meibion Naphtali *fydd* Ahira mab Enan.
30 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* dair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.
31 Holl rifedigion gwersyll Dan *fyddant* gan mil ac onid tair mil tri ugain mil a chwe chant. Yn olaf y cychwynant â'u llummanau.
32 ¶ Dyma rifedigion meibion Israel, wrth dŷ eu tadau. Holl rifedigion y gwersylloedd, yn ol eu lluoedd, *oedd* chwe chan mil a thair mil a phum cant a deg a deugain.
33 Ond y Lefiaid ni chyfrifwyd ym mysg meibion Israel; megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.
34 A meibion Israel a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses: felly y gwersyllasant wrth eu llummanau, ac felly y cychwynasant, bob un yn ei deuluoedd, yn ol tŷ eu tadau.

PENNOD 3.

1 *Meibion Aaron.* 5 *Rhoddi y Lefiaid i'r offeiriaid, er mwyn gwasanaeth y babell,* 11 *yn lle y cyntaf-anedig.* 14 *Rhifo y Lefiaid wrth eu teuluoedd.* 21 *Teuluoedd, rhifedi, a swydd y Gersoniaid,* 27 *y Cohathiaid,* 33 *y Merariaid.* 38 *Lle a swydd Moses ac Aaron.* 40 *Rod y cyntaf-anedig yn rhydd oddi wrth y Lefiaid.* 44 *Prynu y rhai oedd dros ben.*

A DYMA genhedlaethau Aaron a Moses, ar y dydd y llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses ym mynydd Sinai.
2 Dyma enwau meibion Aaron: Nadab y cyntaf-anedig, ac Abihu, Eleasar, ac Ithamar.
3 Dyma enwau meibion Aaron, yr offeiriaid enneiniog, y rhai a gyssegrodd efe i offeiriadu.
4 A marw a wnaeth Nadab ac Abihu ger bron yr ARGLWYDD, pan offrymmasant dân dieithr ger bron yr ARGLWYDD, yn anialwch Sinai; a meibion nid oedd iddynt: ac offeiriadodd Eleasar ac Ithamar yng ngŵydd Aaron eu tad.
5 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,
6 Nesâ lwyth Lefi, a gwna iddo sefyll ger bron Aaron yr offeiriad, fel y gwasanaethont ef.
7 A hwy a gadwant ei gadwraeth ef, a chadwraeth yr holl gynnulleidfa, o flaen pabell y cyfarfod, i wneuthur gwasanaeth y tabernacl.
8 A chadwant holl ddodrefn pabell y cyfarfod, a chadwraeth meibion Israel, i wasanaethu gwasanaeth y tabernacl.
9 A thi a roddi y Lefiaid i Aaron, ac i'w feibion: y rhai hyn *sydd* wedi eu rhoddi yn rhodd iddo ef o feibion Israel.
10 Ac urdda di Aaron a'i feibion i gadw eu hoffeiriadaeth: a'r dieithrddyn a ddelo yn agos, a roddir i farw.
11 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,
12 Ac wele, mi a gymmerais y Lefiaid o blith meibion Israel, yn lle pob cyntaf-anedig, *sef pob cyntaf* a agoro y groth o feibion Israel; am hynny y Lefiaid a fyddant eiddof fi:
13 Canys eiddof fi *yw* pob cyntaf-anedig. Ar y dydd y tarewais y cyntaf-anedig yn nhir yr Aipht, cyssegrais i mi fy hun bob cyntaf-anedig yn Israel o ddyn ac anifail: eiddof fi ydynt: myfi *yw* yr ARGLWYDD.
14 ¶ Yr ARGLWYDD hefyd a lefarodd wrth Moses yn anialwch Sinai, gan ddywedyd,
15 Cyfrif feibion Lefi yn ol tŷ eu tadau, trwy eu teuluoedd: cyfrif hwynt, bob gwrryw, o fab misyriad ac uchod.
16 A Moses a'u cyfrifodd hwynt wrth air yr ARGLWYDD, fel y gorchymynasid iddo.
17 A'r rhai hyn oedd feibion Lefi wrth eu henwau; Gerson, a Cohath, a Merari.
18 A dyma enwau meibion Gerson, yn ol eu teuluoedd; Libni a Simei.
19 A meibion Cohath, yn ol eu teuluoedd; Amram, Ishar, Hebron, ac Ussiel.
20 A meibion Merari, yn ol eu teuluoedd; Mahli a Musi. Dyma deuluoedd Lefi, wrth dŷ eu tadau.
21 O Gerson *y daeth* tylwyth y Libniaid, a thylwyth y Simiaid: dyma deuluoedd y Gersoniaid.
22 Eu rhifedigion hwynt, dan rif pob gwrryw o fab misyriad ac

uchod, eu rhifedigion, *meddaf*, *oedd* saith mil a phum cant.

23 Teuluoedd y Gersoniaid a wersyllant ar y tu ol i'r tabernacl tu a'r gorllewin.

24 A phennaeth tŷ tad y Gersoniaid *fydd* Eliasaph mab Lael.

25 A chadwraeth meibion Gerson, ym mhabell y cyfarfod, *fydd* y tabernacl, a'r babell, ei thô *hefyd*, a chaeadlen drws pabell y cyfarfod,

26 A llenni y cynteddfa, a chaeadlen drws y cynteddfa, yr hwn *sydd* ynghylch y tabernacl, a'r allor o amgylch, a'i rhaffau i'w holl wasanaeth.

27 ¶ Ac o Cohath *y daeth* tylwyth yr Amramiaid, a thylwyth yr Ishariaid, a thylwyth yr Hebroniaid, a thylwyth yr Ussieliaid: dyma dylwyth y Cohathiaid.

28 Rhifedi yr holl wrrywiaid, o fab misyriad ac uchod, *oedd* wyth mil a chwe chant, yn cadw cadwraeth y cyssegr.

29 Teuluoedd meibion Cohath a wersyllant ar ystlys y tabernacl tu a'r dehau.

30 A phennaeth tŷ tad tylwyth y Cohathiaid *fydd* Elisaphan mab Ussiel.

31 A'u cadwraeth hwynt *fydd* yr arch, a'r bwrdd, a'r canhwyllbren, a'r allorau, a llestri y cyssegr, y rhai y gwasanaethant â hwynt, a'r gaeadlen, a'i holl wasanaeth.

32 A phennaf ar bennaethiaid y Lefiaid *fydd* Eleasar mab Aaron yr offeiriad; a llywodraeth ar geidwaid cadwraeth y cyssegr *fydd iddo ef.*

33 ¶ O Merari *y daeth* tylwyth y Mahliaid, a thylwyth y Musiaid: dyma dylwyth Merari.

34 A'u rhifedigion hwynt, wrth gyfrif pob gwrryw, o fab misyriad ac uchod, *oedd* chwe mil a deucant.

35 A phennaeth tŷ tad tylwyth Merari *fydd* Suriel mab Abihael. Ar ystlys y tabernacl y gwersyllant tu a'r gogledd.

36 Ac y'nghadwraeth meibion Merari *y bydd* ystyllod y tabernacl, a'i drosolion, a'i golofnau, a'i forteisiau, a'i holl offer, a'i holl wasanaeth,

37 A cholofnau y cynteddfa o amgylch, a'u morteisiau, a'u hoelion, a'u rhaffau.

38 ¶ A'r rhai a wersyllant o flaen y tabernacl tu a'r dwyrain, o flaen pabell y cyfarfod tu a chodiad haul, *fydd* Moses, ac Aaron a'i feibion, y rhai a gadwant gadwraeth y cyssegr, a chadwraeth meibion Israel: a'r dieithr a ddelo yn agos, a roddir i farwolaeth.

39 Holl rifedigion y Lefiaid, y rhai a rifodd Moses ac Aaron, yn ol gair yr ARGLWYDD, trwy eu teuluoedd, *sef* pob gwrryw o fab misyriad ac uchod, *oedd* ddwy fil ar hugain.

40 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Cyfrif bob cyntaf-anedig gwrryw o feibion Israel, o fab misyriad ac uchod, a chymmer rifedi eu henwau hwynt.

41 A chymmer y Lefiaid i mi, (myfi *yw* yr ARGLWYDD,) yn lle holl gyntaf-anedig meibion Israel, ac anifeiliaid y Lefiaid yn lle pob cyntaf-anedig o anifeiliaid meibion Israel.

42 A Moses a rifodd, megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD iddo, bob cyntaf-anedig o feibion Israel.

43 A'r rhai cyntaf-anedig oll, o rai gwrryw, dan rif *eu* henwau, o fab misyriad ac uchod, o'u rhifedigion hwynt, oedd ddwy fil ar hugain a dau cant a thri ar ddeg a thri ugain.

44 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

45 Cymmer y Lefiaid yn lle pob cyntaf-anedig o feibion Israel, ac anifeiliaid y Lefiaid yn lle eu hanifeiliaid hwynt; a bydded y Lefiaid i mi: myfi *yw* yr ARGLWYDD.

46 Ac am y rhai sydd i'w prynu o'r tri ar ddeg a thri ugain a deucant, o gyntaf-anedig meibion Israel, y rhai sydd dros ben y Lefiaid;

47 Cymmer bum sicl am bob pen; yn ol sicl y cyssegr y cymmeri. Ugain gerah *fydd* y sicl.

48 A dod yr arian, gwerth y rhai sydd yn ychwaneg o honynt, i Aaron ac i'w feibion.

49 A chymmerodd Moses arian y prynedigaeth, y rhai oedd dros ben y rhai a brynwyd am y Lefiaid:

50 Gan gyntaf-anedig meibion Israel y cymmerodd efe yr arian;

pump a thri ugain a thri chant a mil, o siclau y cyssegr.

51 A Moses a roddodd arian y prynedigion i Aaron ac i'w feibion, yn ol gair yr ARGLWYDD, megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD i Moses.

PENNOD 4.

1 *Oedran a chylch gwasanaeth y Lefiaid.* 4 *Clud y Cohathiaid, wedi i'r offeiriaid dynnu i lawr y babell.* 16 *Goruchwyliaeth Eleasar.* 17 *Swydd yr offeiriaid.* 21 *Clud y Gersoniaid.* 29 *a'r Merariaid.* 34 *Rhifedi y Cohathiaid,* 38 *y Gersoniaid,* 42 *a'r Merariaid.*

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywedyd,

2 Cymmer nifer meibion Cohath o blith meibion Lefi, wrth eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau;

3 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab deng mlwydd a deugain, pob un a elo i'r llu, i wneuthur gwasanaeth ym mhabell y cyfarfod.

4 Dyma weinidogaeth meibion Cohath, ym mhabell y cyfarfod, *ynghylch* y pethau sancteiddiolaf.

5 ¶ A deued Aaron a'i feibion, pan gychwyno y gwersyll, a thynnant i lawr y wahanlen orchudd, a gorchuddiant â hi arch y dystiolaeth;

6 A gosodant ar hynny dô o grwyn daearfoch, a thaenant arni wisg *o sidan* glas i gyd, a gosodant ei throsolion *wrthi.*

7 Ac ar fwrdd y bara dangos y taenant frethyn glas, a gosodant ar hynny y dysglau, a'r cwppanau, a'r phïolau, a'r caeadau i gau: a bydded y bara bob amser arno.

8 A thaenant arnynt wisg o ysgarlad, a gorchuddiant hwnnw â gorchudd o groen daearfoch, a gosodant ei drosolion *wrtho.*

9 Cymmerant hefyd wisg *o sidan* glas, a gorchuddiant ganhwyllbren y goleuni, a'i lampau, a'i efeiliau, a'i gafnau, a holl lestri yr olew, y rhai y gwasanaethant ef â hwynt.

10 A gosodant ef a'i holl ddodrefn mewn gorchudd o groen daearfoch, a gosodant *ef* ar drosol.

11 A thaenant frethyn glas ar yr allor aur, a gorchuddiant hi â gorchudd o groen daearfoch, a gosodant ei throsolion *wrthi.*

12 Cymmerant hefyd holl ddodrefn y gwasanaeth, y rhai y gwasanaethant â hwynt yn y cyssegr, a rhoddant mewn brethyn glas, a gorchuddiant hwynt mewn gorchudd o groen daearfoch, a gosodant ar drosol.

13 A thynnant allan ludw yr allor, a thaenant arni wisg borphor.

14 A rhoddant arni ei holl lestri, â'r rhai y gwasanaethant hi, *sef* y pedyll tân, y cigweiniau, a'r rhawiau, a'r cawgiau, *ie,* holl lestri yr allor; a thaenant arni orchudd o groen daearfoch, a gosodant ei throsolion wrthi.

15 Pan ddarffo i Aaron ac i'w feibion orchuddio y cyssegr, a holl ddodrefn y cyssegr, pan gychwyno y gwersyll; wedi hynny deued meibion Cohath i'w dwyn *hwynt:* ond na chyffyrddant â'r hyn a fyddo cyssegredig, rhag iddynt farw. Dyma faich meibion Cohath ym mhabell y cyfarfod.

16 ¶ Ac i swydd Eleasar mab Aaron yr offeiriad *y perthyn* olew y goleuni, a'r arogl-darth peraidd, a'r bwyd-offrwm gwastadol, ac olew yr enneiniad, *a* goruchwyliaeth yr holl dabernacl, a'r hyn oll *fydd* ynddo, yn y cyssegr, ac yn ei ddodrefn.

17 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,

18 Na thorrwch ymaith lwyth tylwyth y Cohathiaid o blith y Lefiaid:

19 Ond hyn a wnewch iddynt, fel y byddont fyw, ac na fyddont feirw, pan nesânt at y pethau sancteiddiolaf: Aaron a'i feibion a ânt i mewn, ac a'u gosodant hwy bob un ar ei wasanaeth ac ar ei glud.

20 Ond nac ânt i edrych pan fydder yn gorchuddio yr hyn sydd gyssegredig, rhag marw o honynt.

21 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

22 Cymmer nifer meibion Gerson hefyd, trwy dŷ eu tadau, wrth eu teuluoedd;

23 O fab dengmlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab dengmlwydd a deugain, y rhifi hwynt; pob un a ddêl i ddwyn swydd, i wasanaethu gwasanaeth ym mhabell y cyfarfod.

24 Dyma weinidogaeth tylwyth y Gersoniaid, o wasanaeth ac o glud.

25 Sef dwyn o honynt lenni y tabernacl, a phabell y cyfarfod, ei len

dô ef, a'r tô *o grwyn* daearfoch, yr hwn *sydd* yn uchaf arno, a chuddlen drws pabell y cyfarfod,

26 A llenni y cynteddfa, a chaeadlen drws porth y cynteddfa, yr hwn *sydd* ynghylch y tabernacl, a'r allor o amgylch, a'i rhaffau, a holl offer eu gwasanaeth hwynt, a'r hyn oll a wnaed iddynt: felly y gwasanaethant hwy.

27 Wrth orchymyn Aaron a'i feibion y bydd holl wasanaeth meibion y Gersoniaid, yn eu holl glud, ac yn eu holl wasanaeth: a dodwch attynt eu holl glud i'w cadw.

28 Dyma wasanaeth tylwyth meibion Gerson ym mhabell y cyfarfod; ac ar law Ithamar mab Aaron yr offeiriad *y bydd* eu llywodraethu hwynt.

29 ¶ A meibion Merari, trwy eu teuluoedd, wrth dŷ eu tadau, y cyfrifi hwynt;

30 O fab dengmlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab dengmlwydd a deugain, y rhifi hwynt; pob un a ddêl i ddwyn swydd, i wasanaethu gwasanaeth pabell y cyfarfod.

31 A dyma oruchwyliaeth eu clud hwynt, yn eu holl wasanaeth ym mhabell y cyfarfod; *sef* ystyllod y tabernacl, a'i farrau, a'i golofnau, a'i forteisiau,

32 A cholofnau y cynteddfa oddi amgylch, a'u morteisiau, a'u hoelion, a'u rhaffau, ynghyd â'u holl offer, ac ynghyd â'u holl wasanaeth: rhifwch hefyd y dodrefn erbyn eu henwau y rhai a gadwant *ac* a gludant hwy.

33 Dyma wasanaeth tylwyth meibion Merari, yn eu holl weinidogaeth ym mhabell y cyfarfod, dan law Ithamar mab Aaron yr offeiriad.

34 ¶ A rhifodd Moses ac Aaron, a phennaethiaid y gynnulleidfa, feibion Cohath, trwy eu teuluoedd, ac yn ol tŷ eu tadau:

35 O fab dengmlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab dengmlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai mewn swydd i wasanaethu ym mhabell y cyfarfod:

36 A'u rhifedigion trwy eu teuluoedd, oedd ddwy fil saith gant a deg a deugain.

37 Dyma rifedigion tylwyth y Cohathiaid, *sef* pob gwasanaethydd ym mhabell y cyfarfod; y rhai a rifodd Moses ac Aaron, wrth orchymyn yr ARGLWYDD trwy law Moses.

38 ¶ Rhifedigion meibion Gerson hefyd, trwy eu teuluoedd, ac yn ol tŷ eu tadau;

39 O fab dengmlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab dengmlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai mewn swydd i wasanaethu ym mhabell y cyfarfod:

40 A'u rhifedigion hwynt trwy eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau, oeddynt ddwy fil a chwe chant a deg ar hugain.

41 Dyma rifedigion tylwyth meibion Gerson, *sef* pob gwasanaethydd ym mhabell y cyfarfod; y rhai a rifodd Moses ac Aaron, wrth orchymyn yr ARGLWYDD.

42 ¶ A rhifedigion tylwyth meibion Merari, trwy eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau;

43 O fab dengmlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab dengmlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai mewn swydd i wasanaethu ym mhabell y cyfarfod:

44 A'u rhifedigion hwynt trwy eu teuluoedd, oeddynt dair mil a dau cant.

45 Dyma rifedigion tylwyth meibion Merari, y rhai a rifodd Moses ac Aaron, wrth orchymyn yr ARGLWYDD trwy law Moses.

46 Yr holl rifedigion, y rhai a rifodd Moses ac Aaron, a phennaethiaid Israel, o'r Lefiaid, trwy eu teuluoedd, ac yn ol tŷ eu tadau;

47 O fab dengmlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab dengmlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai i wneuthur gwaith gwasanaeth, neu waith clud ym mhabell y cyfarfod:

48 A'u rhifedigion oeddynt wyth mil pum cant a phedwar ugain.

49 Wrth orchymyn yr ARGLWYDD, trwy law Moses y rhifodd efe hwy, pob un wrth ei wasanaeth, ac wrth ei glud: fel hyn y rhifwyd hwynt, fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

PENNOD 5.

1 *Symmudo yr aflan allan o'r gwersyll.* 5 *Rhaid yw gyneuthur iawn dros gamweddau.* 11 *Eddigedd, pa un at heb achos, at trwy achos y mae.*

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Gorchymyn i feibion Israel, anfon allan o'r gwersyll bob gwahan-glwyfus, a phob un y byddo diferlif arno, a phob un a halogir wrth y marw.
3 Yn wrryw ac yn fenyw yr anfonwch *hwynt*, allan o'r gwersyll yr anfonwch hwynt; fel na halogont eu gwersylloedd, y rhai yr ydwyf fi yn preswylio yn eu plith.
4 A meibion Israel a wnaethant felly, ac a'u hanfonasant hwynt i'r tu allan i'r gwersyll: megis y llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, felly y gwnaeth meibion Israel.
5 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
6 Llefara wrth feibion Israel, Os gŵr neu wraig a wna *un* o holl bechodau dynol, gan wneuthur camwedd yn erbyn yr ARGLWYDD, a bod o'r enaid hwnnw yn euog:
7 Yna cyffesant eu pechod a wnaethant; a rhodded yn ei ol yr hyn a fyddo efe euog o hono erbyn ei ben, a chwaneged ei bummed *ran* atto, a rhodded i'r *hwn* y gwnaeth efe gam âg ef.
8 Ac oni bydd i'r gŵr gyfnesaf i dalu *am* y camwedd iddo, *yr iawn am* y camwedd yr hwn a delir i'r ARGLWYDD, *fydd* eiddo yr offeiriad; heb law yr hwrdd cymmod yr hwn y gwna efe gymmod âg ef trosto.
9 A phob offrwm dyrchafael, o holl sanctaidd bethau meibion Israel, y rhai a offrymmant at yr offeiriad, fydd eiddo ef.
10 A sancteiddio gŵr, eiddo ef fyddant: hyn a roddo neb i'r offeiriad, eiddo ef fydd.
11 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,
12 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pob gŵr pan ŵyro ei wraig ef, a gwneuthur bai yn ei erbyn ef;
13 A bod i ŵr a wnelo â hi, a bod yn guddiedig o olwg ei gŵr hi, ac yn gyfrinachol, a hithau wedi ei halogi, ac heb dyst yn ei herbyn, a hithau heb ei dal *ar ei gweithred;*
14 A dyfod gwŷn eiddigedd arno, ac eiddigeddu o hono wrth ei wraig, a hithau wedi ei halogi; neu ddyfod yspryd eiddigedd arno, ac eiddigeddu o hono wrth ei wraig, a hithau heb ei halogi:
15 Yna dyged y gŵr ei wraig at yr offeiriad, a dyged ei hoffrwm drosti hi, degfed *ran* ephah o flawd haidd: na thywallted olew arno, ac na rodded thus arno; canys offrwm eiddigedd *yw*, offrwm côf yn coffâu anwiredd.
16 A nesâed yr offeiriad hi, a phared iddi sefyll ger bron yr ARGLWYDD.
17 A chymmered yr offeiriad ddwfr sanctaidd mewn llestr pridd, a chymmered yr offeiriad o'r llwch fyddo ar lawr y tabernacl, a rhodded yn y dwfr.
18 A phared yr offeiriad i'r wraig sefyll ger bron yr ARGLWYDD, a diosged oddi am ben y wraig, a rhodded yn ei dwylaw offrwm y coffa; offrwm eiddigedd *yw* efe: ac yn llaw yr offeiriad y bydd y dwfr chwerw sydd yn peri y felldith.
19 A thynged yr offeiriad hi, a dyweded wrth y wraig, Oni orweddodd gŵr gyd â thi, ac oni ŵyraist i aflendid *gyd âg arall* yn lle dy ŵr, bydd di ddiniwed oddi wrth y dwfr chwerw hwn sydd yn peri y felldith.
20 Ond os gŵyraist ti oddi wrth dy ŵr, ac os halogwyd di, a chydio o neb â thi heb law dy ŵr dy hun:
21 Yna tyngheded yr offeiriad y wraig â llw melldith, a dyweded yr offeiriad wrth y wraig, Rhodded yr ARGLWYDD dydi yn felldith ac yn llw ym mysg dy bobl, pan wnelo yr ARGLWYDD dy forddwyd yn bwdr, a'th groth yn chwyddedig;
22 Ac aed y dwfr melldigedig hwn i'th goluddion, i chwyddo dy groth, ac i bydru dy forddwyd. A dyweded y wraig, Amen, amen.
23 Ac ysgrifened yr offeiriad y melldithion hyn mewn llyfr, a golched *hwynt* ymaith â'r dwfr chwerw.
24 A phared i'r wraig yfed o'r dwfr chwerw sydd yn peri y felldith: ac aed y dwfr sydd yn peri y felldith i'w mewn hi, yn chwerw.
25 A chymmered yr offeiriad o law y wraig offrwm yr eiddigedd; a chyhwfaned yr offrwm ger bron yr ARGLWYDD, ac offrymmed ef ar yr allor.
26 A chymmered yr offeiriad o'r

offrwm lonaid ei law, ei goffadwriaeth, a llosged ar yr allor; ac wedi *hynny* pared i'r wraig yfed y dwfr.
27 Ac wedi iddo beri iddi yfed y dwfr, bydd, os hi a halogwyd, ac a wnaeth fai yn erbyn ei gŵr, yr â y dwfr sydd yn peri y felldith yn chwerw ynddi, ac a chwydda ei chroth, ac a bydra ei morddwyd: a'r wraig a fydd yn felldith ym mysg ei phobl.
28 Ond os y wraig ni halogwyd, eithr glân yw; yna hi a fydd ddïangol, ac a blanta.
29 Dyma gyfraith eiddigedd, pan ŵyro gwraig *at arall* yn lle ei gŵr, ac ymhalogi:
30 Neu os daw ar ŵr wŷn eiddigedd, a dal o hono eiddigedd wrth ei wraig; yna gosoded y wraig i sefyll ger bron yr ARGLWYDD, a gwnaed yr offeiriad iddi yn ol y gyfraith hon.
31 A'r gŵr fydd dïeuog o'r anwiredd, a'r wraig a ddwg ei hanwiredd ei hun.

PENNOD 6.

1 *Cyfraith y Nasaread.* 24 *Y dull y bendithir y bobl.*

LLEFARODD yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ymneilldu gŵr neu wraig i addaw adduned Nasaread, i ymneilldu o'r ARGLWYDD:
3 Ymneilldued oddi wrth win a dïod gref; nac yfed finegr gwin, na finegr dïod gref; nac yfed chwaith ddim sugn grawnwin, ac na fwyttâed rawnwin irion, na sychion.
4 Holl ddyddiau ei Nasareaeth ni chaiff fwytta o ddim oll a wneir o winwydden y gwin, o'r dincod hyd y bilionen.
5 Holl ddyddiau adduned ei Nasareaeth ni chaiff ellyn fyned ar ei ben: nes cyflawni y dyddiau yr ymneilldu'odd efe i'r ARGLWYDD, sanctaidd fydd; gadawed i gudynnau gwallt ei ben dyfu.
6 Holl ddyddiau ei ymneilldu'aeth i'r ARGLWYDD, na ddeued at gorph marw.
7 Nac ymhaloged wrth ei dad, neu wrth ei fam, wrth ei frawd, neu wrth ei chwaer, pan fyddant feirw; am *fod* Nasareaeth ei DDUW ar ei ben ef.
8 Holl ddyddiau ei Nasareaeth, sanctaidd *fydd* efe i'r ARGLWYDD.
9 Ond os marw fydd un yn ei ymyl ef yn ddisymmwth, a halogi pen ei Nasareaeth; yna eillied ei ben ar ddydd ei buredigaeth, ar y seithfed dydd yr eillia efe ef.
10 Ac ar yr wythfed dydd y dwg ddwy durtur neu ddau gyw colommen, at yr offeiriad, i ddrws pabell y cyfarfod.
11 Ac offrymmed yr offeiriad un yn bech-aberth, ac un yn boeth-offrwm, a gwnaed gymmod drosto, am yr hyn a becho wrth y marw; a sancteiddied ei ben ef y dydd hwnnw.
12 A neilldued i'r ARGLWYDD ddyddiau ei Nasareaeth, a dyged oen blwydd yn offrwm dros gamwedd; ac aed y dyddiau cyntaf yn ofer, am halogi ei Nasareaeth ef.
13 ¶ A dyma gyfraith y Nasaread: pan gyflawner dyddiau ei Nasareaeth, dyger ef i ddrws pabell y cyfarfod.
14 A dyged yn offrwm drosto i'r ARGLWYDD, un hespwrn blwydd, perffeith-gwbl, yn boeth-offrwm; ac un hespin flwydd, berffeithgwbl, yn bech-aberth; ac un hwrdd perffeith-gwbl, yn aberth hedd;
15 Cawellaid o fara croyw hefyd, *sef* teisennau peillied wedi eu tylino trwy olew, ac afrllad croyw wedi eu henneinio âg olew, a'u bwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm hwy.
16 A dyged yr offeiriad *hwynt* ger bron yr ARGLWYDD, ac offrymmed ei bech-aberth a'i boeth-offrwm ef.
17 Offrymmed hefyd yr hwrdd yn aberth hedd i'r ARGLWYDD, ynghyd â'r cawellaid bara croyw; ac offrymmed yr offeiriad ei fwyd-offrwm a'i ddïod-offrwm ef.
18 Ac eillied y Nasaread *wrth* ddrws pabell y cyfarfod ben ei Nasareaeth; a chymmered flew pen ei Nasareaeth, a rhodded ar y tân *a fyddo* dan yr aberth hedd.
19 Cymmered yr offeiriad hefyd balfais o'r hwrdd wedi ei berwi, ac

un deisen groyw o'r cawell, ac un afrlladen groyw; a rhodded ar ddwylaw y Nasaread, wedi eillio o hono ei Nasareaeth;

20 A chyhwfaned yr offeiriad hwynt *yn* offrwm cyhwfan ger bron yr ARGLWYDD: sanctaidd *yw* hyn i'r offeiriad, heb law parwyden y cyhwfan, a phalfais y dyrchafael. Ac wedi *hyn* y caiff y Nasaread yfed gwin.

21 Dyma gyfraith y Nasaread a addunedodd, a'i offrwm i'r ARGLWYDD am ei Nasareaeth, heb law *yr hyn* a gyrhaeddo ei law ef: fel *y byddo* ei adduned a addunedo, felly gwnaed, heb law cyfraith ei Nasareaeth.

22 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

23 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion, gan ddywedyd, Fel hyn y bendithiwch feibion Israel, *gan* ddywedyd wrthynt,

24 Bendithied yr ARGLWYDD di, a chadwed di:

25 A llewyrched yr ARGLWYDD ei wyneb arnat, a thrugarhâed wrthyt:

26 Dyrchafed yr ARGLWYDD ei wyneb arnat, a rhodded i ti dangnefedd.

27 Felly y gosodant fy enw ar feibion Israel, a mi a'u bendithiaf hwynt.

PENNOD 7.

1 *Offrwm y tywysogion wrth gyssegru y tabernacl.* 10 *Offrwm pob un o honynt wrth gyssegru yr allor.* 89 *Duw yn llefaru wrth Moses o'r drugareddfa.*

AC ar y dydd y gorphenodd Moses godi y tabernacl, a'i enneinio a'i sancteiddio ef, a'i holl ddodrefn, yr allor hefyd a'i holl ddodrefn, a'u henneinio a'u sancteiddio hwynt;

2 Yr offrymmodd tywysogion Israel, pennaethiaid tŷ eu tadau, (y rhai *oedd* dywysogion y llwythau, ac wedi eu gosod ar y rhifedigion:)

3 A'u hoffrwm a ddygasant hwy ger bron yr ARGLWYDD, chwech o fenni diddos, a deuddeg o ychain; men dros *bob* dau dywysog, ac ŷch dros *bob* un: a cher bron y tabernacl y dygasant hwynt.

4 A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

5 Cymmer ganddynt, a byddant i wasanaethu gwasanaeth pabell y cyfarfod; a dod hwynt i'r Lefiaid, i bob un yn ol ei wasanaeth.

6 A chymmerodd Moses y menni, a'r ychain, ac a'u rhoddodd hwynt i'r Lefiaid.

7 Dwy fen a phedwar ŷch a roddes efe i feibion Gerson, yn ol eu gwasanaeth hwynt;

8 A phedair men ac wyth ŷch a roddodd efe i feibion Merari, yn ol eu gwasanaeth hwynt, dan law Ithamar mab Aaron yr offeiriad.

9 Ond i feibion Cohath ni roddodd efe *ddim*, am *fod* gwasanaeth y cyssegr arnynt: ar eu hysgwyddau y dygent *hwnnw*.

10 ¶ A'r tywysogion a offrymmasant *tu ag at* gyssegru yr allor, ar y dydd yr enneiniwyd hi; a cher bron yr allor y dug y tywysogion eu rhoddion.

11 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Pob tywysog ar ei ddiwrnod a offrymmant eu hoffrymmau, tu ag at gyssegru yr allor.

12 ¶ Ac ar y dydd cyntaf yr oedd yn offrymmu ei offrwm, Nahson mab Aminadab, dros lwyth Judah.

13 A'i offrwm ef *ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant *o siclau* ei phwys, un phïol arian o ddeg sicl a thri ugain, yn ol sicl y cyssegr, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm:

14 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn arogl-darth:

15 Un bustach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth:

16 Un bwch geifr yn bech-aberth:

17 Ac yn aberth hedd, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hespwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Nahson mab Aminadab.

18 ¶ Ac ar yr ail ddydd yr offrymmodd Nethaneel mab Suar, tywysog Issachar.

19 Efe a offrymmodd ei offrwm, *sef* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant *o siclau* ei phwys, un phïol arian o ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm:

20 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn arogl-darth:

21 Un bustach ieuangc, un hwrdd,
un oen blwydd, yn offrwm poeth:
22 Un bwch geifr yn bech-aberth:
23 Ac yn aberth hedd, dau ŷch,
pum hwrdd, pum bwch, pum hesp-
wrn blwyddiaid. Dyma offrwm Ne-
thaneel mab Suar.
24 ¶ Ar y trydydd dydd *yr off-*
rymmodd Eliab mab Helon, tywys-
og meibion Sabulon.
25 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl
arian o ddeg ar hugain a chant *o*
siclau ei phwys, un phïol arian o
ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl
sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o
beillied wedi ei gymmysgu trwy
olew, yn fwyd-offrwm:
26 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn
llawn arogl-darth:
27 Un bustach ieuangc, un hwrdd,
un oen blwydd, yn offrwm poeth:
28 Un bwch geifr yn bech-aberth:
29 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch,
pum hwrdd, pum bwch, pum hesp-
wrn blwyddiaid. Dyma offrwm Eli-
ab mab Helon.
30 ¶ Ar y pedwerydd dydd *yr*
offrymmodd Elisur mab Sedëur,
tywysog meibion Reuben.
31 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl
arian o ddeg ar hugain a chant *o*
siclau ei phwys, un phïol arian o
ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl
sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o
beillied wedi ei gymmysgu trwy
olew, yn fwyd-offrwm:
32 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn
llawn arogl-darth:
33 Un bustach ieuangc, un hwrdd,
un oen blwydd, yn offrwm poeth:
34 Un bwch geifr yn bech-aberth:
35 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch,
pum hwrdd, pum bwch, pum hesp-
wrn blwyddiaid. Dyma offrwm Eli-
sur mab Sedëur.
36 ¶ Ar y pummed dydd *yr off-*
rymmodd Selumiel mab Surisàdai,
tywysog meibion Simeon.
37 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl
arian o ddeg ar hugain a chant *o*
siclau ei phwys, un phïol arian o
ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl
sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o
beillied wedi ei gymmysgu trwy
olew, yn fwyd-offrwm:
38 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn
llawn arogl-darth:
39 Un bustach ieuangc, un hwrdd,
un oen blwydd, yn offrwm poeth:
40 Un bwch geifr yn bech-aberth:
41 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch,
pum hwrdd, pum bwch, pum hesp-
wrn blwyddiaid. Dyma offrwm Sel-
umiel mab Surisàdai.
42 ¶ Ar y chweched dydd *yr off-*
rymmodd Eliasaph mab Deuel,
tywysog meibion Gad.
43 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl
arian o ddeg ar hugain a chant *o*
siclau ei phwys, un phïol arian o
ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl
sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o
beillied wedi ei gymmysgu trwy
olew, yn fwyd-offrwm:
44 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn
llawn arogl-darth:
45 Un bustach ieuangc, un hwrdd,
un oen blwydd, yn offrwm poeth:
46 Un bwch geifr yn bech-aberth:
47 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch,
pum hwrdd, pum bwch, pum hesp-
wrn blwyddiaid. Dyma offrwm Eli-
asaph mab Deuel.
48 ¶ Ar y seithfed dydd *yr off-*
rymmodd Elisama mab Ammihud,
tywysog meibion Ephraim.
49 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl
arian o ddeg ar hugain a chant *o*
siclau ei phwys, un phïol arian o
ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl
sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o
beillied wedi ei gymmysgu trwy
olew, yn fwyd-offrwm:
50 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn
llawn arogl-darth:
51 Un bustach ieuangc, un hwrdd,
un oen blwydd, yn offrwm poeth:
52 Un bwch geifr yn bech-aberth:
53 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch,
pum hwrdd, pum bwch, pum hesp-
wrn blwyddiaid. Dyma offrwm Eli-
sama mab Ammihud.
54 ¶ Ar yr wythfed dydd *yr off-*
rymmodd Gamaliel mab Pedasur,
tywysog meibion Manasseh.
55 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl
arian o ddeg ar hugain a chant *o*
siclau ei phwys, un phïol arian o
ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl
sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o
beillied wedi ei gymmysgu trwy
olew, yn fwyd-offrwm:
56 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn
llawn arogl-darth:

57 Un bustach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd, yn ôffrwm poeth :
58 Un bwch geifr yn bech-aberth :
59 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hespwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Gamaliel mab Pedasur.
60 ¶ Ar y nawfed dydd *yr offrymmodd* Abidan mab Gideoni, tywysog meibion Benjamin.
61 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant *o siclau* ei phwys, un phïol arian o ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :
62 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn arogl-darth :
63 Un bustach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :
64 Un bwch geifr yn bech-aberth :
65 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hespwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Abidan mab Gideoni.
66 ¶ Ar y degfed dydd *yr offrymmodd* Ahïeser mab Ammisàdai, tywysog meibion Dan.
67 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant *o siclau* ei phwys, un phïol arian o ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :
68 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn arogl-darth :
69 Un bustach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :
70 Un bwch geifr yn bech-aberth :
71 Ac yn aberth hedd, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hespwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Ahïeser mab Ammisàdai.
72 ¶ Ar yr unfed dydd ar ddeg *yr offrymmodd* Pagïel mab Ocran, tywysog meibion Aser.
73 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant *o siclau* ei phwys, un phïol arian o ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl sanctaidd, yn llawn o beillied ill dwyoedd wedi ei gymmysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :
74 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn arogl-darth :
75 Un bustach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :
76 Un bwch geifr yn bech-aberth :
77 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hespwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Pagïel mab Ocran.
78 ¶ Ar y deuddegfed dydd *yr offrymmodd* Ahira mab Enan, tywysog meibion Naphtali.
79 Ei offrwm ef *ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant *o siclau* ei phwys, un phïol arian o ddeg sicl a thri ugain, yn ol y sicl sanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :
80 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn arogl-darth :
81 Un bustach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :
82 Un bwch geifr yn bech-aberth :
83 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hespwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Ahira mab Enan.
84 Dyma gyssegriad yr allor, gan dywysogion Israel, ar y dydd yr enneiniwyd hi : deuddeg dysgl arian, deuddeg phïol arian, deuddeg llwy aur :
85 Deg ar hugain a chant *o siclau* arian *ydoedd* pob dysgl, a deg a thri ugain pob phïol : holl arian y llestri *oedd* ddwy fil a phedwar cant *o siclau*, yn ol y sicl sanctaidd.
86 Y llwyau aur *oedd* ddeuddeg, yn llawn arogl-darth, o ddeg *sicl* bob llwy, yn ol y sicl sanctaidd : holl aur y llwyau *ydoedd* chwech ugain *sicl*.
87 Holl eidionau yr offrwm poeth *oedd* ddeuddeg bustach, deuddeg o hyrddod, deuddeg o wŷn blwyddiaid, a'u bwyd-offrwm ; a deuddeg o fychod geifr, yn offrwm dros bechod.
88 A holl ychain yr aberth hedd *oedd* bedwar ar hugain o fustych, tri ugain o hyrddod, tri ugain o fychod, tri ugain o hespyrniaid. Dyma gyssegriad yr allor wedi ei henneinio.
89 Ac fel yr oedd Moses yn myned i babell y cyfarfod i lefaru wrth Duw ; yna efe a glywai lais yn llefaru wrtho oddi ar y drugareddfa, yr hon *oedd* ar arch y dystiolaeth,

oddi rhwng y ddau gerub, ac efe a ddywedodd wrtho.

PENNOD 8.

1 Y modd y mae goleuo y llusernau. 5 Cyssegru y Lefiaid. 23 Oedran a thymmor eu gwasanaeth hwynt.

AR ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth Aaron, a dywed wrtho, Pan oleuech y lampau, llewyrched y saith lamp ar gyfer y canhwyllbren.
3 Ac felly y gwnaeth Aaron; ar gyfer y canhwyllbren y goleuodd efe ei lampau ef, megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses.
4 Dyma waith y canhwyllbren: cyfanwaith o aur *fydd* hyd ei baladr, *ie*, hyd ei flodau cyfanwaith fydd; yn ol y dull a ddangosodd yr ARGLWYDD i Moses, felly y gwnaeth efe y canhwyllbren.
5 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,
6 Cymmer y Lefiaid o fysg meibion Israel, a glanhâ hwynt.
7 Ac fel hyn y gwnei iddynt i'w glanhâu: taenella arnynt ddwfr puredigaeth, a gwnant i'r ellyn fyned dros eu holl gnawd, a golchant eu gwisgoedd, ac felly ymlanhânt.
8 Yna cymmerant fustach ieuangc a'i fwyd-offrwm o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew; a bustach ieuangc arall a gymmeri di yn aberth dros bechod.
9 A phâr i'r Lefiaid ddyfod o flaen pabell y cyfarfod; a chynnull holl gynnulleidfa meibion Israel ynghyd.
10 A dwg y Lefiaid ger bron yr ARGLWYDD; a gosoded meibion Israel eu dwylaw ar y Lefiaid.
11 Ac offrymmed Aaron y Lefiaid ger bron yr ARGLWYDD, yn offrwm gan feibion Israel, fel y byddont hwy i wasanaethu gwasanaeth yr ARGLWYDD.
12 A gosoded y Lefiaid eu dwylaw ar ben y bustych: ac offrwm dithau un yn bech-aberth, a'r llall yn offrwm poeth i'r ARGLWYDD, i wneuthur cymmod dros y Lefiaid.
13 A gosod y Lefiaid ger bron Aaron, a cher bron ei feibion, ac offrwm hwynt yn offrwm i'r ARGLWYDD.
14 A neilldua y Lefiaid o blith meibion Israel, a bydded y Lefiaid yn eiddof fi.
15 Wedi hynny aed y Lefiaid i mewn i wasanaethu pabell y cyfarfod; a glanhâ di hwynt, ac offrymma hwynt yn offrwm.
16 Canys hwynt a roddwyd yn rhodd i mi o blith meibion Israel: yn lle agorydd pob croth, *sef* pob cyntaf-anedig o feibion Israel, y cymmerais hwynt i mi.
17 Canys i mi *y perthyn* pob cyntaf-anedig ym mhlith meibion Israel, o ddyn ac o anifail: er y dydd y tarewais bob cyntaf-anedig y'ngwlad yr Aipht, y sancteiddiais hwynt i mi fy hun.
18 A chymmerais y Lefiaid yn lle pob cyntaf-anedig o feibion Israel.
19 A rhoddais y Lefiaid yn rhodd i Aaron, ac i'w feibion, o blith meibion Israel, i wasanaethu gwasanaeth meibion Israel ym mhabell y cyfarfod, ac i wneuthur cymmod dros feibion Israel; fel na byddo pla ar feibion Israel, pan ddelo meibion Israel yn agos at y cyssegr.
20 A gwnaeth Moses ac Aaron, a holl gynnulleidfa meibion Israel, i'r Lefiaid, yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses am y Lefiaid: felly y gwnaeth meibion Israel iddynt.
21 A'r Lefiaid a lanhâwyd, ac a olchasant eu dillad: ac Aaron a'u hoffrymmodd hwynt yn offrwm ger bron yr ARGLWYDD: a gwnaeth Aaron gymmod drostynt i'w glanhâu hwynt.
22 Ac wedi hynny y Lefiaid a ddaethant i wasanaethu gwasanaeth ym mhabell y cyfarfod, ger bron Aaron a'i feibion; megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses am y Lefiaid, felly y gwnaethant iddynt.
23 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,
24 Dyma yr hyn *a berthyn* i'r Lefiaid: o fab pum mlwydd ar hugain ac uchod, y deuant i filwrio milwriaeth y'ngwasanaeth pabell y cyfarfod.
25 Ac o fab dengmlwydd a deugain y caiff un ddychwelyd yn ei

ol o filwriaeth y gwasanaeth, fel na wasanaetho mwy.

26 Ond gwasanaethed gyd â'i frodyr ym mhabell y cyfarfod, i oruchwylio; ac na wasanaethed wasanaeth: fel hyn y gwnei i'r Lefiaid yn eu goruchwyliaeth.

PENNOD 9.

1 *Ail-orchymyn y Pasc.* 6 *Caniattâu ail Basc i'r rhai oedd allan neu absennol.* 15 *Y cwmmwl ym cyfarwyddo yr Israeliaid i symmudo ac i wersyllu.*

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses yn anialwch Sinai, yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwynt allan o dir yr Aipht, ar y mis cyntaf, gan ddywedyd,

2 Cadwed meibion Israel y Pasc hefyd yn ei dymmor.

3 Ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis hwn, yn y cyfnos, y cedwch ef yn ei dymmor: yn ol ei holl ddeddfau, ac yn ol ei holl ddefodau, y cedwch ef.

4 A llefarodd Moses wrth feibion Israel am gadw y Pasc.

5 A chadwasant y Pasc ar y *mis* cyntaf, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, yn y cyfnos, yn anialwch Sinai: yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses, felly y gwnaeth meibion Israel.

6 ¶ Ac yr oedd dynion, y rhai oedd wedi eu halogi wrth gelain dyn, fel na allent gadw y Pasc ar y dydd hwnnw: a hwy a ddaethant ger bron Moses, a cher bron Aaron, ar y dydd hwnnw.

7 A'r dynion hynny a ddywedasant wrtho, *Yr ydym* ni wedi ein halogi wrth gorph dyn marw: paham y'n gwaherddir rhag offrymmu offrwm i'r ARGLWYDD yn ei dymmor ym mysg meibion Israel?

8 A dywedodd Moses wrthynt, Sefwch, a mi a wrandawaf beth a orchymyno yr ARGLWYDD o'ch plegid.

9 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

10 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pan fyddo neb wedi ei halogi gan gorph marw, neu *neb* o honoch neu o'ch hiliogaeth mewn ffordd bell, etto cadwed Basc i'r ARGLWYDD.

11 Ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r ail fis, yn y cyfnos, y cadwant ef: ynghyd â bara croyw a *dail* chwerwon y bwyttânt ef.

12 Na weddillant *ddim* o hono hyd y bore, ac na thorrant asgwrn o hono: yn ol holl ddeddf y Pasc y cadwant ef.

13 A'r gŵr a fyddo glân, ac heb fod mewn taith, ac a beidio â chadw y Pasc, torrir ymaith yr enaid hwnnw o fysg ei bobl, am na offrymmodd offrwm yr ARGLWYDD yn ei dymmor: ei bechod a ddwg y gŵr hwnnw.

14 A phan ymdeithio dïeithr gyd â chwi, ac ewyllysio gadw Pasc i'r ARGLWYDD; fel *y byddo* deddf y Pasc a'i ddefod, felly y ceidw: yr un ddeddf fydd i chwi, *sef* i'r dïeithr ac i'r un fydd a'i enedigaeth o'r wlad.

15 ¶ Ac ar y dydd y codwyd y tabernacl, y cwmmwl a gauodd am y tabernacl dros babell y dystiolaeth; a'r hwyr yr ydoedd ar y tabernacl megis gwelediad tân hyd y bore.

16 Felly yr ydoedd yn wastadol; y cwmmwl a gauai am dano *y dydd*, a'r gwelediad tân y nos.

17 A phan gyfodai y cwmmwl oddi ar y babell, wedi hynny y cychwynai meibion Israel: ac yn y lle yr arhosai y cwmmwl ynddo, yno y gwersyllai meibion Israel.

18 Wrth orchymyn yr ARGLWYDD y cychwynai meibion Israel, ac wrth orchymyn yr ARGLWYDD y gwersyllent: yr holl ddyddiau yr arhosai y cwmmwl ar y tabernacl, yr arhosent yn y gwersyll.

19 A phan drigai y cwmmwl yn hir ar y tabernacl lawer o ddyddiau, yna meibion Israel a gadwent wyliadwriaeth yr ARGLWYDD, ac ni chychwynent.

20 Ac os byddai y cwmmwl ychydig ddyddiau ar y tabernacl, wrth orchymyn yr ARGLWYDD y gwersyllent, ac wrth orchymyn yr ARGLWYDD y cychwynent.

21 Hefyd os byddai y cwmmwl o hwyr hyd fore, a chyfodi o'r cwmmwl y bore, hwythau a symmudent: pa un bynnag ai dydd ai nos *fyddai* pan gyfodai y cwmmwl, yna y cychwynent.

22 Os deuddydd, os mis, os blwydd-

yn *fyddai*, tra y trigai y cwmmwl ar y tabernacl, gan aros arno, meibion Israel a arhosent yn eu pebyll, ac ni chychwynent: ond pan godai efe, y cychwynent.

23 Wrth air yr ARGLWYDD y gwersyllent, ac wrth air yr ARGLWYDD y cychwynent: *felly* y cadwent wyliadwriaeth yr ARGLWYDD, yn ol gair yr ARGLWYDD trwy law Moses.

PENNOD 10.

1 *Bëth a wneid â'r udgyrn arian.* 11 *Yr Israeliaid yn symmudo o Sinai i Paran.* 14 *Trefn eu cerddediad hwy.* 29 *Moses yn attolwg ar Hobab nad ymadawai â hwynt.* 33 *Bendith Moses wrth symmudo a gorphwyso o'r arch.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Gwna i ti ddau udgorn arian; yn gyfanwaith y gwnei hwynt: a byddant i ti i alw y gynnulleidfa ynghyd, ac i beri i'r gwersylloedd gychwyn.

3 A phan ganant â hwynt, yr ymgasgl yr holl gynnulleidfa attat, wrth ddrws pabell y cyfarfod.

4 Ond os âg un y canant; yna y tywysogion, *sef* pennaethiaid miloedd Israel, a ymgasglant.

5 Pan ganoch larwm; yna y gwersylloedd, y rhai a wersyllant tu a'r dwyrain, a gychwynant.

6 Pan ganoch larwm yr ail waith; yna y gwersylloedd, y rhai a wersyllant tu a'r dehau, a gychwynant: larwm a ganant hwy wrth eu cychwyn.

7 Ac wrth alw ynghyd y gynnulleidfa, cenwch yr udgyrn; ond na chenwch larwm.

8 A meibion Aaron, yr offeiriaid, a ganant ar yr udgyrn; a byddant i chwi yn ddeddf dragywyddol trwy eich cenhedlaethau.

9 Hefyd pan eloch i ryfel yn eich gwlad yn erbyn y gorthrymmwr a'ch gorthrymmo chwi; cenwch larwm mewn udgyrn: yna y coffëir chwi ger bron yr ARGLWYDD eich DUW, ac yr achubir chwi rhag eich gelynion.

10 Ar ddydd eich llawenydd hefyd, ac ar eich gwyliau gosodedig, ac ar ddechreu eich misoedd, y cenwch ar yr udgyrn uwch ben eich offrymmau poeth, ac uwch ben eich aberthau hedd; a byddant i chwi yn goffadwriaeth ger bron eich DUW: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW.

11 ¶ A bu yn yr ail flwyddyn, ar yr ail fis, ar yr ugeinfed *dydd* o'r mis, gyfodi o'r cwmmwl oddi ar dabernacl y dystiolaeth.

12 A meibion Israel a gychwynasant i'w taith o anialwch Sinai; a'r cwmmwl a arhosodd yn anialwch Paran.

13 Felly y cychwynasant y waith gyntaf, wrth air yr ARGLWYDD trwy law Moses.

14 ¶ Ac yn gyntaf y cychwynodd llumman gwersyll meibion Judah yn ol eu lluoedd: ac ar ei lu ef *yr ydoedd* Nahson mab Aminadab.

15 Ac ar lu llwyth meibion Issachar, Nethaneel mab Suar.

16 Ac ar lu llwyth meibion Sabulon, Eliab mab Helon.

17 Yna y tynnwyd i lawr y tabernacl; a meibion Gerson a meibion Merari a gychwynasant, gan ddwyn y tabernacl.

18 ¶ Yna y cychwynodd llumman gwersyll Reuben yn ol eu lluoedd: ac *yr ydoedd* ar ei lu ef Elisur mab Sedëur.

19 Ac ar lu llwyth meibion Simeon, Selumiel mab Surisadai.

20 Ac ar lu llwyth meibion Gad, Eliasaph mab Deuel.

21 A'r Cohathiaid a gychwynasant, gan ddwyn y cyssegr; *a'r lleill* a godent y tabernacl, tra fyddent hwy yn dyfod.

22 ¶ Yna llumman gwersyll meibion Ephraim a gychwynodd yn ol eu lluoedd: ac *yr oedd* ar ei lu ef Elisama mab Ammihud.

23 Ac ar lu llwyth meibion Manasseh, Gamaliel mab Pedasur.

24 Ac ar lu llwyth meibion Benjamin, Abidan mab Gideoni.

25 ¶ Yna llumman gwersyll meibion Dan, yn olaf o'r holl wersylloedd, a gychwynodd yn ol eu lluoedd: ac *yr ydoedd* ar ei lu ef Ahïeser mab Ammisadai.

26 Ac ar lu llwyth meibion Aser, Pagïel mab Ocran.

27 Ac ar lu llwyth meibion Naphtali, Ahira mab Enan.

28 Dyma gychwyniadau meibion Israel yn ol eu lluoedd, pan gychwynasant.

29 ¶ A dywedodd Moses wrth Hobab, mab Raguel y Midianiad, chwegrwn Moses, Myned yr ydym i'r lle am yr hwn y dywedodd yr ARGLWYDD, Rhoddaf hwnnw i chwi: tyred gyd â ni, a gwnawn ddaioni i ti; canys llefarodd yr ARGLWYDD ddaioni am Israel.

30 Dywedodd yntau wrtho, Nid âf ddim; ond i'm gwlad fy hun, ac at fy nghenedl fy hun, yr âf.

31 Ac efe a ddywedodd, Na âd ni, attolwg; canys ti a adwaenost ein gwersyllfaoedd yn yr anialwch, ac a fyddi yn lle llygaid i ni.

32 A phan ddelych gyd â ni, a dyfod o'r daioni hwnnw, yr hwn a wna yr ARGLWYDD i ni, ninnau a wnawn ddaioni i tithau.

33 ¶ A hwy a aethant oddi wrth fynydd yr ARGLWYDD daith tri diwrnod: ac arch cyfammod yr ARGLWYDD oedd yn myned o'u blaen hwynt daith tri diwrnod, i chwilio am orphwysfa iddynt.

34 A chwmmwl yr ARGLWYDD *oedd* arnynt y dydd, pan elent o'r gwersyll.

35 A hefyd pan gychwynai yr arch, Moses a ddywedai, Cyfod, ARGLWYDD, a gwasgarer dy elynion; a ffôed dy gaseion o'th flaen.

36 A phan orphwysai hi, y dywedai efe, Dychwel, ARGLWYDD, *at* fyrddiwn miloedd Israel.

PENNOD 11.

1 *Y llosgiad yn Taberah yn diffoddi trwy weddi Moses.* 4 *Y bobl yn blysio cig, ac yn ataru ar y manna.* 10 *Moses yn cwyno o ran ei siars.* 16 *Duw yn rhannu ei faich ef rhwng deg a thri ugain o henuriaid.* 31 *Duw yn rhoddi soflwcir yn ei ddigllonedd yn Cibroth-Hattaavah.*

A'R bobl, fel tuchanwyr, oeddynt flin y'nghlustiau yr ARGLWYDD: a chlywodd yr ARGLWYDD *hyn;* a'i ddig a ennynodd; a thân yr ARGLWYDD a gynneuodd yn eu mysg hwynt, ac a ysodd gwr y gwersyll.

2 A llefodd y bobl ar Moses: a gweddiodd Moses ar yr ARGLWYDD; a'r tân a ddiffoddodd.

3 Ac efe a alwodd enw y lle hwnnw, Taberah: am gynneu o dân yr ARGLWYDD yn eu mysg hwy.

4 ¶ A'r lliaws cymmysg yr hwn *ydoedd* yn eu mysg a flysiasant yn ddirfawr: a meibion Israel hefyd a ddychwelasant, ac a wylasant, ac a ddywedasant, Pwy a rydd i ni gig i'w fwytta?

5 Côf yw gennym y pysgod yr oeddym yn ei fwytta yn yr Aipht yn rhad, y cucumerau, a'r pompionau, a'r cenin, a'r winwyn, a'r garlleg:

6 Ond yr awr hon y mae ein henefidiau ni yn gwywo, heb ddim ond y manna yn ein golwg.

7 A'r manna hwnnw *oedd* fel had coriander, a'i liw fel lliw bdèliwm.

8 Y bobl a aethant o amgylch, ac a'*i* casglasant ac a'*i* malasant mewn melinau, neu a'*i* curasant mewn morter, ac a'*i* berwasant mewn peiriau, ac a'i gwnaethant yn deisennau: a'i flas ydoedd fel blas olew îr.

9 A phan ddisgynai y gwlith y nos ar y gwersyll, disgynai y manna arno ef.

10 ¶ A chlybu Moses y bobl yn wylo trwy eu tylwythau, bob un yn nrws ei babell: ac ennynodd dig yr ARGLWYDD yn fawr; a drwg oedd gan Moses.

11 Dywedodd Moses hefyd wrth yr ARGLWYDD, Paham y drygaist dy was? a phaham na chawn ffafr yn dy olwg, gan i ti roddi baich yr holl bobl hyn arnaf?

12 Ai myfi a feichiogais ar yr holl bobl hyn? ai myfi a'u cenhedlais, fel y dywedech wrthyf, Dwg hwynt yn dy fynwes, (megis y dwg tadmaeth y plentyn sugno,) i'r tir a addewaist trwy lw i'w tadau?

13 O ba le *y byddai* gennyf fi gig i'w roddi i'r holl bobl hyn? canys wylo y maent wrthyf, gan ddywedyd, Dod i ni gig i'w fwytta.

14 Ni allaf fi fy hunan arwain yr holl bobl hyn; canys rhy drwm *ydyw* i mi.

15 Ac os felly y gwnei i mi, attolwg, gan ladd lladd fi, os cefais ffafr yn dy olwg di; fel na welwyf fy nrygfyd.

16 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Casgl i mi ddengwr a thri ugain o henuriaid Israel, y rhai a wyddost eu bod yn henuriaid y bobl, ac yn swyddogion arnynt; a dwg hwynt i babell y cyfarfod, a safant yno gyd â thi.

17 Canys disgynaf, a llefaraf wr' ch-

yt yno: a mi a gymmeraf o'r yspryd *sydd* arnat ti, ac a'*i* gosodaf arnynt hwy; felly y dygant gyd â thi faich y bobl, fel na ddygech di *ef* yn unig.

18 Am hynny dywed wrth y bobl, Ymsancteiddiwch erbyn y fory, a chewch fwytta cig: canys wylasoch y'nghlustiau yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Pwy a ddyry i ni gig i'w fwytta? canys *yr ydoedd* yn dda arnom yn yr Aipht: am hynny y rhydd yr ARGLWYDD i chwi gig, a chwi a fwyttêwch.

19 Nid un dydd y bwyttêwch, ac nid dau, ac nid pump o ddyddiau, ac nid deg diwrnod, ac nid ugain diwrnod;

20 *Ond* hyd fis o ddyddiau, hyd oni ddêl allan o'ch ffroenau, a'i fod yn ffiaidd gennych: am i chwi ddirmygu yr ARGLWYDD yr hwn *sydd* yn eich plith, ac wylo o honoch yn ei ŵydd ef, gan ddywedyd, Paham y daethom allan o'r Aipht?

21 A dywedodd Moses, Chwe chan mil o wŷr traed *yw* y bobl *yr ydwyf* fi yn eu plith; a thi a ddywedi, Rhoddaf gig iddynt i'w fwytta fis o ddyddiau.

22 Ai y defaid a'r gwartheg a leddir iddynt, fel y byddo digon iddynt? ai holl bysg y môr a gesglir ynghyd iddynt, fel y byddo digon iddynt?

23 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, A gwttogwyd llaw yr ARGLWYDD? yr awr hon y cei di weled a ddigwydd fy ngair i ti, ai na *ddigwydd*.

24 ¶ A Moses a aeth allan ac a draethodd eiriau yr ARGLWYDD wrth y bobl, ac a gasglodd y dengwr a thri ugain o henuriaid y bobl, ac a'u gosododd hwynt o amgylch y babell.

25 Yna y disgynodd yr ARGLWYDD mewn cwmmwl, ac a lefarodd wrtho; ac a gymmerodd o'r yspryd *oedd* arno, ac a'i rhoddes i'r deg henafgwr a thri ugain. A thra y gorphwysai yr yspryd arnynt, y prophwydent, ac ychwaneg ni wnaent.

26 A dau *o'r* gwŷr a drigasant yn y gwersyll, (enw un *ydoedd* Eldad, enw y llall Medad;) a gorphwysodd yn yspryd arnynt hwy, am eu bod hwy o'r rhai a ysgrifenasid; ond nid aethant i'r babell, etto prophwydasant yn y gwersyll.

27 A rhododd llangc, a mynegodd i Moses, ac a ddywedodd, Y mae Eldad a Medad yn prophwydo yn y gwersyll.

28 A Josua mab Nun, gweinidog Moses o'i ieuengctid, a attebodd ac a ddywedodd, Moses, fy arglwydd, gwahardd iddynt.

29 A dywedodd Moses wrtho, Ai cenfigennu yr ydwyt ti drosof fi? O na byddai holl bobl yr ARGLWYDD yn brophwydi, *a* rhoddi o'r ARGLWYDD ei yspryd arnynt!

30 A Moses a aeth i'r gwersyll, efe a henuriaid Israel.

31 ¶ Ac fe aeth gwynt oddi wrth yr ARGLWYDD, ac a ddug soflieir oddi wrth y môr, ac a'u taenodd wrth y gwersyll, megis taith diwrnod ar y naill du, a thaith diwrnod ar y tu arall o amgylch y gwersyll, a *hynny* ynghylch dau gufydd, ar wyneb y ddaear.

32 Yna y cododd y bobl y dydd hwnnw oll, a'r nos oll, a'r holl ddydd drannoeth, ac a gasglasant y soflieir: yr hwn a gasglodd leiaf, a gasglodd ddeg homer: a chan daenu y taenasant *hwynt* iddynt eu hunain o amgylch y gwersyll.

33 A'r cig *oedd* etto rhwng eu dannedd hwynt heb ei gnoi, pan ennynodd digofaint yr ARGLWYDD yn erbyn y bobl; a'r ARGLWYDD a darawodd y bobl â phla mawr iawn.

34 Ac efe a alwodd enw y lle hwnnw Cibroth-Hattaafah; am iddynt gladdu yno y bobl a flysiasent.

35 O Feddau y blys yr aeth y bobl i Haseroth; ac arhosasant yn Haseroth.

PENNOD 12.

1 *Duw yn ceryddu cynnen Miriam ac Aaron:* 10 *ac yn iachau gwahan-glwyf Miriam, ar weddi Moses.* 14 *Duw yn gorchymyn ei chau hi allan o'r gwersyll.*

LEFARODD Miriam hefyd ac Aaron yn erbyn Moses, o achos y wraig o Ethiopia yr hon a briodasai efe: canys efe a gymmerasai Ethiopes yn wraig.

2 A dywedasant, Ai yn unig trwy Moses y llefarodd yr ARGLWYDD? oni lefarodd efe trwom ninnau hefyd? A'r ARGLWYDD a glybu *hynny*.

3 A'r gŵr Moses *ydoedd* larieiddiaf o'r holl ddynion *oedd* ar wyneb y ddaear.

4 A dywedodd yr ARGLWYDD yn ddisymmwth wrth Moses, ac wrth Aaron, ac wrth Miriam, Deuwch allan eich trïoedd i babell y cyfarfod. A hwy a aethant allan ill trïoedd.

5 Yna y disgynodd yr ARGLWYDD y'ngholofn y cwmmwl, ac a safodd *wrth* ddrws y babell, ac a alwodd Aaron a Miriam. A hwy a aethant allan ill dau.

6 Ac efe a ddywedodd, Gwrandêwch yr awr hon fy ngeiriau. Os bydd prophwyd yr ARGLWYDD yn eich mysg, mewn gweledigaeth yr ymhysbysaf iddo, *neu* mewn breuddwyd y llefaraf wrtho.

7 Nid felly *y mae* fy ngwas Moses, yr hwn *sydd* ffyddlawn yn fy holl dŷ.

8 Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho, *mewn* gwelediad, nid mewn damhegion; ond caiff edrych ar wedd yr ARGLWYDD: paham gan hynny nad oeddych yn ofni dywedyd yn erbyn fy ngwas, *sef* yn erbyn Moses?

9 A digofaint yr ARGLWYDD a ennynodd yn eu herbyn hwynt; ac efe a aeth ymaith.

10 A'r cwmmwl a ymadawodd oddi ar y babell: ac wele, Miriam *ydoedd* wahan-glwyfus, fel yr eira. Ac edrychodd Aaron ar Miriam; ac wele *hi* yn wahan-glwyfus.

11 Yna y dywedodd Aaron wrth Moses, O fy arglwydd, attolwg, na osod yn ein herbyn y pechod yr hwn yn ynfyd a wnaethom, *a thrwy* yr hwn y pechasom.

12 Na fydded hi, *attolwg*, fel un marw, yr hwn y bydd hanner ei gnawd wedi ei ddifa pan ddêl allan o groth ei fam.

13 A Moses a waeddodd ar yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, O DDUW, attolwg, meddyginiaetha hi yr awr hon.

14 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Os ei thad a boerai yn ei hwyneb, oni chywilyddiai hi saith niwrnod? cauer arni saith niwrnod o'r tu allan i'r gwersyll, ac wedi hynny derbynier hi.

15 A chauwyd ar Miriam o'r tu allan i'r gwersyll saith niwrnod: a'r bobl ni chychwynodd hyd oni ddaeth Miriam i mewn *dráchefn.*

16 Ac wedi hynny yr aeth y bobl o Haseroth, ac a wersyllasant yn anialwch Paran.

PENNOD 13.

1 *Enwau y gwŷr a ddanfonwyd i chwilio y wlad:* 17 *eu haddysg:* 21 *eu gweithredoedd:* 26 *eu newyddion.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Anfon i ti wŷr i edrych tir Canaan, yr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi i feibion Israel: gŵr dros bob un o lwythau eu tadau a anfonwch; pob un yn bennaeth yn eu mysg hwynt.

3 A Moses a'u hanfonodd hwynt o anialwch Paran, wrth orchymyn yr ARGLWYDD: pennaethiaid meibion Israel *oedd* y gwŷr hynny oll.

4 A dyma eu henwau hwynt. Dros lwyth Reuben, Sammua mab Saccur.

5 Dros lwyth Simeon, Saphat mab Hori.

6 Dros lwyth Judah, Caleb mab Jephunneh.

7 Dros lwyth Issachar, Igal mab Joseph.

8 Dros lwyth Ephraim, Osea mab Nun.

9 Dros lwyth Benjamin, Palti mab Raphu.

10 Dros lwyth Sabulon, Gàdiel mab Sodi.

11 O lwyth Joseph, dros lwyth Manasseh, Gadi mab Susi.

12 Dros lwyth Dan, Amiel mab Gemali.

13 Dros lwyth Aser, Sethur mab Michael.

14 Dros lwyth Naphtali, Nahbi mab Fophsi.

15 Dros lwyth Gad, Geuel mab Maci.

16 Dyma enwau y gwŷr a anfonodd Moses i edrych ansawdd y wlad. A Moses a enwodd Osea mab Nun, Josua.

17 ¶ A Moses a'u hanfonodd hwynt i edrych ansawdd gwlad Canaan; ac a ddywedodd wrthynt, Ewch yma tu a'r dehau, a dringwch i'r mynydd.

18 Ac edrychwch y wlad beth *yw* hi, a'r bobl sydd yn trigo ynddi, pa

un ai cryf ai gwan, ai ychydig ai llawer ydynt:
19 A pheth *yw* y tir y maent yn trigo ynddo, ai da ai drwg; ac ym mha ddinasoedd y maent yn preswylio, ai mewn pebyll, ai mewn amddiffynfeydd;
20 A pha dir, ai bras *yw* efe ai cul; a oes coed ynddo, ai nad *oes*. Ac ymwrolwch, a dygwch o ffrwyth y tir. A'r dyddiau *oeddynt* ddyddiau blaenffrwyth grawnwin.
21 ¶ A hwy a aethant i fyny, ac a chwiliasant y tir, o anialwch Sin hyd Rehob, ffordd y deuir i Hamath.
22 Ac a aethant i fyny i'r dehau, ac a ddaethant hyd Hebron: ac yno *yr oedd* Ahiman, Sesai, a Thalmai, meibion Anac. (A Hebron a adeiladasid saith mlynedd o flaen Soan yn yr Aipht.)
23 A daethant hyd ddyffryn Escol; a thorrasant oddi yno gangen âg un swp o rawnwin, ac a'i dygasant ar drosol rhwng dau: *dygasant rai* o'r pomgranadau hefyd, ac o'r ffigys.
24 A'r lle hwnnw a alwasant dyffryn Escol; o achos y swp grawnwin a dorrodd meibion Israel oddi yno.
25 A hwy a ddychwelasant o chwilio y wlad ar ol deugain niwrnod.
26 ¶ A myned a wnaethant, a dyfod at Moses ac at Aaron, ac at holl gynnulleidfa meibion Israel, i Cades, yn anialwch Paran; a dygasant yn eu hol air iddynt, ac i'r holl gynnulleidfa, ac a ddangosasant iddynt ffrwyth y tir.
27 A mynegasant iddo, a dywedasant, Daethom i'r tir lle yr anfonaist ni; ac yn ddïau llifeirio y mae o laeth a mêl: a dyma ei ffrwyth ef.
28 Ond *y mae* y bobl sydd yn trigo yn y tir yn gryfion, a'r dinasoedd yn gaerog *ac* yn fawrion iawn; a gwelsom yno hefyd feibion Anac.
29 Yr Amaleciaid sydd yn trigo yn nhir y dehau; a'r Hethiaid, a'r Jebusiaid, a'r Amoriaid, yn gwladychu yn y mynydd-dir; a'r Canaaneaid yn preswylio wrth y môr, a cher llaw yr Iorddonen.
30 A gostegodd Caleb y bobl ger bron Moses, ac a ddywedodd, Gan fyned awn i fyny, a pherchennogwn hi: canys gan orchfygu y gorchfygwn hi.
31 Ond y gwŷr y rhai a aethant i fyny gyd âg ef a ddywedasant, Ni allwn ni fyned i fyny yn erbyn y bobl; canys cryfach *ydynt* na nyni.
32 A rhoddasant allan anghlod am y tir a chwiliasent, wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Y tir yr aethom drosto i'w chwilio, tir yn difa ei breswylwyr yw efe; a'r holl bobl a welsom ynddo *ydynt* wŷr corphol:
33 Ac yno y gwelsom y cewri, meibion Anac, *y rhai a ddaethant* o'r cewri; ac yr oeddem yn ein golwg ein hunain fel ceiliogod rhedyn, ac felly yr oeddem yn eu golwg hwythau.

PENNOD 14.

1 Y bobl yn tuchan o ran y newyddion. 6 Josua a Chaleb yn ceisio eu llonyddu hwynt. 11 Duw yn eu bygwth. 13 Moses yn ymbil â Duw: ac yn cafael iddynt hwy faddeuant. 26 Y tuchanwyr heb gael myned i'r wlad. 36 Y gwŷr a roisant anghlod i'r tir yn marw o'r pla. 40 Y bobl a fynnai osod ar y wlad yn erbyn ewyllys Duw, yn cael eu taro.

YNA yr holl gynnulleidfa a ddyrchafodd ei llef, ac a waeddodd; a'r bobl a wylasant y nos honno.
2 A holl feibion Israel a duchanasant yn erbyn Moses, ac yn erbyn Aaron: a'r holl gynnulleidfa a ddywedasant wrthynt, O na buasem feirw yn nhir yr Aipht! neu, O na buasem feirw yn y diffaethwch hwn!
3 A phaham y mae yr ARGLWYDD yn ein dwyn ni i'r tir hwn, i gwympo ar y cleddyf? ein gwragedd a'n plant fyddant yn yspail. Onid gwell i ni ddychwelyd i'r Aipht?
4 A dywedasant bawb wrth eu gilydd, Gosodwn ben *arnom*, a dychwelwn i'r Aipht.
5 Yna y syrthiodd Moses ac Aaron ar eu hwynebau ger bron holl gynnulleidfa tyrfa meibion Israel.
6 ¶ Josua hefyd mab Nun, a Chaleb mab Jephunneh, *dau* o ysbïwyr y tir, a rwygasant eu dillad;
7 Ac a ddywedasant wrth holl dorf meibion Israel, gan ddywedyd, Y tir yr aethom drosto i'w chwilio, *sydd* dir da odiaeth.
8 Os yr ARGLWYDD sydd foddlawn i ni, efe a'n dwg ni i'r tir hwn, ac a'i rhydd i ni; *sef* y tir sydd yn llifeirio o laeth a mêl.
9 Yn unig na wrthryfelwch yn

erbyn yr ARGLWYDD, ac nac ofnwch bobl y tir; canys bara i ni ydynt: ciliodd eu hamddiffyn oddi wrthynt, a'r ARGLWYDD *sydd* gyd â ni: nac ofnwch hwynt.

10 A'r holl dorf a ddywedasant am eu llabyddio hwynt â meini. A gogoniant yr ARGLWYDD a ymddangosodd ym mhabell y cyfarfod i holl feibion Israel.

11 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Pa hyd y digia y bobl yma fi? a pha hyd y byddant heb gredu i mi, am yr holl arwyddion a wneuthum yn eu plith?

12 Tarawaf hwynt â haint, a gwasgaraf hwy, a gwnaf di yn genhedlaeth fwy, a chryfach na hwynt-hwy.

13 ¶ A dywedodd Moses wrth yr ARGLWYDD, Felly yr Aiphtiaid a glyw, (canys o'u mysg hwynt y dygaist y bobl yma i fyny yn dy nerth,)

14 Ac a ddywedant i breswylwyr y tir hwn, (canys clywsant dy fod di, ARGLWYDD, ym mysg y bobl yma, a'th fod di, ARGLWYDD, yn ymddangos *iddynt* wyneb yn wyneb, a bod dy gwmmwl di yn aros arnynt, a'th fod di yn myned o'u blaen hwynt mewn colofn o gwmmwl y dydd, ac mewn colofn dân y nos;)

15 Os lleddi y bobl yma fel un gŵr; yna y dywed y cenhedloedd y rhai a glywsant sôn am danat, gan ddywedyd,

16 O eisieu gallu o'r ARGLWYDD ddwyn y bobl yma i'r tir y tyngodd efe iddynt, am hynny y lladdodd efe hwynt yn y diffaethwch.

17 Yr awr hon, gan hynny, mawrhâer, attolwg, nerth yr ARGLWYDD, fel y lleferaist, gan ddywedyd,

18 Yr ARGLWYDD *sydd* hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd, yn maddeu anwiredd a chamwedd, a chan gyfiawnhâu ni chyfiawnhâ efe *yr euog;* ymweled y mae âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd *genhedlaeth.*

19 Maddeu, attolwg, anwiredd y bobl yma, yn ol dy fawr drugaredd, ac megis y maddeuaist i'r bobl hyn, o'r Aipht hyd yma.

20 A dywedodd yr ARGLWYDD, Maddeuais, yn ol dy air:

21 Ond os byw fi, yr holl dir a lenwir o ogoniant yr ARGLWYDD.

22 Canys yr holl ddynion y rhai a welsant fy ngogoniant, a'm harwyddion a wneuthum yn yr Aipht, ac yn y diffaethwch, ac a'm temtiasant y dengwaith hyn, ac ni wrandawsant ar fy llais,

23 Ni welant y tir y tyngais wrth eu tadau hwynt; *sef* y rhai oll a'm digiasant, nis gwelant ef:

24 Ond fy ngwas Caleb, am fod yspryd arall gyd âg ef, ac iddo fy nghyflawn-ddilyn, dygaf ef i'r tir y daeth iddo: a'i had a'i hetifedda ef.

25 (Ond y mae yr Amaleciaid a'r Canaaneaid yn trigo yn y dyffryn;) y fory trowch, ac ewch i'r diffaethwch, *ar hyd* ffordd y môr coch.

26 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywedyd,

27 Pa hyd *y cyd-ddygaf* â'r gynnulleidfa ddrygionus hon sydd yn tuchan i'm herbyn? clywais duchan meibion Israel, y rhai sydd yn tuchan i'm herbyn.

28 Dywed wrthynt, *Fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD, fel y llefarasoch yn fy nghlustiau, felly y gwnaf i chwi.

29 Yn y diffaethwch hwn y cwymp eich celaneddau: a'ch holl rifedigion trwy eich holl rif, o fab ugain mlwydd ac uchod, y rhai a duchanasoch yn fy erbyn,

30 Diau ni ddeuwch chwi i'r tir *am* yr hwn y codais fy llaw, am wneuthur i chwi breswylio ynddo, ond Caleb mab Jephunneh, a Josua mab Nun.

31 Ond eich plant chwi, y rhai y dywedasoch y byddent yn yspail, hwynt-hwy a ddygaf *i'r wlad,* a hwy a gânt adnabod y tir a ddirmygasoch chwi.

32 A'ch celaneddau chwi a gwympant yn y diffaethwch hwn.

33 A'ch plant chwi a fugeilia yn y diffaethwch ddeugain mlynedd, ac a ddygant *gosp* eich putteindra chwi, nes darfod eich celaneddau chwi yn y diffaethwch.

34 Yn ol rhifedi y dyddiau y chwiliasoch y tir, *sef* deugain niwrnod, (pob diwrnod am flwyddyn,) y dygwch eich anwireddau, *sef* deugain mlynedd; a chewch wybod torriad fy ngair i.

35 Myfi yr ARGLWYDD a leferais, dïau y gwnaf hyn i'r holl gynnulleidfa ddrygionus yma, sydd wedi ymgynnull i'm herbyn i: yn y diffaethwch hwn y darfyddant, ac yno y byddant feirw.

36 A'r dynion a anfonodd Moses i chwilio y tir, y rhai a ddychwelasant, ac a wnaethant i'r holl dorf duchan yn ei erbyn ef, gan roddi allan anair am y tir;

37 Y dynion, *meddaf*, y rhai a roddasant allan anair drwg i'r tir, a fuant feirw o'r pla, ger bron yr ARGLWYDD.

38 Ond Josua mab Nun, a Chaleb mab Jephunneh, a fuant fyw o'r gwŷr hyn a aethant i chwilio y tir.

39 A Moses a lefarodd y geiriau hyn wrth holl feibion Israel: a'r bobl a alarodd yn ddirfawr.

40 ¶ A chodasant yn fore i fyned i ben y mynydd, gan ddywedyd, Wele ni, a ni a awn i fyny i'r lle *am* yr hwn y dywedodd yr ARGLWYDD: canys ni a bechasom.

41 A dywedodd Moses, Paham yr ydych fel hyn yn troseddu gair yr ARGLWYDD? a hyn ni lwydda.

42 Nac ewch i fyny; canys nid *yw* yr ARGLWYDD yn eich plith: rhag eich taro o flaen eich gelynion.

43 Canys yr Amaleciaid a'r Canaaneaid *ydynt* yno o'ch blaen chwi, a chwi a syrthiwch ar y cleddyf: canys am i chwi ddychwelyd oddi ar ol yr ARGLWYDD, ni bydd yr ARGLWYDD gyd â chwi.

44 Etto rhyfygasant fyned i ben y mynydd: ond arch cyfammod yr ARGLWYDD, a Moses, ni symmudasant o ganol y gwersyll.

45 Yna y disgynodd yr Amaleciaid a'r Canaaneaid, y rhai oedd yn preswylio yn y mynydd hwnnw, ac a'u tarawsant, ac a'u difethasant hyd Hormah.

PENNOD 15.

1 *Cyfraith y bwyd-offrwm a'r ddïod-offrwm.* 13, 20 *Bod y dïeithrddyn dan yr un cyfraith.* 17 *Cyfraith blaenton toes yn offrwm dyrchafael.* 22 *Yr aberth am bechod o anwybod.* 30 *Cosbedigaeth rhyfyg.* 32 *Llabyddio yr hwn a dorrodd y Sabbath.* 37 *Cyfraith y rhidens.*

A'R ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddeloch i dir eich preswylfod, yr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi i chwi,

3 Ac offrymmu o honoch aberth tanllyd i'r ARGLWYDD, offrwm poeth, neu aberth, wrth dalu adduned, neu mewn offrwm gwirfodd, neu ar eich gwyliau gosodedig, gan wneuthur arogl peraidd i'r ARGLWYDD, o'r eidionau, neu o'r praidd:

4 Yna offrymmed yr hwn a offrymmo ei rodd i'r ARGLWYDD, o beillied ddegfed ran, wedi ei gymmysgu trwy bedwaredd ran hin o olew, yn fwyd-offrwm.

5 Ac offrwm di gyd â'r offrwm poeth, neu yr aberth, bedwaredd ran hin o win am bob oen, yn ddïod-offrwm.

6 A thi a offrymmi *yn* fwyd-offrwm gyd â hwrdd, o beillied ddwy ddegfed ran, wedi ei gymmysgu trwy drydedd *ran* hin o olew.

7 A thrydedd *ran* hin o win yn ddïod-offrwm, a offrymmi yn arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

8 A phan ddarperych lo buwch *yn* offrwm poeth, neu *yn* aberth yn talu adduned, neu aberth hedd i'r ARGLWYDD;

9 Yna offrymmed yn fwyd-offrwm gyd â llo y fuwch, o beillied dair degfed ran wedi ei gymmysgu trwy hanner hin o olew.

10 Ac offrwm hanner hin o win yn ddïod-offrwm, *yn* aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

11 Felly y gwneir am bob ŷch, neu am bob hwrdd, neu am oen, neu am fyn.

12 Yn ol y rhifedi a ddarparoch, felly y gwnewch i *bob* un, yn ol eu rhifedi.

13 Pob prïodor a wna y pethau hyn felly, wrth offrymmu aberth tanllyd o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

14 A phan ymdeithio dïeithrddyn, neu yr hwn *sydd* yn eich plith trwy eich cenhedlaethau, a darparu aberth tanllyd o arogl peraidd i'r ARGLWYDD; fel y gwneloch chwi, felly gwnaed yntau.

15 Yr un ddeddf *fydd* i chwi o'r dyrfa, ac i'r ymdeithydd dïeithr; deddf dragywyddol *yw* trwy eich cenhedlaethau: megis yr *ydych* chwi, felly y bydd y dïeithr ger bron yr ARGLWYDD.

16 Un gyfraith, ac un ddefod, fydd i chwi, ac i'r ymdeithydd a ymdeithio gyd â chwi.

17 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

18 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddeloch i'r tir yr ydwyf yn eich dwyn chwi iddo;

19 Yna pan fwyttaoch o fara y tir, y dyrchefwch offrwm dyrchafael i'r ARGLWYDD.

20 O flaenion eich toes yr offrymmwch deisen yn offrwm dyrchafael: fel offrwm dyrchafael y llawrdyrnu, felly y dyrchefwch hithau.

21 O ddechreu eich toes y rhoddwch i'r ARGLWYDD offrwm dyrchafael trwy eich cenhedlaethau.

22 ¶ A phan eloch dros y ffordd, ac na wneloch yr holl orchymynion hyn, y rhai a lefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses,

23 *Sef* yr hyn oll a orchymynodd yr ARGLWYDD i chwi trwy law Moses, o'r dydd y gorchymynodd yr ARGLWYDD, ac o hynny allan, trwy eich cenhedlaethau;

24 Yna bydded, os allan o olwg y gynnulleidfa y gwnaed *dim* trwy anwybod, i'r holl gynnulleidfa ddarparu un bustach ieuangc yn offrwm poeth, i *fod* yn arogl peraidd i'r ARGLWYDD, â'i fwyd-offrwm, a'i ddiod-offrwm, wrth y ddefod, ac un bwch geifr yn bech-aberth.

25 A gwnaed yr offeiriad gymmod dros holl gynnulleidfa meibion Israel, a maddeuir iddynt; canys anwybodaeth *yw:* a dygant eu hoffrwm, aberth tanllyd i'r ARGLWYDD, a'u pech-aberth, ger bron yr ARGLWYDD, am eu hanwybodaeth.

26 A maddeuir i holl gynnulleidfa meibion Israel, ac i'r dieithr a ymdeithio yn eu mysg; canys *digwyddodd* i'r holl bobl trwy anwybod.

27 ¶ Ond os un dyn a becha trwy anwyfusedd; yna offrymmed afr flwydd yn offrwm dros bechod.

28 A gwnaed yr offeiriad gymmod dros y dyn a becho yn anwyfus, pan becho trwy anwyfusedd ger bron yr ARGLWYDD, gan wneuthur cymmod drosto; a maddeuir iddo.

29 Yr hwn a aned o feibion Israel, a'r dieithr a ymdeithio yn eu mysg, un gyfraith fydd i chwi am wneuthur *pechod* trwy anwyfusedd.

30 ¶ Ond y dyn a wnel bechod mewn rhyfyg, o briodor, neu o ddieithr; cablu yr ARGLWYDD y mae: torrer ymaith y dyn hwnnw o fysg ei bobl.

31 O herwydd iddo ddïystyru gair yr ARGLWYDD, a thorri ei orchymyn ef; llwyr-dorrer ymaith y dyn hwnnw: ei anwiredd *fydd* arno.

32 ¶ Fel yr ydoedd meibion Israel yn y diffaethwch, cawsant ŵr yn cynnutta ar y dydd Sabbath.

33 A'r rhai a'i cawsant ef, a'i dygasant ef, *sef* y cynnuttwr, at Moses, ac at Aaron, ac at yr holl gynnulleidfa.

34 Ac a'i dodasant ef mewn dalfa, am nad oedd hysbys beth a wneid iddo.

35 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Lladder y gŵr yn farw: llabyddied yr holl gynnulleidfa ef â meini o'r tu allan i'r gwersyll.

36 A'r holl gynnulleidfa a'i dygasant ef i'r tu allan i'r gwersyll, ac a'i llabyddiasant ef â meini, fel y bu efe farw; megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses.

37 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

38 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, am wneuthur iddynt eddi ar odre eu dillad, trwy eu cenhedlaethau, a rhoddant bleth o *sidan* glas ar eddi y godre.

39 A bydded i chwi yn rhidens, i edrych arno, ac i gofio holl orchymynion yr ARGLWYDD, ac i'w gwneuthur hwynt; ac na chwiliwch yn ol eich calonnau eich hunain, nac yn ol eich llygaid eich hunain, y rhai yr ydych yn putteinio ar eu hol:

40 Fel y cofioch ac y gwneloch fy holl orchymynion i, ac y byddoch sanctaidd i'ch DUW.

41 Myfi *ydyw* yr ARGLWYDD eich DUW, yr hwn a'ch dygais chwi allan o dir yr Aipht, i fod i chwi yn DDUW: myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW.

PENNOD 16.

1 *Gwrthryfel Corah, Dathan, ac Abiram.* 23 *Moses yn gwahanu y bobl oddi wrth lebyllt y gwrthryfelwyr.* 31 *Y ddaear yn llyngcu Corah: a than yn difa y lleill.* 36 *Cadw y*

thusserau er mwyn defnydd sanctaidd. 41 *Lladd pedair mil ar ddeg a saith gant, am rwgnach yn erbyn Moses ac Aaron.* 46 *Aaron, trwy arogl-darthu, yn attal y pla.*

YNA Corah, mab Ishar, mab Cohath, mab Lefi; a Dathan ac Abiram, meibion Eliab, ac On mab Peleth, meibion Reuben, a gymmerasant *wŷr:*

2 A hwy a godasant o flaen Moses, ynghyd â dau cant a deg a deugain o wŷr *eraill* o feibion Israel, pennaethiaid y gynnulleidfa, pendefigion y gymmanfa, gwŷr enwog.

3 Ac ymgasglasant yn erbyn Moses, ac yn erbyn Aaron, ac a ddywedasant wrthynt, Gormod i chwi *hyn;* canys *y mae* yr holl gynnulleidfa yn sanctaidd bob un o honynt, ac *y mae* yr ARGLWYDD yn eu mysg: paham yr ymgodwch goruwch cynnulleidfa yr ARGLWYDD?

4 A phan glybu Moses, efe a syrthiodd ar ei wyneb.

5 Ac efe a lefarodd wrth Corah, ac wrth ei holl gynnulleidfa ef, gan ddywedyd, Y bore y dengys yr ARGLWYDD yr hwn *sydd* eiddo ef, a'r sanctaidd; a *phwy* a ddylai nesâu atto ef: canys yr hwn a ddewisodd efe, a nesâ efe atto.

6 Hyn a wnewch: Cymmerwch i chwi, *sef* Corah a'i holl gynnulleidfa, thusserau;

7 A rhoddwch ynddynt dân, a gosodwch arnynt arogl-darth y fory ger bron yr ARGLWYDD: yna bydd i'r gŵr hwnnw fod yn sanctaidd, yr hwn a ddewiso yr ARGLWYDD: gormod i chwi *hyn,* meibion Lefi.

8 A dywedodd Moses wrth Corah, Gwrandêwch, attolwg, meibion Lefi.

9 *Ai* bychan gennych neilduo o DDUW Israel chwi oddi wrth gynnulleidfa Israel, gan eich nesâu chwi atto ei hun, i wasanaethu gwasanaeth tabernacl yr ARGLWYDD, ac i sefyll ger bron y gynnulleidfa, i'w gwasanaethu hwynt?

10 Canys efe a'th nesaodd di, a'th holl frodyr, meibion Lefi, gyd â thi: ac a geisiwch chwi yr offeiriadaeth hefyd?

11 Am hynny tydi a'th holl gynnulleidfa *ydych* yn ymgynnull yn erbyn yr ARGLWYDD: ond Aaron, beth *yw* efe, i chwi i duchan yn ei erbyn?

12 ¶ A Moses a anfonodd i alw am Dathan ac Abiram, meibion Eliab. Hwythau a ddywedasant, Ni ddeuwn ni ddim i fyny.

13 *Ai* bychan *yw* dwyn o honot ti ni i fyny o dir yn llifeirio o laeth a mêl, i'n lladd ni yn y diffaethwch, oddi eithr hefyd arglwyddiaethu o honot yn dost arnom ni?

14 Etto ni ddygaist ni i dir yn llifeirio o laeth a mêl, ac ni roddaist i ni feddiant *mewn* maes na gwinllan: a dynni di lygaid y gwŷr hyn? ni ddeuwn ni i fyny ddim.

15 Yna y digiodd Moses yn ddirfawr, ac y dywedodd wrth yr ARGLWYDD, Nac edrych ar eu hoffrwm hwy: ni chymmerais un asyn oddi arnynt, ac ni ddrygais un o honynt.

16 A dywedodd Moses wrth Corah, Bydd di a'th holl gynnulleidfa ger bron yr ARGLWYDD, ti, a hwynt, ac Aaron, y fory.

17 A chymmerwch bob un ei thusser, a rhoddwch arnynt arogl-darth; a dyged pob un ei thusser ger bron yr ARGLWYDD, *sef* dau cant a deg a deugain o thusserau: *dwg* dithau hefyd, ac Aaron, bob un ei thusser.

18 A chymmerasant bob un ei thusser, a rhoddasant dân ynddynt, a gosodasant arogl-darth arnynt; a safasant *wrth* ddrws pabell y cyfarfod, ynghyd â Moses ac Aaron.

19 Yna Corah a gasglodd yr holl gynnulleidfa yn eu herbyn hwynt, i ddrws pabell y cyfarfod: a gogoniant yr ARGLWYDD a ymddangosodd i'r holl gynnulleidfa.

20 A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywedyd,

21 Ymneilldŵwch o fysg y gynnulleidfa hon, a mi a'u difaf hwynt ar unwaith.

22 A hwy a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a ddywedasant, O DDUW, DUW ysprydion pob cnawd, un dyn a bechodd, ac a ddigi di wrth yr holl gynnulleidfa?

23 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

24 Llefara wrth y gynnulleidfa, gan ddywedyd, Ewch ymaith o gylch pabell Corah, Dathan, ac Abiram.

25 A chyfododd Moses, ac a aeth at Dathan ac Abiram: a henuriaid Israel a aethant ar ei ol ef.

26 Ac efe a lefarodd wrth y gynnulleidfa, gan ddywedyd, Ciliwch, attolwg, oddi wrth bebyll y dynion drygionus hyn, ac na chyffyrddwch â dim o'r eiddynt; rhag eich difetha yn eu holl bechodau hwynt.

27 Yna yr aethant oddi wrth babell Corah, Dathan, ac Abiram, o amgylch: a Dathan ac Abiram, eu gwragedd hefyd, a'u meibion, a'u plant, a ddaethant allan, gan sefyll *wrth* ddrws eu pebyll.

28 A dywedodd Moses, Wrth hyn y cewch wybod mai yr ARGLWYDD a'm hanfonodd i wneuthur yr holl weithredoedd hyn; ac nad o'm meddwl fy hun *y gwneuthum hwynt.*

29 Os bydd y rhai hyn feirw fel y bydd marw pob dyn, ac *os* ymwelir â hwynt âg ymwelediad pob dyn; nid yr ARGLWYDD a'm hanfonodd i.

30 Ond os yr ARGLWYDD a wna newydd-beth, fel yr agoro y ddaear ei safn, a'u llyngcu hwynt, a'r hyn oll *sydd* eiddynt, fel y disgynont yn fyw i uffern; yna y cewch wybod ddigio o'r gwŷr hyn yr ARGLWYDD.

31 ¶ A bu, wrth orphen o hono lefaru yr holl eiriau hyn, hollti o'r ddaear *oedd* danynt hwy.

32 Agorodd y ddaear hefyd ei safn, a llyngcodd hwynt, a'u tai hefyd, a'r holl ddynion *oedd* gan Corah, a'*u* holl gyfoeth.

33 A hwynt, a'r rhai oll a'r *a oedd* gyd â hwynt, a ddisgynasant yn fyw i uffern; a'r ddaear a gauodd arnynt: a difethwyd hwynt o blith y gynnulleidfa.

34 A holl Israel, y rhai *oedd* o'u hamgylch hwynt, a ffoisant wrth eu gwaedd hwynt: canys dywedasant, *Ciliwn*, rhag i'r ddaear ein llyngcu ninnau.

35 Tân hefyd a aeth allan oddi wrth yr ARGLWYDD, ac a ddifaodd y dau cant a'r deg a deugain o wŷr oedd yn offrymmu yr arogl-darth.

36 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

37 Dywed wrth Eleasar, mab Aaron yr offeiriad, am godi o hono efe y thusserau o fysg y llosg; a gwasgara y tân oddi yno allan: canys sanctaidd ydynt:

38 *Sef* thusserau y rhai hyn a bechasant yn erbyn eu heneidiau eu hun; a gweithier hwynt yn ddalennau llydain, *i fod* yn gaead i'r allor; canys offrymmasant hwynt ger bron yr ARGLWYDD; am hynny sanctaidd ydynt: a byddant yn arwydd i feibion Israel.

39 A chymmerodd Eleasar yr offeiriad y thusserau pres, â'r rhai yr offrymmasai y *gwŷr* a losgasid; ac estynwyd hwynt yn gaead i'r allor:

40 Yn goffadwriaeth i feibion Israel; fel na nesao gŵr dieithr, yr hwn ni byddo o had Aaron, i losgi arogl-darth ger bron yr ARGLWYDD; ac na byddo fel Corah a'i gynnulleidfa: megis y llefarasai yr ARGLWYDD trwy law Moses wrtho ef.

41 ¶ A holl gynnulleidfa meibion Israel a duchanasant drannoeth yn erbyn Moses, ac yn erbyn Aaron, gan ddywedyd, Chwi a laddasoch bobl yr ARGLWYDD.

42 A bu, wedi ymgasglu o'r gynnulleidfa yn erbyn Moses ac Aaron, edrych o honynt ar babell y cyfarfod: ac wele, toasai y cwmmwl hi, ac ymddangosodd gogoniant yr ARGLWYDD.

43 Yna y daeth Moses ac Aaron o flaen pabell y cyfarfod.

44 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

45 Ciliwch o blith y gynnulleidfa hon, a mi a'u difaf hwynt yn ddisymmwth. A hwy a syrthiasant ar eu hwynebau.

46 ¶ Dywedodd Moses hefyd wrth Aaron, Cymmer thusser, a dod dân oddi ar yr allor ynddi, a gosod arogl-darth *arni*, *a* dos yn fuan at y gynnulleidfa, a gwna gymmod drostynt: canys digofaint a aeth allan oddi ger bron yr ARGLWYDD; dechreuodd y pla.

47 A chymmerodd Aaron megis y llefarodd Moses, ac a redodd i ganol y gynnulleidfa; ac wele, dechreuasai y pla ar y bobl: ac efe a rodd arogl-darth, ac a wnaeth gymmod dros y bobl.

48 Ac efe a safodd rhwng y meirw a'r byw; a'r pla a attaliwyd.

49 A'r rhai a fuant feirw o'r pla oedd bedair mil ar ddeg a saith gant, heb law y rhai a fuant feirw yn achos Corah.

50 A dychwelodd Aaron at Moses i ddrws pabell y cyfarfod: a'r pla a attaliwyd.

PENNOD 17.

1 *Gwïalen Aaron ym mhlith holl wïail y llwythau yn uniq yn blodeuo.* 10 *Ei gadael hi yn lle coffadwriaeth yn erbyn y gwrthryfelwyr.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a chymmer gan bob un o honynt wïalen, yn ol tŷ eu tadau, *sef* gan bob un o'u pennaethiaid, yn ol tŷ eu tadau, deuddeg gwïalen: ysgrifena enw pob un ar ei wïalen.

3 Ac ysgrifena enw Aaron ar wïalen Lefi: canys un wïalen *fydd* dros *bob* pennaeth tŷ eu tadau.

4 A gâd hwynt ym mhabell y cyfarfod, ger bron y dystiolaeth, lle y cyfarfyddaf â chwi.

5 A gwïalen y gŵr a ddewiswyf, a flodeua: a mi a wnaf i furmur meibion Israel, y rhai y maent yn ei furmur i'ch erbyn, beidio â mi.

6 ¶ A llefarodd Moses wrth feibion Israel: a'u holl bennaethiaid a roddasant atto wïalen dros bob pennaeth, yn ol tŷ eu tadau, *sef* deuddeg gwïalen; a gwïalen Aaron *oedd* ym mysg eu gwïail hwynt.

7 A Moses a adawodd y gwïail ger bron yr ARGLWYDD, ym mhabell y dystiolaeth.

8 A thrannoeth y daeth Moses i babell y dystiolaeth: ac wele, gwïalen Aaron dros dŷ Lefi a flagurasai, ac a fwriasai flagur, ac a flodeuasai flodau, ac a ddygasai almonau.

9 A dug Moses allan yr holl wïail oddi ger bron yr ARGLWYDD at holl feibion Israel. Hwythau a edrychasant, ac a gymmerasant bob un ei wïalen ei hun.

10 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Dod wïalen Aaron drachefn ger bron y dystiolaeth, i'w chadw yn arwydd i'r meibion gwrthryfelgar; fel y gwnelech i'w tuchan hwynt beidio â mi, ac na byddont feirw.

11 A gwnaeth Moses fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD iddo; felly y gwnaeth efe.

12 A meibion Israel a lefarasant wrth Moses, gan ddywedyd, Wele ni yn trengi; darfu am danom, darfu am danom ni oll.

13 Bydd farw pob un gan nesâu a nesao i dabernacl yr ARGLWYDD. A wneir pen am danom gan drengi?

PENNOD 18.

1 *Swydd yr offeiriaid a'r Lefiaid.* 9 *Rhan yr offeiriaid.* 21 *Rhan y Lefiaid.* 25 *Rhoddi yr offrym dyrchafael i'r offeiriaid allan o ran y Lefiaid.*

A DYWEDODD yr ARGLWYDD wrth Aaron, Tydi a'th feibion, a thy llwyth dy dad gyd â thi, a ddygwch anwiredd y cyssegr: a thi a'th feibion gyd â thi a ddygwch anwiredd eich offeiriadaeth.

2 A dwg hefyd gyd â thi dy frodyr o llwyth Lefi, *sef* llwyth dy dad, i lynu wrthyt ti, ac i'th wasanaethu: tithau a'th feibion gyd â thi *a wasanaethwch* ger bron pabell y dystiolaeth.

3 A hwy a gadwant dy gadwraeth di, a chadwraeth yr holl babell: ond na ddeuant yn agos at ddodrefn y cyssegr, nac at yr allor, rhag eu marw hwynt, a chwithau hefyd.

4 Ond hwy a lynant wrthyt, ac a oruchwyliant babell y cyfarfod, yn holl wasanaeth y babell: ac na ddeued y dïeithr yn agos attoch.

5 Eithr cedwch chwi oruchwyliaeth y cyssegr, a goruchwyliaeth yr allor; fel na byddo digofaint mwy yn erbyn meibion Israel.

6 Ac wele, mi a gymmerais dy frodyr di, y Lefiaid, o fysg meibion Israel: i ti y rhoddwyd *hwynt*, *megis* rhodd i'r ARGLWYDD, i wasanaethu gwasanaeth pabell y cyfarfod.

7 Tithau a'th feibion gyd â thi a gedwch eich offeiriadaeth; ynghylch pob peth *a berthyn* i'r allor, ac o fewn y llen wahan, y gwasanaethwch: yn wasanaeth rhodd y rhoddais eich offeiriadaeth *i* chwi; a'r dïeithr a ddelo yn agos, a leddir.

8 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Aaron, Wele, mi a roddais i ti hefyd oruchwyliaeth fy offrymmau dyrch-

afael, o holl gyssegredig bethau meibion Israel; rhoddais hwynt i ti, o herwydd yr enneiniad, ac i'th feibion, trwy ddeddf dragywyddol.

9 Hyn fydd i ti o'r pethau sanctteiddiolaf *a gedwir allan* o'r tân: eu holl offrymmau hwynt, eu holl fwyd-offrwm, a'u holl aberthau dros bechod, a'u holl aberthau dros gamwedd, y rhai a dalant i mi, *fyddant* sancteiddiolaf i ti, ac i'th feibion.

10 O fewn y cyssegr sanctaidd y bwyttêi ef; pob gwrryw a'i bwytty ef: cyssegredig fydd efe i ti.

11 Hyn hefyd *fydd* i ti; offrwm dyrchafael eu rhoddion hwynt, ynghyd â holl offrymmau cyhwfan meibion Israel: i ti y rhoddais hwynt, ac i'th feibion, ac i'th ferched gyd â thi, trwy ddeddf dragywyddol: pob un glân yn dy dŷ a gaiff fwytta o hono.

12 Holl oreuon yr olew, a holl oreuon y gwin a'r ŷd, *sef* eu blaenffrwyth hwynt yr hwn a roddant i'r ARGLWYDD, a roddais i ti.

13 Blaenffrwyth pob dim yn eu tir hwynt yr hwn a ddygant i'r ARGLWYDD, fydd eiddot ti: pob un glân yn dy dŷ a fwytty o hono.

14 Pob diofryd-beth yn Israel fydd eiddot ti.

15 Pob peth a agoro y groth o bob cnawd yr hwn a offrymmir i'r ARGLWYDD, o ddyn ac o anifail, fydd eiddot ti: ond gan brynu y pryni bob cyntaf-anedig i ddyn; a phryn y cyntaf-anedig i'r anifail aflan.

16 A phâr brynu y rhai a bryner o honot, o fab misyriad, yn dy bris di, *er* pum sicl o arian, wrth sicl y cyssegr: ugain gerah *yw* hynny.

17 Ond na phryn y cyntaf-anedig o eidion, neu gyntaf-anedig dafad, neu gyntaf-anedig gafr; sanctaidd *ydynt* hwy: eu gwaed a daenelli ar yr allor, a'u gwer a losgi yn aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.

18 Ond eu cig fydd eiddot ti; fel parwyden y cyhwfan, ac fel yr ysgwyddog ddehau, y mae yn eiddot ti.

19 Holl offrymmau dyrchafael y pethau sanctaidd, y rhai a offrymmo meibion Israel i'r ARGLWYDD, a roddais i ti, ac i'th feibion, ac i'th ferched gyd â thi, trwy ddeddf dragywyddol: cyfammod halen tragywyddol *fydd* hyn, ger bron yr ARGLWYDD, i ti, ac i'th had gyd â thi.

20 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Aaron, Na fydded i ti etifeddiaeth yn eu tir hwynt, ac na fydded i ti ran yn eu mysg hwynt: myfi *yw* dy ran di, a'th etifeddiaeth, ym mysg meibion Israel.

21 Ac wele, mi a roddais i feibion Lefi bob degwm yn Israel, yn etifeddiaeth, am eu gwasanaeth y maent yn ei wasanaethu, *sef* gwasanaeth pabell y cyfarfod.

22 Ac na ddeued meibion Israel mwyach yn agos i babell y cyfarfod; rhag iddynt ddwyn pechod, a marw.

23 Ond gwasanaethed y Lefiaid wasanaeth pabell y cyfarfod, a dygant eu hanwiredd: deddf dragywyddol *fydd hyn* trwy eich cenhedlaethau, nad etifeddant hwy etifeddiaeth ym mysg meibion Israel.

24 Canys degwm meibion Israel, yr hwn a offrymmant yn offrwm dyrchafael i'r ARGLWYDD, a roddais i'r Lefiaid yn etifeddiaeth: am hynny y dywedais wrthynt, nad etifeddent etifeddiaeth ym mysg meibion Israel.

25 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

26 Llefara hefyd wrth y Lefiaid, a dywed wrthynt, Pan gymmeroch gan feibion Israel y degwm a roddais i chwi yn etifeddiaeth oddi wrthynt; yna offrymmwch o hynny offrwm dyrchafael i'r ARGLWYDD, *sef* degwm o'r degwm.

27 A chyfrifir i chwi eich offrwm dyrchafael, fel yr ŷd o'r ysgubor, ac fel cyflawnder o'r gwin-wrŷf.

28 Felly yr offrymmwch chwithau hefyd offrwm dyrchafael i'r ARGLWYDD, o'ch holl ddegymmau a gymmeroch gan feibion Israel; a rhoddwch o hynny ddyrchafael-offrwm yr ARGLWYDD i Aaron yr offeiriad.

29 O'ch holl roddion offrymmwch bob offrwm dyrchafael yr ARGLWYDD o bob goreu o hono, *sef*

y rhan gyssegredig, allan o hono ef.

30 A dywed wrthynt, Pan ddyrchafoch ei oreuon allan o hono, cyfrifir i'r Lefiaid fel toraeth yr ysgubor, a thoraeth y gwin-wrŷf.

31 A bwyttêwch ef ym mhob lle, chwi a'ch tylwyth: canys gwobr *yw* efe i chwi, am eich gwasanaeth ym mhabell y cyfarfod.

32 Ac ni ddygwch bechod o'i herwydd, gwedi y dyrchafoch ei oreuon o hono: na halogwch chwithau bethau sanctaidd meibion Israel; fel na byddoch feirw.

PENNOD 19.

1 *Y dwfr neillduaeth a wneid o ludw anner goch.*
11 *Y gyfraith pa fodd yr arferid ef wrth buro yr aflan.*

LLEFARODD yr ARGLWYDD hefyd wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywedyd,

2 Dyma ddeddf y gyfraith a orchymynodd yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Llefara wrth feibion Israel, am ddwyn o honynt attat anner goch berffeith-gwbl, yr hon ni byddo anaf arni, ac nid aeth iau arni.

3 A rhoddwch hi at Eleasar yr offeiriad: a phared efe ei dwyn hi o'r tu allan i'r gwersyll; a lladded *un* hi ger ei fron ef.

4 A chymmered Eleasar yr offeiriad *beth* o'i gwaed hi ar ei fys, a thaenelled o'i gwaed hi ar gyfer wyneb pabell y cyfarfod saith waith.

5 A llosged *un* yr anner yn ei olwg ef: ei chroen, a'i chig, a'i gwaed, ynghyd â'i biswail, a lysg efe.

6 A chymmered yr offeiriad goed cedr, ac isop, ac ysgarlad; a bwried i ganol llosgfa yr anner.

7 A golched yr offeiriad ei wisgoedd, troched hefyd ei gnawd mewn dwfr, ac wedi hynny deued i'r gwersyll; ac aflan fydd yr offeiriad hyd yr hwyr.

8 Felly golched yr hwn a'i llosgo hi ei ddillad mewn dwfr, a golched hefyd ei gnawd mewn dwfr; ac aflan fydd hyd yr hwyr.

9 A chasgled un glân ludw yr anner, a gosoded o'r tu allan i'r gwersyll mewn lle glân; a bydded y'nghadw i gynnulleidfa meibion Israel, yn ddwfr neillduaeth: pechaberth *yw*.

10 A golched yr hwn a gasglo ludw yr anner, ei ddillad; aflan fydd hyd yr hwyr: a bydd hyn i feibion Israel, ac i'r dïeithr a ymdeithio yn eu mysg hwynt, yn ddeddf dragywyddol.

11 ¶ A gyffyrddo â chorph marw dyn, aflan fydd saith niwrnod.

12 Ymlanhâed trwy *y dwfr* hwnnw y trydydd dydd, a'r seithfed dydd glân fydd: ac os y trydydd dydd nid ymlanhâ efe, yna ni bydd efe lân y seithfed dydd.

13 Pob un a gyffyrddo â chorph marw dyn fyddo wedi marw, ac nid ymlanhao, sydd yn halogi tabernacl yr ARGLWYDD; a thorrir ymaith yr enaid hwnnw oddi wrth Israel: am na thaenellwyd dwfr neillduaeth arno, aflan fydd efe; ei aflendid *sydd* etto arno.

14 Dyma y gyfraith, pan fyddo marw dyn mewn pabell: pob un a ddelo i'r babell, a phob un *a fyddo* yn y babell, fydd aflan saith niwrnod.

15 A phob llestr agored ni byddo cadach wedi ei rwymo arno, aflan *yw* efe.

16 Pob un hefyd a gyffyrddo, ar wyneb y maes, âg un wedi ei ladd â chleddyf, neu âg un marw, neu âg asgwrn dyn, neu â bedd, a fydd aflan saith niwrnod.

17 Cymmerant dros yr aflan o ludw llosg yr offrwm dros bechod; a rhodder atto ddwfr rhedegog mewn llestr;

18 A chymmered isop, a golched un dihalogedig *ef* mewn dwfr, a thaenelled ar y babell, ac ar yr holl lestri, ac ar yr holl ddynion oedd yno, ac ar yr hwn a gyffyrddodd âg asgwrn, neu un wedi ei ladd, neu un wedi marw, neu fedd:

19 A thaenelled y glân ar yr aflan y trydydd dydd, a'r seithfed dydd; ac ymlanhâed efe y seithfed dydd, a golched ei ddillad, ymolched mewn dwfr, a glân fydd yn yr hwyr.

20 Ond y gŵr a haloger, ac nid ymlanhao, torrir ymaith yr enaid hwnnw o fysg y gynnulleidfa: canys efe a halogodd gyssegr yr ARGLWYDD, ni thaenellwyd arno ddwfr y neillduaeth; aflan *yw* efe.

21 A bydd iddynt yn ddeddf dragywyddol, bod i'r hwn a daenello ddwfr y neillduaeth, olchi eiddillad; a'r hwn a gyffyrddo â dwfr y neillduaeth, a fydd aflan hyd yr hwyr.

22 A'r hyn oll a gyffyrddo yr aflan âg ef, fydd aflan: a'r dyn a gyffyrddo *â hynny*, fydd aflan hyd yr hwyr.

PENNOD 20.

1 *Plant Israel yn dyfod i Sin, lle y bu farw Miriam.* 2 *Hwynt-hwy yn tuchan o eisieu dwfr.* 7 *Moses yn taro y graig, ac yn dwyn allan ddwfr ym Meribah.* 12 *Cospedigaeth Moses ac Aaron, am eu petrusedd.* 14 *Moses yn Cades yn deisyfu ffordd i dramwy trwy Edom; ac yn cael ei naccâu.* 22 *Aaron yn rhoddi i fyny ei le i Eleasar, ac yn marw.*

A MEIBION Israel, *sef* yr holl gynnulleidfa, a ddaethant i anialwch Sin, yn y mis cyntaf; ac arhôdd y bobl yn Cades; yno hefyd y bu farw Miriam: ac yno y claddwyd hi.

2 Ac nid oedd dwfr i'r gynnulleidfa: a hwy a ymgasglasant yn erbyn Moses ac Aaron.

3 Ac ymgynhennodd y bobl â Moses, a llefarasant, gan ddywedyd, O na buasem feirw pan fu feirw ein brodyr ger bron yr ARGLWYDD!

4 Paham y dygasoch gynnulleidfa yr ARGLWYDD i'r anialwch hwn, i farw o honom ni a'n hanifeiliaid ynddo?

5 A phaham y dygasoch ni i fyny o'r Aipht, i'n dwyn ni i'r lle drwg yma? lle heb had, na ffigysbren, na gwinwydden, na phomgranadbren, ac heb ddwfr i'w yfed?

6 A daeth Moses ac Aaron oddi ger bron y gynnulleidfa, i ddrws pabell y cyfarfod; ac a syrthiasant ar eu hwynebau: a gogoniant yr ARGLWYDD a ymddangosodd iddynt.

7 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

8 Cymmer y wialen, a chasgl y gynnulleidfa, ti ac Aaron dy frawd; ac yn eu gŵydd hwynt lleferwch wrth y graig, a hi a rydd ei dwfr: a thyn dithau iddynt ddwfr o'r graig, a dïoda y gynnulleidfa a'u hanifeiliaid.

9 A Moses a gymmerodd y wialen oddi ger bron yr ARGLWYDD, megis y gorchymynasai efe iddo.

10 A Moses ac Aaron a gynnullasant y dyrfa ynghyd o flaen y graig: ac efe a ddywedodd wrthynt, Gwrandêwch yn awr, chwi wrthryfelwyr; Ai o'r graig hon y tynnwn i chwi ddwfr?

11 A Moses a gododd ei law, ac a darawodd y graig ddwy waith â'i wialen: a daeth dwfr lawer allan; a'r gynnulleidfa a yfodd, a'u hanifeiliaid *hefyd.*

12 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, ac wrth Aaron, Am na chredasoch i mi, i'm sancteiddio y'ngŵydd meibion Israel: am hynny ni ddygwch y dyrfa hon i'r tir a roddais iddynt.

13 Dyma ddyfroedd Meribah; lle yr ymgynhennodd meibion Israel â'r ARGLWYDD, ac y sancteiddiwyd ef ynddynt.

14 ¶ A Moses a anfonodd genhadon o Cades at frenhin Edom, *gan ddywedyd*, Fel hyn y dywed Israel dy frawd; Ti a wyddost yr holl flinder a gawsom ni:

15 Pa wedd yr aeth ein tadau i waered i'r Aipht, ac yr arhosasom yn yr Aipht lawer o ddyddiau; ac y drygodd yr Aiphtiaid ni, a'n tadau.

16 A ni a waeddasom ar yr ARGLWYDD; ac efe a glybu ein llef ni, ac a anfonodd angel, ac a'n dug ni allan o'r Aipht: ac wele ni yn Cades, dinas *ar* gwr dy ardal di.

17 Attolwg, gâd i ni fyned trwy dy wlad: nid awn trwy faes, na gwinllan, ac nid yfwn ddwfr *un* ffynnon: *prif*-ffordd y brenhin a gerddwn; ni thrown ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy, nes i ni fyned allan o'th derfynau di.

18 A dywedodd Edom wrtho, Na thyred heibio i mi, rhag i mi ddyfod â'r cleddyf i'th gyfarfod.

19 A meibion Israel a ddywedasant wrtho, Ar hyd y brif-ffordd yr awn i fyny; ac os myfi neu fy anifeiliaid a yfwn o'th ddwfr di, rhoddaf ei werth ef; yn unig ar fy nhraed yr âf trwodd yn ddiniwed.

20 Yntau a ddywedodd, Ni chei fyned trwodd. A daeth Edom allan i gyfarfod âg ef, â phobl lawer, ac â llaw gref.

21 Felly Edom a naccaodd roddi ffordd i Israel trwy ei fro: am hynny Israel a drodd oddi wrtho ef.

22 ¶ A meibion Israel, *sef* yr holl gynnulleidfa, a deithiasant o Cades, ac a ddaethant i fynydd Hor.
23 A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses ac Aaron ym mynydd Hor, wrth derfyn tir Edom, gan ddywedyd,
24 Aaron a gesglir at ei bobl: ac ni ddaw i'r tir a roddais i feibion Israel; am i chwi anufuddhâu i'm gair, wrth ddwfr Meribah.
25 Cymmer Aaron ac Eleasar ei fab, a dwg hwynt i fyny i fynydd Hor;
26 A dïosg ei wisgoedd oddi am Aaron, a gwisg hwynt am Eleasar ei fab ef: canys Aaron a gesglir *at ei bobl*, ac a fydd farw yno.
27 A gwnaeth Moses megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD: a hwy a aethant i fyny i fynydd Hor, yng ngŵydd yr holl gynnulleidfa.
28 A dïosgodd Moses oddi am Aaron ei wisgoedd, ac a'u gwisgodd hwynt am Eleasar ei fab ef: a bu farw Aaron yno ym mhen y mynydd. A disgynodd Moses ac Eleasar o'r mynydd.
29 A'r holl gynnulleidfa a welsant farw Aaron, a holl dŷ Israel a wylasant am Aaron ddeng niwrnod ar hugain.

PENNOD 21.

1 *Israel trwy beth colled yn difetha y Canaaneaid yn Hormah.* 4 *Y bobl yn tuchan, ac yn cael eu brathu gan seirph tanllyd;* 7 *ac ar eu hedifeirwch yn cael eu hiachâu gan y sarph bres.* 10 *Amryw deithiau yr Israeliaid.* 21 *Gorchfygu Sehon,* 33 *ac Og.*

AR brenhin Arad, y Canaanead, preswylydd y dehau, a glybu fod Israel yn dyfod *ar hyd* ffordd yr ysbïwyr; ac a ryfelodd yn erbyn Israel, ac a ddaliodd *rai* o honynt yn garcharorion.
2 Ac addunodd Israel adduned i'r ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Os gan roi y rhoddi y bobl yma yn fy llaw, yna mi a ddifrodaf eu dinasoedd hwynt.
3 A gwrandawodd yr ARGLWYDD ar lais Israel; ac a roddodd y Canaaneaid *yn ei law* ef; ac efe a'u difrododd hwynt, a'u dinasoedd; ac a alwodd enw y lle *hwnnw* Hormah.
4 ¶ A hwy a aethant o fynydd Hor, *ar hyd* ffordd y môr coch, i amgylchu tir Edom: a chyfyng ydoedd ar enaid y bobl, o herwydd y ffordd.
5 A llefarodd y bobl yn erbyn DUW, ac yn erbyn Moses, Paham y dygasoch ni o'r Aipht, i farw yn yr anialwch? canys nid *oes* na bara na dwfr; a ffiaidd yw gan ein henaid y bara gwael *hwn.*
6 A'r ARGLWYDD a anfonodd ym mysg y bobl seirph tanllyd; a hwy a frathasant y bobl: a bu feirw o Israel bobl lawer.
7 ¶ A daeth y bobl at Moses, a dywedasant, Pechasom; canys llefarasom yn erbyn yr ARGLWYDD, ac yn dy erbyn dithau: gweddïa ar yr ARGLWYDD, ar yrru o hono ef y seirph oddi wrthym. A gweddïodd Moses dros y bobl.
8 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Gwna i ti sarph danllyd, a gosod ar drostan: a phawb a frather, ac a edrycho ar honno, fydd byw.
9 A gwnaeth Moses sarph bres, ac a'i gosododd ar drostan: yna os brathai sarph ŵr, ac edrych o hono ef ar y sarph bres, byw fyddai.
10 ¶ A meibion Israel a gychwynasant *oddi yno*, ac a wersyllasant yn Oboth.
11 A hwy a aethant o Oboth, ac a wersyllasant y'ngharneddau Abarim, yn yr anialwch, yr hwn *oedd* ar gyfer Moab, tu a chodiad haul.
12 ¶ Cychwynasant oddi yno, a gwersyllasant wrth afon Sared.
13 Cychwynasant oddi yno, a gwersyllasant wrth ryd Arnon, yr hon *sydd* yn yr anialwch, yn dyfod allan o ardal yr Amoriaid: canys Arnon *oedd* derfyn Moab, rhwng Moab a'r Amoriaid.
14 Am hynny dywedir yn llyfr rhyfeloedd yr ARGLWYDD, Y peth a wnaeth efe yn y môr coch, ac yn afonydd Arnon,
15 Ac *wrth* raiadr yr afonydd, yr hwn a dreigla i breswylfa Ar, ac a bwysa at derfyn Moab.
16 Ac oddi yno *yr aethant* i Beer: honno *yw* y ffynnon lle y dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Casgl y bobl ynghyd, a mi a roddaf iddynt ddwfr.
17 ¶ Yna y canodd Israel y gân hon: Cyfod, ffynnon; cenwch iddi.
18 Ffynnon a gloddiodd y tywys-

ogion, *ac* a gloddiodd pennaethiaid y bobl, ynghyd â'r deddfwr, â'u ffyn. Ac o'r anialwch *yr aethant* i Mattanah:

19 Ac o Mattanah i Nahaliel; ac o Nahaliel i Bamoth:

20 Ac o Bamoth, *yn* y dyffryn *sydd* y'ngwlad Moab, i ben y bryn sydd yn edrych tu a'r diffaethwch.

21 ¶ Yna yr anfonodd Israel genhadau at Sehon brenhin yr Amoriaid, gan ddywedyd,

22 Gâd i mi fyned trwy dy dir: ni thrown i faes, na gwinllan; nid yfwn ddwfr *un* ffynnon: ar hyd ffordd y brenhin y cerddwn, hyd onid elom allan o'th derfynau di.

23 Ac ni roddodd Sehon i Israel ffordd trwy ei wlad: ond casglodd Sehon ei holl bobl, ac a aeth allan yn erbyn Israel i'r anialwch: ac efe a ddaeth i Jahas, ac a ymladdodd yn erbyn Israel.

24 Ac Israel a'i tarawodd ef â min y cleddyf; ac a oresgynodd ei dir ef, o Arnon hyd Jabboc, hyd at feibion Ammon: canys cadarn *oedd* terfyn meibion Ammon.

25 A chymmerodd Israel yr holl ddinasoedd hynny: a thrigodd Israel yn holl ddinasoedd yr Amoriaid, yn Hesbon, ac yn ei holl bentrefydd.

26 Canys dinas Sehon, brenhin yr Amoriaid, *ydoedd* Hesbon, ac yntau a ryfelasai yn erbyn brenhin Moab, yr hwn a fuasai o'r blaen, ac a ddug ei dir ef oddi arno, hyd Arnon.

27 Am hynny y dywed y diarhebwyr, Deuwch i Hesbon; adeilader a chadarnhâer dinas Sehon.

28 Canys tân a aeth allan o Hesbon, *a* fflam o ddinas Sehon: bwyttaodd Ar *ym* Moab, a pherchennogion Bamoth Arnon.

29 Gwae di, Moab; darfu am danat, bobl Cemos: rhoddodd ei feibion diangol, a'i ferched, mewn caethiwed i Sehon brenhin yr Amoriaid.

30 Saethasom hwynt: darfu am Hesbon, hyd Dibon: ac anrheithiasom hyd Nophah, yr hon *sydd* hyd Medeba.

31 ¶ A thrigodd Israel yn nhir yr Amoriaid.

32 A Moses a anfonodd i chwilio Jaser: a hwy a orchfygasant ei phentrefydd hi, ac a yrrasant ymaith yr Amoriaid y rhai *oedd* yno.

33 ¶ Troisant hefyd ac aethant i fyny hyd ffordd Basan: ac Og brenhin Basan a ddaeth allan yn eu herbyn hwynt i ryfel, hyd Edrei, efe a'i holl bobl.

34 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Nac ofna ef: canys yn dy law di y rhoddais ef, a'i holl bobl, a'i dir; a gwnei iddo ef megis y gwnaethost i Sehon brenhin yr Amoriaid, yr hwn *oedd* yn trigo yn Hesbon.

35 Am hynny y tarawsant ef, a'i feibion, a'i holl bobl, fel na adawyd iddo ef weddill: a hwy a berchennogasant ei dir ef.

PENNOD 22.

1 *Cenhadon cyntaf Balac yn cael nâg gan Balaam.* 15 *Ei ail-genhadon ef yn cael ganddo ddyfod.* 22 *Angel a'i lladdasai ef, oni buasai i'w asen ei waredu ef.* 36 *Balac yn ei groesawu ef.*

AMEIBION Israel a gychwynasant, ac a wersyllasant yn rhosydd Moab, am yr Iorddonen a Jericho.

2 ¶ A gwelodd Balac mab Sippor yr hyn oll a wnaethai Israel i'r Amoriaid.

3 Ac ofnodd Moab rhag y bobl yn fawr; canys llawer *oedd:* a bu gyfyng ar Moab o achos meibion Israel.

4 A dywedodd Moab wrth henuriaid Midian, Y gynnulleidfa hon yn awr a lyfant ein holl amgylchoedd, fel y llyf yr ych wellt y maes. A Balac mab Sippor *oedd* frenhin ar Moab yn yr amser hwnnw.

5 Ac efe a anfonodd genhadau at Balaam mab Beor, i Pethor, (yr hon *sydd* wrth afon tir meibion ei bobl,) i'w gyrchu ef; gan ddywedyd, Wele bobl a ddaeth allan o'r Aipht: wele, y maent yn cuddio wyneb y ddaear; ac y maent yn aros ar fy nghyfer i.

6 Yr awr hon, gan hynny, tyred, attolwg, melldithia i mi y bobl yma; canys cryfach *ydynt* na mi: ond odid mi allwn ei daro ef, a'u gyrru hwynt o'r tir: canys mi a wn mai bendigedig *fydd* yr hwn a fendithiech di, a melldigedig *fydd* yr hwn a felldithiech.

7 A henuriaid Moab, a henuriaid Midian, a aethant, *â gwobr* dewiniaeth yn eu dwylaw: daethant hefyd at Balaam, a dywedasant iddo eiriau Balac.

8 A dywedodd yntau wrthynt, Llettŷwch yma heno; a rhoddaf i chwi atteb megis y llefaro yr ARGLWYDD wrthyf. A thywysogion Moab a arhosasant gyd â Balaam.

9 A daeth DUW at Balaam, ac a ddywedodd, Pwy *yw* y dynion hyn *sydd* gyd â thi?

10 A dywedodd Balaam wrth DDUW, Balac mab Sippor, brenhin Moab, a ddanfonodd attaf, *gan ddywedyd*,

11 Wele bobl wedi dyfod allan o'r Aipht, ac yn gorchuddio wyneb y ddaear: yr awr hon tyred, rhega hwynt i mi; *felly* ond odid y gallaf ryfela â hwynt, a'u gyrru allan.

12 A dywedodd DUW wrth Balaam, Na ddos gyd â hwynt; na felldithia y bobl: canys bendigedig *ydynt*.

13 A Balaam a gododd y bore, ac a ddywedodd wrth dywysogion Balac, Ewch i'ch gwlad: oblegid yr ARGLWYDD a naccaodd adael i mi fyned gyd â chwi.

14 A thywysogion Moab a godasant, ac a ddaethant at Balac; ac a ddywedasant, Naccaodd Balaam ddyfod gyd â ni.

15 ¶ A Balac a anfonodd eilwaith fwy o dywysogion, anrhydeddusach na'r rhai hyn.

16 A hwy a ddaethant at Balaam; ac a ddywedasant wrtho, Fel hyn y dywed Balac mab Sippor; Attolwg, na luddier di rhag dyfod attaf:

17 Canys gan anrhydeddu y'th anrhydeddaf yn fawr; a'r hyn oll a ddywedech wrthyf, a wnaf: tyred dithau, attolwg, rhega i mi y bobl hyn.

18 A Balaam a attebodd ac a ddywedodd wrth weision Balac, Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn fyned dros air yr ARGLWYDD fy NUW, i wneuthur na bychan na mawr.

19 Ond, attolwg, yn awr, arhoswch chwithau yma y nos hon; fel y caffwyf wybod beth a ddywedo yr ARGLWYDD wrthyf yn ychwaneg.

20 A daeth DUW at Balaam *liw* nos, a dywedodd wrtho, Os i'th gyrchu di y daeth y dynion hyn, cyfod, dos gyd â hwynt: ac er hynny y peth a lefarwyf wrthyt, hynny a wnei di.

21 Yna y cododd Balaam yn fore, ac a gyfrwyodd ei asen, ac a aeth gyd â thywysogion Moab.

22 ¶ A dig DUW a ennynodd, am iddo ef fyned: ac angel yr ARGLWYDD a safodd ar y ffordd i'w wrthwynebu ef; ac efe yn marchogaeth ar ei asen, a'i ddau langc gyd âg ef.

23 A'r asen a welodd angel yr ARGLWYDD yn sefyll ar y ffordd, a'i gleddyf yn noeth yn ei law: a chiliodd yr asen allan o'r ffordd, ac a aeth i'r maes: a tharawodd Balaam yr asen, i'w throi i'r ffordd.

24 Ac angel yr ARGLWYDD a safodd ar lwybr y gwinllannoedd, *a* magwyr o'r ddeutu.

25 Pan welodd yr asen angel yr ARGLWYDD, yna hi a ymwasgodd at y fagwyr; ac a wasgodd droed Balaam wrth y fagwyr: ac efe a'i tarawodd hi eilwaith.

26 Ac angel yr ARGLWYDD a aeth ym mhellach; ac a safodd mewn lle cyfyng, lle nid *oedd* ffordd i gilio tu a'r tu dehau na'r tu aswy.

27 A gwelodd yr asen angel yr ARGLWYDD, ac a orweddodd dan Balaam: yna yr ennynodd dig Balaam, ac efe a darawodd yr asen â ffon.

28 A'r ARGLWYDD a agorodd safn yr asen; a hi a ddywedodd wrth Balaam, Beth a wneuthum i ti, pan darewaist fi y tair gwaith hyn?

29 A dywedodd Balaam wrth yr asen, Am i ti fy siommi. O na byddai gleddyf yn fy llaw; canys yn awr y'th laddwn.

30 A dywedodd yr asen wrth Balaam, Onid myfi *yw* dy asen, yr hon y marchogaist arnaf er pan *ydwyf eiddot* ti, hyd y dydd hwn? gan arfer a arferais i wneuthur i ti fel hyn? Ac efe a ddywedodd, Na ddo.

31 A'r ARGLWYDD a agorodd lygaid Balaam; ac efe a welodd angel yr ARGLWYDD yn sefyll ar y ffordd, a'i gleddyf noeth yn ei law: ac

efe a ogwyddodd ei ben, ac a ymgrymmodd ar ei wyneb.
32 A dywedodd angel yr ARGLWYDD wrtho, Paham y tarewaist dy asen y tair gwaith hyn? Wele, mi a ddeuthum allan yn wrthwynebydd *i ti;* canys cyfeiliornus yw y ffordd hon yn fy ngolwg.
33 A'r asen a'm gwelodd; ac a giliodd rhagof y tair gwaith hyn: oni buasai iddi gilio rhagof, diau yn awr y lladdaswn di, ac a'i gadawswn hi yn fyw.
34 A Balaam a ddywedodd wrth angel yr ARGLWYDD, Pechais; oblegid ni wyddwn dy fod di yn sefyll ar y ffordd yn fy erbyn: ac yr awr hon, os drwg *yw* yn dy olwg, dychwelaf adref.
35 A dywedodd angel yr ARGLWYDD wrth Balaam, Dos gyd â'r dynion; a'r gair a lefarwyf wrthyt, hynny yn unig a leferi. Felly Balaam a aeth gyd â thywysogion Balac.
36 ¶ A chlybu Balac ddyfod Balaam: ac efe a aeth i'w gyfarfod ef i ddinas Moab; yr hon *sydd* ar ardal Arnon, yr hon *sydd* ar gwr eithaf y terfyn.
37 A dywedodd Balac wrth Balaam, Onid gan anfon yr anfonais attat i'th gyrchu? paham na ddeuit ti attaf? Oni allwn i dy wneuthur di yn anrhydeddus?
38 A dywedodd Balaam wrth Balac, Wele, mi a ddeuthum attat: gan allu a allaf fi lefaru dim yr awr hon? y gair a osodo DUW yn fy ngenau, hwnnw a lefaraf fi.
39 A Balaam a aeth gyd â Balac; a hwy a ddaethant i Gaer-Husoth.
40 A lladdodd Balac wartheg a defaid; ac a anfonodd *ran* i Balaam, ac i'r tywysogion *oedd* gyd âg ef.
41 A'r bore Balac a gymmerodd Balaam, ac a aeth âg ef i fyny i uchelfeydd Baal; fel y gwelai oddi yno *gwr* eithaf y bobl.

PENNOD 23.

1, 13, 28 *Offrwm Balac.* 7, 18 *Dammeg Balaam.*

A DYWEDODD Balaam wrth Balac, Adeilada i mi yma saith allor; a darpara i mi yma saith o fustych, a saith o hyrddod.
2 A gwnaeth Balac megis ag y dywedodd Balaam. Ac offrymmodd Balac a Balaam fustach a hwrdd ar *bob* allor.
3 A dywedodd Balaam wrth Balac, Saf di wrth dy boeth-offrwm; myfi a âf *oddi yma:* ond odid daw yr ARGLWYDD i'm cyfarfod; a mynegaf i ti pa air a ddangoso efe i mi. Ac efe a aeth i le uchel.
4 A chyfarfu DUW â Balaam; a dywedodd *Balaam* wrtho, Darperais saith allor, ac aberthais fustach a hwrdd ar *bob* allor.
5 A gosododd yr ARGLWYDD air y'ngenau Balaam; ac a ddywedodd, Dychwel at Balac, a dywed fel hyn.
6 Ac efe a ddychwelodd atto. Ac wele, efe a holl dywysogion Moab yn sefyll wrth ei boeth-offrwm.
7 Ac efe a gymmerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, O Siria y cyrchodd Balac brenhin Moab fyfi, o fynyddoedd y dwyrain, *gan ddywedyd,* Tyred, melldithia i mi Jacob; tyred, a ffieiddia Israel.
8 Pa fodd y rhegaf yr hwn ni regodd DUW? a pha fodd y ffieiddiaf *yr hwn* ni ffieiddiodd yr ARGLWYDD?
9 Canys o ben y creigiau y gwelaf ef, ac o'r bryniau yr edrychaf arno; wele bobl yn preswylio eu hun, ac heb eu cyfrif ynghyd â'r cenhedloedd.
10 Pwy a rif lwch Jacob, a rhifedi pedwaredd *ran* Israel? Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau.
11 A dywedodd Balac wrth Balaam, Beth a wnaethost i mi? I regu fy ngelynion y'th gymmerais; ac wele, gan fendithio ti a'*u* bendithiaist.
12 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Onid yr hyn a osododd yr ARGLWYDD yn fy ngenau, sydd raid i mi edrych ar ei ddywedyd?
13 A dywedodd Balac wrtho ef, Tyred, attolwg, gyd â myfi i le arall, lle y gwelych hwynt: oddi yno y cei weled eu cwr eithaf hwynt yn unig, ac ni chei eu gweled hwynt i gyd: rhega dithau hwynt i mi oddi yno.
14 ¶ Ac efe a'i dug ef i faes amlwg, i ben bryn; ac a adeiladodd saith allor, ac a offrymmodd fustach a hwrdd ar *bob* allor.

15 Ac a ddywedodd wrth Balac, Saf yma wrth dy boeth-offrwm, a mi a âf accw i gyfarfod *â'r* ARGLWYDD.
16 A chyfarfu yr ARGLWYDD â Balaam; ac a osododd air yn ei enau ef, ac a ddywedodd, Dychwel at Balac, a dywed fel hyn.
17 Ac efe a ddaeth atto. Ac wele efe yn sefyll wrth ei boeth-offrwm, a thywysogion Moab gyd âg ef. A dywedodd Balac wrtho, Beth a ddywedodd yr ARGLWYDD?
18 Yna y cymmerodd efe ei ddammeg, ac a ddywedodd, Cyfod, Balac, a gwrando; mab Sippor, clustymwrando â mi.
19 Nid dyn *yw* DUW, i ddywedyd celwydd; na mab dyn, i edifarhâu: a ddywedodd efe, ac nis cyflawna? a lefarodd efe, ac oni chywira?
20 Wele, cymmerais *arnaf* fendithio; a bendithiodd efe; ac ni throaf fi hynny yn ei ol.
21 Ni wêl efe anwiredd yn Jacob, ac ni wêl drawsedd yn Israel; yr ARGLWYDD ei DDUW *sydd* gyd âg ef, ac *y mae* udgorn-floedd brenhin yn eu mysg hwynt.
22 DUW a'u dug hwynt allan o'r Aipht: megis nerth unicorn *sydd* iddo.
23 Canys nid *oes* swyn yn erbyn Jacob, na dewiniaeth yn erbyn Israel: y pryd *hwn* y dywedir am Jacob, ac am Israel, Beth a wnaeth DUW!
24 Wele, y bobl a gyfyd fel llew mawr, ac fel llew ieuangc yr ymgyfyd: ni orwedd nes bwytta o'r ysglyfaeth, ac yfed gwaed y lladdedigion.
25 ¶ A dywedodd Balac wrth Balaam, Gan regu na rega ef mwy: gan fendithio na fendithia ef chwaith.
26 Yna yr attebodd Balaam, ac a ddywedodd wrth Balac, Oni fynegais i ti, gan ddywedyd, Yr hyn oll a lefaro yr ARGLWYDD, hynny a wnaf fi?
27 ¶ A dywedodd Balac wrth Balaam, Tyred, attolwg, mi a'th ddygaf i le arall: ond odid boddlawn fydd gan DDUW i ti ei regu ef i mi oddi yno.
28 A Balac a ddug Balaam i ben Peor, yr hwn sydd yn edrych tu a'r diffaethwch.
29 A dywedodd Balaam wrth Balac, Adeilada i mi yma saith allor; a darpara i mi yma saith bustach a saith hwrdd.
30 A gwnaeth Balac megis y dywedodd Balaam; ac a offrymmodd fustach a hwrdd ar *bob* allor.

PENNOD 24.

1 *Balaam yn rhoi heibio ddewiniaeth, ac yn prophwydo deduwyddwch i Israel.* 10 *Balac mewn digter yn ei anfon ef ymaith.* 16 *Ystau yn prophwydo am seren Jacob, a dinystr rhai gwledydd.*

PAN welodd Balaam mai da oedd y'ngolwg yr ARGLWYDD fendithio Israel; nid aeth efe, megis o'r blaen, i gyrchu dewiniaeth; ond gosododd ei wyneb tu a'r anialwch.
2 A chododd Balaam ei lygaid: ac wele Israel *yn pebyllio* yn ol ei lwythau: a daeth yspryd DUW arno ef.
3 Ac efe a gymmerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, Balaam mab Beor a ddywed, a'r gŵr a agorwyd ei lygaid, a ddywedodd;
4 Gwrandawydd geiriau DUW a ddywedodd, yr hwn a welodd weledigaeth yr Hollalluog, yr hwn a syrthiodd, ac a agorwyd *ei* lygaid:
5 Mor hyfryd yw dy bebyll di, O Jacob! dy gyfanneddau di, O Israel!
6 Ymestynant fel dyffrynoedd, ac fel gerddi wrth afon, fel aloewydd a blannodd yr ARGLWYDD, fel y cedrwydd wrth ddyfroedd.
7 Efe a dywallt ddwfr o'i ystenau, a'i had *fydd* mewn dyfroedd lawer, a'i frenhin a ddyrchefir yn uwch nag Agag, a'i frenhiniaeth a ymgyfyd.
8 DUW a'i dug ef allan o'r Aipht; megis nerth unicorn *sydd* iddo: efe a fwytty y cenhedloedd ei elynion, ac a ddryllia eu hesgyrn, ac â'i saethau y gwana efe *hwynt.*
9 Efe a grymma, *ac* a orwedd fel llew, ac fel llew mawr: pwy a'i cyfyd ef? Bendigedig *fydd* dy fendithwyr, a melldigedig dy felldithwyr.
10 ¶ Ac ennynodd dig Balac yn erbyn Balaam; ac efe a darawodd ei ddwylaw ynghyd. Dywedodd Balac hefyd wrth Balaam, I regu fy ngelynion y'th gyrchais; ac wele,

ti gan fendithio a'*u* bendithiaist y tair gwaith hyn.
11 Am hynny yn awr ffo i'th fangre dy hun: dywedais, gan anrhydeddu y'th anrhydeddwn; ac wele, attaliodd yr ARGLWYDD di oddi wrth anrhydedd.
12 A dywedodd Balaam wrth Balac, Oni leferais wrth dy genhadau a anfonaist attaf, gan ddywedyd,
13 Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn droseddu gair yr ARGLWYDD, i wneuthur da neu ddrwg o'm meddwl fy hun: yr hyn a lefaro yr ARGLWYDD, hynny a lefaraf fi?
14 Ond yr awr hon, wele fi yn myned at fymhobl: tyred, mi a fynegaf i ti yr hyn a wna y bobl hyn i'th bobl di yn y dyddiau diweddaf.
15 ¶ Ac efe a gymmerth ei ddammeg, ac a ddywedodd, Balaam mab Beor a ddywed, a'r gŵr a agorwyd ei lygaid a ddywed;
16 Dywedodd gwrandawydd geiriau DUW, gwybedydd gwybodaeth y Goruchaf, a gweledydd gweledigaeth yr Hollalluog, yr hwn a syrthiodd, ac yr agorwyd ei lygaid:
17 Gwelaf ef, ac nid yr awr hon; edrychaf arno, ond nid o agos: daw seren o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel, ac a ddryllia gonglau Moab, ac a ddinystria holl feibion Seth.
18 Ac Edom a feddiennir, Seir hefyd a berchennogir *gan* ei elynion; ac Israel a wna rymmusder.
19 Ac arglwyddiaetha *un* o Jacob, ac a ddinystria y gweddill o'r ddinas.
20 A phan edrychodd ar Amalec, efe a gymmerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, Dechreu y cenhedloedd *yw* Amalec; a'i ddiwedd *fydd* darfod am dano byth.
21 Edrychodd hefyd ar y Ceneaid; ac a gymmerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, Cadarn *yw* dy annedd; gosod yr wyt dy nyth yn y graig.
22 Anrheithir y Ceneaid, hyd oni'th gaethiwo Assur.
23 Ac efe a gymmerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, Och! pwy fydd byw pan wnelo DUW hyn?
24 Llongau hefyd o derfynau Cittim a orthrymmant Assur, ac a orthrymmant Eber; ac yntau a dderfydd am dano byth.
25 A chododd Balaam ac a aeth, ac a ddychwelodd adref: a Balac a aeth hefyd i'w ffordd yntau.

PENNOD 25.

1 *Israel yn Sittim yn godinebu, ac yn addoli delwau.* 6 *Phinees yn lladd Simri a Chosbi.* 10 *Duw o hervydd hynny yn rhoddi iddo ef offeiriadaeth dragywyddol.* 16 *Rhaid yw blino y Midianiaid.*

A THRIGODD Israel yn Sittim; a dechreuodd y bobl odinebu gyd â merched Moab.
2 A galwasant y bobl i aberthau eu duwiau hwynt; a bwyttaodd y bobl, ac addolasant eu duwiau hwynt.
3 Ac ymgyfeillodd Israel â Baal-Peor; ac ennynodd digofaint yr ARGLWYDD yn erbyn Israel.
4 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Cymmer holl bennaethiaid y bobl, a chrog hwynt i'r ARGLWYDD ar gyfer yr haul; fel y dychwelo llid digofaint yr ARGLWYDD oddi wrth Israel.
5 A dywedodd Moses wrth farnwyr Israel, Lleddwch bob un ei ddynion, y rhai a ymgyfeillasant â Baal-Peor.
6 ¶ Ac wele, gŵr o feibion Israel a ddaeth, ac a ddygodd Midianëes at ei frodyr, y'ngolwg Moses, ac y'ngolwg holl gynnulleidfa meibion Israel, a hwynt yn wylo *wrth* ddrws pabell y cyfarfod.
7 A gwelodd Phinees mab Eleasar, mab Aaron yr offeiriad; ac a gododd o ganol y gynnulleidfa, ac a gymmerodd waywffon yn ei law;
8 Ac a aeth ar ol y gŵr *o* Israel i'r babell; ac a'u gwanodd hwynt ill dau, *sef* y gŵr o Israel, a'r wraig trwy ei cheudod. Ac attaliwyd y pla oddi wrth feibion Israel.
9 A bu feirw o'r pla bedair mil ar hugain.
10 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
11 Phinees mab Eleasar, mab Aaron yr offeiriad, a drodd fy nigter oddi wrth feibion Israel, (pan eiddigeddodd efe drosof fi yn eu mysg,) fel na ddifethais feibion Israel yn fy eiddigedd.

12 Am hynny dywed, Wele fi yn rhoddi iddo fy nghyfammod o heddwch.

13 A bydd iddo ef, ac i'w had ar ei ol ef, ammod o offeiriadaeth dragywyddol; am iddo eiddigeddu dros ei DDUW, a gwneuthur cymmod dros feibion Israel.

14 Ac enw y gŵr o Israel, yr hwn a laddwyd, *sef* yr hwn a laddwyd gyd â'r Midianëes, *oedd* Simri, mab Salu, pennaeth tŷ *ei* dad, o *lwyth* Simeon.

15 Ac enw y wraig o Midian a laddwyd, *oedd* Cosbi, merch Sur: pen-cenedl o dŷ mawr ym Midian *oedd* hwn.

16 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

17 Blina y Midianiaid, a lleddwch hwynt:

18 Canys blin ydynt arnoch trwy eu dichellion a ddychymmygasant i'ch erbyn, yn achos Peor, ac yn achos Cosbi, merch tywysog Midian, eu chwaer hwynt, yr hon a laddwyd yn nydd y pla, o achos Peor.

PENNOD 26.

1 *Cymmeryd cyfrif o holl Israel yn nyffryn Moab.* 52 *Cyfraith i gyfrannu etifeddiaeth y tir rhynyddynt hwy.* 57 *Teuluoedd a rhifedi y Lefiaid.* 63 *Na adawsid un o'r rhai a rifesid yn Sinai, ond Caleb a Josua.*

ABU, wedi y pla, lefaru o'r ARGLWYDD wrth Moses, ac wrth Eleasar mab Aaron yr offeiriad, gan ddywedyd,

2 Cymmerwch nifer holl gynnulleidfa meibion Israel, o fab ugain mlwydd ac uchod, trwy dŷ eu tadau, pob un a allo fyned i ryfel yn Israel.

3 A llefarodd Moses ac Eleasar yr offeiriad wrthynt yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, *ar gyfer* Jericho, gan ddywedyd,

4 *Rhifwch y bobl,* o fab ugain mlwydd ac uchod; megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses, a meibion Israel, y rhai a ddaethant allan o dir yr Aipht.

5 ¶ Reuben, cyntaf-anedig Israel. Meibion Reuben; *o* Hanoch, tylwyth yr Hanochiaid: o Phàlu, tylwyth y Phàluiaid:

6 O Hesron, tylwyth yr Hesroniaid: o Carmi, tylwyth y Carmiaid.

7 Dyma dylwyth y Reubeniaid: a'u rhifedigion *oedd* dair mil a deugain a saith cant a deg ar hugain.

8 A meibion Phàlu *oedd* Eliab.

9 A meibion Eliab; Nemuel, a Dathan, ac Abiram. Dyma y Dathan ac Abiram, rhai enwog yn y gynnulleidfa, y rhai a ymgynhennasant yn erbyn Moses ac yn erbyn Aaron y'nghynnulleidfa Corah, pan ymgynhennasant yn erbyn yr ARGLWYDD.

10 Ac agorodd y ddaear ei safn, ac a'u llyngcodd hwynt, a Corah hefyd, pan fu farw y gynnulleidfa, pan ddifaodd y tân ddengwr a deugain a dau cant: a hwy a aethant yn arwydd.

11 Ond meibion Corah ni buant feirw.

12 ¶ Meibion Simeon, wrth eu tylwythau. O Nemuel, tylwyth y Nemueliaid: o Jamin, tylwyth y Jaminiaid: o Jachin, tylwyth y Jachiniaid:

13 O Serah, tylwyth y Serahiaid: o Saul, tylwyth y Sauliaid.

14 Dyma dylwyth y Simeoniaid; dwy fil ar hugain a dau cant.

15 ¶ Meibion Gad, wrth eu tylwythau. O Sephon, tylwyth y Sephoniaid: o Haggi, tylwyth yr Haggiaid: o Suni, tylwyth y Suniaid:

16 O Osni, tylwyth yr Osniaid: o Eri, tylwyth yr Eriaid:

17 O Arod, tylwyth yr Arodiaid: o Areli, tylwyth yr Areliaid.

18 Dyma deuluoedd meibion Gad, dan eu rhif; deugain mil a phum cant.

19 ¶ Meibion Judah *oedd*, Er ac Onan: a bu farw Er ac Onan yn nhir Canaan.

20 A meibion Judah, wrth eu teuluoedd. O Selah, tylwyth y Selaniaid: o Phares, tylwyth y Pharesiaid: o Serah, tylwyth y Serahiaid.

21 A meibion Phares oedd; o Hesron, tylwyth yr Hesroniaid: o Hamul, tylwyth yr Hamuliaid.

22 Dyma dylwyth Judah, dan eu rhif; onid pedair mil pedwar ugain mil a phum cant.

23 ¶ Meibion Issachar, wrth eu tylwythau, *oedd*; o Tola, tylwyth y Tolaiaid: o Puah, tylwyth y Puhiaid:

24 O Jasub, tylwyth y Jasubiaid:
o Simron, tylwyth y Simroniaid.
25 Dyma deuluoedd Issachar, dan
eu rhif; pedair mil a thri ugain
mil a thri chant.
26 ¶ Meibion Sabulon, wrth eu
teuluoedd, *oedd;* o Sered, tylwyth
y Sardiaid: o Elon, tylwyth yr
Eloniaid: o Jahleel, tylwyth y Jah-
leeliaid.
27 Dyma deuluoedd y Sabulon-
iaid, dan eu rhif; tri ugain mil a
phum cant.
28 ¶ Meibion Joseph, wrth eu
teuluoedd, *oedd;* Manasseh ac Eph-
raim.
29 Meibion Manasseh *oedd;* o
Machir, tylwyth y Machiriaid: a
Machir a genhedlodd Gilead: o Gi-
lead *y mae* tylwyth y Gileadiaid.
30 Dyma feibion Gilead. *O* Jee-
ser, tylwyth y Jeeseriaid: o Helec,
tylwyth yr Heleciaid:
31 Ac *o* Asriel, tylwyth yr Asriel-
iaid: ac *o* Sechem, tylwyth y Se-
chemiaid:
32 Ac *o* Semida, tylwyth y Se-
midiaid: ac *o* Hepher, tylwyth yr
Hepheriaid.
33 ¶ A Salphaad mab Hepher
nid oedd iddo feibion, ond merch-
ed: ac enwau merched Salphaad
oedd, Malah, a Noah, Hoglah, Mil-
cah, a Tirsah.
34 Dyma dylwyth Manasseh; a'u
rhifedigion *oedd* ddeuddeng mil a
deugain a saith cant.
35 ¶ Dyma feibion Ephraim, wrth
eu teuluoedd. O Suthelah, tylwyth
y Sutheliaid: o Becher, tylwyth
y Becheriaid: o Tahan, tylwyth y
Tahaniaid.
36 A dyma feibion Suthelah: o
Eran, tylwyth yr Eraniaid.
37 Dyma dylwyth meibion Eph-
raim, trwy eu rhifedigion; deud-
deng mil ar hugain a phum cant.
Dyma feibion Joseph, wrth eu teulu-
oedd.
38 ¶ Meibion Benjamin, wrth eu
teuluoedd, *oedd;* o Bela, tylwyth y
Belaiaid: o Asbel, tylwyth yr As-
beliaid: o Ahiram, tylwyth yr
Ahiramiaid:
39 O Sephupham, tylwyth y Se-
phuphamiaid: o Hupham, tylwyth
yr Huphamiaid.
40 A meibion Bela oedd, Ard a
Naaman: *o Ard yr ydoedd* tylwyth
yr Ardiaid: o Naaman, tylwyth y
Naamaniaid.
41 Dyma feibion Benjamin, yn ol
eu teuluoedd: dan eu rhif *yr oedd-
ynt* yn bum mil a deugain a chwe
chant.
42 ¶ Dyma feibion Dan, yn ol
eu teuluoedd. O Suham, tylwyth
y Suhamiaid. Dyma dylwyth Dan,
yn ol eu teuluoedd.
43 A holl dylwyth y Suhamiaid
oedd, yn ol eu rhifedigion, bedair
mil a thri ugain a phedwar cant.
44 ¶ Meibion Aser, wrth eu teu-
luoedd, *oedd;* o Jimnah, tylwyth
y Jimniaid: o Jesui, tylwyth y
Jesuiaid: o Berïah, tylwyth y Be-
rïaid.
45 O feibion Berïah, *yr oedd;* o
Heber, tylwyth yr Heberiaid: o
Malcïel, tylwyth y Malcïeliaid.
46 Ac enw merch Aser *ydoedd*
Sarah.
47 Dyma deuluoedd meibion Aser,
yn ol eu rhifedigion; tair mil ar
ddeg a deugain a phedwar cant.
48 ¶ Meibion Naphtali, wrth eu
teuluoedd, *oedd;* o Jahseel, tylwyth
y Jahseeliaid: o Guni, tylwyth y
Guniaid:
49 O Jeser, tylwyth y Jeseriaid:
o Silem, tylwyth y Silemiaid.
50 Dyma dylwyth Naphtali, yn ol
eu teuluoedd, dan eu rhif; pum
mil a deugain a phedwar cant.
51 Dyma rifedigion meibion Is-
rael; chwe chan mil, a mil saith
gant a deg ar hugain.
52 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD
wrth Moses, gan ddywedyd,
53 I'r rhai hyn y rhennir y tir yn
etifeddiaeth, yn ol rhifedi yr enwau.
54 I lawer y chwanegi yr etifedd-
iaeth, ac i ychydig prinhâ yr eti-
feddiaeth: rhodder *i* bob un ei
etifeddiaeth yn ol ei rifedigion.
55 Etto wrth goelbren y rhen-
nir y tir: wrth enwau llwythau eu
tadau yr etifeddant.
56 Wrth farn y coelbren y rhen-
nir ei etifeddiaeth, rhwng llawer ac
ychydig.
57 ¶ A dyma rifedigion y Lef-
iaid, wrth eu teuluoedd. O Gerson,
tylwyth y Gersoniaid: o Cohath,

tylwyth y Cohathiaid: o Merari, tylwyth y Merariaid.

58 Dyma dylwythau y Lefiaid. Tylwyth y Libniaid, tylwyth yr Hebroniaid, tylwyth y Mahliaid, tylwyth y Musiaid, tylwyth y Corathiaid: Cohath hefyd a genhedlodd Amram.

59 Ac enw gwraig Amram *oedd* Jochebed, merch Lefi, yr hon a aned i Lefi yn yr Aipht: a hi a ddug i Amram, Aaron a Moses, a Miriam eu chwaer hwynt.

60 A ganed i Aaron, Nadab ac Abihu, Eleasar ac Ithamar.

61 A bu farw Nadab ac Abihu, pan offrymmasant dân dïeithr ger bron yr ARGLWYDD.

62 A'u rhifedigion oedd dair mil ar hugain; *sef* pob gwrryw o fab misyriad ac uchod: canys ni chyfrifwyd hwynt ym mysg meibion Israel, am na roddwyd iddynt etifeddiaeth ym mhlith meibion Israel.

63 ¶ Dyma rifedigion Moses ac Eleasar yr offeiriad, y rhai a rifasant feibion Israel yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, *ar gyfer* Jericho.

64 Ac yn y rhai hyn nid oedd un o rifedigion Moses ac Aaron yr offeiriad, pan rifasant feibion Israel yn anialwch Sinai.

65 Canys dywedasai yr ARGLWYDD am danynt, Gan farw y byddant feirw yn yr anialwch. Ac ni adawsid o honynt un, ond Caleb mab Jephunneh, a Josua mab Nun.

PENNOD 27.

1 *Merched Salphaad yn ceisio etifeddiaeth.* 6 *Cyfraith etifeddiaethau.* 12 *Moses, wedi ei rybuddio am ei farwolaeth, yn ymbil am gael un yn ei le.* 18 *Appwyntio Josua i gael ei le ef.*

YNA y daeth merched Salphaad, mab Hepher, mab Gilead, mab Machir, mab Manasseh, o dylwyth Manasseh mab Joseph; (a dyma enwau ei ferched ef; Malah, Noah, Hoglah, Milcah, a Tirsah;)

2 Ac a safasant ger bron Moses, a cher bron Eleasar yr offeiriad, a cher bron y pennaethiaid, a'r holl gynnulleidfa, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod, gan ddywedyd,

3 Ein tad ni a fu farw yn yr anialwch; ac nid oedd efe ym mysg y gynnulleidfa a ymgasglodd yn erbyn yr ARGLWYDD y'nghynnulleidfa Corah, ond yn ei bechod ei hun y bu farw; ac nid oedd meibion iddo.

4 Paham y tynnir ymaith enw ein tad ni o fysg ei dylwyth, am nad oes iddo fab? Dod i ni feddiant ym mysg brodyr ein tad.

5 A dug Moses eu hawl hwynt ger bron yr ARGLWYDD.

6 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

7 Y mae merched Salphaad yn dywedyd yn uniawn; gan roddi dyro iddynt feddiant etifeddiaeth ym mysg brodyr eu tad: trosa iddynt etifeddiaeth eu tad.

8 Llefara hefyd wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pan fyddo marw un, ac heb fab iddo, troswch ei etifeddiaeth ef i'w ferch.

9 Ac oni *bydd* merch iddo, rhoddwch ei etifeddiaeth ef i'w frodyr.

10 Ac oni *bydd* brodyr iddo; yna rhoddwch ei etifeddiaeth ef i frodyr ei dad.

11 Ac oni *bydd* brodyr i'w dad; yna rhoddwch ei etifeddiaeth ef i'w gâr nesaf iddo o'i dylwyth; a meddianned *hwnnw* hi: a bydded *hyn* i feibion Israel yn ddeddf farnedig, megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses.

12 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Dring i'r mynydd Abarim hwn, a gwel y tir a roddais i feibion Israel.

13 Ac wedi i ti ei weled, tithau a gesglir at dy bobl, fel y casglwyd Aaron dy frawd.

14 Canys yn anialwch Sin, wrth gynnen y gynnulleidfa, y gwrthryfelasoch yn erbyn fy ngair, i'm sancteiddio wrth y dwfr yn eu golwg hwynt: dyma ddwfr cynnen Cades, yn anialwch Sin.

15 ¶ A llefarodd Moses wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

16 Gosoded yr ARGLWYDD, DUW ysprydion pob cnawd, un ar y gynnulleidfa,

17 Yr hwn a elo allan o'u blaen hwynt, ac a ddelo i mewn o'u blaen hwynt, a'r hwn a'u dygo hwynt allan, ac a'u dygo hwynt i mewn; fel na byddo cynnulleidfa yr ARGLWYDD fel defaid ni *byddo* bugail arnynt.

18 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD

wrth Moses, Cymmer attat Josua mab Nun, y gŵr *y mae* yr yspryd ynddo, a gosod dy law arno;
19 A dod ef i sefyll ger bron Eleasar yr offeiriad, a cher bron yr holl gynnulleidfa; a dod orchymyn iddo ef yn eu gŵydd hwynt.
20 A dod o'th ogoniant di arno ef, fel y gwrandawo holl gynnulleidfa meibion Israel *arno.*
21 A safed ger bron Eleasar yr offeiriad, yr hwn a ofyn *gynghor* drosto ef, yn ol barn Urim, ger bron yr ARGLWYDD: wrth ei air ef yr ânt allan, ac wrth ei air ef y deuant i mewn, efe a holl feibion Israel gyd âg ef, a'r holl gynnulleidfa.
22 A gwnaeth Moses megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD iddo: ac a gymmerodd Josua, ac a barodd iddo sefyll ger bron Eleasar yr offeiriad, a cher bron yr holl gynnulleidfa.
23 Ac efe a osododd ei ddwylaw arno, ac a roddodd orchymyn iddo; megis y llefarasai yr ARGLWYDD trwy law Moses.

PENNOD 28.

1 *Bod yn rhaid cadw offrymmau.* 3 *Y poeth-offrwm gwastadol.* 9 *Yr offrwm ar y Sabbath,* 11 *ar y lloeau newydd,* 16 *ar y Pasc,* 26 *yn nydd y blaenffrwythau.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Gorchymyn i feibion Israel, a dywed wrthynt, Gwyliwch am offrymmu i mi fy offrwm, a'm bara i'm hebyrth tanllyd, *o* arogl peraidd yn eu tymmor.
3 A dywed wrthynt, Dyma yr aberth tanllyd â offrymmwch i'r ARGLWYDD. Dau oen blwyddiaid perffeith-gwbl, bob dydd, yn boeth-offrwm gwastadol.
4 Un oen a offrymmi di y bore, a'r oen arall a offrymmi di yn yr hwyr;
5 A degfed *ran* ephah o beillied yn fwyd-offrwm, wedi ei gymmysgu trwy bedwaredd *ran* hin o olew coethedig.
6 *Dyma* y poeth-offrwm gwastadol a wnaed ym mynydd Sinai, yn arogl peraidd, yn aberth tanllyd i'r ARGLWYDD.
7 A'i ddïod-offrwm *fydd* bedwaredd *ran* hin gyd â phob oen: pâr dywallt y ddïod gref yn ddïod-offrwm i'r ARGLWYDD, yn y cyssegr.
8 Yr ail oen a offrymmi yn yr hwyr: megis bwyd-offrwm y bore, a'i ddïod-offrwm, yr offrymmi ef, yn aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.
9 ¶ Ac ar y dydd Sabbath, dau oen blwyddiaid, perffeith-gwbl, a dwy ddegfed ran o beillied yn fwyd-offrwm, wedi ei gymmysgu trwy olew, a'i ddïod-offrwm.
10 *Dyma* boeth-offrwm pob Sabbath, heb law y poeth-offrwm gwastadol, a'i ddïod-offrwm.
11 ¶ Ac ar ddechreu eich misoedd yr offrymmwch, yn boeth-offrwm i'r ARGLWYDD, ddau o fustych ieuainge, ac un hwrdd, *a* saith oen blwyddiaid, perffeith-gwbl;
12 A thair degfed ran o beillied, yn fwyd-offrwm, wedi ei gymmysgu trwy olew, gyd â phob bustach; a dwy ddegfed ran o beillied, yn fwyd-offrwm, wedi ei gymmysgu trwy olew, gyd â phob hwrdd;
13 A phob yn ddegfed ran o beillied, yn fwyd-offrwm, wedi ei gymmysgu trwy olew, gyd â phob oen, yn offrwm poeth o arogl peraidd, yn aberth tanllyd i'r ARGLWYDD.
14 A'u ddïod-offrwm fydd hanner hin gyd â bustach, a thrydedd *ran* hin gyd â hwrdd, a phedwaredd *ran* hin o win gyd âg oen. Dyma boeth-offrwm mis yn ei fis, trwy fisoedd y flwyddyn.
15 Ac un bwch geifr *fydd* yn bech-aberth i'r ARGLWYDD: heb law y gwastadol boeth-offrwm yr offrymmir ef, a'i ddïod-offrwm.
16 ¶ Ac yn y mis cyntaf, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, *y bydd* Pasc yr ARGLWYDD.
17 Ac ar y pymthegfed dydd o'r mis hwn *y bydd* yr wyl: saith niwrnod y bwyttêir bara croyw.
18 Ar y dydd cyntaf *y bydd* cymmanfa sanctaidd: na wnewch ddim caethwaith *ynddo.*
19 Ond offrymmwch yn aberth tanllyd, *ac* yn boeth-offrwm i'r ARGLWYDD, ddau o fustych ieuainge, ac un hwrdd, a saith oen blwyddiaid: byddant gennych yn berffeith-gwbl.

20 Eu bwyd-offrwm hefyd *fydd o* beillied wedi ei gymmysgu trwy olew: tair degfed ran gyd â bustach, a dwy ddegfed ran gyd â hwrdd, a offrymmwch chwi;
21 Bob yn ddegfed ran yr offrymmwch gyd â phob oen, o'r saith oen:
22 Ac un bwch yn bech-aberth, i wneuthur cymmod drosoch.
23 Heb law poeth-offrwm y bore, yr hwn *sydd* boeth-offrwm gwastadol, yr offrymmwch hyn.
24 Fel hyn yr offrymmwch ar *bob* dydd o'r saith niwrnod, fwyd-aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD: heb law y poeth-offrwm gwastadol yr offrymmir ef, a'i ddïod-offrwm.
25 Ac ar y seithfed dydd cymmanfa sanctaidd fydd i chwi: dim caethwaith nis gwnewch.
26 ¶ Ac ar ddydd eich blaen-ffrwythau, pan offrymmoch fwyd-offrwm newydd i'r ARGLWYDD, wedi eich wythnosau, cymmanfa sanctaidd fydd i chwi: dim caethwaith nis gwnewch.
27 Ond offrymmwch ddau fustach ieuainge, un hwrdd, a saith oen blwyddiaid, yn boeth-offrwm, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD.
28 A *bydded* eu bwyd-offrwm o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew; tair degfed ran gyd â phob bustach, dwy ddegfed ran gyd â phob hwrdd;
29 Bob yn ddegfed ran gyd â phob oen, o'r saith oen:
30 Un bwch geifr, i wneuthur cymmod drosoch.
31 Heb law y poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, yr offrymmwch *hyn*, (byddant gennych yn berffeith-gwbl,) ynghyd â'u ïod-offrwm.

PENNOD 29.

1 *Yr offrymmau ar wyl yr udgyrn, 7 ar y dydd y cystuddiant ei heneidiau, 13 ac ar wyth niwrnod gwyl y pebyll.*

AC yn y seithfed mis, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y bydd i chwi gymmanfa sanctaidd; dim caethwaith nis gwnewch: dydd i ganu udgyrn fydd efe i chwi.
2 Ac offrymmwch offrwm poeth yn arogl peraidd i'r ARGLWYDD; un bustach ieuange, un hwrdd, saith o ŵyn blwyddiaid, perffeith-gwbl:
3 A'u bwyd-offrwm o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew; tair degfed ran gyd â bustach, a dwy ddegfed ran gyd â hwrdd;
4 Ac un ddegfed ran gyd â phob oen, o'r saith oen:
5 Ac un bwch geifr yn bech-aberth, i wneuthur cymmod drosoch:
6 Heb law poeth-offrwm y mis, a'i fwyd-offrwm, a'r poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm hwynt, wrth eu defod hwynt, yn arogl peraidd, yn aberth tanllyd i'r ARGLWYDD.
7 ¶ Ac ar y degfed *dydd* o'r seithfed mis hwn cymmanfa sanctaidd fydd i chwi: yna cystuddiwch eich eneidiau: dim gwaith nis gwnewch *ynddo*.
8 Ond offrymmwch boeth-offrwm i'r ARGLWYDD, yn arogl peraidd, un bustach ieuange, un hwrdd, saith oen blwyddiaid: byddant berffeith-gwbl gennych.
9 A'u bwyd-offrwm *fydd* o beillied wedi ei gymmysgu trwy olew, tair degfed ran gyd â bustach, a dwy ddegfed ran gyd â hwrdd;
10 Bob yn ddegfed ran gyd â phob oen, o'r saith oen:
11 Un bwch geifr yn bech-aberth; heb law pech-aberth y cymmod, a'r poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'u dïod-offrymmau.
12 ¶ Ac ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis, cymmanfa sanctaidd fydd i chwi; dim caethwaith nis gwnewch; eithr cedwch wyl i'r ARGLWYDD saith niwrnod.
13 Ac offrymmwch offrwm poeth, aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD; tri ar ddeg o fustych ieuainge, dau hwrdd, pedwar ar ddeg o ŵyn blwyddiaid: byddant berffeith-gwbl.
14 A'u bwyd-offrwm *fydd o* beillied wedi ei gymmysgu trwy olew; tair degfed ran gyd â phob bustach, o'r tri bustach ar ddeg; dwy ddegfed ran gyd â phob hwrdd, o'r ddau hwrdd;
15 A phob yn ddegfed ran gyd â phob oen, o'r pedwar oen ar ddeg:
16 Ac un bwch geifr yn bech-

aberth; heb law y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddïod-offrwm.

17 ¶ Ac ar yr ail ddydd *yr offrymmwch* ddeuddeng mustach ieuainge, dau hwrdd, pedwar ar ddeg o ŵyn blwyddiaid, perffeith-gwbl.

18 A'u bwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm, gyd â'r bustych, gyd â'r hyrddod, a chyd â'r ŵyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

19 Ac un bwch geifr, yn bech-aberth; heb law y poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm a'u dïod-offrymmau.

20 ¶ Ac ar y trydydd dydd, un bustach ar ddeg, dau hwrdd, pedwar ar ddeg o ŵyn blwyddiaid, perffeith-gwbl:

21 A'u bwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm, gyd â'r bustych, gyd â'r hyrddod, a chyd â'r ŵyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

22 Ac un bwch geifr yn bech-aberth; heb law y poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'i ddïod-offrwm.

23 ¶ Ac ar y pedwerydd dydd, deng mustach, dau hwrdd, pedwar ar ddeg o ŵyn blwyddiaid, perffeith-gwbl:

24 Eu bwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm, gyd â'r bustych, gyd â'r hyrddod, a chyd â'r ŵyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

25 Ac un bwch geifr yn bech-aberth; heb law y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddïod-offrwm.

26 ¶ Ac ar y pummed dydd, naw bustach, dau hwrdd, pedwar ar ddeg o ŵyn blwyddiaid, perffeith-gwbl.

27 A'u bwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm, gyd â'r bustych, gyd â'r hyrddod, a chyd â'r ŵyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod;

28 Ac un bwch yn bech-aberth; heb law y poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'i ddïod-offrwm.

29 ¶ Ac ar y chweched dydd, wyth o fustych, dau hwrdd, pedwar ar ddeg o ŵyn blwyddiaid, perffeith-gwbl.

30 A'u bwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm, gyd â'r bustych, gyd â'r hyrddod, a chyd â'r ŵyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

31 Ac un bwch yn bech-aberth; heb law y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddïod-offrwm.

32 ¶ Ac ar y seithfed dydd, saith o fustych, dau hwrdd, pedwar ar ddeg o ŵyn blwyddiaid, perffeith-gwbl.

33 A'u bwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm, gyd â'r bustych, gyd â'r hyrddod, a chyd â'r ŵyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth eu defod:

34 Ac un bwch yn bech-aberth; heb law y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddïod-offrwm.

35 ¶ Ar yr wythfed dydd, uchel wyl fydd i chwi: dim caethwaith nis gwnewch *ynddo.*

36 Ond offrymmwch offrwm poeth, aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r ARGLWYDD; un bustach, un hwrdd, saith o ŵyn blwyddiaid, perffeith-gwbl.

37 Eu bwyd-offrwm, a'u dïod-offrwm, gyd â'r bustach, a chyd â'r hwrdd, a chyd â'r ŵyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

38 Ac un bwch yn bech-aberth: heb law y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddïod-offrwm.

39 Hyn a wnewch i'r ARGLWYDD ar eich gwyliau; heb law eich addunedau, a'ch offrymmau gwirfodd, gyd â'ch offrymmau poeth, a'ch offrymmau bwyd, a'ch offrymmau dïod, a'ch offrymmau hedd.

40 A dywedodd Moses wrth feibion Israel yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

PENNOD 30.

1 *Na ellir torri addunedau:* 3 *ond adduned morwyn ieuange,* 6 *gwraig wrieg,* 9 *gwraig weddw, a'r ysgaredig.*

ALLEFARODD Moses wrth bennaethiaid llwythau meibion Israel, gan ddywedyd, Dyma y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD.

2 Os adduneda gŵr adduned i'r ARGLWYDD, neu dyngu llw, gan rwymo rhwymedigaeth ar ei enaid ei hun; na haloged ei air: gwnaed yn ol yr hyn oll a ddêl allan o'i enau.

3 Ac os adduneda benyw adduned i'r ARGLWYDD, a'i rhwymo *ei hun* â rhwymedigaeth yn nhŷ ei thad, yn ei hieuengctid;

4 A chlywed o'i thad ei hadduned, a'i rhwymedigaeth yr hwn a rwymodd hi ar ei henaid, a thewi o'i thad wrthi: yna safed ei holl addunedau; a phob rhwymedigaeth a rwymodd hi ar ei henaid, a saif.

5 Ond os ei thad a bâr iddi dorri, ar y dydd y clywo efe; o'i holl addunedau, a'i rhwymedigaethau y rhai a rwymodd hi ar ei henaid, ni saif *un:* a maddeu yr ARGLWYDD iddi, o achos mai ei thad a barodd iddi dorri.

6 Ac os hi oedd yn eiddo gŵr, pan addunedodd, neu pan lefarodd o'i gwefusau beth a rwymo ei henaid hi;

7 A chlywed o'i gŵr, a thewi wrthi y dydd y clywo: yna safed ei hadduned au; a'i rhwymedigaethau y rhai a rwymodd hi ar ei henaid, a safant.

8 Ond os ei gŵr, ar y dydd y clywo, a bâr iddi dorri; efe a ddiddymma ei hadduned yr hwn *fydd* arni, a thraethiad ei gwefusau yr hwn a rwymodd hi ar ei henaid: a'r ARGLWYDD a faddeu iddi.

9 Ond adduned y weddw, a'r ysgaredig, yr hyn oll a rwymo hi ar ei henaid, a saif arni.

10 Ond os *yn* nhŷ ei gŵr yr addunedodd, neu y rhwymodd hi rwymedigaeth ar ei henaid trwy lw;

11 A chlywed o'i gŵr, a thewi wrthi, heb beri iddi dorri: yna safed ei holl addunedau; a phob rhwym a rwymodd hi ar ei henaid, a saif.

12 Ond os ei gŵr gan ddiddymmu a'u diddymma hwynt y dydd y clywo; ni saif dim a ddaeth allan o'i gwefusau, o'i haddunedau, ac o rwymedigaeth ei henaid: ei gŵr a'u diddymmodd hwynt; a'r ARGLWYDD a faddeu iddi.

13 Pob adduned, a phob rhwymedigaeth llw i gystuddio yr enaid, ei gŵr a'i cadarnhâ, a'i gŵr a'i diddymma.

14 Ac os ei gŵr gan dewi a daw wrthi o ddydd i ddydd; yna y cadarnhaodd efe ei holl addunedau, neu ei holl rwymedigaethau y rhai *oedd* arni: cadarnhaodd hwynt, pan dawodd wrthi, y dydd y clybu efe *hwynt.*

15 Ac os efe gan ddiddymmu a'u diddymma hwynt wedi iddo glywed; yna efe a ddwg ei hanwiredd hi.

16 Dyma y deddfau a orchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses, rhwng gŵr a'i wraig, a rhwng tad a'i ferch, yn ei hieuengctid yn nhŷ ei thad.

PENNOD 31.

1 *Ýspeilio y Midianiaid, a lladd Balacm.* 13 *Moses yn ddig wrth y swyddogion, am gadw y gwragedd yn fyw.* 19 *Pa fodd y glanhêir y milwyr, a'u carcharorion, a'u hysglyfaeth.* 25 *Y modd y mae rhannu yr ysbail.* 48 *Yr offrwm ewyllysgar i drysordy yr Arglwydd.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Dïal feibion Israel ar y Midianiaid: wedi *hynny* ti a gesglir at dy bobl.

3 A llefarodd Moses wrth y bobl, gan ddywedyd, Arfogwch o honoch wŷr i'r rhyfel, ac ânt yn erbyn Midian, i roddi dïal yr ARGLWYDD ar Midian.

4 Mil o bob llwyth, o holl lwythau Israel, a anfonwch i'r rhyfel.

5 A rhoddasant o filoedd Israel fil o *bob* llwyth, *sef* deuddeng mil, o rai wedi eu harfogi *i'r* rhyfel.

6 Ac anfonodd Moses hwynt i'r rhyfel, mil o *bob* llwyth: hwynt a Phinees mab Eleasar yr offeiriad, *a anfonodd efe* i'r rhyfel, â dodrefn y cyssegr, a'r udgyrn i udganu yn ei law.

7 A hwy a ryfelasant yn erbyn Midian, megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses; ac a laddasant bob gwrryw.

8 Brenhinoedd Midian hefyd a laddasant hwy, gyd â'u lladdedigion *eraill:* sef Efi, a Recem, a Sur, a Hur, a Reba, pum brenhin Midian: Balaam hefyd mab Beor a laddasant hwy â'r cleddyf.

9 Meibion Israel a ddaliasant hefyd yn garcharorion wragedd Midian, a'u plant; ac a yspeiliasant eu holl anifeiliaid hwynt, a'u holl ddâ hwynt, a'u holl olud hwynt.

10 Eu holl ddinasoedd hefyd trwy eu trigfannau, a'u holl dyrau, a losgasant â thân.

11 A chymmerasant yr holl yspail, a'r holl gaffaeliad, o ddyn ac o anifail.

12 Ac a ddygasant at Moses, ac at

Eleasar yr offeiriad, ac at gynnulleidfa meibion Israel, y carcharorion, a'r caffaeliad, a'r yspail, i'r gwersyll, yn rhosydd Moab, y rhai *ydynt* wrth yr Iorddonen, *ar gyfer* Jericho.

13 ¶ Yna Moses ac Eleasar yr offeiriad, a holl bennaduriaid y gynnulleidfa, a aethant i'w cyfarfod hwynt o'r tu allan i'r gwersyll.

14 A digiodd Moses wrth swyddogion y fyddin, capteniaid y miloedd, a chapteniaid y cannoedd, y rhai a ddaethant o frwydr y rhyfel.

15 A dywedodd Moses wrthynt, A adawsoch chwi bob benyw yn fyw?

16 Wele, hwynt, trwy air Balaam, a barasant i feibion Israel wneuthur camwedd yn erbyn yr ARGLWYDD yn achos Peor; a bu pla y'nghynnulleidfa yr ARGLWYDD.

17 Am hynny lleddwch yn awr bob gwryw o blentyn; a lleddwch bob benyw a fu iddi a wnaeth â gŵr, trwy orwedd gyd âg ef.

18 A phob plentyn o'r benywaid y rhai ni bu iddynt a wnaethant â gŵr, cedwch yn fyw i chwi.

19 Ac arhoswch chwithau o'r tu allan i'r gwersyll saith niwrnod: pob un a laddodd ddyn, a phob un a gyffyrddodd wrth laddedig, ymlanhêwch y trydydd dydd, a'r seithfed dydd, chwi a'ch carcharorion.

20 Pob gwisg hefyd, a phob dodrefnyn croen, a phob gwaith o *ffew* geifr, a phob llestr pren, a lanhêwch chwi.

21 ¶ A dywedodd Eleasar yr offeiriad wrth y rhyfelwyr y rhai a aethant i'r rhyfel, Dyma ddeddf y gyfraith a orchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses:

22 Yn unig yr aur, a'r arian, y pres, yr haiarn, yr alcam, a'r plwm;

23 Pob dim a ddïoddefo dân, a dynnwch trwy y tân, a glân fydd; ac etto efe a lanhêir â'r dwfr neillduaeth: a'r hyn oll ni ddïoddefo dân, tynnwch trwy y dwfr *yn unig.*

24 A golchwch eich gwisgoedd ar y seithfed dydd, a glân fyddwch; ac wedi hynny deuwch i'r gwersyll.

25 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

26 Cymmer nifer yr yspail a gaed, o ddyn ac o anifail, ti ac Eleasar yr offeiriad, a phennau-cenedl y gynnulleidfa:

27 A rhanna y caffaeliad yn ddwy ran; rhwng y rhyfelwyr a aethant i'r filwriaeth, a'r holl gynnulleidfa.

28 A chyfod deyrnged i'r ARGLWYDD gan y rhyfelwyr y rhai a aethant allan i'r filwriaeth; un enaid o *bob* pum cant o'r dynion, ac o'r eidionau, ac o'r asynod, ac o'r defaid.

29 Cymmerwch *hyn* o'u hanner hwynt, a dyro i Eleasar yr offeiriad, yn ddyrchafael-offrwm yr ARGLWYDD.

30 Ac o hanner meibion Israel y cymmeri un rhan o *bob* deg a deugain, o'r dynion, o'r eidionau, o'r asynod, ac o'r defaid, *ac* o bob anifail, a dod hwynt i'r Lefiaid, y rhai ydynt yn cadw cadwraeth tabernacl yr ARGLWYDD.

31 A gwnaeth Moses ac Eleasar yr offeiriad megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses.

32 A'r caffaeliad, *sef* gweddill yr yspail yr hon a ddygasai pobl y filwriaeth, oedd chwe chan mil a phymtheg a thri ugain o filoedd o ddefaid,

33 A deuddeg a thri ugain mil o eidionau,

34 Ac un fil a thri ugain o asynod,

35 Ac o ddynion, o fenywaid ni buasai iddynt a wnaethant â gŵr, trwy orwedd gyd âg ef, ddeuddeng mil ar hugain o eneidiau.

36 A'r hanner, *sef* rhan y rhai a aethant i'r rhyfel, oedd, o rifedi defaid, dri chan mil a dwy ar bymtheg ar hugain o filoedd, a phum cant;

37 A theyrnged yr ARGLWYDD o'r defaid oedd chwe chant a phymtheg a thri ugain.

38 A'r eidionau *oedd* un fil ar bymtheg ar hugain; a'u teyrnged i'r ARGLWYDD *oedd* ddeuddeg a thri ugain.

39 A'r asynod *oedd* ddeng mil ar hugain a phum cant; a'u teyrnged i'r ARGLWYDD *oedd* un a thri ugain.

40 A'r dynion *oedd* un fil ar bymtheg; a'u teyrnged i'r ARGLWYDD *oedd* ddeuddeg enaid ar hugain.

41 A Moses a roddodd deyrnged offrwm dyrchafael yr ARGLWYDD i

Eleasar yr offeiriad, megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

42 Ac o ran meibion Israel, yr hon a rannasai Moses oddi wrth y milwyr,

43 *Sef* rhan y gynnulleidfa o'r defaid, oedd dri chan mil a dwy ar bymtheg ar hugain o filoedd, a phum cant;

44 Ac *o*'r eidionau, un fil ar bymtheg ar hugain;

45 Ac *o*'r asynod, deng mil ar hugain a phum cant;

46 Ac *o*'r dynion, un fil ar bymtheg.

47 Ïe, cymmerodd Moses o hanner meibion Israel, un rhan o *bob* deg a deugain, o'r dynion, ac o'r anifeiliaid, ac a'u rhoddes hwynt i'r Lefiaid oedd yn cadw cadwraeth tabernacl yr ARGLWYDD; megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

48 ¶ A'r swyddogion, y rhai *oedd* ar filoedd y llu, a ddaethant at Moses, *sef* capteniaid y miloedd a chapteniaid y cannoedd:

49 A dywedasant wrth Moses, Dy weision a gymmerasant nifer y gwŷr o ryfel *a roddaist* dan ein dwylaw ni; ac nid oes ŵr yn eisieu o honom.

50 Am hynny yr ydym yn offrymmu offrwm i'r ARGLWYDD, pob un yr hyn a gafodd, yn offerynau aur, yn gadwynau, yn freichledau, yn fodrwyau, yn glust-dlysau, ac yn dorchau, i wneuthur cymmod dros ein heneidiau ger bron yr ARGLWYDD.

51 A chymmerodd Moses ac Eleasar yr offeiriad yr aur ganddynt, y dodrefn gweithgar oll.

52 Ac yr ydoedd holl aur yr offrwm dyrchafael, yr hwn a offrymmasant i'r ARGLWYDD, oddi wrth gapteniaid y miloedd, ac oddi wrth gapteniaid y cannoedd, yn un fil ar bymtheg saith gant a deg a deugain o siclau.

53 (Yspeiliasai y gwŷr o ryfel bob un iddo ei hun.)

54 A chymmerodd Moses ac Eleasar yr offeiriad yr aur gan gapteniaid y miloedd a'r cannoedd, ac a'i dygasant i babell y cyfarfod, yn goffadwriaeth dros feibion Israel ger bron yr ARGLWYDD.

PENNOD 32.

1 Y Reubeniaid a'r Gadiaid yn gofyn eu hetifeddiaeth y tu hwnt i'r Iorddonen. 6 Moses yn eu ceryddu hwynt. 16 Hwythau yn cynnyg iddo ef ammodau wrth ei fodd. 33 Moses yn rhoddi iddynt y wlad. 39 Hwythau yn ei goresgyn hi.

AC yr ydoedd anifeiliaid lawer i feibion Reuben, a llawer iawn i feibion Gad: a gwelsant dir Jaser, a thir Gilead; ac wele y lle yn lle *da* i anifeiliaid.

2 A meibion Gad a meibion Reuben a ddaethant, ac a ddywedasant wrth Moses, ac wrth Eleasar yr offeiriad, ac wrth bennaduriaid y gynnulleidfa, gan ddywedyd,

3 Ataroth, a Dibon, a Jaser, a Nimrah, a Hesbon, ac Elealeh, a Sebam, a Nebo, a Beon,

4 *Sef* y tir a darawodd yr ARGLWYDD o flaen cynnulleidfa Israel, tir i anifeiliaid *yw* efe; ac *y mae* i'th weision anifeiliaid.

5 A dywedasant, Os cawsom ffafr yn dy olwg, rhodder y tir hwn i'th weision yn feddiant: na phâr i ni fyned dros yr Iorddonen.

6 ¶ A dywedodd Moses wrth feibion Gad, ac wrth feibion Reuben, A â eich brodyr i'r rhyfel, ac a eisteddwch chwithau yma?

7 A phaham y digalonnwch feibion Israel rhag myned trosodd i'r tir a roddodd yr ARGLWYDD iddynt?

8 Felly y gwnaeth eich tadau, pan anfonais hwynt o Cades-Barnea i edrych y tir.

9 Canys aethant i fyny hyd ddyffryn Escol, a gwelsant y tir; a digalonnasant feibion Israel rhag myned i'r tir a roddasai yr ARGLWYDD iddynt.

10 Ac ennynodd digllonedd yr ARGLWYDD y dydd hwnnw; ac efe a dyngodd, gan ddywedyd,

11 Diau na chaiff yr un o'r dynion a ddaethant i fyny o'r Aipht, o fab ugain mlwydd ac uchod, weled y tir a addewais trwy lw i Abraham, i Isaac, ac i Jacob: am na chyflawnasant *wneuthur* ar fy ol i:

12 Ond Caleb mab Jephunneh y Cenesiad, a Josua mab Nun; canys cyflawnasant *wneuthur* ar ol yr ARGLWYDD.

13 Ac ennynodd digllonedd yr AR-

GLWYDD yn erbyn Israel; a gwnaeth iddynt grwydro yn yr anialwch ddeugain mlynedd, nes darfod yr holl oes a wnaethai ddrygioni yng ngolwg yr ARGLWYDD.

14 Ac wele, chwi a godasoch yn lle eich tadau, yn gynnyrch dynion pechadurus, i chwanegu ar angerdd llid yr ARGLWYDD wrth Israel.

15 Os dychwelwch oddi ar ei ol ef; yna efe a âd y bobl etto yn yr anialwch, a chwi a ddinystriwch yr holl bobl hyn.

16 ¶ A hwy a ddaethant atto ef, ac a ddywedasant, Corlannau defaid a adeiladwn ni yma i'n hanifeiliaid, a dinasoedd i'n plant.

17 A ni a ymarfogwn yn fuan o flaen meibion Israel, hyd oni ddygom hwynt i'w lle eu hun; a'n plant a arhosant yn y dinasoedd caerog, rhag trigolion y tir.

18 Ni ddychwelwn ni i'n tai, nes i feibion Israel berchennogi bob un ei etifeddiaeth.

19 Hefyd nid etifeddwn ni gyd â hwynt o'r tu hwnt i'r Iorddonen, ac oddi yno allan; am ddyfod ein hetifeddiaeth i ni o'r tu yma i'r Iorddonen, tu a'r dwyrain.

20 ¶ A dywedodd Moses wrthynt, Os gwnewch y peth hyn, os ymarfogwch i'r rhyfel o flaen yr ARGLWYDD,

21 Os â pob un o honoch dros yr Iorddonen yn arfog o flaen yr ARGLWYDD, nes iddo yrru ymaith ei elynion o'i flaen,

22 A darostwng y wlad o flaen yr ARGLWYDD; yna wedi hynny y cewch ddychwelyd, ac y byddwch dieuog ger bron yr ARGLWYDD, a cher bron Israel; a bydd y tir hwn yn etifeddiaeth i chwi o flaen yr ARGLWYDD.

23 Ond os chwi ni wna fel hyn; wele, pechu yr ydych yn erbyn yr ARGLWYDD: a gwybyddwch y goddiwedda eich pechod chwi.

24 Adeiledwch i chwi ddinasoedd i'ch plant, a chorlannau i'ch defaid; a gwnewch yr hyn a ddaeth allan o'ch genau.

25 A llefarodd meibion Gad a meibion Reuben wrth Moses, gan ddywedyd, Dy weision a wnant megis y mae fy arglwydd yn gorchymyn.

26 Ein plant, ein gwragedd, ein hanifeiliaid, a'n holl ysgrubliaid, fyddant yma yn ninasoedd Gilead.

27 A'th weision a ânt drosodd o flaen yr ARGLWYDD i'r rhyfel, pob un yn arfog i'r filwriaeth, megis y mae fy arglwydd yn llefaru.

28 A gorchymynodd Moses i Eleasar yr offeiriad, ac i Josua mab Nun, ac i bennau-cenedl llwythau meibion Israel, o'u plegid hwynt:

29 A dywedodd Moses wrthynt, Os meibion Gad a meibion Reuben a ânt dros yr Iorddonen gyd â chwi, pob un yn arfog i'r rhyfel o flaen yr ARGLWYDD, a darostwng y wlad o'ch blaen; yna rhoddwch iddynt wlad Gilead yn berchennogaeth:

30 Ac onid ânt drosodd gyd â chwi yn arfogion, cymmerant eu hetifeddiaeth yn eich mysg chwi y'ngwlad Canaan.

31 A meibion Gad a meibion Reuben a attebasant, gan ddywedyd, Fel y llefarodd yr ARGLWYDD wrth dy weision, felly y gwnawn ni.

32 Nyni a awn drosodd i dir Canaan yn arfogion o flaen yr ARGLWYDD, fel *y byddo* meddiant ein hetifeddiaeth o'r tu yma i'r Iorddonen gennym ni.

33 A rhoddodd Moses iddynt, *sef* i feibion Gad, ac i feibion Reuben, ac i hanner llwyth Manasseh mab Joseph, frenhiniaeth Sehon brenhin yr Amoriaid, a brenhiniaeth Og brenhin Basan, y wlad a'i dinasoedd ar hyd y terfynau, *sef* dinasoedd y wlad oddi amgylch.

34 ¶ A meibion Gad a adeiladasant Dibon, ac Ataroth, ac Aroer,

35 Ac Atroth, Sophan, a Jaaser, a Jogbeah,

36 A Beth-nimrah, a Beth-haran, dinasoedd caerog; a chorlannau defaid.

37 A meibion Reuben a adeiladasant Hesbon, Elealeh, a Chiriathaim;

38 Nebo hefyd, a Baal-meon, (wedi troi eu henwau,) a Sibmah: ac a enwasant enwau ar y dinasoedd a adeiladasant.

39 A meibion Machir mab Manasseh a aethant i Gilead, ac a'i

hennillasant hi, ac a yrrasant ymaith yr Amoriaid oedd ynddi.
40 A rhoddodd Moses Gilead i Machir mab Manasseh; ac efe a drigodd ynddi.
41 Ac aeth Jair mab Manasseh, ac a ennillodd eu pentrefydd hwynt, ac a'u galwodd hwynt Hafoth-Jair.
42 Ac aeth Nobah, ac a ennillodd Cenath a'i phentrefydd, ac a'i galwodd ar ei enw ei hun, Nobah.

PENNOD 33.

1 *Dwy daith a deugain yr Israeliaid.* 50 *Bod yn rhaid dinystrio y Canaaneaid.*

DYMA deithiau meibion Israel, y rhai a ddaethant allan o dir yr Aipht, yn eu lluoedd, dan law Moses ac Aaron.
2 A Moses a ysgrifenodd eu mynediad hwynt allan yn ol eu teithiau, wrth orchymyn yr ARGLWYDD: a dyma eu teithiau hwynt yn eu mynediad allan.
3 A hwy a gychwynasant o Rameses yn y mis cyntaf, ar y pymthegfed dydd o'r mis cyntaf: trannoeth wedi y Pasc yr aeth meibion Israel allan â llaw uchel y'ngolwg yr Aiphtiaid oll.
4 (A'r Aiphtiaid oedd yn claddu pob cyntaf-anedig, y rhai a laddasai yr ARGLWYDD yn eu mysg; a gwnaethai yr ARGLWYDD farn yn erbyn eu duwiau hwynt hefyd.)
5 A meibion Israel a gychwynasant o Rameses, ac a wersyllasant yn Succoth.
6 A chychwynasant o Succoth, a gwersyllasant yn Etham, yr hon *sydd* y'nghŵr yr anialwch.
7 A chychwynasant o Etham, a throisant drachefn i Pi-hahiroth, yr hon *sydd* o flaen Baal-Sephon; ac a wersyllasant o flaen Migdol.
8 A chychwynasant o Pi-hahiroth, ac a aethant trwy ganol y môr i'r anialwch; a cherddasant daith tri diwrnod yn anialwch Etham, a gwersyllasant ym Marah.
9 A chychwynasant o Marah, a daethant i Elim: ac yn Elim *yr ydoedd* deuddeg o ffynhonnau dwfr, a deg a thri ugain o balmwydd; a gwersyllasant yno.
10 A chychwynasant o Elim, a gwersyllasant wrth y môr coch.
11 A chychwynasant oddi wrth y môr coch, a gwersyllasant yn anialwch Sin.
12 Ac o anialwch Sin y cychwynasant, ac y gwersyllasant yn Dophcah.
13 A chychwynasant o Dophcah, a gwersyllasant yn Alus.
14 A chychwynasant o Alus, a gwersyllasant yn Rephidim, lle nid oedd dwfr i'r bobl i'w yfed.
15 A chychwynasant o Rephidim, a gwersyllasant yn anialwch Sinai.
16 A chychwynasant o anialwch Sinai, a gwersyllasant yn Cibroth-Hattaafah.
17 A chychwynasant o Cibroth-Hattaafah, a gwersyllasant yn Haseroth.
18 A chychwynasant o Haseroth, a gwersyllasant yn Rithmah.
19 A chychwynasant o Rithmah, a gwersyllasant yn Rimmon-Pares.
20 A chychwynasant o Rimmon-Pares, a gwersyllasant yn Libnah.
21 A chychwynasant o Libnah, a gwersyllasant yn Rissah.
22 A chychwynasant o Rissah, a gwersyllasant yn Cehelathah.
23 A chychwynasant o Cehelathah, a gwersyllasant ym mynydd Sapher.
24 A chychwynasant o fynydd Sapher, a gwersyllasant yn Haradah.
25 A chychwynasant o Haradah, a gwersyllasant ym Maceloth.
26 A chychwynasant o Maceloth, a gwersyllasant yn Tahath.
27 A chychwynasant o Tahath, a gwersyllasant yn Tarah.
28 A chychwynasant o Tarah, a gwersyllasant ym Mithcah.
29 A chychwynasant o Mithcah, a gwersyllasant yn Hasmonah.
30 A chychwynasant o Hasmonah, a gwersyllasant ym Moseroth.
31 A chychwynasant o Moseroth, a gwersyllasant yn Bene-Jaacan.
32 A chychwynasant o Bene-Jaacan, a gwersyllasant yn Hor-hagidgad.
33 A chychwynasant o Hor-hagidgad, a gwersyllasant yn Jotbathah.
34 A chychwynasant o Jotbathah, a gwersyllasant yn Ebronah.
35 A chychwynasant o Ebronah, a gwersyllasant yn Esion-Gaber.

36 A chychwynasant o Esion-Gaber, a gwersyllasant yn anialwch Sin; hwnnw *yw* Cades.
37 A chychwynasant o Cades, a gwersyllasant ym mynydd Hor, y'nghwr tir Edom.
38 Ac Aaron yr offeiriad a aeth i fyny i fynydd Hor, wrth orchymyn yr ARGLWYDD; ac a fu farw yno, yn y ddeugeinfed flwyddyn wedi dyfod meibion Israel allan o dir yr Aipht, yn y pummed mis, ar y *dydd* cyntaf o'r mis.
39 Ac Aaron *oedd* fab tair blwydd ar hugain a chant pan fu farw ym mynydd Hor.
40 A'r brenhin Arad, y Canaanead, yr hwn oedd yn trigo yn y dehau yn nhir Canaan, a glybu am ddyfodiad meibion Israel.
41 A chychwynasant o fynydd Hor, a gwersyllasant yn Salmonah.
42 A chychwynasant o Salmonah, a gwersyllasant yn Punon.
43 A chychwynasant o Punon, a gwersyllasant yn Oboth.
44 A chychwynasant o Oboth, a gwersyllasant yn Ije-Abarim, ar derfyn Moab.
45 A chychwynasant o Ije-Abarim, a gwersyllasant yn Dibon-Gad.
46 A chychwynasant o Dibon-Gad, a gwersyllasant yn Almon-Diblathaim.
47 A chychwynasant o Almon-Diblathaim, a gwersyllasant ym mynyddoedd Abarim, o flaen Nebo.
48 A chychwynasant o fynyddoedd Abarim, a gwersyllasant yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, *ar gyfer* Jericho.
49 A gwersyllasant wrth yr Iorddonen, o Beth-Jesimoth hyd wastadedd Sittim, yn rhosydd Moab.
50 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, *ar gyfer* Jericho, gan ddywedyd,
51 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Gan eich bod chwi yn myned dros yr Iorddonen, i dir Canaan;
52 Gyrrwch ymaith holl drigolion y tir o'ch blaen, a dinystriwch eu holl luniau hwynt; dinystriwch hefyd eu holl ddelwau tawdd, a difwynwch hefyd eu holl uchelfeydd hwynt.
53 A goresgynwch y tir, a thrigwch ynddo: canys rhoddais y tir i chwi i'w berchennogi.
54 Rhennwch hefyd y tir yn etifeddiaeth rhwng eich teuluoedd wrth goelbren; i'r aml chwanegwch ei etifeddiaeth, ac i'r anaml prinhêwch ei etifeddiaeth: bydded eiddo *pob un y man* lle yr êl y coelbren allan iddo; yn ol llwythau eich tadau yr etifeddwch.
55 Ac oni yrrwch ymaith breswylwyr y tir o'ch blaen; yna *y bydd* y rhai a weddillwch o honynt yn gethri yn eich llygaid, ac yn ddrain yn eich ystlysau, a blinant chwi yn y tir y trigwch ynddo.
56 A bydd, megis yr amcenais wneuthur iddynt hwy, y gwnaf i chwi.

PENNOD 34.

1 *Terfynau y wlad.* 16 *Enwau y rhai a rannant y tir.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,
2 Gorchymyn i feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddeloch chwi i dir Canaan, (dyma y tir a syrth i chwi yn etifeddiaeth, *sef* gwlad Canaan a'i therfynau,)
3 A'ch tu dehau fydd o anialwch Sin, ger llaw Edom: a therfyn y dehau fydd i chwi o gwr y môr heli tu a'r dwyrain.
4 A'ch terfyn a amgylchyna o'r dehau i riw Acrabbim, ac a â trosodd i Sin; a'i fynediad allan fydd o'r dehau i Cades-Barnea, ac a â allan i Hasar-Adar, a throsodd i Asmon:
5 A'r terfyn a amgylchyna o Asmon i afon yr Aipht; a'i fynediad ef allan a fydd tu a'r gorllewin.
6 A therfyn y gorllewin fydd y môr mawr i chwi; *sef* y terfyn hwn fydd i chwi yn derfyn gorllewin.
7 A hwn fydd terfyn y gogledd i chwi: o'r môr mawr y tueddwch i fynydd Hor.
8 O fynydd Hor y tueddwch nes dyfod i Hamath; a mynediaid y terfyn fydd i Sedad.
9 ¶ A'r terfyn a â allan tu a Siphron; a'i ddiwedd ef fydd yn

Hasar-Enan: hwn fydd terfyn y
gogledd i chwi.
10 A therfynwch i chwi yn der-
fyn y dwyrain o Hasar-Enan i Se-
pham.
11 Ac aed y terfyn i waered o
Sepham i Riblah, ar du dwyrain
Ain; a disgyned y terfyn, ac aed
hyd ystlys môr Cinnereth tu a'r
dwyrain.
12 A'r terfyn a â i waered tu a'r
Iorddonen; a'i ddiwedd fydd y
môr heli. Dyma y tir fydd i chwi
a'i derfynau oddi amgylch.
13 A gorchymynodd Moses i feib-
ion Israel, gan ddywedyd, Dyma y
tir a rennwch yn etifeddiaethau
wrth goelbren, yr hwn a orchymyn-
odd yr ARGLWYDD ei roddi i'r naw
llwyth, ac i'r hanner llwyth.
14 Canys cymmerasai llwyth meib-
ion Reuben yn ol tŷ eu tadau,
a llwyth meibion Gad yn ol tŷ eu
tadau, a hanner llwyth Manasseh,
cymmerasant, *meddaf*, eu hetifedd-
iaeth.
15 Dau lwyth a hanner llwyth a
gymmerasant eu hetifeddiaeth o'r
tu yma i'r Iorddonen, *yn agos* i
Jericho, tu a'r dwyrain a chodiad
haul.
16 ¶ Llefarodd yr ARGLWYDD *hef-*
yd wrth Moses, gan ddywedyd,
17 Dyma enwau y gwŷr a rannant
y tir yn etifeddiaethau i chwi: Ele-
asar yr offeiriad, a Josua mab Nun.
18 Ac un pennaeth o bob llwyth
a gymmerwch, i rannu y tir yn
etifeddiaethau.
19 Ac fel dyma enwau y gwŷr: o
lwyth Judah, Caleb mab Jephun-
neh.
20 Ac o lwyth meibion Simeon,
Semuel mab Ammihud.
21 O lwyth Benjamin, Elidad mab
Cislon.
22 A Bucci mab Jogli, yn bennaeth
o lwyth meibion Dan.
23 O feibion Joseph, Haniel mab
Ephod, yn bennaeth dros lwyth
meibion Manasseh.
24 Cemuel hefyd mab Siphtan,
yn bennaeth dros lwyth meibion
Ephraim.
25 Ac Elisaphan mab Pharnach,
yn bennaeth dros lwyth meibion
Sabulon.
26 Paltiel hefyd mab Assan, yn
bennaeth dros lwyth meibion Is-
sachar.
27 Ac Ahihud mab Salomi, yn
bennaeth dros lwyth meibion Aser.
28 Ac yn bennaeth dros lwyth
meibion Naphtali, Pedahel mab
Ammihud.
29 Dyma y rhai a orchymynodd yr
ARGLWYDD iddynt rannu etifedd-
iaethau i feibion Israel, yn nhir
Canaan.

PENNOD 35.

1 *Rhoddi wyth dref a deugain a'u pentref i'r Lefiaid, a'u mesur.* 6 *Chwech o'r rhai hynny yn drefydd noddfa.* 9 *Cyfraith llawruddiaeth:* 31 *ac nas gellir ei ddiwygio.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD
wrth Moses, yn rhosydd Moab,
wrth yr Iorddonen, *yn agos i* Je-
richo, gan ddywedyd,
2 Gorchymyn i feibion Israel,
roddi o honynt i'r Lefiaid, o etif-
eddiaeth eu meddiant, ddinasoedd
i drigo ynddynt: rhoddwch *hefyd*
i'r Lefiaid faes pentrefol wrth y
dinasoedd o'u hamgylch.
3 A'r dinasoedd fyddant iddynt i
drigo *ynddynt;* a'u pentrefol feus-
ydd fyddant i'w hanifeiliaid, ac i'w
cyfoeth, ac i'w holl fwystfilod.
4 A meusydd pentrefol y dinas-
oedd y rhai a roddwch i'r Lefiaid, *a*
gyrhaeddant o fur y ddinas tu ag
allan, fil o gufyddau o amgylch.
5 A mesurwch o'r tu allan i'r ddin-
as, o du y dwyrain ddwy fil o guf-
yddau, a thu a'r dehau ddwy fil o
gufyddau, a thu a'r gorllewin ddwy
fil o gufyddau, a thu a'r gogledd
ddwy fil o gufyddau; a'r ddinas
fydd yn y canol: hyn fydd iddynt
yn feusydd pentrefol y dinasoedd.
6 Ac o'r dinasoedd a roddwch i'r
Lefiaid, *bydded* chwech yn ddinas-
oedd noddfa, y rhai a roddwch, fel
y gallo y llawruddiog ffoi yno: a
rhoddwch ddwy ddinas a deugain
attynt yn ychwaneg.
7 Yr holl ddinasoedd a roddwch
i'r Lefiaid, *fyddant* wyth ddinas a
deugain, hwynt a'u pentrefol feus-
ydd.
8 A'r dinasoedd y rhai a roddwch,
fydd o feddiant meibion Israel:
oddi ar yr aml *eu dinasoedd*, y
rhoddwch yn aml; ac oddi ar y

prin, y rhoddwch yn brin: pob un yn ol ei etifeddiaeth a etifeddant, a rydd i'r Lefiaid o'i ddinasoedd.

9 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, gan ddywedyd,

10 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan eloch dros yr Iorddonen i dir Canaan;

11 Yna gosodwch i chwi ddinasoedd; dinasoedd noddfa fyddant i chwi: ac yno y ffy y llawruddiog a laddo ddyn mewn amryfusedd.

12 A'r dinasoedd fyddant i chwi yn noddfa rhag y dïalydd; fel na ladder y llawruddiog, hyd oni safo ger bron y gynnulleidfa mewn barn.

13 Ac o'r dinasoedd y rhai a roddwch, chwech fydd i chwi yn ddinasoedd noddfa.

14 Tair dinas a roddwch o'r tu yma i'r Iorddonen, a thair dinas a roddwch yn nhir Canaan: dinasoedd noddfa fyddant hwy.

15 I feibion Israel, ac i'r dïeithr, ac i'r ymdeithydd *a fyddo* yn eu mysg, y bydd y chwe dinas hyn yn noddfa; fel y gallo pob un a laddo ddyn mewn amryfusedd, ffoi yno.

16 Ac os âg offeryn haiarn y tarawodd ef, fel y bu farw, llawruddiog *yw* efe: lladder y llawruddiog yn farw.

17 Ac os â charreg law, yr hon y byddai efe farw o'i phlegid, y tarawodd ef, a'i farw; llawruddiog *yw* efe; lladder y llawruddiog yn farw.

18 Neu *os* efe a'i tarawodd ef â llaw-ffon, yr hon y byddai efe farw o'i phlegid, a'i farw; llawruddiog *yw* efe: lladder y llawruddiog yn farw.

19 Dïalydd y gwaed a ladd y llawruddiog: pan gyfarfyddo âg ef, efe a'i lladd ef.

20 Ac os mewn cas y gwthia efe ef, neu y teifl atto mewn bwriad, fel y byddo efe farw;

21 Neu ei daro ef â'i law, mewn galanasdra, fel y byddo farw: lladder yn farw yr hwn a'*i* tarawodd; llofrudd *yw* hwnnw: dïalydd y gwaed a ladd y llofrudd, pan gyfarfyddo âg ef.

22 Ond os yn ddisymmwth, heb alanasdra, y gwthia efe ef, neu y teifl atto un offeryn yn ddifwriad;

23 Neu *ei daro ef* â charreg, y byddai efe farw o'i phlegid, heb *ei* weled *ef;* a pheri *iddi* syrthio arno, fel y byddo farw, ac efe heb *fod* yn elyn, ac heb geisio niwed iddo ef:

24 Yna barned y gynnulleidfa rhwng y tarawydd a dïalydd y gwaed, yn ol y barnedigaethau hyn.

25 Ac achubed y gynnulleidfa y llofrudd o law dïalydd y gwaed, a thröed y gynnulleidfa ef i ddinas ei noddfa, yr hon y ffodd efe iddi: a thriged yntau ynddi hyd farwolaeth yr arch-offeiriad, yr hwn a enneiniwyd â'r olew cyssegredig.

26 Ac os y llofrudd gan fyned a â allan o derfyn dinas ei noddfa, yr hon y ffodd efe iddi;

27 A'i gael o ddïalydd y gwaed allan o derfyn dinas ei noddfa, a lladd o ddïalydd y gwaed y llofrudd; na *rodder hawl* gwaed yn ei erbyn:

28 Canys o fewn dinas ei noddfa y dyly drigo, hyd farwolaeth yr arch-offeiriad: ac wedi marwolaeth yr arch-offeiriad, dychweled y llofrudd i dir ei etifeddiaeth.

29 A hyn fydd i chwi yn ddeddf farnedig trwy eich cenhedlaethau, yn eich holl drigfannau.

30 Pwy bynnag a laddo ddyn, wrth a ddywedo tystion y lleddir y llofrudd: ac un tyst ni chaiff dystiolaethu yn erbyn dyn, i *beri iddo* farw.

31 Hefyd, na chymmerwch iawn am einioes y llofrudd, yr hwn sydd euog i farw; ond lladder ef yn farw.

32 Ac na chymmerwch iawn gan yr hwn a ffodd i ddinas ei noddfa, er cael dychwelyd i drigo yn y tir, hyd farwolaeth yr offeiriad;

33 Fel na halogoch y tir *yr ydych* ynddo; canys y gwaed hwn a haloga y tir: a'r tir ni lanhêir oddi wrth y gwaed a dywallter arno, ond â gwaed yr hwn a'i tywalltodd.

34 Am hynny nac aflanhâ y tir y trigoch ynddo, yr hwn yr ydwyf fi yn preswylio yn ei ganol: canys myfi yr ARGLWYDD *ydwyf* yn preswylio y'nghanol meibion Israel.

PENNOD 36.

1 *Bod yn rhaid i etifeddesau ô briodi yn eu llwythau eu hunain; 7 rhag symmudo yr etifeddiaeth oddi wrth y llwyth.* 10 *Merched Salphaad yn priodi meibion eu hewythr fracwd eu tad.*

PENNAU-cenedl tylwyth meibion Gilead, mab Machir, mab Manasseh, o dylwyth meibion Joseph, a ddaethant hefyd, ac a lefarasant ger bron Moses, a cher bron y pennaduriaid, *sef* pennau-cenedl meibion Israel;

2 Ac a ddywedasant, Yr ARGLWYDD a orchymynodd i'm harglwydd roddi y tir yn etifeddiaeth i feibion Israel wrth goelbren: a'm harglwydd a orchymynwyd gan yr ARGLWYDD, i roddi etifeddiaeth Salphaad ein brawd i'w ferched.

3 Os hwy a fyddant wragedd i rai o feibion llwythau *eraill* meibion Israel; yna y tynnir ymaith eu hetifeddiaeth hwynt oddi wrth etifeddiaeth ein tadau ni, ac a'i chwanegir at etifeddiaeth y llwyth y byddant hwy eiddynt: a phrinhêir ar randir ein hetifeddiaeth ni.

4 A phan fyddo y jubili i feibion Israel, yna y chwanegir eu hetifeddiaeth hwynt at etifeddiaeth llwyth y rhai y byddant hwy eiddynt: a thorrir eu hetifeddiaeth hwynt oddi wrth etifeddiaeth llwyth ein tadau ni.

5 A gorchymynodd Moses i feibion Israel, yn ol gair yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Mae llwyth meibion Joseph yn dywedyd yn uniawn.

6 Dyma y gair a orchymynodd yr ARGLWYDD am ferched Salphaad, gan ddywedyd, Byddant wragedd i'r *rhai* y byddo da yn eu golwg eu hun; ond i rai o dylwyth llwyth eu tad eu hun y byddant yn wragedd.

7 Felly ni threigla etifeddiaeth meibion Israel o lwyth i lwyth: canys glynu a wna pob un o feibion Israel yn etifeddiaeth llwyth ei dadau ei hun.

8 A phob merch yn etifeddu etifeddiaeth o lwythau meibion Israel, a fydd wraig i un o dylwyth llwyth ei thad ei hun; fel yr etifeddo meibion Israel bob un etifeddiaeth ei dadau ei hun.

9 Ac na threigled etifeddiaeth o lwyth i lwyth arall; canys llwythau meibion Israel a lynant bob un yn ei etifeddiaeth ei hun.

10 Megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses, felly y gwnaeth merched Salphaad.

11 Canys Malah, Tirsah, a Hoglah, a Milcah, a Noah, merched Salphaad, fuant yn wragedd i feibion eu hewythredd.

12 *I wŷr* o dylwyth Manasseh fab Joseph y buant yn wragedd; a thrigodd eu hetifeddiaeth hwynt wrth lwyth tylwyth eu tad.

13 Dyma y gorchymynion a'r barnedigaethau a orchymynodd yr ARGLWYDD i feibion Israel, trwy law Moses, yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, *yn agos i* Jericho.

PUMMED LLYFR MOSES, YR HWN A ELWIR

DEUTERONOMIUM.

PENNOD 1.

1 *Ayaith Moses yn ailwedd y ddeugeinfed flwyddyn, yn adrodd ar yr eiriau yr holl ystori,* 6 *am addewid Duw,* 13 *am osod swyddogion arnynt,* 19 *am ddanfon yr ysbïwyr i chwilio y wlad,* 34 *am ddigofaint Duw am eu hanghrediniaeth,* 41 *a'u hanufudd-dod hwy.*

DYMA y geiriau a ddywedodd Moses wrth holl Israel, o'r tu yma i'r Iorddonen, yn yr anialwch, ar y rhos gyferbyn â'r *môr* coch, rhwng Paran, a Tophel, a Laban, a Haseroth, a Disahab.

2 (*Taith* un diwrnod ar ddeg *sydd* o Horeb, ffordd *yr eir* i fynydd Seir, hyd Cades-Barnea.)

3 A bu yn y ddeugeinfed flwyddyn, yn yr unfed mis ar ddeg, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, i Moses lefaru wrth feibion Israel, yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD iddo *ei ddywedyd* wrthynt;

4 Wedi iddo ladd Sehon brenhin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon, ac Og brenhin Basan,

yr hwn oedd yn trigo yn Astaroth, o fewn Edrei;
5 O'r tu yma i'r Iorddonen, yng ngwlad Moab, y dechreuodd Moses egluro y gyfraith hon, gan ddywedyd,
6 Yr ARGLWYDD ein DUW a lefarodd wrthym ni yn Horeb, gan ddywedyd, Digon i chwi drigo *hyd yn hyn* yn y mynydd hwn:
7 Dychwelwch, a chychwynwch rhagoch, ac ewch i fynydd yr Amoriaid, ac i'w holl gyfagos *leoedd;* i'r rhos, i'r mynydd, ac i'r dyffryn, ac i'r dehau, ac i borthladd y môr, i dir y Canaaneaid, ac i Libanus, hyd yr afon fawr, afon Euphrates.
8 Wele, rhoddais y wlad o'ch blaen chwi: ewch i mewn, a pherchennogwch y wlad yr hon a dyngodd yr ARGLWYDD i'ch tadau chwi, i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, ar *ei* rhoddi iddynt, ac i'w had ar eu hol hwynt.
9 ¶ A mi a leferais wrthych yr amser hwnnw, gan ddywedyd, Ni allaf fi fy hun eich cynnal chwi:
10 Yr ARGLWYDD eich DUW a'ch lliosogodd chwi; ac wele chwi heddyw fel sêr y nefoedd o liosowgrwydd.
11 (ARGLWYDD DDUW eich tadau a'ch cynnyddo yn fil lliosoccach nag *ydych,* ac a'ch bendithio, fel y llefarodd efe wrthych!)
12 Pa wedd y dygwn fy hun eich blinder, a'ch baich, a'ch ymryson chwi?
13 Moeswch i chwi wŷr doethion, a deallus, a rhai hynod trwy eich llwythau; fel y gosodwyf hwynt yn bennau arnoch chwi.
14 Ac attebasoch fi, a dywedasoch, Da *yw* gwneuthur y peth a ddywedaist.
15 Cymmerais gan hynny bennau eich llwythau chwi, *sef* gwŷr doethion, a rhai hynod, ac a'u gwneuthum hwynt yn bennau arnoch; *sef* yn gapteniaid ar filoedd, ac yn gapteniaid ar gannoedd, ac yn gapteniaid ar ddegau a deugain, ac yn gapteniaid ar ddegau, ac yn swyddogion yn eich llwythau chwi.
16 A'r amser hwnnw y gorchymynais i'ch barnwyr chwi, gan ddywedyd, Gwrandêwch *ddadleuon* rhwng eich brodyr, a bernwch yn gyfiawn rhwng gŵr a'i frawd, ac â'r dïeithr *sydd* gyd âg ef.
17 Na chydnabyddwch wynebau mewn barn; gwrandêwch ar y lleiaf, yn gystal ag ar y mwyaf: nac ofnwch wyneb gŵr; oblegid y farn *sydd* eiddo DUW: a'r peth a fydd rhy galed i chwi, a ddygwch attaf fi, a mi a'i gwrandawaf.
18 Gorchymynais i chwi hefyd yr amser hwnnw yr holl bethau *a ddylech* eu gwneuthur.
19 ¶ A phan fudasom o Horeb, ni a gerddasom trwy yr holl anialwch mawr ac ofnadwy hwnnw, yr hwn a welsoch ffordd *yr eir i* fynydd yr Amoriaid, fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD ein DUW i ni: ac a ddaethom i Cades-Barnea.
20 A dywedais wrthych, Daethoch hyd fynydd yr Amoriaid, yr hwn y mae yr ARGLWYDD ein DUW yn ei roddi i ni.
21 Wele, yr ARGLWYDD dy DDUW a roddes y wlad o'th flaen: dos i fyny *a* pherchennoga *hi,* fel y llefarodd ARGLWYDD DDUW dy dadau wrthynt; nac ofna, ac na lwfrhâ.
22 ¶ A chwi oll a ddaethoch attaf, ac a ddywedasoch, Anfonwn wŷr o'n blaen, a hwy a chwiliant y wlad i ni, ac a fynegant beth i ni am y ffordd yr awn i fyny ar hyd-ddi, ac am y dinasoedd y deuwn i mewn iddynt.
23 A'r peth oedd dda yn fy ngolwg: ac mi a gymmerais ddeuddengwr o honoch, un gŵr o *bob* llwyth.
24 A hwy a droisant, ac a aethant i fyny i'r mynydd, ac a ddaethant hyd ddyffryn Escol, ac a'i chwiliasant ef.
25 Ac a gymmerasant o ffrwyth y tir yn eu llaw, ac a'*i* dygasant i waered attom ni, ac a ddygasant air i ni drachefn, ac a ddywedasant, Da *yw* y wlad y mae yr ARGLWYDD ein DUW yn ei rhoddi i ni.
26 Er hynny ni fynnech fyned i fyny, ond gwrthryfelasoch yn erbyn gair yr ARGLWYDD eich DUW.
27 Grwgnachasoch hefyd yn eich pebyll, a dywedasoch, Am gasâu o'r ARGLWYDD nyni, y dug efe ni allan o dir yr Aipht i'n rhoddi yn llaw yr Amoriaid, i'n difetha.

28 I ba le yr awn i fyny? ein brodyr a'n digalonnasant ni, gan ddywedyd, Pobl fwy a hŷy na nyni *ydynt;* dinasoedd mawrion a chaerog hyd y nefoedd: meibion yr Anaciaid hefyd a welsom ni yno.

29 Yna y dywedais wrthych, Nac arswydwch, ac nac ofnwch rhagddynt hwy.

30 Yr ARGLWYDD eich DUW, yr hwn sydd yn myned o'ch blaen, efe a ymladd drosoch, yn ol *yr hyn* oll a wnaeth *efe* eroch chwi yn yr Aipht o flaen eich llygaid;

31 Ac yn yr anialwch, lle y gwelaist *fel* y'th ddug yr ARGLWYDD dy DDUW, fel y dwg gŵr ei fab, yn yr holl ffordd a gerddasoch, nes eich dyfod i'r man yma.

32 Etto yn y peth hyn ni chredasoch chwi yn yr ARGLWYDD eich DUW,

33 Yr hwn oedd yn myned o'ch blaen chwi ar hyd y ffordd, i chwilio i chwi *am* le i wersyllu; y nos mewn tân, i ddangos i chwi pa ffordd yr aech, a'r dydd mewn cwmmwl.

34 A chlybu yr ARGLWYDD lais eich geiriau; ac a ddigiodd, ac a dyngodd, gan ddywedyd,

35 Dïau na chaiff yr un o'r dynion hyn, o'r genhedlaeth ddrwg hon, weled y wlad dda yr hon y tyngais ar ei rhoddi i'ch tadau chwi;

36 Oddi eithr Caleb mab Jephunneh: efe a'i gwel hi, ac iddo ef y rhoddaf y wlad y sangodd efe arni, ac i'w feibion; o achos cyflawni o hono *wneuthur* ar ol yr ARGLWYDD.

37 Wrthyf finnau hefyd y digiodd yr ARGLWYDD o'ch plegid chwi, gan ddywedyd, Tithau hefyd ni chei fyned i mewn yno.

38 Josua mab Nun, yr hwn sydd yn sefyll ger dy fron di, efe a â i mewn yno: cadarnhâ di ef; canys efe a'i rhan hi yn etifeddiaeth i Israel.

39 Eich plant hefyd, y rhai y dywedasoch y byddent yn yspail, a'ch meibion chwi, y rhai ni wyddant heddyw na da na drwg, hwynt-hwy a ânt i mewn yno, ac iddynt hwy y rhoddaf hi, a hwy a'i perchennogant hi.

40 Trowch chwithau, ac ewch i'r anialwch ar hyd ffordd y môr coch.

41 Yna yr attebasoch, ac a ddywedasoch wrthyf, Pechasom yn erbyn yr ARGLWYDD: nyni a awn i fyny ac a ymladdwn, yn ol yr hyn oll a orchymynodd yr ARGLWYDD ein DUW i ni. A gwisgasoch bob un ei arfau rhyfel, ac a ymroisoch i fyned i fyny i'r mynydd.

42 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Dywed wrthynt, Nac ewch i fyny, ac na ryfelwch; oblegid nid ydwyf fi yn eich mysg chwi; rhag eich taro o flaen eich gelynion.

43 Felly y dywedais wrthych; ond ni wrandawsoch, eithr gwrthryfelasoch yn erbyn gair yr ARGLWYDD; rhyfygasoch hefyd, ac aethoch i fyny i'r mynydd.

44 A daeth allan yr Amoriaid, *oedd* yn trigo yn y mynydd hwnnw, i'ch cyfarfod chwi; ac a'ch ymlidiasant fel y gwnai gwenyn, ac a'ch difethasant chwi yn Seir, hyd Hormah.

45 A dychwelasoch, ac wylasoch ger bron yr ARGLWYDD: ond ni wrandawodd yr ARGLWYDD ar eich llef, ac ni roddes glust i chwi.

46 Ac arhosasoch yn Cades ddyddiau lawer, megis y dyddiau yr arhosasoch o'r *blaen.*

PENNOD 2.

1 Moses yn myned rhagdo yn yr ystori; ac yn dangos nad oedd iddynt hwy a wnaent d'r Edomiaid, 9 na'r Moabiaid, 17 na'r Ammoniaid: 24 ond gorchfygu a wnaethant Sehon yr Amoriad.

YNA y troisom, ac yr aethom i'r anialwch, *ar hyd* ffordd y môr coch, fel y dywedasai yr ARGLWYDD wrthyf, ac a amgylchasom fynydd Seir ddyddiau lawer.

2 Llefarodd yr ARGLWYDD hefyd wrthyf, gan ddywedyd,

3 Digon i chwi amgylchu y mynydd hwn *hyd yn hyn;* ymchwelwch rhagoch tu a'r gogledd.

4 A gorchymyn i'r bobl, gan ddywedyd, *Yr ydych* i dramwyo trwy derfynau eich brodyr, meibion Esau, y rhai sydd yn trigo yn Seir: a hwythau a ofnant rhagoch: ond ymgedwch yn ddyfal.

5 Nac ymyrrwch arnynt: o herwydd ni roddaf i chwi o'u tir hwynt gymmaint a lled troed; canys yn

etifeddiaeth i Esau y rhoddais fynydd Seir;

6 Prynwch fwyd ganddynt am arian, fel y bwyttaoch: a phrynwch hefyd ddwfr ganddynt am arian, fel yr yfoch.

7 Canys yr ARGLWYDD dy DDUW a'th fendithiodd di yn holl waith dy law: gwybu dy gerdded yn yr anialwch mawr hwn: y deugain mlynedd hyn *y bu* yr ARGLWYDD dy DDUW gyd â thi; ni bu arnat eisieu dim.

8 Ac wedi ein myned heibio oddi wrth ein brodyr, meibion Esau, y rhai ydynt yn trigo yn Seir, o ffordd y rhos o Elath, ac o Esion-Gaber, ni a ddychwelasom, ac a aethom ar hyd ffordd anialwch Moab.

9 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Na orthrymma Moab, ac nac ymgynnull i ryfel yn eu herbyn hwynt: oblegid ni roddaf i ti feddiant o'i dir ef; o herwydd i feibion Lot y rhoddais Ar yn etifeddiaeth.

10 (Yr Emiaid o'r blaen a gyfanneddasant ynddi; pobl fawr ac aml, ac uchel, fel yr Anaciaid;

11 Yn gewri y cymmerwyd hwynt hefyd, fel yr Anaciaid; a'r Moabiaid a'u galwent hwy yn Emiaid.

12 Yr Horiaid hefyd a breswyliasant yn Seir o'r blaen; a meibion Esau a ddaeth ar eu hol hwynt, ac a'u difethasant o'u blaen, a thrigasant yn eu lle hwynt; fel y gwnaeth Israel i wlad ei etifeddiaeth yntau, yr hon a roddes yr ARGLWYDD iddynt.)

13 *Yna y dywedais*, Cyfodwch yn awr, a thramwywch rhagoch dros afon Sared. A ni a aethom dros afon Sared.

14 A'r dyddiau y cerddasom o Cades-Barnea, hyd pan ddaethom dros afon Sared, *oedd* onid dwy flynedd deugain; nes darfod holl genhedlaeth y gwŷr o ryfel o ganol y gwersyllau, fel y tyngasai yr ARGLWYDD wrthynt.

15 Canys llaw yr ARGLWYDD ydoedd yn eu herbyn hwynt, i'w torri hwynt o ganol y gwersyll, hyd oni ddarfuant.

16 ¶ A bu, wedi darfod yr holl ryfelwyr a'u marw o blith y bobloedd,

17 Lefaru o'r ARGLWYDD wrthyf, gan ddywedyd,

18 Tydi heddyw wyt ar fyned trwy derfynau Moab, *sef trwy* Ar:

19 A *phan* ddelech di gyferbyn â meibion Ammon, na orthrymma hwynt, ac nac ymyr arnynt; oblegid ni roddaf feddiant o dir meibion Ammon i ti; canys rhoddais ef yn etifeddiaeth i feibion Lot.

20 (Yn wlad cewri hefyd y cyfriwyd hi: cewri a breswyliasant ynddi o'r blaen; a'r Ammoniaid a'u galwent hwy yn Samsummiaid:

21 Pobl fawr ac aml, ac uchel, fel yr Anaciaid, a'r ARGLWYDD a'u difethodd hwynt o'u blaen hwy; a hwy a ddaethant ar eu hol hwynt, ac a drigasant yn eu lle hwynt.

22 Fel y gwnaeth i feibion Esau, y rhai sydd yn trigo yn Seir, pan ddifethodd efe yr Horiaid o'u blaen, fel y daethant ar eu hol hwynt, ac y trigasant yn eu lle hwynt, hyd y dydd hwn;

23 Felly *am* yr Afiaid, y rhai oedd yn trigo yn Haserim, hyd Assah, y Caphtoriaid, y rhai a ddaethant allan o Caphtor, a'u difethasant hwy, ac a drigasant yn eu lle hwynt.)

24 ¶ Cyfodwch, cychwynwch, ac ewch dros afon Arnon: wele, rhoddais yn dy law di Sehon brenhin Hesbon, yr Amoriad, a'i wlad ef; dechreu ei meddiannu hi, a rhyfela yn ei erbyn ef.

25 Y dydd hwn y dechreuaf roddi dy arswyd a'th ofn di ar y bobloedd dan yr holl nefoedd: y rhai a glywant dy enw di, a ddychrynant, ac a lesgânt rhagot ti.

26 ¶ A mi a anfonais genhadau o anialwch Cedemoth, at Sehon brenhin Hesbon, *â* geiriau heddwch, gan ddywedyd,

27 Gâd i mi fyned trwy dy wlad di: ar hyd y brif-ffordd y cerddaf; ni chiliaf i'r tu dehau nac i'r tu aswy.

28 Gwerth fwyd am arian i mi, fel y bwyttâwyf; a dyro ddwfr am arian i mi, fel yr yfwyf: ar fy nhraed yn unig y tramwyaf;

29 (Fel y gwnaeth meibion Esau i mi, y rhai sydd yn trigo yn Seir, a'r Moabiaid, y rhai sydd yn trigo

yn Ar ;) hyd onid elwyf dros yr Iorddonen, i'r wlad ymae yr ARGLWYDD ein DUW yn ei rhoddi i ni.

30 Ond ni fynnai Sehon brenhin Hesbon ein gollwng heb ei law: oblegid yr ARGLWYDD dy DDUW a galedasai ei yspryd ef, ac a gadarnhasai ei galon ef, er mwyn ei roddi ef yn dy law di; megis heddyw *y gwelir.*

31 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Wele, dechreuais roddi Sehon a'i wlad o'th flaen di: dechreu feddiannu, fel yr etifeddech ei wlad ef.

32 Yna Sehon a ddaeth allan i'n cyfarfod ni, efe a'i holl bobl, i ryfel *yn* Jahas.

33 Ond yr ARGLWYDD ein DUW a'i rhoddes ef o'n blaen; ac ni a'i tarawsom ef, a'i feibion, a'i holl bobl:

34 Ac a ennillasom ei holl ddinasoedd ef yr amser hwnnw, ac a ddifrodasom bob dinas, yn wŷr, yn wragedd, yn blant; ac ni adawsom un y'ngweddill.

35 Ond ysglyfaethasom yr anifeiliaid i ni, ac yspail y dinasoedd y rhai a ennillasom.

36 O Aroer, yr hon *sydd* ar fin afon Arnon, ac *o'r* ddinas *sydd* ar yr afon, a hyd at Gilead, ni bu ddinas a'r a ddïangodd rhagom: yr ARGLWYDD ein DUW a roddes y cwbl o'n blaen ni.

37 Yn unig ni ddaethost i dir meibion Ammon, *sef* holl lan afon Jabboc, nac i ddinasoedd y mynydd, nac i'r holl *leoedd* a waharddasai yr ARGLWYDD ein DUW i ni.

PENNOD 3.

1 *Gorchfygu Og brenhin Basan:* 11 *maint ei wely ef.* 12 *Rhannu y tiroedd hynny rhwng y dau lwyth a hanner.* 23 *Gweddi Moses am gael myned i'r wlad;* 26 *a rhoddi iddo gennad i'w gweled hi.*

YNA y troisom, ac yr esgynasom *ar hyd* ffordd Basan; ac Og brenhin Basan a ddaeth allan i'n cyfarfod ni, efe a'i holl bobl, i ryfel, i Edrei.

2 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Nac ofna ef: oblegid yn dy law di y rhoddaf ef, a'i holl bobl, a'i wlad; a thi a wnei iddo fel y gwnaethost i Sehon brenhin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon.

3 Felly yr ARGLWYDD ein DUW a roddes hefyd yn ein llaw ni Og brenhin Basan, a'i holl bobl; ac ni a'i tarawsom ef, hyd na adawyd iddo un y'ngweddill:

4 Ac a ennillasom ei holl ddinasoedd ef yr amser hwnnw, *fel* nad oedd ddinas nas dygasom oddi arnynt; tri ugain dinas, holl wlad Argob, brenhiniaeth Og o fewn Basan.

5 Yr holl ddinasoedd hyn *oedd* gedyrn o furiau uchel, pyrth, a barrau, heb law dinasoedd heb furiau lawer iawn.

6 A difrodasom hwynt, fel y gwnaethom i Sehon brenhin Hesbon, gan ddifrodi o bob dinas y gwŷr, y gwragedd, a'r plant.

7 Ond yr holl anifeiliaid ac yspail y dinasoedd a ysglyfaethasom i ni ein hunain.

8 A ni a gymmerasom yr amser hwnnw o law dau frenhin yr Amoriaid y wlad o'r tu yma i'r Iorddonen, o afon Arnon hyd fynydd Hermon;

9 (Y Sidoniaid a alwant Hermon yn Sirion, a'r Amoriaid a'i galwant Senir;)

10 Holl ddinasoedd y gwastad, a holl Gilead, a holl Basan hyd Selchah ac Edrei, dinasoedd brenhiniaeth Og o fewn Basan.

11 Oblegid Og brenhin Basan yn unig a adawsid o weddill y cewri: wele, ei wely ef *oedd* wely haiarn: onid *yw* hwnnw yn Rabbath meibion Ammon? naw cufydd *oedd* ei hŷd, a phedwar cufydd ei led, wrth gufydd gŵr.

12 A'r wlad hon a berchennogasom ni yr amser hwnnw, o Aroer yr hon *sydd* wrth afon Arnon, a hanner mynydd Gilead, a'i ddinasoedd ef a roddais i'r Reubeniaid ac i'r Gadiaid.

13 A'r gweddill o Gilead, a holl Basan, *sef* brenhiniaeth Og, a roddais i hanner llwyth Manasseh; *sef* holl wlad Argob, a holl Basan, yr hon a elwid Gwlad y cewri.

14 Jair mab Manasseh a gymmerth holl wlad Argob, hyd fro Gesuri, a Maachathi; ac a'u galwodd hwynt ar ei enw ei hun, Basan Hafoth-Jair, hyd y dydd hwn.

15 Ac i Machir y rhoddais i Gilead.

16 Ac i'r Reubeniaid, ac i'r Gadiaid, y rhoddais o Gilead hyd afon Arnon, hanner yr afon a'r terfyn, ac hyd yr afon Jabboc, terfyn meibion Ammon:

17 Hefyd y rhos, a'r Iorddonen, a'r terfyn o Cinnereth, hyd fôr y rhos, *sef* y môr heli, dan Asdoth-Pisgah, tu a'r dwyrain.

18 ¶ Gorchymynais hefyd i chwi yr amser hwnnw, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD eich DUW a roddes i chwi y wlad hon i'w meddiannu: ewch drosodd yn arfog o flaen eich brodyr meibion Israel, pob rhai pybyr *o honoch.*

19 Yn unig eich gwragedd, a'ch plant, a'ch anifeiliaid, (gwn fod llawer o anifeiliaid i chwi,) a drigant yn eich dinasoedd a roddais i chwi.

20 Hyd pan wnelo yr ARGLWYDD i'ch brodyr orphwyso fel chwithau, a meddiannu o honynt hwythau y wlad y mae yr ARGLWYDD eich DUW yn ei rhoddi iddynt dros yr Iorddonen: *yna* dychwelwch bob un i'w etifeddiaeth a roddais i chwi.

21 ¶ Gorchymynais hefyd i Josua yr amser hwnnw, gan ddywedyd, Dy lygaid di a welsant yr hyn oll a wnaeth yr ARGLWYDD eich DUW i'r ddau frenhin hyn: felly y gwna yr ARGLWYDD i'r holl deyrnasoedd yr ydwyt ti yn myned drosodd attynt.

22 Nac ofnwch hwynt: oblegid yr ARGLWYDD eich DUW, efe a ymladd drosoch chwi.

23 Ac erfyniais ar yr ARGLWYDD yr amser hwnnw, gan ddywedyd,

24 O ARGLWYDD DDUW, tydi a ddechreuaist ddangos i'th was dy fawredd, a'th law gadarn; oblegid pa DDUW *sydd* yn y nefoedd, neu ar y ddaear, yr hwn a weithreda yn ol dy weithredoedd a'th nerthoedd di?

25 Gâd i mi fyned drosodd, attolwg, a gweled y wlad dda *sydd* dros yr Iorddonen, a'r mynydd da hwnnw, a Libanus.

26 Ond yr ARGLWYDD a ddigiasai wrthyf o'ch plegid chwi, ac ni wrandawodd arnaf: ond dywedyd a wnaeth yr ARGLWYDD wrthyf, Digon *yw hynny* i ti; na chwanega lefaru wrthyf mwy am y peth hyn.

27 Dos i fyny i ben Pisgah, a dyrchafa dy lygaid tu a'r gorllewin, a'r gogledd, a'r dehau, a'r dwyrain, ac edrych *arni* â'th lygaid: oblegid ni chei di fyned dros yr Iorddonen hon.

28 Gorchymyn hefyd i Josua, a nertha a chadarnhâ ef: oblegid efe a â drosodd o flaen y bobl yma, ac efe a ran iddynt yn etifeddiaeth y wlad yr hon a weli di.

29 Felly aros a wnaethom yn y dyffryn gyferbyn â Beth-peor.

PENNOD 4.

1 *Annog y bobl i ufudd-dod.* 41 *Moses yn appwynttio y tair dinas noddfa, o'r tu hwnnw i'r Iorddonen.*

BELLACH gan hynny, O Israel, gwrando ar y deddfau ac ar y barnedigaethau *yr ydwyf* yn eu dysgu i chwi i'*w* gwneuthur; fel y byddoch byw, ac yr eloch, ac y meddiannoch y wlad y mae ARGLWYDD DDUW eich tadau yn ei rhoddi i chwi.

2 Na chwanegwch at y gair yr ydwyf yn ei orchymyn i chwi, ac na leihêwch *ddim* o hono ef, gan gadw gorchymynion yr ARGLWYDD eich DUW, y rhai *yr wyf fi* yn eu gorchymyn i chwi.

3 Eich llygaid chwi oedd yn gweled yr hyn a wnaeth yr ARGLWYDD am Baal-peor; oblegid pob gŵr a'r a aeth ar ol Baal-peor, yr ARGLWYDD dy DDUW a'i difethodd ef o'th blith di.

4 Ond chwi y rhai oeddych yn glynu wrth yr ARGLWYDD eich DUW, byw *ydych* heddyw oll.

5 Wele, dysgais i chwi ddeddfau a barnedigaethau, fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD fy NUW i mi; i wneuthur *o honoch* felly, yn y wlad *yr ydych* ar fyned i mewn iddi i'w meddiannu.

6 Cedwch gan hynny, a gwnewch *hwynt:* oblegid hyn *yw* eich doethineb, a'ch deall chwi, y'ngolwg y bobloedd, y rhai a glywant yr holl ddeddfau hyn, ac a ddywedant, Yn ddiau pobl ddoeth a deallus *yw* y genedl fawr hon.

7 Oblegid pa genedl *mor* fawr, yr hon *y mae* DUW iddi yn nesâu atti, fel yr ARGLWYDD ein DUW ni, ym mhob *dim* a'r y galwom arno?

8 A pha genedl *mor* fawr, yr hon *y mae* iddi ddeddfau a barnedigaethau cyfiawn, megis yr holl gyf-

raith hon yr ydwyf fi yn ei rhoddi heddyw ger eich bron chwi?

9 Ond gochel arnat, a chadw dy enaid yn ddyfal, rhag anghofio o honot y pethau a welodd dy lygaid, a chilio o honynt allan o'th galon di holl ddyddiau dy einioes; ond hysbysa hwynt i'th feibion, ac i feibion dy feibion:

10 *Sef* y dydd y sefaist ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW yn Horeb, pan ddywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Cynnull i mi y bobl, fel y gwnelwyf iddynt glywed fy ngeiriau, y rhai a ddysgant i'm hofni i, yr holl ddyddiau y byddont fyw ar y ddaear, ac y dysgont *hwynt* i'w meibion.

11 A nesasoch, a safasoch dan y mynydd; a'r mynydd oedd yn llosgi gan dân hyd entrych awyr, yn dywyllwch, a chwmmwl, a thywyllwch dudew.

12 A'r ARGLWYDD a lefarodd wrthych o ganol y tân, *a* chwi a glywsoch lais y geiriau, ac nid oeddych yn gweled llun *dim*, ond llais.

13 Ac efe a fynegodd i chwi ei gyfammod a orchymynodd efe i chwi i'w wneuthur, *sef* y dengair; ac a'u hysgrifenodd hwynt ar ddwy lech faen.

14 ¶ A'r ARGLWYDD a orchymynodd i mi yr amser hwnnw ddysgu i chwi ddeddfau a barnedigaethau, i wneuthur o honoch hwynt yn y wlad yr ydych chwi yn myned iddi i'w meddiannu.

15 Gwyliwch gan hynny yn ddyfal ar eich eneidiau, (oblegid ni welsoch ddim llun yn y dydd y llefarodd yr ARGLWYDD wrthych yn Horeb, o ganol y tân,)

16 Rhag ymlygru o honoch, a gwneuthur i chwi ddelw gerfiedig, cyffelybrwydd un ddelw, llun gwrryw neu fenyw,

17 Llun un anifail a'r *sydd* ar y ddaear, llun un aderyn asgellog a eheda yn yr awyr,

18 Llun un ymlusgiad ar y ddaear, llun un pysgodyn a'r *y sydd* yn y dyfroedd dan y ddaear;

19 Hefyd rhag dyrchafu o honot dy lygaid tu a'r nefoedd, a gweled yr haul, a'r lleuad, a'r sêr, *sef* holl lu y nefoedd, a'th yrru di i ymgrymmu iddynt, a gwasanaethu o honot hwynt, y rhai a rannodd yr ARGLWYDD dy DDUW i'r holl bobloedd dan yr holl nefoedd.

20 Ond yr ARGLWYDD a'ch cymmerodd chwi, ac a'ch dug chwi allan o'r pair haiarn, o'r Aipht, i fod iddo ef yn bobl, yn etifeddiaeth; fel *y gwelir* y dydd hwn.

21 A'r ARGLWYDD a ddigiodd wrthyf am eich geiriau chwi, ac a dyngodd nad awn i dros yr Iorddonen, ac na chawn fyned i mewn i'r wlad dda, yr hon y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei rhoddi i ti yn etifeddiaeth.

22 Oblegid byddaf farw yn y wlad hon; ni chaf fi fyned dros yr Iorddonen: ond chwychwi a ewch drosodd, ac a feddiennwch y wlad dda honno.

23 Ymgedwch arnoch rhag anghofio cyfammod yr ARGLWYDD eich DUW, yr hwn a ammododd efe â chwi, a gwneuthur o honoch i chwi ddelw gerfiedig, llun dim oll a waharddodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti.

24 Oblegid yr ARGLWYDD dy DDUW sydd dân ysol, *a* DUW eiddigus.

25 ¶ Pan genhedlych feibion, ac wyrion, a hir-drigo o honoch yn y wlad, ac ymlygru o honoch, a gwneuthur o honoch ddelw gerfiedig, llun dim, a gwneuthur drygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD dy DDUW i'w ddigio ef;

26 Galw yr ydwyf yn dystion yn eich erbyn chwi heddyw y nefoedd a'r ddaear, gan ddarfod y derfydd am danoch yn fuan oddi ar y tir yr ydych yn myned dros yr Iorddonen iddo i'w feddiannu: nid estynwch ddyddiau ynddo, ond gan ddifetha y'ch difethir.

27 A'r ARGLWYDD a'ch gwasgara chwi ym mhlith y bobloedd, a chwi a adewir yn ddynion anaml ym mysg y cenhedloedd, y rhai y dwg yr ARGLWYDD chwi attynt:

28 Ac yno y gwasanaethwch dduwiau *o* waith dwylaw dyn, *sef* pren a maen, y rhai ni welant, ac ni chlywant, ac ni fwyttânt, ac ni aroglant.

29 Os oddi yno y ceisi yr ARGLWYDD dy DDUW, ti a'i cei ef, os

ceisi ef â'th holl galon, ac â'th holl enaid.

30 Pan gyfyngo arnat, a digwyddo yr holl bethau hyn i ti, yn y dyddiau diweddaf, os dychweli at yr ARGLWYDD dy DDUW, a gwrandaw ar ei lais ef:

31 (O herwydd yr ARGLWYDD dy DDUW *sydd* DDUW trugarog;) ni edy efe di, ac ni'th ddifetha, ac nid anghofia gyfammod dy dadau, yr hwn a dyngodd efe wrthynt.

32 Canys ymofyn yn awr am y dyddiau gynt, a fu o'th flaen di, o'r dydd y creodd DUW ddyn ar y ddaear, ac o'r *naill* gwr i'r nefoedd hyd y cwr *arall* i'r nefoedd, a fu megis y mawrbeth hwn, neu a glybuwyd ei gyffelyb ef:

33 A glybu pobl lais DUW yn llefaru o ganol y tân, fel y clywaist ti, a byw?

34 A brofodd *un* DUW ddyfod i gymmeryd iddo genedl o ganol cenedl, trwy brofedigaethau, trwy arwyddion, a thrwy ryfeddodau, a thrwy ryfel, a thrwy law gadarn, a thrwy fraich estynedig, a thrwy ofn mawr, fel yr hyn oll a wnaeth yr ARGLWYDD eich DUW eroch chwi yn yr Aipht y'ngŵydd dy lygaid?

35 Gwnaethpwyd i ti weled *hynny*, i wybod mai yr ARGLWYDD *sydd* DDUW, nad *oes* neb arall ond efe.

36 O'r nefoedd y parodd i ti glywed ei lais, i'th hyfforddi di; ac ar y ddaear y parodd i ti weled ei dân mawr, a thi a glywaist o ganol y tân ei eiriau ef.

37 Ac o achos iddo garu dy dadau, am hynny y dewisodd efe eu had hwynt ar eu hol; ac a'th ddug di o'i flaen, â'i fawr allu, allan o'r Aipht:

38 I yrru cenhedloedd mwy a chryfach na thi ymaith o'th flaen di, i'th ddwyn di i mewn, i roddi i ti eu gwlad hwynt yn etifeddiaeth, fel heddyw.

39 Gwybydd gan hynny heddyw, ac ystyria yn dy galon, mai yr ARGLWYDD *sydd* DDUW yn y nefoedd oddi arnodd, ac ar y ddaear oddi tanodd; *ac* nid neb arall.

40 Cadw dithau ei ddeddfau ef, a'i orchymynion, y rhai *yr ydwyf* yn eu gorchymyn i ti heddyw; fel y byddo yn dda i ti, ac i'th feibion ar dy ol di, fel yr estynech ddyddiau ar y ddaear, yr hon y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei rhoddi i ti byth.

41 ¶ Yna Moses a neillduodd dair dinas o'r tu yma i'r Iorddonen, tu a chodiad haul;

42 I gael o'r llofrudd ffoi yno, yr hwn a laddai ei gymmydog yn amryfus, ac efe heb ei gasâu o'r blaen; fel y gallai ffoi i un o'r dinasoedd hynny, a byw:

43 *Sef* Beser yn yr anialwch, yng ngwastattir y Reubeniaid; a Ramoth yn Gilead y Gadiaid; a Golan o fewn Basan y Manassiaid.

44 ¶ A dyma y gyfraith a osododd Moses o flaen meibion Israel;

45 Dyma y tystiolaethau, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, a lefarodd Moses wrth feibion Israel, gwedi eu dyfod allan o'r Aipht:

46 Tu yma i'r Iorddonen, yn y dyffryn ar gyfer Beth-peor, yng ngwlad Sehon brenhin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon, yr hwn a darawsai Moses a meibion Israel, wedi eu dyfod allan o'r Aipht:

47 Ac a berchennogasant ei wlad ef, a gwlad Og brenhin Basan, dau o frenhinoedd yr Amoriaid, y rhai *oedd* tu yma i'r Iorddonen, tu a chodiad haul;

48 O Aroer, yr hon *oedd* ar lan afon Arnon, hyd fynydd Sion, hwn *yw* Hermon;

49 A'r holl ros tu hwnt i'r Iorddonen tu a'r dwyrain, a hyd at fôr y rhos, dan Asdoth-Pisgah.

PENNOD 5.

1 Y cyfammod yn Horeb. 6 Y deg gorchymyn. 22 Moses, ar ddeisyfiad y bobl, yn derbyn y gyfraith gan Ddduw.

A MOSES a alwodd holl Israel, ac a ddywedodd wrthynt, Clyw, O Israel, y deddfau a'r barnedigaethau yr ydwyf yn eu llefaru lle y clywoch heddyw; fel y byddo i chwi eu dysgu, a'u cadw, a'u gwneuthur.

2 Yr ARGLWYDD ein DUW a wnaeth gyfammod â ni yn Horeb.

3 Nid â'n tadau ni y gwnaeth yr ARGLWYDD y cyfammod hwn, ond â nyni; nyni, y rhai *ydym* yn fyw bob un yma heddyw.
4 Wyneb yn wyneb yr ymddiddanodd yr ARGLWYDD â chwi yn y mynydd, o ganol y tân,
5 (Myfi oeddwn yr amser hwnnw yn sefyll rhwng yr ARGLWYDD a chwi, i fynegi i chwi air yr ARGLWYDD: canys ofni a wnaethoch rhag y tân, ac nid esgynech i'r mynydd,) gan ddywedyd,
6 ¶ Yr ARGLWYDD dy DDUW *ydwyf* fi, yr hwn a'th ddug allan o dir yr Aipht, o dŷ y caethiwed.
7 Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mron i.
8 Na wna i ti ddelw gerfiedig, *na* llun *dim* a'r *y sydd* yn y nefoedd oddi uchod, nac a'r *y sydd* yn y ddaear oddi isod, nac a'r *y sydd* yn y dyfroedd oddi tan y ddaear:
9 Nac ymgrymma iddynt, ac na wasanaetha hwynt: oblegid myfi yr ARGLWYDD dy DDUW *ydwyf* DDUW eiddigus, yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd *genhedlaeth* o'r rhai a'm casânt;
10 Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.
11 Na chymmer enw yr ARGLWYDD dy DDUW yn ofer: canys nid dïeuog gan yr ARGLWYDD yr hwn a gymmero ei enw ef yn ofer.
12 Cadw y dydd Sabbath i'w sanctteiddio ef, fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti.
13 Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith:
14 Ond y seithfed dydd *yw* Sabbath yr ARGLWYDD dy DDUW: na wna *ynddo* ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn, na'th ŷch, na'th asyn, nac yr un o'th anifeiliaid, na'th ddïeithrddyn yr hwn *fyddo* o fewn dy byrth; fel y gorphwyso dy was a'th forwyn, fel ti dy hun.
15 A chofia mai gwas a fuost ti y'ngwlad yr Aipht, a'th ddwyn o'r ARGLWYDD dy DDUW allan oddi yno â llaw gadarn, ac â braich estynedig: am hynny y gorchymynodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti gadw dydd y Sabbath.
16 ¶ Anrhydedda dy dad a'th fam, fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti; fel yr estyner dy ddyddiau, ac fel y byddo yn dda i ti ar y ddaear yr hon y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei rhoddi i ti.
17 Na ladd.
18 Ac na wna odineb.
19 Ac na ladratta.
20 Ac na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog.
21 Ac na chwennych wraig dy gymmydog, ac na chwennych dŷ dy gymmydog, na'i faes, na'i was, na'i forwyn, na'i ŷch, na'i asyn, na dim a'r *y sydd* eiddo dy gymmydog.
22 ¶ Y geiriau hyn a lefarodd yr ARGLWYDD wrth eich holl gynnulleidfa yn y mynydd, o ganol y tân, y cwmmwl, a'r tywyllwch, *â* llais uchel; ac ni chwanegodd *ddim;* ond ysgrifenodd hwynt ar ddwy lech o gerrig, ac a'u rhoddes attaf fi.
23 A darfu, wedi clywed o honoch y llais o ganol y tywyllwch, (a'r mynydd yn llosgi gan dân,) yna nesasoch attaf, *sef* holl bennaethiaid eich llwythau, a'ch henuriaid chwi;
24 Ac a ddywedasoch, Wele, yr ARGLWYDD ein DUW a ddangosodd i ni ei ogoniant, a'i fawredd; a'i lais ef a glywsom ni o ganol y tân: heddyw y gwelsom lefaru o DDUW wrth ddyn, a byw o hono.
25 Weithian gan hynny paham y byddwn feirw? oblegid y tân mawr hwn a'n difa ni: canys os nyni a chwanegwn glywed llais yr ARGLWYDD ein DUW mwyach, marw a wnawn.
26 Oblegid pa gnawd oll *sydd,* yr hwn a glybu lais y DUW byw yn llefaru o ganol y tân, fel nyni, ac a fu fyw?
27 Nesâ di, a chlyw yr hyn oll a ddywed yr ARGLWYDD ein DUW; a llefara di wrthym ni yr hyn oll a lefaro yr ARGLWYDD ein DUW wrthyt ti: a nyni a wrandâwn, ac a wnawn *hynny.*
28 A'r ARGLWYDD a glybu lais eich geiriau chwi, pan lefarasoch wrthyf; a dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Clywais lais geiriau y bobl

hyn, y rhai a lefarasant wrthyt: da y dywedasant yr hyn oll a ddywedasant.

29 O na byddai gyfryw galon ynddynt, i'm hofni i, ac i gadw fy holl orchymynion bob amser; fel y byddai da iddynt ac i'w plant yn dragywyddol!

30 Dos, dywed wrthynt, Dychwelwch i'ch pebyll.

31 Ond saf di yma gyd â myfi; a mi a ddywedaf wrthyt yr holl orchymynion, a'r deddfau, a'r barnedigaethau a ddysgi di iddynt, ac a wnant hwythau yn y wlad yr wyf fi ar ei rhoddi iddynt i'w pherchennogi.

32 Edrychwch gan hynny am wneuthur fel y gorchymynodd yr ARGLWYDD eich DUW i chwi: na chiliwch i'r tu dehau nac i'r tu aswy.

33 Cerddwch yn yr holl ffyrdd a orchymynodd yr ARGLWYDD eich DUW i chwi; fel y byddoch fyw, ac y byddo yn dda i chwi, ac yr estynoch ddyddiau yn y wlad yr hon a feddiennwch.

PENNOD 6.

1 *Diwedd y gyfraith yw ufudd-dod.* 3 *Annog i ufuddhau.*

ADYMA y gorchymynion, y deddfau, a'r barnedigaethau a orchymynodd yr ARGLWYDD eich DUW eu dysgu i chwi; *fel* y gwneloch *hwynt* yn y wlad yr ydych yn myned iddi i'w meddiannu:

2 Fel yr ofnech yr ARGLWYDD dy DDUW, gan gadw ei holl ddeddfau, a'i orchymynion ef, y rhai yr wyf fi yn eu gorchymyn i ti; ti, a'th fab, a mab dy fab, holl ddyddiau dy einioes: ac fel yr estyner dy ddyddiau.

3 ¶ Clyw gan hynny, O Israel, ac edrych am eu gwneuthur *hwynt;* fel y byddo yn ddaionus i ti, ac fel y cynnyddoch yn ddirfawr, fel yr addawodd ARGLWYDD DDUW dy dadau i ti, mewn gwlad yn llifeirio o laeth a mêl.

4 Clyw, O Israel; yr ARGLWYDD ein DUW ni *sydd* un ARGLWYDD.

5 Câr di gan hynny yr ARGLWYDD dy DDUW â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth.

6 A bydded y geiriau hyn, yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw, yn dy galon.

7 A hysbysa hwynt i'th blant; a chrybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych *i lawr,* a phan gyfodych *i fyny.*

8 A rhwym hwynt yn arwydd ar dy law; byddant yn rhagdalau rhwng dy lygaid.

9 Ysgrifena hwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth.

10 Ac fe a dderfydd, wedi i'r ARGLWYDD dy DDUW dy ddwyn di i'r wlad, (yr hon y tyngodd efe wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob, ar ei rhoddi i ti,) *i* ddinasoedd mawrion a theg y rhai nid adeiledaist,

11 A thai llawnion o bob daioni y rhai nis llenwaist, a phydewau cloddiedig y rhai nis cloddiaist, *i* winllannoedd ac olew-wyddlannau y rhai nis plennaist, wedi i ti fwytta, a'th ddigoni;

12 *Yna* cadw arnat, rhag anghofio o honot yr ARGLWYDD, yr hwn a'th ddug allan o wlad yr Aipht, o dŷ y caethiwed.

13 Yr ARGLWYDD dy DDUW a ofni, ac ef a wasanaethi, ac i'w enw ef y tyngi.

14 Na cherddwch ar ol duwiau dïeithr, o dduwiau y bobloedd *sydd* o'ch amgylch chwi:

15 (Oblegid DUW eiddigus *yw* yr ARGLWYDD dy DDUW yn dy fysg di,) rhag i lid yr ARGLWYDD dy DDUW ennyn yn dy erbyn, a'th ddifetha di oddi ar wyneb y ddaear.

16 ¶ Na themtiwch yr ARGLWYDD eich DUW, fel y temtiasoch *ef* ym Massah.

17 Gan gadw cedwch orchymynion yr ARGLWYDD eich DUW, a'i dystiolaethau, a'i ddeddfau, y rhai a orchymynodd efe i ti.

18 A gwna *yr hyn sydd* uniawn a daionus y'ngolwg yr ARGLWYDD: fel y byddo da i ti, a myned o honot i mewn, a pherchennogi y wlad dda, yr hon trwy lw a addawodd yr ARGLWYDD i'th dadau di;

19 Gan yrru ymaith dy holl elynion o'th flaen, fel y llefarodd yr ARGLWYDD.

20 Pan ofyno dy fab i ti wedi

hyn, gan ddywedyd, Beth *yw* y tystiolaethau, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, a orchymynodd yr ARGLWYDD ein DUW i chwi?

21 Yna dywed wrth dy fab, Ni a fuom gaethweision i Pharaoh yn yr Aipht; a'r ARGLWYDD a'n dug ni allan o'r Aipht â llaw gadarn.

22 Rhoddes yr ARGLWYDD hefyd arwyddion, a rhyfeddodau mawrion a niweidiol, ar yr Aipht, ar Pharaoh a'i holl dŷ, yn ein golwg ni;

23 Ac a'n dug ni allan oddi yno, fel y dygai efe nyni i mewn, i roddi i ni y wlad yr hon trwy lw a addawsai efe i'n tadau ni.

24 A'r ARGLWYDD a orchymynodd i ni wneuthur yr holl ddeddfau hyn, i ofni yr ARGLWYDD ein DUW, er daioni i ni yr holl ddyddiau; fel y cadwai efe nyni yn fyw, megis *y mae* y dydd hwn.

25 A chyfiawnder a fydd i ni, os ymgadwn i wneuthur y gorchymynion hyn oll, o flaen yr ARGLWYDD ein DUW, fel y gorchymynodd efe i ni.

PENNOD 7.

1 *Gwahardd pob cyfeillach â'r cenhedloedd,* 4 *rhag ofn delw-addoliaeth,* 6 *o ran sancteiddrwydd y bobl,* 9 *o ran naturiaeth Duw yn ei drugaredd a'i gyfiawnder,* 17 *o ran sicrad yw yr oruchafiaeth a rydd Duw arnynt.*

PAN y'th ddygo yr ARGLWYDD dy DDUW i mewn i'r wlad *yr ydwyt* ti yn myned iddi i'w meddiannu, a gyrru o hono ymaith genhedloedd lawer o'th flaen di, yr Hethiaid, a'r Girgasiaid, a'r Amoriaid, a'r Canaaneaid, a'r Pheresiaid, a'r Hefiaid, a'r Jebusiaid, saith o genhedloedd lliosoccach a chryfach na thydi;

2 A rhoddi o'r ARGLWYDD dy DDUW hwynt o'th flaen di, a tharo o honot ti hwynt; gan ddifrodi difroda hwynt; na wna gyfammod â hwynt, ac na thrugarhâ wrthynt.

3 Nac ymgyfathracha chwaith â hwynt: na ddod dy ferch i'w fab ef, ac na chymmer ei ferch ef i'th fab dithau.

4 Canys efe a dry dy fab di oddi ar fy ol i, fel y gwasanaethont dduwiau dieithr: felly yr ennyn llid yr ARGLWYDD i'ch erbyn chwi, ac a'th ddifetha di yn ebrwydd.

5 Ond fel hyn y gwnewch iddynt: Dinystriwch eu hallorau, a thorrwch eu colofnau hwynt; cwympwch hefyd eu llwynau, a llosgwch eu delwau cerfiedig hwy yn y tân.

6 Canys pobl sanctaidd *ydwyt* ti i'r ARGLWYDD dy DDUW: yr ARGLWYDD dy DDUW a'th ddewisodd di i fod yn bobl unig iddo ei hun, o'r holl bobloedd *sydd* ar wyneb y ddaear.

7 Nid am eich bod yn lliosoccach na'r holl bobloedd, yr hoffodd yr ARGLWYDD chwi, ac y'ch dewisodd; o herwydd *yr oeddych* chwi yn anamlaf o'r holl bobloedd:

8 Ond o herwydd caru o'r ARGLWYDD chwi, ac er mwyn cadw o hono ef y llw a dyngodd efe wrth eich tadau, y dug yr ARGLWYDD chwi allan â llaw gadarn, ac a'ch gwaredodd o dŷ y caethiwed, o law Pharaoh brenhin yr Aipht.

9 Gwybydd gan hynny mai yr ARGLWYDD dy DDUW *sydd* DDUW, *sef* y DUW ffyddlawn, yn cadw cyfammod a thrugaredd â'r rhai a'i carant ef, ac a gadwant ei orchymynion, hyd fil o genhedlaethau;

10 Ac yn talu y pwyth i'w gas, yn ei wyneb, gan ei ddifetha ef: nid oeda efe i'w gas; yn ei wyneb y tâl efe iddo.

11 Cadw gan hynny y gorchymynion, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw, i'w gwneuthur.

12 ¶ A bydd, o achos gwrandaw o honoch ar y barnedigaethau hyn, a'u cadw, a'u gwneuthur hwynt; y ceidw yr ARGLWYDD dy DDUW â thi y cyfammod, a'r drugaredd, a addawodd efe trwy lw i'th dadau di:

13 Ac a'th gâr, ac a'th fendithia, ac a'th amlhâ di; ac a fendiga ffrwyth dy fru, a ffrwyth dy dir di, dy ŷd, a'th win, a'th olew, *a* chynnydd *dy* wartheg, a diadellau dy ddefaid, yn y tir y tyngodd efe wrth dy dadau, ar ei roddi i ti.

14 Bendigedig fyddi uwch law yr holl bobloedd: ni bydd yn dy blith di un gwrryw nac un fenyw yn anffrwythlawn, nac ym mhlith dy anifeiliaid di.

15 Hefyd yr ARGLWYDD a dyn oddi wrthyt ti bob gwendid, ac ni esyd arnat ti yr un o glefydau drwg yr

Aipht, y rhai a adwaenost: ond ar dy holl gaseion di y rhydd efe hwynt.

16 Difetha gan hynny yr holl bobloedd y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn eu rhoddi i ti: nac arbeded dy lygad hwynt, ac na wasanaetha eu duwiau hwynt; oblegid magl i ti *a fyddai* hynny.

17 Os dywedi yn dy galon, Lliïosoccach *yw* y cenhedloedd hyn na myfi; pa ddelw y gallaf eu gyrru hwynt ymaith?

18 Nac ofna rhagddynt: gan gofio cofia yr hyn a wnaeth yr ARGLWYDD dy DDUW i Pharaoh, ac i'r holl Aipht;

19 Y profedigaethau mawrion y rhai a welodd dy lygaid, a'r arwyddion, a'r rhyfeddodau, a'r llaw gadarn, a'r braich estynedig, â'r rhai y'th ddug yr ARGLWYDD dy DDUW allan: felly y gwna yr ARGLWYDD dy DDUW i'r holl bobloedd yr wyt ti yn eu hofni.

20 A'r ARGLWYDD dy DDUW hefyd a ddenfyn gaccwn yn eu plith hwynt, hyd oni ddarfyddo am y rhai gweddill, a'r rhai a ymguddiant rhagot ti.

21 Nac ofna rhagddynt: oblegid yr ARGLWYDD dy DDUW *sydd* yn dy ganol di, yn DDUW mawr, ac ofnadwy.

22 A'r ARGLWYDD dy DDUW a ŷr ymaith y cenhedloedd hynny o'th flaen di, *bob* ychydig *ac* ychydig: ni elli eu difetha hwynt ar unwaith, rhag myned o fwystfilod y maes yn amlach na thydi.

23 Ond yr ARGLWYDD dy DDUW a'u rhydd hwynt o'th flaen di, ac a'u cystuddia hwynt â chystudd dirfawr, nes eu difetha hwynt;

24 Ac a rydd eu brenhinoedd hwynt yn dy law di, a thi a ddifethi eu henw hwynt oddi tan y nefoedd: ni saif gŵr yn dy wyneb di, nes difetha o honot ti hwynt.

25 Llosg ddelwau cerfiedig eu duwiau hwynt yn tân: na chwennych na'r arian na'r aur *a fyddo* arnynt, i'w cymmeryd i ti; rhag dy faglu âg ef: oblegid ffieidd-dra i'r ARGLWYDD dy DDUW *ydyw.*

26 Na ddwg dithau ffieidd-dra i'th dŷ, fel y byddech ysgymmunbeth megis yntau: gan ddirmygu dirmyga ef, a chan ffieiddio ffieiddia ef: oblegid ysgymmunbeth *yw* efe.

PENNOD 8.

1 *Annog i ufudd-dod, o ran ymgeledd Duw iddynt hwy.*

EDRYCHWCH am wneuthur pob gorchymyn yr wyf fi yn ei orchymyn i ti heddyw; fel y byddoch fyw, ac y cynnyddoch, ac yr eloch i mewn, ac y meddiannoch y wlad a addawodd yr ARGLWYDD wrth eich tadau trwy lw.

2 A chofia yr holl ffordd yr arweiniodd yr ARGLWYDD dy DDUW di ynddi y deugain mlynedd hyn, trwy yr anialwch, er mwyn dy gystuddio di, gan dy brofi, i wybod yr hyn *oedd* yn dy galon, a gedwit ti ei orchymynion ef, ai nas *cedwit.*

3 Ac efe a'th ddarostyngodd, ac a oddefodd i ti newynu, ac a'th fwydodd â manna, yr hwn nid adwaenit, ac nid adwaenai dy dadau; fel y gwnai efe i ti wybod nad trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob *gair* a'r sydd yn dyfod allan o enau yr ARGLWYDD y bydd byw dyn.

4 Dy ddillad ni heneiddiodd am danat, a'th droed ni chwyddodd, y deugain mlynedd hyn.

5 Cydnebydd dithau yn dy galon, *fod* yr ARGLWYDD dy DDUW yn dy ddysgu di, fel y dysg gŵr ei fab ei hun.

6 A chadw orchymynion yr ARGLWYDD dy DDUW, i rodio yn ei ffyrdd, ac i'w ofni ef.

7 Oblegid y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn dy ddwyn i mewn i wlad dda, i wlad afonydd dyfroedd, ffynhonnau, a dyfnderau yn tarddu allan yn y dyffryn, ac yn y mynydd;

8 Gwlad gwenith, a haidd, a gwinwydd, a ffigyswydd, a phomgranadwydd; gwlad olew olew-wydden, a mêl;

9 Gwlad yr hon y bwyttêi fara ynddi heb brinder, *ac* ni bydd eisieu dim arnat ynddi; gwlad yr hon *y mae* ei cherrig yn haiarn, ac o'i mynyddoedd y cloddi bres.

10 Pan fwyttêych, a'th ddigoni; yna y bendithi yr ARGLWYDD dy

Dduw am y wlad dda a roddes efe i ti.

11 Cadw arnat rhag anghofio yr Arglwydd dy Dduw, heb gadw ei orchymynion, a'i farnedigaethau, a'i ddeddfau ef, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw:

12 Rhag wedi i ti fwytta, a'th ddigoni, ac adeiladu tai teg, a thrigo *ynddynt;*

13 A llïosogi o'th wartheg a'th ddefaid di, ac amlhâu o arian ac aur gennyt, ac amlhâu o'r hyn oll *y sydd* gennyt:

14 Yna ymddyrchafu o'th galon, ac anghofio o honot yr Arglwydd dy Dduw, (yr hwn a'th ddug allan o wlad yr Aipht, o dŷ y caethiwed;

15 Yr hwn a'th dywysodd di trwy yr anialwch mawr ac ofnadwy, *lle yr ydoedd* seirph tanllyd, ac ysgorpionau, a syched lle nid *oedd* dwfr; yr hwn a ddygodd i ti ddwfr allan o'r graig gallestr;

16 Yr hwn a'th fwydodd di yn yr anialwch â manna, yr hwn nid adwaenai dy dadau, er dy ddarostwng, ac er dy brofi di, i wneuthur daioni i ti yn dy ddiwedd,)

17 *A* dywedyd o honot yn dy galon, Fy nerth fy hun, a chryfder fy llaw a barodd i mi y cyfoeth hwn.

18 Ond cofia yr Arglwydd dy Dduw: oblegid efe *yw* yr hwn *sydd* yn rhoddi nerth i ti i beri cyfoeth, fel y cadarnhao efe ei gyfammod, yr hwn a dyngodd efe wrth dy dadau, fel *y mae* y dydd hwn.

19 Ac os gan anghofio yr anghofi yr Arglwydd dy Dduw, a dilyn duwiau dïeithr, a'u gwasanaethu hwynt, ac ymgrymmu iddynt; yr ydwyf fi yn tystiolaethu yn eich erbyn chwi heddyw, gan ddifetha y'ch difethir.

20 Fel y cenhedloedd y rhai y mae yr Arglwydd ar eu difetha o'ch blaen chwi, felly y difethir chwithau; am na wrandawsoch ar lais yr Arglwydd eich Duw.

PENNOD 9.

1 *Moses yn eu hannog, nad ymddiriedent yn eu cyfiawnder eu hunain: gan ddatgan eu hamryw wrthryfel hwynt.*

GWRANDO, Israel: *Yr wyt* ti yn myned heddyw dros yr Iorddonen hon, i fyned i mewn i berchennogi cenhedloedd mwy a chryfach na thi, dinasoedd mawrion a chaerog hyd y nefoedd;

2 Pobl fawr ac uchel, meibion Anac, y rhai a adnabuost, ac y clywaist ti *ddywedyd am danynt,* Pwy a saif o flaen meibion Anac?

3 Gwybydd gan hynny heddyw, *fod* yr Arglwydd dy Dduw yn myned trosodd o'th flaen di yn dân ysol: efe a'u difetha hwynt, ac efe a'u darostwng hwynt o'th flaen di: felly y gyrri hwynt ymaith, ac y difethi hwynt yn fuan, megis y llefarodd yr Arglwydd wrthyt.

4 Na ddywed yn dy galon, wedi gyrru o'r Arglwydd dy Dduw hwynt allan o'th flaen di, gan ddywedyd, Am fy nghyfiawnder y dygodd yr Arglwydd fi i feddiannu y tir hwn: ond am annuwioldeb y cenhedloedd hyn, y gyrrodd yr Arglwydd hwynt allan o'th flaen di.

5 Nid am dy gyfiawnder di, nac am uniondeb dy galon, yr wyt ti yn myned i feddiannu eu tir hwynt: ond am annuwioldeb y cenhedloedd hyn y bwrw yr Arglwydd dy Dduw hwynt allan o'th flaen di, ac er cyflawni y gair a dyngodd yr Arglwydd wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob.

6 Gwybydd dithau, nad am dy gyfiawnder dy hun y rhoddes yr Arglwydd i ti y tir daionus hwn i'w feddiannu: canys pobl wargaled *ydych.*

7 ¶ Meddwl, *ac* na anghofia, pa fodd y digiaist yr Arglwydd dy Dduw yn yr anialwch: o'r dydd y daethost allan o dir yr Aipht, hyd eich dyfod i'r lle hwn, gwrthryfelgar fuoch yn erbyn yr Arglwydd.

8 Yn Horeb hefyd y digiasoch yr Arglwydd; a digiodd yr Arglwydd wrthych, i'ch difetha.

9 Pan euthum i fyny i'r mynydd i gymmeryd y llechau meini, *sef* llechau y cyfammod, yr hwn a wnaeth yr Arglwydd â chwi; yna yr arhoais yn y mynydd ddeugain niwrnod a deugain nos: bara ni fwytteais, a dwfr nid yfais.

10 A rhoddes yr Arglwydd attaf y ddwy lech faen, wedi eu hysgrifenu â bys Duw; ac arnynt *yr*

oedd yn ol yr holl eiriau a lefarodd yr ARGLWYDD wrthych yn y mynydd, o ganol y tân, ar ddydd y gymmanfa.

11 A bu, ym mhen y deugain niwrnod a'r deugain nos, roddi o'r ARGLWYDD attaf y ddwy lech faen; *sef* llechau y cyfammod.

12 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Cyfod, dos oddi yma i waered yn fuan: canys ymlygrodd dy bobl, y rhai a ddygaist allan o'r Aipht: ciliasant yn ebrwydd o'r ffordd a orchymynais iddynt; gwnaethant iddynt eu hun ddelw dawdd.

13 A llefarodd yr ARGLWYDD wrthyf, gan ddywedyd, Gwelais y bobl hyn; ac wele, pobl war-galed *ydynt.*

14 Paid â mi, a mi a'u distrywiaf hwynt, ac a ddileaf eu henw hwynt oddi tan y nefoedd; ac a'th wnaf di yn genedl gryfach, ac amlach na hwynt-hwy.

15 A mi a ddychwelais, ac a ddeuthum i waered o'r mynydd, a'r mynydd ydoedd yn llosgi gan dân; a dwy lech y cyfammod *oedd* yn fy nwylaw.

16 Edrychais hefyd; ac wele, pechasech yn erbyn yr ARGLWYDD eich DUW: gwnaethech i chwi lo tawdd: ciliasech yn fuan o'r ffordd a orchymynasai yr ARGLWYDD i chwi.

17 A mi a ymaflais yn y ddwy lech, ac a'u teflais hwynt o'm dwylaw, ac a'u torrais hwynt o flaen eich llygaid.

18 A syrthiais ger bron yr ARGLWYDD, fel y waith gyntaf, ddeugain niwrnod a deugain nos; ni fwytteais fara, ac nid yfais ddwfr: o herwydd eich holl bechodau chwi y rhai a bechasech, gan wneuthur drygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD i'w ddigio ef.

19 (Canys ofnais rhag y sorriant a'r dig, trwy y rhai y digiodd yr ARGLWYDD wrthych, i'ch dinystrio chwi.) Etto gwrandawodd yr ARGLWYDD arnaf y waith honno hefyd.

20 Wrth Aaron hefyd y digiodd yr ARGLWYDD yn fawr, i'w ddifetha ef: a mi a weddiais hefyd dros Aaron y waith honno.

21 Eich pechod chwi hefyd yr hwn a wnaethoch, *sef* y llo, a gymmerais, ac a'i llosgais yn tân; curais ef hefyd, gan *ei* falurio yn dda, nes ei falu yn llwch: a bwriais ei lwch ef i'r afon oedd yn disgyn o'r mynydd.

22 O fewn Taberah hefyd, ac o fewn Massah, ac o fewn Beddau y blys, yr oeddych yn digio yr ARGLWYDD.

23 A phan anfonodd yr ARGLWYDD chwi o Cades-Barnea, gan ddywedyd, Ewch i fyny, a meddiennwch y tir yr hwn a roddais i chwi, yr anufuddhasoch i air yr ARGLWYDD eich DUW: ni chredasoch hefyd iddo, ac ni wrandawsoch ar ei lais ef:

24 Gwrthryfelgar fuoch yn erbyn yr ARGLWYDD er y dydd yr adnabûm chwi.

25 A mi a syrthiais ger bron yr ARGLWYDD ddeugain niwrnod a deugain nos, fel y syrthiaswn *o'r blaen;* am ddywedyd o'r ARGLWYDD y difethai chwi.

26 Gweddïais hefyd ar yr ARGLWYDD, a dywedais, ARGLWYDD DDUW, na ddifetha dy bobl, a'th etifeddiaeth a waredaist yn dy fawredd, yr hwn a ddygaist allan o'r Aipht â llaw gref.

27 Cofia dy weision, Abraham, Isaac, a Jacob; nac edrych ar galedrwydd y bobl hyn, nac ar eu drygioni, nac ar eu pechod:

28 Rhag dywedyd o'r wlad y dygaist ni allan o honi, O eisieu gallu o'r ARGLWYDD eu dwyn hwynt i'r tir a addawsai efe iddynt, ac o'i gas arnynt, y dug efe hwynt allan, i'w lladd yn yr anialwch.

29 Etto dy bobl di a'th etifeddiaeth *ydynt* hwy, y rhai a ddygaist allan yn dy fawr nerth, ac â'th estynedig fraich.

PENNOD 10.

1 *Trugaredd Duw, yn ail-roddi y ddwy lech:* 6 *yn sicrhau yr offeiriadaeth;* 8 *ym neilldduo llwyth Lefi:* 10 *yn gwrandaw ar weddi Moses dros y bobl.* 12 *Annog i ufudd-dod.*

YR amser hwnnw y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Nadd i ti ddwy lech faen, fel *y rhai* cyntaf; a thyred i fyny attaf fi i'r mynydd, a gwna i ti arch bren.

2 A mi a ysgrifenaf ar y llechau y geiriau oedd ar y llechau cyntaf,

y rhai a dorraist; a gosod dithau hwynt yn yr arch.

3 Yna gwneuthum arch o goed Sittim; ac a neddais ddwy lech faen, fel y rhai cyntaf; ac a euthum i fyny i'r mynydd, a'r ddwy lech yn fy llaw.

4 Ac efe a ysgrifenodd ar y llechau, fel yr ysgrifen gyntaf, y deng-air, a lefarodd yr ARGLWYDD wrthych yn y mynydd, o ganol y tân, yn nydd y gymmanfa: a rhoddes yr ARGLWYDD hwynt attaf fi.

5 Yna y dychwelais, ac y deuthum i waered o'r mynydd, ac a osodais y llechau yn yr arch, yr hon a wnaethwn, ac yno y maent; megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD i mi.

6 ¶ A meibion Israel a aethant o Beeroth meibion Jacan i Moserah: yno y bu farw Aaron, ac efe a gladdwyd yno; ac Eleasar ei fab a offeiriadodd yn ei le ef.

7 Oddi yno yr aethant i Gudgodah; ac o Gudgodah i Jotbath, tir afonydd dyfroedd.

8 ¶ Yr amser hwnnw y neillduodd yr ARGLWYDD lwyth Lefi, i ddwyn arch cyfammod yr ARGLWYDD, i sefyll ger bron yr ARGLWYDD, i'w wasanaethu ef, ac i fendigo yn ei enw ef, hyd y dydd hwn.

9 Am hynny ni bydd rhan i Lefi, nac etifeddiaeth gyd â'i frodyr: yr ARGLWYDD *yw* ei etifeddiaeth ef; megis y dywedodd yr ARGLWYDD dy DDUW wrtho ef.

10 A mi a arhoais yn y mynydd ddeugain niwrnod a deugain nos, fel y dyddiau cyntaf: a gwrandawodd yr ARGLWYDD arnaf y waith hon hefyd; ni ewyllysiodd yr ARGLWYDD dy ddifetha di.

11 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Cyfod, dos *i'th* daith o flaen y bobl; fel yr elont i mewn ac y meddiannont y tîr, yr hwn a dyngais wrth eu tadau ar ei roddi iddynt.

12 ¶ Ac yr awr hon, Israel, beth y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei ofyn gennyt, ond ofni yr ARGLWYDD dy DDUW, a rhodio yn ei holl ffyrdd, a'i garu ef, a gwasanaethu yr ARGLWYDD dy DDUW â'th holl galon, ac â'th holl enaid,

13 Cadw gorchymynion yr ARGLWYDD, a'i ddeddfau, y rhai yr wyf yn eu gorchymyn i ti y dydd hwn, er daioni i ti?

14 Wele, y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, *ydynt* eiddo yr ARGLWYDD dy DDUW, y ddaear *hefyd* a'r hyn oll *sydd* ynddi.

15 Yn unig ar dy dadau di y rhoddes yr ARGLWYDD ei serch, gan eu hoffi hwynt; ac efe a wnaeth ddewis o'u had ar eu hol hwynt, *sef* o honoch chwi, o flaen yr holl bobloedd, megis heddyw *y gwelir*.

16 Enwaedwch chwithau ddïenwaediad eich calon, ac na chaledwch eich gwar mwyach.

17 Canys yr ARGLWYDD eich DUW chwi *yw* DUW y duwiau, ac Arglwydd yr arglwyddi, DUW mawr, cadarn, ac ofnadwy, yr hwn ni dderbyn wyneb, ac ni chymmer wobr.

18 Yr hwn a farna yr amddifad a'r weddw; ac y sydd yn hoffi y dïeithr, gan roddi iddo fwyd a dillad.

19 Hoffwch chwithau y dïeithr: canys dïeithriaid fuoch yn nhir yr Aipht.

20 Yr ARGLWYDD dy DDUW a ofni, ac ef a wasanaethi: wrtho ef hefyd y glyni, ac i'w enw ef y tyngi.

21 Efe *yw* dy fawl, ac efe *yw* dy DDUW, yr hwn a wnaeth i ti y mawrion a'r ofnadwy *bethau* hyn, y rhai a welodd dy lygaid.

22 Dy dadau a aethant i waered i'r Aipht yn ddeg enaid a thri ugain; ac yr awr hon yr ARGLWYDD dy DDUW a'th wnaeth di fel sêr y nefoedd o lïosowgrwydd.

PENNOD 11.

1 Moses yn annog y bobl i ufudd-dod: 2 trwy eu gwybodaeth eu hunain o fawr weithredoedd Duw; 8 trwy addewid o fawr fendithion Duw, 16 a thrwy fygythion. 18 Bod yn rhaid mysfyrio yn ofalus ar eiriau Duw. 26 Rhoddi y fendith a'r felldith o'u blaen hwynt.

GAR dithau yr ARGLWYDD dy DDUW, a chadw ei gadwraeth ef, a'i ddeddfau, a'i farnedigaethau, a'i orchymynion, byth.

2 A chydnabyddwch heddyw: canys nid *wyf yn ymddiddan* â'ch plant, y rhai nid adnabuant, ac ni welsant gerydd yr ARGLWYDD eich DUW chwi, ei fawredd, ei law gref, a'i fraich estynedig;

3 Ei arwyddion hefyd, a'i weithredoedd, y rhai a wnaeth efe yng

nghanol yr Aipht, i Pharaoh brenhin yr Aipht, ac i'w holl dir;
4 A'r hyn a wnaeth efe i lu yr Aipht, i'w feirch ef, ac i'w gerbydau; y modd y gwnaeth efe i ddyfroedd y môr coch lenwi dros eu hwynebau hwynt, pan oeddynt yn ymlid ar eich ol, ac y difethodd yr ARGLWYDD hwynt hyd y dydd hwn:
5 A'r hyn a wnaeth efe i chwi yn yr anialwch, nes eich dyfod i'r lle hwn;
6 A'r hyn a wnaeth efe i Dathan, ac i Abiram, meibion Elïab, mab Reuben; y modd yr agorodd y ddaear ei safn, ac a'u llyngcodd hwynt, a'u teuluoedd, a'u pebyll, a'r holl olud oedd ganddynt, ym mysg holl Israel.
7 Eithr eich llygaid chwi oedd yn gweled holl fawrion weithredoedd yr ARGLWYDD, y rhai a wnaeth efe.
8 Cedwch chwithau bob gorchymyn yr ydwyf fi yn ei orchymyn i chwi heddyw; fel y byddoch gryfion, ac yr eloch i mewn, ac y meddiannoch y tir yr ydych yn myned trosodd iddo i'w feddiannu:
9 Ac fel yr estynoch ddyddiau yn y tir yr hwn a dyngodd yr ARGLWYDD i'ch tadau, ar ei roddi iddynt, ac i'w had; *sef* tir yn llifeirio o laeth a mêl.
10 ¶ O herwydd y tir yr wyt yn myned iddo i'w feddiannu, nid fel tir yr Aipht *y mae*, yr hwn y daethoch allan o hono, lle yr heuaist dy had, ac y dyfrheaist â'th droed, fel gardd lysiau:
11 Ond y tir yr ydych yn myned trosodd iddo i'w feddiannu, *sydd* fynydd-dir, a dyffryndir, yn yfed dwfr o wlaw y nefoedd;
12 Tir *yw*, yr hwn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei ymgeleddu: llygaid yr ARGLWYDD dy DDUW *sydd* bob amser arno, o ddechreuad y flwyddyn hyd ddiwedd y flwyddyn hefyd.
13 ¶ A bydd, os gan wrandaw y gwrandêwch ar fy ngorchymynion, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i chwi heddyw, i garu yr ARGLWYDD eich DUW, ac i'w wasanaethu, â'ch holl galon, ac â'ch holl enaid;
14 Yna y rhoddaf wlaw i'ch tir yn ei amser, *sef* y cynnar-wlaw, a'r diweddar-wlaw; fel y casglech dy ŷd, a'th win, a'th olew;
15 A rhoddaf laswellt yn dy faes, i'th anifeiliaid; fel y bwyttâech, ac y'th ddigoner.
16 Gwyliwch arnoch rhag twyllo eich calon, a chilio o honoch, a gwasanaethu duwiau dïeithr, ac ymgrymmu iddynt;
17 Ac ennynu digllonedd yr ARGLWYDD i'ch erbyn, a chau o hono ef y nefoedd, fel na byddo gwlaw, ac na roddo y ddaear ei chnwd, a'ch difetha yn fuan o'r tir yr hwn y mae yr ARGLWYDD yn ei roddi i chwi.
18 ¶ Am hynny gosodwch fy ngeiriau hyn yn eich calon, ac yn eich meddwl, a rhwymwch hwynt yn arwydd ar eich dwylaw, a byddant yn rhagdalau rhwng eich llygaid:
19 A dysgwch hwynt i'ch plant; gan grybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan rodiech ar y ffordd, pan orweddych *hefyd*, a phan godych.
20 Ac ysgrifena hwynt ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth;
21 Fel yr amlhao eich dyddiau chwi, a dyddiau eich plant chwi, ar y ddaear yr hon a dyngodd yr ARGLWYDD wrth eich tadau am ei rhoddi iddynt, fel dyddiau y nefoedd ar y ddaear.
22 ¶ Canys os gan gadw y cedwch yr holl orchymynion hyn, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi i'w gwneuthur, i garu yr ARGLWYDD eich DUW, i rodio yn ei holl ffyrdd ef, ac i lynu wrtho ef;
23 Yna y gyr yr ARGLWYDD allan yr holl genhedloedd hyn o'ch blaen chwi, a chwi a feddiennwch genhedloedd mwy a chryfach na chwi.
24 Pob man y sathro gwadn eich troed chwi arno, fydd eiddo chwi: o'r anialwch, a Libanus, *ac* o'r afon, *sef* afon Euphrates, hyd y môr eithaf, y bydd eich terfyn chwi.
25 Ni saif gŵr yn eich wyneb: eich arswyd a'ch ofn a rydd yr ARGLWYDD eich DUW ar wyneb yr holl dir yr hwn y sathroch arno, megis y llefarodd wrthych.
26 ¶ Wele, rhoddi yr ydwyf fi o'ch blaen chwi heddyw fendith a melldith:

27 Bendith, os gwrandêwch ar orchymynion yr ARGLWYDD eich DUW, y rhai yr ydwyf fi yn *eu* gorchymyn i chwi heddyw;
28 A melldith, oni wrandêwch ar orchymynion yr ARGLWYDD eich DUW, ond cilio o honoch allan o'r ffordd yr ydwyf fi yn ei gorchymyn i chwi heddyw, i fyned ar ol duwiau dïeithr, y rhai nid adnabuoch.
29 Bydded gan hynny, pan ddygo yr ARGLWYDD dy DDUW di i'r tir yr ydwyt yn myned iddo i'w feddiannu, roddi o honot y fendith ar fynydd Garisim, a'r felldith ar fynydd Ebal.
30 Onid *yw* y rhai hyn o'r tu hwnt i'r Iorddonen, tu a'r lle y machluda yr haul, yn nhir y Canaaneaid, yr hwn sydd yn trigo yn y rhos ar gyfer Gilgal, ger llaw gwastadedd Moreh?
31 Canys myned yr ydych dros yr Iorddonen, i fyned i feddiannu y tir y mae yr ARGLWYDD eich DUW yn ei roddi i chwi; a chwi a'i meddiennwch ac a breswyliwch ynddo.
32 Gwyliwch chwithau am wneuthur yr holl ddeddfau a'r barnedigaethau, y rhai yr ydwyf fi yn eu rhoddi o'ch blaen chwi heddyw.

PENNOD 12.

1 *Bod yn rhaid dinystrio pob lle y buasai delwaddoliaeth ynddo, 5 a chyrchu i'r lle a ddewisodd Duw i'w wasanaeth.* 16, 23 *Gwaharddd gwaed.* 17, 20, 26 *Rhaid yno bwytta pethau sanctaidd yn y lle sanctaidd.* 19 *Na wrthoder y Lefiad.* 29 *Nac ymoroler am gau-ddduwiau.*

DYMA y deddfau a'r barnedigaethau, y rhai a wyliwch ar *eu* gwneuthur, yn y tir a rydd ARGLWYDD DDUW dy dadau i ti i'w feddiannu, yr holl ddyddiau y byddoch fyw ar y ddaear.
2 Gan ddinystrio dinystriwch yr holl fannau, y rhai y gwasanaethodd y cenhedloedd yr ydych chwi yn eu meddiannu eu duwiau ynddynt, ar y mynyddoedd uchel, ac ar y bryniau, a than bob pren gwyrddlas.
3 Drylliwch hefyd eu hallorau hwynt, a thorrwch eu colofnau hwynt, a llosgwch eu llwynau hwynt â thân, a thorrwch gerfiedig ddelwau eu duwiau hwynt, a dinystriwch eu henwau hwynt o'r lle hwnnw.
4 Na wnewch felly i'r ARGLWYDD eich DUW.
5 Ond y lle a ddewiso yr ARGLWYDD eich DUW o'ch holl lwythau chwi, i osod ei enw yno, ei drigfa ef a geisiwch, ac yno y deuwch:
6 A dygwch yno eich poeth-offrymmau, a'ch aberthau, a'ch degymmau, ac offrwm dyrchafael eich llaw, eich addunedau hefyd, a'ch offrymmau gwirfodd, a chyntaf-anedig eich gwartheg a'ch defaid.
7 A bwyttêwch yno ger bron yr ARGLWYDD eich DUW, a llawenhêwch ym mhob dim y rhoddoch eich llaw arno, chwychwi a'ch teuluoedd, yn yr hyn y'th fendithiodd yr ARGLWYDD dy DDUW.
8 Na wnewch yn ol *yr hyn* oll yr ydym ni yn ei wneuthur yma heddyw, pob un yr hyn *fyddo* uniawn yn ei olwg ei hun.
9 Canys ni ddaethoch hyd yn hyn i'r orphwysfa, ac i'r etifeddiaeth, yr hon y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei rhoddi i ti.
10 Ond pan eloch dros yr Iorddonen, a thrigo yn y tir yr hwn y mae yr ARGLWYDD eich DUW yn ei roddi yn etifeddiaeth i chwi, a *phan* roddo lonydd i chwi oddi wrth eich holl elynion o amgylch, fel y preswylioch yn ddiogel:
11 Yna y bydd lle wedi i'r ARGLWYDD eich DUW ei ddewis iddo, i beri i'w enw aros ynddo; yno y dygwch yr hyn oll yr ydwyf fi yn ei orchymyn i chwi; *sef* eich poeth-offrymmau, a'ch aberthau, eich degymmau, a dyrchafael-offrwm eich llaw, a'ch holl ddewis addunedau, y rhai a addunedoch i'r ARGLWYDD.
12 A llawenhêwch ger bron yr ARGLWYDD eich DUW; chwi, a'ch meibion, a'ch merched, a'ch gweision, a'ch morwynion, a'r Lefiad *a fyddo* yn eich pyrth chwi: canys nid *oes* iddo ran nac etifeddiaeth gyd â chwi.
13 Gwylia arnat rhag poeth-offrymmu o honot dy boeth-offrymmau ym mhob lle a'r a welych:
14 Ond yn y lle a ddewiso yr ARGLWYDD o fewn un *o'th* lwythau di, yno yr offrymmi dy boeth-offrym-

mau, ac y gwnei yr hyn oll yr ydwyf fi yn ei orchymyn i ti.

15 Er hynny ti a gei ladd a bwytta cig yn ol holl ddymuniant dy galon, yn ol bendith yr ARGLWYDD dy DDUW, yr hon a rydd efe i ti, yn dy holl byrth: yr aflan a'r glân a fwytty o hono, megis o'r iwrch a'r carw.

16 Ond na fwyttêwch y gwaed; ar y ddaear y tywelltwch ef fel dwfr.

17 ¶ Ni elli fwytta o fewn dy byrth ddegfed dy ŷd, na'th win, na'th olew, na chyntaf-anedig dy wartheg, na'th ddefaid, na'th holl addunedau y rhai a addunech, na'th offrymmau gwirfodd, na dyrchafael-offrwm dy law:

18 Ond o flaen yr ARGLWYDD dy DDUW y bwyttêi hwynt, yn y lle a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW; ti, a'th fab, a'th ferch, a'th was, a'th forwyn, a'r Lefiad *a fyddo* yn dy byrth di: llawenycha ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW yn yr hyn oll yr estynech dy law arno.

19 Gwylia arnat rhag gadael y Lefiad, tra fyddech byw ar y ddaear.

20 ¶ Pan helaetho yr ARGLWYDD dy DDUW dy derfyn di, megis y dywedodd wrthyt, os dywedi, Bwyttâf gig, (pan ddymuno dy galon fwytta cig,) yn ol holl ddymuniad dy galon y bwyttêi gig.

21 Os y lle a ddewisodd yr ARGLWYDD dy DDUW i roddi ei enw ynddo, fydd pell oddi wrthyt; yna lladd o'th wartheg, ac o'th ddefaid, y rhai a roddodd yr ARGLWYDD i ti, megis y gorchymynais i ti, a bwytta o fewn dy byrth wrth holl ddymuniad dy galon.

22 Etto fel y bwyttêir yr iwrch a'r carw, felly y bwyttêi ef: yr aflan a'r glân a'i bwytty yn yr un ffunud.

23 Yn unig bydd sicr na fwyttâech y gwaed: canys y gwaed *yw* yr einioes; ac ni chei fwytta yr einioes ynghyd â'r cig.

24 Na fwytta ef; ar y ddaear y tywellti ef fel dwfr.

25 Na fwytta ef; fel y byddo daioni i ti, ac i'th feibion ar dy ol, pan wnelych yr uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD.

26 Etto cymmer dy gyssegredig *bethau* y rhai sydd gennyt, a'th addunedau, a thyred i'r lle a ddewiso yr ARGLWYDD.

27 Ac offrymma dy boeth-offrwm, (y cig a'r gwaed,) ar allor yr ARGLWYDD dy DDUW: a gwaed dy aberthau a dywelltir wrth allor yr ARGLWYDD dy DDUW; a'r cig a fwyttêi di.

28 Cadw a gwrando yr holl eiriau hyn yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti; fel y byddo daioni i ti, ac i'th feibion ar dy ol byth, pan wnelych *yr hyn sydd* dda ac uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD dy DDUW.

29 ¶ Pan ddinystrio yr ARGLWYDD dy DDUW y cenhedloedd, y rhai yr wyt ti yn myned attynt i'w meddiannu, o'th flaen di, a dyfod o honot yn eu lle hwynt, a phreswylio yn eu tir hwynt:

30 Gwylia arnat rhag ymfaglu o honot ar eu hol hwynt, wedi eu dinystrio hwynt o'th flaen di; a rhag ymorol am eu duwiau hwynt, gan ddywedyd, Pa fodd y gwasanaethodd y cenhedloedd hyn eu duwiau? myfi a wnaf felly hefyd.

31 Na wna di felly i'r ARGLWYDD dy DDUW: canys pob ffieidd-dra yr hwn oedd gas gan yr ARGLWYDD, a wnaethant hwy i'w duwiau: canys eu meibion hefyd a'u merched a losgasant yn tân i'w duwiau.

32 Pob gair yr wyf fi yn ei orchymyn i chwi, edrychwch am wneuthur hynny: na chwanega atto, ac na thyn oddi wrtho.

PENNOD 13.

1 *Y rhai a hudo i ddelw-addoliaeth, 6 er nesed a fônt i ti, 9 rhaid yw eu llabyddio. 12 Nad arbeder y dinasoedd lle y bo gau-dduwiaeth.*

PAN godo yn dy fysg di brophwyd, neu freuddwydydd breuddwyd, (a rhoddi i ti arwydd neu ryfeddod,

2 A dyfod i ben o'r arwydd neu y rhyfeddod a lefarodd efe wrthyt,) gan ddywedyd, Awn ar ol duwiau dïeithr, (y rhai nid adwaenost,) a gwasanaethwn hwynt;

3 Na wrando ar eiriau y prophwyd hwnnw, neu ar y breuddwydydd breuddwyd hwnnw: canys yr ARGLWYDD eich DUW sydd yn eich profi chwi, i wybod a ydych yn

caru yr ARGLWYDD eich DUW â'ch holl galon, ac â'ch holl enaid.
4 Ar ol yr ARGLWYDD eich DUW yr ewch, ac ef a ofnwch, a'i orchymynion ef a gedwch, ac ar ei lais ef y gwrandêwch, ac ef a wasanaethwch, ac wrtho ef y glynwch.
5 A'r prophwyd hwnnw, neu y breuddwydydd breuddwyd hwnnw, a roddir i farwolaeth; canys llefarodd i'ch troi *chwi* oddi wrth yr ARGLWYDD eich DUW, yr hwn a'ch dug chwi allan o dir yr Aipht, ac a'ch gwaredodd chwi o dŷ y caethiwed, i'th wthio di allan o'r ffordd, yr hon y gorchymynodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti rodio ynddi. Felly y tynni ymaith y drwg o'th fysg.
6 ¶ Os dy frawd, mab dy fam, neu dy fab dy hun, neu dy ferch, neu wraig dy fynwes, neu dy gyfaill, yr hwn *sydd* fel dy enaid dy hun, a'th annog yn ddirgel, gan ddywedyd, Awn a gwasanaethwn dduwiau dïeithr, y rhai nid adnabuost ti, na'th dadau;
7 *Sef rhai* o dduwiau y bobl *sydd* o'ch amgylch chwi, yn agos attat, *neu* ym mhell oddi wrthyt, o *un* cwr i'r tir hyd gwr *arall* y tir:
8 Na chydsynia âg ef, ac na wrando arno, ac nac arbeded dy lygad ef, ac nac eiriach *ef*, ac na chela arno:
9 Ond gan ladd lladd ef; bydded dy law di arno ef yn gyntaf, i'w roddi i farwolaeth, a llaw yr holl bobl wedi hynny.
10 A llabyddia ef â meini, fel y byddo marw: canys ceisiodd dy wthio di oddi wrth yr ARGLWYDD dy DDUW, yr hwn a'th ddug di allan o dir yr Aipht, o dŷ y caethiwed.
11 A holl Israel a glywant, ac a ofnant, ac ni chwanegant wneuthur y fath beth drygionus a hyn yn dy blith.
12 ¶ Pan glywech am un o'th ddinasoedd, y rhai y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn eu rhoddi i ti i drigo ynddynt, gan ddywedyd,
13 Aeth dynion, meibion y fall, allan o'th blith, a gyrrasant drigolion eu dinas, gan ddywedyd, Awn, gwasanaethwn dduwiau dïeithr, y rhai nid adnabuoch;
14 Yna ymofyn, a chwilia, a chais yn dda: ac wele, *os* gwirionedd *yw*, *a* bod yn sicr wneuthur y ffieidd-dra hyn yn dy fysg;
15 Gan daro taro drigolion y ddinas honno â min y cleddyf; difroda hi, a'r rhai oll *a fyddant* ynddi, a'i hanifeiliaid hefyd, â min y cleddyf.
16 A'i holl yspail hi a gesgli i ganol ei heol hi, ac a losgi y ddinas a'i holl yspail hi yn gwbl, i'r ARGLWYDD dy DDUW, â thân: felly bydded yn garnedd byth; nac adeilader hi mwy.
17 Ac na lyned wrth dy law di ddim o'r diofryd-beth: fel y dychwelo yr ARGLWYDD oddi wrth angerdd ei ddig, ac y rhoddo i ti drugaredd, ac y tosturio wrthyt, ac y'th amlhao, megis y tyngodd wrth dy dadau:
18 Pan wrandawech ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW, gan gadw ei holl orchymynion ef, y rhai yr wyf fi yn *eu* gorchymyn i ti heddyw, gan wneuthur *yr hyn sydd* uniawn yng ngolwg yr ARGLWYDD dy DDUW.

PENNOD 14.

1 *Na ddylai plant Duw mo'u hanfurfio eu hunain wrth alaru.* 3 *Pa beth a eliir, a pha bèth nis gellir et fwytta,* 4 *o anifeiliaid,* 9 *o bysgod,* 11 *o adar.* 21 *Ni eliir bwytta yr hyn a fo farw et hun.* 22 *Degymmau gwasanaeth Duw.* 23 *Y degymmau a'r cyntaf-anedig i ymlawenychu ger bron yr Arglwydd.* 28 *Degwm y drydedd flwyddyn yn elusen.*

PLANT *ydych* chwi i'r ARGLWYDD eich DUW: na thorrwch mo honoch eich hunain, ac na wnewch foelni rhwng eich llygaid, dros y marw.
2 Canys pobl sanctaidd *wyt* ti i'r ARGLWYDD dy DDUW, a'r ARGLWYDD a'th ddewisodd di i fod yn bobl unig iddo ef, o'r holl bobloedd *sydd* ar wyneb y ddaear.
3 ¶ Na fwytta ddim ffiaidd.
4 Dyma yr anifeiliaid a fwyttêwch: eidion, llwdn dafad, a llwdn gafr,
5 Y carw, a'r iwrch, a'r llwdn hydd, a'r bwch gwyllt, a'r unicorn, a'r ŷch gwyllt, a'r afr wyllt.
6 A phob anifail yn hollti yr ewin, ac yn fforchogi hollt y ddwy ewin, *ac* yn cnoi cil, ym mysg yr anifeiliaid; hwnnw a fwyttêwch.
7 Ond hyn ni fwyttêwch, o'r rhai a gnoant y cil, neu a holltant yr ewin yn fforchog: y camel, a'r

ysgyfarnog, a'r gwningen: er bod y rhai hyn yn cnoi eu cil, am nad ydynt yn fforchogi yr ewin, aflan *ydynt* i chwi.

8 Yr hwch hefyd, er ei bod yn fforchogi yr ewin, ac heb *gnoi* cil, aflan *yw* i chwi: na fwyttêwch o'u cig hwynt, ac na chyffyrddwch â'u burgyn hwynt.

9 ¶ Hyn a fwyttêwch o'r hyn oll *sydd* yn y dyfroedd: yr hyn oll *sydd* iddo esgyll a chen a fwyttêwch.

10 A'r hyn oll nid *oes* iddo esgyll a chen, ni fwyttêwch: aflan *yw* i chwi.

11 ¶ Pob aderyn glân a fwyttêwch.

12 A dyma y rhai ni fwyttêwch o honynt: yr eryr, a'r wyddwalch, a'r fôr-wennol,

13 A'r bod, a'r barcud, a'r fwltur yn ei rhyw,

14 A phob cigfran yn ei rhyw,

15 A chyw yr estrys, a'r fran nos, a'r gog, a'r hebog yn ei ryw,

16 Aderyn y cyrph, a'r dylluan, a'r gogfran,

17 A'r pelican, a'r bïogen, a'r fulfran,

18 A'r ciconia, a'r crŷr yn ei ryw, a'r gornchwigl, a'r ystlum.

19 A phob ymlusgiad asgellog *sydd* aflan i chwi: na fwyttâer hwynt.

20 Pob ehediad glân a fwyttêwch.

21 ¶ Na fwyttêwch ddim a fo marw ei hun: dod ef i'r dïeithr *fyddo* yn dy byrth, a bwyttâed ef; neu gwerth *ef* i'r dïeithr: canys pobl sanctaidd *ydwyt* i'r ARGLWYDD dy DDUW. Na ferwa fyn yn llaeth ei fam.

22 Gan ddegymmu degymma holl gynnyrch dy had, *sef* ffrwyth dy faes, bob blwyddyn.

23 A bwytta ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, yn y lle a ddewiso efe i drigo o'i enw ef ynddo, ddegwm dy ŷd, dy win, a'th olew, a chyntaf-anedig dy wartheg, a'th ddefaid; fel y dysgech ofni yr ARGLWYDD dy DDUW bob amser.

24 A phan fyddo y ffordd ry hir i ti, fel na ellych ei ddwyn ef, *neu* os y lle fydd ym mhell oddi wrthyt, yr hwn a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW i osod ei enw ynddo, pan y'th fendithio yr ARGLWYDD dy DDUW:

25 Yna dod *ei werth* yn arian; a rhwym yr arian yn dy law, a dos i'r lle a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW:

26 A dod yr arian am yr hyn oll a chwennycho dy galon; am wartheg, neu am ddefaid, neu am win, neu am ddïod gref, neu am yr hyn oll a ddymuno dy galon: a bwytta yno ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, a llawenycha di, a'th deulu.

27 A'r Lefiad yr hwn *fyddo* yn dy byrth, na wrthod ef: am nad *oes* iddo *na* rhan nac etifeddiaeth gyd â thi.

28 ¶ Ym mhen tair blynedd y dygi allan holl ddegwm dy gnwd y flwyddyn honno: a dyro *ef* i gadw o fewn dy byrth.

29 A'r Lefiad, (am nad oes iddo ran nac etifeddiaeth gyd â thi,) a'r dïeithr, a'r amddifad, a'r weddw, y rhai *fydd* yn dy byrth di, a ddeuant, ac a fwyttânt, ac a ddigonir; fel y'th fendithio yr ARGLWYDD dy DDUW ym mhob gwaith a wnelych â'th law.

PENNOD 15.

1 *Y seithfed flwyddyn yn flwyddyn gollyngdod i'r tlodion:* 7 *etto nas dylai rwystro benthyccio neu roddi.* 12 *Gwas o Hebread,* 16 *oddi eithr iddo fod yn anfoddlawn i ymadael, sydd raid ei ollwng ymaith yn rhydd y seithfed flwyddyn; ond nid yn waglaw.* 19 *Rhaid yno cyssegru pob gwrryno cyntaf-anedig o'r anifeiliaid i'r Arglwydd.*

YM mhen *pob* saith mlynedd gwna ollyngdod.

2 A dyma wedd y gollyngdod. Gollynged pob echwynwr i'w gymmydog yn rhydd ei echwyn a echwynodd efe: na fynned *hynny* drachefn gan ei gymmydog, neu ei frawd; canys cyhoeddwyd gollyngdod yr ARGLWYDD.

3 Ti a elli fynnu drachefn gan y dïeithr; ond gollynged dy law yn rhydd *yr hyn* sydd i ti gyd â'th frawd:

4 Megis na byddo o honot ti gardottyn: canys yr ARGLWYDD gan fendithio a'th fendithia di, yn y tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth i'w feddiannu;

5 Yn unig os gan wrandaw y gwrandewi ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW, gan gadw *a* gwneuthur

yr holl orchymynion yma, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw.

6 Canys yr ARGLWYDD dy DDUW a'th fendithia, megis y llefarodd wrthyt, fel y benthycciech i genhedloedd lawer, ac na fenthycciech di *ganddynt;* ti hefyd a arglwyddiaethi ar genhedloedd lawer, ac nid arglwyddiaethant hwy arnat ti.

7 ¶ Os bydd yn dy fysg di un o'th frodyr yn dlawd o fewn un o'th byrth, yn dy dir yr hwn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti, na chaleda dy galon, ac na chau dy law oddi wrth dy frawd tlawd:

8 Ond gan agoryd agor dy law iddo, a chan fenthyccio benthyccia ddigon i'w angen ef, *yr hyn* fyddo arno ei eisieu.

9 Gwylia arnat, rhag bod yn dy galon ddrwg feddwl i ddywedyd, Agos yw y seithfed flwyddyn, blwyddyn y gollyngdod; a bod dy lygad yn ddrwg yn erbyn dy frawd tlawd, rhag rhoddi iddo, a llefain o hono ef ar yr ARGLWYDD rhagot, a'i fod yn bechod i ti.

10 Gan roddi dod iddo, ac na fydded drwg gan dy galon pan roddych iddo: canys o achos y peth hyn y'th fendithia yr ARGLWYDD dy DDUW yn dy holl waith, ac yn yr hyn oll y dodych dy law arno.

11 Canys ni dderfydd y tlawd o ganol y tir: am hynny yr ydwyf fi yn gorchymyn i ti, gan ddywedyd, Gan agoryd agor dy law i'th frawd, i'th anghenus ac i'th dlawd, yn dy dir.

12 ¶ Os gwerthir dy frawd, Hebread, neu Hebrëes, i ti, a'th wasanaethu chwe blynedd; y seithfed flwyddyn gollwng ef yn rhydd oddi wrthyt.

13 A phan ollyngech ef yn rhydd oddi wrthyt, na ollwng ef yn wag:

14 Gan lwytho llwytha ef o'th braidd, ac o'th ysgubor, ac o'th win-wryf: *o'r hyn* y'th fendithiodd yr ARGLWYDD dy DDUW, dod iddo.

15 A chofia mai gwas fuost yn nhir yr Aipht, a'th waredu o'r ARGLWYDD dy DDUW: am hynny yr ydwyf yn gorchymyn y peth hyn *i* ti heddyw.

16 Ond os dywed wrthyt, Nid âf allan oddi wrthyt; am ei fod yn dy hoffi di a'th dŷ; o herwydd bod yn dda arno ef gyd â thi:

17 Yna cymmer fynawyd, a dod trwy ei glust ef, ac yn y ddôr; a bydded *yn* was i ti byth: felly hefyd y gwnei i'th forwyn.

18 Na fydded caled gennyt ei ollwng ef yn rhydd oddi wrthyt, canys gwasanaethodd di werth dau gyflog gweinidog, chwe blynedd: a'r ARGLWYDD dy DDUW a'th fendithia yn yr hyn oll a wnelych.

19 ¶ Pob cyntaf-anedig yr hwn a enir o'th wartheg, neu o'th ddefaid, yn wrryw, a gyssegri di i'r ARGLWYDD dy DDUW: na weithia â chyntaf-anedig dy ychain, ac na chneifia gyntaf-anedig dy ddefaid.

20 Ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW y bwyttêi ef bob blwyddyn, yn y lle a ddewiso yr ARGLWYDD, ti a'th deulu.

21 Ond os bydd anaf arno, *os* cloff neu ddall fydd, *neu arno* ryw ddrwg anaf *arall;* na abertha ef i'r ARGLWYDD dy DDUW.

22 O fewn dy byrth y bwyttêi ef: yr aflan a'r glân ynghyd *a'i bwytty,* megis yr iwrch, ac megis y carw.

23 Etto na fwytta ei waed ef; tywallt hwnnw ar y ddaear fel dwfr.

PENNOD 16.

1 *Gwyl y Pasc,* 9 *yr wythnosau,* 13 *y pebyll.* 16 *Rhaid i bob gwrryw offrwm, yn ol ei allu, ar y tair gwyl hyn.* 18 *Am farnwyr a barn gyfiawn.* 21 *Gwahardd llwymau a delwau.*

GADW y mis Abib, a chadw Basc i'r ARGLWYDD dy DDUW; canys o fewn y mis Abib y dug yr ARGLWYDD dy DDUW di allan o'r Aipht, o hyd nos.

2 Abertha dithau yn Basc i'r ARGLWYDD dy DDUW, o ddefaid a gwartheg, yn y lle a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW i drigo o'i enw ef yno.

3 Na fwytta fara lefeinllyd gyd âg ef: saith niwrnod y bwyttêi gyd âg ef fara croyw, *sef* bara cystudd: (canys ar ffrwst y daethost allan o dir yr Aipht:) fel y cofiech ddydd dy ddyfodiad allan o dir yr Aipht holl ddyddiau dy einioes.

4 Ac na weler gennyt surdoes yn dy holl derfynau saith niwrnod; ac

nac arhôed dros nos hyd y bore *ddim* o'r cig a aberthaist yn yr hwyr, ar y dydd cyntaf.

5 Ni elli aberthu y Pasc o fewn yr un o'th byrth, y rhai y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn eu rhoddi i ti:

6 Ond yn y lle a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW i drigo o'i enw ef ynddo; yno yr aberthi y Pasc yn yr hwyr, ar fachludiad haul, y pryd y daethost allan o'r Aipht.

7 Yna y rhosti, ac y bwyttêi ef, yn y lle a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW: a'r bore y dychweli, ac yr âi i'th babellau.

8 Chwe diwrnod y bwyttêi fara croyw: ac ar y seithfed dydd *y mae* uchel-wyl i'r ARGLWYDD dy DDUW; ni chei wneuthur gwaith *ynddo.*

9 ¶ Cyfrif i ti saith wythnos: pan ddechreuo y crymman ar yr ŷd, y dechreui rifo y saith wythnos.

10 A chadw wyl yr wythnosau i'r ARGLWYDD dy DDUW, âg offrwm gwirfodd dy law, yr hwn a roddi, megis y'th fendithio yr ARGLWYDD dy DDUW.

11 A llawenycha ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, ti, a'th fab, a'th ferch, a'th was, a'th forwyn, a'r Lefiad *a fyddo* o fewn dy byrth, a'r dïeithr, a'r amddifad, a'r weddw, *sydd* yn dy fysg, yn y lle a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW i drigo o'i enw ef ynddo.

12 Cofia hefyd mai caethwas fuost yn yr Aipht: a chadw a gwna y deddfau hyn.

13 ¶ Cadw i ti wyl y pebyll saith niwrnod, wedi i ti gasglu dy ŷd a'th win.

14 A llawenycha yn dy wyl, ti, a'th fab, a'th ferch, a'th was, a'th forwyn, a'r Lefiad, a'r dïeithr, a'r amddifad, a'r weddw, y rhai *fyddant* o fewn dy byrth.

15 Saith niwrnod y cedwi wyl i'r ARGLWYDD dy DDUW, yn y lle a ddewiso yr ARGLWYDD: canys yr ARGLWYDD dy DDUW a'th fendithia yn dy holl gnwd, ac yn holl waith dy ddwylaw; am hynny bydd dithau lawen.

16 ¶ Tair gwaith yn y flwyddyn yr ymddengys pob gwrryw o honot o flaen yr ARGLWYDD dy DDUW, yn y lle a ddewiso efe; ar wyl y bara croyw, ac ar wyl yr wythnosau, ac ar wyl y pebyll: ond nac ymddangosed neb o flaen yr ARGLWYDD yn waglaw.

17 Pob un yn ol rhodd ei law, yn ol bendith yr ARGLWYDD dy DDUW yr hon a roddes efe i ti.

18 ¶ Gwna i ti farnwyr a blaenorion yn dy holl byrth, y rhai y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn eu rhoddi i ti trwy dy lwythau; a barnant hwy y bobl *â* barn gyfiawn.

19 Na ŵyra farn, *ac* na chydnebydd wynebau; na dderbyn wobr chwaith: canys gwobr a ddalla lygaid y doethion, ac a ŵyra eiriau y cyfiawn.

20 Cyfiawnder, cyfiawnder a ddilyni; fel y byddych fyw, ac yr etifeddych y tir yr hwn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti.

21 ¶ Na phlanna i ti lwyn *o* neb rhyw goed ger llaw allor yr ARGLWYDD dy DDUW, yr hon a wnei i ti.

22 Ac na chyfod i ti golofn; yr hyn sydd gas gan yr ARGLWYDD dy DDUW.

PENNOD 17.

1 *Rhaid yw bod y pethau a offrymmir yn ddianaf.* 2 *Rhaid yw lladd delw-addolwyr.* 8 *Ymrafaelion caled a fernir gan yr offeiriaid a'r barnwyr.* 12 *Yr hwn a ddiystyro y cyfryw farn, a roddir i farwolaeth.* 14 *Dewisiad.* 16 *a dyledswydd brenhin.*

NAC abertha i'r ARGLWYDD dy DDUW ŷch neu ddafad y byddo arno anaf, *neu* ddim gwrthuni: canys casbeth yr ARGLWYDD dy DDUW *yw* hynny.

2 ¶ Pan gaffer yn dy blith di, o fewn un o'th byrth y rhai y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn eu rhoddi i ti, ŵr neu wraig a wnaeth ddrygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD dy DDUW, gan droseddu ei gyfammod ef,

3 Ac a aeth ac a wasanaethodd dduwiau dïeithr, ac a ymgrymmodd iddynt, i'r haul, neu i'r lleuad, neu i holl lu y nefoedd, yr hyn ni orchymynais;

4 Pan ddangoser i ti, a chlywed o honot, yna cais yn dda: ac wele, os gwirionedd *yw, a* bod yn sicr wneuthur y ffieidd-dra hyn yn Israel;

5 Yna dwg allan y gŵr hwnnw, neu y wraig honno, a wnaethant y

peth drygionus hyn, i'th byrth, *sef* y gŵr neu y wraig, a llabyddia hwynt â meini, fel y byddont feirw.
6 Wrth dystiolaeth dau o dystion, neu dri o dystion, y rhoddir i farwolaeth yr hwn a fyddo marw: na rodder ef i farwolaeth wrth dystiolaeth un tyst.
7 Llaw y tystion a fydd arno yn gyntaf i'w farwolaethu ef, a llaw yr holl bobl wedi hynny: a thi a dynni ymaith y drwg o'th blith.
8 ¶ Os bydd peth mewn barn yn rhy galed i ti, rhwng gwaed a gwaed, rhwng hawl a hawl, neu rhwng pla a phla, *mewn* pethau ymrafaelus o fewn dy byrth; yna cyfod, a dos i fyny i'r lle a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW:
9 A dos at yr offeiriaid y Lefiaid, ac at y barnwr a fyddo yn y dyddiau hynny, ac ymofyn; a hwy a ddangosant i ti reol y farnedigaeth.
10 A gwna yn ol rheol y gair a ddangosant i ti, o'r lle hwnnw a ddewiso yr ARGLWYDD; ac edrych am wneuthur yn ol yr hyn oll a ddysgant i ti.
11 Yn ol rheol y gyfraith a ddysgont i ti, ac yn ol y farn a ddywedont i ti, y gwnei: na chilia oddi wrth y peth a ddangosont i ti, i'r tu dehau nac i'r tu aswy.
12 A'r gŵr a wnel mewn rhyfyg, heb wrandaw ar yr offeiriad sydd yn sefyll yno i wasanaethu yr ARGLWYDD dy DDUW, neu ar y barnwr; yna rhodder i farwolaeth y gŵr hwnnw: a thyn ymaith y drwg o Israel.
13 A'r holl bobl a glywant, ac a ofnant; ac ni ryfygant mwy.
14 ¶ Pan ddelych i'r tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti, a'i feddiannu, a thrigo ynddo, os dywedi, Gosodaf arnaf frenhin, megis yr holl genhedloedd *sydd* o'm hamgylch:
15 Gan osod gosod arnat yn frenhin yr hwn a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW: o blith dy frodyr y gosodi arnat frenhin; ni elli roddi arnat ŵr dieithr yr hwn nid *yw* frawd i ti.
16 Ond nac amlhâed iddo feirch, ac na ddychweled efe y bobl i'r Aipht i amlhâu meirch; gan i'r ARGLWYDD ddywedyd wrthych, Na chwanegweh ddychwelyd y ffordd honno mwy.
17 Ac nac amlhâed iddo wragedd, fel na ŵyro ei galon; ac nac amlhâed arian ac aur lawer iddo.
18 A phan eisteddo ar deyrn-gadair ei frenhiniaeth, ysgrifened iddo gopi o'r gyfraith hon mewn llyfr, allan o'r *hwn sydd* ger bron yr offeiriaid y Lefiaid.
19 A bydded gyd âg ef, a darllened arno holl ddyddiau ei fywyd: fel y dysgo ofni yr ARGLWYDD ei DDUW, i gadw holl eiriau y gyfraith hon, a'r deddfau hyn, i'w gwneuthur hwynt:
20 Fel na ddyrchafo ei galon uwch law ei frodyr, ac na chilio oddi wrth y gorchymyn, i'r tu dehau nac i'r tu aswy: fel yr estyno ddyddiau yn ei frenhiniaeth, efe a'i feibion yng nghanol Israel.

PENNOD 18.

1 *Yr Arglwydd yw etifeddiaeth yr offeiriaid a'r Lefiaid.* 3 *Defod yr offeiriaid.* 8 *Rhan y Lefiaid.* 9 *Rhaid yw gochelyd ffeidd-dra y cenhedloedd.* 15 *Rhaid yw gwrandaw ar Grist y Prophwyd.* 20 *Rhoddi y prophwyd rhyfygus i farwolaeth.*

NI bydd i'r offeiriaid, i'r Lefiaid, i holl lwyth Lefi, ran nac etifeddiaeth ynghyd âg Israel: ebyrth tanllyd yr ARGLWYDD, a'i etifeddiaeth ef, a fwyttânt hwy.
2 Am hynny etifeddiaeth ni bydd iddynt ym mhlith eu brodyr: yr ARGLWYDD *yw* eu hetifeddiaeth hwy, megis ag y dywedodd wrthynt.
3 ¶ A hyn fydd defod yr offeiriaid oddi wrth y bobl, oddi wrth y rhai a aberthant aberth, *pa un bynnag* ai eidion ai dafad; rhoddant i'r offeiriad yr ysgwyddog, a'r ddwy ên, a'r botten.
4 Blaenffrwyth dy ŷd, dy win, a'th olew, a blaenffrwyth cnaif dy ddefaid, a roddi iddo ef.
5 Canys dewisodd yr ARGLWYDD dy DDUW ef o'th holl lwythau di, i sefyll i wasanaethu yn enw yr ARGLWYDD, efe a'i feibion yn dragywydd.
6 ¶ A phan ddelo Lefiad o un o'th byrth di yn holl Israel, lle y byddo efe yn ymdaith, a dyfod â holl ddymuniad ei galon i'r lle a ddewiso yr ARGLWYDD;
7 Yna gwasanaethed efe yn enw yr

ARGLWYDD ei DDUW, megis ei holl frodyr y Lefiaid, y rhai sydd yn sefyll yno ger bron yr ARGLWYDD.

8 Rhan am ran a fwyttânt, heb law gwerth yr hyn sydd yn dyfod oddi wrth *ei* dadau.

9 ¶ Pan elych di i'r tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti, na ddysg wneuthur yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd hynny.

10 Na chaffer ynot a wnelo i'w fab, neu i'w ferch, fyned trwy y tân; *neu* a arfero ddewiniaeth, *na* phlanedydd, na daroganwr, na hudol,

11 Na swynwr swynion, nac a geisio *wybodaeth gan* gonsuriwr, neu frudiwr, nac a ymofyno â'r meirw:

12 O herwydd ffieidd-dra *gan* yr ARGLWYDD *yw* pawb a wnelo hyn; ac o achos y ffieidd-dra hyn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn eu gyrru hwynt allan o'th flaen di.

13 Bydd berffaith gyd â'r ARGLWYDD dy DDUW.

14 Canys y cenhedloedd hyn, y rhai a feddienni di, a wrandawsant ar blanedyddion, ac ar ddewiniaid: ond am danat ti, nid felly y caniattaodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti.

15 ¶ Yr ARGLWYDD dy DDUW a gyfyd i ti, o'th blith dy hun, o'th frodyr dy hun, Brophwyd megis finnau; arno ef y gwrandêwch;

16 Yn ol yr hyn oll a geisiaist gan yr ARGLWYDD dy DDUW yn Horeb, yn nydd y gymmanfa, gan ddywedyd, Na chlywwyf mwyach lais yr ARGLWYDD fy NUW, ac na welwyf y tân mawr hwn mwyach, rhag fy marw.

17 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Da *y dywedasant yr* hyn a ddywedasant.

18 Codaf Brophwyd iddynt o fysg eu brodyr, fel tithau, a rhoddaf fy ngeiriau yn ei enau ef; ac efe a lefara wrthynt yr hyn oll a orchymynwyf iddo.

19 A phwy bynnag ni wrandawo ar fy ngeiriau, y rhai a lefara efe yn fy enw, myfi a'*i* gofynaf ganddo.

20 Y prophwyd hefyd, yr hwn a ryfyga lefaru yn fy enw air ni orchymynais iddo ei lefaru, neu yr hwn a lefaro yn enw duwiau dïeithr; rhodder y prophwyd hwnnw i farwolaeth.

21 Ac os dywedi yn dy galon, Pa fodd yr adnabyddwn y gair ni lefarodd yr ARGLWYDD?

22 Yr hyn a lefaro y prophwyd hwnnw yn enw yr ARGLWYDD, a'r gair heb fod, ac heb ddyfod i ben, hwnnw yw y gair ni lefarodd yr ARGLWYDD; y prophwyd a'i llefarodd mewn rhyfyg: nac ofna ef.

PENNOD 19.

1 Dinasoedd noddfa; 4 a braint llofrudd ymddynt. 14 Na symmuder terfyn tir. 15 Rhaid yw bod dau o dystion o'r lleiaf. 19 Cosyedigaeth gau dyst.

PAN dorro yr ARGLWYDD dy DDUW ymaith y cenhedloedd y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn rhoddi eu tir i ti, a'i feddiannu o honot ti, a phreswylio yn eu dinasoedd ac yn eu tai;

2 Neilldua i ti dair dinas yng nghanol dy dir, yr hwn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti i'w feddiannu.

3 Parottoa ffordd i ti, a thraiana derfyn dy dir, yr hwn a rydd yr ARGLWYDD dy DDUW yn etifeddiaeth i ti, fel y byddo i bob llofrudd ffoi yno.

4 ¶ Dyma gyfraith y llofrudd, yr hwn a ffy yno, i fyw: yr hwn a darawo ei gymmydog heb wybod, ac yntau heb ei gasâu ef o'r blaen;

5 Megis pan elo *un* gyd â'i gymmydog i'r coed i gymmynu pren, ac a estyn ei law â'r fwyell i dorri y pren, a syrthio yr haiarn o'r menybr, a chyrhaeddyd ei gymmydog, fel y byddo farw; efe a gaiff ffoi i un o'r dinasoedd hyn, a byw:

6 Rhag i ddïalydd y gwaed ddilyn ar ol y llofrudd, a'i galon yn llidiog, a'i oddiweddyd, am fod y ffordd yn hir, a'i daro ef yn farw, er nad *oedd* ynddo ef haeddedigaeth marwolaeth, am nad oedd efe yn ei gasâu ef o'r blaen.

7 Am hynny yr ydwyf yn gorchymyn i ti, gan ddywedyd, Tair dinas a neilldui i ti.

8 A phan helaetho yr ARGLWYDD dy DDUW dy derfyn, fel y tyngodd wrth dy dadau, a rhoddi i ti yr holl dir a addawodd efe ei roddi wrth dy dadau;

9 Os cedwi y gorchymynion hyn oll, gan wneuthur yr hyn yr ydwyf

fi yn ei orchymyn i ti heddyw, i garu yr ARGLWYDD dy DDUW, a rhodio yn ei ffyrdd ef bob amser; yna y chwanegi i ti dair dinas hefyd at y tair hyn:

10 Fel na ollynger gwaed gwirion o fewn dy dir, yr hwn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth; ac na byddo gwaed i'th erbyn.

11 ¶ Ond os bydd gŵr yn casâu ei gymmydog, ac yn cynllwyn iddo, a chodi yn ei erbyn, a'i ddïeneidio fel y byddo farw, a ffoi i un o'r dinasoedd hyn;

12 Yna anfoned henuriaid ei ddinas ef, a chymmerant ef oddi yno, a rhoddant ef yn llaw dïalydd y gwaed, fel y byddo farw.

13 Nac arbeded dy lygad ef, ond tyn ymaith *affaith* gwaed gwirion o Israel, fel y byddo daioni i ti.

14 ¶ Na symmud derfyn dy gymmydog, yr hwn a derfyniodd y rhai a fu o'r blaen, o fewn dy etifeddiaeth yr hon a feddienni, yn y tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti i'w feddiannu.

15 ¶ Na choded un tyst yn erbyn neb am ddim anwiredd, neu ddim pechod, o'r holl bechodau a becho efe: wrth dystiolaeth dau o dystion, neu wrth dystiolaeth tri o dystion, y bydd safadwy y peth.

16 ¶ Os cyfyd gau dyst yn erbyn neb, gan dystiolaethu bai yn ei erbyn ef;

17 Yna safed y ddau ddyn *y mae* yr ymrafael rhyngddynt ger bron yr ARGLWYDD, o flaen yr offeiriaid a'r barnwyr a fyddo yn y dyddiau hynny.

18 Ac ymofyned y barnwyr yn dda: ac *os* y tyst *fydd* dyst ffals, *ac* a dystiolaetha ar gam yn erbyn ei frawd;

19 Yna gwnewch iddo fel yr amcanodd wneuthur i'w frawd: a thyn ymaith y drwg o'th fysg.

20 A'r lleill a glywant, ac a ofnant, ac ni chwanegant wneuthur mwy yn ol y peth drygionus hyn yn dy blith.

21 Ac nac arbeded dy lygad: *bydded* einioes am einioes, llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed.

PENNOD 20.

1 *Araith yr offeiriaid i annog y bobl i ryfel.* 5 *Cyhoeddiad y swyddogion pwy sydd i'w gollwng adref o'r rhyfel.* 10 *Pa beth a wneir i'r dinasoedd a dderbyniant neu a wrthodant ammodau heddwch.* 16 *Pa ddinasoedd sydd raid eu haddunedu.* 19 *Ni wasanaetha dinystrio prennau ymborth dyn, wrth warchae ar ddinas.*

PAN elych i ryfel yn erbyn dy elynion, a gweled meirch a cherbydau, *a* phobl fwy na thi, nac ofna rhagddynt: o herwydd yr ARGLWYDD dy DDUW *fydd* gyd â thi, yr hwn a'th ddug di i fyny o dir yr Aipht.

2 A bydd, pan nesaoch i'r frwydr, yna ddyfod o'r offeiriad, a llefaru wrth y bobl,

3 A dywedyd wrthynt, Clyw, Israel; Yr ydych chwi yn nesâu heddyw i'r frwydr yn erbyn eich gelynion; na feddalhâed eich calon, nac ofnwch, na synnwch, ac na ddychrynwch rhagddynt.

4 Canys yr ARGLWYDD eich DUW *sydd* yn myned gyd â chwi, i ryfela â'ch gelynion trosoch chwi, *ac* i'ch achub chwi.

5 ¶ A'r llywiawdwyr a lefarant wrth y bobl, gan ddywedyd, Pa ŵr *sydd* a adeiladodd dŷ newydd, ac nis cyssegrodd ef? eled a dychweled i'w dŷ, rhag ei farw yn y frwydr, ac i ŵr arall ei gyssegru ef.

6 A pha ŵr *sydd* a blannodd winllan, ac nis mwynhaodd hi? eled a dychweled i'w dŷ, rhag ei farw yn y frwydr, ac i ŵr arall ei mwynhâu hi.

7 A pha ŵr sydd a ymgredodd â gwraig, ac ni chymmerodd hi? eled a dychweled i'w dŷ, rhag ei farw mewn rhyfel, ac i ŵr arall ei chymmeryd hi.

8 Y llywiawdwyr *hefyd* a chwanegant lefaru wrth y bobl, ac a ddywedant, Pa ŵr *sydd* ofnus a meddal galon? eled a dychweled i'w dŷ, fel na lwfrhao efe galon ei frawd megis ei galon yntau.

9 A bydded, pan ddarffo i'r llywiawdwyr lefaru wrth y bobl, osod o honynt dywysogion y lluoedd yn ben ar y bobl.

10 ¶ Pan nesâech at ddinas i ryfela yn ei herbyn, cyhoedda iddi heddwch.

11 A bydded, os heddwch a ettyb

hi i ti, ac agoryd i ti; yna bydded i'r holl bobl a gaffer ynddi, fod i ti dan deyrnged, a'th wasanaethu.

12 Ac oni heddycha hi â thi, ond gwneuthur rhyfel â thi; yna gwarchae arni hi.

13 Pan roddo yr ARGLWYDD dy DDUW hi yn dy law di, taro ei holl wrrywiaid â min y cleddyf.

14 Yn unig y benywaid, a'r plant, a'r anifeiliaid, a phob dim a'r a fyddo yn y ddinas, *sef* ei holl yspail, a yspeili i ti: a thi a fwynhêi yspail dy elynion, yr hwn a rydd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti.

15 Felly y gwnei i'r holl ddinasoedd pell iawn oddi wrthyt, y rhai nid *ydynt* o ddinasoedd y cenhedloedd hyn.

16 Ond o ddinasoedd y bobloedd hyn, y rhai y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn eu rhoddi i ti yn etifeddiaeth, na chadw un enaid yn fyw:

17 Ond gan ddifrodi difroda hwynt; *sef* yr Hethiaid, a'r Amoriaid, y Canaaneaid, a'r Pheresiaid, yr Hefiaid, a'r Jebusiaid; megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti:

18 Fel na ddysgont i chwi wneuthur yn ol eu holl ffieidd-dra hwynt, y rhai a wnaethant i'w duwiau, a phechu o honoch yn erbyn yr ARGLWYDD eich DUW.

19 ¶ Pan warchâech ar ddinas lawer o ddyddiau, gan ryfela yn ei herbyn i'w hennill hi, na ddifetha ei choed hi, gan daro bwyell arnynt: canys o honynt y bwyttêi; na thor dithau hwynt i lawr, (o herwydd *bywyd* dyn *yw* pren y maes,) i'*w* gosod yn y gwarch-glawdd.

20 Yn unig y pren y gwyddost nad pren ymborth *yw*, hwnnw a ddifethi ac a dorri: ac a adeiledi warchglawdd yn erbyn y ddinas fydd yn gwneuthur rhyfel â thi, hyd oni orchfyger hi.

PENNOD 21.

1 *Y modd i ymddiheuro oddi wrth lofruddiaeth, heb wybod pwy a'i gwnaeth.* 10 *Y modd y mae trin caethferch a briodo un.* 16 *Na ddylid dwtifeddu y cynlaf-aneddig o ran cas.* 18 *Rhaid yn llabyddio mab anufuddh.* 22 *Na adawer drwg-weithredwr y'nghrog dros nos.*

OS ceir *un* wedi ei ladd o fewn y tir yr hwn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti i'w etifeddu, yn gorwedd yn y maes, heb wybod pwy a'i lladdodd;

2 Yna aed dy henuriaid a'th farnwyr allan, a mesurant hyd y dinasoedd *sydd* o amgylch i'r lladdedig.

3 A bydded i'r ddinas nesaf at y lladdedig, *sef* henuriaid y ddinas honno, gymmeryd anner *o'r* gwartheg, yr hon ni weithiwyd â hi, *ac* ni thynnodd dan iau.

4 A dyged henuriaid y ddinas honno yr anner i ddyffryn garw, yr hwn ni lafuriwyd, ac ni hauwyd ynddo; ac yno torfynyglant yr anner yn y dyffryn.

5 A nesâed yr offeiriaid, meibion Lefi, (o herwydd yr ARGLWYDD dy DDUW a'u hetholodd hwynt i weini iddo ef, ac i fendigo yn enw yr ARGLWYDD,) ac wrth eu barn hwynt y terfynir pob ymryson a phob pla.

6 A holl henuriaid y ddinas honno, y rhai *a fyddo* nesaf at y lladdedig, a olchant eu dwylaw uwch ben yr anner a dorfynyglwyd yn y dyffryn.

7 A hwy a attebant ac a ddywedant, Ni thywalltodd ein dwylaw ni y gwaed hwn, ac nis gwelodd ein llygaid.

8 Trugarhâ wrth dy bobl Israel, y rhai a waredaist, O ARGLWYDD, ac na ddyro waed gwirion yn erbyn dy bobl Israel. A maddeuir y gwaed iddynt hwy.

9 Felly y tynni ymaith *affaith* y gwaed gwirion o'th fysg, os ti a wnei yr uniawnder y'ngolwg yr ARGLWYDD.

10 ¶ Pan elych i ryfel yn erbyn dy elynion, a rhoddi o'r ARGLWYDD dy DDUW hwynt yn dy law di, a chaethgludo o honot gaethglud o honynt;

11 A gweled o honot yn y gaethglud wraig brydweddol, a'i bod wrth dy fodd, i'w chymmeryd i ti yn wraig:

12 Yna dwg hi i fewn dy dŷ, ac eillied hi ei phen, a thorred ei hewinedd;

13 A diosged ddillad ei chaethiwed oddi am dani, a thriged yn dy dŷ di, ac wyled *am* ei thad a'i mam fis o ddyddiau: ac wedi hynny yr âi di atti, ac y byddi ŵr iddi, a hithau fydd wraig i ti.

14 Ac oni bydd hi wrth dy fodd; yna gollwng hi yn ol ei hewyllys ei hun, a chan werthu na werth hi

er arian; na chais elw o honi, am i ti ei darostwng hi.

15 ¶ Pan fyddo i ŵr ddwy wraig, un yn gu, ac un yn gas; a phlanta o'r gu a'r gas feibion iddo ef, a bod y mab cyntaf-anedig o'r *un* gas:

16 Yna bydded, yn y dydd y rhanno efe ei etifeddiaeth rhwng ei feibion y rhai fyddant iddo, na ddichon efe wneuthur yn gyntaf-anedig fab y gu o flaen mab y gas, *yr hwn sydd* gyntaf-anedig;

17 Ond mab y gas yr hwn sydd gyntaf-anedig a gydnebydd efe, gan roddi iddo ef y ddeuparth o'r hyn oll a gaffer yn eiddo ef: o achos hwn *yw* dechreuad ei nerth ef; iddo *y bydd* braint y cyntaf-anedig.

18 ¶ *Ond* o bydd i ŵr fab cyndyn ac anufudd, heb wrandaw ar lais ei dad, neu ar lais ei fam; a phan geryddant ef, ni wrendy arnynt:

19 Yna ei dad a'i fam a ymaflant ynddo, ac a'i dygant at henuriaid ei ddinas, ac i borth ei drigfan;

20 A dywedant wrth henuriaid ei ddinas ef, Ein mab hwn *sydd* gyndyn ac anufudd, heb wrandaw ar ein llais; glwth a meddwyn *yw efe.*

21 Yna holl ddynion ei ddinas a'i llabyddiant ef â meini, fel y byddo farw: felly y tynni ymaith y drwg o'th fysg; a holl Israel a glywant, ac a ofnant.

22 ¶ Ac o bydd mewn gŵr bechod yn haeddu *barnedigaeth* angau, a'i farwolaethu, a chrogi o honot ef wrth bren;

23 Na thriged ei gelain dros nos wrth y prên, *ond* gan gladdu ti a'i cleddi ef o fewn *y* dydd hwnnw: o herwydd melldith Duw *sydd i'r hwn* a grogir: ac na haloga dy dir *y mae* yr Arglwydd dy Duw yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth.

PENNOD 22.

1 *Am garedigrwydd brawdol.* 5 *Bod adnabod y gwrryw a'r fenyw wrth eu dillad.* 6 *Na ddalier mam yr adar gyd â'i chywion.* 8 *Rhaid yw bod i dŷ ganllawiau.* 9 *Gochelyd cymmysgedd.* 12 *Rhaid yw bod rhidens wrth ddillad.* 13 *Cospedigaeth yr hwn a roddo anair i'w wraig.* 20, 22 *Am dor-priodas,* 25 *trais,* 28 *godineb,* 30 *a llosgach.*

NI chei weled eidion dy frawd neu ei ddafad yn cyfeiliorni, ac ymguddio oddi wrthynt: ganddwyn dwg hwynt drachefn i'th frawd.

2 Ac oni *bydd* dy frawd yn gyfagos attat, neu oni adwaenost ef; yna dwg hwnnw i fewn dy dŷ, a bydded gyd â thi, hyd pan ymofyno dy frawd am dano; yna dyro ef yn ei ol iddo ef.

3 Ac felly y gwnei i'w asyn ef, ac felly y gwnei i'w ddillad ef, ac felly y gwnei i bob collbeth i'th frawd, yr hwn a gyll oddi wrtho ef, a thithau yn ei gael: ni elli ymguddio.

4 ¶ Ni chei weled asyn dy frawd neu ei ych yn gorwedd ar y ffordd, ac ymguddio oddi wrthynt; *ond* gan godi cyfod *hwynt* gyd âg ef.

5 ¶ Na fydded dilledyn gŵr am wraig, ac na wisged gŵr ddillad gwraig: o herwydd ffiaidd gan yr Arglwydd dy Duw bawb a'r a wnel hyn.

6 ¶ Pan ddamweinio nyth aderyn i'th olwg ar dy ffordd, mewn un pren, neu ar y ddaear, â chywion, neu âg wyau *ynddo,* a'r fam yn eistedd ar y cywion, neu ar yr wyau; na chymmer y fam gyd â'r cywion.

7 Gan ollwng ti a ollyngi y fam, a'r cywion a gymmeri i ti; fel y byddo daioni i ti, ac yr estynech *dy* ddyddiau.

8 ¶ Pan adeiladech dŷ newydd, yna y gwnei ganllawiau *o amgylch* i'th nen; fel na osodych waed ar dy dŷ, pan syrthio neb oddi arno.

9 ¶ Na haua dy winllan âg amryw *had;* rhag i ti halogi cynnyrch yr had a hauech, a chnwd y winllan.

10 ¶ Nac ardd âg ych ac âg asyn ynghyd.

11 ¶ Na wisg ddilledyn o amryw ddefnydd, *megis* o wlan a llin ynghyd.

12 ¶ Plethau a weithi i ti ar bedwar cwr dy wisg yr ymwisgech â hi.

13 ¶ O chymmer gŵr wraig, ac wedi myned atti, ei chasâu;

14 A gosod yn ei herbyn anair, a rhoddi allan enw drwg iddi, a dywedyd, Y wraig hon a gymmerais; a phan euthum atti, ni chefais ynddi forwyndod:

15 Yna cymmered tad y llangces a'i mam, a dygant *arwyddion* morwyndod y llangces at henuriaid y ddinas i'r porth.

16 A dyweded tad y llangces wrth

yr henuriaid, Fy merch a roddais i'r gŵr hwn yn wraig, a'i chasâu y mae efe.

17 Ac wele, efe a gododd *iddi* anair, gan ddywedyd, Ni chefais yn dy ferch forwyndod; ac fel dyma *arwyddion* morwyndod fy merch. Yna lledant y dilledyn y'ngŵydd henuriaid y ddinas.

18 A henuriaid y ddinas honno a gymmerant y gŵr, ac a'i cospant ef.

19 A hwy a'i dirwyant ef *mewn* can *sicl* o arian, ac a'u rhoddant hwynt i dad y llangces; o achos iddo ddwyn enw drwg ar y forwyn *o* Israel: a bydd hi yn wraig iddo; *ac* ni ddichon ei gyrru ymaith *yn* ei holl ddyddiau.

20 Ond os gwir fydd y peth, ac na chafwyd *arwyddion* morwyndod yn y llangces:

21 Yna y dygant y llangces at ddrws tŷ ei thad, a dynion ei dinas a'i llabyddiant hi â meini, oni byddo farw; am iddi wneuthur ffolineb yn Israel, gan butteinio yn nhŷ ei thad: a thi a dynni ymaith y drwg o'th fysg.

22 ¶ O cheffir gŵr yn gorwedd gyd â gwraig briodol *â* gŵr; byddant feirw ill dau, *sef* y gŵr a orweddodd gyd â'r wraig, a'r wraig *hefyd:* felly y tynni ymaith ddrwg o Israel.

23 ¶ O bydd llangces *o* forwyn wedi ei dyweddïo i ŵr, a chael o ŵr hi mewn dinas, a gorwedd gyd â hi;

24 Yna y dygwch hwynt ill dau i borth y ddinas honno, ac a'u llabyddiwch hwynt â meini, fel y byddont feirw: y llangces, oblegid na waeddodd, *a hithau* yn y ddinas; a'r gŵr, o herwydd iddo ddarostwng gwraig ei gymmydog: felly ti a dynni ymaith y drygioni o'th fysg.

25 ¶ Ond os mewn maes y cafodd y gŵr y llangces wedi ei dyweddïo, a'i threisio o'r gŵr, a gorwedd gyd â hi; yna bydded farw y gŵr a orweddodd gyd â hi yn unig.

26 Ond i'r llangces ni chei wneuthur dim; nid *oes* yn y llangces bechod *yn haeddu* marwolaeth: o herwydd megis y cyfyd gŵr yn erbyn ei gymmydog, a'i ddïeneidio ef, yr un modd *y mae* y peth hyn:

27 Oblegid yn y maes y cafodd efe hi: gwaeddodd y llangces *oedd* wedi ei dyweddïo; ac nid *oedd* achubydd iddi.

28 ¶ O chaiff gŵr langces o forwyn, heb ei dyweddïo, ac ymaflyd ynddi, a gorwedd gyd â hi, a'u dala hwynt:

29 Yna y rhydd y gŵr a orweddodd gyd â hi, i dad y llangces, ddeg a deugain o arian; ac iddo y bydd yn wraig, am iddo ei darostwng hi: ni ddichon efe ei gyrru hi ymaith *yn* ei holl ddyddiau.

30 ¶ Na chymmered neb wraig ei dad, ac na ddinoethed odre ei dad.

PENNOD 23.

1 *Pwy a all, a phwy ni all ddyfod i'r gynnulleidfa.* 9 *Rhaid yw gochelyd afendid yn y llu.* 15 *Am y gwas ffoadur.* 17 *Am frynti.* 18 *Am aberthau ffiaidd,* 19 *usuriaeth,* 21 *addunedau,* 24 *a chamweddau.*

NA ddeued neb wedi ysigo ei eirin, na dispaidd, i gynnulleidfa yr ARGLWYDD.

2 Na ddeued basterdyn i gynnulleidfa yr ARGLWYDD; y ddegfed genhedlaeth iddo hefyd ni chaiff ddyfod i gynnulleidfa yr ARGLWYDD.

3 Na ddeled Ammoniad na Moabiad i gynnulleidfa yr ARGLWYDD; y ddegfed genhedlaeth hefyd o honynt na ddeued i gynnulleidfa yr ARGLWYDD byth:

4 Oblegid ni chyfarfuant â chwi â bara ac â dwfr yn y ffordd, wrth eich dyfod o'r Aipht; ac o achos cyflogi o honynt i'th erbyn Balaam mab Beor o Pethor *ym* Mesopotamia, i'th felldithio di.

5 Etto yr ARGLWYDD dy DDUW ni fynnodd wrandaw ar Balaam: ond trodd yr ARGLWYDD dy DDUW y felldith yn fendith i ti; canys hoffodd yr ARGLWYDD dy DDUW dydi.

6 Na chais eu heddwch hwynt, na'u daioni hwynt, dy holl ddyddiau byth.

7 ¶ Na ffieiddia Edomiad; canys dy frawd yw: na ffieiddia Aiphtiad; o herwydd dïeithr fuost yn ei wlad ef.

8 Deued o honynt i gynnulleidfa yr ARGLWYDD y drydedd genhedlaeth o'r meibion a genhedlir iddynt.

9 ¶ Pan êl y llu allan yn erbyn dy

elynion, yna ymgadw rhag pob peth drwg.

10 ¶ O bydd un o honot heb fod yn lân, o herwydd damwain nos; eled allan o'r gwersyll; na ddeued o fewn y gwersyll.

11 Ac ym min yr hwyr ymolched mewn dwfr: yna wedi machludo yr haul, deued i fewn y gwersyll.

12 ¶ A bydded lle i ti o'r tu allan i'r gwersyll; ac yno yr âi di allan.

13 A bydded gennyt raw-ffon ym mysg dy arfau; a bydded pan eisteddych allan, gloddio o honot â hi, a thro a chuddia yr hyn a ddaeth oddi wrthyt.

14 O herwydd bod yr ARGLWYDD dy DDUW yn rhodio ym mhlith dy wersyllau, i'th waredu, ac i roddi dy elynion o'th flaen di; am hynny bydded dy wersyllau yn sanctaidd; fel na welo ynot ti ddim brynti, a throi oddi wrthyt.

15 ¶ Na ddyro at ei feistr was a ddïangodd attat oddi wrth ei feistr.

16 Gyd â thi y trig yn dy fysg, yn y fan a ddewiso, yn un o'th byrth di, lle byddo da ganddo; *ac* na chystuddia ef.

17 ¶ Na fydded puttain o ferched Israel, ac na fydded putteiniwr o feibion Israel.

18 Ni ddwg wobr puttain, na gwerth ci, *i* dŷ yr ARGLWYDD dy DDUW, mewn un adduned: canys *y maent* ill dau yn ffiaidd gan yr ARGLWYDD dy DDUW.

19 ¶ Na chymmer ocraeth gan dy frawd; ocraeth arian, ocraeth bwyd, ocraeth dim y cymmerir ocraeth am dano.

20 Gan estron y cymmeri ocraeth; ond na chymmer ocraeth gan dy frawd: fel y bendithio yr ARGLWYDD dy DDUW di ym mhob peth y rhoddych dy law arno, yn y tir yr ydwyt yn myned iddo i'w feddiannu.

21 ¶ Pan addunedech adduned i'r ARGLWYDD dy DDUW, nac oeda ei thalu: canys yr ARGLWYDD dy DDUW gan ofyn a'i gofyn gennyt; a byddai yn bechod ynot.

22 Ond os peidi âg addunedu, ni bydd pechod ynot.

23 Cadw a gwna yr hŷn a ddaeth allan o'th wefusau; megis yr addunedaist i'r ARGLWYDD dy DDUW offrwm gwirfodd, yr hwn a draethaist â'th enau.

24 ¶ Pan ddelych i winllan dy gymmydog, yna bwytta o rawnwin dy wala, wrth dy feddwl; ond na ddod yn dy lestr *yr un.*

25 Pan ddelych i ŷd dy gymmydog, yna y cei dynnu y tywysennau â'th law; ond ni chei osod crymman yn ŷd dy gymmydog.

PENNOD 24.

1 *Am ysgar.* 5 *Nad rhaid i'r gŵr newydd briodi fyned i ryfel.* 6, 10 *Am wystlon.* 7 *Am ladron dynion.* 8 *Am y gwahan-glwyf:* 14 *talu cyflog,* 17 *barn,* 19 *ac elusen.*

PAN gymmero gŵr wraig, a'i phrïodi; yna oni chaiff hi ffafr yn ei olwg ef, o achos iddo gael rhyw aflendid ynddi; ysgrifened iddi lythyr ysgar, a rhodded yn ei llaw hi, a gollynged hi ymaith o'i dŷ.

2 Pan elo hi allan o'i dŷ ef, a myned ymaith, a bod yn eiddo gŵr arall:

3 Os ei gŵr diweddaf a'i casâ hi, ac a ysgrifena lythyr ysgar iddi, ac a'i rhydd yn ei llaw hi, ac a'i gollwng hi o'i dŷ; neu os bydd marw y gŵr diweddaf a'i cymmerodd hi yn wraig iddo:

4 Ni ddichon ei phrïod cyntaf, yr hwn a'i gollyngodd hi ymaith, ei chymmeryd hi drachefn i fod yn wraig iddo, wedi iddi ymhalogi: canys ffieidd-dra *yw* hyn o flaen yr ARGLWYDD; ac na wna i'r wlad bechu, yr hon a rydd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti yn etifeddiaeth.

5 ¶ Pan gymmero gŵr wraig newydd, nac eled i ryfel, ac na rodder gofal dim arno: caiff fod gartref yn rhydd un flwyddyn, a llawenhâu ei wraig a gymmerodd.

6 ¶ Na chymmered *neb* faen isaf nac uchaf i felin ar wystl: canys y mae yn cymmeryd bywyd *dyn* yng ngwystl.

7 ¶ Pan gaffer gŵr yn lladratta un o'i frodyr o feibion Israel, ac yn ymelwa arno, neu yn ei werthu; yna lladder y lleidr hwnnw, a thyn di ymaith y drwg o'th fysg.

8 ¶ Gwylia ym mhla y gwahanglwyf, ar ddyfal-gadw, a gwneuthur yn ol yr hyn oll a ddysgo yr offeiriaid y Lefiaid i chwi: edrychwch am wneuthur megis y gorchymynais wrthynt hwy.

9 Cofia yr hyn a wnaeth yr ARGLWYDD dy DDUW i Miriam ar y ffordd, wedi eich dyfod allan o'r Aipht.

10 ¶ Pan fenthycciech i'th gymmydog fenthyg dim, na ddos i'w dŷ ef i gymmeryd ei wystl ef.

11 Allan y sefi; a dyged y gŵr y benthycciaist iddo y gwystl allan attat ti.

12 Ac os gŵr tlawd *fydd* efe, na chwsg â'i wystl *gyd â thi.*

13 Gan ddadroddi dyro ei wystl iddo pan fachludo yr haul, fel y gorweddo yn ei wisg, ac y'th fendithio di: a bydd *hyn* i ti yn gyfiawnder o flaen yr ARGLWYDD dy DDUW.

14 ¶ Na orthrymma was cyflog tlawd ac anghenus, o'th frodyr, neu o'th ddïeithrddyn *a fyddo* yn dy dir o fewn dy byrth di:

15 Yn ei ddydd y rhoddi *iddo* ei gyflog; ac na fachluded yr haul arno: canys tlawd yw, ac â hyn y mae yn cynnal ei einioes: fel na lefo ar yr ARGLWYDD yn dy erbyn, a bod pechod ynot.

16 Na rodder i farwolaeth dadau dros blant, ac na rodder plant i farw dros dadau: pob un a roddir i farwolaeth am ei bechod ei hun.

17 ¶ Na ŵyra farn y dïeithr *na'r* amddifad; ac na chymmer ar wystl-oraeth wisg y weddw.

18 Ond meddwl mai caethwas fuost yn yr Aipht, a'th waredu o'r ARGLWYDD dy DDUW oddi yno: am hynny yr wyf fi yn gorchymyn i ti wneuthur y peth hyn.

19 ¶ Pan fedech dy gynhauaf yn dy faes, ac anghofio ysgub yn y maes, na ddychwel i'w chymmeryd: bydded i'r dïeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw; fel y bendithio yr ARGLWYDD dy DDUW di yn holl waith dy ddwylaw.

20 Pan ysgydwech dy olew-wyddên, na loffa ar dy ol: bydded i'r dïeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw.

21 Pan gesglych rawnwin dy winllan, na loffa ar dy ol: bydded i'r dïeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw.

22 Meddwl hefyd mai caethwas fuost yn nhir yr Aipht: am hynny yr ydwyf fi yn gorchymyn i ti wneuthur y peth hyn.

PENNOD 25.

1 Na rodder ychwaneg na deugain gwïalennod. 4 Na chauer safn yr ych. 5 Am godi had i frawd. 11 Am y wraig ddïgywilydd. 13 Am bwysau anghyfiawn. 17 Rhaid yw dïlëu cyffadwriaeth Amalec.

PAN fyddo ymrafael rhwng dynion, a dyfod i farn i'w barnu; yna cyfiawnhânt y cyfiawn, a chondemniant y beius.

2 Ac o bydd y mab drygionus i'w guro, pared y barnwr iddo orwedd, a phared ei guro ef ger ei fron, yn ol ei ddryganiaeth, dan rifedi.

3 Deugain gwïalennod a rydd iddo, *ac* na chwaneged: rhag *os* chwanega, a'i guro ef â llawer gwïalennod uwch law hyn, a dirmygu dy frawd yn dy olwg.

4 ¶ Na chau safn ŷch tra fyddo yn dyrnu.

5 ¶ Os brodyr a drigant ynghyd, a marw un o honynt, ac heb blentyn iddo; na phrïoded gwraig y marw ŵr dïeithr oddi allan: aed ei chyfathrachwr atti, a chymmered hi yn wraig iddo, a gwnaed iddi ran cyfathrachwr.

6 A bydded i'r cyntaf-anedig a ymddygo hi sefyll ar enw ei frawd *a fu* farw; fel na ddilëer ei enw ef allan o Israel.

7 Ac oni bydd boddlawn y gŵr i gymmeryd ei gyfathrach-wraig; yna aed ei gyfathrach-wraig i fyny i'r porth at yr henuriaid, a dyweded, Gwrthododd fy nghyfathrachwr godi i'w frawd enw yn Israel: ni fyn efe wneuthur rhan cyfathrachwr â mi.

8 Yna galwed henuriaid ei ddinas am dano ef, ac ymddiddanant âg ef: *o* saif efe, a dywedyd, Nid wyf fi foddlawn i'w chymmeryd hi;

9 Yna nesâed ei gyfathrach-wraig atto ef y'ngŵydd yr henuriaid, a dattoded ei esgid ef oddi am ei droed, a phoered yn ei wyneb ef; ac attebed, a dyweded, Felly y gwneir i'r gŵr nid adeilado dŷ ei frawd.

10 A gelwir ei enw ef yn Israel, Tŷ yr hwn y dattodwyd ei esgid.
11 ¶ Os ymryson dynion ynghyd, *sef* gŵr â'i frawd, a nesâu gwraig y naill i achub ei gŵr o law ei darawydd, ac estyn ei llaw ac ymaflyd yn ei ddirgeloedd ef;
12 Tor ymaith ei llaw hi: nac arbeded dy lygad *hi.*
13 ¶ Na fydded gennyt yn dy gôd amryw bwys, mawr a bychan.
14 Na fydded gennyt yn dy dŷ amryw fesur, mawr a bychan.
15 Bydded gennyt garreg uniawn a chyfiawn; bydded gennyt ephah uniawn a chyfiawn: fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear yr hon y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei rhoddi i ti.
16 Canys ffiaidd gan yr ARGLWYDD dy DDUW bob un a wnelo hyn, *sef* pawb a'r a wnel anghyfiawnder.
17 ¶ Cofia yr hyn a wnaeth Amalec i ti ar y ffordd, pan ddaethoch allan o'r Aipht:
18 Yr hwn a'th gyfarfu ar y ffordd, ac a laddodd y rhai olaf o honot, yr holl weiniaid o'th ol di, a thi yn lluddedig, ac yn ddiffygiol; ac nid ofnodd efe DDUW.
19 Am hynny bydded, pan roddo yr ARGLWYDD dy DDUW i ti lonyddwch oddi wrth dy holl elynion oddi amgylch, yn y tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth i'w feddiannu, dynnu o honot ymaith goffadwriaeth Amalec oddi tan y nefoedd: nac anghofia *hyn.*

PENNOD 26.

1 *Cyffes yr hwn a offrymmo y cawell blaenffrwyth.* 12 *Gweddi yr hwn a roddo ei ddegymmau y drydedd flwyddyn.* 16 *Y cyfammod rhwng Duw a'r bobl.*

A PHAN ddelych i'r tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth, a'i feddiannu, a phreswylio ynddo;
2 Yna cymmer o bob blaenffrwyth y ddaear, yr hwn a ddygi o'th dir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti, a gosod mewn cawell, a dos i'r lle a ddewiso yr ARGLWYDD dy DDUW i drigo o'i enw ef ynddo:
3 A dos at yr offeiriad a fydd yn y ddyddiau hynny, a dywed wrtho, Yr ydwyf fi yn cyfaddef heddyw i'r ARGLWYDD dy DDUW, fy nyfod i'r tir a dyngodd yr ARGLWYDD wrth ein tadau ar *ei* roddi i ni.
4 A chymmered yr offeiriad y cawell o'th law di, a gosoded ef o flaen allor yr ARGLWYDD dy DDUW;
5 A llefara dithau, a dywed ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, Syriad ar ddarfod am dano *oedd* fy nhad; ac efe a ddisgynodd i'r Aipht, ac a ymdeithiodd yno âg ychydig bobl, ac a aeth yno yn genedl fawr, gref, ac aml.
6 A'r Aiphtiaid a'n drygodd ni, a chystuddiasant ni, a rhoddasant arnom gaethiwed caled.
7 A phan waeddasom ar ARGLWYDD DDUW ein tadau, clybu yr ARGLWYDD ein llais ni, a gwelodd ein cystudd, a'n llafur, a'n gorthrymder.
8 A'r ARGLWYDD a'n dug ni allan o'r Aipht â llaw gadarn, ac â braich estynedig, ac âg ofn mawr, ac âg arwyddion, ac â rhyfeddodau.
9 Ac efe a'n dug ni i'r lle hwn, ac a roes i ni y tir hwn; *sef* tir yn llifeirio o laeth a mêl.
10 Ac yn awr, wele, mi a ddygais flaenffrwyth y tir a roddaist i mi, O ARGLWYDD: a gosod ef ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, ac addola ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW.
11 Ymlawenycha hefyd ym mhob daioni a roddodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti, ac i'th deulu, tydi, a'r Lefiad, a'r dïeithr *a fyddo* yn dy fysg.
12 ¶ Pan ddarffo i ti ddegymmu holl ddegwm dy gnwd, yn y drydedd flwyddyn, *sef* blwyddyn y degwm; yna y rhoddi i'r Lefiad, i'r dïeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw; fel y bwyttaont yn dy byrth di, ac y digoner hwynt.
13 A dywed ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, Dygais *y peth* cyssegredig allan o'm tŷ, ac a'i rhoddais ef i'r Lefiad, ac i'r dïeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw, yn ol dy holl orchymynion a orchymynaist i mi: ni throseddais *ddim* o'th orchymynion, ac nis anghofiais.
14 Ni fwytteais o hono yn fy ngalar, ac ni ddygais ymaith o hono i aflendid, ac ni roddais o hono dros y marw: gwrandewais ar lais yr AR-

GLWYDD fy NUW; gwneuthum yn ol yr hyn oll a orchymynaist i mi.

15 Edrych o drigle dy sancteiddrwydd, *sef* o'r nefoedd, a bendithia dy bobl Israel, a'r tir a roddaist i ni, megis y tyngaist wrth ein tadau; *sef* tir yn llifeirio o laeth a mêl.

16 ¶ Y dydd hwn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn gorchymyn i ti wneuthur y deddfau hyn a'r barnedigaethau: cadw dithau a gwna hwynt â'th holl galon, ac â'th holl enaid.

17 Cymmeraist yr ARGLWYDD heddyw i fod yn DDUW i ti, ac i rodio yn ei ffyrdd ef, ac i gadw ei ddeddfau, a'i orchymynion, a'i farnedigaethau, ac i wrandaw ar ei lais ef.

18 Cymmerodd yr ARGLWYDD dithau heddyw i fod yn bobl briodol iddo ef, megis y llefarodd wrthyt, ac i gadw *o honot* ei holl orchymynion:

19 Ac i'th wneuthur yn uchel goruwch yr holl genhedloedd a wnaeth efe, mewn clod, ac mewn enw, ac mewn gogoniant; ac i fod o honot yn bobl sanctaidd i'r ARGLWYDD dy DDUW, megis y llefarodd efe.

PENNOD 27.

1 *Gorchymyn y bobl i ysgrifenu y gyfraith ar gerrig; 5 ac i wneuthur allor o gerrig cyfain.* 11 *Rhannu y llwythau ar fynydd Garisim ac Ebal.* 14 *Cyhoeddi y melldithion ar fynydd Ebal.*

YNA y gorchymynodd Moses, gyd â henuriaid Israel, i'r bobl, gan ddywedyd, Cedwch yr holl orchymynion yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi heddyw.

2 A bydded, yn y dydd yr elych dros yr Iorddonen i'r tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti, osod o honot i ti gerrig mawrion, a chalcha hwynt â chalch.

3 Ac ysgrifena arnynt holl eiriau y gyfraith hon, pan elych drosodd, i fyned i'r tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti, *sef* tir yn llifeirio o laeth a mêl; megis ag y llefarodd ARGLWYDD DDUW dy dadau wrthyt.

4 A phan eloch dros yr Iorddonen, gosodwch y cerrig hyn, yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi heddyw, ym mynydd Ebal, a chalcha hwynt â chalch.

5 Ac adeilada yno allor i'r ARGLWYDD dy DDUW, *sef* allor gerrig: na chyfod arnynt *arf* haiarn.

6 A cherrig cyfain yr adeiledi allor yr ARGLWYDD dy DDUW; ac offrymma arni boeth-offrymmau i'r ARGLWYDD dy DDUW.

7 Offrymma hefyd hedd-aberthau, a bwytta yno, a llawenycha ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW.

8 Ac ysgrifena ar y cerrig holl eiriau y gyfraith hon, yn eglur iawn.

9 ¶ A llefarodd Moses a'r offeiriaid y Lefiaid wrth holl Israel, gan ddywedyd, Gwrando a chlyw, O Israel: Y dydd hwn y'th wnaethpwyd yn bobl i'r ARGLWYDD dy DDUW.

10 Gwrando gan hynny ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW, a gwna ei orchymynion ef a'i ddeddfau, y rhai yr wyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw.

11 ¶ A gorchymynodd Moses i'r bobl y dydd hwnnw, gan ddywedyd,

12 Y rhai hyn a safant i fendithio y bobl ar fynydd Garisim, wedi eich myned dros yr Iorddonen: Simeon, a Lefi, a Judah, ac Issachar, a Joseph, a Benjamin.

13 A'r rhai hyn a safant i felldithio ar fynydd Ebal: Reuben, Gad, ac Aser, a Sabulon, Dan, a Naphtali.

14 ¶ A'r Lefiaid a lefarant, ac a ddywedant wrth bob gŵr *o* Israel *â* llef uchel,

15 Melldigedig *yw* y gŵr a wnel ddelw gerfiedig neu doddedig, *sef* ffieidd-dra gan yr ARGLWYDD, gwaith dwylaw crefftwr, ac a'i gosodo mewn *lle* dirgel. A'r holl bobl a attebant, ac a ddywedant, Amen.

16 Melldigedig *yw* yr hwn a ddirmygo ei dad neu ei fam. A dyweded yr holl bobl, Amen.

17 Melldigedig *yw* yr hwn a symmudo derfyn ei gymmydog. A dyweded yr holl bobl, Amen.

18 Melldigedig *yw* yr hwn a baro i'r dall gyfeiliorni allan o'r ffordd. A dyweded yr holl bobl, Amen.

19 Melldigedig *yw* yr hwn a ŵyro farn y dïeithr, yr amddifad, a'r weddw. A dyweded yr holl bobl, Amen.

20 Melldigedig *yw* yr hwn a orweddo gyd â gwraig ei dad; o herwydd datguddiodd odre ei dad. A dyweded yr holl bobl, Amen.
21 Melldigedig *yw* yr hwn a orweddo gyd âg un anifail. A dyweded yr holl bobl, Amen.
22 Melldigedig *yw* yr hwn a orweddo gyd â'i chwaer, merch ei dad, neu ferch ei fam ef. A dyweded yr holl bobl, Amen.
23 Melldigedig *yw* yr hwn a orweddo gyd â'i chwegr. A dyweded yr holl bobl, Amen.
24 Melldigedig *yw* yr hwn a darawo ei gymmydog yn ddirgel. A dyweded yr holl bobl, Amen.
25 Melldigedig *yw* yr hwn a gymmero wobr, er dïeneidio gwaed gwirion. A dyweded yr holl bobl, Amen.
26 Melldigedig *yw* yr hwn ni pharhao y'ngeiriau y gyfraith hon, gan eu gwneuthur hwynt. A dyweded yr holl bobl, Amen.

PENNOD 28.

1 *Bendithion am ufudd-dod.* 15 *Melldithion am anufudd-dod.*

AC os gan wrandaw y gwrandewi ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW, i gadw *ac* i wneuthur ei holl orchymynion ef, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw; yna yr ARGLWYDD dy DDUW a'th esyd yn uwch na holl genhedloedd y ddaear.
2 A'r holl fendithion hyn a ddaw arnat, ac a'th oddiweddant, os gwrandewi ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW.
3 Bendigedig *fyddi* di yn y ddinas, a bendigedig yn y maes.
4 Bendigedig *fydd* ffrwyth dy fru, a ffrwyth dy dir, a ffrwyth dy anifail di, cynnydd dy wartheg, a dïadellau dy ddefaid.
5 Bendigedig *fydd* dy gawell a'th does di.
6 Bendigedig *fyddi* di yn dy ddyfodiad i mewn, a bendigedig yn dy fynediad allan.
7 Rhydd yr ARGLWYDD dy elynion a ymgodant i'th erbyn yn lladdedig o'th flaen di: trwy un ffordd y deuant i'th erbyn, a thrwy saith o ffyrdd y ffoant o'th flaen.
8 Yr ARGLWYDD a orchymyn fendith arnat ti, yn dy drysordai, ac yn yr hyn oll y dodech dy law arno; ac a'th fendithia yn y tir y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei roddi i ti.
9 Yr ARGLWYDD a'th gyfyd di yn bobl sanctaidd iddo ei hun, megis y tyngodd wrthyt, os cedwi orchymynion yr ARGLWYDD dy DDUW, a rhodio yn ei ffyrdd ef.
10 A holl bobloedd y ddaear a welant fod yn dy alw di ar enw yr ARGLWYDD, ac a ofnant rhagot.
11 A'r ARGLWYDD a'th lwydda di mewn daioni, yn ffrwyth dy fru, ac yn ffrwyth dy anifeiliaid, ac yn ffrwyth dy ddaear, yn y tir a dyngodd yr ARGLWYDD i'th dadau ar ei roddi i ti.
12 Yr ARGLWYDD a egyr ei drysor daionus i ti, *sef* y nefoedd, i roddi gwlaw *i'th* dir di yn ei amser, ac i fendigo holl waith dy law: a thi a roddi echwyn i genhedloedd lawer, ac ni cheisi echwyn.
13 A'r ARGLWYDD a'th wna di yn ben, ac nid yn gynffon; hefyd ti a fyddi yn uchaf yn unig, ac nid yn isaf: os gwrandewi ar orchymynion yr ARGLWYDD dy DDUW, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw, *i'w* cadw, ac i'w gwneuthur;
14 Ac heb gilio o honot oddi wrth yr holl eiriau yr wyf fi yn eu gorchymyn i chwi heddyw, i'r tu dehau neu i'r tu aswy, gan fyned ar ol duwiau dïeithr, i'w gwasanaethu hwynt.
15 ¶ A bydd, oni wrandewi ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW, gan gadw *a* gwneuthur ei holl orchymynion ef a'i ddeddfau, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw; y daw arnat yr holl felldithion hyn, ac y'th oddiweddant.
16 Melldigedig *fyddi* di yn y ddinas, a melldigedig yn y maes.
17 Melldigedig *fydd* dy gawell a'th does di.
18 Melldigedig *fydd* ffrwyth dy fru, a ffrwyth dy dir, cynnydd dy wartheg, a dïadellau dy ddefaid.
19 Melldigedig *fyddi* di yn dy ddyfodiad i mewn, a melldigedig yn dy fynediad allan.
20 Yr ARGLWYDD a ddenfyn arnat ti felldith, trallod, a cherydd, yn yr hyn oll y dodech dy law arno, *ac*

yn yr hyn a wnelych; nes dy ddinystrio a'th ddifetha di yn gyflym; am ddrygioni dy weithredoedd *yn* y rhai y'm gwrthodaist i.

21 Yr ARGLWYDD a wna i haint lynu wrthyt, nes iddo dy ddifa oddi ar y tir yr ydwyt ti yn myned iddo i'w feddiannu.

22 Yr ARGLWYDD a'th dery â darfodedigaeth, ac â chryd poeth, ac â llosgfa, ac â gwres, ac â chleddyf, ac â diflanniad, ac â mallder; a hwy a'th ddilynant nes dy ddifetha.

23 Dy nefoedd hefyd y rhai *sydd* uwch dy ben a fyddant yn bres, a'r ddaear yr hon *sydd* oddi tanat yn haiarn.

24 Yr ARGLWYDD a rydd *yn lle* gwlaw dy ddaear, lwch a lludw: o'r nefoedd y disgyn arnat, hyd oni'th ddinystrier.

25 Yr ARGLWYDD a wna i ti syrthio o flaen dy elynion: trwy un ffordd yr âi di yn eu herbyn hwynt, a thrwy saith o ffyrdd y ffoi o'u blaen hwynt; a thi a fyddi ar wasgar dros holl deyrnasoedd y ddaear.

26 A'th gelain a fydd fwyd i holl ehediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaear; ac ni *bydd* a'*u* tarfo.

27 Yr ARGLWYDD a'th dery di â chornwyd yr Aipht, ac â chlwyf y marchogion, ac â chrach, ac âg ysfa; o'r rhai ni ellir dy iachâu.

28 Yr ARGLWYDD a'th dery di âg ynfydrwydd, ac â dallineb, ac â syndod calon.

29 Byddi *hefyd* yn ymbalfalu ganol dydd, fel yr ymbalfalai y dall yn y tywyllwch; ac ni lwyddi yn dy ffyrdd: a dïau y byddi orthrymmedig ac anrheithiedig byth, ac ni *bydd* a'*th* waredo.

30 Ti a ymgredi â gwraig, a gŵr arall a gyd-orwedd â hi: ti a adeiledi dŷ, ac ni thrigi ynddo: ti a blenni winllan, ac ni chesgli ei ffrwyth.

31 Dy ŷch a leddir yn dy olwg, ac ni fwyttêi o hono: dy asyn a ddygir trwy drais o flaen dy wyneb, ac ni ddaw adref attat: dy ddefaid a roddir i'th elynion, ac ni *bydd* i ti achubydd.

32 Dy feibion a'th ferched a roddir i bobl eraill, a'th lygaid yn gweled, ac yn pallu am danynt ar hyd y dydd; ac ni *bydd* gallu ar dy law.

33 Ffrwyth dy dir a'th holl lafur a fwytty pobl nid adnabuost; a byddi yn unig orthrymmedig a drylliedig bob amser:

34 A byddi wallgofus, gan weledigaeth dy lygaid yr hon a welych.

35 Yr ARGLWYDD a'th dery di â chornwyd drygionus, yn y gliniau ac yn yr esgeiriau, yr hwn ni ellir ei iachâu, o wadn dy droed hyd dy goryn.

36 Yr ARGLWYDD a'th ddwg di, a'th frenhin a osodych arnat, at genedl nid adnabuost ti na'th dadau di; a gwasanaethi yno dduwiau dïeithr, pren a maen.

37 A byddi yn syndod, yn ddïareb, ac yn watwargerdd, ym mhlith yr holl bobloedd y rhai yr arwain yr ARGLWYDD di attynt.

38 Had lawer a ddygi allan i'r maes, ac ychydig a gesgli: o herwydd y locust a'i hysa.

39 Gwinllannoedd a blenni, ac a goleddi; ond gwin nid yfi, ac ni chesgli *y grawnwin:* canys pryfed a'u bwytty.

40 Olew-wydd a fydd i ti trwy dy holl derfynau, ac âg olew ni'th irir: o herwydd dy olew-wydden a ddyhidla.

41 Meibion a merched a genhedli, ac ni byddant i ti: o herwydd hwy a ânt i gaethiwed.

42 Dy holl brennau a ffrwythau dy dir a ddifa y locust.

43 Y dïeithr *a fyddo* yn dy fysg a ddring arnat yn uchel uchel; a thi a ddisgyni yn isel isel.

44 Efe a fenthyccia i ti, a thi ni fenthycci iddo ef: efe a fydd yn ben, a thi a fyddi yn gynffon.

45 A'r holl felldithion hyn a ddaw arnat, ac a'th erlidiant, ac a'th oddiweddant, hyd oni'th ddinystrier; am na wrandewaist ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW, i gadw ei orchymynion a'i ddeddfau ef, y rhai a orchymynodd efe i ti.

46 A byddant yn arwydd ac yn rhyfeddod arnat ti, ac ar dy had hyd byth.

47 Oblegid na wasanaethaist yr ARGLWYDD dy DDUW mewn lla-

wenydd, ac mewn hyfrydwch calon, am amldra pob dim:

48 Am hynny y gwasanaethi di dy elynion, y rhai a ddenfyn yr ARGLWYDD yn dy erbyn, mewn newyn, ac mewn sched, ac mewn noethni, ac mewn eisieu pob dim; ac efe a ddyry iau haiarn ar dy wddf, hyd oni ddinystrio efe dydi.

49 Yr ARGLWYDD a ddwg i'th erbyn genedl o bell, *sef* o eithaf y ddaear, *mor gyflym* ag yr eheda yr eryr; cenedl yr hon ni ddealli ei hiaith;

50 Cenedl wyneb-galed, yr hon ni dderbyn wyneb yr henafgwr, ac ni bydd raslawn i'r llangc.

51 A hi a fwytty ffrwyth dy anifeiliaid, a ffrwyth dy ddaear, hyd oni'th ddinystrier: yr hon ni âd i ti ŷd, gwin, nac olew, cynnydd dy wartheg, na dïadellau dy ddefaid, hyd oni'th ddifetho di.

52 A hi a warchae arnat ti yn dy holl byrth, hyd oni syrthio dy uchel a'th gedyrn gaerau, y rhai yr ydwyt yn ymddiried ynddynt, trwy dy holl dir: hi a warchae hefyd arnat yn dy holl byrth, o fewn dy holl dir yr hwn a roddodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti.

53 Ffrwyth dy fru, *sef* cig dy feibion a'th ferched, y rhai a roddodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti, a fwyttêi yn y gwarchae, ac yn y cyfyngdra a ddwg dy elyn arnat.

54 Y gŵr tyner yn dy blith, a'r moethus iawn, a greulona ei lygad wrth ei frawd, ac wrth wraig ei fynwes, ac wrth weddill ei feibion y rhai a weddillodd efe;

55 Rhag rhoddi i un o honynt o gig ei feibion, y rhai a fwytty efe; o eisieu gadaw iddo ddim yn y gwarchae ac yn y cyfyngdra, â'r hwn y cyfynga dy elyn arnat o fewn dy holl byrth.

56 Y wraig dyner a'r foethus yn dy fysg, yr hon ni phrofodd osod gwadn ei throed ar y ddaear, gan fwythau a thynerwch, a greulona ei llygad wrth ŵr ei mynwes, ac wrth ei mab, ac wrth ei merch,

57 Ac wrth ei phlentyn a ddaw allan o'i chorph, a'i meibion y rhai a blanta hi: canys hi a'u bwytty hwynt yn ddirgel, pan ballo pob dim *arall* yn y gwarchae ac yn y cyfyngdra, â'r hwn y cyfynga dy elyn arnat o fewn dy byrth.

58 Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y gyfraith hon, y rhai sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn, gan ofni yr enw gogoneddus ac ofnadwy hwn, YR ARGLWYDD DY DDUW;

59 Yna y gwna yr ARGLWYDD dy blïau di yn rhyfedd, a phlïau dy had; *sef* plïau mawrion a pharhaus, a chlefydau drwg a pharhaus.

60 Ac efe a ddwg arnat holl glefydau yr Aipht, y rhai yr ofnaist rhagddynt; a glynant wrthyt.

61 Ïe, pob clefyd, a phob pla, yr hwn nid *yw* ysgrifenedig yn llyfr y gyfraith hon, a ddwg yr ARGLWYDD arnat, hyd oni'th ddinystrier.

62 Felly chwi a adewir yn ychydig bobl, lle yr oeddych fel sêr y nefoedd o lïosowgrwydd; o herwydd na wrandewaist ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW.

63 A bydd, megis ag y llawenychodd yr ARGLWYDD ynoch i wneuthur daioni i chwi, ac i'ch amlhâu; felly y llawenycha yr ARGLWYDD ynoch i'ch dinystrio, ac i'ch difetha chwi: a diwreiddir chwi o'r tir yr wyt yn myned iddo i'w feddiannu.

64 A'r ARGLWYDD a'th wasgar di ym mhlith yr holl bobloedd, o'r *naill* gwr i'r ddaear hyd y cwr *arall* i'r ddaear: a thi a wasanaethi yno dduwiau dïeithr, y rhai nid adnabuost ti na'th dadau; *sef* pren a maen.

65 Ac ym mhlith y cenhedloedd hyn ni orphwysi, ac ni bydd gorphwysdra i wadn dy droed: canys yr ARGLWYDD a rydd i ti yno galon ofnus, a darfodèdigaeth llygaid, a thristwch meddwl.

66 A'th einioes a fydd y'nghrôg gyferbyn â thi; a thi a ofni nos a dydd, ac ni byddi sicr o'th einioes.

67 Y bore y dywedi, O na ddeuai yr hwyr! ac yn yr hwyr y dywedi, O na ddeuai y bore! o achos ofn dy galon *gan* yr hwn yr ofni, a rhag gweledigaeth dy lygaid yr hon a welych.

68 A'r ARGLWYDD a'th ddychwel di i'r Aipht, mewn llongau, ar hyd y ffordd y dywedais wrthyt, na

chwanegit ei gweled mwy: a chwi a ymwerthwch yno i'ch gelynion yn gaethweision ac yn gaeth-forwynion, ac ni *bydd* a'*ch* pryno.

PENNOD 29.

1 *Moses yn annog y bobl i ufudd-dod, trwy gofio y gweithredoedd a welsent.* 10 *Gosod pawb ger bron yr Arglwydd, i fyned dan ei gyfammod ef.* 18 *Y mawr ddigofaint ar y neb a ymfendithio yn ei anwiredd.* 29 *I Dduw y perthyn pethau dirgel.*

DYMA eiriau y cyfammod a orchymynodd yr ARGLWYDD wrth Moses ei wneuthur â meibion Israel, yn nhir Moab, heb law y cyfammod a ammododd efe â hwynt yn Horeb.

2 ¶ A Moses a alwodd ar holl Israel, ac a ddywedodd wrthynt, Chwi a welsoch yr hyn oll a wnaeth yr ARGLWYDD o flaen eich llygaid chwi yn nhir yr Aipht, i Pharaoh, ac i'w holl weision, ac i'w holl dir;

3 Y profedigaethau mawrion a welodd eich llygaid, yr arwyddion a'r rhyfeddodau mawrion hynny:

4 Ond ni roddodd yr ARGLWYDD i chwi galon i wybod, na llygaid i weled, na chlustiau i glywed, hyd y dydd hwn.

5 Arweiniais chwi hefyd yn yr anialwch ddeugain mlynedd: ni heneiddiodd eich dillad am danoch, ac ni heneiddiodd dy esgid am dy droed.

6 Bara ni fwyttasoch, a gwin neu ddïod gref nid yfasoch: fel y gwybyddech mai myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.

7 A daethoch hyd y lle hwn: yna daeth allan Sehon brenhin Hesbon, ac Og brenhin Basan, i'n cyfarfod mewn rhyfel; a ni a'u lladdasom hwynt:

8 Ac a ddygasom eu tir hwynt, ac a'i rhoisom yn etifeddiaeth i'r Reubeniaid, ac i'r Gadiaid, ac i hanner llwyth Manasseh.

9 Cedwch gan hynny eiriau y cyfammod hwn, a gwnewch hwynt: fel y llwyddoch ym mhob peth a wneloch.

10 ¶ Yr ydych chwi oll yn sefyll heddyw ger bron yr ARGLWYDD eich DUW; pennaethiaid eich llwythau, eich henuriaid, a'ch swyddogion, a holl wŷr Israel,

11 Eich plant, eich gwragedd, a'th ddïeithr-*ddyn* yr hwn *sydd* o fewn dy wersyll, o gymmynydd dy goed hyd wehynnydd dy ddwfr:

12 I fyned o honot dan gyfammod yr ARGLWYDD dy DDUW, a than ei gynghrair ef, yr hwn y mae yr ARGLWYDD dy DDUW yn ei wneuthur â thi heddyw:

13 I'th sicrhâu heddyw yn bobl iddo ei hun, ac i fod o hono yntau yn DDUW i ti, megis y llefarodd wrthyt, ac fel y tyngodd wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob.

14 Ac nid â chwi yn unig yr ydwyf fi yn gwneuthur y cyfammod hwn, a'r cynghrair yma;

15 Ond â'r *hwn* sydd yma gyd â ni yn sefyll heddyw ger bron yr ARGLWYDD ein DUW, ac â'r *hwn* nid *yw* yma gyd â ni heddyw:

16 (Canys chwi a wyddoch y modd y trigasom ni yn nhir yr Aipht, a'r modd y daethom trwy ganol y cenhedloedd y rhai y daethoch trwyddynt;

17 A chwi a welsoch eu ffieidd-dra hwynt a'u heilun-dduwiau, pren a maen, arian ac aur, y rhai oedd yn eu mysg hwynt:)

18 Rhag bod yn eich mysg ŵr, neu wraig, neu deulu, neu lwyth, yr hwn y try ei galon heddyw oddi wrth yr ARGLWYDD ein DUW, i fyned *i* wasanaethu duwiau y cenhedloedd hyn; rhag bod yn eich mysg wreiddyn yn dwyn gwenwyn a wermod:

19 A bod, pan glywo efe eiriau y felldith hon, ymfendithio o hono yn ei galon ei hun, gan ddywedyd, Heddwch fydd i mi, er i mi rodio y'nghyndynrwydd fy nghalon, i chwanegu meddwdod at syched:

20 Ni fyn yr ARGLWYDD faddeu iddo; canys yna y myga digllonedd yr ARGLWYDD a'i eiddigedd yn erbyn y gŵr hwnnw, a'r holl felldithion *sydd* ysgrifenedig yn y llyfr hwn a orwedd arno ef, a'r ARGLWYDD a ddilea ei enw ef oddi tan y nefoedd.

21 A'r ARGLWYDD a'i neilldua ef oddi wrth holl lwythau Israel, i *gael* drwg, yn ol holl felldithion y cyfammod a ysgrifenwyd yn llyfr y gyfraith hon.

22 A dywed y genhedlaeth a ddaw

ar ol, *sef* eich plant chwi, y rhai a godant ar eich ol chwi, a'r dïeithr yr hwn a ddaw o wlad bell, pan welont blâau y wlad hon, a'i chlefydau, *trwy* y rhai y mae yr ARGLWYDD yn ei chlwyfo hi;

23 *A'i* thir wedi ei losgi oll *gan* frwmstan a halen, na heuir ef, ac na flaen-dardda, ac na ddaw i fyny un llysieuyn ynddo, fel dinystr Sodom a Gomorrah, Admah a Seboim, y rhai a ddinystriodd yr ARGLWYDD yn ei lid a'i ddigofaint:

24 Ïe, yr holl genhedloedd a ddywedant, Paham y gwnaeth yr ARGLWYDD fel hyn i'r tir hwn? pa ddigter yw y digofaint mawr hwn?

25 Yna y dywedir, Am wrthod o honynt gyfammod ARGLWYDD DDUW eu tadau, yr hwn a ammododd efe â hwynt pan ddug efe hwynt allan o dir yr Aipht.

26 Canys aethant a gwasanaethasant dduwiau dïeithr, ac ymgrymmasant iddynt; *sef* duwiau nid adwaenent hwy, ac ni roddasai efe iddynt.

27 Am hynny yr ennynodd digllonedd yr ARGLWYDD yn erbyn y wlad hon, i ddwyn arni bob melldith *a'r y sydd* ysgrifenedig yn y llyfr hwn.

28 A'r ARGLWYDD a'u dinystriodd hwynt o'u tir mewn digofaint, ac mewn digter, ac mewn llid mawr, ac a'u gyrrodd hwynt i wlad arall, megis *y gwelir* heddyw.

29 Y dirgeledigaethau *sydd eiddo* yr ARGLWYDD ein DUW, a'r *pethau* amlwg *a roddwyd* i ni, ac i'n plant hyd byth; fel y gwnelom holl eiriau y gyfraith hon.

PENNOD 30.

1 *Addaw trugareddau mawr i'r edifeiriol.* 11 *Bod y gorchymyn yn eglur.* 15 *Gosod angau ac einioes o flaen y bobl.*

A PHAN ddêlo yr holl bethau hyn arnat, *sef* y fendith a'r felldith, y rhai a roddais o'th flaen, ac adgofio o honot *hwynt* ym mysg yr holl genhedloedd y rhai y'th yrrodd yr ARGLWYDD dy DDUW di attynt;

2 A dychwelyd o honot at yr ARGLWYDD dy DDUW, a gwrandaw ar ei lais ef, yn ol yr hyn oll yr ydwyf yn ei orchymyn i ti heddyw, ti a'th blant, â'th holl galon, ac â'th holl enaid:

3 Yna y dychwel yr ARGLWYDD dy DDUW dy gaethiwed, ac y cymmer drugaredd arnat, ac y try, ac a'th gasgl o fysg yr holl bobloedd lle y'th wasgaro yr ARGLWYDD dy DDUW di.

4 Pe y'th wthid i eithaf y nefoedd, oddi yno y'th gasglai yr ARGLWYDD dy DDUW, ac oddi yno y'th gymmerai.

5 A'r ARGLWYDD dy DDUW a'th ddwg i'r tir a feddiannodd dy dadau, a thithau a'i meddienni: ac efe a fydd dda wrthyt, ac a'th wna yn amlach na'th dadau.

6 A'r ARGLWYDD dy DDUW a enwaeda dy galon, a chalon dy had, i garu yr ARGLWYDD dy DDUW â'th holl galon, ac â'th holl enaid, er mwyn cael o honot fyw.

7 A'r ARGLWYDD dy DDUW a rydd yr holl felldithion hyn ar dy elynion, ac ar dy gaseion, y rhai a'th erlidiant di.

8 Tithau a ddychweli, ac a wrandewi ar lais yr ARGLWYDD, ac a wnei ei holl orchymynion ef, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw.

9 A'r ARGLWYDD dy DDUW a wna i ti lwyddo yn holl waith dy law, yn ffrwyth dy fru, ac yn ffrwyth dy anifeiliaid, ac yn ffrwyth dy dir, er daioni: canys try yr ARGLWYDD i lawenychu ynot, i *wneuthur* daioni *i ti*, fel y llawenychodd yn dy dadau;

10 Os gwrandewi ar lais yr ARGLWYDD dy DDUW, i gadw ei orchymynion ef a'i ddeddfau *y rhai sydd* ysgrifenedig yn llyfr y gyfraith hon; os dychweli at yr ARGLWYDD dy DDUW â'th holl galon, ac â'th holl enaid.

11 ¶ O herwydd y gorchymyn yma, yr ydwyf yn ei orchymyn i ti heddyw, nid *yw* guddiedig oddi wrthyt, ac nid *yw* bell.

12 Nid yn y nefoedd *y mae*, i ddywedyd *o honot*, Pwy a ddring drosom i'r nefoedd, ac a'i dwg i ni, fel y clywom, ac y gwnelom ef?

13 Ac nid o'r tu hwnt i'r môr *y mae*, i ddywedyd *o honot*, Pwy a dramwya drosom ni i'r tu hwnt i'r

môr, ac a'i dwg ef i ni, fel y clywom, ac y gwnelom ef?

14 Canys y gair *sydd* agos iawn attat, yn dy enau, ac yn dy galon, i'w wneuthur ef.

15 ¶ Wele, rhoddais o'th flaen heddyw einioes a daioni, ac angau a drygioni:

16 Lle yr ydwyf fi yn gorchymyn i ti heddyw garu yr ARGLWYDD dy DDUW, i rodio yn ei ffyrdd ef, ac i gadw ei orchymynion, a'i ddeddfau, a'i farnedigaethau ef; fel y byddech fyw, ac y'th amlhâer, ac y'th fendithio yr ARGLWYDD dy DDUW yn y tir yr wyt ti yn myned iddo i'w feddiannu.

17 Ond os try dy galon ymaith, fel na wrandawech, a'th yrru i ymgrymmu i dduwiau dïeithr, a'u gwasanaethu hwynt;

18 Yr wyf yn mynegi i chwi heddyw, y difethir chwi yn ddïau, *ac* nad estynwch ddyddiau yn y tir yr ydwyt yn myned dros yr Iorddonen i fyned i mewn iddo i'w berchennogi.

19 Galw yr wyf yn dyst i'th erbyn heddyw y nefoedd a'r ddaear, roddi o honof o'th flaen di einioes ac angau, fendith a melldith: dewis dithau yr einioes, fel y byddych fyw, ti a'th had;

20 I garu o honot yr ARGLWYDD dy DDUW, *a* gwrandaw ar ei lais ef, a glynu wrtho, (canys efe *yw* dy einioes di, ac estyniad dy ddyddiau,) fel y trigech yn y tir a dyngodd yr ARGLWYDD wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob, ar *ei* roddi iddynt.

PENNOD 31.

1 *Moses yn rhoi cysur yn y bobl,* 7 *ac yn Josua:* 9 *yn rhoddi y gyfraith i'r offeiriaid, i'w darllen ar y seithfed flwyddyn i'r bobl.* 14 *Duw yn rhoddi siars ar Josua.* 19 *a chân i dystiolaethu yn erbyn y bobl.* 24 *Moses yn gorchymyn llyfr y gyfraith i'r Lefiaid i'w gadw.* 28 *Moses yn rhybuddio y bobl o'u hanufudd-dod i Dduw, wedi ei farwolaeth ef.*

A MOSES a aeth ac a lefarodd y geiriau hyn wrth holl Israel;

2 Ac a ddywedodd wrthynt, Mab chwe ugain mlynedd *ydwyf* fi heddyw; ni allaf mwy fyned allan, a dyfod i mewn: yr ARGLWYDD hefyd a ddywedodd wrthyf, Ni chei fyned dros yr Iorddonen hon.

3 Yr ARGLWYDD dy DDUW sydd yn myned drosodd o'th flaen di; efe a ddinystria y cenhedloedd hyn o'th flaen, a thi a'u meddienni hwynt: Josua hefyd, efe a â drosodd o'th flaen, fel y llefarodd yr ARGLWYDD.

4 A'r ARGLWYDD a wna iddynt fel y gwnaeth i Sehon ac i Og, brenhinoedd yr Amoriaid, ac i'w tir hwynt, y rhai a ddinystriodd efe.

5 A rhydd yr ARGLWYDD hwynt o'ch blaen chwi; gwnewch chwithau iddynt hwy yn ol yr holl orchymynion a orchymynais i chwi.

6 Ymgryfhêwch, ac ymnerthwch; nac ofnwch, ac na ddychrynwch rhagddynt: canys yr ARGLWYDD dy DDUW *sydd* yn myned gyd â thi; ni'th edy, ac ni'th wrthyd.

7 ¶ A Moses a alwodd ar Josua, ac a ddywedodd wrtho y'ngolwg holl Israel, Ymgadarnhâ, ac ymnertha: canys ti a âi gyd â'r bobl yma i'r tir a dyngodd yr ARGLWYDD wrth eu tadau hwynt ar ei roddi iddynt; a thi a'i rhenni yn etifeddiaeth iddynt.

8 A'r ARGLWYDD hefyd *sydd* yn myned o'th flaen di; efe a fydd gyd â thi; ni'th edy, ac ni'th wrthyd: nac ofna, ac na lwfrhâ.

9 ¶ A Moses a ysgrifenodd y gyfraith hon, ac a'i rhoddes at yr offeiriaid meibion Lefi, y rhai a ddygent arch cyfammod yr ARGLWYDD, ac at holl henuriaid Israel.

10 A Moses a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, Yn ol *pob* saith mlynedd, ar yr amser noded-dig, ar flwyddyn y gollyngdod, ar wyl y pebyll,

11 Pan ddelo holl Israel i ymddangos ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, yn y lle a ddewiso efe; y darlleni y gyfraith hon o flaen holl Israel, lle y clywant.

12 Cynnull y bobl ynghyd, y gwŷr, y gwragedd, a'r plant, a'r dïeithr-*ddyn a fyddo* o fewn dy byrth; fel y gwrandawont, ac fel y dysgont, ac yr ofnont yr ARGLWYDD eich DUW, ac yr edrychont am wneuthur holl eiriau y gyfraith hon;

13 Ac y byddo i'w plant, y rhai ni wybuant *ddim*, glywed a dysgu ofni yr ARGLWYDD eich DUW, yr

holl ddyddiau y byddoch fyw yn y tir yr ydych yn myned iddo dros yr Iorddonen i'w feddiannu.

14 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Wele, nesaodd y dyddiau i ti i farw: galw Josua, a sefwch ger bron ym mhabell y cyfarfod, fel y rhoddwyf orchymynion iddo ef. Yna yr aeth Moses a Josua, ac a safasant ger bron ym mhabell y cyfarfod.

15 A'r ARGLWYDD a ymddangosodd yn y babell mewn colofn gwmmwl: a'r golofn gwmmwl a safodd ar ddrws y babell.

16 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Wele, ti a orweddi gyd â'th dadau; a'r bobl yma a gyfyd, ac a butteiniant ar ol duwiau dïeithriaid y tir y maent yn myned i mewn iddo, ac a'm gwrthyd i, ac a dyr fy nghyfammod a wneuthum âg ef.

17 A'm dig a ennyn yn eu herbyn y dydd hwnnw; a mi a'u gwrthodaf hwynt, ac a guddiaf fy wyneb oddi wrthynt; a bwyttêir ef, a drygau lawer a chyfyngderau a ddigwyddant iddo ef; a'r dydd hwnnw y dywed efe, Onid am nad *yw* yr Arglwydd yn fy mysg y digwyddodd y drwg hwn i mi?

18 Canys myfi gan guddio a guddiaf fy wyneb y dydd hwnnw, am yr holl ddrygioni a wnaeth efe, pan drodd at dduwiau dïeithr.

19 Ysgrifenwch yr awr hon gan hynny i chwi y gân hon: dysg hi hefyd i feibion Israel, *a* gosod hi yn eu genau hwynt; fel y byddo y gân hon yn dyst i mi yn erbyn meibion Israel.

20 Canys dygaf ef i dir yn llifeirio o laeth a mêl, yr hwn a addewais trwy lw i'w dadau ef; fel y bwyttao, ac y digoner, ac yr elo yn fras: ond efe a dry at dduwiau dïeithr, ac a'u gwasanaetha hwynt, ac a'm dirmyga i, ac a ddiddymma y nghyfammod.

21 Yna, pan ddigwyddo iddo ddrygau lawer a chyfyngderau, y bydd i'r gân hon dystiolaethu yn dyst yn ei wyneb ef: canys nid anghofir hi o enau ei had ef: o herwydd mi a adwaen ei fwriad y mae efe yn ei amcanu heddyw, cyn dwyn o honof fi ef i'r tir a addewais trwy lw.

22 ¶ A Moses a ysgrifenodd y gân hon ar y dydd hwnnw, ac a'i dysgodd hi i feibion Israel.

23 Efe a orchymynodd hefyd i Josua fab Nun, ac a ddywedodd, Ymgryfhâ, ac ymnertha: canys ti a arweini feibion Israel i'r tir a addewais iddynt trwy lw: a mi a fyddaf gyd â thi.

24 ¶ A phan ddarfu i Moses ysgrifenu geiriau y gyfraith hon ar lyfr, hyd eu diwedd hwynt;

25 Yna y gorchymynodd Moses i'r Lefiaid y rhai oedd yn dwyn arch cyfammod yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

26 Cymmerwch lyfr y gyfraith hon, a gosodwch ef ar ystlys arch cyfammod yr ARGLWYDD eich DUW; fel y byddo yno yn dyst i'th erbyn.

27 Canys mi a adwaen dy wrthnysigrwydd, a'th war-galedrwydd: wele, a myfi etto yn fyw gyd â chwi heddyw, gwrthryfelgar yn erbyn yr ARGLWYDD fuoch; a pha faint mwy *y byddwch* wedi fy marw?

28 Cesglwch attaf holl henuriaid eich llwythau, a'ch swyddogion: fel y llefarwyf y geiriau hyn lle y clywont hwy, ac y cymmerwyf y nefoedd a'r ddaear yn dystion yn eu herbyn hwy.

29 Canys mi a wn, wedi fy marw, gan lygru yr ymlygrwch, ac y ciliwch o'r ffordd a orchymynais i chwi; ac y digwydda i chwi ddrwg yn y dyddiau diweddaf; am y gwnewch ddrygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD, i'w ddigio ef â gweithredoedd eich dwylaw.

30 A llefarodd Moses lle y clybu holl gynnulleidfa Israel eiriau y gân holl, hyd eu diwedd hwynt.

PENNOD 32.

1 Cân Moses, yr hon sydd yn gosod allan drugaredd Duw, a'i ddtal. 46 Moses yn annog y bobl i ystyried y gan 48 Duw yn ei anfon ef i fynydd Nebo, i weled y wlad, ac i farw.

GWRANDEWCH, y nefoedd, a llefaraf; a chlywed y ddaear eiriau fy ngenau.

2 Fy athrawiaeth a ddefnyna fel gwlaw: fy ymadrodd a ddifera fel gwlith; fel gwlith-wlaw ar îr-wellt, ac fel cawodydd ar laswellt.

3 Canys enw yr ARGLWYDD a gyhoeddaf fi: rhoddwch fawredd i'n DUW ni.
4 *Efe yw* y Graig; perffaith *yw* ei weithred; canys ei holl ffyrdd *ydynt* farn: DUW gwirionedd, a heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn *yw* efe.
5 Y genhedlaeth ŵyrog a throfaus a ymlygrodd yn ei erbyn trwy eu bai, heb *fod* yn blant iddo ef.
6 Ai hyn a delwch i'r ARGLWYDD, bobl ynfyd ac anghall? onid efe *yw* dy dad *a'th* brynwr? onid efe a'th wnaeth, ac a'th sicrhaodd?
7 ¶ Cofia y dyddiau gynt; ystyriwch flynyddoedd cenhedlaeth a chenhedlaeth: gofyn i'th dad, ac efe a fynega i ti; i'th henuriaid, a hwy a ddywedant wrthyt.
8 Pan gyfrannodd y Goruchaf etifeddiaeth y cenhedloedd, pan neilluodd efe feibion Adda, y gosododd efe derfynau y bobloedd yn ol rhifedi meibion Israel.
9 Canys rhan yr ARGLWYDD *yw* ei bobl; Jacob *yw* rhan ei etifeddiaeth ef.
10 Efe a'i cafodd ef mewn tir anial, ac mewn diffaethwch gwag erchyll: arweiniodd ef o amgylch, a pharodd iddo ddeall, a chadwodd ef fel canwyll ei lygad.
11 Fel y cyfyd eryr ei nyth, y castella dros ei gywion, y lleda ei esgyll, y cymmer hwynt, ac a'u dwg ar ei adenydd;
12 *Felly* yr ARGLWYDD yn unig a'i harweiniodd yntau, ac nid *oedd* duw dïeithr gyd âg ef.
13 Gwnaeth iddo farchogaeth ar uchelder y ddaear, a bwytta cnwd y maes, a sugno mêl o'r graig, ac olew o'r graig gallestr;
14 Ymenyn gwartheg, a llaeth defaid, ynghyd â brasder ŵyn, a hyrddod o rywogaeth Basan, a bychod, ynghyd â brasder grawn gwenith, a phur-waed grawnwin a yfaist.
15 ¶ A'r uniawn a aeth yn fras, ac a wingodd; braseaist, tewychaist, pwyntiaist: yna efe a wrthododd DDUW, *yr hwn* a'i gwnaeth, ac a ddïystyrodd Graig ei iachawdwriaeth.
16 A dïeithr *dduwiau* y gyrrasant eiddigedd arno; â ffieidd-dra y digiasant ef.
17 Aberthasant i gythreuliaid, nid *i* DDUW; *i* dduwiau nid adwaenent, i rai newydd diweddar, *y rhai* nid ofnodd eich tadau.
18 Y Graig a'th genhedlodd a anghofiaist ti, a'r DUW a'th luniodd a ollyngaist ti dros gôf.
19 Yna y gwelodd yr ARGLWYDD, ac a'u ffieiddiodd *hwynt*; o herwydd ei ddigio gan ei feibion, a'i ferched.
20 Ac efe a ddywedodd, Cuddiaf fy wyneb oddi wrthynt, edrychaf beth *fydd* eu diwedd hwynt: canys cenhedlaeth drofaus *ydynt* hwy, meibion heb ffyddlondeb ynddynt.
21 Hwy a yrrasant eiddigedd arnaf â'r *peth* nid *oedd* DDUW; digiasant fi â'u hoferedd: minnau a yrraf eiddigedd arnynt hwythau â'r *rhai* nid *ydynt* bobl; â chenedl ynfyd y digiaf hwynt.
22 Canys tân a gynneuwyd yn fy nig, ac a lysg hyd uffern isod, ac a ddifa y tir a'i gynnyrch, ac a wna i sylfeini y mynyddoedd ffaglu.
23 Casglaf ddrygau arnynt; treuliaf fy saethau arnynt.
24 Llosgedig *fyddant* gan newyn, ac wedi eu bwytta gan wres poeth, a chwerw ddinystr: anfonaf hefyd arnynt ddannedd bwystfilod, ynghyd â gwenwyn seirph y llwch.
25 Y cleddyf oddi allan, a dychryn oddi fewn, a ddifetha y gŵr ieuangc a'r wyryf *hefyd*, y plentyn sugno ynghyd â'r gŵr briglwyd.
26 Dywedais, Gwasgaraf hwynt i gonglau, paraf i'w coffadwriaeth ddarfod o fysg dynion;
27 Oni bai i mi ofni dig y gelyn, rhag i'w gwrthwynebwyr ymddwyn yn ddïeithr, *a* rhag dywedyd o honynt, Ein llaw uchel ni, ac nid yr ARGLWYDD, a wnaeth hyn oll.
28 Canys cenedl heb gynghor *ydynt* hwy, ac heb ddeall ynddynt.
29 O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd!
30 Pa fodd yr ymlidiai un fil, ac y gyrrai dau ddengmil i ffoi, onid

am werthu o'u Craig hwynt, a chau o'r ARGLWYDD arnynt?
31 Canys nid fel ein Craig ni *y mae* eu craig hwynt; a bydded ein gelynion yn farnwyr.
32 Canys o winwydden Sodom, ac o feusydd Gomorrah, *y mae* eu gwinwydden hwynt: eu grawnwin hwynt *sydd* rawnwin bustlaidd; grawnsypiau chwerwon *sydd* iddynt.
33 Gwenwyn dreigiau *yw* eu gwin hwynt, a chreulawn wenwyn aspiaid.
34 Onid *yw* hyn y'nghûdd gyd â myfi, wedi ei selio ym mysg fy nhrysorau?
35 I mi *y perthyn* dïal, a thalu y pwyth; mewn pryd y llithr eu troed hwynt: canys agos *yw* dydd eu trychineb, a phrysuro y mae yr hyn a barottôwyd iddynt.
36 Canys yr ARGLWYDD a farna ei bobl, ac a edifarhâ am ei weision; pan welo ymadaw o'*u* nerth, ac nad *oes* na gwarchaëedig, na gweddilledig.
37 Ac efe a ddywed, Pa le *y mae* eu duwiau hwynt, *a*'r graig yr ymddiriedasant ynddi,
38 Y rhai a fwyttasant frasder eu haberthau, *ac* a yfasant win eu dïoddoffrwm? codant a chynnorthwyant chwi, *a* byddant loches i chwi.
39 Gwelwch bellach mai myfi, myfi *yw* efe; ac nad *oes* duw ond myfi; myfi sydd yn lladd, ac yn bywhâu; myfi a archollaf, ac mi a feddyginiaethaf: ac ni *bydd* a achubo o'm llaw.
40 Canys codaf fy llaw i'r nefoedd, a dywedaf, Mi a fyddaf fyw byth.
41 Os hogaf fy nghleddyf disglaer, ac ymaflyd o'm llaw mewn barn; dychwelaf ddïal ar fy ngelynion, a thalaf y pwyth i'm caseion.
42 Meddwaf fy saethau â gwaed, (a'm cleddyf a fwytty gig,) â gwaed y lladdedig a'r caeth, o ddechreu dïal ar y gelyn.
43 Y cenhedloedd, llawenhêwch *gyd* â'i bobl ef: canys efe a ddïal waed ei weision, ac a ddychwel ddïal ar ei elynion, ac a drugarhâ wrth ei dir *a*'i bobl ei hun.
44 ¶ A daeth Moses ac a lefarodd holl eiriau y gân hon lle y clybu y bobl, efe a Josua mab Nun.
45 A darfu i Moses lefaru yr holl eiriau hyn wrth holl Israel:
46 A dywedodd wrthynt, Meddyliwch yn eich calonnau am yr holl eiriau yr ydwyf yn eu tystiolaethu wrthych heddyw; y rhai a orchymynwch i'ch plant, i edrych am wneuthur holl eiriau y gyfraith hon.
47 Canys nid gair ofer yw hwn i chwi: o herwydd eich einioes chwi *yw* efe; a thrwy y gair hwn yr estynwch ddyddiau yn y tir yr ydych yn myned iddo dros yr Iorddonen i'w feddiannu.
48 ¶ A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Moses y'nghorph y dydd hwnnw, gan ddywedyd,
49 Esgyn i'r mynydd Abarim hwn, *sef* mynydd Nebo, yr hwn *sydd* yn nhir Moab, ar gyfer Jericho; ac edrych ar wlad Canaan, yr hon yr ydwyf fi yn ei rhoddi i feibion Israel yn etifeddiaeth.
50 A bydd farw yn y mynydd yr esgyni iddo, a chasgler di at dy bobl; megis y bu farw Aaron dy frawd ym mynydd Hor, ac y casglwyd ef at ei bobl:
51 O herwydd gwrthryfelasoch i'm herbyn ym mysg meibion Israel, wrth ddyfroedd cynnen Cades, *yn* anialwch Sin; oblegid ni'm sancteiddiasoch ym mhlith meibion Israel.
52 Canys y wlad a gei di ei gweled ar *dy* gyfer; ond yno nid âi, i'r tir yr ydwyf fi yn *ei* roddi i feibion Israel.

PENNOD 33.

2 Ardderchowgrwydd Duw. 6 Bendithion y deudeg llwyth. 26 Godidowgrwydd Israel.

A DYMA y fendith â'r hon y bendithiodd Moses gŵr DUW feibion Israel, cyn ei farwolaeth.
2 Ac efe a ddywedodd, Yr ARGLWYDD a ddaeth allan o Sinai, ac a gododd o Seir iddynt; ymlewyrchodd o fynydd Paran, ac efe a ddaeth gyd â myrddiwn o saint, *a* thanllyd gyfraith o'i ddeheulaw iddynt.
3 Caru y mae efe y bobl: ei holl saint *ydynt* yn dy law: a hwy a ymlynasant wrth dy draed; *pob un* a dderbyn o'th eiriau.
4 Moses a orchymynodd gyfraith

i ni, yn etifeddiaeth i gynnulleidfa Jacob.

5 Ac efe oedd frenhin yn Israel, pan ymgasglodd pennau y bobl ynghyd *â* llwythau Israel.

6 ¶ Bydded fyw Reuben, ac na fydded farw, ac *na* bydded ei ddynion *ychydig o* rifedi.

7 ¶ *Bydded* hyn hefyd i Judah. Ac efe a ddywedodd, Clyw, O ARGLWYDD, lais Judah, ac at ei bobl dwg ef: digon fyddo iddo ei ddwylaw ei hun, a bydd gymmorth rhag ei elynion.

8 ¶ Ac am Lefi y dywedodd, *Bydded* dy Thummim a'th Urim i'th ŵr sanctaidd, yr hwn a brofaist ym Massah, *ac* a gynhennaist âg ef wrth ddyfroedd Meribah;

9 Yr hwn a ddywedodd am ei dad ac am ei fam, Ni welais ef; a'i frodyr nis adnabu, ac nid adnabu ei blant ei hun: canys cadwasant dy eiriau, a chynhaliasant dy gyfammod.

10 Dysgant dy farnedigaethau i Jacob, a'th gyfraith i Israel: gosodant arogl-darth ger dy fron, a llosg-aberth ar dy allor.

11 Bendithia, O ARGLWYDD, ei olud ef, a bydd foddlawn i waith ei ddwylaw ef: archolla lwynau *y rhai* a godant i'w erbyn, a'i gaseion, fel na chodont.

12 ¶ Am Benjamin y dywedodd efe, Anwylyd yr ARGLWYDD a drig mewn dïogelwch gyd âg ef; yr hwn fydd yn cysgodi drosto ar hyd y dydd, ac yn aros rhwng ei ysgwyddau ef.

13 ¶ Ac am Joseph y dywedodd efe, Ei dir ef *fydd* wedi ei fendigo gan yr ARGLWYDD, â hyfrydwch y nefoedd, â gwlith, ac â dyfnder yn gorwedd isod;

14 *Hefyd* â hyfrydwch cynnyrch yr haul, ac â hyfrydwch addfedffrwyth y lleuadau,

15 Ac â *hyfrydwch* pen mynyddoedd y dwyrain, ac â hyfrydwch bryniau tragywyddoldeb,

16 Ac â hyfrydwch y ddaear, ac â'i chyflawnder, ac âg ewyllys da preswylydd y berth; delo *bendith* ar ben Joseph, ac ar goryn yr hwn a neilluwyd oddi wrth ei frodyr.

17 Ei brydferthwch *sydd debyg* i gyntaf-anedig ei ŷch, a'i gyrn ef *sydd* gyrn unicorn: â hwynt y cornia efe y bobl ynghyd *hŷd* eithafoedd y ddaear: a dyma fyrddiwn Ephraim, ïe, dyma filoedd Manasseh.

18 ¶ Ac am Sabulon y dywedodd efe, Ymlawenycha, Sabulon, yn dy fynediad allan; a *thi*, Issachar, yn dy debyll.

19 Galwant bobloedd i'r mynydd; yna yr aberthant ebyrth cyfiawnder: canys cyfoeth y moroedd a sugnant, a chuddiedig drysorau y tywod.

20 ¶ Ac am Gad y dywedodd efe, Bendigedig yw ehangydd Gad: megis llew y mae efe yn aros, fel y rhwygo efe yr ysgwyddog a'r pen.

21 Edrychodd am dano ei hun yn y dechreuad: canys yno, yn rhan y cyfreithwr, y gosodwyd ef: efe a ddaeth *gyd* â phennaethiaid y bobl; gwnaeth efe gyfiawnder yr ARGLWYDD, a'i farnedigaethau gyd âg Israel.

22 ¶ Am Dan hefyd y dywedodd, Dan yn genaw llew a neidia o Basan.

23 ¶ Ac am Naphtali y dywedodd, O Naphtali, llawn o hawddgarwch, a chyflawn o fendith yr ARGLWYDD: meddianna di y gorllewin a'r dehau.

24 ¶ Ac am Aser y dywedodd, Bendithier Aser â phlant: bydded gymmeradwy *gan* ei frodyr: ac efe a wlych ei droed mewn olew.

25 Haiarn a phres *fydd* dan dy esgid di; a megis dy ddyddiau, *y bydd* dy nerth.

26 ¶ Nid *oes* megis DUW Israel, *yr hwn* sydd yn marchogaeth y nefoedd yn gymmorth i ti, a'r wybrennau yn ei fawredd.

27 *Dy* noddfa *yw* DUW tragywyddol, ac oddi tanodd *y mae* y breichiau tragywyddol: efe *a* wthia dy elyn o'th flaen, ac a ddywed, Difetha *ef*.

28 Israel hefyd a drig ei hun yn ddïogel; ffynnon Jacob *a fydd* mewn tir ŷd a gwin; ei nefoedd hefyd a ddifera wlith.

29 Gwynfydedig wyt, O Israel; pwy *sydd* megis ti, O bobl gadw-

edig gan yr ARGLWYDD, tarian dy gynnorthwy, yr hwn hefyd *yw* cleddyf dy ardderchowgrwydd! a'th elynion a ymostyngant i ti, a thi a sethri ar eu huchel-leoedd hwynt.

PENNOD 34.

1 *Moses oddi ar fynydd Nebo yn gweled y wlad:* 5 *ac yn marw yno.* 6 *Ei gladdedigaeth.* 7 *Ei oedran.* 8 *Galaru am dano dros ddeng niwrnod ar hugain.* 9 *Josua yn dyfod yn ei le ef.* 10 *Clod Moses.*

A MOSES a esgynodd o rosydd Moab, i fynydd Nebo, *i* ben Pisgah, yr hwn *sydd* ar gyfer Jericho: a'r ARGLWYDD a ddangosodd iddo holl wlad Gilead, hyd Dan,

2 A holl Naphtali, a thir Ephraim a Manasseh, a holl dir Judah, hyd y môr eithaf,

3 Y dehau hefyd, a gwastadedd dyffryn Jericho, a dinas y palmwydd, hyd Soar.

4 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrtho, Dyma y tir a fynegais i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, gan ddywedyd, I'th had di y rhoddaf *ef;* perais i ti *ei* weled â'th lygaid, ond nid âi di drosodd yno.

5 ¶ A Moses gwas yr ARGLWYDD a fu farw yno, yn nhir Moab, yn ol gair yr ARGLWYDD.

6 Ac efe a'i claddodd ef mewn glyn yn nhir Moab, gyferbyn â Beth-peor: ac nid edwyn neb ei fedd ef hyd y dydd hwn.

7 ¶ A Moses *ydoedd* fab ugain mlwydd a chant pan fu efe farw: ni thywyllasai ei lygad, ac ni chiliasai ei ireidd-dra ef.

8 ¶ A meibion Israel a wylasant am Moses yn rhosydd Moab ddeng niwrnod ar hugain: a chyflawnwyd dyddiau wylofain galar am Moses.

9 ¶ A Josua mab Nun *oedd* gyflawn o yspryd doethineb; o herwydd Moses a roddasai ei ddwylaw arno: a meibion Israel a wrandawsant arno, ac a wnaethant fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

10 ¶ Ac ni chododd prophwyd *etto* yn Israel megis Moses, yr hwn a adnabu yr ARGLWYDD wyneb yn wyneb;

11 Ym mhob *rhyw* arwyddion a rhyfeddodau, y rhai yr anfonodd yr ARGLWYDD ef i'w gwneuthur yn nhir yr Aipht, ar Pharaoh, ac ar ei holl weision, ac ar ei holl dir ef,

12 Ac yn yr holl law gadarn, ac yn yr holl ofn mawr, y rhai a wnaeth Moses y'ngolwg holl Israel.

LLYFR JOSUA.

PENNOD 1.

1 *Yr Arglwydd yn gorchymyn i Josua gymmeryd ôl Moses.* 3 *Terfynau gwlad yr addewid.* 5, 9 *Duw yn addaw cynnorthwyo Josua;* 8 *ac yn rhoddi iddo addysg.* 10 *Ynlau yn parottôi y bobl i fyned dros yr Iorddonen;* 12 *ac yn dwyn ar gôf i'r ddau lwyth a hanner eu haddewid wrth Moses.* 16 *Hwythau yn addaw ufuddhâu iddo ef.*

AC wedi marwolaeth Moses, gwas yr ARGLWYDD, y llefarodd yr ARGLWYDD wrth Josua mab Nun, gweinidog Moses, gan ddywedyd,

2 Moses fy ngwas a fu farw: gan hynny cyfod yn awr, dos dros yr Iorddonen hon, ti, a'r holl bobl hyn, i'r wlad yr ydwyf fi yn *ei* rhoddi iddynt hwy, meibion Israel.

3 Pob man y sango gwadn eich troed chwi arno, a roddais i chwi; fel y lleferais wrth Moses.

4 O'r anialwch, a'r Libanus yma, hyd yr afon fawr, afon Euphrates, holl wlad yr Hethiaid, hyd y môr mawr, tu a machludiad yr haul, fydd eich terfyn chwi.

5 Ni saif neb o'th flaen di holl ddyddiau dy einioes: megis y bûm gyd â Moses, y byddaf gyd â thithau: ni'th adawaf, ac ni'th wrthodaf.

6 Ymgryfhâ, ac ymwrola: canys ti a wnei i'r bobl hyn etifeddu y wlad yr hon a dyngais wrth eu tadau ar *ei* rhoddi iddynt.

7 Yn unig ymgryfhâ, ac ymwrola

yn lew, i gadw ar wneuthur yn ol yr holl gyfraith a orchymynodd Moses fy ngwas i ti: na ogwydda oddi wrthi, ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy; fel y ffynnech i ba le bynnag yr elych.

8 Nac ymadawed llyfr y gyfraith hon o'th enau, eithr myfyria ynddo ddydd a nos; fel y cedwych ar wneuthur yn ol yr hyn oll *sydd* ysgrifenedig ynddo: canys yna y llwyddi yn dy ffyrdd, ac yna y ffynni.

9 Oni orchymynais i ti? Ymgryfhâ, ac ymwrola; nac arswyda, ac nac ofna: canys yr ARGLWYDD dy DDUW *fydd* gyd â thi, i ba le bynnag yr elych.

10 ¶ Yna Josua a orchymynodd i lywodraethwyr y bobl, gan ddywedyd,

11 Tramwywch trwy ganol y llu, a gorchymynwch i'r bobl, gan ddywedyd, Parottôwch i chwi luniaeth: canys o fewn tridiau y byddwch chwi yn myned dros yr Iorddonen hon, i ddyfod i feddiannu y wlad y mae yr ARGLWYDD eich DUW yn *ei* rhoddi i chwi i'w meddiannu.

12 ¶ Wrth y Reubeniaid hefyd, ac wrth y Gadiaid, ac wrth hanner llwyth Manasseh, y llefarodd Josua, gan ddywedyd,

13 Cofiwch y gair a orchymynodd Moses gwas yr ARGLWYDD i chwi, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD eich DUW a esmwythaodd arnoch, ac a roddodd i chwi y wlad hon.

14 Eich gwragedd, eich plant, a'ch anifeiliaid, a drigant yn y wlad a roddodd Moses i chwi o'r tu yma i'r Iorddonen: ond chwychwi a ewch drosodd yn arfogion o flaen eich brodyr, y sawl *ydych* gedyrn o nerth, a chynnorthwywch hwynt;

15 Nes rhoddi o'r ARGLWYDD lonyddwch i'ch brodyr, fel i chwithau, a meddiannu o honynt hwythau y wlad y mae yr ARGLWYDD eich DUW yn ei rhoddi iddynt: yna dychwelwch i wlad eich etifeddiaeth, a meddiennwch hi, yr hon a roddodd Moses gwas yr ARGLWYDD i chwi, o'r tu yma i'r Iorddonen, tu a chodiad yr haul.

16 ¶ Hwythau a attebasant Josua, gan ddywedyd, Ni a wnawn yr hyn oll a orchymynaist i ni; awn *hefyd* i ba le bynnag yr anfonych ni.

17 Fel y gwrandawsom ár Moses *ym* mhob peth, felly y gwrandâwn arnat tithau: yn unig bydded yr ARGLWYDD dy DDUW gyd â thi, megis y bu gyd â Moses.

18 Pwy bynnag a anufuddhao dy orchymyn, ac ni wrandawo ar dy ymadroddion, yn yr hyn oll a orchymynech iddo, rhodder ef i farwolaeth: yn unig ymgryfhâ, ac ymwrola.

PENNOD 2.

1 *Rahab yn derbyn ŷ'w thŷ, ac yn celu y ddau ysbïwr a ddanfonasid o Sittim.* 8 *Y cyfammod rhynddi hi a hwynt.* 23 *Eu dychweliad a'u newyddion hwynt.*

A JOSUA mab Nun a anfonodd o Sittim ddau ŵr, i chwilio yn ddirgel, gan ddywedyd, Ewch, edrychwch y wlad, a Jericho. A hwy a aethant, ac a ddaethant i dŷ putteinwraig a'i henw Rahab, ac a lettyasant yno.

2 A mynegwyd i frenhin Jericho, gan ddywedyd, Wele, gwŷr a ddaethant yma heno, o feibion Israel, i chwilio y wlad.

3 A brenhin Jericho a anfonodd at Rahab, gan ddywedyd, Dwg allan y gwŷr a ddaeth attat, y rhai a ddaeth i'th dŷ di; canys i chwilio yr holl wlad y daethant.

4 Ond y wraig a gymmerasai y ddau ŵr, ac a'u cuddiasai hwynt, ac a ddywedodd fel hyn; Gwŷr a ddaeth attaf fi, ond ni wyddwn i o ba le *y daethent* hwy.

5 A phan gauwyd y porth yn y tywyllwch, y gwŷr a aeth allan; ni wn i ba le yr aeth y gwŷr: canlynwch yn fuan ar eu hol hwynt; canys chwi a'u goddiweddwch hwynt.

6 Ond hi a barasai iddynt esgyn i nen y tŷ, ac a'u cuddiasai hwynt mewn bolldeidiau llin, y rhai oedd ganddi wedi eu hysgafnu ar nen y tŷ.

7 A'r gwŷr a ganlynasant ar eu hol hwynt, tu a'r Iorddonen, hyd y rhydau: a'r porth a gauwyd, cyn gynted ag yr aeth y rhai oedd yn erlid ar eu hol hwynt allan.

8 ¶ A chyn iddynt hwy gysgu, hi a aeth i fyny attynt hwy ar nen *y tŷ:*

9 A hi a ddywedodd wrth y gwŷr,

Mi a wn roddi o'r ARGLWYDD i chwi y wlad; o herwydd eich arswyd chwi a syrthiodd arnom ni, a holl drigolion y wlad a ddigalonnasant rhag eich ofn.

10 Canys ni a glywsom fel y sychodd yr ARGLWYDD ddyfroedd y môr coch o'ch blaen chwi, pan ddaethoch allan o'r Aipht; a'r hyn a wnaethoch i ddau frenhin yr Amoriaid, y rhai *oedd* tu hwnt i'r Iorddonen, *sef* i Sehon ac i Og, y rhai a ddifrodasoch chwi.

11 A phan glywsom, yna y'n digalonnwyd, fel na safodd mwyach gysur yn neb, rhag eich ofn: canys yr ARGLWYDD eich DUW, efe *sydd* DDUW yn y nefoedd uchod, ac ar y ddaear isod.

12 Yn awr gan hynny, tyngwch, attolwg, wrthyf, myn yr ARGLWYDD, o herwydd i mi wneuthur trugaredd â chwi, y gwnewch chwithau hefyd drugaredd â thŷ fy nhad innau; ac y rhoddwch i mi arwydd gwir:

13 Ac y cedwch yn fyw fy nhad, a'm mam, a'm brodyr, a'm chwiorydd, a'r hyn oll *sydd* ganddynt, ac y gwaredwch ein heinioes rhag angau.

14 A'r gwŷr a ddywedasant wrthi, Ein heinioes *a roddwn* i farw drosoch, (os chwi ni fynegwch ein neges hyn,) pan roddo yr ARGLWYDD i ni y wlad hon, oni wnawn â chwi drugaredd a gwirionedd.

15 Yna hi a'u gollyngodd hwynt i waered wrth raff trwy y ffenestr: canys ei thŷ hi *oedd* ar fur y ddinas, ac ar y mur yr oedd hi yn trigo.

16 A hi a ddywedodd wrthynt, Ewch i'r mynydd, rhag i'r erlidwyr gyfarfod â chwi: ac ymguddiwch yno dridiau, nes dychwelyd yr erlidwyr; ac wedi hynny ewch i'ch ffordd.

17 A'r gwŷr a ddywedasant wrthi, Dïeuog *fyddwn* ni oddi wrth dy lw yma â'r hwn y'n tyngaist.

18 Wele, *pan* ddelom ni i'r wlad, rhwym y llinyn yma o edau goch yn y ffenestr y gollyngaist ni i lawr trwyddi: casgl hefyd dy dad, a'th fam, a'th frodyr, a holl dylwyth dy dad, attat i'r tŷ yma.

19 A phwy bynnag a êl o ddrysau dy dŷ di allan i'r heol, ei waed ef *fydd* ar ei ben ei hun, a ninnau *a fyddwn* ddïeuog: a phwy bynnag fyddo gyd â thi yn tŷ, *bydded* ei waed ef ar ein pennau ni, o bydd llaw arno ef.

20 Ac os mynegi di ein neges hyn, yna y byddwn ddïeuog oddi wrth dy lw â'r hwn y'n tyngaist.

21 A hi a ddywedodd, Yn ol eich geiriau, felly *y byddo* hynny. Yna hi a'u gollyngodd hwynt; a hwy a aethant ymaith. A hi a rwymodd y llinyn coch yn y ffenestr.

22 A hwy a aethant, ac a ddaethant i'r mynydd; ac a arhosasant yno dridiau, nes i'r erlidwyr ddychwelyd. A'r erlidwyr a'u ceisiasant ar hyd yr holl ffordd; ond nis cawsant.

23 ¶ Felly y ddau ŵr a ddychwelasant, ac a ddisgynasant o'r mynydd, ac a aethant drosodd, a daethant at Josua mab Nun; a mynegasant iddo yr hyn oll a ddigwyddasai iddynt:

24 A dywedasant wrth Josua, Yn ddïau yr ARGLWYDD a roddodd yr holl wlad yn ein dwylaw ni; canys holl drigolion y wlad a ddigalonnasant rhag ein hofn ni.

PENNOD 3.

1 Josua yn dyfod i'r Iorddonen. 2 Y swyddogion yn dysgu i'r bobl fyned trwodd. 7 Yr Arglwydd yn cysuro Josua. 9 Josua yn cysuro y bobl. 14 Holltti dyfroedd yr Iorddonen.

A JOSUA a gyfododd yn fore, a chychwynasant o Sittim, a daethant hyd yr Iorddonen, efe a holl feibion Israel: llettyasant yno, cyn iddynt fyned drosodd.

2 Ac ym mhen y tridiau, y llywiawdwyr a dramwyasant trwy ganol y llu;

3 Ac a orchymynasant i'r bobl, gan ddywedyd, Pan weloch chwi arch cyfammod yr ARGLWYDD eich DUW, a'r offeiriaid y Lefiaid yn ei dwyn hi; yna cychwynwch chwi o'ch lle, ac ewch ar ei hol hi.

4 Etto bydded ennyd rhyngoch chwi a hithau, ynghylch dwy fil o gufyddau wrth fesur: na nesêwch atti, fel y gwypoch y ffordd y rhodioch ynddi: canys ni thramwyasoch y ffordd *hon* o'r blaen.

5 A Josua a ddywedodd wrth y bobl, Ymsancteiddiwch: canys y

fory y gwna yr ARGLWYDD ryfeddodau yn eich mysg chwi.

6 Josua hefyd a lefarodd wrth yr offeiriaid, gan ddywedyd, Codwch arch y cyfammod, ac ewch drosodd o flaen y bobl. A hwy a godasant arch y cyfammod, ac a aethant o flaen y bobl.

7 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Josua, Y dydd hwn y dechreuaf dy fawrhâu di y'ngŵydd holl Israel: fel y gwypont, mai megis y bûm gyd â Moses, y byddaf gyd â thithau.

8 Am hynny gorchymyn di i'r offeiriaid sydd yn dwyn arch y cyfammod, gan ddywedyd, Pan ddelych hyd gwr dyfroedd yr Iorddonen, sefwch yn yr Iorddonen.

9 ¶ A Josua a ddywedodd wrth feibion Israel, Nesêwch yma, a gwrandêwch eiriau yr ARGLWYDD eich DUW.

10 Josua hefyd a ddywedodd, Wrth hyn y cewch wybod *fod* y DUW byw yn eich mysg chwi; a chan yrru y gyr efe allan y Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Hefiaid, a'r Pheresiaid, a'r Girgasiaid, yr Amoriaid *hefyd*, a'r Jebusiaid, o'ch blaen chwi.

11 Wele arch cyfammod Arglwydd yr holl ddaear yn myned o'ch blaen chwi i'r Iorddonen.

12 Gan hynny cymmerwch yn awr ddeuddengwr o lwythau Israel, un gŵr o bob llwyth.

13 A phan orphwyso gwadnau traed yr offeiriaid, sydd yn dwyn arch ARGLWYDD IOR yr holl fyd, yn nyfroedd yr Iorddonen, *yna* dyfroedd yr Iorddonen a dorrir ymaith *oddi wrth* y dyfroedd sydd yn disgyn oddi uchod: hwy a safant yn bentwr.

14 ¶ A phan gychwynodd y bobl o'u pebyll, i fyned dros yr Iorddonen, a'r offeiriaid oedd yn dwyn arch y cyfammod o flaen y bobl;

15 A phan ddaeth y rhai oedd yn dwyn yr arch hyd yr Iorddonen, a gwlychu o draed yr offeiriaid, oedd yn dwyn yr arch, y'nghwr y dyfroedd, (a'r Iorddonen a lanwai dros ei glannau oll holl ddyddiau y cynhauaf,)

16 Yna y dyfroedd, y rhai oedd yn disgyn oddi uchod, a safasant; cyfodasant yn bentwr ym mhell iawn oddi wrth y ddinas Adam, yr hon *sydd* o ystlys Saretan: a'r *dyfroedd* y rhai oedd yn disgyn i fôr y rhos, *sef* i'r môr heli, a ddarfuant, *ac* a dorrwyd ymaith. Felly y bobl a aethant drosodd ar gyfer Jericho.

17 A'r offeiriaid, y rhai oedd yn dwyn arch cyfammod yr ARGLWYDD, a safasant ar dir sych, y'nghanol yr Iorddonen, yn daclus: a holl Israel oedd yn myned drosodd ar dir sych, nes darfod i'r holl genedl fyned trwy yr Iorddonen.

PENNOD 4.

1 Gorchymyn deuddeg o wŷr i gymmeryd deuddeg carreg allan o'r Iorddonen, er coffadwriaeth. 9 Gosod deuddeg eraill o gerrig y'nghanol yr Iorddonen. 10, 19 Y bobl yn myned drwodd. 14 Duw yn anrhydeddu Josua. 20 Sefydlu y deuddeg carreg yn Gilgal.

A PHAN ddarfu i'r holl genedl fyned trwy yr Iorddonen, yr ARGLWYDD a lefarodd wrth Josua, gan ddywedyd,

2 Cymmerwch i chwi ddeuddengwr o'r bobl, un gŵr o bob llwyth;

3 A gorchymynwch iddynt, gan ddywedyd, Cymmerwch i chwi oddi yma, o ganol yr Iorddonen, o'r fan y mae traed yr offeiriaid yn sefyll yn daclus, ddeuddeg o gerrig; a dygwch hwynt drosodd gyd â chwi, a gosodwch hwynt yn y lletty y llettŷoch ynddo heno.

4 Yna Josua a alwodd am y deuddengwr a barottoisai efe o feibion Israel, un gŵr o bob llwyth:

5 A dywedodd Josua wrthynt, Ewch trosodd o flaen arch yr ARGLWYDD eich DUW, trwy ganol yr Iorddonen; a chodwch i chwi bob un ei garreg ar ei ysgwydd, yn ol rhifedi llwythau meibion Israel:

6 Fel y byddo hyn yn arwydd yn eich mysg chwi, pan ofyno eich meibion chwi yn ol hyn, gan ddywedyd, Beth *y mae* y cerrig hyn *yn ei arwyddoccâu* i chwi?

7 Yna y dywedwch wrthynt, Dorri ymaith ddyfroedd yr Iorddonen o flaen arch cyfammod yr ARGLWYDD; pan oedd hi yn myned trwy yr Iorddonen, dyfroedd yr Iorddonen a dorrwyd ymaith. Y mae

y cerrig hyn yn goffadwriaeth i feibion Israel byth.

8 A meibion Israel a wnaethant felly fel y gorchymynasai Josua; ac a gymmerasant ddeuddeg carreg o ganol yr Iorddonen, fel y llefarasai yr ARGLWYDD wrth Josua, yn ol rhifedi llwythau meibion Israel, ac a'u dygasant drosodd gyd â hwynt i'r lletty, ac a'u cyfleasant yno.

9 A Josua a osododd i fyny ddeuddeg carreg y'nghanol yr Iorddonen, yn y lle yr *oedd* traed yr offeiriaid, oedd yn dwyn arch y cyfammod, yn sefyll: ac y maent yno hyd y dydd hwn.

10 ¶ A'r offeiriaid, y rhai oedd yn dwyn yr arch, a safasant y'nghanol yr Iorddonen, nes gorphen pob peth a orchymynasai yr ARGLWYDD i Josua ei lefaru wrth y bobl, yn ol yr hyn oll a orchymynasai Moses wrth Josua: a'r bobl a frysiasant, ac a aethant drosodd.

11 A phan ddarfu i'r holl bobl fyned drosodd, yna arch yr ARGLWYDD a aeth drosodd, a'r offeiriaid, y'ngŵydd y bobl.

12 Meibion Reuben *hefyd*, a meibion Gad, a hanner llwyth Manasseh, a aethant drosodd yn arfogion o flaen meibion Israel, fel y llefarasai Moses wrthynt:

13 Ynghylch deugain mil, yn arfogion i ryfel, a aethant drosodd o flaen yr ARGLWYDD i ryfel, i rosydd Jericho.

14 ¶ Y dwthwn hwnnw yr ARGLWYDD a fawrhaodd Josua yng ngolwg holl Israel; a hwy a'i hofnasant ef, fel yr ofnasant Moses, holl ddyddiau ei einioes.

15 A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Josua, gan ddywedyd,

16 Gorchymyn i'r offeiriaid, sydd yn dwyn arch y dystiolaeth, ddyfod o honynt i fyny allan o'r Iorddonen.

17 Am hynny Josua a orchymynodd i'r offeiriaid, gan ddywedyd, Deuwch i fyny allan o'r Iorddonen.

18 A phan ddaeth yr offeiriaid, oedd yn dwyn arch cyfammod yr ARGLWYDD, i fyny o ganol yr Iorddonen, *a* sengi o wadnau traed yr offeiriaid ar y sychdir; yna dyfrpedd yr Iorddonen a ddychwelasant i'w lle, ac a aethant, megis cynt, dros ei holl geulennydd.

19 ¶ A'r bobl a ddaethant i fyny o'r Iorddonen y degfed *dydd* o'r mis cyntaf; ac a wersyllasant yn Gilgal, yn eithaf tu dwyrain Jericho.

20 ¶ A'r deuddeg carreg hynny, y rhai a ddygasent o'r Iorddonen, a sefydlodd Josua yn Gilgal.

21 Ac efe a lefarodd wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pan ofyno eich meibion chwi yn ol hyn i'w tadau, gan ddywedyd, Beth *yw* y cerrig hyn?

22 Yna yr hysbyswch i'ch meibion, gan ddywedyd, Israel a ddaeth trwy yr Iorddonen hon ar dir sych.

23 Canys yr ARGLWYDD eich DUW chwi a sychodd ddyfroedd yr Iorddonen o'ch blaen chwi, nes i chwi fyned drwodd; megis y gwnaeth yr ARGLWYDD eich DUW i'r môr coch, yr hwn a sychodd efe o'n blaen ni, nes i ni fyned drwodd:

24 Fel yr adnabyddo holl bobloedd y ddaear law yr ARGLWYDD, mai nerthol *yw*; fel yr ofnoch yr ARGLWYDD eich DUW bob amser.

PENNOD 5.

1 *Arswyd y Canaaneaid.* 2 *Josua yn adnewyddu yr enwaediad.* 10 *Cadw y Pasc yn Gilgal.* 12 *Y manna yn darfod.* 13 *Angel yn ymddangos i Josua.*

PAN glybu holl frenhinoedd yr Amoriaid, y rhai *oedd* o'r tu hwnt i'r Iorddonen tu a'r gorllewin, a holl frenhinoedd y Canaaneaid, y rhai *oedd* wrth y môr, sychu o'r ARGLWYDD ddyfroedd yr Iorddonen o flaen meibion Israel, nes eu myned hwy drwodd; yna y digalonnwyd hwynt, fel nad oedd yspryd mwyach ynddynt, rhag ofn meibion Israel.

2 ¶ Y pryd hwnnw y dywedodd yr ARGLWYDD wrth Josua, Gwna i ti gyllyll llymion, ac enwaeda ar feibion Israel drachefn yr ail waith.

3 A Josua a wnaeth iddo gyllyll llymion, ac a enwaedodd ar feibion Israel, ym mryn y blaengrwyn.

4 A dyma yr achos *a wnaeth* i Josua enwaedu: Yr holl bobl, *sef* y gwrrywiaid y rhai a ddaethent o'r Aipht, yr holl ryfelwyr, a fuasent feirw yn yr anialwch ar y ffordd, wedi eu dyfod allan o'r Aipht.

5 Canys yr holl bobl a'r a ddaeth-

ent allan, oedd enwaededig; ond y bobl oll *y rhai* a anesid yn yr anialwch, ar y ffordd, wedi eu dyfod hwy allan o'r Aipht, nid enwaedasent *arnynt.*

6 Canys deugain mlynedd y rhodiasai meibion Israel yn yr anialwch, nes darfod yr holl bobl o'r rhyfelwyr a ddaethent o'r Aipht, y rhai ni wrandawsent ar lef yr ARGLWYDD: y rhai y tyngasai yr ARGLWYDD wrthynt, na ddangosai efe iddynt y wlad a dyngasai yr ARGLWYDD wrth eu tadau y rhoddai efe i ni; *sef* gwlad yn llifeirio o laeth a mêl.

7 A Josua a enwaedodd ar eu meibion hwy, *y rhai* a gododd yn eu lle hwynt: canys dïenwaededig oeddynt hwy, am nad enwaedasid arnynt ar y ffordd.

8 A phan ddarfu enwaedu ar yr holl bobl; yna yr arhosasant yn eu hunlle, yn y gwersyll, nes eu hiachâu.

9 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Josua, Heddyw y treiglais ymaith waradwydd yr Aipht oddi arnoch: am hynny efe a alwodd enw y lle hwnnw Gilgal, hyd y dydd heddyw.

10 ¶ A meibion Israel a wersyllasant yn Gilgal: a hwy a gynhaliasant y Pasc, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, brydnawn, yn rhosydd Jericho.

11 A hwy a fwyttasant o hen ŷd y wlad, drannoeth wedi y Pasc, fara croyw, a chras-*ŷd*, o fewn corph y dydd hwnnw.

12 ¶ A'r manna a beidiodd drannoeth wedi iddynt fwytta o hen ŷd y wlad; a manna ni chafodd meibion Israel mwyach, eithr bwyttasant o gynnyrch gwlad y Canaaneaid y flwyddyn honno.

13 ¶ A phan oedd Josua wrth Jericho, yna efe a ddyrchafodd ei lygaid, ac a edrychodd; ac wele ŵr yn sefyll gyferbyn âg ef, â'i gleddyf noeth yn ei law. A Josua a aeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, Ai gyd â ni yr *ydwyt* ti, ai gyd â'n gwrthwynebwyr?

14 Dywedodd yntau, Nag ê; eithr yn dywysog llu yr ARGLWYDD yn awr y deuthum. A Josua a syrthiodd i lawr ar ei wyneb, ac a addolodd; ac a ddywedodd wrtho ef, Beth y mae fy Arglwydd yn ei ddywedyd wrth ei was?

15 A thywysog llu yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth Josua, Dattod dy esgidiau oddi am dy draed; canys y lle yr wyt ti yn sefyll arno, *sydd* sanctaidd. A Josua a wnaeth felly.

PENNOD 6.

1 Cau Jericho. 2 Duw yn dysgu Josua pa fodd y gwarchaeir arni. 11 Amgylchu y dref. 17 Rhaid iddi fod yn ddiofryd-beth. 20 Y muriau yn syrthio. 22 Arbed Rahab. 26 Melldithio adeiladwr Jericho.

A JERICHO oedd gauedig a gwarchaëedig, o herwydd meibion Israel: nid *oedd neb* yn myned allan, nac yn dyfod i mewn.

2 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Josua, Gwel, rhoddais yn dy law di Jericho a'i brenhin, gwŷr grymmus o nerth.

3 A chwi a amgylchwch y ddinas, *chwi* ryfelwyr oll, gan fyned o amgylch y ddinas un waith: gwnewch felly chwe diwrnod.

4 A dyged saith o offeiriaid saith o udgyrn o gyrn hyrddod o flaen yr arch: a'r seithfed dydd yr amgylchwch y ddinas saith waith; a lleisied yr offeiriaid â'r udgyrn.

5 A phan ganer yn hirllaes â chorn yr hwrdd, *a* phan glywoch sain yr udgorn, bloeddied yr holl bobl â bloedd uchel: a syrth mur y ddinas dani hi, ac eled y bobl i fyny bawb ar ei gyfer.

6 ¶ A Josua mab Nun a alwodd yr offeiriaid, ac a ddywedodd wrthynt, Codwch arch y cyfammod, a dyged saith o offeiriaid saith o udgyrn o gyrn hyrddod o flaen arch yr ARGLWYDD.

7 Ac efe a ddywedodd wrth y bobl, Cerddwch, ac amgylchwch y ddinas; a'r hwn sydd arfog, eled o flaen arch yr ARGLWYDD.

8 ¶ A phan ddywedodd Josua wrth y bobl, yna y saith offeiriad, y rhai oedd yn dwyn y saith udgorn o gyrn hyrddod, a gerddasant o flaen yr ARGLWYDD, ac a leisiasant â'r udgyrn: ac arch cyfammod yr ARGLWYDD oedd yn myned ar eu hol hwynt.

9 ¶ A r rhai arfog oedd yn myned o flaen yr offeiriaid oedd yn lleisio â'r udgyrn; a'r fyddin olaf oedd yn

myned ar ol yr arch, *a'r offeiriaid* yn myned rhagddynt, ac yn lleisio â'r udgyrn.

10 A Josua a orchymynasai i'r bobl, gan ddywedyd, Na floeddiwch, ac na edwch glywed eich llais, ac nac eled gair allan o'ch genau, hyd y dydd y dywedwyf wrthych, Bloeddiwch; yna y bloeddiwch.

11 Felly arch yr ARGLWYDD a amgylchodd y ddinas, gan fyned o'*i* hamgylch un waith: a daethant i'r gwersyll, a llettyasant yn y gwersyll.

12 ¶ A Josua a gyfododd yn fore; a'r offeiriaid a ddygasant arch yr ARGLWYDD.

13 A'r saith offeiriad, yn dwyn saith o udgyrn o gyrn hyrddod o flaen arch yr ARGLWYDD, oeddynt yn myned dan gerdded, ac yn lleisio â'r udgyrn: a'r rhai arfog oedd yn myned o'u blaen hwynt: a'r fyddin olaf oedd yn myned ar ol arch yr ARGLWYDD, *a'r offeiriaid* yn myned rhagddynt, ac yn lleisio â'r udgyrn.

14 Felly yr amgylchynasant y ddinas un waith yr ail ddydd; a dychwelasant i'r gwersyll: fel hyn y gwnaethant chwe diwrnod.

15 Ac ar y seithfed dydd y cyfodasant yn fore ar godiad y wawr, ac yr amgylchasant y ddinas y modd hwnnw, saith waith: yn unig y dwthwn hwnnw yr amgylchasant y ddinas seithwaith.

16 A phan leisiodd yr offeiriaid yn eu hudgyrn y seithfed waith, yna Josua a ddywedodd wrth y bobl, Bloeddiwch; canys rhoddodd yr ARGLWYDD y ddinas i chwi.

17 ¶ A'r ddinas fydd yn ddïofrydbeth, hi, a'r hyn oll *sydd* ynddi, i'r ARGLWYDD: yn unig Rahab y butteinwraig fydd byw, hi a chwbl ag *sydd* gyd â hi yn tŷ; canys hi a guddiodd y cenhadau a anfonasom ni.

18 Ac ymgedwch chwithau oddi wrth y dïofryd-beth, rhag eich gwneuthur eich hun yn ddïofrydbeth, os cymmerwch o'r dïofrydbeth; felly y gwnaech wersyll Israel yn ddïofryd-beth, ac y trallodech hi.

19 Ond yr holl arian a'r aur, a'r llestri pres a haiarn, *fyddant* gyssegredig i'r ARGLWYDD: deled *y rhai hynny* i mewn i drysor yr ARGLWYDD.

20 ¶ A bloeddiodd y bobl, pan leisiasant â'r udgyrn. A phan glybu y bobl lais yr udgyrn, yna y bobl a waeddasant â bloedd uchel; a'r mur a syrthiodd i lawr oddi tanodd. Felly y bobl a aethant i fyny i'r ddinas, pob un ar ei gyfer, ac a ennillasant y ddinas.

21 A hwy a ddifrodasant yr hyn oll *oedd* yn y ddinas, yn ŵr ac yn wraig, yn fachgen ac yn henafgwr, yn eidion, ac yn ddafad, ac yn asyn, â min y cleddyf.

22 ¶ A Josua a ddywedodd wrth y ddau ŵr a fuasai yn edrych ansawdd y wlad, Ewch i dŷ y butteinwraig, a dygwch allan oddi yno y wraig, a'r hyn oll *sydd* iddi, fel y tyngasoch wrthi.

23 Felly y llangciau a fuasai yn edrych *ansawdd y wlad*, a aethant i mewn, ac a ddygasant allan Rahab, a'i thad, a'i mam, a'i brodyr, a chwbl a'r a feddai hi: dygasant allan hefyd ei holl dylwyth hi, a gosodasant hwynt o'r tu allan i wersyll Israel.

24 A llosgasant y ddinas â thân, a'r hyn oll *oedd* ynddi: yn unig yr arian a'r aur, a'r llestri pres a haiarn, a roddasant hwy yn nhrysor yr ARGLWYDD.

25 A Josua a gadwodd yn fyw Rahab y butteinwraig, a thylwyth ei thad, a'r hyn oll *oedd* ganddi; a hi a drigodd ym mysg Israel hyd y dydd hwn: am iddi guddio y cenhadau a anfonasai Josua i chwilio Jericho.

26 ¶ A Josua a'*u* tynghedodd *hwy* y pryd hwnnw, gan ddywedyd, Melldigedig ger bron yr ARGLWYDD *fyddo* y gŵr a gyfyd ac a adeilado y ddinas hon Jericho: yn ei gyntafanedig y seilia efe hi, ac yn ei *fab* ieuangaf y gesyd efe ei phyrth hi.

27 Felly yr ARGLWYDD oedd gyd â Josua; ac aeth ei glod ef trwy yr holl wlad.

PENNOD 7.

1 *Taro yr Israeliaid wrth Ai.* 6 *Cŵym Josua.* 10 *Duw ym dangos iddo beth a wnai.* 16 *Dala Achan wrth y coelbren:* 19 *ei gyffes:* 22 *ei ddinystrio ef a'r hyn oll oedd iddo, yn nyffrym Achor.*

OND meibion Israel a wnaethant gamwedd am y dïofryd-beth: canys Achan mab Carmi, mab

Sabdi, mab Serah, o lwyth Judah, a gymmerodd o'r diofryd-beth: ac ennynodd diglionedd yr ARGLWYDD yn erbyn meibion Israel.

2 A Josua a anfonodd wŷr o Jericho i Ai, yr hon *sydd* wrth Bethafen, o du y dwyrain i Bethel, ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, Ewch i fyny, ac edrychwch y wlad. A'r gwŷr a aethant i fyny, ac a edrychasant ansawdd Ai.

3 A hwy a ddychwelasant at Josua, ac a ddywedasant wrtho, Nac eled yr holl bobl i fyny; *ond* ynghylch dwy fil o wŷr, neu dair mil o wŷr, a ânt i fyny, ac a darawant Ai: na phoenwch yr holl bobl yno; canys ychydig *ydynt* hwy.

4 Felly fe a aeth o'r bobl i fyny yno ynghylch tair mil o wŷr: a hwy a ffoisant o flaen gwŷr Ai.

5 A gwŷr Ai a darawsant ynghylch un gŵr ar bymtheg ar hugain o honynt; ac a'u hymlidiasant o flaen y porth hyd Sebarim, a tharawsant hwynt yn y goriwaered: am hynny y toddodd calonnau y bobl, ac yr aethant fel dwfr.

6 ¶ A Josua a rwygodd ei ddillad, ac a syrthiodd i lawr ar ei wyneb o flaen arch yr ARGLWYDD, hyd yr hwyr, efe a henuriaid Israel, ac a ddodasant lwch ar eu pennau.

7 A dywedodd Josua, Ah, ah, O ARGLWYDD IOR, i ba beth y dygaist y bobl yma dros yr Iorddonen, i'n rhoddi ni yn llaw yr Amoriaid, i'n difetha? O na buasem foddlawn, ac *na* thrigasem tu hwnt i'r Iorddonen!

8 O ARGLWYDD, beth a ddywedaf, pan dry Israel *ei* war o flaen ei elynion!

9 Canys y Canaaneaid, a holl drigolion y wlad, a glywant, ac a'n hamgylchynant, ac a dorrant ymaith ein henw oddi ar y ddaear: a pha beth a wnei i'th enw mawr?

10 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Josua, Cyfod; paham yr ydwyt yn gorwedd fel hyn ar dy wyneb?

11 Israel a bechodd, a throseddasant fy nghyfammod a orchymynais iddynt: cymmerasant hefyd o'r diofryd-beth, ïe, lladrattasant, a gwadasant; gosodasant hefyd *hynny* ym mysg eu dodrefn eu hun.

12 Am hynny ni ddichon meibion Israel sefyll yn wyneb eu gelynion, *eithr* troant *eu* gwar o flaen eu gelynion; am eu bod yn ysgymmunbeth: ni byddaf mwyach gyd â chwi, oni ddifethwch yr ysgymmunbeth o'ch mysg.

13 Cyfod, sancteiddia y bobl, a dywed, Ymsancteiddiwch erbyn y fory: canys fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel; Diofryd-beth *sydd* yn dy blith di, O Israel: ni elli sefyll yn wyneb dy elynion, nes tynnu ymaith y diofryd-beth o'ch mysg.

14 Am hynny nesêwch y bore wrth eich llwythau: a'r llwyth a ddalio yr ARGLWYDD, nesâed bob yn deulu; a'r teulu a ddalio yr ARGLWYDD, nesâed bob yn dŷ; a'r tŷ a ddalio yr ARGLWYDD, nesâed bob yn ŵr.

15 A'r hwn a ddelir a'r diofryd-beth *ganddo*, a losgir â thân, efe ac oll *sydd* ganddo: o herwydd iddo droseddu cyfammod yr ARGLWYDD, ac o herwydd iddo wneuthur ynfydrwydd yn Israel.

16 ¶ Felly Josua a gyfododd yn fore, ac a ddug Israel wrth eu llwythau: a llwyth Judah a ddaliwyd.

17 Ac efe a ddynesodd deulu Judah; a daliwyd teulu y Sarhiaid: ac efe a ddynesodd deulu y Sarhiaid bob yn ŵr; a daliwyd Sabdi:

18 Ac efe a ddynesodd ei dŷaid ef bob yn ŵr; a daliwyd Achan mab Carmi, mab Sabdi, mab Serah, o lwyth Judah.

19 A Josua a ddywedodd wrth Achan, Fy mab, attolwg, dyro ogoniant i ARGLWYDD DDUW Israel, a chyffesa iddo; a mynega yn awr i mi beth a wnaethost: na chela oddi wrthyf.

20 Ac Achan a attebodd Josua, ac a ddywedodd, Yn wir myfi a bechais yn erbyn ARGLWYDD DDUW Israel; canys fel hyn ac fel hyn y gwneuthum.

21 Pan welais ym mysg yr yspail fantell Babilonig dêg, a dau can sicl o arian, ac un llafn aur o ddeg sicl a deugain ei bwys; yna y chwennychais hwynt, ac a'u cymmerais: ac wele hwy yn guddiedig yn y ddaear y'nghanol fy mhabell, a'r arian danynt.

22 ¶ Yna Josua a anfonodd gen-

hadau; a hwy a redasant i'r babell: ac wele hwynt yn guddiedig yn ei babell ef, a'r arian danynt.

23 Am hynny hwy a'u cymmerasánt o ganol y babell, ac a'u dygasant at Josua, ac at holl feibion Israel; ac a'u gosodasant hwy o flaen yr ARGLWYDD.

24 A Josua a gymmerth Achan mab Serah, a'r arian, a'r fantell, a'r llafn aur, ei feibion hefyd, a'i ferched, a'i wartheg, a'i asynod, ei ddefaid hefyd, a'i babell, a'r hyn oll a feddai efe: a holl Israel gyd âg ef a'u dygasant hwynt i ddyffryn Achor.

25 A Josua a ddywedodd, Am i ti ein blino ni, yr ARGLWYDD a'th flina dithau y dydd hwn. A holl Israel a'*i* llabyddiasant ef â meini, ac a'u llosgasant hwy â thân, wedi eu llabyddio â meini.

26 A chodasant arno ef garnedd fawr o gerrig hyd ydydd hwn. Felly y dychwelodd yr ARGLWYDD oddi wrth lid ei ddigofaint. Am hynny y gelwir enw y fan honno Dyffryn Achor, hyd y dydd hwn.

PENNOD 8.

1 Duw yn rhoi cysur yn Josua. 3 Y ddyfais a'r hon yr ennillwyd Ai. 29 Crogi ei brenhin hi. 30 Josua yn adeiladu allor; 32 yn ysgrifenu y gyfraith ar gerrig; 33 yn datgan bendithion a melldithion.

A'R ARGLWYDD a ddywedodd wrth Josua, Nac ofna, ac na arswyda: cymmer gyd â thi yr holl bobl o ryfel, a chyfod, dos i fyny i Ai: gwel, mi a roddais yn dy law di frenhin Ai, a'i bobl, ei ddinas hefyd, a'i wlad.

2 A thi a wnei i Ai a'i brenhin, megis y gwnaethost i Jericho ac i'w brenhin: etto ei hanrhaith a'i hanifeiliaid a ysglyfaethwch i chwi eich hunain: gosod gynllwyn yn erbyn y ddinas, o'r tu cefn iddi.

3 ¶ Yna Josua à gyfododd, a'r holl bobl o ryfel, i fyned i fyny i Ai: a Josua a ddetholodd ddeng mil ar hugain o wŷr cedyrn nerthol, ac a'u hanfonodd ymaith liw nos:

4 Ac efe a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, Gwelwch, chwi a gynllwynwch yn erbyn y ddinas, o'r tu cefn i'r ddinas: nac ewch ym mhell iawn oddi wrth y ddinas, ond byddwch bawb oll yn barod.

5 Minnau hefyd, a'r holl bobl *sydd* gyd â mi, a nesâwn at y ddinas: a phan ddelont allan i'n cyfarfod ni, megis y waith gyntaf, yna ni a ffown o'u blaen hwynt,

6 (Canys hwy a ddeuant allan ar ein hol ni,) nes i ni eu tynnu hwynt allan o'r ddinas; oblegid hwy a ddywedant, Ffoi y maent o'n blaen ni, fel y waith gyntaf: felly y ffown o'u blaen hwynt.

7 Yna chwi a godwch o'r cynllwyn, ac a oresgynwch y ddinas: canys yr ARGLWYDD eich DUW a'i dyry hi yn eich llaw chwi.

8 A phan ennilloch y ddinas, llosgwch y ddinas â thân: gwnewch yn ol gair yr ARGLWYDD. Gwelwch, mi a orchymynais i chwi.

9 ¶ Felly Josua a'u hanfonodd; a hwy a aethant i gynllwyn, ac a arhosasant rhwng Bethel ac Ai, o du y gorllewin i Ai: a Josua a lettŷodd y noson honno ym mysg y bobl.

10 A Josua a gyfododd yn fore, ac a gyfrifodd y bobl; ac a aeth i fyny, efe a henuriaid Israel, o flaen y bobl, *tu ag at* Ai.

11 A'r holl bobl o ryfel, y rhai *oedd* gyd âg ef, a aethant i fyny, ac a nesasant; daethant hefyd gyferbyn â'r ddinas, a gwersyllasant o du y gogledd i Ai: a glyn *oedd* rhyngddynt hwy ac Ai.

12 Ac efe a gymmerth ynghylch pum mil o wŷr, ac a'u gosododd hwynt i gynllwyn rhwng Bethel ac Ai, o du y gorllewin i'r ddinas.

13 A'r bobl a osodasant yr holl wersyllau, y rhai *oedd* o du y gogledd i'r ddinas, a'r cynllwynwyr o du y gorllewin i'r ddinas: a Josua a aeth y noson honno i ganol y dyffryn.

14 ¶ A phan welodd brenhin Ai *hynny*, yna gwŷr y ddinas a frysiasant, ac a fore-godasant, ac a aethant allan i gyfarfod Israel i ryfel, efe a'i holl bobl, ar amser nodedig, ar hyd wyneb y gwastadedd: canys ni wyddai efe *fod* cynllwyn iddo, o'r tu cefn i'r ddinas.

15 A Josua a holl Israel, *fel pe* tarawsid hwy o'u blaen hwynt, a ffoisant ar hyd yr anialwch.

16 A'r holl bobl, y rhai *oedd* yn y ddinas, a alwyd ynghyd, i erlid ar

eu hol hwynt: a hwy a erlidiasant ar ol Josua, ac a dynnwyd oddi wrth y ddinas.

17 Ac ni adawyd gŵr yn Ai, nac *yn* Bethel, a'r nad aethant allan ar ol Israel: a gadawsant y ddinas yn agored, ac erlidiasant ar ol Israel.

18 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Josua, Estyn y waywffon *sydd* yn dy law tu ag at Ai: canys yn dy law di y rhoddaf hi. A Josua a estynodd y waywffon *oedd* yn ei law tu a'r ddinas.

19 A'r cynllwynwyr a gyfodasant yn ebrwydd o'u lle, ac a redasant, pan estynodd efe ei law: daethant hefyd i'r ddinas, ac ennillasant hi; ac a frysiasant, ac a losgasant y ddinas â thân.

20 A gwŷr Ai a droisant yn eu hol, ac a edrychasant; ac wele, mwg y ddinas a ddyrchafodd hyd y nefoedd; ac nid *oedd* ganddynt hwy nerth i ffoi yma nac accw: canys y bobl y rhai a ffoisent i'r anialwch, a ddychwelodd yn erbyn y rhai oedd yn erlid.

21 A phan welodd Josua a holl Israel i'r cynllwynwyr ennill y ddinas, a dyrchafu o fwg y ddinas, yna hwy a ddychwelasant, ac a darawsant wŷr Ai.

22 A'r lleill a aethant allan o'r ddinas i'w cyfarfod; felly yr oeddynt y'nghanol Israel, y rhai hyn o'r tu yma, a'r lleill o'r tu accw: a tharawsant hwynt, fel na adawyd *un* y'ngweddill nac yn ddïangol o honynt.

23 A brenhin Ai a ddaliasant hwy yn fyw; a dygasant ef at Josua.

24 Pan ddarfu i Israel ladd holl breswylwyr Ai yn y maes, yn yr anialwch lle yr erlidiasent hwynt, a *phan* syrthiasent hwy oll gan fin y cleddyf, nes eu darfod; yna holl Israel a ddychwelasant i Ai, a tharawsant hi â min y cleddyf.

25 A chwbl a'r a syrthiasant y dwthwn hwnnw, yn wŷr ac yn wragedd, *oeddynt* ddeuddeng mil; *sef* holl wŷr Ai.

26 Canys ni thynnodd Josua ei law yn ei hol, yr hon a estynasai efe gyd â'r waywffon, nes difetha holl drigolion Ai.

27 Yn unig yr anifeiliaid, ac anrhaith y ddinas, a ysglyfaethodd yr Israeliaid iddynt eu hun; yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a orchymynasai efe i Josua.

28 A Josua a losgodd Ai, ac a'i gwnaeth hi yn garnedd dragywydd, *ac* yn ddiffaethwch hyd y dydd hwn.

29 Ac efe a grogodd frenhin Ai ar bren hyd yr hwyr: ac wedi machlud haul, y gorchymynodd Josua iddynt ddisgyn ei gelain ef oddi ar y pren, a'i bwrw i ddrws porth y ddinas; a gosodasant garnedd fawr o gerrig arni hyd y dydd hwn.

30 ¶ Yna Josua a adeiladodd allor i ARGLWYDD DDUW Israel ym mynydd Ebal,

31 Megis y gorchymynasai Moses gwas yr ARGLWYDD i feibion Israel, fel y mae yn ysgrifenedig yn llyfr cyfraith Moses, allor o gerrig cyfain, y rhai ni ddyrchafasid haiarn arnynt: a hwy a offrymmasant arni boeth-offrymmau i'r ARGLWYDD, ac a aberthasant ebyrth hedd.

32 Ac efe a ysgrifenodd yno ar y meini gopi o gyfraith Moses, yr hon a ysgrifenasai efe y'ngŵydd meibion Israel.

33 A holl Israel, a'u henuriaid, eu swyddogion *hefyd*, a'u barnwyr, oedd yn sefyll o ddeutu yr arch, ger bron yr offeiriaid y Lefiaid, y rhai oedd yn dwyn arch cyfammod yr ARGLWYDD, yn gystal yr estron a'r priodor: eu hanner *oedd* ar gyfer mynydd Garisim, a'u hanner ar gyfer mynydd Ebal; fel y gorchymynasai Moses gwas yr ARGLWYDD o'r blaen fendithio pobl Israel.

34 Wedi hynny efe a ddarllenodd holl eiriau y gyfraith, y fendith a'r felldith, yn ol y cwbl *sydd* ysgrifenedig yn llyfr y gyfraith.

35 Nid oedd air o'r hyn oll a orchymynasai Moses, a'r nas darllenodd Josua ger bron holl gynnulleidfa Israel, a'r gwragedd, a'r plant, a'r dïeithr yr hwn oedd yn rhodio yn eu mysg hwynt.

PENNOD 9.

1 *Y brenhinoedd yn ymuneuthur yn erbyn Israel.*
3 *Y Gibeoniaid, trwy dwyll, yn cael cyfammod:*
23 *am yr hyn y condemnwyd hwy i gaethiwed tragywyddol.*

WEDI clywed *hyn* o'r holl frenhinoedd, y rhai *oedd* o'r tu

yma i'r Iorddonen, yn y mynydd, ac yn y gwastadedd, ac yn holl lannau y môr mawr, ar gyfer Libanus; *sef* yr Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Canaaneaid, a'r Pheresiaid, a'r Hefiaid, a'r Jebusiaid;

2 Yna hwy a ymgasglasant ynghyd i ymladd yn erbyn Josua, ac yn erbyn Israel, o unfryd.

3 ¶ A thrigolion Gibeon a glywsant yr hyn a wnaethai Josua i Jericho ac i Ai.

4 A hwy a wnaethant yn gyfrwys, ac a aethant, ac a ymddangosasant fel cenhadon: cymmerasant hefyd hen sachlennau ar eu hasynod, a hen gostrelau gwin, wedi eu hollti hefyd, ac wedi eu rhwymo,

5 A hen esgidiau baglog am eu traed, a hen ddillad am danynt; a holl fara eu lluniaeth oedd sych *a* brithlwyd:

6 Ac a aethant at Josua i'r gwersyll i Gilgal; a dywedasant wrtho ef, ac wrth wŷr Israel, O wlad bell y daethom: ac yn awr gwnewch gyfammod â ni.

7 A gwŷr Israel a ddywedasant wrth yr Hefiaid, Nid hwyrach dy fod yn ein mysg yn trigo; pa fodd gan hynny y gwnaf gyfammod â thi?

8 A hwy a ddywedasant wrth Josua, Dy weision di *ydym* ni. A Josua a ddywedodd wrthynt, Pwy *ydych?* ac o ba le y daethoch?

9 A hwy a ddywedasant wrtho, Dy weision a ddaethant o wlad bell iawn, o herwydd enw yr ARGLWYDD dy DDUW: canys ni a glywsom ei glod ef, a'r hyn oll a wnaeth efe yn yr Aipht;

10 A'r hyn oll a wnaeth efe i ddau frenhin yr Amoriaid, y rhai *oedd* o'r tu hwnt i'r Iorddonen; i Sehon brenhin Hesbon, ac i Og brenhin Basan, yr hwn *oedd* yn Astaroth.

11 Am hynny ein henuriaid ni, a holl breswylwyr ein gwlad, a lefarasant wrthym ni, gan ddywedyd, Cymmerwch luniaeth gyd â chwi i'r daith, ac ewch i'w cyfarfod hwynt; a dywedwch wrthynt, Eich gweision ydym: yn awr gan hynny gwnewch gyfammod â ni.

12 Dyma ein bara ni: yn frwd y cymmerasom ef yn lluniaeth o'n tai y dydd y cychwynasom i ddyfod attoch; ac yn awr, wele, sych a brithlwyd yw.

13 Dyma hefyd y costrelau gwin a lanwasom yn newyddion; ac wele hwynt wedi hollti: ein dillad hyn hefyd a'n hesgidiau a heneiddiasant, rhag meithied y daith.

14 A'r gwŷr a gymmerasant o'u hymborth hwynt, ac nid ymgynghorasant â genau yr ARGLWYDD.

15 Felly Josua a wnaeth heddwch â hwynt, ac a wnaeth gyfammod â hwynt, ar eu cadw hwynt yn fyw: tywysogion y gynnulleidfa *hefyd* a dyngasant wrthynt.

16 Ond ym mhen y tridiau wedi iddynt wneuthur cyfammod â hwynt, hwy a glywsant mai cymmydogion iddynt *oeddynt* hwy, ac *mai* yn eu mysg yr oeddynt yn aros.

17 A meibion Israel a gychwynasant, ac a ddaethant i'w dinasoedd hwynt y trydydd dydd: a'u dinasoedd hwynt *oedd* Gibeon, a Chephirah, Beeroth *hefyd*, a Chiriathjearim.

18 Ond ni tharawodd meibion Israel mo honynt hwy; oblegid tywysogion y gynnulleidfa a dyngasai wrthynt myn ARGLWYDD DDUW Israel: a'r holl gynnulleidfa a rwgnachasant yn erbyn y tywysogion.

19 A'r holl dywysogion a ddywedasant wrth yr holl gynnulleidfa, Ni a dyngasom wrthynt i ARGLWYDD DDUW Israel: am hynny ni allwn ni yn awr gyffwrdd â hwynt.

20 Hyn a wnawn ni iddynt hwy: Cadwn hwynt yn fyw, fel na byddo digofaint arnom ni; o herwydd y llw a dyngasom wrthynt.

21 A'r tywysogion a ddywedasant wrthynt, Byddant fyw, (ond byddant yn torri cynnud, ac yn tynnu dwfr i'r holl gynnulleidfa,) fel y dywedasai y tywysogion wrthynt.

22 ¶ Yna Josua a alwodd arnynt; ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, Paham y twyllasoch ni, gan ddywedyd, Pell iawn *ydym* ni oddi wrthych; a chwithau yn preswylio yn ein mysg ni?

23 Yn awr gan hynny melldigedig ydych; ac ni ddïangc un o honoch rhag bod yn *gaeth*-weision, ac yn torri cynnud, ac yn tynnu dwfr i dŷ fy NUW.

24 A hwy a attebasant Josua, ac a
ddywedasant, Yn ddïau gan fynegi
y mynegwyd i'th weision, ddarfod
i'r ARGLWYDD dy DDUW orchymyn
i Moses ei was roddi i chwi yr holl
wlad hon, a difetha holl drigolion y
wlad o'ch blaen chwi; am hynny yr
ofnasom ni yn ddirfawr rhagoch am
ein heinioes, ac y gwnaethom y peth
hyn.
25 Ac yn awr, wele ni yn dy law
di: fel *y byddo* da ac uniawn yn
dy olwg wneuthur i ni, gwna.
26 Ac felly y gwnaeth efe iddynt;
ac a'u gwaredodd hwynt o law
meibion Israel, fel na laddasant
hwynt.
27 A Josua a'u rhoddodd hwynt
y dwthwn hwnnw yn gymmynwyr
coed, ac yn wehynwyr dwfr, i'r gyn-
nulleidfa, ac i allor yr ARGLWYDD,
hyd y dydd hwn, yn y lle a ddew-
isai efe.

PENNOD 10.

5 Pum brenhin yn rhyfela yn erbyn Gibeon. 7 Josua yn ei hachub hi. 10 Duw yn ymladd yn eu herbyn hwynt â cheulysg. 12 Yr haul a'r lleuad yn sefyll ar air Josua. 18 Cau ar y pum brenhin mewn ogof. 23 En dwyn allan; 24 eu dystyru, 26 a'u crogi. 28 Gorchfygu saith brenhin ychwaneg. 43 Josua yn dychwelyd i Gilgal.

A PHAN glybu Adonisedec bren-
hin Jerusalem i Josua ennill
Ai, a'i difrodi hi, (fel y gwnelsai
efe i Jericho ac i'w brenhin, felly y
gwnaethai efe i Ai ac i'w brenhin,)
a heddychu o drigolion Gibeon âg
Israel, a'u bod yn eu mysg hwynt:
2 Yna yr ofnasant yn ddirfawr;
oblegid dinas fawr *oedd* Gibeon, fel
un o'r dinasoedd brenhinol; ac o
herwydd ei *bod* yn fwy nag Ai; ei
holl wŷr hefyd *oedd* gedyrn.
3 Am hynny Adonisedec brenhin
Jerusalem a anfonodd at Hoham
brenhin Hebron, ac at Piram bren-
hin Jarmuth, ac at Japhia brenhin
Lachis, ac at Debir brenhin Eglon,
gan ddywedyd,
4 Deuwch i fyny attaf fi, a chyn-
northwywch fi, fel y tarawom ni
Gibeon: canys hi a heddychodd â
Josua, ac â meibion Israel.
5 Am hynny pum brenhin yr Amor-
iaid a ymgynnullasant, ac a ddaeth-
ant i fyny, *sef* brenhin Jerusalem,
brenhin Hebron, brenhin Jarmuth,
brenhin Lachis, *a* brenhin Eglon,
hwynt-hwy a'u holl fyddinoedd, ac
a wersyllasant wrth Gibeon, ac a
ryfelasant yn ei herbyn hi.
6 ¶ A gwŷr Gibeon a anfonasant
at Josua i'r gwersyll i Gilgal, gan
ddywedyd, Na. thyn ymaith dy
ddwylaw oddi wrth dy weision:
tyred i fyny yn fuan attom ni,
achub ni *hefyd*, a chynnorthwya ni:
canys holl frenhinoedd yr Amor-
iaid, y rhai sydd yn trigo yn y
mynydd-dir, a ymgynnullasant i'n
herbyn ni.
7 Felly Josua a esgynodd o Gilgal,
efe a'r holl bobl o ryfel gyd âg ef,
a'r holl gedyrn nerthol.
8 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd
wrth Josua, Nac ofna rhagddynt:
canys yn dy law di y rhoddais
hwynt; ni saif neb o honynt yn
dy wyneb di.
9 Josua gan hynny a ddaeth yn
ddïattreg attynt hwy: *canys* ar
hyd y nos yr aeth efe i fyny o
Gilgal.
10 A'r ARGLWYDD a'u drylliodd
hwynt o flaen Israel, ac a'u tarawodd
hwynt â lladdfa fawr yn Gibeon, ac
a'u hymlidiodd hwynt ffordd yr eir
i fyny i Beth-horon, ac a'u taraw-
odd hwynt hyd Asecah, ac hyd
Maccedah.
11 A phan oeddynt yn ffoi o flaen
Israel, *a* hwy y'ngoriwaered Beth-
horon, yr ARGLWYDD a fwriodd ar-
nynt hwy gerrig mawrion o'r nef-
oedd hyd Asecah; a buant feirw:
amlach *oedd* y rhai a fu feirw gan
y cerrig cenllysg, na'r *rhai* a ladd-
odd meibion Israel â'r cleddyf.
12 ¶ Llefarodd Josua wrth yr AR-
GLWYDD y dydd y rhoddodd yr
ARGLWYDD yr Amoriaid o flaen
meibion Israel: ac efe a ddywed-
odd y'ngolwg Israel, O haul, aros
yn Gibeon; a thithau, leuad, yn
nyffryn Ajalon.
13 A'r haul a arhosodd, a'r lleuad
a safodd, nes i'r genedl ddïal ar eu
gelynion. Onid *yw* hyn yn ysgrif-
enedig yn llyfr yr Uniawn? Felly
yr haul a safodd y'nghanol y nef-
oedd, ac ni frysiodd i fachludo dros
ddiwrnod cyfan.
14 Ac ni bu y fath ddiwrnod a
hwnnw o'i flaen ef, nac ar ei ol ef,
fel y gwrandawai yr ARGLWYDD ar

lef dyn: canys yr ARGLWYDD a ymladdodd dros Israel.
15 ¶ A Josua a ddychwelodd, a holl Israel gyd âg ef, i'r gwersyll i Gilgal.
16 Ond y pum brenhin hynny a ffoisant, ac a ymguddiasant mewn ogof ym Maccedah.
17 A mynegwyd i Josua, gan ddywedyd, Y pum brenhin a gafwyd y nghûdd mewn ogof ym Maccedah.
18 A dywedodd Josua, Treiglwch feini mawrion ar enau yr ogof, a gosodwch wrthi wŷr i'w cadw hwynt:
19 Ac na sefwch chwi; erlidiwch ar ol eich gelynion, a tharêwch y rhai olaf o honynt; na adêwch iddynt fyned i'w dinasoedd: canys yr ARGLWYDD eich DUW a'u rhoddodd hwynt yn eich llaw chwi.
20 A phan ddarfu i Josua a meibion Israel eu taro hwynt â lladdfa fawr iawn, nes eu difa; yna y gweddillion a adawsid o honynt a aethant i'r dinasoedd caerog.
21 A'r holl bobl a ddychwelasant i'r gwersyll at Josua ym Maccedah mewn heddwch, heb symmud o neb ei dafod yn erbyn meibion Israel.
22 A Josua a ddywedodd, Agorwch enau yr ogof, a dygwch allan y pum brenhin hynny attaf fi o'r ogof.
23 A hwy a wnaethant felly, ac a ddygasant allan y pum brenhin atto ef o'r ogof; *sef* brenhin Jerusalem, brenhin Hebron, brenhin Jarmuth, brenhin Lachis, *a* brenhin Eglon.
24 A phan ddygasant hwy y brenhinoedd hynny at Josua, yna Josua a alwodd am holl wŷr Israel, ac a ddywedodd wrth dywysogion y rhyfelwyr, y rhai a aethai gyd âg ef, Nesêwch, gosodwch eich traed ar yddfau y brenhinoedd hyn. A hwy a nesasant, ac a osodasant eu traed ar eu gyddfau hwynt.
25 A Josua a ddywedodd wrthynt, Nac ofnwch, ac nac arswydwch; *eithr* ymwrolwch, ac ymegnïwch: canys fel hyn y gwna yr ARGLWYDD i'ch holl elynion yr ydych chwi yn ymladd i'w herbyn.
26 Ac wedi hyn Josua a'u tarawodd hwynt, ac a'u rhoddodd i farwolaeth, ac a'u crogodd hwynt ar bum pren: a buant y nghrog ar y prennau hyd yr hwyr.
27 Ac ym mhryd machludo haul, y gorchymynodd Josua iddynt eu disgyn hwynt oddi ar y prennau, a'u bwrw hwynt i'r ogof yr ymguddiasant ynddi; a bwriasant gerrig mawrion y'ngenau yr ogof, *y rhai sydd yno* hyd gorph y dydd hwn.
28 ¶ Josua hefyd a ennillodd Maccedah y dwthwn hwnnw, ac a'i tarawodd hi â min y cleddyf, ac a ddifrododd ei brenhin hi, hwynthwy, a phob enaid ag *oedd* ynddi; ni adawodd efe *un* gweddill: canys efe a wnaeth i frenhin Maccedah, fel y gwnaethai i frenhin Jericho.
29 ¶ Yna yr aeth Josua a holl Israel gyd âg ef o Maccedah i Libnah, ac a ymladdodd yn erbyn Libnah.
30 A'r ARGLWYDD a'i rhoddodd hithau, a'i brenhin, yn llaw Israel; ac yntau a'i tarawodd hi â min y cleddyf, a phob enaid a'r *oedd* ynddi; ni adawodd ynddi *un* yng ngweddill: canys efe a wnaeth i'w brenhin hi fel y gwnelsai i frenhin Jericho.
31 ¶ A Josua a dramwyodd, a holl Israel gyd âg ef, o Libnah i Lachis; ac a wersyllodd wrthi, ac a ymladdodd i'w herbyn.
32 A'r ARGLWYDD a roddodd Lachis yn llaw Israel; yr hwn a'i hennillodd hi yr ail ddydd, ac a'i tarawodd hi â min y cleddyf, a phob enaid ag *oedd* ynddi, yn ol yr hyn oll a wnaethai efe i Libnah.
33 ¶ Yna Horam brenhin Geser a ddaeth i fyny i gynnorthwyo Lachis: a Josua a'i tarawodd ef a'i bobl, fel na adawyd iddo ef *un* y'ngweddill.
34 ¶ A Josua a dramwyodd, a holl Israel gyd âg ef, o Lachis i Eglon: a hwy a wersyllasant wrthi, ac a ymladdasant i'w herbyn.
35 A hwy a'i hennillasant hi y diwrnod hwnnw, ac a'i tarawsant hi â min y cleddyf; ac efe a ddifrododd bob enaid a'r *oedd* ynddi y dwthwn hwnnw, yn ol yr hyn oll a wnaethai efe i Lachis.
36 ¶ A Josua a esgynodd, a holl Israel gyd âg ef, o Eglon i Hebron; a hwy a ryfelasant i'w herbyn.
37 A hwy a'i hennillasant hi, ac a'i tarawsant hi â min y cleddyf, a'i brenhin, a'i holl ddinasoedd, a phob enaid ag *oedd* ynddi; ni adawodd

efe *un* y'ngweddill, yn ol yr hyn oll a wnaethai efe i Eglon: canys efe a'i difrododd hi, a phob enaid ag *oedd* ynddi.

38 ¶ A Josua a ddychwelodd, a holl Israel gyd âg ef, i Debir; ac a ymladdodd i'w herbyn.

39 Ac efe a'i hennillodd hi, ei brenhin, a'i holl ddinasoedd; a hwy a'u tarawsant hwy â min y cleddyf, ac a ddifrodasant bob enaid ag *oedd* ynddi; ni adawodd efe *un* yng ngweddill: fel y gwnaethai efe i Hebron, felly y gwnaeth efe i Debir, ac i'w brenhin; megis y gwnelsai efe i Libnah, ac i'w brenhin.

40 ¶ Felly y tarawodd Josua yr holl fynydd-dir, a'r dehau, y gwastadedd *hefyd*, a'r bronnydd, a'u holl frenhinoedd: ni adawodd efe *un* yng ngweddill; eithr efe a ddifrododd bob perchen anadl, fel y gorchymynasai ARGLWYDD DDUW Israel.

41 A Josua a'u tarawodd hwynt o Cades-Barnea, hyd Gasah, a holl wlad Gosen, hyd Gibeon.

42 Yr holl frenhinoedd hyn *hefyd* a'u gwledydd a ennillodd Josua ar unwaith: canys ARGLWYDD DDUW Israel oedd yn ymladd dros Israel.

43 Yna y dychwelodd Josua, a holl Israel gyd âg ef, i'r gwersyll yn Gilgal.

PENNOD 11.

5 Gorchfygu amryw frenhinoedd wrth ddyfroedd Merom. 10 Ennill Hasor, a'i llosgi. 16 Josua yn goresgyn yr holl wlad; 21 ac yn torri ymaith yr Anaeiaid.

A PHAN glybu Jabin brenhin Hasor *y pethau hynny*, efe a anfonodd at Jobab brenhin Madon, ac at frenhin Simron, ac at frenhin Achsaph,

2 Ac at y brenhinoedd *oedd* o du y gogledd yn y mynydd-dir, ac yn y rhosdir *tu a'r* dehau i Cinneroth, ac yn y dyffryn, ac yn ardaloedd Dor tu a'r gorllewin;

3 *At* y Canaaneaid o'r dwyrain a'r gorllewin, ac at yr Amoriaid, a'r Hethiaid, a'r Pheresiaid, a'r Jebusiaid, yn y mynydd-dir, ac *at* yr Hefiaid dan Hermon, y'ngwlad Mispeh.

4 A hwy a aethant allan, a'u holl fyddinoedd gyd â hwynt, pobl lawer, fel y tywod *sydd* ar fin y môr o amldra; meirch hefyd a cherbydau lawer iawn.

5 A'r holl frenhinoedd hyn a ymgyfarfuant; daethant hefyd a gwersyllasant ynghyd wrth ddyfroedd Merom, i ymladd yn erbyn Israel.

6 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Josua, Nac ofna rhagddynt hwy: canys y fory ynghylch y pryd hyn y rhoddaf hwynt oll yn lladdedig o flaen Israel: llinynnau garrau eu meirch hwynt a dorri, a'u cerbydau a losgi di â thân.

7 Felly Josua a ddaeth, a'r holl bobl o ryfel gyd âg ef, yn ddisymmwth arnynt hwy wrth ddyfroedd Merom; a hwy a ruthrasant arnynt.

8 A'r ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt yn llaw Israel; a hwy a'u tarawsant hwynt, ac a'u herlidiasant hyd Sidon fawr, ac hyd Misrephoth-maim, ac hyd glyn Mispeh o du y dwyrain; a hwy a'u tarawsant hwynt, fel na adawodd efe o honynt *un* y'ngweddill.

9 A Josua a wnaeth iddynt fel yr archasai yr ARGLWYDD iddo: llinynnau garrau eu meirch hwynt a dorrodd efe, a'u cerbydau a losgodd â thân.

10 ¶ A Josua y pryd hwnnw a ddychwelodd, ac a ennillodd Hasor, ac a darawodd ei brenhin hi â'r cleddyf: canys Hasor o'r blaen oedd ben yr holl deyrnasoedd hynny.

11 Tarawsant hefyd bob enaid a'*r oedd* ynddi â min y cleddyf, gan *eu* difrodi *hwynt:* ni adawyd un perchen anadl: ac efe a losgodd Hasor â thân.

12 A holl ddinasoedd y brenhinoedd hynny, a'u holl frenhinoedd hwynt, a ennillodd Josua, *ac* a'u tarawodd â min y cleddyf, gan eu difrodi hwynt: megis y gorchymynasai Moses gwas yr ARGLWYDD.

13 Ond ni losgodd Israel yr un o'r dinasoedd oedd yn sefyll yn eu cadernid; namyn Hasor yn unig a losgodd Josua.

14 A holl anrhaith y dinasoedd hynny, a'r anifeiliaid, a ysglyfaethodd meibion Israel iddynt eu hun: yn unig pob dyn a darawsant hwy â min y cleddyf, nes iddynt eu difetha; ni adawsant berchen anadl.

15 ¶ Fel y gorchymynasai yr AR-

GLWYDD i Moses ei was, felly y gorchymynodd Moses i Josua, ac felly y gwnaeth Josua; ni adawodd efe ddim o'r hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD i Moses.

16 Felly Josua a ennillodd yr holl dir hwnnw, y mynyddoedd, a'r holl ddehau, a holl wlad Gosen, a'r dyffryn, a'r gwastadedd, a mynydd Israel, a'i ddyffryn;

17 O fynydd Halac, yr hwn sydd yn myned i fyny i Seir, hyd Baal-Gad, y'nglyn Libanus, dan fynydd Hermon: a'u holl frenhinoedd hwynt a ddaliodd efe; tarawodd hwynt hefyd, ac a'u rhoddodd i farwolaeth.

18 Josua a gynhaliodd ryfel yn erbyn yr holl frenhinoedd hynny ddyddiau lawer.

19 Nid oedd dinas a'r a heddychodd â meibion Israel, heb law yr Hefiaid preswylwyr Gibeon; yr holl rai *erall* a ennillasant hwy trwy ryfel.

20 Canys o'r ARGLWYDD yr ydoedd galedu eu calon hwynt i gyfarfod âg Israel mewn rhyfel, fel y difrodai efe hwynt, *ac* na fyddai iddynt drugaredd; ond fel y difethai efe hwynt, fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD wrth Moses.

21 ¶ A'r pryd hwnnw y daeth Josua ac a dorrodd yr Anaciaid ymaith o'r mynydd-dir, o Hebron, o Debir, o Anab, ac o holl fynyddoedd Judah, ac o holl fynyddoedd Israel: Josua a'u difrododd hwynt a'u dinasoedd.

22 Ni adawyd *un* o'r Anaciaid y'ngwlad meibion Israel: yn unig yn Gasah, yn Gath, ac yn Asdod, y gadawyd hwynt.

23 Felly Josua a ennillodd yr holl wlad, yn ol yr hyn oll a lefarasai yr ARGLWYDD wrth Moses; a Josua a'i rhoddodd hi yn etifeddiaeth i Israel, yn ol eu rhannau hwynt, trwy eu llwythau. A'r wlad a orphwysodd heb ryfel.

PENNOD 12.

1 *Y ddau frenhin a ennillodd Moses eu gwledydd, ac a'u rhannodd.* 7 *Yr un brenhin ar ddeg ar hugain o'r tu arall i'r Iorddonen, y rhai a darawodd Josua.*

DYMA frenhinoedd y wlad, y rhai a darawodd meibion Israel, ac a feddiannasant eu gwlad hwynt o'r tu hwnt i'r Iorddonen tu a chodiad yr haul; o afon Arnon hyd fynydd Hermon, a'r holl wastadedd tu a'r dwyrain:

2 Sehon brenhin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon, *ac* yn arglwyddiaethu o Aroer, yr hon *sydd* ar fin yr afon Arnon, ac o ganol yr afon, ac o hanner Gilead hyd yr afon Jabboc, *ym* mro meibion Ammon;

3 Ac o'r gwastadedd hyd fôr Cineroth o du y dwyrain, ac hyd fôr y gwastadedd, *sef* y môr heli, o du y dwyrain, tu a Beth-jesimoth; ac o du y dehau, dan Asdoth-Pisgah:

4 A goror Og brenhin Basan, *yr hwn oedd* o weddill y cewri, ac oedd yn trigo yn Astaroth ac yn Edrei;

5 Ac efe oedd yn arglwyddiaethu ym mynydd Hermon, ac yn Salchah, ac yn holl Basan, hyd derfyn y Gesuriaid, a'r Maachathiaid, a hanner Gilead, terfyn Sehon brenhin Hesbon.

6 Moses gwas yr ARGLWYDD a meibion Israel a'u tarawsant hwy: a Moses gwas yr ARGLWYDD a'i rhoddodd hi *yn* etifeddiaeth i'r Reubeniaid, ac i'r Gadiaid, ac i hanner llwyth Manasseh.

7 ¶ Dyma hefyd frenhinoedd y wlad y rhai a darawodd Josua a meibion Israel o'r tu yma i'r Iorddonen o du y gorllewin, o Baal-Gad, y'nglyn Libanus, hyd fynydd Halac, yr hwn sydd yn myned i fyny i Seir; a Josua a'i rhoddodd hi i lwythau Israel *yn* etifeddiaeth yn ol eu rhannau;

8 Yn y mynydd, ac yn y dyffryn, ac yn y gwastadedd, ac yn y bronnydd, ac yn yr anialwch, ac yn y dehau; yr Hethiaid, yr Amoriaid, a'r Canaaneaid, y Pheresiaid, yr Hefiaid, a'r Jebusiaid:

9 ¶ Brenhin Jericho, yn un; brenhin Ai, yr hwn *oedd* o ystlys Bethel, yn un;

10 Brenhin Jerusalem, yn un; brenhin Hebron, yn un;

11 Brenhin Jarmuth, yn un; brenhin Lachis, yn un;

12 Brenhin Eglon, yn un; brenhin Geser, yn un;

13 Brenhin Debir, yn un; brenhin Geder, yn un;
14 Brenhin Hormah, yn un; brenhin Arad, yn un;
15 Brenhin Libnah, yn un; brenhin Adùlam, yn un;
16 Brenhin Maccedah, yn un; brenhin Bethel, yn un;
17 Brenhin Tappuah, yn un; brenhin Hepher, yn un;
18 Brenhin Aphec, yn un; brenhin Lasaron, yn un;
19 Brenhin Madon, yn un; brenhin Hasor, yn un;
20 Brenhin Simron-Meron, yn un; brenhin Achsaph, yn un;
21 Brenhin Taanach, yn un; brenhin Megìdo, yn un;
22 Brenhin Cades, yn un; brenhin Jocneam o Carmel, yn un;
23 Brenhin Dor yn ardal Dor, yn un; brenhin y cenhedloedd o Gilgal, yn un;
24 Brenhin Tirsah, yn un: yr holl frenhinoedd *oedd* un ar ddeg ar hugain.

PENNOD 13.

2 Terfynau y wlad ni orchfygesid etto. 8 Etifeddiaeth y ddau lwyth a hanner. 14, 33 Yr Arglwydd a'i aberthau yw etifeddiaeth Lefi. 15 Terfynau etifeddiaeth Reuben. 22 Lladd Balaam. 24 Terfynau etifeddiaeth Gad, 29 a hanner llwyth Manasseh.

APHAN heneiddiodd Josua, *a* phwyso o hono mewn oedran, dywedodd yr ARGLWYDD wrtho ef, Tydi a heneiddiaist, daethost i ddyddiau *oedrannus*, a thir lawer iawn sydd etto i'w feddiannu.
2 Dyma y wlad sydd etto yn ol: holl derfynau y Philistiaid, a holl Gesuri,
3 O Sihor, yr hon *sydd* o flaen yr Aipht, hyd derfyn Ecron tu a'r gogledd, *yr hwn* a gyfrifir i'r Canaaneaid: pum tywysog y Philistiaid: y Gasathiaid, a'r Asdodiaid, yr Escaloniaid, y Githiaid, yr Ecroniaid; yr Afiaid:
4 O'r dehau, holl wlad y Canaaneaid, a'r ogof *oedd* yn ymyl y Sidoniaid, hyd Aphec, hyd derfyn yr Amoriaid:
5 A gwlad y Gibliaid, a holl Libanus, tu a chyfodiad haul, o Baal-Gad dan fynydd Hermon, nes dyfod i Hamath.
6 Holl breswylwyr y mynydd-*dir* o Libanus hyd Misrephoth-maim, *a*'r holl Sidoniaid, y rhai hynny a yrraf ymaith o flaen meibion Israel: yn unig rhan di hi wrth goelbren i Israel yn etifeddiaeth, fel y gorchymynais i ti.
7 Ac yn awr rhan di y wlad hon yn etifeddiaeth i'r naw llwyth, ac i hanner llwyth Manasseh.
8 Gyd â'r rhai y derbyniodd y Reubeniaid a'r Gadiaid eu hetifeddiaeth, yr hon a roddodd Moses iddynt hwy, o'r tu hwnt i'r Iorddonen, tu a'r dwyrain, fel y rhoddes Moses gwas yr ARGLWYDD iddynt;
9 O Aroer, yr hon *sydd* ar fin afon Arnon, a'r ddinas *sydd* y'nghanol y dyffryn, a holl wastadedd Medeba, hyd Dibon;
10 A holl ddinasoedd Sehon brenhin yr Amoriaid, yr hwn a deyrnasodd yn Hesbon, hyd ardal meibion Ammon;
11 Gilead hefyd, a therfyn y Gesuriaid, y Maachathiaid hefyd, a holl fynydd Hermon, a holl Basan hyd Salchah;
12 Holl frenhiniaeth Og yn Basan, yr hwn a deyrnasodd yn Astaroth, ac yn Edrei; efe a adawyd o weddill y cewri: canys Moses a'u tarawsai hwynt, ac a'u gyrrasai ymaith.
13 Ond meibion Israel ni yrrasant allan y Gesuriaid na'r Maachathiaid; eithr trigodd y Gesuriaid a'r Maachathiaid ym mhlith Israel hyd y dydd hwn.
14 Yn unig i lwyth Lefi ni roddodd efe etifeddiaeth; aberthau tanllyd ARGLWYDD DDUW Israel *oedd* ei etifeddiaeth ef, fel y llefarasai efe wrtho.
15 ¶ A Moses a roddasai i lwyth meibion Reuben *etifeddiaeth* trwy eu teuluoedd:
16 A'u terfyn hwynt oedd o Aroer, yr hon *sydd* ar fin afon Arnon, a'r ddinas *sydd* y'nghanol y dyffryn, a'r holl wastadedd wrth Medeba;
17 Hesbon a'i holl ddinasoedd, y rhai *sydd* yn y gwastadedd; Dibon, a Bamoth-Baal, a Beth-Baal-meon;
18 Jahasah *hefyd*, a Cedemoth, a Mephaath;
19 Ciriathaim *hefyd*, a Sibmah,

a Sareth-sahar, ym mynydd-dir y glyn;
20 Beth-peor *hefyd*, ac Asdoth-Pisgah, a Beth-Jesimoth,
21 A holl ddinasoedd y gwastadedd, a holl frenhiniaeth Sehon brenhin yr Amoriaid, yr hwn a deyrnasodd yn Hesbon, yr hwn a ddarfuasai i Moses ei daro, gyd â thywysogion Midian, Efi, a Recem, a Sur, a Hur, a Reba, duciaid Sehon, *y rhai* oedd yn preswylio yn y wlad.
22 ¶ Balaam hefyd mab Beor, y dewin, a laddodd meibion Israel â'r cleddyf, ym mhlith eu lladdedigion hwynt.
23 A therfyn meibion Reuben oedd yr Iorddonen a'*i* goror. Dyma etifeddiaeth meibion Reuben, yn ol eu teuluoedd, y dinasoedd, a'u trefi.
24 ¶ Moses *hefyd* a roddodd *etifeddiaeth* i lwyth Gad, *sef* i feibion Gad, trwy eu teuluoedd;
25 A Jaser oedd derfyn iddynt hwy, a holl ddinasoedd Gilead, a hanner gwlad meibion Ammon, hyd Aroer, yr hon *sydd* o flaen Rabbah;
26 Ac o Hesbon hyd Ramath-Mispeh, a Betonim; ac o Mahanaim hyd gyffinydd Debir;
27 Ac yn y dyffryn, Beth-Aram, a Beth-Nimrah, a Succoth, a Saphon, gweddill brenhiniaeth Sehon brenhin Hesbon, yr Iorddonen a'i therfyn, hyd gwr môr Cinneroth, o'r tu hwnt i'r Iorddonen, o du y dwyrain.
28 Dyma etifeddiaeth meibion Gad, yn ol eu teuluoedd, y dinasoedd, a'u trefydd.
29 ¶ Moses hefyd a roddodd *etifeddiaeth* i hanner llwyth Manasseh: a bu *etifeddiaeth* i hanner llwyth meibion Manasseh, yn ol eu teuluoedd:
30 A'u terfyn hwynt oedd o Mahanaim, holl Basan, holl frenhiniaeth Og brenhin Basan, a holl drefi Jair, y rhai *sydd* yn Basan, tri ugain dinas;
31 A hanner Gilead, ac Astaroth, ac Edrei, dinasoedd brenhiniaeth Og yn Basan, *a roddodd efe* i feibion Machir mab Manasseh, *sef* i hanner meibion Machir, yn ol eu teuluoedd.
32 Dyma *y gwledydd* a roddodd Moses i'w hetifeddu, yn rhosydd Moab, am yr Iorddonen a Jericho, o du y dwyrain.
33 Ond i lwyth Lefi ni roddodd Moses etifeddiaeth: ARGLWYDD DDUW Israel *yw* eu hetifeddiaeth hwynt, fel y llefarodd efe wrthynt.

PENNOD 14.

2 Y naw llwyth a hanner i gael eu hetifeddiaeth wrth goelbren. 6 Caleb trwy ragorfraint yn cael Hebron.

DYMA *hefyd y gwledydd* a etifeddodd meibion Israel yng ngwlad Canaan, y rhai a rannodd Eleasar yr offeiriad, a Josua mab Nun, a phennau cenedl llwythau meibion Israel, iddynt hwy i'w hetifeddu.
2 Wrth goelbren *yr oedd* eu hetifeddiaeth hwynt; fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD trwy law Moses *eu rhoddi* i'r naw llwyth, ac i'r hanner llwyth.
3 Canys Moses a roddasai etifeddiaeth i ddau lwyth, ac i hanner llwyth, o'r tu hwnt i'r Iorddonen; ond i'r Lefiaid ni roddasai efe etifeddiaeth yn eu mysg hwynt;
4 Canys meibion Joseph oedd ddau lwyth, Manasseh ac Ephraim: am hynny ni roddasant ran i'r Lefiaid yn y tir, ond dinasoedd i drigo, a'u meusydd pentrefol i'w hanifeiliaid, ac i'w golud.
5 Fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD i Moses, felly y gwnaeth meibion Israel, a hwy a rannasant y wlad.
6 ¶ Yna meibion Judah a ddaethant at Josua yn Gilgal: a Chaleb mab Jephunneh y Cenesiad a ddywedodd wrtho ef, Tydi a wyddost y gair a lefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses gŵr DUW o'm plegid i, ac o'th blegid dithau, yn Cades-Barnea.
7 Mab deugain mlwydd *oeddwn* i pan anfonodd Moses gwas yr ARGLWYDD fi o Cades-Barnea, i edrych ansawdd y wlad; a mi a ddygais air iddo ef drachefn, fel *yr oedd* yn fy nghalon.
8 Ond fy mrodyr, y rhai a aethant i fyny gyd â mi, a ddigalonnasant y

bobl: etto myfi a gyflawnais *fyned* ar ol yr ARGLWYDD fy NUW.
9 A Moses a dyngodd y diwrnod hwnnw, gan ddywedyd, Diau y bydd y wlad y sathrodd dy droed arni, yn etifeddiaeth i ti, ac i'th feibion hyd byth; am i ti gyflawni *myned* ar ol yr ARGLWYDD fy NUW.
10 Ac yn awr, wele yr ARGLWYDD a'm cadwodd yn fyw, fel y llefarodd efe, y pum mlynedd a deugain hyn, er pan lefarodd yr ARGLWYDD y gair hwn wrth Moses, tra y rhodiodd Israel yn yr anialwch: ac yn awr, wele fi heddyw yn fab pum mlwydd a phedwar ugain.
11 *Yr ydwyf* etto mor gryf heddyw a'r dydd yr anfonodd Moses fi: fel *yr oedd* fy nerth i y pryd hwnnw, felly *y mae* fy nerth i yn awr, i ryfela, ac i fyned allan, ac i ddyfod i mewn.
12 Yn awr gan hynny dyro i mi y mynydd yma, am yr hwn y llefarodd yr ARGLWYDD y dwthwn hwnnw, (canys ti a glywaist y dwthwn hwnnw *fod* yr Anaciaid yno, a dinasoedd mawrion caerog;) ond odid yr ARGLWYDD *fydd* gyd â mi, fel y gyrrwyf hwynt allan, megis y llefarodd yr ARGLWYDD.
13 A Josua a'i bendithiodd ef, ac a roddodd Hebron i Caleb mab Jephunneh yn etifeddiaeth.
14 Am hynny mae Hebron yn etifeddiaeth i Caleb mab Jephunneh y Cenesiad hyd y dydd hwn: o herwydd iddo ef gwblhâu *myned* ar ol ARGLWYDD DDUW Israel.
15 Ac enw Hebron o'r blaen *oedd* Caer-Arba: *yr Arba hwnnw oedd* ŷr mawr ym mysg yr Anaciaid. A'r wlad a orphwysodd heb ryfel.

PENNOD 15.

1 *Terfynau rhandir Judah.* 13 *Rhan Caleb, a'i oresgynniad.* 16 *Othniel am ei wrolaeth yn cael Achsah merch Caleb yn wraig.* 18 *Hithau yn cael rhodd gan ei thad.* 21 *Dinasoedd Judah.* 63 *Y Jebusiaid heb eu gorchfygu.*

ARHANDIR llwyth meibion Judah, yn ol eu teuluoedd, ydoedd tu a therfyn Edom: anialwch Sin, tu a'r dehau, *oedd* eithaf y terfyn dehau.
2 A therfyn y dehau oedd iddynt hwy o gwr y môr heli, o'r graig sydd yn wynebu tu a'r dehau.
3 Ac yr oedd yn myned allan o'r dehau hyd riw Acrabbim, ac *yr oedd* yn myned rhagddo i Sin, ac yn myned i fyny o du y dehau i Cades-Barnea; ac yn myned hefyd i Hesron, ac yn esgyn i Adar, ac yn amgylchynu i Carcaah.
4 Ac *yr oedd* yn myned tu ag Asmon, ac yn myned allan i afon yr Aipht; ac eithafoedd y terfyn hwnnw oedd wrth y môr: hyn fydd i chwi yn derfyn dehau.
5 A'r terfyn tu a'r dwyrain *yw* y môr heli, hyd eithaf yr Iorddonen: a'r terfyn o du y gogledd, *sydd* o graig y môr, *yn* eithaf yr Iorddonen.
6 A'r terfyn hwn oedd yn myned i fyny i Beth-Hoglah, ac yn myned o'r gogledd hyd Beth-Arabah; a'r terfyn hwn oedd yn myned i fyny at faen Bohan mab Reuben.
7 A'r terfyn hwn oedd yn myned i fyny i Debir o ddyffryn Achor, a thu a'r gogledd yn edrych tu a Gilgal, o flaen rhiw Adummim, yr hon *sydd* o du y dehau i'r afon: y terfyn hefyd sydd yn myned hyd ddyfroedd En-semes, a'i gwr eithaf sydd wrth En-rogel.
8 A'r terfyn sydd yn myned i fyny *trwy* ddyffryn meibion Hinnom, gan ystlys y Jebusiaid o du y dehau, honno *yw* Jerusalem: y terfyn hefyd sydd yn myned i fyny i ben y mynydd *sydd* o flaen dyffryn Hinnom, tu a'r gorllewin, yr hwn *sydd* y'nghwr glyn y cewri, tu a'r gogledd.
9 A'r terfyn sydd yn cyrhaeddyd o ben y mynydd hyd ffynnon dyfroedd Nephtoah, ac *sydd* yn myned allan i ddinasoedd mynydd Ephron: y terfyn hefyd sydd yn tueddu i Baalah, honno *yw* Ciriath-jearim.
10 A'r terfyn *sydd* yn amgylchu o Baalah tu a'r gorllewin, i fynydd Seir, ac *sydd* yn myned rhagddo at ystlys mynydd Jearim, o du y gogledd, honno *yw* Chesalon, ac y mae yn disgyn i Beth-semes, ac yn myned i Timnah.
11 A'r terfyn *sydd* yn myned i ystlys Ecron, tu a'r gogledd: a'r terfyn sydd yn tueddu i Sicron, ac yn myned rhagddo i fynydd Baalah, ac yn cyrhaeddyd i Jabneel; a chyrrau eithaf y terfyn sydd *wrth* y môr.

12 A therfyn y gorllewin *yw* y môr mawr a'*i* derfyn. Dyma derfyn meibion Judah o amgylch, wrth eu teuluoedd.

13 ¶ Ac i Caleb mab Jephunneh y rhoddodd efe ran ym mysg meibion Judah, yn ol gair yr ARGLWYDD wrth Josua; *sef* Caer-Arba, tad yr Anaciaid, honno *yw* Hebron.

14 A Chaleb a yrrodd oddi yno dri mab Anac, Sesai, ac Ahiman, a Thalmai, meibion Anac.

15 Ac efe a aeth i fyny oddi yno at drigolion Debir; ac enw Debir o'r blaen *oedd* Ciriath-Sepher.

16 ¶ A dywedodd Caleb, Pwy bynnag a darawo Ciriath-Sepher, ac a'i hennillo hi; iddo ef y rhoddaf Achsah fy merch yn wraig.

17 Ac Othniel mab Cenas, brawd Caleb, a'i hennillodd hi. Yntau a roddodd Achsah ei ferch iddo ef yn wraig.

18 A phan ddaeth hi i mewn *atto ef*, yna hi a'i hannogodd ef i geisio gan ei thad faes: ac a ddisgynodd oddi ar yr asyn. A dywedodd Caleb wrthi, Beth a fynni di?

19 A hi a ddywedodd, Dyro i mi rodd; canys gwlad y dehau a roddaist i mi: dyro i mi hefyd ffynhonnau dyfroedd. Ac efe a roddodd iddi y ffynhonnau uchaf, a'r ffynhonnau isaf.

20 Dyma etifeddiaeth llwyth meibion Judah, wrth eu teuluoedd.

21 ¶ A'r dinasoedd o du eithaf i lwyth meibion Judah, tu a therfyn Edom, ar du y dehau, oeddynt Cabseel, ac Eder, a Jagur,

22 Cinah *hefyd*, a Dimonah, ac Adadah,

23 Cedes *hefyd*, a Hasor, ac Ithnan,

24 A Siph, a Thelem, a Bealoth,

25 A Hasor, Hadattah, a Cirioth, *a* Hesron, honno *yw* Hasor,

26 *Ac* Amam, a Sema, a Moladah,

27 A Hasar-Gàdah, a Hesmon, a Bethpalet,

28 A Hasar-sual, a Beer-seba, a Bisiothiah,

29 Baalah, ac Iim, ac Asem,

30 Ac Eltolad, a Chesil, a Hormah,

31 A Siclag, a Madmannah, a Sansannah,

32 A Lebaoth, a Silhim, ac Ain, a Rimmon: yr holl ddinasoedd *oedd* naw ar hugain, a'u pentrefydd.

33 *Ac* yn y dyffryn, Esthaol, a Soreah, ac Asnah,

34 A Sanoah, ac En-gannim, Tappuah, ac Enam,

35 Jarmuth, ac Adùlam, Sochoh, ac Asecah,

36 A Saraim, ac Adithaim, a Gederah, a Gederothaim; pedair ar ddeg o ddinasoedd, a'u pentrefydd.

37 Senan, a Hadasah, a Migdal-Gad,

38 A Dilean, a Mispeh, a Joctheel,

39 Lachis, a Boscath, ac Eglon,

40 Chabbon hefyd, a Lahmam, a Chithlis,

41 A Gederoth, Beth-Dagon, a Naamah, a Maccedah; un ddinas ar bymtheg, a'u pentrefydd.

42 Libnah, ac Ether, ac Asan,

43 A Jiphtah, ac Asnah, a Nesib,

44 Ceilah hefyd, ac Achsib, a Maresah; naw o ddinasoedd, a'u pentrefi.

45 Ecron, a'i threfi, a'i phentrefydd:

46 O Ecron hyd y môr, yr hyn oll *oedd* ger llaw Asdod, a'u pentrefydd:

47 Asdod, a'i threfydd, a'i phentrefydd; Gasah, a'i threfydd, a'i phentrefydd, hyd afon yr Aipht; a'r môr mawr, a'*i* derfyn.

48 ¶ Ac yn y mynydd-dir; Samir, a Jattir, a Sochoh,

49 A Dannah, a Ciriath-sannath, honno *yw* Debir,

50 Ac Anab, ac Astemoh, ac Anim,

51 A Gosen, a Holon, a Giloh; un ddinas ar ddeg, a'u pentrefydd.

52 Arab, a Dumah, ac Esean,

53 A Janum, a Beth-tappuah, ac Aphecah,

54 A Humtah, a Chaer-Arba, honno *yw* Hebron, a Sïor; naw dinas, a'u trefydd.

55 Maon, Carmel, a Siph, a Juttah,

56 A Jesreel, a Jocdeam, a Sanoah,

57 Cain, Gibeah, a Thimnah; deg o ddinasoedd, a'u pentrefydd.

58 Halhul, Beth-sur, a Gedor,

59 A Maarath, a Beth-anoth, ac Eltecon; chwech o ddinasoedd, a'u pentrefydd.

60 Ciriath-baal, honno *yw* Ciriath-jearim, a Rabbah; dwy ddinas, a'u pentrefydd.

61 ¶ Yn yr anialwch; Beth-arabah, Midin, a Sechachah,

62 A Nibsan, a dinas yr halen, ac En-gedi; chwech o ddinasoedd, a'u pentrefydd.

63 Ond ni allodd meibion Judah yrru allan y Jebusiaid, trigolion Jerusalem: am hynny y trig y Jebusiaid gyd â meibion Judah yn Jerusalem hyd y dydd hwn.

PENNOD 16.

1 *Terfynau cyffredinol meibion Joseph.* 5 *Terfym etifeddiaeth Ephraim.* 10 *Y Canaaneaid heb eu llwyr-oresgyn.*

A RHANDIR meibion Joseph oedd yn myned o'r Iorddonen *wrth* Jericho, i ddyfroedd Jericho o du y dwyrain, i'r anialwch sydd yn myned i fyny o Jericho i fynydd Bethel;

2 Ac yn myned o Bethel i Lus, ac yn myned rhagddo i derfyn Arci i Ataroth;

3 Ac yn disgyn tu a'r gorllewin i ardal Japhleti, hyd derfyn Beth-horon isaf, ac hyd Geser: a'*i* gyrrau eithaf sydd hyd y môr.

4 Felly meibion Joseph, Manasseh ac Ephraim, a gymmerasant eu hetifeddiaeth.

5 ¶ A therfyn meibion Ephraim *oedd* yn ol eu teuluoedd; a therfyn eu hetifeddiaeth hwynt o du y dwyrain, oedd Ataroth-adar, hyd Beth-horon uchaf.

6 A'r terfyn sydd yn myned tu a'r môr, i Michmethath o du y gogledd; a'r terfyn sydd yn amgylchu o du y dwyrain i Taanath-Siloh, ac yn myned heibio iddo o du y dwyrain i Janohah:

7 Ac yn myned i waered o Janohah, *i* Ataroth, a Naarath; ac yn cyrhaeddyd i Jericho, ac yn myned allan i'r Iorddonen.

8 O Tappuah y mae y terfyn yn myned tu a'r gorllewin i afon Canah; a'i gyrrau eithaf sydd wrth y môr. Dyma etifeddiaeth llwyth meibion Ephraim, yn ol eu teuluoedd.

9 A dinasoedd neillduedig meibion Ephraim *oedd* ym mysg etifeddiaeth meibion Manasseh; yr holl ddinasoedd, a'u pentrefydd.

10 Ond ni oresgynasant hwy y Canaaneaid, y rhai oedd yn trigo yn Geser: am hynny y trigodd y Canaaneaid ym mhlith yr Ephraimiaid hyd y dydd hwn, ac y maent yn gwasanaethu dan dreth.

PENNOD 17.

1 *Rhandir Manasseh,* 7 *a'i derfynau.* 12 *Y Canaaneaid heb eu gyrru allan.* 14 *Meibion Joseph yn caei rhandir arall.*

AC yr oedd rhandir llwyth Manasseh, (canys efe *oedd* gyntafanedig Joseph,) i Machir, cyntafanedig Manasseh, tad Gilead: o herwydd ei fod efe yn rhyfelwr, yr oedd Gilead a Basan yn eiddo ef.

2 Ac yr oedd *rhandir* i'r rhan arall o feibion Manasseh, yn ol eu teuluoedd; *sef* i feibion Abieser, ac i feibion Helec, ac i feibion Asriel, ac i feibion Sichem, ac i feibion Hepher, ac i feibion Semida: dyma feibion Manasseh mab Joseph, *sef* y gwrrywiaid, yn ol eu teuluoedd.

3 ¶ Ond Salphaad mab Hepher, mab Gilead, mab Machir, mab Manasseh, nid oedd iddo feibion, ond merched: a dyma enwau ei ferched ef; Malah, a Noah, Hoglah, Milcah, a Thirsah:

4 Y rhai a ddaethant o flaen Eleasar yr offeiriad, ac o flaen Josua mab Nun, ac o flaen y tywysogion, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD a orchymynodd i Moses roddi i ni etifeddiaeth ym mysg ein brodyr: am hynny efe a roddodd iddynt etifeddiaeth, yn ol gair yr ARGLWYDD, ym mysg brodyr eu tad.

5 A deg rhandir a syrthiodd i Manasseh, heb law gwlad Gilead a Basan, y rhai *sydd* tu hwnt i'r Iorddonen;

6 Canys merched Manasseh a etifeddasant etifeddiaeth ym mysg ei feibion ef: a gwlad Gilead oedd i'r rhan arall o feibion Manasseh.

7 ¶ A therfyn Manasseh oedd o Aser i Michmethath, yr hon *sydd* gyferbyn â Sichem; a'r terfyn oedd yn myned ar y llaw ddehau, hyd breswylwyr En-tappuah.

8 Gwlad Tappuah oedd eiddo Manasseh: ond Tappuah, *yr hon oedd* ar derfyn Manasseh, *oedd* eiddo meibion Ephraim.

9 A'r terfyn sydd yn myned i

waered i afon Canah, o du dehau yr afon. Y dinasoedd hyn, eiddo Ephraim, *oedd* ym mhlith dinasoedd Manasseh: a therfyn Manasseh *sydd* o du y gogledd i'r afon, a'i ddiwedd oedd y môr.

10 Y dehau *oedd* eiddo Ephraim, a'r gogledd *eiddo* Manasseh; a'r môr oedd ei derfyn ef: ac yn Aser yr oeddynt yn cyfarfod, o'r gogledd; ac yn Issachar, o'r dwyrain.

11 Yn Issachar hefyd ac yn Aser yr oedd gan Manasseh, Beth-sean a'i threfydd, ac Ibleam a'i threfydd, *a* thrigolion Dor a'i threfydd, a thrigolion En-dor a'i threfydd, a phreswylwyr Taanach a'i threfydd, a thrigolion Megido a'i threfydd; tair talaeth.

12 Ond ni allodd meibion Manasseh yrru ymaith *drigolion* y dinasoedd hynny; eithr mynnodd y Canaaneaid breswylio yn y wlad honno.

13 Etto pan gryfhaodd meibion Israel, hwy a osodasant y Canaaneaid dan dreth: ni yrrasant hwynt ymaith yn llwyr.

14 ¶ A meibion Joseph a lefarasant wrth Josua, gan ddywedyd, Paham y rhoddaist i mi, yn etifeddiaeth, un afael ac un rhan, a minnau yn bobl aml, wedi i'r ARGLWYDD hyd yn hyn fy mendithio?

15 A Josua a ddywedodd wrthynt, Os pobl aml *ydwyt*, dos i fyny i'r coed, a thor *goed* i ti yno y'ngwlad y Pheresiaid, a'r cewri, od yw mynydd Ephraim yn gyfyng i ti.

16 A meibion Joseph a ddywedasant, Ni bydd y mynydd ddigon i ni: hefyd *y mae* cerbydau heiyrn gan yr holl Ganaaneaid sydd yn trigo yn y dyffryndir, gan y rhai *sydd* yn Beth-sean a'i threfi, a chan y rhai *sydd* y'nglyn Jesreel.

17 A Josua a ddywedodd wrth dŷ Joseph, wrth Ephraim ac wrth Manasseh, gan ddywedyd, Pobl aml *ydwyt*, a nerth mawr *sydd* gennyt: ni fydd i ti un rhan *yn unig:*

18 Eithr bydd y mynydd eiddot ti: canys coediog *yw*, arloesa ef; a bydd ei eithafoedd ef eiddot ti: canys ti a yrri ymaith y Canaaneaid, er bod cerbydau heiyrn ganddynt, *ac* er eu *bod* yn gryfion.

PENNOD 18.

1 *Gosod y tabernacl i fyny yn Siloh.* 9 *Dosparthu y rhan arall o'r tir, a'i gyfrannu yn saith ran.* 10 *Josua yn ei rannu wrth goelbren.* 11 *Rhandir a therfyn Benjamin:* 21 *eu dinasoedd.*

A HOLL gynnulleidfa meibion Israel a ymgynnullasant i Siloh, ac a osodasant yno babell y cyfarfod: a'r wlad oedd wedi ei darostwng o'u blaen hwynt.

2 A saith lwyth oedd yn aros ym mysg meibion Israel, i'r rhai ni rannasent eu hetifeddiaeth etto.

3 A Josua a ddywedodd wrth feibion Israel, Pa hyd *yr ydych* yn esgeuluso myned i oresgyn y wlad a roddes ARGLWYDD DDUW eich tadau i chwi?

4 Moeswch o honoch driwyr o *bob* llwyth; fel yr anfonwyf hwynt, ac y cyfodont, ac y rhodiont y wlad, ac y dosparthont hi yn ol eu hetifeddiaeth hwynt; ac y delont attaf *drachefn.*

5 A hwy a'i rhannant hi yn saith ran. Judah a saif ar ei derfyn o du y dehau, a thŷ Joseph a safant ar eu terfyn o du y gogledd.

6 A chwi a ddosperthwch y wlad *yn* saith ran, a dygwch *y dosparthiadau* attaf fi yma; fel y bwriwyf goelbren drosoch yma, o flaen yr ARGLWYDD ein DUW.

7 Ond ni *bydd* rhan i'r Lefiaid yn eich mysg chwi; o herwydd offeiriadaeth yr ARGLWYDD *fydd* eu hetifeddiaeth hwynt. Gad hefyd, a Reuben, a hanner llwyth Manasseh, a dderbyniasant eu hetifeddiaeth o'r tu hwnt i'r Iorddonen, o du y dwyrain, yr hon a roddodd Moses gwas yr ARGLWYDD iddynt.

8 ¶ A'r gwŷr a gyfodasant, ac a aethant: a Josua a orchymynodd i'r rhai oedd yn myned i rannu y wlad, gan ddywedyd, Ewch, a rhodiwch trwy y wlad, a dosperthwch hi, a dychwelwch attaf fi; ac yma y bwriaf drosoch chwi goelbren ger bron yr ARGLWYDD yn Siloh.

9 A'r gwŷr a aethant ymaith, ac a gerddasant trwy y wlad, ac a'i dosparthasant hi bob yn ddinas, yn saith ran, mewn llyfr; a daethant at Josua i'r gwersyll *yn* Siloh.

10 ¶ A Josua a fwriodd goelbren drostynt hwy ger bron yr AR-

GLWYDD yn Siloh: a Josua a rannodd yno y wlad i feibion Israel yn ol eu rhannau.

11 ¶ A choelbren llwyth meibion Benjamin a ddaeth i fyny yn ol eu teuluoedd: a therfyn eu hetifeddiaeth hwynt a aeth allan rhwng meibion Judah a meibion Joseph.

12 A'r terfyn oedd iddynt hwy tu a'r gogledd o'r Iorddonen: y terfyn hefyd oedd yn myned i fyny gan ystlys Jericho, o du y gogledd, ac yn myned i fyny trwy y mynydd tu a'r gorllewin; a'i gyrrau eithaf oedd yn anialwch Beth-afen.

13 Y terfyn hefyd sydd yn myned oddi yno i Lus, gan ystlys Lus, honno *yw* Bethel, tu a'r dehau; a'r terfyn sydd yn disgyn i Atarothadar, i'r mynydd *sydd* o du y dehau i Beth-horon isaf.

14 A'r terfyn sydd yn tueddu, ac yn amgylchu cilfach y môr tu a'r dehau, o'r mynydd *sydd* ar gyfer Beth-horon tu a'r dehau; a'i gyrrau eithaf ef *sydd* wrth Ciriath-baal, honno *yw* Ciriath-jearim, dinas meibion Judah. Dyma du y gorllewin.

15 A thu y dehau *sydd* o gwr Ciriath-jearim; a'r terfyn sydd yn myned tu a'r gorllewin, ac yn cyrhaeddyd hyd ffynnon dyfroedd Nephtoah.

16 Y terfyn hefyd sydd yn disgyn tu a chwr y mynydd *sydd* ar gyfer glyn mab Hinnom, yr hwn *sydd* yn nyffryn y cewri tu a'r gogledd; ac y mae efe yn disgyn i ddyffryn Hinnom, gan ystlys y Jebusiaid tu a'r dehau, ac yn dyfod i waered i ffynnon Rogel.

17 Ac y mae yn tueddu o'r gogledd, ac yn myned i En-semes, ac yn cyrhaeddyd tu a Geliloth, yr hon *sydd* gyferbyn â rhiw Adummim, ac yn disgyn *at* faen Bohan mab Reuben:

18 Ac y mae efe yn myned ar hyd yr ystlys ar gyfer Arabah tu a'r gogledd, ac yn disgyn i Arabah.

19 Y terfyn hefyd sydd yn myned rhagddo i ystlys Beth-hoglah tu a'r gogledd: a chwr eithaf y terfyn oedd wrth lan y môr heli tu a'r gogledd, hyd gwr yr Iorddonen tu a'r dehau. Dyma derfyn y dehau.

20 Yr Iorddonen hefyd sydd derfyn iddo o ystlys y dwyrain. Dyma etifeddiaeth meibion Benjamin, trwy eu terfynau o amgylch, yn ol eu teuluoedd.

21 A dinasoedd llwyth meibion Benjamin, yn ol eu teuluoedd, oedd, Jericho, a Beth-hoglah, a glyn Cesis,

22 A Beth-arabah, a Semaraim, a Bethel,

23 Ac Afim, a Pharah, ac Ophrah,

24 A Chephar-haammonai, ac Ophni, a Gaba; deuddeg o ddinasoedd, a'u pentrefydd:

25 Gibeon, a Ramah, a Beeroth,

26 A Mispeh, a Chephirah, a Mosah,

27 A Recem, ac Irpeel, a Tharalah,

28 A Selah, Eleph, a Jebusi, (honno *yw* Jerusalem,) Gibeath, *a* Chiriath; pedair ar ddeg o ddinasoedd, a'u pentrefydd. Dyma etifeddiaeth meibion Benjamin, yn ol eu teuluoedd.

PENNOD 19.

1 *Rhandir Simeon,* 10 *Sabulon,* 17 *Issachar,* 24 *Aser,* 32 *Naphtali,* 40 *a Dan.* 49 *Plant Israel yn rhoddi etifeddiaeth i Josua.*

A'R ail goelbren a aeth allan i Simeon, dros lwyth meibion Simeon, yn ol eu teuluoedd: a'u hetifeddiaeth hwynt oedd o fewn etifeddiaeth meibion Judah.

2 Ac yr oedd ganddynt hwy, yn eu hetifeddiaeth, Beer-seba, a Seba, a Moladah,

3 A Hasar-sual, a Balah, ac Asem,

4 Ac Eltolad, a Bethul, a Hormah,

5 A Siclag, a Beth-marcaboth, a Hasar-susah,

6 A Beth-lebaoth, a Saruhen; tair dinas ar ddeg, a'u pentrefydd:

7 Ain, Rimmon, ac Ether, ac Asan; pedair o ddinasoedd, a'u pentrefydd:

8 A'r holl bentrefydd y rhai *oedd* o amgylch y dinasoedd hyn, hyd Baalath-beer, Ramath o'r dehau. Dyma etifeddiaeth llwyth meibion Simeon, yn ol eu teuluoedd.

9 O randir meibion Judah *yr oedd* etifeddiaeth meibion Simeon: canys rhan meibion Judah oedd ormod iddynt; am hynny meibion Simeon a gawsant eu hetifeddiaeth o fewn eu hetifeddiaeth hwynt.

10 ¶ A'r trydydd coelbren a ddaeth i fyny dros feibion Sabulon, yn ol

eu teuluoedd: a therfyn eu hetifeddiaeth hwynt oedd hyd Sarid.
11 A'u terfyn hwynt sydd yn myned i fyny tu a'r môr, a Maralah, ac yn cyrhaeddyd i Dabbaseth; ac yn cyrhaeddyd i'r afon *sydd* ar gyfer Jocneam;
12 Ac yn troi o Sarid, o du y dwyrain tu a chyfodiad haul, hyd derfyn Cisloth-Tabor; ac yn myned i Daberath, ac yn esgyn i Japhia;
13 Ac yn myned oddi yno ym mlaen tu a'r dwyrain, i Gittah-Hepher, i Ittah-Casin; ac yn myned allan i Rimmon-Methoar, *i* Neah.
14 A'r terfyn sydd yn amgylchu o du y gogledd i Hannathon; a'i ddiweddiad y'nglyn Jiphtahel.
15 Cattath *hefyd*, a Nahàlal, a Simron, ac Idalah, a Beth-lehem: deuddeg o ddinasoedd, a'u pentrefydd.
16 Dyma etifeddiaeth meibion Sabulon, yn ol eu teuluoedd; y dinasoedd yma, a'u pentrefydd.
17 ¶ Y pedwerydd coelbren a ddaeth allan dros Issachar; dros feibion Issachar, yn ol eu teuluoedd.
18 A'u terfyn hwynt oedd *tu a* Jesreel, a Chesùloth, a Sunem,
19 A Haphraim, a Sihon, ac Anaharath,
20 A Rabbith, a Cision, ac Abes,
21 A Remeth, ac En-gannim, ac En-hàdah, a Beth-passes.
22 A'r terfyn sydd yn cyrhaeddyd i Tabor, a Sahasimah, a Beth-semes; a'u cyrrau eithaf hwynt yw yr Iorddonen: un ddinas ar bymtheg, a'u pentrefydd.
23 Dyma etifeddiaeth llwyth meibion Issachar, yn ol eu teuluoedd; y dinasoedd, a'u pentrefydd.
24 ¶ A'r pummed coelbren a ddaeth allan dros lwyth meibion Aser, yn ol eu teuluoedd.
25 A'u terfyn hwynt oedd, Helcath, a Hali, a Beten, ac Achsaph,
26 Ac Alammelech, ac Amad, a Misal; ac yn cyrhaeddyd i Carmel tu a'r gorllewin, ac i Sihor-Libnath:
27 Ac yn troi tu a chyfodiad haul i Beth-dagon, ac yn cyrhaeddyd i Sabulon, ac i ddyffryn Jiphtahel, tu a'r gogledd i Beth-Emec, ac i Neiel, ac yn myned ar y llaw aswy i Cabul;
28 A Hebron, a Rehob, a Hammon, a Canah, hyd Sidon fawr.
29 A'r terfyn sydd yn troi i Ramah, ac hyd Sor, y ddinas gadarn: a'r terfyn sydd yn troi i Hosah; a'i gyrrau eithaf sydd wrth y môr, o randir Achsib.
30 Ummah hefyd, ac Aphec, a Rehob: dwy ddinas ar hugain, a'u pentrefydd.
31 Dyma etifeddiaeth llwyth meibion Aser, yn ol eu teuluoedd; y dinasoedd hyn a'u pentrefydd.
32 ¶ Y chweched coelbren a ddaeth allan i feibion Naphtali, dros feibion Naphtali, yn ol eu teuluoedd.
33 A'u terfyn hwy oedd o Heleph, o Alon i Saanannim, ac Adami, Neceb, a Jabneel hyd Lacum: a'i gyrrau eithaf oedd *wrth* yr Iorddonen.
34 A'r terfyn sydd yn troi tu a'r gorllewin i Asnoth-Tabor, ac yn myned oddi yno i Huccoc; ac yn cyrhaeddyd i Sabulon o du y dehau, *ac* yn cyrhaeddyd i Aser o du y gorllewin, ac i Judah a'r Iorddonen tu a chyfodiad haul.
35 A'r dinasoedd caerog, Sìdim, Ser, a Hammath, Raccath, a Chinnereth,
36 Ac Adamah, a Ramah, a Hasor,
37 A Cedes, ac Edrei, ac En-hasor,
38 Ac Iron, a Migdal-el, Horem, a Beth-anath, a Beth-semes: pedair dinas ar bymtheg, a'u pentrefydd.
39 Dyma etifeddiaeth llwyth meibion Naphtali, yn ol eu teuluoedd; y dinasoedd, a'u pentrefydd.
40 ¶ Y seithfed coelbren a ddaeth allan dros lwyth meibion Dan, yn ol eu teuluoedd.
41 A therfyn eu hetifeddiaeth hwynt oedd Sorah, ac Estaol, ac Ir-Semes,
42 A Saalabbin, ac Ajalon, ac Ithlah,
43 Ac Elon, a Thimnathah, ac Ecron,
44 Ac Elteceh, a Gibbethon, a Baalath,
45 A Jehud, a Bene-berac, a Gath-rimmon,
46 A Meiarcon, a Raccon, gyd â'r terfyn ar gyfer Japho.

47 A therfyn meibion Dan a aeth yn *rhy fychan* iddynt: am hynny meibion Dan a aethant i fyny i ymladd yn erbyn Lesem, ac a'i hennillasant hi; tarawsant hefyd hi â min y cleddyf, a meddiannasant hi, a thrigasant ynddi: a galwasant Lesem yn Dan, yn ol enw Dan eu tad.
48 Dyma etifeddiaeth llwyth meibion Dan, yn ol eu teuluoedd; y dinasoedd hyn, a'u pentrefydd.
49 ¶ Pan orphenasant rannu y wlad yn etifeddiaethau yn ol ei therfynau, meibion Israel a roddasant etifeddiaeth i Josua mab Nun yn eu mysg:
50 Wrth orchymyn yr ARGLWYDD y rhoddasant iddo ef y ddinas a ofynodd efe; *sef* Timnath-Serah, ym mynydd Ephraim: ac efe a adeiladodd y ddinas, ac a drigodd ynddi.
51 Dyma yr etifeddiaethau a roddodd Eleasar yr offeiriad, a Josua mab Nun, a phennau tadau llwythau meibion Israel, yn etifeddiaeth, wrth goelbren, yn Siloh, o flaen yr ARGLWYDD, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod. Felly y gorphenasant rannu y wlad.

PENNOD 20.

1 *Duw yn gorchymyn, 7 a phlant Israel yn ordeinio y chwe dinas noddfa.*

ALLEFARODD yr ARGLWYDD wrth Josua, gan ddywedyd,
2 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Moeswch i chwi ddinasoedd nodded, *am* y rhai y lleferais wrthych trwy law Moses:
3 Fel y ffo yno y llofrudd a laddo *neb* mewn amryfusedd, *neu* mewn anwybod: a byddant i chwi yn noddfa rhag dialydd y gwaed.
4 A phan ffo efe i un o'r dinasoedd hynny, a sefyll *wrth* ddrws porth y ddinas, a mynegi ei achosion lle y clywo henuriaid y ddinas honno; cymmerant ef attynt i'r ddinas, a rhoddant le iddo, fel y trigo gyd â hwynt.
5 Ac os dialydd y gwaed a erlid ar ei ol ef, na roddant y lleiddiad yn ei law ef: canys mewn anwybod y tarawodd efe ei gymmydog, ac nid oedd gas ganddo ef o'r blaen.
6 Ac efe a drig yn y ddinas honno, nes iddo sefyll o flaen y gynnulleidfa i farn, *ac* nes marw yr archoffeiriad fyddo yn y dyddiau hynny: yna dychweled y llofrudd, a deued i'w ddinas ac i'w dŷ ei hun; *sef* y ddinas yr hon y ffoisai efe o honi.
7 ¶ Am hynny y cyssegrasant Cedes yn Galilea, ym mynydd Naphtali, a Sichem ym mynydd Ephraim, a Chaer-Arba, hon *yw* Hebron, ym mynydd Judah.
8 Ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen, o du y dwyrain i Jericho, y rhoddasant Beser yn yr anialwch ar y gwastadedd, o lwyth Reuben, a Ramoth yn Gilead o lwyth Gad, a Golan yn Basan o lwyth Manasseh.
9 Y rhai hyn oedd ddinasoedd gosodedig i holl feibion Israel, ac i'r dieithr a ymdeithiai yn eu mysg hwynt; fel y ffoai pawb iddynt a'r a laddai *neb* mewn amryfusedd; ac na byddai marw trwy law dialydd y gwaed, nes iddo sefyll o flaen y gynnulleidfa.

PENNOD 21.

1 *Rhoddi wyth ddinas a deugain i'r Lefiaid, wrth goelbren, allan o'r llwythau eraill.* 43 *Duw yn rhoddi y wlad, a llonyddwch i'r Israeliaid, yn ol ei addewid.*

YNA pennau tadau y Lefiaid a nesasant at Eleasar yr offeiriad, ac at Josua mab Nun, ac at bennau tadau llwythau meibion Israel;
2 Ac a lefarasant wrthynt yn Siloh, o fewn gwlad Canaan, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD a orchymynodd, trwy law Moses, roddi i ni ddinasoedd i drigo, a'u meusydd pentrefol i'n hanifeiliaid.
3 A meibion Israel a roddasant i'r Lefiaid o'u hetifeddiaeth, wrth orchymyn yr ARGLWYDD, y dinasoedd hyn a'u meusydd pentrefol.
4 A daeth y coelbren allan dros deuluoedd y Cohathiaid: ac yr oedd i feibion Aaron yr offeiriad, *y rhai oedd* o'r Lefiaid, allan o lwyth Judah, ac o lwyth Simeon, ac o lwyth Benjamin, dair dinas ar ddeg, wrth goelbren.
5 Ac i'r rhan arall o feibion Cohath *yr oedd*, o deuluoedd llwyth Ephraim, ac o lwyth Dan, ac o hanner llwyth Manasseh, ddeg dinas, wrth goelbren.
6 Ac i feibion Gerson *yr oedd*, o deuluoedd llwyth Issachar, ac o

lwyth Aser, ac o lwyth Naphtali, ac o hanner llwyth Manasseh yn Basan, dair dinas ar ddeg, wrth goelbren.

7 I feibion Merari, wrth eu teuluoedd, *yr oedd*, o lwyth Reuben, ac o lwyth Gad, ac o lwyth Sabulon, ddeuddeg o ddinasoedd.

8 A meibion Israel a roddasant i'r Lefiaid y dinasoedd hyn, a'u meusydd pentrefol, fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD trwy law Moses, wrth goelbren.

9 ¶ A hwy a roddasant, o lwyth meibion Judah, ac o lwyth meibion Simeon, y dinasoedd hyn a enwir erbyn *eu* henwau;

10 Fel y byddent i feibion Aaron, o deuluoedd y Cohathiaid, o feibion Lefi: canys iddynt hwy yr oedd y coelbren cyntaf.

11 A rhoddasant iddynt Gaer-Arba, tad Anac, honno *yw* Hebron, ym mynydd-*dir* Judah, a'i meusydd pentrefol oddi amgylch.

12 Ond maes y ddinas, a'i phentrefydd, a roddasant i Caleb mab Jephunneh, yn etifeddiaeth iddo ef.

13 ¶ Ac i feibion Aaron yr offeiriad y rhoddasant Hebron a'i meusydd pentrefol, yn ddinas nodded i'r llofrudd; a Libnah a'i meusydd pentrefol,

14 A Jattir a'i meusydd pentrefol, ac Estemoa a'i meusydd pentrefol,

15 A Holon a'i meusydd pentrefol, a Debir a'i meusydd pentrefol,

16 Ac Ain a'i meusydd pentrefol, a Juttah a'i meusydd pentrefol, *a* Beth-semes a'i meusydd pentrefol: naw dinas o'r ddau lwyth hynny.

17 Ac o lwyth Benjamin, Gibeon a'i meusydd pentrefol, a Geba a'i meusydd pentrefol,

18 Anathoth a'i meusydd pentrefol, ac Almon a'i meusydd pentrefol: pedair dinas.

19 Holl ddinasoedd meibion Aaron yr offeiriaid, *oedd* dair dinas ar ddeg, a'u meusydd pentrefol.

20 ¶ A chan deuluoedd meibion Cohath, y Lefiaid, y rhan aral o feibion Cohath, yr oedd dinasoedd eu coelbren o lwyth Ephraim.

21 A hwy a roddasant iddynt yn ddinas nodded y lleiddiad, Sichem a'i meusydd pentrefol, ym mynydd Ephraim, a Geser a'i meusydd pentrefol,

22 A Cibsaim a'i meusydd pentrefol, a Beth-horon a'i meusydd pentrefol: pedair o ddinasoedd.

23 Ac o lwyth Dan, Elteceh a'i meusydd pentrefol, Gibbethon a'i meusydd pentrefol,

24 Ajalon a'i meusydd pentrefol, Gath-Rimmon a'i meusydd pentrefol: pedair o ddinasoedd.

25 Ac o hanner llwyth Manasseh, Tanac a'i meusydd pentrefol, a Gath-Rimmon a'i meusydd pentrefol: dwy ddinas.

26 Yr holl ddinasoedd, *y rhai oedd* eiddo y rhan arall o deuluoedd meibion Cohath, *oedd* ddeg, a'u meusydd pentrefol.

27 ¶ Ac i feibion Gerson, o deuluoedd y Lefiaid, *y rhoddasid*, o hanner *arall* llwyth Manasseh, yn ddinas nodded y llofrudd, Golan yn Basan a'i meusydd pentrefol, a Beesterah a'i meusydd pentrefol: dwy ddinas.

28 Ac o lwyth Issachar, Cison a'i meusydd pentrefol, Dabareth a'i meusydd pentrefol,

29 Jarmuth a'i meusydd pentrefol, En-gannim a'i meusydd pentrefol: pedair dinas.

30 Ac o lwyth Aser, Misal a'i meusydd pentrefol, Abdon a'i meusydd pentrefol,

31 Helcath a'i meusydd pentrefol, a Rehob a'i meusydd pentrefol: pedair dinas.

32 Ac o lwyth Naphtali, yn ddinas nodded y lleiddiad, Cedes yn Galilea a'i meusydd pentrefol, a Hammothdor a'i meusydd pentrefol, a Cartan a'i meusydd pentrefol: tair dinas.

33 Holl ddinasoedd y Gersoniaid, yn ol eu teuluoedd, *oedd* dair dinas ar ddeg, a'u meusydd pentrefol.

34 ¶ Ac i deuluoedd meibion Merari, y rhan arall o'r Lefiaid, *y rhoddasid*, o lwyth Sabulon, Jocneam a'i meusydd pentrefol, a Cartah a'i meusydd pentrefol,

35 Dimnah a'i meusydd pentrefol, Nahalal a'i meusydd pentrefol: pedair dinas.

36 Ac o lwyth Reuben, Beser a'i meusydd pentrefol, a Jahasah a'i meusydd pentrefol,

37 Cedemoth a'i meusydd pentrefol, Mephaath a'i meusydd pentrefol: pedair dinas.
38 Ac o lwyth Gad, yn ddinas noddfa y llofrudd, Ramoth yn Gilead a'i meusydd pentrefol, a Mahanaim a'i meusydd pentrefol,
39 Hesbon a'i meusydd pentrefol, Jaser a'i meusydd pentrefol; pedair dinas o gwbl.
40 Holl ddinasoedd meibion Merari, yn ol eu teuluoedd, *sef* y rhan arall o deuluoedd y Lefiaid, oedd, *wrth* eu coelbren, ddeuddeng ninas.
41 Holl ddinasoedd y Lefiaid, ym meddiant meibion Israel, *oedd* wyth ddinas a deugain, a'u meusydd pentrefol.
42 Y dinasoedd hyn oedd bob un â'u meusydd pentrefol o'u hamgylch. Felly *yr oedd* yr holl ddinasoedd hyn.
43 ¶ A'r ARGLWYDD a roddodd i Israel yr holl wlad a dyngodd efe ar *ei* rhoddi wrth eu tadau hwynt: a hwy a'i meddiannasant hi, ac a wladychasant ynddi.
44 Yr ARGLWYDD hefyd a roddodd lonyddwch iddynt hwy o amgylch, yn ol yr hyn oll a dyngasai efe wrth eu tadau hwynt; ac ni safodd neb yn eu hwyneb hwynt o'u holl elynion; eu holl elynion a roddodd yr ARGLWYDD yn eu dwylaw hwynt.
45 Ni phallodd dim o'r holl bethau da a lefarasai yr ARGLWYDD wrth dŷ Israel: daeth y cwbl i ben.

PENNOD 22.

1 *Anfon y ddau lwyth a hanner adref, a'u bendithio.* 10 *Hwythau yn adeiladu allor y dystiolaeth ar y ffordd.* 11 *Yr Israeliaid ym anfoddlawn iddi.* 21 *Hwythau yn eu boddloni hwynt yn helaeth.*

YNA Josua a alwodd y Reubeniaid a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh,
2 Ac a ddywedodd wrthynt, Chwi a gadwasoch yr hyn oll a orchymynodd Moses gwas yr ARGLWYDD i chwi, ac a wrandawsoch ar fy llais yn yr hyn oll a orchymynais i chwi.
3 Ni adawsoch eich brodyr, er ys llawer o ddyddiau bellach, hyd y dydd hwn; ond cadwasoch reol gorchymyn yr ARGLWYDD eich DUW.
4 Ac yn awr yr ARGLWYDD eich DUW a roddes esmwythdra i'ch brodyr, fel y llefarodd wrthynt: yn awr gan hynny trowch, ac ewch rhagoch i'ch pebyll, i wlad eich meddiant, yr hon a roddodd Moses gwas yr ARGLWYDD i chwi, o'r tu hwnt i'r Iorddonen.
5 Yn unig cedwch yn ddyfal ar wneuthur y gorchymyn a'r gyfraith a orchymynodd Moses gwas yr ARGLWYDD i chwi; *sef* caru yr ARGLWYDD eich DUW, a rhodio yn ei holl ffyrdd ef, a chadw ei orchymynion ef, a glynu wrtho ef, a'i wasanaethu ef â'ch holl galon, ac â'ch holl enaid.
6 A Josua a'u bendithiodd hwynt, ac a'u gollyngodd ymaith. A hwy a aethant i'w pebyll.
7 ¶ Ac i hanner llwyth Manasseh y rhoddasai Moses *etifeddiaeth* yn Basan; ac i'r hanner *arall* y rhoddodd Josua, gyd â'u brodyr, tu yma i'r Iorddonen tu a'r gorllewin. Hefyd pan ollyngodd Josua hwynt i'w pebyll, yna efe a'u bendithiodd hwynt;
8 Ac efe a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, Dychwelwch â chyfoeth mawr i'ch pebyll, âg anifeiliaid lawer iawn, âg arian, ac âg aur, â phres *hefyd*, ac â haiarn, ac â gwisgoedd lawer iawn: rhennwch â'ch brodyr anrhaith eich gelynion.
9 ¶ A meibion Reuben, a meibion Gad, a hanner llwyth Manasseh, a ddychwelasant, ac a aethant ymaith oddi wrth feibion Israel, o Siloh, yr hon *sydd* y'ngwlad Canaan, i fyned i wlad Gilead, i wlad eu meddiant hwy, yr hon a feddiannasant, wrth orchymyn yr ARGLWYDD trwy law Moses.
10 ¶ A phan ddaethant i gyffiniau yr Iorddonen, y rhai *sydd* y'ngwlad Canaan, meibion Reuben, a meibion Gad, a hanner llwyth Manasseh, a adeiladasant yno allor wrth yr Iorddonen, allor fawr mewn golwg.
11 ¶ A chlybu meibion Israel ddywedyd, Wele, meibion Reuben, a meibion Gad, a hanner llwyth Manasseh, a adeiladasant allor ar gyfer gwlad Canaan, wrth derfynau yr Iorddonen, gan ystlys meibion Israel.
12 A phan glybu meibion Israel *hynny*, yna holl gynnulleidfa meibion Israel a ymgynnullasant i Siloh,

i ddyfod i fyny yn eu herbyn hwynt i ryfel.

13 A meibion Israel a anfonasant at feibion Reuben, ac at feibion Gad, ac at hanner llwyth Manasseh, i wlad Gilead, Phinees mab Eleasar yr offeiriad,

14 A deg o dywysogion gyd âg ef, un tywysog o bob tŷ, pennaf trwy holl lwythau Israel; a phob un *oedd* ben yn nhŷ *eu* tadau, ym mysg miloedd Israel.

15 A hwy a ddaethant at feibion Reuben, ac at fēibion Gad, ac at hanner llwyth Manasseh, i wlad Gilead; ac a ymddiddanasant â hwynt, gan ddywedyd,

16 Fel hyn y dywed holl gynnulleidfa yr ARGLWYDD, Pa gamwedd *yw* hwn a wnaethoch yn erbyn DUW Israel, gan ddychwelyd heddyw oddi ar ol yr ARGLWYDD, pan adeiladasoch i chwi allor, i wrthryfela heddyw yn erbyn yr ARGLWYDD?

17 Ai bychan gennym ni anwiredd Peor, yr hwn nid ymlanhasom oddi wrtho etto hyd y dydd hwn, er bod pla ym mysg cynnulleidfa yr ARGLWYDD,

18 Ond bod i chwi droi ymaith heddyw oddi ar ol yr ARGLWYDD? Ac am i chwi wrthryfela heddyw yn erbyn yr ARGLWYDD, efe a lidia y fory yn erbyn holl gynnulleidfa Israel.

19 Ac od *yw* gwlad eich meddiant chwi yn aflan, deuwch drosodd i wlad meddiant yr ARGLWYDD, yr hon y mae tabernacl yr ARGLWYDD yn aros ynddi, a chymmerwch feddiant yn ein mysg ni: ond na wrthryfelwch yn erbyn yr ARGLWYDD, ac na childynnwch i'n herbyn ninnau, trwy adeiladu o honoch i chwi eich hun allor, heb law allor yr ARGLWYDD ein DUW.

20 Oni wnaeth Achan mab Serah gamwedd, o herwydd y dïofryd-beth, fel y bu digofaint yn erbyn holl gynnulleidfa Israel? ac efe *oedd* un gŵr; *etto* nid efe *yn unig* a fu farw am ei anwiredd.

21 ¶ Yna meibion Reuben, a meibion Gad, a hanner llwyth Manasseh, a attebasant, ac a lefarasant wrth bennaethiaid miloedd Israel;

22 ARGLWYDD DDUW y duwiau, ARGLWYDD DDUW y duwiau, efe sydd yn gwybod, ac Israel yntau a gaiff wybod, os mewn gwrthryfel, neu mewn camwedd yn erbyn yr ARGLWYDD *y bu hyn*, (na wareder ni y dydd hwn,)

23 Os adeiladasom i ni allor i droi oddi ar ol yr ARGLWYDD, neu os offrymmasom arni boeth-offrwm, neu fwyd-offrwm, neu os aberthasom arni ebyrth hedd; yr ARGLWYDD ei hun a'i gofyno:

24 Ac onid rhag ofn y peth *yma* y gwnaethom hyn; gan ddywedyd, Ar ol hyn eich meibion chwi a adroddant wrth ein meibion ninnau, gan ddywedyd, Beth *sydd* i chwi *a wneloch* âg ARGLWYDD DDUW Israel?

25 Canys yr ARGLWYDD a roddodd yr Iorddonen hon yn derfyn rhyngom ni a chwi: meibion Reuben, a meibion Gad, nid *oes* i chwi ran yn yr ARGLWYDD. Felly y gwnai eich meibion chwi i'n meibion ni beidio âg ofni yr ARGLWYDD.

26 Am hynny y dywedasom, Gan adeiladu gwnawn yn awr i ni allor: nid i boeth-offrwm, nac i aberth;

27 Eithr *i fod* yn dyst rhyngom ni a chwi, a rhwng ein hiliogaeth ni ar ein hol, i *gael o honom* wasanaethu gwasanaeth yr ARGLWYDD ger ei fron ef, â'n poeth-offrymmau, ac â'n hebyrth, ac â'n hoffrymmau hedd; fel na ddywedo eich meibion chwi ar ol hyn wrth ein meibion ni, Nid *oes* i chwi ran yn yr ARGLWYDD.

28 Am hynny y dywedasom, Pan ddywedont hwy *felly* wrthym ni, neu wrth ein heppil ar ol hyn; yna y dywedwn ninnau, Gwelwch lun allor yr ARGLWYDD, yr hon a wnaeth ein tadau ni, nid i boeth-offrwm, nac i aberth; ond *i fod* yn dyst rhyngom ni a chwi.

29 Na atto DUW i ni wrthryfela yn erbyn yr ARGLWYDD, a dychwelyd heddyw oddi ar ol yr ARGLWYDD; gan adeiladu allor i boeth-offrwm, i fwyd-offrwm, neu i aberth, heb law allor yr ARGLWYDD ein DUW yr hon *sydd* ger bron ei dabernacl ef.

30 ¶ A phan glybu Phinees yr offeiriad, a thywysogion y gynnull-

eidfa, a phennaethiaid miloedd Israel y rhai *oedd* gyd âg ef, y geiriau a lefarasai meibion Reuben, a meibion Gad, a meibion Manasseh, da oedd *y peth* yn eu golwg hwynt.

31 Phinees mab Eleasar yr offeiriad a ddywedodd wrth feibion Reuben, ac wrth feibion Gad, ac wrth feibion Manasseh, Heddyw y gwybuom *fod* yr ARGLWYDD yn ein plith; o herwydd na wnaethoch y camwedd hwn yn erbyn yr ARGLWYDD: yn awr gwaredasoch feibion Israel o law yr ARGLWYDD.

32 ¶ Am hynny y dychwelodd Phinees mab Eleasar yr offeiriad, a'r tywysogion, oddi wrth feibion Reuben, ac oddi wrth feibion Gad, o wlad Gilead, i wlad Canaan, at feibion Israel, ac a ddygasant drachefn air iddynt.

33 A da oedd y peth y'ngolwg meibion Israel; a meibion Israel a fendithiasant DDUW, ac ni soniasant am fyned i fyny yn eu herbyn hwynt i ryfel, i ddifetha y wlad yr oedd meibion Reuben a meibion Gad yn preswylio ynddi.

34 A meibion Reuben a meibion Gad a alwasant yr allor *Ed:* canys tyst *fydd* hi rhyngom ni, mai yr ARGLWYDD *sydd* DDUW.

PENNOD 23.

1 Josua yn annog y bobl cyn ei farwolaeth, 3 trwy gofio bendithion o'r blaen, 6 trwy addewidion, 11 a thrwy fygythion.

A DARFU, ar ol dyddiau lawer, wedi i'r ARGLWYDD roddi llonyddwch i Israel gan eu holl elynion o amgylch, i Josua heneiddio *a* myned mewn dyddiau.

2 A Josua a alwodd am holl Israel, am eu henuriaid, ac am eu pennaethiaid, ac am eu barnwyr, ac am eu swyddogion; ac a ddywedodd wrthynt, Myfi a heneiddiais *ac* a euthum yn oedrannus:

3 Chwithau hefyd a welsoch yr hyn oll a wnaeth yr ARGLWYDD eich DUW i'r holl genhedloedd hyn, er eich mwyn chwi: canys yr ARGLWYDD eich DUW *yw* yr hwn a ymladdodd drosoch.

4 Gwelwch, rhennais i chwi y cenhedloedd hyn a adawyd, yn etifeddiaeth i'ch llwythau chwi, o'r Iorddonen, a'r holl genhedloedd y rhai a dorrais i ymaith, hyd y môr mawr tu a'r gorllewin.

5 A'r ARGLWYDD eich DUW a'u hymlid hwynt o'ch blaen chwi, ac a'u gyr hwynt ymaith allan o'ch gŵydd chwi; a chwi a feddiennwch eu gwlad hwynt, megis y dywedodd yr ARGLWYDD eich DUW wrthych.

6 Am hynny ymwrolwch yn lew, i gadw ac i wneuthur y cwbl sydd ysgrifenedig yn llyfr cyfraith Moses; fel na chilioch oddi wrthynt, tu a'r llaw ddehau na thu a'r llaw aswy;

7 Ac na chyd-ymgyfeilloch â'r cenhedloedd yma, y rhai a adawyd gyd â chwi; ac na chofioch enw eu duwiau hwynt, ac na thyngoch *iddynt*, na wasanaethoch hwynt chwaith, ac nac ymgrymmoch iddynt:

8 Ond glynu wrth yr ARGLWYDD eich DUW, fel y gwnaethoch hyd y dydd hwn.

9 Canys yr ARGLWYDD a yrrodd allan o'ch blaen chwi genhedloedd mawrion a nerthol: ac am danoch chwi, ni safodd neb yn eich wynebau chwi hyd y dydd hwn.

10 Un gŵr o honoch a erlid fil: canys yr ARGLWYDD eich DUW *yw* yr hwn sydd yn ymladd drosoch, fel y llefarodd wrthych.

11 Ymgedwch gan hynny yn ddyfal ar eich eneidiau, ar i chwi garu yr ARGLWYDD eich DUW.

12 Canys, os gan ddychwelyd y dychwelwch, ac yr ymlynwch wrth weddill y cenhedloedd yma, y rhai a adawyd gyd â chwi; *os* ymgyfathrechwch â hwynt, ac *os* ewch i mewn attynt hwy, a hwythau attoch chwithau:

13 Gan wybod gwybyddwch, na yr yr ARGLWYDD eich DUW y cenhedloedd hyn mwyach allan o'ch blaen chwi; ond byddant i chwi yn fagl ac yn dramgwydd, ac yn ffrewyll yn eich ystlysau, ac yn ddrain yn eich llygaid, nes eich difa chwi allan o'r wlad dda yma yr hon a roddodd yr ARGLWYDD eich DUW i chwi.

14 Ac wele fi yn myned heddyw i ffordd yr holl ddaear: a chwi a wyddoch yn eich holl galonnau, ac

yn eich holl eneidiau, na phallodd dim o'r holl bethau daionus a lefarodd yr ARGLWYDD eich DUW am danoch chwi; hwy a ddaethant oll i chwi, *ac* ni phallodd dim o honynt.

15 Ac fel y daeth i chwi bob peth daionus a addawodd yr ARGLWYDD eich DUW wrthych; felly y dwg yr ARGLWYDD arnoch chwi bob peth drygionus, nes eich difa chwi allan o'r wlad dda yma a roddodd yr ARGLWYDD eich DUW i chwi.

16 Pan droseddoch gyfammod yr ARGLWYDD eich DUW, a orchymynodd efe i chwi, a myned a gwasanaethu duwiau dïeithr, ac ymgrymmu iddynt; yna y llidia digofaint yr ARGLWYDD yn eich erbyn chwi, ac y cyfrgollir chwi yn ebrwydd o'r wlad dda yma a roddodd efe i chwi.

PENNOD 24.

1 Josua yn cynnull y llwythau yn Sichem. 2 Ystori fer o fendithion Duw er amser Terah. 14 Mae efe yn adnewyddu cyfammod rhyngddynt hwy a Duw. 26 Carreg yn dyst o'r cyfammod. 29 Oedran Josua; ei farwolaeth, a'i gladdedigaeth. 32 Claddu esgyrn Joseph. 33 Marwolaeth Eleasar.

A JOSUA a gynhullodd holl llwythau Israel i Sichem; ac a alwodd am henuriaid Israel, ac am eu pennaethiaid, ac am eu barnwyr, ac am eu swyddogion: a hwy a safasant ger bron DUW.

2 A dywedodd Josua wrth yr holl bobl, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel; Tu hwnt i'r afon y trigodd eich tadau chwi gynt, *sef* Terah tad Abraham, a thad Nachor: a hwy a wasanaethasant dduwiau dïeithr.

3 Ac mi a gymmerais eich tad Abraham ymaith o'r tu hwnt i'r afon, ac a'i harweiniais ef trwy holl wlad Canaan, ac a amlheais hefyd ei had ef, ac a roddais iddo Isaac.

4 Ac i Isaac y rhoddais Jacob ac Esau: ac i Esau y rhoddais fynydd Seir i'w etifeddu; ond Jacob a'i feibion a aethant i waered i'r Aipht.

5 A mi a anfonais Moses ac Aaron, ac a darewais yr Aiphtiaid, yn ol yr hyn a wneuthum yn eu mysg: ac wedi hynny y dygais chwi allan,

6 Ac a ddygais eich tadau chwi allan o'r Aipht: a chwi a ddaethoch at y môr; a'r Aiphtiaid a erlidiodd ar ol eich tadau â cherbydau, ac â gwŷr meirch, hyd y môr coch.

7 A phan waeddasant ar yr ARGLWYDD, efe a osododd dywyllwch rhyngoch chwi a'r Aiphtiaid, ac a ddug y môr arnynt hwy, ac a'u gorchuddiodd: eich llygaid chwi a welsant yr hyn a wneuthum yn yr Aipht: trigasoch *hefyd* yn yr anialwch ddyddiau lawer.

8 A mi a'ch dygais i wlad yr Amoriaid, y rhai oedd yn trigo o'r tu hwnt i'r Iorddonen; a hwy a ymladdasant i'ch erbyn: a myfi a'u rhoddais hwynt yn eich llaw chwi, fel y meddiannasoch eu gwlad hwynt; a minnau a'u difethais hwynt o'ch blaen chwi.

9 Yna Balac mab Sippor brenhin Moab, a gyfododd, ac a ryfelodd yn erbyn Israel; ac a anfonodd, ac a alwodd am Balaam mab Beor, i'ch melldigo chwi.

10 Ond ni fynnwn i wrandaw ar Balaam; am hynny gan fendithio y bendithiodd efe chwi: felly y gwaredais chwi o'i law ef.

11 A chwi a aethoch dros yr Iorddonen, ac a ddaethoch i Jericho: a gwŷr Jericho a ymladdodd i'ch erbyn, yr Amoriaid, a'r Pheresiaid, a'r Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Girgasiaid, yr Hefiaid, a'r Jebusiaid; a mi a'u rhoddais hwynt yn eich llaw chwi.

12 A mi a anfonais gaccwn o'ch blaen chwi, a'*r rhai hynny* a'u gyrrodd hwynt allan o'ch blaen chwi; *sef* dau frenhin yr Amoriaid: nid â'th gleddyf di, ac nid â'th fwa.

13 A mi a roddais i chwi wlad ni lafuriasoch am dani, a dinasoedd y rhai nid adeiladasoch, ac yr ydych yn trigo ynddynt: o'r gwinllannoedd a'r olew-lannoedd ni phlannasoch, yr ydych yn bwytta o honynt.

14 ¶ Yn awr gan hynny ofnwch yr ARGLWYDD, a gwasanaethwch ef mewn perffeithrwydd a gwirionedd, a bwriwch ymaith y duwiau a wasanaethodd eich tadau o'r tu hwnt i'r afon, ac yn yr Aipht; a gwasanaethwch chwi yr ARGLWYDD.

15 Ac od yw ddrwg yn eich golwg wasanaethu yr ARGLWYDD, dewis-

wch i chwi heddyw pa un a wasanaethoch, ai y duwiau a wasanaethodd eich tadau, y rhai *oedd* o'r tu hwnt i'r afon, ai ynte duwiau yr Amoriaid, y rhai yr ydych yn trigo yn eu gwlad: ond myfi, mi a'm tylwyth a wasanaethwn yr ARGLWYDD.

16 Yna yr attebodd y bobl, ac y dywedodd, Na atto DUW i ni adael yr ARGLWYDD, i wasanaethu duwiau dïeithr;

17 Canys yr ARGLWYDD ein DUW *yw* yr hwn a'n dug ni i fyny a'n tadau o wlad yr Aipht, o dŷ y caethiwed; a'r hwn a wnaeth y rhyfeddodau mawrion hynny yn ein gŵydd ni, ac a'n cadwodd ni yn yr holl ffordd y rhodiasom ynddi, ac ym mysg yr holl bobloedd y tramwyasom yn eu plith:

18 A'r ARGLWYDD a yrrodd allan yr holl bobloedd, a'r Amoriaid, preswylwyr y wlad, o'n blaen ni: *am hynny* ninnau a wasanaethwn yr ARGLWYDD; canys efe *yw* ein DUW ni.

19 A Josua a ddywedodd wrth y bobl, Ni ellwch wasanaethu yr ARGLWYDD; canys DUW sanctei ddiol *yw* efe: DUW eiddigus yw; ni ddïoddef efe eich anwiredd, na'ch pechodau.

20 O gwrthodwch yr ARGLWYDD, a gwasanaethu duwiau dïeithr; yna efe a dry, ac a'ch dryga chwi, ac efe a'ch difa chwi, wedi iddo wneuthur i chwi ddaioni.

21 A'r bobl a ddywedodd wrth Josua, Nag ê; eithr ni a wasanaethwn yr ARGLWYDD.

22 A dywedodd Josua wrth y bobl, Tystion *ydych* yn eich erbyn eich hun, ddewis o honoch i chwi yr ARGLWYDD i'w wasanaethu. Dywedasant hwythau, Tystion *ydym.*

23 Am hynny yn awr (*eb efe*) bwriwch ymaith y duwiau dïeithr *sydd* yn eich mysg, a gostyngwch eich calon at ARGLWYDD DDUW Israel.

24 A'r bobl a ddywedasant wrth Josua, Yr ARGLWYDD ein DUW a wasanaethwn, ac ar ei lais ef y gwrandâwn.

25 Felly Josua a wnaeth gyfammod â'r bobl y dwthwn hwnnw, ac a osododd iddynt ddeddfau a barnedigaethau yn Sichem.

26 ¶ A Josua a ysgrifenodd y geiriau hyn yn llyfr cyfraith DDUW, ac a gymmerth faen mawr, ac a'i gosododd i fyny yno dan dderwen *oedd* yn agos i gyssegr yr ARGLWYDD.

27 A Josua a ddywedodd wrth yr holl bobl, Wele, y maen hwn fydd yn dystiolaeth i ni; canys efe a glywodd holl eiriau yr ARGLWYDD, y rhai a lefarodd efe wrthym: am hynny y bydd efe yn dystiolaeth i chwi, rhag i chwi wadu eich DUW.

28 Felly Josua a ollyngodd y bobl, bob un i'w etifeddiaeth.

29 ¶ Ac wedi y pethau hyn, y bu farw Josua mab Nun, gwas yr ARGLWYDD, yn fab dengmlwydd a chant.

30 A hwy a'i claddasant ef yn nherfyn ei etifeddiaeth, o fewn Timnath-serah; yr hon *sydd* ym mynydd Ephraim, o du y gogledd i fynydd Gaas.

31 Ac Israel a wasanaethodd yr ARGLWYDD holl ddyddiau Josua, a holl ddyddiau yr henuriaid a fu fyw ar ol Josua, ac a wybuasent holl waith yr ARGLWYDD a wnaethai efe er Israel.

32 ¶ Ac esgyrn Joseph, y rhai a ddygasai meibion Israel i fyny o'r Aipht, a gladdasant hwy yn Sichem, mewn rhan o'r maes a brynasai Jacob gan feibion Hemor tad Sichem, er can darn o arian; a bu i feibion Joseph yn etifeddiaeth.

33 ¶ Ac Eleasar mab Aaron a fu farw: a chladdasant ef ym mryn Phinees ei fab, yr hwn a roddasid iddo ef ym mynydd Ephraim.

LLYFR Y BARNWYR.

PENNOD 1.

1 *Gweithredoedd Judah a Simeon.* 6 *Adonibesec yn cael talu y pwyth iddo yn uniawn.* 8 *Ennill Jerusalem.* 10 *Ennill Hebron.* 13 *Othniel yn cael Achsah yn wraig am ennill Debir.* 16 *Y Ceneaid yn preswylio yn Judah.* 17 *Ennill Hormah, Gasah, Ascalon, ac Ecron.* 21 *Gweithredoedd Benjamin.* 22 *Am dŷ Joseph, yr hwn a ennillodd Bethel.* 30 *Am Sabulon,* 31 *Aser,* 33 *Naphtali,* 34 *a Dan.*

AC wedi marw Josua, meibion Israel a ymofynasant â'r ARGLWYDD, gan ddywedyd, Pwy a â i fyny drosom ni yn erbyn y Canaaneaid yn flaenaf, i ymladd â hwynt?

2 A dywedodd yr ARGLWYDD, Judah a â i fyny: wele, rhoddais y wlad yn ei law ef.

3 A Judah a ddywedodd wrth Simeon ei frawd, Tyred i fyny gyd â mi i'm rhandir, fel yr ymladdom yn erbyn y Canaaneaid; a minnau a âf gyd â thi i'th randir dithau. Felly Simeon a aeth gyd âg ef.

4 A Judah a aeth i fyny; a'r ARGLWYDD a roddodd y Canaaneaid a'r Pheresiaid yn eu llaw hwynt: a lladdasant o honynt, yn Besec, ddengmil o wŷr.

5 A hwy a gawsant Adoni-besec yn Besec: ac a ymladdasant yn ei erbyn; ac a laddasant y Canaaneaid a'r Pheresiaid.

6 Ond Adoni-besec a ffodd; a hwy a erlidiasant ar ei ol ef, ac a'i daliasant ef, ac a dorrasant fodiau ei ddwylaw ef a'i draed.

7 Ac Adoni-besec a ddywedodd, Deg a thri ugain o frenhinoedd, wedi torri bodiau eu dwylaw a'u traed, a fu yn casglu *eu bwyd* dan fy mwrdd i: fel y gwneuthum, felly y talodd DUW i mi. A hwy a'i dygasant ef i Jerusalem; ac efe a fu farw yno.

8 A meibion Judah a ymladdasant yn erbyn Jerusalem; ac a'i hennillasant hi, ac a'i tarawsant â min y cleddyf; a llosgasant y ddinas â thân.

9 ¶ Wedi hynny meibion Judah a aethant i waered i ymladd yn erbyn y Canaaneaid oedd yn trigo yn y mynydd, ac yn y dehau, ac yn y gwastadedd.

10 A Judah a aeth yn erbyn y Canaaneaid oedd yn trigo yn Hebron: (ac enw Hebron o'r blaen *oedd* Caer-Arba:) a hwy a laddasant Sesai, ac Ahiman, a Thalmai.

11 Ac efe a aeth oddi yno at drigolion Debir: (ac enw Debir o'r blaen *oedd* Ciriath-sepher:)

12 A dywedodd Caleb, Yr hwn a darawo Ciriath-sepher, ac a'i hennillo hi, mi a roddaf Achsah fy merch yn wraig iddo.

13 Ac Othniel mab Cenas, brawd Caleb, ieuangach nag ef, a'i hennillodd hi. Yntau a roddes Achsah ei ferch yn wraig iddo.

14 A phan ddaeth hi i mewn *atto ef,* hi a'i hannogodd ef i geisio gan ei thad *ryw* faes: a hi a ddisgynodd oddi ar yr asyn. A dywedodd Caleb wrthi, Beth a fynni di?

15 A hi a ddywedodd wrtho, Dyro i mi fendith: canys gwlad y dehau a roddaist i mi; dyro i mi hefyd ffynhonnau dyfroedd. A Caleb a roddodd iddi y ffynhonnau uchaf, a'r ffynhonnau isaf.

16 ¶ A meibion Ceni, chwegrwn Moses, a aethant i fyny o ddinas y palmwydd gyd â meibion Judah, i anialwch Judah, yr hwn *sydd* yn nehau Arad: a hwy a aethant ac a drigasant gyd â'r bobl.

17 A Judah a aeth gyd â Simeon ei frawd: a hwy a darawsant y Canaaneaid oedd yn preswylio yn Sephath, ac a'i difrodasant hi. Ac efe a alwodd enw y ddinas Hormah.

18 Judah hefyd a ennillodd Gasah a'i therfynau, ac Ascalon a'i therfynau, ac Ecron a'i therfynau.

19 A'r ARGLWYDD oedd gyd â Judah; ac efe a oresgynodd y mynydd: ond ni *allai efe* yrru allan *drigolion* y dyffryn; canys cerbydau heiyrn *oedd* ganddynt.

20 Ac i Caleb y rhoisant Hebron; fel y llefarasai Moses: ac efe a yrrodd oddi yno dri mab Anac.

21 Ond meibion Benjamin ni yrrasant allan y Jebusiaid y rhai oedd yn preswylio yn Jerusalem: ond y mae y Jebusiaid yn trigo yn Jerusalem gyd â meibion Benjamin hyd y dydd hwn.

22 ¶ A thŷ Joseph, hwythau hefyd a aethant i fyny yn erbyn Bethel: a'r ARGLWYDD *oedd* gyd â hwynt.

23 A thylwyth Joseph a barasant chwilio Bethel: (ac enw y ddinas o'r blaen *oedd* Lus.)

24 A'r ysbiwyr a welsant ŵr yn dyfod allan o'r ddinas; ac a ddywedasant wrtho, Dangos i ni, attolwg, y ffordd yr eir i'r ddinas, a ni a wnawn drugaredd â thi.

25 A phan ddangosodd efe iddynt hwy y ffordd i fyned i'r ddinas, hwy a darawsant y ddinas â min y cleddyf; ac a ollyngasant ymaith y gŵr a'i holl deulu.

26 A'r gŵr a aeth i wlad yr Hethiaid; ac a adeiladodd ddinas, ac a alwodd ei henw Lus: dyma ei henw hi hyd y dydd hwn.

27 ¶ Ond ni oresgynodd Manasseh Beth-sean na'i threfydd, na Thaanach na'i threfydd, na thrigolion Dor na'i threfydd, na thrigolion Ibleam na'i threfydd, na thrigolion Megido na'i threfydd: eithr mynnodd y Canaaneaid breswylio yn y wlad honno.

28 Ond pan gryfhaodd Israel, yna efe a osododd y Canaaneaid dan dreth; ond nis gyrrodd hwynt ymaith yn llwyr.

29 ¶ Ephraim hefyd ni yrrodd allan y Canaaneaid oedd yn gwladychu yn Geser; eithr y Canaaneaid a breswyliasant yn eu mysg hwynt yn Geser.

30 ¶ A Sabulon ni yrrodd ymaith drigolion Citron, na phreswylwyr Nahalol; eithr y Canaaneaid a wladychasant yn eu mysg hwynt, ac a aethant dan dreth.

31 ¶ Ac Aser ni yrrodd ymaith drigolion Acco, na trigolion Sidon, nac Alab, nac Achsib, na Helbah, nac Aphic, na Rehob:

32 Ond Aser a drigodd ym mysg y Canaaneaid, trigolion y wlad; canys ni yrrasant hwynt allan.

33 ¶ A Naphtali ni yrrodd allan breswylwyr Beth-semes, na thrigolion Beth-anath; eithr efe a wladychodd ym mysg y Canaaneaid, trigolion y wlad: er hynny preswylwyr Beth-semes a Beth-anath oedd dan dreth iddynt.

34 ¶ A'r Amoriaid a yrrasant feibion Dan i'r mynydd: canys ni adawsant iddynt ddyfod i waered i'r dyffryn.

35 A'r Amoriaid a fynnai breswylio ym mynydd Heres yn Ajalon, ac yn Saalbim: etto llaw tŷ Joseph a orthrechodd, a'r *Amoriaid* fuant dan dreth *iddynt*.

36 A therfyn yr Amoriaid *oedd* o riw Acrabbim, o'r graig, ac uchod.

PENNOD 2.

1 Angel yn ceryddu y bobl yn Bochim. 10 Dryginoni yr oes newydd ar ol Josua. 14 Diflanedd Duw a'i drugaredd tu ag attynt. 20 Gadael y Canaaneaid i brofi Israel.

AC angel yr ARGLWYDD a ddaeth i fyny o Gilgal i Bochim, ac a ddywedodd, Dygais chwi i fyny o'r Aipht, ac arweiniais chwi i'r wlad *am* yr hon y tyngais wrth eich tadau; ac a ddywedais, Ni thorraf fy nghyfammod â chwi byth.

2 Na wnewch chwithau gyfammod â thrigolion y wlad hon; *ond* bwriwch i lawr eu hallorau: etto ni wrandawsoch ar fy llef: paham y gwnaethoch hyn?

3 Am hynny y dywedais, Ni yrraf hwynt allan o'ch blaen chwi: eithr byddant i chwi *yn ddrain* yn eich ystlysau, a'u duwiau fydd yn fagl i chwi.

4 A phan lefarodd angel yr ARGLWYDD y geiriau hyn wrth holl feibion Israel, yna y bobl a ddyrchafasant eu llef, ac a wylasant.

5 Ac a alwasant enw y lle hwnnw Bochim: ac yna yr aberthasant i'r ARGLWYDD.

6 ¶ A Josua a ollyngodd y bobl ymaith; a meibion Israel a aethant bob un i'w etifeddiaeth, i feddiannu y wlad.

7 A'r bobl a wasanaethasant yr ARGLWYDD holl ddyddiau Josua, a holl ddyddiau yr henuriaid y rhai a fu fyw ar ol Josua, y rhai a welsent holl fawr-waith yr ARGLWYDD, yr hwn a wnaethai efe er Israel.

8 A bu farw Josua mab Nun,

gwas yr ARGLWYDD, yn fab dengmlwydd a chant.

9 A hwy a'i claddasant ef yn nherfyn ei etifeddiaeth, o fewn Timnatheres, ym mynydd Ephraim, o du y gogledd i fynydd Gaas.

10 A'r holl oes honno hefyd a gasglwyd at eu tadau: a chyfododd oes arall ar eu hol hwynt, y rhai nid adwaenent yr ARGLWYDD, na'i weithredoedd a wnaethai efe er Israel.

11 ¶ A meibion Israel a wnaethant ddrygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac a wasanaethasant Baalim:

12 Ac a wrthodasant ARGLWYDD DDUW eu tadau, yr hwn a'u dygasai hwynt o wlad yr Aipht, ac a aethant ar ol duwiau dïeithr, *sef rhai* o dduwiau y bobloedd *oedd* o'u hamgylch, ac a ymgrymmasant iddynt, ac a ddigiasant yr ARGLWYDD.

13 A hwy a wrthodasant yr ARGLWYDD, ac a wasanaethasant Baal ac Astaroth.

14 ¶ A llidiodd digllonedd yr ARGLWYDD yn erbyn Israel; ac efe a'u rhoddodd hwynt yn llaw yr anrheithwyr, y rhai a'u hanrheithiasant hwy; ac efe a'u gwerthodd hwy i law eu gelynion o amgylch, fel na allent sefyll mwyach yn erbyn eu gelynion.

15 I ba le bynnag yr aethant, llaw yr ARGLWYDD oedd er drwg yn eu herbyn hwynt; fel y llefarasai yr ARGLWYDD, ac fel y tyngasai yr ARGLWYDD wrthynt hwy: a bu gyfyng iawn arnynt.

16 ¶ Etto yr ARGLWYDD a gododd farnwyr, y rhai a'u hachubodd hwynt o law eu hanrheithwyr.

17 Ond ni wrandawent chwaith ar eu barnwyr; eithr putteiniasant ar ol duwiau dïeithr, ac ymgrymmasant iddynt: ciliasant yn ebrwydd o'r ffordd y rhodiasai eu tadau hwynt ynddi, gan wrandaw ar orchymynion yr ARGLWYDD; *ond* ni wnaethant hwy felly.

18 A phan godai yr ARGLWYDD farnwyr arnynt hwy, yna yr ARGLWYDD fyddai gyd â'r barnwr, ac a'u gwaredai hwynt o law eu gelynion holl ddyddiau y barnwr: canys yr ARGLWYDD a dosturiai wrth eu griddfan hwynt, rhag eu gorthrymwyr a'u cystuddwyr.

19 A phan fyddai farw y barnwr, hwy a ddychwelent, ac a ymlygrent yn fwy na'u tadau, gan fyned ar ol duwiau dïeithr, i'w gwasanaethu hwynt, ac i ymgrymmu iddynt: ni pheidiasant â'u gweithredoedd eu hunain, nac â'u ffordd wrthnysig.

20 ¶ A digllonedd yr ARGLWYDD a lidiai yn erbyn Israel: ac efe a ddywedai, Oblegid i'r genedl hon droseddu fy nghyfammod a orchymynais i'w tadau hwynt, ac na wrandawsant ar fy llais;

21 Ni chwanegaf finnau yrru ymaith o'u blaen hwynt neb o'r cenhedloedd a adawodd Josua pan fu farw:

22 I brofi Israel trwyddynt hwy, a gadwent hwy ffordd yr ARGLWYDD, gan rodio ynddi, fel y cadwodd eu tadau hwynt, neu beidio.

23 Am hynny yr ARGLWYDD a adawodd y cenhedloedd hynny, heb eu gyrru ymaith yn ebrwydd; ac ni roddodd hwynt yn llaw Josua.

PENNOD 3.

1 *Y cenhedloedd a adawyd i brofi Israel.* 5 *Ac Israel, wrth ymgyfeillach â hwynt, yn addoli eu duwiau hwy.* 8 *Othniel yn eu gwaredu hwy oddi wrth Cusan-risathaim;* 15 *Ehwd, oddi wrth Eglon;* 31 *a Samgar, oddi wrth y Philistiaid.*

DYMA y cenhedloedd a adawodd yr ARGLWYDD i brofi Israel trwyddynt, (*sef* y rhai oll ni wyddent gwbl o ryfeloedd Canaan;

2 Yn unig i beri i genhedlaethau meibion Israel wybod, i'w dysgu hwynt i ryfel; y rhai yn ddïau ni wyddent hynny o'r blaen;)

3 Pum tywysog y Philistiaid, a'r holl Ganaaneaid, a'r Sidoniaid, a'r Hefiaid y rhai oedd yn aros ym mynydd Libanus, o fynydd Baalhermon, hyd y ffordd y deuir i Hamath.

4 A hwy a fuant i brofi Israel trwyddynt, i wybod a wrandawent hwy ar orchymynion yr ARGLWYDD, y rhai a orchymynasai efe i'w tadau hwynt trwy law Moses.

5 ¶ A meibion Israel a drigasant ym mysg y Canaaneaid, yr Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Pheresiaid, yr Hefiaid *hefyd*, a'r Jebusiaid:

6 Ac a gymmerasant eu merched hwynt iddynt yn wragedd, ac a roddasant eu merched i'w meibion

hwythau, ac a wasanaethasant eu duwiau hwynt.

7 Felly meibion Israel a wnaethant ddrygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac a anghofiasant yr ARGLWYDD eu DUW, ac a wasanaethasant Baalim, a'r llwyni.

8 ¶ Am hynny digllonedd yr ARGLWYDD a lidiodd yn erbyn Israel; ac efe a'u gwerthodd hwynt i law Cusan-risathaim, brenhin Mesopotamia: a meibion Israel a wasanaethasant Cusan-risathaim wyth mlynedd.

9 A meibion Israel a waeddasant ar yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a gododd achubwr i feibion Israel, yr hwn a'u hachubodd hwynt; *sef* Othniel mab Cenas, brawd Caleb, ieuangach nag ef.

10 Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddaeth arno ef, ac efe a farnodd Israel, ac a aeth allan i ryfel: a'r ARGLWYDD a roddodd yn ei law ef Cusan-risathaim, brenhin Mesopotamia; a'i law ef oedd drech na Cusan-risathaim.

11 A'r wlad a gafodd lonydd ddeugain mlynedd. A bu farw Othniel mab Cenas.

12 ¶ A meibion Israel a chwanegasant wneuthur yr hyn oedd ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a nerthodd Eglon brenhin Moab yn erbyn Israel, am iddynt wneuthur drygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD.

13 Ac efe a gasglodd atto feibion Ammon, ac Amalec, ac a aeth ac a darawodd Israel; a hwy a feddiannasant ddinas y palmwydd.

14 Felly meibion Israel a wasanaethasant Eglon brenhin Moab ddeunaw mlynedd.

15 Yna meibion Israel a lefasant ar yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a gododd achubwr iddynt; *sef* Ehwd mab Gera, fab Jemini, gŵr llawchwith: a meibion Israel a anfonasant anrheg gyd âg ef i Eglon brenhin Moab.

16 Ac Ehwd a wnaeth iddo ddager ddau-finiog o gufydd ei hŷd, ac a'i gwregysodd dan ei ddillad, ar ei glun ddehau.

17 Ac efe a ddug yr anrheg i Eglon brenhin Moab. Ac Eglon *oedd* ŵr tew iawn.

18 A phan ddarfu iddo ef gyflwyno yr anrheg, efe a ollyngodd ymaith y bobl a ddygasai yr anrheg.

19 Ond efe ei hun a drodd oddi wrth y chwarelau *oedd* yn Gilgal, ac a ddywedodd, *Y mae* i mi air o gyfrinach â thi, O frenhin. Dywedodd yntau, Gosteg. A'r holl rai oedd yn sefyll yn ei ymyl ef a aethant allan oddi wrtho ef.

20 Ac Ehwd a ddaeth i mewn atto ef: ac yntau oedd yn eistedd mewn ystafell haf, yr hon *oedd* iddo ef ei hunan. A dywedodd Ehwd, Gair oddi wrth DDUW *sydd* gennyf attat ti. Ac efe a gyfododd oddi ar *ei* orseddfa.

21 Ac Ehwd a estynodd ei law aswy, ac a gymmerth y ddager oddi ar ei glun ddehau, ac a'i brathodd hi yn ei botten ef:

22 A'r carn a aeth i mewn ar ol y llafn, a'r brasder a ymgauodd am y llafn, fel na allai dynnu y ddager allan o'i botten; a'r dom a ddaeth allan.

23 Yna Ehwd a aeth allan trwy y cyntedd, ac a gauodd ddrysau yr ystafell arno, ac a'u clodd.

24 Pan aeth efe ymaith, ei weision a ddaethant: a phan welsant, wele, *fod* drysau yr ystafell yn gloïedig, hwy a ddywedasant, Diau esmwythâu ei gorph y mae efe yn yr ystafell haf.

25 A hwy a ddisgwyliasant, nes cywilyddio *o honynt:* ac wele, nid oedd efe yn agori drysau yr ystafell. Yna hwy a gymmerasant agoriad, ac a agorasant: ac wele eu harglwydd hwy wedi cwympo i lawr yn farw.

26 Ac Ehwd a ddïangodd, tra fuant hwy yn aros; ac efe a aeth y tu hwnt i'r chwarelau, ac a ddïangodd i Seirath.

27 A phan ddaeth, efe a udganodd mewn udgorn ym mynydd Ephraim: a meibion Israel a ddisgynasant gyd âg ef o'r mynydd, ac yntau o'u blaen hwynt.

28 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Canlynwch fi: canys yr ARGLWYDD a roddodd eich gelynion chwi, *sef* Moab, yn eich llaw chwi. A hwy a aethant i waered ar ei ol ef, ac a

ennillasant rydau yr Iorddonen tu a Moab, ac ni adawsant i neb fyned drwodd.

29 ¶ A hwy a darawsant o'r Moabiaid y pryd hwnnw ynghylch deng mil o wŷr, pawb yn rymmus, a phawb yn wŷr nerthol; ac ni ddïangodd neb.

30 Felly y darostyngwyd Moab y dwthwn hwnnw dan law Israel. A'r wlad a gafodd lonydd bedwar ugain mlynedd.

31 ¶ Ac ar ei ol ef y bu Samgar mab Anath; ac efe a darawodd o'r Philistiaid chwe channwr âg irai ychain: yntau hefyd a waredodd Israel.

PENNOD 4.

1 Deborah a Barac yn eu gwaredu hwy oddi wrth Jabin a Sisera. 21 Jäel yn lladd Sisera.

A MEIBION Israel a chwanegasant wneuthur drygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD, wedi marw Ehwd.

2 A'r ARGLWYDD a'u gwerthodd hwynt i law Jabin brenhin Canaan, yr hwn oedd yn teyrnasu yn Hasor: a thywysog ei lu ef *oedd* Sisera; ac efe oedd yn trigo yn Haroseth y cenhedloedd.

3 A meibion Israel a lefasant ar yr ARGLWYDD: canys naw can cerbyd haiarn *oedd* ganddo ef; ac efe a orthrymmodd feibion Israel yn dost ugain mlynedd.

4 ¶ A Deborah y brophwydes, gwraig Lapidoth, y hi oedd yn barnu Israel yr amser hwnnw.

5 Ac yr oedd hi yn trigo dan balmwydden Deborah, rhwng Ramah a Bethel, ym mynydd Ephraim: a meibion Israel a ddeuent i fyny atti hi am farn.

6 A hi a anfonodd, ac a alwodd am Barac mab Abinoam, o Cedes-Naphtali; ac a ddywedodd wrtho, Oni orchymynodd ARGLWYDD DDUW Israel, *gan ddywedyd*, Dos, a thyn tu a mynydd Tabor, a chymmer gyd â thi ddeng mil o wŷr, o feibion Naphtali, ac o feibion Sabulon?

7 A mi a dynnaf attat, i afon Cison, Sisera tywysog llu Jabin, a'i gerbydau, a'i lïaws; ac a'i rhoddaf ef yn dy law di.

8 A Barac a ddywedodd wrthi, Od âi di gyd â mi, minnau a âf; ac onid âi gyd â mi, nid âf.

9 A hi a ddywedodd, Gan fyned yr âf gyd â thi: etto ni bydd gogoniant i ti yn y daith yr wyt yn myned iddi; canys yn llaw gwraig y gwerth yr ARGLWYDD Sisera. A Deborah a gyfododd, ac a aeth gyd â Barac i Cedes.

10 ¶ A Barac a gynhullodd Sabulon a Naphtali i Cedes; ac a aeth i fyny â deng mil o wŷr wrth ei draed: a Deborah a aeth i fyny gyd âg ef.

11 A Heber y Cenead, o feibion Hobab, chwegrwn Moses, a ymneillduasai oddi wrth y Ceneaid, ac a ledasai ei babell hyd wastadedd Saanaim, yr hwn *sydd* yn ymyl Cedes.

12 A mynegasant i Sisera, fyned o Barac mab Abinoam i fyny i fynydd Tabor.

13 A Sisera a gynhullodd ei holl gerbydau, *sef* naw can cerbyd haiarn, a'r holl bobl y rhai *oedd* gyd âg ef, o Haroseth y cenhedloedd hyd afon Cison.

14 A Deborah a ddywedodd wrth Barac, Cyfod; canys hwn *yw* y dydd y rhoddodd yr ARGLWYDD Sisera yn dy law di: onid aeth yr ARGLWYDD allan o'th flaen di? Felly Barac a ddisgynodd o fynydd Tabor, a deng mil o wŷr ar ei ol.

15 A'r ARGLWYDD a ddrylliodd Sisera, a'i holl gerbydau, a'i holl fyddin, â min y cleddyf, o flaen Barac: a Sisera a ddisgynodd oddi ar *ei* gerbyd, ac a ffodd ar ei draed.

16 Ond Barac a erlidiodd ar ol y cerbydau, ac ar ol y fyddin, hyd Haroseth y cenhedloedd: a holl lu Sisera a syrthiodd ar fin y cleddyf: ni adawyd un o honynt.

17 Ond Sisera a ffodd ar ei draed i babell Jäel, gwraig Heber y Cenead: canys *yr oedd* heddwch rhwng Jabin brenhin Hasor a thŷ Heber y Cenead.

18 ¶ A Jäel a aeth i gyfarfod â Sisera; ac a ddywedodd wrtho, Tro i mewn, fy arglwydd, tro i mewn attaf fi; nac ofna. Yna efe a drodd atti i'r babell, a hi a'i gorchuddiodd ef â gwrthban.

19 Ac efe a ddywedodd wrthi, Dïoda fi, attolwg, âg ychydig ddwfr; canys sychedig wyf. Yna hi a agorodd gynnog o laeth, ac a'i dïododd ef, ac a'i gorchuddiodd.

20 Dywedodd hefyd wrthi, Saf *wrth* ddrws y babell; ac os daw neb i mewn, a gofyn i ti, a dywedyd, A oes yma neb? yna dywed dithau, Nac *oes*.
21 Yna Jäel gwraig Heber a gymmerth hoel o'r babell, ac a gymmerodd forthwyl yn ei llaw, ac a aeth i mewn atto ef yn ddistaw, ac a bwyodd yr hoel yn ei arlais ef, ac a'i gwthiodd i'r ddaear; canys yr oedd efe yn cysgu, ac yn lluddedig; ac *felly* y bu efe farw.
22 Ac wele, a Barac yn erlid Sisera, Jäel a aeth i'w gyfarfod ef; ac a ddywedodd wrtho, Tyred, a mi a ddangosaf i ti y gŵr yr wyt ti yn ei geisio. Ac efe a ddaeth i mewn atti; ac wele Sisera yn gorwedd yn farw, a'r hoel yn ei arlais.
23 Felly y darostyngodd Duw y dwthwn hwnnw Jabin brenhin Canaan o flaen meibion Israel.
24 A llaw meibion Israel a lwyddodd, ac a orchfygodd Jabin brenhin Canaan, nes iddynt ddistrywio Jabin brenhin Canaan.

PENNOD 5.

Cân Deborah a Barac.

YNA y canodd Deborah a Barac mab Abinoam, y diwrnod hwnnw, gan ddywedyd,
2 Am ddïal dïaleddau Israel, *ac* ymgymmell o'r bobl, bendithiwch yr Arglwydd.
3 Clywch, O frenhinoedd; gwrandêwch, O dywysogion: myfi, myfi a ganaf i'r Arglwydd; canaf *fawl* i Arglwydd Dduw Israel.
4 O Arglwydd, pan aethost allan o Seir, pan gerddaist o faes Edom, y ddaear a grynodd, a'r nefoedd a ddiferasant, a'r cymmylau a ddefnynasant ddwfr.
5 Y mynyddoedd a doddasant o flaen yr Arglwydd, *sef* y Sinai hwnnw, o flaen Arglwydd Dduw Israel.
6 Yn nyddiau Samgar mab Anath, yn nyddiau Jäel, y llwybrau a aeth yn anhygyrch, a'r fforddolion a gerddasant lwybrau ceimion.
7 Y maesdrefi a ddarfuant yn Israel: darfuant, nes i mi, Deborah, gyfodi; nes i mi gyfodi yn fam yn Israel.
8 Dewisasant dduwiau newyddion; yna rhyfel *oedd* yn y pyrth: a welwyd tarian na gwaywffon ym mysg deugain mil yn Israel?
9 Fy nghalon *sydd* tu ag at ddeddfwyr Israel, y rhai fu ewyllysgar ym mhlith y bobl. Bendithiwch yr Arglwydd.
10 Y rhai sydd yn marchogaeth ar asynod gwynion, y rhai sydd yn eistedd mewn barn, ac yn rhodio ar hyd y ffordd, lleferwch.
11 *Y rhai a waredwyd* rhag trwst y saethyddion yn y lleoedd y tynnir dwfr; yno yr adroddant gyfiawnderau yr Arglwydd, cyfiawnderau *tu ag at* y trefydd yn Israel: yna pobl yr Arglwydd a ânt i waered i'r pyrth.
12 Deffro, deffro, Deborah; deffro, deffro; traetha gân: cyfod, Barac, a chaethgluda dy gaethglud, O fab Abinoam.
13 Yna y gwnaeth i'r hwn a adewir lywodraethu ar bendefigion y bobl: yr Arglwydd a roddes i mi lywodraeth ar gedyrn.
14 O Ephraim *yr oedd* eu gwreiddyn hwynt yn erbyn Amalec; ar dy ol di, Benjamin, ym mysg dy bobl: y deddfwyr a ddaeth i waered o Machir, yr ysgrifenyddion o Sabulon.
15 A thywysogion Issachar *oedd* gyd â Deborah; ïe, Issachar, a Barac: efe a anfonwyd ar ei draed i'r dyffryn. Am neillduaeth Reuben *yr oedd* mawr ofal calon.
16 Paham yr arhosaist rhwng y corlannau, i wrandaw brefiadau y defaid? Am neillduaeth Reuben *yr oedd* mawr ofal calon.
17 Gilead a drigodd o'r tu hwnt i'r Iorddonen: a phaham yr erys Dan mewn llongau? Aser a drigodd wrth borthladd y môr, ac a arhosodd ar ei adwyau.
18 Pobl Sabulon a roddes eu heinioes i farw; felly Naphtali ar uchelfannau y maes.
19 Y brenhinoedd a ddaethant, *ac* a ymladdasant; yna brenhinoedd Canaan a ymladdasant yn Taanach, wrth ddyfroedd Megido; ni chymmerasant elw o arian.
20 O'r nefoedd yr ymladdasant; y sêr yn eu graddau a ymladdodd yn erbyn Sisera.

21 Afon Cison a'u hysgubodd
hwynt; yr hen afon, yr afon Cison.
Fy enaid, ti a sethraist gadernid.
22 Yna y drylliodd carnau y meirch
gan garlammau, carlammau ei gryf-
ion ef.
23 Melldigwch Meros, eb angel yr
ARGLWYDD, gan felldigo melldigwch
ei thrigolion: am na ddaethant
yn gynnorthwy i'r ARGLWYDD, yn
gynnorthwy i'r ARGLWYDD yn er-
byn y cedyrn.
24 Bendithier Jäel, gwraig Heber
y Cenead, goruwch gwragedd; ben-
dithier *hi* goruwch gwragedd yn y
babell.
25 Dwfr a geisiodd efe, llaeth a
roddes hithau: mewn phïol ar-
dderchog y dug hi ymenyn.
26 Ei llaw a estynodd hi at yr
hoel, a'i llaw ddehau at forthwyl y
gweithwyr: a hi a bwyodd Sisera,
ac a dorrodd ei ben ef; gwanodd
hefyd, a thrywanodd ei arlais ef.
27 Wrth ei thraed yr ymgrym-
modd efe; syrthiodd, gorweddodd:
wrth ei thraed yr ymgrymmodd efe,
y syrthiodd: lle yr ymgrymmodd,
yno y syrthiodd yn farw.
28 Mam Sisera a edrychodd trwy
ffenestr, ac a waeddodd trwy y
dellt, Paham yr oeda ei gerbyd
ddyfod? paham yr arafodd olwyn-
ion ei gerbydau?
29 Ei harglwyddesau doethion a'i
hattebasant; hithau hefyd a atteb-
odd iddi ei hun,
30 Oni chawsant hwy? oni ran-
nasant yr anrhaith, llangces *neu*
ddwy i bob gŵr? anrhaith o *wisg-*
oedd symmudliw i Sisera, anrhaith
o wniadwaith symmudliw, symmud-
liw o wniadwaith o'r ddeutu, *cym-*
mwys i yddfau yr anrheithwyr?
31 Felly y darfyddo am dy holl
elynion, O ARGLWYDD: a *bydded* y
rhai a'i hoffant ef fel yr haul yn
myned rhagddo yn ei rym. A'r
wlad a gafodd lonydd ddeugain
mlynedd.

PENNOD 6.

1 *Midian yn gorthrymmu yr Israeliaid am eu pechod.* 8 *Prophwyd yn eu ceryddu hwynt.* 11 *Angel yn anfon Gedeon i'w gwaredu hwynt.* 21 *Tân yn ysu anrheg Gedeon.* 24 *Gedeon yn burio i lawr allor Baal, ac yn offrymmu aberth ar yr allor Jehofah-shalom.* 31 *Joas yn amddiffyn ei fab, ac yn ei alw ef Jerubbaal.* 33 *Llu Gedeon,* 36 *a'i arwyddion.*

A MEIBION Israel a wnaeth-
ant ddrwg y'ngolwg yr AR-
GLWYDD: a'r ARGLWYDD a'u rhodd-
odd hwynt yn llaw Midian saith
mlynedd.
2 A llaw Midian a orthrechodd
Israel: *a* rhag y Midianiaid meib-
ion Israel a wnaethant iddynt y
llochesau *sydd* yn y mynyddoedd,
a'r ogofeydd, a'r amddiffynfaoedd.
3 A phan hauasai Israel, yna Mid-
ian a ddaeth i fyny, ac Amalec, a
meibion y dwyrain; hwy a ddaeth-
ant i fyny yn eu herbyn hwy:
4 Ac a wersyllasant yn eu herbyn
hwynt, ac a ddinystriasant gnwd y
ddaear, hyd oni ddelych i Gasah;
ac ni adawsant ddim ymborth yn
Israel, na dafad, nac eidion, nac
asyn.
5 Canys hwy a ddaethant i fyny
â'u hanifeiliaid, ac â'u pebyll, a
daethant fel locustiaid o amldra;
ac nid *oedd* rifedi arnynt hwy, nac
ar eu camelod: a hwy a ddaethant
i'r wlad i'w distrywio hi.
6 Ac Israel a aeth yn dlawd iawn
o achos y Midianiaid: a meibion Is-
rael a lefasant ar yr ARGLWYDD.
7 ¶ A phan lefodd meibion Israel
ar yr ARGLWYDD oblegid y Midian-
iaid,
8 Yr ARGLWYDD a anfonodd bro-
phwydwr at feibion Israel, yr hwn
a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y
dywedodd ARGLWYDD DDUW Israel;
Myfi a'ch dygais chwi i fyny o'r
Aipht, ac a'ch arweiniais chwi o dŷ
y caethiwed;
9 Ac a'ch gwaredais chwi o law
yr Aiphtiaid, ac o law eich holl or-
thrymwyr; gyrrais hwynt allan o'ch
blaen chwi, a rhoddais eu tir hwynt
i chwi:
10 A dywedais wrthych, Myfi *yw*
yr ARGLWYDD eich DUW chwi; nac
ofnwch dduwiau yr Amoriaid, y rhai
yr ydych yn trigo yn eu gwlad: ond
ni wrandawsoch ar fy llais i.
11 ¶ Ac angel yr ARGLWYDD a
ddaeth, ac a eisteddodd dan dderw-
en *oedd* yn Ophrah, yr hon *oedd*
eiddo Joas yr Abïesriad: a Gedeon
ei fab ef oedd yn dyrnu gwenith
wrth y gwin-wrŷf, i'*w* guddio rhag
y Midianiaid.
12 Ac angel yr ARGLWYDD a ym-

ddangosodd iddo ef, ac a ddywedodd wrtho, Yr ARGLWYDD *sydd* gyd â thi, *ŵr* cadarn nerthol.

13 A Gedeon a ddywedodd wrtho, O fy arglwydd, od yw yr ARGLWYDD gyd â ni, paham y digwyddodd hyn oll i ni? a pha le *y mae* ei holl ryfeddodau ef, y rhai a fynegodd ein tadau i ni, gan ddywedyd, Oni ddug yr ARGLWYDD ni i fyny o'r Aipht? Ond yn awr yr ARGLWYDD a'n gwrthododd ni, ac a'n rhoddodd i law y Midianiaid.

14 A'r ARGLWYDD a edrychodd arno ef, ac a ddywedodd, Dos yn dy rymmusdra yma; a thi a waredi Israel o law y Midianiaid: oni anfonais i dydi?

15 Dywedodd yntau wrtho ef, O fy arglwydd, pa fodd y gwaredaf fi Israel? Wele fy nheulu yn dlawd ym Manasseh, a minnau yn lleiaf yn nhŷ fy nhad.

16 A dywedodd yr ARGLWYDD wrtho ef, Dïau y byddaf fi gyd â thi; a thi a darewi y Midianiaid fel un gŵr.

17 Ac efe a ddywedodd wrtho, O chefais yn awr ffafr yn dy olwg, gwna erof fi arwydd mai ti sydd yn llefaru wrthyf.

18 Na chilia, attolwg, oddi yma, hyd oni ddelwyf attat, ac oni ddygwyf fy anrheg, a'i gosod ger dy fron. Dywedodd yntau, Myfi a arhosaf nes i ti ddychwelyd.

19 A Gedeon a aeth i mewn, ac a barottôdd fyn gafr, ac ephah o beilliied yn fara croyw: y cig a osododd efe mewn basged, a'r isgell a osododd efe mewn crochan; ac a'i dug atto ef dan y dderwen, ac a'i cyflwynodd.

20 Ac angel DUW a ddywedodd wrtho, Cymmer y cig, a'r bara croyw, a gosod ar y graig hon, a thywallt yr isgell. Ac efe a wnaeth felly.

21 ¶ Yna angel yr ARGLWYDD a estynodd flaen y ffon *oedd* yn ei law, ac a gyffyrddodd â'r cig, ac â'r bara croyw: a'r tân a ddyrchafodd o'r graig, ac a ysodd y cig, a'r bara croyw. Ac angel yr ARGLWYDD a aeth ymaith o'i olwg ef.

22 A phan welodd Gedeon mai angel yr ARGLWYDD *oedd* efe, y dywedodd Gedeon, Och, O ARGLWYDD DDUW! o herwydd i mi weled angel yr ARGLWYDD wyneb yn wyneb.

23 A dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, Tangnefedd i ti: nac ofna; ni byddi farw.

24 Yna Gedeon a adeiladodd yno allor i'r ARGLWYDD, ac a'i galwodd Jehofah-shalom: hyd y dydd hwn *y mae* hi etto yn Ophrah *eiddo* yr Abïesriaid.

25 ¶ A'r noson honno y dywedodd yr ARGLWYDD wrtho ef, Cymmer y bustach *sydd* eiddo dy dad, sef yr ail fustach saith mlwydd oed; a bwrw i lawr allor Baal yr hon *sydd* eiddo dy dad, a thor i lawr y llwyn *sydd* yn ei hymyl hi:

26 Ac adeilada allor i'r ARGLWYDD dy DDUW ar ben y graig hon, yn y lle trefnus; a chymmer yr ail fustach, ac offrymma boeth-offrwm â choed y llwyn, yr hwn a dorri di.

27 Yna Gedeon a gymmerodd ddengwr o'i weision, ac a wnaeth fel y llefarasai yr ARGLWYDD wrtho: ac o herwydd ei fod yn ofni teulu ei dad, a gwŷr y ddinas, fel nas gallai wneuthur *hyn* liw dydd, efe a'i gwnaeth liw nos.

28 ¶ A phan gyfododd gwŷr y ddinas y bore, *yna* wele allor Baal wedi ei bwrw i lawr, a'r llwyn yr hwn *oedd* yn ei hymyl wedi ei dorri, a'r ail fustach wedi ei offrymmu ar yr allor a adeiladasid.

29 A dywedodd pawb wrth eu gilydd, Pwy a wnaeth y peth hyn? Ac wedi iddynt ymofyn a chwilio, y dywedasant, Gedeon mab Joas a wnaeth y peth hyn.

30 Yna gwŷr y ddinas a ddywedasant wrth Joas, Dwg allan dy fab, fel y byddo marw: am iddo fwrw i lawr allor Baal, ac am iddo dorri y llwyn *oedd* yn ei hymyl hi.

31 A Joas a ddywedodd wrth y rhai oll a oeddynt yn sefyll yn ei erbyn ef, A ddadleuwch chwi dros Baal? ai chwi a'i ceidw ef? yr hwn a ddadleuo drosto ef, bydded farw y bore hwn: os DUW *yw* efe, dadleued drosto ei hun, am fwrw ei allor ef i lawr.

32 Ac efe a'i galwodd ef y dwthwn hwnnw Jerubbaal; gan ddywedyd, Dadleued Baal drosto ei hun, am fwrw ei allor i lawr.

33 ¶ Yna y Midianiaid oll, a'r Amaleciaid, a meibion y dwyrain, a gasglwyd ynghyd, ac a aethant drosodd, ac a wersyllasant yn nyffryn Jesreel.
34 Ond ysproyd yr ARGLWYDD a ddaeth ar Gedeon; ac efe a udganodd mewn udgorn, ac Abïeser a aeth ar ei ol ef.
35 Ac efe a anfonodd genhadau trwy holl Manasseh, yr hwn hefyd a'i canlynodd ef: anfonodd hefyd genhadau i Aser, ac i Sabulon, ac i Naphtali; a hwy a ddaethant i fyny i'w cyfarfod hwynt.
36 ¶ A Gedeon a ddywedodd wrth DDUW, O gwaredi di Israel trwy fy llaw i, megis y lleferaist;
37 Wele fi yn gosod cnu o wlan yn y llawr-dyrnu: os gwlith a fydd ar y cnu yn unig, a sychder ar yr holl ddaear; yna y caf wybod y gwaredi di Israel trwy fy llaw i, fel y lleferaist.
38 Ac felly y bu: canys cyfododd yn fore drannoeth, ac a sypiodd y cnu ynghyd, ac a wasgodd wlith o'r cnu, lonaid phïol o ddwfr.
39 A Gedeon a ddywedodd wrth DDUW, Na lidied dy ddigllonedd i'm herbyn, a mi a lefaraf unwaith etto. Profaf yn awr, y waith hon yn unig, trwy y cnu: bydded, attolwg, sychder ar y cnu yn unig, ac ar yr holl ddaear bydded gwlith.
40 A DUW a wnaeth felly y noson honno: canys yr oedd sychder ar y cnu yn unig, ac ar yr holl ddaear yr oedd gwlith.

PENNOD 7.

7 Dwyn llu Gedeon o ddeuddeng mil ar hugain i dri chant. 13 Ei gysuro trwy freuddwyd a dehongliad y dorth haidd. 16 Ei ddyfais ynghylch yr udgyrn a'r lampau mewn piserau. 25 Yr Ephraïmiaid yn dal Oreb a Seeb.

YNA Jerubbaal, hwnnw *yw* Gedeon, a gyfododd yn fore, a'r holl bobl y rhai *oedd* gyd âg ef, ac a wersyllasant wrth ffynnon Harod: a gwersyll y Midianiaid oedd o du y gogledd iddynt, wrth fryn Moreh, yn y dyffryn.
2 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Gedeon, Rhy lïosog yw y bobl *sydd* gyd â thi, i mi i roddi y Midianiaid yn eu dwylaw; rhag i Israel ymogoneddu i'm herbyn, gan ddywedyd, Fy llaw fy hun a'm gwaredodd.
3 Am hynny, yn awr, cyhoedda lle y clywo y bobl, gan ddywedyd, Yr hwn *sydd* ofnus ac arswydus, dychweled ac ymadawed y bore o fynydd Gilead. A dychwelodd o'r bobl ddwy fil ar hugain, a deng mil a arhosasant.
4 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Gedeon, Etto *y mae* gormod o bobl. Dwg hwynt i waered at y dyfroedd, a mi a'u profaf hwynt yno i ti: ac am yr hwn y dywedwyf wrthyt, Hwn a â gyd â thi, eled hwnnw gyd â thi; ac am bwy bynnag y dywedwyf wrthyt, Hwn nid â gyd â thi, nac eled hwnnw gyd â thi.
5 Felly efe a ddygodd y bobl i waered at y dyfroedd. A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Gedeon, Pob un a lepio â'i dafod o'r dwfr fel y llepio ci, gosod ef o'r neilldu; a phob un a ymgrymmo ar ei liniau i yfed.
6 A rhifedi y rhai a godasant *y dwfr* â'u llaw at eu genau, oedd dri channwr: a'r holl bobl eraill a ymgrymmasant ar eu gliniau i yfed dwfr.
7 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Gedeon, Trwy y tri channwr a lepiasant *y dwfr*, y gwaredaf chwi, ac y rhoddaf y Midianiaid yn dy law di: ac eled yr holl bobl *eraill* bob un i'w fangre ei hun.
8 Felly y bobl a gymmerasant fwyd yn eu dwylaw, a'u hudgyrn; a *Gedeon* a ollyngodd ymaith holl wŷr Israel, pob un i'w babell, a'r tri channwr a attaliodd efe: a gwersyll y Midianiaid oedd oddi tanodd iddo yn y dyffryn.
9 ¶ A'r noson honno y dywedodd yr ARGLWYDD wrtho ef, Cyfod, dos i waered i'r gwersyll; canys mi a'i rhoddais yn dy law di.
10 Ac od wyt yn ofni myned i waered, dos di a Phurah dy langc i waered i'r gwersyll:
11 A chei glywed beth a ddywedant; fel yr ymnertho wedi hynny dy ddwylaw, ac yr elych i waered i'r gwersyll. Yna efe a aeth i waered, a Phurah ei langc, i gwr y rhai arfogion *oedd* yn y gwersyll.
12 A'r Midianiaid, a'r Amaleciaid, a holl feibion y dwyrain, oedd yn gorwedd yn y dyffryn fel locust-

iaid o amldra; a'u camelod *oedd* heb rif, fel y tywod *sydd* ar fin y môr o amldra.

13 A phan ddaeth Gedeon, wele ŵr yn mynegi i'w gyfaill freuddwyd, ac yn dywedyd, Wele, breuddwyd a freuddwydiais; ac wele dorth o fara haidd yn ymdreiglo i wersyll y Midianiaid, a hi a ddaeth hyd at babell, ac a'i tarawodd fel y syrthiodd, a hi a'i hymchwelodd, fel y syrthiodd y babell.

14 A'i gyfaill a attebodd ac a ddywedodd, Nid *yw* hyn ddim ond cleddyf Gedeon mab Joas, gŵr o Israel: Duw a roddodd Midian a'i holl fyddin yn ei law ef.

15 ¶ A phan glybu Gedeon adroddiad y breuddwyd, a'i ddirnad, efe a addolodd, ac a ddychwelodd i wersyll Israel; ac a ddywedodd, Cyfodwch: canys rhoddodd yr ARGLWYDD fyddin y Midianiaid yn eich llaw chwi.

16 Ac efe a rannodd y tri channwr *yn* dair byddin, ac a roddodd udgyrn yn llaw pawb o honynt, a phiserau gwag, a lampau y'nghanol y piserau.

17 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Edrychwch arnaf fi, a gwnewch yr un ffunud: ac wele, pan ddelwyf i gwr y gwersyll, yna fel y gwnelwyf fi, gwnewch chwithau.

18 Pan udganwyf fi mewn udgorn, myfi a'r holl rai *sydd* gyd â mi, udgenwch chwithau mewn udgyrn o amgylch yr holl wersyll, a dywedwch, *Cleddyf* yr ARGLWYDD a Gedeon.

19 ¶ Felly Gedeon a ddaeth i mewn, a'r cannwr *oedd* gyd âg ef, i gwr y gwersyll, yn nechreu y wyliadwriaeth ganol, a'r gwylwyr wedi eu newydd osod, ac a udganasant mewn udgyrn, ac a ddrylliasant y piserau *oedd* yn eu dwylaw.

20 A'r tair byddin a udganasant mewn udgyrn, ac a ddrylliasant y piserau, ac a ddaliasant y lampau yn eu llaw aswy, a'r udgyrn yn eu llaw ddehau i udganu: a hwy a lefasant, Cleddyf yr ARGLWYDD a Gedeon.

21 A safasant bob un yn ei le, o amgylch y gwersyll: a'r holl wersyll a redodd, ac a waeddodd, ac a ffodd.

22 A'r tri chant a udganasant âg udgyrn; a'r ARGLWYDD a osododd gleddyf pob un yn erbyn eu gilydd, trwy yr holl wersyll: felly y gwersyll a ffodd hyd Beth-sittah, yn Sererath, hyd fin Abel-meholah, hyd Tabbath.

23 A gwŷr Israel a ymgasglasant, o Naphtali, ac o Aser, ac o holl Manasseh, ac a erlidiasant ar ol y Midianiaid.

24 ¶ A Gedeon a anfonodd genhadau trwy holl fynydd Ephraim, gan ddywedyd, Deuwch i waered yn erbyn y Midianiaid, ac achubwch o'u blaen hwynt y dyfroedd hyd Bethbarah a'r Iorddonen: a holl wŷr Ephraim a ymgasglasant, ac a ennillasant y dyfroedd hyd Beth-barah a'r Iorddonen.

25 A daliasant ddau o dywysogion Midian, Oreb a Seeb; a lladdasant Oreb ar graig Oreb, a lladdasant Seeb wrth win-wrŷf Seeb, ac a erlidiasant Midian, ac a ddygasant bennau Oreb a Seeb at Gedeon, i'r tu arall i'r Iorddonen.

PENNOD 8.

1 Gedeon yn llonyddu gwŷr Ephraim. 4 Succoth a Phenuel yn gwrthod porthi llu Gedeon. 10 Dala Sebah a Salmunna. 16, 17 Dinystr Succoth a Phenuel. 21 Gedeon yn dial marwolaeth ei frodyr ar Sebah a Salmunna; 23 yn gwrthod llywodraethu. 27 Ei ephod ef yn achos o ddelw-addoliaeth. 28 Goresgyn Midian. 30 Plant Gedeon, a'i farwolaeth. 33 Gaddduwiaeth ac annolchgarwch yr Israeliaid.

A GWYR Ephraim a ddywedasant wrtho ef, Paham y gwnaethost y peth hyn â ni, heb alw arnom ni pan aethost i ymladd yn erbyn y Midianiaid? A hwy a'i dwrdiasant ef yn dost.

2 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Beth a wneuthum i yn awr wrth *a wnaethoch* chwi? Onid gwell *yw* lloffiad grawnwin Ephraim, na chasgliad grawnwin Abieser?

3 Duw a roddodd yn eich llaw chwi dywysogion Midian, Oreb a Seeb: a pheth a allwn i ei wneuthur wrth *a wnaethoch* chwi? Yna yr arafodd eu dig hwynt tu ag atto ef, pan lefarodd efe y gair hwn.

4 ¶ A daeth Gedeon i'r Iorddonen; *ac* a aeth drosti hi, efe a'r tri channwr *oedd* gyd âg ef, yn ddiffygiol, ac etto yn *eu* herlid *hwy*.

5 Ac efe a ddywedodd wrth wŷr Succoth, Rhoddwch, attolwg, dorthau o fara i'r bobl sydd i'm canlyn i: canys lluddedig ydynt hwy; a minnau yn erlid ar ol Sebah a Salmunna, brenhinoedd Midian.

6 ¶ A dywedodd tywysogion Succoth, *A yw* llaw Sebah a Salmunna yn awr yn dy law di, fel y rhoddem ni fara i'th lu di?

7 A dywedodd Gedeon, O herwydd hynny, pan roddo yr ARGLWYDD Sebah a Salmunna yn fy llaw i, yna y drylliaf eich cnawd chwi â drain yr anialwch, ac â mïeri.

8 Ac efe a aeth i fyny oddi yno i Penuel, ac a lefarodd wrthynt hwythau yn yr un modd. A gwŷr Penuel a'i hattebasant ef fel yr attebasai gwŷr Succoth.

9 Ac efe a lefarodd hefyd wrth wŷr Penuel, gan ddywedyd, Pan ddychwelwyf mewn heddwch, mi a ddistrywiaf y tŵr yma.

10 ¶ A Sebah a Salmunna *oedd* yn Carcor, a'u lluoedd gyd â hwynt, ynghylch pymtheng mil, yr hyn oll a adawsid o holl fyddin meibion y dwyrain: canys lladdwyd cant ac ugain mil o wŷr yn tynnu cleddyf.

11 A Gedeon a aeth i fyny ar hyd ffordd y rhai oedd yn trigo mewn pebyll, o'r tu dwyrain i Nobah a Jogbehah: ac efe a darawodd y fyddin: canys y fyddin oedd ysgafala.

12 A Sebah a Salmunna a ffoisant: ac efe a erlidiodd ar eu hol hwynt; ac a ddaliodd ddau frenhin Midian, Sebah a Salmunna, ac a darfodd yr holl lu.

13 ¶ A Gedeon mab Joas a ddychwelodd o'r rhyfel cyn *codi* yr haul.

14 Ac efe a ddaliodd langc o wŷr Succoth, ac a ymofynodd âg ef. Ac yntau a ysgrifenodd iddo dywysogion Succoth, a'r henuriaid; *sef* dau ŵr ar bymtheg a thri ugain.

15 Ac efe a ddaeth at wŷr Succoth, ac a ddywedodd, Wele Sebah a Salmunna, *trwy* y rhai y dannodasoch i mi, gan ddywedyd, *A ydyw* llaw Sebah a Salmunna yn awr yn dy law di, fel y rhoddem fara i'th wŷr lluddedig?

16 Ac efe a gymmerth henuriaid y ddinas, a drain yr anialwch, a mïeri, ac a ddysgodd wŷr Succoth â hwynt.

17 Tŵr Penuel hefyd a ddinystriodd efe, ac a laddodd wŷr y ddinas.

18 ¶ Yna efe a ddywedodd wrth Sebah a Salmunna, Pa fath wŷr *oedd* y rhai a laddasoch chwi yn Tabor? A hwy a ddywedasant, Tebyg i ti, *pob un* o ddull meibion brenhin.

19 Ac efe a ddywedodd, Fy mrodyr, meibion fy mam, *oeddent* hwy: *fel* mai byw yr ARGLWYDD, pe gadawsech hwynt yn fyw, ni laddwn chwi.

20 Ac efe a ddywedodd wrth Jether ei gyntaf-anedig, Cyfod, llâdd hwynt. Ond ni thynnai y llangc ei gleddyf: o herwydd efe a ofnodd, canys bachgen *oedd* efe etto.

21 Yna y dywedodd Sebah a Salmunna, Cyfod di, a rhuthra i ni: canys fel *y byddo* y gŵr, *felly y bydd* ei rym. A Gedeon a gyfododd, ac a laddodd Sebah a Salmunna, ac a gymmerth y colerau *oedd* am yddfau eu camelod hwynt.

22 ¶ A gwŷr Israel a ddywedasant wrth Gedeon, Arglwyddiaetha arnom ni, tydi, a'th fab, a mab dy fab hefyd: canys gwaredaist ni o law Midian.

23 A Gedeon a ddywedodd wrthynt, Ni arglwyddiaethaf fi arnoch, ac ni arglwyddiaetha fy mab arnoch, *eithr* yr ARGLWYDD a arglwyddiaetha arnoch.

24 Dywedodd Gedeon hefyd wrthynt, Gofynaf ddymuniad gennych, ar roddi o bob un o honoch i mi glust-dlysau ei ysglyfaeth: canys clust-dlysau aur *oedd* ganddynt hwy, o herwydd mai Ismaeliaid oeddynt hwy.

25 A dywedasant, Gan roddi y rhoddwn *hwynt*. A lledasant *ryw* wisg, a thaflasant yno bob un glustdlws ei ysglyfaeth.

26 A phwys y clust-dlysau aur a ofynasai efe, oedd fil a saith gant *o siclau* aur; heb law y colerau, a'r arogl-bellenau, a'r gwisgoedd porphor, y rhai *oedd* am frenhinoedd Midian; ac heb law y tyrch *oedd* am yddfau eu camelod hwynt.

27 A Gedeon a wnaeth o honynt ephod, ac a'i gosododd yn ei ddinas ei hun, Ophrah: a holl Israel a butteiniasant ar ei hol hi yno: a bu *hynny* yn dramgwydd i Gedeon, ac i'w dŷ.

28 ¶ Felly y darostyngwyd Midian o flaen meibion Israel, fel na chwanegasant godi eu pennau. A'r wlad a gafodd lonydd ddeugain mlynedd yn nyddiau Gedeon.

29 ¶ A Jerubbaal mab Joas a aeth, ac a drigodd yn ei dŷ ei hun.

30 Ac i Gedeon yr oedd deng mab a thri ugain, a ddaethai o'i gorph ef: canys gwragedd lawer oedd iddo ef.

31 A'i ordderch-wraig ef, yr hon *oedd* yn Sichem, a ymddûg hefyd iddo fab: ac efe a osododd ei enw ef yn Abimelech.

32 ¶ Felly Gedeon mab Joas a fu farw mewn oedran teg, ac a gladdwyd ym meddrod Joas ei dad, yn Ophrah yr Abïesriaid.

33 A phan fu farw Gedeon, yna meibion Israel a ddychwelasant, ac a butteiniasant ar ol Baalim; ac a wnaethant Baal-berith yn dduw iddynt.

34 Felly meibion Israel ni chofiasant yr ARGLWYDD eu DUW, yr hwn a'u gwaredasai hwynt o law eu holl elynion o amgylch;

35 Ac ni wnaethant garedigrwydd â thŷ Jerubbaal, *sef* Gedeon, yn ol yr holl ddaioni a wnaethai efe i Israel.

PENNOD 9.

1 *Abimelech, trwy gyd-fwriadu â gwŷr Sichem, a lladd ei frodyr, yn myned yn frenhin.* 7 *Jotham, trwy ddammeg, yn eu cerydda, ac yn rhag-fynegi eu cwymp hwy.* 26 *Gaal yn cyd-fwriadu â'r Sichemiaid yn ei erbyn ef.* 30 *Sebul yn datguddio eu bwriad hwy.* 45 *Abimelech yn eu gorchfygu hwynt, ac yn hau y ddinas â halen:* 49 *yn llosgi anddiffynfa duw Berith.* 53 *Ei ladd yntau yn Thebes â darn o faen melin.* 57 *Cyflawni melldith Jotham.*

AC Abimelech mab Jerubbaal a aeth i Sichem, at frodyr ei fam, ac a ymddiddanodd â hwynt, ac â holl dylwyth tŷ tad ei fam, gan ddywedyd,

2 Dywedwch, attolwg, lle y clywo holl wŷr Sichem, Pa un oreu i chwi, ai arglwyddiaethu arnoch o ddengwr a thri ugain, *sef* holl feibion Jerubbaal, ai arglwyddiaethu o un gŵr arnoch? cofiwch hefyd mai eich asgwrn a'ch cnawd chwi *ydwyf* fi.

3 A brodyr ei fam a ddywedasant am dano ef, lle y clybu holl wŷr Sichem, yr holl eiriau hyn: a'u calonnau hwynt a drodd ar ol Abimelech; canys dywedasant, Ein brawd ni *yw* efe.

4 A rhoddasant iddo ddeg a thri ugain o arian o dŷ Baal-berith: ac Abimelech a gyflogodd â hwynt oferwyr gwammal, y rhai a aethant ar ei ol ef.

5 Ac efe a ddaeth i dŷ ei dad i Ophrah, ac a laddodd ei frodyr, meibion Jerubbaal, y *rhai oedd* ddengwr a thri ugain, ar un garreg: ond Jotham, mab ieuangaf Jerubbaal, a adawyd; canys efe a ymguddiasai.

6 A holl wŷr Sichem a holl dŷ Mìlo a ymgasglasant, ac a aethant, ac a urddasant Abimelech yn frenhin, wrth ddyfiryn y golofn yr hwn *sydd* yn Sichem.

7 ¶ A phan fynegasant *hynny* i Jotham, efe a aeth ac a safodd ar ben mynydd Garisim, ac a ddyrchafodd ei lef, ac a waeddodd, dywedodd *hefyd* wrthynt, Gwrandêwch arnaf fi, O wŷr Sichem, fel y gwrandawo DUW arnoch chwithau.

8 Y prennau gan fyned a aethant i enneinio brenhin arnynt; a dywedasant wrth yr olew-wydden, Teyrnasa arnom ni.

9 Ond yr olew-wydden a ddywedodd wrthynt, A ymadawaf fi â'm brasder, â'r hwn trwof fi yr anrhydeddant DDUW a dyn, a myned i lywodraethu ar y prennau *eraill?*

10 A'r prennau a ddywedasant wrth y ffigysbren, Tyred di, teyrnasa arnom ni.

11 Ond y ffigysbren a ddywedodd wrthynt, A ymadawaf fi â'm melysdra, ac â'm ffrwyth da, ac a âf fi i lywodraethu ar y prennau *eraill?*

12 Yna y prennau a ddywedasant wrth y winwydden, Tyred di, teyrnasa arnom ni.

13 A'r winwydden a ddywedodd wrthynt hwy, A ymadawaf fi â'm melyswin, yr hwn sydd yn llawenhâu DUW a dyn, a myned i lywodraethu ar y prennau *eraill.*

14 Yna yr holl brennau a ddywedasant wrth y fieren, Tyred di, teyrnasa arnom ni.

15 A'r fieren a ddywedodd wrth y prennau, Os mewn gwirionedd yr enneiniwch fi yn frenhin arnoch, deuwch *ac* ymddiriedwch yn fy nghysgod i: ac onid ê, eled tân

allan o'r fieren, ac ysed gedrwydd Libanus.

16 Yn awr gan hynny, os mewn gwirionedd a phurdeb y gwnaethoch, yn gosod Abimelech yn frenhin, ac os gwnaethoch yn dda â Jerubbaal, ac â'i dŷ, ac os yn ol haeddedigaeth ei ddwylaw y gwnaethoch iddo:

17 (Canys fy nhad a ymladdodd drosoch chwi, ac a anturiodd ei einioes ym mhell, ac a'ch gwareddodd chwi o law Midian:

18 A chwithau a gyfodasoch yn erbyn tŷ fy nhad i heddyw, ac a laddasoch ei feibion ef, sef dengwr a thri ugain, ar un garreg, ac a osodasoch Abimelech, mab ei law-forwyn ef, yn frenhin ar wŷr Sichem, o herwydd *ei fod* ef yn frawd i chwi:)

19 Gan hynny, os mewn gwirionedd a phurdeb y gwnaethoch â Jerubbaal, ac â'i dŷ ef, y dydd hwn; llawenychwch yn Abimelech, a llawenyched yntau ynoch chwithau:

20 Ac onid ê, eled tân allan o Abimelech, ac ysed wŷr Sichem, a thŷ Milo; *hefyd* eled tân allan o wŷr Sichem, ac o dŷ Milo, ac ysed Abimelech.

21 A Jotham a giliodd, ac a ffodd, ac a aeth ymaith i Beer, ac a drigodd yno, rhag ofn Abimelech ei frawd.

22 ¶ Ac Abimelech a deyrnasodd ar Israel dair blynedd.

23 A Duw a ddanfonodd yspryd drwg rhwng Abimelech a gwŷr Sichem; a gwŷr Sichem a aethant yn anghywir i Abimelech:

24 Fel y delai y traha *a wnelsid* â deng mab a thri ugain Jerubbaal, ac y gosodid eu gwaed hwynt ar Abimelech eu brawd, yr hwn a'u lladdodd hwynt; ac ar wŷr Sichem, y rhai a'i cynnorthwyasant ef i ladd ei frodyr.

25 A gwŷr Sichem a osodasant iddo ef gynllwynwyr ar ben y mynyddoedd; a hwy a yspeiliasant bawb a'r a oedd yn tramwy heibio iddynt ar hyd y ffordd. A mynegwyd *hynny* i Abimelech.

26 A Gaal mab Ebed a ddaeth, efe a'i frodyr, ac a aethant drosodd i Sichem: a gwŷr Sichem a roisant eu hyder arno.

27 A hwy a aethant i'r meusydd, ac a gasglasant eu gwinllannoedd, ac a sangasant *eu grawnwin*, ac a wnaethant yn llawen, ac a aethant i mewn i dŷ eu duw, ac a fwyttasant ac a yfasant, ac a felldithiasant Abimelech.

28 A Gaal mab Ebed a ddywedodd, Pwy *yw* Abimelech, a phwy *yw* Sichem, fel y gwasanaethem ef? onid mab Jerubbaal *yw efe?* onid Sebul *yw* ei swyddog? gwasanaethwch wŷr Hemor tad Sichem: canys paham y gwasanaethem ni ef?

29 O na byddai y bobl hyn dan fy llaw i, fel y bwriwn ymaith Abimelech! Ac efe a ddywedodd wrth Abimelech, Amlhâ dy lu, a thyred allan.

30 ¶ A phan glybu Sebul, llywodraethwr y ddinas, ciriau Gaal mab Ebed, y llidiodd ei ddigllonedd ef.

31 Ac efe a anfonodd genhadau at Abimelech yn ddirgel, gan ddywedyd, Wele Gaal mab Ebed a'i frodyr wedi dyfod i Sichem; ac wele hwynt yn cadarnhâu y ddinas i'th erbyn.

32 Gan hynny cyfod yn awr liw nos, ti a'r bobl *sydd* gyd â thi, a chynllwyn yn y maes:

33 A chyfod yn fore ar godiad yr haul, a rhuthra yn erbyn y ddinas: ac wele, *pan* ddelo efe a'r bobl *sydd* gyd âg ef allan i'th erbyn, yna gwna iddo yr hyn a ellych.

34 ¶ Ac Abimelech a gyfododd, a'r holl bobl y rhai *oedd* gyd âg ef, liw nos, ac a gynllwynasant yn erbyn Sichem yn bedair byddin.

35 A Gaal mab Ebed a aeth allan, ac a safodd *wrth* ddrws porth y ddinas: ac Abimelech a gyfododd, a'r bobl y rhai *oedd* gyd âg ef, o'r cynllwyn.

36 A phan welodd Gaal y bobl, efe a ddywedodd wrth Sebul, Wele bobl yn dyfod i waered o ben y mynyddoedd. A dywedodd Sebul wrtho, Cysgod y mynyddoedd yr ydwyt ti yn ei weled fel dynion.

37 A Gaal a chwanegodd etto lefaru, ac a ddywedodd, Wele bobl yn dyfod i waered o ganol y tir, a byddin arall yn dyfod o ffordd gwastadedd Meonenim.

38 Yna y dywedodd Sebul wrtho ef, Pa le yn awr *y mae* dy enau di, *â'r hwn* y dywedaist, Pwy *yw* Abimelech, pan wasanaethem ef?

onid dyma y bobl a ddirmygaist ti? dos allan, attolwg, yn awr, ac ymladd i'w herbyn.

39 A Gaal a aeth allan o flaen gwŷr Sichem, ac a ymladdodd âg Abimelech.

40 Ac Abimelech a'i herlidiodd ef, ac efe a ffodd o'i flaen ef; a llawer a gwympasant yn archolledig hyd ddrws y porth.

41 Ac Abimelech a drigodd yn Arumah: a Sebul a yrrodd ymaith Gaal a'i frodyr o breswylio yn Sichem.

42 A thrannoeth y daeth y bobl allan i'r maes: a mynegwyd *hynny* i Abimelech.

43 Ac efe a gymmerth y bobl, ac a'u rhannodd yn dair byddin, ac a gynllwynodd yn y maes, ac a edrychodd, ac wele y bobl wedi dyfod allan o'r ddinas; ac efe a gyfododd yn eu herbyn, ac a'u tarawodd hwynt.

44 Ac Abimelech, a'r fyddin *oedd* gyd âg ef, a ruthrasant, ac a safasant wrth ddrws porth y ddinas: a'r ddwy fyddin *eraill* a ruthrasant ar yr holl *rai oedd* yn y maes, ac a'u tarawsant hwy.

45 Ac Abimelech a ymladdodd yn erbyn y ddinas yr holl ddiwrnod hwnnw: ac efe a ennillodd y ddinas, ac a laddodd y bobl *oedd* ynddi, ac a ddistrywiodd y ddinas, ac a'i hauodd â halen.

46 ¶ A phan glybu holl wŷr tŵr Sichem *hynny*, hwy a aethant i amddiffynfa tŷ duw Berith.

47 A mynegwyd i Abimelech, ymgasglu o holl wŷr tŵr Sichem.

48 Ac Abimelech a aeth i fyny i fynydd Salmon, efe a'r holl bobl *oedd* gyd âg ef: ac Abimelech a gymmerth fwyell yn ei law, ac a dorrodd gangen o'r coed, ac a'i cymmerth hi, ac a'*i* gosododd ar ei ysgwydd; ac a ddywedodd wrth y bobl *oedd* gyd âg ef, Yr hyn a welsoch fi yn ei wneuthur, brysiwch, gwnewch fel finnau.

49 A'r holl bobl a dorrasant bob un ei gangen, ac a aethant ar ol Abimelech; ac a'u gosodasant wrth yr amddiffynfa, ac a losgasant â hwynt yr amddiffynfa â thân: felly holl wŷr tŵr Sichem a fuant feirw, ynghylch mil o wŷr a gwragedd.

50 ¶ Yna Abimelech a aeth i Thebes; ac a wersyllodd yn erbyn Thebes, ac a'i hennillodd hi.

51 Ac yr oedd tŵr cadarn ŷ'nghanol y ddinas; a'r holl wŷr a'r gwragedd, a'r holl rai o'r ddinas, a ffoisant yno, ac a gauasant arnynt, ac a ddringasant ar nen y tŵr.

52 Ac Abimelech a ddaeth at y tŵr, ac a ymladdodd yn ei erbyn; ac a nesaodd at ddrws y tŵr, i'w losgi ef â thân.

53 A rhyw wraig a daflodd ddarn o faen melin ar ben Abimelech, ac a ddrylliodd ei benglog ef.

54 Yna efe a alwodd yn fuan ar y llangc oedd yn dwyn ei arfau ef, ac a ddywedodd wrtho, Tyn dy gleddyf, a lladd fi; fel na ddywedant am danaf, Gwraig a'i lladdodd ef. A'i langc a'i trywanodd ef, ac efe a fu farw.

55 A phan welodd gwŷr Israel farw o Abimelech, hwy a aethant bob un i'w fangre.

56 ¶ Felly y talodd Duw ddrygioni Abimelech, yr hwn a wnelsai efe i'w dad, gan ladd ei ddeg brawd a thri ugain.

57 A holl ddrygioni gwŷr Sichem a dalodd Duw ar eu pen hwynt: a melldith Jotham mab Jerubbaal a ddaeth arnynt hwy.

PENNOD 10.

1 Tola yn barnu Israel yn Samir. 3 Jair a'i ddeg mab ar hugain, i'r rhai yr oedd deg dinas ar hugain. 7 Y Philistiaid a'r Ammoniaid yn gorthrymmu Israel. 10 Duw yn eu cyfyngdra yn eu danfon hwy at eu gaddiwiau: 15 ac, ar eu hedifeirwch, yn tosturio wrthynt.

AC ar ol Abimelech, y cyfododd i waredu Israel, Tola, mab Puah, mab Dodo, gŵr o Issachar; ac efe oedd yn trigo yn Samir ym mynydd Ephraim.

2 Ac efe a farnodd Israel dair blynedd ar hugain, ac a fu farw, ac a gladdwyd yn Samir.

3 ¶ Ac ar ei ol ef y cyfododd Jair, Gileadiad; ac efe a farnodd Israel ddwy flynedd ar hugain.

4 Ac iddo ef yr oedd deng mab ar hugain yn marchogaeth ar ddeg ar hugain o ebolion asynod; a deg dinas ar hugain *oedd* ganddynt, y rhai a elwyd Hafoth-Jair hyd y dydd hwn, y rhai *ydynt* y'ngwlad Gilead.

5 A Jair a fu farw, ac a gladdwyd yn Camon.

6 A meibion Israel a chwanegasant wneuthur yr hyn oedd ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac a wasanaethasant Baalim, ac Astaroth, a duwiau Syria, a duwiau Sidon, a duwiau Moab, a duwiau meibion Ammon, a duwiau y Philistiaid; a gwrthodasant yr ARGLWYDD, ac ni wasanaethasant ef.

7 ¶ A llidiodd digllonedd yr ARGLWYDD yn erbyn Israel; ac efe a'u gwerthodd hwynt yn llaw y Philistiaid, ac yn llaw meibion Ammon.

8 A hwy a flinasant ac a ysigasant feibion Israel y flwyddyn honno: tair blynedd ar bymtheg, holl feibion Israel y rhai *oedd* tu hwnt i'r Iorddonen, y'ngwlad yr Amoriaid, yr hon *sydd* yn Gilead.

9 A meibion Ammon a aethant trwy yr Iorddonen, i ymladd hefyd yn erbyn Judah, ac yn erbyn Benjamin, ac yn erbyn tŷ Ephraim; fel y bu gyfyng iawn ar Israel.

10 ¶ A meibion Israel a lefasant ar yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Pechasom yn dy erbyn; o herwydd gwrthod o honom ein DUW, a gwasanaethu Baalim hefyd.

11 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth feibion Israel, Oni *waredais chwi* rhag yr Aiphtiaid, a rhag yr Amoriaid, a rhag meibion Ammon, a rhag y Philistiaid?

12 Y Sidoniaid hefyd, a'r Amaleciaid, a'r Maoniaid, a'ch gorthrymmasant chwi; a llefasoch arnaf, a minnau a'ch gwaredais chwi o'u llaw hwynt.

13 Etto chwi a'm gwrthodasoch i, ac a wasanaethasoch dduwiau dïeithr: am hynny ni waredaf chwi mwyach.

14 Ewch, a llefwch at y duwiau a ddewisasoch: gwaredant hwy chwi yn amser eich cyfyngdra.

15 ¶ A meibion Israel a ddywedasant wrth yr ARGLWYDD, Pechasom; gwna di i ni fel y gwelych yn dda: etto gwared ni, attolwg, y dydd hwn.

16 A hwy a fwriasant ymaith *y* duwiau dïeithr o'u mysg, ac a wasanaethasant yr ARGLWYDD: a'i enaid ef a dosturiodd, o herwydd adfyd Israel.

17 Yna meibion Ammon a ymgynullasant, ac a wersyllasant yn Gilead: a meibion Israel a ymgasglasant, ac a wersyllasant ym Mispah.

18 Y bobl hefyd *a* thywysogion Gilead a ddywedasant wrth eu gilydd, Pa ŵr a ddechreu ymladd yn erbyn meibion Ammon? efe a fydd yn bennaeth ar drigolion Gilead.

PENNOD 11.

1 Yr ammod rhwng Jephthah a gwŷr Gilead, y cai efe fod yn ben arnynt. 12 Oferedd yr ymddiddan am heddwch rhyngddo ef a'r Ammoniaid. 29 Adduned Jephthah. 32 Jephthah yn gorchfygu yr Ammoniaid: 34 ac yn cwblhau ei adduned ar ei ferch.

A JEPHTHAH y Gileadiad oedd ŵr cadarn nerthol, ac efe *oedd* fab i wraig o butteinwraig: a Gilead a genhedlasai y Jephthah hwnnw.

2 A gwraig Gilead a ymddûg iddo feibion: a meibion y wraig a gynnyddasant, ac a fwriasant ymaith Jephthah, ac a ddywedasant wrtho, Nid etifeddi di yn nhŷ ein tad ni; canys mab gwraig ddïeithr *ydwyt* ti.

3 Yna Jephthah a ffodd rhag ei frodyr, ac a drigodd y'ngwlad Tob; a dynion ofer a ymgasglasant at Jephthah, ac a aethant allan gyd âg ef.

4 ¶ Ac wedi *talm* o ddyddiau, meibion Ammon a ryfelasant yn erbyn Israel.

5 A phan oedd meibion Ammon yn rhyfela yn erbyn Israel, yna henuriaid Gilead a aethant i gyrchu Jephthah o wlad Tob:

6 Ac a ddywedasant wrth Jephthah, Tyred a bydd yn dywysog i ni, fel yr ymladdom yn erbyn meibion Ammon.

7 A Jephthah a ddywedodd wrth henuriaid Gilead, Oni chasasoch chwi fi, ac a'm gyrrasoch o dŷ fy nhad? a phaham y deuwch attaf fi yn awr, pan *yw* gyfyng arnoch?

8 A henuriaid Gilead a ddywedasant wrth Jephthah, Am hynny y dychwelasom yn awr attat ti, fel y delit gyd â ni, ac yr ymladdit yn erbyn meibion Ammon, ac y byddit i ni yn ben ar holl drigolion Gilead.

9 A Jephthah a ddywedodd wrth henuriaid Gilead, O dygwch fi yn fy ol i ymladd yn erbyn meibion Ammon, a rhoddi o'r ARGLWYDD hwynt o'm blaen i; a gaf fi fod yn ben arnoch chwi?

10 A henuriaid Gilead a ddywedasant wrth Jephthah, Yr ARGLWYDD a fyddo yn dyst rhyngom ni, oni wnawn ni felly yn ol dy air di.
11 Yna Jephthah a aeth gyd â henuriaid Gilead; a'r bobl a'i gosodasant ef yn ben ac yn dywysog arnynt: a Jephthah a adroddodd ei holl eiriau ger bron yr ARGLWYDD ym Mispah.
12 ¶ A Jephthah a anfonodd genhadau at frenhin meibion Ammon, gan ddywedyd, Beth *sydd* i ti *a wnelych* â mi, fel y delit yn fy erbyn i ymladd yn fy ngwlad i?
13 A brenhin meibion Ammon a ddywedodd wrth genhadau Jephthah, O herwydd i Israel ddwyn fy ngwlad i pan ddaeth i fyny o'r Aipht, o Arnon hyd Jabboc, a hyd yr Iorddonen: yn awr gan hynny dod hwynt adref mewn heddwch.
14 A Jephthah a anfonodd drachefn genhadau at frenhin meibion Ammon;
15 Ac a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed Jephthah; Ni ddug Israel dir Moab, na thir meibion Ammon:
16 Ond pan ddaeth Israel i fyny o'r Aipht, a rhodio trwy yr anialwch, hyd y môr coch, a dyfod i Cades;
17 Yna Israel a anfonodd genhadau at frenhin Edom, gan ddywedyd, Gâd i mi dramwy, attolwg, trwy dy wlad di. Ond ni wrandawodd brenhin Edom. A hwy a anfonasant hefyd at frenhin Moab: ond ni fynnai yntau. Felly Israel a arhosodd yn Cades.
18 Yna hwy a gerddasant yn yr anialwch, ac a amgylchynasant wlad Edom, a gwlad Moab; ac a ddaethant o du codiad haul i wlad Moab, ac a wersyllasant tu hwnt i Arnon; ac ni ddaethant o fewn terfyn Moab: canys Arnon *oedd* derfyn Moab.
19 Ac Israel a anfonodd genhadau at Sehon brenhin yr Amoriaid, brenhin Hesbon; ac Israel a ddywedodd wrtho, Gâd i ni dramwy, attolwg, trwy dy wlad di, hyd fy mangre.
20 Ond nid ymddiriedodd Sehon i Israel fyned trwy ei derfyn ef: eithr Sehon a gasglodd ei holl bobl, a hwy a wersyllasant yn Jahas, ac efe a ymladdodd yn erbyn Israel.
21 Ac ARGLWYDD DDUW Israel a roddodd Sehon a'i holl bobl yn llaw Israel; a hwy a'u tarawsant hwynt. Felly Israel a feddiannodd holl wlad yr Amoriaid, trigolion y wlad honno.
22 Meddiannasant hefyd holl derfynau yr Amoriaid, o Arnon hyd Jabboc, ac o'r anialwch hyd yr Iorddonen.
23 Felly yn awr, ARGLWYDD DDUW Israel a fwriodd yr Amoriaid allan o flaen ei bobl Israel: gan hynny *ai* tydi a'i meddiennit hi?
24 Oni feddienni di yr hyn a roddo Cemos dy dduw i ti i'w feddiannu? Felly yr hyn oll a oresgyno yr ARGLWYDD ein DUW o'n blaen ni a feddiannwn ninnau.
25 Ac yn awr, *a wyt* ti yn well na Balac mab Sippor, brenhin Moab? a ymrysonodd efe erioed âg Israel, neu gan ymladd a ymladdodd efe i'w herbyn hwy?
26 Pan oedd Israel yn trigo yn Hesbon a'i threfydd, ac yn Aroer a'i threfydd, ac yn yr holl ddinasoedd y rhai *sydd* wrth derfynau Arnon, dri chan mlynedd; paham nad achubasoch *hwynt* y pryd hwnnw?
27 Am hynny ni phechais i yn dy erbyn di; ond yr ydwyt ti yn gwneuthur cam â mi, gan ymladd yn fy erbyn i; yr ARGLWYDD Farnwr a farno heddyw rhwng meibion Israel a meibion Ammon.
28 Er hynny ni wrandawodd brenhin meibion Ammon ar eiriau Jephthah, y rhai a anfonodd efe atto.
29 ¶ Yna y daeth yspryd yr ARGLWYDD ar Jephthah; ac efe a aeth dros Gilead a Manasseh; ac a aeth dros Mispah Gilead, ac o Mispah Gilead yr aeth efe drosodd *at* feibion Ammon.
30 A Jephthah a addunedodd adduned i'r ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Os gan roddi y rhoddi di feibion Ammon yn fy llaw i;
31 Yna yr hwn a ddelo allan o ddrysau fy nhŷ i'm cyfarfod, pan ddychwelwyf mewn heddwch oddi wrth feibion Ammon, a fydd eiddo yr ARGLWYDD, a mi a'i hoffrymmaf ef yn boeth-offrwm.

32 ¶ Felly Jephthah a aeth drosodd at feibion Ammon i ymladd yn eu herbyn; a'r ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt yn ei law ef.
33 Ac efe a'u tarawodd hwynt o Aroer hyd oni ddelych di i Minnith, *sef* ugain dinas, a hyd wastadedd y gwinllannoedd, â lladdfa fawr iawn. Felly y darostyngwyd meibion Ammon o flaen meibion Israel.
34 ¶ A Jephthah a ddaeth i Mispah i'w dŷ ei hun: ac wele ei ferch yn dyfod allan i'w gyfarfod â thympanau, ac â dawnsiau; a hi *oedd ei* unig *etifedd* ef; nid *oedd* ganddo na mab na merch ond y hi.
35 A phan welodd efe hi, efe a rwygodd ei ddillad, ac a ddywedodd, Ah! ah! fy merch, gan ddarostwng y darostyngaist fi; ti hefyd wyt *un* o'r rhai sydd yn fy molestu: canys myfi a agorais fy ngenau wrth yr ARGLWYDD, ac ni allaf gilio.
36 A hi a ddywedodd wrtho, Fy nhad, *od* agoraist dy enau wrth yr ARGLWYDD, gwna i mi yn ol yr hyn a aeth allan o'th enau; gan i'r ARGLWYDD wneuthur drosot ti ddïaledd ar dy elynion, meibion Ammon.
37 Hi a ddywedodd *hefyd* wrth ei thad, Gwneler i mi y peth hyn; paid â mi ddau fis, fel yr elwyf i fyny ac i waered ar y mynyddoedd, ac yr wylwyf o herwydd fy morwyndod, mi a'm cyfeillesau.
38 Ac efe a ddywedodd, Dos. Ac efe a'i gollyngodd hi *dros* ddau fis. A hi a aeth â'i chyfeillesau, ac a wylodd o herwydd ei morwyndod ar y mynyddoedd.
39 Ac ym mhen y ddau fis hi a ddychwelodd at ei thad: ac efe a wnaeth â hi yr adduned a addunasai efe: a hi ni adnabuasai ŵr. A bu *hyn* yn ddefod yn Israel,
40 Fyned o ferched Israel bob blwyddyn i alaru am ferch Jephthah y Gileadiad, bedwar diwrnod yn y flwyddyn.

PENNOD 12.

1 *Yr Ephraimiaid yn cwerylu â Jephthah; a gwŷr Gilead yn eu lladd hwynt, ac yn eu hadnabod wrth y gair Shibboleth.* 7 *Marwolaeth Jephthah.* 8 *Ibsan, a'i ddeg mab ar hugain, a'i ddeg merch ar hugain,* 11 *ac Elon,* 13 *ac Abdon, a'i ddeugain mab, a'i ddeg ŵyr ar hugain, yn barnu Israel.*

AGWYR Ephraim a ymgasglasant, ac a aethant tu a'r gogledd, ac a ddywedasant wrth Jephthah, Paham yr aethost ti drosodd i ymladd yn erbyn meibion Ammon, ac na elwaist arnom ni i fyned gyd â thi? dy dŷ di a losgwn ni am dy ben â thân.
2 A Jephthah a ddywedodd wrthynt hwy, Myfi a'm pobl oeddem yn ymryson yn dost yn erbyn meibion Ammon; a mi a'ch gelwais chwi, ond ni waredasoch fi o'u llaw hwynt.
3 A phan welais i nad oeddych yn fy achub, mi a osodais fy einioes yn fy llaw, ac a euthum yn erbyn meibion Ammon; a'r ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt yn fy llaw i: paham gan hynny y daethoch i fyny attaf fi y dydd hwn, i ymladd i'm herbyn?
4 Yna Jephthah a gasglodd ynghyd holl wŷr Gilead, ac a ymladdodd âg Ephraim: a gwŷr Gilead a darawsant Ephraim, am ddywedyd o honynt hwy, Ffoaduriaid Ephraim ym mysg yr Ephraimiaid, *ac* ym mysg Manasseh, *ydych* chwi y Gileadiaid.
5 A'r Gileadiaid a ennillasant rydau yr Iorddonen o flaen yr Ephraimiaid: a phan ddywedai yr Ephraimiaid a ddïangasent, Gedwch i mi fyned drwodd: yna gwŷr Gilead a ddywedent wrtho, Ai Ephraimiad *ydwyt* ti? Os dywedai yntau, Nag ê;
6 Yna y dywedent wrtho, Dywed yn awr, Shibboleth. Dywedai yntau, Sibboleth: canys ni fedrai efe lefaru felly. Yna y dalient ef, ac y lladdent ef wrth rydau yr Iorddonen. A chwympodd y pryd hwnnw o Ephraim ddwy fil a deugain.
7 A Jephthah a farnodd Israel chwe blynedd. Yna y bu farw Jephthah y Gileadiad, ac a gladdwyd yn *un* o ddinasoedd Gilead.
8 ¶ Ac ar ei ol ef, Ibsan o Bethlehem a farnodd Israel.
9 Ac iddo ef yr oedd deng mab ar hugain, a deng merch ar hugain, *y rhai* a anfonodd efe allan, a deng merch ar hugain a ddug efe i'w feibion oddi allan. Ac efe a farnodd Israel saith mlynedd.
10 Yna y bu farw Ibsan, ac a gladdwyd yn Bethlehem.

11 ¶ Ac ar ei ol ef, Elon y Sabuloniad a farnodd Israel: ac efe a farnodd Israel ddeng mlynedd.
12 Ac Elon y Sabuloniad a fu farw, ac a gladdwyd yn Ajalon, y'ngwlad Sabulon.
13 ¶ Ac Abdon mab Hilel y Pirathoniad a farnodd Israel ar ei ol ef.
14 Ac iddo ef yr oedd deugain o feibion, a deg ar hugain o ŵyrion, yn marchogaeth ar ddeg a thri ugain o ebolion asynod: ac efe a farnodd Israel wyth mlynedd.
15 Ac Abdon mab Hilel y Pirathoniad a fu farw: ac a gladdwyd yn Pirathon, y'ngwlad Ephraim, ym mynydd yr Amaleciaid.

PENNOD 13.

1 *Israel yn llaw y Philistiaid.* 2 *Angel yn ymddangos i wraig Manoah;* 8 *ac wedi hynny i Manoah.* 15 *Offrwm Manoah, ac adnabod yr angel.* 24 *Genedigaeth Samson.*

AMEIBION Israel a chwaneg-asant wneuthur yr hyn oedd ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt yn llaw y Philistiaid ddeugain mlynedd.
2 ¶ Ac yr oedd rhyw ŵr yn Sorah, o dylwyth y Daniaid, a'i enw ef *oedd* Manoah; a'i wraig ef *oedd* ammhlantadwy, heb esgor.
3 Ac angel yr ARGLWYDD a ymddangosodd i'r wraig, ac a ddywedodd wrthi, Wele, yn awr ammhlantadwy *ydwyt* ti, ac heb esgor: ond ti a feichiogi, ac a esgori ar fab.
4 Ac yn awr, attolwg, ymochel, ac nac ŷf win na dïod gadarn, ac na fwytta ddim aflan.
5 Canys wele, ti a feichiogi, ac a esgori ar fab; ac ni ddaw ellyn ar ei ben ef: canys Nasaread i DDUW fydd y bachgen o'r groth: ac efe a ddechreu waredu Israel o law y Philistiaid.
6 ¶ Yna y daeth y wraig ac a fynegodd i'w gŵr, gan ddywedyd, Gŵr DUW a ddaeth attaf fi; a'i bryd ef *oedd* fel pryd angel DUW, yn ofnadwy iawn: ond ni ofynais iddo o ba le yr oedd, ac ni fynegodd yntau i mi ei enw.
7 Ond efe a ddywedodd wrthyf, Wele, ti a feichiogi, ac a esgori ar fab. Ac yn awr nac ŷf win na dïod gadarn, ac na fwytta ddim aflan: canys Nasaread i DDUW fydd y bachgen, o'r groth hyd ddydd ei farwolaeth.
8 ¶ Yna Manoah a weddïodd ar yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Attolwg, fy Arglwydd, gâd i ŵr DUW yr hwn a anfonaist, ddyfod eilwaith attom ni, a dysgu i ni beth a wneiom i'r bachgen a enir.
9 A DUW a wrandawodd ar lef Manoah: ac angel DUW a ddaeth eilwaith at y wraig, a hi yn eistedd yn y maes; ond Manoah ei gŵr nid *oedd* gyd â hi.
10 A'r wraig a frysiodd, ac a redodd, ac a fynegodd i'w gŵr, ac a ddywedodd wrtho, Wele, ymddangosodd y gŵr i mi, yr hwn a ddaeth attaf fi y dydd *arall.*
11 A Manoah a gyfododd, ac a aeth ar ol ei wraig, ac a ddaeth at y gŵr, ac a ddywedodd wrtho, Ai ti *yw* y gŵr a leferaist wrth y wraig? Dywedodd yntau, *Ïe*, myfi.
12 A dywedodd Manoah, Deled yn awr dy eiriau i ben. Pa fodd y trinwn y bachgen, ac y gwnawn iddo ef?
13 Ac angel yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth Manoah, Rhag yr hyn oll a ddywedais wrth y wraig, ymocheled hi.
14 Na fwyttâed o ddim a ddêl allan o'r winwydden, nac yfed win na dïod gadarn, ac na fwyttâed ddim aflan: cadwed yr hyn oll a orchymynais iddi.
15 ¶ A dywedodd Manoah wrth angel yr ARGLWYDD, Gâd, attolwg, i ni dy attal, tra y parottôm fyn gafr ger dy fron di.
16 Ac angel yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth Manoah, Ped attelit fi, ni fwyttâwn o'th fara di: os gwnei boeth-offrwm, gwna ef i'r ARGLWYDD. Canys ni wyddai Manoah mai angel yr ARGLWYDD *oedd* efe.
17 A Manoah a ddywedodd wrth angel yr ARGLWYDD, Beth *yw* dy enw, fel y'th anrhydeddom di pan ddelo dy eiriau *i ben?*
18 Ac angel yr ARGLWYDD a ddywedodd wrtho, Paham yr ymofyni am fy enw, gan ei *fod* yn rhyfeddol?
19 Felly Manoah a gymmerth fyn gafr, a bwyd-offrwm, ac a'*i*

hoffrymmodd ar y graig i'r ARGLWYDD. A'r *angel* a wnaeth yn rhyfedd: a Manoah a'i wraig oedd yn edrych.

20 Canys, pan ddyrchafodd y fflam oddi ar yr allor tu a'r nefoedd, yna angel yr ARGLWYDD a ddyrchafodd yn fflam yr allor: a Manoah a'i wraig oedd yn edrych ar *hynny*, ac a syrthiasant i lawr ar eu hwynebau.

21 (Ond ni chwanegodd angel yr ARGLWYDD ymddangos mwyach i Manoah, nac i'w wraig.) Yna y gwybu Manoah mai angel yr ARGLWYDD *oedd* efe.

22 A Manoah a ddywedodd wrth ei wraig, Gan farw y byddwn feirw; canys gwelsom DDUW.

23 Ond ei wraig a ddywedodd wrtho ef, Pe mynnasai yr ARGLWYDD ein lladd ni, ni dderbyniasai efe boethoffrwm a bwyd-offrwm o'n llaw ni, ac ni ddangosasai efe i ni yr holl *bethau* hyn, ac ni pharasai efe i ni y pryd hyn glywed *y fath bethau.*

24 ¶ A'r wraig a ymddûg fab, ac a alwodd ei enw ef Samson. A'r bachgen a gynnyddodd; a'r ARGLWYDD a'i bendithiodd ef.

25 Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddechreuodd ar amseroedd ei gynhyrfu ef y'ngwersyll Dan, rhwng Sorah ac Estaol.

PENNOD 14.

1 Samson yn deisyf cael gwraig o'r Philistiaid: 6 yn lladd llew yn ei daith; 8 ac wrth ddychwelyd, yn cael mêl yn ei ysgerbwd ef. 10 Gwledd briodas Samson. 12 Ei wraig yn datguddio ei ddychymmyg ef. 19 Yntau yn yspeilio deg ar hugain o'r Philistiaid. 20 Ei wraig ef yn priodi un arall.

A SAMSON a aeth i waered i Timnath; ac a ganfu wraig yn Timnath, o ferched y Philistiaid.

2 Ac efe a ddaeth i fyny, ac a fynegodd i'w dad ac i'w fam, ac a ddywedodd, Mi a welais wraig yn Timnath o ferched y Philistiaid: cymmerwch yn awr honno yn wraig i mi.

3 Yna y dywedodd ei dad a'i fam wrtho, Onid *oes* ym mysg merched dy frodyr, nac ym mysg fy holl bobl, wraig, pan ydwyt ti yn myned i geisio gwraig o'r Philistiaid dïenwaededig? A dywedodd Samson wrth ei dad, Cymmer hi i mi; canys y mae hi wrth fy modd i.

4 Ond ni wyddai ei dad ef na'i fam mai oddi wrth yr ARGLWYDD *yr oedd* hyn, mai ceisio achos yr oedd efe yn erbyn y Philistiaid: canys y Philistiaid oedd y pryd hwnnw yn arglwyddiaethu ar Israel.

5 Yna Samson a aeth i waered, a'i dad a'i fam, i Timnath; ac a ddaethant hyd winllannoedd Timnath: ac wele genaw llew yn rhuo yn ei gyfarfod ef.

6 Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddaeth yn rymmus arno ef; ac efe a holltodd *y llew* fel yr holltid myn, ac nid *oedd* dim yn ei law ef: ond ni fynegodd efe i'w dad nac i'w fam yr hyn a wnelsai.

7 Ac efe a aeth i waered, ac a ymddiddanodd â'r wraig; ac yr oedd hi wrth fodd Samson.

8 ¶ Ac ar ol ychydig ddyddiau efe a ddychwelodd i'w chymmeryd hi; ac a drodd i edrych ysgerbwd y llew: ac wele haid o wenyn a mêl y'nghorph y llew.

9 Ac efe a'i cymmerth yn ei law, ac a gerddodd dan fwytta; ac a ddaeth at ei dad a'i fam, ac a roddodd iddynt; a hwy a fwyttasant: ond ni fynegodd iddynt hwy mai o gorph y llew y cymmerasai efe y mêl.

10 ¶ Felly ei dad ef a aeth i waered at y wraig; a Samson a wnaeth yno wledd: canys felly y gwnai y gwŷr ieuaingc.

11 A phan welsant hwy ef, yna y cymmerasant ddeg ar hugain o gyfeillion i fod gyd âg ef.

12 ¶ A Samson a ddywedodd wrthynt, Rhoddaf i chwi ddychymmyg yn awr: os gan fynegi y mynegwch ef i mi o fewn saith niwrnod y wledd, ac a'*i* cewch; yna y rhoddaf i chwi ddeg ar hugain o len-llïeiniau, a deg pâr ar hugain o ddillad:

13 Ond os chwi ni fedrwch *ei* fynegi i mi; yna chwi a roddwch i mi ddeg ar hugain o len-llïeiniau, a deg pâr ar hugain o wisgoedd. Hwythau a ddywedasant wrtho, Traetha dy ddychymmyg, fel y clywom ef.

14 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Allan o'r bwyttâwr y daeth bwyd, ac o'r cryf y daeth allan felysdra.

Ac ni fedrent ddirnad y dychymmyg *mewn* tri diwrnod.
15 Ac yn y seithfed dydd y dywedasant wrth wraig Samson, Huda dy ŵr, fel y mynego efe i ni y dychymmyg; rhag i ni dy losgi di a thŷ dy dad â thân: ai i'n tlodi ni y'n gwahoddasoch? onid *felly y mae?*
16 A gwraig Samson a wylodd wrtho ef, ac a ddywedodd, Yn ddïau y mae yn gas gennyt fi, ac nid wyt yn fy ngharu: dychymmyg a roddaist i feibion fy mhobl, ac nis mynegaist i mi. A dywedodd yntau wrthi, Wele, nis mynegais i'm tad nac i'm mam: ac a'*i* mynegwn i ti?
17 A hi a wylodd wrtho ef y saith niwrnod hynny, tra yr oeddid yn cynnal y wledd: ac ar y seithfed dydd y mynegodd efe iddi hi, canys yr oedd hi yn ei ffino ef: a hi a fynegodd y dychymmyg i feibion ei phobl.
18 A gwŷr y ddinas a ddywedasant wrtho ef y seithfed dydd, cyn machludo yr haul, Beth *sydd* felysach na mêl? a pheth gryfach na llew? Dywedodd yntau wrthynt, Oni buasai i chwi aredig â'm hanner i, ni chawsech allan fy nychymmyg.
19 ¶ Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddaeth arno ef; ac efe a aeth i waered i Ascalon, ac a darawodd o honynt ddeg ar hugain, ac a gymmerth eu hyspail, ac a roddodd y parau dillad i'r rhai a fynegasant y dychymmyg: a'i ddigllonedd ef a lidiodd, ac efe a aeth i fyny i dŷ ei dad.
20 A rhoddwyd gwraig Samson i'w gyfaill ef ei hun, yr hwn a gymmerasai efe yn gyfaill.

PENNOD 15.

1 Samson yn cael nâg am ei wraig. 3 Yntau yn llosgi ŷd y Philistiaid â llwynogod ac â ffaglau. 6 Y Philistiaid yn llosgi ei wraig ef a'i thad. 7 Samson yn eu taro hwynt glun a morddicyd. 9 Gwŷr Judah yn ei rwymo ef, ac yn ei draddodi i'r Philistiaid. 14 Yntau yn eu lladd hwynt â gên asyn. 18 Duw yn gwneuthur y ffynnon Ên-haccore iddo ef yn Lehi.

AC wedi *talm* o ddyddiau, yn amser cynhauaf y gwenith, Samson a aeth i ymweled â'i wraig â myn gafr; ac a ddywedodd, Mi a âf i mewn at fy ngwraig i'r ystafell. Ond ni chaniattâi ei thad hi iddo ef fyned i mewn.
2 A'i thad a lefarodd, gan ddywedyd, Tybiaswn i ti ei chasâu hi; am hynny y rhoddais hi i'th gyfaill di: onid *yw* ei chwaer ieuangaf yn lanach na hi? bydded *honno* i ti, attolwg, yn ei lle hi.
3 ¶ A Samson a ddywedodd wrthynt, Difeiach ydwyf y waith hon na'r Philistiaid, er i mi wneuthur niwed iddynt.
4 A Samson a aeth ac a ddaliodd dri chant o lwynogod; ac a gymmerth ffaglau, ac a drodd gynffon at gynffon, ac a osododd un ffagl rhwng dwy gynffon yn y canol.
5 Ac efe a gynneuodd dân yn y ffaglau, ac a'u gollyngodd *hwynt* i ydau y Philistiaid; ac a losgodd hyd yn nod y dasau, a'r ŷd ar ei droed, y gwinllannoedd *hefyd*, *a'r* olewwydd.
6 ¶ Yna y Philistiaid a ddywedasant, Pwy a wnaeth hyn? Hwythau a ddywedasant, Samson daw y Timniad; am iddo ddwyn ei wraig ef, a'i rhoddi i'w gyfaill ef. A'r Philistiaid a aethant i fyny, ac a'i llosgasant hi a'i thad â thân.
7 ¶ A dywedodd Samson wrthynt, Er i chwi wneuthur fel hyn, etto mi a ymddïalaf arnoch chwi; ac wedi *hynny* y peidiaf.
8 Ac efe a'u tarawodd hwynt glun a morddwyd â lladdfa fawr: ac efe a aeth i waered, ac a arhosodd yng nghoppa craig Etam.
9 ¶ Yna y Philistiaid a aethant i fyny, ac a wersyllasant yn Judah, ac a ymdaenasant yn Lehi.
10 A gwŷr Judah a ddywedasant, Paham y daethoch i fyny i'n herbyn ni? Dywedasant hwythau, I rwymo Samson y daethom i fyny, i wneuthur iddo ef fel y gwnaeth yntau i ninnau.
11 Yna tair mil o wŷr o Judah a aethant i goppa craig Etam, ac a ddywedasant wrth Samson, Oni wyddost ti *fod* y Philistiaid yn arglwyddiaethu arnom ni? paham gan hynny y gwnaethost hyn â ni? Dywedodd yntau wrthynt, Fel y gwnaethant hwy i mi, felly y gwneuthum innau iddynt hwythau.
12 Dywedasant hwythau wrtho, I'th rwymo di y daethom i waered,

ac i'th roddi *yn* llaw y Philistiaid. A Samson a ddywedodd wrthynt, Tyngwch wrthyf, na ruthrwch arnaf fi eich hunain.

13 Hwythau a'i hattebasant ef, gan ddywedyd, Na *ruthrwn:* eithr gan rwymo y'th rwymwn di, ac y'th roddwn yn eu llaw hwynt; ond ni'th laddwn di. A rhwymasant ef â dwy raff newydd, ac a'i dygasant ef i fyny o'r graig.

14 ¶ *A* phan ddaeth efe i Lehi, y Philistiaid a floeddiasant wrth gyfarfod âg ef. Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddaeth arno ef; a'r rhaffau *oedd* am ei freichiau a aethant fel llin a losgasid yn tân, a'r rhwymau a ddattodasant oddi am ei ddwylaw ef.

15 Ac efe a gafodd ên asyn îr; ac a estynodd ei law, ac a'i cymmerodd, ac a laddodd â hi fil o wŷr.

16 A Samson a ddywedodd, A gên asyn, pentwr ar bentwr; â gên asyn y lleddais fil o wŷr.

17 A phan orphenodd efe lefaru, yna efe a daflodd yr ên o'i law, ac a alwodd y lle hwnnw Ramath-lehi.

18 ¶ Ac efe a sychedodd yn dost; ac a lefodd ar yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Tydi a roddaist yn llaw dy was yr ymwared mawr yma: ac yn awr a fyddaf fi farw gan syched, a syrthio yn llaw y rhai dïenwaededig?

19 Ond DUW a holltodd y cilddant *oedd* yn yr ên, fel y daeth allan ddwfr o hono; ac efe a yfodd, a'i yspryd a ddychwelodd, ac efe a adfywiodd: am hynny y galwodd efe ei henw En-haccore, yr hon *sydd* yn Lehi hyd y dydd hwn.

20 Ac efe a farnodd Israel yn nyddiau y Philistiaid ugain mlynedd.

PENNOD 16.

1 Samson yn dïange yn Gasah, ac yn dwym ymaith ddrysau pobth y ddinas. 4 Dalilah, wedi ei gwobri gan y Philistiaid, yn hudo Samson. 6 Yntau yn ei thwyllo hi deirgwaith. 15 Hithau o'r diwedd yn ei orchfygu ef. 21 Y Philistiaid yn ei ddala, ac yn tynnu ei lygaid ef. 22 Yntau wedi adnewyddu ei gryfder, yn tynnu y tŷ i lawr am ben y Philistiaid, ac yn marw.

YNA Samson a aeth i Gasah; ac a ganfu yno butteinwraig, ac a aeth i mewn atti hi.

2 *A mynegwyd* i'r Gasiaid, gan ddywedyd, Daeth Samson yma. A hwy a gylchynasant, ac a gynllwynasant iddo, ar hyd y nos, ym mhorth y ddinas; ac a fuant ddistaw ar hyd y nos, gan ddywedyd, Y bore pan oleuo hi, ni a'i lladdwn ef.

3 A Samson a orweddodd hyd hanner nos; ac a gyfododd ar hanner nos, ac a ymaflodd yn nrysau porth y ddinas, ac yn y ddau bost, ac a aeth ymaith â hwynt ynghyd â'r bar, ac a'*u* gosododd ar ei ysgwyddau, ac a'u dug hwynt i fyny i ben bryn *sydd* gyferbyn â Hebron.

4 ¶ Ac wedi hyn efe a garodd wraig yn nyffryn Sorec, a'i henw Dalilah.

5 Ac arglwyddi y Philistiaid a aethant i fyny atti hi, ac a ddywedasant wrthi, Huda ef, ac edrych ym mha *le y mae* ei fawr nerth ef, a pha fodd y gorthrechwn ef, fel y rhwymom ef i'w gystuddio: ac ni a roddwn i ti bob un fil a chant o arian.

6 A Dalilah a ddywedodd wrth Samson, Mynega i mi, attolwg, ym mha *fan y mae* dy fawr nerth di, ac â pha beth y'th rwymid i'th gystuddio.

7 A Samson a ddywedodd wrthi, Pe rhwyment fi â saith o wdyn irion, y rhai ni sychasai; yna y gwanhychwn, ac y byddwn fel gŵr arall.

8 Yna arglwyddi y Philistiaid a ddygasant i fyny atti hi saith o wdyn irion, y rhai ni sychasent; a hi a'i rhwymodd ef â hwynt.

9 (A chynllwynwyr *oedd* yn aros ganddi mewn ystafell.) A hi a ddywedodd wrtho ef, *Y mae* y Philistiaid arnat ti, Samson. Ac efe a dorrodd y gwdyn, fel y torrir edau garth wedi cyffwrdd *â'r* tân: felly ni wybuwyd ei gryfder ef.

10 A dywedodd Dalilah wrth Samson, Ti a'm twyllaist, ac a ddywedaist gelwydd wrthyf: yn awr mynega i mi, attolwg, â pha beth y gellid dy rwymo.

11 Ac efe a ddywedodd wrthi, Pe gan rwymo y rhwyment fi â rhaffau newyddion, y rhai ni wnaethpwyd gwaith â hwynt; yna y gwanhychwn, ac y byddwn fel gŵr arall.

12 Am hynny Dalilah a gymmerth raffau newyddion, ac a'i rhwymodd ef â hwynt; ac a ddywedodd wrtho, *Y mae* y Philistiaid arnat ti, Samson. (Ac *yr oedd* cynllwynwyr yn aros

mewn ystafell.) Ac efe a'u torrodd hwynt oddi am ei freichiau fel edau.

13 A Dalilah a ddywedodd wrth Samson, Hyd yn hyn y twyllaist fi, ac y dywedaist gelwydd wrthyf: mynega i mi, â pha beth y'th rwymid. Dywedodd yntau wrthi hi, Pe plethit ti saith gudyn fy mhen ynghyd â'r we.

14 A hi a'i gwnaeth yn sicr â'r hoel; ac a ddywedodd wrtho ef, *Y mae* y Philistiaid arnat ti, Samson. Ac efe a ddeffrôdd o'i gwsg, ac a aeth ymaith â hoel y garfan, ac â'r we.

15 ¶ A hi a ddywedodd wrtho ef, Pa fodd y dywedi, Cu gennyf dydi, a'th galon heb *fod* gyd â mi? Teirgwaith bellach y'm twyllaist, ac ni fynegaist i mi ym mha *fan y mae* dy fawr nerth.

16 Ac o herwydd ei bod hi yn ei flino ef â'i geiriau beunydd, ac yn ei boeni ef, ei enaid a ymofidiodd i farw:

17 Ac efe a fynegodd iddi ei holl galon; ac a ddywedodd wrthi, Ni ddaeth ellyn ar fy mhen i: canys Nasaread i Duw *ydwyf* fi o groth fy mam. Ped eillid fi, yna y ciliai fy nerth oddi wrthyf, ac y gwanhychwn, ac y byddwn fel gŵr *arall.*

18 A phan welodd Dalilah fynegi o hono ef iddi hi ei holl galon, hi a anfonodd ac a alwodd am bendefigion y Philistiaid, gan ddywedyd, Deuwch i fyny unwaith; canys efe a fynegodd i mi ei holl galon. Yna arglwyddi y Philistiaid a ddaethant i fyny atti hi, ac a ddygasant arian yn eu dwylaw.

19 A hi a wnaeth iddo gysgu ar ei gliniau; ac a alwodd ar ŵr, ac a barodd eillio saith gudyn ei ben ef: a hi a ddechreuodd ei gystuddio ef; a'i nerth a ymadawodd oddi wrtho.

20 A hi a ddywedodd, *Y mae* y Philistiaid arnat ti, Samson. Ac efe a ddeffrôdd o'i gwsg, ac a ddywedodd, Af allan y waith hon fel cynt, ac ymysgydwaf. Ond ni wyddai efe fod yr Arglwydd wedi cilio oddi wrtho.

21 ¶ Ond y Philistiaid a'i daliasant ef, ac a dynnasant ei lygaid ef, ac a'i dygasant ef i waered i Gasah, ac a'i rhwymasant ef â gefynnau pres; ac yr oedd efe yn malu yn y carchardy.

22 Eithr gwallt ei ben ef a ddechreuodd dyfu drachefn, ar ol ei eillio.

23 Yna arglwyddi y Philistiaid a ymgasglasant i aberthu aberth mawr i Dagon eu duw, ac i orfoleddu: canys dywedasant, Ein duw ni a roddodd Samson ein gelyn yn ein llaw ni.

24 A phan welodd y bobl ef, hwy a ganmolasant eu duw: canys dywedasant, Ein duw ni a roddodd ein gelyn yn ein dwylaw ni, yr hwn oedd yn anrheithio ein gwlad ni, yr hwn a laddodd lawer o honom ni.

25 A phan oedd eu calon hwynt yn llawen, yna y dywedasant, Gelwch am Samson, i beri i ni chwerthin. A hwy a alwasant am Samson o'r carchardy, fel y chwareuai o'u blaen hwynt; a hwy a'i gosodasant ef rhwng y colofnau.

26 A Samson a ddywedodd wrth y llangc oedd yn ymaflyd yn ei law ef, Gollwng, a gâd i mi gael gafael ar y colofnau y mae y tŷ yn sefyll arnynt, fel y pwyswyf arnynt.

27 A'r tŷ oedd yn llawn o wŷr a gwragedd; a holl arglwyddi y Philistiaid *oedd* yno: ac ar y nen *yr oedd* ynghylch tair mil o wŷr a gwragedd yn edrych tra yr ydoedd Samson yn chwarae.

28 A Samson a alwodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O Arglwydd IOR, cofia fi, attolwg, a nertha fi, attolwg, yn unig y waith hon, O Duw, fel y dïalwyf *âg* un dïaledd ar y Philistiaid am fy nau lygad.

29 A Samson a ymaflodd yn y ddwy golofn ganol, y rhai yr oedd y tŷ yn sefyll arnynt, ac a ymgynhaliodd wrthynt, un yn ei ddeheulaw, a'r llall yn ei law aswy.

30 A dywedodd Samson, Bydded farw fy einioes gyd â'r Philistiaid. Ac efe a ymgrymmodd *â'i holl* nerth; a syrthiodd y tŷ ar y pendefigion, ac ar yr holl bobl *oedd* ynddo: a'r meirw y rhai a laddodd efe wrth farw, oedd fwy nag a laddasai efe yn ei fywyd.

31 A'i frodyr ef, a holl dŷ ei dad ef, a ddaethant i waered, ac a'i cymmerasant ef, ac a'i dygasant i

fyny, ac a'i claddasant ef rhwng Sorah ac Estaol, ym meddrod Manoah ei dad. Ac efe a farnasai Israel ugain mlynedd.

PENNOD 17.

1 *Ei fam yn gwneuthur delwau o'r arian o ladrattasai Micah, ac a roisai yn eu hol.* 5 *Yntau yn gwneuthur gwisgoedd iddynt:* 7 *ac yn cyflogi Lefiad i fod yn offeiriad iddo.*

AC yr oedd gŵr o fynydd Ephraim, a'i enw Micah.

2 Ac efe a ddywedodd wrth ei fam, Y mil a'r can *sicl* arian a ddygpwyd oddi arnat, ac y rhegaist *am danynt*, ac y dywedaist hefyd lle y clywais; wele yr arian gyd â mi, myfi a'i cymmerais. A dywedodd ei fam, Bendigedig *fyddych*, fy mab, gan yr ARGLWYDD.

3 A phan roddodd efe y mil a'r can *sicl* arian adref i'w fam, ei fam a ddywedodd, Gan gyssegru y cyssegraswn yr arian i'r ARGLWYDD o'm llaw, i'm mab, i wneuthur delw gerfiedig a thoddedig: am hynny yn awr mi a'i rhoddaf eilwaith i ti.

4 Etto efe a dalodd yr arian i'w fam. A'i fam a gymmerth ddau can *sicl* o arian, ac a'u rhoddodd i'r toddydd; ac efe a'u gwnaeth yn ddelw gerfiedig, a thoddedig: a hwy a fuant yn nhŷ Micah.

5 A chan y gŵr hwn Micah *yr oedd* tŷ duwiau; ac efe a wnaeth ephod, a theraphim, ac a gyssegrodd un o'i feibion i fod yn offeiriad iddo.

6 Yn y dyddiau hynny nid *oedd* brenhin yn Israel; ond pob un a wnai *yr hyn oedd* uniawn yn ei olwg ei hun.

7 ¶ Ac yr oedd gŵr ieuangc o Bethlehem Judah, o dylwyth Judah, a Lefiad *oedd* efe; ac efe a ymdeithiai yno.

8 A'r gŵr a aeth allan o'r ddinas o Bethlehem Judah, i drigo pa le bynnag y caffai *le:* ac efe a ddaeth i fynydd Ephraim i dŷ Micah, yn ei ymdaith.

9 A Micah a ddywedodd wrtho, O ba le y daethost ti? Dywedodd yntau wrtho, Lefiad *ydwyf* o Bethlehem Judah; a myned yr ydwyf i drigo lle caffwyf *le.*

10 A Micah a ddywedodd wrtho, Trig gyd â mi, a bydd i mi yn dad ac yn offeiriad; a mi a roddaf i ti ddeg *sicl* o arian bob blwyddyn, a phâr o ddillad, a'th luniaeth. Felly y Lefiad a aeth i mewn.

11 A'r Lefiad a fu foddlawn i aros gyd â'r gŵr; a'r gŵr ieuangc oedd iddo fel un o'i feibion.

12 A Micah a urddodd y Lefiad; a'r gŵr ieuangc fu yn offeiriad iddo, ac a fu yn nhŷ Micah.

13 Yna y dywedodd Micah, Yn awr y gwn y gwna yr ARGLWYDD ddaioni i mi; gan fod Lefiad gennyf yn offeiriad.

PENNOD 18.

1 *Meibion Dan yn anfon pumwr i geisio iddynt etifeddiaeth.* 3 *Hwythau wrth dŷ Micah yn ymgynghori â Jonathan; ac ym cael cysur i fyned rhagddynt;* 7 *yn chwilio Lais, ac yn dwyn newyddion gobeithfawr.* 11 *Danfon chwe chant o wŷr i osod ar y dref:* 14 *a'r rhai hynny ar y ffordd yn ysbeilio Micah am ei offeiriad a'i greiriau;* 27 *ac yn ennill Lais, ac yn ei galw hi Dan;* 30 *ac yn gosod i fyny ddelw-addoliaeth, lle y cafodd Jonathan yr offeiriadaeth yn etifeddiaeth iddo.*

YN y dyddiau hynny nid *oedd* brenhin yn Israel: ac yn y dyddiau hynny llwyth y Daniaid oedd yn ceisio iddynt etifeddiaeth i drigo; canys ni syrthiasai iddynt hyd y dydd hwnnw etifeddiaeth ym mysg llwythau Israel.

2 A meibion Dan a anfonasant o'u tylwyth bump o wŷr o'u bro, gwŷr grymmus, o Sorah, ac o Estaol, i ysbïo y wlad, *ac* i'w chwilio; ac a ddywedasant wrthynt, Ewch, chwiliwch y wlad. A phan ddaethant i fynydd Ephraim i dŷ Micah, hwy a lettyasant yno.

3 Pan *oeddynt* hwy wrth dŷ Micah, hwy a adnabuant lais y gŵr ieuangc y Lefiad; ac a droisant yno, ac a ddywedasant wrtho, Pwy a'th ddug di yma? a pheth yr ydwyt ti yn ei wneuthur *yma?* a pheth *sydd* i ti yma?

4 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Fel hyn ac fel hyn y gwnaeth Micah i mi; ac efe a'm cyflogodd i, a'i offeiriad ef ydwyf fi.

5 A hwy a ddywedasant wrtho ef, Ymgynghora, attolwg, â DUW, fel y gwypom a lwydda ein ffordd yr ydym ni yn rhodio arni.

6 A'r offeiriad a ddywedodd wrthynt, Ewch mewn heddwch: ger bron yr ARGLWYDD *y mae* eich ffordd chwi, yr hon a gerddwch.

7 ¶ Yna y pumwr a aethant ymaith, ac a ddaethant i Laïs; ac a welsant y bobl *oedd* ynddi yn trigo mewn dïogelwch, yn ol arfer y Sidoniaid, yn llonydd ac yn ddïofal; ac nid *oedd* swyddwr yn y wlad, yr hwn a allai eu gyrru *hwynt* i gywilydd mewn dim: a phell *oeddynt* oddi wrth y Sidoniaid, ac heb negesau rhyngddynt â neb.

8 A hwy a ddaethant at eu brodyr i Sorah ac Estaol. A'u brodyr a ddywedasant wrthynt, Beth *a ddywedwch* chwi?

9 Hwythau a ddywedasant, Cyfodwch, ac awn i fyny arnynt: canys gwelsom y wlad; ac wele, da iawn *yw* hi. Ai tewi yr *ydych* chwi? na ddïogwch fyned, i ddyfod i mewn i feddiannu y wlad.

10 Pan eloch, chwi a ddeuwch at bobl ddïofal, a gwlad eang: canys Duw a'i rhoddodd hi yn eich llaw chwi: *sef* lle nid *oes* ynddo eisieu dim a'r *y sydd* ar y ddaear.

11 ¶ Ac fe aeth oddi yno, o dylwyth y Daniaid, o Sorah ac o Estaol, chwe channwr, wedi ymwregysu âg arfau rhyfel.

12 A hwy a aethant i fyny, ac a wersyllasant yn Ciriath-jearim, yn Judah: am hynny y galwasant y fan honno Mahaneh-Dan, hyd y dydd hwn: wele, *y mae* o'r tu ol i Ciriath-jearim.

13 A hwy a aethant oddi yno i fynydd Ephraim, ac a ddaethant hyd dŷ Micah.

14 ¶ A'r pumwr, y rhai a aethent i chwilio gwlad Laïs, a lefarasant, ac a ddywedasant wrth eu brodyr, Oni wyddoch chwi fod yn y tai hyn ephod a theraphim, a delw gerfiedig, a thoddedig? gan hynny ystyriwch yn awr beth a wneloch.

15 A hwy a droisant tu ag yno; ac a ddaethant hyd dŷ y gŵr ieuangc y Lefiad, i dŷ Micah; ac a gyfarchasant well iddo.

16 A'r chwe channwr, y rhai oedd wedi eu gwregysu âg arfau rhyfel, oedd yn sefyll *wrth* ddrws y porth, *sef* y rhai *oedd* o feibion Dan.

17 A'r pumwr, y rhai a aethent i chwilio y wlad, a esgynasant, *ac* a aethant i mewn yno; *ac* a ddygasant ymaith y ddelw gerfiedig, a'r ephod, a'r teraphim, a'r ddelw doddedig: a'r offeiriad oedd yn sefyll wrth ddrws y porth, gyd â'r chwe channwr *oedd* wedi ymwregysu âg arfau rhyfel.

18 A'r rhai hyn a aethant i dŷ Micah, ac a ddygasant ymaith y ddelw gerfiedig, yr ephod, a'r teraphim, a'r ddelw doddedig. Yna yr offeiriad a ddywedodd wrthynt, Beth yr ydych chwi yn ei wneuthur?

19 Hwythau a ddywedasant wrtho, Taw sôn; gosod dy law ar dy safn, a thyred gyd â ni, a bydd i ni yn dad ac yn offeiriad: *ai* gwell i ti fod yn offeiriad i dŷ un gŵr, na'th fod yn offeiriad i lwyth ac i deulu yn Israel?

20 A da fu gan galon yr offeiriad; ac efe a gymmerth yr ephod, a'r teraphim, a'r ddelw gerfiedig, ac a aeth ym mysg y bobl.

21 A hwy a droisant, ac a aethant ymaith; ac a osodasant y plant, a'r anifeiliaid, a'r clud, o'u blaen.

22 ¶ *A* phan oeddynt hwy ennyd oddi wrth dŷ Micah, y gwŷr *oedd* yn y tai wrth dŷ Micah a ymgasglasant, ac a erlidiasant feibion Dan.

23 A hwy a waeddasant ar feibion Dan. Hwythau a droisant eu hwynebau, ac a ddywedasant wrth Micah, Beth *a ddarfu* i ti, pan wyt yn dyfod â'r fath fintai?

24 Yntau a ddywedodd, Fy nuwiau, y rhai a wneuthum i, a ddygasoch chwi ymaith, a'r offeiriad, ac a aethoch i ffordd: a pheth *sydd* gennyf fi mwyach? a pha beth *yw* hyn a ddywedwch wrthyf, Beth *a ddarfu* i ti?

25 A meibion Dan a ddywedasant wrtho, Na âd glywed dy lef yn ein mysg ni; rhag i wŷr digllawn ruthro arnat ti, a cholli o honot dy einioes, ac einioes dy deulu.

26 A meibion Dan a aethant i'w ffordd. A phan welodd Micah eu *bod* hwy yn gryfach nag ef, efe a drodd, ac a ddychwelodd i'w dŷ.

27 A hwy a gymmerasant *y pethau* a wnaethai Micah, a'r offeiriad oedd ganddo ef, ac a ddaethant i Laïs, at bobl lonydd a dïofal; ac a'u tarawsant hwy â min y cleddyf, ac a losgasant y ddinas â thân.

28 Ac nid *oedd* waredydd; canys pell *oedd* hi oddi wrth Sidon, ac nid *oedd* negesau rhynggdynt â neb; hefyd *yr oedd* hi yn y dyffryn *oedd* wrth Beth-rehob: a hwy a adeiladasant ddinas, ac a drigasant ynddi.

29 A hwy a alwasant enw y ddinas Dan, yn ol enw Dan eu tad, yr hwn a anesid i Israel: er hynny Laïs *oedd* enw y ddinas ar y cyntaf.

30 ¶ A meibion Dan a osodasant i fyny iddynt y ddelw gerfiedig: a Jonathan mab Gerson, mab Manasseh, efe a'i feibion, fuant offeiriaid i lwyth Dan hyd ddydd caethgludiad y wlad.

31 A hwy a osodasant i fyny iddynt y ddelw gerfiedig a wnaethai Micah, yr holl ddyddiau y bu tŷ Dduw yn Siloh.

PENNOD 19.

1 *Lefiad yn myned i Bethlehem i gyrchu ei wraig adref.* 16 *Hen ŵr yn ei groesawu ef i'w dŷ yn Gibeah.* 22 *Y Gibeoniaid yn gwneuthur cam â'i ordderch ef, fel y bu hi farw.* 29 *Yntau yn ei rhannu hi yn ddeuddeg darn, i'w danfon at y deuddeg llwyth.*

AC yn y dyddiau hynny, pan nad *oedd* frenhin yn Israel, yr oedd rhyw Lefiad yn aros yn ystlysau mynydd Ephraim, ac efe a gymmerodd iddo ordderch-wraig o Bethlehem Judah.

2 A'i ordderch-wraig a butteiniodd yn ei erbyn ef, ac a aeth ymaith oddi wrtho ef i dŷ ei thad, i Bethlehem Judah; ac yno y bu hi bedwar mis o ddyddiau.

3 A'i gŵr hi a gyfododd, ac a aeth ar ei hol, i ddywedyd yn dêg wrthi hi, *ac* i'w throi adref; a'i langc *oedd* gyd âg ef, a chwpl o asynod. A hi a'i dug ef i mewn i dŷ ei thad: a phan welodd tad y llangces ef, bu lawen ganddo gyfarfod âg ef.

4 A'i chwegrwn ef, tad y llangces, a'i daliodd ef *yno;* ac efe a dariodd gyd âg ef dridiau. Felly bwyttasant ac yfasant, a llettyasant yno.

5 A'r pedwerydd dydd y cyfodasant yn fore; yntau a gyfododd i fyned ymaith. A thad y llangces a ddywedodd wrth ei ddaw, Nertha dy galon â thammaid o fara, ac wedi hynny ewch ymaith.

6 A hwy a eisteddasant, ac a fwyttasant ill dau ynghyd, ac a yfasant. A thad y llangces a ddywedodd wrth y gŵr, Bydd foddlawn, attolwg, ac aros dros nos, a llawenyched dy galon.

7 A phan gyfododd y gŵr i fyned ymaith, ei chwegrwn a fu daer arno: am hynny efe a drodd ac a lettŷodd yno.

8 Ac efe a gyfododd yn fore y pummed dydd i fyned ymaith. A thad y llangces a ddywedodd, Cysura dy galon, attolwg. A hwy a drigasant hyd brydnawn, ac a fwyttasant ill dau.

9 A phan gyfododd y gŵr i fyned ymaith, efe a'i ordderch, a'i langc; ei chwegrwn, tad y llangces, a ddywedodd wrtho, Wele, yn awr, y dydd a laesodd i hwyrhâu; arhoswch dros nos, attolwg: wele yr haul yn machludo; trig yma, fel y llawenycho dy galon: a chodwch yn fore y fory i'ch taith, fel yr elych i'th babell.

10 A'r gŵr ni fynnai aros dros nos; eithr cyfododd, ac a aeth ymaith: a daeth hyd ar gyfer Jebus, hon *yw* Jerusalem, a chyd âg ef gwpl o asynod llwythog, a'i ordderch-wraig gyd âg ef.

11 A phan *oeddynt* hwy wrth Jebus, yr oedd y dydd ar ddarfod; a'r llangc a ddywedodd wrth ei feistr, Tyred, attolwg, trown i ddinas hon y Jebusiaid, a llettŷwn ynddi.

12 A'i feistr a ddywedodd wrtho, Ni thrown ni i ddinas estron nid *yw* o feibion Israel; eithr nyni a awn hyd Gibeah.

13 Ac efe a ddywedodd wrth ei langc, Tyred, a nesâwn i un o'r lleoedd hyn, i lettŷa dros nos, yn Gibeah, neu Ramah.

14 Felly y cerddasant, ac yr aethant: a'r haul a fachludodd arnynt wrth Gibeah *eiddo* Benjamin.

15 A hwy a droisant yno, i fyned i mewn i lettŷa i Gibeah. Ac efe a ddaeth i mewn, ac a eisteddodd yn heol y ddinas: canys nid *oedd* neb a'u cymmerai hwynt i'*w* dŷ i lettŷa.

16 ¶ Ac wele ŵr hen yn dyfod o'i waith o'r maes yn yr hwyr; a'r gŵr *oedd* o fynydd Ephraim, ond ei fod ef yn ymdaith yn Gibeah; a gwŷr y lle hwnnw *oedd* feibion Jemini.

17 Ac efe a ddyrchafodd ei lygaid, ac a ganfu ŵr yn ymdaith yn heol y ddinas: a'r hen ŵr a ddywedodd, I ba le yr âi di? ac o ba le y daethost?

18 Yntau a ddywedodd wrtho, Tramwyo *yr ydym* ni o Bethlehem Judah, i ystlys mynydd Ephraim, o'r lle y'm *henyw:* a mi a euthum hyd Bethlehem Judah, a myned *yr ydwyf* i dŷ yr ARGLWYDD; ac nid *oes* neb a'm derbyn i dŷ.

19 Y mae *gennym ni* wellt ac ebrân hefyd i'n hasynod; a bara hefyd a gwin i mi ac i'th law-forwyn, ac i'r llangc *sydd* gyd â'th weision: nid *oes* eisieu dim.

20 A'r hen ŵr a ddywedodd, Tangnefedd i ti: bydded dy holl eisieu arnaf fi; yn unig na lettŷa yn yr heol.

21 Felly efe a'i dug ef i mewn i'w dŷ, ac a borthodd yr asynod: a hwy a olchasant eu traed, ac a fwyttasant ac a yfasant.

22 ¶ A phan oeddynt hwy yn llawenhâu eu calon, wele, gwŷr y ddinas, rhai o feibion Belial, a amgylchynasant y tŷ, a gurasant y drws, ac a ddywedasant wrth berchen y tŷ, *sef* yr hen ŵr, gan ddywedyd, Dwg allan y gŵr a ddaeth i mewn i'th dŷ, fel yr adnabyddom ef.

23 A'r gŵr, perchen y tŷ, a aeth allan attynt, ac a ddywedodd wrthynt, Nag ê, fy mrodyr, *nag é*, attolwg, na wnewch mor ddrygionus: gan i'r gŵr hwn ddyfod i'm tŷ i, na wnewch yr ysgelerder hyn.

24 Wele fy merch, yr hon *sydd* forwyn, a'i ordderch yntau; dygaf hwynt allan yn awr, a darostyngwch hwynt, a gwnewch iddynt yr hyn fyddo da yn eich golwg: ond i'r gŵr hwn na wnewch mor ysgeler.

25 Ond ni wrandawai y gwŷr arno: am hynny y gŵr a ymaflodd yn ei ordderch, ac a'i dug hi allan attynt hwy. A hwy a'i hadnabuant hi, ac a wnaethant *gam* â hi yr holl nos hyd y bore: a phan gyfododd y wawr, hwy a'i gollyngasant hi ymaith.

26 Yna y wraig a ddaeth, pan ymddangosodd y bore, ac a syrthiodd wrth ddrws tŷ y gŵr *yr oedd* ei harglwydd ynddo, hyd oleuni *y dydd.*

27 A'i harglwydd a gyfododd y bore, ac a agorodd ddrysau y tŷ, ac a aeth allan i fyned i'w daith: ac wele ei ordderch-wraig ef wedi cwympo wrth ddrws y tŷ, a'i dwy law ar y trothwy.

28 Ac efe a ddywedodd wrthi, Cyfod, fel yr elom ymaith. Ond nid oedd yn atteb. Yna efe a'i cymmerth hi ar yr asyn; a'r gŵr a gyfododd, ac a aeth ymaith i'w fangre.

29 ¶ A phan ddaeth i'w dŷ, efe a gymmerth gyllell, ac a ymaflodd yn ei ordderch, ac a'i darniodd hi, *ynghyd* â'i hesgyrn, yn ddeuddeg darn, ac a'i hanfonodd hi i holl derfynau Israel.

30 A phawb a'r a welodd *hynny,* a ddywedodd, Ni wnaethpwyd ac ni welwyd y fath beth, er y dydd y daeth meibion Israel o wlad yr Aipht, hyd y dydd hwn: ystyriwch ar hynny, ymgynghorwch, a thraethwch *eich meddwl.*

PENNOD 20.

1 Y Lefiad, mewn cymmanfa gyffredinol, yn dangos ei gam ar gyhoedd. 8 Barn y gymmanfa. 12 Gwŷr Benjamin, wedi eu dyfyn, yn ymgasglu yn erbyn yr Israeliaid. 18 Yr Israeliaid mewn dwy gâd yn colli deugain mil. 26 Hwythau trwy ddiichell yn difetha holl wŷr Benjamin onid chwe chant.

YNA holl feibion Israel a aethant allan; a'r gynnulleidfa a ymgasglodd ynghyd fel un dyn, o Dan hyd Beerseba, a gwlad Gilead, at yr ARGLWYDD, i Mispah.

2 A phennaethiaid yr holl bobl, *o* holl lwythau Israel, a safasant yng nghynnulleidfa pobl DDUW; *sef* pedwar can mil o wŷr traed yn tynnu cleddyf.

3 (A meibion Benjamin a glywsant fyned o feibion Israel i Mispah.) Yna meibion Israel a ddywedasant, Dywedwch, pa fodd y bu y drygioni hyn?

4 A'r gŵr y Lefiaid, gŵr y wraig a laddesid, a attebodd ac a ddywedodd, I Gibeah *eiddo* Benjamin y deuthum i, mi a'm gordderch, i lettŷa.

5 A gwŷr Gibeah a gyfodasant i'm herbyn, ac a amgylchynasant y tŷ yn fy erbyn liw nos, ac a amcan-

asant fy lladd i; a threisiasant fy ngordderch, fel y bu hi farw.

6 A mi a ymaflais yn fy ngordderch, ac a'i derniais hi, ac a'i hanfonais hi trwy holl wlad etifeddiaeth Israel: canys gwnaethant ffieidd-dra ac ynfydrwydd yn Israel.

7 Wele, meibion Israel *ydych* chwi oll; moeswch rhyngoch air a chynghor yma.

8 ¶ A'r holl bobl a gyfododd megis un gŵr, gan ddywedyd, Nac eled neb *o honom* i'w babell, ac na thröed neb *o honom* i'w dŷ.

9 Ond yn awr, hyn *yw* y peth a wnawn ni i Gibeah: *Nyni a awn i fyny* i'w herbyn wrth goelbren;

10 A ni a gymmerwn ddengwr o'r cant trwy holl lwythau Israel, a chant o'r mil, a mil o'r deng mil, i ddwyn lluniaeth i'r bobl; i wneuthur, pan ddelont i Gibeah Benjamin, yn ol yr holl ffieidd-dra a wnaethant hwy yn Israel.

11 Felly yr ymgasglodd holl wŷr Israel yn erbyn y ddinas yn gyttûn fel un gŵr.

12 ¶ A llwythau Israel a anfonasant wŷr trwy holl lwythau Benjamin, gan ddywedyd, Beth *yw* y drygioni yma a wnaethpwyd yn eich mysg chwi?

13 Ac yn awr rhoddwch y gwŷr, meibion Belial, y rhai *sydd* yn Gibeah, fel y lladdom hwynt, ac y dileom ddrygioni o Israel. Ond ni wrandawai meibion Benjamin ar lais eu brodyr meibion Israel:

14 Eithr meibion Benjamin a ymgynnullasant o'r dinasoedd i Gibeah, i fyned allan i ryfel yn erbyn meibion Israel.

15 A chyfrifwyd meibion Benjamin y dydd hwnnw, o'r dinasoedd, yn chwe mil ar hugain o wŷr yn tynnu cleddyf, heb law trigolion Gibeah, y rhai a gyfrifwyd yn saith gant o wŷr etholedig.

16 O'r holl bobl hyn *yr oedd* saith gant o wŷr etholedig yn chwithig; pob un o honynt a ergydiai â charreg at y blewyn, heb fethu.

17 Gwŷr Israel hefyd a gyfrifwyd, heb law Benjamin, yn bedwar can mil yn tynnu cleddyf; pawb o honynt yn rhyfelwyr.

18 ¶ A meibion Israel a gyfodasant, ac a aethant i fyny i dŷ Duw, ac a ymgynghorasant â Duw, ac a ddywedasant, Pwy o honom ni a â i fyny yn gyntaf i'r gâd yn erbyn meibion Benjamin? A dywedodd yr Arglwydd, Judah *a d* yn gyntaf.

19 A meibion Israel a gyfodasant y bore, ac a wersyllasant yn erbyn Gibeah.

20 A gwŷr Israel a aethant allan i ryfel yn erbyn Benjamin; a gwŷr Israel a ymosodasant i ymladd i'w herbyn hwy wrth Gibeah.

21 A meibion Benjamin a ddaethant allan o Gibeah, ac a ddifethasant o Israel y dwthwn hwnnw ddwy fil ar hugain o wŷr hyd lawr.

22 A'r bobl gwŷr Israel a ymgryfhasant, ac a ymosodasant drachefn i ymladd, yn y lle yr ymosodasent ynddo y dydd cyntaf.

23 (A meibion Israel a aethent i fyny, ac a wylasent ger bron yr Arglwydd hyd yr hwyr: ymgynghorasent hefyd â'r Arglwydd, gan ddywedyd, A âf fi drachefn i ryfel yn erbyn meibion Benjamin fy mrawd? A dywedasai yr Arglwydd, Dos i fyny yn ei erbyn ef.)

24 A meibion Israel a nesasant yn erbyn meibion Benjamin yr ail ddydd.

25 A Benjamin a aeth allan o Gibeah i'w herbyn hwythau yr ail ddydd; a hwy a ddifethasant o feibion Israel eilwaith dair mil ar bymtheg o wŷr hyd lawr: y rhai hyn oll oedd yn tynnu cleddyf.

26 ¶ Yna holl feibion Israel a'r holl bobl a aethant i fyny ac a ddaethant i dŷ Duw, ac a wylasant, ac a arhosasant yno ger bron yr Arglwydd, ac a ymprydiasant y dwthwn hwnnw hyd yr hwyr, ac a offrymmasant boeth-offrymmau ac offrymmau hedd ger bron yr Arglwydd.

27 A meibion Israel a ymgynghorasant â'r Arglwydd, (canys yno *yr oedd* arch cyfammod Duw yn y dyddiau hynny;

28 A Phinees mab Eleasar, mab Aaron, oedd yn sefyll ger ei bron hi yn y dyddiau hynny;) gan ddywedyd, A chwanegaf fi mwyach fyned allan i ryfel yn erbyn meibion Benjamin fy mrawd, neu a beidiaf fi?

A dywedodd yr ARGLWYDD, Ewch i fyny; canys y fory y rhoddaf ef yn dy law di.

29 Ac Israel a osododd gynllwynwyr o amgylch Gibeah.

30 A meibion Israel a aethant i fyny yn erbyn meibion Benjamin y trydydd dydd, ac a ymosodasant wrth Gibeah, fel cynt.

31 A meibion Benjamin a aethant allan yn erbyn y bobl; *a* thynnwyd hwynt oddi wrth y ddinas: a hwy a ddechreuasant daro *rhai* o'r bobl yn archolledig, fel cynt, yn y prif-ffyrdd, o'r rhai y mae y naill yn myned i fyny i dŷ DDUW, a'r llall i Gibeah yn y maes, ynghylch dengwr ar hugain o Israel.

32 A meibion Benjamin a ddywedasant, Cwympwyd hwynt o'n blaen ni, fel ar y cyntaf. Ond meibion Israel a ddywedasant, Ffown, fel y tynnom hwynt oddi wrth y ddinas i'r prif-ffyrdd.

33 A holl wŷr Israel a gyfodasant o'u lle, ac a fyddinasant yn Baaltamar: a'r *sawl* a oedd *o* Israel yn cynllwyn, a ddaeth allan o'u mangre, *sef* o weirgloddiau Gibeah.

34 A daeth yn erbyn Gibeah ddegmil o wŷr etholedig o holl Israel; a'r gâd a fu dost: ond ni wyddent *fod* drwg yn agos attynt.

35 A'r ARGLWYDD a darawodd Benjamin o flaen Israel: a difethodd meibion Israel o'r Benjaminiaid, y dwthwn hwnnw, bum mil ar hugain a channwr; a'r rhai hyn oll yn tynnu cleddyf.

36 Felly meibion Benjamin a welsant mai eu lladd yr oeddid: canys gwŷr Israel a roddasant le i'r Benjaminiaid; o herwydd hyderu yr oeddynt ar y cynllwynwyr, y rhai a osodasent yn ymyl Gibeah.

37 A'r cynllwynwyr a frysiasant, ac a ruthrasant ar Gibeah: a'r cynllwynwyr a udganasant yn hirllaes, ac a darawsant yr holl ddinas â min y cleddyf.

38 Ac yr oedd amser nodedig rhwng gwŷr Israel a'r cynllwynwyr; *sef* peri o honynt i fflam fawr *a* mwg ddyrchafu o'r ddinas.

39 A phan drodd gwŷr Israel *eu cefnau* yn y rhyfel, Benjamin a ddechreuodd daro yn archolledig o wŷr Israel ynghylch dengwr ar hugain: canys dywedasant, Diau gan daro eu taro hwynt o'n blaen ni, fel yn y cyntaf.

40 A phan ddechreuodd y fflam ddyrchafu o'r ddinas â cholofn o fwg, Benjamin a edrychodd yn ei ol; ac wele fflam y ddinas yn dyrchafu i'r nefoedd.

41 Yna gwŷr Israel a droisant drachefn; a gwŷr Benjamin a frawychasant: o herwydd hwy a ganfuant fod drwg *wedi* dyfod arnynt.

42 Am hynny hwy a droisant o flaen gwŷr Israel, tu a ffordd yr anialwch; a'r gâd a'u goddiweddodd hwynt: a'r rhai *a ddaethai* o'r dinasoedd, yr oeddynt yn eu difetha yn eu canol.

43 *Felly* yr amgylchynasant y Benjaminiaid; erlidiasant hwynt, a sathrasant hwynt yn hawdd hyd y'nghyfer Gibeah, tu a chodiad haul.

44 A lladdwyd o Benjamin dair mil ar bymtheg o wŷr: y rhai hyn oll *oedd* wŷr nerthol.

45 A hwy a droisant, ac a ffoisant tu a'r anialwch i graig Rimmon. A'r *Israeliaid* a loffasant *o* honynt ar hyd y prif-ffyrdd, bum mil o wŷr: erlidiasant hefyd ar eu hol hwynt hyd Gidom, ac a laddasant o honynt ddwy fil o wŷr.

46 A'r rhai oll a gwympodd o Benjamin y dwthwn hwnnw, oedd bum mil ar hugain o wŷr yn tynnu cleddyf: hwynt oll *oedd* wŷr nerthol.

47 Etto chwe channwr a droisant, ac a ffoisant i'r anialwch i graig Rimmon, ac a arhosasant y'nghraig Rimmon bedwar mis.

48 A gwŷr Israel a ddychwelasant ar feibion Benjamin, ac a'u tarawsant hwy â min y cleddyf, yn ddyn o *bob* dinas, ac yn anifail, a pheth bynnag a gafwyd: yr holl ddinasoedd hefyd a'r a gafwyd, a losgasant hwy â thân.

PENNOD 21.

1 Y bobl yn galaru am ddinystr Benjamin; 8 a thrwy ddifetha Jabes Gilead, yn cael iddynt bedwar cant o wragedd; 16 ac yn eu cynghori hwynt i osod ar y gwyryfon oedd yn dawnsio yn Siloh.

AGWYR Israel a dyngasant ym Mispah, gan ddywedyd, Ni

ddyry neb o honom ei ferch i Benjaminiad yn wraig.

2 A daeth y bobl i dŷ DDUW, ac a arhosasant yno hyd yr hwyr ger bron DUW, ac a ddyrchafasant eu llef, ac a wylasant âg wylofain mawr:

3 Ac a ddywedasant, O ARGLWYDD DDUW Israel, paham y bu y peth hyn yn Israel, fel y byddai heddyw un llwyth yn eisieu yn Israel?

4 A thrannoeth y bobl a fore-godasant, ac a adeiladasant yno allor, ac a offrymmasant boeth-offrymmau ac offrymmau hedd.

5 A meibion Israel a ddywedasant, Pwy o holl lwythau Israel ni ddaeth i fyny gyd â'r gynnulleidfa at yr ARGLWYDD? canys llw mawr oedd yn erbyn yr hwn ni ddelsai i fyny at yr ARGLWYDD i Mispah, gan ddywedyd, Rhoddir ef i farwolaeth yn ddïau.

6 A meibion Israel a edifarhasant o herwydd Benjamin eu brawd: a dywedasant, Torrwyd ymaith heddyw un llwyth o Israel:

7 Beth a wnawn ni am wragedd i'r rhai a adawyd, gan dyngu o honom ni i'r ARGLWYDD, na roddem iddynt *yr un* o'n merched ni yn wragedd?

8 ¶ Dywedasant hefyd, Pa un o lwythau Israel ni ddaeth i fyny at yr ARGLWYDD i Mispah? Ac wele, ni ddelsai neb o Jabes Gilead i'r gwersyll, at y gynnulleidfa.

9 Canys y bobl a gyfrifwyd; ac wele, nid *oedd* yno neb o drigolion Jabes Gilead.

10 A'r gynnulleidfa a anfonasant yno ddeuddeng mil o wŷr grymmus; ac a orchymynasant iddynt, gan ddywedyd, Ewch a tharêwch bres-wylwyr Jabes Gilead â min y cleddyf, y gwragedd hefyd a'r plant.

11 Dyma hefyd y peth a wnewch chwi: Difethwch bob gwrryw, a phob gwraig a orweddodd gyd â gŵr.

12 A hwy a gawsant ym mhlith trigolion Jabes Gilead, bedwar cant o langcesau yn wyryfon, y rhai nid adnabuasent ŵr trwy gyd-orwedd â gŵr: a dygasant hwynt i'r gwersyll i Siloh, yr hon *sydd* y'ngwlad Canaan.

13 A'r holl gynnulleidfa a anfonasant i lefaru wrth feibion Benjamin, y rhai *oedd* y'nghraig Rimmon, ac i gyhoeddi heddwch iddynt.

14 A'r Benjaminiaid a ddychwelasant yr amser hwnnw; a hwy a roddasant iddynt hwy y gwragedd a gadwasent yn fyw o wragedd Jabes Gilead: ond ni chawsant hwy ddigon felly.

15 A'r bobl a edifarhaodd dros Benjamin, o herwydd i'r ARGLWYDD wneuthur rhwygiad yn llwythau Israel.

16 ¶ Yna henuriaid y gynnulleidfa a ddywedasant, Beth a wnawn ni am wragedd i'r lleill, gan ddistrywio y gwragedd o Benjamin?

17 Dywedasant hefyd, *Rhaid yw bod* etifeddiaeth i'r rhai a ddïangodd o Benjamin, fel na ddilëer llwyth allan o Israel.

18 Ac ni allwn ni roddi iddynt wragedd o'n merched ni: canys meibion Israel a dyngasant, gan ddywedyd, Melldigedig *fyddo* yr hwn a roddo wraig i Benjamin.

19 Yna y dywedasant, Wele, *y mae* gwyl i'r ARGLWYDD bob blwyddyn yn Siloh, o du y gogledd i Bethel, tu a chyfodiad haul i'r brif-ffordd y sydd yn myned i fyny o Bethel i Sichem, ac o du y dehau i Libanus.

20 Am hynny y gorchymynasant hwy i feibion Benjamin, gan ddywedyd, Ewch a chynllwynwch yn y gwinllannoedd:

21 Edrychwch hefyd; ac wele, os merched Siloh a ddaw allan i ddawnsio mewn dawnsiau; yna deuwch chwithau allan o'r gwinllannoedd, a chipiwch i chwi bob un ei wraig o ferched Siloh, ac ewch i wlad Benjamin.

22 A phan ddelo eu tadau neu eu brodyr hwynt i achwyn attom ni, yna y dywedwn wrthynt, Byddwch dda iddynt er ein mwyn ni; oblegid na chadwasom i bob un ei wraig yn y rhyfel: o achos na roddasoch chwi *hwynt* iddynt y pryd hwn, *ni* byddwch chwi euog.

23 A meibion Benjamin a wnaethant felly; a chymmerasant wragedd yn ol eu rhifedi, o'r rhai a gipiasent, ac a oeddynt yn dawnsio: a

hwy a aethant ymaith, a dychwelasant i'w hetifeddiaeth, ac a adgyweiriasant y dinasoedd, ac a drigasant ynddynt.

24 A meibion Israel a ymadawsant oddi yno y pryd hwnnw, bob un at ei lwyth, ac at ei deulu; ac a aethant oddi yno bob un i'w etifeddiaeth.

25 Yn y dyddiau hynny nid *oedd* brenhin yn Israel: pob un a wnai yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei hun.

LLYFR RUTH.

PENNOD 1.

1 *Elimelech wedi ei yrru gan newyn i Moab, yn marw yno.* 4 *Mahlon a Chilion, wedi priodi gwragedd o Moab, yn marw hefyd.* 6 *Naomi, wrth ddychwelyd adref,* 8 *yn ceisio gan ei dwy waudd na ddeuent gyd â hi.* 14 *Orpah yn ei gadael ht; a Ruth yn ddianwadal yn ei dilyn hi.* 19 *Hwynt ill dwyoedd yn dyfod i Bethlehem, ac yn cael yno groesaw.*

ABU, yn y dyddiau yr oedd y brawdwyr yn barnu, fod newyn yn y wlad: a gŵr o Bethlehem Judah a aeth i ymdeithio y'ngwlad Moab, efe a'i wraig, a'i ddau fab.

2 Ac enw y gŵr *oedd* Elimelech, ac enw ei wraig Naomi, ac enw ei ddau fab Mahlon a Chilion, Ephrateaid o Bethlehem Judah. A hwy a ddaethant i wlad Moab, ac a fuant yno.

3 Ac Elimelech gŵr Naomi a fu farw; a hithau a'i dau fab a adawyd.

4 A hwy a gymmerasant iddynt wragedd o'r Moabëesau; enw y naill *oedd* Orpah, ac enw y llall, Ruth. A thrigasant yno ynghylch deng mlynedd.

5 A Mahlon a Chilion a fuant feirw hefyd ill dau; a'r wraig a adawyd *yn amddifad* o'i dau fab, ac o'i gŵr.

6 ¶ A hi a gyfododd, â'i merched y'nghyfraith, i ddychwelyd o wlad Moab: canys hi a glywsai y'ngwlad Moab ddarfod i'r ARGLWYDD ymweled â'i bobl gan roddi iddynt fara.

7 A hi a aeth o'r lle yr oedd hi yndd o, a'i dwy waudd gyd â hi: a hwy a aethant i ffordd i ddychwelyd i wlad Judah.

8 A Naomi a ddywedodd wrth ei dwy waudd, Ewch, dychwelwch bob un i dŷ ei mam: gwneled yr ARGLWYDD drugaredd â chwi, fel y gwnaethoch chwi â'r meirw, ac â minnau.

9 Yr ARGLWYDD a ganiattao i chwi gael gorphwysdra bob un yn nhŷ ei gŵr. Yna y cusanodd hi hwynt: a hwy a ddyrchafasant eu llef, ac a wylasant.

10 A hwy a ddywedasant wrthi, Diau y dychwelwn ni gyd â thi at dy bobl di.

11 A dywedodd Naomi, Dychwelwch, fy merched: i ba beth y deuwch gyd â mi? *a oes* gennyf fi feibion etto yn fy nghroth, i fod yn wŷr i chwi?

12 Dychwelwch, fy merched, ewch *ymaith:* canys yr ydwyf fi yn rhy hen i briodi gŵr. Pe dywedwn, Y mae gennyf obaith, a bod heno gyd â gŵr, ac ymddŵyn meibion hefyd;

13 A arhosech chwi am danynt hwy, hyd oni chynnyddent hwy? a ymarhosech chwi am danynt hwy, heb ŵra? Nag ê, fy merched: canys *y mae* mawr dristwch i mi o'ch plegid chwi, am i law yr ARGLWYDD fyned i'm herbyn.

14 A hwy a ddyrchafasant eu llef, ac a wylasant eilwaith: ac Orpah a gusanodd ei chwegr; ond Ruth a lynodd wrthi hi.

15 A dywedodd *Naomi*, Wele, dy chwaer y'nghyfraith a ddychwelodd at ei phobl, ac at ei duwiau: dychwel dithau ar ol dy chwaer yng nghyfraith.

16 A Ruth a ddywedodd, Nac erfyn arnaf fi ymadaw â thi, i gilio oddi ar dy ol di: canys pa le bynnag yr elych di, yr âf finnau; ac ym mha le bynnag y llettŷech di, y llettŷaf finnau: dy bobl di *fydd* fy mhobl i, a'th DDUW di fy NUW innau:

17 Lle y byddych di marw, y bydd-
af finnau farw, ac yno y'm cleddir:
fel hyn y gwnelo yr ARGLWYDD i
mi, ac fel hyn y chwanego, *os dim*
ond angau a wna ysgariaeth rhyng-
of fi a thithau.
18 Pan welodd hi ei bod hi wedi
ymroddi i fyned gyd â hi, yna hi a
beidiodd â dywedyd wrthi hi.
19 ¶ Felly hwynt ill dwy a aeth-
ant, nes iddynt ddyfod i Bethle-
hem. A phan ddaethant i Bethle-
hem, yr holl ddinas a gyffrôdd o'u
herwydd hwynt; a dywedasant, Ai
hon *yw* Naomi?
20 A hi a ddywedodd wrthynt
hwy, Na elwch fi Naomi; gelwch
fi Mara: canys yr Hollalluog a
wnaeth yn chwerw iawn â mi.
21 Myfi a euthum allan yn gyflawn,
a'r ARGLWYDD a'm dug i eilwaith
yn wag: paham y gelwch chwi fi
Naomi, gan i'r ARGLWYDD fy nar-
ostwng, ac i'r Hollalluog fy nrygu?
22 Felly y dychwelodd Naomi, a
Ruth y Moabëes ei gwaudd gyd â
hi, yr hon a ddychwelodd o wlad
Moab: a hwy a ddaethant i Beth-
lehem yn nechreu cynhauaf yr
heiddiau.

PENNOD 2.

1 *Ruth yn lloffa ym meusydd Boas.* 4 *Boas yn cynmeryd cydnabod arni,* 8 *ac yn dangos iddi garedigrwydd mawr;* 18 *a hithau yn dwyn at Naomi yr hyn a gawsai.*

AC i ŵr Naomi *yr ydoedd* câr, o
ŵr cadarn nerthol, o dylwyth
Elimelech, a'i enw Boas.
2 A Ruth y Moabëes a ddywedodd
wrth Naomi, Gâd i mi fyned yn
awr i'r maes, a lloffa tywysennau
ar ol *yr hwn* y caffwyf ffafr yn ei
olwg. Hithau a ddywedodd wrthi,
Dos, fy merch.
3 A hi a aeth, ac a ddaeth, ac a
loffodd yn y maes ar ol y medelwyr:
a digwyddodd wrth ddamwain *fod* y
rhan honno o'r maes yn eiddo Boas,
yr hwn *oedd* o dylwyth Elimelech.
4 ¶ Ac wele, Boas a ddaeth o
Bethlehem, ac a ddywedodd wrth y
medelwyr, Yr ARGLWYDD *a fyddo*
gyd â chwi. Hwythau a ddywedas-
ant wrtho ef, Yr ARGLWYDD a'th
fendithio.
5 Yna y dywedodd Boas wrth ei
was yr hwn oedd yn sefyll yn ymyl
y medelwyr, Pwy *biau* y llangces
hon?
6 A'r gwas yr hwn oedd yn sefyll
wrth y medelwyr a attebodd, ac a
ddywedodd, Y llangces o Moab *yd-*
yw hi, yr hon a ddychwelodd gyd
â Naomi o wlad Moab:
7 A hi a ddywedodd, Attolwg yr
ydwyf gael lloffa, a chasglu ym
mysg yr ysgubau ar ol y medelwyr:
a hi a ddaeth, ac a arhosodd er y
bore hyd yr awr hon, oddi eithr
aros o honi hi ychydig yn tŷ.
8 Yna y dywedodd Boas wrth
Ruth, Oni chlywi di, fy merch? Na
ddos i loffa i faes arall, ac na
cherdda oddi yma; eithr aros yma
gyd â'm llangcesau i.
9 *Bydded* dy lygaid ar y maes y
byddont hwy yn ei fedi; a dos ar
eu hol hwynt: oni orchymynais i'r
llangciau, na chyffyrddent â thi? A
phan sychedech, dos at y llestri, ac
ŷf o'r hwn a ollyngodd y llangciau.
10 Yna hi a syrthiodd ar ei hwyn-
eb, ac a ymgrymmodd i lawr, ac a
ddywedodd wrtho ef, Paham y cef-
ais ffafr yn dy olwg di, fel y cym-
merit gydnabod arnaf, a minnau
yn alltudes?
11 A Boas a attebodd, ac a ddy-
wedodd wrthi, Gan fynegi y myneg-
wyd i mi yr hyn oll a wnaethost i'th
chwegr ar ol marwolaeth dy ŵr; ac
fel y gadewaist dy dad a'th fam, a
gwlad dy enedigaeth, ac y daethost
at bobl nid adwaenit o'r blaen.
12 Yr ARGLWYDD a dalo am dy
waith; a bydded dy obrwy yn ber-
ffaith gan ARGLWYDD DDUW Israel,
yr hwn y daethost i obeithio dan ei
adenydd.
13 Yna hi a ddywedodd, Caffwyf
ffafr yn dy olwg di, fy arglwydd;
gan i ti fy nghysuro i, a chan i ti
lefaru wrth *fodd* calon dy wasan-
aethferch, er nad ydwyf fel un o'th
law-forwynion di.
14 A dywedodd Boas wrthi hi, Yn
amser bwyd tyred yma, a bwytta
o'r bara, a gwlŷch dy dammaid yn
y finegr. A hi a eisteddodd wrth
ystlys y medelwyr: ac efe a estyn-
odd iddi gras-*ŷd;* a hi a fwytta-
odd, ac a ddigonwyd, ac a adawodd
weddill.
15 A hi a gyfododd i loffa: a gor-

chymynodd Boas i'w weision, gan ddywedyd, Lloffed hefyd ym mysg yr ysgubau, ac na feiwch arni:

16 A chan ollwng gollyngwch hefyd iddi *beth* o'r ysgubau; a gadêwch *hwynt*, fel y lloffo hi *hwynt*; ac na cheryddwch hi.

17 Felly hi a loffodd yn y maes hyd yr hwyr: a hi a ddyrnodd yr hyn a loffasai, ac yr oedd ynghylch ephah o haidd.

18 ¶ A hi a'i cymmerth, ac a aeth i'r ddinas: a'i chwegr a ganfu yr hyn a gasglasai hi: hefyd hi a dynnodd allan, ac a roddodd iddi yr hyn a weddillasai hi, wedi cael digon.

19 A dywedodd ei chwegr wrthi hi, Pa le y lloffaist heddyw, a pha le y gweithiaist? bydded yr hwn a'th adnabu yn fendigedig. A hi a fynegodd i'w chwegr pwy y gweithiasai hi gyd âg ef; ac a ddywedodd, Enw y gŵr y gweithiais gyd âg ef heddyw, *yw* Boas.

20 A dywedodd Naomi wrth ei gwaudd, Bendigedig *fyddo* efe gan yr ARGLWYDD, yr hwn ni pheidiodd â'i garedigrwydd tu a'r rhai byw a'r rhai meirw. Dywedodd Naomi hefyd wrthi hi, Agos i ni *yw* y gŵr hwnnw, o'n cyfathrach ni *y mae* efe.

21 A Ruth y Moabëes a ddywedodd, Efe a ddywedodd hefyd wrthyf, Gyd â'm llangciau i yr arhosi, nes gorphen o honynt fy holl gynhauaf i.

22 A dywedodd Naomi wrth Ruth ei gwaudd, Da *yw*, fy merch, i ti fyned gyd â'i langcesi ef, fel na ruthront i'th erbyn mewn maes arall.

23 Felly hi a ddilynodd langcesau Boas i loffa, nes darfod cynhauaf yr haidd a chynhauaf y gwenith: ac a drigodd gyd â'i chwegr.

PENNOD 3.

1 *Ruth, trwy addysg Naomi,* 5 *yn gorwedd wrth draed Boas.* 8 *Boas yn cydnabod rhan cyfathrachwr,* 14 *ac yn ei danfon hi ymaith â chwe mesur o haidd.*

YNA Naomi ei chwegr a ddywedodd wrthi, Fy merch, oni cheisiaf fi orphwysdra i ti, fel y byddo da i ti?

2 Ac yn awr onid *yw* Boas o'n cyfathrach ni, yr hwn y buost ti gyd â'i langcesi? Wele efe yn nithio haidd y nos hon yn y llawr-dyrnu.

3 Ymolch gan hynny, ac ymira, a gosod dy ddillad am danat, a dos i waered i'r llawr-dyrnu: na fydd gydnabyddus i'r gŵr, nes darfod iddo fwytta ac yfed.

4 A phan orweddo efe, yna dal ar y fan y gorweddo efe ynddi; a dos, a dinoetha ei draed ef, a gorwedd; ac efe a fynega i ti yr hyn a wnelych.

5 A hi a ddywedodd wrthi, Gwnaf yr hyn oll a erchaist i mi.

6 ¶ A hi a aeth i waered i'r llawr-dyrnu, ac a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynasai ei chwegr iddi.

7 Ac wedi i Boas fwytta ac yfed, fel y llawenhaodd ei galon, efe a aeth i gysgu i gwr yr ysgafn. Hithau a ddaeth yn ddistaw, ac a ddinoethodd ei draed, ac a orweddodd.

8 ¶ Ac y'nghanol y nos y gŵr a ofnodd, ac a ymdrôdd: ac wele wraig yn gorwedd wrth ei draed ef.

9 Ac efe a ddywedodd, Pwy *ydwyt* ti? A hi a ddywedodd, Myfi *yw* Ruth dy law-forwyn: lleda gan hynny dy aden dros dy law-forwyn, canys fy nghyfathrachwr i *ydwyt* ti.

10 Ac efe a ddywedodd, Bendigedig *fyddech*, fy merch, gan yr ARGLWYDD: dangosaist fwy o garedigrwydd yn y diwedd, nag yn y dechreu; gan nad aethost ar ol gwŷr ieuaingc, na thlawd na chyfoethog.

11 Ac yn awr, fy merch, nac ofna; yr hyn oll a ddywedaist, a wnaf i ti: canys holl ddinas fy mhobl a ŵyr mai gwraig rinweddol *ydwyt* ti.

12 Ac yn awr gwir yw fy *mod* i yn gyfathrachwr agos: er hynny y mae cyfathrachwr nês na myfi.

13 Aros heno; a'r bore, os efe a wna ran cyfathrachwr â thi, da; gwnaed ran cyfathrachwr: ond os efe ni wna ran cyfathrachwr â thi; yna myfi a wnaf ran cyfathrachwr â thi, *fel mai* byw yr ARGLWYDD: cwsg hyd y bore.

14 ¶ A hi a orweddodd wrth ei draed ef hyd y bore: a hi a gyfododd cyn yr adwaenai neb eu gilydd. Ac efe a ddywedodd, Na chaffer gwybod dyfod gwraig i'r llawr-dyrnu.

15 Ac efe a ddywedodd, Moes dy fantell *sydd* am danat, ac ymafael ynddi. A hi a ymaflodd ynddi; ac

efe a fesurodd chwe *mesur* o haidd, ac a'*i* gosododd arni: a hi a aeth i'r ddinas.

16 A phan ddaeth hi at ei chwegr, hi a ddywedodd, Pwy *ydwyt* ti, fy merch? A hi a fynegodd iddi yr hyn oll a wnaethai y gŵr iddi hi.

17 A hi a ddywedodd, Y chwe *mesur* hyn o haidd a roddodd efe i mi: canys dywedodd wrthyf, Nid âi yn waglaw at dy chwegr.

18 Yna y dywedodd hithau, Aros, fy merch, oni wypech pa fodd y digwyddo y peth *hyn:* canys ni orphwys y gŵr, nes gorphen y peth hyn heddyw.

PENNOD 4.

1 Boas yn galw y cyfathrachwr nesaf ger bron. 6 Ynlau yn gwrthod rhydâhâu yr etifeddiaeth, yn ol y ddefod yn Israel. 9 Boas yn prynu yr etifeddiaeth; 10 ac yn priodi Ruth. 13 Hithau yn dwyn Obed, taid Dafydd. 18 Cenhedlaeth Phares.

YNA Boas a aeth i fyny i'r porth, ac a eisteddodd yno. Ac wele y cyfathrachwr yn myned heibio, *am* yr hwn y dywedasai Boas. Ac efe a ddywedodd wrtho, Ho, hwn a hwn! tyred yn nês; eisteddyma. Ac efe a nesaodd, ac a eisteddodd.

2 Ac efe a gymmerth ddengwr o henuriaid y ddinas, ac a ddywedodd, Eisteddwch yma. A hwy a eisteddasant.

3 Ac efe a ddywedodd wrth y cyfathrachwr, Y rhan o'r maes yr hon *oedd* eiddo ein brawd Elimelech a werth Naomi, yr hon a ddychwelodd o wlad Moab.

4 A dywedais y mynegwn i ti, gan ddywedyd, Pryn *ef* ger bron y trigolion, a cher bron henuriaid fy mhobl. Os rhyddhêi, rhyddhâ *ef;* ac oni ryddhêi, mynega i mi, fel y gwypwyf: canys nid *oes* ond ti i'*w* ryddhâu, a minnau *sydd* ar dy ol di. Ac efe a ddywedodd, Myfi a'*i* rhyddhâf.

5 Yna y dywedodd Boas, Y diwrnod y prynech di y maes o law Naomi, ti a'*i* pryni hefyd gan Ruth y Moabëes, gwraig y marw, i gyfodi enw y marw ar ei etifeddiaeth ef.

6 ¶ A'r cyfathrachwr a ddywedodd, Ni allaf *ei* ryddhâu i mi, rhag colli fy etifeddiaeth fy hun: rhyddhâ di i ti dy hun fy rhan i; canys ni allaf fi *ei* ryddhâu.

7 A hyn *oedd ddefod* gynt yn Israel, am ryddhâd, ac am gyfnewid, i sicrhâu pob peth: Gŵr a ddiosgai ei esgid, ac a'*i* rhoddai i'w gymmydog: a hyn *oedd* dystiolaeth yn Israel.

8 Am hynny y dywedodd y cyfathrachwr wrth Boas, Pryn i ti dy hun: ac efe a ddiosgodd ei esgid.

9 ¶ A dywedodd Boas wrth yr henuriaid, ac *wrth* yr holl bobl, Tystion *ydych* chwi heddyw, i mi brynu yr hyn oll *oedd* eiddo Elimelech, a'r hyn oll *oedd* eiddo Chilion a Mahlon, o law Naomi.

10 Ruth hefyd y Moabëes, gwraig Mahlon, a brynais i mi yn wraig, i gyfodi enw y marw ar ei etifeddiaeth ef, fel na thorrer ymaith enw y marw o blith ei frodyr, nac oddi wrth borth ei fangre: tystion *ydych* chwi heddyw.

11 A'r holl bobl y rhai *oedd* yn y porth, a'r henuriaid, a ddywedasant, *Yr ydym* yn dystion: Yr ARGLWYDD a wnelo y wraig sydd yn dyfod i'th dŷ di fel Rahel, ac fel Leah, y rhai a adeiladasant ill dwy dŷ Israel; a gwna di rymmusdra yn Ephratah, bydd enwog yn Bethlehem:

12 Bydded hefyd dy dŷ di fel tŷ Phares, yr hwn a ymddûg Tamar i Judah, o'r had yr hwn a ddyry yr ARGLWYDD i ti o'r llangces hon.

13 ¶ Felly Boas a gymmerodd Ruth; a hi a fu iddo yn wraig: ac efe a aeth i mewn atti hi; a'r ARGLWYDD a roddodd iddi hi feichiogi, a hi a ymddûg fab.

14 A'r gwragedd a ddywedasant wrth Naomi, Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD, yr hwn ni'th adawodd di heb gyfathrachwr heddyw, fel y gelwid ei enw ef yn Israel.

15 Ac efe fydd i ti yn adferwr einioes, ac yn ymgeleddwr i'th benwynni: canys dy waudd, yr hon a'th gâr di, a blantodd iddo ef, a hon *sydd* well i ti na saith o feibion.

16 A Naomi a gymmerth y plentyn, ac a'i gosododd ef yn ei mynwes, ac a fu fammaeth iddo.

17 A'i chymmydogesau a roddasant iddo enw, gan ddywedyd, Gan-

wyd mab i Naomi; ac a alwasant
ei enw ef Obed: hwn *oedd* dad
Jesse, tad Dafydd.
18 ¶ Dyma genhedlaethau Phares:
Phares a genhedlodd Hesron,
19 A Hesron a genhedlodd Ram,
a Ram a genhedlodd Aminadab,
20 Ac Aminadab a genhedlodd
Nahson, a Nahson a genhedlodd
Salmon,
21 A Salmon a genhedlodd Boas,
a Boas a genhedlodd Obed.
22 Ac Obed a genhedlodd Jesse, a
Jesse a genhedlodd Dafydd.

LLYFR CYNTAF SAMUEL,

YR HWN A ELWIR HEFYD

LLYFR CYNTAF Y BRENHINOEDD.

PENNOD 1.

1 *Elcanah, Lefiad, oedd iddo ddwy wraig, yn addoli bob blwyddyn yn Siloh: 4 yn mawrhau Hannah, er ei bod yn ammhlantadwy, ac er i Peninnah ei chythruddo. 9 Hannah yn wylofus yn gweddïo am blentyn. 12 Eli yn ei cheryddu hi yn gyntaf, ac ar ol hynny yn ei bendithio hi. 19 Hannah wedi dwyn Samuel, yn aros gartref nes ei ddiddyfnu ef: 24 yn ei gyflwyno ef i'r Arglwydd, yn ol ei haddduned.*

AC yr oedd rhyw ŵr o Ramathaim-Sophim, o fynydd Ephraim, a'i enw Elcanah, mab Jeroham, mab Elihu, mab Tohu, mab Suph, Ephratëwr:
2 A dwy wraig *oedd* iddo; enw y naill *oedd* Hannah, ac enw y llall Peninnah: ac i Peninnah yr ydoedd plant, ond i Hannah nid *oedd* plant.
3 A'r gŵr hwn a âi i fyny o'i ddinas bob blwyddyn i addoli, ac i aberthu i ARGLWYDD y lluoedd, yn Siloh; a dau fab Eli, Hophni a Phinees, *oedd* offeiriaid i'r ARGLWYDD yno.
4 ¶ Bu hefyd, y diwrnod yr aberthodd Elcanah, roddi o hono ef i Peninnah ei wraig, ac i'w meibion a'i merched oll, rannau.
5 Ond i Hannah y rhoddes efe un rhan hardd: canys efe a garai Hannah, ond yr ARGLWYDD a gauasai ei chroth hi;
6 A'i gwrthwynebwraig a'i cyffrôdd hi i'w chythruddo, am i'r ARGLWYDD gau ei bru hi.
7 Ac felly y gwnaeth efe bob blwyddyn, pan esgynai hi i dŷ yr ARGLWYDD, hi a'i cythruddai hi felly; fel yr wylai, ac na fwyttâi.
8 Yna Elcanah ei gŵr a ddywedodd wrthi, Hannah, paham yr wyli? a phaham na fwyttêi? a phaham y mae yn flin ar dy galon? onid *wyf* fi well i ti na deg o feibion?
9 ¶ Felly Hannah a gyfododd, wedi iddynt fwytta ac yfed yn Siloh. (Ac Eli yr offeiriad oedd yn eistedd ar faingc wrth bostyteml yr ARGLWYDD.)
10 Ac *yr oedd* hi yn chwerw ei henaid, ac a weddïodd ar yr ARGLWYDD, a chan wylo hi a wylodd.
11 Hefyd hi a addunodd adduned, ac a ddywedodd, O ARGLWYDD y lluoedd, os gan edrych yr edrychi ar gystudd dy law-forwyn, ac a'm cofi i, ac nid anghofi dy law-forwyn, ond rhoddi i'th law-forwyn fab: yna y rhoddaf ef i'r ARGLWYDD holl ddyddiau ei einioes, ac ni ddaw ellyn ar ei ben ef.
12 A bu, fel yr oedd hi yn parhâu yn gweddïo ger bron yr ARGLWYDD, i Eli ddal sylw ar ei genau hi.
13 A Hannah oedd yn llefaru yn ei chalon, yn unig ei gwefusau a symmudent; a'i llais ni chlywid: am hynny Eli a dybiodd ei *bod* hi yn feddw.
14 Ac Eli a ddywedodd wrthi hi, Pa hyd y byddi feddw? bwrw ymaith dy win oddi wrthyt.
15 A Hannah a attebodd, ac a ddywedodd, Nid *felly*, fy arglwydd; gwraig galed arni *ydwyf* fi: gwin hefyd na dïod gadarn nid yfais;

eithr tywelltais fy enaid ger bron yr ARGLWYDD.
16 Na chyfrif dy law-forwyn yn ferch Belial: canys o amldra fy myfyrdod, a'm blinder, y lleferais hyd yn hyn.
17 Yna yr attebodd Eli, ac a ddywedodd, Dos mewn heddwch: a DUW Israel a roddo dy ddymuniad yr hwn a ddymunaist ganddo ef.
18 A hi a ddywedodd, Caffed dy law-forwyn ffafr yn dy olwg. Felly yr aeth y wraig i'w thaith, ac a fwyttaodd; ac ni bu *athrist* mwy.
19 ¶ A hwy a gyfodasant yn fore, ac a addolasant ger bron yr ARGLWYDD; ac a ddychwelasant, ac a ddaethant i'w tŷ i Ramah. Ac Elcanah a adnabu Hannah ei wraig; a'r ARGLWYDD a'i cofiodd hi.
20 A bu, pan ddaeth yr amser o amgylch, wedi beichiogi o Hannah, esgor o honi ar fab; a hi a alwodd ei enw ef Samuel: Canys gan yr ARGLWYDD y dymunais ef, *eb y hi.*
21 A'r gŵr Elcanah a aeth i fyny, a'i holl dylwyth, i offrymmu i'r ARGLWYDD yr aberth blynyddol, a'i adduned.
22 Ond Hannah nid aeth i fyny: canys hi a ddywedodd wrth ei gŵr, *Ni ddeuaf fi*, hyd oni ddiddyfner y bachgen: *yna* y dygaf ef, fel yr ymddangoso efe o flaen yr ARGLWYDD, ac y trigo byth.
23 Ac Elcanah ei gŵr a ddywedodd wrthi, Gwna yr hyn a welych yn dda: aros hyd oni ddiddyfnech ef; yn unig yr ARGLWYDD a gyflawno ei air. Felly yr arhôdd y wraig, ac a fagodd ei mab, nes iddi ei ddiddyfnu ef.
24 ¶ A phan ddiddyfnodd hi ef, hi a'i dug ef i fyny gyd â hi, â thri o fustych, ac un ephah o beillied, a chostrelaid o wîn; a hi a'i dug ef i dŷ yr ARGLWYDD *yn* Siloh: a'r bachgen yn ieuangc.
25 A hwy a laddasant fustach, ac a ddygasant y bachgen at Eli.
26 A hi a ddywedodd, O fy arglwydd, *fel* y mae dy enaid yn fyw, fy arglwydd, myfi *yw* y wraig oedd yn sefyll yma yn dy ymyl di, yn gweddïo ar yr ARGLWYDD.
27 Am y bachgen hwn y gweddïais; a'r ARGLWYDD a roddodd i mi fy nymuniad a ddymunais ganddo:
28 Minnau hefyd a'i rhoddais ef i'r ARGLWYDD; yr holl ddyddiau y byddo efe *byw*, y rhoddwyd ef i'r ARGLWYDD. Ac efe a addolodd yr ARGLWYDD yno.

PENNOD 2.

1 Cân Hannah, yn dangos ei diolchgarwch. 12 Anwiredd meibion Eli. 18 Gweinidogaeth Samuel. 20 Hannah, trwy weddi Eli, yn cael mwy o ffrwyth. 22 Eli yn ceryddu ei feibion. 27 Prophwydoliaeth yn erbyn tŷ Eli.

A HANNAH a weddïodd, ac a ddywedodd, Llawenychodd fy nghalon yn yr ARGLWYDD; fy nghorn a ddyrchafwyd yn yr ARGLWYDD: fy ngenau a ehangwyd ar fy ngelynion: canys llawenychais yn dy iachawdwriaeth di.
2 Nid sanctaidd *neb* fel yr ARGLWYDD; canys nid dim hebot ti: ac nid *oes* graig megis ein DUW ni.
3 Na chwanegwch lefaru yn uchel uchel; *na* ddeued allan ddim balch o'ch genau: canys DUW gwybodaeth *yw* yr ARGLWYDD, a'i amcanion ef a gyflawnir.
4 Bwäau y cedyrn a dorrwyd, a'r gweiniaid a ymwregysasant â nerth.
5 *Y rhai* digonol a ymgyflogasant er bara; a'*r rhai* newynog a beidiasant; hyd onid esgorodd yr ammhlantadwy ar saith, a llesgâu yr aml *ei* meibion.
6 Yr ARGLWYDD sydd yn marwhâu, ac yn bywhâu: efe sydd yn dwyn i waered i'r bedd, ac yn dwyn i fyny.
7 Yr ARGLWYDD sydd yn tlodi, ac yn cyfoethogi; yn darostwng, ac yn dyrchafu.
8 Efe sydd yn cyfodi y tlawd o'r llwch, *ac* yn dyrchafu yr anghenus o'r tommenau, i'*w* gosod gyd â thywysogion, ac i beri iddynt etifeddu teyrn-gadair gogoniant: canys eiddo yr ARGLWYDD colofnau y ddaear, ac efe a osododd y byd arnynt.
9 Traed ei saint a geidw efe, a'r annuwiolion a ddistawant mewn tywyllwch: canys nid trwy nerth y gorchfyga gŵr.
10 Y rhai a ymrysonant â'r ARGLWYDD, a ddryllir: efe a darana yn eu herbyn hwynt o'r nefoedd: yr ARGLWYDD a farn derfynau y ddae-

ar; ac a ddyry nerth i'w frenhin, ac a ddyrchafa gorn ei enneiniog.

11 Ac Elcanah a aeth i Ramah i'w dŷ; a'r bachgen a fu weinidog i'r ARGLWYDD ger bron Eli yr offeiriad.

12 ¶ A meibion Eli *oedd* feibion Belial: nid adwaenent yr ARGLWYDD.

13 A defod yr offeiriad gyd â'r bobl *oedd*, pan offrymmai neb aberth, gwas yr offeiriad a ddeuai pan fyddai y cig yn berwi, â chigwain dridant yn ei law;

14 Ac a'*i* tarawai *hi* yn y badell, neu yn yr efyddyn, neu yn y crochan, neu yn y pair: yr hyn oll a gyfodai y gigwain, a gymmerai yr offeiriad iddo. Felly y gwnaent yn Siloh i holl Israel y rhai oedd yn dyfod yno.

15 Hefyd cyn arogl-losgi o honynt y brasder, y deuai gwas yr offeiriad hefyd, ac a ddywedai wrth y gŵr a fyddai yn aberthu, Dyro gig i'w rostio i'r offeiriad: canys ni fyn efe gennyt gig berw, ond amrwd.

16 Ac *os* gŵr a ddywedai wrtho, Gan losgi llosgant yn awr y brasder, ac *yna* cymmer *fel* yr ewyllysio dy galon: yntau a ddywedai wrtho, *Nag ê;* yn awr y rhoddi *ef:* ac onid ê, mi a'*i* cymmeraf trwy gryfder.

17 Am hynny pechod y llangciau oedd fawr iawn ger bron yr ARGLWYDD: canys ffieiddiodd dynion offrwm yr ARGLWYDD.

18 ¶ A Samuel oedd yn gweini o flaen yr ARGLWYDD, yn fachgen, wedi ymwregysu âg ephod lïan.

19 A'i fam a wnai iddo fantell fechan, ac a'*i* dygai iddo o flwyddyn i flwyddyn, pan ddelai hi i fyny gyd â'i gŵr i aberthu yr aberth blynyddol.

20 ¶ Ac Eli a fendithiodd Elcanah a'i wraig, ac a ddywedodd, Rhodded yr ARGLWYDD i ti had o'r wraig hon, am y dymuniad a ddymunodd gan yr ARGLWYDD. A hwy a aethant i'w mangre eu hun.

21 A'r ARGLWYDD a ymwelodd â Hannah; a hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar dri o feibion, a dwy o ferched: a'r bachgen Samuel a gynnyddodd ger bron yr ARGLWYDD.

22 ¶ Ac Eli *oedd* hen iawn; ac efe a glybu yr hyn oll a wnelsai ei feibion ef i holl Israel, a'r modd y gorweddent gyd â'r gwragedd oedd yn ymgasglu yn finteioedd *wrth* ddrws pabell y cyfarfod.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Paham y gwnaethoch y pethau hyn? canys clywaf gan yr holl bobl hyn ddrygair i chwi.

24 Nag ê, fy meibion: canys nid da y gair yr ydwyf fi yn ei glywed; eich bod chwi yn peri i bobl yr ARGLWYDD droseddu.

25 Os gŵr a becha yn erbyn gŵr, y swyddogion a'i barnant ef: ond os yn erbyn yr ARGLWYDD y pecha gŵr, pwy a eiriol drosto ef? Ond ni wrandawsant ar lais eu tad, am y mynnai yr ARGLWYDD eu lladd hwynt.

26 A'r bachgen Samuel a gynnyddodd, ac a aeth yn dda gan DDUW, a dynion hefyd.

27 ¶ A daeth gŵr i DDUW at Eli, ac a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Onid gan ymddangos yr ymddangosais i dŷ dy dad, pan oeddynt yn yr Aipht yn nhŷ Pharaoh?

28 Gan ei ddewis ef hefyd o holl lwythau Israel yn offeiriad i mi, i offrymmu ar fy allor, i losgi arogldarth, i wisgo ephod ger fy mron? oni roddais hefyd i dŷ dy dad di holl ebyrth tanllyd meibion Israel?

29 Paham y sethrwch chwi fy aberth a'm bwyd-offrwm, y rhai a orchymynais *yn fy* nhrigfa, ac yr anrhydeddi dy feibion yn fwy na myfi, gan eich pesgi eich hunain â'r goreu o holl offrymmau fy mhobl Israel?

30 Am hynny medd ARGLWYDD DDUW Israel, Gan ddywedyd y dywedais, Dy dŷ di a thŷ dy dad a rodiant o'm blaen i byth: eithr yn awr medd yr ARGLWYDD, Pell fydd hynny oddi wrthyf fi; canys fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi, a'm dirmygwyr a ddirmygir.

31 Wele y dyddiau yn dyfod, pan dorrwyf dy fraich di, a braich tŷ dy dad, fel na byddo hen ŵr yn dy dŷ di.

32 A thi a gei weled gelyn *yn fy*

nhrigfa, yn yr hyn oll a wna DUW o ddaioni i Israel: ac ni bydd hen ŵr yn dy dŷ di byth.

33 A'r gŵr o'r eiddot, *yr hwn* ni thorraf ymaith oddi wrth fy allor, *fydd* i beri i'th lygaid ballu, ac i beri i'th galon ofidio: a holl gynnyrch dy dŷ di a fyddant feirw yn wŷr.

34 A hyn *fydd* i ti yn arwydd, yr hwn a ddaw ar dy ddau fab, ar Hophni a Phinees: Yn yr un dydd y byddant feirw ill dau.

35 A chyfodaf i mi offeiriad ffyddlawn a wna yn ol fy nghalon a'm meddwl; a mi a adeiladaf iddo ef dŷ sicr, ac efe a rodia ger bron fy enneiniog yn dragywydd.

36 A bydd i bob un a adewir yn dy dŷ di ddyfod *ac* ymgrymmu iddo ef am ddernyn o arian a thammaid o fara, a dywedyd, Gosod fi yn awr mewn rhyw offeiriadaeth, i *gael* bwytta tammaid o fara.

PENNOD 3.

1 *Y modd y datguddiwyd gair yr Arglwydd gyntaf i Samuel.* 11 *Duw yn dangos i Samuel ddinystr tŷ Eli.* 15 *Samuel o'r led-anfodd yn mynegi i Eli y weledigaeth.* 19 *Samuel yn tyfu mewn cymmeriad.*

A'R bachgen Samuel a wasanaethodd yr ARGLWYDD ger bron Eli. A gair yr ARGLWYDD oedd werthfawr yn y dyddiau hynny; nid *oedd* weledigaeth eglur.

2 A'r pryd hwnnw, pan *oedd* Eli yn gorwedd yn ei fangre, wedi i'w lygaid ef ddechreu tywyllu, *fel* na allai weled;

3 A chyn i lamp DUW ddiffoddi yn nheml yr ARGLWYDD, lle *yr oedd* arch DUW, a Samuel oedd wedi gorwedd *i gysgu:*

4 Yna y galwodd yr ARGLWYDD ar Samuel. Dywedodd yntau, Wele fi.

5 Ac efe a redodd at Eli, ac a ddywedodd, Wele fi; canys gelwaist arnaf. Yntau a ddywedodd, Ni elwais i; dychwel *a* gorwedd. Ac efe a aeth ac a orweddodd.

6 A'r ARGLWYDD a alwodd eilwaith, Samuel. A Samuel a gyfododd, ac a aeth at Eli, ac a ddywedodd, Wele fi; canys gelwaist arnaf. Yntau a ddywedodd, Na elwais, fy mab; dychwel *a* gorwedd.

7 Ac nid adwaenai Samuel etto yr ARGLWYDD, ac nid eglurasid iddo ef air yr ARGLWYDD etto.

8 A'r ARGLWYDD a alwodd Samuel drachefn y drydedd waith. Ac efe a gyfododd, ac a aeth at Eli, ac a ddywedodd, Wele fi; canys gelwaist arnaf. A deallodd Eli mai yr ARGLWYDD a alwasai ar y bachgen.

9 Am hynny Eli a ddywedodd wrth Samuel, Dos, gorwedd: ac os geilw efe arnat, dywed, Llefara, ARGLWYDD; canys y mae dy was yn clywed. Felly Samuel a aeth ac a orweddodd yn ei le.

10 A daeth yr ARGLWYDD, ac a safodd, ac a alwodd megis o'r blaen, Samuel, Samuel. A dywedodd Samuel, Llefara; canys y mae dy was yn clywed.

11 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Samuel, Wele fi yn gwneuthur peth yn Israel, yr hwn pwy bynnag a'i clywo, fe a ferwina ei ddwy glust ef.

12 Yn y dydd hwnnw y dygaf i ben yn erbyn Eli yr hyn oll a ddywedais am ei dŷ ef, gan ddechreu a diweddu *ar unwaith.*

13 Mynegais hefyd iddo ef, y barnwn ei dŷ ef yn dragywydd, am yr anwiredd a ŵyr efe; o herwydd i'w feibion haeddu iddynt felldith, ac nas gwaharddodd efe iddynt.

14 Ac am hynny y tyngais wrth dŷ Eli, na wneir iawn am anwiredd tŷ Eli âg aberth, nac â bwyd-offrwm byth.

15 ¶ A Samuel a gysgodd hyd y bore, ac a agorodd ddrysau tŷ yr ARGLWYDD: a Samuel oedd yn ofni mynegi y weledigaeth i Eli.

16 Ac Eli a alwodd ar Samuel, ac a ddywedodd, Samuel fy mab. Yntau a ddywedodd, Wele fi.

17 Ac efe a ddywedodd, Beth *yw* y gair a lefarodd *yr ARGLWYDD* wrthyt? na chela, attolwg, oddi wrthyf: fel hyn y gwnelo DUW i ti, ac fel hyn y chwanego, os celi oddi wrthyf *ddim* o'r holl bethau a lefarodd efe wrthyt.

18 A Samuel a fynegodd iddo yr holl eiriau, ac nis celodd ddim rhagddo. Dywedodd yntau, Yr ARGLWYDD *yw* efe: gwnaed *a fyddo* da yn ei olwg.

19 ¶ A chynnyddodd Samuel; a'r

ARGLWYDD oedd gyd âg ef, ac ni adawodd *i un* o'i eiriau ef syrthio i'r ddaear.

20 A gwybu holl Israel, o Dan hyd Beerseba, mai prophwyd ffyddlawn yr ARGLWYDD *oedd* Samuel.

21 A'r ARGLWYDD a ymddangosodd drachefn yn Siloh: canys yr ARGLWYDD a ymgluthaodd i Samuel yn Siloh trwy air yr ARGLWYDD.

PENNOD 4.

1 *Y Philistiaid yn gorchfygu yr Israeliaid yn Eben-eser.* 3 *Hwythau yn cyrchu yr arch, i daychrynu y Philistiaid.* 10 *Y Philistiaid yn eu taro hwynt ellwaith; yn dal yr arch, ac yn lladd Hophni a Phinees.* 12 *Eli, wrth glywed y newyddion, yn syrthio yn wysg ei yefn, ac yn torri ei wddf.* 19 *Gwraig Phinees, wedi digalonni wrth esgor ar Ichabod, yn marw.*

ADAETH gair Samuel i holl Israel. Ac Israel a aeth yn erbyn y Philistiaid i ryfel: a gwersyllasant ger llaw Eben-eser: a'r Philistiaid a wersyllasant yn Aphec.

2 A'r Philistiaid a ymfyddinasant yn erbyn Israel: a'r gâd a ymgyfarfu; a lladdwyd Israel o flaen y Philistiaid: a hwy a laddasant o'r fyddin yn y maes ynghylch pedair mil o wŷr.

3 ¶ A phan ddaeth y bobl i'r gwersyll, henuriaid Israel a ddywedasant, Paham y tarawodd yr ARGLWYDD ni heddyw o flaen y Philistiaid? Cymmerwn attom o Siloh arch cyfammod yr ARGLWYDD, a deled i'n mysg ni; fel y cadwo hi ni o law ein gelynion.

4 Felly y bobl a anfonodd i Siloh, ac a ddygasant oddi yno arch cyfammod ARGLWYDD y lluoedd, yr hwn sydd yn aros *rhung* y cerubiaid: ac yno *yr oedd* dau fab Eli, Hophni a Phinees, gyd âg arch cyfammod DUW.

5 A phan ddaeth arch cyfammod yr ARGLWYDD i'r gwersyll, holl Israel a floeddiasant â bloedd fawr, fel y dadseiniodd y ddaear.

6 A phan glybu y Philistiaid lais y floedd, hwy a ddywedasant, Pa beth *yw* llais y floedd fawr hon yng ngwersyll yr Hebreaid? A gwybuant mai arch yr ARGLWYDD a ddaethai i'r gwersyll.

7 A'r Philistiaid a ofnasant: o herwydd hwy a ddywedasant, Daeth DUW i'r gwersyll. Dywedasant hefyd, Gwae ni! canys ni bu y fath beth o flaen hyn.

8 Gwae ni! pwy a'n gwâred ni o law y duwiau nerthol hyn? Dyma y duwiau a darawsant yr Aiphtiaid â'r holl blâau yn yr anialwch.

9 Ymgryfhêwch, a byddwch wŷr, O Philistiaid; rhag i chwi wasanaethu yr Hebreaid, fel y gwasanaethasant hwy chwi: byddwch wŷr, ac ymleddwch.

10 ¶ A'r Philistiaid a ymladdasant; a lladdwyd Israel, a ffodd pawb i'w babell: a bu lladdfa fawr iawn; canys syrthiodd o Israel ddeng mil ar hugain o wŷr traed.

11 Ac arch DUW a ddaliwyd; a dau fab Eli, Hophni a Phinees, a fuant feirw.

12 ¶ A gŵr o Benjamin a redodd o'r fyddin, ac a ddaeth i Siloh y diwrnod hwnnw, â'i ddillad wedi *eu* rhwygo, a phridd ar ei ben.

13 A phan ddaeth efe, wele Eli yn eistedd ar eisteddfa *ger* llaw y ffordd, yn disgwyl: canys yr oedd ei galon ef yn ofni am arch DUW. A phan ddaeth y gŵr i'r ddinas, a mynegi *hyn*, yr holl ddinas a waeddodd.

14 A phan glywodd Eli lais y waedd, efe a ddywedodd, Beth *yw* llais y cynnwrf yma? A'r gŵr a ddaeth i mewn ar frys, ac a fynegodd i Eli.

15 Ac Eli *oedd* fab tair blwydd ar bymtheg a phedwar ugain; a phallasai ei lygaid ef, fel na allai efe weled.

16 A'r gŵr a ddywedodd wrth Eli, Myfi *sydd* yn dyfod o'r fyddin, myfi hefyd a ffoais heddyw o'r fyddin. A dywedodd yntau, Pa beth a ddigwyddodd, fy mab?

17 A'r gennad a attebodd, ac a ddywedodd, Israel a ffodd o flaen y Philistiaid; a bu hefyd laddfa fawr ym mysg y bobl; a'th ddau fab hefyd, Hophni a Phinees, a fuant feirw, ac arch DUW a ddaliwyd.

18 A phan grybwyllodd efe am arch DUW, yntau a syrthiodd oddi ar yr eisteddle yn wysg ei gefn ger llaw y porth; â'i wddf a dorrodd, ac efe a fu farw: canys y gŵr *oedd* hen a thrwm. Ac efe a farnasai Israel ddeugain mlynedd.

19 ¶ A'i waudd ef, gwraig Phinees, oedd feichiog, *yn agos* i esgor: a phan glybu sôn ddarfod dal arch DUW, a marw o'i chwegrwn a'i gŵr, hi a ymgrymmodd, ac a glafychodd: canys ei gwewyr a ddaeth arni.

20 Ac ynghylch y pryd y bu hi farw, y dywedodd *y gwragedd* oedd yn sefyll gyd â hi, Nac ofna; canys esgoraist ar fab. Ond nid atebodd hi, ac nid ystyriodd.

21 A hi a alwodd y bachgen Ichabod; gan ddywedyd, Y gogoniant a ymadawodd o Israel; (am ddal arch DUW, ac am ei chwegrwn a'i gŵr.)

22 A hi a ddywedodd, Y gogoniant a ymadawodd o Israel; canys arch DUW a ddaliwyd.

PENNOD 5.

1 *Y Philistiaid yn dwyn yr arch i Asdod, ac yn ei gosod yn nhŷ Dagon.* 3 *Bwrw Dagon i lawr, a'i dorri yn ddarnau, a tharo gwŷr Asdod â chlwyf y marchogion.* 8 *Duw yn gwneuthur felly i wŷr Gath, pan ddygwyd hi yno;* 10 *ac felly i wŷr Ecron.*

A'R Philistiaid a gymmerasant arch DUW, ac a'i dygasant hi o Eben-eser i Asdod.

2 A'r Philistiaid a gymmerasant arch DUW, ac a'i dygasant i mewn i dŷ Dagon, ac a'i gosodasant yn ymyl Dagon.

3 ¶ A'r Asdodiaid a gyfodasant yn fore drannoeth; ac wele Dagon wedi syrthio i lawr ar ei wyneb, ger bron arch yr ARGLWYDD. A hwy a gymmerasant Dagon, ac a'i gosodasant eilwaith yn ei le.

4 Codasant hefyd yn fore drannoeth; ac wele Dagon wedi syrthio i lawr ar ei wyneb, ger bron arch yr ARGLWYDD: a phen Dagon, a dwy gledr ei ddwylaw, *oedd* wedi torri ar y trothwy; *corph* Dagon yn unig a adawyd iddo ef.

5 Am hynny ni sathr offeiriaid Dagon, na neb a ddelo i mewn i dŷ Dagon, ar drothwy Dagon yn Asdod, hyd y dydd hwn.

6 A thrwm fu llaw yr ARGLWYDD ar yr Asdodiaid; ac efe a'u distrywiodd hwynt, ac a'u tarawodd hwynt, *sef* Asdod a'i therfynau, â chlwyf y marchogion.

7 A phan welodd gwŷr Asdod mai felly *yr oedd*, dywedasant, Ni chaiff arch DUW Israel aros gyd â ni: canys caled yw ei law ef arnom, ac ar Dagon ein duw.

8 Am hynny yr anfonasant, ac y casglasant holl arglwyddi y Philistiaid attynt; ac a ddywedasant, Beth a wnawn ni i arch DUW Israel? A hwy a attebasant, Dyger arch DUW Israel o amgylch *i* Gath. A hwy a ddygasant arch DUW Israel oddi amgylch *yno*.

9 Ac wedi iddynt ei dwyn hi o amgylch, bu llaw yr ARGLWYDD yn erbyn y ddinas â dinystr mawr iawn: ac efe a darawodd wŷr y ddinas o fychan hyd fawr, a chlwyf y marchogion oedd yn eu dirgel-leoedd.

10 Am hynny yr anfonasant hwy arch DUW i Ecron. A phan ddaeth arch DUW i Ecron, yr Ecroniaid a waeddasant, gan ddywedyd, Dygasant attom ni o amgylch arch DUW Israel, i'n lladd ni a'n pobl.

11 Am hynny yr anfonasant, ac y casglasant holl arglwyddi y Philistiaid: ac a ddywedasant, Danfonwch ymaith arch DUW Israel, a dychweler hi adref; fel na laddo hi ni a'n pobl: canys dinystr angeuol *oedd* trwy yr holl ddinas; trom iawn oedd llaw DUW yno.

12 A'r gwŷr, y rhai ni buant feirw, a darawyd â chlwyf y marchogion: a gwaedd y ddinas a ddyrchafodd *i*'r nefoedd.

PENNOD 6.

1 *Y Philistiaid, ar ôl saith o fisoedd, yn ymgynghori am anfon yr arch yn ei hol:* 10 *ac yn ei dwyn hi gyd âg offrwm ar fen newydd i Beth-semes.* 19 *Taro y bobl am edrych yn yr arch.* 21 *Hwythau yn anfon at wŷr Ciriath-jearim i'w chyrchu hi.*

ABU arch yr ARGLWYDD yng ngwlad y Philistiaid saith o fisoedd.

2 A'r Philistiaid a alwasant am yr offeiriaid ac am y dewiniaid, gan ddywedyd, Beth a wnawn ni i arch yr ARGLWYDD? hysbyswch i ni pa fodd yr anfonwn hi adref.

3 Dywedasant hwythau, Os ydych ar ddanfon ymaith arch DUW Israel, nac anfonwch hi yn wag; ond gan roddi rhoddwch iddo offrwm dros gamwedd: yna y'ch iachêir, ac y bydd hysbys i chwi paham nad ymadawodd ei law ef oddi wrthych chwi.

4 Yna y dywedasant hwythau, Beth *fydd* yr offrwm dros gamwedd a roddwn iddo? A hwy a ddywedasant, Pump o ffolennau aur, a phump o lygod aur, *yn ol* rhif arglwyddi y Philistiaid: canys yr un pla *oedd* arnoch chwi oll, ac ar eich arglwyddi.

5 Am hynny y gwnewch luniau eich ffolennau, a lluniau eich llygod sydd yn difwyno y tir; a rhoddwch ogoniant i DDUW Israel: ysgatfydd efe a ysgafnhâ ei law oddi arnoch, ac oddi ar eich duwiau, ac oddi ar eich tir.

6 A phaham y caledwch chwi eich calonnau, megis y caledodd yr Aiphtiaid a Pharaoh eu calon? pan wnaeth efe yn rhyfeddol yn eu plith hwy, oni ollyngasant hwy hwynt i fyned ymaith?

7 Yn awr gan hynny gwnewch fen newydd, a chymmerwch ddwy fuwch flith, y rhai nid aeth iau arnynt; a deliwch y buchod dan y fen, a dygwch eu lloi hwynt oddi ar eu hol i dŷ:

8 A chymmerwch arch yr ARGLWYDD, a rhoddwch hi ar y fen; a'r tlysau aur, y rhai a roddasoch iddi yn offrwm dros gamwedd, a osodwch mewn cist wrth ei hystlys hi, a gollyngwch hi i fyned ymaith.

9 Ac edrychwch, os â hi i fyny ar hyd ffordd ei bro ei hun i Beth-semes; *yna* efe a wnaeth i ni y mawr ddrwg hwn: ac onid ê, yna y cawn wybod nad ei law ef a'n tarawodd ni; *ond mai* damwain *oedd* hyn i ni.

10 ¶ A'r gwŷr a wnaethant felly: ac a gymmerasant ddwy fuwch flithion, ac a'u daliasant hwy dan y fen, ac a gauasant eu lloi mewn tŷ:

11 Ac a osodasant arch yr ARGLWYDD ar y fen, a'r gist â'r llygod aur, a lluniau eu ffolennau hwynt.

12 A'r buchod a aethant ar hyd y ffordd uniawn i ffordd Beth-semes; ar hyd y brif-ffordd yr aethant, dan gerdded a brefu, ac ni throisant tu a'r llaw ddehau na thu a'r aswy; ac arglwyddi y Philistiaid a aethant ar eu hol hyd derfyn Beth-semes.

13 A *thrigolion* Beth-semes *oedd* yn medi eu cynhauaf gwenith yn y dyffryn: ac a ddyrchafasant eu llygaid, ac a ganfuant yr arch; ac a lawenychasant wrth *ei* gweled.

14 A'r fen a ddaeth i fæs Josua y Beth-semesiad, ac a safodd yno; ac yno yr *oedd* maen mawr: a hwy a holltasant goed y fen, ac a offrymmasant y buchod yn boeth-offrwm i'r ARGLWYDD.

15 A'r Lefiaid a ddisgynasant arch yr ARGLWYDD, a'r gist yr hon *oedd* gyd â hi, yr hon *yr oedd* y tlysau aur ynddi, ac a'u gosodasant ar y maen mawr: a gwŷr Beth-semes a offrymmasant boeth-offrymmau, ac a aberthasant ebyrth i'r ARGLWYDD y dydd hwnnw.

16 A phum arglwydd y Philistiaid, pan welsant *hynny*, a ddychwelasant i Ecron y dydd hwnnw.

17 A dyma y ffolennau aur, y rhai a roddodd y Philistiaid yn offrwm dros gamwedd i'r ARGLWYDD; dros Asdod un, dros Gasah un, dros Ascalon un, dros Gath un, dros Ecron un:

18 A'r llygod aur, *yn ol* rhifedi holl ddinasoedd y Philistiaid, *yn perthynu* i'r pum arglwydd, *yn gystal* y dinasoedd caerog, a'r trefi heb gaerau, hyd y *maen* mawr Abel, yr hwn y gosodasant arno arch yr ARGLWYDD; *yr hwn sydd* hyd y dydd hwn ym maes Josua y Beth-semesiad.

19 ¶ Ac efe a darawodd wŷr Beth-semes, am iddynt edrych yn arch yr ARGLWYDD, ïe, tarawodd o'r bobl ddengwr a thri ugain a deng mil a deugain o wŷr. A'r bobl a alarasant, am i'r ARGLWYDD daro y bobl â lladdfa fawr.

20 A gwŷr Beth-semes a ddywedasant, Pwy a ddichon sefyll yn wyneb yr ARGLWYDD DDUW sanctaidd hwn? ac at bwy yr âi efe oddi wrthym ni?

21 ¶ A hwy a anfonasant genhadau at drigolion Ciriath-jearim, gan ddywedyd, Y Philistiaid a ddygasant adref arch yr ARGLWYDD; deuwch i waered, *a* chyrchwch hi i fyny attoch chwi.

PENNOD 7.

1 *Gwŷr Ciriath-jearim yn dwyn yr arch i dŷ Abinadab, ac yn cyssegru Eleasar ei fab ef i w chadw hi.* 2 *Yn mhen ugain mlynedd,* 3 *yr Israeliaid, trwy waith Samuel, yn edifarhau*

ar gyhoedd ym Mispah. 9 Tra yr ydoedd Samuel yn gweddïo ac yn aberthu, yr Arglwydd yn dryllio y Philistiaid ô tharanau, yn Ebeneser. 13 Darostwng y Philistiaid. 15 Samuel yn barnu Israel yn heddychlawn ac yn ddiwiol.

AGWYR Ciriath-jearim a ddaethant, ac a gyrchasant i fyny arch yr ARGLWYDD, ac a'i dygasant hi i dŷ Abinadab, yn y bryn, ac a sancteiddiasant Eleasar ei fab ef i gadw arch yr ARGLWYDD.

2 Ac o'r dydd y trigodd yr arch yn Ciriath-jearim, y bu ddyddiau lawer; nid amgen nag ugain mlynedd: a holl dŷ Israel a alarasant ar ol yr ARGLWYDD.

3 ¶ A Samuel a lefarodd wrth holl dŷ Israel, gan ddywedyd, Os dychwelwch chwi at yr ARGLWYDD â'ch holl galon, bwriwch ymaith y duwiau dieithr o'ch mysg, ac Astaroth, a pharottôwch eich calon at yr ARGLWYDD, a gwasanaethwch ef yn unig; ac efe a'ch gwared chwi o law y Philistiaid.

4 Yna meibion Israel a fwriasant ymaith Baalim ac Astaroth, a'r ARGLWYDD yn unig a wasanaethasant.

5 A dywedodd Samuel, Cesglwch holl Israel i Mispah, a mi a weddïaf drosoch chwi at yr ARGLWYDD.

6 A hwy a ymgasglasant i Mispah, ac a dynnasant ddwfr, ac a'i tywalltasant ger bron yr ARGLWYDD, ac a ymprydiasant y diwrnod hwnnw, ac a ddywedasant yno, Pechasom yn erbyn yr ARGLWYDD. A Samuel a farnodd feibion Israel ym Mispah.

7 A phan glybu y Philistiaid fod meibion Israel wedi ymgasglu i Mispah, arglwyddi y Philistiaid a aethant i fyny yn erbyn Israel: a meibion Israel a glywsant, ac a ofnasant rhag y Philistiaid.

8 A meibion Israel a ddywedasant wrth Samuel, Na thaw di â gwaeddi drosom at yr ARGLWYDD ein DUW, ar iddo ef ein gwared ni o law y Philistiaid.

9 ¶ A Samuel a gymmerth laethoen, ac a'i hoffrymmodd ef i gyd yn boeth-offrwm i'r ARGLWYDD: a Samuel a waeddodd ar yr ARGLWYDD dros Israel; a'r ARGLWYDD a'i gwrandawodd ef.

10 A phan oedd Samuel yn offrymmu y poeth-offrwm, y Philistiaid a nesasant i ryfel yn erbyn Israel: a'r ARGLWYDD a daranodd â tharanau mawr yn erbyn y Philistiaid y diwrnod hwnnw, ac a'u dryliiodd hwynt, a lladdwyd hwynt o flaen Israel.

11 A gwŷr Israel a aethant o Mispah, ac a erlidiasant y Philistiaid, ac a'u tarawsant hyd oni *ddaethant* dan Bethcar.

12 A chymmerodd Samuel faen, ac a'i gosododd rhwng Mispah a Sen, ac a alwodd ei enw ef Eben-eser; ac a ddywedodd, Hyd yma y cynnorthwyodd yr ARGLWYDD nyni.

13 ¶ Felly y darostyngwyd y Philistiaid, ac ni chwanegasant mwyach ddyfod i derfyn Israel: a llaw yr ARGLWYDD a fu yn erbyn y Philistiaid holl ddyddiau Samuel.

14 A'r dinasoedd, y rhai a ddygasai y Philistiaid oddi ar Israel, a roddwyd adref i Israel, o Ecron hyd Gath; ac Israel a ryddhaodd eu terfynau o law y Philistiaid: ac yr oedd heddwch rhwng Israel a'r Amoriaid.

15 A Samuel a farnodd Israel holl ddyddiau ei fywyd.

16 Aeth hefyd o flwyddyn i flwyddyn oddi amgylch i Bethel, a Gilgal, a Mispah, ac a farnodd Israel yn yr holl leoedd hynny.

17 A'i ddychwelfa *ydoedd* i Ramah; canys yno *yr oedd* ei dŷ ef: yno hefyd y barnai efe Israel; ac yno yr adeiladodd efe allor i'r ARGLWYDD.

PENNOD 8.

1 Yr Israeliaid, o achos aftywodraeth meibion Samuel, yn gofyn brenhin. 6 Duw yn cysuro Samuel; ac ynlau yn gweddïo yn gystuddiol: 10 yn mynegi dull brenhin. 19 Duw yn ewyllysio i Samuel ymroi i daerni meibion Israel.

AC wedi heneiddio Samuel, efe a osododd ei feibion yn farnwyr ar Israel.

2 Ac enw ei fab cyntaf-anedig ef oedd Jöel; ac enw yr ail, Abïah: *y rhai hyn oedd* farnwyr yn Beerseba.

3 A'i feibion ni rodiasant yn ei ffyrdd ef, eithr troisant ar ol cybydd-dra, a chymmerasant obrwy, a gwŷrasant farn.

4 Yna holl henuriaid Israel a ymgasglasant, ac a ddaethant at Samuel i Ramah,

5 Ac a ddywedasant wrtho ef, Wele, ti a heneiddiaist, a'th feibion ni rodiant yn dy ffyrdd di: yn awr gosod arnom ni frenhin i'n barnu, megis yr holl genhedloedd.

6 ¶ A'r ymadrodd fu ddrwg gan Samuel, pan ddywedasant, Dyro i ni frenhin i'n barnu: a Samuel a weddïodd ar yr ARGLWYDD.

7 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Samuel, Gwrando ar lais y bobl yn yr hyn oll a ddywedant wrthyt: canys nid ti y maent yn ei wrthod, ond myfi a wrthodasant, rhag i mi deyrnasu arnynt.

8 Yn ol yr holl weithredoedd a wnaethant o'r dydd y dygais hwynt o'r Aipht hyd y dydd hwn, ac *fel* y gwrthodasant fi, ac y gwasanaethasant dduwiau dïeithr; felly y gwnant hwy hefyd i ti.

9 Yn awr gan hynny gwrando ar eu llais hwynt: etto gan dystiolaethu tystiolaetha iddynt, a dangos iddynt ddull y brenhin a deyrnasa arnynt.

10 ¶ A Samuel a fynegodd holl eiriau yr ARGLWYDD wrth y bobl, y rhai oedd yn ceisio brenhin ganddo.

11 Ac efe a ddywedodd, Dyma ddull y brenhin a deyrnasa arnoch chwi: Efe a gymmer eich meibion, ac a'*u* gesyd iddo yn ei gerbydau, ac yn wŷr meirch iddo, ac i redeg o flaen ei gerbydau ef:

12 Ac a'u gesyd *hwynt* iddo yn dywysogion miloedd, ac yn dywysogion deg a deugain, ac i aredig ei âr, ac i fedi ei gynhauaf, ac i wneuthur arfau ei ryfel, a pheiriannau ei gerbydau.

13 A'ch merched a gymmer efe yn apothecaresau, yn gogesau hefyd, ac yn bobyddesau.

14 Ac efe a gymmer eich meusydd, a'ch gwinllannoedd, a'ch olewlannoedd goreu, ac a'*u* dyry i'w weision.

15 Eich hadau hefyd a'ch gwinllannoedd a ddegymma efe, ac a'u dyry i'w ystafellyddion ac i'w weision.

16 Eich gweision hefyd, a'ch morwynion, eich gwŷr ieuainge goreu hefyd, a'ch asynod, a gymmer efe, ac a'*u* gesyd i'w waith.

17 Eich defaid hefyd a ddegymma efe: chwithau hefyd fyddwch yn weision iddo ef.

18 A'r dydd hwnnw y gwaeddwch, rhag eich brenhin a ddewisasoch i chwi: ac ni wrendy yr ARGLWYDD arnoch yn y dydd hwnnw.

19 ¶ Er hynny y bobl a wrthodasant wrandaw ar lais Samuel; ac a ddywedasant, Nag ê, eithr brenhin fydd arnom ni:

20 Fel y byddom ninnau hefyd fel yr holl genhedloedd; a'n brenhin a'n barna ni, efe a â allan hefyd o'n blaen ni, ac efe a ymladd ein rhyfeloedd ni.

21 A gwrandawodd Samuel holl eiriau y bobl, ac a'u hadroddodd hwynt lle y clybu yr ARGLWYDD.

22 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Samuel, Gwrando ar eu llais hwynt, a gosod frenhin arnynt. A dywedodd Samuel wrth wŷr Israel, Ewch bob un i'w ddinas ei hun.

PENNOD 9.

1 *Saul yn anobeithio cael asynod ei dad,* 6 *trwy gynghor ei was,* 11 *a chyfarwyddiad llangcesau,* 15 *yn dyfod trwy ddatguddiad Duw* 18 *at Samuel.* 19 *Samuel yn croesawu Saul yn y wledd;* 25 *ac, ar ol ymddiddan ag ef o'r neilldu, yn hebrwng Saul ar ei ffordd.*

AC yr oedd gŵr o Benjamin, a'i enw Cis, mab Abïel, mab Seror, mab Bechorath, mab Aphïah, mab i ŵr o Jemini, yn gadarn o nerth.

2 Ac iddo ef yr oedd mab, a'i enw Saul, yn ŵr ieuangc, dewisol a glân: ac nid *oedd* neb o feibion Israel lanach nag ef: o'i ysgwydd i fyny *yr oedd* yn uwch na'r holl bobl.

3 Ac asynod Cis, tad Saul, a gyfrgollasant: a dywedodd Cis wrth Saul ei fab, Cymmer yn awr un o'r llangciau gyd â thi, a chyfod, dos, cais yr asynod.

4 Ac efe a aeth trwy fynydd Ephraim, ac a dramwyodd trwy wlad Salisah, ac nis cawsant *hwynt:* yna y tramwyasant trwy wlad Salim, ac nis *cawsant hwynt:* ac efe a aeth trwy wlad Jemini, ond nis cawsant *hwynt.*

5 Pan ddaethant i wlad Suph, y dywedodd Saul wrth ei langc *oedd* gyd âg ef, Tyred, a dychwelwn; rhag i'm tad beidio â'r asynod, a gofalu am danom ni.

6 Dywedodd yntau wrtho ef, Wele, yn awr *y mae* yn y ddinas hon ŵr i DDUW, a'r gŵr *sydd* anrhydeddus; yr hyn oll a ddywedo efe, gan ddyfod a ddaw: awn yno yn awr; nid hwyrach y mynega efe i ni y ffordd y mae i ni fyned iddi.

7 Yna y dywedodd Saul wrth ei langc, Wele, *od* awn ni, pa beth a ddygwn ni i'r gŵr? canys y bara a ddarfu yn ein llestri ni, a gwobr *arall* nid *oes* i'w ddwyn i ŵr DUW: beth *sydd* gennym?

8 A'r llangc a attebodd eilwaith i Saul, ac a ddywedodd, Wele, cafwyd gyd â mi bedwaredd ran sicl o arian: mi a roddaf *hynny* i ŵr DUW, er mynegi i ni ein ffordd.

9 (Gynt yn Israel, fel hyn y dywedai gŵr wrth fyned i ymgynghori â DUW; Deuwch, ac awn hyd at y gweledydd: canys y Prophwyd heddyw, a elwid gynt yn Weledydd.)

10 Yna y dywedodd Saul wrth ei langc, Da y dywedi; tyred, awn. Felly yr aethant i'r ddinas *yr oedd* gŵr DUW ynddi.

11 ¶ *Ac* fel yr oeddynt yn myned i riw y ddinas, hwy a gawsant langcesau yn dyfod allan i dynnu dwfr; ac a ddywedasant wrthynt, A yw y gweledydd yma?

12 Hwythau a'u hattebasant hwynt, ac a ddywedasant, Ydyw; wele *efe* o'th flaen: brysia yr awr hon: canys heddyw y daeth efe i'r ddinas; o herwydd aberth *sydd* heddyw gan y bobl yn yr uchelfa.

13 Pan ddeloch gyntaf i'r ddinas, chwi a'i cewch ef, cyn ei fyned i fyny i'r uchelfa i fwytta: canys ni fwytty y bobl hyd oni ddelo efe, o herwydd efe a fendiga yr aberth; ar ol hynny y bwytty y rhai a wahoddwyd: am hynny ewch i fyny; canys ynghylch y pryd hwn y cewch ef.

14 A hwy a aethant i fyny i'r ddinas; *a phan* ddaethant i ganol y ddinas, wele Samuel yn dyfod i'w cyfarfod, i fyned i fyny i'r uchelfa.

15 ¶ A'r ARGLWYDD a fynegasai y'nghlust Samuel, ddiwrnod cyn dyfod Saul, gan ddywedyd,

16 Ynghylch y pryd *hwn* y fory yr anfonaf attat ti ŵr o wlad Benjamin; a thi a'i henneini ef yn flaenor ar fy mhobl Israel, ac efe a wared fy mhobl o law y Philistiaid: canys edrychais ar fy mhobl; o herwydd daeth eu gwaedd attaf.

17 A phan ganfu Samuel Saul, yr ARGLWYDD a ddywedodd wrtho ef, Wele y gŵr am yr hwn y dywedais wrthyt: hwn a lywodraetha ar fy mhobl.

18 Yna Saul a nesaodd at Samuel y'nghanol y porth, ac a ddywedodd, Mynega i mi, attolwg, pa le yma *y mae* tŷ y gweledydd.

19 A Samuel a attebodd Saul, ac a ddywedodd, Myfi *yw* y gweledydd: dos i fyny o'm blaen i'r uchelfa; canys bwyttêwch gyd â myfi heddyw: a mi a'th ollyngaf y bore, ac a fynegaf i ti yr hyn oll *y sydd* yn dy galon.

20 Ac *am* yr asynod a gyfrgollasant er ys tridiau, na ofala am danynt; canys cafwyd hwynt. Ac i bwy *y mae* holl bethau dymunol Israel? onid i ti, ac i holl dŷ dy dad?

21 A Saul a attebodd ac a ddywedodd, Onid mab Jemini *ydwyf* fi, o'r lleiaf o lwythau Israel? a'm teulu *sydd* leiaf o holl deuluoedd llwyth Benjamin? a phaham y dywedi wrthyf y modd hyn?

22 A Samuel a gymmerth Saul a'i langc, ac a'u dug hwynt i'r ystafell, ac a roddodd iddynt le o flaen y gwahoddedigion; a hwy *oeddynt* ynghylch dengwr ar hugain.

23 A Samuel a ddywedodd wrth y côg, Moes y rhan a roddais attat ti, am yr hon y dywedais wrthyt, Cadw hon gyd â thi.

24 A'r côg a gyfododd yr ysgwyddog, a'r hyn *oedd* arni, ac a'i gosododd ger bron Saul. A *Samuel* a ddywedodd, Wele yr hyn a adawyd; gosod ger dy fron, *a* bwytta: canys hyd y pryd hwn y cadwyd ef i ti, er pan ddywedais, Y bobl a wahoddais i. A bwyttaodd Saul gyd â Samuel y dydd hwnnw.

25 ¶ A phan ddisgynasant o'r uchelfa *i*'r ddinas, *Samuel* a ymddiddanodd â Saul ar ben y tŷ.

26 A hwy a gyfodasant yn fore: ac ynghylch codiad y wawr, galwodd Samuel ar Saul i ben y tŷ, gan ddywedyd, Cyfod, fel y'th hebryng-

wyf ymaith. A Saul a gyfododd, ac efe a Samuel a aethant ill dau allan.

27 *Ac* fel yr oeddynt yn myned i waered i gwr eithaf y ddinas, Samuel a ddywedodd wrth Saul, Dywed wrth y llangc am fyned o'n blaen ni; (felly yr aeth efe;) ond saf di yr awr hon, a mynegaf i ti air DUW.

PENNOD 10.

1 *Samuel yn enneinio Saul; 2 ac yn ei sicrhau ef trwy dri arwydd. 9 Troi calon Saul; ac ymtau yn prophwydo. 14 Yn celu chwedl y frenhiniaeth rhag ei ewythr. 17 Dewis Saul trwy goelbren ym Mispah. 26 Amryw feddyliau ei ddeiliaid am dano ef.*

YNA Samuel a gymmerodd phiolaid o olew, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef, ac a'i cusanodd ef; ac a ddywedodd, Onid yr ARGLWYDD a'th enneiniodd di yn flaenor ar ei etifeddiaeth?

2 Pan elych di heddyw oddi wrthyf, yna y cei ddau ŵr wrth fedd Rahel, yn nherfyn Benjamin, yn Selsah: a hwy a ddywedant wrthyt, Cafwyd yr asynod yr aethost i'w ceisio: ac wele, dy dad a ollyngodd heibio chwedl yr asynod, a gofalu y mae am danoch chwi, gan ddywedyd, Beth a wnaf ami fy mab?

3 Yna yr âi di ym mhellach oddi yno, ac y deui hyd wastadedd Tabor: ac yno y'th gyferfydd triwyr yn myned i fyny at DDUW *i* Bethel; un yn dwyn tri o fynnod, ac un yn dwyn tair torth o fara, ac un yn dwyn costrelaid o win.

4 A hwy a gyfarchant well i ti, ac a roddant i ti ddwy *dorth* o fara; *y rhai* a gymmeri o'u llaw hwynt.

5 Ar ol hynny y deui i fryn DUW, yn yr hwn *y mae* sefyllfa y Philistiaid: a phan ddelych yno *i'r* ddinas, ti a gyfarfyddi â thyrfa o brophwydi yn disgyn o'r uchelfa, ac o'u blaen hwynt nabl, a thympan, a phibell, a thelyn; a hwythau yn prophwydo.

6 Ac ysgryd yr ARGLWYDD a ddaw arnat ti; a thi a brophwydi gyd â hwynt, ac a droir yn ŵr arall.

7 A phan ddelo yr argoelion hyn i ti, gwna fel y byddo yr achos: canys DUW *sydd* gyd â thi.

8 A dos i waered o'm blaen i Gilgal: ac wele, mi a ddeuaf i waered attat ti, i offrymmu offrymmau poeth, *ac* i aberthu ebyrth hedd: aros am danaf saith niwrnod, hyd oni ddelwyf attat, a mi a hysbysaf i ti yr hyn a wnelych.

9 ¶ A phan drodd efe ei gefn i fyned oddi wrth Samuel, DUW a roddodd iddo galon arall: a'r holl argoelion hynny a ddaethant y dydd hwnnw *i ben.*

10 A phan ddaethant yno i'r bryn, wele fintai o brophwydi yn ei gyfarfod ef: ac ysgryd DUW a ddaeth arno yntau, ac efe a brophwydodd yn eu mysg hwynt.

11 A phawb a'r a'i hadwaenai ef o'r blaen a edrychasant; ac wele *efe* gyd â'r prophwydi yn prophwydo. Yna y bobl a ddywedasant bawb wrth eu gilydd, Beth *yw* hyn a ddaeth i fab Cis? *A ydyw* Saul hefyd ym mysg y prophwydi?

12 Ac un oddi yno a attebodd, ac a ddywedodd, Etto pwy *yw* eu tad hwy? Am hynny yr aeth yn ddïareb, *A ydyw* Saul hefyd ym mysg y prophwydi?

13 Ac wedi darfod iddo brophwydo, efe a ddaeth i'r uchelfa.

14 ¶ Ac ewythr Saul a ddywedodd wrtho ef, ac wrth ei langc ef, I ba le yr aethoch? Ac efe a ddywedodd, I geisio yr asynod: a phan welsom nas *ceid*, ni a ddaethom at Samuel.

15 Ac ewythr Saul a ddywedodd, Mynega, attolwg, i mi, beth a ddywedodd Samuel wrthych chwi.

16 A Saul a ddywedodd wrth ei ewythr, Gan fynegi mynegodd i ni fod yr asynod wedi eu cael. Ond am chwedl y frenhiniaeth, yr hwn a ddywedasai Samuel, nid ynganodd efe wrtho.

17 ¶ A Samuel a alwodd y bobl ynghyd at yr ARGLWYDD i Mispah;

18 Ac a ddywedodd wrth feibion Israel, Fel hyn y dywedodd ARGLWYDD DDUW Israel; Myfi a ddygais i fyny Israel o'r Aipht, ac a'ch gwaredais chwi o law yr Aiphtiaid, ac o law yr holl deyrnasoedd, *a'r* rhai a'ch gorthrymment chwi.

19 A chwi heddyw a wrthodasoch eich DUW, yr hwn sydd yn eich gwared chwi oddi wrth eich holl ddrygfyd, a'ch helbul; ac a ddywedasoch wrtho ef, *Nid felly;* eithr

gosod arnom ni frenhin. Am hynny sefwch yr awr hon ger bron yr ARGLWYDD wrth eich llwythau, ac wrth eich miloedd.

20 A Samuel a barodd i holl lwythau Israel nesâu: a daliwyd llwyth Benjamin.

21 Ac wedi iddo beri i lwyth Benjamin nesâu yn ol eu teuluoedd, daliwyd teulu Matri; a Saul mab Cis a ddaliwyd: a phan geisiasant ef, nis ceid ef.

22 Am hynny y gofynasant etto i'r ARGLWYDD, a ddeuai y gŵr yno etto. A'r ARGLWYDD a ddywedodd, Wele efe yn ymguddio ym mhlith y dodrefn.

23 A hwy a redasant, ac a'i cyrchasant ef oddi yno. A phan safodd y'nghanol y bobl, yr oedd efe o'i ysgwydd i fyny yn uwch na'r holl bobl.

24 A dywedodd Samuel wrth yr holl bobl, A welwch chwi yr hwn a ddewisodd yr ARGLWYDD, nad *oes neb* tebyg iddo ym mysg yr holl bobl? A'r holl bobl a floeddiasant, ac a ddywedasant, Byw fyddo y brenhin.

25 Yna Samuel a draethodd gyfraith y deyrnas wrth y bobl, ac a'*i* hysgrifenodd mewn llyfr, ac a'*i* gosododd ger bron yr ARGLWYDD. A Samuel a ollyngodd ymaith yr holl bobl, bob un i'w dŷ.

26 ¶ A Saul hefyd a aeth i'w dŷ ei hun i Gibeah; a byddin o'r rhai y cyffyrddasâi DUW â'u calon, a aeth gyd âg ef.

27 Ond meibion Belial a ddywedasant, Pa fodd y gwared hwn ni? A hwy a'i dirmygasant ef, ac ni ddygasant anrheg iddo ef. Eithr ni chymmerodd efe arno glywed hyn.

PENNOD 11.

1 *Nahas yn cymnyg i wŷr Jabes Gilead ammodau gwaradwyddus.* 4 *Hwythau yn anfon cenhadon, ac yn cael cynnorthwy gan Saul.* 12 *Yntau wrth hynny yn cael ei gadarnhau, ac adnewyddu ei frenhiniaeth.*

YNA Nahas yr Ammoniad a ddaeth i fyny, ac a wersyllodd yn erbyn Jabes Gilead: a holl wŷr Jabes a ddywedasant wrth Nahas, Gwna gyfammod â ni, ac ni a'th wasanaethwn di.

2 A Nahas yr Ammoniad a ddywedodd wrthynt, Dan *yr ammod* hyn *y cyfammodaf* â chwi; i mi gael tynnu pob llygad dehau i chwi, fel y gosodwyf y gwaradwydd hwn ar holl Israel.

3 A henuriaid Jabes a ddywedasant wrtho, Caniattâ i ni saith niwrnod, fel yr anfonom genhadau i holl derfynau Israel: ac oni *bydd* a'n gwaredo, ni a ddeuwn allan attat ti.

4 ¶ A'r cenhadau a ddaethant i Gibeah Saul, ac a adroddasant y geiriau lle y clybu y bobl. A'r holl bobl a ddyrchafasant eu llef, ac a wylasant.

5 Ac wele Saul yn dyfod ar ol y gwartheg o'r maes. A dywedodd Saul, Beth *sydd* yn peri i'r bobl wylo? Yna yr adroddasant iddo eiriau gwŷr Jabes.

6 Ac yspryd DUW a ddaeth ar Saul, pan glybu efe y geiriau hynny; a'i ddigofaint ef a ennynodd yn ddirfawr.

7 Ac efe a gymmerth bâr o ychain, ac a'u drylliodd, ac a'*u* danfonodd trwy holl derfynau Israel yn llaw y cenhadau; gan ddywedyd, Yr hwn nid elo ar ol Saul, ac ar ol Samuel, fel hyn y gwneir i'w wartheg ef. Ac ofn yr ARGLWYDD a syrthiodd ar y bobl, a hwy a ddaethant allan yn unfryd.

8 A phan gyfrifodd efe hwynt yn Besec, meibion Israel oedd dri chan mil, a gwŷr Judah yn ddeng mil ar hugain.

9 A hwy a ddywedasant wrth y cenhadau a ddaethai, Fel hyn y dywedwch wrth wŷr Jabes Gilead; Y fory, erbyn gwresogi yr haul, bydd i chwi ymwared. A'r cenhadau a ddaethant ac a fynegasant *hynny* i wŷr Jabes; a hwythau a lawenychasant.

10 Am hynny gwŷr Jabes a ddywedasant, Y fory y deuwn allan attoch chwi; ac y gwnewch i ni yr hyn oll a weloch yn dda.

11 A bu drannoeth i Saul osod y bobl yn dair byddin; a hwy a ddaethant i ganol y gwersyll yn y wyliadwriaeth fore, ac a laddasant yr Ammoniaid nes gwresogi o'r dydd: a'r gweddillion a wasgarwyd, fel na thrigodd o honynt ddau ynghyd.

12 ¶ A dywedodd y bobl wrth Samuel, Pwy *yw* yr hwn a ddywedodd, A deyrnasa Saul arnom ni? moeswch y gwŷr *hynny*, fel y rhoddom hwynt i farwolaeth.

13 A Saul a ddywedodd, Ni roddir neb i farwolaeth heddyw: canys heddyw y gwnaeth yr ARGLWYDD ymwared yn Israel.

14 Yna Samuel a ddywedodd wrth y bobl, Deuwch, fel yr elom i Gilgal, ac yr adnewyddom y frenhiniaeth yno.

15 A'r holl bobl a aethant i Gilgal, ac yno y gwnaethant Saul yn frenhin, ger bron yr ARGLWYDD yn Gilgal: a hwy a aberthasant yno ebyrth hedd ger bron yr ARGLWYDD. A Saul a lawenychodd yno, a holl wŷr Israel, yn ddirfawr.

PENNOD 12.

1 *Samuel yn tystiolaethu ei ddiniweidrwydd, 6 ac yn ceryddu anniolchgarwch y bobl: 16 yn eu dychrynu hwynt â tharanau yn amser cynhauaf: 20 ac yn eu cysuro hwy â thrugaredd Duw.*

A SAMUEL a ddywedodd wrth holl Israel, Wele, gwrandewais ar eich llais yn yr hyn oll a ddywedasoch wrthyf, a gosodais frenhin arnoch.

2 Ac yr awr hon, wele y brenhin yn rhodio o'ch blaen chwi: a minnau a heneiddiais, ac a benwynnais; ac wele fy meibion hwythau gyd â chwi; a minnau a rodiais o'ch blaen chwi o'm mebyd hyd y dydd hwn.

3 Wele fi; tystiolaethwch i'm herbyn ger bron yr ARGLWYDD, a cher bron ei enneiniog: ŷch pwy a gymmerais? neu asyn pwy a gymmerais? neu pwy a dwyllais? neu pwy a orthrymmais i? neu o law pwy y cymmerais wobr, i ddallu fy llygaid âg ef? a mi a'i talaf i chwi.

4 A hwy a ddywedasant, Ni thwyllaist ni, ni orthrymmaist ni chwaith, ac ni chymmeraist ddim o law neb.

5 Dywedodd yntau wrthynt, Yr ARGLWYDD *sydd* dyst yn eich erbyn chwi, ei enneiniog ef hefyd *sydd* dyst y dydd hwn, na chawsoch ddim yn fy llaw i. A'*r bobl a* ddywedasant, Tyst *ydyw*.

6 ¶ A Samuel a ddywedodd wrth y bobl, Yr ARGLWYDD *yw* yr hwn a fawrhaodd Moses ac Aaron, a'r hwn a ddug i fyny eich tadau chwi o dir yr Aipht.

7 Yn awr gan hynny sefwch, fel yr ymresymmwyf â chwi ger bron yr ARGLWYDD, am holl gyfiawnderau yr ARGLWYDD, y rhai a wnaeth efe i chwi ac i'ch tadau.

8 Wedi i Jacob ddyfod i'r Aipht, a gweiddi o'ch tadau chwi ar yr ARGLWYDD, yna yr ARGLWYDD a anfonodd Moses ac Aaron: a hwy a ddygasant eich tadau chwi o'r Aipht, ac a'u cyfleasant hwy yn y lle hwn.

9 A phan anghofiasant yr ARGLWYDD eu DUW, efe a'u gwerthodd hwynt i law Sisera, tywysog milwriaeth Hasor, ac i law y Philistiaid, ac i law brenhin Moab; a hwy a ymladdasant i'w herbyn hwynt.

10 A hwy a waeddasant ar yr ARGLWYDD, ac a ddywedasant, Pechasom, am i ni wrthod yr ARGLWYDD, a gwasanaethu Baalim ac Astaroth: er hynny gwared ni yr awr hon o law ein gelynion, a nyni a'th wasanaethwn di.

11 A'r ARGLWYDD a anfonodd Jerubbaal, a Bedan, a Jephthah, a Samuel, ac a'ch gwaredodd chwi o law eich gelynion o amgylch, a chwi a breswyliasoch yn ddiogel.

12 A phan welsoch fod Nahas brenhin meibion Ammon yn dyfod yn eich erbyn, dywedasoch wrthyf, Nag ê; ond brenhin a deyrnasa arnom ni; a'r ARGLWYDD eich DUW yn frenhin *i* chwi.

13 Ac yn awr, wele y brenhin a ddewisasoch chwi, *a'r* hwn a ddymunasoch: ac wele, yr ARGLWYDD a roddes frenhin arnoch chwi.

14 Os ofnwch chwi yr ARGLWYDD, a'i wasanaethu ef, a gwrandaw ar ei lais, heb anufuddhâu gair yr ARGLWYDD; yna y byddwch chwi, a'r brenhin hefyd a deyrnasa arnoch, ar ol yr ARGLWYDD eich DUW.

15 Ond os chwi ni wrandêwch ar lais yr ARGLWYDD, eithr anufuddhâu gair yr ARGLWYDD; yna y bydd llaw yr ARGLWYDD yn eich erbyn chwi, fel yn erbyn eich tadau.

16 ¶ Sefwch gan hynny yn awr, a gwelwch y peth mawr hyn a wna yr

ARGLWYDD o flaen eich llygaid chwi.

17 Onid cynhauaf gwenith *yw* heddyw? Galwaf ar yr ARGLWYDD; ac efe a ddyry daranau, a gwlaw: fel y gwybyddoch ac y gweloch, mai mawr *yw* eich drygioni chwi yr hwn a wnaethoch y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn gofyn i chwi frenhin.

18 Felly Samuel a alwodd ar yr ARGLWYDD; a'r ARGLWYDD a roddodd daranau a gwlaw y dydd hwnnw; a'r holl bobl a ofnodd yr ARGLWYDD a Samuel yn ddirfawr.

19 A'r holl bobl a ddywedasant wrth Samuel, Gweddïa dros dy weision ar yr ARGLWYDD dy DDUW, fel na byddom feirw; canys chwanegasom ddrygioni ar ein holl bechodau, wrth geisio i ni frenhin.

20 ¶ A dywedodd Samuel wrth y bobl, Nac ofnwch; chwi a wnaethoch yr holl ddrygioni hyn: etto na chiliwch oddi ar ol yr ARGLWYDD, ond gwasanaethwch yr ARGLWYDD â'ch holl galon;

21 Ac na chiliwch: canys *felly yr aech* ar ol oferedd, y rhai ni lesânt, ac ni'ch gwaredant; canys ofer *ydynt* hwy.

22 Canys ni wrthyd yr ARGLWYDD ei bobl, er mwyn ei enw mawr: o herwydd rhyngodd bodd i'r ARGLWYDD eich gwneuthur chwi yn bobl iddo ei hun.

23 A minnau, na atto DUW i mi bechu yn erbyn yr ARGLWYDD, trwy beidio â gweddïo drosoch: eithr dysgaf i chwi y ffordd dda ac uniawn.

24 Yn unig ofnwch yr ARGLWYDD, a gwasanaethwch ef mewn gwirionedd â'ch holl galon: canys gwelwch faint a wnaeth efe eroch.

25 Ond os dilynwch ddrygioni, chwi a'ch brenhin a ddifethir.

PENNOD 13.

1 *Dewis fyddin Saul.* 3 *Saul yn galw yr Hebreaid i Gilgal yn erbyn y Philistiaid, y rhai y tarawsai Jonathan eu sefyllfa.* 5 *Mawr lu y Philistiaid.* 6 *Cyfyngdra yr Israeliaid.* 8 *Saul yn blino ar aros am Samuel, ac yn aberthu.* 11 *Samuel yn ei geryddu ef.* 17 *Tair byddin anrhaith y Philistiaid.* 19 *Dyfais y Philistiaid, na ddioddefent un gôf yn Israel.*

SAUL a deyrnasodd un flwyddyn; ac wedi iddo deyrnasu ddwy flynedd ar Israel,

2 Saul a ddewisodd iddo dair mil o Israel; dwy fil oedd gyd â Saul ym Michmas ac ym mynydd Bethel, a mil oedd gyd â Jonathan yn Gibeah Benjamin: a'r bobl eraill a anfonodd efe bawb i'w babell ei hun.

3 A Jonathan a darawodd sefyllfa y Philistiaid, yr hon *oedd* yn Geba: a chlybu y Philistiaid *hynny.* A Saul a ganodd mewn udgorn trwy yr holl dir, gan ddywedyd, Clywed yr Hebreaid.

4 A holl Israel a glywsant ddywedyd daro o Saul sefyllfa y Philistiaid, a bod Israel yn ffiaidd gan y Philistiaid: a'r bobl a ymgasglodd ar ol Saul i Gilgal.

5 ¶ A'r Philistiaid a ymgynnullasant i ymladd âg Israel, deng mil ar hugain o gerbydau, a chwe mil o wŷr meirch, a phobl *eraill* cyn amled a'r tywod *sydd* ar fin y môr. A hwy a ddaethant i fyny, ac a wersyllasant ym Michmas, o du y dwyrain i Beth-afen.

6 Pan welodd gwŷr Israel fod yn gyfyng arnynt, (canys gwasgasid ar y bobl,) yna y bobl a ymguddiasant mewn ogofeydd, ac mewn dyrysni, ac mewn creigiau, ac mewn tyrau, ac mewn pydewau.

7 A *rhai* o'r Hebreaid a aethant dros yr Iorddonen, i dir Gad a Gilead: a Saul *oedd* etto yn Gilgal, a'r holl bobl a aethant ar ei ol ef dan grynu.

8 ¶ Ac efe a arhosodd saith niwrnod, hyd yr amser gosodedig *a nodasai* Samuel. Ond ni ddaeth Samuel i Gilgal; a'r bobl a ymwasgarodd oddi wrtho ef.

9 A Saul a ddywedodd, Dygwch attaf fi boeth-offrwm, ac offrymmau hedd. Ac efe a offrymmodd y poeth-offrwm.

10 Ac wedi darfod iddo offrymmu y poeth-offrwm, wele, Samuel a ddaeth: a Saul a aeth allan i'w gyfarfod ef, *ac* i gyfarch gwell iddo.

11 ¶ A dywedodd Samuel, Beth a wnaethost ti? A Saul a ddywedodd, O herwydd gweled o honof i'r bobl ymwasgaru oddi wrthyf, ac na ddaethost tithau o fewn y dyddiau gosodedig, ac i'r Philistiaid ymgasglu i Michmas;

12 Am hynny y dywedais, Y Phi-

listiaid yn awr a ddeuant i waered attaf fi i Gilgal, ac ni weddïais ger bron yr ARGLWYDD: am hynny yr anturiais i, ac yr offrymmais boethoffrwm.

13 A Samuel a ddywedodd wrth Saul, Ynfyd y gwnaethost: ni chedwaist orchymyn yr ARGLWYDD dy DDUW, yr hwn a orchymynodd efe i ti: canys yr ARGLWYDD yn awr a gadarnhasai dy frenhiniaeth di ar Israel yn dragywydd.

14 Ond yn awr ni saif dy frenhiniaeth di: yr ARGLWYDD a geisiodd iddo ŵr wrth *fodd* ei galon ei hun: yr ARGLWYDD hefyd a orchymynodd iddo fod yn flaenor ar ei bobl; o herwydd na chedwaist ti yr hyn a orchymynodd yr ARGLWYDD i ti.

15 A Samuel a gyfododd ac a aeth i fyny o Gilgal i Gibeah Benjamin: a chyfrifodd Saul y bobl a gafwyd gyd âg ef, ynghylch chwe chant o wŷr.

16 A Saul a Jonathan ei fab, a'r bobl a gafwyd gyd â hwynt, oedd yn aros yn Gibeah Benjamin: a'r Philistiaid a wersyllasant ym Michmas.

17 ¶ A daeth allan o wersyll y Philistiaid anrheithwyr, yn dair byddin: un fyddin a drodd tu a ffordd Ophrah, tu a gwlad Sual;

18 A'r fyddin arall a drodd *tu a* ffordd Beth-horon; a'r drydedd fyddin a drodd *tu a* ffordd y terfyn sydd yn edrych tu a dyffryn Seboim, tu a'r anialwch.

19 ¶ Ac ni cheid gôf trwy holl wlad Israel: canys dywedasai y Philistiaid, Rhag gwneuthur o'r Hebreaid gleddyfau neu waywffyn.

20 Ond holl Israel a aent i waered at y Philistiaid, i flaenllymmu bob un ei swch, a'i gwlltwr, a'i fwyell, a'i gaib.

21 Ond yr oedd llif-ddur *i wneuthur* min ar y ceibiau, ac ar y cylltyrau, ac ar y pigffyrch, ac ar y bwyeill, ac i flaenllymmu y symbylau.

22 Felly yn nydd y rhyfel ni chaed na chleddyf na gwaywffon yn llaw yr un o'r bobl *oedd* gyd â Saul a Jonathan, ond a gaed gyd â Saul a Jonathan ei fab.

23 A sefyllfa y Philistiaid a aeth allan i fwlch Michmas.

PENNOD 14.

1 Jonathan, heb wybod i'w dad ac i'r offeiriad a'r bobl, yn myned ac yn taro amddiffynfa y Philistiaid yn rhyddidol. 15 Dychryn Duw yn eu gyrru hwynt i ladd eu gilydd. 17 Saul, heb aros am atteb yr offeiriad, yn gosod arnynt. 21 Yr Hebreaid caethion, a'r Israeliaid oedd yn llechu, yn troi ym eu herbyn hwy. 24 Ehud addunedi Saul yn rhwystro yr oruchafiaeth. 32 Saul yn gwahardd i'r bobl fwytta gwaed; 35 ac yn adeiladu allor. 36 Y bobl yn achub Jonathan, wedi ei ddal wrth goelbren. 47 Cryfder Saul a'i deulu.

ABU ddyddgwaith i Jonathan mab Saul ddywedyd wrth y llangc oedd yn dwyn ei arfau ef, Tyred, ac awn drosodd i amddiffynfa y Philistiaid, yr hon *sydd* o'r tu hwnt: ond ni fynegodd efe i'w dad.

2 A Saul a arhosodd y'nghwr Gibeah, dan *bren* pomgranad, yr hwn *oedd* ym Migron: a'r bobl *oedd* gyd âg ef *oedd* ynghylch chwe channwr;

3 Ac Ahïah mab Ahitub, brawd Ichabod, mab Phinees, mab Eli, offeiriad yr ARGLWYDD yn Siloh, oedd yn gwisgo ephod. Ac ni wyddai y bobl i Jonathan fyned ymaith.

4 ¶ A rhwng y bylchau, lle ceisiodd Jonathan fyned drosodd at amddiffynfa y Philistiaid, *yr oedd* craig serth o'r naill du i'r bwlch, a chraig serth o'r tu arall i'r bwlch; ac enw y naill *oedd* Boses, ac enw y llall Seneh.

5 A safiad y naill *oedd* oddi wrth y gogledd ar gyfer Michmas, a'r llall oddi wrth y dehau ar gyfer Gibeah.

6 A dywedodd Jonathan wrth y llangc oedd yn dwyn ei arfau ef, Tyred, ac awn drosodd i amddiffynfa y rhai dïenwaededig hyn; nid hwyrach y gweithia yr ARGLWYDD gyd â ni: canys nid *oes* rwystr i'r ARGLWYDD waredu trwy lawer neu trwy ychydig.

7 A'r hwn oedd yn dwyn ei arfau ef a ddywedodd wrtho, Gwna yr hyn oll *sydd* yn dy galon: cerdda rhagot; wele fi gyd â thi fel y mynno dy galon.

8 Yna y dywedodd Jonathan, Wele, ni a awn trosodd at y gwŷr *hyn*, ac a ymddangoswn iddynt.

9 Os dywedant fel hyn wrthym, Arhoswch nes i ni ddyfod attoch

chwi; yna y safwn yn ein lle, ac nid awn i fyny attynt hwy.
10 Ond os fel hyn y dywedant, Deuwch i fyny attom ni; yna yr awn i fyny: canys yr ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt yn ein llaw ni; a hyn *fydd* yn argoel i ni.
11 A hwy a ymddangosasant ill dau i amddiffynfa y Philistiaid. A'r Philistiaid a ddywedasant, Wele yr Hebreaid yn dyfod allan o'r tyllau y llechasant ynddynt.
12 A gwŷr yr amddiffynfa a attebasant Jonathan, a'r hwn oedd yn dwyn ei arfau, ac a ddywedasant, Deuwch i fyny attom ni, ac ni a ddangoswn beth i chwi. A dywedodd Jonathan wrth yr hwn oedd yn dwyn ei arfau, Tyred i fyny ar fy ol: canys yr ARGLWYDD a'u rhoddes hwynt yn llaw Israel.
13 A Jonathan a ddringodd i fyny ar ei ddwylaw, ac ar ei draed; a'r hwn oedd yn dwyn ei arfau ar ei ol. A hwy a syrthiasant o flaen Jonathan: ei yswain hefyd oedd yn lladd ar ei ol ef.
14 A'r lladdfa gyntaf honno a wnaeth Jonathan a'r hwn oedd yn dwyn ei arfau, oedd ynghylch ugeinwr, megis o fewn ynghylch hanner cyfer dau *ŷch* o dir.
15 A bu fraw yn y gwersyll, yn y maes, ac ym mysg yr holl bobl: yr amddiffynfa a'r anrheithwyr hwythau hefyd a ddychrynasant: y ddaear hefyd a grynodd; a bu dychryn DUW.
16 A gwylwyr Saul yn Gibeah Benjamin a edrychasant; ac wele y lliaws yn ymwasgaru, ac yn myned dan ymguro.
17 Yna y dywedodd Saul wrth y bobl *oedd* gyd âg ef, Cyfrifwch yn awr, ac edrychwch pwy a aeth oddi wrthym ni. A phan gyfrifasant, wele, Jonathan a chludydd ei arfau nid *oeddynt yno.*
18 A Saul a ddywedodd wrth Ahïah, Dwg yma arch DUW. (Canys yr oedd arch DUW y pryd hynny gyd â meibion Israel.)
19 ¶ A thra yr ydoedd Saul yn ymddiddan â'r offeiriad, y terfysg, yr hwn *oedd* y'ngwersyll y Philistiaid, gan fyned a aeth, ac a anghwanegodd. A Saul a ddywedodd wrth yr offeiriad, Tyn attat dy law.
20 A Saul a'r holl bobl *oedd* gyd âg ef a ymgynnullasant, ac a ddaethant i'r rhyfel: ac wele gleddyf pob un yn erbyn ei gyfnesaf; a dinystr mawr iawn *oedd yno.*
21 Yr Hebreaid hefyd, *y rhai* oedd gyd â'r Philistiaid o'r blaen, y rhai a aethant i fyny gyd â hwynt i'r gwersyll *o'r wlad* oddi amgylch, hwythau hefyd *a droisant* i fod gyd â'r Israeliaid *oedd* gyd â Saul a Jonathan.
22 A holl wŷr Israel, y rhai oedd yn llechu ym mynydd Ephraim, a glywsant ffoi o'r Philistiaid; hwythau hefyd a'u herlidiasant hwy o'u hol yn y rhyfel.
23 Felly yr achubodd yr ARGLWYDD Israel y dydd hwnnw; a'r ymladd a aeth drosodd i Beth-afen.
24 ¶ A gwŷr Israel oedd gyfyng arnynt y dydd hwnnw: o herwydd tynghedasai Saul y bobl, gan ddywedyd, Melldigedig *fyddo* y gŵr a fwyttao fwyd hyd yr hwyr, fel y dialwyf ar fy ngelynion. Felly nid archwaethodd yr un o'r bobl *ddim* bwyd.
25 A'r *rhai o'r* holl wlad a ddaethant i goed, lle yr oedd mêl ar hyd wyneb y tir.
26 A phan ddaeth y bobl i'r coed, wele y mêl yn diferu; etto ni chododd *un* ei law at ei enau: canys ofnodd y bobl y llw.
27 Ond Jonathan ni chlywsai pan dynghedasai ei dad ef y bobl: am hynny efe a estynodd flaen y wialen *oedd* yn ei law, ac a'i gwlychodd yn nil y mêl, ac a drodd ei law at ei enau; a'i lygaid a oleuasant.
28 Yna un o'r bobl a attebodd, ac a ddywedodd, Gan dynghedu y tynghedodd dy dad y bobl, gan ddywedyd, Melldigedig *fyddo* y gŵr a fwyttao fwyd heddyw. A'r bobl oedd luddedig.
29 Yna y dywedodd Jonathan, Fy nhad a flinodd y wlad. Gwelwch yn awr fel y goleuodd fy llygaid i, o herwydd i mi archwaethu ychydig o'r mêl hwn:
30 Pa faint mwy, pe bwyttasai y bobl yn ddïwarafun heddyw o anrhaith eu gelynion, yr hon a gaw-

sant hwy? oni buasai yn awr fwy y lladdfa ym mysg y Philistiaid?
31 A hwy a darawsant y Philistiaid y dydd hwnnw o Michmas *hyd* Ajalon: a'r bobl oedd ddiffygiol iawn.
32 A'r bobl a ruthrodd at yr anrhaith, ac a gymmerasant ddefaid, a gwartheg, a lloi, ac a'*u* lladdasant ar y ddaear: a'r bobl a'*u* bwyttaodd gyd â'r gwaed.
33 ¶ Yna y mynegasant hwy i Saul, gan ddywedyd, Wele, y bobl sydd yn pechu yn erbyn yr ARGLWYDD, gan fwytta ynghyd â'r gwaed. Ac efe a ddywedodd, Troseddasoch: treiglwch attaf fi heddyw faen mawr.
34 Dywedodd Saul hefyd, Ymwasgerwch ym mysg y bobl, a dywedwch wrthynt, Dygwch attaf fi bob un ei ŷch, a phob un ei lwdn dafad, a lleddwch *hwynt* yma, a bwyttêwch; ac na phechwch yn erbyn yr ARGLWYDD, gan fwytta ynghyd â'r gwaed. A'r bobl oll a ddygasant bob un ei ŷch yn ei law y, noswaith honno, ac a'*u* lladdasant yno.
35 A Saul a adeiladodd allor i'r ARGLWYDD. Hon oedd yr allor gyntaf a adeiladodd efe i'r ARGLWYDD.
36 ¶ A dywedodd Saul, Awn i waered ar ol y Philistiaid liw nos, ac anrheithiwn hwynt hyd oni oleuo y bore, ac na adâwn un o honynt. Hwythau a ddywedasant, Gwna yr hyn oll *fyddo* da yn dy olwg. Yna y dywedodd yr offeiriad, Nesâwn yma at DDUW.
37 Ac ymofynodd Saul â DUW, A âf fi i waered ar ol y Philistiaid? a roddi di hwynt yn llaw Israel? Ond nid attebodd efe ef y dydd hwnnw.
38 A dywedodd Saul, Dyneswch yma holl bennaethiaid y bobl: mynnwch wybod hefyd, ac edrychwch ym mhwy y bu y pechod hwn heddyw.
39 Canys, *megis mai* byw yr ARGLWYDD, yr hwn sydd yn gwaredu Israel, pe byddai hyn yn Jonathan fy mab, diau y llwyr-roddir ef i farwolaeth. Ac nid attebodd *neb* o'r holl bobl ef.
40 Yna y dywedodd efe wrth holl Israel, Chwi a fyddwch ar y naill du; minnau hefyd a Jonathan fy mab fyddwn ar y tu arall. A dywedodd y bobl wrth Saul, Gwna *a fyddo* da yn dy olwg.
41 Am hynny y dywedodd Saul wrth ARGLWYDD DDUW Israel, Dod oleufynag. A daliwyd Jonathan a Saul: ond y bobl a ddiangodd.
42 Dywedodd Saul hefyd, Bwriwch *goelbren* rhyngof fi a Jonathan fy mab. A daliwyd Jonathan.
43 Yna y dywedodd Saul wrth Jonathan, Mynega i mi beth a wnaethost. A Jonathan a fynegodd iddo, ac a ddywedodd, Gan archwaethu yr archwaethais ychydig o fêl ar flaen y wialen *oedd* yn fy llaw; *ac* wele, a fyddaf fi farw?
44 Dywedodd Saul hefyd, Felly gwneled DUW *i mi*, ac felly chwaneged, onid gan farw y byddi di farw, Jonathan.
45 A dywedodd y bobl wrth Saul, A leddir Jonathan, yr hwn a wnaeth yr ymwared mawr hyn yn Israel? Na atto DUW: *fel mai* byw yr ARGLWYDD, ni syrth *un* o wallt ei ben ef i'r ddaear; canys gyd â DUW y gweithiodd efe heddyw. A'r bobl a waredasant Jonathan, fel na laddwyd ef.
46 Yna Saul a aeth i fyny oddi ar ol y Philistiaid: a'r Philistiaid a aethant i'w lle eu hun.
47 ¶ Felly y cymmerodd Saul y frenhiniaeth ar Israel; ac a ymladdodd yn erbyn ei holl elynion oddi amgylch, yn erbyn Moab, ac yn erbyn meibion Ammon, ac yn erbyn Edom, ac yn erbyn brenhinoedd Sobah, ac yn erbyn y Philistiaid: ac yn erbyn pwy bynnag yr wynebodd, efe a orchfygodd.
48 Cynhullodd lu hefyd, a tharawodd Amalec; ac a waredodd Israel o law ei anrheithwyr.
49 A meibion Saul oedd Jonathan, ac Issui, a Malci-sua. *Dyma* enwau ei ddwy ferch ef: enw yr hynaf *oedd* Merab, ac enw yr ieuangaf Michal.
50 Ac enw gwraig Saul *oedd* Ahinoam merch Ahimaas: ac enw tywysog ei filwriaeth ef *oedd* Abner mab Ner, ewythr frawd ei dad i Saul.

51 Cis hefyd *oedd* dad Saul; a Ner tab Abner *oedd* fab Abïel.

52 A bu ryfel caled yn erbyn y Philistiaid holl ddyddiau Saul: a phan welai Saul ŵr glew a nerthol, efe a'i cymmerai atto ei hun.

PENNOD 15.

1 *Samuel yn danfon Saul i ddinystrio Amalec.* 6 *Yntau yn arbed y Ceneaid,* 8 *ac Agag, a'r hyn goreu o'r ysglyfaeth.* 10 *Samuel yn cyhoeddi i Saul (ac efe yn ei ganmol ac yn ei esgusodi ei hun) ddarfod i Ddiw ei wrthod ef am ei anufudd-dod.* 24 *Ymostyngiad Saul.* 33 *Samuel yn lladd Agag.* 34 *Samuel a Saul yn ymadael.*

A SAMUEL a ddywedodd wrth Saul, Yr ARGLWYDD a'm hanfonodd i i'th enneiniio di yn frenhin ar ei bobl, *sef* ar Israel: ac yn awr gwrando ar lais geiriau yr ARGLWYDD.

2 Fel hyn y dywedodd ARGLWYDD y lluoedd; Cofiais yr hyn a wnaeth Amalec i Israel, y modd y gosododd efe i'w erbyn ar y ffordd, pan ddaeth efe i fyny o'r Aipht.

3 Dos yn awr, a tharo Amalec, a dinystria yr hyn oll *sydd* ganddo, ac nac eiriach ef; ond lladd *hwynt*, yn ŵr ac yn wraig, yn ddyn bach ac yn blentyn sugno, yn ŷch ac yn oen, yn gamel ac yn asyn.

4 A Saul a gynhullodd y bobl, ac a'u cyfrifodd hwynt yn Telaim, dau can mil o wŷr traed, a deng mil o wŷr Judah.

5 A Saul a ddaeth hyd ddinas i Amalec, ac a gynllwynodd yn y dyffryn.

6 ¶ Dywedodd Saul hefyd wrth y Ceneaid, Cerddwch, ciliwch, ewch i waered o fysg yr Amaleciaid; rhag i mi eich distrywio chwi gyd â hwynt: herwydd ti a wnaethost drugaredd â holl feibion Israel, pan ddaethant i fyny o'r Aipht. A'r Ceneaid a ymadawsant o fysg yr Amaleciaid.

7 A Saul a darawodd yr Amaleciaid o Hafilah, *ffordd* y delech di i Sur, yr hon *sydd* ar gyfer yr Aipht.

8 Ac a ddaliodd Agag brenhin yr Amaleciaid yn fyw, ac a laddodd yr holl bobl â min y cleddyf.

9 Ond Saul a'r bobl a arbedasant Agag, a'r goreu o'r defaid, a'r ychain, a'r brasaf o'r ŵyn, a'r hyn oll *ydoedd* dda, ac ni ddistrywient hwynt: a phob peth gwael a salw, hwnnw a ddifrodasant hwy.

10 ¶ Yna y bu gair yr ARGLWYDD wrth Samuel, gan ddywedyd,

11 Edifar yw gennyf osod Saul yn frenhin: canys efe a ddychweloddd oddi ar fy ol i, ac ni chyflawnodd fy ngeiriau. A bu ddrwg gan Samuel; ac efe a lefodd ar yr ARGLWYDD ar hyd y nos.

12 A phan gyfododd Samuel yn fore i gyfarfod Saul, mynegwyd i Samuel, gan ddywedyd, Daeth Saul i Carmel; ac wele, efe a osododd iddo le, efe a amgylchodd hefyd, ac a dramwyodd, ac a aeth i waered i Gilgal.

13 A Samuel a ddaeth at Saul. A Saul a ddywedodd wrtho ef, Bendigedig *fyddech* di gan yr ARGLWYDD: mi a gyflawnais air yr ARGLWYDD.

14 A dywedodd Samuel, Beth ynte *yw* brefiad y defaid hyn yn fy nghlustiau, a beichiad y gwartheg yr hwn yr ydwyf yn ei glywed?

15 A Saul a ddywedodd, Oddi ar yr Amaleciaid y dygasant hwy: canys y bobl a arbedodd y defaid goreu, a'r ychain, i aberthu i'r ARGLWYDD dy DDUW; a'r rhan arall a ddifrodasom ni.

16 Yna y dywedodd Samuel wrth Saul, Aros, a mi a fynegaf i ti yr hyn a lefarodd yr ARGLWYDD wrthyf fi neithwyr. Yntau a ddywedodd wrtho, Llefara.

17 A Samuel a ddywedodd, Onid pan *oeddit* fychan yn dy olwg dy hun, *y gwnaed* di yn ben *ar* lwythau Israel, ac yr enneiniodd yr ARGLWYDD di yn frenhin ar Israel?

18 A'r ARGLWYDD a'th anfonodd di i daith, ac a ddywedodd, Dos, a difroda y pechaduriaid, yr Amaleciaid, ac ymladd i'w herbyn, nes eu difa hwynt.

19 Paham gan hynny na wrandewaist ar lais yr ARGLWYDD, eithr troaist at yr anrhaith, a gwnaethost ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD?

20 A Saul a ddywedodd wrth Samuel, Yn wir mi a wrandewais ar lais yr ARGLWYDD, ac a rodiais yn y ffordd y'm hanfonodd yr ARGLWYDD *iddi*, a dygais Agag brenhin Amalec, ac a ddifrodais yr Amaleciaid.

21 Ond y bobl a gymmerth o'r yspail, ddefaid a gwartheg, blaenion y ddifrodaeth, i aberthu i'r ARGLWYDD dy DDUW yn Gilgal.
22 A Samuel a ddywedodd, A *yw* ewyllys yr ARGLWYDD ar boethoffrymmau, neu ebyrth, megis ar wrandaw ar lais yr ARGLWYDD? Wele, gwrandaw *sydd* well nag aberth, *ac* ufuddhâu na brasder hyrddod.
23 Canys anufudd-dod *sydd fel* pechod dewiniaeth; a throseddiad *sydd* anwiredd a delw-addoliaeth. O herwydd i ti fwrw ymaith air yr ARGLWYDD, yntau a'th fwrw dithau ymaith o *fod* yn frenhin.
24 ¶ A Saul a ddywedodd wrth Samuel, Pechais: canys troseddais air yr ARGLWYDD, a'th eiriau dithau; o herwydd i mi ofni y bobl, a gwrandaw ar eu llais hwynt.
25 Ond yn awr maddeu, attolwg, fy mhechod, a dychwel gyd â mi, fel yr addolwyf yr ARGLWYDD.
26 A Samuel a ddywedodd wrth Saul, Ni ddychwelaf gyd â thi; canys bwriaist ymaith air yr ARGLWYDD, a'r ARGLWYDD a'th fwriodd dithau ymaith o fod yn frenhin ar Israel.
27 A phan drodd Samuel i fyned ymaith, efe a ymaflodd y'nghwr ei fantell ef; a hi a rwygodd.
28 A Samuel a ddywedodd wrtho, Yr ARGLWYDD a rwygodd frenhiniaeth Israel oddi wrthyt ti heddyw, ac a'i rhoddes i gymmydog i ti, gwell na thydi.
29 A hefyd, Cadernid Israel ni ddywed gelwydd, ac nid edifarhâ: canys nid dyn *yw* efe, i edifarhâu.
30 Yna y dywedodd *Saul*, Pechais; anrhydedda fi, attolwg, yn awr ger bron henuriaid fy mhobl, a cher bron Israel, a dychwel gyd â mi, fel yr addolwyf yr ARGLWYDD dy DDUW.
31 Felly Samuel a ddychwelodd ar ol Saul: a Saul a addolodd yr ARGLWYDD.
32 ¶ Yna y dywedodd Samuel, Cyrchwch attaf fi Agag brenhin yr Amaleciaid. Ac Agag a ddaeth atto ef yn hoyw. Ac Agag a ddywedodd, Chwerwder marwolaeth yn ddïau a aeth ymaith.
33 A Samuel a ddywedodd, Fel y diblantodd dy gleddyf di wragedd, felly y diblentir dy fam dithau ym mysg gwragedd. A Samuel a ddarniodd Agag ger bron yr ARGLWYDD yn Gilgal.
34 ¶ Yna Samuel a aeth i Ramah; a Saul a aeth i fyny i'w dŷ yn Gibeah Saul.
35 Ac nid ymwelodd Samuel mwy-ach â Saul hyd ddydd ei farwolaeth; ond Samuel a alarodd am Saul: ac edifar fu gan yr ARGLWYDD osod Saul yn frenhin ar Israel.

PENNOD 16.

1 Samuel, wedi ei ddanfon gan Dduw, dan rith aberthu, ym dyfod i Bethlehem. 6 Ceryddu ei farn dynol ef. 13 Efe yn ennetnio Dafydd. 19 Saul yn danfon am Dafydd i lonyddu ei ysprryd drwg.

A'R ARGLWYDD a ddywedodd wrth Samuel, Pa hyd y galeri di am Saul, gan i mi ei fwrw ef ymaith o deyrnasu ar Israel? Llanw dy gorn âg olew, a dos; mi a'th anfonaf di at Jesse y Bethlemiad: canys ym mysg ei feibion ef y darperais i mi frenhin.
2 A Samuel a ddywedodd, Pa fodd yr âf fi? os Saul a glyw, efe a'm lladd i. A dywedodd yr ARGLWYDD, Cymmer anner-fuwch gyd â thi, a dywed, Deuthum i aberthu i'r ARGLWYDD.
3 A galw Jesse i'r aberth, a mi a hysbysaf i ti yr hyn a wnelych: a thi a enneini i mi yr hwn a ddywedwyf wrthyt.
4 A gwnaeth Samuel yr hyn a archasai yr ARGLWYDD, ac a ddaeth i Bethlehem. A henuriaid y ddinas a ddychrynasant wrth gyfarfod âg ef; ac a ddywedasant, Ai heddychlawn dy ddyfodiad?
5 Ac efe a ddywedodd, Heddychlawn: deuthum i aberthu i'r ARGLWYDD: ymsancteiddiwch, a deuwch gyd â mi i'r aberth. Ac efe a sancteiddiodd Jesse a'i feibion, ac a'u galwodd hwynt i'r aberth.
6 ¶ A phan ddaethant, efe a edrychodd ar Eliab; ac a ddywedodd, Dïau *fod* enneiniog yr ARGLWYDD ger ei fron ef.
7 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Samuel, Nac edrych ar ei wynebpryd ef, nac ar uchder ei gorphlaeth ef: canys gwrthodais ef. O

herwydd nid *edrych* DUW fel yr edrych dyn: canys dyn a edrych ar y golygiad; ond yr ARGLWYDD a edrych ar y galon.

8 Yna Jesse a alwodd Abinadab, ac a barodd iddo ef fyned o flaen Samuel. A dywedodd yntau, Ni ddewisodd yr ARGLWYDD hwn chwaith.

9 Yna y gwnaeth Jesse i Sammah ddyfod. A dywedodd yntau, Ni ddewisodd yr ARGLWYDD hwn chwaith.

10 Yna y parodd Jesse i'w saith mab ddyfod ger bron Samuel. A Samuel a ddywedodd wrth Jesse, Ni ddewisodd yr ARGLWYDD y rhai hyn.

11 Dywedodd Samuel hefyd wrth Jesse, Ai dyma *dy* holl blant? Yntau a ddywedodd, Yr ieuangaf etto sydd yn ol; ac wele, *mae* efe yn bugeilio y defaid. A dywedodd Samuel wrth Jesse, Danfon, a chyrch ef: canys nid eisteddwn ni i lawr nes ei ddyfod ef yma.

12 Ac efe a anfonodd, ac a'i cyrchodd ef. Ac efe *oedd* wridgoch, a theg yr olwg, a hardd o wedd. A dywedodd yr ARGLWYDD, Cyfod, enneinia ef: canys dyma efe.

13 Yna y cymmerth Samuel gorn yr olew, ac a'i henneiniodd ef yng nghanol ei frodyr. A daeth yspryd yr ARGLWYDD ar Dafydd, o'r dydd hwnnw allan. Yna Samuel a gyfododd, ac a aeth i Ramah.

14 ¶ Ond yspryd yr ARGLWYDD a giliodd oddi wrth Saul; ac yspryd drwg oddi wrth yr ARGLWYDD a'i blinodd ef.

15 A gweision Saul a ddywedasant wrtho ef, Wele yn awr, drwg yspryd oddi wrth DDUW sydd yn dy flino di.

16 Dyweded, attolwg, ein meistr ni *wrth* dy weision *sydd* ger dy fron, *am* iddynt geisio gŵr yn medru canu telyn: a bydd, pan ddelo drwg yspryd oddi wrth DDUW arnat ti, yna iddo ef ganu â'i law; a da fydd i ti.

17 A dywedodd Saul wrth ei weision, Edrychwch yn awr i mi *am* ŵr yn medru canu yn dda, a dygwch *ef* attaf fi.

18 Ac un o'r llangciau a attebodd, ac a ddywedodd, Wele, gwelais fab i Jesse y Bethlehemiad, yn medru canu, ac yn rymmus *o* nerth, ac yn rhyfelwr, yn ddoeth o ymadrodd hefyd, ac yn ŵr lluniaidd; a'r ARGLWYDD *sydd* gyd âg ef.

19 ¶ Yna yr anfonodd Saul genhadau at Jesse, ac a ddywedodd, Anfon attaf fi Dafydd dy fab, yr hwn *sydd* gyd â'r praidd.

20 A Jesse a gymmerth asyn *llwythog* o fara, a chostrelaid o win, a myn gafr, ac a'*u* hanfonodd gyd â Dafydd ei fab at Saul.

21 A Dafydd a ddaeth at Saul, ac a safodd ger ei fron ef: yntau a'i hoffodd ef yn fawr; ac efe a aeth yn gludydd arfau iddo ef.

22 A Saul a anfonodd at Jesse, gan ddywedyd, Arhosed Dafydd, attolwg, ger fy mron i: canys efe a gafodd ffafr yn fy ngolwg.

23 A phan fyddai y *drwg* yspryd oddi wrth DDUW ar Saul, y cymmerai Dafydd delyn, ac y canai â'i ddwylaw: a byddai esmwythdra i Saul; a da *oedd hynny* iddo, a'r yspryd drwg a giliai oddi wrtho.

PENNOD 17.

1 *Pan ydoedd lluoedd yr Israeliaid a'r Philistiaid yn barod i ymladd,* 4 *y mae Goliath yn dyfod allan yn rhyfygus, yn gofyn un i ymladd âg ef.* 12 *Dafydd, wedi i'w dad ei ddanfon ef i ymweled â'i frodyr, yn cynnyg ymladd âg ef.* 28 *Eliab yn ei ystwrdio ef.* 30 *Ei ddwyn ef ger bron Saul.* 32 *Yntau yn dangos yr achos yr oedd efe mor hyderus.* 38 *Y mae efe heb ddim arfau, ond ffydd, yn lladd y cawr.* 55 *Saul yn cymmeryd cydnabod o Dafydd.*

YNA y Philistiaid a gasglasant eu byddinoedd i ryfel, ac a ymgynnullasant yn Sochoh, yr hon *sydd* yn Judah, ac a wersyllasant rhwng Sochoh ac Asecah, y'nghwr Dammim.

2 Saul hefyd a gwŷr Israel a ymgasglasant, ac a wersyllasant yn nyffryn Elah, ac a drefnasant y fyddin i ryfel yn erbyn y Philistiaid.

3 A'r Philistiaid oedd yn sefyll ar fynydd o'r naill du, ac Israel yn sefyll ar fynydd o'r tu arall: a dyffryn *oedd* rhyngddynt.

4 ¶ A daeth gŵr rhyngddynt hwy allan o wersylloedd y Philistiaid, a'i enw Goliath, o Gath: ei uchder *oedd* chwe chufydd a rhychwant.

5 A helm o bres ar ei ben, a llurig

emmog a wisgai: a phwys y llurig *oedd* bum mil o siclau pres.
6 A bottasau pres *oedd* am ei draed ef, a tharian pres rhwng ei ysgwyddau.
7 A phaladr ei waywffon ef *oedd* fel carfan gwehydd; a blaen ei waywffon ef *oedd* chwe chan sicl o haiarn: ac un yn dwyn tarian oedd yn myned o'i flaen ef.
8 Ac efe a safodd, ac a waeddodd ar fyddinoedd Israel, ac a ddywedodd wrthynt, I ba beth y deuwch i drefnu *eich* byddinoedd? Onid *ydwyf* fi Philistiad, a chwithau yn weision i Saul? dewiswch i chwi ŵr, i ddyfod i waered attaf fi.
9 Os gall efe ymladd â mi, a'm lladd i; yna y byddwn ni yn weision i chwi: ond os myfi a'i gorchfygaf ef, ac a'i lladdaf ef; yna y byddwch chwi yn weision i ni, ac y gwasanaethwch ni.
10 A'r Philistiad a ddywedodd, Myfi a waradwyddais fyddinoedd Israel y dydd hwn: moeswch attaf fi ŵr, fel yr ymladdom ynghyd.
11 Pan glybu Saul a holl Israel y geiriau hynny *gan* y Philistiad, yna y digalonnasant, ac yr ofnasant yn ddirfawr.
12 ¶ A'r Dafydd hwn *oedd* fab i Ephratëwr o Bethlehem Judah, a'i enw Jesse; ac iddo ef *yr oedd* wyth o feibion: a'r gŵr yn nyddiau Saul a âi yn henafgwr ym mysg gwŷr.
13 A thri mab hynaf Jesse a aethant *ac* a ddilynasant ar ol Saul i'r rhyfel: ac enw ei dri mab ef, y rhai a aethant i'r rhyfel, *oedd* Eliab y cyntaf-anedig, ac Abinadab yr ail, a Sammah y trydydd.
14 A Dafydd *oedd* ieuangaf: a'r tri hynaf a aeth ar ol Saul.
15 Dafydd hefyd a aeth ac a ddychwelodd oddi wrth Saul, i fugeilio defaid ei dad yn Bethlehem.
16 A'r Philistiad a nesaodd fore a hwyr, ac a ymddangosodd ddeugain niwrnod.
17 A dywedodd Jesse wrth Dafydd ei fab, Cymmer yn awr i'th frodyr ephah o'r cras-*ŷd* hwn, a'r deg torth hyn, ac ar redeg dwg *hwynt* i'r gwersyll at dy frodyr.
18 Dwg hefyd y deg cosyn îr hyn i dywysog y mil, ac ymwêl â'th frodyr a ydynt hwy yn iach, a gollwng *yn rhydd* eu gwystl hwynt.
19 Yna Saul, a hwythau, a holl wŷr Israel, *oeddynt* yn nyffryn Elah, yn ymladd â'r Philistiaid.
20 ¶ A Dafydd a gyfododd yn fore, ac a adawodd y defaid gyd â cheidwad, ac a gymmerth, ac a aeth, megis y gorchymynasai Jesse iddo ef; ac efe a ddaeth i'r gwersyll, a'r llu yn myned allan i'r gâd, ac yn bloeddio i'r frwydr.
21 Canys Israel a'r Philistiaid a ymfyddinasent, fyddin yn erbyn byddin.
22 A Dafydd a adawodd y mud oddi wrtho dan law ceidwad y dodrefn, ac a redodd i'r llu, ac a ddaeth, ac a gyfarchodd well i'w frodyr.
23 A thra yr oedd efe yn ymddiddan â hwynt, wele y gŵr *oedd yn sefyll* rhwng y ddeu-lu, yn dyfod i fyny o fyddinoedd y Philistiaid, Goliath y Philistiad o Gath *wrth* ei enw, ac efe a ddywedodd yr un fath eiriau, fel y clybu Dafydd.
24 A holl wŷr Israel, pan welsant y gŵr hwnnw, a ffoisant rhagddo ef, ac a ofnasant yn ddirfawr.
25 A dywedodd gwŷr Israel, Oni welsoch chwi y gŵr hwn a ddaeth i fyny? dïau i waradwyddo Israel y mae yn dyfod i fyny: a'r gŵr a'i lladdo ef, y brenhin a gyfoethoga hwnnw â chyfoeth mawr; ei ferch hefyd a rydd efe iddo ef; a thŷ ei dad ef a wna efe yn rhydd yn Israel.
26 A Dafydd a lefarodd wrth y gwŷr oedd yn sefyll yn ei ymyl, gan ddywedyd, Beth a wneir i'r gŵr a laddo y Philistiad hwn, ac a dynno ymaith y gwaradwydd oddi ar Israel? canys pwy *yw* y Philistiad dïenwaededig hwn, pan waradwyddai efe fyddinoedd y Duw byw?
27 A'r bobl a ddywedodd wrtho ef fel hyn, gan ddywedyd, Felly y gwneir i'r gŵr a'i lladdo ef.
28 ¶ Ac Eliab, ei frawd hynaf, a'i clybu pan oedd efe yn ymddiddan â'r gwŷr: a digter Eliab a ennynodd yn erbyn Dafydd; ac efe a ddywedodd, Paham y daethost i waered yma? a chyd â phwy y gadewaist yr ychydig ddefaid hynny yn yr amial-

wch? Myfi a adwaen dy falchder di, a drygioni dy galon: canys i weled y rhyfel y daethost ti i waered.

29 A dywedodd Dafydd, Beth a wneuthum i yn awr? Onid *oes* achos?

30 ¶ Ac efe a droes oddi wrtho ef at un arall, ac a ddywedodd yr un modd: a'r bobl a'i hattebasant ef air y'ngair *fel* o'r blaen.

31 A phan glybuwyd y geiriau a lefarodd Dafydd, yna y mynegwyd *hwynt* ger bron Saul: ac efe a anfonodd am dano ef.

32 ¶ A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, Na lwfrhâed calon neb o'i herwydd ef: dy was di a â ac a ymladd â'r Philistiad hwn.

33 A dywedodd Saul wrth Dafydd, Ni elli di fyned yn erbyn y Philistiad hwn, i ymladd âg ef: canys llangc *ydwyt* ti, ac yntau sydd yn rhyfelwr o'i febyd.

34 A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, Bugail oedd dy was di ar ddefaid ei dad; a daeth llew ac arth, ac a gymmerasant oen o'r praidd.

35 A mi a euthum ar ei ol ef, ac a'i tarewais ef, ac a'*i* hachubais o'i safn ef: a phan gyfododd efe i'm herbyn i, mi a ymaflais yn ei farf ef, ac a'i tarewais, ac a'i lleddais ef.

36 Felly dy was di a laddodd y llew, a'r arth: a'r Philistiad dïenwaededig hwn fydd megis un o honynt, gan iddo ammherchi byddinoedd y Duw byw.

37 Dywedodd Dafydd hefyd, Yr Arglwydd, yr hwn a'm hachubodd i o grafangc y llew, ac o balf yr arth, efe a'm hachub i o law y Philistiad hwn. A dywedodd Saul wrth Dafydd, Dos, a'r Arglwydd fyddo gyd â thi.

38 ¶ A Saul a wisgodd Dafydd â'i arfau ei hun, ac a roddodd helm o bres ar ei ben ef, ac a'i gwisgodd ef *mewn* llurig.

39 A Dafydd a wregysodd ei gleddyf ar ei arfau, ac a geisiodd gerdded; am na phrofasai efe. A dywedodd Dafydd wrth Saul, Ni allaf gerdded yn y rhai hyn: canys ni phrofais i. A Dafydd a'u dïosgodd oddi am dano.

40 Ac efe a gymmerth ei ffon yn ei law, ac a ddewisodd iddo bump o gerrig llyfnion o'r afon, ac a'u gosododd hwynt y'nghôd y bugeiliaid yr hon *oedd* ganddo, sef yn yr ysgreppan: a'i ffon-dafl *oedd* yn ei law: ac efe a nesaodd at y Philistiad.

41 A'r Philistiad a gerddodd, gan fyned a nesâu at Dafydd; a'r gŵr *oedd* yn dwyn y darian o'i flaen ef.

42 A phan edrychodd y Philistiad o amgylch, a chanfod Dafydd, efe a'i dïystyrodd ef: canys llangc oedd efe, a gwridgoch, a theg yr olwg.

43 A'r Philistiad a ddywedodd wrth Dafydd, Ai ci *ydwyf* fi, gan dy fod yn dyfod attaf fi â ffyn? A'r Philistiad a regodd Dafydd trwy ei dduwiau ef.

44 Y Philistiad hefyd a ddywedodd wrth Dafydd, Tyred attaf fi, a rhoddaf dy gnawd i ehediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y maes.

45 Yna y dywedodd Dafydd wrth y Philistiaid, Ti ydwyt yn dyfod attaf fi â chleddyf, ac â gwaywffon, ac â tharian; a minnau ydwyf yn dyfod attat ti yn enw Arglwydd y lluoedd, Duw byddinoedd Israel, yr hwn a geblaist ti.

46 Y dydd hwn y dyry yr Arglwydd dydi yn fy llaw i, a mi a'th darawaf di, ac a gymmeraf ymaith dy ben oddi arnat; ac a roddaf gelanedd gwersyll y Philistiaid y dydd hwn i ehediaid y nefoedd, ac i fwystfilod y ddaear; fel y gwypo yr holl ddaear fod Duw yn Israel.

47 A'r holl gynnulleidfa hon a gânt wybod, nad â chleddyf, nac â gwaywffon y gwared yr Arglwydd: canys eiddo yr Arglwydd *yw* y rhyfel, ac efe a'ch rhydd chwi yn ein llaw ni.

48 A phan gyfododd y Philistiad, a dyfod a nesâu i gyfarfod Dafydd; yna y brysiodd Dafydd, ac a redodd tu a'r fyddin i gyfarfod â'r Philistiad.

49 A Dafydd a estynodd ei law i'r gôd, ac a gymmerth oddi yno garreg, ac a daflodd, ac a darawodd y Philistiad yn ei dalcen; a'r garreg a soddodd yn ei dalcen ef: ac efe a syrthiodd i lawr ar ei wyneb.

50 Felly y gorthrechodd Dafydd y Philistiad â ffon-dafl ac â charreg, ac a darawodd y Philistiad, ac a'i

lladdodd ef; er nad *oedd* cleddyf yn llaw Dafydd.

51 Yna y rhedodd Dafydd, ac a safodd ar y Philistiad, ac a gymmerth ei gleddyf ef, ac a'i tynnodd o'r wain, ac a'i lladdodd ef, ac a dorrodd ei ben ef âg ef. A phan welodd y Philistiaid farw o'u cawr hwynt, hwy a ffoisant.

52 A gwŷr Israel a Judah a gyfodasant, ac a floeddiasant; ac a erlidiasant y Philistiaid, hyd *y ffordd* y delych i'r dyffryn, a hyd byrth Ecron. A'r Philistiaid a syrthiasant yn archolledig ar hyd ffordd Saaraim, sef hyd Gath, a hyd Ecron.

53 A meibion Israel a ddychwelasant o ymlid ar ol y Philistiaid, ac a anrheithiasant eu gwersylloedd hwynt.

54 A Dafydd a gymmerodd ben y Philistiad, ac a'i dug i Jerusalem; a'i arfau ef a osododd efe yn ei babell.

55 ¶ A phan welodd Saul Dafydd yn myned i gyfarfod â'r Philistiad, efe a ddywedodd wrth Abner, tywysog y filwriaeth, Mab i bwy *yw* y llangc hwn, Abner? Ac Abner a ddywedodd, *Fel* y mae yn fyw dy enaid, O frenhin, nis gwn i.

56 A dywedodd y brenhin, Ymofyn mab i bwy *yw* y gŵr ieuangc hwn.

57 A phan ddychwelodd Dafydd o ladd y Philistiad, Abner a'i cymmerodd ef ac a'i dug o flaen Saul, a phen y Philistiad yn ei law.

58 A Saul a ddywedodd wrtho ef, Mab i bwy *wyt* ti, y gŵr ieuangc? A dywedodd Dafydd, Mab i'th was Jesse y Bethlehemiad.

PENNOD 18.

1 *Jonathan yn caru Dafydd.* 5 *Saul yn cenfigennu wrth ei glod ef;* 10 *yn ceisio ei ladd ef yn ei ymddaredd;* 12 *yn ei ofni ef, o herwydd ei fod mor llwyddiannus;* 17 *yn cynnyg iddo ei ferched, i fod yn fagl iddo.* 22 *Dafydd, wedi ei berswadio i fod yn fab y'nghyfraith i'r brenhin, yn rhoddi deucant o flaengruyn y Philistiaid yn lle cynnysgaeth Michal.* 28 *Digasedd Saul, a gogoniant Dafydd, yn cynnyddu.*

AC wedi darfod iddo ymddiddan â Saul, enaid Jonathan a ymglymmodd wrth enaid Dafydd; a Jonathan a'i carodd ef megis ei enaid ei hun.

2 A Saul a'i cymmerth ef *atto* y diwrnod hwnnw, ac ni adawai iddo ddychwelyd i dŷ ei dad.

3 Yna Jonathan a Dafydd a wnaethant gyfammod; o herwydd efe a'i carai megis ei enaid ei hun.

4 A Jonathan a ddïosgodd y fantell *oedd* am dano ei hun, ac a'i rhoddes i Dafydd, a'i wisgoedd, ïe, hyd yn nod ei gleddyf, a'i fwa, a'i wregys.

5 ¶ A Dafydd a aeth i ba *le* bynnag yr anfonodd Saul ef, *ac* a ymddûg yn ddoeth. A Saul a'i gosododd ef ar y rhyfelwyr: ac efe oedd gymmeradwy y'ngolwg yr holl bobl, ac y'ngolwg gweision Saul hefyd.

6 A bu, wrth ddyfod o honynt, pan ddychwelodd Dafydd o ladd y Philistiad, ddyfod o'r gwragedd allan o holl ddinasoedd Israel, dan ganu a dawnsio, i gyfarfod â'r brenhin Saul, â thympanau, â gorfoledd, ac âg *offer* cerdd dannau.

7 A'r gwragedd wrth ganu a ymattebent, ac a ddywedent, Lladdodd Saul ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiwn.

8 A digiodd Saul yn ddirfawr, a'r ymadrodd hwn oedd ddrwg yn ei olwg ef; ac efe a ddywedodd, Rhoddasant i Dafydd fyrddiwn, ac i mi y rhoddasant filoedd: *beth* mwy *a roddent* iddo ef, ond y frenhiniaeth?

9 A bu Saul â'i lygad ar Dafydd o'r dydd hwnnw allan.

10 ¶ Bu hefyd drannoeth, i'r drwg yspryd oddi wrth DDUW ddyfod ar Saul; ac efe a brophwydodd yng nghanol y tŷ: a Dafydd a ganodd â'i law, fel o'r blaen: a gwaywffon *oedd* yn llaw Saul.

11 A Saul a daflodd y waywffon; ac a ddywedodd, Tarawaf trwy Dafydd yn y pared. A Dafydd a giliodd ddwywaith o'i ŵydd ef.

12 ¶ A Saul oedd yn ofni Dafydd; o herwydd bod yr ARGLWYDD gyd âg ef, a chilio o hono oddi wrth Saul.

13 Am hynny Saul a'i gyrrodd ef ymaith oddi wrtho, ac a'i gosododd ef yn dywysog *ar* fil: ac efe a aeth i mewn ac allan o flaen y bobl.

14 A Dafydd a ymddug yn ddoeth yn ei holl ffyrdd; a'r ARGLWYDD *oedd* gyd âg ef.

15 A phan welodd Saul ei fod ef

yn ddoeth iawn, efe a'i hofnodd ef.

16 Eithr holl Israel a Judah a garodd Dafydd, am ei fod ef yn myned i mewn ac allan o'u blaen hwynt.

17 ¶ A dywedodd Saul wrth Dafydd, Wele Merab fy merch hynaf, hi a roddaf fi i ti yn wraig: yn unig bydd i mi yn fab nerthol, ac ymladd ryfeloedd yr ARGLWYDD. (Canys dywedasai Saul, Ni bydd fy llaw i arno ef, ond llaw y Philistiaid fydd arno ef.)

18 A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, Pwy *ydwyf* fi? a pheth *yw* fy mywyd, *neu* dylwyth fy nhad i yn Israel, fel y byddwn yn ddaw i'r brenhin?

19 Eithr yn yr amser *y dylesid* rhoddi Merab merch Saul i Dafydd, hi a roddwyd i Adriel y Meholathiad yn wraig.

20 A Michal merch Saul a garodd Dafydd: a mynegasant *hynny* i Saul; a'r peth fu foddlawn ganddo.

21 A dywedodd Saul, Rhoddaf hi iddo ef, fel y byddo hi iddo yn fagl, ac y byddo llaw y Philistiaid yn ei erbyn ef. Felly Saul a ddywedodd wrth Dafydd, Trwy *un* o'r ddwy y byddi fab y'nghyfraith i mi heddyw.

22 ¶ A Saul a orchymynodd i'w weision *fel hyn;* Ymddiddenwch â Dafydd yn ddirgel, gan ddywedyd, Wele, y brenhin sydd hoff ganddo dydi, a'i holl weision ef a'th garant di: yn awr gan hynny ymgyfathracha â'r brenhin.

23 A gweision Saul a adroddasant wrth Dafydd y geiriau hyn. A Dafydd a ddywedodd, Ai ysgafn *yw* yn eich golwg chwi ymgyfathrachu â brenhin, a minnau yn ŵr tlawd a gwael?

24 A gweision Saul a fynegasant iddo, gan ddywedyd, Fel hyn y llefarodd Dafydd.

25 A dywedodd Saul, Fel hyn y dywedwch wrth Dafydd; Nid yw y brenhin yn ewyllysio cynnysgaeth, ond *cael* cant o flaengrwyn y Philistiaid, i ddïal ar elynion y brenhin. Ond Saul oedd yn meddwl peri lladd Dafydd trwy law y Philistiaid.

26 A'i weision ef a fynegasant i Dafydd y geiriau hyn; a'r ymadrodd fu foddlawn gan Dafydd am ymgyfathrachu â'r brenhin; ac ni ddaethai yr amser etto.

27 Am hynny y cyfododd Dafydd, ac efe a aeth, a'i wŷr, ac a darawodd ddau cannwr o'r Philistiaid: a Dafydd a ddygodd eu blaengrwyn hwynt, a hwy a'u cwbl-dalasant i'r brenhin, i ymgyfathrachu o hono ef â'r brenhin. A Saul a roddodd Michal ei ferch yn wraig iddo ef.

28 ¶ A Saul a welodd ac a wybu *fod* yr ARGLWYDD gyd â Dafydd, a *bod* Michal merch Saul yn ei garu ef.

29 A Saul oedd yn ofni Dafydd yn fwy etto: a bu Saul yn elyn i Dafydd byth.

30 Yna tywysogion y Philistiaid a aent allan: a phan elent hwy, Dafydd a fyddai ddoethach na holl weision Saul; a'i enw ef a aeth yn anrhydeddus iawn.

PENNOD 19.

1 Jonathan yn datguddio amcan ei dad am ladd Dafydd; 4 ac yn annog ei dad i gymmodi ag ef. 8 Maletsus ymddiredd Saul yn torri allan yn erbyn Dafydd, o herwydd ei lwyddiant ef mewn rhyfel newydd. 12 Michal yn siommi ei thad â delw y'ngwely Dafydd. 18 Dafydd yn dyfod at Samuel yn Naioth. 20 Saul yn danfon cenhadau i ddal Dafydd, 22 a Saul ei hun yn prophwydo.

ASAUL a ddywedodd wrth Jonathan ei fab, ac wrth ei holl weision, am ladd Dafydd.

2 Ond Jonathan mab Saul oedd hoff iawn ganddo Dafydd. A mynegodd Jonathan i Dafydd, gan ddywedyd, Saul fy nhad sydd yn ceisio dy ladd di: ac yn awr ymgadw, attolwg, hyd y bore, ac aros mewn *lle* dirgel, ac ymguddia:

3 A mi a âf allan, ac a safaf ger llaw fy nhad yn y maes *y byddych* di ynddo, a mi a ymddiddanaf â'm tad o'th blegid di; a'r hyn a welwyf, mi a'i mynegaf i ti.

4 ¶ A Jonathan a ddywedodd yn dda am Dafydd wrth Saul ei dad, ac a ddywedodd wrtho, Na phached y brenhin yn erbyn ei was, yn erbyn Dafydd: o herwydd ni phechodd efe i'th erbyn di, ac o herwydd *bod* ei weithredoedd ef yn dda iawn i ti.

5 Canys efe a osododd ei einioes
yn ei law, ac a darawodd y Philist-
iad; a'r ARGLWYDD a wnaeth iach-
awdwriaeth mawr i holl Israel: ti
a'i gwelaist, ac a lawenychaist: pa-
ham, gan hynny, y pechi yn erbyn
gwaed gwirion, gan ladd Dafydd yn
ddiachos?
6 A Saul a wrandawodd ar lais
Jonathan; a Saul a dyngodd, *Fel*
mai byw yr ARGLWYDD, ni leddir ef.
7 A Jonathan a alwodd ar Dafydd;
a Jonathan a fynegodd iddo ef yr
holl eiriau hyn. A Jonathan a ddug
Dafydd at Saul: ac efe a fu ger ei
fron ef megis cynt.
8 A bu chwaneg o ryfel: a Dafydd
a aeth allan ac a ymladdodd yn
erbyn y Philistiaid, ac a'u taraw-
odd hwynt â lladdfa fawr; a hwy a
ffoisant rhagddo ef.
9 A'r drwg yspryd oddi wrth yr
ARGLWYDD oedd ar Saul, pan oedd
efe yn eistedd yn ei dŷ â'i waywffon
yn ei law: a Dafydd *oedd* yn canu
â'i law.
10 A cheisiodd Saul daro â'i way-
wffon trwy Dafydd, yn y pared: ond
efe a giliodd o wydd Saul; ac yntau
a darawodd y waywffon yn y pared.
A Dafydd a ffodd, ac a ddiangodd
y nos honno.
11 Saul hefyd a anfonodd gen-
hadau i dŷ Dafydd, i'w wylied ef,
ac i'w ladd ef y bore; a Michal ei
wraig a fynegodd i Dafydd, gan
ddywedyd, Onid achubi dy einioes
heno, y fory y'th leddir.
12 ¶ Felly Michal a ollyngodd
Dafydd i lawr trwy ffenestr: ac
efe a aeth, ac a ffodd, ac a ddi-
angodd.
13 A Michal a gymmerodd ddelw,
ac a'i gosododd yn y gwely; a chlust-
og o *flew* geifr a osododd hi yn
obennydd iddi, ac a'i gorchuddiodd
â dillad.
14 A phan anfonodd Saul genhad-
au i ddala Dafydd, hi a ddywedodd,
Y mae efe yn glaf.
15 A Saul a anfonodd *eilwaith*
genhadau i edrych Dafydd, gan
ddywedyd, Dygwch ef i fyny attaf
fi yn ei wely, fel y lladdwyf ef.
16 A phan ddaeth y cenhadau,
wele y ddelw ar y gwely, a chlustog
o *flew* geifr yn obennydd iddi.
17 A dywedodd Saul wrth Michal,
Paham y twyllaist fi fel hyn, ac y
gollyngaist fy ngelyn i ddiango? A
Michal a ddywedodd wrth Saul, Efe
a ddywedodd wrthyf, Gollwng fi;
onid ê, mi a'th laddaf di.
18 ¶ Felly Dafydd a ffodd, ac a
ddiangodd, ac a ddaeth at Samuel i
Ramah; ac a fynegodd iddo yr hyn
oll a wnaethai Saul iddo ef. Ac efe
a aeth at Samuel, a hwy a drigas-
ant yn Naioth.
19 A mynegwyd i Saul, gan ddy-
wedyd, Wele, *y mae* Dafydd yn
Naioth o fewn Ramah.
20 A Saul a anfonodd genhadau
i ddala Dafydd. A phan welsant
gynnulleidfa y prophwydi yn pro-
phwydo, a Samuel yn sefyll wedi
ei osod arnynt hwy, yr oedd ar
genhadau Saul yspryd DUW, fel y
prophwydasant hwythau hefyd.
21 A phan fynegwyd *hyn* i Saul,
efe a anfonodd genhadau eraill; a
hwythau hefyd a brophwydasant.
A thrachefn danfonodd Saul gen-
hadau y drydedd waith; a phro-
phwydasant hwythau hefyd.
22 Yna yntau hefyd a aeth i Ra-
mah; ac a ddaeth hyd y ffynnon
fawr *sydd* yn Sechu: ac efe a ofyn-
odd, ac a ddywedodd, Pa le *y mae*
Samuel a Dafydd? Ac *un* a ddy-
wedodd, Wele, *y maent* yn Naioth
o fewn Ramah.
23 Ac efe a aeth yno i Naioth yn
Ramah. Ac arno yntau hefyd y
daeth yspryd DUW; a chan fyned
yr aeth ac y prophwydodd, nes ei
ddyfod i Naioth yn Ramah.
24 Ac efe a ddiosgodd ei ddillad,
ac a brophwydodd hefyd ger bron
Samuel, ac a syrthiodd i lawr yn
noeth yr holl ddiwrnod hwnnw, a'r
holl nos. Am hynny y dywedent,
A ydyw Saul hefyd ym mysg y pro-
phwydi?

PENNOD 20.

1 Dafydd yn ymyngkori â Jonathan am ei ddiogelwch. 11 Jonathan a Dafydd yn adnewyddu eu cyfammod trwy lw. 18 Arwydd Jonathan i Dafydd. 24 Saul, o eisieu cael gafael ar Dafydd, yn ceisio lladd Jonathan. 35 Jonathan yn gariadus yn canu yn iach i Dafydd.

A DAFYDD a ffodd o Naioth yn
Ramah; ac a ddaeth, ac a ddy-
wedodd ger bron Jonathan, Beth a

wneuthum i? beth *yw* fy anwiredd? a pheth *yw* fy mhechod o flaen dy dad di, gan ei fod efe yn ceisio fy einioes i?

2 Ac efe a ddywedodd wrtho, Na atto DUW; ni byddi farw: wele, ni wna fy nhad ddim, na mawr na bychan, heb *ei* fynegi i mi: paham gan hynny y celai fy nhad y peth hyn oddi wrthyf fi? Nid *felly y mae.*

3 A Dafydd a dyngodd eilwaith, ac a ddywedodd, Dy dad a ŵyr yn hysbys i mi gael ffafr yn dy olwg di; am hynny y dywed, Na chaed Jonathan wybod hyn, rhag ei dristâu ef: cyn wired *a* bod yr ARGLWYDD yn fyw, a'th enaid dithau yn fyw, *nid oes* ond megis cam rhyngof fi ac angau.

4 Yna y dywedodd Jonathan wrth Dafydd, Dywed beth *yw* dy ewyllys, a mi a'*i* cwblhâf i ti.

5 A Dafydd a ddywedodd wrth Jonathan, Wele, *y dydd cyntaf o'r* mis *yw* y fory, a minnau gan eistedd a ddylwn eistedd gyd â'r brenhin i fwytta: ond gollwng fi, fel yr ymguddiwyf yn y maes hyd brydnawn y trydydd *dydd.*

6 Os dy dad a ymofyn yn fanwl am danaf; yna dywed, Dafydd gan ofyn a ofynodd *gennad* gennyf fi, i redeg i Bethlehem, ei ddinas ei hun: canys aberth blynyddol *sydd* yno i'r holl genedl.

7 Os fel hyn y dywed efe, Da; heddwch *fydd* i'th was: ond os gan ddigio y digia efe, gwybydd fod ei fryd ef ar ddrwg.

8 Gwna gan hynny drugaredd â'th was; canys i gyfammod yr ARGLWYDD y dygaist dy was gyd â thi: ac od oes anwiredd ynof fi, lladd di fi; canys i ba beth y dygi fi at dy dad?

9 A dywedodd Jonathan, Na atto DUW *hynny* i ti: canys, os gan wybod y cawn wybod fod malais wedi ei barottôi gan fy nhad i ddyfod i'th erbyn, onis mynegwn i ti?

10 A Dafydd a ddywedodd wrth Jonathan, Pwy a fynega i mi? neu beth os dy dad a'th ettyb yn arw?

11 ¶ A dywedodd Jonathan wrth Dafydd, Tyred, ac awn i'r maes. A hwy a aethant ill dau i'r maes.

12 A Jonathan a ddywedodd wrth Dafydd, O ARGLWYDD DDUW Israel, wedi i mi chwilio *meddwl* fy nhad, ynghylch y pryd *hwn* y fory, *neu* drennydd; ac wele, *os* daioni *fydd* tu ag at Dafydd, ac oni anfonaf yna attat ti, a'i fynegi i ti;

13 Fel hyn y gwnel yr ARGLWYDD i Jonathan, ac ychwaneg: os da fydd gan fy nhad *wneuthur* drwg i ti; yna y mynegaf i ti, ac a'th ollyngaf ymaith, fel yr elech mewn heddwch: a bydded yr ARGLWYDD gyd â thi, megis y bu gyd â'm tad i.

14 Ac nid yn unig tra fyddwyf fi byw, y gwnei drugaredd yr ARGLWYDD â mi, fel na byddwyf fi marw:

15 Ond *hefyd* na thor ymaith dy drugaredd oddi wrth fy nhŷ i byth: na chwaith pan ddistrywio yr ARGLWYDD elynion Dafydd, bob un oddi ar wyneb y ddaear.

16 Felly *y cyfammododd* Jonathan â thŷ Dafydd; *ac efe a ddywedodd,* Gofyned yr ARGLWYDD *hyn* ar law gelynion Dafydd.

17 A Jonathan a wnaeth i Dafydd yntau dyngu, o herwydd efe a'i carai ef: canys fel y carai ei enaid ei hun, y carai efe ef.

18 A Jonathan a ddywedodd wrtho ef, Y fory *yw* y *dydd cyntaf o'r* mis: ac ymofynir am danat; o herwydd fe fydd dy eisteddle yn wag.

19 Ac wedi i ti aros dridiau, *yna* tyred i waered yn fuan; a thyred i'r lle yr ymguddiaist ynddo pan oedd y peth *ar waith,* ac aros wrth faen Esel.

20 A mi a saethaf dair o saethau tu a'i ystlys *ef,* fel pes gollyngwn *hwynt* at nôd.

21 Wele *hefyd,* mi a anfonaf langc, *gan ddywedyd,* Dos, cais y saethau. Os gan ddywedyd y dywedaf wrth y llangc, Wele y saethau o'r tu yma i ti, dwg hwynt; yna tyred di: canys heddwch *sydd* i ti, ac nid *oes* dim *niwed, fel mai* byw yw yr ARGLWYDD.

22 Ond os fel hyn y dywedaf wrth y llangc, Wele y saethau o'r tu hwnt i ti; dos ymaith; canys yr ARGLWYDD a'th anfonodd ymaith.

23 Ac *am* y peth a leferais i, mi

a thi, wele yr ARGLWYDD *fyddo* rhyngof fi a thi yn dragywydd.
24 ¶ Felly Dafydd a ymguddiodd yn y maes. A phan ddaeth y dydd cyntaf o'r mis, y brenhin a eisteddodd i fwytta bwyd.
25 A'r brenhin a eisteddodd ar ei eisteddfa, megis ar amseroedd eraill; *sef* ar yr eisteddfa wrth y pared; a Jonathan a gyfododd, ac Abner a eisteddodd wrth ystlys Saul; a lle Dafydd oedd wag.
26 Ac nid ynganodd Saul ddim y diwrnod hwnnw: canys meddyliodd *mai* damwain *oedd* hyn; nad *oedd* efe lân, a'i *fod* yn aflan.
27 A bu drannoeth, yr ail *ddydd* o'r mis, fod lle Dafydd yn wag. A dywedodd Saul wrth Jonathan ei fab, Paham na ddaeth mab Jesse at y bwyd, na doe na heddyw?
28 A Jonathan a attebodd Saul, Dafydd gan ofyn a ofynodd i mi *am gael myned* hyd Bethlehem:
29 Ac efe a ddywedodd, Gollwng fi, attolwg; o herwydd i'n tylwyth ni *y mae* aberth yn y ddinas, a'm brawd yntau a archodd i mi *fod yno:* ac yn awr, o chefais ffafr yn dy olwg, gâd i mi fyned, attolwg, fel y gwelwyf fy mrodyr. O herwydd hyn, ni ddaeth efe i fwrdd y brenhin.
30 Yna y llidiodd digter Saul yn erbyn Jonathan; ac efe a ddywedodd wrtho, *Ti* fab y gyndyn wrthnysig, oni wn i ti ddewis mab Jesse yn waradwydd i ti, ac yn gywilydd i noethder dy fam?
31 Canys tra fyddo mab Jesse yn fyw ar y ddaear, ni'th sicrhêir di na'th deyrnas: yn awr gan hynny anfon, a chyrch ef attaf; canys marw a gaiff efe.
32 A Jonathan a attebodd Saul ei dad, ac a ddywedodd wrtho, Paham y bydd efe marw? beth a wnaeth efe?
33 A Saul a ergydiodd waywffon atto ef, i'w daro ef. Wrth hyn y gwybu Jonathan *fod* ei dad ef wedi rhoi ei fryd ar ladd Dafydd.
34 Felly Jonathan a gyfododd oddi wrth y bwrdd mewn llid digllawn, ac ni fwyttaodd fwyd yr ail ddydd o'r mis: canys drwg oedd ganddo dros Dafydd, o herwydd i'w dad ei waradwyddo ef.
35 ¶ A'r bore yr aeth Jonathan i'r maes erbyn yr amser a osodasai efe i Dafydd, a bachgen bychan gyd âg ef.
36 Ac efe a ddywedodd wrth ei fachgen, Rhed, cais yn awr y saethau yr ydwyf fi yn eu saethu. *A*'r bachgen a redodd: yntau a saethodd saeth y tu hwnt iddo ef.
37 A phan ddaeth y bachgen hyd y fan *yr oedd* y saeth a saethasai Jonathan, y llefodd Jonathan ar ol y bachgen, ac a ddywedodd, Onid *yw* y saeth o'r tu hwnt i ti?
38 A llefodd Jonathan ar ol y bachgen, Cyflymma, brysia, na saf. A bachgen Jonathan a gasglodd y saethau, ac a ddaeth at ei feistr.
39 A'r bachgen ni wyddai ddim: yn unig Jonathan a Dafydd a wyddent y peth.
40 A Jonathan a roddodd ei offer at ei fachgen, ac a ddywedodd wrtho, Dos, dwg *y rhai hyn* i'r ddinas.
41 ¶ *A*'r bachgen a aeth ymaith; a Dafydd a gyfododd oddi wrth y dehau, ac a syrthiodd i lawr ar ei wyneb, ac a ymgrymmodd dair gwaith. A hwy a gusanasant bob un eu gilydd, ac a wylasant y naill wrth y llall; a Dafydd a ragorodd.
42 A dywedodd Jonathan wrth Dafydd, Dos mewn heddwch: yr hyn a dyngasom ni ein dau yn enw yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD fyddo rhyngof fi a thi, a rhwng fy had i a'th had dithau, *safed hynny* yn dragywydd. Ac efe a gyfododd ac a aeth ymaith: a Jonathan a aeth i'r ddinas.

PENNOD 21.

1 *Dafydd yn Nob yn cael gan Ahimelech fara cyssegredig, 7 a Doeg yno yn bresennol.* 8 *Dafydd yn cymmeryd cleddyf Goliath:* 10 *yn cymmeryd arno ymfydu yn Gath.*

YNA y daeth Dafydd i Nob at Ahimelech yr offeiriad. Ac Ahimelech a ddychrynodd wrth gyfarfod â Dafydd; ac a ddywedodd wrtho, Paham *yr ydwyt* ti yn unig, ac heb neb gyd â thi?
2 A dywedodd Dafydd wrth Ahimelech yr offeiriad, Y brenhin a orchymynodd i mi beth, ac a ddywed-

odd wrthyf, Na chaed neb wybod dim o'r peth *am* yr hwn y'th anfonais, ac y gorchymynais i ti: a'r gweision a gyfarwyddais i i'r lle a'r lle.

3 Ac yn awr beth sydd dan dy law? dod *i mi* bum *torth* yn fy llaw, neu *y peth* sydd i'w gael.

4 A'r offeiriad a attebodd Dafydd, ac a ddywedodd, Nid *oes* fara cyffredin dan fy llaw i; eithr y mae bara cyssegredig: os y llangciau a ymgadwasant o'r lleiaf oddi wrth wragedd.

5 A Dafydd a attebodd yr offeiriad, ac a ddywedodd wrtho, Dïau attal gwragedd oddi wrthym ni er ys dau ddydd neu dri, er pan gychwynais i; llestri y llangciau *hefyd* ydynt sanctaidd, a'r *bara* sydd megis cyffredin, ïe, pettai wedi ei gyssegru heddyw yn y llestr.

6 Felly yr offeiriad a roddodd iddo ef *y bara* sanctaidd: canys nid oedd yno fara, ond y bara gosod, yr hwn a dynnasid ymaith oddi ger bron yr ARGLWYDD, i osod bara brwd yn y dydd y tynnid ef ymaith.

7 Ac *yr oedd* yno y diwrnod hwnnw un o weision Saul yn aros ger bron yr ARGLWYDD, a'i enw Döeg, Edomiad, y pennaf o'r bugeiliaid *oedd* gan Saul.

8 ¶ A dywedodd Dafydd wrth Ahimelech, Onid oes yma dan dy law di waywffon, neu gleddyf? canys ni ddygais fy nghleddyf na'm harfau chwaith i'm llaw, o herwydd bod gorchymyn y brenhin ar ffrwst.

9 A dywedodd yr offeiriad, Cleddyf Goliath y Philistiad, yr hwn a leddaist ti yn nyffryn Elah; wele ef wedi ei oblygu mewn brethyn o'r tu ol i'r ephod: o chymmeri hwnnw i ti, cymmer; canys nid *oes* yma yr un arall ond hwnnw. A Dafydd a ddywedodd, Nid *oes* o fath hwnnw; dyro ef i mi.

10 ¶ Dafydd hefyd a gyfododd, ac a ffodd y dydd hwnnw rhag ofn Saul, ac a aeth at Achis brenhin Gath.

11 A gweision Achis a ddywedasant wrtho ef, Onid hwn *yw* Dafydd brenhin y wlad? onid i hwn y canasant yn y dawnsiau, gan ddywedyd, Saul a laddodd ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiwn?

12 A Dafydd a osododd y geiriau hynny yn ei galon, ac a ofnodd yn ddirfawr rhag Achis brenhin Gath.

13 Ac efe a newidiodd ei wedd yn eu golwg hwynt; ac a gymmerth arno ynfydu rhwng eu dwylaw hwynt, ac a gripiodd ddrysau y porth, ac a ollyngodd ei boeryn i lawr ar ei farf.

14 Yna y dywedodd Achis wrth ei weision, Wele, gwelwch y gŵr yn gwallgofi; paham y dygasoch ef attaf fi?

15 Ai eisieu ynfydion sydd arnaf fi, pan ddygasoch hwn i ynfydu o'm blaen i? a gaiff hwn ddyfod i'm tŷ i?

PENNOD 22.

1 Minteioedd yn cyrchu at Dafydd, i Adùlam. 3 Yntau ym Mispah yn gorchymyn ei dad a'i fam i frenhin Moab: 5 ac wedi cael rhybudd gan Gad, yn dyfod i Hareth. 6 Saul, wrth ei erlid ef, yn achwyn rhag anffyddlondeb ei weision. 9 Döeg yn cyhuddo Ahimelech. 11 Saul yn gorchymyn lladd yr offeiriaid. 17 Y rhedegwyr yn naccâu: a Döeg yn gwneuthur ei orchymyn ef. 20 Abiathar yn diange, ac yn dwyn y newyddion i Dafydd.

A DAFYDD a aeth ymaith oddi yno, ac a ddïangodd i ogof Adùlam: a phan glybu ei frodyr a holl dŷ ei dad ef *hynny*, hwy a aethant i waered atto ef yno.

2 Ymgynhullodd hefyd atto ef bob gŵr helbulus, a phob gŵr *a oedd* mewn dyled, a phob gŵr cystuddiedig o feddwl; ac efe a fu yn dywysog arnynt hwy: ac yr oedd gyd âg ef ynghylch pedwar cant o wŷr.

3 ¶ A Dafydd a aeth oddi yno i Mispah Moab; ac a ddywedodd wrth frenhin Moab, Deled, attolwg, fy nhad a'm mam *i aros* gyd â chwi, hyd oni wypwyf beth a wnel DUW i mi.

4 Ac efe a'u dug hwynt ger bron brenhin Moab: ac arhosasant gyd âg ef yr holl ddyddiau y bu Dafydd yn yr amddiffynfa.

5 ¶ A Gad y prophwyd a ddywedodd wrth Dafydd, Nac aros yn yr amddiffynfa; dos ymaith, a cherdda rhagot i wlad Judah. Felly Dafydd a ymadawodd, ac a ddaeth i goed Hareth.

6 ¶ A phan glybu Saul gael gwybodaeth am Dafydd, a'r gŵr *oedd*

gyd âg ef, (a Saul oedd yn aros yn Gibeah dan bren yn Ramah, a'i waywffon yn ei law, a'i holl weision yn sefyll o'i amgylch ;)

7 Yna Saul a ddywedodd wrth ei weision oedd yn sefyll o'i amgylch, Clywch, attolwg, feibion Jemini: A ddyry mab Jesse i chwi oll feusydd, a gwinllannoedd? *a* esyd efe chwi oll yn dywysogion ar filoedd, ac yn dywysogion ar gannoedd ;

8 Gan i chwi oll gyd-fwriadu i'm herbyn i, ac nad *oes* a fynego i mi wneuthur o'm mab i gynghrair â mab Jesse, ac nid *oes neb* o honoch yn ddrwg ganddo o'm plegid i, nac yn datguddio i mi ddarfod i'm mab annog fy ngwas i gynllwyn i'm herbyn, megis y dydd hwn?

9 ¶ Yna yr attebodd Döeg yr Edomiad, yr hwn oedd wedi ei osod ar weision Saul, ac a ddywedodd, Gwelais fab Jesse yn dyfod i Nob at Ahimelech mab Ahitub.

10 Ac efe a ymgynghorodd drosto ef â'r ARGLWYDD; ac a roddes fwyd iddo ef; cleddyf Goliath y Philistiad a roddes efe *hefyd* iddo.

11 Yna yr anfonodd y brenhin i alw Ahimelech yr offeiriad, mab Ahitub, a holl dŷ ei dad ef, *sef* yr offeiriaid *oedd* yn Nob. A hwy a ddaethant oll at y brenhin.

12 A Saul a ddywedodd, Gwrando yn awr, mab Ahitub. Dywedodd yntau, Wele fi, fy arglwydd.

13 A dywedodd Saul wrtho ef, Paham y cyd-fwriadasoch i'm herbyn i, ti a mab Jesse, gan i ti roddi iddo fara, a chleddyf, ac ymgynghori â DUW drosto ef, fel y cyfodai yn fy erbyn i gynllwyn, megis heddyw?

14 Ac Ahimelech a attebodd y brenhin, ac a ddywedodd, Pwy ym mysg dy holl weision di *sydd mor* ffyddlawn a Dafydd, ac yn ddaw i'r brenhin, ac yn myned wrth dy orchymyn, ac yn anrhydeddus yn dy dŷ di?

15 Ai y dydd *hwnnw* y dechreuais i ymgynghori â DUW drosto ef? na atto DUW i mi. Na osoded y brenhin ddim yn erbyn ei was, *nac* yn erbyn neb o dŷ fy nhad: canys ni wybu dy was di ddim o hyn oll, *nac* ychydig na llawer.

16 A dywedodd y brenhin, Gan farw y byddi farw, Ahimelech, tydi a holl dŷ dy dad.

17 ¶ A'r brenhin a ddywedodd wrth y rhedegwyr oedd yn sefyll o'i amgylch ef, Trowch, a lleddwch offeiriaid yr ARGLWYDD; o herwydd bod eu llaw hwynt hefyd gyd â Dafydd, ac o herwydd iddynt wybod ffoi o hono ef, ac na fynegasant i mi. Ond gweision y brenhin nid estynent eu llaw i ruthro ar offeiriaid yr ARGLWYDD.

18 A dywedodd y brenhin wrth Döeg, Tro di, a rhuthra ar yr offeiriaid. A Döeg yr Edomiad a drodd, ac a ruthrodd ar yr offeiriaid, ac a laddodd y diwrnod hwnnw bump a phedwar ugain o wŷr, yn dwyn ephod lïan.

19 Efe a darawodd hefyd Nob, dinas yr offeiriaid, â min y cleddyf, yn ŵr ac yn wraig, yn ddyn bach ac yn blentyn sugno, ac yn ŷch, ac yn asyn, ac yn oen, â min y cleddyf.

20 ¶ Ond un mab i Ahimelech mab Ahitub, a'i enw Abïathar, a ddïangodd, ac a ffodd ar ol Dafydd.

21 Ac Abïathar a fynegodd i Dafydd, ddarfod i Saul ladd offeiriaid yr ARGLWYDD.

22 A dywedodd Dafydd wrth Abïathar, Gwybum y dydd hwnnw, pan *oedd* Döeg yr Edomiad yno, gan fynegi y mynegai efe i Saul: myfi a fûm achlysur *marwolaeth* i holl dylwyth tŷ dy dad di.

23 Aros gyd â mi; nac ofna: canys yr hwn sydd yn ceisio fy einioes i, sydd yn ceisio dy einioes dithau: ond gyd â mi *y byddi* di gadwedig.

PENNOD 23.

1 *Dafydd, wedi ymofyn â'r Arglwydd trwy Abiathar, yn gwaredu Ceilah:* 7 *a chwedi i Duw ddangos iddo ddyfodiad Saul, a bradwriaeth y Ceiliaid, yn drangc o Ceilah.* 14 *Jonathan yn dyfod i Siph, ac yn ei gysuro ef.* 19 *Y Siphiaid yn dangos i Saul pa le yr oedd efe.* 25 *Yntau yn drango rhag Saul yn Maon, trwy ddyfod o'r Philistiaid i'r wlad:* 29 *ac yn trigo yn En-gedi.*

YNA y mynegasant i Dafydd, gan ddywedyd, Wele y Philistiaid yn ymladd yn erbyn Ceilah; ac y maent hwy yn anrheithio yr ysguboriau.

2 Am hynny y gofynodd Dafydd i'r ARGLWYDD, gan ddywedyd, A

âf fi a tharo y Philistiaid hyn? A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Dafydd, Dos, a tharo y Philistiaid, ac achub Ceilah.

3 A gwŷr Dafydd a ddywedasant wrtho ef, Wele ni yn ofnus yma yn Judah: pa faint mwy os awn i Ceilah, yn erbyn byddinoedd y Philistiaid?

4 Yna Dafydd eilwaith a ymgynghorodd â'r ARGLWYDD. A'r ARGLWYDD a'i hattebodd ef, ac a ddywedodd, Cyfod, dos i waered i Ceilah; canys myfi a roddaf y Philistiaid yn dy law di.

5 A Dafydd a'i wŷr a aethant i Ceilah, ac a ymladdodd â'r Philistiaid: ac a ddug eu gwartheg hwynt, ac a'u tarawodd hwynt â lladdfa fawr. Felly y gwaredodd Dafydd drigolion Ceilah.

6 A bu, pan ffodd Abiathar mab Ahimelech at Dafydd i Ceilah, ddwyn o hono ef ephod yn ei law.

7 ¶ A mynegwyd i Saul ddyfod Dafydd i Ceilah. A dywedodd Saul, DUW a'i rhoddodd ef yn fy llaw i: canys cauwyd arno ef pan ddaeth i ddinas â phyrth ac â barrau *iddi.*

8 A Saul a alwodd yr holl bobl ynghyd i ryfel, i fyned i waered i Ceilah, i warchae ar Dafydd ac ar ei wŷr.

9 ¶ A gwybu Dafydd fod Saul yn bwriadu drwg i'w erbyn ef: ac efe a ddywedodd wrth Abiathar yr offeiriad, Dwg yr ephod.

10 Yna y dywedodd Dafydd, O ARGLWYDD DDUW Israel, gan glywed y clybu dy was, fod Saul yn ceisio dyfod i Ceilah, i ddistrywio y ddinas er fy mwyn i.

11 A ddyry arglwyddi Ceilah fi yn ei law ef? a ddaw Saul i waered, megis y clybu dy was? O ARGLWYDD DDUW Israel, mynega, attolwg, i'th was. A'r ARGLWYDD a ddywedodd, Efe a ddaw i waered.

12 Yna y dywedodd Dafydd, A ddyry arglwyddi Ceilah fyfi a'm gwŷr yn llaw Saul? A'r ARGLWYDD a ddywedodd, Rhoddant.

13 ¶ Yna y cyfododd Dafydd a'i wŷr, *y rhai oedd* ynghylch chwe chant, ac a aethant o Ceilah, ac a rodiasant lle y gallent. A mynegwyd i Saul, fod Dafydd wedi diango o Ceilah; ac efe a beidiodd â myned allan.

14 A Dafydd a arhosodd yn yr anialwch mewn amddiffynfeydd, ac a arhôdd mewn mynydd, yn anialwch Siph: a Saul a'i ceisiodd ef bob dydd; ond ni roddodd DUW ef yn ei law ef.

15 A gwelodd Dafydd fod Saul wedi myned allan i geisio ei einioes ef: a Dafydd *oedd* yn anialwch Siph, mewn coed.

16 A Jonathan mab Saul a gyfododd, ac a aeth at Dafydd i'r coed; ac a gryfhaodd ei law ef yn NUW.

17 Dywedodd hefyd wrtho ef, Nac ofna: canys llaw Saul fy nhad ni'th gaiff di; a thi a deyrnesi ar Israel, a minnau a fyddaf yn nesaf attat ti: a Saul fy nhad *sydd* yn gwybod hyn hefyd.

18 A hwy ill dau a wnaethant gyfammod ger bron yr ARGLWYDD. A Dafydd a arhosodd yn y coed; a Jonathan a aeth i'w dŷ ei hun.

19 Yna y daeth y Siphiaid i fyny at Saul i Gibeah, gan ddywedyd, Onid yw Dafydd yn ymguddio gyd â ni mewn amddiffynfeydd yn y coed, ym mryn Hachilah, yr hwn *sydd* o'r tu dehau i'r diffaethwch?

20 Ac yn awr, O frenhin, tyred i waered yn ol holl ddymuniad dy galon; a *bydded* arnom ni ei roddi ef yn llaw y brenhin.

21 A dywedodd Saul, Bendigedig *fyddoch* chwi gan yr ARGLWYDD: canys tosturiasoch wrthyf.

22 Ewch, attolwg, parottôwch; *etto* mynnwch wybod hefyd, ac edrychwch am ei gynniweirfa ef, lle y mae efe yn tramwy, *a* phwy a'i gwelodd ef yno; canys dywedwyd i mi ei fod ef yn gyfrwys iawn.

23 Edrychwch gan hynny, a mynnwch wybod yr holl lochesau y mae efe yn ymguddio ynddynt, a dychwelwch attaf fi â sicrwydd, fel yr elwyf gyd â chwi; ac os bydd efe yn y wlad, mi a chwiliaf am dano ef trwy holl filoedd Judah.

24 A hwy a gyfodasant, ac a aethant i Siph o flaen Saul: ond Dafydd a'i wŷr *oedd* yn anialwch Maon, yn y rhos o'r tu dehau i'r diffaethwch.

25 Saul hefyd a'i wŷr a aeth i'w

geisio *ef*. A mynegwyd i Dafydd: am hynny efe a ddaeth i waered i graig, ac a arhosodd yn anialwch Maon. A phan glybu Saul *hynny*, efe a erlidiodd ar ol Dafydd yn anialwch Maon.

26 A Saul a aeth o'r naill du i'r mynydd, a Dafydd a'i wŷr o'r tu arall i'r mynydd: ac yr oedd Dafydd yn brysio i fyned ymaith rhag ofn Saul; canys Saul a'i wŷr a amgylchynasant Dafydd a'i wŷr, i'w dala hwynt.

27 ¶ Ond cennad a ddaeth at Saul, gan ddywedyd, Brysia, a thyred: canys y Philistiaid a ymdaenasant ar hyd y wlad.

28 Am hynny y dychwelodd Saul o erlid ar ol Dafydd; ac efe a aeth yn erbyn y Philistiaid: o herwydd hynny y galwasant y fan honno Sela Hammah-lecoth.

29 ¶ A Dafydd a aeth i fyny oddi yno, ac a arhosodd yn amddiffynfeydd En-gedi.

PENNOD 24.

1 *Dafydd, mewn ogof yn En-gedi, yn torri cwr mantell Saul, ac yn arbed ei einioes ef;* 8 *ac wrth hynny yn dangos ei ddiniweidrwydd.* 16 *Saul yn cydnabod ei fai, ac yn cymmeryd llw gan Dafydd, ac yn ymadael.*

A PHAN ddychwelodd Saul oddi ar ol y Philistiaid, mynegwyd iddo, gan ddywedyd, Wele Dafydd yn anialwch En-gedi.

2 Yna y cymmerth Saul dair mil o wŷr etholedig o holl Israel; ac efe a aeth i geisio Dafydd a'i wŷr, ar hyd coppa creigiau y geifr gwylltion.

3 Ac efe a ddaeth at gorlannau y defaid, ar y ffordd; ac yno *yr oedd* ogof: a Saul a aeth i mewn i wasanaethu ei gorph. A Dafydd a'i wŷr oedd yn aros yn ystlysau yr ogof.

4 A gwŷr Dafydd a ddywedasant wrtho ef, Wele y dydd *am* yr hwn y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyt, Wele fi yn rhoddi dy elyn yn dy law di, fel y gwnelych iddo megis y byddo da yn dy olwg. Yna Dafydd a gyfododd, ac a dorrodd gwr y fantell *oedd* am Saul yn ddirgel.

5 Ac wedi hyn calon Dafydd a'i tarawodd ef, o herwydd iddo dorri cwr *mantell* Saul.

6 Ac efe a ddywedodd wrth ei wŷr, Na atto yr ARGLWYDD i mi wneuthur y peth hyn i'm meistr, enneiniog yr ARGLWYDD, i estyn fy llaw yn ei erbyn ef; oblegid enneiniog yr ARGLWYDD *yw* efe.

7 Felly yr attaliodd Dafydd ei wŷr â'r geiriau *hyn*, ac ni adawodd iddynt gyfodi yn erbyn Saul. A Saul a gododd i fyny o'r ogof, ac a aeth i ffordd.

8 Ac ar ol hyn Dafydd a gyfododd, ac a aeth allan o'r ogof; ac a lefodd ar ol Saul, gan ddywedyd, Fy arglwydd frenhin. A phan edrychodd Saul o'i ol, Dafydd a ostyngodd ei wyneb tu a'r ddaear, ac a ymgrymmodd.

9 ¶ A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, Paham y gwrandewi eiriau dynion, gan ddywedyd, Wele, y mae Dafydd yn ceisio niwed i ti?

10 Wele, dy lygaid a welsant y dydd hwn ddarfod i'r ARGLWYDD dy roddi di yn fy llaw i heddyw yn yr ogof: a dywedwyd *wrthyf* am dy ladd di; ond *fy enaid* a'th arbedodd di: a dywedais, Nid estynaf fy llaw yn erbyn fy meistr; canys enneiniog yr ARGLWYDD *yw* efe.

11 Fy nhad hefyd, gwel, ïe, gwel gwr dy fantell yn fy llaw i: canys pan dorrais ymaith gwr dy fantell di, heb dy ladd; gwybydd a gwel nad *oes* yn fy llaw i ddrygioni na chamwedd, ac na phechais i'th erbyn: etto yr wyt ti yn hela fy einioes i, i'w dala hi.

12 Barned yr ARGLWYDD rhyngof fi a thithau, a dïaled yr ARGLWYDD fi arnat ti: ond ni bydd fy llaw i arnat ti.

13 Megis y dywed yr hen ddïareb, Oddi wrth y rhai anwir y daw anwiredd: ond ni bydd fy llaw i arnat ti.

14 Ar ol pwy y daeth brenhin Israel allan? ar ol pwy yr ydwyt ti yn erlid? ar ol ci marw, ar ol chwannen.

15 Am hynny bydded yr ARGLWYDD yn farnwr, a barned rhyngof fi a thi: edrychED hefyd, a dadleued fy nadl, ac achubed fi o'th law di.

16 ¶ A phan orphenodd Dafydd lefaru y geiriau hyn wrth Saul, yna y dywedodd Saul, Ai dy lef di *yw*

hon, fy mab Dafydd? A Saul a ddyrchafodd ei lef, ac a wylodd.
17 Efe a ddywedodd hefyd wrth Dafydd, Cyfiawnach *wyt* ti na myfi: canys ti a delaist i mi dda, a minnau a delais i ti ddrwg.
18 A thi a ddangosaist heddyw wneuthur o honot â mi ddaioni: o herwydd rhoddodd yr ARGLWYDD fi yn dy law di, ac ni'm lleddaist.
19 Oblegid os caffai ŵr ei elyn, a ollyngai efe ef mewn ffordd dda? am hynny yr ARGLWYDD a dalo i ti ddaioni, am yr hyn a wnaethost i mi y dydd hwn.
20 Ac wele yn awr, mi a wn gan deyrnasu y teyrnesi di, ac y sicrhêir brenhiniaeth Israel yn dy law di.
21 Twng dithau wrthyf fi yn awr i'r ARGLWYDD, na thorri ymaith fy had i ar fy ol, ac na ddifethi fy enw i o dŷ fy nhad.
22 A Dafydd a dyngodd wrth Saul. A Saul a aeth i'w dŷ: Dafydd hefyd a'i wŷr a aethant i fyny i'r amddiffynfa.

PENNOD 25.

1 *Marwolaeth Samuel.* 2 *Dafydd yn Paran yn danfon at Nabal:* 10 *a chwedi ei gyffroi trwy daeogrwydd Nabal, ar fedr ei ddifetha ef.* 14 *Abigail yn cael gwybod hynny,* 18 *yn cymmeryd anrheg,* 23 *a thrwy ei doethineb,* 32 *yn dyhuddo Dafydd.* 36 *Nabal wedi clywed hynny, yn marw.* 39 *Dafydd yn priodi Abigail ac Ahinoam.* 44 *Rhoddi Michal i Phalti.*

ABU farw Samuel; a holl Israel a ymgynnullasant, ac a alarasant am dano ef, ac a'i claddasant ef yn ei dŷ yn Ramah. A Dafydd a gyfododd, ac a aeth i waered i anialwch Paran.
2 Ac *yr oedd* gŵr ym Maon, a'i gyfoeth yn Carmel; a'r gŵr *oedd* fawr iawn, ac iddo ef *yr oedd* tair mil o ddefaid, a mil o eifr: ac yr oedd efe yn cneifio ei ddefaid yn Carmel.
3 Ac enw y gŵr *oedd* Nabal; ac enw ei wraig Abigail: a'r wraig *oedd* yn dda *ei* deall, ac yn dêg *ei* gwedd: a'r gŵr *oedd* galed, a drwg ei weithredoedd; a Chalebiad *oedd* efe.
4 ¶ A chlybu Dafydd yn yr anialwch, fod Nabal yn cneifio ei ddefaid.
5 A Dafydd a anfonodd ddeg o langciau; a Dafydd a ddywedodd wrth y llangciau, Cerddwch i fyny i Carmel, ac ewch at Nabal, a chyferchwch well iddo yn fy enw i.
6 Dywedwch fel hyn hefyd wrtho ef sydd yn byw *mewn llwyddiant, Caffech* di heddwch, a'th dŷ heddwch, a'r hyn oll *sydd* eiddot ti heddwch.
7 Ac yn awr clywais fod rhai yn cneifio i ti: yn awr y bugeiliaid *sydd* gennyt a fuant gyd â ni, ni wnaethom sarhâd arnynt hwy, ac ni bu ddim yn eisieu iddynt, yr holl ddyddiau y buant hwy yn Carmel.
8 Gofyn i'th langciau, a hwy a fynegant i ti: gan hynny caed y llangciau hyn ffafr yn dy olwg di; canys ar ddiwrnod da y daethom ni; dyro, attolwg, yr hyn a ddelo i'th law, i'th weision, ac i'th fab Dafydd.
9 Ac wedi dyfod llangciau Dafydd, hwy a ddywedasant wrth Nabal yn ol yr holl eiriau hynny yn enw Dafydd, ac a dawsant.
10 ¶ A Nabal a attebodd weision Dafydd, ac a ddywedodd, Pwy *yw* Dafydd? a phwy *yw* mab Jesse? llawer sydd o weision heddyw yn torri ymaith bob un oddi wrth ei feistr.
11 A gymmeraf fi fy mara a'm dwfr, a'm cig a leddais i'm cneifwyr, a'*u* rhoddi i wŷr nis gwn o ba le *y maent?*
12 Felly llangciau Dafydd a droisant i'w ffordd, ac a ddychwelasant, ac a ddaethant, ac a fynegasant iddo ef yr holl eiriau hynny.
13 A Dafydd a ddywedodd wrth ei wŷr, Gwregyswch bob un ei gleddyf. Ac ymwregysodd pob un ei gleddyf: ymwregysodd Dafydd hefyd ei gleddyf: ac ynghylch pedwar cant o wŷr a aeth i fyny ar ol Dafydd, a dau gant a drigasant gyd â'r dodrefn.
14 ¶ Ac un o'r llangciau a fynegodd i Abigail gwraig Nabal, gan ddywedyd, Wele, Dafydd a anfonodd genhadau o'r anialwch i gyfarch gwell i'n meistr ni; ond efe a'u difenwodd hwynt.
15 A'r gwŷr *fu* dda iawn wrthym ni; ac ni wnaed sarhâd arnom ni, ac ni bu i ni ddim yn eisieu yr holl

ddyddiau y rhodiasom gyd â hwynt, pan oeddym yn y maes.
16 Mur oeddynt hwy i ni nos a dydd, yr holl ddyddiau y buom gyd â hwynt yn cadw y defaid.
17 Yn awr gan hynny gwybydd, ac ystyria beth a wnelech: canys parottôwyd drwg yn erbyn ein meistr ni, ac yn erbyn ei holl dŷ ef: canys efe *sydd* fab i Belial, fel na ellir ymddiddan âg ef.
18 ¶ Yna Abigail a frysiodd, ac a gymmerth ddau cant o fara, a dwy gostrelaid o win, a phump o ddefaid wedi eu gwneuthur yn barod, a phum hobaid o gras-*ŷd*, a chan *swp* o resin, a dau can *teisen* o ffigys, ac a'*u* gosododd ar asynod.
19 A hi a ddywedodd wrth ei gweision, Cerddwch o'm blaen i; wele fi yn dyfod ar eich ol: ond wrth Nabal ei gŵr nid ynganodd hi.
20 Ac a hi yn marchogaeth ar asyn, ac yn dyfod i waered ar hyd ystlys y mynydd; yna, wele Dafydd a'i wŷr yn dyfod i waered i'w herbyn; a hi a gyfarfu â hwynt.
21 A dywedasai Dafydd, Dïau gadw o honof fi yn ofer yr hyn oll *oedd* gan hwn yn yr anialwch, fel na bu dim yn eisieu o'r hyn oll *oedd* ganddo ef: canys efe a daloodd i mi ddrwg dros dda.
22 Felly y gwnelo Duw i elynion Dafydd, ac ychwaneg, os gadawaf o'r hyn oll *sydd ganddo* ef, erbyn goleuni y bore, *un* gwrryw.
23 A phan welodd Abigail Dafydd, hi a frysiodd ac a ddisgynodd oddi ar yr asyn, ac a syrthiodd ger bron Dafydd ar ei hwyneb, ac a ymgrymmodd hyd lawr,
24 Ac a syrthiodd wrth ei draed ef, ac a ddywedodd, Arnaf fi, fy arglwydd, arnaf fi *bydded* yr anwiredd; a llefared dy wasanaethferch, attolwg, wrthyt, a gwrando eiriau dy law-forwyn.
25 Attolwg, na osoded fy arglwydd ei galon yn erbyn y gŵr Belial hwn, *sef* Nabal: canys fel *y mae* ei enw ef, felly *y mae* yntau; Nabal *yw* ei enw ef, ac ynfydrwydd *sydd* gyd âg ef: a minnau dy wasanaethferch, ni welais weision fy arglwydd, y rhai a anfonaist.
26 Ac yn awr, fy arglwydd, *fel* y mae yr Arglwydd yn fyw, ac *mai* byw dy enaid di, gan i'r Arglwydd dy luddias di rhag dyfod i *dywallt* gwaed, ac i ymddïal â'th law dy hun; yn awr bydded dy elynion di, a'r sawl a geisiant niwed i'm harglwydd, megis Nabal.
27 Ac yn awr yr anrheg yma, yr hon a ddug dy wasanaethferch i'm harglwydd, rhodder hi i'r llangciau sydd yn canlyn fy arglwydd.
28 A maddeu, attolwg, gamwedd dy wasanaethferch: canys yr Arglwydd gan wneuthur a wna i'm harglwydd dŷ sicr; o herwydd fy arglwydd sydd yn ymladd rhyfeloedd yr Arglwydd, a drygioni ni chafwyd ynot ti yn dy *holl* ddyddiau.
29 Er cyfodi o ddyn i'th erlid di, ac i geisio dy enaid; etto enaid fy arglwydd a fydd wedi ei rwymo yn rhwymyn y bywyd gyd â'r Arglwydd dy Duw; ac enaid dy elynion a chwyrn-deifl efe, *fel* o ganol ceudeb y ffon-dafl.
30 A phan wnelo yr Arglwydd i'm harglwydd yn ol yr hyn oll a lefarodd efe o ddaioni am danat, a phan y'th osodo di yn flaenor ar Israel;
31 Yna ni bydd hyn yn ochenaid i ti, nac yn dramgwydd calon i'm harglwydd, ddarfod i ti dywallt gwaed heb achos, neu ddïal o'm harglwydd ef ei hun: ond pan wnelo Duw ddaioni i'm harglwydd, yna cofia di dy law-forwyn.
32 ¶ A dywedodd Dafydd wrth Abigail, Bendigedig *fyddo* Arglwydd Duw Israel, yr hwn a'th anfonodd di y dydd hwn i'm cyfarfod i:
33 Bendigedig hefyd *fo* dy gynghor, a bendigedig *fyddych* dithau yr hon a'm lluddiaist y dydd hwn rhag dyfod i *dywallt* gwaed, ac i ymddïal â'm llaw fy hun.
34 Canys yn wir, *fel* y mae Arglwydd Duw Israel yn fyw, yr hwn a'm hattaliodd i rhag dy ddrygu di, oni buasai i ti frysio a dyfod i'm cyfarfod, dïau na adawsid i Nabal, erbyn goleuni y bore, *un* gwrryw.
35 Yna y cymmerodd Dafydd o'i

llaw hi yr hyn a ddygasai hi iddo ef; ac a ddywedodd wrthi hi, Dos i fyny mewn heddwch i'th dŷ: gwel, mi a wrandewais ar dy lais, ac a dderbyniais dy wyneb.

36 ¶ Ac Abigail a ddaeth at Nabal; ac wele, *yr oedd* gwledd ganddo ef yn ei dŷ, fel gwledd brenhin: a chalon Nabal *oedd* lawen ynddo ef; canys meddw iawn oedd efe: am hynny nid ynganodd hi wrtho ef air, na bychan na mawr, nes goleuo y bore.

37 A'r bore pan aeth ei feddwdod allan o Nabal, mynegodd ei wraig iddo ef y geiriau hynny; a'i galon ef a fu farw o'i fewn, ac efe a aeth *fel* carreg.

38 Ac ynghylch *pen* y deng niwrnod y tarawodd yr ARGLWYDD Nabal, fel y bu efe farw.

39 ¶ A phan glybu Dafydd farw Nabal, efe a ddywedodd, Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD, yr hwn a ddadleuodd achos fy sarhâd i oddi ar law Nabal, ac a attaliodd ei was rhag drwg: canys yr ARGLWYDD a drodd ddrygioni Nabal ar ei ben ei hun. Dafydd hefyd a anfonodd i ymddiddan âg Abigail, am ei chymmeryd hi yn wraig iddo.

40 A phan ddaeth gweision Dafydd at Abigail i Carmel, hwy a lefarasant wrthi, gan ddywedyd, Dafydd a'n hanfonodd ni attat ti, i'th gymmeryd di yn wraig iddo.

41 A hi a gyfododd, ac a ymgrymmodd ar *ei* hwyneb hyd lawr; ac a ddywedodd, Wele dy forwyn yn wasanaethferch i olchi traed gweision fy arglwydd.

42 Abigail hefyd a frysiodd, ac a gyfododd, ac a farchogodd ar asyn, a phump o'i llangcesau yn ei chanlyn: a hi a aeth ar ol cenhadau Dafydd, ac a aeth yn wraig iddo ef.

43 A Dafydd a gymmerth Ahinoam o Jesreel; a hwy a fuant ill dwy oedd yn wragedd iddo ef.

44 ¶ A Saul a roddasai Michal ei ferch, gwraig Dafydd, i Phalti mab Laïs, o Alim.

PENNOD 26.

1 *Saul, wedi i'r Siphiaid ddatguddio Dafydd, yn dyfod i Hachilah yn ei erbyn ef.* 5 *Dafydd yn dyfod i'r wersyllfa, ac yn rhwystro i Abisai ladd Saul: etto yn cymmeryd ei waywffon ef a'i ddwfr-lestr.* 13 *Dafydd yn ceryddu Abner;* 18 *ac yn cynghori Saul.* 21 *Saul yn cydnabod ei fai.*

A'R Siphiaid a ddaethant at Saul i Gibeah, gan ddywedyd, Onid *ydyw* Dafydd yn llechu ym mryn Hachilah, ar gyfer y diffaethwch?

2 Yna y cyfododd Saul, ac a aeth i waered i anialwch Siph, a thair mil o etholedigion gwŷr Israel gyd âg ef, i geisio Dafydd yn anialwch Siph.

3 A Saul a wersyllodd ym mryn Hachilah, yr hwn *sydd* ar gyfer y diffaethwch, wrth y ffordd: a Dafydd oedd yn aros yn yr anialwch; ac efe a welodd fod Saul yn dyfod ar ei ol ef i'r anialwch.

4 Am hynny Dafydd a anfonodd ysbïwyr, ac a wybu ddyfod o Saul yn sicr.

5 ¶ A Dafydd a gyfododd, ac a ddaeth i'r lle y gwersyllasai Saul ynddo: a chanfu Dafydd y lle yr oedd Saul yn gorwedd ynddo, ac Abner mab Ner, tywysog ei lu. A Saul oedd yn gorwedd yn y wersyllfa, a'r bobl yn gwersyllu o'i amgylch ef.

6 Yna y llefarodd Dafydd, ac y dywedodd wrth Ahimelech yr Hethiad, ac wrth Abisai mab Serfiah, brawd Joab, gan ddywedyd, Pwy a â i waered gyd â mi at Saul i'r gwersyll? A dywedodd Abisai, Myfi a âf i waered gyd â thi.

7 Felly y daeth Dafydd ac Abisai at y bobl liw nos. Ac wele Saul yn gorwedd *ac* yn cysgu yn y wersyllfa, a'i waywffon wedi ei gwthio i'r ddaear *wrth* ei obennydd ef: ac Abner a'r bobl oedd yn gorwedd o'i amgylch ef.

8 Yna y dywedodd Abisai wrth Dafydd, DUW a roddes heddyw dy elyn yn dy law di: yn awr gan hynny gâd i mi ei daro ef, attolwg, â gwaywffon, hyd y ddaear un waith, ac nis ail-*darawaf* ef.

9 A Dafydd a ddywedodd wrth Abisai, Na ddifetha ef: canys pwy a estynai ei law yn erbyn enneiniog yr ARGLWYDD, ac a fyddai ddïeuog?

10 Dywedodd Dafydd hefyd, *Fel* y mae yr ARGLWYDD yn fyw, naill ai yr ARGLWYDD a'i tery ef; ai ei

ddydd ef a ddaw i farw; ai efe a ddisgyn i'r rhyfel, ac a ddifethir.

11 Yr ARGLWYDD a'm cadwo i rhag estyn fy llaw yn erbyn enneiniog yr ARGLWYDD: ond yn awr, cymmer, attolwg, y waywffon *sydd* wrth ei obennydd ef, a'r llestr dwfr, ac awn ymaith.

12 A Dafydd a gymmerth y waywffon, a'r llestr dwfr oddi wrth obennydd Saul; a hwy a aethant ymaith; ac nid oedd *neb* yn gweled, nac yn gwybod, nac yn neffro: canys *yr oeddynt* oll yn cysgu; o herwydd trwmgwsg oddi wrth yr ARGLWYDD a syrthiasai arnynt hwy.

13 ¶ Yna Dafydd a aeth i'r tu hwnt, ac a safodd ar ben y mynydd o hirbell; *ac* encyd fawr rhyngddynt;

14 A Dafydd a lefodd ar y bobl, ac ar Abner mab Ner, gan ddywedyd, Onid attebi di, Abner? Yna Abner a attebodd, ac a ddywedodd, Pwy *ydwyt* ti *sydd* yn llefain ar y brenhin?

15 A Dafydd a ddywedodd wrth Abner, Onid gŵr *ydwyt* ti? a phwy *sydd* fel ti yn Israel? a phaham na chedwaist dy arglwydd frenhin? canys daeth un o'r bobl i ddifetha y brenhin dy arglwydd di.

16 Nid da y peth hyn a wnaethost ti. *Fel* y mae yr ARGLWYDD yn fyw, meibion *ewog* o farwolaeth *ydych* chwi, am na chadwasoch eich meistr, enneiniog yr ARGLWYDD. Ac yn awr edrychwch pa le *y mae* gwaywffon y brenhin, a'r llestr dwfr *oedd wrth* ei obennydd ef.

17 A Saul a adnabu lais Dafydd, ac a ddywedodd, Ai dy lais di *yw* hwn, fy mab Dafydd? A dywedodd Dafydd, Fy llais i *ydyw*, fy arglwydd frenhin.

18 Dywedodd hefyd, Paham y mae fy arglwydd fel hyn yn erlid ar ol ei was? canys beth a wneuthum? neu pa ddrygioni *sydd* yn fy llaw?

19 Yn awr gan hynny, attolwg, gwrandawed fy arglwydd frenhin eiriau ei wasanaethwr. Os yr ARGLWYDD a'th annogodd di i'm herbyn, arogled offrwm: ond os meibion dynion, melldigedig *fyddant* hwy ger bron yr ARGLWYDD; o herwydd hwy a'm gyrrasant i allan heddyw, fel nad ydwyf yn cael glynu yn etifeddiaeth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Dos, gwasanaetha dduwiau dieithr.

20 Yn awr, gan hynny, na syrthied fy ngwaed i i'r ddaear o flaen wyneb yr ARGLWYDD: canys brenhin Israel a ddaeth allan i geisio chwannen, megis un yn hela petris yn y mynyddoedd.

21 ¶ Yna Saul a ddywedodd, Pechais: dychwel, Dafydd fy mab: canys ni'th ddrygaf mwy; o herwydd gwerthfawr fu fy einioes i yn dy olwg di y dydd hwn: wele, ynfyd y gwneuthum, a mi a gyfeiliornais yn ddirfawr.

22 A Dafydd a attebodd, ac a ddywedodd, Wele waywffon y brenhin; deled un o'r llangciau drosodd, a chyrched hi.

23 Yr ARGLWYDD a dalo i bob un ei gyfiawnder a'i ffyddlondeb: canys yr ARGLWYDD a'th roddodd di heddyw yn *fy* llaw *i*; ond nid estynwn i fy llaw yn erbyn enneiniog yr ARGLWYDD.

24 Ac wele, megis y bu werthfawr dy einioes di heddyw yn fy ngolwg i, felly gwerthfawr fyddo fy einioes innau y'ngolwg yr ARGLWYDD, a gwareded fi o bob cyfyngdra.

25 Yna y dywedodd Saul wrth Dafydd, Bendigedig *fych* di, fy mab Dafydd: hefyd ti a wnei fawredd, ac a orchfygi rhag llaw. A Dafydd a aeth i ffordd; a Saul a ddychweloddi'w fangre ei hun.

PENNOD 27.

1 *Saul yn clywed bod Dafydd yn Gath, ac heb ei geisio ef mwyach.* 5 *Dafydd yn cael Siclag yan Achis;* 8 *a chan yspeilio gwledydd eraill, yn peri i Achis goelio mai yn erbyn Judah yr ymladdasai efe.*

A DAFYDD a ddywedodd yn ei galon, Yn awr difethir fi ryw ddydd trwy law Saul: nid *oes* dim well i mi na diange i dir y Philistiaid; fel yr anobeithio Saul *ddyfod o hyd* i mi, ac na'm ceisio mwy yn holl derfynau Israel. Felly y diangaf o'i law ef.

2 A Dafydd a gyfododd, ac a dramwyodd, efe a'r chwe channwr *oedd* gyd âg ef, at Achis mab Maoch, brenhin Gath.

3 A Dafydd a arhosodd gyd âg

Achis yn Gath, efe a'i wŷr, pob un
gyd â'i deulu; Dafydd a'i ddwy
wraig, Ahinoam y Jesreelëes, ac
Abigail gwraig Nabal, y Garmelëes.
4 A mynegwyd i Saul, ffoi o Da-
fydd i Gath: ac ni chwanegodd efe
ei geisio ef mwy.
5 ¶ A Dafydd a ddywedodd wrth
Achis, O chefais yn awr ffafr yn dy
olwg di, rhodder i mi le yn un o'r
maesdrefi, fel y trigwyf yno: canys
paham yr erys dy was di yn ninas
y brenhin gyd â thi?
6 Yna Achis a roddodd iddo ef y
dydd hwnnw Siclag; am hynny y
mae Siclag yn eiddo brenhinoedd
Judah hyd y dydd hwn.
7 A rhifedi y dyddiau yr arhosodd
Dafydd y'ngwlad y Philistiaid, *oedd*
flwyddyn a phedwar mis.
8 ¶ A Dafydd a'i wŷr a aethant i
fyny, ac a ruthrasant ar y Gesuriaid,
a'r Gesriaid, a'r Amaleciaid: canys
hwynt-hwy gynt oedd yn preswylio
yn y wlad, ffordd yr elych i Sur, ïe,
hyd wlad yr Aipht.
9 A Dafydd a darawodd y wlad;
ac ni adawodd yn fyw ŵr na gwraig;
ac a ddug y defaid, a'r gwartheg,
a'r asynod, a'r camelod, a'r gwisg-
oedd, ac a ddychwelodd ac a ddaeth
at Achis.
10 Ac Achis a ddywedodd, I ba
le y rhuthrasoch chwi heddyw? A
dywedodd Dafydd, Yn erbyn tu
dehau Judah, ac yn erbyn tu de-
hau y Jerahmeeliaid, ac yn erbyn
tu dehau y Ceneaid.
11 Ac ni adawsai Dafydd yn fyw
ŵr na gwraig, i ddwyn *chwedlau* i
Gath; gan ddywedyd, Rhag mynegi
o honynt i'n herbyn, gan ddywedyd,
Fel hyn y gwnaeth Dafydd, ac felly
y bydd ei arfer ef yr holl ddyddiau
yr arhoso efe y'ngwlad y Philist-
iaid.
12 Ac Achis a gredodd Dafydd,
gan ddywedyd, Efe a'i gwnaeth ei
hun yn ffiaidd gan ei bobl ei hun
Israel; am hynny y bydd efe yn
was i mi yn dragywydd.

PENNOD 28.

1 *Achis yn hyderu ar Dafydd.* 3 *Saul wedi difetha y dewiniaid,* 4 *yn ei ofn, wedi i Dduw ei wrthod,* 7 *yn myned at ddewines;* 9 *a honno yn codi i fyny Samuel.* 15 *Saul, wrth glywed ei ddinystr, yn llewygu;* 21 *a'r wraig a'i weision yn ei nerthu ef a bwyd.*

A'R Philistiaid yn y dyddiau hyn-
ny a gynnullasant eu byddin-
oedd yn llu, i ymladd yn erbyn Is-
rael. A dywedodd Achis wrth Da-
fydd, Gwybydd di yn hysbys, yr âi
di gyd â mi allan i'r gwersylloedd,
ti a'th wŷr.
2 A dywedodd Dafydd wrth Achis,
Yn ddïau ti a gei wybod beth a all
dy was ei wneuthur. A dywedodd
Achis wrth Dafydd, Yn wir min-
nau a'th osodaf di yn geidwad ar
fy mhen i byth.
3 ¶ A Samuel a fuasai farw; a
holl Israel a alarasent am dano ef,
ac a'i claddasent yn Ramah, sef yn
ei ddinas ei hun. A Saul a yrrasai
ymaith y swynyddion a'r dewiniaid
o'r wlad.
4 ¶ A'r Philistiaid a ymgynnull-
asant ac a ddaethant ac a wersyll-
asant yn Sunem: a Saul a gasglodd
holl Israel ynghyd; a hwy a wer-
syllasant yn Gilboa.
5 A phan welodd Saul wersyll y
Philistiaid, efe a ofnodd, a'i galon
a ddychrynodd yn ddirfawr.
6 A phan ymgynghorodd Saul â'r
ARGLWYDD, nid attebodd yr AR-
GLWYDD iddo, na thrwy freuddwyd-
ion, na thrwy Urim, na thrwy bro-
phwydi.
7 ¶ Yna y dywedodd Saul wrth
ei weision, Ceisiwch i mi wraig o
berchen yspryd dewiniaeth, fel
yr elwyf atti, ac yr ymofynwyf
â hi. A'i weision a ddywedasant
wrtho, Wele, *y mae* gwraig o ber-
chen yspryd dewiniaeth yn En-
dor.
8 A Saul a newidiodd ei ddull, ac a
wisgodd ddillad eraill; ac efe a aeth,
a dau ŵr gyd âg ef, a hwy a ddaeth-
ant at y wraig liw nos. Ac efe a
ddywedodd, Dewinia, attolwg, i mi
trwy yspryd dewiniaeth, a dwg i
fyny attaf fi yr hwn a ddywedwyf
wrthyt.
9 A'r wraig a ddywedodd wrtho ef,
Wele, ti a wyddost yr hyn a wnaeth
Saul, yr hwn a ddifethodd y swyn-
yddion a'r dewiniaid o'r wlad: pa-
ham gan hynny yr ydwyt ti yn
gosod magl yn erbyn fy einioes i, i
beri i mi farw?
10 A Saul a dyngodd wrthi hi i'r
ARGLWYDD, gan ddywedyd, *Fel mai*

byw yr ARGLWYDD, ni ddigwydd i ti niwed am y peth hyn.

11 Yna y dywedodd y wraig, Pwy a ddygaf fi i fyny attat ti? Ac efe a ddywedodd, Dwg i mi Samuel i fyny.

12 A'r wraig a ganfu Samuel, ac a lefodd â llef uchel: a'r wraig a lefarodd wrth Saul, gan ddywedyd, Paham y twyllaist fi? canys ti *yw* Saul.

13 A'r brenhin a ddywedodd wrthi hi, Nac ofna: canys beth a welaist ti? A'r wraig a ddywedodd wrth Saul, Duwiau a welais yn dyrchafu o'r ddaear.

14 Yntau a ddywedodd wrthi, Pa ddull *sydd* arno ef? A hi a ddywedodd, Gŵr hen sydd yn dyfod i fyny, a hwnnw yn gwisgo mantell. A gwybu Saul mai Samuel *oedd* efe; ac efe a ostyngodd *ei* wyneb i lawr, ac a ymgrymmodd.

15 ¶ A Samuel a ddywedodd wrth Saul, Paham yr aflonyddaist arnaf, gan beri i mi ddyfod i fyny? A dywedodd Saul, Y mae yn gyfyng iawn arnaf fi: canys y mae y Philistiaid yn rhyfela yn fy erbyn i, a DUW a giliodd oddi wrthyf fi, ac nid yw yn fy atteb mwyach, na thrwy law prophwydi, na thrwy freuddwydion: am hynny y gelwais arnat ti, i hysbysu i mi beth a wnawn.

16 Yna y dywedodd Samuel, Paham gan hynny yr ydwyt ti yn ymofyn â mi, gan i'r ARGLWYDD gilio oddi wrthyt, a bod yn elyn i ti?

17 Yr ARGLWYDD yn ddiau a wnaeth iddo, megis y llefarodd trwy fy llaw i: canys yr ARGLWYDD a rwygodd y frenhiniaeth o'th law di, ac a'i rhoddes hi i'th gymmydog, i Dafydd:

18 O herwydd na wrandewaist ti ar lais yr ARGLWYDD, ac na chyflawnaist lidiowgrwydd ei ddigter ef yn erbyn Amalec; am hynny y gwnaeth yr ARGLWYDD y peth hyn i ti y dydd hwn.

19 Yr ARGLWYDD hefyd a ddyry Israel gyd â thi yn llaw y Philistiaid; ac y fory *y byddi* di a'th feibion gyd â mi: a'r ARGLWYDD a ddyry wersylloedd Israel yn llaw y Philistiaid.

20 Yna Saul a frysiodd ac a syrthiodd o'i hŷd gyhyd ar y ddaear, ac a ofnodd yn ddirfawr, o herwydd geiriau Samuel: a nerth nid oedd ynddo; canys ni fwyttasai fwyd yr holl ddiwrnod na'r holl noson *honno.*

21 ¶ A'r wraig a ddaeth at Saul, ac a ganfu ei fod ef yn ddychrynedig iawn; a hi a ddywedodd wrtho ef, Wele, gwrandawodd dy law forwyn ar dy lais di, a gosodais fy einioes mewn enbydrwydd, ac ufuddheais dy eiriau a leferaist wrthyf:

22 Yn awr gan hynny gwrando dithau, attolwg, ar lais dy wasanaethferch, a gâd i mi osod ger dy fronnti dammaid o fara; a bwytta, fel y byddo nerth ynot, pan elech i'th ffordd.

23 Ond efe a wrthododd, ac a ddywedodd, Ni fwyttâf. Etto ei weision a'r wraig hefyd a'i cymmellasant ef; ac efe a wrandawodd ar eu llais hwynt. Ac efe a gyfododd oddi ar y ddaear, ac a eisteddodd ar y gwely.

24 Ac *yr oedd* gan y wraig lo bras yn tŷ; a hi a frysiodd, ac a'i lladdodd ef, ac a gymmerth beillied, ac a'i tylinodd, ac a'i pobodd yn gri:

25 A hi a'i dug ger bron Saul, a cher bron ei weision: a hwy a fwyttasant. Yna hwy a gyfodasant, ac a aethant ymaith y noson honno.

PENNOD 29.

1 Dafydd, wrth fyned gyd â'r Philistiaid, 3 yn cael ei wrthod gan y tywysogion. 6 Achis yn ei ollwng ef ymaith, ac yn cannmol ei ffyddlondeb ef.

YNA y Philistiaid a gymmullasant eu holl fyddinoedd i Aphec: a'r Israeliaid oedd yn gwersyllu wrth ffynnon *sydd* yn Jesreel.

2 A thywysogion y Philistiaid oedd yn tramwy yn gannoedd, ac yn filoedd: ond Dafydd a'i wŷr oedd yn cerdded yn olaf gyd âg Achis.

3 Yna tywysogion y Philistiaid a ddywedasant, Beth *a wna* yr Hebreaid hyn *yma?* Ac Achis a ddywedodd wrth dywysogion y Philistiaid, Onid dyma Dafydd, gwas Saul brenhin Israel, yr hwn a fu gyd â mi y dyddiau hyn, neu y blynyddoedd hyn, ac ni chefais ddim bai ynddo ef, er y dydd y syrthiodd efe *attaf* hyd y dydd hwn?

4 A thywysogion y Philistiaid a lidiasant wrtho; a thywysogion y

Philistiaid a ddywedasant wrtho, Gwna i'r gŵr hwn ddychwelyd i'w le a osodaist iddo, ac na ddeled i waered gyd â ni i'r rhyfel; rhag ei fod yn wrthwynebwr i ni yn y rhyfel: canys â pha beth y rhyngai hwn fodd i'w feistr? onid â phennau y gŵr hyn?

5 Onid hwn *yw* Dafydd, am yr Hwn y canasant wrth eu gilydd yn y dawnsiau, gan ddywedyd, Saul a laddodd ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiwn?

6 ¶ Yna Achis a alwodd Dafydd, ac a ddywedodd wrtho, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, dïau dy *fod* di yn uniawn, ac yn dda yn fy ngolwg i, pan elit allan a phan ddelit i mewn gyd â mi yn y gwersyll: canys ni chefais ynot ddrygioni, o'r dydd y daethost attaf fi hyd y dydd hwn: eithr nid *wyt* ti wrth fodd y tywysogion.

7 Dychwel yn awr, gan hynny, a dos mewn heddwch, ac na anfoddlona dywysogion y Philistiaid.

8 ¶ A dywedodd Dafydd wrth Achis, Ond beth a wneuthum i? a pheth a gefaist ti yn dy was, o'r dydd y deuthum o'th flaen di hyd y dydd hwn, fel na ddelwn i ymladd yn erbyn gelynion fy arglwydd frenhin?

9 Ac Achis a attebodd ac a ddywedodd wrth Dafydd, Gwn mai da *wyt* ti yn fy ngolwg i, megis angel DUW: ond tywysogion y Philistiaid a ddywedasant, Ni ddaw efe i fyny gyd â ni i'r rhyfel.

10 Am hynny yn awr cyfod yn fore, a gweision dy feistr y rhai a ddaethant gyd â thi: a phan gyfodoch yn fore, a phan oleuo i chwi, ewch ymaith.

11 Felly Dafydd a gyfododd, efe a'i wŷr, i fyned ymaith y bore, i ddychwelyd i dir y Philistiaid. A'r Philistiaid a aethant i fyny i Jesreel.

PENNOD 30.

1 *Yr Amaleciaid yn yspeilio Siclag.* 7 *Dafydd yn ymofyn â Duw, ac yn cael cysur i'w herlid hwy;* 11 *a thrwy waith Aïphtiad, yn cael ei ddwyn at y gelynion, ac yn ennill adref yr holl yspail.* 22 *Cyfraith Dafydd am rannu yr yspail yn uniawn rhwng yr ymladdwyr a'r rhai a gadwent y doddrefn.* 26 *Efe yn anfon anrhegion i'w cyfeillion.*

APHAN ddaeth Dafydd a'i wŷr i Siclag y trydydd dydd, yr Amaleciaid a ruthrasent ar du y dehau, ac ar Siclag, ac a darawsent Siclag, ac a'i llosgasent hi â thân.

2 Caethgludasent hefyd y gwragedd *oedd* ynddi: o fychan hyd fawr ni laddasent hwy neb, eithr dygasent *hwy* ymaith, ac aethent i'w ffordd.

3 ¶ Felly y daeth Dafydd a'i wŷr i'r ddinas; ac wele *hi* wedi *ei* llosgi â thân: eu gwragedd hwynt *hefyd*, a'u meibion, a'u merched, a gaethgludasid.

4 Yna dyrchafodd Dafydd a'r bobl *oedd* gyd âg ef eu llef, ac a wylasant, hyd nad *oedd* nerth ynddynt i wylo.

5 Dwy wraig Dafydd hefyd a gaethgludasid, Ahinoam y Jesreelëes, ac Abigail, gwraig Nabal y Carmeliad.

6 A bu gyfyng iawn ar Dafydd; canys y bobl a feddyliasant ei labyddio ef; o herwydd chwerwasai enaid yr holl bobl, bob un am ei feibion, ac am ei ferched: ond Dafydd a ymgysurodd yn yr ARGLWYDD ei DDUW.

7 A Dafydd a ddywedodd wrth Abïathar yr offeiriad, mab Ahimelech, Dwg i mi, attolwg, yr ephod. Ac Abïathar a ddug yr ephod at Dafydd.

8 A Dafydd a ymofynodd â'r ARGLWYDD, gan ddywedyd, A erlidiaf fi ar ol y dorf hon? a oddiweddaf fi hi? Ac efe a ddywedodd wrtho, Erlid: canys gan oddiweddyd y goddiweddi, a chan waredu y gwaredi.

9 Felly Dafydd a aeth, efe a'r chwe channwr *oedd* gyd âg ef, a hwy a ddaethant hyd afon Besor, lle yr arhosodd y rhai a adawyd yn ol.

10 A Dafydd a erlidiodd, efe a phedwar cant o wŷr; canys dau cannwr a arhosasant yn ol, y rhai a flinasent fel na allent fyned dros afon Besor.

11 ¶ A hwy a gawsant Aipht-ddyn yn y maes, ac a'i dygasant ef at Dafydd; ac a roddasant iddo fara, ac efe a fwŷttaodd; a hwy a'i diodasant ef â dwfr.

12 A hwy a roddasant iddo ddarn o ffigys, a dau swp *o resin:* ac efe a fwyttaodd, a'i ysbryd a ddychwelodd atto: canys ni fwyttasai fara, ac nid yfasai ddwfr dridiau a thair nos.

13 A Dafydd a ddywedodd wrtho, *Gwas* i bwy *wyt* ti? ac o ba le *y daethost* ti? Ac efe a ddywedodd, Llangc o'r Aipht *ydwyf* fi, gwas i ŵr o Amalec; a'm meistr a'm gadawodd, oblegid i mi glefychu er ys tridiau bellach.

14 Nyni a ruthrasom *ar* du dehau y Cerethiaid, a'*r hyn sydd* eiddo Judah, a thu dehau Caleb: Siclag hefyd a losgasom ni â thân.

15 A Dafydd a ddywedodd wrtho, A fedri di fyned â mi i waered at y dorf hon? Yntau a ddywedodd, Twng wrthyf fi i Duw, na leddi fi, ac na roddi fi yn llaw fy meistr, a mi a âf â thi i waered at y dorf hon.

16 ¶ Ac efe a'i dug ef i waered: ac wele *hwynt* wedi ymwasgaru ar hyd wyneb yr holl dir, yn bwytta, ac yn yfed, ac yn dawnsio; o herwydd yr holl yspail fawr a ddygasent hwy o wlad y Philistiaid, ac o wlad Judah.

17 A Dafydd a'u tarawodd hwynt o'r cyfnos hyd brydnawn drannoeth: ac ni ddiangodd un o honynt, oddi eithr pedwar cant o wŷr ieuaingc, y rhai a farchogasant ar gamelod, ac a ffoisant.

18 A Dafydd a achubodd yr hyn oll a ddygasai yr Amaleciaid: Dafydd *hefyd* a waredodd ei ddwy wraig.

19 Ac nid oedd yn eisieu iddynt, na bychan na mawr, na mab na merch, na'r anrhaith, na dim ag a ddygasent hwy ganddynt: hyn oll a ddug Dafydd adref.

20 Dug Dafydd hefyd yr holl ddefaid, a'r gwartheg; *y rhai* a yrrasant o flaen yr anifeiliaid *eraill*, ac a ddywedasant, Dyma anrhaith Dafydd.

21 ¶ A Dafydd a ddaeth at y ddau cannwr a flinasent, fel nad allent ganlyn Dafydd, ac a barasid iddynt aros wrth afon Besor: a hwy a aethant i gyfarfod Dafydd, ac i gyfarfod â'r bobl *oedd* gyd âg ef. A phan nesaodd Dafydd at y bobl, efe a gyfarchodd well iddynt.

22 Yna yr attebodd pob gŵr drygionus, ac *eiddo* y fall, o'r gwŷr a aethai gyd â Dafydd, ac a ddywedasant, O herwydd nad aethant hwy gyd â ni, ni roddwn ni iddynt hwy *ddim* o'r anrhaith a achubasom ni; eithr i bob un ei wraig, a'i feibion: dygant *hwynt* ymaith, ac ymadawant.

23 Yna y dywedodd Dafydd, Ni wnewch chwi felly, fy mrodyr, am yr hyn a roddodd yr Arglwydd i ni, yr hwn a'n cadwodd ni, ac a roddodd y dorf a ddaethai i'n herbyn, yn ein llaw ni.

24 Canys pwy a wrendy arnoch chwi yn y peth hyn? canys un fath *fydd* rhan yr hwn a elo i waered i ryfel, a rhan yr hwn a arhoso gyd â'r dodrefn: hwy a gyd-rannant.

25 Ac o'r dydd hwnnw allan, efe a osododd hyn yn gyfraith ac yn farnedigaeth yn Israel, hyd y dydd hwn.

26 ¶ A phan ddaeth Dafydd i Siclag, efe a anfonodd o'r anrhaith i henuriaid Judah, *sef* i'w gyfeillion, gan ddywedyd, Wele i chwi anrheg, o anrhaith gelynion yr Arglwydd;

27 *Sef* i'*r rhai oedd* yn Bethel, ac i'*r rhai oedd* yn Ramoth tu a'r dehau, ac i'*r rhai oedd* yn Jattir,

28 Ac i'*r rhai oedd* yn Aroer, ac i'*r rhai oedd* yn Siphmoth, ac i'*r rhai oedd* yn Estemoa,

29 Ac i'*r rhai oedd* yn Rachal, ac i'*r rhai oedd* yn ninasoedd y Jerahmeeliaid, ac i'*r rhai oedd* yn ninasoedd y Ceneaid,

30 Ac i'*r rhai oedd* yn Hormah, ac i'*r rhai oedd* yn Chor-asan, ac i'*r rhai oedd* yn Athac,

31 Ac i'*r rhai oedd* yn Hebron, ac i'r holl leoedd y buasai Dafydd a'i wŷr yn cynniwair ynddynt.

PENNOD 31.

1 Saul, wedi colli ei wŷr, a lladd ei feibion, yn ei ladd ei hun. 7 Y Philistiaid yn perchennogi y dinasoedd a adawsai yr Israeliaid; 8 ac yn gorfoleddu ar y cyrph meirw. 11 Gwŷr Jabes Gilead yn ennill y cyrph hiro nos, ac yn eu llosgi hwy yn Jabes, ac yn eu claddu yn alarus.

A'R Philistiaid oedd yn ymladd yn erbyn Israel: a gwŷr Israel a ffoisant rhag y Philistiaid, ac a

syrthiasant yn archolledig ym mynydd Gilboa.

2 A'r Philistiaid a erlidiasant ar ol Saul a'i feibion; a'r Philistiaid a laddasant Jonathan, ac Abinadab, a Malci-sua, meibion Saul.

3 A thrymhaodd y rhyfel yn erbyn Saul, a'r gwŷr bwäau a'i cawsant ef; ac efe a archollwyd yn dost gan y saethyddion.

4 Yna y dywedodd Saul wrth yr hwn a oedd yn dwyn ei arfau ef, Tyn dy gleddyf, a thrywana fi âg ef; rhag i'r rhai dïenwaededig yma ddyfod a'm trywanu i, a'm gwaradwyddo. Ond ni fynnai ei yswain ef; canys efe a ddychrynasai yn ddirfawr: am hynny Saul a gymmerodd gleddyf, ac a syrthiodd arno.

5 A phan welodd ei yswain farw o Saul, yntau hefyd a syrthiodd ar ei gleddyf, ac a fu farw gyd âg ef.

6 Felly y bu farw Saul, a'i dri mab, a'i yswain, a'i holl wŷr, y dydd hwnnw ynghyd.

7 ¶ A phan welodd gŵŷr Israel, y rhai *oedd* o'r tu hwnt i'r dyffryn, a'*r rhai oedd* o'r tu hwnt i'r Iorddonen, ffoi o wŷr Israel, a marw Saul a'i feibion, hwy a adawsant y dinasoedd, ac a ffoisant; a'r Philistiaid a ddaethant ac a drigasant ynddynt.

8 A'r bore, pan ddaeth y Philistiaid i ddïosg y lladdedigion, hwy a gawsant Saul a'i dri mab yn gorwedd ym mynydd Gilboa.

9 A hwy a dorrasant ei ben ef, ac a ddïosgasant ei arfau ef, ac a anfonasant i wlad y Philistiaid o bob parth, i fynegi yn nhŷ eu delwau hwynt, ac ym mysg y bobl.

10 A gosodasant ei arfau ef yn nhŷ Astaroth; a'i gorph ef a hoeliasant hwy ar fur Beth-san.

11 ¶ A phan glybu trigolion Jabes Gilead yr hyn a wnaethai y Philistiaid i Saul;

12 Yr holl wŷr nerthol a gyfodasant, ac a gerddasant ar hyd y nos, ac a ddygasant ymaith gorph Saul, a chyrph ei feibion ef, oddi ar fur Beth-san, ac a ddaethant i Jabes, ac a'*u* llosgasant hwynt yno.

13 A hwy a gymmerasant eu hesgyrn hwynt, ac a'*u* claddasant dan bren yn Jabes, ac a ymprydiasant saith niwrnod.

AIL LYFR SAMUEL,

YR HWN A ELWIR HEFYD

AIL LYFR Y BRENHINOEDD.

PENNOD 1.

1 Yr Amaleciad, a ddygasai newyddion o'r gyflafan, ac a'i cyhuddasai ei hun o farwolaeth Saul, yn cael ei ladd. 17 Dafydd yn gwneuthur marwnad i Saul a Jonathan.

AC ar ol marwolaeth Saul, pan ddychwelasai Dafydd o ladd yr Amaleciaid, wedi aros o Dafydd ddeuddydd yn Siclag;

2 Yna, y trydydd dydd, wele ŵr yn dyfod o'r gwersyll oddi wrth Saul, a'i ddillad wedi eu rhwygo, a phridd ar ei ben: a phan ddaeth efe at Dafydd, efe a syrthiodd i lawr, ac a ymgrymmodd.

3 A Dafydd a ddywedodd wrtho ef, O ba le y daethost ti? Yntau a ddywedodd wrtho, O wersyll Israel y dïengais i.

4 A dywedodd Dafydd wrtho ef, Pa fodd y bu? mynega, attolwg, i mi. Yntau a ddywedodd, Y bobl a ffodd o'r rhyfel, a llawer hefyd o'r bobl a syrthiodd, ac a fuant feirw; a Saul a Jonathan ei fab a fuant feirw.

5 A Dafydd a ddywedodd wrth y llange oedd yn mynegi iddo, Pa fodd y gwyddost ti farw Saul a Jonathan ei fab?

6 A'r llange, yr hwn oedd yn mynegi iddo, a ddywedodd, Digwyddodd i mi ddyfod i fynydd Gilboa; ac wele, Saul oedd yn pwyso ar ei waywffon: wele *hefyd* y cerbydau a'r marchogion yn erlid ar ei ol ef.

7 Ac efe a edrychodd o'i ol, ac a'm canfu i, ac a alwodd arnaf fi. Minnau a ddywedais, Wele fi.

8 Dywedodd yntau wrthyf, Pwy *wyt* ti? Minnau a ddywedais wrtho, Amaleciad *ydwyf* fi.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf fi, Saf, attolwg, arnaf, a lladd fi: canys cyfyngder a ddaeth arnaf, o herwydd *bod* fy holl einioes ynof fi etto.

10 Felly mi a sefais arno ef, ac a'i lleddais ef; canys mi a wyddwn na byddai efe byw ar ol ei gwympo: a chymmerais y goron *oedd* ar ei ben ef, a'r freichled *oedd* am ei fraich ef, ac a'u dygais hwynt yma at fy arglwydd.

11 Yna Dafydd a ymafiodd yn ei ddillad, ac a'u rhwygodd hwynt; a'r holl wŷr hefyd y rhai *oedd* gyd âg ef.

12 Galarasant hefyd, ac wylasant, ac ymprydiasant hyd yr hwyr, am Saul ac am Jonathan ei fab, ac am bobl yr ARGLWYDD, ac am dŷ Israel; o herwydd iddynt syrthio trwy y cleddyf.

13 ¶ A Dafydd a ddywedodd wrth y llange oedd yn mynegi *hyn* iddo, O ba le y'th *henyw* di? Yntau a ddywedodd, Mab i ŵr dïeithr o Amaleciad *ydwyf* fi.

14 A dywedodd Dafydd wrtho, Pa fodd nad ofnaist ti estyn dy law i ddifetha enneiniog yr ARGLWYDD?

15 A Dafydd a alwodd ar un o'r gweision, ac a ddywedodd, Nesâ, rhuthra iddo ef. Ac efe a'i tarawodd ef, fel y bu efe farw.

16 A dywedodd Dafydd wrtho ef, *Bydded* dy waed di ar dy ben dy hun: canys dy enau dy hun a dystiolaethodd yn dy erbyn, gan ddywedyd, Myfi a leddais enneiniog yr ARGLWYDD.

17 ¶ A Dafydd a alarnadodd yr alarnad hon am Saul ac am Jonathan ei fab:

18 (Dywedodd hefyd am ddysgu meibion Judah *i saethu* â bwa: wele, *y mae* yn ysgrifenedig yn llyfr Jaser.)

19 O ardderchowgrwydd Israel, efe a archollwyd ar dy uchelfaoedd di: pa fodd y cwympodd y cedyrn!

20 Nac adroddwch *hyn* yn Gath; na fynegwch yn heolydd Ascalon: rhag llawenychu merched y Philistiaid, rhag gorfoleddu o ferched y rhai dïenwaededig.

21 O fynyddoedd Gilboa, na *ddisgyned* arnoch chwi wlith na gwlaw, na meusydd o offrymmau! canys yno y bwriwyd ymaith darian y cedyrn yn ddirmygus, tarian Saul, *fel pe buasai* heb *ei* enneinio âg olew.

22 Oddi wrth waed y lladdedigion, oddi wrth frasder y cedyrn, ni throdd bwa Jonathan yn ol, a chleddyf Saul ni ddychwelodd yn wag.

23 Saul a Jonathan *oedd* gariadus ac anwyl yn eu bywyd, ac yn eu marwolaeth ni wahanwyd hwynt: cynt oeddynt na'r eryrod, *a* chryfach oeddynt na'r llewod.

24 Merched Israel, wylwch am Saul, yr hwn oedd yn eich dilladu chwi âg ysgarlad, gyd âg hyfrydwch, yr hwn oedd yn gwisgo addurnwisg aur ar eich dillad chwi.

25 Pa fodd y cwympodd y cedyrn y'nghanol y rhyfel! Jonathan, *ti* a laddwyd ar dy uchelfaoedd.

26 Gofid *sydd* arnaf am danat ti, fy mrawd Jonathan: cu iawn fuost gennyf fi: rhyfeddol oedd dy gariad tu ag attaf fi, tu hwnt i gariad gwragedd.

27 Pa fodd y syrthiodd y cedyrn, ac y difethwyd arfau rhyfel!

PENNOD 2.

1 *Dafydd, ar archiad Duw, yn myned gyd d'i wŷr i Hebron; lle y gwnaed ef yn frenhin ar Judah.* 5 *yn cannmol gwŷr Jabes Gilead, am eu caredigrwydd i Saul.* 8 *Abner yn gwneuthur Isboseth yn frenhin ar Israel.* 12 *Ymladd creulawn rhwng deuddeg o wŷr Abner a deuddeg o wŷr Joab.* 18 *Lladd Asahel.* 25 *Joab, ar ddeisyfiad Abner, yn galw y bobl yn ol.* 32 *Claddedigaeth Asahel.*

AC ar ol hyn yr ymofynodd Dafydd â'r ARGLWYDD, gan ddywedyd, A âf fi i fyny i'r un o ddinasoedd Judah? A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrtho ef, Dos i fyny. A dywedodd Dafydd, I ba le yr

âf i fyny? Dywedodd yntau, I Hebron.

2 A Dafydd a aeth i fyny yno, a'i ddwy wraig hefyd, Ahinoam y Jesreelëes, ac Abigail gwraig Nabal y Carmeliad.

3 A Dafydd a ddug i fyny ei wŷr y rhai *oedd* gyd âg ef, pob un â'i deulu: a hwy a arhosasant yn ninasoedd Hebron.

4 A gwŷr Judah a ddaethant, ac a enneiniasant Dafydd yno yn frenhin ar dŷ Judah. A mynegasant i Dafydd, gan ddywedyd, *mai* gwŷr Jabes Gilead a gladdasent Saul.

5 ¶ A Dafydd a anfonodd genhadau at wŷr Jabes Gilead, ac a ddywedodd wrthynt, Bendigedig *ydych* chwi gan yr ARGLWYDD, y rhai a wnaethoch y drugaredd hon â'ch arglwydd Saul, ac a'i claddasoch ef.

6 Ac yn awr yr ARGLWYDD a wnelo â chwi drugaredd a gwirioneedd: minnau hefyd a dalaf i chwi am y daioni hwn, oblegid i chwi wneuthur y peth hyn.

7 Yn awr gan hynny ymnerthed eich dwylaw, a byddwch feibion grymmus: canys marw a fu eich arglwydd Saul, a thŷ Judah a'm henneiniasant innau yn frenhin arnynt.

8 ¶ Ond Abner mab Ner, tywysog y filwriaeth *oedd* gan Saul, a gymmerth Isboseth mab Saul, ac a'i dug ef drosodd i Mahanaim;

9 Ac efe a'i gosododd ef yn frenhin ar Gilead, ac ar yr Assuriaid, ac ar Jesreel, ac ar Ephraim, ac ar Benjamin, ac ar holl Israel.

10 Mab deugeinmlwydd *oedd* Isboseth mab Saul, pan ddechreuodd deyrnasu ar Israel; a dwy flynedd y teyrnasodd efe. Tŷ Judah yn unig oedd gyd â Dafydd.

11 A rhifedi y dyddiau y bu Dafydd yn frenhin yn Hebron ar dŷ Judah, oedd saith mlynedd a chwe mis.

12 ¶ Ac Abner mab Ner, a gweision Isboseth mab Saul, a aethant allan o Mahanaim i Gibeon.

13 Joab hefyd mab Serfiah, a gweision Dafydd, a aethant allan, ac a gyfarfuant ynghyd wrth lyn Gibeon: a hwy a eisteddasant wrth y llyn, rhai o'r naill du, a'r lleill wrth y llyn o'r tu arall.

14 Ac Abner a ddywedodd wrth Joab, Cyfoded yn awr y llangciau, a chwareuant ger ein bronnau ni. A dywedodd Joab, Cyfodant.

15 Yna y cyfodasant, ac yr aethant drosodd dan rif, deuddeg o Benjamin, *sef* oddi wrth Isboseth mab Saul, a deuddeg o weision Dafydd.

16 A phob un a ymaflodd ym mhen eu gilydd, ac *a yrrodd* ei gleddyf yn ystlys ei gyfaill; felly y cyd-syrthiasant hwy. Am hynny y galwyd y lle hwnnw Helcath Hassurim, yn Gibeon.

17 A bu ryfel caled iawn y dwthwn hwnnw; a tharawyd Abner, a gwŷr Israel, o flaen gweision Dafydd.

18 ¶ A thri mab Serfiah oedd yno, Joab, ac Abisai, ac Asahel: ac Asahel *oedd mor* fuan ar ei draed ag un o'r iyrchod *sydd* yn y maes.

19 Ac Asahel a ddilynodd ar ol Abner; ac wrth fyned ni throdd ar y tu dehau nac ar y tu aswy, oddi ar ol Abner.

20 Yna Abner a edrychodd o'i ol, ac a ddywedodd, Ai tydi *yw* Asahel? A dywedodd yntau, *Ie*, myfi.

21 A dywedodd Abner wrtho ef, Tro ar dy law ddehau, neu ar dy law aswy, a dal i ti un o'r llangciau, a chymmer i ti ei arfau ef. Ond ni fynnai Asahel droi oddi ar ei ol ef.

22 Ac Abner a ddywedodd eilwaith wrth Asahel, Cilia oddi ar fy ol i: paham y tarawaf di i lawr? canys pa fodd y codwn fy ngolwg ar Joab dy frawd di *wedi hynny?*

23 Ond efe a wrthododd ymadaw. Am hynny Abner a'i tarawodd ef â bôn y waywffon dan y bummed *ais*, a'r waywffon a aeth allan o'r tu cefn iddo; ac efe a syrthiodd yno, ac a fu farw yn ei le: a phawb a'r oedd yn dyfod i'r lle y syrthiasai Asahel ynddo, ac y buasai farw, a safasant.

24 Joab hefyd ac Abisai a erlidiasant ar ol Abner: pan fachludodd yr haul, yna y daethant hyd fryn Ammah, yr hwn *sydd* gyferbyn â Giah, tu ag anialwch Gibeon.

25 ¶ A meibion Benjamin a ymgasglasant ar ol Abner, ac a aeth-

ant yn un fintai, ac a safasant ar ben bryn.

26 Yna Abner a alwodd ar Joab, ac a ddywedodd, Ai byth y difa y cleddyf? oni wyddost ti y bydd chwerwder yn y diwedd? hyd ba bryd gan hynny y byddi heb ddywedyd wrth y bobl am ddychwelyd oddi ar ol eu brodyr?

27 A dywedodd Joab, *Fel mai* byw Duw, oni buasai *yr hyn* a ddywedaist, dïau yna y bore yr aethai y bobl i fyny, bob un oddi ar ol ei frawd.

28 Felly Joab a udganodd mewn udgorn; a'r holl bobl a safasant, ac nid erlidiasant mwyach ar ol Israel, ac ni chwanegasant ymladd mwyach.

29 Ac Abner a'i wŷr a aethant trwy y gwastadedd ar hyd y nos honno, ac a aethant dros yr Iorddonen, ac a aethant trwy holl Bithron, a daethant i Mahanaim.

30 A Joab a ddychwelodd oddi ar ol Abner: ac wedi iddo gasglu yr holl bobl ynghyd, yr oedd yn eisieu o weision Dafydd bedwar gŵr ar bymtheg, ac Asahel.

31 A gweision Dafydd a darawsent o Benjamin, ac o wŷr Abner, dri chant a thri ugain gŵr, *fel* y buant feirw.

32 ¶ A hwy a gymmerasant Asahel, ac a'i claddasant ef ym meddrod ei dad, yr hwn *oedd* yn Bethlehem. A Joab a'i wŷr a gerddasant ar hyd y nos, ac yn Hebron y goleuodd arnynt.

PENNOD 3.

1 *Dafydd yn myned yn gryfach tra y parhaodd y rhyfel.* 2 *Deni chwe mab iddo ef yn Hebron.* 6 *Abner yn anfoddlawn i Isboseth,* 12 *yn cilio at Dafydd.* 13 *Dafydd yn ei ddderbyn ef, dan ammod iddo ef ddwyn iddo ei wraig Michal.* 17 *Abner, wedi ymddiddan â'r Israeliaid, yn cael gwledd gan Dafydd, a'i ollwng ymaith.* 22 *Joab yn dychwelyd o'r rhyfel, yn anfoddlawn i Dafydd, ac yn lladd Abner.* 28 *Dafydd yn melldithio Joab,* 31 *ac yn galaru am Abner.*

ABU ryfel hir rhwng tŷ Saul a thŷ Dafydd: a Dafydd oedd yn myned gryfach gryfach, ond tŷ Saul oedd yn myned wannach wannach.

2 ¶ A meibion a anwyd i Dafydd yn Hebron: a'i gyntaf-anedig ef oedd Amnon, o Ahinoam y Jesreelëes;

3 A'i ail *fab oedd* Chileab, o Abigail gwraig Nabal y Carmeliad; a'r trydydd, Absalom, mab Maachah ferch Talmai brenhin Gesur;

4 A'r pedwerydd, Adoniah, mab Haggith; a'r pummed, Sephatïah, mab Abital:

5 A'r chweched, Ithream, o Eglah gwraig Dafydd. Y rhai hyn a anwyd i Dafydd yn Hebron.

6 ¶ A thra yr ydoedd rhyfel rhwng tŷ Saul a thŷ Dafydd, yr oedd Abner yn ymegnïo dros dŷ Saul.

7 Ond i Saul *y buasai* ordderchwraig a'i henw Rispah, merch Aiah: ac *Isboseth* a ddywedodd wrth Abner, Paham yr aethost i mewn at ordderch-wraig fy nhad?

8 Yna y digiodd Abner yn ddirfawr o herwydd geiriau Isboseth, ac a ddywedodd, Ai pen ci *ydwyf* fi, yr hwn ydwyf heddyw yn erbyn Judah yn gwneuthur trugaredd â thŷ Saul dy dad di, â'i frodyr, ac â'i gyfeillion, a heb dy roddi di yn llaw Dafydd, pan osodaist i'm herbyn fai *am* y wraig hon heddyw?

9 Fel hyn y gwnelo Duw i Abner, ac fel hyn y chwanego iddo, onid megis y tyngodd yr ARGLWYDD wrth Dafydd, felly y gwnaf iddo ef;

10 Gan droi y frenhiniaeth oddi wrth dŷ Saul, a dyrchafu gorseddfainge Dafydd ar Israel, ac ar Judah, o Dan hyd Beer-seba.

11 Ac ni feiddiodd efe mwyach atteb gair i Abner, rhag ei ofn ef.

12 ¶ Ac Abner a anfonodd genhadau at Dafydd drosto ei hun, gan ddywedyd, Eiddo pwy *yw* y wlad? *a* chan ddywedyd, Gwna gynghrair â mi; ac wele, fy llaw i *fydd* gyd â thi, i droi attat ti holl Israel.

13 ¶ A dywedodd yntau, Da; myfi a wnaf gyfammod â thi: etto un peth yr ydwyf fi yn ei geisio gennyt, gan ddywedyd, Ni weli fy wyneb, oni ddygi di yn gyntaf Michal merch Saul, pan ddelech i edrych yn fy wyneb.

14 A Dafydd a anfonodd genhadau at Isboseth mab Saul, gan ddywedyd, Dyro *i mi* fy ngwraig Michal, yr hon a ddyweddïais i mi am gant o flaengrwyn y Philistiaid.

15 Ac Isboseth a anfonodd, ac a'i dug hi oddi wrth *ei* gŵr, *sef* oddi wrth Phaltïel mab Laïs.

16 A'i gŵr a aeth gyd â hi, gan fyned ac wylo ar ei hol hi, hyd Bahurim. Yna y dywedodd Abner wrtho ef, Dos, dychwel. Ac efe a ddychwelodd.

17 ¶ Ac Abner a lefarodd wrth henuriaid Israel, gan ddywedyd, Cyn hyn yr oeddych chwi yn ceisio Dafydd yn frenhin arnoch.

18 Ac yn awr gwnewch *hynny:* canys yr ARGLWYDD a lefarodd am Dafydd, gan ddywedyd, Trwy law Dafydd fy ngwas y gwaredaf fy mhobl Israel o law y Philistiaid, ac o law eu holl elynion.

19 Dywedodd Abner hefyd wrth Benjamin: ac Abner a aeth i ymddiddan â Dafydd yn Hebron, am yr hyn oll *oedd* dda y'ngolwg Israel, ac y'ngolwg holl dŷ Benjamin.

20 Felly Abner a ddaeth at Dafydd i Hebron, ac ugeinwr gyd âg ef. A Dafydd a wnaeth wledd i Abner, ac i'r gwŷr *oedd* gyd âg ef.

21 A dywedodd Abner wrth Dafydd, Mi a gyfodaf ac a âf, ac a gasglaf holl Israel at fy arglwydd frenhin, fel y gwnelont gyfammod â thi, ac y teyrnasech di ar yr hyn oll a chwennych dy galon. A Dafydd a ollyngodd Abner ymaith; ac efe a aeth mewn heddwch.

22 ¶ Ac wele weision Dafydd a Joab yn dyfod oddi wrth y dorf, ac anrhaith fawr a ddygasent hwy ganddynt: ond nid *oedd* Abner gyd â Dafydd yn Hebron; canys efe a'i gollyngasai ef ymaith, ac yntau a aethai mewn heddwch.

23 Pan ddaeth Joab a'r holl lu *oedd* gyd âg ef, mynegwyd i Joab, gan ddywedyd, Abner mab Ner a ddaeth at y brenhin; ac efe a'i gollyngodd ef ymaith, ac efe a aeth mewn heddwch.

24 A Joab a ddaeth at y brenhin, ac a ddywedodd, Beth a wnaethost ti? wele, daeth Abner attat ti; paham y gollyngaist ef i fyned ymaith?

25 Ti a adwaenit Abner mab Ner, mai i'th dwyllo di y daeth efe, ac i wybod dy fynediad allan, a'th ddyfodiad i mewn, ac i wybod yr hyn oll yr wyt ti yn ei wneuthur.

26 A Joab a aeth allan oddi wrth Dafydd, ac a anfonodd genhadau ar ol Abner; a hwy a'i dygasant ef yn ol oddi wrth ffynnon Sirah, heb wybod i Dafydd.

27 A phan ddychwelodd Abner i Hebron, Joab a'i trodd ef o'r neilldu yn y porth, i ymddiddan âg ef mewn heddwch; ac a'i tarawodd ef yno dan y bummed *ais*, fel y bu efe farw, o herwydd gwaed Asahel ei frawd ef.

28 ¶ Ac wedi hynny y clybu Dafydd, ac y dywedodd, Dïeuog *ydwyf* fi a'm brenhiniaeth ger bron yr ARGLWYDD byth, oddi wrth waed Abner mab Ner:

29 Syrthied ar ben Joab, ac ar holl dŷ ei dad ef: fel na phallo *fod un* o dŷ Joab yn ddiferllyd, neu yn wahan-glwyfus, neu yn ymgynnal wrth fagl, neu yn syrthio ar gleddyf, neu mewn eisieu bara.

30 Felly Joab ac Abisai ei frawd ef a laddasant Abner, o herwydd lladd o hono ef Asahel eu brawd hwynt mewn rhyfel yn Gibeon.

31 ¶ A Dafydd a ddywedodd wrth Joab, ac wrth yr holl bobl *oedd* gyd âg ef, Rhwygwch eich dillad, ac ymwregyswch mewn sachlïan, a galerwch o flaen Abner. A'r brenhin Dafydd oedd yn myned ar ol yr elor.

32 A hwy a gladdasant Abner yn Hebron. A'r brenhin a ddyrchafodd ei lef, ac a wylodd wrth fedd Abner; a'r holl bobl a wylasant.

33 A'r brenhin a alarnadodd am Abner, ac a ddywedodd, Ai fel y mae yr ynfyd yn marw, y bu farw Abner?

34 Dy ddwylaw nid *oeddynt* yn rhwym, ac nid oedd dy draed wedi eu rhoddi mewn egwydydd: syrthiaist fel y syrthiai *un* o flaen meibion anwir. A'r holl bobl a chwanegasant wylo am dano ef.

35 A phan ddaeth yr holl bobl i beri i Dafydd fwytta bara, a hi etto yn ddydd, Dafydd a dyngodd, gan ddywedyd, Fel hyn y gwnelo DUW i mi, ac fel hyn y chwanego, os archwaethaf fara, na dim oll, nes machludo yr haul.

36 A'r holl bobl a wybuant *hynny*, a da oedd *hyn* yn eu golwg hwynt: a'r hyn oll a wnai y brenhin, oedd dda y'ngolwg y bobl.

37 A'r holl bobl a holl Israel a wybuant y diwrnod hwnnw, na ddarfuasai o fodd y brenhin ladd Abner mab Ner.

38 A'r brenhin a ddywedodd wrth ei weision, Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel?

39 A minnau *ydwyf* eiddil heddyw, er fy enneinio yn frenhin; a'r gwŷr hyn, meibion Serfiah, *sydd* ry galed i mi. Yr ARGLWYDD a dâl i'r hwn a wnaeth y drwg yn ol ei ddrygioni.

PENNOD 4.

1 *Tra yr oedd yr Israeliaid yn ddychrymediĝ o achos marwolaeth Abner,* 2 *Baanah a Rechab yn lladd Isboseth, ac yn dwyn ei ben ef i Hebron.* 9 *Dafydd yn peri ei lladd hwythau, a chladdu pen Isboseth.*

A PHAN glybu mab Saul farw o Abner yn Hebron, ei ddwylaw a laesasant, a holl Israel a ofnasant.

2 A dau ŵr oedd gan fab Saul yn dywysogion *ar* dorfoedd: enw un *oedd* Baanah, ac enw yr ail Rechab, meibion Rimmon y Beerothiad, o feibion Benjamin: (canys Beeroth hefyd a gyfrifid i Benjamin:

3 A'r Beerothiaid a ffoisent i Gittaim, ac a fuasent yno yn ddieithriaid hyd y dydd hwn.)

4 Ac i Jonathan, mab Saul, *yr oedd* mab cloff o'i draed. Mab pum mlwydd oedd efe pan ddaeth y gair am Saul a Jonathan o Jesreel; a'i fammaeth a'i cymmerth ef, ac a ffodd: a bu, wrth frysio o honi i ffoi, iddo ef syrthio, fel y cloffodd efe. A'i enw ef *oedd* Mephiboseth.

5 A meibion Rimmon y Beerothiad, Rechab a Baanah, a aethant ac a ddaethant, pan wresogasai y dydd, i dŷ Isboseth; ac efe oedd yn gorwedd ar wely ganol dydd.

6 Ac wele, hwy a ddaethant i mewn i ganol y tŷ, *fel* rhai yn prynu gwenith; a hwy a'i tarawsant ef dan y bummed *asen:* a Rechab a Baanah ei frawd a ddiangasant.

7 A phan ddaethant i'r tŷ, yr oedd efe yn gorwedd ar ei wely o fewn ystafell ei wely: a hwy a'i tarawsant ef, ac a dorrasant ei ben ef; ac a gymmerasant ei ben ef, ac a gerddasant trwy y gwastadedd ar hyd y nos.

8 A hwy a ddygasant ben Isboseth at Dafydd i Hebron; ac a ddywedasant wrth y brenhin, Wele ben Isboseth mab Saul, dy elyn di, yr hwn a geisiodd dy einioes di: a'r ARGLWYDD a roddes i'm harglwydd frenhin ddïal y dydd hwn ar Saul, ac ar ei had.

9 ¶ A Dafydd a attebodd Rechab a Baanah ei frawd, meibion Rimmon y Beerothiad, ac a ddywedodd wrthynt, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, yr hwn a ryddhaodd fy enaid o bob cyfyngdra,

10 Pan fynegodd *un* i mi, gan ddywedyd, Wele, bu farw Saul, (ac yr oedd yn ei olwg ei hun megis un yn dwyn llawen-chwedl,) mi a ymaflais ynddo, ac a'i lleddais ef yn Siclag, yr hwn *a dybiasai* y rhoddaswn iddo obrwy am ei chwedl:

11 Pa faint mwy *y gwnaf i* ddynion annuwiol a laddasant ŵr cyfiawn yn ei dŷ, ar ei wely? Yn awr, gan hynny, oni cheisiaf ei waed ef ar eich llaw chwi? ac *oni* thorraf chwi ymaith oddi ar y ddaear?

12 A Dafydd a orchymynodd i'w langciau; a hwy a'u lladdasant hwy, ac a dorrasant eu dwylaw hwynt a'u traed, ac a'*u* crogasant *hwy* uwch ben y llyn yn Hebron. Ond pen Isboseth a gymmerasant hwy, ac a'*i* claddasant ym meddrod Abner, yn Hebron.

PENNOD 5.

1 *Y llwythau yn dyfod i Hebron i enneinio Dafydd yn frenhin ar Israel* 4 *Oedran Dafydd.* 6 *Dafydd yn ennill Sion oddi ar y Jebusiaid, ac yn trigo ynddi.* 11 *Hiram yn anfon at Dafydd.* 13 *Geni meibion iddo yn Jerusalem.* 17 *Dafydd, trwy ymgynwyddyd Duw, yn taro y Philistiaid yn Baal-perasim,* 22 *ac wrth y morwrydd.*

YNA holl lwythau Israel a ddaethant at Dafydd i Hebron, ac a lefarasant, gan ddywedyd, Wele, dy asgwrn di a'th gnawd *ydym* ni.

2 Cyn hyn hefyd, pan oedd Saul yn frenhin arnom ni, ti oeddit yn arwain Israel allan, ac yn eu dwyn i mewn: a dywedodd yr ARGLWYDD wrthyt ti, Ti a borthi fy mhobl Israel, a thi a fyddi yn flaenor ar Israel.

3 Felly holl henuriaid Israel a ddaethant at y brenhin i Hebron: a'r brenhin Dafydd a wnaeth gyfammod â hwynt yn Hebron, ger bron

yr ARGLWYDD: a hwy a enneiniasant Dafydd yn frenhin ar Israel.

4 ¶ Mab deng mlwydd ar hugain *oedd* Dafydd pan ddechreuodd deyrnasu; *a* deugain mlynedd y teyrnasodd efe.

5 Yn Hebron y teyrnasodd efe ar Judah saith mlynedd a chwe mis: ac yn Jerusalem y teyrnasodd efe dair blynedd ar ddeg ar hugain ar holl Israel a Judah.

6 ¶ A'r brenhin a'i wŷr a aethant i Jerusalem, at y Jebusiaid, preswylwyr y wlad: y rhai a lefarasant wrth Dafydd, gan ddywedyd, Ni ddeui di yma, oni thynni ymaith y deillion a'r cloffion: gan dybied, Ni ddaw Dafydd yma.

7 Ond Dafydd a ennillodd amddiffynfa Sïon: honno *yw* dinas Dafydd.

8 A dywedodd Dafydd y dwthwn hwnnw, Pwy bynnag a elo i fyny i'r gwtter, ac a darawo y Jebusiaid, a'r cloffion, a'r deillion, *y rhai sydd* gas gan enaid Dafydd, *hwnnw fydd blaenor.* Am hynny y dywedasant, Y dall a'r cloff ni ddaw i mewn i'r tŷ.

9 A Dafydd a drigodd yn yr amddiffynfa, ac a'i galwodd hi, Dinas Dafydd. A Dafydd a adeiladodd oddi amgylch, o Mìlo ac oddi mewn.

10 A Dafydd a aeth rhagddo, ac a gynnyddodd yn fawr; ac ARGLWYDD DDUW y lluoedd *oedd* gyd âg ef.

11 ¶ A Hiram brenhin Tyrus a anfonodd genhadau at Dafydd, a choed cedr, a seiri prennau, a seiri meini: a hwy a adeiladasant dŷ i Dafydd.

12 A gwybu Dafydd i'r ARGLWYDD ei sicrhâu ef yn frenhin ar Israel, a dyrchafu o hono ei frenhiniaeth ef er mwyn ei bobl Israel.

13 ¶ A Dafydd a gymmerodd etto ordderch-wragedd a gwragedd o Jerusalem, wedi iddo ddyfod o Hebron: a ganwyd etto i Dafydd feibion a merched.

14 A dyma enwau y rhai a anwyd iddo ef yn Jerusalem; Sammua, a Sobab, a Nathan, a Solomon,

15 Ibhar hefyd, ac Elisua, a Nepheg, a Japhïa,

16 Elisama *hefyd*, ac Elïada, ac Eliphalet.

17 ¶ Ond pan glybu y Philistiaid iddynt enneinio Dafydd yn frenhin ar Israel, yr holl Philistiaid a ddaethant i fyny i geisio Dafydd. A Dafydd a glybu, ac a aeth i waered i'r amddiffynfa.

18 A'r Philistiaid a ddaethant, ac a ymdaenasant yn nyffryn Rephaim.

19 A Dafydd a ymofynodd â'r ARGLWYDD, gan ddywedyd, A âf fi i fyny at y Philistiaid? a roddi di hwynt yn fy llaw i? A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Dafydd, Dos i fyny: canys gan roddi y rhoddaf y Philistiaid yn dy law di.

20 A Dafydd a ddaeth i Baalperasim; a Dafydd a'u tarawodd hwynt yno; ac a ddywedodd, Yr ARGLWYDD a wahanodd fy ngelynion o'm blaen i, megis gwahanu dyfroedd. Am hynny y galwodd efe enw y lle hwnnw, Baal-perasim.

21 Ac yno y gadawsant hwy eu delwau; a Dafydd a'i wŷr a'u llosgodd hwynt.

22 ¶ A'r Philistiaid etto a chwanegasant ddyfod i fyny, ac a ymdaenasant yn nyffryn Rephaim.

23 A Dafydd a ymofynodd â'r ARGLWYDD; ac efe a ddywedodd, Na ddos i fyny: amgylchyna o'r tu ol iddynt, a thyred arnynt hwy gyferbyn â'r morwydd.

24 A phan glywech drwst cerdded yn mrig y morwydd, yna ymegnïa: canys yna yr ARGLWYDD a â allan o'th flaen di, i daro gwersyll y Philistiaid.

25 A Dafydd a wnaeth megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD iddo ef; ac a darawodd y Philistiaid o Geba, hyd oni ddelech i Gaser.

PENNOD 6.

1 Dafydd yn cyrchu yr arch o Ciriath-jearim ar fen newydd. 6 Taro Ussah yn Peres-Ussah. 11 Duw yn bendithio Obed-Edom o achos yr arch. 12 Dafydd yn dwyn yr arch i Sion gyd âg aberthau, ac yn dawnsio o'i blaen hi, a Michal yn ei ddirmygu ef am hynny. 17 Efe yn gosod yr arch mewn pabell, gyd â llawenydd mawr a gwledda. 20 Michal, am geryddu Dafydd am ei lawenydd duwiol, yn ammhlantadwy hyd farwolaeth.

A CHASGLODD Dafydd etto yr holl etholedigion yn Israel, *sef* deng mil ar hugain.

2 A Dafydd a gyfododd, ac a aeth, a'r holl bobl *oedd* gyd âg ef, o Baale Judah, i ddwyn i fyny oddi yno arch DUW; enw yr hon a elwir *ar* enw ARGLWYDD y lluoedd, yr hwn sydd yn aros arni *rhwng* y cerubiaid.

3 A hwy a osodasant arch DUW ar fen newydd; ac a'i dygasant hi o dŷ Abinadab yn Gibeah: Ussah *hefyd* ac Ahïo, meibion Abinadab, *oedd* yn gyrru y fen newydd.

4 A hwy a'i dygasant hi o dŷ Abinadab yn Gibeah, gyd âg arch DUW; ac Ahïo *oedd* yn myned o flaen yr arch.

5 Dafydd hefyd a holl dŷ Israel oedd yn chwarae ger bron yr ARGLWYDD, â phob *offer o* goed ffynnidwydd, sef â thelynau, ac â nablau, ac â thympanau, ac âg udgyrn, ac â symbalau.

6 ¶ A phan ddaethant i lawrdyrnu Nachon, Ussah a estynodd *ei law* at arch DUW, ac a ymaflodd ynddi hi; canys yr ychain oedd yn *ei* hysgwyd.

7 A digofaint yr ARGLWYDD a lidiodd wrth Ussah: a DUW a'i tarawodd ef yno am *yr* amryfusedd *hyn;* ac efe a fu farw yno wrth arch DUW.

8 A bu ddrwg gan Dafydd, am i'r ARGLWYDD rwygo rhwygiad ar Ussah: ac efe a alwodd y lle hwnnw Peres-Ussah, hyd y dydd hwn.

9 A Dafydd a ofnodd yr ARGLWYDD y dydd hwnnw; ac a ddywedodd, Pa fodd y daw arch yr ARGLWYDD attaf fi?

10 Ac ni fynnai Dafydd fudo arch yr ARGLWYDD atto ef i ddinas Dafydd: ond Dafydd a'i trodd hi i dŷ Obed-Edom y Gethiad.

11 Ac arch yr ARGLWYDD a arhosodd yn nhŷ Obed-Edom y Gethiad dri mis: a'r ARGLWYDD a fendithiodd Obed-Edom, a'i holl dŷ.

12 ¶ A mynegwyd i'r brenhin Dafydd, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD a fendithiodd dŷ Obed-Edom, a'r hyn oll *oedd* ganddo, er mwyn arch DUW. Yna Dafydd a aeth, ac a ddug i fyny arch DUW o dŷ Obed-Edom, i ddinas Dafydd, mewn llawenydd.

13 A phan gychwynodd y rhai oedd yn dwyn arch yr ARGLWYDD chwech o gamrau, yna efe a offrymmodd ychain a phasgedigion.

14 A Dafydd a ddawnsiodd â'i holl egni ger bron yr ARGLWYDD; a Dafydd *oedd* wedi ymwregysu âg ephod lïan.

15 Felly Dafydd a holl dŷ Israel a ddygasant i fyny arch yr ARGLWYDD, trwy floddest, a sain udgorn.

16 Ac fel yr oedd arch yr ARGLWYDD yn dyfod i mewn i ddinas Dafydd, yna Michal merch Saul a edrychodd trwy ffenestr, ac a ganfu y brenhin Dafydd yn neidio, ac yn llemmain o flaen yr ARGLWYDD; a hi a'i dirmygodd ef yn ei chalon.

17 ¶ A hwy a ddygasant i mewn arch yr ARGLWYDD, ac a'i gosodasant yn ei lle, y'nghanol y babell, yr hon a osodasai Dafydd iddi. A Dafydd a offrymmodd boeth-offrymmau ac offrymmau hedd ger bron yr ARGLWYDD.

18 Ac wedi gorphen o Dafydd offrymmu poeth-offrwm ac offrymmau hedd, efe a fendithiodd y bobl yn enw ARGLWYDD y lluoedd.

19 Ac efe a rannodd i'r holl bobl, *sef* i holl dyrfa Israel, yní ŵr ac yn wraig, i bob un deisen o fara, ac un dryll *o gig*, ac un gostrelaid *o win.* Felly yr aeth yr holl bobl bawb i'w dŷ ei hun.

20 ¶ Yna y dychwelodd Dafydd i fendigo ei dŷ: a Michal merch Saul a ddaeth i gyfarfod Dafydd; ac a ddywedodd, O mor ogoneddus oedd brenhin Israel heddyw, yr hwn a ymddïosgodd heddyw yng ngŵydd llaw-forwynion ei weision, fel yr ymddïosgai un o'r ynfydion gan ymddïosg!

21 A dywedodd Dafydd wrth Michal, Ger bron yr ARGLWYDD, yr hwn a'm dewisodd i o flaen dy dad di, ac o flaen ei holl dŷ ef, gan orchymyn i mi fod yn flaenor ar bobl yr ARGLWYDD, ar Israel, *y chwareuais:* a mi a chwareuaf ger bron yr ARGLWYDD.

22 Byddaf etto waelach na hyn, a byddaf ddirmygus yn fy ngolwg fy hun: a chyd â'r llaw-forwynion, *am* y rhai y dywedaist wrthyf, y'm gogoneddir.

23 Am hynny i Michal merch
Saul ni bu etifedd hyd ddydd ei
marwolaeth.

PENNOD 7.

1 *Nathan yn canmol amcan Dafydd ar adeiladu tŷ i'r Arglwydd;* 4 *ac ar ol hynny, trwy air Duw, yn gwarafun iddo.* 12 *Yn addaw iddo ddaioni a bendithion yn ei had.* 18 *Gweddi a diolch Dafydd.*

APHAN eisteddodd y brenhin
yn ei dŷ, a rhoddi o'r ARGLWYDD lonydd iddo ef rhag ei holl
elynion oddi amgylch:
2 Yna y dywedodd y brenhin wrth
Nathan y prophwyd, Wele yn awr
fi yn preswylio mewn tŷ o gedrwydd, ac arch DUW yn aros o fewn
y cortynnau.
3 A Nathan a ddywedodd wrth y
brenhin, Dos, gwna yr hyn oll *sydd*
yn dy galon: canys yr ARGLWYDD
sydd gyd â thi.
4 ¶ A bu, y noson honno, i air yr
ARGLWYDD ddyfod at Nathan, gan
ddywedyd,
5 Dos, a dywed wrth fy ngwas
Dafydd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Ai tydi a adeiledi i mi
dŷ, lle y cyfanneddwyf fi?
6 Canys nid arhosais mewn tŷ, er
y dydd yr arweiniais blant Israel
o'r Aipht, hyd y dydd hwn, eithr
bûm yn rhodio mewn pabell ac
mewn tabernacl.
7 Ym mha *le* bynnag y rhodiais
gyd â holl feibion Israel, a yngenais
i air wrth un o lwythau Israel, i'r
rhai y gorchymynais borthi fy
mhobl Israel, gan ddywedyd, Paham nad adeiladasoch i mi dŷ o
gedrwydd?
8 Ac yn awr fel hyn y dywedi
wrth fy ngwas Dafydd; Fel hyn
y dywed ARGLWYDD y lluoedd;
Myfi a'th gymmerais di o'r gorlan,
oddi ar ol y praidd, i fod yn flaenor
ar fy mhobl, ar Israel.
9 A bûm gyd â thi ym mha *le*
bynnag y rhodiaist; torrais ymaith
hefyd dy holl elynion di o'th flaen,
a gwneuthum enw mawr i ti, megis
enw y rhai mwyaf ar y ddaear.
10 Gosodaf hefyd i'm pobl Israel
le; a phlannaf ef, fel y trigo efe yn
ei le ei hun, ac na symmudo mwyach: a meibion anwiredd ni chwanegant ei gystuddio ef, megis cynt;
11 *Sef* er y dydd yr ordeiniais i
farnwyr ar fy mhobl Israel, ac y
rhoddais lonyddwch i ti oddi wrth
dy holl elynion. A'r ARGLWYDD
sydd yn mynegi i ti, y gwna efe
dŷ i ti.
12 ¶ A phan gyflawner dy ddyddiau di, a huno o honot gyd â'th
dadau, mi a gyfodaf dy had di ar
dy ol, yr hwn a ddaw allan o'th
ymysgaroedd di, a mi a gadarnhâf
ei frenhiniaeth ef.
13 Efe a adeilada dŷ i'm henw
i; minnau a gadarnhâf orseddfainge ei frenhiniaeth ef byth.
14 Myfi a fyddaf iddo ef yn dad,
ac yntau fydd i mi yn fab. Os
trosedda efe, mi a'i ceryddaf â
gwïalen ddynol, ac â dyrnodiau
meibion dynion:
15 Ond fy nhrugaredd nid ymedy
âg ef, megis ag y tynnais *hi* oddi
wrth Saul, yr hwn a fwriais ymaith
o'th flaen di.
16 A'th dŷ di a sicrhêir, a'th frenhiniaeth, yn dragywydd o'th flaen
di: dy orseddfainge a sicrhêir byth.
17 Yn ol yr holl eiriau hyn, ac yn
ol yr holl weledigaeth hon, felly y
llefarodd Nathan wrth Dafydd.
18 ¶ Yna yr aeth y brenhin Dafydd i mewn, ac a eisteddodd ger
bron yr ARGLWYDD: ac a ddywedodd, Pwy *ydwyf* fi, O Arglwydd
DDUW? a pheth *yw* fy nhŷ, pan
ddygit fi hyd yma?
19 Ac etto bychan oedd hyn yn
dy olwg di, O Arglwydd DDUW;
ond ti a leferaist hefyd am dŷ dy
was dros hir amser: ai dyma arfer
dyn, O Arglwydd DDUW?
20 A pha beth mwyach a ddywed
Dafydd ychwaneg wrthyt? canys ti
a adwaenost dy was, O Arglwydd
DDUW.
21 Er mwyn dy air di, ac yn ol dy
feddwl dy hun, y gwnaethost yr
holl fawredd hyn, i beri i'th was
eu gwybod.
22 Am hynny y'th fawrhâwyd, O
ARGLWYDD DDUW; canys nid *oes*
neb fel tydi, ac nid *oes* DUW onid
ti, yn ol yr hyn oll a glywsom ni
â'n clustiau.
23 A pha un genedl ar y ddaear
sydd megis dy bobl, megis Israel,
yr hon yr aeth DUW i'w gwaredu

yn bobl iddo ei hun, ac i osod iddo enw, ac i wneuthur eroch chwi bethau mawr ac ofnadwy dros dy dir, ger bron dy bobl y rhai a waredaist i ti o'r Aipht, *oddi wrth* y cenhedloedd a'u duwiau?

24 Canys ti a sicrheaist i ti dy bobl Israel yn bobl i ti byth: a thi, ARGLWYDD, ydwyt iddynt hwy yn DDUW.

25 Ac yn awr, O ARGLWYDD DDUW, cwblhâ byth y gair a leferaist am dy was, ac am ei dŷ ef, a gwna megis y dywedaist.

26 A mawrhâer dy enw yn dragywydd; gan ddywedyd, ARGLWYDD y lluoedd *sydd* DDUW ar Israel: a bydded tŷ dy was Dafydd wedi ei sicrhâu ger dy fron di.

27 Canys ti, O ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, a fynegaist i'th was, gan ddywedyd, Adeiladaf dŷ i ti: am hynny dy was a gafodd yn ei galon weddïo attat ti y weddi hon.

28 Ac yn awr, O Arglwydd DDUW, tydi *sydd* DDUW, a'th eiriau di sydd wirionedd, a thi a leferaist am dy was y daioni hwn.

29 Yn awr gan hynny rhynged bodd i ti fendigo tŷ dy was, i fod ger dy fron di yn dragywydd: canys ti, O Arglwydd DDUW, a leferaist, ac â'th fendith di y bendithier tŷ dy was yn dragywydd.

PENNOD 8.

1 *Dafydd yn darostwng y Philistiaid a'r Moabiaid.* 3 *Yn taro Hadadeser a'r Syriaid.* 10 *Toi yn anfon Joram âg anrhegion i'w fendithio ef.* 11 *Dafydd yn cyssegru yr anrhegion a'r ysbeil i Dduw:* 14 *yn gosod pennaethiaid yn Edom.* 16 *Swyddogion Dafydd.*

AC wedi hyn tarawodd Dafydd y Philistiaid, ac a'u darostyngodd hwynt: a Dafydd a ddug ymaith Metheg-ammah o law y Philistiaid.

2 Ac efe a darawodd Moab, ac a'u mesurodd hwynt â llinyn, gan eu cwympo hwynt i lawr: ac efe a fesurodd â dau linyn, i ladd; ac â llinyn llawn, i gadw yn fyw. Ac *felly* y Moabiaid fuant i Dafydd yn weision, yn dwyn treth.

3 ¶ Tarawodd Dafydd hefyd Hadadeser mab Rehob, brenhin Sobah, pan oedd efe yn myned i ennill ei derfynau wrth afon Euphrates.

4 A Dafydd a ennillodd oddi arno ef fil o *gerbydau*, a saith gant o farchogion, ac ugain mil o wŷr traed: a thorrodd Dafydd linynnau gar *meirch* pob cerbyd, ac efe a adawodd o honynt gan cerbyd.

5 A phan ddaeth y Syriaid o Damascus, i gynnorthwyo Hadadeser brenhin Sobah, Dafydd a laddodd o'r Syriaid ddwy fil ar hugain o wŷr.

6 A Dafydd a osododd swyddogion yn Syria Damascus; a'r Syriaid a fuant weision i Dafydd, yn dwyn treth. A'r ARGLWYDD a gadwodd Dafydd ym mha le bynnag yr aeth efe.

7 Dafydd hefyd a gymmerth y tariannau aur oedd gan weision Hadadeser, ac a'u dug hwynt i Jerusalem.

8 O Betah hefyd, ac o Berothai, dinasoedd Hadadeser, y dug y brenhin Dafydd lawer iawn o bres.

9 ¶ Pan glybu Toi brenhin Hamath, daro o Dafydd holl lu Hadadeser;

10 Yna Toi a anfonodd Joram ei fab at y brenhin Dafydd, i gyfarch gwell iddo, ac i'w fendithio, am iddo ymladd yn erbyn Hadadeser, a'i faeddu ef; (canys gŵr rhyfelgar oedd Hadadeser *yn erbyn* Toi:) a llestri arian, a llestri aur, a llestri pres ganddo:

11 Y rhai hefyd a gyssegrodd y brenhin Dafydd i'r ARGLWYDD, gyd â'r arian a'r aur a gyssegrasai efe o'r holl genhedloedd a oresgynasai efe;

12 Oddi ar Syria, ac oddi ar Moab, ac oddi ar feibion Ammon, ac oddi ar y Philistiaid, ac oddi ar Amalec, ac o anrhaith Hadadeser mab Rehob, brenhin Sobah.

13 A Dafydd a ennillodd *iddo* enw, pan ddychwelodd efe o ladd y Syriaid, yn nyffryn yr halen, *sef* tair mil ar bymtheg.

14 ¶ Ac efe a osododd bennaethiaid ar Edom; ar holl Edom y gosododd efe bennaethiaid, a bu holl Edom yn weision i Dafydd. A'r ARGLWYDD a gadwodd Dafydd, i ba le bynnag yr aeth efe.

15 A theyrnasodd Dafydd ar holl Israel; ac yr oedd Dafydd yn

gwneuthur barn a chyfiawnder i'w holl bobl.

16 A Joab mab Serfiah *oedd ben* ar y llu; a Jehosaphat mab Ahilud yn gofiadur;

17 A Sadoc mab Ahitub, ac Ahimelech mab Abïathar, *oedd* offeiriaid; a Seraiah yn ysgrifenydd:

18 Benaiah hefyd mab Jehoiada *oedd ar* y Cerethiaid a'r Pelethiaid; a meibion Dafydd oedd dywysogion.

PENNOD 9.

1 *Dafydd, trwy law Siba, yn danfon am Mephiboseth; 7 ac, er mwyn Jonathan, yn ei dderbyn ef i'w fwrdd, ac yn edfryd iddo gwbl ag oedd eiddo Saul; 9 ac yn gwneuthur Siba yn oruchwylivr iddo ef.*

A DAFYDD a ddywedodd, A oes etto un wedi ei adael o dŷ Saul, fel y gwnelwyf drugaredd âg ef, er mwyn Jonathan?

2 Ac *yr oedd* gwas o dŷ Saul a'i enw Siba. A hwy a'i galwasant ef at Dafydd. A'r brenhin a ddywedodd wrtho ef, Ai tydi *yw* Siba? A dywedodd yntau, Dy was *yw efe.*

3 A dywedodd y brenhin, *A oes* neb etto o dŷ Saul, fel y gwnelwyf drugaredd Duw âg ef? A dywedodd Siba wrth y brenhin, Y *mae* etto fab i Jonathan, yn gloff o'i draed.

4 A dywedodd y brenhin wrtho, Pa le *y mae* efe? A Siba a ddywedodd wrth y brenhin, Wele ef yn nhŷ Machir, mab Ammïel, yn Lo-debar.

5 ¶ Yna y brenhin Dafydd a anfonodd, ac a'i cyrchodd ef o dŷ Machir, mab Ammïel, o Lo-debar.

6 A phan ddaeth Mephiboseth mab Jonathan, mab Saul, at Dafydd, efe a syrthiodd ar ei wyneb, ac a ymgrymmodd. A Dafydd a ddywedodd, Mephiboseth. Dywedodd yntau, Wele dy was.

7 ¶ A Dafydd a ddywedodd wrtho ef, Nac ofna: canys gan wneuthur y gwnaf drugaredd â thi, er mwyn Jonathan dy dad, a mi a roddaf yn ei ol i ti holl dir Saul dy dad; a thi a fwyttêi fara ar fy mwrdd i yn wastadol.

8 Ac efe a ymgrymmodd, ac a ddywedodd, Beth *ydyw* dy was di, pan edrychit ar gi marw o'm bath i?

9 ¶ Yna y brenhin a alwodd ar Siba gwas Saul, ac a ddywedodd wrtho, Yr hyn oll oedd eiddo Saul, ac eiddo ei holl dŷ ef, a roddais i fab dy feistr di.

10 A thi a erddi y tir iddo ef, ti, a'th feibion, a'th weision, ac a'u dygi i mewn, fel y byddo bara i fab dy feistr di, ac y bwyttao efe: a Mephiboseth, mab dy feistr di, a fwytty yn wastadol fara ar fy mwrdd i. Ac i Siba *yr oedd* pymtheg o feibion, ac ugain o weision.

11 Yna y dywedodd Siba wrth y brenhin, Yn ol yr hyn oll a orchymynodd fy arglwydd y brenhin i'w was, felly y gwna dy was. Yna *y dywedodd Dafydd,* Mephiboseth a fwytty ar fy mwrdd i, fel un o fe'bion y brenhin.

12 Ac i Mephiboseth *yr oedd* mab bychan, a'i enw *oedd* Micha. A phawb a'r a *oedd* yn cyfanneddu tŷ Siba *oedd* weision i Mephiboseth.

13 A Mephiboseth a drigodd yn Jerusalem: canys ar fwrdd y brenhin yr oedd efe yn bwytta yn wastadol: ac yr oedd efe yn gloff o'i ddeudroed.

PENNOD 10.

1 *Y dirmyg a wnaed â'r cenhadon a anfonasai Dafydd i gysuro Hanun mab Nahas. 6 Joab ac Abisai yn gorchfygu yr Ammoniaid, er bod y Syriaid yn eu cynnorthwyo. 15 Sobach yn ail-gasglu y Syriaid, a Dafydd yn ei ladd ef yn Helam.*

AC ar ol hyn y bu i frenhin meibion Ammon farw, a Hanun ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

2 Yna y dywedodd Dafydd, Mi a wnaf garedigrwydd â Hanun mab Nahas, megis y gwnaeth ei dad ef garedigrwydd â mi. A Dafydd a anfonodd gyd â'i weision i'w gysuro ef am ei dad. A gweision Dafydd a ddaethant i wlad meibion Ammon.

3 A thywysogion meibion Ammon a ddywedasant wrth Hanun eu harglwydd, Wyt ti yn tybied mai anrhydeddu dy dad di y mae Dafydd, o herwydd iddo ddanfon cysurwyr attat ti? onid er mwyn chwilio y ddinas, a'i throedio, a'i difetha, yr anfonodd Dafydd ei weision attat ti?

4 Yna Hanun a gymmerth weision Dafydd, ac a eilliodd hanner eu barfau hwynt, ac a dorrodd eu dillad hwynt yn *eu* hanner, hyd eu

cluniau, ac a'u gollyngodd hwynt ymaith.

5 Pan fynegwyd *hyn* i Dafydd, efe a anfonodd i'w cyfarfod hwynt; canys y gwŷr oedd wedi cywilyddio yn fawr. A dywedodd y brenhin, Arhoswch yn Jericho hyd oni thyfo eich barfau chwi; ac *yna* dychwelwch.

6 ¶ A meibion Ammon a welsant eu bod yn ffiaidd gan Dafydd; a meibion Ammon a anfonasant ac a gyflogasant y Syriaid o Beth-rehob, a'r Syriaid o Soba, ugain mil o wŷr traed, a chan frenhin Maachah fil o wŷr, ac o Istob ddeuddeng mil o wŷr.

7 A phan glybu Dafydd, efe a anfonodd Joab, a holl lu y cedyrn.

8 A meibion Ammon a ddaethant, ac a luniaethasant ryfel *wrth* ddrws y porth: a'r Syriaid *o* Soba, a Rehob, ac *o* Istob, a Maachah, *oedd* o'r neilldu yn y maes.

9 Pan ganfu Joab fod wyneb y rhyfel yn ei erbyn ef ym mlaen ac yn ol, efe a etholodd o holl etholedigion Israel, ac a ymfyddinodd yn erbyn y Syriaid.

10 A gweddill y bobl a roddes efe dan law Abisai ei frawd, i'w byddino yn erbyn meibion Ammon.

11 Ac efe a ddywedodd, Os trech fydd y Syriaid na mi, yna bydd di i mi yn gynnorthwy; ond os meibion Ammon fyddant drech na thi, yna y deuaf i'th gynnorthwyo dithau.

12 Bydd bybyr, ac ymwrolwn dros ein pobl, a thros ddinasoedd ein Duw: a gwnaed yr Arglwydd yr hyn fyddo da yn ei olwg ef.

13 A nesaodd Joab, a'r bobl *oedd* gyd âg ef, yn erbyn y Syriaid i'r rhyfel: a hwy a ffoisant o'i flaen ef.

14 A phan welodd meibion Ammon ffoi o'r Syriaid, hwythau a ffoisant o flaen Abisai, ac a aethant i'r ddinas. A dychwelodd Joab oddi wrth feibion Ammon, ac a ddaeth i Jerusalem.

15 ¶ A phan welodd y Syriaid eu lladd o flaen Israel, hwy a ymgynnullasant ynghyd.

16 A Hadareser a anfonodd, ac a ddug y Syriaid *oedd* o'r tu hwnt i'r afon: a hwy a ddaethant i Helam, a Sobach tywysog llu Hadareser o'u blaen.

17 A phan fynegwyd i'r Dafydd *hynny*, efe a gasglodd holl Israel, ac a aeth dros yr Iorddonen, ac a ddaeth i Helam: a'r Syriaid a ymfyddinasant yn erbyn Dafydd, ac a ymladdasant âg ef.

18 A'r Syriaid a ffoisant o flaen Israel; a Dafydd a laddodd o'r Syriaid, *wŷr* saith gant *o* gerbydau, a deugain mil o wŷr meirch: ac efe a darawodd Sobach tywysog eu llu hwynt, fel y bu efe farw yno.

19 A phan welodd yr holl frenhinoedd *oedd* weision i Hadareser, eu lladd hwynt o flaen Israel, hwy a heddychasant âg Israel, ac a'u gwasanaethasant hwynt. A'r Syriaid a ofnasant gynnorthwyo meibion Ammon mwyach.

PENNOD 11.

1 *Dafydd, tra yr ydoedd Joab yn gwarchae ar Rabbah, yn godinebu gyd â Bathseba: 6 yn anfon am Uriias adref, i geisio colluro ei odineb: 14 yn anfon llythyr gyd âg ef at Joab, i beri iddo farw. 18 Joab yn danfon newyddion o i farwolaeth ef i Dafydd. 26 Dafydd yn cymmeryd Bathseba yn wraig iddo.*

AC wedi pen y flwyddyn, yn yr amser y byddai y brenhinoedd yn myned allan *i ryfel*, danfonodd Dafydd Joab a'i weision gyd âg ef, a holl Israel; a hwy a ddistrywiasant feibion Ammon, ac a warchaeasant ar Rabbah: ond Dafydd oedd yn aros yn Jerusalem.

2 ¶ A bu ar brydnawn-gwaith gyfodi o Dafydd oddi ar ei wely, a rhodio ar nen tŷ y brenhin: ac oddi ar y nen efe a ganfu wraig yn ymolchi; a'r wraig *oedd* dêg iawn yr olwg.

3 A Dafydd a anfonodd ac a ymofynodd am y wraig: ac *un* a ddywedodd, Onid hon *yw* Bathseba merch Eliam, gwraig Uriias yr Hethiad?

4 A Dafydd a anfonodd genhadau, ac a'i cymmerth hi; a hi a ddaeth i mewn atto ef, ac efe a orweddodd gyd â hi: ac yr oedd hi wedi ei glanhâu oddi wrth ei haflendid: a hi a ddychwelodd i'w thŷ ei hun.

5 A'r wraig a feichiogodd, ac a anfonodd ac a fynegodd i Dafydd, ac a ddywedodd, *Yr ydwyf* fi yn feichiog.

6 ¶ A Dafydd a anfonodd at Joab,

gan ddywedyd, Danfon attaf fi Urïas yr Hethiad. A Joab a anfonodd Urïas at Dafydd.

7 A phan ddaeth Urïas atto ef, Dafydd a ymofynodd am lwyddiant Joab, ac am lwyddiant y bobl, ac am ffyniant y rhyfel.

8 Dywedodd Dafydd hefyd wrth Urïas, Dos i waered i'th dŷ, a golch dy draed. Ac Urïas a aeth allan o dŷ y brenhin, a saig y brenhin a aeth ar ei ol ef.

9 Ond Urïas a gysgodd wrth ddrws tŷ y brenhin gyd â holl weision ei arglwydd, ac nid aeth i waered i'w dŷ ei hun.

10 Yna y mynegasant i Dafydd, gan ddywedyd, Nid aeth Urïas i waered i'w dŷ ei hun. A Dafydd a ddywedodd wrth Urïas, Onid o'*th* daith yr ydwyt ti yn dyfod? paham nad âit ti i waered i'th dŷ dy hun?

11 A dywedodd Urïas wrth Dafydd, Yr arch, ac Israel hefyd, a Judah, sydd yn aros mewn pebyll; a Joab fy arglwydd, a gweision fy arglwydd, sydd yn gwersyllu ar hyd wyneb y maes; a âf fi gan hynny i'm tŷ fy hun, i fwytta, ac i yfed, ac i orwedd gyd â'm gwraig? *fel mai* byw di, ac *fel mai* byw dy enaid di, ni wnaf y peth hyn.

12 A Dafydd a ddywedodd wrth Urïas, Aros yma etto heddyw, ac y fory y'th ollyngaf di. Ac Urïas a arhosodd yn Jerusalem y dwthwn hwnnw a thrannoeth.

13 A Dafydd a'i galwodd ef, i fwytta ac i yfed ger ei fron ef, ac a'i meddwodd ef: ac yn yr hwyr efe a aeth i orwedd ar ei wely gyd â gweision ei arglwydd, ac nid aeth i waered i'w dŷ ei hun.

14 ¶ A'r bore yr ysgrifenodd Dafydd lythyr at Joab, ac a'*i* hanfonodd yn llaw Urïas.

15 Ac efe a ysgrifenodd yn ei lythyr, gan ddywedyd, Gosodwch Urïas ar gyfer wyneb y rhyfelwyr glewaf; a dychwelwch oddi ar ei ol ef, fel y tarawer ef, ac y byddo marw.

16 A phan oedd Joab yn gwarchae ar y ddinas, efe a osododd Urïas yn y lle y gwyddai efe *fod* gwŷr nerthol ynddo.

17 A gwŷr y ddinas a aethant allan, ac a ymladdasant â Joab: a syrthiodd *rhai* o'r bobl o weision Dafydd; ac Urïas yr Hethiad a fu farw hefyd.

18 ¶ Yna Joab a anfonodd, ac a fynegodd i Dafydd holl hanes y rhyfel:

19 Ac a orchymynodd i'r gennad, gan ddywedyd, Pan orphenech lefaru holl hanes y rhyfel wrth y brenhin:

20 Os cyfyd llidiowgrwydd y brenhin, ac os dywed wrthyt, Paham y nesasoch at y ddinas i ymladd? oni wyddech y taflent hwy oddi ar y gaer?

21 Pwy a darawodd Abimelech fab Jerubbeseth? onid gwraig a daflodd arno ef ddarn o faen melin oddi ar y mur, fel y bu efe farw yn Thebes? paham y nesasoch at y mur? yna y dywedi, Dy was Urïas yr Hethiad a fu farw hefyd.

22 ¶ Felly y gennad a aeth, ac a ddaeth ac a fynegodd i Dafydd yr hyn oll yr anfonasai Joab ef o'i blegid.

23 A'r gennad a ddywedodd wrth Dafydd, Yn ddïau y gwŷr oeddynt drech na ni, ac a ddaethant attom ni i'r maes, a ninnau a aethom arnynt hwy hyd ddrws y porth.

24 A'r saethyddion a saethasant at dy weision oddi ar y mur; a *rhai* o weision y brenhin a fuant feirw; a'th was Urïas yr Hethiad a fu farw hefyd.

25 Yna Dafydd a ddywedodd wrth y gennad, Fel hyn y dywedi di wrth Joab; Na fydded hyn ddrwg yn dy olwg di: canys y naill fel y llall a ddifetha y cleddyf: cadarnhâ dy ryfel yn erbyn y ddinas, a distrywiwch hi; a chysura dithau ef.

26 ¶ A phan glybu gwraig Urïas farw Urïas ei gŵr, hi a alarodd am ei phrïod.

27 A phan aeth y galar heibio, Dafydd a anfonodd, ac a'i cyrchodd hi i'w dŷ, i fod iddo yn wraig; a hi a ymddûg iddo fab. A drwg yng ngolwg yr ARGLWYDD oedd y peth a wnaethai Dafydd.

PENNOD 12.

1 *Dammeg Nathan am yr oenig, yn peri i Dafydd fod yn farnwr arno ei hun. 7 Dafydd, wedi i Nathan ei geryddu, yn cyfaddef ei bechod, ac yn cael maddeuant:* 15 *yn galaru*

ac yn gweddïo dros y plentyn, tra oedd fyw.
24 *Geni Solomon, a'i enwi Jedidiah.* 26 *Dafydd yn ennill Rabbah, ac yn arteithio ei phobl hi.*

A'R ARGLWYDD a anfonodd Nathan at Dafydd. Ac efe a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, Dau ŵr oedd yn yr un ddinas; y naill yn gyfoethog, a'r llall yn dlawd.

2 Gan y cyfoethog yr oedd llawer iawn o ddefaid a gwartheg:

3 A chan y tlawd nid *oedd* dim ond un oenig fechan, yr hon a brynasai efe, ac a fagasai; a hi a gynnyddasai gyd âg ef, a chyd â'i blant: o'i dammaid ef y bwyttâi hi, ac o'i gwppan ef yr yfai hi, ac yn ei fynwes ef y gorweddai hi, ac yr oedd hi iddo megis merch.

4 Ac ymdeithydd a ddaeth at y gŵr cyfoethog; ond efe a arbedodd gymmeryd o'i ddefaid ei hun, ac o'i wartheg ei hun, i arlwyo i'r ymdeithydd a ddaethai atto; ond efe a gymmerth oenig y gŵr tlawd, ac a'i parottôdd i'r gŵr a ddaethai atto.

5 A digofaint Dafydd a ennynodd yn ddirfawr wrth y gŵr; ac efe a ddywedodd wrth Nathan, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, euog o farwolaeth *yw* y gŵr a wnaeth hyn.

6 A'r oenig a dâl efe adref yn bedwar dyblyg; o herwydd iddo wneuthur y peth hyn, ac nad arbedodd.

7 ¶ A dywedodd Nathan wrth Dafydd, Ti *yw* y gŵr. Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel; Myfi a'th enneiniais di yn frenhin ar Israel, myfi hefyd a'th waredais di o law Saul:

8 Rhoddais *hefyd* i ti dŷ dy arglwydd, a gwragedd dy arglwydd yn dy fynwes, a mi a roddais i ti dŷ Israel a Judah; a phe rhy fychan *fuasai hynny*, myfi a roddaswn i ti fwy o lawer.

9 Paham y dirmygaist air yr ARGLWYDD, i wneuthur drwg yn ei olwg ef? Urïas yr Hethiad a darewaist ti â'r cleddyf, a'i wraig ef a gymmeraist i ti yn wraig, a thi a'i lleddaist ef â chleddyf meibion Ammon.

10 Yn awr gan hynny nid ymedy y cleddyf â'th dŷ di byth; o herwydd i ti fy nirmygu i, a chymmeryd gwraig Urïas yr Hethiad i fod yn wraig i ti.

11 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele, myfi a gyfodaf i'th erbyn ddrwg o'th dŷ dy hun, a mi a ddygaf dy wragedd di y'ngŵydd dy lygaid, ac a'u rhoddaf *hwynt* i'th gymmydog, ac efe a orwedd gyd â'th wragedd di y'ngolwg yr haul hwn.

12 Er i ti wneuthur mewn dirgelwch; etto myfi a wnaf y peth hyn ger bron holl Israel, a cher bron yr haul.

13 A dywedodd Dafydd wrth Nathan, Pechais yn erbyn yr ARGLWYDD. A Nathan a ddywedodd wrth Dafydd, Yr ARGLWYDD hefyd a dynnodd ymaith dy bechod di: ni byddi di marw.

14 Etto, o herwydd i ti beri i elynion yr ARGLWYDD gablu trwy y peth hyn, y plentyn a anwyd i ti a fydd marw yn ddïau.

15 ¶ A Nathan a aeth i'w dŷ. A'r ARGLWYDD a darawodd y plentyn a blantasai gwraig Urïas i Dafydd; ac efe a aeth yn glaf iawn.

16 Dafydd am hynny a ymbiliodd â DUW dros y bachgen; a Dafydd a ymprydiodd ympryd, ac a aeth ac a orweddodd ar y ddaear ar hyd y nos.

17 A henuriaid ei dŷ ef a gyfodasant atto ef, i beri iddo godi oddi ar y ddaear: ond ni fynnai efe, ac ni fwyttâi fara gyd â hwynt.

18 Ac ar y seithfed dydd y bu farw y plentyn. A gweision Dafydd a ofnasant fynegi iddo ef farw y bachgen: canys dywedasant, Wele, tra oedd y bachgen yn fyw y llefarasom wrtho, ond ni wrandawai ar ein llais, pa fodd gan hynny yr ymofidia, os dywedwn wrtho farw y plentyn?

19 Ond pan welodd Dafydd ei weision yn sibrwd, deallodd Dafydd farw y plentyn: a Dafydd a ddywedodd wrth ei weision, A fu farw y plentyn? A hwy a ddywedasant, Efe a fu farw.

20 Yna Dafydd a gyfododd oddi ar y ddaear, ac a ymolchodd, ac a ymenneiniodd, ac a newidiodd ei ddillad, ac a ddaeth i dŷ yr ARGLWYDD, ac a addolodd: wedi hyn-

ny y daeth efe i'w dŷ ei hun; ac a ofynodd, a hwy a roddasant iddo fara, ac efe a fwyttaodd.

21 Yna ei weision a ddywedasant wrtho ef, Pa beth *yw* hyn a wnaethost ti? dros y plentyn byw yr ymprydiaist, ac yr wylaist; ond pan fu y plentyn farw, ti a gyfodaist ac a fwytteaist fara.

22 Ac efe a ddywedodd, Tra yr ydoedd y plentyn yn fyw, yr ymprydiais ac yr wylais: canys mi a ddywedais, Pwy a ŵyr a drugarhâ yr ARGLWYDD wrthyf, fel y byddo byw y plentyn?

23 Ond yn awr efe fu farw, i ba beth yr ymprydiwn? a allaf fi ei ddwyn ef yn ei ol mwyach? myfi a âf atto ef, ond ni ddychwel efe attaf fi.

24 ¶ A Dafydd a gysurodd Bathseba ei wraig, ac a aeth i mewn atti hi, ac a orweddodd gyd â hi: a hi a ymddûg fab, ac efe a alwodd ei enw ef Solomon. A'r ARGLWYDD a'i carodd ef.

25 Ac efe a anfonodd trwy law Nathan y prophwyd; ac efe a alwodd ei enw ef Jedidïah oblegid yr ARGLWYDD.

26 ¶ A Joab a ymladdodd yn erbyn Rabbah meibion Ammon, ac a ennillodd y frenhinol ddinas.

27 A Joab a anfonodd genhadau at Dafydd, ac a ddywedodd, Rhyfelais yn erbyn Rabbah, ac a ennillais ddinas y dyfroedd.

28 Yn awr gan hynny casgl weddill y bobl, a gwersylla yn erbyn y ddinas, ac ennill hi; rhag i mi ennill y ddinas, a galw fy enw i arni hi.

29 A Dafydd a gasglodd yr holl bobl, ac a aeth i Rabbah, ac a ymladdodd yn ei herbyn, ac a'i hennillodd hi.

30 Ac efe a gymmerodd goron eu brenhin hwynt oddi am ei ben; a'i phwys hi *oedd* dalent o aur, gyd â'r maen gwerthfawr: a hi a osodwyd ar ben Dafydd. Ac efe a ddug ymaith o'r ddinas anrhaith fawr iawn.

31 Ac efe a ddug ymaith y bobl *oedd* ynddi, ac a'*u* gosododd dan lifiau, a than ogau heiyrn, a than fwyeill heiyrn, ac a'u bwriodd hwynt i'r odynau calch: ac felly y gwnaeth i holl ddinasoedd meibion Ammon. A dychwelodd Dafydd a'r holl bobl i Jerusalem.

PENNOD 13.

1 *Amnon yn caru Tamar: a thrwy gynghor Jonadab, yn cymmeryd arno fod yn glaf, ac yn ei threisio hi;* 15 *ac yna yn ei chasâu hi, ac yn ei throi ymaith yn gywilyddus.* 19 *Absalom yn ei derbyn hi, ac yn celu ei amcan:* 23 *ac, wrth gneifio ei ddefaid, yn lladd Amnon.* 30 *Dafydd yn pruddhau wrth glywed hynny; a Jonadab yn ei gysuro ef.* 37 *Absalom yn foi at Talmai i Gesur.*

AC ar ol hyn yr oedd gan Absalom mab Dafydd chwaer dêg, a'i henw Tamar: ac Amnon mab Dafydd a'i carodd hi.

2 Ac yr oedd mor flin ar Amnon, fel y clafychodd efe o herwydd Tamar ei chwaer: canys gwyryf *oedd* hi; ac anhawdd y gwelai Amnon wneuthur dim iddi hi.

3 Ond gan Amnon yr oedd cyfaill, a'i enw Jonadab, mab Simeah, brawd Dafydd: a Jonadab *oedd* ŵr call iawn.

4 Ac efe a ddywedodd wrtho ef, Ti fab y brenhin, paham *yr ydwyt* yn curio fel hyn beunydd? oni fynegi di i mi? Ac Amnon a ddywedodd wrtho ef, Caru yr ydwyf fi Tamar, chwaer Absalom fy mrawd.

5 A Jonadab a ddywedodd wrtho ef, Gorwedd ar dy wely, a chymmer arnat fod yn glaf: a phan ddelo dy dad i'th edrych, dywed wrtho ef, Deued, attolwg, Tamar fy chwaer i roddi bwyd i mi, ac i arlwyo y bwyd yn fy ngolwg, fel y gwelwyf, ac y bwyttâwyf o'i llaw hi.

6 ¶ Felly Amnon a orweddodd, ac a gymmerth arno fod yn glaf. A'r brenhin a ddaeth i'w edrych ef; ac Amnon a ddywedodd wrth y brenhin, Deued, attolwg, Tamar fy chwaer i grasu dwy deisen yn fy ngolwg i, fel y bwyttâwyf o'i llaw hi.

7 Yna Dafydd a anfonodd adref at Tamar, gan ddywedyd, Dos yn awr i dŷ Amnon dy frawd, a pharottoa fwyd iddo.

8 Felly Tamar a aeth i dŷ Amnon ei brawd; ac efe oedd yn gorwedd: a hi a gymmerth beillied, ac a'*i* tylinodd, ac a wnaeth deisennau yn ei ŵydd ef, ac a grasodd y teisennau.

9 A hi a gymmerth badell, ac a'*u*

tywalltodd *hwynt* ger ei fron ef: ond efe a wrthododd fwytta. Ac Amnon a ddywedodd, Gyrrwch allan bawb oddi wrthyf fi. A phawb a aethant allan oddi wrtho ef.

10 Yna Amnon a ddywedodd wrth Tamar, Dwg y bwyd i'r ystafell, fel y bwyttâwyf o'th law di. A Thamar a gymmerth y teisennau a wnaethai hi, ac a'*u* dug at Amnon ei brawd i'r ystafell.

11 A phan ddug hi *hwynt* atto ef i fwytta, efe a ymaflodd ynddi hi, ac a ddywedodd wrthi hi, Tyred, gorwedd gyd â mi, fy chwaer.

12 A hi a ddywedodd wrtho, Paid, fy mrawd; na threisia fi: canys ni wneir fel hyn yn Israel: na wna di yr ynfydrwydd hyn.

13 A minnau, i ba le y bwriaf ymaith fy ngwarth? a thi a fyddi fel un o'r ynfydion yn Israel. Yn awr, gan hynny, ymddiddan, attolwg, â'r brenhin: canys ni ommedd efe fi i ti.

14 Ond ni fynnai efe wrandaw ar ei llais hi; eithr efe a fu drech na hi, ac a'i treisiodd, ac a orweddodd gyd â hi.

15 ¶ Yna Amnon a'i casaodd hi â chas mawr iawn: canys mwy *oedd* y cas â'r hwn y casasai efe hi, na'r cariad â'r hwn y carasai efe hi. Ac Amnon a ddywedodd wrthi hi, Cyfod, dos ymaith.

16 A hi a ddywedodd wrtho ef, Nid *oes* achos: y drygioni hwn, *sef* fy ngyrru ymaith, *sydd* fwy na'r llall a wnaethost â mi. Ond ni wrandawai efe arni hi.

17 Eithr efe a alwodd ar ei langc, ei weinidog, ac a ddywedodd, Gyrrwch hon yn awr allan oddi wrthyf fi; a chloa y drws ar ei hol hi.

18 Ac am dani *hi yr oedd* mantell symmudliw: canys â'r cyfryw fentyll y dilledid merched y brenhin, *y rhai oedd* forwynion. Yna ei weinidog of a'i dug hi allan, ac a glodd y drws ar ei hol hi.

19 ¶ A Thamar a gymmerodd ludw ar ei phen, ac a rwygodd y fantell symmudliw *oedd* am dani, ac a osododd ei llaw ar ei phen, ac a aeth ymaith dan weiddi.

20 Ac Absalom ei brawd a ddywedodd wrthi hi, Ai Amnon dy frawd a fu gyd â thi? er hynny yn awr taw â sôn, fy chwaer: dy frawd di *yw* efe; na osod dy galon ar y peth hyn. Felly Tamar a drigodd yn amddifad yn nhŷ Absalom ei brawd.

21 ¶ Ond pan glybu y brenhin Dafydd yr holl bethau hynny, efe a ddigiodd yn aruthr.

22 Ac ni ddywedodd Absalom wrth Amnon na drwg na da: canys Absalom a gasaodd Amnon, o herwydd iddo dreisio Tamar ei chwaer ef.

23 ¶ Ac ar ol dwy flynedd o ddyddiau, yr oedd gan Absalom rai yn cneifio yn Baal-hasor, yr hwn *sydd* wrth Ephraim: ac Absalom a wahoddodd holl feibion y brenhin.

24 Ac Absalom a ddaeth at y brenhin, ac a ddywedodd, Wele yn awr rai yn cneifio i'th was di; deued, attolwg, y brenhin a'i weision gyd â'th was.

25 A dywedodd y brenhin wrth Absalom, Nag ê, fy mab, ni ddeuwn ni i gyd yn awr; rhag i ni ormesu arnat ti. Ac efe a fu daer arno: ond ni fynnai efe fyned; eithr efe a'i bendithiodd ef.

26 Yna y dywedodd Absalom, Oni ddaw Amnon fy mrawd yn awr gyd â ni? A'r brenhin a ddywedodd wrtho ef, I ba beth yr â efe gyd â thi?

27 Etto Absalom a fu daer arno, fel y gollyngodd efe Amnon gyd âg ef, a holl feibion y brenhin.

28 ¶ Ac Absalom a orchymynodd i'w langciau, gan ddywedyd, Edrychwch, attolwg, pan fyddo llawen calon Amnon gan win, a *phan* ddywedwyf wrthych, Tarêwch Amnon; yna lleddwch ef, nac ofnwch: oni orchymynais i chwi? ymwrolwch, a byddwch *feibion* glewion.

29 A llangciau Absalom a wnaethant i Amnon fel y gorchymynasai Absalom. A holl feibion y brenhin a gyfodasant, a phob un a farchogodd ar ei ful, ac a ffoisant.

30 ¶ A thra *yr oeddynt* hwy ar y ffordd, y daeth y chwedl at Dafydd, gan ddywedyd, Absalom a laddodd

holl feibion y brenhin, ac ni adawyd
un o honynt.
31 Yna y brenhin a gyfododd, ac
a rwygodd ei ddillad, ac a orwedd-
odd ar y ddaear; a'i holl weision
oedd yn sefyll ger llaw, â'u gwisg-
oedd yn rhwygedig.
32 A Jonadab mab Simeah, brawd
Dafydd, a attebodd ac a ddywed-
odd, Na thybied fy arglwydd idd-
ynt hwy ladd yr holl langciau, *sef*
meibion y brenhin; canys Am-
non yn unig a fu farw: canys yr
oedd ym mryd Absalom *hynny*,
er y dydd y treisiodd efe Tamar
ei chwaer ef.
33 Ac yn awr na osoded fy ar-
glwydd frenhin y peth at ei galon,
gan dybied farw holl feibion y
brenhin: canys Amnon yn unig a
fu farw.
34 Ond Absalom a ffodd. A'r
llangc yr hwn oedd yn gwylio a
ddyrchafodd ei lygaid, ac a edrych-
odd; ac wele bobl lawer yn dyfod
ar hyd y ffordd o'i ol ef, ar hyd
ystlys y mynydd.
35 A Jonadab a ddywedodd wrth
y brenhin, Wele feibion y brenhin
yn dyfod: fel y dywedodd dy was,
felly y mae.
36 A phan orphenasai efe ym-
ddiddan, wele, meibion y brenhin a
ddaethant, ac a ddyrchafasant eu
llef, ac a wylasant. A'r brenhin
hefyd a'i holl weision a wylasant âg
wylofain mawr iawn.
37 ¶ Ac Absalom a ffodd, ac a
aeth at Talmai mab Ammihud
brenhin Gesur: a *Dafydd* a alarodd
am ei fab bob dydd.
38 Ond Absalom a ffodd, ac a
aeth i Gesur; ac yno y bu efe dair
blynedd.
39 Ac *enaid* Dafydd y brenhin a
hiraethodd am fyned at Absalom:
canys efe a gysurasid am Amnon,
gan ei farw efe.

PENNOD 14.

1 *Joab yn gosod gwraig weddw o Tecoah, trwy ddammeg, i droi calon y brenhin i gyrchu ei fab adref; ac yn ei ddwyn ef i Jerusalem.* 25 *Teguch, gwallt, a phlant Absalom.* 28 *Joab, ym mhen dwy flynedd, yn dwyn Absalom i wydd y brenhin.*

YNA Joab mab Serfiah a wybu
fod calon y brenhin tu ag at
Absalom.
2 A Joab a anfonodd i Tecoah, ac
a gyrchodd oddi yno wraig ddoeth,
ac a ddywedodd wrthi, Cymmer
arnat, attolwg, alaru, a gwisg yn
awr alar-wisg, ac nac ymira âg
olew, eithr bydd fel gwraig yn gal-
aru er ys llawer o ddyddiau am y
marw:
3 A thyred at y brenhin, a llefara
wrtho yn ol yr ymadrodd hyn. A
Joab a osododd yr ymadroddion yn
ei genau hi.
4 ¶ A'r wraig o Tecoah, pan ddy-
wedodd wrth y brenhin, a syrthiodd
i lawr ar ei hwyneb, ac a ymgrym-
modd, ac a ddywedodd, Cynnorth-
wya, O frenhin.
5 A dywedodd y brenhin wrthi hi,
Beth *a ddarfu* i ti? A hi a ddywed-
odd, Yn wir gwraig weddw *ydwyf*
fi, a'm gŵr a fu farw.
6 Ac i'th law-forwyn *yr oedd* dau
fab, a hwynt ill dau a ymryson-
asant yn y maes; ond nid *oedd*
athrywynwr rhyngddynt hwy; ond
y naill a darawodd y llall, ac a'i
lladdodd ef.
7 Ac wele, yr holl dylwyth a gyfod-
odd yn erbyn dy law-forwyn, a hwy
a ddywedasant, Dyro yr hwn a
darawodd ei frawd, fel y lladdom
ni ef, am einioes ei frawd a laddodd
efe; ac y difethom hefyd yr etifedd:
felly y diffoddent fy marworyn, yr
hwn a adawyd, heb adael i'm gŵr
nac enw nac eppil ar wyneb y
ddaear.
8 A'r brenhin a ddywedodd wrth y
wraig, Dos i'th dŷ; a mi a roddaf
orchymyn o'th blegid di.
9 A'r wraig o Tecoah a ddywed-
odd wrth y brenhin, *Bydded* y cam-
wedd hwn arnaf fi, fy arglwydd
frenhin, ac ar dŷ fy nhad i, a'r
brenhin a'i orseddfaingc ef yn
ddïeuog.
10 A'r brenhin a ddywedodd, Dwg
attaf fi yr hwn a yngano wrthyt, ac
ni chaiff mwyach gyffwrdd â thi.
11 Yna hi a ddywedodd, Cofied,
attolwg, y brenhin dy ARGLWYDD
DDUW, rhag amlhâu dïalwyr y
gwaed i ddistrywio, a rhag difetha
o honynt hwy fy mab i. Ac efe a
ddywedodd, *Fel mai* byw yr AR-
GLWYDD, ni syrth *un* o wallt pen
dy fab di i lawr.

12 Yna y dywedodd y wraig, Attolwg, gâd i'th law-forwyn ddywedyd gair wrth fy arglwydd frenhin. Yntau a ddywedodd, Dywed.

13 A'r wraig a ddywedodd, Paham gan hynny y meddyliaist fel hyn yn erbyn pobl DDUW? canys y mae y brenhin yn llefaru y gair hwn megis *un* beius, gan na ddug y brenhin adref ei herwr.

14 Canys gan farw yr ydym ni yn marw, ac *ydym* fel dyfroedd wedi eu tywallt ar y ddaear, y rhai ni chesglir; gan na ddug DUW *ei* einioes, efe a feddyliodd foddion, fel na yrrer ymaith *ei* herwr oddi wrtho.

15 Ac yn awr mi a ddeuthum i ymddiddan â'm harglwydd frenhin am y peth hyn, oblegid i'r bobl fy nychrynu i: am hynny y dywedodd dy law-forwyn, Ymddiddanaf yn awr â'r brenhin; ond odid fe a wna y brenhin ddymuniad ei law-forwyn.

16 Canys y brenhin a wrendy, fel y gwaredo efe ei law-forwyn o law y gŵr *a fynnai* fy nifetha i a'm mab hefyd o etifeddiaeth DDUW.

17 A'th law-forwyn a ddywedodd, Bydded, *attolwg*, gair fy arglwydd frenhin yn gysur: canys fel angel DUW *yw* fy arglwydd frenhin, i wrandaw y da a'r drwg: a'r ARGLWYDD dy DDUW fydd gyd â thi.

18 Yna yr attebodd y brenhin, ac y dywedodd wrth y wraig, Na chela, attolwg, oddi wrthyf fi y peth yr ydwyf yn ei ofyn i ti. A dywedodd y wraig, Llefared yn awr fy arglwydd frenhin.

19 A'r brenhin a ddywedodd, *A ydyw* llaw Joab gyd â thi yn hyn oll? A'r wraig a attebodd ac a ddywedodd, *Fel mai* byw dy enaid di, fy arglwydd frenhin, nid gwiw *troi* ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy oddi wrth yr hyn oll a ddywedodd fy arglwydd frenhin: canys dy was Joab a orchymynodd i mi, ac a osododd yr holl eiriau hyn y'ngenau dy law-forwyn:

20 Ar fedr troi y chwedl y gwnaeth dy was Joab y peth hyn: ond fy arglwydd *sydd* ddoeth, fel doethineb angel DUW, i wybod yr hyn oll *sydd* ar y ddaear.

21 ¶ A'r brenhin a ddywedodd wrth Joab, Wele yn awr, gwneuthum y peth hyn: dos, a dwg y llangc Absalom yn ei ol.

22 A Joab a syrthiodd i lawr ar ei wyneb, ac a ymgrymmodd, ac a fendithiodd y brenhin. A Joab a ddywedodd, Heddyw y gwybu dy was di gael o honof ffafr yn dy olwg di, fy arglwydd frenhin, am i'r brenhin gyflawni dymuniad ei was.

23 A Joab a gyfododd, ac a aeth i Gesur, ac a ddug Absalom i Jerusalem.

24 A'r brenhin a ddywedodd, Tröed i'w dŷ ei hun; ac nac edryched *yn* fy wyneb i. Felly Absalom a drodd i'w dŷ ei hun, ac ni welodd wyneb y brenhin.

25 ¶ Ac nid oedd ŵr mor glodfawr am ei degwch ag Absalom o fewn holl Israel: o wadn ei droed hyd ei goryn nid oedd wrthuni ynddo ef.

26 A phan gneifiai efe ei ben, (canys un waith yn y flwyddyn y torrai efe ei wallt: o herwydd *ei* fod yn drwm arno, am hynny efe a'i torrai ef;) efe a bwysai wallt ei ben yn ddau can sicl, wrth bwys y brenhin.

27 A thri mab a anwyd i Absalom, ac un ferch, a'i henw hi *oedd* Tamar: yr oedd hi yn wraig dêg yr olwg.

28 ¶ Felly Absalom a drigodd ddwy flynedd gyfan yn Jerusalem, ac ni welodd wyneb y brenhin.

29 Am hynny Absalom a ddanfonodd am Joab, i'w anfon ef at y brenhin; ond ni ddeuai efe atto ef: ac efe a anfonodd etto yr ail waith, ond ni ddeuai efe ddim.

30 Am hynny efe a ddywedodd wrth ei weision, Gwelwch randir Joab ger fy llaw i, a haidd *sydd* ganddo ef yno; ewch a llosgwch hi â thân. A gweision Absalom a losgasant y rhandir â thân.

31 Yna Joab a gyfododd, ac a ddaeth at Absalom i'*w* dŷ, ac a ddywedodd wrtho, Paham y llosgodd dy weision di fy rhandir i â thân?

32 Ac Absalom a ddywedodd wrth Joab, Wele, mi a anfonais attat ti, gan ddywedyd, Tyred yma, fel y'th anfonwyf at y brenhin, i ddywedyd, I ba beth y deuthum i o Gesur?

gwell *fuasai* i mi fy *mod* yno etto: ac yn awr gadawer i mi weled wyneb y brenhin; ac od oes gamwedd ynof, lladded fi.

33 Yna Joab a ddaeth at y brenhin, ac a fynegodd iddo ef. Ac efe a alwodd am Absalom. Yntau a ddaeth at y brenhin, ac a ymgrymmodd iddo i lawr ar ei wyneb ger bron y brenhin. A'r brenhin a gusanodd Absalom.

PENNOD 15.

1 Absalom, trwy ei fwyneidd-dra, ym lladratta calonnau Israel: 7 ac, ym rhith talu addunedau, ym cael cennad i fyned i Hebron: 10 ac ym gwneuthur cyd-fwriad mawr ymo. 13 Dafydd, wrth glywed hynny, ym ffoi o Jerusalem. 19 Ittai heb ymadael âg ef. 24 Damfon Sadoc ac Abiathar yn eu hol â'r arch. 30 Dafydd a'i gyfeillion yn mynedi fynydd yr Olew-wydd, dan wylo: 31 ym meddiigo cynghor Ahitophel; 32 ac ym anfon Husai yn ei ol.

AC wedi hyn y parottôdd Absalom iddo ei hun gerbydau, a meirch, a dengwr a deugain i redeg o'i flaen.

2 Ac Absalom a gyfodai yn fore, ac a safai ger llaw ffordd y porth: ac Absalom a alwai atto bob gŵr yr oedd iddo fatter i ddyfod at y brenhin am farn, ac a ddywedai, O ba ddinas *yr ydwyt* ti? Yntau a ddywedai, O un o lwythau Israel *y mae* dy was.

3 Ac Absalom a ddywedai wrtho ef, Wele, *y mae* dy fatterion yn dda, ac yn uniawn; ond nid *oes* neb dan y brenhin a wrandawo arnat ti.

4 Dywedai Absalom hefyd, O na'm gosodid i yn farnwr yn y wlad, fel y delai attaf fi bob gŵr a fyddai ganddo hawl neu gynghaws; myfi a wnawn gyfiawnder iddo!

5 A phan nesâi neb i ymgrymmu iddo ef, efe a estynai ei law, ac a ymaflai ynddo ef, ac a'i cusanai.

6 Ac fel hyn y gwnai Absalom i holl Israel y rhai a ddeuent am farn at y brenhin. Felly Absalom a ladrattaodd galon holl wŷr Israel.

7 ¶ Ac ym mhen deugain mlynedd y dywedodd Absalom wrth y brenhin, Gâd i mi fyned, attolwg, a thalu fy adduned a addunedais i'r ARGLWYDD, yn Hebron.

8 Canys dy was a addunedodd adduned, pan oeddwn i yn aros o fewn Gesur yn Syria, gan ddywedyd, Os gan ddychwelyd y dychwel yr ARGLWYDD fi i Jerusalem, yna y gwasanaethaf yr ARGLWYDD.

9 A'r brenhin a ddywedodd wrtho ef, Dos mewn heddwch. Felly efe a gyfododd, ac a aeth i Hebron.

10 ¶ Eithr Absalom a anfonodd ysbïwyr trwy holl lwythau Israel, gan ddywedyd, Pan glywoch lais ŷr udgorn, yna dywedwch, Absalom sydd yn teyrnasu yn Hebron.

11 A dau cant o wŷr a aethant gyd âg Absalom o Jerusalem, *ar* wahodd; ac yr oeddynt yn myned yn eu gwiriondeb, ac heb wybod dim oll.

12 Ac Absalom a anfonodd am Ahitophel y Giloniad, cynghorwr Dafydd, o'i ddinas, o Giloh, tra oedd efe yn offrymmu aberthau. A'r cyd-fradwriaeth *oedd* gryf; a'r bobl oedd yn amlhâu gyd âg Absalom yn wastadol.

13 ¶ A daeth cennad at Dafydd, gan ddywedyd, Y mae calon gwŷr Israel ar ol Absalom.

14 A dywedodd Dafydd wrth ei holl weision y rhai *oedd* gyd âg ef yn Jerusalem, Cyfodwch, a ffown; canys ni ddïangwn ni gan Absalom: brysiwch i fyned; rhag iddo ef frysio a'n dala ni, a dwyn drwg arnom ni, a tharo y ddinas â min y cleddyf.

15 A gweision y brenhin a ddywedasant wrth y brenhin, Wele dy weision *yn barod*, ar ol yr hyn oll a ddewiso fy arglwydd frenhin.

16 A'r brenhin a aeth, a'i holl dylwyth ar ei ol. A'r brenhin a adawodd ddeg o ordderch-wragedd i gadw y tŷ.

17 A'r brenhin a aeth ymaith, a'r holl bobl ar ei ol; a hwy a arhosasant mewn lle o hirbell.

18 A'i holl weision ef oedd yn cerdded ger ei law ef: yr holl Cerethiaid, a'r holl Pelethiaid, a'r holl Gethiaid, y chwe channwr a ddaethai ar ei ol ef o Gath, oedd yn cerdded o flaen y brenhin.

19 ¶ Yna y dywedodd y brenhin wrth Ittai y Gethiad, Paham yr âi di hefyd gyd â ni? Dychwel, a thrig gyd â'r brenhin: canys alltud *ydwyt* ti, a dïeithr hefyd allan o'th fro dy hun.

20 Doe y daethost ti; a fudwn i

di heddyw i fyned gyd â ni? Myfi a âf; dychwel di, a dwg dy frodyr *gyd â thi:* trugaredd a gwirionedd *fyddo* gyd â thi.

21 Ac Ittai a attebodd y brenhin, ac a ddywedodd, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, ac *mai* byw fy arglwydd frenhin, yn ddiau yn y lle y byddo fy arglwydd frenhin yneddo, pa un bynnag ai mewn angau ai mewn einioes, yno y bydd dy was hefyd.

22 A Dafydd a ddywedodd wrth Ittai, Dos, a cherdda drosodd. Ac Ittai y Gethiad a aeth drosodd, a'i holl wŷr, a'r holl blant *oedd* gyd âg ef.

23 A'r holl wlad oedd yn wylofain â llef uchel; a'r holl bobl a aethant drosodd. A'r brenhin a aeth dros afon Cidron, a'r holl bobl a aeth drosodd, tu a ffordd yr anialwch.

24 ¶ Ac wele Sadoc, a'r holl Lefiaid *oedd* gyd âg ef, yn dwyn arch cyfammod DUW; a hwy a osodasant i lawr arch DUW: ac Abïathar a aeth i fyny, nes darfod i'r holl bobl ddyfod allan o'r ddinas.

25 A dywedodd y brenhin wrth Sadoc, Dychwel âg arch DUW i'r ddinas: os caf fi ffafr y'ngolwg yr ARGLWYDD, efe a'm dwg eilwaith, ac a bâr i mi ei gweled hi, a'i babell.

26 Ond os fel hyn y dywed efe; Nid wyf foddlawn i ti; wele fi, gwnaed i mi fel *y byddo* da yn ei olwg.

27 A'r brenhin a ddywedodd wrth Sadoc yr offeiriad, Onid gweledydd *ydwyt* ti? dychwel i'r ddinas mewn heddwch, a'th ddau fab gyd â thi, *sef* Ahimaas dy fab, a Jonathan mab Abïathar.

28 Gwelwch, mi a drigaf y'ngwastadedd yr anialwch, nes dyfod gair oddi wrthych i'w fynegi i mi.

29 Felly Sadoc ac Abïathar a ddygasant yn ei hol arch DUW i Jerusalem; ac a arhosasant yno.

30 ¶ A Dafydd a aeth i fyny i *fryn* yr Olew-wydd; *ac yr oedd* yn myned i fyny ac yn wylo, a'i ben wedi ei orchuddio, ac *yr oedd* efe yn myned yn droednoeth. A'r holl bobl y rhai *oedd* gyd âg ef a orchuddiasant bawb ei ben, ac a aethant i fyny, gan fyned ac wylo.

31 ¶ A mynegwyd i Dafydd, gan ddywedyd, Y *mae* Ahitophel ym mysg y cyd-fwriadwyr gyd âg Absalom. A Dafydd a ddywedodd, O ARGLWYDD tro, attolwg, gynghor Ahitophel yn ffolineb.

32 ¶ A *phan* ddaeth Dafydd i ben *y bryn* yr addolodd efe DDUW yn-ddo, wele Husai yr Arciad yn ei gyfarfod ef, wedi rhwygo ei bais, a phridd ar ei ben.

33 A Dafydd a ddywedodd wrtho, Od âi drosodd gyd â mi, ti a fyddi yn faich arnaf:

34 Ond os dychweli i'r ddinas, a dywedyd wrth Absalom, Dy was di, O frenhin, fyddaf fi; gwas dy dad *fûm* hyd yn hyn, ac yn awr dy was dithau *fyddaf:* ac felly y diddymmi i mi gynghor Ahitophel.

35 Oni *bydd* gyd â thi yno Sadoc ac Abïathar yr offeiriaid? am hynny pob gair a glywech o dŷ y brenhin, mynega i Sadoc ac i Abïathar yr offeiriaid.

36 Wele, *y mae* yno gyd â hwynt eu dau fab, Ahimaas *mab* Sadoc, a Jonathan *mab* Abïathar: danfonwch gan hynny gyd â hwynt attaf fi bob peth a'r a glywoch.

37 Felly Husai, cyfaill Dafydd, a ddaeth i'r ddinas; ac Absalom a ddaeth i Jerusalem.

PENNOD 16.

1 Siba, trwy anrhegion a chelwyddau, yn cael ei ffeddiaeth ei feistr. 5 Simei yn melldithio Dafydd yn Bahurim. 9 Dafydd, trwy amynedd, yn ei gadw ei hun ac craill rhag dial. 15 Husai yn ymlusgo i mewn i gyfrinach Absalom. 20 Cynghor Ahitophel.

AC wedi myned o Dafydd ychydig dros ben *y bryn,* wele Siba gwas Mephiboseth yn ei gyfarfod ef â chwpl o asynod wedi eu cyfrwyo, ac arnynt hwy *yr oedd* dau can *torth* o fara, a chan swp o resynau, a chant o ffrwythydd haf, a chostrelaid o win.

2 A dywedodd y brenhin wrth Siba, Beth *yw* y rhai hyn *sydd* gennyt? A Siba a ddywedodd, Asynod i dylwyth y brenhin i farchogaeth, a bara a ffrwythydd haf i'r llangciau i'w bwytta, a gwin i'r lluddedig i'w yfed yn yr anialwch, *ydynt hwy.*

3 A'r brenhin a ddywedodd, A pha le *y mae* mab dy feistr? A Siba a

ddywedodd wrth y brenhin, Wele, y mae efe yn aros yn Jerusalem: canys efe a ddywedodd, Tŷ Israel a roddant drachefn i mi heddyw frenhiniaeth fy nhad.

4 Yna y dywedodd y brenhin wrth Siba, Wele, eiddot ti yr hyn oll *oedd eiddo* Mephiboseth. A Siba a ddywedodd, Yr ydwyf yn attolwg gael o honof ffafr yn dy olwg di, fy arglwydd frenhin.

5 ¶ A phan ddaeth y brenhin Dafydd hyd Bahurim, wele un o dylwyth tŷ Saul yn dyfod allan oddi yno, a'i enw ef *oedd* Simei, mab Gera: efe a ddaeth allan, dan gerdded a melldigo.

6 Ac efe a daflodd Dafydd â cherrig, a holl weision y brenhin Dafydd: ac *yr oedd* yr holl bobl a'r holl gedyrn ar ei law ddehau ac ar ei law aswy ef.

7 Ac fel hyn y dywedai Simei wrth felldithio; Tyred allan, tyred allan, ŵr gwaedlyd, a gŵr i'r fall.

8 Yr ARGLWYDD a drodd arnat ti holl waed tŷ Saul, yr hwn y teyrnesaist yn ei le; a'r ARGLWYDD a roddodd y frenhiniaeth yn llaw Absalom dy fab: ac wele di *wedi dy ddal* yn dy ddrygioni; canys gŵr gwaedlyd *wyt* ti.

9 ¶ Yna y dywedodd Abisai mab Serfiah wrth y brenhin, Paham y melldithia y ci marw hwn fy arglwydd frenhin? gâd i mi fyned drosodd, attolwg, a thorri ei ben ef.

10 A'r brenhin a ddywedodd, Beth *sydd* i mi *a wneluwyf* â chwi, meibion Serfiah? felly melldithied, o herwydd yr ARGLWYDD a ddywedodd wrtho, Melldithia Dafydd. Am hynny pwy a ddywed, Paham y gwnei fel hyn?

11 A Dafydd a ddywedodd wrth Abisai, ac wrth ei holl weision, Wele fy mab, yr hwn a ddaeth allan o'm hymysgaroedd i, yn ceisio fy einioes: ac yn awr pa faint mwy *y cais* y Benjaminiad hwn? Gadêwch iddo, a melldithied: canys yr ARGLWYDD a archodd iddo.

12 Fe a allai yr edrych yr ARGLWYDD ar fy nghystudd i, ac y dyry yr ARGLWYDD i mi ddaioni am ei felldith ef y dydd hwn.

13 Ac fel yr oedd Dafydd a'i wŷr yn myned ar hyd y ffordd, Simei yntau oedd yn myned ar hyd ystlys y mynydd, ar ei gyfer ef; ac fel yr oedd efe yn myned, efe a felldithiai, ac a daflai gerrig, ac a fwriai lwch i'w erbyn ef.

14 A daeth y brenhin, a'r holl bobl *oedd* gyd âg ef, yn lluddedig, ac a orphwysodd yno.

15 ¶ Ac Absalom a'r holl bobl, gwŷr Israel, a ddaethant i Jerusalem, ac Ahitophel gyd âg ef.

16 A phan ddaeth Husai yr Arciad, cyfaill Dafydd, at Absalom, Husai a ddywedodd wrth Absalom, Byw fo y brenhin, byw fyddo y brenhin.

17 Ac Absalom a ddywedodd wrth Husai, Ai dyma dy garedigrwydd di i'th gyfaill? paham nad aethost ti gyd â'th gyfaill?

18 A Husai a ddywedodd wrth Absalom, Nag ê; eithr yr hwn a ddewiso yr ARGLWYDD, a'r bobl yma, a holl wŷr Israel, eiddo ef fyddaf fi, a chyd âg ef yr arhosaf fi.

19 A phwy hefyd a wasanaethaf? onid ger bron ei fab ef? Megis y gwasanaethais ger bron dy dad di, felly y byddaf ger dy fron dithau.

20 ¶ Yna y dywedodd Absalom wrth Ahitophel, Moeswch eich cynghor beth a wnawn ni.

21 Ac Ahitophel a ddywedodd wrth Absalom, Dos i mewn at ordderchwragedd dy dad, y rhai a adawodd efe i gadw y tŷ: pan glywo holl Israel dy fod yn ffiaidd gan dy dad, yna y cryfhêir llaw y rhai oll *sydd* gyd â thi.

22 Felly y taenasant i Absalom babell ar nen y tŷ: ac Absalom a aeth i mewn at ordderch-wragedd ei dad, y'ngŵydd holl Israel.

23 A chynghor Ahitophel, yr hwn a gynghorai efe yn y dyddiau hynny, *oedd* fel ped ymofynai *un* â gair Duw: felly *yr oedd* holl gynghor Ahitophel, gyd â Dafydd a chyd âg Absalom.

PENNOD 17.

1 *Cynghor Husai, trwy ewyllys Duw, yn difwymo cynghor Ahitophel.* 15 *Danfon dirgel gydnabyddiaeth i Dafydd.* 23 *Ahitophel yn ymgrogi.* 25 *Gwneuthur Amasa yn gapten.* 27 *Dafydd yn cael ymborth ym Mahanaim.*

DYWEDODD Ahitophel hefyd wrth Absalom, Gâd i mi yn

awr ddewis deuddeng mil o wŷr, a mi a gyfodaf ac a erlidiaf ar ol Dafydd y nos hon.

2 A mi a ddeuaf arno tra *fyddo* ef yn lluddedig, ac yn wan ei ddwylaw, ac a'i brawychaf ef: a ffy yr holl bobl *sydd* gyd âg ef; a mi a darawaf y brenhin yn unig.

3 A throaf yr holl bobl attat ti: megis pe dychwelai pob un, *yw* y gŵr yr ydwyt ti yn ei geisio: *felly* yr holl bobl fydd mewn heddwch.

4 A da fu y peth y'ngolwg Absalom, ac y'ngolwg holl henuriaid Israel.

5 Yna y dywedodd Absalom, Galw yn awr hefyd ar Husai yr Arciad, a gwrandâwn beth a ddywedo yntau hefyd.

6 A phan ddaeth Husai at Absalom, llefarodd Absalom wrtho ef, gan ddywedyd, Fel hyn y dywedodd Ahitophel: a wnawn ni ei gynghor ef? onid ê, dywed di.

7 A dywedodd Husai wrth Absalom, Nid da y cynghor a gynghorodd Ahitophel y waith hon.

8 Canys, eb Husai, ti a wyddost am dy dad a'i wŷr, mai cryfion *ydynt* hwy, a chreulawn eu meddwl, megis arth wedi colli ei chenawon yn y maes: dy dad hefyd *sydd* ryfelwr, ac nid erys efe dros nos gyd â'r bobl.

9 Wele, yn awr y mae efe yn llechu mewn rhyw ogof, neu mewn rhyw le: a phan syrthio *rhai* o honynt yn y dechreu, yna y *bobl* a glyw, ac a ddywed, Bu laddfa ym mysg y bobl *sydd* ar ol Absalom.

10 Yna yr un grymmus, yr hwn *y mae* ei galon fel calon llew, a lwfrhâ: canys gŵyr holl Israel mai glew *yw* dy dad di, ac *mai* gwŷr grymmus *yw* y rhai *sydd* gyd âg ef.

11 Am hynny y cynghoraf, lwyrgasglu attat ti holl Israel, o Dan hyd Beer-seba, fel y tywod wrth y môr o amldra, a myned o'th wyneb di dy hun i'r rhyfel.

12 Felly y deuwn arno ef i un o'r lleoedd yr hwn y ceffir ef ynddo, ac a ruthrwn arno ef fel y syrth y gwlith ar y ddaear: ac ni adewir *dim* o hono ef, nac un chwaith o'r holl wŷr *sydd* gyd âg ef.

13 Ond os i ddinas yr ymgasgl efe, yna holl Israel a ddygant raffau at y ddinas honno, a ni a'i tynnwn hi i'r afon, fel na chaffer yno un garregan.

14 A dywedodd Absalom, a holl wŷr Israel, Gwell *yw* cynghor Husai yr Arciad na chynghor Ahitophel. Canys yr ARGLWYDD a ordeiniasai ddiddymmu cynghor da Ahitophel, fel y dygai yr ARGLWYDD ddrwg ar Absalom.

15 ¶ Yna y dywedodd Husai wrth Sadoc ac wrth Abïathar yr offeiriaid, Fel hyn ac fel hyn y cynghorodd Ahitophel i Absalom ac i henuriaid Israel: ac fel hyn ac fel hyn y cynghorais innau.

16 Yn awr gan hynny anfonwch yn fuan, a mynegwch i Dafydd, gan ddywedyd, Nac aros dros nos yng ngwastadedd yr anialwch, ond gan fyned dos; rhag difa y brenhin a'r holl bobl *sydd* gyd âg ef.

17 Jonathan hefyd ac Ahimaas oedd yn sefyll wrth En-rogel; ac fe aeth llangces ac a fynegodd iddynt. Hwythau a aethant ac a fynegasant i'r brenhin Dafydd: canys ni allent hwy ymddangos i fyned i'r ddinas.

18 Etto llangc a'u gwelodd hwynt, ac a fynegodd i Absalom: ond hwy a aethant ymaith ill dau yn fuan, ac a ddaethant i dŷ gŵr yn Bahurim, ac iddo ef *yr oedd* pydew yn ei gyntedd; a hwy a aethant i waered yno.

19 A'r wraig a gymmerth ac a ledodd glawr ar wyneb y pydew, ac a daenodd arno falurion ŷd; fel na wybuwyd y peth.

20 A phan ddaeth gweision Absalom at y wraig i'r tŷ, hwy a ddywedasant, Pa le *y mae* Ahimaas a Jonathan? A'r wraig a ddywedodd wrthynt, Hwy a aethant dros yr aber ddwfr. A phan geisiasant, ac nas cawsant *hwynt*, yna y dychwelasant i Jerusalem.

21 Ac ar ol iddynt hwy fyned ymaith, yna *y lleill* a ddaethant i fyny o'r pydew, ac a aethant ac a fynegasant i'r brenhin Dafydd; ac a ddywedasant wrth Dafydd, Cyfodwch, ac ewch yn fuan dros y dwfr; canys fel hyn y cynghorodd Ahitophel yn eich erbyn chwi.

22 Yna y cododd Dafydd a'r holl bobl y rhai *oedd* gyd âg ef, ac a aethant dros yr Iorddonen: erbyn goleuo y bore nid oedd un yn eisieu a'r nad aethai dros yr Iorddonen.

23 ¶ A phan welodd Ahitophel na wneuthid ei gynghor ef, efe a gyfrwyodd *ei* asyn, ac a gyfododd, ac a aeth i'w dŷ ei hun, i'w ddinas, ac a wnaeth drefn ar ei dŷ, ac a ymgrogodd, ac a fu farw, ac a gladdwyd ym meddrod ei dad.

24 Yna Dafydd a ddaeth i Mahanaim. Ac Absalom a aeth dros yr Iorddonen, efe a holl wŷr Israel gyd âg ef.

25 ¶ Ac Absalom a osododd Amasa yn lle Joab ar y llu. Ac Amasa *oedd* fab i ŵr a'i enw Ithra, yr hwn *oedd* Israeliad, yr hwn a aeth i mewn at Abigail merch Nahas, chwaer Serfiah, mam Joab.

26 Felly y gwersyllodd Israel ac Absalom y'ngwlad Gilead.

27 ¶ A phan ddaeth Dafydd i Mahanaim, Sobi mab Nahas o Rabbah meibion Ammon, a Machir mab Ammïel o Lo-debar, a Barsilai y Gileadiad o Rogelim,

28 A ddygasant welŷau, a chawgiau, a llestri pridd, a gwenith, a haidd, a blawd, a chras-*ŷd*, a ffa, a ffacbys, a chras-*bys*,

29 A mêl, ac ymenyn, a defaid, a chaws gwartheg, i Dafydd, ac i'r bobl *oedd* gyd âg ef, i'w bwytta. Canys dywedasant, *Y mae* y bobl yn newynog, yn flin hefyd, ac yn sychedig yn yr anialwch.

PENNOD 18.

1 *Dafydd yn edrych ar y lluoedd yn myned allan, ac yn rhoddi gorchymyn ynghylch Absalom.* 6 *Lladdfa fawr ar yr Israeliaid y'nghoed Ephraim.* 9 *Absalom y'nghrog wrth ei wallt mewn derwen; a Joab yn ei ladd ef, ac yn ei fwrw mewn pydew.* 18 *Lle Absalom.* 19 *Ahimaas a Chusi ym dwyn newyddion i Dafydd.* 33 *Dafydd yn galaru am Absalom.*

A DAFYDD a gyfrifodd y bobl *oedd* gyd âg ef, ac a osododd arnynt hwy filwriaid a chanwriaid.

2 A Dafydd a anfonodd o'r bobl y drydedd ran dan law Joab, a'r drydedd ran dan law Abisai mab Serfiah, brawd Joab, a'r drydedd ran dan law Ittai y Gethiad. A'r brenhin a ddywedodd wrth y bobl, Gan fyned yr âf finnau hefyd gyd â chwi.

3 Ond y bobl a attebodd, Nid âi di allan: canys os gan ffoi y ffown ni, ni osodant hwy *eu* meddwl arnom ni; ac os bydd marw ein hanner ni, ni osodant *eu* meddwl arnom: ond yn awr *yr ydwyt ti* fel deng mil o honom ni: yn awr gan hynny gwell *yw* i ti fod i'n cynnorthwyo ni o'r ddinas.

4 A dywedodd y brenhin wrthynt hwy, Gwnaf yr hyn fyddo da yn eich golwg chwi. A'r brenhin a safodd ger llaw y porth; a'r holl bobl a aethant allan yn gannoedd ac yn filoedd.

5 A'r brenhin a orchymynodd i Joab, ac Abisai, ac Ittai, gan ddywedyd, *Byddwch* esmwyth, er fy mwyn i, wrth y llange Absalom. A'r holl bobl a glywsant pan orchymynodd y brenhin i'r holl flaenoriaid yn achos Absalom.

6 ¶ Felly yr aeth y bobl i'r maes i gyfarfod Israel: a'r rhyfel fu yng nghoed Ephraim.

7 Ac yno y lladdwyd pobl Israel o flaen gweision Dafydd; ac yno y bu lladdfa fawr y dwthwn hwnnw, *sef* ugain mil.

8 Canys y rhyfel oedd yno wedi gwasgaru ar hyd wyneb yr holl wlad: a'r coed a ddifethodd fwy o'r bobl nag a ddifethodd y cleddyf y diwrnod hwnnw.

9 ¶ Ac Absalom a gyfarfu â gweision Dafydd yn *eu* hwyneb. Ac Absalom oedd yn marchogaeth ar ful, a'r mul a aeth dan dewfrig derwen fawr, a'i ben ef a lynodd yn y dderwen: felly yr oedd efe rhwng y nefoedd a'r ddaear; a'r mul *oedd* dano ef a aeth ymaith.

10 A rhyw un a ganfu *hynny*, ac a fynegodd i Joab, ac a ddywedodd, Wele, gwelais Absalom y'nghrog mewn derwen.

11 A dywedodd Joab wrth y gŵr oedd yn mynegi iddo, Ac wele, ti a'*i* gwelaist *ef;* paham nas tarewaist ef yno i'r llawr, ac arnaf fi roddi i ti ddeg *sicl* o arian, ac un gwregys?

12 A dywedodd y gŵr wrth Joab, Pe cawn bwyso ar fy llaw fil *o siclau* arian, nid estynwn fy llaw

yn erbyn mab y brenhin: canys gorchymynodd y brenhin lle y clywsom ni wrthyt ti, ac wrth Abisai, ac wrth Ittai, gan ddywedyd, Gwyliwch *gyffwrdd* o neb â'r llangc Absalom.

13 Os amgen, mi a wnaethwn ffalsder yn erbyn fy einioes: canys nid oes dim yn guddiedig oddi wrth y brenhin; tithau hefyd a safasit yn *fy* erbyn.

14 Yna y dywedodd Joab, Nid arhoaf fel hyn gyd â thi. Ac efe a gymmerth dair o biccellau yn ei law, ac a'u brathodd trwy galon Absalom, ac efe etto yn fyw yng nghanol y dderwen.

15 A'r deg llangc *y rhai* oedd yn dwyn arfau Joab a amgylchynasant, ac a darawsant Absalom, ac a'i lladdasant ef.

16 A Joab a udganodd mewn udgorn; a'r bobl a ddychwelodd o erlid ar ol Israel: canys Joab a attaliodd y bobl.

17 A hwy a gymmerasant Absalom, ac a'i bwriasant ef mewn ffos fawr yn y coed, ac a osodasant arno garnedd gerrig fawr iawn: a holl Israel a ffoisant bob un i'w babell.

18 ¶ Ac Absalom a gymmerasai ac a osodasai iddo yn ei fywyd golofn, yn nyffryn y brenhin: canys efe a ddywedodd, Nid *oes* fab gennyf i wneuthur coffa am fy enw: ac efe a alwodd y golofn ar ei enw ei hun. A hi a elwir Lle Absalom, hyd y dydd hwn.

19 ¶ Yna Ahimaas mab Sadoc a ddywedodd, Gâd i mi redeg yn awr, a mynegi i'r brenhin, ddarfod i'r Arglwydd ei ddïal ef ar ei elynion.

20 A Joab a ddywedodd wrtho ef, Ni *byddi* di yn genhadwr y dydd hwn, eithr mynegi ddiwrnod arall: ond heddyw ni byddi di gennad, o herwydd marw mab y brenhin.

21 Yna y dywedodd Joab wrth Cusi, Dos, dywed i'r brenhin yr hyn a welaist. A Chusi a ymgrymmodd i Joab, ac a redodd.

22 Yna Ahimaas mab Sadoc a ddywedodd eilwaith wrth Joab, Beth bynnag a fyddo, gâd i minnau, attolwg, redeg ar ol Cusi. A dywedodd Joab, I ba beth y rhedi di, fy mab, gan nad *oes* gennyt gennadwriaeth addas?

23 Ond beth bynnag a fyddo, *eb efe*, gâd i mi redeg. A dywedodd yntau wrtho, Rhed. Felly Ahimaas a redodd ar hyd y gwastadedd, ac a aeth heibio i Cusi.

24 A Dafydd oedd yn eistedd rhwng y ddau borth: a'r gwyliedydd a aeth ar nen y porth ar y mur, ac a ddyrchafodd ei lygaid, ac a edrychodd; ac wele ŵr yn rhedeg ei hunan.

25 A'r gwyliedydd a waeddodd, ac a fynegodd i'r brenhin. A'r brenhin a ddywedodd, Os ei hun *y mae* efe, cennadwriaeth *sydd* yn ei enau ef. Ac efe a ddaeth yn fuan, ac a nesaodd.

26 A'r gwyliedydd a ganfu ŵr arall yn rhedeg: a'r gwyliedydd a alwodd ar y porthor, ac a ddywedodd, Wele ŵr *arall* yn rhedeg ei hunan. A dywedodd y brenhin, Hwn hefyd sydd gennad.

27 A'r gwyliedydd a ddywedodd, Yr ydwyf fi yn gweled rhediad y blaenaf fel rhediad Ahimaas mab Sadoc. A dywedodd y brenhin, Gŵr da *yw* hwnnw, ac â chennadwriaeth dda y daw efe.

28 Ac Ahimaas a alwodd, ac a ddywedodd wrth y brenhin, Heddwch: ac a ymgrymmodd i lawr ar ei wyneb ger bron y brenhin, ac a ddywedodd, Bendigedig *fyddo* yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a warchaeodd ar y gwŷr a gyfodasant eu llaw yn erbyn fy arglwydd frenhin.

29 A'r brenhin a ddywedodd, Ai dïangol y llangc Absalom? A dywedodd Ahimaas, Gwelais gythrwfl mawr, pan anfonodd Joab was y brenhin, a'th was dithau, ond ni wybûm i beth *ydoedd*.

30 A'r brenhin a ddywedodd, Tro heibio; saf yma. Ac efe a drodd heibio, ac a safodd.

31 Ac wele, Cusi a ddaeth. A dywedodd Cusi, Cennadwri, arglwydd frenhin: canys yr Arglwydd a'th ddïalodd di heddyw ar bawb a'r a ymgyfododd i'th erbyn.

32 A dywedodd y brenhin wrth Cusi, A ddïangodd y llangc Absalom? A dywedodd Cusi, Fel y

llangc hwnnw y byddo gelynion fy arglwydd frenhin, a'r holl rai a ymgyfodant i'th erbyn di er niwed *i ti.*

33 ¶ A'r brenhin a gyffrôdd, ac a aeth i fyny i ystafell y porth, ac a wylodd: ac fel hyn y dywedodd efe wrth fyned; O fy mab Absalom, fy mab, fy mab Absalom! O na buaswn farw drosot ti, Absalom, fy mab, fy mab!

PENNOD 19.

1 Joab yn peri i'r brenhin beidio â galaru. 9 Yr Israeliaid yn daer am ddwyn y brenhin adref. 11 Dafydd yn anfon at yr offeiriaid i gymhyrfu gwŷr Judah. 18 Simei yn cael ei bardwn; 24 a Mephiboseth ei esgusodi. 32 Barsilai yn cael cennad i fyned adref; a chymmeryd Chimham ei fab ef i dŷ y brenhin. 41 Yr Israeliaid yn ymsennu â gwŷr Judah, am ddwyn y brenhin adref hebddynt hwy.

AMYNEGWYD i Joab, Wele y brenhin yn wylo, ac yn galaru am Absalom.

2 A'r fuddugoliaeth *a aeth* y dwthwn hwnnw yn alar i'r holl bobl: canys clywodd y bobl y diwrnod hwnnw ddywedyd, dristâu o'r brenhin am ei fab.

3 A'r bobl a aethant yn lladradaidd y diwrnod hwnnw i mewn i'r ddinas, fel pobl a fyddai yn myned yn lladradaidd wedi eu cywilyddio wrth ffoi o ryfel.

4 Ond y brenhin a orchuddiodd ei wyneb; a'r brenhin a waeddodd â llef uchel, O fy mab Absalom, Absalom, fy mab, fy mab!

5 A Joab a ddaeth i mewn i'r tŷ at y brenhin, ac a ddywedodd, Gwaradwyddaist heddyw wynebau dy holl weision, y rhai a amddiffynasant dy einioes di heddyw, ac einioes dy feibion a'th ferched, ac einioes dy wragedd, ac einioes dy ordderch-wragedd;

6 Gan garu dy gaseion, a chasâu dy garedigion: canys dangosaist heddyw nad oedd ddim gennyt dy dywysogion, na'th weision: o herwydd mi a wn heddyw, pe Absalom fuasai byw, a ninnau i gyd yn feirw heddyw, mai da fuasai *hynny* yn dy olwg di.

7 Cyfod yn awr gan hynny, cerdda allan, a dywed yn dêg wrth dy weision: canys yr wyf fi yn tyngu i'r ARGLWYDD, os ti nid âi allan, nad erys neb gyd â thi y nos hon; a gwaeth fydd hyn i ti na'r holl ddrwg a ddaeth i'th erbyn di o'th febyd hyd yr awr hon.

8 Yna y brenhin a gyfododd, ac a eisteddodd yn y porth. A mynegwyd i'r holl bobl, gan ddywedyd, Wele y brenhin yn eistedd yn y porth. A'r holl bobl a ddaethant o flaen y brenhin: canys Israel a ffoisai bob un i'w babell.

9 ¶ Ac yr oedd yr holl bobl yn ymryson trwy holl lwythau Israel, gan ddywedyd, Y brenhin a'n gwaredodd ni o law ein gelynion, ac efe a'n gwaredodd ni o law y Philistiaid; ac yn awr efe a ffodd o'r wlad rhag Absalom.

10 Ac Absalom, yr hwn a enneiniasom ni arnom, a fu farw mewn rhyfel: ac yn awr paham yr ydych heb sôn am gyrchu y brenhin drachefn?

11 ¶ A'r brenhin Dafydd a anfonodd at Sadoc ac at Abiathar yr offeiriaid, gan ddywedyd, Lleferwch wrth henuriaid Judah, gan ddywedyd, Paham yr ydych chwi olaf i ddwyn y brenhin yn ei ol i'w dŷ? canys gair holl Israel a ddaeth at y brenhin, hyd ei dŷ.

12 Fy mrodyr *ydych* chwi; fy asgwrn a'm cnawd *ydych* chwi: paham gan hynny yr ydych yn olaf i ddwyn y brenhin adref?

13 Dywedwch hefyd wrth Amasa, Onid fy asgwrn i a'm cnawd *wyt* ti? Fel hyn y gwnelo DUW i mi, ac fel hyn y chwanego, onid tywysog y llu fyddi di ger fy mron i yn lle Joab byth.

14 Ac efe a drodd galon holl wŷr Judah, fel *calon* un gŵr: a hwy a anfonasant at y brenhin, *gan ddywedyd*, Dychwel di a'th holl weision.

15 Felly y brenhin a ddychweloodd, ac a ddaeth i'r Iorddonen. A Judah a ddaeth i Gilgal, i fyned i gyfarfod â'r brenhin, i ddwyn y brenhin dros yr Iorddonen.

16 ¶ A Simei mab Gera, mab Jemini, yr hwn *oedd* o Bahurim, a frysiodd, ac a ddaeth i waered gyd â gwŷr Judah, i gyfarfod â'r brenhin Dafydd.

17 A mil o wŷr o Benjamin *oedd* gyd âg ef; Siba hefyd gwas tŷ

Saul, a'i bymtheng mab a'i ugain gwas gyd âg ef: a hwy a aethant dros yr Iorddonen o flaen y brenhin.
18 Ac ysgraff a aeth drosodd i ddwyn trwodd dylwyth y brenhin, ac i wneuthur yr hyn fyddai da yn ei olwg ef. A Simei mab Gera a syrthiodd ger bron y brenhin, pan ddaeth efe dros yr Iorddonen;
19 Ac a ddywedodd wrth y brenhin, Na ddannoded fy arglwydd i mi anwiredd, ac na chofia yr hyn a wnaeth dy was yn anwir y dydd yr aeth fy arglwydd frenhin o Jerusalem, i osod o'r brenhin *hynny* at ei galon.
20 Canys dy was sydd yn cydnabod bechu o honof fi: ac wele, deuthum heddyw yn gyntaf o holl dŷ Joseph, i ddyfod i waered i gyfarfod â'm harglwydd frenhin.
21 Ac Abisai mab Serfiah a attebodd, ac a ddywedodd, Ai o herwydd hyn ni roddir Simei i farwolaeth, am iddo felldithio enneiniog yr ARGLWYDD?
22 A dywedodd Dafydd, Beth *sydd* i mi *a wnelwyf* â chwi, meibion Serfiah, fel y byddych i mi yn wrthwynebwyr heddyw? a roddir i farwolaeth heddyw neb yn Israel? canys oni wn i, mai heddyw yr *ydwyf* fi yn frenhin ar Israel?
23 A'r brenhin a ddywedodd wrth Simei, Ni byddi di farw: a'r brenhin a dyngodd wrtho ef.
24 ¶ Mephiboseth mab Saul hefyd a ddaeth i waered i gyfarfod â'r brenhin; ac ni olchasai efe ei draed, ac ni thorrasai ei farf, ac ni olchasai ei ddillad, er y dydd yr aethai y brenhin hyd y dydd y daeth efe *drachefn* mewn heddwch.
25 A phan ddaeth efe i Jerusalem i gyfarfod â'r brenhin, yna y dywedodd y brenhin wrtho ef, Paham nad aethost ti gyd â mi, Mephiboseth?
26 Ac efe a ddywedodd, Fy arglwydd frenhin, fy ngwas a'm twyllodd i: canys dywedodd dy was, Cyfrwyaf i mi asyn, fel y marchogwyf arno, ac yr elwyf at y brenhin; o herwydd cloff *yw* dy was.
27 Ac efe a enllibiodd dy was wrth fy arglwydd frenhin; ond fy arglwydd frenhin *sydd* fel angel Duw: am hynny gwna *yr hyn fyddo* da yn dy olwg.
28 Canys nid oedd holl dŷ fy nhad i ond dynion meirw ger bron fy arglwydd y brenhin; etto tydi a osodaist dy was ym mhlith y rhai oedd yn bwytta ar dy fwrdd dy hun: pa gyfiawnder gan hynny sydd i mi bellach i waeddi mwy ar y brenhin?
29 A'r brenhin a ddywedodd wrtho, I ba beth yr adroddi dy fatterion ym mhellach? dywedais, Ti a Siba rhennwch y tir.
30 A Mephiboseth a ddywedodd wrth y brenhin, Ïe, cymmered efe y cwbl, gan ddyfod fy arglwydd frenhin i'w dŷ mewn heddwch.
31 ¶ A Barsìlai y Gileadiad a ddaeth i waered o Rogelim, ac a aeth dros yr Iorddonen gyd â'r brenhin, i'w hebrwng ef dros yr Iorddonen.
32 A Barsìlai *oedd* hen iawn, yn fab pedwar ugain mlwydd: efe oedd yn darparu lluniaeth i'r brenhin tra yr ydoedd efe ym Mahanaim; canys gŵr mawr iawn *oedd* efe.
33 A'r brenhin a ddywedodd wrth Barsìlai, Tyred drosodd gyd â mi, a mi a'th borthaf di gyd â mi yn Jerusalem.
34 A Barsìlai a ddywedodd wrth y brenhin, Pa faint *yw* dyddiau blynyddoedd fy einioes i, fel yr elwn i fyny gyd â'r brenhin i Jerusalem?
35 Mab pedwar ugain mlwydd *ydwyf* fi heddyw: a wn i ragorìaeth rhwng da a drwg? a ddichon dy was di archwaethu yr hyn a fwyttâf, neu yr hyn a yfaf? a glywaf fi bellach lais cerddorion a cherddoresau? paham gan hynny y bydd dy was mwyach yn faich ar fy arglwydd frenhin?
36 Dy was a â ychydig tu hwnt i'r Iorddonen gyd â'r brenhin: a phaham y talai y brenhin i mi gyfryw daledigaeth?
37 Gâd, attolwg, i'th was ddychwelyd yn fy ol, fel y byddwyf marw yn fy ninas fy hun, *ac fel y'm cladder* ym meddrod fy nhad a'm mam: ac wele, Chimham dy was, efe a â drosodd gyd â'm harglwydd frenhin, a gwna iddo yr hyn *fyddo* da yn dy olwg.

38 A dywedodd y brenhin, Chimham a â gyd â mi, a mi a wnaf iddo ef yr hyn *fyddo* da yn dy olwg di: a pheth bynnag a erfyniech di arnaf fi, mi a'*i* gwnaf erot.

39 A'r holl bobl a aethant dros yr Iorddonen. Y brenhin hefyd a aeth drosodd: a'r brenhin a gusanodd Barsllai, ac a'i bendithiodd ef; ac efe a ddychwelodd i'w fangre ei hun.

40 Yna y brenhin a aeth i Gilgal, a Chimham a aeth gyd âg ef. A holl bobl Judah a hebryngasant y brenhin, a hanner pobl Israel hefyd.

41 ¶ Ac wele, holl wŷr Israel a ddaethant at y brenhin, ac a ddywedasant wrth y brenhin, Paham y lladrattaodd ein brodyr ni, gwŷr Judah, dydi, ac y dygasant y brenhin a'i dylwyth dros yr Iorddonen, a holl wŷr Dafydd gyd âg ef?

42 Ac atebodd holl wŷr Judah i wŷr Israel, Oblegid câr agos *yw* y brenhin i ni: paham gan hynny y digiasoch chwi am y peth hyn? a fwyttasom ni *ddim* ar *draul* y brenhin? neu a anrhegodd efe ni âg anrheg?

43 A gwŷr Israel a attebasant wŷr Judah, ac a ddywedasant, Deg rhan *sydd* i ni yn y brenhin; hefyd *y mae* i ni yn Dafydd fwy nag i chwi: paham gan hynny y diystyraist fi? onid myfi a ddywedais yn gyntaf am gyrchu adref fy mrenhin? Ac ymadrodd gwŷr Judah oedd galettach nag ymadrodd gwŷr Israel.

PENNOD 20.

1 *Seba, o achos yr ymrafael, yn codi plaid yn Israel.* 3 *Deg gordderch-wraig Dafydd mewn carchar tragywyddol.* 4 *Gwneuthur Amasa yn bennaeth ar Judah; a Joab yn et ladd ef.* 14 *Joab yn ceisio Seba i Abel.* 16 *Gwraig ddoeth yn achub y ddinas, trwy dorri pen Seba.* 23 *Swyddogion Dafydd.*

AC yno y digwyddodd bod gŵr i'r fall, a'i enw Seba, mab Bichri, gŵr o Jemini; ac efe a udganodd mewn udgorn, ac a ddywedodd, Nid oes i ni ddim rhan yn Dafydd, nac etifeddiaeth i ni ym mab Jesse: pawb i'w babell, O Israel.

2 Felly holl wŷr Israel a aethant i fyny oddi ar ol Dafydd, ar ol Seba mab Bichri: ond gwŷr Judah a lynasant wrth eu brenhin, o'r Iorddonen hyd Jerusalem.

3 ¶ A daeth Dafydd i'w dŷ ei hun i Jerusalem; a'r brenhin a gymmerth y deg gordderch-wraig a adawsai efe i gadw y tŷ, ac a'u rhoddes hwynt *mewn* cadwraeth, ac a'u porthodd hwynt; ond nid aeth efe i mewn attynt hwy: eithr buant yn rhwym hyd ddydd eu marwolaeth, yn byw mewn gweddwdod.

4 ¶ Yna y dywedodd y brenhin wrth Amasa, Cynnull i mi wŷr Judah *erbyn* y trydydd dydd; a bydd dithau yma.

5 Felly Amasa a aeth i gynnull Judah: ond efe a drigodd yn hŵy na'r amser terfynedig a osodasai efe iddo.

6 A dywedodd Dafydd wrth Abisai, Seba mab Bichri a'n dryga ni yn waeth nag Absalom: cymmer di weision dy arglwydd, ac erlid ar ei ol ef, rhag iddo gael y dinasoedd caerog, ac ymachub *o'n golwg* ni.

7 A gwŷr Joab, a'r Cerethiaid, y Pelethiaid *hefyd*, a'r holl gedyrn, a aethant ar ei ol ef; ac a aethant allan o Jerusalem, i erlid ar ol Seba mab Bichri.

8 *Pan oeddynt* hwy wrth y maen mawr *sydd* yn Gibeon, Amasa a aeth o'u blaen hwynt. A Joab oedd wedi gwregysu ei gochl oedd am dano, ac arni *yr oedd* gwregys *â* chleddyf wedi ei rwymo ar ei lwynau ef yn ei wain; a phan gerddai efe, *y cleddyf* a syrthiai.

9 A dywedodd Joab wrth Amasa, *A wyt* ti yn llawen, fy mrawd? A llaw ddehau Joab a ymaflodd ym marf Amasa i'w gusanu ef.

10 Ond ni ddaliodd Amasa ar y cleddyf *oedd* yn llaw Joab: felly efe a'i tarawodd ef âg ef dan y bummed *ais*, ac a ollyngodd ei berfedd ef i'r llawr, ac nid ail-darawodd ef: ac efe a fu farw. Felly Joab ac Abisai ei frawd a ganlynodd ar ol Seba mab Bichri.

11 Ac un o weision Joab oedd yn sefyll yn ei ymyl ef, ac a ddywedodd, Pwy bynnag a ewyllysio *yn dda* i Joab, a phwy bynnag *sydd* gyd â Dafydd, *eled* ar ol Joab.

12 Ac Amasa oedd yn ymdrybaeddu mewn gwaed y'nghanol y brif-ffordd. A phan welodd y gŵr yr holl bobl yn sefyll, efe a symmudodd Amasa oddi ar y brif-ffordd i'r maes, ac a daflodd gadach arno, pan welodd efe bawb a'r oedd yn dyfod atto ef yn sefyll.

13 Pan symmudwyd ef oddi ar y brif-ffordd, yr holl wŷr a aethant ar ol Joab, i erlid ar ol Seba mab Bichri.

14 ¶ Ac efe a dramwyodd trwy holl lwythau Israel i Abel, ac i Beth-maachah, ac i holl *leoedd* Berim: a hwy a ymgasglasant, ac a aethant ar ei ol ef.

15 Felly y daethant hwy, ac a warchaeasant arno ef yn Abel Beth-maachah, ac a fwriasant glawdd yn erbyn y ddinas, *yr hon* a safodd ar y rhagfur: a'r holl bobl y rhai *oedd* gyd â Joab oedd yn curo y mur, i'w fwrw i lawr.

16 ¶ Yna gwraig ddoeth o'r ddinas a lefodd, Clywch, clywch: dywedwch, attolwg, wrth Joab, Nesâ hyd yma, fel yr ymddiddanwyf â thi.

17 Pan nesaodd efe atti hi, y wraig a ddywedodd, Ai ti *yw* Joab? Dywedodd yntau, *Ie*, myfi. A hi a ddywedodd wrtho ef, Gwrando eiriau dy law-forwyn. Dywedodd yntau, Yr ydwyf yn gwrandaw.

18 Yna hi a ddywedodd, Hwy a lefarent gynt, gan ddywedyd, Dïau yr ymofynant âg Abel: ac felly y dibennent.

19 Myfi *wyf un o* heddychol ffyddloniaid Israel: yr wyt ti yn ceisio difetha dinas a mam yn Israel: paham y difethi di etifeddiaeth yr ARGLWYDD?

20 A Joab a attebodd ac a ddywedodd, Na atto DUW, na atto DUW, i mi na difetha na dinystrio!

21 Nid felly *y mae* y peth: eithr gŵr o fynydd Ephraim, Seba mab Bichri *dan* ei enw, a ddyrchafodd ei law yn erbyn y brenhin, yn erbyn Dafydd. Rhoddwch ef yn unig, a mi a âf ymaith oddi wrth y ddinas. A dywedodd y wraig wrth Joab, Wele, ei ben ef a fwrir attat ti dros y mur.

22 Yna y wraig o'i doethineb a aeth at yr holl bobl. A hwy a dorrasant ben Seba mab Bichri, ac a'i taflasant allan i Joab. Ac efe a udganodd mewn udgorn; a hwy a wasgarwyd oddi wrth y ddinas, bob un i'w pabellau. A Joab a ddychwelodd i Jerusalem at y brenhin.

23 ¶ Yna Joab *oedd* ar holl luoedd Israel; a Benaiah mab Jehoiada ar y Cerethiaid, ac ar y Pelethiaid;

24 Ac Adoram *oedd* ar y dreth; a Jehosaphat mab Ahilud yn gofiadur;

25 Sefa hefyd yn ysgrifenydd; a Sadoc ac Abiathar yn offeiriaid;

26 Ira hefyd y Jairiad oedd benllywydd ynghylch Dafydd.

PENNOD 21.

1 Y tair blynedd newyn, o achos y Gibeoniaid, yn peidio, trwy grogi saith o feibion Saul. 10 Caredigrwydd Rispah tu ag at y marw. 12 Dafydd yn claddu esgyrn Saul a Jonathan. 15 Pedair câd yn erbyn y Philistiaid; lle y lladdodd pedwar o gedyrn Dafydd bedwar o gewri.

ABU newyn yn nyddiau Dafydd dair blynedd olynol. A Dafydd a ymofynodd ger bron yr ARGLWYDD. A'r ARGLWYDD a ddywedodd, O herwydd Saul, ac o herwydd *ei* dŷ gwaedlyd *ef, y mae hyn;* oblegid lladd o hono ef y Gibeoniaid.

2 A'r brenhin a alwodd am y Gibeoniaid, ac a ymddiddanodd â hwynt; (a'r Gibeoniaid hynny nid *oeddynt* o feibion Israel, ond o weddill yr Amoriaid; a meibion Israel a dyngasai iddynt hwy: etto Saul a geisiodd eu lladd hwynt, o'i serch i feibion Israel a Judah.)

3 A Dafydd a ddywedodd wrth y Gibeoniaid, Beth a wnaf i chwi? ac â pha beth y gwnaf gymmod, fel y bendithioch chwi etifeddiaeth yr ARGLWYDD?

4 A'r Gibeoniaid a ddywedasant wrtho, Ni fynnwn ni nac arian nac aur gan Saul, na chan ei dŷ ef; ac ni fynnwn ni ladd neb yn Israel. Ac efe a ddywedodd, Yr hyn a ddywedoch chwi, a wnaf i chwi.

5 A hwy a ddywedasant wrth y brenhin, Y gŵr a'n difethodd ni, ac a fwriadodd i'n herbyn ni, i'n dinystrio ni rhag aros yn un o derfynau Israel,

6 Rhodder i ni saith o wŷr o'i feibion ef, fel y crogom ni hwynt i'r ARGLWYDD yn Gibeah Saul, dewisedig yr ARGLWYDD. A dywedodd y brenhin, Myfi a'*u* rhoddaf.

7 Ond y brenhin a arbedodd Mephiboseth, mab Jonathan, mab Saul, o herwydd llw yr ARGLWYDD yr hwn *oedd* rhyngddynt hwy, rhwng Dafydd a Jonathan mab Saul.

8 Ond y brenhin a gymmerth ddau fab Rispah merch Aiah, y rhai a ymddûg hi i Saul, *sef* Armoni a Mephiboseth; a phum mab Michal merch Saul, y rhai a blantodd hi i Adriel mab Barsilai y Maholathiad:

9 Ac efe a'u rhoddes hwynt yn llaw y Gibeoniaid; a hwy a'u crogasant hwy yn y mynydd ger bron yr ARGLWYDD: a'r saith hyn a gyd-gwympasant, ac a roddwyd i farwolaeth yn y dyddiau cyntaf o'r cynhauaf, yn nechreuad cynhauaf yr haidd.

10 ¶ A Rispah merch Aiah a gymmerth sachlian, a hi a'i hestynodd ef iddi ar y graig, o ddechreu y cynhauaf nes diferu dwfr arnynt hwy o'r nefoedd, ac ni adawodd hi i ehediaid y nefoedd orphwys arnynt hwy y dydd, na bwystfil y maes liw nos.

11 A mynegwyd i Dafydd yr hyn a wnaethai Rispah merch Aiah, gordderch-wraig Saul.

12 ¶ A Dafydd a aeth ac a ddug esgyrn Saul, ac esgyrn Jonathan ei fab, oddi wrth berchenogion Jabes Gilead, y rhai a'u lladrattasent hwy o heol Beth-san, yr hon y crogasai y Philistiaid hwynt ynddi, y dydd y lladdodd y Philistiaid Saul yn Gilboa.

13 Ac efe a ddug i fyny oddi yno esgyrn Saul, ac esgyrn Jonathan ei fab; a hwy a gasglasant esgyrn y rhai a grogasid.

14 A hwy a gladdasant esgyrn Saul a Jonathan ei fab y'ngwlad Benjamin, yn Sela, ym meddrod Cis ei dad: a hwy a wnaethant yr hyn oll a orchymynasai y brenhin. A bu DUW foddlawn i'r wlad ar ol hyn.

15 ¶ A bu eilwaith ryfel rhwng y Philistiaid ac Israel; a Dafydd a aeth i waered a'i weision gyd âg ef, ac a ymladdasant â'r Philistiaid. A diffygiodd Dafydd.

16 Ac Isbi-benob, yr hwn *oedd* o feibion y cawr, (a phwys ei waywffon yn dri chan *sicl* o bres,) ac wedi ei wregysu â *chleddyf* newydd, a feddyliodd ladd Dafydd.

17 Ond Abisai mab Serfiah a'i helpiodd ef, ac a darawodd y Philistiad, ac a'i lladdodd ef. Yna gwŷr Dafydd a dyngasant wrtho ef, gan ddywedyd, Nid âi di allan mwyach gyd â ni i ryfel, rhag i ti ddiffoddi goleuni Israel.

18 Ac ar ol hyn fe fu eilwaith ryfel yn Gob yn erbyn y Philistiaid: yna Sibbechai yr Husathiad a laddodd Saph, yr hwn *oedd* o feibion y cawr.

19 A bu etto ryfel yn Gob yn erbyn y Philistiaid: ac Elhanan mab Jaare-oregim, y Bethlehemiad, a darawodd *frawd* Goliath y Gethiad; a phren ei waywffon ef *oedd* fel carfan gwehydd.

20 A bu etto ryfel yn Gath: ac yr oedd gŵr corphol, a chwech o fysedd ar bob llaw iddo, a chwech o fysedd ar bob troed iddo, pedwar ar hugain o rifedi; efe hefyd *oedd* fab i'r cawr.

21 Ac efe a ammharchodd Israel; a Jonathan mab Simea, brawd Dafydd, a'i lladdodd ef.

22 Y pedwar hyn a aned i'r cawr yn Gath, ac a gwympasant trwy law Dafydd, a thrwy law ei weision ef.

PENNOD 22.

Psalm o ddiolchgarwch am alluog ymwared Duw, a'i amryw fendithion.

A DAFYDD a lefarodd wrth yr ARGLWYDD eiriau y gân hon, yn y dydd y gwaredodd yr ARGLWYDD ef o law ei holl elynion, ac o law Saul.

2 Ac efe a ddywedodd, Yr ARGLWYDD *yw* fy nghraig, a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd i;

3 DUW fy nghraig, ynddo ef yr ymddiriedaf: fy nharian, a chorn fy iachawdwriaeth, fy uchel dŵr a'm noddfa, fy achubwr; rhag trais y'm hachubaist.

4 Galwaf ar yr ARGLWYDD can-

moladwy: felly y'm cedwir rhag fy ngelynion.
5 Canys gofidion angau a'm cylchynasant; afonydd y fall a'm dychrynasant i.
6 Doluriau uffern a'm hamgylchynasant; maglau angau a'm rhagflaenasant.
7 Yn fy nghyfyngdra y gelwais ar yr ARGLWYDD, ac y gwaeddais ar fy NUW; ac efe a glybu fy llef o'i deml, a'm gwaedd *a aeth* i'w glustiau ef.
8 Yna y cynhyrfodd ac y crynodd y ddaear: seiliau y nefoedd a gyffroisant ac a ymsiglasant, am iddo ef ddigio.
9 Dyrchafodd mwg o'i ffroenau ef, a thân o'i enau ef a ysodd: glo a ennynasant ganddo ef.
10 Efe a ogwyddodd y nefoedd, ac a ddisgynodd; a thywyllwch *oedd* dan ei draed ef.
11 Marchogodd efe hefyd ar y cerub, ac a ehedodd: ïe, efe a welwyd ar adenydd y gwynt.
12 Efe a osododd y tywyllwch yn bebyll o'i amgylch; *sef* casgliad y dyfroedd, *a* thew gymmylau yr awyr.
13 Gan y disgleirdeb ger ei fron ef yr ennynodd y marwor tanllyd.
14 Yr ARGLWYDD a daranodd o'r nefoedd, a'r Goruchaf a roddes ei lef.
15 Ac efe a anfonodd *ei* saethau, ac a'u gwasgarodd hwynt; mellt, ac a'u drylliodd hwynt.
16 Gwaelodion y môr a ymddangosodd, *a* seiliau y byd a ddinoethwyd, gan gerydd yr ARGLWYDD, *a* chan chwythad anadl ei ffroenau ef.
17 Efe a anfonodd oddi uchod: cymmerodd fi; tynnodd fi o ddyfroedd lawer.
18 Gwaredodd fi rhag fy ngelyn cadarn, *a* rhag fy nghaseion; am eu bod yn drech na mi.
19 Achubasant fy mlaen yn nydd fy ngofid: ond yr ARGLWYDD oedd gynhaliad i mi.
20 Efe a'm dug i ehangder: efe a'm gwaredodd i, am iddo ymhoffi ynof.
21 Yr ARGLWYDD a'm gobrwyodd yn ol fy nghyfiawnder: yn ol glendid fy nwylaw y talodd efe i mi.
22 Canys mi a gedwais ffyrdd yr ARGLWYDD, ac ni chiliais yn annuwiol oddi wrth fy NUW.
23 O herwydd ei holl farnedigaethau ef *oedd* ger fy mron i: ac oddi wrth ei ddeddfau ni chiliais i.
24 Bûm hefyd berffaith ger ei fron ef; ac ymgedwais rhag fy anwiredd.
25 A'r ARGLWYDD a'm gobrwyodd innau yn ol fy nghyfiawnder; yn ol fy nglendid o flaen ei lygaid ef.
26 A'r trugarog y gwnei drugaredd: â'r gŵr perffaith y gwnei berffeithrwydd.
27 A'r glân y gwnei lendid; ac â'r cyndyn yr ymgyndynni.
28 Y bobl gystuddiedig a waredi: ond *y mae* dy lygaid ar y rhai uchel, i'*w* darostwng.
29 Canys ti *yw* fy nghanwyll i, O ARGLWYDD; a'r ARGLWYDD a lewyrcha fy nhywyllwch.
30 Oblegid ynot ti y rhedaf trwy fyddin: trwy fy NUW y llammaf dros fur.
31 DUW *sydd* berffaith ei ffordd; ymadrodd yr ARGLWYDD *sydd* buredig: tarian *yw* efe i bawb a ymddiriedant ynddo.
32 Canys pwy *sydd* DDUW, heb law yr ARGLWYDD? a phwy *sydd* graig, eithr ein DUW ni?
33 DUW *yw* fy nghadernid *a'm* nerth; ac a rwyddhaodd fy ffordd i yn berffaith.
34 Efe sydd yn gwneuthur fy nhraed fel *traed* ewigod; ac efe sydd yn fy ngosod ar fy uchelfaoedd.
35 Efe sydd yn dysgu fy nwylaw i ryfel; fel y dryllir bwa dur *yn* fy mreichiau.
36 Rhoddaist hefyd i mi darian dy iachawdwriaeth; ac â'th fwynder y lliosogaist fi.
37 Ehengaist fy ngherddediad danaf; fel na lithrodd fy sodlau.
38 Erlidiais fy ngelynion, a difethais hwynt; ac ni ddychwelais nes eu difa hwynt.
39 Difeais hwynt hefyd, a thrywenais hwynt, fel na chyfodent; a hwy a syrthiasant dan fy nhraed i.
40 Canys ti a'm gwregysaist i â nerth i ryfel: y rhai a ymgyfodent i'm herbyn, a ddarostyngaist danaf.
41 Rhoddaist hefyd i mi warrau

fy ngelynion; fel y difethwn fy nghaseion.

42 Disgwyliasant, ond nid *oedd* achubydd; *sef* am yr ARGLWYDD, ond nid attebodd hwynt.

43 Yna y maluriais hwynt fel llwch y ddaear; melais hwynt fel tom yr heolydd, *a* thaenais hwynt.

44 Gwaredaist fi rhag cynhennau fy mhobl; cedwaist fi yn ben *ar* genhedloedd: pobl nid adnabum a'm gwasanaethant.

45 Meibion dïeithr a gymmerant arnynt ymddarostwng i mi: pan glywant, gwrandawant arnaf fi.

46 Meibion dïeithr a ballant, ac a ddychrynant o'u carchardai.

47 Byw fyddo yr ARGLWYDD, a bendigedig *fyddo* fy nghraig; a dyrchafer DUW, craig fy iachawdwriaeth.

48 DUW sydd yn fy nïal i, ac sydd yn darostwng pobloedd danaf fi.

49 Ac sydd yn fy nhywys i o blith fy ngelynion: ti hefyd a'm dyrchefaist uwch law y rhai a gyfodent i'm herbyn; rhag y gŵr traws y'm hachubaist i.

50 Am hynny y moliannaf di, O ARGLWYDD, ym mhlith y cenhedloedd, ac y canaf i'th enw.

51 *Efe sydd* dŵr iachawdwriaeth i'w frenhin; ac yn gwneuthur trugaredd i'w enneiniog, i Dafydd, ac i'w had yn dragywydd.

PENNOD 23.

1 *Dafydd yn ei eiriau diweddaf yn dangos fod ei ffydd ef yn addewidion Duw tu hwnt i bob deall dynol.* 6 *Anghyffelyb gyflwr yr annuwiol.* 8 *Enwau cedyrn Dafydd.*

DYMA eiriau diweddaf Dafydd. Dywedodd Dafydd mab Jesse, a dywedodd y gŵr a osodwyd yn uchel, enneiniog DUW Jacob, a pheraidd ganiedydd Israel;

2 Ysbryd yr ARGLWYDD a lefarodd ynof fi, a'i ymadrodd ef *oedd* ar fy nhafod.

3 DUW Israel a ddywedodd wrthyf fi, Craig Israel a ddywedodd, *Bydded* llywodraethwr ar ddynion yn gyfiawn, yn llywodraethu *mewn* ofn DUW:

4 Ac *efe a fydd* fel y bore-oleuni, pan gyfodo haul foregwaith heb gymmylau: *fel* eginyn *a dyf* o'r ddaear, gan lewyrchiad yn ol gwlaw.

5 Er nad *yw* fy nhŷ i felly gyd â DUW; etto cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr; canys fy holl iachawdwriaeth, a'*m* holl ddymuniad *yw*, er nad yw yn peri *iddo* flaguro.

6 ¶ A'r anwir *fyddant* oll fel drain wedi eu bwrw heibio: canys mewn llaw nis cymmerir hwynt.

7 Ond y gŵr a gyffyrddo â hwynt a ddiffynnir â haiarn, ac â phaladr gwaywffon; ac â thân y llosgir hwynt yn *eu* lle.

8 ¶ Dyma enwau y cedyrn oedd gan Dafydd. Y Tachmoniad a eisteddai yn y gadair, yn bennaeth y tywysogion; hwnnw *oedd* Adino yr Esniad: *efe a ruthrodd* yn erbyn wyth cant, y rhai a laddodd efe ar unwaith.

9 Ac ar ei ol ef *yr oedd* Eleasar mab Dodo, mab Ahohi, *ym mhlith* y tri chadarn, gyd â Dafydd, pan ddifenwasant hwy y Philistiaid a ymgynnullasent yno i ryfel, a phan aeth gwŷr Israel ymaith.

10 Efe a gyfododd, ac a darawodd ar y Philistiaid, nes diffygio ei law ef, a glynu o'i law ef wrth y cleddyf: a'r ARGLWYDD a wnaeth iachawdwriaeth mawr y diwrnod hwnnw; a'r bobl a ddychwelasant ar ei ol ef yn unig i anrheithio.

11 Ac ar ei ol ef *yr oedd* Sammah mab Age yr Harariad. A'r Philistiaid a ymgynnullasent yn dorf; ac yr oedd yno ran o'r maes yn llawn o ffacbys: a'r bobl a ffodd o flaen y Philistiaid.

12 Ond efe a safodd y'nghanol y rhandir, ac a'i hachubodd, ac a laddodd y Philistiaid. Felly y gwnaeth yr ARGLWYDD ymwared mawr.

13 A thri o'r deg pennaeth ar hugain a ddisgynasant, ac a ddaethant y cynhauaf at Dafydd i ogof Adùlam: a thorf y Philistiaid oedd yn gwersyllu yn nyffryn Rephaim.

14 A Dafydd *oedd* yna mewn amddiffynfa: a sefyllfa y Philistiaid *ydoedd* yna yn Bethlehem.

15 A blysiodd Dafydd, a dywedodd, Pwy a'm dïoda i â dwfr o bydew Bethlehem, yr hwn *sydd* wrth y porth?

16 A'r tri chadarn a ruthrasant trwy wersyll y Philistiaid, ac a dynnasant ddwfr o bydew Bethlehem, yr hwn *oedd* wrth y porth, ac a'*i* cymmerasant hefyd, ac a'*i* dygasant at Dafydd: ond ni fynnai efe ei yfed, eithr efe a'i dïoddoffrymmodd ef i'r ARGLWYDD;

17 Ac a ddywedodd, Na atto yr ARGLWYDD i mi wneuthur hyn; *onid* gwaed y gwŷr a aethant mewn *enbydrwydd* am eu heinioes *yw* hwn? Am hynny ni fynnai efe ei yfed. Hyn a wnaeth y tri chadarn hynny.

18 Ac Abisai brawd Joab, mab Serfiah, *oedd* bennaf o'r tri. Ac efe a gyfododd ei waywffon yn erbyn tri chant, *ac* a'*u* lladdodd *hwynt:* ac iddo ef *yr oedd* yr enw ym mhlith y tri.

19 Onid anrhydeddusaf *oedd efe* o'r tri? a bu iddynt yn dywysog: etto ni chyrhaeddodd efe y tri *chyntaf.*

20 A Benaiah mab Jehoiada, mab gŵr grymmus o Cabseel, aml ei weithredoedd, efe a laddodd ddau o gedyrn Moab: ac efe a aeth i waered, ac a laddodd lew mewn pydew yn amser eira.

21 Ac efe a darawodd Aipht-ddyn, gŵr golygus *o faint:* ac yn llaw yr Aiphtiad *yr oedd* gwaywffon; eithr efe a ddaeth i waered atto ef â ffon, ac a ddug y waywffon o law yr Aiphtiad, ac a'i lladdodd ef â'i waywffon ei hun.

22 Hyn a wnaeth Benaiah mab Jehoiada: ac iddo *yr oedd* yr enw ym mhlith y tri chadarn.

23 Anrhydeddusach *oedd* na'r deg ar hugain; ond ni chyrhaeddodd efe y tri *chyntaf:* a Dafydd a'i gosododd ef ar ei wŷr o gard.

24 Asahel brawd Joab *oedd* un o'r deg ar hugain; Elhanan mab Dodo y Bethlehemiad,

25 Sammah yr Harodiad, Elica yr Harodiad,

26 Heles y Paltiad, Ira mab Icces y Tecoiad,

27 Abïeser yr Anathothiad, Mebunnai yr Husathiad,

28 Salmon yr Ahohiad, Maharai y Netophathiad,

29 Heleb mab Baanah y Netophathiad, Ittai mab Ribai o Gibeah meibion Benjamin,

30 Benaiah y Pirathoniad, Hidai o afonydd Gaas,

31 Abi-albon yr Arbathiad, Asmafeth y Barhumiad,

32 Eliahba y Saalboniad; o feibion Jasen, Jonathan,

33 Sammah yr Harariad, Ahïam mab Sarar yr Harariad,

34 Eliphelet mab Ahasbai, mab y Maachathiad, Elïam mab Ahitophel y Giloniad,

35 Hesrai y Carmeliad, Paarai yr Arbiad,

36 Igal mab Nathan o Sobah, Bani y Gadiad,

37 Selec yr Ammoniad, Naharai y Beerothiad yn dwyn arfau Joab mab Serfiah,

38 Ira yr Ithriad, Gareb yr Ithriad,

39 Urïas yr Hethiad: dau ar bymtheg ar hugain o gwbl.

PENNOD 24.

1 *Satan yn temtio Dafydd, ac ymtau yn gyrru Joab i rifo y bobl.* 5 *Y capteniaid, ym mhen y naw mis a'r ugain niwrnod, yn dwyn cyfrif o dri chan mil ar ddeg o ryfelwyr.* 10 *Dafydd yn cael ei ddewis o dri phla; ac yn dewis tridiau o'r nodau:* 15 *ac wedi lladd deng mil a thri ugain o'r bobl, yn edifarhau, ac wrth hynny yn achub dinystr Jerusalem.* 18 *Dafydd, trwy gynghor Gad, yn prynu llaur-dyrnu Arafnah; a'r pla yn peidio, wedi iddo ef aberthu.*

A THRACHEFN digllonedd yr ARGLWYDD a ennynodd yn erbyn Israel; ac efe a annogodd Dafydd yn eu herbyn hwynt, i ddywedyd, Dos, cyfrif Israel a Judah.

2 Canys y brenhin a ddywedodd wrth Joab tywysog y llu *oedd* ganddo ef, Dos yn awr trwy holl lwythau Israel, o Dan hyd Beerseba, a chyfrif y bobl, fel y gwypwyf rifedi y bobl.

3 A Joab a ddywedodd wrth y brenhin, Yr ARGLWYDD dy DDUW a chwanego y bobl yn gan cymmaint ag y maent, fel y gwelo llygaid fy arglwydd frenhin: ond paham yr ewyllysia fy arglwydd frenhin y peth hyn?

4 A gair y brenhin fu drech na Joab, ac na thywysogion y llu. Joab am hynny a aeth allan, a thywysogion y llu, o ŵydd y brenhin, i gyfrif pobl Israel.

5 ¶ A hwy a aethant dros yr Ior-

ddonen, ac a wersyllasant yn Aroer, o'r tu dehau i'r ddinas *sydd* yng nghanol dyffryn Gad, a thu a Jaser.
6 Yna y daethant i Gilead, ac i wlad Tahtim-hodsi; daethant *hefyd* i Dan-jaan, ac o amgylch i Sidon;
7 Daethant *hefyd* i amddiffynfa Tyrus, ac i holl ddinasoedd yr Hefiaid, a'r Canaaneaid; a hwy a aethant i du dehau Judah, i Beerseba.
8 Felly y cylchynasant yr holl wlad, ac a ddaethant ym mhen naw mis ac ugain niwrnod i Jerusalem.
9 A rhoddes Joab nifer cyfrif y bobl at y brenhin: ac Israel ydoedd wyth gan mil o wŷr grymmus yn tynnu cleddyf; a gwŷr Judah *oedd* bum can mil o wŷr.
10 ¶ A chalon Dafydd a'i tarawodd ef, ar ol iddo gyfrif y bobl. A dywedodd Dafydd wrth yr ARGLWYDD, Pechais yn ddirfawr *yn* yr hyn a wneuthum: ac yn awr dilea, attolwg, O ARGLWYDD, anwiredd dy was; canys ynfyd iawn y gwneuthum.
11 A phan gyfododd Dafydd y bore, daeth gair yr ARGLWYDD at Gad y prophwyd, gweledydd Dafydd, gan ddywedyd,
12 Dos a dywed wrth Dafydd, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD; Yr ydwyf fi yn gosod tri *pheth* o'th flaen di; dewis i ti un o honynt, a gwnaf *hynny* i ti.
13 Felly Gad a ddaeth at Dafydd, ac a fynegodd iddo, ac a ddywedodd wrtho, A *fynni* ddyfod i ti saith mlynedd o newyn yn dy wlad? neu ffoi dri mis o flaen dy elynion, a hwy yn dy erlid? ai ynte bod haint yn y wlad dri diwrnod? Yn awr ymgynghora, ac edrych pa beth a attebaf i'r hwn a'm hanfonodd i.
14 A dywedodd Dafydd wrth Gad, Y mae yn gyfyng iawn arnaf fi: bid i mi syrthio yn awr yn llaw yr ARGLWYDD, canys aml *yw* ei drugareddau ef, ac na chwympwyf yn llaw dyn.
15 Yna y rhoddes yr ARGLWYDD haint yn Israel, o'r bore hyd yr amser nodedig: a bu farw o'r bobl, o Dan hyd Beerseba, ddeng mil a thri ugain o wŷr.
16 A phan estynasai yr angel ei law *at* Jerusalem i'w dinystrio hi, edifarhaodd ar yr ARGLWYDD y drwg hwn, ac a ddywedodd wrth yr angel oedd yn dinystrio y bobl, Digon bellach: attal dy law. Ac angel yr ARGLWYDD *oedd* wrth lawr-dyrnu Arafnah y Jebusiad.
17 A llefarodd Dafydd wrth yr ARGLWYDD, pan ganfu efe yr angel a darawsai y bobl, a dywedodd, Wele, myfi a bechais, ac a wneuthum yn ddrygionus: ond y defaid hyn, beth a wnaethant hwy? bydded, attolwg, dy law arnaf fi, ac ar dŷ fy nhad.
18 ¶ A Gad a ddaeth at Dafydd y dwthwn hwnnw, ac a ddywedodd wrtho, Dos i fyny, cyfod allor i'r ARGLWYDD yn llawr-dyrnu Arafnah y Jebusiad.
19 A Dafydd a aeth i fyny, yn ol gair Gad, fel y gorchymynasai yr ARGLWYDD.
20 Ac Arafnah a edrychodd, ac a ganfu y brenhin a'i weision yn dyfod tu ag atto. Ac Arafnah a aeth allan, ac a ostyngodd ei wyneb i lawr ger bron y brenhin.
21 Ac Arafnah a ddywedodd, Paham y daeth fy arglwydd frenhin at ei was? A dywedodd Dafydd, I brynu gennyt ti y llawr-dyrnu, i adeiladu allor i'r ARGLWYDD, fel yr attalier y pla oddi wrth y bobl.
22 A dywedodd Arafnah wrth Dafydd, Cymmered, ac offrymmed fy arglwydd frenhin yr hyn *fyddo* da yn ei olwg: wele yr ychain yn boeth-offrwm, a'r ffustiau ac offer yr ychain yn lle cynnud.
23 Hyn oll a roddodd Arafnah, *megis* brenhin, i'r brenhin. A dywedodd Arafnah wrth y brenhin, Yr ARGLWYDD dy DDUW a fyddo boddlawn i ti.
24 A dywedodd y brenhin wrth Arafnah, Nag ê; eithr gan brynu y prynaf *ef* mewn pris gennyt: ac nid offrymmaf i'r ARGLWYDD fy NUW boeth-offrymmau rhad. Felly Dafydd a brynodd y llawr-dyrnu a'r ychain, er deg a deugain o siclau arian.
25 Ac yno yr adeiladodd Dafydd allor i'r ARGLWYDD, ac a offrymmodd boeth-offrymmau ac offrymmau hedd. A'r ARGLWYDD a gymmododd â'r wlad, a'r pla a attaliwyd oddi wrth Israel.

LLYFR CYNTAF Y BRENHINOEDD,

YR HWN A ELWIR HEFYD

TRYDYDD LLYFR Y BRENHINOEDD.

PENNOD 1.

1 *Abisag yn ymgeleddu Dafydd.* 5 *Adoniah, anwylyd Dafydd, yn ei wneuthur ei hun yn frenhin.* 11 *Nathan yn cynghori* 15 *i Bathseba ddywedyd i'r brenhin,* 22 *ac yn dywedyd gyd â hi.* 28 *Dafydd yn adnewyddu ei lw i Bathseba.* 32 *Sadoc a Nathan, trwy archiad Dafydd, yn enneinio Solomon yn frenhin; a'r bobl yn gorfoleddu.* 41 *Jonathan yn adrodd hynny, a gwahoddedigion Adoniah yn ffoi.* 50 *Adoniah yn cymmeryd noddfa wrth gyrn yr allor; a than ammod, yn cael ei ollwng yn rhydd.*

AR brenhin Dafydd *oedd* hen, *ac* a aethai mewn oedran; er iddynt ei enhuddo ef mewn dillad, etto ni chynhesai efe.

2 Am hynny ei weision a ddywedasant wrtho, Ceisier i'm harglwydd frenhin langces o forwyn; a safed hi o flaen y brenhin, a bydded yn gwneuthur ymgeledd iddo, a gorwedded yn dy fynwes, fel y gwresogo fy arglwydd frenhin.

3 A hwy a geisiasant langces dêg trwy holl fro Israel; ac a gawsant Abisag y Sunamëes, ac a'i dygasant hi at y brenhin.

4 A'r llangces *oedd* dêg iawn, ac oedd yn ymgeleddu y brenhin, ac yn ei wasanaethu ef: ond ni bu i'r brenhin a wnaeth â hi.

5 ¶ Ac Adoniah mab Haggith a ymddyrchafodd, gan ddywedyd, Myfi a fyddaf frenhin: ac efe a ddarparodd iddo gerbydau a gwŷr meirch, a dengwr a deugain i redeg o'i flaen.

6 A'i dad nid anfoddlonasai ef yn ei ddyddiau, gan ddywedyd, Paham y gwnaethost fel hyn? yntau hefyd *oedd* dêg iawn o bryd; ac efe a anesid wedi Absalom.

7 Ac o'i gyfrinach y gwnaeth efe Joab mab Serfiah, ac Abiathar yr offeiriad: a hwy a gynnorthwyasant ar ol Adoniah.

8 Ond Sadoc yr offeiriad, a Benaiah mab Jehoiada, a Nathan y prophwyd, a Simei, a Rei, a'r gwŷr cedyrn *a fuasai* gyd â Dafydd, nid *oeddynt* gyd âg Adoniah.

9 Ac Adoniah a laddodd ddefaid, a gwartheg, a phasgedigion, wrth faen Soheleth, yr hwn *sydd* wrth En-rogel, ac a wahoddodd ei holl frodyr meibion y brenhin, a holl wŷr Judah gweision y brenhin.

10 Ond Nathan y prophwyd, a Benaiah, a'r gwŷr cedyrn, a Solomon ei frawd, ni wahoddodd efe.

11 ¶ Am hynny y dywedodd Nathan wrth Bathseba mam Solomon, gan ddywedyd, Oni chlywaist ti fod Adoniah mab Haggith yn teyrnasu, a'n harglwydd Dafydd heb wybod *hynny?*

12 Tyred gan hynny yn awr, attolwg, rhoddaf i ti gynghor, fel yr achubech dy einioes dy hun, ac einioes Solomon dy fab.

13 Dos, a cherdda i mewn at y brenhin Dafydd, a dywed wrtho, Oni thyngaist ti, fy arglwydd frenhin, wrth dy wasanaethwraig, gan ddywedyd, Solomon dy fab di a deyrnasa yn ddïau ar fy ol i, ac efe a eistedd ar fy ngorseddfaingc i? paham gan hynny y mae Adoniah yn teyrnasu?

14 Wele, tra fyddech yno etto yn llefaru wrth y brenhin, minnau a ddeuaf i mewn ar dy ol di, ac a sicrhâf dy eiriau di.

15 ¶ A Bathseba a aeth i mewn at y brenhin, i'r ystafell. A'r brenhin oedd hen iawn; ac Abisag y Sunamëes oedd yn gwasanaethu y brenhin.

16 A Bathseba a ostyngodd ei phen, ac a ymgrymmodd i'r brenhin. A'r brenhin a ddywedodd, Beth *a fynni* di?

17 Hithau a ddywedodd wrtho, Fy arglwydd, ti a dyngaist i'r ARGLWYDD dy DDUW wrth dy wasanaethyddes, *gan ddywedyd*, Solo-

mon dy fab a deyrnasa yn ddïau ar fy ol i, ac efe a eistedd ar fy ngorseddfaingc i:

18 Ac yn awr, wele, Adonïah sydd frenhin; ac yr awr hon, fy arglwydd frenhin, nis gwyddost ti *hyn.*

19 Ac efe a laddodd wartheg, ac *anifeiliaid* breision, a defaid lawer iawn, ac a wahoddodd holl feibion y brenhin, ac Abïathar yr offeiriad, a Joab tywysog y filwriaeth: ond dy was Solomon ni wahoddodd efe.

20 Tithau, fy arglwydd frenhin, *y mae* llygaid holl Israel arnat ti, am fynegi iddynt pwy a eistedd ar orseddfaingc fy arglwydd y brenhin ar ei ol ef.

21 Os amgen, pan orweddo fy arglwydd frenhin gyd â'i dadau, yna y cyfrifir fi a'm mab Solomon yn bechaduriaid.

22 ¶ Ac wele, tra yr oedd hi etto yn ymddiddan â'r brenhin, y daeth Nathan y prophwyd hefyd i mewn.

23 A hwy a fynegasant i'r brenhin, gan ddywedyd, Wele Nathan y prophwyd. Ac efe a aeth i mewn o flaen y brenhin, ac a ymgrymmodd i'r brenhin â'i wyneb hyd lawr.

24 A dywedodd Nathan, Fy arglwydd frenhin, a ddywedaist ti, Adonïah a deyrnasa ar fy ol i, ac efe a eistedd ar fy ngorseddfaingc?

25 Canys efe a aeth i waered heddyw, ac a laddodd ychain, ac *anifeiliaid* breision, a defaid lawer, ac a wahoddodd holl feibion y brenhin, a thywysogion y filwriaeth, ac Abïathar yr offeiriad; ac wele hwynt yn bwytta ac yn yfed o'i flaen ef, ac y maent yn dywedyd, Bydded fyw y brenhin Adonïah.

26 Ond myfi dy was, a Sadoc yr offeiriad, a Benaiah mab Jehoiada, a'th was Solomon, ni wahoddodd efe.

27 Ai trwy fy arglwydd frenhin y bu y peth hyn, heb ddangos o honot i'th was, pwy a eistedd ar orseddfaingc fy arglwydd y brenhin ar ei ol ef?

28 ¶ A'r brenhin Dafydd a attebodd ac a ddywedodd, Gelwch Bathseba attaf fi. A hi a ddaeth o flaen y brenhin, ac a safodd ger bron y brenhin.

29 A'r brenhin a dyngodd, ac a ddywedodd, *Fel y* mae yr ARGLWYDD yn fyw, yr hwn a waredodd fy enaid i allan o bob cyfyngder,

30 Yn ddïau megis y tyngais wrthyt ti i ARGLWYDD DDUW Israel, gan ddywedyd, Solomon dy fab a deyrnasa yn ddïau ar fy ol i, ac efe a eistedd ar fy ngorseddfaingc i yn fy lle i; felly y gwnaf y dydd hwn.

31 Yna Bathseba a ostyngodd ei phen a'*i* hwyneb i lawr, ac a ymgrymmodd i'r brenhin, ac a ddywedodd, Bydded fy arglwydd frenhin Dafydd fyw byth.

32 ¶ A'r brenhin Dafydd a ddywedodd, Gelwch attaf fi Sadoc yr offeiriad, a Nathan y prophwyd, a Benaiah mab Jehoiada. A hwy a ddaethant o flaen y brenhin.

33 A'r brenhin a ddywedodd wrthynt, Cymmerwch weision eich arglwydd gyd â chwi, a pherwch i Solomon fy mab farchogaeth ar fy mules fy hun, a dygwch ef i waered i Gihon.

34 Ac enneinied Sadoc yr offeiriad a Nathan y prophwyd ef yno yn frenhin ar Israel: ac udgenwch mewn udgorn, a dywedwch, Bydded fyw y brenhin Solomon.

35 Deuwch chwithau i fyny ar ei ol ef, a deued efe i fyny, ac eistedded ar fy ngorseddfa i; ac efe a deyrnasa yn fy lle i: canys ef a ordeiniais i fod yn flaenor ar Israel ac ar Judah.

36 A Benaiah mab Jehoiada a attebodd y brenhin, ac a ddywedodd, Amen: yr un modd y dywedo ARGLWYDD DDUW fy arglwydd frenhin.

37 Megis y bu yr ARGLWYDD gyd â'm harglwydd y brenhin, felly bydded gyd â Solomon, a gwnaed yn fwy ei orseddfaingc ef na gorseddfaingc fy arglwydd y brenhin Dafydd.

38 Felly Sadoc yr offeiriad, a Nathan y prophwyd, a Benaiah mab Jehoiada, a'r Cerethiaid, a'r Pelethiaid, a aethant i waered, ac a wnaethant i Solomon farchogaeth ar fules y brenhin Dafydd, ac a aethant âg ef i Gihon.

39 A Sadoc yr offeiriad a gym-

merodd gorn o olew allan o'r babell, ac a enneiniodd Solomon. A hwy a udganasant mewn udgorn: a'r holl bobl a ddywedasant, Bydded fyw y brenhin Solomon.

40 A'r holl bobl a aethant i fyny ar ei ol ef, yn canu pibellau, ac yn llawenychu â llawenydd mawr, fel y rhwygai y ddaear gan eu swn hwynt.

41 ¶ A chlybu Adonïah, a'i holl wahoddedigion y rhai *oedd* gyd âg ef, pan ddarfuasai iddynt fwytta. Joab hefyd a glywodd lais yr udgorn; ac a ddywedodd, Paham *y mae* twrf y ddinas yn derfysgol?

42 Ac efe etto yn llefaru, wele, daeth Jonathan mab Abïathar yr offeiriad. A dywedodd Adonïah, Tyred i mewn: canys gŵr grymmus *ydwyt* ti, a daioni a fynegi di.

43 A Jonathan a attebodd ac a ddywedodd wrth Adonïah, Yn ddïau ein harglwydd frenhin Dafydd a osododd Solomon yn frenhin.

44 A'r brenhin a anfonodd gyd âg ef Sadoc yr offeiriad, a Nathan y prophwyd, a Benaiah mab Jehoiada, a'r Cerethiaid, a'r Pelethiaid; a hwy a barasant iddo ef farchogaeth ar fules y brenhin.

45 A Sadoc yr offeiriad a Nathan y prophwyd a'i henneiniasant ef yn frenhin yn Gihon: a hwy a ddaethant i fyny oddi yno yn llawen; a'r ddinas a derfysgodd. Dyna y twrf a glywsoch chwi.

46 Ac y mae Solomon yn eistedd ar orseddfaingc y frenhiniaeth.

47 A gweision y brenhin a ddaethant hefyd i fendithio ein harglwydd frenhin Dafydd, gan ddywedyd, Dy Dduw a wnelo enw Solomon yn well na'th enw di, ac a wnelo yn fwy ei orseddfaingc ef na'th orseddfaingc di. A'r brenhin a ymgrymmodd ar y gwely.

48 Fel hyn hefyd y dywedodd y brenhin: Bendigedig *fyddo* Arglwydd Dduw Israel, yr hwn a roddodd heddyw *un* i eistedd ar fy ngorseddfaingc, a'm llygaid innau yn gweled *hynny*.

49 A'r holl wahoddedigion, y rhai *oedd* gyd âg Adonïah, a ddychrynasant, ac a gyfodasant, ac a aethant bob un ei ffordd.

50 ¶ Ac Adonïah oedd yn ofni rhag Solomon; ac a gyfododd, ac a aeth ac a ymaflodd y'nghyrn yr allor.

51 A mynegwyd i Solomon, gan ddywedyd, Wele, y mae Adonïah yn ofni y brenhin Solomon: canys wele, efe a ymaflodd y'nghyrn yr allor, gan ddywedyd, Tynged y brenhin Solomon i mi heddyw, na ladd efe ei was â'r cleddyf.

52 A dywedodd Solomon, Os bydd efe yn ŵr da, ni syrth *un* o'i wallt ef i lawr; ond os ceir drygioni ynddo ef, efe a fydd marw.

53 A'r brenhin Solomon a anfonodd, a hwy a'i dygasant ef oddi wrth yr allor. Ac efe a ddaeth, ac a ymgrymmodd i'r brenhin Solomon. A dywedodd Solomon wrtho, Dos i'th dŷ.

PENNOD 2.

1 *Dafydd yn rhoi cynghor i Solomon,* 3 *i fod yn ddduwiol,* 5 *ynghylch Joab,* 7 *Barsilai,* 8 *a Simei;* 10 *ac yn marw.* 12 *Solomon yn frenhin ar ei ol ef.* 13 *Adonïah yn ceisio gan Bathseba ddywedyd wrth Solomon am Abisag, ac yn cael ei ddihenydd.* 26 *Abiathar yn cael ei hoedl, ac yn colli yr offeiriadaeth.* 28 *Joab yn ffoi at gyrn yr allor, a'i ladd ef;* 35 *a gosod Benaiah yn lle Joab, a Sadoc yn lle Abiathar.* 36 *Simei yn cael gorchymyn i aros yn Jerusalem; ac am fynedd i Gath, yn gorfod arno farw.*

YNA dyddiau Dafydd a nesasant i farw; ac efe a orchymynodd i Solomon ei fab, gan ddywedyd,

2 Myfi wyf yn myned ffordd yr holl ddaear: am hynny ymnertha, a bydd ŵr;

3 A chadw gadwraeth yr Arglwydd dy Dduw, i rodio yn ei ffyrdd ef, i gadw ei ddeddfau ef, a'i orchymynion, a'i farnedigaethau, a'i dystiolaethau, fel yr ysgrifenwyd y'nghyfraith Moses; fel y llwyddych yn yr hyn oll a wnelych, ac i ba le bynnag y tröech:

4 Fel y cyflawno yr Arglwydd ei air a lefarodd efe wrthyf, gan ddywedyd, Os dy feibion a gadwant eu ffyrdd, i rodio ger fy mron mewn gwirionedd, â'u holl galon, ac â'u holl enaid, ni thorrir (*eb efe*) na *byddo* o honot ŵr ar orseddfaingc Israel.

5 Tithau hefyd a wyddost yr hyn a wnaeth Joab mab Serfiah â mi, a'r hyn a wnaeth efe i ddau o dywysogion lluoedd Israel, i Abner

mab Ner, ac i Amasa mab Jether, y rhai a laddodd efe, ac a ollyngodd waed rhyfel mewn heddwch, ac a roddodd waed rhyfel ar ei wregys *oedd* am ei lwynau, ac yn ei esgidiau *oedd* am ei draed.

6 Am hynny gwna yn ol dy ddoethineb, ac na âd i'w benllwydni ef ddisgyn i'r bedd mewn heddwch.

7 Ond i feibion Barsilai y Gileadiad y gwnei garedigrwydd, a bydd-ant ym mysg y rhai a fwyttânt *ar* dy fwrdd di: canys felly y daethant attaf fi pan oeddwn yn ffoi rhag Absalom dy frawd di.

8 Wele hefyd Simei mab Gera, mab Jemini, o Bahurim, gyd â thi, yr hwn a'm melldithiodd i â melldith dost, y dydd yr euthum i Mahanaim: ond efe a ddaeth i waered i'r Iorddonen i gyfarfod â mi; a mi a dyngais i'r ARGLWYDD wrtho ef, gan ddywedyd, Ni'th laddaf â'r cleddyf.

9 Ond yn awr na âd di ef heb gospedigaeth: canys gŵr doeth *ydwyt* ti, a gwyddost beth a wnei iddo: dwg dithau ei benwynni ef i waered i'r bedd mewn gwaed.

10 Felly Dafydd a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd yn ninas Dafydd.

11 A'r dyddiau y teyrnasodd Dafydd ar Israel *oedd* ddeugain mlynedd: saith mlynedd y teyrnasodd efe yn Hebron, a thair blynedd ar ddeg ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem.

12 ¶ A Solomon a eisteddodd ar orseddfaingc Dafydd ei dad; a'i frenhiniaeth ef a sicrhâwyd yn ddirfawr.

13 ¶ Ac Adoniah mab Haggith a ddaeth at Bathseba mam Solomon. A hi a ddywedodd, Ai heddychlawn dy ddyfodiad? Yntau a ddywedodd, Heddychlawn.

14 Ac efe a ddywedodd, *Y mae* i mi air â thi. Hithau a ddywedodd, Dywed.

15 Yntau a ddywedodd, Ti a wyddost mai eiddof fi oedd y frenhiniaeth, ac i holl Israel osod eu hwynebau ar fy ngwneuthur i yn frenhin: eithr trodd y frenhiniaeth, ac a aeth i'm brawd: canys trwy yr ARGLWYDD yr aeth hi yn eiddo ef.

16 Ond yn awr dymunaf gennyt un dymuniad; na ommedd fi. Hithau a ddywedodd wrtho, Dywed.

17 Yntau a ddywedodd, Dywed, attolwg, wrth y brenhin Solomon, (canys ni ommedd efe dydi,) am roddi o hono ef Abisag y Sunamëes yn wraig i mi.

18 A dywedodd Bathseba, Da; mi a ddywedaf drosot ti wrth y brenhin.

19 ¶ Felly Bathseba a aeth at y brenhin Solomon, i ddywedyd wrtho ef dros Adoniah. A'r brenhin a gododd i'w chyfarfod hi, ac a ostyngodd iddi, ac a eisteddodd ar ei orseddfaingc, ac a barodd osod gorseddfaingc i fam y brenhin: a hi a eisteddodd ar ei ddeheulaw ef.

20 Yna hi a ddywedodd, Un dymuniad bychan yr ydwyf fi yn ei ddymuno gennyt; na ommedd fi. A'r brenhin a ddywedodd wrthi hi, Gofyn, fy mam: canys ni'th ommeddaf.

21 A hi a ddywedodd, Rhodder Abisag y Sunamëes yn wraig i Adoniah dy frawd.

22 A'r brenhin Solomon a attebodd ac a ddywedodd wrth ei fam, Paham y ceisi di Abisag y Sunamëes i Adoniah? gofyn hefyd y frenhiniaeth iddo ef; canys fy mrawd hŷn na mi *ydyw* efe; a chyd âg ef y mae Abiathar yr offeiriad, a Joab mab Serfiah.

23 A'r brenhin Solomon a dyngodd i'r ARGLWYDD, gan ddywedyd, Fel hyn y gwnelo DUW i mi, ac fel hyn y chwanego, onid yn erbyn ei einioes y llefarodd Adoniah y gair hwn.

24 Yn awr gan hynny, *fel mai* byw yr ARGLWYDD, yr hwn a'm sicrhaodd i, ac a wnaeth i mi eistedd ar orseddfaingc Dafydd fy nhad, yr hwn hefyd a wnaeth i mi dŷ, megis y dywedasai efe; heddyw yn ddiau y rhoddir Adoniah i farwolaeth.

25 A'r brenhin Solomon a anfonodd gyd â Benaiah mab Jehoiada; ac efe a ruthrodd arno ef, fel y bu efe farw.

26 ¶ Ac wrth Abiathar yr offeiriad y dywedodd y brenhin, Dos i Anathoth, i'th fro dy hun; canys gŵr *yn haeddu* marwolaeth *ydwyt* ti: ond ni laddaf di y pryd hwn; o

herwydd dwyn o honot arch yr Arglwydd Duw o flaen fy nhad Dafydd, ac am dy gystuddio yn yr hyn oll y cystuddiwyd fy nhad.

27 Felly y bwriodd Solomon Abïathar ymaith o fod yn offeiriad i'r Arglwydd; fel y cyflawnai air yr Arglwydd, yr hwn a ddywedasai efe am dŷ Eli yn Siloh.

28 ¶ A'r chwedl a ddaeth at Joab: canys Joab a ŵyrasai ar ol Adonïah, er na ŵyrasai efe ar ol Absalom. A ffodd Joab i babell yr Arglwydd, ac a ymaflodd yng nghyrn yr allor.

29 A mynegwyd i'r brenhin Solomon, ffoi o Joab i babell yr Arglwydd; ac wele, *y mae efe* wrth yr allor. A Solomon a anfonodd Benaiah mab Jehoiada, gan ddywedyd, Dos, rhuthra arno ef.

30 A daeth Benaiah i babell yr Arglwydd, ac a ddywedodd wrtho ef, Fel hyn y dywed y brenhin; Tyred allan. Yntau a ddywedodd, Na *ddeuaf;* eithr yma y byddaf farw. A Benaiah a ddug drachefn air at y brenhin, gan ddywedyd, Fel hyn y dywedodd Joab, ac fel hyn y'm hattebodd.

31 A dywedodd y brenhin wrtho ef, Gwna fel y dywedodd efe, a rhuthra arno ef, a chladd ef; fel y tynnech y gwaed gwirion a dywalltodd Joab, oddi arnaf fi, ac oddi ar dŷ fy nhad i.

32 A'r Arglwydd a ddychwel ei waed ef ar ei ben ei hun; o herwydd efe a ruthrodd ar ddau ŵr cyfiawnach a gwell nag ef ei hun, ac a'u lladdodd hwynt â'r cleddyf, a Dafydd fy nhad heb wybod; *sef* Abner mab Ner, tywysog llu Israel, ac Amasa mab Jether, tywysog llu Judah.

33 A'u gwaed hwynt a ddychwel ar ben Joab, ac ar ben ei had ef yn dragywydd: ond i Dafydd, ac i'w had, ac i'w dŷ, ac i'w orseddfaingc, y bydd heddwch yn dragywydd gan yr Arglwydd.

34 Felly yr aeth Benaiah mab Jehoiada i fyny, ac a ruthrodd arno, ac a'i lladdodd. Ac efe a gladdwyd yn ei dŷ ei hun yn yr anialwch.

35 ¶ A'r brenhin a osododd Benaiah mab Jehoiada yn ei le ef ar y filwriaeth. A'r brenhin a osododd Sadoc yr offeiriad yn lle Abïathar.

36 ¶ A'r brenhin a anfonodd ac a alwodd am Simei, ac a ddywedodd wrtho, Adeilada i ti dŷ yn Jerusalem, ac aros yno, ac na ddos allan oddi yno nac yma na thraw.

37 Canys bydd, y dydd yr elych allan, ac yr elych dros afon Cidron, gan wybod y cei di wybod y lleddir di yn farw: dy waed fydd ar dy ben dy hun.

38 A dywedodd Simei wrth y brenhin, Da *yw* y gair: fel y dywedodd fy arglwydd frenhin, felly y gwna dy was. A Simei a drigodd yn Jerusalem ddyddiau lawer.

39 Eithr ym mhen tair blynedd y ffodd dau was i Simei at Achis, mab Maachah, brenhin Gath. A mynegwyd i Simei, gan ddywedyd, Wele dy weision di yn Gath.

40 A Simei a gyfododd, ac a gyfrwyodd ei asyn, ac a aeth i Gath at Achis, i geisio ei weision: ïe, Simei a aeth, ac a gyrchodd ei weision o Gath.

41 A mynegwyd i Solomon, fyned o Simei o Jerusalem i Gath, a'i ddychwelyd ef.

42 A'r brenhin a anfonodd ac a alwodd am Simei, ac a ddywedodd wrtho, Oni pherais i ti dyngu i'r Arglwydd, ac *oni* thystiolaethais wrthyt, gan ddywedyd, Yn y dydd yr elych allan, ac yr elych nac yma nac accw, gan wybod gwybydd y lleddir di yn farw? a thi a ddywedaist wrthyf, Da *yw* y gair a glywais.

43 Paham gan hynny na chedwaist lw yr Arglwydd, a'r gorchymyn a orchymynais i ti?

44 A dywedodd y brenhin wrth Simei, Ti a wyddost yr holl ddrygioni a ŵyr dy galon, yr hwn a wnaethost di yn erbyn Dafydd fy nhad: yr Arglwydd am hynny a ddychwelodd dy ddrygioni di ar dy ben dy hun;

45 A bendigedig *fydd* y brenhin Solomon, a gorseddfaingc Dafydd a sicrhêir o flaen yr Arglwydd yn dragywydd.

46 Felly y gorchymynodd y brenhin i Benaiah mab Jehoiada; ac efe a aeth allan, ac a ruthrodd arno ef,

fel y bu efe farw. A'r frenhiniaeth a sicrhâwyd yn llaw Solomon.

PENNOD 3.

1 *Solomon yn priodi merch Pharaoh:* 2 *ac wrth aberthu yn uchelfa Gibeon,* 5 *yn cael gan Dduw ei ddewis rodd, ac yn dewis doethineb; ac yn cael doethineb, a chyfoeth, ac anrhydedd.* 16 *Barn Solomon rhwng y ddwy buttain, yn ei wneuthur ef yn enwog.*

A SOLOMON a ymgyfathrachodd â Pharaoh brenhin yr Aipht, ac a briododd ferch Pharaoh, ac a'i dug hi i ddinas Dafydd, nes darfod iddo adeiladu ei dŷ ei hun, a thŷ yr ARGLWYDD, a mur Jerusalem oddi amgylch.

2 Etto y bobl oedd yn aberthu mewn uchelfaoedd, o herwydd nad adeiladasid tŷ i enw yr ARGLWYDD, hyd y dyddiau hynny.

3 A Solomon a garodd yr ARGLWYDD, gan rodio yn neddfau Dafydd ei dad: etto mewn uchelfaoedd yr oedd efe yn aberthu ac yn arogl-darthu.

4 A'r brenhin a aeth i Gibeon i aberthu yno: canys honno *oedd* uchelfa fawr. Mil o boeth-offrymmau a offrymmodd Solomon ar yr allor honno.

5 ¶ Yn Gibeon yr ymddangosodd yr ARGLWYDD i Solomon mewn breuddwyd liw nos: a dywedodd DUW, Gofyn beth a roddaf i ti.

6 A dywedodd Solomon, Ti a wnaethost â'th was Dafydd fy nhad fawr drugaredd, megis y rhodiodd efe o'th flaen di mewn gwirionedd, ac mewn cyfiawnder, ac mewn uniondeb calon gyd â thi; ïe, cedwaist iddo y drugaredd fawr hon, a rhoddaist iddo fab i eistedd ar ei orseddfaingc, fel y *gwelir* heddyw.

7 Ac yn awr, O ARGLWYDD fy NUW, ti a wnaethost i'th was deyrnasu yn lle Dafydd fy nhad: a minnau yn fachgen bychan: ni fedraf fyned nac allan nac i mewn.

8 A'th was *sydd* ym mysg dy bobl, y rhai a ddewisaist ti; pobl aml, y rhai ni rifir ac nis cyfrifir gan lïosowgrwydd.

9 Am hynny dyro i'th was galon ddeallus, i farnu dy bobl, i ddeall *rhagor* rhwng da a drwg: canys pwy a ddichon farnu dy lïosog bobl hyn?

10 A'r peth fu dda y'ngolwg yr ARGLWYDD, am ofyn o Solomon y peth hyn.

11 A DUW a ddywedodd wrtho, O herwydd gofyn o honot y peth hyn, ac na ofynaist i ti ddyddiau lawer, ac na ofynaist i ti olud, ac na cheisiaist einioes dy elynion, eithr gofynaist i ti ddeall i wrandaw barn:

12 Wele, gwneuthum yn ol dy eiriau; wele, rhoddais i ti galon ddoeth a deallus, fel na bu dy fath o'th flaen, ac na chyfyd dy fath ar dy ol.

13 A rhoddais i ti hefyd yr hyn nis gofynaist, golud, a gogoniant hefyd; fel na byddo un o'th fath ym mysg y brenhinoedd, dy holl ddyddiau di.

14 Ac os rhodi yn fy ffyrdd i, gan gadw fy neddfau a'm gorchymynion, megis y rhodiodd Dafydd dy dad, estynaf hefyd dy ddyddiau di.

15 A Solomon a ddeffrôdd; ac wele, breuddwyd *oedd.* Ac efe a ddaeth i Jerusalem, ac a safodd o flaen arch cyfammod yr ARGLWYDD, ac a offrymmodd offrymmau poeth, ac a aberthodd aberthau hedd, ac a wnaeth wledd i'w holl weision.

16 ¶ Yna dwy wraig o butteiniaid a ddaethant at y brenhin, ac a safasant ger ei fron ef.

17 A'r naill wraig a ddywedodd, O fy arglwydd, myfi a'r wraig hon oeddym yn trigo yn yr un tŷ; a mi a esgorais yn tŷ gyd â hi.

18 Ac ar y trydydd dydd wedi esgor o honof fi, yr esgorodd y wraig hon hefyd; ac *yr oeddym* ni ynghyd, heb arall yn tŷ gyd â ni, ond nyni ein dwyoedd yn tŷ.

19 A mab y wraig hon a fu farw liw nos; o herwydd hi a orweddodd arno ef.

20 A hi a gododd y'nghanol y nos, ac a gymmerodd fy mab i o'm hymyl, tra yr ydoedd dy law-forwyn yn cysgu, ac a'i gosododd ef yn ei mynwes hi, a'i mab marw hi a osododd hi yn fy mynwes innau.

21 A phan godais i y bore i beri i'm mab sugno, wele, marw oedd efe; ac wedi i mi ddal arno y bore, wele, nid fy mab i, yr hwn a esgoraswn i, ydoedd efe.

22 A'r wraig arall a ddywedodd, Nag ê; eithr fy mab i *yw* y byw,

a'th fab dithau *yw* y marw. A hon a ddywedodd, Nag ê; eithr dy fab di *yw* y marw, a'm mab i *yw* y byw. Fel hyn y llefarasant o flaen y brenhin.

23 Yna y dywedodd y brenhin, Hon sydd yn dywedyd, Dyma fy mab i *sydd* fyw, a'th fab dithau *yw* y marw: a hon accw sydd yn dywedyd, Nag ê; eithr dy fab di *yw* y marw, a'm mab innau *yw* y byw.

24 A dywedodd y brenhin, Dygwch i mi gleddyf. A hwy a ddygasant gleddyf o flaen y brenhin.

25 A'r brenhin a ddywedodd, Rhennwch y bachgen byw yn ddau, a rhoddwch yr hanner i'r naill, a'r hanner i'r llall.

26 Yna y dywedodd y wraig *bïoedd* y mab byw wrth y brenhin, (canys ei hymysgaroedd a gynhesasai wrth ei mab,) ac a lefarodd, O fy arglwydd, rhoddwch iddi hi y bachgen byw, ac na leddwch ef ddim: ond y llall a ddywedodd, Na fydded eiddo fi na thithau, *eithr* rhennwch *ef*.

27 Yna yr attebodd y brenhin, ac y dywedodd, Rhoddwch y bachgen byw iddi hi, ac na leddwch ef ddim: dyna ei fam ef.

28 A holl Israel a glywsant y farn a farnasai y brenhin; a hwy a ofnasant y brenhin: canys gwelsant *fod* doethineb Duw ynddo ef i wneuthur barn.

PENNOD 4.

1 *Tywysogion Solomon,* 7 *a deuddeg swyddog ei iys ef;* 20, 24 *a heddwch a helaethrwydd ei frenhiniaeth;* 22 *ac arlwy ei furdd,* 26 *a'i stablau;* 29 *a'i ddoethineb,* 32 *a'i lyfrau.*

A'R brenhin Solomon oedd frenhin ar holl Israel.

2 A dyma y tywysogion *oedd* ganddo ef: Asarïah mab Sadoc, yr offeiriad;

3 Elihoreph ac Ahïah, meibion Sisa, *oedd* ysgrifenyddion; Jehosaphat mab Ahilud, yn gofiadur;

4 Benaiah mab Jehoiada *oedd* ar y llu; a Sadoc ac Abïathar, yn offeiriaid;

5 Ac Asarïah mab Nathan *oedd* ar y swyddogion; a Sabud mab Nathan *oedd* ben-llywydd, *ac* yn gyfaill i'r brenhin;

6 Ac Ahisar *oedd* ben-teulu; ac Adoniram mab Abda, ar y deyrnged.

7 ¶ A chan Solomon yr ydoedd deuddeg o swyddogion ar holl Israel, y rhai a barottôent luniaeth i'r brenhin a'i dŷ: mis yn y flwyddyn yr oedd ar *bob* un ddarparu.

8 Dyma eu henwau hwynt. Mab Hur, ym mynydd Ephraim.

9 Mab Decar ym Macas, ac yn Saalbim, a Beth-semes, ac Elon-bethanan.

10 Mab Hesed, yn Aruboth: iddo ef *yr oedd* Sochoh, a holl dir Hepher.

11 Mab Abinadab *oedd yn* holl ardal Dor: Taphath merch Solomon oedd yn wraig iddo ef.

12 Baana mab Ahilud *oedd yn* Taanach, a Megìdo, a Bethsean oll, yr hon *sydd* ger llaw Sartanah, îs law Jesreel, o Bethsean hyd Abel-meholah, hyd y tu hwnt i Jocneam.

13 Mab Geber *oedd* yn Ramoth-Gilead: iddo ef *yr oedd* trefydd Jair mab Manasseh, y rhai *sydd* yn Gilead: eiddo ef *oedd* ardal Argob, yr hon *sydd* yn Basan; *sef* tri ugain o ddinasoedd mawrion, â chaerau a barrau pres.

14 Ahinadab mab Ido *oedd* ym Mahanaim.

15 Ahimaas *oedd* yn Naphtali: yntau a gymmerodd Basmath merch Solomon yn wraig.

16 Baana mab Husai *oedd* yn Aser ac yn Aloth.

17 Jehosaphat mab Paruah *oedd* yn Issachar.

18 Simei mab Ela *oedd* o fewn Benjamin.

19 Geber mab Uri *oedd* y'ngwlad Gilead, gwlad Sehon brenhin yr Amoriaid, ac Og brenhin Basan; a'r unig swyddog *oedd* yn y wlad *ydoedd efe.*

20 ¶ Judah ac Israel *oedd* aml, fel y tywod *sydd* ger llaw y môr o amldra, yn bwytta ac yn yfed, ac yn gwneuthur yn llawen.

21 A Solomon oedd yn llywodraethu ar yr holl deyrnasoedd, o'r afon hyd wlad y Philistiaid, ac hyd derfyn yr Aipht: yr oeddynt hwy yn dwyn anrhegion, ac yn gwasanaethu Solomon holl ddyddiau ei einioes ef.

22 ¶ A bwyd Solomon beunydd
oedd ddeg corus ar hugain o beillied, a thri ugain corus o flawd;
23 Deg o ychain pasgedig, ac
ugain o ychain porfadwy, a chant o
ddefaid, heb law ceirw, ac iyrchod,
a buail, ac ednod breision.
24 Canys efe oedd yn llywodraethu ar y tu yma i'r afon oll, o
Tiphsah hyd Assah, ar yr holl frenhinoedd o'r tu yma i'r afon: ac yr
oedd iddo ef heddwch o bob parth
iddo o amgylch.
25 Ac yr oedd Judah ac Israel
yn preswylio yn ddïogel, bob un
dan ei winwydden a than ei ffigysbren, o Dan hyd Beerseba, holl
ddyddiau Solomon.
26 ¶ Ac yr oedd gan Solomon
ddeugain mil o bresebau meirch
i'w gerbydau, a deuddeng mil o
wŷr meirch.
27 A'r swyddogion hynny a barottôent luniaeth i Solomon y brenhin,
ac i bawb a ddelai i fwrdd y brenhin Solomon, pob un yn ei fis: ni
adawsant eisieu dim.
28 Haidd hefyd a gwellt a ddygasant hwy i'r meirch, ac i'r cyflym
gamelod, i'r fan lle y byddai *y*
swyddogion, pob un ar ei ran.
29 ¶ A Duw a roddodd ddoethineb i Solomon, a deall mawr iawn,
a helaethdra calon, fel y tywod *sydd*
ar fin y môr.
30 A doethineb Solomon oedd
fwy na doethineb holl feibion y
dwyrain, ac na holl ddoethineb yr
Aipht.
31 Ie, doethach oedd efe nag un
dyn; nag Ethan yr Esrahiad, na
Heman, na Chalcol, na Darda,
meibion Mahol: a'i enw ef oedd
ym mhlith yr holl genhedloedd
oddi amgylch.
32 Ac efe a lefarodd dair mil o
ddïarhebion: a'i ganiadau ef oedd
fil a phump.
33 Llefarodd hefyd am brennau,
o'r cedrwydd *sydd* yn Libanus, hyd
yr isop a dŷf allan o'r pared: ac
efe a lefarodd am anifeiliaid, ac am
ehediaid, ac am ymlusgiaid, ac am
bysgod.
34 Ac o bob pobloedd y daethpwyd i wrandaw doethineb Solomon, oddi wrth holl frenhinoedd
y ddaear, y rhai a glywsent am ei
ddoethineb ef.

PENNOD 5.

1 *Hiram yn gyrru i gyfarch Solomon, ac yn cael*
gwybod ei fod ef ar fedr adeiladu y demi, ac yn
addaw defnyddiau i'r gwaith. 7 *Hiram yn*
bendithio. Duw dros Solomon, yn cael ymborth
i'w deulu, ac yn gyrru coed i Solomon. 13
Rhifedi gweithwyr Solomon.

HIRAM *hefyd* brenhin Tyrus a
anfonodd ei weision at Solomon; canys clybu enneinio o honynt hwy ef yn frenhin yn lle ei dad:
canys hoff oedd gan Hiram Dafydd
bob amser.
2 A Solomon a anfonodd at Hiram, gan ddywedyd,
3 Ti a wyddost am Dafydd fy
nhad, na allai efe adeiladu tŷ i enw
yr Arglwydd ei Duw, gan y
rhyfeloedd oedd o'i amgylch ef, nes
rhoddi o'r Arglwydd hwynt dan
wadnau ei draed ef.
4 Eithr yn awr yr Arglwydd fy
Nuw a roddodd i mi lonydd oddi
amgylch, *fel nad oes* na gwrthwynebydd, nac ymgyfarfod niweidiol.
5 Ac wele fi â'm bryd ar adeiladu
tŷ i enw yr Arglwydd fy Nuw;
megis y llefarodd yr Arglwydd
wrth Dafydd fy nhad, gan ddywedyd, Dy fab, yr hwn a osodaf fi yn
dy le di ar dy orseddfainge di, efe
a adeilada dŷ i'm henw i.
6 Yn awr, gan hynny, gorchymyn
dorri o honynt i mi gedrwydd o
Libanus; a'm gweision i a fyddant
gyd â'th weision di: a rhoddaf attat
gyflog dy weision, yn ol yr hyn a
ddywedych: canys ti a wyddost nad
oes yn ein plith ni ŵr a fedro gymmynu coed megis y Sidoniaid.
7 ¶ A bu, pan glybu Hiram eiriau
Solomon, lawenychu o hono ef yn
ddirfawr, a dywedyd, Bendigedig
yw yr Arglwydd heddyw, yr hwn
a roddes i Dafydd fab doeth ar y
bobl lïosog yma.
8 A Hiram a anfonodd at Solomon, gan ddywedyd, Gwrandewais
ar yr hyn a anfonaist attaf: mi a
wnaf dy holl ewyllys di am goed
cedrwydd, a choed ffynnidwydd.
9 Fy ngweision a'*u* dygant i waered o Libanus hyd y môr: a mi a'u
gyrraf hwynt yn gludeiriau ar hyd
y môr, hyd y fan a osodych di i
mi; ac yno y dattodaf hwynt, a

chymmer di *hwynt:* ond ti a wnei fy ewyllys innau, gan roddi ymborth i'm teulu i.

10 Felly yr oedd Hiram yn rhoddi i Solomon o goed cedrwydd, ac o goed ffynnidwydd, ei holl ddymuniad.

11 A Solomon a roddodd i Hiram ugain mil corus o wenith *yn* gynhaliaeth i'w dŷ, ac ugain corus o olew coeth: felly y rhoddai Solomon i Hiram bob blwyddyn.

12 A'r ARGLWYDD a roddes ddoethineb i Solomon, fel y dywedasai wrtho: a bu heddwch rhwng Hiram a Solomon; a hwy a wnaethant gyfammod ill dau.

13 ¶ A'r brenhin Solomon a gyfododd dreth o holl Israel, a'r dreth oedd ddeng mil ar hugain o wŷr.

14 Ac efe a'u hanfonodd hwynt i Libanus, deng mil yn y mis *ar* gylch: mis y byddent yn Libanus, *a* dau fis gartref. Ac Adoniram *oedd* ar y dreth.

15 Ac yr oedd gan Solomon ddeng mil a thri ugain yn dwyn beichiau, *a* phedwar ugain mil yn naddu cerrig yn y mynydd;

16 Heb law pen-swyddogion Solomon, y rhai *oedd* ar y gwaith, sef tair mil a thri chant, yn llywodraethu y bobl a weithient yn y gwaith.

17 A'r brenhin a orchymynodd ddwyn o honynt hwy feini mawr, a meini costus, *a* meini nadd, i sylfaenu y tŷ.

18 Felly seiri Solomon, a seiri Hiram, a'r Gibliaid, a naddasant, ac a ddarparasant goed a cherrig i adeiladu y tŷ.

PENNOD 6.

1 *Adeiladu teml Solomon,* 5 *a'i hystafelloedd.* 11 *Addewid Duw i'r deml.* 15 *Byrddio ac addurno y deml.* 23 *Y cerubiaid.* 31 *Y dorau.* 36 *Y cymtedd.* 37 *Yr hŷd y buwyd ym adeiladu y deml.*

AC yn y bedwar-ugeinfed a phedwar cant o flynyddoedd wedi dyfod meibion Israel allan o'r Aipht, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Solomon ar Israel, yn y mis Sif, hwnnw *yw* yr ail fis, y dechreuodd efe adeiladu tŷ yr ARGLWYDD.

2 A'r tŷ a adeiladodd y brenhin Solomon i'r ARGLWYDD *oedd* dri ugain cufydd ei hŷd, ac ugain *cufydd* ei led, a deg cufydd ár hugain ei uchder.

3 A'r porth o flaen teml y tŷ *oedd* ugain cufydd ei hŷd, yn un hŷd â lled y tŷ; *ac* yn ddeg cufydd ei led, o flaen y tŷ.

4 Ac efe a wnaeth i'r tŷ ffenestri, yn llydain oddi fewn, ac yn gyfyng oddi allan.

5 ¶ Ac efe a adeiladodd wrth fur y tŷ ystafelloedd oddi amgylch mur y tŷ, ynghylch y deml, a'r gafell; ac a wnaeth gelloedd o amgylch.

6 Yr ystafell isaf *oedd* bum cufydd ei lled, a'r ganol chwe chufydd ei lled, a'r drydedd yn saith gufydd ei lled: canys efe a roddasai attegion o'r tu allan i'r tŷ oddi amgylch, fel na rwymid *y trawstiau* ym mur y tŷ.

7 A'r tŷ, pan adeiladwyd ef, a adeiladwyd o gerrig wedi eu cwbl naddu cyn eu dwyn yno; fel na chlybuwyd na morthwylion, na bwyeill, *nac* un offeryn haiarn, yn y tŷ, wrth ei adeiladu.

8 Drws y gell ganol *oedd* ar ystlys ddehau y tŷ; ac ar hyd grisiau tröedig y dringid i'r ganol, ac o'r ganol i'r drydedd.

9 Felly yr adeiladodd efe y tŷ, ac a'i gorphenodd; ac a fyrddiodd y tŷ â thrawstiau ac ystyllod o gedrwydd.

10 Ac efe a adeiladodd ystafelloedd wrth yr holl dŷ, yn bum cufydd eu huchder: ac â choed cedr yr oeddynt yn pwyso ar y tŷ.

11 ¶ A daeth gair yr ARGLWYDD at Solomon, gan ddywedyd,

12 *Am* y tŷ yr wyt ti yn ei adeiladu, os rhodi di yn fy neddfau i, a gwneuthur fy marnedigaethau, a chadw fy holl orchymynion, gan rodio ynddynt; yna y cyflawnaf â thi fy ngair a leferais wrth Dafydd dy dad:

13 A mi a breswyliaf ym mysg meibion Israel, ac ni adawaf fy mhobl Israel.

14 Felly yr adeiladodd Solomon y tŷ, ac a'i gorphenodd.

15 Ac efe a fyrddiodd barwydydd y tŷ oddi fewn âg ystyllod cedr-

wydd, o lawr y tŷ hyd y llogail y byrddiodd efe ef â choed oddi fewn: byrddiodd hefyd lawr y tŷ â phlangciau o ffynnidwydd.

16 Ac efe a adeiladodd ugain cufydd ar ystlysau y tŷ âg ystyllod cedr, o'r llawr hyd y parwydydd: felly yr adeiladodd iddo o fewn, *sef* i'r gafell, i'r cyssegr sancteiddiolaf.

17 A'r tŷ, sef y deml o'i flaen ef, oedd ddeugain cufydd *ei hŷd.*

18 A chedrwydd y tŷ oddi fewn *oedd* wedi eu cerfio yn gnapiau, ac yn flodau agored: y cwbl *oedd* gedrwydd; ni welid carreg.

19 A'r gafell a ddarparodd efe yn y tŷ o fewn, i osod yno arch cyfammod yr ARGLWYDD.

20 A'r gafell yn y pen blaen *oedd* ugain cufydd o hŷd, ac ugain cufydd o led, ac ugain cufydd ei huchder: ac efe a'i gwisgodd âg aur pur; *felly hefyd* y gwisgodd efe yr allor o gedrwydd.

21 Solomon *hefyd* a wisgodd y tŷ oddi fewn âg aur pur; ac a roddes farrau ar draws, wrth gadwyni aur, o flaen y gafell, ac a'u gwisgodd âg aur.

22 A'r holl dŷ a wisgodd efe âg aur, nes gorphen yr holl dŷ: yr allor hefyd oll, yr hon *oedd* wrth y gafell, a wisgodd efe âg aur.

23 ¶ Ac efe a wnaeth yn y gafell ddau o gerubiaid, *o* bren olewwydd, *pob un yn* ddeg cufydd ei uchder.

24 A'r naill aden i'r cerub *oedd* bum cufydd, a'r aden arall i'r cerub *oedd* bum cufydd: deg cufydd *oedd* o'r naill gwr i'w adenydd ef hyd y cwr arall i'w adenydd ef.

25 A'r ail gerub *oedd* o ddeg cufydd: un mesur ac un agwedd *oedd* y ddau gerub.

26 Uchder y naill gerub *oedd* ddeg cufydd; ac felly *yr oedd* y cerub arall.

27 Ac efe a osododd y cerubiaid yn y tŷ oddi fewn: ac adenydd y cerubiaid a ymledasant, fel y cyffyrddodd aden y naill â'r *naill* bared, ac aden y cerub arall oedd yn cyffwrdd â'r pared arall; a'u hadenydd hwy y'nghanol y tŷ oedd yn cyffwrdd â'u gilydd.

28 Ac efe a wisgodd y cerubiaid âg aur.

29 A holl barwydydd y tŷ o amgylch a gerfiodd efe â cherfiedig luniau cerubiaid, a phalmwydd, a blodau agored; o fewn ac oddi allan.

30 Llawr y tŷ hefyd a wisgodd efe âg aur, oddi fewn ac oddi allan.

31 ¶ Ac i ddrws y gafell y gwnaeth efe ddorau *o* goed olew-wydd; cappan y drws *a'r* gorsingau *oedd* bummed ran *y pared.*

32 Ac ar y ddwy ddôr *o* goed olew-wydd y cerfiodd efe gerfiadau cerubiaid, a phalmwydd, a blodau agored, ac a'*u* gwisgodd âg aur, ac a ledodd aur ar y cerubiaid, ac ar y palmwydd.

33 Ac felly y gwnaeth efe i ddrws y deml orsingau *o* goed olew-wydd, *y rhai oedd* bedwaredd ran *y pared.*

34 Ac yr *oedd* y ddwy ddôr *o* goed ffynnidwydd: dwy ddalen blygedig *oedd* i'r naill ddôr, a dwy ddalen blygedig i'r ddôr arall.

35 Ac efe a gerfiodd gerubiaid, a phalmwydd, a blodau agored, *arnynt;* ac a'*u* gwisgodd âg aur, yr hwn a gymhwyswyd ar y cerfiad.

36 ¶ Ac efe a adeiladodd y cynteddnesaf i mewn â thair rhes o gerrig nadd, ac â rhes o drawstiau cedrwydd.

37 ¶ Yn y bedwaredd flwyddyn y sylfaenwyd tŷ yr ARGLWYDD, ym mis Sif:

38 Ac yn yr unfed flwyddyn ar ddeg, ym mis Bul, (dyna yr wythfed mis,) y gorphenwyd y tŷ, a'i holl rannau, a'i holl berthynasau. Felly *mewn* saith mlynedd yr adeiladodd efe ef.

PENNOD 7.

1 *Adeiladu tŷ Solomon,* 2 *a thŷ coed Libanus,* 6 *a'r porth colofnau,* 7 *a phorth y frawdle,* 8 *a thŷ merch Pharaoh.* 13 *Gwaith Hiram ar y ddwy golofn.* 23 *Y môr tawdd.* 27 *Y deg ystôl.* 38 *Y deg noe bres,* 40 *a'r holl testri.*

EITHR ei dŷ ei hun a adeiladodd Solomon mewn tair blynedd ar ddeg, ac a orphenodd ei holl dŷ.

2 ¶ Efe a adeiladodd dŷ coedwig Libanus, yn gan cufydd ei hŷd, ac yn ddeg cufydd a deugain ei led, ac yn ddeg cufydd ar hugain ei uchder, ar bedair rhes o golofnau

cedrwydd, a thrawstiau cedrwydd ar y colofnau.

3 Ac efe a dôwyd â chedrwydd oddi arnodd ar y trawstiau *oedd* ar y pum colofn a deugain, pymtheg *yn* y rhes.

4 Ac *yr oedd* tair rhes o ffenestri, goleu ar gyfer goleu, *yn* dair rhengc.

5 A'r holl ddrysau a'r gorsingau *oedd* ysgwâr, *felly yr oedd* y ffenestri; a goleu ar gyfer goleu, *yn* dair rhengc.

6 ¶ Hefyd efe a wnaeth borth o golofnau, yn ddeg cufydd a deugain ei hŷd, ac yn ddeg cufydd ar hugain ei led: a'r porth *oedd* o'u blaen hwynt; a'r colofnau *eraill* a'r swmmerau *oedd* o'u blaen hwythau.

7 ¶ Porth yr orseddfa *hefyd*, yr hwn y barnai efe ynddo, a wnaeth efe yn borth barn: ac efe a wisgwyd â chedrwydd o'r naill gwr i'r llawr hyd y llall.

8 ¶ Ac *i*'w dŷ ei hun, yr hwn y trigai efe ynddo, *yr oedd* cyntedd arall o fewn y porth o'r un fath waith. Gwnaeth hefyd dŷ i ferch Pharaoh, yr hon a briodasai Solomon, fel y porth hwn.

9 Hyn oll *oedd* o feini costus, wedi eu naddu wrth fesur, *a'u* lladd â llif, oddi fewn ac oddi allan, *a hynny* o'r sylfaen hyd y llogail; ac *felly* o'r tu allan hyd y cyntedd mawr.

10 Ac efe a sylfaenesid â meini costus, â meini mawr, â meini o ddeg cufydd, ac â meini o wyth gufydd.

11 Ac oddi arnodd *yr oedd* meini costus, wedi eu naddu wrth fesur, a chedrwydd.

12 Ac *i'r* cyntedd mawr *yr oedd* o amgylch, dair rhes o gerrig nadd, a rhes o drawstiau cedrwydd, i gyntedd tŷ yr ARGLWYDD oddi fewn, ac i borth y tŷ.

13 ¶ A'r brenhin Solomon a anfonodd ac a gyrchodd Hiram o Tyrus.

14 Mab gwraig weddw *oedd* hwn o lwyth Naphtali, a'i dad yn ŵr o Tyrus: gôf pres *ydoedd efe;* a llawn ydoedd o ddoethineb, a deall, a gwybodaeth, i weithio pob gwaith o bres. Ac efe a ddaeth at y brenhin Solomon, ac a weithiodd ei holl waith ef.

15 Ac efe a fwriodd ddwy golofn o bres; deunaw cufydd *oedd* uchder pob colofn; a llinyn o ddeuddeg cufydd a amgylchai bob un o'r ddwy.

16 Ac efe a wnaeth ddau gnap *o* bres tawdd, i'w rhoddi ar bennau y colofnau; pum cufydd *oedd* uchder y naill gnap, a phum cufydd uchder y cnap arall.

17 Efe a wnaeth rwydwaith, *a* phlethiadau o gadwynwaith, i'r cnapiau *oedd* ar ben y colofnau; saith i'r naill gnap, a saith i'r cnap arall.

18 Ac efe a wnaeth y colofnau, a dwy res o bomgranadau o amgylch ar y naill rwydwaith, i guddio y cnapiau *oedd* uwch ben; ac felly y gwnaeth efe i'r cnap arall.

19 A'r cnapiau y rhai *oedd* ar y colofnau *oedd* o waith lili, yn y porth, yn bedwar cufydd.

20 Ac i'r cnapiau ar y ddwy golofn oddi arnodd, ar gyfer y canol, *yr oedd pomgranadau,* y rhai *oedd* wrth y rhwydwaith; a'r pomgranadau *oedd* ddau cant, yn rhesau o amgylch, ar y cnap arall.

21 Ac efe a gyfododd y colofnau ym mhorth y deml: ac a gyfododd y golofn ddehau, ac a alwodd ei henw hi Jachin; ac efe a gyfododd y golofn aswy, ac a alwodd ei henw hi Boas.

22 Ac ar ben y colofnau *yr oedd* gwaith lili. Felly y gorphenwyd gwaith y colofnau.

23 ¶ Ac efe a wnaeth fôr tawdd, yn ddeg cufydd o ymyl i ymyl: yn grwn oddi amgylch, ac yn bum cufydd ei uchder; a llinyn o ddeg cufydd ar hugain a'i hamgylchai oddi amgylch.

24 A chnapiau a'i hamgylchent ef dan ei ymyl o amgylch, deg mewn cufydd oedd yn amgylchu y môr o amgylch: y cnapiau *oedd* yn ddwy res, wedi eu bwrw pan fwriwyd yntau.

25 Sefyll yr oedd ar ddeuddeg o ychain; tri oedd yn edrych tu a'r gogledd, a thri yn edrych tu a'r gorllewin, a thri yn edrych tu a'r dehau, a thri yn edrych tu a'r dwyrain: a'r môr arnynt oddi arnodd, a'u pennau ol hwynt oll o fewn.

26 Ei dewder hefyd *oedd* ddyrnfedd, a'i ymyl fel gwaith ymyl cwp-

pan, *a* blodau lili: dwy fil o bathau a annai ynddo.

27 ¶ Hefyd efe a wnaeth ddeg o ystolion pres; pedwar cufydd *oedd* hŷd pob ystôl, a phedwar cufydd ei lled, a thri chufydd ei huchder.

28 A dyma waith yr ystolion: ystlysau *oedd* iddynt, a'r ystlysau *oedd* rhwng y delltennau:

29 Ac ar yr ystlysau *oedd* rhwng y delltennau, *yr oedd* llewod, ychain, a cherubiaid; ac ar y dellt *yr oedd* ystôl oddi arnodd; ac oddi tan y llewod a'r ychain *yr oedd* cyssylltiadau o waith tenau.

30 A phedair olwyn bres *oedd* i bob ystôl, a phlangciau pres; ac yn eu pedair congl *yr oedd* ysgwyddau iddynt: dan y noe *yr oedd* ysgwyddau, wedi eu toddi ar gyfer pob cyssylltiad.

31 A'i genau oddi fewn y cwmpas, ac oddi arnodd, *oedd* gufydd; a'i genau hi *oedd* grwn, ar waith yr ystôl, yn gufydd a hanner; ac ar ei hymyl hi *yr oedd* cerfiadau, a'i hystlysau yn bedwar ochrog, nid yn grynion.

32 A'r pedair olwyn *oedd* dan yr ystlysau, ac echelau yr olwynion yn yr ystôl; ac uchder pob olwyn yn gufydd a hanner cufydd.

33 Gwaith yr olwynion *hefyd oedd* fel gwaith olwynion men; eu hechelau, a'u bothau, a'u cammegau, a'u hadenydd, *oedd* oll yn doddedig.

34 Ac *yr oedd* pedair ysgwydd wrth bedair congl pob ystôl: o'r ystôl *yr oedd* ei hysgwyddau hi.

35 Ac ar ben yr ystôl *yr oedd* cwmpas o amgylch, o hanner cufydd o uchder; ar ben yr ystôl hefyd *yr oedd* ei hymylau a'i thaleithiau o'r un.

36 Ac efe a gerfiodd ar ystyllod ei hymylau hi, ac ar ei thaleithiau hi, gerubiaid, llewod, a phalmwydd, wrth noethder pob un, a chyssylltiadau oddi amgylch.

37 Fel hyn y gwnaeth efe y deg ystôl: un toddiad, un mesur, *ac* un agwedd, *oedd* iddynt hwy oll.

38 ¶ Gwnaeth hefyd ddeng noe bres: deugain bath a ddaliai pob noe; yn bedwar cufydd bob noe; *ac* un noe ar bob un o'r deg ystôl.

39 Ac efe a osododd bum ystôl ar ystlys ddehau y tŷ, a phump ar yr ystlys aswy i'r tŷ: a'r môr a osododd efe ar y tu dehau i'r tŷ, tu a'r dwyrain, ar gyfer y dehau.

40 ¶ Gwnaeth Hiram hefyd y noeau, a'r rhawiau, a'r cawgiau: a Hiram a orphenodd wneuthur yr holl waith, yr hwn a wnaeth efe i'r brenhin Solomon *yn* nhŷ yr ARGLWYDD.

41 Y ddwy golofn, a'r cnapiau coronog y rhai *oedd* ar ben y ddwy golofn; a'r ddau rwydwaith, i guddio y ddau gnap coronog *oedd* ar ben y colofnau;

42 A phedwar cant o bomgranadau i'r ddau rwydwaith, dwy res o bomgranadau i un rhwydwaith, i guddio y ddau gnap coronog *oedd* ar y colofnau;

43 A'r deg ystôl, a'r deg noe ar yr ystolion;

44 Ac un môr, a deuddeg o ychain dan y môr;

45 A'r crochanau, a'r rhawiau, a'r cawgiau; a'r holl lestri a wnaeth Hiram i'r brenhin Solomon, i dŷ yr ARGLWYDD, *oedd o* bres gloyw.

46 Y'ngwastadedd yr Iorddonen y toddodd y brenhin hwynt mewn cleidir, rhwng Succoth a Sarthan.

47 A Solomon a beidiodd *â phwyso* yr holl lestri, o herwydd eu lliosowgrwydd anfeidrol hwynt: ac ni wybuwyd pwys y pres chwaith.

48 A Solomon a wnaeth yr holl ddodrefn *a berthynai* i dŷ yr ARGLWYDD; yr allor aur, a'r bwrdd aur, yr hwn *yr oedd* y bara gosod arno;

49 A phum canhwyllbren o'r *tu* dehau, a phump o'r *tu* aswy, o flaen y gafell, yn aur pur; a'r blodau, a'r llusernau, a'r gefeiliau, *o* aur;

50 Y phiolau *hefyd*, a'r saltringau, a'r cawgiau, a'r llwyau, a'r thusserau, *o* aur coeth; a bachau dorau y tŷ, o fewn y cyssegr sancteiddiaf, *a* dorau tŷ y deml, *oedd* aur.

51 Felly y gorphenwyd yr holl waith a wnaeth y brenhin Solomon i dŷ yr ARGLWYDD. A Solomon a ddug i mewn yr hyn a gyssegrasai Dafydd ei dad; yr arian, a'r aur, a'r dodrefn, a roddodd efe ym mhlith trysorau tŷ yr ARGLWYDD.

PENNOD 8.

1 *Gwyl cyssegriad y deml.* 12, 55 *Bendith Solomon,* 22 *a'i weddi,* 62 *a'i hedd-aberth.*

YNA Solomon a gasglodd henuriaid Israel, a holl bennau y llwythau, a thywysogion tadau meibion Israel, at y brenhin Solomon, yn Jerusalem, i ddwyn i fyny arch cyfammod yr ARGLWYDD o ddinas Dafydd, honno *yw* Sïon.

2 A holl wŷr Israel a ymgynnullasant at y brenhin Solomon, ar yr wyl, ym mis Ethanim, hwnnw *yw* y seithfed mis.

3 A holl henuriaid Israel a ddaethant, a'r offeiriaid a godasant yr arch i fyny.

4 A hwy a ddygasant i fyny arch yr ARGLWYDD, a phabell y cyfarfod, a holl lestri y cyssegr y rhai *oedd* yn y babell, a'r offeiriaid a'r Lefiaid a'u dygasant hwy i fyny.

5 A'r brenhin Solomon, a holl gynnulleidfa Israel, y rhai a ymgynnullasai atto ef, *oedd* gyd âg ef o flaen yr arch, yn aberthu defaid, a gwartheg, y rhai ni rifid ac ni chyfrifid, gan liosowgrwydd.

6 Felly yr offeiriaid a ddygasant arch cyfammod yr ARGLWYDD i'w lle ei hun, i gafell y tŷ, i'r cyssegr sanctteiddiaf, dan adenydd y cerubiaid.

7 Canys y cerubiaid oedd yn lledu *eu* hadenydd dros le yr arch; a'r cerubiaid a orchuddient yr arch, a'i barrau oddi arnodd.

8 A'r barrau a estynasant, fel y gwelid pennau y barrau o'r cyssegr o flaen y gafell, ond nis gwelid oddi allan: yno y maent hwy hyd y dydd hwn.

9 Nid *oedd* dim yn yr arch ond y ddwy lech faen a osodasai Moses yno yn Horeb, lle y cyfammododd yr ARGLWYDD â meibion Israel, pan oeddynt yn dyfod o wlad yr Aipht.

10 A phan ddaeth yr offeiriaid allan o'r cyssegr, y cwmmwl a lanwodd dŷ yr ARGLWYDD,

11 Fel na allai yr offeiriaid sefyll i wasanaethu, o herwydd y cwmmwl: canys gogoniant yr ARGLWYDD a lanwasai dŷ yr ARGLWYDD.

12 ¶ Yna y dywedodd Solomon, Yr ARGLWYDD a ddywedodd, y preswyliai efe yn y tywyllwch.

13 Gan adeiladu yr adeiledais dŷ yn breswylfod i ti; trigle i ti i aros yn dragywydd ynddo.

14 A'r brenhin a drodd ei wyneb, ac a fendithiodd holl gynnulleidfa Israel. A holl gynnulleidfa Israel oedd yn sefyll.

15 Ac efe a ddywedodd, Bendigedig *fyddo* ARGLWYDD DDUW Israel, yr hwn a lefarodd â'i enau wrth Dafydd fy nhad, ac a'i cwblhaodd â'i law, gan ddywedyd,

16 Er y dydd y dygais fy mhobl Israel allan o'r Aipht, ni ddewisais ddinas o holl lwythau Israel i adeiladu tŷ, fel y byddai fy enw i yno: eithr dewisais Dafydd i fod ar fy mhobl Israel.

17 Ac yr oedd ym mryd Dafydd fy nhad adeiladu tŷ i enw ARGLWYDD DDUW Israel.

18 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Dafydd fy nhad, O herwydd bod yn dy fryd di adeiladu tŷ i'm henw i, da y gwnaethost fod *hynny* yn dy galon:

19 Etto nid adeiledi di y tŷ; ond dy fab di, yr hwn a ddaw allan o'th lwynau di, efe a adeilada y tŷ i'm henw i.

20 A'r ARGLWYDD a gywirodd ei air a lefarodd efe; a mi a gyfodais yn lle Dafydd fy nhad, ac a eisteddais ar deyrn-gadair Israel, megis y llefarodd yr ARGLWYDD, ac a adeiledais dŷ i enw ARGLWYDD DDUW Israel.

21 A mi a osodais yno le i'r arch, yr hon *y mae* ynddi gyfammod yr ARGLWYDD, yr hwn a gyfammododd efe â'n tadau ni, pan ddug efe hwynt allan o wlad yr Aipht.

22 ¶ A Solomon a safodd o flaen allor yr ARGLWYDD, y'ngŵydd holl gynnulleidfa Israel, ac a estynodd ei ddwylaw tu a'r nefoedd:

23 Ac efe a ddywedodd, O ARGLWYDD DDUW Israel, nid *oes* DUW fel tydi, yn y nefoedd oddi uchod, nac ar y ddaear oddi isod, yn cadw cyfammod a thrugaredd â'th weision sydd yn rhodio ger dy fron di â'u holl galon;

24 Yr hwn a gedwaist â'th was Dafydd fy nhad yr hyn a leferaist

wrtho: traethaist hefyd â'th enau, a chwblhêaist â'th law, megis heddyw *y mae.*

25 Ac yn awr, O ARGLWYDD DDUW Israel, cadw â'th was Dafydd fy nhad yr hyn a leferaist wrtho, gan ddywedyd, Ni thorrir ymaith oddi wrthyt *na byddo* gŵr ger fy mron i yn eistedd ar deyrn-gadair Israel; os dy feibion a gadwant eu ffordd, i rodio ger fy mron i, megis y rhodiaist ti ger fy mron.

26 Ac yn awr, O DDUW Israel, poed gwir, attolwg, fyddo dy air a leferaist wrth dy was Dafydd fy nhad.

27 Ai gwir yw, y preswylia DUW ar y ddaear? wele, y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy gynnwys di; pa faint llai *y dichon* y tŷ hwn a adeiledais i!

28 Etto edrych ar weddi dy was, ac ar ei ddeisyfiad ef, O ARGLWYDD fy NUW, i wrandaw ar y llef a'r weddi y mae dy was yn ei gweddïo heddyw ger dy fron di:

29 Fel y byddo dy lygaid yn agored tu a'r tŷ yma nos a dydd, tu a'r lle y dywedaist am dano, Fy enw a fydd yno: i wrandaw ar y weddi a weddïo dy was yn y lle hwn.

30 Gwrando gan hynny ddeisyfiad dy was, a'th bobl Israel, pan weddïant yn y lle hwn: clyw hefyd o le dy breswylfa, *sef* o'r nefoedd; a phan glywech, maddeu.

31 ¶ Os pecha gŵr yn erbyn ei gymmydog, a gofyn ganddo raith, gan ei dyngu ef, a dyfod y llw o flaen dy allor di yn y tŷ hwn:

32 Yna clyw di yn y nefoedd, gwna hefyd, a barna dy weision, gan ddamnio y drygionus i ddwyn ei ffordd ef ar ei ben; a chan gyfiawnhau y cyfiawn, trwy roddi iddo ef yn ol ei gyfiawnder.

33 ¶ Pan darawer dy bobl Israel o flaen y gelyn, am iddynt bechu yn dy erbyn di, os dychwelant attat ti, a chyfaddef dy enw, a gweddïo, ac ymbil â thi yn y tŷ hwn:

34 Yna gwrando di yn y nefoedd, a maddeu bechod dy bobl Israel, a dychwel hwynt i'r tir a roddaist i'w tadau hwynt.

35 ¶ Pan gauer y nefoedd, fel na byddo gwlaw, o herwydd pechu o honynt i'th erbyn; os gweddïant yn y lle hwn, a chyfaddef dy enw, a dychwelyd oddi wrth eu pechod, pan gystuddiech di hwynt:

36 Yna gwrando di yn y nefoedd, a maddeu bechod dy weision, a'th bobl Israel, fel y dysgech iddynt y ffordd oreu y rhodiant ynddi, a dyro wlaw ar dy dir a roddaist i'th bobl yn etifeddiaeth.

37 ¶ Os bydd newyn yn y tir, os bydd haint, llosgfa, malldod, locustiaid, os bydd y lindys; pan warchaeo ei elyn arno ef y'ngwlad ei ddinasoedd; pa bla bynnag, pa glefyd bynnag, *a fyddo;*

38 Pob gweddi, pob deisyfiad, a fyddo gan un dyn, *neu* gan dy holl bobl Israel, y rhai a wyddant bawb bla ei galon ei hun, ac a estynant eu dwylaw tu a'r tŷ hwn:

39 Yna gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, a maddeu; gwna hefyd, a dyro i bob un yn ol ei holl ffyrdd, yr hwn yr adwaenost ei galon; (canys ti yn unig a adwaenost galonnau holl feibion dynion;)

40 Fel y'th ofnont di yr holl ddyddiau y byddont byw ar wyneb y tir a roddaist i'n tadau ni.

41 ¶ Ac am y dïeithrddyn hefyd ni *byddo* o'th bobl Israel, ond dyfod o wlad bell er mwyn dy enw;

42 (Canys clywant am dy enw mawr di, a'th law gref, a'th fraich estynedig;) pan ddêl a gweddïo tu a'r tŷ hwn:

43 Gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, a gwna yn ol yr hyn oll a'r a lefo y dïeithrddyn arnat am dano: fel yr adwaeno holl bobl y ddaear dy enw di, i'th ofni di, fel *y mae* dy bobl Israel, ac y gwypont mai ar dy enw di y gelwir y tŷ hwn a adeiledais i.

44 ¶ Os â dy bobl di allan i ryfel yn erbyn eu gelyn, ar hyd y ffordd yr anfonych hwynt, os gweddïant ar yr ARGLWYDD *tu a* ffordd y ddinas a ddewisaist ti, a'r tŷ yr hwn a adeiledais i'th enw di:

45 Yna gwrando yn y nefoedd ar eu gweddi hwynt, ac ar eu deisyfiad, a gwna farn iddynt.

46 ¶ Os pechant i'th erbyn, (canys nid *oes* dyn ni phecha,) a digio o

honot wrthynt, a'u rhoddi hwynt o flaen eu gelynion, fel y caethgludont hwynt yn gaethion i wlad y gelyn, ym mhell neu yn agos;

47 Os dychwelant at eu calon yn y wlad y caethgludwyd hwynt iddi, a dychwelyd, ac erfyn arnat yng ngwlad y rhai a'u caethgludasant, gan ddywedyd, Pechasom, troseddasom hefyd, a gwnaethom yn annuwiol;

48 A dychwelyd attat ti â'u holl galon, ac â'u holl enaid, y'ngwlad eu gelynion a'u caethgludasant hwynt, a gweddïo arnat ti tu a'u gwlad a roddaist i'w tadau, a'r ddinas a ddewisaist, a'r tŷ a adeiledais i'th enw di:

49 Yna gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, eu gweddi hwynt, a'u deisyfiad, a gwna farn iddynt,

50 A maddeu i'th bobl a bechasant i'th erbyn, a'u holl gamweddau *yn* y rhai y troseddasant i'th erbyn, a phâr iddynt gael trugaredd ger bron y rhai a'u caethgludasant, fel y trugarhaont wrthynt hwy:

51 Canys dy bobl di a'th etifeddiaeth *ydynt* hwy, y rhai a ddygaist ti allan o'r Aipht, o ganol y ffwrn haiarn:

52 Fel y byddo dy lygaid yn agored i ddeisyfiad dy was, a deisyfiad dy bobl Israel, i wrandaw arnynt hwy pa bryd bynnag y galwont arnat ti.

53 Canys ti a'u neilduaist hwynt yn etifeddiaeth i ti o holl bobl y ddaear, fel y lleferaist trwy law Moses dy was, pan ddygaist ein tadau ni allan o'r Aipht, O ARGLWYDD DDUW.

54 Ac wedi gorphen o Solomon weddïo ar yr ARGLWYDD yr holl weddi a'r deisyfiad yma, efe a gyfododd oddi ger bron allor yr ARGLWYDD, o ostwng ar ei liniau, ac o estyn ei ddwylaw tu a'r nefoedd.

55 Ac efe a safodd, ac a fendithiodd holl gynnulleidfa Israel â llef uchel, gan ddywedyd,

56 Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD, yr hwn a roddes lonyddwch i'w bobl Israel, yn ol yr hyn oll a lefarodd efe: ni syrthiodd un gair o'i holl addewidion da ef, y rhai a addawodd efe trwy law Moses ei was.

57 Yr ARGLWYDD ein DUW fyddo gyd â ni, fel y bu gyd â'n tadau: na wrthoded ni, ac na'n gadawed ni:

58 I ostwng ein calonnau ni iddo ef, i rodio yn ei holl ffyrdd ef, ac i gadw ei orchymynion ef, a'i ddeddfau, a'i farnedigaethau, y rhai a orchymynodd efe i'n tadau ni.

59 A bydded fy ngeiriau hyn, y rhai a ddeisyfais ger bron yr ARGLWYDD, yn agos at yr ARGLWYDD ein DUW ddydd a nos, i wneuthur barn â'i was, a barn â'i bobl Israel beunydd, fel y byddo yr achos:

60 Fel y gwypo holl bobl y ddaear mai yr ARGLWYDD *sydd* DDUW, *ac* nad *oes* arall.

61 Bydded gan hynny eich calon yn berffaith gyd â'r ARGLWYDD ein DUW ni, i rodio yn ei ddeddfau ef, ac i gadw ei orchymynion ef, fel heddyw.

62 ¶ A'r brenhin a holl Israel gyd âg ef a aberthasant aberth ger bron yr ARGLWYDD.

63 A Solomon a aberthodd aberth hedd, yr hwn a offrymmodd efe i'r ARGLWYDD, *sef* dwy fil ar hugain o wartheg, a chwech ugain mil o ddefaid. Felly y brenhin a holl feibion Israel a gyssegrasant dŷ yr ARGLWYDD.

64 Y dwthwn hwnnw y sancteiddiodd y brenhin ganol y cyntedd *oedd* o flaen tŷ yr ARGLWYDD: canys yno yr offrymmodd efe y poeth-offrymmau, a'r bwyd-offrymmau, a brasder yr offrymmau hedd: o herwydd yr allor bres, yr hon *oedd* ger bron yr ARGLWYDD, *oedd* ry fechan i dderbyn y poeth-offrymmau, a'r bwyd-offrymmau, a brasder yr offrymmau hedd.

65 A Solomon a gadwodd y pryd hwnnw wyl, a holl Israel gyd âg ef, cynnulleidfa fawr, o ddyfodfa Hamath hyd afon yr Aipht, ger bron yr ARGLWYDD ein DUW, saith o ddyddiau a saith o ddyddiau, *sef* pedwar diwrnod ar ddeg.

66 A'r wythfed dydd y gollyngodd efe ymaith y bobl: a hwy a fendithiasant y brenhin, ac a aethant i'w pebyll yn hyfryd ac â chalon lawen, am yr holl ddaioni a wnaeth-

ai yr ARGLWYDD i Dafydd ei was,
ac i Israel ei bobl.

PENNOD 9.

1 *Ammod Duw â Solomon mewn gweledigaeth.*
10 *Solomon a Hiram yn anrhegu eu gilydd.*
15 *Y cenhedloedd yn gaethion, a'r Israeliaid yn weision parchedig, y ngwaith Solomon.* 24 *Merch Pharaoh yn symmudo i'w thŷ.* 25 *Cyhoedd aberthau blynyddol Solomon.* 26 *Ei lynges ef yn cyrchu aur o Ophir.*

A PHAN orphenodd Solomon
adeiladu tŷ yr ARGLWYDD, a
thŷ y brenhin, a chwbl o ddymuniad Solomon yr hyn a ewyllysiodd efe ei wneuthur;
2 Yr ARGLWYDD a ymddangosodd
i Solomon yr ail waith, fel yr ymddangosasai iddo yn Gibeon.
3 A'r ARGLWYDD a ddywedodd
wrtho, Gwrandewais dy weddi di
a'th ddeisyfiad di, yr hwn a ddeisyfaist ger fy mron i: cyssegrais y tŷ
yma a adeiledaist, i osod fy enw
ynddo byth; fy llygaid hefyd a'm
calon fydd yno yn wastadol.
4 Ac os rhodi di ger fy mron i,
megis y rhodiodd Dafydd dy dad,
mewn perffeithrwydd calon ac uniondeb i wneuthur yn ol yr hyn oll
a orchymynais i ti, *ac* os cedwi fy
neddfau a'm barnedigaethau:
5 Yna mi a sicrhâf orseddfaingc
dy frenhiniaeth di ar Israel yn dragywydd, fel y lleferais wrth Dafydd
dy dad, gan ddywedyd, Ni phalla i
ti ŵr ar orseddfaingc Israel.
6 Os gan ddychwelyd y dychwel-
wch chwi a'ch meibion oddi ar fy ol
i, ac heb gadw fy ngorchymynion
a'm deddfau, y rhai a roddais o'ch
blaen chwi, eithr myned a gwasanaethu duwiau dïeithr, ac ymgrymmu iddynt hwy:
7 Yna y torraf Israel oddi ar wyn-
eb y tir a roddais iddynt hwy; a'r
tŷ hwn a gyssegrais i'm henw, a
fwriaf allan o'm golwg; ac Israel
fydd yn ddïareb ac yn wawd ym
mysg yr holl bobloedd:
8 A'r tŷ uchel hwn, pawb a gyn-
niweiro heibio iddo, a synna wrtho,
ac a chwibana; dywedant hefyd,
Paham y gwnaeth yr ARGLWYDD
fel hyn i'r wlad hon, ac i'r tŷ yma?
9 A hwy a ddywedant, Am iddynt
wrthod yr ARGLWYDD eu DUW, yr
hwn a ddug eu tadau hwynt allan
o dir yr Aipht, ac ymaflyd mewn
duwiau dïeithr, ac ymgrymmu iddynt, a'u gwasanaethu hwynt; am
hynny y dug yr ARGLWYDD arnynt
hwy yr holl ddrwg hyn.
10 ¶ Ac ym mhen yr ugain
mlynedd, *wedi* adeiladu o Solomon y ddau dŷ, sef tŷ yr ARGLWYDD, a thŷ y brenhin,
11 (*Am* i Hiram brenhin Tyrus
ddwyn i Solomon goed cedr, a
choed ffynnidwydd, ac aur, yn ol
ei holl ewyllys ef,) y brenhin Solomon a roddes i Hiram ugain dinas
y'ngwlad Galilea.
12 A Hiram a ddaeth o Tyrus i
edrych y dinasoedd a roddasai Solomon iddo ef; ac nid oeddynt
wrth ei fodd ef.
13 Ac efe a ddywedodd, Pa ddinas-
oedd *yw* y rhai hyn a roddaist i mi,
fy mrawd? Ac efe a'u galwodd hwynt
Gwlad Cabul, hyd y dydd hwn.
14 A Hiram a anfonodd i'r bren-
hin chwech ugain talent o aur.
15 ¶ A dyma swm y dreth a
gododd y brenhin Solomon, i adeiladu tŷ yr ARGLWYDD, a'i dŷ ei
hun, a Mîlo, a mur Jerusalem,
Hasor, a Megido, a Geser.
16 Pharaoh brenhin yr Aipht a
aethai i fyny, ac a enmillasai Geser,
ac a'i llosgasai hi â thân, ac a ladd-
asai y Canaaneaid oedd yn trigo yn
y ddinas, ac a'i rhoddasai hi yn an-
rheg i'w ferch, gwraig Solomon.
17 A Solomon a adeiladodd Geser,
a Beth-horon isaf,
18 A Baalath, a Thadmor yn yr
anialwch, o fewn y wlad,
19 A holl ddinasoedd y trysorau
y rhai oedd gan Solomon, a dinas-
oedd y cerbydau, a dinasoedd y
gwŷr meirch, a'r hyn *oedd* ewyllys
gan Solomon ei adeiladu yn Jeru-
salem, ac yn Libanus, ac yn holl
dir ei lywodraeth.
20 Yr holl bobl *y rhai* a adawyd
o'r Amoriaid, Hethiaid, Peresiaid,
Hefiaid, a'r Jebusiaid, y rhai nid
oeddynt o feibion Israel;
21 *Sef* eu meibion hwy, y rhai a
adawsid ar eu hol hwynt yn y
wlad, y rhai ni allodd meibion
Israel eu lladd; ar y rhai hynny y
cyfododd Solomon dreth ŵriogaeth
hyd y dydd hwn.
22 Ond o feibion Israel ni wnaeth

Solomon *un* yn gaethwas: rhyfelwyr iddo ef *oeddynt*, a gweision iddo, a thywysogion iddo, a chapteniaid iddo, a thywysogion ei gerbydau a'i wŷr meirch.

23 Y rhai hyn *oedd* bennaf ar y swyddogion *oedd* ar waith Solomon, pum cant a deg a deugain, oedd yn llywodraethu y bobl oedd yn gweithio yn y gwaith.

24 ¶ A merch Pharaoh a ddaeth i fyny o ddinas Dafydd i'w thŷ ei hun, yr hwn a adeiladasai *Solomon* iddi hi: yna efe a adeiladodd Mîlo.

25 ¶ A thair gwaith yn y flwyddyn yr offrymmai Solomon boeth-offrymmau ac offrymmau hedd ar yr allor a adeiladasai efe i'r ARGLWYDD: ac efe a arogl-darthodd ar *yr allor oedd* ger bron yr ARGLWYDD. Felly efe a orphenodd y tŷ.

26 ¶ A'r brenhin Solomon a wnaeth longau yn Esion-gaber, yr hon *sydd* wrth Eloth, ar fin y môr coch, y'ngwlad Edom.

27 A Hiram a anfonodd ei weision yn y llongau, *y rhai oedd* longwyr yn medru *oddi wrth* y môr, gyd â gweision Solomon.

28 A hwy a ddaethant i Ophir, ac a ddygasant oddi yno bedwar cant ac ugain o dalentau aur, ac a'*u* dygasant at y brenhin Solomon.

PENNOD 10.

1 *Brenhines Seba yn rhyfedd ganddi ddoethineb Solomon.* 14 *Swm ei aur ef:* 16 *ei dariannau:* 18 *ei orseddfainge ifori:* 21 *ei lestri:* 24 *ei aarhegion:* 26 *ei gerbydau a'i farchogion:* 28 *ei deyrnged.*

A PHAN glybu brenhines Seba glod Solomon am enw yr ARGLWYDD, hi a ddaeth i'w brofi ef â chwestiynau caled.

2 A hi a ddaeth i Jerusalem â llu mawr iawn, â chamelod yn dwyn aroglau, ac aur lawer iawn, a meini gwerthfawr. A hi a ddaeth at Solomon, ac a lefarodd wrtho ef yr hyn oll oedd yn ei chalon.

3 A Solomon a fynegodd iddi hi ei holl ofynion: nid oedd *dim* yn guddiedig rhag y brenhin, a'r na fynegodd efe iddi hi.

4 A phan welodd brenhines Seba holl ddoethineb Solomon, a'r tŷ a adeiladasai efe,

5 A bwyd ei fwrdd, ac eisteddiad ei weision, a threfn ei weinidogion, a'u dillad hwynt, a'i drulliadau ef, a'i esgynfa ar hyd yr hon yr âi efe i fyny i dŷ yr ARGLWYDD; nid oedd mwyach yspryd ynddi.

6 A hi a ddywedodd wrth y brenhin, Gwir yw y gair a glywais yn fy ngwlad am dy ymadroddion di, ac am dy ddoethineb.

7 Etto ni chredais y geiriau, nes i mi ddyfod, ac i'm llygaid weled: ac wele, ni fynegasid i mi yr hanner: mwy yw dy ddoethineb a'th ddaioni na'r clod a glywais i.

8 Gwyn fyd dy wŷr di, gwyn fyd dy weision hyn, y rhai sydd yn sefyll yn wastadol ger dy fron di, yn clywed dy ddoethineb.

9 Bendigedig fyddo yr ARGLWYDD dy DDUW, yr hwn a'th hoffodd di, i'th roddi ar deyrn-gadair Israel: o herwydd cariad yr ARGLWYDD tu ag at Israel yn dragywydd, y gosododd efe di yn frenhin, i wneuthur barn a chyfiawnder.

10 A hi a roddes i'r brenhin chwech ugain talent o aur, a phêr-aroglau lawer iawn, a meini gwerthfawr. Ni ddaeth y fath bêr-aroglau mwyach, cyn amled a'r rhai a roddodd brenhines Seba i'r brenhin Solomon.

11 A llongau Hiram hefyd, y rhai a gludent aur o Ophir, a ddygasant o Ophir lawer iawn o goed almugim, ac o feini gwerthfawr.

12 A'r brenhin a wnaeth o'r coed almugim annelau i dŷ yr ARGLWYDD, ac i dŷ y brenhin, a thelynau a saltringau i gantorion. Ni ddaeth y fath goed almugim, ac ni welwyd hyd y dydd hwn.

13 A'r brenhin Solomon a roddes i frenhines Seba ei holl ddymuniad, yr hyn a ofynodd hi, heb law yr hyn a roddodd Solomon iddi hi o'i frenhinol haelioni. Felly hi a ddychwelodd, ac a aeth i'w gwlad, hi a'i gweision.

14 ¶ A phwys yr aur a ddeuai i Solomon bob blwyddyn, oedd chwe chant a thri ugain a chwech o dalentau aur;

15 Heb law *yr hyn a gai efe* gan y marchnadwyr, ac o farsiandiaeth y llysieuwyr, a chan holl frenhinoedd Arabia, a thywysogion y wlad.

16 ¶ A'r brenhin Solomon a wnaeth ddau gant o dariannau aur dilin; chwe chan *sicl* o aur a roddodd efe ym mhob tarian:

17 A thri chant o fwcledi *o* aur dilin; tair punt o aur a roddes efe ym mhob bwcled. A'r brenhin a'u rhoddes hwynt yn nhŷ coedwig Libanus.

18 ¶ A'r brenhin a wnaeth orseddfaingc fawr o ifori, ac a'i gwisgodd hi âg aur o'r goreu.

19 Chwech o risiau *oedd* i'r orseddfaingc; a phen crwn *oedd* i'r orseddfaingc o'r tu ol iddi, a chanllawiau o bob tu i'r eisteddle, a dau lew yn sefyll yn ymyl y canllawiau.

20 A deuddeg o lewod oedd yn sefyll yno ar y chwe gris o'r ddeutu. Ni wnaethpwyd y fath yn un deyrnas.

21 ¶ A holl lestri yfed y brenhin Solomon *oedd o* aur; a holl lestri tŷ coedwig Libanus *oedd* aur pur: nid *oedd* arian *ynddynt.* Ni roddid dim bri arno yn nyddiau Solomon.

22 O herwydd llongau Tarsis *oedd* gan y brenhin ar y môr, gyd â llongau Hiram. Unwaith yn ŷ tair blynedd y deuai llongau Tarsis, yn dwyn aur, ac arian, ac ifori, ac eppaod, a pheunod.

23 A'r brenhin Solomon a ragorodd ar holl frenhinoedd y ddaear, mewn cyfoeth a doethineb.

24 ¶ A'r holl fyd oedd yn ceisio *gweled* wyneb Solomon, i glywed ei ddoethineb ef, a roddasai Duw yn ei galon ef.

25 A hwy a ddygasant bob un ei anrheg, llestri arian, a llestri aur, a gwisgoedd, ac arfau, a phêr-aroglau, meirch, a mulod, dogn bob blwyddyn.

26 ¶ A Solomon a gasglodd gerbydau a marchogion: ac yr oedd ganddo fil a phedwar cant o gerbydau, a deuddeng mil o farchogion; y rhai a osododd efe yn ninasoedd y cerbydau, a chyd â'r brenhin yn Jerusalem.

27 A'r brenhin a wnaeth yr arian yn Jerusalem fel cerrig, a'r cedrwydd a wnaeth efe fel sycamorwydd yn y doldir, o amldra.

28 ¶ A meirch a ddygid i Solomon o'r Aipht, ac edafedd llin: marchnadyddion y brenhin a gymmerent yr edafedd llin dan bris.

29 A cherbyd a ddeuai i fyny ac a âi allan o'r Aipht am chwe chan *sicl* o arian, a march am gant a deg a deugain: ac fel hyn i holl frenhinoedd yr Hethiaid, ac i frenhinoedd Syria, y dygent hwy *feirch* trwy eu llaw hwynt.

PENNOD 11.

1 Gwragedd a gordderchadon Solomon. 4 Y rhai hynny yn ei henaint yn ei dynnu ef i gaudduwiaeth. 9 Duw yn ei fygwth ef. 14 Gwrthwynebwyr Solomon oedd, Hadad, a aeth i'r Aipht; 23 Reson, a deyrnasodd yn Damascus; 26 a Jeroboam, i'r hwn y prophwydodd Ahiah. 41 Gweithredoedd, a theyrnasiad, a marwolaeth Solomon. 45 Rehoboam yn teyrnasu ar ei ol ef.

OND y brenhin Solomon a gar-odd lawer o wragedd dïeithr, heb law merch Pharaoh, Moabëesau, Ammonëesau, Edomëesau, Sidonëesau, *a* Hethëesau;

2 O'r cenhedloedd *am* y rhai y dywedasai yr Arglwydd wrth feibion Israel, Nac ewch i mewn attynt hwy, ac na ddeuant hwythau i mewn attoch chwi: dïau y troant eich calonnau chwi ar ol eu duwiau hwynt. Wrthynt hwy y glynodd Solomon mewn cariad.

3 Ac yr oedd ganddo ef saith gant o wragedd, yn frenhinesau; a thri chant o ordderch-wragedd: a'i wragedd a droisant ei galon ef.

4 A phan heneiddiodd Solomon, ei wragedd a droisant ei galon ef ar ol duwiau dïeithr: ac nid oedd ei galon ef berffaith gyd â'r Arglwydd ei Dduw, fel *y buasai* calon Dafydd ei dad ef.

5 Canys Solomon a aeth ar ol Astoreth duwies ŷ Sidoniaid, ac ar ol Milcom ffieidd-dra yr Ammoniaid.

6 A Solomon a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr Arglwydd; ac ni chyflawnodd *fyned* ar ol yr Arglwydd, fel Dafydd ei dad.

7 Yna Solomon a adeiladodd uchelfa i Cemos, ffieidd-dra Moab, yn y bryn *sydd* ar gyfer Jerusalem; ac i Moloch, ffieidd-dra meibion Ammon.

8 Ac felly y gwnaeth efe i'w holl wragedd dïeithr, y rhai a arogldarthasant ac a aberthasant i'w duwiau.

9 ¶ A'r Arglwydd a ddigiodd

wrth Solomon, o herwydd troi ei galon ef oddi wrth ARGLWYDD DDUW Israel, yr hwn a ymddangosasai iddo ef ddwy waith,

10 Ac a orchymynasai iddo am y peth hyn, nad elai efe ar ol duwiau dïeithr: ond ni chadwodd efe yr hyn a orchymynasai yr ARGLWYDD.

11 Am hynny y dywedodd yr ARGLWYDD wrth Solomon, O herwydd bod hyn ynot ti, ac na chedwaist fy nghyfammod a'm deddfau a orchymynais i ti; gan rwygo y rhwygaf y frenhiniaeth oddi wrthyt ti, ac a'i rhoddaf hi i'th was di.

12 Etto yn dy ddyddiau di ni wnaf hyn, er mwyn Dafydd dy dad: o law dy fab di y rhwygaf hi.

13 Ond ni rwygaf yr holl frenhiniaeth; un llwyth a roddaf i'th fab di, er mwyn Dafydd fy ngwas, ac er mwyn Jerusalem yr hon a etholais.

14 ¶ A'r ARGLWYDD a gyfododd wrthwynebwr i Solomon, Hadad yr Edomiad: o had y brenhin yn Edom *yr oedd* efe.

15 Canys pan oedd Dafydd yn Edom, *a* Joab tywysog y filwriaeth yn myned i fyny i gladdu y lladdedigion, wedi iddo daro pob gwrryw yn Edom;

16 (Canys chwe mis yr arhosodd Joab yno â holl Israel, nes difetha pob gwrryw yn Edom:)

17 Yr Hadad hwnnw a ffodd, a gwŷr Edom o weision ei dad gyd âg ef, i fyned i'r Aipht; a Hadad yn fachgen bychan etto.

18 A hwy a gyfodasant o Midian, ac a ddaethant i Paran: ac a gymmerasant wŷr gyd â hwynt o Paran, ac a ddaethant i'r Aipht, at Pharaoh brenhin yr Aipht; ac efe a roddes iddo ef dŷ, ac a ddywedodd *am roddi* bwyd iddo, ac a roddodd dir iddo.

19 A Hadad a gafodd ffafr fawr y'ngolwg Pharaoh, ac efe a roddes iddo ef yn wraig chwaer ei wraig ei hun, chwaer Tahpenes y frenhines.

20 A chwaer Tahpenes a ymddûg iddo ef Genubath ei fab; a Thahpenes a'i diddyfnodd ef yn nhŷ Pharaoh: a Genubath fu yn nhŷ Pharaoh ym mysg meibion Pharaoh.

21 A phan glybu Hadad yn yr Aipht, huno o Dafydd gyd â'i dadau, a marw o Joab tywysog y filwriaeth, Hadad a ddywedodd wrth Pharaoh, Gollwng fi, fel yr elwyf i'm gwlad fy hun.

22 A dywedodd Pharaoh wrtho ef, Ond pa beth sydd arnat ei eisieu gyd â mi, pan wyt, wele, yn ceisio myned i'th wlad dy hun? Ac efe a ddywedodd, Dim; eithr gan ollwng gollwng fi.

23 ¶ A DUW a gyfododd wrthwynebwr *arall* yn ei erbyn ef, Reson mab Eliada, yr hwn a ffoisai oddi wrth Hadadeser brenhin Soba ei arglwydd:

24 Ac efe a gynhullodd wŷr atto, ac a aeth yn dywysog ar fyddin, pan laddodd Dafydd hwynt *o Sobah;* a hwy a aethant i Damascus, ac a drigasant ynddi, ac a deyrnasasant yn Damascus.

25 Ac yr oedd efe yn wrthwynebwr i Israel holl ddyddiau Solomon, heb law y drwg *a wnaeth* Hadad: ac efe a ffieiddiodd Israel, ac a deyrnasodd ar Syria.

26 ¶ A Jeroboam mab Nebat, Ephratead o Seredah, (ac enw ei fam ef *oedd* Serfah, *yr hon oedd* wraig weddw,) gwas i Solomon, a ddyrchafodd hefyd *ei* law yn erbyn y brenhin.

27 Ac o achos hyn y dyrchafodd efe *ei* law yn erbyn y brenhin: Solomon a adeiladodd Milo, *ac* a gauodd adwyau dinas Dafydd ei dad.

28 A'r gŵr Jeroboam *oedd* rymmus o nerth: a Solomon a ganfu y llangc hwnnw yn *medru* gwneuthur gwaith, ac a'i gwnaeth ef yn oruchwyliwr ar holl faich tŷ Joseph.

29 A'r pryd hwnnw, a Jeroboam yn myned allan o Jerusalem, y prophwyd Ahïah y Siloniad a'i cafodd ef ar y ffordd, ac efe oedd wedi ei wisgo mewn gwisg newydd, a hwynt ill dau *oeddynt* yn unig yn y maes.

30 Ac Ahïah a ymaflodd yn y wisg newydd *oedd* am dano ef, ac a'i rhwygodd *yn* ddeuddeg o ddarnau.

31 Ac efe a ddywedodd wrth Jeroboam, Cymmer i ti ddeg darn: canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel, Wele fi yn rhwygo y frenhiniaeth o law Solomon, a rhoddaf ddeg llwyth i ti:

32 (Ond un llwyth fydd iddo ef,

er mwyn fy ngwas Dafydd, ac er mwyn Jerusalem, y ddinas a etholais i o holl lwythau Israel :)

33 Oblegid iddynt fy ngwrthod i, ac ymgrymmu i Astoreth duwies y Sidoniaid, *ac* i Cemos duw y Moabiaid, ac i Milcom duw meibion Ammon, ac na rodiasant yn fy ffyrdd i, i wneuthur *yr hyn oedd* uniawn yn fy ngolwg i, ac *i wneuthur* fy neddfau a'm barnedigaethau, fel Dafydd ei dad.

34 Ond ni chymmeraf yr holl frenhiniaeth o'i law ef : eithr gwnaf ef yn dywysog holl ddyddiau ei einioes, er mwyn Dafydd fy ngwas, yr hwn a ddewisais i, yr hwn a gadwodd fy ngorchymynion a'm deddfau i :

35 Eithr cymmeraf yr holl frenhiniaeth o law ei fab ef, a rhoddaf *o* honi i ti ddeg llwyth.

36 Ac i'w fab ef y rhoddaf un llwyth ; fel y byddo goleuni i'm gwas Dafydd yn wastadol ger fy mron yn Jerusalem, y ddinas a ddewisais i mi i osod fy enw yno.

37 A thi a gymmeraf fi, fel y teyrnasech yn ol yr hyn oll a ddymuno dy galon ; a thi a fyddi frenhin ar Israel.

38 Ac os gwrandewi di ar yr hyn oll a orchymynwyf i ti, a rhodio yn fy ffyrdd i, a gwneuthur *yr hyn sydd* uniawn yn fy ngolwg i, i gadw fy neddfau a'm gorchymynion, fel y gwnaeth Dafydd fy ngwas ; yna mi a fyddaf gyd â thi, ac a adeiladaf i ti dŷ sicr, fel yr adeiledais i Dafydd, a mi a roddaf Israel i ti.

39 A mi a gystuddiaf had Dafydd oblegid hyn ; etto nid yn dragywydd.

40 Am hynny Solomon a geisiodd ladd Jeroboam. A Jeroboam a gyfododd, ac a ffodd i'r Aipht, at Sisac brenhin yr Aipht ; ac efe a fu yn yr Aipht hyd farwolaeth Solomon.

41 ¶ A'r rhan arall o weithredoedd Solomon, a'r hyn oll a wnaeth efe, a'i ddoethineb ef, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr gweithredoedd Solomon ?

42 A'r dyddiau y teyrnasodd Solomon yn Jerusalem, ar holl Israel, *oedd* ddeugain mlynedd.

43 A Solomon a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd yn ninas Dafydd ei dad ; a Rehoboam ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 12.

1 *Yr Israeliaid wedi ymgasglu yn Sichem i goroni Rehoboam, trwy Jeroboam yn ceisio rhyddhâd ganddo.* 6 *Rehoboam yn gwrthod cynghor yr henafgwyr, a thrwy gynghor y gwŷr ieuainge, yn ei hatteb hwy yn arw.* 16 *Deg llwyth yn gwrthryfela, ac yn lladd Adoram, ac yn gyrru Rehoboam i ffoi.* 21 *Rehoboam yn casglu llu, a Semaiah yn gwarafun iddo.* 25 *Jeroboam yn ymgadarnhau â threfydd,* 26 *a thrwy ddelw-addoliaeth y ddau lo.*

YNA Rehoboam a aeth i Sichem : canys i Sichem y daethai holl Israel i'w urddo ef yn frenhin.

2 A phan glybu Jeroboam mab Nebat, ac efe etto yn yr Aipht, (canys efe a ffoisai o ŵydd Solomon y brenhin, a Jeroboam a arhosasai yn yr Aipht ;)

3 Hwy a anfonasant, ac a alwasant arno ef. A Jeroboam a holl gynnulleidfa Israel a ddaethant, ac a ymddiddanasant â Rehoboam, gan ddywedyd,

4 Dy dad di a wnaeth ein hiau ni yn drom : ac yn awr ysgafnhâ *beth* o gaethiwed caled dy dad, ac o'i iau drom ef a roddodd efe arnom ni, ac ni a'th wasanaethwn di.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch etto dridiau ; yna dychwelwch attaf fi. A'r bobl a aethant ymaith.

6 ¶ A'r brenhin Rehoboam a ymgynghorodd â'r henuriaid a fuasai yn sefyll ger bron Solomon ei dad ef, tra yr ydoedd efe yn fyw, ac a ddywedodd, Pa fodd yr ydych chwi yn cynghori atteb i'r bobl hyn ?

7 A hwy a lefarasant wrtho ef, gan ddywedyd, Os byddi di heddyw was i'r bobl hyn, a'u gwasanaethu hwynt, a'u hatteb hwynt, a llefaru wrthynt eiriau teg ; yna y byddant weision i ti byth.

8 Ond efe a wrthododd gynghor yr henuriaid, yr hwn a gynghorasent iddo ef ; ac efe a ymgynghorodd â'r gwŷr ieuainge a gynnyddasai gyd âg ef, *a'r* rhai oedd yn sefyll ger ei fron ef :

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Beth yr ydych chwi yn ei gynghori, fel yr attebom y bobl hyn, y rhai a lefarasant wrthyf, gan

ddywedyd, Ysgafnhâ yr iau a roddodd dy dad arnom ni?
10 A'r gwŷr ieuaingc, y rhai a gynnyddasent gyd âg ef, a lefarasant wrtho, gan ddywedyd, Fel hyn y dywedi di wrth y bobl yma, y rhai a lefarasant wrthyt, gan ddywedyd, Dy dad di a drymhaodd ein hiau ni, ond ysgafnhâ di *hi* arnom ni; fel hyn y lleferi di wrthynt; Fy *mys* bach *fydd* breisgach na llwynau fy nhad.
11 Ac yn awr fy nhad a'ch llwythodd â iau drom, a minnau a chwanegaf ar eich iau chwi: fy nhad a'ch cospodd chwi â ffrewyllau, a mi a'ch cospaf chwi âg ysgorpionau.
12 ¶ A daeth Jeroboam a'r holl bobl at Rehoboam y trydydd dydd, fel y llefarasai y brenhin, gan ddywedyd, Dychwelwch attaf fi y trydydd dydd.
13 A'r brenhin a attebodd y bobl yn arw, ac a wrthododd gynghor yr henuriaid a gynghorasent hwy iddo;
14 Ac a lefarodd wrthynt hwy yn ol cynghor y gwŷr ieuaingc, gan ddywedyd, Fy nhad a wnaeth eich iau chwi yn drom, a minnau a chwanegaf ar eich iau chwi: fy nhad a'ch ceryddodd chwi â ffrewyllau, a minnau a'ch ceryddaf chwi âg ysgorpionau.
15 Ac ni wrandawodd y brenhin ar y bobl. O herwydd yr achos oedd oddi wrth yr ARGLWYDD, fel y cwblhêid ei air ef, yr hwn a lefarasai yr ARGLWYDD trwy law Ahïah y Siloniad wrth Jeroboam mab Nebat.
16 ¶ A phan welodd holl Israel na wrandawai y brenhin arnynt hwy, y bobl a attebasant y brenhin, gan ddywedyd, Pa ran *sydd* i ni yn Dafydd? nid *oes i ni* etifeddiaeth ym mab Jesse: O Israel, *dos* i'th bebyll; edrych yn awr *ar* dy dŷ dy hun, Dafydd. Felly Israel a aethant i'w pebyll.
17 Ond meibion Israel, y rhai oedd yn preswylio yn ninasoedd Judah, Rehoboam a deyrnasodd arnynt hwy.
18 A'r brenhin Rehoboam a anfonodd Adoram, yr hwn *oedd* ar y dreth; a holl Israel a'i llabyddiasant ef â meini, fel y bu cfe farw. Am hynny y brenhin Rehoboam a brysurodd i fyned i'w gerbyd, i ffoi i Jerusalem.
19 Felly Israel a wrthryfelasant yn erbyn tŷ Dafydd hyd y dydd hwn.
20 A phan glybu holl Israel ddychwelyd o Jeroboam, hwy a anfonasant ac a'i galwasant ef at y gynnulleidfa, ac a'i gosodasant ef yn frenhin ar holl Israel: nid oedd *yn myned* ar ol tŷ Dafydd, ond llwyth Judah yn unig.
21 ¶ A phan ddaeth Rehoboam i Jerusalem, efe a gasglodd holl dŷ Judah, a llwyth Benjamin, cant a phedwar ugain mil *o wŷr* dewisol, cymmwys i ryfel, i ymladd yn erbyn tŷ Israel, i ddwyn drachefn y frenhiniaeth i Rehoboam mab Solomon.
22 Ond gair DUW a ddaeth at Semaiah gŵr DUW, gan ddywedyd,
23 Adrodd wrth Rehoboam mab Solomon brenhin Judah, ac wrth holl dŷ Judah a Benjamin, a gweddill y bobl, gan ddywedyd,
24 Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD, Nac ewch i fyny, ac nac ymleddwch yn erbyn eich brodyr meibion Israel; dychwelwch bob un i'w dŷ ei hun: canys trwof fi y mae y peth hyn. A hwy a wrandawsant ar air yr ARGLWYDD, ac a ddychwelasant i fyned ymaith, yn ol gair yr ARGLWYDD.
25 ¶ Yna Jeroboam a adeiladodd Sichem ym mynydd Ephraim, ac a drigodd ynddi hi; ac a aeth oddi yno, ac a adeiladodd Penuel.
26 A Jeroboam a feddyliodd yn ei galon, Yn awr y dychwel y frenhiniaeth at dŷ Dafydd.
27 Os â y bobl hyn i fyny i wneuthur aberthau yn nhŷ yr ARGLWYDD yn Jerusalem, yna y try calon y bobl hyn at eu harglwydd Rehoboam brenhin Judah, a hwy a'm lladdant i, ac a ddychwelant at Rehoboam brenhin Judah.
28 Yna y brenhin a ymgynghorodd, ac a wnaeth ddau lo aur, ac a ddywedodd wrthynt hwy, Gormod yw i chwi fyned i fyny i Jerusalem: wele dy dduwiau di, O Israel, y rhai a'th ddug di i fyny o wlad yr Aipht.
29 Ac efe a osododd un yn Bethel, ac a osododd y llall yn Dan.

30 A'r peth hyn a aeth yn bechod: oblegid y bobl a aethant ger bron y naill hyd Dan.

31 Ac efe a wnaeth dŷ uchelfeydd, ac a wnaeth offeiriaid o'r rhai gwaelaf o'r bobl, y rhai nid oedd o feibion Lefi.

32 A Jeroboam a wnaeth uchelwyl yn yr wythfed mis, ar y pymthegfed dydd o'r mis, fel yr uchelwyl *oedd* yn Judah; ac efe a offrymmodd ar yr allor. Felly y gwnaeth efe yn Bethel, gan aberthu i'r lloi a wnaethai efe: ac efe a osododd yn Bethel offeiriaid yr uchelfaoedd a wnaethai efe.

33 Ac efe a offrymmodd ar yr allor a wnaethai efe yn Bethel, y pymthegfed dydd o'r wythfed mis, *sef* yn y mis a ddychymmygasai efe yn ei galon ei hun; ac efe a wnaeth uchel-wyl i feibion Israel: ac efe a aeth i fyny at yr allor i arogl-darthu.

PENNOD 13.

1 *Llaw Jeroboam, yr hon a estynasai efe yn erbyn yr hwn a brophwydasai yn erbyn yr allor yn Bethel, yn gwywo; 6 a thrwy weddi y prophwyd, yn mynedd yn iach.* 7 *Y prophwyd yn gorthod croesaw y brenhin, ac yn myned ymaith o Bethel.* 11 *Hen brophwyd yn ei hudo ef, ac yn ei droi yn ei ol.* 20 *Duw yn ei geryddu ef;* 24 *a llew yn ei ladd ef;* 26 *a'r hen brophwyd yn ei gladdu ef,* 31 *ac yn cadarnhau ei brophwydoliaeth ef.* 33 *Cymdynrwydd Jeroboam.*

AC wele gŵr i DDUW a ddaeth o Judah, trwy air yr ARGLWYDD, i Bethel: a Jeroboam oedd yn sefyll wrth yr allor i arogl-darthu.

2 Ac efe a lefodd yn erbyn yr allor, trwy air yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, O allor, allor, fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD; Wele, mab a enir i dŷ Dafydd, a'i enw Josïah; ac efe a abertha arnat ti offeiriaid yr uchelfeydd y rhai sydd yn arogl-darthu arnat ti, a hwy a losgant esgyrn dynion arnat ti.

3 Ac efe a roddodd arwydd y dwthwn hwnnw, gan ddywedyd, Dyma yr argoel a lefarodd yr ARGLWYDD; Wele, yr allor a rwygir, a'r lludw *sydd* arni a dywelltir.

4 A phan glybu y brenhin air gŵr DUW, yr hwn a lefodd efe yn erbyn yr allor yn Bethel, yna Jeroboam a estynodd ei law oddi wrth yr allor, gan ddywedyd, Deliwch ef. A diffrwythodd ei law ef, yr hon a estynasai efe yn ei erbyn ef, fel na allai efe ei thynnu hi atto.

5 Yr allor hefyd a rwygodd, a'r lludw a dywalltwyd oddi ar yr allor, yn ol yr argoel a roddasai gŵr DUW trwy air yr ARGLWYDD.

6 A'r brenhin a attebodd ac a ddywedodd wrth ŵr DUW, Gweddïa, attolwg, ger bron yr ARGLWYDD dy DDUW, ac ymbil drosof fi, fel yr adferer fy llaw i mi. A gŵr DUW a weddïodd ger bron yr ARGLWYDD; a llaw y brenhin a adferwyd iddo ef, ac a fu fel cynt.

7 A'r brenhin a ddywedodd wrth ŵr DUW, Tyred adref gyd â mi, a chymmer luniaeth, a mi a roddaf rodd i ti.

8 A gŵr DUW a ddywedodd wrth y brenhin, Pe rhoddit i mi hanner dy dŷ, ni ddeuwn i gyd â thi; ac ni fwyttâwn fara, ac ni yfwn ddwfr, yn y fan hon:

9 Canys fel hyn y gorchymynwyd i mi trwy air yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Na fwytta fara, ac nac ŷf ddwfr; na ddychwel chwaith ar hyd y ffordd y daethost.

10 Felly efe a aeth ymaith ar hyd ffordd arall, ac ni ddychwelodd ar hyd y ffordd y daethai ar hyd-ddi i Bethel.

11 ¶ Ac yr oedd rhyw hen brophwyd yn trigo yn Bethel; a'i fab a ddaeth ac a fynegodd iddo yr holl waith a wnelsai gŵr DUW y dydd *hwnnw* yn Bethel: a hwy a fynegasant i'w tad y geiriau a lefarasai efe wrth y brenhin.

12 A'u tad a ddywedodd wrthynt, Pa ffordd yr aeth efe? A'i feibion a welsent y ffordd yr aethai gŵr DUW, yr hwn á ddaethai o Judah.

13 Ac efe a ddywedodd wrth ei feibion, Cyfrwywch i mi yr asyn. A hwy a gyfrwyasant iddo yr asyn; ac efe a farchogodd arno.

14 Ac efe a aeth ar ol gŵr DUW, ac a'i cafodd ef yn eistedd dan dderwen; ac a ddywedodd wrtho, Ai tydi *yw* gŵr DUW, yr hwn a ddaethost o Judah? Ac efe a ddywedodd, *Ie*, myfi.

15 Yna efe a ddywedodd wrtho, Tyred adref gyd â mi, a bwytta fara.

16 Yntau a ddywedodd, Ni allaf ddychwelyd gyd â thi, na dyfod gyd â thi; ac ni fwyttâf fara, ac nid yfaf ddwfr gyd â thi yn y fan hon.

17 Canys dywedwyd wrthyf trwy ymadrodd yr ARGLWYDD, Na fwytta fara, ac nac ŷf ddwfr yno; ac na ddychwel gan fyned trwy y ffordd y daethost ar hyd-ddi.

18 Dywedodd yntau wrtho, Prophwyd hefyd *ydwyf* fi fel tithau; ac angel a lefarodd wrthyf trwy air yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Dychwel ef gyd â thi i'th dŷ, fel y bwyttao fara, ac yr yfo ddwfr. *Ond* efe a ddywedodd gelwydd wrtho.

19 Felly efe a ddychwelodd gyd âg ef, ac a fwyttaodd fara yn ei dŷ ef, ac a yfodd ddwfr.

20 ¶ A phan oeddynt hwy yn eistedd wrth y bwrdd, daeth gair yr ARGLWYDD at y prophwyd a barasai iddo ddychwelyd:

21 Ac efe a lefodd ar ŵr DUW yr hwn a ddaethai o Judah, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; O herwydd i ti anufuddhâu i air yr ARGLWYDD, ac na chedwaist y gorchymyn a orchymynodd yr ARGLWYDD dy DDUW i ti,

22 Eithr dychwelaist, a bwytteaist fara, ac yfaist ddwfr, yn y lle *am* yr hwn y dywedodd *yr ARGLWYDD* wrthyt ti, Na fwytta fara, ac nac ŷf ddwfr; nid â dy gelain di i feddrod dy dadau.

23 ¶ Ac wedi iddo fwytta bara, ac wedi iddo yfed, efe a gyfrwyodd iddo yr asyn, *sef* i'r prophwyd a barasai efe iddo ddychwelyd.

24 Ac wedi iddo fyned ymaith, llew a'i cyfarfu ef ar y ffordd, ac a'i lladdodd ef: a bu ei gelain ef wedi ei bwrw ar y ffordd, a'r asyn oedd yn sefyll yn ei ymyl ef, a'r llew yn sefyll wrth y gelain.

25 Ac wele wŷr yn myned heibio, ac a ganfuant y gelain wedi ei thaflu ar y ffordd, a'r llew yn sefyll wrth y gelain: a hwy a ddaethant ac a adroddasant *hynny* yn y ddinas yr oedd yr hen brophwyd yn aros ynddi.

26 A phan glybu y prophwyd, yr hwn a barasai iddo ef ddychwelyd o'r ffordd, efe a ddywedodd, GŴR DUW *yw* efe, yr hwn a anufuddhaodd air yr ARGLWYDD: am hynny yr ARGLWYDD a'i rhoddodd ef i'r llew, yr hwn a'i drylliodd ef, ac a'i lladdodd ef, yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarodd efe wrtho ef.

27 Ac efe a lefarodd wrth ei feibion, gan ddywedyd, Cyfrwywch i mi yr asyn. A hwy a'i cyfrwyasant.

28 Ac efe a aeth, ac a gafodd ei gelain ef wedi ei thaflu ar y ffordd, a'r asyn a'r llew yn sefyll wrth y gelain: ac ni fwyttasai y llew y gelain, ac ni ddrylliasai efe yr asyn.

29 A'r prophwyd a gymmerth gelain gŵr DUW, ac a'i gosododd hi ar yr asyn, ac a'i dug yn ei hol. A'r hen brophwyd a ddaeth i'r ddinas, i alaru, ac i'w gladdu ef.

30 Ac efe a osododd ei gelain ef yn ei feddrod ei hun; a hwy a alarasant am dano ef, *gan ddywedyd*, O fy mrawd!

31 Ac wedi iddo ei gladdu ef, efe a lefarodd wrth ei feibion, gan ddywedyd, Pan fyddwyf farw, cleddwch finnau hefyd yn y bedd y cladd-wyd gŵr DUW ynddo; gosodwch fy esgyrn i wrth ei esgyrn ef.

32 Canys diammeu y bydd yr hyn a lefodd efe trwy air yr ARGLWYDD yn erbyn yr allor *sydd* yn Bethel, ac yn erbyn holl dai yr uchelfeydd *sydd* yn ninasoedd Samaria.

33 ¶ Wedi y peth hyn ni ddychwelodd Jeroboam o'i ffordd ddrygionus; ond efe a wnaeth drachefn o wehilion y bobl offeiriaid i'r uchelfeydd: y neb a fynnai, efe a'i cyssegrai ef, ac efe a gai fod yn offeiriad i'r uchelfeydd.

34 A'r peth hyn a aeth yn bechod i dŷ Jeroboam, i'*w* ddiwreiddio hefyd, ac i'*w* ddilêu oddi ar wyneb y ddaear.

PENNOD 14.

1 Jeroboam, pan glafychodd ei fab Abiah, yn gyrru ei wraig yn ddieithr âg anrheyion i'r prophwyd Ahiah i Siloh. 5 Ahiah, ar rybudd Duw, yn cyhoeddi barn Duw. 17 Abiah yn marw, a'i gladdu ef. 19 Nadab yn dyfod ar ol Jeroboam. 21 Drygionus lywodraeth Rehoboam. 25 Sisac yn anrheithio Jerusalem. 29 Abiam yn dyfod ar ol Rehoboam.

Y PRYD hwnnw y clafychodd Abiah mab Jeroboam.

2 A Jeroboam a ddywedodd wrth ei wraig, Cyfod, attolwg, a newid

dy ddillad, fel na wypont mai ti *yw* gwraig Jeroboam; a dos i Siloh: wele, yno *y mae* Ahïah y prophwyd, yr hwn a ddywedodd wrthyf *y byddwn* frenhin ar y bobl yma.

3 A chymmer yn dy law ddeg o fara, a theisennau, a chostrelaid o fêl, a dos atto ef: efe a fynega i ti beth a dderfydd i'r bachgen.

4 A gwraig Jeroboam a wnaeth felly; ac a gyfododd ac a aeth i Siloh, ac a ddaeth i dŷ Ahïah. Ond ni allai Ahïah weled; o herwydd ei lygaid ef a ballasai oblegid ei henaint.

5 ¶ A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Ahïah, Wele, y mae gwraig Jeroboam yn dyfod i geisio peth gennyt dros ei mab; canys claf yw efe: fel hyn ac fel hyn y dywedi wrthi hi: canys pan ddelo hi i mewn, hi a ymddïeithra.

6 A phan glybu Ahïah drwst ei thraed hi yn dyfod i'r drws, efe a ddywedodd, Tyred i mewn, gwraig Jeroboam; i ba beth yr wyt ti yn ymddïeithro? canys myfi a anfonwyd attat ti â *newyddion* caled.

7 Dos, dywed wrth Jeroboam, Fel hyn y dywedodd ARGLWYDD DDUW Israel; Yn gymmaint a darfod i mi dy ddyrchafu di o blith y bobl, a'th wneuthur di yn flaenor ar fy mhobl Israel,

8 A thorri ymaith y frenhiniaeth oddi wrth dŷ Dafydd, a'i rhoddi i ti; ac na buost ti fel fy ngwas Dafydd, yr hwn a gadwodd fy ngorchymynion, a'r hwn a rodiodd ar fy ol i â'i holl galon, i wneuthur yn unig *yr hyn oedd* uniawn yn fy ngolwg i;

9 Ond a wnaethost ddrwg y tu hwnt i bawb a fu o'th flaen di; ac a aethost ac a wnaethost i ti dduwiau dïeithr, a delwau toddedig, i'm digio i, ac a'm teflaist i o'r tu ol i'th gefn:

10 Am hynny, wele fi yn dwyn drwg ar dŷ Jeroboam; a thorraf ymaith oddi wrth Jeroboam bob gwrryw, y gwarchaëedig a'r gweddilledig yn Israel; a mi a fwriaf allan weddillion tŷ Jeroboam, fel y bwrir allan dom, nes ei ddarfod.

11 Y cwn a fwytty yr hwn fyddo farw o eiddo Jeroboam yn y ddinas; ac adar y nefoedd a fwytty yr hwn fyddo farw yn y maes: canys yr ARGLWYDD a'*i* dywedodd.

12 Cyfod di gan hynny, dos i'th dŷ: *a* phan ddelo dy draed i'r ddinas, bydd marw y bachgen.

13 A holl Israel a alarant am dano ef, ac a'i claddant ef: canys efe yn unig o Jeroboam a ddaw i'r bedd; o herwydd cael ynddo ef beth daioni tu ag at ARGLWYDD DDUW Israel, yn nhŷ Jeroboam.

14 Yr ARGLWYDD hefyd a gyfyd iddo frenhin ar Israel, yr hwn a dyr ymaith dŷ Jeroboam y dwthwn hwnnw: ond pa beth? ïe, yn awr.

15 Canys yr ARGLWYDD a dery Israel, megis y siglir y gorsen mewn dwfr; ac a ddiwreiddia Israel o'r wlad dda hon a roddodd efe i'w tadau hwynt, ac a'u gwasgar hwynt tu hwnt i'r afon; o herwydd gwneuthur o honynt eu llwyni, gan annog yr ARGLWYDD i ddigofaint.

16 Ac efe a ddyry heibio Israel, er mwyn pechodau Jeroboam, yr hwn a bechodd, a'r hwn a wnaeth i Israel bechu.

17 ¶ A gwraig Jeroboam a gyfododd, ac a aeth ymaith, ac a ddaeth i Tirsah: ac a hi yn dyfod i drothwy y tŷ, bu farw y bachgen.

18 A hwy a'i claddasant ef; a holl Israel a alarasant am dano, yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarasai efe trwy law ei was Ahïah y prophwyd.

19 A'r rhan arall o weithredoedd Jeroboam, fel y rhyfelodd efe, ac fel y teyrnasodd efe, wele hwynt yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel.

20 A'r dyddiau y teyrnasodd Jeroboam *oedd* ddwy flynedd ar hugain: ac efe a hunodd gyd â'i dadau; a Nadab ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

21 ¶ A Rehoboam mab Solomon a deyrnasodd yn Judah. Mab un flwydd a deugain *oedd* Rehoboam pan aeth efe yn frenhin, a dwy flynedd ar bymtheg y teyrnasodd efe yn Jerusalem, y ddinas a ddewisasai yr ARGLWYDD o holl lwythau Israel, i osod ei enw yno. Ac enw ei fam ef *oedd* Naamah, Ammonëes.

22 A Judah a wnaeth ddrygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD; a hwy a'i hannogasant ef i eiddigedd, rhagor yr hyn oll a wnaethai eu tadau, yn eu pechodau a wnaethent.
23 Canys hwy a adeiladasant iddynt uchelfeydd, a delwau, a llwyni ar bob bryn uchel, a than bob pren gwyrddlas.
24 A gwŷr sodomiaidd oedd yn y wlad: gwnaethant *hefyd* yn ol holl ffieidd-dra y cenhedloedd a fwriasai yr ARGLWYDD allan o flaen meibion Israel.
25 ¶ Ac yn y bummed flwyddyn i'r brenhin Rehoboam, Sisac brenhin yr Aipht a ddaeth i fyny yn erbyn Jerusalem.
26 Ac efe a ddug ymaith drysorau tŷ yr ARGLWYDD, a thrysorau tŷ y brenhin; efe a'u dug hwynt ymaith oll: dug ymaith hefyd yr holl dariannau aur a wnaethai Solomon.
27 A'r brenhin Rehoboam a wnaeth yn eu lle hwynt dariannau pres, ac a'u rhoddodd *hwynt* i gadw yn llaw tywysogion y rhedegwyr, y rhai oedd yn cadw drws tŷ y brenhin.
28 A phan elai y brenhin i dŷ yr ARGLWYDD, y rhedegwyr a'u dygent hwy, ac a'u hadferent i ystafell y rhedegwyr.
29 ¶ A'r rhan arall o weithredoedd Rehoboam, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?
30 A rhyfel fu rhwng Rehoboam a Jeroboam yr holl ddyddiau.
31 A Rehoboam a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd gyd â'i dadau yn ninas Dafydd. Ac enw ei fam ef *oedd* Naamah, Ammonëes. Ac Abïam ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 15.

1 *Annuwiol deyrnasiad Abïam.* 8 *Asa ar ei ol ef,* 11 *yn teyrnasu yn ddaionus;* 16 *a'r rhyfel rhyngddo ef a Baasa, yn peri iddo wneuthur cynghrair â Benhadad.* 24 *Jehosaphat yn dyfod ar ei ol ef.* 25 *Drygionus lywodraeth Nadab.* 27 *Brad Baasa yn ei erbyn ef, yn cyflawni prophwydoliaeth Ahiah.* 31 *Hanes Nadab, a'i farwolaeth.* 33 *Drygionus lywodraeth Baasa.*

AC yn y ddeunawfed flwyddyn i'r brenhin Jeroboam mab Nebat, yr aeth Abïam yn frenhin ar Judah.
2 Tair blynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem. Ac enw ei fam ef *oedd* Maachah, merch Abisalom.
3 Ac efe a rodiodd yn holl bechodau ei dad, y rhai a wnaethai efe o'i flaen ef: ac nid oedd ei galon ef berffaith gyd â'r ARGLWYDD ei DDUW, fel calon Dafydd ei dad.
4 Ond er mwyn Dafydd y rhoddodd yr ARGLWYDD ei DDUW iddo ef oleuni yn Jerusalem; i gyfodi ei fab ef ar ei ol ef, ac i sicrhâu Jerusalem:
5 O herwydd gwneuthur o Dafydd yr *hyn oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac na chiliodd oddi wrth yr hyn oll a orchymynodd efe iddo holl ddyddiau ei einioes, ond yn achos Uriah yr Hethiad.
6 A rhyfel a fu rhwng Rehoboam a Jeroboam holl ddyddiau ei einioes.
7 A'r rhan arall o weithredoedd Abïam, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah? A rhyfel a fu rhwng Abïam a Jeroboam.
8 Ac Abïam a hunodd gyd â'i dadau, a hwy a'i claddasant ef yn ninas Dafydd. Ac Asa ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.
9 ¶ Ac yn yr ugeinfed flwyddyn i Jeroboam brenhin Israel yr aeth Asa yn frenhin ar Judah.
10 Ac un flynedd a deugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem. Ac enw ei fam ef *oedd* Maachah, merch Abisalom.
11 Ac Asa a wnaeth *yr hyn oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, fel Dafydd ei dad.
12 Ac efe a yrrodd ymaith y gwŷr sodomiaidd o'r wlad, ac a fwriodd ymaith yr holl ddelwau a wnaethai ei dadau.
13 Ac efe a symmudodd Maachah ei fam o *fod* yn frenhines, o herwydd gwneuthur o honi hi ddelw mewn llwyn; ac Asa a ddrylliodd ei delw hi, ac a'i llosgodd wrth afon Cidron.
14 Ond ni fwriwyd ymaith yr uchelfeydd: etto calon Asa oedd berffaith gyd â'r ARGLWYDD ei holl ddyddiau ef.
15 Ac efe a ddug i mewn gyssegredig bethau ei dad, a'r pethau a

gyssegrasai efe ei hun, i dŷ yr ARGLWYDD, yn arian, yn aur, ac yn llestri.

16 ¶ A rhyfel a fu rhwng Asa a Baasa brenhin Israel eu holl ddyddiau hwynt.

17 A Baasa brenhin Israel a aeth i fyny yn erbyn Judah, ac a adeiladodd Ramah; fel na adawai efe i neb fyned allan na dyfod i mewn at Asa brenhin Judah.

18 Yna Asa a gymmerodd yr holl arian a'r aur a adawsid yn nhrysorau tŷ yr ARGLWYDD, a thrysorau tŷ y brenhin, ac efe a'u rhoddodd hwynt yn llaw ei weision: a'r brenhin Asa a anfonodd at Benhadad mab Tabrimon, mab Hesion, brenhin Syria, yr hwn oedd yn trigo yn Damascus, gan ddywedyd,

19 Cyfammod *sydd* rhyngof fi a thi, rhwng fy nhad i a'th dad di: wele, mi a anfonais i ti anrheg o arian ac aur; tyred, diddymma dy gyfammod â Baasa brenhin Israel, fel y cilio efe oddi wrthyf fi.

20 Felly Benhadad a wrandawodd ar y brenhin Asa, ac a anfonodd dywysogion y lluoedd, y rhai *oedd* ganddo ef, yn erbyn dinasoedd Israel, ac a darawodd Ijon, a Dan, ac Abelbeth-maachah, a holl Cinneroth, gyd â holl wlad Naphtali.

21 A phan glybu Baasa *hynny*, efe a beidiodd âg adeiladu Ramah; ac a drigodd yn Tirsah.

22 Yna y brenhin Asa a gasglodd holl Judah, heb lysu *neb:* a hwy a gymmerasant gerrig Ramah, a'i choed, â'r rhai yr adeiladasai Baasa; a'r brenhin Asa a adeiladodd â hwynt Geba Benjamin, a Mispah.

23 A'r rhan arall o holl hanes Asa, a'i holl gadernid ef, a'r hyn oll a wnaeth efe, a'r dinasoedd a adeiladodd efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah? eithr yn amser ei henaint efe a glafychodd o'i draed.

24 Ac Asa a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd gyd â'i dadau yn ninas Dafydd ei dad; a Jehosaphat ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

25 ¶ A Nadab mab Jeroboam a ddechreuodd deyrnasu ar Israel yn yr ail flwyddyn i Asa brenhin Judah; ac a deyrnasodd ar Israel ddwy flynedd.

26 Ac efe a wnaeth ddrygioni yng ngolwg yr ARGLWYDD, ac a rodiodd yn ffordd ei dad, ac yn ei bechod ef â'r hwn y gwnaeth efe i Israel bechu.

27 ¶ A Baasa mab Ahïah, o dŷ Issachar, a gyd-fwriadodd yn ei erbyn ef; a Baasa a'i tarawodd ef yn Gibbethon *eiddo* y Philistiaid: canys Nadab a holl Israel oedd yn gwarchae ar Gibbethon.

28 A Baasa a'i lladdodd ef yn y drydedd flwyddyn i Asa brenhin Judah, ac a deyrnasodd yn ei le ef.

29 A phan deyrnasodd, efe a darawodd holl dŷ Jeroboam; ni adawodd un *perchen* anadl i Jeroboam, nes ei ddifetha ef, yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarasai efe trwy law ei was Ahïah y Siloniad:

30 Am bechodau Jeroboam y rhai a bechasai efe, a *thrwy* y rhai y gwnaethai efe i Israel bechu; o herwydd ei waith ef yn digio ARGLWYDD DDUW Israel.

31 A'r rhan arall o hanes Nadab, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

32 A rhyfel a fu rhwng Asa a Baasa brenhin Israel eu holl ddyddiau hwynt.

33 Yn y drydedd flwyddyn i Asa brenhin Judah y teyrnasodd Baasa mab Ahïah ar holl Israel yn Tirsah, bedair blynedd ar hugain.

34 Ac efe a wnaeth ddrygioni yng ngolwg yr ARGLWYDD, ac a rodiodd yn ffordd Jeroboam, ac yn ei bechod ef *trwy* yr hwn y gwnaeth efe i Israel bechu.

PENNOD 16.

1, 7 Prophwydoliaeth Jehu yn erbyn Baasa. 5 Elah yn dyfod ar ei ol ef: 8 a Simri, trwy frad, ar ei ol yntau; 11 ac yn diwyn i ben brophwydoliaeth Jehu. 15 Omri yn ei yrru ef i'w losgi ei hun; 21 a chwedl ymrannu o'r bobl, yn gorthrechu Tibni, 23 yn adeiladu Samaria, 25 yn teyrnasu yn annuwiol. 27 Ahab ar ei ol ef, 29 yn teyrnasu yn ysgeler. 34 Melidith Josua yn dyfod i Hiel am adeiladu Jericho.

YNA y daeth gair yr ARGLWYDD at Jehu mab Hanani yn erbyn Baasa, gan ddywedyd,

2 O herwydd i mi dy ddyrchafu o'r llwch, a'th wneuthur yn flaenor

ar fy mhobl Israel, a rhodio o honot tithau yn ffordd Jeroboam, a pheri i'm pobl Israel bechu, gan fy nigio â'u pechodau;

3 Wele fi yn torri ymaith hiliogaeth Baasa, a hiliogaeth ei dŷ ef: a mi a wnaf dy dŷ di fel tŷ Jeroboam mab Nebat.

4 Y cwn a fwytty yr hwn fyddo marw o'r eiddo Baasa yn y ddinas; ac adar y nefoedd a fwytty yr hwn fyddo marw o'r eiddo ef yn y maes.

5 A'r rhan arall o hanes Baasa, a'r hyn oll a wnaeth efe, a'i gadernid ef, onid *ydynt* yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

6 A Baasa a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd yn Tirsah; ac Elah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

7 Hefyd trwy law Jehu mab Hanani y prophwyd y bu gair yr ARGLWYDD yn erbyn Baasa, ac yn erbyn ei dŷ ef, o herwydd yr holl ddrygioni a wnaeth efe y'ngolwg yr ARGLWYDD, gan ei ddigio ef trwy waith ei ddwylaw; gan fod fel tŷ Jeroboam, ac oblegid iddo ei ladd ef.

8 ¶ Yn y chweched flwyddyn ar hugain i Asa brenhin Judah y teyrnasodd Elah mab Baasa ar Israel yn Tirsah, ddwy flynedd.

9 A Simri ei was ef, tywysog ar hanner y cerbydau, a gyd-fwriadodd yn ei erbyn ef, ac efe yn yfed yn feddw, yn Tirsah, yn nhŷ Arsa, yr hwn *oedd* ben-teulu yn Tirsah.

10 A Simri a aeth ac a'i tarawodd ef, ac a'i lladdodd, yn y seithfed flwyddyn ar hugain i Asa brenhin Judah, ac a deyrnasodd yn ei le ef.

11 ¶ A phan ddechreuodd efe deyrnasu, ac eistedd ar ei deyrngadair, efe a laddodd holl dŷ Baasa: ni adawodd efe iddo ef *un* gwrryw, na'i geraint, na'i gyfeillion.

12 Felly Simri a ddinystriodd holl dŷ Baasa, yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarodd efe yn erbyn Baasa trwy law Jehu y prophwyd.

13 O herwydd holl bechodau Baasa, a phechodau Elah ei fab ef, *trwy* y rhai y pechasant hwy, a thrwy y rhai y gwnaethant i Israel bechu, gan ddigio ARGLWYDD DDUW Israel â'u gwagedd.

14 A'r rhan arall o hanes Elah, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

15 ¶ Yn y seithfed flwyddyn ar hugain i Asa brenhin Judah y teyrnasodd Simri saith niwrnod yn Tirsah: a'r bobl *oedd* yn gwersyllu yn erbyn Gibbethon *eiddo* y Philistiaid.

16 A chlybu y bobl *y rhai oedd* yn y gwersyll ddywedyd, Simri a gydfwriadodd, ac a laddodd y brenhin. A holl Israel a goronasant Omri, tywysog y llu, yn frenhin y dwthwn hwnnw ar Israel, yn y gwersyll.

17 Ac Omri a aeth i fyny, a holl Israel gyd âg ef, o Gibbethon; a hwy a warchaeasant ar Tirsah.

18 A phan welodd Simri fod y ddinas wedi ei hennill, efe a aeth i balas tŷ y brenhin, ac a losgodd dŷ y brenhin am ei ben â thân, ac a fu farw;

19 Am ei bechodau yn y rhai y pechodd efe, gan wneuthur drygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD, gan rodio yn ffordd Jeroboam, ac yn ei bechod a wnaeth efe i beri i Israel bechu.

20 A'r rhan arall o hanes Simri, a'i gyd-fradwriaeth a gyd-fwriadodd efe; onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

21 ¶ Yna yr ymrannodd pobl Israel yn ddwy ran: rhan o'r bobl oedd ar ol Tibni mab Ginath, i'w osod ef yn frenhin, a rhan ar ol Omri.

22 A'r bobl *oedd* ar ol Omri a orchfygodd y bobl *oedd* ar ol Tibni mab Ginath: felly Tibni a fu farw, ac Omri a deyrnasodd.

23 ¶ Yn yr unfed flwyddyn ar ddeg ar hugain i Asa brenhin Judah y teyrnasodd Omri ar Israel ddeuddeng mlynedd: yn Tirsah y teyrnasodd efe chwe blynedd.

24 Ac efe a brynodd fynydd Samaria gan Semer, er dwy dalent o arian; ac a adeiladodd yn y mynydd, ac a alwodd enw y ddinas a adeiladasai efe, ar ol enw Semer, arglwydd y mynydd, Samaria.

25 ¶ Ond Omri a wnaeth ddrygioni y'ngŵydd yr ARGLWYDD, ac a wnaeth yn waeth na'r holl rai *a fuasai* o'i flaen ef.

26 Canys efe a rodiodd yn holl

ffordd Jeroboam mab Nebat, ac yn ei bechod ef, *trwy* yr hwn y gwnaeth efe i Israel bechu, gan ddigio ARGLWYDD DDUW Israel â'u gwagedd hwynt.

27 A'r rhan arall o hanes Omri, yr hyn a wnaeth efe, a'i rymmusder a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

28 Ac Omri a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd yn Samaria, ac Ahab ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

29 ¶ Ac Ahab mab Omri a ddechreuodd deyrnasu ar Israel yn y drydedd flwyddyn ar bymtheg ar hugain i Asa brenhin Judah: ac Ahab mab Omri a deyrnasodd ar Israel yn Samaria ddwy flynedd ar hugain.

30 Ac Ahab mab Omri a wnaeth ddrygioni y'ngolwg yr ARGLWYDD y tu hwnt i bawb o'i flaen ef.

31 Canys ysgafn oedd ganddo ef rodio ym mhechodau Jeroboam mab Nebat, ac efe a gymmerth yn wraig Jesebel merch Ethbaal brenhin y Sidoniaid, ac a aeth ac a wasanaethodd Baal, ac a ymgrymmodd iddo.

32 Ac efe a gyfododd allor i Baal yn nhŷ Baal, yr hwn a adeiladasai efe yn Samaria.

33 Ac Ahab a wnaeth lwyn. Ac Ahab a wnaeth fwy i ddigio ARGLWYDD DDUW Israel na holl frenhinoedd Israel a fuasai o'i flaen ef.

34 ¶ Yn ei ddyddiau ef Hïel y Betheliad a adeiladodd Jericho: yn Abiram ei gyntaf-anedig y sylfaenodd efe hi, ac yn Segub ei *fab* ieuangaf y gosododd efe ei phyrth hi, yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarasai efe trwy law Josua mab Nun.

PENNOD 17.

1 *Elias, wedi prophwydo yn erbyn Ahab, yn cael ei borthi gan gigfrain yn Cerith,* 10 *a chan wraig weddw yn Sarephtah,* 14 *a honno yn cael rhad penllad,* 17 *a chyfodi ei mab o farw i fyw,* 24 *ac yn credu Elias.*

AC Elïas y Thesbiad, *un* o breswylwyr Gilead, a ddywedodd wrth Ahab, *Fel mai* byw ARGLWYDD DDUW Israel, yr hwn yr ydwyf yn sefyll ger ei fron, ni bydd y blynyddoedd hyn na gwlith na gwlaw, ond yn ol fy ngair i.

2 A gair yr ARGLWYDD a ddaeth atto ef, gan ddywedyd,

3 Dos oddi yma, a thro tu a'r dwyrain, ac ymguddia wrth afon Cerith, yr hon *sydd* ar gyfer yr Iorddonen.

4 Ac o'r afon yr yfi; a mi a berais i'r cigfrain dy borthi di yno.

5 Felly efe a aeth, ac a wnaeth yn ol gair yr ARGLWYDD; canys efe a aeth, ac a arhosodd wrth afon Cerith, yr hon *sydd* ar gyfer yr Iorddonen.

6 A'r cigfrain a ddygent iddo fara a chig y bore, a bara a chig brydnawn: ac efe a yfai o'r afon.

7 Ac yn ol talm o ddyddiau y sychodd yr afon, oblegid na buasai glaw yn y wlad.

8 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth atto ef, gan ddywedyd,

9 Cyfod, dos i Sarephtah, yr hon *sydd yn perthyn* i Sidon, ac aros yno: wele, gorchymynais i wraig weddw dy borthi di yno.

10 Felly efe a gyfododd, ac a aeth i Sarephtah. A phan ddaeth efe at borth y ddinas, wele yno wraig weddw yn casglu briw-wŷdd: ac efe a alwodd arni, ac a ddywedodd, Dwg, attolwg, i mi ychydig ddwfr mewn llestr, fel yr yfwyf.

11 Ac a hi yn myned i'w gyrchu, efe a alwodd arni, ac a ddywedodd, Dwg, attolwg, i mi dammaid o fara yn dy law.

12 A hi a ddywedodd, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD dy DDUW, nid oes gennyf deisen, ond llonaid llaw o flawd mewn celwrn, ac ychydig olew mewn ystên: ac wele fi yn casglu dau o friw-wŷdd, i fyned i mewn, ac i barottôi hynny i mi ac i'm mab, fel y bwyttaom hynny, ac y byddom feirw.

13 Ac Elïas a ddywedodd wrthi, Nac ofna; dos, gwna yn ol dy air: etto gwna i mi o hynny deisen fechan yn gyntaf, a dwg i mi; a gwna i ti ac i'th fab ar ol hynny.

14 Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel, Y blawd yn y celwrn ni threulir, a'r olew o'r ystên ni dderfydd, hyd y dydd y rhoddo yr ARGLWYDD wlaw ar wyneb y ddaear.

15 A hi a aeth, ac a wnaeth yn ol gair Elïas: a hi a fwyttaodd, ac yn-

tau, a'i thylwyth, *yspaid* blwyddyn.

16 Ni ddarfu y celwrn blawd, a'r ystên olew ni ddarfu, yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a ddywedasai efe trwy law Elïas.

17 ¶ Ac wedi y pethau hyn y clafychodd mab gwraig y tŷ, ac yr oedd ei glefyd ef mor gryf, fel na thrigodd anadl ynddo.

18 A hi a ddywedodd wrth Elïas, Beth *sydd* i mi *a wnelwyf* â thi, gŵr DUW? a ddaethost ti attaf i goffâu fy anwiredd, ac i ladd fy mab?

19 Ac efe a ddywedodd wrthi, Moes i mi dy fab. Ac efe a'i cymmerth ef o'i mynwes hi, ac a'i dug ef i fyny i ystafell yr oedd efe yn aros ynddi, ac a'i gosododd ef ar ei wely ei hun.

20 Ac efe a lefodd ar yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, O ARGLWYDD fy NUW, a ddrygaist ti y wraig weddw yr ydwyf fi yn ymdeithio gyd â hi, gan ladd ei mab hi?

21 Ac efe a ymestynodd ar y bachgen dair gwaith, ac a lefodd ar yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, O ARGLWYDD fy NUW, dychweled, attolwg, enaid y bachgen hwn iddo eilwaith.

22 A'r ARGLWYDD a wrandawodd ar lef Elïas; ac enaid y bachgen a ddychwelodd i mewn iddo, ac efe a ddadebrodd.

23 Ac Elïas a gymmerodd y bachgen, ac a'i dug ef i waered o'r ystafell i'r tŷ, ac a'i rhoddes ef i'w fam: ac Elïas a ddywedodd, Gwel, byw yw dy fab.

24 ¶ A'r wraig a ddywedodd wrth Elïas, Yn awr wrth hyn y gwn mai gŵr DUW *ydwyt* ti, ac *mai* gwirionedd *yw* gair yr ARGLWYDD yn dy enau di.

PENNOD 18.

1 Elïas, pan oedd dostaf y newyn, wedi ei yrru at Ahab, yn cyfarfod ag Obadïah; 9 a hwnnw yn dwyn Ahab at Elïas; 17 ac yntau yn argyhoeddi Ahab; a thruy dân o'r nef, yn cael y maes ar brophwydi Baal; 41 a thruy weddi yn cael gwlaw, ac yn canlyn Ahab i Jesreel.

AC *ar ol* dyddiau lawer daeth gair yr ARGLWYDD at Elïas, yn y drydedd flwyddyn, gan ddywedyd, Dos, ymddangos i Ahab; a mi a roddaf wlaw ar wyneb y ddaear.

2 Ac Elïas a aeth i ymddangos i Ahab. A'r newyn *oedd* dost yn Samaria.

3 Ac Ahab a alwodd Obadïah, yr hwn *oedd* ben-teulu *iddo:* (ac Obadïah oedd yn ofni yr ARGLWYDD yn fawr:

4 Canys pan ddistrywiodd Jesebel brophwydi yr ARGLWYDD, Obadïah a gymmerodd gant o brophwydi, ac a'u cuddiodd hwynt bob yn ddeg a deugain mewn ogof, ac a'u porthodd hwynt â bara ac â dwfr.)

5 Ac Ahab a ddywedodd wrth Obadïah, Dos i'r wlad, at bob ffynnon ddwfr, ac at yr holl afonydd: ysgatfydd ni a gawn laswellt, fel y cadwom yn fyw y ceffylau a'r mulod, fel na adawom i'r holl anifeiliaid golli.

6 Felly hwy a rannasant y wlad rhynddynt i'w cherdded: Ahab a aeth y naill ffordd ei hunan, ac Obadïah a aeth y ffordd arall ei hunan.

7 ¶ Ac fel yr oedd Obadïah ar y ffordd, wele Elïas yn ei gyfarfod ef: ac efe a'i hadnabu ef, ac a syrthiodd ar ei wyneb, ac a ddywedodd, Onid ti *yw* fy arglwydd Elïas?

8 Yntau a ddywedodd wrtho, *Ie*, myfi: dos, dywed i'th arglwydd, Wele Elïas.

9 Dywedodd yntau, Pa bechod a wneuthum i, pan roddit ti dy was yn llaw Ahab i'm lladd?

10 *Fel mai* byw yr ARGLWYDD dy DDUW, nid oes genedl na brenhiniaeth yr hon ni ddanfonodd fy arglwydd iddi i'th geisio di; a phan ddywedent, Nid *yw efe yma*, efe a dyngai y frenhiniaeth a'r genedl, na chawsent dydi.

11 Ac yn awr *yr wyt* ti yn dywedyd, Dos, dywed i'th arglwydd, Wele Elïas.

12 A phan elwyf fi oddi wrthyt ti, yspryd yr ARGLWYDD a'th gymmer di lle nis gwn i; a phan ddelwyf i fynegi i Ahab, ac yntau heb dy gael di, efe a'm lladd i: ond y mae dy was di yn ofni yr ARGLWYDD o'm mebyd.

13 Oni fynegwyd i'm harglwydd yr hyn a wneuthum i, pan laddodd

Jesebel brophwydi yr ARGLWYDD, fel y cuddiais gannwr o brophwydi yr ARGLWYDD, bob yn ddengwr a deugain mewn ogof, ac y porthais hwynt â bara ac â dwfr?

14 Ac yn awr ti a ddywedi, Dos, dywed i'th arglwydd, Wele Elïas: ac efe a'm lladd i.

15 A dywedodd Elïas, *Fel mai* byw ARGLWYDD y lluoedd, yr hwn yr wyf yn sefyll ger ei fron, heddyw yn ddïau yr ymddangosaf iddo ef.

16 Yna Obadïah a aeth i gyfarfod Ahab, ac a fynegodd iddo. Ac Ahab a aeth i gyfarfod Elïas.

17 A phan welodd Ahab Elïas, Ahab a ddywedodd wrtho, Onid ti *yw* yr hwn sydd yn blino Israel?

18 Ac efe a ddywedodd, Ni flinais i Israel; ond tydi, a thŷ dy dad: am i chwi wrthod gorchymynion yr ARGLWYDD, ac i ti rodio ar ol Baalim.

19 Yn awr gan hynny anfon, *a* chasgl attaf holl Israel i fynydd Carmel, a phrophwydi Baal, pedwar cant a deg a deugain, a phrophwydi y llwyni, pedwar cant, y rhai sydd yn bwytta ar fwrdd Jesebel.

20 Felly Ahab a anfonodd at holl feibion Israel, ac a gasglodd y prophwydi ynghyd i fynydd Carmel.

21 Ac Elïas a ddaeth at yr holl bobl, ac a ddywedodd, Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl? os yr ARGLWYDD *sydd* DDUW, ewch ar ei ol ef; ond os Baal, ewch ar ei ol yntau. A'r bobl nid attebasant iddo air.

22 Yna y dywedodd Elïas wrth y bobl, Myfi fy hunan wyf yn fyw o brophwydi yr ARGLWYDD; ond prophwydi Baal *ydynt* bedwar cant a dengwr a deugain.

23 Rhodder gan hynny i ni ddau fustach: a dewisant hwy iddynt un bustach, a darniant ef, a gosodant ar goed, ond na osodant dân *dano:* a minnau a barottoaf y bustach arall, ac a'*i* gosodaf ar goed, ac ni roddaf dân *dano.*

24 A gelwch chwi ar enw eich duwiau, a minnau a alwaf ar enw yr ARGLWYDD: a'r DUW a attebo trwy dân, bydded efe DDUW. A'r holl bobl a attebasant ac a ddywedasant, Da yw y peth.

25 Ac Elïas a ddywedodd wrth brophwydi Baal, Dewiswch i chwi un bustach, a pharottôwch ef yn gyntaf; canys llawer *ydych* chwi: a gelwch ar enw eich duwiau, ond na osodwch dân *dano.*

26 A hwy a gymmerasant y bustach a roddasid iddynt, ac a'*i* parottoisant, ac a alwasant ar enw Baal o'r bore hyd hanner dydd, gan ddywedyd, Baal, gwrando ni; ond nid *oedd* llef, na neb yn atteb: a hwy a lammasant ar yr allor a wnelsid.

27 A bu, ar hanner dydd, i Elïas eu gwatwar hwynt, a dywedyd, Gwaeddwch â llef uchel: canys duw *yw* efe; naill ai ymddiddan *y mae,* neu erlid, neu ymdeithio y mae efe; fe a allai ei fod yn cysgu, ac *mai rhaid* ei ddeffro ef.

28 A hwy a waeddasant â llef uchel, ac a'u torrasant eu hunain yn ol eu harfer â chyllill ac âg ellynod, nes i'r gwaed ffrydio arnynt.

29 Ac wedi iddi fyned dros hanner dydd, a phrophwydo o honynt nes offrymmu yr *hwyr*-offrwm; etto nid *oedd* llef, na neb yn atteb, nac yn ystyried.

30 A dywedodd Elïas wrth yr holl bobl, Nesêwch attaf fi. A'r holl bobl a nesasant atto ef. Ac efe a gyweiriodd allor yr ARGLWYDD, *yr hon* a ddrylliasid.

31 Ac Elïas a gymmerth ddeuddeg o gerrig, yn ol rhifedi llwythau meibion Jacob, yr hwn y daethai gair yr ARGLWYDD atto, gan ddywedyd, Israel fydd dy enw di.

32 Ac efe a adeiladodd â'r meini allor yn enw yr ARGLWYDD; ac a wnaeth ffos o gylch lle dau fesur o had, o amgylch yr allor.

33 Ac efe a drefnodd y coed, ac a ddarniodd y bustach, ac a'*i* gosododd ar y coed;

34 Ac a ddywedodd, Llenwch bedwar celyrnaid o ddwfr, a thywelltwch ar y poeth-offrwm, ac ar y coed. Ac efe a ddywedodd, Gwnewch eilwaith; a hwy a wnaethant eilwaith. Ac efe a ddywedodd, Gwnewch y drydedd waith; a hwy a wnaethant y drydedd waith.

35 A'r dyfroedd a aethant o am-

gylch yr allor, ac a lanwodd y ffos o ddwfr.

36 A phan offrymmid yr *hwyr*-offrwm, Elias y prophwyd a nesa-odd ac a ddywedodd, O ARGLWYDD DDUW Abraham, Isaac, ac Israel, gwybydder heddyw mai ti *sydd* DDUW yn Israel, a minnau yn was i ti, ac *mai* trwy dy air di y gwneuth-um i yr holl bethau hyn.

37 Gwrando fi, O ARGLWYDD, gwrando fi, fel y gwypo y bobl hyn mai tydi *yw* yr ARGLWYDD DDUW, ac *mai* ti a ddychwelodd eu calon hwy drachefn.

38 Yna tân yr ARGLWYDD a syrth-iodd, ac a ysodd y poeth-offrwm, a'r coed, a'r cerrig, a'r llwch, ac a leib-iodd y dwfr *oedd* yn y ffos.

39 A'r holl bobl a welsant, ac a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a ddywedasant, Yr ARGLWYDD, efe *sydd* DDUW, yr ARGLWYDD, efe *sydd* DDUW.

40 Ac Elias a ddywedodd wrthynt hwy, Deliwch brophwydi Baal; na ddianged gŵr o honynt. A hwy a'u daliasant: ac Elias a'u dygodd hwynt i waered i afon Cison, ac a'u lladdodd hwynt yno.

41 ¶ Ac Elias a ddywedodd wrth Ahab, Dos i fyny, bwytta ac ŷf; canys *wele* drwst llawer o wlaw.

42 Felly Ahab a aeth i fyny i fwytta ac i yfed. Ac Elias a aeth i fyny i ben Carmel; ac a ymostyng-odd ar y ddaear, ac a osododd ei wyneb rhwng ei liniau;

43 Ac a ddywedodd wrth ei langc, Dos i fyny yn awr, edrych tu a'r môr. Ac efe a aeth i fyny ac a edrychodd, ac a ddywedodd, Nid *oes* dim. Dywedodd yntau, Dos etto saith waith.

44 A'r seithfed waith y dywedodd efe, Wele gwmmwl bychan fel cledr llaw gŵr yn dyrchafu o'r môr. A dywedodd yntau, Dos i fyny, dywed wrth Ahab, Rhwym *dy gerbyd*, a dos i waered, fel na'th rwystro y gwlaw.

45 Ac yn yr ennŷd honno y nef-oedd a dduodd gan gymmylau a gwynt; a bu gwlaw mawr. Ac Ahab a farchogodd, ac a aeth i Jesreel.

46 A llaw yr ARGLWYDD oedd ar Elias; ac efe a wregysodd ei lwyn-au, ac a redodd o flaen Ahab nes ei ddyfod i Jesreel.

PENNOD 19.

1 *Elias, wrth fygwth Jesebel, yn ffoi i Beerseba;* 4 *a phan oedd ffin ganddo ei einioes, yn cael cysur gan angel.* 9 *Duw yn ymddangos iddo yn Horeb, ac yn ei anfon ef i enncinio Hazael, Jehu, ac Elisëus.* 19 *Elisëus, wedi canu yn iach i'r eiddo, yn canlyn Elias.*

AC Ahab a fynegodd i Jesebel yr hyn oll a wnaethai Elias; a chyd â phob peth, y modd y lladdasai efe yr holl brophwydi â'r cleddyf.

2 Yna Jesebel a anfonodd gennad at Elias, gan ddywedyd, Fel hyn y gwnelo y duwiau, ac fel hyn y chwanegont, oni wnaf erbyn y pryd *hwn* y fory dy einioes di fel einioes un o honynt hwy.

3 A phan welodd efe *hynny*, efe a gyfododd, ac a aeth am ei einioes, ac a ddaeth i Beerseba, yr hon *sydd* yn Judah, ac a adawodd ei langc yno.

4 ¶ Ond efe a aeth i'r anialwch daith diwrnod, ac a ddaeth ac a eis-teddodd dan ferywen; ac a ddeis-yfodd iddo gael marw: dywedodd hefyd, Digon yw; yn awr, ARGLWYDD, cymmer fy einioes: canys nid *ydwyf* fi well na'm tadau.

5 Ac fel yr oedd efe yn gorwedd ac yn cysgu dan ferywen, wele, angel a gyffyrddodd âg ef, ac a ddy-wedodd wrtho, Cyfod, bwytta.

6 Ac efe a edrychodd: ac wele deisen wedi ei chrasu ar farwor, a phiolaid o ddwfr wrth ei ben ef. Ac efe a fwyttaodd ac a yfodd, ac a gysgodd drachefn.

7 Ac angel yr ARGLWYDD a ddaeth drachefn yr ail waith, ac a gyffyrdd-odd âg ef, ac a ddywedodd, Cyfod *a* bwytta; canys *y mae* i ti lawer o ffordd.

8 Ac efe a gyfododd, ac a fwytta-odd ac a yfodd; a thrwy rym y bwyd hwnnw y cerddodd efe ddeu-gain niwrnod a deugain nos, hyd Horeb mynydd DUW.

9 ¶ Ac yno yr aeth efe i fewn ogof, ac a lettŷodd yno. Ac wele air yr ARGLWYDD atto ef; ac efe a ddywedodd wrtho, Beth *a wnei* di yma, Elias?

10 Ac efe a ddywedodd, Dygais

fawr sêl dros ARGLWYDD DDUW y lluoedd; o herwydd i feibion Israel wrthod dy gyfammod di, a distrywio dy allorau di, a lladd dy brophwydi â'r cleddyf: a mi fy hunan a adawyd; a cheisio y maent ddwyn fy einioes innau.

11 Ac efe a ddywedodd, Dos allan, a saf yn y mynydd ger bron yr ARGLWYDD. Ac wele yr ARGLWYDD yn myned heibio, a gwynt mawr a chryf yn rhwygo y mynyddoedd, ac yn dryllio y creigiau o flaen yr ARGLWYDD; *ond* nid *oedd* yr ARGLWYDD yn y gwynt: ac ar ol y gwynt, daeargryn; *ond* nid *oedd* yr ARGLWYDD yn y ddaeargryn:

12 Ac ar ol y ddaeargryn, tân; *ond* nid *oedd* yr ARGLWYDD yn y tân: ac ar ol y tân, llef ddistaw fain.

13 A phan glybu Elïas, efe a oblygodd ei wyneb yn ei fantell, ac a aeth allan, ac a safodd *wrth* ddrws yr ogof. Ac wele lef *yn dyfod* atto, yr hon a ddywedodd, Beth *a wnei* di yma, Elïas?

14 Dywedodd yntau, Dygais fawr sêl dros ARGLWYDD DDUW y lluoedd; o herwydd i feibion Israel wrthod dy gyfammod di, a distrywio dy allorau, a lladd dy brophwydi â'r cleddyf: a mi fy hunan a adawyd; a cheisio y maent fy einioes innau i'w dwyn hi ymaith.

15 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrtho, Dos, dychwel i'th ffordd i anialwch Damascus: a phan ddelych, enneinia Hasael yn frenhin ar Syria;

16 A Jehu mab Nimsi a enneini di yn frenhin ar Israel; ac Elisëus mab Saphat, o Abel-meholah, a enneini di yn brophwyd yn dy le dy hun.

17 A'r hwn a ddïango rhag cleddyf Hasael, Jehu a'i lladd ef: ac Elisëus a ladd yr hwn a ddïango rhag cleddyf Jehu.

18 A mi a adewais yn Israel saith o filoedd, y gliniau oll ni phlygasant i Baal, a phob genau a'r nis cusanodd ef.

19 ¶ Felly efe a aeth oddi yno, ac a gafodd Elisëus mab Saphat yn aredig, â deuddeg cwpl *o ychain* o'i flaen, ac efe *oedd* gyd â'r deuddegfed. Ac Elïas a aeth heibio iddo ef, ac a fwriodd ei fantell arno ef.

20 Ac efe a adawodd yr ychain, ac a rededd ar ol Elïas, ac a ddywedodd, Attolwg, gâd i mi gusanu fy nhad a'm mam, ac *yna* mi a ddeuaf ar dy ol. Ac yntau a ddywedodd wrtho, Dos, dychwel; canys beth a wneuthum i ti?

21 Ac efe a ddychwelodd oddi ar ei ol ef, ac a gymmerth gwpl o ychain, ac a'u lladdodd, ac âg offer yr ychain y berwodd efe eu cig hwynt, ac a'i rhoddodd i'r bobl, a hwy a fwyttasant. Yna efe a gyfododd ac a aeth ar ol Elïas, ac a'i gwasanaethodd ef.

PENNOD 20.

1 *Benhadad, yn anfoddlawn i ôrlogaeth Ahab, yn gwarchae ar Samaria.* 13 *Lladd y Syriaid, trwy gynghor y prophwyd.* 22 *Y Syriaid, fel y dywedasai y prophwyd i Ahab, yn dyfod yn ei erbyn ef yn Aphec;* 28 *a thrwy air y prophwyd, a barn Duw, yn cael eu taro drachefn,* 31 *ac yn ymrôi, ac Ahab dan ammod yn gollwng ymaith Benhadad.* 35 *Y prophwyd, trwy ddammeg, yn peri i Ahab ei farnu ei hun, ac yn datgan barn Duw yn ei erbyn ef.*

ABENHADAD brenhin Syria a gasglodd ei holl lu, a deuddeg brenhin ar hugain gyd âg ef, a meirch, a cherbydau: ac efe a aeth i fyny, ac a warchaeodd ar Samaria, ac a ryfelodd i'w herbyn hi.

2 Ac efe a anfonodd genhadau at Ahab brenhin Israel, i'r ddinas,

3 Ac a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed Benhadad, Dy arian a'th aur *sydd* eiddof fi; dy wragedd hefyd, a'th feibion glanaf, *ydynt* eiddof fi.

4 A brenhin Israel a attebodd ac a ddywedodd, Yn ol dy air di, fy arglwydd frenhin, myfi a'r hyn oll *sydd* gennyf *ydym* eiddot ti.

5 A'r cenhadau a ddychwelasant, ac a ddywedasant, Fel hyn yr ymadroddodd Benhadad, gan ddywedyd, Er i mi anfon attat ti, gan ddywedyd, Dy arian a'th aur, a'th wragedd, a'th feibion, a roddi di i mi:

6 Etto ynghylch y pryd *hwn* y fory yr anfonaf fy ngweision attat ti, a hwy a chwiliant dy dŷ di, a thai dy weision: a phob peth dymunol yn dy olwg a gymmerant hwy yn eu dwylaw, ac a'*i* dygant ymaith.

7 Yna brenhin Israel a alwodd holl henuriaid y wlad, ac a ddywedodd, Gwybyddwch, attolwg, a gwelwch mai ceisio drygioni y mae hwn: canys efe a anfonodd attaf fi am fy ngwragedd, ac am fy meibion, ac am fy arian, ac am fy aur; ac nis gommeddais ef.

8 Yr holl henuriaid hefyd, a'r holl bobl, a ddywedasant wrtho ef, Na wrando, ac na chyttuna *âg ef.*

9 Am hynny y dywedodd efe wrth genhadau Benhadad, Dywedwch i'm harglwydd y brenhin, *Am* yr hyn oll yr anfonaist ti at dy was ar y cyntaf, mi a'i gwnaf: ond ni allaf wneuthur y peth hyn. A'r cenhadau a aethant, ac a ddygasant air iddo drachefn.

10 A Benhadad a anfonodd atto ef, ac a ddywedodd, Fel hyn y gwnelo y duwiau i mi, ac fel hyn y chwanegont, os bydd pridd Samaria ddigon o ddyrneidiau i'r holl bobl sydd i'm canlyn i.

11 A brenhin Israel a attebodd ac a ddywedodd, Dywedwch *wrtho*, Nac ymffrostied yr hwn a wregyso *ei arfau*, fel yr hwn sydd yn eu dïosg.

12 A phan glywodd efe y peth hyn, (ac efe yn yfed, efe a'r brenhinoedd, yn y pebyll,) efe a ddywedodd wrth ei weision, Ymosodwch. A hwy a ymosodasant yn erbyn y ddinas.

13 ¶ Ac wele, rhyw brophwyd a nesaodd at Ahab brenhin Israel, ac a ddywedodd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Oni welaist ti yr holl dyrfa fawr hon? wele, mi a'i rhoddaf yn dy law di heddyw, fel y gwypech mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

14 Ac Ahab a ddywedodd, Trwy bwy? Dywedodd yntau, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Trwy wŷr ieuaingc tywysogion y taleithiau. Ac efe a ddywedodd, Pwy a drefna y fyddin? Dywedodd yntau, Tydi.

15 Yna efe a gyfrifodd wŷr ieuaingc tywysogion y taleithiau, ac yr oeddynt yn ddau cant *a* deuddeg ar hugain: ac ar eu hol hwynt efe a gyfrifodd yr holl bobl, cwbl o feibion Israel, yn saith mil.

16 A hwy a aethant allan ganol dydd. A Benhadad *oedd* yn yfed yn feddw yn y pebyll, efe a'r brenhinoedd, y deuddeg brenhin ar hugain oedd yn ei gynnorthwyo ef.

17 A gwŷr ieuaingc tywysogion y taleithiau a aethant allan yn gyntaf: a Benhadad a anfonodd allan, a hwy a fynegasant iddo gan ddywedyd, Daeth gwŷr allan o Samaria.

18 Ac efe a ddywedodd, Os am heddwch y daethant allan, deliwch hwynt yn fyw; ac os i ryfel y daethant allan, deliwch hwynt yn fyw.

19 Felly yr aethant hwy allan o'r ddinas, *sef* gwŷr ieuaingc tywysogion y taleithiau, a'r llu yr hwn *oedd* ar eu hol hwynt.

20 A hwy a laddasant bawb ei ŵr: a'r Syriaid a ffoisant, ac Israel a'u herlidiodd hwynt: a Benhadad brenhin Syria a ddïangodd ar farch, gyd â'r gwŷr meirch.

21 A brenhin Israel a aeth allan, ac a darawodd y meirch a'r cerbydau, ac a laddodd y Syriaid â lladdfa fawr.

22 ¶ A'r prophwyd a nesaodd at frenhin Israel, ac a ddywedodd wrtho, Dos, ymgryfhâ, gwybydd hefyd, ac edrych beth a wnelech; canys ym mhen y flwyddyn brenhin Syria a ddaw i fyny i'th erbyn di.

23 A gweision brenhin Syria a ddywedasant wrtho ef, Duwiau y mynyddoedd *yw* eu duwiau hwynt, am hynny trech fuant na ni: ond ymladdwn â hwynt yn y gwastadedd, a ni a'u gorthrechwn hwynt.

24 A gwna hyn; Tyn ymaith y brenhinoedd bob un o'i le, a gosod gapteniaid yn eu lle hwynt.

25 Rhifa hefyd i ti lu, fel y llu a gollaist, meirch am feirch, a cherbyd am gerbyd: a ni a ymladdwn â hwynt yn y gwastattir, ac a'u gorthrechwn hwynt. Ac efe a wrandawodd ar eu llais hwynt, ac a wnaeth felly.

26 Ac ym mhen y flwyddyn Benhadad a gyfrifodd y Syriaid, ac a aeth i fyny i Aphec, i ryfela yn erbyn Israel.

27 A meibion Israel a gyfrifwyd, ac oeddynt oll yn bresennol, ac a

aethant i'w cyfarfod hwynt: a meibion Israel a wersyllasant ar eu cyfer hwynt, fel dwy ddïadell fechan o eifr; a'r Syriaid oedd yn llenwi y wlad.

28 ¶ A gŵr i DDUW a nesaodd, ac a lefarodd wrth frenhin Israel, ac a ddywedodd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; O herwydd dywedyd o'r Syriaid, DUW y mynyddoedd *yw* yr ARGLWYDD, ac nid DUW y dyffrynoedd *yw* efe; am hynny y rhoddaf yr holl dyrfa fawr hon i'th law di, *a* chwi a gewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

29 A hwy a wersyllasant y naill ar gyfer y llall saith niwrnod. Ac ar y seithfed dydd y rhyfel a aeth ynghyd: a meibion Israel a laddasant o'r Syriaid gan mil o wŷr traed mewn un diwrnod.

30 A'r lleill a ffoisant i Aphec, i'r ddinas; a'r mur a syrthiodd ar saith mil ar hugain o'r gwŷr a adawsid: a Benhadad a ffodd, ac a ddaeth i'r ddinas o ystafell i ystafell.

31 ¶ A'i weision a ddywedasant wrtho, Wele yn awr, clywsom am frenhinoedd tŷ Israel, mai brenhinoedd trugarog *ydynt* hwy: gosodwn, attolwg, sachlïan am ein llwynau, a rhaffau am ein pennau, ac awn at frenhin Israel; ond odid efe a geidw dy einioes di.

32 Yna y gwregysasant sachlïan am eu llwynau, a rhaffau am eu pennau, ac a ddaethant at frenhin Israel, ac a ddywedasant, Benhadad dy was a ddywed, Attolwg gâd i mi fyw. Dywedodd yntau, *A ydyw* efe etto yn fyw? fy mrawd *yw* efe.

33 A'r gwŷr oedd yn disgwyl yn ddyfal a *ddeuai dim* oddi wrtho ef, ac a'*i* cippiasant ar frys: ac a ddywedasant, Dy frawd Benhadad. Dywedodd yntau, Ewch, dygwch ef. Yna Benhadad a ddaeth allan atto ef; ac efe a barodd iddo ddyfod i fyny i'r cerbyd.

34 A *Benhadad* a ddywedodd wrtho, Y dinasoedd a ddug fy nhad i oddi ar dy dad di, a roddaf drachefn; a chei wneuthur heolydd i ti yn Damascus, fel y gwnaeth fy nhad yn Samaria. A *dywedodd Ahab*, Mi a'th ollyngaf dan yr ammod *hwn.* Felly efe a wnaeth gyfammod âg ef, ac a'i gollyngodd ef ymaith.

35 ¶ A rhyw ŵr o feibion y prophwydi a ddywedodd wrth ei gymydog trwy air yr ARGLWYDD, Taro fi, attolwg. A'r gŵr a wrthododd ei daro ef.

36 Dywedodd yntau wrtho, O herwydd na wrandewaist ar lais yr ARGLWYDD, wele, pan elech oddi wrthyf, llew a'th ladd di. Ac efe a aeth oddi wrtho ef, a llew a'i cyfarfu ef, ac a'i lladdodd.

37 Yna efe a gafodd ŵr arall, ac a ddywedodd, Taro fi, attolwg. A'r gŵr a'i tarawodd ef, gan *ei* daro a'*i* archolli.

38 Felly y prophwyd a aeth ymaith, ac a safodd o flaen y brenhin ar y ffordd, ac a ymddïeithrodd â lludw ar ei wyneb.

39 A phan ddaeth y brenhin heibio, efe a lefodd ar y brenhin, ac a ddywedodd, Dy was a aeth i ganol y rhyfel, ac wele, gŵr a drodd heibio, ac a ddug ŵr attaf fi, ac a ddywedodd, Cadw y gŵr hwn: os gan golli y cyll efe, yna y bydd dy einioes di yn lle ei einioes ef, neu ti a deli dalent o arian.

40 A thra yr oedd dy was yn ymdrôi yma ac accw, efe a ddïangodd. A brenhin Israel a ddywedodd wrtho, Felly *y bydd* dy farn di; ti a'*i* rhoddaist *ar lawr.*

41 Ac efe a frysiodd, ac a dynnodd ymaith y lludw oddi ar ei wyneb: a brenhin Israel a'i hadnabu ef, mai o'r prophwydi *yr oedd* efe.

42 Ac efe a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; O herwydd i ti ollwng ymaith o'*th* law y gŵr a nodais i'w ddifetha, dy einioes di fydd yn lle ei einioes ef, a'th bobl di yn lle ei bobl ef.

43 A brenhin Israel a aeth i'w dŷ ei hun yn drist ac yn ddigllawn, ac a ddaeth i Samaria.

PENNOD 21.

1 *Ahab yn athrist am ei naccâu o winllan Naboth. 5 Naboth, ar lythyrau Jesebel, yn cael barn i farw am gabledd: 15 ac Ahab yn perchennogi ei winllan ef. 17 Elias yn datgan barn Duw yn erbyn Ahab a Jesebel. 25 A Duw, ar edifeirwch Ahab, yn oedi ei farnedigaeth.*

A DIGWYDDODD ar ol y pethau hyn, fod gwinllan gan Na-

both y Jesreeliad, yr hon *oedd* yn Jesreel, wrth balas Ahab brenhin Samaria.

2 Ac Ahab a lefarodd wrth Naboth, gan ddywedyd, Dyro i mi dy winllan, fel y byddo hi i mi yn ardd lysiau, canys *y mae* hi yn agos i'm tŷ i: a mi a roddaf i ti am dani hi winllan well na hi; *neu*, os da fydd gennyt, rhoddaf i ti ei gwerth hi yn arian.

3 A Naboth a ddywedodd wrth Ahab, Na atto yr ARGLWYDD i mi roddi treftadaeth fy hynafiaid i ti.

4 Ac Ahab a ddaeth i'w dŷ yn athrist ac yn ddigllawn, o herwydd y gair a lefarasai Naboth y Jesreeliad wrtho ef; canys efe a ddywedasai, Ni roddaf i ti dreftadaeth fy hynafiaid. Ac efe a orweddodd ar ei wely, ac a drodd ei wyneb ymaith, ac ni fwyttâi fara.

5 ¶ Ond Jesebel ei wraig a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, Paham y mae dy yspryd *mor* athrist, ac nad wyt yn bwytta bara?

6 Ac efe a ddywedodd wrthi, O herwydd i mi lefaru wrth Naboth y Jesreeliad, a dywedyd wrtho, Dyro i mi dy winllan er arian: neu, os mynni di, rhoddaf i ti winllan am dani. Ac efe a ddywedodd, Ni roddaf i ti fy ngwinllan.

7 A Jesebel ei wraig a ddywedodd wrtho, Ydwyt ti yn awr yn teyrnasu ar Israel? cyfod, bwytta fara, a llawenyched dy galon; myfi a roddaf i ti winllan Naboth y Jesreeliad.

8 Felly hi a ysgrifenodd lythyrau yn enw Ahab, ac a'*u* seliodd â'i sêl ef, ac a anfonodd y llythyrau at yr henuriaid, ac at y pennaethiaid *oedd* yn ei ddinas yn trigo gyd â Naboth.

9 A hi a ysgrifenodd yn y llythyrau, gan ddywedyd, Cyhoeddwch ympryd, a gosodwch Naboth uwch ben y bobl.

10 Cyflëwch *hefyd* ddau ŵr o feibion y fall, gyferbyn âg ef, i dystiolaethu i'w erbyn ef, gan ddywedyd, Ti a geblaist DDUW a'r brenhin. Ac *yna* dygwch ef allan, a llabyddiwch ef, fel y byddo efe marw.

11 A gwŷr ei ddinas, *sef* yr henuriaid a'r pennaethiaid, y rhai oedd yn trigo yn ei ddinas ef, a wnaethant yn ol yr hyn a anfonasai Jesebel attynt hwy, *ac* yn ol yr hyn oedd ysgrifenedig yn y llythyrau a anfonasai hi attynt hwy.

12 Cyhoeddasant ympryd, a chyfleasant Naboth uwch ben y bobl.

13 A dau ŵr, o feibion y fall, a ddaethant, ac a eisteddasant ar ei gyfer ef: a gwŷr y fall a dystiolaethasant yn ei erbyn ef, *sef* yn erbyn Naboth, ger bron y bobl, gan ddywedyd, Naboth a gablodd DDUW a'r brenhin. Yna hwy a'i dygasant ef allan o'r ddinas, ac a'i llabyddiasant ef â meini, fel y bu efe farw.

14 Yna yr anfonasant hwy at Jesebel, gan ddywedyd, Naboth a labyddiwyd, ac a fu farw.

15 ¶ A phan glybu Jesebel labyddio Naboth, a'i farw, Jesebel a ddywedodd wrth Ahab, Cyfod, perchennoga winllan Naboth y Jesreeliad yr hwn a wrthododd *ei* rhoddi i ti er arian; canys nid byw Naboth, eithr marw yw.

16 A phan glybu Ahab farw Naboth, Ahab a gyfododd i fyned i waered i winllan Naboth y Jesreeliad, i gymmeryd meddiant ynddi.

17 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth at Elïas y Thesbiad, gan ddywedyd,

18 Cyfod, dos i waered i gyfarfod Ahab brenhin Israel, yr hwn *sydd* yn Samaria: wele *efe* y'ngwinllan Naboth, yr hon yr aeth efe i waered iddi i'w meddiannu.

19 A llefara wrtho ef, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, A leddaist ti, ac a feddiennaist hefyd? Llefara hefyd wrtho ef, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Yn y fan lle y llyfodd y cwn waed Naboth, y llŷf cwn dy waed dithau hefyd.

20 A dywedodd Ahab wrth Elïas, A gefaist ti fi, O fy ngelyn? Dywedodd yntau, Cefais: oblegid i ti ymwerthu i wneuthur yr hyn sydd ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD.

21 Wele fi yn dwyn drwg arnat ti, a mi a dynnaf ymaith dy hiliogaeth di, ac a dorraf oddi wrth Ahab bob gwrryw, y gwarchaëedig hefyd, a'r gweddilledig yn Israel:

22 A mi a wnaf dy dŷ di fel tŷ
Jeroboam mab Nebat, ac fel tŷ
Baasa mab Ahïah, o herwydd y
digter trwy yr hwn *y'm* digiaist, ac
y gwnaethost i Israel bechu.
23 Am Jesebel hefyd y llefarodd
yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Y
cwn a fwytty Jesebel wrth fur
Jesreel.
24 Y cwn a fwytty yr hwn a fyddo
marw o'r eiddo Ahab yn y ddinas:
a'r hwn a fyddo marw yn y maes
a fwytty adar y nefoedd.
25 ¶ Dïau na bu *neb* fel Ahab,
yr hwn a ymwerthodd i wneuthur
drwg y'ngolwg yr ARGLWYDD: o
herwydd Jesebel ei wraig a'i han-
nogai ef.
26 Ac efe a wnaeth yn ffiaidd
iawn, gan fyned ar ol delwau, yn ol
yr hyn oll a wnaeth yr Amoriaid,
y rhai a yrrodd yr ARGLWYDD allan
o flaen meibion Israel.
27 A phan glybu Ahab y geiriau
hyn, efe a rwygodd ei ddillad, ac a
osododd sachlïan am ei gnawd, ac
a ymprydiodd, ac a orweddodd
mewn sachlïan, ac a gerddodd yn
araf.
28 A gair yr ARGLWYDD a ddaeth
at Elïas y Thesbiad, gan ddywed-
yd,
29 Oni weli di fel yr ymostwng
Ahab ger fy mron? am iddo ymos-
twng ger fy mron i, ni ddygaf y
drwg yn ei ddyddiau ef; *ond* yn
nyddiau ei fab ef y dygaf y drwg
ar ei dŷ ef.

PENNOD 22.

1 *Ahab wedi ei dwyllo gan y gau-brophwydi, yn ol gair Micheah, yn cael ei ladd yn Ramoth-Gilead.* 37 *Y cwn yn llyfu ei waed ef, ac Ahaswah yn teyrnasu ar ei ol ef.* 41 *Daionus lywodraeth Jehosaphat,* 45 *a'i weithredoedd.* 50 *Jehoram yn frenhin ar ei ol ef.* 51 *Drygionus lywodraeth Ahaswah.*

ABUANT yn aros dair blynedd
heb ryfel rhwng Syria ac Is-
rael.
2 Ac yn y drydedd flwyddyn, Je-
hosaphat brenhin Judah a ddaeth
i waered at frenhin Israel.
3 A brenhin Israel a ddywedodd
wrth ei weision, Oni wyddoch mai
eiddo ni *yw* Ramoth-Gilead, a'n
bod ni yn tewi, heb ei dwyn hi o
law brenhin Syria?
4 Ac efe a ddywedodd wrth Je-
hosaphat, A âi di gyd â mi i ryfel
i Ramoth-Gilead? A Jehosaphat a
ddywedodd wrth frenhin Israel,
Yr ydwyf fi fel tithau, fy mhobl i
fel dy bobl dithau, fy meirch i fel
dy feirch dithau.
5 Jehosaphat hefyd a ddywedodd
wrth frenhin Israel, Ymgynghora,
attolwg, heddyw â gair yr AR-
GLWYDD.
6 Yna brenhin Israel a gasglodd
y prophwydi, ynghylch pedwar
cant o wŷr, ac a ddywedodd wrth-
ynt, A âf fi yn erbyn Ramoth-
Gilead i ryfel, neu a beidiaf fi?
Dywedasant hwythau, Dos i fyny;
canys yr ARGLWYDD a'i dyry hi yn
llaw y brenhin.
7 A Jehosaphat a ddywedodd,
Onid *oes* yma *un* prophwyd i'r AR-
GLWYDD mwyach, fel yr ymgyng-
horem âg ef?
8 A brenhin Israel a ddywedodd
wrth Jehosaphat, *Y mae* etto un
gŵr trwy yr hwn *y gallem* ymgyng-
hori â'r ARGLWYDD: eithr cas yw
gennyf fi ef; canys ni phrophwyda
efe i mi ddaioni, namyn drygioni;
Micheah mab Jimlah *yw efe.* A
dywedodd Jehosaphat, Na ddywed-
ed y brenhin felly.
9 Yna brenhin Israel a alwodd
ar un o'i ystafellyddion, ac a ddy-
wedodd, Prysura *yma* Micheah mab
Jimlah.
10 A brenhin Israel a Jehosaphat
brenhin Judah oeddynt yn eistedd
bob un ar ei deyrn-gadair, wedi
gwisgo eu *brenhinol* wisgoedd,
mewn llannerch *wrth* ddrws porth
Samaria; a'r holl brophwydi oedd
yn prophwydo ger eu bron hwynt.
11 A Sedecïah mab Cenaanah a
wnaeth iddo gyrn heiyrn; ac efe
a ddywedodd, Fel hyn y dywedodd
yr ARGLWYDD, A'r rhai hyn y corni
di y Syriaid, nes i ti eu difa hwynt.
12 A'r holl brophwydi oedd yn
prophwydo fel hyn, gan ddywed-
yd, Dos i fyny i Ramoth-Gilead, a
llwydda: canys yr ARGLWYDD a'*i*
dyry *hi* yn llaw y brenhin.
13 A'r gennad a aethai i alw
Micheah a lefarodd wrtho ef, gan
ddywedyd, Wele yn awr eiriau y
prophwydi yn unair yn dda i'r
brenhin: bydded, attolwg, dy air

dithau fel gair un o honynt, a dywed y goreu.

14 A dywedodd Micheah, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, yr hyn a ddywedo yr ARGLWYDD wrthyf, hynny a lefaraf fi.

15 ¶ Felly efe a ddaeth at y brenhin. A'r brenhin a ddywedodd wrtho, Micheah, a awn mi i ryfel yn erbyn Ramoth-Gilead, ai peidio? Dywedodd yntau wrtho, Dos i fyny, a llwydda; canys yr ARGLWYDD a'*i* dyry *hi* yn llaw y brenhin.

16 A'r brenhin a ddywedodd wrtho, Pa sawl gwaith y'th dynghedaf di, na ddywedech wrthyf ond gwirionedd yn enw yr ARGLWYDD?

17 Ac efe a ddywedodd, Gwelais holl Israel ar wasgar ar hyd y mynyddoedd, fel defaid ni *byddai* iddynt fugail. A dywedodd yr ARGLWYDD, Nid *oes* feistr arnynt hwy; dychweled pob un i'w dŷ ei hun mewn heddwch.

18 A brenhin Israel a ddywedodd wrth Jehosaphat, Oni ddywedais i wrthyt ti, na phrophwydai efe ddaioni i mi, eithr drygioni?

19 Ac efe a ddywedodd, Clyw gan hynny air yr ARGLWYDD: Gwelais yr ARGLWYDD yn eistedd ar ei orseddfa, a holl lu y nefoedd yn sefyll yn ei ymyl, ar ei law ddehau ac ar ei law aswy.

20 A'r ARGLWYDD a ddywedodd, Pwy a dwylla Ahab, fel yr elo efe i fyny ac y syrthio yn Ramoth-Gilead? Ac un a ddywedodd fel hyn, ac arall oedd yn dywedyd fel hyn.

21 Ac ysprydd a ddaeth allan, ac a safodd ger bron yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Myfi a'i twyllaf ef. A dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, Pa fodd?

22 Dywedodd yntau, Mi a âf allan, ac a fyddaf yn ysprydd celwyddog y'ngenau ei holl brophwydi ef. Ac efe a ddywedodd, Twylli a gorchfygi *ef:* dos ymaith, a gwna felly.

23 Ac yn awr wele, yr ARGLWYDD a roddodd ysprydd celwyddog yng ngenau dy holl brophwydi hyn; a'r ARGLWYDD a lefarodd ddrwg am danat ti.

24 Ond Sedecïah mab Cenaanah a nesaodd, ac a darawodd Micheah dan *ei* gern, ac a ddywedodd, Pa ffordd yr aeth ysprydd yr ARGLWYDD oddi wrthyf fi i ymddiddan â thydi?

25 A Micheah a ddywedodd, Wele, ti a gei weled y dwthwn hwnnw, pan elych di o ystafell i ystafell i ymguddio.

26 A brenhin Israel a ddywedodd, Cymmer Micheah, a dwg ef yn ei ol at Amon tywysog y ddinas, ac at Joas mab y brenhin;

27 A dywed, Fel hyn y dywed y brenhin; Rhowch hwn yn y carchardy, a bwydwch ef â bara cystudd ac â dwfr blinder, nes i mi ddyfod mewn heddwch.

28 A dywedodd Micheah, Os gan ddychwelyd y dychweli di mewn heddwch, ni lefarodd yr ARGLWYDD ynof fi. Dywedodd hefyd, Gwrandêwch *hyn* yr holl bobl.

29 Felly brenhin Israel a Jehosaphat brenhin Judah a aethant i fyny i Ramoth-Gilead.

30 A brenhin Israel a ddywedodd wrth Jehosaphat, Mi a newidiaf fy nillad, ac a âf i'r rhyfel; ond gwisg di dy ddillad *dy hun.* A brenhin Israel a newidiodd *ei ddillad,* ac a aeth i'r rhyfel.

31 A brenhin Syria a orchymynasai i dywysogion y cerbydau *oedd* ganddo, *sef* deuddeg ar hugain, gan ddywedyd, Nac ymleddwch â bychan nac â mawr, ond â brenhin Israel yn unig.

32 A phan welodd tywysogion y cerbydau Jehosaphat, hwy a ddywedasant, Dïau brenhin Israel *yw* efe. A hwy a droisant i ymladd yn ei erbyn ef: a Jehosaphat a waeddodd.

33 A phan welodd tywysogion y cerbydau nad brenhin Israel oedd efe, hwy a ddychwelasant oddi ar ei ol ef.

34 A *rhyw* ŵr a dynnodd mewn bwa ar ei amcan, ac a darawodd frenhin Israel rhwng cyssylltiadau y llurig: am hynny efe a ddywedodd wrth ei gerbydwr, Tro dy law, a dwg fi allan o'r fyddin; canys fe a'm clwyfwyd i.

35 A'r rhyfel a gryfhaodd y dw-

thwn hwnnw: a'r brenhin a gynhelid i fyny yn ei gerbyd yn erbyn y Syriaid; ac efe a fu farw gyd â'r hwyr: a gwaed yr archoll a ffrydiodd i ganol y cerbyd.

36 Ac fe aeth cyhoeddiad trwy y gwersyll ynghylch machludiad yr haul, gan ddywedyd, *Eled* pob un i'w ddinas, a phob un i'w wlad ei hun.

37 ¶ Felly y bu farw y brenhin, ac y daeth efe i Samaria; a hwy a gladdasant y brenhin yn Samaria.

38 A golchwyd ei gerbyd ef yn llyn Samaria; a'r cwn a lyfasant ei waed ef: yr arfau hefyd a olchwyd; yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarasai efe.

39 A'r rhan arall o hanesion Ahab, a'r hyn oll a wnaeth efe, a'r tŷ ifori a adeiladodd efe, a'r holl ddinasoedd a adeiladodd efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

40 Felly Ahab a hunodd gyd â'i dadau; ac Ahasïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

41 ¶ A Jehosaphat mab Asa a aeth yn frenhin ar Judah yn y bedwaredd flwyddyn i Ahab brenhin Israel.

42 Jehosaphat *oedd* fab pymtheng mlwydd ar hugain pan aeth efe yn frenhin; a phum mlynedd ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem. Ac enw ei fam ef *oedd* Asubah, merch Silhi.

43 Ac efe a rodiodd yn holl ffordd Asa ei dad, ni ŵyrodd efe oddi wrthi hi, gan wneuthur *yr hyn oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD. Er hynny ni thynnwyd ymaith yr uchelfeydd; y bobl oedd etto yn offrymmu ac yn arogl-darthu yn yr uchelfeydd.

44 A Jehosaphat a heddychodd â brenhin Israel.

45 A'r rhan arall o hanes Jehosaphat, a'i rymmusdra a wnaeth efe, a'r modd y rhyfelodd efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?

46 A'r rhan arall o'r sodomiaid a'r a adawyd yn nyddiau Asa ei dad ef, efe a'u dileodd o'r wlad.

47 Yna nid *oedd* brenhin yn Edom: *ond* rhaglaw *oedd* yn *lle* brenhin.

48 Jehosaphat a wnaeth longau môr i fyned i Ophir am aur: ond nid aethant; canys y llongau a ddrylliodd yn Esion-Gaber.

49 Yna y dywedodd Ahasïah mab Ahab wrth Jehosaphat, Eled fy ngweision i gyd â'th weision di yn y llongau: ond ni fynnai Jehosaphat.

50 ¶ A Jehosaphat a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd gyd â'i dadau yn ninas Dafydd ei dad; a Jehoram ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

51 ¶ Ahasïah mab Ahab a aeth yn frenhin ar Israel yn Samaria, yn y ddwyfed flwyddyn ar bymtheg i Jehosaphat brenhin Judah; ac a deyrnasodd ar Israel ddwy flynedd.

52 Ac efe a wnaeth ddrwg yng ngolwg yr ARGLWYDD, ac a rodiodd yn ffordd ei dad, ac yn ffordd ei fam, ac yn ffordd Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu.

53 Canys efe a wasanaethodd Baal, ac a ymgrymmodd iddo, ac a ddigiodd ARGLWYDD DDUW Israel, yn ol yr hyn oll a wnaethai ei dad.

AIL LYFR Y BRENHINOEDD,

YR HWN A ELWIR HEFYD

PEDWERYDD LLYFR Y BRENHINOEDD.

PENNOD 1.

1 *Moab yn gwrthryfela.* 2 *Ahasïah yn gyrru at Baal-sebub, ac yn cael ei farnu gan Elïas.* 5 *Elïas ddwywaith yn dwyn tân o'r nefoedd ar y rhai a anfonasai Ahasïah i'w ddal ef,* 13 *yn tosturio wrth y trydydd tywysog; a chwedi ei gysuro gan angel, yn dangos i'r brenhin ei farwolaeth.* 17 *Jehoram mab Ahab yn teyrnasu yn lle Ahasïah.*

YNA Moab a wrthryfelodd yn erbyn Israel, wedi marwolaeth Ahab.

2 Ac Ahasïah a syrthiodd trwy ddellt o'i lofft, yr hon *oedd* yn Samaria, ac a glafychodd; ac efe a anfonodd genhadau, ac a ddywedodd wrthynt, Ewch, ac ymofynwch â Baal-sebub duw Ecron, a fyddaf fi byw o'r clefyd hwn.

3 Ac angel yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth Elïas y Thesbiad, Cyfod, dos i fyny i gyfarfod â chenhadau brenhin Samaria, a dywed wrthynt, Ai am nad *oedd* DUW yn Israel, yr ydych chwi yn myned i ymofyn â Baal-sebub duw Ecron?

4 Ac am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Ni ddisgyni o'r gwely y dringaist arno, eithr gan farw y byddi farw. Ac Elïas a aeth ymaith.

5 ¶ A phan ddychwelodd y cenhadau atto ef, efe a ddywedodd wrthynt, Paham y dychwelasoch chwi?

6 A hwy a ddywedasant wrtho, Gŵr a ddaeth i fyny i'n cyfarfod ni, ac a ddywedodd wrthym ni, Ewch, dychwelwch at y brenhin a'ch anfonodd, a lleferwch wrtho, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Ai am nad *oes* DUW yn Israel, yr ydwyt ti yn anfon i ymofyn â Baal-sebub duw Ecron? o herwydd hynny ni ddisgyni o'r gwely y dringaist arno, eithr gan farw y byddi farw.

7 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa ddull *oedd ar* y gŵr a ddaeth i fyny i'ch cyfarfod chwi, ac a lefarodd wrthych yr ymadroddion yma?

8 A hwy a ddywedasant wrtho, Gŵr blewog *oedd efe,* wedi ymwregysu hefyd â gwregys croen am ei lwynau. Dywedodd yntau, Elïas y Thesbiad *oedd* efe.

9 Yna efe a anfonodd atto ef dywysog ar ddeg a deugain, ynghyd â'i ddeg a deugain: ac efe a aeth i fyny atto ef; (ac wele ef yn eistedd ar ben bryn;) ac a lefarodd wrtho, Ti ŵr DUW, y brenhin a lefarodd, Tyred i waered.

10 Ac Elïas a attebodd ac a ddywedodd wrth dywysog y deg a deugain, Os gŵr DUW *ydwyf* fi, disgyned tân o'r nefoedd, ac ysed di a'th ddeg a deugain. A thân a ddisgynodd o'r nefoedd, ac a'i hysodd ef a'i ddeg a deugain.

11 A'*r brenhin* a anfonodd eilwaith atto ef dywysog arall ar ddeg a deugain, â'i ddeg a deugain: ac efe a attebodd ac a ddywedodd, O ŵr DUW, fel hyn y dywedodd y brenhin, Tyred i waered yn ebrwydd.

12 Ac Elïas a attebodd ac a ddywedodd wrthynt hwy, Os gŵr DUW *ydwyf* fi, disgyned tân o'r nefoedd, ac ysed di a'th ddeg a deugain. A thân DUW a ddisgynodd o'r nefoedd, ac a'i hysodd ef a'i ddeg a deugain.

13 ¶ A'*r brenhin* a anfonodd etto y trydydd tywysog ar ddeg a deugain, â'i ddeg a deugain: a'r trydydd tywysog ar ddeg a deugain a aeth i fyny, ac a ddaeth ac a ymgrymmodd ar ei liniau ger bron Elïas, ac a ymbiliodd âg ef, ac a lefarodd wrtho, O ŵr DUW, attolwg, bydded fy einioes i, ac einioes dy ddeg gwas a deugain hyn, yn werthfawr yn dy olwg di.

14 Wele, disgynodd tân o'r nefoedd, ac a ysodd y ddau dywysog cyntaf ar ddeg a deugain, a'u deg a deugeiniau: am hynny yn awr

bydded fy einioes i yn werthfawr yn dy olwg di.

15 Ac angel yr ARGLWYDD a lefarodd wrth Elïas, Dos i waered gyd âg ef, nac ofna ef. Ac efe a gyfododd, ac a aeth i waered gyd âg ef at y brenhin.

16 Ac efe a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD, O herwydd i ti anfon cenhadau i ymofyn â Baal-sebub duw Ecron, (ai am nad *oes* DUW yn Israel i ymofyn â'i air?) am hynny ni ddisgyni o'r gwely y dringaist arno, eithr gan farw y byddi farw.

17 ¶ Felly efe a fu farw, yn ol gair yr ARGLWYDD yr hwn a lefarasai Elïas: a Jehoram a deyrnasodd yn ei le ef, yn yr ail flwyddyn i Jehoram mab Jehosaphat brenhin Judah; am nad oedd mab iddo ef.

18 A'r rhan arall o weithredoedd Ahasïah y rhai a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

PENNOD 2.

1 Elïas, wrth ganu yn iach i Elisëus, yn hollti yr Iorddonen â'i fantell; 9 a chwedi rhoi ei ddymuniad i Elisëus, yn cael ei dduwyn i'r nefoedd mewn cerbyd tanllyd. 12 Elisëus yn hollti yr Iorddonen â mantell Elïas; ac erdill yn gwybod wrth hynny ei fod ef yn lle Elïas. 16 Meibion y prophwydi yn mynnu chwilio am Elïas, a heb ei gael ef. 19 Elisëus â halen yn iachâu y dwfr. 23 Eirth yn distrywio y plant a felldïgasai Elisëus.

A PHAN oedd yr ARGLWYDD ar gymmeryd i fyny Elïas mewn corwynt i'r nefoedd, aeth Elïas ac Elisëus allan o Gilgal.

2 Ac Elïas a ddywedodd wrth Elisëus, Aros, attolwg, yma: canys yr ARGLWYDD a'm hanfonodd i Bethel. Ac Elisëus a ddywedodd, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, ac *mai* byw dy enaid dithau, nid ymadawaf â thi. Felly hwy a aethant i waered i Bethel.

3 A meibion y prophwydi, y rhai *oedd* yn Bethel, a ddaethant allan at Elisëus, ac a ddywedasant wrtho, A wyddost ti mai heddyw y mae yr ARGLWYDD yn dwyn dy feistr oddi arnat ti? Dywedodd yntau, Mi a wn *hynny* hefyd, tewch chwi â sôn.

4 Ac Elïas a ddywedodd wrtho, Aros yma, attolwg, Elisëus; canys yr ARGLWYDD a'm hanfonodd i Jericho. Dywedodd yntau, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, ac *mai* byw dy enaid dithau, nid ymadawaf â thi. Felly hwy a ddaethant i Jericho.

5 A meibion y prophwydi, y rhai *oedd* yn Jericho, a ddaethant at Elisëus, ac a ddywedasant wrtho, A wyddost ti mai heddyw y mae yr ARGLWYDD yn dwyn dy feistr oddi arnat ti? Yntau a ddywedodd, Mi a wn *hynny* hefyd, tewch chwi â sôn.

6 Ac Elïas a ddywedodd wrtho, Aros yma, attolwg; canys yr ARGLWYDD a'm hanfonodd i'r Iorddonen. Dywedodd yntau, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, ac *mai* byw dy enaid dithau, nid ymadawaf â thi. A hwy a aethant ill dau rhagddynt.

7 A dengwr a deugain o feibion y prophwydi a aethant, ac a safasant ar gyfer o bell: a hwy ill dau a safasant wrth yr Iorddonen.

8 Ac Elïas a gymmerth ei fantell, ac a'*i* plygodd ynghyd, ac a darawodd y dyfroedd, a hwy a ymwahanasant yma ac accw, fel yr aethant hwy trwodd ill dau ar *dir* sych.

9 ¶ Ac wedi iddynt fyned drosodd, Elïas a ddywedodd wrth Elisëus, Gofyn y peth a wnelwyf i ti, cyn fy nghymmeryd oddi wrthyt. A dywedodd Elisëus, Bydded gan hynny, attolwg, ddau parth o'th yspryd di arnaf fi.

10 Dywedodd yntau, Gofynaist beth anhawdd: os gweli fi *wrth fy* nghymmeryd oddi wrthyt, fe fydd i ti felly; ac onid ê, ni bydd.

11 Ac fel yr oeddynt hwy yn myned dan rodio ac ymddiddan, wele gerbyd tanllyd, a meirch tanllyd, a hwy a'u gwahanasant hwynt ill dau. Ac Elïas a ddyrchafodd mewn corwynt i'r nefoedd.

12 ¶ Ac Elisëus oedd yn gweled, ac efe a lefodd, Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel, a'i farchogion. Ac nis gwelodd ef mwyach: ac efe a ymaflodd yn ei ddillad, ac a'u rhwygodd yn ddeuddarn.

13 Ac efe a gododd i fyny fantell Elïas a syrthiasai oddi wrtho ef; ac a ddychwelodd ac a safodd wrth fin yr Iorddonen.

14 Ac efe a gymmerth fantell Elïas

a syrthiasai oddi wrtho ef, ac a darawodd y dyfroedd, ac a ddywedodd, Pa le *y mae* ARGLWYDD DDUW Elïas? Ac wedi iddo yntau daro y dyfroedd, hwy a wahanwyd yma ac accw. Ac Elisëus a aeth drosodd.

15 A phan welodd meibion y prophwydi ef, y rhai *oedd* yn Jericho ar *ei* gyfer, hwy a ddywedasant, Gorphwysodd yspryd Elïas ar Elisëus. A hwy a ddaethant i'w gyfarfod ef, ac a ymgrymmasant hyd lawr iddo.

16 ¶ A hwy a ddywedasant wrtho, Wele yn awr, y mae gyd â'th weision ddeg a deugain o wŷr cryfion; elont yn awr, ni a attolygwn, a cheisiant dy feistr: rhag i yspryd yr ARGLWYDD ei ddwyn ef, a'i fwrw ar ryw fynydd, neu mewn rhyw ddyffryn. Dywedodd yntau, Na anfonwch.

17 Etto buant daer arno, nes cywilyddio *o hono*, ac efe a ddywedodd, Anfonwch. A hwy a anfonasant ddengwr a deugain, y rhai a'i ceisiasant ef dridiau, ond nis cawsant.

18 A hwy a ddychwelasant atto ef, ac efe oedd yn aros yn Jericho; ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Oni ddywedais i wrthych, Nac ewch?

19 ¶ A gwŷr y ddinas a ddywedasant wrth Elisëus, Wele, attolwg, ansawdd y ddinas, da *yw*, fel *y mae* fy arglwydd yn gweled: ond y dyfroedd *sydd* ddrwg, a'r tir yn ddiffaeth.

20 Ac efe a ddywedodd, Dygwch i mi phïol newydd, a dodwch ynddi halen. A hwy a'i dygasant atto ef.

21 Ac efe a aeth at ffynhonnell y dyfroedd, ac a fwriodd yr halen yno, ac a ddywedodd, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD, Mi a iacheais y dyfroedd hyn; ni bydd oddi yno farwolaeth mwyach, na diffrwythdra.

22 Felly yr iachâwyd y dyfroedd hyd y dydd hwn, yn ol gair Elisëus, yr hwn a ddywedasai efe.

23 ¶ Ac efe a aeth i fyny oddi yno i Bethel: ac fel yr oedd efe yn myned i fyny ar hyd y ffordd, plant bychain a ddaeth allan o'r ddinas, ac a'i gwatwarasant ef, ac a ddywedasant wrtho ef, Dos i fyny, moelyn, dos i fyny, moelyn.

24 Ac efe a drodd yn eï ol, ac a edrychodd arnynt, ac a'u melldithiodd yn enw yr ARGLWYDD. A dwy arth a ddaeth allan o'r goedwig, ac a ddrylliodd o honynt ddau blentyn a deugain.

25 Ac efe a aeth oddi yno i fynydd Carmel, ac oddi yno efe a ddychwelodd i Samaria.

PENNOD 3.

1 Jehoram yn teyrnasu. 4 Mesa yn gwrthryfela. 6 Jehoram, a Jehosaphat, a brenhin Edom mewn cyfyngder am ddŵfr, trwy Elisëus yn cael dwfr, ac addewid o ffuddugoliaeth. 21 Y Moabiaid, wedi eu twyllo gan lŵ y dŵfr wrth ddyfod i ymgeitio, yn cael eu gorchfygu. 26 Brenhin Moab, trwy aberthu mab brenhin Edom, yn gyrru Israel i'w gwlad.

A JEHORAM mab Ahab a aeth yn frenhin ar Israel yn Samaria, yn y ddeunawfed flwyddyn i Jehosaphat brenhin Judah, ac a deyrnasodd ddeuddeng mlynedd.

2 Ac efe a wnaeth ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, ond nid fel ei dad nac fel ei fam: canys efe a fwriodd ymaith ddelw Baal, yr hon a wnelsai ei dad.

3 Etto efe a lynodd wrth bechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu: ni chiliodd efe oddi wrthynt hwy.

4 ¶ A Mesa brenhin Moab oedd berchen defaid, ac a dalai i frenhin Israel gan mil o ŵyn, a chan mil o hyrddod gwlanog.

5 Ond wedi marw Ahab, brenhin Moab a wrthryfelodd yn erbyn brenhin Israel.

6 ¶ A'r brenhin Jehoram a aeth allan y pryd hwnnw o Samaria, ac a gyfrifodd holl Israel.

7 Efe a aeth *hefyd* ac a anfonodd at Jehosaphat brenhin Judah, gan ddywedyd, Brenhin Moab a wrthryfelodd i'm herbyn i: a ddeui di gyd â mi i ryfel yn erbyn Moab? Dywedodd yntau, Mi a âf i fyny; myfi *a fyddaf* fel tithau, fy mhobl i fel dy bobl dithau, fy meirch i fel dy feirch dithau.

8 Ac efe a ddywedodd, Pa ffordd yr awn ni i fyny? Dywedodd yntau, Ffordd anialwch Edom.

9 Felly yr aeth brenhin Israel, a brenhin Judah, a brenhin Edom; ac a aethant o amgylch ar eu taith

saith niwrnod: ac nid oedd dwfr i'r fyddin, nac i'r anifeiliaid *oedd* yn eu canlyn hwynt.

10 A brenhin Israel a ddywedodd, Gwae *fi!* o herwydd i'r ARGLWYDD alw y tri brenhin hyn ynghyd i'w rhoddi yn llaw Moab.

11 A Jehosaphat a ddywedodd, Onid *oes* yma brophwyd i'r ARGLWYDD, fel yr ymofynom ni â'r ARGLWYDD trwyddo ef? Ac un o weision brenhin Israel a attebodd ac a ddywedodd, *Y mae* yma Elisëus mab Saphat, yr hwn a dywalltodd ddwfr ar ddwylaw Elias.

12 A Jehosaphat a ddywedodd, Y mae gair yr ARGLWYDD gyd âg ef. Felly brenhin Israel, a Jehosaphat, a brenhin Edom, a aethant i waered atto ef.

13 Ac Elisëus a ddywedodd wrth frenhin Israel, Beth *sydd* i mi *a wnelwyf* â thi? dos at brophwydi dy dad, ac at brophwydi dy fam. A brenhin Israel a ddywedodd wrtho, Nag ê: canys yr ARGLWYDD a alwodd y tri brenhin hyn ynghyd i'w rhoddi yn llaw Moab.

14 Ac Elisëus a ddywedodd, *Fel mai* byw ARGLWYDD y lluoedd, yr hwn yr ydwyf yn sefyll ger ei fron, oni bai fy mod i yn perchi wyneb Jehosaphat brenhin Judah, nid edrychaswn i arnat ti, ac ni'th welswn.

15 Ond yn awr dygwch i mi gerddor. A phan ganodd y cerddor, daeth llaw yr ARGLWYDD arno ef.

16 Ac efe a ddywedodd, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD; Gwna y dyffryn hwn yn llawn ffosydd.

17 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Ni welwch wynt, ac ni welwch wlaw; etto y dyffryn hwn a lenwir o ddwfr, fel yr yfoch chwi, a'ch anifeiliaid, a'ch ysgrubliaid.

18 A pheth ysgafn yw hyn y'ngolwg yr ARGLWYDD: efe a ddyry Moab yn eich llaw chwi hefyd.

19 A chwi a darêwch bob dinas gaerog, a phob dinas ddetholedig; a phob pren teg a fwriwch chwi i lawr; yr holl ffynhonnau dyfroedd hefyd a gauwch chwi, a phob darn o dir da a ddifwynwch chwi â cherrig.

20 A'r bore pan offrymmwyd y bwyd-offrwm, wele ddyfroedd yn dyfod o ffordd Edom; a'r wlad a lanwyd o ddyfroedd.

21 ¶ A phan glybu yr holl Moabiaid fod y brenhinoedd hynny wedi dyfod i fyny i ymladd yn eu herbyn hwynt, y galwyd ynghyd bawb a'r a allai wisgo arfau, ac uchod, a hwy a safasant ar y terfyn.

22 A hwy a gyfodasant yn fore, a'r haul a gyfodasai ar y dyfroedd; a'r Moabiaid a ganfuant ar *eu* cyfer y dyfroedd yn goch fel gwaed:

23 A hwy a ddywedasant, Gwaed *yw* hwn: gan ddifetha y difethwyd y brenhinoedd, a hwy a darawsant bawb eu gilydd: am hynny yn awr at yr anrhaith, Moab.

24 A phan ddaethant at wersyll Israel, yr Israeliaid a gyfodasant ac a darawsant y Moabiaid, fel y ffoisant o'u blaen hwynt: a hwy a aethant rhagddynt, gan daro y Moabiaid yn *eu* gwlad *eu hun.*

25 A hwy a ddistrywiasant y dinasoedd, ac *i* bob darn o dir da y bwriasant bawb ei garreg, ac a'i llanwasant; a phob ffynnon ddwfr a gauasant hwy, a phob pren da a gwympasant hwy i lawr: yn unig yn Cir-haraseth y gadawsant ei cherrig; etto y rhai oedd yn taflu a'*i* hamgylchynasant, ac a'i tarawsant hi.

26 ¶ A phan welodd brenhin Moab fod y rhyfelwyr yn drech nag ef, efe a gymmerth saith gant o wŷr gyd âg ef yn tynnu cleddyf, i ruthro ar frenhin Edom: ond nis gallasant hwy.

27 Yna efe a gymmerodd ei fab cyntaf-anedig ef, yr hwn oedd i deyrnasu yn ei le ef, ac a'i hoffrymmodd ef yn boeth-offrwm ar y mur. A bu llid mawr yn erbyn Israel: a hwy a aethant ymaith oddi wrtho ef, ac a ddychwelasant i'*w* gwlad *eu hun.*

PENNOD 4.

1 Elisëus trwy rad penllad yn amlhâu olew y wraig weddw ddyledog. 12 Yn cael mab i'r Sunamëes, 18 ac yn ei gyfodi ef o farw i fyw: 38 yn iachâu y cawl yn Gilgal: 42 yn porthi cannwr âg ugain torth o fara.

ARHYW wraig o wragedd meibion y prophwydi a lefodd ar Elisëus, gan ddywedyd, Dy was fy ngŵr a fu farw; a thi a wyddost

fod dy was yn ofni yr ARGLWYDD: a'r echwynwr a ddaeth i gymmeryd fy nau fab i *i fod* yn gaethion iddo.

2 Ac Elisëus a ddywedodd wrthi, Beth a wnaf fi i ti? mynega i mi, beth sydd gennyt ti yn *dy* dŷ? Dywedodd hithau, Nid *oes* dim gan dy law-forwyn yn tŷ, ond ystenaid o olew.

3 Ac efe a ddywedodd, Dos, cais i ti lestri oddi allan gan dy holl gymmydogion, *sef* llestri gweigion, nid ychydig.

4 A phan ddelych i mewn, cau y drws arnat, ac ar dy feibion, a thywallt i'r holl lestri hynny; a dod heibio yr hwn *a fyddo* llawn.

5 Felly hi a aeth oddi wrtho ef, ac a gauodd y drws arni, ac ar ei meibion: a hwynt-hwy a ddygasant *y llestri* atti hi; a hithau a dywalltodd.

6 Ac wedi llenwi y llestri, hi a ddywedodd wrth ei mab, Dwg i mi etto lestr. Dywedodd yntau wrthi, Nid *oes* mwyach *un* llestr. A'r olew a beidiodd.

7 Yna hi a ddaeth ac a fynegodd i ŵr DUW. Dywedodd yntau, Dos, gwerth yr olew, a thâl dy ddyled; a bydd di fyw, ti a'th feibion, ar y rhan arall.

8 ¶ A bu *ar ryw* ddiwrnod i Elisëus dramwyo i Sunem; ac yno *yr oedd* gwraig oludog, yr hon a'i cymhellodd ef i fwytta bara. A chynnifer gwaith ag y tramwyai efe heibio, efe a droai yno i fwytta bara.

9 A hi a ddywedodd wrth ei gŵr, Wele yn awr, mi a wn mai gŵr sanctaidd i DDUW *ydyw* hwn, sydd yn cynniwair heibio i ni yn wastadol.

10 Gwnawn, attolwg, ystafell fechan ar y mur; a gosodwn iddo yno wely, a bwrdd, ac ystôl, a chanhwyllbren: fel y tro efe yno, pan ddelo efe attom ni.

11 Ac ar ddydd-gwaith efe a ddaeth yno, ac a drodd i'r ystafell, ac a orphwysodd yno.

12 Ac efe a ddywedodd wrth Gehasi ei was, Galw ar y Sunamëes hon. Yntau a alwodd arni hi: hithau a safodd ger ei fron ef.

13 Dywedodd hefyd wrtho, Dywed yn awr wrthi hi, Wele, ti a ofelaist trosom ni â'r holl ofal yma; beth *sydd i'w* wneuthur erot ti? a oes *a fynnych* di ei ddywedyd wrth y brenhin, neu wrth dywysog y llu? Hithau a ddywedodd, Yng nghanol fy mhobl yr ydwyf fi yn trigo.

14 Ac efe a ddywedodd, Beth gan hynny *sydd* i'w wneuthur erddi hi? A Gehasi a ddywedodd, Yn ddïau nid *oes* iddi fab, a'i gŵr *sydd* hen.

15 Ac efe a ddywedodd, Galw hi. Ac efe a'i galwodd hi; a hi a safodd yn y drws.

16 Ac efe a ddywedodd, Ynghylch y pryd hwn wrth amser bywiolaeth, ti a gofleidi fab. Hithau a ddywedodd, Nag ê, fy arglwydd, gŵr DUW, na ddywed gelwydd i'th law-forwyn.

17 A'r wraig a feichiogodd, ac a ddug fab y pryd hwnnw, yn ol amser bywiolaeth, yr hyn a lefarasai Elisëus wrthi hi.

18 ¶ A'r bachgen a gynnyddodd, ac a aeth ddydd-gwaith allan at ei dad at y medelwyr.

19 Ac efe a ddywedodd wrth ei dad, Fy mhen, fy mhen. Dywedodd yntau wrth langc, Dwg ef at ei fam.

20 Ac efe a'i cymmerth, ac a'i dug ef at ei fam. Ac efe a eisteddodd ar ei gliniau hi hyd hanner dydd, ac a fu farw.

21 A hi a aeth i fyny, ac a'i gosododd ef i orwedd ar wely gŵr DUW, ac a gauodd *y drws* arno, ac a aeth allan.

22 A hi a alwodd ar ei gŵr, ac a ddywedodd, Anfon, attolwg, gyd â mi un o'r llangciau, ac un o'r asynod: canys mi a redaf hyd at ŵr DUW, ac a ddychwelaf.

23 Dywedodd yntau, Paham yr âi di atto ef heddyw? nid *yw hi* na newydd-loer, na Sabbath. Hithau a ddywedodd, Pob peth yn dda.

24 Yna hi a gyfrwyodd yr asyn; ac a ddywedodd wrth ei llangc, Gyr, a dos rhagot: nac aros am danaf fi i farchogaeth, onid archwyf i ti.

25 Felly hi a aeth, ac a ddaeth at ŵr DUW i fynydd Carmel. A phan

welodd gŵr Duw hi o bell, efe a ddywedodd wrth Gehasi ei was, Wele y Sunamëes honno.

26 Rhed yn awr, attolwg, i'w chyfarfod, a dywed wrthi hi, *A wyt* ti yn iach? *a ydyw* dy ŵr yn iach? *a ydyw* y bachgen yn iach? Dywedodd hithau, Iach.

27 A phan ddaeth hi at ŵr Duw i'r mynydd, hi a ymaflodd yn ei draed ef: a Gehasi a nesaodd i'w gwthio hi ymaith. A gŵr Duw a ddywedodd, Gâd hi yn llonydd: canys ei henaid *sydd* ofidus ynddi; a'r Arglwydd a'*i* celodd oddi wrthyf fi, ac nis mynegodd i mi.

28 Yna hi a ddywedodd, A ddymunais i fab gan fy arglwydd? oni ddywedais, Na thwylla fi?

29 Yna efe a ddywedodd wrth Gehasi, Gwregysa dy lwynau, a chymmer fy ffon yn dy law, a dos ymaith: o chyfarfyddi â neb, na chyfarch iddo; ac o chyfarch neb di, nac atteb ef: a gosod fy ffon i ar wyneb y bachgen.

30 A mam y bachgen a ddywedodd, *Fel mai* byw yr Arglwydd, ac *mai* byw dy enaid di, nid ymadawaf fi â thi. Ac efe a gyfododd, ac a aeth ar ei hol hi.

31 A Gehasi a gerddodd o'u blaen hwynt, ac a osododd y ffon ar wyneb y bachgen: ond nid *oedd* na lleferydd, na chlywed. Am hynny efe a ddychwelodd i'w gyfarfod ef; ac a fynegodd iddo, gan ddywedyd, Ni ddeffrôdd y bachgen.

32 A phan ddaeth Elisëus i mewn i'r tŷ, wele y bachgen wedi marw, yn gorwedd ar ei wely ef.

33 Felly efe a ddaeth i mewn, ac a gauodd y drws arnynt ill dau, ac a weddïodd ar yr Arglwydd.

34 Ac efe a aeth i fyny, ac a orweddodd ar y bachgen, ac a osododd ei enau ar ei enau yntau, a'i lygaid ar ei lygaid ef, a'i ddwylaw ar ei ddwylaw ef, ac efe a ymestynodd arno ef; a chynhesodd cnawd y bachgen.

35 Ac efe a ddychwelodd, ac a rodiodd yn y tŷ i fyny ac i waered; ac a aeth i fyny, ac a ymestynodd arno ef: a'r bachgen a disiodd hyd yn seithwaith, a'r bachgen a agorodd ei lygaid.

36 Ac efe a alwodd ar Gehasi, ac a ddywedodd, Galw y Sunamëes hon. Ac efe a alwodd arni hi. A hi a ddaeth atto ef. Dywedodd yntau, Cymmer dy fab.

37 A hi a aeth i mewn, ac a syrthiodd wrth ei draed ef, ac a ymgrymmodd hyd lawr, ac a gymmerodd ei mab, ac a aeth allan.

38 ¶ Ac Elisëus a ddychwelodd i Gilgal. Ac *yr oedd* newyn yn y wlad; a meibion y prophwydi *oedd* yn eistedd ger ei fron ef: ac efe a ddywedodd wrth ei was, Trefna y crochan mawr, a berw gawl i feibion y prophwydi.

39 Ac un a aeth allan i'r maes i gasglu bresych, ac a gafodd winwydden wyllt, ac a gasglodd o honi fresych gwylltion lonaid ei wisg, ac a ddaeth ac a'*u* briwodd yn y crochan cawl: canys nid adwaenent *hwynt*.

40 Yna y tywalltasant i'r gwŷr i fwytta. A phan fwyttasant o'r cawl, hwy a waeddasant, ac a ddywedasant, O ŵr Duw, *y mae* angau yn y crochan: ac ni allent *ei* fwytta.

41 Ond efe a ddywedodd, Dygwch flawd. Ac efe a'*i* bwriodd yn y crochan: dywedodd hefyd, Tywallt i'r bobl, fel y bwyttaont. Ac nid oedd dim niwed yn y crochan.

42 ¶ A daeth gŵr o Baal-salisa, ac a ddug i ŵr Duw o fara blaenffrwyth, ugain torth haidd, a thywysennau o ŷd newydd yn ei gibau. Ac efe a ddywedodd, Dod i'r bobl, fel y bwyttaont.

43 A'i weinidog ef a ddywedodd, I ba beth y rhoddaf hyn ger bron cannwr? Dywedodd yntau, Dyro i'r bobl, fel y bwyttaont: canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, Hwy a fwyttânt, a bydd gweddill.

44 Felly efe a'*i* rhoddodd ger eu bron hwynt: a hwy a fwyttasant, ac a weddillasant, yn ol gair yr Arglwydd.

PENNOD 5.

1 *Naaman, wrth chwedl ei gaeth-forwyn, yn myned i Samaria i'w iachau o'i wahan-glwyf.* 8 *Elisëus yn ei yrru ef i'r Iorddonen i'w iachau;* 15 *yn gwrthod ei roddion ef, ac yn rhoi iddo beth o'r ddaear.* 20 *Gehasi yn enw ei feistr yn cymmeryd rhoddion Naaman, ac yn cael gwaluan-glwyf tragywyddol.*

A NAAMAN, tywysog llu brenhin Syria, oedd ŵr mawr yng

ngolwg ei arglwydd, ac yn anrhydeddus; canys trwyddo ef y rhoddasai yr ARGLWYDD ymwared i Syria: ac yr oedd efe yn ŵr cadarn nerthol, *ond yr oedd* yn wahanglwyfus.

2 A'r Syriaid a aethent allan yn finteioedd, ac a gaethgludasent o wlad Israel langces fechan; a honno oedd yn gwasanaethu gwraig Naaman.

3 A hi a ddywedodd wrth ei meistres, O na *byddai* fy arglwydd o flaen y prophwyd *sydd* yn Samaria! canys efe a'i hiachâi ef o'i wahan-glwyf.

4 Ac *un* a aeth ac a fynegodd i'w arglwydd, gan ddywedyd, Fel hyn ac fel hyn y dywedodd y llangces o wlad Israel.

5 A brenhin Syria a ddywedodd, Dos, cerdda, a mi a anfonaf lythyr at frenhin Israel. Ac efe a aeth ymaith, ac a ddug gyd âg ef ddeg talent o arian, a chwe mil o aur, a deg pâr o ddillad.

6 Ac efe a ddug y llythyr at frenhin Israel, gan ddywedyd, Yn awr pan ddêl y llythyr hwn attat ti, wele, anfonais attat ti Naaman fy ngwas, fel yr iachâit of o'i wahan-glwyf.

7 A phan ddarllenodd brenhin Israel y llythyr, efe a rwygodd ei ddillad, ac a ddywedodd, Ai DUW *ydwyf* fi, i farwhâu, ac i fywhâu, pan anfonai efe attaf fi i iachâu gŵr o'i wahan-glwyf? gwybyddwch gan hynny, attolwg, a gwelwch mai ceisio achos y mae efe i'm herbyn i.

8 ¶ A phan glybu Elisëus gŵr DUW rwygo o frenhin Israel ei ddillad, efe a anfonodd at y brenhin, gan ddywedyd, Paham y rhwygaist dy ddillad? deued yn awr attaf fi, ac efe a gaiff wybod fod prophwyd yn Israel.

9 Yna Naaman a ddaeth â'i feirch ac â'i gerbydau, ac a safodd *wrth* ddrws tŷ Elisëus.

10 Ac Elisëus a anfonodd atto ef gennad, gan ddywedyd, Dos ac ymolch saith waith yn yr Iorddonen; a'th gnawd a ddychwel i ti, a thithau a lanhêir.

11 Ond Naaman a ddigiodd, ac a aeth ymaith; ac a ddywedodd, Wele, mi a feddyliais ynof fy hun, gan ddyfod y deuai efe allan, ac y safai efe, ac y galwai ar enw yr ARGLWYDD ei DDUW, ac y gosodai ei law ar y fan, ac yr iachâi y gwahan-glwyfus.

12 Onid gwell Abana a Pharpar, afonydd Damascus, na holl ddyfroedd Israel? oni allaf ymolchi ynddynt hwy, ac ymlanhâu? Felly efe a drodd, ac a aeth ymaith mewn digter.

13 A'i weision a nesasant, ac a lefarasant wrtho, ac a ddywedasant, Fy nhad, *pe* dywedasai y prophwyd beth mawr wrthyt ti, onis gwnelsit? pa faint mwy, gan iddo ddywedyd wrthyt, Ymolch, a bydd lân?

14 Ac yna efe a aeth i waered, ac a ymdrochodd saith waith yn yr Iorddonen, yn ol gair gŵr DUW: a'i gnawd a ddychwelodd fel cnawd dyn bach, ac efe a lanhâwyd.

15 ¶ Ac efe a ddychwelodd at ŵr DUW, efe a'i holl fintai, ac a ddaeth ac a safodd ger ei fron ef; ac a ddywedodd, Wele, yn awr y gwn nad *oes* DUW trwy yr holl ddaear, ond yn Israel: am hynny cymmer yn awr, attolwg, rodd gan dy was.

16 Ond efe a ddywedodd, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, yr hwn yr ydwyf yn sefyll ger ei fron, ni chymmeraf. Ac efe a gymhellodd arno *ei* chymmeryd; etto efe a'*i* gwrthododd.

17 A Naaman a ddywedodd, Oni roddir yn awr i'th was lwyth cwpl o fulod o ddaear? canys ni offrymma dy was mwyach boeth-offrwm nac aberth i dduwiau eraill, ond i'r ARGLWYDD.

18 Yn y peth hyn yr ARGLWYDD a faddeuo i'th was; pan elo fy arglwydd i dŷ Rimmon i addoli yno, a phwyso ar fy llaw i, a *phan* ymgrymmwyf finnau yn nhŷ Rimmon; pan ymgrymmwyf yn nhŷ Rimmon, maddeued yr ARGLWYDD i'th was yn y peth hyn.

19 Ac efe a ddywedodd wrtho, Dos mewn heddwch. Ac efe a aeth oddi wrtho ef encyd o ffordd.

20 ¶ Ond Gehasi, gwas Elisëus gŵr DUW, a ddywedodd, Wele, fy meistr a arbedodd Naaman y Syriad hwn, heb gymmeryd o'i law ef yr hyn a ddygasai efe: *fel mai* byw

yr ARGLWYDD, mi a redaf ar ei ol ef, ac a gymmeraf ryw beth ganddo ef.

21 Felly Gehasi a ganlynodd ar ol Naaman. A phan welodd Naaman *ef* yn rhedeg ar ei ol, efe a ddisgynodd oddi ar y cerbyd i'w gyfarfod ef, ac a ddywedodd, *A yw* pob peth yn dda?

22 Dywedodd yntau, *Y mae* pob peth yn dda. Fy meistr a'm hanfonodd i, gan ddywedyd, Wele, yr awr hon dau lange o fynydd Ephraim, o feibion y prophwydi, a ddaeth attaf fi: dyro *yn awr* iddynt hwy dalent o arian, a dau bâr o ddillad.

23 A Naaman a ddywedodd, Bydd foddlawn, cymmer ddwy dalent. Ac efe a fu daer arno ef; ac a rwymodd ddwy dalent o arian mewn dwy gôd, a deubar o ddillad; ac efe a'*u* rhoddodd at ddau o'i weision, i'*w* dwyn o'i flaen ef.

24 A phan ddaeth efe i'r bwlch, efe a'*u* cymmerth o'u llaw hwynt, ac a'*u* rhoddodd i gadw yn tŷ; ac a ollyngodd ymaith y gwŷr, a hwy a aethant ymaith.

25 Ond efe a aeth i mewn, ac a safodd o flaen ei feistr. Ac Elisëus a ddywedodd wrtho ef, O ba le *y daethost ti*, Gehasi? Dywedodd yntau, Nid aeth dy was *nac* yma na thraw.

26 Ac efe a ddywedodd wrtho, Onid aeth fy nghalon *gyd â thi*, pan drodd y gŵr oddi ar ei gerbyd i'th gyfarfod di? *a ydoedd hi* amser i gymmeryd arian, ac i gymmeryd gwisgoedd, ac olew-wyddlannau, a gwinllannau, a defaid, a gwartheg, a gweision, a morwynion?

27 Am hynny gwahan-glwyf Naaman a lŷn wrthyt ti, ac wrth dy had yn dragywydd. Ac efe a aeth ymaith o'i ŵydd ef yn wahanglwyfus *cyn wynned* a'r eira.

PENNOD 6.

1 *Elisëus yn caniattâu i feibion y prophwydi gael ehengi eu terfynau; ac yn peri i'r haiarn nofio:* 8 *yn datguddio cyfrinach brenhin Syria.* 18 *Y llu a yrrwyd i ddal Elisëus, yn cael eu taro â dallineb:* 19 *a chwedi eu dwyn i Samaria, yn cael eu gollwng ymaith.* 24 *Y newyn yn Samaria yn peri i wragedd fwytta eu plant.* 30 *Y brenhin yn gyrru i ladd Elisëus.*

AMEIBION y prophwydi a ddywedasant wrth Elisëus, Wele yn awr, y lle yr hwn yr ydym ni yn trigo ynddo ger dy fron di, sydd ry gyfyng i ni.

2 Awn yn awr hyd yr Iorddonen, fel y cymmerom oddi yno bawb ei drawst, ac y gwnelom i ni yno le i gyfanneddu ynddo. Dywedodd yntau, Ewch.

3 Ac un a ddywedodd, Bydd foddlawn, attolwg, a thyred gyd â'th weision. Dywedodd yntau, Mi a ddeuaf.

4 Felly efe a aeth gyd â hwynt. A hwy a ddaethant at yr Iorddonen, ac a dorrasant goed.

5 A phan oedd un yn bwrw i lawr drawst, ei fwyell ef a syrthiodd i'r dwfr. Ac efe a waeddodd, ac a ddywedodd, Och fi, fy meistr! canys benthyg oedd.

6 A gŵr DUW a ddywedodd, Pa le y syrthiodd? Yntau a ddangosodd iddo y fan. Ac efe a dorrodd bren, ac a'*i* taflodd yno; a'r haiarn a nofiodd.

7 Ac efe a ddywedodd, Cymmer i fyny i ti. Ac efe a estynodd ei law, ac a'i cymmerodd.

8 ¶ A brenhin Syria oedd yn rhyfela yn erbyn Israel; ac efe a ymgynghorodd â'i weision, gan ddywedyd, Yn y lle a'r lle *y bydd* fy ngwersyllfa.

9 A gŵr DUW a anfonodd at frenhin Israel, gan ddywedyd, Ymgadw rhag myned i'r lle a'r lle: canys yno y disgynodd y Syriaid.

10 A brenhin Israel a anfonodd i'r lle *am* yr hwn y dywedasai gŵr DUW wrtho, ac y rhybuddiasai ef, ac a ymgadwodd yno, nid unwaith, ac nid dwywaith.

11 A chalon brenhin Syria a gythryblwyd herwydd y peth hyn; ac efe a alwodd ar ei weision, ac a ddywedodd wrthynt, Oni fynegwch i mi pwy o honom ni *sydd* gyd â brenhin Israel?

12 Ac un o'i weision ef a ddywedodd, Nid *oes neb*, fy arglwydd frenhin: ond Elisëus y prophwyd, yr hwn *sydd* yn Israel, a fynega i frenhin Israel y geiriau a leferi di yng nghanol dy ystafell wely.

13 ¶ Ac efe a ddywedodd, Ewch, ac edrychwch pa le *y mae* efe, fel yr anfonwyf i'w gyrchu ef. A

mynegwyd iddo, gan ddywedyd, Wele, yn Dothan *y mae efe.*

14 Am hynny efe a anfonodd yno feirch a cherbydau, a llu mawr: a hwy a ddaethant liw nos, ac a amgylchynasant y ddinas.

15 A phan gododd gweinidog gŵr Duw yn fore, a myned allan, wele lu yn amgylchynu y ddinas, â meirch ac â cherbydau. A'i was a ddywedodd wrtho ef, Aha, fy meistr! pa fodd y gwnawn?

16 Ac efe a ddywedodd, Nac ofna: canys amlach *yw* y rhai *sydd* gyd â ni na'r rhai *sydd* gyd â hwynt.

17 Ac Elisëus a weddïodd, ac a ddywedodd, O Arglwydd, agor, attolwg, ei lygaid ef, fel y gwelo. A'r Arglwydd a agorodd lygaid y llangc; ac efe a edrychodd: ac wele y mynydd yn llawn meirch a cherbydau tanllyd o amgylch Elisëus.

18 A phan ddaethant i waered atto ef, Elisëus a weddïodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd, Taro, attolwg, y genedl hon â dallineb. Ac efe a'u tarawodd hwy â dallineb, yn ol gair Elisëus.

19 ¶ Ac Elisëus a ddywedodd wrthynt, Nid hon *yw* y ffordd, ac nid hon *yw* y ddinas: deuwch ar fy ol i, a mi a'ch dygaf chwi at y gŵr yr ydych chwi yn ei geisio. Ond efe a'u harweiniodd hwynt i Samaria.

20 A phan ddaethant hwy i Samaria, Elisëus a ddywedodd, O Arglwydd, agor lygaid y rhai hyn, fel y gwelont. A'r Arglwydd a agorodd eu llygaid hwynt; a hwy a welsant: ac wele, y'nghanol Samaria *yr oeddynt.*

21 A brenhin Israel a ddywedodd wrth Elisëus, pan welodd efe hwynt, Gan daro a darawaf *hwynt,* fy nhad?

22 Dywedodd yntau, Na tharo: a darewit ti y rhai a gaethiwaist â'th gleddyf ac â'th fwa dy hun? gosod fara a dwfr ger eu bron hwynt, fel y bwyttaont ac yr yfont, ac yr elont at eu harglwydd.

23 Ac efe a arlwyodd iddynt hwy arlwy fawr: a hwy a fwyttasant ac a yfasant; ac efe a'u gollyngodd hwynt ymaith, a hwy a aethant at eu harglwydd. Felly byddinoedd Syria ni chwanegasant ddyfod mwyach i wlad Israel.

24 ¶ Ac wedi hyn Benhadad brenhin Syria a gynhullodd ei holl lu, ac a aeth i fyny, ac a warchaeodd ar Samaria.

25 Ac yr oedd newyn mawr yn Samaria: ac wele, yr oeddynt hwy yn gwarchae arni hi, nes bod pen asyn er pedwar ugain *sicl* o arian, a phedwaredd *ran* cab o dom colommennod er pum *sicl* o arian.

26 Ac fel yr oedd brenhin Israel yn myned heibio ar y mur, gwraig a lefodd arno ef, gan ddywedyd, Achub, fy arglwydd frenhin.

27 Dywedodd yntau, Oni achub yr Arglwydd dydi, pa fodd yr achubaf fi di? Ai o'r ysgubor, neu o'r gwin-wrŷf?

28 A'r brenhin a ddywedodd wrthi hi, Beth *a ddarfu* i ti? Hithau a ddywedodd, Y wraig hon a ddywedodd wrthyf, Dyro dy fab, fel y bwyttaom ef heddyw; a'm mab innau a fwyttâwn ni y fory.

29 Felly ni a ferwasom fy mab i, ac a'i bwyttasom ef: a mi a ddywedais wrthi hithau y diwrnod arall, Dyro dithau dy fab, fel y bwyttaom ef: ond hi a guddiodd ei mab.

30 ¶ A phan glybu y brenhin eiriau y wraig, efe a rwygodd ei ddillad, ac a aeth heibio ar y mur; a'r bobl a edrychodd, ac wele, sachlïan *oedd* am ei gnawd ef oddi fewn.

31 Ac efe a ddywedodd, Fel hyn y gwnelo Duw i mi, ac fel hyn y chwanego, os saif pen Elisëus mab Saphat arno ef heddyw.

32 Ond Elisëus oedd yn eistedd yn ei dŷ, a'r henuriaid yn eistedd gyd âg ef. A'*r brenhin* a anfonodd ŵr o'i flaen: ond cyn dyfod y gennad atto ef, efe a ddywedodd wrth yr henuriaid, A welwch chwi fel yr anfonodd mab y llofrudd hwn i gymmeryd ymaith fy mhen i? Edrychwch pan ddêl y gennad i mewn, cauwch y drws, a deliwch ef wrth y drws: onid *yw* trwst traed ei arglwydd ar ei ol ef?

33 Ac efe etto yn ymddiddan â hwynt, wele y gennad yn dyfod i mewn atto ef: ac efe a ddywedodd, Wele, y drwg hyn *sydd* oddi wrth

yr ARGLWYDD; paham y disgwyliaf wrth yr ARGLWYDD mwy?

PENNOD 7.

1 *Elisëus yn prophwydo helaethrwydd anghreddadwy yn Samaria.* 3 *Pedwar gwahan-glwyfus yn myned i wersyll y Syriaid, ac yn dangos iddynt ffoi.* 12 *Y brenhin yn cael hynny yn wir, ac yn ysperitio pebyll y Syriaid.* 17 *Y penmaeth ni choeliai eiriau y prophwyd, yn cael ei sathru dan draed nes ei farw.*

YNA Elisëus a ddywedodd, Gwrandêwch air yr ARGLWYDD: Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD; Ynghylch y pryd *hwn* y fory *y giverthir* sat o beillied er sicl, a dau sat o haidd er sicl, ym mhorth Samaria.

2 Yna tywysog yr oedd y brenhin yn pwyso ar ei law a attebodd ŵr DUW, ac a ddywedodd, Wele, *pe* gwnai yr ARGLWYDD ffenestri yn y nefoedd, a fyddai y peth hyn? Dywedodd yntau, Wele, ti a'*i* gweli â'th lygaid, ond ni fwyttêi o hono.

3 ¶ Ac yr oedd pedwar gŵr gwahan-glwyfus wrth ddrws y porth, a hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Paham yr ydym ni yn aros yma nes ein meirw?

4 Os dywedwn ni, Awn i mewn i'r ddinas, newyn *sydd* yn y ddinas, a ni a fyddwn feirw yno; ac os trigwn yma, ni a fyddwn feirw hefyd. Am hynny deuwch yn awr, ac awn i wersyll y Syriaid: o chadwant ni yn fyw, byw fyddwn; ac os lladdant ni, byddwn feirw.

5 A hwy a gyfodasant ar dorriad dydd i fyned i wersyll y Syriaid. A phan ddaethant at gwr eithaf gwersyll y Syriaid, wele, nid *oedd* neb yno.

6 Canys yr ARGLWYDD a barasai i wersyll y Syriaid glywed trwst cerbydau, a thrwst meirch, trwst llu mawr: a hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Wele, brenhin Israel a gyflogodd i'n herbyn ni frenhinoedd yr Hethiaid, a brenhinoedd yr Aipht, i ddyfod arnom ni.

7 Am hynny hwy a gyfodasant, ac a ffoisant, ar lasiad dydd, ac a adawsant eu pebyll, a'u meirch, a'u hasynod, *sef* y gwersyll fel *yr ydoedd*, ac a ffoisant am eu heinioes.

8 A phan ddaeth y rhai gwahanglwyfus hyn hyd gwr eithaf y gwersyll, hwy a aethant i un babell, ac a fwyttasant, ac a yfasant, ac a gymmerasant oddi yno arian, ac aur, a gwisgoedd, ac a aethant, ac a'*i* cuddiasant, ac a ddychwelasant; ac a aethant i babell arall, ac a gymmerasant oddi yno, ac a aethant, ac a'*i* cuddiasant.

9 Yna y dywedodd y naill wrth y llall, Nid ydym ni yn gwneuthur yn iawn; y dydd hwn *sydd* ddydd llawen-chwedl, ac yr ydym ni yn tewi â sôn; os arhoswn ni hyd oleuni y bore, rhyw ddrwg a ddigwydd i ni: deuwch gan hynny yn awr, ac awn fel y mynegom i dŷ y brenhin.

10 Felly hwy a ddaethant, ac a waeddasant ar borthor y ddinas; a hwy a fynegasant iddynt, gan ddywedyd, Daethom i wersyll y Syriaid, ac wele, nid *oedd* yno neb, na llais dyn, ond y meirch yn rhwym, a'r asynod yn rhwym, a'r pebyll megis *yr oeddynt o'r blaen.*

11 Ac efe a alwodd ar y porthorion; a hwy a'*i* mynegasant i dŷ y brenhin oddi fewn.

12 ¶ A'r brenhin a gyfododd liw nos, ac a ddywedodd wrth ei weision, Mynegaf yn awr i chwi yr hyn a wnaeth y Syriaid i ni. Gwyddent mai newynog *oeddym* ni; am hynny yr aethant ymaith o'r gwersyll i ymguddio yn y maes, gan ddywedyd, Pan ddelont hwy allan o'r ddinas, ni a'u daliwn hwynt yn fyw, ac a awn i mewn i'r ddinas.

13 Ac un o'r gweision a attebodd ac a ddywedodd, Cymmer yn awr bump o'r meirch a adawyd, y rhai a adawyd yn y ddinas, (wele, *y maent* hwy fel holl lïaws Israel, y rhai a arhosasant ynddi; wele, *y maent* hwy fel holl lïaws Israel, y rhai a ddarfuant;) ac anfonwn, ac edrychwn.

14 Felly hwy a gymmerasant feirch dau gerbyd: a'r brenhin a anfonodd ar ol gwersyll y Syriaid, gan ddywedyd, Ewch ac edrychwch.

15 A hwy a aethant ar eu hol hwynt hyd yr Iorddonen, ac wele, yr holl ffordd ydoedd yn llawn o ddillad a llestri, y rhai a fwriasai y Syriaid ymaith wrth frysio: a'r cenhadau a ddychwelasant ac a fynegasant i'r brenhin.

16 A'r bobl a aethant allan, ac a anrheithiasant wersyll y Syriaid: a bu sat o beillied er sicl, a dau sat o haidd er sicl, yn ol gair yr ARGLWYDD.

17 ¶ A'r brenhin a osododd y tywysog yr oedd efe yn pwyso ar ei law *i wylied* ar y porth: a'r bobl a'i mathrasant ef yn y porth, ac efe fu farw, megis y llefarasai gŵr DUW, yr hwn a ddywedasai *hynny* pan ddaeth y brenhin i waered atto ef.

18 A bu megis y llefarasai gŵr DUW wrth y brenhin, gan ddywedyd, Dau sat o haidd er sicl, a sat o beillied er sicl, fydd y pryd *hwn* y fory ym mhorth Samaria.

19 A'r tywysog a attebasai ŵr DUW, ac a ddywedasai, Wele, *pe* gwnai yr ARGLWYDD ffenestri yn y nefoedd, a fyddai y peth hyn? Dywedodd yntau, Wele, ti a'i gweli â'th lygaid, ond ni fwyttêi o hono.

20 Ac felly y bu iddo ef: canys y bobl a'i sathrasant ef yn y porth, ac efe a fu farw.

PENNOD 8.

1 *Y Sunamëes, wedi gadael ei gwlad saith mlynedd i ffoi rhag y newyn, yn cael gan y brenhin ei thir yn ei ol, er mwyn gwyrthiau Elisëus.* 7 *Hasael, wedi clywed y brophwydoliaeth, yn lladd ei feistr, ac yn teyrnasu yn ei le ef.* 16 *Annuwiol lywodraeth Jehoram ar Judah.* 20 *Edom a Libnah yn cilio oddi wrth Judah.* 23 *Ahasiah yn frenhin ar ol Jehoram,* 25 *a'i lywodraeth annuwiol ef.* 28 *Efe yn ymweled â Jehoram, oedd friwedig yn Jesreel.*

YNA Elisëus a lefarodd wrth y wraig y bywhasai efe ei mab, gan ddywedyd, Cyfod, a dos ti a'th dylwyth, ac ymdeithia lle y gellych ymdeithio: canys yr ARGLWYDD a alwodd am newyn, a *hwnnw* a ddaw ar y wlad saith mlynedd.

2 A'r wraig a gyfododd, ac a wnaeth yn ol gair gŵr DUW: a hi a aeth, hi a'i thylwyth, ac a ymdeithiodd y'ngwlad y Philistiaid saith mlynedd.

3 Ac ym mhen y saith mlynedd, y wraig a ddychwelodd o wlad y Philistiaid: a hi a aeth i weiddi ar y brenhin am ei thŷ, ac am ei thir.

4 A'r brenhin oedd yn ymddiddan â Gehasi gwas gŵr DUW, gan ddywedyd, Adrodd i mi, attolwg, yr holl bethau mawr a wnaeth Elisëus.

5 Ac fel yr oedd efe yn mynegi i'r brenhin y modd y bywhasai efe y marw, yna wele y wraig y bywhasai efe ei mab yn gweiddi ar y brenhin am ei thŷ, ac am ei thir. A Gehasi a ddywedodd, Fy arglwydd frenhin, dyma y wraig, a dyma ei mab yr hwn a ddarfu i Elisëus ei fywhâu.

6 A'r brenhin a ofynodd i'r wraig; a hithau a fynegodd iddo ef. A'r brenhin a roddodd iddi ryw ystafellydd, gan ddywedyd, Dod drachefn yr hyn oll *oedd* eiddi hi, a holl gnwd y maes, o'r dydd y gadawodd hi y wlad hyd y pryd hwn.

7 ¶ A daeth Elisëus i Damascus: a Benhadad brenhin Syria oedd glaf; a mynegwyd iddo ef, gan ddywedyd, Daeth gŵr DUW yma.

8 A'r brenhin a ddywedodd wrth Hasael, Cymmer anrheg yn dy law, a dos i gyfarfod â gŵr DUW; ac ymofyn â'r ARGLWYDD trwyddo ef, gan ddywedyd, A fyddaf fi byw o'r clefyd hwn?

9 Felly Hasael a aeth i'w gyfarfod ef, ac a gymmerth anrheg yn ei law, a phob peth *a'r a oedd* dda *o* Damascus, *sef* llwyth deugain o gamelod; ac a ddaeth, ac a safodd o'i flaen ef, ac a ddywedodd, Benhadad brenhin Syria dy fab a'm hanfonodd attat, gan ddywedyd, A fyddaf fi byw o'r clefyd hwn?

10 Ac Elisëus a ddywedodd wrtho, Dos, a dywed wrtho, Dïau y gelli fyw: etto yr ARGLWYDD a ddangosodd i mi y bydd efe marw yn ddïau.

11 Ac efe a osododd ei wyneb, ac a ddaliodd sylw arno, nes cywilyddio o hono ef: a gŵr DUW a wylodd.

12 A Hasael a ddywedodd, Paham y mae fy arglwydd yn wylo? Dywedodd yntau, Am fy mod yn gwybod y drwg a wnei di i feibion Israel: eu hamddiffynfaoedd hwynt a losgi di â thân, a'u gwŷr ieuainge a leddi â'r cleddyf, a'u plant a bwyi, a'u gwragedd beichiogion a rwygi.

13 A Hasael a ddywedodd, Pa beth! ai ci *yw* dy was, fel y gwnelai efe y mawr beth hyn? Ac Eli-

sëus a ddywedodd, Yr ARGLWYDD a ddangosodd i mi *y byddi* di yn frenhin ar Syria.

14 Felly efe a aeth ymaith oddi wrth Elisëus, ac a ddaeth at ei arglwydd; yr hwn a ddywedodd wrtho, Beth a ddywedodd Elisëus wrthyt ti? Ac efe a attebodd, Efe a ddywedodd wrthyf, y byddit ti byw yn ddïau.

15 A thrannoeth efe a gymmerth wrthban, ac a'*i* gwlychodd mewn dwfr, ac a'*i* lledodd ar ei wyneb ef, fel y bu efe farw: a Hasael a deyrnasodd yn ei le ef.

16 ¶ Ac yn y bummed flwyddyn i Joram mab Ahab brenhin Israel, a Jehosaphat yn frenhin yn Judah, y dechreuodd Jehoram mab Jehosaphat brenhin Judah deyrnasu.

17 Mab deuddeng mlwydd ar hugain oedd efe pan ddechreuodd deyrnasu; ac wyth mlynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem.

18 Ac efe a rodiodd yn ffordd brenhinoedd Israel, fel y gwnai tŷ Ahab: canys merch Ahab oedd yn wraig iddo: felly efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD.

19 Ond ni fynnai yr ARGLWYDD ddifetha Judah, er mwyn Dafydd ei was; megis yr addawsai efe, y rhoddai iddo oleuni, *ac* i'w feibion yn dragywydd.

20 ¶ Yn ei ddyddiau ef y gwrthryfelodd Edom oddi tan law Judah, ac y gosodasant frenhin arnynt eu hunain.

21 A Joram a aeth trosodd i Sair, a'r holl gerbydau gyd âg ef; ac efe a gyfododd liw nos, ac a darawodd yr Edomiaid oedd yn ei amgylchu ef, a thywysogion y cerbydau: a'r bobl a ffodd i'w pebyll.

22 Er hynny Edom a wrthryfelodd oddi tan law Judah hyd y dydd hwn. Yna y gwrthryfelodd Libnah y pryd hwnnw.

23 A'r rhan arall o hanes Joram, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?

24 A Joram a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd gyd â'i dadau yn ninas Dafydd; ac Ahasïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

25 ¶ Yn y ddeuddegfed flwyddyn i Joram mab Ahab brenhin Israel yr aeth Ahasïah mab Jehoram brenhin Judah yn frenhin.

26 Mab dwy flwydd ar hugain *oedd* Ahasïah pan aeth efe yn frenhin; ac un flwyddyn y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Athalïah, merch Omri brenhin Israel.

27 Ac efe a rodiodd yn ffordd tŷ Ahab, ac a wnaeth yr hyn oedd ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, fel tŷ Ahab: canys daw tŷ Ahab *ydoedd* efe.

28 ¶ Ac efe a aeth gyd â Joram mab Ahab i ryfel yn erbyn Hasael brenhin Syria i Ramoth-Gilead; a'r Syriaid a darawsant Joram.

29 A Joram y brenhin a ddychweloddi i Jesreel i ymiachâu o'r briwiau a roisai y Syriaid iddo ef yn Ramah, wrth ymladd o hono ef yn erbyn Hasael brenhin Syria: ac Ahasïah mab Jehoram brenhin Judah a aeth i waered i ymweled â Joram mab Ahab yn Jesreel; canys claf ydoedd.

PENNOD 9.

1 *Elisëus yn danfon prophwyd ieuangc i enneinio Jehu yn Ramoth-Gilead.* 4 *Y prophwyd wedi gwneuthur ei neges, yn ffoi.* 11 *Jehu, wedi ei wneuthur yn frenhin gan y milwyr, yn lladd Joram ym maes Naboth.* 27 *Lladd Ahasïah ym Gur, a'i gladdu yn Jerusalem.* 30 *Tafla Jesebel allan trwy ffenestr, a chwn yn ei bwytta hi.*

AC Elisëus y prophwyd a alwodd un o feibion y prophwydi, ac a ddywedodd wrtho, Gwregysa dy lwynau, a chymmer y phïolaid olew hon yn dy law, a dos i Ramoth-Gilead.

2 A phan ddelych yno, edrych yno am Jehu mab Jehosaphat, mab Nimsi; a dos i mewn, a phâr iddo godi o fysg ei frodyr, a dwg ef i ystafell ddirgel:

3 Yna cymmer y phïolaid olew, a thywallt ar ei ben ef, a dywed, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD; Mi a'th enneiniais di yn frenhin ar Israel; yna agor y drws, a ffo, ac nac aros.

4 ¶ Felly y llangc, *sef* llangc y prophwyd, a aeth i Ramoth-Gilead.

5 A phan ddaeth efe, wele, tywysogion y llu *oedd* yn eistedd: ac efe

a ddywedodd, Y mae i mi air â thi, O dywysog. A dywedodd Jehu, A pha un o honom ni oll? Dywedodd yntau, A thydi, O dywysog.

6 Ac efe a gyfododd, ac a aeth i mewn i'r tŷ: ac yntau a dywalltodd yr olew ar ei ben ef, ac a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel; Myfi a'th enneiniais di yn frenhin ar bobl yr ARGLWYDD, *sef* ar Israel.

7 A thi a darewi dŷ Ahab dy arglwydd; fel y dïalwyf fi waed fy ngweision y prophwydi, a gwaed holl weision yr ARGLWYDD, ar law Jesebel.

8 Canys holl dŷ Ahab a ddifethir: a mi a dorraf ymaith oddi wrth Ahab bob gwrryw, y gwarchaëedig hefyd, a'r hwn a adawyd yn Israel.

9 A mi a wnaf dŷ Ahab fel tŷ Jeroboam mab Nebat, ac fel tŷ Baasa mab Ahïah.

10 A'r ewn a fwyttânt Jesebel yn rhandir Jesreel, ac ni *bydd* a'*i* claddo *hi*. Ac efe a agorodd y drws, ac a ffodd.

11 ¶ A Jehu a aeth allan at weision ei arglwydd, a dywedwyd wrtho ef, *A yw* pob peth yn dda? paham y daeth yr ynfyd hwn attat ti? Dywedodd yntau wrthynt, Chwi a adwaenoch y gŵr, a'i ymadroddion.

12 Dywedasant hwythau, Celwydd; mynega yn awr i ni. Dywedodd yntau, Fel hyn ac fel hyn y llefarodd wrthyf, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Mi a'th enneiniais di yn frenhin ar Israel.

13 A hwy a frysiasant, ac a gymmerasant bob un ei wisg, ac a'*i* gosodasant dano ef ar ben uchaf y grisiau, ac a ganasant mewn udgorn, ac a ddywedasant, Jehu sydd frenhin.

14 A Jehu mab Jehosaphat mab Nimsi a gyd-fwriadodd yn erbyn Joram: (a Joram oedd yn cadw Ramoth-Gilead, efe a holl Israel, rhag Hasael brenhin Syria:

15 Ond Joram y brenhin a ddychwelasai i ymiachâu i Jesreel, o'r archollion *â*'r rhai yr archollasai y Syriaid ef wrth ymladd o hono yn erbyn Hasael brenhin Syria.) A dywedodd Jehu, Os mynnwch chwi, nac eled *un* dïangol o'r ddinas i fyned i fynegi i Jesreel.

16 Felly Jehu a farchogodd mewn cerbyd, ac a aeth i Jesreel; canys Joram oedd yn gorwedd yno. Ac Ahasïah brenhin Judah a ddaethai i waered i ymweled â Joram.

17 A gwyliwr oedd yn sefyll ar y tŵr yn Jesreel, ac a ganfu fintai Jehu pan oedd efe yn dyfod, ac a ddywedodd, Yr ydwyf yn gweled mintai. A Joram a ddywedodd, Cymmer ŵr march, ac anfon i'w cyfarfod hwynt, a dyweded, *Ai* heddwch?

18 A gŵr march a aeth i'w gyfarfod ef, ac a ddywedodd, Fel hyn y dywed y brenhin, *A oes* heddwch? A dywedodd Jehu, Beth *sydd* i ti *a ofynych* am heddwch? tro yn fy ol i. A'r gwyliwr a fynegodd, gan ddywedyd, Y gennad a ddaeth hyd attynt hwy, ond nid yw efe yn dychwelyd.

19 Yna efe a anfonodd yr ail ŵr march, ac efe a ddaeth attynt hwy, ac a ddywedodd, Fel hyn y dywedodd y brenhin, *A oes* heddwch? A dywedodd Jehu, Beth *sydd* i ti *a ofynych* am heddwch? tro yn fy ol i.

20 A'r gwyliwr a fynegodd, gan ddywedyd, Efe a ddaeth hyd attynt hwy, ond nid yw efe yn dychwelyd: a'r gyrriad *sydd* fel gyrriad Jehu mab Nimsi; canys y mae efe yn gyrru yn ynfyd.

21 A Joram a ddywedodd, Rhwym *y cerbyd*. Yntau a rwymodd ei gerbyd ef. A Joram brenhin Israel a aeth allan, ac Ahasïah brenhin Judah, pob un yn ei gerbyd, a hwy a aethant yn erbyn Jehu, a chyfarfuant âg ef yn rhandir Naboth y Jesreeliad.

22 A phan welodd Joram Jehu, efe a ddywedodd, *A oes* heddwch, Jehu? Dywedodd yntau, Pa heddwch tra *fyddo* putteindra Jesebel dy fam di, a'i hudoliaeth, *mor* aml?

23 A Joram a drodd ei law, ac a ffodd, ac a ddywedodd wrth Ahasïah, *Y mae* bradwriaeth, O Ahasïah.

24 A Jehu a gymmerth fwa yn ei law, ac a darawodd Joram rhwng ei ysgwyddau, fel yr aeth y saeth

trwy ei galon ef, ac efe a syrthiodd yn ei gerbyd.

25 A *Jehu* a ddywedodd wrth Bidcar ei dywysog, Cymmer, bwrw ef i randir maes Naboth y Jesreeliad: canys cofia pan oeddym ni, mi a thi, yn marchogaeth ynghyd ein dau ar ol Ahab ei dad ef, roddi o'r ARGLWYDD arno ef y baich hwn.

26 Dïau, meddai yr ARGLWYDD, gwaed Naboth, a gwaed ei feibion, a welais i neithwyr, a mi a dalaf i ti yn y rhandir hon, medd yr ARGLWYDD. Gan hynny cymmer *a* bwrw ef yn awr yn y rhandir hon, yn ol gair yr ARGLWYDD.

27 ¶ Ond pan welodd Ahasïah brenhin Judah *hynny*, efe a ffodd ar hyd ffordd tŷ yr ardd. A Jehu a ymlidiodd ar ei ol ef, ac a ddywedodd, Tarêwch hwn hefyd yn *ei* gerbyd. *A hwy a'i tarawsant ef* yn rhiw Gur, yr hon *sydd* wrth Ibleam; ac efe a ffodd i Megido, ac a fu farw yno.

28 A'i weision a'i dygasant ef mewn cerbyd i Jerusalem, ac a'i claddasant ef yn ei feddrod gyd â'i dadau, yn ninas Dafydd.

29 Ac yn yr unfed flwyddyn ar ddeg i Joram mab Ahab yr aethai Ahasïah yn frenhin ar Judah.

30 ¶ A phan ddaeth Jehu i Jesreel, Jesebel a glybu *hynny*, ac a golurodd ei hwyneb, ac a wisgodd yn wych am ei phen, ac a edrychodd trwy ffenestr.

31 A phan oedd Jehu yn dyfod i mewn i'r porth, hi a ddywedodd, *A fu* heddwch i Simri, yr hwn a laddodd ei feistr?

32 Ac efe a ddyrchafodd ei wyneb at y ffenestr, ac a ddywedodd, Pwy *sydd* gyd â mi, pwy? A dau *neu* dri o'r ystafellyddion a edrychasant arno ef.

33 Yntau a ddywedodd, Teflwch hi i lawr. A hwy a'i taflasant hi i lawr; a thaenellwyd *peth* o'i gwaed hi ar y pared, ac ar y meirch: ac efe a'i mathrodd hi.

34 A phan ddaeth efe i mewn, efe a fwyttaodd ac a yfodd, ac a ddywedodd, Edrychwch am y *wraig* felldigedig honno, a chleddwch hi; canys merch brenhin *ydyw* hi.

35 A hwy a aethant i'w chladdu hi; ond ni chawsant o honi onid y benglog a'r traed, a chledrau y dwylaw.

36 Am hynny hwy a ddychwelasant, ac a fynegasant iddo ef. Dywedodd yntau, Dyma air yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarodd efe trwy law ei wasanaethwr Elïas y Thesbiad, gan ddywedyd, Yn rhandir Jesreel y bwytty y cwn gnawd Jesebel:

37 A chelain Jesebel a fydd fel tommen ar wyneb y maes, yn rhandir Jesreel; fel na ellir dywedyd, Dyma Jesebel.

PENNOD 10.

1 *Jehu trwy lythyrau yn peri torri pennau deng mab a thri ugain Ahab:* 8 *ac yn ei esgusodi ei hun â phrophwydoliaeth Elïas:* 12 *yn lladd dau a deugain o frodyr Ahasïah wrth y tŷ cneifio:* 15 *yn cymmeryd Jehonadab atto:* 18 *a thrwy gyfrwysdra yn difetha holl addolwyr Baal:* 29 *yn canlyn pechodau Jeroboam.* 32 *Hasael yn gorthrymmu Israel.* 34 *Joahas yn frenhin ar ol Jehu.*

AC i Ahab *yr oedd* deng mab a thri ugain yn Samaria. A Jehu a ysgrifenodd lythyrau, ac a anfonodd i Samaria, at dywysogion Jesreel, *ac* at yr henuriaid, ac at dadmaethod Ahab, gan ddywedyd,

2 Ac yn awr pan ddêl y llythyr hwn attoch chwi, canys gyd â chwi *y mae* meibion eich arglwydd, a chennych chwi *y mae* cerbydau, a meirch, a dinasoedd caerog, ac arfau:

3 Yna edrychwch yr hwn sydd oreu, ac yn gymhwysaf o feibion eich arglwydd, a gosodwch *ef* ar deyrn-gadair ei dad, ac ymleddwch dros dŷ eich arglwydd.

4 A hwy a ofnasant yn ddirfawr, ac a ddywedasant, Wele, dau frenhin ni safasant o'i flaen ef: pa fodd gan hynny y safwn ni?

5 Am hynny yr anfonodd yr hwn *oedd* ar y tŷ, a'r hwn *oedd* ar y ddinas, a'r henuriaid, a'r tadmaethod, at Jehu, gan ddywedyd, Dy weision di *ydym* ni, a'r hyn oll a ddywedych di wrthym a wnawn ni; ni wnawn ni neb yn frenhin: gwna *yr hyn a fyddo* da yn dy olwg.

6 Yna efe a ysgrifenodd yr ail lythyr attynt hwy, gan ddywedyd, Os eiddof fi *fyddwch*, ac *os* ar fy llais i y gwrandêwch, cymmerwch bennau y gwŷr, meibion eich ar-

glwydd, a deuwch attaf fi y pryd hwn y fory i Jesreel. A meibion y brenhin, *sef* deng nyn a thri ugain, *oedd* gyd â phennaethiaid y ddinas, y rhai oedd yn eu meithrin hwynt.

7 A phan ddaeth y llythyr attynt, hwy a gymmerasant feibion y brenhin, ac a laddasant ddeng nyn a thri ugain, ac a osodasant eu pennau hwynt mewn basgedau, ac a'*u* danfonasant atto ef i Jesreel.

8 ¶ A chennad a ddaeth ac a fynegodd iddo ef, gan ddywedyd, Hwy a ddygasant bennau meibion y brenhin. Dywedodd yntau, Gosodwch hwynt yn ddau bentwr wrth ddrws y porth hyd y bore.

9 A'r bore efe a aeth allan, ac a safodd, ac a ddywedodd wrth yr holl bobl, Cyfiawn *ydych* chwi: wele, myfi a gyd-fwriedais yn erbyn fy arglwydd, ac a'i lleddais ef: ond pwy a laddodd yr holl rai hyn?

10 Gwybyddwch yn awr na syrth *dim* o air yr ARGLWYDD i'r ddaear, yr hwn a lefarodd yr ARGLWYDD am dŷ Ahab: canys gwnaeth yr ARGLWYDD yr hyn a lefarodd efe trwy law Elïas ei was.

11 Felly Jehu a darawodd holl weddillion tŷ Ahab yn Jesreel, a'i holl bennaethiaid ef, a'i gyfneseifiaid ef, a'i offeiriaid, fel na adawyd un y'ngweddill.

12 ¶ Ac efe a gyfododd, ac a aeth ymaith hefyd, ac a ddaeth i Samaria. *Ac* fel *yr oedd efe wrth* dŷ cneifio y bugeiliaid ar y ffordd,

13 Jehu a gyfarfu â brodyr Ahasïah brenhin Judah, ac a ddywedodd, Pwy *ydych* chwi? Dywedasant hwythau, Brodyr Ahasïah *ydym* ni; a ni a ddaethom i waered i gyfarch gwell i feibion y brenhin, ac i feibion y frenhines.

14 Ac efe a ddywedodd, Deliwch hwynt yn fyw. A hwy a'u daliasant hwy yn fyw, ac a'u lladdasant hwy wrth bydew y tŷ cneifio, *sef* dau ŵr a deugain, ac ni adawodd efe ŵr o honynt.

15 ¶ A phan aethai efe oddi yno, efe a gyfarfu â Jehonadab mab Rechab yn cyfarfod âg ef, ac a gyfarchodd well iddo, ac a ddywedodd wrtho, A yw dy galon di yn uniawn, fel *y mae* fy nghalon i gyd â'th galon di? A dywedodd Jehonadab, Ydyw. Od ydyw, *eb efe*, moes dy law. Rhoddodd yntau ei law, ac efe a barodd iddo ddyfod i fyny atto i'r cerbyd.

16 Ac efe a ddywedodd, Tyred gyd â mi, a gwel fy sêl i tu ag at yr ARGLWYDD. Felly hwy a wnaethant iddo farchogaeth yn ei gerbyd ef.

17 A phan ddaeth efe i Samaria, efe a darawodd yr holl rai a adawsid i Ahab yn Samaria, nes iddo ei ddinystrio ef, yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarasai efe wrth Elïas.

18 ¶ A Jehu a gynhullodd yr holl bobl ynghyd, ac a ddywedodd wrthynt, Ahab a wasanaethodd Baal ychydig, *ond* Jehu a'i gwasanaetha ef lawer.

19 Ac yn awr gelwch attaf fi holl brophwydi Baal, ei holl weision, a'i holl offeiriaid ef, na fydded un yn eisieu; canys aberth mawr *sydd* gennyf i Baal: pwy bynnag a fyddo yn eisieu, ni bydd efe byw. Ond Jehu a wnaeth *hyn* mewn cyfrwysdra, fel y difethai efe addolwyr Baal.

20 A Jehu a ddywedodd, Cyhoeddwch gymmanfa sanctaidd i Baal. A hwy a'*i* cyhoeddasant.

21 A Jehu a anfonodd trwy holl Israel; a holl addolwyr Baal a ddaethant, ac nid oedd un yn eisieu a'r ni ddaethai: a hwy a ddaethant i dŷ Baal, a llanwyd tŷ Baal o ben bwy gilydd.

22 Ac efe a ddywedodd wrth yr hwn *oedd geidwad* ar y gwisgoedd, Dwg allan wisgoedd i holl addolwyr Baal. Ac efe a ddug wisgoedd iddynt.

23 A Jehu a aeth i mewn, a Jehonadab mab Rechab, i dŷ Baal, ac a ddywedodd wrth addolwyr Baal, Chwiliwch ac edrychwch, rhag bod yma gyd â chwi *neb* o weision yr ARGLWYDD, ond addolwyr Baal yn unig.

24 A phan ddaethant i mewn i wneuthur aberthau, a phoeth-offrymmau, Jehu a osododd iddo allan bedwar ugeinwr, ac a ddywedodd, *Os* dïangc yr un o'r dynion a ddygais i'ch dwylaw chwi, einioes yr

hwn *y diango ganddo fydd* am ei einioes ef.

25 A phan orphenodd efe wneuthur y poeth-offrwm, Jehu a ddywedodd wrth y swyddogion a'r tywysogion, Ewch i mewn, lleddwch hwynt, na ddeled neb allan. Felly hwy a'u tarawsant hwy â min y cleddyf: a'r swyddogion a'r tywysogion a'*u* taflasant *hwy* allan, ac a aethant i ddinas tŷ Baal.

26 A hwy a ddygasant allan ddelwau tŷ Baal, ac a'u llosgasant hwy.

27 A hwy a ddistrywiasant ddelw Baal, ac a ddinystriasant dŷ Baal, ac a'i gwnaethant ef yn domdy hyd heddyw.

28 Felly y dileodd Jehu Baal allan o Israel.

29 ¶ Etto pechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu, ni throdd Jehu oddi wrthynt hwy, *sef oddi wrth* y lloi aur *oedd* yn Bethel, a'r rhai *oedd* yn Dan.

30 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Jehu, O herwydd i ti wneuthur yn dda, gan wneuthur *yr hyn oedd* uniawn yn fy ngolwg i, yn ol yr hyn oll a'r *a oedd* yn fy nghalon i y gwnaethost i dŷ Ahab, meibion y bedwaredd genhedlaeth i ti a eisteddant ar orseddfainge Israel.

31 Ond nid edrychodd Jehu am rodio y'nghyfraith ARGLWYDD DDUW Israel â'i holl galon: *canys* ni throdd efe oddi wrth bechodau Jeroboam, yr hwn a wnaeth i Israel bechu.

32 ¶ Yn y dyddiau hynny y dechreuodd yr ARGLWYDD dorri cyrrau Israel: a Hasael a'u tarawodd hwynt yn holl derfynau Israel;

33 O'r Iorddonen *tu a* chodiad haul, *sef* holl wlad Gilead, y Gadiaid, a'r Reubeniaid, a'r Manassiaid, o Aroer, yr hon *sydd* wrth afon Arnon, Gilead a Basan hefyd.

34 A'r rhan arall o hanes Jehu, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe, a'i holl gadernid ef; onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

35 A Jehu a hunodd gyd â'i dadau, a chladdwyd ef yn Samaria, a Joahas ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

36 A'r dyddiau y teyrnasodd Jehu ar Israel yn Samaria *oedd* wyth mlynedd ar hugain.

PENNOD 11.

1 *Achub Joas gan ei fodryb Joseba, pan laddodd Athaliah yr had brenhinol, a'i guddio chwe blynedd yn nhŷ Dduw.* 4 *Jehoiada, trwy gymnorthwy y tywysogion, ar y seithfed flwyddyn yn ei wneuthur ef yn frenhin.* 13 *Lladd Athaliah.* 17 *Jehoiada yn adferu gwasanaeth Duw.*

A PHAN welodd Athaliah mam Ahasïah farw o'i mab, hi a gyfododd, ac a ddifethodd yr holl had brenhinol.

2 Ond Joseba merch y brenhin Joram, chwaer Ahasïah, a gymmerth Joas mab Ahasïah, ac a'i lladrattaodd ef o fysg meibion y brenhin *y rhai* a laddwyd: a hwy a'i cuddiasant ef a'i fammaeth yn ystafell y gwelŷau, rhag Athaliah, fel na laddwyd ef.

3 Ac efe a fu gyd â hi y'nghûdd *yn* nhŷ yr ARGLWYDD chwe blynedd: ac Athaliah oedd yn teyrnasu ar y wlad.

4 ¶ Ac yn y seithfed flwyddyn yr anfonodd Jehoiada, ac y cymmerth dywysogion y cannoedd, *a*'r captenaiid, a'r swyddogion, ac a'u dug hwynt i mewn atto i dŷ yr ARGLWYDD, ac a wnaeth â hwynt gyfammod, ac a wnaeth iddynt dyngu yn nhŷ yr ARGLWYDD, ac a ddangosodd iddynt fab y brenhin.

5 Ac efe a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, Dyma y peth a wnewch chwi; Trydedd ran o honoch sydd yn dyfod i mewn *ar* y Sabbath, a gadwant wyliadwriaeth tŷ y brenhin:

6 A thrydedd ran *fydd* ym mhorth Sur: a thrydedd ran yn y porth o'r tu ol i'r swyddogion: felly y cedwch wyliadwriaeth y tŷ rhag ei dorri.

7 A deuparth o honoch oll sydd yn myned allan ar y Sabbath, a gadwant wyliadwriaeth tŷ yr ARGLWYDD, ynghylch y brenhin.

8 A chwi a amgylchynwch y brenhin o bob parth, pob un â'i arfau yn ei law; a'r hwn a ddelo i'r rhesau, lladder ef: a byddwch gyd â'r brenhin pan elo efe allan, a phan ddelo efe i mewn.

9 A thywysogion y cannoedd a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymynasai Jehoiada yr offeiriad,

a chymmerasant bawb eu gwŷr y rhai oedd yn dyfod i mewn *ar* y Sabbath, gyd â'r rhai oedd yn myned allan *ar* y Sabbath; ac a ddaethant at Jehoiada yr offeiriad.

10 A'r offeiriad a roddodd i dywysogion y cannoedd waywffyn a thariannau y brenhin Dafydd, y rhai *oedd* yn nhŷ yr ARGLWYDD.

11 A'r swyddogion a safasant bob un â'i arfau yn ei law, o'r tu dehau i'r tŷ, hyd y tu aswy i'r tŷ, wrth yr allor a'r tŷ, amgylch ogylch y brenhin.

12 Ac efe a ddug allan fab y brenhin, ac a roddodd y goron arno ef, a'r dystiolaeth: a hwy a'i hurddasant ef yn frenhin, ac a'i henneiniasant ef; curasant hefyd eu dwylaw, a dywedasant, Byw fyddo y brenhin.

13 ¶ A phan glybu Athalïah drwst y bobl yn rhedeg, hi a ddaeth i mewn at y bobl i dŷ yr ARGLWYDD.

14 A phan edrychodd hi, wele, y brenhin oedd yn sefyll wrth y golofn yn ol yr arfer, a'r tywysogion a'r udgyrn yn ymyl y brenhin, a holl bobl y wlad yn llawen, ac yn canu mewn udgyrn. Ac Athalïah a rwygodd ei dillad, ac a waeddodd, Bradwriaeth, bradwriaeth!

15 A Jehoiada yr offeiriad a orchymynodd i dywysogion y cannoedd, y rhai oedd wedi eu gosod ar y llu, ac a ddywedodd wrthynt, Dygwch hi o'r tu allan i'r rhesau; a'r hwn a ddelo ar ei hol hi, lladder ef â'r cleddyf: canys dywedasai yr offeiriad, Na ladder hi yn nhŷ yr ARGLWYDD.

16 A hwy a osodasant ddwylaw arni hi, a hi a aeth ar hyd y ffordd feirch i dŷ y brenhin, ac yno y lladdwyd hi.

17 ¶ A Jehoiada a wnaeth gyfammod rhwng yr ARGLWYDD a'r brenhin a'r bobl, i fod o honynt yn bobl i'r ARGLWYDD; a rhwng y brenhin a'r bobl.

18 A holl bobl y wlad a aethant i dŷ Baal, ac a'i dinystriasant ef a'i allorau, ei ddelwau hefyd a ddrylliasant hwy yn chwilfriw, lladdasant hefyd Mattan offeiriad Baal o flaen yr allorau. A'r offeiriad a osododd oruchwylwyr ar dŷ yr ARGLWYDD.

19 Efe a gymmerth hefyd dywysogion y cannoedd, a'r capteniaid, a'r swyddogion, a holl bobl y wlad, a hwy a ddygasant i waered y brenhin o dŷ yr ARGLWYDD, ac a ddaethant ar hyd ffordd porth y swyddogion, i dŷ y brenhin: ac efe a eisteddodd ar orseddfa y brenhinoedd.

20 A holl bobl y wlad a lawenychasant, a'r ddinas a lonyddodd: a hwy a laddasant Athalïah â'r cleddyf *wrth* dŷ y brenhin.

21 Mab saith mlwydd *oedd* Joas pan aeth efe yn frenhin.

PENNOD 12.

1 *Joas yn teyrnasu yn dduwiol tra fu fyw Jehoiada:* 4 *ac yn peri cyweirio y deml.* 17 *Troi Hasael oddi wrth Jerusalem dg anrheg o'r trysorau cyssegredig.* 19 *Ei weision yn lladd Joas, ac Amasïah yn myned yn frenhin ar ei ol ef.*

YN y seithfed flwyddyn i Jehu y dechreuodd Joas deyrnasu, a deugain blynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem. Ac enw ei fam ef *oedd* Sibiah o Beerseba.

2 A Joas a wnaeth *yr hyn oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD ei holl ddyddiau, *yn* y rhai y dysgodd Jehoiada yr offeiriad ef.

3 Er hynny ni thynnasid ymaith yr uchelfeydd: y bobl oedd etto yn offrymmu ac yn arogl-darthu yn yr uchelfeydd.

4 ¶ A Joas a ddywedodd wrth yr offeiriaid, Holl arian y pethau cyssegredig a ddyger i mewn i dŷ yr ARGLWYDD, arian y gŵr a gynniweirio, arian gwerth eneidiau pob un, *a*'r holl arian a glywo neb ar ei galon eu dwyn i mewn i dŷ yr ARGLWYDD;

5 Cymmered yr offeiriaid *hynny* iddynt, pawb gan ei gydnabod, a chyweiriant adwyau y tŷ, pa le bynnag y caffer adwy ynddo.

6 Ond yn y drydedd flwyddyn ar hugain i'r brenhin Joas, nid adgyweiriasai yr offeiriaid agennau y tŷ.

7 Yna y brenhin Joas a alwodd am Jehoiada yr offeiriad, a'r offeiriaid *eraill*, ac a ddywedodd wrthynt, Paham nad ydych chwi yn cyweirio agennau y tŷ? yn awr gan hynny,

na dderbyniwch arian gan eich cydnabod, ond rhoddwch hwy at *gyweirio* adwyau y tŷ.

8 A'r offeiriaid a gydsyniasant na dderbynient arian gan y bobl, ac na chyweirient agennau y tŷ.

9 Eithr Jehoiada yr offeiriad a gymmerth gist, ac a dyllodd dwll yn ei chaead, ac a'i gosododd hi o'r tu dehau i'r allor, ffordd y delai un i mewn i dŷ yr ARGLWYDD: a'r offeiriaid, y rhai oedd yn cadw y drws, a roddent yno yr holl arian a ddygid i mewn i dŷ yr ARGLWYDD.

10 A phan welent *fod* llawer o arian yn y gist, y deuai ysgrifenydd y brenhin, a'r arch-offeiriad, i fyny, ac a roent mewn codau, ac a gyfrifent yr arian a gawsid yn nhŷ yr ARGLWYDD.

11 A hwy a roddasant yr arian wedi eu cyfrif, yn nwylaw gweithwyr y gwaith, goruchwylwyr tŷ yr ARGLWYDD: a hwy a'i talasant i'r seiri pren, ac i'r adeiladwyr oedd yn gweithio tŷ yr ARGLWYDD.

12 Ac i'r seiri meini, ac i'r naddwyr cerrig, ac i brynu coed a cherrig nadd, i gyweirio adwyau tŷ yr ARGLWYDD, ac am yr hyn oll a aethai allan i adgyweirio y tŷ.

13 Etto ni wnaed yn nhŷ yr ARGLWYDD gwppanau arian, saltringau, cawgiau, udgyrn, na llestri aur, na llestri arian, o'r arian a ddygasid i mewn i dŷ yr ARGLWYDD.

14 Eithr hwy a'i rhoddasant i weithwyr y gwaith; ac a gyweiriasant â hwynt dŷ yr ARGLWYDD.

15 Ac ni cheisiasant gyfrif gan y dynion y rhoddasant hwy yr arian yn eu dwylaw i'w rhoddi i weithwyr y gwaith: canys yr oeddynt hwy yn gwneuthur yn ffyddlawn.

16 Yr arian *dros* gamwedd a'r arian *dros* bechodau, ni ddygpwyd i mewn i dŷ yr ARGLWYDD: eiddo yr offeiriaid oeddynt hwy.

17 ¶ Yna Hasael brenhin Syria a aeth i fyny, ac a ymladdodd yn erbyn Gath, ac a'i hennillodd hi: a Hasael a osododd ei wyneb i fyned i fyny yn erbyn Jerusalem.

18 A Joas brenhin Judah a gymmerth yr holl bethau cyssegredig a gyssegrasai Jehosaphat, a Jehoram, ac Ahasïah, ei dadau ef, brenhinoedd Judah, a'i gyssegredig bethau ef ei hun, a'r holl aur a gafwyd yn nhrysorau tŷ yr ARGLWYDD, a thŷ y brenhin, ac a'u hanfonodd at Hasael brenhin Syria, ac efe a ymadawodd oddi wrth Jerusalem.

19 ¶ A'r rhan arall o hanes Joas, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?

20 A'i weision ef a gyfodasant, ac a gyd-fwriadasant fradwriaeth; ac a laddasant Joas *yn* nhŷ Mìlo, wrth ddyfod i waered i Sìla.

21 A Josachar mab Simeath, a Josabad mab Somer, ei weision ef, a'i tarawsant ef, ac efe a fu farw; a hwy a'i claddasant ef gyd â'i dadau yn ninas Dafydd: ac Amasïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 13.

1 *Annuwiol lywodraeth Joahas;* 3 *a Hasael yn ei orthrymmu ef; ac yntau yn cael ymwared trwy weddi.* 8 *Joas yn teyrnasu yn ei le ef;* 10 *ei annuwiol lywodraeth yntau.* 12 *Jeroboam yn dyfod ar ei ol ef.* 14 *Elisëus wrth farw yn prophwydo y gorchfygai Joas y Syriaid dair gwaith.* 20 *Y Moabiaid yn dyfod yn erbyn y wlad, ac esgyrn Elisëus yn cyffodi gŵr marw.* 22 *Hasael yn marw, a Joas deirgwaith yn gorchfygu Benhadad.*

YN y drydedd flwyddyn ar hugain i Joas mab Ahasïah brenhin Judah, y teyrnasodd Joahas mab Jehu ar Israel yn Samaria, *a* dwy flynedd ar bymtheg *y teyrnasodd efe.*

2 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac a rodiodd ar ol pechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu; ni throdd oddi wrthynt hwy.

3 ¶ A digofaint yr ARGLWYDD a lidiodd yn erbyn Israel; ac efe a'u rhoddodd hwynt yn llaw Hasael brenhin Syria, ac yn llaw Benhadad mab Hasael, *eu* holl ddyddiau *hwynt.*

4 A Joahas a erfyniodd ar yr ARGLWYDD, a gwrandawodd yr ARGLWYDD arno ef; o herwydd iddo ganfod gorthrymder Israel, canys brenhin Syria a'u gorthrymmai hwynt.

5 (A'r ARGLWYDD a roddodd achubwr i Israel, fel yr aethant oddi tan law y Syriaid: a meibion Israel a drigasant yn eu pebyll fel cynt.

6 Etto ni throisant hwy oddi wrth bechodau tŷ Jeroboam, yr hwn a wnaeth i Israel bechu, *eithr* rhodiasant ynddynt hwy: a'r llwyn hefyd a safai yn Samaria.)

7 Ac ni adawodd efe i Joahas o'r bobl, ond deg a deugain o wŷr meirch, a deg cerbyd, a deng mil o wŷr traed: o herwydd brenhin Syria a'u dinystriasai hwynt, ac a'u gwnaethai hwynt fel llwch wrth ddyrnu.

8 ¶ A'r rhan arall o hanes Joahas, a'r hyn oll a wnaeth efe, a'i gadernid, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

9 A Joahas a hunodd gyd â'i dadau, a chladdasant ef yn Samaria, a Joas ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

10 ¶ Yn y ddwyfed flwyddyn ar bymtheg ar hugain i Joas brenhin Judah, y teyrnasodd Joas mab Joahas ar Israel yn Samaria: un flynedd ar bymtheg *y teyrnasodd efe.*

11 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD: ni throdd efe oddi wrth holl bechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu; *eithr* efe a rodiodd ynddynt.

12 A'r rhan arall o hanes Joas, a'r hyn oll a wnaeth efe, a'i gadernid, *trwy* yr hwn yr ymladdodd efe âg Amasïah brenhin Judah, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

13 A Joas a hunodd gyd â'i dadau, a Jeroboam a eisteddodd ar ei deyrn-gadair ef: a Joas a gladdwyd yn Samaria gyd â brenhinoedd Israel.

14 ¶ Ac yr oedd Elisëus yn glaf o'r clefyd y bu efe farw o hono: a Joas brenhin Israel a ddaeth i waered atto ef, ac a wylodd ar ei wyneb ef, ac a ddywedodd, O fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel, a'i farchogion.

15 Ac Elisëus a ddywedodd wrtho ef, Cymmer fwa a saethau. Ac efe a gymmerth fwa a saethau.

16 Ac efe a ddywedodd wrth frenhin Israel, Dod dy law ar y bwa. Ac efe a roddodd ei law: ac Elisëus a osododd ei ddwylaw ar ddwylaw y brenhin.

17 Ac efe a ddywedodd, Agor y ffenestr tu a'r dwyrain. Yntau a'i hagorodd. Yna y dywedodd Elisëus, Saetha. Ac efe a saethodd. Dywedodd yntau, Saeth ymwared yr ARGLWYDD, a saeth ymwared rhag Syria; a thi a darewi y Syriaid yn Aphec, nes *eu* difa *hwynt.*

18 Hefyd efe a ddywedodd, Cymmer y saethau. Ac efe a'u cymmerodd. Ac efe a ddywedodd wrth frenhin Israel, Taro y ddaear. Ac efe a darawodd dair gwaith, ac a beidiodd.

19 A gŵr DUW a ddigiodd wrtho ef, ac a ddywedodd, *Dylesit* daro bump neu chwech o weithiau, yna y tarawsit Syria nes *ei* difa: ac yn awr tair gwaith y tarewi Syria.

20 ¶ Ac Elisëus a fu farw, a hwy a'i claddasant ef. A minteioedd y Moabiaid a ddaethant i'r wlad y flwyddyn honno.

21 A phan oeddynt hwy yn claddu gŵr, wele, hwy a ganfuant dorf, ac a fwriasant y gŵr i feddrod Elisëus. A phan aeth y gŵr i lawr a chyffwrdd âg esgyrn Elisëus, efe a ddadebrodd, ac a gyfododd ar ei draed.

22 ¶ A Hasael brenhin Syria a orthrymmodd Israel holl ddyddiau Joahas.

23 A'r ARGLWYDD a drugarhaodd wrthynt hwy, ac a dosturiodd wrthynt hwy, ac a drodd attynt hwy, er mwyn ei gyfammod âg Abraham, Isaac, a Jacob, ac ni fynnai eu dinystrio hwynt, ac ni fwriodd efe hwynt allan o'i olwg hyd yn hyn.

24 Felly Hasael brenhin Syria a fu farw; a Benhadad ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

25 A Joas mab Joahas a ennillodd yn eu hol o law Benhadad mab Hasael, y dinasoedd a ddygasai efe o law Joahas ei dad ef mewn rhyfel: Joas a'i tarawodd ef dair gwaith, ac a ddug adref ddinasoedd Israel.

PENNOD 14.

1 Amasïah y brenhin da. 5 Ei dyfaunder ar y rhai a laddasai ei dad ef: 7 a'i oruchafiaeth ar Edom. 8 Amasïah yn annog Joas, ac yn cael ei orchfygu a'i ysperlito. 16 Jeroboam yn dyfod yn lle Joas. 19 Lladd Amasïah trwy fradwriaeth. 21 Asariah yn dyfod ar ei ol cf. 23 Annuwiol deyrnasiad Jeroboam: 29 a Sacharïah yn dyfod yn ei le yntau.

YN yr ail flwyddyn i Joas mab Joahas brenhin Israel y teyrnasodd Amasïah mab Joas brenhin Judah.
2 Mab pum mlwydd ar hugain oedd efe pan aeth yn frenhin, a naw mlynedd ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Joàdan o Jerusalem.
3 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, etto nid fel Dafydd ei dad; *ond* efe a wnaeth yn ol yr hyn oll a wnaethai Joas ei dad ef.
4 Er hynny ni thynnwyd ymaith yr uchelfeydd: y bobl oedd etto yn aberthu ac yn arogl-darthu yn yr uchelfeydd.
5 ¶ A phan sicrhâwyd ei deyrnas yn ei law ef, efe a laddodd ei weision y rhai a laddasent y brenhin ei dad ef.
6 Ond ni laddodd efe feibion y lleiddiaid; fel y mae yn ysgrifenedig yn llyfr cyfraith Moses, yn yr hon y gorchymynasai yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Na ladder y tadau dros y meibion, ac na ladder y meibion dros y tadau; ond lladder pob un am ei bechod ei hun.
7 Efe a darawodd o'r Edomiaid, yn nyffryn yr halen, ddeng mil, ac a ennillodd y graig mewn rhyfel, ac a alwodd ei henw Joctheel, hyd y dydd hwn.
8 ¶ Yna Amasïah a anfonodd genhadau at Joas mab Joahas, mab Jehu, brenhin Israel, gan ddywedyd, Tyred, gwelwn wyneb ein gilydd.
9 A Joas brenhin Israel a anfonodd at Amasïah brenhin Judah, gan ddywedyd, Yr ysgellyn yn Libanus a anfonodd at y gedrwydden yn Libanus, gan ddywedyd, Dyro dy ferch i'm mab i yn wraig. A bwystfil y maes yr hwn *oedd* yn Libanus a dramwyodd ac a sathrodd yr ysgellyn.
10 Gan daro y tarewaist yr Edomiaid, am hynny dy galon a'th falchïodd: ymffrostia, ac eistedd yn dy dŷ: canys i ba beth yr ymyrri i'th ddrwg dy hun, fel y syrthit ti, a Judah gyd â thi?
11 Ond ni wrandawai Amasïah. Am hynny Joas brenhin Israel a aeth i fyny, a hwy a welsant wynebau eu gilydd, efe ac Amasïah brenhin Judah, yn Beth-semes, yr hon *sydd* yn Judah.
12 A Judah a darawyd o flaen Israel; a hwy a ffoisant bawb i'w pebyll.
13 A Joas brenhin Israel a ddaliodd Amasïah brenhin Judah, mab Joas, mab Ahasïah, yn Beth-semes, ac a ddaeth i Jerusalem, ac a dorrodd i lawr fur Jerusalem, o borth Ephraim hyd borth y gongl, bedwar can cufydd.
14 Ac efe a gymmerth yr holl aur a'r arian, a'r holl lestri a'r a gafwyd yn nhŷ yr ARGLWYDD, ac yn nhrysorau tŷ y brenhin, a gwystlon, ac a ddychwelodd i Samaria.
15 ¶ A'r rhan arall o hanes Joas, yr hyn a wnaeth efe, a'i gadernid, ac fel yr ymladdodd efe âg Amasïah brenhin Judah, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?
16 A Joas a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd yn Samaria gyd â brenhinoedd Israel; a Jeroboam ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.
17 ¶ Ac Amasïah mab Joas brenhin Judah a fu fyw ar ol marwolaeth Joas mab Joahas brenhin Israel bymtheng mlynedd.
18 A'r rhan arall o hanes Amasïah, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?
19 Ond hwy a frad-fwriadasant yn ei erbyn ef yn Jerusalem; ac efe a ffodd i Lachis: etto hwy a anfonasant ar ei ol ef i Lachis, ac a'i lladdasant ef yno.
20 A hwy a'i dygasant ef ar feirch, ac efe a gladdwyd yn Jerusalem gyd â'i dadau, yn ninas Dafydd.
21 ¶ A holl bobl Judah a gymmerasant Asarïah, ac yntau yn fab un flwydd ar bymtheg, ac a'i hurddasant ef yn frenhin yn lle Amasïah ei dad.
22 Efe a adeiladodd Elath, ac a'i rhoddodd hi drachefn i Judah, ar ol huno o'r brenhin gyd â'i dadau.
23 ¶ Yn y bymthegfed flwyddyn i Amasïah mab Joas brenhin Judah y teyrnasodd Jeroboam mab Joas brenhin Israel yn Samaria; un

flynedd a deugain *y teyrnasodd efe.*
24 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD: ni chiliodd efe oddi wrth holl bechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu.
25 Efe a ddug adref derfyn Israel o'r lle yr eir i mewn i Hamath hyd fôr y rhos, yn ol gair ARGLWYDD DDUW Israel, yr hwn a lefarasai efe trwy law ei was Jonah mab Amittai y prophwyd, yr hwn *oedd* o Gath-Hepher.
26 Canys yr ARGLWYDD a welodd gystudd Israel yn flin iawn: canys nid *oedd neb* gwarchaëedig, na *neb* wedi ei adael, na chynnorthwyydd i Israel.
27 Ac ni lefarasai yr ARGLWYDD y dileai efe enw Israel oddi tan y nefoedd: ond efe a'u gwaredodd hwynt trwy law Jeroboam mab Joas.
28 ¶ A'r rhan arall o hanes Jeroboam, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe, a'i gadernid ef, y modd y rhyfelodd efe, a'r modd y dug efe adref Damascus a Hamath, i Judah yn Israel, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?
29 A Jeroboam a hunodd gyd â'i dadau, *sef* gyd â brenhinoedd Israel; a Sacharïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 15.

1 Datonus deyrnasiad Asarïah. 5 Efe ym marw o'r gwahan-glwyf; a Jotham yn dyfod yn ei le ef. 8 Sacharïah, y diweddaf o genedl Jehu, yn teyrnasu yn ddrygionus; a'i ladd ef gan Sàlum. 13 Sàlum yn teyrnasu ffa; a Menahem yn ei ladd ef. 16 Menahem yn cael nerth gan Pul. 22 Pecahïah yn dyfod yn ei le ef. 25 Pecah yn ei ladd ef. 29 Tiglath-pileser yn gorthrymmu Pecah: a Hosea yn ei ladd ef. 32 Jotham y brenhin da. 38 Ahas yn dyfod ar ei ol ef.

YN y seithfed flwyddyn ar hugain i Jeroboam brenhin Israel y teyrnasodd Asarïah mab Amasïah brenhin Judah.
2 Mab un flwydd ar bymtheg ydoedd efe pan ddechreuodd deyrnasu, a deuddeng mlynedd a deugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem; ac enw ei fam *oedd* Jecholïah o Jerusalem.
3 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnelsai Amasïah ei dad ef;
4 Ond na thynnwyd ymaith yr uchelfeydd: y bobl oedd etto yn aberthu ac yn arogl-darthu yn yr uchelfeydd.
5 ¶ A'r ARGLWYDD a darawodd y brenhin, fel y bu efe wahan-glwyfus hyd ddydd ei farwolaeth, ac y trigodd mewn tŷ o'r neilldu: a Jotham mab y brenhin *oedd* ar y tŷ yn barnu pobl y wlad.
6 A'r rhan arall o hanes Asarïah, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?
7 Ac Asarïah a hunodd gyd â'i dadau, a chladdasant ef gyd â'i dadau yn ninas Dafydd; a Jotham ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.
8 ¶ Yn y drydedd flwyddyn ar bymtheg ar hugain i Asarïah brenhin Judah, y teyrnasodd Sacharïah mab Jeroboam ar Israel yn Samaria chwe mis.
9 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, megis y gwnaethai ei dadau: ni throdd efe oddi wrth bechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu.
10 A Sàlum mab Jabes a fradfwriadodd yn ei erbyn ef, ac a'i tarawodd ef ger bron y bobl, ac a'i lladdodd ef, ac a deyrnasodd yn ei le ef.
11 A'r rhan arall o hanes Sacharïah, wele, *y mae* yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel.
12 Dyma air yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarasai efe wrth Jehu, gan ddywedyd, Meibion y bedwaredd genhedlaeth i ti a eisteddant ar orseddfa Israel. Ac felly y bu.
13 ¶ Sàlum mab Jabes a ddechreuodd deyrnasu yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ar hugain i Ussïah, brenhin Judah, a mis cyfan y teyrnasodd efe yn Samaria.
14 Canys Menahem mab Gadi a aeth i fyny o Tirsah, ac a ddaeth i Samaria, ac a darawodd Sàlum mab Jabes yn Samaria, ac a'i lladdodd ef, ac a deyrnasodd yn ei le ef.
15 A'r rhan arall o hanes Sàlum, a'i fradwriaeth ef yr hon a frad-

fwriadodd efe, wele hwynt yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel.

16 ¶ Yna Menahem a darawodd Tiphsah, a'r rhai oll *oedd* ynddi, a'i therfynau, o Tirsah: o herwydd nad agorasant *iddo ef*, am hynny y tarawodd efe *hi; a*'i holl wragedd beichiogion a rwygodd efe.

17 Yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ar hugain i Asarïah brenhin Judah y teyrnasodd Menahem mab Gadi ar Israel, *a* deng mlynedd *y teyrnasodd efe* yn Samaria.

18 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD: ni throdd efe yn ei holl ddyddiau oddi wrth bechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu.

19 *A* Phul brenhin Assyria a ddaeth yn erbyn y wlad; a Menahem a roddodd i Pul fil o dalentau arian, fel y byddai ei law gyd âg ef, i sicrhâu y frenhiniaeth yn ei law ef.

20 A Menahem a gododd yr arian ar Israel, *sef* ar yr holl rai cedyrn o allu, ar bob un ddeg sicl a deugain o arian, i'w rhoddi i frenhin Assyria; felly brenhin Assyria a ddychwelodd, ac nid arhosodd yno yn y wlad.

21 ¶ A'r rhan arall o hanes Menahem, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel?

22 A Menahem a hunodd gyd â'i dadau; a Phecahïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

23 ¶ Yn y ddegfed flwyddyn a deugain i Asarïah brenhin Judah y teyrnasodd Pecahïah mab Menahem ar Israel yn Samaria, *a* dwy flynedd *y teyrnasodd efe.*

24 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD: ni throdd efe oddi wrth bechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu.

25 A Phecah mab Remalïah ei dywysog ef a frad-fwriadodd yn ei erbyn ef, ac a'i tarawodd ef yn Samaria, yn llys y brenhin, gyd âg Argob, ac Arïeh, a chyd âg ef ddeg ŵr a deugain o feibion y Gileadiaid: ac efe a'i lladdodd ef, ac a deyrnasodd yn ei le ef.

26 A'r rhan arall o hanes Pecahïah, a'r hyn oll a wnaeth efe, wele hwynt yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel.

27 ¶ Yn y ddeuddegfed flwyddyn a deugain i Asarïah brenhin Judah y teyrnasodd Pecah mab Remalïah ar Israel yn Samaria, *ac* ugain mlynedd *y teyrnasodd efe.*

28 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, ni throdd efe oddi wrth bechodau Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu.

29 Yn nyddiau Pecah brenhin Israel y daeth Tiglath-pileser brenhin Assyria, ac a ennillodd Ijon, ac Abel-beth-maachah, a Janoah, Cedes hefyd, a Hasor, a Gilead, a Galilea, holl wlad Naphtali, ac a'u caethgludodd hwynt i Assyria.

30 A Hosea mab Elah a frad-fwriadodd fradwriaeth yn erbyn Pecah mab Remalïah, ac a'i tarawodd ef, ac a'i lladdodd, ac a deyrnasodd yn ei le ef, yn yr ugeinfed flwyddyn i Jotham mab Ussïah.

31 A'r rhan arall o hanes Pecah, a'r hyn oll a wnaeth efe, wele hwynt yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Israel.

32 ¶ Yn yr ail flwyddyn i Pecah mab Remalïah brenhin Israel y dechreuodd Jotham mab Ussïah brenhin Judah deyrnasu.

33 Mab pum mlwydd ar hugain oedd efe pan ddechreuodd deyrnasu, ac un flwydd ar bymtheg y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Jerusa, merch Sadoc.

34 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD; yn ol yr hyn oll a'r a wnelsai Ussïah ei dad y gwnaeth efe.

35 ¶ Er hynny ni thynnwyd ymaith yr uchelfeydd; y bobl oedd etto yn aberthu ac yn arogl-darthu yn yr uchelfeydd. Efe a adeiladodd y porth uchaf i dŷ yr ARGLWYDD.

36 ¶ A'r rhan arall o hanes Jotham, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?

37 Yn y dyddiau hynny y dechreuodd yr ARGLWYDD anfon yn erbyn Judah, Resin brenhin Syria, a Phecah mab Remalïah.

38 A Jotham a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd gyd â'i dadau yn ninas Dafydd ei dad, ac Ahas ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 16.

1 *Annuwiol lywodraeth Ahas.* 5 *Ahas yn cyfloyi Tiglath-pileser yn erbyn Resin a Phecah.* 10 *Ahas yn anfon portreiad allor o Damascus i Uriah, ac yn mynnu yr allor bres iddo ei hun i offrymmu arni.* 17 *Ahas yn ysgeilio y demi.* 19 *A Hesceiah yn teyrnasu ar ei ol ef.*

YN y ddwyfed flwyddyn ar bymtheg i Pecah mab Remalïah y dechreuodd Ahas mab Jotham brenhin Judah deyrnasu.

2 Mab ugain mlwydd *oedd* Ahas pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac un flynedd ar bymtheg y teyrnasodd efe yn Jerusalem, ac ni wnaeth efe *yr hyn oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD ei DDUW, fel Dafydd ei dad:

3 Eithr rhodiodd yn ffordd brenhinoedd Israel, ac a dynnodd ei fab trwy y tân, yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd a fwriasai yr ARGLWYDD allan o flaen meibion Israel.

4 Ac efe a aberthodd ac a arogldarthodd yn yr uchelfeydd, ac ar y bryniau, a than bob pren gwyrddlas.

5 ¶ Yna y daeth Resin brenhin Syria, a Phecah mab Remalïah brenhin Israel, i fyny i Jerusalem i ryfel: a hwy a warchaeasant ar Ahas; ond ni allasant hwy *ei* orchfygu *ef*.

6 Yn yr amser hwnnw Resin brenhin Syria a ddug drachefn Elath at Syria, ac a yrrodd yr Iuddewon o Elath: a'r Syriaid a ddaethant i Elath, ac a breswyliasant yno hyd y dydd hwn.

7 Yna Ahas a anfonodd genhadau at Tiglath-pileser brenhin Assyria, gan ddywedyd, Dy was di a'th fab di *ydwyf* fi: tyred i fyny, a gwared fi o law brenhin Syria, ac o law brenhin Israel, y rhai sydd yn cyfodi yn fy erbyn i.

8 Ac Ahas a gymmerth yr arian a'r aur a gafwyd yn nhŷ yr ARGLWYDD, ac yn nhrysorau tŷ y brenhin, ac a'u hanfonodd yn anrheg i frenhin Assyria.

9 A brenhin Assyria a wrandawodd arno ef; a brenhin Assyria a ddaeth i fyny i Damascus, ac a'i hennillodd hi, ac a gaethgludodd ei *thrigolion* i Cir, ac a laddodd Resin.

10 ¶ A'r brenhin Ahas a aeth i Damascus i gyfarfod Tiglath-pileser brenhin Assyria, ac a welodd allor *oedd* yn Damascus: a'r brenhin Ahas a anfonodd at Uriah yr offeiriad agwedd yr allor a'i phortreiad, yn ol ei holl wneuthuriad.

11 Ac Uriah yr offeiriad a adeiladodd allor yn ol yr hyn oll a anfonasai y brenhin Ahas o Damascus: felly y gwnaeth Uriah yr offeiriad, erbyn dyfod y brenhin Ahas o Damascus.

12 A phan ddaeth y brenhin o Damascus, y brenhin a ganfu yr allor: a'r brenhin a nesaodd at yr allor, ac a offrymmodd arni hi.

13 Ac efe a losgodd ei boeth-offrwm, a'i fwyd-offrwm, ac a dywalltodd ei ddïod-offrwm, ac a daenellodd waed ei offrymmau hedd ar yr allor.

14 A'r allor bres, yr hon *oedd* ger bron yr ARGLWYDD, a dynnodd efe ymaith o dalcen y tŷ, oddi rhwng yr allor a thŷ yr ARGLWYDD, ac a'i rhoddes hi o du gogledd yr allor.

15 A'r brenhin Ahas a orchymynodd i Uriah yr offeiriad gan ddywedyd, Llosg ar yr allor fawr y poeth-offrwm boreuol, a'r bwyd-offrwm prydnhawnol, poeth-offrwm y brenhin hefyd, a'i fwyd-offrwm ef, a phoeth-offrwm holl bobl y wlad, a'u bwyd-offrwm hwynt, a'u dïodydd-offrwm hwynt; a holl waed y poeth-offrwm, a holl waed yr aberth, a daenelli di arni hi: a bydded yr allor bres i mi i ymofyn.

16 Ac Uriah yr offeiriad a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynasai y brenhin Ahas.

17 ¶ A'r brenhin Ahas a dorrodd ddaliadau yr ystolion, ac a dynnodd ymaith y noe oddi arnynt hwy, ac a ddisgynodd y môr oddi ar yr ychain pres *oedd* tano, ac a'i rhoddodd ar balmant cerrig.

18 A gorchudd y Sabbath yr hwn a adeiladasant hwy yn tŷ, a dyfodfa y brenhin oddi allan, a drodd efe *oddi wrth* dŷ yr ARGLWYDD, o achos brenhin Assyria.

19 ¶ A'r rhan arall o hanes Ahas, yr hyn a wnaeth efe, onid *ydynt*

hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?

20 Ac Ahas a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd gyd â'i dadau yn ninas Dafydd; a Hesecïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 17.

1 *Drygionus lywodraeth Hosea,* 3 *Wedi ei ddarostwng gan Salmaneser, y mae yn ymgyd-fwriadu â So brenhin yr Aipht yn ei erbyn ef.* 6 *Caethgludo Samaria am eu pechodau.* 24 *Y cenhedloedd dïeithr, a blannesid yn Samaria, wedi i lewod eu blino, yn gwneuthur cymmysg o amryw grefydd.*

YN y ddeuddegfed flwyddyn i Ahas brenhin Judah, y teyrnasodd Hosea mab Elah yn Samaria ar Israel; naw mlynedd *y teyrnasodd efe.*

2 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, etto nid fel brenhinoedd Israel y rhai a fuasai o'i flaen ef.

3 ¶ A Salmaneser brenhin Assyria a ddaeth i fyny yn ei erbyn ef, a Hosea a aeth yn was iddo ef, ac a ddug iddo anrhegion.

4 A brenhin Assyria a gafodd fradwriaeth yn Hosea: canys efe a ddanfonasai genhadau at So brenhin yr Aipht, ac ni ddanfonasai anrheg i frenhin Assyria, fel *y byddai efe arferol* bob blwyddyn: am hynny brenhin Assyria a gauodd arno ef, ac a'i rhwymodd ef mewn carchardy.

5 ¶ Yna brenhin Assyria a aeth i fyny trwy yr holl wlad, ac a aeth i fyny i Samaria, ac a warchaeodd arni hi dair blynedd.

6 ¶ Yn y nawfed flwyddyn i Hosea, yr ennillodd brenhin Assyria Samaria, ac y caethgludodd efe Israel i Assyria, ac a'u cyfleodd hwynt yn Halah ac yn Habor, *wrth* afon Gosan, ac *yn* ninasoedd y Mediaid.

7 Felly y bu, am i feibion Israel bechu yn erbyn yr ARGLWYDD eu DUW, yr hwn a'u dygasai hwynt i fyny o wlad yr Aipht, oddi tan law Pharaoh brenhin yr Aipht, ac am iddynt ofni duwiau dïeithr,

8 A rhodio yn neddfau y cenhedloedd, y rhai a fwriasai yr ARGLWYDD allan o flaen meibion Israel, ac *yn y deddfau* a wnaethai brenhinoedd Israel.

9 A meibion Israel a wnaethant yn ddirgel bethau nid *oedd* uniawn yn erbyn yr ARGLWYDD eu DUW, ac a adeiladasant iddynt uchelfeydd yn eu holl ddinasoedd, o dŵr y gwylwyr hyd y ddinas gaerog.

10 Gosodasant hefyd iddynt ddelwau a llwyni ar bob bryn uchel, a than bob pren irlas:

11 Ac a arogl-darthasant yno yn yr holl uchelfeydd, fel y cenhedloedd y rhai a gaethgludasai yr ARGLWYDD o'u blaen hwynt; a gwnaethant bethau drygionus i ddigio yr ARGLWYDD.

12 A hwy a wasanaethasant eilunod, *am* y rhai y dywedasai yr ARGLWYDD wrthynt, Na wnewch y peth hyn.

13 Er i'r ARGLWYDD dystiolaethu yn erbyn Israel, ac yn erbyn Judah, trwy law yr holl brophwydi, *a* phob gweledydd, gan ddywedyd, Dychwelwch o'ch ffyrdd drygionus, a chedwch fy ngorchymynion, *a*'m deddfau, yn ol yr holl gyfraith a orchymynais i'ch tadau, a'r hon a anfonais attoch trwy law fy ngweision y prophwydi.

14 Etto ni wrandawsant, eithr caledasant eu gwarrau fel gwarrau eu tadau, y rhai ni chredasant yn yr ARGLWYDD eu DUW.

15 A hwy a ddirmygasant ei ddeddfau ef, a'i gyfammod yr hwn a wnaethai efe â'u tadau hwynt, a'i dystiolaethau ef y rhai a dystiolaethodd efe i'w herbyn; a rhodiasant ar ol oferedd, ac a aethant yn ofer: *aethant* hefyd ar ol y cenhedloedd y rhai *oedd* o'u hamgylch, *am* y rhai y gorchymynasai yr ARGLWYDD iddynt, na wnelent fel hwynt.

16 A hwy a adawsant holl orchymynion yr ARGLWYDD eu DUW, ac a wnaethant iddynt ddelwau tawdd, *nid amgen* dau lo: gwnaethant hefyd lwyn, ac ymgrymmasant i holl lu y nefoedd, a gwasanaethasant Baal.

17 A hwy a dynnasant eu meibion a'u merched trwy y tân, ac a arferasant ddewiniaeth, a swynion, ac a ymwerthasant i wneuthur yr hyn oedd ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, i'w ddigio ef.

18 Am hynny yr ARGLWYDD a ddigiodd yn ddirfawr wrth Israel,

ac a'u bwriodd hwynt allan o'i olwg: ni adawyd ond llwyth Judah yn unig.

19 Ni chadwodd Judah chwaith orchymynion yr ARGLWYDD eu DUW, eithr rhodiasant yn neddfau Israel y rhai a wnelsent hwy.

20 A'r ARGLWYDD a ddïystyrodd holl had Israel, ac a'u cystuddiodd hwynt, ac a'u rhoddodd hwynt yn llaw anrheithwyr, nes iddo eu bwrw allan o'i olwg.

21 Canys efe a rwygodd Israel oddi wrth dŷ Dafydd; a hwy a wnaethant Jeroboam mab Nebat yn frenhin: a Jeroboam a yrrodd Israel oddi ar ol yr ARGLWYDD, ac a wnaeth iddynt bechu pechod mawr.

22 Canys meibion Israel a rodiasant yn holl bechodau Jeroboam, y rhai a wnaeth efe, heb gilio oddi wrthynt:

23 Nes i'r ARGLWYDD fwrw Israel allan o'i olwg, fel y llefarasai trwy law ei holl weision y prophwydi: ac Israel a gaethgludwyd allan o'i wlad ei hun i Assyria, hyd y dydd hwn.

24 ¶ A brenhin Assyria a ddug *bobl* o Babilon, ac o Cuthah, ac o Afa, o Hamath hefyd, ac o Sepharfaim, ac a'*u* cyfleodd *hwynt* yn ninasoedd Samaria, yn lle meibion Israel. A hwy a feddiannasant Samaria, ac a drigasant yn ei dinasoedd hi.

25 Ac yn nechreu eu trigias hwy yno, nid ofnasant hwy yr ARGLWYDD; am hynny yr ARGLWYDD a anfonodd lewod yn eu plith hwynt, y rhai a laddasant *rai* o honynt.

26 Am hynny y mynegasant i frenhin Assyria, gan ddywedyd, Y cenhedloedd y rhai a fudaist ti, ac a gyfleaist yn ninasoedd Samaria, nid adwaenant ddefod DUW y wlad: am hynny efe a anfonodd lewod yn eu mysg hwynt, ac wele, lladdasant hwynt, am na wyddent ddefod DUW y wlad.

27 Yna brenhin Assyria a orchymynodd, gan ddywedyd, Dygwch yno un o'r offeiriaid a ddygasoch oddi yno, i fyned ac i drigo yno, ac i ddysgu iddynt ddefod DUW y wlad.

28 Felly un o'r offeiriaid a ddygasent hwy o Samaria a ddaeth ac a drigodd yn Bethel, ac a ddysgodd iddynt pa fodd yr ofnent yr ARGLWYDD.

29 Etto pob cenedl oedd yn gwneuthur eu duwiau eu hun, ac yn *eu* gosod yn nhai yr uchelfeydd a wnaethai y Samariaid, pob cenedl yn eu dinasoedd yr oeddynt yn preswylio ynddynt.

30 A gwŷr Babilon a wnaethant Succoth-Benoth, a gwŷr Cuth a wnaethant Nergal, a gwŷr Hamath a wnaethant Asima,

31 A'r Afiaid a wnaethant Nibhas a Thartac, a'r Sepharfiaid a losgasant eu meibion yn tân i Adrammelech ac i Anammelech, duwiau Sepharfaim.

32 Felly hwy a ofnasant yr ARGLWYDD, ac a wnaethant iddynt rai o'u gwehilion yn offeiriaid yr uchelfeydd, y rhai a wnaethant *aberthau* iddynt yn nhai yr uchelfeydd.

33 Yr ARGLWYDD yr oeddynt hwy yn ei ofni, a gwasanaethu yr oeddynt eu duwiau, yn ol defod y cenhedloedd y rhai a ddygasent oddi yno.

34 Hyd y dydd hwn y maent hwy yn gwneuthur yn ol eu hen arferion: nid ydynt yn ofni yr ARGLWYDD, ac nid ydynt yn gwneuthur yn ol eu deddfau hwynt, nac yn ol eu harfer, nac yn ol y gyfraith na'r gorchymyn a orchymynodd yr ARGLWYDD i feibion Jacob, yr hwn y gosododd efe ei enw, Israel.

35 A'r ARGLWYDD a wnaethai gyfammod â hwynt, ac a orchymynasai iddynt, gan ddywedyd, Nac ofnwch dduwiau dïeithr, ac nac ymgrymmwch iddynt, ac na wasanaethwch hwynt, ac nac aberthwch iddynt:

36 Ond yr ARGLWYDD yr hwn a'ch dug chwi i fyny o wlad yr Aipht â nerth mawr, ac â braich estynedig, ef a ofnwch chwi, ac iddo ef yr ymgrymmwch, ac iddo ef yr aberthwch.

37 Y deddfau hefyd, a'r barnedigaethau, a'r gyfraith, a'r gorchymyn, a ysgrifenodd efe i chwi, a gedwch chwi i'w gwneuthur byth; ac nac ofnwch dduwiau dïeithr.

38 Ac nac anghofiwch y cyfammod

a ammodais â chwi, ac nac ofnwch
dduwiau dïeithr:
39 Eithr ofnwch yr ARGLWYDD
eich DUW; ac efe a'ch gwared chwi
o law eich holl elynion.
40 Ond ni wrandawsant hwy, eithr
yn ol eu hen arfer y gwnaethant
hwy.
41 Felly y cenhedloedd hyn oedd
yn ofni yr ARGLWYDD, ac yn gwas-
anaethu eu delwau cerfiedig; eu
plant a'u hwyrion: fel y gwnaeth
eu tadau, y maent hwy yn gwneuth-
ur hyd y dydd hwn.

PENNOD 18.

*1 Y brenhin duwiol Hesecïah 4 yn dïëu delw-
addoliaeth, ac yn llwydde. 9 Caethgludo Sa-
maria am eu pechodau. 13 Senacherib yn dyfod
yn erbyn Judah; a theyrnged yn ei ddyhuddo
ef. 17 Senacherib yn danfon Rabsaceh yr aïl
waith; ac yntau yn difenwi Hesecïah, a thrwy
gabl-eiriau yn annog y bobl i droi at frenhin
Assyria.*

AC yn y drydedd flwyddyn i
Hosea mab Elah brenhin Is-
rael, y teyrnasodd Hesecïah mab
Ahas brenhin Judah.
2 Mab pum mlwydd ar hugain
oedd efe pan aeth yn frenhin, a naw
mlynedd ar hugain y teyrnasodd
efe yn Jerusalem: ac enw ei fam
ef *oedd* Abi, merch Sacharïah.
3 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd*
uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn
ol yr hyn oll a wnaethai Dafydd ei
dad ef.
4 ¶ Efe a dynnodd ymaith yr
uchelfeydd, ac a ddrylliodd y delw-
au, ac a dorrodd y llwyni, ac a
faluriodd y sarph bres a wnelsai
Moses; canys hyd y dyddiau hynny
yr oedd meibion Israel yn arogl-
darthu iddi hi: ac efe a'i galwodd
hi Nehustan.
5 Yn ARGLWYDD DDUW Israel yr
ymddiriedodd efe, ac ar ei ol ef ni
bu ei fath ef ym mhlith holl fren-
hinoedd Judah, nac *ym mysg* y rhai
a fuasai o'i flaen ef.
6 Canys efe a lynodd wrth yr AR-
GLWYDD, ni throdd efe oddi ar ei ol
ef, eithr efe a gadwodd ei orchy-
mynion ef, y rhai a orchymynasai
yr ARGLWYDD wrth Moses.
7 A'r ARGLWYDD fu gyd âg ef; i
ba le bynnag yr aeth, efe a lwydd-
odd: ac efe a wrthryfelodd yn er-
byn brenhin Assyria, ac nis gwas-
anaethodd ef.
8 Efe a darawodd y Philistiaid
hyd Gasah a'i therfynau, o dŵr y
gwylwyr hyd y ddinas gaerog.
9 ¶ Ac yn y bedwaredd flwyddyn
i'r brenhin Hesecïah, honno *oedd* y
seithfed flwyddyn i Hosea mab Elah
brenhin Israel, y daeth Salmaneser
brenhin Assyria i fyny yn erbyn Sa-
maria, ac a warchaeodd arni hi.
10 Ac ym mhen y tair blynedd
yr ennillwyd hi; yn y chweched
flwyddyn i Hesecïah, honno *oedd* y
nawfed flwyddyn i Hosea brenhin
Israel, yr ennillwyd Samaria.
11 A brenhin Assyria a gaeth-
gludodd Israel i Assyria, ac a'u
cyfleodd hwynt yn Halah ac yn
Habor, *wrth* afon Gosan, ac yn
ninasoedd y Mediaid:
12 Am na wrandawsent ar lais
yr ARGLWYDD eu DUW, eithr tros-
eddu ei gyfammod ef, *a*'r hyn oll a
orchymynasai Moses gwas yr AR-
GLWYDD, ac na wrandawent *arnynt*,
ac nas gwnaent *hwynt*.
13 ¶ Ac yn y bedwaredd flwydd-
yn ar ddeg i'r brenhin Hesecïah, y
daeth Senacherib brenhin Assyria
i fyny yn erbyn holl ddinasoedd
caerog Judah, ac a'u hennillodd
hwynt.
14 A Hesecïah brenhin Judah a
anfonodd at frenhin Assyria i La-
chis, gan ddywedyd, Pechais, dy-
chwel oddi wrthyf: dygaf yr hyn a
roddych arnaf. A brenhin Assyria
a osododd ar Hesecïah brenhin Ju-
dah, dri chant o dalentau arian, a
deg ar hugain o dalentau aur.
15 A Hesecïah a roddodd *iddo*
yr holl arian a gafwyd yn nhŷ yr
ARGLWYDD, ac yn nhrysorau tŷ y
brenhin.
16 Yn yr amser hwnnw y torrodd
Hesecïah *yr aur oddi ar* ddrysau
teml yr ARGLWYDD, ac *oddi ar* y
colofnau a orchuddiasai Hesecïah
brenhin Judah, ac a'u rhoddes
hwynt i frenhin Assyria.
17 ¶ A brenhin Assyria a anfon-
odd Tartan, a Rabsaris, a Rabsaceh,
o Lachis, at y brenhin Hesecïah, â
llu dirfawr yn erbyn Jerusalem. A
hwy a aethant i fyny, ac a ddaeth-
ant i Jerusalem. Ac wedi eu dyf-
od i fyny, hwy a ddaethant ac a
safasant wrth bistyll y llyn uchaf,

yr hwn *sydd* ym mhrif-ffordd maes y pannwr.

18 Ac wedi iddynt alw ar y brenhin, daeth allan attynt hwy Eliacim mab Hilcïah, yr hwn *oedd* ben-teulu, a Sebnah yr ysgrifenydd, a Joah mab Asaph y cofiadur.

19 A Rabsaceh a ddywedodd wrthynt hwy, Dywedwch yn awr wrth Hesecïah, Fel hyn y dywedodd y brenhin mawr, brenhin Assyria, Pa hyder *yw* hwn yr wyt yn ymddiried ynddo?

20 Dywedyd yr ydwyt, (ond *nid ydynt ond* geiriau ofer,) *Y mae gennyf* gynghor a nerth i ryfel. Ar bwy y mae dy hyder, pan wrthryfelaist i'm herbyn i?

21 Wele yn awr, y mae dy hyder ar y ffon gorsen ddrylliedig hon, ar yr Aipht, yr hon pwy bynnag a bwyso arni, hi a â i gledr ei law ef, ac a dylla trwyddi hi: felly *y mae* Pharaoh brenhin yr Aipht i bawb a hyderant arno ef.

22 Ac os dywedwch wrthyf, Yn yr Arglwydd ein Duw yr ydym ni yn ymddiried; onid efe *yw* yr hwn y tynnodd Hesecïah ymaith ei uchelfeydd, a'i allorau, ac y dywedodd wrth Judah ac wrth Jerusalem, O flaen yr allor hon yr ymgrymmwch chwi yn Jerusalem?

23 Yn awr gan hynny dod wystlon, attolwg, i'm harglwydd, brenhin Assyria, a rhoddaf i ti ddwy fil o feirch, os gelli di roddi rhai a farchogo arnynt hwy.

24 A pha fodd y troi di ymaith wyneb un capten o'r gweision lleiaf i'm harglwydd, ac yr ymddiriedi yn yr Aipht am gerbydau a gwŷr meirch?

25 Ai heb yr Arglwydd y deuthum i fyny yn erbyn y lle hwn, i'w ddinystrio ef? Yr Arglwydd a ddywedodd wrthyf, Dos i fyny yn erbyn y wlad hon, a dinystria hi.

26 Yna y dywedodd Eliacim mab Hilcïah, a Sebnah, a Joah, wrth Rabsaceh, Llefara, attolwg, wrth dy weision yn Syriaeg, canys yr ydym ni yn *ei* deall *hi;* ac nac ymddiddan â ni yn iaith yr Iuddewon, lle y clywo y bobl *sydd* ar y mur.

27 Ond Rabsaceh a ddywedodd wrthynt, Ai at dy feistr di, ac attat tithau, yr anfonodd fy meistr fi, i lefaru y geiriau hyn? onid at y dynion sydd yn eistedd ar y mur, fel y bwyttaont eu tom eu hun, ac yr yfont eu trwngc eu hun gyd â chwi, *yr anfonodd fi?*

28 Felly Rabsaceh a safodd, ac a waeddodd â llef uchel yn iaith yr Iuddewon, llefarodd hefyd, a dywedodd, Gwrandêwch air y brenhin mawr, brenhin Assyria.

29 Fel hyn y dywedodd y brenhin, Na thwylled Hesecïah chwi: canys ni ddichon efe eich gwaredu chwi o'm llaw i.

30 Ac na phared Hesecïah i chwi ymddiried yn yr Arglwydd, gan ddywedyd, Yr Arglwydd gan waredu a'n gwared ni, ac ni roddir y ddinas hon yn llaw brenhin Assyria.

31 Na wrandêwch ar Hesecïah: canys fel hyn y dywed brenhin Assyria, Gwnewch fwynder â mi, a deuwch allan attaf fi, ac yna bwyttêwch bob un o'i winwydden ei hun, a phob un o'i ffigysbren, ac yfed pawb ddwfr ei ffynnon ei hun:

32 Nes i mi ddyfod a'ch dwyn chwi i wlad megis eich gwlad eich hun, gwlad ŷd a gwin, gwlad bara a gwinllannoedd, gwlad olew olewwydd a mêl, fel y byddoch fyw, ac na byddoch feirw: ac na wrandêwch ar Hesecïah, pan hudo efe chwi, gan ddywedyd, Yr Arglwydd a'n gwared ni.

33 A lwyr-waredodd yr un o dduwiau y cenhedloedd ei wlad o law brenhin Assyria?

34 Mae duwiau Hamath ac Arpad? mae duwiau Sepharfaim, Hena, ac Ifah? a achubasant hwy Samaria o'm llaw i?

35 Pwy *sydd* ym mhlith holl dduwiau y gwledydd a waredasant eu gwlad o'm llaw i, fel y gwaredai yr Arglwydd Jerusalem o'm llaw i?

36 Eithr y bobl a dawsant, ac nid attebasant air iddo: canys gorchymyn y brenhin *oedd* hyn, gan ddywedyd, Nac attebwch ef.

37 Yna y daeth Eliacim mab Hilcïah, yr hwn *oedd* ben-teulu, a Sebnah yr ysgrifenydd, a Joah mab Asaph y cofiadur, at Hesecïah, a'u

dillad yn rhwygedig, ac a fynegasant iddo eiriau Rabsaceh.

PENNOD 19.

1 *Hesecïah yn galaru, ac yn anfon at Esaiah i weddïo drosto.* 6 *Esaiah yn ei gysuro ef.* 8 *Senacherib ym myned i ymladd â Thirhacah, ac yn danfon at Hesecïah lythyr yn llawn cabl-eiriau.* 14 *Gweddi Hesecïah.* 20 *Esaiah yn prophwydo am falchder a dinystr Senacherib, a daioni Sïon.* 35 *Angel yn lladd yr Assyriaid.* 36 *Ei ffoiad ei hun yn lladd Senacherib yn Ninefeh.*

A PHAN glybu y brenhin Hesecïah *hynny*, efe a rwygodd ei ddillad, ac a ymwisgodd â sachlïan, ac a aeth i mewn i dŷ yr ARGLWYDD.

2 Ac efe a anfonodd Eliacim, yr hwn *oedd* ben-teulu, a Sebnah yr ysgrifenydd, a henuriaid yr offeiriaid, wedi ymwisgo mewn sachlïan, at Esaiah y prophwyd mab Amos.

3 A hwy a ddywedasant wrtho ef, Fel hyn y dywed Hesecïah, Diwrnod cyfyngdra, a cherydd, a chablledd *yw* y dydd hwn: canys y plant a ddaethant hyd yr enedigaeth, ond nid *oes* grym i esgor.

4 Fe allai y gwrendy yr ARGLWYDD dy DDUW holl eiriau Rabsaceh, yr hwn a anfonodd brenhin Assyria ei feistr ef i gablu y DUW byw, ac y cerydda efe y geiriau a glybu yr ARGLWYDD dy DDUW: am hynny dyrcha *dy* weddi dros y gweddill *sydd* i'w gael.

5 Felly gweision y brenhin Hesecïah a ddaethant at Esaiah.

6 ¶ Ac Esaiah a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y dywedwch wrth eich meistr, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Nac ofna y geiriau a glywaist, *trwy* y rhai y cablodd gweision brenhin Assyria ti.

7 Wele fi yn rhoddi arno ef wynt, ac efe a glyw swn, ac a ddychwel i'w wlad: gwnaf hefyd iddo syrthio gan y cleddyf yn ei wlad ei hun.

8 ¶ Yna y dychwelodd Rabsaceh, ac a gafodd frenhin Assyria yn ymladd yn erbyn Libnah: canys efe a glywsai fyned o hono ef ymaith o Lachis.

9 A phan glybu efe am Tirhacah brenhin Ethiopia, gan ddywedyd, Wele, efe a ddaeth allan i ryfela â thi; efe a anfonodd genhadau drachefn at Hesecïah, gan ddywedyd,

10 Fel hyn y lleferwch wrth Hesecïah brenhin Judah, gan ddywedyd, Na thwylled dy DDUW di, yr hwn yr wyt yn ymddiried ynddo, gan ddywedyd, Ni roddir Jerusalem yn llaw brenhin Assyria.

11 Wele, ti a glywaist yr hyn a wnaeth brenhinoedd Assyria i'r holl wledydd, gan eu difrodi hwynt: ac a waredir di?

12 A waredodd duwiau y cenhedloedd hwynt, y rhai a ddarfu i'm tadau i eu dinystrio; *sef* Gosan, a Haran, a Reseph, a meibion Eden y rhai *oedd* o fewn Thelasar?

13 Mae brenhin Hamath, a brenhin Arpad, a brenhin dinas Sepharfaim, Hena, ac Ifah?

14 ¶ A Hesecïah a gymmerodd y llythyrau o law y cenhadau, ac a'u darllenodd hwy: a Hesecïah a aeth i fyny i dŷ yr ARGLWYDD, ac a'u lledodd hwynt ger bron yr ARGLWYDD.

15 A Hesecïah a weddïodd ger bron yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, O ARGLWYDD DDUW Israel, yr hwn wyt yn trigo *rhwng* y cerubiaid, tydi sydd DDUW, tydi yn unig, i holl deyrnasoedd y ddaear; ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear.

16 Gogwydda, ARGLWYDD, dy glust, a gwrando: agor dy lygaid, ARGLWYDD, ac edrych; a gwrando eiriau Senacherib, yr hwn a anfonodd i ddifenwi y DUW byw.

17 Gwir *yw*, O ARGLWYDD, i frenhinoedd Assyria ddifa yr holl genhedloedd a'u tir,

18 A rhoddi eu duwiau hwynt yn tân: canys nid *oeddynt* hwy dduwiau, eithr gwaith dwylaw dyn, *o* goed a maen: am hynny y dinystriasant hwynt.

19 Yn awr gan hynny, O ARGLWYDD ein DUW ni, achub ni, attolwg, o'i law ef, fel y gwypo holl deyrnasoedd y ddaear mai tydi *yw* yr ARGLWYDD DDUW, tydi yn unig.

20 ¶ Yna Esaiah mab Amos a anfonodd at Hesecïah, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel, Gwrandewais ar yr hyn a weddïaist arnaf fi yn erbyn Senacherib brenhin Assyria.

21 Dyma y gair a lefarodd yr ARGLWYDD yn ei erbyn ef, Y forwyn merch Sïon a'th ddirmygodd di, *ac*

a'th watwarodd; merch Jerusalem a ysgydwodd ben ar dy ol di.

22 Pwy a ddifenwaist ti, ac a geblaist? ac yn erbyn pwy y dyrchefaist ti *dy* lef, ac y codaist yn uchel dy lygaid? yn erbyn Sanct Israel.

23 Trwy law dy genhadau y ceblaist ti yr ARGLWYDD, ac y dywedaist, A lliaws fy ngherbydau y dringais i uchelder y mynyddoedd, i ystlysau Libanus; a mi a dorraf uchelder ei gedrwydd ef, *a*'i ddewis ffynnidwydd ef, âf hefyd i'w letty eithaf, *ac i* goedwig ei ddoldir ef.

24 Myfi a gloddiais, ac a yfais ddyfroedd dïeithr, ac â gwadnau fy nhraed y dyhysbyddais holl afonydd y gwarchäedig.

25 Oni chlywaist ti ddarparu o honof fi hyn er ys talm, ac i mi lunio hynny er y dyddiau gynt? yn awr y dygais hynny i ben, fel y byddit i ddinystrio dinasoedd caerog *yn* garneddau dinystriol.

26 Am hynny eu trigolion yn gwttoglaw a ddychrynwyd, ac a gywilyddiwyd: oeddynt *megis* gwellt y maes, fel gwyrddlysiau, *neu* laswelltyn ar bennau *tai*, neu ŷd wedi deifio cyn addfedu.

27 Dy eisteddiad hefyd, a'th fynediad allan, a'th ddyfodiad i mewn, a adnabûm i, a'th gynddeiriogrwydd i'm herbyn.

28 Am i ti ymgynddeiriogi i'm herbyn, ac i'th ddadwrdd ddyfod i fyny i'm clustiau i; am hynny y gosodaf fy mach yn dy ffroen, a'm ffrwyn yn dy weflau, ac a'th ddychwelaf di ar hyd yr un ffordd ag y daethost.

29 A hyn *fydd* yn argoel i ti, *O Hesecïah:* Y flwyddyn hon y bwyttêi a dyfo o hono ei hun, ac yn yr ail flwyddyn yr attwf; ac yn y drydedd flwyddyn hauwch, a medwch, plennwch winllannoedd hefyd, a bwyttêwch eu ffrwyth hwynt.

30 A'r gweddill o dŷ Judah *yr hwn* a adewir, a wreiddia eilwaith i waered, ac a ddwg ffrwyth i fyny.

31 Canys gweddill a â allan o Jerusalem, a'r rhai dïangol o fynydd Sïon: sêl ARGLWYDD *y lluoedd* a wna hyn.

32 Am hynny fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD am frenhin Assyria, Ni ddaw efe i'r ddinas hon, ac ni ergydia saeth yno; hefyd ni ddaw efe o'i blaen hi â tharian, ac ni fwrw glawdd i'w herbyn hi.

33 Ar hyd yr un ffordd ag y daeth, y dychwel efe, ac ni ddaw i mewn i'r ddinas hon, medd yr ARGLWYDD.

34 Canys mi a ddiffynnaf y ddinas hon, i'w chadw hi er fy mwyn fy hun, ac er mwyn Dafydd fy ngwas.

35 ¶ A'r noson honno yr aeth angel yr ARGLWYDD, ac a darawodd yng ngwersyll yr Assyriaid bump a phedwar ugain a chant o filoedd: a phan gyfodasant yn fore drannoeth, wele hwynt oll yn galaneddau meirwon.

36 Felly Senacherib brenhin Assyria a ymadawodd, ac a aeth ymaith, ac a ddychwelodd, ac a drigodd yn Ninefeh.

37 A bu, fel yr oedd efe yn addoli yn nhŷ Nisroch ei dduw, i Adrammelech a Sareser ei feibion ei ladd ef â'r cleddyf; a hwy a ddïangasant i wlad Armenia: ac Esarhàdon ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 20.

1 *Hesecïah, wedi cael rhybudd o'i farwolaeth, trwy weddi yn cael estyn ei oes.* 8 *Yr haul yn myned yn ei ol ddeg o raddau, yn argoel o'r addewid honno.* 12 *Berodach-Baladan yn danfon i ymweled â Hesecïah, o herwydd y rhyfeddod hwnnw; ac felly yn cael gwybodaeth am ei drysorau ef.* 14 *Esaïah yn cael gwybod hynny, ac yn rhag-fynegi y gaethgludo i Babilon.* 21 *Manasseh yn frenhin ar ol Hesecïah.*

YN y dyddiau hynny y clafychodd Hesecïah hyd farw: ac Esaiah y prophwyd mab Amos a ddaeth atto, ac a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD, Trefna dy dŷ; canys marw fyddi, ac ni byddi byw.

2 Yna efe a drodd ei wyneb at y pared, ac a weddïodd at yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

3 Attolwg, ARGLWYDD, cofia yr awr hon i mi rodio ger dy fron di mewn gwirionedd, ac â chalon berffaith, a gwneuthur o honof *yr hyn oedd* dda yn dy olwg di. A Hesecïah a wylodd âg wylofain mawr.

4 A chyn myned o Esaiah allan i'r cyntedd canol, daeth gair yr ARGLWYDD atto, gan ddywedyd,

5 Dychwel, a dywed wrth Hesecïah blaenor fy mhobl i, Fel hyn y

dywed ARGLWYDD DDUW Dafydd
dy dad, Clywais dy weddi di, gwel-
ais dy ddagrau; wele fi yn dy
iachâu di; y trydydd dydd yr âi
di i fyny i dŷ yr ARGLWYDD.
6 A mi a chwanegaf at dy ddydd-
iau di bymtheng mlynedd, ac a'th
waredaf di a'r ddinas hon o law
brenhin Assyria: diffynnaf hefyd
y ddinas hon er fy mwyn fy hun,
ac er mwyn Dafydd fy ngwas.
7 A dywedodd Esaiah, Cymmer-
wch swp o ffigys. A hwy a gym-
merasant, ac a'i gosodasant ar y
cornwyd, ac efe a aeth yn iach.
8 ¶ A Hesecïah a ddywedodd
wrth Esaiah, Pa arwydd *fydd* yr
iachâ yr ARGLWYDD fi, ac yr âf fi i
fyny i dŷ yr ARGLWYDD y trydydd
dydd?
9 Ac Esaiah a ddywedodd, Hyn
fydd i ti yn argoel oddi wrth yr
ARGLWYDD, y gwna yr ARGLWYDD
y gair a lefarodd efe: A â y cysgod
ddeg o raddau ym mlaen, neu a
ddychwel efe ddeg o raddau yn ol?
10 A Hesecïah a ddywedodd,
Hawdd yw i'r cysgod ogwyddo
ddeg o raddau: nid *felly*, ond dy-
chweled y cysgod yn ei ol ddeg o
raddau.
11 Ac Esaiah y prophwyd a lefodd
ar yr ARGLWYDD: ac efe a drodd
y cysgod ar hyd y graddau, ar hyd
y rhai y disgynasai efe yn neial
Ahas, ddeg o raddau yn ei ol.
12 ¶ Yn yr amser hwnnw yr
anfonodd Berodach-Baladan, mab
Baladan brenhin Babilon, lythyrau
ac anrheg at Hesecïah: canys efe
a glywsai fod Hesecïah yn glaf.
13 A Hesecïah a wrandawodd ar-
nynt, ac a ddangosodd iddynt holl
dŷ ei drysor, yr arian, a'r aur, a'r
pêr-aroglau, a'r olew goreu, a *holl*
dŷ ei arfau, a'r hyn oll a gafwyd
yn ei drysorau ef: nid oedd dim
yn ei dŷ ef, nac yn ei holl gyfoeth
ef, a'r nas dangosodd Hesecïah idd-
ynt.
14 ¶ Yna Esaiah y prophwyd a
ddaeth at y brenhin Hesecïah, ac a
ddywedodd wrtho, Beth a ddywed-
odd y gwŷr hyn? ac o ba le y daeth-
ant attat ti? A dywedodd Hesecïah,
O wlad bell y daethant hwy, *sef* o
Babilon.
15 Yntau a ddywedodd, Beth a
welsant hwy yn dy dŷ di? A dy-
wedodd Hesecïah, Yr hyn oll *oedd*
yn fy nhŷ i a welsant hwy: nid oes
dim yn fy nhrysorau i nas dangos-
ais iddynt hwy.
16 Ac Esaiah a ddywedodd wrth
Hesecïah, Gwrando air yr AR-
GLWYDD.
17 Wele y dyddiau yn dyfod, pan
ddyger i Babilon yr hyn oll *sydd*
yn dy dŷ di, a'r hyn a gynhilodd
dy dadau hyd y dydd hwn: ni ad-
ewir dim, medd yr ARGLWYDD.
18 Cymmerant hefyd o'th feibion
di, y rhai a ddaw allan o honot, y
rhai a genhedli di, a hwy a fyddant
yn ystafellyddion yn llys brenhin
Babilon.
19 Yna Hesecïah a ddywedodd
wrth Esaiah, Da yw gair yr AR-
GLWYDD, yr hwn a leferaist. Dy-
wedodd hefyd, Onid da os bydd
heddwch a gwirionedd yn fy nydd-
iau i?
20 ¶ A'r rhan arall o hanes He-
secïah, a'i holl rym ef, ac fel y
gwnaeth efe y llyn, a'r pistyll, ac
y dug efe y dyfroedd i'r ddinas,
onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn
llyfr cronicl brenhinoedd Judah?
21 A Hesecïah a hunodd gyd â'i
dadau: a Manasseh ei fab a deyrn-
asodd yn ei le ef.

PENNOD 21.

1 *Teyrnasiad Manasseh:* 3 *a'i ddelw-addoliaeth.* 10 *Ei annuwioldeb ef ym achos o brophwydoliaethau ym erbyn Judah.* 17 *Amon ar ei ol ef;* 19 *a'i annuwioldeb yntau.* 23 *Ei weision ym ei ladd ef, a'r bobl ym eu lladd hwythau; a Josiah ym myned ym frenhin.*

MAB deuddeng mlwydd *oedd*
Manasseh pan ddechreuodd
efe deyrnasu, a phymtheng mlyn-
edd a deugain y teyrnasodd efe yn
Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd*
Hephsibah.
2 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd*
ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn
ol ffieidd-dra y cenhedloedd a fwr-
iodd yr ARGLWYDD allan o flaen
meibion Israel.
3 Canys efe a adeiladodd drachefn
yr uchelfeydd a ddinystriasai Hese-
cïah ei dad ef; ac a gyfododd allor-
au i Baal, ac a wnaeth lwyn, fel y
gwnelsai Ahab brenhin Israel, ac a

addolodd holl lu y nefoedd, ac a'u gwasanaethodd hwynt.

4 Adeiladodd hefyd allorau yn nhŷ yr ARGLWYDD, *am* yr hwn y dywedasai yr ARGLWYDD, Yn Jerusalem y gosodaf fy enw.

5 Ac efe a adeiladodd allorau i holl lu y nefoedd yn nau gyntedd tŷ yr ARGLWYDD.

6 Ac efe a dynnodd ei fab trwy dân, ac a arferodd hudoliaeth, a brudiau, ac a fawrhaodd swynyddion, a dewiniaid: efe a wnaeth lawer o ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, i'*w* ddigio *ef*.

7 Ac efe a osododd ddelw gerfiedig y llwyn a wnelsai efe, yn y tŷ *am* yr hwn y dywedasai yr ARGLWYDD wrth Dafydd, ac wrth Solomon ei fab, Yn y tŷ hwn, ac yn Jerusalem, yr hon a ddewisais i o holl lwythau Israel, y gosodaf fi fy enw yn dragywydd:

8 Ac ni symmudaf mwyach droed Israel o'r wlad a roddais i'w tadau hwynt: yn unig os gwyliant ar wneuthur yr hyn oll a orchymynais iddynt, ac yn ol yr holl gyfraith a orchymynodd fy ngwas Moses iddynt.

9 Ond ni wrandawsant hwy: a Manasseh a'u cyfeiliornodd hwynt i wneuthur yn waeth na'r cenhedloedd a ddifethasai yr ARGLWYDD o flaen meibion Israel.

10 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD trwy law ei weision y prophwydi, gan ddywedyd,

11 O herwydd i Manasseh brenhin Judah wneuthur y ffieidd-dra hyn, *a* gwneuthur yn waeth na'r hyn oll a wnaethai yr Amoriaid *a fu* o'i flaen ef, a pheri i Judah bechu trwy ei eilunod:

12 Oblegid hynny, fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel, Wele fi yn dwyn drwg ar Jerusalem a Judah, fel y merwino dwy glust y sawl a'i clywant.

13 A mi a estynaf linyn mesur Samaria ar Jerusalem, a phwys tŷ Ahab: golchaf hefyd Jerusalem fel y gylch *un* gwppan, *yr hwn pan* olcho, efe a'*i* try ar ei wyneb.

14 A mi a wrthodaf weddill fy etifeddiaeth, ac a'u rhoddaf hwynt yn llaw eu gelynion, a hwy a fyddant yn anrhaith ac yn yspail i'w holl elynion:

15 Am iddynt wneuthur yr hyn *oedd* ddrwg yn fy ngolwg i, a'u bod yn fy nigio i, er y dydd y daeth eu tadau hwynt allan o'r Aipht, hyd y dydd hwn.

16 Manasseh hefyd a dywalltodd lawer iawn o waed gwirion, hyd oni lanwodd efe Jerusalem o ben bwy gilydd; heb law ei bechod *trwy* yr hwn y gwnaeth efe i Judah bechu, gan wneuthur yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD.

17 ¶ A'r rhan arall o hanes Manasseh, a'r hyn a wnaeth efe, a'i bechod a bechodd efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr croniel brenhinoedd Judah?

18 A Manasseh a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd y'ngardd ei dŷ ei hun, *sef* y'ngardd Ussa; ac Amon ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

19 ¶ Mab dwy flwydd ar hugain *oedd* Amon pan ddechreuodd efe deyrnasu, a dwy flynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Mesùlemeth, merch Harus o Jotbah.

20 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, fel y gwnelsai Manasseh ei dad.

21 Ac efe a rodiodd yn yr holl ffyrdd y rhodiasai ei dad ynddynt, ac a wasanaethodd yr eilunod a wasanaethasai ei dad, ac a ymgrymmodd iddynt:

22 Ac efe a wrthododd ARGLWYDD DDUW ei dadau, ac ni rodiodd yn ffordd yr ARGLWYDD.

23 ¶ A gweision Amon a fradfwriadasant yn ei erbyn ef, ac a laddasant y brenhin yn ei dŷ ei hun.

24 A phobl y wlad a laddodd yr holl rai a frad-fwriadasent yn erbyn y brenhin Amon: a phobl y wlad a osodasant Josïah ei fab ef yn frenhin yn ei le ef.

25 A'r rhan arall o hanes Amon, yr hyn a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr croniel brenhinoedd Judah?

26 A chladdwyd ef yn ei feddrod y'ngardd Ussa; a Josïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 22.

1 *Duwioldeb Josïah,* 3 *a'i ofal am gyweirio y deml.* 8 *Hilcïah yn cael llyfr y gyfraith, a Josïah yn gyrru at Huldah i ymgynghori a'r Arglwydd.* 15 *Huldah yn prophwydo dinystr Jerusalem, ond yr oedid hynny dros amser Josïah.*

MAB wyth mlwydd *oedd* Josïah pan aeth efe yn frenhin, ac un flynedd ar ddeg ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Jedidah, merch Adaiah o Boscath.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac a rodiodd yn holl ffyrdd Dafydd ei dad, ac ni throdd ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy.

3 ¶ Ac yn y ddeunawfed flwyddyn i frenhin Josïah, y brenhin a anfonodd Saphan, mab Asalïah, mab Mesùlam, yr ysgrifenydd, i dŷ yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

4 Dos i fyny at Hilcïah yr arch-offeiriad, fel y cyfrifo efe yr arian a ddygpwyd i dŷ yr ARGLWYDD, y rhai a gasglodd ceidwaid y drws gan y bobl:

5 A rhoddant hwy yn llaw gweithwyr y gwaith, y rhai sydd olygwyr ar dŷ yr ARGLWYDD; a rhoddant hwy i'r rhai sydd yn gwneuthur y gwaith *sydd* yn nhŷ yr ARGLWYDD, i gyweirio agennau y tŷ,

6 I'r seiri coed, ac i'r adeiladwyr, ac i'r seiri maen, ac i brynu coed a cherrig nadd, i adgyweirio y tŷ.

7 Etto ni chyfrifwyd â hwynt am yr arian a roddwyd yn eu llaw hwynt, am eu bod hwy yn gwneuthur yn ffyddlawn.

8 ¶ A Hilcïah yr arch-offeiriad a ddywedodd wrth Saphan yr ysgrifenydd, Cefais lyfr y gyfraith yn nhŷ yr ARGLWYDD: a Hilcïah a roddodd y llyfr at Saphan, ac efe a'i darllenodd ef.

9 A Saphan yr ysgrifenydd a ddaeth at y brenhin, ac a adroddodd y peth i'r brenhin, ac a ddywedodd, Dy weision di a gasglasant yr arian a gafwyd yn tŷ, ac a'i rhoddasant yn llaw gweithwyr y gwaith, y rhai sydd olygwyr ar dŷ yr ARGLWYDD.

10 A Saphan yr ysgrifenydd a fynegodd i'r brenhin, gan ddywedyd, Hilcïah yr offeiriad a roddodd i mi lyfr: a Saphan a'i darllenodd ef ger bron y brenhin.

11 A phan glybu y brenhin eiriau llyfr y gyfraith, efe a rwygodd ei ddillad.

12 A'r brenhin a orchymynodd i Hilcïah yr offeiriad, ac i Ahicam mab Saphan, ac i Achbor mab Michaiah, ac i Saphan yr ysgrifenydd, ac i Asahïah gwas y brenhin, gan ddywedyd,

13 Ewch, ymofynwch â'r ARGLWYDD drosof fi, a thros y bobl, a thros holl Judah, am eiriau y llyfr hwn a gafwyd: canys mawr *yw* llid yr ARGLWYDD yr hwn a ennynodd i'n herbyn ni, o herwydd na wrandawodd ein tadau ni ar eiriau y llyfr hwn, i wneuthur yn ol yr hyn oll a ysgrifenwyd o'n plegid ni.

14 Felly Hilcïah yr offeiriad, ac Ahicam, ac Achbor, a Saphan, ac Asahïah, a aethant at Huldah y brophwydes, gwraig Sàlum mab Ticfah, mab Harhas, ceidwad y gwisgoedd: a hi oedd yn trigo yn Jerusalem yn yr ysgoldy; a hwy a ymddiddanasant â hi.

15 ¶ A hi a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y dywedodd ARGLWYDD DDUW Israel, Dywedwch i'r gŵr a'ch anfonodd chwi attaf fi;

16 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele fi yn dwyn drwg ar y lle hwn, ac ar ei drigolion, *sef* holl eiriau y llyfr a ddarllenodd brenhin Judah:

17 Am iddynt fy ngwrthod i, ac arogl-darthu i dduwiau dïeithr, i'm digio i â holl waith eu dwylaw: am hynny yr ennyn fy llid yn erbyn y lle hwn, ac nis diffoddir ef.

18 Ond wrth frenhin Judah, yr hwn a'ch anfonodd chwi i ymgynghori â'r ARGLWYDD, fel hyn y dywedwch wrtho ef, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel, *Am* y geiriau a glywaist ti;

19 Oblegid i'th galon feddalhâu, ac i tithau ymostwng o flaen yr ARGLWYDD, pan glywaist yr hyn a leferais yn erbyn y lle hwn, ac yn erbyn ei drigolion, y byddent yn anghyfannedd ac yn felldith, ac *am* rwygo o honot dy ddillad, ac wylo ger fy mron i; minnau hefyd a wrandewais, medd yr ARGLWYDD.

20 O herwydd hynny, wele, mi

a'th gymmeraf di ymaith at dy dad-
au, a thi a ddygir i'th fedd mewn
heddwch, fel na welo dy lygaid yr
holl ddrwg yr ydwyf fi yn ei ddwyn
ar y fan hon. A hwy a ddygasant
air i'r brenhin drachefn.

PENNOD 23.

1 *Josiah yn peri darllen y gyfraith y'ngŵydd yr holl bobl:* 3 *yn adnewyddu cyfammod yr Arglwydd:* 4 *yn difetha yr eilun-addolwyr a'u hoffeiriaid:* 15 *yn llosgi esgyrn y meirw ar allor Bethel, fel y daroganesid:* 21 *yn cadw Pasc ardderchog:* 24 *yn difetha y consurwyr, a phob ffeidd-dra.* 26 *Dyrn ddigofaint Duw yn erbyn Judah.* 29 *Josiah yn cyfrvi Pharaoh-Nechoh, ac yn cael ei ladd ym Megido.* 31 *Joahas yn frenhin ar ei ol ef; a Pharaoh-Nechoh yn ei garcharu ef, ac yn gwneuthur Joacim yn frenhin.* 36 *Annuwiol lywodraeth Joacim.*

A'R brenhin a anfonodd, a holl
henuriaid Judah a Jerusalem
a ymgynnullasant atto ef.
2 A'r brenhin a aeth i fyny i dŷ yr
ARGLWYDD, a holl wŷr Judah, a
holl drigolion Jerusalem gyd âg ef,
yr offeiriaid hefyd, a'r prophwydi,
a'r holl bobl o fychan hyd fawr:
ac efe a ddarllenodd, lle y clywsant
hwy, holl eiriau llyfr y cyfammod,
yr hwn a gawsid yn nhŷ yr AR-
GLWYDD.
3 ¶ A'r brenhin a safodd wrth y
golofn, ac a wnaeth gyfammod ger
bron yr ARGLWYDD, ar fyned ar ol
yr ARGLWYDD, ac ar gadw ei or-
chymynion ef, a'i dystiolaethau, a'i
ddeddfau, â'*i* holl galon, ac â'*i* holl
enaid, i gyflawni geiriau y cyfam-
mod hwn, y rhai *oedd* ysgrifenedig
yn y llyfr hwn. A'r holl bobl a saf-
odd wrth y cyfammod.
4 A'r brenhin a orchymynodd i
Hilcïah yr arch-offeiriad, ac i'r
offeiriaid o'r ail *radd*, ac i geidwaid
y drws, ddwyn allan o deml yr AR-
GLWYDD yr holl lestri a wnelsid i
Baal, ac i'r llwyn, ac i holl lu y nef-
oedd: ac efe a'u llosgodd hwynt o'r
tu allan i Jerusalem, ym meusydd
Cidron, ac a ddug eu lludw hwynt
i Bethel.
5 Ac efe a ddiswyddodd yr offeir-
iaid a osodasai brenhinoedd Judah
i arogl-darthu yn yr uchelfeydd,
yn ninasoedd Judah, ac yn amgylch-
oedd Jerusalem: a'r rhai oedd yn
arogl-darthu i Baal, i'r haul, ac i'r
lleuad, ac i'r planedau, ac i holl lu
y nefoedd.
6 Efe a ddug allan hefyd y llwyn
o dŷ yr ARGLWYDD, i'r tu allan i
Jerusalem, hyd afon Cidron, ac a'*i*
llosgodd ef wrth afon Cidron, ac a'*i*
malodd yn llwch, ac a daflodd ei
lwch ar feddau meibion y bobl.
7 Ac efe a fwriodd i lawr dai y
sodomiaid, y rhai *oedd* wrth dŷ yr
ARGLWYDD, lle yr oedd y gwragedd
yn gwau cortynnau i'r llwyn.
8 Ac efe a ddug yr holl offeiriaid
allan o ddinasoedd Judah, ac a hal-
ogodd yr uchelfeydd yr oedd yr off-
eiriaid yn arogl-darthu arnynt, o
Geba hyd Beerseba, ac a ddistryw-
iodd uchelfeydd y pyrth, y rhai *oedd*
wrth ddrws porth Josua tywysog
y ddinas, y rhai *oedd* ar y llaw aswy
i bawb *a ddelai* i borth y ddinas.
9 Etto offeiriaid yr uchelfeydd ni
ddaethant i fyny at allor yr AR-
GLWYDD i Jerusalem, ond hwy a
fwyttasant fara croyw ym mysg eu
brodyr.
10 Ac efe a halogodd Topheth, yr
hon *sydd* yn nyffryn meibion Hin-
nom, fel na thynnai neb ei fab na'i
ferch trwy dân i Moloch.
11 Ac efe a ddifethodd y meirch
a roddasai brenhinoedd Judah i'r
haul, wrth ddyfodfa tŷ yr AR-
GLWYDD, wrth ystafell Nathan-
melech yr ystafellydd, yr hwn *oedd*
yn y pentref, ac a losgodd gerbydau
yr haul yn tân.
12 Yr allorau hefyd, y rhai *oedd*
ar nen ystafell Ahas, y rhai a wnel-
sai brenhinoedd Judah, a'r allorau
a wnelsai Manasseh yn nau gyntedd
tŷ yr ARGLWYDD, a ddistrywiodd y
brenhin, ac a'*u* bwriodd *hwynt* i
lawr oddi yno, ac a daflodd eu llwch
hwynt i afon Cidron.
13 Y brenhin hefyd a ddifwynodd
yr uchelfeydd *oedd* ar gyfer Jeru-
salem, y rhai *oedd* o'r tu dehau i
fynydd y llygredigaeth, y rhai a ad-
eiladasai Solomon brenhin Israel i
Astoreth ffieidd-dra y Sidoniaid, ac
i Cemos ffieidd-dra y Moabiaid, ac
i Milcom ffieidd-dra meibion Am-
mon.
14 Ac efe a ddrylliodd y delwau,
ac a dorrodd y llwyni, ac a lanwodd
eu lle hwynt âg esgyrn dynion.
15 ¶ Yr allor hefyd, yr hon *oedd*
yn Bethel, *a*'r uchelfa a wnaethai
Jeroboam mab Nebat, yr hwn a

wnaeth i Israel bechu, ïe, yr allor honno a'r uchelfa a ddistrywiodd efe, ac a losgodd yr uchelfa, *ac a'i* malodd yn llwch, ac a losgodd y llwyn.

16 A Josïah a edrychodd, ac a ganfu feddau, y rhai *oedd* yno yn y mynydd, ac a anfonodd, ac a gymmerth yr esgyrn o'r beddau, ac a'*u* llosgodd ar yr allor, ac a'i halogodd hi, yn ol gair yr ARGLWYDD yr hwn a gyhoeddasai gŵr DUW, yr hwn a bregethasai y geiriau hyn.

17 Yna efe a ddywedodd, Pa deitl *yw* hwn yr ydwyf fi yn ei weled? A gwŷr y ddinas a ddywedasant wrtho, Bedd gŵr DUW, yr hwn a ddaeth o Judah, ac a gyhoeddodd y pethau hyn a wnaethost ti i allor Bethel, *ydyw.*

18 Ac efe a ddywedodd, Gadêwch ef yn llonydd; nac ymyrred neb â'i esgyrn ef. Felly yr achubasant ei esgyrn ef, gyd âg esgyrn y prophwyd a ddaethai o Samaria.

19 Josïah hefyd a dynnodd ymaith holl dai yr uchelfeydd, y rhai *oedd* yn ninasoedd Samaria, y rhai a wnelsai brenhinoedd Israel i ddigio yr *ARGLWYDD*, ac a wnaeth iddynt yn ol yr holl weithredoedd a wnelsai efe yn Bethel.

20 Ac efe a laddodd holl offeiriaid yr uchelfeydd *oedd* yno, ar yr allorau, ac a losgodd esgyrn dynion arnynt, ac a ddychwelodd i Jerusalem.

21 ¶ A'r brenhin a orchymynodd i'r holl bobl, gan ddywedyd, Gwnewch Basc i'r ARGLWYDD eich DUW, fel *y mae* yn ysgrifenedig yn llyfr y cyfammod hwn.

22 Yn ddïau ni wnaed y fath Basc â hwn, er dyddiau y barnwyr a farnasant Israel, nac *yn* holl ddyddiau brenhinoedd Israel, na brenhinoedd Judah.

23 Ac yn y ddeunawfed flwyddyn i frenhin Josïah y cynhaliwyd y Pasc hwn i'r ARGLWYDD yn Jerusalem.

24 ¶ Y swynyddion hefyd, a'r dewiniaid, a'r delwau, a'r eilunod, a'r holl ffieidd-dra, y rhai a welwyd y'ngwlad Judah, ac yn Jerusalem, a dynnodd Josïah ymaith: fel y cyflawnai efe eiriau y gyfraith; *y rhai oedd* ysgrifenedig yn y llyfr a gafodd Hilcïah yr offeiriad yn nhŷ yr ARGLWYDD.

25 Ac ni bu o'i flaen frenhin o'i fath ef, yr hwn a drodd at yr ARGLWYDD â'i holl galon, ac â'i holl enaid, ac â'i holl egni, yn ol cwbl o gyfraith Moses; ac ar ei ol ef ni chyfododd ei fath ef.

26 ¶ Er hynny ni throdd yr ARGLWYDD oddi wrth lid ei ddigofaint mawr, *trwy* yr hwn y llidiodd ei ddigllonedd ef yn erbyn Judah, o herwydd yr holl ddigter *trwy* yr hwn y digiasai Manasseh ef.

27 A dywedodd yr ARGLWYDD, Judah hefyd a fwriaf ymaith o'm golwg, fel y bwriais ymaith Israel, ac a wrthodaf y ddinas hon Jerusalem, yr hon a ddetholais, a'r tŷ *am* yr hwn y dywedais, Fy enw a fydd yno.

28 A'r rhan arall o hanes Josïah, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?

29 ¶ Yn ei ddyddiau ef y daeth Pharaoh-Nechoh brenhin yr Aipht i fyny yn erbyn brenhin Assyria, hyd afon Euphrates: a'r brenhin Josïah a aeth i'w gyfarfod ef, a *Pharaoh* a'i lladdodd ef ym Megìdo, pan ei gwelodd ef.

30 A'i weision a'i dygasant ef mewn cerbyd yn farw o Megìdo, ac a'i dygasant ef i Jerusalem, ac a'i claddasant ef yn ei feddrod ei hun. A phobl y wlad a gymmerasant Joahas mab Josïah, ac a'i henneiniasant ef, ac a'i hurddasant yn frenhin yn lle ei dad.

31 ¶ Mab tair blwydd ar hugain *oedd* Joahas pan aeth efe yn frenhin, a thri mis y teyrnasodd efe yn Jerusalem; ac enw ei fam ef *oedd* Hamutal, merch Jeremïah o Libnah.

32 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnaethai ei dadau ef.

33 A Pharaoh-Nechoh a'i rhwymodd ef yn Riblah y'ngwlad Hamath, fel na theyrnasai efe yn Jerusalem: ac a osododd dreth ar y wlad *o* gan talent o arian, a thalent o aur.

34 A Pharaoh-Nechoh a osododd

Eliacim mab Josïah yn frenhin yn lle Josïah ei dad, ac a drodd ei enw ef Joacim: ac efe a ddug ymaith Joahas, ac efe a ddaeth i'r Aipht, ac yno y bu efe farw.

35 A Joacim a roddodd i Pharaoh yr arian, a'r aur; ond efe a drethodd y wlad i roddi yr arian wrth orchymyn Pharaoh: efe a gododd yr arian a'r aur ar bobl y wlad, ar bob un yn ol ei dreth, i'w rhoddi i Pharaoh-Nechoh.

36 ¶ Mab pum mlwydd ar hugain *oedd* Joacim pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac un flynedd ar ddeg y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Sebudah, merch Pedaiah o Rumah.

37 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnelsai ei dadau.

PENNOD 24.

1 *Joacim wedi ei orchfygu gan Nabuchodonosor, yn gwrthryfela yn ei erbyn ef; ac felly yn dwyn dinystr arno ei hun.* 6 *Joachin yn teyrnasu ar ei ol ef.* 7 *Brenhin Babilon yn gorchfygu brenhin yr Aipht.* 8 *Drwg lywodraeth Joachin.* 10 *Ennill Jerusalem, a chaethgludo y bobl i Babilon.* 17 *Gwneuthur Sedeciah yn frenhin; a'i ddrwg lywodraeth ef yn achos o lwyr-ddinystr Jerusalem.*

YN ei ddyddiau ef y daeth Nabuchodonosor brenhin Babilon i fyny, a Joacim a fu was iddo ef dair blynedd: yna efe a drodd, ac a wrthryfelodd yn ei erbyn ef.

2 A'r ARGLWYDD a anfonodd yn ei erbyn ef dorfoedd o'r Caldeaid, a thorfoedd o'r Syriaid, a thorfoedd o'r Moabiaid, a thorfoedd o feibion Ammon, ac a'u hanfonodd hwynt yn erbyn Judah i'w dinystrio hi, yn ol gair yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarasai efe trwy law ei weision y prophwydi.

3 Yn ddïau trwy orchymyn yr ARGLWYDD y bu *hyn* yn erbyn Judah, i'*w* bwrw allan o'i olwg ef, o achos pechodau Manasseh, yn ol yr hyn oll a wnaethai efe;

4 A hefyd o herwydd y gwaed gwirion a ollyngodd efe: canys efe a lanwodd Jerusalem o waed gwirion; a hynny ni fynnai yr ARGLWYDD ei faddeu.

5 ¶ A'r rhan arall o hanes Joacim, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Judah?

6 A Joacim a hunodd gyd â'i dadau; a Joachin ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

7 Ac ni ddaeth brenhin yr Aipht mwyach o'i wlad: canys brenhin Babilon a ddygasai yr hyn oll a oedd eiddo brenhin yr Aipht, o afon yr Aipht hyd afon Euphrates.

8 ¶ Mab deunaw mlwydd *oedd* Joachin pan aeth efe yn frenhin; a thri mis y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Nehusta, merch Elnathan o Jerusalem.

9 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnaethai ei dad.

10 ¶ Yn yr amser hwnnw y daeth gweision Nabuchodonosor brenhin Babilon i fyny yn erbyn Jerusalem, a gwarchaewyd ar y ddinas.

11 A Nabuchodonosor brenhin Babilon a ddaeth yn erbyn y ddinas, a'i weision ef a warchaeasant arni hi.

12 A Joachin brenhin Judah a aeth allan at frenhin Babilon, efe, a'i fam, a'i weision, a'i dywysogion, a'i ystafellyddion: a brenhin Babilon a'i daliodd ef yn yr wythfed flwyddyn o'i deyrnasiad.

13 Ac efe a ddug oddi yno holl drysorau tŷ yr ARGLWYDD, a thrysorau tŷ y brenhin, ac a dorrodd yr holl lestri aur a wnelsai Solomon brenhin Israel yn nheml yr ARGLWYDD, fel y llefarasai yr ARGLWYDD.

14 Ac efe a ddug ymaith holl Jerusalem, yr holl dywysogion hefyd, a'r holl gedyrn nerthol, *sef* deng mil o gaethion, a phob saer, a gôf: ni adawyd ond pobl dlodion y wlad *yno*.

15 Efe hefyd a ddug ymaith Joachin i Babilon, a mam y brenhin, a gwragedd y brenhin, a'i ystafellyddion, a chedyrn y wlad a ddug efe i gaethiwed o Jerusalem i Babilon.

16 A'r holl wŷr nerthol, *sef* saith mil; ac o seiri a gofaint, mil, y rhai oll *oedd* gryfion *a* rhyfelwyr: hwynthwy a ddug brenhin Babilon yn gaeth i Babilon.

17 ¶ A brenhin Babilon a osododd Mattanïah brawd ei dad ef yn frenhin yn ei le ef, ac a drodd ei enw ef yn Sedeciah.

18 Mab un flwydd ar hugain *oedd* Sedecïah pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac un flynedd ar ddeg y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Hamutal, merch Jeremïah o Libnah.

19 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnaethai Joachin.

20 Canys trwy ddigofaint yr ARGLWYDD y bu hyn yn Jerusalem ac yn Judah, nes iddo eu taflu hwynt allan o'i olwg, fod i Sedecïah wrthryfela yn erbyn brenhin Babilon.

PENNOD 25.

1 *Cylchynu Jerusalem.* 4 *Dal Sedecïah, a lladd ei feibion, a thynnu ei lygaid ef.* 8 *Nabusaradan yn difrodi y ddinas; ac yn dwyn y gweddill, ond ychydig dlodion, i gaethiwed:* 13 *yn anrheithio ac yn dwyn ymaith y trysorau.* 18 *Lladd y boneddigion yn Riblah.* 22 *Wedi lladd Gedaliah, a osodasid yn ben arnynt, y mae y lleill yn ffoi i'r Aipht.* 27 *Efil-merodach yn dyrchafu Joachin yn ei lys.*

AC yn y nawfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef, yn y degfed mis, ar y degfed *dydd* o'r mis, y daeth Nabuchodonosor brenhin Babilon, efe a'i holl lu, yn erbyn Jerusalem, ac a wersyllodd yn ei herbyn hi, a hwy a adeiladasant yn ei herbyn hi wrthglawdd o'i hamgylch hi.

2 A bu y ddinas y'ngwarchae hyd yr unfed flwyddyn ar ddeg i'r brenhin Sedecïah.

3 Ac ar y nawfed *dydd* o'r *pedwerydd* mis y trymhaodd y newyn yn y ddinas, ac nid oedd bara i bobl y wlad.

4 ¶ A'r ddinas a dorrwyd, a'r holl ryfelwyr *a ffoisant* liw nos *ar hyd* ffordd y porth, rhwng y ddau fur, y rhai *sydd* wrth ardd y brenhin, (a'r Caldeaid *oedd* wrth y ddinas o amgylch;) *a'r brenhin* a aeth y ffordd tu a'r rhos.

5 A llu y Caldeaid a erlidiasant ar ol y brenhin, ac a'i daliasant ef yn rhosydd Jericho: a'i holl lu ef a wasgarasid oddi wrtho.

6 Felly hwy a ddaliasant y brenhin, ac a'i dygasant ef i fyny at frenhin Babilon i Riblah; ac a roddasant farn yn ei erbyn ef.

7 Lladdasant feibion Sedecïah hefyd o flaen ei lygaid, ac a dynnasant lygaid Sedecïah, ac a'i rhwymasant ef mewn gefynnau pres, ac a'i dygasant ef i Babilon.

8 ¶ Ac yn y pummed mis, ar y seithfed *dydd* o'r mis, honno *oedd* y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg i'r brenhin Nabuchodonosor brenhin Babilon, y daeth Nabusaradan y distain, gwas brenhin Babilon, i Jerusalem.

9 Ac efe a losgodd dŷ yr ARGLWYDD, a thŷ y brenhin, a holl dai Jerusalem, a phob tŷ mawr a losgodd efe â thân.

10 A holl lu y Caldeaid, y rhai *oedd gyd â'r* distain, a dorrasant i lawr furiau Jerusalem oddi amgylch.

11 A Nabusaradan y distain a ddug ymaith y rhan arall o'r bobl a adawsid yn y ddinas, a'r ffoaduriaid a giliasant at frenhin Babilon, gyd â gweddill y dyrfa.

12 Ac o dlodion y wlad y gadawodd y distain *rai*, yn winllanwyr, ac yn arddwyr.

13 Y colofnau pres hefyd, y rhai *oedd* yn nhŷ yr ARGLWYDD, a'r ystolion, a'r môr pres, yr hwn *oedd* yn nhŷ yr ARGLWYDD, a ddrylliodd y Caldeaid, a hwy a ddygasant eu pres hwynt i Babilon.

14 Y crochanau hefyd, a'r rhawiau, a'r saltringau, y llwyau, a'r holl lestri pres, y rhai yr oeddid yn gwasanaethu â hwynt, a ddygasant hwy ymaith.

15 Y pedyll tân hefyd, a'r cawgiau, y rhai *oedd* o aur *yn* aur, a'r rhai *oedd* o arian *yn* arian, a ddug y distain ymaith.

16 Y ddwy golofn, yr un môr, a'r ystolion a wnelsai Solomon i dŷ yr ARGLWYDD; nid oedd bwys ar bres yr holl lestri hyn.

17 Tri chufydd ar bymtheg *oedd* uchder y naill golofn, a chnap pres *oedd* arni; ac uchder y cnap *oedd* dri chufydd; plethwaith hefyd a phomgranadau *oedd* ar y cnap o amgylch, yn bres i gyd: ac felly yr *oedd* yr ail golofn, â phlethwaith.

18 ¶ A'r distain a gymmerth Seraiah yr offeiriad pennaf, a Sephanïah, yr ail offeiriad, a'r tri oedd yn cadw y drws.

19 Ac o'r ddinas efe a gymmerth ystafellydd, yr hwn oedd ar y rhyfelwyr, a phumwr o'r rhai oedd yn gweled wyneb y brenhin, y rhai a gafwyd yn y ddinas, ac ysgrifenydd

tywysog y llu, yr hwn oedd yn bydd-
ino pobl y wlad; a thri ugeinwr o
bobl y wlad, y rhai a gafwyd yn y
ddinas.
20 A Nabusaradan y distain a
gymmerth y rhai hyn, ac a'u dug
at frenhin Babilon, i Riblah.
21 A brenhin Babilon a'u taraw-
odd hwynt, ac a'u lladdodd hwynt,
yn Riblah, y'ngwlad Hamath. Felly
y caethgludwyd Judah o'i wlad ei
hun.
22 ¶ Ac *am* y bobl a adawsid yng
ngwlad Judah, y rhai a adawsai
Nabuchodonosor brenhin Babilon,
efe a wnaeth yn swyddog arnynt
hwy, Gedalïah mab Ahicam, mab
Saphan.
23 A phan glybu holl dywysogion
y lluoedd, hwynt-hwy a'u gwŷr,
wneuthur o frenhin Babilon Geda-
lïah yn swyddog, hwy a ddaethant
at Gedalïah i Mispah, sef Ismael
mab Nethanïah, a Johanan mab
Careah, a Seraiah mab Tanhumeth
y Netophathiad, a Jaasanïah mab
Maachathiad, hwynt a'u gwŷr.
24 A Gedalïah a dyngodd wrthynt
hwy, ac wrth eu gwŷr, ac a ddywed-
odd wrthynt, Nac ofnwch *fod* yn
weision i'r Caldeaid: trigwch yn y
tir, a gwasanaethwch frenhin Babi-
lon, a bydd da i chwi.
25 Ac yn y seithfed mis y daeth
Ismael mab Nethanïah, mab Eli-
sama, o'r had brenhinol, a dengwr
gyd âg ef, a hwy a darawsant Geda-
lïah, fel y bu efe farw: *tarawsant*
hefyd yr Iuddewon a'r Caldeaid
oedd gyd âg ef ym Mispah.
26 A'r holl bobl o fychan hyd
fawr, a thywysogion y lluoedd, a
gyfodasant ac a ddaethant i'r Aipht:
canys yr oeddynt yn ofni y Calde-
aid.
27 ¶ Ac yn y ddwyfed flwyddyn
ar bymtheg ar hugain o gaethiwed
Joachin brenhin Judah, yn y deu-
ddegfed mis, ar y seithfed *dydd* ar
hugain o'r mis, Efil-merodach bren-
hin Babilon, yn y flwyddyn yr aeth
efe yn frenhin, a ddyrchafodd ben
Joachin brenhin Judah o'r carch-
ardy.
28 Ac efe a ddywedodd yn dêg
wrtho, ac a osododd ei gadair ef
goruwch cadeiriau y brenhinoedd
oedd gyd âg ef yn Babilon.
29 Ac efe a newidiodd ei garchar-
wisg ef: ac efe a fwyttaodd fwyd
yn wastadol ger ei fron ef holl
ddyddiau ei einioes.
30 A'i ran ef *oedd* ran feunyddiol,
a roddid iddo gan y brenhin, dogn
dydd yn ei ddydd, holl ddyddiau ei
einioes ef.

LLYFR CYNTAF Y CRONICL.

PENNOD 1.

1 *Llin Adda hyd Noah.* 5 *Meibion Japheth.* 8 *Meibion Cham.* 17 *Meibion Sem.* 24 *Llin Sem hyd Abraham.* 29 *Meibion Ismael.* 32 *Meibion Cetturah.* 34 *Hiliogaeth Abraham o Esau.* 43 *Brenhinoedd Edom.* 51 *Duciaid Edom.*

ADDA, Seth, Enos,
2 Cenan, Mahalaleel, Jered,
3 Enoch, Methuselah, Lamech,
4 Noah, Sem, Cham, a Japheth.
5 ¶ Meibion Japheth; Gomer, a
Magog, a Madai, a Jafan, a Thubal,
a Mesech, a Thiras.
6 A meibion Gomer; Aschenas, a
Riphath, a Thogarmah.
7 A meibion Jafan; Elisah, a
Tharsis, Cittim, a Dodanim.
8 ¶ Meibion Cham; Cus, a Mis-
raim, Put, a Chanaan.
9 A meibion Cus; Seba, a Hafilah,
a Sabta, a Raamah, a Sabtecha: a
Seba, a Dedan, meibion Raamah.
10 A Chus a genhedlodd Nimrod:
hwn a ddechreuodd fod yn gadarn
ar y ddaear.
11 A Misraim a genhedlodd Lu-
dim, ac Anamim, a Lehabim, a
Naphtuhim,
12 Pathrusim hefyd, a Chasluhim,
(y rhai y daeth y Philistiaid allan o
honynt,) a Chaphtorim.
13 A Chanaan a genhedlodd Sidon
ei gyntaf-anedig, a Heth,

14 Y Jebusiad hefyd, a'r Amoriad, a'r Girgasiad,
15 A'r Hefiad, a'r Arciad, a'r Siniad,
16 A'r Arfadiad, a'r Semariad, a'r Hamathiad.
17 ¶ Meibion Sem; Elam, ac Assur, ac Arphaxad, a Lud, ac Aram, ac Us, a Hul, a Gether, a Mesech.
18 Ac Arphaxad a genhedlodd Selah, a Selah a genhedlodd Eber.
19 Ac i Eber y ganwyd dau o feibion: enw y naill *ydoedd* Peleg; o herwydd mai yn ei ddyddiau ef y rhannwyd y ddaear: ac enw ei frawd *oedd* Joctan.
20 A Joctan a genhedlodd Almodad, a Seleph, a Hasarmafeth, a Jerah,
21 Hadoram hefyd, ac Usal, a Diclah,
22 Ac Ebal, ac Abimael, a Seba,
23 Ophir hefyd, a Hafilah, a Jobab. Y rhai hyn oll *oedd* feibion Joctan.
24 ¶ Sem, Arphaxad, Selah,
25 Eber, Peleg, Reu,
26 Serug, Nachor, Terah,
27 Abram, hwnnw *yw* Abraham.
28 Meibion Abraham; Isaac, ac Ismael.
29 ¶ Dyma eu cenhedlaethau hwynt: cyntaf-anedig Ismael *oedd* Nebaioth, yna Cedar, ac Adbeel, a Mibsam,
30 Misma, a Dumah, Massa, Hadad, a Thema,
31 Jetur, Naphis, a Chedemah. Dyma feibion Ismael.
32 ¶ A meibion Ceturah, gordderch-wraig Abraham: hi a ymddûg Simran, a Jocsan, a Medan, a Midian, ac Isbac, a Suah. A meibion Jocsan; Seba, a Dedan.
33 A meibion Midian; Ephah, ac Epher, a Henoch, ac Abida, ac Eldaah: y rhai hyn oll *oedd* feibion Ceturah.
34 Ac Abraham a genhedlodd Isaac. Meibion Isaac; Esau, ac Israel.
35 ¶ Meibion Esau; Eliphas, Reuel, a Jëus, a Jaalam, a Chorah.
36 Meibion Eliphas; Teman, ac Omar, Sephi, a Gatam, Cenas, a Thimna, ac Amalec.
37 Meibion Reuel; Nahath, Serah, Sammah, a Missah.
38 A meibion Seir; Lotan, a Sobal, a Sibeon, ac Anah, a Dison, ac Eser, a Disan.
39 A meibion Lotan; Hori, a Homam: a chwaer Lotan *oedd* Timna.
40 Meibion Sobal; Alïan, a Manahath, ac Ebal, Sephi, ac Onam. A meibion Sibeon; Aiah, ac Anah.
41 Meibion Anah; Dison. A meibion Dison; Amram, ac Esban, ac Ithran, a Cheran.
42 Meibion Eser; Bilhan, a Safan, *a* Jacan. Meibion Dison; Us, ac Aran.
43 ¶ Dyma hefyd y brenhinoedd a deyrnasasant yn nhir Edom, cyn teyrnasu o frenhin ar feibion Israel; Bela mab Beor: ac enw ei ddinas ef *oedd* Dinhabah.
44 A phan fu farw Bela, y teyrnasodd yn ei le ef Jobab mab Serah o Bosrah.
45 A phan fu farw Jobab, Husam o wlad y Temaniaid a deyrnasodd yn ei le ef.
46 A phan fu farw Husam, yn ei le ef y teyrnasodd Hadad mab Bedad, yr hwn a darawodd Midian ym maes Moab: ac enw ei ddinas ef *ydoedd* Afith.
47 A phan fu farw Hadad, y teyrnasodd yn ei le ef Samlah o Masrecah.
48 A phan fu farw Samlah, Saul o Rehoboth *wrth* yr afon a deyrnasodd yn ei le ef.
49 A phan fu farw Saul, y teyrnasodd yn ei le ef Baalhanan mab Achbor.
50 A bu farw Baalhanan, a theyrnasodd yn ei le ef Hadad: ac enw ei ddinas ef *oedd* Pai; ac enw ei wraig ef Mehetabel, merch Matred, merch Mesahab.
51 ¶ A bu farw Hadad. A duciaid Edom oedd; duc Timna, duc Alïah, duc Jetheth,
52 Duc Aholibamah, duc Elah, duc Pinon,
53 Duc Cenas, duc Teman, duc Mibsar,
54 Duc Magdiel, duc Iram. Dyma dduciaid Edom.

PENNOD 2.

1 *Meibion Israel.* 3 *Hiliogaeth Judah o Tamar.* 13 *Meibion Jesse.* 18 *Hiliogaeth Caleb mab Hesron.* 21 *Hiliogaeth Hesron o ferch Machir.* 25 *Hiliogaeth Jerahmeel.* 34 *Hiliogaeth Sesan.* 42 *Cainge arall o hiliogaeth Caleb.* 50 *Hiliogaeth Caleb mab Hur.*

DYMA feibion Israel; Reuben, Simeon, Lefi, a Judah, Issachar, a Sabulon,
2 Dan, Joseph, a Benjamin, Naphtali, Gad, ac Aser.
3 ¶ Meibion Judah; Er, ac Onan, a Selah. Y tri *hyn* a anwyd iddo ef o ferch Sua y Ganaanëes. Ond Er, cyntaf-anedig Judah, ydoedd ddrygionus y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac efe a'i lladdodd ef.
4 A Thamar ei waudd ef a ymddûg iddo Phares a Serah. Holl feibion Judah *oedd* bump.
5 Meibion Phares; Hesron a Hamul.
6 A meibion Serah; Simri, ac Ethan, a Heman, a Chalcol, a Dara; hwynt oll *oedd* bump.
7 A meibion Carmi; Achar, yr hwn a flinodd Israel, ac a wnaeth gamwedd oblegid y dïofryd-beth.
8 A meibion Ethan; Asarïah.
9 A meibion Hesron, y rhai a anwyd iddo ef; Jerahmeel, a Ram, a Chelubai.
10 A Ram a genhedlodd Amminadab; ac Amminadab a genhedlodd Nahson, pennaeth meibion Judah;
11 A Nahson a genhedlodd Salma; a Salma a genhedlodd Boas;
12 A Boas a genhedlodd Obed; ac Obed a genhedlodd Jesse;
13 ¶ A Jesse a genhedlodd ei gyntaf-anedig Eliab, ac Abinadab yn ail, a Simma yn drydydd,
14 Nethaneel yn bedwerydd, Ràdai yn bummed,
15 Osem yn chweched, Dafydd yn seithfed:
16 A'u chwïorydd hwynt *oedd* Serfiah ac Abigail. A meibion Serfiah; Abisai, a Joab, ac Asahel, tri.
17 Ac Abigail a ymddûg Amasa. A thad Amasa *oedd* Jether yr Ismaeliad.
18 ¶ A Chaleb mab Hesron a ennillodd *blant* o Asubah *ei* wraig, ac o Jerioth: a dyma ei meibion hi; Jeser, Sobab, ac Ardon.
19 A phan fu farw Asubah, Caleb a gymmerth iddo Ephrath, a hi a ymddûg iddo Hur.
20 A Hur a genhedlodd Uri, ac Uri a genhedlodd Besaleel.
21 ¶ Ac wedi hynny yr aeth Hesron i mewn at ferch Machir, tad Gilead, ac efe a'i prïododd hi pan *ydoedd* fab tri ugain mlwydd; a hi a ddug iddo Segub.
22 A Segub a genhedlodd Jair: ac yr oedd iddo ef dair ar hugain o ddinasoedd y'ngwlad Gilead.
23 Ac efe a ennillodd Gesur, ac Aram, a threfydd Jair oddi arnynt, a Chenath a'i phentrefydd, *sef* tri ugain o ddinasoedd. Y rhai hyn oll *oedd eiddo* meibion Machir tad Gilead.
24 Ac ar ol marw Hesron o fewn Caleb-ephrata, Abïah gwraig Hesron a ymddûg iddo Asur, tad Tecoa.
25 ¶ A meibion Jerahmeel cyntaf-anedig Hesron oedd, Ram yr hynaf, Bunah, ac Oren, ac Osem, *ac* Ahïah.
26 A gwraig arall ydoedd i Jerahmeel, a'i henw Atarah: hon *oedd* fam Onam.
27 A meibion Ram cyntaf-anedig Jerahmeel oedd, Maas, a Jamin, ac Ecer.
28 A meibion Onam oedd Sammai, a Jada. A meibion Sammai; Nadab, ac Abisur.
29 Ac enw gwraig Abisur *oedd* Abihail: a hi a ymddûg iddo Aban, a Molid.
30 A meibion Nadab; Seled, ac Appaim. A bu farw Seled yn ddiblant.
31 A meibion Appaim; Isi. A meibion Isi; Sesan. A meibion Sesan; Alai.
32 A meibion Jada brawd Sammai; Jether, a Jonathan. A bu farw Jether yn ddiblant.
33 A meibion Jonathan; Peleth, a Sasa. Y rhai hyn *oedd* feibion Jerahmeel.
34 ¶ Ac nid oedd i Sesan feibion, ond merched: ac i Sesan *yr oedd* gwas o Aiphtiad, a'i enw Jarha.
35 A Sesan a roddodd ei ferch yn wraig i Jarha ei was. A hi a ymddûg iddo Attai.
36 Ac Attai a genhedlodd Nathan, a Nathan a genhedlodd Sabad.
37 A Sabad a genhedlodd Ephlal, ac Ephlal a genhedlodd Obed,
38 Ac Obed a genhedlodd Jehu, a Jehu a genhedlodd Asarïah,

39 Ac Asarïah a genhedlodd Heles, a Heles a genhedlodd Eleasah,
40 Ac Eleasah a genhedlodd Sisamai, a Sisamai a genhedlodd Sàlum,
41 A Sàlum a genhedlodd Jecamïah, a Jecamïah a genhedlodd Elisama.
42 ¶ Hefyd meibion Caleb brawd Jerahmeel *oedd*, Mesa ei gyntafanedig, hwn *oedd* dad Siph: a meibion Maresah tad Hebron.
43 A meibion Hebron; Corah, a Thappuah, a Recem, a Sema.
44 A Sema a genhedlodd Raham, tad Jorcoam: a Recem a genhedlodd Sammai.
45 A mab Sammai *oedd* Maon: a Maon *oedd* dad Bethsur.
46 Ac Ephah gordderch-wraig Caleb a ymddûg Haran, a Mosa, a Gases: a Haran a genhedlodd Gases.
47 A meibion Jahdai; Regem, a Jotham, a Gesan, a Phelet, ac Ephah, a Saaph.
48 Gordderch-wraig Caleb, *sef* Maachah, a ymddûg Seber a Thirhanah.
49 Hefyd hi a ymddûg Saaph tad Madmannah, Sefa tad Machbena, a thad Gibea: a merch Caleb *oedd* Achsah.
50 ¶ Y rhai hyn oedd feibion Caleb mab Hur, cyntaf-anedig Ephratah; Sobal tad Ciriath-jearim,
51 Salma tad Bethlehem, Hareph tad Beth-gader.
52 A meibion oedd i Sobal, tad Ciriath-jearim; Haroeh, *a* hanner y Manahethiaid.
53 A theuluoedd Ciriath-jearim *oedd*, yr Ithriaid, a'r Puhiaid, a'r Sumathiaid, a'r Misraiaid: o'r rhai hyn y daeth y Sareathiaid a'r Esthauliaid.
54 Meibion Sàlma; Bethlehem, a'r Netophathiaid, Ataroth tŷ Joab, a hanner y Manahethiaid, y Soriaid.
55 A thylwyth yr ysgrifenyddion, y rhai a breswylient yn Jabes; y Tirathiaid, y Simeathiaid, y Suchathiaid. Dyma y Ceniaid, y rhai a ddaethant o Hemath, tad tylwyth Rechab.

PENNOD 3.

1 *Meibion Dafydd,* 10 *a'i lin ef hyd Sedecïah.*
17 *Hiliogaeth Jechonïah.*

Y RHAI hyn hefyd oedd feibion Dafydd, y rhai a anwyd iddo ef yn Hebron; y cyntaf-anedig Amnon, o Ahinoam y Jesreelëes: yr ail, Daniel, o Abigail y Garmelëes:
2 Y trydydd, Absalom mab Maachah, merch Talmai brenhin Gesur: y pedwerydd, Adonïah mab Haggith:
3 Y pummed, Sephatïah o Abital: y chweched, Ithream o Eglah ei wraig.
4 Chwech a anwyd iddo yn Hebron; ac yno y teyrnasodd efe saith mlynedd a chwe mis: a thair blynedd ar ddeg ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem.
5 A'r rhai hyn a anwyd iddo yn Jerusalem; Simea, a Sobab, a Nathan, a Solomon, pedwar, o Bathsua merch Ammiel:
6 Ibhar hefyd, ac Elisama, ac Eliphelet,
7 A Nogah, a Nepheg, a Japhïa,
8 Ac Elisama, Elïada, ac Eliphelet, naw.
9 *Dyma* holl feibion Dafydd, heb law meibion y gordderch-wragedd, a Thamar eu chwaer hwynt.
10 ¶ A mab Solomon *ydoedd* Rehoboam: Abïah ei fab yntau; Asa ei fab yntau; *a* Jehosaphat ei fab yntau;
11 Joram ei fab yntau; Ahasïah ei fab yntau; Joas ei fab yntau;
12 Amasïah ei fab yntau; Asarïah ei fab yntau; Jotham ei fab yntau;
13 Ahas ei fab yntau; Hesecïah ei fab yntau; Manasseh ei fab yntau;
14 Amon ei fab yntau; Josïah ei fab yntau.
15 A meibion Josïah; y cyntafanedig *oedd* Johanan, yr ail Joacim, y trydydd Sedecïah, y pedwerydd Sàlum.
16 A meibion Joacim; Jechonïah ei fab ef, Sedecïah ei fab yntau.
17 ¶ A meibion Jechonïah; Assir, Salathiel ei fab yntau,
18 Malciram hefyd, a Phedaiah, a Senasar, Jecamïah, a Hosamah, a Nedabïah.
19 A meibion Pedaiah; Sorobabel, a Simei: a meibion Sorobabel;

Mesùlam, a Hananïah, a Selomith eu chwaer hwynt:
20 A Hasubah, ac Ohel, a Berechïah, a Hasadïah, Jusab-hesed, pump.
21 A meibion Hananïah; Pelatïah a Jesaiah: meibion Rephaiah, meibion Arnan, meibion Obadïah, meibion Sechanïah.
22 A meibion Sechanïah; Semaiah: a meibion Semaiah; Hattus, ac Igeal, a Barïah, a Nearïah, a Saphat, chwech.
23 A meibion Nearïah; Elioenai, a Hesecïah, ac Asricam, tri.
24 A meibion Elioenai *oedd*, Hodaiah, ac Elïasib, a Phelaiah, ac Accub, a Johanan, a Dalaiah, ac Anani, saith.

PENNOD 4.

1, 11 *Hiliogaeth Judah o Caleb mab Hur,* 5 *ac o Asur mab Hesron.* 9 *Jabes, a'i weddïi.* 21 *Hiliogaeth Selah,* 24 *a Simeon, a'i ddinasoedd.* 39 *Eu porfodaeth ar Gedor, a'r Amaleciaid, ym mynydd Seir.*

MEIBION Judah; Phares, Hesron, a Charmi, a Hur, a Sobal.
2 A Reaiah mab Sobal a genhedlodd Jahath; a Jahath a genhedlodd Ahumai, a Lahad. Dyma deuluoedd y Sorathiaid.
3 A'r rhai hyn *oedd* o dad Etam; Jesreel, ac Isma, ac Idbas: ac enw eu chwaer hwynt *oedd* Haselelponi.
4 A Phenuel tad Gedor, ac Eser tad Husah. Dyma feibion Hur cyntaf-anedig Ephratah, tad Bethlehem.
5 ¶ Ac i Asur tad Tecoa yr oedd dwy wraig, Helah a Naarah.
6 A Naarah a ddug iddo Ahusam, a Hepher, a Themeni, ac Hahastari. Dyma feibion Naarah.
7 A meibion Helah *oedd*, Sereth, a Jesoar, ac Ethnan.
8 A Chos a genhedlodd Anub, a Sobebah, a theuluoedd Aharhel mab Harum.
9 ¶ Ac yr oedd Jabes yn anrhydeddusach na'i frodyr; a'i fam a alwodd ei enw ef Jabes, gan ddywedyd, Oblegid i mi *ei* ddwyn *ef* trwy ofid.
10 A Jabes a alwodd ar DDUW Israel, gan ddywedyd, O na lwyr fendithit fi, ac na ehengit fy nherfynau, a bod dy law gyd â mi, a'*m* cadw oddi wrth ddrwg, fel na'm gofidier! A pharodd DUW ddyfod *iddo* yr hyn a ofynasai.
11 ¶ A Chelub brawd Suah a genhedlodd Mehir, yr hwn *oedd* dad Eston.
12 Ac Eston a genhedlodd Bethrapha, a Phaseah, a Thehinnah tad dinas Nahas. Dyma ddynion Rechah.
13 A meibion Cenas; Othniel, a Seraiah: a meibion Othniel; Hathath.
14 A Meonothai a genhedlodd Ophrah: a Seraiah a genhedlodd Joab, tad glyn y crefftwyr; canys crefftwyr oeddynt hwy.
15 A meibion Caleb mab Jephunneh; Iru, Elah, a Naam: a meibion Elah *oedd*, Cenas.
16 A meibion Jehaleleel; Siph, a Siphah, Tiria, ac Asareel.
17 A meibion Esrah *oedd*, Jether, a Mered, ac Epher, a Jalon: a hi a ddug Miriam, a Sammai, ac Isbah tad Estemoa.
18 A'i wraig ef Jehudïah a ymddûg Jered tad Gedor, a Heber tad Socho, a Jecuthiel tad Sanoah. A dyma feibion Bithïah merch Pharaoh, yr hon a gymmerth Mered.
19 A meibion *ei* wraig Hodïah, chwaer Naham, tad Ceilah y Garmiad, ac Estemoa y Maachathiad.
20 A meibion Simon *oedd*, Amnon, a Rinnah, Benhanan, a Thilon. A meibion Isi *oedd*, Soheth, a Bensoheth.
21 ¶ *A* meibion Selah mab Judah *oedd*, Er tad Lechah, a Laadah tad Maresah, a theuluoedd tylwyth gweithyddion llïan main, o dŷ Asbea,
22 A Jocim, a dynion Choseba, a Joas, a Saraph, y rhai oedd yn arglwyddiaethu ar Moab, a Jasubilehem. Ac *y mae* y pethau hyn yn hen.
23 Y rhai hyn *oedd* grochenyddion yn cyfanneddu *ym mysg* planwydd a chaeau; gyd â'r brenhin yr arhosasant yno yn ei waith ef.
24 ¶ Meibion Simeon *oedd*, Nemuel, a Jamin, Jarib, Serah, *a* Saul:
25 Sàlum ei fab yntau, Mibsam ei fab yntau, Misma ei fab yntau.

26 A meibion Misma; Hamuel ei fab yntau, Sacchur ei fab yntau, Simei ei fab yntau.
27 Ac i Simei *yr oedd* un ar bymtheg o feibion, a chwech o ferched, ond i'w frodyr ef nid *oedd* nemmawr o feibion: ac nid amlhasai eu holl deulu hwynt megis meibion Judah.
28 A hwy a breswyliasant yn Beerseba, a Moladah, a Hasar-sual,
29 Yn Bilhah hefyd, ac yn Esem, ac yn Tolad,
30 Ac yn Bethuel, ac yn Hormah, ac yn Siclag,
31 Ac yn Beth-marcaboth, ac yn Hasar-susim, ac yn Beth-birei, ac yn Saaraim. Dyma eu dinasoedd hwynt, nes teyrnasu o Dafydd.
32 A'u trefydd hwynt *oedd*, Etam, ac Ain, Rimmon, a Thochen, ac Asan; pump o ddinasoedd.
33 A'u holl bentrefi hwynt hefyd, y rhai *oedd* o amgylch y dinasoedd hyn hyd Baal. Dyma eu trigfannau hwynt, a'u hachau.
34 A Mesobab, a Jamlech, a Josah mab Amasïah,
35 A Jöel, a Jehu mab Josibïah, fab Seraiah, fab Asiel,
36 Ac Elioenai, a Jaacobah, a Jesohaiah, ac Asaiah, ac Adiel, a Jesimiel, a Benaiah,
37 A Sisa mab Siphi, fab Alon, fab Jedaiah, fab Simri, fab Semaiah.
38 Y rhai hyn erbyn *eu* henwau *a aethant* yn bennaethiaid yn eu teuluoedd, ac a amlhasant dylwyth eu tadau yn fawr.
39 ¶ A hwy a aethant i flaenau Gedor, hyd at du dwyrain y dyffryn, i geisio porfa i'w praidd.
40 A hwy a gawsant borfa fras, a da, a gwlad eang *ei* therfynau, a heddychlawn a thangnefeddus: canys y rhai a breswyliasent yno o'r blaen *oedd* o Cham.
41 A'r rhai hyn yn ysgrifenedig erbyn eu henwau a ddaethant yn nyddiau Hesecïah brenhin Judah, ac a darawsant eu pebyll a'r anneddau a gafwyd yno, ac a'u difrodasant hwy hyd y dydd hwn, a thrigasant yn eu lle hwynt; am *fod* porfa i'w praidd hwynt yno.
42 Ac o honynt hwy, *sef* o feibion Simeon, yr aeth pum cant o ddynion i fynydd Seir, a Phelatïah, a Nearïah, a Rephaiah, ac Ussiel, meibion Isi, yn ben arnynt.
43 Tarawsant hefyd y gweddill a ddïangasai o Amalec, ac a wladychasant yno hyd y dydd hwn.

PENNOD 5.

1 *Llin Reuben, (yr hwn a gollodd ei enedigaeth-fraint,) hyd y caethgludiad i Babilon.* 9 *Eu trigias, a'u gorfodaeth ar yr Hagariaid.* 11 *Pennaduriaid a thrigleoedd Gad.* 18 *Rhifedi a gorfodaeth Reuben, a Gad, a hanner llwyth Manasseh.* 23 *Trigleoedd a phennaduriaid yr hanner llwyth hwnnw.* 25 *Eu caethiwed o herwydd eu pechod.*

A MEIBION Reuben, cyntafanedig Israel, (canys efe *oedd* gyntaf-anedig, ond am iddo halogi gwely ei dad, rhoddwyd ei enedigaeth-fraint ef i feibion Joseph, mab Israel; ac ni chyfrifir ei achau ef yn ol yr enedigaeth-fraint:
2 Canys Judah a ragorodd ar ei frodyr, ac o hono ef *y daeth* blaenor: a'r enedigaeth-fraint a *roddwyd* i Joseph.)
3 Meibion Reuben cyntaf-anedig Israel *oedd*, Hanoch, a Phàlu, Hesron, a Charmi.
4 Meibion Jöel; Semaiah ei fab ef, Gog ei fab yntau, Simei ei fab yntau,
5 Michah ei fab yntau, Reaiah ei fab yntau, Baal ei fab yntau,
6 Beerah ei fab yntau, yr hwn a *gaeth*-gludodd Tilgath-pilneser brenhin Assyria: hwn *ydoedd* dywysog i'r Reubeniaid.
7 A'i frodyr ef yn eu teuluoedd, wrth gymmeryd eu hachau yn eu cenhedlaethau: y pennaf *oedd* Jeiel, a Secharïah,
8 A Bela mab Asas, fab Sema, fab Jöel, yr hwn a gyfanneddodd yn Aroer, a hyd at Nebo, a Baalmeon.
9 Ac o du y dwyrain y preswyliodd efe, hyd y lle yr elir i'r anialwch, oddi wrth afon Euphrates: canys eu hanifeiliaid hwynt a amlhasai y'ngwlad Gilead.
10 Ac yn nyddiau Saul y gwnaethant hwy ryfel yn erbyn yr Hagariaid, *y rhai* a syrthiasant trwy eu dwylaw hwynt; a thrigasant yn eu pebyll hwynt, trwy holl du dwyrain Gilead.
11 ¶ A meibion Gad a drigasant

gyferbyn â hwynt y'ngwlad Basan, hyd at Salchah:
12 Jöel y pennaf, a Sapham yr ail, a Jaanai, a Saphat, yn Basan.
13 A'u brodyr hwynt o dŷ eu tadau *oedd*, Michael, a Mesulam, a Sebą, a Jorai, a Jacan, a Sïa, a Heber, saith.
14 Dyma feibion Abihail fab Huri, fab Jaroah, fab Gilead, fab Michael, fab Jesisai, fab Jahdo, fab Bus;
15 Ahi mab Abdiel, fab Guni, y pennaf o dŷ eu tadau.
16 A hwy a drigasant yn Gilead yn Basan, ac yn ei threfydd, ac yn holl bentrefi Saron, wrth eu terfynau.
17 Y rhai hyn oll a gyfrifwyd wrth eu hachau, yn nyddiau Jotham brenhin Judah, ac yn nyddiau Jeroboam brenhin Israel.
18 ¶ Meibion Reuben, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh, o wŷr nerthol, dynion yn dwyn tarian a chleddyf, ac yn tynnu bwa, ac wedi eu dysgu *i* ryfel, *oedd* bedair mil a deugain a saith cant a thri ugain, yn myned allan i ryfel.
19 A hwy a wnaethant ryfel yn erbyn yr Hagariaid, a Jetur, a Nephis, a Nodab.
20 A chynnorthwywyd hwynt yn erbyn y rhai hynny, a rhoddwyd yr Hagariaid i'w dwylaw hwynt, a chwbl a'r *a ydoedd* gyd â hwynt: canys llefasant ar DDUW yn y rhyfel, ac efe a wrandawodd arnynt, o herwydd iddynt obeithio ynddo.
21 A hwy a gaethgludasant eu hanifeiliaid hwynt; o'u camelod hwynt ddengmil a deugain, ac *o* ddefaid ddeucant a deg a deugain o filoedd, ac *o* asynod ddwy fil, ac *o* ddynion gan mil.
22 Canys llawer yn archolledig a fuant feirw, am *fod* y rhyfel oddi wrth DDUW; a hwy a drigasant yn eu lle hwynt hyd y caethiwed.
23 ¶ A meibion hanner llwyth Manasseh a drigasant yn y tir: o Basan hyd Baal-hermon, a Senir, a mynydd Hermon, yr aethant hwy yn aml,
24 Y rhai hyn hefyd *oedd* bennau tŷ eu tadau, sef Epher, ac Isi, ac Eliel, ac Asriel, a Jeremïah, a Hodafiah, a Jadiel, gwŷr cedyrn o nerth, gwŷr enwog, *a* phennau tŷ eu tadau.
25 ¶ A hwy a droseddasant yn erbyn DUW eu tadau, ac a butteiniasant ar ol duwiau pobl y wlad, y rhai a ddinystriasai DUW o'u blaen hwynt.
26 A DUW Israel a annogodd yspryd Pul brenhin Assyria, ac yspryd Tilgath-pïlneser brenhin Assyria, ac a'u *caeth*-gludodd hwynt, sef y Reubeniaid, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh, ac a'u dug hwynt i Halah, a Habor, a Hara, ac i afon Gosan, hyd y dydd hwn.

PENNOD 6.

1 *Meibion Lefi.* 4 *Llin yr offeiriaid hyd y caethgludiad.* 16 *Teuluoedd Gersom, Cohath, a Merari.* 49 *Swydd Aaron, a'i llin hyd Ahimaas.* 64 *Dinasoedd yr offeiriaid a'r Lefiaid.*

MEIBION Lefi; Gerson, Cohath, a Merari.
2 A meibion Cohath; Amram, Ishar, a Hebron, ac Ussiel.
3 A phlant Amram; Aaron, Moses, a Miriam: a meibion Aaron; Nadab ac Abihu, Eleasar ac Ithamar.
4 ¶ Eleasar a genhedlodd Phinees, Phinees a genhedlodd Abisua,
5 Ac Abisua a genhedlodd Bucci, a Bucci a genhedlodd Ussi,
6 Ac Ussi a genhedlodd Serahïah, a Serahïah a genhedlodd Meraioth,
7 Meraioth a genhedlodd Amarïah, ac Amarïah a genhedlodd Ahitub,
8 Ac Ahitub a genhedlodd Sadoc, a Sadoc a genhedlodd Ahimaas,
9 Ac Ahimaas a genhedlodd Asarïah, ac Asarïah a genhedlodd Johanan,
10 A Johanan a genhedlodd Asarïah; (hwn oedd yn offeiriad yn y tŷ a adeiladodd Solomon yn Jerusalem:)
11 Ac Asarïah a genhedlodd Amarïah, ac Amarïah a genhedlodd Ahitub,
12 Ac Ahitub a genhedlodd Sadoc, a Sadoc a genhedlodd Sàlum,
13 A Sàlum a genhedlodd Hilcïah, a Hilcïah a genhedlodd Asarïah,
14 Ac Asarïah a genhedlodd Seraiah, a Seraiah a genhedlodd Jehosadac:
15 A Jehosadac a ymadawodd, pan *gaeth*-gludodd yr ARGLWYDD Judah a Jerusalem trwy law Nabuchodonosor.

16 ¶ Meibion Lefi; Gersom, Cohath, a Merari.
17 A dyma enwau meibion Gersom; Libni, a Simei.
18 A meibion Cohath; Amram, ac Ishar, a Hebron, ac Ussiel.
19 Meibion Merari; Mahli, a Musi. A dyma dylwyth y Lefiaid, yn ol eu tadau.
20 I Gersom; Libni ei fab, Jahath ei fab yntau, Simmah ei fab yntau,
21 Joah ei fab yntau, Ido ei fab yntau, Serah ei fab yntau, *a* Jeaterai ei fab yntau.
22 Meibion Cohath; Aminadab ei fab ef, Corah ei fab yntau, Assir ei fab yntau,
23 Elcanah ei fab yntau, ac Ebïasaph ei fab yntau, ac Assir ei fab yntau,
24 Tahath ei fab yntau, Uriel ei fab yntau, Ussïah ei fab yntau, a Saul ei fab yntau.
25 A meibion Elcanah; Amasai, ac Ahimoth.
26 Elcanah: meibion Elcanah; Sophai ei fab ef, a Nahath ei fab yntau,
27 Elïab ei fab yntau, Jeroham ei fab yntau, Elcanah ei fab yntau.
28 A meibion Samuel; y cyntafanedig, Fasni, yna Abïah.
29 Meibion Merari; Mahli, Libni ei fab yntau, Simei ei fab yntau, Ussah ei fab yntau,
30 Simea ei fab yntau, Haggïah ei fab yntau, Asaiah ei fab yntau.
31 Y rhai hyn a osododd Dafydd yn gantorion *yn* nhŷ yr ARGLWYDD, ar ol gorphwys o'r arch.
32 A hwy a fuant weinidogion mewn cerdd o flaen tabernacl pabell y cyfarfod, nes adeiladu o Solomon dŷ yr ARGLWYDD yn Jerusalem: a hwy a safasant wrth eu defod yn eu gwasanaeth.
33 A dyma y rhai a weiniasant, a'u meibion hefyd: o feibion y Cohathiaid; Heman y cantor, mab Jöel, fab Semuel,
34 Fab Elcanah, fab Jeroham, fab Eliel, fab Toah,
35 Fab Suph, fab Elcanah, fab Mahath, fab Amasai,
36 Fab Elcanah, fab Jöel, fab Asarïah, fab Sephanïah,
37 Fab Tahath, fab Assir, fab Ebïasaph, fab Corah,
38 Fab Ishar, fab Cohath, fab Lefi, fab Israel.
39 A'i frawd Asaph, yr hwn oedd yn sefyll ar ei law ddehau, *sef* Asaph mab Berachïah, fab Simea,
40 Fab Michael, fab Baasïah, fab Malchïah,
41 Fab Ethni, fab Serah, fab Adaiah,
42 Fab Ethan, fab Simmah, fab Simei,
43 Fab Jahath, fab Gersom, fab Lefi.
44 A'u brodyr hwynt, meibion Merari, *oedd* ar y llaw aswy: Ethan mab Cisi, fab Abdi, fab Màluc,
45 Fab Hasabïah, fab Amasïah, fab Hilcïah,
46 Fab Amsi, fab Bani, fab Samer,
47 Fab Mahli, fab Musi, fab Merari, fab Lefi.
48 A'u brodyr hwynt y Lefiaid *oedd* gwedi eu rhoddi ar holl wasanaeth tabernacl tŷ DDUW.
49 ¶ Ond Aaron a'i feibion a aberthasant ar allor y poeth-offrwm, ac ar allor yr arogl-darth, i *gyflawni* holl wasanaeth y cyssegr sancteiddiolaf, ac i wneuthur cymmod dros Israel, yn ol yr hyn oll a orchymynasai Moses gwas DUW.
50 Dyma hefyd feibion Aaron; Eleasar ei fab ef, Phinees ei fab yntau, Abisua ei fab yntau,
51 Bucci ei fab yntau, Ussi ei fab yntau, Serahïah ei fab yntau,
52 Meraioth ei fab yntau, Amarïah ei fab yntau, Ahitub ei fab yntau,
53 Sadoc ei fab yntau, Ahimaas ei fab yntau.
54 ¶ A dyma eu trigleoedd hwynt yn ol eu palasau, yn eu terfynau; *sef* meibion Aaron, o dylwyth y Cohathiaid: oblegid eiddynt hwy ydoedd y rhan hon.
55 A rhoddasant iddynt Hebron y'ngwlad Judah, a'i meusydd pentrefol o'i hamgylch.
56 Ond meusydd y ddinas, a'i phentrefi, a roddasant hwy i Caleb mab Jephunneh.
57 Ac i feibion Aaron y rhoddasant hwy ddinasoedd Judah, *sef* Hebron, *y ddinas* noddfa, a Libnah a'i meusydd pentrefol, a Jattir ac Estemoa, a'u meusydd pentrefol,

58 A Hilen a'i meusydd pentrefol, a Debir a'i meusydd pentrefol,
59 Ac Asan a'i meusydd pentrefol, a Bethsemes a'i meusydd pentrefol:
60 Ac o lwyth Benjamin; Geba a'i meusydd pentrefol, ac Alemeth a'i meusydd pentrefol, ac Anathoth a'i meusydd pentrefol: eu holl ddinasoedd hwynt trwy eu teuluoedd *oedd* dair dinas *ar* ddeg.
61 Ac i'r rhan arall o feibion Cohath o deulu y llwyth hwnnw, *y rhoddwyd* o'r hanner llwyth, *sef* hanner Manasseh, ddeg dinas wrth goelbren.
62 *Rhoddasant* hefyd i feibion Gersom trwy eu teuluoedd, o lwyth Issachar, ac o lwyth Aser, ac o lwyth Naphtali, ac o lwyth Manasseh yn Basan, dair ar ddeg o ddinasoedd.
63 I feibion Merari trwy eu teuluoedd, o lwyth Reuben, ac o lwyth Gad, ac o lwyth Sabulon, *y rhoddasant* trwy goelbren ddeuddeg o ddinasoedd.
64 A meibion Israel a roddasant i'r Lefiaid y dinasoedd *hyn* a'u meusydd pentrefol.
65 A hwy a roddasant trwy goelbren, o lwyth meibion Judah, ac o lwyth meibion Simeon, ac o lwyth meibion Benjamin, y dinasoedd hyn, y rhai a alwasant hwy ar *eu* henwau *hwynt.*
66 *I'r rhai oedd* o deuluoedd meibion Cohath, yr ydoedd dinasoedd eu terfyn, o lwyth Ephraim.
67 A hwy a roddasant iddynt hwy ddinasoedd noddfa, *sef* Sichem a'i meusydd pentrefol, ym mynydd Ephraim; Geser hefyd a'i meusydd pentrefol,
68 Jocmeam hefyd a'i meusydd pentrefol, a Beth-horon a'i meusydd pentrefol,
69 Ac Ajalon a'i meusydd pentrefol, a Gath-rimmon a'i meusydd pentrefol.
70 Ac o hanner llwyth Manasseh; Aner a'i meusydd pentrefol, a Bileam a'i meusydd pentrefol, i deulu y rhai oedd y'ngweddill o feibion Cohath.
71 I feibion Gersom o deulu hanner llwyth Manasseh *y rhoddwyd,* Golan yn Basan a'i meusydd pentrefol, Astaroth hefyd a'i meusydd pentrefol.
72 Ac o lwyth Issachar; Cedes a'i meusydd pentrefol, Daberath a'i meusydd pentrefol,
73 Ramoth hefyd a'i meusydd pentrefol, ac Anem a'i meusydd pentrefol.
74 Ac o lwyth Aser; Masal a'i meusydd pentrefol, ac Abdon a'i meusydd pentrefol,
75 Hucoc hefyd a'i meusydd pentrefol, a Rehob a'i meusydd pentrefol.
76 Ac o lwyth Naphtali; Cedes yn Galilea a'i meusydd pentrefol, Hammon hefyd a'i meusydd pentrefol, a Chiriathaim a'i meusydd pentrefol.
77 I'r rhan arall o feibion Merari *y rhoddwyd* o lwyth Sabulon, Rimmon a'i meusydd pentrefol, a Thabor a'i meusydd pentrefol.
78 Ac am yr Iorddonen a Jericho, *sef* o du dwyrain yr Iorddonen, *y rhoddwyd* o lwyth Reuben, Beser yn yr anialwch a'i meusydd pentrefol, Jasah hefyd a'i meusydd pentrefol,
79 Cedemoth hefyd a'i meusydd pentrefol, a Mephaath a'i meusydd pentrefol.
80 Ac o lwyth Gad, Ramoth yn Gilead a'i meusydd pentrefol, Mahanaim hefyd a'i meusydd pentrefol,
81 Hesbon hefyd a'i meusydd pentrefol, a Jaser a'i meusydd pentrefol.

PENNOD 7.

1 *Meibion Issachar,* 6 *Benjamin,* 13 *Naphtali,* 14 *Manasseh,* 20, 24 *Ephraim.* 21 *Adfyd Ephraim gan wŷr Gath.* 23 *Oeni Bertah.* 28 *Trigioedd Ephraim.* 30 *Meibion Aser.*

A MEIBION Issachar *oedd,* Tola, a Phuah, Jasub, a Simron, pedwar.
2 A meibion Tola; Ussi, a Rephaiah, a Jeriel, a Jahmai, a Jibsam, a Semuel, pennaethiaid ar dŷ eu tadau: o Tola yr *ydoedd* gwŷr cedyrn o nerth yn eu cenhedlaethau; eu rhif yn nyddiau Dafydd *oedd* ddwy fil ar hugain a chwe chant.
3 A meibion Ussi; Israhïah: a meibion Israhïah; Michael, ac Obadïah, a Jöel, Isïah, pump: yn bennaethiaid oll.

4 A chyd â hwynt yn eu cenhedl-
aethau, *ac* yn ol tŷ eu tadau, *yr*
ydoedd byddinoedd milwyr i ryfel,
un fil ar bymtheg ar hugain: canys
llawer oedd ganddynt o wragedd a
meibion.
5 A'u brodyr cedyrn *o* nerth, o
holl deuluoedd Issachar, a gyfrif-
wyd wrth eu hachau, yn saith mil
a phedwar ugain *mil* oll.
6 ¶ *A meibion* Benjamin *oedd,*
Bela, a Becher, a Jediael, tri.
7 A meibion Bela; Esbon, ac Ussi,
ac Ussiel, a Jerimoth, ac Iri; pump
o bennau tŷ *eu* tadau, cedyrn *o*
nerth, a gyfrifwyd wrth eu hachau,
yn ddwy fil ar hugain a phedwar ar
ddeg ar hugain.
8 A meibion Becher *oedd,* Semi-
rah, a Joas, ac Elïeser, ac Elioenai,
ac Omri, a Jerimoth, ac Abïah, ac
Anathoth, ac Alemeth: y rhai hyn
oll *oedd* feibion Becher.
9 A hwy a rifwyd wrth eu hachau,
yn ol eu cenhedlaethau, yn bennau
tŷ eu tadau, yn gedyrn *o* nerth, yn
ugain mil a dau cant.
10 A meibion Jediael; Bilhan: a
meibion Bilhan; Jëus, a Benjamin,
ac Ehud, a Chenaanah, a Sethan, a
Tharsis, ac Ahisahar.
11 Y rhai hyn oll *oedd* feibion
Jediael, yn bennau eu tadau, yn
gedyrn o nerth, yn myned allan
mewn llu i ryfel, yn ddwy fil ar
bymtheg a deucant.
12 Suppim hefyd, a Huppim,
meibion Ir; Husim, meibion Aher.
13 ¶ Meibion Naphtali; Jasiel, a
Guni, a Geser, a Sàlum, meibion
Bilhah.
14 ¶ Meibion Manasseh; Asriel,
yr hwn a ymddûg *ei wraig:* (*ond*
ei ordderch-wraig o Syria a ym-
ddûg Machir tad Gilead:
15 A Machir a gymmerodd yn
wraig *chwaer* Huppim a Suppim,
ac enw eu chwaer hwynt *oedd*
Maachah:) ac enw yr ail *fab* Sal-
phaad: ac i Salphaad yr oedd
merched.
16 A Maachah gwraig Machir a
ymddûg fab, a hi a alwodd ei
enw ef Peres, ac enw ei frawd ef
Seres, a'i feibion ef *oedd* Ulam a
Racem.
17 A meibion Ulam; Bedan.
Dyma feibion Gilead fab Machir,
fab Manasseh.
18 A Hammolecheth ei chwaer ef
a ymddûg Isod, ac Abïeser, a Ma-
halah.
19 A meibion Semida oedd, Ahïan,
a Sechem, a Lichi, ac Aniham.
20 ¶ A meibion Ephraim; Suthe-
lah, a Bered ei fab ef, a Thahath ei
fab yntau, ac Eladah ei fab yntau,
a Thahath ei fab yntau,
21 ¶ A Sabad ei fab yntau, a Su-
thelah ei fab yntau, ac Eser, ac
Elead: a dynion Gath y rhai a
anwyd yn y tir, a'u lladdodd
hwynt, o herwydd dyfod o honynt
i waered i ddwyn eu hanifeiliaid
hwynt.
22 Ac Ephraim eu tad a alar-
odd ddyddiau lawer; a'i frodyr a
ddaethant i'w gysuro ef.
23 ¶ A phan aeth efe at ei wraig,
hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar
fab; ac efe a alwodd ei enw ef Be-
rïah, am fod drygfyd yn ei dŷ ef.
24 (Seerah hefyd *oedd* ei ferch ef,
a hi a adeiladodd Beth-horon yr
isaf, a'r uchaf *hefyd,* ac Ussen-
serah.)
25 A Rephah *oedd* ei fab ef, a
Reseph, a Thelah ei fab yntau, a
Thahan ei fab yntau,
26 Laadan ei fab yntau, Ammihud
ei fab yntau, Elisama ei fab yntau,
27 Nun ei fab yntau, Josua ei fab
yntau.
28 ¶ A'u meddiant a'u cyfannedd-
au *oedd,* Bethel a'i phentrefi, ac o
du y dwyrain Naaran, ac o du y
gorllewin Geser a'i phentrefi; a
Sichem a'i phentrefi, hyd Gasah a'i
phentrefi:
29 Ac ar derfynau meibion Ma-
nasseh, Beth-sean a'i phentrefi,
Taanach a'i phentrefi, Megìdo a'i
phentrefi, Dor a'i phentrefi. Meib-
ion Joseph mab Israel a drigasant
yn y rhai hyn.
30 ¶ Meibion Aser; Imnah, ac
Isuah, ac Isuai, a Berïah, a Serah
eu chwaer hwynt.
31 A meibion Berïah; Heber, a
Malchiel, hwn *yw* tad Birsafith.
32 A Heber a genhedlodd Japh-
let, a Somer, a Hotham, a Sua eu
chwaer hwynt.
33 A meibion Japhlet; Pasach, a

Bimhal, ac Asuath. Dyma feibion Japhlet.
34 A meibion Samer; Ahi, a Rogah, Jehubbah, ac Aram.
35 A meibion ei frawd ef Helem; Sophàh, ac Imnah, a Seles, ac Amal.
36 Meibion Sophah; Suah, a Harnepher, a Sual, a Beri, ac Imrah,
37 Beser, a Hod, a Samma, a Silsah, ac Ithran, a Beera.
38 A meibion Jether; Jephunneh, Pispah hefyd, ac Ara.
39 A meibion Ula; Arah, a Haniel, a Resia.
40 Y rhai hyn oll *oedd* feibion Aser, pennau *eu* cenedl, yn ddewis wŷr o nerth, yn bennau capteniaid. A'r cyfrif trwy eu hachau o wŷr i ryfel, *oedd* chwe mil ar hugain o wŷr.

PENNOD 8.

1 *Meibion a phennaduriaid Benjamin.* 33 *Hynafiaid Saul a Jonathan.*

BENJAMIN hefyd a genhedlodd Bela ei gyntaf-anedig, Asbel yr ail, ac Aharah y trydydd,
2 Nohah y pedwerydd, a Rapha y pummed.
3 A meibion Bela oedd, Adar, a Gera, ac Abihud,
4 Ac Abisua, a Naaman, ac Ahoah,
5 A Gera, a Sephuphan, a Huram.
6 Dyma hefyd feibion Ehud; dyma hwynt pennau-cenedl preswylwyr Geba, a hwy a'u mudasant hwynt i Manahath:
7 Naaman hefyd, ac Ahïah, a Gera, efe a'u symmudodd hwynt, ac a genhedlodd Ussa, ac Ahihud.
8 Cenhedlodd hefyd Saharaim yng ngwlad Moab, gwedi eu gollwng hwynt ymaith: Husim a Baara *oedd* ei wragedd.
9 Ac efe a genhedlodd o Hodes ei wraig, Jobab, a Sibia, a Mesa, a Malcham,
10 A Jeus, a Sabïah, a Mirmah. Dyma ei feibion ef, pennau-cenedl.
11 Ac o Husim efe a genhedlodd Ahitub ac Elpaal.
12 A meibion Elpaal *oedd*, Eber, a Misam, a Samed, yr hwn a adeiladodd Ono, a Lod a'i phentrefi.
13 Berïah hefyd, a Sema *oedd* bennau-cenedl preswylwyr Ajalon; y rhai a ymlidiasant drigolion Gath.
14 Ahïo hefyd, Sasac, a Jeremoth,
15 Sebadïah hefyd, ac Arad, ac Ader,
16 Michael hefyd, ac Ispah, a Joha, meibion Berïah;
17 Sebadïah hefyd, a Mesùlam, a Heseci, a Heber,
18 Ismerai hefyd, a Jeslïah, a Jobab, meibion Elpaal;
19 Jacim hefyd, a Sichri, a Sabdi,
20 Elienai hefyd, a Silthai, ac Eliel,
21 Adaiah hefyd, a Beraiah, a Simrath, meibion Simhi;
22 Ispan hefyd, a Heber, ac Eliel,
23 Abdon hefyd, a Sichri, a Hanan,
24 Hananïah hefyd, ac Elam, ac Antothïah,
25 Iphedeiah hefyd, a Phenuel, meibion Sasac;
26 Samserai hefyd, a Seharïah, ac Athalïah,
27 Jaresïah hefyd, ac Elïah, a Sichri, meibion Jeroham.
28 Y rhai hyn *oedd* bennau-cenedl, *sef* pennaethiaid ar eu cenhedlaethau. Y rhai hyn a gyfanneddasant yn Jerusalem.
29 Yn Gibeon hefyd y preswyliodd tad Gibeon, ac enw ei wraig ef *oedd* Maachah.
30 Ac Abdon ei fab cyntaf-anedig ef, Sur hefyd, a Chis, a Baal, a Nadab,
31 Gedor hefyd, ac Ahïo, a Sacher.
32 Micloth hefyd a genhedlodd Simeah: y rhai hyn hefyd, ar gyfer eu brodyr, a breswyliasant yn Jerusalem gyd â'u brodyr.
33 ¶ Ner hefyd a genhedlodd Cis, a Chis a genhedlodd Saul, a Saul a genhedlodd Jonathan, a Malcisua, ac Abinadab, ac Esbaal.
34 A mab Jonathan *oedd* Meribbaal; a Meribbaal a genhedlodd Michah.
35 A meibion Michah; Pithon, a Melech, a Tharea, ac Ahas.
36 Ac Ahas a genhedlodd Jehoadah, a Jehoadah a genhedlodd Alemeth, ac Asmafeth, a Simri: a Simri a genhedlodd Mosa,

37 A Mosa a genhedlodd Bineah: Rapha *oedd* ei fab ef, Eleasah ei fab yntau, Asel ei fab yntau.
38 Ac i Asel *y bu* chwech o feibion, a dyma eu henwau hwynt, Asricam, Bocheru, ac Ismael, a Searïah, ac Obadïah, a Hanan. Y rhai hyn oll *oedd* feibion Asel.
39 A meibion Esec ei frawd ef *oedd*, Ulam ei gyntaf-anedig ef, Jehus yr ail, ac Eliphelet y trydydd.
40 A meibion Ulam oedd ddynion cedyrn o nerth, yn saethyddion, ac yn aml eu meibion a'u hwyrion, *sef* cant a deg a deugain. Y rhai hyn oll *oedd* o feibion Benjamin.

PENNOD 9.

1 *Achau Israel a Judah.* 2 *Yr Israeliaid,* 10 *yr offeiriaid,* 14 *a'r Lefiaid, a'r Nethiniaid, oedd yn trigo yn Jerusalem.* 27 *Swydd rhai o'r Lefiaid.* 35 *Hynaif Saul a Jonathan.*

AHOLL Israel a rifwyd wrth eu hachau, ac wele hwynt yn ysgrifenedig yn llyfr brenhinoedd Israel a Judah; a hwy a *gaeth*-gludwyd i Babilon am eu camwedd.
2 ¶ Y trigolion cyntaf hefyd *y rhai oedd* yn eu hetifeddiaeth yn eu dinasoedd *oedd*, yr Israeliaid, yr offeiriaid, y Lefiaid, a'r Nethiniaid.
3 Ac yn Jerusalem y trigodd *rhai* o feibion Judah, ac o feibion Benjamin, ac o feibion Ephraim, a Manasseh:
4 Uthai mab Ammihud, fab Omri, fab Imri, fab Bani, o feibion Phares fab Judah.
5 Ac o'r Siloniaid; Asaiah y cyntaf-anedig, a'i feibion.
6 Ac o feibion Serah; Jeuel, a'u brodyr, chwe chant a deg a phedwar ugain.
7 Ac o feibion Benjamin, Sàlu mab Mesùlam, fab Hodafiah, fab Hasenuah,
8 Ibneiah hefyd mab Jeroham, ac Elah mab Ussi, fab Michri, a Mesùlam mab Sephatïah, fab Reuel, fab Ibnijah;
9 A'u brodyr yn ol eu cenhedlaethau, naw cant a deg a deugain a chwech. Y dynion hyn oll *oedd* bennau-cenedl ar dŷ eu tadau.
10 ¶ Ac o'r offeiriaid; Jedaiah, a Jehoiarib, a Jachin,
11 Asarïah hefyd mab Hilcïah, fab Mesùlam, fab Sadoc, fab Meraioth, fab Ahitub, tywysog tŷ DDUW;
12 Adaiah hefyd mab Jeroham, fab Passur, fab Malcïah; a Maasia, mab Adiel, fab Jaserah, fab Mesùlam, fab Mesìlemith, fab Immer.
13 A'u brodyr, pennaf ar dŷ eu tadau, yn fil a saith gant a thri ugain; yn wŷr galluog o nerth i waith gwasanaeth tŷ DDUW.
14 Ac o'r Lefiaid; Semaiah mab Hassub, fab Asricam, fab Hasabïah, o feibion Merari,
15 Bacbaccar hefyd, Heres, a Galal, a Mattanïah mab Michah, fab Sichri, fab Asaph;
16 Obadïah hefyd mab Semaiah, fab Galal, fab Jeduthun; a Berechïah mab Asa, fab Elcanah, yr hwn a drigodd yn nhrefydd y Netophathiaid.
17 Y porthorion hefyd *oedd*, Sàlum, ac Accub, a Thalmon, ac Ahiman, a'u brodyr; Sàlum *ydoedd* bennaf;
18 A hyd yn hyn ym mhorth y brenhin o du y dwyrain. Y rhai hyn o finteioedd meibion Lefi *oedd* borthorion.
19 Sàlum hefyd mab Core, fab Ebïasaph, fab Corah, a'r Corahiaid ei frodyr ef o dylwyth ei dad, *oedd* ar waith y weinidogaeth, yn cadw pyrth y babell: a'u tadau hwynt ar lu yr ARGLWYDD, *oedd* yn cadw y ddyfodfa i mewn.
20 Phinees hefyd mab Eleasar a fuasai dywysog arnynt hwy o'r blaen: *a*'r ARGLWYDD *ydoedd* gyd âg ef.
21 Secharïah mab Meselemïah *ydoedd* borthor drws pabell y cyfarfod.
22 Hwynt oll *y rhai* a etholasid yn borthorion wrth y rhiniogau, *oedd* ddau cant a deuddeg. Hwynt-hwy yn eu trefydd a rifwyd wrth eu hachau; gosodasai Dafydd a Samuel y gweledydd y rhai hynny yn eu swydd.
23 Felly hwynt a'u meibion *a safent* wrth byrth tŷ yr ARGLWYDD, *sef* tŷ y babell, i wylied wrth wyliadwriaethau.
24 Y porthorion oedd ar bedwar o fannau, dwyrain, gorllewin, gogledd, a dehau.

25 A'u brodyr, *y rhai oedd* yn eu trefydd, *oedd* i ddyfod ar y seithfed dydd, o amser i amser, gyd â hwynt.
26 Canys dan lywodraeth y Lefiaid hyn, y pedwar pen porthor, yr oedd yr ystafelloedd a thrysorau tŷ Duw.
27 ¶ Ac o amgylch tŷ Duw y llettŷent hwy, canys arnynt hwy *yr oedd* yr oruchwyliaeth, ac arnynt hwy hefyd *yr oedd* ei agoryd o fore i fore.
28 Ac o honynt hwy *yr oedd* gol-ygwyr ar lestri y weinidogaeth, ac mewn rhif y dygent hwynt i mewn, ac mewn rhif y dygent hwynt allan.
29 A *rhai* o honynt hefyd *oedd* wedi eu gosod ar y llestri, ac ar holl ddodrefn y cyssegr, ac ar y peillied, a'r gwin, a'r olew, a'r thus, a'r aroglau peraidd.
30 *Rhai* hefyd o feibion yr offeiriaid *oedd* yn gwneuthur ennaint o'r aroglau peraidd.
31 A Mattithïah, *un* o'r Lefiaid, yr hwn *oedd* gyntaf-anedig Sàlum y Corahiad, *ydoedd* mewn swydd ar waith y radell.
32 Ac *eraill* o feibion y Cohathiaid eu brodyr hwynt, *oedd* ar y bara gosod, i'*w* ddarparu bob Sabbath.
33 A dyma y cantorion, pennaucenedl y Lefiaid, *y rhai oedd* mewn ystafelloedd yn ysgyfala; o herwydd arnynt *yr oedd* y gwaith *hwnnw* ddydd a nos.
34 Dyma bennau-cenedl y Lefiaid, pennau trwy eu cenhedlaethau: hwy a drigent yn Jerusalem.
35 ¶ Ac yn Gibeon y trigodd tad Gibeon, Jehiel; ac enw ei wraig ef *oedd* Maachah:
36 A'i fab cyntaf-anedig ef *oedd* Abdon, yna Sur, a Chis, a Baal, a Ner, a Nadab,
37 A Gedor, ac Ahïo, a Secharïah, a Micloth.
38 A Micloth a genhedlodd Simeam: a hwythau hefyd, ar gyfer eu brodyr, a drigasant yn Jerusalem gyd â'u brodyr.
39 Ner hefyd a genhedlodd Cis, a Chis a genhedlodd Saul, a Saul a genhedlodd Jonathan, a Malcisua, ac Abinadab, ac Esbaal.
40 A mab Jonathan *oedd* Meribbaal; a Meribbaal a genhedlodd Michah.
41 A meibion Michah *oedd*, Pithon, a Melech, a Tharea, *ac Ahas.*
42 Ac Ahas a genhedlodd Jarah, a Jarah a genhedlodd Alemeth, ac Asmafeth, a Simri; a Simri hefyd a genhedlodd Mosa:
43 A Mosa a genhedlodd Bineah; a Rephaiah *oedd* ei fab ef, Elasah ei fab yntau, Asel ei fab yntau.
44 Ac i Asel *yr ydoedd* chwech o feibion, a dyma eu henwau hwynt; Asricam, Bocheru, ac Ismael, a Searïah, ac Obadïah, a Hanan. Dyma feibion Asel.

PENNOD 10.

1 *Cwymp Saul, a'i farwolaeth.* 8 *Gorfoledd y Philistiaid o'r achos hwnnw.* 11 *Caredigrwydd Jabes Gilead tu ag at Saul a'i feibion.* 13 *Pechod Saul, am yr hwn yr aeth y frenhiniaeth oddi wrtho ef i Dafydd.*

A'R Philistiaid a ryfelasant yn erbyn Israel, a ffodd gwŷr Israel o flaen y Philistiaid, ac a gwympasant yn archolledig ym mynydd Gilboa.
2 A'r Philistiaid a erlidiasant ar ol Saul, ac ar ol ei feibion: a'r Philistiaid a laddasant Jonathan, ac Abinadab, a Malcisua, meibion Saul.
3 A'r rhyfel a drymhaodd yn erbyn Saul, a'r perchen bwäau a'i cawsant ef, ac efe a archollwyd gan y saethyddion.
4 Yna y dywedodd Saul wrth yr hwn oedd yn dwyn ei arfau ef, Tyn dy gleddyf, a gwân fi âg ef, rhag dyfod y rhai dïenwaededig hyn a'm gwatwar i. Ond arweinydd ei arfau ef nis gwnai, canys ofnodd yn ddirfawr. Yna y cymmerth Saul gleddyf, ac a syrthiodd arno.
5 A phan welodd arweinydd ei arfau ef farw o Saul, syrthiodd yntau hefyd ar y cleddyf, ac a fu farw.
6 Felly y bu farw Saul, a'i dri mab ef, a'i holl dylwyth a fuant feirw ynghyd.
7 A phan welodd holl wŷr Israel, y rhai *oedd* yn y dyffryn, ffoi o honynt hwy, a marw Saul a'i feibion; hwy a ymadawsant o'u dinasoedd, ac a ffoisant; a'r Philistiaid a ddaethant, ac a drigasant ynddynt.
8 ¶ A thrannoeth, pan ddaeth y Philistiaid i ddïosg y lladdedigion,

hwy a gawsant Saul a'i feibion yn
feirw ym mynydd Gilboa.
9 Ac wedi iddynt ei ddïosg, hwy
a gymmerasant ei ben ef, a'i arfau,
ac a anfonasant i wlad y Philistiaid
o amgylch, i ddangos i'w delwau,
ac i'r bobl.
10 A hwy a osodasant ei arfau ef
yn nhŷ eu duwiau, a'i benglog a
grogasant hwy yn nhŷ Dagon.
11 ¶ A phan glybu holl Jabes
Gilead yr hyn oll a wnaethai y Philistiaid i Saul,
12 Pob gŵr nerthol a godasant,
ac a gymmerasant ymaith gorph
Saul, a chyrph ei feibion ef, ac a'u
dygasant i Jabes, ac a gladdasant
eu hesgyrn hwynt dan y dderwen
yn Jabes, ac a ymprydiasant saith
niwrnod.
13 ¶ Felly y bu farw Saul, am ei
gamwedd a wnaethai efe yn erbyn
yr ARGLWYDD, *sef* yn erbyn gair
yr ARGLWYDD yr hwn ni chadwasai
efe, ac am iddo ymgynghori â dewines, i ymofyn *â hi;*
14 Ac heb ymgynghori â'r ARGLWYDD: am hynny y lladdodd efe
ef, ac y trodd y frenhiniaeth i Dafydd mab Jesse.

PENNOD 11.

1 *Enneinio Dafydd yn Ile Saul, o gyttundeb cyffredin, yn Hebron.* 4 *Ac ymtau yn ennill tŵr Sion oddi ar y Jebusiaid, trwy wrolaeth Joab.* 10 *Enwau cedyrn Dafydd.*

YNA holl Israel a ymgasglasant
at Dafydd i Hebron, gan ddywedyd, Wele, dy asgwrn a'th gnawd
di ydym ni.
2 Doe hefyd, ac echdoe, pan ydoedd Saul yn frenhin, tydi *oedd* yn
arwain Israel i mewn ac allan: a
dywedodd yr ARGLWYDD dy DDUW
wrthyt, Ti a borthi fy mhobl Israel,
a thi a fyddi dywysog ar fy mhobl
Israel.
3 A holl henuriaid Israel a ddaethant at y brenhin i Hebron, a Dafydd a wnaeth gyfammod â hwynt
yn Hebron, ger bron yr ARGLWYDD;
a hwy a enneiniasant Dafydd yn
frenhin ar Israel, yn ol gair yr ARGLWYDD trwy law Samuel.
4 ¶ A Dafydd a holl Israel a aeth
i Jerusalem, hon *yw* Jebus, ac yno
y Jebusiaid *oedd* drigolion y tir.
5 A thrigolion Jebus a ddywedasant wrth Dafydd, Ni ddeui i mewn
yma. Etto Dafydd a ennillodd dŵr
Sïon, yr hwn *yw* dinas Dafydd.
6 A dywedodd Dafydd, Pwy bynnag a darawo y Jebusiaid yn gyntaf,
efe a fydd yn bennaf, ac yn dywysog. Yna yr esgynodd Joab mab
Serfiah yn gyntaf, ac a fu bennaf.
7 A thrigodd Dafydd yn y tŵr:
o herwydd hynny y galwasant ef
Dinas Dafydd.
8 Ac efe a adeiladodd y ddinas oddi amgylch, o Milo amgylch
ogylch: a Joab a adgyweiriodd y
rhan arall i'r ddinas.
9 A Dafydd a aeth ac a gynnyddodd fwyfwy, ac ARGLWYDD y lluoedd *oedd* gyd âg ef.
10 ¶ Dyma hefyd bennaethiaid y
cedyrn oedd gan Dafydd, yn ymgryfhâu gyd âg ef yn ei deyrnas, *a*
chyd â holl Israel, i'w wneuthur ef
yn frenhin ar Israel, yn ol gair yr
ARGLWYDD.
11 A dyma rif y cedyrn *oedd* gan
Dafydd; Jasobeam mab Hachmoni,
pen y capteniaid: hwn a ddyrchafodd ei waywffon yn erbyn tri chant,
y rhai a laddwyd ar unwaith *gan-*
ddo.
12 Ac ar ei ol ef Eleasar mab
Dodo, yr Ahohiad, hwn *oedd un*
o'r tri chadarn.
13 Hwn oedd gyd â Dafydd yn
Pas-dammim; a'r Philistiaid a
ymgynnullasant yno i ryfel, ac yr
ydoedd rhan o'r maes yn llawn
haidd, a'r bobl a ffoisant o flaen y
Philistiaid.
14 A hwy a ymosodasant y'nghanol y rhandir *honno,* ac a'i hachubasant hi, ac a darawsant y Philistiaid: felly y gwaredodd yr ARGLWYDD *hwynt* âg ymwared mawr.
15 ¶ A thri o'r deg pennaeth ar
hugain a ddisgynasant i'r graig at
Dafydd, i ogof Adùlam; a llu y
Philistiaid oedd yn gwersyllu yn
nyffryn Rephaim.
16 A Dafydd yna *ydoedd* yn yr
amddiffynfa, a sefyllfa y Philistiaid
yna *oedd* yn Bethlehem.
17 A Dafydd a flysiodd, ac a ddywedodd, O pwy a rydd i mi ddïod
ddwfr o bydew Bethlehem, yr hwn
sydd wrth y porth?
18 A'r tri a ruthrasant trwy wersyll

y Philistiaid, ac a dynnasant ddwfr o bydew Bethlehem, yr hwn *oedd* wrth y porth, ac a'*i* cymmerasant ac a'*i* dygasant i Dafydd: ac ni fynnai Dafydd ei yfed ef, ond efe a'i dïod-offrymmodd ef i'r ARGLWYDD:

19 Ac efe a ddywedodd, Na atto fy NUW i mi wneuthur hyn. A yfaf fi waed y dynion hyn, a beryglasant eu heinioes? ô herwydd mewn *enbydrwydd am* eu heinioes y dygasant ef: am hynny ni fynnai efe ei yfed. Y tri chadarn a'wnaethant hyn.

20 ¶ Ac Abisai brawd Joab oedd bennaf o'r tri. A hwn a ysgydwodd ei waywffon yn erbyn tri chant, *ac* a'*u* lladdodd *hwynt:* ac iddo *y bu* enw ym mhlith y tri.

21 O'r tri, anrhydeddusach na'r ddau *eraill*, a thywysog iddynt, oedd efe: ond ni ddaeth efe hyd y tri *cyntaf*.

22 Benaiah mab Jehoiada, mab gŵr grymmus o Cabseel, mawr *ei* weithredoedd: efe a laddodd ddau o gedyrn Moab; ac efe a ddisgynodd ac a laddodd lew mewn pydew yn amser eira.

23 Ac efe a laddodd Aipht-ddyn, gŵr pum cufydd o fesur; ac yn llaw yr Aipht-ddyn *yr oedd* gwaywffon megis carfan gwehydd; ac yntau a aeth i waered atto ef â ffon, ac a ddug y waywffon o law yr Aipht-ddyn, ac a'i lladdodd ef â'i waywffon ei hun.

24 Hyn a wnaeth Benaiah mab Jehoiada, ac iddo *y bu* enw ym mhlith y tri chadarn.

25 Wele, anrhydeddus *oedd* efe ym mysg y deg ar hugain, ond at y tri *cyntaf* ni ddaeth efe: a gosododd Dafydd ef ar ei wŷr o gard.

26 ¶ A chedyrn y llu *oedd* Asahel brawd Joab, Elhanan mab Dodo o Bethlehem,

27 Sammoth yr Harodiad, Heles y Peloniad,

28 Ira mab Icces y Tecoiad, Abïeser yr Anthothiad,

29 Sibbechai yr Husathiad, Ilai yr Ahohiad,

30 Maharai y Netophathiad, Heled mab Baanah y Netophathiad,

31 Ithai mab Ribai o Gibeah meibion Benjamin, Benaiah y Pirathoniad,

32 Hurai o afonydd Gaas, Abiel yr Arbathiad,

33 Asmafeth y Baharumiad, Eliahba y Saalboniad,

34 Meibion Hasem y Gisoniad, Jonathan mab Sageth yr Harariad,

35 Ahïam mab Sachar yr Harariad, Eliphal mab Ur,

36 Hepher y Mecherathiad, Ahïah y Peloniad,

37 Hesro y Carmeliad, Naarai mab Esbai,

38 Jöel brawd Nathan, Mibhar mab Haggeri,

39 Selec yr Ammoniad, Naharai y Berothiad, yr hwn oedd yn dwyn arfau Joab mab Serfiah,

40 Ira yr Ithriad, Gareb yr Ithriad,

41 Urïas yr Hethiad, Sabad mab Ahlai,

42 Adina mab Sisa y Reubeniad, pennaeth y Reubeniaid, a chyd âg ef ddeg ar hugain,

43 Hanan mab Maachah, a Josaphat y Mithniad,

44 Ussïah yr Asterathiad, Sama a Jehiel, meibion Hothan yr Aroeriad,

45 Jediael mab Simri, a Joha ei frawd ef, y Tisiad,

46 Eliel y Mahafiad, a Jeribai, a Josafiah, meibion Elnaam, ac Ithmah y Moabiad,

47 Eliel, ac Obed, a Jasiel y Mesobaiad.

PENNOD 12.

1 Enwau y rhai a ddaeth at Dafydd i Siclag, 23 a'r lluoedd a ddaeth atto ef i Hebron.

ADYMA y rhai a ddaeth at Dafydd i Siclag, ac efe etto yn cadw arno rhag Saul mab Cis: a hwy *oedd* ym mhlith y rhai cedyrn, cynnorthwywyr y rhyfel,

2 Yn arfogion â bwäau, yn medru o ddehau ac o aswy daflu â cherrig, a saethu mewn bwäau: o frodyr Saul, o Benjamin.

3 Y pennaf *oedd* Ahïeser, yna Joas, meibion Semaah y Gibeathiad, a Jesiel a Phelet meibion Asmafeth, a Berachah, a Jehu yr Anthothiad,

4 Ac Ismaiah y Gibeoniad, grym-

mus *oedd efe* ym mhlith y deg ar hugain, a goruwch y deg ar hugain; Jeremïah hefyd, a Jehasiel, a Johanan, a Josabad y Gederathiad,
5 Elusai, a Jerimoth, a Bealïah, a Semarïah, a Sephatïah yr Haruphiad,
6 Elcanah, a Jesïah, ac Asareel, a Jöeser, a Jasobeam, y Corhiaid,
7 A Jöelah, a Sebadïah, meibion Jeroham o Gedor.
8 A *rhai* o'r Gadiaid a ymneillduasant at Dafydd i'r amddiffynfa i'r anialwch, yn gedyrn *o* nerth, gwŷr milwraidd i ryfel, yn medru trin tarian a bwcled, ac wynebau llewod *oedd* eu hwynebau hwynt, ac megis iyrchod ar y mynyddoedd o fuander *oeddynt hwy.*
9 Eser y cyntaf, Obadïah yr ail, Elïab y trydydd,
10 Mismannah y pedwerydd, Jeremïah y pummed,
11 Attai y chweched, Eliel y seithfed,
12 Johanan yr wythfed, Elsabad y nawfed,
13 Jeremïah y degfed, Machbanai yr unfed ar ddeg.
14 Y rhai hyn *oedd* o feibion Gad, yn gapteniaid y llu: yr un lleiaf *oedd* ar gant, a'r mwyaf ar fil.
15 Dyma hwy y rhai a aethant dros yr Iorddonen yn y mis cyntaf, a hi wedi llifo dros ei holl dorlannau, ac a yrrasant i ffo holl *drigolion* y dyffrynoedd tu a'r dwyrain, a thu a'r gorllewin.
16 A *rhai* o feibion Benjamin a Judah a ddaethant i'r amddiffynfa at Dafydd.
17 A Dafydd a aeth i'w cyfarfod hwynt, ac a lefarodd ac a ddywedodd wrthynt, Os mewn heddwch y daethoch chwi attaf fi i'm cynnorthwyo, bydd fy nghalon yn un â chwi: ond os i'm bradychu i'm gelynion, a minnau heb gamwedd yn fy nwylaw, Duw ein tadau ni a edrycho, ac a geryddo.
18 A'r ysproyd a ddaeth ar Amasai pennaeth y capteniaid, *ac efe a ddywedodd,* Eiddot ti, Dafydd, a chyd â thi, mab Jesse, *y byddwn ni;* heddwch, heddwch i ti, a hedd i'th gynnorthwywyr; o herwydd dy Duw sydd yn dy gymmorth di. Yna Dafydd a'u croesawodd hwynt, ac a'u gosododd hwy yn bennaethiaid ar y fyddin.
19 A *rhai* o Manasseh a droes at Dafydd, pan ddaeth efe gyd â'r Philistiaid yn erbyn Saul i ryfel, ond ni chynnorthwyasant hwynt: canys pennaduriaid y Philistiaid, wrth gynghor, a'i gollyngasant ef ymaith, gan ddywedyd, Efe a syrth at ei feistr Saul âm ein pennau ni.
20 Fel yr oedd efe yn myned i Siclag, trodd atto ef o Manasseh, Adnah, a Josabad, a Jediael, a Michael, a Josabad, ac Elihu, a Silthai, y rhai *oedd* bennaethiaid y miloedd ym Manasseh.
21 A'r rhai hyn a gynnorthwyasant Dafydd yn erbyn y dorf: canys cedyrn o nerth oeddynt hwy oll, a chapteniaid ar y llu.
22 Canys rhai a ddeuai at Dafydd beunydd y pryd *hwnnw,* i'w gynnorthwyo ef, hyd onid *oedd efe* yn llu mawr, megis llu Duw.
23 ¶ A dyma rifedi y pennau, y rhai yn arfogion i ryfel a ddaethant at Dafydd i Hebron, i droi brenhiniaeth Saul atto ef, yn ol gair yr Arglwydd.
24 O feibion Judah, yn dwyn tarian a ffonwayw, chwe mil ac wyth cant, yn arfog i ryfel.
25 O feibion Simeon, yn gedyrn nerthol i ryfel, saith mil a chant.
26 O feibion Lefi, pedair mil a chwe chant.
27 A Jehoiada *oedd* dywysog ar yr Aaroniaid, a chyd âg ef dair mil a saith cant.
28 Sadoc hefyd, llangc grymmus nerthol, ac o dŷ ei dad ef dau ar hugain o gapteniaid.
29 Ac o feibion Benjamin brodyr Saul, tair mil: canys hyd yn hyn llawer o honynt oedd yn dilyn tŷ Saul.
30 Ac o feibion Ephraim, ugain mil ac wyth cant, yn rymmus nerthol, yn wŷr enwog yn nhŷ eu tadau.
31 Ac o hanner llwyth Manasseh, tair mil ar bymtheg, y rhai a hysbysasid erbyn *eu* henwau, i ddyfod i wneuthur Dafydd yn frenhin.
32 Ac o feibion Issachar, y rhai a

fedrent ddeall yr amseroedd i wybod beth a ddylai Israel ei wneuthur, eu pennaethiaid hwynt *oedd* ddeucant, a'u holl frodyr *oedd* wrth eu gorchymyn hwynt.

33 O Sabulon, y rhai a aent allan i ryfel, yn medru rhyfela â phob arfau rhyfel, deng mil a deugain, yn medru byddino, a hynny yn ffyddlawn.

34 Ac o Naphtali, mil *o* dywysogion, a chyd â hwynt, â tharian a gwaywffon, ddwy fil ar bymtheg ar hugain.

35 Ac o'r Daniaid, wyth mil ar hugain a chwe chant, yn medru rhyfela.

36 Ac o Aser yr oedd deugain mil yn myned allan mewn byddin, yn medru rhyfela.

37 Ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen, o'r Reubeniaid, ac o'r Gadiaid, ac o hanner llwyth Manasseh, *y daeth* chwech ugain mil mewn pob rhyw arfau cymmwys i ryfel.

38 Yr holl ryfelwyr hyn, yn medru byddino, a ddaethant mewn calon berffaith i Hebron, i wneuthur Dafydd yn frenhin ar holl Israel: a'r rhan arall o Israel *oedd* hefyd yn un feddwl i wneuthur Dafydd yn frenhin.

39 A hwy a fuant yno gyd â Dafydd dridiau, yn bwytta ac yn yfed: canys eu brodyr a arlwyasant iddynt hwy.

40 A hefyd, y rhai oedd agos attynt hwy, hyd Issachar, a Sabulon, a Naphtali, a ddygasant fara ar asynod, ac ar gamelod, ac ar fulod, ac ar ychain, yn fwyd, yn flawd, yn ffigys, ac yn resingau, ac yn win, ac yn olew, ac yn wartheg, ac yn ddefaid yn helaeth: o herwydd *yr ydoedd* llawenydd yn Israel.

PENNOD 13.

1 Dafydd mewn rhwysg fawr yn cyrchu yr arch o Ciriath-jearim, 9 ac, o herwydd taro Ussa, yn gadael yr arch yn nhŷ Obed-edom.

A DAFYDD a ymgynghorodd â chapteniaid y miloedd a'r cannoedd, *ac* â'r holl dywysogion.

2 A Dafydd a ddywedodd wrth holl gynnulleidfa Israel, Os da gennych chwi, a *bod hyn* o'r ARGLWYDD ein DUW, danfonwn ar led at ein brodyr y rhai a weddillwyd trwy holl diroedd Israel, a chyd â hwynt *at* yr offeiriaid a'r Lefiaid o fewn eu dinasoedd a'u meusydd pentrefol, i'w cynnull hwynt attom ni.

3 A dygwn drachefn arch ein DUW attom ni; canys nid ymofynasom â hi yn nyddiau Saul.

4 A'r holl dyrfa a ddywedasant am wneuthur felly: canys uniawn *oedd* y peth y'ngolwg yr holl bobl.

5 Felly y casglodd Dafydd holl Israel ynghyd, o Sihor yr Aipht, hyd y ffordd y delir i Hamath, i ddwyn arch DUW o Ciriath-jearim.

6 A Dafydd a aeth i fyny, a holl Israel, i Baalah, sef Ciriath-jearim, yr hon *sydd* yn Judah, i ddwyn oddi yno arch yr ARGLWYDD DDUW, yr hwn sydd yn preswylio *rhwng* y cerubiaid, *ar* yr hon y gelwir *ei* enw *ef*.

7 A hwy a ddygasant arch DUW ar fen newydd o dŷ Abinadab: ac Ussa ac Ahïo oedd yn gyrru y fen.

8 A Dafydd a holl Israel oedd yn chwarae ger bron DUW, â'*u* holl nerth, ac â chaniadau, ac â thelynau, ac â nablau, ac â thympanau, ac â symbalau, ac âg udgyrn.

9 ¶ A phan ddaethant hyd lawrdyrnu Cidon, Ussa a estynodd ei law i ddala yr arch, canys yr ychain oedd yn ei hysgwyd hi.

10 Ac ennynodd llid yr ARGLWYDD yn erbyn Ussa, ac efe a'i lladdodd ef, oblegid iddo estyn ei law at yr arch; ac yno y bu efe farw ger bron DUW.

11 A bu ddrwg gan Dafydd am i'r ARGLWYDD rwygo rhwygiad yn Ussa; ac efe a alwodd y lle hwnnw Peres-ussa, hyd y dydd hwn.

12 A Dafydd a ofnodd DDUW y dydd hwnnw, gan ddywedyd, Pa fodd y dygaf arch DUW i mewn attaf fi?

13 Ac ni ddug Dafydd yr arch atto ei hun i ddinas Dafydd, ond efe a'i cludodd hi i dŷ Obed-edom y Gethiad.

14 Ac arch DUW a arhosodd gyd â theulu Obed-edom, yn ei dŷ ef, dri mis. A'r ARGLWYDD a fendithiodd dŷ Obed-edom, a'r hyn oll *ydoedd* eiddo.

PENNOD 14.

1 *Caredigrwydd Hiram i Dafydd.* 2 *Dedwyddwch Dafydd o'i bobl, o'i wragedd, ac o'i blant.* 8 *Y ddwy oruchafiaeth a gafodd efe yn erbyn y Philistiaid.*

AHIRAM brenhin Tyrus a anfonodd genhadau at Dafydd, a choed cedr, a seiri meini, a seiri prennau, i adeiladu iddo ef dŷ.
2 A gwybu Dafydd sicrhâu o'r ARGLWYDD ef yn frenhin ar Israel: canys yr oedd ei frenhiniaeth ef wedi ei dyrchafu yn uchel, o herwydd ei bobl Israel.
3 ¶ A chymmerth Dafydd wragedd ychwaneg yn Jerusalem: a Dafydd a genhedlodd feibion ychwaneg, a merched.
4 A dyma enwau y plant oedd iddo ef yn Jerusalem: Sammua, a Sobab, Nathan, a Solomon,
5 Ac Ibhar, ac Elisua, ac Elpalet,
6 A Nogah, a Nepheg, a Japhia,
7 Ac Elisama, a Beeliada, ac Eliphalet.
8 ¶ A phan glybu y Philistiaid fod Dafydd wedi ei enneinio yn frenhin ar holl Israel, y Philistiaid oll a aethant i fyny i geisio Dafydd: a chlybu Dafydd, ac a aeth allan yn eu herbyn hwynt.
9 A'r Philistiaid a ddaethant ac a ymwasgarasant yn nyffryn Rephaim.
10 A Dafydd a ymgynghorodd â DUW, gan ddywedyd, A âf fi i fyny yn erbyn y Philistiaid? ac a roddi di hwynt yn fy llaw i? A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrtho, Cerdda i fyny, canys mi a'u rhoddaf hwynt yn dy law di.
11 Felly yr aethant i fyny i Baalperasim, a Dafydd a'u tarawodd hwynt yno. A Dafydd a ddywedodd, DUW a dorrodd i mewn ar fy ngelynion trwy fy llaw i, fel rhwygo dyfroedd: am hynny y galwasant hwy enw y lle hwnnw Baal-perasim.
12 A phan adawsant hwy eu duwiau, dywedodd Dafydd am eu llosgi hwynt yn tân.
13 A thrachefn etto y Philistiaid a ymwasgarasant yn y dyffryn.
14 A Dafydd a ymgynghorodd â DUW drachefn; a DUW a ddywedodd wrtho, Na ddos i fyny ar eu hol hwynt, tro ymaith oddi wrthynt, a thyred arnynt ar gyfer y morwydd.
15 A phan glywech drwst cerddediad ym mrig y morwydd, yna dos allan i ryfel: canys y mae DUW wedi myned o'th flaen di, i daro llu y Philistiaid.
16 A gwnaeth Dafydd megis y gorchymynasai DUW iddo; a hwy a darawsant lu y Philistiaid o Gibeon hyd Gaser.
17 Ac enw Dafydd a aeth trwy yr holl wledydd; a'r ARGLWYDD a roddes ei arswyd ef ar yr holl genhedloedd.

PENNOD 15.

1 *Dafydd yn parottôi lle i'r arch, yn trefnu yr offeiriaid a'r Lefiaid i'w chyrchu hi o dŷ Obed-edom,* 25 *ac yn ei dwyn hi yn ei hol mewn llawenydd mawr.* 29 *Michal yn ei ddiystyru ef.*

A *DAFYDD* a wnaeth iddo dai yn ninas Dafydd, ac a barottôdd le i arch DUW, ac a osododd iddi babell.
2 A Dafydd a ddywedodd, Nid *yw i neb* ddwyn arch DUW, ond i'r Lefiaid: canys hwynt a ddewisodd yr ARGLWYDD i ddwyn arch DUW, ac i weini iddo ef yn dragywydd.
3 A Dafydd a gynhullodd holl Israel i Jerusalem, i ddwyn i fyny arch yr ARGLWYDD i'w lle a barottoisai efe iddi hi.
4 A Dafydd a gynhullodd feibion Aaron, a'r Lefiaid.
5 O feibion Cohath; Uriel y pennaf, a'i frodyr, cant ac ugain.
6 O feibion Merari; Asaiah y pennaf, a'i frodyr, dau cant ac ugain.
7 O feibion Gersom; Jöel y pennaf, a'i frodyr, cant a deg ar hugain.
8 O feibion Elisaphan; Semaiah y pennaf, a'i frodyr, dau cant.
9 O feibion Hebron; Eliel y pennaf, a'i frodyr, pedwar ugain.
10 O feibion Ussiel; Amminadab y pennaf, a'i frodyr, cant a deuddeg.
11 A Dafydd a alwodd am Sadoc ac am Abiathar yr offeiriaid, ac am y Lefiaid, am Uriel, Asaiah, a Jöel, Semaiah, ac Eliel, ac Amminadab,
12 Ac a ddywedodd wrthynt, Chwi *sydd* bennau-cenedl ym mhlith y Lefiaid: ymsancteiddiwch chwi a'ch brodyr, fel y dygoch i fyny arch

ARGLWYDD DDUW Israel i'r *lle* a barottoais iddi hi.

13 O herwydd nas *gwnaethoch* o'r dechreuad, y torrodd yr ARGLWYDD ein DUW arnom ni, oblegid na cheisiasom ef yn y modd y dylesym.

14 Felly yr offeiriaid a'r Lefiaid a ymsancteiddiasant i ddwyn i fyny arch ARGLWYDD DDUW Israel.

15 A meibion y Lefiaid a ddygasant arch DUW ar eu hysgwyddau, wrth drosolion, megis y gorchymynodd Moses, yn ol gair yr ARGLWYDD.

16 A Dafydd a ddywedodd wrth dywysogion y Lefiaid, ar iddynt osod eu brodyr y cerddorion i leisio âg offer cerdd, nablau, a thelynau, a symbalau, yn lleisio gan ddyrchafu llef mewn gorfoledd.

17 Felly y Lefiaid a osodasant Heman mab Jöel; ac o'i frodyr ef Asaph mab Berechïah; ac o feibion Merari eu brodyr, Ethan mab Cusaiah.

18 A chyd â hwynt eu brodyr o'r ail *radd*, Secharïah, Ben, a Jaasiel, a Semiramoth, a Jehiel, ac Unni, Eliab, a Benaiah, a Maasïah, a Mattithïah, ac Elipheleh, a Micnïah, ac Obed-edom, a Jehiel, y porthorion.

19 Felly Heman, Asaph, ac Ethan, y cerddorion, *oeddynt* i leisio â symbalau pres.

20 A Secharïah, ac Asiel, a Semiramoth, a Jehiel, ac Unni, ac Eliab, a Maasïah, a Benaiah, *a ganent* nablau ar Alamoth.

21 A Mattithïah, ac Elipheleh, a Micnïah, ac Obed-edom, a Jehiel, ac Asasïah, *oeddynt* â thelynau ar y Seminith i ragori.

22 Chenanïah hefyd oedd flaenor y Lefiaid ar y gân: efe a ddysgai *eraill* am y gân, canys cyfarwydd *ydoedd.*

23 A Berechïah ac Elcanah *oedd* borthorion i'r arch.

24 A Sebanïah, a Jehosaphat, a Nathaneel, ac Amasai, a Secharïah, a Benaiah, ac Eliëser, yr offeiriaid, *oedd* yn lleisio mewn udgyrn o flaen arch DUW: Obed-edom hefyd a Jehïah *oedd* borthorion i'r arch.

25 ¶ Felly Dafydd a henuriaid Israel, a thywysogion y miloedd, a aethant i ddwyn i fyny arch cyfammod yr ARGLWYDD o dŷ Obed-edom mewn llawenydd.

26 A phan gynnorthwyodd DUW y Lefiaid oedd yn dwyn arch cyfammod yr ARGLWYDD, hwy a offrymmasant saith o fustych, a saith o hyrddod.

27 A Dafydd *oedd* wedi ymwisgo mewn gwisg o lïan main; a'r holl Lefiaid, y rhai oedd yn dwyn yr arch, a'r cantorion, Chenanïah hefyd meistr y gân, a'r cerddorion. Ac am Dafydd *yr oedd* ephod lïan.

28 A holl Israel a ddygasant i fyny arch cyfammod yr ARGLWYDD â bloedd, â llais trwmped, âg udgyrn, ac â symbalau, yn lleisio gyd â'r nablau a'r telynau.

29 ¶ A phan ydoedd arch cyfammod yr ARGLWYDD yn dyfod i ddinas Dafydd, Michal merch Saul a edrychodd trwy ffenestr, ac a ganfu Dafydd y brenhin yn dawnsio ac yn chwarae: a hi a'i dirmygodd ef yn ei chalon.

PENNOD 16.

1 *Dafydd yn aberthu,* 4 *yn ordeinio cantorion i ganu mawl i Dduw,* 7 *yn gwneuthur psalm o ddiolch i Dduw,* 37 *yn gosod gweinidogion, a phorthorion, ac offeiriaid, a cherddorion, i weini i'r arch yn wastadol.*

FELLY y dygasant hwy arch DUW i mewn, ac a'i gosodasant hi y'nghanol y babell a osodasai Dafydd iddi hi: a hwy a offrymmasant offrymmau poeth ac ebyrth hedd ger bron DUW.

2 Ac wedi i Dafydd orphen aberthu offrymmau poeth ac ebyrth hedd, efe a fendithiodd y bobl yn enw yr ARGLWYDD.

3 Ac efe a rannodd i bob un *o* Israel, yn ŵr ac yn wraig, dorth o fara, a dryll o gig, a chostrelaid *o win.*

4 ¶ Ac efe a osododd ger bron arch yr ARGLWYDD weinidogion o'r Lefiaid, i gofio, ac i foliannu, ac i glodfori ARGLWYDD DDUW Israel.

5 Asaph *oedd* bennaf, ac yn ail iddo ef Secharïah, Jeiel, a Semiramoth, a Jehiel, a Mattithïah, ac Eliab, a Benaiah, ac Obed-edom: a Jeiel âg offer nablau, a thelynau; ac Asaph oedd yn lleisio â symbalau.

6 Benaiah hefyd a Jahasiel yr offeiriaid *oedd* âg udgyrn yn wastadol o flaen arch cyfammod Duw.
7 ¶ Yna y dydd hwnnw y rhoddes Dafydd *y psalm hon* yn gyntaf i foliannu yr Arglwydd, yn llaw Asaph a'i frodyr.
8 Moliennwch yr Arglwydd, galwch ar ei enw ef, hysbyswch ei weithredoedd ef ym mhlith y bobloedd.
9 Cenwch iddo, clodforwch ef, ymadroddwch am ei holl ryfeddodau.
10 Ymlawenychwch yn ei enw sanctaidd ef; ymhyfryded calon y sawl a geisiant yr Arglwydd.
11 Ceisiwch yr Arglwydd a'i nerth ef, ceisiwch ei wyneb ef yn wastadol.
12 Cofiwch ei wyrthiau y rhai a wnaeth efe, ei ryfeddodau, a barnedigaethau ei enau;
13 Chwi had Israel ei was ef, chwi feibion Jacob ei etholedigion ef.
14 Efe *yw* yr Arglwydd ein Duw ni; ei farnedigaethau ef *sydd* trwy yr holl ddaear.
15 Cofiwch yn dragywydd ei gyfammod; y gair a orchymynodd efe i fil o genhedlaethau;
16 Yr hwn a gyfammododd efe âg Abraham, a'i lw i Isaac:
17 Ac a osododd efe yn ddeddf i Jacob, *ac* yn gyfammod tragywyddol i Israel,
18 Gan ddywedyd, I ti y rhoddaf dir Canaan, rhandir eich etifeddiaeth.
19 Pan nad oeddych ond ychydig, ïe, ychydig, a dïeithriaid ynddi;
20 A *phan* rodient o genhedlaeth i genhedlaeth, ac o *un* frenhiniaeth at bobl eraill;
21 Ni adawodd efe i neb eu gorthrymmu: ond efe a geryddodd frenhinoedd o'u plegid hwy, *gan ddywedyd,*
22 Na chyffyrddwch â'm henneiniog, ac na ddrygwch fy mhrophwydi.
23 Cenwch i'r Arglwydd yr holl ddaear: mynegwch o ddydd i ddydd ei iachawdwriaeth ef.
24 Adroddwch ei ogoniant ef ym mhlith y cenhedloedd; a'i wyrthiau ym mhlith yr holl bobloedd.
25 Canys mawr *yw* yr Arglwydd, a chanmoladwy iawn: ofnadwy hefyd yw efe goruwch yr holl dduwiau.
26 O herwydd holl dduwiau y bobloedd *ydynt* eilunod; ond yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd.
27 Gogoniant a harddwch *sydd* ger ei fron ef: nerth a gorfoledd yn ei fangre ef.
28 Moeswch i'r Arglwydd, chwi deuluoedd y bobloedd, moeswch i'r Arglwydd ogoniant a nerth.
29 Moeswch i'r Arglwydd ogoniant ei enw: dygwch aberth, a deuwch ger ei fron ef; ymgrymmwch i'r Arglwydd mewn prydferthwch sancteiddrwydd.
30 Ofnwch rhagddo ef yr holl ddaear: y byd hefyd a sicrhêir, fel na syflo.
31 Ymlawenyched y nefoedd, ac ymhyfryded y ddaear; a dywedant ym mhlith y cenhedloedd, Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu.
32 Rhued y môr a'i gyflawnder; llawenhâed y maes, a'r hyn oll *y sydd* ynddo.
33 Yna prennau y coed a ganant o flaen yr Arglwydd, am ei fod yn dyfod i farnu y ddaear.
34 Clodforwch yr Arglwydd; canys da *yw:* o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
35 A dywedwch, Achub ni, O Dduw ein hiachawdwriaeth, casgl ni hefyd, a gwared ni oddi wrth y cenhedloedd, i foliannu dy enw sanctaidd di, *ac* i ymogoneddu yn dy foliant.
36 Bendigedig *fyddo* Arglwydd Dduw Israel, o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb. A dywedodd yr holl bobl, Amen, gan foliannu yr Arglwydd.
37 ¶ Ac efe a adawodd yno, o flaen arch cyfammod yr Arglwydd, Asaph a'i frodyr, i weini ger bron yr arch yn wastadol, gwaith dydd yn ei ddydd:
38 Ac Obed-edom a'u brodyr, wyth a thri ugain; Obed-edom hefyd mab Jeduthun, a Hosah, *i fod* yn borthorion:
39 Sadoc yr offeiriad, a'i frodyr yr offeiriaid, o flaen tabernacl yr Arglwydd, yn yr uchelfa *oedd* yn Gibeon,
40 I offrymmu poeth-offrymmau

i'r ARGLWYDD ar allor y poeth-
offrwm yn wastadol fore a hwyr,
yn ol yr hyn oll *sydd* ysgrifenedig
y'nghyfraith yr ARGLWYDD, yr hon
a orchymynodd efe i Israel:
41 A chyd â hwynt Heman, a
Jeduthun, a'r etholedigion eraill, y
rhai a hysbysasid wrth *eu* henwau,
i foliannu yr ARGLWYDD, am *fod*
ei drugaredd ef yn dragywydd:
42 A chyd â hwynt Heman, a
Jeduthun, yn lleisio âg udgyrn, ac
â symbalau i'r cerddorion, ac offer
cerdd DUW: a meibion Jeduthun
oedd wrth y porth.
43 A'r holl bobl a aethant bob un
i'w dŷ ei hun: a Dafydd a ddy-
chwelodd i fendigo ei dŷ yntau.

PENNOD 17.

1 *Nathan unwaith yn foddlawn i arfeddyd Dafydd ar adeiladu tŷ i Ddiw,* 3 *a chwedi hynny, trwy air Duw, yn gwarafun iddo;* 11 *yn addaw iddo fendithion a daioni yn ei had.* 16 *Gweddi Dafydd a'i ddiolch.*

APHAN oedd Dafydd yn trigo
yn ei dŷ, Dafydd a ddywed-
odd wrth Nathan y prophwyd, Wele
fi yn trigo mewn tŷ o gedrwydd,
ac arch cyfammod yr ARGLWYDD
dan gortynnau.
2 Yna Nathan a ddywedodd wrth
Dafydd, Gwna yr hyn oll *sydd* yn
dy galon; canys *y mae* DUW gyd
â thi.
3 ¶ A'r noson honno y daeth gair
DUW at Nathan, gan ddywedyd,
4 Dos, a dywed wrth Dafydd fy
ngwas, Fel hyn y dywed yr AR-
GLWYDD: Nid adeiledi di i mi dŷ
i breswylio *ynddo.*
5 Canys ni phreswyliais i mewn
tŷ er y dydd y dygais i fyny Israel
hyd y dydd hwn, ond bûm o babell i
babell, ac o dabernacl *bwy gilydd.*
6 Ym mha *le* bynnag y rhodiais
gyd â holl Israel, a yngenais i air
wrth un o farnwyr Israel, i'r rhai
y gorchymynaswn borthi fy mhobl,
gan ddywedyd, Paham nad adeil-
adasoch i mi dŷ o gedrwydd?
7 Ac yr awr hon fel hyn y dy-
wedi wrth Dafydd fy ngwas, Fel
hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd,
Myfi a'th gymmerais di o'r gorlan,
oddi ar ol y praidd, i fod yn dy-
wysog ar fy mhobl Israel.
8 A bûm gyd â thi, i ba le bynnag
y rhodiaist, torrais ymaith hefyd dy
holl elynion o'th flaen, a gwneuth-
um enw i ti megis enw y gwŷr
mawr *sydd* ar y ddaear.
9 Gosodaf hefyd i'm pobl Israel le,
ac a'u plannaf, a hwy a drigant yn eu
lle, ac ni symmudir hwynt mwyach;
a meibion anwiredd ni chwanegant
eu cystuddio, megis yn y cyntaf,
10 Ac er y dyddiau y gorchymyn-
ais i farnwyr *fod* ar fy mhobl Israel;
darostyngaf hefyd dy holl elynion
di, a mynegaf i ti yr adeilada yr
ARGLWYDD i ti dŷ.
11 ¶ A bydd pan gyflawner dy
ddyddiau di i fyned at dy dadau,
y cyfodaf dy had ar dy ol di, yr
hwn a fydd o'th feibion di, a mi
a sicrhâf ei deyrnas ef.
12 Efe a adeilada i mi dŷ, a min-
nau a sicrhâf ei deyrn-gadair ef
byth.
13 Myfi a fyddaf iddo ef yn dad,
ac yntau fydd i mi yn fab, a'm
trugaredd ni thynnaf oddi wrtho
ef, megis y tynnais oddi wrth yr
hwn a fu o'th flaen di.
14 Ond mi a'i gosodaf ef yn fy
nhŷ, ac yn fy nheyrnas byth; a'i
deyrn-gadair ef a sicrhêir byth.
15 Yn ol yr holl eiriau hyn, ac yn
ol yr holl weledigaeth hon, felly y
llefarodd Nathan wrth Dafydd.
16 ¶ A daeth Dafydd y brenhin,
ac a eisteddodd ger bron yr AR-
GLWYDD, ac a ddywedodd, Pwy
ydwyf fi, O ARGLWYDD DDUW, a
pheth *yw* fy nhŷ, pan ddygit fi
hyd yma?
17 Etto bychan *yw* hyn yn dy
olwg di, O DDUW; canys dywed-
aist am dŷ dy was dros hir o am-
ser, a thi a edrychaist arnaf, O AR-
GLWYDD DDUW, fel ar gyfiwr dyn
uchelradd.
18 Pa beth a chwanega Dafydd
ei ddywedyd wrthyt mwyach am
anrhydedd dy was? canys ti a ad-
waenost dy was.
19 O ARGLWYDD, er mwyn dy
was, ac yn ol dy feddwl dy hun, y
gwnaethost yr holl fawredd hyn, i
ddangos pob mawredd.
20 O ARGLWYDD, nid *oes neb* fel
tydi, ac nid *oes* DUW ond tydi, yn ol
yr hyn oll a glywsom â'n clustiau.
21 A pha un genedl ar y ddaear
sydd megis dy bobl Israel, yr hon

yr aeth DUW i'w gwaredu yn bobl iddo ei hun, i osod i ti enw mawr ac ofnadwy, gan fwrw allan genhedloedd o flaen dy bobl, y rhai a waredaist ti o'r Aipht?

22 Ti hefyd a wnaethost dy bobl Israel yn bobl i ti byth: a thi, ARGLWYDD, a aethost yn DDUW iddynt hwy.

23 Am hynny yr awr hon, ARGLWYDD, y gair a lefaraist am dy was, ac am ei dŷ ef, poed sicr fyddo byth: gwna fel y llefaraist.

24 A phoed sicr fyddo, fel y mawrhâer dy enw yn dragywydd, gan ddywedyd, ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, *sydd* DDUW i Israel: a *bydded* tŷ Dafydd dy was yn sicr ger dy fron di.

25 Canys ti, O fy NUW, a ddywedaist i'th was, yr adeiladit ti dŷ iddo ef: am hynny y cafodd dy was weddïo ger dy fron di.

26 Ac yr awr hon, ARGLWYDD, ti ydwyt DDUW, a thi a lefaraist am dŷ dy was, y daioni hwn;

27 Yn awr gan hynny bid wiw gennyt fendigo tŷ dy was, i fod ger dy fron yn dragywydd: am i ti, O ARGLWYDD, ei fendigo, bendigedig *fydd* yn dragywydd.

PENNOD 18.

1 *Dafydd yn darostwng y Philistiaid a'r Moabiaid:* 3 *yn taro Hadareser a'r Syriaid.* 9 *Tou yn danfon Hadoram âg anrhegion i fendithio Dafydd;* 11 *ac yntau yn cyssegru yr anrhegion a'r ysbail i Ddiw;* 13 *yn gosod amddiffynfeydd yn Edom.* 14 *Swyddogion Dafydd.*

A DARFU wedi hyn, i Dafydd daro y Philistiaid, a'u darostwng hwynt, a dwyn Gath a'i phentrefi o law y Philistiaid.

2 Hefyd efe a darawodd Moab; a'r Moabiaid a fuant weision i Dafydd, yn dwyn treth.

3 ¶ Tarawodd Dafydd hefyd Hadareser brenhin Sobah *hyd* Hamath, pan oedd efe yn myned i sicrhâu ei lywodraeth wrth afon Euphrates.

4 A Dafydd a ddug oddi arno ef fil o gerbydau, a saith mil o wŷr meirch, ac ugain mil o wŷr traed; a thorrodd Dafydd linynnau gar *meirch* yr holl gerbydau, ond efe a adawodd o honynt gan cerbyd.

5 A phan ddaeth y Syriaid o Damascus i gynnorthwyo Hadareser brenhin Sobah, Dafydd a laddodd o'r Syriaid ddwy fil ar hugain o wŷr.

6 A gosododd Dafydd *amddiffynfeydd* yn Syria Damascus: a bu y Syriaid yn weision i Dafydd, yn dwyn treth. A'r ARGLWYDD a waredodd Dafydd i ba le bynnag yr aeth.

7 A Dafydd a gymmerodd y tariannau aur oedd gan weision Hadareser, ac a'u dug hwynt i Jerusalem.

8 Dug Dafydd hefyd o Tibhath, ac o Chun, dinasoedd Hadareser, lawer iawn o bres, â'r hwn y gwnaeth Solomon y môr pres, a'r colofnau, a'r llestri pres.

9 ¶ A phan glybu Tou brenhin Hamath daro o Dafydd holl lu Hadareser brenhin Sobah;

10 Efe a anfonodd at y brenhin Dafydd Hadoram ei fab, a phob llestri aur, ac arian, a phres, *gyd âg ef*, i ymofyn am ei iechyd ef, ac i'w fendithio ef, am iddo ryfela yn erbyn Hadareser, a'i daro ef: canys rhyfela yr oedd Hadareser *yn erbyn* Tou.

11 ¶ Y rhai hynny hefyd a gyssegrodd y brenhin Dafydd i'r ARGLWYDD, gyd â'r arian a'r aur a ddygasai efe oddi ar yr holl genhedloedd, *sef* oddi ar Edom, ac oddi ar Moab, ac oddi ar feibion Ammon, ac oddi ar y Philistiaid, ac oddi ar Amalec.

12 Ac Abisai mab Serfiah a laddodd o Edom, yn nyffryn yr halen, dair mil ar bymtheg.

13 ¶ Ac efe a osododd amddiffynfeydd yn Edom; a'r holl Edomiaid a fuant weision i Dafydd. A'r ARGLWYDD a gadwodd Dafydd i ba le bynnag yr aeth efe.

14 ¶ A Dafydd a deyrnasodd ar holl Israel, ac yr oedd efe yn gwneuthur barn a chyfiawnder i'w holl bobl.

15 A Joab mab Serfiah *oedd* ar y llu; a Jehosaphat mab Ahilud yn gofiadur;

16 A Sadoc mab Ahitub, ac Abimelech mab Abïathar, *oedd* offeiriaid; a Safsa yn ysgrifenydd;

17 Benaiah hefyd mab Jehoiada *oedd* ar y Cerethiaid a'r Peleth-

iaid; a meibion Dafydd *oedd* y rhai pennaf wrth law y brenhin.

PENNOD 19.

1 *Trahа Hanun â'r cenhadau a ddanfonasai Dafydd i'w gysuro ef am ei dad.* 6 *Yr Ammoniaid yn cael nerth gan y Syriaid; a Joab ac Abisai yn eu gorchfygu hwynt.* 16 *Sophach yn cael cymmorth etto gan y Syriaid; a Dafydd yn ei ladd ef.*

AC ar ol hyn y bu i Nahas brenhin meibion Ammon farw; a'i fab a deyrnasodd yn ei le ef.

2 A Dafydd a ddywedodd, Gwnaf garedigrwydd â Hanun mab Nahas, o herwydd gwnaeth ei dad â myfi garedigrwydd. Ac anfonodd Dafydd genhadau i'w gysuro ef am ei dad. A gweision Dafydd a ddaethant i wlad meibion Ammon, at Hanun, i'w gysuro ef.

3 A thywysogion meibion Ammon a ddywedasant wrth Hanun, Ai anrhydeddu dy dad di y mae Dafydd yn dy dyb di, am iddo anfon cysurwyr attat ti? onid i chwilio, ac i ddifetha, ac i droedio y wlad, y daeth ei weision ef attat ti?

4 Yna y cymmerth Hanun weision Dafydd, ac a'u heilliodd hwynt, ac a dorrodd eu dillad hwynt yn eu hanner, wrth eu cluniau, ac a'u gyrrodd hwynt ymaith.

5 A hwy a aethant, ac a fynegasant i Dafydd am y gwŷr. Ac efe a anfonodd i'w cyfarfod hwynt: canys y gwŷr oedd wedi cywilyddio yn fawr. A dywedodd y brenhin, Trigwch yn Jericho hyd oni thyfo eich barfau; yna dychwelwch.

6 ¶ Yna meibion Ammon a welsant ddarfod iddynt eu gwneuthur eu hunain yn gas gan Dafydd; ac anfonodd Hanun a meibion Ammon fil o dalentau arian, i gyflogi iddynt gerbydau a marchogion o Mesopotamia, ac o Syria-maachah, ac o Sobah.

7 A chyflogasant iddynt ddeuddeng mil ar hugain o gerbydau, a brenhin Maachah a'i bobl; y rhai a ddaethant, ac a wersyllasant o flaen Medeba. A meibion Ammon hefyd a ymgasglasant o'u dinasoedd, ac a ddaethant i ryfel.

8 A phan glybu Dafydd, efe a anfonodd Joab, a holl lu y cedyrn.

9 A meibion Ammon a aethant allan, ac a ymfyddinasant *wrth* borth y ddinas: a'r brenhinoedd y rhai a ddelsai *oedd* o'r neilldu yn y maes.

10 A phan ganfu Joab fod wyneb y rhyfel yn ei erbyn ef ym mlaen ac yn ol, efe a etholodd o holl etholedigion Israel, ac a'u byddinodd *hwynt* yn erbyn y Syriaid.

11 A gweddill y bobl a roddes efe dan law Abisai ei frawd; a hwy a ymfyddinasant yn erbyn meibion Ammon.

12 Ac efe a ddywedodd, Os trech *fydd* y Syriaid na mi, yna bydd di yn gynnorthwy i mi: ond os meibion Ammon a fyddant drech na thi, yna mi a'th gynnorthwyaf dithau.

13 Bydd rymmus, ac ymwrolwn dros ein pobl, a thros ddinasoedd ein Duw; a gwnaed yr ARGLWYDD yr hyn *fyddo* da yn ei olwg ef.

14 Yna y nesaodd Joab, a'r bobl *oedd* gyd âg ef, yn erbyn y Syriaid i'r rhyfel; a hwy a ffoisant o'i flaen ef.

15 A phan welodd meibion Ammon ffoi o'r Syriaid, hwythau hefyd a ffoisant o flaen Abisai ei frawd ef, ac a aethant i'r ddinas; a Joab a ddaeth i Jerusalem.

16 ¶ A phan welodd y Syriaid eu lladd o flaen Israel, hwy a anfonasant genhadau, ac a ddygasant allan y Syriaid y rhai *oedd* o'r tu hwnt i'r afon; a Sophach capten llu Hadareser *oedd* o'u blaen hwynt.

17 A mynegwyd i Dafydd; ac efe a gasglodd holl Israel, ac a aeth dros yr Iorddonen, ac a ddaeth arnynt hwy, ac a ymfyddinodd yn eu herbyn hwynt. A phan ymfyddinodd Dafydd yn erbyn y Syriaid, hwy a ryfelasant âg ef.

18 Ond y Syriaid a ffoisant o flaen Israel; a lladdodd Dafydd o'r Syriaid saith mil *o wŷr yn ymladd* mewn cerbydau, a deugain mil o wŷr traed, ac a laddodd Sophach capten y llu.

19 A phan welodd gweision Hadareser eu lladd o flaen Israel, hwy a heddychasant â Dafydd, a gwasanaethasant ef: ac ni fynnai y Syriaid gynnorthwyo meibion Ammon mwyach.

PENNOD 20.

1 *Joab yn gwarchae ar Rabbah, a Dafydd yn ei hanrheithio hi, ac yn arteithio ei phobl.* 4 *Lladd tri chawr mewn tair câd yn erbyn y Philistiaid.*

DARFU hefyd wedi gorphen y flwyddyn, yn amser mhyned o'r brenhinoedd allan *i ryfela*, arwain o Joab gadernid y llu, ac anrheithio gwlad meibion Ammon, ac efe a ddaeth ac a warchaeodd ar Rabbah: ond Dafydd a arhosodd yn Jerusalem: a Joab a darawodd Rabbah, ac a'i dinystriodd hi.

2 A chymmerth Dafydd goron eu brenhin hwynt oddi am ei ben, a chafodd hi o bwys talent o aur, ac ynddi feini gwerthfawr, a hi a roed am ben Dafydd: ac efe a ddug anrhaith fawr iawn *o'r* ddinas.

3 A'r bobl *oedd* ynddi a ddug efe allan, ac a'*u* torrodd *hwynt* â llifiau, ac âg ogau heiyrn, ac â bwyeill: ac fel hyn y gwnaeth Dafydd â holl ddinasoedd meibion Ammon. A dychwelodd Dafydd a'r holl bobl i Jerusalem.

4 ¶ Ac ar ol hyn y cyfododd rhyfel yn Geser yn erbyn y Philistiaid: yna Sibbechai yr Husathiad a laddodd Sippai *yr hwn oedd* o feibion y cawr; felly y darostyngwyd hwynt.

5 A bu drachefn ryfel yn erbyn y Philistiaid, ac Elhanan mab Jair a laddodd Lahmi, brawd Goliath y Gethiad, a phaladr ei waywffon ef *oedd* fel carfan gwehydd.

6 Bu hefyd drachefn ryfel yn Gath, ac yr oedd gŵr hir, a'i fysedd *oeddynt* bob yn chwech a chwech, *sef* pedwar ar hugain; yntau hefyd a anesid i'r cawr.

7 Ond pan ddifenwodd efe Israel, Jonathan mab Simea brawd Dafydd a'i lladdodd ef.

8 Y rhai hyn a anwyd i'r cawr yn Gath, ac a laddwyd trwy law Dafydd, a thrwy law ei weision ef.

PENNOD 21.

1 *Dafydd, wedi ei demtio gan Satan, yn gyrru Joab i rifo y bobl,* 5 *a chwedi dwyn cyfrif y bobl atto, yn edifar ganddo hynny,* 9 *ac yn cael ei ddewis o dri phla, ac yn dewis haint y nodau,* 14 *ac wedi marw deng mil a thri ugain o'r bobl, trwy edifeirwch, yn achub dinystr Jerusalem.* 18 *Dafydd, trwy gynghor Gad, yn prynu llawr-dyrnu Ornan, ac yn gwneuthur ymo allor, a Duw trwy dân yn rhoi iddo arwydd o'i ffafr, ac yn attal y pla.* 28 *Dafydd yn aberthu ymo, wedi ei attal gan angel rhag myned i Gibeon.*

A SATAN a safodd i fyny yn erbyn Israel, ac a annogodd Dafydd i gyfrif Israel.

2 A dywedodd Dafydd wrth Joab, ac wrth bennaethiaid y bobl, Ewch, cyfrifwch Israel o Beerseba hyd Dan; a dygwch attaf fi, fel y gwypwyf eu rhifedi hwynt.

3 A dywedodd Joab, Chwaneged yr ARGLWYDD ei bobl yn gan cymmaint ag *ydynt:* O fy arglwydd frenhin, onid gweision i'm harglwydd *ydynt* hwy oll? paham y cais fy arglwydd hyn? paham y bydd efe yn achos camwedd i Israel?

4 Ond gair y brenhin a fu drech na Joab: a Joab a aeth allan, ac a dramwyodd trwy holl Israel, ac a ddaeth i Jerusalem.

5 ¶ A rhoddes Joab nifer rhifedi y bobl i Dafydd. A holl Israel oedd fil o filoedd a chan mil o wŷr yn tynnu cleddyf; a Judah *oedd* bedwar can *mil* a deng mil a thri ugain o wŷr yn tynnu cleddyf.

6 Ond Lefi a Benjamin ni chyfrifasai efe yn eu mysg hwynt; canys ffiaidd oedd gan Joab air y brenhin.

7 A bu ddrwg y peth hyn y'ngolwg DUW, ac efe a darawodd Israel.

8 A Dafydd a ddywedodd wrth DDUW, Pechais yn ddirfawr, o herwydd i mi wneuthur y peth hyn: ac yr awr hon, dilea, attolwg, anwiredd dy was, canys gwneuthum yn ynfyd iawn.

9 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Gad, gweledydd Dafydd, gan ddywedyd,

10 Dos, a llefara wrth Dafydd, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Tri *pheth* yr ydwyf fi yn eu gosod o'th flaen di; dewis i ti un o honynt, a mi a'*i* gwnaf i ti.

11 Yna Gad a ddaeth at Dafydd, ac a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Cymmer i ti

12 *Naill* ai tair blynedd o newyn; ai *dy* ddifetha dri mis o flaen dy wrthwynebwyr, a chleddyf dy elynion yn *dy* oddiweddyd; ai ynte cleddyf yr ARGLWYDD, sef haint

y nodau, yn y tir dri diwrnod, ac angel yr ARGLWYDD yn dinystrio trwy holl derfynau Israel. Ac yr awr hon edrych pa air a ddygaf drachefn i'r hwn a'm hanfonodd.

13 A Dafydd a ddywedodd wrth Gad, Y mae yn gyfyng iawn arnaf fi; syrthiwyf, attolwg, yn llaw yr ARGLWYDD, canys ei drugareddau ef *ydynt* aml iawn, ac na syrthiwyf yn llaw dyn.

14 ¶ Yna y rhoddes yr ARGLWYDD haint y nodau ar Israel: a syrthiodd o Israel ddeng mil a thri ugain *mil* o wŷr.

15 A DUW a anfonodd angel i Jerusalem i'w dinystrio hi: ac fel yr oedd yn ei dinystrio, yr ARGLWYDD a edrychodd, ac a edifarhaodd am y drwg, ac a ddywedodd wrth yr angel oedd yn dinystrio, Digon bellach, attal dy law. Ac angel yr ARGLWYDD oedd yn sefyll wrth lawr-dyrnu Ornan y Jebusiad.

16 A Dafydd a ddyrchafodd ei lygaid, ac a ganfu angel yr ARGLWYDD yn sefyll rhwng y ddaear a'r nefoedd, a'i gleddyf noeth yn ei law wedi ei estyn tu a Jerusalem. A syrthiodd Dafydd a'r henuriaid, *y rhai oedd* wedi ymwisgo mewn sachlïan, ar eu hwynebau.

17 A Dafydd a ddywedodd wrth DDUW, Onid myfi a ddywedais am gyfrif y bobl? a mi yw yr hwn a bechais, ac a wneuthum fawr ddrwg; ond y defaid hyn, beth a wnaethant hwy? O ARGLWYDD fy NUW, bydded, attolwg, dy law arnaf fi, ac ar dŷ fy nhad, ac nid yn bla ar dy bobl.

18 ¶ Yna angel yr ARGLWYDD a archodd i Gad ddywedyd wrth Dafydd, am fyned o Dafydd i fyny i gyfodi allor i'r ARGLWYDD yn llawr-dyrnu Ornan y Jebusiad.

19 A Dafydd a aeth i fyny, yn ol gair Gad, yr hwn a lefarasai efe yn enw yr ARGLWYDD.

20 Yna y trodd Ornan, ac a ganfu yr angel, a'i bedwar mab gyd âg ef a ymguddiasant; ac Ornan oedd yn dyrnu gwenith.

21 A Dafydd a ddaeth at Ornan; ac edrychodd Ornan, ac a ganfu Dafydd, ac a aeth allan o'r llawr-dyrnu, ac a ymgrymmodd i Dafydd, â'i wyneb tu a'r ddaear.

22 A dywedodd Dafydd wrth Ornan, Moes i mi le y llawr-dyrnu, fel yr adeiladwyf ynddo allor i'r ARGLWYDD: dyro ef i mi am *ei* lawn werth; fel yr attalier y pla oddi wrth y bobl.

23 Ac Ornan a ddywedodd wrth Dafydd, Cymmer i ti, a gwnaed fy arglwydd frenhin yr hyn *fyddo* da yn ei olwg. Wele, rhoddaf yr ychain yn boeth-offrwm, a'r offer dyrnu yn gynnud, a'r gwenith yn fwyd-offrwm: hyn oll a roddaf.

24 A'r brenhin Dafydd a ddywedodd wrth Ornan, Nid *felly*, ond gan brynu y prynaf ef am *ei* lawn werth: canys ni chymmeraf i'r ARGLWYDD yr eiddot ti, ac nid offrymmaf boeth-offrwm yn rhad.

25 Felly y rhoddes Dafydd i Ornan am y lle chwe chan sicl o aur wrth bwys.

26 Ac yno yr adeiladodd Dafydd allor i'r ARGLWYDD, ac a offrymmodd boeth-offrymmau, ac ebyrth hedd, ac a alwodd ar yr ARGLWYDD; ac efe a'i hattebodd ef o'r nefoedd trwy dân ar allor y poeth-offrwm.

27 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth yr angel; ac yntau a roes ei gleddyf yn ei wain drachefn.

28 ¶ Y pryd hwnnw, pan ganfu Dafydd ddarfod i'r ARGLWYDD wrandaw arno ef yn llawr-dyrnu Ornan y Jebusiad, efe a aberthodd yno.

29 Ond tabernacl yr ARGLWYDD, yr hon a wnelsai Moses yn yr anialwch, ac allor y poeth-offrwm, *oedd* y pryd hwnnw yn yr uchelfa yn Gibeon:

30 Ac ni allai Dafydd fyned o'i blaen hi i ymofyn â DUW; canys ofnasai rhag cleddyf angel yr ARGLWYDD.

PENNOD 22.

1 *Dafydd, wedi gwybod y lle yr adeiledid y demi, yn parottöi llawer o ddefnyddiau i'w hadeilad hi.* 6 *Dafydd yn dysgu i Solomon addewidion Duw, a'i ddyled wrth adeiladu y demi,* 17 *ac yn gorchymyn i'r tywysogion ei gynnorthwyo ef.*

A DYWEDODD Dafydd, Hwn yw tŷ yr ARGLWYDD DDUW, a dyma allor y poeth-offrwm i Israel.

2 Dywedodd Dafydd hefyd am gasglu y dïeithriaid *oedd* yn nhir

Israel; ac efe a osododd seiri meini
i naddu cerrig nadd, i adeiladu tŷ
DDUW.
3 A pharottôdd Dafydd haiarn yn
helaeth, tu ag at hoelion drysau y
pyrth, ac i'r cyssylltiadau, a phres
mor helaeth ag nad *oedd arno* bwys;
4 Coed cedr hefyd allan o rif: can-
ys y Sidoniaid a'r Tyriaid a ddyg-
ent gedrwydd lawer i Dafydd.
5 A dywedodd Dafydd, Solomon
fy mab *sydd* ieuangc a thyner, a'r
tŷ a adeiledir i'r ARGLWYDD, *rhaid*
iddo fod mewn mawredd, mewn
rhagoriaeth, mewn enw, ac mewn
gogoniant, trwy yr holl wledydd:
parottoaf yn awr tu ag atto ef.
Felly y parottôdd Dafydd yn hel-
aeth cyn ei farwolaeth.
6 ¶ Ac efe a alwodd ar Solomon ei
fab, ac a orchymynodd iddo adeil-
adu tŷ i ARGLWYDD DDUW Israel.
7 Dywedodd Dafydd hefyd wrth
Solomon, Fy mab, yr oedd yn fy
mryd i adeiladu tŷ i enw yr AR-
GLWYDD fy NUW.
8 Eithr gair yr ARGLWYDD a ddaeth
attaf fi, gan ddywedyd, Gwaed
lawer a dywelltaist ti, a rhyfeloedd
mawrion a wnaethost ti: nid adeil-
edi di dŷ i'm henw i, canys gwaed
lawer a dywelltaist ar y ddaear yn
fy ngŵydd i.
9 Wele, mab a enir i ti, efe a fydd
ŵr llonydd, a mi a roddaf lonydd-
wch iddo ef gan ei holl elynion o
amgylch: canys Solomon fydd ei
enw ef, heddwch hefyd a thangnef-
edd a roddaf i Israel yn ei ddydd-
iau ef.
10 Efe a adeilada dŷ i'm henw,
ac efe a fydd i mi yn fab, a min-
nau yn dad iddo yntau: sicrhâf
hefyd orseddfa ei frenhiniaeth ef
ar Israel byth.
11 Yn awr fy mab, yr ARGLWYDD
fyddo gyd â thi, a ffynna dithau,
ac adeilada dŷ yr ARGLWYDD dy
DDUW, megis ag y llefarodd efe
am danat ti.
12 Yn unig rhodded yr ARGLWYDD
i ti ddoethineb, a deall, a rhodded
i ti orchymynion am Israel, fel y
cadwech gyfraith yr ARGLWYDD dy
DDUW.
13 Yna y ffynni, os gwyli ar wneuth-
ur y deddfau a'r barnedigaethau a
orchymynodd yr ARGLWYDD i Mo-
ses am Israel. Ymgryfhâ, ac ym-
wrola; nac ofna, ac na arswyda.
14 Ac wele, yn fy nhlodi y par-
ottoais i dŷ yr ARGLWYDD gan mil
o dalentau aur, a mil o filoedd o
dalentau arian; ar bres hefyd, ac
ar haiarn, nid *oes* bwys; canys
y mae yn helaeth: coed hefyd a
meini a barottoais i; ychwanega
dithau attynt hwy.
15 Hefyd *y mae* yn aml gyd â thi
weithwyr gwaith, *sef* cymmynwyr,
a seiri maen a phren, a phob rhai
celfydd ym mhob gwaith.
16 Ar aur, ar arian, ar bres, ac ar
haiarn, nid *oes* rifedi. Cyfod di-
thau, a gweithia, a'r ARGLWYDD a
fydd gyd â thi.
17 ¶ A Dafydd a orchymynodd i
holl dywysogion Israel gynnorthwyo
Solomon ei fab, *gan ddywedyd*,
18 Onid *yw* yr ARGLWYDD eich
DUW gyd â chwi? ac *oni* roddes
efe lonyddwch i chwi oddi am-
gylch? canys rhoddes yn fy llaw
i drigolion y tir; a'r tir a ddaros-
tyngwyd o flaen yr ARGLWYDD, ac
o flaen ei bobl ef.
19 Yn awr rhoddwch eich calon
a'ch enaid i geisio yr ARGLWYDD
eich DUW; cyfodwch hefyd, ac ad-
eiledwch gyssegr yr ARGLWYDD
DDUW, i ddwyn arch cyfammod
yr ARGLWYDD, a sanctaidd lestri
DUW, i'r tŷ a adeiledir i enw yr
ARGLWYDD.

PENNOD 23.

1 *Dafydd yn ei henaint yn gwneuthur Solomon yn frenhin.* 2 *Rhifedi a dosparthiadau y Lefiaid.* 7 *Teulwaedd y Gersoniaid.* 12 *Meibion Cohath.* 21 *Meibion Merari.* 24 *Swydd y Lefiaid.*

A PHAN *oedd* Dafydd yn hen,
ac yn llawn o ddyddiau, efe
a osododd Solomon ei fab yn fren-
hin ar Israel.
2 ¶ Ac efe a gynhullodd holl dy-
wysogion Israel, a'r offeiriaid, a'r
Lefiaid.
3 A'r Lefiaid a gyfrifwyd o fab
deng mlwydd ar hugain, ac uchod:
a'u nifer hwy wrth eu pennau, bob
yn ŵr, *oedd* onid dwy fil deugain.
4 O'r rhai *yr oedd* pedair mil ar
hugain i oruchwylio ar waith tŷ yr
ARGLWYDD; ac yn swyddogion, ac
yn farnwyr, chwe mil:
5 A phedair mil yn borthorion, a

phedair mil yn moliannu yr ARGLWYDD â'r offer a wnelswn i, *ebe Dafydd*, i foliannu.

6 A dosparthodd Dafydd hwynt yn ddosparthiadau ym mysg meibion Lefi, *sef* Gerson, Cohath, a Merari.

7 ¶ O'r Gersoniaid *yr oedd* Laadan a Simei.

8 Meibion Laadan; y pennaf Jehiel, a Setham, a Jöel, tri.

9 Meibion Simei; Selomith, a Hasiel, a Haran, tri. Y rhai hyn *oedd* bennau-cenedl Laadan.

10 Meibion Simei hefyd *oedd*, Jahath, Sina, a Jeus, a Berïah. Dyma bedwar mab Simei.

11 A Jahath oedd bennaf, a Sisah yn ail: ond Jeus a Berïah nid oedd nemmawr o feibion iddynt; am hynny yr oeddynt hwy yn un cyfrif, wrth dŷ *eu* tad.

12 ¶ Meibion Cohath; Amram, Ishar, Hebron, ac Ussiel, pedwar.

13 Meibion Amram *oedd*, Aaron a Moses; ac Aaron a neillduwyd i sancteiddio y cyssegr sancteiddiolaf, efe a'i feibion byth, i arogldarthu ger bron yr ARGLWYDD, i'w wasanaethu ef, ac i fendigo yn ei enw ef yn dragywydd.

14 A Moses gŵr DUW, ei feibion ef a alwyd yn llwyth Lefi.

15 Meibion Moses *oedd*, Gersom ac Elïeser.

16 *O* feibion Gersom; Sebuel *oedd* y pennaf.

17 A meibion Elïeser *oedd*, Rehabïah y cyntaf. Ac i Elïeser nid oedd meibion eraill; ond meibion Rehabïah a amlhasant yn ddirfawr.

18 *O* feibion Ishar; Selomith y pennaf.

19 *O* feibion Hebron; Jerïah y cyntaf, Amarïah yr ail, Jahasiel y trydydd, a Jecameam y pedwerydd.

20 *O* feibion Ussiel; Michah y cyntaf, a Jesïah yr ail.

21 ¶ Meibion Merari *oedd*, Mahli a Musi. Meibion Mahli; Eleasar a Chis.

22 A bu farw Eleasar, a meibion nid oedd iddo ef, ond merched; a meibion Cis eu brodyr a'u priododd hwynt.

23 Meibion Musi; Mahli, ac Eder, a Jerimoth, tri.

24 ¶ Dyma feibion Lefi, yn ol tŷ en tadau, pennau *eu* cenedl, wrth eu rhifedi, dan nifer *eu* henwau wrth eu pennau, y rhai oedd yn gwneuthur y gwaith i wasanaeth tŷ yr ARGLWYDD, o fab ugain mlwydd ac uchod.

25 Canys dywedodd Dafydd, ARGLWYDD DDUW Israel a roddes lonyddwch i'w bobl, i aros yn Jerusalem byth;

26 A hefyd i'r Lefiaid: ni ddygant *mwyach* y tabernacl, na dim o'i lestri, i'w wasanaeth ef.

27 Canys yn ol geiriau diweddaf Dafydd y cyfrifwyd meibion Lefi, o fab ugain mlwydd ac uchod:

28 A'u gwasanaeth hwynt *oedd* i fod wrth law meibion Aaron yng ngweinidogaeth tŷ yr ARGLWYDD, yn y cynteddau, ac yn y celloedd, ac ym mhuredigaeth pob sancteiddbeth, ac y'ngwaith gweinidogaeth tŷ DDUW;

29 Yn y bara gosod hefyd, ac ym mheillied y bwyd-offrwm, ac yn y teisennau croyw, yn y radell hefyd, ac yn y badell ffrïo, ac ym mhob mesur a meidroldeb:

30 Ac i sefyll bob bore i foliannu ac i ogoneddu yr ARGLWYDD, felly hefyd brydnawn:

31 Ac i offrymmu pob offrwm poeth i'r ARGLWYDD ar y Sabbathau, ar y newydd-loerau, ac ar y gwyliau gosodedig, wrth rifedi, yn ol y ddefod *sydd* arnynt yn wastadol ger bron yr ARGLWYDD:

32 Ac i gadw goruchwyliaeth pabell y cyfarfod, a goruchwyliaeth y cyssegr, a goruchwyliaeth meibion Aaron eu brodyr, y'ngwasanaeth tŷ yr ARGLWYDD.

PENNOD 24.

1 *Dosparthu meibion Aaron yn bedwar ar hugain o ddosparthiadau wrth goelbren.* 20 *Rhannu y Cohathiaid yr ar Merariaid wrth goelbren.*

DYMA ddosparthiadau meibion Aaron. Meibion Aaron *oedd*, Nadab, ac Abihu, Eleasar, ac Ithamar.

2 A bu farw Nadab ac Abihu o flaen eu tad, ac nid oedd meibion iddynt: am hynny Eleasar ac Ithamar a offeiriadasant.

3 A Dafydd a'u dosparthodd hwynt, Sadoc o feibion Eleasar, ac

Ahimelech o feibion Ithamar, yn ol eu swyddau, yn eu gwasanaeth.
4 A chafwyd mwy o feibion Eleasar yn llywodraethwyr nag o feibion Ithamar; ac *fel hyn* y rhannwyd hwynt. *Yr ydoedd* o feibion Eleasar yn bennau ar dŷ *eu* tadau un ar bymtheg; ac o feibion Ithamar, yn ol tŷ eu tadau, wyth.
5 Felly y dosparthwyd hwynt wrth goelbrennau, y naill gyd â'r llall; canys tywysogion y cyssegr, a thywysogion *tŷ* Dduw, oedd o feibion Eleasar, ac o feibion Ithamar.
6 A Semaiah mab Nethaneel yr ysgrifenydd, o *lwyth* Lefi, a'u hysgrifenodd hwynt ger bron y brenhin, a'r tywysogion, a Sadoc yr offeiriad, ac Ahimelech mab Abïathar, a phen-cenedl yr offeiriaid, a'r Lefiaid; un teulu a ddaliwyd i Eleasar, ac *un arall* a ddaliwyd i Ithamar.
7 A'r coelbren cyntaf a ddaeth i Jehoiarib, a'r ail i Jedaiah,
8 Y trydydd i Harim, y pedwerydd i Seorim,
9 Y pummed i Malchïah, y chweched i Mijamin,
10 Y seithfed i Haccos, yr wythfed i Abïah,
11 Y nawfed i Jesua, y degfed i Sechanïah,
12 Yr unfed ar ddeg i Eliasib, y deuddegfed i Jacim,
13 Y trydydd ar ddeg i Huppah, y pedwerydd ar ddeg i Jesebeab,
14 Y pymthegfed i Bilgah, yr unfed ar bymtheg i Immer,
15 Y ddeufed ar bymtheg i Hesir, y deunawfed i Aphses,
16 Y pedwerydd ar bymtheg i Pethahïah, yr ugeinfed i Jehesecel,
17 Yr unfed ar hugain i Jachin, y ddeufed ar hugain i Gamul,
18 Y trydydd ar hugain i Delaiah, y pedwerydd ar hugain i Maasïah.
19 Dyma eu dosparthiadau hwynt yn eu gwasanaeth, i fyned i dŷ yr Arglwydd yn ol eu defod, dan law Aaron eu tad, fel y gorchymynasai Arglwydd Dduw Israel iddo ef.
20 ¶ A'r lleill o feibion Lefi *oedd y rhai hyn.* O feibion Amram; Subael: o feibion Subael; Jehdeiah.
21 Am Rehabïah; Isïah *oedd* ben ar feibion Rehabïah.
22 O'r Ishariaid; Selomoth: o feibion Selomoth; Jahath.
23 A meibion *Hebron oedd*, Jerïah *y cyntaf*, Amarïah yr ail, Jahasiel y trydydd, *a* Jecameam y pedwerydd.
24 *O* feibion Ussiel; Michah: o feibion Michah; Samir.
25 Brawd Michah *oedd* Isïah; o feibion Isïah; Secharïah.
26 Meibion Merari *oedd*, Mahli a Musi: meibion Jaasïah; Beno.
27 ¶ Meibion Merari o Jaasïah; Beno, a Soham, a Saccur, ac Ibri.
28 O Mahli *y daeth* Eleasar, ac ni bu iddo ef feibion.
29 Am Cis: mab Cis *oedd* Jerahmeel.
30 A meibion Musi *oedd*, Mahli, ac Eder, a Jerimoth. Dyma feibion y Lefiaid yn ol tŷ eu tadau.
31 A hwy a fwriasant goelbrennau ar gyfer eu brodyr meibion Aaron, ger bron Dafydd y brenhin, a Sadoc, ac Ahimelech, a phennau-cenedl yr offeiriaid a'r Lefiaid; *ïe*, y pen-cenedl ar gyfer y brawd ieuangaf.

PENNOD 25.

1 *Rhifedi a swyddau y cantorion.* 8 *Eu dosparthu hwy yn bedwar dosparthiad ar hugain.*

A NEILLDUODD Dafydd, a thywysogion y llu, tu ag at y gwasanaeth, o feibion Asaph, a Heman, a Jeduthun, y rhai a brophwydent â thelynau, ac â nablau, ac â symbalau; a nifer y gweithwyr yn ol eu gwasanaeth ydoedd:
2 O feibion Asaph; Saccur, a Joseph, a Nethanïah, Asarelah, meibion Asaph, dan law Asaph, *yr hwn* oedd yn prophwydo wrth law y brenhin.
3 O Jeduthun: meibion Jeduthun; Gedalïah, a Seri, a Jesaiah, a Hasabïah, Mattithïah, chwech, dan law Jeduthun eu tad, ar y delyn yn prophwydo, i foliannu ac i glodfori yr Arglwydd.
4 O Heman: meibion Heman; Buccïah, Mattanïah, Ussiel, Sebuel, a Jerimoth, Hananïah, Hanani, Eliathah, Gìdalti, a Romamtieser, Josbecasah, Màlothi, Hothir, *a* Mahasioth:
5 Y rhai hyn oll *oedd* feibion Heman, gweledydd y brenhin y'ngeiriau Duw, i ddyrchafu y corn. Duw

hefyd a roddes i Heman bedwar ar ddeg o feibion, a thair o ferched.
6 Y rhai hyn oll *oedd* dan law eu tad yn canu *yn* nhŷ yr ARGLWYDD, â symbalau, *a* nablau, a thelynau, i wasanaeth tŷ DDUW; yn ol trefn y brenhin i Asaph, a Jeduthun, a Heman.
7 A'u nifer hwynt, ynghyd â'u brodyr dysgedig y'nghaniadau yr ARGLWYDD, *sef* pob *un* cyfarwydd, oedd ddau cant pedwar ugain ac wyth.
8 ¶ A hwy a fwriasant goelbrennau, cylch yn erbyn *cylch*, bychan a mawr, athraw a disgybl.
9 A'r coelbren cyntaf a ddaeth dros Asaph i Joseph: yr ail i Gedalïah; efe, a'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
10 Y trydydd i Saccur; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
11 Y pedwerydd i Isri; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
12 Y pummed i Nethanïah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
13 Y chweched i Buccïah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
14 Y seithfed i Jesarelah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
15 Yr wythfed i Jesaiah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
16 Y nawfed i Mattanïah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
17 Y degfed i Simei; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
18 Yr unfed ar ddeg i Asareel; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
19 Y deuddegfed i Hasabïah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
20 Y trydydd ar ddeg i Subael; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
21 Y pedwerydd ar ddeg i Mattithïah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
22 Y pymthegfed i Jerimoth; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
23 Yr unfed ar bymtheg i Hananïah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
24 Y ddeufed ar bymtheg i Josbecasah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
25 Y deunawfed i Hanani; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
26 Y pedwerydd ar bymtheg i Màlothi; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
27 Yr ugeinfed i Elïathah; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
28 Yr unfed ar hugain i Hothir; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
29 Y ddeufed ar hugain i Gìdalti; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
30 Y trydydd ar hugain i Mahasioth; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.
31 Y pedwerydd ar hugain i Romamti-eser; *efe*, *a*'i feibion a'i frodyr *oedd* ddeuddeg.

PENNOD 26.

1 *Dosparthiadau y porthorion.* 13 *Rhannu iddynt y pyrth wrth goelbren.* 20 *Y Lefaid y rhai oedd ar y trysorau.* 29 *Swyddogion a barnwyr.*

AM ddosparthiad y porthorion: O'r Corhiaid *yr oedd* Meselemïah mab Core, o feibion Asaph.
2 A meibion Meselemïah *oedd*, Secharïah y cyntaf-anedig, Jediael yr ail, Sebadïah y trydydd, Jathniel y pedwerydd,
3 Elam y pummed, Jehohanan y chweched, Elioenai y seithfed.
4 A meibion Obed-edom; Semaiah y cyntaf-anedig, Jehosabad yr ail, Joah y trydydd, a Sachar y pedwerydd, a Nethaneel y pummed,
5 Ammiel y chweched, Issachar y seithfed, Peulthai yr wythfed: canys DUW a'i bendithiodd ef.
6 Ac i Semaiah ei fab ef y ganwyd meibion, y rhai a arglwyddiaethasant ar dŷ eu tad: canys cedyrn o nerth *oeddynt* hwy.
7 Meibion Semaiah; Othni, a Rephael, ac Obed, Elsabad; ei frodyr ef *oedd* wŷr nerthol, *sef* Elihu, a Semachïah.
8 Y rhai hyn oll o feibion Obed-edom: hwynt-hwy, a'u meibion, a'u brodyr, yn wŷr nerthol mewn cryfder, tu ag at y weinidogaeth, *oedd* dri ugain a dau o Obed-edom.
9 Ac i Meselemïah, yn feibion ac yn frodyr, *yr oedd* tri ar bymtheg o wŷr nerthol.
10 O Hosah hefyd, o feibion Merari, yr oedd meibion; Simri y pen-

naf, (er nad oedd efe gyntaf-anedig, etto ei dad a'i gosododd ef yn ben ;)

11 Hilcïah yr ail, Tebalïah y trydydd, Sechariah y pedwerydd : holl feibion a brodyr Hosah *oedd* dri ar ddeg.

12 Ym mhlith y rhai hyn yr *oedd* dosparthiadau y porthorion, *sef* ym mhlith y pennaethiaid, *ac iddynt* oruchwyliaeth ar gyfer eu brodyr i wasanaethu yn nhŷ yr ARGLWYDD.

13 ¶ A hwy a fwriasant goelbrennau, fychan a mawr, yn ol tŷ eu tadau, am bob porth.

14 A choelbren Selemïah a syrthiodd tu a'r dwyrain : a *thros* Sechariah ei fab, cynghorwr deallgar, y bwriasant hwy goelbrennau ; a'i goelbren ef a ddaeth tu a'r gogledd.

15 I Obed-edom tu a'r dehau, ac i'w feibion, *y daeth* tŷ Asuppim.

16 I Suppim, a Hosah, tu a'r gorllewin, gyd â phorth Sàlecheth, yn ffordd y rhiw, *yr oedd* y naill oruchwyliaeth ar gyfer y llall.

17 Tu a'r dwyrain *yr oedd* chwech o Lefiaid, tu a'r gogledd pedwar beunydd, tu a'r dehau pedwar beunydd, a thu ag Asuppim dau *a* dau.

18 A Pharbar tu a'r gorllewin, pedwar ar y ffordd, *a* dau yn Parbar.

19 Dyma ddosparthiadau y porthorion, o feibion Core, ac o feibion Merari.

20 ¶ Ac *o*'r Lefiaid, Ahïah *oedd* ar drysorau tŷ DDUW, ac ar drysorau y pethau cyssegredig.

21 *Am* feibion Laadan : meibion y Gersoniad Laadan, pennau tylwyth Laadan y Gersoniad, *oedd* Jehïeli.

22 Meibion Jehïeli ; Setham, a Jöel ei frawd, *oedd* ar drysorau tŷ yr ARGLWYDD.

23 O'r Amramiaid, *a*'r Ishariaid, *o*'r Hebroniaid, *a*'r Ussieliaid :

24 A Sebuel mab Gersom, mab Moses, *oedd* olygwr ar y trysorau.

25 A'i frodyr ef o Eleasar ; Rehabïah ei fab ef, a Jesaiah ei fab yntau, a Joram ei fab yntau, a Sichri ei fab yntau, a Selomith ei fab yntau.

26 Y Selomith hwnnw a'i frodyr *oedd* ar holl drysorau y pethau cyssegredig a gyssegrasai Dafydd frenhin, a'r tadau pennaf, a thywysogion y miloedd a'r cannoedd, a thywysogion y llu.

27 O'r rhyfeloedd ac o'r yspail y cyssegrasant *bethau* i gynnal tŷ yr ARGLWYDD.

28 A'r hyn oll a gyssegrodd Samuel y gweledydd, a Saul mab Cis, ac Abner mab Ner, a Joab mab Serfiah, *a* phwy bynnag a gyssegrasai *ddim*, *yr oedd efe* dan law Selomith a'i frodyr.

29 ¶ O'r Ishariaid, Cenanïah a'i feibion *oedd* yn Israel yn swyddogion, ac yn farnwyr, ar y gwaith oddi allan.

30 O'r Hebroniaid, Hasabïah a'i frodyr, meibion nerthol, mil a saith gant, *oedd* mewn swydd *yn* Israel, o'r tu hwnt i'r Iorddonen tu a'r gorllewin, yn holl waith yr ARGLWYDD, ac y'ngwasanaeth y brenhin.

31 O'r Hebroniaid, Jerïah *oedd* ben o'r Hebroniaid, yn ol cenhedlaethau ei dadau : yn y ddeugeinfed flwyddyn o deyrnasiad Dafydd y ceisiwyd hwynt, a chafwyd yn eu mysg hwy *wŷr* cryfion nerthol, yn Jaser Gilead.

32 A'i frodyr ef yn feibion nerthol *oedd* ddwy fil a saith gant o bennaucenedl : a Dafydd y brenhin a'u gosododd hwynt ar y Reubeniaid, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh, ym mhob gorchwyl DUW, a gorchwyl y brenhin.

PENNOD 27.

1 *Y deuddeg tywysog am bob mis.* 16 *Pennaethiaid y deuddeg llwyth.* 23 *Rhwystro cyfrif y bobl.* 25 *Amryw swyddogion Dafydd.*

PEDAIR mil ar hugain *oedd* pob dosparthiad o feibion Israel dan eu rhif, yn bennau-cenedl, ac yn dywysogion miloedd a channoedd, a'u swyddogion yn gwasanaethu y brenhin ym mhob achos *o*'r dosparthiadau, yn dyfod i mewn, ac yn myned allan, o fis i fis, trwy holl fisoedd y flwyddyn.

2 Ar y dosparthiad cyntaf, dros y mis cyntaf, *yr oedd* Jasobeam mab Sabdiel ; ac yn ei ddosparthiad ef *yr oedd* pedair mil ar hugain.

3 O feibion Peres *yr oedd* y pennaf o holl dywysogion y llu dros y mis cyntaf.

4 Ac ar ddosparthiad yr ail fis *yr oedd* Dodai yr Ahohiad, ac o'i

ddosparthiad ef *yr oedd* Micloth hefyd yn gapten; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
5 Trydydd tywysog y llu dros y trydydd mis *oedd* Benaiah mab Jehoiada yr offeiriad pennaf; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
6 Y Benaiah hwn *oedd* gadarn *ym mhlith* y deg ar hugain, ac oddi ar y deg ar hugain; ac yn ei ddosparthiad ef *yr oedd* Amisabad ei fab ef.
7 Y pedwerydd dros y pedwerydd mis *oedd* Asahel brawd Joab, a Sebadïah ei fab ar ei ol ef; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
8 Y pummed dros y pummed mis *oedd* dywysog, Samhuth yr Israhiad; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
9 Y chweched dros y chweched mis *oedd* Ira mab Icces y Tecoad; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
10 Y seithfed dros y seithfed mis *oedd* Heles y Peloniad, o feibion Ephraim; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
11 Yr wythfed dros yr wythfed mis *oedd* Sibbechai yr Husathiad, o'r Sarhiaid; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
12 Y nawfed dros y nawfed mis *oedd* Abïeser yr Anathothiad, o'r Benjaminiaid; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
13 Y degfed dros y degfed mis *oedd* Maharai y Netophathiad, o'r Sarhiaid; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
14 Yr unfed ar ddeg dros yr unfed mis ar ddeg *oedd* Benaiah y Pirathoniad, o feibion Ephraim; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
15 Y deuddegfed dros y deuddegfed mis *oedd* Heldai y Netophathiad, o Othniel; ac yn ei ddosparthiad ef bedair mil ar hugain.
16 ¶ Ac ar lwythau Israel: ar y Reubeniaid, Elïeser mab Sichri *oedd* dywysog: ar y Simeoniaid, Sephatïah mab Maachah:
17 Ar y Lefiaid, Hasabïah mab Cemuel: ar yr Aaroniaid, Sadoc:
18 Ar Judah, Elihu, *un* o frodyr Dafydd: ar Issachar, Omri mab Michael:
19 Ar Sabulon, Ismaiah mab Obadïah: ar Naphtali, Jerimoth mab Asriel:
20 Ar feibion Ephraim, Hosea mab Asasïah: ar hanner llwyth Manasseh, Jöel mab Pedaiah:
21 Ar hanner *llwyth* Manasseh yn Gilead, Ido mab Secharïah: ar Benjamin, Jaasiel mab Abner:
22 Ar Dan, Asarel mab Jeroham. Dyma dywysogion llwythau Israel.
23 ¶ Ond ni chymmerth Dafydd eu rhifedi hwynt o fab ugain mlwydd ac isod; canys dywedasai yr ARGLWYDD yr amlhâi efe Israel megis sêr y nefoedd.
24 Joab mab Serfiah a ddechreuodd gyfrif, ond ni orphenodd efe, am fod o achos hyn lidiowgrwydd yn erbyn Israel, ac nid aeth y cyfrif hwn ym mysg cyfrifon cronicl y brenhin Dafydd.
25 ¶ Ac ar drysorau y brenhin *yr oedd* Asmafeth mab Adiel: ac ar y trysordai yn y meusydd, yn y dinasoedd, yn y pentrefi hefyd, ac yn y tyrau, *yr oedd* Jehonathan mab Ussïah.
26 Ac ar weithwyr y maes, *y rhai oedd* yn llafurio y ddaear, *yr oedd* Esri mab Celub.
27 Ac ar y gwinllannoedd *yr oedd* Simei y Ramathiad: ac ar yr hyn *oedd* yn *dyfod* o'r gwinllannoedd i'r selerau gwin, *yr oedd* Sabdi y Siphmiad.
28 Ac ar yr olew-wydd, a'r sycamorwydd, y rhai *oedd* yn y dyffrynoedd, *yr oedd* Baalhanan y Gederiad: ac ar y selerau olew *yr oedd* Joas.
29 Ac ar yr ychain pasgedig yn Saron, *yr oedd* Sitrai y Saroniad: ac ar yr ychain yn y dyffrynoedd, *yr oedd* Saphat mab Adlai.
30 Ac ar y camelod *yr oedd* Obil yr Ismaeliad: ac ar yr asynod Jehdeiah y Meronothiad.
31 Ac ar y defaid *yr oedd* Jasis yr Hageriad. Y rhai hyn oll *oedd* dywysogion y golud eiddo y brenhin Dafydd.
32 A Jehonathan ewythr Dafydd frawd ei dad oedd gynghorwr, gŵr

doeth, ac ysgrifenydd: Jehiel hefyd mab Hachmoni *oedd* gyd â meibion y brenhin.

33 Ac Ahitophel *oedd* gynghorwr y brenhin; a Husai yr Arciad *oedd* gyfaill y brenhin.

34 Ac ar ol Ahitophel *yr oedd* Jehoiada mab Benaiah, ac Abïathar: a thywysog llu y brenhin *oedd* Joab.

PENNOD 28.

1 *Dafydd, y'ngŵydd yr holl bobl, yn datgan daioni Duw iddo ef, a'i addewid i'w fab Solomon, ac yn eu hannog hwynt i ofni Duw:* 9, 20 *yn rhoi cysur yn Solomon i adeiladu y deml;* 11 *yn dangos iddo ei dull a'i phortreiad ht, ac yn rhoddi iddo aur ac arian i'w gymeuthur hi.*

A DAFYDD a gynhullodd holl dywysogion Israel, tywysogion y llwythau, a thywysogion y dosparthiadau, y rhai oedd yn gwasanaethu y brenhin, tywysogion y miloedd hefyd, a thywysogion y cannoedd, a thywysogion holl olud a meddiant y brenhin, a'i feibion, gyd â'r ystafellyddion, a'r cedyrn, a phob un grymmusol o nerth, i Jerusalem.

2 A chyfododd Dafydd y brenhin ar ei draed, ac a ddywedodd, Gwrandêwch arnaf fi, fy mrodyr, a'm pobl; Myfi *a feddyliais* yn fy nghalon adeiladu tŷ gorphwysfa i arch cyfammod yr ARGLWYDD, ac i ystôldraed ein DUW ni, a mi a barottoais tu ag at adeiladu.

3 Ond DUW a ddywedodd wrthyf, Nid adeiledi di dŷ i'm henw i, canys rhyfelwr *fuost*, a gwaed a dywelltaist.

4 Er hynny ARGLWYDD DDUW Israel a'm hetholodd i o holl dŷ fy nhad, i fod yn frenhin ar Israel yn dragywydd: canys Judah a ddewisodd efe yn llywiawdwr; ac o dŷ Judah, tŷ fy nhad i; ac o feibion fy nhad, efe a fynnai i mi deyrnasu ar holl Israel:

5 Ac o'm holl feibion innau, (canys llawer o feibion a roddes yr ARGLWYDD i mi,) efe hefyd a ddewisodd Solomon fy mab, i eistedd ar orseddfa brenhiniaeth yr ARGLWYDD, ar Israel.

6 Dywedodd hefyd wrthyf, Solomon dy fab, efe a adeilada fy nhŷ a'm cynteddau i; canys dewisais ef yn fab i mi, a minnau a fyddaf iddo ef yn dad.

7 A'i frenhiniaeth ef a sicrhâf yn dragywydd, os efe a *ymegnïa* i wneuthur fy ngorchymynion a'm barnedigaethau i, megis y dydd hwn.

8 Yn awr gan hynny, y'ngŵydd holl Israel, cynnulleidfa yr ARGLWYDD, a lle y clywo ein DUW ni, cedwch a cheisiwch holl orchymynion yr ARGLWYDD eich DUW, fel y meddiannoch y wlad dda *hon*, ac y gadawoch hi yn etifeddiaeth i'ch meibion ar eich ol yn dragywydd.

9 ¶ A thithau Solomon fy mab, adnebydd DDUW dy dad, a gwasanaetha ef â chalon berffaith, ac â meddwl ewyllysgar: canys yr ARGLWYDD sydd yn chwilio yr holl galonnau, ac yn deall pob dychymmyg meddyliau. O cheisi ef, ti a'i cei; ond os gwrthodi ef, efe a'th fwrw di ymaith yn dragywydd.

10 Gwel yn awr mai yr ARGLWYDD a'th ddewisodd di i adeiladu tŷ y cyssegr: ymgryfhâ, a gwna.

11 ¶ Yna y rhoddes Dafydd i Solomon ei fab bortreiad y porth, a'i dai, a'i selerau, a'i gellau, a'i ystafelloedd oddi fewn, a thŷ y drugareddfa,

12 A phortreiad yr hyn oll a oedd ganddo trwy yr ysproyd, am gynteddau tŷ yr ARGLWYDD, ac am yr holl ystafelloedd o amgylch, am drysorau tŷ DDUW, ac am drysorau y pethau cyssegredig:

13 Ac am ddosparthiadau yr offeiriaid a'r Lefiaid, ac am holl waith gweinidogaeth tŷ yr ARGLWYDD, ac am holl lestri gwasanaeth tŷ yr ARGLWYDD.

14 *Efe a roddes* o aur wrth bwys, *i'r pethau* o aur, tu ag at holl lestri pob gwasanaeth, *ac arian* i'r holl lestri arian, mewn pwys, tu ag at holl lestri pob math ar wasanaeth:

15 Sef pwys y canhwyllbrenni aur, a'u lampau aur, wrth bwys i bob canhwyllbren ac i'w lampau: ac i'r canhwyllbrennau arian wrth bwys, i'r canhwyllbren ac i'w lampau, yn ol gwasanaeth pob canhwyllbren.

16 Aur hefyd *dan* bwys, tu ag at fyrddau y *bara* gosod, i bob bwrdd; ac arian i'r byrddau arian;

17 Ac aur pur i'r cigweiniau, ac
i'r phïolau, ac i'r dysglau, ac i'r
gorflychau aur, wrth bwys pob gor-
flwch : ac i'r gorflychau arian wrth
bwys pob gorflwch ;
18 Ac i allor yr arogl-darth, aur
pur wrth bwys ; ac aur i bortreiad
cerbyd y cerubiaid oedd yn ym-
ledu, ac yn gorchuddio arch cyf-
ammod yr ARGLWYDD.
19 Hyn oll, *ebe Dafydd*, a wnaeth
yr ARGLWYDD i mi ei ddeall mewn
ysgrifen, trwy *ei* law ef arnaf fi, *sef*
holl waith y portreiad hwn.
20 A dywedodd Dafydd wrth So-
lomon ei fab, Ymgryfhâ, ac ymeg-
nïa, a gweithia ; nac ofna, ac na ar-
swyda : canys yr ARGLWYDD DDUW,
fy NUW i, *fydd* gyd â thi ; nid ym-
edy efe â thi, ac ni'th wrthyd, nes
gorphen holl waith gwasanaeth tŷ
yr ARGLWYDD.
21 Wele hefyd ddosparthiadau yr
offeiriaid a'r Lefiaid, i holl wasan-
aeth tŷ DDUW, a chyd â thi *y*
maent yn yr holl waith, a phob un
ewyllysgar cywraint i bob gwasan-
aeth ; y tywysogion hefyd a'r bobl
oll *fyddant* wrth dy orchymyn yn
gwbl.

PENNOD 29.

1 *Dafydd, trwy ei esampl ei hun, a'i eiriol,* 6 *yn peri i'r tywysogion ac i'r bobl offrymmu yn ewyllysgar.* 10 *Diolch Dafydd a'i weddi.* 20 *Y bobl, wedi bendithio Duw, ac aberthu iddo, yn gwneuthur Solomon yn frenhin.* 26 *Yr hŷd y teyrnasodd Dafydd, a'i farwolaeth ef.*

YNA y dywedodd Dafydd y
brenhin wrth yr holl dyrfa,
DUW a ddewisodd yn unig fy mab
Solomon, *ac y mae efe* yn ieuangc,
ac yn dyner, a'r gwaith *sydd* fawr ;
canys nid i ddyn *y mae* y llys, ond
i'r ARGLWYDD DDUW.
2 Ac â'm holl gryfder y parottoais
i dŷ fy NUW, aur i'r *gwaith* aur, ac
arian i'r arian, a phres i'r pres, a
haiarn i'r haiarn, a choed i'r *gwaith*
coed ; meini onix, a *meini* gosod,
meini carbunculus, ac o amryw liw,
a phob maen gwerthfawr, a meini
marmor yn aml.
3 Ac etto am *fod* fy ewyllys tu a
thŷ fy NUW, y mae gennyf o'm
heddo fy hun, aur ac arian, *yr*
hwn a roddaf tu ag at dŷ fy NUW ;
heb law yr hyn oll a barottoais tu
a'r tŷ sanctaidd :
4 Tair mil o dalentau aur, o
aur Ophir ; a saith mil o dalentau
arian puredig, i oreuro parwydydd
y tai :
5 Yr aur i'r *gwaith* aur, a'r arian
i'r arian ; a thu ag at yr holl waith,
trwy law y rhai celfydd. Pwy hef-
yd a ymrŷdd yn ewyllysgar i ym-
gyssegru heddyw i'r ARGLWYDD ?
6 ¶ Yna tywysogion y teuluoedd, a
thywysogion llwythau Israel, a thy-
wysogion y miloedd a'r cannoedd,
a swyddogion gwaith y brenhin, a
offrymmasant yn ewyllysgar,
7 Ac a roddasant tu ag at wasan-
aeth tŷ DDUW, bum mil o dalentau
aur, a deng mil o sylltau, a deng
mil o dalentau arian, a deunaw mil
o dalentau pres, a chan mil o dal-
entau haiarn.
8 A chyd â'r hwn y ceid meini,
hwy a'*u* rhoddasant i drysor tŷ yr
ARGLWYDD, trwy law Jehiel y Ger-
soniad.
9 A'r bobl a lawenhasant pan off-
rymment o'u gwirfodd ; am eu bod
â chalon berffaith yn ewyllysgar yn
offrymmu i'r ARGLWYDD : a Dafydd
y brenhin hefyd a lawenychodd â
llawenydd mawr.
10 ¶ Yna y bendithiodd Dafydd
yr ARGLWYDD y'ngŵydd yr holl
dyrfa, a dywedodd Dafydd, Bendig-
edig *wyt* ti, ARGLWYDD DDUW Is-
rael, ein tad ni, o dragywyddoldeb
hyd dragywyddoldeb.
11 I ti, ARGLWYDD, *y mae* mawr-
edd, a gallu, a gogoniant, a goruch-
afiaeth, a harddwch : canys y cwbl
yn y nefoedd ac yn y ddaear *sydd*
eiddot ti ; y deyrnas *sydd* eiddot
ti, ARGLWYDD, yr hwn hefyd a ym-
ddyrchefaist yn ben ar bob peth.
12 Cyfoeth hefyd ac anrhydedd a
ddeuant oddi wrthyt ti, a thi sydd
yn arglwyddiaethu ar bob peth, ac
yn dy law di *y mae* nerth a chad-
ernid ; yn dy law di hefyd *y mae*
mawrhâu, a nerthu pob dim.
13 Ac yn awr, ein DUW ni, yr
ydym ni yn dy foliannu, ac yn clod-
fori dy enw gogoneddus.
14 Eithr pwy *ydwyf* fi, a phwy *yw*
fy mhobl i, fel y caem ni rym i off-
rymmu yn ewyllysgar fel hyn ? canys
oddi wrthyt ti *y mae* pob peth, ac
o'th law dy hun y rhoisom i ti.

15 O herwydd dïeithriaid *ydym*
ni ger dy fron di, ac alltudion fel
ein holl dadau: fel cysgod *yw* ein
dyddiau ni ar y ddaear, ac nid *oes*
ymaros.
16 O ARGLWYDD ein DUW, yr
holl amlder hyn a barottoisom ni i
adeiladu i ti dŷ i'th enw sanctaidd,
o'th law di *y mae*, ac eiddot ti *ydyw*
oll.
17 Gwn hefyd, O fy NUW, mai ti
sydd yn profi y galon, ac yn ym-
foddloni mewn cyfiawnder. Myfi
yn uniondeb fy nghalon, o wirfodd
a offrymmais hyn oll; ac yn awr y
gwelais dy bobl a gafwyd yma yn
offrymmu yn ewyllysgar i ti, a hyn-
ny mewn llawenydd.
18 ARGLWYDD DDUW Abraham,
Isaac, ac Israel, ein tadau, cadw
hyn yn dragywydd ym mryd medd-
yliau calon dy bobl; a pharottoa eu
calon hwynt attat ti.
19 A dyro i Solomon fy mab galon
berffaith, i gadw dy orchymynion,
dy dystiolaethau, a'th ddeddfau, ac
i'w gwneuthur *hwynt* oll, ac i adeil-
adu y llys yr hwn y darperais iddo.
20 ¶ Dywedodd Dafydd hefyd
wrth yr holl dyrfa, Bendithiwch,
attolwg, yr ARGLWYDD eich DUW.
A'r holl dyrfa a fendithiasant AR-
GLWYDD DDUW eu tadau, a blygas-
ant eu pennau, ac a ymgrymmasant
i'r ARGLWYDD, ac i'r brenhin.
21 Aberthasant hefyd ebyrth i'r
ARGLWYDD, a thrannoeth ar ol y
dydd hwnnw yr aberthasant yn
boeth-offrymmau i'r ARGLWYDD, fil
o fustych, mil o hyrddod, a mil o
ŵyn, a'u dïod-offrymmau, ac ebyrth
yn llïosog, dros holl Israel:
22 Ac a fwyttasant ac a yfasant
ger bron yr ARGLWYDD y diwrnod
hwnnw mewn llawenydd mawr. A
gosodasant Solomon mab Dafydd
yn frenhin yr ail waith; ac enneini-
asant *ef* i'r ARGLWYDD yn flaenor,
a Sadoc yn offeiriad.
23 Felly yr eisteddodd Solomon
ar orseddfa yr ARGLWYDD yn fren-
hin, yn lle Dafydd ei dad, ac a
lwyddodd; a holl Israel a wran-
dawsant arno.
24 Yr holl dywysogion hefyd a'r
cedyrn, a chyd â hynny holl feib-
ion y brenhin Dafydd, a roddasant
eu dwylaw *ar fod* dan Solomon y
brenhin.
25 A'r ARGLWYDD a fawrygodd So-
lomon yn rhagorol y'ngŵydd holl
Israel, ac a roddes iddo ogoniant
brenhinol, math yr hwn ni bu i un
brenhin o'i flaen ef yn Israel.
26 ¶ Felly Dafydd mab Jesse a
deyrnasodd ar holl Israel.
27 A'r dyddiau y teyrnasodd efe
ar Israel *oedd* ddeugain mlynedd:
saith mlynedd y teyrnasodd efe yn
Hebron, a thair *blynedd* ar ddeg ar
hugain y teyrnasodd efe yn Jerusa-
lem.
28 Ac efe a fu farw mewn oedran
teg, yn gyflawn o ddyddiau, cyf-
oeth, ac anrhydedd: a Solomon ei
fab a deyrnasodd yn ei le ef.
29 Ac *am* weithredoedd cyntaf a
diweddaf y brenhin Dafydd, wele,
y maent yn ysgrifenedig y'ngeiriau
Samuel y gweledydd, ac y'ngeiriau
Nathan y prophwyd, ac y'ngeiriau
Gad y gweledydd,
30 Gyd â'i holl frenhiniaeth ef, a'i
gadernid, a'r amserau a aethant
drosto ef, a thros Israel, a thros
holl deyrnasoedd y gwledydd.

AIL LYFR Y CRONICL.

PENNOD 1.

Solomon yn offrymmu yn Gibeon; 7 yn dewis doethineb, a Duw yn bendithio ei ddewis ef. Ei allu a'i gyfoeth ef.

A SOLOMON mab Dafydd a ym-
gadarnhaodd yn ei deyrnas, a'r
ARGLWYDD ei DDUW *oedd* gyd âg
ef, ac a'i mawrhaodd ef yn ddir-
fawr.
2 A Solomon a ddywedodd wrth
holl Israel, wrth dywysogion y mil-
oedd a'r cannoedd, ac wrth y barn-
wyr, ac wrth bob llywodraethwr yn
holl Israel, *sef* y pennau-cenedl.

3 Felly Solomon a'r holl dyrfa gyd âg ef a aethant i'r uchelfa *oedd* yn Gibeon: canys yno yr oedd pabell cyfarfod Duw, yr hon a wnelsai Moses gwas yr Arglwydd yn yr anialwch.

4 Eithr arch Duw a ddygasai Dafydd i fyny o Ciriath-jearim, i'r *lle* a ddarparasai Dafydd iddi: canys efe a osodasai iddi hi babell yn Jerusalem.

5 Hefyd, yr allor bres a wnelsai Besaleel mab Uri, mab Hur, oedd yno o flaen pabell yr Arglwydd: a Solomon a'r dyrfa a'i hargeisiodd hi.

6 A Solomon a aeth i fyny yno at yr allor bres, ger bron yr Arglwydd, yr hon *oedd* ym mhabell y cyfarfod, a mil o boeth-offrymmau a offrymmodd efe arni hi.

7 ¶ Y noson honno yr ymddangosodd Duw i Solomon, ac y dywedodd wrtho ef, Gofyn yr hyn a roddaf i ti.

8 A dywedodd Solomon wrth Dduw, Ti a wnaethost fawr drugaredd â'm tad Dafydd, ac a wnaethost i mi deyrnasu yn ei le ef.

9 Yn awr, O Arglwydd Dduw, sicrhâer dy air wrth fy nhad Dafydd; canys gwnaethost i mi deyrnasu ar bobl mor lïosog a llwch y ddaear.

10 Yn awr dyro i mi ddoethineb a gwybodaeth, fel yr elwyf allan, ac y delwyf i mewn o flaen y bobl hyn: canys pwy a ddichon farnu dy bobl lïosog hyn?

11 A dywedodd Duw wrth Solomon, O herwydd bod hyn yn dy feddwl di, ac na ofynaist na chyfoeth, na golud, na gogoniant, nac einioes dy elynion, ac na ofynaist lawer o ddyddiau chwaith; eithr gofyn o honot i ti ddoethineb, a gwybodaeth, fel y bernit fy mhobl y'th osodais yn frenhin arnynt:

12 Doethineb a gwybodaeth a roddwyd i ti, cyfoeth hefyd, a golud, a gogoniant, a roddaf i ti, y rhai ni bu eu cyffelyb gan y brenhinoedd *a fu* o'th flaen di, ac ni bydd y cyffelyb i neb ar dy ol di.

13 ¶ A Solomon a ddaeth o'r uchelfa *oedd* yn Gibeon, i Jerusalem, oddi ger bron pabell y cyfarfod, ac a deyrnasodd ar Israel.

14 A Solomon a gasglodd gerbydau a marchogion; ac yr oedd ganddo fil a phedwar cant o gerbydau, a deuddeng mil o wŷr meirch, ac efe a'u gosododd hwynt yn ninasoedd y cerbydau, ac yn Jerusalem gyd â'r brenhin.

15 A'r brenhin a wnaeth yr arian a'r aur yn Jerusalem *cyn amled* a'r cerrig, a chedrwydd a roddes efe fel y sycamorwydd o amldra, y rhai sydd *yn tyfu* yn y doldir.

16 A meirch a ddygid i Solomon o'r Aipht, ac edafedd llin: marchnadwyr y brenhin a gymmerent yr edafedd llin dan bris.

17 Canys deuent i fyny, a dygent o'r Aipht gerbyd am chwe chan *darn* o arian; a march am gant a hanner; ac felly y dygent i holl frenhinoedd yr Hethiaid, ac i frenhinoedd Syria gyd â hwynt.

PENNOD 2.

1, 17 *Gweithwyr Solomon wrth adeiladu y deml.* 3 *Solomon yn gyrru at Hiram am weithwyr a deunyddiau.* 11 *A Hiram yn ei atteb ef yn garedig.*

A SOLOMON a roes ei fryd ar adeiladu tŷ i enw yr Arglwydd, a brenhindy iddo ei hun.

2 A Solomon a rifodd ddeng mil a thri ugain o gludwyr, a phedwar ugain mil o gymmynwyr yn y mynydd, ac yn oruchwylwyr arnynt hwy dair mil a chwe chant.

3 ¶ A Solomon a anfonodd at Hiram brenhin Tyrus, gan ddywedyd, Megis y gwnaethost â Dafydd fy nhad, ac yr anfonaist iddo gedrwydd i adeiladu iddo dŷ i drigo ynddo, *felly gwna â minnau.*

4 Wele fi yn adeiladu tŷ i enw yr Arglwydd fy Nuw, i'w gyssegru iddo, *ac* i arogl-darthu arogl-darth llysieuog ger ei fron ef, ac i'r gwastadol osodiad *bara*, a'r poeth-offrymmau bore a hwyr, ar y Sabbathau, ac ar y newydd-loerau, ac ar osodedig wyliau yr Arglwydd ein Duw ni. Hyd byth *y mae* hyn ar Israel.

5 A'r tŷ a adeiladaf fi *fydd* mawr: canys mwy *yw* ein Duw ni na'r holl dduwiau.

6 A phwy sydd abl i adeiladu iddo ef dŷ, gan na all y nefoedd, ïe, nefoedd y nefoedd ei amgyffred? a

phwy *ydwyf* fi, fel yr adeiladwn iddo ef dŷ, ond yn unig i arogldarthu ger ei fron ef?

7 Felly yn awr anfon i mi ŵr cywraint, i weithio mewn aur, ac mewn arian, ac mewn pres, ac mewn haiarn, ac mewn porphor, ac ysgarlad, a glas, ac yn medru cerfio cerfiadau gyd â'r rhai celfydd *sydd* gyd â mi yn Judah ac yn Jerusalem, y rhai a ddarparodd fy nhad Dafydd.

8 Anfon hefyd i mi goed cedr, a ffynnidwydd, ac algumimwydd, o Libanus: canys myfi a wn y medr dy weision di naddu coed Libanus: ac wele, fy ngweision innau *a fyddant* gyd â'th weision dithau;

9 A *hynny* i ddarparu i mi lawer o goed: canys y tŷ yr ydwyf fi ar ei adeiladu *fydd* mawr a rhyfeddol.

10 Ac wele, i'th weision, i'r seiri a naddant y coed, y rhoddaf ugain mil corus o wenith wedi ei guro, ac ugain mil corus o haidd, ac ugain mil bath o win, ac ugain mil bath o olew.

11 ¶ A Hiram brenhin Tyrus a attebodd mewn ysgrifen, ac a'i hanfonodd at Solomon, O gariad yr ARGLWYDD ar ei bobl, y rhoddes efe dydi yn frenhin arnynt hwy.

12 Dywedodd Hiram hefyd, Bendigedig *fyddo* ARGLWYDD DDUW Israel, yr hwn a wnaeth nef a daear, yr hwn a roddes i'r brenhin Dafydd fab doeth, gwybodus o synwyr a deall, i adeiladu tŷ i'r ARGLWYDD, a brenhindy iddo ei hun.

13 Ac yn awr mi a anfonais ŵr celfydd, cywraint, a deallus, o'r eiddo fy nhad Hiram:

14 Mab gwraig o ferched Dan, a'i dad yn ŵr o Tyrus, yn medru gweithio mewn aur, ac mewn arian, mewn pres, mewn haiarn, mewn cerrig, ac mewn coed, mewn porphor, ac mewn glas, ac mewn llïan main, ac mewn ysgarlad; ac i gerfio pob cerfiad, ac i ddychymmygu pob dychymmyg a roddir atto ef, gyd â'th rai cywraint di, a rhai cywraint fy arglwydd Dafydd dy dad.

15 Ac yn awr, y gwenith, a'r haidd, yr olew, a'r gwin, y rhai a ddywedodd fy arglwydd, anfoned hwynt i'w weision:

16 A ni a gymmynwn goed o Libanus, yn ol dy holl raid, ac a'u dygwn hwynt i ti yn gludeiriau ar hyd y môr i Joppa: dwg dithau *hwynt* i fyny i Jerusalem.

17 ¶ A Solomon a rifodd yr holl wŷr dïeithr *oedd* yn nhir Israel, wedi y rhifiad â'r hon y rhifasai Dafydd ei dad ef hwynt: a chaed tair ar ddeg a saith ugain o filoedd a chwe chant.

18 Ac efe a wnaeth o honynt hwy ddeng mil a thri ugain yn gludwyr, a phedwar ugain mil yn naddwyr yn y mynydd, a thair mil a chwe chant yn oruchwylwyr i roi y bobl ar waith.

PENNOD 3.

1 Y lle a'r amser yr adeiladwyd y deml. 3 Ei mesur a'i haddurn. 10 Y cerubiaid. 14 Y llen a'r colofnau.

A SOLOMON a ddechreuodd adeiladu tŷ yr ARGLWYDD yn Jerusalem ym mynydd Morïah, lle yr ymddangosasai yr *ARGLWYDD* i Dafydd ei dad ef, yn y lle a ddarparasai Dafydd, yn llawr-dyrnu Ornan y Jebusiad.

2 Ac efe a ddechreuodd adeiladu ar yr ail *ddydd* o'r ail fis, yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad.

3 ¶ A dyma *fesurau* sylfaeniad Solomon wrth adeiladu tŷ DDUW. Yr hŷd *oedd* o gufyddau wrth y mesur cyntaf yn dri ugain cufydd; a'r lled yn ugain cufydd.

4 A'r porth *oedd* wrth dalcen *y tŷ oedd* un hŷd a lled y tŷ, yn ugain cufydd, a'i uchder yn chwech ugain cufydd; ac efe a wisgodd hwn o fewn âg aur pur.

5 A'r tŷ mawr a fyrddiodd efe â ffynnidwydd, y rhai a wisgodd efe âg aur dilin, ac a gerfiodd balmwydd a chadwynau ar hyd-ddo ef.

6 Ac efe a addurnodd y tŷ â meini gwerthfawr yn hardd; a'r aur *oedd* aur Parfaim.

7 Ië, efe a wisgodd y tŷ, y trawstiau, y rhiniogau, a'i barwydydd, a'i ddorau, âg aur, ac a gerfiodd gerubiaid ar y parwydydd.

8 Ac efe a wnaeth dŷ y cyssegr sancteiddiolaf; ei hŷd *oedd* un hŷd â lled y tŷ, yn ugain cufydd, a'i led yn ugain cufydd: ac efe a'i gwisgodd ef âg aur da, *sef* â chwe chan talent.

9 Ac yr *oedd* pwys yr hoelion o ddeg sicl a deugain o aur; y llofft-ydd hefyd a wisgodd efe âg aur.

10 ¶ Ac efe a wnaeth yn nhŷ y cyssegr sancteiddiolaf ddau gerub o waith cywraint, ac a'u gwisgodd hwynt âg aur.

11 Ac adenydd y cerubiaid *oedd* ugain cufydd eu hŷd: y naill aden o bum cufydd, yn cyrhaeddyd pared y tŷ; a'r aden arall o bum cufydd yn cyrhaeddyd at aden y cerub arall.

12 Ac aden y cerub arall o bum cufydd, yn cyrhaeddyd pared y tŷ; a'r aden arall o bum cufydd, ynghyd âg aden y cerub arall.

13 Adenydd y cerubiaid hyn a ledwyd yn ugain cufydd: ac yr oeddynt hwy yn sefyll ar eu traed, a'u hwynebau tu ag i fewn.

14 ¶ Ac efe a wnaeth y wahanlen *o sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main, ac a weithiodd gerubiaid ar hynny.

15 Gwnaeth hefyd ddwy golofn o flaen y tŷ, yn bymtheg cufydd ar hugain o hŷd, a'r cnap ar ben pob un o honynt *oedd* bum cufydd.

16 Ac efe a wnaeth gadwyni *fel* yn y gafell, ac a'*u* rhoddodd ar ben y colofnau; ac efe a wnaeth gant o bomgranadau, ac a'u rhoddodd ar y cadwynau.

17 A chyfododd y colofnau o flaen y deml, un o'r tu dehau, ac un o'r tu aswy; ac a alwodd enw y ddehau, Jachin; ac enw yr aswy, Boas.

PENNOD 4.

1 *Yr allor bres.* 2 *Y môr tawdd ar ddeuddeg o ychain.* 6 *Y deg noe, y canhwyllbrenni a'r byrddau.* 9 *Y cynteddau, a'r dodrefn pres.* 19 *Yr offer aur.*

AC efe a wnaeth allor bres, o ugain cufydd ei hŷd, ac ugain cufydd ei lled, a deg cufydd ei huchder.

2 ¶ Gwnaeth hefyd fôr tawdd, yn ddeg cufydd o ymyl i ymyl, yn grwn o amgylch, ac yn bum cufydd ei uchder, a llinyn o ddeg cufydd ar hugain a'i hamgylchai oddi amgylch.

3 A llun ychain *oedd* dano yn ei amgylchu o amgylch, mewn deg cufydd yr oeddynt yn amgylchu y môr oddi amgylch: dwy res o ychain *oedd* wedi eu toddi, pan doddwyd yntau.

4 Sefyll yr oedd ar ddeuddeg o ychain; tri yn edrych tu a'r gogledd, a thri yn edrych tu a'r gorllewin, a thri yn edrych tu a'r dehau, a thri yn edrych tu a'r dwyrain: a'r môr arnynt oddi arnodd, a'u holl bennau ol hwynt *oedd* o fewn.

5 A'i dewder *oedd* ddyrnfedd, a'i ymyl fel gwaith ymyl cwppan, â blodau lili: *a* thair mil o bathau a dderbyniai, ac a ddaliai.

6 ¶ Gwnaeth hefyd ddeg o noeau, ac efe a roddodd bump o'r tu dehau, a phump o'r tu aswy, i ymolchi ynddynt: trochent ynddynt ddefnydd y poeth-offrwm; ond y môr *oedd* i'r offeiriaid i ymolchi ynddo.

7 Ac efe a wnaeth ddeg canhwyllbren aur yn ol eu portreiad, ac a'*u* gosododd yn y deml, pump o'r tu dehau, a phump o'r tu aswy.

8 Gwnaeth hefyd ddeg o fyrddau, a'c a'*u* gosododd yn y deml, pump o'r tu dehau, a phump o'r tu aswy: ac efe a wnaeth gant o gawgiau aur.

9 ¶ Ac efe a wnaeth gyntedd yr offeiriaid, a'r cyntedd mawr, a dorau i'r cynteddoedd; a'u dorau hwynt a wisgodd efe â phres.

10 Ac efe a osododd y môr ar yr ystlys ddehau, tu a'r dwyrain, ar gyfer y dehau.

11 Gwnaeth Hiram hefyd y crochanau, a'r rhawiau, a'r cawgiau: a darfu i Hiram wneuthur y gwaith a wnaeth efe dros frenhin Solomon i dŷ Duw:

12 Y ddwy golofn, a'r cnapiau, a'r coronau ar ben y ddwy golofn, a'r ddwy bleth i guddio y ddau gnap coronog, y rhai *oedd* ar ben y colofnau:

13 A phedwar cant o bomgranadau ar y ddwy bleth; dwy res *oedd* o bomgranadau ar bob pleth, i guddio y ddau gnap coronog *oedd* ar bennau y colofnau.

14 Ac efe a wnaeth ystolion, ac a wnaeth noeau ar yr ystolion;

15 Un môr, a deuddeg o ychain dano:

16 Y crochanau hefyd, a'r rhawiau, a'r cigweiniau, a'u holl lestri hwynt,

a wnaeth Hiram ei dad i'r brenhin Solomon, yn nhŷ yr ARGLWYDD, o bres gloyw.
17 Y'ngwastadedd yr Iorddonen y toddodd y brenhin hwynt, mewn cleidir, rhwng Succoth a Seredathah.
18 Fel hyn y gwnaeth Solomon yr holl lestri hyn, yn llïosog iawn; canys anfeidrol oedd bwys y pres.
19 ¶ A Solomon a wnaeth yr holl lestri *oedd* yn nhŷ DDUW, a'r allor aur, a'r byrddau *oedd* â'r bara gosod arnynt,
20 A'r canhwyllbrennau, a'u lampau, i oleuo yn ol y ddefod o flaen y gafell, o aur pur;
21 Y blodau hefyd, a'r lampau, a'r gefeiliau, *oedd* aur, *a* hwnnw yn aur perffaith.
22 Y saltringau hefyd, a'r cawgiau, a'r llwyau, a'r thusserau, *oedd* aur pur: a drws y tŷ, a'i ddorau, o du fewn y cyssegr sancteiddiolaf, a dorau tŷ y deml, *oedd* aur.

PENNOD 5.

1 *Y trysorau cyssegredig.* 2 *Dwyn arch Duw yn barchedig i'r cyssegr.* 11 *Duw, yn ol ei foliannu, yn dangos arwydd o'i ffafr.*

FELLY y gorphenwyd yr holl waith a wnaeth Solomon i dŷ yr ARGLWYDD: a Solomon a ddug i mewn yr hyn a gyssegrasai Dafydd ei dad; ac a osododd yn nhrysorau tŷ DDUW, yr arian, a'r aur, a'r holl lestri.
2 ¶ Yna y cynhullodd Solomon henuriaid Israel, a holl bennau y llwythau, pennau-cenedl meibion Israel, i Jerusalem, i ddwyn i fyny arch cyfammod yr ARGLWYDD o ddinas Dafydd, honno *yw* Sïon.
3 Am hynny holl wŷr Israel a ymgynnullasant at y brenhin ar yr wyl *oedd yn* y seithfed mis.
4 A holl henuriaid Israel a ddaethant, a'r Lefiaid a godasant yr arch.
5 A hwy a ddygasant i fyny yr arch, a phabell y cyfarfod, a holl lestri y cyssegr, y rhai *oedd* yn y babell, yr offeiriaid *a*'r Lefiaid a'u dygasant hwy i fyny.
6 Hefyd y brenhin Solomon, a holl gynnulleidfa Israel, y rhai a gynnullasid atto *ef* o flaen yr arch, a aberthasant o ddefaid, a gwartheg, fwy nag a ellid eu rhifo na'u cyfrif gan llïosowgrwydd.
7 A'r offeiriaid a ddygasant arch cyfammod yr ARGLWYDD i'w lle, i gafell y tŷ, i'r cyssegr sancteiddiolaf, hyd tan adenydd y cerubiaid.
8 A'r cerubiaid oedd yn lledu *eu* hadenydd dros le yr arch: a'r cerubiaid a gysgodent yr arch a'i throsolion, oddi arnodd.
9 A thynnasant allan y trosolion, fel y gwelid pennau y trosolion o'r arch o flaen y gafell, ac ni welid hwynt oddi allan. Ac yno y mae hi hyd y dydd hwn.
10 Nid *oedd* yn yr arch ond y ddwy lech a roddasai Moses *ynddi* yn Horeb, lle y gwnaethai yr ARGLWYDD gyfammod â meibion Israel, pan ddaethant hwy allan o'r Aipht.
11 ¶ A phan ddaeth yr offeiriaid o'r cyssegr; canys yr holl offeiriaid, y rhai a gafwyd, a ymsancteiddiasent, heb gadw dosparthiad:
12 Felly y Lefiaid, *y rhai oedd* gantorion, hwynt-hwy oll o Asaph, o Heman, o Jeduthun, â'u meibion hwynt, ac â'u brodyr, wedi *eu* gwisgo â llïan main, â symbalau, ac â nablau a thelynau, yn sefyll o du dwyrain yr allor, a chyd â hwynt chwe ugain o offeiriaid yn udganu mewn udgyrn.
13 Ac fel *yr oedd* yr udganwyr a'r cantorion, megis un, i seinio un sain i glodfori ac i foliannu yr ARGLWYDD; ac wrth ddyrchafu sain mewn udgyrn, ac mewn symbalau, ac mewn offer cerdd, ac wrth foliannu yr ARGLWYDD, gan *ddywedyd*, Canys da *yw;* ac yn dragywydd *y mae* ei drugaredd ef: *yna* y llanwyd y tŷ â chwmmwl, *sef* tŷ yr ARGLWYDD;
14 Fel na allai yr offeiriaid sefyll i wasanaethu gan y cwmmwl: o herwydd gogoniant yr ARGLWYDD a lanwasai dŷ DDUW.

PENNOD 6.

1 *Solomon, wedi bendithio y bobl, yn bendithio Duw.* 12 *Gweddi Solomon urth gyssegru y deml, allan o'r pulpud pres.*

YNA y llefarodd Solomon, Yr ARGLWYDD a ddywedodd yr arhosai efe yn y tywyllwch;
2 A minnau a adeiledais dŷ yn

drigfa i ti, a lle i'th breswylfod yn dragywydd.
3 A'r brenhin a drodd ei wyneb, ac a fendithiodd holl gynnulleidfa Israel: a holl gynnulleidfa Israel oedd yn sefyll.
4 Ac efe a ddywedodd, Bendigedig *fyddo* ARGLWYDD DDUW Israel, yr hwn a lefarodd â'i enau wrth Dafydd fy nhad, ac a gwblhaodd â'i ddwylaw, gan ddywedyd,
5 Er y dydd y dygais i fy mhobl allan o wlad yr Aipht, ni ddetholais ddinas o holl lwythau Israel i adeiladu tŷ, i fod fy enw ynddo; ac ni ddewisais ŵr i fod yn flaenor ar fy mhobl Israel:
6 Ond mi a etholais Jerusalem, i fod fy enw yno; ac a ddewisais Dafydd i fod ar fy mhobl Israel.
7 Ac yr oedd ym mryd Dafydd fy nhad adeiladu tŷ i enw ARGLWYDD DDUW Israel.
8 Ond dywedodd yr ARGLWYDD wrth Dafydd fy nhad, O herwydd bod yn dy fryd di adeiladu tŷ i'm henw i, da y gwnaethost fod *hynny* yn dy galon:
9 Er hynny nid adeiledi di y tŷ; ond dy fab di, yr hwn a ddaeth allan o'th lwynau, efe a adeilada y tŷ i'm henw i.
10 Am hynny yr ARGLWYDD a gwblhaodd ei air a lefarodd efe: canys mi a gyfodais yn lle Dafydd fy nhad, ac a eisteddais ar orseddfa Israel, fel y llefarodd yr ARGLWYDD, ac a adeiledais dŷ i enw ARGLWYDD DDUW Israel.
11 Ac yno y gosodais yr arch; yn yr hon *y mae* cyfammod yr ARGLWYDD, yr hwn a ammododd efe â meibion Israel.
12 ¶ A *Solomon* a safodd o flaen allor yr ARGLWYDD, y'ngŵydd holl gynnulleidfa Israel, ac a estynodd ei ddwylaw:
13 Canys Solomon a wnaethai bulpud pres, ac a'i gosodasai yng nghanol y cyntedd, yn bum cufydd ei hŷd, a phum cufydd ei led, a thri chufydd ei uchder; ac a safodd arno, ac a ostyngodd ar ei liniau ger bron holl gynnulleidfa Israel, ac a estynodd ei ddwylaw tu a'r nefoedd:
14 Ac efe a ddywedodd, O ARGLWYDD DDUW Israel, nid *oes* DUW cyffelyb i ti yn y nefoedd, nac ar y ddaear; yn cadw cyfammod a thrugaredd â'th weision, sydd yn rhodio ger dy fron di â'u holl galon:
15 Yr hwn a gedwaist â'th was Dafydd fy nhad yr hyn a leferaist wrtho; fel y lleferaist â'th enau, felly y cwblheaist â'th law, megis *y mae* y dydd hwn.
16 Ac yn awr, O ARGLWYDD DDUW Israel, cadw â'th was Dafydd fy nhad yr hyn a leferaist wrtho, gan ddywedyd, Ni thorrir ymaith oddi wrthyt *na byddo* gŵr ger fy mron i yn eistedd ar deyrn-gadair Israel; os dy feibion a wyliant ar eu ffordd, i rodio yn fy nghyfraith i, fel y rhodiaist ti ger fy mron i.
17 Yn awr gan hynny, O ARGLWYDD DDUW Israel, poed gwir fyddo dy air a leferaist wrth dy was Dafydd.
18 Ai gwir yw, y preswylia DUW gyd â dyn ar y ddaear? Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy amgyffred; pa faint llai *y dichon* y tŷ hwn a adeiledais i?
19 Edrych gan hynny ar weddi dy was, ac ar ei ddeisyfiad ef, O ARGLWYDD fy NUW, i wrandaw ar y llef ac ar y weddi y mae dy was yn ei gweddïo ger dy fron:
20 Fel y byddo dy lygaid yn agored tu a'r tŷ yma ddydd a nos, tu a'r lle *am* yr hwn y dywedaist, y gosodit dy enw yno; i wrandaw ar y weddi a weddïo dy was di yn y fan hon.
21 Gwrando gan hynny ddeisyfiadau dy was, a'th bobl Israel, y rhai a weddïant yn y lle hwn: gwrando di hefyd o le dy breswylfod, *sef* o'r nefoedd; a phan glywech, maddeu.
22 ¶ Os pecha gŵr yn erbyn ei gymmydog, a gofyn ganddo raith, gan ei dyngu ef, a dyfod y llw o flaen dy allor di yn y tŷ hwn:
23 Yna gwrando di o'r nefoedd; gwna hefyd, a barna dy weision; gan dalu i'r drygionus, trwy roddi ei ffordd ef ar ei ben ei hun; a chan gyfiawnhâu y cyfiawn, trwy roddi iddo yntau yn ol ei gyfiawnder.
24 ¶ A phan darawer dy bobl Israel o flaen y gelyn, am iddynt bechu yn dy erbyn; os dychwelant,

a chyfaddef dy enw, a gweddïo ac ymbil ger dy fron di yn y tŷ hwn:
25 Yna gwrando di o'r nefoedd, a maddeu bechod dy bobl Israel, a dychwel hwynt i'r tir a roddaist iddynt hwy, ac i'w tadau.
26 ¶ Pan gauer y nefoedd, fel na byddo gwlaw, o herwydd pechu o honynt i'th erbyn; os gweddïant yn y lle hwn, a chyfaddef dy enw, a dychwelyd oddi wrth eu pechod, pan gystuddiech hwynt:
27 Yna gwrando di o'r nefoedd, a maddeu bechod dy weision, a'th bobl Israel, pan ddysgech iddynt dy ffordd dda yr hon y rhodient ynddi; a dyro wlaw ar dy wlad a roddaist i'th bobl yn etifeddiaeth.
28 ¶ Os bydd newyn yn y tir, os bydd haint, deifiad, neu falldod, os bydd locustiaid neu lindys; os gwarchae ei elyn arno ef yn ninasoedd ei wlad; *neu* pa bla bynnag, neu glefyd bynnag *a fyddo;*
29 Pob gweddi, pob deisyfiad a fyddo gan bob dyn, neu gan holl bobl Israel; pan wypo pawb ei bla ei hun, a'i ddolur, ac estyn ei ddwylaw tu a'r tŷ hwn:
30 Yna gwrando di o'r nefoedd, o fangre dy breswylfod, a maddeu, a dyro i bob un yn ol ei holl ffyrdd, yr hwn a adwaenost ei galon ef, (canys tydi yn unig a adwaenost galon meibion dynion;)
31 Fel y'th ofnont, gan rodio yn dy ffyrdd di yr holl ddyddiau y byddont hwy byw ar wyneb y ddaear, yr hon a roddaist i'n tadau ni.
32 ¶ Ac am y dïeithrddyn hefyd, yr hwn ni *byddo* o'th bobl di Israel, ond wedi dyfod o wlad bell, er mwyn dy enw mawr, a'th law gadarn, a'th fraich estynedig; os deuant a gweddïo yn y tŷ hwn:-
33 Yna gwrando di o'r nefoedd, o fangre dy breswylfod, a gwna yn ol yr hyn oll a lefo y dïeithrddyn arnat; fel yr adwaeno holl bobl y ddaear dy enw di, ac y'th ofnont, fel *y mae* dy bobl Israel, ac y gwypont mai ar dy enw di y gelwir y tŷ yma a adeiledais i.
34 ¶ Os â dy bobl allan i ryfel yn erbyn eu gelynion ar hyd y ffordd yr anfonych hwynt, os gweddïant arnat ti tu a'r ddinas yma yr hon a ddetholaist, a'r tŷ a adeiledais i'th enw di:
35 Yna gwrando o'r nefoedd ar eu gweddi hwynt ac ar eu deisyfiad, a gwna farn iddynt.
36 ¶ Os pechant i'th erbyn, (canys nid *oes* dyn ni phecha,) a digloni o honot i'w herbyn hwynt, a'u rhoddi o flaen *eu* gelynion, ac iddynt eu caethgludo yn gaethion i wlad bell neu agos;
37 *Os* dychwelant at eu calon yn y wlad y caethgludwyd hwynt iddi, a dychwelyd, ac ymbil â thi yng ngwlad eu caethiwed, gan ddywedyd, Pechasom, troseddasom, a gwnaethom yn annuwiol;
38 Os dychwelant attat â'u holl galon, ac â'u holl enaid, y'ngwlad eu caethiwed, lle y caethgludasant hwynt, a gweddïo tu a'u gwlad a roddaist i'w tadau, a'r ddinas a ddetholaist, a'r tŷ a adeiledais i'th enw di:
39 Yna gwrando di o'r nefoedd, o fangre dy breswylfod, eu gweddi hwynt a'u deisyfiadau, a gwna farn iddynt, a maddeu i'th bobl a bechasant i'th erbyn.
40 Yn awr, O fy Nuw, bydded, attolwg, dy lygaid yn agored, a'th glustiau yn ymwrando â'r weddi *a wneir tu a'r* lle yma.
41 Ac yn awr cyfod, O Arglwydd Dduw,' i'th orphwysfa, ti ac arch dy gadernid: dillader dy offeiriaid, O Arglwydd Dduw, â iachawdwriaeth, a llawenyched dy saint mewn daioni.
42 O Arglwydd Dduw, na thro ymaith wyneb dy enneiniog: cofia drugareddau Dafydd dy was.

PENNOD 7.

1 Duw yn tystiolaethu gyd â gweddi Solomon, trwy dân o'r nef, a gogoniant yn y demi; a'r bobl yn ei addoli ef. 4 Cyhoedd ebyrth Solomon. 8 Solomon, ar ol cadw gwyl y pebyll, a gwyl cyssegriad yr allor, yn gollwng y bobl ymaith. 12 Duw yn ymddangos i Solomon, ac yn rhoi iddo addewidion dan ammod.

AC wedi gorphen o Solomon weddïo, tân a ddisgynodd o'r nefoedd, ac a ysodd y poeth-offrwm a'r ebyrth; a gogoniant yr Arglwydd a lanwodd y tŷ.
2 Ac ni allai yr offeiriaid fyned i mewn i dŷ yr Arglwydd, o her-

wydd gogoniant yr ARGLWYDD a lanwasai dŷ yr ARGLWYDD.

3 A phan welodd holl feibion Israel y tân yn disgyn, a gogoniant yr ARGLWYDD ar y tŷ, hwy a ymgrymmasant â'u hwynebau i lawr ar y palmant, ac a addolasant, ac a glodforasant yr ARGLWYDD, canys daionus *yw efe;* o herwydd *bod* ei drugaredd ef yn dragywydd.

4 ¶ Yna y brenhin a'r holl bobl a aberthasant ebyrth ger bron yr ARGLWYDD.

5 A'r brenhin Solomon a aberthodd aberth o ddwy fil ar hugain o ychain, a chwech ugain mil o ddefaid: felly y brenhin a'r holl bobl a gyssegrasant dŷ DDUW.

6 A'r offeiriaid oedd yn sefyll yn eu goruchwyliaeth: a'r Lefiaid âg offer cerdd yr ARGLWYDD, y rhai a wnaethai Dafydd y brenhin i gyffesu yr ARGLWYDD, o herwydd yn dragywydd *y mae* ei drugaredd ef, pan oedd Dafydd yn moliannu *DUW* trwyddynt hwy: a'r offeiriaid oedd yn udganu ar eu cyfer hwynt, a holl Israel oedd yn sefyll.

7 A Solomon a gyssegrodd ganol y cyntedd yr hwn *oedd* o flaen tŷ yr ARGLWYDD: canys yno yr offrymmodd efe boeth-offrymmau, a brasder yr aberthau hedd; canys ni allai yr allor bres a wnaethai Solomon dderbyn y poeth-offrwm, a'r bwyd-offrwm, a'r brasder.

8 ¶ A Solomon a gadwodd wyl y pryd hwnnw saith niwrnod, a holl Israel gyd âg ef, cynnulleidfa fawr iawn, o ddyfodfa Hamath hyd afon yr Aipht.

9 Gwnaethant hefyd yr wythfed dydd gymmanfa: canys cyssegriad yr allor a gadwasant hwy saith niwrnod, a'r wyl saith niwrnod.

10 Ac yn y trydydd dydd ar hugain o'r seithfed mis y gollyngodd efe y bobl i'w pabellau, yn hyfryd ac yn llawen *eu* calon, am y daioni a wnaethai yr ARGLWYDD i Dafydd, ac i Solomon, ac i Israel ei bobl.

11 Fel hyn y gorphenodd Solomon dŷ yr ARGLWYDD, a thŷ y brenhin: a'r hyn oll oedd ym mryd Solomon ei wneuthur yn nhŷ yr ARGLWYDD, ac yn ei dŷ ei hun, a wnaeth efe yn llwyddiannus.

12 ¶ A'r ARGLWYDD a ymddangosodd i Solomon liw nos, ac a ddywedodd wrtho, Gwrandewais dy weddi, a mi a ddewisais y fan hon i mi yn dŷ aberth.

13 Os cauaf fi y nefoedd, fel na byddo gwlaw, neu os gorchymynaf i'r locustiaid ddifa y ddaear, ac os anfonaf haint ym mysg fy mhobl;

14 Os fy mhobl, y rhai y gelwir fy enw arnynt, a ymostyngant, ac a weddïant, ac a geisiant fy wyneb, ac a droant o'u ffyrdd drygionus: yna y gwrandawaf o'r nefoedd, ac y maddeuaf iddynt eu pechodau, ac yr iachâf eu gwlad hwynt.

15 Yn awr fy llygaid a fyddant yn agored, a'm clustiau yn ymwrando â'r weddi *a wneir yn* y fan hon.

16 Ac yn awr mi a ddetholais ac a sancteiddiais y tŷ hwn, i fod fy enw yno hyd byth: fy llygaid hefyd a'm calon a fyddant yno yn wastadol.

17 A thithau, os rhodi ger fy mron i, fel y rhodiodd Dafydd dy dad, a gwneuthur yr hyn oll a orchymynais i ti, a chadw fy neddfau a'm barnedigaethau:

18 Yna y sicrhâf deyrn-gadair dy frenhiniaeth di, megis yr ammodais â Dafydd dy dad, gan ddywedyd, Ni thorrir ymaith oddi wrthyt *na byddo* gŵr yn arglwyddiaethu yn Israel.

19 Ond os dychwelwch, ac *os* gwrthodwch fy neddfau a'm gorchymynion a roddais ger eich bron, ac os ewch a gwasanaethu duwiau dïeithr, ac ymgrymmu iddynt hwy:

20 Yna mi a'u diwreiddiaf hwynt o'm gwlad a roddais iddynt, a'r tŷ a sancteiddiais i'm henw a fwriaf allan o'm golwg, a mi a'i rhoddaf ef yn ddïareb, ac yn wawd ym mysg yr holl bobloedd.

21 A'r tŷ yma, yr hwn sydd uchel, a wna i bawb a'r a êl heibio iddo synnu: fel y dywedo, Paham y gwnaeth yr ARGLWYDD fel hyn i'r wlad hon, ac i'r tŷ hwn?

22 Yna y dywedant, Am iddynt wrthod ARGLWYDD DDUW eu tadau, yr hwn a'u dug hwy allan o wlad yr Aipht, ac *am* iddynt ymaflyd mewn duwiau dïeithr, ac ymgrymmu iddynt, a'u gwasanaethu hwynt:

am hynny y dug efe yr holl ddrwg yma arnynt hwy.

PENNOD 8.

1 *Adeilad Solomon.* 7 *Solomon yn dwyn y cenhedloedd a adawssid dan deyrnged iddo; ac yn gwneuthur yr Israeliaid yn llynciawdwyr dano.* 11 *Merch Pharaoh yn symmudo i'w thŷ.* 12 *Cyhoedd aberthau blynyddol Solomon.* 14 *Solomon yn gosod yr offeiriaid a'r Lefiaid yn eu lleoedd.* 17 *Y llynges yn cyrchu aur o Ophir.*

AC ym mhen yr ugain mlynedd, *yn* y rhai yr adeiladodd Solomon dŷ yr ARGLWYDD, a'i dŷ ei hun,

2 Solomon a adeiladodd y dinasoedd a roddasai Hiram i Solomon, ac a wnaeth i feibion Israel drigo yno.

3 A Solomon a aeth i Hamathsobah, ac a'i gorchfygodd hi.

4 Ac efe a adeiladodd Tadmor yn yr anialwch, a holl ddinasoedd y trysorau, y rhai a adeiladodd efe yn Hamath.

5 Efe hefyd a adeiladodd Bethhoron uchaf, a Beth-horon isaf, dinasoedd wedi eu cadarnhâu â muriau, pyrth, a barrau;

6 Baalath hefyd, a holl ddinasoedd y trysorau oedd gan Solomon, a holl ddinasoedd y cerbydau, a dinasoedd y marchogion, a'r hyn oll oedd ewyllys gan Solomon ei adeiladu yn Jerusalem, ac yn Libanus, ac yn holl dir ei arglwyddiaeth ef.

7 ¶ Yr holl bobl y rhai a adawyd o'r Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Pheresiaid, a'r Hefiaid, a'r Jebusiaid, y rhai nid *oeddynt* o Israel;

8 *Ond* o'u meibion hwynt, y rhai a drigasant ar eu hol hwynt yn y wlad, y rhai ni ddifethasai meibion Israel, Solomon a'u gwnaeth hwynt yn drethol hyd y dydd hwn.

9 Ond o feibion Israel ni roddodd Solomon *neb* yn weision yn ei waith: canys hwynt-hwy *oeddynt* ryfelwyr, a thywysogion ei gaptenaiid ef, a thywysogion ei gerbydau a'i wŷr meirch ef.

10 A dyma y rhai pennaf o swyddogion y brenhin Solomon, *sef* dau cant a deg a deugain, yn arglwyddiaethu ar y bobl.

11 ¶ A Solomon a ddug ferch Pharaoh i fyny o ddinas Dafydd i'r tŷ a adeiladasai efe iddi hi: canys efe a ddywedodd, Ni thrig fy ngwraig i yn nhŷ Dafydd brenhin Israel, o herwydd sanctaidd yw, oblegid i arch yr ARGLWYDD ddyfod i mewn iddo.

12 ¶ Yna Solomon a offrymmodd boeth-offrymmau i'r ARGLWYDD ar allor yr ARGLWYDD, yr hon a adeiladasai efe o flaen y porth;

13 I boeth-offrymmu dogn dydd yn ei ddydd, yn ol gorchymyn Moses, ar y Sabbathau, ac ar y newydd-loerau, ac ar y gwyliau arbennig, dair gwaith yn y flwyddyn; *sef* ar wyl y bara croyw, ac ar wyl yr wythnosau, ac ar wyl y pebyll.

14 ¶ Ac efe a osododd, yn ol trefn Dafydd ei dad, ddosparthiadau yr offeiriaid yn eu gwasanaeth, a'r Lefiaid yn eu goruchwyliaeth, i foliannu ac i weini ger bron yr offeiriaid, fel yr oedd ddyledus bob dydd yn ei ddydd, a'r porthorion yn eu dosparthiadau, wrth bob porth: canys felly yr *oedd* gorchymyn Dafydd gŵr DUW.

15 Ac ni throisant hwy oddi wrth orchymyn y brenhin i'r offeiriaid a'r Lefiaid, am un peth, nac am y trysorau.

16 A holl waith Solomon oedd wedi ei barottôi hyd y dydd y seiliwyd tŷ yr ARGLWYDD, a hyd oni orphenwyd ef. *Felly* y gorphenwyd tŷ yr ARGLWYDD.

17 ¶ Yna yr aeth Solomon i Esiongaber, ac i Eloth, ar fin y môr, y'ngwlad Edom.

18 A Hiram a anfonodd gyd â'i weision longau, a gweision cyfarwydd ar y môr; a hwy a aethant gyd â gweision Solomon i Ophir, ac a gymmerasant oddi yno bedwar cant a deg a deugain talent o aur, ac a'*u* dygasant i'r brenhin Solomon.

PENNOD 9.

1 *Brenhines Seba yn rhyfedd ganddi ddoethineb Solomon.* 13 *Aur Solomon,* 15 *a'i dariannau,* 17 *a'i orseddfainge ifori,* 20 *a'i lestri,* 23 *a'i anrhegion,* 25 *a'i gerbydau a'i feirch,* 26 *a'i deyrnged.* 29 *Pa hyd y teyrnasodd efe, a'i farwolaeth.*

APHAN glybu brenhines Seba glod Solomon, hi a ddaeth i Jerusalem, i brofi Solomon â chwestiynau caled, â llu mawr iawn, ac â chamelod yn dwyn aroglau, ac aur lawer, a meini gwerthfawr: a hi a ddaeth at Solomon, ac a ddywed-

odd wrtho ef yr hyn oll oedd yn ei chalon.
2 A Solomon a fynegodd iddi hi ei holl ofynion: ac nid oedd dim yn guddiedig rhag Solomon a'r na fynegodd efe iddi hi.
3 A phan welodd brenhines Seba ddoethineb Solomon, a'r tŷ a adeiladasai efe,
4 A bwyd ei fwrdd, ac eisteddiad ei weision, a threfn ei weinidogion, a'u dillad, a'i drulliadau ef, a'u gwisgoedd, a'i esgynfa ar hyd yr hon yr âi efe i fyny i dŷ yr ARGLWYDD; nid oedd mwyach yspryd ynddi.
5 A hi a ddywedodd wrth y brenhin, Gwir *yw* y gair a glywais yn fy ngwlad, am dy weithredoedd di, ac am dy ddoethineb:
6 Etto ni choeliais i'w geiriau hwynt, nes i mi ddyfod, ac i'm llygaid weled. Ac wele, ni fynegasid i mi hanner helaethrwydd dy ddoethineb: ychwanegaist at y clod a glywais i.
7 Gwyn fyd dy wŷr di, a gwynfydedig *yw* dy weision hyn, y rhai sydd yn sefyll yn wastadol ger dy fron, ac yn clywed dy ddoethineb.
8 Bendigedig fyddo yr ARGLWYDD dy DDUW, yr hwn a'th hoffodd di, i'th osod ar ei orseddfa ef, yn frenhin dros yr ARGLWYDD dy DDUW: o herwydd cariad dy DDUW tu ag at Israel, i'w sicrhâu yn dragywydd; am hynny y gwnaeth efe dydi yn frenhin arnynt hwy, i wneuthur barn a chyfiawnder.
9 A hi a roddodd i'r brenhin chwech ugain talent o aur, a phêr-aroglau lawer iawn, a meini gwerthfawr: ac ni bu y fath bêr-aroglau a'r rhai a roddodd brenhines Seba i'r brenhin Solomon.
10 Gweision Hiram hefyd, a gweision Solomon, y rhai a ddygasant aur o Ophir, a ddygasant goed algumim a meini gwerthfawr.
11 A'r brenhin a wnaeth o'r coed algumim risiau i dŷ yr ARGLWYDD, ac i dŷ y brenhin, a thelynau a nablau i'r cantorion: ac ni welsid eu bath o'r blaen y'ngwlad Judah.
12 A'r brenhin Solomon a roddodd i frenhines Seba ei holl ddymuniad, a'r hyn a ofynodd hi, heb law yr hyn a ddygasai hi i'r brenhin. Felly hi a ddychwelodd, ac a aeth i'w gwlad, hi a'i gweision.
13 ¶ A phwys yr aur a ddeuai i Solomon bob blwyddyn, oedd chwe chant a thri ugain a chwech o dalentau aur;
14 Heb law *yr hyn* yr oedd y marchnadwyr a'r marsiandwyr yn *eu* dwyn: a holl frenhinoedd Arabia, a thywysogion y wlad, oedd yn dwyn aur ac arian i Solomon.
15 ¶ A'r brenhin Solomon a wnaeth ddau can tarian o aur dilin: chwe chan *sicl* o aur dilin a roddodd efe ym mhob tarian.
16 A thri chant o fwcledi o aur dilin: tri chan *sicl* o aur a roddodd efe ym mhob bwcled. A'r brenhin a'u gosododd hwynt yn nhŷ coed Libanus.
17 ¶ A'r brenhin a wnaeth orseddfa fawr o ifori, ac a'i gwisgodd âg aur pur.
18 A chwech o risiau *oedd* i'r orseddfa, a throedle o aur, y'nglŷn wrth yr orseddfa, a chanllawiau o bob tu i'r eisteddle, a dau lew yn sefyll wrth y canllawiau;
19 A deuddeg o lewod yn sefyll yno ar y chwe gris o bob tu. Ni wnaethpwyd y fath mewn un deyrnas.
20 ¶ A holl lestri dïod y brenhin Solomon *oedd* o aur, a holl lestri tŷ coed Libanus *oedd* aur pur: nid oedd yr un o arian; nid oedd dim bri arno yn nyddiau Solomon.
21 Canys llongau y brenhin oedd yn myned i Tarsis gyd â gweision Hiram: unwaith yn y tair blynedd y deuai llongau Tarsis yn dwyn aur, ac arian, ac ifori, ac eppaod, a pheunod.
22 A'r brenhin Solomon a ragorodd ar holl frenhinoedd y ddaear mewn cyfoeth a doethineb.
23 ¶ A holl frenhinoedd y ddaear oedd yn ceisio *gweled* wyneb Solomon, i wrandaw ei ddoethineb a roddasai DUW yn ei galon ef.
24 A hwy a ddygasant bob un ei anrheg, llestri arian, a llestri aur, a gwisgoedd, arfau, a phêr-aroglau, meirch, a mulod, dogn bob blwyddyn.
25 ¶ Ac yr oedd gan Solomon

bedair mil o bresebau meirch a cherbydau, a deuddeng mil o wŷr meirch; ac efe a'u cyfleodd hwynt yn ninasoedd y cerbydau, a chyd â'r brenhin yn Jerusalem.

26 ¶ Ac yr oedd efe yn arglwyddiaethu ar yr holl frenhinoedd, o'r afon hyd wlad y Philistiaid, a hyd derfyn yr Aipht.

27 A'r brenhin a wnaeth yr arian yn Jerusalem fel cerrig, a'r cedrwydd a wnaeth efe fel y sycamorwydd yn y doldir, o amldra.

28 Ac yr oeddynt hwy yn dwyn meirch i Solomon o'r Aipht, ac o bob gwlad.

29 ¶ A'r rhan arall o weithredoedd Solomon, cyntaf a diweddaf, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig y'ngeiriau Nathan y prophwyd, ac ym mhrophwydoliaeth Ahïah y Siloniad, ac y'ngweledigaethau Ido y gweledydd yn erbyn Jeroboam mab Nebat?

30 A Solomon a deyrnasodd yn Jerusalem ar holl Israel ddeugain mlynedd.

31 A Solomon a hunodd gyd â'i dadau, a chladdwyd ef yn ninas Dafydd ei dad; a Rehoboam ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 10.

1 Yr Israeliaid yn ymgasglu yn Sichem i goroni Rehoboam, a thrwy Jeroboam yn ceisio ganddo eu rhyddhâu hwy. 6 Rehoboam yn gwrthod cynghor yr henafgwyr, a thrwy gynghor y gwŷr ieuainge, yn eu hatteb hwy yn arw. 16 Deg llwyth yn ciliо oddi wrtho ef, yn lladd Hadoram, ac yn ei yrru yntau i ffo.

A REHOBOAM a aeth i Sichem; canys i Sichem y daethai holl Israel i'w urddo ef yn frenhin.

2 A phan glybu Jeroboam mab Nebat, ac yntau yn yr Aipht, lle y ffoisai efe o ŵydd Solomon y brenhin, Jeroboam a ddychwelodd o'r Aipht.

3 Canys hwy a anfonasent, ac a alwasent am dano ef. A Jeroboam a holl Israel a ddaethant, ac a ymddiddanasant â Rehoboam, gan ddywedyd,

4 Dy dad a wnaeth ein hiau ni yn drom; yn awr gan hynny ysgafnhâ *beth* o gaethiwed caled dy dad, ac o'i iau drom ef yr hon a roddodd efe arnom ni, a ni a'th wasanaethwn di.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ym mhen y tridiau dychwelwch attaf fi. A'r bobl a aethant ymaith.

6 ¶ A'r brenhin Rehoboam a ymgynghorodd â'r henuriaid a fuasai yn sefyll o flaen Solomon ei dad ef pan ydoedd efe yn fyw, gan ddywedyd, Pa fodd yr ydych chwi yn cynghori atteb y bobl hyn?

7 A hwy a lefarasant wrtho, gan ddywedyd, Os byddi yn dda i'r bobl yma, a'u boddloni hwynt, ac *os* dywedi wrthynt eiriau teg, hwy a fyddant yn weision i ti byth.

8 Ond efe a wrthododd gynghor yr henuriaid a gynghorasent hwy iddo; ac efe a ymgynghorodd â'r gwŷr ieuainge a gynnyddasent gyd âg ef, a'r rhai oedd yn sefyll ger ei fron ef.

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Beth yr ydych chwi yn ei gynghori, fel yr attebom y bobl hyn, y rhai a lefarasant wrthyf, gan ddywedyd, Ysgafnhâ *beth ar* yr iau a osododd dy dad arnom ni?

10 A'r gwŷr ieuainge y rhai a gynnyddasent gyd âg ef a lefarasant wrtho, gan ddywedyd, Fel hyn y dywedi wrth y bobl a lefarasant wrthyt, gan ddywedyd, Dy dad a wnaeth ein hiau ni yn drom, ysgafnhâ dithau *hi* oddi arnom ni: fel hyn y dywedi wrthynt; Fy *mys* bach *fydd* ffyrfach na llwynau fy nhad.

11 Ac yn awr fy nhad a'ch llwythodd chwi â iau drom, minnau hefyd a chwanegaf ar eich iau chwi: fy nhad a'ch ceryddodd chwi â ffrewyllau, a minnau *a'ch ceryddaf* âg ysgorpionau.

12 Yna y daeth Jeroboam, a'r holl bobl, at Rehoboam y trydydd dydd, fel y llefarasai y brenhin, gan ddywedyd, Dychwelwch attaf fi y trydydd dydd.

13 A'r brenhin a'u hattebodd hwynt yn arw: a'r brenhin Rehoboam a wrthododd gynghor yr henuriaid;

14 Ac efe a lefarodd wrthynt yn ol cynghor y gwŷr ieuainge, gan ddywedyd, Fy nhad a wnaeth eich iau chwi yn drom, a minnau a chwanegaf arni hi: fy nhad a'ch cerydd-

odd chwi â ffrewyllau, a minnau *a'ch ceryddaf chwi* âg ysgorpionau.
15 Ac ni wrandawodd y brenhin ar y bobl: o herwydd yr achos oedd oddi wrth DDUW, fel y cwblhâi yr ARGLWYDD ei air a lefarasai efe trwy law Ahïah y Siloniad wrth Jeroboam mab Nebat.
16 ¶ A phan *welodd* holl Israel na wrandawai y brenhin arnynt hwy, y bobl a attebasant y brenhin, gan ddywedyd, Pa ran *sydd* i ni yn Dafydd? nid *oes* chwaith *i ni* etifeddiaeth ym mab Jesse: O Israel, *aed* pawb i'w pebyll; edrych yn awr *ar* dy dŷ dy hun, Dafydd. Felly holl Israel a aethant i'w pebyll.
17 Ond meibion Israel, y rhai oedd yn preswylio yn ninasoedd Judah, Rehoboam a deyrnasodd arnynt hwy.
18 A'r brenhin Rehoboam a anfonodd Hadoram, yr hwn *oedd* ar y dreth, a meibion Israel a'i llabyddiasant ef â meini, fel y bu efe farw: ond y brenhin Rehoboam a brysurodd i fyned i'*w* gerbyd, i ffoi i Jerusalem.
19 Ac Israel a wrthryfelasant yn erbyn tŷ Dafydd hyd y dydd hwn.

PENNOD 11.

1 Rehoboam yn coâd llu i ddwyn Israel dano, a Semaiah yn gwarafun iddo. 5 Rehoboam yn cadarnhâu y deyrnas âg amddiffynfeydd ac angenrheidiau. 13 Yr offeiriaid a'r Lefiaid, a'r rhai oedd yn ofni Duw, wedi i Jeroboam eu gwrthod, yn cadarnhâu teyrnas Judah. 18 Gwragedd a phlant Rehoboam.

A PHAN ddaeth Rehoboam i Jerusalem, efe a gasglodd o holl dŷ Judah, ac o Benjamin, gant a phedwar ugain mil *o wŷr* dewisol, cymmwys i ryfel, i ymladd âg Israel, *ac* i ddwyn drachefn y frenhiniaeth i Rehoboam.
2 Ond gair yr ARGLWYDD a ddaeth at Semaiah gŵr DUW, gan ddywedyd,
3 Dywed wrth Rehoboam mab Solomon brenhin Judah, ac wrth holl Israel yn Judah a Benjamin, gan ddywedyd,
4 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Nac ewch i fyny, ac nac ymleddwch yn erbyn eich brodyr; dychwelwch bob un i'w dŷ ei hun: canys trwof fi y gwnaethpwyd y peth hyn. A hwy a wrandawsant ar eiriau yr ARGLWYDD, ac a ddychwelasant, heb fyned yn erbyn Jeroboam.
5 ¶ A Rehoboam a drigodd yn Jerusalem, ac a adeiladodd ddinasoedd cedyrn yn Judah.
6 Ac efe a adeiladodd Bethlehem, ac Etam, a Thecoa,
7 A Bethsur, a Socho, ac Adùlam,
8 A Gath, a Maresah, a Siph,
9 Ac Adoraim, a Lachis, ac Asecah,
10 A Sorah, ac Ajalon, a Hebron, y rhai *oedd* yn Judah, ac yn Benjamin; dinasoedd o gadernid.
11 Ac efe a gadarnhaodd yr amddiffynfaoedd, ac a osododd flaenoriaid ynddynt hwy, a chellau bwyd, ac olew, a gwin.
12 Ac ym mhob dinas y *gosododd efe* dariannau, a gwaywffyn, ac a'u cadarnhaodd hwynt yn gadarn iawn, ac eiddo ef oedd Judah a Benjamin.
13 ¶ A'r offeiriaid a'r Lefiaid, y rhai *oedd* yn holl Israel, a gyrchasant atto ef o'u holl derfynau.
14 Canys y Lefiaid a adawsant eu meusydd pentrefol, a'u meddiant, ac a ddaethant i Judah, ac i Jerusalem: canys Jeroboam a'i feibion a'u bwriasai hwynt ymaith o fod yn offeiriaid i'r ARGLWYDD.
15 Ac efe a osododd iddo offeiriaid i'r uchelfeydd, ac i'r cythreuliaid, ac i'r lloi a wnaethai efe.
16 Ac ar eu hol hwynt, o holl lwythau Israel, y rhai oedd yn rhoddi eu calon i geisio ARGLWYDD DDUW Israel, a ddaethant i Jerusalem, i aberthu i ARGLWYDD DDUW eu tadau.
17 Felly hwy a gadarnhasant frenhiniaeth Judah, ac a gryfhasant Rehoboam mab Solomon, dros dair blynedd: canys hwy a rodiasant yn ffordd Dafydd a Solomon dair blynedd.
18 ¶ A Rehoboam a gymmerth Mahalath, merch Jerimoth mab Dafydd, yn wraig iddo, *ac* Abihail merch Eliab mab Jesse:
19 A hi a ymddûg iddo ef feibion, *sef* Jëus, a Samarïah, a Saham.
20 Ac ar ei hol hi efe a gymmerth Maachah merch Absalom: a hi a ymddûg iddo ef Abïah, ac Attai, a Sisa, a Selomith.

21 A Rehoboam a garodd Maachah merch Absalom yn fwy na'i holl wragedd a'i ordderchadon: canys deunaw o wragedd a gymmerth efe, a thri ugain o ordderchadon; ac efe a genhedlodd wyth ar hugain o feibion, a thri ugain o ferched.

22 A Rehoboam a osododd Abïah mab Maachah yn ben, yn flaenor ar ei frodyr; canys *yr oedd yn ei fryd* ei urddo ef yn frenhin.

23 Ac efe a fu gall, ac a wasgarodd *rai* o'i feibion i holl wledydd Judah a Benjamin, i bob dinas gadarn, ac a roddes iddynt hwy luniaeth yn helaeth: ac efe a geisiodd liaws o wragedd.

PENNOD 12.

1 *Rehoboam yn ymwrthod â Duw, a Sisac yn ei gospi ef.* 5 *Efe a'i dywysogion yn edifarhau wrth bregeth Semaiah, ac yn cael ymwared rhag eu dinystrio, ond nid rhag eu hanrheithio.* 13 *Pa hyd y teyrnasodd Rehoboam, a'i farwolaeth ef.*

AC wedi i Rehoboam sicrhâu y frenhiniaeth, a'i chadarnhâu, efe a wrthododd gyfraith yr ARGLWYDD, a holl Israel gyd âg ef.

2 Ac yn y bummed flwyddyn i'r brenhin Rehoboam, y daeth Sisac brenhin yr Aipht i fyny yn erbyn Jerusalem, o herwydd iddynt wrthryfela yn erbyn yr ARGLWYDD,

3 A mil a dau cant o gerbydau, a thri ugeinmil o wŷr meirch; ac nid *oedd* nifer ar y bobl a ddaeth gyd âg ef o'r Aipht, *sef* y Lubiaid, y Succiaid, a'r Ethiopiaid.

4 Ac efe a ennillodd y dinasoedd cedyrn, y rhai *oedd* yn Judah, ac a ddaeth hyd Jerusalem.

5 ¶ Yna Semaiah y prophwyd a ddaeth at Rehoboam a thywysogion Judah, y rhai oedd wedi ymgasglu yn Jerusalem rhag ofn Sisac, ac a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Chwi a'm gwrthodasoch i, am hynny myfi a'ch gadewais chwi yn llaw Sisac.

6 Yna tywysogion Israel a'r brenhin a ymostyngasant ac a ddywedasant, Cyfiawn *yw* yr ARGLWYDD.

7 A phan welodd yr ARGLWYDD iddynt hwy ymostwng, daeth gair yr ARGLWYDD at Semaiah, gan ddywedyd, Hwy a ymostyngasant; *am hynny* ni ddifethaf hwynt, ond rhoddaf iddynt ymwared ar fyrder; ac ni thywelltir fy llid yn erbyn Jerusalem trwy law Sisac.

8 Etto byddant yn weision iddo ef, fel yr adnabyddont fy ngwasanaeth i, a gwasanaeth teyrnasoedd y gwledydd.

9 Yna Sisac brenhin yr Aipht a ddaeth i fyny yn erbyn Jerusalem, ac a gymmerth drysorau tŷ yr ARGLWYDD, a thrysorau tŷ y brenhin, ac a'u dug hwynt ymaith oll: dug ymaith hefyd y tariannau aur a wnaethai Solomon.

10 A'r brenhin Rehoboam a wnaeth yn eu lle hwynt dariannau pres, ac a'u rhoddodd *hwynt* i gadw dan law tywysogion gwŷr y gard, y rhai oedd yn cadw drws tŷ y brenhin.

11 A phan elai y brenhin i dŷ yr ARGLWYDD, gwŷr y gard a ddeuent ac a'u cyrchent hwy, ac a'u dygent drachefn i ystafell gwŷr y gard.

12 A phan ymostyngodd efe, llid yr ARGLWYDD a ddychwelodd oddi wrtho ef, fel nas dinystriai *ef* yn hollol; ac yn Judah hefyd yr oedd pob peth yn dda.

13 ¶ Felly y brenhin Rehoboam a ymgryfhaodd yn Jerusalem, ac a deyrnasodd: a mab un flwydd a deugain *oedd* Rehoboam pan ddechreuodd efe deyrnasu, a dwy flynedd ar bymtheg y teyrnasodd efe yn Jerusalem, y ddinas a ddewisasai yr ARGLWYDD i osod ei enw ef ynddi, o holl lwythau Israel: ac enw ei fam *oedd* Naamah, Ammonëes.

14 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg, canys ni pharottôdd efe ei galon i geisio yr ARGLWYDD.

15 Am y gweithredoedd cyntaf a diweddaf i Rehoboam, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig y ngeiriau Semaiah y prophwyd, ac Ido y gweledydd, yn yr achau? A *bu* rhyfeloedd *rhwng* Rehoboam a Jeroboam yn wastadol.

16 A Rehoboam a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd yn ninas Dafydd; ac Abïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 13.

1 *Abïah yn dyfod yn lle Rehoboam, ac yn rhyfela â Jeroboam:* 4 *yn adrodd ddded oedd ei achos:* 13 *yn rhoi ei hyder ar Ddduw, ac yn gorchfygu Jeroboam.* 21 *Gwragedd a phlant Abïah.*

AC yn y ddeunawfed flwyddyn i'r brenhin Jeroboam y dechreuodd Abïah deyrnasu ar Judah.
2 Tair blynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem; ac enw ei fam ef *oedd* Michaiah, merch Uriel o Gibeah. Ac yr oedd rhyfel rhwng Abïah a Jeroboam.
3 Ac Abïah a gydiodd y rhyfel â llu o ryfelwyr grymmus, *sef* pedwar can mil o wŷr etholedig: a Jeroboam a luniaethodd y rhyfel yn ei erbyn ef âg wyth gan mil o wŷr etholedig, grymmus, nerthol.
4 ¶ Ac Abïah a gyfododd ar fynydd Semaraim, yr hwn *sydd* ym mynydd Ephraim, ac a ddywedodd, O Jeroboam, a holl Israel, gwrandêwch fi;
5 Oni *ddylech* chwi wybod roddi o ARGLWYDD DDUW Israel y frenhiniaeth i Dafydd ar Israel yn dragywydd, iddo ef ac i'w feibion, trwy gyfammod halen?
6 Etto Jeroboam mab Nebat, gwas Solomon mab Dafydd, a gyfododd ac a wrthryfelodd yn erbyn ei arglwydd.
7 Ac ofer ddynion, *sef* meibion y fall, a ymgasglasant atto ef, ac a ymgadarnhasant yn erbyn Rehoboam mab Solomon, pan oedd Rehoboam yn fachgen, ac yn wan ei galon, ac ni allai ymgadarnhâu i'w herbyn hwynt.
8 Ac yn awr yr ydych yn meddwl ymgadarnhâu yn erbyn brenhiniaeth yr ARGLWYDD, *yr hon sydd* yn llaw meibion Dafydd; ac *yr ydych* yn dyrfa fawr, a chyd â chwi *y mae* y lloi aur a wnaeth Jeroboam yn dduwiau i chwi.
9 Oni yrrasoch ymaith offeiriaid yr ARGLWYDD, meibion Aaron, a'r Lefiaid? ac oni wnaethoch i chwi offeiriaid fel pobl y gwledydd *eraill?* pwy bynnag sydd yn dyfod i'w gyssegru â bustach ieuangc ac â saith o hyrddod, *hwnnw* sydd yn offeiriad i'r *rhai* nid *ydynt* dduwiau.
10 Ninnau, yr ARGLWYDD *yw* ein DUW ni, ac nis gwrthodasom ef; a'r offeiriaid yr hai sydd yn gwasanaethu yr ARGLWYDD *yw* meibion Aaron, a'r Lefiaid *sydd* yn *eu* gorchwyl.
11 Ac y maent hwy yn llosgi i'r ARGLWYDD boeth-offrymmau bob bore a phob hwyr, ac arogl-darth peraidd; ac *yn cadw* trefn y bara *gosod* ar y bwrdd pur, a'r canhwyllbren aur a'i lampau, i losgi bob prydnawn: canys yr ydym ni yn cadw goruchwyliaeth yr ARGLWYDD ein DUW; ond chwi a'i gwrthodasoch ef.
12 Ac wele, DUW *sydd* ben gyd â ni, a'i offeiriaid ef âg udgyrn soniarus i udganu yn eich erbyn chwi. O feibion Israel, nac ymleddwch yn erbyn ARGLWYDD DDUW eich tadau; canys ni lwyddwch chwi.
13 ¶ Ond Jeroboam a barodd osod cynllwyn o amgylch, a dyfod o'u hol hwynt: felly yr oeddynt hwy o flaen Judah, a'r cynllwyn o'r tu ol iddynt.
14 A Judah a edrychodd yn ol, ac wele ryfel iddynt ym mlaen ac yn ol; a hwy a waeddasant ar yr ARGLWYDD, a'r offeiriaid a leisiasant mewn udgyrn.
15 A gwŷr Judah a floeddiasant: a phan waeddodd gwŷr Judah, DUW a darawodd Jeroboam, a holl Israel, o flaen Abïah a Judah.
16 A meibion Israel a ffoisant o flaen Judah: a DUW a'u rhoddodd hwynt i'w llaw hwynt.
17 Ac Abïah a'i bobl a'u tarawsant hwy â lladdfa fawr: a syrthiodd yn archolledig o Israel bum can mil o wŷr etholedig.
18 Felly y darostyngwyd meibion Israel y pryd hwnnw; a meibion Judah a orfuant, o herwydd iddynt bwyso ar ARGLWYDD DDUW eu tadau.
19 Ac Abïah a erlidiodd ar ol Jeroboam, ac a ddug oddi arno ef ddinasoedd, Bethel a'i phentrefi, a Jesanah a'i phentrefi, ac Ephraim a'i phentrefi.
20 Ac ni chafodd Jeroboam nerth mwyach yn nyddiau Abïah: ond yr ARGLWYDD a'i tarawodd ef, fel y bu efe farw.
21 ¶ Ond Abïah a ymgryfhaodd, ac a gymmerth iddo bedair ar ddeg o wragedd, ac a genhedlodd ddau fab ar hugain, ac un ar bymtheg o ferched.
22 A'r rhan arall o hanes Abïah, a'i ffyrdd ef, a'i eiriau, *y maent* yn ysgrifenedig yn llyfr y prophwyd Ido.

PENNOD 14.

1 *Asa yn dyfod ar ol Abïah, ac yn dilëu delw-addoliaeth; 6 a chwedi cael heddwch, yn cadarnhau ei deyrnas âg amddiffynfeydd ac âg arfau: 9 yn galw ar Dduw, ac yn gorchfygu Serah, ac yn yspeilio yr Ethiopiaid.*

FELLY Abïah a hunodd gyd â'i dadau, a chladdasant ef yn ninas Dafydd; ac Asa ei fab a deyrnasodd yn ei le ef. Yn ei ddyddiau ef y cafodd y wlad lonydd ddeng mlynedd.

2 Ac Asa a wnaeth yr hyn *oedd* dda ac uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD ei DDUW.

3 Canys efe a fwriodd ymaith allorau y *duwiau* dïeithr, a'r uchelfeydd, ac a ddrylliodd y delwau, ac a dorrodd y llwyni:

4 Ac a orchymynodd i Judah geisio ARGLWYDD DDUW eu tadau, a gwneuthur y gyfraith a'r gorchymyn.

5 Ac efe a fwriodd ymaith o holl ddinasoedd Judah yr uchelfeydd a'r delwau: a chafodd y frenhiniaeth lonydd o'i flaen ef.

6 ¶ Ac efe a adeiladodd ddinasoedd cedyrn yn Judah, o herwydd bod y wlad yn cael llonydd, ac nad *oedd* rhyfel yn ei erbyn ef yn y blynyddoedd hynny; oblegid yr ARGLWYDD a roddasai lonyddwch iddo.

7 Am hynny efe a ddywedodd wrth Judah, Adeiladwn y dinasoedd hyn, ac amgylchwn *hwynt* â mur, â thyrau, â drysau, ac â barrau, tra *fyddo* y wlad o'n blaen ni; o herwydd i ni geisio yr ARGLWYDD ein DUW, ni a'*i* ceisiasom, ac efe a roddodd lonyddwch i ni o amgylch. Felly hwy a adeiladasant, ac a lwyddasant.

8 Ac yr oedd gan Asa lu *o wŷr* yn dwyn tariannau a gwaywffyn, o Judah tri chan mil, ac o Benjamin dau cant a phedwar ugain mil yn dwyn tariannau, ac yn tynnu bwa: y rhai hyn oll *oedd* wŷr grymmus.

9 ¶ A Serah yr Ethiopiad a ddaeth allan yn eu herbyn hwynt, â llu o fil o filoedd, ac â thri chant o gerbydau; ac a ddaeth hyd Maresah.

10 Yna Asa a aeth allan yn ei erbyn ef, a hwy a luniaethasant ryfel yn nyffryn Sephathah wrth Maresah.

11 Ac Asa a waeddodd ar yr ARGLWYDD ei DDUW, ac a ddywedodd, O ARGLWYDD, nid *yw ddim* i ti gynnorthwyo, pa un bynnag ai gyd â llawer, ai gyd â'r rhai nid oes ganddynt gryfder: cynnorthwya di ni, O ARGLWYDD ein DUW; canys pwyso yr ydym ni arnat ti, ac yn dy enw di y daethom yn erbyn y dorf hon: O ARGLWYDD, ein DUW ni *ydwyt* ti, na orfydded dyn i'th erbyn.

12 Felly yr ARGLWYDD a darawodd yr Ethiopiaid o flaen Asa, ac o flaen Judah; a'r Ethiopiaid a ffoisant.

13 Ac Asa a'r bobl *oedd* gyd âg ef a'u herlidiasant hwy hyd Gerar: a syrthiodd yr Ethiopiaid fel na allent ymadgryfhâu; canys drylliasid hwynt o flaen yr ARGLWYDD, ac o flaen ei lu ef; a hwy a ddygasant ymaith anrhaith fawr iawn.

14 A tharawsant yr holl ddinasoedd o amgylch Gerar; canys yr oedd dychryn yr ARGLWYDD arnynt hwy: a hwy a anrheithiasant yr holl ddinasoedd; canys anrhaith fawr oedd ynddynt.

15 Lluestai yr anifeiliaid hefyd a darawsant hwy, ac a gaethgludasant lawer o ddefaid a chamelod, ac a ddychwelasant i Jerusalem.

PENNOD 15.

1 *Asa a Judah, a llawer o Israel, trwy annog prophwydoliaeth Asariah mab Oded, yn gwneuthur cyhoedd gyfammod â Duw: 16 yn symmudo Maachah ei fam o fod yn frenhines, o herwydd ei delw-addoliaeth: 18 yn dwyn y pethau cysegredig i dŷ Dduw, ac yn cael hir heddwch.*

AC ysprydDUW a ddaeth ar Asariah mab Oded.

2 Ac efe a aeth allan o flaen Asa, ac a ddywedodd wrtho, O Asa, a holl Judah, a Benjamin, gwrandêwch fi; Yr ARGLWYDD *sydd* gyd â chwi, tra fyddoch gyd âg ef; ac os ceisiwch ef, chwi a'i cewch ef: ond os gwrthodwch chwi ef, yntau a'ch gwrthyd chwithau.

3 Dyddiau lawer *y bu* Israel heb y gwir DDUW, a heb offeiriad yn ddysgawdwr, a heb gyfraith.

4 Ond pan ddychwelent yn eu cyfyngdra at ARGLWYDD DDUW Israel, a'i geisio ef, efe a geid ganddynt.

5 Ac yn yr amseroedd hynny nid

oedd heddwch i'r hwn oedd yn myned allan, nac i'r hwn oedd yn dyfod i mewn: ond blinder lawer *oedd* ar holl breswylwyr y gwledydd.

6 A chenedl a ddinystriwyd gan genedl, a dinas gan ddinas: oblegid DUW oedd yn eu poeni hwy â phob aflwydd.

7 Ymgryfhêwch gan hynny, ac na laesed eich dwylaw: canys y mae gwobr i'ch gwaith chwi.

8 A phan glybu Asa y geiriau hyn, a phrophwydoliaeth Oded y prophwyd, efe a gryfhaodd, ac a fwriodd ymaith y ffiaidd *eilunod* o holl wlad Judah, a Benjamin, ac o'r holl ddinasoedd a ennillasai efe o fynydd Ephraim, ac a adnewyddodd allor yr ARGLWYDD, yr hon *oedd* o flaen porth yr ARGLWYDD.

9 Ac efe a gynhullodd holl Judah, a Benjamin, a'r dïeithriaid gyd â hwynt, o Ephraim a Manasseh, ac o Simeon: canys hwy a syrthiasant atto ef yn aml o Israel, pan welsant *fod* yr ARGLWYDD ei DDUW gyd âg ef.

10 Felly hwy a ymgynnullasant i Jerusalem, yn y trydydd mis, yn y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Asa.

11 A hwy a aberthasant i'r ARGLWYDD y dwthwn hwnnw, o'r anrhaith a ddygasent, saith gant o eidionau, a saith mil o ddefaid.

12 A hwy a aethant dan gyfammod i geisio ARGLWYDD DDUW eu tadau, â'u holl galon, ac â'u holl enaid:

13 A phwy bynnag ni cheisiai ARGLWYDD DDUW Israel, fod ei roddi ef i farwolaeth, yn fychan *ac* yn fawr, yn ŵr *ac* yn wraig.

14 A hwy a dyngasant i'r ARGLWYDD â llef uchel, ac â bloedd, âg udgyrn hefyd, ac â thrwmpedau.

15 A holl Judah a lawenychasant o herwydd y llw; canys â'u holl galon y tyngasent, ac â'u holl ewyllys y ceisiasant ef, a hwy a'i cawsant ef: a'r ARGLWYDD a roddodd lonyddwch iddynt o amgylch.

16 ¶ A'r brenhin Asa a symmudodd Maachah ei fam o *fod* yn frenhines; o herwydd gwneuthur o honi ddelw mewn llwyn: ac Asa a dorrodd ei delw hi, ac a'*i* drylliodd, ac a'*i* llosgodd wrth afon Cidron.

17 Ond ni thynnwyd ymaith yr uchelfeydd o Israel: etto yr oedd calon Asa yn berffaith ei holl ddyddiau ef.

18 ¶ Ac efe a ddug i mewn i dŷ yr ARGLWYDD yr hyn a gyssegrasai ei dad, a'r hyn a gyssegrasai efe ei hun, arian, ac aur, a llestri.

19 Ac ni bu ryfel *mwyach* hyd y bymthegfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Asa.

PENNOD 16.

1 *Asa, trwy gymmorth y Syriaid, yn rhwystro i Baasa adeiladu Ramah.* 7 *Hanani yn ei argyhoeddi ef am hynny, ac ymtau yn ei furw ef y'ngharchar.* 11 *Ym nhlith ei weithredoedd eraill, y mae efe, yn ei glefyd, yn ymgais, nid â Duw, ond â'r physygwyr.* 13 *Ei farwolaeth ef a'i gladdedigaeth.*

YN yr unfed flwyddyn ar bymtheg ar hugain o deyrnasiad Asa, y daeth Baasa brenhin Israel i fyny yn erbyn Judah, ac a adeiladodd Ramah, fel na adawai *i neb* fyned allan na dyfod i mewn at Asa brenhin Judah.

2 Yna Asa a ddug allan arian, ac aur, o drysorau tŷ yr ARGLWYDD, a thŷ y brenhin, ac a'*i* hanfonodd at Benhadad brenhin Syria, yr hwn oedd yn trigo yn Damascus, gan ddywedyd,

3 Cyfammod *sydd* rhyngof fi a thi, fel *y bu* rhwng fy nhad i a'th dad dithau: wele, anfonais attat arian, ac aur; dos, tor dy gyfammod â Baasa brenhin Israel, fel y cilio efe oddi wrthyf fi.

4 A Benhadad a wrandawodd ar y brenhin Asa, ac a anfonodd dywysogion ei luoedd yn erbyn dinasoedd Israel, a hwy a darawsant Ijon, a Dan, ac Abel-maim, a holl drysorddinasoedd Naphtali.

5 A phan glybu Baasa *hynny*, efe a beidiodd âg adeiladu Ramah, ac a adawodd ei waith i sefyll.

6 Yna Asa y brenhin a gymmerth holl Judah, a hwy a gludasant ymaith gerrig Ramah, a'i choed, â'r rhai yr adeiladai Baasa; ac a adeiladodd â hwynt Geba, a Mispah.

7 ¶ Y pryd hwnnw y daeth Hanani y gweledydd at Asa brenhin Judah, ac a ddywedodd wrtho, Gan i ti roi dy bwys ar frenhin Syria,

ac na roddaist dy bwys ar yr ARGLWYDD dy DDUW, am hynny y dïangodd llu brenhin Syria o'th law di.

8 Onid oedd yr Ethiopiaid a'r Lubiaid yn llu dirfawr, â cherbydau ac â gwŷr meirch yn aml iawn? ond am i ti roi dy bwys ar yr ARGLWYDD, efe a'u rhoddodd hwynt yn dy law di.

9 Canys y mae llygaid yr ARGLWYDD yn edrych ar yr holl ddaear, i'w ddangos ei hun yn gryf gyd *â'r rhai sydd* â'u calon yn berffaith tu ag atto ef. Ynfyd y gwnaethost yn hyn; am hynny rhyfeloedd fydd i'th erbyn o hyn allan.

10 Yna y digiodd Asa wrth y gweledydd, ac a'i rhoddodd ef mewn carchardy; canys *yr oedd efe* yn ddigllawn wrtho am *y peth* hyn. Ac Asa a orthrymmodd *rai* o'r bobl y pryd hwnnw.

11 ¶ Ac wele, gweithredoedd Asa, y rhai cyntaf a'r rhai diweddaf, wele, *y maent* yn ysgrifenedig yn llyfr brenhinoedd Judah ac Israel.

12 Ac Asa a glafychodd o'i draed yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ar hugain o'i deyrnasiad, nes i'w glefyd *fyned* yn ddirfawr; etto ni cheisiodd efe yr ARGLWYDD yn ei glefyd, ond y meddygon.

13 ¶ Ac Asa a hunodd gyd â'i dadau, ac a fu farw yn yr unfed flwyddyn a deugain o'i deyrnasiad.

14 A chladdasant ef yn ei feddrod ei hun, yr hwn a wnaethai efe iddo yn ninas Dafydd, a rhoddasant ef i orwedd mewn gwely a lanwasid â phêr-aroglau o amryw rywogaethau, wedi eu gwneuthur trwy waith apothecari; a hwy a gynneuasant iddo ef gynneu mawr iawn.

PENNOD 17.

1 *Jehosaphat yn dyfod ar ol Asa, yn teyrnasu yn ddaionus, ac yn ffynnu; 7 yn anfon Lefiaid gyd â'r pennaethiaid i ddysgu Judah.* 10 *Duw yn dychrynu ei elynion ef, a rhai o honynt yn dwyn iddo anrhegion a theyrnged.* 12 *Ei fawredd, â'i gaptenïaid, a'i luoedd ef.*

A JEHOSAPHAT ei fab a deyrnasodd yn ei le ef, ac a ymgryfhaodd yn erbyn Israel.

2 Ac efe a roddodd fyddinoedd ym mhob un o gaerog ddinasoedd Judah, ac a roddes raglawiaid yng ngwlad Judah, ac yn ninasoedd Ephraim, y rhai a ennillasai Asa ei dad ef.

3 A'r ARGLWYDD a fu gyd â Jehosaphat, o herwydd iddo rodio yn ffyrdd cyntaf Dafydd ei dad, ac nad ymofynodd â Baalim:

4 Eithr DUW ei dad a geisiodd efe, ac yn ei orchymynion ef y rhodiodd, ac nid yn ol gweithredoedd Israel.

5 Am hynny yr ARGLWYDD a sicrhaodd y frenhiniaeth yn ei law ef; a holl Judah a roddasant anrhegion i Jehosaphat; ac yr ydoedd iddo olud ac anrhydedd yn helaeth.

6 Ac efe a ddyrchafodd ei galon yn ffyrdd yr ARGLWYDD: ac efe a fwriodd hefyd yr uchelfeydd a'r llwyni allan o Judah.

7 ¶ Hefyd yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, efe a anfonodd at ei dywysogion, *sef* Benhail, ac Obadïah, a Sechariah, a Nethaneel, a Michaiah, i ddysgu yn ninasoedd Judah.

8 A chyd â hwynt *yr anfonodd efe* Lefiaid, Semaiah, a Nethanïah, a Sebadïah, ac Asahel, a Semiramoth, a Jehonathan, ac Adonïah, a Thobïah, a Thob-adonïah, y Lefiaid; a chyd â hwynt Elisama, a Jehoram, yr offeiriaid.

9 A hwy a ddysgasant yn Judah, a chyd â hwynt *yr oedd* llyfr cyfraith yr ARGLWYDD: felly yr amgylchasant hwy holl ddinasoedd Judah, ac y dysgasant y bobl.

10 ¶ Ac arswyd yr ARGLWYDD oedd ar holl deyrnasoedd y gwledydd *oedd* o amgylch Judah, fel nad ymladdasant hwy yn erbyn Jehosaphat.

11 A *rhai* o'r Philistiaid oedd yn dwyn i Jehosaphat anrhegion, a theyrnged o arian: yr Arabiaid hefyd oedd yn dwyn iddo ef ddïadelloedd, saith mil a saith gant o hyrddod, a saith mil a saith gant o fychod.

12 ¶ Felly Jehosaphat oedd yn myned rhagddo, ac yn cynnyddu yn uchel; ac efe a adeiladodd yn Judah balasau, a dinasoedd trysorau.

13 A llawer o waith oedd ganddo ef yn ninasoedd Judah; a rhyfelwyr cedyrn nerthol yn Jerusalem.

14 A dyma eu rhifedi hwynt, yn

ol tŷ eu tadau: O Judah yn dywysogion miloedd, *yr oedd* Adnah y pennaf, a chyd âg ef dri chan mil *o wŷr* cedyrn nerthol.

15 A cher ei law ef, Jehohanan y tywysog, a chyd âg ef ddau cant a phedwar ugain mil.

16 A cher llaw iddo ef, Amasïah mab Sichri, yr hwn o'i wirfodd a ymroddodd i'r ARGLWYDD; a chyd âg ef ddau can mil *o wŷr* cedyrn nerthol.

17 Ac o Benjamin, *yr oedd* Eliada yn *ŵr* cadarn nerthol, a chyd âg ef ddau can mil yn arfogion â bwäau a thariannau.

18 A cher llaw iddo ef, Jehosabad, a chyd âg ef gant a phedwar ugain mil yn barod i ryfel.

19 Y rhai hyn oedd yn gwasanaethu y brenhin, heb law y rhai a roddasai y brenhin yn y dinasoedd caerog, trwy holl Judah.

PENNOD 18.

1 *Jehosaphat yn ymgyfathrachu âg Ahab, ac yn myned gyd âg ef i Ramoth-Gilead,* 4 *Gau-brophwydi yn twyllo Ahab, a'i ladd ef yn ol gair Micheah.*

AC i Jehosaphat yr ydoedd golud ac anrhydedd yn helaeth; ac efe a ymgyfathrachodd âg Ahab.

2 Ac ym mhen *ennyd* o flynyddoedd efe a aeth i waered at Ahab i Samaria. Ac Ahab a laddodd ddefaid a gwartheg lawer, iddo ef ac i'r bobl *oedd* gyd âg ef, ac a'i hannogodd ef i fyned i fyny *gyd âg ef* i Ramoth-Gilead.

3 Ac Ahab brenhin Israel a ddywedodd wrth Jehosaphat brenhin Judah, A âi di gyd â mi i Ramoth-Gilead? Yntau a ddywedodd wrtho, *Yr ydwyf* fi fel tithau, a'm pobl i fel dy bobl dithau, a *byddwn* gyd â thi yn y rhyfel.

4 ¶ Jehosaphat hefyd a ddywedodd wrth frenhin Israel, Ymgynghora, attolwg, heddyw â gair yr ARGLWYDD.

5 Am hynny brenhin Israel a gasglodd o'r prophwydi bedwar cant o wŷr, ac a ddywedodd wrthynt, A awn ni yn érbyn Ramoth-Gilead i ryfel, neu a beidiaf fi? Dywedasant hwythau, Dos i fyny; canys DUW a'i dyry yn llaw y brenhin.

6 Ond Jehosaphat a ddywedodd, Onid *oes* yma *un* prophwyd i'r ARGLWYDD etto mwyach, fel yr ymgynghorem âg ef?

7 A brenhin Israel a ddywedodd wrth Jehosaphat, *Y mae* etto un gŵr trwy yr hwn *y gallem* ymgynghori â'r ARGLWYDD: ond y mae yn gas gennyf fi ef: canys nid yw yn prophwydo i mi ddaioni, ond drygioni erioed: efe *yw* Micheah mab Imla. A dywedodd Jehosaphat, Na ddyweded y brenhin felly.

8 A brenhin Israel a alwodd ar un o'i ystafellyddion, ac a ddywedodd, Prysura Micheah mab Imla.

9 A brenhin Israel a Jehosaphat brenhin Judah oeddynt yn eistedd bob un ar ei deyrn-gadair, wedi eu gwisgo mewn *brenhinol* wisgoedd, eistedd yr oeddynt mewn llannerch *wrth* ddrws porth Samaria; a'r holl brophwydi oedd yn prophwydo ger eu bron hwynt.

10 A Sedecïah mab Cenaanah a wnaethai iddo ei hun gyrn heiyrn, ac efe a ddywedodd, Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD, A'r rhai hyn y corni di y Syriaid, nes i ti eu difa hwynt.

11 A'r holl brophwydi oedd yn prophwydo fel hyn, gan ddywedyd, Dos i fyny i Ramoth-Gilead, a ffynna: canys yr ARGLWYDD a'*i* dyry *hi* yn llaw y brenhin.

12 A'r gennad a aethai i alw Micheah, a lefarodd wrtho ef, gan ddywedyd, Wele eiriau y prophwydi yn unair yn dda i'r brenhin: bydded gan hynny, attolwg, dy air dithau fel un o'r rhai hynny, a dywed y goreu.

13 A Micheah a ddywedodd, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, yr hyn a ddywedo fy NUW, hynny a lefaraf fi.

14 A phan ddaeth efe at y brenhin, y brenhin a ddywedodd wrtho, Micheah, a awn ni i ryfel yn erbyn Ramoth-Gilead, neu a beidiaf fi? Dywedodd yntau, Ewch i fyny, a ffynnwch, a rhoddir hwynt yn eich llaw chwi.

15 A'r brenhin a ddywedodd wrtho, Pa sawl gwaith y'th dynghedaf di, na lefarech wrthyf fi ond gwirioned yn enw yr ARGLWYDD?

16 Yna efe a ddywedodd, Gwelais holl Israel yn wasgaredig ar y mynyddoedd, fel defaid ni *byddai* iddynt fugail. A dywedodd yr ARGLWYDD, Nid *oes* feistr arnynt hwy; dychweled pob un i'w dŷ ei hun mewn tangnefedd.

17 (A brenhin Israel a ddywedodd wrth Jehosaphat, Oni ddywedais i wrthyt, na phrophwydai efe ddaioni i mi, ond drygioni?)

18 Yntau a ddywedodd, Gan hynny gwrando air yr ARGLWYDD: Gwelais yr ARGLWYDD yn eistedd ar ei orseddfa, a holl lu y nefoedd yn sefyll ar ei ddeheulaw, ac *ar* ei law aswy.

19 A dywedodd yr ARGLWYDD, Pwy a dwylla Ahab brenhin Israel, fel yr elo efe i fyny, ac y syrthio yn Ramoth-Gilead? Ac un a lefarodd gan ddywedyd fel hyn, ac arall gan ddywedyd fel hyn.

20 Yna ysprydd a aeth allan, ac a safodd ger bron yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Myfi a'i twyllaf ef. A dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, Pa fodd?

21 Dywedodd yntau, Myfi a âf allan, ac a fyddaf yn ysprydd celwyddog y'ngenau ei holl brophwydi ef. A dywedodd *yr ARGLWYDD*, Twylli, a gorchfygi: dos allan, a gwna felly.

22 Ac yn awr wele, yr ARGLWYDD a roddodd ysprydd celwyddog yng ngenau dy brophwydi hyn; a'r ARGLWYDD a lefarodd ddrwg am danat ti.

23 Yna Sedecïah mab Cenaanah a nesaodd, ac a darawodd Micheah dan *ei* gern, ac a ddywedodd, Pa ffordd yr aeth ysprydd yr ARGLWYDD oddi wrthyf fi i ymddiddan â thydi?

24 A Micheah a ddywedodd, Wele, ti a gei weled y dwthwn hwnnw, pan elych di o ystafell i ystafell i ymguddio.

25 A brenhin Israel a ddywedodd, Cymmerwch Micheah, a dygwch ef yn ei ol at Amon tywysog y ddinas, ac at Joas mab y brenhin;

26 A dywedwch, Fel hyn y dywedodd y brenhin, Rhowch hwn yn y carchardy, a bwydwch ef â bara cystudd, ac â dwfr blinder, nes i mi ddyfod eilwaith mewn heddwch.

27 Yna y dywedodd Micheah, Os gan ddychwelyd y dychweli di mewn heddwch, ni lefarodd yr ARGLWYDD ynof fi. Efe a ddywedodd hefyd, Gwrandêwch *hyn*, yr holl bobl.

28 Felly brenhin Israel a Jehosaphat brenhin Judah a aethant i fyny i Ramoth-Gilead.

29 A brenhin Israel a ddywedodd wrth Jehosaphat, Mi a newidiaf fy nillad, ac a âf i'r rhyfel; ond gwisg di dy ddillad. Felly brenhin Israel a newidiodd ei ddillad, a hwy a aethant i'r rhyfel.

30 A brenhin Syria a orchymynasai i dywysogion y cerbydau y rhai *oedd* ganddo ef, gan ddywedyd, Nac ymleddwch â bychan nac â mawr, ond â brenhin Israel yn unig.

31 A phan welodd tywysogion y cerbydau Jehosaphat, hwy a ddywedasant, Brenhin Israel *yw* efe. A hwy a droisant i ymladd yn ei erbyn ef: ond Jehosaphat a waeddodd, a'r ARGLWYDD a'i cynnorthwyodd ef, a DUW a'u gyrrodd hwynt oddi wrtho ef.

32 A phan welodd tywysogion y cerbydau nad brenhin Israel oedd efe, hwy a ddychwelasant oddi ar ei ol ef.

33 A *rhyw* ŵr a dynnodd mewn bwa ar ei amcan, ac a darawodd frenhin Israel rhwng cyssylltiadau y llurig: am hynny efe a ddywedodd wrth ei gerbydwr, Tro dy law, a dwg fi allan o'r gâd; canys fe'm clwyfwyd i.

34 A'r rhyfel a gryfhaodd y dwthwn hwnnw; a brenhin Israel a gynhelid yn *ei* gerbyd yn erbyn y Syriaid hyd yr hwyr: ac efe a fu farw ynghylch machludiad haul.

PENNOD 19.

1 *Jehu yn ceryddu Jehosaphat, ac yntau yn ymweled d'i deyrnas, 5 ac yn rhoi athrawiaeth i'w farnwyr, 8 ac i'r offeiriaid a'r Leflaid.*

A JEHOSAPHAT brenhin Judah a ddychwelodd i'w dŷ ei hun i Jerusalem mewn heddwch.

2 A Jehu mab Hanani y gweledydd, a aeth o'i flaen ef, ac a ddywedodd wrth y brenhin Jehosaphat, Ai cynnorthwyo yr annuwiol, a charu

y rhai oedd yn casâu yr ARGLWYDD, a wneit ti? am hyn digofaint oddi wrth yr ARGLWYDD *sydd* arnat ti.

3 Er hynny pethau da a gafwyd ynot ti; canys ti a dynnaist ymaith y llwyni o'r wlad, ac a barottoaist dy galon i geisio DUW.

4 A Jehosaphat a drigodd yn Jerusalem: ac efe a aeth drachefn trwy y bobl o Beerseba hyd fynydd Ephraim, ac a'u dug hwynt eilwaith at ARGLWYDD DDUW eu tadau.

5 ¶ Ac efe a osododd farnwyr yn y wlad, trwy holl ddinasoedd caerog Judah, o ddinas bwy gilydd;

6 Ac efe a ddywedodd wrth y barnwyr, Edrychwch beth a wneloch: canys nid dros ddyn yr ydych yn barnu, ond dros yr ARGLWYDD; ac *efe a fydd* gyd â chwi wrth roddi barn.

7 Yn awr gan hynny bydded ofn yr ARGLWYDD arnoch chwi; gwyliwch a gwnewch *hynny:* o herwydd nid *oes* anwiredd gyd â'r ARGLWYDD ein DUW, na derbyn wyneb, na chymmeryd gwobr.

8 ¶ A Jehosaphat a osododd hefyd yn Jerusalem *rai* o'r Lefiaid, ac o'r offeiriaid, ac o bennau tadau Israel, *i drin* barnedigaethau yr ARGLWYDD, ac amrafaelion, pan ddychwelent i Jerusalem.

9 Ac efe a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, Fel hyn y gwnewch mewn ofn yr ARGLWYDD, mewn ffyddlondeb, ac â chalon berffaith.

10 A pha amrafael bynnag a ddêl attoch chwi oddi wrth eich brodyr, y rhai sydd yn trigo yn eu dinasoedd, rhwng gwaed a gwaed, rhwng cyfraith a gorchymyn, deddfau a barnedigaethau, rhybuddiwch hwynt na throseddont yn erbyn yr ARGLWYDD, a bod digofaint arnoch chwi, ac ar eich brodyr: felly gwnewch ac na throseddwch.

11 Ac wele, Amarïah yr archoffeiriad *sydd* arnoch chwi ym mhob peth *a berthyn i'r* ARGLWYDD; a Sebadïah mab Ismael, blaenor tŷ Judah, ym mhob achos i'r brenhin; a'r Lefiaid yn swyddogion ger eich bron chwi. Ymwrolwch, a gwnewch *hynny*, a'r ARGLWYDD fydd gyd â'r daionus.

PENNOD 20.

1 *Jehosaphat yn ei ofn yn cyhoeddi ympryd,* 5 *ac yn gweddio.* 14 *Prophwydoliaeth Jahasiel.* 20 *Jehosaphat yn cynghori y bobl, ac yn gosod cantorion i foliannu yr Arglwydd.* 23 *Maur ddinystr y gelynion.* 26 *Y bobl, wedi bendithio Duw yn Berachah, yn dychwelyd mewn gorfoledd.* 31 *Teyrnasiad Jehosaphat.* 35 *Ei longau ef ac Ahaziah yn dryllio.*

AC wedi hyn meibion Moab a meibion Ammon a ddaethant, a chyd â hwynt *eraill* heb law yr Ammoniaid, yn erbyn Jehosaphat, i ryfel.

2 Yna y deuwyd ac y mynegwyd i Jehosaphat, gan ddywedyd, Tyrfa fawr a ddaeth yn dy erbyn di o'r tu hwnt i'r môr, o Syria; ac wele *y maent* hwy yn Hasason-Tamar, honno *yw* En-gedi.

3 A Jehosaphat a ofnodd, ac a ymroddodd i geisio yr ARGLWYDD; ac a gyhoeddodd ympryd trwy holl Judah.

4 A Judah a ymgasglasant i ofyn *cymmorth* gan yr ARGLWYDD: canys hwy a ddaethant o holl ddinasoedd Judah i geisio yr ARGLWYDD.

5 ¶ A Jehosaphat a safodd yng nghynnulleidfa Judah a Jerusalem, yn nhŷ yr ARGLWYDD, o flaen y cyntedd newydd,

6 Ac a ddywedodd, O ARGLWYDD DDUW ein tadau, onid *wyt* ti yn DDUW yn y nefoedd, ac yn llywodraethu ar holl deyrnasoedd y cenhedloedd; ac *onid* yn dy law di *y mae* nerth a chadernid, fel nad oes a ddichon dy wrthwynebu di?

7 Onid tydi ein DUW ni a yrraist ymaith breswylwyr y wlad hon o flaen dy bobl Israel, ac a'i rhoddaist hi i had Abraham dy garedigol yn dragywydd?

8 A thrigasant ynddi, ac adeiladasant i ti ynddi gyssegr i'th enw, gan ddywedyd,

9 *Pan* ddêl niwed arnom ni, *sef* cleddyf, barnedigaeth, neu haint y nodau, neu newyn; os safwn o flaen y tŷ hwn, a cher dy fron di, (canys dy enw di *sydd* yn y tŷ hwn,) a gwaeddi arnat yn ein cyfyngdra, ti a wrandewi ac a'n gwaredi ni.

10 Ac yn awr wele feibion Ammon a Moab, a *thrigolion* mynydd Seir, y rhai ni chaniatteaist i Israel fyned attynt, pan ddaethant o

wlad yr Aipht; ond hwy a droisant oddi wrthynt, ac ni ddifethasant hwynt:

11 Etto wele hwynt-hwy yn talu i ni, gan ddyfod i'n bwrw ni allan o'th etifeddiaeth di, yr hon a wnaethost i ni ei hetifeddu.

12 O ein Duw ni, oni ferni di hwynt? canys nid *oes* gennym ni nerth *i sefyll* o flaen y dyrfa fawr hon sydd yn dyfod i'n herbyn; ac ni wyddom ni beth a wnawn: ond arnat ti *y mae* ein llygaid.

13 A holl Judah oedd yn sefyll ger bron yr Arglwydd, â'u rhai bach, eu gwragedd, a'u plant.

14 ¶ Yna ar Jahasiel mab Sechariah, fab Benaiah, fab Jeiel, fab Mattaniah, Lefiad o feibion Asaph, y daeth ysbryd yr Arglwydd yng nghanol y gynnulleidfa.

15 Ac efe a ddywedodd, Gwrandêwch holl Judah, a thrigolion Jerusalem, a *thithau* frenhin Jehosaphat, Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthych chwi, Nac ofnwch, ac na ddigalonnwch rhag y dyrfa fawr hon: canys nid eiddoch chwi y rhyfel, eithr eiddo Duw.

16 Y fory ewch i waered yn eu herbyn hwynt; wele hwynt yn dyfod i fyny wrth riw Sis, a chwi a'u goddiweddwch hwynt y'nghwr yr afon, tu ag anialwch Jeruel.

17 Nid *rhaid* i chwi ymladd yn *y rhyfel* hwn: sefwch yn llonydd, a gwelwch ymwared yr Arglwydd tu ag attoch, O Judah a Jerusalem: nac ofnwch, ac na ddigalonnwch: ewch y fory allan yn eu herbyn hwynt, a'r Arglwydd *fydd* gyd â chwi.

18 A Jehosaphat a ymgrymmodd i lawr ar ei wyneb: holl Judah hefyd a holl drigolion Jerusalem a syrthiasant ger bron yr Arglwydd, gan addoli yr Arglwydd.

19 A'r Lefiaid, o feibion y Cohathiaid, ac o feibion y Corhiaid, a gyfodasant i foliannu Arglwydd Dduw Israel â llef uchel ddyrchafedig.

20 ¶ A hwy a gyfodasant yn fore, ac a aethant i anialwch Tecoa: ac wrth fyned o honynt, Jehosaphat a safodd, ac a ddywedodd, Gwrandêwch fi, O Judah, a thrigolion Jerusalem; Credwch yn yr Arglwydd eich Duw, a chwi a sicrhêir; coeliwch ei brophwydi ef, a chwi a ffynnwch.

21 Ac efe a ymgynghorodd â'r bobl, ac a osododd gantorion i'r Arglwydd, a rhai i foliannu prydferthwch sancteiddrwydd, pan aent allan o flaen y rhyfelwyr; ac i ddywedyd, Clodforwch yr Arglwydd, o herwydd ei drugaredd *a bery* yn dragywydd.

22 ¶ Ac yn yr amser y dechreuasant hwy y gân a'r moliant, y rhoddodd yr Arglwydd gynllwynwyr yn erbyn meibion Ammon, Moab, a *thrigolion* mynydd Seir, y rhai oedd yn dyfod yn erbyn Judah; a hwy a laddasant bawb eu gilydd.

23 Canys meibion Ammon a Moab a gyfodasant yn erbyn trigolion mynydd Seir, i'w difrodi, ac i'w difetha *hwynt:* a phan orphenasant hwy drigolion Seir, hwy a helpiasant ddifetha pawb eu gilydd.

24 A phan ddaeth Judah hyd Mispah yn yr anialwch, hwy a edrychasant ar y dyrfa, ac wele hwynt yn gelaneddau meirwon yn gorwedd ar y ddaear, ac heb *un* diangol.

25 A phan ddaeth Jehosaphat a'i bobl i ysglyfaethu eu hyspail hwynt, hwy a gawsant yn eu mysg hwy lawer o olud, gyd â'r cyrph meirw, a thlysau dymunol, yr hyn a ysglyfaethasant iddynt, beth anfeidrol: a thridiau y buant yn ysglyfaethu yr yspail; canys mawr *oedd.*

26 ¶ Ac ar y pedwerydd dydd yr ymgynnullasant i ddyffryn y fendith; canys yno y bendithiasant yr Arglwydd: am hynny y gelwir enw y fan honno Dyffryn y fendith, hyd heddyw.

27 Yna y dychwelodd holl wŷr Judah a Jerusalem, a Jehosaphat yn flaenor iddynt, i fyned yn eu hol i Jerusalem mewn llawenydd; canys yr Arglwydd a roddasai lawenydd iddynt hwy ar eu gelynion.

28 A hwy a ddaethant i Jerusalem â nablau, a thelynau, ac udgyrn, i dŷ yr Arglwydd.

29 Ac ofn Duw oedd ar holl deyrnasoedd y ddaear, pan glywsant hwy fel y rhyfelasai yr Arglwydd yn erbyn gelynion Israel.

30 Felly teyrnas Jehosaphat a gafodd lonydd: canys ei DDUW a roddodd iddo lonyddwch o amgylch.
31 ¶ A Jehosaphat a deyrnasodd ar Judah: mab pymtheng mlwydd ar hugain *oedd efe* pan ddechreuodd deyrnasu, a phum mlynedd ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Asubah merch Silhi.
32 Ac efe a rodiodd yn ffordd Asa ei dad, ac ni chiliodd oddi wrthi, gan wneuthur yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD.
33 Er hynny ni thynnwyd yr uchelfeydd ymaith: canys ni pharottoisai y bobl eu calon etto at DDUW eu tadau.
34 A'r rhan arall o'r gweithredoedd cyntaf a diweddaf i Jehosaphat, wele hwy yn ysgrifenedig ym mysg geiriau Jehu mab Hanani, yr hwn y crybwyllir am dano yn llyfr brenhinoedd Israel.
35 ¶ Ac wedi hyn Jehosaphat brenhin Judah a ymgyfeillodd âg Ahasïah brenhin Israel, yr hwn a ymroddasai i ddrygioni.
36 Ac efe a unodd âg ef ar wneuthur llongau i fyned i Tarsis: a gwnaethant y llongau yn Esiongaber.
37 Yna Elïeser mab Dodafah o Maresah a brophwydodd yn erbyn Jehosaphat, gan ddywedyd, O herwydd i ti ymgyfeillachu âg Ahasïah, yr ARGLWYDD a ddrylliodd dy waith di. A'r llongau a ddrylliwyd, fel na allasant fyned i Tarsis.

PENNOD 21.

1 Jehoram yn teyrnasu ar ol Jehosaphat, ac yn lladd ei frodyr. 5 Ei annuwioldeb ef. 8 Edom a Libnah yn troi oddi wrtho ef. 12 Prophwydoliaeth Elias yn ei erbyn ef. 16 Y Philistiaid a'r Arabiaid yn ei orthrymmu ef. 18 Ei anaele gleyfyd ef, a'i waradwyddus farwolaeth, a'i gladdedigaeth.

A JEHOSAPHAT a hunodd gyd â'i dadau, ac a gladdwyd gyd â'i dadau yn ninas Dafydd. A Jehoram ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.
2 Ac iddo ef *yr oedd* brodyr, meibion Jehosaphat; Asarïah, a Jehiel, a Secharïah, ac Asarïah, a Michael, a Sephatïah: y rhai hyn oll *oedd* feibion Jehosaphat brenhin Israel.
3 A'u tad a roddodd iddynt roddion lawer, o arian, ac aur, a gwerthfawr bethau, gyd â dinasoedd caerog yn Judah: ond efe a róddodd y frenhiniaeth i Jehoram, canys efe *oedd* y cyntaf-anedig.
4 A Jehoram a gyfododd ar frenhiniaeth ei dad, ac a ymgadarnhaodd, ac a laddodd ei holl frodyr â'r cleddyf, a *rhai* hefyd o dywysogion Israel.
5 ¶ Mab deuddeng mlwydd ar hugain *oedd* Jehoram pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac wyth mlynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem.
6 Ac efe a rodiodd yn ffordd brenhinoedd Israel, fel y gwnelsai tŷ Ahab; canys merch Ahab oedd wraig iddo: ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD.
7 Ond ni fynnai yr ARGLWYDD ddifetha tŷ Dafydd, er mewn y cyfammod a ammodasai efe â Dafydd, fel y dywedasai, y rhoddai efe iddo oleuni ac i'w feibion byth.
8 ¶ Yn ei ddyddiau ef y gwrthryfelodd Edom oddi tan law Judah, ac y gosodasant frenhin arnynt eu hun.
9 A Jehoram a aeth allan, a'i dywysogion, a'i holl gerbydau gyd âg ef: ac efe a gyfododd liw nos, ac a darawodd yr Edomiaid, y rhai oedd yn ei amgylchu ef, a thywysogion y cerbydau.
10 Felly Edom a wrthryfelodd oddi tan law Judah hyd y dydd hwn: a gwrthryfelodd Libnah y pryd hwnnw oddi tan ei law ef; o herwydd iddo ymwrthod âg ARGLWYDD DDUW ei dadau.
11 Efe hefyd a wnaeth uchelfeydd ym mynyddoedd Judah, ac a wnaeth i drigolion Jerusalem butteinio, ac a gymhellodd Judah *i hynny.*
12 ¶ A daeth ysgrifen oddi wrth Elïas y prophwyd atto ef, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Dafydd dy dad, O herwydd na rodiaist ti yn ffyrdd Jehosaphat dy dad, nac yn ffyrdd Asa brenhin Judah;
13 Eithr rhodio o honot yn ffordd brenhinoedd Israel, a gwneuthur o honot i Judah ac i drigolion Jerusalem butteinio, fel y putteiniodd tŷ

Ahab, a lladd o honot dy frodyr hefyd *o* dŷ dy dad, y rhai *oedd* well na thydi:

14 Wele, yr ARGLWYDD a dery â phla mawr dy bobl di, a'th blant, a'th wragedd, a'th holl olud.

15 A thi *a gei* glefyd mawr, clefyd o'th ymysgaroedd, nes myned o'th goluddion allan gan y clefyd, o ddydd i ddydd.

16 ¶ Felly yr ARGLWYDD a gyffrôdd yn erbyn Jehoram yspryd y Philistiaid, a'r Arabiaid, y rhai *oedd* ger llaw yr Ethiopiaid:

17 A hwy a ddaethant i fyny i Judah, ac a'i drylliasant hi, ac a gaethgludasant yr holl gyfoeth a gafwyd yn nhŷ y brenhin, a'i feibion hefyd a'i wragedd; fel na adawyd mab iddo, ond Jehoahas, yr ieuangaf o'i feibion.

18 ¶ Ac wedi hyn oll yr ARGLWYDD a'i tarawodd ef yn ei ymysgaroedd â chlefyd anaele.

19 A bu, ar ol talm o ddyddiau, ac wedi darfod yspaid dwy flynedd, ei ymysgaroedd ef a aeth allan gan ei glefyd: felly y bu efe farw o glefydau drwg. A'i bobl ni wnaethant iddo gynneu, megis cynneu ei dadau.

20 Mab deuddeng mlwydd ar hugain oedd efe pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac wyth mlynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem; ac efe a ymadawodd heb hiraeth *am dano:* a chladdasant ef yn ninas Dafydd, ond nid ym meddrod y brenhinoedd.

PENNOD 22.

1 *Ahasïah yn dyfod ar ol Jehoram, ac yn teyrnasu yn annuwiol.* 5 *Ei gynghrair ef â Joram mab Ahab, a Jehu yn ei ladd ef.* 10 *Athaliah yn difetha yr holl had brenhinol ond Joas, yr hwn a guddiasai Josabea ei fodryb, ac yn cymmeryd arni y frenhiniaeth.*

ATHRIGOLION Jerusalem a urddasant Ahasïah ei fab ieuangaf ef yn frenhin yn ei le ef: canys y fyddin a ddelsai gyd â'r Arabiaid i'r gwersyll, a laddasai y rhai hynaf oll. Felly Ahasïah mab Jehoram brenhin Judah a deyrnasodd.

2 Mab dwy flwydd a deugain *oedd* Ahasïah pan ddechreuodd efe deyrnasu; ac un flwyddyn y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Athalïah merch Omri.

3 Yntau hefyd a rodiodd yn ffyrdd tŷ Ahab: canys ei fam oedd ei gynghor ef i wneuthur drwg.

4 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, fel tŷ Ahab: canys hwynt-hwy oedd gynghoriaid iddo ef, ar ol marwolaeth ei dad, i'w ddinystr ef.

5 ¶ Ac efe a rodiodd yn ol eu cynghor hwynt, ac a aeth gyd â Jehoram mab Ahab brenhin Israel i ryfel, yn erbyn Hasael brenhin Syria, yn Ramoth-Gilead: a'r Syriaid a darawsant Joram.

6 Ac efe a ddychwelodd i ymiachâu i Jesreel, o herwydd yr archollion â'r rhai y tarawsant ef yn Ramah, pan ymladdodd efe â Hasael brenhin Syria. Ac Asarïah mab Jehoram brenhin Judah a aeth i waered i ymweled â Jehoram mab Ahab i Jesreel, canys claf *oedd* efe.

7 A dinystr Ahasïah oedd oddi wrth DDUW, wrth ddyfod at Joram: canys pan ddaeth, efe a aeth gyd â Jehoram yn erbyn Jehu mab Nimsi, yr hwn a enneiniasai yr ARGLWYDD i dorri ymaith dŷ Ahab.

8 A phan farnodd Jehu yn erbyn tŷ Ahab, efe a gafodd dywysogion Judah, a meibion brodyr Ahasïah, y rhai oedd yn gwasanaethu Ahasïah, ac efe a'u lladdodd hwynt.

9 Ac efe a geisiodd Ahasïah; a hwy a'i daliasant ef, (canys yr oedd efe yn llechu yn Samaria;) a hwy a'i dygasant ef at Jehu: lladdasant ef hefyd, a chladdasant ef; canys dywedasant, Mab Jehosaphat *yw* efe, yr hwn a geisiodd yr ARGLWYDD â'i holl galon. Felly nid oedd gan dŷ Ahasïah nerth i lynu yn y deyrnas.

10 ¶ Ond pan welodd Athalïah mam Ahasïah farw o'i mab, hi a gyfododd, ac a ddifethodd holl frenhinol had tŷ Judah.

11 Ond Josabea merch y brenhin a gymmerth Joas mab Ahasïah, ac a'i lladrattaodd ef o fysg meibion y brenhin y rhai a laddwyd, ac a'i rhoddodd ef a'i fammaeth yn ystafell y gwelŷau. Felly Josabea merch y brenhin Jehoram, gwraig Jehoiada yr offeiriad, (canys chwaer Ahasïah ydoedd hi,) a'i cuddiodd ef rhag Athalïah, fel na laddodd hi ef.

12 Ac efe a fu y'nghûdd gyd â hwynt yn nhŷ DDUW chwe blynedd: ac Athalïah oedd yn teyrnasu ar y wlad.

PENNOD 23.

1 *Jehoiada, wedi gosod pethau mewn trefn, yn gwneuthur Joas yn frenhin.* 12 *Lladd Athalïah.* 16 *Jehoiada yn edfryd gwasanaeth Duw.*

AC yn y seithfed flwyddyn yr ymgadarnhaodd Jehoiada, ac y cymmerodd dywysogion y cannoedd, Asarïah mab Jeroham, ac Ismael mab Johanan, ac Asarïah mab Obed, a Maaseiah mab Adaiah, ac Elisaphat mab Sichri, gyd âg ef mewn cyfammod.

2 A hwy a aethant o amgylch yn Judah, ac a gynnullasant y Lefiaid o holl ddinasoedd Judah, a phennau-cenedl Israel, ac a ddaethant i Jerusalem.

3 A'r holl gynnulleidfa a wnaethant gyfammod â'r brenhin yn nhŷ DDUW: ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Wele, mab y brenhin a deyrnasa, fel y llefarodd yr ARGLWYDD am feibion Dafydd.

4 Dyma y peth a wnewch chwi; Y drydedd ran o honoch, y rhai a ddeuant i mewn *ar* y Sabbath, o'r offeiriaid ac o'r Lefiaid, *fydd* yn borthorion i'r trothwyau;

5 A'r drydedd ran *fydd* yn nhŷ y brenhin; a'r drydedd ran wrth borth y sylfaen; a'r holl bobl yng nghynteddau tŷ yr ARGLWYDD.

6 Ac na ddeled *neb* i dŷ yr ARGLWYDD, ond yr offeiriaid, a'r gweinidogion o'r Lefiaid; deuant hwy i mewn, canys sanctaidd *ydynt:* ond yr holl bobl a gadwant wyliadwriaeth yr ARGLWYDD.

7 A'r Lefiaid a amgylchant y brenhin o bob tu, pob un â'i arfau yn ei law; a phwy bynnag *arall* a ddelo i'r tŷ, lladder ef: ond byddwch chwi gyd â'r brenhin, pan ddelo efe i mewn, a phan elo efe allan.

8 A'r Lefiaid a holl Judah a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymynasai Jehoiada yr offeiriad, a hwy a gymmerasant bawb eu gwŷr, y rhai oedd yn dyfod i mewn *ar* y Sabbath, gyd â'r rhai oedd yn myned allan *ar* y Sabbath: (canys ni ryddhasai Jehoiada yr offeiriad y dosparthiadau.)

9 A Jehoiada yr offeiriad a roddodd i dywysogion y cannoedd, y gwaywffyn, a'r tariannau, a'r estylch, *a fuasai* yn eiddo y brenhin Dafydd, y rhai *oedd,* yn nhŷ DDUW.

10 Ac efe a gyfleodd yr holl bobl, a phob un â'i arf yn ei law, o'r tu dehau i'r tŷ hyd y tu aswy i'r tŷ, ynghylch yr allor a'r tŷ, yn ymyl y brenhin oddi amgylch.

11 Yna y dygasant allan fab y brenhin, a rhoddasant y goron arno ef, a'r dystiolaeth, ac a'i hurddasant ef yn frenhin: Jehoiada hefyd a'i feibion a'i henneiniasant ef, ac a ddywedasant, Byw fyddo y brenhin.

12 ¶ A phan glybu Athalïah drwst y bobl yn rhedeg, ac yn moliannu y brenhin, hi a ddaeth at y bobl i dŷ yr ARGLWYDD.

13 A hi a edrychodd, ac wele y brenhin yn sefyll wrth ei golofn yn y ddyfodfa, a'r tywysogion a'r udgyrn yn ymyl y brenhin; a holl bobl y wlad yn llawen, ac yn lleisio mewn udgyrn; a'r cantorion âg offer cerdd, a'r rhai a fedrent foliannu. Yna Athalïah a rwygodd ei dillad, ac a ddywedodd, Bradwriaeth, bradwriaeth!

14 A Jehoiada yr offeiriad a ddug allan dywysogion y cannoedd, *sef* swyddogion y llu, ac a ddywedodd wrthynt, Dygwch hi allan o'r rhesau: a'r hwn a ddelo ar ei hol hi, lladder ef â'r cleddyf. Canys dywedasai yr offeiriad, Na leddwch hi yn nhŷ yr ARGLWYDD.

15 A hwy a roddasant ddwylaw arni hi, a hi a ddaeth tu a'r porth y deuai y meirch i dŷ y brenhin, ac yno y lladdasant hwy hi.

16 ¶ A Jehoiada a wnaeth gyfammod rhyngddo ei hun, a rhwng yr holl bobl, a rhwng y brenhin, i fod yn bobl i'r ARGLWYDD.

17 Yna yr holl bobl a aethant i dŷ Baal, ac a'i distrywiasant ef, a'i allorau, ei ddelwau hefyd a ddrylliasant hwy, ac a laddasant Mattan offeiriad Baal o flaen yr allor.

18 A Jehoiada a osododd swyddau *yn* nhŷ yr ARGLWYDD, dan law yr offeiriaid y Lefiaid, y rhai a ddosparthasai Dafydd yn nhŷ yr ARGLWYDD, i offrymmu poeth-offrymmau yr ARGLWYDD, fel *y mae*

yn ysgrifenedig y'nghyfraith Moses, mewn llawenydd a chân, yn ol trefn Dafydd.

19 Ac efe a gyfleodd y porthorion wrth byrth tŷ yr ARGLWYDD, fel na ddelai i mewn neb *a fyddai* aflan mewn dim oll.

20 Cymmerodd hefyd dywysogion y cannoedd, a'r pendefigion, a'r rhai oedd yn arglwyddiaethu ar y bobl, a holl bobl y wlad, ac efe a ddug y brenhin i waered o dŷ yr ARGLWYDD: a hwy a ddaethant trwy y porth uchaf i dŷ y brenhin, ac a gyfleasant y brenhin ar orseddfa y frenhiniaeth.

21 A holl bobl y wlad a lawenychasant, a'r ddinas a fu lonydd wedi iddynt ladd Athalïah â'r cleddyf.

PENNOD 24.

1 *Joas yn teyrnasu yn ddaionus tra fu fyw Jehoiada.* 4 *yn peri cyweirio y deml.* 15 *Marwolaeth Jehoiada, a'i barchedig angladd.* 17 *Joas yn troi at ddelw-addoliaeth, ac yn lladd Sechariah mab Jehoiada.* 23 *Y Syriaid yn ei anrheithio ef, a Sabad a Jehosabad yn ei ladd ef.* 27 *Amasiah yn teyrnasu ar ei ol ef.*

MAB saith mlwydd *oedd* Joas pan ddechreuodd efe deyrnasu, a deugain mlynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Sibiah o Beerseba.

2 A Joas a wnaeth yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD holl ddyddiau Jehoiada yr offeiriad.

3 A Jehoiada a gymmerth iddo ddwy wraig: ac efe a genhedlodd feibion a merched.

4 ¶ Ac wedi hyn Joas a roes ei fryd ar adnewyddu tŷ yr ARGLWYDD.

5 Ac efe a gynhullodd yr offeiriaid a'r Lefiaid, ac a ddywedodd wrthynt, Ewch i ddinasoedd Judah, a chesglwch gan holl Israel arian i gyweirio tŷ eich DUW, o flwyddyn i flwyddyn: prysurwch chwithau y peth. Ond ni frysiodd y Lefiaid.

6 A'r brenhin a alwodd am Jehoiada, yr *offeiriad* pennaf, ac a ddywedodd wrtho, Paham na cheisiaist gan y Lefiaid ddwyn o Judah, ac o Jerusalem, dreth Moses gwas yr ARGLWYDD, a chynnulleidfa Israel, i babell y dystiolaeth?

7 Canys meibion Athalïah, y wraig ddrygionus honno, a rwygasent dŷ DDUW; a holl gyssegredig bethau tŷ yr ARGLWYDD a roisant hwy i Baalim.

8 Ac wrth orchymyn y brenhin hwy a wnaethant gist, ac a'i gosodasant hi ym mhorth tŷ yr ARGLWYDD oddi allan.

9 A rhoddasant gyhoeddiad yn Judah, ac yn Jerusalem, ar ddwyn i'r ARGLWYDD dreth Moses gwas DUW, *yr hon a roisid* ar Israel yn yr anialwch.

10 A'r holl dywysogion a'r holl bobl a lawenychasant, ac a ddygasant, ac a fwriasant i'r gist, nes gorphen o honynt.

11 A bu, yr amser y dygpwyd y gist at swyddog y brenhin trwy law y Lefiaid, a phan welsant *fod* llawer o arian, ddyfod o ysgrifenydd y brenhin, a swyddog yr archoffeiriad, a thywallt y gist, a'i chymmeryd hi, a'i dwyn drachefn i'w lle ei hun. Felly y gwnaethant o ddydd i ddydd, a chasglasant arian lawer.

12 A'r brenhin a Jehoiada a'i rhoddodd i'r rhai oedd yn gweithio gwasanaeth tŷ yr ARGLWYDD; a chyflogasant seiri maen, a seiri pren, i gyweirio tŷ yr ARGLWYDD; a gofaint haiarn a phres, i gadarnhâu tŷ yr ARGLWYDD.

13 Felly y gweithwyr a weithiasant, a'r gwaith a orphenwyd trwy eu dwylaw hwynt: a hwy a wnaethant dŷ DDUW yn ei drefn ei hun, ac a'i cadarnhasant ef.

14 A phan orphenasant hwy *ef*, hwy a ddygasant y gweddill o'r arian ger bron y brenhin a Jehoiada; a hwy a wnaethant o honynt lestri i dŷ yr ARGLWYDD, *sef* llestri y weinidogaeth, a'r morterau, a'r llwyau, a'r llestri aur ac arian. Ac yr oeddynt hwy yn offrymmu poethoffrymmau yn nhŷ yr ARGLWYDD yn wastadol, holl ddyddiau Jehoiada.

15 ¶ Ond Jehoiada a heneiddiodd, ac oedd gyflawn o ddyddiau, ac a fu farw: mab can mlwydd a deg ar hugain *oedd efe* pan fu farw.

16 A hwy a'i claddasant ef yn ninas Dafydd gyd â'r brenhinoedd; canys efe a wnelsai ddaioni yn Israel, tu ag at DDUW a'i dŷ.

17 Ac wedi marw Jehoiada, tywysogion Judah a ddaethant, ac a ymgrymmasant i'r brenhin: yna

y brenhin a wrandawodd arnynt hwy.

18 A hwy a adawsant dŷ ARGLWYDD DDUW eu tadau, ac a wasanaethasant y llwyni, a'r delwau: a daeth digofaint ar Judah a Jerusalem, o herwydd eu camwedd hyn.

19 Etto efe a anfonodd attynt hwy brophwydi, i'w troi hwynt at yr ARGLWYDD; a hwy a dystiolaethasant yn eu herbyn hwynt, ond ni wrandawsant hwy.

20 Ac yspryd DUW a ddaeth ar Sechariah mab Jehoiada yr offeiriad, ac efe a safodd oddi ar y bobl, ac a ddywedodd wrthynt hwy, Fel hyn y dywedodd DUW, Paham yr ydych chwi yn troseddu gorchymynion yr ARGLWYDD? diau na ffynnwch chwi; canys gwrthodasoch yr ARGLWYDD, am hynny yntau a'ch gwrthyd chwithau.

21 A hwy a gyd-fwriadasant yn ei erbyn ef, ac a'i llabyddiasant ef â meini wrth orchymyn y brenhin, y'nghyntedd tŷ yr ARGLWYDD.

22 Ac ni chofiodd Joas y brenhin y caredigrwydd a wnaethai Jehoiada ei dad ef âg ef, ond efe a laddodd ei fab ef: a phan oedd efe yn marw, efe a ddywedodd, Edrycked yr ARGLWYDD, a gofyned.

23 ¶ Ac ym mhen y flwyddyn y daeth llu y Syriaid i fyny yn ei erbyn ef: a hwy a ddaethant yn erbyn Judah a Jerusalem, ac a ddifethasant holl dywysogion y bobl o blith y bobl, ac a anfonasant eu holl anrhaith hwynt i frenhin Damascus.

24 Canys llu y Syriaid a ddaethai âg ychydig wŷr, a'r ARGLWYDD a roddodd yn eu llaw hwynt lu mawr iawn, am iddynt wrthod ARGLWYDD DDUW eu tadau: felly y gwnaethant hwy farn yn erbyn Joas.

25 A phan aethant hwy oddi wrtho ef, (canys hwy a'i gadawsant ef mewn clefydau mawrion,) ei weision ei hun a gyd-fwriadodd i'w erbyn ef, o herwydd gwaed meibion Jehoiada yr offeiriad, ac a'i lladdasant ef ar ei wely; ac efe a fu farw: a hwy a'i claddasant ef yn ninas Dafydd, ond ni chladdasant ef ym meddau y brenhinoedd.

26 A dyma y rhai a frad-fwriadasant yn ei erbyn ef; Sabad mab Simeath yr Ammonëes, a Jehosabad mab Simrith y Moabëes.

27 ¶ Am ei feibion ef, a maint y baich a roddwyd arno, a sylfaeniad tŷ DDUW, wele hwy yn ysgrifenedig yn histori llŷfr y brenhinoedd. Ac Amasïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 25.

1 *Amasïah yn dechreu teyrnasu yn ddaionus:* 3 *yn gwneuthur cyflawnder a'r bradwyr:* 5 *yn cyflogi llu o'r Israeliaid yn erbyn yr Edomiaid, ac ar air y prophwyd yn colli y can talent cyflog, ac yn eu gollwng hwynt ymaith:* 11 *yn gorchfygu yr Edomiaid.* 10, 13 *Yr Israeliaid yn ddiglawn am eu gollwng ymaith, yn yspeilio wrth fyned adref.* 14 *Amasïah yn balchio am ei orchfuddiaeth, ac yn gwasanaethu duwiau Edom, ac yn drystyru rhybudd y prophwyd;* 17 *yn cyffroi Joas i'w ddinystr ei hun.* 25 *Yr hŷd y teyrnasodd efe.* 27 *Ei ladd ef trwy frad.*

MAB pum mlwydd ar hugain *oedd* Amasïah pan ddechreuodd efe deyrnasu, a naw mlynedd ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Jehoàdan o Jerusalem.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, ond nid â chalon berffaith.

3 ¶ A phan sicrhâwyd ei deyrnas iddo ef, efe a laddodd ei weision a laddasent y brenhin ei dad ef.

4 Ond ni laddodd efe eu meibion hwynt, ond *efe a wnaeth* fel *y mae* yn ysgrifenedig yn y gyfraith yn llyfr Moses, lle y gorchymynasai yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Ni bydd marw y tadau dros y meibion, ac ni bydd marw y meibion dros y tadau, ond pob un a fydd marw am ei bechod ei hun.

5 ¶ Ac Amasïah a gynhullodd Judah, ac a'u gwnaeth hwy, yn ol tŷ *eu* tadau, yn dywysogion ar filoedd, ac yn dywysogion ar gannoedd, trwy holl Judah a Benjamin: ac efe a'u cyfrifodd hwynt o fab ugain mlwydd ac uchod, ac a'u cafodd hwy yn dri chan mil o *wŷr* etholedig yn *gallu* myned i ryfel, yn medru trin gwaywffon a tharian.

6 Ac efe a gyflogodd o Israel gan mil *o wŷr* cedyrn nerthol, er can talent o arian.

7 Ond gŵr DUW a ddaeth atto ef, gan ddywedyd, O frenhin, nac aed llu Israel gyd â thi: canys nid *yw yr* ARGLWYDD gyd âg Israel, *sef gyd* â holl feibion Ephraim.

8 Ond os myned a fynni, gwna, ymgadarnhâ i ryfel: *ond* DUW a wna i ti syrthio o flaen dy elynion; canys y mae gan DDUW nerth i gynnorthwyo, ac i gwympo.

9 Ac Amasïah a ddywedodd wrth ŵr DUW, Ond beth a wneir am y can talent a roddais i dorf Israel? A dywedodd gŵr DUW, Y mae ar law yr ARGLWYDD roddi i ti lawer mwy na hynny.

10 Felly Amasïah a'u neilldduodd hwynt, *sef* y dorf a ddelsai atto ef o Ephraim, i fyned i'w mangre eu hun. A llidiodd eu digllonedd hwy yn ddirfawr yn erbyn Judah, a dychwelasant i'w mangre eu hun mewn llid digllawn.

11 ¶ Ac Amasïah a ymgadarnhaodd, ac a dywysodd allan ei bobl, ac a aeth i ddyffryn yr halen, ac a darawodd *o* feibion Seir ddeng mil.

12 Meibion Judah hefyd a gaethgludasant ddeng mil yn fyw, ac a'u dygasant i ben y graig, ac a'u taflasant hwy o ben y graig, fel y dryllliwyd hwynt oll.

13 ¶ A'r rhyfelwyr, y rhai a ddarfuasai i Amasïah eu troi yn ol rhag myned gyd âg ef i ryfel, a ruthrasant ar ddinasoedd Judah, o Samaria hyd Beth-horon, ac a darawsant o honynt dair mil, ac a ysglyfaethasant anrhaith fawr.

14 ¶ Ac wedi dyfod Amasïah o ladd yr Edomiaid, efe a ddug dduwiau meibion Seir, ac a'u gosododd hwynt iddo ef yn dduwiau, ac a addolodd ger eu bron hwynt, ac a arogl-darthodd iddynt.

15 Am hynny y llidiodd digllonedd yr ARGLWYDD yn erbyn Amasïah; ac efe a anfonodd brophwyd atto ef, yr hwn a ddywedodd wrtho ef, Paham y ceisiaist ti dduwiau y bobl, y rhai nid achubasant eu pobl eu hun o'th law di?

16 A phan oedd efe yn llefaru wrtho ef, *y brenhin* a ddywedodd wrtho yntau, A wnaed tydi yn gynghorwr i'r brenhin? paid, i ba beth y'th darewid? A'r prophwyd a beidiodd, ac a ddywedodd, Mi a wn fod DUW wedi arfaethu dy ddinystrio di, am i ti wneuthur hyn, ac na wrandewaist ar fy nghynghor i.

17 ¶ ¶ Yna Amasïah brenhin Judah a ymgynghorodd, ac a anfonodd at Joas mab Jehoahas mab Jehu brenhin Israel, gan ddywedyd, Tyred, gwelwn wyneb ein gilydd.

18 A Joas brenhin Israel a anfonodd at Amasïah brenhin Judah, gan ddywedyd, Yr ysgellyn *sydd* yn Libanus a anfonodd at y gedrwydden *sydd* yn Libanus, gan ddywedyd, Dyro dy ferch i'm mab i yn wraig: a bwystfil y maes, yr hwn *oedd* yn Libanus, a dramwyodd, ac a sathrodd yr ysgellyn.

19 Dywedaist, Wele, tarewaist yr Edomiaid, a'th galon a'th ddyrchafodd i ymffrostio; eistedd yn awr yn dy dŷ; paham yr wyt yn ymyrryd er drwg *i ti dy hun*, fel y syrthit ti, a Judah gyd â thi?

20 Ond ni wrandawai Amasïah; canys oddi wrth DDUW *yr oedd* hynny, fel y rhoddid hwynt yn llaw *y gelyn*, am iddynt geisio duwiau Edom.

21 Felly Joas brenhin Israel a aeth i fyny, a hwy a welsant wynebau eu gilydd, efe ac Amasïah brenhin Judah, yn Bethsemes, yr hon *oedd* yn Judah.

22 A Judah a darawyd o flaen Israel, a hwy a ffoisant bawb i'w pebyll.

23 A Joas brenhin Israel a ddaliodd Amasïah mab Joas, fab Jehoahas brenhin Judah, yn Bethsemes, ac a'i dug ef i Jerusalem, ac a dorrodd i lawr fur Jerusalem, o borth Ephraim hyd borth y gongl, pedwar can cufydd.

24 Ac *efe a gymmerth* yr holl aur, a'r arian, a'r holl lestri a gafwyd yn nhŷ DDUW gyd âg Obed-edom, a thrysorau tŷ y brenhin, a'r gwystlon hefyd, ac a ddychwelodd i Samaria.

25 ¶ Ac Amasïah mab Joas brenhin Judah a fu fyw, wedi marwolaeth Joas mab Jehoahas brenhin Israel, bymtheng mlynedd.

26 A'r rhan arall o'r gweithredoedd cyntaf a diweddaf i Amasïah, wele, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr brenhinoedd Judah ac Israel?

27 ¶ Ac wedi yr amser yr ymadawodd Amasïah oddi ar ol yr ARGLWYDD, hwy a frad-fwriadasant fradwriaeth yn ei erbyn ef yn Je-

rusalem, ac efe a ffodd i Lachis: ond hwy a anfonasant ar ei ol ef i Lachis, ac a'i lladdasant ef yno.

28 A hwy a'i dygasant ef ar feirch, ac a'i claddasant ef gyd â'i dadau yn ninas Judah.

PENNOD 26.

1 *Ussïah yn frenhin ar ol Amasïah, ac yn llywodraethu yn dda tra fu byw Sechariah, ac yn llwyddo.* 16 *Wedi hynny yn balchio, ac yn cynnweryd arno yr offeiriadaeth, ac yn cael ei daro a gwahan-glwyf.* 22 *Efe yn marw, a Jotham yn teyrnasu ar ei ol ef.*

YNA holl bobl Judah a gymmerasant Ussïah, ac yntau yn fab un flwydd ar bymtheg, ac a'i hurddasant ef yn frenhin yn lle Amasïah ei dad.

2 Efe a adeiladodd Eloth, ac a'i dug hi drachefn i Judah, ar ol huno o'r brenhin gyd â'i dadau.

3 Mab un flwydd ar bymtheg *oedd* Ussïah pan ddechreuodd efe deyrnasu, a deuddeng mlynedd a deugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Jecholïah o Jerusalem.

4 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnaethai Amasïah ei dad ef.

5 Ac efe a ymgeisiodd â DUW yn nyddiau Sechariah, yr hwn oedd ganddo ddeall y'ngweledigaethau DUW: a'r dyddiau y ceisiodd efe yr ARGLWYDD, DUW a'i llwyddodd ef.

6 Ac efe a aeth allan, ac a ryfelodd yn erbyn y Philistiaid, ac a dorrodd i lawr fur Gath, a mur Jabneh, a mur Asdod, ac a adeiladodd ddinasoedd yn Asdod, ac ym mysg y Philistiaid.

7 A DUW a'i cynnorthwyodd ef yn erbyn y Philistiaid, ac yn erbyn yr Arabiaid, y rhai oedd yn trigo yn Gur-baal, a'r Mehuniaid.

8 A'r Ammoniaid a roisant roddion i Ussïah: a'i enw ef a aeth hyd y mynediad i'r Aipht; o herwydd efe a ymgryfhaodd yn ddirfawr.

9 Hefyd Ussïah a adeiladodd dyrau yn Jerusalem wrth borth y gongl, ac wrth borth y glyn, ac wrth droad *y mur*, ac a'u cadarnhaodd hwynt.

10 Ac efe a adeiladodd dyrau yn yr anialwch, ac a gloddiodd bydewau lawer; oblegid yr oedd ganddo lawer o anifeiliaid, yn y dyffryndir ac yn y gwastadedd: *a* llafurwyr a gwinllanwyr yn y mynyddoedd, ac yn Carmel: canys hoff oedd ganddo *goledd* y ddaear.

11 Ac yr oedd gan Ussïah lu o ryfelwyr, yn myned allan yn fyddinoedd, yn ol nifer eu cyfrif hwynt, trwy law Jeiel yr ysgrifenydd, a Maaseiah y llywydd, dan law Hananïah, *un* o dywysogion y brenhin.

12 Holl nifer pennau-cenedl y rhai cedyrn o nerth *oedd* ddwy fil a chwe chant.

13 A than eu llaw hwynt *yr oedd* llu grymmus, tri chan mil a saith mil a phum cant, yn rhyfela â chryfder nerthol, i gynnorthwyo y brenhin yn erbyn y gelyn.

14 Ac Ussïah a ddarparodd iddynt, *sef* i'r holl lu, dariannau, a gwaywffyn, a helmau, a llurigau, a bwäau, a thaflau *i daflu* cerrig.

15 Ac efe a wnaeth yn Jerusalem offer trwy gelfyddyd y rhai cywraint, i fod ar y tyrau ac ar y conglau, i ergydio saethau a cherrig mawrion: a'i enw ef a aeth ym mhell, canys yn rhyfedd y cynnorthwywyd ef, nes ei gadarnhâu.

16 ¶ Ond pan aeth yn gryf, ei galon a ddyrchafwyd i'*w* ddinystr *ei hun;* canys efe a droseddodd yn erbyn yr ARGLWYDD ei DDUW: ac efe a aeth i mewn i deml yr ARGLWYDD i arogl-darthu ar allor yr arogl-darth.

17 Ac Asarïah yr offeiriad a aeth i mewn ar ei ol ef, a chyd âg ef bedwar ugain o offeiriaid yr ARGLWYDD, yn feibion grymmus:

18 A hwy a safasant yn erbyn Ussïah y brenhin, ac a ddywedasant wrtho, Ni *pherthyn* i ti, Ussïah, arogl-darthu i'r ARGLWYDD, ond i'r offeiriaid meibion Aaron, y rhai a gyssegrwyd i arogl-darthu: dos allan o'r cyssegr; canys ti a droseddaist, ac ni *bydd hyn* i ti yn ogoniant oddi wrth yr ARGLWYDD DDUW.

19 Yna y llidiodd Ussïah, a'r arogl-darth i arogl-darthu *oedd* yn ei law ef: a thra yr ydoedd efe yn llidiog yn erbyn yr offeiriaid, gwahanglwyf a gyfododd yn ei dalcen ef,

y'ngŵydd yr offeiriaid yn nhŷ yr ARGLWYDD, ger llaw allor yr arogldarth.

20 Ac edrychodd Asarïah yr archoffeiriad a'r holl offeiriaid arno ef, ac wele, *yr oedd* efe yn wahanglwyfus yn ei dalcen, a gwnaethant iddo frysio oddi yno: ac yntau hefyd a frysiodd i fyned allan, o herwydd i'r ARGLWYDD ei daro ef.

21 Ac Ussïah y brenhin a fu wahan-glwyfus hyd ddydd ei farwolaeth, ac a drigodd yn wahanglwyfus mewn tŷ neilldduol; canys efe a dorrasid ymaith o dŷ yr ARGLWYDD: a Jotham ei fab ef *oedd* ar dŷ y brenhin, yn barnu pobl y wlad.

22 ¶ A'r rhan arall o weithredoedd cyntaf a diweddaf Ussïah, a ysgrifenodd Esaiah y prophwyd mab Amos.

23 Felly Ussïah a hunodd gyd â'i dadau, a chladdasant ef gyd â'i dadau ym maes beddrod y brenhinoedd; canys dywedasant, Gwahanglwyfus *ydyw* efe. A Jotham ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 27.

1 *Jotham yn teyrnasu yn dda, ac yn llwyddo:* 5 *yn darostwng yr Ammoniaid.* 7 *Ei deyrnasiad ef.* 9 *Ahas yn teyrnasu ar ei ol ef.*

MAB pum mlwydd ar hugain *oedd* Jotham pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac un flynedd ar bymtheg y teyrnasodd efe yn Jerusalem, ac enw ei fam ef *oedd* Jerusah merch Sadoc.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnelsai Ussïah ei dad: eithr nid aeth efe i deml yr ARGLWYDD. A'r bobl oedd etto yn ymlygru.

3 Efe a adeiladodd y porth uchaf i dŷ yr ARGLWYDD; ac ar fur y tŵr yr adeiladodd efe lawer.

4 Dinasoedd hefyd a adeiladodd efe ym mynyddoedd Judah, ac yn y coedydd yr adeiladodd efe balasau a thyrau.

5 ¶ Ac efe a ryfelodd yn erbyn brenhin meibion Ammon, ac a aeth yn drech na hwynt. A meibion Ammon a roddasant iddo ef gan talent o arian y flwyddyn honno, a deng mil corus o wenith, a deng mil corus o haidd. Hyn a roddodd meibion Ammon iddo ef yr ail flwyddyn a'r drydedd.

6 Felly Jotham a aeth yn gadarn, oblegid efe a barottôdd ei ffyrdd ger bron yr ARGLWYDD ei DDUW.

7 ¶ A'r rhan arall o hanes Jotham, a'i holl ryfeloedd ef, a'i ffyrdd, wele *y maent* yn ysgrifenedig yn llyfr brenhinoedd Israel a Judah.

8 Mab pum mlwydd ar hugain oedd efe pan ddechreuodd deyrnasu, ac un flynedd ar bymtheg y teyrnasodd efe yn Jerusalem.

9 ¶ A Jotham a hunodd gyd â'i dadau, a chladdasant ef yn ninas Dafydd. Ac Ahas ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 28.

1 *Ahas yn teyrnasu yn ddrygionus, a'r Syriaid yn ei fiino ef.* 6 *Yr Israeliaid yn caethgludo gwŷr Judah, a thrwy gynghor Oded y prophwyd yn ei galluog hwy adref.* 16 *Ahas yn gyrru am gymmorth i Assyria, a hynny heb lesu iddo:* 22 *yn ei gufymgder ym chwanegu ei ddeluaddoliaeth:* 26 *ym marw, a Hesecïah yn dyfod ar ei ol ef.*

MAB ugain mlwydd *oedd* Ahas pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac un flynedd ar bymtheg y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ond ni wnaeth efe yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, fel Dafydd ei dad.

2 Eithr efe a rodiodd yn ffyrdd brenhinoedd Israel, ac a wnaeth i Baalim *ddelwau* toddedig.

3 Ac efe a arogl-darthodd yn nyffryn Ben-hinnom, ac a losgodd ei blant yn tân, yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd a fwriasai yr ARGLWYDD allan o flaen meibion Israel.

4 Efe a aberthodd hefyd, ac a arogl-darthodd yn yr uchelfeydd, ac ar y bryniau, a than bob pren gwyrddlas.

5 Am hynny yr ARGLWYDD ei DDUW a'i rhoddodd ef yn llaw brenhin Syria; a hwy a'i tarawsant ef, ac a gaethgludasant ymaith oddi ganddo ef gaethglud fawr, ac a'u dygasant i Damascus. Ac yn llaw brenhin Israel hefyd y rhoddwyd ef, yr hwn a'i tarawodd ef â lladdfa fawr.

6 ¶ Canys Pecah mab Remalïah a laddodd yn Judah chwech ugain

mil mewn un diwrnod, hwynt oll yn feibion grymmus: am wrthod o honynt ARGLWYDD DDUW eu tadau.

7 A Sichri, gŵr grymmus o Ephraim, a laddodd Maaseiah mab y brenhin, ac Asricam llywodraethwr y tŷ, ac Elcanah y nesaf at y brenhin.

8 A meibion Israel a gaethgludasant o'u brodyr ddau can mil, yn wragedd, yn feibion, ac yn ferched, ac a ysglyfaethasant anrhaith fawr oddi arnynt, ac a ddygasant yr yspail i Samaria.

9 Ac yno yr oedd prophwyd i'r ARGLWYDD, a'i enw Oded; ac efe a aeth allan o flaen y llu oedd yn dyfod i Samaria, ac a ddywedodd wrthynt, Wele, o herwydd digofaint ARGLWYDD DDUW eich tadau yn erbyn Judah, y rhoddodd efe hwynt yn eich llaw chwi, a lladdasoch hwynt mewn cynddaredd yn cyrhaeddyd hyd y nefoedd.

10 Ac yn awr yr ydych chwi yn amcanu darostwng meibion Judah a Jerusalem, yn gaethweision, ac yn gaeth-forwynion i chwi: onid *oes* gyd â chwi, ïe, gyd â chwi, bechodau yn erbyn yr ARGLWYDD eich DUW?

11 Yn awr gan hynny gwrandêwch arnaf fi, a gollyngwch adref y gaethglud a gaethgludasoch o'ch brodyr: oblegid *y mae* llidiog ddigofaint yr ARGLWYDD arnoch chwi.

12 Yna rhai o bennaethiaid meibion Ephraim, Asarïah mab Johanan, Berechïah mab Mesilemoth, a Jehisciah mab Sàlum, ac Amasa mab Hadlai, a gyfodasant yn erbyn y rhai oedd yn dyfod o'r filwriaeth,

13 Ac a ddywedasant wrthynt, Ni ddygwch y gaethglud yma: canys gan i ni bechu *eisoes* yn erbyn yr ARGLWYDD, yr ydych chwi yn amcanu chwanegu ar ein pechodau ni, ac ar ein camweddau: canys *y mae* ein camwedd ni yn fawr, ac *y mae* digofaint llidiog yn erbyn Israel.

14 Felly y llu a adawodd y gaethglud a'r anrhaith o flaen y tywysogion, a'r holl gynnulleidfa.

15 A'r gwŷr, y rhai a enwyd wrth eu henwau, a gyfodasant ac a gymerasant y gaethglud, ac a ddilladasant eu holl rai noethion hwynt â'r yspail, a dilladasant hwynt, a rhoddasant iddynt esgidiau, ac a wnaethant iddynt fwytta ac yfed; enneiniasant hwynt hefyd, a dygasant ar asynod bob un llesg, ïe, dygasant hwynt i Jericho, dinas y palmwydd, at eu brodyr. Yna hwy a ddychwelasant i Samaria.

16 ¶ Yr amser hwnnw yr anfonodd y brenhin Ahas at frenhinoedd Assyria i'w gynnorthwyo ef.

17 A'r Edomiaid a ddaethent etto, ac a darawsent Judah, ac a gaethgludasent gaethglud.

18 Y Philistiaid hefyd a ruthrasent i ddinasoedd y gwastadedd, a thu dehau Judah, ac a ennillasent Beth-semes, ac Ajalon, a Gederoth, a Socho a'i phentrefi, Timnah hefyd a'i phentrefi, a Gimso a'i phentrefi; ac a drigasant yno.

19 Canys yr ARGLWYDD a ddarostyngodd Judah, o achos Ahas brenhin Israel: oblegid efe a noethodd Judah, gan droseddu yn erbyn yr ARGLWYDD yn ddirfawr.

20 A Thilgath-pilneser brenhin Assyria a ddaeth atto ef, ac a gyfyngodd arno ef, ac nis cynnorthwyodd ef.

21 Er i Ahas gymmeryd rhan allan o dŷ yr ARGLWYDD, ac o dŷ y brenhin, a chan y tywysogion, a'i rhoddi i frenhin Assyria; etto nis cynnorthwyodd efe ef.

22 ¶ A'r amser yr oedd yn gyfyng arno, efe a chwanegodd droseddu yn erbyn yr ARGLWYDD: hwn *yw* y brenhin Ahas.

23 Canys efe a aberthodd i dduwiau Damascus, y rhai a'i tarawsent ef; ac efe a ddywedodd, Am i dduwiau brenhinoedd Syria eu cynnorthwyo hwynt, minnau a aberthaf iddynt hwy, fel y'm cynnorthwyont innau: ond hwy a fuant iddo ef ac i holl Israel yn dramgwydd.

24 Ac Ahas a gasglodd lestri tŷ DDUW, ac a ddarniodd lestri tŷ DDUW, ac a gauodd ddrysau tŷ yr ARGLWYDD, ac a wnaeth iddo allorau ym mhob congl i Jerusalem.

25 Ac ym mhob dinas yn Judah y gwnaeth efe uchelfeydd i arogldarthu i dduwiau dïeithr, ac a ddigllonodd ARGLWYDD DDUW ei dadau.

26 ¶ A'r rhan arall o'i hanes ef, a'i holl ffyrdd, cyntaf a diweddaf, wele hwy yn ysgrifenedig yn llyfr brenhinoedd Judah ac Israel.

27 Ac Ahas a hunodd gyd â'i dadau, a hwy a'i claddasant ef yn y ddinas yn Jerusalem, ond ni ddygasant hwy ef i feddrod brenhinoedd Israel. A Hesecïah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 29.

1 *Y brenhin duwiol Hesecïah,* 3 *yn adferu gwir grefydd,* 5 *yn cynghori y Lefiaid:* 12 *a hwythau yn ymsancteiddio, ac yn glanhâu tŷ Duw.* 20 *Hesecïah yn aberthu ebyrth cyhoedd, lle yr oedd y Lefiaid yn barottach na'r offeiriaid.*

MAB pum mlwydd ar hugain *oedd* Hesecïah *pan* ddechreuodd efe deyrnasu, a naw mlynedd ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem; ac enw ei fam ef *oedd* Abïah merch Secharïah.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnelsai Dafydd ei dad.

3 ¶ Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef, yn y mis cyntaf, efe a agorodd ddrysau tŷ yr ARGLWYDD, ac a'u cyweiriodd hwynt.

4 Ac efe a ddug i mewn yr offeiriaid, a'r Lefiaid, ac a'u casglodd hwynt ynghyd i heol y dwyrain,

5 Ac a ddywedodd wrthynt hwy, Gwrandêwch fi, O Lefiaid, ymsancteiddiwch yn awr, a sancteiddiwch dŷ ARGLWYDD DDUW eich tadau, a dygwch yr aflendid allan o'r *lle* sanctaidd.

6 Canys ein tadau ni a droseddasant, ac a wnaethant yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD ein DUW, ac a'i gwrthodasant ef, ac a droisant eu hwynebau oddi wrth babell yr ARGLWYDD, ac a droisant *eu* gwarrau.

7 Cauasant hefyd ddrysau y porth, ac a ddiffoddasant y lampau, ac nid arogl-darthasant arogl-darth, ac ni offrymmasant boeth-offrymmau yn y cyssegr i DDUW Israel.

8 Am hynny digofaint yr ARGLWYDD a ddaeth yn erbyn Judah a Jerusalem, ac efe a'u rhoddodd hwynt yn gyffro, yn syndod, ac yn watwargerdd, fel yr ydych yn gweled â'ch llygaid.

9 Canys wele, ein tadau ni a syrthiasant trwy y cleddyf, ein meibion hefyd, a'n merched, a'n gwragedd, *ydynt* mewn caethiwed o herwydd hyn.

10 Yn awr *y mae* yn fy mryd i wneuthur cyfammod âg ARGLWYDD DDUW Israel; fel y tro ei ddigofaint llidiog ef oddi wrthym ni.

11 Fy meibion, na fyddwch ddifraw yn awr: canys yr ARGLWYDD a'ch dewisodd chwi i sefyll ger ei fron ef, i weini iddo ef, ac i fod yn gweini, ac yn arogl-darthu iddo ef.

12 ¶ Yna y Lefiaid a gyfodasant, Mahath mab Amasai, a Jöel mab Asarïah, o feibion y Cohathiaid: ac o feibion Merari; Cis mab Abdi, ac Asarïah mab Jehaleleel: ac o'r Gersoniaid; Joah mab Simmah, ac Eden mab Joah:

13 Ac o feibion Elisaphan; Simri, a Jeiel: ac o feibion Asaph; Secharïah, a Mattanïah:

14 Ac o feibion Heman; Jehiel, a Simei: ac o feibion Jeduthun; Semaiah, ac Ussïel.

15 A hwy a gynnullasant eu brodyr, ac a ymsancteiddiasant, ac a ddaethant yn ol gorchymyn y brenhin, trwy eiriau yr ARGLWYDD, i lanhâu tŷ yr ARGLWYDD.

16 A'r offeiriaid a ddaethant i fewn tŷ yr ARGLWYDD i'w lanhâu ef, ac a ddygasant allan yr holl frynti a gawsant hwy yn nheml yr ARGLWYDD, i gyntedd tŷ yr ARGLWYDD. A'r Lefiaid a'*i* cymmerasant, i'*w* ddwyn ymaith allan i afon Cidron.

17 Ac yn y *dydd* cyntaf o'r mis cyntaf y dechreuasant *ei* sancteiddio, ac ar yr wythfed dydd o'r mis y daethant i borth yr ARGLWYDD: ac mewn wyth niwrnod y sancteiddiasant dŷ yr ARGLWYDD, ac yn yr unfed dydd ar bymtheg o'r mis cyntaf y gorphenasant.

18 Yna y daethant hwy i mewn at Hesecïah y brenhin, ac a ddywedasant, Glanhasom holl dŷ yr ARGLWYDD, ac allor y poeth-offrwm, a'i holl lestri, a bwrdd y *bara* gosod, a'i holl lestri.

19 A'r holl lestri a fwriasai y brenhin Ahas ymaith yn ei gamwedd, pan oedd efe yn teyrnasu, a barottoi-

som, ac a sancteiddiasom ni: ac wele hwy ger bron allor yr ARGLWYDD.

20 ¶ Yna Hesecïah y brenhin a gododd yn fore, ac a gasglodd dywysogion y ddinas, ac a aeth i fyny i dŷ yr ARGLWYDD.

21 A hwy a ddygasant saith o fustych, a saith o hyrddod, a saith o ŵyn, a saith o fychod geifr, yn bechaberth dros y frenhiniaeth, a thros y cyssegr, a thros Judah: ac efe a ddywedodd wrth yr offeiriaid meibion Aaron, am offrymmu *y rhai hynny* ar allor yr ARGLWYDD.

22 Felly hwy a laddasant y bustych, a'r offeiriaid a dderbyniasant y gwaed, ac a'*i* taenellasant ar yr allor: lladdasant hefyd yr hyrddod, a thaenellasant y gwaed ar yr allor: a hwy a laddasant yr ŵyn, ac a daenellasant y gwaed ar yr allor.

23 A hwy a ddygasant fychod y pech-aberth o flaen y brenhin a'r gynnulleidfa, ac a osodasant eu dwylaw arnynt hwy.

24 A'r offeiriaid a'u lladdasant hwy, ac a wnaethant gymmod ar yr allor â'u gwaed hwynt, i wneuthur cymmod dros holl Israel; canys dros holl Israel yr archasai y brenhin *wneuthur* y poeth-offrwm a'r pech-aberth.

25 Ac efe a osododd y Lefiaid yn nhŷ yr ARGLWYDD, â symbalau, ac â nablau, ac â thelynau, yn ol gorchymyn Dafydd, a Gad gweledydd y brenhin, a Nathan y prophwyd: canys y gorchymyn *oedd* trwy law yr ARGLWYDD, trwy law ei brophwydi ef.

26 A'r Lefiaid a safasant âg offer Dafydd, a'r offeiriaid â'r udgyrn.

27 A Hesecïah a ddywedodd am offrymmu poeth-offrwm ar yr allor: a'r amser y dechreuodd y poeth-offrwm, y dechreuodd cân yr ARGLWYDD, â'r udgyrn, ac âg offer Dafydd brenhin Israel.

28 A'r holl gynnulleidfa oedd yn addoli, a'r cantorion yn canu, a'r udgyrn yn lleisio: *hyn* oll *a barhaodd* nes gorphen y poeth-offrwm.

29 A phan orphenasant hwy offrymmu, y brenhin a'r holl rai a gafwyd gyd âg ef, a ymgrymmasant, ac a addolasant.

30 A Hesecïah y brenhin a'r tywysogion a ddywedasant wrth y Lefiaid am foliannu yr ARGLWYDD, â geiriau Dafydd ac Asaph y gweledydd. Felly hwy a foliannasant â llawenydd, ac a ymostyngasant, ac a addolasant.

31 A Hesecïah a attebodd ac a ddywedodd, Yn awr yr ymgyssegrasoch chwi i'r ARGLWYDD; nesêwch, a dygwch ebyrth, ac ebyrth moliant, i dŷ yr ARGLWYDD. A'r gynnulleidfa a ddygasant ebyrth, ac ebyrth moliant, a phob ewyllysgar o galon, boeth-offrymmau.

32 A rhifedi y poeth-offrymmau a ddug y gynnulleidfa, oedd ddeg a thri ugain o fustych, cant o hyrddod, dau cant o ŵyn: y rhai hyn oll *oedd* yn boeth-offrwm i'r ARGLWYDD.

33 A'r pethau cyssegredig *oedd* chwe chant o fustych, a thair mil o ddefaid.

34 Ond yr oedd rhy fychan o offeiriaid, fel na allent flingo yr holl boeth-offrymmau: am hynny eu brodyr y Lefiaid a'u cynnorthwyasant hwy, nes gorphen y gwaith, ac nes i'r offeiriaid ymgyssegru: canys y Lefiaid *oedd* uniawnach o galon i ymgyssegru na'r offeiriaid.

35 Y poeth-offrymmau hefyd *oedd* yn aml, gyd â brasder yr hedd-offrwm, a'r ddïod-offrwm i'r poeth-offrymmau. Felly y trefnwyd gwasanaeth tŷ yr ARGLWYDD.

36 A Hesecïah a lawenychodd, a'r holl bobl, o herwydd parottôi o DDUW y bobl: oblegid yn ddisymmwth y bu y peth.

PENNOD 30.

1 *Hesecïah yn cyhoeddi Pasc arbennig ar yr ail fis, i Judah ac i Israel.* 13 *Y gynnulleidfa, wedi distrywio allorau delw-addolïaeth, yn cadw yr wyl bedwar diwrnod ar deg.* 27 *Yr offeiriaid a'r Lefiaid yn bendithio y bobl.*

A HESECIAH a anfonodd at holl Israel a Judah, ac a ysgrifenodd lythyrau hefyd at Ephraim a Manasseh, i ddyfod i dŷ yr ARGLWYDD i Jerusalem, i gynnal Pasc i ARGLWYDD DDUW Israel.

2 A'r brenhin a ymgynghorodd, a'i dywysogion, a'r holl gynnulleidfa, yn Jerusalem, am gynnal y Pasc yn yr ail fis.

3 Canys ni allent ei gynnal ef y pryd hwnnw; oblegid nid ymsanct-

eiddiasai yr offeiriaid ddigon, ac nid ymgasglasai y bobl i Jerusalem.
4 A da oedd y peth y'ngolwg y brenhin, ac y'ngolwg yr holl gynnulleidfa.
5 A hwy a orchymynasant gyhoeddi trwy holl Israel, o Beerseba hyd Dan, am ddyfod i gynnal y Pasc i ARGLWYDD DDUW Israel yn Jerusalem: canys ni wnaethent er ys talm fel yr oedd yn ysgrifenedig.
6 Felly y rhedegwyr a aethant â'r llythyrau o law y brenhin a'i dywysogion trwy holl Israel a Judah, ac wrth orchymyn y brenhin, gan ddywedyd, O meibion Israel, dychwelwch at ARGLWYDD DDUW Abraham, Isaac, ac Israel, ac efe a ddychwel at y gweddill a ddïangodd o honoch chwi o law brenhinoedd Assyria.
7 Ac na fyddwch fel eich tadau, nac fel eich brodyr, y rhai a droseddasant yn erbyn ARGLWYDD DDUW eu tadau; am hynny efe a'u rhoddodd hwynt yn anghyfannedd, megis y gwelwch chwi.
8 Yn awr na chaledwch eich gwar, fel eich tadau; rhoddwch law i'r ARGLWYDD, a deuwch i'w gyssegr a gyssegrodd efe yn dragywydd: a gwasanaethwch yr ARGLWYDD eich DUW, fel y tro llid ei ddigofaint ef oddi wrthych chwi.
9 Canys os dychwelwch chwi at yr ARGLWYDD, eich brodyr chwi a'ch meibion *a gânt* drugaredd ger bron y rhai a'u caethgludodd hwynt, fel y dychwelont i'r wlad yma: oblegid grasol a thrugarog *yw* yr ARGLWYDD eich DUW, ac ni thry efe *ei* wyneb oddi wrthych, os dychwelwch atto ef.
10 Felly y rhedegwyr a aethant o ddinas i ddinas trwy wlad Ephraim a Manasseh, hyd Sabulon: ond hwy a wawdiasant, ac a'u gwatwarasant hwy.
11 Er hynny gwŷr o Aser, a Manasseh, ac o Sabulon, a ymostyngasant, ac a ddaethant i Jerusalem.
12 Llaw DUW hefyd fu yn Judah, i roddi iddynt un galon i wneuthur gorchymyn y brenhin a'r tywysogion, yn ol gair yr ARGLWYDD.
13 ¶ A phobl lawer a ymgasglasant i Jerusalem, i gynnal gwyl y bara croyw, yn yr ail fis; cynnulleidfa fawr iawn.
14 A hwy a gyfodasant, ac a fwriasant ymaith yr allorau *oedd* yn Jerusalem: bwriasant ymaith allorau yr arogl-darth, a thaflasant *hwynt* i afon Cidron.
15 Yna y lladdasant y Pasc ar y pedwerydd *dydd* ar ddeg o'r ail fis: yr offeiriaid hefyd a'r Lefiaid a gywilyddiasant, ac a ymsancteiddiasant, ac a ddygasant y poethoffrymmau i dŷ yr ARGLWYDD.
16 A hwy a safasant yn eu lle, wrth eu harfer, yn ol cyfraith Moses gŵr DUW: yr offeiriaid oedd yn taenellu y gwaed o law y Lefiaid.
17 Canys *yr oedd* llawer yn y gynnulleidfa y rhai nid ymsancteiddiasent: ac ar y Lefiaid *yr oedd* lladd y Pasc dros yr holl rai aflan, i'*w* sancteiddio i'r ARGLWYDD.
18 O herwydd llawer o'r bobl, *sef* llawer o Ephraim a Manasseh, Issachar, a Sabulon, nid ymlanhasent; etto hwy a fwyttasant y Pasc, yn amgenach nag yr oedd yn ysgrifenedig. Ond Hesecïah a weddïodd drostynt hwy, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD daionus a faddeuo i bob un
19 A barottôdd ei galon i geisio DUW, *sef* ARGLWYDD DDUW ei dadau, er na *lanhâwyd ef* yn ol puredigaeth y cyssegr.
20 A'r ARGLWYDD a wrandawodd ar Hesecïah, ac a iachaodd y bobl.
21 A meibion Israel, y rhai a gafwyd yn Jerusalem, a gynhaliasant wyl y bara croyw saith niwrnod trwy lawenydd mawr: y Lefiaid hefyd a'r offeiriaid oedd yn moliannu yr ARGLWYDD o ddydd i ddydd, *gan ganu* âg offer soniarus i'r ARGLWYDD.
22 A Hesecïah a ddywedodd wrth *fodd* calon yr holl Lefiaid, y rhai oedd yn dysgu gwybodaeth ddaionus yr ARGLWYDD; a hwy a fwyttasant ar hyd yr wyl saith niwrnod, *ac* a aberthasant ebyrth hedd, ac a gyffesasant i ARGLWYDD DDUW eu tadau.
23 A'r holl gynnulleidfa a ymgynghorasant i gynnal saith o ddyddiau eraill: felly y cynhaliasant saith o ddyddiau *eraill trwy* lawenydd.

24 Canys Hesecïah brenhin Judah a roddodd i'r gynnulleidfa fil o fustych, a saith mil o ddefaid ; a'r tywysogion a roddasant i'r gynnulleidfa fil o fustych, a deng mil o ddefaid : a llawer o offeiriaid a ymsancteiddiasant.

25 A holl gynnulleidfa Judah a lawenychasant, gyd â'r offeiriaid a'r Lefiaid, a'r holl gynnulleidfa a ddaeth o Israel, a'r dïeithriaid a ddaethai o wlad Israel, ac oeddynt yn gwladychu yn Judah.

26 Felly y bu llawenydd mawr yn Jerusalem : canys er dyddiau Solomon mab Dafydd brenhin Israel ni *bu* y cyffelyb yn Jerusalem.

27 ¶ Yna yr offeiriaid a'r Lefiaid a gyfodasant, ac a fendithiasant y bobl ; a gwrandawyd ar eu llef hwynt, a'u gweddi hwynt a ddaeth i *fyny* i'w breswylfa sanctaidd ef, i'r nefoedd.

PENNOD 31.

1 Y bobl yn chwannog i ddïlëu delw-addoliaeth. 2 Hesecïah yn trefnu cylchoedd yr offeiriaid a'r Lefiaid, ac yn parottôi gwaith a chynhaliaeth iddynt. 5 Parodrwydd y bobl i dalu degwm ac offrwm. 11 Hesecïah yn gosod swyddogion i ddosparthu y degymmau. 20 Purdeb Hesecïah.

AC wedi gorphen hyn i gyd, holl Israel y rhai *oedd* bresennol a aethant allan i ddinasoedd Judah, ac a ddrylliasant y delwau, ac a dorrasant y llwyni, ac a ddistrywiasant yr uchelfeydd a'r allorau allan o holl Judah a Benjamin, yn Ephraim hefyd a Manasseh, nes *eu* llwyr ddifa. Yna holl feibion Israel a ddychwelasant bob un i'w feddiant, i'w dinasoedd.

2 ¶ A Hesecïah a osododd ddosparthiadau yr offeiriaid a'r Lefiaid, yn eu cylchoedd, pob un yn ol ei weinidogaeth, yr offeiriaid a'r Lefiaid i'r poeth-offrwm, ac i'r ebyrth hedd, i weini, ac i foliannu, ac i ganmol, ym mhyrth gwersylloedd yr ARGLWYDD.

3 A rhan y brenhin *oedd* o'i olud ei hun i'r poeth-offrymmau, *sef* i boeth-offrymmau y bore a'r hwyr, ac i boeth-offrymmau y Sabbathau, a'r newydd-loerau, a'r gwyliau arbennig, fel *y mae* yn ysgrifenedig y'nghyfraith yr ARGLWYDD.

4 Efe a ddywedodd hefyd wrth y bobl, trigolion Jerusalem, am roddi rhan i'r offeiriaid a'r Lefiaid, fel yr ymgryfhâent y'nghyfraith yr ARGLWYDD.

5 ¶ A phan gyhoeddwyd y gair hwn, meibion Israel a ddygasant yn aml, flaenffrwyth yr ŷd, y gwin, a'r olew, a'r mêl, ac o holl gnwd y maes, a'r degwm o bob *peth* a ddygasant hwy yn helaeth.

6 A meibion Israel a Judah, y rhai oedd yn trigo yn ninasoedd Judah, hwythau a ddygasant ddegwm gwartheg a defaid, a degwm y pethau cyssegredig a gyssegrasid i'r ARGLWYDD eu DUW, ac a'*u* gosodasant bob yn bentwr.

7 Yn y trydydd mis y dechreuasant hwy seilio y pentyrrau, ac yn y seithfed mis y gorphenasant *hwynt*.

8 A phan ddaeth Hesecïah a'r tywysogion, a gweled y pentyrrau, hwy a fendithiasant yr ARGLWYDD, a'i bobl Israel.

9 A Hesecïah a ymofynodd â'r offeiriaid a'r Lefiaid o herwydd y pentyrrau.

10 Ac Asarïah yr offeiriad pennaf o dŷ Sadoc, a ddywedodd wrtho, ac a lefarodd, Er pan ddechreuwyd dwyn offrymmau i dŷ yr ARGLWYDD, bwyttasom a digonwyd ni, gweddillasom hefyd lawer iawn : canys yr ARGLWYDD a fendithiodd ei bobl ; a'r gweddill *yw* yr amldra hyn.

11 ¶ A Hesecïah a ddywedodd am barottôi celloedd yn nhŷ yr ARGLWYDD ; a hwy a'*u* parottoisant,

12 Ac a ddygasant i mewn y blaenffrwyth, a'r degwm, a'r *pethau* cyssegredig, yn ffyddlawn : a Chononïah y Lefiad *oedd* flaenor arnynt hwy, a Simei ei frawd ef yn ail.

13 Jehiel hefyd, ac Asasïah, a Nahath, ac Asahel, a Jerimoth, a Josabad, ac Eliel, ac Ismachïah, a Mahath, a Benaiah, *oedd* swyddogion dan law Cononïah a Simei ei frawd ef, trwy orchymyn Hesecïah y brenhin, ac Asarïah blaenor tŷ DDUW.

14 A Chore mab Imnah y Lefiad, y porthor tu a'r dwyrain, *oedd* ar y pethau a offrymmid yn ewyllysgar i DDUW, i rannu offrymmau yr ARGLWYDD, a'r pethau sancteiddiolaf.

15 Ac wrth ei law ef *yr oedd* Eden, a Miniamin, a Jesua, a Semaiah, Amarïah, a Sechanïah, yn ninasoedd yr offeiriaid, yn *eu* swydd, i roddi i'w brodyr yn ol eu rhan, i fawr ac i fychan:

16 Heb law y gwrrywiaid o'u cenedl hwynt, o fab tair blwydd ac uchod, i bawb a'r oedd yn dyfod i dŷ yr ARGLWYDD, ddogn dydd yn ei ddydd, yn eu gwasanaeth hwynt, o fewn eu goruchwyliaethau, yn ol eu dosparthiadau;

17 I genedl yr offeiriaid wrth dŷ eu tadau, ac i'r Lefiaid o fab ugain mlwydd ac uchod, yn ol eu goruchwyliaethau, yn eu dosparthiadau;

18 Ac i genedl eu holl blant hwy, eu gwragedd, a'u meibion, a'u merched, trwy yr holl gynnulleidfa: oblegid trwy eu ffyddlondeb y trinent hwy yn sanctaidd yr hyn oedd sanctaidd:

19 Ac i feibion Aaron, yr offeiriaid, *y rhai oedd* ym meusydd pentrefol eu dinasoedd, ym mhob dinas, y gwŷr a enwasid wrth eu henwau, i roddi rhannau i bob gwrryw ym mysg yr offeiriaid, ac i'r holl rai a gyfrifwyd wrth achau ym mhlith y Lefiaid.

20 ¶ Ac fel hyn y gwnaeth Hesecïah trwy holl Judah, ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* dda ac uniawn, a'r gwirionedd, ger bron yr ARGLWYDD ei DDUW.

21 Ac ym mhob gwaith a ddechreuodd efe y'ngweinidogaeth tŷ DDUW, ac yn y gyfraith, ac yn y gorchymyn i geisio ei DDUW, efe a'i gwnaeth â'i holl galon, ac a ffynnodd.

PENNOD 32.

1 Senacherib yn dyfod yn erbyn Judah; a Hesecïah yn ymgadarnhâu, ac yn cysuro ei bobl. 9 Hesecïah ac Esaiah yn gweddïo yn erbyn cabledd Senacherib. 21 Angel yn difetha llu yr Assyriaid, a hynwy yn barch i Hesecïah. 24 Hesecïah yn gweddïo yn ei glefyd, a Duw yn rhoi iddo argoel iechyd. 25 Hesecïah yn balchïo, a Duw yn ei ddarostwng ef. 27 Ei gyfoeth ef, a'i weithredoedd. 31 Ei fai ef ymphlyth cenhadon Babilon. 32 Efe yn marw, a Manasseh yn teyrnasu ar ei ol ef.

WEDI y pethau *hyn*, a'u sicrhâu, y daeth Senacherib brenhin Assyria, ac a ddaeth i mewn i Judah; ac a wersyllodd yn erbyn y dinasoedd caerog, ac a feddyliodd eu hennill hwynt iddo ei hun.

2 A phan welodd Hesecïah ddyfod Senacherib, a *bod* ei wyneb ef i ryfela yn erbyn Jerusalem,

3 Efe a ymgynghorodd â'i dywysogion, ac â'i gedyrn, am argae dyfroedd y ffynhonnau, y rhai *oedd* allan o'r ddinas. A hwy a'i cynnorthwyasant ef.

4 Felly pobl lawer a ymgasglasant, ac a argaeasant yr holl ffynhonnau, a'r afon sydd yn rhedeg trwy ganol y wlad, gan ddywedyd, Paham y daw brenhinoedd Assyria, ac y cânt ddyfroedd lawer?

5 Ac efe a ymgryfhaodd, ac a adeiladodd yr holl fur drylliedig, ac a'*i* cyfododd i fyny hyd y tyrau, a mur arall oddi allan, ac a gadarnhaodd Milo *yn* ninas Dafydd, ac a wnaeth lawer o biccellau ac o dariannau.

6 Ac efe a osododd dywysogion rhyfel ar y bobl, ac a'u casglodd hwynt atto i heol porth y ddinas, ac a lefarodd wrth *fodd* eu calon hwynt, gan ddywedyd,

7 Ymwrolwch, ac ymgadarnhêwch; nac ofnwch, ac na ddigalonnwch rhag brenhin Assyria, na rhag yr holl dyrfa *sydd* gyd âg ef: canys *y mae* gyd â ni fwy na chyd âg ef.

8 Gyd âg ef *y mae* braich cnawdol; ond yr ARGLWYDD ein DUW *sydd* gyd â ni, i'n cynnorthwyo, ac i ryfela ein rhyfeloedd. A'r bobl a hyderasant ar eiriau Hesecïah brenhin Judah.

9 ¶ Wedi hyn yr anfonodd Senacherib brenhin Assyria ei weision i Jerusalem, (ond *yr ydoedd* efe ei hun *yn rhyfela* yn erbyn Lachis, a'i holl allu gyd âg ef,) at Hesecïah brenhin Judah, ac at holl Judah, y rhai *oedd* yn Jerusalem, gan ddywedyd,

10 Fel hyn y dywedodd Senacherib brenhin Assyria, Ar ba beth yr ydych chwi yn hyderu, chwi y rhai sydd yn aros y'ngwarchae o fewn Jerusalem?

11 Ond Hesecïah sydd yn eich hudo chwi, i'ch rhoddi chwi i farw trwy newyn, a thrwy syched, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD ein DUW a'n gwared ni o law brenhin Assyria.

12 Onid yr Hesecïah hwnnw a

dynnodd ymaith ei uchelfeydd ef, a'i allorau, ac a orchymynodd i Judah a Jerusalem, gan ddywedyd, O flaen un allor yr addolwch, ac ar honno yr arogl-derthwch?

13 Oni wyddoch chwi beth a wneuthum, mi a'm tadau, i holl bobl y tiroedd? ai gan allu y gallai duwiau cenhedloedd y gwledydd achub eu gwlad o'm llaw i?

14 Pwy *oedd* ym mysg holl dduwiau y cenhedloedd hyn, y rhai a ddarfu i'm tadau eu difetha, a allai waredu ei bobl o'm llaw i, fel y gallai eich DUW chwi eich gwaredu chwi o'm llaw i?

15 Yn awr gan hynny na thwylled Hesecïah chwi, ac na huded mo honoch fel hyn, ac na choeliwch iddo ef: canys ni allodd duw un genedl na theyrnas achub ei bobl o'm llaw i, nac o law fy nhadau: pa faint llai y gwared eich DUW chwychwi o'm llaw i?

16 A'i weision ef a ddywedasant ychwaneg yn erbyn yr ARGLWYDD DDUW, ac yn erbyn Hesecïah ei was ef.

17 Ac efe a ysgrifenodd lythyrau i gablu ARGLWYDD DDUW Israel, ac i lefaru yn ei erbyn ef, gan ddywedyd, Fel nad achubodd duwiau cenhedloedd y gwledydd eu pobl o'm llaw i, felly nid achub DUW Hesecïah ei bobl o'm llaw i.

18 Yna y gwaeddasant hwy â llef uchel, yn iaith yr Iuddewon, ar bobl Jerusalem y rhai *oedd* ar y mur, i'w hofni hwynt, ac i'w brawychu; fel yr ennillent hwy y ddinas.

19 A hwy a ddywedasant yn erbyn DUW Jerusalem fel yn erbyn duwiau pobloedd y wlad, *sef* gwaith dwylaw dyn.

20 Am hynny y gweddïodd Hesecïah y brenhin, ac Esaïah y prophwyd mab Amos, ac a waeddasant i'r nefoedd.

21 ¶ A'r ARGLWYDD a anfonodd angel, yr hwn a laddodd bob cadarn nerthol, a *phob* blaenor a thywysog y'ngwersyll brenhin Assyria. Felly efe a ddychwelodd â chywilydd *ar ei* wyneb i'w wlad ei hun. A phan ddaeth efe i dŷ ei dduw, y rhai a ddaethant allan o'i ymysgaroedd ei hun a'i lladdasant ef yno â'r cleddyf.

22 Felly y gwaredodd yr ARGLWYDD Hesecïah a thrigolion Jerusalem o law Senacherib brenhin Assyria, ac o law pawb *eraill*, ac a'u cadwodd hwynt oddi amgylch.

23 A llawer a ddygasant roddion i'r ARGLWYDD i Jerusalem, a phethau gwerthfawr i Hesecïah brenhin Judah; fel y dyrchafwyd ef o hynny allan y'ngŵydd yr holl genhedloedd.

24 ¶ Yn y dyddiau hynny y clafychodd Hesecïah hyd farw, ac a weddïodd ar yr ARGLWYDD: yntau a lefarodd wrtho, ac a roddes argoel iddo.

25 Ond ni thalodd Hesecïah drachefn yn ol yr hyn a roddasid iddo; canys ei galon ef a ddyrchafodd: a digofaint a ddaeth arno ef, ac ar Judah a Jerusalem.

26 Er hynny Hesecïah a ymostyngodd o herwydd dyrchafiad ei galon, efe a thrigolion Jerusalem; ac ni ddaeth digofaint yr ARGLWYDD arnynt yn nyddiau Hesecïah.

27 ¶ Ac yr oedd gan Hesecïah gyfoeth ac anrhydedd mawr iawn: ac efe a wnaeth iddo drysorau o arian, ac o aur, ac o feini gwerthfawr, o bêr-aroglau hefyd, ac o dariannau, ac o bob llestri hyfryd;

28 A selerau i gnwd yr ŷd, a'r gwin, a'r olew; a phresebau i bob math ar anifail, a chorlannau i'r dïadellau.

29 Ac efe a wnaeth iddo ddinasoedd, a chyfoeth o ddefaid a gwartheg lawer: canys DUW a roddasai iddo ef gyfoeth mawr iawn.

30 A'r Hesecïah yma a argaeodd yr aber uchaf i ddyfroedd Gihon, ac a'u dug hwynt yn uniawn oddi tanodd, tu a thu y gorllewin i ddinas Dafydd. A ffynnodd Hesecïah yn ei holl waith.

31 ¶ Etto yn *neges* cenhadau tywysogion Babilon, y rhai a anfonwyd atto ef i ymofyn am y rhyfeddod a wnaethid yn y wlad, DUW a'i gadawodd ef, i'w brofi ef, i wybod y cwbl *ag oedd* yn ei galon.

32 ¶ A'r rhan arall o hanes Hesecïah, a'i garedigrwydd ef, wele hwy yn ysgrifenedig y'ngweledig-

aeth Esaiah y prophwyd mab Amos, *ac* yn llyfr brenhinoedd Judah ac Israel.

33 A Hesecïah a hunodd gyd â'i dadau, a chladdasant ef yn yr uchaf o feddau meibion Dafydd. A holl Judah a thrigolion Jerusalem a wnaethant anrhydedd iddo ef wrth ei farwolaeth. A Manasseh ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 33.

1 *Y brenhin annuwiol Manasseh,* 3 *yn gosod i fyny ddelw-addoliaeth, ac heb gymmeryd rhybudd.* 11 *Ei gaethgludo ef i Babilon:* 12 *a'i weddi at Dduw yn achos o'i ryddhâd, ac yntau yn tynnu i lawr ddelw-addoliaeth.* 18 *Ei weithredoedd,* 20 *a'i farwolaeth ef, ac Amon yn dyfod ar ei ol ef.* 21 *Annuwiol deyrnasiad Amon, a'i weision yn ei ladd ef.* 25 *Lladd y lleiddiaid, a Josiah yn myned yn frenhin.*

MAB deuddeng mlwydd *oedd* Manasseh pan ddechreuodd efe deyrnasu, a phymtheng mlynedd a deugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem:

2 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd a fwriasai yr ARGLWYDD allan o flaen meibion Israel.

3 ¶ Canys efe a adeiladodd drachefn yr uchelfeydd, y rhai a ddinystriasai Hesecïah ei dad ef, ac a gyfododd allorau i Baalim, ac a wnaeth lwyni, ac a addolodd holl lu y nefoedd, ac a'u gwasanaethodd hwynt.

4 Adeiladodd hefyd allorau yn nhŷ yr ARGLWYDD, *am* yr hwn y dywedasai yr ARGLWYDD, Yn Jerusalem y bydd fy enw i yn dragywydd.

5 Ac efe a adeiladodd allorau i holl lu y nefoedd yn nau gyntedd tŷ yr ARGLWYDD.

6 Ac efe a yrrodd ei feibion trwy y tân yn nyffryn mab Hinnom, ac a arferodd frud, a hudoliaeth, a chyfareddion, ac a fawrhaodd swynyddion, a dewiniaid: efe a wnaeth lawer o ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, i'w ddigio ef.

7 Ac efe a osododd y ddelw gerfiedig, y ddelw a wnelsai efe, yn nhŷ DDUW, *am* yr hwn y dywedasai DUW wrth Dafydd, ac wrth Solomon ei fab, Yn y tŷ hwn, ac yn Jerusalem, yr hon a ddewisais i o holl lwythau Israel, y gosodaf fy enw yn dragywydd.

8 Ac ni chwanegaf symmud troed Israel oddi ar y tir a ordeiniais i'ch tadau chwi; os gwyliant ar wneuthur yr hyn oll a orchymynais iddynt, yn ol yr holl gyfraith, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, trwy law Moses.

9 Felly Manasseh a wnaeth i Judah a thrigolion Jerusalem gyfeiliorni, *a* gwneuthur yn waeth na'r cenhedloedd a ddifethasai yr ARGLWYDD o flaen meibion Israel.

10 Er llefaru o'r ARGLWYDD wrth Manasseh, ac wrth ei bobl, etto ni wrandawsant hwy.

11 ¶ Am hynny y dug yr ARGLWYDD arnynt hwy dywysogion llu brenhin Assyria, a hwy a ddaliasant Manasseh mewn dyrysni, ac a'i rhwymasant ef â dwy gadwyn, ac a'i dygasant ef i Babilon.

12 A phan oedd gyfyng arno ef, efe a weddïodd ger bron yr ARGLWYDD ei DDUW, ac a ymostyngodd yn ddirfawr o flaen DUW ei dadau,

13 Ac a weddïodd arno ef: ac efe a fu foddlawn iddo, ac a wrandawodd ei ddymuniad ef, ac a'i dug ef drachefn i Jerusalem i'w frenhiniaeth. Yna y gwybu Manasseh mai yr ARGLWYDD *oedd* DDUW.

14 Wedi hyn hefyd efe a adeiladodd y mur oddi allan i ddinas Dafydd, o du y gorllewin i Gihon, yn y dyffryn, hyd y ddyfodfa i borth y pysgod, ac a amgylchodd Ophel, ac a'i cyfododd yn uchel iawn, ac a osododd dywysogion y llu yn yr holl ddinasoedd caerog o fewn Judah.

15 Ac efe a dynnodd ymaith y duwiau dïeithr, a'r ddelw, allan o dŷ yr ARGLWYDD, a'r holl allorau a adeiladasai efe ym mynydd tŷ yr ARGLWYDD, ac yn Jerusalem, ac a'*u* taflodd allan o'r ddinas.

16 Ac efe a gyweiriodd allor yr ARGLWYDD, ac a aberthodd arni hi ebyrth hedd a moliant; dywedodd hefyd wrth Judah am wasanaethu ARGLWYDD DDUW Israel.

17 Er hynny y bobl oedd etto yn aberthu yn yr uchelfeydd: etto i'r ARGLWYDD eu DUW yn unig.

18 ¶ A'r rhan arall o hanes Manasseh, a'i weddi ef at ei DDUW, a geiriau y gweledyddion a lefarasant wrtho ef yn enw ARGLWYDD

DDUW Israel, wele hwynt ym mhlith geiriau brenhinoedd Israel.

19 Ei weddi ef hefyd, a'r *modd* y cymmododd *DUW* âg ef, a'i holl bechod ef, a'i gamwedd, a'r lleoedd yr adeiladodd efe ynddynt uchelfeydd, ac y gosododd lwyni, a delwau cerfiedig, cyn ymostwng o hono ef; wele hwynt yn ysgrifenedig ym mysg geiriau y gweledyddion.

20 ¶ Felly Manasseh a hunodd gyd â'i dadau, a chladdasant ef *yn* ei dŷ ei hun; ac Amon ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

21 ¶ Mab dwy flwydd ar hugain *oedd* Amon pan ddechreuodd efe deyrnasu, a dwy flynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem.

22 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, fel y gwnaethai Manasseh ei dad ef: canys Amon a aberthodd i'r holl ddelwau cerfiedig a wnelsai Manasseh ei dad ef, ac a'u gwasanaethodd hwynt.

23 Ond nid ymostyngodd efe ger bron yr ARGLWYDD, fel yr ymostyngasai Manasseh ei dad ef: eithr yr Amon yma a bechodd fwyfwy.

24 A'i weision ef a frad-fwriadasant i'w erbyn ef, ac a'i lladdasant ef yn ei dŷ ei hun.

25 ¶ Ond pobl y wlad a laddasant yr holl rai a frad-fwriadasent yn erbyn y brenhin Amon; a phobl y wlad a urddasant Josïah ei fab ef yn frenhin yn ei le ef.

PENNOD 34.

1 *Josïah yn teyrnasu ym dduwiol,* 3 *ac yn dinystrio delw-addoliaeth,* 8 *yn peri adgyweirio y demi.* 14 *Hilciah yn cael llyfr y gyfraith, a Josïah yn gyrru at Huldah i ymofyn a'r Arglwydd,* 23 *a hithau yn prophwydo dinystr Jerusalem, ond yr oedid hynny dros amser Josïah.* 29 *Josïah yn peri darllen llyfr y gyfraith y'ngŵydd yr holl bobl, ac yn adnewyddu y cyfammod â Duw.*

MAB wyth mlwydd *oedd* Josïah pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac un flynedd ar ddeg ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* uniawn y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac a rodiodd yn ffyrdd Dafydd ei dad, ac ni ogwyddodd ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy.

3 ¶ Canys yn yr wythfed flwyddyn o'i deyrnasiad, tra yr ydoedd efe etto yn fachgen, efe a ddechreuodd geisio DUW Dafydd ei dad: ac yn y ddeuddegfed flwyddyn efe a ddechreuodd lanhâu Judah a Jerusalem oddi wrth yr uchelfeydd, a'r llwyni, a'r delwau cerfiedig, a'r delwau toddedig.

4 Distrywiasant hefyd yn ei ŵydd ef allorau Baalim; a'r delwau y rhai *oedd* i fyny oddi arnynt hwy a dorrodd efe: y llwyni hefyd, a'r delwau cerfiedig, a'r delwau toddedig, a ddrylliodd efe, ac a faluriodd, taenodd hefyd *eu* llwch hwy ar hyd wyneb beddau y rhai a aberthasent iddynt hwy.

5 Ac esgyrn yr offeiriaid a losgodd efe ar eu hallorau, ac a lanhaodd Judah a Jerusalem.

6 Felly *y gwnaeth efe* yn ninasoedd Manasseh, ac Ephraim, a Simeon, a hyd Naphtali, â'u ceibiau oddi amgylch.

7 A phan ddinystriasai efe yr allorau a'r llwyni, a dryllio o hono y delwau cerfiedig, gan *eu* malurio yn llwch, a thorri yr eilunod i gyd trwy holl wlad Israel, efe a ddychwelodd i Jerusalem.

8 ¶ Ac yn y ddeunawfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef, wedi glanhâu y wlad, a'r tŷ, efe a anfonodd Saphan mab Asalïah, a Maaseiah tywysog y ddinas, a Joah mab Joahas y cofiadur, i gyweirio tŷ yr ARGLWYDD ei DDUW.

9 A phan ddaethant hwy at Hilcïah yr arch-offeiriad, hwy a roddasant yr arian a ddygasid i dŷ DDUW, y rhai a gasglasai y Lefiaid oedd yn cadw y drysau, o law Manasseh ac Ephraim, ac oddi gan holl weddill Israel, ac oddi ar holl Judah a Benjamin, a hwy a ddychwelasant i Jerusalem.

10 A hwy a'*i* rhoddasant yn llaw y gweithwyr, y rhai oedd oruchwylwyr ar dŷ yr ARGLWYDD: hwythau a'i rhoddasant i wneuthurwyr y gwaith, y rhai oedd yn gweithio yn nhŷ yr ARGLWYDD, i gyweirio ac i gadarnhâu y tŷ.

11 Rhoddasant hefyd i'r seiri ac i'r adeiladwyr, i brynu cerrig nadd, a choed tu ag at y cyssylltiadau, ac i fyrddio y tai a ddinystriasai brenhinoedd Judah.

12 A'r gwŷr oedd yn gweithio yn

y gwaith yn ffyddlawn: ac arnynt hwy yn olygwyr *yr oedd* Jahath, ac Obadïah, y Lefiaid, o feibion Merari; a Sechariah, a Mesùlam, o feibion y Cohathiaid, i'*w* hannog: ac o'r Lefiaid, pob un a oedd gyfarwydd ar offer cerdd.

13 *Yr oeddynt* hefyd ar y cludwyr, ac yn olygwyr ar yr holl rai oedd yn gweithio ym mhob rhyw waith: ac o'r Lefiaid *yr oedd* ysgrifenyddion, a swyddogion, a phorthorion.

14 ¶ A phan ddygasant hwy allan yr arian a ddygasid i dŷ yr ARGLWYDD, Hilcïah yr offeiriad a gafodd lyfr cyfraith yr ARGLWYDD, *yr hwn a roddasid* trwy law Moses.

15 A Hilcïah a attebodd ac a ddywedodd wrth Saphan yr ysgrifenydd, Cefais lyfr y gyfraith yn nhŷ yr ARGLWYDD. A Hilcïah a roddodd y llyfr at Saphan:

16 A Saphan a ddug y llyfr at y brenhin, ac a ddug air drachefn i'r brenhin, gan ddywedyd, Yr hyn oll a roddwyd yn llaw dy weision di, y maent hwy yn *ei* wneuthur.

17 Casglasant hefyd yr arian a gafwyd yn nhŷ yr ARGLWYDD, a rhoddasant hwynt yn llaw y golygwyr, ac yn llaw y gweithwyr.

18 Saphan yr ysgrifenydd a fynegodd hefyd i'r brenhin, gan ddywedyd, Hilcïah yr offeiriad a roddodd i mi lyfr. A Saphan a ddarllenodd ynddo ef ger bron y brenhin.

19 A phan glybu y brenhin eiriau y gyfraith, efe a rwygodd ei ddillad.

20 A'r brenhin a orchymynodd i Hilcïah, ac i Ahicam mab Saphan, ac i Abdon mab Michah, ac i Saphan yr ysgrifenydd, ac i Asaiah gwas y brenhin, gan ddywedyd,

21 Ewch, ymofynwch â'r ARGLWYDD drosof fi, a thros y gweddill yn Israel ac yn Judah, am eiriau y llyfr a gafwyd: canys mawr *yw* llid yr ARGLWYDD a dywalltodd efe arnom ni, oblegid na chadwodd ein tadau ni air yr ARGLWYDD, gan wneuthur yn ol yr hyn oll *sydd* ysgrifenedig yn y llyfr hwn.

22 Yna yr aeth Hilcïah, a'r rhai *a yrrodd* y brenhin, at Huldah y brophwydes, gwraig Sàlum mab Ticfath, fab Hasrah, ceidwad y gwisgoedd; (a hi oedd yn aros yn Jerusalem yn yr ysgoldy;) ac a ymddiddanasant â hi felly.

23 ¶ A hi a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y dywedodd ARGLWYDD DDUW Israel, Dywedwch i'r gŵr a'ch anfonodd chwi attaf fi,

24 Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD, Wele fi yn dwyn drwg ar y lle hwn, ac ar ei drigolion, *sef* yr holl felldithion *sydd* ysgrifenedig yn y llyfr a ddarllenasant hwy ger bron brenhin Judah:

25 Am iddynt fy ngwrthod i, ac arogl-darthu i dduwiau dïeithr, i'm digio i â holl waith eu dwylaw; am hynny yr ymdywallt fy llid i ar y lle hwn, ac nis diffoddir ef.

26 Ond am frenhin Judah, yr hwn a'ch anfonodd chwi i ymofyn â'r ARGLWYDD, fel hyn y dywedwch wrtho, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel *am* y geiriau a glywaist;

27 Oblegid i'th galon feddalhâu, ac i tithau ymostwng o flaen DUW, pan glywaist ei eiriau ef yn erbyn y fan hon, ac yn erbyn ei thrigolion, ac ymostwng o honot ger fy mron, a rhwygo dy ddillad, ac wylo o'm blaen i; am hynny y gwrandewais innau, medd yr ARGLWYDD.

28 Wele, mi a'th gymmeraf di ymaith at dy dadau, a thi a ddygir ymaith i'r bedd mewn heddwch, fel na welo dy lygaid di yr holl ddrwg yr ydwyf fi yn ei ddwyn ar y fan hon, ac yn erbyn ei phreswylwyr. Felly hwy a ddygasant air i'r brenhin drachefn.

29 ¶ Yna y brenhin a anfonodd, ac a gynhullodd holl henuriaid Judah a Jerusalem.

30 A'r brenhin a aeth i fyny i dŷ yr ARGLWYDD, a holl wŷr Judah, a thrigolion Jerusalem, yr offeiriaid hefyd a'r Lefiaid, a'r holl bobl o fawr i fychan; ac efe a ddarllenodd, lle y clywsant hwy, holl eiriau llyfr y cyfammod, yr hwn a gawsid yn nhŷ yr ARGLWYDD.

31 A'r brenhin a safodd yn ei le, ac a wnaeth gyfammod ger bron yr ARGLWYDD, ar rodio ar ol yr ARGLWYDD, ac ar gadw ei orchymynion ef, a'i dystiolaethau, a'i ddefodau, â'i holl galon, ac â'i holl enaid; i gwblhâu geiriau y cyfammod *y*

rhai sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwnnw.

32 Ac efe a wnaeth i bawb a'r a gafwyd yn Jerusalem, ac yn Benjamin, sefyll *wrth yr ammod:* trigolion Jerusalem hefyd a wnaethant yn ol cyfammod Duw, *sef* Duw eu tadau.

33 Felly Josïah a dynnodd ymaith y ffieidd-dra i gyd o'r holl wledydd y rhai *oedd* eiddo meibion Israel, ac efe a wnaeth i bawb a'r a gafwyd yn Israel wasanaethu, *sef* gwasanaethu yr Arglwydd eu Duw. *Ac yn* ei holl ddyddiau ef ni throisant hwy oddi ar ol Arglwydd Duw eu tadau.

PENNOD 35.

1 *Josïah yn cadw Pasc godidog,* 20 *yn annog Pharaoh-Necho, ac yn cael ei ladd ym Megido.* 25 *Galarnad Josïah.*

A JOSIAH a gynhaliodd Basc i'r Arglwydd yn Jerusalem: a hwy a laddasant y Pasc y pedwerydd *dydd* ar ddeg o'r mis cyntaf.

2 Ac efe a gyfleodd yr offeiriaid yn eu goruchwyliaethau, ac a'u hannogodd hwynt i weinidogaeth tŷ yr Arglwydd;

3 Ac a ddywedodd wrth y Lefiaid, y rhai oedd yn dysgu holl Israel, ac oedd sanctaidd i'r Arglwydd, Rhoddwch yr arch sanctaidd yn y tŷ a adeiladodd Solomon mab Dafydd brenhin Israel; na *fydded hi mwyach* i chwi yn faich ar ysgwydd: gwasanaethwch yn awr yr Arglwydd eich Duw, a'i bobl Israel,

4 Ac ymbarottôwch wrth deuluoedd eich tadau, yn ol eich dosparthiadau, yn ol ysgrifen Dafydd brenhin Israel, ac yn ol ysgrifen Solomon ei fab ef.

5 A sefwch yn y cyssegr yn ol dosparthiadau tylwyth tadau eich brodyr y bobl, ac *yn ol* dosparthiad tylwyth y Lefiaid.

6 Felly lleddwch y Pasc, ac ymsancteiddiwch, a pharottôwch eich brodyr, i wneuthur yn ol gair yr Arglwydd trwy law Moses.

7 A Josïah a roddodd i'r bobl ddïadell o ŵyn, a mynnod, i gyd tu ag at y Pasc-aberthau, *sef* i bawb a'r a gafwyd, hyd rifedi deng mil ar hugain, a thair mil o eidionau; hyn *oedd* o gyfoeth y brenhin.

8 A'i dywysogion ef a roddasant yn ewyllysgar i'r bobl, i'r offeiriaid, ac i'r Lefiaid: Hilcïah, a Secharïah, a Jehiel, blaenoriaid tŷ Duw, a roddasant i'r offeiriaid tu ag at y Pasc-aberthau, ddwy fil a chwe chant *o ddefaid,* a thri chant o eidionau.

9 Cononïah hefyd, a Semaiah, a Nethaneel, ei frodyr, a Hasabïah, a Jehiel, a Josabad, tywysogion y Lefiaid, a roddasant i'r Lefiaid yn Basc-ebyrth, bum mil *o ddefaid,* a phum cant o eidionau.

10 Felly y parottôwyd y gwasanaeth; a'r offeiriaid a safasant yn eu lle, a'r Lefiaid yn eu dosparthiadau, yn ol gorchymyn y brenhin.

11 A hwy a laddasant y Pasc; a'r offeiriaid a daenellasant *y gwaed* o'u llaw hwynt, a'r Lefiaid oedd yn *eu* blingo *hwynt.*

12 A chymmerasant ymaith y poeth-offrymmau, i'w rhoddi yn ol dosparthiadau teuluoedd y bobl, i offrymmu i'r Arglwydd, fel *y mae* yn ysgrifenedig yn llyfr Moses: ac felly am yr eidionau.

13 A hwy a rostiasant y Pasc wrth dân, yn ol y ddefod: a'r cyssegredig *bethau eraill* a ferwasant hwy mewn crochanau, ac mewn pedyll, ac mewn peiriau, ac a'u rhannasant ar redeg i'r holl bobl.

14 Wedi hynny y parottoisant iddynt eu hunain, ac i'r offeiriaid; canys yr offeiriaid meibion Aaron *oedd* yn offrymmu y poeth-offrymmau a'r brasder hyd y nos; am hynny y Lefiaid oedd yn parottôi iddynt eu hunain, ac i'r offeiriaid meibion Aaron.

15 A meibion Asaph y cantorion *oedd* yn eu sefyllfa, yn ol gorchymyn Dafydd, ac Asaph, a Heman, a Jeduthun gweledydd y brenhin; a'r porthorion ym mhob porth: ni chaent hwy ymadaw o'u gwasanaeth; canys eu brodyr y Lefiaid a barottôent iddynt hwy.

16 Felly y parottôwyd holl wasanaeth yr Arglwydd y dwthwn hwnnw, i gynnal y Pasc, ac i offrymmu poeth-offrymmau ar allor yr Arglwydd, yn ol gorchymyn y brenhin Josïah.

17 A meibion Israel y rhai a gaf-

wyd, a gynhaliasant y Pasc yr amser hwnnw, a gwyl y bara croyw, saith niwrnod.

18 Ac ni chynhaliasid Pasc fel hwnnw yn Israel, er dyddiau Samuel y prophwyd: ac ni chynhaliodd neb o frenhinoedd Israel gyffelyb i'r Pasc a gynhaliodd Josïah, a'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a holl Judah, a'r neb a gafwyd o Israel, a thrigolion Jerusalem.

19 Yn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Josïah y cynhaliwyd y Pasc hwn.

20 ¶ Wedi hyn oll, pan barottoisai Josïah y tŷ, Necho brenhin yr Aipht a ddaeth i fyny i ryfela yn erbyn Charcemis wrth Euphrates: a Josïah a aeth allan yn ei erbyn ef.

21 Yntau a anfonodd genhadau atto ef, gan ddywedyd, Beth *sydd* i mi a *wnelwyf* â thi, O frenhin Judah? nid yn dy erbyn di *y deuthum i* heddyw, ond yn erbyn tŷ *arall y mae* fy rhyfel i; a Duw a archodd i mi frysio: paid di â Duw, yr hwn *sydd* gyd â mi, fel na ddifetho efe dydi.

22 Ond ni throai Josïah ei wyneb oddi wrtho ef, eithr newidiodd ei ddillad i ymladd yn ei erbyn ef, ac ni wrandawodd ar eiriau Necho o enau Duw, ond efe a ddaeth i ymladd i ddyffryn Megìdo.

23 A'r saethyddion a saethasant at y brenhin Josïah: a'r brenhin a ddywedodd wrth ei weision, Dygwch fi ymaith, canys clwyfwyd fi yn dost.

24 Felly ei weision a'i tynnasant ef o'r cerbyd, ac a'i gosodasant ef yn yr ail gerbyd yr hwn *oedd* ganddo: dygasant ef hefyd i Jerusalem, ac efe fu farw, ac a gladdwyd ym meddrod ei dadau. A holl Judah a Jerusalem a alarasant am Josïah.

25 ¶ Jeremïah hefyd a alarnadodd am Josïah, a'r holl gantorion a'r cantoresau yn eu galarnadau a soniant am Josïah hyd heddyw, a hwy a'i gwnaethant yn ddefod yn Israel; ac wele hwynt yn ysgrifenedig yn y galarnadau.

26 A'r rhan arall o hanes Josïah, a'i ddaioni ef, yn ol *yr hyn oedd* ysgrifenedig y'nghyfraith yr Arglwydd,

27 A'i weithredoedd ef, cyntaf a diweddaf, wele hwynt yn ysgrifenedig yn llyfr brenhinoedd Israel a Judah.

PENNOD 36.

1 *Joahas yn frenhin ar ol Josïah; a Pharaoh yn ei ddiswyddo ef, ac yn ei ddwyn i'r Aipht.* 5 *Joacim yn teyrnasu yn ddrygionus, a'i ddwyn ef yn rhwym i Babilon.* 9 *Joachin yn teyrnasu yn ddrygionus, a'i ddwyn yntau i Babilon.* 11 *Sedecïah y brenhin drygionus yn dystyru y prophwydi, ac yn gorthryfela yn erbyn Nebuchodonosor.* 14 *Llwyr-ddifrodi Jerusalem am bechodau yr offeiriaid a'r bobl.* 22 *Cyrus yn cyhoeddi yr adeiledid y deml.*

YNA pobl y wlad a gymmerasant Joahas mab Josïah, ac a'i hurddasant ef yn frenhin yn lle ei dad yn Jerusalem.

2 Mab tair blwydd ar hugain *oedd* Joahas pan ddechreuodd efe deyrnasu; a thri mis y teyrnasodd efe yn Jerusalem.

3 A brenhin yr Aipht a'i diswyddodd ef yn Jerusalem; ac a drethodd ar y wlad gan talent o arian, a thalent o aur.

4 A brenhin yr Aipht a wnaeth Eliïacim ei frawd ef yn frenhin ar Judah a Jerusalem, ac a drodd ei enw ef yn Joacim. A Necho a gymmerodd Joahas ei frawd ef, ac a'i dug i'r Aipht.

5 ¶ Mab pum mlwydd ar hugain *oedd* Joacim pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac un flynedd ar ddeg y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr Arglwydd ei Dduw.

6 Nebuchodonosor brenhin Babilon a ddaeth i fyny yn ei erbyn ef, ac a'i rhwymodd ef mewn cadwynau pres, i'w ddwyn i Babilon.

7 Nebuchodonosor hefyd a ddug o lestri tŷ yr Arglwydd i Babilon, ac a'u rhoddodd hwynt yn ei deml o fewn Babilon.

8 A'r rhan arall o hanes Joacim, a'i ffieidd-dra ef y rhai a wnaeth efe, a'r hyn a gafwyd arno ef, wele hwynt yn ysgrifenedig yn llyfr brenhinoedd Israel a Judah. A Joachin ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

9 ¶ Mab wyth mlwydd *oedd* Joachin pan ddechreuodd efe deyrnasu, a thri mis a deng niwrnod y teyrnasodd efe yn Jerusalem; ac

efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD.

10 Ac ym mhen y flwyddyn yr anfonodd y brenhin Nebuchodonosor, ac a'i dug ef i Babilon, gyd â llestri dymunol tŷ yr ARGLWYDD: ac efe a wnaeth Sedecïah ei frawd ef yn frenhin ar Judah a Jerusalem.

11 ¶ Mab un flwydd ar hugain *oedd* Sedecïah pan ddechreuodd efe deyrnasu, ac un flynedd ar ddeg y teyrnasodd efe yn Jerusalem.

12 Ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD ei DDUW, *ac* nid ymostyngodd efe o flaen Jeremïah y prophwyd, *yr hwn oedd yn llefaru* o enau yr ARGLWYDD.

13 Ond efe a wrthryfelodd yn erbyn brenhin Nebuchodonosor, yr hwn a wnaethai iddo dyngu i DDUW: ond efe a galedodd ei war, ac a gryfhaodd ei galon, rhag dychwelyd at ARGLWYDD DDUW Israel.

14 ¶ Holl dywysogion yr offeiriaid hefyd, a'r bobl, a chwanegasant gam-fucheddu, yn ol holl ffieidd-dra y cenhedloedd; a hwy a halogasant dŷ yr ARGLWYDD, yr hwn a sanctei ddiasai efe yn Jerusalem.

15 Am hynny ARGLWYDD DDUW eu tadau a anfonodd attynt hwy trwy law ei genhadau, gan fore-godi, ac anfon: am ei fod ef yn tosturio wrth ei bobl, ac wrth ei breswylfod.

16 Ond yr oeddynt hwy yn gwatwar cenhadau DUW, ac yn tremygu ei eiriau ef, ac yn gwawdio ei brophwydi ef; nes cyfodi o ddigofaint yr ARGLWYDD *yn* erbyn ei bobl, fel nad *oedd* iachâd.

17 Am hynny efe a ddygodd i fyny arnynt hwy frenhin y Caldeaid, yr hwn a laddodd eu gwŷr ieuaingc hwy â'r cleddyf yn nhŷ eu cyssegr, ac nid arbedodd na gŵr ieuaingc na morwyn, na hen, na'r hwn oedd yn cammu gan oedran: efe a'*u* rhoddodd *hwynt* oll yn ei law ef.

18 Holl lestri tŷ DDUW hefyd, mawrion a bychain, a thrysorau tŷ yr ARGLWYDD, a thrysorau y brenhin a'i dywysogion: y rhai hynny oll a ddug efe i Babilon.

19 A hwy a losgasant dŷ DDUW, ac a ddistrywiasant fur Jerusalem; a'i holl balasau hi a losgasant hwy â than, a'i holl lestri dymunol a ddinystriasant.

20 A'r rhai a ddïangasai gan y cleddyf a *gaeth*-gludodd efe i Babilon; lle y buant hwy yn weision iddo ef ac i'w feibion, nes teyrnasu o'r Persiaid:

21 I gyflawni gair yr ARGLWYDD trwy enau Jeremïah, nes mwynhâu o'r wlad ei Sabbathau; *canys* yr holl ddyddiau *y bu hi* yn anghyfannedd, y gorphwysodd hi, i gyflawni deng mlynedd a thri ugain.

22 ¶ Ac yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenhin Persia, fel y cyflawnid gair yr ARGLWYDD *yr hwn a ddywedwyd* trwy enau Jeremïah, yr ARGLWYDD a gyffrôdd yspryd Cyrus brenhin Persia, fel y cyhoeddodd efe trwy ei holl frenhiniaeth, a hynny mewn ysgrifen, gan ddywedyd,

23 Fel hyn y dywed Cyrus brenhin Persia, ARGLWYDD DDUW y nefoedd a roddodd holl deyrnasoedd y ddaear i mi, ac efe a orchymynodd i mi adeiladu tŷ iddo yn Jerusalem, yr hon *sydd* yn Judah. Pwy *sydd* yn eich mysg chwi o'i holl bobl ef? yr ARGLWYDD ei DDUW *fyddo* gyd âg ef, ac eled i fyny.

LLYFR ESRA.

PENNOD 1.

1 *Cyrus yn gorchymyn adeiladu y deml.* 5 *Y bobl yn ymbarottôi i ddychwelyd yn eu hol.* 7 *Cyrus yn rhoi yn ol lestri y deml i Sesbassar.*

YN y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenhin Persia, i gyflawni gair yr ARGLWYDD o enau Jeremïah, y cyffrôdd yr ARGLWYDD yspryd Cyrus brenhin Persia, fel y cyhoeddodd efe trwy ei holl deyrnas, a *hynny* hefyd mewn ysgrifen, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed Cyrus brenhin Persia, ARGLWYDD DDUW y nefoedd a roddes i mi holl deyrnasoedd y ddaear, ac efe a orchymynodd i mi adeiladu iddo ef dŷ yn Jerusalem, yr hon *sydd* yn Judah.

3 Pwy *sydd* o honoch o'i holl bobl ef? bydded ei DDUW gyd âg ef, ac eled i fyny i Jerusalem, yr hon *sydd* yn Judah, ac adeiladed dŷ ARGLWYDD DDUW Israel, (dyna y DUW,) yr hwn *sydd* yn Jerusalem.

4 A phwy bynnag a adawyd mewn un man lle y mae efe yn ymdeithio, cynnorthwyed gwŷr ei wlad ef âg arian, ac âg aur, ac â golud, ac âg anifeiliaid, gyd âg ewyllysgar offrwm tŷ DDUW, yr hwn *sydd* yn Jerusalem.

5 ¶ Yna y cododd pennau-cenedl Judah a Benjamin, a'r offeiriaid a'r Lefiaid, a phob un y cyffrôdd DUW ei yspryd, i fyned i fyny i adeiladu tŷ yr ARGLWYDD yr hwn *oedd* yn Jerusalem.

6 A'r rhai oll o'u hamgylch a'u cynnorthwyasant hwy â llestri arian, ac aur, a golud, ac âg anifeiliaid, ac â phethau gwerthfawr, heb law yr hyn oll a offrymmwyd yn ewyllysgar.

7 ¶ A'r brenhin Cyrus a ddug allan lestri tŷ yr ARGLWYDD, y rhai a ddygasai Nebuchodonosor allan o Jerusalem, ac a roddasai efe yn nhŷ ei dduwiau ei hun:

8 Y rhai hynny a ddug Cyrus brenhin Persia allan trwy law Mithredath y trysorydd, ac a'u rhifodd hwynt at Sesbassar pennaeth Judah.

9 A dyma eu rhifedi hwynt; Deg ar hugain o gawgiau aur, mil o gawgiau arian, naw ar hugain o gyllill,

10 Deg ar hugain o orflychau aur, deg a phedwar cant o ail *fath* o orflychau arian, *a* mil o lestri eraill.

11 Yr holl lestri, yn aur ac yn arian, *oedd* bum mil a phedwar cant. Y rhai hyn oll a ddug Sesbassar i fyny gyd â'r gaethglud a ddygwyd i fyny o Babilon i Jerusalem.

PENNOD 2.

1 *Rhifedi y bobl a ddychwelodd,* 36 *a'r offeiriaid,* 40 *a'r Lefiaid,* 43 *a'r Nethiniaid,* 55 *a gweision Solomon,* 62 *a'r offeiriaid ni fedrent ddangos eu hachau.* 64 *Rhifedi y cwbl, a'u golud.* 68 *Eu hoffrymmau.*

A DYMA feibion y dalaeth y rhai a ddaeth i fyny o gaethiwed y gaethglud, yr hon a gaethgludasai Nebuchodonosor brenhin Babilon i Babilon, ac a ddychwelasant i Jerusalem a Judah, pob un i'w ddinas ei hun;

2 Y rhai a ddaeth gyd â Sorobabel: Jesua, Nehemïah, Seraiah, Reelaiah, Mordecai, Bilsan, Mispar, Bigfai, Rehum, Baanah. Rhifedi gwŷr pobl Israel:

3 Meibion Paros, dwy fil *a* deuddeg ac wyth ugain.

4 Meibion Sephatïah, tri chant *a* deuddeg a thri ugain.

5 Meibion Arah, saith gant a phymtheg a thri ugain.

6 Meibion Pahath-Moab, o feibion Jesua *a* Joab, dwy fil wyth gant a deuddeg.

7 Meibion Elam, mil dau cant *a* phedwar ar ddeg a deugain.

8 Meibion Sattu, naw gant a phump a deugain.

9 Meibion Saccai, saith gant a thri ugain.

10 Meibion Bani, chwe chant a dau a deugain.

11 Meibion Bebai, chwe chant a thri ar hugain.
12 Meibion Asgad, mil dau cant a dau ar hugain.
13 Meibion Adonicam, chwe chant a chwech a thri ugain.
14 Meibion Bigfai, dwy fil ac onid pedwar tri ugain.
15 Meibion Adin, pedwar cant a phedwar ar ddeg a deugain.
16 Meibion Ater o Hesecïah, onid dau pum ugain.
17 Meibion Besai, tri chant a thri ar hugain.
18 Meibion Jorah, cant a deuddeg.
19 Meibion Hasum, dau cant a thri ar hugain.
20 Meibion Gibbar, pymtheg a phedwar ugain.
21 Meibion Bethlehem, cant a thri ar hugain.
22 Gwŷr Netophah, onid pedwar tri ugain.
23 Gwŷr Anathoth, cant ac wyth ar hugain.
24 Meibion Asmafeth, dau a deugain.
25 Meibion Ciriath-arim, Cephirah, a Beeroth, saith gant a thri a deugain.
26 Meibion Ramah a Gaba, chwe chant ac un ar hugain.
27 Gwŷr Michmas, cant a dau ar hugain.
28 Gwŷr Bethel ac Ai, dau cant a thri ar hugain.
29 Meibion Nebo, deuddeg a deugain.
30 Meibion Magbis, cant ac onid pedwar tri ugain.
31 Meibion Elam arall, mil dau cant a phedwar ar ddeg a deugain.
32 Meibion Harim, tri chant ac ugain.
33 Meibion Lod, Hadid, ac Ono, saith gant a phump ar hugain.
34 Meibion Jericho, tri chant a phump a deugain.
35 Meibion Senaah, tair mil a chwe chant a deg ar hugain.
36 ¶ Yr offeiriaid: meibion Jedaiah, o dŷ Jesua, naw cant deg a thri ugain a thri.
37 Meibion Immer, mil a deuddeg a deugain.
38 Meibion Pasur, mil dau cant a saith a deugain.
39 Meibion Harim, mil a dau ar bymtheg.
40 ¶ Y Lefiaid: meibion Jesua a Chadmiel, o feibion Hodafiah, pedwar ar ddeg a thri ugain.
41 ¶ Y cantoriaid: meibion Asaph, cant ac wyth ar hugain.
42 ¶ Meibion y porthorion: *sef* meibion Sàlum, meibion Ater, meibion Talmon, meibion Accub, meibion Hatita, meibion Sobai, *oedd* oll gant ac onid un deugain.
43 ¶ Y Nethiniaid: meibion Siha, meibion Hasupha, meibion Tabbaoth,
44 Meibion Ceros, meibion Sïaha, meibion Padon,
45 Meibion Lebanah, meibion Hagabah, meibion Accub,
46 Meibion Hagab, meibion Samlai, meibion Hanan,
47 Meibion Gìdel, meibion Gahar, meibion Reaiah,
48 Meibion Resin, meibion Necoda, meibion Gassam,
49 Meibion Ussa, meibion Paseah, meibion Besai,
50 Meibion Asnah, meibion Mehunim, meibion Nephusim,
51 Meibion Bacbuc, meibion Hacupha, meibion Harhur,
52 Meibion Basluth, meibion Mehida, meibion Harsa,
53 Meibion Barcos, meibion Sisera, meibion Thamah,
54 Meibion Nesïah, meibion Hatipha.
55 ¶ Meibion gweision Solomon: meibion Sotai, meibion Sophereth, meibion Peruda,
56 Meibion Jaalah, meibion Darcon, meibion Gìdel,
57 Meibion Sephatïah, meibion Hattil, meibion Pochereth o Sebaim, meibion Ami.
58 Yr holl Nethiniaid, a meibion gweision Solomon, *oedd* dri chant deuddeg a phedwar ugain.
59 A'r rhai hyn a aethant i fyny o Tel-melah, Tel-harsa, Cerub, Adan, *ac* Immer: ond ni fedrent ddangos tŷ eu tadau, na'u hiliogaeth, ai o Israel *yr oeddynt:*
60 Meibion Delaiah, meibion Tobïah, meibion Necoda, chwe chant a deuddeg a deugain.
61 ¶ A meibion yr offeiriaid:

meibion Habaiah, meibion Cos, meibion Barsilai; yr hwn a gymmerasai wraig o ferched Barsilai y Gileadiad, ac a alwasid ar eu henw hwynt.

62 Y rhai hyn a geisiasant eu hysgrifen *ym mhlith* yr achau, ond ni chafwyd hwynt: am hynny y bwriwyd hwynt allan o'r offeiriadaeth.

63 A'r Tirsatha a ddywedodd wrthynt, na fwyttâent o'r pethau sancteiddiaf, hyd oni chyfodai offeiriad âg Urim ac â Thummim.

64 ¶ Yr holl dyrfa ynghyd, *oedd* ddwy fil a deugain tri chant *a* thri ugain:

65 Heb law eu gweision a'u morwynion; y rhai hynny *oedd* saith mil tri chant a dau ar bymtheg ar hugain: ac yn eu mysg *yr oedd* dau cant yn gantorion ac yn gantoresau.

66 Eu meirch *oedd* saith gant ac onid pedwar deugain; eu mulod yn ddau cant ac yn bump a deugain;

67 Eu camelod yn bedwar cant ac yn bymtheg ar hugain; *eu* hasynod yn chwe mil saith gant ac ugain.

68 ¶ Ac o'r pennau-cenedl pan ddaethant i dŷ yr ARGLWYDD, yr hwn *oedd* yn Jerusalem, *rhai* a offrymmasant o'u gwaith eu hun tu ag at dŷ yr ARGLWYDD, i'w gyfodi yn ei le.

69 Rhoddasant yn ol eu gallu i drysordy y gwaith, un fil a thri ugain o ddracmonau aur, a phum mil o bunnoedd o arian, a chant o wisgoedd offeiriaid.

70 Yna yr offeiriaid a'r Lefiaid, a *rhai* o'r bobl, a'r cantorion, a'r porthorion, a'r Nethiniaid, a drigasant yn eu dinasoedd; a holl Israel yn eu dinasoedd.

PENNOD 3.

1 *Gosod i fyny yr allor.* 4 *Amled yr offrymmau.* 7 *Parottôi gweithwyr.* 8 *Gosod sylfeini y deml gyd â llawenydd mawr a galar.*

A PHAN ddaeth y seithfed mis, a meibion Israel yn eu dinasoedd, y bobl a ymgasglasant i Jerusalem megis un gŵr.

2 Yna y cyfododd Jesua mab Josadac, a'i frodyr yr offeiriaid, a Sorobabel mab Salathiel, a'i frodyr, ac a adeiladasant allor DUW Israel, i offrymmu arni offrymmau poeth, fel yr ysgrifenasid y'nghyfraith Moses gŵr DUW.

3 A hwy a osodasant yr allor ar ei hystolion, (canys *yr oedd* arnynt ofn pobl y wlad,) ac a offrymmasant arni boeth-offrymmau i'r ARGLWYDD, poeth-offrymmau bore a hwyr.

4 Cadwasant hefyd wyl y pebyll, fel *y mae* yn ysgrifenedig, ac *a offrymmasant* boeth-aberth beunydd dan rifedi, yn ol y ddefod, dogn dydd yn ei ddydd;

5 Ac wedi hynny y poeth-offrwm gwastadol, ac *offrwm* y newyddloerau, a holl sanctaidd osodedig wyliau yr ARGLWYDD, offrwm ewyllysgar pob un a offrymmai o hono ei hun, *a offrymmasant* i'r ARGLWYDD.

6 O'r dydd cyntaf i'r seithfed mis y dechreuasant offrymmu poeth-offrymmau i'r ARGLWYDD. Ond teml yr ARGLWYDD ni sylfaenasid *etto.*

7 Rhoddasant hefyd arian i'r seiri maen, ac i'r seiri pren; a bwyd, a diod, ac olew, i'r Sidoniaid, ac i'r Tyriaid, am ddwyn coed cedr o Libanus hyd y môr i Joppa: yn ol caniattâd Cyrus brenhin Persia iddynt hwy.

8 ¶ Ac yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwy i dŷ DDUW i Jerusalem, yn yr ail fis, y dechreuodd Sorobabel mab Salathiel, a Jesua mab Josadac, a'r rhan arall o'u brodyr hwynt yr offeiriaid a'r Lefiaid, a'r rhai oll a ddaethai o'r caethiwed i Jerusalem; ac a osodasant y Lefiaid, o fab ugeinmlwydd ac uchod, yn olygwyr ar waith tŷ yr ARGLWYDD.

9 Yna y safodd Jesua, a'i feibion a'i frodyr, Cadmiel a'i feibion, meibion Judah yn gyttûn, i oruchwylio ar weithwyr y gwaith yn nhŷ DDUW: meibion Henadad, â'u meibion hwythau a'u brodyr y Lefiaid.

10 A phan oedd y seiri yn sylfaenu teml yr ARGLWYDD, hwy a osodasant yr offeiriaid yn eu gwisgoedd âg udgyrn, a'r Lefiaid meibion Asaph â symbalau, i foliannu yr ARGLWYDD, yn ol ordinhâd Dafydd brenhin Israel.

11 A hwy a gyd-ganasant, wrth foliannu ac wrth glodfori yr AR-

GLWYDD, mai da *oedd*, mai yn dragywydd *yr ydoedd* ei drugaredd ef ar Israel. A'r holl bobl a floeddiasant â bloedd fawr, gan foliannu yr ARGLWYDD, am sylfaenu tŷ yr ARGLWYDD.

12 Ond llawer o'r offeiriaid a'r Lefiaid, a'r pennau-cenedl, *y rhai oedd* hen, ac a welsent y tŷ cyntaf, wrth sylfaenu y tŷ hwn yn eu golwg, a wylasant â llef uchel; a llawer oedd yn dyrchafu llef mewn bloedd gorfoledd:

13 Fel nad oedd y bobl yn adnabod sain bloedd y llawenydd oddi wrth sain wylofain y bobl: canys y bobl oedd yn bloeddio â bloedd fawr, a'r swn a glywid ym mhell.

PENNOD 4.

1 *Gwrthwynebwyr Judah, am na chynhwysid iddynt adeiladu y deml gyd â'r Iuddewon, yn ceisio llestair ei hadeiladu hi.* 7 *Eu llythyrau hwy at Artaxerxes.* 17 *Gorchymyn Artaxerxes.* 23 *Rhwystro adeiladu y deml.*

YNA gwrthwynebwyr Judah a Benjamin a glywsant fod meibion y gaethglud yn adeiladu y deml i ARGLWYDD DDUW Israel;

2 Ac a ddaethant at Sorobabel, ac at y pennau-cenedl, ac a ddywedasant wrthynt, Adeiladwn gyd â chwi: canys fel chwithau y ceisiwn eich DUW chwi; ac iddo ef yr ydym ni yn aberthu, er dyddiau Esarhàdon brenhin Assyria, yr hwn a'n dug ni i fyny yma.

3 Eithr dywedodd Sorobabel a Jesua, a'r rhan arall o bennau-cenedl Israel, wrthynt, Nid *yw* i chwi ac i ninnau adeiladu tŷ i'n DUW ni; eithr nyni a gyd-adeiladwn i ARGLWYDD DDUW Israel, megis y'n gorchymynodd y brenhin Cyrus, brenhin Persia.

4 A phobl y wlad oedd yn anghysuro pobl Judah, ac yn eu rhwystro hwy i adeiladu,

5 Ac yn cyflogi cynghorwyr yn eu herbyn hwynt, i ddiddymmu eu cynghor hwynt, holl ddyddiau Cyrus brenhin Persia, a hyd deyrnasiad Darïus brenhin Persia.

6 Ac yn nheyrnasiad Ahasferus, yn nechreuad ei deyrnasiad ef, yr ysgrifenasant *atto* achwyn yn erbyn trigolion Judah a Jerusalem.

7 ¶ Ac yn nyddiau Artaxerxes yr ysgrifenodd Bislam, Mithredath, Tabeel, a'r rhan arall o'u cyfeillion, at Artaxerxes brenhin Persia; ac ysgrifen y llythyr a ysgrifenwyd yn Syriaeg, ac a eglurwyd yn Syriaeg.

8 Rehum y cofiadur a Simsai yr ysgrifenydd a ysgrifenasant lythyr yn erbyn Jerusalem at Artaxerxes y brenhin, fel hyn:

9 Yna *yr ysgrifenodd* Rehum y cofiadur, a Simsai yr ysgrifenydd, a'r rhan arall o'u cyfeillion, y Dinaiaid, yr Apharsathchiaid, y Tarpeliaid, yr Apharsiaid, yr Archefiaid, y Babiloniaid, y Susanchiaid, y Dehafiaid, yr Elamiaid,

10 A'r rhan arall o'r bobl y rhai a ddug Asnappar mawr ac enwog, ac a osododd efe yn ninasoedd Samaria, a'r rhan arall tu yma i'r afon, a'r amser a'r amser.

11 ¶ Dyma ystyr y llythyr a anfonasant atto ef, *sef* at Artaxerxes y brenhin; Dy wasanaethwyr o'r tu yma i'r afon, a'r amser a'r amser.

12 Bid hysbys i'r brenhin, fod yr Iuddewon a ddaethant i fyny oddi wrthyt ti attom ni, wedi dyfod i Jerusalem, *ac* yn adeiladu y ddinas wrthryfelgar ddrygionus, a'r muriau a sylfaenasant hwy, ac a gydwnïasant y sylfaenau.

13 Yn awr bydded hysbys i'r brenhin, os adeiledir y ddinas hon, a gorphen ei chaerau, na roddant na tholl, na theyrnged, na threth; felly y drygi drysor y brenhinoedd.

14 Ac yn awr o herwydd ein bod ni yn cael ein cynhaliaeth o lys *y brenhin*, ac nad oedd weddaidd i ni weled gwarth y brenhin; am hynny yr anfonasom ac yr hysbysasom i'r brenhin,

15 Fel y ceisier yn llyfr historïau dy dadau: a thi a gei yn llyfr yr historïau, ac a elli wybod, fod y ddinas hon yn ddinas wrthryfelgar, niweidiol i frenhinoedd a thaleithiau, a bod yn gwneuthur bradfwriad o fewn hon er ys talm: am hynny y dinystriwyd y ddinas hon.

16 Yr ydym yn hysbysu i'r brenhin, os y ddinas hon a adeiledir, a'r muriau a sylfaenir, wrth hynny ni fydd i ti ran o'r tu yma i'r afon.

17 ¶ *Yna* yr anfonodd y brenhin air at Rehum y cofiadur, a Simsai

yr ysgrifenydd, a'r rhan arall o'u cyfeillion hwynt y rhai a drigent yn Samaria, ac *at* y lleill o'r tu hwnt i'r afon, Tangnefedd, a'r amser a'r amser.

18 Y llythyr a anfonasoch attaf, a ddarllenwyd yn eglur ger fy mron.

19 A mi a osodais orchymyn, a chwiliwyd; a chafwyd fod y ddinas hon er ys talm yn ymddyrchafu yn erbyn brenhinoedd, a gwneuthur ynddi anufudd-dod a gwrthryfel.

20 A brenhinoedd cryfion a fu ar Jerusalem, yn llywodraethu ar bawb o'r tu hwnt i'r afon; ac iddynt hwy y rhoddid toll, teyrnged, a threth.

21 Yn awr rhoddwch orchymyn, i beri i'r gwŷr hynny beidio, ac nad adeilader y ddinas honno, hyd oni roddwyf fi orchymyn *etto.*

22 A gwyliwch wneuthur yn amryfus yn hyn: paham y tyf niwed i ddrygu y brenhinoedd?

23 ¶ Yna pan ddarllenwyd ystyr llythyr Artaxerxes y brenhin o flaen Rehum a Simsai yr ysgrifenydd, a'u cyfeillion, hwy a aethant i fyny ar frys i Jerusalem at yr Iuddewon, ac a wnaethant iddynt beidio trwy fraich a chryfder.

24 Yna y peidiodd gwaith tŷ Duw yr hwn *sydd* yn Jerusalem; ac y bu yn sefyll hyd yr ail flwyddyn o deyrnasiad Darius brenhin Persia.

PENNOD 5.

1 *Sorobabel a Jesua, wedi eu hannog gan Haggai a Sechariah, yn rhwydduau adeiladu y deml.* 3 *Tatnai a Setharbosnai heb allel rhwystro yr Iuddewon.* 6 *Eu llythyr hwy at Darius yn erbyn yr Iuddewon.*

YNA y prophwydi, Haggai y prophwyd, a Sechariah mab Ido, a brophwydasant i'r Iuddewon *oedd* yn Judah ac yn Jerusalem; yn enw Duw Israel y prophwydasant iddynt.

2 Yna Sorobabel mab Salathiel, a Jesua mab Josadac, a godasant, ac a ddechreuasant adeiladu tŷ Duw yr hwn *sydd* yn Jerusalem: a phrophwydi Duw *oedd* gyd â hwynt yn eu cynnorthwyo.

3 ¶ Y pryd hwnnw y daeth attynt hwy Tatnai tywysog y tu yma i'r afon, a Setharbosnai, a'u cyfeillion, ac fel hyn y dywedasant wrthynt; Pwy a roddes i chwi orchymyn i adeiladu y tŷ hwn, ac i sylfaenu y muriau hyn?

4 Yna fel hyn y dywedasom wrthynt; Beth yw enwau y gwŷr a adeiladant yr adeiladaeth yma?

5 A golwg eu Duw oedd ar henuriaid yr Iuddewon, fel na wnaethant iddynt beidio, nes dyfod yr achos at Darius: ac yna yr attebasant *trwy* lythyr am hyn.

6 ¶ Ystyr y llythyr a anfonodd Tatnai tywysog y tu yma i'r afon, a Setharbosnai, a'i gyfeillion yr Apharsachiaid, y rhai *oedd* o'r tu yma i'r afon, at y brenhin Darius:

7 Anfonasant lythyr atto ef, ac fel hyn yr ysgrifenasid ynddo; Pob heddwch i'r brenhin Darius.

8 Bydded hysbys i'r brenhin, fyned o honom ni i dalaeth Judea, i dŷ y Duw mawr, a bod yn ei adeiladu ef â meini mawr, a bod yn gosod coed yn ei barwydydd ef; a bod y gwaith yn myned rhagddo ar frys, a'i fod yn llwyddo yn eu dwylaw hwynt.

9 Yna y gofynasom i'r henuriaid hynny, *ac* a ddywedasom wrthynt fel hyn; Pwy a roddes i chwi orchymyn i adeiladu y tŷ hwn, ac i sylfaenu y mur yma?

10 Gofynasom hefyd iddynt eu henwau, fel yr hysbysem i ti, *ac* fel yr ysgrifenem enwau y gwŷr *oedd* yn bennau iddynt.

11 A'r geiriau hyn a attebasant hwy i ni, gan ddywedyd, Nyni ydym weision Duw nef a daear, ac yn adeiladu y tŷ yr hwn a adeiladwyd cyn hyn lawer o flynyddoedd; a brenhin mawr o Israel a'i hadeiladodd, ac a'i seiliodd ef.

12 Eithr wedi i'n tadau ni ddigio Duw y nefoedd, efe a'u rhoddes hwynt yn llaw Nebuchodonosor brenhin Babilon, y Caldead; a'r tŷ hwn a ddinystriodd efe, ac a gaethgludodd y bobl i Babilon.

13 Ond yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenhin Babilon y rhoddes y brenhin Cyrus orchymyn i adeiladu y tŷ Duw hwn.

14 A llestri tŷ Duw hefyd o aur ac arian, y rhai a ddygasai Nebuchodonosor o'r deml yn Jerusalem, ac a'u dygasai i deml Babilon, y rhai hynny a ddug y brenhin Cyrus

allan o deml Babilon, a rhoddwyd hwynt i *un* Sesbassar *wrth* ei enw, yr hwn a osodasai efe yn dywysog;
15 Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer y llestri hyn, dos, dwg hwynt i'r deml yn Jerusalem, ac adeilader tŷ Duw yn ei le.
16 Yna y daeth y Sesbassar hwnnw, *ac* a osododd sylfeini tŷ Duw yn Jerusalem. Ac o'r pryd hwnnw hyd yr awr hon yr ydys yn ei adeiladu, ac nis gorphenwyd ef.
17 Ac yn awr, os da gan y brenhin, ceisier yn nhrysordy y brenhin yna yn Babilon, a ddarfu i'r brenhin Cyrus osod gorchymyn am adeiladu y tŷ Duw hwn yn Jerusalem; ac anfoned y brenhin ei ewyllys attom am y peth hyn.

PENNOD 6.

1 Darïus, wedi gweled gorchymyn Cyrus, yn rhoi gorchymyn newydd i yrru gwaith y deml ym mlaen. 13 Gorphen y deml, trwy gymmorth y gelynion, a chyfarwyddiad y prophwydi. 16 Cadw gwyl y cyssegriad, 19 a gwyl y Pasc.

YNA y brenhin Darïus a osododd orchymyn; a chwiliwyd yn nhŷ y llyfrau, lle y cedwid y trysorau yn Babilon.
2 A chafwyd yn Achmetha, yn y llys yn nhalaeth Media, ryw lyfr, ac fel hyn yr ysgrifenasid ynddo yn goffadwriaeth:
3 Yn y flwyddyn gyntaf i'r brenhin Cyrus y gosododd y brenhin Cyrus orchymyn *am* dŷ Duw o fewn Jerusalem, Adeilader y tŷ, y fan lle yr aberthent aberthau, a gwnaer yn gadarn ei sylfeini; yn dri ugain cufydd ei uchder, *ac* yn dri ugain cufydd ei led:
4 Yn dair rhes o feini mawr, a rhes o goed newydd: a rhodder y draul o dŷ y brenhin.
5 A llestri tŷ Duw hefyd, yn aur ac yn arian, y rhai a ddug Nebuchodonosor o'r deml yn Jerusalem, ac a ddug efe adref i Babilon, rhodder hwynt i'w dwyn i'r deml yn Jerusalem, i'w lle, a gosoder *hwynt* yn nhŷ Duw.
6 Yn awr Tatnai tywysog y tu hwnt i'r afon, Setharbosnai, a'ch cyfeillion yr Apharsachiaid, y rhai *ydych* o'r tu hwnt i'r afon, ciliwch oddi yno.
7 Gadêwch yn llonydd waith y tŷ Duw hwn: adeiladed tywysogion a henuriaid yr Iuddewon y tŷ hwn *i* Duw yn ei le.
8 Gosodais hefyd orchymyn am yr hyn a wnewch i henuriaid yr Iuddewon hyn wrth adeiladu y tŷ Duw hwn; mai o gyfoeth y brenhin, *sef* o'r deyrnged o'r tu hwnt i'r afon, y rhoddir traul i'r gwŷr hyn, fel na pheidio *y gwaith.*
9 A'r hyn *a fyddo* angenrheidiol i boeth-offrymmau Duw y nefoedd, yn eidionau, neu yn hyrddod, neu yn ŵyn, yn ŷd, yn halen, yn win, ac yn olew, yn ol yr hyn a ddywedo yr offeiriaid *sydd* yn Jerusalem, rhodder iddynt bob dydd yn ddibaid:
10 Fel yr offrymmont aroglau peraidd i Duw y nefoedd, ac y gweddïont dros einioes y brenhin, a'i feibion.
11 Gosodais hefyd orchymyn, pa ddyn bynnag a newidio y gair hwn, tynner coed o'i dŷ ef, a gosoder i sefyll, *ac* ar hwnnw croger ef; a bydded ei dŷ ef yn dommen am hynny.
12 A'r Duw, yr hwn a wnaeth i'w enw breswylio yno, a ddinystria bob brenhin a phobl a estyno ei law i newidio *ac* i ddistrywio y tŷ hwn eiddo Duw yn Jerusalem. Myfi Darïus a osodais y gorchymyn; gwneler ef yn ebrwydd.
13 ¶ Yna Tatnai tywysog y tu yma i'r afon, Setharbosnai, a'u cyfeillion, megis yr anfonodd y brenhin Darïus, felly y gwnaethant yn ebrwydd.
14 A henuriaid yr Iuddewon a adeiladasant, ac a lwyddasant trwy brophwydoliaeth Haggai y prophwyd, a Sechariah mab Ido; ïe, adeiladasant, a gorphenasant, wrth orchymyn Duw Israel, ac wrth orchymyn Cyrus a Darïus, ac Artaxerxes brenhin Persia.
15 A'r tŷ hwn a orphenwyd y trydydd dydd o fis Adar, pan oedd y chweched flwyddyn o deyrnasiad y brenhin Darïus.
16 ¶ A meibion Israel, yr offeiriaid a'r Lefiaid, a'r rhan arall o feibion y gaethglud, a gyssegrasant y tŷ hwn eiddo Duw mewn llawenydd;

17 Ac a offrymmasant wrth gyssegru y tŷ hwn eiddo Duw, gant o ychain, dau cant o hyrddod, pedwar cant o ŵyn, a deuddeg o fychod geifr, yn bech-aberth dros Israel, yn ol rhifedi llwythau Israel.

18 Gosodasant hefyd yr offeiriaid yn eu dosparthiadau, a'r Lefiaid yn eu cylchoedd hwythau, i wasanaeth Duw yn Jerusalem, yn ol ysgrifen llyfr Moses.

19 Meibion y gaethglud hefyd a gadwasant y Pasc ar y pedwerydd *dydd* ar ddeg o'r mis cyntaf.

20 Canys yr offeiriaid a'r Lefiaid a ymlanhasant yn gyttûn, yn lân i gyd oll, ac a aberthasant y Pasc dros holl feibion y gaethglud, a thros eu brodyr yr offeiriaid, a throstynt eu hunain.

21 A meibion Israel, y rhai a ddychwelasent o'r gaethglud, a phob un a ymneillduasai oddi wrth halogedigaeth cenhedloedd y wlad attynt hwy, i geisio Arglwydd Duw Israel, a fwyttasant,

22 Ac a gadwasant wyl y bara croyw saith niwrnod mewn llawenydd: canys yr Arglwydd a'u llawenhasai hwynt, ac a droisai galon brenhin Assyria attynt hwy, i'w cynnorthwyo hwynt y'ngwaith tŷ Duw, Duw Israel.

PENNOD 7.

1 *Esra yn myned i fyny i Jerusalem,* 11 *wedi cael cennad a gorchymyn gan Artaxerxes;* 27 *ac yn bendithio Duw am ei drugaredd.*

AC wedi y pethau hyn, yn nheyrnasiad Artaxerxes brenhin Persia, Esra, mab Seraiah, fab Asarïah, fab Hilcïah,

2 Fab Salum, fab Sadoc, fab Ahitub,

3 Fab Amarïah, fab Asarïah, fab Meraioth,

4 Fab Serahïah, fab Ussi, fab Bucci,

5 Fab Abisua, fab Phinees, fab Eleasar, fab Aaron yr offeiriad pennaf:

6 Yr Esra hwn a aeth i fyny o Babilon; ac efe *oedd* ysgrifenydd cyflym y'nghyfraith Moses, yr hon a roddasai Arglwydd Duw Israel: a'r brenhin a roddes iddo ef ei holl ddymuniad, fel yr *ydoedd* llaw yr Arglwydd ei Duw arno ef.

7 A *rhai* a aethant i fyny o feibion Israel, ac o'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r cantorion, a'r porthorion, a'r Nethiniaid, i Jerusalem, yn y seithfed flwyddyn i'r brenhin Artaxerxes.

8 Ac efe a ddaeth i Jerusalem yn y pummed mis, yr hwn *oedd* yn y seithfed flwyddyn i'r brenhin.

9 Canys ar y *dydd* cyntaf o'r mis cyntaf y dechreuodd efe fyned i fyny o Babilon; ac ar y *dydd* cyntaf o'r pummed mis y daeth efe i Jerusalem, fel *yr oedd* daionus law ei Duw gyd âg ef.

10 Canys Esra a barottoisai ei galon i geisio cyfraith yr Arglwydd, ac i'w gwneuthur, ac i ddysgu yn Israel ddeddfau a barnedigaethau.

11 ¶ A dyma ystyr y llythyr a roddodd y brenhin Artaxerxes i Esra yr offeiriad a'r ysgrifenydd, *sef* ysgrifenydd geiriau gorchymyn yr Arglwydd, a'i ddeddfau ef i Israel.

12 Artaxerxes brenhin y brenhinoedd at Esra yr offeiriad, ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd, perffaith *dangnefedd*, a'r amser a'r amser.

13 Myfi a osodais orchymyn, fod i bwy bynnag yn fy nheyrnas i o bobl Israel, ac o'i offeiriaid ef, a'i Lefiaid, sydd ewyllysgar i fyned i Jerusalem, gael myned gyd â thi.

14 O herwydd dy anfon di oddi wrth y brenhin, a'i saith gynghoriaid, i ymweled â Judah ac â Jerusalem, wrth gyfraith dy Duw yr hon *sydd* yn dy law di;

15 Ac i ddwyn yr arian a'r aur a offrymmodd y brenhin a'i gynghoriaid, o honynt eu hunain, i Duw Israel, yr hwn *y mae* ei breswylfa yn Jerusalem,

16 A'r holl arian a'r aur a fedrych ei gael yn holl dalaeth Babilon, gyd âg offrymmau gwirfodd y bobl a'r offeiriaid, y rhai a offrymmant o honynt eu hunain tu ag at dŷ eu Duw yn Jerusalem:

17 Fel y prynech yn ebrwydd â'r arian hynny ychain, hyrddod, ŵyn, a'u bwyd-offrymmau, a'u diod-

offrymmau, a'u hoffrwm hwynt ar allor tŷ eich Duw yn Jerusalem.
18 A'r hyn a fyddo da gennyt ti, a chan dy frodyr, ei wneuthur â'r rhan arall o'r arian a'r aur, gwnewch yn ol ewyllys eich Duw.
19 A'r llestri, y rhai a roddwyd i ti i wasanaeth tŷ dy Duw, dod adref o flaen *dy* Duw *yn* Jerusalem.
20 A pheth bynnag ychwaneg a fyddo anghenraid i dŷ dy Duw, yr hyn a ddigwyddo i ti ei roddi, a roddi di o drysordy y brenhin.
21 A minnau y brenhin Artaxerxes ydwyf yn gosod gorchymyn i holl drysorwyr y tu hwnt i'r afon, beth bynnag a geisio Esra, offeiriad, *ac* ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd, gennych, gwneler yn ebrwydd;
22 Hyd gan talent o arian, a hyd gan corus o wenith, a hyd gan bath o win, a hyd gan bath o olew, a halen heb fesur.
23 Beth bynnag yw gorchymyn Duw y nefoedd, gwneler yn ddyfal i dŷ Duw y nefoedd: canys paham y byddai llidiowgrwydd yn erbyn teyrnas y brenhin a'i feibion?
24 Yr ydym yn hysbysu i chwi hefyd, *am* yr holl offeiriaid, a'r Lefiaid, cantorion, porthorion, Nethiniaid, a gweinidogion y tŷ Duw hwn, na ellir bwrw arnynt doll, na theyrnged, na threth.
25 Tithau, Esra, yn ol doethineb dy Duw, yr hwn *sydd* yn dy law, gosod swyddogion a barnwyr, i farnu yr holl bobl o'r tu hwnt i'r afon, y rhai oll a fedrant gyfraith dy Duw; a dysgwch y rhai nis medrant.
26 A phwy bynnag ni wnelo gyfraith dy Duw, a chyfraith y brenhin, gwneler barn yn ebrwydd arno ef, pa un bynnag ai i farwolaeth, ai i'w ddeol, ai i ddirwy o ddâ, ai i garchar.
27 ¶ Bendigedig *fyddo* Arglwydd Duw ein tadau, yr hwn a roddes fel hyn y'nghalon y brenhin, i harddu tŷ yr Arglwydd yr hwn *sydd* yn Jerusalem:
28 Ac a barodd i mi drugaredd o flaen y brenhin a'i gynghoriaid, ac o flaen holl gedyrn dywysogion y brenhin. A mi a gynnorthwywyd, fel *yr oedd* llaw yr Arglwydd fy Nuw arnaf fi, a chesglais o Israel bennaethiaid i fyned i fyny gyd â mi.

PENNOD 8.

1 *Pa rai a ddychwelasant gyd âg Esra o Babilon.* 15 *Esra yn danfon at Ido am weinidogion i'r deml:* 21 *yn cadw ympryd:* 24 *yn gorchymyn y trysorau i gadwraeth yr offeiriaid.* 31 *Y bobl yn dyfod o Ahafa i Jerusalem.* 33 *Pwyso y trysor yn y deml.* 36 *Rhoi gorchymyn y brenhin at y pendeiigion.*

A DYMA eu pennau-cenedl hwynt, a'u hachau, y rhai a aeth i fyny gyd â mi, yn nheyrnasiad Artaxerxes y brenhin, allan o Babilon.
2 O feibion Phinees; Gersom: o feibion Ithamar; Daniel: o feibion Dafydd; Hattus:
3 O feibion Sechanïah, o feibion Pharos; Secharïah: a chyd âg ef y rhifwyd wrth eu hachau gant a deg a deugain o wrrywiaid.
4 O feibion Pahath-Moab; Elihoenai mab Serahïah, a chyd âg ef ddau cant o wrrywiaid.
5 O feibion Sechanïah; mab Jahasiel, a chyd âg ef dri chant o wrrywiaid.
6 O feibion Adin hefyd; Ebed mab Jonathan, a chyd âg ef ddeg a deugain o wrrywiaid.
7 Ac o feibion Elam; Jesaiah mab Athalïah, a chyd âg ef ddeg a thri ugain o wrrywiaid.
8 Ac o feibion Sephatïah; Sebadïah mab Michael, a chyd âg ef bedwar ugain o wrrywiaid.
9 O feibion Joab; Obadïah mab Jehiel, a chyd âg ef ddau cant a deunaw o wrrywiaid.
10 Ac o feibion Selomith; mab Josiphïah, a chyd âg ef wyth ugain o wrrywiaid.
11 Ac o feibion Bebai; Secharïah mab Bebai, a chyd âg ef wyth ar hugain o wrrywiaid.
12 Ac o feibion Asgad; Johanan mab Haccatan, a chyd âg ef ddeng mab a chant.
13 Ac o feibion olaf Adonicam, dyma hefyd eu henwau hwynt, Eliphelet, Jeiel, a Semaiah, a chyd â hwynt dri ugain o wrrywiaid.
14 Ac o feibion Bigfai; Uthai, a Sabbud, a chyd â hwynt ddeg a thri ugain o wrrywiaid.
15 ¶ A chesglais hwynt wrth yr afon sydd yn myned i Ahafa; ac

yno y gwersyllasom ni dridiau: a mi a ystyriais y bobl, a'r offeiriaid, ond ni chefais yno *neb* o feibion Lefi.

16 Yna yr anfonais am Eliëser, am Ariel, am Semaiah, ac am Elnathan, ac am Jarib, ac am Elnathan, ac am Nathan, ac am Secharïah, ac am Mesùlam, y pennaethiaid; ac am Joiarib, ac am Elnathan, y rhai doethion:

17 A rhoddais orchymyn gyd â hwynt at Ido, pennaeth yn y fan *a elwir* Chasiphïa; a gosodais yn eu pennau hwynt eiriau i'w traethu wrth Ido, *a*'i frodyr y Nethiniaid, yn y fan *a elwir* Chasiphïa, fel y dygent attom ni weinidogion i dŷ ein Duw.

18 A hwy a ddygasant attom, fel *yr oedd* daionus law ein Duw arnom ni, ŵr deallgar o feibion Mahli, fab Lefi, fab Israel, a Serebïah, a'i feibion, a'i frodyr, ddeunaw;

19 A Hasabïah, a chyd âg ef Jesaiah o feibion Merari, a'i frodyr, a'u meibion, ugain;

20 Ac o'r Nethiniaid, a roddasai Dafydd a'r tywysogion y'ngwasanaeth y Lefiaid, dau cant ac ugain o Nethiniaid: hwynt oll a hysbysasid erbyn *eu* henwau.

21 ¶ Ac yno, wrth afon Ahafa, y cyhoeddais ympryd, i ymgystuddio ger bron ein Duw ni, i geisio ganddo ef ffordd uniawn i ni, ac i'n plant, ac i'n golud oll.

22 Canys cywilydd oedd gennyf geisio gan y brenhin fyddin a gwŷr meirch, i'n cynnorthwyo rhag y gelyn ar y ffordd: canys llefarasem wrth y brenhin, gan ddywedyd, Llaw ein Duw ni *sydd* er daioni ar bawb a'i ceisiant ef, a'i gryfder a'i ddigter yn erbyn pawb a'i gadawant ef.

23 Am hynny yr ymprydiasom ac yr ymbiliasom â'n Duw am hyn; ac efe a wrandawodd arnom.

24 ¶ Yna y neilldduais ddeuddeg o bennaethiaid yr offeiriaid, Serebïah, Hasabïah, a deg o'u brodyr gyd â hwynt;

25 Ac a bwysais attynt hwy yr arian, a'r aur, a'r llestri, *sef* offrwm tŷ ein Duw ni, yr hyn a offrymasai y brenhin, a'i gynghoriaid, a'i dywysogion, a holl Israel, y rhai a gawsid *yno*.

26 Ie, pwysais i'w dwylaw hwynt chwe chant a deg a deugain talent o arian, ac o lestri arian gan talent, *a* chan talent o aur;

27 Ac ugain o orfiychau aur o fil o ddracmonau; a dau lestr o bres melyn da, mor brydferth ag aur.

28 A dywedais wrthynt, Sanctaidd *ydych* chwi i'r Arglwydd; a'r llestri *ydynt* sanctaidd; yr arian hefyd a'r aur *sydd* offrwm gwirfodd i Arglwydd Duw eich tadau.

29 Gwyliwch, a chedwch *hwynt*, hyd oni phwysoch *hwynt* ger bron pennaethiaid yr offeiriaid a'r Lefiaid, a phennau-cenedl Israel yn Jerusalem, y'nghelloedd tŷ yr Arglwydd.

30 Felly yr offeiriaid a'r Lefiaid a gymmerasant bwys yr arian, a'r aur, a'r llestri, i'*w* dwyn i Jerusalem i dŷ ein Duw ni.

31 ¶ A chychwynasom oddi wrth afon Ahafa, ar y deuddegfed *dydd* o'r mis cyntaf, i fyned i Jerusalem: a llaw ein Duw oedd arnom ni, ac a'n gwaredodd o law y gelyn, a'r rhai *oedd* yn cynllwyn ar y ffordd.

32 A ni a ddaethom i Jerusalem, ac a arhosasom yno dridiau.

33 ¶ Ac ar y pedwerydd dydd y pwyswyd yr arian, a'r aur, a'r llestri, yn nhŷ ein Duw ni, trwy law Meremoth mab Uriah yr offeiriad; ac Eleasar mab Phinees *oedd* gyd âg ef; a Josabad mab Jesua, a Noadïah mab Binnui, y Lefiaid, *oedd* gyd â hwynt;

34 Wrth rifedi, *ac* wrth bwys pob un: a'r holl bwysau a ysgrifenwyd y pryd hwnnw.

35 Meibion y gaethglud, y rhai a ddaeth o'r caethiwed, a offrymmasant boeth-offrymmau i Duw Israel, *sef* deuddeg o fustych dros holl Israel, onid pedwar pum ugain o hyrddod, namyn tri pedwar ugain o ŵyn, *a* deuddeg o fychod yn bech-aberth: y cwbl *oedd* yn offrwm poeth i'r Arglwydd.

36 ¶ A rhoddasant orchymyn y brenhin at bendefigion y brenhin, a thywysogion y tu hwnt i'r afon: a hwy a gynnorthwyasant y bobl, a thŷ Duw.

PENNOD 9.

1 *Esra yn gofidio am fod y bobl yn ymgyfathrachu â dieithriaid; 5 ym gweddio Duw, ac yn cyfaddef eu pechodau hwynt.*

AC wedi darfod hynny, y tywysogion a ddaethant attaf fi, gan ddywedyd, Nid ymneillduodd pobl Israel, a'r offeiriaid, a'r Lefiaid, oddi wrth bobl y gwledydd: *gwnaethant* yn ol eu ffieidd-dra hwynt; *sef* y Canaaneaid, yr Hethiaid, y Pheresiaid, y Jebusiaid, yr Ammoniaid, y Moabiaid, yr Aiphtiaid, a'r Amoriaid.

2 Canys cymmerasant o'u merched iddynt eu hun, ac i'w meibion; a'r had sanctaidd a ymgymmysgodd â phobl y gwledydd: a llaw y pennaethiaid a'r tywysogion fu gyntaf yn y camwedd hyn.

3 Pan glywais innau hyn, mi a rwygais fy nillad a'm gwisg, ac a dynnais wallt fy mhen a'm barf, ac a eisteddais yn syn.

4 Yna yr ymgasglodd attaf fi bob un a'r a ofnodd eiriau DUW Israel, am gamwedd y rhai a gaethgludasid; a myfi a eisteddais yn syn hyd yr aberth prydnhawnol.

5 ¶ Ac ar yr aberth prydnhawnol mi a gyfodais o'm cystudd; ac wedi i mi rwygo fy nillad a'm gwisg, mi a ostyngais ar fy ngliniau, ac a ledais fy nwylaw at yr ARGLWYDD fy NUW,

6 Ac a ddywedais, O fy NUW, y mae arnaf gywilydd a gorchwyledd godi fy wyneb attat ti, fy NUW; o herwydd ein hanwireddau ni a aethant yn aml dros ben, a'n camwedd a dyfodd hyd y nefoedd.

7 Er dyddiau ein tadau *yr ydym* ni mewn camwedd mawr hyd y dydd hwn; ac am ein hanwireddau y rhoddwyd ni, ein brenhinoedd, a'n hoffeiriaid, i law brenhinoedd y gwledydd, i'r cleddyf, i gaethiwed, ac i anrhaith, ac i warthrudd wyneb, megis heddyw.

8 Ac yn awr dros ennyd fechan y daeth gras oddi wrth yr ARGLWYDD ein DUW, i adael i ni weddill i ddïangc, ac i roddi i ni hoel yn ei le sanctaidd ef; fel y goleuai ein DUW ein llygaid, ac y rhoddai i ni ychydig orphwysdra yn ein caethiwed.

9 Canys caethion *oeddym* ni; ond ni adawodd ein DUW ni yn ein caethiwed, eithr parodd i ni drugaredd o flaen brenhinoedd Persia, i roddi i ni orphwysdra i ddyrchafu tŷ ein DUW ni, ac i gyfodi ei leoedd anghyfannedd ef, ac i roddi i ni fur yn Judah a Jerusalem.

10 Ac yn awr beth a ddywedwn wedi hyn, O ein DUW? canys gadawsom dy orchymynion di,

11 Y rhai a orchymynaist trwy law dy weision y prophwydi, gan ddywedyd, Y wlad yr ydych yn myned iddi i'w meddiannu, gwlad halogedig *yw* hi, trwy halogedigaeth pobl y gwledydd, oblegid eu ffieidd-dra hwynt, y rhai a'i llanwasant hi â'u haflendid o gwr bwy gilydd.

12 Ac yn awr, na roddwch eich merched i'w meibion hwynt, ac na chymmerwch eu merched hwynt i'ch meibion chwi, ac na cheisiwch eu heddwch hwynt na'u daioni byth: fel y cryfhaoch, ac y mwynhaoch ddaioni y wlad, ac y gadawoch hi yn etifeddiaeth i'ch meibion byth.

13 Ac wedi yr hyn oll a ddaeth arnom am ein drwg weithredoedd, a'n mawr gamwedd, am i ti ein DUW ein cospi yn llai na'n hanwiredd, a rhoddi i ni ddïangfa fel hyn;

14 A dorrem ni drachefn dy orchymynion di, ac ymgyfathrachu â'r ffiaidd bobl hyn? oni ddigit ti wrthym, nes *ein* difetha, fel na *byddai un* gweddill na dïangol?

15 ARGLWYDD DDUW Israel, cyfiawn *ydwyt* ti; eithr gweddill dïangol ydym ni, megis heddyw: wele ni o'th flaen di yn ein camweddau; canys ni allwn ni sefyll o'th flaen di am hyn.

PENNOD 10.

1 *Sechaniah yn annog Esra i ddiwygio y priodasau dieithr. 6 Esra yn galaru, ac yn casglu y bobl ymghyd. 9 Y bobl, trwy eiriol Esra, yn edifarhau, ac yn addaw gwellhau. 15 Eu gofal am gyflawni hynny. 18 Enwau y rhai a briodasai wragedd dieithr.*

AC wedi i Esra weddïo a chyffesu, gan wylo a syrthio i lawr o flaen tŷ DDUW, tyrfa fawr o Israel a ymgasglasant atto ef, yn wŷr, ac yn wragedd, ac yn blant: canys y bobl a wylasant âg wylofain mawr.

2 Yna y llefarodd Sechaniah mab

Jehiel, o feibion Elam, ac a ddywedodd wrth Esra, Ni a bechasom yn erbyn ein Duw, ac a gyttaliasom â gwragedd dïeithr o bobl y wlad: etto yn awr y mae gobaith i Israel am hyn.

3 Yn awr, gan hynny, gwnawn gyfammod â'n Duw, ar fwrw allan yr holl wragedd, a'u plant, wrth gynghor yr Arglwydd, a'r rhai a ofnant orchymynion ein Duw: a gwneler yn ol y gyfraith.

4 Cyfod; canys arnat ti *y mae* y peth: a ni *a fyddwn* gyd â thi: ymwrola, a gwna.

5 Yna y cyfododd Esra, ac a dyngodd bennaethiaid yr offeiriaid a'r Lefiaid, a holl Israel, ar wneuthur yn ol y peth hyn. A hwy a dyngasant.

6 ¶ Yna y cyfododd Esra o flaen tŷ Dduw, ac a aeth i ystafell Johanan mab Eliasib: a *phan* ddaeth yno, ni fwyttaodd fara, ac nid yfodd ddwfr; canys galaru yr oedd am gamwedd y gaethglud.

7 A chyhoeddasant yn Judah a Jerusalem, ar i holl feibion y gaethglud ymgasglu i Jerusalem;

8 A phwy bynnag ni ddelai o fewn tridiau, yn ol cynghor y pennaethiaid a'r henuriaid, efe a gollai ei holl olud, ac yntau a ddidolid oddi wrth gynnulleidfa y rhai a gaethgludasid.

9 ¶ Felly holl wŷr Judah a Benjamin a ymgasglasant i Jerusalem o fewn tridiau: hynny *oedd* y nawfed mis, ar yr ugeinfed *dydd* o'r mis; a'r holl bobl a eisteddasant yn heol tŷ Dduw, yn crynu o achos y peth *hyn*, ac o achos y gwlawogydd.

10 Ac Esra yr offeiriad a gyfododd, ac a ddywedodd wrthynt, Chwi a bechasoch, ac a gyttaliasoch â gwragedd dïeithr, gan ychwanegu ar bechod Israel.

11 Ac yn awr rhoddwch foliant i Arglwydd Dduw eich tadau, a gwnewch ei ewyllys ef; ac ysgerwch oddi wrth bobl y tir, ac oddi wrth y gwragedd dïeithr.

12 A holl dyrfa Israel a attebasant, ac a ddywedasant â llef uchel, Yn ol dy air di y mae arnom ni wneuthur.

13 Eithr y bobl sydd lawer, a'r amser yn wlawog, ac ni ellir sefyll allan, ac nid gwaith un diwrnod na dau *ydyw:* canys pechasom yn ddirfawr yn y peth hyn.

14 Safed yn awr ein pennaethiaid o'r holl dyrfa, a deued y rhai o'n dinasoedd a gyttaliasant â gwragedd dïeithr, ar amseroedd gosodedig, a henuriaid pob dinas, a'u barnwyr gyd â hwynt, nes troi digter ein Duw oddi wrthym am y peth hyn.

15 ¶ Yn unig Jonathan mab Asahel, a Jahasïah mab Ticfah, a osodwyd ar hyn: Mesùlam hefyd a Sabbethai y Lefiad a'u cynnorthwyasant hwy.

16 A meibion ygaethglud a wnaethant felly. Ac Esra yr offeiriad, *a'r* gwŷr *oedd* bennau-cenedl tŷ eu tadau, a hwynt oll wrth *eu* henwau, a neillduwyd, ac a eisteddasant ar y dydd cyntaf o'r degfed mis, i ymofyn am y peth hyn.

17 A hwy a wnaethant ben â'r holl wŷr a gyttaliasent â gwragedd dïeithr, erbyn y dydd cyntaf o'r mis cyntaf.

18 ¶ A chafwyd o feibion yr offeiriaid, y rhai a gyttaliasent â gwragedd dïeithr: o feibion Jesua mab Josadac, a'i frodyr; Maaseiah, ac Eliëser, a Jarib, a Gedalïah.

19 A hwy a roddasant eu dwylaw ar fwrw allan eu gwragedd; a chan iddynt bechu, *a offrymmasant* hwrdd o'r praidd dros eu camwedd.

20 Ac o feibion Immer; Hanani, a Sebadïah.

21 Ac o feibion Harim; Maaseiah, ac Eliïah, a Semaiah, a Jehiel, ac Ussïah.

22 Ac o feibion Pasur; Elioenai, Maaseiah, Ismael, Nethaneel, Josabad, ac Elasah.

23 Ac o'r Lefiaid; Josabad, a Simei, a Chelaiah, (hwnnw *yw* Celita,) Pethahïah, Judah, ac Eliëser.

24 Ac o'r cantorion; Eliasib: ac o'r porthorion; Sàlum, a Thelem, ac Uri.

25 Ac o Israel: o feibion Paros; Ramïah, a Jesïah, a Malchïah, a Mïamin, ac Eleasar, a Malchïah, a Benaiah.

26 Ac o feibion Elam; Mattanïah,

Secharïah, a Jehiel, ac Abdi, a Jeremoth, ac Elïah.
27 Ac o feibion Sattu; Elioenai, Elïasib, Mattanïah, a Jeremoth, a Sabad, ac Asisa.
28 Ac o feibion Bebai; Jehohanan, Hananïah, Sabbai, *ac* Athlai.
29 Ac o feibion Bani; Mesùlam, Màluch, ac Adaiah, Jasub, a Seal, a Ramoth.
30 Ac o feibion Pahath-Moab; Adna, a Chelal, Benaiah, Maaseiah, Mattanïah, Besaleel, a Binnui, a Manasseh.
31 Ac *o* feibion Harim; Elïeser, Isïah, Malchïah, Semaiah, Simeon,
32 Benjamin, Màluch, *a* Semarïah.
33 O feibion Hasum; Mattenai, Mattathah, Sabad, Eliphelet, Jeremai, Manasseh, *a* Simei.
34 O feibion Bani; Maadai, Amram, ac Uel,
35 Benaiah, Bedeiah, Cèlu,
36 Fanïah, Meremoth, Elïasib,
37 Mattanïah, Mattenai, a Jaasau,
38 A Bani, a Binnui, Simei,
39 A Selemïah, a Nathan, ac Adaiah,
40 Machnadebai, Sasai, Sarai,
41 Asareel, a Selemïah, a Semarïah,
42 Sàlum, Amarïah, *a* Joseph.
43 O feibion Nebo; Jeiel, Mattithïah, Sabad, Sebina, Jadau, a Jöel, *a* Benaiah.
44 Y rhai hyn oll a gymmerasent wragedd dïeithr: ac yr oedd *i rai* o honynt wragedd a ddygasai blant iddynt.

LLYFR NEHEMIAH.

PENNOD 1.

1 *Nehemïah, wrth glywed gan Hanani ddrwg gyflwr Jerusalem, yn galaru, ac yn ymprydio, ac yn gweddïo.* 5 *Ei weddi ef.*

GEIRIAU Nehemïah mab Hachalïah. A bu ym mis Cisleu, *yn* yr ugeinfed flwyddyn, pan oeddwn i ym mrenhinllys Susan,
2 Ddyfod o Hanani, un o'm brodyr, efe a gwŷr o Judah; a gofynais iddynt am yr Iuddewon a ddïangasai, y rhai a adawsid o'r caethiwed, ac am Jerusalem.
3 A hwy a ddywedasant wrthyf, Y gweddillion, y rhai a adawyd o'r gaethglud yno yn y dalaeth *ydynt* mewn blinder mawr a gwaradwydd: mur Jerusalem hefyd a ddrylliwyd, a'i phyrth a losgwyd â thân.
4 ¶ A phan glywais y geiriau hyn, myfi a eisteddais ac a wylais, ac a alerais *dalm* o ddyddiau; a bûm yn ymprydio, ac yn gweddïo ger bron Duw y nefoedd;
5 A dywedais, Attolwg, Arglwydd Duw y nefoedd, y Duw mawr ac ofnadwy, yr hwn sydd yn cadw cyfammod a thrugaredd i'r rhai a'i carant ef ac a gadwant ei orchymynion:
6 Bydded, attolwg, dy glust yn clywed, a'th lygaid yn agored, i wrandaw ar weddi dy was, yr hon yr ydwyf fi yn ei gweddïo ger dy fron di yr awr hon ddydd a nos, dros feibion Israel dy weision, ac yn cyffesu pechodau meibion Israel, y rhai a bechasom i'th erbyn: myfi hefyd a thŷ fy nhad a bechasom.
7 Gwnaethom yn llygredig iawn i'th erbyn, ac ni chadwasom y gorchymynion, na'r deddfau, na'r barnedigaethau, a orchymynaist i Moses dy was.
8 Cofia, attolwg, y gair a orchymynaist wrth Moses dy was, gan ddywedyd, *Os* chwi a droseddwch, myfi a'ch gwasgaraf chwi ym mysg y bobloedd:
9 Ond *os* dychwelwch attaf fi, a chadw fy ngorchymynion, a'u gwneuthur hwynt; pe gyrrid rhai o honoch chwi hyd eithaf y nefoedd, *etto* mi a'u casglaf hwynt oddi yno, ac a'u dygaf i'r lle a etholais i drigo o'm henw yndda.
10 A hwy *ydynt* dy weision a'th bobl, y rhai a waredaist â'th fawr allu, ac â'th law nerthol.
11 Attolwg, Arglwydd, bydded

yn awr dy glust yn gwrandaw ar
weddi dy was, ac ar weddi dy weis-
ion y rhai sydd yn ewyllysio ofni
dy enw: llwydda hefyd, attolwg,
dy was heddyw, a chaniattâ iddo
gael trugaredd ger bron y gŵr
hwn. Canys myfi oedd drulliad
i'r brenhin.

PENNOD 2.

1 *Artaxerxes, pan wybu yr achos yr oedd Nehemïah yn athrist, yn ei anfon ef â llythyrau ac â gorchymynion i Jerusalem.* 9 *Nehemïah yn dyfod i Jerusalem, a'r gelynion yn ddrwg ganddynt hynny.* 12 *Ynïau yn gyfrinachol yn golygu adfail y caerau,* 17 *ac yn annog yr Iuddewon i adeiladu Jerusalem, er gwaethaf eu gelynion.*

AC ym mis Nisan, *yn* yr ugeinfed
flwyddyn i Artaxerxes y bren-
hin, *yr oedd* gwin o'i flaen ef:
a mi a gymmerais y gwin, ac
a'*i* rhoddais i'r brenhin. Ond ni
byddwn *arferol o fod* yn drist ger
ei fron ef.
2 Am hynny y brenhin a ddywed-
odd wrthyf, Paham *y mae* dy wyn-
ebpryd yn drist, a thithau heb fod
yn glaf? nid *yw* hyn ond tristwch
calon. Yna yr ofnais yn ddirfawr:
3 A dywedais wrth y brenhin,
Byw fyddo y brenhin yn dragy-
wydd: paham na thristâi fy wyneb,
pan fyddai y ddinas, tŷ beddrod
fy nhadau, wedi *ei* dinystrio, a'i
phyrth wedi eu hysu â thân?
4 A'r brenhin a ddywedodd wrth-
yf, Pa beth yr wyt ti yn ei ddy-
muno? Yna y gweddïais ar DDUW
y nefoedd.
5 A mi a ddywedais wrth y bren-
hin, O rhynga bodd i'r brenhin, ac
od yw dy was yn gymmeradwy ger
dy fron di, ar i ti fy anfon i Judah,
i ddinas beddrod fy nhadau, fel yr
adeiladwyf hi.
6 A'r brenhin a ddywedodd wrth-
yf, a'i wraig yn eistedd yn ei ymyl
ef, Pa hyd y bydd dy daith di, a
pha bryd y dychweli? A gwelodd y
brenhin yn dda fy anfon i, a min-
nau a nodais iddo amser.
7 Yna y dywedais wrth y brenhin,
O rhynga bodd i'r brenhin, rhodder
i mi lythyrau at y tywysogion o'r
tu hwnt i'r afon, fel y trosglwydd-
ont fi nes fy nyfod i Judah;
8 A llythyr at Asaph, ceidwad
coedwig y brenhin, fel y rhoddo efe
i mi goed i wneuthur trawstiau i
byrth y palas y rhai *a berthyn* i'r
tŷ, ac i fur y ddinas, ac i'r tŷ yr
elwyf iddo. A'r brenhin a roddodd
i mi, fel yr *oedd* daionus law fy
NUW arnaf fi.
9 ¶ Yna y deuthum at y tywys-
ogion o'r tu hwnt i'r afon, ac a
roddais iddynt lythyrau y brenhin.
A'r brenhin a anfonasai dywysogion
y llu, a marchogion gyd â mi.
10 Pan glybu Sanbalat yr Horon-
iad, a Thobïah y gwas, yr Ammon-
iad, *y peth hyn*, bu ddrwg iawn
ganddynt, am ddyfod dyn i geisio
daioni i feibion Israel.
11 Felly mi a ddeuthum i Jerusa-
lem, ac a fûm yno dridiau.
12 ¶ A chyfodais liw nos, myfi ac
ychydig wŷr gyd â mi; ac ni fyn-
egais i neb beth a roddasai fy NUW
yn fy nghalon ei wneuthur yn Je-
rusalem: ac anifail nid *oedd* gen-
nyf, ond yr anifail yr oeddwn yn
marchogaeth arno.
13 A mi a euthum allan liw nos,
trwy borth y glyn, ar gyfer ffynnon
y ddraig, ac at borth y dom; a del-
iais sylw ar furiau Jerusalem y rhai
oedd wedi eu dryllio, a'i phyrth *y
rhai* oedd wedi eu hysu â thân.
14 Yna y tramwyais i borth y ffyn-
non, ac at bysgodlyn y brenhin: ac
nid *oedd* le i'r anifail *oedd* danaf i
fyned heibio.
15 A mi a euthum i fyny gan lan
yr afon liw nos, ac a ddeliais sylw
ar y mur, ac a ddychwelais, ac a
ddeuthum trwy borth y glyn, ac
felly y troais yn ol.
16 A'r pennaethiaid ni wyddent i
ba le yr aethwn i, na pheth yr oedd-
wn yn ei wneuthur; a hyd yn hyn
ni fynegaswn *ddim* i'r Iuddewon,
nac i'r offeiriaid, nac i'r pendefigion,
nac i'r pennaethiaid, nac i'r rhan
arall oedd yn gwneuthur y gwaith.
17 ¶ Yna y dywedais wrthynt, Yr
ydych yn gweled yr adfyd yr ydym
ynddo, fod Jerusalem wedi ei din-
ystrio, a'i phyrth wedi eu llosgi â
thân: deuwch, ac adeiladwn fur Je-
rusalem, fel na byddom mwyach yn
waradwydd.
18 Yna y mynegais iddynt fod
llaw fy NUW yn ddaionus tu ag
attaf; a geiriau y brenhin hefyd y

rhai a ddywedasai efe wrthyf. A hwy a ddywedasant, Cyfodwn, ac adeiladwn. Felly y cryfhasant eu dwylaw i ddaioni.

19 Ond pan glybu Sanbàlat yr Horoniad, a Thobïah y gwas, yr Ammoniad, a Gesem yr Arabiad, *hyn*, hwy a'n gwatwarasant ni, ac a'n dirmygasant, ac a ddywedasant, Pa beth *yw* hyn yr ydych chwi yn ei wneuthur? a wrthryfelwch chwi yn erbyn y brenhin?

20 Yna yr attebais hwynt, ac y dywedais wrthynt, Duw y nefoedd, efe a'n llwydda ni; a ninnau ei weision ef a gyfodwn, ac a adeiladwn: ond nid *oes* i chwi ran, na chyfiawnder, na choffadwriaeth yn Jerusalem.

PENNOD 3.

1 *Enwau a threfn y rhai a adeiladasant caerau Jerusalem.*

YNA Eliasib yr arch-offeiriad a gyfododd, a'i frodyr yr offeiriaid, a hwy a adeiladasant borth y defaid; hwy a'i cyssegrasant, ac a osodasant ei ddorau ef; ïe, hyd dŵr Meah y cyssegrasant ef, *a* hyd dŵr Hananeel.

2 A cher llaw iddo ef yr adeiladodd gwŷr Jericho. A cher llaw iddynt hwy yr adeiladodd Saccur mab Imri.

3 A meibion Hassenaah a adeiladasant borth y pysgod; hwynt-hwy a osodasant ei drawstiau ef, ac a osodasant ei ddorau, ei gloiau, a'i farrau.

4 A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Meremoth mab Uriah, mab Cos. A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Mesùlam mab Berechïah, mab Mesesabeel. A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Sadoc mab Baana.

5 A cher llaw iddynt hwy y cyweiriodd y Tecoiaid; ond eu gwŷr mawr ni osodasant eu gwddf yng ngwasanaeth eu Harglwydd.

6 A Jehoiada mab Paseah, a Mesùlam mab Besodeiah, a gyweiriasant yr hen borth; hwy a osodasant ei drawstiau ef, ac a osodasant i fyny ei ddorau, a'i gloiau, a'i farrau.

7 A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Melatïah y Gibeoniad, a Jadon y Meronothiad, gwŷr Gibeon a Mispah, hyd orseddfa y llywydd *oedd* tu yma i'r afon.

8 Ger llaw iddo ef y cyweiriodd Ussïel mab Harhaiah, *o'r* gofaint aur. Ger llaw iddo yntau y cyweiriodd Hananïah, mab *un o'r* apothecariaid: a hwy a gyweiriasant Jerusalem hyd y mur llydan.

9 A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Rephaiah mab Hur, tywysog hanner rhan Jerusalem.

10 A cher llaw iddynt hwy y cyweiriodd Jedaiah mab Harumaph, ar gyfer ei dŷ. A Hattus mab Hasabnïah a gyweiriodd ger llaw iddo yntau.

11 Malchïah mab Harim, a Hasub mab Pahath-Moab, a gyweiriasant ran arall, a thŵr y ffyrnau.

12 A cher llaw iddo ef y cyweiriodd Sàlum mab Halohes, tywysog hanner rhan Jerusalem, efe a'i ferched.

13 Porth y glyn a gyweiriodd Hanun, a thrigolion Sanoah; hwynthwy a'i hadeiladasant ef, ac a osodasant ei ddorau ef, ei gloiau, a'i farrau, a mil o gufyddau ar y mur, hyd borth y dom.

14 Ond porth y dom a gyweiriodd Malchïah mab Rechab, tywysog rhan o Beth-haccerem; efe a'i hadeiladodd, ac a osododd ei ddorau, ei gloiau, a'i farrau.

15 A Sàlum mab Col-hoseh, tywysog rhan o Mispah, a gyweiriodd borth y ffynnon; efe a'i hadeiladodd, ac a'i tôdd, ac a osododd ei ddorau ef, ei gloiau, a'i farrau, a mur pysgodlyn Siloah wrth ardd y brenhin, a hyd y grisiau sydd yn dyfod i waered o ddinas Dafydd.

16 Ar ei ol ef y cyweiriodd Nehemïah mab Asbuc, tywysog hanner rhan Bethsur, hyd ar gyfer beddrod Dafydd, a hyd y pysgodlyn a wnelsid, a hyd dŷ y cedyrn.

17 Ar ei ol ef y cyweiriodd y Lefiaid, Rehum mab Bani. Ger llaw iddo ef y cyweiriodd Hasabïah, tywysog hanner rhan Ceilah, yn ei fro ei hun.

18 Ar ei ol ef eu brodyr hwynt a gyweiriasant, Bafai mab Henadad, tywysog hanner rhan Ceilah.

19 A cher llaw iddo ef y cyweir-

iodd Eser mab Jesua, tywysog Mispah, ran arall ar gyfer y ddringfa i dŷ yr arfau, wrth y drofa.

20 Ar ei ol ef Baruc mab Sabbai yn awyddus a gyweiriodd y mesur arall, o'r drofa hyd ddrws tŷ Eliasib yr arch-offeiriad.

21 Ar ei ol ef Meremoth mab Urïah, fab Cos, a gyweiriodd y mesur arall, o ddrws tŷ Eliasib hyd dalcen tŷ Eliasib.

22 Ac ar ei ol ef yr offeiriaid, gwŷr y gwastadedd, a gyweiriasant.

23 Ar ei ol ef y cyweiriodd Benjamin, a Hasub, gyferbyn â'u tŷ. Wedi yntau Asarïah mab Maaseiah, mab Ananïah, a gyweiriodd wrth ei dŷ.

24 Ar ei ol yntau Binnui mab Henadad a gyweiriodd fesur arall, o dŷ Asarïah hyd y drofa, sef hyd y gongl.

25 Palal mab Usai, ar gyfer y drofa, a'r tŵr sydd yn myned allan o ucheldy y brenhin, yr hwn *sydd* wrth gyntedd y carchar. Ar ei ol ef, Pedaiah mab Paros.

26 A'r Nethiniaid, y rhai oedd yn trigo yn Ophel, hyd ar gyfer porth y dwfr, tu a'r dwyrain, a'r tŵr oedd yn myned allan.

27 Ar ei ol yntau y Tecoiaid a gyweiriasant fesur arall, ar gyfer y tŵr mawr sydd yn myned allan, hyd fur Ophel.

28 Oddi ar borth y meirch, yr offeiriaid a gyweiriasant bob un gyferbyn â'i dŷ.

29 Ar eu hol hwynt Sadoc mab Immer a gyweiriodd ar gyfer ei dŷ. Ac ar ei ol yntau y cyweiriodd Semaiah mab Sechanïah, ceidwad porth y dwyrain.

30 Ar ei ol ef y cyweiriodd Hananïah mab Selemïah, a Hanun chweched mab Salaph, y mesur arall. Ar ei ol yntau Mesùlam mab Berechïah a gyweiriodd ar gyfer ei ystafell.

31 Ar ei ol yntau Malchïah, mab y gôf aur, a gyweiriodd hyd dŷ y Nethiniaid, a'r marchnadyddion ar gyfer porth Miphcad, hyd ystafell y gongl.

32 A rhwng ystafell y gongl a phorth y defaid, yr eurychod a'r marchnadyddion a gyweiriasant.

PENNOD 4.

1 *Nehemïah yn gweithio, ac yn myned rhagddo yn adeiladu Jerusalem, er bod y gelynion yn ei watwar: 7 a phan wybu eu digllonedd a'u cyfrinach hwy, yn gosod gwytiadwriaeth,* 13 *yn arfogi y gweithwyr,* 19 *ac yn dysgu iddynt ryfela.*

PAN glybu Sanbàlat ein bod ni yn adeiladu y mur, efe a gynddeiriogodd ynddo, ac a lidiodd yn ddirfawr, ac a watwarodd yr Iuddewon.

2 Ac efe a lefarodd o flaen ei frodyr a llu Samaria, ac a ddywedodd, Beth y mae yr Iuddewon gweiniaid hyn yn ei wneuthur? a adewir iddynt hwy? a aberthant? a orphenant mewn diwrnod? a godant hwy y cerrig o'r tyrrau llwch, wedi eu llosgi?

3 A Thobïah yr Ammoniad *oedd* yn ei ymyl, ac efe a ddywedodd, Er eu bod hwy yn adeiladu, *etto* ped elai lwynog i fyny, efe a fwriai i lawr èu mur cerrig hwynt.

4 Gwrando, O ein Duw; canys yr ydym yn ddirmygus: dychwel hefyd eu gwaradwydd ar eu pennau hwynt, a dod hwynt yn anrhaith y'ngwlad y caethiwed:

5 Ac na orchuddia eu hanwiredd hwynt, ac na ddilëer eu pechod hwynt o'th ŵydd di: canys digiasant *dydi* ger bron yr adeiladwyr.

6 Felly nyni a adeiladasom y mur: a chyfannwyd yr holl fur hyd ei hanner: canys yr oedd gan y bobl galon i weithio.

7 ¶ Ond pan glybu Sanbàlat, a Thobïah, a'r Arabiaid, a'r Ammoniaid, a'r Asdodiaid, gwbl-gyweirio muriau Jerusalem, *a* dechreu cau yr adwyau; yna y llidiasant yn ddirfawr:

8 A hwynt oll a frad-fwriadasant ynghyd i ddyfod i ymladd yn erbyn Jerusalem, ac i'w rhwystro.

9 Yna y gweddïasom ar ein Duw, ac y gosodasom wyliadwriaeth yn eu herbyn hwynt ddydd a nos, o'u plegid hwynt.

10 A Judah a ddywedodd, Nerth y cludwyr a wanhaodd, a phridd lawer *sydd*, fel na allwn ni adeiladu y mur.

11 A'n gwrthwynebwyr a ddywedasant, Ni chânt wybod, na gweled, nes i ni ddyfod i'w mysg hwynt,

a'u lladd, a rhwystro eu gwaith hwynt.

12 A phan ddaeth yr Iuddewon oedd yn preswylio yn eu hymyl hwynt, dywedasant wrthym ddengwaith, O'r holl leoedd *trwy* y rhai y gallech ddychwelyd attom ni, *y byddant arnoch chwi.*

13 ¶ Am hynny mi a osodais *rai* yn y lleoedd isaf, o'r tu ol i'r mur, *ac* yn y lleoedd uchaf; yn ol eu teuluoedd hefyd y gosodais y bobl, â'u cleddyfau, â'*u* gwaywffyn, ac â'u bwäau.

14 A mi a edrychais, ac a gyfodais, ac a ddywedais wrth y pendefigion, a'r swyddogion, ac wrth y rhan arall o'r bobl, Nac ofnwch rhagddynt: cofiwch yr ARGLWYDD mawr ac ofnadwy, ac ymleddwch dros eich brodyr, eich meibion a'ch merched, eich gwragedd a'ch tai.

15 A phan glybu ein gelynion fod *y peth* yn hysbys i ni, DUW a ddiddymmodd eu cynghor hwynt; a ninnau oll a ddychwelasom at y mur, bawb i'w waith.

16 Ac o'r dydd hwnnw, hanner fy ngweision oedd yn gweithio yn y gwaith, a'u hanner hwynt oedd yn dal gwaywffyn, a thariannau, a bwäau, a llurigau; a'r tywysogion *oedd* ar ol holl dŷ Judah.

17 Y rhai oedd yn adeiladu ar y mur, ac yn dwyn beichiau, *a*'r rhai oedd yn llwytho, oeddynt âg un llaw yn gweithio yn y gwaith, ac â'r *llaw* arall yn dal arf.

18 Canys pob un o'r adeiladwyr oedd wedi gwregysu ei gleddyf ar ei glun, ac yn adeiladu: a'r hwn oedd yn lleisio mewn udgorn *ydoedd* yn fy ymyl i.

19 ¶ A mi a ddywedais wrth y pendefigion, ac wrth y swyddogion, ac wrth y rhan arall o'r bobl, Y gwaith *sydd* fawr a helaeth, a nyni a wasgarwyd ar hyd y mur, ym mhell oddi wrth ein gilydd.

20 Yn y fan lle y clywoch sain yr udgorn, yno ymgesglwch attom. Ein DUW ni a ymladd drosom.

21 Felly yr oeddem ni yn gweithio yn y gwaith: a'u hanner hwynt yn dal gwaywffyn, o gyfodiad y wawr hyd gyfodiad y sêr.

22 Dywedais hefyd y pryd hwnnw wrth y bobl, Llettŷed pob un â'i was yn Jerusalem, fel y byddont i ni yn wyliadwriaeth y nos, a'r dydd *mewn* gwaith.

23 Felly myfi, a'm brodyr, a'm gweision, a'r gwylwyr *oedd* ar fy ol, ni ddïosgasom ein dillad, *ond* a ddïosgai pob un i'w golchi.

PENNOD 5.

1 *Yr Iuddewon yn cwyno rhag eu dyledion, a'u prid, a'u caethiwed.* 6 *Nehemiah yn ceryddu yr usuriwyr, ac yn peri iddynt roi yr ocr a'r prid yn ei ol:* 14 *yn maddeu ei gymhaliaeth i'r bobl, ac yn cadw ty.*

AC yr oedd gweiddi mawr gan y bobl, a'u gwragedd, yn erbyn yr Iuddewon eu brodyr.

2 Canys yr oedd rhai yn dywedyd, *Y mae* llawer o honom ni, ein meibion, a'n merched: am hynny yr ydym yn cymmeryd ŷd, fel y bwyttaom, ac y byddom byw.

3 Yr oedd rhai hefyd yn dywedyd, Ein meusydd, a'n gwinllannoedd, a'n tai, yr ydym ni yn eu gwystlo, fel y prynom ŷd rhag y newyn.

4 Ac yr oedd rhai *eraill* yn dywedyd, Benthycciasom arian i *dalu* treth y brenhin, *a hynny ar* ein tiroedd a'n gwinllannoedd.

5 Ac yn awr, ein cnawd ni *sydd* fel cnawd ein brodyr, ein plant ni fel eu plant hwy: ac wele ni yn darostwng ein meibion a'n merched yn weision, ac y mae *rhai* o'n merched ni wedi eu caethiwo, ac heb fod gennym *i'w rhyddhâu;* canys gan eraill *y mae* ein meusydd a'n gwinllannoedd hyn.

6 ¶ Yna y llidiais yn ddirfawr, pan glywais eu gwaedd hwynt, a'r geiriau hyn.

7 Fy nghalon hefyd a feddyliodd ynof, a mi a ddwrdiais y pendefigion, a'r swyddogion, ac a ddywedais wrthynt, Yr ydych chwi yn cymmeryd ocraeth bob un gan ei frawd. A gosodais yn eu herbyn hwynt gynnulleidfa fawr.

8 Dywedais hefyd wrthynt, Nyni yn ol ein gallu a brynasom ein brodyr yr Iuddewon, y rhai a werthasid i'r cenhedloedd; ac a ydych chwithau yn gwerthu eich brodyr? neu a werthir hwynt i ni? Yna y tawsant, ac ni chawsant air *i atteb.*

9 A mi a ddywedais, Nid da y peth yr ydych chwi yn ei wneuthur: oni ddylech chwi rodio mewn ofn ein Duw ni, o achos gwaradwydd y cenhedloedd ein gelynion?

10 Myfi hefyd, *a'm* brodyr, a'm llangciau, ydym yn echwyno iddynt arian ac ŷd: peidiwn, attolwg, â'r ocraeth yma.

11 Rhoddwch, attolwg, iddynt heddyw eu meusydd, eu gwinllannoedd, a'u holew-wyddlannoedd, a'u tai drachefn; a chanfed *ran* yr arian, a'r ŷd, y gwin, a'r olew, yr ydych chwi yn ei fynnu ganddynt.

12 Hwythau a ddywedasant, Nyni a'*u* rhoddwn drachefn, ac ni cheisiwn *ddim* ganddynt; felly y gwnawn fel yr ydwyt yn llefaru. Yna y gelwais yr offeiriaid, ac a'u tyngais hwynt ar wneuthur yn ol y gair hwn.

13 A mi a ysgydwais odre *fy ngwisg*, ac a ddywedais, Felly yr ysgydwo Duw bob gŵr o'i dŷ, ac o'i lafur, yr hwn ni chwblhao y gair hwn, ac felly y byddo efe yn ysgydwedig, ac yn wag. A'r holl gynnulleidfa a ddywedasant, Amen: ac a foliannasant yr Arglwydd. A'r bobl a wnaeth yn ol y gair hwn.

14 ¶ Ac o'r dydd y gosodwyd fi yn dywysog iddynt hwy y'ngwlad Judah, o'r ugeinfed flwyddyn hyd y ddeuddegfed flwyddyn ar hugain i Artaxerxes y brenhin, *sef* deuddeng mlynedd, ni fwytteais i na'm brodyr fara y tywysog.

15 Ond y tywysogion cyntaf, y rhai *a fuasai* o'm blaen i, fuasent drymion ar y bobl, ac a gymmerasent ganddynt fara a gwin, heb law deugain sicl o arian; eu llangciau hefyd a arglwyddiaethent ar y bobl: ond ni wneuthum i felly, rhag ofn Duw.

16 Eithr myfi a gyweiriais *ran* y'ngwaith y mur hwn, ac ni phrynasom *un* maes: a'm holl weision i a ymgynnullasant yno at y gwaith.

17 Ac *yr oedd* ar fy mwrdd i, o Iuddewon ac o swyddogion, ddengwr a saith ugain, heb law y rhai oedd yn dyfod attom ni o'r cenhedloedd y rhai *oedd* o'n hamgylch.

18 A'r hyn a arlwyid beunydd *oedd* un ŷch, chwech o ddefaid dewisol, ac adar wedi eu parottôi i mi; a phob deng niwrnod *y rhoddid* gwin o bob math, yn ddiamdlawd: ac er hyn ni cheisiais fara y tywysog; canys trwm oedd y caethiwed ar y bobl yma.

19 Cofia fi, O fy Nuw, er lles *i mi, yn ol* yr hyn oll a wneuthum i'r bobl hyn.

PENNOD 6.

1 Sanbàlat, trwy ddichellion, a chwedlau, a brudiau gau, yn ceisio dychrynu Nehemiah. 15 Gorphen adeiladu Jerusalem; a hynny yn ddychryn i'r gelynion. 17 Pendefigion Judah a'i gelynion yn deall cyfrinach eu gilydd.

APHAN glybu Sanbàlat, a Thobïah, a Gesem yr Arabiad, a'r rhan arall o'n gelynion, adeiladu o honof fi y mur, ac nad oedd adwy wedi ei gadael ynddo; (er na osodaswn i y pryd hwnnw y dorau ar y pyrth;)

2 Yna yr anfonodd Sanbàlat a Gesem attaf, gan ddywedyd, Tyred, ac ymgyfarfyddwn ynghyd yn *un o'r* pentrefi y'ngwastadedd Ono. Ac yr oeddynt hwy yn bwriadu gwneuthur niwed i mi.

3 Minnau a anfonais genhadau attynt hwy, gan ddywedyd, Gwaith mawr *yr ydwyf* fi yn *ei* wneuthur; o herwydd hynny ni allaf ddyfod i waered: paham y safai y gwaith, pan ymadâwn âg ef, a dyfod i waered attoch chwi?

4 Etto hwy a anfonasant attaf fi yn y wedd hon bedair gwaith; ac yn y modd hwnnw yr attebais hwynt.

5 Yna Sanbàlat a anfonodd ei was attaf fi y bummed waith yr un ffunud, â llythyr agored yn ei law:

6 Ynddo yr oedd yn ysgrifenedig, Ym mysg y cenhedloedd y mae y gair, a Gasmu sydd yn dywedyd, dy fod di a'r Iuddewon yn amcanu gwrthryfela: o herwydd hynny dy fod di yn adeiladu y mur, fel y byddit frenhin arnynt, yn ol y geiriau hyn;

7 A'th fod dithau hefyd wedi gosod prophwydi i bregethu am danat yn Jerusalem, gan ddywedyd, *Y mae* brenhin yn Judah. Ac yn awr y fath ymadroddion a hyn a glyw y brenhin: gan hynny tyred yn awr, ac ymgynghorwn ynghyd.

8 Yna yr anfonais atto, gan ddywedyd, Ni ddarfu yn ol yr ymadroddion hyn yr ydwyt ti yn eu dywedyd; ond o'th galon dy hun yr ydwyt yn eu dychymmygu hwynt.

9 Oblegid hwynt-hwy oll oedd yn ceisio ein hofni ni, gan ddywedyd, Eu dwylaw hwy a faesant oddi wrth y gwaith, fel nas gwneir ef. Gan hynny cryfhâ yn awr, *O* DDUW, fy nwylaw i.

10 A mi a ddeuthum i dŷ Semaiah mab Delaiah, mab Mehetabeel, yr hwn *oedd* wedi cau arno; ac efe a ddywedodd, Cyfarfyddwn yn nhŷ DDUW, a chauwn ddrysau y deml: canys y maent yn dyfod i'th ladd di; a lliw nos y deuant i'th ladd di.

11 Yna y dywedais, A ffy gŵr o'm bath i? neu pwy *sydd* fel myfi yr hwn a elai i'r deml, fel y byddai byw? Nid âf i mewn.

12 Ac wele, gwybum nad DUW a'i hanfonasai ef; ond llefaru o hono ef y brophwydoliaeth hon yn fy erbyn i: canys Tobïah a Sanbàlat a'i cyflogasent ef.

13 O herwydd hyn y cyflogasid ef, fel y'm hofnid i, ac y gwnawn felly, ac y pechwn; ac y byddai *hynny* ganddynt yn enllib *i'm herbyn*, fel y'm gwaradwyddent.

14 O fy NUW, cofia Tobïah a Sanbàlat, yn ol eu gweithredoedd hynny; a Noadïah y brophwydes hefyd, a'r rhan arall o'r prophwydi y rhai oedd yn fy nychrynu i.

15 ¶ A'r mur a orphenwyd ar y pummed *dydd* ar hugain o Elul, mewn deuddeng niwrnod a deugain.

16 A phan glybu ein holl elynion ni *hynny*, a gweled o'r holl genhedloedd y rhai *oedd* o'n hamgylch, hwy a ofnasant, ac a lwfrhasant yn ddirfawr ynddynt eu hun: canys gwybuant mai trwy ein DUW ni y gwnelsid y gwaith hwn.

17 ¶ Ac yn y dyddiau hyn pendefigion Judah oedd yn mynychddanfon eu llythyrau at Tobïah; a'r eiddo Tobïah oedd yn dyfod attynt hwythau.

18 Canys *yr oedd* llawer yn Judah mewn cynghrair âg ef; o herwydd daw *oedd* efe i Sechanïah mab Arah; a Johanan ei fab ef a gymmerasai ferch Mesùlam mab Berechïah *yn wraig iddo.*

19 A'i gymmwynasau ef y byddent hwy yn eu mynegi ger fy mron i; fy ngeiriau innau hefyd y byddent yn eu hadrodd iddo yntau. *A* Thobïah a anfonodd lythyrau i'm dychrynu i.

PENNOD 7.

1 *Nehemiah yn gorchymyn Jerusalem i Hanani a Hananïah.* 5 *Llyfr achau y rhai a ddaeth gyntaf allan o Babilon,* 8 *o'r bobl,* 39 *a'r offeiriaid,* 43 *a'r Lefaid,* 46 *a'r Nethiniaid,* 57 *a gweision Solomon,* 63 *a'r offeiriaid ni fedrent gael eu hachau.* 66 *Rhifedi y cwbl, a'u golud,* 70 *a'u hoffrymmau.*

AC wedi adeiladu y mur, a chyfodi o honof y dorau, a gosod y porthorion, a'r cantorion, a'r Lefiaid;

2 Yna mi a orchymynais i Hanani fy mrawd, ac i Hananïah tywysog y palas yn Jerusalem, canys efe *oedd* ŵr ffyddlawn, ac yn ofni DUW yn fwy na llawer:

3 A mi a ddywedais wrthynt, Nac agorer pyrth Jerusalem nes gwresogi yr haul; a thra fyddont hwy yn sefyll yno, cauant y drysau, a phreniant: a mi a osodais wylwyr o drigolion Jerusalem, pob un yn ei wyliadwriaeth, a phob un ar gyfer ei dŷ.

4 A'r ddinas *oedd* eang a mawr; ac ychydig bobl ynddi: a'r tai *nid oeddynt* wedi eu hadeiladu.

5 ¶ A'm DUW a roddodd yn fy nghalon gynnull y pendefigion, y tywysogion hefyd, a'r bobl, i'w cyfrif wrth eu hachau. A mi a gefais lyfr achau y rhai a ddaethai i fyny yn gyntaf, a chefais yn ysgrifenedig ynddo,

6 Dyma feibion y dalaeth, y rhai a ddaeth i fyny o gaethiwed y gaethglud a gaethgludasai Nebuchodonosor brenhin Babilon, ac a ddychwelasant i Jerusalem, ac i Judah, pob un i'w ddinas ei hun;

7 Y rhai a ddaethant gyd â Sorobabel: Jesua, Nehemïah, Asarïah, Raamïah, Nahamani, Mordecai, Bilsan, Mispereth, Bigfai, Nehum, Baanah. *Dyma* rifedi dynion pobl Israel;

8 Meibion Paros, dwy fil cant a deuddeg a thri ugain.

9 Meibion Sephatïah, tri chant a deuddeg a thri ugain.

10 Meibion Arah, chwe chant a deuddeg a deugain.
11 Meibion Pahath-Moab, o feibion Jesua a Joab, dwy fil ac wyth gant *a* thri ar bymtheg.
12 Meibion Elam, mil dau cant a phedwar ar ddeg a deugain.
13 Meibion Sattu, wyth gant a phump a deugain.
14 Meibion Saccai, saith gant a thri ugain.
15 Meibion Binnui, chwe chant ac wyth a deugain.
16 Meibion Bebai, chwe chant ac wyth ar hugain.
17 Meibion Asgad, dwy fil tri chant a dau ar hugain.
18 Meibion Adonicam, chwe chant a saith a thri ugain.
19 Meibion Bigfai, dwy fil a saith a thri ugain.
20 Meibion Adin, chwe chant a phymtheg a deugain.
21 Meibion Ater o Hesecïah, tri ar bymtheg a phedwar ugain.
22 Meibion Hasum, tri chant ac wyth ar hugain.
23 Meibion Besai, tri chant a phedwar ar hugain.
24 Meibion Hariph, cant a deuddeg.
25 Meibion Gibeon, pymtheg a phedwar ugain.
26 Gwŷr Bethlehem a Netophah, cant ac wyth a phedwar ugain.
27 Gwŷr Anathoth, cant ac wyth ar hugain.
28 Gwŷr Beth-asmafeth, dau a deugain.
29 Gwŷr Ciriath-jearim, Cephirah, a Beeroth, saith gant a thri a deugain.
30 Gwŷr Ramah a Gaba, chwe chant ac un ar hugain.
31 Gwŷr Michmas, cant a dau ar hugain.
32 Gwŷr Bethel ac Ai, cant a thri ar hugain.
33 Gwŷr Nebo arall, deuddeg a deugain.
34 Meibion Elam arall, mil dau cant a phedwar ar ddeg a deugain.
35 Meibion Harim, tri chant ac ugain.
36 Meibion Jericho, tri chant a phump a deugain.
37 Meibion Lod, Hadid, ac Ono, saith gant ac un ar hugain.
38 Meibion Senaah, tair mil naw cant a deg ar hugain.
39 ¶ Yr offeiriaid: meibion Jedaiah, o dŷ Jesua, naw cant a thri ar ddeg a thri ugain.
40 Meibion Immer, mil a deuddeg a deugain.
41 Meibion Pasur, mil dau cant a saith a deugain.
42 Meibion Harim, mil a dau ar bymtheg.
43 ¶ Y Lefiaid: meibion Jesua, o Cadmiel, *ac* o feibion Hodefah, pedwar ar ddeg a thri ugain.
44 ¶ Y cantorion: meibion Asaph, cant ac wyth a deugain.
45 ¶ Y porthorion: meibion Sàlum, meibion Ater, meibion Talmon, meibion Accub, meibion Hatita, meibion Sobai, cant a thri ar bymtheg ar hugain.
46 ¶ Y Nethiniaid: meibion Siha, meibion Hasupha, meibion Tabbaoth,
47 Meibion Ceros, meibion Sïa, meibion Padon,
48 Meibion Lebanah, meibion Hagaba, meibion Salmai,
49 Meibion Hanan, meibion Gìdel, meibion Gahar,
50 Meibion Reaiah, meibion Resin, meibion Necoda,
51 Meibion Gassam, meibion Ussa, meibion Phaseah,
52 Meibion Besai, meibion Meunim, meibion Nephisesim,
53 Meibion Bacbuc, meibion Hacupha, meibion Harhur,
54 Meibion Baslith, meibion Mehida, meibion Harsa,
55 Meibion Barcos, meibion Sisera, meibion Thamah,
56 Meibion Nesïah, meibion Hatipha.
57 ¶ Meibion gweision Solomon: meibion Sotai, meibion Sophereth, meibion Perida,
58 Meibion Jaala, meibion Darcon, meibion Gìdel,
59 Meibion Sephatïah, meibion Hattil, meibion Pochereth o Sebaim, meibion Amon.
60 Yr holl Nethiniaid, a meibion gweision Solomon, *oedd* dri chant a deuddeg a phedwar ugain.

61 A'r rhai hyn a ddaethant i fyny o Tel-melah, Tel-haresa, Cerub, Adon, ac Immer: ond ni fedrent ddangos tŷ eu tadau, na'u hiliogaeth, ai o Israel *yr oeddynt.*
62 Meibion Delaiah, meibion Tobïah, meibion Necoda, chwe chant a dau a deugain.
63 ¶ Ac o'r offeiriaid: meibion Habaiah, meibion Cos, meibion Barsìlai, yr hwn a gymmerth *un* o ferched Barsìlai y Gileadiad yn wraig, ac a alwyd ar eu henw hwynt.
64 Y rhai hyn a geisiasant eu hysgrifen *ym mhlith* yr achau, ond nis cafwyd: am hynny y bwriwyd hwynt allan o'r offeiriadaeth.
65 A'r Tirsatha a ddywedodd wrthynt, na fwyttâent o'r pethau sancteiddiolaf, hyd oni chyfodai offeiriad âg Urim ac â Thummim.
66 ¶ Yr holl gynnulleidfa ynghyd *oedd* ddwy fil a deugain tri chant a thri ugain.
67 Heb law eu gweision hwynt a'u morwynion, y rhai hynny *oedd* saith mil tri chant a dau ar bymtheg ar hugain: a chanddynt hwy *yr oedd* dau cant a phump a deugain o gantorion ac o gantoresau.
68 Eu meirch hwynt *oedd* saith gant ac un ar bymtheg ar hugain; a'u mulod yn ddau cant a phump a deugain;
69 Y camelod *oedd* bedwar cant a phymtheg ar hugain; yr asynod *oedd* chwe mil saith gant ac ugain.
70 ¶ A rhai o'r tadau pennaf a roddasant tu ag at y gwaith. Y Tirsatha a roddodd i'r trysor fil o ddracmonau aur, deg a deugain o phïolau, pum cant a deg ar hugain o wisgoedd offeiriaid.
71 A *rhai* o'r tadau pennaf a roddasant i drysor y gwaith ugain mil o ddracmonau aur, a dwy fil a deucant o bunnau o arian.
72 A'r hyn a roddodd y rhan arall o'r bobl *oedd* ugain mil o ddracmonau aur, a dwy fil o bunnau yn arian, a saith a thri ugain o wisgoedd offeiriaid.
73 A'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r porthorion, a'r cantorion, a *rhai* o'r bobl, a'r Nethiniaid, a holl Israel, a drigasant yn eu dinasoedd. A phan ddaeth y seithfed mis, *yr oedd* meibion Israel yn eu dinasoedd.

PENNOD 8.

1 *Duwiol arfer gwrandaw a ddarllen y gyfraith.* 9 *Nehemïah, ac Esra, a'r Lefiaid, yn cysuro y bobl.* 13 *Parodrwydd y bobl i wrandaw, ac i ddysgu.* 16 *Cadw gwyl y pebyll.*

A'R holl bobl a ymgasglasant o un fryd i'r heol *oedd* o flaen porth y dwfr, ac a ddywedasant wrth Esra yr ysgrifenydd, am ddwyn llyfr cyfraith Moses, yr hon a orchymynasai yr ARGLWYDD i Israel.
2 Ac Esra yr offeiriad a ddug y gyfraith o flaen y gynnulleidfa o wŷr, a gwragedd, a phawb a'r a oedd yn medru gwrandaw yn ddeallus, ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis.
3 Ac efe a ddarllenodd ynddo ar wyneb yr heol *oedd* o flaen porth y dwfr, o'r bore hyd hanner dydd, ger bron y gwŷr, a'r gwragedd, a'r rhai oedd yn medru deall: a chlustiau yr holl bobl *oedd yn gwrandaw* ar lyfr y gyfraith.
4 Ac Esra yr ysgrifenydd a safodd ar bulpud o goed, yr hwn a wnelsid i'r peth *hyn;* a chyd âg ef y safodd Mattithïah, a Sema, ac Anaiah, ac Urïah, a Hilcïah, a Maaseiah, ar ei law ddehau ef; a Phedaiah, a Misael, a Malchïah, a Hasum, a Hasbadanah, Secharïah, *a* Mesùlam, ar ei law aswy ef.
5 Ac Esra a agorodd y llyfr yng ngŵydd yr holl bobl; (canys yr oedd efe oddi ar yr holl bobl;) a phan agorodd, yr holl bobl a safasant.
6 Ac Esra a fendithiodd yr ARGLWYDD, y DUW MAWR. A'r holl bobl a attebasant, Amen, Amen, gan ddyrchafu eu dwylaw: a hwy a ymgrymmasant, ac a addolasant yr ARGLWYDD *â'u* hwynebau *tu a'r* ddaear.
7 Jesua hefyd, a Bani, Serebïah, Jamin, Accub, Sabbethai, Hodïah, Maaseiah, Celita, Asarïah, Josabad, Hanan, Pelaiah, a'r Lefiaid, oedd yn dysgu y gyfraith i'*r* bobl, a'r bobl yn sefyll yn eu lle.
8 A hwy a ddarllenasant yn eglur yn y llyfr, y'nghyfraith DDUW; gan osod *allan* y synwyr, fel y deallent wrth ddarllen.
9 ¶ A Nehemïah, efe *yw* y Tir-

satha, ac Esra yr offeiriad *a*'r ysgrifenydd, a'r Lefiaid y rhai oedd yn dysgu y bobl, a ddywedasant wrth yr holl bobl, *Y mae* heddyw yn sanctaidd i'r ARGLWYDD eich DUW; na alerwch, ac na wylwch: canys yr holl bobl oedd yn wylo pan glywsant eiriau y gyfraith.

10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch, bwyttêwch y breision, ac yfwch y melysion, ac anfonwch rannau i'r hwn nid *oes* ganddo *ddim* yn barod; canys *y mae* heddyw yn sanctaidd i'n Harglwydd: am hynny na thristêwch; canys llawenydd yr ARGLWYDD yw eich nerth chwi.

11 A'r Lefiaid a ostegasant yr holl bobl, gan ddywedyd, Tewch: canys y dydd heddyw *sydd* sanctaidd, ac na thristêwch.

12 A'r holl bobl a aethant i fwytta ac i yfed, ac i anfon ymaith rannau, ac i wneuthur llawenydd mawr; o herwydd iddynt ddeall y geiriau a ddysgasent hwy iddynt.

13 ¶ A'r ail ddydd, tadau pennaf yr holl bobl, yr offeiriaid, a'r Lefiaid, a ymgynnullasant at Esra yr ysgrifenydd, i'*w* dysgu y'ngeiriau y gyfraith.

14 A hwy a gawsant yn ysgrifenedig yn y gyfraith, yr hyn a orchymynasai yr ARGLWYDD trwy law Moses, y dylai meibion Israel drigo mewn bythod ar wyl y seithfed mis;

15 Ac y dylent gyhoeddi, a gyrru gair trwy eu holl ddinasoedd, a thrwy Jerusalem, gan ddywedyd, Ewch i'r mynydd, a dygwch ganghennau olew-wydd, a changau pinwydd, a changau y myrtwydd, a changau y palmwydd, a changhennau o'r prennau cauadfrig, i wneuthur bythod, fel *y mae* yn ysgrifenedig.

16 ¶ Felly y bobl a aethant allan, ac a'*u* dygasant, ac a wnaethant iddynt fythod, bob un ar ei nen, ac yn eu cynteddoedd, ac y'nghynteddoedd tŷ DDUW, ac yn heol porth y dwfr, ac yn heol porth Ephraim.

17 A holl gynnulleidfa y rhai a ddychwelasent o'r caethiwed, a wnaethant fythod, ac a eisteddasant yn y bythod: canys er dyddiau Josua mab Nun hyd y dydd hwnnw ni wnaethai meibion Israel felly. Ac yr oedd llawenydd mawr iawn.

18 Ac *Esra* a ddarllenodd yn llyfr cyfraith DDUW beunydd, o'r dydd cyntaf hyd y dydd diweddaf. A hwy a gynhaliasant yr wyl saith niwrnod; ac ar yr wythfed dydd *y bu* cymmanfa, yn ol y ddefod.

PENNOD 9.

1 *Ympryd cyhoedd, ac edifeirwch y bobl.* 4 *Y Lefiaid yn gwneuthur duwiol gyffes o ddaioni Duw, a drygioni y bobl.*

AC ar y pedwerydd dydd ar hugain o'r mis hwn, meibion Israel a ymgynnullasant mewn ympryd, ac mewn sachlïan, a phridd arnaddynt.

2 A had Israel a ymneillduasant oddi wrth bob dïeithriaid, ac a safasant, ac a gyffesasant eu pechodau, ac anwireddau eu tadau.

3 A chodasant i fyny yn eu lle, ac a ddarllenasant yn llyfr cyfraith yr ARGLWYDD eu DUW, bedair gwaith yn y dydd; a phedair gwaith yr ymgyffesasant, ac yr ymgrymmasant i'r ARGLWYDD eu DUW.

4 ¶ Yna y safodd ym mhulpud y Lefiaid, Jesua, a Bani, Cadmiel, Sebanïah, Bunni, Serebïah, Bani, *a* Chenani; a gwaeddasant â llef uchel ar yr ARGLWYDD eu DUW:

5 A'r Lefiaid, Jesua, a Chadmiel, Bani, Hasabnïah, Serebïah, Hodïah, Sebanïah, a Phethahïah, a ddywedasant, Cyfodwch, bendithiwch yr ARGLWYDD eich DUW o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb: a bendithier dy enw gogoneddus a dyrchafedig, goruwch pob bendith a moliant.

6 Ti yn unig wyt ARGLWYDD: ti a wnaethost y nefoedd, nefoedd y nefoedd, a'u holl luoedd hwynt, y ddaear a'r hyn oll *sydd* arni, y moroedd a'r hyn oll *sydd* ynddynt; a thi sydd yn eu cynnal hwynt oll; a llu y nefoedd sydd yn ymgrymmu i ti.

7 Ti *yw* yr ARGLWYDD DDUW, yr hwn a ddetholaist Abram, ac a'i dygaist ef allan o Ur y Caldeaid, ac a roddaist iddo enw Abraham:

8 A chefaist ei galon ef yn ffyddlawn ger dy fron di, ac a wnaethost gyfammod âg ef, ar roddi yn ddïau i'w had ef wlad y Canaaneaid, yr Hefiaid, yr Amoriaid, a'r Pheresiaid, a'r Jebusiaid, a'r Girgasiaid;

ac a gwblheaist dy eiriau: o herwydd cyfiawn *wyt.*
9 Gwelaist hefyd gystudd ein tadau yn yr Aipht; a thi a wrandewaist eu gwaedd hwynt wrth y môr coch:
10 A thi a wnaethost arwyddion a rhyfeddodau ar Pharaoh, ac ar ei holl weision, ac ar holl bobl ei wlad ef: canys gwybuost i'r rhai hyn falchïo yn eu herbyn hwynt. A gwnaethost i ti enw, fel *y gwelir* y dydd hwn.
11 Y môr hefyd a holltaist o'u blaen hwynt, fel y treiddiasant trwy ganol y môr ar hyd sychdir; a'u herlidwyr a fwriaist i'r gwaelod, fel maen i ddyfroedd cryfion:
12 Ac a'u harweiniaist hwy liw dydd mewn colofn gwmmwl, a lliw nos mewn colofn dân, i oleuo iddynt hwy y ffordd yr oeddynt yn myned ar hyd-ddi.
13 Ti a ddisgynaist hefyd ar fynydd Sinai, ac a ymddiddenaist â hwynt o'r nefoedd; rhoddaist hefyd iddynt farnedigaethau uniawn, a chyfreithiau gwir, deddfau a gorchymynion daionus:
14 A'th Sabbath sanctaidd a hysbysaist iddynt; gorchymynion hefyd, a deddfau, a chyfreithiau a orchymynaist iddynt, trwy law Moses dy was:
15 Bara hefyd o'r nefoedd a roddaist iddynt yn eu newyn, a dwfr o'r graig a dynnaist iddynt yn eu syched; a thi a ddywedaist wrthynt, y deuent i etifeddu y wlad a dyngasit ar *ei* rhoddi iddynt.
16 Ond hwynt-hwy a'n tadau ni a falchïasant, ac a galedasant eu gwarrau, ac ni wrandawsant ar dy orchymynion di;
17 Ac a wrthodasant wrandaw, ac ni chofiasant dy ryfeddodau, y rhai a wnelsit ti erddynt; caledasant hefyd eu gwarrau, a gosodasant ben arnynt i ddychwelyd i'w caethiwed yn eu cyndynrwydd: etto ti *ydwyt* DDUW parod i faddeu, graslawn, a thrugarog, hwyrfrydig i ddigter, ac aml o drugaredd, ac ni wrthodaist hwynt.
18 Hefyd, pan wnaethent iddynt lo toddedig, a dywedyd, Dyma dy dduw di yr hwn a'th ddug di i fyny o'r Aipht, a chablasent yn ddirfawr;
19 Er hynny, yn dy ami dosturiaethau, ni adewaist ti hwynt yn yr anialwch: y golofn gwmmwl ni chiliodd oddi wrthynt trwy y dydd, i'w harwain hwynt ar hyd y ffordd; na'r golofn dân trwy y nos, i oleuo iddynt, ac i ddangos y ffordd y cerddent ynddi.
20 Dy yspryd daionus hefyd a roddaist i'w dysgu hwynt, ac nid atteliaist dy fanna rhag eu genau; dwfr hefyd a roddaist iddynt yn eu syched.
21 Felly deugain mlynedd y porthaist hwynt yn yr anialwch, heb fod arnynt eisieu *dim:* eu gwisgoedd ni heneiddiasant, a'u traed ni chwyddasant.
22 A thi a roddaist iddynt frenhiniaethau a phobloedd, a rhennaist hwynt i gonglau. Felly hwy a feddiannasant wlad Sihon, a gwlad brenhin Hesbon, a gwlad Og brenhin Basan.
23 Lliosogaist hefyd eu meibion hwynt fel sêr y nefoedd, ac a'u dygaist hwynt i'r wlad a ddywedasit wrth eu tadau y deuent iddi i'*w* meddiannu.
24 Felly y meibion a aethant i mewn, ac a feddiannasant y wlad, a thi a ddarostyngaist drigolion y wlad, y Canaaneaid, o'u blaen hwynt, ac a'u rhoddaist yn eu llaw hwynt, eu brenhinoedd hefyd, a phobloedd y wlad, fel y gwnaent iddynt yn ol eu hewyllys.
25 A hwy a ennillasant ddinasoedd cedyrn, a daear fras, ac a feddiannasant dai llawn o bob daioni, pydewau cloddiedig, gwinllannoedd, ac olew-wyddlannoedd, a choed ffrwythlawn yn aml; a hwy a fwyttasant, ac a ddigonwyd, ac a frasâwyd, ac a ymhyfrydasant yn dy fawr ddaioni di.
26 Etto hwy a anufuddhasant, ac a wrthryfelasant yn dy erbyn, taflasant hefyd dy gyfraith o'r tu ol i'w cefn, a'th brophwydi a laddasant, y rhai a dystiolaethasent wrthynt am ddychwelyd attat; ac a gablasant yn ddirfawr.
27 Am hynny ti a'u rhoddaist hwynt yn llaw eu gorthrymwyr, y

rhai a'u cystuddiasant: ac yn amser eu cyfyngdra, pan waeddasant arnat, a'u gwrandewaist *hwynt* o'r nefoedd, ac yn ol dy aml dosturiaethau rhoddaist iddynt achubwyr, y rhai a'u hachubasant o law eu gwrthwynebwyr.

28 Ond pan lonyddodd arnynt, dychwelasant i wneuthur drygioni yn dy ŵydd di: am hynny y gadewaist hwynt yn llaw eu gelynion, y rhai a arglwyddiaethasant arnynt: etto pan ddychwelasant, a gwaeddi arnat, tithau o'r nefoedd a wrandewaist, ac a'u gwaredaist hwynt, yn ol dy dosturiaethau, lawer o amseroedd.

29 A thi a dystiolaethaist yn eu herbyn hwynt, i'w dychwelyd at dy gyfraith di: ond hwy a falchïasant, ac ni wrandawsant ar dy orchymynion, eithr pechasant yn erbyn dy farnedigaethau, (y rhai *os* gwna dyn *hwynt*, efe fydd byw ynddynt,) a gwnaethant ysgwydd i gilio, ac a galedasant eu gwarrau, ac ni wrandawsant.

30 Er hynny ti a'u hoedaist hwynt flynyddoedd lawer, ac a dystiolaethaist wrthynt trwy dy yspryd yn dy brophwydi; ond ni wrandawsant: am hynny y rhoddaist hwynt yn llaw pobl y gwledydd.

31 Etto, er mwyn dy fawr drugareddau, ni lwyr-ddifethaist hwynt, ac ni wrthodaist hwynt; canys Duw graslawn a thrugarog *ydwyt*.

32 Ac yn awr, O ein Duw ni, y Duw mawr, cadarn, ac ofnadwy, yr hwn *wyt* yn cadw cyfammod a thrugaredd; na fydded bychan o'th flaen di yr holl flinder a ddigwyddodd i ni, i'n brenhinoedd, i'n tywysogion, ac i'n hoffeiriaid, ac i'n prophwydi, ac i'n tadau, ac i'th holl bobl, er dyddiau brenhinoedd Assyria hyd y dydd hwn.

33 Tithau *ydwyt* gyfiawn yn yr hyn oll a ddigwyddodd i ni: canys gwirionedd a wnaethost ti, a ninnau a wnaethom yn annuwiol.

34 Ein brenhinoedd hefyd, ein tywysogion, ein hoffeiriaid, a'n tadau, ni chadwasant dy gyfraith, ac ni wrandawsant ar dy orchymynion, na'th dystiolaethau, y rhai a dystiolaethaist wrthynt.

35 A hwy ni'th wasanaethasant yn eu brenhiniaeth, nac yn dy fawr ddaioni a roddaist iddynt, nac yn y wlad eang a bras yr hon a osodaist o'u blaen hwynt; ac ni ddychwelasant oddi wrth eu drwg weithredoedd.

36 Wele ni heddyw yn weision; ac *am* y wlad a roddaist i'n tadau ni, i fwytta ei ffrwyth a'i daioni, wele ni yn weision ynddi.

37 A mawr yw ei thoraeth hi i'r brenhinoedd a osodaist arnom ni am ein pechodau: ac arglwyddiaethu y maent ar ein cyrph, ac ar ein hanifeiliaid, yn ol eu hewyllys; ac *yr ydym* mewn cyfyngder mawr.

38 Ac o herwydd hyn oll yr ydym yn gwneuthur *cyfammod* sicr, ac yn *ei* ysgrifenu; ac *y mae* ein tywysogion, ein Lefiaid, *a'n* hoffeiriaid, yn *ei* selio.

PENNOD 10.

1 Enwau y rhai a seliasant y cyfammod rhwng Duw a'r bobl. 29 Pyngciau y cyfammod.

A'R rhai a seliodd *oedd*, Nehemïah y Tirsatha, mab Hachalïah, a Sidcïah,
2 Seraiah, Asarïah, Jeremïah,
3 Pasur, Amarïah, Malchïah,
4 Hattus, Sebanïah, Màluch,
5 Harim, Meremoth, Obadïah,
6 Daniel, Ginnethon, Baruch,
7 Mesùlam, Abïah, Mïamin,
8 Maasïah, Bilgai, Semaiah: dyma yr offeiriaid.
9 A'r Lefiaid: Jesua mab Asanïah, Binnui o feibion Henadad, Cadmiel;
10 A'u brodyr hwynt; Sebanïah, Hodïah, Celita, Pelaiah, Hanan,
11 Micha, Rehob, Hasabïah,
12 Saccur, Serebïah, Sebanïah,
13 Hodïah, Bani, Beninu.
14 Pennaethiaid y bobl; Paros, Pahath-Moab, Elam, Sattu, Bani,
15 Bunni, Asgad, Bebai,
16 Adonïah, Bigfai, Adin,
17 Ater, Hisciah, Assur,
18 Hodïah, Hasum, Besai,
19 Hariph, Anathoth, Nebai,
20 Magpïas, Mesùlam, Hesir,
21 Mesesabeel, Sadoc, Jàdua,
22 Pelatïah, Hanan, Anaiah,
23 Hosea, Hananïah, Hasub,
24 Hàlohes, Pileha, Sobec,
25 Rehum, Hasabnah, Maaseiah,
26 Ac Ahïah, Hanan, Anan,
27 Màluch, Harim, Baanah.

28 ¶ A'r rhan arall o'r bobl, yr offeiriaid, y Lefiaid, y porthorion, y cantorion, y Nethiniaid, a phawb a'r a ymneillduasent oddi wrth bobl y gwledydd at gyfraith Duw, eu gwragedd hwynt, eu meibion, a'u merched, pawb a'r a oedd â gwybodaeth ac â deall ganddo;

29 Hwy a lynasant wrth eu brodyr, eu pennaethiaid, ac a aethant mewn rhaith a llw ar rodio y'nghyfraith Duw, yr hon a roddasid trwy law Moses gwas Duw: ac ar gadw ac ar wneuthur holl orchymynion yr Arglwydd ein Harglwydd ni, a'i farnedigaethau, a'i ddeddfau:

30 Ac ar na roddem ein merched i bobl y wlad: ac na chymmerem eu merched hwy i'n meibion ni:

31 Ac *o byddai* pobl y tir yn dwyn marchnadoedd, neu ddim lluniaeth ar y dydd Sabbath i'w werthu, na phrynem *ddim* ganddynt ar y Sabbath, neu ar y dydd sanctaidd; ac y gadawem heibio y seithfed flwyddyn, a chodi pob dyled.

32 A ni a osodasom arnom ddeddfau, ar i ni roddi traian sicl yn y flwyddyn, tu ag at wasanaeth tŷ ein Duw ni,

33 A thu ag at y bara gosod, a'r bwyd-offrwm gwastadol, a thu ag at y poeth-offrwm gwastadol, y Sabbathau, y newydd-loerau, a'r gwyliau arbennig, a thu ag at y cyssegredig *bethau*, a thu ag at y pech-ebyrth, i wneuthur cymmod dros Israel; a *thu ag at* holl waith tŷ ein Duw.

34 A ni a fwriasom goelbrennau yr offeiriaid, y Lefiaid, a'r bobl, am goed yr offrwm, fel y dygent *hwynt* i dŷ ein Duw ni, yn ol tai ein tadau ni, ar amserau nodedig, o flwyddyn i flwyddyn, i'w llosgi ar allor yr Arglwydd ein Duw, fel *y mae* yn ysgrifenedig yn y gyfraith:

35 Ac i ddwyn blaenffrwyth ein tir, a blaenffrwyth o bob ffrwyth o bob pren, o flwyddyn i flwyddyn, i dŷ yr Arglwydd:

36 A'r rhai cyntaf-anedig o'n meibion, ac o'n hanifeiliaid, fel *y mae* yn ysgrifenedig yn y gyfraith, a chyntaf-anedigion ein gwartheg a'n defaid, i'w dwyn i dŷ ein Duw, at yr offeiriaid sydd yn gwasanaethu yn nhŷ ein Duw ni.

37 A blaenion ein toes, a'n hoffrymmau, a ffrwyth pob pren, gwin ac olew, a ddygem at yr offeiriaid i gelloedd tŷ ein Duw, a dégwm ein tir i'r Lefiaid; fel y cai y Lefiaid hwythau ddegwm trwy holl ddinasoedd ein llafur ni.

38 A bydd yr offeiriad, mab Aaron, gyd â'r Lefiaid, pan fyddo y Lefiaid yn degymmu: a dyged y Lefiaid i fyny ddegfed ran y degwm i dŷ ein Duw ni, i'r celloedd yn y trysordy.

39 Canys meibion Israel a meibion Lefi a ddygant offrwm yr ŷd, y gwin, a'r olew, i'r ystafelloedd, lle *y mae* llestri y cyssegr, a'r offeiriaid sydd yn gweini, a'r porthorion, a'r cantorion; ac nac ymwrthodwn â thŷ ein Duw.

PENNOD 11.

1 *Y tynysogion, a'r rhai a ewyllysient, a'r degfed ŷdr a ddewisid wrth goelbren, yn trigo yn Jerusalem.* 3 *Rhol o'u henwau hwynt.* 20 *Y bobl eraill yn trigo mewn dinasoedd eraill.*

A THYWYSOGION y bobl a drigasant yn Jerusalem: a'r rhan arall o'r bobl a fwriasant goelbrennau i ddwyn un o'r deg i drigo yn Jerusalem y ddinas sanctaidd, a naw rhan *i fod* yn y dinasoedd *eraill.*

2 A'r bobl a fendithiasant yr holl wŷr a ymroddasent yn ewyllysgar i breswylio yn Jerusalem.

3 ¶ A dyma bennaethiaid y dalaeth, y rhai a drigasant yn Jerusalem: ond yn ninasoedd Judah pawb a drigasant yn eu meddiant o fewn eu dinasoedd, *sef* Israel, yr offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r Nethiniaid, a meibion gweision Solomon.

4 A *rhai* o feibion Judah ac o feibion Benjamin a drigasant yn Jerusalem. O feibion Judah; Athaiah mab Ussïah, fab Secharïah, fab Amarïah, fab Sephatïah, fab Mahalaleel, o feibion Peres;

5 Maaseiah hefyd mab Baruch, fab Col-hoseh, fab Hasaiah, fab Adaiah, fab Joiarib, fab Secharïah, fab Siloni.

6 Holl feibion Peres y rhai oedd yn trigo yn Jerusalem, *oedd* bedwar cant ac wyth a thri ugain o wŷr grymmus.

7 A dyma feibion Benjamin; Sàlu mab Mesùlam, fab Jöed, fab Peda-

iah, fab Colaiah, fab Maaseiah, fab Ithiel, fab Jesaiah.
8 Ac ar ei ol ef Gabbai, Sàlai; naw cant ac wyth ar hugain.
9 A Jöel mab Sichri *oedd* swyddog arnynt hwy: a Judah mab Senuah yn ail ar y ddinas.
10 O'r offeiriaid: Jedaiah mab Joiarib, Jachin.
11 Seraiah mab Hilcïah, fab Mesùlam, fab Sadoc, fab Meraioth, fab Ahitub, blaenor tŷ Dduw.
12 A'u brodyr y rhai oedd yn gweithio gwaith y tŷ, *oedd* wyth cant a dau ar hugain: ac Adaiah mab Jeroham, fab Pelalïah, fab Amsi, fab Secharïah, fab Pasur, fab Malchïah,
13 A'i frodyr, pennau-cenedl, dau cant a dau a deugain: ac Amasai mab Asareel, fab Ahasai, fab Mesùlemoth, fab Immer,
14 A'u brodyr hwynt, yn gedyrn o nerth, *oedd* gant ac wyth ar hugain: a Sabdiel mab Haggedolim yn swyddog arnynt.
15 Ac o'r Lefiaid: Semaiah mab Hasub, fab Asricam, fab Hasabïah, fab Bunni.
16 Sabbethai hefyd, a Josabad, o bennaethiaid y Lefiaid, *oedd oruchaf* ar y gwaith o'r tu allan i dŷ Dduw.
17 Mattanïah hefyd mab Micha, fab Sabdi, fab Asaph, oedd bennaf i ddechreu tâl dïolch mewn gweddi: a Bacbucïah yn ail o'i frodyr; ac Abda mab Sammua, fab Galal, fab Jeduthun.
18 Yr holl Lefiaid yn y ddinas sanctaidd, *oedd* ddau cant a phedwar a phedwar ugain.
19 A'r porthorion, Accub, Talmon, a'u brodyr yn cadw y pyrth, *oedd* gant *a* deuddeg a thri ugain.
20 ¶ A'r rhan arall o Israel, o'r offeiriaid *ac* o'r Lefiaid *a drigent* yn holl ddinasoedd Judah, pob un yn ei etifeddiaeth.
21 Ond y Nethiniaid oeddynt yn aros yn y tŵr: Siha a Gispa *oedd* ar y Nethiniaid.
22 A swyddog y Lefiaid yn Jerusalem, *oedd* Ussi mab Bani, fab Hasabïah, fab Mattanïah, fab Micha: o feibion Asaph, y cantorion *oedd* ar waith tŷ Dduw.
23 Canys gorchymyn y brenhin am danynt hwy *oedd*, *fod* ordinhâd safadwy i'r cantorion, dogn dydd yn ei ddydd.
24 A Phethahïah mab Mesesabeel, o feibion Serah mab Judah, *oedd* wrth law y brenhin ym mhob peth *a berthynai* i'r bobl.
25 Ac am y trefydd a'u meusydd, *rhai* o feibion Judah a drigasant yng Nghaer-Arba a'i phentrefi, ac yn Dibon a'i phentrefi, ac yn Jecabseel a'i phentrefi,
26 Ac yn Jesua, ac ym Moladah, ac yn Beth-phelet,
27 Ac yn Hasar-sual, ac yn Beerseba a'i phentrefi,
28 Ac yn Siclag, ac ym Mechonah ac yn ei phentrefi,
29 Ac yn En-rimmon, ac yn Sareah, ac yn Jarmuth,
30 Sanoah, Adùlam, a'u trefydd, Lachis a'i meusydd, yn Asecah a'i phentrefi. A hwy a wladychasant o Beerseba hyd ddyffryn Hinnom.
31 A meibion Benjamin o Geba *a drigasant ym* Michmas, ac Aia, a Bethel, a'u pentrefi,
32 Yn Anathoth, Nob, Ananïah,
33 Hasor, Ramah, Gittaim,
34 Hadid, Seboim, Nebalat,
35 Lod, ac Ono, glyn y crefftwyr.
36 Ac o'r Lefiaid *yr oedd* rhannau yn Judah, *ac* yn Benjamin.

PENNOD 12.

1 Yr offeiriaid 8 a'r Lefiaid a ddaeth i fyny gyd â Sorobabel. 10 Hiliogaeth yr offeiriaid. 22 Rhai o'r Lefiaid pennaf. 27 Cyhoedd gyssegriad muriau Jerusalem. 44 Gosod swyddau i'r offeiriaid ac i'r Lefiaid yn y deml.

DYMA hefyd yr offeiriaid a'r Lefiaid, y rhai a ddaethant i fyny gyd â Sorobabel mab Salathiel, a Jesua: *sef* Seraiah, Jeremïah, Esra,
2 Amarïah, Màluch, Hattus,
3 Sechanïah, Rehum, Meremoth,
4 Ido, Ginnetho, Abïah,
5 Miamin, Maadïah, Bilgah,
6 Semaiah, a Joiarib, Jedaiah,
7 Sàlu, Amoc, Hilcïah, Jedaiah: dyma bennaethiaid yr offeiriaid a'u brodyr yn nyddiau Jesua.
8 A'r Lefiaid: Jesua, Binnui, Cadmiel, Serebïah, Judah; *a* Mattanïah *oedd* ar y gerdd, efe a'i frodyr.
9 Bacbucïah hefyd ac Unni, eu

brodyr hwynt, *oedd* ar eu cyfer yn
y gwyliadwriaethau.
10 ¶ A Jesua a genhedlodd Joiacim, a Joiacim a genhedlodd Eliasib, ac Eliasib a genhedlodd Joiada,
11 A Joiada a genhedlodd Jonathan, a Jonathan a genhedlodd Jàdua.
12 Ac yn nyddiau Joiacim, yr offeiriaid *hyn* oedd bennau-cenedl: o Seraiah, Meraiah; o Jeremïah, Hananïah;
13 O Esra, Mesùlam; o Amarïah, Jehohanan;
14 O Melichu, Jonathan; o Sebanïah, Joseph;
15 O Harim, Adna; o Meraioth, Helcai;
16 O Ido, Secharïah; o Ginnethon, Mesùlam;
17 O Abïah, Sichri; o Miniamin, o Moadïah, Piltai;
18 O Bilgah, Sammua; o Semaiah, Jehonathan;
19 Ac o Joiarib, Mattenai; o Jedaiah, Ussi;
20 O Sàlai, Càlai; o Amoc, Eber;
21 O Hilcïah, Hasabïah: o Jedaiah, Nethaneel.
22 ¶ Y Lefiaid yn nyddiau Eliasib, Joiada, a Johanan, a Jàdua, *oedd* wedi eu hysgrifenu yn bennau-cenedl: a'r offeiriaid, hyd deyrnasiad Darïus y Persiad.
23 Meibion Lefi, *y pennau-cenedl*, *oedd* wedi eu hysgrifenu yn llyfr y croniclau, hyd ddyddiau Johanan mab Eliasib.
24 A phennaethiaid y Lefiaid, *oedd* Hasabïah, Serebïah, a Jesua mab Cadmiel, a'u brodyr ar eu cyfer, i ogoneddu *ac* i foliannu, yn ol gorchymyn Dafydd gŵr Duw, gwyliadwriaeth ar gyfer gwyliadwriaeth.
25 Mattanïah, a Bacbucïah, Obadïah, Mesùlam, Talmon, Accub, *oedd* borthorion, yn cadw gwyliadwriaeth wrth drothwyau y pyrth.
26 Y rhai hyn *oedd* yn nyddiau Joiacim mab Jesua, fab Josadac, ac yn nyddiau Nehemïah y tywysog, ac Esra yr offeiriad a'r ysgrifenydd.
27 ¶ Ac y'nghyssegriad mur Jerusalem y ceisiasant y Lefiaid o'u holl leoedd, i'w dwyn i Jerusalem, i wneuthur y cyssegriad â gorfoledd, mewn diolchgarwch, ac mewn cân, â symbalau, nablau, ac â thelynau.
28 A meibion y cantorion a ymgynnullasant o'r gwastadedd o amgylch i Jerusalem, ac o drefydd Netophathi,
29 Ac o dŷ Gilgal, ac o feusydd Geba ac Asmafeth: canys y cantorion a adeiladasent bentrefi iddynt o amgylch Jerusalem.
30 Yr offeiriaid hefyd a'r Lefiaid a ymlanhasant; glanhasant hefyd y bobl, a'r pyrth, a'r mur.
31 A mi a berais i dywysogion Judah ddringo ar y mur; a gosodais ddwy *fintai* fawr o rai yn moliannu; a mynediad *y naill oedd* ar y llaw ddehau ar y mur tu a phorth y dom:
32 Ac ar eu hol hwynt yr aeth Hosaiah, a hanner tywysogion Judah,
33 Asarïah hefyd, Esra, a Mesùlam,
34 Judah, a Benjamin, a Semaiah, a Jeremïah,
35 Ac o feibion yr offeiriaid âg udgyrn, Secharïah mab Jonathan, fab Semaiah, fab Mattanïah, fab Michaiah, fab Saccur, fab Asaph;
36 A'i frodyr ef, Semaiah, ac Asarael, Milalai, Gilalai, Maai, Nethaneel, a Judah, Hanani, âg offer cerdd Dafydd gŵr Duw, ac Esra yr ysgrifenydd o'u blaen hwynt.
37 Ac wrth borth y ffynnon, yr hon *oedd* ar eu cyfer hwynt, y dringasant ar risiau dinas Dafydd yn nringfa y mur, oddi ar dŷ Dafydd, hyd borth y dwfr tu a'r dwyrain.
38 A'r ail *fintai* o'r rhai oedd yn moliannu, oedd yn myned ar eu cyfer hwynt, a minnau ar eu hol; a hanner y bobl *oedd* ar y mur, oddi ar dŵr y ffyrnau, hyd y mur llydan;
39 Ac oddi ar borth Ephraim, ac oddi ar yr hen borth, ac oddi ar borth y pysgod, a thŵr Hananeel, a thŵr Meah, hyd borth y defaid; a hwy a safasant ym mhorth y wyliadwriaeth.
40 Felly y ddwy *fintai*, y rhai oedd yn moliannu, a safasant yn nhŷ Duw, a minnau, a hanner y swyddogion gyd â mi:

41 Yr offeiriaid hefyd; Eliacim, Maaseiah, Miniamin, Michaiah, Elioenai, Secharïah, Hananïah, âg udgyrn:
42 Maaseiah hefyd, a Semaiah, ac Eleasar, ac Ussi, a Jehohanan, a Malchïah, ac Elam, ac Esra. A'r cantorion a ganasant yn groch, a Jasrahïah *eu* blaenor.
43 A'r diwrnod hwnnw yr aberthasant ebyrth mawrion, ac y llawenhasant: canys Duw a'u llawenychasai hwynt â llawenydd mawr: y gwragedd hefyd a'r plant a orfoleddasant: fel y clybuwyd llawenydd Jerusalem hyd ym mhell.
44 ¶ A'r dwthwn hwnnw y gosodwyd gwŷr ar gelloedd y trysorau, ar yr offrymmau, ac ar y blaenffrwyth, ac ar y degymmau, i gasglu iddynt hwy o feusydd y dinasoedd y rhannau cyfreithlawn i'r offeiriaid a'r Lefiaid: canys llawenydd Judah *oedd* ar yr offeiriaid ac ar y Lefiaid y rhai oedd yn sefyll *yno*.
45 Y cantorion hefyd a'r porthorion a gadwasant wyliadwriaeth eu Duw, a gwyliadwriaeth y glanhâd, yn ol gorchymyn Dafydd, *a* Solomon ei fab.
46 Canys gynt, yn nyddiau Dafydd ac Asaph, *yr oedd* y pencantorion, a chaniadau canmoliaeth a moliant i Duw.
47 Ac yn nyddiau Sorobabel, ac yn nyddiau Nehemïah, holl Israel oedd yn rhoddi rhannau i'r cantorion, a'r porthorion, dogn dydd yn ei ddydd: a hwy a gyssegrasant *bethau sanctaidd* i'r Lefiaid; a'r Lefiaid a'*u* cyssegrasant i feibion Aaron.

PENNOD 13.

1 *Darllen y gyfraith, a gyrru y bobl gymmysg o blith Israel.* 4 *Nehemïah, pan ddychwelodd, yn peri glanhâu yr ystafelloedd;* 10 *yn dwyn swyddau tŷ Duw i well trefn,* 15 *yn llestair halogi y Sabbath,* 23 *a phriodi gwragedd o estron genedl.*

Y DWTHWN hwnnw y darllenwyd yn llyfr Moses lle y clybu y bobl; a chafwyd yn ysgrifenedig ynddo, na ddylai yr Ammoniad na'r Moabiad ddyfod i gynnulleidfa Duw yn dragywydd;
2 Am na chyfarfuasent â meibion Israel â bara ac â dwfr, eithr cyflogasent Balaam yn eu herbyn i'w melldithio hwynt: etto ein Duw ni a drodd y felldith yn fendith.
3 A phan glywsant hwy y gyfraith, hwy a neillduasant yr holl rai cymmysg oddi wrth Israel.
4 ¶ Ac o flaen hyn, Eliasib yr offeiriad, yr hwn a osodasid ar ystafell tŷ ein Duw ni, *oedd* gyfathrachwr i Tobïah:
5 Ac efe a wnaeth iddo ef ystafell fawr; ac yno y byddent o'r blaen yn rhoddi y bwyd-offrymmau, y thus, a'r llestri, a degwm yr ŷd, y gwin, a'r olew, a orchymynasid *eu rhoddi* i'r Lefiaid, a'r cantorion, a'r porthorion, ac offrymmau yr offeiriaid.
6 Ac yn hyn i gyd *o amser* ni bûm i yn Jerusalem: canys yn y ddeuddegfed flwyddyn ar hugain i Artaxerxes brenhin Babilon y deuthum i at y brenhin, ac ym mhen *talm o* ddyddiau y cefais gennad gan y brenhin;
7 Ac a ddeuthum i Jerusalem, ac a ddeallais y drygioni a wnaethai Eliasib er Tobïah, gan wneuthur iddo ystafell y'nghynteddoedd tŷ Duw.
8 A bu ddrwg iawn gennyf; am hynny mi a fwriais holl ddodrefn tŷ Tobïah allan o'r ystafell.
9 Erchais hefyd iddynt lanhâu yr ystafelloedd: a mi a ddygais yno drachefn lestri tŷ Duw, yr offrwm a'r thus.
10 ¶ Gwybum hefyd fod rhannau y Lefiaid heb eu rhoddi *iddynt:* canys ffoisai y Lefiaid a'r cantorion, y rhai oedd yn gwneuthur y gwaith, bob un i'w faes.
11 Yna y dwrdiais y swyddogion, ac y dywedais, Paham y gwrthodwyd tŷ Duw? A mi a'u cesglais hwynt ynghyd, ac a'u gosodais yn eu lle.
12 Yna holl Judah a ddygasant ddegwm yr ŷd, a'r gwin, a'r olew, i'r trysordai.
13 A mi a wneuthum yn drysorwyr ar y trysorau, Selemïah yr offeiriad, a Sadoc yr ysgrifenydd, a Phedaiah, o'r Lefiaid: a cher llaw iddynt hwy *yr oedd* Hanan mab Saccur, mab Mattanïah: canys ffyddlawn y cyfrifid hwynt, ac arnynt hwy *yr oedd* rhannu i'w brodyr.
14 Cofia fi, fy Nuw, o herwydd

hyn; ac na ddilea fy ngharedigrwydd a wneuthum i dŷ fy Nuw, ac i'w wyliadwriaethau ef.

15 ¶ Yn y dyddiau hynny y gwelais yn Judah *rai* yn sengi gwinwryfau ar y Sabbath, ac yn dwyn i mewn ysgubau ŷd, ac yn llwytho asynod, gwin hefyd, a grawnwin, a ffigys, a phob beichiau, ac yn *eu* dwyn i Jerusalem ar y dydd Sabbath: a mi a dystiolaethais *yn eu herbyn* ar y dydd y gwerthasant luniaeth.

16 Y Tyriaid hefyd oedd yn trigo ynddi, *ac* yn dwyn pysgod, a phob peth gwerthadwy, y rhai yr oeddynt hwn yn *eu* gwerthu ar y Sabbath i feibion Judah, ac yn Jerusalem.

17 Yna y dwrdiais bendefigion Judah, ac y dywedais wrthynt, Pa beth drygionus *yw* hwn yr ydych chwi yn ei wneuthur, gan halogi y dydd Sabbath?

18 Onid fel hyn y gwnaeth eich tadau chwi? ac oni ddug ein Duw ni yr holl ddrwg hyn arnom ni, ac ar y ddinas hon? a chwithau ydych yn ychwanegu digofaint ar Israel, trwy halogi y Sabbath.

19 A phan dywyllasai pyrth Jerusalem cyn y Sabbath, yr erchais gau y dorau, ac a orchymynais nad agorid hwynt hyd wedi y Sabbath: a mi a osodais *rai* o'm gweision wrth y pyrth, *fel* na ddelai baich i mewn ar ddydd y Sabbath.

20 Felly y marchnadwyr, a gwerthwyr pob peth gwerthadwy, a lettyasant o'r tu allan i Jerusalem unwaith neu ddwy.

21 A mi a dystiolaethais yn eu herbyn hwynt, ac a ddywedais wrthynt, Paham yr ydych chwi yn aros dros nos wrth y mur? os gwnewch eilwaith, mi a estynaf fy llaw i'ch erbyn. O'r pryd hwnnw ni ddaethant ar y Sabbath *mwyach.*

22 A mi a ddywedais wrth y Lefiaid, am iddynt ymlanhâu, a dyfod i gadw y pyrth, gan sancteiddio y dydd Sabbath. *Am* hyn hefyd cofia fi, fy Nuw, ac arbed fi yn ol lliaws dy drugaredd.

23 ¶ Yn y dyddiau hynny hefyd y gwelais Iuddewon a briodasent Asdodëesau, Ammonëesau, *a* Moabëesau, yn wragedd *iddynt:*

24 A'u plant hwy oedd yn llefaru *y naill* hanner o'r Asdodiaeg, ac heb fedru ymddiddan yn iaith yr Iuddewon, ond yn ol tafodiaith y ddeubar bobl.

25 Yna yr ymrysonais â hwynt, ac y melldithiais hwynt; tarewais hefyd rai o honynt, ac a bliciais eu gwallt hwynt: a mi a'u tyngais hwynt trwy Duw, *gan ddywedyd,* Na roddwch eich merched i'w meibion hwynt, ac na chymmerwch o'u merched hwynt i'ch meibion, nac i chwi eich hunain.

26 Onid o achos y rhai hyn y pechodd Solomon brenhin Israel? er na bu brenhin cyffelyb iddo ef ym mysg cenhedloedd lawer, yr hwn oedd hoff gan ei Duw, a Duw a'i gwnaeth ef yn frenhin ar holl Israel; etto gwragedd dïeithr a wnaethant iddo ef bechu.

27 Ai arnoch chwi y gwrandâwn, i wneuthur yr holl ddrygioni mawr hwn, gan droseddu yn erbyn ein Duw, trwy briodi gwragedd dïeithr?

28 Ac *un* o feibion Joiada, mab Eliasib yr arch-offeiriad, *oedd* ddaw i Sanbàlat yr Horoniad: yr hwn a ymlidiais i oddi wrthyf.

29 O fy Nuw, cofia hwynt, am iddynt halogi yr offeiriadaeth, a chyfammod yr offeiriadaeth, a'r Lefiaid.

30 Yna y glanheais hwynt oddi wrth bob estron; gosodais hefyd oruchwyliaethau i'r offeiriaid ac i'r Lefiaid, pob un yn ei waith;

31 Ac at goed yr offrwm mewn amserau nodedig, ac at y blaenffrwythau. Cofia fi, O fy Nuw, er daioni.

LLYFR ESTHER.

PENNOD 1.

1 *Ahasferus yn gwneuthur gwleddoedd brenhinol:* 10 *yn anfon i gyrchu atto y frenhines Fasti; a hithau yn gurthod dyfod.* 13 *Ahasferus, trwy gynghor Memuchan, yn gwneuthur cyfraith ar fod o'r gwŷr yn ben ar eu gwragedd.*

YN nyddiau Ahasferus, (efe *yw* Ahasferus yr hwn oedd yn teyrnasu o India hyd Ethiopia, *sef ar* gant a saith ar hugain o daleithiau;)

2 Yn y dyddiau hynny, pan eisteddodd y brenhin Ahasferus ar orseddfa ei frenhiniaeth, yr hon *oedd* yn Susan y brenhinllys,

3 Yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, efe a wnaeth wledd i'w holl dywysogion a'i weision; cadernid Persia, a Media, y rhaglawiaid, a thywysogion y taleithiau, *oedd* ger ei fron ef:

4 Fel y dangosai efe gyfoeth *a* gogoniant ei deyrnas, ac anrhydedd a phrydferthwch ei fawredd, ddyddiau lawer, *sef* cant a phedwar ugain o ddyddiau.

5 Ac wedi gorphen y dyddiau hynny, y brenhin a wnaeth i'r holl bobl a gafwyd yn Susan y brenhinllys, o'r mwyaf hyd y lleiaf, wledd *dros* saith niwrnod, y'nghyntedd gardd palas y brenhin:

6 *Lle yr oedd llenni* gwynion, gwyrddion, a rhudd-gochion, wedi eu cylymmu â llinynnau sidan, ac â phorphor, wrth fodrwyau arian, a cholofnau marmor: y gwelŷau *oedd* o aur ac arian, ar balmant *o faen* grisial, a marmor, ac alabaster, a jasinct.

7 Ac yfed dïod *yr oeddynt* mewn llestri aur, a chyfnewid amryw lestri, a gwin brenhinol lawer, yn ol gallu y brenhin.

8 Yr yfed hefyd *oedd* wrth ddefod, nid *oedd* neb yn cymmell: canys gosodasai y brenhin *orchymyn* ar bob swyddwr *o fewn* ei dŷ, ar wneuthur yn ol ewyllys pawb.

9 Y frenhines Fasti hefyd a wnaeth wledd i'r gwragedd *yn* y brenhindy *oedd* eiddo Ahasferus y brenhin.

10 ¶ Ar y seithfed dydd, pan oedd lawen calon y brenhin gan win, efe a ddywedodd wrth Mehuman, Bistha, Harbona, Bigtha, ac Abagtha, Sethar, a Charcas, y saith ystafellydd oedd yn gweini ger bron y brenhin Ahasferus,

11 Am gyrchu y frenhines Fasti o flaen y brenhin, yn y frenhinol goron, i ddangos i'r bobloedd ac i'r tywysogion ei glendid hi: canys glân yr olwg *ydoedd* hi.

12 Ond y frenhines Fasti a wrthododd ddyfod wrth air y brenhin trwy law ei ystafellyddion: am hynny y llidiodd y brenhin yn ddirfawr, a'i ddigllonedd ef a ennynodd ynddo.

13 ¶ Yna y dywedodd y brenhin wrth y doethion oedd yn gwybod yr amserau, (canys felly *yr oedd* arfer y brenhin tu ag at bob rhai a fyddai yn gwybod cyfraith a barn:

14 A nesaf atto ef *oedd* Carsena, Sethar, Admatha, Tarsis, Meres, Marsena, *a* Memuchan, saith dywysog Persia a Media, y rhai oedd yn gweled wyneb y brenhin, *ac* yn eistedd yn gyntaf yn y frenhiniaeth;)

15 Beth sydd i'w wneuthur wrth y gyfraith i'r frenhines Fasti, am na wnaeth hi archiad y brenhin Ahasferus trwy law yr ystafellyddion?

16 Yna Memuchan a ddywedodd ger bron y brenhin a'r tywysogion, Nid yn erbyn y brenhin yn unig y gwnaeth Fasti y frenhines ar fai, ond yn erbyn yr holl dywysogion hefyd, a'r holl bobloedd *sydd* trwy holl daleithiau y brenhin Ahasferus.

17 Canys gweithred y frenhines a â allan at yr holl wragedd, fel y tremygant eu gwŷr yn eu golwg eu hun, pan ddywedant, Y brenhin Ahasferus a archodd gyrchu Fasti y frenhines o'i flaen; ond ni ddaeth hi.

18 Arglwyddesau Persia a Media, y rhai a glywsant weithred y frenhines, a ddywedant heddyw wrth holl dywysogion y brenhin. Felly

y bydd mwy na digon o ddirmyg a digter.

19 Os bydd boddlawn gan y brenhin, eled brenhinol orchymyn oddi wrtho ef, ac ysgrifener ef ym mysg cyfreithiau y Persiaid a'r Mediaid, fel na throsedder ef, na ddêl Fasti *mwy* ger bron y brenhin Ahasferus; a rhodded y brenhin ei brenhinfraint hi i'w chyfeilles yr hon sydd well na hi.

20 A phan glywer gorchymyn y brenhin, yr hwn a wnelo efe, trwy ei holl frenhiniaeth, (yr hon sydd fawr,) yna yr holl wragedd a roddant anrhydedd i'w gwŷr, o'r mwyaf hyd y lleiaf.

21 A da oedd y peth y'ngolwg y brenhin a'r tywysogion; a'r brenhin a wnaeth yn ol gair Memuchan:

22 Canys efe a anfonodd lythyrau i holl daleithiau y brenhin, ïe, i bob talaeth yn ol ei ysgrifen, ac at bob pobl yn ol eu tafodiaith eu hun; ar fod pob gŵr yn arglwyddiaethu yn ei dŷ ei hun; a chyhoeddi *hyn* yn ol tafodiaith pob rhyw bobl.

PENNOD 2.

1 *Dewis brenhines i Ahasferus o fyeg y gwyryfon glanaf.* 5 *Mordecai tadmaeth Esther.* 8 *Hegai yn gweled Esther yn well nag un o'r lleill.* 12 *Y modd y glanhêid y gwyryfon, ac yr aent i mewn at y brenhin.* 15 *Esther yn rhyngu bodd y brenhin yn oreu, ac yn cael ei gwneuthur yn frenhines.* 21 *Mordecai yn datguddio bradwriaeth; ac ysgrifenu hynny yn y cronicl.*

WEDI y pethau hyn, pan lonyddodd digllonedd y brenhin Ahasferus, efe a gofiodd Fasti, a'r hyn a wnelsai hi, a'r hyn a farnasid arni.

2 Am hynny gweision y brenhin, y rhai oedd yn gweini iddo, a ddywedasant, Ceisier i'r brenhin langcesau teg yr olwg o wyryfon:

3 A gosoded y brenhin swyddogion trwy holl daleithiau ei frenhiniaeth, a chasglant hwythau bob llangces dêg yr olwg, o wyryf, i Susan y brenhinllys, i dŷ y gwragedd, dan law Hege ystafellydd y brenhin, ceidwad y gwragedd; a rhodder *iddynt* bethau i'w glanhâu:

4 A'r llangces a fyddo da y'ngolwg y brenhin, a deyrnasa yn lle Fasti. A da oedd y peth hyn y'ngolwg y brenhin; ac felly y gwnaeth efe.

5 ¶ Yn Susan y brenhinllys yr oedd rhyw Iuddew a'i enw Mordecai, mab Jair, fab Simei, fab Cis, gŵr o Jemini:

6 Yr hwn a ddygasid o Jerusalem gyd â'r gaethglud a gaethgludasid gyd â Jechoniah brenhin Judah, yr hwn a ddarfuasai i Nebuchodonosor brenhin Babilon ei gaethgludo.

7 Ac efe a fagasai Hadassah, honno *yw* Esther, merch ei ewythr ef frawd ei dad; canys nid *oedd* iddi dad na mam: a'r llangces *oedd* weddeiddlwys, a glân yr olwg; a phan fuasai ei thad a'i mam hi farw, Mordecai a'i cymmerasai hi yn ferch iddo.

8 ¶ A phan gyhoeddwyd gair y brenhin a'i gyfraith, pan gasglasid hefyd langcesau lawer i Susan y brenhinllys dan law Hegai, cymmerwyd Esther i dŷ y brenhin, dan law Hegai ceidwad y gwragedd.

9 A'r llangces oedd dêg yn ei olwg ef, a hi a gafodd ffafr ganddo; am hynny efe ar frys a barodd roddi iddi bethau i'w glanhâu, a'i rhannau, a rhoddi iddi saith o langcesau golygus, o dŷ y brenhin: ac efe a'i symmudodd hi a'i llangcesau i'r *fan* oreu *yn* nhŷ y gwragedd.

10 Ond ni fynegasai Esther ei phobl na'i chenedl: canys Mordecai a orchymynasai iddi nad ynganai.

11 A Mordecai a rodiodd beunydd o flaen cyntedd tŷ y gwragedd, i wybod llwyddiant Esther, a pheth a wnelid iddi.

12 ¶ A phan ddigwyddai amser pob llangces i fyned i mewn at y brenhin Ahasferus, wedi bod iddi hi yn ol defod y gwragedd ddeuddeng mis, (canys felly y cyflawnid dyddiau eu puredigaeth hwynt; chwe mis mewn olew myr, a chwe mis mewn pêr-aroglau, a phethau eraill i lanhâu y gwragedd;)

13 Yna fel hyn y deuai y llangces at y brenhin; pa beth bynnag a ddywedai hi *am dano* a roddid iddi, i fyned gyd â hi o dŷ y gwragedd i dŷ y brenhin.

14 Gyd â'r hwyr yr âi hi i mewn, a'r bore hi a ddychwelai i dŷ arall y gwragedd, dan law Saasgas, ystafellydd y brenhin, ceidwad y gordderchadon: ni ddeuai hi i mewn

at y brenhin mwyach, oddi eithr i'r brenhin ei chwennych hi, a'i galw hi wrth *ei* henw.

15 ¶ A phan ddigwyddodd amser Esther, merch Abihail ewythr Mordecai, yr hon a gymmerasai efe yn ferch iddo, i fyned i mewn at y brenhin, ni cheisiodd hi ddim ond yr hyn a ddywedasai Hegai, ystafellydd y brenhin, ceidwad y gwragedd: ac Esther oedd yn cael ffafr y'ngolwg pawb a'r oedd yn edrych arni.

16 Felly Esther a gymmerwyd at y brenhin Ahasferus, i'w frenhindy ef, yn y degfed mis, hwnnw *yw* mis Tebeth, yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef.

17 A'r brenhin a hoffodd Esther rhagor yr holl wragedd, a hi a gafodd ffafr a charedigrwydd yn ei ŵydd ef rhagor yr holl wyryfon; ac efe a osododd y deyrn-goron ar ei phen hi, ac a'i gwnaeth yn frenhines yn lle Fasti.

18 Yna y gwnaeth y brenhin wledd fawr i'w holl dywysogion a'i weision, *sef* gwledd Esther; ac efe a wnaeth ryddid i'r taleithiau, ac a roddodd roddion yn ol gallu y brenhin.

19 A phan gasglwyd y gwyryfon yr ail waith, yna Mordecai oedd yn eistedd ym mhorth y brenhin.

20 Nid oedd Esther yn mynegi ei chenedl, na'i phobl; megis y gorchymynasai Mordecai iddi: canys Esther oedd yn gwneuthur yr hyn a ddywedasai Mordecai, fel *cynt pan* oedd hi yn ei meithrin gyd âg ef.

21 ¶ Yn y dyddiau hynny, pan oedd Mordecai yn eistedd ym mhorth y brenhin, y llidiodd Bigthan a Theres, dau o ystafellyddion y brenhin, *sef* o'r rhai oedd yn cadw y trothwy, a cheisiasant estyn llaw yn erbyn y brenhin Ahasferus.

22 A'r peth a wybu Mordecai; ac efe a'*i* mynegodd i Esther y frenhines; ac Esther a'*i* dywedodd wrth y brenhin, yn enw Mordecai.

23 A phan chwiliwyd y peth, fe a gafwyd *felly:* am hynny y crogwyd hwynt ill dau ar bren. Ac ysgrifenwyd *hynny* mewn llyfr cronicl ger bron y brenhin.

PENNOD 3.

1 *Ahasferus yn dyrchafu Haman, ac ymtau, am i Mordecai ei ddiystyru, yn ceisio dïal ar yr holl Iuddewon; 7 ac yn bwrw coelbren; 8 a thrwy enllib yn cael gan y brenhin wneuthur cyfraith i ladd yr holl Iuddewon.*

WEDI y pethau hyn, y brenhin Ahasferus a fawrhaodd Haman mab Hammedatha yr Agagiad, ac a'i dyrchafodd ef; gosododd hefyd ei orseddfainge ef goruwch yr holl dywysogion *oedd* gyd âg ef.

2 A holl weision y brenhin, y rhai *oedd* ym mhorth y brenhin, oedd yn ymgrymmu, ac yn ymostwng i Haman; canys felly y gorchymynasai y brenhin am dano ef: ond nid ymgrymmodd Mordecai, ac nid ymostyngodd.

3 Yna gweision y brenhin, y rhai *oedd* ym mhorth y brenhin, a ddywedasant wrth Mordecai, Paham yr ydwyt ti yn troseddu gorchymyn y brenhin?

4 Ac er eu bod hwy beunydd yn dywedyd wrtho *fel hyn*, etto ni wrandawai efe arnynt hwy; am hynny y mynegasant i Haman, i edrych a safai geiriau Mordecai: canys efe a fynegasai iddynt mai Iuddew *ydoedd* efe.

5 A phan welodd Haman nad oedd Mordecai yn ymgrymmu, nac yn ymostwng iddo, Haman a lanwyd o ddigllonedd.

6 Er hynny dïystyr oedd ganddo yn ei olwg ei hun estyn llaw yn erbyn Mordecai ei hunan; canys mynegasant iddo bobl Mordecai: am hynny Haman a geisiodd ddifetha yr holl Iuddewon, y rhai *oedd* trwy holl frenhiniaeth Ahasferus, *sef* pobl Mordecai.

7 ¶ Yn y mis cyntaf, hwnnw *yw* mis Nisan, yn y ddeuddegfed flwyddyn i'r brenhin Ahasferus, efe a barodd fwrw Pwr, (hwnnw *yw*, y coelbren,) ger bron Haman, o ddydd i ddydd, ac o fis i fis, *hyd* y deuddegfed *mis*, hwnnw *yw* mis Adar.

8 ¶ A Haman a ddywedodd wrth y brenhin Ahasferus, Y mae rhyw bobl wasgaredig a gwahanedig ym mhlith y bobloedd, trwy holl daleithiau dy frenhiniaeth; a'u cyfreithiau hwynt *sydd* yn amrafaelio oddi wrth yr holl bobl, ac nid ydynt yn gwneuthur cyfreithiau y

brenhin; am hynny nid buddiol i'r brenhin eu dïoddef hwynt.

9 O bydd boddlawn gan y brenhin, ysgrifener am eu difetha hwynt: a deng mil o dalentau arian a dalaf ar ddwylaw y rhai a wnant y weithred hon, i'*w* dwyn i drysorau y brenhin.

10 A thynnodd y brenhin ei fodrwy oddi am ei law, ac a'i rhoddes i Haman mab Hammedatha yr Agagiad, gwrthwynebwr yr Iuddewon.

11 A'r brenhin a ddywedodd wrth Haman, Rhodder yr arian i ti, a'r bobl, i wneuthur â hwynt fel y byddo da yn dy olwg.

12 Yna y galwyd ysgrifenyddion y brenhin, yn y mis cyntaf, ar y trydydd dydd ar ddeg o'r *mis* hwnnw, ac yr ysgrifenwyd, yn ol yr hyn oll a orchymynasai Haman, at bendefigion y brenhin, ac at y duciaid *oedd* ar bob talaeth, ac at dywysogion pob pobl i bob talaeth yn ol ei ysgrifen, ac *at* bob pobl yn ol eu tafodiaith; yn enw y brenhin Ahasferus yr ysgrifenasid, ac â modrwy y brenhin y seliasid *hyn*.

13 A'r llythyrau a anfonwyd gyd â'r rhedegwyr i holl daleithiau y brenhin; i ddinystrio, i ladd, ac i ddifetha yr holl Iuddewon, yn ieuaingc ac yn hen, yn blant ac yn wragedd, mewn un dydd, *sef* ar y trydydd *dydd* ar ddeg o'r deuddegfed mis, hwnnw *yw* mis Adar, ac i ysglyfaethu eu hyspail hwynt.

14 Testun yr ysgrifen, i roi gorchymyn ym mhob talaeth, a gyhoeddwyd i'r holl bobloedd, i fod yn barod erbyn y diwrnod hwnnw.

15 Y rhedegwyr a aethant, wedi eu cymmell trwy air y brenhin, a'r gorchymyn a roddasid yn Susan y brenhinllys. Y brenhin *hefyd* a Haman a eisteddasant i yfed, a dinasyddion Susan oedd yn athrist.

PENNOD 4.

1 *Mawr alar Mordecai a'r Iuddewon.* 4 *Esther, pan wybu hynny, yn danfon at Mordecai, ac ymlau yn danpos iddi yr achos, ac yn ei chynghori hi i eiriol drostynt hwy.* 10 *Hithau yn ymesgusodi, a Mordecai yn ei bygwth hi:* 15 *a hithau yn gosod ympryd, ac yn addaw eiriol drostynt.*

PAN wybu Mordecai yr hyn oll a wnelsid, Mordecai a rwygodd ei ddillad, ac a wisgodd sachlïan a lludw, ac a aeth allan i ganol y ddinas, ac a waeddodd â chwerw-lef uchel.

2 Ac efe a ddaeth hyd o flaen porth y brenhin: ond ni *cheid* dyfod i borth y brenhin mewn gwisg o sach.

3 Ac ym mhob talaeth *a* lle a'r y daethai gair y brenhin a'i orchymyn *iddo*, *yr oedd* galar mawr gan yr Iuddewon, ac ympryd, ac wylofain, ac oernad; a llawer a orweddent mewn sachlïan a lludw.

4 ¶ Yna llangcesau Esther a'i hystafellyddion hi a ddaethant ac a fynegasant *hynny* iddi hi. A'r frenhines a dristaodd yn ddirfawr; a hi a ddanfonodd wisgoedd i ddilladu Mordecai, ac i dynnu ymaith ei sachlïan ef oddi am dano; ond ni chymmerai efe *hwynt*.

5 Am hynny Esther a alwodd ar Hathach, *un* o ystafellyddion y brenhin, yr hwn a osodasai efe *i wasanaethu* o'i blaen hi; a hi a orchymynodd iddo am Mordecai, fynnu gwybod pa beth *oedd* hyn, ac am ba beth *yr ydoedd* hyn.

6 Yna Hathach a aeth allan at Mordecai i heol y ddinas, yr hon *sydd* o flaen porth y brenhin.

7 A Mordecai a fynegodd iddo yr hyn oll a ddigwyddasai iddo; a swm yr arian y rhai a addawsai Haman eu talu i drysorau y brenhin am yr Iuddewon, i'w difetha hwynt.

8 Ac efe a roddodd iddo destun ysgrifen y gorchymyn a osodasid yn Susan i'w dinystrio hwynt, i'w ddangos i Esther, ac i'*w* fynegi iddi, ac i orchymyn iddi fyned i mewn at y brenhin, i ymbil âg ef, ac i ymnhedd o'i flaen ef dros ei phobl.

9 A Hathach a ddaeth ac a fynegodd i Esther eiriau Mordecai.

10 ¶ Ac Esther a ddywedodd wrth Hathach, ac a orchymynodd iddo *ddywedyd* wrth Mordecai;

11 Holl weision y brenhin, a phobl taleithiau y brenhin, ydynt yn gwybod, mai pa ŵr bynnag, neu wraig, a ddelo i mewn at y brenhin i'r

cyntedd nesaf i mewn, heb ei alw, un o'i gyfreithiau ef *yw ei* farwolaethu *ef*, oddi eithr yr hwn yr estyno y brenhin y deyrn-wïalen aur iddo, fel y byddo byw: ac ni'm galwyd i ddyfod i mewn at y brenhin, bellach *er* ys deng niwrnod ar hugain.

12 A hwy a fynegasant i Mordecai eiriau Esther.

13 Yna Mordecai a ddywedodd am iddynt atteb Esther, Na feddwl yn dy galon y dïengi *yn* nhŷ y brenhin rhagor yr holl Iuddewon.

14 O herwydd os tewi â sôn a wnei di y pryd hwn, esmwythdra ac ymwared a gyfyd i'r Iuddewon o le arall, tithau a thŷ dy dad a gyfrgollir: a phwy sydd yn gwybod ai o herwydd y *fath* amser a hwn y daethost ti i'r frenhiniaeth?

15 ¶ Yna Esther a ddywedodd am atteb Mordecai *fel hyn;*

16 Dos, *a* chasgl yr holl Iuddewon a gaffer yn Susan, ac ymprydiwch drosof fi, na fwyttêwch hefyd ac nac yfwch *dros* dridiau, nos na dydd: a minnau a'm llangcesau a ymprydiaf felly: ac felly yr âf i mewn at y brenhin, yr hwn *beth* nid *yw* gyfreithlawn: ac o derfydd am danaf, darfydded.

17 Felly Mordecai a aeth ymaith, ac a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynasai Esther iddo.

PENNOD 5.

1 *Esther, wrth anturio ar ffafr y brenhin, yn cael estyn atti y deyrn-wïalen aur, ac yn gwahodd y brenhin a Haman i'r wledd.* 6 *A chwedi cael cysur gan y brenhin am y peth yr oedd hi yn ei geisio, yn eu gwahodd hwy drannoeth i wledd arall.* 9 *Haman yn falch o'i godiad, yn ddrwg ganddo fod Mordecai yn ei ddirystyru ef,* 14 *a thrwy gynghor Seres yn gwneuthur crogbren iddo ef.*

AC ar y trydydd dydd, Esther a ymwisgodd *mewn* brenhinol *wisgoedd*, ac a safodd y'nghyntedd tŷ y brenhin o'r tu fewn, ar gyfer tŷ y brenhin: a'r brenhin oedd yn eistedd ar ei deyrn-gadair yn y brenhindy gyferbyn â drws y tŷ.

2 A phan welodd y brenhin Esther y frenhines yn sefyll yn y cyntedd, hi a gafodd ffafr yn ei olwg ef: a'r brenhin a estynodd y deyrnwïalen aur *oedd* yn ei law ef tu ag at Esther; ac Esther a nesaodd, ac a gyffyrddodd â phen y deyrn-wïalen.

3 Yna y brenhin a ddywedodd wrthi, Beth a fynni di, y frenhines Esther? a pha beth *yw* dy ddeisyfiad? hyd yn hanner y frenhiniaeth, ac fe a'i rhoddir i ti.

4 A dywedodd Esther, O rhyngabodd i'r brenhin, deled y brenhin a Haman heddyw i'r wledd a wneuthum iddo.

5 A'r brenhin a ddywedodd, Perwch i Haman frysio i wneuthur yn ol gair Esther. Felly y daeth y brenhin a Haman i'r wledd a wnaethai Esther.

6 ¶ A'r brenhin a ddywedodd wrth Esther y'nghyfeddach y gwin, Beth yr wyt ti yn ei ofyn, ac fe a roddir i ti? a pheth yr wyt ti yn ei geisio? *gofyn* hyd yn hanner y frenhiniaeth, ac fe a'i cwblhêir.

7 Ac Esther a attebodd, ac a ddywedodd, Fy nymuniad a'm deisyfiad *yw,*

8 O chefais ffafr y'ngolwg y brenhin, ac o rhyglydda bodd i'r brenhin roddi fy nymuniad, a gwneuthur fy neisyfiad; deled y brenhin a Haman i'r wledd a arlwywyf iddynt, ac y fory y gwnaf yn ol gair y brenhin.

9 ¶ Yna Haman a aeth allan y dwthwn hwnnw yn llawen, ac yn hyfryd ei galon: ond pan welodd Haman Mordecai ym mhorth y brenhin, na chyfodasai efe, ac na syflasai erddo ef, Haman a gyflawnwyd o ddiglionedd yn erbyn Mordecai.

10 Er hynny Haman a ymattaliodd; a phan ddaeth i'w dŷ ei hun, efe a anfonodd, ac a alwodd am ei garedigion, a Seres ei wraig.

11 A Haman a adroddodd iddynt ogoniant ei gyfoeth, ac amldra ei feibion, a'r hyn oll y mawrhasai y brenhin ef ynddynt, ac fel y dyrchafasai y *brenhin* ef goruwch y tywysogion a gweision y brenhin.

12 A dywedodd Haman hefyd, Ni wahoddodd Esther y frenhines *neb* gyd â'r brenhin i'r wledd a wnaethai hi, ond myfi; ac y fory hefyd y'm gwahoddwyd atti hi gyd â'r brenhin.

13 Ond nid yw hyn oll yn llesâu i mi, tra fyddwyf fi yn gweled Mor-

decai yr Iuddew yn eistedd ym mhorth y brenhin.

14 ¶ Yna y dywedodd Seres ei wraig, a'i holl garedigion wrtho, Parottôer pren o ddeg cufydd a deugain o uchder, a'r bore dywed wrth y brenhin am grogi Mordecai arno; yna dos gyd â'r brenhin i'r wledd yn llawen. A da oedd y peth ger bron Haman, am hynny efe a barottôdd y *crog*-bren.

PENNOD 6.

1 *Ahasferus wrth ddarllen yn y cronicl am y gwasanaeth da a wnaethai Mordecai iddo, yn gofalu am uneuthur tâl iddo. 4 Haman wrth geisio peri crogi Mordecai, mewn anwybod yn rhoi cynghor i beri iddo gael parch, 12 yn cwyno mor drwch fuasai, a'r eiddo ei hun yn dangos iddo ei dynged.*

Y NOSON honno cwsg y brenhin a giliodd ymaith; am hynny efe a archodd ddwyn llyfr coffadwriaethau hanesion yr amseroedd; a darllenwyd hwynt ger bron y brenhin.

2 Yna y cafwyd yn ysgrifenedig yr hyn a fynegasai Mordecai am Bigthana a Theres, dau o ystafellyddion y brenhin, o'r rhai oedd yn cadw y trothwy; *sef* y rhai a geisiasent estyn llaw yn erbyn y brenhin Ahasferus.

3 A dywedodd y brenhin, Pa anrhydedd neu fawredd a wnaed i Mordecai am hyn? A gweision y brenhin, *sef* ei weinidogion ef, a ddywedasant, Ni wnaed dim erddo ef.

4 ¶ A'r brenhin a ddywedodd, Pwy *sydd* yn y cyntedd? A Haman a ddaethai i gyntedd nesaf allan tŷ y brenhin, i ddywedyd wrth y brenhin am grogi Mordecai ar y pren a barottoisai efe iddo.

5 A gweision y brenhin a ddywedasant wrtho, Wele Haman yn sefyll yn y cyntedd. A dywedodd y brenhin, Deled i mewn.

6 A phan ddaeth Haman i mewn, dywedodd y brenhin wrtho, Beth a wneir i'r gŵr y mae y brenhin yn ewyllysio ei anrhydeddu? Yna Haman a ddywedodd yn ei galon, I bwy yr ewyllysia y brenhin wneuthur anrhydedd yn fwy nag i mi?

7 A Haman a ddywedodd wrth y brenhin, Y gŵr y mae y brenhin yn chwennych ei anrhydeddu,

8 Dygant y wisg frenhinol *iddo*, yr hon a wisg y brenhin, a'r march y merchyg y brenhin arno, a rhodder y frenhinol goron am ei ben ef:

9 A rhodder y wisg, a'r march, yn llaw un o dywysogion ardderchoccaf y brenhin, a gwisgant am y gŵr y mae y brenhin yn chwennych ei anrhydeddu, a pharant iddo farchogaeth ar y march trwy heol y ddinas, a chyhoeddant o'i flaen ef, Fel hyn y gwneir i'r gŵr y mae y brenhin yn chwennych ei anrhydeddu.

10 Yna y brenhin a ddywedodd wrth Haman, Brysia, cymmer y wisg a'r march, fel y lleferaist, a gwna felly i Mordecai yr Iuddew, yr hwn sydd yn eistedd ym mhorth y brenhin: na âd heb wneuthur ddim o'r hyn oll a leferaist.

11 Felly Haman a gymmerth y wisg a'r march, ac a wisgodd am Mordecai, ac a wnaeth hefyd iddo farchogaeth trwy heol y ddinas, ac a gyhoeddodd o'i flaen ef, Fel hyn y gwneir i'r gŵr y mae y brenhin yn mynnu ei anrhydeddu.

12 ¶ A dychwelodd Mordecai i borth y brenhin. A Haman a frysiodd i'w dŷ yn alarus, wedi gorchuddio ei ben.

13 A Haman a adroddodd i Seres ei wraig, ac i'w holl garedigion, yr hyn oll a ddigwyddasai iddo. Yna ei ddoethion, a Seres ei wraig, a ddywedasant wrtho, Os o had yr Iuddewon *y mae* Mordecai, yr hwn y dechreuaist syrthio o'i flaen, ni orchfygi mo hono, ond gan syrthio y syrthi o'i flaen ef.

14 Tra yr *oeddynt* hwy etto yn ymddiddan âg ef, ystafellyddion y brenhin a ddaethant, ac a gyrchasant Haman ar frys i'r wledd a wnelsai Esther.

PENNOD 7.

1 *Esther wrth uneuthur croesaw i'r brenhin ac i Haman, yn gofyn ei heinioes ei hun a'i phobl, 5 yn achwyn ar Haman, 7 a'r brenhin yn ei ddig, wrth glywed sôn am y croglbren a wnaethai Haman i Mordecai, yn peri ei grogi ef ar hwnnw.*

FELLY daeth y brenhin a Haman i gyfeddach gyd âg Esther y frenhines.

2 A dywedodd y brenhin wrth Esther drachefn yr ail ddydd, wrth

gyfeddach y gwin, Beth *yw* dy ddymuniad, Esther y frenhines? ac fe a roddir i ti; a pha beth *yw* dy ddeisyfiad? *gofyn* hyd yn hanner y deyrnas, ac fe a'i cwblhêir.

3 A'r frenhines Esther a attebodd, ac a ddywedodd, O chefais ffafr yn dy olwg di, O frenhin, ac o rhyglydda bodd i'r brenhin, rhodder i mi fy einioes ar fy nymuniad, a'm pobl ar fy neisyfiad.

4 Canys gwerthwyd ni, myfi a'm pobl, i'n dinystrio, i'n lladd, ac i'n difetha: ond pe gwerthasid ni yn gaethweision ac yn gaeth-forwynion, mi a dawswn â sôn, er nad yw y gwrthwynebwr yn cystadlu colled y brenhin.

5 ¶ Yna y llefarodd y brenhin Ahasferus, ac y dywedodd wrth Esther y frenhines, Pwy yw hwnnw? a pha le y mae efe, yr hwn a glywai ar ei galon wneuthur felly?

6 A dywedodd Esther, Y gwrthwynebwr a'r gelyn *yw* yr Haman drygionus hwn. Yna Haman a ofnodd ger bron y brenhin a'r frenhines.

7 ¶ A'r brenhin a gyfododd yn ei ddigllonedd o gyfeddach y gwin, *ac a aeth* i ardd y palas: a Haman a safodd i ymbil âg Esther y frenhines am ei einioes; canys efe a weloddd fod drwg wedi ei barottôi yn ei erbyn ef oddi wrth y brenhin.

8 Yna y dychwelodd y brenhin o ardd y palas i dŷ cyfeddach y gwin. Ac yr oedd Haman wedi syrthio ar y gwely *yr oedd* Esther arno. Yna y dywedodd y brenhin, Ai treisio y frenhines hefyd *y mae efe* yn tŷ gyd â mi? *Hwy yn gyntaf ag* yr aeth y gair allan o enau y brenhin, hwy a orchuddiasant wyneb Haman.

9 A Harbonah, un o'r ystafellyddion, a ddywedodd y'ngŵydd y brenhin, Wele hefyd y crogbren a barottôdd Haman i Mordecai, yr hwn a lefarodd ddaioni am y brenhin, yn sefyll yn nhŷ Haman, yn ddeg cufydd a deugain o uchder. Yna y dywedodd y brenhin, Crogwch ef ar hwnnw.

10 Felly hwy a grogasant Haman ar y pren a barasai efe ei ddarparu i Mordecai. Yna digllonedd y brenhin a lonyddodd.

PENNOD 8.

1 Cyfodiad Mordecai. 3 Esther yn eiriol am alw llythyrau Haman yn eu hol. 7 Ahasferus yn rhoi cennad i'r Iuddewon i'w hamddiffyn eu hun. 15 Anrhydedd Mordecai, a llawenydd yr Iuddewon.

Y DWTHWN hwnnw y rhoddodd y brenhin Ahasferus i'r frenhines Esther dŷ Haman gwrthwynebwr yr Iuddewon. A Mordecai a ddaeth o flaen y brenhin; canys Esther a fynegasai beth *oedd* efe iddi hi.

2 A'r brenhin a dynnodd ymaith y fodrwy a gymmerasai efe oddi wrth Haman, ac a'i rhoddodd i Mordecai. Ac Esther a osododd Mordecai ar dŷ Haman.

3 ¶ Ac Esther a lefarodd drachefn ger bron y brenhin, ac a syrthiodd wrth ei draed ef; wylodd hefyd, ac ymbiliodd âg ef am fwrw ymaith ddrygioni Haman yr Agagiad, a'i fwriad yr hwn a fwriadasai efe yn erbyn yr Iuddewon.

4 A'r brenhin a estynodd y deyrnwialen aur tu ag at Esther. Yna Esther a gyfododd, ac a safodd o flaen y brenhin,

5 Ac a ddywedodd, O bydd boddlawn gan y brenhin, ac o chefais ffafr o'i flaen ef, ac *od ydyw* y peth yn iawn ger bron y brenhin, a minnau yn gymmeradwy yn ei olwg ef; ysgrifener am alw yn ol lythyrau bwriad Haman mab Hammedatha yr Agagiad, y rhai a ysgrifenodd efe i ddifetha yr Iuddewon *sydd* trwy holl daleithiau y brenhin.

6 Canys pa fodd y gallaf edrych ar y drygfyd a gaiff fy mhobl? a pha fodd y gallaf edrych ar ddifetha fy nghenedl?

7 ¶ A'r brenhin Ahasferus a ddywedodd wrth Esther y frenhines, ac wrth Mordecai yr Iuddew; Wele, tŷ Haman a roddais i Esther, a hwy a'i crogasant ef ar y pren, am iddo estyn ei law yn erbyn yr Iuddewon.

8 Ysgrifenwch chwithau hefyd dros yr Iuddewon fel y gweloch yn dda, yn enw y brenhin, ac inseliwch â modrwy y brenhin: canys yr ysgrifen a ysgrifenwyd yn enw y brenhin, ac a seliwyd â modrwy y brenhin, ni all neb ei dattroi.

9 Yna y galwyd ysgrifenyddion y brenhin yr amser hwnnw yn y tryd-

ydd mis, hwnnw *yw* y mis Sifan, ar y trydydd *dydd* ar hugain o hono, ac ysgrifenwyd, yn ol yr hyn oll a orchymynodd Mordecai, at yr Iuddewon, ac at y rhaglawiaid, y pennaduriaid hefyd, a thywysogion y taleithiau, y rhai *oedd* o India hyd Ethiopia, *sef* cant a saith ar hugain o daleithiau, i bob talaeth wrth ei ysgrifen, ac *at* bob pobl yn ol eu tafodiaith: at yr Iuddewon hefyd yn ôl eu hysgrifen hwynt, ac yn ol eu tafodiaith.

10 Ac efe a ysgrifenodd yn enw y brenhin Ahasferus, ac a'*i* seliodd â modrwy y brenhin; ac a anfonodd lythyrau gyd â'r rhedegwyr yn marchogaeth ar feirch, dromedariaid, mulod, *ac* ebolion cesig:

11 *Trwy* y rhai y caniattaodd y brenhin i'r Iuddewon, y rhai *oedd* ym mhob dinas, ymgynnull, a sefyll am eu heinioes, i ddinystrio, i ladd, ac i ddifetha holl allu y bobl a'r dalaeth a osodai arnynt, yn blant ac yn wragedd, ac i ysglyfaethu eu hyspail hwynt;

12 Mewn un dydd, trwy holl daleithiau y brenhin Ahasferus, *sef* ar y trydydd *dydd* ar ddeg o'r deuddegfed mis, hwnnw *yw* mis Adar.

13 Testun yr ysgrifen, i roddi gorchymyn ym mhob talaeth, a gyhoeddwyd i bob rhyw bobl; ac ar fod yr Iuddewon yn barod erbyn y diwrnod hwnnw i ymddïal ar eu gelynion.

14 Y rhedegwyr, y rhai oedd yn marchogaeth y dromedariaid *a*'r mulod, a aethant ar frys, wedi eu gyrru trwy air y brenhin; a'r gorchymyn a roddasid yn Susan y brenhinllys.

15 ¶ A Mordecai a aeth allan o ŵydd y brenhin mewn brenhinol wisg o rudd-goch a gwyn, ac *â* choron fawr o aur, ac *mewn* dillad sidan a phorphor; a dinas Susan a orfoleddodd ac a lawenychodd:

16 I'r Iuddewon yr oedd goleuni, a llawenydd, a hyfrydwch, ac anrhydedd.

17 Ac ym mhob talaeth, ac ym mhob dinas, lle y daeth gair y brenhin a'i orchymyn, *yr oedd* llawenydd a hyfrydwch gan yr Iuddewon, gwledd *hefyd* a diwrnod daionus: a llawer o bobl y wlad a aethant yn Iuddewon; oblegid arswyd yr Iuddewon a syrthiasai arnynt hwy.

PENNOD 9.

1 *Yr Iuddewon (trwy fod y llywodraethwyr, rhag ofn Mordecai, yn eu helpio hwynt) yn lladd eu gelynion, a deng mab Haman.* 12 *Ahasferus, ar ddymuniad Esther, yn caniattâu diwrnod etto i ladd, ac i grogi meibion Haman.* 20 *Gwneuthur dau ddiwrnod y Purim yn wyliau.*

FELLY yn y deuddegfed mis, hwnnw *yw* mis Adar, ar y trydydd dydd ar ddeg o hono, pan nesaodd gair y brenhin a'i orchymyn i'w cwblhâu; yn y dydd y gobeithiasai gelynion yr Iuddewon y caent fuddugoliaethu arnynt, (ond yn y gwrthwyneb i hynny *y bu*, canys yr Iuddewon a arglwyddiaethasant ar eu caseion;)

2 Yr Iuddewon a ymgynnullasant yn eu dinasoedd, trwy holl daleithiau y brenhin Ahasferus, i estyn llaw yn erbyn y rhai oedd yn ceisio niwed iddynt: ac ni safodd neb yn eu hwynebau; canys eu harswyd a syrthiasai ar yr holl bobloedd.

3 A holl dywysogion y taleithiau, a'r pendefigion, a'r duciaid, a'r rhai oedd yn gwneuthur y gwaith *oedd* eiddo y brenhin, oedd yn cynnorthwyo yr Iuddewon: canys arswyd Mordecai a syrthiasai arnynt hwy.

4 Canys mawr *oedd* Mordecai yn nhŷ y brenhin, a'i glod ef oedd yn myned trwy yr holl daleithiau: o herwydd y gŵr hwn Mordecai oedd yn myned rhagddo, ac yn cynnyddu.

5 Felly yr Iuddewon a darawsant eu holl elynion â dyrnod y cleddyf, a lladdedigaeth, a distryw; a gwnaethant i'w caseion yn ol eu hewyllys eu hun.

6 Ac yn Susan y brenhinllys, yr Iuddewon a laddasant ac a ddifethasant bum cant o wŷr.

7 Parsandatha hefyd, a Dalphon, ac Aspatha,

8 Poratha hefyd, ac Adalïa, ac Aridatha,

9 Parmasta hefyd, ac Arisai, Aridai hefyd, a Bajesatha,

10 Deng mab Haman mab Hammedatha, gwrthwynebwr yr Iuddewon, a laddasant hwy: ond nid estynasant eu llaw ar yr anrhaith.

11 ¶ Y dwthwn hwnnw nifer y lladdedigion yn Susan y brenhindy a ddaeth ger bron y brenhin.

12 A dywedodd y brenhin wrth Esther y frenhines, Yr Iuddewon a laddasant ac a ddifethasant yn Susan y brenhinllys, bum cant o wŷr, a deng mab Haman; yn y rhan arall o daleithiau y brenhin beth a wnaethant *hwy?* beth gan hynny *yw* dy ddymuniad? ac fe a roddir i ti; a pheth *yw* dy ddeisyfiad ym mhellach? ac fe a'i gwneir.

13 Yna y dywedodd Esther, O rhyglydda bodd i'r brenhin, caniattâer y fory i'r Iuddewon *sydd* yn Susan wneuthur yn ol y gorchymyn heddyw: a chrogant ddeng mab Haman ar y pren.

14 A'r brenhin a ddywedodd am wneuthur felly, a'r gorchymyn a roddwyd yn Susan: a hwy a grogasant ddeng mab Haman.

15 Felly yr Iuddewon, y rhai *oedd* yn Susan, a ymgynnullasant ar y pedwerydd dydd ar ddeg o fis Adar hefyd, ac a laddasant dri chant o wŷr yn Susan: ond nid estynasant eu llaw ar yr yspail.

16 A'r rhan arall o'r Iuddewon, y rhai *oedd* yn nhaleithiau y brenhin, a ymgasglasant, ac a safasant am eu heinioes, ac a gawsant lonyddwch gan eu gelynion, ac a laddasant bymtheng mil a thri ugain o'u caseion: ond nid estynasant eu llaw ar yr anrhaith.

17 Ar y trydydd dydd ar ddeg o fis Adar *y bu hyn*, ac ar y pedwerydd *dydd* ar ddeg o hono y gorphwysasant, ac y cynhaliasant ef yn ddydd gwledd a gorfoledd.

18 Ond yr Iuddewon, y rhai *oedd* yn Susan, a ymgynnullasant ar y trydydd *dydd* ar ddeg o hono, ac ar y pedwerydd *dydd* ar ddeg o hono; ac ar y pymthegfed o hono y gorphwysasant, a gwnaethant ef yn ddydd cyfeddach a llawenydd.

19 Am hynny Iuddewon y pentrefi, y rhai oedd yn trigo mewn dinasoedd heb gaerau, oedd yn cynnal y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis Adar, mewn llawenydd a chyfeddach, ac yn ddiwrnod daionus, ac i anfon rhannau i'w gilydd.

20 ¶ A Mordecai a ysgrifenodd y geiriau hyn, ac a anfonodd lythyrau at yr holl Iuddewon *oedd* trwy holl daleithiau y brenhin Ahasferus, yn agos ac ym mhell,

21 I ordeinio iddynt gadw y pedwerydd dydd ar ddeg o fis Adar, a'r pymthegfed dydd o hono, bob blwyddyn;

22 Megis y dyddiau y cawsai yr Iuddewon ynddynt lonydd gan eu gelynion, a'r mis yr hwn a ddychwelasai iddynt o dristwch i lawenydd, ac o alar yn ddydd daionus: gan eu cynnal hwynt yn ddyddiau gwledd a llawenydd, a phawb yn anfon anrhegion i'w gilydd, a rhoddion i'r rhai anghenus.

23 A'r Iuddewon a gymmerasant arnynt wneuthur fel y dechreuasent, ac fel yr ysgrifenasai Mordecai attynt.

24 Canys Haman mab Hammedatha yr Agagiad, gwrthwynebwr yr holl Iuddewon, a arfaethasai yn erbyn yr Iuddewon, am eu difetha hwynt; ac efe a fwriasai Pwr, hwnnw *yw* y coelbren, i'w dinystrio hwynt, ac i'w difetha:

25 A phan ddaeth *Esther* o flaen y brenhin, efe a archodd trwy lythyrau, ddychwelyd ei ddrwgfwriad ef, yr hwn a fwriadodd efe yn erbyn yr Iuddewon, ar ei ben ei hun; a'i grogi ef a'i feibion ar y pren.

26 Am hynny y galwasant y dyddiau hynny Pwrim, ar enw y Pwr: am hynny, o herwydd holl eiriau y llythyr hwn, ac *o herwydd* y peth a welsent hwy am y peth hyn, a'r peth a ddigwyddasai iddynt,

27 Yr Iuddewon a ordeiniasant, ac a gymmerasant arnynt, ac ar eu had, ac ar yr holl rai oedd yn un â hwynt, na phallai bod cynnal y ddau ddydd hynny, yn ol eu hysgrifen hwynt, ac yn ol eu tymmor, bob blwyddyn:

28 Ac *y byddai* y dyddiau hynny i'w cofio, ac i'w cynnal trwy bob cenhedlaeth, a phob teulu, pob talaeth, a phob dinas; *sef* na phallai y dyddiau Pwrim hynny o fysg yr

Iuddewon, ac na ddarfyddai eu coffadwriaeth hwy o blith eu had.
29 Ac ysgrifenodd Esther y frenhines merch Abihail, a Mordecai yr Iuddew, trwy eu holl rym, i sicrhâu ail lythyr y Pwrim hwn.
30 Ac efe a anfonodd lythyrau at yr holl Iuddewon, trwy y cant a'r saith dalaeth ar hugain o frenhiniaeth Ahasferus, *â* geiriau heddwch a gwirionedd;
31 I sicrhâu y dyddiau Pwrim hynny yn eu tymhorau, fel yr ordeiniasai Mordecai yr Iuddew, ac Esther y frenhines, iddynt hwy, ac fel yr ordeiniasent hwythau drostynt eu hun, a thros eu had, eiriau yr ymprydiau a'u gwaedd.
32 Ac ymadrodd Esther a gadarnhaodd achosion y *dyddiau* Pwrim hynny: ac ysgrifenwyd *hyn* mewn llyfr.

PENNOD 10.

1 Mawredd Ahasferus, 3 a chyfodiad Mordecai.

A'R brenhin Ahasferus a osododd dreth ar y wlad, ac *ar* ynysoedd y môr.
2 A holl weithredoedd ei rym ef, a'i gadernid, a hysbysrwydd o fawredd Mordecai, â'r hwn y mawrhaodd y brenhin ef, onid *ydynt* hwy yn ysgrifenedig yn llyfr cronicl brenhinoedd Media a Phersia?
3 Canys Mordecai yr Iuddew *oedd* yn nesaf i'r brenhin Ahasferus, ac yn fawr gan yr Iuddewon, ac yn gymmeradwy ym mysg lliaws ei frodyr; yn ceisio daioni i'w bobl, ac yn dywedyd *am* heddwch i'w holl hiliogaeth.

LLYFR JOB.

PENNOD 1.

1 Sancteiddrwydd Job, a'i gyfoeth, a'i dduwiol ofal dros ei blant. 6 Satan yn ymddangos ger bron Duw; a thrwy enllib yn cael cennad i demtio Job. 13 Job yn ei galled am ei otud a'i blant, ac yn ei alar, yn bendithio Duw.

YR oedd gŵr y'ngwlad Us a'i enw Job; ac yr oedd y gŵr hwnnw yn berffaith ac yn uniawn, ac yn ofni DUW, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni.
2 Ac iddo y ganwyd saith o feibion, a thair o ferched.
3 A'i olud oedd saith mil o ddefaid, a thair mil o gamelod, a phum can iau o ychain, a phum cant o asynod, a llawer iawn o wasanaethyddion; ac yr oedd y gŵr hwn yn fwyaf o holl feibion y dwyrain.
4 A'i feibion ef a aent ac a wnaent wledd yn eu tai, bob un *ar* ei ddiwrnod; ac a anfonent ac a wahoddent eu tair chwaer i fwytta ac i yfed gyd â hwynt.
5 A phan ddeuai dyddiau y wledd oddi amgylch, yna Job a anfonai ac a'u sancteiddiai hwynt, ac a gyfodai yn fore, ac a offrymmai boeth-offrymmau *yn ol* eu rhifedi hwynt oll: canys dywedodd Job, Fy meibion ond odid a bechasant, ac a felldithiasant DDUW yn eu calonnau. Felly y gwnai Job yr holl ddyddiau hynny.
6 ¶ A dydd a ddaeth i feibion DUW ddyfod i sefyll ger bron yr ARGLWYDD; a Satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwynt.
7 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Satan, O ba le yr ydwyt ti yn dyfod? A Satan a attebodd yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, O dramwy ar hyd y ddaear, ac o ymrodio ynddi.
8 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Satan, A ddeliaist ti ar fy ngwas Job, nad *oes* gyffelyb iddo ar y ddaear, yn ŵr perffaith ac uniawn, yn ofni DUW, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni?
9 Yna Satan a attebodd yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Ai yn ddïachos y mae Job yn ofni DUW?
10 Oni chaeaist o'i amgylch ef, ac o amgylch ei dŷ, ac ynghylch yr hyn oll *sydd* eiddo oddi amgylch? ti a fendithiaist waith ei ddwylaw ef, a'i ddâ ef a gynnyddodd ar y ddaear.
11 Eithr estyn yn awr dy law, a chyffwrdd â'r hyn oll *sydd* ganddo,

ac efe a'th felldithia o flaen dy wyneb.
12 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Satan, Wele yr hyn oll *sydd* eiddo ef yn dy law di; yn unig yn ei erbyn ef ei hun nac estyn dy law. Felly Satan a aeth allan oddi ger bron yr ARGLWYDD.
13 ¶ A dydd a ddaeth, pan *oedd* ei feibion ef a'i ferched yn bwytta ac yn yfed gwin yn nhŷ eu brawd hynaf.
14 A daeth cennad at Job, ac a ddywedodd, Yr ychain oedd yn aredig, a'r asynod oedd yn pori ger llaw iddynt;
15 A'r Sabeaid a ruthrasant, ac a'u dygasant ymaith; y llangciau hefyd a darawsant hwy â min y cleddyf, a mi fy hunan yn unig a ddïengais i fynegi i ti.
16 Tra yr *oedd* hwn yn llefaru, un arall hefyd a ddaeth, ac a ddywedodd, Tân DUW a syrthiodd o'r nefoedd, ac a losgodd y defaid, a'r gweision, ac a'u hysodd hwynt; ond myfi fy hunan yn unig a ddïengais i fynegi i ti.
17 Tra yr *ydoedd* hwn yn llefaru, un arall hefyd a ddaeth, ac a ddywedodd, Y Caldeaid a osodasant dair byddin, ac a ruthrasant i'r camelod, ac a'u dygasant ymaith, ac a darawsant y llangciau â min y cleddyf; a minnau fy hun yn unig a ddïengais i fynegi i ti.
18 Tra yr *ydoedd* hwn yn llefaru, un arall hefyd a ddaeth, ac a ddywedodd, Dy feibion a'th ferched oedd yn bwytta ac yn yfed gwin yn nhŷ eu brawd hynaf:
19 Ac wele, gwynt mawr a ddaeth oddi ar yr anialwch, ac a darawodd wrth bedair congl y tŷ, ac efe a syrthiodd ar y llangciau, a buant feirw; ond myfi fy hun yn unig a ddïengais i fynegi i ti.
20 Yna y cyfododd Job, ac a rwygodd ei fantell, ac a eilliodd ei ben, ac a syrthiodd i lawr, ac a addolodd;
21 Ac a ddywedodd, Noeth y deuthum o groth fy mam, a noeth y dychwelaf yno. Yr ARGLWYDD a roddodd, a'r ARGLWYDD a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr ARGLWYDD.
22 Yn hyn i gyd ni phechodd Job, ac ni roddodd yn ynfyd *ddim* yn erbyn DUW.

PENNOD 2.

1 Satan yn ymddangos ger bron Duw, ac yn cael cennad etto i demtio Job; 7 ac yn ei daro ef â chornwydydd blin. 9 Job yn ceryddu ei wraig am geisio ganddo felldithio Duw. 11 Ei dri chyfaill yn cyd-ddolurio âg ef mewn distawrwydd.

A DYDD a ddaeth i feibion DUW ddyfod i sefyll ger bron yr ARGLWYDD; a Satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwynt i sefyll ger bron yr ARGLWYDD.
2 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Satan, O ba le yr ydwyt ti yn dyfod? A Satan a attebodd yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, O dramwy ar hyd y ddaear, ac o ymrodio ynddi.
3 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Satan, A ddeliaist ti ar fy ngwas Job, nad *oes* gyffelyb iddo ar y ddaear, yn ŵr perffaith ac uniawn, yn ofni DUW, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni? ac yn parhâu yn ei berffeithrwydd, er i ti fy annog i yn ei erbyn ef, i'w ddifa ef heb achos?
4 A Satan a attebodd yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Croen am groen, a'r hyn oll *sydd* gan ŵr a ddyry efe am ei einioes.
5 Eithr estyn yn awr dy law, a chyffwrdd â'i esgyrn ef ac â'i gnawd, ac efe a'th felldithia di o flaen dy wyneb.
6 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Satan, Wele ef yn dy law di; etto cadw ei hoedl ef.
7 ¶ Felly Satan a aeth allan oddi ger bron yr ARGLWYDD, ac a darawodd Job â chornwydydd blin, o wadn ei droed hyd ei goryn.
8 Ac efe a gymmerth gragen i ymgrafu â hi; ac a eisteddodd yn y lludw.
9 ¶ Yna ei wraig a ddywedodd wrtho, A wyt ti etto yn parhâu yn dy berffeithrwydd? melldithia DDUW, a bydd farw.
10 Ond efe a ddywedodd wrthi, Lleferaist fel y llefarai un o'r ynfydion: a dderbyniwn ni gan DDUW yr hyn sydd dda, ac oni dderbyniwn yr hyn sydd ddrwg? Yn hyn i gyd ni phechodd Job â'i wefusau.

11 ¶ A phan glybu tri chyfaill Job yr holl ddrwg yma a ddigwyddasai iddo ef, hwy a ddaethant bob un o'i fangre ei hun; Eliphas y Temaniad, a Bildad y Suhiad, a Sophar y Naamathiad: canys hwy a gyttunasent i ddyfod i gyd-ofidio âg ef, ac i'w gysuro.

12 A phan ddyrchafasant eu llygaid o bell, ac heb ei adnabod ef, hwy a ddyrchafasant eu llef, ac a wylasant; rhwygasant hefyd bob un ei fantell, a thaenasant lwch ar eu pennau tu a'r nefoedd.

13 Felly hwy a eisteddasant gyd âg ef ar y ddaear saith niwrnod a saith noswaith; ac nid oedd *neb* a ddywedai air wrtho ef: canys gwelent fyned *ei* ddolur *ef* yn fawr iawn.

PENNOD 3.

1 *Job yn melldithio dydd ei eneḋigaeth.* 13 *Esmwythder marwolaeth.* 20 *Job yn ffin gandde ei einioes, o achos ei ystudd.*

WEDI hyn Job a agorodd ei enau, ac a felldithiodd ei ddydd.

2 A Job a lefarodd, ac a ddywedodd,

3 Darfydded am y dydd y'm ganwyd ynddo, a'r nos y dywedwyd, Ennillwyd gwrryw.

4 Bydded y dydd hwnnw yn dywyllwch, *a* Duw oddi uchod heb ei ystyried; ac na thywynned llewyrch arno.

5 Tywyllwch a chysgod marwolaeth a'i halogo, ac arhosed cwmmwl arno; dued y diwrnod a'i dychryno.

6 Y nos honno, tywyllwch a'i cymmero; na chydier hi â dyddiau y flwyddyn, ac na ddeued i rifedi y misoedd.

7 Bydded y noswaith honno yn unig, ac na fydded gorfoledd ynddi.

8 A'r rhai a felldithiant y dydd, ac sydd barod i gyffroi eu galar, a'i melldithio hi.

9 A bydded sêr ei chyfddydd hi yn dywyll: disgwylied am oleuni, ac na *fydded iddi;* ac na chaffed weled y wawrddydd:

10 Am na chauodd ddrysau croth fy *mam,* ac na chuddiodd ofid oddi wrth fy llygaid.

11 Paham na bûm farw o'r bru? *na* threngais *pan* ddeuthum allan o'r groth?

12 Paham y derbyniodd gliniau fyfi? a phaham *y cefais* fronnau i sugno?

13 O herwydd yn awr mi a gawswn orwedd, a gorphwys, *a* huno: yna *y buasai* llonyddwch i mi,

14 Gyd â brenhinoedd a chynghorwyr y ddaear, y rhai a adeiladasant iddynt eu hunain fannau anghyfannedd;

15 Neu gyd â thywysogion *âg* aur ganddynt, y rhai a lanwasant eu tai âg arian;

16 Neu fel erthyl cuddiedig, ni buaswn ddim; megis plant bychain heb weled goleuni.

17 Yno yr annuwiolion a beidiant â'u cyffro; ac yno y gorphwys y rhai lluddedig.

18 Y rhai a garcharwyd a gânt *yno* lonydd ynghyd; ni chlywant lais y gorthrymmydd.

19 Bychan a mawr *sydd* yno; a'r gwas a ryddhawyd oddi wrth ei feistr.

20 Paham y rhoddir goleuni i'r hwn sydd mewn llafur, a bywyd i'r gofidus ei enaid?

21 Y rhai sydd yn disgwyl am farwolaeth, ac heb ei *chael;* ac yn cloddio am dani yn fwy nag am drysorau cuddiedig?

22 Y rhai a lawenychant mewn hyfrydwch, *ac* a orfoleddant, pan gaffont y bedd?

23 *Paham y rhoddir goleuni* i'r dyn y mae ei ffordd yn guddiedig, ac y cauodd Duw arno?

24 Oblegid o flaen fy mwyd y daw fy uchenaid; a'm rhuadau a dywelltir megis dyfroedd.

25 Canys yr hyn a fawr ofnais a ddaeth arnaf, a'r hyn a arswydais a ddigwyddodd i mi.

26 Ni chefais na llonydd nac esmwythdra, ac ni orphwysais: er hynny daeth cynnwrf.

PENNOD 4.

1 *Eliphas yn ceryddu Job am na bai ganddo ffydd; 7 yn dangos nad ar y cyfiawn, ond ar yr anwir y daw barnedigaethau Duw.* 12 *Ei weledigaeth erchyll ef, i ddarostwng godidowgrwydd y creaduriaid ger bron Duw.*

YNA Eliphas y Temaniad a attebodd ac a ddywedodd,

2 *Pe* profem ni air wrthyt, a fyddai blin gennyt ti? ond pwy a all attal *et* ymadroddion?
3 Wele, ti a ddysgaist lawer, ac a gryfheaist ddwylaw wedi llaesu.
4 Dy ymadroddion a godasant i fyny yr hwn oedd yn syrthio; a thi a nerthaist y gliniau oedd yn cammu.
5 Ond yn awr, daeth arnat tithau, ac y mae yn flin gennyt; cyffyrddodd â thi, a chyffroaist.
6 Onid *dyma* dy ofn di, dy hyder, perffeithrwydd dy ffyrdd, a'th obaith?
7 Cofia, attolwg, pwy, *ac* efe yn ddiniwed, a gollwyd? a pha le y torrwyd y rhai uniawn ymaith?
8 Hyd y gwelais i, y rhai a arddant anwiredd, ac a hauant ddrygioni, a'u medant.
9 Gan anadl Duw y difethir hwynt, a chan chwythad ei ffroenau ef y darfyddant.
10 Rhuad y llew, a llais y llew creulawn, a dannedd cenawon y llewod, a dorrwyd.
11 Yr hen lew a fethodd o eisieu ysglyfaeth; a chenawon y llew mawr a wasgarwyd.
12 Ac attaf fi y dygwyd gair yn ddirgel: a'm clust a dderbyniodd ychydig o hono.
13 Ym mhlith meddyliau *yn dyfod* o weledigaethau y nos, pan syrthio trwmgwsg ar ddynion,
14 Ofn a ddaeth arnaf, a dychryn, ac a wnaeth i'm holl esgyrn grynu.
15 Yna yspryd a aeth heibio o flaen fy wyneb; ac a wnaeth i flew fy nghnawd sefyll.
16 Efe a safodd, ac nid adwaenwn ei agwedd ef: drychiolaeth *oedd* o flaen fy llygaid, *bu* distawrwydd, a mi a glywais lef *yn dywedyd*,
17 A fydd dyn marwol yn gyfiawnach na Duw? a fydd gŵr yn burach na'i wneuthurwr?
18 Wele, yn ei wasanaethwyr ni roddes ymddiried; ac yn erbyn ei angylion y gosododd ynfydrwydd:
19 Pa faint llai ar y rhai sydd yn trigo mewn tai o glai, y rhai *sydd* â'u sail mewn pridd, y rhai a falurir yn gynt na gwyfyn?
20 O'r bore hyd hwyr y malurir hwynt; difethir hwynt yn dragywydd heb *neb* yn ystyried.
21 Onid aeth y rhagoriaeth oedd ynddynt ymaith? hwy a fyddant feirw, ac nid mewn doethineb.

PENNOD 5.

1 *Y niwed a ddaw o eisieu ystyried.* 3 *Afluwydd yw diwedd yr annuwiol.* 6 *Rhaid yw cofio Duw mewn adfyd.* 17 *Dedwydd ddiwedd ceryddon Duw.*

GALW yn awr, od oes *neb* a ettyb i ti, ac at bwy o'r saint y troi di?
2 Canys digllondeb a ladd yr ynfyd, a chenfigen a ladd yr annoeth.
3 Mi a welais yr ynfyd yn gwreiddio: ac a felldithiais ei drigfa ef yn ddisymmwth.
4 Ei feibion ef a bellhêir oddi wrth iachawdwriaeth: dryllir hwynt hefyd yn y porth, ac nid *oes* gwaredydd.
5 Yr hwn y bwytty y newynog ei gynhauaf, wedi iddo ei gymmeryd o blith drain, a'r sychedig a lwngc eu cyfoeth.
6 Er na ddaw cystudd allan o'r pridd, ac na flagura gofid allan o'r ddaear:
7 Ond dyn a aned i flinder, fel yr eheda gwreichionen i fyny.
8 Etto myfi a ymgynghorwn â Duw: ac ar Dduw y rhoddwn fy achos:
9 Yr hwn sydd yn gwneuthur pethau mawrion ac anchwiliadwy; rhyfeddol heb rifedi:
10 Yr hwn sydd yn rhoddi gwlaw ar wyneb y ddaear; ac yn danfon dyfroedd ar wyneb y meusydd:
11 Gan osod rhai isel mewn uchelder; fel y dyrchefir y galarus *i* iachawdwriaeth.
12 Efe sydd yn diddymmu amcanion y cyfrwys, fel na allo eu dwylaw ddwyn dim i ben.
13 Efe sydd yn dal y doethion yn eu cyfrwysdra: a chynghor y cyndyn a ddiddymmir.
14 Lliw dydd y cyfarfyddant â thywyllwch, a hwy a balfalant hanner dydd megis lliw nos.
15 Yr hwn hefyd a achub y tlawd rhag y cleddyf, rhag eu safn hwy, a rhag llaw y cadarn.
16 Felly y mae gobaith i'r tlawd, ac anwiredd yn cau ei safn.
17 Wele, gwyn ei fyd y dyn a

geryddo Duw; am hynny na ddïystyra gerydd yr Hollalluog.
18 Canys efe a glwyfa, ac a rwym: efe a archolla, a'i ddwylaw ef a iachânt.
19 Mewn chwech o gyfyngderau efe a'th wared di; ïe, mewn saith ni chyffwrdd drwg â thi.
20 Mewn newyn efe a'th wared rhag marwolaeth: ac mewn rhyfel rhag nerth y cleddyf.
21 Rhag ffrewyll tafod y'th guddir; ac ni ofni rhag dinystr pan ddelo.
22 Mewn dinystr a newyn y chwerddi; ac ni ofni rhag bwystfilod y ddaear.
23 Canys â cherrig y maes *y byddi* mewn cynghrair; a bwystfil y maes hefyd fydd heddychol â thi.
24 A thi a gei wybod *y bydd* heddwch *yn* dy luest: a thi a ymweli â'th drigfa, ac ni phechi.
25 A chei wybod hefyd mai llïosog *fydd* dy had, a'th hiliogaeth megis gwellt y ddaear.
26 Ti a ddeui mewn henaint i'r bedd, fel y cyfyd ysgafn o ŷd yn ei amser.
27 Wele hyn, ni a'i chwiliasom, felly *y mae*: gwrando hynny, a gwybydd er dy fwyn dy hun.

PENNOD 6.

1 Job yn dangos nad heb achos y mae yn cwyno: 8 yn deisyf cael marw, ac felly yn sicr ganddo y caiff gysur; 14 yn argyhoeddi ei gyfeillion o angharedigrwydd.

A JOB a attebodd ac a ddywedodd,
2 O gan bwyso na phwysid fy ngofid, ac na chyd-godid fy nhrychineb mewn cloriannau!
3 Canys yn awr trymmach fyddai na thywod y môr: am hynny y pallodd geiriau gennyf.
4 O herwydd *y mae* saethau yr Hollalluog ynof, y rhai y mae eu gwenwyn yn yfed fy yspryd: dychrynfäau Duw a ymfyddinasant i'm herbyn.
5 A rua asyn gwyllt uwch ben glaswellt? a fref ŷch uwch ben ei borthiant?
6 A fwyttêir peth diflas heb halen? a oes blas ar wyn ŵy?
7 Y pethau a wrthododd fy enaid eu cyffwrdd, *sydd* megis bwyd gofidus i mi.
8 O na ddeuai fy nymuniad! ac na roddai Duw yr hyn yr ydwyf yn ei ddisgwyl!
9 Sef rhyngu bodd i Duw fy nryllio, a gollwng ei law yn rhydd, a'm torri ymaith.
10 Yna cysur a fyddai etto i mi, ïe, mi a ymgaledwn mewn gofid; nac arbeded, canys ni chelais ymadroddion y Sanctaidd.
11 Pa nerth *sydd* i mi i obeithio? a pha ddiwedd *fydd* i mi, fel yr estynwn fy hoedl?
12 Ai cryfder cerrig *yw* fy nghryfder? a *ydyw* fy nghnawd o bres?
13 Onid *ydyw* fy nghymmorth ynof fi? a fwriwyd doethineb yn llwyr oddi wrthyf?
14 I'r cystuddiol y byddai trugaredd oddi wrth ei gyfaill; ond efe a adawodd ofn yr Hollalluog.
15 Fy mrodyr a'*m* twyllasant megis afon: aethant heibio fel llifeiriant afonydd;
16 Y rhai a dduasant gan rew, ac yr ymguddiodd eira ynddynt:
17 Yr amser y cynhesant, hwy a dorrir ymaith: pan wresogo *yr hin*, hwy a ddarfyddant allan o'u lle.
18 Llwybrau eu ffordd hwy a giliant: hwy a ânt yn ddiddym, ac a gollir.
19 Byddinoedd Tema a edrychasant, minteioedd Seba a ddisgwyliasant am danynt.
20 Hwy a gywilyddiwyd, am iddynt obeithio; hwy a ddaethant hyd yno, ac a wladeiddiasant.
21 Canys yn awr nid ydych chwi ddim; chwi a welsoch *fy* nhaflu i lawr, ac a ofnasoch.
22 A ddywedais i, Dygwch i mi? neu, O'ch golud rhoddwch roddion drosof fi?
23 Neu, Gwaredwch fi o law y gelyn? neu, Rhyddhêwch fi o law y cedyrn?
24 Dysgwch fi, a myfi a dawaf: a gwnewch i mi ddeall *ym* mha beth y camgymmerais.
25 Mor gryfion ydyw geiriau uniondeb! ond pa beth a argyhoedda argyhoeddiad *un* o honoch chwi?
26 Ai argyhoeddi ymadroddion a amcenwch chwi â geiriau un dïobaith, y rhai *sydd* megis gwynt?
27 Chwi a ruthrwch hefyd am

ben yr amddifad, ac a gloddiwch *bwll* i'ch cyfaill.
28 Yn awr gan hynny byddwch foddlawn; edrychwch arnaf fi; canys *y mae* yn eglur i chwi os dywedaf gelwydd.
29 Dychwelwch, attolwg, na fydded anwiredd; ie, trowch etto, *y mae* fy nghyfiawnder yn hyn.
30 A oes anwiredd yn fy nhafod? oni ddeall taflod fy ngenau gam flas?

PENNOD 7.

1 *Job yn ei esgusodi ei hun am ddeisyfu angau;* 12 *yn cwyno anesmwythed yw arno,* 17 *ac mor wyladwrus ydyw Duw.*

ONID *oes* amser terfynedig i ddyn ar y ddaear? *onid yw* ei ddyddiau ef megis dyddiau gwas cyflog?
2 Megis y dyheua gwas am gysgod, ac y disgwyl cyflog-ddyn *wobr* ei waith:
3 Felly y gwnaethpwyd i mi feddiannu misoedd o oferedd, a nosweithiau blinion a osodwyd i mi.
4 Pan orweddwyf, y dywedaf, Pa bryd y codaf, ac yr ymedy y nos? canys caf ddigon o ymdroi hyd y cyfddydd.
5 Fy nghnawd a wisgodd bryfed a thom priddlyd: fy nghroen a agennodd, ac a aeth yn ffiaidd.
6 Fy nyddiau sydd gynt na gwennol gwehydd, ac a ddarfuant heb obaith.
7 Cofia mai gwynt *yw* fy hoedl: ni wêl fy llygad ddaioni mwyach.
8 Y llygad a'm gwelodd, ni'm gwel *mwyach:* dy lygaid *sydd* arnaf, ac nid *ydwyf.*
9 *Fel* y derfydd y cwmmwl, ac yr â ymaith: felly yr hwn sydd yn disgyn i'r bedd, ni ddaw i fyny *mwyach.*
10 Ni ddychwel mwy i'w dŷ: a'i le nid edwyn ef mwy.
11 Gan hynny ni warafunaf i'm genau; mi a lefaraf y'nghyfyngdra fy yspryd; myfi a gwynaf yn chwerwder fy enaid.
12 Ai môr *ydwyf,* neu forfil, gan dy fod yn gosod cadwriaeth arnaf?
13 Pan ddywedwyf, Fy ngwely a'm cysura, fy ngorweddfa a esmwythâ fy nghwynfan;
14 Yna y'm brawychi â breuddwydion, ac y'm dychryni â gweledigaethau:
15 Am hynny y dewisai fy enaid ymdagu, *a* marwolaeth yn fwy na'm hoedl.
16 Ffieiddiais *einioes,* ni fynnwn fyw byth: paid â mi, canys oferedd *ydyw* fy nyddiau.
17 Pa beth *ydyw* dyn, pan fawrhêit ef? a phan osodit dy feddwl arno?
18 Ac ymweled âg ef bob bore, *a*'i brofi ar bob moment?
19 Pa hyd *y byddi* heb gilio oddi wrthyf, ac na adewi fi yn llonydd tra llyngcwyf fy mhoeryn?
20 Myfi a bechais; beth a wnaf i ti, O geidwad dyn? paham y gosodaist fi yn nôd i ti, fel yr ydwyf yn faich i mi fy hun?
21 A phaham na faddeui fy nghamwedd, ac na fwri heibio fy anwiredd? canys yn awr yn y llwch y gorweddaf, a thi a'm ceisi yn fore, ond ni *byddaf.*

PENNOD 8.

1 *Bildad yn dangos gyfiawned ydyw Duw, gan ei fod yn gwneuthur â phawb yn ol ei weithred;* 8 *yn dangos o'r hen oesoedd gynt, mor sicr yw dinystr y rhagrithiwr:* 20 *yn bwrw at Job gyfiawned y gwna Diw â phawb.*

YNA Bildad y Suhiad a attebodd ac a ddywedodd,
2 Pa hyd y dywedi di hynny? ac *y bydd* geiriau dy enau *megis* gwynt cryf?
3 A ŵyra Duw farn? neu a ŵyra yr Hollalluog gyfiawnder?
4 Os dy feibion a bechasant yn ei erbyn ef; a bwrw o hono ef hwynt ymaith am eu camwedd;
5 Os tydi a fore-godi at Duw, ac a weddii ar yr Hollalluog;
6 Os pur ac uniawn *fyddi,* yn wir efe a ddeffry attat ti yr awrhon, ac a wna drigfa dy gyfiawnder yn llwyddiannus.
7 Er bod dy ddechreuad yn fychan, etto dy ddiwedd a gynnydda yn ddirfawr.
8 Oblegid gofyn, attolwg, i'r oes gynt, ac ymbarottoa i chwilio eu hynafiaid hwynt:
9 (Canys *er* doe yr ydym ni, ac ni wyddom *ddim,* o herwydd cysgod *yw* ein dyddiau ni ar y ddaear:)
10 Oni ddysgant hwy di? *ac oni* ddywedant i ti? ac *oni* ddygant ymadroddion allan o'u calon?

11 A gyfyd brwynen heb wlybaniaeth? a dyf hesg heb ddwfr?
12 Tra fyddo hi etto yn wyrddlas heb ei thorri, hi a wywa o flaen pob glaswelltyn.
13 Felly *y mae* llwybrau pawb a'r sydd yn gollwng Duw dros gôf, ac y derfydd am obaith y rhagrithiwr:
14 Yr hwn y torrir ymaith ei obaith; ac *fel* tŷ pryf coppyn *y bydd* ei hyder ef.
15 Efe a bwysa ar ei dŷ, ond ni saif; efe a ymeifl ynddo, ond ni phery.
16 Y mae efe yn îr o flaen yr haul, ac yn ei ardd y daw ei frig allan.
17 Plethir ei wraidd ef ynghylch y pentwr, *ac* efe a wêl le cerrig.
18 Os diwreiddia efe ef allan o'i le, efe a'i gwâd ef, *gan ddywedyd*, Ni'th welais.
19 Wele, dyma lawenydd ei ffordd ef: ac o'r ddaear y blagura eraill.
20 Wele, ni wrthyd Duw y perffaith, ac nid ymeifl efe yn llaw y rhai drygionus;
21 Oni lanwo efe dy enau di â chwerthin, a'th wefusau â gorfoledd.
22 A gwisgir dy gaseion di â chywilydd, ac ni bydd lluesty yr annuwiol.

PENNOD 9.

1 Job yn cydnabod cyfiawned yw Duw, ac yn danyos nad gwiw ymryson dri ef. 22 Nad wrth ei ystudd y mae barnu gwirioedeb dyn.

YNA Job a attebodd ac a ddywedodd,
2 Yn wir mi a wn mai felly *y mae:* canys pa fodd y cyfiawnhêir dyn gyd â Duw?
3 Os myn efe ymryson âg ef, ni all atteb iddo *am* un *peth* o fil.
4 Y *mae* efe yn ddoeth o galon, ac yn alluog o nerth: pwy a ymgaledodd yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd?
5 Yr hwn sydd yn symmud mynyddoedd, ac heb wybod iddynt: yr hwn sydd yn eu dymchwelyd hwynt yn ei ddigofaint.
6 Yr hwn sydd yn cynhyrfu y ddaear allan o'i lle, fel y cryno ei cholofnau hi.
7 Yr hwn a ddywed wrth yr haul, ac ni chyfyd: ac a selia ar y sêr.
8 Yr hwn yn unig sydd yn taenu y nefoedd, ac yn sathru ar donnau y môr.
9 Yr hwn sydd yn gwneuthur Arcturus, Orion, a Phleiades, ac ystafelloedd y dehau.
10 Yr hwn sydd yn gwneuthur pethau mawrion anchwiliadwy, a rhyfeddodau aneirif.
11 Wele, efe a à heibio i mi, ac nis gwelaf *ef;* ac efe a à rhagddo, ac ni chanfyddaf ef.
12 Wele, efe a ysglyfaetha, pwy a'i lluddia? pwy a ddywed wrtho, Pa beth yr wyt yn ei wneuthur?
13 Oni thry Duw ei ddigllonedd ymaith, dano ef y crymma cynnorthwywyr balchder.
14 Pa faint llai yr attebaf iddo ef, *ac y* gallaf ddewis fy ngeiriau i *ymresymmu* âg ef?
15 I'r hwn, pe bawn gyfiawn, nid attebwn, *eithr* ymbiliwn â'm barnwr.
16 Pe galwaswn, a phed attebasai efe i mi, ni chredwn y gwrandawai efe fy lleferydd.
17 Canys efe a'm dryllia â chorwynt, ac a amlhâ fy archollion yn ddiachos.
18 Ni ddioddef efe i mi gymmeryd fy anadl: ond efe a'm lleinw â chwerwder.
19 Os *soniaf* am gadernid, wele ef yn gadarn: ac os am farn, pwy a ddadleu drosof fi?
20 Os myfi a ymgyfiawnhâf, fy ngenau a'm barn yn euog: *os* perffaith *y dywedaf fy mod*, efe a'm barn yn gildyn.
21 *Pe byddwn* berffaith, *etto* nid adwaenwn fy enaid: ffiaidd *fyddai* gennyf fy einioes.
22 Dyma un *peth*, am hynny mi a'i dywedais: y mae efe yn difetha y perffaith a'r annuwiol.
23 Os lladd y ffrewyll yn ddisymmwth, efe a chwardd am ben profedigaeth y diniwed.
24 Y ddaear a roddwyd yn llaw yr annuwiol: efe a fwrw hûg dros wynebau ei barnwyr hi: onid ê, pa le *y mae, a* phwy *yw efe?*
25 A'm dyddiau i sydd gynt na rhedegwr: ffoant ymaith heb weled daioni.
26 Aethant heibio megis llongau

buain; megis yr eheda eryr at ymborth.
27 Os dywedaf, Gollyngaf fy nghŵyn dros gôf; mi a adawaf fy nhrymder, ac a ymgysuraf:
28 Yr wyf yn ofni fy holl ddoluriau: gwn na'm berni yn wirion.
29 *Os* euog fyddaf, paham yr ymflinaf yn ofer?
30 Os ymolchaf mewn dwfr eira, ac *os* glanhâf fy nwylaw yn lân;
31 Etto ti a'm trochi yn y pwll; a'm dillad a'm ffieiddiant.
32 Canys nid gŵr fel myfi *yw efe*, fel yr attebwn iddo, *ac* y delem ynghyd i farn.
33 Nid oes rhyngom ni ddyddiwr a all osod ei law arnom ein dau.
34 Tynned ymaith ei wïalen oddi arnaf; ac na ddychryned ei ofn ef fyfi:
35 Yna y dywedwn, ac nid ofnwn ef: ond nid felly y mae gyd â myfi.

PENNOD 10.

1 *Job yn cymmeryd rhyddid i achwyn, ac yn ymliw â Duw o achos ei gystudd,* 18 *yn cwyno ei fod yn fyw, ac yn erfyn cael ychydig esmwythdra cyn ei farw.*

Y MAE fy enaid yn blino ar fy einioes: arnaf fy hun y gadawaf fy nghŵyn; ac yn chwerwder fy enaid y llefaraf.
2 Dywedaf wrth Duw, Na farn fi yn euog; gwna i mi wybod paham yr ymrysoni â mi.
3 Ai da i ti orthrymmu, fel y dïystyrit waith dy ddwylaw, ac y llewyrchit gynghor yr annuwiol?
4 Ai llygaid o gnawd sydd i ti? ai fel y gwel dyn y gweli di?
5 *A ydyw* dy ddyddiau di fel dyddiau dyn? *a ydyw* dy flynyddoedd di fel dyddiau gŵr,
6 Pan geisi fy anwiredd, a phan ymofyni am fy mhechod?
7 Ti a wyddost nad ydwyf annuwiol; ac nid *oes* a waredo o'th law di.
8 Dy ddwylaw di a'm gweithiasant, ac a'm cyd-luniasant o amgylch; etto fy nifetha yr wyt.
9 Cofia, attolwg, mai fel clai y gwnaethost fi; ac a ddygi di fi i'r pridd drachefn?
10 Oni thywelltaist fi fel llaeth; ac oni cheulaist fi fel caws?
11 Ti a'm gwisgaist i â chroen, ac â chnawd; ti a'm diffynnaist i âg esgyrn ac â gïau.
12 Bywyd a thrugaredd a ddarperaist i mi, a'th ymgeledd a gadwodd fy ysprydd.
13 A'r *pethau* hyn a guddiaist ti yn dy galon: gwn *fod* hyn gyd â thi.
14 Os pechaf, ti a'm gwyli, ac ni'm glanhêi oddi wrth fy anwiredd.
15 Os ydwyf annuwiol, gwae fi; ac *os* cyfiawn ydwyf, *er hynny* ni chodaf fy mhen: *yr ydwyf* yn llawn o warthrudd, am hynny gwel fy nghystudd;
16 Canys cynnyddu y mae: fy hela yr ydwyt fel llew creulawn: er hynny drachefn ti a wnei yn rhyfedd â mi.
17 Yr wyt ti yn adnewyddu dy dystion i'm herbyn, ac yn amlhâu dy ddigofaint wrthyf; cyfnewidiau a rhyfel *sydd* i'm herbyn.
18 Paham gan hynny y dygaist fi allan o'r groth? *O na* buaswn farw, ac na'm gwelsai llygad!
19 Mi a fuaswn megis pe na buaswn, a myfi a ddygasid o'r bru i'r bedd.
20 Onid ychydig *yw* fy nyddiau? paid *gan hynny*, gâd i'm lonydd, fel yr ymgysurwyf ychydig;
21 Cyn myned o honof lle ni ddychwelwyf, i dir tywyllwch a chysgod angau;
22 Tir tywyllwch fel y fagddu, *a* chysgod angau, a heb drefn; *lle y mae* y goleuni fel y tywyllwch.

PENNOD 11.

1 *Sophar yn ceryddu Job am ei gyflawnhâu ei hun,* 5 *ac yn dangos mor anchwiliadwy ydyw doethineb Duw.* 13 *Sicred yw bendith edifeirwch.*

A SOPHAR y Naamathiad a attebodd ac a ddywedodd,
2 Oni attebir amlder geiriau? ac a gyfiawnhêir gŵr siaradus?
3 Ai dy gelwyddau a wna i wŷr dewi? a phan watwarech, oni bydd a'th waradwyddo?
4 Canys dywedaist, Pur *ydyw* fy nysgeidiaeth, a glân ydwyf yn dy olwg di.
5 Ond, O na lefarai Duw, ac *nad* agorai ei wefusau yn dy erbyn,
6 A mynegi i ti ddirgeledigaethau doethineb, eu bod yn ddau cymmaint a'r hyn sydd! Cydnebydd

gan hynny i DDUW ofyn gennyt lai
nag a haeddai dy anwiredd.
7 A elli di wrth chwilio gael gaf-
ael ar DDUW? a elli di gael yr
Hollalluog hyd berffeithrwydd?
8 Cyfuwch a'r nefoedd *ydyw*, beth
a wnei di? dyfnach nag uffern *yw*,
beth a elli di ei wybod?
9 *Mae* ei fesur ef yn hŵy na'r
ddaear, ac yn llettach na'r môr.
10 Os tyr efe ymaith, ac os carch-
ara: ös casgl ynghyd, pwy a'i
rhwystra ef?
11 Canys efe a edwyn ofer ddyn-
ion, ac a wêl anwiredd; onid ys-
tyria efe gan hynny?
12 Dyn gwag er hynny a gymmer
arno fod yn ddoeth; er geni dyn
fel llwdn asen wyllt.
13 Os tydi a barottôi dy galon, ac
a estyni dy ddwylaw atto ef;
14 Od *oes* drygioni yn dy law,
bwrw ef ymaith ym mhell, ac na
ddïoddef i anwiredd drigo yn dy
luestai:
15 Canys yna y codi dy wyneb yn
ddifrychau; ïe, byddi safadwy, ac
nid ofni:
16 Oblegid ti a ollyngi *dy* ofid
dros gôf: fel dyfroedd *y rhai* a
aethant heibio y cofi *ef*.
17 *Dy* oedran hefyd a fydd dis-
gleiriach na hanner dydd; llew-
yrchi, *a* byddi fel y bore-ddydd.
18 Hyderus fyddi hefyd, o her-
wydd bod gobaith: ïe, ti a gloddi,
ac a orweddi mewn dïogelwch.
19 Ti a orweddi hefyd, ac ni *bydd*
a'*th* ddychryno, a llawer a ymbil-
iant â'th wyneb.
20 Ond llygaid yr annuwiolion a
ddiffygiant, metha ganddynt ffoi,
a'u gobaith *fydd fel* ymadawiad yr
enaid.

PENNOD 12.

1 *Job yn ei amddiffyn ei hun yn erbyn ei gyf-
eillion oedd yn ei geryddu; 7 yn cydnabod fod
Duw yn hollalluog.*

A JOB a attebodd ac a ddy-
wedodd,
2 Dïau mai chwychwi *sydd* bobl;
a chyd â chwi y bydd marw doeth-
ineb.
3 Eithr *y mae* gennyf fi ddeall fel
chwithau, nid ydwyf fi waeth na
chwithau; a phwy ni ŵyr y fath
bethau a hyn?
4 Yr ydwyf *fel* un a watwarid
gan ei gymmydog, yr hwn a eilw ar
DDUW, ac efe a'i hettyb: gwatwar-
gerdd *yw* y cyfiawn perffaith.
5 Lamp ddïystyr ym meddwl y
llwyddiannus, *yw* yr hwn sydd bar-
od i lithro â'i draed.
6 Llwyddiannus yw lluestai ys-
peilwyr, ac y mae dïogelwch i'r rhai
sydd yn cyffroi DUW, y rhai y cyf-
oethoga DUW eu dwylaw.
7 Ond gofyn yn awr i'r anifeiliaid,
a hwy a'th ddysgant; ac i ehediaid
yr awyr, a hwy a fynegant i ti.
8 Neu dywed wrth y ddaear, a hi
a'th ddysg; a physgod y môr a hys-
bysant i ti.
9 Pwy ni ŵyr yn y rhai hyn oll,
mai llaw yr ARGLWYDD a wnaeth
hyn?
10 Yr hwn *y mae* einioes pob
peth byw yn ei law, ac anadl pob
math ar ddyn.
11 Onid y glust a farna ymad-
roddion? a'r genau a archwaetha
ei fwyd?
12 Doethineb *sydd* mewn henur-
iaid; a deall mewn hir ddyddiau.
13 Gyd âg ef *y mae* doethineb
a chadernid; cynghor a deall sydd
ganddo.
14 Wele, efe a ddistrywia, ac nid
adeiledir: efe a gau ar ŵr, ac nid
agorir arno.
15 Wele, efe a attal y dyfroedd,
a hwy a sychant: efe a'u denfyn
hwynt, a hwy a ddadymchwelant
y ddaear.
16 Gyd âg ef *y mae* nerth a
doethineb: efe biau y twylledig,
a'r twyllodrus.
17 Efe sydd yn gwneuthur i gyng-
horiaid fyned yn anrhaith; ac efe
a ynfyda farnwyr.
18 Efe sydd yn dattod rhwym
brenhinoedd, ac yn rhwymo gwreg-
ys am eu llwynau hwynt.
19 Efe sydd yn gwneuthur i dy-
wysogion fyned yn anrhaith; ac a
blyga y rhai cedyrn.
20 Efe sydd yn dwyn ymaith
ymadrodd y ffyddlawn; ac yn dwyn
synwyr y rhai hen.
21 Efe sydd yn tywallt dïystyrwch
ar dywysogion; ac yn gwanhâu
nerth y rhai cryfion.
22 Efe sydd yn datguddio *pethau*

dyfnion allan o dywyllwch; ac yn dwyn cysgod angau allan i oleuni.

23 Efe sydd yn amlhâu y cenhedloedd, ac yn eu distrywio hwynt: efe sydd yn ehengi ar y cenhedloedd, ac efe a'u dwg hwynt *i gyfyngdra.*

24 Efe sydd yn dwyn calon pennaethiaid pobl y ddaear; ac efe a wna iddynt grwydro mewn anialwch heb ffordd.

25 Hwy a balfalant yn y tywyllwch heb oleuni; ac efe a wna iddynt hwy gyfeiliorni fel meddwyn.

PENNOD 13.

1 *Job yn ceryddwrth ei gyfeillion am eu bod yn diweddar; 14 yn nesaf ei ymddiriedaeth yn Nuw, 20 ac yn dymuno ceisiad gerbyd ei bechodau, ac amcan Duw wrth ei cystuddio ef.*

WELE, fy llygad a welodd *hyn* oll: fy nghlust a'i clywodd ac a'i dealloedd.

2 Mi a wn yn gystal a chwithau: nid ydwyf waeth na chwithau.

3 Yn wir myfi a lefaraf wrth yr Hollalluog, ac yr ydwyf yn chwennychu ymresymmu â Duw.

4 Ond rhai yn asio celwydd *ydych* chwi: meddygon diddym *ydych* chwi oll.

5 O gan dewi na thawech: a *hynny* a fyddai i chwi yn ddoethineb.

6 Clywch, attolwg, fy rheswm, a gwrandêwch ar ddadl fy ngwefusau.

7 A ddywedwch chwi anwiredd dros Duw? ac a ddywedwch chwi dwyll er ei fwyn ef?

8 A ddderbyniwch chwi ei wyneb ef? a ymrysonwch chwi dros Duw?

9 Ai da *fydd hyn* pan chwilio efe chwi? a dwyllwch chwi ef fel twyllo dyn?

10 Gan geryddu efe a'ch ceryddu chwi, os derbyniwch wyneb yn ddirgel.

11 Oni ddychryna ei ardderchôwgrwydd ef chwi? ac oni syrth ei arswyd ef arnoch?

12 Cyffelyb i ludw *ydyw* eich coffadwriaeth chwi; a'ch cyrph i gyrph o glai.

13 Tewch, gadêwch lonydd, fel y llefarwyf finnau; a deued arnaf yr hyn *a ddelo.*

14 Paham y cymmeraf fy nghnawd â'm dannedd? ac y gosodaf fy einioes yn fy llaw?

15 Pe lladdai efe fi, etto mi a obeithiaf ynddo ef: er hynny fy ffyrdd a ddiffynnaf ger ei fron ef.

16 Hefyd efe *fydd* iachawdwriaeth i mi: canys ni ddaw rhagrithiwr yn ei wydd ef.

17 Gan wrandaw gwrandêwch fy ymadrodd, ac a fynegwyf, â'ch clustiau.

18 Wele yn awr, trefnais *fy* achos; gwn y'm cyfiawnhêir.

19 Pwy ydyw yr *hwn* a ymddadleu â mi? canys yn awr *os* tawaf, mi a drengaf.

20 Ond dau *beth* na wna i mi: yna nid ymguddiaf rhagot.

21 Pellhâ dy law oddi arnaf: ac na ddychryned dy ddychryn fi.

22 Yna galw, a myfi a attebaf: neu myfi a lefaraf, ac atteb di fi.

23 Pa faint o gamweddau ac o bechodau *sydd* ynof? pâr i mi wybod fy nghamwedd a'm pechod.

24 Paham y cuddi dy wyneb, ac y cymmeri fi yn elyn i ti?

25 A ddrylli di ddeilen ysgwydedig? a ymlidi di soflyn sych?

26 Canys yr wyt ti yn ysgrifenu pethau chwerwon yn fy erbyn; ac yn gwneuthur i mi feddiannu camweddau fy ieuengctid.

27 Ac yr ydwyt ti yn gosod fy nhraed mewn cyffion, ac yn gwylied ar fy holl lwybrau; *ac* yn nodi gwadnau fy nhraed.

28 Ac efe, megis pydrni, a heneiddia, fel dilledyn yr hwn a ysa gwyfyn.

PENNOD 14.

1 *Job yn ymdêl â Duw am ei ffafr, o herwydd byrred oes dyn, a sicred marwolaeth. 7 Er nas gellir cael einioes, wedi ei choeli unwaith, etto y naw efe yn disgwyl am gael ei newidio. 16 Trury bechad y naw y creadur dan lyngrediaeth.*

DYN a aned o wraig *sydd* fyr o ddyddiau, a llawn o helbul.

2 Fel blodeuyn y daw allan, ac y torrir ef ymaith; ac efe a gilia fel cysgod, ac ni saif.

3 A agori di dy lygaid ar y fath yma? ac a ddygi di fi i farn gyd â thi?

4 Pwy a ddyry *beth* glân allan o *beth* afian? neb.

5 Gan *fod* ei ddyddiau ef wedi eu rhag-derfynu, rhifedi ei fisoedd

ef gyd â thi, a gosod o honot ei derfynau, fel nad êl drostynt:
6 Tro oddi wrtho, fel y gorphwyso, hyd oni orpheno, fel gwas cyflog, ei ddiwrnod.
7 Canys y mae gobaith o bren, er ei dorri, y blagura efe etto, ac na phaid ei flagur ef *â thyfu.*
8 Er heneiddio ei wreiddyn ef yn y ddaear, a marweiddio ei foncyff ef yn y pridd;
9 Efe a flagura oddi wrth arogl dyfroedd, ac a fwrw ganghennau fel planhigyn.
10 Ond gŵr a fydd marw, ac a dorrir ymaith; a dyn a drenga, a pha le *y mae?*
11 *Fel* y mae dyfroedd yn pallu o'r môr, a'r afon yn myned yn ddïysbydd, ac yn sychu:
12 Felly gŵr a orwedd, ac ni chyfyd hyd oni *byddo* heb nefoedd; ni ddihunant, ac ni ddeffroant o'u cwsg.
13 O na chuddit fi yn y bedd! *na'm* cedwit yn ddirgel, nes troi dy lid ymaith! *na* osodit amser noded i mi, a'm cofio!
14 Os bydd gŵr marw, a fydd efe byw *drachefn?* disgwyliaf holl ddyddiau fy milwriaeth, hyd oni ddelo fy nghyfnewidiad.
15 Gelwi, a myfi a'th attebaf; chwennychi waith dy ddwylaw.
16 Canys yr awr hon y rhifi fy nghamrau: onid wyt yn gwylied ar fy mhechod?
17 Fy nghamwedd a selied mewn côd; a thi a wnïaist i fyny fy anwiredd.
18 Ac yn wir, y mynydd a syrthio a ddiflanna; a'r graig a symmudir o'i lle.
19 Dyfroedd a dreuliant y cerrig; yr wyt yn golchi ymaith y pethau sydd yn tyfu o bridd y ddaear, ac yn gwneuthur i obaith dyn golli.
20 Yr wyt yn ei orchfygu ef yn dragywydd, fel yr elo ymaith: a chan newidio ei wyneb ef, yr wyt yn ei ddanfon ef i ffordd.
21 Ei feibion ef a ddaw i anrhydedd, ac nis gwybydd efe: a hwy a ostyngir, ac ni ŵyr efe oddi wrthynt:
22 Ond ei gnawd arno a ddoluria, a'i enaid ynddo a alara.

PENNOD 15.

1 *Eliphas yn ceryddu Job am ei annuwioldeb yn ei gyfiawnhau ei hun; 17 ac yn profi, o bennau yr hen bobl, mor anesmwyth yw yr annuwiol.*

YNA Eliphas y Temaniad a attebodd ac a ddywedodd,
2 A adrodd *gŵr* doeth wybodaeth o wynt? ac a leinw efe ei fol â'r dwyreinwynt?
3 A ymresymma efe â gair ni fuddia? neu âg ymadroddion *y rhai* ni wna efe lesâd â hwynt?
4 Yn ddïau ti a dorraist ymaith ofn: yr ydwyt yn attal gweddi ger bron Duw.
5 Canys dy enau a draetha dy anwiredd; ac yr wyt yn dewis tafod y cyfrwys.
6 Dy enau di sydd yn dy fwrw yn euog, ac nid myfi: a'th wefusau sydd yn tystiolaethu yn dy erbyn.
7 A aned tydi yn gyntaf dyn? a lunied tydi o flaen y bryniau?
8 A glywaist ti gyfrinach Duw? ac a atteli di ddoethineb gyd â thi dy hun?
9 Beth a wyddost ti a'r nas gwyddom ni? *beth* a ddealli di, heb fod hynny hefyd gennym ninnau?
10 Y *mae* yn ein mysg ni y penllwyd, a'r oedrannus hefyd; hŷn o oedran na'th dad di.
11 Ai bychan gennyt ti ddiddanwch oddi Duw? a oes dim dirgel gyd â thi?
12 Pa beth sydd yn dwyn dy feddwl oddi arnat? ac ar ba beth yr amneidia dy lygaid,
13 Gan i ti droi dy feddwl yn erbyn Duw, a gollwng y *fath* eiriau allan o'th enau?
14 Pa beth *yw* dyn, i fod yn lân? a'r hwn a aned o wraig, i fod yn gyfiawn?
15 Wele, ni roddes efe ymddiried yn ei saint; a'r nefoedd nid ydynt lân yn ei olwg ef.
16 Pa faint mwy ffiaidd a drewedig *ydyw* dyn, yr hwn sydd yn yfed anwiredd fel dwfr?
17 Dangosaf i ti, gwrando arnaf; a'r hyn a welais a fynegaf.
18 Yr hyn a fynegodd gwŷr doethion oddi wrth eu tadau, ac nis celasant:
19 I'r rhai yn unig y rhoddwyd y

ddaear: ac ni ddaeth alltud yn eu plith hwy.
20 Holl ddyddiau yr annuwiol y bydd efe yn ymofidio: a rhifedi y blynyddoedd a guddiwyd oddi wrth y traws.
21 Trwst ofnadwy *sydd* yn ei glustiau ef: mewn heddwch y daw y dinystrydd arno.
22 Ni chred efe y dychwel allan o dywyllwch: ac y mae y cleddyf yn gwylied arno.
23 Y mae efe yn crwydro am fara, pa le *y byddo:* efe a ŵyr fod dydd tywyllwch yn barod wrth ei law.
24 Cystudd a chyfyngdra a'i brawycha ef; *hwy* a'i gorchfygant, fel brenhin parod i ryfel.
25 Canys efe a estynodd ei law yn erbyn Duw; ac yn erbyn yr Holl-alluog yr ymnerthodd.
26 Efe a rêd yn y gwddf iddo ef, trwy dewdwr torrau ei dariannau:
27 Canys efe a dôdd ei wyneb â'i frasder: ac a wnaeth dyrch *o floneg* ar ei denewynau.
28 A thrigo y mae mewn dinasoedd wedi eu dinystrio, *a* thai anghyfannedd, y rhai sydd barod *i fod* yn garneddau.
29 Ni chyfoethoga efe, ni phery ei olud ef chwaith; ac nid estyn efe eu perffeithrwydd hwy ar y ddaear.
30 Nid ymedy efe allan o dywyllwch, y fflam a wywa ei frig ef; ac efe a ymedy trwy anadl ei enau ef.
31 *Yr hwn* a dwylled, nac ymddirieded mewn oferedd: canys oferedd fydd ei wobr ef.
32 Efe a dorrir ymaith cyn ei ddydd; a'i gangen ni lasa.
33 Efe a ddihidla ei rawn anaddfed fel gwinwydden; ac a fwrw ei flodeuyn fel olew-wydden.
34 Canys cynnulleidfa rhagrithwyr *fydd* unig: a thân a ysa luestai gwobrwyr.
35 Y maent yn ymddŵyn blinder, ac yn esgor ar wagedd; a'u bol sydd yn darpar twyll.

PENNOD 16.

1 Job yn beio ar ei gyfeillion, eu hannhrugarocced; 7 yn dangos mor dostur yw ei gyflwr 17 ac yn amddiffyn ei ddiniweidrwydd.

A JOB a attebodd ac a ddywedodd,

2 Clywais lawer o'r fath hyn: cysurwyr gofidus *ydych* chwi oll.
3 Oni *cheir* diwedd ar eiriau ofer? neu pa beth sydd yn dy gryfhâu di i atteb?
4 Mi a fedrwn ddywedyd fel chwithau: pe byddai eich enaid chwi yn lle fy enaid i, medrwn bentyrru geiriau i'ch erbyn, ac ysgwyd fy mhen arnoch.
5 Ond mi a'ch cryfhâwn chwi â'm genau; a symmudiad fy ngwefusau a esmwythâi *eich gofid.*
6 Os llefaraf fi, nid esmwythâ fy nolur; ac *os* peidiaf, ai llai fy ngofid?
7 Ond yn awr efe a'm blinodd i; anrheithiaist fy holl gynnulleidfa:
8 A chroen-grychaist fi, a hynny sydd dystiolaeth: a'm culni yn codi ynof, a dystiolaetha yn fy wyneb.
9 Yn ei ddigllondeb *y'm* rhwyga yr hwn a'm casâ: efe a ysgyrnyga ddannedd arnaf; fy ngwrthwynebwr a flaenllymmodd ei lygaid yn fy erbyn.
10 Hwy a ledasant eu safnau arnaf; tarawsant fy nghernau yn ddirmygus; ymgasglasant ynghyd yn fy erbyn.
11 Duw a'm rhoddes i'r anwir; ac a'm trodd i ddwylaw yr annuwiolion.
12 Yr oeddwn yn esmwyth; ond efe a'm drylliodd, ac a ymaflodd yn fy ngwddf, ac a'm drylliodd yn chwilfriw, ac a'm cododd yn nôd iddo ei hun.
13 Ei saethyddion ef sydd yn fy amgylchu; y mae efe yn hollti fy arennau, ac nid ydyw yn arbed; y mae yn tywallt fy mustl ar y ddaear.
14 Y mae yn fy rhwygo â rhwygiad ar rwygiad: y mae efe yn rhedeg arnaf fel cawr.
15 Gwnïais sachlen ar fy nghroen, a halogais fy nghorn yn y llwch.
16 Fy wyneb sydd fudr gan wylo, a chysgod marwolaeth *sydd* ar fy amrantau:
17 Er nad *oes* gamwedd yn fy nwylaw; a *bod* fy ngweddi yn bur.
18 O ddaearen, na orchuddia fy ngwaed, ac na fydded lle i'm gwaedd.
19 Wele hefyd yn awr fy nhyst

yn y nefoedd; a'm tystiolaeth yn yr uchelder.

20 Fy nghyfeillion sydd yn fy ngwawdio: fy llygad a ddiferodd *ddagrau* wrth DDUW.

21 *O na* chai un ymddadleu â Duw dros ddyn, fel mab dyn dros ei gymmydog!

22 Canys *pan ddêl* ychydig flynyddoedd, yna mi a rodiaf lwybr *ar hyd yr hwn* ni ddychwelaf.

PENNOD 17.

1 *Job yn appelio oddi wrth ddynion at Dduw.* 6 *Y gall annhrugaredd dynion wrth y cystuddiol, beri i'r duwiol synnu: ond nas gall beri iddynt ddigalonni.* 11 *Nad meiwn bywyd, ond meiwn marwolaeth, y mae ei obaith ef.*

FY anadl a lygrwyd, fy nyddiau a ddiffoddwyd, beddau *sydd barod* i mi.

2 Onid *oes* watwarwyr gyd â mi? ac onid yw fy llygad yn aros yn eu chwerwedd hwynt?

3 Dyro i lawr yn awr, dyro i mi feichiau gyd â thi: pwy *ydyw* efe a dery ei law yn fy llaw i?

4 Canys cuddiaist eu calon hwynt oddi wrth ddeall: am hynny ni ddyrchefi di *hwynt.*

5 Yr hwn a ddywed weniaith i'*w* gyfeillion, llygaid ei feibion ef a ballant.

6 Yn ddïau efe a'm gosododd yn ddïareb i'r bobl, ac o'r blaen yr oeddwn megis tympan iddynt.

7 Am hynny y tywyllodd fy llygad gan ddigllonedd, ac *y mae* fy aelodau oll fel cysgod.

8 Y rhai uniawn a synnant am hyn; a'r diniwed a ymgyfyd yn erbyn y rhagrithiwr.

9 Y cyfiawn hefyd a ddeil ei ffordd; a'r glân ei ddwylaw a chwanega gryfder.

10 Ond chwi oll, dychwelwch, a deuwch yn awr: am na chaf fi *ŵr* doeth yn eich plith chwi.

11 Fy nyddiau a aeth heibio, fy amcanion a dynned ymaith; *sef* meddyliau fy nghalon.

12 Gwnant y nos yn ddydd: byr *yw* y goleuni, o herwydd tywyllwch.

13 Os disgwyliaf, y bedd *sydd* dŷ i mi: mewn tywyllwch y cyweiriais fy ngwely.

14 Gelwais ar y pwll, Tydi *yw* fy nhad: ar y pryf, Fy mam a'm chwaer *wyt.*

15 A pha le yn awr *y mae* fy ngobaith? pwy hefyd a genfydd fy ngobaith?

16 Disgynant i farrau y pwll, pan *fyddo ein* cyd-orphwysfa yn y llwch.

PENNOD 18.

1 *Bildad yn beio ar Job, am et rufyg a'i anwoddefgarwch.* 5 *Trueni yr annuwiol.*

ABILDAD y Suhiad a attebodd ac a ddywedodd,

2 Pa *bryd* y derfydd eich ymadrodd? ystyriwch, wedi hynny ninnau a lefarwn.

3 Paham y cyfrifed nyni fel anifeiliaid? *ac* yr ydym yn wael yn eich golwg chwi?

4 O yr hwn sydd yn rhwygo ei enaid yn ei ddigllondeb, ai er dy fwyn di y gadewir y ddaear? neu y symmudir y graig allan o'i lle?

5 Ië, goleuni yr annuwiolion a ddiffoddir, a gwreichionen ei dân ef ni lewyrcha.

6 Goleuni a dywylla yn ei luesty ef; a'i lusern a ddiffydd gyd âg ef.

7 Camrau ei gryfder ef a gyfyngir, a'i gynghor ei hun a'i bwrw ef i lawr.

8 Canys efe a deflir i'r rhwyd erbyn ei draed, ac ar faglau y rhodia efe.

9 Magl a ymeifl yn ei sawdl *ef, a'r* gwilliad fydd drech nag ef.

10 Hoenyn a guddied iddo ef yn y ddaear, a magl iddo ar y llwybr.

11 Braw a'i brawycha ef o amgylch, ac a'i gyr i *gymmeryd* ei draed.

12 Ei gryfder fydd newynllyd, a dinystr *fydd* parod wrth ei ystlys.

13 Efe a ysa gryfder ei groen ef: cyntaf-anedig angau a fwytty ei gryfder ef.

14 Ei hyder ef a dynnir allan o'i luesty: a *hynny* a'i harwain ef at frenhin dychryniadau.

15 Efe a drig yn ei luest ef, am nad eiddo ef *ydyw:* brwmstan a wasgerir ar ei drigfa ef.

16 Ei wraidd a sychant oddi tanodd, a'i frig a dorrir oddi arnodd.

17 Ei goffadwriaeth a gollir o'r ddaear, ac ni bydd enw iddo ar wyneb yr heol.

18 Efe a yrrir allan o cleuni i dywyllwch: efe a ymlidir allan o'r byd.
19 Ni *bydd* iddo fab nac wyr ym mysg ei bobl; nac un wedi ei adael yn ei drigfannau ef.
20 Y rhai a ddêl ar *ei* ol, a synna arnynt o herwydd ei ddydd ef; a'r rhai o'r blaen a gawsant fraw.
21 Yn wir, dyma drigleoedd yr anwir: a dyma le *y dyn* nid edwyn Duw.

PENNOD 19.

1 *Job yn cwynno greulonedd yno ei gyfeillion: ac yn dangos iôn ymddiriedaeth ynddo ef. 23 Dymuno i bortho ei creulondeb hwy. 25 Yn ymbil am dosturi. 28 ac yn credu yr adgyfodiad.*

A JOB a attebodd ac a ddywedodd,
2 Pa hyd y cystuddiwch fy enaid? ac y'm dryllîwch â geiriau?
3 Dengwaith bellach y'm gwaradwyddasoch; ac nid cywilydd gennych ymgaledu i'm herbyn.
4 Hefyd pe *byddai* wir wneuthur o honof î yn amryfus; gyd â mi y trig fy amryfuseâd.
5 Yn wir os ymfawrygwch yn fy erbyn, a dadleu fy ngwaradwydd i'm herbyn:
6 Gwybyddwch yn awr mai Duw a'm dymchwelodd i, ac a'm hamgylchodd â'i rwyd.
7 Wele, llefaf rhag trawsder, ond ni'm hattebir: gwaeddaf, ond nid *oes* farn.
8 Efe a gaudd fy ffordd, fel nad elwyf drosodd; y mae efe yn gosod tywyllwch ar fy llwybrau.
9 Efe a ddîfosgodd fy ngogoniant oddi am danaf; ac a ddygodd ymaith goron fy mhen.
10 Y mae efe yn fy nistrywio oddi amgylch, ac yr ydwyf yn myned ymaith; ac efe a symmudodd fy ngobaith fel pren.
11 Gwnaeth hefyd i'w ddigofaint gynneu yn fy erbyn; ac a'm cyfrifodd iddo fel *un o'i* elynion.
12 Ei dorfoedd sydd yn dyfod ynghyd, ac yn palmantu eu ffyrdd yn fy erbyn, ac yn gwersyllu o amgylch fy mhabell.
13 Efe a bellhaodd fy mrodyr oddi wrthyf, a'r rhai oedd yn fy adnabod hefyd a ymddieithrasant oddi wrthyf.
14 Fy nghyfnesaf a ballasant, a'r rhai oedd o'm cydnabod a'm hanghofiasant.
15 Y rhai oedd yn trigo yn fy nhŷ, a'm morwynion, sydd yn fy nghyfrif yn ddieithr: alltud ydwyf yn eu golwg.
16 Gelwais ar fy ngwasanaethwr, ac nid attebodd; ymbiliais âg ef a'm genau.
17 Dieithr oedd fy anadl i'm gwraig, er ymbil o honof *â hi er mwyn* fy mhlant o'm corph.
18 Plant hefyd a'm diystyrent: cyfodais, a dywedasant i'm herbyn.
19 Fy holl gyfrinachwyr sydd yn fy ffieiddio: a'r rhai a gerais a droisant yn fy erbyn.
20 Fy esgyrn a lynodd wrth fy nghroen, ac wrth fy nghnawd; a chroen fy nannedd y diengais.
21 Trugarhêwch wrthyf, trugarhêwch wrthyf, fy nghyfeillion; canys llaw Duw a gyffyrddodd â mi.
22 Paham yr ydych chwi yn fy erlid i fel Duw, heb gael digon ar fy nghnawd?
23 O nad ysgrifenid fy ngeiriau yn awr! O na argrephid hwynt mewn llyfr!
24 O nad ysgrifenid hwynt yn y graig dros byth â phin o haiarn a phlwm!
25 Canys myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear.
26 Ac *er* ar ol fy nghroen *i bryfed* ddifetha y *corph* hwn, etto caf weled Duw yn fy nghnawd:
27 Yr hwn a gaf fi i mi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall; *er* i'm harennau ddarfod ynof.
28 Eithr chwi a ddylech ddywedyd, Paham yr erlidiwn ef? canys gwreiddyn y matter a gaed ynof.
29 Ofnwch am danoch rhag y cleddyf: canys *y mae* digofaint *yn dwyn* cospedigaethau y cleddyf, fel y gwybyddoch *fod* barn.

PENNOD 20.

Sophar yn dangos cyflwr a rhan yr annuwiol.

YNA Sophar y Naamathiad a attebodd ac a ddywedodd,
2 Am hynny y mae fy meddyliau

yn peri i mi atteb: ac am *hyn* y mae brys arnaf.

3 Yr ydwyf yn clywed cerydd gwaradwyddus i mi; ac y mae yspryd fy neall yn peri i mi atteb.

4 Oni wyddost ti hyn erioed, er pan osodwyd dyn ar y ddaear,

5 Mai byr *yw* gorfoledd yr annuwiolion, a llawenydd y rhagrithwyr dros funud awr?

6 Pe dyrchafai ei odidowgrwydd ef i'r nefoedd, a chyrhaeddyd o'i ben ef hyd y cymmylau;

7 Efe a gollir yn dragywydd fel ei dom: y rhai a'i gwelsant a ddywedant, Pa le *y mae* efe?

8 Efe a eheda ymaith megis breuddwyd, ac ni cheir ef: ac efe a ymlidir fel gweledigaeth nos.

9 Y llygad *a*'i gwelodd, ni *wêl ef* mwy: a'i le ni chenfydd mwy o hono.

10 Ei feibion a gais foddloni y tlodion: a'i ddwylaw a roddant adref eu golud hwynt.

11 Ei esgyrn sydd yn llawn *o bechod* ei ieuengctid, yr hwn a orwedd gyd âg ef yn y pridd.

12 Er bod drygioni yn felus yn ei enau ef; *er* iddo ei gau dan ei dafod;

13 *Er* iddo ei arbed, ac heb ei adaw; eithr ei attal o fewn taflod ei enau:

14 Ei fwyd a dry yn ei ymysgaroedd: bustl aspiaid *ydyw* o'i fewn ef.

15 Efe a lyngcodd gyfoeth, ac efe a'i chwyda: Duw a'i tyn allan o'i fol ef.

16 Efe a sugn wenwyn aspiaid: tafod gwiber a'i lladd ef.

17 Ni chaiff weled afonydd, ffryd-iau, *ac* aberoedd o fêl ac ymenyn.

18 Y mae efe yn rhoddi adref yr hyn a lafuriodd am dano, ac nis llwngc: yn ol *ei* olud y rhydd adref, ac heb gael llawenydd *o hono.*

19 Am iddo ddryllio, *a* gadaw y tlodion; ysglyfaethu tŷ nid adeiladodd:

20 Dïau na chaiff lonydd yn ei fol, na weddill o'r hyn a ddymunodd.

21 Ni *bydd* gweddill o'i fwyd ef; am hynny ni ddisgwyl neb am ei ddâ ef.

22 Pan gyflawner ei ddigonoldeb, cyfyng *fydd* arno; llaw pob *dyn* blin a ddaw arno.

23 *Pan* fyddo efe ar fedr llenwi ei fol, Duw a ddenfyn arno angerdd ei ddigofaint; ac a'*i* gwlawia *hi* arno ef ym mysg ei fwyd.

24 Efe a ffy oddi wrth arfau haiarn; *a*'r bwa dur a'i trywana ef.

25 Efe a dynnir, ac a ddaw allan o'r corph, a gloyw-lafn a ddaw allan o'i fustl ef; dychryn *fydd* arno.

26 Pob tywyllwch *a fydd* cuddiedig yn ei ddirgeloedd ef: tân heb ei chwythu a'i hysa ef: yr hyn a adawer yn ei luestai ef, a ddrygir.

27 Y nefoedd a ddatguddiant ei anwiredd ef, a'r ddaear a gyfyd yn ei erbyn ef.

28 Cynnydd ei dŷ ef a gilia: *ei ddâ* a lifa ymaith yn nydd ei ddigofaint ef.

29 Dyma ran dyn annuwiol gan Duw; a'r etifeddiaeth a osodwyd iddo gan Duw.

PENNOD 21.

1 *Job yn dangos fod iddo achos i ofidio, te, ym marn dyn.* 7 *Bod yr annuwiol weithiau yn gymmaint eu llwyddiant, ag y pair iddynt ddiystyru Duw:* 16 *a bod eu dinystr hwy weithiau yn cyfiur.* 23 *Nad oes ragor rhwng y llwyddiannus a'r truenus yn angau:* 30 *ac mai mewn byd arall y mae barnedigaeth yr annuwiol.*

A JOB a attebodd ac a ddywedodd,

2 Gan wrandaw gwrandêwch fy ymadrodd; a bydded hyn *yn lle* eich cysur.

3 Dïoddefwch fi, a minnau a lefaraf; ac wedi i mi ddywedyd, gwatwarwch.

4 A minnau, *ydwyf* fi *yn gwneuthur* fy nghŵyn wrth ddyn? ac os *ydwyf*, paham na byddai gyfyng ar fy yspryd?

5 Edrychwch arnaf, a synnwch; a gosodwch *eich* llaw ar *eich* genau.

6 Minnau pan gofiwyf, a ofnaf; a dychryn a ymeifl yn fy nghnawd.

7 Paham y mae yr annuwiolion yn byw, yn heneiddio, ac yn cryfhâu *mewn* cyfoeth?

8 Eu had hwy *sydd* safadwy o'u blaen gyd â hwynt, a'u hiliogaeth yn eu golwg.

9 Eu tai *sydd mewn* heddwch allan o ofn; ac nid *ydyw* gwialen Duw arnynt hwy.

10 Y mae eu tarw hwynt yn cyflôi, ac ni chyll ei had; ei fuwch ef a fwrw lo, ac nid erthyla.
11 Danfonant allan eu rhai bychain fel dïadell, a'u bechgyn a neidiant.
12 Cymmerant dympan a thelyn, a llawenychant wrth lais yr organ.
13 Treuliant eu dyddiau mewn daioni, ac mewn moment y disgynant i'r bedd.
14 Dywedant hefyd wrth Duw, Cilia oddi wrthym; canys nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd.
15 Pa beth *ydyw* yr Hollalluog, fel y gwasanaethem ef? a pha fudd fydd i ni os gweddïwn arno?
16 Wele, nid *ydyw* eu daioni hwy yn eu llaw eu hun: pell yw cynghor yr annuwiol oddi wrthyf fi.
17 Pa sawl gwaith y diffydd canwyll yr annuwiolion? ac y daw eu dinystr arnynt hwy? *Duw* a ran ofidiau yn ei ddig.
18 Y maent hwy fel sofl o flaen gwynt, ac fel mân us yr hwn a gipia y corwynt.
19 Duw a guddia ei anwiredd ef i'w feibion: efe a dâl iddo, ac efe a'*i* gwybydd.
20 Ei lygaid a welant ei ddinystr ef; ac efe a ŷf o ddigofaint yr Hollalluog.
21 Canys pa wynfyd *sydd ganddo* ef yn ei dŷ ar ei ol, pan hannerer rhifedi ei fisoedd ef?
22 A ddysg *neb* wybodaeth i Duw? gan ei fod yn barnu y rhai uchel.
23 Y naill sydd yn marw yn ei gyflawn nerth, *ac efe* yn esmwyth ac yn heddychol yn gwbl.
24 Ei fronnau ef sydd yn llawn llaeth, a'i esgyrn yn iraidd gan fêr.
25 A'r llall *sydd* yn marw mewn chwerwder enaid, ac ni fwyttaodd mewn hyfrydwch.
26 Hwy a orweddant ynghyd yn y pridd, a'r pryfed a'u gorchuddia hwynt.
27 Wele, mi a adwaen eich meddyliau, a'r bwriadau yr ydych chwi yn eu dychymmygu ar gam yn fy erbyn.
28 Canys dywedwch, Pa le *y mae* tŷ y pendefig? a pha le *y mae* lluesty anneddau yr annuwiolion?
29 Oni ofynasoch chwi i'r rhai oedd yn myned heibio ar hyd y ffordd? ac onid adwaenoch chwi eu harwyddion hwy,
30 Mai hyd ddydd dinystr yr arbedir y drygionus? yn nydd cynddaredd y dygir hwynt allan.
31 Pwy a fynega ei ffordd ef yn ei wyneb ef? a phwy a dâl iddo fel y gwnaeth?
32 Etto efe a ddygir i'r bedd, ac a erys yn y pentwr.
33 Y mae priddellau y dyffryn yn felus iddo, a phob dyn a dyn ar ei ol ef, megis *yr aeth* aneirif o'i flaen ef.
34 Pa fodd gan hynny y cysurwch fi âg oferedd, gan fod camwedd yn eich attebion chwi?

PENNOD 22.

1 *Eliphas yn dangos nad yw daioni dyn yn gyneuthur dim lles i Duw: 5 yn cyhuddo Job o amryw bechodau: 21 yn ei gynghori ef i edifarhau, trwy addewidion o drugaredd.*

YNA Eliphas y Temaniad a attebodd ac a ddywedodd,
2 A wna gŵr lesâd i Duw, fel y gwna y synhwyrol lesâd iddo ei hun?
3 Ai digrifwch *ydyw* i'r Hollalluog dy fod di yn gyfiawn? neu *ai* elw dy fod yn perffeithio dy ffyrdd?
4 Ai rhag dy ofn y cerydda efe dydi? *neu* yr â efe gyd â thi i farn?
5 Onid *ydyw* dy ddrygioni di yn aml? a'th anwireddau heb derfyn?
6 Canys cymmeraist wystl gan dy frawd yn ddïachos; a dïosgaist ddillad y rhai noethion.
7 Ni roddaist ddwfr i'w yfed i'r lluddedig; a thi a atteliaist fara oddi wrth y newynog.
8 Ond y gŵr cadarn, efe bïoedd y ddaear; a'r anrhydeddus a drigai ynddi.
9 Danfonaist ymaith wragedd gweddwon yn waglaw; a breichiau y rhai amddifaid a dorrwyd.
10 Am hynny *y mae* maglau o'th amgylch, ac ofn disymmwth yn dy ddychrynu di;
11 Neu dywyllwch, *rhag* gweled o honot: a llawer o ddyfroedd a'th orchuddiant.
12 Onid *ydyw* Duw yn uchelder

y nefoedd? gwel hefyd uchder y sêr, mor uchel ydynt.
13 A thi a ddywedi, Pa fodd y gŵyr Duw? a farn efe trwy y cwmmwl tywyll?
14 Y tew gymmylau *sydd* loches iddo, ac ni wêl; ac y mae efe yn rhodio ar gylch y nefoedd.
15 A ystyriaist di yr hen ffordd a sathrodd y gwŷr anwir?
16 Y rhai a dorrwyd pan nid *oedd* amser; afon a dywalltwyd ar eu sylfaen hwy.
17 Hwy a ddywedasant wrth Duw, Cilia oddi wrthym: a pha beth a wna yr Hollalluog iddynt hwy?
18 Etto efe a lanwasai eu tai hwy o ddaioni: ond pell yw cynghor yr annuwiolion oddi wrthyf fi.
19 Y rhai cyfiawn a welant, ac a lawenychant: a'r diniwed a'u gwatwar hwynt.
20 Gan na thorred ymaith ein sylwedd ni, eithr y tân a ysodd eu gweddill hwy.
21 Ymarfer, *attolwg*, âg ef, a bydd heddychlawn: o hyn y daw i ti ddaioni.
22 Cymmer y gyfraith, attolwg, o'i enau ef, a gosod ei eiriau ef yn dy galon.
23 Os dychweli at yr Hollalluog, ti a adeiledir, symmudi anwiredd ym mhell oddi wrth dy luestai.
24 Rhoddi aur i gadw fel pridd, ac *aur* Ophir fel cerrig yr afonydd.
25 A'r Hollalluog fydd yn amddiffyn i ti, a thi a gei amldra o arian.
26 Canys yna yr ymhoffi yn yr Hollalluog, ac a ddyrchefi dy wyneb at Duw.
27 Ti a weddii arno ef, ac efe a'th wrendy; a thi a deli dy addunedau.
28 *Pan* ragluniech di beth, efe a sicrhêir i ti; a'r goleuni a lewyrcha ar dy ffyrdd.
29 Pan ostynger *hwynt*, yna y dywedi di, *Y mae* goruchafiaeth; ac efe a achub y gostyngedig *ei olwg*.
30 Efe a wareda ynys y diniwed: a thrwy lendid dy ddwylaw y gwaredir hi.

PENNOD 23.

1 *Job yn hiraethu am fyned ger bron Duw,* 6 *o hyder ar ei drugaredd ef.* 8 *Y mae Duw, er ei fod yn anweledig, yn dal ar ein ffyrdd ni.* 11 *Gwirionedd Job.* 13 *Bod barn Duw yn anghyfnewidiol.*

A JOB a attebodd ac a ddywedodd,
2 *Y mae* fy ymadrodd heddyw yn chwerw: fy nialedd sydd drymmach na'm huchenaid.
3 O na wyddwn pa le y cawn ef! *fel* y deuwn at ei eisteddfa ef!
4 Trefnwn *fy* matter ger ei fron ef, a llanwn fy ngenau â rhesymmau.
5 Mynnwn wybod *â pha* eiriau y'm hattebai; a deall pa beth a ddywedai efe wrthyf.
6 A ddadleu efe i'm herbyn â helaethrwydd *ei* gadernid? Na *wna;* ond efe a osodai *nerth* ynof.
7 Yno yr uniawn a ymresymmai âg ef: felly mi a ddiangwn byth gan fy marnwr.
8 Wele, ym mlaen yr âf, ond nid *ydyw* efe *yno;* yn ol hefyd, ond ni fedraf ei ganfod ef:
9 Ar y llaw aswy, lle y mae efe yn gweithio, ond ni fedraf *ei* weled *ef:* ar y llaw ddehau y mae yn ymguddio, fel na chaf *ei* weled:
10 Ond efe a edwyn fy ffordd i: wedi iddo fy mhrofi, myfi a ddeuaf allan fel aur.
11 Fy nhroed a ddilynodd ei gerddediad ef: cedwais ei ffordd ef, ac ni ŵyrais.
12 Nid ydwyf chwaith yn cilio oddi wrth orchymyn ei wefusau ef: hoffais eiriau ei enau ef yn fwy na'm *hymborth* angenrheidiol.
13 Ond *y mae* efe yn un, a phwy a'i try ef? a'r *hyn* y mae ei enaid ef yn ei chwennychu, efe a'*i* gwna.
14 Canys efe a gyflawna yr *hyn* a osodwyd i mi: ac *y mae* ganddo lawer o'r fath bethau.
15 Am hynny y dychrynais rhag ei ofn ef: ystyriais, ac ofnais ef.
16 Canys Duw a feddalhaodd fy nghalon, a'r Hollalluog a'm cythryblodd:
17 O herwydd na thorrwyd fi ymaith o flaen y tywyllwch, *ac na* chuddiodd efe y tywyllwch o'm gŵydd.

PENNOD 24.

1 Bod anwiredd yn fynych yn diange rhag ei gosp; 17 a bod barn ddirgel i'r annuwiol.

PAHAM, gan na chuddiwyd yr amseroedd rhag yr Hollalluog, na welai y rhai sydd yn ei adnabod ef, ei ddyddiau ef?

2 Y mae *rhai* yn symmudo terfynau; yn ysglyfaethu defaid, ac yn ymborthi *arnynt.*

3 Y maent yn gyrru asynod yr amddifad ymaith: maent yn cymeryd ŷch y wraig weddw ar wystl.

4 Maent yn troi yr anghenog allan o'r ffordd: tlodion y ddaear a ymgydlechant.

5 Wele, y maent *fel* asynod gwylltion yn yr aniałwch, yn myned allan i'w gwaith, gan geisio ysglyfaeth yn fore: y diffaethwch *sydd yn dwyn* iddynt fwyd, *ac* i'*w* plant.

6 Medant eu hŷd yn y maes; a gwinllan yr annuwiol a gasglant.

7 Gwnant *i*'r tlawd lettŷa yn noeth heb ddillad, ac heb wisg mewn oerni.

8 Gwlychant gan lifeiriant y mynyddoedd; ac o eisieu diddosrwydd y cofleidiant graig.

9 Tynnant yr amddifad oddi wrth y fron: cymmerant wystl gan y tlawd.

10 Gwnant *iddo* fyned yn noeth heb ddillad; a dygant ddyrneidiau *lloffa* y rhai newynog.

11 Y *rhai* sydd yn gwneuthur olew o fewn eu parwydydd hwynt, *ac* sydd yn sathru *eu* cafnau gwin, ydynt sychedig.

12 Y mae gwŷr yn griddfan o'r ddinas, ac y mae eneidiau y rhai archolledig yn gweiddi; ac nid yw Duw yn rhoi ffolineb *yn eu herbyn.*

13 Y rhai hynny sydd ym mhlith y rhai sydd yn gwrthwynebu goleuni; nid ydynt yn adnabod ei ffyrdd, nac yn aros yn ei lwybrau.

14 Gyd â'r goleuad y cyfyd y lleiddiad, ac y lladd efe y tlawd a'r anghenog; a'r nos y bydd *efe* fel lleidr.

15 A llygad y godinebwr sydd yn gwylied am y cyfnos, gan ddywedyd, Ni chaiff llygad fy ngweled; ac efe a esyd hûg ar ei wyneb.

16 Yn y tywyll y maent yn cloddio trwy dai, *y rhai* a nodasant iddynt eu hunain liw dydd: nid adwaenant hwy oleuni.

17 Canys megis cysgod marwolaeth *ydyw* y bore iddynt hwy: dychryn cysgod marwolaeth *yw*, os edwyn neb *hwynt.*

18 Ysgafn *ydyw* ar wyneb y dyfroedd; melldigedig ydyw eu rhandir hwy ar y ddaear: ni thry efe ei wyneb *at* ffordd y gwinllannoedd.

19 Sychder a gwres sydd yn cipio dyfroedd eira: *felly* y bedd *y rhai* a bechasant.

20 Y groth a'i gollwng ef dros gôf, melus fydd gan y pryf ef; ni chofir ef mwy: ac anwiredd a dorrir fel pren.

21 Y mae efe yn dryllio yr ammhlantadwy, *yr hon* ni phlanta; ac nid ydyw yn gwneuthur daioni i'r weddw.

22 Ac y mae efe yn tynnu y rhai cedyrn wrth ei nerth: y mae efe yn codi, ac nid oes *neb* diogel o'i einioes.

23 Er rhoddi iddo fod mewn diogelwch, ar yr hyn y mae ei bwys; etto *y mae* ei lygaid ef ar eu ffyrdd hwy.

24 Hwynt-hwy a ddyrchafwyd dros ychydig, ond hwy a ddarfuant, ac a ostyngwyd; hwy a ddygpwyd ymaith fel pawb *eraill*, ac a dorrwyd ymaith fel pen tywysen.

25 Ac onid *ydyw felly* yn awr, pwy a'm gwna i yn gelwyddog, ac a esyd fy ymadrodd yn ddiddym?

PENNOD 25.

Bildad yn dangos na all neb fod yn gyfiawn yer bron Duw.

YNA Bildad y Suhiad a attebodd ac a ddywedodd,

2 Arglwyddiaeth ac ofn *sydd* gyd âg ef: y mae efe yn gwneuthur heddwch yn ei uchel-fannau.

3 A oes gyfrif o'i luoedd ef? ac ar bwy ni chyfyd ei oleuni?

4 Pa fodd y cyfiawnhêir dyn gyd â Duw? neu pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?

5 Wele hyd yn nod y lleuad, ac ni lewyrcha hi; a'r sêr nid ydynt bur yn ei olwg ef:

6 Pa faint llai dyn, *yr hwn sydd* bryf; a mab dyn, *yr hwn sydd* abwydyn?

PENNOD 26.

1 *Job yn ceryddu annhrugarog ysprydBildad;*
5 *ac yn cydnabod fod gallu Duw yn anfeidrol, ac yn anchwiliadwy.*

A JOB a attebodd ac a ddywedodd,
2 Pwy a gynnorthwyaist ti? ai y dinerth? a achubaist ti y braich *sydd* heb gadernid?
3 Pa fodd y cynghoraist ti yr annoeth? ac y mynegaist yn helaeth y peth fel y mae?
4 Wrth bwy y mynegaist ymadroddion? ac ysprydpwy a ddaeth allan o honot ti?
5 *Pethau* meirw a lunir oddi tan y dyfroedd, a'r rhai sydd yn trigo ynddynt hwy.
6 *Y mae* uffern yn noeth ger ei fron ef: ac nid oes dô ar ddistryw.
7 Y mae efe yn taenu y gogledd ar y gwagle: y mae efe yn crogi y ddaear ar ddiddym.
8 Y mae efe yn rhwymo y dyfroedd yn ei gymmylau; ac nid ydyw y cwmmwl yn hollti danynt hwy.
9 Y mae efe yn attal wyneb *ei* orseddfainge: y mae efe yn taenu ei gwmmwl arni hi.
10 Efe a amgylchodd wyneb y dyfroedd â therfynau, nes dibennu goleuni a thywyllwch.
11 Y mae colofnau y nefoedd yn crynu, ac yn synnu wrth ei gerydd ef.
12 Efe a ranna y môr â'i nerth; ac a dery falchder â'i ddoethineb.
13 Efe a addurnodd y nefoedd â'i ysprydei law ef a luniodd y sarph dorchog.
14 Wele, dyma rannau ei ffyrdd ef: ond mor fychan *ydyw* y peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef! ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?

PENNOD 27.

1 *Job yn dangos ei burdeb,* 8 *ac nad oes gobaith i'r rhagrithiwr.* 11 *Y troir bendithion yr anwir yn felldithion.*

A JOB a barablodd eilwaith, ac a ddywedodd,
2 Y mae Duw yn fyw, *yr hwn* a ddug ymaith fy marn; a'r Hollalluog, *yr hwn* a ofidiodd fy enaid;
3 Tra *fyddo* fy anadl ynof, ac yspryd Duw yn fy ffroenau;
4 Ni ddywed fy ngwefusau anwiredd, ac ni thraetha fy nhafod dwyll.
5 Na atto Duw i mi eich cyfiawnhâu chwi: oni threngwyf, ni symmudaf fy mherffeithrwydd oddi wrthyf.
6 Yn fy nghyfiawnder y glynais, ac nis gollyngaf hi: ni waradwydda fy nghalon *fi* tra fyddwyf byw.
7 Bydded fy ngelyn fel yr annuwiol; a'r hwn sydd yn codi yn fy erbyn, fel yr anwir.
8 Canys pa obaith *sydd* i'r rhagrithiwr, er elwa o hono ef, pan dynno Duw ei enaid ef allan?
9 A wrendy Duw ar ei lef, pan ddelo cyfyngder arno?
10 A ymlawenycha efe yn yr Hollalluog? a eilw efe ar Duw bob amser?
11 Myfi a'ch dysgaf chwi trwy law Duw: ni chelaf yr hyn *sydd* gyd â'r Hollalluog.
12 Wele, chwychwi oll a'*i* gwelsoch; a phaham yr ydych chwi felly yn ofera *mewn* oferedd?
13 Dyma ran dyn annuwiol gyd â Duw; ac etifeddiaeth y rhai traws, *yr hon* a gânt hwy gan yr Hollalluog.
14 Os ei feibion ef a amlhêir, *hwy a amlhêir* i'r cleddyf: a'i hiliogaeth ef ni ddigonir â bara.
15 Ei weddillion ef a gleddir ym marwolaeth: a'i wragedd gweddwon ni wylant.
16 Er iddo bentyrru arian fel llwch, a darparu dillad fel clai;
17 Efe a'*i* darpara, ond y cyfiawn a'*i* gwisg: a'r diniwed a gyfranna yr arian.
18 Efe a adeiladodd ei dŷ fel gwyfyn, ac fel bwth a wna gwyliwr.
19 Y cyfoethog a huna, ac nis cesglir ef: efe a egyr ei lygaid, ac nid *yw*.
20 Dychryniadau a'i goddiweddant ef fel dyfroedd: corwynt a'i lladratta ef liw nos.
21 Y dwyreinwynt a'i cymmer ef i ffordd, ac efe a â ymaith; ac a'i teifl ef fel corwynt allan o'i le.
22 Canys *Duw* a deifl arno ef, ac nid arbed: gan ffoi, efe a fynnai ffoi rhag ei law ef.
23 Curant eu dwylaw arno, ac a'i hyssiant allan o'i le.

PENNOD 28.

1 Bod gwybodaeth am betheu naturiol. 12 Ond mai gwirioedd ddiau Duw yw doethineb.

DIAU fod gwythen i'r arian; a lle i'r aur, *lle* y coethant *ef*.
2 Haiarn a dynnir allan o'r pridd: ac o'r garreg y toddir pres.
3 Efe sydd yn gosod terfyn ar dywyllwch, ac yn chwilio allan bob perfeithrwydd: *hyd yn nod* meini tywyllwch a chysgod angau.
4 Y mae yr afon yn torri allan oddi wrth y trigolion, *y dyfroedd* a anghofiwyd gan y troed: hwy a sychasant ac a aethant ymaith oddi wrth ddynion.
5 Y ddaearen, o honi y daw bara: tröwyd megis tân oddi tani.
6 Ei cherrig hi *a fyddant* le i saphir; a phriddellau aur sydd iddi.
7 *Y mae* llwybr nid adnabu aderyn, ac ni chanfu llygad bareud:
8 Yr hwn ni sathrodd cenawon llew; nid aeth hen lew trwyddo.
9 Y mae efe yn estyn ei law at y gallestr: y mae efe yn dymchwelyd mynyddoedd o'r gwraidd.
10 Y mae efe yn peri i afonydd dorri trwy y creigiau: ac y mae ei lygad ef yn gweled pob peth gwerthfawr.
11 Y mae efe yn rhwymo yr afonydd rhag llifo, ac yn dwyn *peth* dirgel allan i oleuni.
12 Ond pa le y ceir doethineb? a pha le *y mae* trigle deall?
13 Ni wyr dyn beth a dâl hi; ac ni cheir hi yn nhir y rhai byw.
14 Y mae y dyfnder yn dywedyd, Nid *ydyw* hi ynof fi: ac y mae y môr yn dywedyd, Nid *ydyw hi* gyd â myn.
15 Ni cheir hi er aur pur; ac ni ellir pwyso ei gwerth hi o arian.
16 Ni chyfnelybir hi i'r aur o Ophir; nac i'r onix gwerthfawr, nac i'r saphir.
17 Nid aur a grisial a'i cystadla hi: na llestr o aur dilin *fydd* gydwerth iddi.
18 Ni chofir y cwrel, na'r gabis: canys *gwell yw* cafflaeliad doethineb na gemmau.
19 Ni ellir cyffelybu y topas o Ethiopia iddi hi: ni chyd-brisir hi âg aur pur.
20 Gan hynny o ba le y daw doethineb? a pha le *y mae* mangre deall?
21 Canys hi a guddied oddi wrth lygaid pob dyn byw; a hi a guddiwyd oddi wrth ehediaid y nefoedd.
22 Colledigaeth a marwolaeth sydd yn dywedyd, Ni a glywsom â'n clustiau sôn am dani hi.
23 Duw sydd yn deall ei ffordd hi; ac efe a edwyn ei lle hi.
24 Canys y mae efe yn edrych ar eithafoedd y ddaear, *ac* yn gweled dan yr holl nefoedd;
25 I wneuthur pwys i'r gwynt; ac efe a bwysa y dyfroedd wrth fesur.
26 Pan wnaeth efe ddeddf i'r gwlaw, a ffordd i fellt y taranau:
27 Yna efe a'i gwelodd hi, ac a'i mynegodd hi; efe a'i parotôdd hi, a heryd efe a'i chwiliodd hi allan.
28 Ac wrth ddyn efe a ddywedodd, Wele, ofn yr Arglwydd, hynny *ydyw* doethineb; a chilio oddi wrth ddrwg, *sydd* ddeall.

PENNOD 29.

Job yn cofyno ddio ei hun, o hengyfed ei hryddtaoi a i anrhydedd o'r blaen.

YNA Job a barablodd drachefn, ac a ddywedodd,
2 O na bawn i fel *yn* y misoedd o'r blaen, fel *yn* y dyddiau *pan* gadwai Duw fi:
3 Pan wnai efe i'w oleuni lewyrchu ar fy mhen, wrth oleuni yr hwn y rhodiwn *trwy* dywyllwch;
4 Pan oeddwn yn nyddiau fy ieuengctid, a dirgelwch Duw ar fy mhabell:
5 Pan *oedd* yr Hollalluog etto gyd â mi, a'm plant o'm hamgylch;
6 Pan olchwn fy nghamrau âg ymenyn, a *phan* dywalltai y graig i mi afonydd o olew!
7 Pan awn i allan i'r porth trwy y dref: *pan* barotrôwn fy eisteddfa yn yr heol,
8 Llanciau a'm gwelent, ac a ymguddient; a henuriaid a gyfodent, *ac* a safent i fyny.
9 Tywysogion a attalient eu hymadroddion, ac a osodent *eu* llaw ar eu genau.
10 Pendefigion a dawent â sôn, a'u tafod a lynai wrth daflod eu genau.
11 Pan y'm clywai clust, hi a'm bendithiai; a phan y'm gwelai llygad, efe a dystiolaethai gyd â mi:

12 Am fy mod yn gwaredu y tlawd
a fyddai yn gweiddi, a'r amddifad,
a'r *hwn* ni *byddai* gynnorthwywr
iddo.
13 Bendith yr hwn oedd ar ddarfod
am dano a ddeuai arnaf; a gwnawn
i galon y wraig weddw lawenychu.
14 Gwisgwn gyfiawnder, a hithau
a wisgai am danaf fi: a'm barn
fyddai fel mantell a choron.
15 Llygaid oeddwn i'r dall; a
thraed *oeddwn* i'r cloff.
16 Tad *oeddwn* i'r anghenog; a'r
cŵyn ni wyddwn a chwiliwn allan.
17 Drylliwn hefyd gilddannedd
yr anghyfiawn, ac a dynnwn yr
ysglyfaeth allan o'i ddannedd ef.
18 Yna y dywedwn, Byddaf farw
yn fy nyth; a byddaf mor aml *fy*
nyddiau a'r tywod.
19 Fy ngwreiddyn *oedd* yn ym-
daenu wrth y dyfroedd; a'r gwlith
a arhosodd ar hyd nos ar fy mrig.
20 Fy ngogoniant *oedd* ŵr ynof fi;
a'm bwa a adnewyddai yn fy llaw.
21 Hwy a wrandawent arnaf, ac
a ddisgwylient; distawent wrth fy
nghynghor.
22 Ar ol fy ymadrodd ni ddywed-
ent hwy eilwaith; a'm hymadrodd
a ddiferai arnynt hwy.
23 A hwy a ddisgwylient am dan-
af fel am y gwlaw; ac a ledent eu
genau fel *am* y diweddar-wlaw.
24 *Os* chwarddwn arnynt hwy, ni
chredent; ac ni wnaent hwy i lew-
yrch fy wyneb syrthio.
25 Dewiswn eu ffordd hwynt, eis-
teddwn yn bennaf, a thrigwn fel
brenhin mewn llu, megis yr hwn a
gysura rai galarus.

PENNOD 30.

1 *Trot anrhyddedd Job yn ddyfyn ddïystyrwch:*
15 *a'i hawddfyd yn adfyd.*

OND yn awr *y rhai sydd* ieuang-
ach na mi sydd yn fy ngwat-
war, y rhai y dïystyraswn eu tadau
i'w gosod gyd â chwn fy nefaid.
2 I ba beth *y gwasanaethai* cryf-
dwr eu dwylaw hwynt i mi? darf-
uasai am henaint ynddynt hwy.
3 Gan angen a newyn, unig *oedd-*
ynt: yn ffoi i'r anialwch gynt, yn
ddiffaeth ac yn wyllt:
4 Y rhai a dorrent yr hoccys mewn
brysglwyni, a gwraidd meryw yn
fwyd iddynt.
5 Hwy a yrrid ymaith o fysg *dyn-*
ion, (gwaeddent ar eu hol hwy, fel
ar ol lleidr;)
6 I drigo mewn holltau afonydd,
mewn tyllau y ddaear, ac *yn* y
creigiau.
7 Hwy a ruent ym mhlith perthi:
hwy a ymgasglent dan ddanadl.
8 Meibion yr ynfyd, a meibion
rhai anenwog *oeddynt:* gwaelach
na'r ddaear oeddynt.
9 Ac yn awr eu cân hwy ydwyf fi,
a myfi sydd yn destun iddynt.
10 Y maent yn fy ffieiddio, yn cil-
io ym mhell oddi wrthyf: ac nid
arbedant boeri yn fy wyneb.
11 Oblegid iddo ddattod fy rhaff,
a'm cystuddio; hwythau a ollyng-
asant y ffrwyn yn fy ngolwg i.
12 Y rhai ieuainge sydd yn codi ar
fy llaw ddehau; y maent yn gwthio
fy nhraed, ac yn sarnu i'm herbyn
ffyrdd eu dinystr.
13 Anrheithiant fy llwybr, ychwan-
egant fy nhrueni, heb *fod* help
iddynt.
14 Y maent hwy yn dyfod *arnaf*
megis *dwfr truy* adwy lydan: y
maent yn ymdreiglo *arnaf* wrth yr
anrhaith.
15 Dychryniadau a dröwyd arnaf:
fel gwynt yr erlidiant fy enaid:
a'm hiachawdwriaeth a â heibio fel
cwmmwl.
16 Am hynny yr ymdywallt fy
enaid yn awr arnaf; dyddiau cys-
tudd a ymaflasant ynof.
17 Y nos y tyllir fy esgyrn o'm
mewn: a'm giau nid ydynt yn gor-
phwys.
18 Trwy fawr nerth *fy nghlefyd*,
fy ngwisg a newidiodd: efe a'm
hamgylcha fel coler fy mhais.
19 Efe a'm taflodd yn y clai; ac
euthum yn gyffelyb i lwch a lludw.
20 Yr ydwyf yn llefain arnat ti,
ac nid ydwyt yn gwrandaw: yr
ydwyf yn sefyll, ac *nid* ystyri
wrthyf.
21 Yr wyt yn troi yn greulawn
yn fy erbyn; yr wyt yn fy ngwrth-
wynebu â nerth dy law.
22 Yr wyt yn fy nyrchafu i'r
gwynt; yr ydwyt yn gwneuthur
i mi farchogaeth *arno*, ac yr ydwyt
yn toddi fy sylwedd.
23 Canys myfi a wn y dygi di fi

i farwolaeth; ac *i'r* tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw.
24 Dïau nad estyn *ef* law i'r bedd, er *bod* gwaedd ganddynt yn ei ddinystr ef.
25 Oni wylais i dros yr hwn oedd galed *ei* fyd? *oni* ofidiodd fy enaid dros yr anghenog?
26 Pan edrychais am ddaioni, drygfyd a ddaeth: pan ddisgwyliais am oleuni, tywyllwch a ddaeth.
27 Fy ymysgaroedd a ferwasant, ac ni orphwysasant: dyddiau cystudd a'm rhagflaenasant.
28 Cerddais yn alarus heb yr haul: codais, *a* gwaeddais yn y gynnulleidfa.
29 Yr ydwyf yn frawd i'r dreigiau, ac yn gyfaill i gywion yr estrys.
30 Fy nghroen a dduodd am danaf, a'm hesgyrn a losgasant gan wres.
31 Aeth fy nhelyn hefyd yn alar, a'm horgan *fel* llais rhai yn wylo.

PENNOD 31.

Job ar gyhoedd yn dangos ei burdeb mewn amrywiaethau.

MYFI a wneuthum ammod â'm llygaid; paham gan hynny y meddyliwn am forwyn?
2 Canys pa ran *sydd oddi wrth* Duw oddi uchod? a *pha* etifeddiaeth *sydd oddi wrth* yr Hollalluog o'r uchelder?
3 Onid *oes* dinystr i'r anwir? a *dïaledd* dïeithr i'r rhai sydd yn gwneuthur anwiredd?
4 Onid ydyw efe yn gweled fy ffyrdd i? ac yn cyfrif fy holl gamrau?
5 Os rhodiais mewn oferedd, ac os prysurodd fy nhroed i dwyllo;
6 Pwysed fi mewn cloriannau cyfiawn, a mynned Duw wybod fy mherffeithrwydd.
7 Os gŵyrodd fy ngherddediad allan o'r ffordd; a myned o'm calon ar ol fy llygaid; neu lynu dim aflan wrth fy nwylaw:
8 *Yna* hauwyf fi, a bwyttâed arall; ïe, dadwreiddier fy hiliogaeth i.
9 Os twylled fy nghalon gan wraig, ac *os* cynllwynais wrth ddrws fy nghymmydog;
10 Maled fy ngwraig innau i *ŵr* arall; ac ymgrymmed eraill arni hi.
11 Canys ysgelerder *ydyw* hyn, ac anwiredd *ydyw i'w gospi gan* farnwyr.
12 Canys tân *ydyw* a ysa oni anrheithio, ac *efe* a ddadwreiddia fy holl ffrwyth.
13 Os dïystyrais achos fy ngwas a'm gwasanaethferch, pan ymryson-ent â mi;
14 Pa beth gan hynny a wnaf pan godo Duw? a phan ymwelo efe, pa beth a attebaf iddo?
15 Onid yr hwn a'm gwnaeth i yn y groth, a'ï gwnaeth yntau? ac onid yr un a'n lluniodd yn y bru?
16 Os atteliais *ddim* o ddeisyfiad y tlawd, ac *os* gwneuthum i lygaid y weddw ddiffygio;
17 Ac os bwytteais fy mwyd yn unig, ac oni fwyttaodd yr amddifad o hono;
18 (Canys efe a gynnyddodd gyd â mi, fel *gyd* â thad, o'm hieuengctid; ac o groth fy mam mi a'i tywysais hi;)
19 Os gwelais neb yn marw o eisieu dillad, a'r anghenog heb wisg:
20 Os ei lwynau ef ni'm bendithiasant, ac *oni* chynhesodd efe gan gnu fy nefaid i;
21 Os codais fy llaw yn erbyn yr amddifad, pan welwn fy nghymmorth yn y porth:
22 Syrthied fy mraich oddi wrth fy ysgwydd, a thorrer fy mraich oddi wrth y cymmal.
23 Canys ofn dinystr Duw *oedd* arnaf; a chan ei uchelder ef ni allwn oddef.
24 Os gosodais fy ngobaith *mewn* aur; ac os dywedais wrth aur coeth, Fy ymddiried *wyt;*
25 Os llawenychais am *fod* fy nghyfoeth yn fawr, ac oblegid i'm llaw gael llawer;
26 Os edrychais ar yr haul pan dywynnai, a'r lleuad yn cerdded yn ddisglaer;
27 Ac os hudwyd fy nghalon yn guddiedig, ac *os* fy ngenau a gusanodd fy llaw:
28 Hyn hefyd *fuasai* anwiredd i'w gospi gan y barnwyr: canys gwadaswn Duw uchod.
29 Os llawenychais i am drychineb

yr hwn a'm casâi, ac os ymgodais pan ddigwyddodd drwg iddo:
30 (Ac ni ddïoddefais i dafiod fy ngenau bechu; gan ofyn ei einioes ef trwy felldithio.)
31 Oni ddywedodd dynion fy mhabell, O na chaem o'i gnawd ef! ni ddigonir ni.
32 Ni lettŷodd dïeithrddyn yn yr heol: agorais fy nrysau i'r ffordd-olion.
33 Os cuddiais fy nghamweddau fel Adda; gan guddio fy anwiredd yn fy mynwes;
34 A ofnais i dyrfa lïosog, neu a'm dychrynai dirmyg teulu; fel y tawn, heb fyned allan o'm drws?
35 O am un a'm gwrandawai! wele, fy nymuniad yw, i'r Holl-alluog fy atteb i, ac ysgrifenu o'm gwrthwynebwr lyfr.
36 Dïau y dygwn ef ar fy ysgwydd; *a* rhwymwn ef yn *lle* coron i mi.
37 Mynegwn iddo rifedi fy nghamrau; fel tywysog y nesâwn atto.
38 Os ydyw fy nhir i yn llefain yn fy erbyn, ac *os* ydyw ei gwysau ef yn cyd-wylo;
39 Os bwytteais i ei gnwd ef heb arian, ac *os* cystuddiais enaid ei berchennogion ef:
40 Tyfed ysgall yn lle gwenith, a bulwg yn lle haidd.

Diweddwyd geiriau Job.

PENNOD 32.

1 *Elihu yn ddig wrth Job a'i gyfeillion:* 6 *ac, am nad yw doethineb yn dyfod o henaint, yn esgusodi hyfder ei ieuengctid i hun:* 11 *ac yn beio arnynt hwy, nad oeddynt yn boddloni Job.* 16 *Ei sêl ef i lefaru.*

FELLY y tri gŵr yma a beidiasant âg atteb i Job, am ei *fod* ef yn gyfiawn yn ei olwg ei hun.
2 Yna digofaint Elihu, mab Barachel y Busiad, o genedl Ram, a gynneuodd: ei ddigofaint ef a ennynodd yn erbyn Job, am farnu o hono ei enaid yn gyfiawn o flaen Duw.
3 A'i ddigofaint ef a gynneuodd yn erbyn ei dri chyfaill, am na chawsent hwy atteb, ac *er hynny*, farnu o honynt Job yn euog.
4 Elihu hefyd a arhosasai ar Job nes darfod iddo lefaru: canys *yr oeddynt* hwy yn hŷn nag ef o oedran.
5 Pan welodd Elihu nad *oedd* atteb gan y triwyr hyn, yna y cynneuodd ei ddigofaint ef.
6 Ac Elihu, mab Barachel y Busiad, a attebodd ac a ddywedodd, Ieuangc ydwyf o oedran, chwithau *ydych* hen iawn: am hynny yr arswydais, ac yr ofnais ddangos fy meddwl i chwi.
7 Dywedais, Dyddiau a draethant, a lliaws o flynyddoedd a ddysgant ddoethineb.
8 Ond *y mae* yspryd mewn dyn; ac ysprydoliaeth yr Holl-alluog sydd yn gwneuthur iddynt hwy ddeall.
9 Nid yw *gwŷr* mawrion ddoeth *bob amser:* ac nid yw henafgwyr yn deall barn.
10 Am hynny y dywedais, Gwrandawa fi; minnau a ddangosaf fy meddwl.
11 Wele, disgwyliais wrth eich geiriau; clust-ymwrandewais â'ch rhesymmau, tra y chwiliasoch chwi am eiriau.
12 Ië, mi a ddeliais arnoch: ac wele, nid oedd *un* o honoch yn argyhoeddi Job, gan atteb ei eiriau ef:
13 Rhag dywedyd o honoch, Ni a gawsom ddoethineb: Duw sydd yn ei wthio ef i lawr, ac nid dyn.
14 Er na hwyliodd efe *ei* ymadroddion yn fy erbyn i: ac nid attebaf finnau iddo â'ch geiriau chwi.
15 Hwy a synnasant, nid attebasant mwy; peidiasant â llefaru.
16 Wedi disgwyl o honof, (canys ni lefarent, eithr sefyll heb atteb mwy,)
17 *Dywedais*, Minnau a attebaf fy rhan, minnau a ddangosaf fy meddwl.
18 Canys yr ydwyf yn llawn geiriau: y mae yr yspryd sydd ynof yn fy nghymmell i.
19 Wele, fy mol *sydd* fel gwin nid agorid arno: y mae efe yn hollti fel costrelau newyddion.
20 Dywedaf, fel y caffwyf fy anadl: agoraf fy ngwefusau, ac attebaf.
21 Ni dderbyniaf yn awr wyneb neb: ni wenhieithiaf wrth ddyn.
22 Canys ni fedraf wenhieithio; *pe gwnawn*, buan y'm cymmerai fy Ngwneuthurwr ymaith.

PENNOD 33.

1 *Elihu yn ymgynnyg i ymresymmu â Job dros Ddduw, mewn purdeb a llarieidd-dra;* 8 *yn dangos nad yw Duw rwymedig i roi cyfrif o'i ffyrdd i ddyn.* 14 *Duw yn galw dyn i edifeirwch, trwy weledigaethau,* 19 *trwy gystuddiau,* 23 *a thrwy ei weinidogion.* 31 *Y mae efe yn annog Job i wrandaw.*

OHERWYDD paham, Job, clyw, attolwg, fy ymadroddion; a gwrando fy holl eiriau.

2 Wele, yr ydwyf yn awr yn agoryd fy ngenau; mae fy nhafod yn dywedyd yn nhaflod fy ngenau.

3 *O* uniondeb fy nghalon *y bydd* fy ngeiriau; a'm gwefusau a adroddant wybodaeth bur.

4 Ysbryd Duw a'm gwnaeth i; ac anadl yr Hollalluog a'm bywioccaodd i.

5 Os gelli, atteb fi: ymbarottoa, *a* saf o'm blaen i.

6 Wele fi, yn ol dy ddymuniad di, yn lle Duw: allan o'r clai y torrwyd finnau.

7 Wele, ni'th ddychryna fy arswyd i, ac ni bydd fy llaw yn drom arnat.

8 Dywedaist yn ddïau lle y clywais i, a myfi a glywais lais *dy* ymadroddion:

9 Pur *ydwyf* fi heb gamwedd: glân *ydwyf*, ac heb anwiredd ynof.

10 Wele, efe a gafodd achosion yn fy erbyn: y mae efe yn fy nghyfrif yn elyn iddo.

11 Y mae yn gosod fy nhraed yn y cyffion; y mae yn gwylied fy holl lwybrau.

12 Wele, *yn* hyn nid ydwyt gyfiawn. Mi a'th attebaf, mai mwy ydyw Duw na dyn.

13 Paham yr ymrysoni yn ei erbyn ef? o herwydd nid ydyw efe yn rhoi cyfrif am ddim o'i weithredoedd.

14 Canys y mae Duw yn llefaru unwaith, ïe, ddwywaith; *ond* ni ddeall *dyn.*

15 Trwy hûn, *a thrwy* weledigaeth nos, pan syrthio trwmgwsg ar ddynion, wrth hepian ar wely;

16 Yna yr egyr efe glustiau dynion, ac y selia efe addysg iddynt:

17 I dynnu dyn *oddi wrth ei* waith, ac i guddio balchder oddi wrth ddyn.

18 Y mae efe yn cadw ei enaid ef rhag y pwll; a'i hoedl ef rhag ei cholli trwy y cleddyf.

19 Ac efe a geryddir trwy ofid ar ei wely; a llïaws ei esgyrn ef â *gofid* caled:

20 Fel y ffieiddio ei fywyd ef fara, a'i enaid fwyd blasus.

21 Derfydd ei gnawd ef allan o olwg: saif ei esgyrn allan, *y rhai* ni welid *o'r blaen.*

22 Nesâu y mae ei enaid i'r bedd, a'i fywyd i'r dinystrwyr.

23 Os bydd gyd âg ef gennad o ladmerydd, un o fil, i ddangos i ddyn ei uniondeb:

24 Yna efe a drugarhâ wrtho, ac a ddywed, Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd: myfi a gefais iawn.

25 Ireiddiach *fydd* ei gnawd na bachgen: efe a ddychwel at ddyddiau ei ieuengctid.

26 Efe a weddïa ar Duw, ac yntau a fydd boddlawn iddo; ac efe a edrych yn ei wyneb ef mewn gorfoledd: canys efe a dâl i ddyn ei gyfiawnder.

27 Efe a edrych ar ddynion, ac *os* dywed *neb*, Mi a bechais, ac a ŵyrais uniondeb, ac ni lwyddodd i mi;

28 Efe a wared ei enaid ef rhag myned i'r clawdd, a'i fywyd a wêl oleuni.

29 Wele, hyn oll a wna Duw ddwywaith *neu* dair â dyn,

30 I ddwyn ei enaid ef o'r pwll, i'w oleuo â goleuni y rhai byw.

31 Gwrando, Job, clyw fi: taw, a mi a lefaraf.

32 Od oes geiriau gennyt, atteb fi: llefara, canys chwennychwn dy gyfiawnhâu di.

33 Onid ê, gwrando arnaf fi: bydd ddistaw, a myfi a ddysgaf i ti ddoethineb.

PENNOD 34.

1 *Elihu yn beio ar Job, am furw ar Dduw fod yn anghyfiawn.* 10 *Nas gall Duw Hollalluog fod yn anghyfiawn.* 31 *Rhaid i ddyn ymddarostwng i Dduw.* 34 *Elihu yn ceryddu Job.*

AC Elihu a lefarodd ac a ddywedodd,

2 *Ha wŷr* doethion, gwrandêwch fy ymadroddion; a *chwychwi* y rhai ydych yn gwybod, clust-ymwrandêwch.

3 Canys y glust a farn ymadroddion, fel yr archwaetha y genau fwyd.
4 Dewiswn i ni farn, gwybyddwn rhyngom pa beth sydd dda.
5 Canys dywedodd Job, Cyfiawn ydwyf: a Duw a ddug ymaith fy marn.
6 A ddywedaf fi gelwydd yn erbyn fy matter fy hun? anaele *yw* fy archoll heb gamwedd.
7 Pa ŵr *sydd* fel Job, *yr hwn* a ŷf watwargerdd fel dwfr?
8 Ac a rodio y'nghymdeithas gyd â gweithredwyr anwiredd, ac sydd yn myned gyd â dynion annuwiol.
9 Canys dywedodd, Ni fuddia i ŵr ymhyfrydu â Duw.
10 Am hynny chwychwi wŷr calonnog, gwrandêwch arnaf. Pell oddi wrth Duw fyddo *gwneuthur* annuwioldeb, ac oddi wrth yr Hollalluog *weithredu* anwiredd.
11 Canys efe a dâl i ddyn ei waith; ac efe a wna i ŵr gael yn ol ei ffyrdd ei hun.
12 Diau hefyd na wna Duw yn annuwiol; ac na ŵyra yr Hollalluog farn.
13 Pwy a roddes iddo ef lywodraethu y ddaear? a phwy a osododd yr holl fyd?
14 Os gesyd ei galon ar *ddyn*, *os* casgl efe atto ei hun ei ysbryd a'i anadl ef;
15 Pob cnawd a gyd-drenga, a dyn a ddychwel i'r pridd.
16 Ac od *oes* ddeall *ynot*, gwrando hyn: clust-ymwrando â llef fy ymadroddion.
17 A gaiff yr hwn sydd yn casâu barn, lywodraethu? ac a ferni di yr hwn sydd gyfiawn odiaeth, yn annuwiol?
18 A ddywedir wrth frenhin, Drygionus *ydwyt? ac*, Annuwiol *ydych*, wrth dywysogion?
19 *Pa faint llai wrth* yr hwn ni dderbyn wynebau tywysogion, ac nid edwyn y goludog o flaen y tlawd? canys gwaith ei ddwylaw ef *ydynt* oll.
20 Hwy a fyddant feirw mewn moment, a hanner nos y cynhyrfa y bobl, ac yr ânt ymaith: a'r cadarn a symmudir heb *waith* llaw.
21 Canys ei lygaid ef *sydd* ar ffyrdd dyn, ac efe a wêl ei holl gamrau ef.
22 Nid *oes* dywyllwch, na chysgod angau, lle y gall y rhai sydd yn gweithio anwiredd, ymguddio.
23 Canys ni esyd *Duw* ar ddyn ychwaneg *nag a haeddo*; fel y gallo efe fyned i gyfraith â Duw.
24 Efe a ddryllia rai cedyrn yn aneirif, ac a esyd eraill yn eu lle hwynt.
25 Am hynny efe a edwyn eu gweithredoedd hwy: a phan newidio efe y nos, hwy a ddryllir.
26 Efe a'u tery hwynt, megis rhai annuwiol, yn amlwg:
27 Am iddynt gilio oddi ar ei ol ef, ac nad ystyrient ddim o'i ffyrdd ef:
28 Gan ddwyn gwaedd y tlawd atto ef, ac efe a wrendy waedd y cystuddiol.
29 Pan esmwythao efe, pwy a anesmwythâ? a phan guddio efe *ei* wyneb, pwy a edrych arno? pa un bynnag ai yn erbyn cenedl, ai yn erbyn dyn yn unig:
30 Fel na theyrnasai dyn ffuantus, *ac* na rwyder y bobl.
31 Ond wrth Duw, yr hwn a ddywed, Mi a faddeuais, nid anrheithiaf, *y dylid dywedyd;*
32 Heb law a welaf, dysg di fi: o gwneuthum anwiredd, ni wnaf fi mwy.
33 Ai wrth dy feddwl di *y bydd-ai?* efe a'i tâl, pa un bynnag a wnelych ai gwrthod, ai dewis; ac nid myfi: am hynny dywed yr hyn a wyddost.
34 Gwŷr call, dywedant i mi; a'r gŵr doeth, clywed fi.
35 Job a ddywedodd yn annoeth; a'i eiriau *ydynt* heb ddoethineb.
36 Fy Nhad, profer Job hyd y diwedd, am *roddi* attebion dros ddynion anwir.
37 Canys efe a chwanegodd ysgelerder at ei bechod; efe a gurodd *ei ddwylaw* yn ein plith ni, ac a amlhaodd ei eiriau yn erbyn Duw.

PENNOD 35.

1 *Nad oes mo'r ymgystadlu â Duw; am nad yw na'n daioni ni na'n drygioni yn dda nac yn ddrwg iddo ef.* 9 *Bod llawer yn gwaeddi ar Dduw yn eu cystudd, ac heb gael eu gwrandaw, o eisieu ffydd.*

AC Elihu a lefarodd ac a ddywedodd,
2 A gyfrifaist di yn uniawn ddywedyd o honot, *Y mae* fy nghyfiawnder i yn fwy na'r eiddo Duw?
3 Canys dywedaist, Pa les a wna *hynny* i ti? pa beth a ennillaf, *er fy nglanhâu* oddi wrth fy mhechod?
4 Myfi a attebaf i ti, ac i'th gyfeillion gyd â thi.
5 Edrych ar y nefoedd, a gwel; ac edrych ar y cymmylau, *y rhai* sydd uwch na thi.
6 Os pechi, pa *niwed* a wnei di iddo ef? os aml fydd dy anwireddau, pa beth yr wyt yn ei wneuthur iddo ef?
7 Os cyfiawn fyddi, pa beth yr wyt yn ei roddi iddo ef? neu pa beth y mae efe yn ei gael ar dy law di?
8 I ŵr fel tydi, dy annuwioldeb, ac i fab dyn, dy gyfiawnder, *a all ryw beth.*
9 Gan faint y gorthrymder, hwy a wnant i'r *gorthrymmedig* lefain: hwy a floeddiant rhag braich y cedyrn.
10 Ond ni ddywed neb, Pa le y mae Duw, yr hwn a'm gwnaeth i; yr hwn sydd yn rhoddi *achosion i* ganu y nos?
11 Yr hwn sydd yn ein dysgu yn fwy nag anifeiliaid y ddaear, ac yn ein gwneuthur yn ddoethach nag ehediaid y nefoedd.
12 Yna hwy a waeddant rhag balchder y rhai drwg, ac ni chlyw efe.
13 Dïau na wrendy Duw oferedd, ac nad edrych yr Hollalluog arno.
14 Er dywedyd o honot na weli ef, *etto y mae* barn ger ei fron ef: disgwyl ditthau wrtho.
15 Ac yn awr, am nad *yw felly*, efe a ymwelodd yn ei ddigofaint; etto ni ŵyr efe mewn dirfawr galedi:
16 Am hynny y lleda Job ei safn yn ofer; ac yr amlhâ eiriau heb wybodaeth.

PENNOD 36.

1 *Elihu yn dangos bod Duw yn gyfiawn yn ei fyrdd.* 16 *Y modd y mae pechodau Job yn attal benditthion Duw.* 24 *Rhaid yw mawrhâu gweithredoedd Duw.*

AC Elihu a aeth rhagddo, ac a ddywedodd,
2 Goddef i mi ychydig, a myfi a fynegaf i ti, *fod gennyf* ymadroddion etto dros Duw.
3 O bell y cymmeraf fy ngwybodaeth, ac i'm Gwneuthurwr y rhoddaf gyfiawnder.
4 Canys yn wir nid celwydd *fydd* fy ymadroddion: y perffaith o wybodaeth *sydd* gyd â thi.
5 Wele, cadarn *ydyw* Duw, ac ni ddïystyra efe *neb:* cadarn o gadernid a doethineb *yw efe.*
6 Nid achub efe fywyd yr annuwiol; ond efe a rydd uniondeb *i'r* trueiniaid.
7 Ni thyn efe ei olwg oddi ar y cyfiawn; eithr *y maent* gyd â brenhinoedd, ar yr orseddfainge; ïe, efe a'u sicrhâ yn dragywydd, a hwy a ddyrchefir.
8 Ac os *hwy* a rwymir â gefynnau, *ac* a ddèlir â rhaffau gorthrymder;
9 Yna efe a ddengys iddynt hwy eu gwaith, a'u hanwireddau, amlhâu o honynt:
10 Ac a egyr eu clustiau hwy i *dderbyn* cerydd; ac a ddywed am droi o honynt oddi wrth anwiredd.
11 Os gwrandawant hwy, a'*i* wasanaethu *ef*, hwy a dreuliant eu dyddiau mewn daioni, a'u blynyddoedd mewn hyfrydwch.
12 Ac oni wrandawant, difethir hwy gan y cleddyf; a hwy a drengant heb wybodaeth.
13 Ond y rhai rhagrithiol o galon a chwanegant ddig: ni waeddant pan rwymo efe hwynt.
14 Eu henaid hwythau fydd marw mewn ieuengctid, a'u bywyd gyd â'r aflan.
15 Efe a wared y truan yn ei gystudd, ac a egyr eu clustiau hwynt mewn gorthrymder.
16 Felly hefyd efe a'th symmudasai di o enau cyfyngdra *i* ehangder, lle nid *oes* gwasgfa; a saig dy fwrdd di *fuasai* yn llawn brasder.
17 Ond ti a gyflawnaist farn yr annuwiol: barn a chyfiawnder a ymaflant *ynot.*
18 O herwydd *bod* digofaint, *gochel* rhag iddo dy gymmeryd di ymaith â'*i* ddyrnod: yna ni'th wared iawn mawr.
19 A brisia efe ar dy olud di? *na phrisia*, ar aur, nac ar holl gadernid nerth.

20 Na chwennych y nos, pan dorrer pobl ymaith yn eu lle.
21 Ymochel, nac edrych ar anwiredd: canys hynny a ddewisaist o flaen cystudd.
22 Wele, Duw trwy ei nerth a ddyrchafa: pwy sydd yn dysgu fel efe?
23 Pwy a orchymynodd ei ffordd ef iddo? a phwy a ddywed, Gwnaethost anwiredd?
24 Cofia fawrhâu ei waith ef, ar yr hwn yr edrych dynion.
25 Pob dyn a'i gwel; *a* dyn a'*i* cenfydd o bell.
26 Wele, mawr *yw* Duw, ac nid adwaenom *ef;* ac ni fedrir chwilio allan nifer ei flynyddoedd ef.
27 Canys efe a wna y defnynnau dyfroedd yn fân: hwy a dywalltant wlaw fel y byddo ei darth;
28 Yr hwn a ddifera *ac* a ddefnynna y cymmylau ar ddyn yn helaeth.
29 Hefyd, a ddeall *dyn* daeniadau y cymmylau, *a* thwrf ei babell ef?
30 Wele, efe a daenodd ei oleuni arno, ac a orchuddiodd waelod y môr.
31 Canys â hwynt y barn efe y bobloedd, *ac* y rhydd efe fwyd yn helaeth.
32 Efe a guddia y goleuni â chymmylau; ac a rydd orchymyn iddo *na thywynno* trwy y *cwmmwl* sydd rhyngddynt.
33 Ei dwrf a fynega am dano, a'r anifeiliaid am y tarth.

PENNOD 37.

1 *Rhaid yw ofni Duw o herwydd ei weithredoedd.*
16 *Bod ei ddoethineb ef yn anchwiliadwy ynddynt hwy.*

WRTH hyn hefyd y cryn fy nghalon, ac y dychlamma hi o'i lle.
2 Gan wrandaw gwrandêwch ar swn ei lef, ac ar y sain a ddaw allan o'i enau ef.
3 Efe a'i hyfforddia dan yr holl nefoedd, a'i fellt hyd eithafoedd y ddaear.
4 Swn a rua ar ei ol ef: efe a wna daranau â llais ei odidowgrwydd, ac ni oeda efe hwynt, pan glywir ei dwrf ef.
5 Duw a wna daranau â'i lais yn rhyfedd: y mae yn gwneuthur pethau mwy nag a wyddom ni.
6 Canys efe a ddywed wrth yr eira, Bydd *ar* y ddaear; ac wrth gawod o wlaw, ac wrth wlaw mawr ei nerth ef.
7 Efe a selia law pob dyn, fel yr adwaeno pawb ei waith ef.
8 Yna yr â y bwystfil i'w loches, ac y trig yn ei le.
9 O'r dehau y daw corwynt; ac oerni oddi wrth y gogledd.
10 A'i wynt y rhydd Duw rew: a lled y dyfroedd a'gyfyngir.
11 Hefyd efe a flina gwmmwl yn dyfrhâu; efe a wasgar ei gwmmwl goleu.
12 Ac y mae hwnnw yn ymdrôi oddi amgylch wrth ei lywodraeth ef: fel y gwnelont hwy beth bynnag a orchymyno efe iddynt, ar hyd wyneb y byd ar y ddaear.
13 Pa un bynnag ai yn gospedigaeth, ai i'w ddaear, ai er daioni, efe a bâr iddo ddyfod.
14 Gwrando hyn, Job; saf, ac ystyria ryfeddodau Duw.
15 A wyddost ti pa bryd y dosparthodd Duw hwynt, ac y gwnaeth efe i oleuni ei gwmmwl lewyrchu?
16 A wyddost ti oddi wrth bwysau y cymmylau, rhyfeddodau yr hwn sydd berffeith-gwbl o wybodaeth?
17 Pa fodd *y mae* dy ddillad yn gynnes, pan baro efe y ddaear yn dawel â'r deheu-*wynt?*
18 A daenaist ti gyd âg ef yr wybren, *yr hon* a sicrhawyd fel drych toddedig?
19 Gwna i ni wybod pa beth a ddywedwn wrtho: ni fedrwn ni gyflêu *ein geiriau* gan dywyllwch.
20 A fynegir iddo ef os llefaraf? os dywed neb, dïau y llyngcir ef.
21 Ac yn awr, ni wêl *neb* y goleuni disglaer *sydd* yn y cymmylau: ond myned y mae y gwynt, a'u puro hwynt.
22 O'r gogleddwynt y daw hindda: *y mae* yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy.
23 *Am* yr Hollalluog, ni allwn ni mo'i gael ef: ardderchog *yw* o nerth, a barn, a helaethrwydd cyfiawnder: ni chystuddia efe.
24 Am hynny yr ofna dynion ef:

nid edrych efe ar neb doeth eu calon.

PENNOD 38.

1 *Duw yn annog Job i atteb.* 4 *Duw, trwy ei alluog weithredoedd, yn dangos i Job ei anwybodaeth,* 31 *a'i wendid.*

YNA yr ARGLWYDD a attebodd Job allan o'r corwynt, ac a ddywedodd,

2 Pwy *yw* hwn sydd yn tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth.

3 Gwregysa dy lwynau yn awr fel gŵr; a mynega i mi *yr hyn* a ofynwyf i ti.

4 Pa le yr oeddit ti pan sylfaenais i y ddaear? mynega, os medri ddeall.

5 Pwy a osododd ei mesurau hi, os gwyddost? neu pwy a estynodd linyn arni hi?

6 Ar ba beth y sicrâwyd ei sylfeini hi? neu pwy a osododd ei chongl-faen hi,

7 Pan gyd-ganodd sêr y bore, ac y gorfoleddodd holl feibion DUW?

8 A *phwy* a gauodd y môr â dorau, pan ruthrodd efe allan *megis pe* deuai allan o'r groth?

9 Pan osodais i y cwmmwl yn wisg iddo, a niwl tew yn rhwymyn iddo,

10 Pan osodais fy ngorchymyn arno, a *phan* osodais drosolion a dorau,

11 Gan ddywedyd, Hyd yma y deui, ac nid ym mhellach; ac yma yr attelir ymchwydd dy donnau di.

12 A orchymynaist ti y bore er dy ddyddiau? a ddangosaist ti i'r wawrddydd ei lle,

13 I ymaflyd yn eithafoedd y ddaear, fel yr ysgydwer yr annuwiol allan o honi hi?

14 *Canys* hi a ymnewidia fel clai y sêl; a hwy a safant fel dillad.

15 Ac attelir eu goleuni oddi wrth yr annuwiol: dryllir y braich dyrchafedig.

16 A ddaethost ti i eigion y môr? ac a rodiaist ti y'nghilfachau y dyfnder?

17 A agorwyd pyrth marwolaeth i ti? neu a welaist ti byrth cysgod angau?

18 A ystyriaist ti led y ddaear? mynega, os adwaenost ti hi i gyd.

19 Pa ffordd *yr eir lle* y trig goleuni? a pha le *y mae* lle y tywyllwch,

20 Fel y cymmerit ef hyd ei derfyn, ac y medrit y llwybrau *i'w* dŷ ef?

21 A wyddit ti yna y genid tydi? ac *y byddai* rhifedi dy ddyddiau yn fawr?

22 A aethost ti i drysorau yr eira? neu a welaist ti drysorau y cenllysg,

23 Y rhai a gedwais i hyd amser cyfyngder, hyd ddydd ymladd a rhyfel?

24 Pa ffordd yr ymranna goleuni, *yr hwn* a wasgar y dwyreinwynt ar y ddaear?

25 Pwy a rannodd ddyfrlle i'r llif-ddyfroedd? a ffordd i fellt y taranau,

26 I wlawio ar y ddaear *lle* ni *byddo* dyn; *ar* yr anialwch, *sydd* heb ddyn ynddo?

27 I ddigoni y *tir* diffaeth a gwyllt, ac i beri i gnwd o laswellt dyfu?

28 A oes dad i'r gwlaw? neu pwy a genhedlodd ddefnynnau y gwlith?

29 O groth pwy y daeth yr iâ allan? a phwy a genhedlodd lwydrew y nefoedd?

30 Y dyfroedd a guddir megis *â* charreg, ac wyneb y dyfnder a rewodd.

31 A rwymi di hyfrydwch Pleiades? neu a ddattodi di rwymau Orïon?

32 A ddygi di allan Massaroth yn eu hamser? neu a dywysi di Arcturus a'i feibion?

33 A adwaenost ti ordeiniadau y nefoedd? a osodi di ei lywodraeth ef ar y ddaear?

34 A ddyrchefi di dy lef ar y cwmmwl, fel y gorchuddio helaethrwydd o ddyfroedd dydi?

35 A ddanfoni di fellt allan, fel yr elont, ac y dywedont wrthyt, Wele ni?

36 Pwy a osododd ddoethineb yn yr ymysgaroedd? neu pwy a roddodd ddeall i'r galon?

37 Pwy a gyfrif y cymmylau trwy ddoethineb? a phwy a all attal costrelau y nefoedd,

38 Pan dröer y llwch yn dom, fel y glyno y priddellau ynghyd?

39 A elli di hela ysglyfaeth i'r llew? neu a elli di lenwi gwangc cenawon y llewod,

40 Pan ymgrymmant yn *eu* llochesau, pan eisteddant mewn ffau i gynllwyn?

41 Pwy a ddarpar i'r gigfran ei bwyd? pan lefo ei chywion ar DDUW, gwibiant o eisieu bwyd.

PENNOD 39.

1 *Am y geifr gwyllttion, a'r ewigod; 5 yr asyn gwyllt, 9 yr unicorn, 13 y paun, a'r estrys; 19 y march, 26 y gwalch, 27 a'r eryr.*

A WYDDOST ti yr amser i eifr gwylltion y creigiau lydnu? a fedri di wylied *yr amser* y bwrw yr ewigod loi?

2 A gyfrifi di y misoedd a gyflawnant hwy? ac a wyddost ti yr amser y llydnant?

3 Ymgrymmant, bwriant eu llydnod, *ac* ymadawant â'u gofid.

4 Eu llydnod a gryfhâ, cynnyddant yn y maes: ânt allan, ac ni ddychwelant attynt hwy.

5 Pwy a ollyngodd yr asyn gwyllt yn rhydd? neu pwy a ddattododd rwymau yr asyn gwyllt?

6 Yr hwn y gosodais yr anialwch yn dŷ iddo, a'r diffaethwch yn drigfa iddo.

7 Efe a chwardd am *ben* lliaws tref; ni wrendy ar lais y geilwad.

8 Cilfachau y mynyddoedd *yw* ei borfa ef, ac efe a chwilia am bob glaswelltyn.

9 A gyttuna yr unicorn i'th wasanaethu di? a erys efe wrth dy bresebau di?

10 A rwymi di unicorn â'i did mewn rhych? a lyfna efe y dolydd ar dy ol di?

11 A ymddiriedi wrtho, am fod ei gryfder yn fawr? a adewi di dy lafur iddo?

12 A goeli di ef, y dwg efe dy had di drachefn, ac y casgl efe ef i'th lawr-dyrnu di?

13 *A roddaist ti* adenydd hyfryd i'r peunod? neu adenydd a phlu i'r estrys?

14 Yr hon a âd ei hwyau yn y ddaear, ac a'u cynhesa yn y llwch;

15 Ac y mae hi yn gollwng dros gôf y gallai droed eu dryllio hwynt, neu anifail y maes eu sathru.

16 Caled yw hi wrth ei chywion, fel pe na *byddent* eiddi hi: ei gwaith hi *sydd* ofer, heb ofn;

17 Oblegid na roddes DUW iddi ddoethineb, ac na chyfrannodd iddi ddeall.

18 Yr amser yr ymgodo hi yn uchel, hi a ddïystyra y march a'i farchog.

19 A roddaist ti gryfder i farch? neu a ddysgaist iddo weryru?

20 A ddychryni di ef fel ceiliog rhedyn? dychryn *ydyw* ardderchowgrwydd ei ffroen ef.

21 *Ei draed ef* a gloddiant yn y dyffryn, ac efe a lawenycha yn *ei* gryfder: efe a â allan i gyfarfod arfau.

22 Efe a ddïystyra arswyd, ac ni ddychryna efe; ac ni ddychwel yn ei ol rhag y cleddyf.

23 Y cawell saethau a drystia yn ei erbyn, y ddisglaer waywffon a'r darian.

24 Efe a lwngc y ddaear gan greulondeb a chynddaredd: ac ni chred mai llais yr udgorn *yw*.

25 Efe a ddywed ym mhlith yr udgyrn, Ha, ha; ac a arogla o bell ryfel, twrf tywysogion, a'r bloeddio.

26 Ai trwy dy ddoethineb di yr eheda y gwalch, *ac* y lleda efe ei adenydd tu a'r dehau?

27 Ai wrth dy orchymyn di yr ymgyfyd yr eryr, ac y gwna efe ei nyth yn uchel?

28 Y trig efe ac yr erys *mewn* craig; *ac* ar ysgythredd y graig, a'r lle cadarn?

29 Oddi yno y chwilia am fwyd; ei lygaid a ganfyddant o bell.

30 Ei gywion hefyd a sugnant waed: a lle *y byddo* celanedd, yno *y bydd* efe.

PENNOD 40.

1 *Job yn ymostvmg ger bron Duw. 6 Duw yn ei gyfröi ef i ddangos ei gyfiawnder, a'i allu, a'i ddoethineb. 15 Am y behemoth.*

YR ARGLWYDD hefyd a attebodd Job, ac a ddywedodd,

2 Ai dysgeidiaeth yw ymryson â'r Hollalluog? a argyhoeddo DDUW, attebed i hynny.

3 ¶ A Job a attebodd yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd,

4 Wele, gwael ydwyf; pa beth a attebaf i ti? mi a osodaf fy llaw ar fy ngenau.

5 Dywedais unwaith; ond nid attebaf: ïe, ddwywaith; ond ni chwanegaf.

6 ¶ A'r ARGLWYDD a attebodd Job allan o'r corwynt, ac a ddywedodd,

7 Gwregysa yn awr dy lwynau fel gŵr; a myfi a ofynaf i ti, mynega dithau i mi.

8 A wnei di fy marn i yn ofer? a ferni di fi yn anghyfiawn, i'th gyfiawnhâu dy hun?

9 A oes i ti fraich fel i DDUW? neu a wnei di daranau â'th lais fel yntau?

10 Ymdrwsia yn awr â mawredd ac â godidowgrwydd, ac ymwisg â gogoniant ac â phrydferthwch.

11 Gwasgara gynddaredd dy ddigofaint; ac edrych ar bob balch, a thafl ef i lawr.

12 Edrych ar bob balch, a gostwng ef; a mathra yr annuwiol yn eu lle.

13 Cuddia hwynt ynghyd yn y pridd, *a* rhwym eu hwynebau hwynt mewn *lle* cuddiedig.

14 Yna hefyd myfi a addefaf i ti, y gall dy ddeheulaw dy achub.

15 ¶ Yn awr wele y behemoth, yr hwn a wneuthum gyd â thi; glaswellt a fwytty efe fel ŷch.

16 Wele yn awr, ei gryfder ef *sydd* yn ei lwynau, a'i nerth ym mogel ei fol.

17 Efe a gyfyd ei gynffon fel cedrwydden: gewynnau ei arennau ef sydd blethedig.

18 Pibellau pres *ydyw* ei esgyrn ef: ei esgyrn *sydd* fel ffyn heiyrn.

19 Pennaf o ffyrdd DUW *ydyw* efe: yr hwn a'i gwnaeth a all beri i'w gleddyf nesâu *atto ef*.

20 Y mynyddoedd yn ddïau a ddygant laswellt iddo: ac yno y chwery holl anifeiliaid y maes.

21 Efe a orwedd dan goedydd cysgodfawr, mewn lloches o gyrs a siglenydd.

22 Coed cysgodfawr a'i gorchuddiant â'u cysgod: helyg yr afon a'i hamgylchant.

23 Wele, efe a ŷf yr afon, *ac* ni phrysura: efe a obeithiai y tynnai efe yr Iorddonen i'w safn.

24 A ddeil neb ef o flaen ei lygaid? a dylla *neb* ei drwyn ef â bachau?

PENNOD 41.

Mawr allu Duw yn y lefiathan.

A DYNNI di y lefiathan allan â bach? neu a rwymi di ei dafod ef â rhaff?

2 A osodi di fach yn ei drwyn ef? neu a dylli di asgwrn ei ên ef â mynawyd?

3 A fawr ymbil efe â thi? a ddywed efe wrthyt ti yn dêg?

4 A wna efe ammod â thi? a gymmeri di ef yn was tragywyddol?

5 A chwareui di âg ef fel *âg* aderyn? neu a rwymi di ef i'th langcesau?

6 A swppera cyfeillion arno? a gyfrannant hwy ef rhwng marsiandwyr?

7 A lenwi di ei groen ef â phigau heiyrn? neu ei ben â thryferau?

8 Gosod dy law arno ef; cofia y rhyfel; na wna mwy.

9 Wele, ofer ydyw ei obaith ef: oni chwymp *un* gan ei olwg ef?

10 Nid *oes neb mor* hyderus a'i godi ef: a phwy a saif ger fy mron i?

11 Pwy a roddodd i mi yn gyntaf, a mi a dalaf? *beth bynnag sydd* dan yr holl nefoedd, eiddof fi yw.

12 Ni chelaf ei aelodau ef, na'i gryfder, na gweddeidd-dra ei ystum ef.

13 Pwy a ddatguddia wyneb ei wisg ef? pwy a ddaw *atto ef* â'i ffrwyn ddau-ddyblyg?

14 Pwy a egyr ddorau ei wyneb ef? ofnadwy *yw* amgylchoedd ei ddannedd ef.

15 *Ei* falchder yw *ei* emmau, wedi eu cau ynghyd *megis* â sêl gaeth.

16 *Y mae* y naill mor agos at y llall, fel na ddaw gwynt rhyngddynt.

17 Pob un a lŷn wrth eu gilydd; hwy a gyd-ymgyssylltant, fel na wahenir hwy.

18 Wrth ei disian ef y tywynna goleuni, a'i lygaid ef *sydd* fel amrantau y borè.

19 Ffaglau a ânt allan, *a* gwreichion tanllyd a neidiant o'i enau ef.

20 Mwg a ddaw allan o'i ffroenau, fel *o* bair neu grochan berwedig.

21 Ei anadl a wna i'r glo losgi, a fflam a ddaw allan o'i enau.

22 Yn ei wddf y trig cryfder, a thristwch a dry yn llawenydd o'i flaen ef.
23 Llywethau ei gnawd a lynant ynghyd: caledodd ynddo ei hun, fel na syflo.
24 Caled ydyw ei galon fel carreg: a chaled fel darn o'r maen isaf i *felin.*
25 Rhai cryfion a ofnant pan godo efe: rhag ei ddrylliadau ef yr ymlanhânt.
26 Cleddyf yr hwn a'i tarawo, ni ddeil; y waywffon, y biccell, na'r llurig.
27 Efe a gyfrif haiarn fel gwellt, *a* phres fel pren pwdr.
28 Ni phâr saeth iddo ffoi: cerrig tafl a dröed iddo yn sofl.
29 Piccellau a gyfrifir fel soflyn; ac efe a chwardd wrth ysgwyd gwaywffon.
30 Dano ef *y bydd* megis darnau llymion o lestri pridd: efe a daena bethau llymion ar hyd y clai.
31 Efe a wna i'r dyfnder ferwi fel crochan: efe a esyd y môr fel crochan o ennaint.
32 Efe a wna lwybr goleu ar ei ol; *fel* y tybygid *fod* y dyfnder yn frigwyn.
33 Nid *oes* ar y ddaear gyffelyb iddo, yr hwn a wnaethpwyd heb ofn.
34 Efe a edrych ar bob *peth* uchel: brenhin *ydyw* ar holl feibion balchder.

PENNOD 42.

1 *Job yn ymröi i Dduw.* 7 *A Duw yn barnu achos Job yn orcu, ac yn peri i'w gyfeillion ymröi iddo, ac yn ei dderbyn o'i yn gymmeradwy.* 10 *ac yn ei fawrhau, ac yn ei fendithio.* 16 *Oedran a marwolaeth Job.*

AJOB a attebodd yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd,
2 Myfi a wn y gelli di bob *peth*; ac na attelir *un* meddwl oddi wrthyt.
3 Pwy *ydyw* yr hwn sydd yn cuddio cynghor heb wybodaeth? am hynny y lleferais yr hyn nis deallais; *pethau* rhy ryfedd i mi, y rhai nis gwyddwn.
4 Gwrando, attolwg, a myfi a lefaraf: gofynaf i ti, dysg dithau finnau.
5 Myfi a glywais â'm clustiau sôn am danat: ond yn awr fy llygad a'th welodd di.
6 Am hynny y mae yn ffiaidd gennyf fi *fy hun;* ac yr ydwyf yn edifarhâu mewn llwch a lludw.
7 ¶ Ac wedi dywedyd o'r ARGLWYDD y geiriau hyn wrth Job, yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth Eliphas y Temaniad, Fy nigofaint a gynneuodd yn dy erbyn di, ac yn erbyn dy ddau gyfaill; am na ddywedasoch am danaf fi yn uniawn fel fy ngwasanaethwr Job.
8 Yn awr gan hynny cymmerwch i chwi saith o fustych, a saith o hyrddod, ac ewch at fy ngwasanaethwr Job, ac offrymmwch boethaberth drosoch; a gweddïed fy ngwasanaethwr Job drosoch: canys mi a dderbyniaf ei wyneb ef: fel na wnelwyf i chwi *yn ol eich* ffolineb, am na ddywedasoch yr uniawn am danaf fi, fel fy ngwasanaethwr Job.
9 Felly Eliphas y Temaniad, a Bildad y Suhiad, *a* Sophar y Naamathiad, a aethant ac a wnaethant fel y dywedasai yr ARGLWYDD wrthynt. A'r ARGLWYDD a dderbyniodd wyneb Job.
10 Yna yr ARGLWYDD a ddychwelodd gaethiwed Job, pan weddïodd efe dros ei gyfeillion: a'r ARGLWYDD a chwanegodd yr hyn oll *a fuasai* gan Job yn ddau ddyblyg.
11 Yna ei holl geraint, a'i holl garesau, a phawb o'i gydnabod ef o'r blaen, a ddaethant atto, ac a fwyttasant fwyd gyd âg ef yn ei dŷ, ac a gwynasant iddo, ac a'i cysurasant ef, am yr holl ddrwg a ddygasai yr ARGLWYDD arno ef: a hwy a roddasant iddo bob un ddarn o arian, a phob un dlws o aur.
12 Felly yr ARGLWYDD a fendithiodd ddiwedd Job yn fwy na'i ddechreuad: canys yr oedd ganddo bedair mil ar ddeg o ddefaid, a chwe mil o gamelod, a mil o gyplau ychain, a mil o asynod.
13 Ac yr oedd iddo saith o feibion, a thair o ferched.
14 Ac efe a alwodd enw y gyntaf, Jemimah; ac enw yr ail Cesïah; ac enw y drydedd, Ceren-happuc.

15 Ac ni cheid gwragedd mor lân
a merched Job yn yr holl wlad
honno: a'u tad a roddes iddynt
hwy etifeddiaeth ym mhlith eu
brodyr.
16 A Job a fu fyw wedi hyn
gant a deugain o flynyddoedd;
ac a welodd o'i feibion, a meib-
ion ei feibion, bedair cenhedl-
aeth.
17 Felly Job a fu farw yn hen, ac
yn llawn o ddyddiau.

LLYFR Y PSALMAU.

PSALM 1.

1 *Dedwyddwch y duwiol.* 4 *Annedwyddwch yr annuwiol.*

GWYN ei fyd y gŵr ni rodia
y'nghynghor yr annuwiolion,
ac ni saif yn ffordd pechaduriaid,
ac nid eistedd yn eisteddfa gwat-
warwyr.
2 Ond *sydd* â'i ewyllys y'nghyfraith
yr ARGLWYDD; ac yn myfyrio yn
ei gyfraith ef ddydd a nos.
3 Ac efe a fydd fel pren wedi ei
blannu ar lan afonydd dyfroedd, yr
hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd;
a'i ddalen ni wywa; a pha beth
bynnag a wnel, efe a lwydda.
4 Nid felly *y bydd* yr annuwiol;
ond fel mân us yr hwn a chwal y
gwynt ymaith.
5 Am hynny yr annuwiolion ni
safant yn y farn, na phechaduriaid
y'nghynnulleidfa y rhai cyfiawn.
6 Canys yr ARGLWYDD a edwyn
ffordd y rhai cyfiawn: ond ffordd
yr annuwiolion a ddifethir.

PSALM 2.

1 *Brenhiniaeth Crist.* 10 *Cynghori brenhinoedd i'w derbyn.*

PAHAM y terfysga y cenhedl-
oedd, ac y myfyria y bobloedd
beth ofer?
2 Y mae brenhinoedd y ddaear
yn ymosod, a'n pennaethiaid yn
ymgynghori ynghyd, yn erbyn yr
ARGLWYDD, ac yn erbyn ei Grist
ef, *gan ddywedyd,*
3 Drylliwn eu rhwymau hwy,
a thaflwn eu rheffynnau oddi wrthym.
4 Yr hwn sydd yn preswylio yn y
nefoedd a chwardd: yr ARGLWYDD
a'u gwatwar hwynt.
5 Yna y llefara efe wrthynt yn ei
lid, ac yn ei ddigllonrwydd y dy-
chryna efe hwynt.
6 Minnau a osodais fy Mrenhin
ar Sïon fy mynydd sanctaidd.
7 Mynegaf y ddeddf: dywedodd
yr ARGLWYDD wrthyf, Fy Mab
ydwyt ti; myfi heddyw a'th gen-
hedlais.
8 Gofyn i mi, a rhoddaf y cen-
hedloedd yn etifeddiaeth i ti, a
therfynau y ddaear i'th feddiant.
9 Drylli hwynt â gwialen haiarn;
maluri hwynt fel llestr pridd.
10 Gan hynny yr awr hon, fren-
hinoedd, byddwch synhwyrol: barn-
wyr y ddaear, cymmerwch ddysg.
11 Gwasanaethwch yr ARGLWYDD
mewn ofn, ac ymlawenhêwch mewn
dychryn.
12 Cusenwch y Mab, rhag iddo
ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd,
pan gynneuo ei lid ef ond ychydig.
Gwyn eu byd pawb a ymddiried-
ant ynddo ef.

PSALM 3.

Diogelwch nawdd ac amddiffyn Duw.

Psalm Dafydd, pan ffodd efe rhag Absalom ei fab.

ARGLWYDD, mor aml yw fy
nhrallodwyr! llawer *yw* y rhai
sydd yn codi i'm herbyn.
2 Llawer *yw y rhai* sydd yn dy-
wedyd am fy enaid, Nid *oes* iach-
awdwriaeth iddo yn *ei* DDUW.
Selah.
3 Ond tydi, ARGLWYDD, *ydwyt*
darian i mi; fy ngogoniant, a
dyrchafydd fy mhen.
4 A'm llef y gelwais ar yr AR-
GLWYDD, ac efe a'm clybu o'i fyn-
ydd sanctaidd. Selah.
5 Mi a orweddais, ac a gysgais,
ac a ddeffroais; canys yr AR-
GLWYDD a'm cynhaliodd.
6 Nid ofnaf fyrddiwn o bobl, y

rhai o amgylch a ymosodasant i'm herbyn.

7 Cyfod, ARGLWYDD; achub fi, fy NUW: canys tarewaist fy holl elynion *ar* gar yr ên; torraist ddannedd yr annuwiolion.

8 Iachawdwriaeth *sydd eiddo* yr ARGLWYDD: dy fendith *sydd* ar dy bobl. Selah.

PSALM 4.

1 *Dafydd yn gweddïo ar gael ei wrandaw: 2 yn ceryddu ac yn cynghori ei elynion. 6 Y'n ffafy- Duw y mae dedwyddwch dyn.*

I'r Pencerdd ar Neginoth, Psalm Dafydd.

GWRANDO fi pan alwyf, O DDUW fy nghyfiawnder: mewn cyfyngder yr ehengaist arnaf; trugarhâ wrthyf, ac erglyw fy ngweddi.

2 O feibion dynion, pa hyd *y trowch* fy ngogoniant yn warth? yr hoffwch wegi, *ac* yr argeisiwch gelwydd? Selah.

3 Ond gwybyddwch i'r ARGLWYDD neillduo y duwiol iddo ei hun: yr ARGLWYDD a wrendy pan alwyf arno.

4 Ofnwch, ac na phechwch: ymddiddenwch â'ch calon ar eich gwely, a thewch. Selah.

5 Aberthwch ebyrth cyfiawnder; a gobeithiwch yn yr ARGLWYDD.

6 Llawer *sydd* yn dywedyd, Pwy a ddengys i ni ddaioni? ARGLWYDD, dyrcha arnom lewyrch dy wyneb.

7 Rhoddaist lawenydd yn fy nghalon, mwy na'r amser yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt.

8 Mewn heddwch hefyd y gorweddaf, ac yr hunaf: canys ti, ARGLWYDD, yn unig a wnei i mi drigo mewn diogelwch.

PSALM 5.

1 *Dafydd yn gweddïo, ac yn datgan ei ddiwydrwydd yn gweddïo. 4 Ni ffafria Duw yr anwir. 7 Dafydd yn dangos ei ffydd, ac yn gweddïo ar Dduw am ei gyfarwyddo ef, 10 a difetha ei elynion, 11 a chadw y duwiol.*

I'r Pencerdd ar Nehiloth, Psalm Dafydd.

GWRANDO fy ngeiriau, ARGLWYDD; deall fy myfyrdod.

2 Erglyw ar lef fy ngwaedd, fy Mrenhin, a'm DUW: canys arnat y gweddïaf.

3 Yn fore, ARGLWYDD, y clywi fy llef; yn fore y cyfeiriaf *fy ngweddi* attat, ac yr edrychaf i fyny.

4 O herwydd nid *wyt* ti DDUW yn ewyllysio anwiredd: a drwg ni thrig gyd â thi.

5 Ynfydion ni safant yn dy olwg: caseaist holl weithredwyr anwiredd.

6 Difethi y rhai a ddywedant gelwydd: yr ARGLWYDD a ffieiddia y gŵr gwaedlyd a'r twyllodrus.

7 A minnau a ddeuaf i'th dŷ di yn amlder dy drugaredd; *ac* a addolaf tu a'th deml sanctaidd yn dy ofn di.

8 ARGLWYDD, arwain fi yn dy gyfiawnder, o achos fy ngelynion; *ac* uniona dy ffordd o'm blaen.

9 Canys nid *oes* uniondeb yn eu genau; eu ceudod *sydd* anwireddau: bedd agored *yw* eu ceg; gwenhieithiant â'u tafod.

10 Distrywia hwynt, O DDUW; syrthiant oddi wrth eu cynghorion: gyr hwynt ymaith yn amlder eu camweddau: canys gwrthryfelasant i'th erbyn.

11 Ond llawenhâed y rhai oll a ymddiriedant ynot ti: llafar-ganant yn dragywydd, am i *ti* orchuddio drostynt: *a'r* rhai a garant dy enw, gorfoleddant ynot.

12 Canys ti, ARGLWYDD, a fendithi y cyfiawn: â charedigrwydd megis *â* tharian y coroni di ef.

PSALM 6.

1 *Achwynion Dafydd yn ei glefyd. 8 Y mae efe trwy ffydd yn ymorfoleddu ar ei elynion.*

I'r Pencerdd ar Neginoth ar y Seminith, Psalm Dafydd.

ARGLWYDD, na cherydda fi yn dy lidiowgrwydd, ac na chospa fi yn dy lid.

2 Trugarhâ wrthyf, ARGLWYDD; canys llesg *ydwyf* fi: iachâ fi, O ARGLWYDD; canys fy esgyrn a gystuddiwyd.

3 A'm henaid a ddychrynwyd yn ddirfawr: tithau, ARGLWYDD, pa hyd?

4 Dychwel, ARGLWYDD, gwared fy enaid: achub fi er mwyn dy drugaredd.

5 Canys yn angau nid *oes* goffa am danat: yn y bedd pwy a'th folianna?

6 Diffygiais gan fy ochain; bob nos yr ydwyf yn gwneuthur fy ngwely yn foddfa: yr ydwyf fi yn gwlychu fy ngorweddfa â'm dagrau.

7 Treuliodd fy llygad gan ddigter: heneiddiodd o herwydd fy holl elynion.

8 Ciliwch oddi wrthyf, holl weithredwyr anwiredd: canys yr ARGLWYDD a glywodd lef fy wylofain.
9 Clybu yr ARGLWYDD fy neisyfiad: yr ARGLWYDD a dderbyn fy ngweddi.
10 Gwaradwydder a thralloder yn ddirfawr fy holl elynion: dychweler *a* chywilyddier hwynt yn ddisymmwth.

PSALM 7.

1 *Dafydd yn gweddïo yn erbyn malais ei elynion, ac yn dangos ei wiriondeb;* 10 *a thrwy ffydd yn gweled yr amddiffynnid ef, ac y difethid ei elynion.*

Sigaion Dafydd, yr hwn a ganodd efe i'r ARGLWYDD oblegid geiriau Cus mab Jemini.

ARGLWYDD fy NUW, ynot yr ymddiriedais: achub fi rhag fy holl erlidwyr, a gwared fi.
2 Rhag iddo larpio fy enaid fel llew, gan *ei* rwygo, pryd na *byddo* gwaredydd.
3 O ARGLWYDD fy NUW, os gwneuthum hyn; od oes anwiredd yn fy nwylaw;
4 O thelais ddrwg i'r neb oedd heddychol â mi, (ïe, mi a waredais yr hwn sydd elyn i mi heb achos;)
5 Erlidied y gelyn fy enaid, a goddiwedded: sathred hefyd fy mywyd i'r llawr, a gosoded fy ngogoniant yn y llwch. Selah.
6 Cyfod, ARGLWYDD, yn dy ddigllonedd, ymddyrcha, o herwydd llid fy ngelynion: deffro hefyd drosof i'r farn a orchymynaist.
7 Felly cynnulleidfa y bobloedd a'th amgylchynant: er eu mwyn dychwel dithau i'r uchelder.
8 Yr ARGLWYDD a farn y bobloedd: barn fi, O ARGLWYDD, yn ol fy nghyfiawnder, ac yn ol fy mherffeithrwydd *sydd* ynof.
9 Darfydded weithian anwiredd yr annuwiolion, eithr cyfarwydda di y cyfiawn: canys y DUW cyfiawn a chwilia y calonnau a'r arennau.
10 Fy amddiffyn *sydd* o DDUW, Iachawdwr y rhai uniawn o galon.
11 DUW sydd Farnydd cyfiawn, a DUW sydd ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol.
12 Oni ddychwel *yr annuwiol*, efe a hoga ei gleddyf: efe a annelodd ei fwa, ac a'i parottôdd.
13 Parottôdd hefyd iddo arfau angheuol: efe a drefnodd ei saethau yn erbyn yr erlidwyr.
14 Wele, efe a ymddŵg anwiredd, ac a feichiogodd ar gamwedd, ac a esgorodd ar gelwydd.
15 Torrodd bwll, cloddiodd ef, syrthiodd hefyd yn y clawdd a wnaeth.
16 Ei anwiredd a ymchwel ar ei ben ei hun, a'i draha a ddisgyn ar ei goppa ei hun.
17 Clodforaf yr ARGLWYDD yn ol ei gyfiawnder, a chanmolaf enw yr ARGLWYDD goruchaf.

PSALM 8.

Mawrygu gogoniant Duw, wrth ei weithredoedd, ac wrth ei gariad tu ag at ddyn.

I'r Pencerdd ar Gittith, Psalm Dafydd.

ARGLWYDD ein IOR ni, mor arddechog *yw* dy enw ar yr holl ddaear! yr hwn a osodaist dy ogoniant uwch y nefoedd.
2 O enau plant bychain a rhai yn sugno y peraist nerth, o achos dy elynion, i ostegu y gelyn a'r ymddïalydd.
3 Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd; y lloer a'r sêr, y rhai a ordeiniaist;
4 Pa beth *yw* dyn, i ti i'w gofio? a mab dyn, i ti i ymweled âg ef?
5 Canys gwnaethost ef ychydig îs na'r angylion, ac a'i coronaist â gogoniant ac â harddwch.
6 Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwylaw; gosodaist bob *peth* dan ei draed ef:
7 Defaid ac ychain oll, *ac* anifeiliaid y maes hefyd;
8 Ehediaid y nefoedd, a physgod y môr, *ac* y sydd yn tramwyo llwybrau y moroedd.
9 ARGLWYDD ein IOR, mor arddechog *yw* dy enw ar yr holl ddaear!

PSALM 9.

1 *Dafydd yn moliannu Duw am wneuthur barn;* 11 *ac yn annog eraill i'w glodfori ef,* 13 *ac yn gweddïo ar iddo gael achos i'w foliannu ef.*

I'r Pencerdd ar Muth-labben, Psalm Dafydd.

CLODFORAF *di*, O ARGLWYDD, â'm holl galon: mynegaf dy holl ryfeddodau.
2 Llawenychaf a gorfoleddaf ynot: canaf i'th enw di, y Goruchaf.
3 Pan ddychweler fy ngelynion yn

eu hol, hwy a gwympant ac a ddifethir o'th flaen di.

4 Canys gwnaethost fy marn a'm matter *yn dda:* eisteddaist ar orseddfaingc, gan farnu yn gyfiawn.

5 Ceryddaist y cenhedloedd, distrywiaist yr annuwiol; eu henw hwynt a ddileaist byth bythol.

6 Ha elyn, darfu am ddinystr yn dragywydd: a diwreiddiaist y dinasoedd; darfu eu coffadwriaeth gyd â hwynt.

7 Ond yr ARGLWYDD a bery yn dragywydd: efe a'barottôdd ei orseddfaingc i farn.

8 Ac efe a farn y byd mewn cyfiawnder: efe a farn y bobloedd mewn uniondeb.

9 Yr ARGLWYDD hefyd fydd noddfa i'r gorthrymmedig, noddfa yn amser trallod.

10 A'r rhai a adwaenant dy enw, a ymddiriedant ynot: canys ni adewaist, O ARGLWYDD, y rhai a'th geisient.

11 Canmolwch yr ARGLWYDD, yr hwn sydd yn preswylio yn Sïon: mynegwch ym mysg y bobloedd ei weithredoedd ef.

12 Pan ymofyno efe am waed, efe a'u cofia hwynt: nid anghofia waedd y cystuddiol.

13 Trugarhâ wrthyf, ARGLWYDD; gwel fy mlinder gan fy nghaseion, fy nyrchafydd o byrth angau:

14 Fel y mynegwyf dy holl foliant ym mhyrth merch Sïon: llawenychaf yn dy iachawdwriaeth.

15 Y cenhedloedd a soddasant yn y ffos a wnaethant: yn y rhwyd a guddiasant, y daliwyd eu troed eu hun.

16 Adweinir yr ARGLWYDD wrth y farn a wna: yr annuwiol a faglwyd y'ngweithredoedd ei ddwylaw ei hun. Higgaion. Selah.

17 Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, *a*'r holl genhedloedd a anghofiant DDUW.

18 Canys nid anghofir y tlawd byth: gobaith y trueiniaid *ni* chollir byth.

19 Cyfod, ARGLWYDD; na orfydded dyn: barner y cenhedloedd ger dy fron di.

20 Gosod, ARGLWYDD, ofn arnynt: *fel* y gwybyddo y cenhedloedd *mai* dynion ydynt. Selah.

PSALM 10.

1 Dafydd yn cwyno wrth Dduw rhag traha yr annuwiol; 12 ac yn gweddio am ymwared; 16 ac yn dangos ei hyder.

PAHAM, ARGLWYDD, y sefi o bell? yr ymguddi yn amser cyfyngder?

2 Yr annuwiol mewn balchder a erlid y tlawd: dalier hwynt yn y bwriadau a ddychymmygasant.

3 Canys yr annuwiol a ymffrostia am ewyllys ei galon; ac a fendithia y cybydd, *yr hwn* y mae yr ARGLWYDD yn ei ffieiddio.

4 Yr annuwiol, gan uchder ei ffroen, ni chais *DDUW:* nid *yw* DUW yn ei holl feddyliau ef.

5 Ei ffyrdd sydd ffin bob amser; uchel *yw* dy farnedigaethau allan o'i olwg ef: chwythu y mae yn erbyn ei holl elynion.

6 Dywedodd yn ei galon, Ni'm symmudir: o herwydd ni *byddaf* mewn drygfyd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

7 Ei enau sydd yn llawn melldith, a dichell, a thwyll: dan ei dafod *y mae* camwedd ac anwiredd.

8 Y mae efe yn eistedd y'nghynllwynfa y pentrefi: mewn cilfachau y lladd efe y gwirion: ei lygaid a dremiant yn ddirgel ar y tlawd.

9 Efe a gynllwyna mewn dirgelwch megis llew yn ei ffau: cynllwyn y mae i ddal y tlawd: efe a ddeil y tlawd, gan ei dynnu i'w rwyd.

10 Efe a ymgrymma, *ac* a ymostwng, fel y cwympo tyrfa trueiniaid gan ei gedyrn ef.

11 Dywedodd yn ei galon, Anghofiodd DUW: cuddiodd ei wyneb; ni wêl byth.

12 Cyfod, ARGLWYDD; O DDUW, dyrcha dy law: nac anghofia y cystuddiol.

13 Paham y dirmyga yr annuwiol DDUW? dywedodd yn ei galon, Nid ymofyni.

14 Gwelaist *hyn;* canys ti a ganfyddi anwiredd a cham, i roddi *tâl* â'th ddwylaw dy hun: arnat ti y gedy y tlawd; ti yw cynnorthwywr yr amddifad.

15 Tor fraich yr annuwiol a'r

drygionus: cais ei ddrygioni ef *hyd* na chaffech ddim.

16 Yr ARGLWYDD *sydd* frenhin byth ac yn dragywydd: difethwyd y cenhedloedd allan o'i dir ef.

17 ARGLWYDD, clywaist ddymuniad y tlodion: parottôi eu calon hwynt, gwrendy dy glust *arnynt;*

18 I farnu yr amddifad a'r gorthrŷmedig, fel na chwanego dyn daearol beri ofn mwyach.

PSALM 11.

1 *Dafydd yn ymgysuro yn Nuw yn erbyn ei elynion.* 4 *Rhagddarbodaeth a chyfiawnder Duw.*

I'r Pencerdd, *Psalm* Dafydd.

YN yr ARGLWYDD yr wyf yn ymddiried: pa fodd y dywedwch wrth fy enaid, Eheda i'ch mynydd *fel* aderyn?

2 Canys wele, y drygionus a annelant fwa, parottoisant eu saethau ar y llinyn; i saethu yn ddirgel y rhai uniawn o galon.

3 Canys y seiliau a ddinystriwyd; pa beth a wna y cyfiawn?

4 Yr ARGLWYDD *sydd* yn nheml ei sancteiddrwydd; gorseddfa yr ARGLWYDD *sydd* yn y nefoedd: y mae ei lygaid ef yn gweled, ei amrantau yn profi meibion dynion.

5 Yr ARGLWYDD a brawf y cyfiawn: eithr cas gan ei enaid ef y drygionus, a'r hwn sydd hoff ganddo drawsder.

6 Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus: *dyma* ran eu phïol hwynt.

7 Canys yr ARGLWYDD cyfiawn a gâr gyfiawnder: ei wyneb a edrych ar yr uniawn.

PSALM 12.

1 *Dafydd, heb gandto ddim cysur dynol, yn erfyn cymmorth gan Dduw,* 3 *ac yn ymgysuro â barnedigaethau Duw ar yr anwir, a'i ymddiried ym mhrofedig addewidion Duw.*

I'r Pencerdd ar Seminith, Psalm Dafydd.

ACHUB, ARGLWYDD; canys darfu y trugarog: o herwydd pallodd y ffyddloniaid o blith meibion dynion.

2 Oferedd a ddywedant bob un wrth ei gymmydog: *â* gwefus wenhieithgar, *ac* â chalon ddauddyblyg, y llefarant.

3 Torred yr ARGLWYDD yr holl wefusau gwenhieithus, *a*'r tafod a ddywedo fawrhydri:

4 Y rhai a ddywedant, A'n tafod y gorfyddwn; ein gwefusau *sydd* eiddom ni: pwy *sydd* arglwydd arnom ni?

5 O herwydd anrhaith y rhai cystuddiedig, o herwydd uchenaid y tlodion, y cyfodaf yn awr, medd yr ARGLWYDD; rhoddaf mewn iachawdwriaeth *yr hwn* y magler iddo.

6 Geiriau yr ARGLWYDD *ydynt* eiriau purion; *fel* arian wedi ei goethi mewn ffwrn bridd, wedi ei buro seithwaith.

7 Ti, ARGLWYDD, a'u cedwi hwynt: cedwi hwynt rhag y genhedlaeth hon yn dragywydd.

8 Yr annuwiolion a rodiant o amgylch, pan ddyrchafer y gwaelaf o feibion dynion.

PSALM 13.

1 *Dafydd yn cwyno bod yn oedi ei ymwared ef:* 3 *yn gweddïo am ras i'w ragfaeni:* 5 *yn ymfrostio yn nhrugaredd Duw.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

PA hyd, ARGLWYDD, y'm hanghofi? *ai* yn dragywydd? pa hyd y cuddi dy wyneb rhagof?

2 Pa hyd y cymmeraf gynghorion yn fy enaid, *gan fod* blinder beunydd yn fy nghalon? pa hyd y dyrchefir fy ngelyn arnaf?

3 Edrych, *a* chlyw fi, O ARGLWYDD fy NUW: goleua fy llygaid, rhag i mi huno yn yr angau:

4 Rhag dywedyd o'm gelyn, Gorchfygais ef; *ac* i'm gwrthwynebwyr lawenychu, os gogwyddaf.

5 Minnau hefyd a ymddiriedais yn dy drugaredd di; fy nghalon a ymlawenycha yn dy iachawdwriaeth: canaf i'r ARGLWYDD, am iddo synio arnaf.

PSALM 14.

1 *Dafydd yn dangos llygredigaeth natur dyn:* 4 *yn argyhoeddi yr annuwiol trwy oleuni eu cydwybod eu hun:* 7 *ym ymogoneddu yn iachawdwriaeth Duw.*

I'r Pencerdd, *Psalm* Dafydd.

YR ynfyd a ddywedodd yn ei galon, Nid *oes* un DUW. Ymlygrasant; ffieiddwaith a wnaethant: nid *oes* a wnel ddaioni.

2 Yr ARGLWYDD a edrychodd i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion, i weled a *oedd neb* deallgar, yn ymgeisio â DUW.

3 Ciliodd pawb; cyd-ymddifwynasant: nid *oes* a wnel ddaioni, nac oes un.

4 Oni ŵyr holl weithredwyr anwiredd? y rhai sydd yn bwytta fy mhobl *fel* y bwyttâent fara: ni alwasant ar yr ARGLWYDD.

5 Yno y dychrynasant gan ofn; canys y *mae* DUW y'nghenhedlaeth y cyfiawn.

6 Cynghor y tlawd a waradwyddasoch chwi; am *fod* yr ARGLWYDD yn obaith iddo.

7 Pwy a ddyry iachawdwriaeth i Israel o Sion! pan ddychwelo yr ARGLWYDD gaethiwed ei bobl, yr ymhyfryda Jacob, *ac* y llawenhâ Israel.

PSALM 15.

Dafydd yn dangos pa fath sydd ar ddinasyddion Sion.

Psalm Dafydd.

ARGLWYDD, pwy a drig yn dy babell? pwy a breswylia ym mynydd dy sancteiddrwydd?

2 Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnel gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon:

3 Heb absennu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymmydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog.

4 Yr hwn y mae y drygionus yn ddirmygus yn ei olwg; ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr ARGLWYDD: *yr hwn* a dwng i'*w* niwed *ei hun*, ac ni newidia.

5 *Yr hwn* ni roddes ei arian ar usuriaeth, ac ni chymmer wobr yn erbyn y gwirion. A wnelo hyn, nid ysgogir yn dragywydd.

PSALM 16.

1 *Dafydd, o anymddiried i'w haeddedigaethau ei hun, ac o gas ar ddelw-addoliaeth, yn cyrchu at Duw am ymwared: 5 yn dangos gobaith ei alwedigaeth, yr adgyfodiad, a bywyd tragywyddol.*

Michtam Dafydd.

CADW fi, O DDUW: canys ynot yr ymddiriedaf.

2 *Fy enaid*, dywedaist wrth yr ARGLWYDD, Fy Arglwydd *ydwyt* ti: fy nâ nid *yw* ddim i ti:

3 *Ond* i'r saint *sydd* ar y ddaear, a'r rhai rhagorol, yn y rhai *y mae* fy holl hyfrydwch.

4 Gofidiau a amlhânt i'r rhai a frysiant *ar ol duw* dïeithr: eu dïod-offrwm o waed nid offrymmaf fi, ac ni chymmeraf eu henwau yn fy ngwefusau.

5 Yr ARGLWYDD *yw* rhan fy etifeddiaeth i a'm phïol: ti a gynheli fy nghoelbren.

6 Y llinynnau a syrthiodd i mi mewn *lleoedd* hyfryd; ïe, y mae i mi etifeddiaeth dêg.

7 Bendithiaf yr ARGLWYDD, yr hwn a'm cynghorodd: fy arennau hefyd a'm dysgant y nos.

8 Gosodais yr ARGLWYDD bob amser ger fy mron: am *ei fod* ar fy neheulaw, ni'm hysgogir.

9 O herwydd hynny llawenychodd fy nghalon, ac ymhyfrydodd fy ngogoniant: fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith.

10 Canys ni adewi fy enaid yn uffern; ac ni oddefi i'th Sanct weled llygredigaeth.

11 Dangosi i mi lwybr bywyd: digonolrwydd llawenydd *sydd* ger dy fron, ar dy ddeheulaw *y mae* digrifwch yn dragywydd.

PSALM 17.

1 *Dafydd, o hyder ar ei wiriondeb, yn gofyn cymmorth Duw yn erbyn ei elynion; 10 yn dangos eu balchder, a'u dichell, a'u creulondeb hwy: 13 yn gweddio yn eu herbyn hwy, mewn hyder ar ei obaith.*

Gweddi Dafydd.

CLYW, ARGLWYDD, gyfiawnder; ystyria fy llefain, gwrando fy ngweddi o wefusau didwyll.

2 Deued fy marn oddi ger dy fron: edryched dy lygaid ar uniondeb.

3 Profaist fy nghalon; gofwyaist *fi* y nos; chwiliaist fi, *ac* ni chei ddim: bwriedais na throseddai fy ngenau.

4 Tu ag at am weithredoedd dynion, wrth eiriau dy wefusau yr ymgedwais *rhag* llwybrau yr yspeilydd.

5 Cynnal fy ngherddediad yn dy lwybrau, *fel* na lithro fy nhraed.

6 Mi a elwais arnat; canys gwrandewi arnaf fi, O DDUW: gostwng dy glust attaf, *ac* erglyw fy ymadrodd.

7 Dangos dy ryfedd drugareddau, O Achubydd y rhai a ymddiriedant *ynot*, rhag y sawl a ymgyfodant yn erbyn dy ddeheulaw.

8 Cadw fi fel canwyll llygad: cudd fi dan gysgod dy adenydd,

9 Rhag yr annuwiolion, y rhai a'm gorthrymmant; *rhag* fy ngelynion marwol, *y rhai* a'm hamgylchant.

10 Cauasant gan eu brasder: â'u genau y llefarant mewn balchder.

11 Ein cynniweirfa ni a gylchynasant hwy yr awrhon: gosodasant eu llygaid i dynnu i lawr i'r ddaear.

12 Eu dull *sydd* fel llew a chwennychai ysglyfaethu, ac megis llew ieuangc yn aros mewn lleoedd dirgel.

13 Cyfod, ARGLWYDD, achub ei flaen ef, cwympa ef: gwared fy enaid rhag yr annuwiol, *yr hwn yw* dy gleddyf di;

14 Rhag dynion, *y rhai yw* dy law, O ARGLWYDD, rhag dynion y byd, *y rhai* y mae eu rhan yn y bywyd *yma*, a'r rhai y llenwaist eu boliau â'th guddiedig *drysor:* llawn ydynt o feibion, a gadawant eu gweddill i'w rhai bychain.

15 Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder: digonir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw di.

PSALM 18.

Dafydd ým moliannu Duw am ei amryw a'i ryfeddol fendithion.

I'r Pencerdd, *Psalm* Dafydd, gwas yr ARGLWYDD, yr hwn a lefarodd wrth yr ARGLWYDD eiriau y gân hon, yn y dydd y gwaredodd yr ARGLWYDD ef o law ei holl elynion, ac o law Saul: ac efe a ddywedodd,

CARAF di, ARGLWYDD fy nghadernid.

2 Yr ARGLWYDD *yw* fy nghraig, a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd; fy NUW, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf; fy nharian, a chorn fy iachawdwriaeth, *a*'m huchel dŵr.

3 Galwaf ar yr ARGLWYDD canmoladwy: felly y'm cedwir rhag fy ngelynion.

4 Gofidion angau a'm cylchynasant, ac afonydd y fall a'm dychrynasant i.

5 Gofidiau uffern a'm cylchynasant: maglau angau a achubasant fy mlaen.

6 Yn fy nghyfyngder y gelwais ar yr ARGLWYDD, ac y gwaeddais ar fy NUW: efe a glybu fy llef o'i deml, a'm gwaedd ger ei fron a ddaeth i'w glustiau ef.

7 Yna y siglodd ac y crynodd y ddaear; a seiliau y mynyddoedd a gynhyrfodd ac a ymsiglodd, am iddo ef ddigio.

8 Dyrchafodd mwg o'i ffroenau, a thân a ysodd o'i enau: glo a ennynasant ganddo.

9 Efe hefyd a ostyngodd y nefoedd, ac a ddisgynodd: a thywyllwch *oedd* dan ei draed ef.

10 Marchogodd hefyd ar y cerub, ac a ehedodd: ïe, efe a ehedodd ar adenydd y gwynt.

11 Efe a wnaeth dywyllwch yn ddirgelfa iddo; *a*'i babell o'i amgylch *oedd* dywyllwch dyfroedd, *a* thew gymmylau yr awyr.

12 Gan y disgleirdeb *oedd* ger ei fron, ei gymmylau a aethant heibio; cenllysg a marwor tanllyd.

13 Yr ARGLWYDD hefyd a daranodd yn y nefoedd, a'r Goruchaf a roddes ei lef; cenllysg a marwor tanllyd.

14 Ïe, efe a anfonodd ei saethau, ac a'u gwasgarodd hwynt; ac a saethodd *ei* fellt, ac a'u gorchfygodd hwynt.

15 Gwaelodion y dyfroedd a welwyd, a seiliau y byd a ddinoethwyd gan dy gerydd di, O ARGLWYDD, *a* chan chwythad anadl dy ffroenau.

16 Anfonodd oddi uchod, cymmerodd fi, tynnodd fi allan o ddyfroedd lawer.

17 Efe a'm gwaredodd oddi wrth fy ngelyn cadarn, a rhag fy nghaseion: canys yr oeddynt yn drech na mi.

18 Achubasant fy mlaen yn nydd fy ngofid: ond yr ARGLWYDD oedd gynhaliad i mi.

19 Dug fi hefyd i ehangder: gwaredodd fi; canys ymhoffodd ynof.

20 Yr ARGLWYDD a'm gobrwyodd yn ol fy nghyfiawnder; yn ol glendid fy nwylaw y talodd efe i mi.

21 Canys cedwais ffyrdd yr ARGLWYDD, ac ni chiliais yn annuwiol oddi wrth fy NUW.

22 O herwydd ei holl farnedigaethau ef *oedd* ger fy mron i, a'i ddeddfau ni fwriais oddi wrthyf.

23 Bûm hefyd yn berffaith gyd âg ef, ac ymgedwais rhag fy anwiredd.

24 A'r ARGLWYDD a'm gobrwyodd yn ol fy nghyfiawnder, yn ol purdeb fy nwylaw o flaen ei lygaid ef.

25 A'r trugarog y gwnei drugaredd ; â'r gŵr perffaith y gwnei berffeithrwydd.
26 A'r glân y gwnei lendid ; ac â'r cyndyn yr ymgyndynni.
27 Canys ti a waredi y bobl gystuddiedig : ond ti a ostyngi olygon uchel.
28 O herwydd ti a oleui fy nghanwyll : yr ARGLWYDD fy NUW a lewyrcha fy nhywyllwch.
29 Oblegid ynot ti y rhedais trwy fyddin ; ac yn fy NUW y llemmais dros fur.
30 DUW *sydd* berffaith ei ffordd : gair yr ARGLWYDD sydd wedi ei buro : tarian *yw* efe i bawb a ymddiriedant ynddo.
31 Canys pwy *sydd* DDUW heb law yr ARGLWYDD ? a phwy *sydd* graig ond ein DUW ni ?
32 DUW *sydd* yn fy ngwregysu â nerth, ac yn gwneuthur fy ffordd yn berffaith.
33 Gosod y mae efe fy nhraed fel *traed* ewigod ; ac ar fy uchelfannau y'm sefydla.
34 Efe sydd yn dysgu fy nwylaw i ryfel ; fel y dryllier bwa dur yn fy mreichiau.
35 Rhoddaist hefyd i mi darian dy iachawdwriaeth ; a'th ddeheulaw a'm cynhaliodd, a'th fwynder a'm llïosogodd.
36 Ehengaist fy ngherddediad danaf ; fel na lithrodd fy nhraed.
37 Erlidiais fy ngelynion, ac a'u goddiweddais : ac ni ddychwelais nes eu difa hwynt.
38 Archollais hwynt, fel na allent godi : syrthiasant dan fy nhraed.
39 Canys gwregysaist fi â nerth i ryfel : darostyngaist danaf y rhai a ymgododd i'm herbyn.
40 Rhoddaist hefyd i mi warrau fy ngelynion ; fel y difethwn fy nghaseion.
41 Gwaeddasant, ond nid *oedd* achubydd : *sef* ar yr ARGLWYDD, ond nid attebodd efe hwynt.
42 Maluriais hwynt hefyd fel llwch o flaen y gwynt : teflais hwynt allan megis tom yr heolydd.
43 Gwaredaist fi rhag cynhennau y bobl ; gosodaist fi yn ben cenhedloedd : pobl nid adnabum a'm gwasanaethant.
44 Pan glywant am danaf, ufuddhânt i mi : meibion dïeithr a gymmerant arnynt ymddarostwng i mi.
45 Meibion dïeithr a ballant, ac a ddychrynant allan o'u dirgel fannau.
46 Byw yw yr ARGLWYDD, a bendithier fy nghraig : a dyrchafer DUW fy iachawdwriaeth.
47 DUW *sydd* yn rhoddi i mi *allu* ymddïal, ac a ddarostwng y bobloedd danaf.
48 Efe sydd yn fy ngwared oddi wrth fy ngelynion : ïe, ti a'm dyrchefi uwchlaw y rhai a gyfodant i'm herbyn : achubaist fi rhag y gŵr traws.
49 Am hynny y moliannaf di, O ARGLWYDD, ym mhlith y cenhedloedd, ac y canaf i'th enw.
50 Efe sydd yn gwneuthur mawr ymwared i'w Frenhin ; ac yn gwneuthur trugaredd i'w enneiniog, i Dafydd, ac i'w had ef byth.

PSALM 19.

1 *Bod y creaduriaid yn dangos gogoniant Duw :* 7 *a'i air yn dangos ei ras ef.* 12 *Dafydd yn gweddïo am ras.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

Y NEFOEDD sydd yn datgan gogoniant DUW ; a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef.
2 Dydd i ddydd a draetha ymadrodd, a nos i nos a ddengys wybodaeth.
3 Nid *oes* iaith nac ymadrodd, *lle* ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt.
4 Eu llinyn a aeth trwy yr holl ddaear, a'u geiriau hyd eithafoedd byd : i'r haul y gosododd efe babell ynddynt ;
5 Yr hwn *sydd* fel gŵr prïod yn dyfod allan o'i ystafell : *ac* a ymlawenhâ fel cawr i redeg gyrfa.
6 O eithaf y nefoedd *y mae* ei fynediad ef allan, a'i amgylchiad hyd eu heithafoedd hwynt : ac nid ymgudd dim oddi wrth ei wres ef.
7 Cyfraith yr ARGLWYDD *sydd* berffaith, yn troi yr enaid : tystiolaeth yr ARGLWYDD *sydd* sicr, ac yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth.
8 Deddfau yr ARGLWYDD *sydd* uniawn, yn llawenhâu y galon : gorchymyn yr ARGLWYDD *sydd* bur, yn goleuo y llygaid.

9 Ofn yr ARGLWYDD *sydd* lân, yn parhâu yn dragywydd; barnau yr ARGLWYDD *ydynt* wirionedd, cyfiawn *ydynt* i gyd.
10 Mwy dymunol *ŷnt* nag aur, ïe, nag aur coeth lawer: melysach hefyd na'r mêl, ac na diferiad diliau mêl.
11 Ynddynt hwy hefyd y rhybuddir dy was: o'u cadw *y mae* gwobr lawer.
12 Pwy a ddeall *ei* gamweddau? glanhâ fi oddi wrth *fy meiau* cuddiedig.
13 Attal hefyd dy was oddi wrth *bechodau* rhyfygus; na arglwyddiaethont arnaf: yna y'm perffeithir, ac y'm glanhêir oddi wrth anwiredd lawer.
14 Bydded ymadroddion fy ngenau, a myfyrdod fy nghalon, yn gymmeradwy ger dy fron, O ARGLWYDD, fy nghraig a'm prynwr.

PSALM 20.

1 *Yr eglwys yn bendithio y Brenhin yn ei fawrhydi. 7 Ei hyder hi y'nghymmorth Duw.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

GWRANDAWED yr ARGLWYDD arnat yn nydd cyfyngder: enw DUW Jacob a'th ddiffynno.
2 Anfoned i ti gymmorth o'r cyssegr, a nerthed di o Sïon.
3 Cofied dy holl offrymmau, a hydded foddlawn i'th boeth-offrwm. Selah.
4 Rhodded i ti wrth *fodd* dy galon; a chyflawned dy holl gynghor.
5 Gorfoleddwn yn dy iachawdwriaeth di, a dyrchafwn faner yn enw ein DUW: cyflawned yr ARGLWYDD dy holl ddymuniadau.
6 Yr awr hon y gwn y gwared yr ARGLWYDD ei enneiniog: efe a wrendy arno o nefoedd ei sanctteiddrwydd, yn nerth iechyd ei ddeheulaw ef.
7 *Ymddiried* rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch: ond nyni a gofiwn enw yr ARGLWYDD ein DUW.
8 Hwy a gwympasant, ac a syrthiasant; ond nyni a gyfodasom, ac a safasom.
9 Achub, ARGLWYDD: gwrandawed y Brenhin arnom yn y dydd y llefom.

PSALM 21.

1 *Tâl dïolch am fuddugoliaeth; 7 a hyder ar gael ychwaneg o lwyddiant.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

ARGLWYDD, yn dy nerth y llawenycha y Brenhin; ac yn dy iachawdwriaeth di mor ddirfawr yr ymhyfryda!
2 Deisyfiad ei galon a roddaist iddo; a dymuniad ei wefusau nis gommeddaist. Selah.
3 Canys achubaist ei flaen ef â bendithion daioni: gosodaist ar ei ben ef goron o aur coeth.
4 Gofynodd oes gennyt, *a* rhoddaist iddo: *ïe*, hir oes, byth ac yn dragywydd.
5 Mawr *yw* ei ogoniant yn dy iachawdwriaeth: gosodaist arno ogoniant a phrydferthwch.
6 Canys gwnaethost ef yn fendithion yn dragywyddol; llawenychaist ef â llawenydd â'th wynebpryd.
7 O herwydd bod y Brenhin yn ymddiried yn yr ARGLWYDD, a thrwy drugaredd y Goruchaf nid ysgogir ef.
8 Dy law a gaiff afael ar dy holl elynion: dy ddeheulaw a gaiff afael ar dy gaseion.
9 Ti a'u gwnei hwynt fel ffwrn danllyd yn amser dy lid: yr ARGLWYDD yn ei ddigllonedd a'u llwngc hwynt, a'r tân a'u hysa hwynt.
10 Eu ffrwyth hwynt a ddinystri di oddi ar y ddaear, a'u had o blith meibion dynion.
11 Canys bwriadasant ddrwg i'th erbyn: meddyliasant amcan, heb allu o honynt *ei gwblhâu*.
12 Am hynny y gwnei iddynt droi eu cefnau: ar dy linynnau y parottôi di *saethau* yn erbyn eu hwynebau.
13 Ymddyrcha, ARGLWYDD, yn dy nerth: canwn, a chanmolwn dy gadernid.

PSALM 22.

1 *Dafydd yn achwyn mewn anghysur mawr; 9 yn gweddïo mewn cyfyngder mawr; 23 ac yn clodfori Duw.*

I'r Pencerdd ar Aieleth-hasahar, Psalm Dafydd.

FY NUW, fy NUW, paham y'm gwrthodaist? *paham yr ydwyt* mor bell oddi wrth fy iachawdwriaeth, *a* geiriau fy llefain?
2 Fy NUW, llefain yr ydwyf y

dydd, ac ni wrandewi; y nos hefyd, ac nid *oes* osteg i mi.
3 Ond tydi *wyt* sanctaidd, *O dydi* yr hwn wyt yn cyfanneddu ym moliant Israel.
4 Ein tadau a obeithiasant ynot: gobeithiasant, a gwaredaist hwynt.
5 Arnat ti y llefasant, ac achubwyd hwynt: ynot yr ymddiriedasant, ac nis gwaradwyddwyd hwynt.
6 A minnau, pryf *ydwyf*, ac nid gŵr; gwarthrudd dynion, a dirmyg y bobl.
7 Pawb a'r a'm gwelant, a'm gwatwarant: llaesant wefl, ysgydwant ben, *gan ddywedyd*,
8 Ymddiriedodd yn yr ARGLWYDD; gwareded ef: achubed ef, gan ei fod yn dda ganddo.
9 Canys ti a'm tynnaist o'r groth: gwnaethost i mi obeithio *pan oeddwn* ar fronnau fy mam.
10 Arnat ti y'm bwriwyd o'r bru: o groth fy mam fy NUW *ydwyt*.
11 Nac ymbellhâ oddi wrthyf; o herwydd cyfyngder *sydd* agos: canys nid *oes* cynnorthwywr.
12 Teirw lawer a'm cylchynasant: gwrdd *deirw* Basan a'm hamgylchasant.
13 Agorasant arnaf eu genau, *fel* llew rheibus a rhuadwy.
14 Fel dwfr y'm tywalltwyd, a'm hesgyrn oll a ymwahanasant: fy nghalon sydd fel cŵyr; hi a doddodd y'nghanol fy mherfedd.
15 Fy nerth a wywodd fel priddlestr; a'm tafod a lynodd wrth daflod fy ngenau: ac i lwch angau y'm dygaist.
16 Canys cwn a'm cylchynasant: cynnulleidfa y drygionus a'm hamgylchasant: trywanasant fy nwylaw a'm traed.
17 Gallaf gyfrif fy holl esgyrn: y maent yn tremio *ac* yn edrych arnaf.
18 Y maent yn rhannu fy nillad yn eu mysg, ac ar fy ngwisg yn bwrw coelbren.
19 Ond tydi, ARGLWYDD, nac ymbellhâ: fy nghadernid, brysia i'm cynnorthwyo.
20 Gwared fy enaid rhag y cleddyf, fy unig *enaid* o feddiant y ci.
21 Achub fi rhag safn y llew: canys o blith cyrn unicorniaid y'm grwandewaist.
22 Mynegaf dy enw i'm brodyr: y'nghanol y gynnulleidfa y'th folaf.
23 Y rhai sydd yn ofni yr ARGLWYDD, molwch ef: holl had Jacob, gogoneddwch ef; a holl had Israel, ofnwch ef.
24 Canys ni ddirmygodd, ac ni ffieiddiodd gystudd y tlawd; ac ni chuddiodd ei wyneb rhagddo: ond pan lefodd efe arno, efe a wrandawodd.
25 Fy mawl *sydd* o honot ti yn y gynnulleidfa fawr: fy addunedau a dalaf ger bron y rhai a'i hofnant ef.
26 Y tlodion a fwyttânt, ac a ddiwellir: y rhai a geisiant yr ARGLWYDD, a'i moliannant ef: eich calon fydd byw yn dragywydd.
27 Holl derfynau y ddaear a gofiant, ac a droant at yr ARGLWYDD: a holl dylwythau y cenhedloedd a addolant ger dy fron di.
28 Canys eiddo yr ARGLWYDD *yw* y deyrnas: ac efe *sydd* yn llywodraethu ym mhlith y cenhedloedd.
29 Yr holl *rai* breision ar y ddaear a fwyttânt, ac a addolant: y rhai a ddisgynant i'r llwch, a ymgrymmant ger ei fron ef; ac nid oes neb a all gadw yn fyw ei enaid ei hun.
30 *Eu* had a'i gwasanaetha ef: cyfrifir ef i'r ARGLWYDD yn genhedlaeth.
31 Deuant, ac adroddant ei gyfiawnder ef i'r bobl a enir, mai efe a wnaeth *hyn*.

PSALM 23.

Hyder Dafydd ar ras Duw.

Psalm Dafydd.

YR ARGLWYDD *yw* fy Mugail; ni bydd eisieu arnaf.
2 Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog: efe a'm tywys ger llaw y dyfroedd tawel.
3 Efe a ddychwel fy enaid: efe a'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.
4 Ië, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed: canys *yr wyt* ti gyd â mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant.
5 Ti a arlwyi ford ger fy mron y'ngŵydd fy ngwrthwynebwyr: ir-

aist fy mhen âg olew; fy phïol sydd lawn.

6 Daioni a thrugaredd yn ddïau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd: a phreswyliaf yn nhŷ yr ARGLWYDD yn dragywydd.

PSALM 24.

1 *Arglwyddiaeth Duw yn y byd hwn.* 3 *Dinasyddion ei ysbrydol deyrnas ef.* 7 *Cynghor i'w dderbyn ef.*

Psalm Dafydd.

EIDDO yr ARGLWYDD y ddaear, a'i chyflawnder; y byd, ac a breswylia ynddo.

2 Canys efe a'i seiliodd ar y moroedd, ac a'i sicrhaodd ar yr afonydd.

3 Pwy a esgyn i fynydd yr ARGLWYDD? a phwy a saif yn ei le sanctaidd ef?

4 Y glân *ei* ddwylaw, a'r pur *ei* galon; yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo.

5 Efe a dderbyn fendith gan yr ARGLWYDD, a chyfiawnder gan DDUW ei iachawdwriaeth.

6 Dyma genhedlaeth y rhai a'i ceisiant ef, y rhai a geisiant dy wyneb di, O Jacob. Selah.

7 O byrth, dyrchefwch eich pennau; ac ymddyrchefwch, ddrysau tragywyddol; a Brenhin y gogoniant a ddaw i mewn.

8 Pwy *yw* y Brenhin gogoniant hwn? yr ARGLWYDD nerthol a chadarn, yr ARGLWYDD cadarn mewn rhyfel.

9 O byrth, dyrchefwch eich pennau; ac ymddyrchefwch, ddrysau tragywyddol; a Brenhin y gogoniant a ddaw i mewn.

10 Pwy yw y Brenhin gogoniant hwn? ARGLWYDD y lluoedd, efe *yw* Brenhin y gogoniant. Selah.

PSALM 25.

1 *Hyder Dafydd yn ei weddi.* 7 *Y mae yn gweddïo am faddeuant pechodau,* 16 *ac am gymmorth mewn trallod.*

Psalm Dafydd.

ATTAT ti, O ARGLWYDD, y dyrchafaf fy enaid.

2 O fy NUW, ynot ti yr ymddiriedais; na'm gwaradwydder; na orfoledded fy ngelynion arnaf.

3 Ïe, na waradwydder neb sydd yn disgwyl wrthyt ti: gwaradwydder y rhai a droseddant heb achos.

4 Pâr i mi wybod dy ffyrdd, O ARGLWYDD: dysg i mi dy lwybrau.

5 Tywys fi yn dy wirionedd, a dysg fi: canys ti *yw* DUW fy iachawdwriaeth; wrthyt ti y disgwyliaf ar hyd y dydd.

6 Cofia, ARGLWYDD, dy dosturiaethau, a'th drugareddau: canys erioed *y maent* hwy.

7 Na chofia bechodau fy ieuengctid, na'm camweddau: yn ol dy drugaredd meddwl di am danaf, er mwyn dy ddaioni, ARGLWYDD.

8 Da ac uniawn *yw* yr ARGLWYDD: o herwydd hynny y dysg efe bechaduriaid yn y ffordd.

9 Y rhai llariaidd a hyffordda efe mewn barn: a'i ffordd a ddysg efe i'r rhai gostyngedig.

10 Holl lwybrau yr ARGLWYDD *ydynt* drugaredd a gwirionedd, i'r rhai a gadwant ei gyfammod a'i dystiolaethau ef.

11 Er mwyn dy enw, ARGLWYDD, maddeu fy anwiredd: canys mawr *yw*.

12 Pa ŵr *yw* efe sydd yn ofni yr ARGLWYDD? efe a'i dysg ef yn y ffordd a ddewiso.

13 Ei enaid ef a erys mewn daioni: a'i had a etifedda y ddaear.

14 Dirgelwch yr ARGLWYDD *sydd* gyd â'r rhai a'i hofnant ef: a'i gyfammod hefyd, i'w cyfarwyddo hwynt.

15 Fy llygaid *sydd* yn wastad ar yr ARGLWYDD: canys efe a ddwg fy nhraed allan o'r rhwyd.

16 Tro attaf, a thrugarhâ wrthyf: canys unig a thlawd *ydwyf*.

17 Gofidiau fy nghalon a helaethwyd: dwg fi allan o'm cyfyngderau.

18 Gwel fy nghystudd a'm helbul, a maddeu fy holl bechodau.

19 Edrych ar fy ngelynion; canys amlhasant; â chasineb traws *hefyd* y'm casasant.

20 Cadw fy enaid, ac achub fi: na'm gwaradwydder; canys ymddiriedais ynot.

21 Cadwed perffeithrwydd ac uniondeb fi: canys yr wyf yn disgwyl wrthyt.

22 O DDUW, gwared Israel o'i holl gyfyngderau.

PSALM 26.

Dafydd yn cyrchu at Dduw, mewn hyder o'i ddiniweidrwydd.

Psalm Dafydd.

BARN fi, ARGLWYDD; canys rhodiais yn fy mherffeithrwydd; ymddiriedais hefyd yn yr ARGLWYDD: *am hynny* ni lithraf.
2 Hola fi, ARGLWYDD, a phrawf fi: chwilia fy arennau a'm calon.
3 Canys dy drugaredd *sydd* o flaen fy llygaid: ac mi a rodiais yn dy wirionedd.
4 Nid eisteddais gyd â dynion coegion; a chyd â'r rhai trofaus nid âf.
5 Caseais gynnulleidfa y drygionus; a chyd â'r annuwiolion nid eisteddaf.
6 Golchaf fy nwylaw mewn diniweidrwydd: a'th allor, O ARGLWYDD, a amgylchynaf:
7 I gyhoeddi â llef clodforedd, ac i fynegi dy holl ryfeddodau.
8 ARGLWYDD, hoffais drigfan dy dŷ, a lle preswylfa dy ogoniant.
9 Na chasgl fy enaid gyd â phechaduriaid, na'm bywyd gyd â dynion gwaedlyd:
10 Y rhai *y mae* ysgelerder yn eu dwylaw, a'u deheulaw yn llawn gwobrau.
11 Eithr mi a rodiaf yn fy mherffeithrwydd: gwared fi, a thrugarhâ wrthyf.
12 Fy nhroed sydd yn sefyll ar yr uniawn: yn y cynnulleidfaoedd y*'th* fendithiaf, *O* ARGLWYDD.

PSALM 27.

1 *Dafydd yn attegu ei ffydd, trwy allu Duw, 4 trwy ei serch i wasanaeth Duw, 9 a thrwy weddi.*

Psalm Dafydd.

YR ARGLWYDD *yw* fy ngoleuni a'm hiachawdwriaeth; rhag pwy yr ofnaf? yr ARGLWYDD *yw* nerth fy mywyd; rhag pwy y dychrynaf?
2 Pan nesaodd y rhai drygionus, *sef* fy ngwrthwynebwyr a'm gelynion, i'm herbyn, i fwytta fy nghnawd, hwy a dramgwyddasant ac a syrthiasant.
3 Pe gwersyllai llu i'm herbyn, nid ofna fy nghalon: pe cyfodai câd i'm herbyn, yn hyn mi *a fyddaf* hyderus.
4 Un *peth* a ddeisyfais i gan yr ARGLWYDD, hynny a geisiaf; *sef* caffael trigo yn nhŷ yr ARGLWYDD holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr ARGLWYDD, ac i ymofyn yn ei deml.
5 Canys yn y dydd blin y'm cudd, ia o fewn ei babell: yn nirgelfa ei babell y'm cuddia; ar graig y'm cyfyd i.
6 Ac yn awr y dyrcha efe fy mhen goruwch fy ngelynion o'm hamgylch: am hynny yr aberthaf yn ei babell ef ebyrth gorfoledd; canaf, ïe, canmolaf yr ARGLWYDD.
7 Clyw, O ARGLWYDD, fy lleferydd *pan* lefwyf: trugarhâ hefyd wrthyf, a gwrando arnaf.
8 *Pan ddywedaist*, Ceisiwch fy wyneb; fy nghalon a ddywedodd wrthyt, Dy wyneb a geisiaf, O ARGLWYDD.
9 Na chuddia dy wyneb oddi wrthyf; na fwrw ymaith dy was mewn sorriant: fy nghymmorth fuost; na âd fi, ac na wrthod fi, O DDUW fy iachawdwriaeth.
10 Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, yr ARGLWYDD a'm derbyn.
11 Dysg i mi dy ffordd, ARGLWYDD, ac arwain fi ar hyd llwybrau uniondeb, o herwydd fy ngelynion.
12 Na ddyro fi i fyny i ewyllys fy ngelynion: canys gau dystion, a *rhai* a adroddant drawsder, a gyfodasant i'm herbyn.
13 *Diffygiaswn*, pe na chredaswn weled daioni yr ARGLWYDD yn nhir y rhai byw.
14 Disgwyl wrth yr ARGLWYDD: ymwrola, ac efe a nertha dy galon: disgwyl, meddaf, wrth yr ARGLWYDD.

PSALM 28.

1 *Dafydd yn gweddïo yn daer yn erbyn ei elynion; 6 yn bendithio Duw, 9 ac yn gweddïo dros y bobl.*

Psalm Dafydd.

ARNAT ti, ARGLWYDD, y gwaeddaf; fy nghraig, na ddistawa wrthyf: rhag, *o* thewi wrthyf, i mi fod yn gyffelyb i rai yn disgyn i'r pwll.
2 Erglyw lef fy ymbil pan waeddwyf arnat, pan ddyrchafwyf fy nwylaw tu ag at dy gafell sanctaidd.

3 Na thyn fi gyd â'r annuwiolion, a chyd â gweithredwyr anwiredd; y rhai a lefarant heddwch wrth eu cymmydogion, a drwg yn eu calon.
4 Dyro iddynt yn ol eu gweithred, ac yn ol drygioni eu dychymmygion: dyro iddynt yn ol gweithredoedd eu dwylaw; tâl iddynt eu haeddedigaethau.
5 Am nad ystyriant weithredoedd yr ARGLWYDD, na gwaith ei ddwylaw ef, y dinystria efe hwynt, ac nis adeilada hwynt.
6 Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD: canys clybu lef fy ngweddïau.
7 Yr ARGLWYDD *yw* fy nerth, a'm tarian; ynddo ef yr ymddiriedodd fy nghalon, a myfi a gynnorthwywyd: o herwydd hyn y llawenychodd fy nghalon, ac ar fy nghân y clodforaf ef.
8 Yr ARGLWYDD *sydd* nerth i'r cyfryw rai, a chadernid iachawdwriaeth ei Enneiniog *yw* efe.
9 Cadw dy bobl, a bendithia dy etifeddiaeth: portha hwynt hefyd, a dyrcha hwynt yn dragywydd.

PSALM 29.

1 *Dafydd yn annog tywysogion i roi gogoniant i Dduw: 3 o herwydd ei fawr allu,* 11 *a'i amddiffyn i'w bobl.*

Psalm Dafydd.

MOESWCH i'r ARGLWYDD, chwi *feibion* cedyrn, moeswch i'r ARGLWYDD ogoniant a nerth.
2 Moeswch i'r ARGLWYDD ogoniant ei enw: addolwch yr ARGLWYDD ym mhrydferthwch *ei* sancteiddrwydd.
3 Llef yr ARGLWYDD *sydd* ar y dyfroedd: DUW y gogoniant a darana; yr ARGLWYDD *sydd* ar y dyfroedd mawrion.
4 Llef yr ARGLWYDD *sydd* mewn grym: llef yr ARGLWYDD *sydd* mewn prydferthwch.
5 Llef yr ARGLWYDD *sydd* yn dryllio y cedrwydd: ïe, dryllia yr ARGLWYDD gedrwydd Libanus.
6 Efe a wna iddynt lammu fel llo; Libanus a Sirion fel llwdn unicorn.
7 Llef yr ARGLWYDD a wasgara y fflammau tân.
8 Llef yr ARGLWYDD a wna i'r anialwch grynu; yr ARGLWYDD a wna i anialwch Cades grynu.
9 Llef yr ARGLWYDD a wna i'r ewigod lydnu, ac a ddynoetha y coedydd: ac yn ei deml pawb a draetha *ei* ogoniant *ef*.
10 Yr ARGLWYDD sydd yn eistedd ar y llifeiriant; ïe, yr ARGLWYDD a eistedd yn Frenhin yn dragywydd.
11 Yr ARGLWYDD a ddyry nerth i'w bobl: yr ARGLWYDD a fendithia ei bobl â thangnefedd.

PSALM 30.

1 *Dafydd yn moli Duw am ei ymwared;* 4 *yn annog craill i'w glodfori, wrth weled fel yr oedd Duw yn gwneuthur âg ef.*

Psalm *neu* Gân *o* gyssegriad tŷ Dafydd.

MAWRYGAF di, O ARGLWYDD: canys dyrchefaist fi, ac ni lawenheaist fy ngelynion o'm plegid.
2 ARGLWYDD fy NUW, llefais arnat, a thithau a'm hiacheaist.
3 ARGLWYDD, dyrchefaist fy enaid o'r bedd: cedwaist fi yn fyw, rhag disgyn o honof i'r pwll.
4 Cenwch i'r ARGLWYDD, ei saint ef; a chlodforwch wrth goffadwriaeth ei sancteiddrwydd ef.
5 Canys ennyd fechan *y bydd* yn ei lid; yn ei foddlonrwydd *y mae* bywyd: dros brydnawn yr erys wylofain, ac erbyn y bore *y bydd* gorfoledd.
6 Ac mi a ddywedais yn fy llwyddiant, Ni'm syflir yn dragywydd.
7 O'th ddaioni, ARGLWYDD, y gosodaist gryfder yn fy mynydd: cuddiaist dy wyneb, *a* bûm helbulus.
8 Arnat ti, ARGLWYDD, y llefais, ac â'r ARGLWYDD yr ymbiliais.
9 Pa fudd *sydd* yn fy ngwaed, pan ddisgynwyf i'r ffos? a glodfora y llwch di? a fynega efe dy wirioneddi?
10 Clyw, ARGLWYDD, a thrugarhâ wrthyf: ARGLWYDD, bydd gynnorthwywr i mi.
11 Troaist fy ngalar yn llawenydd i mi: diosgaist fy sachwisg, a gwregysaist fi â llawenydd;
12 Fel y cano *fy* ngogoniant i ti, ac na thawo. O ARGLWYDD fy NUW, yn dragywyddol y'th foliannaf.

PSALM 31.

1 *Dafydd yn dangos ei ymddiried yn Nuw, ac yn gofyn ei help ef;* 7 *yn ymlawenychu yn ei drugaredd ef;* 9 *yn gweddio yn ei adfyd,* 19 *ac yn moliannu Duw am ei ddaioni.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

YNOT ti, ARGLWYDD, yr ymddiriedais: na'm gwaradwydder yn dragywydd: gwared fi yn dy gyfiawnder.
2 Gogwydda dy glust attaf; gwared fi ar frys: bydd i mi yn graig gadarn, yn dŷ amddiffyn i'm cadw.
3 Canys fy nghraig a'm castell *ydwyt:* gan hynny er mwyn dy enw tywys fi, ac arwain fi.
4 Tyn fi allan o'r rhwyd a gudd-iasant i mi: canys ti *yw* fy nerth.
5 I'th law y gorchymynaf fy yspryd: gwaredaist fi, O ARGLWYDD DDUW y gwirionedd.
6 Caseais y rhai sydd yn dal ar ofer-wagedd: minnau a obeithiaf yn yr ARGLWYDD.
7 Ymlawenhâf ac ymhyfrydaf yn dy drugaredd: canys gwelaist fy adfyd; adnabuost fy enaid mewn cyfyngderau;
8 Ac ni warchaeaist fi yn llaw y gelyn; *ond* gosodaist fy nhraed mewn ehangder.
9 Trugarhâ wrthyf, ARGLWYDD; canys cyfyng *yw* arnaf: dadwinodd fy llygad gan ofid, *ïe*, fy enaid a'm bol.
10 Canys fy mywyd a ballodd gan ofid, a'm blynyddoedd gan ochain: fy nerth a ballodd o herwydd fy anwiredd, a'm hesgyrn a bydrasant.
11 Yn warthrudd yr ydwyf ym mysg fy holl elynion, a *hynny* yn ddirfawr ym mysg fy nghymmydogion; ac yn ddychryn i'r rhai a'm hadwaenant: y rhai a'm gwelent allan, a gilient oddi wrthyf.
12 Anghofiwyd fi fel un marw allan o feddwl: yr ydwyf fel llestr methedig.
13 Canys clywais ogan llawer-oedd; dychryn *oedd* o bob parth: pan gyd-ymgynghorasant yn fy erbyn, y bwriadasant fy nïeneidio.
14 Ond mi a obeithiais ynot ti, ARGLWYDD: dywedais, Fy NUW *ydwyt.*
15 Yn dy law di *y mae* fy amserau: gwared fi o law fy ngelynion, ac oddi wrth fy erlidwyr.
16 Llewyrcha dy wyneb ar dy was: achub fi er mwyn dy drugaredd.
17 ARGLWYDD, na waradwydder fi; canys gelwais arnat: gwaradwydder yr annuwiolion, torrer hwynt i'r bedd.
18 Gosteger y gwefusau celwyddog, y rhai a ddywedant yn galed, trwy falchder a dïystyrwch, yn erbyn y cyfiawn.
19 Mor fawr *yw* dy ddaioni a roddaist i gadw i'r sawl a'th ofnant; *ac* a wnaethost i'r rhai a ymddiriedant ynot, ger bron meibion dynion!
20 Cuddi hwynt yn nirgelfa dy wyneb rhag balchder dynion: cuddi hwynt mewn pabell rhag cynnen tafodau.
21 Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD: canys dangosodd yn rhyfedd ei garedigrwydd i mi mewn dinas gadarn.
22 Canys mi a ddywedais yn fy ffrwst, Fe'm bwriwyd allan o'th olwg: er hynny ti a wrandewaist lais fy ngweddïau pan lefais arnat.
23 Cerwch yr ARGLWYDD, ei holl saint ef: yr ARGLWYDD a geidw y ffyddloniaid, ac a dâl yn ehelaeth i'r neb a wna falchder.
24 Ymwrolwch, ac efe a gryfhâ eich calon, chwychwi oll y rhai ydych yn gobeithio yn yr ARGLWYDD.

PSALM 32.

1 *Ym maddeuant pechodau y mae dedwyddwch yn sefyll.* 3 *Bod cyfaddef pechodau yn ymwrthdu ar y gydwybod.* 8 *Addewidion Duw yn dwyn llawenydd.*

Psalm Dafydd, er athrawiaeth.

GWYN *ei* fyd *y neb* y maddeuwyd *ei* drosedd, ac y cuddiwyd *ei* bechod.
2 Gwyn *ei* fyd y dyn ni chyfrif yr ARGLWYDD iddo anwiredd, ac ni *byddo* dichell yn ei yspryd.
3 Tra y tewais, heneiddiodd fy esgyrn, gan fy rhuad ar hyd y dydd.
4 Canys trymhaodd dy law arnaf ddydd a nos: fy irder a dröwyd yn sychder haf. Selah.
5 Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddiais: dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r ARGLWYDD; a thi a faddeuaist anwiredd fy mhechod. Selah.
6 Am hyn y gweddïa pob duwiol arnat ti yn yr amser y'th geffir: yn ddïau yn llifeiriant dyfroedd mawrion, ni chânt nesâu atto ef.
7 Ti *ydwyt* loches i mi; cedwi fi

rhag ing: amgylchyni fi â chaniadau ymwared. Selah.

8 Cyfarwyddaf di, a dysgaf di yn y ffordd yr elych: â'm llygad arnat *y'th* gynghoraf.

9 Na fyddwch fel march, *neu* ful, heb ddeall: yr hwn y mae rhaid attal ei ên â genfa, ac â ffrwyn, rhag ei ddynesâu attat.

10 Gofidiau lawer *fydd* i'r annuwiol: ond y neb a ymddiriedo yn yr ARGLWYDD, trugaredd a'i cylchyna ef.

11 Y rhai cyfiawn, byddwch lawen a hyfryd yn yr ARGLWYDD: a'r rhai uniawn o galon oll, cenwch yn llafar.

PSALM 33.

1 *Bod yn rhaid moliannu Duw am ei ddaioni,* 6 *am ei allu,* 12 *am ei ragluniaeth.* 20 *Ar Dduw y mae hyderu.*

YMLAWENHEWCH, y rhai cyfiawn, yn yr ARGLWYDD: i'r rhai uniawn gweddus yw mawl.

2 Molwch yr ARGLWYDD â'r delyn: cenwch iddo â'r nabl, *ac â'r* degtant.

3 Cenwch iddo ganiad newydd: cenwch yn gerddgar, yn soniarus.

4 Canys uniawn *yw* gair yr ARGLWYDD; a'i holl weithredoedd *a wnaed* mewn ffyddlondeb.

5 Efe a gâr gyfiawnder a barn: o drugaredd yr ARGLWYDD y mae y ddaear yn gyflawn.

6 Trwy air yr ARGLWYDD y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl luoedd hwy trwy yspryd ei enau ef.

7 Casglu y mae efe ddyfroedd y môr ynghyd megis pentwr: y mae yn rhoddi y dyfnderoedd mewn trysorau.

8 Ofned yr holl ddaear yr ARGLWYDD: holl drigolion y byd arswydant ef.

9 Canys efe a ddywedodd, ac *felly* y bu: efe a orchymynodd, a hynny a safodd.

10 Yr ARGLWYDD sydd yn diddymmu cynghor y cenhedloedd: y mae efe yn diddymmu amcanion pobloedd.

11 Cynghor yr ARGLWYDD a saif yn dragywydd; meddyliau ei galon o genhedlaeth i genhedlaeth.

12 Gwyn ei byd y genedl *y mae* yr ARGLWYDD yn DDUW iddi; *a'r* bobl a ddetholodd efe yn etifeddiaeth iddo ei hun.

13 Yr ARGLWYDD sydd yn edrych i lawr o'r nefoedd: *y mae* yn gweled holl feibion dynion.

14 O breswyl ei drigfa yr edrych efe ar holl drigolion y ddaear.

15 Efe a gyd-luniodd eu calon hwynt: efe a ddeall eu holl weithredoedd.

16 Ni waredir brenhin gan lïaws llu: ni ddïangc cadarn trwy ei fawr gryfder.

17 Peth ofer *yw* march i ymwared: ac nid achub efe *neb* trwy ei fawr gryfder.

18 Wele, *y mae* llygad yr ARGLWYDD ar y rhai a'i hofnant ef, *sef* ar y rhai a obeithiant yn ei drugaredd ef;

19 I waredu eu henaid rhag angau, ac i'w cadw yn fyw yn *amser* newyn.

20 Ein henaid sydd yn disgwyl am yr ARGLWYDD: efe *yw* ein porth a'n tarian.

21 Canys ynddo ef y llawenycha ein calon, o herwydd i ni obeithio yn ei enw sanctaidd ef.

22 Bydded dy drugaredd, ARGLWYDD, arnom ni, megis yr ydym yn ymddiried ynot.

PSALM 34.

1 *Dafydd yn clodfori Duw, ac yn annog eraill i wneuthur hynny, wrth a brofasai efe.* 8 *Dedwydd yw y rhai sydd yn ymddiried yn Nuw.* 11 *Cynghor i ofni Duw.* 15 *Rhagorfraint y cyfiawn.*

Psalm Dafydd, pan newidiodd efe ei wedd o flaen Abimelech; yr hwn a'i gyrrodd ef ymaith, ac efe a ymadawodd.

BENDITHIAF yr ARGLWYDD bob amser: ei foliant *fydd* yn fy ngenau yn wastad.

2 Yn yr ARGLWYDD y gorfoledda fy enaid: y rhai gostyngedig a glywant *hyn*, ac a lawenychant.

3 Mawrygwch yr ARGLWYDD gyd â mi; a chyd-ddyrchafwn ei enw ef.

4 Ceisiais yr ARGLWYDD, ac efe a'm gwrandawodd; gwaredodd fi hefyd o'm holl ofn.

5 Edrychasant arno, a hwy a oleuwyd; a'u hwynebau ni chywilyddiwyd.

6 Y tlawd hwn a lefodd, a'r ARGLWYDD a'*i* clybu, ac a'i gwaredodd o'i holl drallodau.

7 Angel yr ARGLWYDD a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'u gwared hwynt.

8 Profwch, a gwelwch mor dda *yw* yr ARGLWYDD: gwyn *ei* fyd y gŵr a ymddiriedo ynddo.

9 Ofnwch yr ARGLWYDD, ei saint ef: canys nid *oes* eisieu ar y rhai a'i hofnant ef.

10 Y mae eisieu a newyn ar y llewod ieuaingc: ond y sawl a geisiant yr ARGLWYDD, ni bydd arnynt eisieu dim daioni.

11 Deuwch, blant, gwrandêwch arnaf: dysgaf i chwi ofn yr ARGLWYDD.

12 Pwy *yw* y gŵr a chwennych fywyd, *ac* a gâr *hir* ddyddiau, i weled daioni?

13 Cadw dy dafod rhag drwg, a'th wefusau rhag traethu twyll.

14 Cilia oddi wrth ddrwg, a gwna dda; ymgais â thangnefedd, a dilyn hi.

15 Llygaid yr ARGLWYDD *sydd* ar y cyfiawn: a'i glustiau *sydd yn agored* i'w llefain hwynt.

16 Wyneb yr ARGLWYDD *sydd* yn erbyn y rhai a wna ddrwg, i dorri eu coffa oddi ar y ddaear.

17 *Y rhai cyfiawn* a lefant; a'r ARGLWYDD a glyw, ac a'u gwared o'u holl drallodau.

18 Agos *yw* yr ARGLWYDD at y rhai dryllledig o galon; ac efe a geidw y rhai briwedig o yspryd.

19 Aml ddrygau *a gaiff* y cyfiawn: ond yr ARGLWYDD a'i gwared ef oddi wrthynt oll.

20 Efe a geidw ei holl esgyrn ef: ni thorrir un o honynt.

21 Drygioni a ladd yr annuwiol: a'r rhai a gasânt y cyfiawn, a anrheithir.

22 Yr ARGLWYDD a wared eneidiau ei weision: a'r rhai oll a ymddiriedant ynddo ef, nid anrheithir hwynt.

PSALM 35.

1 *Dafydd yn gweddio am ddiogelwch iddo ei hun, a gwarth i'w elynion:* 11 *yn achwyn rhag y cam a wnaent ag ef.* 22 *Ac wrth hynny, yn annog Duw yn eu herbyn hwy.*

Psalm Dafydd.

DADLEU *fy nadl*, ARGLWYDD, yn erbyn y rhai a ddadleuant i'm herbyn: ymladd â'r rhai a ymladdant â mi.

2 Ymafael yn y darian a'r astalch, a chyfod i'm cymmorth.

3 Dwg allan y waywffon, ac argaea yn erbyn fy erlidwyr: dywed wrth fy enaid, Myfi *yw* dy iachawdwriaeth.

4 Cywilyddier a gwaradwydder y rhai a geisiant fy enaid: ymchweler yn *eu* hol a gwarthâer y sawl a fwriadant fy nrygu.

5 Byddant fel us o flaen y gwynt: ac angel yr ARGLWYDD yn *eu* herlid.

6 Bydded eu ffordd yn dywyllwch ac yn llithrigfa: ac angel yr ARGLWYDD yn eu hymlid.

7 Canys heb achos y cuddiasant eu rhwyd i mi *mewn* pydew, *yr hwn* heb achos a gloddiasant i'm henaid.

8 Deued arno ddistryw ni wypo; a'i rwyd yr hon a guddiodd, a'i dalio: syrthied yn y distryw hwnnw.

9 A llawenycha fy enaid i yn yr ARGLWYDD: *efe* a ymhyfryda yn ei iachawdwriaeth ef.

10 Fy holl esgyrn a ddywedant, O ARGLWYDD, pwy *sydd* fel tydi, yn gwaredu y tlawd rhag yr hwn a fyddo drech nag ef; y truan hefyd a'r tlawd, rhag y neb a'i hyspeilio?

11 Tystion gau a gyfodasant: holasant i mi yr hyn nis gwn oddi wrtho.

12 Talasant i mi ddrwg dros dda, *i* yspeilio fy enaid.

13 A minnau, pan glafychent hwy, *oeddwn* â'm gwisg o sachlen: gostyngais fy enaid âg ympryd, a'm gweddi a ddychwelodd i'm mynwes fy hun.

14 Ymddygais fel *pe buasai* yn gyfaill, *neu* yn frawd i mi: ymostyngais mewn galarwisg, fel un yn galaru *am ei* fam.

15 Ond ymlawenhasant hwy yn fy adfyd i, ac ymgasglasant: *ie*, ymgasglodd efryddion yn fy erbyn, ac nis gwyddwn; rhwygasant *fi*, ac ni pheidient.

16 Ym mysg y gwatwarwyr rhagrithiol mewn gwleddoedd, ysgyrnygasant eu dannedd arnaf.

17 Arglwydd, pa hyd yr edrychi di *ar hyn?* gwared fy enaid rhag

eu distryw hwynt, fy unig *enaid* rhag y llewod.

18 Mi a'th glodforaf yn y gynnulleidfa fawr: moliannaf di ym mhlith pobl lawer.

19 Na lawenychant o'm herwydd y rhai sydd elynion i mi heb achos: y sawl a'm casânt yn ddïachos, *nac* amneidiant â llygad.

20 Gan nad ymddiddanant yn dangnefeddus; eithr dychymmygant eiriau dichellgar yn erbyn *y rhai* llonydd yn y tir.

21 Lledasant eu safn arnaf, gan ddywedyd, Ha, ha, gwelodd ein llygad.

22 Gwelaist *hyn*, ARGLWYDD: na thaw dithau; nac ymbellhâ oddi wrthyf, O ARGLWYDD.

23 Cyfod, a deffro i'm barn, *sef* i'm dadl, fy NUW a'm Harglwydd.

24 Barn fi, ARGLWYDD fy NUW, yn ol dy gyfiawnder; ac na lawenhânt o'm plegid.

25 Na ddywedant yn eu calon, O ein gwynfyd: na ddywedant, Llyngcasom ef.

26 Cywilyddier a gwaradwydder hwy i gyd, y rhai sydd lawen am fy nrygfyd: gwisger â gwarth ac â chywilydd y rhai a ymfawrygant i'm herbyn.

27 Caned a llawenyched y rhai a hoffant fy nghyfiawnder: dywedant hefyd yn wastad, Mawryger yr ARGLWYDD, yr hwn a gâr lwyddiant ei was.

28 Fy nhafod innau a lefara am dy gyfiawnder *a*'th foliant ar hyd y dydd.

PSALM 36.

1 Blin gyflwr yr annuwiol. 5 Godidowgrwydd trugaredd Duw. 10 Dafydd yn gweddïo am ffafr i blant Duw.

I'r Pencerdd, *Psalm* Dafydd gwas yr ARGLWYDD.

Y MAE anwiredd yr annuwiol yn dywedyd o fewn fy nghalon, nad *oes* ofn DUW o flaen ei lygaid ef.

2 O herwydd ymwenhieithio y mae efe iddo ei hun yn ei olwg ei hunan, nes cael ei anwiredd yn atgas.

3 Geiriau ei enau *ydynt* anwiredd a thwyll: peidiodd â bod yn gall i wneuthur daioni.

4 Anwiredd a ddychymmyg efe ar ei wely: efe a'i gesyd ei hun ar ffordd nid *yw* dda; nid ffiaidd ganddo ddrygioni.

5 Dy drugaredd, ARGLWYDD, *sydd* hyd y nefoedd, *a*'th wirionedd hyd y cymmylau.

6 Fel mynyddoedd cedyrn *y mae* dy gyfiawnder; dyfnder mawr *yw* dy farnedigaethau: dyn ac anifail a gedwi di, ARGLWYDD.

7 Mor werthfawr *yw* dy drugaredd, O DDUW! am hynny yr ymddiried meibion dynion dan gysgod dy adenydd.

8 Llawn-ddigonir hwynt â brasder dy dŷ; ac âg afon dy hyfrydwch y dïodi hwynt.

9 Canys gyd â thi *y mae* ffynnon y bywyd: yn dy oleuni di y gwelwn oleuni.

10 Estyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant, a'th gyfiawnder i'r rhai uniawn o galon.

11 Na ddeued troed balchder i'm herbyn: na syfled llaw yr annuwiol fi.

12 Yno y syrthiodd gweithwyr anwiredd: gwthiwyd hwynt i lawr, ac ni allant gyfodi.

PSALM 37.

Dafydd yn annog i amynedd, ac i hyderu ar Dduw, o herwydd y rhagor sydd rhwng cyflwr y duwiol a'r annuwiol.

Psalm Dafydd.

NAC ymddigia o herwydd y rhai drygionus, ac na chenfigenna wrth y rhai a wnant anwiredd.

2 Canys yn ebrwydd y torrir hwynt i'r llawr fel glaswellt, ac y gwywant fel gwyrdd-lysiau.

3 Gobeithia yn yr ARGLWYDD, a gwna dda; *felly* y trigi yn y tir, a thi a borthir yn ddïau.

4 Ymddigrifa hefyd yn yr ARGLWYDD; ac efe a ddyry i ti ddymuniadau dy galon.

5 Treigla dy ffordd ar yr ARGLWYDD, ac ymddiried ynddo; ac efe a'i dwg i ben.

6 Efe a ddwg allan dy gyfiawnder fel y goleuni, a'th farn fel hanner dydd.

7 Distawa yn yr ARGLWYDD, a disgwyl wrtho: nac ymddigia o herwydd yr hwn a lwyddo ganddo ei ffordd, wrth y gŵr sydd yn gwneuthur *ei* ddrwg amcanion.

8 Paid â digofaint, a gâd ymaith

gynddaredd: nac ymddigia er dim i wneuthur drwg.

9 Canys torrir ymaith y drwg ddynion: ond y rhai a ddisgwyliant wrth yr ARGLWYDD, hwynt-hwy a etifeddant y tir.

10 Canys etto ychydigyn, ac ni *welir* yr annuwiol: a thi a edrychi am ei le ef, ac ni *bydd dim* o hono.

11 Eithr y rhai gostyngedig a etifeddant y ddaear; ac a ymhyfrydant gan lïaws tangnefedd.

12 Yr annuwiol a amcana yn erbyn y cyfiawn, ac a ysgyrnyga ei ddannedd arno.

13 Yr ARGLWYDD a chwardd am ei ben ef: canys gwel fod ei ddydd ar ddyfod.

14 Yr annuwiolion a dynnasant eu cleddyf, ac a annelasant eu bwa, i fwrw i lawr y tlawd a'r anghenog, *ac* i ladd y rhai uniawn *eu* ffordd.

15 Eu cleddyf a â yn eu calon eu hunain, a'u bwäau a ddryllir.

16 Gwell *yw* yr ychydig sydd gan y cyfiawn na mawr olud annuwiolion lawer.

17 Canys breichiau yr annuwiolion a dorrir: ond yr ARGLWYDD a gynnal y rhai cyfiawn.

18 Yr ARGLWYDD a edwyn ddyddiau y rhai perffaith: a'u hetifeddiaeth hwy fydd yn dragywydd.

19 Nis gwaradwyddir hwy yn amser drygfyd: ac yn amser newyn y cânt ddigon.

20 Eithr collir yr annuwiolion, a gelynion yr ARGLWYDD fel brasder ŵyn a ddiflannant: yn fwg y diflannant hwy.

21 Yr annuwiol a echwyna, ac ni thâl adref: ond y cyfiawn sydd drugarog, ac yn rhoddi.

22 Canys *y rhai* a fendigo efe, a etifeddant y tir; a'*r rhai* a felldithio efe, a dorrir ymaith.

23 Yr ARGLWYDD a ffordda gerddediad gŵr *da:* a da fydd ganddo ei ffordd ef.

24 Er iddo gwympo, ni lwyr-fwrir ef i lawr: canys yr ARGLWYDD sydd yn *ei* gynnal *ef* â'i law.

25 Mi a fûm ieuangc, ac yr ydwyf yn hen; etto ni welais y cyfiawn wedi ei adu, na'i had yn cardotta bara.

26 Bob amser *y mae efe* yn drugarog, ac yn rhoddi benthyg; a'i had a fendithir.

27 Cilia di oddi wrth ddrwg, a gwna dda; a chyfannedda yn dragywydd.

28 Canys yr ARGLWYDD a gâr farn, ac ni edy ei saint; cedwir hwynt yn dragywydd: ond had yr annuwiol a dorrir ymaith.

29 Y rhai cyfiawn a etifeddant y ddaear, ac a breswyliant ynddi yn dragywydd.

30 Genau y cyfiawn a fynega ddoethineb, a'i dafod a draetha farn.

31 Deddf ei DDUW *sydd* yn ei galon ef; a'i gamrau ni lithrant.

32 Yr annuwiol a wylia ar y cyfiawn, ac a gais ei ladd ef.

33 Ni âd yr ARGLWYDD ef yn ei law ef, ac ni âd ef yn euog pan ei barner.

34 Gobeithia yn yr ARGLWYDD, a chadw ei ffordd ef, ac efe a'th ddyrchafa fel yr etifeddech y tir; pan ddifether yr annuwiolion, ti a'*i* gweli.

35 Gwelais yr annuwiol yn gadarn, ac yn frigog fel y lawryf gwyrdd.

36 Er hynny efe a aeth ymaith, ac wele, nid *oedd mwy* o hono: a mi a'i ceisiais, ac nid oedd i'w gael.

37 Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn: canys diwedd y gŵr *hwnnw fydd* tangnefedd.

38 Ond y troseddwyr a gyd-ddistrywir: diwedd yr annuwiolion a dorrir ymaith.

39 A iachawdwriaeth y cyfiawn *sydd* oddi wrth yr ARGLWYDD: *efe yw* eu nerth yn amser trallod.

40 A'r ARGLWYDD a'u cymmorth hwynt, ac a'u gwared: efe a'u gwared hwynt rhag yr annuwiolion, ac a'u ceidw hwynt, am iddynt ymddiried ynddo.

PSALM 38.

Dafydd yn erfyn ar Dduw dosturio wrth ei dostur gyflwr ef.

Psalm Dafydd, er coffa.

ARGLWYDD, na cherydda fi yn dy lid: ac na chospa fi yn dy ddigllonedd.

2 Canys y mae dy saethau y'nglŷn ynof, a'th law yn drom arnaf.
3 Nid *oes* iechyd yn fy nghnawd, o herwydd dy ddigllonedd; ac nid *oes* heddwch i'm hesgyrn, oblegid fy mhechod.
4 Canys fy nghamweddau a aethant dros fy mhen: megis baich trwm y maent yn rhy drwm i mi.
5 Fy nghleisiau a bydrasant *ac* a lygrasant, gan fy ynfydrwydd.
6 Crymmwyd a darostyngwyd fi yn ddirfawr: beunydd yr ydwyf yn myned yn alarus.
7 Canys fy lwynau a lanwyd o ffieidd-*glwyf;* ac nid *oes* iechyd yn fy nghnawd.
8 Gwanhawyd, a drylliwyd fi yn dra-mawr: rhuais gan aflonyddwch fy nghalon.
9 O'th flaen di, ARGLWYDD, *y mae* fy holl ddymuniad; ac ni chuddiwyd fy uchenaid oddi wrthyt.
10 Fy nghalon sydd yn llammu; fy nerth a'm gadawodd; a llewyrch fy llygaid nid *yw* chwaith gennyf.
11 Fy ngharedigion a'm cyfeillion a safent oddi ar gyfer fy mhla; a'm cyfneseifiaid a safent o hirbell.
12 Y rhai hefyd a geisient fy einioes, a osodasent faglau; a'r rhai a geisient fy niwed, a draethent anwireddau, ac a ddychymmygent ddichellion ar hyd y dydd.
13 A minnau fel byddar ni chlywn; eithr *oeddwn* fel mudan heb agoryd ei enau.
14 Felly yr oeddwn fel gŵr ni chlywai, ac heb argyhoeddion yn ei enau.
15 O herwydd i mi obeithio ynot, ARGLWYDD; ti, ARGLWYDD fy NUW, a wrandewi.
16 Canys dywedais, *Gwrando fi,* rhag llawenychu *o honynt* i'm herbyn: pan lithrâi fy nhroed, ymfawrygent i'm herbyn.
17 Canys parod *wyf* i gloffi, a'm dolur *sydd* ger fy mron yn wastad.
18 Dïau y mynegaf fy anwireddau, *ac* y pryderaf o herwydd fy mhechod.
19 Ac *y mae* fy ngelynion yn fyw, *ac* yn gedyrn: amlhawyd hefyd y rhai a'm casânt ar gam.
20 A'r rhai a dalant ddrwg dros dda, a'm gwrthwynebant; am fy mod yn dilyn daioni.
21 Na âd fi, O ARGLWYDD: fy NUW, nac ymbellhâ oddi wrthyf.
22 Brysia i'm cymmorth, O ARGLWYDD fy iachawdwriaeth.

PSALM 39.

1 *Gofal Dafydd am ei feddyliau:* 4 *ystyried fyrred ac ofered oes dyn:* 7 *parch barnedigaethau Duw,* 10 *a gweddi, yn ffrwyno ei annioddefgarwch ef.*

Psalm Dafydd i'r Pencerdd, *sef* i Jeduthun.

DYWEDAIS, Cadwaf fy ffyrdd, rhag pechu â'm tafod: cadwaf ffrwyn yn fy ngenau, tra fyddo yr annuwiol yn fy ngolwg.
2 Tewais yn ddistaw, *ie,* tewais â daioni; a'm dolur a gyffrôdd.
3 Gwresogodd fy nghalon o'm mewn: tra yr oeddwn yn myfyrio, ennynodd tân, *a* mi a leferais â'm tafod.
4 ARGLWYDD, pâr i mi wybod fy niwedd, a pheth *yw* mesur fy nyddiau; *fel* y gwypwyf o ba oedran y *byddaf* fi.
5 Wele, gwnaethost fy nyddiau *fel* dyrnfedd; a'm heinioes *sydd* megis diddym yn dy olwg di: dïau mai cwbl wagedd *yw* pob dyn, pan fo ar y goreu. Selah.
6 Dyn yn ddïau sydd yn rhodio mewn cysgod, ac yn ymdrafferthu yn ofer: efe a dyrra *olud,* ac nis gŵyr pwy a'i casgl.
7 Ac yn awr beth a ddisgwyliaf, O ARGLWYDD? fy ngobaith sydd ynot ti.
8 Gwared fi o'm holl gamweddau; *ac* na osod fi yn waradwydd i'r ynfyd.
9 Euthum yn fud, *ac* nid agorais fy ngenau: canys ti a wnaethost *hyn.*
10 Tyn dy bla oddi wrthyf: gan ddyrnod dy law y darfum i.
11 Pan gospit ddyn â cheryddon am anwiredd, dattodit fel gwyfyn ei ardderchowgrwydd ef: gwagedd yn ddïau *yw* pob dyn. Selah.
12 Gwrando fy ngweddi, ARGLWYDD, a chlyw fy llef; na thaw wrth fy wylofain: canys ymdeithydd *ydwyf* gyd â thi, *ac* alltud, fel fy holl dadau.
13 Paid â mi, fel y cryfhawyf cyn fy myned, ac na byddwyf mwy.

PSALM 40.

1 *Y lles sydd o hyderu ar Dduw.* 6 *Ufudd-dod yw yr aberth gorcu.* 11 *Drygau Dafydd yn peri iddo weddïo yn daerach.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

DISGWYLIAIS yn ddyfal am yr ARGLWYDD; ac efe a ymostyngodd attaf, ac a glybu fy llefain.

2 Cyfododd fi hefyd o'r pydew erchyll, allan o'r pridd tomlyd; ac a osododd fy nhraed ar graig, gan hwylio fy ngherddediad.

3 A rhoddodd yn fy ngenau ganiad newydd o foliant i'n DUW ni: llawer a welant *hyn*, ac a ofnant, ac a ymddiriedant yn yr ARGLWYDD.

4 Gwyn *ei* fyd y gŵr a osodo yr ARGLWYDD yn ymddiried iddo; ac ni thry at feilchion, nac at y rhai a ŵyrant at gelwydd.

5 Lliosog y gwnaethost ti, O ARGLWYDD fy NUW, dy ryfeddodau, a'th amcanion tu ag attom: ni ellir yn drefnus eu cyfrif hwynt i ti: pe mynegwn, *a phe* traethwn *hwynt*, amlach ydynt nag y gellir eu rhifo.

6 Aberth ac offrwm nid ewyllysiaist; agoraist fy nghlustiau: poeth-offrwm a phech-aberth nis gofynaist.

7 Yna y dywedais, Wele yr ydwyf yn dyfod: yn rhol y llyfr yr ysgrifenwyd am danaf.

8 Da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy NUW: a'th gyfraith *sydd* o fewn fy nghalon.

9 Pregethais gyfiawnder yn y gynnulleidfa fawr: wele, nid atteliais fy ngwefusau; ti, ARGLWYDD, a'i gwyddost.

10 Ni chuddiais dy gyfiawnder o fewn fy nghalon; traethais dy ffyddlondeb, a'th iachawdwriaeth: ni chelais dy drugaredd na'th wirionedd yn y gynnulleidfa lïosog.

11 Tithau, ARGLWYDD, nac attal dy drugareddau oddi wrthyf: cadwed dy drugaredd a'th wirionedd fi byth.

12 Canys drygau annifeiriol a'm cylchynasant o amgylch: fy mhechodau a'm daliasant, fel na allwn edrych i fyny: amlach ydynt na gwallt fy mhen; am hynny y pallodd fy nghalon gennyf.

13 Rhynged bodd i ti, ARGLWYDD, fy ngwaredu: brysia, ARGLWYDD, i'm cymmorth.

14 Cyd-gywilyddier a gwaradwydder y rhai a geisiant fy einioes i'w difetha; gyrrer yn eu hol a chywilyddier y rhai a ewyllysiant i mi ddrwg.

15 Anrheithier hwynt yn wobr am eu gwaradwydd, y rhai a ddywedant wrthyf, Ha, ha.

16 Llawenyched ac ymhyfryded ynot ti y rhai oll a'th geisiant: dyweded y rhai a garant dy iachawdwriaeth bob amser, Mawryger yr ARGLWYDD.

17 Ond *yr wyf* fi yn dlawd ac yn anghenus; *etto* yr ARGLWYDD a feddwl am danaf: fy nghymmorth a'm gwaredydd *ydwyt* ti; fy NUW, na hir drig.

PSALM 41.

1 *Gofal Duw dros y tlawd.* 4 *Dafydd yn cwyno rhag brad ei elynion;* 10 *yn ceïo at Dduw am gymmorth.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

GWYN *ei* fyd a ystyria wrth y tlawd: yr ARGLWYDD a'i gwared ef yn amser adfyd.

2 Yr ARGLWYDD a'i ceidw, ac a'i bywhâ; gwynfydedig fydd ar y ddaear: na ddod dithau ef wrth ewyllys ei elynion.

3 Yr ARGLWYDD a'i nertha ef ar ei glaf wely: cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd.

4 Mi a ddywedais, ARGLWYDD, trugarhâ wrthyf: iachâ fy enaid; canys pechais i'th erbyn.

5 Fy ngelynion a lefarant ddrwg am danaf, *gan ddywedyd*, Pa bryd y bydd efe farw, ac y derfydd am ei enw ef?

6 Ac os daw i'*m* hedrych, efe a ddywed gelwydd; ei galon a gasgl atti anwiredd: *pan* êl allan, efe a'*i* traetha.

7 Fy holl gaseion a gyd-hustyngant i'm herbyn: yn fy erbyn y dychymmygant ddrwg i mi.

8 Afliwydd, *meddant*, a lŷn wrtho: a chan ei fod yn gorwedd, ni chyfyd mwy.

9 Hefyd y gŵr oedd anwyl gennyf, yr hwn yr ymddiriedais iddo, *ac* a fwyttaodd fy mara, a ddyrchafodd *ei* sawdl i'm herbyn.

10 Eithr ti, ARGLWYDD, trugarhâ wrthyf; a chyfod fi, fel y talwyf iddynt.
11 Wrth hyn y gwn hoffi o honot fi, am na chaiff fy ngelyn orfoleddu i'm herbyn.
12 Ond am danaf fi, yn fy mherffeithrwydd y'm cynheli, ac y'm gosodi ger dy fron yn dragywydd.
13 Bendigedig *fyddo* ARGLWYDD DDUW Israel, o dragywyddoldeb a hyd dragywyddoldeb. Amen, ac Amen.

PSALM 42.

1 *Sêl Dafydd i weddio Duw yn ei deml.* 5 *Y mae yn cynhyrfu ei enaid i roi ei ogyd ar Dduw.*

I'r Pencerdd, Maschil, i feibion Corah.

FEL y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti, O DDUW.
2 Sychedig yw fy enaid am DDUW, am y DUW byw: pa bryd y deuaf ac yr ymddangosaf ger bron DUW?
3 Fy nagrau oedd fwyd i mi ddydd a nos, tra dywedant wrthyf bob dydd, Pa le *y mae* dy DDUW?
4 Tywalltwn fy enaid ynof, pan gofiwn hynny: canys aethwn gyd â'r gynnulleidfa, cerddwn gyd â hwynt i dŷ DDUW, mewn sain cân a moliant, *fel* tyrfa yn cadw gwyl.
5 Paham, fy enaid, y'th ddarostyngir, ac yr ymderfysgi ynof? gobeithia yn NUW: oblegid moliannaf ef etto, *am* iachawdwriaeth ei wynebpryd.
6 Fy NUW, fy enaid a ymddarostwng ynof: am hynny y cofiaf di, o dir yr Iorddonen, a'r Hermoniaid, o fryn Misar.
7 Dyfnder a eilw ar ddyfnder, wrth swn dy bistylloedd di: dy holl donnau a'th lifeiriaint a aethant drosof fi.
8 *Etto* yr ARGLWYDD a orchymyn ei drugaredd liw dydd, a'i gân *fydd* gyd â mi liw nos; *sef* gweddi ar DDUW fy einioes.
9 Dywedaf wrth DDUW fy nghraig, Paham yr anghofiaist fi? paham y rhodiaf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?
10 *Megis* â chleddyf yn fy esgyrn *y mae* fy ngwrthwynebwyr yn fy ngwaradwyddo, pan ddywedant wrthyf bob dydd, Pa le *y mae* dy DDUW?
11 Paham y'th ddarostyngir, fy enaid? a phaham y terfysgi ynof? ymddiried yn NUW: canys etto y moliannaf ef, *sef* iachawdwriaeth fy wyneb, a'm DUW.

PSALM 43.

1 *Dafydd yn gweddio am gael ei ddwyn drachefn i'r deml; ac yn addaw gwasanaethu Duw yn llawen: 5 yn cynhyrfu ei enaid i ymddiried yn Nuw.*

BARN fi, O DDUW, a dadleu fy nadl yn erbyn y genhedlaeth annhrugarog: gwared fi rhag y dyn twyllodrus ac anghyfiawn.
2 Canys ti *yw* DUW fy nerth: paham y'm bwri ymaith? paham yr âf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?
3 Anfon dy oleuni a'th wirioneddi: tywysant hwy fi; *ac* arweiniant fi i fynydd dy sancteiddrwydd, ac i'th bebyll.
4 Yna yr âf at allor DUW, at DDUW hyfrydwch fy ngorfoledd; a mi a'th foliannaf ar y delyn, O DDUW, fy NUW.
5 Paham y'th ddarostyngir, fy enaid? a phaham y terfysgi ynof? gobeithia yn NUW; canys etto y moliannaf ef, *sef* iachawdwriaeth fy wyneb, a'm DUW.

PSALM 44.

1 *Yr eglwys, wrth gofio daioni Duw tu ag atti o'r blaen, 7 yn cwyno rhag ei dryglyd presennol; 17 yn dangos ei phurdeb, 24 ac yn gweddio yn ddifrif am gymmorth.*

I'r Pencerdd, i feibion Corah, Maschil.

DUW, clywsom â'n clustiau, ein tadau a fynegasant i ni, *y* weithred a wnaethost yn eu hamser hwynt, yn y dyddiau gynt.
2 Ti â'th law a yrraist allan y cenhedloedd, ac a'u plennaist hwythau; ti a ddrygaist y bobloedd, ac a'u cynnyddaist hwythau.
3 Canys nid â'u cleddyf eu hun y goresgynasant y tir, nid eu braich a barodd iachawdwriaeth iddynt; eithr dy ddeheulaw di, a'th fraich, a llewyrch dy wyneb, o herwydd i ti eu hoffi hwynt.
4 Ti, DDUW, yw fy Mrenhin: gorchymyn iachawdwriaeth i Jacob.
5 Ynot ti y cilgwthiwn ni ein gelynion: yn dy enw di y sathrwn y rhai a gyfodant i'n herbyn.
6 O herwydd nid yn fy mwa

yr ymddiriedaf; nid fy nghleddyf chwaith a'm hachub.
7 Eithr ti a'n hachubaist ni oddi wrth ein gwrthwynebwyr, ac a waradwyddaist ein caseion.
8 Yn NUW yr ymffrostiwn trwy y dydd; a *ni* a glodforwn dy enw yn dragywydd. Selah.
9 Ond ti a'n bwriaist ni ymaith, ac a'n gwaradwyddaist; ac nid wyt yn myned allan gyd â'n lluoedd.
10 Gwnaethost i ni droi yn ol oddi wrth y gelyn: a'n caseion a anrheithiasant iddynt eu hun.
11 Rhoddaist ni fel defaid i'w bwytta; a gwasgeraist ni ym mysg y cenhedloedd.
12 Gwerthaist dy bobl heb elw, ac ni chwanegaist *dy olud* o'u gwerth hwynt.
13 Gosodaist ni yn warthrudd i'n cymmydogion, yn watwargerdd ac yn wawd i'r rhai ydynt o'n hamgylch.
14 Gosodaist ni yn ddïareb ym mysg y cenhedloedd, yn rhai i ysgwyd pen arnynt ym mysg y bobloedd.
15 Fy ngwarthrudd *sydd* beunydd ger fy mron, a chywilydd fy wyneb a'm tôdd:
16 Gan lais y gwarthruddwr a'r cablwr; o herwydd y gelyn a'r ymddïalwr.
17 Hyn oll a ddaeth arnom; etto ni'th anghofiasom di, ac ni buom anffyddlawn yn dy gyfammod.
18 Ni throdd ein calon yn *ei* hol, ac nid aeth ein cerddediad allan o'th lwybr di;
19 Er i ti ein curo yn nhrigfa dreigiau, a thoi drosom â chysgod angau.
20 Os anghofiasom enw ein DUW, neu estyn ein dwylaw at dduw dïeithr:
21 Oni chwilia DUW hyn allan? canys efe a ŵyr ddirgeloedd y galon.
22 Ië, er dy fwyn di y'n lleddir beunydd; cyfrifir ni fel defaid i'w lladd.
23 Deffro, paham y cysgi, O ARGLWYDD? cyfod, na fwrw *ni* ymaith yn dragywydd.
24 Paham y cuddi dy wyneb? *ac* yr anghofi ein cystudd a'n gorthrymder?
25 Canys gostyngwyd ein henaid i'r llwch: glynodd ein bol wrth y ddaear.
26 Cyfod yn gynnorthwy i ni, a gwared ni er mwyn dy drugaredd.

PSALM 45.

1 *Mawrhydi a rhad brenhiniaeth Crist.* 10 *Dyledswydd yr eglwys, a'r budd sydd o hynny.*

I'r Pencerdd ar Sosannim, i feibion Corah, Maschil, Cân cariadau.

TRAETHA fy nghalon beth da: dywedyd yr ydwyf y pethau a wneuthum i'r brenhin: fy nhafod *sydd* bin ysgrifenydd buan.
2 Teccach ydwyt na meibion dynion: tywalltwyd gras ar dy wefusau: o herwydd hynny y'th fendithiodd DUW yn dragywydd.
3 Gwregysa dy gleddyf ar *dy* glun, O Gadarn, â'th ogoniant a'th harddwch.
4 Ac yn dy harddwch marchoga yn llwyddiannus, o herwydd gwirionedd, a lledneisrwydd, *a* chyfiawnder; a'th ddeheulaw a ddysg i ti bethau ofnadwy.
5 Pobl a syrthiant danat; *o herwydd* dy saethau llymion *yn glynu* y'nghalon gelynion y Brenhin.
6 Dy orsedd di, O DDUW, *sydd* byth ac yn dragywydd: teyrnwïalen uniondeb *yw* teyrn-wïalen dy frenhiniaeth di.
7 Ceraist gyfiawnder, a chaseaist ddrygioni: am hynny y'th enneiniodd DUW, *sef* dy DDUW di, âg olew llawenydd yn fwy na'th gyfeillion.
8 *Arogl* myr, aloes, *a* chasia, *sydd ar* dy holl wisgoedd: *allan* o'r palasau ifori, â'r rhai y'th lawenhasant.
9 Merched brenhinoedd *oedd* ym mhlith dy bendefigesau: safai y frenhines ar dy ddeheulaw mewn aur coeth o Ophir.
10 Gwrando, ferch, a gwel, a gostwng dy glust; ac anghofia dy bobl dy hun, a thŷ dy dad.
11 A'r Brenhin a chwennych dy degwch: canys efe *yw* dy Ior di; ymostwng dithau iddo ef.
12 Merch Tyrus hefyd *fydd yno* âg anrheg; *a* chyfoethogion y bobl a ymbiliant â'th wyneb.
13 Merch y Brenhin *sydd* oll yn

ogoneddus o fewn: gemwaith aur *yw* ei gwisg hi.
14 Mewn gwaith edau a nodwydd y dygir hi at y Brenhin: y morwynion *y rhai a ddeuant* ar ei hol, yn gyfeillesau iddi, a ddygir attat ti.
15 Mewn llawenydd a gorfoledd y dygir hwynt: deuant i lys y Brenhin.
16 Dy feibion fydd yn lle dy dadau, y rhai a wnei yn dywysogion yn yr holl dir.
17 Paraf gofio dy enw ym mhob cenhedlaeth ac oes: am hynny y bobl a'th foliannant byth ac yn dragywydd.

PSALM 46.

1 *Yr ymddiried sydd gan yr eglwys yn Nuw.*
8 *Cynghor i ystyried hynny.*

I'r Pencerdd o feibion Corah, Cân ar Alamoth.

DUW *sydd* noddfa a nerth i ni, cymmorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.
2 Am hynny nid ofnwn pe symmudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr:
3 *Er* rhuo *a* therfysgu o'i ddyfroedd, *er* crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef. Selah.
4 *Y mae* afon, a'i ffrydiau a lawenhânt ddinas DUW; cyssegr preswylfeydd y Goruchaf.
5 DUW *sydd* yn ei chanol; nid ysgog hi: DUW a'i cynnorthwya yn fore iawn.
6 Y cenhedloedd a derfysgasant, y teyrnasoedd a ysgogasant: efe a roddes ei lef, toddodd y ddaear.
7 *Y mae* ARGLWYDD y lluoedd gyd â ni; *y mae* DUW Jacob yn amddiffynfa i ni. Selah.
8 Deuwch, gwelwch weithredoedd yr ARGLWYDD; pa anghyfanneddra a wnaeth efe ar y ddaear.
9 Gwna i ryfeloedd beidio hyd eithaf y ddaear; efe a ddryllia y bwa, ac a dyr y waywffon, efe a lysg y cerbydau â thân.
10 Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi *sydd* DDUW: dyrchefir fi ym mysg y cenhedloedd, dyrchefir fi ar y ddaear.
11 *Y mae* ARGLWYDD y lluoedd gyd â ni; amddiffynfa i ni *yw* DUW Jacob. Selah.

PSALM 47.

Cynghori y cenhedloedd i groesawu teyrnas Crist yn llawen.

I'r Pencerdd, Psalm i feibion Corah.

YR holl bobl, curwch ddwylaw; llafar genwch i DDUW â llef gorfoledd.
2 Canys yr ARGLWYDD goruchaf *sydd* ofnadwy; Brenhin mawr ar yr holl ddaear.
3 Efe a ddwg y bobl danom ni, a'r cenhedloedd dan ein traed.
4 Efe a ddethol ein hetifeddiaeth i ni, ardderchowgrwydd Jacob, yr hwn a hoffodd efe. Selah.
5 Dyrchafodd DUW â llawenfloedd, yr ARGLWYDD â sain udgorn.
6 Cenwch fawl i DDUW, cenwch: cenwch fawl i'n Brenhin, cenwch.
7 Canys Brenhin yr holl ddaear *yw* DUW: cenwch fawl yn ddeallus.
8 DUW sydd yn teyrnasu ar y cenhedloedd: eistedd y mae DUW ar orseddfaingc ei sancteiddrwydd.
9 Pendefigion y bobl a ymgasglasant ynghyd, *sef* pobl DUW Abraham: canys tariannau y ddaear *ydynt* eiddo DUW: dirfawr y dyrchafwyd ef.

PSALM 48.

Addurn a rhagorfraint yr eglwys.

Cân *a* Psalm i feibion Corah.

MAWR *yw* yr ARGLWYDD, a thra moliannus, yn ninas ein DUW ni, *yn* ei fynydd sanctaidd.
2 Tegwch bro, llawenydd yr holl ddaear, *yw* mynydd Sïon, *yn* ystlysau y gogledd, dinas y Brenhin mawr.
3 DUW yn ei phalasau a adwaenir yn amddiffynfa.
4 Canys, wele, y brenhinoedd a ymgynnullasant, aethant heibio ynghyd.
5 Hwy a welsant, felly y rhyfeddasant; brawychasant, *ac* aethant ymaith ar ffrwst.
6 Dychryn a ddaeth arnynt yno, *a* dolur, megis gwraig yn esgor.
7 A gwynt y dwyrain y drylli longau y môr.
8 Megis y clywsom, felly y gwelsom yn ninas ARGLWYDD y lluoedd, yn ninas ein DUW ni: DUW a'i sicrhâ hi yn dragywydd. Selah.

9 Meddyliasom, O Duw, am dy drugaredd y'nghanol dy deml.
10 Megis *y mae* dy enw, O Duw, felly *y mae* dy fawl hyd eithafoedd y tir: cyflawn o gyfiawnder yw dy ddeheulaw.
11 Llawenyched mynydd Sïon, ac ymhyfryded merched Judah, o herwydd dy farnedigaethau.
12 Amgylchwch Sïon, ac ewch o'i hamgylch hi; rhifwch ei thyrau hi.
13 Ystyriwch ei rhagfuriau, edrychwch ar ei phalasau; fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol.
14 Canys y Duw hwn *yw* ein Duw ni byth ac yn dragywydd: efe a'n tywys ni hyd angau.

PSALM 49.

1 *Eiriol difrif i adeiladu ffydd yr adgyfodiad, nid ar allu bydol, ond ar Dduw.* 16 *Na ddylai rhyfeddu wrth lwyddiant bydol.*

I'r Pencerdd, Psalm i feibion Corah.

CLYWCH hyn, yr holl bobloedd; gwrandêwch *hyn*, holl drigolion y byd:
2 Yn gystal gwreng a bonheddig, cyfoethog a thlawd ynghyd.
3 Fy ngenau a draetha ddoethineb; a myfyrdod fy nghalon *fydd* am ddeall.
4 Gostyngaf fy nghlust at ddïareb; fy nammeg a ddatguddiaf gyd â'r delyn.
5 Paham yr ofnaf yn amser adfyd, *pan* y'm hamgylchyno anwiredd fy sodlau?
6 Rhai a ymddiriedant yn eu golud, ac a ymffrostiant yn llïosowgrwydd eu cyfoeth.
7 Gan waredu ni wared neb *ei* frawd, *ac* ni all efe roddi iawn drosto i Duw:
8 (Canys gwerthfawr *yw* pryniad eu henaid, a hynny a baid byth:)
9 Fel y byddo efe byw byth, *ac* na welo lygredigaeth.
10 Canys efe a wêl *fod* y doethion yn meirw, yr un ffunud y derfydd am ffol ac ynfyd, gadawant eu golud i eraill.
11 Eu meddwl *yw, y pery* eu tai yn dragywydd, *a'u* trigfeydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth: enwant *eu* tiroedd ar eu henwau eu hunain.
12 Er hynny dyn mewn anrhydedd, nid erys: tebyg yw i anifeiliaid a ddifethir.
13 Eu ffordd yma *yw* eu hynfydrwydd: etto eu hiliogaeth ydynt foddlawn i'w hymadrodd. Selah.
14 Fel defaid y gosodir hwynt yn uffern; angau a ymborth arnynt; a'r rhai cyfiawn a lywodraetha arnynt y bore; a'u tegwch a dderfydd yn y bedd, o'u cartref.
15 Etto Duw a wared fy enaid i o feddiant uffern: canys efe a'm derbyn i. Selah.
16 Nac ofna pan gyfoethogo un, pan ychwanego gogoniant ei dŷ ef:
17 Canys wrth farw ni ddwg efe ddim ymaith, ac ni ddisgyn ei ogoniant ar ei ol ef.
18 Er iddo yn ei fywyd fendithio ei enaid: canmolant dithau, o byddi da wrthyt dy hun.
19 Efe a â at genhedlaeth ei dadau, *ac* ni welant oleuni byth.
20 Dyn mewn anrhydedd, ac heb ddeall, sydd gyffelyb i anifeiliaid *a* ddifethir.

PSALM 50.

1 *Mawrhydi Duw yn ei eglwys.* 5 *Ei drefn ef am gasglu y saint ynghyd.* 7 *Nad oes ewyllys gan Dduw mewn seremoniau,* 14 *ond mewn gwir ufudd-dod.*

Psalm Asaph.

DUW y duwiau, *sef* yr Arglwydd, a lefarodd, ac a alwodd y ddaear, o godiad haul hyd ei fachludiad.
2 Allan o Sïon, perffeithrwydd tegwch, y llewyrchodd Duw.
3 Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd distaw: tân a ysa o'i flaen ef, a thymmestl ddirfawr fydd o'i amgylch.
4 Geilw ar y nefoedd oddi uchod, ac ar y ddaear, i farnu ei bobl.
5 Cesglwch fy saint ynghyd attaf fi, y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth.
6 A'r nefoedd a fynegant ei gyfiawnder ef: canys Duw ei hun *sydd* Farnwr. Selah.
7 Clywch, fy mhobl, a mi a lefaraf; O Israel, a mi a dystiolaethaf i'th erbyn: Duw, *sef* dy Dduw di, *ydwyf* fi.
8 Nid am dy aberthau y'th geryddaf, na'th boeth-offrymmau, *am nad oeddynt* ger fy mron i yn wastad.

9 Ni chymmeraf fustach o'th dŷ,
na bychod o'th gorlannau.
10 Canys holl fwystfilod y coed
ydynt eiddof fi, *a*'r anifeiliaid ar fil
o fynyddoedd.
11 Adwaen holl adar y mynyddoedd: a gwyllt anifeiliaid y maes
ydynt eiddof fi.
12 Os bydd newyn arnaf, ni ddywedaf i ti: canys y byd a'i gyflawnder *sydd* eiddof fi.
13 A fwyttâf fi gig teirw? neu a
yfaf fi waed bychod?
14 Abertha foliant i Dduw; a thâl
i'r Goruchaf dy addunedau:
15 A galw arnaf fi yn nydd trallod: mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi.
16 Ond wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a
fynegech ar fy neddfau, neu a gymmerech ar fy nghyfammod yn dy
enau?
17 Gan dy fod yn casâu addysg, ac
yn taflu fy ngeiriau i'th ol.
18 Pan welaist leidr, cyttunaist âg
ef; a'th gyfran *oedd* gyd â'r godinebwyr.
19 Gollyngaist dy safn i ddrygioni,
a'th dafod a gyd-bletha ddichell.
20 Eisteddaist *a* dywedaist yn erbyn dy frawd: rhoddaist enllib i
fab dy fam.
21 Hyn a wnaethost, a mi a dewais: tybiaist dithau fy mod yn
gwbl fel ti dy hun: *ond* mi a'th
argyhoeddaf, ac a'*u* trefnaf o flaen
dy lygaid.
22 Deallwch hyn yn awr, y rhai
ydych yn anghofio Duw; rhag i
mi *eich* rhwygo, ac na *byddo* gwaredydd.
23 Yr hwn a abertho foliant, a'm
gogonedda i: a'r neb a osodo *ei*
ffordd *yn iawn*, dangosaf iddo iachawdwriaeth Duw.

PSALM 51.

1 *Dafydd yn gweddio am faddeuant pechodau, ac yn gwneuthur cyffes ddifrif o honynt:* 6 *yn gweddio am ei sanctaiddio.* 16 *Nad oes ewyllys gan Dduw mewn aberth, ond mewn purdeb calon.* 18 *Y mae yn gweddio dros yr eglwys.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd, pan ddaeth Nathan y prophwyd atto, wedi iddo fyned i mewn at Bathseba.

TRUGARHA wrthyf, O Dduw,
yn ol dy drugarowgrwydd: yn
ol lliaws dy dosturiaethau, dilea fy
anwireddau.
2 Golch fi yn llwyr-ddwys oddi
wrth fy anwiredd, a glanhâ fi oddi
wrth fy mhechod.
3 Canys yr wyf yn cydnabod fy
nghamweddau: a'm pechod *sydd*
yn wastad ger fy mron.
4 Yn dy erbyn dî, dydi dy hunan,
y pechais, ac y gwneuthum y drwg
hwn yn dy olwg: fel y'th gyfiawnhâer pan leferych, *ac* y byddit bur
pan farnech.
5 Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd; ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.
6 Wele, ceraist wirionedd oddi
mewn: a pheri i mi wybod doethineb yn y dirgel.
7 Glanhâ fi âg isop, a mi a lanhêir: golch fi, a byddaf wynnach
na'r eira.
8 Pâr i mi glywed gorfoledd a
llawenydd; *fel* y llawenycho yr esgyrn a ddrylliaist.
9 Cuddia dy wyneb oddi wrth fy
mhechodau, a dilea fy holl anwireddau.
10 Crea galon lân ynof, O Dduw;
ac adnewydda ysbryd uniawn o'm
mewn.
11 Na fwrw fi ymaith oddi ger dy
fron; ac na chymmer dy ysbryd
sanctaidd oddi wrthyf.
12 Dyro drachefn i mi orfoledd
dy iachawdwriaeth; ac *â'th* hael
ysbryd cynnal fi.
13 *Yna* y dysgaf dy ffyrdd i rai
anwir; a phechaduriaid a droir
attat.
14 Gwared fi oddi wrth waed, O
Dduw, Duw fy iachawdwriaeth:
a'm tafod a gân yn llafar am dy
gyfiawnder.
15 Arglwydd, agor fy ngwefusau,
a'm genau a fynega dy foliant.
16 Canys ni chwennychi aberth;
pe amgen, mi a'*i* rhoddwn: poethoffrwm ni fynni.
17 Aberthau Duw *ydynt* ysbryd
drylliedig: calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.
18 Gwna ddaioni yn dy ewyllysgarwch i Sïon: adeilada furiau
Jerusalem.
19 Yna y byddi foddlawn i ebyrth cyfiawnder, *i* boeth-offrwm ac
aberth llosg: yna yr offrymmant
fustych ar dy allor.

PSALM 52.

1 *Dafydd yn barnu ar goegni Döeg, ac yn prophwydo ei ddinystr ef,* 6 *ac y llawenhâ y cyfiawn o'i blegid.* 8 *Dafydd, o'i hyder ar drugaredd Duw, yn rhoddi diolch.*

I'r Pencerdd, Maschil, *Psalm* Dafydd, pan ddaeth Döeg yr Edomiad a mynegi i Saul, a dywedyd wrtho, Daeth Dafydd i dŷ Ahimelech.

PAHAM yr ymffrosti mewn drygioni, O gadarn? y mae trugaredd Duw *yn parhâu* yn wastadol.

2 Dy dafod a ddychymmyg ysgelerder; fel ellyn llym, yn gwneuthur twyll.

3 Hoffaist ddrygioni yn fwy na daioni; *a* chelwydd yn fwy na thraethu cyfiawnder. Selah.

4 Hoffaist bob geiriau distryw, O dafod twyllodrus.

5 Duw a'th ddistrywia dithau yn dragywydd: efe a'th gipia di ymaith, ac a'th dŷn allan o'*th* babell, ac a'th ddiwreiddia o dir y rhai byw. Selah.

6 Y cyfiawn hefyd a welant, ac a ofnant, ac a chwarddant am ei ben.

7 Wele y gŵr ni osododd Duw yn gadernid iddo; eithr ymddiriedodd yn lliosowgrwydd ei olud, *ac* a ymnerthodd yn ei ddrygioni.

8 Ond myfi *sydd* fel olew-wydden werdd yn nhŷ Duw: ymddiriedaf yn nhrugaredd Duw byth ac yn dragywydd.

9 Clodforaf di yn dragywydd, o herwydd i ti wneuthur *hyn:* a disgwyliaf wrth dy enw; canys da *yw* ger bron dy saint.

PSALM 53.

1 *Dafydd yn gosod allan lygredigaeth dyn naturiol;* 4 *yn argyhoeddi yr annuwiol wrth oleuni ei cydwybod eu hun;* 6 *yn ymgoneddu yn iachawdwriaeth Duw.*

I'r Pencerdd ar y Mahalath, Maschil, *Psalm* Dafydd.

DYWEDODD yr ynfyd yn ei galon, Nid *oes* un Duw. Ymlygrasant, a gwnaethant ffiaidd anwiredd: nid *oes* un yn gwneuthur daioni.

2 Edrychodd Duw i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion, i edrych a oedd *neb* yn ddeallus, *ac* yn ceisio Duw.

3 Ciliasai pob un o honynt yn wysg ei gefn: cyd-ymddifwynasent; nid *oes* a wnel ddaioni, nac *oes* un.

4 Oni ŵyr gweithredwyr anwiredd? y rhai sydd yn bwytta fy mhobl, *fel* y bwyttâent fara: ni alwasant ar Duw.

5 Yno yr ofnasant *gan* ofn, lle nid oedd ofn: canys Duw a wasgarodd esgyrn yr hwn a'th warchaeodd: gwaradwyddaist *hwynt,* am i Duw eu dirmygu hwy.

6 O na roddid iachawdwriaeth i Israel o Siôn! pan ymchwelo Duw gaethiwed ei bobl, y llawenycha Jacob, *ac* yr ymhyfryda Israel.

PSALM 54.

1 *Dafydd yn cwymo rhag y Siphiaid, ac yn gweddio am iachawdwriaeth:* 4 *ac, o hyder ar gymmorth Duw, yn addaw aberth.*

I'r Pencerdd ar Neginoth, Maschil, *Psalm* Dafydd, pan ddaeth y Siphiaid a dywedyd wrth Saul, Onid ydyw Dafydd yn ymguddio gyd â ni?

ACHUB fi, O Duw, yn dy enw; a barn fi yn dy gadernid.

2 Duw, clyw fy ngweddi; gwrando ymadrodd fy ngenau.

3 Canys dïeithriaid a gyfodasant i'm herbyn, a'r trawsion a geisiant fy enaid: ni osodasant Duw o'u blaen. Selah.

4 Wele, Duw *sydd* yn fy nghynnorthwyo: yr Arglwydd *sydd* ym mysg y rhai a gynhaliant fy enaid.

5 Efe a dâl ddrwg i'm gelynion: tor hwynt ymaith yn dy wirionedd.

6 Aberthaf i ti yn ewyllysgar: clodforaf dy enw, O Arglwydd; canys da *yw.*

7 Canys efe a'm gwaredodd o bob trallod; a'm llygad a welodd *ei ewyllys* ar fy ngelynion.

PSALM 55.

1 *Dafydd yn ei weddi yn cwymo ei gyfwr erchyll;* 9 *yn gweddio yn erbyn ei elynion, ac yn achwyn rhag eu hanwiredd a'u brad hwy:* 16 *yn ymgysuro, o herwydd nawdd Duw yn ei gadw, ac o herwydd gwaradwyddd ei elynion.*

I'r Pencerdd ar Neginoth, Maschil, *Psalm* Dafydd.

GWRANDO fy ngweddi, O Duw; ac nac ymguddia rhag fy neisyfiad.

2 Gwrando arnaf, ac erglyw fi: cwynfan yr ydwyf yn fy ngweddi, a thuchan,

3 Gan lais y gelyn, gan orthrymder yr annuwiol: o herwydd y maent yn bwrw anwiredd arnaf, ac yn fy nghasâu yn llidiog.

4 Fy nghalon a ofidia o'm mewn: ac ofn angau a syrthiodd arnaf.
5 Ofn ac arswyd a ddaeth arnaf, a dychryn a'm gorchuddiodd.
6 A dywedais, O na bai i mi adenydd fel colommen! *yna* yr ehedwn ymaith, ac y gorphwyswn.
7 Wele, erwydrwn ym mhell, *ac* arhoswn yn yr anialwch. Selah.
8 Brysiwn i ddiangc, rhag y gwynt ystormus *a'r* dymmestl.
9 Dinystria, O ARGLWYDD, *a* gwahan eu tafodau: canys gwelais drawsder a chynnen yn y ddinas.
10 Dydd a nos yr amgylchant hi ar ei muriau: ac *y mae* anwiredd a blinder yn ei chanol hi.
11 Anwireddau *sydd* yn ei chanol hi; *ac* ni chilia twyll a dichell o'i heolydd hi.
12 Canys nid gelyn a'm difenwodd; yna y ddioddefaswn: nid fy nghasddyn a ymfawrygodd i'm herbyn; yna mi a ymguddiaswn rhagddo ef:
13 Eithr tydi, ddyn, fy nghydradd, fy fforddwr, a'm cydnabod,
14 Y rhai oedd felus gennym gyd-gyfrinachu, *ac* a rodiasom i dŷ DDUW ynghyd.
15 Rhuthred marwolaeth arnynt, *a* disgynant i uffern yn fyw: canys drygioni *sydd* yn eu cartref, *ac* yn eu mysg.
16 Myfi a waeddaf ar DDUW; a'r ARGLWYDD a'm hachub i.
17 Hwyr a bore, a hanner dydd, y gweddïaf, a byddaf daer: ac efe a glyw fy lleferydd.
18 Efe a waredodd fy enaid mewn heddwch oddi wrth y rhyfel *oedd* i'm herbyn: canys yr oedd llawer gyd â mi.
19 DUW a glyw, ac a'u darostwng hwynt, yr hwn sydd yn aros erioed: Selah: am nad oes gyfnewidiau iddynt, am hynny nid ofnant DDUW.
20 Efe a estynodd ei law yn erbyn y rhai oedd heddychlawn âg ef: efe a dorrodd ei gyfammod.
21 Llyfnach oedd ei enau nag ymenyn, a rhyfel yn ei galon: tynerach oedd ei eiriau nag olew, a hwynt yn gleddyfau noethion.
22 Bwrw dy faich ar yr ARGLWYDD, ac efe a'th gynnal di: ni âd i'r cyfiawn ysgogi byth.
23 Tithau, DDUW, a'u disgyni hwynt i bydew dinystr: gwŷr gwaedlyd a thwyllodrus ni byddant byw hanner eu dyddiau; ond myfi a obeithiaf ynot ti.

PSALM 56.

1 *Dafydd, wrth weddïo Duw o hyder ar ei air, yn cwyno rhag ei elynion: 9 yn datgan ei ymddiried y'ngair Duw, ac yn addaw ei foliannu ef.*

I'r Pencerdd ar Jonath-Elem-Rechocim, Michtam Dafydd, pan ddaliodd y Philistiaid ef yn Gath.

TRUGARHA wrthyf, O DDUW: canys dyn a'm llyngcai: beunydd, gan ymladd, y'm gorthrymma.
2 Beunydd y'*m* llyngcai fy ngelynion: canys llawer *sydd* yn rhyfela i'm herbyn, O *DDUW* Goruchaf.
3 Y dydd yr ofnwyf, mi a ymddiriedaf ynot ti.
4 Yn NUW y clodforaf ei air, yn NUW y gobeithiaf; nid ofnaf beth a wnel cnawd i mi.
5 Beunydd y cam-gymmerant fy ngeiriau: eu holl feddyliau *sydd* i'm herbyn er drwg.
6 Hwy a ymgasglant, a lechant, *ac* a wyliant fy nghamrau, pan ddisgwyliant am fy enaid.
7 A ddiangant hwy trwy anwireddau? dibyn y bobloedd *hyn*, O DDUW, yn *dy* lidiowgrwydd.
8 Ti a gyfrifaist fy symmudiadau: dod fy nagrau yn dy gostrel: onid *ydynt* yn dy lyfr di?
9 Y dydd y llefwyf *arnat*, yna y dychwelir fy ngelynion yn eu gwrthol: hyn a wn; am *fod* DUW gyd â mi.
10 Yn NUW y moliannaf *ei* air: yn yr ARGLWYDD y moliannaf *ei* air.
11 Yn NUW yr ymddiriedais: nid ofnaf beth a wnel dyn i mi.
12 Arnaf fi, O DDUW, *y mae* dy addunedau: talaf i ti foliant.
13 Canys gwaredaist fy enaid rhag angau: oni *waredi* fy nhraed rhag syrthio, fel y rhodiwyf ger bron DUW y'ngoleuni y rhai byw?

PSALM 57.

1 *Dafydd yn cilio at Duw trwy weddi, ac yn cwyno ei enbyd gyflwr; 7 yn ymgysuro i foliannu Duw.*

I'r Pencerdd, Al-taschith, Michtam Dafydd, pan ffodd rhag Saul i'r ogof.

TRUGARHA wrthyf, O DDUW, trugarhâ wrthyf: canys ynot y gobeithiodd fy enaid; ië, yng nghysgod dy adenydd y gobeithiaf, hyd onid êl yr aflwydd *hwn* heibio.
2 Galwaf ar DDUW Goruchaf; ar DDUW a gwblhâ â mi.
3 Efe a enfyn o'r nefoedd, ac a'm gwared *oddi wrth* warthrudd yr hwn a'm llyngcai. Selah. Denfyn DUW ei drugaredd a'i wirionedd.
4 Fy enaid *sydd* ym mysg llewod: gorwedd yr wyf *ym mysg* dynion poethion, *sef* meibion dynion, y rhai *y mae* eu dannedd yn wayw-ffyn a saethau, a'u tafod yn gleddyf llym.
5 Ymddyrcha, DDUW, uwch y nefoedd; *a bydded* dy ogoniant ar yr holl ddaear.
6 Darparasant rwyd i'm traed; crymmwyd fy enaid: cloddiasant bydew o'm blaen; syrthiasant yn ei ganol. Selah.
7 Parod yw fy nghalon, O DDUW, parod yw fy nghalon: canaf a chanmolaf.
8 Deffro, fy ngogoniant; deffro, nabl a thelyn: deffroaf yn fore.
9 Clodforaf di, ARGLWYDD, ym mysg y bobloedd: canmolaf di ym mysg y cenhedloedd.
10 Canys mawr *yw* dy drugaredd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymmylau.
11 Ymddyrcha, DDUW, uwch y nefoedd; *a bydded* dy ogoniant ar yr holl ddaear.

PSALM 58.

1 *Dafydd yn argyhoeddi barnwyr anwir;* 3 *yn danyos naturiaeth yr annuwiol;* 6 *ac yn ymrôi i farnedigaethau Duw,* 10 *y rhai a bâr i'r cyfiawn lawenychu.*
I'r Pencerdd, Al-taschith, Michtam Dafydd.

AI cyfiawnder yn ddïau a draethwch chwi, O gynnulleidfa? a fernwch chwi uniondeb, O feibion dynion?
2 Anwiredd yn hytrach a weithredwch yn y galon: trawsder eich dwylaw yr ydych yn ei bwyso ar y ddaear.
3 O'r groth yr ymddïeithriodd y rhai annuwiol: o'r bru y cyfeiliornasant, gan ddywedyd celwydd.
4 Eu gwenwyn *sydd* fel gwenwyn sarph: *y maent* fel y neidr fyddar *yr hon* a gau ei chlustiau;
5 Yr hon ni wrendy ar lais y rhinwyr, *er* cyfarwydded fyddo y swynwr.
6 Dryllia, O DDUW, eu dannedd yn eu geneuau: tor, O ARGLWYDD, gilddannedd y llewod ieuaingc.
7 Todder hwynt fel dyfroedd *sydd yn* rhedeg yn wastad: *pan* saetho eu saethau, byddant megis wedi eu torri.
8 Aed ymaith fel malwoden dawdd, *neu* erthyl gwraig; *fel* na welont yr haul.
9 Cyn i'ch crochanau glywed y mïeri, efe a'u cymmer hwynt ymaith megis â chorwynt, yn fyw, ac yn *ei* ddigofaint.
10 Y cyfiawn a lawenycha pan welo ddïal: efe a ylch ei draed y'ngwaed yr annuwiol.
11 Fel y dywedo dyn, Dïau *fod* ffrwyth i'r cyfiawn: dïau fod DUW a farna ar y ddaear.

PSALM 59.

1 *Dafydd yn gweddïo am gael ei wared oddi wrth ei elynion:* 6 *yn cwyno rhag eu creulondeb hwy:* 9 *yn ymddiried yn NUW:* 11 *yn gweddïo yn eu herbyn hwy;* 16 *ac yn clodfori Duw.*
I'r Pencerdd, Al-taschith, Michtam Dafydd, pan yrrodd Saul rai i gadw y tŷ i'w ladd ef.

FY NUW, gwared fi oddi wrth fy ngelynion: amddiffyn fi oddi wrth y rhai a ymgyfodant i'm herbyn.
2 Gwared fi oddi wrth weithredwyr anwiredd, ac achub fi rhag y gwŷr gwaedlyd.
3 Canys wele, cynllwynasant yn erbyn fy enaid: ymgasglodd cedyrn i'm herbyn; nid *ar* fy mai na'm pechod i, O ARGLWYDD.
4 Rhedant, ymbarottoant, heb anwiredd *ynof fi:* deffro dithau i'm cymmorth, ac edrych.
5 A thi, ARGLWYDD DDUW y lluoedd, DUW Israel, deffro i ymweled â'r holl genhedloedd: na thrugarhâ wrth neb a wnant anwiredd yn faleisus. Selah.
6 Dychwelant gyd â'r hwyr, cyfarthant fel cwn, ac amgylchant y ddinas.
7 Wele, bytheiriant â'u genau: cleddyfau *sydd* yn eu gwefusau: canys pwy, *meddant,* a glyw?
8 Ond tydi, O ARGLWYDD, a'u gwatwari hwynt; *ac* a chwerddi am ben yr holl genhedloedd.

9 *O herwydd* ei nerth ef, y disgwyliaf wrthyt ti: canys DUW *yw* fy amddiffynfa.

10 Fy NUW trugarog a'm rhagflaena: DUW a wna i mi weled *fy ewyllys* ar fy ngelynion.

11 Na ladd hwynt, rhag i'm pobl anghofio: gwasgar hwynt yn dy nerth, a darostwng hwynt, O Arglwydd ein tarian.

12 *Am* bechod eu genau, *ac* ymadrodd eu gwefusau, dalier hwynt yn eu balchder: ac am y felldith a'r celwydd a draethant.

13 Difa *hwynt* yn *dy* lid, difa, fel na *byddont:* a gwybyddant mai DUW sydd yn llywodraethu yn Jacob, hyd eithafoedd y ddaear. Selah.

14 A dychwelant gyd â'r hwyr, *a* chyfarthant fel cwn, ac amgylchant y ddinas.

15 Crwydrant am fwyd; ac onis digonir, grwgnachant.

16 Minnau a ganaf am dy nerth, ïe, llafar-ganaf am dy drugaredd yn fore: canys buost yn amddiffynfa i mi, ac yn noddfa yn y dydd *y bu* cyfyngder arnaf.

17 I ti, fy nerth, y canaf; canys DUW *yw* fy amddiffynfa, *a* DUW fy nhrugaredd.

PSALM 60.

1 *Dafydd yn cwyno wrth Dduw am farnedigaethau o'r blaen: 4 ac yr awrhon, ar obaith gwell, yn gweddïo am ymwared: 6 yn ymgysuro yn addewidion Duw, ac yn deisyf cael yr help y rhoisai ei hyder arno.*

I'r Pencerdd ar Susan-eduth, Michtam Dafydd, i ddysgu; pan ymladdodd yn erbyn Syriaid Mesopotamia, a Syriaid Sobah, pan ddychwelodd Joab, a lladd deuddeng mil o'r Edomiaid yn nyffryn yr halen.

O DDUW, bwriaist ni ymaith, gwasgeraist ni, *a* sorraist: dychwel attom drachefn.

2 Gwnaethost i'r ddaear grynu, *a* holltaist hi; iachâ ei briwiau; canys y mae yn crynu.

3 Dangosaist i'th bobl galedi: diodaist ni â gwin madrondod.

4 Rhoddaist faner i'r rhai a'th ofnant, i'w dyrchafu o herwydd y gwirionedd. Selah.

5 Fel y gwareder dy rai anwyl: achub â'th ddeheulaw, a gwrando fi.

6 DUW a lefarodd yn ei sancteiddrwydd, Llawenychaf: rhannaf Sichem, a mesuraf ddyffryn Succoth.

7 Eiddof fi *yw* Gilead, ac eiddof fi Manasseh: Ephraim hefyd *yw* nerth fy mhen; Judah *yw* fy neddfwr.

8 Moab *yw* fy nghrochan golchi; dros Edom y bwriaf fy esgid: Philistia, ymorfoledda di o'm plegid i.

9 Pwy a'm dwg *i'r* ddinas gadarn? pwy a'm harwain hyd yn Edom?

10 Onid tydi, DDUW, *yr hwn* a'n bwriaist ymaith? a *thydi*, O DDUW, *yr hwn* nid âit allan gyd â'n lluoedd?

11 Moes i ni gynnorthwy rhag cyfyngder: canys ofer *yw* ymwared dyn.

12 Yn NUW y gwnawn wroldeb: canys efe a sathr ein gelynion.

PSALM 61.

1 *Dafydd yn ciliо at Dduw, wrth a brofasai o'r blaen; 4 ac yn addunedu ei wasanaethu ef yn wastadol, o herwydd ei addewidion.*

I'r Pencerdd ar Neginoth, *Psalm* Dafydd.

CLYW, O DDUW, fy llefain; gwrando ar fy ngweddi.

2 O eithaf y ddaear y llefaf attat, pan lesmeirio fy nghalon: arwain fi i graig *a* fyddo uwch na mi.

3 Canys buost yn noddfa i mi, *ac* yn dŵr cadarn rhag y gelyn.

4 Preswyliaf yn dy babell byth: a'm hymddiried fydd dan orchudd dy adenydd. Selah.

5 Canys ti, DDUW, a glywaist fy addunedau: rhoddaist etifeddiaeth i'r rhai a ofnant dy enw.

6 Ti a estyni oes y Brenhin; ei flynyddoedd *fyddant* fel cenhedlaethau lawer.

7 Efe a erys byth ger bron DUW: darpar drugaredd a gwirionedd, *fel* y cadwont ef.

8 Felly y canmolaf dy enw yn dragywydd, fel y talwyf fy addunedau beunydd.

PSALM 62.

1 *Dafydd, wrth ddangos ei hyder ar Dduw, yn digalonni ei elynion; 5 ac, yn yr un hyder, yn rhoi calon yn y duwiol. 9 Nad yw i neb roi ei ofiud ar bethau bydol. 11 Gallu a thrugaredd a berthyn i Dduw.*

I'r Pencerdd, i Jeduthun, Psalm Dafydd.

WRTH DDUW yn unig y disgwyl fy enaid: o hono ef *y daw* fy iachawdwriaeth.

2 Efe yn unig *yw* fy nghraig, a'm hiachawdwriaeth, *a*'m hamddiffyn; ni'm mawr ysgogir.

3 Pa hyd y bwriedwch aflwydd yn erbyn gŵr? lleddir chwi oll; *a byddwch* fel magwyr ogwyddedig, *neu* bared ar ei ogwydd.
4 Ymgynghorasant yn unig *i'w* fwrw *ef* i lawr o'i fawredd; hoffasant gelwydd: â'u geneuau y bendithiant, ond o'u mewn y melldithiant. Selah.
5 O fy enaid, disgwyl wrth Duw yn unig: canys ynddo ef *y mae* fy ngobaith.
6 Efe yn unig *yw* fy nghraig, a'm hiachawdwriaeth: *efe yw* fy amddiffynfa: ni'm hysgogir.
7 Yn Nuw *y mae* fy iachawdwriaeth a'm gogoniant: craig fy nghadernid, *a'm* noddfa, *sydd* yn Nuw.
8 Gobeithiwch ynddo ef bob amser; O bobl, tywelltwch eich calon ger ei fron ef: Duw *sydd* noddfa i ni. Selah.
9 Gwagedd yn ddïau *yw* meibion dynion, geudeb *yw* meibion gwŷr: i'*w* gosod yn y clorian, *ysgafnach ydynt* hwy i gyd na gwegi.
10 Nac ymddiriedwch mewn trawsder, ac mewn trais na fyddwch ofer: os cynnydda golud, na roddwch eich calon *arno.*
11 Unwaith y dywedodd Duw, clywais hynny ddwywaith; mai eiddo Duw *yw* cadernid.
12 Trugaredd hefyd *sydd* eiddot ti, O Arglwydd: canys ti a deli i bob dyn yn ol ei weithred.

PSALM 63.

1 *Hiraeth Dafydd am Dduw.* 4 *Y modd y bendithiai efe Dduw.* 9 *Eiṁ hyder o ddinystr ei elynion, a'i ddioyelwch ei hun.*

Psalm Dafydd, pan oedd efe yn niffaethwch Judah.

TI, O Duw, *yw* fy Nuw i; yn fore y'th geisiaf: sychedodd fy enaid am danat, hiraethodd fy nghnawd am danat, mewn tir cras a sychedig heb ddwfr;
2 I weled dy nerth a'th ogoniant, fel y'th welais yn y cyssegr.
3 Canys gwell *yw* dy drugaredd di na'r bywyd: fy ngwefusau a'th foliannant.
4 Fel hyn y'th glodforaf yn fy mywyd: dyrchafaf fy nwylaw yn dy enw.
5 Megis *â* mer ac *â* brasder y digonir fy enaid; a'm genau a'*th* fawl â gwefusau llafar:
6 Pan y'th gofiwyf ar fy ngwely, myfyriaf am danat y'ngwyliadwriaethau *y nos.*
7 Canys buost gynnorthwy i mi; am hynny y'nghysgod dy adenydd y gorfoleddaf.
8 Fy enaid a lŷn wrthyt: dy ddeheulaw a'm cynnal.
9 Ond y rhai a geisiant fy enaid i ddistryw, a ânt i iselderau y ddaear.
10 Syrthiant ar fin y cleddyf: rhan llwynogod fyddant.
11 Ond y Brenhin a lawenycha yn Nuw: gorfoledda pob un a dyngo iddo ef: eithr cauir genau y rhai a ddywedant gelwydd.

PSALM 64.

1 *Dafydd yn gweddïo am ymwared, ac yn cwyno rhag ei elynion: 7 yn addaw iddo ei hun, y cai weled y fath amlwg ddinystr ar ei elynion, ag a barai i'r cyfiawn lawenychu o'i blegid.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

CLYW fy llef, O Duw, yn fy ngweddi: cadw fy einioes rhag ofn y gelyn.
2 Cudd fi rhag cyfrinach y rhai drygionus; rhag terfysg gweithredwyr anwiredd:
3 Y rhai a hogant eu tafod fel cleddyf, *ac* a ergydiant eu saethau, *sef* geiriau chwerwon:
4 I saethu y perffaith yn ddirgel: yn ddisymmwth y saethant ef, ac nid ofnant.
5 Ymwrolant *mewn* peth drygionus, ymchwedleuant am osod maglau yn ddirgel; dywedant, Pwy a'u gwel hwynt?
6 Chwiliant allan anwireddau; gorphenant ddyfal chwilio: ceudod a chalon pob un *o honynt sydd* ddofn.
7 Eithr Duw a'u saetha hwynt; *â* saeth ddisymmwth yr archollir hwynt.
8 Felly hwy a wnant i'w tafodau eu hun syrthio arnynt: pob un a'u gwelo a gilia.
9 A phob dyn a ofna, ac a fynega waith Duw: canys doeth-ystyriant ei waith ef.
10 Y cyfiawn a lawenycha yn yr Arglwydd, ac a obeithia ynddo; a'r rhai uniawn o galon oll a orfoleddant.

PSALM 65.

1 *Dafydd yn moliannu Duw am ei ras.* 4 *Dedwyddwch etholedigion Duw, oblegid amryw ddoniau.*

I'r Pencerdd, Psalm *a* Chân Dafydd.

MAWL a'th erys di yn Sïon, O Duw: ac i ti y telir yr adduned.

2 Ti yr hwn a wrandewi weddi, attat ti y daw pob cnawd.

3 Pethau anwir a'm gorchfygasant: ein camweddau ni, ti a'u glanhêi.

4 Gwyn *ei* fyd *yr hwn* a ddewisech, ac a nesâech *attat; fel* y trigo yn dy gynteddoedd: nyni a ddigonir â daioni dy dŷ, *sef* dy deml sanctaidd.

5 Attebi i ni *trwy* bethau ofnadwy, yn *dy* gyfiawnder, O Duw ein hiachawdwriaeth; gobaith holl gyrrau y ddaear, a'r rhai sydd bell *ar* y môr.

6 Yr hwn a sicrhâ y mynyddoedd trwy ei nerth, *ac* a wregysir â chadernid.

7 Yr hwn a ostega dwrf y moroedd, twrf eu tonnau, a therfysg y bobloedd.

8 A phreswylwyr eithafoedd *y byd* a ofnant dy arwyddion: gwnei i derfyn bore a hwyr lawenychu.

9 Yr wyt yn ymweled â'r ddaear, ac yn ei dyfrhâu hi: yr ydwyt yn ei chyfoethogi hi yn ddirfawr âg afon Duw, *yr hon* sydd yn llawn dwfr: yr wyt yn parottôi ŷd iddynt, pan ddarperaist felly iddi.

10 Gan ddyfrhâu ei chefnau, *a* gostwng ei rhychau, yr ydwyt yn ei mwydo hi â chafodau, ac yn bendithio ei chnwd hi.

11 Coroni yr ydwyt y flwyddyn â'th ddaioni; a'th lwybrau a ddiferant frasder.

12 Diferant *ar* borfeydd yr anialwch: a'r bryniau a ymwregysant â hyfrydwch.

13 Y dolydd a wisgir â defaid, a'r dyffrynoedd a orchuddir âg ŷd; *am hynny* y bloeddiant, ac y canant.

PSALM 66.

1 *Dafydd yn annog i foliannu Duw,* 5 *i ddal ar ei weithredoedd ef,* 8 *i'w fendithio am ei ddoniau grasusol;* 13 *yn addaw drosto ei hun wasanaeth crefyddol i Dduw;* 16 *yn datgan enwedig ddoniau Duw iddo.*

I'r Pencerdd, Cân *neu* Psalm.

LLAWEN-FLOEDDIWCH i Duw, yr holl ddaear:

2 Datgenwch ogoniant ei enw: gwnewch ei foliant yn ogoneddus.

3 Dywedwch wrth Duw, Mor ofnadwy *wyt yn* dy weithredoedd! o herwydd maint dy nerth, y cymmer dy elynion arnynt fod yn ddarostyngedig i ti.

4 Yr holl ddaear a'th addolant di, ac a ganant i ti; *ïe,* canant *i'th* enw. Selah.

5 Deuwch, a gwelwch weithredoedd Duw: ofnadwy *yw yn ei* weithred tu ag at feibion dynion.

6 Trodd efe y môr yn sychdir: aethant trwy yr afon ar draed: yna y llawenychasom ynddo.

7 Efe a lywodraetha trwy ei gadernid byth; ei lygaid a edrychant ar y cenhedloedd: nac ymddyrchafed y rhai anufudd. Selah.

8 O bobloedd, bendithiwch ein Duw, a pherwch glywed llais ei fawl ef:

9 Yr hwn sydd yn gosod ein henaid mewn bywyd, ac ni âd i'n troed lithro.

10 Canys profaist ni, O Duw: coethaist ni, fel coethi arian.

11 Dygaist ni i'r rhwyd: gosodaist wasgfa ar ein llwynau.

12 Peraist i ddynion farchogaeth ar ein pennau; aethom trwy y tân a'r dwfr: a thi a'n dygaist allan i *le* diwall.

13 Deuaf i'th dŷ âg offrymmau poeth: talaf i ti fy addunedau,

14 Y rhai a adroddodd fy ngwefusau, ac a ddywedodd fy ngenau yn fy nghyfyngder.

15 Offrymmaf i ti boeth-offrymmau breision, ynghyd âg arogldarth hyrddod; aberthaf ychain a bychod. Selah.

16 Deuwch, gwrandêwch, y rhai oll a ofnwch Duw; a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i'm henaid.

17 Llefais arno â'm genau, ac efe a ddyrchafwyd â'm tafod.

18 Pe edrychaswn ar anwiredd yn fy nghalon, ni wrandawsai yr Arglwydd.

19 Duw yn ddïau a glybu, *ac* a wrandawodd ar lais fy ngweddi.

20 Bendigedig *fyddo* Duw, yr hwn ni throdd fy ngweddi *oddi*

wrtho, na'i drugaredd ef oddi wrthyf finnau.

PSALM 67.

1 *Gweddi am helaethu teyrnas Dduw,* 3 *er llawenydd i'r bobl,* 6 *ac er amlhau bendithion Duw.*

I'r Pencerdd âr Neginoth, Psalm *neu* Gân.

DUW a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio; *a* thywynned ei wyneb arnom: Selah:

2 Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear, a'th iachawdwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.

3 Molianned y bobl di, O DDUW; molianned yr holl bobl dydi.

4 Llawenhâed y cenhedloedd, a byddant hyfryd: canys ti a ferni y bobl yn uniawn, ac a lywodraethi y cenhedloedd ar y ddaear. Selah.

5 Molianned y bobl di, O DDUW; molianned yr holl bobl dydi.

6 *Yna* y ddaear a rydd ei ffrwyth; *a* DUW, *sef* ein DUW ni, a'n bendithia.

7 DUW a'n bendithia; a holl derfynau y ddaear a'i hofnant ef.

PSALM 68.

1 *Gweddi wrth symmudo yr arch.* 4 *Cymhor i foliannu Duw am ei drugareddau;* 7 *am ei ofal dros ei eglwys;* 19 *am ei fawr drugareddau.*

I'r Pencerdd, Psalm *neu* Gân Dafydd.

CYFODED DUW, gwasgarer ei elynion: a ffôed ei gaseion o'i flaen ef.

2 Chweli *hwynt* fel chwalu mwg: fel y tawdd cŵyr wrth y tân, difether y rhai annuwiol o flaen DUW.

3 Ond llawenycher y rhai cyfiawn, a gorfoleddant ger bron DUW; a byddant hyfryd o lawenydd.

4 Cenwch i DDUW, canmolwch ei enw: dyrchefwch yr hwn sydd yn marchogaeth ar y nefoedd, a'i enw yn JAH, a gorfoleddwch ger ei fron ef.

5 Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon, *yw* DUW, yn ei breswylfa sanctaidd.

6 DUW sydd yn gosod yr unig mewn teulu: yn dwyn allan y rhai a rwymwyd mewn gefynnau; ond y rhai cyndyn a breswyliant grasdir.

7 Pan aethost, O DDUW, o flaen dy bobl, pan gerddaist trwy yr anialwch: Selah:

8 Y ddaear a grynodd, a'r nefoedd a ddiferasant o flaen DUW: Sinai yntau *a grynodd* o flaen DUW, *sef* DUW Israel.

9 Dyhidlaist wlaw graslawn, O DDUW, *ar* dy etifeddiaeth: ti a'i gwrteithiaist wedi ei blino.

10 Dy gynnulleidfa di sydd yn trigo ynddi: yn dy ddaioni, O DDUW, yr wyt yn darparu i'r tlawd.

11 Yr ARGLWYDD a roddes y gair; mawr *oedd* mintai y rhai a'*i* pregethent.

12 Brenhinoedd byddinog a ffoisant ar ffrwst: a'r hon a drigodd yn tŷ, a rannodd yr yspail.

13 Er gorwedd o honoch ym mysg y crochanau, *byddwch fel* esgyll colommen wedi eu gwisgo âg arian, a'i hadenydd âg aur melyn.

14 Pan wasgarodd yr Hollalluog frenhinoedd ynddi, yr oedd hi yn wen fel eira yn Salmon.

15 Mynydd DUW *sydd fel* mynydd Basan; yn fynydd cribog *fel* mynydd Basan.

16 Paham y llemmwch, chwi fynyddoedd cribog? *dyma* y mynydd a chwennychodd DUW ei breswylio; ïe, preswylia yr ARGLWYDD *ynddo* byth.

17 Cerbydau DUW *ydynt* ugain mil, *sef* miloedd o angylion: yr Arglwydd *sydd* yn eu plith, *megis* yn Sinai yn y cyssegr.

18 Dyrchefaist i'r uchelder, caethgludaist gaethiwed: derbyniaist roddion i ddynion; ïe, *i'r* rhai cyndyn hefyd, fel y preswyliai yr ARGLWYDD DDUW *yn eu plith.*

19 Bendigedig *fyddo* yr Arglwydd, *yr hwn* a'n llwytha beunydd *â daioni; sef* DUW ein hiachawdwriaeth. Selah.

20 Ein DUW ni *sydd* DDUW iachawdwriaeth; ac i'r ARGLWYDD DDUW *y perthyn* diangfäau rhag marwolaeth.

21 DUW yn ddïau a archolla ben ei elynion; *a* choppa gwalltog yr hwn a rodio rhagddo yn ei gamweddau.

22 Dywedodd yr Arglwydd, Dygaf *fy mhobl* drachefn o Basan, dygaf *hwynt* drachefn o ddyfnder y môr;

23 Fel y trocher dy droed yng

ngwaed *dy* elynion, *a* thafod dy gŵn yn yr unrhyw.

24 Gwelsant dy fynediad, O Dduw; mynediad fy Nuw, fy Mrenhin, yn y cyssegr.

25 Y cantorion a aethant o'r blaen, a'r cerddorion ar ol; yn *eu* mysg *yr oedd* y llangcesau yn canu tympanau.

26 Bendithiwch Dduw yn y cynnulleidfaoedd, *sef* yr Arglwydd, *y rhai ydych* o ffynnon Israel.

27 Yno *y mae* Benjamin fychan â'u llywydd, tywysogion Judah â'u cynnulleidfa; tywysogion Sabulon, *a* thywysogion Naphtali.

28 Dy Dduw a orchymynodd dy nerth: cadarnhâ, O Dduw, yr hyn a wnaethost ynom ni.

29 Brenhinoedd a ddygant i ti anrheg er mwyn dy deml yn Jerusalem.

30 Cerydda dyrfa y gwaywffyn, cynnulleidfa y gwrdd-deirw, gyd â lloi y bobl, *fel* y delont yn ostyngedig â darnau arian: gwasgar y bobl *sydd* dda ganddynt ryfel.

31 Pendefigion a ddeuant o'r Aipht; Ethiopia a estyn ei dwylaw yn brysur at Dduw.

32 Teyrnasoedd y ddaear, cenwch i Dduw; canmolwch yr Arglwydd: Selah:

33 Yr hwn a ferchyg ar nef y nefoedd, *y rhai oedd* erioed: wele efe yn anfon ei lef, *a honno* yn llef nerthol.

34 Rhoddwch i Dduw gadernid: ei oruchelder *sydd* ar Israel, a'i nerth yn yr wybrennau.

35 Ofnadwy *wyt*, O Dduw, o'th gyssegr: Duw Israel *yw* efe sydd yn rhoddi nerth a chadernid i'r bobl. Bendigedig *fyddo* Duw.

PSALM 69.

1 *Dafydd yn cwyno ei gystudd; 13 yn gweddïo am ymwared; 22 yn diofrydu ei elynion i ddinystr; 30 yn moliannu Duw gyd â diolch.*

I'r Pencerdd ar Sosannim, *Psalm* Dafydd.

ACHUB fi, O Dduw; canys y dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at *fy* enaid.

2 Soddais mewn tom dwfn, lle nid *oes* sefyllfa: deuthum i ddyfnder dyfroedd, a'r ffrwd a lifodd drosof.

3 Blinais yn llefain, sychodd fy ngheg: pallodd fy llygaid, tra yr ydwyf yn disgwyl wrth fy Nuw.

4 Amlach na gwallt fy mhen yw y rhai a'm casânt heb achos: cedyrn *yw* fy ngelynion diachos, y rhai a'm difethent: yna y telais yr hyn ni chymmerais.

5 O Dduw, ti a adwaenost fy ynfydrwydd; ac nid yw fy nghamweddau guddiedig rhagot.

6 Na chywilyddier o'm plegid i y rhai a obeithiant ynot ti, Arglwydd Dduw y lluoedd: na waradwydder o'm plegid i y rhai a'th geisiant di, O Dduw Israel.

7 Canys er dy fwyn di y dygais warthrudd, *ac* y tôdd cywilydd fy wyneb.

8 Euthum yn ddïeithr i'm brodyr, ac *fel* estron gan blant fy mam.

9 Canys sêl dy dŷ a'm hysodd; a gwaradwyddiad y rhai a'th waradwyddent di, a syrthiodd arnaf fi.

10 Pan wylais, *gan gystuddio* fy enaid âg ympryd, bu hynny yn waradwydd i mi.

11 Gwisgais hefyd sachlïan; ac euthum yn ddïareb iddynt.

12 Yn fy erbyn y chwedleuai y rhai a eisteddent yn y porth; ac i'r meddwon *yr oeddwn* yn wawd.

13 Ond myfi, fy ngweddi *sydd* attat ti, O Arglwydd, *mewn* amser cymmeradwy: O Dduw, yn lliosowgrwydd dy drugaredd gwrando fi, y'ngwirionedd dy iachawdwriaeth.

14 Gwared fi o'r dom, ac na soddwyf: gwareder fi oddi wrth fy nghaseion, ac o'r dyfroedd dyfnion.

15 Na lifed y ffrwd ddwfr drosof, ac na lyngced y dyfnder fi; na chaued y pydew chwaith ei safn arnaf.

16 Clyw fi, Arglwydd; canys da *yw* dy drugaredd: yn ol lliaws dy dosturiaethau edrych arnaf.

17 Ac na chuddia dy wyneb oddi wrth dy was; canys *y mae* cyfyngder arnaf: brysia, gwrando fi.

18 Nesâ at fy enaid, *a* gwared ef: achub fi o herwydd fy ngelynion.

19 Ti a adwaenost fy ngwarthrudd,

a'm cywilydd, a'm gwaradwydd: fy holl elynion *ydynt* ger dy fron di.

20 Gwarthrudd a dorrodd fy nghalon; yr ydwyf mewn gofid: a disgwyliais *am rai* i dosturio *wrthyf*, ac nid *oedd* neb; ac am gysurwyr, ac ni chefais neb.

21 Rhoddasant hefyd fustl yn fy mwyd, ac a'm dïodasant yn fy syched â finegr.

22 Bydded eu bwrdd yn fagl ger eu bron, a'u llwyddiant yn dramgwydd.

23 Tywyller eu llygaid, fel na welont; a gwna i'w llwynau grynu bob amser.

24 Tywallt dy ddig arnynt; a chyrhaedded llidiowgrwydd dy ddigofaint hwynt.

25 Bydded eu preswylfod yn anghyfannedd; *ac* na fydded a drigo yn eu pebyll.

26 Canys erlidiasant yr hwn a darawsit ti; ac am ofid y rhai a archollaist ti, y chwedleuant.

27 Dod ti anwiredd at eu hanwiredd hwynt; ac na ddelont i'th gyfiawnder di.

28 Dilëer hwynt o lyfr y rhai byw; ac na ysgrifener hwynt gyd â'r rhai cyfiawn.

29 Minnau, truan a gofidus *ydwyf:* dy iachawdwriaeth di, O Duw, a'm dyrchafo.

30 Moliannaf enw Duw ar gân, a mawrygaf ef mewn mawl.

31 A *hyn* fydd well gan yr Arglwydd nag ŷch *neu* fustach corniog, carnol.

32 Y trueiniaid a lawènychant *pan* welant *hyn:* eich calon chwithau, y rhai a geisiwch Duw, a fydd byw.

33 Canys gwrendy yr Arglwydd ar dlodion, ac ni ddïystyra efe ei garcharorion.

34 Nefoedd a daear, y môr a'r hyn oll a ymlusgo ynddo, molant ef.

35 Canys Duw a achub Sïon, ac a adeilada ddinasoedd Judah; fel y trigont yno, ac y meddiannont hi.

36 A hiliogaeth ei weision a'i meddiannant hi: a'r rhai a hoffant ei enw ef, a breswyliant ynddi.

PSALM 70.

Dafydd yn ymbil â Duw am gyflym ddïnystr i'r annuwiol, a'i nawdd i'r duwiol.

I'r Pencerdd, *Psalm* Dafydd i goffa.

ODDUW, *prysura* i'm gwaredu; brysia, Arglwydd, i'm cymmorth.

2 Cywilyddier a gwarthrudder y rhai a geisiant fy enaid: tröer yn eu hol a gwaradwydder y rhai a ewyllysiant ddrwg i mi.

3 Dattröer yn lle gwobr am eu cywilydd, y rhai a ddywedant, Ha, ha.

4 Llawenyched, a gorfoledded ynot ti y rhai oll a'th geisiant; a dyweded y rhai a garant dy iachawdwriaeth yn wastad, Mawryger Duw.

5 Minnau *ydwyf* dlawd ac anghenus; O Duw, brysia attaf: fy nghymmorth a'm gwaredydd *ydwyt* ti, O Arglwydd; na hir drig.

PSALM 71.

1 *Dafydd, mewn hyder ffydd, a phrawof o ffafr Duw, yn gweddïo drosto ei hun, ac yn erbyn gelynion ei enaid:* 14 *yn addaw bod yn ddiannwadal:* 17 *yn gweddïo am nerth i barhau:* 19 *yn moliannu Duw, ac yn addaw gwneuthur hynny yn llawen.*

YNOT ti, O Arglwydd, y gobeithiais; na'm cywilyddier byth.

2 Achub fi, a gwared fi yn dy gyfiawnder: gostwng dy glust attaf, ac achub fi.

3 Bydd i mi yn drigfa gadarn, i ddyfod iddi bob amser: gorchymynaist fy achub; canys ti *yw* fy nghraig a'm hamddiffynfa.

4 Gwared fi, O fy Nuw, o law yr annuwiol, o law yr anghyfiawn a'r traws.

5 Canys ti *yw* fy ngobaith, O Arglwydd Duw; fy ymddiried o'm hieuengctid.

6 Wrthyt ti y'm cynhaliwyd o'r bru; ti a'm tynnaist o groth fy mam: fy mawl *fydd* yn wastad am danat ti.

7 Oeddwn i lawer megis yn rhyfeddod: eithr tydi *yw* fy nghadarn noddfa.

8 Llanwer fy ngenau â'th foliant, *ac* â'th ogoniant beunydd.

9 Na fwrw fi ymaith yn amser henaint: na wrthod fi pan ballo fy nerth.

10 Canys fy ngelynion sydd yn dywedyd i'm herbyn; a'r rhai a ddisgwyliant am fy enaid a gydymgynghorant,
11 Gan ddywedyd, DUW a'i gwrthododd ef: erlidiwch a deliwch ef; canys nid *oes* gwaredydd.
12 O DDUW, na fydd bell oddi wrthyf: fy NUW, brysia i'm cymmorth.
13 Cywilyddier *a* difether y rhai a wrthwynebant fy enaid: *â* gwarth ac *â* gwaradwydd y gorchuddier y rhai a geisiant ddrwg i mi.
14 Minnau a obeithiaf yn wastad, ac a'th foliannaf di fwyfwy.
15 Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder *a*'th iachawdwriaeth beunydd; canys ni wn rifedi *arnynt*.
16 Y'nghadernid yr Arglwydd DDUW y cerddaf: dy gyfiawnder di yn unig a gofiaf fi.
17 O'm hieuengctid y'm dysgaist, O DDUW: hyd yn hyn y mynegais dy ryfeddodau.
18 Na wrthod fi chwaith, O DDUW, mewn henaint a phenllwydni; hyd oni fynegwyf dy nerth i'r genhedlaeth *hon*, *a*'th gadernid i bob un a ddelo.
19 Dy gyfiawnder hefyd, O DDUW, *sydd* uchel, yr hwn a wnaethost bethau mawrion: pwy, O DDUW, *sydd* debyg i ti?
20 *Ti*, yr hwn a wnaethost i mi weled aml a blin gystuddiau, a'm bywhêi drachefn, ac a'm cyfodi drachefn o orddyfnder y ddaear.
21 Amlhêi fy mawredd, ac a'm cysuri oddi amgylch.
22 Minnau a'th foliannaf ar offeryn nabl, *sef* dy wirionedd, O fy NUW: canaf i ti â'r delyn, O Sanct Israel.
23 Fy ngwefusau a fyddant hyfryd pan ganwyf i ti; a'm henaid, yr hwn a waredaist.
24 Fy nhafod hefyd a draetha dy gyfiawnder beunydd: o herwydd cywilyddiwyd *a* gwaradwyddwyd y rhai a geisiant niwed i mi.

PSALM 72.

1 *Dafydd, wrth weddio dros Solomon, yn dangos dàioni a gogoniant ei deyrnas ef ym y cysgod, ond mewn gwirionedd, teyrnas Crist:* 18 *yn benditho Duw.*

O DDUW, dod i'r Brenhin dy farnedigaethau, ac i fab y Brenhin dy gyfiawnder.
2 Efe a farn dy bobl mewn cyfiawnder, a'th drueiniaid â barn.
3 Y mynyddoedd a ddygant heddwch i'r bobl, a'r bryniau, trwy gyfiawnder.
4 Efe a farn drueiniaid y bobl, efe a achub feibion yr anghenus, ac a ddryllia y gorthrymmydd.
5 Tra fyddo haul a lleuad y'th ofnant, yn oes oesoedd.
6 Efe a ddisgyn fel gwlaw ar gnu gwlan; fel cawodydd yn dyfrhâu y ddaear.
7 Yn ei ddyddiau ef y blodeua y cyfiawn; ac amlder o heddwch fydd tra fyddo lleuad.
8 Ac efe a lywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear.
9 O'i flaen ef yr ymgrymma trigolion yr anialwch: a'i elynion a lyfant y llwch.
10 Brenhinoedd Tarsis a'r ynysoedd a dalant anrheg: brenhinoedd Sheba a Seba a ddygant rodd.
11 Ie, yr holl frenhinoedd a ymgrymmant iddo: yr holl genhedloedd a'i gwasanaethant ef.
12 Canys efe a wared yr anghenog pan waeddo: y truan hefyd, a'*r hwn* ni byddo cynnorthwywr iddo.
13 Efe a arbed y tlawd a'r rheidus, ac a achub eneidiau y rhai anghenus.
14 Efe a wared eu henaid oddi wrth dwyll a thrawsder: a gwerthfawr fydd eu gwaed yn ei olwg ef.
15 Byw hefyd fydd efe, a rhoddir iddo o aur Seba: gweddïant hefyd drosto ef yn wastad: beunydd y clodforir ef.
16 Bydd dyrnaid o ŷd ar y ddaear ym mhen y mynyddoedd: ei ffrwyth a ysgwyd fel Libanus; a *phobl* y ddinas a flodeuant fel gwellt y ddaear.
17 Ei enw fydd yn dragywydd: ei enw a bery tra fyddo haul; ac ymfendithiant ynddo: yr holl genhedloedd a'i galwant yn wynfydedig.
18 Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD DDUW, DUW Israel, yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau.
19 Bendigedig hefyd *fyddo* ei enw

gogoneddus ef yn dragywydd; a'r holl ddaear a lanwer o'i ogoniant. Amen, ac Amen.

20 Gorphen gweddïau Dafydd mab Jesse.

PSALM 73.

1 *Y prophwyd, wedi gorsod rhyw brofedigaeth, 2 ar yr achlysur hwnnw, yn dangos llwyddiant yr anwir; 13 a'r briw a gafodd efe wrth hynny, sef anymddiried. 15 Ei orfodaeth, sef gwybod amcan Duw, yn dïfetha yr annuwiol, ac yn cynnal y cyfiawn.*

Psalm Asaph.

YN ddïau da *yw* Duw i Israel; *sef* i'r rhai glân o galon.

2 Minnau, braidd na lithrodd fy nhraed: prin na thripiodd fy ngherddediad.

3 Canys cenfigennais wrth y rhai ynfyd, *pan* welais lwyddiant y rhai annuwiol.

4 Canys nid *oes* rhwymau yn eu marwolaeth; a'u cryfder *sydd* heini.

5 Nid *ydynt* mewn blinder *fel* dynion *eraill;* ac ni ddïaleddir arnynt hwy gyd â dynion *eraill.*

6 Am hynny y cadwynodd balchder hwynt, *ac* y gwisg trawsder am danynt *fel* dilledyn.

7 Eu llygaid a saif allan gan frasder: aethant dros feddwl calon *o gyfoeth.*

8 Y maent wedi llygru, yn chwedleua yn ddrygionus *am* drawsder; yn dywedyd yn uchel.

9 Gosodasant eu genau yn erbyn y nefoedd: a'u tafod a gerdd trwy y ddaear.

10 Am hynny y dychwel ei bobl ef yma; ac y gwesgir iddynt ddwfr *phiol* lawn.

11 Dywedant hefyd, Pa fodd y gwŷr Duw? a oes gwybodaeth gan y Goruchaf?

12 Wele, dyma y rhai annuwiol, a'r rhai sydd lwyddiannus yn y byd, *ac* a amlhasant olud.

13 Dïau *mai* yn ofer y glanheais fy nghalon, ac y golchais fy nwylaw mewn diniweidrwydd.

14 Canys ar hyd y dydd y'm maeddwyd; fy ngherydd *a ddeuai* bob bore.

15 Os dywedwn, Mynegaf fel hyn; wele, *â* chenhedlaeth dy blant di y gwnawn gam.

16 Pan amcenais wybod hyn, blin *oedd* hynny yn fy ngolwg i;

17 Hyd onid euthum i gyssegr Duw: *yna* y deallais eu diwedd hwynt.

18 Dïau osod o honot hwynt mewn llithrigfa, *a* chwympo o honot hwynt i ddinystr.

19 Mor ddisymmwth yr aethant yn anghyfannedd! pallasant, a darfuant gan ofn.

20 Fel breuddwyd wrth ddihuno *un; felly,* O Arglwydd, pan ddeffroech, y dirmygi eu gwedd hwynt.

21 Fel hyn y gofidiodd fy nghalon, ac y'm pigwyd yn fy arennau.

22 Mor ynfyd *oeddwn,* ac heb wybod; anifail oeddwn o'th flaen di.

23 Etto *yr ydwyf* yn wastad gyd â thi: ymaflaist yn fy llaw ddehau.

24 A'th gynghor y'm harweini; ac wedi *hynny* y'm cymmeri *i* ogoniant.

25 Pwy *sydd* gennyf fi yn y nefoedd *ond tydi?* ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyd â thydi.

26 Pallodd fy nghnawd a'm calon: *ond* nerth fy nghalon a'm rhan *yw* Duw yn dragywydd.

27 Canys wele, difethir y rhai a bellhânt oddi wrthyt: torraist ymaith bob un a butteinio oddi wrthyt.

28 Minnau, nesâu at Duw sydd dda i mi: yn yr Arglwydd Duw y gosodais fy ngobaith, i draethu dy holl weithredoedd.

PSALM 74.

1 *Y prophwyd yn cwyno anrheithio y cyssegr: 10 yn erfyn cynnnorth gan Duw, wrth ystyried ei allu, 18 a'i elynion enllibus, a'i blant, a'i gyfammod*

Maschil Asaph.

PAHAM, Duw, y'n bwriaist heibio yn dragywydd, *ac* y myga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa?

2 Cofia dy gynnulleidfa, *yr hon* a brynaist gynt; *a* llwyth dy etifeddiaeth, *yr hwn* a waredaist; mynydd Sïon hwn y preswyli ynddo.

3 Dyrcha dy draed at anrhaith dragywyddol; *sef* at yr holl ddrwg a wnaeth y gelyn yn y cyssegr.

4 Dy elynion a ruasant y'nghanol dy gynnulleidfaoedd; gosodasant eu banerau *yn* arwyddion.

5 Hynod oedd *gûr*, fel y codasai
fwyeill mewn dyrys-goed.
6 Ond yn awr y maent yn dryllio
ei cherfiadau ar unwaith â bwyeill
ac â morthwylion.
7 Bwriasant dy gyssegroedd yn
tân; hyd lawr yr halogasant bres-
wylfa dy enw.
8 Dywedasant yn eu calonnau,
Cyd-anrheithiwn hwynt: llosgasant
holl synagogau Duw yn y tir.
9 Ni welwn ein harwyddion: nid
oes brophwyd mwy, nid *oes* gennym
a ŵyr pa hyd.
10 Pa hyd, Dduw, y gwarthrudda
y gwrthwynebwr? a gabla y gelyn
dy enw yn dragywydd?
11 Paham y tynni yn ei hol dy
law, sef dy ddeheulaw? tyn *hi*
allan o ganol dy fynwes.
12 Canys Duw *yw* fy Mrenhin o'r
dechreuad, gwneuthurwr iachawd-
wriaeth o fewn y tir.
13 Ti yn dy nerth a berthaist y
môr: drylliaist bennau dreigiau yn
y dyfroedd.
14 Ti a ddrylliaist ben lefiathan;
rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl *yn*
yr anialwch.
15 Ti a holltaist y ffynnon a'r
afon; ti a ddyhysbyddaist afonydd
cryfion.
16 Y dydd *sydd* eiddot ti, y nos
hefyd *sydd* eiddot ti: ti a barot-
toaist oleuni a haul.
17 Ti a osodaist holl derfynau
y ddaear: ti a luniaist haf a
gauaf.
18 Cofia hyn, *i*'r gelyn gablu, O
Arglwydd, ac *i*'r bobl ynfyd ddif-
enwi dy enw.
19 Na ddyro enaid dy durtur i
gynnulleidfa *y gelynion:* nac ang-
hofia gynnulleidfa dy drueiniaid
byth.
20 Edrych ar y cyfammod: canys
llawn yw tywyll-leoedd y ddaear o
drigfannau trawsder.
21 Na ddychweled y tlawd yn
waradwyddus: molianned y truan
a'r anghenus dy enw.
22 Cyfod, O Dduw, dadleu dy
ddadl: cofia dy waradwydd gan yr
ynfyd beunydd.
23 Nac anghofia lais dy elynion:
dadwrdd y rhai a godant *i*'th erbyn
sydd yn dringo yn wastadol.

PSALM 75.

1 *Y prophwyd yn moliannu Duw; 2 yn addaw barnu yn gyfiawn; 4 yn ceryddu y beilchion, trwy ystyried rhagluniaeth Duw; 9 yn moliannu Duw, ac yn addaw gwneuthur cyfiawnder.*

I'r Pencerdd, Al-taschith, Psalm *neu* Gân Asaph.

CLODFORWN dydi, O Dduw,
clodforwn; canys agos *yw* dy
enw; dy ryfeddodau a fynegant
hynny.
2 Pan dderbyniwyf y gynnulleid-
fa, mi a farnaf yn uniawn.
3 Ymddattododd y ddaear, a'i holl
drigolion: myfi sydd yn cynnal ei
cholofnau. Selah.
4 Dywedais wrth y rhai ynfyd, Nac
ynfydwch; ac wrth y rhai annuwiol,
Na ddyrchefwch *eich* corn:
5 Na ddyrchefwch eich corn yn
uchel: *na* ddywedwch yn warsyth.
6 Canys nid o'r dwyrain, nac o'r
gorllewin, nac o'r dehau, *y daw*
goruchafiaeth.
7 Ond Duw *sydd* yn barnu; efe
a ostwng y naill, ac a gyfyd y llall.
8 Oblegid *y mae* phiol yn llaw
yr Arglwydd, a'r gwin sydd goch;
yn llawn cymmysg, ac efe a dy-
walltodd o hono: etto holl annuw-
iolion y tir a wasgant, *ac* a yfant
ei waelodion.
9 Minnau a fynegaf yn dragywydd,
ac a ganaf i Dduw Jacob.
10 Torraf hefyd holl gyrn y rhai
annuwiol; *a* chyrn y rhai cyfiawn
a ddyrchefir.

PSALM 76.

1 *Datgan mawredd Duw yn ei eglwys.* 11 *Cynghor i'w wasanaethu ef yn barchedig.*

I'r Pencerdd ar Neginoth, Psalm *neu* Gân Asaph.

HYNOD *yw* Duw yn Judah;
mawr *yw* ei enw ef yn Israel.
2 Ei babell hefyd sydd yn Salem,
a'i drigfa yn Sïon.
3 Yna y torrodd efe saethau y
bwa, y tarian, y cleddyf hefyd, a'r
frwydr. Selah.
4 Gogoneddusach *wyt a* chadarn-
ach na mynyddoedd yr yspail.
5 Yspeiliwyd y cedyrn galon, hun-
asant eu hûn: a'r holl wŷr o nerth
ni chawsant eu dwylaw.
6 Gan dy gerydd di, O Dduw
Jacob, y rhoed y cerbyd a'r march
i gysgu.
7 Tydi, tydi, *wyt* ofnadwy; a
phwy a saif o'th flaen pan *ennyno*
dy ddigter?

8 O'r nefoedd y peraist glywed barn; ofnodd, a gostegodd y ddaear,
9 Pan gyfododd DUW i farn, i achub holl rai llednais y tir. Selah.
10 Dïau cynddaredd dyn a'th folianna di: gweddill cynddaredd a waherddi.
11 Addunedwch, a thelwch i'r ARGLWYDD eich DUW: y rhai oll ydynt o'i amgylch ef, dygant anrheg i'r ofnadwy.
12 Efe a dyr ymaith yspryd tywysogion: *y mae* yn ofnadwy i frenhinoedd y ddaear.

PSALM 77.

1 *Y Psalmydd yn dangos pa ymdrech creulawn a fuasai rhynddo ac anobaith; 10 a'r oruchafiaeth a gafodd, wrth ystyried mawr a grasusol weithredoedd Duw.*

I'r Pencerdd, i Jeduthun, Psalm Asaph.

A'M llef y gwaeddais ar DDUW, â'm llef ar DDUW; ac efe a'm gwrandawodd.
2 Yn nydd fy nhrallod y ceisiais yr Arglwydd: fy archoll a redodd liw nos, ac ni pheidiodd: fy enaid a wrthododd *ei* ddiddanu.
3 Cofiais DDUW, ac a'm cythryblwyd: cwynais, a therfysgwyd fy yspryd. Selah.
4 Deliaist fy llygaid yn neffro: synnodd arnaf, fel na allaf lefaru.
5 Ystyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd.
6 Cofio yr ydwyf fy nghân y nos: yr ydwyf yn ymddiddan â'm calon; fy yspryd sydd yn chwilio yn ddyfal.
7 Ai yn dragywydd y bwrw yr ARGLWYDD heibio? ac oni bydd efe boddlawn mwy?
8 A ddarfu ei drugaredd ef dros byth? a balla *ei* addewid *ef* yn oes oesoedd?
9 A anghofiodd DUW drugarhâu? a gauodd efe ei drugareddau mewn sorriant? Selah.
10 A dywedais, Dyma fy ngwendid: *etto cofiaf* flynyddoedd deheulaw y Goruchaf.
11 Cofiaf weithredoedd yr ARGLWYDD; ïe, cofiaf dy wyrthiau gynt.
12 Myfyriaf hefyd ar dy holl waith, ac am dy weithredoedd y chwedleuaf.
13 Dy ffordd, O DDUW, *sydd* yn y cyssegr: pa dduw *mor* fawr a'n DUW *ni?*
14 Ti *yw* y DUW sydd yn gwneuthur rhyfeddodau: dangosaist dy nerth ym mysg y bobloedd.
15 Gwaredaist â'*th* fraich dy bobl, meibion Jacob a Joseph. Selah.
16 Y dyfroedd a'th welsant, O DDUW, y dyfroedd a'th welsant: hwy a ofnasant; y dyfnderau hefyd a gynhyrfwyd.
17 Y cymmylau a dywalltasant ddwfr: yr wybrennau a roddasant dwrf: dy saethau hefyd a gerddasant.
18 Twrf dy daran *a glywyd* o amgylch: mellt a oleuasant y byd; cyffrôdd a chrynodd y ddaear.
19 Dy ffordd *sydd* yn y môr, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion; ac nid adweinir dy ol.
20 Tywysaist dy bobl fel defaid, trwy law Moses ac Aaron.

PSALM 78.

1 *Cymhor i ddysgu ac i bregethu cyfraith Ddiw. 9 Histori digofaint Duw yn erbyn yr anghredinïol a'r anufudd. 67 Wedi bwrw heibio yr Israeliaid, y mae Duw yn dewis Judah, Sion, a Dafydd.*

Maschil i Asaph.

GWRANDO fy nghyfraith, fy mhobl: gostyngwch eich clust at eiriau fy ngenau.
2 Agoraf fy ngenau mewn dïareb: traethaf ddamhegion o'r cynfyd:
3 Y rhai a glywsom, ac a wybuom, ac a fynegodd ein tadau i ni.
4 Ni chelwn rhag eu meibion, gan fynegi i'r oes a ddêl foliant yr ARGLWYDD, a'i nerth, a'i ryfeddodau y rhai a wnaeth efe.
5 Canys efe a sicrhaodd dystiolaeth yn Jacob, ac a osododd gyfraith yn Israel, y rhai a orchymynodd efe i'n tadau eu dysgu i'w plant:
6 Fel y gwybyddai yr oes a ddêl, *sef* y plant a enid; *a phan* gyfodent, y mynegent *hwy* i'w plant hwythau:
7 Fel y gosodent eu gobaith ar DDUW, heb anghofio gweithredoedd DUW, eithr cadw ei orchymynion ef:
8 Ac na byddent fel eu tadau, yn genhedlaeth gyndyn a gwrthryfelgar; yn genhedlaeth ni osododd ei chalon yn uniawn, ac nid yw ei hyspryd ffyddlawn gyd â DUW.

9 Meibion Ephraim, yn arfog *ac* yn saethu *â* bwa, a droisant *eu cefnau* yn nydd y frwydr.
10 Ni chadwasant gyfammod Duw, eithr gwrthodasant rodio yn ei gyfraith ef;
11 Ac anghofiasant ei weithredoedd a'i ryfeddodau, y rhai a ddangosasai efe iddynt.
12 Efe a wnaethai wyrthiau o flaen eu tadau hwynt yn nhir yr Aipht, *ym* maes Soan.
13 Efe a barthodd y môr, ac a aeth â hwynt drwodd; gwnaeth hefyd i'r dwfr sefyll fel pentwr.
14 Y dydd hefyd y tywysodd efe hwynt â chwmmwl, ac ar hyd y nos â goleuni tân.
15 Efe a holltodd y creigiau yn yr anialwch; a rhoddes ddiod *oddi yno* megis o ddyfnderau dirfawr.
16 Canys efe a ddug ffrydiau allan o'r graig, ac a dynnodd i lawr megis afonydd o ddyfroedd.
17 Er hynny chwanegasant etto bechu yn ei erbyn ef, gan ddigio y Goruchaf yn y diffaethwch.
18 A themtiasant Duw yn eu calon, gan ofyn bwyd wrth eu blys.
19 Llefarasant hefyd yn erbyn Duw; dywedasant, A ddichon Duw arlwyo bwrdd yn yr anialwch?
20 Wele, efe a darawodd y graig, fel y pistyllodd dwfr, ac y llifodd afonydd; a ddichon efe roddi bara hefyd? a ddarpara efe gig i'w bobl?
21 Am hynny y clybu yr Arglwydd, ac y digiodd: a thân a ennynodd yn erbyn Jacob, a digofaint hefyd a gynneuodd yn erbyn Israel;
22 Am na chredent yn Nuw, ac na obeithient yn ei iachawdwriaeth ef:
23 Er iddo ef orchymyn i'r wybrennau oddi uchod, ac agoryd drysau y nefoedd,
24 A gwlawio manna arnynt i'w fwytta, a rhoddi iddynt ŷd y nefoedd.
25 Dyn a fwyttaodd fara angylion: anfonodd iddynt fwyd yn ddigonol.
26 Gyrrodd y dwyreinwynt yn y nefoedd; ac yn ei nerth y dug efe ddeheuwynt.
27 Gwlawiodd hefyd gig arnynt fel llwch, ac adar asgellog fel tywod y môr.
28 Ac a wnaeth *iddynt* gwympo o fewn eu gwersyll, o amgylch eu preswylfeydd.
29 Felly y bwyttasant, ac y llwyrddiwallwyd hwynt; ac efe a barodd eu dymuniad iddynt;
30 Ni ommeddwyd hwynt o'r hyn a flysiasant: er hynny, tra *yr ydoedd* eu bwyd yn eu safnau,
31 Digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt, ac a laddodd y rhai brasaf o honynt, ac a gwympodd etholedigion Israel.
32 Er hyn oll pechasant etto, ac ni chredasant i'w ryfeddodau ef.
33 Am hynny y treuliodd efe eu dyddiau hwynt mewn oferedd, a'u blynyddoedd mewn dychryn.
34 Pan laddai efe hwynt, hwy a'i ceisient ef, ac a ddychwelent, ac a geisient Duw yn fore.
35 Cofient hefyd mai Duw *oedd* eu Craig, ac mai y Goruchaf Duw *oedd* eu Gwaredydd.
36 Er hynny, rhagrithio yr oeddynt iddo ef â'u genau, a dywedyd celwydd wrtho â'u tafod:
37 A'u calon heb fod yn uniawn gyd âg ef, na'u bod yn ffyddlawn yn ei gyfammod ef.
38 Er hynny efe yn drugarog a faddeuodd *eu* hanwiredd, ac ni ddifethodd *hwynt:* ie, trodd ymaith ei ddigofaint yn fynych, ac ni chyffrôdd ei holl lid.
39 Canys efe a gofiai mai cnawd *oeddynt, a* gwynt yn myned, ac heb ddychwelyd.
40 Pa sawl gwaith y digiasant ef yn yr anialwch, *ac* y gofidiasant ef yn y diffaethwch?
41 Ie, troisant a phrofasant Duw, ac a osodasant derfyn i Sanct yr Israel.
42 Ni chofiasant ei law ef, *na*'r dydd y gwaredodd efe hwynt oddi wrth y gelyn.
43 Fel y gosodasai efe ei arwyddion yn yr Aipht, a'i ryfeddodau ym maes Soan:
44 Ac y troisai eu hafonydd yn waed; a'u ffrydiau, fel na allent yfed.
45 Anfonodd gymmysgbla yn eu

plith, yr hon a'u difaodd hwynt; a llyffaint i'w difetha.

46 Ac efe a roddodd eu cnwd hwynt i'r lindys, a'u llafur i'r locust.

47 Distrywiodd eu gwinwydd â chenllysg, a'u sycamorwydd â rhew.

48 Rhoddodd hefyd eu hanifeiliaid i'r cenllysg, a'u golud i'r mellt.

49 Anfonodd arnynt gynddaredd ei lid, llidiowgrwydd, a digter, a chyfyngder, trwy anfon angylion drwg.

50 Cymhwysodd ffordd i'w ddigofaint: nid attaliodd eu henaid oddi wrth angau; ond eu bywyd a roddodd efe i'r haint.

51 Tarawodd hefyd bob cyntafanedig yn yr Aipht; *sef* blaenion *eu* nerth *hwynt* ym mhebyll Ham:

52 Ond efe a yrrodd ei bobl ei hun fel defaid, ac a'u harweiniodd hwynt fel praidd yn yr anialwch.

53 Tywysodd hwynt hefyd yn ddiogel, fel nad ofnasant: a'r môr a orchuddiodd eu gelynion hwynt.

54 Hwythau a ddug efe i oror ei sancteiddrwydd; *i'r* mynydd hwn, a ennillodd ei ddeheulaw ef.

55 Ac efe a yrrodd allan y cenhedloedd o'u blaen hwynt, ac a rannodd iddynt etifeddiaeth wrth linyn, ac a wnaeth i lwythau Israel drigo yn eu pebyll hwynt.

56 Er hynny temtiasant a digiasant Duw Goruchaf, ac ni chadwasant ei dystiolaethau:

57 Eithr ciliasant a buant anffyddlawn fel eu tadau: troisant fel bwa twyllodrus.

58 Digiasant ef hefyd â'u huchelfannau; a gyrrasant eiddigedd arno â'u cerfiedig ddelwau.

59 Clybu Duw *hyn*, ac a ddigiodd, ac a ffieiddiodd Israel yn ddirfawr:

60 Fel y gadawodd efe dabernacl Siloh, y babell a osodasai efe ym mysg dynion;

61 Ac y rhoddodd ei nerth mewn caethiwed, a'i brydferthwch yn llaw y gelyn.

62 Rhoddes hefyd ei bobl i'r cleddyf; a digiodd wrth ei etifeddiaeth.

63 Tân a ysodd eu gwŷr ieuainge; a'u morwynion ni phriodwyd.

64 Eu hoffeiriaid a laddwyd â'r cleddyf; a'u gwragedd gweddwon nid wylasant.

65 Yna y deffrôdd yr Arglwydd fel un o gysgu, fel cadarn yn bloeddio gwedi gwin.

66 Ac efe a darawodd ei elynion o'r tu ol: rhoddes iddynt warth tragywyddol.

67 Gwrthododd hefyd babell Joseph, ac ni etholodd lwyth Ephraim:

68 Ond efe a etholodd lwyth Judah, mynydd Sïon, yr hwn a hoffodd.

69 Ac a adeiladodd ei gyssegr fel *llys* uchel, fel y ddaear yr hon a seiliodd efe yn dragywydd.

70 Etholodd hefyd Dafydd ei was, ac a'i cymmerth o gorlannau y defaid:

71 Oddi ar ol y defaid cyfebron y daeth âg ef i borthi Jacob ei bobl, ac Israel ei etifeddiaeth.

72 Yntau a'u porthodd hwynt yn ol perffeithrwydd ei galon; ac a'u trinodd wrth gyfarwyddyd ei ddwylaw.

PSALM 79.

1 *Y Psalmydd ym cwyno difrod Jerusalem:* 8 *ym gweddio am ymwared;* 13 *ac ym addaw diolch.*

Psalm Asaph.

Y CENHEDLOEDD, O Duw, a ddaethant i'th etifeddiaeth; halogasant dy deml sanctaidd: gosodasant Jerusalem yn garneddau.

2 Rhoddasant gelanedd dy weision yn fwyd i adar y nefoedd, *a* chig dy saint i fwystfilod y ddaear.

3 Tywalltasant eu gwaed fel dwfr o amgylch Jerusalem: ac nid *oedd* a'u claddai.

4 Yr ydym ni yn warthrudd i'n cymmydogion; dirmyg a gwatwargerdd i'r rhai sydd o'n hamgylch.

5 Pa hyd, Arglwydd? a ddigi di yn dragywydd? a lysg dy eiddigedd di fel tân?

6 Tywallt dy lid ar y cenhedloedd ni'th adnabuant, ac ar y teyrnasoedd ni alwasant ar dy enw.

7 Canys ysasant Jacob, ac a wnaethant ei breswylfa yn anghyfannedd.

8 Na chofia yr anwireddau gynt i'n herbyn: brysia, rhagflaened dy

dostur drugareddau ni: canys llesg iawn y'n gwnaethpwyd.

9 Cynnorthwya ni, O DDUW ein hiachawdwriaeth, er mwyn gogoniant dy enw: gwared ni hefyd, a thrugarhâ wrth ein pechodau, er mwyn dy enw.

10 Paham y dywed y cenhedloedd, Pa le *y mae* eu DUW hwynt? bydded hysbys ym mhlith y cenhedloedd yn ein golwg ni, *wrth* ddïal gwaed dy weision *yr hwn* a dywalltwyd.

11 Deued uchenaid y carcharorion ger dy fron: yn ol mawredd dy nerth cadw blant marwolaeth.

12 A thâl i'n cymmydogion ar y seithfed i'w mynwes, eu cabledd trwy yr hon y'th gablasant di, O Arglwydd.

13 A ninnau dy bobl a defaid dy borfa, a'th foliannwn di yn dragywydd: datganwn dy foliant o genhedlaeth i genhedlaeth.

PSALM 80.

1 *Dafydd yn ei weddi yn cwyno trueni yr eglwys.* 8 *Daioni Duw o'r blaen yn troi yn farneddigaethau.* 14 *Y mae yn gweddïo am ymwared.*

I'r Pencerdd ar Sosannim Eduth, Psalm Asaph.

GWRANDO, O Fugail Israel, yr hwn wyt yn arwain Joseph fel praidd; ymddisgleiria, yr hwn wyt yn eistedd *rhwng* y cerubiaid.

2 Cyfod dy nerth o flaen Ephraim a Benjamin a Manasseh, a thyred yn iachawdwriaeth i ni.

3 Dychwel ni, O DDUW, a llewyrcha dy wyneb; a ni a achubir.

4 O ARGLWYDD DDUW y lluoedd, pa hyd y sorri wrth weddi dy bobl?

5 Porthaist hwynt â bara dagrau; a dïodaist hwynt â dagrau wrth fesur mawr.

6 Gosodaist ni yn gynnen i'n cymmydogion; a'n gelynion a'n gwatwarant yn eu mysg eu hun.

7 O DDUW y lluoedd, dychwel ni, a llewyrcha dy wyneb; a ni a achubir.

8 Mudaist winwydden o'r Aipht: bwriaist y cenhedloedd allan, a phlennaist hi.

9 Arlocsaist o'i blaen, a pheraist i'w gwraidd wreiddio, a hi a lanwodd y tir.

10 Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chysgod; a'i changhennau *oedd fel* cedrwydd rhagorol.

11 Hi a estynodd ei changau hyd y môr, a'i blagur hyd yr afon.

12 Paham y rhwygaist ei chaeau, fel y tynno pawb a elo heibio *ar hyd* y ffordd *ei grawn* hi?

13 Y baedd o'r coed a'i turia, a bwystfil y maes a'i pawr.

14 O DDUW y lluoedd, dychwel, attolwg: edrych o'r nefoedd, a chenfydd, ac ymwêl â'r winwydden hon;

15 A'r winllan a blannodd dy ddeheulaw, ac â'r planhigyn a gadarnheaist i ti dy hun.

16 Llosgwyd *hi* â thân; torrwyd *hi* i lawr: gan gerydd dy wyneb y difethir hwynt.

17 Bydded dy law dros ŵr dy ddeheulaw, *a* thros fab y dyn *yr hwn* a gadarnheaist i ti dy hun.

18 Felly ni chiliwn yn ol oddi wrthyt ti: bywhâ ni, a ni a alwn ar dy enw.

19 O ARGLWYDD DDUW y lluoedd, dychwel ni, llewyrcha dy wyneb; a ni a achubir.

PSALM 81.

1 *Y mae yn annog i roi cyhoedd ddïolch i Dduw.* 4 *Bod Duw yn gofyn hynny o ddyled, oblegid ei ddoniau.* 8 *Duw, wrth annog i ufudd-dod, yn cwyno rhag eu hanufudd-dod hwy, yr hwn sydd niweidiol iddynt.*

I'r Pencerdd ar Gittith, *Psalm* Asaph.

CENWCH yn llafar i DDUW ein cadernid: cenwch yn llawen i DDUW Jacob.

2 Cymmerwch psalm, a moeswch dympan, y delyn fwyn a'r nabl.

3 Udgenwch udgorn yn y lloer newydd, yn yr amser nodedig, yn nydd ein huchel-wyl.

4 Canys deddf *yw* hyn i Israel, *a* defod i DDUW Jacob.

5 Efe a'i gosododd *yn* dystiolaeth yn Joseph, pan aeth efe allan trwy dir yr Aipht: *lle* y clywais iaith ni ddeallwn.

6 Tynnais ei ysgwydd oddi wrth y baich: ei ddwylaw a ymadawsant â'r crochanau.

7 Mewn cyfyngder y gelwaist, ac mi a'th waredais: gwrandewais di yn nirgelwch y daran: profais di wrth ddyfroedd Meribah. Selah.

8 Clyw, fy mhobl, a mi a dystiolaethaf i ti: Israel, os gwrandewi arnaf;

9 Na fydded ynot dduw arall; ac
nac ymgrymma i dduw dïeithr.
10 Myfi yr ARGLWYDD dy DDUW
yw yr hwn a'th ddug di allan o
dir yr Aipht: lleda dy safn, a mi
a'i llanwaf.
11 Ond ni wrandawai fy mhobl ar
fy llef; ac Israel ni'm mynnai.
12 Yna y gollyngais hwynt yng
nghyndynrwydd eu calon: aethant
wrth eu cynghor eu hunain.
13 O na wrandawsai fy mhobl
arnaf; *na* rodiasai Israel yn fy
ffyrdd!
14 Buan y gostyngaswn eu gelynion, ac y troiswn fy llaw yn erbyn
eu gwrthwynebwyr.
15 Caseion yr ARGLWYDD a gymmerasent arnynt ymostwng iddo
ef: a'u hamser hwythau fuasai yn
dragywydd.
16 Bwydasai hwynt hefyd â brasder gwenith: ac â mêl o'r graig
y'th ddiwallaswn.

PSALM 82.

1 *Dafydd, wedi cynghori y barnwyr, 5 a cherddu eu hesgeuluseira hwy, 8 yn erfyn ar Dduw farnu.*

Psalm Asaph.

DUW sydd yn sefyll y'nghynnulleidfa y galluog: ym mhlith
y duwiau y barn efe.
2 Pa hyd y bernwch ar gam? ac
y derbyniwch wyneb y rhai annuwiol? Selah.
3 Bernwch y tlawd a'r amddifad:
cyfiawnhêwch y cystuddiedig a'r
rheidus.
4 Gwaredwch y tlawd a'r anghenus: achubwch *hwynt* o law y
rhai annuwiol.
5 Ni wyddant, ac ni ddeallant;
mewn tywyllwch y rhodiant: holl
sylfaenau y ddaear a symmudwyd
o'*u* lle.
6 Myfi a ddywedais, Duwiau *ydych* chwi; a meibion y Goruchaf
ydych chwi oll.
7 Eithr byddwch feirw fel dynion, ac fel un o'r tywysogion y
syrthiwch.
8 Cyfod, O DDUW, barna y ddaear: canys ti a etifeddi yr holl genhedloedd.

PSALM 83.

1 *Achwyn wrth Dduw rhag brad y gelyn.* 9 *Gweddi yn erbyn y rhai sydd yn gorthrymmu yr eglwys.*

Cân neu Psalm Asaph.

O DDUW, na ostega: na thaw,
ac na fydd lonydd, O DDUW.
2 Canys wele, dy elynion sydd yn
terfysgu; a'th gaseion yn cyfodi eu
pennau.
3 Ymgyfrinachasant yn ddichellgar yn erbyn dy bobl, ac ymgynghorasant yn erbyn dy rai dirgel di.
4 Dywedasant, Deuwch, a difethwn hwynt fel na *byddont* yn
genedl; *ac* na chofier enw Israel
mwyach.
5 Canys ymgynghorasant yn unfryd; *ac* ymwnaethant i'th erbyn;
6 Pebyll Edom, a'r Ismaeliaid;
y Moabiaid, a'r Hagariaid;
7 Gebal, ac Ammon, ac Amalec;
y Philistiaid, gyd â phreswylwyr
Tyrus.
8 Assur hefyd a ymgyplysodd â
hwynt: buant fraich i blant Lot.
Selah.
9 Gwna di iddynt fel *i* Midian;
megis *i* Sisera, megis *i* Jabin, wrth
afon Cison:
10 Yn Endor y difethwyd *hwynt:*
aethant yn dail i'r ddaear.
11 Gwna eu pendefigion fel Oreb,
ac fel Seeb; a'u holl dywysogion
fel Sebah, ac fel Salmunnah:
12 Y rhai a ddywedasant, Cymmerwn i ni gyfanneddau DUW i'w
meddiannu.
13 Gosod hwynt, O fy NUW, fel
olwyn; fel sofl o flaen y gwynt.
14 Fel y llysg tân goed, ac fel y
goddeithia fflam fynyddoedd;
15 Felly erlid di hwynt â'th dymmestl, a dychryna hwynt â'th gorwynt.
16 Llanw eu hwynebau â gwarth;
fel y ceisiont dy enw, O ARGLWYDD.
17 Cywilyddier a thralloder hwynt
yn dragywydd; ïe, gwaradwydder
a difether hwynt:
18 Fel y gwypont mai tydi, yr
hwn yn unig *wyt* JEHOFAH *wrth*
dy enw, *wyt* Oruchaf ar yr holl
ddaear.

PSALM 84.

1 *Dafydd yn hiraethu am gymmundeb y cyssegr;* 4 *ac yn dangos mor ddedwydd yw y rhai sydd ym tros ymddo:* 8 *ac yn gweddio ar gael o hono yntau fyned yno drachefn.*

I'r Pencerdd ar Gittith, Psalm meibion Corah.

MOR hawddgar *yw* dy bebyll di,
O ARGLWYDD y lluoedd!

2 Fy enaid a hiraetha, ïe, ac a flysia am gynteddau yr ARGLWYDD: fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y DUW byw.
3 Aderyn y tô hefyd a gafodd dŷ, a'r wennol nyth iddi, lle y gesyd ei chywion; *sef* dy allorau di, O ARGLWYDD y lluoedd, fy Mrenhin, a'm DUW.
4 Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ: yn wastad y'th foliannant. Selah.
5 Gwyn *ei* fyd y dyn *y mae* ei gadernid ynot; *a'th* ffyrdd yn eu calon:
6 *Y rhai* yn myned trwy ddyffryn Bacha a'i gwnant yn ffynnon: a'r gwlaw a leinw y llynnau.
7 Ant o nerth i nerth; ymddengys *pob un* ger bron DUW yn Sïon.
8 O ARGLWYDD DDUW y lluoedd, clyw fy ngweddi: gwrando, O DDUW Jacob. Selah.
9 O DDUW ein tarian, gwel, ac edrych ar wyneb dy Enneiniog.
10 Canys gwell *yw* diwrnod yn dy gynteddau di na mil: dewiswn gadw drws yn nhŷ fy NUW, o flaen trigo ym mhebyll annuwioldeb.
11 Canys haul a tharian *yw* yr ARGLWYDD DDUW: yr ARGLWYDD a rydd ras a gogoniant: ni attal efe ddim daioni oddi wrth y rhai a rodiant yn berffaith.
12 O ARGLWYDD y lluoedd, gwyn fyd y dyn a ymddiried ynot.

PSALM 85.

1 *Dafydd, wedi profi trugareddau Duw o'r blaen, yn gweddïo ar iddynt barhau; 8 ac, o hyder ar ddaioni Duw, yn addaw disgwyl wrthynt.*

I'r Pencerdd, Psalm meibion Corah.

GRASLAWN fuost, O ARGLWYDD, i'th dir: dychwelaist gaethiwed Jacob.
2 Maddeuaist anwireddy bobl; cuddiaist eu holl bechod. Selah.
3 Tynnaist ymaith dy holl lid: troaist oddi wrth lidiowgrwydd dy ddigter.
4 Tro ni, O DDUW ein hiachawdwriaeth, a thor ymaith dy ddigofaint oddi wrthym.
5 Ai byth y digi wrthym? a estyni di dy sorriant hyd genhedlaeth a cheuhedlaeth?
6 Oni throi di a'n bywhâu ni, fel y llawenycho dy bobl ynot ti?
7 Dangos i ni, ARGLWYDD, dy drugaredd, a dod i ni dy iachawdwriaeth.
8 Gwrandawaf beth a ddywed yr ARGLWYDD DDUW: canys efe a draetha heddwch i'w bobl, ac i'w saint: ond na throant at ynfydrwydd.
9 Diau *fod* ei iechyd ef yn agos i'r rhai a'i hofnant; fel y trigo gogoniant yn ein tir ni.
10 Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant.
11 Gwirionedd a dardda o'r ddaear; a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd.
12 Yr ARGLWYDD hefyd a rydd ddaioni; a'n daear a rydd ei chnwd.
13 Cyfiawnder a â o'i flaen ef; ac a esyd ei draed ef ar y ffordd.

PSALM 86.

1 *Dafydd yn cadarnhâu ei weddi, trwy wybod fod ganddo ffydd; 5 trwy ddaioni a gallu Duw: 11 yn deisyf parhâu o'r gras cyntaf. 14 Ac, wrth gwyno rhag y balch, yn erfyn rhyw arwydd o ddaioni Duw.*

Gweddi Dafydd.

GOSTWNG, O ARGLWYDD, dy glust, gwrando fi: canys truan ac anghenus *ydwyf.*
2 Cadw fy enaid; canys sanctaidd *ydwyf:* achub di dy was, O fy NUW, yr hwn sydd yn ymddiried ynot.
3 Trugarhâ wrthyf, ARGLWYDD: canys arnat y llefaf beunydd.
4 Llawenhâ enaid dy was: canys attat ti, Arglwydd, y dyrchafaf fy enaid.
5 Canys ti, O ARGLWYDD, *ydwyt* dda, a maddeugar; ac o fawr drugaredd i'r rhai oll a alwant arnat.
6 Clyw, ARGLWYDD, fy ngweddi; ac ymwrando â llais fy ymbil.
7 Yn nydd fy nghyfyngder y llefaf arnat: canys gwrandewi fi.
8 Nid *oes* fel tydi ym mysg y duwiau, O ARGLWYDD; na *gweithredoedd* fel dy weithredoedd di.
9 Yr holl genhedloedd y rhai a wnaethost a ddeuant, ac a addolant ger dy fron di, O Arglwydd; ac a ogoneddant dy enw.
10 Canys *ydwyt* fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau: ti yn unig *wyt* DDUW.
11 Dysg i mi dy ffordd, O AR-

GLWYDD; mi a rodiaf yn dy wirionedd: una fy nghalon i ofni dy enw.

12 Moliannaf di, O Arglwydd fy NUW, â'm holl galon: a gogoneddaf dy enw yn dragywydd.

13 Canys mawr *yw* dy drugaredd tu ag attaf fi: a gwaredaist fy enaid o uffern isod.

14 Rhai beilchion a gyfodasant i'm herbyn, O DDUW, a chynnulleidfa y trawsion a geisiasant fy enaid; ac ni'th osodasant di ger eu bron.

15 Eithr ti, O Arglwydd, *wyt* DDUW trugarog a graslawn; hwyrfrydig i lid, a helaeth o drugaredd a gwirionedd.

16 Edrych arnaf, a thrugarhâ wrthyf: dyro dy nerth i'th was, ac achub fab dy wasanaethferch.

17 Gwna i mi arwydd er daioni: fel y gwelo fy nghaseion, ac y gwaradwydder hwynt; am i ti, O ARGLWYDD, fy nghynnorthwyo a'm diddanu.

PSALM 87.

1 *Naturiaeth a gogoniant yr eglwys.* 4 *Cynnydd, a pharch, a diddanwch, aelodau yr eglwys.*

Psalm *neu* Gân meibion Corah.

EI sail *sydd* ar y mynyddoedd sanctaidd.

2 Yr ARGLWYDD a gâr byrth Sïon yn fwy na holl breswylfeydd Jacob.

3 Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, O ddinas DUW. Selah.

4 Cofiaf Rahab a Babilon wrth fy nghydnabod: wele Philistia, a Thyrus, ynghyd âg Ethiopia. Yno y ganwyd hwn.

5 Ac am Sïon y dywedir, Y gŵr a'r gŵr a anwyd ynddi: a'r Goruchaf ei hun a'i sicrhâ hi.

6 Yr ARGLWYDD a gyfrif pan ysgrifeno y bobl, eni hwn yno. Selah.

7 Y cantorion a'r cerddorion a *fyddant yno:* fy holl ffynhonnau *sydd* ynot ti.

PSALM 88.

Gweddi yn cynnucys achwyn chwerw-dost.

Psalm *neu* Gân meibion Corah, i'r Penceredd ar Mahalath Leannoth, Maschil Heman yr Esrahiad.

O ARGLWYDD DDUW fy iachawdwriaeth, gwaeddais o'th flaen ddydd *a* nos.

2 Deued fy ngweddi ger dy fron: gostwng dy glust at fy llefain.

3 Canys fy enaid a lanwyd o flinderau; a'm heinioes a nesâ i'r beddrod.

4 Cyfrifwyd fi gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll: ydwyf fel gŵr heb nerth.

5 Yn rhydd ym mysg y meirw, fel rhai wedi eu lladd, yn gorwedd mewn bedd, y rhai ni chofi mwy; a hwy a dorrwyd oddi wrth dy law.

6 Gosodaist fi yn y pwll isaf, mewn tywyllwch, yn y dyfnderau.

7 Y mae dy ddigofaint yn pwyso arnaf: ac â'th holl donnau y'*m* cystuddiaist. Selah.

8 Pellheaist fy nghydnabod oddi wrthyf; gwnaethost fi yn ffieidd-dra iddynt: gwarchaewyd *fi*, fel nad awn allan.

9 Fy llygad a ofidiodd gan fy nghystudd: llefais arnat, ARGLWYDD, beunydd; estynais fy nwylaw attat.

10 Ai i'r meirw y gwnei ryfeddod? a gyfyd y meirw *a*'th foliannu di? Selah.

11 A draethir dy drugaredd mewn bedd? *a*'th wirionedd yn nistryw?

12 A adweinir dy ryfeddod yn y tywyllwch? a'th gyfiawnder yn nhir anghof?

13 Ond myfi a lefais arnat, ARGLWYDD; yn fore yr achub fy ngweddi dy flaen.

14 Paham, ARGLWYDD, y gwrthodi fy enaid? y cuddi dy wyneb oddi wrthyf?

15 Truan *ydwyf* fi, ac ar drangcedigaeth o'*m* hieuengctid: dygais dy ofn, *ac* yr ydwyf yn petruso.

16 Dy sorriant a aeth drosof; dy ddychrynedigaethau a'm torrodd ymaith.

17 Fel dwfr y'm cylchynasant beunydd, *ac* y'm cyd-amgylchasant.

18 Câr a chyfaill a yrraist ym mhell oddi wrthyf, *a*'m cydnabod i dywyllwch.

PSALM 89.

1 *Dafydd yn moliannu Duw am ei gyfammod,* 5 *am ei ryfeddol allu,* 15 *am ei ofal dros ei eglwys,* 19 *am ei fafr i frenhiniaeth Dafydd;* 38 *yna yn cwyno am yr hyn a ddigweddasai yn y gwrthwyneb,* 46 *yn ymynnliw â Duw, yn ei weddio, ac yn ei fendithio.*

Maschil Ethan yr Esrahiad.

TRUGAREDDAU yr ARGLWYDD a ddatganaf byth: â'm genau y mynegaf dy wirionedd o genhedlaeth hyd genhedlaeth.
2 Canys dywedais, Adeiledir trugaredd yn dragywydd: yn y nefoedd y sicrhêi dy wirionedd.
3 Gwneuthum ammod â'm hetholedig, tyngais i'm gwas Dafydd.
4 Yn dragywydd y sicrhâf dy had di; ac o genhedlaeth i genhedlaeth yr adeiladaf dy orseddfaingc di. Selah.
5 A'r nefoedd, O ARGLWYDD, a foliannant dy ryfeddod; a'th wirionedd y'nghynnulleidfa y saint.
6 Canys pwy yn y nef a gystedlir â'r ARGLWYDD? *pwy* a gyffelybir i'r ARGLWYDD ym mysg meibion y cedyrn?
7 DUW sydd ofnadwy iawn yng nghynnulleidfa y saint, ac i'w arswydo yn ei holl amgylchoedd.
8 O ARGLWYDD DDUW y lluoedd, pwy *sydd* fel tydi, yn gadarn IOR? a'th wirionedd o'th amgylch?
9 Ti wyt yn llywodraethu ymchwydd y môr: pan gyfodo ei donnau, ti a'u gostegi.
10 Ti a ddrylliaist yr Aipht, fel un lladdedig: trwy nerth dy fraich y gwasgeraist dy elynion.
11 Y nefoedd *ydynt* eiddot ti, a'r ddaear *sydd* eiddot ti: ti a seiliaist y byd a'i gyflawnder.
12 Ti a greaist ogledd a dehau: Tabor a Hermon a lawenychant yn dy enw.
13 Y mae i ti fraich a chadernid: cadarn yw dy law, *ac* uchel yw dy ddeheulaw.
14 Cyfiawnder a barn *yw* trigfa dy orseddfaingc: trugaredd a gwirionedd a ragflaenant dy wyneb.
15 Gwyn *eu* byd y bobl a adwaenant yr hyfrydlais: yn llewyrch dy wyneb, O ARGLWYDD, y rhodiant hwy.
16 Yn dy enw di y gorfoleddant beunydd; ac yn dy gyfiawnder yr ymddyrchafant.
17 Canys godidowgrwydd eu cadernid hwynt *ydwyt* ti; ac yn dy ewyllys da y dyrchefir ein corn ni.
18 Canys yr ARGLWYDD *yw* ein tarian; a Sanct Israel *yw* ein Brenhin.
19 Yna yr ymddiddenaist mewn gweledigaeth â'th Sanct, ac a ddywedaist, Gosodais gymmorth ar *un* cadarn: dyrchefais *un* etholedig o'r bobl.
20 Cefais Dafydd fy ngwasanaethwr: enneiniais ef â'm holew sanctaidd:
21 Yr hwn y sicrhêir fy llaw gyd âg ef: a'm braich a'i nertha ef.
22 Ni orthrymma y gelyn ef; a'r mab anwir nis cystuddia ef.
23 Ac mi a goethaf ei elynion o'i flaen; a'i gaseion a darawaf.
24 Fy ngwirionedd hefyd a'm trugaredd *fydd* gyd âg ef; ac yn fy enw y dyrchefir ei gorn ef.
25 A gosodaf ei law yn y môr, a'i ddeheulaw yn yr afonydd.
26 Efe a lefa arnaf, Ti *yw* fy Nhad, fy NUW, a Chraig fy iachawdwriaeth.
27 Minnau a'i gwnaf yntau yn gynfab, goruwch brenhinoedd y ddaear.
28 Cadwaf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd; a'm cyfammod fydd sicr iddo.
29 Gosodaf hefyd ei had yn dragywydd; a'i orseddfaingc fel dyddiau y nefoedd.
30 Os ei feibion a adawant fy nghyfraith, ac ni rodiant yn fy marnedigaethau;
31 Os fy neddfau a halogant, a'm gorchymynion ni chadwant:
32 Yna mi a ymwelaf â'u camwedd â gwïalen, ac â'u hanwiredd â ffrewyllau.
33 Ond ni thorraf fy nhrugaredd oddi wrtho, ac ni phallaf o'm gwirionedd.
34 Ni thorraf fy nghyfammod, ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau.
35 Tyngais unwaith i'm sancteiddrwydd, na ddywedwn gelwydd i Dafydd.
36 Bydd ei had ef yn dragywydd, a'i orseddfaingc fel yr haul ger fy mron i.
37 Sicrhêir ef yn dragywydd fel y lleuad, ac *fel* tyst ffyddlawn yn y nef. Selah.
38 Ond ti a wrthodaist ac a ffieiddiaist, ti a ddigiaist wrth dy Enneiniog.

39 Diddymmaist gyfammod dy was; halogaist ei goron, *gan ei thaflu* i lawr.
40 Drylliaist ei holl gaeau ef; gwnaethost ei amddiffynfeydd yn adwyau.
41 Yr holl fforddolion a'i hyspeiliant ef: aeth yn warthrudd i'w gymmydogion.
42 Dyrchefaist ddeheulaw ei wrthwynebwyr; llawenheaist ei holl elynion.
43 Troaist hefyd fin ei gleddyf, ac ni chadarnheaist ef mewn rhyfel.
44 Peraist i'w harddwch ddarfod, a bwriaist ei orseddfaingc i lawr.
45 Byrheaist ddyddiau ei ieuengctid: toaist gywilydd drosto ef. Selah.
46 Pa hyd, ARGLWYDD, yr ymguddi? *ai* yn dragywydd? a lysg dy ddigofaint di fel tân?
47 Cofia pa amser sydd i mi: paham y creaist holl blant dynion yn ofer?
48 Pa ŵr *a fydd* byw, ac ni wêl farwolaeth? a wared efe ei enaid o law y bedd? Selah.
49 Pa le *y mae* dy hen drugareddau, O ARGLWYDD, *y rhai* a dyngaist i Dafydd yn dy wirionedd?
50 Cofia, O ARGLWYDD, waradwydd dy weision, *yr hwn* a ddygais yn fy mynwes *gan* yr holl bobloedd fawrion;
51 A'r hwn y gwaradwyddodd dy elynion, O ARGLWYDD; â'r hwn y gwaradwyddasant ol troed dy Enneiniog.
52 Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD yn dragŷwydd. Amen, ac Amen.

PSALM 90.

1 *Moses yn datgan rhagluniaeth Duw:* 3 *yn cwymo rhag breuolder dyn,* 7 *a cheryddon Duw,* 10 *a byrred yr einioes:* 12 *ac yn gweddio am gael ymcybodaeth a phrawf o ddaionus raglunıaeth Duw.*

Gweddi Moses gŵr Duw.

TI, ARGLWYDD, fuost yn breswylfa i ni ym mhob cenhedlaeth.
2 Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaear, a'r byd; ti hefyd *wyt* DDUW, o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb.
3 Troi ddyn i ddinystr; a dywedi, Dychwelwch, feibion dynion.
4 Canys mil o flynyddoedd *ydynt* yn dy olwg di fel doe, wedi yr êl heibio, ac *fel* gwyliadwriaeth nos.
5 Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant; y maent *fel* hûn: y bore *y maent* fel llysieuyn a newidir.
6 Y bore y blodeua, ac y tyf; prydnawn y torrir ef ymaith, ac y gwywa.
7 Canys yn dy ddig y difethwyd ni, ac yn dy lidiowgrwydd y'n brawychwyd.
8 Gosodaist ein hanwiredd ger dy fron, ein dirgel *bechodau* y'ngoleuni dy wyneb.
9 Canys ein holl ddyddiau ni a ddarfuant gan dy ddigofaint di: treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl.
10 Yn nyddiau ein blynyddoedd *y mae* deng mlynedd a thri ugain: ac os o gryfder *y cyrheuddir* pedwar ugain mlynedd, etto eu nerth *sydd* boen a blinder; canys ebrwydd y derfydd, a ni a ehedwn ymaith.
11 Pwy a edwyn nerth dy sorriant? canys fel *y mae* dy ofn, *y mae* dy ddigter.
12 Dysg *i ni* felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom *ein* calon i ddoethineb.
13 Dychwel, ARGLWYDD, pa hyd? ac edifarhâ o ran dy weision.
14 Diwalla ni yn fore â'th drugareddau; fel y gorfoleddom ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau.
15 Llawenhâ ni yn ol y dyddiau y cystuddiaist ni, a'r blynyddoedd y gwelsom ddrygfyd.
16 Gweler dy waith tu ag at dy weision, a'th ogoniant tu ag at eu plant hwy.
17 A bydded prydferthwch yr ARGLWYDD ein DUW arnom ni: a threfna weithred ein dwylaw ynom ni; ïe, trefna waith ein dwylaw.

PSALM 91.

1 *Cyfluw y duwiol,* 3 *a'u diogelwch,* 9 *a'u trigias;* 11 *eu gweision,* 14 *a'u caredigion; a diwedd y cwbl.*

YR hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, a erys y'nghysgod yr Hollalluog.
2 Dywedaf am yr ARGLWYDD, Fy noddfa a'm hamddiffynfa *ydyw:* fy NUW; ynddo yr ymddiriedaf.
3 Canys efe a'th wareda di o

fagl yr heliwr, *ac* oddi wrth haint echryslawn.

4 A'i asgell y cysgoda efe trosot, a than ei adenydd y byddi ddïogel: ei wirionedd *fydd* darian ac astalch *i ti.*

5 Nid ofni rhag dychryn nos; *na* rhag y saeth *a* ehedo y dydd:

6 *Na* rhag yr haint *a* rodio yn y tywyllwch; *na* rhag y dinystr *a* ddinystrio ganol dydd.

7 Wrth dy ystlys y cwymp mil, a deng mil wrth dy ddeheulaw: *ond* ni ddaw yn agos attat ti.

8 Yn unig ti a ganfyddi â'th lygaid, ac a weli dâl y rhai annuwiol.

9 Am i ti wneuthur yr ARGLWYDD fy noddfa, *sef* y Goruchaf, yn breswylfa i ti;

10 Ni ddigwydd i ti niwed, ac ni ddaw pla yn agos i'th babell.

11 Canys efe a orchymyn i'w angylion am danat ti, dy gadw yn dy holl ffyrdd.

12 Ar *eu* dwylaw y'th ddygant rhag taro dy droed wrth garreg.

13 Ar y llew a'r asp y cerddi: y cenaw llew a'r ddraig a fethri.

14 Am iddo roddi ei serch arnaf, am hynny y gwaredaf ef: dyrchafaf ef, am iddo adnabod fy enw.

15 Efe a eilw arnaf, a mi a'i gwrandawaf: mewn ing *y byddaf* fi gyd âg ef, y gwaredaf, ac y gogoneddaf ef.

16 Digonaf ef â hir ddyddiau; a dangosaf iddo fy iachawdwriaeth.

PSALM 92.

1 *Dafydd yn annog i foliannu Duw,* 4 *am ei fawr wsithredoedd,* 6 *am ei farnedigaethau ar yr anwir,* 10 *a'i ddaioni i'r duwiol.*

Psalm *neu* Gân ar y dydd Sabbath.

DA *yw* moliannu yr ARGLWYDD, a chanu *mawl* i'th enw di, y Goruchaf:

2 A mynegi y bore am dy drugaredd, a'th wirionedd y nosweithiau;

3 Ar ddegtant, ac ar y nabl; *ac* ar y delyn yn fyfyriol.

4 Canys llawenychaist fi, O ARGLWYDD, â'th weithred: y'ngwaith dy ddwylaw y gorfoleddaf.

5 Mor fawredig, O ARGLWYDD, yw dy weithredoedd! dwfn iawn yw dy feddyliau.

6 Gŵr annoeth ni ŵyr, a'r ynfyd ni ddeall hyn.

7 Pan flodeuo y rhai annuwiol fel y llysieuyn, a blaguro holl weithredwyr anwiredd; *hynny sydd* i'w dinystrio byth bythoedd.

8 Tithau, ARGLWYDD, *wyt* ddyrchafedig yn dragywydd.

9 Canys wele, dy elynion, O ARGLWYDD, wele, dy elynion a ddifethir: gwasgerir holl weithredwyr anwiredd.

10 Ond fy nghorn i a ddyrchefi fel unicorn: âg olew îr y'm henneinir.

11 Fy llygad hefyd a wêl *fy ngwynfyd* ar fy ngwrthwynebwyr: fy nghlustiau a glywant *fy ewyllys* am y rhai drygionus a gyfodant i'm herbyn.

12 Y cyfiawn a flodeua fel palmwydden; *ac* a gynnydda fel cedrwydden yn Libanus.

13 Y rhai a blannwyd yn nhŷ yr ARGLWYDD, a flodeuant y'nghynteddoedd ein DUW.

14 Ffrwythant etto yn *eu* henaint; tirfion ac iraidd fyddant:

15 I fynegi mai uniawn *yw* yr ARGLWYDD fy nghraig; ac nad *oes* anwiredd ynddo.

PSALM 93.

Mawrhydi, gallu, a sancteiddrwydd teyrnas Crist.

YR ARGLWYDD sydd yn teyrnasu, efe a wisgodd ardderchowgrwydd; gwisgodd yr ARGLWYDD nerth, *ac* ymwregysodd: y byd hefyd a sicrhawyd, fel na syflo.

2 Darparwyd dy orseddfaingc erioed: ti *wyt* er tragywyddoldeb.

3 Y llifeiriaint, O ARGLWYDD, a ddyrchafasant, y llifeiriaint a ddyrchafasant eu twrf; y llifeiriaint a ddyrchafasant eu tonnau.

4 Yr ARGLWYDD yn yr uchelder *sydd* gadarnach na thwrf dyfroedd lawer, *na* chedyrn donnau y môr.

5 Sicr iawn yw dy dystiolaethau: sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O ARGLWYDD, byth.

PSALM 94.

1 *Y prophwyd, wrth alw am gyfiawnder, yn cwyno rhag trais ac annuwioldeb:* 8 *yn dysgu rhagluniaeth Duw:* 12 *yn dangos dedwyddwch cystudd.* 16 *Mai Duw yw amddiffynnwr y cystuddiedig.*

O ARGLWYDD DDUW y dïal, O DDUW y dïal, ymddisgleiria.

2 Ymddyrcha, Farnwr y byd: tâl eu gwobr i'r beilchion.
3 Pa hyd, ARGLWYDD, y caiff yr annuwiolion, pa hyd y caiff yr annuwiol orfoleddu?
4 *Pa hyd* y siaradant *ac* y dywedant yn galed? yr ymfawryga holl weithredwyr anwiredd?
5 Dy bobl, ARGLWYDD, a ddrylliant; a'th etifeddiaeth a gystuddiant.
6 Y weddw a'r dïeithr a laddant, a'r amddifad a ddïeneidiant.
7 Dywedant hefyd, Ni wêl yr ARGLWYDD; ac nid ystyria DUW Jacob *hyn*.
8 Ystyriwch, chwi rai annoeth ym mysg y bobl: ac ynfydion, pa bryd y deallwch?
9 Oni chlyw yr hwn a blannodd y glust? oni wêl yr hwn a luniodd y llygad?
10 Oni cherydda yr hwn a gospa y cenhedloedd? *oni ŵyr* yr hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn?
11 Gŵyr yr ARGLWYDD feddyliau dyn, mai gwagedd *ydynt*.
12 Gwyn *ei* fyd y gŵr a geryddi di, O ARGLWYDD, ac a ddysgi yn dy gyfraith:
13 I beri iddo lonydd oddi wrth ddyddiau drygfyd, hyd oni chloddier ffos i'r annuwiol.
14 Canys ni âd yr ARGLWYDD ei bobl, ac ni wrthyd efe ei etifeddiaeth.
15 Eithr barn a ddychwel at gyfiawnder: a'r holl rai uniawn o galon a ânt ar ei ol.
16 Pwy a gyfyd gyd â mi yn erbyn y rhai drygionus? pwy a saif gyd â mi yn erbyn gweithredwyr anwiredd?
17 Oni *buasai* yr ARGLWYDD yn gymmorth i mi, braidd na thrigasai fy enaid mewn distawrwydd.
18 Pan ddywedais, Llithrodd fy nhroed: dy drugaredd di, O ARGLWYDD, a'm cynhaliodd.
19 Yn amlder fy meddyliau o'm mewn, dy ddiddanwch di a lawenycha fy enaid.
20 A fydd cydymdeithas i ti â gorseddfainge anwiredd, yr hon a lunia anwiredd yn lle cyfraith?
21 Yn finteioedd y deuant yn erbyn enaid y cyfiawn, a gwaed gwirion a farnant yn euog.
22 Eithr yr ARGLWYDD sydd yn amddiffynfa i mi: a'm DUW *yw* craig fy nodded.
23 Ac efe a dâl iddynt eu hanwiredd, ac a'u tyr ymaith yn eu drygioni: yr ARGLWYDD ein DUW a'u tyr hwynt ymaith.

PSALM 95.

1 *Cynghor i foliannu Duw,* 3 *o herwydd ei fawredd,* 6 *a'i ddaioni;* 8 *ac na themtier ef.*

DEUWCH, canwn i'r ARGLWYDD: ymlawenhâwn yn nerth ein hiechyd.
2 Deuwn ger ei fron ef â dïolch: canwn yn llafar iddo â psalmau.
3 Canys yr ARGLWYDD *sydd* DDUW mawr, a Brenhin mawr goruwch yr holl dduwiau.
4 Yr hwn *y mae* gorddyfnderau y ddaear yn ei law, ac uchelderau y mynyddoedd yn eiddo.
5 Y môr *sydd* eiddo, ac efe a'i gwnaeth: a'i ddwylaw a luniasant y sychdir.
6 Deuwch, addolwn, ac ymgrymmwn: gostyngwn ar ein gliniau ger bron yr ARGLWYDD ein Gwneuthurwr.
7 Canys efe *yw* ein DUW ni; a ninnau *ŷm* bobl ei borfa, a defaid ei law. Heddyw, os gwrandêwch ar ei leferydd,
8 Na chaledwch eich calonnau, megis yn yr ymrysonfa, fel *yn* nydd profedigaeth yn yr anialwch:
9 Pan demtiodd eich tadau fi, y profasant fi, ac y gwelsant fy ngweithredoedd.
10 Deugain mlynedd yr ymrysonais â'r genhedlaeth *hon*, a dywedais, Pobl gyfeiliornus yn *eu* calon *ydynt* hwy, ac nid adnabuant fy ffyrdd:
11 Wrth y rhai y tyngais yn fy llid, na ddelent i'm gorphwysfa.

PSALM 96.

1 *Cynghor i glodfori Duw,* 4 *am ei fawredd,* 8 *a'i frenhiniaeth,* 11 *a'i farn gyffredinol.*

CENWCH i'r ARGLWYDD ganiad newydd: cenwch i'r ARGLWYDD, yr holl ddaear.
2 Cenwch i'r ARGLWYDD, bendigwch ei enw; cyhoeddwch o ddydd i ddydd ei iachawdwriaeth ef.

3 Datgenwch ym mysg y cenhedloedd ei ogoniant ef, ym mhlith yr holl bobloedd ei ryfeddodau.
4 Canys mawr *yw* yr ARGLWYDD, a chanmoladwy iawn: ofnadwy *yw* efe goruwch yr holl dduwiau.
5 Canys holl dduwiau y bobloedd *ydynt* eilunod: ond yr ARGLWYDD a wnaeth y nefoedd.
6 Gogoniant a harddwch *sydd* o'i flaen ef; nerth a hyfrydwch *sydd* yn ei gyssegr.
7 Tylwythau y bobl, rhoddwch i'r ARGLWYDD, rhoddwch i'r ARGLWYDD ogoniant a nerth.
8 Rhoddwch i'r ARGLWYDD ogoniant ei enw: dygwch offrwm, a deuwch i'w gynteddoedd.
9 Addolwch yr ARGLWYDD mewn prydferthwch sancteiddrwydd: yr holl ddaear, ofnwch ger ei fron ef.
10 Dywedwch ym mysg y cenhedloedd, Yr ARGLWYDD sydd yn teyrnasu; a'r byd a sicrhaodd efe, fel nad ysgogo: efe a farna y bobl yn uniawn.
11 Llawenhâed y nefoedd, a gorfoledded y ddaear; rhued y môr a'i gyflawnder.
12 Gorfoledded y maes, a'r hyn oll *y sydd* ynddo: yna holl brennau y coed a ganant
13 O flaen yr ARGLWYDD: canys y mae yn dyfod, canys y mae yn dyfod i farnu y ddaear: efe a farna y byd trwy gyfiawnder, a'r bobloedd â'i wirionedd.

PSALM 97.

1 *Mawrhydi teyrnas Duw.* 7 *Yr eglwys yn llawenychu o herwydd barnedigaethau Duw ar ddelw-addolwyr.* 10 *Cynghor i dduwioldeb a llawenydd.*

YR ARGLWYDD sydd yn teyrnasu; gorfoledded y ddaear: llawenyched ynysoedd lawer.
2 Cymmylau a thywyllwch *sydd* o'i amgylch ef: cyfiawnder a barn *yw* trigfa ei orseddfaingc ef.
3 Tân a â allan o'i flaen ef, ac a lysg ei elynion o amgylch.
4 Ei fellt a lewyrchasant y byd: y ddaear a welodd, ac a grynodd.
5 Y mynyddoedd a doddasant fel cŵyr o flaen yr ARGLWYDD, o flaen Arglwydd yr holl ddaear.
6 Y nefoedd a fynegant ei gyfiawnder ef, a'r holl bobl a welant ei ogoniant.
7 Gwaradwydder y rhai oll a wasanaethant ddelw gerfiedig, y rhai a ymffrostiant mewn eilunod: addolwch ef, yr holl dduwiau.
8 Sïon a glywodd, ac a lawenychodd; a merched Judah a orfoleddasant, o herwydd dy farnedigaethau di, O ARGLWYDD.
9 Canys ti, ARGLWYDD, *wyt* oruchel goruwch yr holl ddaear: dirfawr y'th ddyrchafwyd goruwch yr holl dduwiau.
10 Y rhai a gerwch yr ARGLWYDD, casêwch ddrygioni: efe sydd yn cadw eneidiau ei saint; efe a'u gwared o law y rhai annuwiol.
11 Hauwyd goleuni i'r cyfiawn, a llawenydd i'r rhai uniawn o galon.
12 Y rhai cyfiawn, llawenychwch yn yr ARGLWYDD; a moliennwch wrth goffadwriaeth ei sancteiddrwydd ef.

PSALM 98.

1 *Dafydd yn annog yr Iuddewon,* 4 *a'r cenhedloedd,* 7 *a'r holl greaduriaid, i glodfori Duw.*

Psalm.

CENWCH i'r ARGLWYDD ganiad newydd: canys efe a wnaeth *bethau* rhyfedd: ei ddeheulaw a'i fraich sanctaidd a barodd iddo fuddugoliaeth.
2 Hysbysodd yr ARGLWYDD ei iachawdwriaeth: datguddiodd ei gyfiawnder y'ngolwg y cenhedloedd.
3 Cofiodd ei drugaredd a'i wirionedd i dŷ Israel: holl derfynau y ddaear a welsant iachawdwriaeth ein DUW ni.
4 Cenwch yn llafar i'r ARGLWYDD, yr holl ddaear: llefwch, ac ymlawenhêwch, a chenwch.
5 Cenwch i'r ARGLWYDD gyd â'r delyn; gyd â'r delyn, a llef psalm.
6 Ar udgyrn a sain cornet, cenwch yn llafar o flaen yr ARGLWYDD y Brenhin.
7 Rhued y môr a'i gyflawnder; y byd a'r rhai a drigant o'i fewn.
8 Cured y llifeiriaint *eu* dwylaw; *a* chydganed y mynyddoedd
9 O flaen yr ARGLWYDD: canys y mae yn dyfod i farnu y ddaear: efe a farna y byd â chyfiawnder, a'r bobloedd âg uniondeb.

PSALM 99.

1 *Dafydd yn gosod allan deyrnas Dduw yn Sïon: 5 ac ym annog pawb, wrth esampl yr hen dadau, i addoli Duw ym ei fynydd sanctaidd.*

YR ARGLWYDD sydd yn teyrnasu; cryned y bobloedd: eistedd y mae *rhwng* y cerubiaid; ymgynhyrfed y ddaear.

2 Mawr *yw* yr ARGLWYDD yn Sïon, a dyrchafedig *yw* efe goruwch yr holl bobloedd.

3 Moliannant dy enw mawr ac ofnadwy, *canys* sanctaidd *yw*.

4 A nerth y Brenhin a hoffa farn: tï a sicrhêi uniondeb, barn a chyfiawnder a wnei di yn Jacob.

5 Dyrchefwch yr ARGLWYDD ein DUW, ac ymgrymmwch o flaen ei ystôl-draed ef: *canys* sanctaidd *yw*.

6 Moses ac Aaron ym mhlith ei offeiriaid ef; a Samuel ym mysg y rhai a alwant ar ei enw: galwasant ar yr ARGLWYDD, ac efe a'u gwrandawodd hwynt.

7 Llefarodd wrthynt yn y golofn gwmmwl: cadwasant ei dystiolaethau, a'r ddeddf a roddodd efe iddynt.

8 Gwrandewaist arnynt, O ARGLWYDD ein DUW: DUW oeddit yn eu harbed, ïe, pan ddïelit am eu dychymmygion.

9 Dyrchefwch yr ARGLWYDD ein DUW, ac ymgrymmwch ar ei fynydd sanctaidd: canys sanctaidd *yw* yr ARGLWYDD ein DUW.

PSALM 100.

1 *Cymhor i foliannu Duw yn llawen-hufryd,* 3 *am ei fawredd,* 4 *ac am ei altu.*

Psalm o foliant.

CENWCH yn llafar i'r ARGLWYDD, yr holl ddaear.

2 Gwasanaethwch yr ARGLWYDD mewn llawenydd: deuwch o'i flaen ef â chân.

3 Gwybyddwch mai yr ARGLWYDD *sydd* DDUW: efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain: ei bobl ef *ydym*, a defaid ei borfa.

4 Ewch i mewn i'w byrth ef â dïolch, *ac* i'w gynteddau â mawl: dïolchwch iddo, *a* bendithiwch ei enw.

5 Canys da *yw* yr ARGLWYDD: ei drugaredd *sydd* yn dragywydd; a'i wirionedd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

PSALM 101.

Dafydd yn gwneuthur adduned a,phroffes o ddduwioldeb.

Psalm Dafydd.

CANAF am drugaredd a barn: i ti, ARGLWYDD, y canaf.

2 Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaith. Pa bryd y deui attaf? rhodiaf mewn perffeithrwydd fy nghalon o fewn fy nhŷ.

3 Ni osodaf ddim anwir o flaen fy llygaid: cas gennyf waith y rhai cildynnus; ni lŷn wrthyf fi.

4 Calon gyndyn a gilia oddi wrthyf: nid adnabyddaf *ddyn* drygionus.

5 Torraf ymaith yr hwn a enllibio ei gymmydog yn ddirgel: yr uchel o olwg, a'r balch ei galon, ni allaf ei ddioddef.

6 Fy llygaid *fydd* ar ffyddloniaid y tir, fel y trigont gyd â mi: yr hwn a rodio mewn ffordd berffaith, hwnnw a'm gwasanaetha i.

7 Ni thrig o fewn fy nhŷ yr un a wnelo dwyll: ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddywedo gelwydd.

8 Yn fore y torraf ymaith holl annuwiolion y tir, i ddiwreiddio holl weithredwyr anwiredd o ddinas yr ARGLWYDD.

PSALM 102.

1 *Y prophwyd yn ei weddi yn cwyno yn chwerwdost:* 12 *yn cymmeryd cysur o dragywyddoldeb a thrugaredd Duw.* 18 *Bod yn rhaid cadw coffa o drugareddau Duw.* 23 *Y mae yn atteyn ei wenddid dg anghyfnewidiolder Duw.*

Gweddî y cystuddiedig, pan fyddo mewn blinder, ac yn tywallt ei gŵyn ger bron yr ARGLWYDD.

ARGLWYDD, clyw fy ngweddi, a deled fy llef attat.

2 Na chudd dy wyneb oddi wrthyf yn nydd fy nghyfyngder, gostwng dy glust attaf: yn y dydd y galwyf, brysia, gwrando fi.

3 Canys fy nyddiau a ddarfuant fel mwg, a'm hesgyrn a boethasant fel aelwyd.

4 Fy nghalon a darawyd, ac a wywodd fel llysieuyn; fel yr anghofiais fwytta fy mara.

5 Gan lais fy nhuchan y glynodd fy esgyrn wrth fy nghnawd.

6 Tebyg wyf i belican yr anialwch: ydwyf fel dylluan y diffaethwch.

7 Gwyliais, ac ydwyf fel aderyn y tô, unig ar ben y tŷ.

8 Fy ngelynion a'm gwaradwydd-

ant beunydd: y rhai a ynfydant
wrthyf, a dyngasant yn fy erbyn.
9 Canys bwytteais ludw fel bara,
a chymmysgais fy nïod âg wylofain;
10 O herwydd dy lid di a'th ddig-
ofaint: canys codaist fi i fyny, a
theflaist fi i lawr.
11 Fy nyddiau *sydd* fel cysgod
yn cilio; a minnau fel glaswelltyn
a wywais.
12 Tithau, ARGLWYDD, a barhêi
yn dragywyddol, a'th goffadwriaeth
hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.
13 Ti a gyfodi, *ac* a drugarhêi
wrth Sïon: canys yr amser i dru-
garhâu wrthi, ïe, yr amser nodedig,
a ddaeth.
14 Oblegid y mae dy weision yn
hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth
ei llwch hi.
15 Felly y cenhedloedd a ofnant
enw yr ARGLWYDD, a holl frenhin-
oedd y ddaear dy ogoniant.
16 Pan adeilado yr ARGLWYDD
Sïon, y gwelir ef yn ei ogoniant.
17 Efe a edrych ar weddi y gwael,
ac ni ddïystyrodd eu dymuniad.
18 Hyn a ysgrifenir i'r genhedl-
aeth a ddêl: a'r bobl a grëir a
foliannant yr ARGLWYDD.
19 Canys efe a edrychodd o uch-
elder ei gyssegr: yr ARGLWYDD a
edrychodd o'r nefoedd ar y ddaear;
20 I wrandaw uchenaid y carchar-
orion; ac i ryddhâu plant angau;
21 I fynegi enw yr ARGLWYDD
yn Sïon, a'i foliant yn Jerusalem:
22 Pan gasgler y bobl ynghyd,
a'r teyrnasoedd i wasanaethu yr
ARGLWYDD.
23 Gostyngodd efe fy nerth ar
y ffordd; byrhaodd fy nyddiau.
24 Dywedais, Fy NUW, na chym-
mer fi ymaith y'nghanol fy nydd-
iau: dy flynyddoedd di *sydd* yn
oes oesoedd.
25 Yn y dechreuad y seiliaist y
ddaear; a'r nefoedd *ydynt* waith
dy ddwylaw.
26 Hwy a ddarfyddant, a thi a
barhêi: ïe, hwy oll a heneiddiant
fel dilledyn; fel gwisg y newidi
hwynt, a hwy a newidir.
27 Tithau yr un *ydwyt*, a'th flyn-
yddoedd ni ddarfyddant.
28 Plant dy weision a barhânt,
a'u had a sicrhêir ger dy fron di.

PSALM 103.

1 *Cymghor i fendithio Duw, am ei drugaredd,*
16 *a'i ddiamwadalwch.*

Psalm Dafydd.

FY enaid, bendithia yr ARGLWYDD; a chwbl sydd ynof, ei enw sanctaidd ef.
2 Fy enaid, bendithia yr ARGLWYDD; ac nac anghofia ei holl ddoniau ef:
3 Yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau; yr hwn sydd yn iachâu dy holl lesgedd:
4 Yr hwn sydd yn gwaredu dy fyw-yd o ddistryw: yr hwn sydd yn dy goroni â thrugaredd ac â thosturi:
5 Yr hwn sydd yn diwallu dy enau â daioni; *fel* yr adnewyddir dy ieuengctid fel yr eryr.
6 Yr ARGLWYDD sydd yn gwneuthur cyfiawnder a barn i'r *rhai* gorthrymmedig oll.
7 Hysbysodd ei ffyrdd i Moses; ei weithredoedd i feibion Israel.
8 Trugarog a graslawn *yw* yr ARGLWYDD; hwyrfrydig i lid, a mawr o drugarowgrwydd.
9 Nid byth yr ymryson efe: ac nid byth y ceidw efe *ei ddigofaint.*
10 Nid yn ol ein pechodau y gwnaeth efe â ni; ac nid yn ol ein hanwireddau y talodd efe i ni.
11 Canys cyfuwch ag yw y nefoedd uwchlaw y ddaear, y rhagorodd ei drugaredd ef ar y rhai a'i hofnant ef.
12 Cyn belled ag yw y dwyrain oddi wrth y gorllewin, y pellhaodd efe ein camweddau oddi wrthym.
13 Fel y tosturia tad wrth *ei* blant, *felly* y tosturia yr ARGLWYDD wrth y rhai a'i hofnant ef.
14 Canys efe a edwyn ein defnydd ni: cofia mai llwch *ydym.*
15 Dyddiau dyn *sydd* fel glaswelltyn: megis blodeuyn y maes, felly y blodeua efe.
16 Canys y gwynt a â drosto, ac ni bydd mwy o hono; a'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy.
17 Ond trugaredd yr ARGLWYDD *sydd* o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb, ar y rhai a'i hofnant ef; a'i gyfiawnder i blant *eu* plant;
18 I'r sawl a gadwant ei gyfammod ef, ac a gofiant ei orchymynion i'w gwneuthur.

19 Yr ARGLWYDD a barottôdd ei orseddfa yn y nefoedd: a'i frenhiniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth.
20 Bendithiwch yr ARGLWYDD, ei angylion ef, cedyrn o nerth, yn gwneuthur ei air ef, gan wrandaw ar leferydd ei air ef.
21 Bendithiwch yr ARGLWYDD, ei holl luoedd ef; ei holl weision yn gwneuthur ei ewyllys ef.
22 Bendithiwch yr ARGLWYDD, ei holl weithredoedd ef, ym mhob man o'i lywodraeth: fy enaid, bendithia yr ARGLWYDD.

PSALM 104.

1 *Mysyrdod ar gadarn altu, 7 a rhyfeddol rayddarbodaeth Duw. 31 Bod gogoniant Duw yn dragywyddol. 33 Y prophwyd yn addûno moliannu Duw yn ddibaid.*

FY enaid, bendithia yr ARGLWYDD. O ARGLWYDD fy NUW, tra mawr ydwyt; gwisgaist ogoniant a harddwch.
2 Yr hwn wyt yn gwisgo goleuni fel dilledyn: *ac* yn taenu y nefoedd fel llen.
3 Yr hwn sydd yn gosod tylathau ei ystafelloedd yn y dyfroedd; yn gwneuthur y cymmylau yn gerbyd iddo; *ac* yn rhodio ar adenydd y gwynt.
4 Yr hwn sydd yn gwneuthur ei genhadon yn ysprydion; *a*'i weinidogion yn dân fflamllyd.
5 *Yr hwn* a seiliodd y ddaear ar ei sylfeini, *fel* na symmudo byth yn dragywydd.
6 Toaist hi â'r gorddyfnder, megis *â* gwisg: y dyfroedd a safent goruwch y mynyddoedd.
7 Gan dy gerydd di y ffoisant: rhag swn dy daran y prysurasant ymaith.
8 Gan y mynyddoedd yr ymgodant: ar hyd y dyffrynoedd y disgynant, i'r lle a seiliaist iddynt.
9 Gosodaist derfyn, fel nad elont drosodd; fel na ddychwelont i orchuddio y ddaear.
10 Yr hwn a ŷr y ffynhonnau i'r dyffrynoedd, *y rhai* a gerddant rhwng y bryniau.
11 Diodant holl fwystfilod y maes: yr asynod gwylltion a dorrant eu syched.
12 Adar y nefoedd a drigant ger llaw iddynt, *y rhai* a leisiant oddi rhwng y cangau.
13 Y mae efe yn dyfrhâu y bryniau o'i ystafelloedd: y ddaear a ddigonir o ffrwyth dy weithredoedd.
14 Y mae yn peri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid, a llysiau i wasanaeth dyn: fel y dycco fara allan o'r ddaear;
15 A gwin, *yr hwn* a lawenycha galon dyn; *ac* olew, i beri i'w wyneb ddisgleirio: a bara, *yr hwn* a gynnal galon dyn.
16 Prennau yr ARGLWYDD sydd lawn *sugn:* cedrwydd Libanus, y rhai a blannodd efe;
17 Lle y nytha yr adar: y ffynnidwydd *yw* tŷ y ciconia.
18 Y mynyddoedd uchel *sydd* noddfa i'r geifr; *a*'r creigiau i'r cwningod.
19 Efe a wnaeth y lleuad i amserau nodedig: yr haul a edwyn ei fachludiad.
20 Gwnei dywyllwch, a nos fydd: ynddi yr ymlusga pob bwystfil coed.
21 Y cenawon llewod a ruant am ysglyfaeth, ac a geisiant eu bwyd gan DDUW.
22 *Pan* godo haul, ymgasglant, a gorweddant yn eu llochesau.
23 Dyn a â allan i'w waith, ac i'w orchwyl hyd yr hwyr.
24 Mor lliosog yw dy weithredoedd, O ARGLWYDD! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb: llawn yw y ddaear o'th gyfoeth.
25 *Felly y mae* y môr mawr, llydan: yno *y mae* ymlusgiaid heb rifedi, bwystfilod bychain a mawrion.
26 Yno yr â y llongau: *yno y mae* y lefiathan, *yr hwn* a luniaist i chwarae ynddo.
27 Y rhai hyn oll a ddisgwyliant wrthyt; am roddi *iddynt* eu bwyd yn ei bryd.
28 A roddech iddynt, a gasglant: agori dy law, a diwellir hwynt â daioni.
29 Ti a guddi dy wyneb, hwythau a drallodir: dygi ymaith eu hanadl, *a* threngant, a dychwelant i'w llwch.
30 *Pan* ollyngych dy ysprydi, y

crëir hwynt; ac yr adnewyddi wyneb y ddaear.
31 Gogoniant yr ARGLWYDD fydd yn dragywydd: yr ARGLWYDD a lawenycha yn ei weithredoedd.
32 Efe a edrych ar y ddaear, a hi a gryna: *efe* a gyffwrdd â'r mynyddoedd, a hwy a fygant.
33 Canaf i'r ARGLWYDD tra fyddwyf fyw: canaf i'm DUW tra fyddwyf.
34 Bydd melus fy myfyrdod am dano: mi a lawenychaf yn yr ARGLWYDD.
35 Darfydded y pechaduriaid o'r tir, na fydded yr annuwiolion mwy. Fy enaid, bendithia di yr ARGLWYDD. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 105.

1 *Cynghor i foliannu Duw, ac i chwilio allan ei weithredoedd ef.* 7 *Ystori rhagluniaeth Duw tu ag at Abraham,* 16 *a Joseph,* 23 *a Jacob yn yr Aipht,* 26 *a Moses yn gwaredu yr Israeliaid,* 37 *a'r Israeliaid wedi eu dwyn allan o'r Aipht, eu porthi yn yr anialwch, a'u plannu y'ngwlad Canaan.*

CLODFORWCH yr ARGLWYDD; gelwch ar ei enw: mynegwch ei weithredoedd ym mysg y bobloedd.
2 Cenwch iddo, canmolwch ef: ymddiddenwch am ei holl ryfeddodau ef.
3 Gorfoleddwch yn ei enw sanctaidd: llawenyched calon y rhai a geisiant yr ARGLWYDD.
4 Ceisiwch yr ARGLWYDD a'i nerth: ceisiwch ei wyneb ef bob amser.
5 Cofiwch ei ryfeddodau y rhai a wnaeth efe; ei wyrthiau, a barnedigaethau ei enau;
6 Chwi had Abraham ei was ef, chwi feibion Jacob ei etholedigion.
7 Efe *yw* yr ARGLWYDD ein DUW ni: ei farnedigaethau ef *sydd* trwy yr holl ddaear.
8 Cofiodd ei gyfammod byth, y gair a orchymynodd efe i fil o genhedlaethau:
9 Yr hyn a ammododd efe âg Abraham, a'i lw i Isaac;
10 A'*r hyn* a osododd efe yn ddeddf i Jacob, *ac yn* gyfammod tragywyddol i Israel;
11 Gan ddywedyd, I ti y rhoddaf dir Canaan, rhandir eich etifeddiaeth.
12 Pan oeddynt ychydig o rifedi, ïe, ychydig, a dieithriaid ynddi:
13 Pan rodient o genhedlaeth i genhedlaeth, o'r *naill* deyrnas at bobl arall:
14 Ni adawodd i neb eu gorthrymmu; ïe, ceryddodd frenhinoedd o'u plegid;
15 *Gan ddywedyd,* Na chyffyrddwch â'm rhai enneiniog, ac na ddrygwch fy mhrophwydi.
16 Galwodd hefyd am newyn ar y tir; *a* dinystriodd holl gynhaliaeth bara.
17 Anfonodd ŵr o'u blaen hwynt, Joseph, *yr hwn* a werthwyd yn was.
18 Cystuddiasant ei draed ef mewn gefyn: ei enaid a aeth mewn heiyrn:
19 Hyd yr amser y daeth ei air ef: gair yr ARGLWYDD a'i profodd ef.
20 Y brenhin a anfonodd, ac a'i gollyngodd ef; llywodraethwr y bobl, ac a'i rhyddhaodd ef.
21 Gosododd ef yn arglwydd ar ei dŷ, ac yn llywydd ar ei holl gyfoeth:
22 I rwymo ei dywysogion ef wrth ei ewyllys; ac *i* ddysgu doethineb i'w henuriaid ef.
23 Aeth Israel hefyd i'r Aipht; a Jacob a ymdeithiodd yn nhir Ham.
24 Ac efe a gynnyddodd ei bobl yn ddirfawr; ac a'u gwnaeth yn gryfach na'u gwrthwynebwyr.
25 Trodd eu calon hwynt i gasâu ei bobl ef, i wneuthur yn ddichellgar â'i weision.
26 Efe a anfonodd Moses ei was; *ac* Aaron, yr hwn a ddewisasai.
27 Hwy a ddangosasant ei arwyddion ef yn eu plith hwynt, a rhyfeddodau yn nhir Ham.
28 Efe a anfonodd dywyllwch, ac a dywyllodd: ac nid anufuddhasant hwy ei air ef.
29 Efe a drodd eu dyfroedd yn waed, ac a laddodd eu pysgod.
30 Eu tir a heigiodd lyffaint yn ystafelloedd eu brenhinoedd.
31 Efe a ddywedodd, a daeth cymmysgbla, *a* llau yn eu holl fro hwynt.
32 Efe a wnaeth eu gwlaw hwynt yn genllysg, *ac* yn fflammau tân yn eu tir.

33 Tarawodd hefyd eu gwinwydd, a'u ffigyswydd; ac a ddrylliodd goed eu gwlad hwynt.
34 Efe a ddywedodd, a daeth y locustiaid, a'r lindys, yn aneirif;
35 Y rhai a fwyttasant yr holl laswellt yn eu tir hwynt, ac a ddifasant ffrwyth eu daear hwynt.
36 Tarawodd hefyd bob cyntafanedig yn eu tir hwynt, blaenffrwyth eu holl nerth hwynt.
37 Ac a'u dug hwynt allan âg arian ac aur; ac heb *un* llesg yn eu llwythau.
38 Llawenychodd yr Aipht pan aethant allan: canys syrthiasai eu harswyd arnynt hwy.
39 Efe a daenodd gwmmwl yn dô, a thân i oleuo liw nos.
40 Gofynasant, ac efe a ddug sofieir; ac a'u diwallodd â bara nefol.
41 Efe a holltodd y graig, a'r dyfroedd a ddylifodd; cerddasant ar hyd lleoedd sychion *yn* afonydd.
42 Canys efe a gofiodd ei air sanctaidd, *ac* Abraham ei was.
43 Ac a ddug ei bobl allan mewn llawenydd; ei etholedigion mewn gorfoledd.
44 Ac a roddes iddynt diroedd y cenhedloedd: a meddiannasant lafur y bobloedd.
45 Fel y cadwent ei ddeddfau ef, ac y cynhalient ei gyfreithiau. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 106.

1 Y *Psalmydd yn annog i foliannu Duw:* 4 *yn gweddio am faddeuant pechodau, megis y gwnaeth Duw â'r tadau.* 7 *Ystori o wrthryfelgarwch y bobl, a thrugaredd Duw.* 47 *Y mae efe yn diweddu â gweddi ac â moliant.*

MOLWCH yr ARGLWYDD. Clodforwch yr ARGLWYDD; canys da *yw:* o herwydd ei drugaredd *a bery* yn dragywydd.
2 Pwy a draetha nerthoedd yr ARGLWYDD? *ac* a fynega ei holl fawl ef?
3 Gwyn eu byd a gadwant farn, *a'r* hwn a wnel gyfiawnder bob amser.
4 Cofia fi, ARGLWYDD, yn ol *dy* raslonrwydd *i'th* bobl; ymwêl â mi â'th iachawdwriaeth.
5 Fel y gwelwyf ddaioni dy etholedigion, fel y llawenychwyf yn llawenydd dy genedl di, fel y gorfoleddwyf gyd â'th etifeddiaeth.
6 Pechasom gyd â'n tadau; gwnaethom gamwedd, anwireddus fuom.
7 Ein tadau ni ddeallasant dy ryfeddodau yn yr Aipht, ni chofiasant liosowgrwydd dy drugareddau; eithr gwrthryfelgar fuont wrth y môr, *sef* y môr coch.
8 Etto efe a'u hachubodd hwynt er mwyn ei enw, i beri adnabod ei gadernid.
9 Ac a geryddodd y môr coch, fel y sychodd efe: a thywysodd hwynt trwy y dyfnder, megis trwy yr anialwch.
10 Achubodd hwynt hefyd o law *eu* digasog; ac a'u gwaredodd o law y gelyn.
11 A'r dyfroedd a doisant eu gwrthwynebwyr; ni adawyd un o honynt.
12 Yna y credasant ei eiriau ef; canasant ei fawl ef.
13 Yn y fan yr anghofiasant ei weithredoedd ef; ni ddisgwyliasant am ei gynghor ef:
14 Eithr blysiasant yn ddirfawr yn yr anialwch; a themtiasant DDUW yn y diffaethwch.
15 Ac efe a roddes eu dymuniad iddynt; eithr efe a anfonodd gulni i'w henaid.
16 Cenfigennasant hefyd wrth Moses yn y gwersyll, *ac* wrth Aaron sant yr ARGLWYDD.
17 Y ddaear a agorodd, ac a lyngcodd Dathan, ac a orchuddiodd gynnulleidfa Abiram.
18 Cynneuodd tân hefyd yn eu cynnulleidfa hwynt: fflam a losgodd y rhai annuwiol.
19 Llo a wnaethant yn Horeb; ac ymgrymmasant i'r ddelw dawdd.
20 Felly y troisant eu gogoniant i lun eidion yn pori glaswellt.
21 Anghofiasant DDUW eu Hachubwr, yr hwn a wnelsai bethau mawrion yn yr Aipht;
22 Pethau rhyfedd yn nhir Ham; pethau ofnadwy wrth y môr coch.
23 Am hynny y dywedodd y dinystriai efe hwynt, oni buasai i Moses ei etholedig sefyll ar yr adwy o'i flaen ef; i droi ymaith ei lidiowgrwydd ef, rhag *eu* dinystrio.
24 Diystyrasant hefyd y tir dymunol: ni chredasant ei air ef:

25 Ond grwgnachasant yn eu pebyll; *ac* ni wrandawsant ar lais yr ARGLWYDD.
26 Yna y dyrchafodd efe ei law yn eu herbyn hwynt, i'w cwympo yn yr anialwch;
27 Ac i gwympo eu had ym mysg y cenhedloedd; ac i'w gwasgaru yn y tiroedd.
28 Ymgyssylltasant hefyd â Baal-Peor, a bwyttasant ebyrth y meirw.
29 Felly y digiasant *ef* â'u dychymmygion eu hun; ac y tarawodd pla yn eu mysg hwy.
30 Yna y safodd Phinees, ac a iawn-farnodd: a'r pla a attaliwyd.
31 A chyfrifwyd *hyn* iddo yn gyfiawnder, o genhedlaeth i genhedlaeth byth.
32 Llidiasant *ef* hefyd wrth ddyfroedd y gynnen; fel y bu ddrwg i Moses o'u plegid hwynt:
33 O herwydd cythruddo o honynt ei yspryd ef, fel y cam-ddywedodd â'i wefusau.
34 Ni ddinystriasant y bobloedd, am y rhai y dywedasai yr ARGLWYDD wrthynt:
35 Eithr ymgymmysgasant â'r cenhedloedd; a dysgasant eu gweithredoedd hwynt:
36 A gwasanaethasant eu delwau hwynt; y rhai a fu yn fagl iddynt.
37 Aberthasant hefyd eu meibion a'u merched i gythreuliaid,
38 Ac a dywalltasant waed gwirion, *sef* gwaed eu meibion a'u merched, y rhai a aberthasant i ddelwau Canaan: a'r tir a halogwyd â gwaed.
39 Felly yr ymhalogasant yn eu gweithredoedd eu hun, ac y putteiniasant gyd â'u dychymmygion.
40 Am hynny y cynneuodd dig yr ARGLWYDD yn erbyn ei bobl, fel y ffieiddiodd efe ei etifeddiaeth.
41 Ac efe a'u rhoddes hwynt yn llaw y cenhedloedd; a'u caseion a lywodraethasant arnynt.
42 Eu gelynion hefyd a'u gorthrymasant; a darostyngwyd hwynt dan eu dwylaw hwy.
43 Llawer gwaith y gwaredodd efe hwynt; hwythau a'*i* digiasant *ef* â'u cynghor eu hun, a hwy a wanhychwyd am eu hanwiredd.
44 Etto efe a edrychodd pan oedd ing arnynt, pan glywodd eu llefain hwynt.
45 Ac efe a gofiodd ei gyfammod â hwynt, ac a edifarhaodd yn ol lliosowgrwydd ei drugareddau:
46 Ac a wnaeth iddynt gael trugaredd gan y rhai oll a'u caethiwai.
47 Achub ni, O ARGLWYDD ein DUW, a chynnull ni o blith y cenhedloedd, i glodfori dy enw sanctaidd, *ac* i orfoleddu yn dy foliant.
48 Bendigedig *fyddo* ARGLWYDD DDUW Israel erioed ac yn dragywydd: a dyweded yr holl bobl, Amen. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 107.

1 *Dafydd yn annog y gwaredigion, wrth glodfori Duw, i ystyried ei amryw ragluniaeth ef,* 4 *tu ag at ffordd olion,* 10 *a chaethion,* 17 *a rhai cleifion,* 23 *a morwyr,* 33 *ac yn amrafael ddamweiniau y bywyd hwn.*

CLODFORWCH yr ARGLWYDD; canys da *yw:* o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
2 *Felly* dyweded gwaredigion yr ARGLWYDD, y rhai a waredodd efe o law y gelyn;
3 Ac a gasglodd efe o'r tiroedd, o'r dwyrain, ac o'r gorllewin, o'r gogledd, ac o'r dehau.
4 Crwydrasant yn yr anialwch mewn ffordd ddisathr, heb gael dinas i aros ynddi:
5 Yn newynog ac yn sychedig, eu henaid a lewygodd ynddynt.
6 Yna y llefasant ar yr ARGLWYDD yn eu cyfyngder; *ac* efe a'u gwaredodd o'u gorthrymderau;
7 Ac a'u tywysodd hwynt ar hyd y ffordd uniawn, i fyned i ddinas gyfanneddol.
8 O na foliannent yr ARGLWYDD *am* ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!
9 Canys efe a ddiwalla yr enaid sychedig, ac a leinw yr enaid newynog â daioni.
10 Y rhai a breswyliant yn y tywyllwch a chysgod angau, yn rhwym mewn cystudd a haiarn;
11 O herwydd anufuddhâu o honynt eiriau DUW, a dirmygu cynghor y Goruchaf.
12 Am hynny yntau a ostyngodd eu calon â blinder: syrthiasant, ac nid *oedd* cynnorthwywr.

13 Yna y gwaeddasant ar yr ARGLWYDD yn eu cyfyngder; *ac* efe a'u hachubodd o'u gorthrymderau.
14 Dug hwynt allan o dywyllwch a chysgod angau; a drylliodd eu rhwymau hwynt.
15 O na foliannent yr ARGLWYDD *am* ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!
16 Canys efe a dorrodd y pyrth pres, ac a ddrylliodd y barrau heiyrn.
17 Ynfydion, oblegid eu camweddau, ac o herwydd eu hanwireddau, a gystuddir.
18 Eu henaid a ffeiddiai bob bwyd; a daethant hyd byrth angau.
19 Yna y gwaeddasant ar yr ARGLWYDD yn eu cyfyngder; *ac* efe a'u hachubodd o'u gorthrymderau.
20 Anfonodd ei air, ac iachaodd hwynt, ac a'u gwaredodd o'u dinystr.
21 O na foliannent yr ARGLWYDD *am* ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!
22 Aberthant hefyd aberth moliant; a mynegant ei weithredoedd ef mewn gorfoledd.
23 Y rhai a ddisgynant mewn llongau i'r môr, gan wneuthur eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion.
24 Hwy a welant weithredoedd yr ARGLWYDD, a'i ryfeddodau yn y dyfnder.
25 Canys efe a orchymyn, a chyfyd tymmestl-wynt, yr hwn a ddyrchafa ei donnau ef.
26 Hwy a esgynant i'r nefoedd, disgynant i'r dyfnder: tawdd eu henaid gan ffinder.
27 Ymdroant, ac ymsymmudant fel meddwyn: a'u holl ddoethineb a ballodd.
28 Yna y gwaeddant ar yr ARGLWYDD yn eu cyfyngder; ac efe a'u dwg allan o'u gorthrymderau.
29 Efe a wna yr ystorm yn dawel; a'i thonnau a ostegant.
30 Yna y llawenhânt am eu gostegu; ac efe a'u dwg i'r porthladd a ddymunent.
31 O na foliannent yr ARGLWYDD *am* ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!
32 A dyrchafant ef y'nghynnulleidfa y bobl, a moliannant ef yn eisteddfod yr henuriaid.
33 Efe a wna afonydd yn ddiffaethwch, a ffynhonnau dyfroedd yn sychdir;
34 *A* thir ffrwythlawn yn ddiffrwyth, am ddrygioni y rhai a drigant ynddo.
35 Efe a dry yr anialwch yn llyn dwfr, a'r tir cras yn ffynhonnau dwfr.
36 Ac yno y gwna i'r newynog aros; fel y darparont ddinas i gyfanneddu:
37 Ac yr hauont feusydd, ac y plannont winllannoedd, y rhai a ddygant ffrwyth toreithiog.
38 Ac efe a'u bendithia hwynt fel yr amlhânt yn ddirfawr, ac ni âd i'w hanifeiliaid leihâu.
39 Lleihêir hwynt hefyd, a gostyngir hwynt, gan gyfyngder, drygfyd, a chyni.
40 Efe a dywallt ddirmyg ar fonddigion, ac a wna iddynt grwydro mewn anialwch heb ffordd.
41 Ond efe a gyfyd y tlawd o gystudd, ac a wna *iddo* deuluoedd fel praidd.
42 Y rhai uniawn a welant *hyn*, ac a lawenychant: a phob anwiredd a gau ei safn.
43 Y neb *sydd* ddoeth, ac a gadwo hyn, hwy a ddeallant drugareddau yr ARGLWYDD.

PSALM 108.

1 *Dafydd yn ymuroli i foliannu Duw;* 5 *yn gweddïo am gymmorth Duw yn ol ei addewid.* 11 *Ei hyder ef ar gymnorthwy Duw.*

Cân *neu* Psalm Dafydd.

PAROD yw fy nghalon, O DDUW: canaf a chanmolaf â'm gogoniant.
2 Deffro, y nabl a'r delyn: minnau a ddeffroaf yn fore.
3 Clodforaf di, ARGLWYDD, ym mysg y bobloedd: canmolaf di ym mysg y cenhedloedd.
4 Canys mawr *yw* dy drugaredd oddi ar y nefoedd: a'th wirionedd a *gyrhaedd* hyd yr wybren.
5 Ymddyrcha, O DDUW, uwch y nefoedd: a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaear;
6 Fel y gwareder dy rai anwyl: achub *â*'th ddeheulaw, a gwrando fi.
7 DUW a lefarodd yn ei sanct-

eiddrwydd, Llawenychaf, rhannaf Sichem, a mesuraf ddyffryn Succoth.

8 Eiddof fi *yw* Gilead; eiddof fi Manasseh; Ephraim hefyd *yw* nerth fy mhen: Judah *yw* fy neddfwr.

9 Moab *yw* fy nghrochan golchi; tros Edom y taflaf fy esgid: buddugoliaethaf ar Philistia.

10 Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn? pwy a'm dwg hyd yn Edom?

11 Onid *tydi*, O DDUW, *yr hwn* a'n bwriaist ymaith? ac onid âi di allan, O DDUW, gyd â'n lluoedd?

12 Dyro i ni gynnorthwy rhag cyfyngder: canys gau *yw* ymwared dyn.

13 Trwy DDUW y gwnawn wroldeb: canys efe a sathr ein gelynion.

PSALM 109.

1 *Dafydd yn cwyno rhag enllib ei elynion, ac yn rhith Judas yn eu melldigo hwy:* 16 *yn dangos eu pechod hwy:* 21 *yn cwyno rhag ei drueni ei hun; ac yn gweddio am help:* 30 *yn addaw bod yn ddiolchgar.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

NA thaw, O DDUW fy moliant.

2 Canys genau yr annuwiol a genau y twyllodrus a ymagorasant arnaf: â thafod celwyddog y llefarasant i'm herbyn.

3 Cylchynasant fi hefyd â geiriau cas; ac ymladdasant â mi heb achos.

4 Am fy ngharedigrwydd y'm gwrthwynebant: minnau *a arferaf* weddi.

5 Talasant hefyd i mi ddrwg am dda, a chas am fy nghariad.

6 Gosod *dithau un* annuwiol arno ef; a safed Satan wrth ei ddeheulaw ef.

7 Pan farner ef, eled yn euog; a bydded ei weddi yn bechod.

8 Ychydig fyddo ei ddyddiau; *a* chymmered arall ei swydd ef.

9 Bydded ei blant yn amddifaid, a'i wraig yn weddw.

10 Gan grwydro hefyd crwydred ei blant ef, a chardottant: ceisiant hefyd *eu bara* o'u hanghyfannedd leoedd.

11 Rhwyded y ceisiad yr hyn oll sydd ganddo; ac anrheithied dieithriaid ei lafur ef.

12 Na fydded *neb* a estyno drugaredd iddo; ac na fydded *neb* a drugarhao wrth ei amddifaid ef.

13 Torrer ymaith ei hiliogaeth ef: dilëer eu henw yn yr oes nesaf.

14 Cofier anwiredd ei dadau o flaen yr ARGLWYDD; ac na ddilëer pechod ei fam ef.

15 Byddant bob amser ger bron yr ARGLWYDD, fel y torro efe ymaith eu coffadwriaeth o'r tir:

16 Am na chofiodd wneuthur trugaredd, eithr erlid o hono y truan a'r tlawd, a'r cystuddiedig o galon, i'w ladd.

17 Hoffodd felldith, a hi a ddaeth iddo: ni fynnai fendith, a hi a bellhaodd oddi wrtho.

18 Ië, gwisgodd felldith fel dilledyn; a hi a ddaeth fel dwfr i'w fewn, ac fel olew i'w esgyrn.

19 Bydded iddo fel dilledyn *yr hwn* a wisgo efe, ac fel gwregys a'i gwregyso efe yn wastadol.

20 Hyn *fyddo* tâl fy ngwrthwynebwyr gan yr ARGLWYDD, a'r rhai a ddywedant ddrwg yn erbyn fy enaid.

21 Tithau, ARGLWYDD DDUW, gwna erof fi er mwyn dy enw; am *fod* yn dda dy drugaredd, gwared fi.

22 Canys truan a thlawd *ydwyf* fi, a'm calon a archollwyd o'm mewn.

23 Euthum fel cysgod pan gilio: fel locust y'm hysgydwir.

24 Fy ngliniau a aethant yn egwan gan ympryd; a'm cnawd a guriodd o eisieu brasder.

25 Gwaradwydd hefyd oeddwn iddynt: *pan* welent fi, siglent eu pennau.

26 Cynnorthwya fi, O ARGLWYDD fy NUW; achub fi yn ol dy drugaredd:

27 Fel y gwypont mai dy law di *yw* hyn; *mai* ti, ARGLWYDD, a'i gwnaethost.

28 Melldithiant hwy, ond bendithia di: cywilyddier hwynt, pan gyfodant; a llawenyched dy was.

29 Gwisger fy ngwrthwynebwyr â gwarth, ac ymwisgant â'u cywilydd, megis â chochl.

30 Clodforaf yr ARGLWYDD yn ddirfawr â'm genau; ïe, moliannaf ef ym mysg llawer.

31 O herwydd efe a saif ar ddeheulaw y tlawd, i'*w* achub oddi wrth y rhai a farnant ei enaid.

PSALM 110.

1 *Brenhiniaeth, 4 offeiriadaeth, 5 goruchafiaeth, 7 a dioddefaint Crist.*

Psalm Dafydd.

DYWEDODD yr ARGLWYDD wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn faingc i'th draed.

2 Gwïalen dy nerth a enfyn yr ARGLWYDD o Sïon: llywodraetha di y'nghanol dy elynion.

3 Dy bobl *a fyddant* ewyllysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch sancteiddrwydd o groth y wawr: y mae gwlith dy enedigaeth i ti.

4 Tyngodd yr ARGLWYDD, ac nid edifarhâ, Ti *wyt* offeiriad yn dragywyddol, yn ol urdd Melchisedec.

5 Yr Arglwydd ar dy ddeheulaw a drywana frenhinoedd yn nydd ei ddigofaint.

6 Efe a farn ym mysg y cenhedloedd; lleinw *leoedd* â chelaneddau: archolla ben llawer gwlad.

7 Efe a ŷf o'r afon ar y ffordd: am hynny y dyrcha efe *ei* ben.

PSALM 111.

1 *Y Psalmydd, trwy ei esampl ei hun, yn annog eraill i foliannu Duw, am ei ogoneddus 5 a'i rasusol weithredoedd, 10 Mai ofn Duw sydd yn magu gwir ddoethineb.*

MOLWCH yr ARGLWYDD. Clodforaf yr ARGLWYDD â'm holl galon, y'nghymmanfa y rhai uniawn, ac *yn* y gynnulleidfa.

2 Mawr *yw* gweithredoedd yr ARGLWYDD, wedi eu ceisio gan bawb a'u hoffant.

3 Gogoniant a harddwch *yw* ei waith ef; a'i gyfiawnder sydd yn parhâu byth.

4 Gwnaeth gofio ei ryfeddodau: graslawn a thrugarog *yw* yr ARGLWYDD.

5 Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofnant ef: efe a gofia ei gyfammod yn dragywydd.

6 Mynegodd i'w bobl gadernid ei weithredoedd, i roddi iddynt etifeddiaeth y cenhedloedd.

7 Gwirionedd a barn *yw* gweithredoedd ei ddwylaw ef: ei holl orchymynion *ydynt* sicr:

8 Wedi eu sicrhâu byth ac yn dragywydd, *a'u* gwneuthur mewn gwirionedd ac uniawnder.

9 Anfonodd ymwared i'w bobl: gorchymynodd ei gyfammod yn dragywyddol: sancteiddiol ac ofnadwy *yw* ei enw ef.

10 Dechreuad doethineb *yw* ofn yr ARGLWYDD: deall da *sydd* gan y rhai a wnant *ei orchymynion ef:* y mae ei foliant ef yn parhâu byth.

PSALM 112.

1 *Duwioldeb sydd iddi addewid o'r bywyd yma, 4 ac o'r bywyd a ddaw.* 10 *Y bydd drwg gan yr anwir weled llwyddiant y duwiol.*

MOLWCH yr ARGLWYDD. Gwyn *ei* fyd y gŵr a ofna yr ARGLWYDD, *ac* sydd yn hoffi ei orchymynion ef yn ddirfawr.

2 Ei had fydd gadarn ar y ddaear: cenhedlaeth y rhai uniawn a fendithir.

3 Golud a chyfoeth *fydd* yn ei dŷ ef: a'i gyfiawnder sydd yn parhâu byth.

4 Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn yn y tywyllwch: trugarog, a thosturiol, a chyfiawn, *yw efe.*

5 Gŵr da sydd gymmwynasgar, ac yn rhoddi benthyg: wrth farn y llywodraetha efe ei achosion.

6 Yn ddïau nid ysgogir ef byth: y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth.

7 Nid ofna efe rhag chwedl drwg: ei galon sydd ddisigl, yn ymddiried yn yr ARGLWYDD.

8 Attegwyd ei galon: nid ofna efe, hyd oni welo *ei ewyllys* ar ei elynion.

9 Gwasgarodd, rhoddodd i'r tlodion; *a'i* gyfiawnder sydd yn parhâu byth; ei gorn a ddyrchefir mewn gogoniant.

10 Yr annuwiol a wêl *hyn*, ac a ddigia; efe a ysgyrnyga ei ddannedd, ac a dawdd ymaith: derfydd am ddymuniad y rhai annuwiol.

PSALM 113.

1 *Cynghor i foliannu Duw, o herwydd ei arddercholwgrwydd,* 6 *a'i drugaredd.*

MOLWCH yr ARGLWYDD. Gweision yr ARGLWYDD, molwch, *ïe,* molwch enw yr ARGLWYDD.

2 Bendigedig fyddo enw yr ARGLWYDD o hyn allan ac yn dragywydd.

3 O godiad haul hyd ei fachludiad, moliannus *yw* enw yr ARGLWYDD.

4 Uchel *yw* yr ARGLWYDD goruwch

yr holl genhedloedd; *a'*i ogoniant *sydd* goruwch y nefoedd.

5 Pwy *sydd* fel yr ARGLWYDD ein DUW ni, yr hwn sydd yn preswylio yn uchel,

6 Yr hwn a ymddarostwng i edrych *y pethau* yn y nefoedd, ac yn y ddaear?

7 Efe sydd yn codi y tlawd o'r llwch, *ac* yn dyrchafu yr anghenus o'r dommen,

8 I'w osod gyd â phendefigion, *ïe,* gyd â phendefigion ei bobl.

9 Yr hwn a wna i'r ammhlantadwy gadw tŷ, *a bod* yn llawen fam plant Canmolwch yr ARGLWYDD.

PSALM 114.

Dafydd, trwy esampl y creaduriaid mudion, yn annog i ofni Duw yn ei eglwys.

PAN aeth Israel o'r Aipht, tŷ Jacob oddi wrth bobl anghyfiaith;

2 Judah oedd ei sancteiddrwydd, *ac* Israel ei arglwyddiaeth.

3 Y môr a welodd *hyn,* ac a giliodd; yr Iorddonen a drodd yn ol.

4 Y mynyddoedd a neidiasant fel hyrddod, *a'*r bryniau fel ŵyn defaid.

5 Beth *ddarfu* i ti, O fôr, pan giliaist? tithau Iorddonen, *paham* y troaist yn ol?

6 *Paham,* fynyddoedd, y neidiech fel hyrddod? *a'*r bryniau fel ŵyn defaid?

7 Ofna, di ddaear, rhag yr ARGLWYDD, rhag DUW Jacob:

8 Yr hwn sydd yn troi y graig *yn* llyn dwfr, *a'*r gallestr yn ffynnon dyfroedd.

PSALM 115.

1 *O herwydd bod Duw yn wir ogoneddus,* 4 *ac eilunod yn wagedd,* 9 *y mae y Psalmydd yn cynghori rhoi hyder ar Dduw.* 12 *Y dylid bendithio Duw am ei fendithion.*

NID i ni, O ARGLWYDD, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant, er mwyn dy drugaredd, *ac* er mwyn dy wirionedd.

2 Paham y dywedai y cenhedloedd, Pa le yn awr *y mae* eu DUW hwynt?

3 Ond ein DUW ni *sydd* yn y nefoedd: efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll.

4 Eu delwau hwy *ydynt o* aur ac arian, gwaith dwylaw dynion.

5 Genau *sydd* iddynt, ond ni lefarant; llygaid *sydd* ganddynt, ond ni welant:

6 *Y mae* clustiau iddynt, ond ni chlywant; ffroenau *sydd* ganddynt, ond ni aroglant:

7 Dwylaw *sydd* iddynt, ond ni theimlant; traed *sydd* iddynt, ond ni cherddant; ni leisiant chwaith â'u gwddf.

8 Y rhai a'u gwnant ydynt fel hwythau, *a* phob un a ymddiriedo ynddynt.

9 O Israel, ymddiried di yn yr ARGLWYDD: efe *yw* eu porth a'u tarian.

10 Tŷ Aaron, ymddiriedwch yn yr ARGLWYDD: efe *yw* eu porth a'u tarian.

11 Y rhai a ofnwch yr ARGLWYDD, ymddiriedwch yn yr ARGLWYDD: efe *yw* eu porth a'u tarian.

12 Yr ARGLWYDD a'n cofiodd ni: efe a'*n* bendithia: bendithia efe dŷ Israel; bendithia efe dŷ Aaron.

13 Bendithia efe y rhai a ofnant yr ARGLWYDD, fychain a mawrion.

14 Yr ARGLWYDD a'ch chwanega chwi fwyfwy, chwychwi a'ch plant hefyd.

15 Bendigedig *ydych* chwi gan yr ARGLWYDD, yr hwn a wnaeth nef a daear.

16 Y nefoedd, *ïe,* y nefoedd *ydynt* eiddo yr ARGLWYDD: a'r ddaear a roddes efe i feibion dynion.

17 Y meirw ni foliannant yr ARGLWYDD, na'r neb sydd yn disgyn i ddistawrwydd.

18 Ond nyni a fendithiwn yr ARGLWYDD o hyn allan ac yn dragywydd. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 116.

1 *Dafydd yn danyos ei gariad a'i ddyled tu ag at Dduw am ei wared ef:* 12 *ac yn ymegnio i fod yn ddiolchgar.*

DA gennyf wrandaw o'r ARGLWYDD ar fy llef, *a'm* gweddïau.

2 Am ostwng o hono ei glust attaf, am hynny llefaf dros fy nyddiau arno *ef.*

3 Gofidion angau a'm cylchynasant, a gofidiau uffern a'm daliasant: ing a blinder a gefais.

4 Yna y gelwais ar enw yr ARGLWYDD; Attolwg, ARGLWYDD, gwared fy enaid.

5 Graslawn *yw* yr ARGLWYDD,
a chyfiawn; a thosturiol *yw* ein
DUW ni.
6 Yr ARGLWYDD sydd yn cadw y
rhai annichellgar: tlodais, ac efe
a'm hachubodd.
7 Dychwel, O fy enaid, i'th or-
phwysfa; canys yr ARGLWYDD fu
dda wrthyt.
8 O herwydd i ti waredu fy en-
aid oddi wrth angau, fy llygaid
oddi wrth ddagrau, *a*'m traed rhag
llithro.
9 Rhodiaf o flaen yr ARGLWYDD
yn nhir y rhai byw.
10 Credais, am hynny y lleferais:
cystuddiwyd fi yn ddirfawr.
11 Mi a ddywedais yn fy ffrwst,
Pob dyn *sydd* gelwyddog.
12 Beth a dalaf i'r ARGLWYDD, *am*
ei holl ddoniau i mi?
13 Phïol iachawdwriaeth a gym-
meraf, ac ar enw yr ARGLWYDD y
galwaf.
14 Fy addunedau a dalaf i'r AR-
GLWYDD, yn awr y'ngŵydd ei holl
bobl ef.
15 Gwerthfawr y'ngolwg yr AR-
GLWYDD *yw* marwolaeth ei saint
ef.
16 O ARGLWYDD, yn ddïau dy was
di *ydwyf* fi; dy was di *ydwyf* fi,
mab dy wasanaeth-wraig: dattod-
aist fy rhwymau.
17 Aberthaf i ti aberth moliant; a
galwaf ar enw yr ARGLWYDD.
18 Talaf fy addunedau i'r AR-
GLWYDD, yn awr y'ngŵydd ei holl
bobl,
19 Y'nghynteddoedd tŷ yr AR-
GLWYDD, yn dy ganol di, O Jerusa-
lem. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 117.

Cynghor i foliannu Duw am ei drugaredd a'i wirioneddd.

MOLWCH yr ARGLWYDD, yr
holl genhedloedd: clodfor-
wch ef, yr holl bobloedd.
2 O herwydd ei drugaredd ef tu
ag attom ni sydd fawr: a gwirion-
edd yr ARGLWYDD *a bery* yn dragy-
wydd. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 118.

1 *Cynghor i foliannu Duw am ei drugaredd.* 5 *Y Psalmydd, wrth a brofasai efe ei hun, yn dangos mor dda ydyw hyderu ar Dduw.* 19 *Mynegi dyfodiad Crist yn ei deyrnas, dan rith a chysgod y Psalmydd.*

CLODFORWCH yr ARGLWYDD;
canys da *yw:* o herwydd ei
drugaredd *a bery* yn dragywydd.
2 Dyweded Israel yr awr hon,
fod ei drugaredd ef *yn parhâu* yn
dragywydd.
3 Dyweded tŷ Aaron yn awr, fod
ei drugaredd ef *yn parhâu* yn
dragywydd.
4 Yn awr dyweded y rhai a ofnant
yr ARGLWYDD, fod ei drugaredd ef
yn parhâu yn dragywydd.
5 Mewn ing y gelwais ar yr AR-
GLWYDD; yr ARGLWYDD a'm clybu,
ac a'm gosododd mewn ehangder.
6 Yr ARGLWYDD *sydd* gyd â mi,
nid ofnaf: beth a wna dyn i mi?
7 Yr ARGLWYDD *sydd* gyd â mi
ym mhlith fy nghynnorthwywyr:
am hynny y caf weled *fy ewyllys* ar
fy nghaseion.
8 Gwell *yw* gobeithio yn yr AR-
GLWYDD, nag ymddiried mewn
dyn.
9 Gwell *yw* gobeithio yn yr AR-
GLWYDD, nag ymddiried mewn ty-
wysogion.
10 Yr holl genhedloedd a'm ham-
gylchynasant: ond yn enw yr AR-
GLWYDD mi a'u torraf hwynt ym-
aith.
11 Amgylchynasant fi; ïe, am-
gylchynasant fi: ond yn enw yr
ARGLWYDD mi a'u torraf hwynt
ymaith.
12 Amgylchynasant fi fel gwenyn;
diffoddasant fel tân drain: o her-
wydd yn enw yr ARGLWYDD mi a'u
torraf hwynt ymaith.
13 Gan wthio y gwthiaist fi, fel y
syrthiwn: ond yr ARGLWYDD a'm
cynnorthwyodd.
14 Yr ARGLWYDD *yw* fy nerth
a'*m* cân; ac sydd iachawdwriaeth
i mi.
15 Llef gorfoledd a iachawdwr-
iaeth *sydd* ym mhebyll y cyfiawn:
deheulaw yr ARGLWYDD sydd yn
gwneuthur grymmusder.
16 Deheulaw yr ARGLWYDD a
ddyrchafwyd: deheulaw yr AR-
GLWYDD sydd yn gwneuthur grym-
musder.
17 Ni byddaf farw, ond byw;
a mynegaf weithredoedd yr AR-
GLWYDD.
18 Gan gospi y'm cospodd yr AR-

GLWYDD: ond ni'm rhoddodd i farwolaeth.
19 Agorwch i mi byrth cyfiawnder: âf i mewn iddynt, *a* chlodforaf yr ARGLWYDD.
20 Dyma borth yr ARGLWYDD; y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo.
21 Clodforaf di; o herwydd i ti fy ngwrandaw, a'th fod yn iachawdwriaeth i mi.
22 Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, a aeth yn ben i'r gongl.
23 O'r ARGLWYDD y daeth hyn; hyn *oedd* ryfedd yn ein golwg ni.
24 Dyma y dydd a wnaeth yr ARGLWYDD; gorfoleddwn a llawenychwn ynddo.
25 Attolwg, ARGLWYDD, achub yn awr: attolwg, ARGLWYDD, pâr yn awr lwyddiant.
26 Bendigedig *yw* a ddêl yn enw yr ARGLWYDD: bendithiasom chwi o dŷ yr ARGLWYDD.
27 DUW *yw* yr ARGLWYDD, yr hwn a lewyrchodd i ni: rhwymwch yr aberth â rhaffau, hyd wrth gyrn yr allor.
28 Fy NUW *ydwyt* ti, a mi a'th glodforaf: dyrchafaf di, fy NUW.
29 Clodforwch yr ARGLWYDD; canys da *yw:* o herwydd yn dragywydd *y pery* ei drugaredd ef.

PSALM 119.

Y Psalm hon sydd yn cynnwys amryw weddiau, a moliannau, ac addewidion ufudd-dod.

ALEPH.

GWYN fyd y rhai perffaith *eu* ffordd, y rhai a rodiant yng nghyfraith yr ARGLWYDD.
2 Gwyn fyd y rhai a gadwant ei dystiolaethau ef; *ac* a'i ceisiant ef â'u holl galon.
3 Y rhai hefyd ni wnant anwiredd, hwy a rodiant yn ei ffyrdd ef.
4 Ti a orchymynaist gadw dy orchymynion yn ddyfal.
5 O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau!
6 Yna ni'm gwaradwyddid, pan edrychwn ar dy holl orchymynion.
7 Clodforaf di âg uniondeb calon, pan ddysgwyf farnedigaethau dy gyfiawnder.
8 Cadwaf dy ddeddfau; O na âd fi yn hollol.

BETH.

9 Pa fodd y glanhâ llangc ei lwybr? wrth ymgadw yn ol dy air di.
10 A'm holl galon y'th geisiais: na âd i mi gyfeiliorni oddi wrth dy orchymynion.
11 Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon, fel na phechwn i'th erbyn.
12 Ti, ARGLWYDD, *wyt* fendigedig: dysg i mi dy ddeddfau.
13 A'm gwefusau y treuthais holl farnedigaethau dy enau.
14 Bu mor llawen gennyf ffordd dy dystiolaethau, a'r holl olud.
15 Yn dy orchymynion y myfyriaf, ac ar dy lwybrau yr edrychaf.
16 Yn dy ddeddfau yr ymddigrifaf: nid anghofiaf dy air.

GIMEL.

17 Bydd dda wrth dy was, *fel* y byddwyf byw, ac y cadwyf dy air.
18 Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di.
19 Dïeithr *ydwyf* fi ar y ddaear: na chudd di rhagof dy orchymynion.
20 Drylliwyd fy enaid gan awydd i'th farnedigaethau bob amser.
21 Ceryddaist y beilchion melldigedig, y rhai a gyfeiliornant oddi wrth dy orchymynion.
22 Tro oddi wrthyf gywilydd a dirmyg: oblegid dy dystiolaethau di a gedwais.
23 Tywysogion hefyd a eisteddasant, *ac* a ddywedasant i'm herbyn: dy was dithau a fyfyriai yn dy ddeddfau.
24 A'th dystiolaethau *oeddynt* fy hyfrydwch *a*'m cynghorwyr.

DALETH.

25 Glynodd fy enaid wrth y llwch: bywhâ fi yn ol dy air.
26 Fy ffyrdd a fynegais, a gwrandewaist fi: dysg i mi dy ddeddfau.
27 Gwna i mi ddeall ffordd dy orchymynion; a mi a fyfyriaf yn dy ryfeddodau.
28 Diferodd fy enaid gan ofid: nertha fi yn ol dy air.
29 Cymmer oddi wrthyf ffordd y celwydd; ac yn raslawn dod i mi dy gyfraith.
30 Dewisais ffordd gwirionedd:

gosodais dy farnedigaethau *o'm blaen.*

31 Glynais wrth dy dystiolaethau: O ARGLWYDD, na'm gwaradwydda.

32 Ffordd dy orchymynion a redaf, pan ehangech fy nghalon.

HE.

33 Dysg i mi, O ARGLWYDD, ffordd dy ddeddfau, a chadwaf hi *hyd* y diwedd.

34 Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy gyfraith; ïe, cadwaf hi *â'm* holl galon.

35 Gwna i mi gerdded yn llwybr dy orchymynion: canys ynddo y mae fy ewyllys.

36 Gostwng fy nghalon at dy dystiolaethau, ac nid at gybydd-dra.

37 Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar wagedd; *a* bywhâ fi yn dy ffyrdd.

38 Sicrhâ dy air i'th was, yr hwn *sydd yn ymroddi* i'th ofn di.

39 Tro heibio fy ngwaradwydd yr wyf yn ei ofni: canys dy farnedigaethau *sydd* dda.

40 Wele, awyddus ydwyf i'th orchymynion: gwna i mi fyw yn dy gyfiawnder.

FAU.

41 Deued i mi dy drugaredd, ARGLWYDD, *a'*th iachawdwriaeth yn ol dy air.

42 Yna yr attebaf i'm cablydd; o herwydd yn dy air y gobeithiais.

43 Na ddwg dithau air y gwirionedd o'm genau yn llwyr: o herwydd yn dy farnedigaethau di y gobeithiais.

44 A'th gyfraith a gadwaf yn wastadol, byth ac yn dragywydd.

45 Rhodiaf hefyd mewn ehangder: o herwydd dy orchymynion di a geisiaf.

46 Ac am dy dystiolaethau di y llefaraf o flaen brenhinoedd, ac ni bydd cywilydd gennyf.

47 Ac ymddigrifaf yn dy orchymynion, y rhai a hoffais.

48 A'm dwylaw a ddyrchafaf at dy orchymynion, y rhai a gerais; a mi a fyfyriaf yn dy ddeddfau.

SAIN.

49 Cofia y gair wrth dy was, yn yr hwn y peraist i mi obeithio.

50 Dyma fy nghysur yn fy nghystudd: canys dy air di a'm bywhaodd i.

51 Y beilchion a'm gwatwarasant yn ddirfawr: *er hynny* ni throais oddi wrth dy gyfraith di.

52 Cofiais, O ARGLWYDD, dy farnedigaethau erioed; ac ymgysurais.

53 Dychryn a ddaeth arnaf, oblegid yr annuwiolion, y rhai sydd yn gadu dy gyfraith di.

54 Dy ddeddfau oedd fy nghân yn nhŷ fy mhererindod.

55 Cofiais dy enw, ARGLWYDD, y nos; a chedwais dy gyfraith.

56 Hyn oedd gennyf, am gadw o honof dy orchymynion di.

CHETH.

57 O ARGLWYDD, fy rhan *ydwyt;* dywedais y cadwn dy eiriau.

58 Ymbiliais â'th wyneb â'*m* holl galon: trugarhâ wrthyf yn ol dy air.

59 Meddyliais am fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy dystiolaethau di.

60 Brysiais, ac nid oedais gadw dy orchymynion.

61 Minteioedd yr annuwiolion a'm hyspeiliasant: *ond* nid anghofiais dy gyfraith di.

62 Hanner nos y cyfodaf i'th foliannu, am farnedigaethau dy gyfiawnder.

63 Cyfaill *ydwyf* fi i'r rhai oll a'th ofnant, ac i'r rhai a gadwant dy orchymynion.

64 Llawn yw y ddaear o'th drugaredd, O ARGLWYDD: dysg i mi dy ddeddfau.

TETH.

65 Gwnaethost yn dda â'th was, O ARGLWYDD, yn ol dy air.

66 Dysg i mi iawn ddeall a gwybodaeth: o herwydd dy orchymynion di a gredais.

67 Cyn fy nghystuddio yr oeddwn yn cyfeiliorni: ond yn awr cedwais dy air di.

68 Da *ydwyt*, a daionus: dysg i mi dy ddeddfau.

69 Y beilchion a glytiasant gelwydd i'm herbyn; minnau a gadwaf dy orchymynion â'm holl galon.

70 Cyn frased a'r bloneg yw eu

calon: minnau a ymddigrifais yn dy gyfraith di.

71 Da *yw* i mi fy nghystuddio; fel y dysgwn dy ddeddfau.

72 Gwell i mi gyfraith dy enau, na miloedd o aur ac arian.

IOD.

73 Dy ddwylaw a'm gwnaethant, ac a'm lluniasant: pâr i mi ddeall, fel y dysgwyf dy orchymynion.

74 Y rhai a'th ofnant a'm gwelant, ac a lawenychant; oblegid gobeithio o honof yn dy air di.

75 Gwn, ARGLWYDD, mai cyfiawn *yw* dy farnedigaethau; ac *mai* mewn ffyddlondeb y'm cystuddiaist.

76 Bydded, attolwg, dy drugaredd i'm cysuro, yn ol dy air i'th wasanaethwr.

77 Deued i mi dy drugareddau, fel y byddwyf byw; o herwydd dy gyfraith *yw* fy nigrifwch.

78 Cywilyddier y beilchion, canys gwnant gam â mi yn ddiachos: *ond* myfi a fyfyriaf yn dy orchymynion di.

79 Tröer attaf fi y rhai a'th ofnant di, a'r rhai a adwaenant dy dystiolaethau.

80 Bydded fy nghalon yn berffaith yn dy ddeddfau; fel na'm cywilyddier.

CAPH.

81 Diffygiodd fy enaid am dy iachawdwriaeth: wrth dy air yr ydwyf yn disgwyl.

82 Y mae fy llygaid yn pallu am dy air, gan ddywedyd, Pa bryd y'm diddeni?

83 Canys ydwyf fel costrel mewn mwg; *ond* nid anghofiais dy ddeddfau.

84 Pa nifer *yw* dyddiau dy was? pa bryd y gwnei farn ar y rhai a'm herlidiant?

85 Y beilchion a gloddiasant byllau i mi, yr hyn nid *yw* wrth dy gyfraith di.

86 Dy holl orchymynion *ydynt* wirionedd: ar gam y'm herlidiasant; cymmorth fi.

87 Braidd na'm difasant ar y ddaear; minnau ni adewais dy orchymynion.

88 Bywhâ fi yn ol dy drugaredd; felly y cadwaf dystiolaeth dy enau.

LAMED.

89 Yn dragywydd, O ARGLWYDD, y mae dy air wedi ei sicrhâu yn y nefoedd.

90 Dy wirionedd *sydd* hyd genhedlaeth a chenhedlaeth: seiliaist y ddaear, a hi a saif.

91 Wrth dy farnedigaethau y safant heddyw: canys dy weision *yw* pob peth.

92 Oni bai *fod* dy ddeddf yn hyfrydwch i mi, darfuasai yna am danaf yn fy nghystudd.

93 Byth nid anghofiaf dy orchymynion: canys â hwynt y'm bywheaist.

94 Eiddot ti *ydwyf*, cadw fi: o herwydd dy orchymynion a geisiais.

95 Y rhai annuwiol a ddisgwyliasant am danaf i'm difetha: *ond* dy dystiolaethau di a ystyriaf fi.

96 Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perffeithrwydd: *ond* dy orchymyn di *sydd* dra eang.

MEM.

97 Mor gu gennyf dy gyfraith di! hi *yw* fy myfyrdod beunydd.

98 A'th orchymynion yr ydwyt yn fy ngwneuthur yn ddoethach na'm gelynion: canys byth *y maent* gyd â mi.

99 Deallais fwy na'm holl athrawon: o herwydd dy dystiolaethau *yw* fy myfyrdod.

100 Deallais yn well na'r henuriaid, am fy mod yn cadw dy orchymynion di.

101 Atteliais fy nhraed oddi wrth bob llwybr drwg, fel y cadwn dy air di.

102 Ni chiliais oddi wrth dy farnedigaethau: o herwydd ti a'm dysgaist.

103 Mor felus yw dy eiriau i'm genau! *melusach* na mêl i'm safn.

104 Trwy dy orchymynion di y pwyllais: am hynny y caseais bob gau lwybr.

NUN.

105 Llusern *yw* dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr.

106 Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.

107 Cystuddiwyd fi yn ddirfawr: bywhâ fi, O ARGLWYDD, yn ol dy air.

108 Attolwg, ARGLWYDD, bydd foddlawn i ewyllysgar offrymmau fy ngenau, a dysg i mi dy farnedigaethau.

109 *Y mae* fy enaid yn fy llaw yn wastadol: er hynny nid wyf yn anghofio dy gyfraith.

110 Y rhai annuwiol a osodasant fagl i mi: ond ni chyfeiliornais oddi wrth dy orchymynion.

111 Cymmerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth: o herwydd llawenydd fy nghalon *ydynt.*

112 Gostyngais fy nghalon i wneuthur dy ddeddfau byth, *hyd* y diwedd.

SAMECH.

113 Meddyliau *ofer* a gaseais; a'th gyfraith di a hoffais.

114 Fy lloches a'm tarian *ydwyt:* yn dy air y gobeithiaf.

115 Ciliwch oddi wrthyf, rai drygionus: canys cadwaf orchymynion fy NUW.

116 Cynnal fi yn ol dy air, fel y byddwyf byw: ac na âd i mi gywilyddio am fy ngobaith.

117 Cynnal fi, a diangol fyddaf: ac ar dy ddeddfau yr edrychaf yn wastadol.

118 Sethraist y rhai oll a gyfeiliornant oddi wrth dy ddeddfau: canys twyllodrus *yw* eu dichell hwynt.

119 Bwriaist heibio holl annuwiolion y tir *fel* sothach: am hynny yr hoffais dy dystiolaethau.

120 Dychrynodd fy nghnawd rhag dy ofn, ac ofnais rhag dy farnedigaethau.

AIN.

121 Gwneuthum farn a chyfiawnder: na âd fi i'm gorthrymwyr.

122 Mechnïa dros dy was er daioni: na âd i'r beilchion fy ngorthrymmu.

123 Fy llygaid a ballasant am dy iachawdwriaeth, ac am ymadrodd dy gyfiawnder.

124 Gwna i'th was yn ol dy drugaredd, a dysg i mi dy ddeddfau.

125 Dy was *ydwyf* fi; pâr i mi ddeall, fel y gwypwyf dy dystiolaethau.

126 Amser *yw* i'r ARGLWYDD weithio: diddymmasant dy gyfraith di.

127 Am hynny yr hoffais dy orchymynion yn fwy nag aur; ïe, yn fwy nag aur coeth.

128 Am hynny uniawn y cyfrifais *dy* orchymynion *am* bob *peth;* a chaseais bob gau lwybr.

PE.

129 Rhyfedd *yw* dy dystiolaethau: am hynny y ceidw fy enaid hwynt.

130 Agoriad dy eiriau a rydd oleuni: pair ddeall i rai annichellgar.

131 Agorais fy ngenau, a dyheais: oblegid awyddus oeddwn i'th orchymynion di.

132 Edrych arnaf, a thrugarhâ wrthyf, yn ol dy arfer i'r rhai a garant dy enw.

133 Cyfarwydda fy nghamrau yn dy air: ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf.

134 Gwared fi oddi wrth orthrymder dynion: felly y cadwaf dy orchymynion.

135 Llewyrcha dy wyneb ar dy was: a dysg i mi dy ddeddfau.

136 Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid, am na chadwasant dy gyfraith di.

TSADI.

137 Cyfiawn *ydwyt* ti, O ARGLWYDD, ac uniawn *yw* dy farnedigaethau.

138 Dy dystiolaethau *y rhai* a orchymynaist, *ydynt* gyfiawn, a ffyddlawn iawn.

139 Fy sêl a'm difaodd; o herwydd i'm gelynion anghofio dy eiriau di.

140 Purwyd dy ymadrodd yn ddirfawr: am hynny y mae dy was yn ei hoffi.

141 Bychan *ydwyf* fi, a dirmygus: *ond* nid anghofiais dy orchymynion.

142 Dy gyfiawnder *sydd* gyfiawnder byth, a'th gyfraith *sydd* wirionedd.

143 Adfyd a chystudd a'm goddiweddasant: *a'th* orchymynion *oedd* fy nigrifwch.

144 Cyfiawnder dy dystiolaethau *a bery* yn dragywydd: gwna i mi ddeall, a byw fyddaf.

COPH.

145 Llefais â'*m* holl galon; clyw

fi, O ARGLWYDD: dy ddeddfau a gadwaf.

146 Llefais arnat; achub fi, a chadwaf dy dystiolaethau.

147 Achubais flaen y cyfddydd, a gwaeddais; wrth dy air y disgwyliais.

148 Fy llygaid a achubasant flaen gwyliadwriaethau *y nos*, i fyfyrio yn dy air di.

149 Clyw fy llef yn ol dy drugaredd: ARGLWYDD, bywhâ fi yn ol dy farnedigaethau.

150 Y rhai a ddilynant ysgelerder a nesasant *arnaf:* ymbellasant oddi wrth dy gyfraith di.

151 Tithau, ARGLWYDD, *wyt* agos; a'th holl orchymynion *sydd* wirionedd.

152 Er ys talm y gwyddwn am dy dystiolaethau, seilio o honot hwynt yn dragywydd.

RESH.

153 Gwel fy nghystudd, a gwared fi: canys nid anghofiais dy gyfraith.

154 Dadleu fy nadl, a gwared fi: bywhâ fi yn ol dy air.

155 Pell *yw* iachawdwriaeth oddi wrth y rhai annuwiol: o herwydd ni cheisiant dy ddeddfau di.

156 Dy drugareddau, ARGLWYDD, *sydd* aml: bywhâ fi yn ol dy farnedigaethau.

157 Llawer *sydd* yn fy erlid, ac yn fy ngwrthwynebu; *er hynny* ni throais oddi wrth dy dystiolaethau.

158 Gwelais y troseddwyr, a gresynais; am na chadwent dy air di.

159 Gwel fy mod yn hoffi dy orchymynion: ARGLWYDD, bywhâ fi yn ol dy drugarowgrwydd.

160 Gwirionedd o'r dechreuad *yw* dy air; a phob un o'th gyfiawn farnedigaethau *a bery* yn dragywydd.

SCHIN.

161 Tywysogion a'm herlidiasant heb achos: er hynny fy nghalon a grynai rhag dy air di.

162 Llawen ydwyf fi oblegid dy air, fel un yn cael ysglyfaeth lawer.

163 Celwydd a gaseais, ac a ffieiddiais: *a*'th gyfraith di a hoffais.

164 Seithwaith yn y dydd yr ydwyf yn dy glodfori; o herwydd dy gyflawn farnedigaethau.

165 Heddwch mawr fydd i'r rhai a garant dy gyfraith: ac nid *oes* dramgwydd iddynt.

166 Disgwyliais wrth dy iachawdwriaeth di, O ARGLWYDD; a gwneuthum dy orchymynion.

167 Fy enaid a gadwodd dy dystiolaethau; a hoff iawn gennyf hwynt.

168 Cedwais dy orchymynion a'th dystiolaethau: canys *y mae* fy holl ffyrdd ger dy fron di.

TAU.

169 Nesâed fy ngwaedd o'th flaen, ARGLWYDD: gwna i mi ddeall yn ol dy air.

170 Deued fy ngweddi ger dy fron: gwared fi yn ol dy air.

171 Fy ngwefusau a draetha foliant, pan ddysgech i mi dy ddeddfau.

172 Fy nhafod a ddatgan dy air: o herwydd dy holl orchymynion *sydd* gyfiawnder.

173 Bydded dy law i'm cynnorthwyo: o herwydd dy orchymynion di a ddewisais.

174 Hiraethais, O ARGLWYDD, am dy iachawdwriaeth; a'th gyfraith *yw* fy hyfrydwch.

175 Bydded byw fy enaid, fel y'th folianno di; a chynnorthwyed dy farnedigaethau fi.

176 Cyfeiliornais fel dafad wedi colli: cais dy was; oblegid nid anghofiais dy orchymynion.

PSALM 120.

1 *Dafydd yn gweddïo yn erbyn Dôeg; 3 yn ceryddu ei dafod ef; 5 yn cwyno fod yn rhaid iddo gyttal a bucheddu gyd â'r anwir.*

Caniad y graddau.

AR yr ARGLWYDD y gwaeddais yn fy nghyfyngder, ac efe a'm gwrandawodd i.

2 ARGLWYDD, gwared fy enaid oddi wrth wefusau celwyddog, *ac* oddi wrth dafod twyllodrus.

3 Beth a roddir i ti? neu pa beth a wneir i ti, dydi dafod twyllodrus?

4 Llymion saethau cawr, ynghyd â marwor meryw.

5 Gwae fi, fy mod yn preswylio ym Mesech, yn cyfanneddu ym mhebyll Cedar.

6 Hir y trigodd fy enaid gyd â'r hwn oedd yn casâu tangnefedd.

7 Heddychol *ydwyf* fi: ond pan lefarwyf, *y maent yn barod* i ryfel.

PSALM 121.

Mawr ddïogelwch y duwiol, sydd yn hyderu ar nawdd ac amddiffyn Duw.

Caniad y graddau.

DYRCHAFAF fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymmorth.

2 Fy nghymmorth *a ddaw* oddi wrth yr ARGLWYDD, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.

3 Ni âd efe i'th droed lithro: ac ni huna dy geidwad.

4 Wele, ni huna ac ni chwsg ceidwad Israel.

5 Yr ARGLWYDD *yw* dy geidwad: yr ARGLWYDD *yw* dy gysgod ar dy ddeheulaw.

6 Ni'th dery yr haul y dydd, na'r lleuad y nos.

7 Yr ARGLWYDD a'th geidw rhag pob drwg: efe a geidw dy enaid.

8 Yr ARGLWYDD a geidw dy fynediad a'th ddyfodiad, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

PSALM 122.

1 *Dafydd yn dangos ei lawenydd dros yr eglwys;* 6 *ac yn gweddïo am heddwch iddi.*

Caniad y graddau, o'r eiddo Dafydd.

LLAWENYCHAIS pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ yr ARGLWYDD.

2 Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem.

3 Jerusalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei chydgyssylltu ynddi ei hun.

4 Yno yr esgyn y llwythau, llwythau yr ARGLWYDD, yn dystiolaeth i Israel, i foliannu enw yr ARGLWYDD.

5 Canys yno y gosodwyd gorseddfeingciau barn, gorsedd-feingciau tŷ Dafydd.

6 Dymunwch heddwch Jerusalem: llwydded y rhai a'th hoffant.

7 Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, *a* ffyniant yn dy balasau.

8 Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf yn awr, Heddwch *fyddo* i ti.

9 Er mwyn tŷ yr ARGLWYDD ein DUW, y ceisiaf i ti ddaioni.

PSALM 123.

1 *Y duwiol yn dangos eu hyder ar Dduw;* 3 *ac yn gweddïo ar gael eu gwared oddi wrth ddirmyg.*

Caniad y graddau.

ATTAT ti y dyrchafaf fy llygaid, ti yr hwn a breswyli yn y nefoedd.

2 Wele, fel *y mae* llygaid gweision ar law eu meistriaid, *neu* fel *y mae* llygaid llaw-forwyn ar law ei meistres; felly *y mae* ein llygaid ni ar yr ARGLWYDD ein DUW, hyd oni thrugarhao efe wrthym ni.

3 Trugarhâ wrthym, ARGLWYDD, trugarhâ wrthym; canys llanwyd ni â dirmyg yn ddirfawr.

4 Yn ddirfawr y llanwyd ein henaid â gwatwargerdd y rhai goludog, *ac* â dïystyrwch y beilchion.

PSALM 124.

Yr eglwys yn bendithio Duw am ei ryfeddol ymwared.

Caniad y graddau, o'r eiddo Dafydd.

ONI *buasai* yr ARGLWYDD yr hwn a fu gyd â ni, y gall Israel ddywedyd yn awr;

2 Oni *buasai* yr ARGLWYDD yr hwn a fu gyd â ni, pan gyfododd dynion yn ein herbyn:

3 Yna y'n llyngcasent ni yn fyw, pan ennynodd eu llid hwynt i'n herbyn:

4 Yna y dyfroedd a lifasai drosom, y ffrwd a aethai dros ein henaid:

5 Yna yr aethai dros ein henaid ddyfroedd chwyddedig.

6 Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD, yr hwn ni roddodd ni yn ysglyfaeth i'w dannedd hwynt.

7 Ein henaid a ddïangodd fel aderyn o fagl yr adarwyr: y fagl a dorrwyd, a ninnau a ddïangasom.

8 Ein porth ni *sydd* yn enw yr ARGLWYDD, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.

PSALM 125.

1 *Dïogelwch y rhai sydd yn ymddiriedïo yn Nuw.* 4 *Gweddïi dros y duwiol, ac yn erbyn yr annuwiol.*

Caniad y graddau.

YRHAI a ymddiriedant yn yr ARGLWYDD, *fyddant* fel mynydd Sïon, *yr hwn* ni syflir, *ond* a bery yn dragywydd.

2 *Fel y mae* Jerusalem *a'r* mynyddoedd o'i hamgylch, felly *y mae* yr ARGLWYDD o amgylch ei bobl, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

3 Canys ni orphwys gwialen annuwioldeb ar randir y rhai cyf-

iawn; rhag i'r rhai cyfiawn estyn eu dwylaw at anwiredd.

4 O ARGLWYDD, gwna ddaioni i'r rhai daionus, ac i'r rhai uniawn yn eu calonnau.

5 Ond y rhai a ymdroant i'w trofeydd, yr ARGLWYDD a'u gyr gyd â gweithredwyr anwiredd: *a bydd* tangnefedd ar Israel.

PSALM 126.

1 *Yr eglwys, wrth ddangos caffa o'i rhyfeddol ymwared allan o gaethiwed, 4 yn gweddïo am lwyddiant, ac yn ei brophwydo.*

Caniad y graddau.

PAN ddychwelodd yr ARGLWYDD gaethiwed Sïon, yr oeddym fel rhai yn breuddwydio.

2 Yna y llanwyd ein genau â chwerthin, a'n tafod â chanu: yna y dywedasant ym mysg y cenhedloedd, Yr ARGLWYDD a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn.

3 Yr ARGLWYDD a wnaeth i ni bethau mawrion; *am hynny* yr ydym yn llawen.

4 Dychwel, ARGLWYDD, ein caethiwed ni, fel yr afonydd yn y dehau.

5 Y rhai sydd yn hau mewn dagrau, a fedant mewn gorfoledd.

6 Yr hwn sydd yn myned rhagddo, ac yn wylo, gan ddwyn had gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd, dan gludo ei ysgubau.

PSALM 127.

1 *Rhinweddd bendithion Duw.* 3 *Dawn Duw yw plant rhinweddol.*

Caniad y graddau, i Solomon.

OS yr ARGLWYDD nid adeilada y tŷ, ofer y llafuria ei adeiladwyr wrtho: os yr ARGLWYDD ni cheidw y ddinas, ofer y gwylia y ceidwad.

2 Ofer i chwi fore-godi, myned yn hwyr i gysgu, bwytta bara gofidiau: felly y rhydd efe hûn i'w anwylyd.

3 Wele, plant *ydynt* etifeddiaeth yr ARGLWYDD: *ei* wobr *ef yw* ffrwyth y groth.

4 Fel *y mae* saethau yn llaw y cadarn; felly *y mae* plant ieuengctid.

5 Gwyn *ei* fyd y gŵr a lanwodd ei gawell saethau â hwynt: nis gwaradwyddir hwy, pan ymddiddanant â'r gelynion yn y porth.

PSALM 128.

Yr amryw fendithion sydd ym canlyn y rhai a ofnant Dduw.

Caniad y graddau.

GWYN *ei* fyd pob un sydd yn ofni yr ARGLWYDD; yr hwn sydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef.

2 Canys mwynhêi lafur dy ddwylaw: gwyn dy fyd, a da *fydd* i ti.

3 Dy wraig *fydd* fel gwinwydden ffrwythlawn ar hyd ystlysau dy dŷ: dy blant fel planhigion olew-wydd o amgylch dy ford.

4 Wele, fel hyn yn ddïau y bendithir y gŵr a ofno yr ARGLWYDD.

5 Yr ARGLWYDD a'th fendithia allan o Sïon; a thi a gei weled daioni Jerusalem holl ddyddiau dy einioes.

6 A thi a gei weled plant dy blant, *a* thangnefedd ar Israel.

PSALM 129.

1 *Y mae yn annog i foliannu Duw, am gadw Israel yn ei fawr gystuddiau.* 5 *Melldithio y rhai a gasânt eglwys Dduw.*

Caniad y graddau.

LLAWER gwaith y'm cystuddiasant o'm hieuengctid, y dichon Israel ddywedyd yn awr:

2 Llawer gwaith y'm cystuddiasant o'm hieuengctid: etto ni'm gorfuant.

3 Yr arddwyr a arddasant ar fy nghefn: estynasant eu cwysau yn hirion.

4 Yr ARGLWYDD *sydd* gyfiawn: efe a dorrodd raffau y rhai annuwiol.

5 Gwaradwydder hwy oll, a gyrrer yn eu hol, y rhai a gasânt Sïon.

6 Byddant fel glaswellt pen tai, yr hwn a wywa cyn y tynner ef ymaith:

7 A'r hwn ni leinw y pladurwr ei law; na'r hwn fyddo yn rhwymo yr ysgubau, ei fynwes.

8 Ac ni ddywed y rhai a ânt heibio, Bendith yr ARGLWYDD arnoch: bendithiwn chwi yn enw yr ARGLWYDD.

PSALM 130.

1 *Y Psalmydd ym dangos ei obaith mewn gweddi:* 5 *a'i ddioddefgarwch mewn gobaith.* 7 *Y mae yn annog Israel i obeithio yn Nuw.*

Caniad y graddau.

O'R dyfnder y llefais arnat, O ARGLWYDD.

2 ARGLWYDD, clyw fy llefain;

ystyried dy glustiau wrth lef fy ngweddïau.
3 Os creffi ar anwireddau, ARGLWYDD, O ARGLWYDD, pwy a saif?
4 Ond *y mae* gyd â thi faddeuant, fel y'th ofner.
5 Disgwyliaf am yr ARGLWYDD, disgwyl fy enaid, ac yn ei air ef y gobeithiaf.
6 Fy enaid *sydd yn disgwyl* am yr ARGLWYDD yn fwy nag *y mae* y gwylwyr am y bore; *yn fwy nag y mae* y gwylwyr am y bore.
7 Disgwylied Israel am yr ARGLWYDD; o herwydd *y mae* trugaredd gyd â'r ARGLWYDD, ac aml ymwared gyd âg ef.
8 Ac efe a wared Israel oddi wrth ei holl anwireddau.

PSALM 131.

1 *Dafydd yn dangos ei ostyngeiddrwydd;* 3 *ac yn annog Israel i obeithio yn Nuw.*

Caniad y graddau, o'r eiddo Dafydd.

O ARGLWYDD, nid ymfalchïodd fy nghalon, ac nid ymddyrchafodd fy llygaid: ni rodiais chwaith mewn pethau rhy fawr, a rhy uchel i mi.
2 Eithr gosodais a gostegais fy enaid, fel un wedi ei ddiddyfnu oddi wrth ei fam: fy enaid *sydd* ynof fel un wedi ei ddiddyfnu.
3 Disgwylied Israel wrth yr ARGLWYDD, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

PSALM 132.

1 *Dafydd yn ei weddi yn dangos i Dduw ei dduwiol ofal dros yr arch;* 8 *yn gweddio wrth symmudo yr arch;* 11 *ac yn ail-adrodd addewidion Duw iddo.*

Caniad y graddau.

O ARGLWYDD, cofia Dafydd, *a*'i holl flinder;
2 Y modd y tyngodd efe wrth yr ARGLWYDD, *ac* yr addunodd i rymmus *DDUW* Jacob:
3 Ni ddeuaf i fewn pabell fy nhŷ, ni ddringaf ar erchwyn fy ngwely;
4 Ni roddaf gwsg i'm llygaid, *na* hûn i'm hamrantau,
5 Hyd oni chaffwyf le i'r ARGLWYDD, preswylfod i rymmus *DDUW* Jacob.
6 Wele, clywsom am dani yn Ephratah: cawsom hi ym meusydd y coed.
7 Awn i'w bebyll ef; ymgrymmwn o flaen ei faingc-draed ef.
8 Cyfod, ARGLWYDD, i'th orphwysfa; ti, ac arch dy gadernid.
9 Gwisged dy offeiriaid gyfiawnder; a gorfoledded dy saint.
10 Er mwyn Dafydd dy was, na thro ymaith wyneb dy Enneiniog.
11 Tyngodd yr ARGLWYDD *mewn* gwirionedd i Dafydd; ni thry efe oddi wrth hynny; O ffrwyth dy gorph y gosodaf ar dy orseddfainge.
12 Os ceidw dy feibion fy nghyfammod a'm tystiolaeth, y rhai a ddysgwyf iddynt; eu meibion hwythau yn dragywydd a eisteddant ar dy orseddfainge.
13 Canys dewisodd yr ARGLWYDD Sïon: *ac a'i* chwennychodd yn drigfa iddo ei hun.
14 Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd: yma y trigaf; canys chwennychais hi.
15 Gan fendithio y bendithiaf ei lluniaeth: diwallaf ei thlodion â bara.
16 Ei hoffeiriaid hefyd a wisgaf âg iachawdwriaeth: a'i saint dan ganu a ganant.
17 Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro: darperais lamp i'm Henneiniog.
18 Ei elynion ef a wisgaf â chywilydd: arno yntau y blodeua ei goron.

PSALM 133.

Budd cymmundeb y saint.

Caniad y graddau, o'r eiddo Dafydd.

WELE, mor ddaionus ac mor hyfryd *yw* trigo o frodyr ynghyd!
2 *Y mae* fel yr ennaint gwerthfawr ar y pen, yn disgyn ar hyd y farf, *sef* barf Aaron; yr hwn *oedd* yn disgyn ar hyd ymyl ei wisgoedd ef:
3 Fel gwlith Hermon, *ac fel y gwlith* yn disgyn ar fynyddoedd Sïon: canys yno y gorchymynodd yr ARGLWYDD y fendith, *sef* bywyd yn dragywydd.

PSALM 134.

Y mae yn annog i fendithio Duw.

Caniad y graddau.

WELE, holl weision yr ARGLWYDD, bendithiwch yr ARGLWYDD, y rhai ydych yn sefyll yn nhŷ yr ARGLWYDD y NOS.
2 Dyrchefwch eich dwylaw *yn* y cyssegr; a bendithiwch yr ARGLWYDD.
3 Yr ARGLWYDD yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, a'th fendithio di allan o Sïon.

PSALM 135.

1 Y mae yn annog i glodfori Duw, am ei drugaredd, 5 am ei allu, 8 ac am ei farnedigaethau. 15 Ofered yw eilunod. 19 Y mae yn annog i fendithio Duw.

MOLWCH yr ARGLWYDD. Molwch enw yr ARGLWYDD; gweision yr ARGLWYDD, molwch *ef*.
2 Y rhai ydych yn sefyll yn nhŷ yr ARGLWYDD, y'nghynteddoedd tŷ ein DUW ni,
3 Molwch yr ARGLWYDD; canys da *yw* yr ARGLWYDD: cenwch i'w enw; canys hyfryd *yw*.
4 Oblegid yr ARGLWYDD a ddethololdd Jacob iddo ei hun, *ac* Israel yn brïodoriaeth iddo.
5 Canys mi a wn mai mawr *yw* yr ARGLWYDD; a *bod* ein Harglwydd ni goruwch yr holl dduwiau.
6 Yr ARGLWYDD a wnaeth yr hyn oll a fynnai yn y nefoedd, ac yn y ddaear, yn y môr, ac yn yr holl ddyfnderau.
7 Y mae yn codi tarth o eithafoedd y ddaear; mellt a wnaeth efe ynghyd â'r gwlaw; gan ddwyn y gwynt allan o'i drysorau.
8 Yr hwn a darawodd gyntaf-anedig yr Aipht, yn ddyn ac yn anifail.
9 Danfonodd arwyddion a rhyfeddodau i'th ganol di, yr Aipht; ar Pharaoh, ac ar ei holl weision.
10 Yr hwn a darawodd genhedloedd lawer, ac a laddodd frenhinoedd cryfion;
11 Sehon brenhin yr Amoriaid, ac Og brenhin Basan, a holl frenhiniaethau Canaan:
12 Ac a roddodd eu tir hwynt *yn* etifeddiaeth, yn etifeddiaeth i Israel ei bobl.
13 Dy enw, O ARGLWYDD, *a bery* yn dragywydd; dy goffadwriaeth, O ARGLWYDD, o genhedlaeth i genhedlaeth.
14 Canys yr ARGLWYDD a farna ei bobl, a bydd edifar ganddo o ran ei weision.
15 Delwau y cenhedloedd *ydynt* arian ac aur, gwaith dwylaw dyn.
16 Genau sydd iddynt, ond ni lefarant; llygaid sydd ganddynt, ond ni welant.
17 Y mae clustiau iddynt, ond ni chlywant; nid oes chwaith anadl yn eu genau.
18 Fel hwynt y mae y rhai a'u gwnant, a phob un a ymddiriedo ynddynt.
19 Tŷ Israel, bendithiwch yr ARGLWYDD: bendithiwch yr ARGLWYDD, tŷ Aaron.
20 Tŷ Lefi, bendithiwch yr ARGLWYDD: y rhai a ofnwch yr ARGLWYDD, bendithiwch yr ARGLWYDD.
21 Bendithier yr ARGLWYDD o Sïon, yr hwn sydd yn trigo yn Jerusalem. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 136.

Y mae yn annog i foliannu Duw am ei drugareddau neilldiol.

CLODFORWCH yr ARGLWYDD; canys da *yw:* o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
2 Clodforwch DDUW y duwiau: oblegid ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
3 Clodforwch ARGLWYDD yr arglwyddi: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
4 Yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau: canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
5 Yr hwn a wnaeth y nefoedd mewn doethineb: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
6 Yr hwn a estynodd y ddaear oddi ar y dyfroedd: oblegid ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
7 Yr hwn a wnaeth oleuadau mawrion: canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
8 Yr haul, i lywodraethu y dydd: canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
9 Y lleuad a'r sêr, i lywodraethu y nos: canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
10 Yr hwn a darawodd yr Aipht yn eu cyntaf-anedig: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:

11 Ac a ddug Israel o'u mysg hwynt: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
12 A llaw gref, ac â braich estynedig: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
13 Yr hwn a rannodd y môr coch yn ddwy ran: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
14 Ac a wnaeth i Israel fyned trwy ei ganol: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
15 Ac a ysgytiodd Pharaoh a'i lu yn y môr coch: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
16 Ac a dywysodd ei bobl trwy yr anialwch: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
17 Yr hwn a darawodd frenhinoedd mawrion: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
18 Ac a laddodd frenhinoedd ardderchog: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
19 Sehon brenhin yr Amoriaid: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
20 Ac Og brenhin Basan: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
21 Ac a roddodd eu tir hwynt yn etifeddiaeth: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
22 Yn etifeddiaeth i Israel ei was: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
23 Yr hwn yn ein hiselradd a'n cofiodd ni: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd:
24 Ac a'n hachubodd ni oddi wrth ein gelynion: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
25 Yr hwn sydd yn rhoddi ymborth i bob cnawd: canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.
26 Clodforwch DDUW y nefoedd: canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

PSALM 137.

1 *Dianwadalwch yr Iuddewon mewn caethiwed.*
7 *Y prophwyd yn melldithio Edom a Babel.*

WRTH afonydd Babilon, yno yr eisteddasom, ac wylasom, pan feddyliasom am Sïon.
2 Ar yr helyg o'u mewn y crogasom ein telynau.
3 Canys yno y gofynodd y rhai a'n caethiwasent i ni gân; a'r rhai a'n hanrheithiasai, lawenydd, *gan ddywedyd;* Cenwch i ni *rai* o ganiadau Sïon.
4 Pa fodd y canwn gerdd yr ARGLWYDD mewn gwlad ddïeithr?
5 Os anghofiaf di, Jerusalem, anghofied fy neheulaw *ganu.*
6 Glyned fy nhafod wrth daflod fy ngenau, oni chofiaf di; oni chodaf Jerusalem goruwch fy llawenydd pennaf.
7 Cofia, ARGLWYDD, blant Edom yn nydd Jerusalem; y rhai a ddywedent, Dinoethwch, dinoethwch *hi,* hyd ei sylfaen.
8 O ferch Babilon, a anrheithir: gwyn *ei* fyd a dalo i ti fel y gwnaethost i ninnau.
9 Gwyn *ei* fyd a gymmero ac a darawo dy rai bach wrth y meini.

PSALM 138.

1 *Dafydd yn moliannu Duw am wirionedd ei air:* 4 *yn prophwydo y bydd i frenhinoedd y ddaear folianniu Duw;* 7 *yn dangos ei ymddiried yn Nuw.*

Psalm Dafydd.

CLODFORAF di â'm holl galon: y'ngŵydd y duwiau y canaf i ti.
2 Ymgrymmaf tu a'th deml sanctaidd, a chlodforaf dy enw, am dy drugaredd a'th wirionedd: oblegid ti a fawrheaist dy air uwch law dy enw oll.
3 Y dydd y llefais, y'm gwrandewaist; ac a'm cadarnheaist *â* nerth yn fy enaid.
4 Holl frenhinoedd y ddaear a'th glodforant, O ARGLWYDD, pan glywant eiriau dy enau.
5 Canant hefyd am ffyrdd yr ARGLWYDD: canys mawr *yw* gogoniant yr ARGLWYDD.
6 Er *bod* yr ARGLWYDD yn uchel, etto efe a edrych ar yr isel: ond y balch a edwyn efe o hirbell.
7 Pe rhodiwn y'nghanol cyfyngder, ti a'm bywhêit: estynit dy law yn erbyn digofaint fy ngelynion, a'th ddeheulaw a'm hachubai.
8 Yr ARGLWYDD a gyflawna â mi: dy drugaredd, ARGLWYDD, *sydd* yn dragywydd: nac esgeulusa waith dy ddwylaw.

PSALM 139.

1 *Dafydd yn moliannu Duw am ei ragluniaeth sydd yn canfod pob peth:* 19 *yn pleiddio yr annuwiol:* 23 *yn gweddïo am burdeb.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

ARGLWYDD, chwiliaist, ac adnabuost fi.
2 Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad: dealli fy meddwl o bell.
3 Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa; a hysbys wyt *yn* fy holl ffyrdd.
4 Canys nid *oes* air ar fy nhafod, *ond* wele, ARGLWYDD, ti a'i gwyddost oll.
5 Amgylchynaist fi yn ol ac ym mlaen, a gosodaist dy law arnaf.
6 *Dyma* wybodaeth ry ryfedd i mi: uchel yw, ni fedraf oddi wrthi.
7 I ba le yr âf oddi wrth dy yspryd? ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd?
8 Os dringaf i'r nefoedd, yno *yr wyt* ti: *os* cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele di *yno.*
9 *Pe* cymmerwn adenydd y wawr, *a phe* trigwn yn eithafoedd y môr:
10 Yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw.
11 Pe dywedwn, Dïau y tywyllwch a'm cuddiai; yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch.
12 Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd: un ffunud *yw* tywyllwch a goleuni *i ti.*
13 Canys ti a feddiennaist fy arennau: toaist fi y'nghroth fy mam.
14 Clodforaf di; canys ofnadwy *a* rhyfedd y'm gwnaed: rhyfedd *yw* dy weithredoedd; a'm henaid a ŵyr *hynny* yn dda.
15 Ni chuddiwyd fy sylwedd oddi wrthyt, pan y'm gwnaethpwyd yn ddirgel, *ac* y'm cywreiniwyd yn iselder y ddaear.
16 Dy lygaid a welsant fy anelwig ddefnydd; ac yn dy lyfr di yr ysgrifenwyd *hwynt* oll, y dydd y lluniwyd hwynt, pan nad *oedd* yr un o honynt.
17 Am hynny mor werthfawr yw dy feddyliau gennyf, O DDUW! mor fawr yw eu swm hwynt!
18 *Pe* cyfrifwn hwynt, amlach ydynt na'r tywod: pan ddeffrôwyf, gyd â thi yr ydwyf yn wastad.
19 Yn ddïau, O DDUW, ti a leddi yr annuwiol: am hynny y gwŷr gwaedlyd, ciliwch oddi wrthyf:
20 Y rhai a ddywedant ysgelerder yn dy erbyn; dy elynion a gymmerant *dy enw* yn ofer.
21 Onid cas gennyf, O ARGLWYDD, dy gaseion di? onid ffiaidd gennyf y rhai a gyfodant i'th erbyn?
22 A chas cyflawn y caseais hwynt: cyfrifais hwynt i mi yn elynion.
23 Chwilia fi, O DDUW, a gwybydd fy nghalon: prawf fi, a gwybydd fy meddyliau;
24 A gwel a *oes* ffordd annuwiol gennyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol.

PSALM 140.

1 *Dafydd yn gweddïo am gael ei waredu oddi wrth Saul a Dôeg:* 8 *yn gweddïo yn eu herbyn hwy:* 12 *yn ymgysuro, trwy ymddiried yn Nuw.*

I'r Pencerdd, Psalm Dafydd.

GWARED fi, O ARGLWYDD, oddi wrth y dyn drwg: cadw fi rhag y gŵr traws:
2 Y rhai sydd yn bwriadu drygioni yn *eu* calon: ymgasglant beunydd *i* ryfel.
3 Golymmasant eu tafodau fel sarph: gwenwyn asp *sydd* dan eu gwefusau. Selah.
4 Cadw fi, O ARGLWYDD, rhag dwylaw yr annuwiol; cadw fi rhag y gŵr traws: y rhai a fwriadasant fachellu fy nhraed.
5 Y beilchion a guddiasant faglau i mi, *ac* a estynasant rwyd wrth dannau ar ymyl y llwybrau: gosodasant hoenynnau ar fy medr. Selah.
6 Dywedais wrth yr ARGLWYDD, Fy NUW *ydwyt* ti: clyw, O ARGLWYDD, lef fy ngweddïau.
7 ARGLWYDD DDUW, nerth fy iachawdwriaeth, gorchuddiaist fy mhen yn nydd brwydr.
8 Na chaniattâ, ARGLWYDD, ddymuniad yr annuwiol: na lwydda ei ddrwg feddwl; *rhag* eu balchïo hwynt. Selah.
9 Y pennaf o'r rhai a'm hamgylchyno, blinder eu gwefusau a'u gorchuddio.
10 Syrthied marwor arnynt: *a* bwrier hwynt yn tân; *ac* mewn ceuffosydd, fel na chyfodant.
11 Na sicrhâer dyn siaradus ar y

ddaear: drwg a hela y gŵr traws i'w ddistryw.

12 Gwn y dadleu yr ARGLWYDD ddadl y truan, *ac* y barna efe y tlodion.

13 Y cyfiawn yn ddïau a glodforant dy enw di: y rhai uniawn a drigant ger dy fron di.

PSALM 141.

1 *Dafydd yn gweddio ar fod ei arch ef yn gymmeradwy, 3 a'i gydwybod yn bur, 7 a'i eiriioes yn ddïogel oddi wrth faglau.*

Psalm Dafydd.

ARGLWYDD, yr wyf yn gwaeddi arnat: brysia attaf; clyw fy llais, pan lefwyf arnat.

2 Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron *fel* arogl-darth, *a* dyrchafiad fy nwylaw *fel* yr offrwm prydnhawnol.

3 Gosod, ARGLWYDD, gadwraeth o flaen fy ngenau: cadw ddrws fy ngwefusau.

4 Na ostwng fy nghalon at *ddim* drwg, i fwriadu gweithredoedd drygioni gyd â gwŷr a weithredant anwiredd: ac na âd i mi fwytta o'u danteithion hwynt.

5 Cured y cyfiawn fi yn garedig, a cherydded fi: na thorred *eu* holew pennaf *hwynt* fy mhen: canys fy ngweddi *fydd* etto yn eu drygau hwynt.

6 Pan dafler eu barnwyr i lawr mewn lleoedd carregog, clywant fy ngeiriau; canys melus ydynt.

7 Y mae ein hesgyrn ar wasgar ar fin y bedd, megis un yn torri neu yn hollti *coed* ar y ddaear.

8 Eithr arnat ti, O ARGLWYDD DDUW, *y mae* fy llygaid: ynot ti y gobeithiais; na âd fy enaid yn ddïymgeledd.

9 Cadw fi rhag y fagl a osodasant i mi, a hoenynnau gweithredwyr anwiredd.

10 Cyd-gwymped y rhai annuwiol yn eu rhwydau eu hun, tra yr elwyf fi heibio.

PSALM 142.

Dafydd yn dangos mai gweddio Duw oedd ei holl gysur ef mewn trallod.

Maschil Dafydd; Gweddi pan oedd efe yn yr ogof.

GWAEDDAIS â'm llef ar yr ARGLWYDD; â'm llef yr ymbiliais â'r ARGLWYDD.

2 Tywalltais fy myfyrdod o'i flaen ef; a mynegais fy nghystudd ger ei fron ef.

3 Pan ballodd fy yspryd o'm mewn, tithau a adwaenit fy llwybr. Yn y ffordd y rhodiwn, y cuddiasant i mi fagl.

4 Edrychais ar y tu dehau, a deliais sylw, ac nid *oedd* neb a'm hadwaenai: pallodd nodded i mi; nid *oedd* neb yn ymofyn am fy enaid.

5 Llefais arnat, O ARGLWYDD; *a* dywedais, Ti *yw* fy ngobaith, *a*'m rhan yn nhir y rhai byw.

6 Ystyr wrth fy ngwaedd; canys truan iawn ydwyf: gwared fi oddi wrth fy erlidwyr; canys trech ydynt na mi.

7 Dwg fy enaid allan o garchar, fel y moliannwyf dy enw: y rhai cyfiawn a'm cylchynant; canys ti a fyddi da wrthyf.

PSALM 143.

1 *Dafydd yn gweddïo am ffafr mewn barn; 3 yn cwyno rhag ei ofidiau: 5 yn cadarnhau ei ffydd trwy fyfyrio a gweddio: 7 yn gweddïo am ras, 9 am ymwared, 10 am sancteiddrwydd, 12 am ddinystr ar ei elynion.*

Psalm Dafydd.

ARGLWYDD, clyw fy ngweddi, *a* gwrando ar fy neisyfiadau: erglyw fi yn dy wirionedd, *ac* yn dy gyfiawnder.

2 Ac na ddos i farn â'th was: o herwydd ni chyfiawnhêir neb byw yn dy olwg di.

3 Canys y gelyn a erlidiodd fy enaid: curodd fy enaid i lawr: gwnaeth i mi drigo mewn tywyllwch, fel y rhai a fu feirw er ys talm.

4 Yna y pallodd fy yspryd o'm mewn: *ac* y synnodd fy nghalon ynof.

5 Cofiais y dyddiau gynt; myfyriais ar dy holl waith: *ac* y'ngweithredoedd dy ddwylaw y myfyriaf.

6 Lledais fy nwylaw attat: fy enaid fel tir sychedig *sydd yn hiraethu* am danat. Selah.

7 O ARGLWYDD, gwrando fi yn ebrwydd: pallodd fy yspryd: na chuddia dy wyneb oddi wrthyf; rhag fy mod yn gyffelyb i'r rhai a ddisgynant i'r pwll.

8 Pâr i mi glywed dy drugarowgrwydd y bore; o herwydd ynot ti y gobeithiaf: pâr i mi wybod y

ffordd y rhodiwyf; oblegid attat ti y dyrchafaf fy enaid.

9 Gwared fi oddi wrth fy ngelynion, O ARGLWYDD: gyd â thi yr ymguddiais.

10 Dysg i mi wneuthur dy ewyllys di; canys ti *yw* fy NUW: tywysed dy yspryd daionus fi i dir uniondeb.

11 Bywhâ fi, O ARGLWYDD, er mwyn dy enw: dwg fy enaid allan o ing, er mwyn dy gyfiawnder.

12 Ac er dy drugaredd dinystria fy ngelynion, a difetha holl gystuddwyr fy enaid: oblegid dy was di *ydwyf* fi.

PSALM 144.

1 *Dafydd yn bendithio Duw am ei drugaredd tu ag atto ef, a thu ag at bob dyn: 5 yn gweddio ar i Dduw yn alluog ei waredu ef oddi wrth ei elynion: 9 yn addaw bendithio Duw:* 11 *yn gweddio dros ddeiwyddd gyfiwr y deyrnas.*

Psalm Dafydd.

BENDIGEDIG *fyddo* yr ARGLWYDD fy nerth, yr hwn sydd yn dysgu fy nwylaw i ymladd, *a*'m bysedd i ryfela.

2 Fy nhrugaredd, a'm hamddiffynfa; fy nhŵr, a'm gwaredydd: fy nharian *yw efe*, ac yndd o gobeithiais; yr hwn sydd yn darostwng fy mhobl danaf.

3 ARGLWYDD, beth *yw* dyn, pan gydnabyddit ef? *neu* fab dyn, pan wneit gyfrif o hono?

4 Dyn sydd debyg i wagedd; ei ddyddiau *sydd* fel cysgod yn myned heibio.

5 ARGLWYDD, gostwng dy nefoedd, a disgyn: cyffwrdd â'r mynyddoedd, a mygant.

6 Saetha fellt, a gwasgar hwynt; ergydia dy saethau, a difa hwynt.

7 Anfon dy law oddi uchod; achub a gwared fi o ddyfroedd mawrion, o law plant estron;

8 Y rhai y llefara eu genau wagedd, ac *y mae* eu deheulaw yn ddeheulaw ffalsder.

9 Canaf i ti, O DDUW, ganiad newydd: ar y nabl *a*'r degtant y canaf i ti.

10 *Efe* sydd yn rhoddi iachawdwriaeth i frenhinoedd; yr hwn sydd yn gwaredu Dafydd ei was oddi wrth y cleddyf niweidiol.

11 Achub fi, a gwared fi o law meibion estron, y rhai y llefara eu genau wagedd, ac *y mae* eu deheulaw yn ddeheulaw ffalsder:

12 Fel *y byddo* ein meibion fel planwydd yn tyfu yn eu hieuengctid; *a*'n merched fel conglfaen nadd, wrth gyffelybrwydd palas:

13 *Fel y byddo* ein celloedd yn llawn, yn trefnu pob rhyw luniaeth; *a*'n defaid yn dwyn miloedd a myrddiwn yn ein heolydd:

14 *A*'n hychain yn gryfion i lafurio; heb na rhuthro i mewn, na myned allan; na gwaedd yn ein heolydd.

15 Gwyn *eu* byd y bobl *y mae* felly iddynt: gwyn *eu* byd y bobl *y mae* yr ARGLWYDD yn DDUW iddynt.

PSALM 145.

1 *Dafydd yn moliannu Duw, o herwydd ei enw,* 8 *ei ddaioni,* 11 *ei frenhiniaeth,* 14 *ei ragddarbodaeth,* 17 *a'i drugaredd yn achub.*

Psalm Dafydd o foliant.

DYRCHAFAF di, fy NUW, O Frenhin; a bendithiaf dy enw byth ac yn dragywydd.

2 Beunydd y'th fendithiaf; a'th enw a folaf byth ac yn dragywydd.

3 Mawr *yw* yr ARGLWYDD, a chanmoladwy iawn; a'i fawredd *sydd* anchwiliadwy.

4 Cenhedlaeth wrth genhedlaeth a fawl dy weithredoedd, ac a fynega dy gadernid.

5 Ardderchowgrwydd gogoniant dy fawredd, a'th bethau rhyfedd, a draethaf.

6 Traethant hwy gadernid dy weithredoedd ofnadwy: mynegaf finnau dy fawredd.

7 Coffadwriaeth amlder dy ddaioni a draethant; a'th gyfiawnder a ddatganant.

8 Graslawn a thrugarog *yw* yr ARGLWYDD; hwyrfrydig i ddig, a mawr *ei* drugaredd.

9 Daionus *yw* yr ARGLWYDD i bawb: a'i drugaredd *sydd* ar ei holl weithredoedd.

10 Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O ARGLWYDD; a'th saint a'th fendithiant.

11 Dywedant am ogoniant dy frenhiniaeth; a thraethant dy gadernid:

12 I beri i feibion dynion adna-

bod ei gadernid ef, a gogoniant ardderchowgrwydd ei frenhiniaeth.

13 Dy frenhiniaeth di *sydd* frenhiniaeth dragywyddol: a'th lywodraeth *a bery* yn oes oesoedd.

14 Yr ARGLWYDD sydd yn cynnal y rhai oll a syrthiant, ac sydd yn codi pawb a ddarostyngwyd.

15 Llygaid pob peth a ddisgwyliant wrthyt; ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd;

16 Gan agoryd dy law, a diwallu pob peth byw *â'th* ewyllys da.

17 Cyfiawn *yw* yr ARGLWYDD yn ei holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd.

18 Agos *yw* yr ARGLWYDD at y rhai oll a alwant arno, at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd.

19 Efe a wna ewyllys y rhai a'i hofnant: gwrendy hefyd eu llefain, ac a'u hachub hwynt.

20 Yr ARGLWYDD sydd yn cadw pawb a'i carant ef; ond yr holl rai annuwiol a ddifetha efe.

21 Traetha fy ngenau foliant yr ARGLWYDD: a bendithied pob cnawd ei enw sanctaidd ef byth ac yn dragywydd.

PSALM 146.

1 *Y Psalmydd yn addunedu moliant gwastadol i Dduw: 3 yn annog na hyderer ar ddyn. 5 Duw yn unig, o herwydd ei allu, a'i gyfiawnder, a'i drugaredd, a'i frenhiniaeth, sydd wiw hyderu arno.*

MOLWCH yr ARGLWYDD. Fy enaid, mola di yr ARGLWYDD.

2 Molaf yr ARGLWYDD yn fy myw: canaf i'm DUW tra fyddwyf.

3 Na hyderwch ar dywysogion, *nac* ar fab dyn, yr hwn nid *oes* iachawdwriaeth ynddo.

4 Ei anadl a â allan, efe a ddychwel i'w ddaear: y dydd hwnnw y derfydd am ei *holl* amcanion ef.

5 Gwyn *ei* fyd yr hwn *y mae* DUW Jacob yn gymmorth iddo, *sydd* â'i obaith yn yr ARGLWYDD ei DDUW:

6 Yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, y môr, a'r hyn oll *y sydd* ynddynt: yr hwn sydd yn cadw gwirionedd yn dragywydd:

7 Yr hwn sydd yn gwneuthur barn i'r rhai gorthrymmedig, yn rhoddi bara i'r newynog. Yr ARGLWYDD sydd yn gollwng y carcharorion yn rhydd.

8 Yr ARGLWYDD sydd yn agoryd *llygaid* y deillion: yr ARGLWYDD sydd yn codi y rhai a ddarostyngwyd: yr ARGLWYDD sydd yn hoffi y rhai cyfiawn.

9 Yr ARGLWYDD sydd yn cadw y dïeithriaid: efe a gynnal yr amddifad a'r weddw; ac a ddadymchwel ffordd y rhai annuwiol.

10 Yr ARGLWYDD a deyrnasa byth, *sef* dy DDUW di, Sïon, dros genhedlaeth a chenhedlaeth. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 147.

1 *Y prophwyd yn annog i foliannu Duw, am ei ofal dros ei eglwys; 5 am ei allu, 6 a'i drugaredd, 7 a'i ragluniaeth, 12 a'i fendithion ar y deyrnas; 15 a'i allu ar y rhew a'r eira, a phob tywydd arall; 19 a'i ddeddfau yn yr eglwys.*

MOLWCH yr ARGLWYDD: canys da *yw* canu i'n DUW ni; o herwydd hyfryd *yw*, ïe, gweddus yw mawl.

2 Yr ARGLWYDD sydd yn adeiladu Jerusalem: efe a gasgl wasgaredigion Israel.

3 Efe sydd yn iachâu y rhai briwedig o galon, ac yn rhwymo eu doluriau.

4 Y mae efe yn rhifo rhifedi y sêr: geilw hwynt oll wrth *eu* henwau.

5 Mawr *yw* ein HARGLWYDD, a mawr ei nerth: aneirif *yw* ei ddeall.

6 Yr ARGLWYDD sydd yn dyrchafu y rhai llariaidd, gan ostwng y rhai annuwiol hyd lawr.

7 Cydgenwch i'r ARGLWYDD mewn dïolchgarwch: cenwch i'n DUW â'r delyn;

8 Yr hwn sydd yn toi y nefoedd â chymmylau, yn parottôi gwlaw i'r ddaear, gan beri i'r gwellt dyfu ar y mynyddoedd.

9 Efe sydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant, *ac* i gywion y gigfran, pan lefant.

10 Nid oes hyfrydwch ganddo yn nerth march: *ac* nid ymhoffa efe yn esgeiriau gŵr.

11 Yr ARGLWYDD sydd hoff ganddo y rhai a'i hofnant ef; *sef* y rhai a ddisgwyliant wrth ei drugaredd ef.

12 Jerusalem, mola di yr ARGLWYDD: Sïon, molianna dy DDUW.

13 O herwydd efe a gadarnhaodd farrau dy byrth: efe a fendithiodd dy blant o'th fewn.

14 Yr hwn sydd yn gwneuthur dy fro yn heddychol, *ac* a'th ddiwalla di â brasder gwenith.
15 Yr hwn sydd yn anfon ei orchymyn *ar* y ddaear: *a*'i air a rêd yn dra buan.
16 Yr hwn sydd yn rhoddi eira fel gwlan; *ac* a daena rew fel lludw.
17 Yr hwn sydd yn bwrw ei iâ fel tammeidiau: pwy a erys gan ei oerni ef?
18 Efe a enfyn ei air, ac a'u tawdd hwynt: *a*'i wynt y chwŷth efe, *a*'r dyfroedd a lifant.
19 Y mae efe yn mynegi ei eiriau i Jacob, ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Israel.
20 Ni wnaeth efe felly âg un genedl; ac nid adnabuant ei farnedigaethau ef. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 148.

1 *Y Psalmydd yn annog y creaduriaid nefol, 7 a daearol,* 11 *a rhesymmol, i foliannu Duw.*

MOLWCH yr ARGLWYDD. Molwch yr ARGLWYDD o'r nefoedd: molwch ef yn yr ucheldera.
2 Molwch ef, ei holl angylion: molwch ef, ei holl luoedd.
3 Molwch ef, haul a lleuad: molwch ef, yr holl sêr goleuni.
4 Molwch ef, nef y nefoedd; a'r dyfroedd y rhai *ydych* oddi ar y nefoedd.
5 Molant enw yr ARGLWYDD: o herwydd efe a orchymynodd, a hwy a grëwyd.
6 A gwnaeth iddynt barhâu byth yn dragywydd: gosododd ddeddf, ac nis troseddir hi.
7 Molwch yr ARGLWYDD o'r ddaear, y dreigiau, a'r holl ddyfnderau:
8 Tân a chenllysg, eira a tharth; gwynt ystormus, yn gwneuthur ei air ef:
9 Y mynyddoedd a'r bryniau oll; y coed ffrwythlawn a'r holl gedrwydd:
10 Y bwystfilod a phob anifail; yr ymlusgiaid ac adar asgellog:
11 Brenhinoedd y ddaear a'r holl bobloedd; tywysogion a holl farnwyr y byd:
12 Gwŷr ieuainge a gwyryfon hefyd; henafgwyr a llangciau:
13 Molant enw yr ARGLWYDD: o herwydd ei enw ef yn unig sydd ddyrchafadwy; ei ardderchowgrwydd ef *sydd* uwch law daear a nefoedd.
14 Ac efe sydd yn dyrchafu corn ei bobl, moliant ei holl saint; *sef* meibion Israel, pobl agos atto. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 149.

1 *Y prophwyd yn annog i foliannu Duw, am ei gariad tu ag at yr eglwys,* 5 *ac am y galtu a roddes efe iw eglwys.*

MOLWCH yr ARGLWYDD. Canwch i'r ARGLWYDD ganiad newydd, *a*'i foliant ef y'nghynulleidfa y saint.
2 Llawenhâed Israel yn yr hwn a'i gwnaeth: gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenhin.
3 Molant ei enw ef ar y dawns: canant iddo ar dympan a thelyn.
4 O herwydd hoffodd yr ARGLWYDD ei bobl: efe a brydfertha y rhai llednais â iachawdwriaeth.
5 Gorfoledded y saint mewn gogoniant: a chanant ar eu gwelŷau.
6 *Bydded* ardderchog *foliant* DUW yn eu genau, a chleddyf dau-finiog yn eu dwylaw;
7 I wneuthur dïal ar y cenhedloedd, *a* chosp ar y bobloedd;
8 I rwymo eu brenhinoedd â chadwynau, a'u pendefigion â gefynnau heiyrn;
9 I wneuthur arnynt y farn ysgrifenedig: yr ardderchowgrwydd hwn sydd i'w holl saint ef. Molwch yr ARGLWYDD.

PSALM 150.

1 *Y mae yn annog i foliannu Duw,* 3 *â phob math ar offer cerdd.*

MOLWCH yr ARGLWYDD. Molwch DDUW yn ei sancteiddrwydd: molwch ef yn ffurfafen ei nerth.
2 Molwch ef am ei gadernid: molwch ef yn ol amlder ei fawredd.
3 Molwch ef â llais udgorn: molwch ef â nabl ac â thelyn.
4 Molwch ef â thympan ac â dawns: molwch ef â thannau ac âg organ.
5 Molwch ef â symbalau soniarus: molwch ef â symbalau llafar.
6 Pob perchen anadl, molianned yr ARGLWYDD. Molwch yr ARGLWYDD.

LLYFR Y DIARHEBION.

PENNOD 1.

1 *Arfer y diarhebion.* 7 *Cynghor i ofni Duw, ac i gredu ei air;* 10 *i ochel hûd pechaduriaid.* 20 *Doethineb yn cwyno fod yn ei dïystyru hi,* 24 *ac yn bygwth y rhai a'i dïystyrent.*

DIARHEBION Solomon mab Dafydd, brenhin Israel;
2 I wybod doethineb ac addysg, i ddeall geiriau synwyr;
3 I gymmeryd athrawiaeth deall, cyfiawnder, a barn, ac uniondeb;
4 I roi callineb i'r anghall, ac i'r bachgen wybodaeth a synwyr.
5 Y doeth a wrendy, ac a chwanega addysg; a'r deallgar a ddaw i gynghorion pwyllog:
6 I ddeall dïareb, a'i dehongl; geiriau y doethion, a'u damhegion.
7 ¶ Ofn yr ARGLWYDD *yw* dechreuad gwybodaeth: *ond* ffyliaid a ddïystyrant ddoethineb ac addysg.
8 Fy mab, gwrando addysg dy dad, ac nac ymadaw â chyfraith dy fam:
9 Canys cynnydd gras *a fyddant* hwy i'th ben, a chadwyni am dy wddf di.
10 ¶ Fy mab, os pechaduriaid a'th ddenant, na chyttuna.
11 Os dywedant, Tyred gyd â ni, cynllwynwn am waed, ymguddiwn yn erbyn y gwirion yn ddïachos:
12 Llyngcwn hwy yn fyw, fel y bedd; ac yn gyfan, fel rhai yn disgyn i'r pydew:
13 Nyni a gawn bob cyfoeth gwerthfawr, nyni a lanwn ein tai âg yspail:
14 Bwrw dy goelbren yn ein mysg; bydded un pwrs i ni i gyd:
15 Fy mab, na rodia yn y ffordd gyd â hwynt; attal dy droed rhag eu llwybr hwy.
16 Canys eu traed a redant i ddrygioni, ac a brysurant i dywallt gwaed.
17 Dïau gwaith ofer yw taenu rhwyd y'ngolwg pob perchen aden.
18 Ac y maent hwy yn cynllwyn am *eu* gwaed *eu hun:* am *eu* heinioes *eu hun* y maent yn llechu.
19 Felly *y mae* llwybrau y rhai oll sydd chwannog i elw; *yr hwn* a ddwg einioes ei berchennogion.
20 ¶ Doethineb sydd yn gweiddi oddi allan; y mae hi yn adrodd ei lleferydd yn yr heolydd:
21 Y mae hi yn llefain ym mhrifleoedd y dyrfa, yn nrysau y pyrth; yn y ddinas y mae hi yn traethu ei hymadroddion, *gan ddywedyd,*
22 Pa hyd, chwi ynfydion, y cerwch ynfydrwydd? a chwi watwarwyr, y bydd hoff gennych watwar? ac y casâ ffyliaid wybodaeth?
23 Dychwelwch wrth fy ngherydd: wele, mi a dywalltaf fy yspryd i chwi, fy ngeiriau a hysbysaf i chwi.
24 ¶ Yn gymmaint ag i mi *eich* gwahodd, ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried;
25 Ond dïystyrasoch fy holl gynghor i, ac ni fynnech ddim o'm cerydd:
26 Minnau hefyd a chwarddaf yn eich dïaledd chwi; mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni;
27 Pan ddêl arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni megis distryw, ac y dêl eich dïaledd arnoch megis corwynt; a dyfod arnoch wasgfa a chaledi:
28 Yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn fore y'm ceisiant, ond ni'm cânt:
29 Canys cas fu ganddynt wybodaeth, ac ofn yr ARGLWYDD ni ddewisasant:
30 Ni chymmerent ddim o'm cynghor i; dirmygasant fy holl gerydd.
31 Am hynny hwy a gânt fwytta ffrwyth eu ffordd eu hunain, a'u llenwi â'u cynghorion eu hunain.
32 Canys esmwythdra y rhai anghall a'u lladd; a llwyddiant y rhai ffol a'u difetha.
33 Er hynny y sawl a wrandawo arnaf fi, a gaiff aros yn ddïogel, ac a gaiff lonyddwch oddi wrth ofn drwg.

PENNOD 2.

1 *Doethineb yn addaw duwioldeb i'w phlant,* 10 *a drogelwch rhag cyfeillach ddrwg,* 20 *a chyfarwyddyd mewn ffyrdd da.*

FY mab, os derbyni di fy ngeiriau, ac os cuddi fy ngorchymynion gyd â thi;
2 Fel y parech i'th glust wrandaw ar ddoethineb, *ac* y gogwyddech dy galon at ddeall;
3 Ië, os gwaeddi ar ol gwybodaeth, os cyfodi dy lef am ddeall;
4 Os ceisi hi fel arian, os chwili am dani fel *am* drysorau cuddiedig;
5 Yna y cei ddeall ofn yr ARGLWYDD, ac y cei wybodaeth o DDUW.
6 Canys yr ARGLWYDD sydd yn rhoi doethineb: allan o'i enau ef *y mae* gwybodaeth a deall *yn dyfod.*
7 Y mae ganddo y'nghadw i'r rhai uniawn wir ddoethineb: tarian *yw efe* i'r sawl a rodiant yn uniawn.
8 Y mae efe yn cadw llwybrau barn, ac yn cadw ffordd ei saint.
9 Yna y cei di ddeall cyfiawnder, a barn, ac uniondeb, a phob llwybr daionus.
10 ¶ Pan ddelo doethineb i mewn i'th galon, a phan fyddo hyfryd gan dy enaid wybodaeth;
11 Yna cynghor a'th gynnal, a synwyr a'th geidw:
12 I'th achub di oddi wrth y ffordd ddrwg, ac oddi wrth y dyn a lefaro drawsedd;
13 Y rhai a ymadawant â llwybrau uniondeb, i rodio mewn ffyrdd tywyllwch;
14 Y rhai a ymlawenychant i wneuthur drwg, *ac* a ymddigrifant yn anwiredd y drygionus;
15 Y rhai sydd â'u ffyrdd yn geimion, ac yn gildyn yn eu llwybrau:
16 I'th wared oddi wrth y fenyw estronaidd, oddi wrth y ddïeithr wenhieithus ei geiriau;
17 Yr hon a ymedy â llywodraethwr ei hieuengctid, ac a ollwng dros gôf gyfammod ei DUW.
18 Canys y mae ei thŷ yn gŵyro at angau, a'i llwybrau at y meirw.
19 Pwy bynnag a elo i mewn atti hi, ni ddychwelant, ac nid ymafaelant yn llwybrau y bywyd.
20 Fel y rhodiech di ar hyd ffordd *gwŷr* da, a chadw llwybrau y cyfiawn.
21 Canys y gwŷr cyfiawn a breswyliant y ddaear, a'r rhai perffaith a gânt aros ynddi.
22 Ond yr annuwiolion a dorrir oddi ar y ddaear, a'r troseddwyr a ddiwreiddir allan o honi.

PENNOD 3.

1 *Y mae yn annog i ufudd-dod,* 5 *a ffydd,* 7 *a marwhâd,* 9 *a dwysfolder,* 11 *ac amynedd.* 13 *Dedwydd elw doethineb.* 19 *Gallu* 21 *a chymmwynasau doethineb.* 27 *Cynghor i fod yn yariadus,* 30 *yn heddychol,* 31 *ac yn foddlongar.* 33 *Cyflwr melldïgedig yr anwir.*

FY mab, na ollwng fy nghyfraith dros gôf; ond cadwed dy galon fy ngorchymynion:
2 Canys hir ddyddiau, a blynyddoedd bywyd, a heddwch, a chwanegant hwy i ti.
3 Na âd i drugaredd a gwirionedd ymadael â thi: cylymma hwy am dy wddf, ysgrifena hwy ar lech dy galon.
4 Felly y cei di ras a deall da ger bron DUW a dynion.
5 ¶ Gobeithia yn yr ARGLWYDD â'th holl galon; ac nac ymddiried i'th ddeall dy hun.
6 Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy lwybrau.
7 ¶ Na fydd ddoeth yn dy olwg dy hun: ofna yr ARGLWYDD, a thyn ymaith oddi wrth ddrygioni.
8 Hynny a fydd iechyd i'th fogail, a mêr i'th esgyrn.
9 ¶ Anrhydedda yr ARGLWYDD â'th gyfoeth, ac â'r peth pennaf o'th holl ffrwyth:
10 Felly y llenwir dy ysguboriau â digonoldeb, a'th win-wryfoedd a dorrant gan win newydd.
11 ¶ Fy mab, na ddirmyga gerydd yr ARGLWYDD; ac na flina ar ei gospedigaeth ef;
12 Canys y neb a fyddo DUW yn ei garu, efe a'i ceryddda, megis tad ei fab anwyl ganddo.
13 ¶ Gwyn ei fyd y dyn a gaffo ddoethineb, a'r dyn a ddygo ddeall allan.
14 Canys gwell *yw* ei marsiandïaeth hi na marsiandïaeth o arian, a'i chynnyrch hi *sydd well* nag aur coeth.
15 Gwerthfawroccach *yw* hi na

gemmau: a'r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi.

16 Hir hoedl *sydd* yn ei llaw ddehau hi; *ac* yn ei llaw aswy *y mae* cyfoeth a gogoniant.

17 Ei ffyrdd hi *sydd* ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau hi *ydynt* heddwch.

18 Pren bywyd *yw* hi i'r neb a ymaflo ynddi: a gwyn ei fyd a ddalio ei afael ynddi hi.

19 Yr ARGLWYDD trwy ddoethineb a seiliodd y ddaear; trwy ddeall y sicrhaodd efe y nefoedd.

20 Trwy ei wybodaeth ef yr holltodd y dyfnderau, ac y defnyna yr wybrennau wlith.

21 ¶ Fy mab, na ollwng hwynt allan o'th olwg: cadw ddoethineb a phwyll.

22 Yna y byddant yn fywyd i'th enaid, ac yn ras i'th wddf.

23 Yna y ĉei rodio dy ffordd yn ddïofal, a'th droed ni thramgwydda.

24 Pan orweddych, nid ofni; ti a orweddi, a'th gwsg fydd felus.

25 Nac ofna rhag braw disymmwth, na rhag dinystr yr annuwiol pan ddelo.

26 Canys yr ARGLWYDD a fydd dy hyder di, ac a geidw dy droed rhag ei ddal.

27 ¶ Na attal ddaioni oddi wrth y rhai y perthyn iddynt, pan fyddo ar dy law *ei* wneuthur.

28 Na ddywed wrth dy gymmydog, Cerdda ymaith, a thyred amser arall, ac y fory mi a roddaf; a chennyt *beth yn awr.*

29 Na feddwl ddrwg yn erbyn dy gymmydog, ac yntau yn trigo yn ddïofal yn dy ymyl.

30 ¶ Nac ymryson â neb heb achos, os efe ni wnaeth ddrwg i ti.

31 ¶ Na chenfigenna wrth ŵr traws, ac na ddewis yr un o'i ffyrdd ef.

32 Canys ffiaidd gan yr ARGLWYDD y cyndyn: ond gyd â'r rhai uniawn *y mae* ei gyfrinach ef.

33 ¶ Melldith yr ARGLWYDD *sydd* yn nhŷ yr annuwiol: ond efe a fendithia drigfa y cyfiawn.

34 ¶ Dïau efe a watwar y gwatwarus: ond ei ras a rydd efe i'r gostyngedig.

35 Y doethion a etifeddant anrhydedd, a gwarth *fydd* dyrchafiad ffyliaid.

PENNOD 4.

1 *Solomon, er mwyn dysgu ufudd-dod i eraill,* 3 *yn dangos pa athrawiaeth a gafodd efe gan ei rieni,* 5 *i geisio doethineb,* 14 *ac i ochel llwybrau yr annuwiol.* 20 *Y mae yn annog i ffydd,* 23 *ac i sancteiddrwydd.*

GWRANDEWCH, blant, addysg tad, ac erglywch i ddysgu deall.

2 Canys yr ydwyf fi yn rhoddi i chwi addysg dda: na wrthodwch fy nghyfraith.

3 Canys yr oeddwn yn fab i'm tad, yn dyner ac yn anwyl y'ngolwg fy mam.

4 Efe a'm dysgai, ac a ddywedai wrthyf, Dalied dy galon fy ngeiriau: cadw fy ngorchymynion, a bydd fyw.

5 Cais ddoethineb, cais ddeall: na âd dros gôf, ac na ŵyra oddi wrth eiriau fy ngenau.

6 Nac ymâd â hi, a hi a'th geidw: câr hi, a hi a'th wared di.

7 Pennaf peth *yw* doethineb: cais ddoethineb; ac â'th holl gyfoeth cais ddeall.

8 Dyrchafa di hi, a hithau a'th ddyrchafa di: hi a'th ddwg di i anrhydedd, os cofleidi hi.

9 Hi a rydd ychwaneg o ras i'th ben di: *ïe,* hi a rydd i ti goron gogoniant.

10 Gwrando, fy mab, a derbyn fy ngeiriau; a blynyddoedd dy fywyd a amlhêir.

11 Yr ydwyf yn dy ddysgu yn ffordd doethineb; ac yn dy dywys yn llwybrau uniondeb.

12 Pan rodiech, dy gerddediad ni bydd gyfyng; a phan redech, ni thramgwyddi.

13 Ymafael mewn addysg, *ac* na ollwng *hi:* cadw hi; canys dy fywyd di *yw* hi.

14 ¶ Na ddos i lwybr yr annuwiolion, ac na rodia ar hyd ffordd y drygionus.

15 Gochel hi, na ddos ar hyd-ddi; cilia oddi wrthi hi, a dos heibio.

16 Canys ni chysgant nes gwneuthur drwg; a'u cwsg a gollant, nes iddynt gwympo *rhyw ddyn.*

17 Canys y maent yn bwytta bara annuwioldeb, ac yn yfed gwin trais.

18 Ond llwybr y cyfiawn *sydd* fel
y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy-
fwy hyd ganol dydd.
19 *Eithr* ffordd y drygionus *sydd*
fel y tywyllwch: ni wyddant wrth
ba beth y tramgwyddant.
20 ¶ Fy mab, gwrando ar fy
ngeiriau: gogwydda dy glust at
fy ymadroddion.
21 Na âd iddynt fyned ymaith
o'th olwg: cadw hwynt y'nghanol
dy galon.
22 Canys bywyd *ydynt* i'r neb a'u
caffont, ac iechyd i'w holl gnawd.
23 ¶ Cadw dy galon yn dra dï-
esgeulus; canys allan o honi y mae
bywyd yn dyfod.
24 Bwrw oddi wrthyt enau taeog-
aidd, a gwefusau trofaus ym mhell
oddi wrthyt.
25 Edrychedd dy lygaid yn uniawn;
ac edrychedd dy amrantau yn uni-
awn o'th flaen.
26 Ystyria lwybr dy draed: a
threfner dy holl ffyrdd yn uniawn.
27 Na thro ar y llaw ddehau nac
ar y llaw aswy; symmud dy droed
oddi wrth ddrygioni.

PENNOD 5.

1 *Solomon yn annog i geisio doethineb:* 3 *yn dangos ysgelerder putteindra ac anllywodraeth:* 15 *yn annog i foddlonrwydd, haelioni, a diweirdeb.* 22 *Bydd eu pechodau eu hun yn goddiwes yr annuwiol.*

FY mab, gwrando ar fy noethin-
eb, *a* gostwng dy glust at fy
neall:
2 Fel y gellych ystyried pwyll, a'th
wefusau gadw gwybodaeth.
3 ¶ Canys gwefusau y ddïeithr a
ddiferant *fel* y dil mêl, a'i genau
sydd lyfnach nag olew:
4 Ond ei diwedd hi a fydd chwerw
fel y wermod, yn llym fel cleddyf
dau-finiog.
5 Ei thraed hi a ddisgynant i ang-
au; *a*'i cherddedhad a sang uffern.
6 Rhag i ti ystyrio ffordd bywyd,
y symmud ei chamrau hi, heb wyb-
od i ti.
7 Yr awr hon gan hynny, O blant,
gwrandêwch arnaf fi, ac nac ym-
adêwch â geiriau fy ngenau.
8 Cadw dy ffordd ym mhell oddi
wrthi hi, ac na nesâ at ddrws ei
thŷ hi:
9 Rhag i ti roddi dy harddwch
i eraill, a'th flynyddoedd i'r creu-
lawn:
10 Rhag llenwi yr estron â'th gyf-
oeth di, ac *i*'th lafur *fod* yn nhŷ y
dïeithr;
11 Ac o'r diwedd i ti ochain, wedi
i'th gnawd a'th gorph gurio,
12 A dywedyd, Pa fodd y caseais
i addysg! *pa fodd* y dirmygodd fy
nghalon gerydd!
13 Ac na wrandewais ar lais fy
athrawon, ac na ostyngais fy nghlust
i'm dysgawdwyr!
14 Bûm o fewn ychydig at bob
drwg, y'nghanol y gynnulleidfa a'r
dyrfa.
15 ¶ Yf ddwfr o'th bydew dy
hun, a ffrydiau allan o'th ffynnon
dy hun.
16 Tardded dy ffynhonnau allan,
a'th ffrydiau dwfr yn yr heolydd.
17 Byddant yn eiddot ti dy hun
yn unig, ac nid yn eiddô dïeithriaid
gyd â thi.
18 Bydded dy ffynnon yn fendig-
edig: ac ymlawenhâ gyd â gwraig
dy ieuengctid.
19 *Bydded fel* ewig gariadus, ac
fel iyrches hawddgar: gâd i'w
bronnau hi dy lenwi bob amser,
ac ymfoddlona yn ei chariad hi yn
wastadol.
20 A phaham, fy mab, yr ymddigrifi
yn y wraig ddïeithr, ac y cofleidi
fynwes yr hon nid yw eiddot ti?
21 Canys ffyrdd dyn *sydd* yng
ngolwg yr ARGLWYDD, ac y mae efe
yn dal ar ei holl lwybrau ef.
22 ¶ Ei anwiredd ei hun a ddeil yr
annuwiol, ac efe a ddèlir â rhaffau
ei bechod ei hun.
23 Efe a fydd farw o eisieu a-
ddysg; a rhag maint ei ffolineb yr
â ar gyfeiliorn.

PENNOD 6.

1 *Yn erbym mechnïaeth,* 6 *a seguryd,* 12 *ac ysgelerder.* 16 *Saith beth cas gan Dduw.* 20 *Bendithion ufudd-dod.* 25 *Drygioni putteindra.*

FY mab, os mechnïaist dros dy
gymmydog, *ac òs* tarewaist dy
law *yn llaw* y dïeithr,
2 Ti a faglwyd â geiriau dy enau,
ti a ddaliwyd â geiriau dy enau.
3 Gwna hyn yr awr hon, fy mab,
a gwared dy hun, gan i ti syrthio
i law dy gymmydog; cerdda, ac

ymostwng iddo, ac ymbil â'th gymmydog.
4 Na ddyro gwsg i'th lygaid, na hûn i'th amrantau.
5 Gwared dy hun fel yr iwrch o law *yr heliwr*, ac fel aderyn o law yr adarwr.
6 ¶ Cerdda at y morgrugyn, tydi ddïogyn; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth:
7 Nid oes ganddo neb i'w arwain, i'w lywodraethu, nac i'w feistroli;
8 *Ac er hynny* y mae efe yn parottôi ei fwyd yr haf, *ac* yn casglu ei luniaeth y cynhauaf.
9 Pa hyd, ddïogyn, y gorweddi? pa bryd y cyfodi o'th gwsg?
10 Etto ychydig gysgu, ychydig hepian, ychydig blethu dwylaw i gysgu.
11 Felly y daw tlodi arnat fel ymdeithydd, a'th angen fel gŵr arfog.
12 ¶ Dyn i'r fall, *a* gŵr anwir, a rodia â genau cyndyn.
13 Efe a amneidia â'i lygaid, efe a lefara â'i draed, efe a ddysg â'i fysedd.
14 *Y mae* pob rhyw gyndynrwydd yn ei galon; y mae yn dychymmyg drygioni bob amser, yn peri cynhennau.
15 Am hynny ei ddinystr a ddaw arno yn ddisymmwth: yn ddisymmwth y dryllir ef, fel na byddo meddyginiaeth.
16 ¶ Y chwe *pheth* hyn sydd gas gan yr Arglwydd: ïe, saith *beth sydd* ffiaidd ganddo ef:
17 Llygaid beilchion, tafod celwyddog, a'r dwylaw a dywalltant waed gwirion,
18 Y galon a ddychymmygo feddyliau drwg, traed yn rhedeg yn fuan i ddrygioni,
19 Tyst celwyddog yn dywedyd celwydd, a'r neb a gyfodo gynnen rhwng brodyr.
20 ¶ Fy mab, cadw orchymyn dy dad, ac nag ymadaw â chyfraith dy fam.
21 Rhwym hwynt ar dy galon yn wastadol; cwlwm hwynt am dy wddf.
22 Pan rodiech, hi a'th gyfarwydda; pan orweddych, hi a'th wylia; pan ddeffröych, hi a gydymddiddan â thi.

23 Canys canwyll *yw* y gorchymyn; a goleuni *yw* y gyfraith; a ffordd i fywyd *yw* ceryddon addysg:
24 I'th gadw rhag y fenyw ddrwg, a rhag gweniaith tafod y ddïeithr.
25 Na chwennych ei phryd hi yn dy galon; ac na âd iddi dy ddal â'i hamrantau.
26 Oblegid y fenyw butteinig *y daw dyn* i dammaid o fara; a gwraig gŵr *arall* a hela yr enaid gwerthfawr.
27 A ddichon gŵr ddwyn tân yn ei fynwes, heb losgi ei ddillad?
28 A ddichon gŵr rodio ar hyd marwor, ac heb losgi ei draed?
29 Felly, pwy bynnag a êl at wraig ei gymmydog; y neb a gyffyrddo â hi, ni bydd lân.
30 Ni ddirmyga *neb* leidr a ladrattao i ddiwallu ei enaid, pan fyddo arno newyn:
31 Ond *os* dèlir ef, efe a dâl yn saith ddyblyg; efe a rydd gymmaint oll ag a feddo yn ei dŷ.
32 *Ond* y neb a wnel odineb â benyw, sydd heb synwyr; y neb a'i gwnel, a ddifetha ei enaid ei hun.
33 Archoll a gwarth a gaiff efe; a'i gywilydd ni ddilëir.
34 Canys cynddaredd *yw* eiddigedd gŵr; am hynny nid erbyd efe yn nydd dïal.
35 Ni bydd ganddo bris ar ddim iawn; ac ni foddlonir ef, er rhoi rhoddion lawer.

PENNOD 7.

1 *Solomon yn cynghori bod mewn pur a chariadus cyfeillach â doethineb.* 6 *Wrth a welai efe ei hun, yn dangos* 10 *cyfrwysdra puttain,* 22 *ac enbyd wiriondeb yr ieuainge nwyfus:* 24 *yn cynghori gochelyd y cyfryw annuwioldeb.*

Fy mab, cadw fy ngeiriau, a chuddia fy ngorchymynion gyd â thi.
2 Cadw fy ngorchymynion, a bydd fyw; a'm cyfraith fel canwyll dy lygad.
3 Rhwym hwynt am dy fysedd, ysgrifena hwynt ar lech dy galon.
4 Dywed wrth ddoethineb, Fy chwaer *wyt* ti; a galw ddeall yn gares:
5 Fel y'th gadwont oddi wrth y wraig ddïeithr, a rhag y fenyw â'r ymadrodd gwenhieithus.
6 ¶ Canys *a mi* yn ffenestr fy nhŷ, mi a edrychais trwy fy nellt;

7 A mi a welais ym mysg y ffyliaid, *ie*, mi a ganfum ym mhlith yr ieuengctid, ddyn ieuangc heb ddeall ganddo,

8 Yn myned ar hyd yr heol ger llaw ei chongl hi; ac efe a âi ar hyd y ffordd i'w thŷ hi,

9 Yn y cyfnos gyd â'r hwyr, pan oedd hi yn nos ddu ac yn dywyll:

10 Ac wele fenyw yn cyfarfod âg ef, a chanddi ymddygiad puttain, ac â chalon ddichellgar.

11 (Siaradus ac anufudd *yw* hi; ei thraed nid arhoant yn ei thŷ:

12 Weithiau yn y drws, weithiau yn yr heolydd, ac yn cynllwyn ym mhob congl.)

13 Hi a ymafaelodd ynddo, ac a'i cusanodd, ac âg wyneb digywilydd hi a ddywedodd wrtho,

14 *Yr oedd* arnaf fi aberthau hedd; heddyw y cywirais fy adduned:

15 Ac am hynny y deuthum allan i gyfarfod â thi, i chwilio am dy wyneb; a chefais afael arnat.

16 Mi a drwsiais fy ngwely â llenni, ac â cherfiadau a llïeiniau yr Aipht.

17 Mi a fwg-derthais fy ngwely â myr, aloes, a sinamon.

18 Tyred, moes i ni ymlenwi o garu hyd y bore; ymhyfrydwn â chariad.

19 Canys nid *yw* y gŵr gartref; efe a aeth i ffordd bell:

20 Efe a gymmerth godaid o arian yn ei law; efe a ddaw adref ar y dydd ammodol.

21 Hi a'i troes ef â'i haml eiriau teg, ac â gweniaith ei gwefusau hi a'i cymhellodd ef.

22 Efe a'i canlynodd hi ar frys, fel yr ŷch yn myned i'r lladdfa, neu fel ynfyd yn myned i'r cyffion i'w gospi:

23 Hyd oni ddryllio y saeth ei afu ef; fel yr aderyn yn prysuro i'r fagl, heb wybod *ei bod* yn erbyn ei einioes ef.

24 ¶ Yn awr gan hynny, *fy* meibion, gwrandêwch arnaf fi, ac ystyriwch eiriau fy ngenau.

25 Na thuedded dy galon at ei ffyrdd hi, na chyfeiliorna ar hyd ei llwybrau hi.

26 Canys llawer a gwympodd hi yn archolledig; ïe, *gwŷr* grymmus lawer a laddodd hi.

27 Ffordd i uffern *yw* ei thŷ hi, yn disgyn i ystafelloedd angau.

PENNOD 8.

1 *Enwocced 6 ac eglured yw doethineb.* 10 *Godidowgrwydd,* 12 *naturiaeth,* 15 *gallu,* 18 *cyfoeth,* 22 *a thragywyddoldeb doethineb.* 32 *Bod doethineb ym ddymunol, o achos y dedwyddwch y mae yn ei ddwyn.*

ONID yw doethineb yn gweiddi? a deall yn llefain?

2 Ym mhen lleoedd uchel, ger llaw y ffordd, lle mae llwybrau lawer, y mae hi yn sefyll.

3 Ger llaw y pyrth, ym mhen y dref, yn ymyl y drysau, y mae hi yn llefain:

4 Arnoch chwi, wŷr, yr wyf fi yn galw; ac at feibion dynion *y mae* fy llais.

5 Ha ynfydion, deallwch gyfrwysder; a chwi wŷr anghall, byddwch o galon ddeallus.

6 Gwrandêwch: canys myfi a draethaf i chwi bethau arddercho g; ac a agoraf fy ngwefusau ar bethau uniawn.

7 Canys fy ngenau a draetha wirionedd; a ffiaidd gan fy ngwefusau ddrygioni.

8 Holl eiriau fy ngenau *ydynt* gyfiawn; nid *oes* ynddynt na gŵyrni na thrawsedd.

9 *Y maent* hwy oll yn amlwg i'r neb a ddeallo, ac yn uniawn i'r rhai a gafodd wybodaeth.

10 Derbyniwch fy addysg, ac nid arian; a gwybodaeth o flaen aur etholedig.

11 Canys gwell *yw* doethineb na gemmau: nid oes dim dymunol cyffelyb iddi.

12 Myfi doethineb wyf yn trigo gyd â challineb: yr ydwyf yn cael allan wybodaeth cynghor.

13 Ofn yr ARGLWYDD *yw* casâu drygioni: balchder, ac uchder, a ffordd ddrygionus, a'r genau traws, sydd gas gennyf fi.

14 Mi bïau gynghor, a gwir ddoethineb: deall *ydwyf* fi; mi bïau nerth.

15 Trwof fi y teyrnasa brenhinoedd, ac y barna y pennaethiaid gyfiawnder.

16 Trwof fi y rheola tywysogion a

phendefigion, *sef* holl farnwyr y ddaear.

17 Y sawl a'm carant i, a garaf finnau; a'r sawl a'm ceisiant yn fore, a'm cânt.

18 Gyd â myfi *y mae* cyfoeth, ac anrhydedd, golud parhaus, a chyfiawnder.

19 Gwell *yw* fy ffrwyth i nag aur, ïe, nag aur coeth; a'm cynnyrch *sydd well* na'r arian detholedig.

20 Ar hyd ffordd cyfiawnder yr arweiniaf, ar hyd canol llwybrau barn:

21 I beri i'r rhai a'm carant etifeddu sylwedd: a mi a lanwaf eu trysorau.

22 Yr ARGLWYDD a'm meddiannodd i yn nechreuad ei ffordd, cyn ei weithredoedd erioed.

23 Er tragywyddoldeb y'm henneiniwyd, er y dechreuad, cyn bod y ddaear.

24 Pryd nad *oedd* dyfnder y'm cenhedlwyd, cyn *bod* ffynhonnau yn llawn o ddyfroedd.

25 Cyn sylfaenu y mynyddoedd, o flaen y bryniau, y'm cenhedlwyd:

26 Cyn gwneuthur o hono ef y ddaear, na'r meusydd, nac uchder llwch y byd.

27 Pan barottôdd efe y nefoedd, *yr oeddwn* i yno: pan osododd efe gylch ar wyneb y dyfnder:

28 Pan gadarnhaodd efe y cymmylau uwch ben: a phan nerthodd efe ffynhonnau y dyfnder:

29 Pan roddes efe ei ddeddf i'r môr, ac i'r dyfroedd, na thorrent ei orchymyn ef: pan osododd efe sylfeini y ddaear:

30 Yna yr oeddwn i gyd âg ef *megis* un wedi ei feithrin *gyd âg ef:* ac yr oeddwn yn hyfrydwch *iddo* beunydd, yn ymlawenhâu ger ei fron ef bob amser;

31 Ac yn llawenychu y'nghyfanneddle ei ddaear ef; a'm hyfrydwch *oedd* gyd â meibion dynion.

32 Yr awrhon gan hynny, O feibion, gwrandêwch arnaf; canys gwyn eu byd a gadwant fy ffyrdd i.

33 Gwrandêwch addysg, a byddwch ddoethion; nac ymwrthodwch â hi.

34 Gwyn ei fyd y dyn a wrandawo arnaf, ac a wylio yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau, gan warchod wrth byst fy mhyrth i.

35 Canys y neb a'm caffo i, a gaiff fywyd, ac a feddianna ewyllys da gan yr ARGLWYDD.

36 Ond y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â'i enaid ei hun: fy holl gaseion a garant angau.

PENNOD 9.

1 *Addysg 4 ac athrawiaeth doethineb.* 13 *Arfer 16 ac amryfusedd ynfydrwydd.*

DOETHINEB a adeiladodd ei thŷ, hi a naddodd ei saith golofn.

2 Hi a laddodd ei hanifeiliaid; hi a gymmysgodd ei gwin, ac a huliodd ei bwrdd.

3 Hi a yrrodd ei llaw-forwynion: y mae yn llefain oddi ar fannau uchel y ddinas:

4 Pwy bynnag *sydd* annichellgar, tröed i mewn yma: *ac* wrth yr annoeth y mae hi yn dywedyd,

5 Deuwch, a bwyttêwch o'm bara, ac yfwch o'r gwin a gymmysgais.

6 Ymadêwch â'r rhai ffol, a byddwch fyw; a cherddwch yn ffordd deall.

7 Yr hwn a geryddo watwarwr, a gaiff waradwydd iddo ei hun: a'r hwn a feio ar y drygionus, a gaiff anaf.

8 Na cherydda watwarwr, rhag iddo dy gasâu: cerydda y doeth, ac efe a'th gâr di.

9 Dyro *addysg* i'r doeth, ac efe fydd doethach: dysg y cyfiawn, ac efe a chwanega ei ddysgeidiaeth.

10 Dechreuad doethineb *yw* ofn yr ARGLWYDD: a gwybodaeth y sanctaidd *yw* deall.

11 Canys trwof fi yr amlhêir dy ddyddiau, ac y chwanegir blynyddoedd dy einioes.

12 Os doeth fyddi, doeth fyddi i ti dy hun: ond *os* gwatwarwr fyddi, tydi dy hun a'*i* dygi.

13 ¶ Gwraig ffol *a fydd* siaradus; anghall *yw*, ac ni ŵyr ddim:

14 Canys hi a eistedd ar ddrws ei thŷ, ar faingc, yn y lleoedd uchel yn y ddinas,

15 I alw ar y neb a fyddo yn myned heibio, y rhai sydd yn cerdded eu ffyrdd yn uniawn:

16 Pwy bynnag *sydd* ehud, tröed

yma: a phwy bynnag sydd ddisynwyr, *a* hi a ddywed wrtho,
17 Dyfroedd lladrad sydd felus, a bara cudd sydd beraidd.
18 Ond ni ŵyr efe mai meirw *yw y rhai sydd* yno; *a bod* ei gwahoddwyr hi yn nyfnder uffern.

PENNOD 10.

O'r bennod yma hyd y bummed ar hugain, y mae amryw addysg ymgylch rhinweddau da, a'u gwrthwyneb feiau.

DIARHEBION Solomon. Mab doeth a wna dad llawen, a mab ffol a dristâ ei fam.
2 Ni thyccia trysorau drygioni: ond cyfiawnder a wared rhag angau.
3 Ni edy yr ARGLWYDD i enaid y cyfiawn newynu: ond efe a chwâl ymaith gyfoeth y drygionus.
4 Y neb a weithio â llaw dwyllodrus, fydd dlawd: ond llaw y diwyd a gyfoethoga.
5 Mab synhwyrol *yw* yr hwn a gasgl amser haf: *ond* mab gwaradwyddus *yw* yr hwn a gwsg amser cynhauaf.
6 Bendithion *fydd* ar ben y cyfiawn: *ond* trawsedd a gau ar enau y drygionus.
7 Coffadwriaeth y cyfiawn *sydd* fendigedig: ond enw y drygionus a bydra.
8 Y galon ddoeth a dderbyn orchymynion: ond y ffol ei wefusau a gwymp.
9 Y neb a rodio yn uniawn, a rodia yn ddiogel: ond y neb a gam-dry ei ffyrdd, a fydd hynod.
10 Y neb a amneidio â'i lygaid, a bair flinder: a'r ffol ei wefusau a gwymp.
11 Ffynnon bywyd *yw* genau y cyfiawn: ond trawsedd a gau ar enau y drygionus.
12 Casineb a gyfyd gynhennau: ond cariad a guddia bob camwedd.
13 Y'ngwefusau y synhwyrol y ceir doethineb: ond gwialen *a weddai* i gefn yr anghall.
14 Y doethion a ystoriant wybodaeth: ond dinystr *sydd* gyfagos i enau y ffol.
15 Cyfoeth y cyfoethog *yw* dinas ei gadernid ef: ond dinystr y tlodion *yw* eu tlodi.
16 Gwaith y cyfiawn *a dyn* at fywyd: ond ffrwyth y drygionus tu ag at bechod.
17 *Ar y* ffordd i fywyd *y mae* y neb a gadwo addysg: ond y neb a wrthodo gerydd, sydd yn cyfeiliorni.
18 A guddio gas *â* gwefusau celwyddog, a'r neb a ddywed enllib, sydd ffol.
19 Yn amlder geiriau ni bydd pall ar bechod: ond y neb a attalio ei wefusau *sydd* synhwyrol.
20 Tafod y cyfiawn *sydd fel* arian detholedig: calon y drygionus ni thâl ond ychydig.
21 Gwefusau y cyfiawn a borthant lawer: ond y ffyliaid, o ddiffyg synwyr, a fyddant feirw.
22 Bendith yr ARGLWYDD a gyfoethoga; ac ni ddwg flinder gyd â hi.
23 Hyfryd gan ffol wneuthur drwg: a chan ŵr synhwyrol *y mae* doethineb.
24 Y peth a ofno y drygionus, a ddaw iddo: ond y peth a ddeisyfo y rhai cyfiawn, *Duw* a'i rhydd.
25 Fel y mae y corwynt yn myned heibio, felly ni *bydd* y drygionus *mwy:* ond y cyfiawn *sydd* sylfaen a bery byth.
26 Megis finegr i'r dannedd, a mwg i'r llygaid, felly *y bydd* y diog i'r neb a'i gyrrant.
27 Ofn yr ARGLWYDD a estyn ddyddiau: ond blynyddoedd y drygionus a fyrhêir.
28 Gobaith y cyfiawn *fydd* llawenydd: ond gobaith y drygionus a dderfydd am dano.
29 Ffordd yr ARGLWYDD *sydd* gadernid i'r perffaith: ond dinystr *fydd* i'r rhai a wnant anwiredd.
30 Y cyfiawn nid ysgog byth: ond y drygionus ni phreswyliant y ddaear.
31 Genau y cyfiawn a ddwg allan ddoethineb: a'r tafod cyndyn a dorrir ymaith.
32 Gwefusau y cyfiawn a wyddant beth sydd gymmeradwy; ond genau y drygionus *a lefara* drawsedd.

PENNOD 11.

CLORIANNAU anghywir *sydd* ffiaidd gan yr ARGLWYDD:

ond carreg uniawn *sydd* foddlawn ganddo ef.
2 *Pan* ddêl balchder, fe ddaw gwarth: ond gyd â'r gostyngedig *y mae* doethineb.
3 Perffeithrwydd yr uniawn a'u tywys hwynt: ond trawsedd yr anffyddloniaid a'u difetha hwynt.
4 Ni thyccia cyfoeth yn nydd digofaint: ond cyfiawnder a wared rhag angau.
5 Cyfiawnder y perffaith a'i hyfforddia ef: ond o achos ei ddrygioni y syrth y drygionus.
6 Cyfiawnder y cyfiawn a'u gwared hwynt: ond troseddwyr a ddèlir yn *eu* drygioni.
7 Pan fyddo marw dyn drygionus, fe a ddarfu am *ei* obaith *ef:* a gobaith y traws a gyfrgollir.
8 Y cyfiawn a waredir o gyfyngder, a'r drygionus a ddaw yn ei le ef.
9 Rhagrithiwr â'*i* enau a lygra ei gymmydog: ond y cyfiawn a waredir trwy wybodaeth.
10 Yr holl ddinas a ymlawenhâ o herwydd llwyddiant y cyfiawn: a phan gyfrgoller y drygionus, *y bydd* gorfoledd.
11 Trwy fendith y cyfiawn y dyrchefir y ddinas: ond trwy enau y drygionus y dinystrir hi.
12 Y neb sydd ddisynwyr a ddïystyra ei gymmydog; ond y synhwyrol a daw â sôn.
13 Yr hwn a rodia yn athrodwr, a ddatguddia gyfrinach: ond y ffyddlawn ei galon a gela y peth.
14 Lle ni *byddo* cynghor, y bobl a syrthiant: ond lle y byddo llawer o gynghorwyr, *y bydd* diogelwch.
15 Blinder mawr a gaiff y neb a fachnïo dros ddïeithrddyn: ond y neb a gasao fachnïaeth, fydd ddïogel.
16 Gwraig rasol a gaiff anrhydedd; a'r galluog a gânt gyfoeth.
17 Gŵr trugarog sydd dda wrth ei enaid ei hun; ond y creulawn a flina ei gnawd ei hun.
18 Y drygionus a wna waith twyllodrus: ond i'r neb a hauo gyfiawnder, *y bydd* gwobr sicr.
19 Fel *yr arwain* cyfiawnder i fywyd: felly dilyn drygioni *a dywys* i angau.
20 Ffiaidd gan yr ARGLWYDD y neb sydd gyndyn eu calonnau: eithr hoff ganddo ef y rhai sydd berffaith yn eu ffyrdd.
21 Er maint fyddo cymmorth, y drygionus ni bydd ddïeuog: ond had y cyfiawn a waredir.
22 *Fel* modrwy aur yn nhrwyn hwch, *yw* benyw lân heb synwyr.
23 Deisyfiad y cyfiawn *sydd* ar ddaioni yn unig: *ond* gobaith y drygionus *sydd* ddigter.
24 Rhyw un a wasgar ei ddâ, ac efe a chwanegir *iddo:* a rhyw un arall a arbed mwy nag a weddai, ac a *syrth* i dlodi.
25 Yr enaid hael a frasêir: a'r neb a ddyfrhao, a ddyfrhêir yntau hefyd.
26 Y neb a attalio ei ŷd, y bobl a'i melldithia: ond bendith *a fydd* ar ben y neb a'i gwertho.
27 Y neb a ddyfal geisio ddaioni, a ennill ewyllys da: ond y neb a geisio ddrwg, iddo *ei hun* y daw.
28 Y neb a roddo ei oglud ar ei gyfoeth, a syrth: ond y cyfiawn a flodeuant megis cangen.
29 Y neb a flino ei dŷ ei hun, a berchennoga y gwynt: a'r ffol *a fydd* gwas i'r synhwyrol ei galon.
30 Ffrwyth y cyfiawn *sydd* megis pren y bywyd: a'r neb a ennillo eneidiau, *sydd* ddoeth.
31 Wele, telir i'r cyfiawn ar y ddaear: pa faint mwy i'r drygionus a'r pechadur?

PENNOD 12.

Y NEB a garo addysg, a gâr wybodaeth: ond y neb a gasao gerydd, anifeilaidd *yw.*
2 *Gŵr* da a gaiff ffafr gan yr ARGLWYDD: ond gŵr o ddichellion drwg a ddamnia efe.
3 Ni sicrhêir dyn trwy ddrygioni: ond gwraidd y cyfiawn nid ysgoga.
4 Gwraig rymmus *sydd* goron i'w gŵr: ond y waradwyddus *sydd* megis pydrni yn ei esgyrn ef.
5 Meddyliau y cyfiawn *sydd* uniawn: *a* chynghorion y drygionus *sydd* dwyllodrus.
6 Geiriau y drygionus *yw* cynllwyn am waed: ond genau yr uniawn a'u gwared hwynt.
7 Difethir y drygionus, fel na

byddont hwy: ond tŷ y cyfiawn a saif.

8 Yn ol ei ddeall y canmolir gŵr: ond gŵr cyndyn ei galon a ddïystyrir.

9 Gwell *yw* yr hwn a'i cydnabyddo ei hun yn wael, ac *sydd* was iddo ei hun, na'r hwn a'i hanrhydeddo ei hun, ac sydd arno eisieu bara.

10 Y cyfiawn a fydd ofalus am fywyd ei anifail: ond tosturi y drygionus *sydd* greulawn.

11 Y neb a lafurio ei dir, a ddigonir o fara: ond y neb a ganlyno ofer-*wŷr*, disynwyr *yw*.

12 Y drygionus sydd yn deisyf rhwyd y drygionus: ond gwreiddyn y cyfiawn a rydd *ffrwyth*.

13 Trwy drosedd *ei* wefusau y meglir y drygionus: ond y cyfiawn a ddaw allan o gyfyngder.

14 Trwy ffrwyth *ei* enau y digonir gŵr â daioni; a thaledigaeth dwylaw dyn a delir iddo.

15 Ffordd yr ynfyd *sydd* uniawn yn ei olwg ei hun: ond y neb a wrandawo ar gynghor *sydd* gall.

16 Mewn un dydd y gwybyddir digter yr ynfyd: ond y call a guddia gywilydd.

17 Y *neb* a ddywedo y gwir, a ddengys gyfiawnder: ond gau dyst *a draetha* dwyll.

18 Rhyw ddyn a ddywed eiriau fel brath cleddyf: ond tafod y doethion *sydd* feddyginiaeth.

19 Gwefus gwirionedd a saif byth: ond tafod celwyddog ni *saif* funud awr.

20 Dichell *sydd* y'nghalon y rhai a ddychymmygant ddrwg: ond i gynghorwyr heddwch *y bydd* llawenydd.

21 Ni ddigwydd i'r cyfiawn ddim blinder; ond y drygionus a lenwir â drwg.

22 Ffiaidd gan yr Arglwydd wefusau celwyddog: ond y rhai a wnant yn ffyddlawn, a ryngant fodd iddo ef.

23 Gŵr pwyllog a gela wybodaeth: ond calon ffyliaid a gyhoedda ffolineb.

24 Llaw y dïesgeulus a deyrnasa: a *llaw* y twyllodrus a fydd dan deyrnged.

25 Gofid y'nghalon gŵr a bair iddi grymmu: ond gair da a'i llawenhâ hi.

26 Y cyfiawn a ragora ar ei gymmydog: ond ffordd y rhai drygionus a'u twylla hwynt.

27 Ni rostia y twyllodrus ei helwriaeth: ond golud y dyn dïesgeulus sydd werthfawr.

28 Yn ffordd cyfiawnder *y mae* bywyd; ac yn *ei* llwybrau *hi* nid *oes* marwolaeth.

PENNOD 13.

MAB doeth *a wrendy* ar athrawiaeth ei dad: ond gwatwarwr ni wrendy ar gerydd.

2 Gŵr a fwynhâ ddaioni o ffrwyth *ei* enau: ac enaid yr anghyfiawn *a fwynhâ* drawsedd.

3 Y neb a geidw ei enau, a geidw ei einioes: *ond* y neb a ledo ei wefusau, a ddinystrir.

4 Enaid y dïog a ddeisyf, ac ni *chaiff* ddim: ond enaid y diwyd a wneir yn fras.

5 Cas gan y cyfiawn gelwydd: ond y drygionus sydd ffiaidd, ac a ddaw i gywilydd.

6 Cyfiawnder a geidw y perffaith yn ei ffordd: ond annuwioldeb a ddymchwel y pechadur.

7 Rhyw un a ymffrostia ei fod yn gyfoethog, ac heb ddim ganddo: ac arall ei fod yn dlawd, a chyfoeth lawer iddo.

8 Iawn am einioes gŵr *yw* ei ddâ: ond y tlawd ni chlyw gerydd.

9 Goleuni y cyfiawn a lawenhâ: ond canwyll y drygionus a ddiffoddir.

10 Trwy falchedd yn unig y cyffry cynnen: ond gyd â'r pwyllog *y mae* doethineb.

11 Golud *a gasgler* trwy oferedd, a leihêir; ond y neb a gasglo â'i law a chwanega.

12 Gobaith a oeder a wanhâ y galon: ond pren y bywyd *yw* deisyfiad, pan ddêl i ben.

13 Yr hwn a ddirmygo y gair, a ddifethir: ond yr hwn sydd yn ofni y gorchymyn, a obrwyir.

14 Cyfraith y doeth *sydd* ffynnon bywyd, i gilio oddi wrth faglau angau.

15 Deall da a ddyry ras: ond ffordd troseddwyr *sydd* galed.

16 Pob call a wna *bethau* trwy wybodaeth: ond yr ynfyd a ddengys ynfydrwydd.

17 Cennad annuwiol a syrth i ddrygioni: ond cennad ffyddlawn *sydd* iechyd.

18 Tlodi a gwaradwydd *fydd* i'r hwn a wrthodo addysg: ond yr hwn a gadwo gerydd, a anrhydeddir.

19 Dymuniad wedi ei gyflawni, sydd felus gan yr enaid: ond ffiaidd gan ynfydion gilio oddi wrth ddrygioni.

20 Yr hwn a rodia gyd â doethion, fydd doeth: ond yr hwn sydd gyfaill i ynfydion, a gystuddir.

21 Drygfyd a erlyn bechaduriaid: ond daioni a delir i'r rhai cyfiawn.

22 Y *gŵr* daionus a âd etifeddiaeth i feibion *ei* feibion: a golud y pechadur a roddwyd i gadw i'r cyfiawn.

23 Llawer o ymborth *sydd* ym maes y tlodion: ond y mae a ddinystrir o eisieu barn.

24 Yr hwn a arbedo y wïalen, sydd yn casâu ei fab: ond yr hwn a'i câr ef, a'i cerydda mewn amser.

25 Y cyfiawn a fwytty hyd oni ddigoner ei enaid: ond bol yr annuwiolion fydd mewn eisieu.

PENNOD 14.

GWRAIG ddoeth a adeilada ei thŷ: ond y ffolog a'i tyn ef i lawr â'i dwylaw.

2 Yr hwn sydd yn rhodio yn ei unionder, sydd yn ofni yr ARGLWYDD; a'r *hwn sydd* gyndyn yn ei ffyrdd, sydd yn ei ddirmygu ef.

3 Y'ngenau y ffol *y mae* gwïalen balchder: ond gwefusau y doethion a'u ceidw hwynt.

4 Lle nid *oes* ychain, glân *yw* y preseb: ond llawer o gnwd *sydd yn dyfod* trwy nerth yr ŷch.

5 Tyst ffyddlawn ni ddywed gelwydd: ond gau dyst a draetha gelwyddau.

6 Y gwatwarwr a gais ddoethineb, ac nis *caiff:* ond gwybodaeth *sydd* hawdd i'r deallus.

7 Dos ymaith oddi wrth ŵr ffol, pan wypech nad *oes ganddo* wefusau gwybodaeth.

8 Doethineb y call *yw* deall ei ffordd ei hun: ond ffolineb y ffyliaid *yw* twyll.

9 Y ffyliaid a ymhyfrydant mewn camwedd: ond ym mhlith y rhai uniawn *y mae* ewyllys da.

10 Y galon sydd yn gwybod chwerwder ei henaid ei hun: a'r dieithr ni bydd gyfrannog o'i llawenydd hi.

11 Tŷ yr annuwiolion a ddinystrir: ond pabell y rhai uniawn a flodeua.

12 Y mae ffordd sydd uniawn y'ngolwg dyn: ond ei diwedd hi *yw* ffyrdd angau.

13 Ïe, wrth chwerthin y bydd blin ar y galon; a diwedd y llawenydd hwnnw *yw* tristwch.

14 Y gwrthnysig o galon a gaiff ddigon o'i ffyrdd ei hun: ond y gŵr daionus *a gilia* oddi wrtho ef.

15 Yr ehud a goelia bob gair: a'r call a ddeil ar ei gamrau.

16 Y doeth sydd yn ofni, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni: ond y ffol sydd ffrom a hyderus.

17 *Gŵr* digllawn a wna ffolineb: a chas yw y gŵr dichellgar.

18 Y rhai ehud a etifeddant ffolineb: ond y rhai call a goronir â gwybodaeth.

19 Y rhai drygionus a ymostyngant ger bron y daionus: a'r annuwiol ym mhyrth y cyfiawn.

20 Y tlawd a gasêir, ïe, gan ei gymmydog ei hun: ond llawer fydd yn caru y cyfoethog.

21 A ddirmygo ei gymmydog, sydd yn pechu: ond y trugarog wrth y tlawd, gwyn ei fyd ef.

22 Onid ydyw y rhai a ddychymmygant ddrwg yn cyfeilionni? eithr trugaredd a gwirionedd *a fydd* i'r sawl a ddychymmygant ddaioni.

23 Ym mhob llafur y mae elw: ond o eiriau gwefusau nid *oes* dim ond tlodi.

24 Coron y doethion *yw* eu cyfoeth: *ond* ffolineb y ffyliaid *sydd* ffolineb.

25 Tyst ffyddlawn a weryd eneidiau: *ond* y twyllodrus a ddywed gelwyddau.

26 Yn ofn yr ARGLWYDD *y mae* gobaith cadarn: ac i'w blant ef y bydd noddfa.

27 Ofn yr ARGLWYDD *yw* ffynnon y bywyd, i ddïange rhag maglau angau.

28 Mewn amlder y bobl *y mae*

anrhydedd y brenhin: ac o ddiffyg pobl y dinystrir y tywysog.
29 Y dïog i ddigofaint *sydd* yn llawn o synwyr: ond y digllawn ei yspryd a ddyrchafa ynfydrwydd.
30 Calon iach *yw* bywyd y cnawd: ond cenfigen a bydra yr esgyrn.
31 Y neb a orthrymma y tlawd, a gywilyddia ei Greawdydd: ond y neb a drugarhao wrth yr anghenus, a'i hanrhydedda ef.
32 Y drygionus a yrrir ymaith yn ei ddrygioni: ond y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw.
33 Doethineb sydd yn gorphwys y'nghalon y call: ond *yr hyn sydd* y'nghalon ffyliaid a wybyddir.
34 Cyfiawnder a ddyrchafa genedl: ond cywilydd pobloedd *yw* pechod.
35 Ewyllys da y brenhin *sydd* ar ei was synhwyrol: ond ei ddigofaint a fydd ar *was* gwaradwyddus.

PENNOD 15.

ATTEB arafaidd a ddettry lid: ond gair garw a gyffry ddigofaint.
2 Tafod y synhwyrol a draetha wybodaeth yn dda: ond genau y ffyliaid a dywallt ffolineb.
3 Ym mhob lle y mae llygaid yr ARGLWYDD, yn canfod y drygionus a'r daionus.
4 Pren y bywyd *yw* tafod iach: ond trawsedd ynddo *sydd* rwyg yn yr yspryd.
5 Dyn ffol a ddïystyra addysg ei dad: ond y neb a ddïoddefo gerydd, sydd gall.
6 Yn nhŷ y cyfiawn *y bydd* mawr gyfoeth: ond am olud yr annuwiol y mae trallod.
7 Gwefusau y doethion a wasgarant wybodaeth: ond calon y ffyliaid ni *wna* felly.
8 Aberth yr annuwiol *sydd* ffiaidd gan yr ARGLWYDD: ond gweddi yr uniawn *sydd* hoff ganddo.
9 Ffordd yr annuwiol *sydd* ffiaidd gan yr ARGLWYDD: ond efe a gâr y neb a ddilyn gyfiawnder.
10 Cerydd *sydd* flin gan y neb a dry oddi ar y ffordd: *a*'r neb a gasao gerydd, a fydd marw.
11 Uffern a dinystr *sydd* ger bron yr ARGLWYDD: pa faint mwy, calonnau plant dynion?
12 Ni châr y gwatwarwr mo y neb a'i ceryddo; ac nid â at y doethion.
13 Calon lawen a wna wyneb siriol: ond trwy ddolur y galon y torrir yr yspryd.
14 Calon y synhwyrol a ymgais â gwybodaeth: ond genau y ffyliaid a borthir â ffolineb.
15 Holl ddyddiau y cystuddiedig *sydd* flin: ond gwledd wastadol yw calon lawen.
16 Gwell *yw* ychydig gyd âg ofn yr ARGLWYDD, na thrysor mawr a thrallod gyd âg ef.
17 Gwell *yw* pryd o ddail lle byddo cariad, nag ŷch pasgedig a chas gyd âg ef.
18 Gŵr digllawn a gyffry gynnen: ond *gŵr* hwyrfrydig i lid a dyr ymryson.
19 Ffordd y dïog *sydd* fel cae drain: ond ffordd yr uniawn *sydd* wastad.
20 Mab doeth a lawenhâ ei dad: ond dyn ffol a ddïystyra ei fam.
21 Ffolineb *sydd* hyfryd gan yr ynfyd: ond gŵr deallus a rodia yn uniawn.
22 Ofer fydd bwriadau lle ni byddo cynghor: ac mewn amlder cynghorwyr y sicrhêir *hwynt*.
23 Llawenydd fydd i ŵr o herwydd ymadrodd ei enau; ac *O* mor dda *yw* gair yn ei amser!
24 Ffordd y bywyd *sydd* fry i'r synhwyrol, i ochel uffern obry.
25 Yr ARGLWYDD a ddiwreiddia dŷ y beilchion: ond efe a sicrhâ derfyn y weddw.
26 Meddyliau yr annuwiol *sydd* ffiaidd gan yr ARGLWYDD: ond geiriau y glân *ŷnt* beraidd.
27 Y neb a fyddo dra-chwannog i elw, a derfysga ei dŷ: ond y neb a gasao roddion, fydd byw.
28 Calon y cyfiawn a fyfyria i atteb: ond genau y drygionus a dywallt allan ddrwg.
29 Pell *yw* yr ARGLWYDD oddi wrth y rhai annuwiol: ond efe a wrendy weddi y cyfiawn.
30 Llewyrch y llygaid a lawenhâ y galon: *a* gair da a frasâ yr esgyrn.
31 Y glust a wrandawo ar gerydd

y bywyd, a breswylia ym mhlith y doethion.

32 Y neb a wrthodo addysg, a ddïystyra ei enaid ei hun: ond y neb a wrandawo ar gerydd, a feddianna ddeall.

33 Addysg doethineb *yw* ofn yr ARGLWYDD; ac o flaen anrhydedd *yr â* gostyngeiddrwydd.

PENNOD 16.

PAROTTOAD y galon mewn dyn, ac ymadrodd y tafod, oddi wrth yr ARGLWYDD *y mae.*

2 Holl ffyrdd dyn *ydynt* lân yn ei olwg ei hun: ond yr ARGLWYDD a bwysa yr ysprydion.

3 Treigla dy weithredoedd ar yr ARGLWYDD, a'th feddyliau a safant.

4 Yr ARGLWYDD a wnaeth bob *peth* er ei fwyn ei hun: a'r annuwiol hefyd erbyn y dydd drwg.

5 Ffiaidd gan yr ARGLWYDD bob dyn uchel galon: *er* maint *fyddo* ei gymmorth, ni bydd dïeuog.

6 Trwy drugaredd a gwirionedd y dilëir pechod: a thrwy ofn yr ARGLWYDD *y mae* ymadaw oddi wrth ddrwg.

7 Pan fyddo ffyrdd gŵr yn rhyngu bodd i'r ARGLWYDD, efe a bair i'w elynion fod yn heddychol âg ef.

8 Gwell *yw* ychydig trwy gyfiawnder, na chnwd mawr trwy gam.

9 Calon dyn a ddychymmyg ei ffordd: ond yr ARGLWYDD a gyfarwydda ei gerddediad ef.

10 Ymadrodd DUW *sydd* yng ngwefusau y brenhin: ni ŵyra ei cnau ef mewn barn.

11 Pwys a chloriannau cywir, yr ARGLWYDD *a'u piau:* ei waith ef *yw* holl gerrig y gôd.

12 Ffiaidd *yw* i frenhinoedd wneuthur annuwioldeb: canys trwy gyfiawnder y cadarnhëir yr orsedd.

13 Gwefusau cyfiawn *sydd* gymmeradwy gan frenhinoedd; a'r brenhin a gâr a draetho yr uniawn.

14 Digofaint y brenhin *sydd* megis cennad angau; ond gŵr doeth a'i gostega.

15 Yn siriol wynebpryd y brenhin *y mae* bywyd: a'i ewyllys da ef *sydd* megis cwmmwl gwlaw diweddar.

16 Cael doethineb, *O* mor well *yw* nag aur coeth! a chael deall, mwy dymunol *yw* nag arian.

17 Sarn y cyfiawn *yw* dychwelyd oddi wrth ddrwg: y neb a gadwo ei ffordd, a geidw ei enaid.

18 Balchder *sydd yn myned* o flaen dinystr: ac uchder yspryd o flaen cwymp.

19 Gwell *yw* bod yn ostyngedig gyd â'r gostyngedig, na rhannu yr yspail gyd â'r beilchion.

20 A drino fatter yn ddoeth, a gaiff ddaioni: a'r neb a ymddiriedo yn yr ARGLWYDD, *O* gwyn ei fyd hwnnw!

21 Y doeth ei galon a elwir yn ddeallus; a melusder y gwefusau a chwanega ddysgeidiaeth.

22 Ffynnon y bywyd *yw* deall i'w pherchennog: ond addysg ffyliaid *yw* ffolineb.

23 Calon y doeth a reola ei enau ef yn synhwyrol, ac a chwanega addysg i'w wefusau.

24 Geiriau teg *ydynt* megis dil mêl, yn felus i'r enaid, ac yn iachus i'r esgyrn.

25 Mae ffordd a dybir ei bod yn uniawn y'ngolwg dyn: ond ei diwedd *yw* ffyrdd marwolaeth.

26 Y neb a lafurio, a lafuria iddo ei hun: canys ei enau a'i gofyn ganddo.

27 Dyn i'r fall sydd yn cloddio drwg: ac ar ei wefusau *yr erys* fel tân poeth.

28 Dyn cyndyn a bair ymryson: a'r hustyngwr a neilldua dywysogion.

29 Gŵr traws a huda ei gymmydog, ac a'i tywys i'r ffordd nid *yw* dda.

30 Efe a gau ei lygaid i ddychymmyg trawsedd; gan symmud ei wefusau y dwg efe ddrwg i ben.

31 Coron anrhydeddus *yw* penllwydni, *os* bydd mewn ffordd cyfiawnder.

32 Gwell *yw* y dïog i ddigofaint na'r cadarn; a'r neb a reola ei yspryd ei hun, na'r hwn a ennillo ddinas.

33 Y coelbren a fwrir i'r arffed:

ond oddi wrth yr ARGLWYDD *y mae* ei holl lywodraethiad ef.

PENNOD 17.

GWELL *yw* tammaid sych a llonyddwch gyd âg ef, na thŷ yn llawn o aberthau gyd âg ymryson.

2 Gwas synhwyrol a feistrola ar fab gwaradwyddus; ac a gaiff ran o'r etifeddiaeth ym mhlith y brodyr.

3 Y tawddlestr *sydd* i'r arian, a'r ffwrn i'r aur: ond yr hwn a brawf y calonnau *yw* yr ARGLWYDD.

4 Y drygionus a wrendy ar wefus anwir: *a*'r celwyddog a rydd glust i dafod drwg.

5 Y neb a watwaro y tlawd, sydd yn gwaradwyddo ei Wneuthurwr ef: *a*'r neb a ymddigrifo mewn cystudd, ni bydd dïeuog.

6 Coron yr henafgwyr *yw* eu hwyrion: ac anrhydedd y plant *yw* eu tadau.

7 Anweddaidd *yw* i ffol ymadrodd rhagorol; mwy o lawer i bendefig wefusau celwyddog.

8 Maen gwerthfawr *yw* anrheg y'ngolwg ei pherchennog: pa le bynnag y tro, hi a ffynna.

9 Y neb a guddia bechod, sydd yn ceisio cariad: ond y neb a adnewydda fai, sydd yn neilldu tywysogion.

10 *Un* sen a ofna y call yn fwy na phe baeddid y ffol ganwaith.

11 Y dyn drwg sydd â'i fryd ar derfysg yn unig: a chennad greulawn a anfonir yn ei erbyn ef.

12 Gwell i ŵr gyfarfod âg arthes wedi colli ei chenawon, nag â'r ffol yn ei ffolineb.

13 Y neb a dalo ddrwg dros dda, nid ymedy drwg â'i dŷ ef.

14 Pen y gynnen *sydd megis* ped agorid argae: am hynny gâd ymaith ymryson cyn ymyrryd arni.

15 Y neb a gyfiawnhao y drygionus, ac a gondemnio y gwirion; ffiaidd gan yr ARGLWYDD *ydynt* ill dau.

16 Paham *y bydd* gwerth yn llaw y ffol i berchennogi doethineb, ac *yntau* heb galon *ganddo?*

17 Cydymmaith a gâr bob amser: a brawd a anwyd erbyn caledi.

18 Dyn heb bwyll a dery ei law, *ac* a fachnïa o flaen ei gyfaill.

19 Y neb sydd hoff ganddo ymsennu, sydd hoff ganddo bechod; *a*'r hwn sydd yn gwneuthur ei ddrws yn uchel, sydd yn ceisio niwed.

20 Y cyndyn ei galon ni chaiff ddaioni: a'r hwn sydd drofaus yn ei dafod, a syrth i ddrwg.

21 Y neb a genhedlo un ffol, *a ennill* iddo ei hun dristwch: ac ni bydd lawen tad yr ynfyd.

22 Calon lawen a wna lês *fel* meddyginiaeth: ond meddwl trwm a sych yr esgyrn.

23 Yr annuwiol a dderbyn rodd o'r fynwes, i gam-droi llwybrau barn.

24 Doethineb *sydd* yn wyneb y deallgar: ond llygaid y ffyliaid *sydd* y'nghyrrau y byd.

25 Mab ffol *a bair* ddigllonedd i'w dad, a chwerwder i'w fam.

26 Hefyd nid da cospi y cyfiawn, *na* tharo pennaethiaid, *pan fyddant* ar yr iawn.

27 Gŵr synhwyrol a attal ei ymadroddion: *a* gŵr pwyllog sydd ymarhous ei yspryd.

28 Y ffol, tra tawo, a gyfrifir yn ddoeth; *a*'r neb a gauo ei wefusau, yn ddeallus.

PENNOD 18.

YNEILLDUOL a gais wrth *ei* ddeisyfiad *ei hun, ac* a ymyrra â phob peth.

2 Y ffol nid hoff ganddo ddeall; ond bod i'w galon ei datguddio ei hun.

3 Wrth ddyfodiad y drygionus y daw dïystyrwch, a chyd â gogan, gwaradwydd.

4 Geiriau y'ngenau gŵr *sydd fel* dyfroedd dyfnion; *a* ffynnon doethineb *sydd megis* afon yn llifo.

5 Nid da derbyn wyneb yr annuwiol, i ddymchwelyd y cyfiawn mewn barn.

6 Gwefusau y ffol a ânt i mewn i gynnen, a'i enau a eilw am ddyrnodiau.

7 Genau y ffol *yw* ei ddinystr, a'i wefusau *sydd* fagl i'w enaid.

8 Geiriau yr hustyngwr *sydd* megis archollion, ac a ddisgynant i gilfachau y bol.

9 Y neb a fyddo dïog yn ei waith, sydd frawd i'r treulgar.
10 Twr cadarn *yw* enw yr ARGLWYDD: atto y rhed y cyfiawn, ac y mae yn ddïogel.
11 Cyfoeth y cyfoethog sydd iddo yn ddinas gadarn, ac yn fur uchel, yn ei dyb ei hun.
12 Cyn dinystr y balchïa calon gŵr; a chyn anrhydedd *y bydd* gostyngeiddrwydd.
13 Y neb a attebo beth cyn *ei* glywed, ffolineb a chywilydd *fydd* iddo.
14 Yspryd gŵr a gynnal ei glefyd ef: ond yspryd cystuddiedig pwy a'*i* cyfyd?
15 Calon y pwyllog a berchennoga wybodaeth; a chlust y doethion a gais wybodaeth.
16 Rhodd dyn a ehanga arno, ac a'i dwg ef ger bron pennaethiaid.
17 Y cyntaf yn ei hawl *a dybir ei fod* yn gyfiawn: ond ei gymmydog a ddaw ac a'i chwilia ef.
18 Y coelbren a wna i gynhennau beidio, ac a athrywyn rhwng cedyrn.
19 Anhaws *yw ennill ewyllys da* brawd pan ddigier, na dinas gadarn: a'*u* hymryson *sydd* megis trosol castell.
20 A ffrwyth genau gŵr y diwellir ei fol; *ac* o ffrwyth y gwefusau y digonir ef.
21 Angau a bywyd *sydd* ym meddiant y tafod: a'r rhai a'i hoffant ef a fwyttânt ei ffrwyth ef.
22 *Y neb* sydd yn cael gwraig, sydd yn cael *peth* daionus, ac yn cael ffafr gan yr ARGLWYDD.
23 Y tlawd a ymbil; a'r cyfoethog a ettyb yn erwin.
24 Y neb y mae iddo gyfeillion, cadwed gariad: ac y mae cyfaill a lŷn *wrthyt* yn well na brawd.

PENNOD 19.

GWELL *yw* y tlawd a rodio yn ei uniondeb, na'r traws ei wefusau, ac yntau yn ffol.
2 Hefyd, *bod* yr enaid heb wybodaeth, nid *yw* dda; a'r hwn sydd brysur *ei* draed a becha.
3 Ffolineb dyn a ŵyra ei ffordd ef: a'i galon a ymddigia yn erbyn yr ARGLWYDD.
4 Cyfoeth a chwanega lawer o gyfeillion: ond y tlawd a ddidolir oddi wrth ei gymmydog.
5 Tyst celwyddog ni bydd dïeuog: a lluniwr celwyddau ni ddïangc.
6 Llawer a ymbiliant o flaen pendefig: a phawb *sydd* gyfaill i'r hael.
7 Holl frodyr y tlawd a'i casânt ef: pa faint mwy yr ymbellhâ ei gyfeillion oddi wrtho? er maint a ymnheddo, ni throant atto.
8 A gaffo ddoethineb a gâr ei enaid: a gadwo ddeall a ennill ddaioni.
9 Tyst celwyddog ni bydd dïeuog; a thraethwr celwyddau a ddifethir.
10 Nid gweddaidd i ffol hyfrydwch: anweddeiddiach o lawer i was arglwyddiaethu ar bennaethiaid.
11 Synwyr dyn a oeda ei ddigofaint ef: a harddwch *yw* iddo fyned dros gamwedd.
12 Llid y brenhin *sydd* megis rhuad llew ieuangc: ond ei ffafr ef *sydd* megis gwlith ar laswellt.
13 Mab ffol *sydd* orthrymder i'w dad: ac ymserth gwraig *sydd* megis defni parhaus.
14 Tŷ a chyfoeth *ŷnt* etifeddiaeth y tadau: ond *rhodd* yr ARGLWYDD *yw* gwraig bwyllog.
15 Syrthni a bair drwmgwsg: *ac* enaid twyllodrus a newyna.
16 Y neb a gadwo y gorchymyn a geidw ei enaid: *a*'r neb a esgeulusa ei ffyrdd fydd farw.
17 Y neb a gymmero drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r ARGLWYDD; a'i rodd a dâl efe iddo drachefn.
18 Cerydda dy fab tra fyddo gobaith; ac nac arbeded dy enaid ef, i'w ddifetha.
19 Y mawr ei ddig a ddwg gospedigaeth: canys os ti a'*i* gwaredi, rhaid i ti wneuthur hynny drachefn.
20 Gwrando gynghor, a chymmer addysg; fel y byddech ddoeth yn dy ddiwedd.
21 Bwriadau lawer *sydd* yng nghalon dyn: ond cynghor yr ARGLWYDD, hwnnw a saif.
22 Deisyfiad dyn *yw* ei drugaredd

ef: a gwell *yw* y dyn tlawd na'r gŵr celwyddog.
23 Ofn yr ARGLWYDD *a dywys* i fywyd: a'r *neb y byddo ganddo* a erys yn ddiwall, heb i ddrwg ymweled âg ef.
24 Y *dyn* swrth a gudd ei law yn *ei* fynwes, ac ni estyn hi at ei enau.
25 Taro watwarwr, a'r ehud fydd gyfrwysach: a phan geryddech y deallus, efe a ddeall wybodaeth.
26 Mab gwaradwyddus gwarthus a anrheithia ei dad, ac a yr ei fam ar grwydr.
27 Fy mab, paid â gwrandaw yr addysg *a bair i ti* gyfeiliorni oddi wrth eiriau gwybodaeth.
28 Tyst y fall a watwar farn: a genau y drygionus a lwngc anwiredd.
29 Barn sydd barod i'r gwatwarwyr, a chleisiau i gefn y ffyliaid.

PENNOD 20.

GWATWARUS *yw* gwin, a therfysgaidd *yw* diod gadarn: pwy bynnag a siommir ynddi, nid yw ddoeth.
2 Megis rhuad llew ieuangc *yw* ofn y brenhin: y mae *y neb* a'i cyffrô ef i ddigofaint yn pechu *yn erbyn* ei enaid ei hun.
3 Anrhydeddus *yw* i ŵr beidio âg ymryson: ond pob ffol a fyn ymyrraeth.
4 Y diog nid ardd, o herwydd oerder *y gauaf; am hynny* y cardotta efe y cynhauaf, ac ni *chaiff* ddim.
5 *Megis* dyfroedd dyfnion *yw* pwyll y'nghalon gŵr: etto y gŵr call a'i tyn allan.
6 Llawer dyn a gyhoedda ei drugarowgrwydd ei hun: ond pwy a gaiff ŵr ffyddlawn?
7 Y cyfiawn a rodia yn ei uniondeb: gwyn eu byd ei blant ar ei ol ef.
8 Brenhin yn eistedd ar orsedd barn, a wasgar â'i lygaid bob drwg.
9 Pwy a ddichon ddywedyd, Mi a lanheais fy nghalon, glân wyf oddi wrth fy mhechod?
10 Amryw bwysau, *ac* amryw fesurau, ffiaidd gan yr ARGLWYDD bob un o'r ddau.
11 Bachgen a adweinir wrth ei waith, ai pur ai uniawn *yw* ei waith.
12 Y glust yn clywed, a'r llygad yn gweled, yr ARGLWYDD a wnaeth bob un o'r ddau.
13 Na châr gysgu, rhag dy fyned yn dlawd: agor dy lygaid, fel y'th ddigoner â bara.
14 Drwg, drwg, medd y prynwr: ond pan êl o'r neilldu, efe a ymffrostia.
15 Y mae aur, a gemmau lawer: ond gwefusau gwybodaeth *sydd* ddodrefnyn gwerthfawr.
16 Cymmer wisg y gŵr a fachnïo *dros* estron; a chymmer wystl ganddo dros estrones.
17 Melus gan ŵr fara *trwy* ffalsedd: ond o'r diwedd ei enau a lenwir â graian.
18 Bwriadau a sicrhêir trwy gynghor: a thrwy gynghor dïesgeulus dos i ryfela.
19 Y neb a fyddo athrodwr a ddatguddia gyfrinach: am hynny nac ymyr â'r hwn a wenhieithio â'i wefusau.
20 Y neb a felldithio ei dad neu ei fam, ei ganwyll a ddiffoddir yn y tywyllwch du.
21 Etifeddiaeth a geir ar frys yn y dechreuad; ond ei diwedd ni fendithir.
22 Na ddywed, Mi a dalaf ddrwg: disgwyl wrth yr ARGLWYDD, ac efe a'th achub.
23 Ffiaidd gan yr ARGLWYDD amryw bwysau; a chlorian twyllodrus nid *yw* dda.
24 Oddi wrth yr ARGLWYDD *y mae* cerddediad gŵr: ond beth a ddeall dyn o'i ffordd ei hun?
25 Magl *yw* i ŵr lyngcu peth cyssegredig; ac wedi addunedu, ymofyn.
26 Brenhin doeth a wasgar yr annuwiol, ac a dry yr olwyn arnynt.
27 Canwyll yr ARGLWYDD *yw* yspryd dyn, yn chwilio holl gelloedd y bol.
28 Trugaredd a ffyddlondeb a gadwant y brenhin; a'i orseddfa a gadarnhêir trwy drugaredd.
29 Gogoniant gwŷr ieuaingc *yw* eu nerth; a harddwch henafgwyr *yw* gwallt gwyn.
30 Cleisiau briw a lanhâ ddrwg:

felly *y gwna* dyrnodiau gelloedd y bol.

PENNOD 21.

FEL afonydd o ddwfr *y mae* calon y brenhin yn llaw yr ARGLWYDD: efe a'i try hi lle y mynno.
2 Pob ffordd gŵr *sydd* uniawn yn ei olwg ei hun: ond yr ARGLWYDD a bwysa y calonnau.
3 Gwneuthur cyfiawnder a barn *sydd* well gan yr ARGLWYDD nag aberth.
4 Uchder golwg, a balchder calon, *ac* âr yr annuwiol, *sydd* bechod.
5 Bwriadau y dïesgeulus *sydd* at helaethrwydd yn unig: ond yr eiddo pob prysur at eisieu yn unig.
6 Trysorau a gasgler â thafod celwyddog, a chwelir megis gwagedd gan y neb sydd yn ceisio angau.
7 Anrhaith yr annuwiol a'u difetha hwynt, am iddynt wrthod gwneuthur barn.
8 Trofaus a dïeithr *yw* ffordd dyn: ond y pur *sydd* uniawn ei waith.
9 Gwell *yw* bod mewn congl yn nen tŷ, na bod gyd â gwraig anynad mewn tŷ eang.
10 Enaid yr annuwiol a ddeisyf ddrwg: nid grasol *yw* ei gymmydog yn ei olwg ef.
11 Pan gosper gwatwarwr, y bydd yr ehud gallach: a phan ddysger y doeth, efe a dderbyn wybodaeth.
12 Call y mae y cyfiawn ŷn ystyried am dŷ yr annuwiol: *ond* y mae *DUW* yn difetha y rhai annuwiol am *eu* drygioni.
13 Y neb a gauo ei glust rhag llef y tlawd, a lefain ei hunan, ac nis gwrandewir ef.
14 Rhodd yn y dirgel a dyr ddigofaint; a gwobr yn y fynwes, lid cryf.
15 Llawen gan y cyfiawn wneuthur barn: ond dinystr *fydd* i weithwyr anwiredd.
16 Dyn yn myned ar gyfeiliorn oddi ar ffordd deall, a orphwys yng nghynnulleidfa y meirw.
17 Y neb a garo ddifyrrwch, *a ddaw* i dlodi: a'r neb a garo win ac olew, ni bydd gyfoethog.
18 Yr annuwiol *a roddir* yn iawn dros y cyfiawn, a'r troseddwr dros yr uniawn.
19 Gwell *yw* aros yn yr anialwch, na chyd â gwraig anynad ddigllawn.
20 *Y mae* trysor dymunol, ac olew, yn nhrigfa y doeth; ond dyn ffol a'u llwngc hwynt.
21 Y neb a ddilyno gyfiawnder a thrugaredd, a gaiff fywyd, cyfiawnder, ac anrhydedd.
22 Y doeth a ddring *i* ddinas y cedyrn, ac a fwrw i lawr y cadernid y mae hi yn hyderu arno.
23 Y neb a gadwo ei enau a'i dafod, a geidw ei enaid rhag cyfyngder.
24 Y balch *a*'r gwatwarwr uchel, *yw* enw ŷ gŵr a wnelo beth mewn digllonedd balch.
25 Deisyfiad y dïog a'i lladd: canys ei ddwylaw a wrthodant weithio:
26 Yn hyd y dydd y mae yn fawr ei awydd: ond y cyfiawn a rydd, ac ni arbed.
27 Aberth y rhai annuwiol *sydd* ffiaidd: pa faint mwy, *pan* offrymmant mewn meddwl drwg?
28 Tyst celwyddog a ddifethir: ond y gŵr a wrandawo, a lefara yn wastad.
29 Gŵr annuwiol a galeda ei wyneb: ond yr uniawn a gyfarwydda ei ffordd.
30 Nid *oes* doethineb, na deall, na chynghor, yn erbyn yr ARGLWYDD.
31 Y march a ddarperir erbyn dydd y frwydr: ond ymwared *sydd* oddi wrth yr ARGLWYDD.

PENNOD 22.

MWY dymunol *yw* enw *da* na chyfoeth lawer; *a gwell yw* ffafr dda nag arian, ac nag aur.
2 Y tlawd a'r cyfoethog a gydgyfarfyddant: yr ARGLWYDD *yw* gwneuthurwr y rhai hyn oll.
3 Y call a genfydd y drwg, ac a ymgûdd: ond y ffyliaid a ânt rhagddynt, ac a gospir.
4 Gwobr gostyngeiddrwydd *ac* ofn yr ARGLWYDD, *yw* cyfoeth, ac anrhydedd, a bywyd.
5 Drain *a* maglau *sydd* yn ffordd y cyndyn: y neb a gadwo ei enaid, a fydd bell oddi wrthynt hwy.
6 Hyfforddia blentyn ym mhen

ei ffordd; a phan heneiddio nid ymedy â hi.
7 Y cyfoethog a arglwyddiaetha ar y tlawd; a gwas *fydd* yr hwn a gaffo fenthyg i'r gŵr a roddo fenthyg.
8 Y neb a hauo anwiredd a fêd flinder; a gwïalen ei ddigofaint ef a balla.
9 Yr hael ei lygad a fendithir: canys efe a rydd o'i fara i'r tlawd.
10 Bwrw allan y gwatwarwr, a'r gynnen a â allan; ïe, yr ymryson a'r gwarth a dderfydd.
11 Y neb a garo lendid calon, *am* ras ei wefusau *a gaiff* y brenhin yn garedig iddo.
12 Llygaid yr ARGLWYDD a gadwant wybodaeth; ac efe a ddinystria eiriau y troseddwr.
13 Medd y dïog, Y mae llew allan; fo'm lleddir y'nghanol yr heolydd.
14 Ffos ddofn *yw* genau gwragedd dïeithr: y neb y byddo yr ARGLWYDD yn ddig wrtho, a syrth yno.
15 Ffolineb *sydd* yn rhwym yng nghalon plentyn; *ond* gwïalen cerydd a'i gyr ym mhell oddi wrtho.
16 Y neb a orthrymmo y tlawd er ychwanegu ei *gyfoeth*, *a'r* neb a roddo i'r cyfoethog, *a ddaw* i dlodi yn ddïammeu.
17 Gogwydda dy glust, a gwrando eiriau y doethion, a gosod dy galon ar fy ngwybodaeth.
18 Canys peth peraidd *yw* os cedwi hwynt yn dy galon; cymhwysir hwynt hefyd yn dy wefusau.
19 Fel y byddo dy obaith yn yr ARGLWYDD, yr hysbysais i ti heddyw, ïe, i ti.
20 Oni ysgrifenais i ti eiriau ardderchog o gynghor a gwybodaeth,
21 I beri i ti adnabod sicrwydd geiriau gwirionedd, fel y gallit atteb geiriau y gwirionedd i'r neb a anfonant attat?
22 Na yspeilia mo'r tlawd, o herwydd ei *fod* yn dlawd: ac na orthrymma y cystuddiol yn y porth.
23 Canys yr ARGLWYDD a ddadleu eu dadl hwynt, ac a orthrymma enaid y neb a'u gorthrymmo hwynt.
24 Na fydd gydymmaith i'r digllawn; ac na chyd-gerdd â gŵr llidiog:
25 Rhag i ti ddysgu ei lwybrau ef, a chael magl i'th enaid.
26 Na fydd *un* o'r rhai a roddant eu dwylaw, o'r rhai a fachnïant am ddyled.
27 Oni bydd gennyt i dalu, paham y cymmerai efe dy wely oddi tanat?
28 Na symmud mo'r hen derfyn, yr hwn a osododd dy dadau.
29 A welaist ti ŵr dïesgeulus yn ei orchwyl? efe a saif ger bron brenhinoedd, *ac* ni saif ger bron *rhai* iselradd.

PENNOD 23.

PAN eisteddych i fwytta gyd â thywysog, ystyria yn ddyfal beth *sydd* ger dy fron:
2 A gosod gyllell ar dy geg, os *byddi* ddyn blysig.
3 Na ddeisyf ei ddanteithion ef: canys bwyd twyllodrus *ydyw*.
4 Nac ymflina i ymgyfoethogi: dod heibio dy synwyr dy hun.
5 A beri di i'th lygaid ehedeg ar y peth nid yw? canys *golud* yn ddïau a gymmer adenydd, ac a eheda ymaith megis eryr tu a'r wybr.
6 Na fwytta fwyd y drwg ei lygad; ac na chwennych mo'i ddanteithion ef.
7 Canys fel y meddylia yn ei galon, felly efe a ddywed wrthyt, Bwytta ac ŷf; a'i galon heb fod gyd â thi.
8 Y tammaid a fwytteaist a fwri i fyny, a'th eiriau melus a golli.
9 Na lefara lle y clywo y ffol: canys efe a ddïystyra ddoethineb dy eiriau.
10 Na symmud mo'r hen derfyn; ac na ddos i feusydd yr amddifaid:
11 Canys eu gwaredwr hwynt *sydd* nerthol; *ac* a amddiffyn eu cweryl hwynt yn dy erbyn di.
12 Gosod dy galon ar addysg, a'th glustiau ar eiriau gwybodaeth.
13 Na thyn gerydd oddi wrth *dy* blentyn: *os* curi ef â gwïalen, ni bydd efe farw.
14 Cur ef â gwïalen, a thi a achubi ei enaid rhag uffern.
15 Fy mab, os dy galon di fydd doeth, fy nghalon innau a lawenycha;

16 Ië, fy arennau a grychneidiant, pan draetho dy wefusau di gyfiawnder.
17 Na wynfyded dy galon wrth bechaduriaid: ond *aros* yn ofn yr ARGLWYDD yn hyd y dydd.
18 Canys yn ddïau y mae gwobr; ac ni phalla dy ddisgwyliad.
19 Erglyw, fy mab, a bydd ddoeth; a chyfarwydda dy galon yn y ffordd.
20 Na fydd ym mysg y rhai sydd yn meddwi ar win; ym mysg y rhai glythion ar gig.
21 Canys y meddw a'r glwth a ddaw i dlodi: a chysgu a bair fyned mewn gwisg garpiog.
22 Gwrando ar dy dad a'th genhedlodd: ac na ddïystyra dy fam pan heneiddio.
23 Pryn y gwir, ac na werth; *felly* doethineb, ac addysg, a deall.
24 Tad y cyfiawn a orfoledda yn fawr; a'r neb a genhedlo *fab* doeth, a lawenhâ o'i blegid.
25 Dy dad a'th fam a lawenycha; a'r hon a'th ymddûg a orfoledda.
26 Fy mab, moes i mi dy galon; dalied dy lygaid ar fy ffyrdd i.
27 Canys ffos ddofn *yw* puttain: a phydew cyfyng *yw* y ddïeithr.
28 *Ië*, hi a gynllwyn fel gwilliad; ac a chwanega bechaduriaid ym mysg dynion.
29 I bwy y mae gwae? i bwy y mae ochain? i bwy y mae cynnen? i bwy y mae dadwrdd? ac i bwy y mae gweliau heb achos? i bwy y mae llygaid cochion?
30 I'r neb sydd yn aros wrth y gwin: i'r neb sydd yn myned i ymofyn am win cymmysgedig.
31 Nac edrych ar y gwin pan fyddo goch, pan ddangoso ei liw yn y cwppan, *pan* ymgynhyrfo yn iawn.
32 Yn y diwedd efe a frath fel sarph, ac a biga fel neidr.
33 Dy lygaid a edrychant ar wraged dïeithr, a'th galon a draetha drawsedd.
34 Ti a fyddi megis un yn cysgu y'nghanol y môr, ac fel un yn cysgu ym mhen yr hwylbren.
35 Curent fi, *meddi*, *ac* ni chlafychais; dulient fi, *ac* nis gwybum: pan ddeffrôwyf, mi a âf rhagof; mi a'i ceisiaf drachefn.

PENNOD 24.

NA chenfigenna wrth wŷr annuwiol; ac na chwennych fod gyd â hwynt:
2 Canys eu calon a fyfyria anrhaith, a'u gwefusau a draetha flinder.
3 Trwy ddoethineb yr adeiledir tŷ, a thrwy ddeall y sicrhêir ef:
4 A thrwy wybodaeth y llenwir y celloedd o bob golud gwerthfawr a hyfryd.
5 Gŵr doeth *sydd* nerthol; a gŵr pwyllog a chwanega ei nerth.
6 Canys trwy gynghor doeth y gwnei dy ryfel: a thrwy lawer o gynghorwyr *y bydd* diogelwch.
7 Rhy uchel *yw* doethineb i ffol; ni egyr efe ei enau yn y porth.
8 Y neb a fwriada ddrygau, a elwir yn ysgeler.
9 Bwriad y ffol *sydd* bechod; a ffiaidd gan ddynion y gwatwarus.
10 *Os* llwfrhêi mewn amser cyfyngder, bychan *yw* dy nerth.
11 Gwared *y rhai* a lusgir i angau: a ymadewit â'r *neb sydd* barod i'w lladd?
12 Os dywedi, Wele, ni wyddom ni hyn: onid yw pwyswr y calonnau yn deall? a'r hwn sydd yn cadw dy enaid, oni ŵyr efe? ac oni thâl efe i *bob* un yn ol ei weithred?
13 Fy mab, bwytta fêl, canys da *yw;* a'r dil mêl, *canys* melus *yw* i'th enau.
14 Felly *y bydd* gwybodaeth doethineb i'th enaid: os cei di *hi*, yn ddïau fe fydd gwobr, a'th obaith ni phalla.
15 Na chynllwyn di, O annuwiol, wrth drigfa y cyfiawn; na anrheithia ei orphwysfa ef.
16 Canys seithwaith y syrth y cyfiawn, ac efe a gyfyd *drachefn:* ond yr annuwiolion a syrthiant mewn drygioni.
17 Pan syrthio dy elyn, na lawenycha: a phan dramgwyddo, na orfoledded dy galon:
18 Rhag i'r ARGLWYDD weled, a bod hynny yn ddrwg yn ei olwg ef, ac iddo droi ei ddig oddi wrtho ef *attat ti.*
19 Nac ymddigia o herwydd y

drwg-*weithredwyr;* na chenfigenna wrth yr annuwiolion:
20 Canys ni bydd gwobr i'r drygionus: canwyll yr annuwiolion a ddiffoddir.
21 Fy mab, ofna yr ARGLWYDD a'r brenhin, *ac* nac ymyr â'r rhai anwastad:
22 Canys yn ddisymmwth y cyfyd eu distryw hwy: a phwy a ŵyr eu dinystr hwy ill dau?
23 ¶ Dyma hefyd *bethau* doethion. Nid da derbyn wyneb mewn barn.
24 Y neb a ddywedo wrth yr annuwiol, Cyfiawn *wyt;* y bobl a'i melldithiant ef, cenhedloedd a'i ffieiddiant ef:
25 Ond i'r neb a'*i* ceryddo, y bydd hyfrydwch; a bendith dda a ddigwydd iddynt.
26 *Pawb* a gusana wefusau y neb a attebo eiriau uniawn.
27 Darpara dy orchwyl oddi allan, a dospartha ef i ti yn y maes: ac wedi hynny adeilada dy dŷ.
28 Na fydd dyst heb achos yn erbyn dy gymmydog: ac na huda â'th wefusau.
29 Na ddywed, Mi a wnaf iddo ef fel y gwnaeth yntau i minnau; mi a dalaf i'r gŵr yn ol ei weithred.
30 Mi a euthum heibio i faes y dyn diog, a heibio i winllan yr anghall;
31 Ac wele, codasai drain ar hyddo oll; danadl a guddiasai ei wyneb ef; a'i fagwyr gerrig a syrthiasai i lawr.
32 Gwelais hyn, *a* mi a ystyriais yn ddwys; edrychais arno, *a* chymmerais addysg.
33 Ychydig gysgu, ychydig hepian, ychydig wasgu dwylaw i gysgu:
34 Felly y daw dy dlodi *megis* ymdeithydd, a'th angen fel gŵr arfog.

PENNOD 25.

1 *Addysg ynghylch brenhinoedd,* 8 *a gochel achosion i ymrafaelio.*

DYMA hefyd ddïarhebion Solomon, y rhai a gasglodd gwŷr Hesecïah brenhin Judah.
2 Anrhydedd DUW *yw* dirgelu peth: ond anrhydedd brenhin *yw* chwilio peth allan.
3 Y nefoedd am uchder, y ddaear am ddyfnder, a chalon brenhinoedd, ni *ellir* eu chwilio.
4 Tyn yr ammhuredd oddi wrth yr arian, a daw i'r gôf-arian lestr.
5 Tyn yr annuwiol o olwg y brenhin, a'i orseddfa ef a gadarnhêir trwy gyfiawnder.
6 Nac ymogonedda ger bron y brenhin; ac na saf yn lle *gwŷr* mawr:
7 Canys gwell i ti ddywedyd wrthyt, Tyred yma i fyny, na'th fwrw yn îs ger bron pendefig yr hwn a welodd dy lygaid.
8 Na ddos allan i gynhennu ar frys: rhag *na wypech* beth a wnelych yn ei diwedd, wedi dy gywilyddio gan dy gymmydog.
9 Ymresymma â'th gymmydog *ei hun:* ond na ddatguddia gyfrinach i arall:
10 Rhag i'r neb a fyddo yn gwrandaw ddwyn gwarth arnat ti; ac i'th gywilydd na thro ymaith.
11 Gair a ddyweder mewn amser *sydd megis* afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig.
12 Ceryddwr doeth i'r glust a wrandawo, *sydd fel* anwyl-dlws euraid, a gwisg o aur rhagorol.
13 Megis oerder eira yn amser cynhauaf, *yw* cennad ffyddlawn i'r rhai a'i gyrrant: canys efe a lawenycha enaid ei feistriaid.
14 Y neb a ymffrostio o achos gau rodd, *sydd gyffelyb* i gymmylau a gwynt heb wlaw.
15 Trwy hir-ymaros y boddlonir pendefig: a thafod esmwyth a dyr asgwrn.
16 Pan gaffech fêl, bwytta a'th wasanaetho: rhag wedi dy lenwi o hono, i ti ei chwydu ef.
17 Cadw dy droed allan o dŷ dy gymmydog: rhag iddo flino arnat, a'th gasâu.
18 Y neb a ddygo gam-dystiolaeth yn erbyn ei gymmydog, sydd megis gordd, a chleddyf, a saeth lem.
19 Hyder ar ffalswr yn nydd cyfyngder, *sydd megis* dant wedi ei dorri, a throed wedi tyrfu.
20 *Fel* yr hwn a ddygo ymaith wisg yn amser oerfel, *ac fel* finegr ar nitr, felly *y mae* yr hwn sydd yn canu caniadau i galon drist.
21 Os dy elyn a newyna, portha

ef â bara; ac os sycheda, dod iddo ddïod i'w hyfed:

22 Canys marwor a bentyrri ar ei ben ef; a'r ARGLWYDD a dâl i ti.

23 Gwynt y gogledd a ŷr y gwlaw ymaith: felly *y gyr* wynebpryd digllawn dafod athrodgar.

24 Gwell *yw* trigo mewn congl yn nen tŷ, na chyd â gwraig anynad mewn tŷ eang.

25 *Fel* dyfroedd oerion i enaid sychedig, *yw* newyddion da o wlad bell.

26 Gŵr cyfiawn wedi syrthio i lawr ger bron y drygionus, *sydd megis* ffynnon wedi ei chymmysgu â gofer budr.

27 Nid da bwytta llawer o fêl: *ac* felly chwilio eu hanrhydedd, *nid* anrhydedd *yw*.

28 Y neb ni byddo ganddo attal ar ei yspryd ei hun, *sydd megis* dinas ddrylliog heb gaer.

PENNOD 26.

1 *Addysg ynghylch ynfydion,* 13 *a rhaî segurliyd;* 17 *ac ynghylch dynion cynhennus, trafferthus.*

MEGIS ôd yr haf, neu wlaw y cynhauaf, felly nid cymmwys i'r ffol anrhydedd.

2 Fel yr aderyn wrth grwydro, a'r wennol wrth ehedeg, felly y felldith ddïachos ni ddaw.

3 Ffrewyll i farch, ffrwyn i asyn, a gwïalen i gefn yr ynfyd.

4 Na atteb ynfyd yn ol ei ynfydrwydd; rhag dy fod yn gyffelyb iddo.

5 Atteb yr ynfyd yn ol ei ynfydrwydd; rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun.

6 Y neb a yrro negesau gyd âg un anghall, a dyr ymaith y traed, *ac* a ŷf golled.

7 Nid gogyhyd esgeiriau y cloff: felly dammeg y'ngenau ffyliaid.

8 Fel un yn rhwymo carreg mewn tafl; felly *y gwna* y neb a anrhydeddo ffol.

9 *Fel* draen yn myned i law dyn meddw; felly *y mae* dïareb yng ngenau yr anghall.

10 Y *Duw* mawr yr hwn a luniodd bob *peth*, sydd yn gobrwyo y ffol, ac yn talu i'r troseddwyr.

11 Megis y mae y ci yn dychwelyd at ei chwydfa; *felly* y mae y ffol yn dychwelyd at ei ffolineb.

12 A weli di ŵr doeth yn ei olwg ei hun? gwell *yw* y gobaith am ffol nag am hwnnw.

13 *Y mae* llew *mawr* ar y ffordd, medd y dïog, *y mae* llew yn yr heolydd.

14 *Fel* y drws yn troi ar ei golyn, felly *y try* y dïog yn ei wely.

15 Y dïog a guddia ei law yn *ei* fynwes; blin ganddo ei hestyn at ei enau drachefn.

16 Doethach *yw* y dïog yn ei olwg ei hun, na seithwyr yn adrodd rheswm.

17 Y neb wrth fyned heibio a ymyrro â chynnen ni *pherthyn* iddo, *sydd megis* un yn cymmeryd ci erbyn ei glustiau.

18 Fel *dyn* gwallgofus a daflo bentewynion tân, saethau, ac *arfau* marwolaeth;

19 Felly *y mae* y gŵr a dwyllo ei gymmydog, ac a ddywed, Onid cellwair yr ydwyf?

20 Megis pan ddarfyddo y coed, y diffydd y tân: felly pryd na *byddo* athrodwr, derfydd y gynnen.

21 *Fel* glo i'r marwor, a choed i'r tân; felly *y mae* gŵr cynhennus i ennyn cynnen.

22 Geiriau yr athrodwr *sydd* megis archollion, a hwy a ddisgynnant i gelloedd y bol.

23 *Fel* sorod arian wedi eu bwrw dros ddryll o lestr pridd; *felly y mae* gwefusau poeth, a chalon ddrwg.

24 Y digasog a ragrithia â'i wefusau, ac yn ei galon yn bwriadu twyll:

25 Pan ddywedo efe yn dêg, na ymddiried iddo: canys *y mae* saith ffieidd-dra yn ei galon ef.

26 Trwy gyfrwysder y cuddir digasedd: ond ei ddrygioni a ddatguddir yn y gynnulleidfa.

27 Y neb a gloddio bydew, a syrth ynddo; a'r neb a dreiglo garreg, atto y dychwel.

28 Y tafod celwyddog a gasâ y neb a gystuddio efe; a'r genau gwenhieithus a wna ddinystr.

PENNOD 27.

1 *Ynghylch serch arnom ein hunain.* 5 *Am wir gariad.* 11 *Gofalu am ochel rhwystrau:* 23 *a gofalu dros dŷ a thyliwyth.*

NAC ymffrostia o'r dydd y fory: canys ni wyddost beth a ddigwydd *mewn* diwrnod.
2 Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hun; estron, ac nid dy wefusau dy hunan.
3 Trom *yw* y garreg, a phwysfawr *yw* y tywod: ond digofaint y ffol *sydd* drymmach na hwy ill dau.
4 Creulawn *yw* llid, fel llif-ddwfr *yw* digofaint; a phwy a ddichon sefyll o flaen cenfigen?
5 Gwell *yw* cerydd cyhoedd na chariad cuddiedig.
6 Ffyddlawn *yw* archollion y caredig: ond cusanau y digasog *ydynt* dwyllodrus.
7 Y dyn llawn a fathra y dil mêl: ond i'r newynog pob peth chwerw sydd felus.
8 Gŵr yn ymdaith o'i le ei hun, sydd debyg i aderyn yn cilio o'i nyth.
9 Olew ac arogl-darth a lawenycha y galon; felly *y gwna* mwynder cyfaill trwy gynghor ffyddlawn.
10 Nac ymado â'th gydymmaith dy hun, a chydymmaith dy dad; ac na ddos i dŷ dy frawd yn amser dy orthrymder: *canys* gwell *yw* cymmydog yn agos na brawd ym mhell.
11 Bydd ddoeth, fy mab, a llawenycha fy nghalon; fel y gallwyf atteb i'r neb a'm gwaradwyddo.
12 Y call a wêl y drwg *yn dyfod*, *ac* a ymgûdd: *ond* yr anghall a ânt rhagddynt, *ac* a gospir.
13 Cymmer wisg yr hwn a fachnïo dros y dïeithr; a chymmer wystl ganddo dros y ddïeithr.
14 Y neb a fendithio ei gydymmaith â llef uchel y bore pan gyfodo, cyfrifir *hyn* yn felldith iddo.
15 Defni parhaus ar ddiwrnod gwlawog, a gwraig anynad, cyffelyb ydynt.
16 Y mae yr hwn a'i cuddio hi, *megis* yn cuddio y gwynt, ac olew ei ddeheulaw, *yr hwn* a ymddengys.
17 Haiarn a hoga haiarn: felly gŵr a hoga wyneb ei gyfaill.
18 Y neb a gadwo ei ffigysbren, a fwytty o'i ffrwyth ef; a'r neb a wasanaetho ei feistr, a ddaw i anrhydedd.
19 Megis mewn dwfr *y mae* wyneb *yn atteb* i wyneb: felly *y mae* calon dyn i ddyn.
20 Ni lenwir uffern na distryw: felly ni lenwir llygaid dyn.
21 *Fel* y tawddlestr i'r arian, a'r ffwrnes i'r aur: felly *y mae* gŵr i'w glod.
22 Er i ti bwyo ffol mewn morter â phestl ym mhlith gwenith, *etto* nid ymedy ei ffolineb âg ef.
23 Edrych yn ddyfal ar dy anifeiliaid, *a* gofala am dy braidd.
24 Canys cyfoeth ni *phery* byth: ac *a bery* y goron o genhedlaeth i genhedlaeth?
25 Y gwair a flaendardda, a'r glaswellt a ymddengys, a llysiau y mynyddoedd a gesglir.
26 Yr ŵyn a'th ddillada, ac o'r geifr y *cei* werth tir.
27 Hefyd *ti a gei* ddigon o laeth geifr yn fwyd i ti, yn fwyd i'th dylwyth, ac *yn* gynhaliaeth i'th langcesau.

PENNOD 28.

Athrawiaethau cyffredinol ynghylch annuwioldeb a duwiol burdeb.

YR annuwiol a ffy heb neb yn ei erlid: ond y rhai cyfiawn sydd hŷf megis llew.
2 O herwydd camwedd gwlad, aml *fydd* ei phennaethiaid: ond lle y byddo gŵr pwyllog synhwyrol, y pery hi yn hir.
3 Gŵr tlawd yn gorthrymmu tlodion, *sydd debyg i* lif-ddwfr yr hwn ni âd luniaeth.
4 Y rhai a ymadawant â'r gyfraith, a ganmolant yr annuwiol: ond y neb a gadwant y gyfraith, a ymladd â hwynt.
5 Dynion annuwiol ni ddeallant farn: ond y neb a geisiant yr ARGLWYDD, a ddeallant bob *peth*.
6 Gwell *yw* y tlawd a rodio yn ei uniondeb, na'r traws ei ffyrdd, er ei *fod* yn gyfoethog.
7 Y neb a gadwo y gyfraith, *sydd* fab deallus: ond y neb a fyddo gydymmaith i loddestwyr, a gywilyddia ei dad.
8 Y neb a chwanego ei gyfoeth trwy usuriaeth ac ocraeth, sydd yn casglu i'r neb a fydd trugarog wrth y tlawd.

9 Y neb a dry ei glust *ymaith* rhag gwrandaw y gyfraith, *fydd* ffiaidd ei weddi hefyd.

10 Y neb a ddeno y cyfiawn i ffordd ddrwg, a syrth yn ei bydew ei hun: ond y cyfiawn a feddianna ddaioni.

11 Gŵr cyfoethog *sydd* ddoeth yn ei olwg ei hun: ond y tlawd deallus a'i chwilia ef allan.

12 Pan fyddo llawen y cyfiawn, *y mae* anrhydedd mawr: ond pan ddyrchafer yr annuwiolion, y chwilir am ddyn.

13 Y neb a guddio ei bechodau, ni lwydda: ond y neb a'u haddefo, ac a'u gadawo, a gaiff drugaredd.

14 Gwyn ei fyd y dyn a ofno yn wastadol: ond y neb a galedo ei galon, a ddigwydda i ddrwg.

15 *Fel* y llew rhuadus, a'r arth wangcus, *yw* llywydd annuwiol i bobl dlodion.

16 Pennadur heb ddeall *sydd* yn fawr ei drawsedd: *ond* y neb a gasao gybydd-dra, a estyn *ei* ddyddiau.

17 Dyn a wnelo drawsedd i waed neb, a ffy i'r pwll; nac attalied neb ef.

18 Y neb a rodio yn uniawn, a waredir: ond y *neb a fyddo* traws ei ffyrdd, a syrth ar unwaith.

19 Y neb a lafurio ei dir, a ddigonir o fara: ond y neb a ganlyno ofer-*wŷr*, a gaiff ddigon o dlodi.

20 Gŵr ffyddlawn a fydd aml ei fendithion: ond y neb a brysuro i fod yn gyfoethog, ni bydd digerydd.

21 Nid da derbyn wyneb: canys y cyfryw ŵr am dammaid o fara a wna gam.

22 Gŵr drwg ei lygad a brysura i ymgyfoethogi: ond bychan y gŵyr efe y daw tlodi arno.

23 Y neb a geryddo ddyn, a gaiff yn y diwedd fwy o ffafr na'r neb a draetho weniaith â'i dafod.

24 Y neb a yspeilio ei dad neu ei fam, ac a ddywed, Nid *yw* hyn gamwedd, *sydd* gymmar i ddinystriwr.

25 Gŵr uchel ei feddwl a ennyn gynnen: ond y neb a ymddiriedo yn yr ARGLWYDD, a wneir yn fras.

26 Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun, sydd ffol: ond y neb a rodio yn bwyllog, a achubir.

27 Y neb a roddo i'r tlawd, ni bydd angen arno: ond y neb a guddio ei lygaid, a gaiff lawer o felldithion.

28 Pan ddyrchafer yr annuwiol, dynion a ymguddia: ond wedi darfod am danynt, yr amlhêir y cyfiawn.

PENNOD 29.

1 *Addysg ynghylch llynoodraeth gyfredinol,* 15 *a neilldiol.* 22 *Ynghylch llid, balchder, lladrad, llyfrder, ac anŵreidd-dra, a llygredigaeth swyddogion.*

GWR a gerydder yn fynych ac a galeda *ei* war, a ddryllir yn ddisymmwth, fel na byddo meddyginiaeth.

2 Pan amlhâer y cyfiawn, y bobl a lawenychant: ond pan fyddo yr annuwiol yn llywodraethu, y bobl a ocheneidia.

3 Gŵr a garo ddoethineb a lawenycha ei dad: ond y neb a fyddo gyfaill i butteiniaid, a ddifa ei ddâ.

4 Brenhin trwy farn a gadarnhâ y wlad: ond y neb a garo anrhegion, a'i dinystria hi.

5 Y gŵr a ddywedo weniaith wrth ei gymmydog, sydd yn taenu rhwyd i'w draed ef.

6 Y'nghamwedd dyn drwg *y mae* magl: ond y cyfiawn a gân ac a fydd lawen.

7 Y cyfiawn a ystyria fatter y tlodion: *ond* yr annuwiol ni ofala am *ei* wybodi.

8 Dynion gwatwarus a faglant ddinas: ond y doethion a droant ymaith ddigofaint.

9 *Os* gŵr doeth a ymryson â dyn ffol, pa un bynnag a wnel ai digio ai chwerthin, etto ni *bydd* llonyddwch.

10 Gwŷr gwaedlyd a gasânt yr uniawn: ond yr uniawn a gais ei enaid ef.

11 Y ffol a dywallt ei holl feddwl: ond *gŵr* doeth a'i hattal hyd yn ol.

12 Os llywydd a wrendy ar gelwydd, ei holl weision *fyddant* annuwiol.

13 Y tlawd a'r twyllodrus a gydgyfarfyddant; *a'r* ARGLWYDD a lewyrcha eu llygaid hwy ill dau.

14 Y brenhin a farno y tlodion yn ffyddlawn, ei orsedd a sicrhêir byth.

15 Y wialen a cherydd a rydd

ddoethineb: ond mab a gaffo *ei* rwysg *ei hun*, a gywilyddia ei fam.

16 Pan amlhao y rhai annuwiol, yr amlhâ camwedd: ond y rhai cyfiawn a welant eu cwymp hwy.

17 Cerydda dy fab, ac efe a bair i ti lonyddwch; ac a bair hyfrydwch i'th enaid.

18 Lle ni *byddo* gweledigaeth, methu a wna y bobl: ond y neb a gadwo y gyfraith, gwyn ei fyd ef.

19 Ni chymmer gwas addysg ar eiriau: canys er ei fod yn deall, etto nid ettyb.

20 A weli di ddyn prysur yn ei eiriau? gwell *yw* y gobaith am y ffol nag am dano ef.

21 Y neb a ddygo ei was i fyny yn foethus o'i febyd, o'r diwedd efe a fydd *fel* mab *iddo*.

22 Gŵr digllawn a ennyn gynnen; a'r llidiog sydd aml ei gamwedd.

23 Balchder dyn a'i gostwng ef: ond y gostyngedig o ysproyd a gynnal anrhydedd.

24 Y neb a fo cyfrannog â lleidr, a gasâ ei enaid ei hun: efe a wrendy ar felldith, ac nis mynega.

25 Ofn dyn sydd yn dwyn magl: ond y neb a ymddiriedo yn yr ARGLWYDD a ddyrchefir.

26 Llawer a ymgeisiant âg wyneb y llywydd: ond oddi wrth yr ARGLWYDD *y mae* barn pob dyn.

27 Ffiaidd gan y cyfiawn ŵr anghyfiawn: a ffiaidd gan yr annuwiol ŵr uniawn ei ffordd.

PENNOD 30.

1 Cyffes Agur o'i ffydd. 7 Dau bunge ei weddi ef. 10 Na ddylid gwneuthur cam â'r rhai gwaelaf. 11 Pedair cenhedlaeth ddrygionus. 15 Pedwar peth ni ellir eu digoni. 17 Na ddylid diystyru tad a mam. 18 Pedwar peth anhawdd eu gwybod. 21 Pedwar peth ni ellir eu dioddef. 24 Pedwar peth doeth dros ben. 29 Pedwar peth mawrfrydig. 32 Rhaid yw achub blaen digofaint.

GEIRIAU Agur mab Jaceh, *sef* y brophwydoliaeth: y gŵr a lefarodd wrth Ithiel, wrth Ithiel, *meddaf*, ac Ucal.

2 Yn wir *yr ydwyf* yn ffolach na neb, ac nid oes deall dyn gennyf.

3 Ni ddysgais ddoethineb, ac nid oes gennyf wybodaeth y sanctaidd.

4 Pwy a esgynodd i'r nefoedd, neu a ddisgynodd? pwy a gasglodd y gwynt yn ei ddyrnau? pwy a rwymodd y dyfroedd mewn dilledyn? pwy a gadarnhaodd holl derfynau y ddaear? beth *yw* ei enw ef, a pheth *yw* enw ei fab, os gwyddost?

5 Holl air DUW *sydd* bur: tarian *yw* efe i'r neb a ymddiriedant ynddo.

6 Na ddyro ddim at ei eiriau ef, rhag iddo dy geryddu, a'th gael yn gelwyddog.

7 Dau *beth* yr ydwyf yn eu gofyn gennyt, na ommedd *hwynt* i mi cyn fy marw.

8 Tyn ym mhell oddi wrthyf wagedd a chelwydd; na ddyro i mi na thlodi na chyfoeth; portha fi â'm digonedd o fara:

9 Rhag i mi ymlenwi, a'*th* wadu *di*, a dywedyd, Pwy *yw* yr ARGLWYDD? a rhag i mi fyned yn dlawd, a lladratta, a chymmeryd enw fy NUW *yn ofer*.

10 Nac achwyn ar was wrth ei feistr, rhag iddo dy felldithio, a'th gael yn euog.

11 *Y mae* cenhedlaeth a felldithia ei thad, a'i mam ni fendithia.

12 *Y mae* cenhedlaeth lân yn ei golwg ei hun, er nas glanhâwyd oddi wrth ei haflendid.

13 *Y mae* cenhedlaeth, O mor uchel yw ei llygaid! a'i hamrantau a ddyrchafwyd.

14 *Y mae* cenhedlaeth a'i dannedd yn gleddyfau, a'i childdannedd yn gyllyll, i ddifa y tlodion oddi ar y ddaear, a'r anghenus o *blith* dynion.

15 I'r gele y mae dwy ferch, *yn llefain*, Moes, moes. Tri *pheth* ni ddiwellir: *ïe*, pedwar *peth* ni ddywedant byth, Digon:

16 Y bedd; y groth ammhlantadwy; y ddaear ni ddiwellir â dyfroedd; a'r tân ni ddywed, Digon.

17 Llygad yr hwn a watwaro *ei* dad, ac a ddiystyro ufuddhâu *ei* fam, a dyn cigfrain y dyffryn, a'r cywion eryrod a'i bwytty.

18 Tri *pheth* sydd guddiedig i mi; ïe, pedwar peth nid adwaen:

19 Ffordd eryr yn yr awyr, ffordd neidr ar graig, ffordd llong yng nghanol y môr, a ffordd gŵr gyd â morwyn.

20 Felly *y mae* ffordd merch odinebus; hi a fwytty, ac a sych ei

safn, ac a ddywed, Ni wneuthum
i anwiredd.
21 O herwydd tri *pheth* y cynhyrfir
y ddaear, ac o herwydd pedwar, *y*
rhai ni ddichon hi eu dïoddef:
22 O herwydd gwas pan deyrn-
aso; ac un ffol pan lanwer ef o
fwyd;
23 O herwydd *gwraig* atgas pan
briöder hi; a llaw-forwyn a elo yn
aeres i'w meistres.
24 Y mae pedwar *peth* bychain
ar y ddaear, ac etto *y maent* yn
ddoeth iawn:
25 Nid *yw* y morgrug bobl nerth-
ol, etto y maent yn darparu eu
lluniaeth yr haf;
26 Y cwningod nid *ydynt* bobl
rymmus, etto hwy a wnant eu tai
yn y graig;
27 Y locustiaid nid oes brenhin
iddynt, etto hwy a ânt allan yn
dorfeydd;
28 Y pryf coppyn a ymafaela
â'i ddwylaw, ac y mae yn llys y
brenhin.
29 Y mae tri *pheth* a gerddant yn
hardd, ïe, pedwar *peth* a rodiant
yn weddus:
30 Llew cryf ym mhlith anifeil-
iaid, ni thry yn ei ol er neb;
31 Milgi *cryf yn ei feingefn*, a
bwch, a brenhin, *yr hwn* ni chyfyd
neb yn ei erbyn.
32 Os buost ffol yn ymddyrchafu,
ac os meddyliaist ddrwg, *dyro* dy
law ar dy enau.
33 Yn ddïau corddi llaeth a ddwg
allan ymenyn, a gwasgu ffroenau
a dyn allan waed: felly cymmell
llid a ddwg allan gynnen.

PENNOD 31.

1 *Addysg Lemuel ynghylch diweirdeb a chym-*
medrolder. 6 *Bod yn rhaid cysuro ac am-*
ddiffyn y cystuddiedig. 10 *Clod a chynheddfau*
gwraig dda.

GEIRIAU Lemuel frenhin; y
brophwydoliaeth a ddysgodd
ei fam iddo.
2 Pa *beth*, fy mab? pa beth, mab
fy nghroth? ïe, pa beth, mab fy
addunedau?
3 Na ddyro i wragedd dy nerth;
na'th ffyrdd i'r hyn a ddifetha
frenhinoedd.
4 Nid *gweddaidd* i frenhinoedd,
O Lemuel, nid *gweddaidd* i fren-
hinoedd yfed gwin; nac i bennad-
uriaid ddïod gadarn:
5 Rhag iddynt yfed, ac ebargofi
y ddeddf; a newidio barn yr un
o'r rhai gorthrymmedig.
6 Rhoddwch ddïod gadarn i'r neb
sydd ar ddarfod am dano; a gwin
i'r rhai trwm eu calon.
7 Yfed efe, fel yr anghofio ei
dlodi; ac nas meddylio am ei
flinfyd mwy.
8 Agor dy enau dros y mud, yn
achos holl blant dinystr.
9 Agor dy enau, barn yn gyf-
iawn; a dadleu dros y tlawd a'r
anghenus.
10 ¶ Pwy a fedr gael gwraig rin-
weddol? gwerthfawroccach *yw* hi
na'r carbuncl.
11 Calon ei gŵr a ymddiried ynddi,
fel na bydd arno eisieu anrhaith.
12 Hi a wna iddo les, ac nid drwg,
holl ddyddiau ei bywyd.
13 Hi a gais wlan a llin, ac a'i
gweithia â'i dwylaw yn ewyllysgar.
14 Tebyg yw hi i long marsiandwr;
hi a ddwg ei hymborth o bell.
15 Hi a gyfyd hefyd liw nos, ac a
rydd fwyd i'w thylwyth, a'u dogn
i'w llangcesau.
16 Hi a feddwl am faes, ac a'i
pryn ef; â gwaith ei dwylaw hi a
blanna winllan.
17 Hi a wregysa ei llwynau â nerth,
ac a gryfhâ ei breichiau.
18 Hi a wêl *fod* ei marsiandïaeth
yn fuddiol; ni ddiffydd ei chanwyll
ar hyd y nos.
19 Hi a rydd ei llaw ar y werthyd,
a'i llaw a ddeil y cogail.
20 Hi a egyr ei llaw i'r tlawd, ac
a estyn ei dwylaw i'r anghenus.
21 Nid ofna hi am ei thylwyth
rhag yr eira; canys ei holl dŷ hi
a ddilledir âg ysgarlad.
22 Hi a weithia iddi ei hun
garpedau; ei gwisg *yw* sidan a
phorphor.
23 Hynod yw ei gŵr hi yn y
pyrth, pan eisteddo gyd â henur-
iaid y wlad.
24 Hi a wna llïan main, ac a'*i*
gwerth, ac a rydd wregysau at y
marsiandwr.
25 Nerth ac anrhydedd *yw* ei
gwisg; ac yn yr amser a ddaw hi
a chwardd,

26 Hi a egyr ei genau yn ddoeth: a chyfraith trugaredd *sydd* ar ei thafod hi.
27 Hi a graffa ar ffyrdd tylwyth ei thŷ: ac ni fwytty hi fara seguryd.
28 Ei phlant a godant, ac a'i galwant yn ddedwydd; ei gŵr *hefyd*, ac a'i canmol hi:
29 Llawer merch a weithiodd yn rymmus; ond ti a ragoraist arnynt oll.
30 Siommedig *yw* ffafr, ac ofer *yw* tegwch; *ond* benyw yn ofni yr ARGLWYDD, hi a gaiff glod.
31 Rhoddwch iddi o ffrwyth ei dwylaw; a chanmoled ei gweithredoedd hi yn y pyrth.

LLYFR ECCLESIASTES,

NEU Y PREGETHWR.

PENNOD 1.

1 *Y Pregethwr yn dangos ofered gorchwylion dyn: 4 o herwydd bod y creaduriaid yn ddiorphwys yn eu cylchoedd; 9 nad ydynt yn dwyn dim newydd, a bod yr hen bethau wedi eu hebargofi: 12 ac o herwydd mai felly y cafodd efe wrth chwilio doethineb.*

GEIRIAU y Pregethwr, mab Dafydd, brenhin yn Jerusalem.
2 Gwagedd o wagedd, medd y Pregethwr, gwagedd o wagedd; gwagedd *yw* y cwbl.
3 Pa fudd sydd i ddyn o'i holl lafur a gymmer efe dan yr haul?
4 *Un* genhedlaeth a â ymaith, a chenhedlaeth *arall* a ddaw: ond y ddaear a saif byth.
5 Yr haul hefyd a gyfyd, a'r haul a fachlud, ac a brysura i'w le lle y mae yn codi.
6 Y gwynt a â i'r dehau, ac a amgylcha i'r gogledd: y mae yn myned oddi amgylch yn wastadol, y mae y gwynt yn dychwelyd yn ei gwmpasoedd.
7 Yr holl afonydd a redant i'r môr, etto nid *yw* y môr yn llawn: o'r lle y daeth yr afonydd, yno y dychwelant eilwaith.
8 Pob peth *sydd* yn llawn blinder; ni ddichon dyn *ei* draethu: ni chaiff y llygad ddigon o edrych, ac ni ddigonir y glust â chlywed.
9 Y peth a fu, a fydd; a'r peth a wnaed, a wneir; ac nid *oes* dim newydd dan yr haul.
10 A oes dim y gellir dywedyd am dano, Edrych ar hwn, dyma beth newydd? efe fu eisoes yn yr hen amser o'n blaen ni.
11 Nid *oes* goffa am y pethau gynt; ac ni bydd coffa am y pethau a ddaw, gan *y rhai* a ddaw ar ol.
12 ¶ Myfi y Pregethwr oeddwn frenhin ar Israel yn Jerusalem;
13 Ac a roddais fy mryd ar geisio a chwilio trwy ddoethineb, am bob *peth* a wnaed dan y nefoedd: y llafur blin yma a roddes DUW ar feibion dynion i ymguro ynddo.
14 Mi a welais yr holl weithredoedd a wnaed dan haul; ac wele, gwagedd a gorthrymder yspryd *yw* y cwbl.
15 Ni ellir uniawni yr hyn sydd gam, na chyfrif yr hyn sydd ddiffygiol.
16 Mi a ymddiddenais â'm calon fy hun, gan ddywedyd, Wele, mi a euthum yn fawr, ac a gesglais ddoethineb tu hwnt i bawb a fu o'm blaen i yn Jerusalem; a'm calon a ddeallodd lawer o ddoethineb a gwybodaeth.
17 Mi a roddais fy nghalon hefyd i wybod doethineb, ac i wybod ynfydrwydd a ffolineb: mi a wybum fod hyn hefyd yn orthrymder yspryd.
18 Canys mewn llawer o ddoethineb *y mae* llawer o ddig: a'r neb a chwanego wybodaeth, a chwanega ofid.

PENNOD 2.

1 *Ofered gwaith dyn yn ei ddifyrrwch. 12 Er bod y doeth yn well na'r ynfyd, etto yr un diwedd sydd i bob un o'r ddaw. 18 Ofered llafur dyn, gan fod yn rhaid iddo adael y cwbl, ni ŵyr i bwy. 24 Nad oes dim well na chymmeryd llawenydd o'n llafur; etto rhodd Duw yw hynny.*

MI a ddywedais yn fy nghalon,
Iddo yn awr, mi a'th brofaf â llawenydd; am hynny cymmer dy fyd yn ddifyr: ac wele, hyn hefyd *sydd* wagedd.
2 Mi a ddywedais am chwerthin, Ynfyd *yw:* ac am lawenydd, Pa beth a wna?
3 Mi a geisiais yn fy nghalon ymroddi i win, (etto yn arwain fy nghalon mewn doethineb,) ac i gofleidio ffolineb, hyd oni welwn beth *oedd* y da hwnnw i feibion dynion, yr hyn a wnant hwy dan y nefoedd holl ddyddiau eu bywyd.
4 Mi a wneuthum i mi waith mawr; mi a adeiledais i mi dai; mi a blennais i mi winllannoedd:
5 Mi a wneuthum erddi a pherllannau, ac a blennais ynddynt brennau o bob ffrwyth:
6 Mi a wneuthum lynnau dwfr, i ddyfrhâu â hwynt y llwyni sydd yn dwyn coed:
7 Mi a ddarperais weision a morwynion; hefyd yr oedd i mi gaethweision tŷ; ïe, yr oeddwn i yn berchen llawer o wartheg a defaid, tu hwnt i bawb a fuasai o'm blaen i yn Jerusalem:
8 Mi a bentyrrais i mi hefyd arian ac aur, a thrysor pennaf brenhinoedd a thaleithiau: mi a ddarperais i mi gantorion a chantoresau, a phob rhyw offer cerdd, difyrrwch meibion dynion.
9 A mi a euthum yn fawr, ac a gynnyddais yn fwy na neb a fuasai o'm blaen i yn Jerusalem: a'm doethineb oedd yn sefyll gyd â mi.
10 A pha beth bynnag a ddeisyfai fy llygaid, ni ommeddwn hwynt: ni attaliwn fy nghalon oddi wrth ddim hyfryd; canys fy nghalon a lawenychai yn fy holl lafur: a hyn oedd fy rhan i o'm holl lafur.
11 Yna mi a edrychais ar fy holl weithredoedd a wnaethai fy nwylaw, ac ar y llafur a lafuriais yn ei wneuthur: ac wele, hyn oll *oedd* wagedd a gorthrymder yspryd, ac nid *oedd* dim budd dan yr haul.
12 A mi a droais i edrych ar ddoethineb, ac ar ynfydrwydd a ffolineb: canys beth *a wnai* y dyn a ddeuai ar ol y brenhin? y peth a wnaed eisoes.
13 Yna mi a welais fod doethineb yn rhagori ar ffolineb, fel y mae goleuni yn rhagori ar dywyllwch.
14 Y doeth *sydd* â'i lygaid yn ei ben; ond y ffol a rodia yn y tywyllwch: ac etto mi a welais yr un ddamwain yn digwydd iddynt oll.
15 Yna y dywedais yn fy nghalon, Fel y digwydd i'r ffol, y digwydd i minnau; pa beth gan hynny a dâl i mi fod yn ddoeth *mwyach?* Yna y dywedais yn fy nghalon, *fod* hyn hefyd yn wagedd.
16 Canys ni *bydd* coffa am y doeth mwy nag am yr annoeth yn dragywydd; y pethau *sydd* yr awr hon, yn y dyddiau a ddaw a ollyngir oll dros gôf: a pha fodd y mae y doeth yn marw? fel yr annoeth.
17 Am hynny cas gennyf einioes, canys blin gennyf y gorchwyl a wneir dan haul; canys gwagedd a gorthrymder yspryd *yw* y cwbl.
18 ¶ Ie, cas gennyf fy holl lafur yr ydwyf fi yn ei gymmeryd dan haul; am fod yn rhaid i mi ei adael i'r neb a fydd ar fy ol i.
19 A phwy a ŵyr ai doeth ai annoeth fydd efe? etto efe a fydd feistr ar fy holl lafur yr hwn a gymmerais, ac yn yr hwn y bûm ddoeth dan haul. Dyma wagedd hefyd.
20 Am hynny mi a droais i beri i'm calon anobeithio o'r holl lafur a gymmerais dan yr haul.
21 Canys y mae dyn yr hwn *y mae* ei lafur yn bwyllog, yn synhwyrol, ac yn uniawn: ac y mae yn ei adael yn rhan i'r neb ni lafuriodd wrtho. Hyn hefyd *sydd* wagedd, a gorthrymder mawr.
22 Canys beth sydd i ddyn o'i holl lafur a gorthrymder ei galon, yr hwn a gymmerodd efe dan haul?
23 Canys ei holl ddyddiau *sydd* orthrymder, a'i lafur yn ofid: ïe, ni chymmer ei galon esmwythdra y nos. Hyn hefyd *sydd* wagedd.
24 ¶ Nid *oes* daioni mwy i ddyn, *nag* iddo fwytta ac yfed, a pheri i'w enaid gael daioni o'i lafur. Hyn hefyd a welais, mai o law DUW *yr oedd* hyn.
25 Canys pwy a ddichon fwytta, a phwy a'i mwynhâi, o'm blaen i?
26 Canys i'r dyn a fyddo da yn ei olwg ef, y rhydd *DUW* ddoeth-

ineb, a gwybodaeth, a llawenydd; ond i'r pechadur y rhydd efe boen i gasglu ac i dyrru, i'w roddi i'r *neb a fyddo* da ger bron Duw. Hynny hefyd *sydd* wagedd, a gorthrymder yspryd.

PENNOD 3.

1 *Bod anghenraid gyfnewid yr amseroedd yn ychwanegu gwagedd at lafur dyn.* 11 *Godidowgrwydd gweithredoedd Duw:* 16 *ond dyn, Duw a farn ei weithredoedd ef yn y byd a ddaw; ac yma ni bydd ond cyffelyb i anifail.*

Y *MAE* amser i bob *peth*, ac amser i bob amcan dan y nefoedd:

2 Amser i eni, ac amser i farw; amser i blannu, ac amser i dynnu y *peth* a blannwyd;

3 Amser i ladd, ac amser i iachâu; amser i fwrw i lawr, ac amser i adeiladu;

4 Amser i wylo, ac amser i chwerthin; amser i alaru, ac amser i ddawnsio;

5 Amser i daflu cerrig ymaith, ac amser i gasglu cerrig ynghyd; amser i ymgofleidio, ac amser i ochel ymgofleidio;

6 Amser i geisio, ac amser i golli; amser i gadw, ac amser i fwrw ymaith;

7 Amser i rwygo, ac amser i wnïo; amser i dewi, ac amser i ddywedyd;

8 Amser i garu, ac amser i gasâu; amser i ryfel, ac amser i heddwch.

9 Pa fudd sydd i'r gweithydd yn yr hyn y mae yn llafurio?

10 Mi a welais y blinder a roddes Duw ar feibion dynion, i ymflino ynddo.

11 Efe a wnaeth bob *peth* yn dêg yn ei amser: efe a osododd y byd hefyd yn eu calonnau hwy, fel na allo dyn gael allan y gwaith a wnaeth Duw o'r dechreuad hyd y diwedd.

12 Mi a wn nad *oes* dim da ynddynt, ond bod i *ddyn* fod yn llawen, a gwneuthur daioni yn ei fywyd.

13 A bod i bob dyn fwytta ac yfed, a mwynhâu daioni o'i holl lafur; rhodd Duw yw hynny.

14 Mi a wn beth bynnag a wnel Duw, y bydd hynny byth; ni ellir na bwrw atto, na thynnu dim oddi wrtho: ac y mae Duw yn gwneuthur *hyn*, fel yr ofnai *dynion* ger ei fron ef.

15 Y peth a fu o'r blaen sydd yr awr hon; a'r peth sydd ar ddyfod a fu o'r blaen: Duw ei hun a ofyn y peth a aeth heibio.

16 ¶ Hefyd mi a welais dan yr haul le barn, yno yr *oedd* annuwioldeb; a lle cyfiawnder, yno yr *oedd* anwiredd.

17 Mi a ddywedais yn fy nghalon, Duw a farn y cyfiawn a'r anghyfiawn: canys *y mae* amser i bob amcan, ac i bob gwaith yno.

18 Mi a ddywedais yn fy nghalon am gyflwr meibion dynion; fel y byddai i Duw eu hamlygu hwynt, ac y gwelent hwythau mai anifeiliaid ydynt.

19 Canys digwydd meibion dynion a ddigwydd i'r anifeiliaid; yr un digwydd sydd iddynt: fel y mae y naill yn marw, felly y bydd marw y llall; ïe, yr un chwythad sydd iddynt oll; fel nad oes mwy rhagoriaeth i ddyn nag i anifail: canys gwagedd *yw* y cwbl.

20 Y mae y cwbl yn myned i'r un lle: pob un sydd o'r pridd, a phob un a dry i'r pridd eilwaith.

21 Pwy a edwyn yspryd dyn, yr hwn sydd yn esgyn i fyny, a chwythad anifail, yr hwn sydd yn disgyn i waered i'r ddaear?

22 Am hynny mi a welaf nad *oes* dim well nag i ddyn ymlawenychu yn ei weithredoedd ei hun; canys hyn *yw* ei ran ef: canys pwy a'i dwg ef i weled y peth fydd ar ei ol?

PENNOD 4.

1 *Bod trais,* 4 *a chenfigen,* 5 *a seguryd,* 7 *a chybydd-dod,* 9 *a neilduolrwydd,* 13 *a gwrthnysigrwydd, yn ychwanegu ar wagedd dyn.*

FELLY mi a ddychwelais, ac a edrychais ar yr holl orthrymderau sydd dan yr haul: ac wele ddagrau y *rhai* gorthrymmedig heb neb i'w cysuro; ac ar law eu treiswyr *yr oedd* gallu, a hwythau heb neb i'w cysuro.

2 A mi a ganmolais y meirw y rhai sydd yn barod wedi marw, yn fwy na'r byw y rhai sydd yn fyw etto.

3 Gwell na'r ddau yw y neb ni bu erioed, yr hwn ni welodd y gwaith blin sydd dan haul.

4 ¶ A mi a welais fod pob llafur, a phob uniondeb gwaith dyn, yn peri iddo genfigen gan ei gymmydog. Hyn hefyd *sydd* wagedd a gorthrymder yspryd.

5 Y ffol a wasg ei ddwylaw ynghyd, ac a fwytty ei gnawd ei hun.

6 Gwell *yw* llonaid llaw *trwy* lonyddwch, na llonaid dwy law *trwy* flinder a gorthrymder yspryd.

7 ¶ Yna mi a droais, ac a welais wagedd dan yr haul.

8 Y mae un *yn unig*, ac heb ail; ïe, nid *oes* iddo na mab na brawd; ac etto nid *oes* diwedd ar ei lafur oll: ïe, ni chaiff ei lygaid ddigon o gyfoeth; *ni ddywed efe*, I bwy yr ydwyf yn llafurio, ac yn difuddio fy enaid oddi wrth hyfrydwch? Hyn hefyd *sydd* wagedd, a dyma drafferth flin.

9 ¶ Gwell *yw* dau nag un, o achos bod iddynt wobr da am eu llafur.

10 Canys os syrthiant, y naill a gyfyd y llall: ond gwae yr unig; canys pan syrthio efe, nid *oes* ail i'w gyfodi.

11 Hefyd os dau a gyd-orweddant, hwy a ymgynhesant; ond yr unig, pa fodd y cynhesa efe?

12 Ac os cryfach fydd un nag ef, dau a'i gwrthwynebant yntau; a rhaff deircainge ni thorrir ar frys.

13 ¶ Gwell *yw* bachgen tlawd a doeth, na brenhin hen ac ynfyd, yr hwn ni fedr gymmeryd rhybudd mwyach:

14 Canys *y naill* sydd yn dyfod allan o'r carchardy i deyrnasu, a'r llall wedi ei eni yn ei frenhiniaeth, *yn myned* yn dlawd.

15 Mi a welais y rhai byw oll y rhai sydd yn rhodio dan yr haul, gyd â'r ail fab yr hwn a saif yn ei le ef.

16 Nid *oes* diben ar yr holl bobl, *sef* ar y rhai oll a fu o'u blaen hwynt; a'r rhai a ddêl ar ol, ni lawenychant ynddo: gwagedd yn ddïau a blinder yspryd *yw* hyn hefyd.

PENNOD 5.

1 *Gwagedd y'ngwasanaeth Duw,* 8 *mewn grwgnach yn erbyn trais,* 9 *ac mewn cyfoeth.* 18 *Rhodd Duw yw cael llawenydd o'n cyfoeth.*

GWYLIA ar dy droed pan fyddech yn myned i dŷ Duw, a bydd barottach i wrandaw nag i roi aberth ffyliaid; canys ni wyddant hwy eu bod yn gwneuthur drwg.

2 Na fydd *ry* brysur â'th enau, ac na frysied dy galon i draethu dim ger bron Duw: canys Duw *sydd* yn y nefoedd, a thithau *sydd* ar y ddaear; ac am hynny bydded dy eiriau yn anaml.

3 Canys breuddwyd a ddaw o drallod lawer: ac ymadrodd y ffol o laweroedd o eiriau.

4 Pan addunedech adduned i Duw, nac oeda ei thalu: canys nid *oes ganddo* flas ar rai ynfyd; y peth a addunedaist, tâl.

5 Gwell i ti fod heb addunedu, nag i ti addunedu a bod heb dalu.

6 Na âd i'th enau beri i'th gnawd bechu; ac na ddywed ger bron yr angel, Amryfusedd *fu:* paham y digiai Duw wrth dy leferydd, a difetha gwaith dy ddwylaw?

7 Canys mewn llaweroedd o freuddwydion *y mae* gwagedd, ac mewn llawer o eiriau: ond ofna di Duw.

8 ¶ Os gweli dreisio y tlawd, a thraws-ŵyro barn a chyfiawnder mewn gwlad, na ryfedda o achos hyn: canys y mae *yr hwn sydd* uwch na'r uchaf yn gwylied, ac *y mae un* sydd uwch na hwynt.

9 ¶ Cynnyrch y ddaear hefyd sydd i bob peth: wrth dir llafur y mae y brenhin yn byw.

10 Y neb a garo arian, ni ddigonir âg arian; na'r neb a hoffo amldra, â chynnyrch. Hyn hefyd *sydd* wagedd.

11 Lle y byddo llawer o ddâ, y bydd llawer i'w ddifa: pa fudd gan hynny *sydd* i'w perchennog, ond eu gweled â'u llygaid?

12 Melus *yw* hûn y gweithiwr, pa un bynnag ai ychydig ai llawer a fwyttao: ond llawnder y cyfoethog ni âd iddo gysgu.

13 Y mae trueni blin a welais dan yr haul, cyfoeth wedi eu cadw yn niwed i'w perchennog.

14 Ond derfydd am y cyfoeth hynny trwy drallod blin; ac efe a ennill fab, ac nid *oes* dim yn ei law ef.

15 Megis y daeth allan o groth ei fam yn noeth, y dychwel i fyned

modd y daeth, ac ni ddwg ddim o'i lafur, yr hyn a ddygo ymaith yn ei law.

16 A hyn hefyd *sydd* ofid blin; yn hollol y modd y daeth, felly yr â efe ymaith: a pha fudd *sydd* iddo ef a lafuriodd am y gwynt?

17 Ei holl ddyddiau y bwytty efe mewn tywyllwch, mewn digter mawr, gofid, a llid.

18 ¶ Wele y *peth* a welais i: da *yw* a theg *i ddyn* fwytta ac yfed, a chymmeryd byd da o'i holl lafur a lafuria dan yr haul, holl ddyddiau ei fywyd, y rhai a roddes Duw iddo: canys hynny *yw* ei ran ef.

19 Ie, i bwy bynnag y rhoddes Duw gyfoeth a golud; ac y rhoddes iddo ryddid i fwytta o honynt, ac i gymmeryd ei ran, ac i lawenychu yn ei lafur; rhodd Duw *yw* hyn.

20 Canys ni fawr-gofia efe ddyddiau ei fywyd; am fod Duw yn atteb i lawenydd ei galon ef.

PENNOD 6.

1 *Ofered yw cyfoeth heb eu harfer.* 3 *Am blant,* 6 *a henaint heb gyfoeth.* 9 *Ofered golwg a deisyfiadau anwastad.* 11 *Diweddglwm ar bob gwagedd.*

Y MAE drwg a welais dan haul, a hwnnw yn fawr ym mysg dynion:

2 Gŵr y rhoddodd Duw iddo gyfoeth, a golud, ac anrhydedd, heb arno eisieu dim i'w enaid a'r a ddymunai; a Duw heb roi gallu iddo i fwytta o hono, ond estron a'i bwytty. Dyma wagedd, ac *y mae* yn ofid blin.

3 ¶ Os ennill gŵr gant *o blant*, ac a fydd byw lawer o flynyddoedd, fel y bo dyddiau ei flynyddoedd yn llawer, os ei enaid ni ddiwellir â daioni, ac oni bydd iddo gladdedigaeth; mi a ddywedaf, *mai* gwell *yw* erthyl nag ef.

4 Canys mewn oferedd y daeth, ac yn y tywyllwch yr ymedy, a'i enw a guddir â thywyllwch.

5 Yntau ni welodd mo'r haul, ac ni wybu *ddim:* mwy o lonyddwch sydd i hwn nag i'r llall.

6 ¶ Pe byddai efe fyw ddwy fil o flynyddoedd, etto ni welodd efe ddaioni: onid i'r un lle yr â pawb?

7 Holl lafur dyn *sydd* dros ei enau, ac etto ni ddiwellir ei enaid ef.

8 Canys pa ragoriaeth sydd i'r doeth mwy nag i'r annoeth? beth sydd i'r tlawd a fedr rodio ger bron y rhai byw?

9 ¶ Gwell *yw* golwg y llygaid nag ymdaith yr enaid. Hyn hefyd *sydd* wagedd a gorthrymder yspryd.

10 Beth bynnag fu, y mae enw arno; ac y mae yn hysbys mai dyn *yw* efe: ac ni ddichon efe ymryson â'r neb sydd drech nag ef.

11 ¶ Gan fod llawer o bethau yn amlhâu gwagedd, beth *yw* dyn well?

12 Canys pwy a ŵyr beth *sydd* dda i ddyn yn y bywyd *hwn* holl ddyddiau ei fywyd ofer, y rhai a dreulia efe fel cysgod? canys pwy a ddengys i ddyn beth a ddigwydd ar ei ol ef dan yr haul?

PENNOD 7.

1 *Help yn erbyn gwagedd, yw enw da,* 2 *marwolaethu y enaid,* 7 *amynedd,* 11 *doethineb.* 23 *Anhawsed ydyw cael doethineb.*

GWELL *yw* enw *da* nag ennaint gwerthfawr; a dydd marwolaeth na dydd genedigaeth.

2 ¶ Gwell *yw* myned i dŷ galar, na myned i dŷ gwledd: canys hynny *yw* diwedd pob dyn; a'r byw a'*i* gesyd at ei galon.

3 Gwell *yw* digter na chwerthin: canys trwy dristwch yr wynebpryd y gwellhêir y galon.

4 Calon doethion *fydd* yn nhŷ y galar; ond calon ffyliaid yn nhŷ llawenydd.

5 Gwell *yw* gwrandaw sen y doeth, na gwrandaw cân ffyliaid.

6 Canys chwerthiniad dyn ynfyd *sydd* fel clindarddach drain dan grochan. Dyma wagedd hefyd.

7 ¶ Yn ddiau trawsedd a ynfyda y doeth, a rhodd a ddifetha y galon.

8 Gwell *yw* diweddiad peth na'i ddechreuad: gwell *yw* y dioddefgar o yspryd na'r balch o yspryd.

9 Na fydd gyflym yn dy yspryd i ddigio: oblegid dig sydd yn gorphwys ym mynwes ffyliaid.

10 Na ddywed, Paham y bu y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn? canys nid o ddoethineb yr wyt yn ymofyn am y peth hyn.

11 ¶ Da *yw* doethineb gyd âg

etifeddiaeth: ac *o hynny y mae* elw i'r rhai sydd yn gweled yr haul.

12 Canys cysgod *yw* doethineb, *a* chysgod *yw* arian: ond rhagoriaeth gwybodaeth *yw*, bod doethineb yn rhoddi bywyd i'w pherchennog.

13 Edrych ar orchwyl Duw: canys pwy a all unioni y peth a gammodd efe?

14 Yn amser gwynfyd bydd lawen; ond yn amser adfyd ystyria: Duw hefyd a wnaeth y naill ar gyfer y llall, er mwyn na chai dyn ddim ar ei ol ef.

15 Hyn oll a welais yn nyddiau fy ngwagedd: y mae *un* cyfiawn yn difiannu yn ei gyfiawnder, ac y mae *un* annuwiol yn estyn *ei ddyddiau* yn ei ddrygioni.

16 Na fydd ry gyfiawn; ac na chymmer arnat fod yn rhy ddoeth: paham y'th ddifethit dy hun?

17 Na fydd ry annuwiol; ac na fydd ffol: paham y byddit farw cyn dy amser?

18 Da i ti ymafael yn hyn; ac oddi wrth hyn na ollwng dy law: canys y neb a ofno Duw, a ddaw allan o honynt oll.

19 Doethineb a nertha y doeth, yn fwy na deg o gedyrn a fyddant yn y ddinas.

20 Canys nid *oes* dyn cyfiawn ar y ddaear a wna ddaioni, ac ni phecha.

21 Na osod dy galon ar bob gair a ddyweder; rhag i ti glywed dy was yn dy felldithio.

22 Canys llawer gwaith hefyd y gŵyr dy galon, ddarfod i ti dy hun felldithio eraill.

23 ¶ Hyn oll a brofais trwy ddoethineb: mi a ddywedais, Mi a fyddaf ddoeth; a hithau ym mhell oddi wrthyf.

24 Y peth sydd bell a dwfn iawn, pwy a'i caiff?

25 Mi a droais â'm calon i wybod, ac i chwilio, ac i geisio doethineb, a rheswm; ac i adnabod annuwioldeb ffolineb, sef ffolineb *ac* ynfydrwydd:

26 Ac mi a gefais beth chwerwach nag angau, y wraig y mae ei chalon yn faglau ac yn rhwydau, *a*'i dwylaw yn rhwymau: y neb sydd dda gan Duw, a waredir oddi wrthi hi; ond pechadur a ddèlir ganddi.

27 Wele, hyn a gefais, medd y Pregethwr, *wrth chwilio* o'r naill *beth* i'r llall, i gael y rheswm;

28 Yr hwn beth etto y chwilia fy enaid am dano, ac ni chefais: un gŵr a gefais ym mhlith mil; ond un wraig yn eu plith hwy oll nis cefais.

29 Wele, hyn yn unig a gefais; wneuthur o Duw ddyn yn uniawn: ond hwy a chwiliasant allan lawer o ddychymmygion.

PENNOD 8.

1 *Am ufuddhau i frenhinoedd.* 6 *Rhaid yw dal ar ragluniaeth Duw.* 12 *Gwell yw y byd ar y duwiol mewn adfyd, nag ar yr annuwiol mewn hawdd fyd.* 16 *Mor anchwiliadwy yw gweithredoedd Duw.*

PWY *sydd* debyg i'r doeth? a phwy a fedr ddeongl peth? doethineb gŵr a lewyrcha ei wyneb, a nerth ei wyneb ef a newidir.

2 *Yr ydwyf yn dy rybuddio* i gadw gorchymyn y brenhin, a *hynny* o herwydd llw Duw.

3 Na ddos ar frys allan o'i olwg ef; na saf mewn peth drwg: canys efe a wna a fynno ei hun.

4 Lle *y byddo* gair y brenhin, *y mae* gallu: a phwy a ddywed wrtho, Beth yr wyt ti yn ei wneuthur?

5 Y neb a gadwo y gorchymyn, ni wybydd oddi wrth ddrwg; a chalon y doeth a edwyn amser a barn.

6 ¶ Canys y mae amser a barn i bob amcan; ac *y mae* trueni dyn yn fawr arno.

7 Canys ni ŵyr efe beth a fydd: canys pwy a ddengys iddo pa bryd y bydd?

8 Nid *oes* un dyn yn arglwyddiaethu ar yr yspryd, i attal yr yspryd; ac nid *oes ganddo* allu yn nydd marwolaeth: ac nid *oes* bwrw arfau yn y rhyfel *hwnnw;* ac nid achub annuwioldeb ei pherchennog.

9 Hyn oll a welais i, a gosodais fy nghalon ar bob gorchwyl a wneir dan haul: *y mae* amser pan arglwyddiaetha dyn ar ddyn er drwg iddo.

10 Ac felly mi a welais gladdu y rhai annuwiol, y rhai a ddaethent ac a aethent o le y Sanctaidd; a hwy a ebargofiwyd yn y ddinas lle

y gwnaethent felly. Gwagedd *yw* hyn hefyd.

11 O herwydd na wneir barn *yn erbyn* gweithred ddrwg yn fuan, am hynny calon plant dynion sydd yn llawn ynddynt i wneuthur drwg.

12 ¶ Er gwneuthur o bechadur ddrwg ganwaith, ac estyn ei *ddyddiau* ef; etto mi a wn yn ddiau y bydd daioni i'r rhai a ofnant DDUW, y rhai a arswydant ger ei fron ef.

13 Ond ni bydd daioni i'r annuwiol, ac ni estyn efe *ei* ddyddiau, *y rhai sydd* gyffelyb i gysgod; am nad yw yn ofni ger bron DUW.

14 Y mae gwagedd a wneir ar y ddaear; bod y cyfiawn yn damwain iddynt yn ol gwaith y drygionus; a bod y drygionus yn digwyddo iddynt yn ol gwaith y cyfiawn. Mi a ddywedais *fod* hyn hefyd yn wagedd.

15 Yna mi a ganmolais lawenydd, am nad oes dim well i ddyn dan haul, na bwytta ac yfed, a bod yn llawen: canys hynny a lŷn wrth ddyn o'i lafur, ddyddiau ei fywyd, y rhai a roddes DUW iddo dan yr haul.

16 ¶ Pan osodais i fy nghalon i wybod doethineb, ac i edrych ar y drafferth a wneir ar y ddaear, (canys *y mae* ni wêl hûn â'i lygaid na dydd na nos;)

17 Yna mi a edrychais ar holl waith DUW, na ddichon dyn ddeall y gwaith a wneir dan haul: oblegid er i ddyn lafurio i geisio, etto nis caiff; ïe, pe meddyliai y doeth fynnu gwybod, etto ni allai efe gael *hynny.*

PENNOD 9.

1 Yr un fath bethau a ddigwydd i'r drwg ac i'r da. 4 Bod yn anghenraid i ddynion farw. 7 Cysur yw eu holl ran hwy yn y fuchedd yma. 11 Bod rhagluniaeth Duw yn llywodraethu pob peth. 13 Gwell yw doethineb na chryfder.

ER hyn oll mi a ystyriais yn fy nghalon, i ddangos hyn oll; *bod* y cyfiawn, a'r doethion, a'u gweithredoedd, yn llaw DUW: ni ŵyr dyn gariad, neu gas, *wrth* yr hyn oll *sydd* o'u blaen.

2 Yr un peth *a ddamwain* i bawb fel eu gilydd: yr un peth a ddamwain i'r cyfiawn, ac i'r annuwiol; i'r da ac i'r glân, ac i'r aflan; i'r neb a abertha, ac i'r neb ni abertha: fel *y mae* y da, felly *y mae* y pechadur; a'r neb a dyngo, fel *y neb* a ofno dyngu.

3 Dyma ddrwg ym mysg yr holl *bethau* a wneir dan haul; *sef* bod yr un diben i bawb: hefyd calon meibion dynion sydd yn llawn drygioni, ac ynfydrwydd *sydd* yn eu calon tra fyddant fyw, ac ar ol hynny *y maent yn myned* at y meirw.

4 ¶ Canys i'r neb a fo y'nghymdeithas y rhai byw oll, y mae gobaith: canys gwell yw ci byw na llew marw.

5 O herwydd y rhai byw a wyddant y byddant feirw: ond nid oes dim gwybodaeth gan y meirw, ac nid oes iddynt wobr mwyach; canys eu coffa hwynt a anghofiwyd.

6 Eu cariad hefyd, a'u cas, a'u cenfigen, a ddarfu yn awr; ac nid oes iddynt gyfran byth mwy o ddim oll a wneir dan yr haul.

7 ¶ Dos, bwytta dy fwyd yn llawen, ac ŷf dy win â chalon hyfryd: canys yn awr cymmeradwy gan DDUW dy weithredoedd.

8 Bydded dy ddillad yn wynion bob amser; ac na fydded diffyg olew ar dy bên.

9 Dwg dy fyd yn llawen gyd â'th wraig anwyl holl ddyddiau bywyd dy oferedd, y rhai a roddes efe i ti dan yr haul, holl ddyddiau dy oferedd: canys dyna dy ran di yn y bywyd *yma*, ac yn dy lafur a gymmeri dan yr haul.

10 Beth bynnag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th *holl* egni: canys nid oes na gwaith, na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd, lle yr wyt ti yn myned.

11 ¶ Mi a droais, ac a welais dan haul, nad *yw* y rhedfa yn eiddo y cyflym, na'r rhyfel yn eiddo y cedyrn, na'r bwyd yn eiddo y doethion, na chyfoeth yn eiddo y pwyllog, na ffafr yn eiddo y cyfarwydd: ond amser a damwain a ddigwydd iddynt oll.

12 Canys ni ŵyr dyn chwaith ei amser: fel y pysgod a ddèlir â'r rhwyd niweidiol, ac fel yr adar a ddèlir yn y delm; felly y dèlir plant dynion yn amser drwg, pan syrthio arnynt yn ddisymmwth.

13 ¶ Hefyd y doethineb hyn a welais i dan haul, ac *sydd* fawr gennyf fi:
14 *Yr oedd* dinas fechan, ac ynddi ychydig wŷr; a brenhin mawr a ddaeth yn ei herbyn hi, ac a'i hamgylchynodd, ac a gododd glawdd uchel yn ei herbyn:
15 A chafwyd ynddi ŵr tlawd doeth, ac efe a waredodd y ddinas honno â'i ddoethineb: etto ni chofiodd neb y gŵr tlawd hwnnw.
16 Yna y dywedais, Gwell *yw* doethineb na nerth: er hynny dirmygir doethineb y tlawd, ac ni wrandewir ar ei eiriau ef.
17 Geiriau y doethion a wrandewir mewn distawrwydd, rhagor bloedd yr hwn sydd yn llywodraethu ym mysg ffyliaid.
18 Gwell *yw* doethineb nag arfau rhyfel; ond un pechadur a ddinystria lawer o ddaioni.

PENNOD 10.

1 *Pethau i ddal arnynt ynghylch doethineb ac ynfydrwydd.* 16 *Am anllywodraeth,* 18 *dsogi,* 19 *ac arian.* 20 *Rhaid i bawb feddwl yn barchedig o'r brenhin.*

GWYBED meirw a wnant i ennaint yr apothecari ddrewi; *felly* y gwna ychydig ffolineb i ŵr ardderchog o herwydd doethineb *ac* anrhydedd.
2 Calon y doeth *sydd* ar ei ddeheulaw; a chalon y ffol ar ei law aswy.
3 Ië, y ffol pan rodio ar y ffordd, sydd a'i galon yn pallu, ac y mae yn dywedyd wrth bawb ei *fod* yn ffol.
4 Pan gyfodo yspryd pennadur yn dy erbyn, nac ymado â'th lè: canys ymostwng a ostega bechodau mawrion.
5 Y mae drwg a welais dan yr haul, cyffelyb i gyfeiliorni sydd yn dyfod oddi ger bron y llywydd:
6 Gosodir ffolineb mewn graddau uchel, a'r cyfoethog a eistedd mewn lle isel.
7 Mi a welais weision ar feirch, a thywysogion yn cerdded fel gweision ar y ddaear.
8 Y sawl a gloddio bwll, a syrth ynddo; a'r neb a wasgaro gae, sarph a'i brath.
9 Y sawl a symmudo gerrig, a gaiff ddolur oddi wrthynt; a'r neb a hollto goed, a gaiff niwed oddi wrthynt.
10 Os yr haiarn a byla, oni hoga efe y min, rhaid iddo roddi mwy o nerth: etto doethineb *sydd* ragorol i gyfarwyddo.
11 Os brath sarph heb swyno, nid gwell yw dyn siaradus.
12 Geiriau genau y doeth *sydd* rasol: ond gwefusau y ffol a'i difetha ef ei hun.
13 Ffolineb *yw* dechreuad geiriau ei enau ef: a diweddiad geiriau ei enau *sydd* anfad ynfydrwydd.
14 Y ffol hefyd sydd aml ei eiriau: ni ŵyr neb beth a fydd; a phwy a fynega iddo pa beth fydd ar ei ol ef?
15 Llafur y ffyliaid a flina bawb o honynt: canys ni fedr efe fyned i'r ddinas.
16 ¶ Gwae di y wlad *sydd* a bachgen yn frenhin i ti, a'th dywysogion yn bwytta yn fore.
17 Gwyn dy fyd di y wlad *sydd* â'th frenhin yn fab i bendefigion, a'th dywysogion yn bwyttą eu bwyd yn *eu* hamser, er cryfder, ac nid er meddwdod.
18 ¶ Trwy ddïogi lawer yr adfeilia yr adeilad; ac wrth laesu y dwylaw y gollwng y tŷ ddefni.
19 ¶ Arlwyant wledd i chwerthin, a gwin a lawenycha y rhai byw; ond arian sydd yn atteb i bob *peth.*
20 ¶ Na felldithia y brenhin yn dy feddwl; ac yn ystafell dy wely na felldithia y cyfoethog: canys ehediad yr awyr a gyhoedda y llais, a pherchen adain a fynega y peth.

PENNOD 11.

1 *Addyseg at gariad perffaith.* 7 *Rhaid yw meddwl am angau mewn bywyd,* 9 *ac am ddydd y farn mewn ieuengctid.*

BWRW dy fara ar wyneb y dyfroedd; canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau.
2 Dyro ran i saith, a hefyd i wyth: canys ni wyddost pa ddrwg a ddigwydd ar y ddaear.
3 Os bydd y cymmylau yn llawn gwlaw, hwy a ddefnynant ar y ddaear: ac os tu a'r dehau neu tu a'r gogledd y syrth y pren; lle y syrthio y pren, yno y bydd efe.
4 Y neb a ddalio ar y gwynt, ni

haua; a'r neb a edrycho ar y cymmylau, ni feda.

5 Megis nas gwyddost ffordd yr yspryd, *na* pha fodd *y ffurfhêir* yr esgyrn y'nghroth y feichiog; felly ni wyddost waith Duw, yr hwn sydd yn gwneuthur y cwbl.

6 Y bore haua dy had, a phrydnawn nac attal dy law: canys ni wyddost pa un a ffynna, ai hyn yma ai hyn accw, ai ynte da *fyddant* ill dau yn yr un ffunud.

7 ¶ Melus yn ddïau *yw* y goleuni, a hyfryd *yw* i'r llygaid weled yr haul.

8 Ond pe byddai dyn fyw lawer o flynyddoedd, *a* bod yn llawen ynddynt oll; etto cofied ddyddiau tywyllwch; canys llawer fyddant. Beth bynnag a ddigwydda, oferedd *yw*.

9 ¶ Gwna yn llawen, ŵr ieuangc, yn dy ieuengctid, a llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuengctid, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac y'ngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll.

10 Am hynny bwrw ddig oddi wrth dy galon, a thro ymaith ddrwg oddi wrth dy gnawd: canys gwagedd *yw* mebyd ac ieuengctid.

PENNOD 12.

1 *Rhaid yw meddwl am ein Gwneuthurwr mewn pryd.* 8 *Gofal y Pregethwr am adeiladu eraill.* 13 *Ofn Duw yw yr help pennaf yn erbyn pob gwagedd ac oferedd.*

COFIA yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuengctid, cyn dyfod y dyddiau blin, a nesâu o'r blynyddoedd yn y rhai y dywedi, Nid oes i mi ddim diddanwch ynddynt:

2 Cyn tywyllu yr haul, a'r goleuni, a'r lleuad, a'r sêr, a dychwelyd y cymmylau ar ol y gwlaw:

3 Yr amser y cryna ceidwaid y tŷ, ac y crymma y gwŷr cryfion, ac y metha y rhai sydd yn malu, am eu bod yn ychydig, ac y tywylla y rhai sydd yn edrych trwy ffenestri;

4 A chau y pyrth yn yr heolydd, pan fo isel swn y malu, a'i gyfodi wrth lais yr aderyn, a gostwng i lawr holl ferched cerdd:

5 Ië, *yr amser* yr ofnant *yr hyn sydd* uchel, ac yr arswydant yn y ffordd, ac y blodeua y pren almon, ac y bydd y ceiliog rhedyn yn faich, ac y palla chwant: pan elo dyn i dŷ ei hir gartref, a'r galarwyr yn myned o bob tu yn yr heol:

6 Cyn torri y llinyn arian, a chyn torri y cawg aur, a chyn torri y piser ger llaw y ffynnon, neu dorri yr olwyn wrth y pydew.

7 Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr yspryd at Duw, yr hwn a'i rhoes ef.

8 ¶ Gwagedd o wagedd, medd y Pregethwr; gwagedd *yw* y cwbl.

9 A hefyd, am fod y Pregethwr yn ddoeth, efe a ddysgodd etto wybodaeth i'r bobl; ïe, efe a ystyriodd, ac a chwiliodd allan, *ac* a drefnodd ddïarhebion lawer.

10 Chwiliodd y Pregethwr am eiriau cymmeradwy; a'r *hyn oedd* ysgrifenedig *oedd* uniawn, *sef* geiriau gwirionedd.

11 Geiriau y doethion *sydd* megis symbylau, ac fel hoelion wedi eu sicrhâu *gan* feistriaid y gynnulleidfa, *y rhai* a roddir oddi wrth un bugail.

12 Ym mhellach hefyd, fy mab, cymmer rybudd wrth y rhai hyn; nid *oes* diben ar wneuthur llyfrau lawer, a darllen llawer *sydd* flinder i'r cnawd.

13 ¶ Swm y cwbl a glybuwyd *yw*, Ofna Duw, a chadw ei orchymynion: canys hyn *yw* holl *ddyled* dyn.

14 Canys Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynnag *fyddo* ai da ai drwg.

CANIAD SOLOMON.

PENNOD 1.

1 *Cariad yr eglwys ar Grist.* 5 *Y mae hi yn cyfaddef ei gwrthuni,* 7 *ac yn gweddio am gael ei chyfarwyddo at ei ddiadell ddefaid ef.* 8 *Crist yn ei chyfarwyddo hi at bebyll y bugeiliaid:* 9 *a chan ddangos ei gariad tu ag atti,* 11 *yn gwneuthur iddi addewidion graesusol.* 12 *Crist a'i eglwys yn ymgaredigo.*

CAN y caniadau, eiddo Solomon.
2 Cusaned fi â chusanau ei fin: canys gwell *yw* dy gariad na gwin.
3 O herwydd arogl dy ennaint daionus, ennaint tywalltedig *yw* dy enw: am hynny y llangcesau a'th garant.
4 Tyn fi, ni a redwn ar dy ol. Y brenhin a'm dug i i'w ystafellau: ni a ymhyfrydwn ac a ymlawenhâwn ynot; ni a gofiwn dy gariad yn fwy na gwin: y rhai uniawn sydd yn dy garu.
5 Du *ydwyf* fi, ond hawddgar, merched Jerusalem, fel pebyll Cedar, fel llenni Solomon.
6 Nac edrychwch arnaf, am fy *mod* yn ddu, *ac* am i'r haul edrych arnaf: meibion fy mam a ddigiasant wrthyf, gosodasant fi i gadw gwinllannoedd *eraill;* fy ngwinllan fy hun nis cedwais.
7 Mynega i mi, yr hwn a hoffodd fy enaid, pa le yr wyt yn bugeilio, pa le y gwnei iddynt orwedd ganol dydd: canys paham y byddaf megis un yn troi heibio wrth ddiadellau dy gyfeillion?
8 ¶ Oni wyddost ti, y deccaf o'r gwragedd, dos allan rhagot ar hyd ol y praidd, a phortha dy fynnod ger llaw pebyll y bugeiliaid.
9 Fr meirch y ngherbydau Pharaoh y'th gyffelybais, fy anwylyd.
10 Hardd yw dy ruddiau gan dlysau, a'th wddf gan gadwyni.
11 Tlysau o aur, a boglynnau o arian, a wnawn i ti.
12 ¶ Tra *yw* y brenhin ar ei fwrdd, fy nardus i a rydd ei arogl.
13 Fy anwylyd *sydd* i mi yn bwysi myr; rhwng fy mronnau yr erys dros nos.
14 Cangen o rawn camphir *yw* fy anwylyd i mi, y'ngwinllannoedd Engedi.
15 Wele di yn dêg, fy anwylyd, wele di yn dêg; *y mae* i ti lygaid colommennod.
16 Wele di, fy anwylyd, yn dêg, ac yn hawddgar; ein gwely hefyd *sydd* iraidd.
17 Swmmerau ein tai *sydd* gedrwydd; ein distiau *sydd* ffynnidwydd.

PENNOD 2.

1 *Y cariad sydd rhwng Crist a'i eglwys.* 8 *Gobaith,* 10 *a galwedigaeth yr eglwys;* 14 *a gofal Crist drosti.* 16 *Profes yr eglwys, a'i ffydd, a'i gobaith.*

RHOSYN Saron, *a* lili y dyffryn-oedd, *ydwyf* fi.
2 Megis lili ym mysg y drain, felly *y mae* fy anwylyd ym mysg y merched.
3 Megis pren afalau ym mysg prennau y coed, felly *y mae* fy anwylyd ym mhlith y meibion: bu dda gennyf eistedd dan ei gysgod ef, a'i ffrwyth *oedd* felus i'm genau.
4 Efe a'm dug i'r gwindy, a'i faner drosof *ydoedd* gariad.
5 Cynheliwch fi â phottelau, cysurwch fi âg afalau; canys claf *ydwyf* fi o gariad.
6 Ei law aswy *sydd* dan fy mhen, a'i ddeheulaw sydd yn fy nghofleidio.
7 Merched Jerusalem, tynghedaf chwi trwy iyrchod ac ewigod y maes, na chyffrôch, ac na ddeffrôch *fy* nghariad, hyd oni fynno ei hun.
8 ¶ *Dyma* lais fy anwylyd! wele ef yn dyfod, yn neidio ar y mynyddoedd, *ac* yn llammu ar y bryniau.
9 Tebyg *yw* fy anwylyd i iwrch neu lwdn hydd; wele efe yn sefyll y tu ol i'n pared, yn edrych trwy y ffenestri, yn ymddangos trwy y dellt.
10 Fy anwylyd a lefarodd, ac a ddywedodd wrthyf, Cyfod, fy anwylyd, a thyred di, fy mhrydferth:
11 Canys wele, y gauaf a aeth heibio, y gwlaw a basiodd, ac a aeth ymaith;

12 Gwelwyd y blodau ar y ddaear, daeth amser i'*r adar* i ganu, clywyd llais y durtur yn ein gwlad;
13 Y ffigysbren a fwriodd allan ei ffigys irion, a'r gwinwydd *â*'u hegin grawn a roddasant arogl *teg*. Cyfod di, fy anwylyd, a thyred di, fy mhrydferth.
14 ¶ Fy ngholommen, *yr hon wyt* yn holltau y graig, yn lloches y grisiau, gâd i mi weled dy wyneb, gâd i mi glywed dy lais: canys dy lais *sydd* beraidd, a'th olwg yn hardd.
15 Deliwch i ni y llwynogod, y llwynogod bychain, y rhai a ddifwynant y gwinllannoedd: canys *y mae i*'n gwinllannoedd egin grawnwin.
16 ¶ Fy anwylyd *sydd* eiddof fi, a minnau yn eiddo yntau; y mae efe yn bugeilio ym mysg y lili.
17 Hyd oni wawrio y dydd, a chilio o'r cysgodau; tro, bydd debyg, fy anwylyd, i iwrch, neu lwdn hydd ym mynyddoedd Bether.

PENNOD 3.

1 *Ymdrech yr eglwys, a'i gorfodaeth mewn profedigaeth.* 6 *Yr eglwys yn ymogoneddu yng Nghrist.*

LLIW nos yn fy ngwely y ceisiais yr hwn a hoffa fy enaid: ceisiais ef, ac nis cefais.
2 Codaf yn awr, ac âf o amgylch y ddinas, trwy yr heolydd a'r ystrydoedd, ceisiaf yr hwn a hoffa fy enaid: ceisiais ef, ac nis cefais.
3 Y gwylwyr, y rhai a aent o amgylch y ddinas, a'm cawsant: *gofynais*, A welsoch chwi yr hwn sydd hoff gan fy enaid?
4 Nid aethwn i neppell oddi wrthynt, hyd oni chefais yr hwn sydd hoff gan fy enaid: deliais ef, ac nis gollyngais, hyd oni ddygais ef i dŷ fy mam, ac i ystafell yr hon a'm hymddûg.
5 Merched Jerusalem, tynghedaf chwi trwy iyrchod ac ewigod y maes, na chyffrôch ac na ddeffrôch *fy* nghariad, hyd oni fynno ei hun.
6 ¶ Pwy *yw* hon sydd yn dyfod i fyny o'r anialwch megis colofnau mwg, wedi ei phêr-arogli â myr, ac â thus, *ac* â phob powdr yr apothecari?
7 Wele ei wely ef, *sef* yr eiddo Solomon; *y mae* tri ugain o gedyrn o'i amgylch, *sef* o gedyrn Israel.
8 Hwynt oll a ddaliant gleddyf, wedi eu dysgu i ryfel, pob un â'i gleddyf ar ei glun, rhag ofn liw nos.
9 Gwnaeth y brenhin Solomon iddo gerbyd o goed Libanus.
10 Ei byst ef a wnaeth efe *o* arian, ei lawr *o* aur, ei lenni *o* borphor; ei ganol a balmantwyd *â* chariad, i ferched Jerusalem.
11 Ewch allan, merched Sïon, ac edrychwch ar y brenhin Solomon yn y goron â'r hon y coronodd ei fam ef yn ei ddydd dyweddi ef, ac yn nydd llawenydd ei galon ef.

PENNOD 4.

1 *Crist yn gosod allan hawddgar ddoniau yr eglwys:* 8 *yn dangos ei gariad tu ag atti.* 16 *Yr eglwys yn gweddïo ar gael ei gwneuthur yn gymmwys i'w bresennoldeb ef.*

WELE di yn dêg, fy anwylyd, wele di yn dêg; dy lygaid *ydynt* golommennaidd rhwng dy lywethau; dy wallt *sydd* fel dïadell o eifr, y rhai a ymddangosant o fynydd Gilead.
2 Dy ddannedd *sydd* fel dïadell *o ddefaid gwastad*-gnaif, y rhai a ddaethant i fyny o'r olchfa; y rhai *oeddynt* bob un yn dwyn dau oen, ac nid *oedd* un ynddynt yn ddïeppil.
3 Dy wefusau *sydd* fel edau ysgarlad, a'th barabl yn weddus: dy arleisiau rhwng dy lywethau *sydd* fel darn o bomgranad.
4 Dy wddf *sydd* fel tŵr Dafydd, yr hwn a adeiladwyd yn dŷ arfau; tariannau fil sydd yn crogi ynddo, i gyd yn estylch y cedyrn.
5 Dy ddwy fron *sydd* fel dau lwdn iwrch o efelliaid yn pori ym mysg lili.
6 Hyd oni wawrio y dydd, a chilio o'r cysgodau, âf i fynydd y myr, ac i fryn y thus.
7 Ti oll *ydwyt* dêg, fy anwylyd; ac nid *oes* ynot frycheuyn.
8 ¶ Tyred gyd â mi o Libanus, *fy* nyweddi, gyd â mi o Libanus: edrych o ben Amanah, o goppa Senir a Hermon, o lochesau y llewod, o fynyddoedd y llewpardiaid.
9 Dygaist fy nghalon, fy chwaer, *a'm* dyweddi; dygaist fy nghalon âg

un o'th lygaid, âg un gadwyn wrth dy wddf.
10 Mor dêg *yw* dy gariad, fy chwaer, *a'm* dyweddi! pa faint gwell yw dy gariad na gwin, ac arogl dy olew na'r holl bêr-aroglau!
11 Dy wefusau, *fy* nyweddi, sydd yn diferu *fel* dil mêl: *y mae* mêl a llaeth dan dy dafod, ac arogl dy wisgoedd fel arogl Libanus.
12 Gardd gauedig *yw* fy chwaer, *a'm* dyweddi: ffynnon glöedig, ffynnon seliedig *yw*.
13 Dy blanhigion *sydd* berllan o bomgranadau, a ffrwyth peraidd, camphir, a nardus;
14 *Ïe*, nardus a saffrwn, calamus a sinamon, a phob pren thus, myr, ac aloes, ynghyd â phob rhagorol bêr-lysiau:
15 Ffynnon y gerddi, ffynnon y dyfroedd byw, a ffrydiau o Libanus.
16 ¶ Deffro di, ogleddwynt, a thyred, ddeheuwynt, chwŷth *ar* fy ngardd, *fel* y gwasgarer ei phêr-aroglau: deued fy anwylyd i'w ardd, a bwyttâed ei ffrwyth peraidd ei hun.

PENNOD 5.

1 *Crist yn defrôi yr eglwys d'i alwad.* 2 *Yr eglwys, wedi profi cariad Crist, yn glaf o gariad.* 9 *Portreiadu Crist wrth ei radau.*

DEUTHUM i'm gardd, fy chwaer, *a'm* dyweddi: cesglais fy myr gyd â'm pêr-arogl, bwytteais fy nil gyd â'm mêl, yfais fy ngwin gyd â'm llaeth: bwyttêwch, gyfeillion, yfwch, ïe, yfwch yn helaeth, *fy* rhai anwyl.
2 ¶ Myfi *sydd* yn cysgu, a'm calon yn neffro: llais fy anwylyd *yw* yn curo, *gan ddywedyd*, Fy chwaer, fy anwylyd, fy ngholommen, fy nihalog, agor i mi: canys llanwyd fy mhen â gwlith, *a'm* gwallt â defnynnau y nos.
3 Diosgais fy mhais; pa fodd y gwisgaf hi? golchais fy nhraed; pa fodd y diwynaf hwynt?
4 Fy anwylyd a estynodd ei law trwy y twll; a'm hymysgaroedd a gyffrôdd er ei fwyn.
5 Mi a gyfodais i agori i'm hanwylyd; a'm dwylaw a ddiferasant *gan* fyr, a'm bysedd *gan* fyr yn diferu ar hyd hespennau y clo.
6 Agorais i'm hanwylyd; ond fy anwylyd a giliasai, *ac* a aethai ymaith: fy enaid a lewygodd pan lefarodd: ceisiais, ac nis cefais; gelwais ef, ond ni'm hattebodd.
7 Y gwylwyr y rhai a aent o amgylch y ddinas, a'm cawsant, a'm tarawsant, a'm harchollasant: gwylwyr y caerau a ddygasant fy ngorchudd oddi arnaf.
8 Merched Jerusalem, gorchymynaf i chwi, os cewch fy anwylyd, fynegi iddo fy *mod* yn glaf o gariad.
9 ¶ Beth *yw* dy anwylyd rhagor anwylyd *arall*, y deccaf o'r gwragedd? beth *yw* dy anwylyd rhagor anwylyd *arall*, pan orchymyni i ni felly?
10 Fy anwylyd *sydd* wyn a gwridog, yn rhagori ar ddengmil.
11 Ei ben *fel* aur coeth, ei wallt yn grych, yn ddu fel y fran.
12 Ei lygaid fel *llygaid* colommennod wrth afonydd dyfroedd, wedi eu golchi â llaeth, wedi eu gosod yn gymmwys.
13 Ei ruddiau fel gwely pêr-lysiau, *fel* blodau peraidd: ei wefusau *fel* lili yn diferu myr diferol.
14 Ei ddwylaw *sydd fel* modrwyau aur, wedi eu llenwi o beryl: ei fol *fel* disglaer ifori wedi ei wisgo *â* saphir.
15 Ei goesau *fel* colofnau marmor wedi eu gosod ar wadnau o aur coeth: ei wynebpryd fel Libanus, mor ddewisol a chedrwydd.
16 Melus odiaeth *yw* ei enau; ïe, *y mae* efe oll yn hawddgar. Dyma fy anwylyd, dyma fy nghyfaill, O ferched Jerusalem.

PENNOD 6.

1 *Yr eglwys yn gwneuthur profes o'i ffydd yng Nghrist.* 4 *Crist yn dangos hawddgar ddoniau yr eglwys,* 10 *a'i gariad ef tu ag atti.*

IBA le yr aeth dy anwylyd, y deccaf o'r gwragedd? i ba le y trodd dy anwylyd? fel y ceisiom ef gyd â thi.
2 Fy anwylyd a aeth i waered i'w ardd, i welŷau y pêr-lysiau, i ymborth yn y gerddi, ac i gasglu lili.
3 Myfi *wyf* eiddo fy anwylyd, a'm hanwylyd yn eiddof finnau, yr

hwn sydd yn bugeilio ym mysg y lili.

4 ¶ Teg *ydwyt* ti, fy anwylyd, megis Tirsah, gweddus megis Jerusalem, ofnadwy megis *llu* banerog.

5 Tro dy lygaid oddi wrthyf, canys hwy a'm gorchfygasant: dy wallt *sydd* fel dïadell o eifr y rhai a ymddangosant o Gilead.

6 Dy ddannedd *sydd* fel dïadell o ddefaid a ddai i fyny o'r olchfa, y rhai sydd bob un yn dwyn dau oen, ac heb *un* yn ddïeppil yn eu mysg.

7 Dy arleisiau rhwng dy lywethau *sydd* fel darn o bomgranad.

8 Y mae tri ugain o frenhinesau, ac o ordderch-wragedd bedwar ugain, a llangcesau heb rifedi.

9 Un *ydyw* hi, fy ngholommen, fy nihalog; unig ei mam *yw* hi, dewisol *yw* hi gan yr hon a'i hesgorodd: y merched a'i gwelsant, ac a'i galwasant yn ddedwydd; y brenhinesau a'r gordderch-wragedd, a hwy a'i canmolasant hi.

10 ¶ Pwy *yw* hon a welir fel y wawr, yn dêg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, yn ofnadwy fel *llu* banerog?

11 Euthum i waered i'r ardd gnau, i edrych am ffrwythydd y dyffryn, i weled a flodeuasai y winwydden, a flodeuasai y pomgranadau.

12 Heb wybod i mi y'm gwnaeth fy enaid *megis* cerbydau Amminadib.

13 Dychwel, dychwel, y Sulamëes; dychwel, dychwel, fel yr edrychom arnat. Beth a welwch chwi yn y Sulamëes? Megis tyrfa dau lu.

PENNOD 7.

1 *Hysbysrwydd pellach o radau yr eglwys.* 10 *Yr eglwys yn gwneuthur proffes o'i ffydd, ac o'i dymuniad.*

MOR dêg *yw* dy draed mewn esgidiau, ferch pendefig! cymmalau dy forddwydydd *sydd* fel tlysau, gwaith dwylaw y cywraint.

2 Dy fogail *sydd fel* gorflwch crwn, heb eisieu lleithder: dy fru *fel* twr gwenith wedi ei amgylchu â lili.

3 Dy ddwy fron megis dau lwdn iwrch o efelliaid.

4 Dy wddf fel tŵr o ifori; dy lygaid *fel* pysgod-lynnoedd yn Hesbon wrth borth Bath-rabbim; dy drwyn fel tŵr Libanus yn edrych tu a Damascus.

5 Dy ben *sydd* arnat fel Carmel, a gwallt dy ben fel porphor; y brenhin *sydd* wedi ei rwymo yn y rhodfeydd.

6 Mor dêg ydwyt, ac mor hawddgar, fy nghariad, a'm hyfrydwch!

7 Dy uchder yma sydd debyg i balmwydden, a'th fronnau i'r grawnsypiau.

8 Dywedais, Dringaf i'r balmwydden, ymaflaf yn ei cheingciau: ac yn awr dy fronnau fyddant megis grawn-ganghennau y winwydden, ac arogl dy ffroenau megis afalau;

9 A thaflod dy enau megis y gwin goreu i'm hanwylyd, yn myned *i waered* yn felus, ac yn peri i wefusau y rhai a fyddo yn cysgu lefaru.

10 ¶ Eiddo fy anwylyd *ydwyf* fi, ac attaf fi *y mae* ei ddymuniad ef.

11 Tyred, fy anwylyd, awn i'r maes, *a* llettŷwn yn y pentrefi.

12 Bore-godwn i'r gwinllannoedd; edrychwn a flodeuodd y winwydden, a agorodd egin y grawnwin, a flodeuodd y pomgranadau: yno y rhoddaf fy nghariad i ti.

13 Y mandragorau a roddasant arogledd, ac wrth ein drysau *y mae* pob rhyw odidawg *ffrwythau*, newydd a hen, *y rhai* a rois i gadw i ti, fy anwylyd.

PENNOD 8.

1 *Cariad yr eglwys tu ag at Grist.* 6 *Mor angerddol yw cariad.* 8 *Galwad y cenhedloedd.* 14 *Yr eglwys yn gweddio am ddyfodiad Crist.*

ONA *bait* megis brawd i mi, yn sugno bronnau fy mam! *pan* y'th gawn allan, cusanwn di; etto ni'm dirmygid.

2 Arweiniwn, *a* dygwn di i dŷ fy mam, *yr hon* a'm dysgai: parwn i ti yfed gwin llysieuog o sugn fy mhomgranadau.

3 Ei law aswy *fyddai* dan fy mhen, a'i law ddehau a'm cofleidiai.

4 Tynghedaf chwi, ferched Jerusalem, na chyffrôch, ac na ddeffrôch *fy* nghariad, hyd oni fynno ei hun.

5 Pwy *yw* hon sydd yn dyfod i fyny o'r anialwch, *ac* yn pwyso ar ei hanwylyd? Dan yr afallen

y'th gyfodais: yno y'th esgorodd
dy fam; yno y'th esgorodd *yr hon*
a'th ymddûg.
6 ¶ Gosod fi megis sêl ar dy galon,
fel sêl ar dy fraich: canys cariad
sydd gryf fel angau; eiddigedd
sydd greulawn fel y bedd: ei far-
wor *sydd* farwor tanllyd, *a* fflam
angerddol *iddynt.*
7 Dyfroedd lawer ni allant ddi-
ffoddi cariad, ac afonydd nis bodd-
ant: pe rhoddai ŵr holl gyfoeth
ei dŷ am gariad, gan ddirmygu y
dirmygid hynny.
8 ¶ *Y mae* i ni chwaer fechan, ac
nid *oes* fronnau iddi: beth a wnawn
i'n chwaer y dydd y dyweder am
dani?
9 Os caer *yw* hi, ni a adeiladwn
arni balas arian; ac os drws *yw* hi,
ni a'i cauwn hi âg ystyllod cedr-
wydd.
10 Caer *ydwyf* fi, a'm bronnau fel
tyrau: yna yr oeddwn yn ei olwg ef
megis wedi cael tangnefedd.
11 Yr oedd gwinllan i Solomon
yn Baal-hamon: efe a osododd y
winllan i warcheidwaid; pob un a
ddygai am ei ffrwyth fil o *ddarnau*
arian.
12 Fy ngwinllan *sydd* ger fy
mron: mil *a roddir* i ti, Solomon,
a dau cant i'r rhai a gadwant ei
ffrwyth hi.
13 *O* yr hon a drigi yn y gerddi,
y cyfeillion a wrandawant ar dy
lais: pâr i mi *ei* glywed.
14 ¶ Brysia, fy anwylyd, a bydd
debyg i iwrch neu lwdn hydd ar
fynyddoedd y pêr-lysiau.

LLYFR Y
PROPHWYD ESAIAH.

PENNOD 1.

1 *Esaiah yn achwyn ar Judah am ei hanufudd-dod: 5 yn gofidio am ei barnediyaeth hi: 10 yn edliw iddynt eu holl wasanaeth: 16 yn annog i edifeirwch, trwy addewidion a bygythion: 21 yn cwyno eu hannuwioldeb hwy, ac yn datgan barnedigaethau Duw: 25 yn addaw gras; 28 ac yn bygwth dinystr ar yr annuwiol.*

GWELEDIGAETH Esaiah mab
Amos, yr hon a welodd efe am
Judah a Jerusalem, yn nyddiau
Ussïah, Jotham, Ahas, *a* Hesecïah,
brenhinoedd Judah.
2 Gwrandêwch, nefoedd; clyw di-
thau, ddaear: canys yr ARGLWYDD
a lefarodd, Megais a meithrinais
feibion, a hwy a wrthryfelasant i'm
herbyn.
3 Yr ŷch a edwyn ei feddiannydd,
a'r asyn breseb ei berchennog: *ond*
Israel nid edwyn, fy mhobl ni
ddeall.
4 O genhedlaeth bechadurus, pobl
lwythog o anwiredd, had y rhai
drygionus, meibion yn llygru:
gwrthodasant yr ARGLWYDD, dig-
iasant Sanct Israel, ciliasant yn ol!
5 ¶ I ba beth y'ch tarewir mwy?
cildynrwydd a chwanegwch: y pen
oll *sydd* glwyfus, a'r holl galon yn
llesg.
6 O wadn y troed hyd y pen nid
oes dim cyfan ynddo; *ond* archoll-
ion, a chleisiau, a gweliau crawn-
llyd: ni wasgwyd hwynt, ac ni
rwymwyd, ac ni thynerwyd âg
olew.
7 *Y mae* eich gwlad yn anrheith-
iedig, eich dinasoedd wedi eu llosgi
â thân: eich tir a dïeithriaid yn ei
ysu yn eich gŵydd, ac wedi ei an-
rheithio fel ped ymchwelai estron-
iaid ef.
8 Merch Sïon a adewir megis llu-
esty mewn gwinllan, megis lletty
mewn gardd cucumerau, megis din-
as warchäedig.
9 Oni buasai i ARGLWYDD y llu-
oedd adael i ni ychydig iawn o
weddill, fel Sodom y buasem, *a*
chyffelyb fuasem i Gomorrah.
10 ¶ Gwrandêwch air yr AR-
GLWYDD, tywysogion Sodom;
clywch gyfraith ein DUW ni, pobl
Gomorrah.
11 Beth *yw* llïosowgrwydd eich
aberthau i mi? medd yr AR-

GLWYDD; llawn ydwyf o boethaberthau hyrddod, ac o frasder anifeiliaid breision; gwaed bustych hefyd, ac ŵyn, a bychod, nid ymhyfrydais ynddynt.

12 Pan ddeloch i ymddangos ger fy mron, pwy a geisiodd hyn ar eich llaw, *sef* sengi fy nghynteddau?

13 Na chwanegwch ddwyn offrwm ofer: arogl-darth sydd ffiaidd gennyf; ni allaf oddef y newydd-loeraau na'r Sabbathau, cyhoeddi cymmanfa; anwiredd *ydyw*, sef yr uchel-wyl gyfarfod.

14 Eich lleuadau newydd a'ch gwyliau gosodedig a gasaodd fy enaid: y maent yn faich arnaf; blinais yn *eu* dwyn.

15 A phan estynoch eich dwylaw, mi a guddiaf fy llygaid rhagoch: hefyd pan weddïoch lawer, ni wrandawaf: eich dwylaw sydd lawn o waed.

16 ¶ Ymolchwch, ymlanhêwch, bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bron fy llygaid; peidiwch â gwneuthur drwg;

17 Dysgwch wneuthur daioni: ceisiwch farn, gwnewch uniondeb i'r gorthrymmedig, gwnewch farn i'r amddifad, dadleuwch dros y weddw.

18 Deuwch yr awr hon, ac ymresymmwn, medd yr ARGLWYDD: pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wynned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan.

19 Os byddwch ewyllysgar ac ufudd, daioni y tir a fwyttêwch.

20 Ond os gwrthodwch, ac *os* anufuddhêwch, â chleddyf y'ch ysir: canys genau yr ARGLWYDD a'i llefarodd.

21 ¶ Pa wedd yr aeth y ddinas ffyddlawn yn puttain! cyflawn fu o farn: llettŷodd cyfiawnder ynddi; ond yr awr hon lleiddiaid.

22 Dy arian a aeth yn sothach, dy win sydd wedi ei gymmysgu â dwfr:

23 Dy dywysogion *sydd* gyndyn, ac yn gyfrannogion â lladron; pob un yn caru rhoddion, ac yn dilyn gwobrau: ni farnant yr amddifad, a chŵyn y weddw ni chaiff ddyfod attynt.

24 Am hynny medd yr Arglwydd, ARGLWYDD y lluoedd, cadarn *DDUW* Israel, Aha, ymgysuraf ar fy ngwrthwynebwyr, ac ymddialaf ar fy ngelynion.

25 ¶ A mi a ddychwelaf fy llaw arnat, ac a lân-buraf dy sothach, ac a dynnaf ymaith dy holl alcam.

26 Adferaf hefyd dy farnwyr fel cynt, a'th gynghoriaid megis yn y dechreu: wedi hynny y'th elwir yn Ddinas cyfiawnder, yn Dref ffyddlawn.

27 Sïon a waredir â barn, a'r rhai a ddychwelant ynddi â chyfiawnder.

28 ¶ A dinystr y troseddwyr a'r pechaduriaid *fydd* ynghyd; a'r rhai a ymadawant â'r ARGLWYDD, a ddifethir.

29 Canys cywilyddiant o achos y derw a chwennychasoch; a gwarthruddir chwi am y gerddi a ddetholasoch.

30 Canys byddwch fel derwen â'i dail yn syrthio, ac fel gardd heb ddwfr iddi.

31 A'r cadarn fydd fel carth, a'i weithydd fel gwreichionen: a hwy a losgant ill dau ynghyd, ac ni bydd a'*u* diffoddo.

PENNOD 2.

1 *Esaiah yn prophwydo dyfodiad brenhiniaeth Crist.* 6 *Annuwioldeb yw yr achos fod Duw yn gwrthod dyn.* 10 *Y mae yn annog i ofni, o herwydd maint yw gallu mawrhydi Duw.*

Y GAIR yr hwn a welodd Esaiah mab Amos, am Judah a Jerusalem.

2 A bydd yn y dyddiau diweddaf, fod mynydd tŷ yr ARGLWYDD wedi ei barottôi ym mhen y mynyddoedd, ac yn ddyrchafedig goruwch y bryniau; a'r holl genhedloedd a ddylifant atto.

3 A phobloedd lawer a ânt ac a ddywedant, Deuwch, ac esgynwn i fynydd yr ARGLWYDD, i dŷ DUW Jacob; ac efe a'n dysg ni yn ei ffyrdd, a ni a rodiwn yn ei lwybrau ef: canys y gyfraith a â allan o Sïon, a gair yr ARGLWYDD o Jerusalem.

4 Ac efe a farna rhwng y cenhedloedd, ac a gerydda bobloedd lawer: a hwy a gurant eu cleddyfau yn

sychau, a'u gwaywffyn yn bladuriau:
ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn
cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach.
5 Tŷ Jacob, deuwch, a rhodiwn
y'ngoleuni yr ARGLWYDD.
6 ¶ Am hynny y gwrthodaist dy
bobl, tŷ Jacob, am eu bod wedi eu
llenwi allan o'r dwyrain, a'u *bod*
yn swynwyr megis y Philistiaid, ac
mewn plant dieithriaid yr ymfoddlonant.
7 A'u tir sydd gyflawn o arian ac
aur, ac nid *oes* diben ar eu trysorau; *a*'u tir sydd lawn o feirch,
ac nid *oes* diben ar eu cerbydau.
8 Eu tir hefyd sydd lawn o eilunod; i waith eu dwylaw eu hun yr
ymgrymmant, i'r hyn a wnaeth eu
bysedd eu hun:
9 A'r gwreng sydd yn ymgrymmu,
a'r bonheddig yn ymostwng: am
hynny na faddeu iddynt.
10 ¶ Dos i'r graig, ac ymgûdd yn
y llwch, rhag ofn yr ARGLWYDD, a
rhag gogoniant ei fawredd ef.
11 Uchel drem dyn a iselir, ac
uchder dynion a ostyngir; a'r ARGLWYDD yn unig a ddyrchefir yn
y dydd hwnnw.
12 Canys dydd ARGLWYDD y lluoedd *fydd* ar bob balch ac uchel,
ac ar bob dyrchafedig; ac efe a
ostyngir:
13 Ac ar holl uchel a dyrchafedig
gedrwydd Libanus, ac ar holl dderw
Basan,
14 Ac ar yr holl fynyddoedd uchel,
ac ar yr holl fryniau dyrchafedig,
15 Ac ar bob tŵr uchel, ac ar bob
magwyr gadarn,
16 Ac ar holl longau Tarsis, ac
ar yr holl luniau dymunol.
17 Yna yr iselir uchelder dyn, ac
y gostyngir uchder dynion: a'r ARGLWYDD yn unig a ddyrchefir yn
y dydd hwnnw.
18 A'r eilunod a fwrw efe ymaith
yn hollol.
19 A hwy a ânt i dyllau y creigiau, ac i ogofau llychlyd, rhag ofn
yr ARGLWYDD, a rhag gogoniant
ei fawredd ef, pan gyfodo efe i
gynhyrfu y ddaear.
20 Yn y dydd hwnnw y teifl dyn
ei eilunod arian, a'i eilunod aur, y
rhai a wnaethant iddynt i'w haddoli, i'r wadd ac i'r ystlummod:
21 I fyned i agennau y creigiau,
ac i goppäau y clogwyni, rhag ofn
yr ARGLWYDD, a rhag gogoniant ei
fawredd ef, pan gyfodo efe i gynhyrfu y ddaear.
22 Peidiwch chwithau â'r dyn yr
hwn *sydd* â'i anadl yn ei ffroenau:
canys ym mha beth y gwneir cyffrif
o hono?

PENNOD 3.

1 *Y mawr waradwydd sydd ym dyfod o bechu.* 9 *Digynllydd-dra y bobl.* 12 *Tyraha a chybyddod y llywodraethwyr.* 16 *Pa ddiafledd a ddaw am falchder y gwragedd.*

CANYS wele, yr Arglwydd, ARGLWYDD y lluoedd, a dyn ymaith o Jerusalem, ac o Judah, y
gynhaliaeth a'r ffon, holl gynhaliaeth bara, a holl gynhaliaeth dwfr,
2 Y cadarn, a'r rhyfelwr, y brawdwr, a'r prophwyd, y synhwyrol, a'r
henwr,
3 Y tywysog deg a deugain, a'r anrhydeddus, a'r cynghorwr, a'r crefftwr celfydd, a'r areithiwr hyawdl.
4 A rhoddaf blant yn dywysogion iddynt, a bechgyn a arglwyddiaetha arnynt.
5 A'r bobl a orthrymmir y naill
gan y llall, a phob un gan ei gymmydog: y bachgen yn erbyn yr
henwr, a'r gwael yn erbyn yr anrhydeddus, a ymfalchïa.
6 Pan ymafio gŵr yn ei frawd o
dŷ ei dad, *gan ddywedyd*, Y mae
dillad gennyt, bydd dywysog i ni;
a *bydded* y cwymp hwn dan dy
law di:
7 Yntau a dwng yn y dydd hwnnw,
gan ddywedyd, Ni byddaf iachâwr;
canys yn fy nhŷ nid *oes* fwyd na
dillad: na osodwch fi yn dywysog
i'r bobl.
8 Canys cwympodd Jerusalem, a
syrthiodd Judah: o herwydd eu
tafod hwynt a'u gweithredoedd *sydd*
yn erbyn yr ARGLWYDD, i gyffrôi
llygaid ei ogoniant ef.
9 ¶ Dull eu hwynebau hwynt a
dystiolaetha yn eu herbyn; a'u
pechod fel Sodom a fynegant,
ac ni chelant: gwae eu henaid,
canys talasant ddrwg iddynt eu
hunain.
10 Dywedwch mai da *fydd* i'r cyfiawn: canys ffrwyth eu gweithredoedd a fwynhânt.

11 Gwae yr anwir, drwg *fydd iddo:*
canys gwobr ei ddwylaw ei hun a
fydd iddo.
12 ¶ Fy mhobl *sydd* â'u treiswyr
yn fechgyn, a gwragedd a arglwyddiaetha arnynt. O fy mhobl, y rhai
a'th dywysant sydd yn peri *i ti*
gyfeiliorni, a ffordd dy lwybrau a
ddistrywiant.
13 Yr ARGLWYDD sydd yn sefyll
i ymddadleu, ac yn sefyll i farnu y
bobloedd.
14 Yr ARGLWYDD a ddaw i farn
â henuriaid ei bobl, a'u tywysogion: canys chwi a borasoch y winllan; anrhaith y tlawd *sydd* yn eich
tai.
15 Beth *sydd* i chwi a guroch ar
fy mhobl, ac a faloch ar wynebau y
tlodion? medd ARGLWYDD DDUW
y lluoedd.
16 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd, O herwydd balchïo o ferched
Sïon, a rhodio â gwddf estynedig,
ac â llygaid gwammal, gan rodio a
rhygyngu *wrth* gerdded, a thrystio
â'u traed:
17 Am hynny y clafra yr ARGLWYDD gorynnau merched Sïon;
a'r ARGLWYDD a ddinoetha eu
gwarthle hwynt.
18 Yn y dydd hwnnw y tyn yr
ARGLWYDD ymaith addurn yr esgidiau, y rhwydwaith hefyd, a'r
lloerawg wisgoedd,
19 Y cadwynau, a'r breichledau,
a'r moledau,
20 Y penguwch, ac addurn y coesau, a'r ysnodennau, a'r dwyfronnegau, a'r clust-dlysau,
21 Y modrwyau, ac addurn y trwyn,
22 Y gwisgoedd symmudliw, a'r
mentyll, a'r misyrnau, a'r crychnodwyddau,
23 Y drychau hefyd, a'r lliïan
meinwych, a'r coccyllau, a'r gynau.
24 A bydd yn lle pêr-arogl, ddrewi;
bydd hefyd yn lle gwregys, rwygiad;
ac yn lle iawn drefn gwallt, foelni;
ac yn lle dwyfronneg, gwregys o
sachlïan; *a* llosgfa yn lle prydferthwch.
25 Dy wŷr a syrthiant gan y cleddyf, a'th gadernid trwy ryfel.
26 A'i phyrth hi a ofidiant, ac
a alarant: a hithau yn anrheithiedig a eistedd ar y ddaear.

PENNOD 4.

Mewn dygn adfyd, teyrnas Crist a fydd nodded.

AC yn y dydd hwnnw saith o
wragedd a ymaflant mewn un
gŵr, gan ddywedyd, Ein bara ein
hun a fwyttâwn, a'n dillad ein hun
a wisgwn: yn unig galwer dy enw
di arnom ni; cymmer ymaith ein
gwarth ni.
2 Y pryd hwnnw y bydd Blaguryn yr ARGLWYDD yn brydferthwch ac yn ogoniant; a ffrwyth y
ddaear yn rhagorol ac yn hardd i'r
rhai a ddïangasant o Israel.
3 A bydd, *am* yr hwn a adewir yn
Sïon, ac a weddillir yn Jerusalem,
y dywedir wrtho, *O* sanct; *sef* pob
un a'r a ysgrifenwyd ym mhlith
y rhai byw yn Jerusalem:
4 Pan ddarffo i'r ARGLWYDD olchi
budreddi merched Sïon, a charthu
gwaed Jerusalem o'i chanol, mewn
yspryd barn, ac mewn yspryd llosgfa.
5 A'r ARGLWYDD a grea ar bob
trigfa o fynydd Sïon, ac ar ei gymmanfaoedd, gwmmwl a mwg y
dydd, a llewyrch tân fflamllyd y
nos: canys ar yr holl ogoniant *y*
bydd amddiffyn.
6 A phabell fydd yn gysgod y
dydd rhag gwres, ac yn noddfa ac
yn ddiddos rhag tymmestl a rhag
gwlaw.

PENNOD 5.

1 *Trwy ddammeg y winllan, y mae Duw yn esgusodi bod ei farnedigaethau cyn dosted.* 8 *Ei farnedigaethau ef yn erbyn cybydd-dod,* 11 *a thrythyllwch,* 13 *ac annuwioldeb.* 20 *ac anghyfiawnder.* 26 *Y rhai a ddaledda dros Duw.*

CANAF yr awr hon i'm han-
wylyd, ganiad fy anwylyd am
ei winllan. Gwinllan sydd i'm
hanwylyd mewn bryn tra ffrwythlawn:
2 Ac efe a'i cloddiodd hi, ac a'i
digarregodd, ac a'i plannodd o'r
winwydden oreu, ac a adeiladodd
dŵr yn ei chanol, ac a drychodd
win-wrŷf ynddi: ac efe a ddisgwyliodd *iddi* ddwyn grawnwin, hithau
a ddug rawn gwylltion.
3 Ac yr awr hon, preswylwyr Jerusalem, a gwŷr Judah, bernwch,
attolwg, rhyngof fi a'm gwinllan.
4 Beth *oedd* i'w wneuthur ychwaneg i'm gwinllan, nag a wneuthum

ynddi? paham, a mi yn disgwyl iddi ddwyn grawnwin, y dug hi rawn gwylltion?

5 Ac yr awr hon mi a hysbysaf i chwi yr hyn a wnaf i'm gwinllan: tynnaf ymaith ei chae, fel y porer hi; torraf ei magwyr, fel y byddo hi yn sathrfa;

6 A mi a'i gosodaf hi yn ddifrod: nid ysgythrir hi, ac ni chloddir hi; ond mieri a drain a gyfyd: ac i'r cymmylau y gorchymynaf na wlawiont wlaw arni.

7 Dïau, gwinllan ARGLWYDD y lluoedd *yw* tŷ Israel, a gwŷr Judah *yw* ei blanhigyn hyfryd ef: ac efe a ddisgwyliodd am farn, ac wele drais; am gyfiawnder, ac wele lef.

8 ¶ Gwae y rhai sydd yn cyssylltu tŷ at dŷ, *ac* yn cydio maes wrth faes, hyd *oni byddo* eisieu lle, ac y trigoch chwi yn unig y'nghanol y tir.

9 Lle y clywais *y dywedodd* ARGLWYDD y lluoedd, Yn ddïau bydd tai lawer, mawrion a theg, yn anghyfannedd heb drigiannydd.

10 Canys deg cyfair o winllan a ddygant un bath, a lle homer a ddwg ephah.

11 ¶ Gwae y rhai a gyfodant yn fore i ddilyn dïod gadarn, a arhosant hyd yr hwyr, *hyd oni* ennyno y gwin hwynt.

12 Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae y delyn, a'r nabl, y dympan, a'r bibell, a'r gwin: ond am waith yr ARGLWYDD nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw ef nid ystyriant.

13 ¶ Am hynny y caethgludwyd fy mhobl, am nad *oes ganddynt* wybodaeth: a'u gwŷr anrhydeddus *sydd* newynog, a'u lliaws a wywodd gan syched.

14 Herwydd hynny yr ymehangodd uffern, ac yr agorodd ei safn yn anferth; ac yno y disgyn eu gogoniant, a'u lliaws, a'u rhwysg, a'r hwn a lawenycha ynddi.

15 A'r gwreng a grymmir, a'r galluog a ddarostyngir, a llygaid y rhai uchel a iselir.

16 Ond ARGLWYDD y lluoedd a ddyrchefir mewn barn; a'r DUW sanctaidd a sancteiddir mewn cyfiawnder.

17 Yr ŵyn hefyd a borant yn ol eu harfer; a dieithriaid a fwyttânt ddiffeithfaoedd y breision.

18 Gwae y rhai a dynnant anwiredd â rheffynnau oferedd, a phechod megis â rhaffau men:

19 Y rhai a ddywedant, Brysied, *a* phrysured ei orchwyl, fel y gwelom; nesâed hefyd, a deued cynghor Sanct yr Israel, fel y gwypom.

20 ¶ Gwae y rhai a ddywedant am y drwg, Da *yw;* ac am y da, Drwg *yw;* gan osod tywyllwch am oleuni, a goleuni am dywyllwch; y rhai a osodant chwerw am felus, a melus am chwerw.

21 Gwae y rhai *sydd* ddoethion yn eu golwg eu hun, a'r rhai deallgar yn eu golwg eu hun.

22 Gwae y rhai cryfion i yfed gwin, a'r dynion nerthol i gymmysgu dïod gadarn:

23 Y rhai a gyfiawnhânt yr anwir er gwobr, ac a gymmerant ymaith gyfiawnder y rhai cyfiawn oddi ganddynt.

24 Am hynny, megis ag yr ysa y ffagl dân y sofl, ac y difa y fflam y mân-us; *felly* y bydd eu gwreiddyn hwynt yn bydredd, a'u blodeuyn a gyfyd i fyny fel llwch; am iddynt ddïystyru cyfraith ARGLWYDD y lluoedd, a dirmygu gair Sanct yr Israel.

25 Am hynny yr ennynodd llid yr ARGLWYDD yn erbyn ei bobl, ac yr estynodd efe ei law arnynt, ac a'u tarawodd hwynt; a chrynodd y mynyddoedd, a'u bu eu celanedd hwynt yn rhwygedig y'nghanol yr heolydd. Er hyn oll ni ddychwelodd ei lid ef, ond etto *y mae* ei law ef wedi ei hestyn allan.

26 ¶ Ac efe a gyfyd faner i'r cenhedloedd o bell, ac a chwibana arnynt hwy o eithaf y ddaear: ac wele, ar frys yn fuan y deuant.

27 Ni *bydd un* blin na thramgwyddedig yn eu plith; ni huna yr un, ac ni chwsg: ac ni ddattodir gwregys ei lwynau, ac ni ddryllir carrai ei esgidiau.

28 Yr hwn *sydd* â'i saethau yn llymion, a'i holl fwäau yn annelog: carnau ei feirch ef a gyfrifir fel callestr, a'i olwynion fel corwynt.

29 Ei ruad *fydd* fel llew; efe a rua

fel cenawon llew: efe a chwyrna hefyd, ac a ymeifl yn yr ysglyfaeth; efe a ddïangc hefyd, ac a'*i* dwg ymaith yn ddïogel, ac ni bydd achubydd.

30 Ac efe a rua arnynt y dydd hwnnw, fel rhuad y môr: os edrychir ar y tir, wele dywyllwch, *a* chyfyngder, a'r goleuni a dywyllir yn ei nefoedd.

PENNOD 6.

1 *Esaiah, mewn gweledigaeth, yn gweled Duw yn ei ogoniant; 5 a chwedi ofni, yn cael ei gadarnhâu i'w gennadwri. 9 Y mae yn dangos gworthnysigrwydd y bobl, nes eu dinystrio.* 13 *Y gweddill a fydd gadwedig.*

YN y flwyddyn y bu farw y brenhin Ussïah, y gwelais hefyd yr ARGLWYDD yn eistedd ar eisteddfa uchel a dyrchafedig, a'i odre yn llenwi y deml.

2 Y seraphiaid oedd yn sefyll oddi ar hynny: chwech adain ydoedd i bob un; â dwy y cuddiai ei wyneb, ac â dwy y cuddiai ei draed, ac â dwy yr ehedai.

3 A llefodd y naill wrth y llall, ac a ddywedodd, Sanct, Sanct, Sanct, yw ARGLWYDD y lluoedd, yr holl ddaear sydd lawn o'i ogoniant ef.

4 A physt y rhiniogau a symmudasant gan lef yr hwn oedd yn llefain, a'r tŷ a lanwyd gan fwg.

5 ¶ Yna y dywedais, Gwae fi! canys darfu am danaf: o herwydd gŵr halogedig *ei* wefusau *ydwyf* fi, ac ym mysg pobl halogedig o wefusau yr ydwyf yn trigo: canys fy llygaid a welsant y brenhin, ARGLWYDD y lluoedd.

6 Yna yr ehedodd attaf un o'r seraphiaid, ac yn ei law farworyn a gymmerasai efe oddi ar yr allor mewn gefail:

7 Ac a'*i* rhoes i gyffwrdd â'm genau, ac a ddywedodd, Wele, cyffyrddodd hwn â'th wefusau, ac ymadawodd dy anwiredd, a glanhawyd dy bechod.

8 Clywais hefyd lef yr ARGLWYDD yn dywedyd, Pwy a anfonaf? a phwy a â drosom ni? Yna y dywedais, Wele fi, anfon fi.

9 ¶ Ac efe a ddywedodd, Dos, a dywed wrth y bobl hyn, Gan glywed clywch, ond na ddeallwch; a chan weled gwelwch, ond na wybyddwch.

10 Brasâ galon y bobl hyn, a thrymhâ eu clustiau, a chau eu llygaid; rhag iddynt weled â'u llygaid, a chlywed â'u clustiau, a deall â'u calon, a dychwelyd, a'u meddyginiaethu.

11 Yna y dywedais, Pa hyd, ARGLWYDD? Ac efe a attebodd, Hyd oni anrheithier y dinasoedd heb drigiannydd, a'r tai heb ddyn, a gwneuthur y wlad yn gwbl anghyfannedd,

12 Ac i'r ARGLWYDD bellhâu dynion, a *bod* ymadawiad mawr yng nghanol y wlad.

13 ¶ Ac etto *bydd* ynddi ddegwm, a *hi* a ddychwel, ac a borir; fel y llwyfen a'r dderwen, y rhai wrth fwrw *eu dail y mae* sylwedd ynddynt: *felly* yr had sanctaidd *fydd* ei sylwedd hi.

PENNOD 7.

1 *Ahas, pan oedd ofn Resin a Phecah yn et ffino ef, yn cael cysur gan Esaiah.* 10 *Ahas, wedi cael cennad i ddewis argoel, yn ei wrthod; ac yn cael, yn lle arwydd, addewid o Grist.* 17 *Prophwydo y daw draledd arno ef o Assyria.*

ABU yn nyddiau Ahas mab Jotham, mab Ussïah brenhin Judah, ddyfod o Resin brenhin Syria, a Phecah mab Remalïah, brenhin Israel, i fyny *tu a* Jerusalem, i ryfela arni: ond ni allodd ei gorchfygu.

2 A mynegwyd i dŷ Dafydd, gan ddywedyd, Syria a gydsyniodd âg Ephraim. A'i galon ef a gyffrôdd, a chalon ei bobl, megis y cynhyrfa prennau y coed o flaen y gwynt.

3 Yna y dywedodd yr ARGLWYDD wrth Esaiah, Dos allan yr awr hon i gyfarfod Ahas, ti a Sear-jasub dy fab, wrth ymyl pistyll y llyn uchaf, ym mhrif-ffordd maes y pannwr:

4 A dywed wrtho, Ymgadw, a bydd lonydd; nac ofna, ac na feddalhâed dy galon, rhag dwy gloren y pentewynion myglyd hyn, rhag angerdd llid Resin, a Syria, a mab Remalïah:

5 Canys Syria, ac Ephraim, a mab Remalïah, a ymgynghorodd gynghor drwg yn dy erbyn, gan ddywedyd,

6 Esgynwn yn erbyn Judah, a blinwn hi, torrwn hi hefyd attom, a gosodwn frenhin yn ei chanol hi; *sef* mab Tabeal.

7 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Ni saif, ac ni bydd *hyn.*
8 Canys pen Syria *yw* Damascus, a phen Damascus yw Resin; ac o fewn pum mlynedd a thri ugain y torrir Ephraim rhag bod yn bobl.
9 Hefyd pen Ephraim *yw* Samaria, a phen Samaria *yw* mab Remaliah. Oni chredwch, diau ni sicrhêir chwi.
10 ¶ A'r ARGLWYDD a chwanegodd lefaru wrth Ahas, gan ddywedyd,
11 Gofyn i ti arwydd gan yr ARGLWYDD dy DDUW; gofyn o'r dyfnder, neu o'r uchelder oddi arnodd.
12 Ond Ahas a ddywedodd, Ni ofynaf, ac ni themtiaf yr ARGLWYDD.
13 A dywedodd yntau, Gwrandêwch yr awr hon, tŷ Dafydd; Ai bychan gennych flino dynion, oni flinoch hefyd fy NUW?
14 Am hynny yr ARGLWYDD ei hun a ddyry i chwi arwydd; Wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef, Immanuel.
15 Ymenyn a mêl a fwytty efe; fel y medro ymwrthod â'r drwg, ac ethol y da.
16 Canys cyn medru o'r bachgen ymwrthod â'r drwg, ac ethol y da, y gwrthodir y wlad a ffieiddiaist, gan ei dau frenhin.
17 ¶ Yr ARGLWYDD a ddwg arnat ti, ac ar dŷ dy dadau, ddyddiau ni ddaethant er y dydd yr ymadawodd Ephraim oddi wrth Judah, *sef* brenhin Assyria.
18 A bydd yn y dydd hwnnw, i'r ARGLWYDD chwibanu am y gwybedyn *sydd* yn eithaf afonydd yr Aipht, ac am y wenynen *sydd* yn nhir Assyria:
19 A hwy a ddeuant ac a orphwysant oll yn y dyfirynoedd anghyfanneddol, ac y'nghromlechydd y creigiau, ac yn yr ysbyddaid oll, ac yn y perthi oll.
20 Yn y dydd hwnnw yr eillia yr Arglwydd â'r ellyn a gyflogir, *sef* â'r rhai o'r tu hwnt i'r afon, *sef* â brenhin Assyria, y pen, a blew y traed; a'r farf hefyd a ddifa efe.
21 A bydd yn y dydd hwnnw, i ŵr fagu anner-fuwch, a dwy ddafad:
22 Bydd hefyd o amlder y llaeth a roddant, iddo fwytta ymenyn: canys ymenyn a mêl a fwytty pawb a adewir o fewn y tir.
23 A bydd y dydd hwnnw, fod pob lle yr hwn y bu ynddo fil o winwydd *er* mil o arian *bathol*, yn fieri ac yn ddrain y bydd.
24 A saethau ac â bwäau y daw yno: canys yn fieri ac yn ddrain y bydd yr holl wlad.
25 Eithr yr holl fynyddoedd y rhai a geibir â cheibiau, ni ddaw yno ofn mieri na drain: ond bydd yn hebryngfa gwartheg, ac yn sathrfa defaid.

PENNOD 8.

1 *Ym Maher-shalal-has-bas y mae efe yn prophwydo y darostyngir Syria ac Israel gan Assyria; 5 a Judah hefyd am eu hanfyddlondeb: 9 nas gellir gwrthwynebu barnedigaeth Duw: 11 y bydd cysur i'r rhai a ofno Duw. 19 Trallod blin ar ddeiliw-addolwyr.*

A'R ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Cymmer i ti rôl fawr, ac ysgrifena arni â phin dyn, am Maher-shalal-has-bas.
2 A chymmerais yn dystiolaeth i mi dystion ffyddlawn, Uriah yr offeiriad, a Secharïah mab Jeberechïah.
3 A mi a neseais at y brophwydes; a hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar fab. Yna y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Galw ei enw ef, Maher-shalal-has-bas.
4 Canys cyn y medro y bachgen alw, Fy nhad, neu, Fy mam, golud Damascus ac yspail Samaria a ddygir ymaith o flaen brenhin Assyria.
5 ¶ A chwanegodd yr ARGLWYDD lefaru wrthyf drachefn, gan ddywedyd,
6 O herwydd i'r bobl hyn wrthod dyfroedd Siloah, y rhai sydd yn cerdded yn araf, *a chymmeryd* llawenydd o Resin, a mab Remaliah:
7 Am hynny, wele, mae yr Arglwydd yn dwyn arnynt ddyfroedd yr afon, yn gryfion ac yn fawrion, *sef* brenhin Assyria, a'i holl ogoniant; ac efe a esgyn ar ei holl afonydd, ac ar ei holl geulennydd ef.
8 Ie, trwy Judah y treiddia efe: efe a lifa, ac a ,â drosodd, efe a gyrhaedd hyd y gwddf; ac estyniad ei adenydd ef fydd llonaid lled dy dir di, O Immanuel.

9 ¶ Ymgyfeillechwch, bobloedd, a chwi a ddryllir : gwrandêwch, holl belledigion y gwledydd ; ymwregyswch, a chwi a ddryllir ; ymwregyswch, a chwi a ddryllir.
10 Ymgynghorwch gynghor, ac fe a ddiddymmir ; dywedwch y gair, ac ni saif : canys *y mae* Duw gyd â ni.
11 ¶ Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthyf â llaw gref, ac efe a'm dysgodd na rodiwn yn ffordd y bobl hyn, gan ddywedyd,
12 Na ddywedwch, Cyd-fwriad, wrth y rhai oll y dywedo y bobl hyn, Cyd-fwriad : nac ofnwch chwaith eu hofn hwynt, ac na arswydwch.
13 Arglwydd y lluoedd ei hun a sancteiddiwch ; a *bydded* efe yn ofn i chwi, a *bydded* efe yn arswyd i chwi :
14 Ac efe a fydd yn noddfa ; ond yn faen tramgwydd ac yn graig rhwystr i ddau dŷ Israel, yn fagl ac yn rhwyd i breswylwyr Jerusalem.
15 A llawer yn eu mysg a dramgwyddant, ac a syrthiant, ac a ddryllir, ac a rwydir, ac a ddèlir.
16 Rhwym y dystiolaeth, selia y gyfraith ym mhlith fy nisgyblion.
17 A minnau a ddisgwyliaf am yr Arglwydd sydd yn cuddio ei wyneb oddi wrth dŷ Jacob, ac a wyliaf am dano.
18 Wele fi a'r plant a roddes yr Arglwydd i mi, yn arwyddion ac yn rhyfeddodau yn Israel ; oddi wrth Arglwydd y lluoedd, yr hwn sydd yn trigo ym mynydd Sïon.
19 ¶ A phan ddywedant wrthych, Ymofynwch â'r swynyddion, ac â'r dewiniaid, y rhai sydd yn hustyng, ac yn sibrwd : onid â'u Duw yr ymofyn pobl ? dros y byw at y meirw ?
20 At y gyfraith, ac at y dystiolaeth : oni ddywedant yn ol y gair hwn, *hynny sydd* am nad *oes* oleuni ynddynt.
21 A hwy a dramwyant trwyddi, yn galed arnynt ac yn newynog : a bydd pan newynont, yr ymddigiant, ac y melldithiant eu brenhin a'u Duw, ac a edrychant i fyny.
22 A hwy a edrychant ar y ddaear ; ac wele drallod a thywyllwch, niwl cyfyngder : a *byddant* wedi eu gwthio i dywyllwch.

PENNOD 9.

1 *Pa lawenydd a fydd y'nghanol blinderau, trwy frenhiniaeth a genedigaeth Crist.* 8 *Barnedigaethau yn erbyn Israel, am eu balchder,* 13 *am eu rhagrith,* 18 *ac am eu hanedifeirwch.*

ETTO ni *bydd* y tywyllwch yn ol yr hyn *a fu* yn y gofid ; megis yn yr amser cyntaf y cyffyrddodd yn ysgafn â thir Sabulon a thir Naphtali, ac wedi hynny yn ddwysach y cystuddiodd *hi* wrth ffordd y môr, tu hwnt i'r Iorddonen, yn Galilea y cenhedloedd.
2 Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch, a welsant oleuni mawr : y rhai sydd yn aros yn nhir cysgod angau, y llewyrchodd goleuni arnynt.
3 Amlheaist y genhedlaeth, ni chwanegaist lawenydd ; llawenychasant ger dy fron megis y llawenydd amser cynhauaf, *ac* megis y llawenychant wrth rannu yspail.
4 Canys drylliaist iau ei faich ef, a ffon ei ysgwydd ef, gwïalen ei orthrymmwr, megis yn nydd Midian.
5 Canys pob câd y rhyfelwr sydd mewn trwst, a dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed ; ond bydd *hwn* trwy losgiad *a* chynnud tân.
6 Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef : a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragywyddoldeb, Tywysog tangnefedd.
7 Ar helaethrwydd *ei* lywodraeth a'*i* dangnefedd ni *bydd* diwedd, ar orseddfa Dafydd, ac ar ei frenhiniaeth ef, i'w threfnu hi, ac i'w chadarnhâu â barn ac â chyfiawnder, o'r pryd hwn, a hyd byth. Sêl Arglwydd y lluoedd a wna hyn.
8 ¶ Yr Arglwydd a anfonodd air i Jacob ; ac efe a syrthiodd ar Israel.
9 A'r holl bobl a wybydd, *sef* Ephraim a thrigiannydd Samaria, y rhai a ddywedant mewn balchder, ac mewn mawredd calon,
10 Y priddfeini a syrthiasant, ond â cherrig nadd yr adeiladwn : y sycamorwydd a dorrwyd, ond ni a'u newidiwn *yn* gedrwydd.
11 Am hynny yr Arglwydd a ddyrchafa wrthwynebwyr Resin yn

ei erbyn ef, ac a gyssyllta ei elynion ef ynghyd;
12 Y Syriaid o'r blaen, a'r Philistiaid hefyd o'r ol: a hwy a ysant Israel yn safnrhwth. Er hyn i gyd ni ddychwelodd ei lid ef, ond etto *y mae* ei law ef yn estynedig.
13 ¶ A'r bobl ni ddychwelant at yr hwn a'u tarawodd, ac ni cheisiant ARGLWYDD y lluoedd.
14 Am hynny y tyr yr ARGLWYDD oddi wrth Israel ben a chynffon, cangen a brwynen, yn yr un dydd.
15 Yr henwr a'r anrhydeddus *yw* y pen: a'r prophwyd sydd yn dysgu celwydd, efe *yw* y gynffon.
16 Canys cyfarwyddwyr y bobl hyn sydd yn peri *iddynt* gyfeiliorni, a llyngcwyd *y rhai* a gyfarwyddir ganddynt.
17 Am hynny nid ymlawenhâ yr ARGLWYDD yn eu gwŷr ieuainge hwy, ac wrth eu hamddifaid a'u gweddwon ni thosturia: canys pob un o honynt *sydd* ragrithiwr a drygionus, a phob genau yn traethu ynfydrwydd. Er hyn oll ni ddychwelodd ei lid ef, ond etto *y mae* ei law ef yn estynedig.
18 ¶ O herwydd anwiredd a lysg fel tân; y mïeri a'r drain a ysa efe, ac a gynneu yn nyrysni y coed; a hwy a ddyrchafant *fel* ymddyrchafiad mwg.
19 Gan ddigofaint ARGLWYDD y lluoedd y tywylla y ddaear, ac y bydd y bobl fel ymborth tân: nid eiriach neb ei frawd.
20 Ac efe a gipia ar y llaw ddehau, ac a newyna; bwytty hefyd ar y llaw aswy, ac nis digonir hwynt: bwyttânt bawb gig ei fraich ei hun:
21 Manasseh, Ephraim; ac Ephraim, Manasseh: hwythau ynghyd yn erbyn Judah. Er hyn oll ni ddychwelodd ei lid ef, ond etto *y mae* ei law ef yn estynedig.

PENNOD 10.

1 *Gwae y rhai trawsion. 5 Assyria, gwialen rhagrithwyr, am ei falchder a dorrir. 20 Yr achubir gweddill o Israel. 24 Cysuro Israel, trwy addaw iddynt gael eu gwared oddi wrth Assyria.*

GWAE y rhai sydd yn gwneuthur deddfau anwir, a'r ysgrifenyddion sydd yn ysgrifenu blinder;
2 I ymchwelyd y tlodion oddi wrth farn, ac i ddwyn barn anghenogion fy mhobl: fel y byddo gweddwon yn ypail iddynt, ac yr anrheithiont yr amddifaid.
3 A pha beth a wnewch yn nydd yr ymweliad, ac yn y distryw a ddaw o bell? at bwy y ffowch am gynnorthwy? a pha le y gadêwch eich gogoniant?
4 Hebof fi y crymmant dan y carcharorion, a than y rhai a laddwyd y syrthiant. Er hyn oll ni ddychwelodd ei lid ef, ond etto *y mae* ei law ef yn estynedig.
5 ¶ Gwae Assur, gwialen fy llid, a'r ffon yn eu llaw hwynt yw fy nigofaint.
6 At genedl ragrithiol yr anfonaf ef, ac yn erbyn pobl fy nigter y gorchymynaf iddo ypeilio ypail, ac ysglyfaethu ysglyfaeth, a'u gosod hwynt yn sathrfa megis tom yr heolydd.
7 Ond nid felly yr amcana efe, ac nid felly y meddwl ei galon; eithr *y mae* yn ei fryd ddifetha a thorri ymaith genhedloedd nid ychydig.
8 Canys efe a ddywed, Onid *yw* fy nhywysogion i gyd yn frenhinoedd?
9 Onid fel Charcemis *yw* Calno? onid fel Arpad *yw* Hamath? onid fel Damascus *yw* Samaria?
10 Megis y cyrhaeddodd fy llaw deyrnasoedd yr eilunod, a'r rhai yr oedd eu delwau cerfiedig yn rhagori ar yr eiddo Jerusalem a Samaria:
11 Onid megis y gwneuthum i Samaria ac i'w heilunod, felly y gwnaf i Jerusalem ac i'w delwau hithau?
12 A bydd, pan gyflawno yr Arglwydd ei holl waith ym mynydd Sïon, ac yn Jerusalem, yr ymwelaf â ffrwyth mawredd calon brenhin Assur, ac â gogoniant uchelder ei lygaid ef:
13 Canys dywedodd, Trwy nerth fy llaw y gwneuthum *hyn*, a thrwy fy noethineb; o herwydd doeth ydwyf: ac mi a symmudais derfynau pobloedd, a'u trysorau a yspeiliais, ac a fwriais i'r llawr y trigolion fel *gŵr* grymmus:
14 A'm llaw a gafodd gyfoeth y bobloedd fel nyth; ac megis y cesglir wyau wedi eu gado, y cesglais yr holl ddaear; ac nid oedd a

symmudai aden, nac a agorai safn, nac a ynganai.

15 A ymffrostia y fwyell yn erbyn yr hwn a gymmyno â hi? a ymfawryga y llif yn erbyn yr hwn a'i tynno? megis pe ymddyrchafai y wïalen yn erbyn y rhai a'i codai hi i fyny, *neu* megis pe ymddyrchafai y ffon, *fel pe* na *byddai* yn bren.

16 Am hynny yr hebrwng yr Arglwydd, Arglwydd y lluoedd, ym mhlith ei freision ef gulni; a than ei ogoniant ef y llysg llosgiad megis llosgiad tân.

17 A bydd goleuni Israel yn dân, a'i Sanct ef yn fflam: ac efe a lysg, ac a ysa ei ddrain a'i fieri mewn un dydd:

18 Gogoniant ei goed hefyd, a'i ddoldir, a ysa efe, enaid a chorph: a byddant megis pan lesmeirio banerwr.

19 A phrennau gweddill ei goed ef a fyddant *o* rifedi, fel y rhifo plentyn hwynt.

20 ¶ A bydd yn y dydd hwnnw, na chwanega gweddill Israel, a'r rhai a ddïangodd o dŷ Jacob, ymgynnal mwyach ar yr hwn a'u tarawodd; ond pwysant ar yr ARGLWYDD, Sanct Israel, mewn gwirionedd.

21 Y gweddill a ddychwel, *sef* gweddill Jacob, at y DUW cadarn.

22 Canys pe byddai dy bobl di Israel fel tywod y môr, gweddill o honynt a ddychwel: darfodiad terfynedig a lifa drosodd *mewn* cyfiawnder.

23 Canys darfodedigaeth, a *honno* yn derfynedig, a wna Arglwydd DDUW y lluoedd y'nghanol yr holl dir.

24 ¶ Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd DDUW y lluoedd, Fy mhobl yr hwn a breswyli yn Sïon, nac ofna rhag yr Assyriad: â gwïalen y'th dery di, ac efe a gyfyd ei ffon i'th erbyn, yn ol ffordd yr Aipht.

25 Canys etto ychydig bach, ac fe a dderfydd y llid, a'm digofaint yn eu dinystr hwy.

26 Ac ARGLWYDD y lluoedd a gyfyd ffrewyll yn ei erbyn ef, megis lladdfa Midian y'nghraig Oreb: ac *fel y bu* ei wïalen ar y môr, felly y cyfyd efe hi yn ol ffordd yr Aipht.

27 A bydd yn y dydd hwnnw, y symmudir ei faich ef oddi ar dy ysgwydd di, a'i iau ef oddi ar dy war di; a dryllir yr iau, o herwydd yr enneiniad.

28 Daeth at Aiath, tramwyodd i Migron; ym Michmas y rhoddes ei ddodrefn i gadw.

29 Aethant trwy y rhŷd, yn Geba y llettyasant: dychrynodd Ramah; Gibeah Saul a ffoes.

30 Bloeddia *â'th* lef, merch Gàlim: pâr ei chlywed hyd Laïs, O Anathoth dlawd.

31 Ymbellaodd Madmenah: trigolion Gebim a ymgasglasant i ffoi.

32 Etto y dydd hwnnw y saif efe yn Nob; efe a gyfyd ei law *yn erbyn* mynydd merch Sïon, bryn Jerusalem.

33 Wele, yr Arglwydd, ARGLWYDD y lluoedd, yn ysgythru y gangen â dychryn: a'r rhai uchel o gyrph a dorrir ymaith, a'r rhai goruchel a ostyngir.

34 Ac efe a dyr ymaith frysglwyni y coed â haiarn; a Libanus trwy un cryf a gwymp.

PENNOD 11.

1 *Heddychol frenhiniaeth y Blaguryn a dardda o wreiddyn Jesse.* 10 *Gorfodus adneuwydiad Israel, a galwedigaeth y cenhedloedd.*

YNA y daw allan wïalen o gyff Jesse; a Blaguryn a dŷf o'i wraidd ef.

2 Ac yspryd yr ARGLWYDD a orphwys arno ef; yspryd doethineb a deall, yspryd cynghor a chadernid, yspryd gwybodaeth ac ofn yr ARGLWYDD;

3 Ac a wna ei ddeall ef yn fywiog yn ofn yr ARGLWYDD: ac nid wrth olwg ei lygaid y barn efe, nac wrth glywed ei glustiau y cerydda efe.

4 Ond efe a farn y tlodion mewn cyfiawnder, ac a argyhoedda dros rai llariaidd y ddaear mewn uniondeb: ac efe a dery y ddaear â gwïalen ei enau, ac âg anadl ei wefusau y lladd efe yr anwir.

5 A chyfiawnder fydd gwregys ei lwynau ef, a ffyddlondeb yn wregys ei arennau.

6 A'r blaidd a drig gyd â'r oen, a'r llewpard a orwedd gyd â'r myn; y llo hefyd, a chenau y llew, a'r ani-

fail bras, fyddant ynghyd, a bachgen bychan a'u harwain.

7 Y fuwch hefyd a'r arth a borant ynghyd; eu llydnod a *gyd*-orweddant: y llew, fel yr ych, a bawr wellt.

8 A'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp; ac ar ffau y wiber yr estyn yr hwn a ddiddyfnwyd ei law.

9 Ni ddrygant ac ni ddifethant yn holl fynydd fy sancteiddrwydd: canys y ddaear a fydd llawn o wybodaeth yr ARGLWYDD, megis y mae y dyfroedd yn toi y môr.

10 ¶ Ac yn y dydd hwnnw y bydd gwreiddyn Jesse, yr hwn a saif yn arwydd i'r bobloedd: âg ef yr ymgais y cenhedloedd: a'i orphwysfa *fydd* yn ogoniant.

11 Bydd hefyd yn y dydd hwnnw, i'r Arglwydd fwrw eilwaith ei law i feddiannu gweddill ei bobl, y rhai a weddillir gan Assyria, a chan yr Aipht, a chan Pathros, a chan Ethiopia, a chan Elam, a chan Sinar, a chan Hamath, a chan ynysoedd y môr.

12 Ac efe a gyfyd faner i'r cenhedloedd, ac a gynnull grwydriaid Israel, ac a gasgl wasgaredigion Judah o bedair congl y ddaear.

13 Cenfigen Ephraim a ymedy hefyd, a gwrthwynebwyr Judah a dorrir ymaith: ni chenfigenna Ephraim wrth Judah, ac ni chyfynga Judah ar Ephraim.

14 Ond hwy a ehedant ar ysgwyddau y Philistiaid tu a'r gorllewin; ynghyd yr yspeiliant feibion y dwyrain: hwy a osodant eu llaw ar Edom a Moab, a meibion Ammon fydd *mewn* ufudd-dod iddynt.

15 Yr ARGLWYDD hefyd a ddifroda dafod môr yr Aipht, ac â'i wynt nerthol efe a gyfyd ei law ar yr afon, ac a'i tery hi yn y saith ffrwd, ac a wna fyned drosodd yn droedsych.

16 A hi a fydd yn brif-ffordd i weddill ei bobl ef y rhai a adewir o Assyria, megis ag y bu i Israel yn y dydd y daeth efe i fyny o dir yr Aipht.

PENNOD 12.

Llawen ddiolch y ffyddloniaid am drugareddau Duw.

YNA y dywedi yn y dydd hwnnw, Molaf di, O ARGLWYDD: er i ti sorri wrthyf, dychwelir dy lid, a thi a'm cysuri.

2 Wele, DUW *yw* fy iachawdwriaeth; gobeithiaf, ac nid ofnaf: canys yr ARGLWYDD DDUW *yw* fy nerth a'*m* cân; efe hefyd yw fy iachawdwriaeth.

3 Am hynny mewn llawenydd y tynnwch ddwfr o ffynhonnau iachawdwriaeth.

4 A chwi a ddywedwch yn y dydd hwnnw, Molwch yr ARGLWYDD, gelwch ar ei enw, hysbyswch ei weithredoedd ef ym mhlith y bobloedd, cofiwch mai dyrchafedig yw ei enw ef.

5 Cenwch i'r ARGLWYDD; canys godidowgrwydd a wnaeth efe: hysbys *yw* hyn yn yr holl dir.

6 Bloeddia a chroch-lefa, breswylferch Sïon; canys mawr *yw* Sanct Israel o'th fewn di.

PENNOD 13.

1 Duw yn byddino llwoedd ei ddigofaint: 6 yn bwyath distrywio Babilon trwy y Mediaid. 19 Difrod Babilon.

BAICH Babilon, yr hwn a welodd Esaiah mab Amos.

2 Dyrchefwch faner ar y mynydd uchel, dyrchefwch lef attynt, ysgydwch law, fel yr elont i fewn pyrth y pendefigion.

3 Myfi a orchymynais i'm rhai sanctaidd; gelwais hefyd fy nghedyrn i'm digter, y rhai a ymhyfryd-ant yn fy nyrchafiad.

4 Llef tyrfa yn y mynyddoedd, yn gyffelyb i bobl lawer; swn twrf teyrnasoedd y cenhedloedd wedi ymgynnull: ARGLWYDD y lluoedd sydd yn cyfrif llu y rhyfel.

5 Dyfod y maent o wlad bell, o eithaf y nefoedd; *sef* yr ARGLWYDD, ac arfau ei lidiowgrwydd, i ddifa yr holl dir.

6 ¶ Udwch; canys agos *yw* diwrnod yr ARGLWYDD; megis anrhaith oddi wrth yr Hollalluog y daw.

7 Am hynny yr holl ddwylaw a laesa; a chalon pob dyn a dawdd:

8 A hwy a ofnant; gwewyr a doluriau a'u deil hwynt; megis *gwraig* yn esgor yr ymofidiant;

pawb wrth ei gyfaill a ryfedda; eu hwynebau *fyddant* wynebau fflamllyd.

9 Wele ddydd yr ARGLWYDD yn dyfod, yn greulawn â digofaint a digter llidiog, i osod y wlad yn ddiffaethwch; a'i phechaduriaid a ddifa efe allan o honi.

10 Canys sêr y nefoedd, a'u planedau, ni roddant eu llewyrch: yr haul a dywyllir yn ei godiad, a'r lloer ni oleua â'i llewyrch.

11 A mi a ymwelaf â'r byd *am ei* ddrygioni, ac â'r annuwiolion *am* eu hanwiredd: a gwnaf i falchder y rhai rhyfygus beidio; gostyngaf hefyd uchder y rhai ofnadwy.

12 Gwnaf ddyn yn werthfawroccach nag aur coeth; ïe, dyn na chŷn o aur Ophir.

13 Am hynny yr ysgydwaf y nefoedd, a'r ddaear a gryn o'i lle, yn nigofaint ARGLWYDD y lluoedd, ac yn nydd llid ei ddigter ef.

14 A hi a fydd megis ewig wedi ei tharfu, ac fel dafad heb neb a'i coleddo; pawb a wynebant at eu pobl eu hun, a phawb i'w gwlad eu hun a ffoant.

15 Pob un a geffir *ynddi* a drywenir; a phawb a chwaneger *atti* a syrth trwy y cleddyf.

16 Eu plant hefyd a ddryllir o flaen eu llygaid; eu tai a yspeilir, a'u gwragedd a dreisir.

17 Wele fi yn cyfodi y Mediaid yn eu herbyn hwy, y rhai ni roddant fri ar arian; a'r aur nid ymhyfrydant ynddo.

18 *Eu* bwäau hefyd a ddryllia y gwŷr ieuainge, ac *wrth* ffrwyth bru ni thosturiant: eu llygad nid eiriach y rhai bach.

19 ¶ A Babilon, prydferthwch y teyrnasoedd, gogoniant gododdowgrwydd y Caldeaid, fydd megis dinystr DUW ar Sodom a Gomorrah.

20 Ni chyfanneddir hi yn dragywydd, ac ni phreswylir hi o genhedlaeth i genhedlaeth; ac ni phabella yr Arabiad yno, a'r bugeiliaid ni chorlannant yno.

21 Ond anifeiliaid gwylltion yr anialwch a orweddant yno; a'u tai hwynt a lenwir o ormesiaid, a chywion yr estrys a drigant yno, a'r ellyllon a lammant yno:

22 A'r cathod a gyd-attebant yn ei gweddwdai hi, a'r dreigiau yn y palasoedd hyfryd: a'i hamser *sydd* yn agos i ddyfod, a'i dyddiau nid oedir.

PENNOD 14.

1 Duw yn drugarog yn adnewyddu Israel: 4 a'u gorfoledd hwythau yn erbyn Babilon. 24 Amcan Duw yn erbyn Assyria. 29 Bygwth Palestina.

CANYS yr ARGLWYDD a dosturia wrth Jacob, ac a ddethol Israel etto, ac a bair iddynt orphwys yn eu tir eu hunain: a'r dïeithr a ymgyssyllta â hwynt, a hwy a lynant wrth dŷ Jacob.

2 Y bobl hefyd a'u cymmer hwynt, ac a'u dygant i'w lle, a thŷ Israel a'u meddianna hwynt yn nhir yr ARGLWYDD, yn weision ac yn forwynion: a hwy a gaethiwant y rhai a'u caethiwodd hwythau, ac a lywodraethant ar eu gorthrymwyr.

3 ¶ A bydd, yn y dydd y rhoddo yr ARGLWYDD lonyddwch i ti oddi wrth dy ofid, ac oddi wrth dy ofn, ac oddi wrth y caethiwed caled y gwasanaethaist ynddo,

4 I ti gymmeryd y ddïareb hon yn erbyn brenhin Babilon, a dywedyd, Pa wedd y peidiodd y gorthrymmwr? *ac* y peidiodd y dref aur?

5 Yr ARGLWYDD a ddrylliodd ffon yr anwiriaid, *a* theyrn-wïalen y llywiawdwyr.

6 Yr hwn sydd yn taro y bobloedd mewn digllonedd â phla gwastadol, yr hwn sydd yn llywodraethu y cenhedloedd mewn llidiowgrwydd, a erlidir heb *neb* yn lluddias.

7 Gorphwysodd *a* llonyddodd yr holl ddaear; canasant o lawenydd.

8 Y ffynnidwydd hefyd *a* chedrwydd Libanus a lawenhasant yn dy erbyn, *gan ddywedyd*, Er pan orweddaist, nid esgynodd cymmynydd i'n herbyn.

9 Uffern oddi tanodd a gynhyrfodd o'th achos, i gyfarfod *â thi* wrth dy ddyfodiad: hi a gyfododd y meirw i ti, *sef* holl dywysogion y ddaear; cyfododd holl frenhinoedd y cenhedloedd o'u gorseddfaoedd.

10 Y rhai hynny oll a lefarant, ac a ddywedant wrthyt, A wanhawyd tithau fel ninnau? a aethost ti yn gyffelyb i ni?

11 Disgynwyd dy falchder i'r bedd, *a* thrwst dy nablau: tanat y taenir pryf, pryfed hefyd a'th doant.

12 Pa fodd y syrthiaist o'r nefoedd, Lusiffer, mab y wawrddydd! *pa fodd* y'th dorrwyd di i lawr, yr hwn a wanheaist y cenhedloedd!

13 Canys ti a ddywedaist yn dy galon, Mi a ddringaf i'r nefoedd; oddi ar sêr DUW y dyrchafaf fy ngorseddfa; a mi a eisteddaf ym mynydd y gynnulleidfa, yn ystlysau y gogledd;

14 Dringaf yn uwch na'r cymmylau; tebyg fyddaf i'r Goruchaf.

15 Er hynny i uffern y'th ddisgynir, i ystlysau y ffos.

16 Y rhai a'th welant a edrychant arnat yn graff, *ac* a'th ystyriant, *gan ddywedyd*, Ai dyma y gŵr a wnaeth i'r ddaear grynu, ac a gynhyrfodd deyrnasoedd?

17 A osododd y byd fel anialwch, ac a ddinystriodd ei ddinasoedd, heb ollwng ei garcharorion yn rhydd tu ag adref?

18 Holl frenhinoedd y cenhedloedd, *ie*, hwy oll a orweddasant mewn gogoniant, bob un yn ei dŷ ei hun:

19 Eithr tydi a fwriwyd allan o'th fedd, fel cangen ffiaidd, *neu* wisg y lladdedigion, y rhai a drywanwyd â chleddyf; y rhai a ddisgynent i gerrig y ffos, fel celain wedi ei mathru.

20 Ni byddi mewn un bedd â hwynt, o herwydd dy dir a ddifethaist, *a*'th bobl a leddaist: ni bydd had yr annuwiol enwog byth.

21 Darperwch laddfa i'w feibion ef, am anwiredd eu tadau; rhag codi o honynt a goresgyn y tir, a llenwi wyneb y byd â dinasoedd.

22 Minnau a gyfodaf yn eu herbyn hwynt, medd ARGLWYDD y lluoedd, ac a dorraf allan o Babilon enw a gweddill, a mab, ac ŵyr, medd yr ARGLWYDD:

23 Ac a'i gosodaf hi yn feddiant i aderyn y bwn, ac yn byllau dyfroedd; ysgubaf hi hefyd âg ysgubau distryw, medd ARGLWYDD y lluoedd.

24 ¶ Tyngodd ARGLWYDD y lluoedd, gan ddywedyd, Dïau megis yr amcenais, felly y bydd; ac fel y bwriedais, hynny a saif;

25 Am ddryllio Assur yn fy nhir: canys mathraf ef ar fy mynyddoedd; yna y cilia ei iau ef oddi arnynt, ac y symmudir ei faich ef oddi ar eu hysgwyddau hwynt.

26 Dyma y cynghor a gymmerwyd am yr holl ddaear; a dyma y llaw a estynwyd ar yr holl genhedloedd.

27 O herwydd ARGLWYDD y lluoedd a'i bwriadodd, a phwy a'i diddymma? ei law ef hefyd a estynwyd, a phwy a'i try yn ol?

28 Yn y flwyddyn y bu farw y brenhin Ahas, y bu y baich hwn.

29 ¶ Palestina, na lawenycha di oll, er torri gwïalen dy darawydd: o herwydd o wreiddyn y sarph y daw gwiber allan, a'i ffrwyth hi *fydd* sarph danllyd hedegog.

30 A chynblant y tlodion a ymborthant, a'r rhai anghenus a orweddant mewn diogelwch: a mi a laddaf dy wreiddyn â newyn, yntau a ladd dy weddill.

31 Uda, borth; gwaedda, ddinas; Palestina, ti oll a doddwyd: canys mwg sydd yn dyfod o'r gogledd, ac ni *bydd* unig yn ei amseroedd nodedig ef.

32 A pha beth a attebir i genhadau y genedl? Seilio o'r ARGLWYDD Sïon, ac y gobeithia trueiniaid ei bobl ef ynddi.

PENNOD 15.

Tostur gyflwr Moab.

BAICH Moab. O herwydd y nos y dinystriwyd Ar Moab, *ac* y distawyd hi; o herwydd y nos y dinystriwyd Cir Moab, *ac* y distawyd hi.

2 Aeth i fyny i Baïth, ac i Dibon, i'r uchelfeydd, i wylo: am Nebo, ac am Medeba, yr uda Moab: *bydd* moelni ar eu holl bennau, *a* phob barf wedi ei heillio.

3 Yn eu heolydd yr ymwregysant â sachlïan: ar bennau eu tai, ac yn eu heolydd, yr uda pob un, gan wylo yn hidl.

4 Gwaedda Hesbon hefyd, ac Elealeh: hyd Jahas y clywir eu llefain hwynt: am hynny arfogion Moab a floeddiant, *pob un* a flina ar ei einioes.

5 Fy nghalon a waedda am Moab, ei ffoaduriaid hi *a ânt* hyd Soar,

fel anner deirblwydd; mewn wylofain y dringant hyd allt Luhith: canys codant waedd dinystr *ar hyd* ffordd Horonaim.

6 O herwydd dyfroedd Nimrim a fyddant yn anrhaith: canys gwywodd y llysiau, darfu y gwellt; nid oes gwyrddlesni.

7 Am hynny yr helaethrwydd a gawsant, a'r hyn a roisant i gadw, a ddygant i afon yr helyg.

8 Canys y gweiddi a amgylchynodd derfyn Moab, eu hudfa hyd Eglaim, a'u hochain *hyd* Beer-elim.

9 Canys dyfroedd Dimon a lenwir o waed; canys gosodaf ychwaneg ar Dimon, llewod ar yr hwn a ddïango ym Moab, ac ar weddill y wlad.

PENNOD 16.

1 *Annog Moab i ufuddhâu i frenhiniaeth Crist.* 6 *Bygwth Moab am ei balchder.* 9 *Y prophwyd yn cwynfan drosti.* 12 *Barnedigaeth Moab.*

ANFONWCH oen i lywodraethwr y tir, o Sela i'r anialwch, i fynydd merch Sïon.

2 Bydd fel aderyn yn gwibio wedi ei fwrw allan o'r nyth; *felly* y bydd merched Moab *wrth* rydau Arnon.

3 Ymgynghora, gwna farn, gwna dy gysgod fel nos y'nghanol hanner dydd; cuddia y rhai gwasgaredig, na ddatguddia y crwydriad.

4 Triged fy ngwasgaredigion gyd â thi; Moab, bydd di loches iddynt rhag y dinystrydd; canys diweddwyd y gorthrymmydd, yr anrheithiwr a beidiodd, y mathrwyr a ddarfuant o'r tir.

5 A gorseddfaingc a ddarperir mewn trugaredd; ac arni yr eistedd efe mewn gwirionedd, o fewn pabell Dafydd, yn barnu ac yn ceisio barn, ac yn prysuro cyfiawnder.

6 ¶ Clywsom am falchder Moab, (balch iawn *yw*,) am ei falchder, a'i draha, a'i ddïgllonedd: *ond* nid felly *y bydd* ei gelwyddau.

7 Am hynny yr uda Moab am Moab, pob un a uda: am sylfeini Cir-hareseth y griddfenwch; yn ddïau hwy a darawyd.

8 Canys gwinwydd Hesbon a wanhasant; *ac am* winwydden Sibmah, arglwyddi y cenhedloedd a ysgydwasant ei phêr-winwydd hi; hyd Jaser y cyrhaeddasant; crwydrasant *ar hyd* yr anialwch; ei changhennau a ymestynasant, *ac* a aethant dros y môr.

9 ¶ Am hynny y galaraf âg wylofain Jaser, gwinwydden Sibmah; dyfrhâf di, Hesbon, ac Elealeh, â'm dagrau: canys ar dy ffrwythydd haf, ac ar dy gynhauaf, y syrthiodd bloedd.

10 Y llawenydd hefyd a'r gorfoledd a ddarfu o'r dolydd; ni chenir ac ni floeddir yn y gwinllannoedd; ni sathr sathrydd win yn y gwrŷfoedd; gwneuthum i'*w* bloedd *gynhauaf* beidio.

11 Am hynny y rhua fy ymysgaroedd am Moab fel telyn, a'm perfedd am Cir-hares.

12 ¶ A phan weler flino o Moab ar yr uchelfan, yna y daw efe i'w gyssegr i weddïo; ond ni thyccia iddo.

13 Dyma y gair a lefarodd yr ARGLWYDD am Moab, er yr amser hwnnw.

14 Ond yn awr y llefarodd yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, O fewn tair blynedd, fel blynyddoedd gwas cyflog, y dirmygir gogoniant Moab, a'r holl dyrfa fawr; a'r gweddill *fydd* ychydig bach *a* dirym.

PENNOD 17.

1 *Bygwth Syria, ac Israel.* 6 *Gweddill a ymwrthyd â delw-addoliaeth:* 9 *a'r lleill a gânt ddïaledd am eu hannuwioldeb.* 12 *Gwae gelynion Israel.*

BAICH Damascus. Wele Damascus wedi ei symmud o *fod* yn ddinas, a charnedd wedi syrthio a fydd hi.

2 Gwrthodwyd dinasoedd Aroer: i ddïadellau y byddant, y rhai a orweddant, ac ni *bydd* a'*u* dychryno.

3 A derfydd amddiffynfa o Ephraim, a brenhiniaeth o Damascus, a gweddill Syria: fel gogoniant meibion Israel y byddant, medd ARGLWYDD y lluoedd.

4 Ac ar y dydd hwnnw y bydd i ogoniant Jacob feinhâu, a brasder ei gig ef a gulhâ.

5 Ac efe a fydd fel pan gasglo y cynhauafwr ŷd, a medi â'i fraich y tywŷsennau: a bydd fel casglydd tywysennau y'nglyn Rephaim.

6 ¶ Etto ynddo y gadewir lloffion

grawnwin, fel ysgydwad olew-wydden, *sef* dau *neu* dri o rawn ym mlaen y brig, *a* phedwar *neu* bump yn ei changhennau ffrwythlawn eithaf, medd ARGLWYDD DDUW Israel.

7 Yn y dydd hwnnw yr edrych dyn at ei Wneuthurwr, a'i lygaid a edrychant ar Sanct Israel:

8 Ac nid edrych am yr allorau, *y rhai ydynt* waith ei ddwylaw; ie, nid edrych am yr hyn a wnaeth ei fysedd, na'r llwyni, na'r delwau.

9 ¶ Yn y dydd hwnnw y bydd eu dinasoedd cedyrn fel cangen wrthodedig, a'r brig, y rhai a adawsant o herwydd meibion Israel: felly y bydd anghyfannedd-dra.

10 O herwydd anghofio o honot DDUW dy iachawdwriaeth, ac na chofiaist graig dy gadernid: am hynny y plenni blanhigion hyfryd, ac yr impi hwynt â changhennau dïeithr.

11 Y dydd y gwnei i'th blanhigyn dyfu, a'r bore y gwnei i'th had flodeuo: *ond bydd* y cynhauaf yn bentwr ar ddydd llesgedd a dolur gofidus.

12 ¶ Gwae dyrfa pobloedd lawer, fel twrf y môr y trystiant; ac i dwrf y bobloedd a drystiant fel swn dyfroedd lawer.

13 Fel swn dyfroedd lawer y trystia y bobl; a *DUW* a'u ceryddda hwynt, a hwy a ffoant ym mhell, ac a erlidir fel peiswyn mynydd o flaen y gwynt, ac fel peth yn treiglo ym mlaen corwynt.

14 Ac wele drallod ar brydnawn, *a* chyn y bore ni *bydd.* Dyma ran y rhai a'n hanrheithiant ni, a choelbren y rhai a'n hyspeiliant ni.

PENNOD 18.

1 *Duw, o ofal ôros ei bobl, yn addaw distrywio yr Ethiopiaid: 7 ac o hynny y daw cymmydd i'r eglwys.*

GWAE y tir sydd yn cysgodi âg adenydd, yr hwn *sydd* tu hwnt i afonydd Ethiopia:

2 Yr hwn a hebrwng genhadau hyd y môr, ac ar hyd wyneb y dyfroedd, mewn llestri brwyn, *gan ddywedyd,* Ewch, genhadon cyflym, at genhedlaeth wasgaredig ac yspeiliedig, at bobl ofnadwy er pan ydynt ac etto, cenhedlaeth wedi ei mesur a'i sathru, yr hon yr yspeiliodd yr afonydd ei thir.

3 Holl drigolion y byd, a phreswylwyr y ddaear, gwelwch pan gyfodo efe faner *ar* y mynyddoedd, a chlywch pan udgano âg udgorn.

4 Canys fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Byddaf lonydd, a mi a ystyriaf yn fy annedd, megis gwres eglur ar lysiau, fel niwl gwlith y'ngwres cynhauaf.

5 Canys o flaen cynhauaf, pan fyddo y blodeuyn yn berffaith, a'r grawnwin surion yn addfedu yn y blodeuyn: efe a dyr y brig â chrymmanau, ac a dyn ymaith *ac* a dyr y canghennau.

6 Gadewir hwynt ynghyd i adar y mynyddoedd, ac i anifeiliaid y ddaear: ac arnynt y bwrw yr adar yr haf, a holl anifeiliaid y ddaear a auafa arnynt.

7 ¶ Yr amser hwnnw y dygir rhodd i ARGLWYDD y lluoedd *gan* bobl wasgaredig ac yspeiliedig, a chan bobl ofnadwy er pan ydynt ac etto, cenedl wedi ei mesur a'i sathru, yr hon yr yspeiliodd yr afonydd ei thir, i le enw ARGLWYDD y lluoedd, *sef i* fynydd Sïon.

PENNOD 19.

1 *Gwaradwydd yr Aipht.* 11 *Ynfydrwydd cu pendefigion hwy.* 18 *Galw yr Aipht at yr eglwys.* 23 *Cynghrair yr Aipht, Assyria, ac Israel.*

BAICH yr Aipht. Wele yr ARGLWYDD yn marchogaeth ar gwmmwl ysgafn, ac efe a ddaw i'r Aipht: ac eilunod yr Aipht a gynhyrfant rhagddo ef, a chalon yr Aipht a dawdd yn ei chanol.

2 Gyrraf hefyd yr Aiphtiaid yn erbyn yr Aiphtiaid, a hwy a ymladdant bob un yn erbyn ei frawd, a phob un yn erbyn ei gymmydog; dinas yn erbyn dinas, *a* theyrnas yn erbyn teyrnas.

3 Ac yspryd yr Aipht a balla yn ei chanol, a mi a ddiddymmaf ei chynghor hi: yna yr ymofynant âg eilunod, ac â swynyddion, ac â dewiniaid, ac â brudwyr.

4 A mi a gauaf yr Aipht yn llaw arglwydd caled; a brenhin cadarn a lywodraetha arnynt, medd yr Arglwydd, ARGLWYDD y lluoedd.

5 A'r dyfroedd a ddarfyddant o'r

môr, yr afon hefyd a â yn hesp ac yn sech.

6 A hwy a droant yr afonydd ym mhell; y ffrydiau amddiffyn a ddyhysbyddir, ac a sychant: torrir ymaith *bob* corsen a hesgen.

7 Y papur-frwyn wrth yr afon, ar fin yr afon, a phob peth a hauwyd wrth yr afon, a wywa, a chwelir, ac ni bydd *mwy*.

8 Y pysgodwyr hefyd a dristânt, a'r rhai oll a fwriant fachau i'r afonydd a alarant: felly y rhai a daenant rwydau ar hyd wyneb y dyfroedd a lesgânt.

9 Gwaradwyddir hefyd y rhai a weithiant feinllin, a'r rhai a weuant rwydwaith.

10 A hwy a dorrir yn eu bwriadau, y rhai oll a wnant argaeau *a* physgod-lynnau.

11 ¶ Dïau ynfydion *yw* tywysogion Soan; cynghor doethion gynghorwyr Pharaoh a aeth yn ynfyd: pa fodd y dywedwch wrth Pharaoh, Mab y doethion *ydwyf* fi, mab hen frenhinoedd?

12 *Mae* hwynt? *mae* dy ddoethion? a mynegant i ti yr awr hon, a gwybyddant pa gynghor a gymmerodd ARGLWYDD y lluoedd yn erbyn yr Aipht.

13 Tywysogion Soan a ynfydasant; twyllwyd tywysogion Noph, a phennaethiaid eu llwythau a hudasant yr Aipht.

14 Cymmysgodd yr ARGLWYDD ynddi yspryd gwrthnysigrwydd; a hwy a wnaethant i'r Aipht gyfeiliorni yn ei holl waith, fel y cyfeiliorna meddwyn yn ei chwydfa.

15 Ac ni bydd gwaith i'r Aipht, yr hwn a wnelo y pen na'r gloren, y gangen na'r frwynen.

16 Y dydd hwnnw y bydd yr Aipht fel gwragedd; canys hi a ddychryna, ac a ofna rhag ysgydwad llaw ARGLWYDD y lluoedd, yr hon a ysgydwa efe arni hi.

17 A bydd tir Judah yn arswyd i'r Aipht: pwy bynnag a'i cofia hi, a ofna ynddo ei hun; o herwydd cynghor ARGLWYDD y lluoedd, yr hwn a gymmerodd efe yn ei herbyn hi.

18 ¶ Y dydd hwnnw y bydd pum dinas yn nhir yr Aipht yn llefaru iaith Canaan, ac yn tyngu i ARGLWYDD y lluoedd; Dinas distryw y gelwir un.

19 Y dydd hwnnw y bydd allor i'r ARGLWYDD y'nghanol tir yr Aipht, a cholofn i'r ARGLWYDD ger llaw ei therfyn hi.

20 Yn arwydd hefyd ac yn dystiolaeth y bydd i ARGLWYDD y lluoedd yn nhir yr Aipht. Canys llefant ar yr ARGLWYDD o herwydd y gorthrymwyr; ac efe a enfyn iddynt iachawdwr a phennaeth, ac efe a'u gwared hwynt.

21 A'r ARGLWYDD a adweinir gan yr Aipht; ïe, yr Aiphtiaid a adwaenant yr ARGLWYDD yn y dydd hwnnw: gwnant hefyd aberth ac offrwm, ac addunant adduned i'r ARGLWYDD, ac a'*i* talant.

22 Yr ARGLWYDD hefyd a dery yr Aipht; efe a'*i* tery, ac a'*i* hiachâ; hwythau a droant at yr ARGLWYDD, ac efe a'u gwrendy hwynt, ac a'u hiachâ hwynt.

23 ¶ A'r dydd hwnnw y bydd prif-ffordd o'r Aipht i Assyria, ac yr â yr Assyriad i'r Aipht, a'r Aiphtiad i Assyria: a'r Aiphtiaid gyd â'r Assyriaid a wasanaethant.

24 Y dydd hwnnw y bydd Israel yn drydydd gyd â'r Aipht, a chyd âg Assyria, *sef* yn fendith o fewn y tir:

25 Yr hwn a fendithia ARGLWYDD y lluoedd, gan ddywedyd, Bendigedig *yw* yr Aipht fy mhobl i, ac Assyria gwaith fy nwylaw, ac Israel fy etifeddiaeth.

PENNOD 20.

Arwydd a chysgod yn rhag-arwyddocâu caethiwed yr Aipht ac Ethiopia.

YN y flwyddyn y daeth Tartan i Asdod, pan ddanfonodd Sargon brenhin Assyria ef, ac yr ymladdodd yn erbyn Asdod ac a'i hennillodd hi;

2 Yr amser hwnnw y bu gair yr ARGLWYDD trwy law Esaiah mab Amos, gan ddywedyd, Dos, a dattod y sachlïan oddi am dy lwynau, a dïosg dy esgidiau oddi am dy draed. Ac efe a wnaeth felly, gan rodio yn noeth, ac heb esgidiau.

3 Dywedodd yr ARGLWYDD hefyd, Megis y rhodiodd fy ngwas Esaiah yn noeth ac heb esgidiau dair

blynedd *yn* arwydd ac *yn* argoel yn erbyn yr Aipht, ac yn erbyn Ethiopia;

4 Felly yr arwain brenhin Assyria gaethiwed yr Aipht, a chaethglud Ethiopia, *sef* yn llangciau a henafgwyr, yn noethion ac heb esgidiau, ac yn din-noeth, yn warth i'r Aipht.

5 Brawychant a chywilyddiant o achos Ethiopia eu gobaith hwynt, ac o achos yr Aipht eu gogoniant hwy.

6 A'r dydd hwnnw y dywed preswylwyr yr ynys hon, Wele, fel hyn *y mae* ein gobaith ni, lle y ffoisom am gymmorth i'n gwared rhag brenhin Assyria: a pha fodd y diangwn?

PENNOD 21.

1 *Y prophwyd, wrth gwyno caethiwed ei bobl, mewn gweledigaeth yn gweled cwymp Babilon gan y Mediaid a'r Persiaid.* 11 *Edom yn gwatwar y prophwyd, a'i hannog i edifarhau.* 13 *Amser nodedig adŷd Arabia.*

BAICH anialwch y môr. Fel y mae corwynt yn y dehau yn myned trwodd; *felly* y daw o'r anialwch, o wlad ofnadwy.

2 Gweledigaeth galed a fynegwyd i mi. Yr anffyddlawn sydd yn anffyddloni, a'r dinystrydd sydd yn dinystrio. Elam, dring; Media, gwarchae; gwneuthum i'w holl riddfan hi ddarfod.

3 Am hynny y llanwyd fy llwynau o ddolur; gwewyr a'm daliasant fel gwewyr gwraig yn esgor; syrthiais wrth *ei* glywed, brawychais wrth *ei* weled.

4 Cyfeiliornodd fy nghalon, braw a'm dychrynodd; efe a drodd fy nghyfnos ddymunol yn ddychryn i mi.

5 Parottoa y bwrdd, gwylia yn y ddisgwylfa, bwytta, ŷf; cyfodwch, dywysogion; enneiniwch y darian.

6 O herwydd fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Dos, gosod wyliedydd, myneged yr hyn a welo.

7 Ac efe a welodd gerbyd, *a* dau o wŷr meirch, cerbyd asynod, *a* cherbyd camelod; ac efe a ystyriodd yn ddyfal iawn dros ben.

8 Ac efe a lefodd, Llew: fy arglwydd, ar y ddisgwylfa yr wyf fi yn sefyll liw dydd yn wastad, ac ar fy nghadwriaeth yr ydwyf yn sefyll bob nos.

9 Ac wele, yma y mae yn dyfod gerbyd o wŷr, *a* dau o wŷr meirch. Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Syrthiodd, syrthiodd Babilon; a holl ddelwau cerfiedig ei duwiau hi a ddrylliodd efe i lawr.

10 O fy nyrniad, a chnwd fy llawrdyrnu! yr hyn a glywais gan ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, a fynegais i chwi.

11 ¶ Baich Dumah. Arnaf fi y mae yn galw o Seir, Y gwyliedydd, beth am y nos? y gwyliedydd, beth am y nos?

12 Dywedodd y gwyliedydd, Daeth y bore a'r nos hefyd: os ceisiwch, ceisiwch: dychwelwch, deuwch.

13 ¶ Baich ar Arabia. Yn y coed yn Arabia y llettŷwch chwi, fforddolion Dedanim.

14 Dygwch ddyfroedd i gyfarfod â'r sychedig, trigolion tir Tema, achubwch flaen y crwydrus â'i fara.

15 O herwydd rhag cleddyfau y ffoisant, rhag y cleddyf noeth, a rhag y bwa annelog, a rhag trymder rhyfel.

16 O herwydd fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthyf fi, Cyn pen blwyddyn, o fath blwyddyn gwas cyflog, y derfydd hefyd holl anrhydedd Cedar:

17 A'r gweddill o rifedi saethyddion gwŷr cedyrn meibion Cedar, a leihêir: canys ARGLWYDD DDUW Israel a'i dywedodd.

PENNOD 22.

1 *Y prophwyd yn cwyno dyfodiad y Persiaid i Judea:* 8 *yn beio ar eu synwyr dynol, a'u llawenydd bydol hwy:* 15 *yn prophwydo y diswyddid Sebna,* 20 *ac y gosodid Eliacim yn ei le ef: yr hwn oedd arwydd o frenhiniaeth Crist.*

BAICH glyn gweledigaeth. Beth *a ddarfu* i ti yn awr, pan ddringaist ti oll i nennau y tai?

2 Ti yr hon wyt yn llawn terfysg, yn ddinas derfysgol, yn ddinas lawen: dy laddedigion ni laddwyd â chleddyf, na'th feirw mewn rhyfel.

3 Dy holl dywysogion a gyd-ffoisant, gan *y perchen* bwäau y rhwymwyd hwynt: y rhai oll a gafwyd ynot a gyd-rwymwyd, *y rhai* a ffoisant o bell.

4 Am hynny y dywedais, Edrychwch oddi wrthyf; mi a wylaf yn chwerw, na lafuriwch fy nghysuro, am ddinystr merch fy mhobl.

5 O herwydd diwrnod blinder *yw*, a mathru, a dyrysni, gan Arglwydd Dduw y lluoedd, y'nglyn gweledigaeth, yn difurio y gaer, ac yn gwaeddi i'r mynydd.

6 Elam hefyd a ddug y cawell saethau, mewn cerbydau dynion *a* gwŷr meirch; Cir hefyd a ddinoethodd y darian.

7 A bydd dy ddyffrynoedd dewisol yn llawn o gerbydau, a'r gwŷr meirch a ymfyddinant tu a'r porth.

8 ¶ Ac efe a ddinoethodd dô Judah, ac yn y dydd hwnnw yr edrychaist ar arfogaeth tŷ y goedwig.

9 A gwelsoch rwygiadau dinas Dafydd, mai aml oeddynt; a chasglasoch ddyfroedd y pysgodlyn isaf.

10 Rhifasoch hefyd dai Jerusalem, a thynnasoch y tai i lawr i gadarnhâu y mur.

11 A rhwng y ddau fur y gwnaethoch lyn i ddyfroedd yr hen bysgodlyn: ond nid edrychasoch am ei wneuthurwr, nid ystyriasoch yr hwn a'i lluniodd ef er ys talm.

12 A'r dydd hwnnw y gwahoddodd Arglwydd Dduw y lluoedd *rai* i wylofain, ac i alarnad, ac i foeledd, ac i ymwregysu â sachlïan:

13 Ac wele lawenydd a gorfoledd, gan ladd gwartheg, a lladd defaid, gan fwytta cig, ac yfed gwin: bwyttâwn ac yfwn; canys y fory, *meddant*, y byddwn feirw.

14 A datguddiwyd *hyn* lle y clywais gan Arglwydd y lluoedd, Yn ddïau ni lanhêir yr anwiredd hyn, hyd oni byddoch feirw, medd Arglwydd Dduw y lluoedd.

15 ¶ Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw y lluoedd, Cerdda, dos at y trysorydd hwn, *sef* at Sebna, yr hwn *sydd* ben-teulu, *a dywed*,

16 Beth *sydd* i ti yma? a phwy *sydd* gennyt ti yma, pan drychaist i ti yma fedd, fel yr hwn a drychai ei fedd yn uchel, *ac* a naddai iddo ei hun drigfa mewn craig?

17 Wele yr Arglwydd yn dy fudo di â chaethiwed tost, a chan wisgo a'th wisg di.

18 Gan dreiglo y'th dreigla di, *fel* treiglo pêl i wlad eang: yno y byddi farw, ac yno *y bydd* cerbydau dy ogoniant yn warth i dŷ dy feistr.

19 Yna y'th yrraf o'th sefyllfa, ac o'th sefyllfa y dinystria efe di.

20 ¶ Ac yn y dydd hwnnw y galwaf ar fy ngwas Eliacim mab Hilcïah:

21 A'th wisg di hefyd y gwisgaf ef, ac â'th wregys di y nerthaf ef; a than ei law ef y rhoddaf dy lywodraeth di: ac efe a fydd yn dad i breswylwyr Jerusalem, ac i dŷ Judah.

22 Rhoddaf hefyd agoriad tŷ Dafydd ar ei ysgwydd ef: yna yr egyr efe, ac ni *bydd* a gauo; ac efe a gau, ac ni *bydd* a agoro.

23 A mi a'i sicrhâf ef *fel* hoel mewn man sicr; ac efe a fydd yn orseddfa gogoniant i dŷ ei dad.

24 Ac arno ef y crogant holl ogoniant tŷ ei dad, hil ac eppil; yr holl fân lestri; o'r llestri meiliau, hyd yr holl offer cerdd.

25 Yn y dydd hwnnw, medd Arglwydd y lluoedd, y symmudir yr hoel a hoeliwyd yn y man sicr, a hi a dorrir, ac a syrth: torrir hefyd y llwyth *oedd* arni; canys yr Arglwydd a'*i* dywedodd.

PENNOD 23.

1 *Gofidus gwymp Tyrus.* 17 *Eu trwch ddychweliad hwy.*

BAICH Tyrus. Llongau Tarsis, udwch: canys anrheithiwyd *hi*, fel nad oes na thŷ, na chyntedd: o dir Chittim y datguddiwyd iddynt.

2 Distêwch, drigolion yr ynys, yr hon y mae marchnadyddion Sidon, y rhai sydd yn tramwy y môr, yn dy lenwi.

3 Ac wrth ddyfroedd lawer, had Sihor, cynhauaf yr afon *yw* ei chnwd hi: felly marchnadfa cenhedloedd yw hi.

4 Cywilyddia, Sidon; canys y môr, *ie*, eryfder y môr, a lefarodd, gan ddywedyd, Nid ymddygais, ac nid esgorais, ni fegais wŷr ieuaingc chwaith, *ac ni* feithrinais forwynion.

5 Megis wrth glywed sôn am yr

Aiphtiaid, yr ymofidiant wrth glywed sôn am Tyrus.
6 Ewch trosodd i Tarsis; udwch, breswylwyr yr ynys.
7 Ai hon *yw* eich *dinas* lawen chwi, yr hon *y mae* ei hynafiaeth er y dyddiau gynt? ei thraed a'i dygant hi i ymdaith i bell.
8 Pwy a gynghorodd hyn yn erbyn Tyrus goronog, yr hon *yr ydoedd* ei marchnattâwyr yn dywysogion, a'i marsiandwyr yn bendefigion y ddaear?
9 ARGLWYDD y lluoedd a fwriadodd hyn, i ddifwyno balchder pob gogoniant, *ac* i ddirmygu holl bendefigion y ddaear.
10 Dos trwy dy wlad fel afon, O ferch Tarsis: nid *oes* nerth mwyach.
11 Estynodd ei law ar y môr, dychrynodd y teyrnasoedd; gorchymynodd yr ARGLWYDD am *ddinas* y farsiandïaeth, ddinystrio ei chadernid.
12 Ac efe a ddywedodd, Ni chei orfoleddu mwyach, yr orthrymmedig forwyn, merch Sidon; cyfod, dos i Chittim; yno chwaith ni bydd i ti lonyddwch.
13 Wele dir y Caldeaid; nid oedd y bobl hyn, *nes* i Assur ei sylfaenu hi i drigolion yr anialwch: dyrchafasant ei thyrau, cyfodasant ei phalasau; *ac* efe a'i tynnodd hi i lawr.
14 Llongau Tarsis, udwch; canys anrheithiwyd eich nerth.
15 A'r dydd hwnnw yr anghofir Tyrus ddeng mlynedd a thri ugain, megis dyddiau un brenhin: ym mhen y deng mlynedd a thri ugain y cân Tyrus megis puttain.
16 Cymmer y delyn, amgylchyna y ddinas, ti buttain anghofiedig: cân gerdd yn dda: cân lawer fel y'th gofier.
17 ¶ Ac ym mhen y deng mlynedd a thri ugain yr ARGLWYDD a ymwêl â Thyrus, a hi a ddychwel at ei helw, ac a butteinia â holl deyrnasoedd y byd ar wyneb y ddaear.
18 Yna y bydd ei marchnad a'i helw yn sancteiddrwydd i'r ARGLWYDD: ni thrysorir ac nis cedwir: canys eiddo y rhai a drigant o flaen yr ARGLWYDD fydd ei marsiandïaeth, i fwytta yn ddigonol, ac yn ddillad parhâus.

PENNOD 24.

1 *Tostur farnedigaethau Duw ar y wlad.* 13 *Y llawen-glodfora y gweddill Duw.* 16 *Y dyrchafa Duw ei deyrnas yn ei farnedigaethau.*

WELE yr ARGLWYDD yn gwneuthur y ddaear yn wag, ac yn ei difwyno hi; canys efe a ddadymchwel ei hwyneb hi, ac a wasgar ei thrigolion.
2 Yna bydd yr un ffunud i'r bobl ac i'r offeiriad, i'r gwas ac i'w feistr, i'r llaw-forwyn ac i'w meistres, i'r prynydd ac i'r gwerthydd, i'r hwn a roddo ac i'r hwn a gymmero echwyn, i'r hwn a gymmero lôg ac i'r hwn a dalo lôg iddo.
3 Gan waghâu y gwaghêir, a chan yspeilio yr yspeilir y wlad; canys yr ARGLWYDD a lefarodd y gair hwn.
4 Galarodd *a* diflannodd y ddaear, llesgaodd *a* dadwinodd y byd, dihoenodd pobl feilchion y ddaear.
5 Y ddaear hefyd a halogwyd dan ei phreswylwyr: canys troseddasant y cyfreithiau, newidiasant y deddfau, diddymmasant y cyfammod tragywyddol.
6 Am hynny melldith a ysodd y tir, a'r rhai oedd yn trigo ynddo a anrheithiwyd; am hynny preswylwyr y tir a losgwyd, ac ychydig ddynion a adawyd.
7 Galarodd y gwin, llesgaodd y winwydden, y rhai llawen galon oll a riddfanasant.
8 Darfu llawenydd y tympanau, peidiodd trwst y gorfoleddwyr, darfu hyfrydwch y delyn.
9 Nid yfant win dan ganu; chwerw fydd diod gref i'r rhai a'i hyfant.
10 Drylliwyd y ddinas wagedd; cauwyd pob tŷ, fel na ddeler i mewn.
11 *Y mae* llefain am win yn yr heolydd; tywyllodd pob llawenydd, hyfrydwch y tir a fudodd ymaith.
12 Yn y ddinas y gadawyd anghyfanneddrwydd, âg anrhaith hefyd y dryllir y porth.
13 ¶ Oblegid bydd o fewn y tir, y'nghanol y bobloedd, megis ysgydwad olew-wydden, *ac* fel grawn lloffa pan ddarffo cynhauaf y gwin.
14 Hwy a ddyrchafant eu llef, *ac* a ganant; o herwydd godidowg-

rwydd yr ARGLWYDD, bloeddiant o'r môr.
15 Am hynny gogoneddwch yr ARGLWYDD yn y dyffrynoedd, enw ARGLWYDD DDUW Israel yn ynysoedd y môr.
16 ¶ O eithafoedd y ddaear y clywsom ganiadau, *sef* gogoniant i'r cyfiawn. A dywedais, O fy nghulni, O fy nghulni, gwae fi! y rhai anffyddlawn a wnaethant yn anffyddlawn, ïe, gwnaeth yr anffyddlawn o'r fath anffyddlonaf.
17 Dychryn, a ffos, a magl *fydd* arnat ti, breswylydd y ddaear.
18 A'r hwn a ffy rhag trwst y dychryn, a syrth yn y ffos; a'r hwn a gyfodo o ganol y ffos, a ddèlir yn y fagl: o herwydd ffenestri o'r uchelder a agorwyd, a seiliau y ddaear sydd yn crynu.
19 Gan ddryllio yr ymddrylliodd y ddaear, gan rwygo yr ymrwygodd y ddaear, gan symmud yr ymsymmudodd y ddaear.
20 Y ddaear gan symmud a ymsymmud fel meddwyn, ac a ymsigla megis bwth; a'i chamwedd fydd drwm arni; a hi a syrth, ac ni chyfyd mwy.
21 Yr amser hwnnw yr ymwêl yr ARGLWYDD â llu yr uchel, *yr hwn sydd* yn yr uchelder, ac â brenhinoedd y ddaear ar y ddaear.
22 A chesglir hwynt *fel* y cesglir carcharorion mewn daeardy, a hwy a garcherir mewn carchar, ac ym mhen llawer o ddyddiau yr ymwelir â hwynt.
23 Yna y lleuad a wrida, a'r haul a gywilyddia, pan deyrnaso ARGLWYDD y lluoedd ym mynydd Sïon ac yn Jerusalem, ac o flaen ei henuriaid *mewn* gogoniant.

PENNOD 25.

1 *Y prophwyd yn moliannu Duw am ei farnedigaethau, 6 am ei ddoniau ymwared, 9 ac am ei orfoleddus iachawdwriaeth.*

O ARGLWYDD, fy NUW *ydwyt;* dyrchafaf di, moliannaf dy enw; canys gwnaethost ryfeddodau: *dy* gynghorion er ys talm *sydd* wirionedd *a* sicrwydd.
2 Canys gosodaist ddinas yn bentwr, *a* thref gadarn yn garnedd; palas dïeithriaid, fel na byddo ddinas; nid adeiledir hi byth.
3 Am hynny pobl nerthol a'th ogonedda, dinas y cenhedloedd ofnadwy a'th arswyda:
4 Canys buost nerth i'r tlawd, a chadernid i'r anghenog yn ei gyfyngder, yn nodded rhag tymmestl, yn gysgod rhag gwres, pan *oedd* gwynt y cedyrn fel tymmestl *yn erbyn* mur.
5 Fel gwres mewn sychder y darostyngi dwrf dïeithriaid; *sef* gwres â chysgod cwmmwl; darostyngir cangen yr ofnadwy.
6 ¶ Ac ARGLWYDD y lluoedd [7]a wna i'r holl bobloedd yn y mynydd hwn wledd o basgedigion, gwledd o loyw-win; *o* basgedigion breision, *a* gloyw-win puredig.
7 Ac efe a ddifa yn y mynydd hwn y gorchudd sydd yn gorchuddio yr holl bobloedd, a'r llen yr hon a daenwyd ar yr holl genhedloedd.
8 Efe a lwngc angau mewn buddugoliaeth; a'r Arglwydd DDUW a sych ymaith ddagrau oddi ar bob wyneb; ac efe a dyn ymaith warthrudd ei bobl oddi ar yr holl ddaear: canys yr ARGLWYDD a'i llefarodd.
9 ¶ A'r dydd hwnnw y dywedir, Wele, dyma ein DUW ni; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw: dyma yr ARGLWYDD; gobeithiasom ynddo, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth ef.
10 Canys llaw yr ARGLWYDD a orphwys yn y mynydd hwn, a Moab a sethrir tano, fel sathru gwellt mewn tommen.
11 Ac efe a estyn ei ddwylaw yn eu canol hwy, fel yr estyn nofiedydd *ei ddwylaw* i nofio; ac efe a ostwng eu balchder hwynt ynghyd âg yspail eu dwylaw.
12 Felly y gogwydda, y gostwng, *ac* y bwrw efe i lawr hyd y llwch, gadernid uchelder dy gaerau.

PENNOD 26.

1 *Cân yn annog i hyderu ar Dduw, 5 o herwydd ei farnedigaethau, 12 a'i ffafr i'w bobl. 20 Cynghor i ddisgwyl wrth Dduw.*

Y DYDD hwnnw y cenir y gân hon yn nhir Judah: Dinas gadarn *sydd* i ni; *DUW* a esyd iachawdwriaeth *yn* gaerau ac *yn* rhagfur.

2 Agorwch y pyrth, fel y dêl y genedl gyfiawn i mewn, yr hon a geidw wirionedd.

3 Ti a gedwi mewn tangnefedd heddychol yr hwn sydd â'i feddylfryd *arnat ti;* am ei fod yn ymddiried ynot.

4 Ymddiriedwch yn yr ARGLWYDD byth; o herwydd yn yr ARGLWYDD DDUW *y mae* cadernid tragywyddol.

5 ¶ Canys efe a ostwng breswylwyr yr uchelder; tref uchel a ostwng efe: efe a'i darostwng hi i'r llawr, ac a'i bwrw hi i'r llwch.

6 Troed a'i sathr hi, *sef* traed y trueiniaid, *a* chamrau y tlodion.

7 Uniondeb *yw* llwybr y cyfiawn; tydi yr uniawn wyt yn pwyso ffordd y cyfiawn.

8 *Ar* lwybr dy farnedigaethau hefyd y'th ddisgwyliasom, ARGLWYDD; dymuniad *ein* henaid *sydd* at dy enw, ac at dy goffadwriaeth.

9 A'm henaid y'th ddymunais liw nos; â'm hyspryd hefyd o'm mewn y'th fore-geisiaf: canys preswylwyr y byd a ddysgant gyfiawnder, pan *fyddo* dy farnedigaethau ar y ddaear.

10 Gwneler cymmwynas i'r annuwiol, *etto* ni ddysg efe gyfiawnder; yn nhir uniondeb y gwna ar gam, ac ni wêl uchelder yr ARGLWYDD.

11 Ni welant, ARGLWYDD, *pan* ddyrchafer dy law: *eithr* cânt weled, a chywilyddiant am *eu* heiddigedd *wrth* y bobl; ïe, tân dy elynion a'u hysa hwynt.

12 ¶ ARGLWYDD, ti a drefni i ni heddwch: canys ti hefyd a wnaethost ein holl weithredoedd ynom ni.

13 O ARGLWYDD ein DUW, arglwyddi *eraill* heb dy law di a arglwyddiaethasant arnom ni; yn unig trwot ti y coffâwn dy enw.

14 Meirw *ydynt,* ni byddant fyw; ymadawsant, ni chyfodant; am hynny y gofwyaist a difethaist hwynt, dinystriaist hefyd bob coffa am danynt.

15 Ychwanegaist ar y genedl, O ARGLWYDD, ychwanegaist ar y genedl; ti a ogoneddwyd; ti a'i symmudasit ym mhell *i* holl gyrrau y ddaear.

16 Mewn adfyd, ARGLWYDD, yr ymwelsant â thi; tywalltasant weddi *pan oedd* dy gospedigaeth arnynt.

17 Fel y gofidia *ac* y gwaedda gwraig feichiog dan ei gwewyr, *pan* fyddo agos i esgor; felly yr oeddym o'th flaen di, ARGLWYDD.

18 Beichiogasom, gofidiasom, oeddym fel ped esgorem ar wynt; ni wnaethom ymwared ar y ddaear, a phreswylwyr y byd ni syrthiasant.

19 Dy feirw a fyddant byw, *fel* fy nghorph i yr adgyfodant. Deffrôwch a chenwch, breswylwyr y llwch: canys dy wlith *sydd fel* gwlith llysiau, a'r ddaear a fwrw y meirw allan.

20 ¶ Tyred, fy mhobl, dos i'th ystafelloedd, a chau dy ddrysau arnat: llecha megis ennyd bach, hyd onid elo y llid heibio.

21 Canys wele yr ARGLWYDD yn dyfod allan o'i fangre, i ymweled âg anwiredd preswylwyr y ddaear: a'r ddaear a ddatguddia ei gwaed, ac ni chuddia mwyach ei lladdedigion.

PENNOD 27.

1 *Gofal Duw dros ei winllan.* 7 *Y mae rhagor rhwng ei geryddon ef a'i farnedigaethau.* 12 *Eglwys yr Iuddewon a'r Cenhedloedd.*

Y DYDD hwnnw yr ymwêl yr ARGLWYDD â'i gleddyf caled, mawr, a chadarn, â lefiathan y sarph hir-braff, ïe, â lefiathan y sarph dorchog: ac efe a ladd y ddraig *sydd* yn y môr.

2 Yn y dydd hwnnw cenwch iddi, Gwinllan y gwin coch.

3 Myfi yr ARGLWYDD a'i ceidw; ar *bob* moment y dyfrhâf hi: cadwaf hi nos a dydd, rhag *i neb* ei drygu.

4 Nid *oes* lidiowgrwydd ynof: pwy a osodai fieri *a* drain yn fy erbyn mewn rhyfel? myfi a awn trwyddynt, mi a'u llosgwn hwynt ynghyd.

5 Neu ymafled yn fy nerth i, *fel* y gwnelo heddwch â mi, *ac* efe a wna heddwch â mi.

6 Efe a wna i hiliogaeth Jacob wreiddio; Israel a flodeua, ac a flaendardda; a hwy a lanwant wyneb y byd â chnwd.

7 ¶ A darawodd efe ef fel y tarawodd y rhai a'i tarawsai ef? a laddwyd ef fel lladdfa ei laddedigion ef?

8 Wrth fesur, pan êl allan, yr

ymddadleu âg ef: y mae yn attal ei wynt garw ar ddydd dwyreinwynt.
9 Am hynny trwy hyn y glanhêir anwiredd Jacob; a dyma yr holl ffrwyth, tynnu ymaith ei bechod: pan wnelo efe holl gerrig yr allor fel cerrig calch briwedig, ni saif y llwyni na'r delwau.
10 Etto y ddinas gadarn *fydd* unig, *a*'r annedd wedi ei adael, a'i wrthod megis yn anialwch: yno y pawr y llo, ac y gorwedd, ac y difa ei blagur hi.
11 Pan wywo ei brig hi, hwy a dorrir: gwragedd a ddaw, *ac* a'i llosgant hi; canys nid pobl ddeallgar *ydynt:* am hynny yr hwn a'u gwnaeth ni thosturia wrthynt, a'r hwn a'u lluniodd ni thrugarhâ wrthynt.
12 ¶ A'r dydd hwnnw y bydd i'r Arglwydd ddyrnu, o ffrwd yr afon hyd afon yr Aipht: a chwi feibion Israel a gesglir bob yn un ac un.
13 Ac yn y dydd hwnnw yr udgenir âg udgorn mawr; yna y daw y rhai ar ddarfod am danynt yn nhir Assyria, a'r rhai a wasgarwyd yn nhir yr Aipht, ac a addolant yr Arglwydd yn y mynydd sanctaidd yn Jerusalem.

PENNOD 28.

1 *Y prophwyd yn bygwth Ephraim am eu balchder a'u meddwdod.* 5 *Y gweddill a ddyrchefir yn nheyrnas Crist.* 7 *Y mae yn argyhoeddi eu hamryfusedd hwy,* 9 *a'u drwg athrylith i ddysgu,* 15 *a'u diofalwch.* 16 *Addewid o Grist, y sail sicr.* 18 *Y profir eu diofalwch hwy.* 23 *Eu hannog hwy i ystyried pwyllog ragluniaeth Duw.*

GWAE goron balchder, meddwon Ephraim; yr hwn *y mae* ardderchowgrwydd ei ogoniant yn flodeuyn diflannedig, yr hwn *sydd* ar ben y dyffrynoedd breision, y rhai a orchfygwyd gan win.
2 Wele, un grymmus a nerthol sydd gan yr Arglwydd, fel tymmestl cenllysg, *neu* gorwynt dinystriol, fel llifeiriant dyfroedd mawrion yn llifo drosodd, yr hwn a fwrw i lawr â llaw.
3 Dan draed y sethrir coron balchder, meddwon Ephraim.
4 Ac ardderchowgrwydd ei ogoniant, yr hwn *sydd* ar ben y dyffryn bras, fydd blodeuyn diflannedig, megis ffigysen gynnar cyn yr haf, yr hon *pan* welo yr hwn a edrycho arni, efe a'i llwngc hi, a hi etto yn ei law.
5 ¶ Yn y dydd hwnnw y bydd Arglwydd y lluoedd yn goron ardderchowgrwydd, ac yn goron gogoniant i weddill ei bobl;
6 Ac yn ysbryd barn i'r hwn a eisteddo ar farn, ac yn gadernid *i*'r rhai a ddychwelant y rhyfel i'r porth.
7 ¶ Ac er hynny hwy a gyfeiliornasant trwy win, ac a amryfusasant trwy ddïod gadarn: yr offeiriad a'r prophwyd a gyfeiliornasant trwy ddïod gadarn, difâwyd hwy gan win, cyfeiliornasant trwy ddïod gadarn, amryfusasant mewn gweledigaeth, tramgwyddasant *mewn* barn.
8 Canys y byrddau oll sydd lawn o chwydfa *a* budreddi, heb le *glân.*
9 ¶ I bwy y dysg efe wybodaeth? ac i bwy y pâr efe ddeall yr hyn a glywo? i'*r rhai* a ddiddyfnwyd oddi wrth laeth, y rhai a dynnwyd oddi wrth y bronnau.
10 Canys *rhoddir* gorchymyn ar orchymyn, gorchymyn ar orchymyn; llin ar lin, llin ar lin; ychydig yma, *ac* ychydig accw.
11 Canys â bloesgni gwefusau, ac â thafodiaith ddïeithr, y llefara efe wrth y bobl hyn.
12 Y rhai y dywedodd efe wrthynt, Dyma orphwysdra, gadêwch i'r diffygiol orphwyso, a dyma esmwythder; ond ni fynnent wrandaw.
13 Eithr gair yr Arglwydd oedd iddynt yn orchymyn ar orchymyn, yn orchymyn ar orchymyn; yn llin ar lin, yn llin ar lin; ychydig yma, *ac* ychydig accw; fel yr elent ac y syrthient yn ol, ac y dryllier, ac y magler, ac y dalier hwynt.
14 ¶ Am hynny gwrandêwch air yr Arglwydd, ddynion gwatwarus, llywodraethwyr y bobl hyn, y rhai *sydd* yn Jerusalem.
15 Am i chwi ddywedyd, Gwnaethom ammod âg angau, ac âg uffern y gwnaethom gynghrair; pan ddêl ffrewyll lifeiriol, ni ddaw attom ni: canys gosodasom ein gobaith *ar* gelwydd, a than ffalsder y llechasom.
16 ¶ Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele fi yn sylfaenu maen yn Sïon, maen prof-

edig, *congl*-faen gwerthfawr, sylfaen safadwy; ni frysia yr hwn a gredo.
17 A mi a osodaf farn wrth linyn, a chyfiawnder wrth bwys; y cenllysg a ysguba noddfa celwydd, a'r dyfroedd a foddant y lloches.
18 ¶ A diddymmir eich ammod âg angau, a'ch cynghrair âg uffern ni saif; pan ddêl y ffrewyll lifeiriol, byddwch yn sathrfa iddi.
19 O'r amser y delo, y cymmer chwi: canys daw bob bore, ddydd a nos; a blinder yn unig fydd *i* beri deall yr hyn a glywir.
20 Canys byrrach yw y gwely nag *y galler* ymestyn *ynddo;* a chul yw y cwrlid i ymdroi *ynddo.*
21 Canys yr ARGLWYDD a gyfyd megis ym mynydd Perasim, efe a ddigia megis y'nglyn Gibeon, i wneuthur ei waith, ei ddïeithrwaith; ac i wneuthur ei weithred, ei ddïeithr-weithred.
22 Ac yn awr na watwarwch, rhag cadarnhâu eich rhwymau: canys clywais *fod* darfodedigaeth derfynol oddi wrth ARGLWYDD DDUW y lluoedd ar yr holl dir.
23 ¶ Clywch, a gwrandêwch fy llais; ystyriwch, a gwrandêwch fy lleferydd.
24 Ydyw yr arddwr yn aredig ar hyd y dydd i hau? ydyw efe yn agoryd ac yn llyfnu ei dir?
25 Onid wedi iddo lyfnhâu ei wyneb, y taena efe y ffacbys, ac y gwasgar y cwmin, ac y bwrw y gwenith ardderchog, a'r haidd nodedig, a'r rhŷg *yn* ei gyfle?
26 Canys ei DDUW a'i hyfforddia ef mewn synwyr, *ac* a'i dysg ef.
27 Canys nid âg ôg y dyrnir ffacbys, ac *ni* throir olwyn men ar gwmin; eithr dyrnir ffacbys â ffon, a chwmin â gwïalen.
28 *Yd* bara a felir; ond gan ddyrnu ni ddyrn y dyrnwr ef yn wastadol, ac ni ysiga *ef* âg olwyn ei fen, ac nis mâl ef â'i wŷr meirch.
29 Hyn hefyd a ddaw oddi wrth ARGLWYDD y lluoedd, *yr hwn* sydd ryfedd yn ei gynghor, *ac* ardderchog yn ei waith.

PENNOD 29.

1 *Gorthrwm farnedigaeth Duw ar Israel.* 7 *Na ddïgonir ei gelynion hi.* 9 *Annealldarwch,* 13 *a rhagrith yr Iuddewon.* 18 *Addaw sanctieddio y duwiol.*

GWAE Ariel, Ariel, y ddinas y trigodd Dafydd *ynddi!* ychwanegwch flwyddyn at flwyddyn; lladdant ebyrth.
2 Etto mi a gyfyngaf ar Ariel, a bydd galar a griddfan; a hi a fydd i mi fel Ariel.
3 A gwersyllaf yn grwn i'th erbyn, ac a warchaeaf i'th erbyn *mewn* gwarchdwr, ac a gyfodaf wrthglawdd yn dy erbyn.
4 A thi a ostyngir; o'r ddaear y lleferi, ac o'r llwch y bydd isel dy leferydd; dy lais fydd hefyd o'r ddaear fel *llais* swynwr, a'th ymadrodd a hustyng o'r llwch.
5 A thyrfa dy ddïeithriaid fydd fel llwch mân, a thyrfa y cedyrn fel peiswyn yn myned heibio; ïe, bydd yn ddisymmwth ddïattreg.
6 Oddi wrth ARGLWYDD y lluoedd y gofwyir trwy daranau, a thrwy ddaeargryn, a thwrf mawr, *trwy* gorwynt, a thymmestl, a fflam dân ysol.
7 ¶ Yna y bydd tyrfa yr holl genhedloedd y rhai a ryfelant yn erbyn Ariel, fel breuddwyd gweledigaeth nos, sef y rhai oll a ymladdant yn ei herbyn hi a'i hamddiffynfa, ac a warchaeant arni.
8 Ië, bydd megis newynog a freuddwydio, ac wele ef yn bwytta; a phan ddeffrô, gwag fydd ei enaid: ac megis y sychedig a freuddwydio, ac wele ef yn yfed; a phan ddeffrô, wele ef yn ddiffygiol, a'i enaid yn chwennych *dïod:* felly y bydd tyrfa yr holl genhedloedd a lueddant yn erbyn mynydd Sïon.
9 ¶ Arefwch, a rhyfeddwch; bloeddiwch, a gwaeddwch: meddwasant, ac nid *trwy* win; penfeddwasant, ac nid *trwy* ddïod gadarn.
10 Canys tywalltodd yr ARGLWYDD arnoch yspryd trwmgwsg, ac a gauodd eich llygaid chwi: eich prophwydi, a'ch pennaethiaid, y gweledyddion, a orchuddiodd efe.
11 A gweledigaeth pob un *o honynt* sydd i chwi fel geiriau llyfr seliedig, yr hwn *os* rhoddant ef at *un* a fedr *ar* lyfr, gan ddywedyd, Darllen hwn, attolwg: yna y dywed, Ni allaf; canys seliwyd ef.

12 Os rhoddir y llyfr at yr hwn ni fedr *ar* lyfr, gan ddywedyd, Darllen hwn, attolwg: yna y dywed, Ni fedraf *ar* lyfr.

13 ¶ Am hynny y dywedodd yr ARGLWYDD, O herwydd bod y bobl hyn yn nesâu attaf â'u genau, ac yn fy anrhydeddu â'u gwefusau, a phellhâu eu calon oddi wrthyf, a bod eu hofn tu ag attaf fi wedi ei ddysgu allan o athrawiaeth dynion;

14 Am hynny wele fi yn myned rhagof i wneuthur yn rhyfedd ym mysg y bobl hyn, *sef* gwyrthiau a rhyfeddod: canys difethir doethineb eu doethion hwynt, a deall eu rhai deallgar hwynt a ymguddia.

15 Gwae y rhai a ddyfn-geisiant i guddio *eu* cynghor oddi wrth yr ARGLWYDD, ac y mae eu gweithredoedd mewn tywyllwch, ac a ddywedant, Pwy a'n gwel ni? a phwy a'n hedwyn?

16 Diau fel clai crochenydd y cyfrifir eich trofeydd chwi. Canys a ddywed y gwaith am y gweithydd, Ni'm gwnaeth i? neu a ddywed y peth a luniwyd am yr hwn a'i lluniodd, Nid yw ddeallus?

17 Onid ychydig bach *fydd* etto hyd oni throir Libanus yn ddoldir, a'r doldir a gyfrifir yn goed?

18 ¶ A'r dydd hwnnw y rhai byddar a glywant eiriau y llyfr, a llygaid y deillion a welant allan o niwl a thywyllwch.

19 A'r rhai llariaidd a chwanegant lawenychu yn yr ARGLWYDD; a'r dynion tlodion a ymhyfrydant yn Sanct Israel.

20 Canys darfu am yr ofnadwy, a difethwyd y gwatwarus, a'r rhai oll a wyliant am anwiredd a dorrir ymaith;

21 Y rhai a wnant ddyn yn droseddwr o herwydd gair, ac a osodant faglau i'r hwn a geryddo yn y porth, ac a wnant i'r cyfiawn wyro am beth coeg.

22 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, yr hwn a waredodd Abraham, am dŷ Jacob, Weithian ni chywilyddir Jacob, ac ni lasa ei wyneb ef.

23 Eithr pan welo efe ei feibion, gwaith fy nwylaw, o'i fewn, hwy a sancteiddiant fy enw, ïe, sancteiddiant Sanct Jacob, ac a ofnant DDUW Israel.

24 A'r rhai cyfeiliornus o ysbryd a ddysgant ddeall, a'r grwgnachwyr a ddysgant addysg.

PENNOD 30.

1 *Y prophwyd yn bygwth y bobl am hyderu ar yr Aipht,* 8 *ac am ddistyrru gair Duw.* 18 *Trugareddau Duw i'w eglwys.* 27 *Digofaint Duw, a llawenydd y bobl am ddinystr Assyria.*

GWAE y meibion cyndyn, medd yr ARGLWYDD, a gymmerant gynghor, ond nid gennyf fi; ac a orchuddiant â gorchudd, ac nid o'm hyspryd i, i chwanegu pechod ar bechod:

2 Y rhai sydd yn myned i ddisgyn i'r Aipht, heb ymofyn â mi, i ymnerthu yn nerth Pharaoh, ac i ymddiried y'nghysgod yr Aipht.

3 Am hynny y bydd nerth Pharaoh yn gywilydd i chwi, a'r ymddiried y'nghysgod yr Aipht yn waradwydd.

4 Canys bu ei dywysogion yn Soa'n, a'i genhadau a ddaethant i Hanes.

5 Hwynt oll a gywilyddiwyd o herwydd y bobl ni fuddia iddynt, ni *byddant* yn gynnorthwy nac yn llesâd, eithr yn warth ac yn waradwydd.

6 Baich anifeiliaid y dehau. I dir cystudd ac ing, *lle y daw* o honynt yr hen lew a'r llew ieuangc, y wiber a'r sarph danllyd hedegog, y dygant eu golud ar gefnau asynod, a'u trysorau ar gefnau camelod, at bobl ni wna les.

7 Canys yn ddiles ac yn ofer y cynnorthwya yr Aiphtiaid: am hynny y llefais arni, Eu nerth hwynt *yw* aros yn llonydd.

8 ¶ Dos yn awr, ysgrifena hyn mewn llech ger eu bron hwynt, ac ysgrifena mewn llyfr, fel y byddo hyd y dydd diweddaf yn oes oesoedd;

9 Mai pobl wrthryfelgar *yw* y rhai hyn, plant celwyddog, plant ni fynnant wrandaw cyfraith yr ARGLWYDD:

10 Y rhai a ddywedant wrth y gweledyddion, Na welwch; ac wrth y prophwydi, Na phrophwydwch i ni bethau uniawn; traethwch i ni

weniaith, prophwydwch i ni siommedigaeth:
11 Ciliwch o'r ffordd, ciliwch o'r llwybr; perwch i Sanct Israel beidio â ni.
12 Am hynny fel hyn y dywed Sanct Israel, Am wrthod o honoch y gair hwn, ac ymddiried o honoch mewn twyll a cham, a phwyso ar hynny:
13 Am hynny y bydd yr anwiredd hyn i chwi fel rhwygiad chwyddedig mewn mur uchel ar syrthio, yr, hwn y daw ei ddrylliad yn ddisymmwth heb attreg.
14 Canys efe a'i dryllia hi fel dryllio llestr crochenydd, gan guro heb arbed; fel na chaffer ym mysg ei darnau gragen i gymmeryd tân o'r aelwyd, nac i godi dwfr o'r ffos.
15 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw, Sanct Israel, Trwy ddychwelyd a gorphwys y byddwch gadwedig; mewn llonyddwch a gobaith y bydd eich cadernid: ond ni fynnech.
16 Eithr dywedasoch, Nid *felly;* canys ni a ffown ar feirch; am hynny y ffowch: a marchogwn ar *feirch* buain; am hynny y bydd buain y rhai a'ch erlidio.
17 Mil *a ffy* wrth gerydd un; ac wrth gerydd pump y ffowch, hyd oni'ch gadawer megis hwylbren ar ben mynydd, ac fel baner ar fryn.
18 ¶ Ac am hynny y disgwyl yr Arglwydd i drugarhâu wrthych, ïe, am hynny yr ymddyrchaif i dosturio wrthych; canys Duw cyfiawnder *yw* yr Arglwydd. Gwyn eu byd y rhai oll a ddisgwyliant wrtho.
19 Canys y bobl a drig yn Sïon o fewn Jerusalem: gan wylo nid wyli; gan drugarhâu efe a drugarhâ wrthyt; wrth lef dy waedd, pan ei clywo, efe a'th atteb di.
20 A'r Arglwydd a rydd i chwi fara ing a dwfr gorthrymder, ond ni chornelir dy athrawon mwy, eithr dy lygaid fyddant yn gweled dy athrawon:
21 A'th glustiau a glywant air o'th ol yn dywedyd, Dyma y ffordd, rhodiwch ynddi, pan bwysoch ar y llaw ddehau, neu pan bwysoch ar y llaw aswy.
22 Yna yr halogwch ball ŷ gerfddelw arian, ac ephod dy dawddddelw aur; gwasgeri hwynt fel cadach mis-glwyf, a dywedi wrthynt, Dos ymaith.
23 Ac efe a rydd wlaw i'th had pan hauech dy dir, a bara cnwd y ddaear, ac efe a fydd yn dew ac yn aml; a'r dydd hwnnw y pawr dy anifeiliaid mewn porfa helaeth.
24 Dy ychain hefyd a'th asynod, y rhai a lafuriant y tir, a borant ebran pur, yr hwn a nithiwyd â gwyntyll ac â gogr.
25 Bydd hefyd ar bob mynydd uchel, ac ar bob bryn dyrchafedig, afonydd *a* ffrydiau dyfroedd, yn nydd y lladdfa fawr, pan syrthio y tyrau.
26 A bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul, a llewyrch yr haul fydd saith mwy, megis llewyrch saith niwrnod, yn y dydd y rhwyma yr Arglwydd friw ei bobl, ac yr iachao archoll eu dyrnod hwynt.
27 ¶ Wele enw yr Arglwydd yn dyfod o bell, yn llosgi gan ei ddigofaint ef, a'*i* faich *sydd* drwm; ei wefusau a lanwyd o ddigter, a'i dafod *sydd* megis tân ysol.
28 Ei anadl hefyd, megis afon lifeiriol, a gyrhaedd hyd hanner y gwddf, i nithio y cenhedloedd â gogr oferedd; a bydd ffrwyn yng ngenau y bobloedd, yn *eu* gyrru ar gyfeiliorn.
29 Y gân fydd gennych megis y noswaith y sancteiddir uchel-wyl; a llawenydd calon, megis pan elo un â phibell i fyned i fynydd yr Arglwydd, at Gadarn yr Israel.
30 A'r Arglwydd a wna glywed ardderchowgrwydd ei lais, ac a ddengys ddisgyniad ei fraich, mewn digter llidiog, ac â fflam dân ysol, â gwasgarfa, ac â thymmestl, ac â cherrig cenllysg.
31 Canys â llais yr Arglwydd y distrywir Assur, *yr hwn* a darawai â'r wïalen.
32 A pha le bynnag yr elo y wïalen ddïysgog, yr hon a esyd yr Arglwydd arno ef, gyd â thympanau a thelynau y bydd: ac â rhyfel tost yr ymladd efe yn ei erbyn.

33 Canys darparwyd Tophet er doe, ïe, parottôwyd hi i'r brenhin: efe a'*i* dyfnhaodd *hi*, ac a'*i* ehangodd: ei chynneuad *sydd* dân a choed lawer; anadl yr ARGLWYDD, megis afon o frwmstan, sydd yn ei hennyn hi.

PENNOD 31.

1 *Y prophwyd yn dangos meliâigedig ynfydrwydd y bobl, yn lyderu ar yr Aipht, ac yn ymwerthod â Duw.* 6 *Y mae yn annog i edifarhau;* 8 *ac yn dangos cwymp Assyria.*

GWAE y rhai a ddisgynant i'r Aipht am gynnorthwy, ac a ymddiriedant mewn meirch, ac a hyderant ar gerbydau, am *eu bod* yn aml; ac ar wŷr meirch, am eu bod yn nerthol iawn: ond nid edrychant am Sanct Israel, ac ni cheisiant yr ARGLWYDD.

2 Etto *y mae* efe yn ddoeth, ac a ddaw â chospedigaeth, ac ni eilw ei air yn ol; eithr cyfyd yn erbyn tŷ y rhai drygionus, ac yn erbyn cynnorthwy y rhai a weithredant anwiredd.

3 Yr Aiphtiaid hefyd *ydynt* ddynion, ac nid DUW; a'u meirch yn gnawd, ac nid yn yspryd. Pan estyno yr ARGLWYDD ei law, yna y syrth y cynnorthwywr, ac y cwymp y cynnorthwyedig, a hwynt oll a gyd-ballant.

4 Canys fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Megis y rhua hen lew a'r llew ieuangc ar ei ysglyfaeth, yr hwn, er galw lliaws o fugeiliaid yn ei erbyn, ni ddychryn rhag eu llef hwynt, ac nid ymostwng er eu twrf hwynt: felly y disgyn ARGLWYDD y lluoedd i ryfela dros fynydd Sïon, a thros ei fryn ef.

5 Megis adar yn ehedeg, felly yr amddiffyn ARGLWYDD y lluoedd Jerusalem; gan amddiffyn a gwared, gan basio heibio ac achub.

6 ¶ Dychwelwch at yr hwn y llwyr-giliodd meibion Israel oddi wrtho.

7 O herwydd yn y dydd hwnnw gwrthodant bob un ei eilunod arian, a'i eilunod aur, y rhai a wnaeth eich dwylaw eich hun *yn* bechod i chwi.

8 ¶ A'r Assyriad a syrth trwy gleddyf, nid eiddo gŵr grymmus; a chleddyf, nid eiddo dyn gwael, a'i difa ef: ac efe a ffy rhag y cleddyf, a'i wŷr ieuaingc a fyddant dan dreth.

9 Ac efe a â i'w graig rhag ofn; a'i dywysogion a ofnant rhag y faner, medd yr ARGLWYDD, yr hwn *y mae* ei dân yn Sïon, a'i ffwrn yn Jerusalem.

PENNOD 32.

1 *Bendithion teyrnas Crist.* 9 *Rhag-ddangos difrod;* 15 *ac addaw adnewyddiad ar ol hynny.*

WELE, brenhin a deyrnasa mewn cyfiawnder, a thywysogion a lywodraethant mewn barn.

2 A gŵr fydd megis yn ymguddfa *rhag* y gwynt, ac yn lloches *rhag* y dymmestl; megis afonydd dyfroedd mewn sychdir, megis cysgod craig fawr mewn tir sychedig.

3 Yna llygaid y rhai a welant ni chauir, a chlustiau y rhai a glywant a wrandawant.

4 Calon y rhai ehud hefyd a ddeall wybodaeth, a thafod y rhai bloesg a brysura lefaru yn eglur.

5 Ni elwir mwy y coegddyn yn fonheddig, ac ni ddywedir am y cybydd, Hael *yw*.

6 Canys coegwr a draetha goegni, a'i galon a wna anwiredd, i ragrithio, ac i draethu amryfusedd yn erbyn yr ARGLWYDD, i ddiddymmu enaid y newynog; ac efe a wna i ddïod y sychedig ballu.

7 Arfau y cybydd *sydd* ddrygionus: efe a ddychymmyg ddichellion i ddifwyno y trueiniaid trwy ymadroddion gau, pan draetho yr anghenus yr uniawn.

8 Ond yr hael a ddychymmyg haelioni; ac ar haelioni y saif efe.

9 ¶ Cyfodwch, wragedd diwaith; clywch fy llais: gwrandêwch fy ymadrodd, ferched dïofal.

10 Dyddiau gyd â blwyddyn y trallodir chwi, wragedd difraw: canys darfu y cynhauaf gwin, ni ddaw cynnull.

11 Ofnwch, rai difraw; dychrynwch, rai dïofal: ymddïosgwch, ac ymnoethwch, a gwregyswch *sachlïan* am eich llwynau.

12 Galarant am y tethau, am y meusydd hyfryd, am y winwydden ffrwythlawn.

13 Cyfyd drain *a* mïeri ar dir fy

mhobl, ïe, ar bob tŷ llawenydd *yn* y ddinas hyfryd.

14 Canys y palasau a wrthodir, lliosowgrwydd y ddinas a adewir, yr amddiffynfeydd a'r tyrau fyddant yn ogofeydd hyd byth, yn hyfrydwch asynod gwylltion, yn borfa diadellau;

15 Hyd oni thywallter arnom yr ysbryd o'r uchelder, a bod yr anialwch yn ddoldir, a chyfrif y doldir yn goettir.

16 Yna y trig barn yn yr anialwch, a chyfiawnder a erys yn y doldir.

17 A gwaith cyfiawnder fydd heddwch; ïe, gweithred cyfiawnder *fydd* llonyddwch a diogelwch, hyd byth.

18 A'm pobl a drig mewn preswylfa heddychlawn, ac mewn anneddau diogel, ac mewn gorphwysfaoedd llonydd:

19 Pan ddisgyno cenllysg *ar y* coed, ac y gostyngir y ddinas mewn lle isel.

20 Gwyn eich byd y rhai a hauwch ger llaw pob dyfroedd, y rhai a yrrwch draed yr ŷch a'r asyn *yno.*

PENNOD 33.

1 *Barnedigaethau Duw yn erbyn gelynion yr eglwys.* 13 *Rhagorfraint y duwiol.*

GWAE *di* anrheithiwr, a thi heb dy anrheithio; a *thi* anffyddlawn, er na wnaed yn anffyddlawn â thi: pan ddarffo i ti anrheithio, y'th anrheithir; *a* phan ddarffo i ti fod yn anffyddlawn, byddant anffyddlawn i ti.

2 ARGLWYDD, trugarhâ wrthym; wrthyt y disgwyliasom: bydd fraich iddynt bob bore, a'n hiachawdwriaeth ninnau yn amser cystudd.

3 Wrth lais y twrf y gwibiodd y bobl; wrth ymddyrchafu o honot y gwasgarwyd y cenhedloedd.

4 A'ch ysbail a gynhullir *fel* cynhulliad lindys; fel gwibiad ceiliogod rhedyn y rhed efe arnynt.

5 Dyrchafwyd yr ARGLWYDD; canys preswylio y mae yn yr uchelder: efe a lanwodd Sïon o farn a chyfiawnder.

6 A sicrwydd dy amserau, *a* nerth iachawdwriaeth, fydd doethineb a gwybodaeth: ofn yr ARGLWYDD *yw* ei drysor ef.

7 Wele, eu rhai dewrion a waeddant oddi allan: cenhadon heddwch a wylant yn chwerw.

8 Aeth y prif-ffyrdd yn ddisathr, darfu cynniweirydd llwybr: diddymmodd y cyfammod, diystyrodd y dinasoedd, ni wnaeth gyfrif o ddynion.

9 Galarodd *a* llesgaodd y ddaear; cywilyddiodd Libanus, *a* thorrwyd ef; Saron a aeth megis anialwch, ysgydwyd Basan hefyd a Charmel.

10 Cyfodaf yn awr, medd yr ARGLWYDD: ymddyrchafaf weithian; ymgodaf bellach.

11 Chwi a ymddygwch us, *ac* a esgorwch ar sofl; eich anadl *fel* tân a'ch ysa chwi.

12 A'r bobloedd fyddant *fel* llosgfa calch, *fel* drain wedi eu torri y llosgir hwy yn tân.

13 ¶ Gwrandêwch, belledigion, yr hyn a wneuthum; a gwybyddwch, gymmydogion, fy nerth.

14 Pechaduriaid a ofnasant yn Sïon, dychryn a ddaliodd y rhagrithwyr: pwy o honom a drig gyd â'r tân ysol? pwy o honom a breswylia gyd â llosgfeydd tragywyddol?

15 Yr hwn a rodia *mewn* cyfiawnder, ac a draetha uniondeb, a wrthyd elw trawsder, a ysgydwo ei law rhag derbyn gwobr, a gauo ei glust rhag clywed celanedd, ac a gauo ei lygaid rhag edrych ar ddrygioni;

16 Efe a breswylia yr uchelderau; cestyll y creigiau *fydd* ei amddiffynfa ef: ei fara a roddir iddo, ei ddwfr *fydd* sicr.

17 Dy lygaid a welant y brenhin yn ei degwch: gwelant y tir pell.

18 Dy galon a fyfyria ofn; pa le *y mae* yr ysgrifenydd? pa le *y mae* y trysorwr? pa le *y mae* rhifwr y tyrau?

19 Ni chei weled pobl greulawn, pobl o iaith ddyfnach nag a ddeallech di, *neu* floesg dafod, *fel* na ddeallech.

20 Gwel Sïon, dinas ein cyfarfod: dy lygaid a welant Jerusalem, y breswylfa lonydd, y babell ni thynnir i lawr, *ac* ni syflir un o'i hoelion byth, ac ni thorrir un o'i rhaffau.

21 Eithr yr ARGLWYDD ardderch-

og *fydd* yno i ni, yn fangre afonydd *a* ffrydiau llydain: y rhwyf-long nid â trwyddo, a llong odidawg nid â drosto.

22 Canys yr ARGLWYDD *yw* ein barnwr, yr ARGLWYDD *yw* ein deddfwr, yr ARGLWYDD *yw* ein brenhin; efe a'n ceidw.

23 Gollyngasant dy raffau, ni chadarnhasant eu hwylbren yn iawn, ni thaenasant yr hwyl; yna y rhennir ysglyfaeth yspail fawr, y cloffion a ysglyfaethant yr ysglyfaeth.

24 Ac ni ddywed y preswylydd, Claf ydwyf: maddeuir anwiredd y bobl a drigant ynddi.

PENNOD 34.

1 *Y barnedigaethau y mae Duw yn dïal ei eglwys â hwynt.* 11 *Difrod ei gelynion hi.* 16 *Sicred yw y broplwydoliaeth.*

NESEWCH, genhedloedd, i glywed, a gwrandêwch, bobloedd; gwrandawed y ddaear ac oll y sydd ynddi, y byd a'i holl gnwd.

2 Canys llidiowgrwydd yr ARGLWYDD *sydd* ar yr holl genhedloedd, a'i sorriant ar eu holl luoedd hwynt: difrododd hwynt, rhoddes hwynt i'r lladdfa.

3 A'u lladdedigion a fwrir allan, a'u drewiant o'u celanedd a gyfyd i fyny, y mynyddoedd hefyd a doddant o'u gwaed hwynt.

4 Holl lu y nefoedd hefyd a ddattodir, a'r nefoedd a blygir fel llyfr: a'i holl lu a syrth, fel y syrthiai deilen o'r winwydden, ac fel *ffigysen* yn syrthio oddi ar y pren.

5 Canys fy nghleddyf a drochir yn y nefoedd: wele, ar Edom y disgyn i farn, ac ar y bobl a ysgymmunais.

6 Cleddyf yr ARGLWYDD a lanwyd o waed, tewychodd gan frasder, *a* chan waed ŵyn a bychod, gan frasder arennau hyrddod: canys mae i'r ARGLWYDD aberth yn Bosrah, a lladdfa fawr yn nhir Edom.

7 A disgyn yr unicorniaid gyd â hwynt, a'r bustych gyd â'r teirw; a'u tir hwynt a feddwa o'u gwaed hwynt, a'u llwch fydd dew o frasder.

8 Canys diwrnod dïal yr ARGLWYDD, blwyddyn taledigaeth yn achos Sïon, *yw.*

9 A'i hafonydd a droir yn bŷg, a'i llwch yn frwmstan, a'i daear yn bŷg llosgedig.

10 Nïs diffoddir nos na dydd; ei mwg a ddring byth: o genhedlaeth i genhedlaeth y diffaethir hi; ni *bydd* cynniweirydd trwyddi byth bythoedd.

11 ¶ Y pelican hefyd a'r draenog a'i meddianna; y dylluan a'r gigfran a drigant ynddi; ac efe a estyn arni linyn annhrefn, a meini gwagedd.

12 Ei phendefigion hi a alwant i'r frenhiniaeth, ond ni *bydd* yr un yno, a'i holl dywysogion hi fyddant ddiddym.

13 Cyfyd hefyd *yn* ei phalasau ddrain, danadl ac ysgall o fewn ei cheurydd: a hi a fydd yn drigfa dreigiau, yn gyntedd i gywion yr estrys.

14 Ac anifeiliaid gwylltion yr anialwch, a'r cathod, a ymgyfarfyddant: yr ellyll a eilw ar ei gyfaill; yr ŵyll a orphwys yno hefyd, ac a gaiff orphwysfa iddi.

15 Yno y nytha y dylluan, ac y dodwa, ac y deora, ac a gasgl yn ei chysgod; y fwlturiaid a ymgasglant yno hefyd, pob un gyd â'i gymmar.

16 ¶ Ceisiwch allan o lyfr yr ARGLWYDD, a darllenwch; ni phalla un o hyn, ni bydd un heb ei gymmar; canys fy ngenau, efe a orchymynodd, a'i yspryd, efe a'u casglodd hwynt.

17 Efe hefyd a fwriodd y coelbren iddynt, a'i law ef a'i rhannodd hi iddynt wrth linyn: meddiannant hi hyd byth, a phreswyliant ynddi o genhedlaeth i genhedlaeth.

PENNOD 35.

1 *Hyfrydwch a godidowgrwydd teyrnas Crist.* 3 *Cysuro y gweiniaid trwy rïnweddau a breintiau yr efengyl.*

YR anialwch a'r anghyfanneddle a lawenychant o'u plegid; y diffaethwch hefyd a orfoledda, ac a flodeua fel rhosyn.

2 Gan flodeuo y blodeua, ac y llawenycha hefyd â llawenydd ac â chân: gogoniant Libanus a roddir iddo, godidowgrwydd Carmel a Saron: hwy a welant ogoniant yr

ARGLWYDD, *a* godidowgrwydd ein DUW ni.

3 ¶ Cadarnhêwch y dwylaw llesg, a chryfhêwch y gliniau gweiniaid.

4 Dywedwch wrth y rhai ofnus o galon, Ymgryfhêwch, nac ofnwch: wele, eich DUW chwi a ddaw *â* dïal, *ïe*, DUW *â* thaledigaeth; efe a ddaw, ac a'ch achub chwi.

5 Yna yr agorir llygaid y deillion, a chlustiau y byddarion a agorir.

6 Yna y llamma y cloff fel hydd, ac y cân tafod y mudan: canys dyfroedd a dyr allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffaethwch.

7 Y crasdir hefyd fydd yn llyn, a'r tir sychedig yn ffynhonnau dyfroedd; yn nhrigfa y dreigiau, a'u gorweddfa, *y bydd* cyfle corsennau a brwyn.

8 Yna y bydd prif-ffordd, a ffordd; a Ffordd sanctaidd y gelwir hi: yr halogedig nid â ar hyd-ddi; canys hi *a fydd* i'r rhai hynny: a rodio y ffordd, pe *byddent* ynfydion, ni chyfeiliornant.

9 Ni bydd yno lew, a bwystfil gormesol ni ddring iddi, *ac* nis ceir yno; eithr y rhai gwaredol a rodiant *yno*.

10 A gwaredigion yr ARGLWYDD a ddychwelant, ac a ddeuant i Sïon â chaniadau, ac â llawenydd tragywyddol ar eu pen: goddiweddant lawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar a ffy ymaith.

PENNOD 36.

1 *Senacherib yn dyfod yn erbyn Judah.* 4 *Rabsaceh, wedi ei anfon gan Senacherib, trwy resymmau cabladd, yn ceisio gan y bobl droi oddi wrth Hesecïah.* 22 *Mynegi ei eiriau ef i Hesecïah.*

AC yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg i'r brenhin Hesecïah, y daeth Senacherib brenhin Assyria i fyny yn erbyn holl gaerog ddinasoedd Judah, ac a'u goresgynodd hwynt.

2 A brenhin Assyria a anfonodd Rabsaceh o Lachis i Jerusalem, at y brenhin Hesecïah, â llu dirfawr. Ac efe a safodd wrth bistyll y llyn uchaf, ym mhrif-ffordd maes y pannwr.

3 Ac aeth atto ef Elïacim mab Hilcïah, yr hwn *oedd* ben-teulu, a Sebna yr ysgrifenydd, a Joah mab Asaph y cofiadur.

4 ¶ A dywedodd Rabsaceh wrthynt, Dywedwch yn awr wrth Hesecïah, Fel hyn y dywed y brenhin mawr, brenhin Assyria, Pa hyder *yw* hwn yr ymddiriedi *ynddo?*

5 Dywedais, *meddi*, (ond nid *ydynt ond* geiriau ofer,) Cynghor a nerth *sydd gennyf* i ryfel: ar bwy, attolwg, yr hyderi, pan wyt yn gwrthryfela i'm herbyn?

6 Wele, hyderaist ar y ffon gorsen ddrylliedig honno, ar yr Aipht; yr hon pwy bynnag a bwyso arni, hi a â i gledr ei law ef, ac a dylla trwyddi: felly *y mae* Pharaoh brenhin yr Aipht i bawb a hyderant arno.

7 Ond os dywedi wrthyf, Yn yr ARGLWYDD ein DUW yr ydym yn ymddiried: onid efe *yw* yr hwn y darfu i Hesecïah dynnu i lawr ei uchelfeydd, a'i allorau, a dywedyd wrth Judah a Jerusalem, O flaen yr allor hon yr addolwch?

8 Ac yn awr dod wystlon, attolwg, i'm harglwydd brenhin Assyria, a mi a roddaf i ti ddwy fil o feirch, os gelli di roddi rhai a farchogo arnynt.

9 A pha fodd y troi di ymaith wyneb un capten o'r gweision lleiaf i'm harglwydd, ac yr ymddiriedi yn yr Aipht am gerbydau ac am farchogion?

10 Ai heb yr ARGLWYDD y deuthum i fyny yr awr hon yn erbyn y wlad hon i'w dinystrio? yr ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Dos i fyny yn erbyn y wlad hon, a dinystria hi.

11 ¶ Yna y dywedodd Elïacim, a Sebna, a Joah, wrth Rabsaceh, Llefara, attolwg, wrth dy weision yn Syriaeg; canys *yr ydym* ni yn *ei* deall; ac na lefara wrthym yn iaith yr Iuddewon, lle y clywo y bobl *sydd* ar y mur.

12 ¶ Ond Rabsaceh a ddywedodd, Ai at dy feistr ac attat tithau yr anfonodd fy meistr fi i lefaru y geiriau hyn? onid at y dynion sydd yn eistedd ar y mur *yr anfonodd fi*, fel y bwyttaont eu tom eu hun, ac yr yfont eu trwngc eu hun gyd â chwi?

13 A safodd Rabsaceh, a gwaeddodd â llef uchel yn iaith yr Iudd-

ewon, ac a ddywedodd, Gwrandêwch eiriau y brenhin mawr, brenhin Assyria:
14 Fel hyn y dywed y brenhin, Na thwylled Hesecïah chwi: canys ni ddichon efe eich gwaredu chwi.
15 Ac na phared Hesecïah i chwi ymddiried yn yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD gan waredu a'ch gwared chwi, ni roddir y ddinas hon yn llaw brenhin Assyria.
16 Na wrandêwch ar Hesecïah: canys fel hyn y dywed brenhin Assyria, Gwnewch fwynder â mi, a deuwch allan attaf, a bwyttêwch bob un o'i winwydden ei hun, a phob un *o'i* figysbren, ac yfed pawb ddwfr ei ffynnon ei hun;
17 Nes i mi ddyfod a'ch dwyn chwi i wlad megis eich gwlad eich hun, gwlad ŷd a gwin, gwlad bara a gwinllannoedd.
18 *Gwyliwch* rhag i Hesecïah eich hudo chwi, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD a'n gwared ni. A waredodd un o dduwiau y cenhedloedd ei wlad o law brenhin Assyria?
19 *Mae* duwiau Hamath ac Arphad? *mae* duwiau Sepharfaim? a waredasant hwy Samaria o'm llaw i?
20 Pwy *sydd* ym mhlith holl dduwiau y gwledydd hyn a'r a waredasant eu gwlad o'm llaw i, fel y gwaredai yr ARGLWYDD Jerusalem o'm llaw?
21 Eithr hwy a dawsant, ac nid attebasant air iddo: canys gorchymyn y brenhin *oedd* hyn, gan ddywedyd, Nac attebwch ef.
22 ¶ Yna y daeth Elïacim mab Hilcïah, yr hwn *oedd* ben-teulu, a Sebna yr ysgrifenydd, a Joah mab Asaph y cofiadur, at Hesecïah, â'u dillad yn rhwygedig, ac a fynegasant iddo eiriau Rabsaceh.

PENNOD 37.

1 *Hesecïah, yn ei dristwch, yn gyrru at Esaiah i gael ganddo weddïo drosto ef a'i bobl.* 6 *Esaiah yn eu cysuro hwy.* 8 *Senacherib yn myned i ymladd â Thirhacah, ac yn anfon llythyrau cablaidd at Hesecïah.* 14 *Gweddïi Hesecïah.* 21 *Esaiah yn prophwydo balchder a chwymp Senacherib, a llwyddiant Sion.* 36 *Angel yn lladd yr Assyriaid.* 37 *Lladd Senacherib yn Ninefeh gan ei feibion ei hun.*

APHAN glybu y brenhin Hesecïah *hynny*, efe a rwygodd ei ddillad, ac a ymwisgodd mewn sachlïan, ac a aeth i dŷ yr ARGLWYDD.
2 Ac a anfonodd Elïacim y penteulu, a Sebna yr ysgrifenydd, a henuriaid yr offeiriaid, wedi ymwisgo mewn sachlïan, at Esaiah y prophwyd mab Amos.
3 A hwy a ddywedasant wrtho, Fel hyn y dywedodd Hesecïah, Diwrnod cyfyngder, a cherydd, a chabledd, *yw* y dydd hwn: canys y plant a ddaethant hyd yr enedigaeth, ond nid *oes* grym i esgor.
4 Fe allai y gwrendy yr ARGLWYDD dy DDUW eiriau Rabsaceh, yr hwn a anfonodd brenhin Assyria ei feistr i gablu y DUW byw, ac y cerydda efe y geiriau a glybu yr ARGLWYDD dy DDUW: am hynny dyrcha *dy* weddi dros y gweddill *sydd* i'w gael.
5 Felly gweision y brenhin Hesecïah a ddaethant at Esaiah.
6 ¶ A dywedodd Esaiah wrthynt, Fel hyn y dywedwch wrth eich meistr, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Nac ofna y geiriau a glywaist, *trwy* y rhai y cablodd gweision brenhin Assyria fi.
7 Wele fi yn rhoddi arno ef wynt, ac efe a glyw swn, ac a ddychwel i'w wlad: gwnaf hefyd iddo syrthio gan y cleddyf yn ei wlad ei hun.
8 ¶ Yna y dychwelodd Rabsaceh, ac a gafodd frenhin Assyria yn rhyfela yn erbyn Libnah: canys efe a glywsai ddarfod iddo fyned o Lachis.
9 Ac efe a glywodd *sôn* am Tirhacah brenhin Ethiopia, gan ddywedyd, Efe a aeth allan i ryfela â thi. A phan glywodd *hynny*, efe a anfonodd genhadau at Hesecïah, gan ddywedyd,
10 Fel hyn y dywedwch wrth Hesecïah brenhin Judah, gan ddywedyd, Na thwylled dy DDUW di, yr hwn yr wyt yn ymddiried ynddo, gan ddywedyd, Ni roddir Jerusalem yn llaw brenhin Assyria.
11 Wele, ti a glywaist yr hyn a wnaeth brenhinoedd Assyria i'r holl wledydd, gan eu difrodi hwynt; ac a waredir di?
12 A waredodd duwiau y cenhedloedd hwynt, y rhai a ddarfu i'm tadau eu dinystrio, *sef* Gosan, a

Haran, a Reseph, a meibion Eden, y rhai *oedd* o fewn Telassar?
13 *Mae* brenhin Hamath, a brenhin Arphad, a brenhin dinas Sepharfaim, Hena, ac Ifah?
14 ¶ A chymmerth Hesecïah y llythyr o law y cenhadau, ac a'i darllenodd; a Hesecïah a aeth i fyny i dŷ yr ARGLWYDD, ac a'i lledodd ger bron yr ARGLWYDD.
15 A Hesecïah a weddïodd at yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,
16 ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, yr hwn wyt yn trigo *rhwng* y cerubiaid, ti ydwyt DDUW, *ïe*, tydi yn unig, i holl deyrnasoedd y ddaear: ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear.
17 Gogwydda, ARGLWYDD, dy glust, a gwrando; agor dy lygaid, ARGLWYDD, ac edrych: gwrando hefyd holl eiriau Senacherib, yr hwn a anfonodd i ddifenwi y DUW byw.
18 Gwir *yw*, O ARGLWYDD, i frenhinoedd Assyria ddifa yr holl genhedloedd a'u gwledydd,
19 A rhoddi eu duwiau hwy yn tân; canys nid *oeddynt* hwy dduwiau, ond gwaith dwylaw dyn, *o* goed a maen: am hynny y dinystriasant hwynt.
20 Yr awr hon gan hynny, O ARGLWYDD ein DUW, achub ni o'i law ef; fel y gwypo holl deyrnasoedd y ddaear mai ti *yw* yr ARGLWYDD, tydi yn unig.
21 ¶ Yna Esaiah mab Amos a anfonodd at Hesecïah, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel, O herwydd i ti weddïo attaf fi yn erbyn Senacherib brenhin Assyria:
22 Dyma y gair a lefarodd yr ARGLWYDD yn ei erbyn ef; Y forwyn merch Sïon a'th ddirmygodd, *ac* a'th watwarodd; merch Jerusalem a ysgydwodd ben ar dy ol.
23 Pwy a ddifenwaist ac a geblaist? ac yn erbyn pwy y dyrchefaist *dy* lef, ac y cyfodaist yn uchel dy lygaid? yn erbyn Sanct Israel.
24 Trwy law dy weision y ceblaist yr Arglwydd, ac y dywedaist, A lliaws fy ngherbydau y deuthum i fyny i uchelder y mynyddoedd, *i* ystlysau Libanus; a mi a dorraf uchelder ei gedrwydd, *a*'i ddewis ffynnidwydd; âf hefyd i'w gwr uchaf, *ac i* goed ei ddoldir.
25 Myfi a gloddiais, ac a yfais ddwfr; â gwadnau fy nhraed hefyd y sychais holl afonydd y gwarchäedig.
26 Oni chlywaist wneuthur o honof hyn er ys talm, a'i lunio er y dyddiau gynt? yn awr y dygais hynny i ben, fel y byddit i ddistrywio dinasoedd caerog *yn* garneddau dinystriol.
27 Am hynny eu trigolion yn gwttoglaw a ddychrynwyd ac a gywilyddiwyd: oeddynt *megis* gwellt y maes, fel gwyrdd-lysiau, a glaswellt ar bennau *tai*, neu *ŷd* wedi deifio cyn addfedu.
28 Dy eisteddiad hefyd, a'th fynediad allan, a'th ddyfodiad i mewn, a adnabum, a'th gynddeiriowgrwydd i'm herbyn.
29 Am i ti ymgynddeiriogi i'm herbyn, ac i'th ddadwrdd ddyfod i fyny i'm clustiau; am hynny y rhoddaf fy mâch yn dy ffroen di, a'm ffrwyn yn dy weflau, ac a'th ddychwelaf di ar hyd yr un ffordd ag y daethost.
30 A hyn *fydd* yn arwydd i ti, *Hesecïah:* Y flwyddyn *hon* y bwyttêi a dyfo o hono ei hun; ac yn yr ail flwyddyn yr attwf; ac yn y drydedd flwyddyn hauwch a medwch, plennwch winllannoedd hefyd, a bwyttêwch eu ffrwyth hwynt
31 A'r gweddill o dŷ Judah, *yr hwn* a adewir, a wreiddia eilwaith i waered, ac a ddwg ffrwyth i fyny.
32 Canys gweddill a â allan o Jerusalem, a'r rhai dïangol o fynydd Sïon: sêl ARGLWYDD y lluoedd a wna hyn.
33 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am frenhin Assyria, Ni ddaw efe i'r ddinas hon, ac nid ergydia efe saeth yno; hefyd ni ddaw o'i blaen â tharian, ac ni fwrw glawdd i'w herbyn.
34 Ar hyd yr un ffordd ag y daeth y dychwel, ac ni ddaw i mewn i'r ddinas hon, medd yr ARGLWYDD.
35 Canys mi a ddiffynnaf y ddinas hon, i'w chadw hi er fy mwyn fy hun, ac er mwyn Dafydd fy ngwas.
36 ¶ Yna yr aeth angel yr AR-

GLWYDD, ac a darawodd y'ngwersyll yr Assyriaid gant a phedwar ugain a phump o filoedd: a phan gyfodasant yn fore drannoeth, wele hwynt oll yn gelaneddau meirwon.

37 ¶ Felly Senacherib brenhin Assyria a ymadawodd, ac a aeth, ac a ddychwelodd, ac a drigodd yn Ninefeh.

38 ¶ A bu, fel yr ydoedd efe yn addoli yn nhŷ Nisroch ei dduw, i Adrammelech a Sareser ei feibion, ei daro ef â'r cleddyf; a hwy a ddïangasant i wlad Armenia. Ac Esarhadon ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

PENNOD 38.

1 *Hesecïah, wedi cael cennadwri o'i farwolaeth, trwy weddi yn cael estyn ei einioes.* 8 *Yr haul yn myned ddeg o raddau yn ei ol, yn argoel o'r addewid honno.* 9 *Cân diolch Hesecïah.*

YN y dyddiau hynny y clafychodd Hesecïah hyd farw. Ac Esaiah y prophwyd mab Amos a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Trefna dy dŷ; canys marw fyddi, ac ni byddi byw.

2 Yna Hesecïah a droes ei wyneb at y pared, ac a weddïodd at yr ARGLWYDD:

3 A dywedodd, Attolwg, ARGLWYDD, cofia yr awr hon i mi rodio ger dy fron di mewn gwirionedd ac â chalon berffaith, a gwneuthur o honof yr hyn *oedd* dda yn dy olwg. A Hesecïah a wylodd âg wylofain mawr.

4 ¶ Yna y bu gair yr ARGLWYDD wrth Esaiah, gan ddywedyd,

5 Dos, a dywed wrth Hesecïah, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Dafydd dy dad, Clywais dy weddi di, gwelais dy ddagrau; wele, mi a chwanegaf at dy ddyddiau di bymtheng mlynedd.

6 Ac o law brenhin Assyria y'th waredaf di a'r ddinas: a mi a ddiffynnaf y ddinas hon.

7 A hyn *fydd* i ti yn arwydd oddi wrth yr ARGLWYDD, y gwna yr ARGLWYDD y gair hwn a lefarodd;

8 Wele fi yn dychwelyd cysgod y graddau, yr hwn a ddisgynodd yn neial Ahas gyd â'r haul, ddeg o raddau yn ei ol. Felly yr haul a ddychwelodd ddeg o raddau, ar hyd y graddau y disgynasai *ar hyd-ddynt.*

9 ¶ Ysgrifen Hesecïah brenhin Judah, pan glafychasai, a byw o hono o'i glefyd:

10 Myfi a ddywedais yn nhorriad fy nyddiau, Af i byrth y bedd; difuddiwyd fi o weddill fy mlyn-yddoedd.

11 Dywedais, Ni chaf weled yr ARGLWYDD IOR yn nhir y rhai byw: ni welaf ddyn mwyach ym mysg trigolion y byd.

12 Fy nhrigfa a aeth, ac a symmudwyd oddi wrthyf fel lluest bugail: torrais ymaith fy hoedl megis gwehydd; â nychdod y'm tyr ymaith: o ddydd hyd nos y gwnei ben am danaf.

13 Cyfrifais hyd y bore, *mai* megis llew y dryllia efe fy holl esgyrn: o ddydd hyd nos y gwnei ddiben arnaf.

14 Megis garan *neu* wennol, felly trydar a wneuthum; griddfenais megis colommen; fy llygaid a ddyrchafwyd i fyny: O ARGLWYDD, gorthrymmwyd fi; esmwythâ arnaf.

15 Beth a ddywedaf? canys dywedodd wrthyf, ac efe a'i gwna: mi a gerddaf yn araf fy holl flynyddoedd yn chwerwedd fy enaid.

16 Arglwydd, trwy y *pethau* hyn yr ydys yn byw, ac yn yr holl *bethau* hyn *y mae* bywyd fy yspryd i; felly yr iachêi, ac y bywhêi fi.

17 Wele yn lle heddwch i mi chwerwder chwerw: ond o gariad ar fy enaid y gwaredaist *ef* o bwll llygredigaeth: canys ti a deflaist fy holl bechodau o'r tu ol i'th gefn.

18 Canys y bedd ni'th fawl di, angau *ni*'th glodfora: y rhai sydd yn disgyn i'r pwll ni obeithiant am dy wirionedd.

19 Y byw, y byw, efe a'th fawl di, fel *yr wyf* fi heddyw: y tad a hysbysa i'r plant dy wirionedd.

20 Yr ARGLWYDD *sydd* i'm cadw: am hynny y canwn fy nghaniadau holl ddyddiau ein heinioes yn nhŷ yr ARGLWYDD.

21 Canys Esaiah a ddywedasai, Cymmerant swp o ffigys, a rhwymant yn blastr ar y cornwyd, ac efe a fydd byw.

22 A dywedasai Hesecïah, Pa arwydd fydd y caf fyned i fyny i dŷ yr ARGLWYDD?

PENNOD 39.

1 *Merodach-Baladan yn anfon i ymweled â Hesecïah o herwydd y rhyfeddod, ac wrth hynny yn cael gwybodaeth o'i drysorau ef: 3 ac Esaiah yn cael gwybod hynny, ac yn rhag-fynegi y gaethiwiad i Babilon.*

YN yr amser hwnnw Merodach-Baladan, mab Baladan, brenhin Babilon, a anfonodd lythyrau ac anrheg at Hesecïah: canys efe a glywsai ei fod ef yn glaf, a'i fyned yn iach.

2 A Hesecïah a lawenychodd o'u herwydd hwynt, ac a ddangosodd iddynt dŷ ei drysorau, yr arian, a'r aur, a'r llysieuau, a'r olew gwerthfawr, a holl dŷ ei arfau, a'r hyn oll a gafwyd yn ei drysorau ef: nid oedd dim yn ei dŷ ef, nac yn ei holl gyfoeth ef, a'r nas dangosodd Hesecïah iddynt.

3 ¶ Yna y daeth Esaiah y prophwyd at y brenhin Hesecïah, ac a ddywedodd wrtho, Beth a ddywedodd y gwŷr hyn? ac o ba le y daethant attat? A dywedodd Hesecïah, O wlad bell y daethant attaf fi, *sef* o Babilon.

4 Yntau a ddywedodd, Beth a welsant hwy yn dy dŷ di? A dywedodd Hesecïah, Yr hyn oll *oedd* yn fy nhŷ i a welsant: nid oes dim yn fy nhrysorau a'r nas dangosais iddynt.

5 Yna Esaiah a ddywedodd wrth Hesecïah, Gwrando air ARGLWYDD y lluoedd.

6 Wele y dyddiau yn dyfod, pan ddygir i Babilon yr hyn oll *sydd* yn dy dŷ di, a'r hyn a gynnilodd dy dadau di hyd y dydd hwn: ni adewir dim, medd yr ARGLWYDD.

7 Cymmerant hefyd o'th feibion di, y rhai a ddaw o honot, *sef* y rhai a genhedli, fel y byddont ystafellyddion yn llys brenhin Babilon.

8 Yna y dywedodd Hesecïah wrth Esaiah, Da *yw* gair yr ARGLWYDD, yr hwn a leferaist. Dywedodd hefyd, Canys bydd heddwch a gwirionedd yn fy nyddiau i.

PENNOD 40.

1 *Cyhoeddi yr efengyl.* 3 *Pregeth Ioan fedyddiwr,* 9 *a'r apostolion.* 12 *Y prophwyd, trwy ddangos fod Duw yn hollalluog,* 18 *ac nad oes dim cyffelyb na chyfartal iddo,* 26 *yn cysuro y bobl.*

CYSURWCH, cysurwch fy mhobl, medd eich DUW.

2 Dywedwch wrth fodd calon Jerusalem, llefwch wrthi hi, gyflawni ei milwriaeth, ddilêu ei hanwiredd: o herwydd derbyniodd o law yr ARGLWYDD yn ddau-ddyblyg am ei holl bechodau.

3 ¶ Llef un yn llefain yn yr anialwch, Parottôwch ffordd yr ARGLWYDD, unionwch lwybr i'n DUW ni yn y diffaethwch.

4 Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a bryn a ostyngir: y gŵyr a wneir yn uniawn, a'r anwastad yn wastadedd.

5 A gogoniant yr ARGLWYDD a ddatguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel; canys genau yr ARGLWYDD a lefarodd *hyn*.

6 Y llef a ddywedodd, Gwaedda. Yntau a ddywedodd, Beth a waeddaf? Pob cnawd sydd wellt, a'i holl odidowgrwydd fel blodeuyn y maes.

7 Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn; canys yspryd yr ARGLWYDD a chwythodd arno: gwellt yn ddïau *yw* y bobl.

8 Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn; ond gair ein DUW ni a saif byth.

9 ¶ Dring rhagot, yr efengyles Sïon, i fynydd uchel; dyrchafa dy lef trwy nerth, O efengyles Jerusalem: dyrchafa, nac ofna; dywed wrth ddinasoedd Judah, Wele eich DUW chwi.

10 Wele, yr ARGLWYDD DDUW a ddaw yn erbyn y cadarn, a'i fraich a lywodraetha drosto: wele ei wobr gyd âg ef, a'i waith o'i flaen.

11 Fel bugail y portha efe ei braidd; â'i fraich y casgl ei ŵyn, ac a'u dwg yn ei fynwes, *ac* a goledda y mammogiaid.

12 ¶ Pwy a fesurodd y dyfroedd yn ei ddwrn, ac a fesurodd y nefoedd â'i rychwant, ac a gymhwysodd bridd y ddaear mewn mesur, ac a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn cloriannau?

13 Pwy a gyfarwyddodd Yspryd yr ARGLWYDD, ac yn ŵr o'i gynghor a'i cyfarwyddodd ef?

14 A phwy yr ymgynghorodd efe, ïe, *pwy* a'i cyfarwyddodd, ac a'i

dysgodd yn llwybr barn, ac a ddysgodd iddo wybodaeth, ac a ddangosodd iddo ffordd dealltwriaeth?

15 Wele, y cenhedloedd a gyfrifwyd fel defnyn o gelwrn, ac fel mân-lwch y cloriannau; wele, fel brycheuyn y cymmer efe yr ynysoedd i fyny.

16 Ac nid digon Libanus i gynneu *tân;* nid digon ei fwystfilod chwaith yn boeth-offrwm.

17 Yr holl genhedloedd *ydynt* megis diddym ger ei fron ef; yn llai na dim, ac *na* gwagedd, y cyfrifwyd hwynt ganddo.

18 ¶ I bwy gan hynny y cyffelybwch DDUW? a pha ddelw a osodwch iddo?

19 Y crefftwr a dawdd gerf-ddelw, a'r eurych a'i goreura, ac a dawdd gadwyni arian.

20 Yr hwn *sydd* dlawd ei offrwm a ddewis bren ni phydra; efe a gais atto saer cywraint, i barottôi cerf-ddelw, *yr hon* ni syfl.

21 Oni wybuoch? oni chlywsoch? oni fynegwyd i chwi o'r dechreuad? oni ddeallasoch er seiliad y ddaear?

22 Efe sydd yn eistedd ar amgylchoedd y ddaear, a'i thrigolion *sydd* fel locustiaid; yr hwn a daena y nefoedd fel llen, ac a'i lleda fel pabell i drigo *ynddi:*

23 Yr hwn a wna lywodraethwyr yn ddiddym; fel gwagedd y gwna efe farnwyr y ddaear.

24 Ie, ni phlennir hwynt, nis heuir chwaith; ei foncyff hefyd ni wreiddia yn y ddaear: ac efe a chwŷth arnynt, a hwy a wywant, a chorwynt a'u dwg hwynt ymaith fel sofl.

25 I bwy gan hynny y'm cyffelybwch, ac y'm cystedlir? medd y Sanct.

26 Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch pwy a greodd *y rhai* hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi: efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amlder *ei* rym *ef,* a'i gadarn allu, ni phalla un.

27 Paham y dywedi, Jacob, ac y lleferi, Israel, Cuddiwyd fy ffordd oddi wrth yr ARGLWYDD, a'm barn a aeth heibio i'm DUW?

28 ¶ Oni wyddost, oni chlywaist, na ddiffygia ac na flina DUW tragywyddoldeb, yr ARGLWYDD, Creawdwr cyrrau y ddaear? ni ellir chwilio allan ei synwyr ef.

29 Yr hwn a rydd nerth i'r diffygiol, ac a amlhâ gryfder i'r dirym.

30 Canys yr ieuengctid a ddiffygia ac a flina, a'r gwŷr ieuainge gan syrthio a syrthiant:

31 Eithr y rhai a obeithiant yn yr ARGLWYDD a adnewyddant *eu* nerth; ehedant fel eryrod; rhedant, ac ni flinant; rhodiant, ac ni ddiffygiant.

PENNOD 41.

1 *Duw yn ym-ymliw â'i bobl, ynghylch ei drugareddau i'w eglwys,* 10 *a'i addewidion:* 21 *ac ynghylch oferedd delwau ac eilunod.*

DISTEWCH, ynysoedd, ger fy mron; adnewydded y cenhedloedd *eu* nerth: deuant yn nês, yna llefarant; cyd-nesâwn i farn.

2 Pwy a gyfododd y cyfiawn o'r dwyrain, a'i galwodd at ei droed, a roddodd y cenhedloedd o'i flaen ef, ac a wnaeth *iddo* lywodraethu ar frenhinoedd? efe a'*u* rhoddodd *hwynt* fel llwch i'w gleddyf, *ac* fel sofl gwasgaredig i'w fwa ef.

3 Y mae efe yn eu herlid hwynt, *ac* yn myned yn ddïogel; *ar hyd* llwybr ni cherddasai efe â'i draed.

4 Pwy a weithredodd ac a wnaeth *hyn,* gan alw y cenhedlaethau o'r dechreuad? Myfi yr ARGLWYDD y cyntaf, myfi hefyd *fydd* gyd â'r diweddaf.

5 Yr ynysoedd a welsant, ac a ofnasant; eithafoedd y ddaear a ddychrynasant, a nesasant, ac a ddaethant.

6 Pob un a gynnorthwyodd ei gymmydog, ac a ddywedodd wrth ei frawd, Ymgryfhâ.

7 Felly y saer a gysurodd yr eurych, *a*'r morthwyliwr yr hwn oedd yn taro ar yr eingion, gan ddywedyd, *Y mae* yn barod i'w asio; ac efe a'i sicrhaodd â hoelion, *fel* nad ysgogir.

8 Eithr ti, Israel, fy ngwas *ydwyt* ti, Jacob yr hwn a etholais, had Abraham fy anwylyd.

9 *Ti,* yr hwn a gymmerais o eithafoedd y ddaear, ac y'th elwais oddi wrth ei phendefigion, ac y dywedais wrthyt, Fy ngwas *wyt* ti; dewisais di, ac ni'th wrthodais.

10 ¶ Nac ofna; canys *yr ydwyf* fi gyd â thi: na lwfrhâ; canys myfi *yw* dy DDUW: cadarnhâf di, cynnorthwyaf di hefyd, a chynhaliaf di â deheulaw fy nghyfiawnder.

11 Wele, cywilyddir a gwaradwyddir *y rhai* oll a lidiasent wrthyt: dy wrthwynebwyr a fyddant megis diddym, ac a ddifethir.

12 Ti a'u ceisi, ac nis cei hwynt, *sef* y dynion a ymgynhennasant â thi: y gwŷr a ryfelant â thi fyddant megis diddym, a megis peth heb ddim.

13 Canys myfi yr ARGLWYDD dy DDUW a ymafiaf yn dy ddeheulaw, a ddywed wrthyt, Nac ofna, myfi a'th gynnorthwyaf.

14 Nac ofna, di bryf Jacob, gwŷr Israel; myfi a'th gynnorthwyaf, medd yr ARGLWYDD, a'th Waredydd, Sanct Israel.

15 Wele, gosodaf di yn fen-ddyrnu newydd ddanheddog; y mynyddoedd a ddyrni ac a feli, gosodi hefyd y bryniau fel mwlwg.

16 Nithi hwynt, a'r gwynt a'u dwg ymaith, a'r corwynt a'u gwasgar hwynt: a thi a lawenychi yn yr ARGLWYDD, yn Sanct Israel y gorfoleddi.

17 *Pan* geisio y trueiniaid a'r tlodion ddwfr, ac nis *cânt*, *pan* ballo eu tafod o syched, myfi yr ARGLWYDD a'u gwrandawaf hwynt, *myfi* DUW Israel nis gadawaf hwynt.

18 Agoraf afonydd ar leoedd uchel, a ffynhonnau y nghanol y dyffryn-oedd: gwnaf y diffaethwch yn llyn dwfr, a'r crasdir yn ffrydiau dyfroedd.

19 Gosodaf yn yr anialwch y cedrwydd, sittah, myrtwydd, ac olewwydd; gosodaf yn y diffaethwch ffynnidwydd, ffawydd, a'r pren box ynghyd;

20 Fel y gwelont, ac y gwybyddont, ac yr ystyriont, ac y deallont ynghyd, mai llaw yr ARGLWYDD a wnaeth hyn, a Sanct Israel a'i creodd.

21 Deuwch yn nês â'ch cŵyn, medd yr ARGLWYDD; dygwch eich *rhesymmau* cadarnaf, medd brenhin Jacob.

22 Dygant *hwynt* allan, a mynegant i ni y pethau a ddigwyddant: mynegwch y pethau gynt, beth *ydynt*, fel yr ystyriom, ac y gwypom eu diwedd hwynt; neu traethwch i ni y pethau a ddaw.

23 Mynegwch y pethau a ddaw ar ol *hyn*, fel y gwypom mai duwiau *ydych* chwi; gwnewch hefyd dda neu ddrwg, fel y synno arnom, ac y gwelom ynghyd.

24 Wele, peth heb ddim *ydych* chwi, a'ch gwaith sydd ddiddym: ffiaidd *yw y gŵr* a'ch dewiso chwi.

25 Cyfodais *un* o'r gogledd, ac efe a ddaw: o gyfodiad haul y geilw efe ar fy enw; ac efe a ddaw ar dywysogion fel *ar* glai, ac fel y sathr crochenydd bridd.

26 Pwy a fynegodd o'r dechreuad, fel y gwybyddom? ac ym mlaen llaw, fel y dywedom, Cyfiawn *yw?* nid *oes* a fynega, nid *oes* a draetha chwaith, ac nid *oes* a glyw eich ymadroddion.

27 Y cyntaf *a ddywed* wrth Sion, Wele, wele hwynt; rhoddaf hefyd efengylwr i Jerusalem.

28 Canys edrychais, ac nid *oedd* neb, ïe, yn eu plith, ac nid *oedd* gynghorwr, pan ofynais iddynt, a fedrai atteb gair.

29 Wele, hwynt oll *ydynt* wagedd, a'u gweithredoedd yn ddiddym: gwynt a gwagedd *yw* eu tawdd-ddelwau.

PENNOD 42.

1 *Swydd Crist, ynghyd â'i lariedd-dra a'i ddyanwadalwch.* 5 *Addewid Duw iddo ef.* 10 *Y mae yn annog i foliannu Duw am ei efengyl:* 17 *ac yn beio ar y bobl am eu hanghrediniaeth.*

WELE fy ngwas, yr hwn yr ydwyf yn ei gynnal; fy etholedig, *i'r hwn* y mae fy enaid yn foddlawn: rhoddais fy yspryd arno; efe a ddwg allan farn i'r cenhedloedd.

2 Ni waedda, ac ni ddyrchafa, ac ni phair glywed ei lef yn yr heol.

3 Ni ddryllia gorsen ysig, ac ni ddiffydd lin yn mygu: efe a ddwg allan farn at wirionedd.

4 Ni phalla efe, ac ni ddigalonna, hyd oni osodo farn ar y ddaear; yr ynysoedd hefyd a ddisgwyliant am ei gyfraith ef.

5 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, creawdydd y nefoedd a'i hestynydd; lledydd y

ddaear a'i chnwd; rhoddydd anadl i'r bobl arni, ac yspryd i'r rhai a rodiant ynddi:

6 Myfi yr ARGLWYDD a'th elwais mewn cyfiawnder, ac ymaflaf yn dy law, cadwaf di hefyd, a rhoddaf di yn gyfammod pobl, ac yn oleuni Cenhedloedd;

7 I agoryd llygaid y deillion, i ddwyn allan y carcharor o'r carchar, *a'r* rhai a eisteddant *mewn* tywyllwch o'r carchardy.

8 Myfi *yw* yr ARGLWYDD; dyma fy enw: a'm gogoniant ni roddaf i arall, na'm mawl i ddelwau cerfiedig.

9 Wele, y pethau o'r blaen a ddaethant i ben, a mynegi yr ydwyf fi bethau newydd; traethaf *hwy* i chwi cyn eu tarddu allan.

10 Cenwch i'r ARGLWYDD gân newydd, *a'i* fawl ef o eithaf y ddaear; y rhai a ddisgynwch i'r môr, ac sydd ynddo; yr ynysoedd a'u trigolion.

11 Y diffaethwch a'i ddinasoedd, dyrchafant *eu llef*, y maesdrefi a breswylia Cedar; caned preswylwyr y graig, bloeddiant o ben y mynyddoedd.

12 Rhoddant ogoniant i'r ARGLWYDD, a mynegant ei fawl yn yr ynysoedd.

13 Yr ARGLWYDD a â allan fel cawr, fel rhyfelwr y cyffry eiddigedd; efe a waedda, ïe, efe a rua; *ac* a fydd drech na'i elynion.

14 Tewais er ys talm, distewais, ymatteliais; llefaf fel gwraig yn esgor, difwynaf, a difethaf ar unwaith.

15 Mi a wnaf y mynyddoedd a'r bryniau yn ddiffaethwch, a'u holl wellt a wywaf; ac a wnaf yr afonydd yn ynysoedd, a'r llynnoedd a sychaf.

16 Arweiniaf y deilliaid ar hyd ffordd nid adnabuant; a gwnaf iddynt gerdded ar hyd llwybrau nid adnabuant; gwnaf dywyllwch yn oleuni o'u blaen hwynt, a'r pethau ceimion yn uniawn. Dyma y pethau a wnaf iddynt, ac nis gadawaf hwynt.

17 ¶ Troir yn eu hol, *a* llwyr-waradwyddir y rhai a ymddiriedant mewn delwau cerfiedig, y rhai a ddywedant wrth y delwau tawdd, Chwi *yw* ein duwiau ni.

18 O fyddariaid, gwrandêwch; a'r deillion, edrychwch i weled.

19 Pwy *sydd* ddall ond fy ngwas i? neu fyddar fel fy nghennad a anfonais? pwy mor ddall a'r perffaith, a dall fel gwas yr ARGLWYDD?

20 *Er* gweled llawer, etto nid ystyri; *er* agoryd clustiau, etto ni wrendy.

21 Yr ARGLWYDD sydd foddlawn er mwyn ei gyfiawnder; efe a fawrhâ y gyfraith, ac a'*i* gwna yn anrhydeddus.

22 Etto dyma bobl a yspeiliwyd, ac a anrheithiwyd: hwy a faglwyd oll mewn tyllau, mewn carchardai hefyd y cuddiwyd hwynt: y maent yn yspail, ac heb waredydd; yn anrhaith, ac heb a ddywedai, Dyro yn ei ol.

23 Pwy o honoch a wrendy hyn? *pwy* a ystyr ac a glyw erbyn yr amser a ddaw?

24 Pwy a roddes Jacob yn anrhaith, ac Israel i'r yspeilwyr? onid yr ARGLWYDD, yr hwn y pechasom i'w erbyn? canys ni fynnent rodio yn ei ffyrdd, ac nid ufuddhâent i'w gyfraith.

25 Am hynny y tywalltodd efe arno lidiowgrwydd ei ddigter, a chryfder rhyfel: efe a'i hennynodd oddi amgylch, ond ni wybu efe; llosgodd ef hefyd, ond nid ystyriodd.

PENNOD 43.

1 *Yr Arglwydd yn cysuro ei eglwys â'i addewidion: 8 yn appelio at y bobl, i fod yn dystion o'i hollalluogrwydd: 14 yn rhag-fynegi iddynt ddinystr Babilon, 18 a rhyfeddol ymwared ei bobl: 22 yn argyhoeddi y bobl megis rhai diesgus.*

OND yr awr hon fel hyn y dywed yr ARGLWYDD dy Greawdwr di, Jacob, a'th Luniwr di, Israel, Nac ofna; canys gwaredais di: gelwais *di* erbyn dy enw; eiddof fi *ydwyt*.

2 Pan elych trwy y dyfroedd, myfi *a fyddaf* gyd â thi; a thrwy yr afonydd, *fel* na lifant drosot: pan rodiech trwy y tân, ni'th losgir; ac ni ennyn y fflam arnat.

3 Canys myfi *yw* yr ARGLWYDD dy DDUW, Sanct Israel, dy Waredydd: myfi a roddais yr Aipht yn

iawn trosot, Ethiopia a Seba am danat.

4 Er pan aethost yn werthfawr yn fy ngolwg, y'th ogoneddwyd, a mi a'th hoffais; am hynny y rhoddaf ddynion am danat ti, a phobloedd dros dy einioes di.

5 Nac ofna; canys yr *ydwyf* fi gyd â thi: o'r dwyrain y dygaf dy had, ac o'r gorllewin y'th gasglaf.

6 Dywedaf wrth y gogledd, Dod; ac wrth y dehau, Nac attal: dwg fy meibion o bell, a'm merched o eithaf y ddaear;

7 *Sef* pob un a elwir ar fy enw: canys i'm gogoniant y creais ef, y lluniais ef, ac y gwneuthum ef.

8 ¶ Dwg allan y bobl ddall sydd â llygaid iddynt, a'r byddariaid sydd â chlustiau iddynt.

9 Casgler yr holl genhedloedd ynghyd, a chynhuller y bobloedd; pwy yn eu mysg a fynega hyn, ac a draetha i ni y pethau o'r blaen? dygant eu tystion, fel y cyfiawnhâer hwynt; neu wrandawant, a dywedant, Gwir *yw*.

10 Fy nhystion i *ydych* chwi, medd yr ARGLWYDD, a'm gwas yr hwn a ddewisais; fel yr adnabyddoch, ac y credoch fi, ac y dealloch mai myfi *yw:* o'm blaen nid *oedd* DUW wedi ei ffurfio, ac ni bydd ar fy ol.

11 Myfi, myfi *yw* yr ARGLWYDD; ac nid *oes* geidwad ond myfi.

12 Myfi a fynegais, ac a achubais, ac a ddangosais, pryd nad *oedd duw* dïeithr yn eich mysg: am hynny chwi *ydych* fy nhystion, medd yr ARGLWYDD, mai myfi *sydd* DDUW.

13 Ie, cyn *bod* dydd *yr ydwyf* fi; ac nid *oes* a wared o'm llaw: gwnaf, a phwy a'i lluddia?

14 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, eich Gwaredydd chwi, Sanct Israel: Er eich mwyn chwi yr anfonais i Babilon, ac y tynnais i lawr eu holl bennaduriaid, a'r Caldeaid, *sydd* a'u bloedd mewn llongau.

15 Myfi yr ARGLWYDD *yw* eich Sanct chwi, Creawdydd Israel, eich Brenhin chwi.

16 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, yr hwn a wna ffordd yn y môr, a llwybr yn y dyfroedd cryfion;

17 Yr hwn a ddwg allan y cerbyd a'r march, y llu a'r cryfder; cyd-orweddant, ni chodant: darfuant, fel llin y diffoddasant.

18 ¶ Na chofiwch y pethau o'r blaen, ac nac ystyriwch y pethau gynt.

19 Wele fi yn gwneuthur peth newydd: yr awr hon y dechreu; oni chewch ei wybod? Gwnaf ffordd yn yr anialwch, *ac* afonydd yn y diffaethwch.

20 Bwystfil y maes, y dreigiau, a chywion yr estrys, a'm gogoneddant; am roddi o honof ddwfr yn yr anialwch, *a*'r afonydd yn y diffaethwch, i roddi dïod i'm pobl, fy newisedig.

21 Y bobl hyn a luniais i mi fy hun; fy moliant a fynegant.

22 ¶ Eithr ni elwaist arnaf, Jacob; ond blinaist arnaf, Israel.

23 Ni ddygaist i mi filod dy offrymmau poeth, ac ni'm hanrhydeddaist â'th ebyrth: ni pherais i ti fy ngwasanaethu âg offrwm, ac ni'th flinais âg arogl-darth.

24 Ni phrynaist i mi galamus âg arian, ac ni'm llenwaist â brasder dy ebyrth: eithr ti a wnaethost i mi wasanaethu â'th bechodau, blinaist fi â'th anwireddau.

25 Myfi, myfi *yw* yr hwn a ddilea dy gamweddau er fy mwyn fy hun, ac ni chofiaf dy bechodau.

26 Dwg ar gôf i mi, cyd-ymddadleuwn: adrodd di, fel y'th gyfiawnhâer.

27 Dy dad cyntaf a bechodd, a'th athrawon a wnaethant gamwedd i'm herbyn.

28 Am hynny yr halogais dywysogion y cyssegr, ac y rhoddais Jacob yn ddïofryd-beth, ac Israel yn waradwydd.

PENNOD 44.

1 *Duw yn cysuro ei eglwys â'i addewidion.* 7 *Gwageidd ac oferedd eilunod;* 9 *ac ynfydrwydd y rhai a'u gwnant,* 21 *Y nac yn annog i foliannu Duw am ei ymwared, ac am ei hollalluogrwydd.*

AC yn awr gwrando, Jacob fy ngwas, ac Israel yr hwn a ddewisais.

2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, yr hwn a'th wnaeth, ac a'th luniodd o'r groth, efe a'th gynnorthwya: Nac ofna, fy ngwas Jacob; a thi, Jesurun, yr hwn a ddewisais.

3 Canys tywalltaf ddyfroedd ar y sychedig, a ffrydiau ar y sychdir: tywalltaf fy Ysbryd ar dy had, a'm bendith ar dy hiliogaeth:

4 A hwy a dyfant *megis* ym mysg glaswellt, fel helyg wrth ffrydiau dyfroedd.

5 Hwn a ddywed, Eiddo yr ARGLWYDD *ydwyf* fi; a'r llall a'*i* geilw *ei hun* ar enw Jacob; ac arall a ysgrifena *â*'i law, Eiddo yr ARGLWYDD *ydwyf*, ac a *ym*-gyfenwa ar enw Israel.

6 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Brenhin Israel, a'i Waredydd, ARGLWYDD y lluoedd; Myfi *yw* y cyntaf, diweddaf *ydwyf* fi hefyd; ac nid *oes* DUW ond myfi.

7 Pwy hefyd, fel fi, a eilw, a fynega, ac a esyd hyn yn drefnus i mi, er pan osodais yr hen bobl? neu mynegant iddynt y pethau sydd ar ddyfod, a'r pethau a ddaw.

8 Nac ofnwch, ac nac arswydwch; onid er hynny o amser y traethais i ti, ac y mynegais? *a*'m tystion *ydych* chwi. A oes DUW ond myfi? ïe, nid *oes* DUW: nid adwaen i *yr un.*

9 ¶ Oferedd *ydynt* hwy oll y rhai a luniant ddelw gerfiedig; ni wna eu pethau dymunol lesâd: tystion *ydynt* iddynt eu hun, na welant, ac na wyddant; fel y byddo cywilydd arnynt.

10 Pwy a luniai dduw, neu a fwriai ddelw gerfiedig, heb wneuthur dim lles?

11 Wele, ei holl gyfeillion a gywilyddir, y seiri hefyd, o ddynion *y maent:* casgler hwynt oll, safant i fyny; *etto* hwy a ofnant, *ac* a gydgywilyddiant.

12 Y gôf â'r efail a weithia yn y glo, ac a'i llunia â morthwylion, ac â nerth ei fraich y gweithia efe hi: newynog *yw* hefyd, a'i nerth a balla; nid ŷf ddwfr, ac y mae yn diffygio.

13 Y saer pren a estyn *ei* linyn; efe a'i llunia hi wrth linyn *coch;* efe a'i cymhwysa hi â bwyeill, ac a'i gweithia wrth gwmpas, ac a'i gwna ar ol delw dyn, fel prydferthwch dyn, i aros *mewn* tŷ.

14 Efe a dyr iddo gedrwydd, ac a gymmer y cypreswydden a'r ddderwen, ac a ymegnïa ym mysg prennau y coed; efe a blanna onnen, a'r gwlaw a'i maetha.

15 Yna y bydd i ddyn i gynneu *tân:* canys efe a gymmer o honi, ac a ymdwyma; ïe, efe a'i llysg, ac a boba fara; gwna hefyd dduw, ac *a*'i haddola *ef;* gwna ef yn ddelw gerfiedig, ac a ymgrymma iddo.

16 Rhan o hono a lysg efe yn tân; wrth ran o hono y bwytty gig, y rhostia rost, fel y diwaller ef: efe a ymdwyma hefyd, ac a ddywed, Aha, ymdwymais, gwelais dân.

17 A'r rhan arall yn dduw y gwna, yn ddelw gerfiedig iddo; efe a ymgrymma iddo, ac a'*i* haddola, ac a weddïa arno, ac a ddywed, Gwared fi; canys fy nuw *ydwyt.*

18 Ni wyddant, ac ni ddeallant; canys *DUW* a gauodd eu llygaid hwynt rhag gweled, *a*'u calonnau rhag deall.

19 Ïe, ni feddwl *neb* yn ei galon, ïe, nid *oes* wybodaeth na deall i ddywedyd, Llosgais ran o hono yn tân, ac ar ei farwor y pobais fara, y rhostiais gig, ac y bwytteais; ac a wnaf fi y rhan arall yn ffieiddbeth? a ymgrymmaf i foncyff o bren?

20 Ymborth ar ludw y mae; calon siommedig a'i gŵyrdrodd ef, fel na waredo ei enaid, ac na ddywedo, Onid *oes* celwydd yn fy neheulaw?

21 ¶ Meddwl hyn, Jacob ac Israel; canys fy ngwas *ydwyt* ti; lluniais di, gwas i mi *ydwyt;* Israel, ni'th anghofir gennyf.

22 Dileais dy gamweddau fel cwmmwl, a'th bechodau fel niwl: dychwel attaf fi; canys myfi a'th waredais di.

23 Cenwch, nefoedd: canys yr ARGLWYDD a wnaeth *hyn:* bloeddiwch, gwaelodion y ddaear; bloeddiwch ganu, fynyddoedd, y coed a phob pren ynddo: canys gwaredodd yr ARGLWYDD Jacob, ac yn Israel yr ymogonedda efe.

24 Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD dy Waredydd, a'r hwn a'th luniodd o'r groth, Myfi *yw* yr ARGLWYDD sydd yn gwneuthur pob *peth,* yn estyn y nefoedd fy hunan, yn lledu y ddaear o honof fy hun:

25 Yn diddymmu arwyddion y

rhai celwyddog, ac yn ynfydu dewiniaid; yn troi y doethion yn eu hol, ac yn gwneuthur eu gwybodaeth yn ynfyd:

26 Yr hwn a gyflawna air ei was, ac a gwblhâ gynghor ei genhadon; yr hwn a ddywed wrth Jerusalem, Ti a breswylir; ac wrth ddinasoedd Judah, Chwi a adeiledir, a chyfodaf ei hadwyau:

27 Yr hwn wyf yn dywedyd wrth y dyfnder, Bydd sych; a mi a sychaf dy afonydd:

28 Yr hwn wyf yn dywedyd wrth Cyrus, Fy mugail *yw*, ac efe a gyflawna fy holl ewyllys: gan ddywedyd wrth Jerusalem, Ti a adeiledir; ac wrth y deml, Ti a sylfeinir.

PENNOD 45.

1 Duw yn galw Cyrus er mwyn ei eglwys: 5 yn gofyn ufudd-dod am ei fod yn hollalluog: 20 yn dangos ofered ydyw eiluniad, wrth et allu yn ymwared.

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD wrth ei enneiniog, wrth Cyrus, yr hwn yr ymaflais i yn ei ddeheulaw, i ddarostwng cenhedloedd o'i flaen ef: a mi a ddattodaf lwynau brenhinoedd; i agoryd y dorau o'i flaen ef; a'r pyrth ni cheuir:

2 Mi a âf o'th flaen di, ac a unionaf y gŵyr-geimion; y dorau pres a dorraf, a'r barrau heiyrn a ddrylliaf:

3 Ac a roddaf i ti drysorau cuddiedig, a chuddfeydd dirgel, fel y gwypech mai myfi yr ARGLWYDD, yr hwn a'*th* alwodd erbyn dy enw, *yw* DUW Israel.

4 Er mwyn Jacob fy ngwas, ac Israel fy etholedig, y'th elwais erbyn dy enw: mi a'th gyfenwais, er na'm hadwaenit.

5 ¶ Myfi *ydwyf* yr ARGLWYDD, ac nid arall, nid *oes* DUW ond myfi; gwregysais di, er na'm hadwaenit:

6 Fel y gwypont o godiad haul, ac o'r gorllewin, nad neb ond myfi: myfi *yw* yr ARGLWYDD, ac nid arall:

7 Yn llunio goleuni, ac yn creu tywyllwch; yn gwneuthur llwyddiant, ac yn creu drygfyd: myfi yr ARGLWYDD sydd yn gwneuthur hyn oll.

8 Defnynwch, nefoedd, oddi uchod, a thywallted yr wybrennau gyfiawnder; ymagored y ddaear, ffrwythed iachawdwriaeth a chyfiawnder, cyddarddant: myfi yr ARGLWYDD a'u creais.

9 Gwae a ymrysono â'i Luniwr. *Ymrysoned* priddell â phriddellau y ddaear. A ddywed y clai wrth ei luniwr, Beth a wnei? neu, Y mae dy waith heb ddwylaw iddo?

10 Gwae a ddywedo wrth *ei* dad, Beth a genhedli? neu wrth y wraig, Beth a esgoraist?

11 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Sanct Israel, a'i Luniwr, Gofynwch i mi y pethau a ddaw am fy meibion, a gorchymynwch fi am waith fy nwylaw.

12 Myfi a wneuthum y ddaear, ac a greais ddyn arni: myfi, *ie*, fy nwylaw i a estynasant y nefoedd, ac a orchymynais eu holl luoedd.

13 Myfi a'i cyfodais ef mewn cyfiawnder, a'i holl ffyrdd a gyfarwyddaf; efe a adeilada fy ninas, efe a ollwng fy ngharcharorion, heb na gwerth na gobrwy, medd ARGLWYDD y lluoedd.

14 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Llafur yr Aipht, a marsiandïaeth Ethiopia, a'r Sabeaid hirion, a ddeuant attat ti, ac eiddot ti fyddant; ar dy ol y deuant; mewn cadwyni y deuant trosodd, ac ymgrymmant i ti; attat y gweddïant, *gan ddywedyd*, Yn ddïau ynot ti *y mae* DUW, ac nid *oes* arall, nac *oes* DUW.

15 Ti yn ddïau *wyt* DDUW yn ymguddio, O DDUW Israel yr Achubwr!

16 Cywilyddir a gwaradwyddir hwynt oll; seiri delwau a ânt ynghyd i waradwydd.

17 Israel a achubir yn yr ARGLWYDD *â* iachawdwriaeth dragywyddol: ni'ch cywilyddir ac ni'ch gwaradwyddir byth bythoedd.

18 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Creawdydd y nefoedd, y DUW ei hun a luniodd y ddaear, ac a'i gwnaeth; efe a'i sicrhaodd hi, ni chreodd hi yn ofer, i'w phreswylio y lluniodd hi: Myfi *yw* yr ARGLWYDD, ac nid neb amgen.

19 Ni leferais mewn dirgelwch, mewn man tywyll o'r ddaear; ni ddywedais wrth had Jacob, Ceisiwch fi yn ofer. Myfi yr ARGLWYDD

wyf yn llefaru cyfiawnder, *ac* yn mynegi pethau uniawn.

20 ¶ Ymgesglwch, a deuwch; cydnesêwch, rai diangol y cenhedloedd; nid oes gwybodaeth gan y rhai a ddyrchafant goed eu cerf-ddelw, ac a weddïant dduw nid all achub.

21 Mynegwch, a nesêwch *hwynt;* cyd-ymgynghorant hefyd; pwy a draethodd hyn er cynt? *pwy* a'i mynegodd er y pryd hwnnw? onid myfi yr ARGLWYDD? ac nid *oes* DUW arall ond myfi; yn DDUW cyfiawn, ac yn achubydd; nid *oes* ond myfi.

22 Trowch eich wynebau attaf fi, holl gyrrau y ddaear, fel y'ch achuber: canys myfi *wyf* DDUW, ac nid neb arall.

23 I mi fy hun y tyngais, aeth y gair o'm genau *mewn* cyfiawnder, ac ni ddychwel, Mai i mi y plyga pob glin, y twng pob tafod.

24 Yn ddïau yn yr ARGLWYDD, medd *un, y mae* i mi gyfiawnder a nerth; atto ef y deuir; a chywilyddir pawb a ddigiant wrtho.

25 Yn yr ARGLWYDD y cyfiawnhêir, ac yr ymogonedda holl had Israel.

PENNOD 46.

1 *Na allai eilunod Babilon eu hachub eu hunain.* 3 *Bod Duw yn achub ei bobl hyd y diwedd.* 5 *Nad yw eilunod gyffelyb i Dduw mewn gallu,* 12 *nac mewn ymwared presennol.*

CRYMMODD Bel, plygodd Nebo; eu delwau oedd ar fwystfilod, ac ar anifeiliaid: eich clud a lwythwyd yn drwm; llwyth *ydynt* i'r diffygiol.

2 Gostyngant, cyd-grymmant: ni allent achub y llwyth, ond aethant mewn caethiwed eu hunain.

3 ¶ Tŷ Jacob, gwrandêwch arnaf fi, a holl weddill tŷ Israel, *y rhai* a ddygpwyd *gennyf* o'r groth, *ac* a arweddwyd o'r bru:

4 Hyd henaint hefyd myfi *yw;* ïe, myfi a'*ch* dygaf hyd oni benwynnoch: gwneuthum, arweddaf hefyd; ïe, dygaf, a gwaredaf *chwi.*

5 ¶ I bwy y'm gwnewch yn debyg, ac y'*m* cystedlwch, ac y'm cyffelybwch, fel y byddom debyg?

6 Hwy a wastraffant aur o'r pwrs, ac a bwysant arian mewn clorian, a gyflogant eurych, ac efe a'i gweithia yn ddduw: gostyngant, ac ymgrymmant.

7 Dygant ef ar ysgwyddau, dygant ef, ac a'i gosodant yn ei le, ac efe a saif; ni syfl o'i le: os llefa *un* arno, nid ettyb, ac nis gwared ef o'i gystudd.

8 Cofiwch hyn, a byddwch wŷr: adgofiwch, droseddwyr.

9 Cofiwch y pethau gynt erioed; canys myfi *ydwyf* DDUW, ac nid neb arall; DUW *ydwyf,* ac heb fy math;

10 Yn mynegi y diwedd o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed *etto,* yn dywedyd, Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf:

11 Yn galw aderyn o'r dwyrain, y gŵr a wna fy nghynghor o wlad bell: dywedais, a mi a'i dygaf i ben; mi a'*i* lluniais, a mi a'i gwnaf.

12 ¶ Gwrandêwch arnaf fi, y rhai cedyrn galon, y rhai pell oddi wrth gyfiawnder:

13 Neseais fy nghyfiawnder; ni bydd bell, a'm hiachawdwriaeth nid erys: rhoddaf hefyd iachawdwriaeth yn Sïon i'm gogoniant Israel.

PENNOD 47.

1 *Barnedigaethau Duw ar Babilon a Chaldea,* 6 *am eu hannhrugarowgrwydd,* 7 *a'u balchder,* 10 *a'u rhyfyg:* 11 *ac nas gellir eu gwrthwynebu.*

DISGYN, ac eistedd yn y llwch, *ti* forwyn-ferch Babilon, eistedd ar lawr: nid *oes* orseddfainge, *ti* ferch y Caldeaid; canys ni'th alwant mwy yn dyner ac yn foethus.

2 Cymmer y meini melin, a mala flawd; datguddia dy lywethau, noetha dy sodlau, dinoetha dy forddwydydd, dos trwy yr afonydd.

3 Dy noethni a ddatguddir, dy warth hefyd a welir: dïalaf, ac nid *fel* dyn *y'th* gyfarfyddaf.

4 Ein gwaredydd ni, ei enw *yw* ARGLWYDD y lluoedd, Sanct Israel.

5 Eistedd yn ddistaw, a dos i dywyllwch, *ti* ferch y Caldeaid: canys ni'th alwant mwy yn Arglwyddes y teyrnasoedd.

6 ¶ Digiais wrth fy mhobl, halogais fy etifeddiaeth, a rhoddais hwynt yn dy law di: ni chymmeraist drugaredd arnynt; rhoddaist dy iau yn drom iawn ar yr henuriaid.

7 ¶ A dywedaist, Byth y byddaf arglwyddes: felly nid ystyriaist hyn, ac ni chofiaist ei diwedd hi.
8 Am hynny yn awr gwrando hyn, y foethus, yr hon a drigi yn ddïofal, yr hon a ddywedi yn dy galon, Myfi *sydd*, ac nid neb ond myfi: nid eisteddaf yn weddw, ac ni chaf wybod beth yw dïeppiledd.
9 Ond y ddau *beth* hyn a ddaw i ti yn ddisymmwth yr un dydd, dïeppiledd a gweddwdod: yn gwbl y deuant arnat, am amlder dy hudoliaethau, *a* mawr nerth dy swynion.
10 ¶ Canys ymddiriedaist yn dy ddrygioni: dywedaist, Ni'm gwel *neb*. Dy ddoethineb a'th wybodaeth a'th hurtiant; a dywedaist yn dy galon, Myfi *sydd*, ac nid neb arall ond myfi.
11 Am hynny y daw arnat ddrygfyd, yr hwn ni chei wybod ei gyfodiad; a syrth arnat ddinystr nis gelli ei ochelyd: ïe, daw arnat ddistryw yn ddisymmwth, heb wybod i ti.
12 Saf yn awr gyd â'th swynion, a chyd âg amlder dy hudoliaethau, yn y rhai yr ymflinaist o'th ieuengctid; *i edrych* a elli wneuthur lles, *i edrych* a fyddi grymmus.
13 Ymflinaist yn amlder dy gynghorion dy hun. Safed yn awr astronomyddion y nefoedd, y rhai a dremiant ar y sêr, y rhai a hysbysant am y misoedd, ac achubant di oddi wrth *y pethau* a ddeuant arnat.
14 Wele, hwy a fyddant fel sofl; y tân a'u llysg hwynt; ni waredant eu heinioes o feddiant y fflam: ni *bydd* marworyn i ymdwymo, *na* thân i eistedd ar ei gyfer.
15 Felly y byddant hwy i ti gyd â'r rhai yr ymflinaist, *sef* dy farsiandwyr o'th ieuengctid; crwydrasant bob un ar ei duedd; nid oes *un* yn dy achub di.

PENNOD 48.

1 *Duw, i argyhoeddâd y bobl o'u hynod gyndynrwydd, yn datgudddio ei brophwydoliaethau.* 9 *Er ei fwyn ei hun y mae efe yn ·u gwaredd hwy.* 12 *Y mae yn eu hannog hwy i fod yn ufudd, o herwydd ei allu a'i raglunïaeth ef:* 16 *yn cwyno eu cildymrwydd hwy.* 20 *O'i favor allni y mae yn gwared ei bobl o Babilon.*

GWRANDEWCH hyn, tŷ Jacob, y rhai a elwir ar enw Israel, ac a ddaethant allan o ddyfroedd Judah; y rhai a dyngant i enw yr ARGLWYDD, ac a goffânt am DDUW Israel, nid mewn gwirionedd, nac mewn cyfiawnder.
2 Canys hwy a'u galwant eu hunain o'r ddinas sanctaidd, ac a bwysant ar DDUW Israel; enw yr hwn *yw* ARGLWYDD y lluoedd.
3 Y pethau gynt a fynegais er y pryd hwnnw, a daethant o'm genau, a mi a'u traethais; mi a'*u* gwneuthum yn ddisymmwth, daethant i ben.
4 O herwydd i mi wybod dy *fod* di yn galed, a'th war *fel* gieuyn haiarn, a'th dalcen yn bres;
5 Mi a'*i* mynegais i ti or y pryd hwnnw; adroddais i ti cyn *ei* ddyfod; rhag dywedyd o honot, Fy nelw a'u gwnaeth, fy ngherf-ddelw a'm tawdd-ddelw a'u gorchymynodd.
6 Ti a glywaist, gwel hyn oll; ac oni fynegwch chwithau *ef?* adroddais i ti bethau newyddion o'r pryd hwn, a phethau cuddiedig, y rhai ni wyddit oddi wrthynt.
7 Yn awr y crëwyd hwynt, ac nid er y dechreuad, cyn y dydd ni chlywaist sôn am danynt: rhag dywedyd o honot, Wele, gwyddwn hwynt.
8 Ië, nis clywsit, ac nis gwyddit chwaith, nid agorasid dy glust y pryd hwnnw: canys gwyddwn y byddit lwyr anffyddlawn, a'th alw o'r groth yn droseddwr.
9 ¶ Er mwyn fy enw yr oedaf fy llid, ac *er* fy mawl yr ymattaliaf oddi wrthyt, rhag dy ddifetha.
10 Wele, myfi a'th burais, ond nid fel arian; dewisais di mewn pair cystudd.
11 Er fy mwyn fy hun, er fy mwyn fy hun, y gwnaf *hyn;* canys pa fodd yr halogid *fy enw?* ac ni roddaf fy ngogoniant i arall.
12 ¶ Gwrando arnaf fi, Jacob, ac Israel, yr hwn a elwais: myfi *yw;* myfi *yw* y cyntaf, a mi *yw* y diweddaf.
13 Fy llaw i hefyd a seiliodd y ddaear, a'm deheulaw i a rychwantodd y nefoedd: *pan* alwyf fi arnynt, hwy a gyd-safant.
14 Ymgesglwch oll, a gwrandêwch; pwy o honynt hwy a fynegodd hyn?

Yr ARGLWYDD a'i hoffodd: efe a wna ei ewyllys ar Babilon, a'i fraich *a fydd ar* y Caldeaid.

15 Myfi, myfi a leferais, ac a'i gelwais ef: dygais ef, ac efe a lwydda ei ffordd ef.

16 ¶ Nesêwch attaf, gwrandêwch hyn; ni leferais o'r cyntaf yn ddirgel; er y pryd y mae hynny yr *ydwyf* finnau yno: ac yn awr yr Arglwydd DDUW a'i Yspryd a'm hanfonodd.

17 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD dy Waredydd, Sanct Israel; Myfi *yw* yr ARGLWYDD dy DDUW, yr hwn wyf yn dy ddysgu di i wellhâu, gan dy arwain yn y ffordd y dylit rodio.

18 O na wrandawsit ar fy ngorchymynion! yna y buasai dy heddwch fel afon, a'th gyfiawnder fel tonnau y môr:

19 A buasai dy had fel y tywod, ac eppil dy gorph fel ei raian ef: ni thorrasid, ac ni ddinystriasid ei enw oddi ger fy mron.

20 ¶ Ewch allan o Babilon, ffowch oddi wrth y Caldeaid, â llef gorfoledd mynegwch *ac* adroddwch hyn, traethwch ef hyd eithafoedd y ddaear; dywedwch, Gwaredodd yr ARGLWYDD ei was Jacob.

21 Ac ni sychedasant *pan* arweiniodd hwynt yn yr anialwch: gwnaeth i ddwfr bistyllio iddynt o'r graig: holltodd y graig hefyd, a'r dwfr a ddylifodd.

22 Nid *oes* heddwch, medd yr ARGLWYDD, i'r rhai annuwiol.

PENNOD 49.

1 *Crist, wedi ei anfon at yr Iuddewon, yn achwyn rhagddynt.* 5 *E'i anfon ef at y Cenhedloedd ag addewidion grasusol.* 13 *Bod cariad Duw tu ag at ei eglwys yn dragywyddol.* 18 *Helaeth adferu yr eglwys.* 24 *Y gallwog ymwared allan o'r caethiwed.*

GWRANDEWCH arnaf, ynysoedd; ac ystyriwch, bobl o bell; Yr ARGLWYDD a'm galwodd o'r groth; o ymysgaroedd fy mam y gwnaeth goffa am fy enw.

2 Gosododd hefyd fy ngenau fel cleddyf llym, y'nghysgod ei law y'm cuddiodd; a gwnaeth fi yn saeth loyw, cuddiodd fi yn ei gawell saethau;

3 Ac a ddywedodd wrthyf, Fy ngwas i *ydwyt* ti, Israel, yr hwn yr ymogoneddaf ynot.

4 Minnau a ddywedais, Yn ofer y llafuriais, yn ofer ac am ddim y treuliais fy nerth; er hynny *y mae* fy marn gyd â'r ARGLWYDD, a'm gwaith gyd â'm DUW.

5 ¶ Ac yn awr, medd yr ARGLWYDD yr hwn a'm lluniodd o'r groth yn was iddo, i ddychwelyd Jacob atto ef, Er nad ymgasglodd Israel, etto gogoneddus fyddaf fi y'ngolwg yr ARGLWYDD, a'm DUW fydd fy nerth.

6 Ac efe a ddywedodd, Gwael yw dy fod yn was i mi, i gyfodi llwythau Jacob, ac i adferu rhai cadwedig Israel: mi a'th roddaf hefyd yn oleuni i'r Cenhedloedd, fel y byddych yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaear.

7 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Gwaredydd Israel, *a*'i Sanct, wrth y dirmygedig o enaid, wrth yr hwn sydd ffiaidd gan y genedl, wrth was llywodraethwyr; Brenhinoedd a welant, ac a gyfodant; tywysogion hefyd a ymgrymmant, er mwyn yr ARGLWYDD, yr hwn sydd ffyddlawn, Sanct Israel, ac efe a'th ddewisodd di.

8 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Mewn amser boddlongar y'th wrandewais, ac yn nydd iachawdwriaeth y'th gynnorthwyais; a mi a'th gadwaf, ac a'th roddaf yn gyfammod y bobl, i sicrhâu y ddaear, i beri etifeddu yr etifeddiaethau anghyfanneddol;

9 Fel y dywedych wrth y carcharorion, Ewch allan; wrth y rhai *sydd* mewn tywyllwch, Ymddangoswch. Ar y ffyrdd y porant, ac yn yr holl uchel-fannau *y bydd* eu porfa hwynt.

10 Ni newynant, ac ni sychedant; ac nis tery gwres na haul hwynt: o herwydd yr hwn a dosturia wrthynt a'u tywys, ac a'u harwain wrth y ffynhonnau dyfroedd.

11 A mi a wnaf fy holl fynydd yn ffordd, a'm prif-ffyrdd a gyfodir.

12 Wele, y rhai hyn a ddeuant o bell: ac wele, y rhai acew o'r gogledd, ac o'r gorllewin; a'r rhai yma o dir Sinim.

13 ¶ Cenwch, nefoedd; a gorfol-

edda, ddaear; bloeddiwch ganu, y mynyddoedd: canys yr ARGLWYDD a gysurodd ei bobl, ac a drugarhâ wrth ei drueiniaid.

14 Etto dywedodd Sïon, Yr ARGLWYDD a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd.

15 A anghofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturio wrth fab ei chroth? ïe, hwy a allant anghofio, etto myfi nid anghofiaf di.

16 Wele, ar gledr *fy* nwylaw y'th argrephais; dy furiau *sydd* ger fy mron bob amser.

17 Dy blant a frysiant; y rhai a'th ddinystriant, ac a'th ddistrywiant, a ânt allan o honot.

18 ¶ Dyrcha dy lygaid oddi amgylch, ac edrych: y rhai hyn oll a ymgasglant, *ac* a ddeuant attat. *Fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD, dïau y gwisgi hwynt oll fel harddwisg, ac y rhwymi hwynt *am danat* fel priodferch.

19 Canys dy ddiffaethwch a'th anialwch, a'th dir dinystriol, yn ddïau fydd yn awr yn rhy gyfyng gan breswylwyr; a'r rhai a'th lyngcant a ymbellhânt.

20 Plant dy ddïeppiledd a ddywedant etto lle y clywech, Cyfyng yw y lle hwn i mi; dod le i mi, fel y preswyliwyf.

21 Yna y dywedi yn dy galon, Pwy a genhedlodd y rhai hyn i mi, a mi yn ddïeppil, ac yn unig, yn gaeth, ac ar grwydr? a phwy a fagodd y rhai hyn? Wele, myfi a adawyd fy hunan; o ba le *y daeth* y rhai hyn?

22 Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW, Wele, cyfodaf fy llaw at y cenhedloedd, a dyrchafaf fy maner at y bobloedd; a dygant dy feibion yn *eu* mynwes, a dygir dy ferched ar ysgwyddau.

23 Brenhinoedd hefyd fydd dy dadmaethod, a'u brenhinesau dy fammaethod; crymmant i ti â'*u* hwynebau tu a'r llawr, a llyfant lwch dy draed; a chei wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD: canys ni chywilyddir y rhai a ddisgwyliant wrthyf fi.

24 ¶ A ddygir y caffaeliad oddi ar y cadarn? neu a waredir y rhai a garcherir yn gyfiawn?

25 Ond fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Ïe, carcharorion y cadarn a ddygir, ac anrhaith y creulawn a ddïangc: canys myfi a ymrysonaf â'th ymrysonydd, a myfi a achubaf dy feibion.

26 Gwnaf hefyd i'th orthrymwyr fwytta eu cig eu hunain, ac ar eu gwaed eu hun y meddwant fel ar win melus; a gwybydd pob cnawd mai myfi yr ARGLWYDD *yw* dy Achubydd, a'th gadarn Waredydd di, Jacob.

PENNOD 50.

1 *Crist yn dangos nad efe yw yr achos y gwrthodwyd yr Iuddewon, am ei fod yn abl i'w hachub hwy, 5 am ei fod yn ufudd i wneuthur hynny, 7 ac am ei fod yn ymddiriedd y'nghymmorth Duw.* 10 *Annog i hyderu ar Ddduw, ac nid arnom ein hunain.*

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD, Pa le *y mae* llythyr ysgar eich mam, *trwy* yr hwn y gollyngais hi ymaith? neu pwy o'm dyledwyr y gwerthais chwi iddo? Wele, am eich anwireddau yr ymwerthasoch, ac am eich camweddau y gollyngwyd ymaith eich mam.

2 Paham, pan ddeuthum, nad *oedd* neb *i'm derbyn?* pan elwais, nad attebodd *neb?* Gan gwttogi a gwttogodd fy llaw, fel na allai ymwared? neu onid *oes* ynof nerth i achub? wele, â'm cerydd y sychaf y môr, gwneuthum yr afonydd yn ddiffaethwch: eu pysgod a ddrewant o eisieu dwfr, ac a fyddant feirw o syched.

3 Gwisgaf y nefoedd â thywyllwch, a gosodaf sachlïan yn dô iddynt.

4 Yr Arglwydd DDUW a roddes i mi dafod y dysgedig, i fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol: deffry fi bob bore, deffry i mi glust i glywed fel y dysgedig.

5 ¶ Yr Arglwydd DDUW a agorodd fy nghlust, a minnau ni wrthwynebais, *ac* ni chiliais yn *fy* ol.

6 Fy nghorph a roddais i'r curwyr, a'm cernau i'r rhai a dynnai y blew: ni chuddiais fy wyneb oddi wrth waradwydd a phoeredd.

7 ¶ O herwydd yr Arglwydd DDUW a'm cymmorth; am hynny ni'm cywilyddir: am hynny gosodais fy wyneb fel callestr, a gwn na'm cywilyddir.

8 Agos *yw* yr hwn a'm cyfiawn-

hâ; pwy a ymryson â mi? safwn ynghyd: pwy *yw* fy ngwrthwynebwr? nesâed attaf.

9 Wele, yr Arglwydd Dduw a'm cynnorthwya; pwy *yw* yr hwn a'm bwrw yn euog? wele, hwynt oll a heneiddiant fel dilledyn; y gwyfyn a'u hysa hwynt.

10 ¶ Pwy yn eich mysg sydd yn ofni yr Arglwydd, yn gwrandaw ar lais ei was ef, yn rhodio *mewn* tywyllwch, ac heb lewyrch iddo? gobeithied yn enw yr Arglwydd, ac ymddiriedied yn ei Dduw.

11 Wele, chwi oll y rhai ydych yn cynneu tân, *ac* yn eich amgylchu eich hunain â gwreichion; rhodiwch wrth lewyrch eich tân, ac wrth y gwreichion a gynneuasoch. O'm llaw i y bydd hyn i chwi; mewn gofid y gorweddwch.

PENNOD 51.

1 Cynghor i hyderu ar Grist, yn ol esampl Abraham, 3 o herwydd ei addewidion cysurfawr, 4 a'i gyflawn ymwared, 7 a maruoldeb dyn. 9 Bod Crist a'i sanctaidd fraich yn amddiffyn yr eiddo rhag ofn dyn. 17 Y mae yn cwyno adfyd Jerusalem, 21 ac yn addaw ymwared.

GWRANDEWCH arnaf fi, ddilynwyr cyfiawnder, y rhai a geisiwch yr Arglwydd: edrychwch ar y graig y'ch naddwyd, ac ar geudod y ffos y'ch cloddiwyd *o honynt.*

2 Edrychwch ar Abraham eich tad, ac ar Sarah a'ch esgorodd: canys ei hunan y gelwais ef, ac y bendithiais, ac yr amlheais ef.

3 O herwydd yr Arglwydd a gysura Sïon: efe a gysura ei holl anghyfannedd-leoedd hi; gwna hefyd ei hanialwch hi fel Eden, a'i diffaethwch fel gardd yr Arglwydd: ceir ynddi lawenydd a hyfrydwch, diolch, a llais cân.

4 ¶ Gwrandêwch arnaf, fy mhobl; clust-ymwrandêwch â mi, fy nghenedl: canys cyfraith a â allan oddi wrthyf, a gosodaf fy marn yn oleuni pobloedd.

5 Agos yw fy nghyfiawnder; fy iachawdwriaeth a aeth allan, fy mreichiau hefyd a farnant y bobloedd: yr ynysoedd a ddisgwyliant wrthyf, ac a ymddiriedant *yn* fy mraich.

6 Dyrchefwch eich llygaid tu a'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod: canys y nefoedd a ddarfyddant fel mwg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant feirw; ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd.

7 ¶ Gwrandêwch arnaf, y rhai a adwaenoch gyfiawnder, y bobl sydd â'm cyfraith yn eu calon: nac ofnwch waradwydd dynion, ac nac arswydwch rhag eu difenwad.

8 Canys y pryf a'u bwytty fel dilledyn, a'r gwyfyn a'u hysa fel gwlan: eithr fy nghyfiawnder a fydd yn dragywydd, a'm hiachawdwriaeth o genhedlaeth i genhedlaeth.

9 ¶ Deffro, deffro, gwisg nerth, O fraich yr Arglwydd; deffro, fel yn y dyddiau gynt, yn yr oesoedd gynt. Onid ti *yw* yr hwn a dorraist Rahab, *ac* a archollaist y ddraig?

10 Onid ti *yw* yr hwn a sychaist y môr, dyfroedd y dyfnder mawr? yr hwn a wnaethost ddyfnderoedd y môr yn ffordd i'r gwaredigion i fyned drwodd?

11 Am hynny y dychwel gwaredigion yr Arglwydd, a hwy a ddeuant i Sïon â chanu, ac â llawenydd tragywyddol ar eu pennau: goddiweddant lawenydd a hyfrydwch; gofid a griddfan a ffy ymaith.

12 Myfi, myfi, *yw* yr hwn a'ch diddana chwi: pwy *wyt* ti, fel yr ofnit ddyn, *yr hwn* fydd farw; a mab dyn, *yr hwn* a wneir *fel* glaswelltyn?

13 Ac a anghofi yr Arglwydd dy Wneuthurwr, yr hwn a estynodd y nefoedd, ac a seiliodd y ddaear? ac a ofnaist bob dydd yn wastad rhag llid y gorthrymmydd, fel pe darparai i ddinystrio? a pha le *y mae* llid y gorthrymmydd?

14 Y carcharor sydd yn brysio i gael ei ollwng yn rhydd, fel na byddo farw yn y pwll, ac na phallo ei fara ef.

15 Eithr myfi *yw* yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a barthodd y môr, pan ruodd ei donnau: ei enw *yw* Arglwydd y lluoedd.

16 Gosodais hefyd fy ngeiriau yn dy enau, ac y'nghysgod fy llaw y'th doais, fel y plannwn y nefoedd, ac

y seiliwn y ddaear, ac y dywedwn
wrth Sïon, Fy mhobl *ydwyt.*
17 ¶ Deffro, deffro, cyfod, Je-
rusalem, yr hon a yfaist o law yr
ARGLWYDD gwppan ei lidiowg-
rwydd ef; yfaist waddod y cwppan
erchyll, *ie,* sugnaist *ef.*
18 Nid *oes* arweinydd iddi o'r holl
feibion a esgorodd; ac nid *oes* a
ymaflo yn ei llaw o'r holl feibion
a fagodd.
19 Y ddau *beth* hyn a ddigwydd-
asant i ti; pwy a ofidia trosot? din-
ystr a distryw, a newyn a chledd-
yf: *trwy* bwy y'th gysuraf?
20 Dy feibion a lewygasant, gor-
weddant ym mhen pob heol, fel
tarw gwyllt *mewn* magl: llawn yd-
ynt o lidiowgrwydd yr ARGLWYDD,
a cherydd dy DDUW.
21 ¶ Am hynny gwrando fi yn
awr, y druan, a'r feddw, ac nid
trwy win.
22 Fel hyn y dywed dy Arglwydd,
yr ARGLWYDD, a'th DDUW di, *yr*
hwn a ddadleu *dros* ei bobl, Wele,
cymmerais o'th law y cwppan erch-
yll, *sef* gwaddod cwppan fy llidiowg-
rwydd: ni chwanegi ei yfed mwy:
23 Eithr rhoddaf ef yn llaw dy
gystuddwyr; y rhai a ddywedasant
wrth dy enaid, Gostwng, fel yr elom
drosot: a thi a osodaist dy gorph
fel y llawr, ac fel heol i'r rhai a
elent drosto.

PENNOD 52.

1 *Crist yn perswadio ei eglwys i gredu ei rad brynedigaeth ef,* 7 *i dderbyn gweinidogion yr adbrynedigaeth,* 9 *i lawenychu yn ei gallu hi,* 11 *ac i'w rhyddhau eu hunain oddi wrth gaethiwed.* 13 *Y dyrchefir teyrnas Crist.*

DEFFRO, deffro, gwisg dy nerth,
Sïon; gwisg wisgoedd dy ogoni-
ant, sanctaidd ddinas Jerusalem:
canys ni ddaw o'th fewn mwy
ddïenwaededig nac aflan.
2 Ymysgwyd o'r llwch, cyfod, eis-
tedd, Jerusalem: ymddattod oddi
wrth rwymau dy wddf, *ti* gaeth-
ferch Sïon.
3 Canys fel hyn y dywedodd yr
ARGLWYDD, Yn rhad yr ym-
werthasoch; ac nid âg arian y'ch
gwaredir.
4 Canys fel hyn y dywedodd yr
Arglwydd DDUW, Fy mhobl a aeth
i waered i'r Aipht yn y dechreuad,
i ymdaith yno; a'r Assyriaid a'u
gorthrymmodd yn ddïachos.
5 Ac yn awr beth *sydd* yma i mi,
medd yr ARGLWYDD, pan ddygid fy
mhobl ymaith yn rhad? eu llywodr-
aethwyr a wna *iddynt* udo, medd
yr ARGLWYDD; a phob dydd yn
wastad y ceblir fy enw.
6 Am hynny y caiff fy mhobl adna-
bod fy enw: am hynny *y cánt wybod*
y dydd hwnnw, mai myfi *yw* yr hwn
sydd yn dywedyd: wele, myfi *ydyw.*
7 ¶ Mor weddaidd ar y mynydd-
oedd *yw* traed yr hwn sydd yn
efengylu, yn cyhoeddi heddwch;
a'r hwn sydd yn mynegi daioni, yn
cyhoeddi iachawdwriaeth; yn dy-
wedyd wrth Sïon, Dy DDUW di
sydd yn teyrnasu!
8 Dy wylwyr a ddyrchafant lef;
gyd â'r llef y cydganant: canys
gwelant lygad yn llygad, pan ddy-
chwelo yr ARGLWYDD Sïon.
9 ¶ Bloeddiwch, cydgenwch, an-
ialwch Jerusalem: canys yr AR-
GLWYDD a gysurodd ei bobl, *efe* a
waredodd Jerusalem.
10 Dïosgodd yr ARGLWYDD fraich
ei sancteiddrwydd y'ngolwg yr holl
genhedloedd: a holl gyrrau y
ddaear a welant iachawdwriaeth
ein DUW ni.
11 ¶ Ciliwch, ciliwch, ewch allan
oddi yno, na chyffyrddwch â dim
halogedig; ewch allan o'i chanol;
ymlanhêwch, y rhai a ddygwch
lestri yr ARGLWYDD.
12 Canys nid ar frys yr ewch all-
an, ac nid ar ffo y cerddwch: canys
yr ARGLWYDD a â o'ch blaen chwi,
a DUW Israel a'ch casgl chwi.
13 ¶ Wele, fy ngwas a lwydda;
efe a godir, a ddyrchefir, ac a fydd
uchel iawn.
14 Megis y rhyfeddodd llawer
wrthyt, (mor llygredig *oedd* ei
wedd yn anad neb, a'i bryd yn
anad meibion dynion,)
15 Felly y taenella efe genhedl-
oedd lawer; brenhinoedd a gauant
eu genau wrtho ef; canys gwel-
ant yr hyn ni fynegasid iddynt, a
deallant yr hyn ni chlywsent.

PENNOD 53.

1 *Y prophwyd yn cwyno rhag anghrediniaeth; ac yn esgusodi rhwystr y groes,* 4 *trwy ddangos y daioni a ddaw o ddioddefaint Crist,* 10 *a ffynniant y groes.*

PWY a gredodd i'n hymadrodd? ac i bwy y datguddiwyd braich yr ARGLWYDD?
2 Canys efe a dŷf o'i flaen ef fel blaguryn, ac fel gwreiddyn o dir sych: nid oes na phryd na thegwch iddo: pan edrychom arno, ni bydd pryd fel y dymunem ef.
3 Dirmygedig yw, a dïystyraf o'r gwŷr; gŵr gofidus, a chynnefin â dolur: ac *yr oeddym* megis yn cuddio *ein* hwynebau oddi wrtho: dirmygedig oedd, ac ni wnaethom gyfrif o hono.
4 ¶ Dïau efe a gymmerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau: etto ni a'i cyfrifasom ef wedi ei faeddu, ei daro gan DDUW, a'i gystuddio.
5 Ond efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: cospedigaeth ein heddwch ni *oedd* arno ef: a thrwy ei gleisiau ef yr iachâwyd ni.
6 Nyni oll a grwydrasom fel defaid; troisom bawb i'w ffordd ei hun: a'r ARGLWYDD a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd.
7 Efe a orthrymmwyd, ac efe a gystuddiwyd, ac nid agorai ei enau: fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifiai, felly nid agorai yntau ei enau.
8 O garchar ac o farn y cymmerwyd ef: a phwy a draetha ei oes ef? canys efe a dorrwyd o dir y rhai byw; *rhoddwyd* pla arno ef am gamwedd fy mhobl.
9 Ac efe a wnaeth ei fedd gyd â'r rhai anwir, a chyd â'r cyfoethog yn ei farwolaeth; am na wnaethai gam, ac nad *oedd* twyll yn ei enau.
10 ¶ Eithr yr ARGLWYDD a fynnai ei ddryllio ef; efe a'*i* clwyfodd: pan osodo efe ei enaid yn aberth dros bechod, efe a wêl *ei* had, efe a estyn *ei* ddyddiau; ac ewyllys yr ARGLWYDD a lwydda yn ei law ef.
11 O lafur ei enaid y gwel, *ac* y diwellir: fy ngwas cyfiawn a gyfiawnhâ lawer trwy ei wybodaeth; canys efe a ddwg eu hanwireddau hwynt.
12 Am hynny y rhannaf iddo *ran* gyd â llawer, ac efe a ranna yr yspail gyd â'r cedyrn: am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth: ac efe a gyfrifwyd gyd â'r troseddwyr; ac efe a ddug bechodau llaweroedd, ac a eiriolodd dros y troseddwyr.

PENNOD 54.

1 *Y prophwyd, er mwyn cysuro y Cenhedloedd, yn prophwydo helaethrwydd yr eglwys;* 4 *eu diogelwch hwy,* 6 *a'u sicr ymwared allan o gystudd,* 11 *a'u hadeilad dêg,* 15 *a'u diogel gadwedigaeth.*

CÂN, *di* ammhlantadwy nid esgorodd; bloeddia ganu, a gorfoledda, *yr hon* nid esgorodd: o herwydd amlach meibion yr hon a adawyd, na'r hon y mae gŵr iddi, medd yr ARGLWYDD.
2 Helaetha le dy babell, ac estynant gortynnau dy breswylfeydd: nac attal, estyn dy raffau, a sicrhâ dy hoelion.
3 Canys ti a dorri allan ar y llaw ddehau ac ar y llaw aswy; a'th had a etifedda y Cenhedloedd, a dinasoedd anrheithiedig a wnant yn gyfanneddol.
4 Nac ofna; canys ni'th gywilyddir: ac na'th waradwydder, am na'th warthruddir; canys ti a anghofi waradwydd dy ieuengctid, a gwarthrudd dy weddwdod ni chofi mwyach.
5 Canys dy briod *yw* yr hwn a'th wnaeth; ARGLWYDD y llüoedd *yw* ei enw: dy Waredydd hefyd, Sanct Israel, DUW yr holl ddaear y gelwir ef.
6 Canys fel gwraig wrthodedig, a chystuddiedig o yspryd, y'th alwodd yr ARGLWYDD, a gwraig ieuengctid, pan oeddit wrthodedig, medd dy DDUW.
7 Dros ennyd fechan y'th adewais; ond â mawr drugareddau y'th gasglaf.
8 Mewn ychydig sorriant y cuddiais fy wyneb oddi wrthyt ennyd *awr;* ond â thrugaredd dragywyddol y trugarhâf wrthyt, medd yr ARGLWYDD dy Waredydd.
9 Canys *fel* dyfroedd Noah *y mae* hyn i mi: canys *megis* y tyngais nad elai dyfroedd Noah mwy dros y ddaear; felly y tyngais na ddigiwn wrthyt, ac na'th geryddwn.
10 Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symmudant: eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd

yr ARGLWYDD sydd yn trugarhâu wrthyt.

11 ¶ Y druan, helbulus gan dymmestl, y ddigysur, wele, mi a osodaf dy gerrig di â charbuncl, ac a'th sylfaenaf â *meini* saphir.

12 Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini disglaer, a'th holl derfynau o gerrig dymunol.

13 Dy holl feibion hefyd *fyddant* wedi eu dysgu gan yr ARGLWYDD; a mawr *fydd* heddwch dy feibion.

14 Mewn cyfiawnder y'th sicrhêir: byddi bell oddi wrth orthrymder, canys nid ofni; ac oddi wrth ddychryn, canys ni nesâ attat.

15 Wele, gan ymgasglu hwy a ymgasglant, *ond* nid o honof fi: pwy bynnag o honot ti a ymgasglo i'th erbyn, efe a syrth.

16 Wele, myfi a greais y gôf, yr hwn a chwŷth y marwor yn tân, ac a ddefnyddia arf i'w waith; myfi hefyd a greais y dinystrydd i ddistrywio.

17 ¶ Ni lwydda un offeryn a lunier i'th erbyn; a thi a wnei yn euog bob tafod a gyfodo i'th erbyn mewn barn. Dyma etifeddiaeth gweision yr ARGLWYDD, a'u cyfiawnder hwy *sydd* oddi wrthyf fi, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 55.

1 *Y prophwyd, trwy addewidion o Grist, yn galw pawb i gredu, 6 ac i edifarhâu. 8 Dedwydd lwyddiant y rhai a gredo.*

O DEUWCH i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, ïe, yr hwn nid *oes* arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwyttêwch; ïe, deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian, ac heb werth.

2 Paham y gweriwch arian am *yr hyn* nid *ydyw* fara? a'ch llafur am *yr hyn* nid yw yn digoni? gan wrandaw gwrandêwch arnaf fi, a bwyttêwch *yr hyn sydd* dda; ac ymhyfryded eich enaid mewn brasder.

3 Gogwyddwch eich clust, a deuwch attaf; gwrandêwch, a bydd byw eich enaid: a mi a wnaf gyfammod tragywyddol â chwi, *sef* sicr drugareddau Dafydd.

4 Wele, rhoddais ef yn dyst i'r bobl, yn flaenor ac yn athraw i'r bobloedd.

5 Wele, cenedl nid adweini a elwi, a chenhedloedd ni'th adwaenai di a rêd attat, er mwyn yr ARGLWYDD dy DDUW, ac o herwydd Sanct Israel: canys efe a'th ogoneddodd.

6 ¶ Ceisiwch yr ARGLWYDD, tra y galler ei gael ef; gelwch arno, tra fyddo yn agos.

7 Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr ARGLWYDD, ac efe a gymmer drugaredd arno; ac at ein DUW ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.

8 ¶ Canys nid fy meddyliau i *yw* eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi *yw* fy ffyrdd i, medd yr ARGLWYDD.

9 Canys *fel* y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi.

10 Canys fel y disgyn y gwlaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrhâ y ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r hauwr, a bara i'r bwyttâwr:

11 Felly y bydd fy ngair, yr hwn a ddaw o'm genau: ni ddychwel attaf yn wag; eithr efe a wna yr hyn a fynnwyf, ac a lwydda *yn y peth* yr anfonais ef o'i blegid.

12 Canys mewn llawenydd yr ewch allan, ac mewn hedd y'ch arweinir; y mynyddoedd a'r bryniau a floeddiant ganu o'ch blaen, a holl goed y maes a gurant ddwylaw.

13 Yn lle drain y cyfyd ffynnidwydd, yn lle mieri y cyfyd myrtwydd: a *hyn* fydd i'r ARGLWYDD yn enw, ac yn arwydd tragywyddol *yr hwn* ni thorrir ymaith.

PENNOD 56.

1 *Y prophwyd yn annog i sancteiddrwydd; 3 ac yn addaw y bydd sancteiddiad yn gyffredinol, heb ddêrbyn wyneb neb. 9 Y mae efe yn rhoi anghlod i'r gwylwyr deillion.*

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD, Cedwch farn, a gwnewch gyfiawnder: canys fy iachawdwriaeth *sydd* ar ddyfod, a'm cyfiawnder ar ymddangos.

2 Gwyn ei fyd y dyn a wnelo hyn, a mab y dyn a ymaflo ynddo; gan gadw y Sabbath heb ei halogi, a chadw ei law rhag gwneuthur dim drwg.

3 ¶ Ac na lefared y dïeithrfab, yr hwn a lynodd wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD gan ddidoli a'm didolodd oddi wrth ei bobl; ac na ddyweded y disbaddedig, Wele fi yn bren crin.

4 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD wrth y rhai disbaddedig, y rhai a gadwant fy Sabbathau, ac a ddewisant yr hyn a ewyllysiwyf, ac a ymafiant yn fy nghyfammod i;

5 Ië, rhoddaf iddynt yn fy nhŷ, ac o fewn fy magwyrydd, le ac enw gwell na meibion ac na merched: rhoddaf iddynt enw tragywyddol, yr hwn ni thorrir ymaith.

6 A'r meibion dïeithr, y rhai a lynant wrth yr ARGLWYDD, gan ei wasanaethu ef, a chan garu enw yr ARGLWYDD, i fod yn weision iddo ef, pob un a gadwo y Sabbath heb ei halogi, ac a ymafio yn fy nghyfammod;

7 Dygaf hwythau hefyd i fynydd fy sancteiddrwydd, a llawenychaf hwynt yn nhŷ fy ngweddi: eu poeth-offrymmau hefyd a'u hebyrth *fyddant* gymmeradwy ar fy allor: canys fy nhŷ i a elwir yn dŷ gweddi i'r holl bobloedd.

8 Medd yr Arglwydd DDUW, yr hwn a gasgl wasgaredigion Israel, Etto mi a gasglaf *eraill* atto ef, gyd â'r rhai sydd wedi eu casglu atto.

9 ¶ Pob bwystfil y maes, deuwch i ddifa, *a* phob bwystfil yn y coed.

10 Deillion *yw* ei wyliedyddion: ni wyddant hwy oll *ddim*, cwn mudion *ydynt* hwy oll, heb fedru cyfarth; yn cysgu, yn gorwedd, *ac* yn caru hepian.

11 Ië, cwn gwangcus *ydynt*, ni chydnabyddant â'u digon, a bugeiliaid *ydynt* ni fedrant ddeall; wynebant oll at eu ffordd eu hun, pob un at ei elw ei hun o'i gŵr.

12 Deuwch, *meddant*, cyrchaf win, ac ymlanwn o ddïod gref; a bydd y fory megis heddyw, *a* mwy o lawer iawn.

PENNOD 57.

1 *Bendigedig farwolaeth y cyfiawn.* 3 *Duw yn argyhoeddi yr Iuddewon am eu putteiniaidd ddelw-addoliaeth;* 13 *yn rhoi addewidion cysgylaidd i'r edifeiriol.*

DARFU am y cyfiawn, ac ni esyd neb at *ei* galon; a'r gwŷr trugarog a gymmerir ymaith, heb neb yn deall mai o flaen drygiyd y cymmerir y cyfiawn ymaith.

2 *Efe* a â i dangnefedd: hwy a orphwysant yn eu hystafelloedd, *sef pob un* a rodia *yn* ei uniondeb.

3 ¶ Nesêwch yma, meibion yr hudoles, had y godinebus a'r buttain.

4 Yn erbyn pwy yr ymddigrifwch? yn erbyn pwy y lledwch safn, *ac* yr estynwch dafod? onid meibion camwedd *a* had ffalsedd *ydych* chwi?

5 Y rhai a ymwresogwch âg eilunod dan bob pren deiliog, gan ladd y plant yn y glynnoedd dan gromlechydd y creigiau.

6 Y'nghabol-feini yr afon *y mae* dy ran; hwynt-hwy *yw* dy gwttws: iddynt hwy hefyd y tywelltaist ddïod-offrwm, *ac* yr offrymmaist fwyd-offrwm. Ai yn y rhai hyn yr ymgysurwn?

7 Ar fynydd uchel a dyrchafedig y gosodaist dy wely: dringaist hefyd yno i aberthu aberth.

8 Y'nghîl y drysau hefyd a'r pyst y gosodaist dy goffadwriaeth: canys *ymddinoethaist i arall* heb fy llaw i, a dringaist; helaethaist dy wely, ac a wnaethost *ammod* rhyngot â hwynt; ti a hoffaist eu gorweddle hwynt pa le bynnag y gwelaist.

9 Cyfeiriaist hefyd at y brenhin âg ennaint, ac amlheaist dy bêr-aroglau: anfonaist hefyd dy genhadau i bell, ac ymostyngaist hyd uffern.

10 Ym maint dy ffordd yr ymflinaist; *ac* ni ddywedaist, Nid oes obaith: cefaist fywyd dy law; am hynny ni chlefychaist.

11 Pwy hefyd a arswydaist ac a ofnaist, fel y dywedaist gelwydd, ac na chofiaist fi, ac nad ystyriaist yn dy galon? oni thewais i â sôn er ys talm, a thithau heb fy ofni?

12 Myfi a fynegaf dy gyfiawnder, a'th weithredoedd; canys ni wnant i ti les.

13 ¶ Pan waeddech, gwareded dy gynnulleidfaoedd di: eithr y gwynt a'u dwg hwynt ymaith oll; oferedd a'u cymmer *hwynt:* ond yr hwn a obeithia ynof fi a etifedda y tir, ac a feddianna fynydd fy sancteiddrwydd.

14 Ac efe a ddywed, Palmentwch, palmentwch, parottôwch y ffordd,

cyfodwch y rhwystr o ffordd fy mhobl.

15 Canys fel hyn y dywed y Goruchel a'r dyrchafedig, yr hwn a breswylia dragywyddoldeb, ac *y mae* ei enw yn Sanctaidd, Y goruchelder a'r cyssegr a breswyliaf; a chyd â'r cystuddiedig a'r isel o ypsryd, i fywhâu y rhai isel o ypsryd, ac i fywhâu calon y rhai cystuddiedig.

16 Canys nid byth yr ymrysonaf, ac nid yn dragywydd y digiaf: o herwydd yr ypsryd a ballai o'm blaen i, a'r eneidiau a wneuthum i.

17 Am anwiredd ei gybydd-dod ef y digiais, ac y tarewais ef: ymguddiais, a digiais, ac efe a aeth rhagddo yn gildynnus ar hyd ffordd ei galon.

18 Ei ffyrdd a welais, a mi a'i hiachâf ef: tywysaf ef hefyd, ac adferaf gysur iddo, ac i'w alarwyr.

19 Myfi sydd yn creu ffrwyth y gwefusau; Heddwch, heddwch. i bell, ac i agos, medd yr ARGLWYDD: a mi a'i hiachâf ef.

20 Ond y rhai anwir *sydd* fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid.

21 Ni *bydd* heddwch, medd fy NUW, i'r rhai annuwiol.

PENNOD 58.

1 *Y prophwyd, wedi ei yrru i argyhoeddi rhagrith,* 3 *yn dangos beth yw ympryd ffuantus, a gwir ymprydd,* 8 *yn dangos pa addewidion sydd ddyledus am ddurwioldeb,* 13 *ac am gadw y Sabbath.*

LLEFA â'th geg, nac arbed; dyrchafa dy lais fel udgorn, a mynega i'm pobl eu camwedd, a'u pechodau i dŷ Jacob.

2 Etto beunydd y'm ceisiant, ac a ewyllysiant wybod fy ffyrdd, fel cenedl a wnelai gyfiawnder, ac ni wrthodai farnedigaeth ei DUW: gofynant i mi farnedigaethau cyfiawnder, ewyllysiant nesâu *at* DDUW.

3 ¶ Paham, *meddant*, yr ymprydiasom, ac nis gwelaist? y cystuddiasom ein henaid, ac nis gwybuost? Wele, yn y dydd yr ymprydioch yr ydych yn cael gwynfyd, ac yn mynnu eich holl ddyledion.

4 Wele, i ymryson a chynnen yr ymprydiwch, ac i daro â dwrn anwiredd: nac ymprydiwch fel y dydd *hwn*, i beri clywed eich llais yn yr uchelder.

5 Ai dyma yr ympryd a ddewisais? dydd i ddyn i gystuddio ei enaid? ai crymmu ei ben fel brwynen *ydyw*, a thaenu sachlïan a lludw dano? ai hyn a elwi yn ympryd, ac yn ddiwrnod cymmeradwy gan yr ARGLWYDD?

6 Onid dyma yr ympryd a ddewisais? dattod rhwymau anwiredd, tynnu ymaith feichiau trymion, a gollwng y rhai gorthrymmedig yn rhyddion, a thorri o honoch bob iau?

7 Onid torri dy fara i'r newynog, a dwyn o honot y crwydraid i dŷ? a phan welych y noeth, ei dilladu; ac nad ymguddiech oddi wrth dy gnawd dy hun?

8 ¶ Yna y tyr dy oleuni allan fel y wawr, a'th iechyd a dardda yn fuan: a'th gyfiawnder a â o'th flaen; gogoniant yr ARGLWYDD a'th ddilyn.

9 Yna y gelwi, a'r ARGLWYDD a ettyb; y gwaeddi, ac efe a ddywed, Wele fi. Os bwri o'th fysg yr iau, estyn bys, a dywedyd oferedd;

10 Os tynni allan dy enaid i'r newynog, a diwallu yr enaid cystuddiedig: yna dy oleuni a gyfyd mewn tywyllwch, a'th dywyllwch *fydd* fel hanner dydd:

11 A'r ARGLWYDD a'th arwain yn wastad, ac a ddiwalla dy enaid ar sychder, ac a wna dy esgyrn yn freision: a thi a fyddi fel gardd wedi ei dyfrhâu, ac megis ffynnon ddwfr, yr hon ni phalla ei dyfroedd.

12 A'*r rhai a fyddant* o honot ti a adeiladant yr hen ddiffaethleoedd; ti a gyfodi sylfeini llawer cenhedlaeth: a thi a elwir yn gauwr yr adwy, yn gyweiriwr llwybrau i gyfanneddu ynddynt.

13 ¶ O throi dy droed oddi wrth y Sabbath, *heb* wneuthur dy ewyllys ar fy nydd sanctaidd; a galw y Sabbath yn hyfrydwch, sanct yr ARGLWYDD yn ogoneddus; a'i anrhydeddu ef, heb wneuthur dy ffyrdd dy hun, heb geisio dy ewyllys dy hun, na dywedyd *dy* eiriau *dy hun:*

14 Yna yr ymhyfrydi yn yr AR-

GLWYDD, ac mi a wnaf i ti farchogaeth ar uchelfeydd y ddaear, ac a'th borthaf âg etifeddiaeth Jacob dy dad: canys genau yr ARGLWYDD a'*i* llefarodd.

PENNOD 59.

1 *Ysgeler naturiaeth pechod.* 3 *Pechodau yr Iuddewon.* 9 *Am bechod y daw afluydd.* 16 *O Dduw yn unig y mae iachawdwriaeth.* 20 *Cyfammod y Prynwr.*

WELE, ni fyrhâwyd llaw yr ARGLWYDD, fel na allo achub; ac ni thrymhaodd ei glust ef, fel na allo glywed:

2 Eithr eich anwireddau chwi a ysgarodd rhyngoch chwi a'ch DUW, a'ch pechodau a guddiasant *ei* wyneb oddi wrthych, fel na chlywo.

3 Canys eich dwylaw a halogwyd â gwaed, a'ch bysedd â chamwedd: eich gwefusau a draethasant gelwydd, eich tafod a fyfyriodd anwiredd.

4 Nid *oes* a alwo am gyfiawnder, nac a ddadleu dros y gwirionedd: *y maent* yn gobeithio mewn gwagedd, ac yn dywedyd celwydd; yn beichiogi ar flinder, ac yn esgor ar anwiredd.

5 Wyau asp a ddodwasant, a gweoedd y pryf-coppyn a weant: yr hwn a fwytty o'u hwyau a fydd farw, a'r hwn a sathrer a dyr allan yn wiber.

6 Eu gweoedd hwy ni byddant yn wisgoedd, ac nid ymddilladant â'u gweithredoedd: eu gweithredoedd *ydynt* weithredoedd anwiredd, a gwaith trawsder *sydd* yn eu dwylaw.

7 Eu traed a redant i ddrygioni, a hwy a frysiant i dywallt gwaed gwirion: eu meddyliau *sydd* feddyliau anwir; distryw a dinystr *sydd* ar eu ffyrdd hwynt.

8 Ffordd heddwch nid adwaenant; ac nid *oes* gyfiawnder yn eu llwybrau: gwnaethant iddynt lwybrau ceimion: pwy bynnag a rodio yno, nid edwyn heddwch.

9 ¶ Am hynny y ciliodd barnedigaeth oddi wrthym, ac ni'n goddiweddodd cyfiawnder: disgwyliasom am oleuni, ac wele dywyllwch; am ddisgleirdeb, *ac* yn y fagddu yr ydym yn rhodio.

10 Palfalasom fel deillion â'r pared, ïe, fel *rhai* heb lygaid y palfalasom: tramgwyddasom ar hanner dydd fel y cyfnos; *oeddem* mewn lleoedd anghyfannedd fel rhai meirw.

11 Nyni oll a ruasom fel eirth, a chan riddfan y griddfanasom fel colommennod: disgwyliasom am farn, ac nid *oes dim:* am iachawdwriaeth, *ac* ymbellhaodd oddi wrthym.

12 Canys amlhaodd ein camweddau ger dy fron, a thystiolaethodd ein pechodau i'n herbyn: o herwydd ein camweddau *sydd* gyd â ni; a'n hanwireddau, ni a'u hadwaenom:

13 Camweddu, a dywedyd celwydd yn erbyn yr ARGLWYDD, a chilio oddi ar ol ein DUW, dywedyd trawsder ac anufudd-dod, myfyrio a thraethu o'r galon eiriau gau.

14 Barn hefyd a dröed yn ei hol, a chyfiawnder a safodd o hirbell: canys gwirionedd a gwympodd yn yr heol, ac uniondeb ni all ddyfod i mewn.

15 Ïe, gwirionedd sydd yn pallu, a'r hwn sydd yn cilio oddi wrth ddrygioni a'i gwna ei hun yn yspail: a gwelodd yr ARGLWYDD *hyn*, a drwg oedd yn ei olwg nad *oedd* barn.

16 ¶ Gwelodd hefyd nad *oedd* gŵr, a rhyfeddodd nad *oedd* eiriolwr: am hynny ei fraich a'i hachubodd, a'i gyfiawnder ei hun a'i cynhaliodd.

17 Canys efe a wisgodd gyfiawnder fel llurig, a helm iachawdwriaeth am ei ben; ac a wisgodd wisgoedd dïal yn ddillad; ïe, gwisgodd sêl fel cochl.

18 Yn ol y gweithredoedd, ïe, yn *eu* hol *hwynt*, y tâl efe, llid i'w wrthwynebwyr, taledigaeth i'w elynion; taledigaeth i'r ynysoedd a dâl efe.

19 Felly yr ofnant enw yr ARGLWYDD o'r gorllewin, a'i ogoniant ef o godiad haul. Pan ddelo y gelyn i mewn fel afon, Ysbryd yr ARGLWYDD a'i hymlid ef ymaith.

20 ¶ Ac i Sïon y daw y Gwaredydd, ac i'r rhai a droant *oddi wrth* anwiredd yn Jacob, medd yr ARGLWYDD.

21 A minnau, dyma fy nghyfammod â hwynt, medd yr ARGLWYDD: Fy ysbryd yr hwn *sydd* arnat, a'm geiriau y rhai a osodais yn dy enau, ni chiliant o'th enau, nac o enau dy

had, nac o enau had dy had, medd yr ARGLWYDD, o hyn allan byth.

PENNOD 60.

1 *Gogoniant yr eglwys pan ddelo y Cenhedloedd yn dra ami atti*: 15 *a'r bendithion mawr a fydd ar ol ychydig gystudd.*

CYFOD, llewycha; canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr ARGLWYDD arnat.

2 Canys wele, tywyllwch a orchuddia y ddaear, a'r fagddu y bobloedd: ond arnat ti y cyfyd yr ARGLWYDD, a'i ogoniant a welir arnat.

3 Cenhedloedd hefyd a rodiant at dy oleuni, a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy gyfodiad.

4 Cyfod dy lygaid oddi amgylch, ac edrych; ymgasglasant oll, daethant attat: dy feibion a ddeuant o bell, a'th ferched a fegir wrth *dy* ystlys.

5 Yna y cei weled, ac yr ymddisgleiri; dy galon hefyd a ofna, ac a helaethir; am droi attat llïosowgrwydd y môr, golud y cenhedloedd a ddaw i ti.

6 Lliaws y camelod a'th orchuddiant, *sef* cyflym gamelod Midian ac Ephah; hwynt oll o Seba a ddeuant; aur a thus a ddygant; a moliant yr ARGLWYDD a fynegant.

7 Holl ddefaid Cedar a ymgasglant attat ti, hyrddod Nebaioth a'th wasanaethant: hwy a ddeuant i fyny yn gymmeradwy ar fy allor, a mi a anrhydeddaf dŷ fy ngoniant.

8 Pwy *yw* y rhai hyn a ehedant fel cwmmwl, ac fel colommennod i'w ffenestri?

9 Yn ddïau yr ynysoedd a'm disgwyliant, a llongau Tarsis yn bennaf, i ddwyn dy feibion o bell, eu harian *hefyd* a'u haur gyd â hwynt, i enw yr ARGLWYDD dy DDUW, ac i Sanct Israel, am iddo dy ogoneddu di.

10 A meibion dïeithr a adeiladant dy furiau, a'u brenhinoedd a'th wasanaethant; canys yn fy nig y'th darewais, ac o'm hewyllys da fy hun y tosturiais wrthyt.

11 Am hynny dy byrth a fyddant yn agored yn wastad, ni cheuir hwynt na dydd na nos, i ddwyn attat olud y cenhedloedd, fel y dyger eu brenhinoedd hwynt hefyd.

12 Canys y genedl a'r deyrnas ni'th wasanaetho di, a ddifethir; a'r cenhedloedd hynny a lwyr ddinystrir.

13 Gogoniant Libanus a ddaw attat, y ffynnidwydd, ffawydd, a box ynghyd, i harddu lle fy nghyssegr; harddaf hefyd le fy nhraed.

14 A meibion dy gystuddwyr a ddeuant attat yn ostyngedig: a'r rhai oll a'th ddïystyrasant a ymostyngant wrth wadnau dy draed, ac a'th alwant yn Ddinas yr ARGLWYDD, yn Sïon Sanct Israel.

15 Lle y buost yn wrthodedig, ac yn gas, ac heb gynniweirydd *trwot*, gwnaf di yn ardderchowgrwydd tragywyddol, *ac* yn llawenydd i'r holl genhedlaethau.

16 Sugni hefyd laeth y cenhedloedd, ïe, bronnau brenhinoedd a sugni; a chei wybod mai myfi yr ARGLWYDD *yw* dy Achubydd, a'th Waredydd *yw* cadarn *Dduw* Jacob.

17 Yn lle pres y dygaf aur, ac yn lle haiarn y dygaf arian, ac yn lle coed, bres, ac yn lle cerrig, haiarn; a gwnaf dy swyddogion yn heddychol, a'th drethwyr yn gyfiawn.

18 Ni chlywir mwy *sôn am* drais yn dy wlad, *na* distryw na dinystr yn dy derfynau: eithr ti a elwi dy fagwyrydd yn Iachawdwriaeth, a'th byrth yn Foliant.

19 Ni bydd yr haul i ti mwyach yn oleuni y dydd, a'r lleuad ni oleua yn llewyrch i ti: eithr yr ARGLWYDD fydd i ti yn oleuni tragywyddol, a'th DDUW yn ogoniant i ti.

20 Ni fachluda dy haul mwyach, a'th leuad ni phalla: o herwydd yr ARGLWYDD fydd i ti yn oleuni tragywyddol, a dyddiau dy alar a ddarfyddant.

21 Dy bobl hefyd *fyddant* gyfiawn oll: etifeddant y tir byth, *sef* blaguryn fy mhlanhigion, gwaith fy nwylaw, fel y'm gogonedder.

22 Y bychan a fydd yn fil, a'r gwael yn genedl gref. Myfi yr ARGLWYDD a brysuraf hynny yn ei amser.

PENNOD 61.

1 *Swydd Crist.* 4 *Parodrwydd* 7 *a bendithion y ffyddloniaid.*

YSPRYD yr ARGLWYDD DDUW *sydd* arnaf; o herwydd yr ARGLWYDD a'm henneiniodd i efeng-

ylu *i'r* rhai llariaidd; efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r *rhai sydd yn* rhwym;

2 I gyhoeddi blwyddyn gymmeradwy yr ARGLWYDD, a dydd dïal ein DUW ni; i gysuro pob galarus;

3 I osod i alarwyr Sïon, *ac* i roddi iddynt ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, gwisg moliant yn lle yspryd cystuddiedig; fel y gelwid hwynt yn brennau cyfiawnder, yn blanhigyn yr ARGLWYDD, fel y gogonedder ef.

4 ¶ Adeiladant hefyd yr hen ddiffaethfa, cyfodant yr anghyfanneddfa gynt, ac adnewyddant ddinasoedd diffaeth, ac anghyfanneddfa llawer oes.

5 A dïeithriaid a safant ac a borthant eich praidd, a meibion dïeithr *fydd* arddwyr a gwinllanwyr i chwi.

6 Chwithau a elwir yn offeiriaid i'r ARGLWYDD: Gweinidogion ein DUW ni, meddir wrthych; golud y cenhedloedd a fwynhêwch, ac yn eu gogoniant hwy yr ymddyrchefwch.

7 ¶ Yn lle eich cywilydd *y cewch* ddau-ddyblyg; ac *yn lle* gwaradwydd hwy a lawenychant yn eu rhan: am hynny yn y tir y meddiannant *ran* ddwbl; llawenydd tragywyddol fydd iddynt.

8 Canys myfi yr ARGLWYDD a hoffaf gyfiawnder; yr wyf yn casâu trais yn boeth-offrwm, ac a gyfarwyddaf eu gwaith mewn gwirionedd, ac a wnaf â hwynt gyfammod tragywyddol.

9 Eu had hwynt hefyd a adweinir ym mysg y cenhedloedd, a'u hiliogaeth hwynt y'nghanol y bobl: y rhai a'u gwelant a'u hadwaenant, mai hwynt-hwy *yw* yr had a fendithiodd yr ARGLWYDD.

10 Gan lawenychu y llawenychaf yn yr ARGLWYDD, fy enaid a orfoledda yn fy NUW: canys gwisgodd fi â gwisgoedd iachawdwriaeth, gwisgodd fi â mantell cyfiawnder; megis y mae prïodfab yn *ym*wisgo â harddwisg, ac fel yr *ym*drwsia prïodferch â'i thlysau.

11 Canys megis y gwna y ddaear i'w gwellt dyfu, ac fel y gwna gardd i'w hadau egino, felly y gwna yr Arglwydd IOR i gyfiawnder a moliant darddu ger bron yr holl genhedloedd.

PENNOD 62.

1 *Awyddus chwant y prophwyd i gadarnhau yr eglwys yn addewidion Duw.* 5 *Dyledswydd y gweinidogion wrth bregethu yr efengyl,* 10 *a pharottôi y bobl i'w derbyn.*

ER mwyn Sïon ni thawaf, ac er mwyn Jerusalem ni ostegaf, hyd onid elo ei chyfiawnder hi allan fel disgleirdeb, a'i hiachawdwriaeth hi fel lamp yn llosgi.

2 A'r cenhedloedd a welant dy gyfiawnder, a'r holl frenhinoedd dy ogoniant: yna y gelwir arnat enw newydd, yr hwn a enwa genau yr ARGLWYDD.

3 Byddi hefyd yn goron gogoniant yn llaw yr ARGLWYDD, ac yn dalaith frenhinol yn llaw dy DDUW.

4 Ni ddywedir am danat mwy, Gwrthodedig; am dy dir hefyd ni ddywedir mwy, Anghyfannedd: eithr ti a elwir Hephsibah; a'th dir, Beulah: canys y mae yr ARGLWYDD yn dy hoffi, a'th dir a brïodir.

5 Canys *fel* y prïoda gŵr ieuanc forwyn, y prïoda dy feibion dydi; ac â llawenydd prïodfab am brïodferch, y llawenycha dy DDUW o'th blegid di.

6 Ar dy furiau di, Jerusalem, y gosodais geidwaid, *y rhai* ni thawant ddydd na nos yn wastad: y rhai ydych yn cofio yr ARGLWYDD, na ddistêwch,

7 Ac na adêwch ddistawrwydd iddo, hyd oni sicrhao, ac hyd oni osodo Jerusalem yn foliant ar y ddaear.

8 Tyngodd yr ARGLWYDD i'w ddeheulaw, ac i'w fraich nerthol, Yn ddïau ni roddaf dy ŷd mwyach yn ymborth i'th elynion; a meibion dïeithr nid yfant dy win, yr hwn y llafuriaist am dano:

9 Eithr y rhai a'i casglant a'i bwyttânt, ac a foliannant yr ARGLWYDD; a'r rhai a'i cynnullasant a'i hyfant o fewn cynteddoedd fy sancteiddrwydd.

10 ¶ Cynniweiriwch, cynniweir-

iwch trwy y pyrth: parottôwch ffordd y bobl; palmentwch, palmentwch brif-ffordd; digarregwch *hi:* cyfodwch faner i'r bobloedd.

11 Wele, yr ARGLWYDD a gyhoeddodd hyd eithaf y ddaear, Dywedwch wrth ferch Sïon, Wele dy iachawdwriaeth yn dyfod, wele ei gyflog gyd âg ef, a'i waith o'i flaen.

12 Galwant hwynt hefyd yn Bobl sanctaidd, yn Waredigion yr ARGLWYDD: tithau a elwir, Yr hon a geisiwyd, Dinas nis gwrthodwyd.

PENNOD 63.

1 *Crist yn dangos pwy ydyw,* 2 *pa beth yw ei oruchafiaeth ar ei elynion,* 7 *a pha beth yw ei drugaredd tu ag at ei eglwys.* 10 *Yn ei gyflawn ddiglionedd y mae yn meddwl am ei hael drugaredd.* 15 *Yr eglwys yn ei gweddi,* 17 *a'i hachwyn, yn gwneuthur profes o'i ffydd.*

PWY *yw* hwn yn dyfod o Edom, yn goch ei ddillad o Bosrah? hwn *sydd* hardd yn ei wisg, yn ymdaith yn amlder ei rym? Myfi, yr hwn a lefaraf mewn cyfiawnder, *ac wyf* gadarn i iachâu.

2 Paham *yr ydwyt* yn goch dy ddillad, a'th wisgoedd fel yr hwn a sathrai mewn gwin-wrŷf?

3 Sethrais y gwin-wrŷf fy hunan, ac o'r bobl nid *oedd* un gyd â mi; canys mi a'u sathraf hwynt yn fy nig, ac a'u mathraf hwynt yn fy llidiowgrwydd; a'u gwaed hwynt a daenellir ar fy nillad, a'm holl wisgoedd a lychwinaf.

4 Canys dydd dïal *sydd* yn fy nghalon, a blwyddyn fy ngwaredigion a ddaeth.

5 Edrychais hefyd, ac nid *oedd* gynnorthwywr; rhyfeddais hefyd am nad *oedd* gynhaliwr: yna fy mraich fy hun a'm hachubodd, a'm llidiowgrwydd a'm cynhaliodd.

6 A mi a sathraf y bobl yn fy nig, ac a'u meddwaf hwynt yn fy llidiowgrwydd; a'u cadernid a ddisgynaf i'r llawr.

7 ¶ Cofiaf drugareddau yr ARGLWYDD, *a* moliant DUW, yn ol yr hyn oll a roddodd DUW i ni, ac amlder *ei* ddaioni i dŷ Israel, yr hyn a roddodd efe iddynt yn ol ei dosturiaethau, ac yn ol amlder ei drugareddau.

8 Canys efe a ddywedodd, Dïau fy mhobl *ydynt* hwy, meibion ni ddywedant gelwydd; felly efe a aeth yn Iachawdwr iddynt.

9 Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd, ac angel ei gynddrychioldeb a'u hachubodd hwynt; yn ei gariad ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt: efe a'u dygodd hwynt, ac a'u harweiniodd yr holl ddyddiau gynt.

10 ¶ Hwythau oeddynt wrthryfelgar, ac a ofidiasant ei Ysbryd sanctaidd ef: am hynny y trodd efe yn elyn iddynt, *ac* yr ymladdodd yn eu herbyn.

11 Yna y cofiodd *efe* y dyddiau gynt, Moses *a*'i bobl, *gan ddywedyd, Mae* yr hwn a'u dygodd hwynt i fyny o'r môr, gyd â bugail ei braidd? *mae* yr hwn a osododd ei Ysbryd sanctaidd o'i fewn ef?

12 Yr hwn a'*u* tywysodd *hwynt* â deheulaw Moses, ac â'i ogoneddus fraich, gan hollti y dyfroedd o'u blaen hwynt, i wneuthur iddo ei hun enw tragywyddol?

13 Yr hwn a'u harweiniodd hwynt trwy y dyfnderau, fel march yn yr anialwch, *fel* na thramgwyddent?

14 Fel y disgyn anifail i'r dyffryn, y gwna Ysbryd yr ARGLWYDD iddo orphwys: felly y tywysaist dy bobl, i wneuthur i ti enw gogoneddus.

15 ¶ Edrych o'r nefoedd, a gwel o annedd dy sancteiddrwydd a'th ogoniant: *mae* dy sêl a'th gadernid, llïosowgrwydd dy dosturiaethau a'th drugareddau tu ag attaf fi? a ymattaliasant?

16 Canys ti *yw* ein Tad ni, er nad edwyn Abraham ni, ac na'n cydnebydd Israel: ti, ARGLWYDD, *yw* ein Tad ni, ein Gwaredydd; dy enw *sydd* erioed.

17 ¶ Paham, ARGLWYDD, y gwnaethost i ni gyfeiliorni allan o'th ffyrdd? *ac* y caledaist ein calonnau oddi wrth dy ofn? Dychwel er mwyn dy weision, llwythau dy etifeddiaeth.

18 Dros ychydig ennyd y meddiannodd dy bobl sanctaidd: ein gwrthwynebwyr a fathrasant dy gyssegr di.

19 Nyni ydym *eiddot ti:* erioed ni buost yn arglwyddiaethu arnynt hwy; *ac* ni elwid dy enw arnynt.

PENNOD 64.

1 *Yr eglwys yn gweddïo ar i Dduw egluro ei allu; 5 ac wrth fawrygu trugaredd Duw, yn cyfaddef ei llygredigaeth naturiol: 9 yn cwyno rhag ei chystudd.*

ONA rwygit y nefoedd, a disgyn, *fel* y toddai y mynyddoedd o'th flaen di,

2 Fel *pan* losgo y tân greision, y pair y tân i'r dwfr ferwi; i hysbysu dy enw i'th wrthwynebwyr, *fel* yr ofno y cenhedloedd rhagot!

3 Pan wnaethost bethau ofnadwy ni ddisgwyliasom *am danynt*, y disgynaist, *a'r* mynyddoedd a doddasant o'th flaen.

4 Ac erioed ni chlywsant, ni dderbyniasant â chlustiau, ac ni welodd llygad, O DDUW, ond tydi, *yr hyn* a ddarparodd efe i'r neb a ddisgwyl wrtho.

5 Cyfarfyddi â'r hwn sydd lawen, ac a wna gyfiawnder; *y rhai* yn dy ffyrdd a'th gofiant di: wele, ti a ddigiaist, pan bechasom: ynddynt hwy y mae para, a ni a fyddwn cadwedig.

6 Eithr yr ydym ni oll megis *peth* aflan, ac megis bratiau budron *yw* ein holl gyfiawnderau; a megis deilen y syrthiasom ni oll; a'n hanwireddau, megis gwynt, a'n dug ni ymaith.

7 Ac nid *oes* a alwo ar dy enw, nac a ymgyfyd i ymaflyd ynot: canys cuddiaist dy wyneb oddi wrthym; difeaist ni, o herwydd ein hanwireddau.

8 Ond yn awr, O ARGLWYDD, ein Tad ni *ydwyt* ti: nyni *ydym* glai, a thithau *yw* ein lluniwr ni; ïe, gwaith dy law *ydym* ni oll.

9 ¶ Na ddigia, ARGLWYDD, yn ddirfawr, ac na chofia anwiredd yn dragywydd: wele, edrych, attolwg, dy bobl di *ydym* ni oll.

10 Dy sanctaidd ddinasoedd sydd anialwch; Sïon *sydd* yn ddiffaethwch, a Jerusalem yn anghyfannedd.

11 Tŷ ein sancteiddrwydd a'n harddwch ni, lle y moliannai ein tadau dydi, a losgwyd â thân; a'n holl bethau dymunol sydd yn anrhaith.

12 A ymatteli di, ARGLWYDD, wrth *y pethau* hyn? a dewi di, ac a gystuddi di ni yn ddirfawr?

PENNOD 65.

1 *Galwedigaeth y Cenhedloedd.* 2 *Gwrthod yr Iuddewon, am eu hanghrediniaeth, a'u deliaddoliaeth, a'u rhagrith.* 8 *Gweddill a achubir.* 11 *Barnedigaethau ar yr anwir, a bendithion ar y duwiol.* 17 *Dedwydd gyflwr Jerusalem newydd.*

CEISIWYD fi gan *y rhai* ni ymofynasant *am danaf;* cafwyd fi gan *y rhai* ni'm ceisiasant: dywedais, Wele fi, wele fi, wrth genhedlaeth ni alwyd ar fy enw i.

2 Estynais fy llaw ar hyd y dydd at bobl wrthryfelgar, y rhai a rodient y ffordd nid *oedd* dda, yn ol eu meddyliau eu hun;

3 Pobl y rhai a'm llidient i yn wastad yn fy wyneb; yn aberthu mewn gerddi, ac yn arogl-darthu ar allorau priddfeini;

4 Y rhai a arhôent ym mysg y beddau, ac a lettŷent yn y mynwentau; y rhai a fwyttâent gig moch, ac isgell ffiaidd *bethau yn* eu llestri;

5 Y rhai a ddywedent, Saf ar dy ben dy hun; na nesâ attaf fi: canys sancteiddiach ydwyf na thydi. Y rhai hyn *sydd* fwg yn fy ffroenau, tân yn llosgi ar hyd y dydd.

6 Wele, ysgrifenwyd ger fy mron: ni thawaf; eithr talaf, ïe, talaf i'w mynwes,

7 Eich anwireddau chwi, ac anwireddau eich tadau ynghyd, medd yr ARGLWYDD, y rhai a arogl-darthasant ar y mynyddoedd, ac a'm cablasant ar y bryniau: am hynny y mesuraf eu hen weithredoedd hwynt i'w mynwes.

8 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Megis y ceir gwin newydd mewn swp o rawn, ac y dywedir, Na ddifwyna ef; canys *y mae* bendith ynddo: felly y gwnaf er mwyn fy ngweision, na ddistrywiwyf hwynt oll.

9 Eithr dygaf had allan o Jacob, ac o Judah *un* a etifeddo fy mynyddoedd: a'm hetholedigion a'i hetifeddant, a'm gweision a drigant yno.

10 Saron hefyd fydd yn gorlan defaid, a glyn Achor yn orweddfa gwartheg, i'm pobl y rhai a'm ceisiasant.

11 ¶ Ond chwi *yw* y rhai a wrthodwch yr ARGLWYDD, a anghofiwch fy mynydd sanctaidd, a arlwywch

fwrdd i'r llu accw, ac a lenwch ddiod-offrwm i'r niferi accw.

12 Rhifaf chwithau i'r cleddyf, a chwi oll a ymostyngwch i'r lladdedigaeth: o herwydd pan elwais chwi, nid attebasoch; pan leferais, ni wrandawsoch; ond gwnaethoch ddrygioni yn fy ngolwg, a dewisasoch yr hyn nid oedd dda gennyf.

13 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Wele, fy ngweision a fwyttânt, a chwithau a newynwch: wele, fy ngweision a yfant, a chwithau a sychedwch: wele, fy ngweision a lawenychant, a chwithau a fydd cywilydd arnoch:

14 Wele, fy ngweision a ganant o hyfrydwch calon, a chwithau a waeddwch rhag gofid calon, ac a udwch rhag cystudd yspryd.

15 A'ch enw a adêwch yn felldith gan fy etholedigion: canys yr ARGLWYDD DDUW a'th ladd di, ac a eilw ei weision *ar* enw arall:

16 Fel y bo i'r hwn a ymfendigo ar y ddaear, ymfendigo yn NUW y gwirionedd; ac i'r hwn a dyngo ar y ddaear, dyngu i DDUW y gwirionedd: am anghofio y trallodau gynt, ac am eu cuddio hwynt o'm golwg.

17 ¶ Canys wele fi yn creu nefoedd newydd, a daear newydd: a'r rhai cyntaf ni chofir, ac ni feddylir am danynt.

18 Eithr llawenychwch a gorfoleddwch yn dragywydd *yn y pethau* a grëwyf fi: canys wele fi yn creu Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd.

19 Gorfoleddaf hefyd yn Jerusalem, a llawenychaf yn fy mhobl: ac ni chlywir ynddi mwyach lais wylofain, na llef gwaedd.

20 Ni bydd o hynny allan blentyn o oed, na henafgwr, yr hwn ni chyflawnodd ei ddyddiau: canys y bachgen fydd marw yn fab canmlwydd; ond y pechadur yn fab canmlwydd a felldithir.

21 A hwy a adeiladant dai, ac a'u cyfanneddant; plannant hefyd winllannoedd, a bwyttânt eu ffrwyth.

22 Nid adeiladant hwy, fel y cyfanneddo arall; ac ni phlannant, fel y bwyttao arall: eithr megis dyddiau pren *y bydd* dyddiau fy mhobl, a'm hetholedigion a hir-fwynhânt waith eu dwylaw.

23 Ni lafuriant yn ofer, ac ni chenhedlant i drallod: canys had rhai bendigedig yr ARGLWYDD *ydynt* hwy, a'u heppil gyd â hwynt.

24 A bydd, cyn galw o honynt, i mi atteb; ac a hwy etto yn llefaru, mi a wrandawaf.

25 Y blaidd a'r oen a borant ynghyd; y llew fel ŷch a bawr wellt; a'r sarph, llwch *fydd* ei bwyd hi: ni ddrygant ac ni ddistrywiant yn fy holl fynydd sanctaidd, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 66.

1 Y myn y gogoneddus Duw ei wasanaethu mewn gostyngedig burdeb: 5 y mae yn cysuro y gostyngedig â rhyfeddol genhedliad, 10 a grasusol ddoniau yr eglwys. 15 Tost farnedigaethau Duw yn erbyn yr annuwiol. 19 Y bydd i'r cenhedloedd eglwys sanctaidd, 24 ac y cânt weled damnedigaeth yr annuwiol.

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD; Y nef *yw* fy ngorseddfainge, a'r ddaear *yw* lleithig fy nhraed: mae y tŷ a adeiledwch i mi? ac mae y fan y gorphwysaf?

2 Canys *y pethau* hyn oll a wnaeth fy llaw, a *thrwof fi* y mae hyn oll, medd yr ARGLWYDD: ond ar hwn yr edrychaf, *sef* ar y truan a'r cystuddiedig o yspryd, ac sydd yn crynu wrth fy ngair.

3 Yr hwn a laddo ŷch, *sydd fel* yr hwn a laddo ŵr; yr hwn a abertho oen, *sydd fel* yr hwn a dorfynyglo gi; yr hwn a offrymmo offrwm, *sydd fel ped offrymmai* waed moch; yr hwn a arogl-dartho thus, *sydd fel pe* bendigai eilun: ïe, hwy a ddewisasant eu ffyrdd eu hun, a'u henaid a ymhyfrydodd yn eu ffieiddra.

4 Minnau a ddewisaf eu dychymmygion hwynt, ac a ddygaf arnynt yr hyn a ofnant: am alw o honof, ac nid *oedd* a attebai; lleferais, ac ni wrandawsant: eithr gwnaethant yr hyn oedd ddrwg yn fy ngolwg, a'r hyn nid oedd dda gennyf a ddewisasant.

5 ¶ Gwrandêwch air yr ARGLWYDD, y rhai a grynwch wrth ei air ef; Eich brodyr y rhai a'ch casasant, *ac* a'ch gyrrasant ar encil er mwyn fy enw i, a ddywedasant, Gogoneddier yr ARGLWYDD: etto i'ch lla-

wenydd chwi y gwelir ef, a hwynt a waradwyddir.

6 Llef soniarus o'r ddinas, llef o'r deml, llef yr ARGLWYDD yn talu y pwyth i'w elynion.

7 Cyn ei chlafychu, yr esgorodd; cyn dyfod gwewyr arni, y rhyddhâwyd hi ar fab.

8 Pwy a glybu y fath beth a hyn? pwy a welodd y fath bethau a hyn? A wneir i'r ddaear dyfu mewn un dydd? a enir cenedl *ar* unwaith? Pan glafychodd Sïon, yr esgorodd hefyd ar ei meibion.

9 A ddygaf fi i'r enedigaeth, ac oni pharaf esgor? medd yr ARGLWYDD: a baraf fi esgor, ac a luddiaf? medd dy DDUW.

10 Llawenhêwch gyd â Jerusalem, a byddwch hyfryd gyd â hi, y rhai oll a'i cerwch hi: llawenhêwch gyd â hi yn llawen, y rhai oll a alerwch o'i phlegid hi:

11 Fel y sugnoch, ac y'ch diwaller â bronnau ei diddanwch hi; fel y godroch, ac y byddoch hyfryd gan helaethrwydd ei gogoniant hi.

12 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele, mi a estynaf iddi heddwch fel afon, a gogoniant y cenhedloedd fel ffrwd lifeiriol: yna y sugnwch, ar ei hystlys *hi* y'ch dygir, ac ar ei gliniau y'ch diddenir.

13 Fel un yr hwn y diddana ei fam ef, felly y diddanaf fi chwi; ac yn Jerusalem y'ch diddenir.

14 A phan weloch *hyn*, y llawenycha eich calon; eich esgyrn hefyd a flodeuant fel llysieuyn: ac fe adweinir llaw yr ARGLWYDD tu ag at ei weision, a'*i* lidiowgrwydd wrth ei elynion.

15 Canys, wele, yr ARGLWYDD a ddaw â thân, ac â'i gerbydau fel tröwynt, i dalu ei ddigter â llidiowgrwydd, a'i gerydd â fflammau tân.

16 Canys yr ARGLWYDD a ymddadleu â thân ac â'i gleddyf yn erbyn pob cnawd; a lladdedigion yr ARGLWYDD fyddant aml.

17 Y rhai a ymsancteiddiant, ac a ymlanhânt yn y gerddi, yn ol eu gilydd, yn y canol, gan fwytta cig moch, a ffieidd-dra, a llygod, a gyddiweddir, medd yr ARGLWYDD.

18 Canys mi *a adwaen* eu gweithredoedd hwynt a'u meddyliau: y mae yr *amser* yn dyfod, i gasglu yr holl genhedloedd a'r ieithoedd; a hwy a ddeuant, ac a welant fy ngogoniant.

19 A gosodaf yn eu mysg arwydd, ac anfonaf y rhai diangol o honynt at y cenhedloedd, *i* Tarsis, Affrica, a Lydia, y rhai a dynnant mewn bwa, *i* Italia, a Groeg, *i*'r ynysoedd pell, y rhai ni chlywsant sôn am danaf, ac ni welsant fy ngogoniant; a mynegant fy ngogoniant ym mysg y cenhedloedd.

20 A hwy a ddygant eich holl frodyr o blith yr holl genhedloedd, yn offrwm i'r ARGLWYDD, ar feirch, ac ar gerbydau, ac ar elorau meirch, ac ar fulod, ac ar anifeiliaid buain, i'm mynydd sanctaidd Jerusalem, medd yr ARGLWYDD, megis y dwg meibion Israel offrwm mewn llestr glân *i* dŷ yr ARGLWYDD.

21 Ac o honynt hwy y cymmeraf *rai* yn offeiriaid ac yn Lefiaid, medd yr ARGLWYDD.

22 Canys megis y saif ger fy mron y nefoedd newydd a'r ddaear newydd, y rhai a wnaf fi, medd yr ARGLWYDD, felly y saif eich had chwi, a'ch enw chwi.

23 Bydd hefyd o newydd-loer i newydd-loer, ac o Sabbath i Sabbath, i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron i, medd yr ARGLWYDD.

24 A hwy a ânt allan, ac a edrychant ar gelanedd y rhai a wnaethant gamwedd i'm herbyn: canys eu pryf ni bydd marw, a'u tân ni ddiffydd; a byddant yn ffieidd-dra gan bob cnawd.

LLYFR Y
PROPHWYD JEREMIAH.

PENNOD 1.

1 *Amser* 3 *a galwad Jeremiah.* 11 *Ei brophwydol weldigaeth ef am y wialen almon, a'r crochan berwedig.* 15 *Ei drom gennadwri ef yn erbyn Judah.* 17 *Duw yn ei gysuro ef, trwy addaw iddo ei gymmorth.*

GEIRIAU Jeremïah mab Hilcïah, o'r offeiriaid y rhai *oedd* yn Anathoth, o fewn tir Benjamin:
2 Yr hwn y daeth gair yr ARGLWYDD atto, yn nyddiau Josïah mab Amon brenhin Judah, yn y drydedd flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad ef.
3 Ac fe ddaeth yn nyddiau Jehoiacim mab Josïah brenhin Judah, nes darfod un flynedd ar ddeg i Sedecïah mab Josïah brenhin Judah, hyd ddygiad Jerusalem i gaethiwed yn y pummed mis.
4 Yna y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,
5 Cyn i mi dy lunio di yn y groth, mi a'th adnabûm; a chyn dy ddyfod o'r groth, y sancteiddiais di; *a* mi a'th roddais yn brophwyd i'r cenhedloedd.
6 Yna y dywedais, O Arglwydd DDUW, wele, ni fedraf ymadrodd; canys bachgen *ydwyf* fi.
7 ¶ Ond yr ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Na ddywed, Bachgen *ydwyf* fi: canys ti a âi at y rhai oll y'th anfonwyf, a'r hyn oll a orchymynwyf i ti a ddywedi.
8 Nac ofna rhag eu hwynebau hwynt: canys *yr ydwyf* fi gyd â thi i'th waredu, medd yr ARGLWYDD.
9 Yna yr estynodd yr ARGLWYDD ei law, ac a gyffyrddodd â'm genau. A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Wele, rhoddais fy ngeiriau yn dy enau di.
10 Gwel, heddyw y'th osodais ar y cenhedloedd, ac ar y teyrnasoedd, i ddiwreiddio, ac i dynnu i lawr, i ddifetha, ac i ddistrywio, i adeiladu, ac i blannu.
11 ¶ Yna y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd, Jeremïah, beth a weli di? Minnau a ddywedais, Gwïalen almon a welaf fi.
12 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Da y gwelaist; canys mi a brysuraf fy ngair i'w gyflawni.
13 A gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf yr ail waith, gan ddywedyd, Beth a weli di? A mi a ddywedais, Mi a welaf grochan berwedig, a'i wyneb tu a'r gogledd.
14 Yna y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, O'r gogledd y tyr drwg allan ar holl drigolion y tir.
15 Canys wele, myfi a alwaf holl deuluoedd teyrnasoedd y gogledd, medd yr ARGLWYDD, a hwy a ddeuant, ac a osodant bob *un* ei orseddfainge wrth ddrws porth Jerusalem, ac yn erbyn ei muriau oll o amgylch, ac yn erbyn holl ddinasoedd Judah.
16 A mi a draethaf fy marnedigaethau yn eu herbyn, am holl anwiredd y rhai a'm gadawsant, ac a arogl-darthasant i dduwiau eraill, ac a addolasant weithredoedd eu dwylaw eu hunain.
17 ¶ Am hynny gwregysa dy lwynau, a chyfod, a dywed wrthynt yr hyn oll yr ydwyf yn ei orchymyn i ti: na arswyda eu hwynebau, rhag i mi dy ddistrywio di ger eu bron hwynt.
18 Canys wele, heddyw yr ydwyf yn dy roddi di yn ddinas gaerog, ac yn golofn haiarn, ac yn fur pres, yn erbyn yr holl dir, yn erbyn brenhinoedd Judah, yn erbyn ei thywysogion, yn erbyn ei hoffeiriaid, ac yn erbyn pobl y tir.
19 Ymladdant hefyd yn dy erbyn, ond ni'th orchfygant: canys myfi *sydd* gyd â thi i'th ymwared, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 2.

1 *Duw, wedi dangos ei garedigrwydd o'r blaen, yn ymliw â'r Iuddewon am droi oddi wrtho mor ddiachos,* 9 *y tu hwnt i bawb eraill.* 14 *Mai hwynt-hwy eu hunain yno yr achos o'u hafwydd.* 20 *Pechodau Judah.* 31 *Gwrthod ei hyder ef.*

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth attaf fi, gan ddywedyd,
2 Cerdda, a llefa y'nghlustiau Jerusalem, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Cofiais di, caredigrwydd dy ieuengctid, a serch dy ddyweddi, pan y'm canlynaist yn y diffaethwch, mewn tir ni hauwyd.
3 Israel *ydoedd* sancteiddrwydd i'r ARGLWYDD, *a* blaenffrwyth ei gnwd ef: pawb oll a'r a'i bwyttao, a bechant; drwg a ddigwydd iddynt, medd yr ARGLWYDD.
4 Gwrandêwch air yr ARGLWYDD, tŷ Jacob, a holl deuluoedd tŷ Israel.
5 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Pa anwiredd a gafodd eich tadau chwi ynof fi, gan iddynt ymbellhâu oddi wrthyf, a rhodio ar ol oferedd, a myned yn ofer?
6 Ac ni ddywedant, Pa le *y mae* yr ARGLWYDD a'n dug ni i fyny o dir yr Aipht; a'n harweiniodd trwy yr anialwch; trwy dir diffaeth, a phyllau; trwy dir sychder, a chysgod angau; trwy dir nid aeth gŵr trwyddo, ac ni thrigodd dyn ynddo?
7 Dygais chwi hefyd i wlad gnydfawr, i fwytta ei ffrwyth a'i daioni: eithr pan ddaethoch i mewn, halogasoch fy nhir i, a gwnaethoch fy etifeddiaeth i yn ffieidd-dra.
8 Yr offeiriaid ni ddywedasant, Pa le *y mae* yr ARGLWYDD? a'r rhai sydd yn trin y gyfraith nid adnabuant fi: y bugeiliaid hefyd a droseddasant i'm herbyn, a'r prophwydi a brophwydasant yn *enw* Baal, ac a aethant ar ol *y pethau* ni wnaent lesâd.
9 ¶ Oblegid hyn, mi a ddadleuaf â chwi etto, medd yr ARGLWYDD; ïe, dadleuaf â meibion eich meibion chwi.
10 Canys ewch dros ynysoedd Chittim, ac edrychwch; a danfonwch i Cedar, ac ystyriwch yn ddiwyd, ac edrychwch a fu y cyfryw beth.
11 A newidiodd *un* genedl *eu* duwiau, a hwy heb *fod* yn dduwiau? eithr fy mhobl i a newidiodd eu gogoniant am *yr hyn* ni wna lesâd.
12 O chwi nefoedd, synnwch wrth hyn, ac ofnwch yn aruthrol, a byddwch anghyfannedd iawn, medd yr ARGLWYDD.
13 Canys dau ddrwg a wnaeth fy mhobl; hwy a'm gadawsant i, ffynnon y dyfroedd byw, *ac* a gloddiasant iddynt eu hunain bydewau, *ïe*, pydewau wedi eu torri, ni ddaliant ddwfr.
14 ¶ Ai gwas *ydyw* Israel? ai *gwas* a anwyd yn tŷ *yw* efe? paham yr yspeiliwyd ef?
15 Y llewod ieuaingc a ruasant arno, *ac* a leisiasant; a'i dir ef a osodasant yn anrhaith, a'i ddinasoedd a losgwyd heb drigiannydd.
16 Meibion Noph hefyd a Thahapanes a dorrasant dy goryn di.
17 Onid tydi a beraist hyn i ti dy hun, am wrthod o honot yr ARGLWYDD dy DDUW, pan ydoedd efe yn dy arwain ar hyd y ffordd?
18 A'r awr hon, beth *sydd* i ti *a wnelych* yn ffordd yr Aipht, i yfed dwfr Nilus? a pheth *sydd* i ti yn ffordd Assyria, i yfed dwfr yr afon?
19 Dy ddrygioni dy hun a'th gospa di, a'th wrthdro a'th gerydda: gwybydd dithau a gwel, mai drwg a chwerw *ydyw* gwrthod o honot yr ARGLWYDD by DDUW, ac nad *ydyw* fy ofn i ynot ti, medd Arglwydd DDUW y lluoedd.
20 ¶ Oblegid er ys talm mi a dorrais dy iau di, *ac* a ddrylliais dy rwymau; a thi a ddywedaist, Ni throseddaf; er hynny ti a wibiaist, gan butteinio ar bob bryn uchel, a than bob ¦ren deiliog.
21 Etto myfi a'th blannaswn yn bêr-winwydden, o'r iawn had oll: pa fodd gan hynny y'th dröwyd i mi yn blanhigyn afrywiog gwinwydden ddïeithr?
22 Canys pe byddai i ti ymolchi â nitr, a chymmeryd i ti lawer o sebon; *etto* nodwyd dy anwiredd ger fy mron i, medd yr Arglwydd DDUW.
23 Pa fodd y dywedi, Ni halogwyd fi, ac nid euthum ar ol Baalim? Edrych dy ffordd yn y glyn, gwybydd beth a wnaethost; camel buan *ydwyt* yn amgylchu ei ffyrdd.
24 Asen wyllt wedi ei chynnefino â'r anialwch, wrth ddymuniad ei chalon yn yfed gwynt, wrth ei

hachlysur pwy a'i try ymaith? pawb a'r a'i ceisiant hi, nid ymflinant; yn ei mis y cânt hi.

25 Cadw dy droed rhag noethni, a'th geg rhag syched. Tithau a ddywedaist, Nid oes obaith. Nac *oes:* canys cerais ddieithriaid, ac ar eu hol hwynt yr âf fi.

26 Megis y cywilyddia lleidr pan ddalier ef, felly y cywilyddia tŷ Israel; hwynt-hwy, eu brenhinoedd, eu tywysogion, a'u hoffeiriaid, a'u prophwydi;

27 Y rhai a ddywedant wrth bren, Tydi *yw* fy nhad; ac wrth garreg, Ti a'm cenhedlaist. Canys hwy a droisant attaf fi wegil, ac nid wyneb: ond yn amser eu hadfyd y dywedant, Cyfod, a chadw ni.

28 Eithr pa le *y mae* dy dduwiau, y rhai a wnaethost i ti? codant, os gallant dy gadw yn amser dy adfyd: canys *wrth* rifedi dy ddinasoedd y mae dy dduwiau di, O Judah.

29 Paham yr ymddadleuwch â mi? chwi oll a droseddasoch i'm herbyn, medd yr ARGLWYDD.

30 Yn ofer y tarewais eich plant chwi, ni dderbyniasant gerydd: eich cleddyf eich hun a ddifaodd eich prophwydi, megis llew yn distrywio.

31 ¶ O genhedlaeth, gwelwch air yr ARGLWYDD: A fûm i yn anialwch i Israel? yn dir tywyllwch? paham y dywed fy mhobl, Arglwyddi ydym ni, ni ddeuwn ni mwy attat ti?

32 A anghofia morwyn ei harddwisg? *neu* y briodasferch ei thlysau? etto fy mhobl i a'm hanghofiasant ddyddiau aneirif.

33 Paham yr wyt ti yn cyweirio dy ffordd i geisio cariad? am hynny hefyd y dysgaist dy ffyrdd i rai drygionus.

34 Hefyd yn dy odre di y cafwyd gwaed eneidiau y tlodion diniwed; nid wrth chwilio y cefais hyn, eithr ar y rhai hyn oll.

35 Etto ti a ddywedi, Am fy mod yn ddiniwed, yn ddïau y try ei lid ef oddi wrthyf. Wele, dadleuaf â thi, am ddywedyd o honot, Ni phechais.

36 Paham y gwibi di gymmaint i newidio dy ffordd? canys ti a waradwyddir o herwydd yr Aipht, fel y'th waradwyddwyd o herwydd Assyria.

37 Hefyd ti a ddeui allan oddi wrtho, a'th ddwylaw ar dy ben: oblegid yr ARGLWYDD a wrthododd dy hyder di, ac ni lwyddi ynddynt.

PENNOD 3.

1 *Mawr drugaredd Duw yn ysgeler butteindra Judah.* 6 *Mai gwaeth yw Judah nag Israel.* 12 *Addewidion yr ffengyl i'r edifeiriol.* 20 *Duw yn argyhoeddi ac yn galw Israel, a hwythau yn gwneuthur cyffes gyhoedd o'u pechodau.*

HWY a ddywedant, O gyr gŵr ei wraig ymaith, a myned o honi oddi wrtho ef, ac iddi fod yn eiddo gŵr arall, a ddychwel efe atti hi mwyach? oni lwyr-halogir y tir hwnnw? ond ti a butteiniaist *gyd â* chyfeillion lawer; etto dychwel attaf fi, medd yr ARGLWYDD.

2 Dyrchafa dy lygaid i'r lleoedd uchel, ac edrych pa le ni phuttein-iaist. Ti a eisteddaist ar y ffyrdd iddynt hwy, megis Arabiad yn yr anialwch; ac a halogaist y tir â'th butteindra, ac â'th ddrygioni.

3 Am hynny yr attaliwyd y cafodydd, ac ni bu gwlaw diweddar; a thalcen putteinwraig oedd i ti; gwrthodaist gywilyddio.

4 Oni lefi di arnaf fi o hyn allan, Fy nhad, ti *yw* tywysog fy ieuengctid?

5 A ddeil efe *ei ddig* byth? a'*i* ceidw yn dragywydd? Wele, dywedaist a gwnaethost yr hyn oedd ddrwg hyd y gellaist.

6 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf yn amser Josïah y brenhin, A welaist ti hyn a wnaeth Israel wrthnysig? Hi a aeth i bob mynydd uchel, a than bob pren deiliog, ac a butteiniodd yno.

7 A mi a ddywedais, wedi iddi wneuthur hyn i gyd, Dychwel attaf fi. Ond ni ddychwelodd. A Judah ei chwaer anffyddlawn hi a welodd *hynny.*

8 A gwelais yn dda, am yr achosion oll y putteiniodd Israel wrthnysig, ollwng o honof hi ymaith, ac a roddais iddi ei llythyr ysgar: ef hyn ni ofnodd Judah ei chwaer anffyddlawn; eithr aeth a phutteiniodd hithau hefyd.

9 A chan ysgafnder ei phuttein-

dra yr halogodd hi y tir; canys gyd â'r maen a'r pren y putteiniodd hi.

10 Ac er hyn oll hefyd ni ddychwelodd Judah ei chwaer anffyddlawn attaf fi â'i holl galon, eithr mewn rhagrith, medd yr ARGLWYDD.

11 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Israel wrthnysig a'i cyfiawnhaodd ei hun rhagor Judah anffyddlawn.

12 ¶ Cerdda, a chyhoedda y geiriau hyn tu a'r gogledd, a dywed, Ti Israel wrthnysig, dychwel, medd yr ARGLWYDD, *ac* ni adawaf i'm llid syrthio arnoch: canys trugarog *ydwyf* fi, medd yr ARGLWYDD, ni ddaliaf *lid* yn dragywydd.

13 Yn unig cydnebydd dy anwiredd, droseddu o honot yn erbŷn yr ARGLWYDD dy DDUW, a gwasgaru o honot dy ffyrdd i ddïeithriaid dan bob pren deiliog, ac ni wrandawech ar fy llef, medd yr ARGLWYDD.

14 Trowch, chwi blant gwrthnysig, medd yr ARGLWYDD; canys myfi a'ch priodais chwi: a mi a'ch cymmeraf chwi, un o ddinas, a dau o deulu, ac a'ch dygaf chwi i Sïon:

15 Ac a roddaf i chwi fugeiliaid wrth *fodd* fy nghalon, y rhai a'ch porthant chwi â gwybodaeth, ac â deall.

16 Ac wedi darfod i chwi amlhâu a chynnyddu ar y ddaear, yn y dyddiau hynny, medd yr ARGLWYDD, ni ddywedant mwy, Arch cyfammod yr ARGLWYDD; ac nis meddwl calon am dani, ac ni chofir hi; nid ymwelant â *hi* chwaith, ac ni wneir *hynny* mwy.

17 Yn yr amser hwnnw y galwant Jerusalem yn orseddfa yr ARGLWYDD; ac y cesglir atti yr holl genhedloedd, at enw yr ARGLWYDD, i Jerusalem: ac ni rodiant mwy yn ol cildynrwydd eu calon ddrygionus.

18 Yn y dyddiau hynny y rhodia tŷ Judah gyd â thŷ Israel, a hwy a ddeuant ynghyd, o dir y gogledd, i'r tir a roddais i yn etifeddiaeth i'ch tadau chwi.

19 Ond mi a ddywedais, Pa fodd y'th osodaf ym mhlith y plant, ac y rhoddaf i ti dir dymunol, *sef* etifeddiaeth ardderchog lluoedd y cenhedloedd? ac a ddywedais, Ti a elwi arnaf fi, Fy nhad, ac ni throi ymaith oddi ar fy ol i.

20 ¶ Yn ddïau *fel* yr anffyddlona gwraig oddi wrth ei chyfaill; felly, tŷ Israel, y buoch anffyddlawn i mi, medd yr ARGLWYDD.

21 Llef a glywyd yn y mannau uchel, wylofain *a* dymuniadau meibion Israel: canys gŵyrasant eu ffordd, *ac* anghofiasant yr ARGLWYDD eu DUW.

22 Ymchwelwch, feibion gwrthnysig, *a* mi a iachâf eich gwrthnysigrwydd chwi. Wele ni yn dyfod attat ti; oblegid ti *yw* yr ARGLWYDD ein DUW.

23 Dïau *fod* yn ofer *ymddiried am help* o'r bryniau, *ac o* liaws y mynyddoedd: dïau *fod* iachawdwriaeth Israel yn yr ARGLWYDD ein DUW ni.

24 Canys gwarth a ysodd lafur ein tadau o'n hieuengctid; eu defaid a'u gwartheg, eu meibion a'u merched.

25 Gorwedd yr ydym yn ein cywilydd, a'n gwarth a'n tôdd ni: canys yn erbyn yr ARGLWYDD ein DUW y pechasom, nyni a'n tadau, o'n hieuengctid hyd y dydd heddyw, ac ni wrandawsom ar lais yr ARGLWYDD ein DUW.

PENNOD 4.

1 *Duw yn galw Israel trwy ei addewid;* 3 *yn annog Judah i edifarhâu trwy farnedigaethau ofnadwy.* 19 *Tostur gwynfan am drueni Judah.*

ISRAEL, os dychweli, dychwel attaf fi, medd yr ARGLWYDD: hefyd os rhoi heibio dy ffieidd-dra oddi ger fy mron, yna ni'th symmudir.

2 A thi a dyngi, Byw *yw* yr ARGLWYDD, mewn gwirionedd, mewn barn, ac mewn cyfiawnder: a'r cenhedloedd a ymfendithiant ynddo; ïe, ynddo ef yr ymglodforant.

3 ¶ Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD wrth wŷr Judah, ac wrth Jerusalem: Braenerwch i chwi fraenar, ac na heuwch mewn drain.

4 Ymenwaedwch i'r ARGLWYDD, a rhoddwch heibio ddïenwaediad eich calon, chwi gwŷr Judah, a thrigolion Jerusalem: rhag i'm

digofaint ddyfod allan fel tân, a llosgi fel na *byddo* diffoddydd, o herwydd drygioni eich amcanion.

5 Mynegwch yn Judah, a chyhoeddwch yn Jerusalem, a dywedwch, Udgenwch udgorn yn y tir: gwaeddwch, ymgesglwch, a dywedwch, Ymgynhullwch, ac awn i'r dinasoedd caerog.

6 Codwch faner tu a Sïon; ffowch, ac na sefwch; canys mi a ddygaf ddrwg o'r gogledd, a dinystr mawr.

7 Y llew a ddaeth i fyny o'i loches, a difethwr y Cenhedloedd a gychwynodd, ac a aeth allan o'i drigle, i wneuthur dy dir yn orwag; *a*'th ddinasoedd a ddinystrir heb drigiannydd.

8 Am hyn ymwregyswch â llïan sach; galerwch ac udwch: canys angerdd llid yr ARGLWYDD ni throes oddi wrthym ni.

9 Ac yn y dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD, y derfydd am galon y brenhin, ac am galon y pennaethiaid: yr offeiriaid hefyd a synnant, a'r prophwydi a ryfeddant.

10 Yna y dywedais, O ARGLWYDD DDUW, yn sicr gan dwyllo ti a dwyllaist y bobl yma a Jerusalem, gan ddywedyd, Bydd heddwch i chwi; ac etto fe ddaeth y cleddyf hyd at yr enaid.

11 Yn yr amser hwnnw y dywedir wrth y bobl hyn, ac wrth Jerusalem, Gwynt sych yr uchel-leoedd yn y diffaethwch tu a merch fy mhobl, nid i nithio, ac nid i buro;

12 Gwynt llawn o'*r lleoedd* hynny a ddaw attaf fi: weithian hefyd myfi a draethaf farn yn eu herbyn hwy.

13 Wele, megis cymmylau y daw i fyny, a'i gerbydau megis corwynt: ei feirch sydd ysgafnach na'r eryrod. Gwae nyni! canys ni a anrheithiwyd.

14 O Jerusalem, golch dy galon oddi wrth ddrygioni, fel y byddech gadwedig: pa hyd y llettŷi o'th fewn goeg amcanion?

15 Canys llef sydd yn mynegi allan o Dan, ac yn cyhoeddi cystudd allan o fynydd Ephraim.

16 Coffêwch i'r cenhedloedd, wele, cyhoeddwch yn erbyn Jerusalem, ddyfod gwylwyr o wlad bell, a llefaru yn erbyn dinasoedd Judah.

17 Megis ceidwaid maes y maent o amgylch yn ei herbyn; am iddi fy niglloni, medd yr ARGLWYDD.

18 Dy ffordd di a'th amcanion a wnaethant hyn i ti: dyma dy ddrygioni di; am ei fod yn chwerw, am ei fod yn cyrhaeddyd hyd at dy galon di.

19 ¶ Fy mol, fy mol; gofidus wyf o barwydenau fy nghalon; mae fy nghalon yn terfysgu ynof: ni allaf dewi, am i ti glywed sain yr udgorn, O fy enaid, *a* gwaedd rhyfel.

20 Dinystr ar ddinystr a gyhoeddwyd; canys yr holl dir a anrheithiwyd: yn ddisymmwth y distrywiwyd fy lluestai i, *a*'m cortenni yn ddïattreg.

21 Pa hyd y gwelaf faner, *ac* y clywaf sain yr udgorn?

22 Canys *y mae* fy mhobl i yn ynfyd heb fy adnabod i; meibion anghall *ydynt*, ac nid deallgar hwynt: *y maent* yn synhwyrol i wneuthur drwg, eithr gwneuthur da ni fedrant.

23 Mi a edrychais ar y ddaear, ac wele, afluniaidd a gwag *oedd;* ac ar y nefoedd, a goleuni nid *oedd* ganddynt.

24 Mi a edrychais ar y mynyddoedd, ac wele, yr oeddynt yn crynu; a'r holl fryniau a ymysgydwent.

25 Mi a edrychais, ac wele, nid *oedd* dyn, a holl adar y nefoedd a giliasent.

26 Mi a edrychais, ac wele y doldir yn anialwch, a'i holl ddinasoedd a ddistrywiasid o flaen yr ARGLWYDD, gan lidiowgrwydd ei ddigter ef.

27 Canys fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD, Y tir oll fydd diffaethwch: ac etto ni wnaf ddiben.

28 Am hynny y galara y ddaear, ac y tywylla y nefoedd oddi uchod: o herwydd dywedyd o honof fi, Mi a'*i* bwriedais, ac ni bydd edifar gennyf, ac ni throaf oddi wrtho.

29 Rhag trwst y gwŷr meirch a'r saethyddion y ffy yr holl ddinas; hwy a ânt i'r dyrysni, ac a ddringant ar y creigiau: yr holl ddinasoedd a adewir, ac heb neb a drigo ynddynt.

30 A thithau yr anrheithiedig, beth a wnei? Er ymwisgo o honot âg ysgarlad, er i ti ymdrwsio â thlysau aur, er i ti liwio dy wyneb

â lliwiau, yn ofer y'th wnei dy hun yn dêg; *dy* gariadau a'th ddirmygant, *ac* a geisiant dy einioes.

31 Canys clywais lef megis gwraig yn esgor, cyfyngder fel benyw yn esgor ar ei hetifedd cyntaf, llef merch Sïon yn ochain, *ac* yn lledu ei dwylaw, *gan ddywedyd*, Gwae fi yr awr hon! oblegid diffygiodd fy enaid gan leiddiaid.

PENNOD 5.

1 *Barnedigaethau Duw ar yr Iuddewon, am eu gwrthnysigrwydd, 7 am eu godineb,* 10 *am eu hannuwioldeb,* 19 *am idiynt ddirystyru Duw,* 25 *am eu mawr lygredigaeth yn eu llywodraeth fydol* 30 *ac eglwysig.*

RHEDWCH yma a thraw ar hyd heolydd Jerusalem, ac edrychwch yr awr hon, mynnwch wybod hefyd, a cheisiwch yn ei heolydd hi, o chewch ŵr, a oes â wnel farn, a gais wirionedd, a myfi a'i harbedaf hi.

2 Ac er dywedyd o honynt, Byw yw yr ARGLWYDD, etto yn gelwyddog y tyngant.

3 O ARGLWYDD, onid ar y gwirionedd *y mae* dy lygaid di? ti a'u tarewaist hwynt, ac nid ymofidiasant; difeaist hwynt, *eithr* gwrthodasant dderbyn cerydd: hwy a wnaethant eu hwynebau yn galettach na chraig, gwrthodasant ddychwelyd.

4 A mi a ddywedais, Yn sicr tlodion *ydyw* y rhai hyn, ynfydion ydynt: canys nid adwaenant ffordd yr ARGLWYDD, *na* barn eu DUW.

5 Mi a âf rhagof at y gwŷr mawr, ac a ymddiddanaf â hwynt; canys hwy a wybuant ffordd yr ARGLWYDD, *a* barn eu DUW: eithr y rhai hyn a gyd-dorrasant yr iau, *ac* a ddrylliasant y rhwymau.

6 Oblegid hyn llew o'r coed a'u tery hwy, blaidd o'r anialwch a'u distrywia hwy, llewpard a wylia ar eu dinasoedd hwy: pawb a'r a ddêl allan o honynt a rwygir: canys eu camweddau a amlhasant, eu gwrthdrofeydd a chwanegasant.

7 ¶ Pa fodd y'th arbedwn am hyn? dy blant a'm gadawsant i, ac a dyngasant i'r *rhai* nid *ydynt* dduwiau: a phan ddiwellais hwynt, gwnaethant odineb, ac a heidiasant i dŷ y buttain.

8 Oeddynt *fel* meirch porthiannus y bore; gweryrent bob un ar wraig ei gymmydog.

9 Onid ymwelaf am *y pethau* hyn? medd yr ARGLWYDD: oni ddïal fy enaid ar gyfryw genedl a hon?

10 ¶ Dringwch ar ei muriau hi, a distrywiwch, ond na orphenwch yn llwyr: tynnwch ymaith ei murganllawiau hi; canys nid eiddo yr ARGLWYDD *ydynt*.

11 Oblegid tŷ Israel a thŷ Judah a wnaethant yn anffyddlawn iawn â mi, medd yr ARGLWYDD.

12 Celwyddog fuant yn erbyn yr ARGLWYDD, a dywedasant, Nid efe *yw;* ac ni ddaw drygfyd arnom, ac ni welwn gleddyf na newyn:

13 A'r prophwydi a fuant fel gwynt, a'r gair nid *yw* ynddynt: fel hyn y gwneir iddynt hwy.

14 Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW y lluoedd, Am i chwi ddywedyd y gair hwn, wele fi yn rhoddi fy ngeiriau yn dy enau di yn dân, a'r bobl hyn yn gynnud, ac efe a'u difa hwynt.

15 Wele, mi a ddygaf arnoch chwi, tŷ Israel, genedl o bell, medd yr ARGLWYDD: cenedl nerthol *ydyw*, cenedl *a fu* er ys talm, cenedl ni wyddost ei hiaith, ac ni ddealli beth a ddywedant.

16 Ei chawell saethau hi *sydd* fel bedd agored, cedyrn *ydynt* oll.

17 A hi a fwytty dy gynhauaf di, a'th fara, *yr hwn* a gawsai dy feibion di a'th ferched ei fwytta: hi a fwytty dy ddefaid di a'th wartheg; hi a fwytty dy winwydd a'th ffigyswydd: dy ddinasoedd cedyrn, y rhai yr wyt yn ymddiried ynddynt, a dloda hi â'r cleddyf.

18 Ac er hyn, yn y dyddiau hynny, medd yr ARGLWYDD, ni wnaf fi gwbl ben â chwi.

19 ¶ A bydd pan ddywedoch, Paham y gwna yr ARGLWYDD ein DUW hyn oll i ni? ddywedyd o honot tithau wrthynt, Megis y gwrthodasoch fi, ac y gwasanaethasoch dduwiau dïeithr yn eich tir eich hun; felly y gwasanaethwch ddïeithriaid mewn tir ni *byddo* eiddo chwi.

20 Mynegwch hyn yn nhŷ Jacob, a chyhoeddwch hyn yn Judah, gan ddywedyd,

21 Gwrando hyn yn awr, ti bobl

ynfyd ac heb ddeall; y rhai y mae llygaid iddynt, ac ni welant; *a chlustiau* iddynt, ac ni chlywant:

22 Onid ofnwch chwi fi? medd yr ARGLWYDD: oni chrynwch rhag fy mron, yr hwn a osodais y tywod *yn* derfyn i'r môr *trwy* ddeddf dragywyddol, fel nad elo dros hwnnw; er i'r tonnau ymgyrchu, etto ni thyccia iddynt; er iddynt derfysgu, etto ni ddeuant dros hwnnw?

23 Eithr i'r bobl hyn y mae calon wrthnysig ac anufuddgar: hwynthwy a giliasant, ac a aethant *ymaith.*

24 Ac ni ddywedant yn eu calon, Ofnwn weithian yr ARGLWYDD ein DUW, yr hwn sydd yn rhoi y gwlaw cynnar a'r diweddar yn ei amser: *efe* a geidw i ni ddefodol wythnosau y cynhauaf.

25 ¶ Eich anwireddau chwi a droes heibio y rhai hyn, a'ch pechodau chwi a attaliasant ddaioni oddi wrthych.

26 Canys ym mysg fy mhobl y ceir anwiriaid, y rhai a wyliant megis *un* yn gosod maglau: gosodant offer dinystr, dynion a ddaliant.

27 Fel cawell yn llawn o adar, felly *y mae* eu tai hwynt yn llawn o dwyll: am hynny y cynnyddasant, ac yr ymgyfoethogasant.

28 Tewychasant, disgleiriasant, aethant hefyd tu hwnt i weithredoedd y drygionus; ni farnant farn yr amddifad, etto ffynnasant; ac ni farnant farn yr anghenus.

29 Onid ymwelaf am *y pethau* hyn? medd yr ARGLWYDD; oni ddïal fy enaid ar gyfryw genedl a hon?

30 ¶ Peth aruthr ac erchyll a wnaed yn y tir:

31 Y prophwydi a brophwydant gelwydd, yr offeiriaid hefyd a lywodraethant trwy eu gwaith hwynt; a'm pobl a hoffant *hynny:* etto beth a wnewch yn niwedd hyn?

PENNOD 6.

1 Y gelynion a yrrwyd yn erbyn Judah, 4 yn ymgysuro. 6 Duw yn gosod y gelynion ar waith o herwydd pechodau ei bobl. 9 Y prophwyd yn cwyno rhag barnedigaethau Duw o herwydd eu pechodau hwy: 18 yn cyhoeddi digofaint Duw: 26 yn galw y bobl i alaru, o herwydd barnedigaethau Duw am eu pechodau hwy.

YMGYNHULLWCH i ffoi, meibion Benjamin, o ganol Jerusalem, ac yn Tecoa udgenwch udgorn; a chodwch ffagl yn Bethhaccerem: canys drwg a welir o'r gogledd, a dinystr mawr.

2 Cyffelybais ferch Sïon i *wraig* dêg foethus.

3 Atti hi y daw y bugeiliaid â'u dïadellau: yn ei herbyn hi o amgylch y gosodant *eu* pebyll; porant bob un yn ei le.

4 Parottôwch ryfel yn ei herbyn hi; codwch, ac awn i fyny ar hanner dydd. Gwae ni! o herwydd ciliodd y dydd, canys cysgodau yr hwyr a ymestynasant.

5 Codwch, ac awn i fyny o *hyd* nos, a distrywiwn ei phalasau hi.

6 ¶ Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, Torrwch goed, a chodwch glawdd yn erbyn Jerusalem. Dyma y ddinas *sydd* i ymweled â hi; gorthrymder *yw* hi oll o'i mewn.

7 Megis y gwna ffynnon i'w dwfr darddu allan, felly y mae hi yn bwrw allan ei drygioni: trais ac yspail a glywir ynddi; gofid a dyrnodiau *sydd yn* wastad ger fy mron.

8 Cymmer addysg, O Jerusalem, rhag i'm henaid i ymadaw oddi wrthyt; rhag i mi dy osod di yn anrhaith, yn dir anghyfanneddol.

9 ¶ Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, Gan loffa y lloffant weddill Israel fel gwinwydden; tro dy law yn ei hol, megis casglydd grawnwin i'r basgedau.

10 Wrth bwy y dywedaf fi, a phwy a rybuddiaf, fel y clywant? Wele, eu clust hwy *sydd* ddïenwaededig, ac ni allant wrandaw: wele, dirmygus ganddynt air yr ARGLWYDD; nid oes ganddynt ewyllys iddo.

11 Am hynny yr ydwyf fi yn llawn o lid yr ARGLWYDD; blinais yn ymattal: tywalltaf ef ar y plant yn yr heol, ac ar gynnulleidfa y gwŷr ieuainge hefyd: canys y gŵr a'r wraig a ddèlir, yr henwr a'r llawn o ddyddiau.

12 A'u tai a ddigwyddant i eraill, *eu* meusydd a'*u* gwragedd hefyd: canys estynaf fy llaw ar drigolion y wlad, medd yr ARGLWYDD.

13 Oblegid o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf, pob un sydd yn ymrôi i gybydd-dod: ac o'r prophwyd

hyd yr offeiriad, pob un sydd yn gwneuthur ffalsder.

14 A hwy a iachasant friw *merch* fy mhobl i yn esmwyth, gan ddywedyd, Heddwch, heddwch; er nad *oedd* heddwch.

15 A ydoedd arnynt hwy gywilydd pan wnelent ffieidd-dra? nid ydoedd arnynt hwy ddim cywilydd, ac ni fedrent wrido: am hynny y cwympant ym mysg y rhai a gwympant; yn yr amser yr ymwelwyf â hwynt y cwympant, medd yr ARGLWYDD.

16 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Sefwch ar y ffyrdd, ac edrychwch, a gofynwch am yr hen lwybrau, lle *mae* ffordd dda, a rhodiwch ynddi; a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau. Ond hwy a ddywedasant, Ni rodiwn ni *ynddi*.

17 A mi a osodais wylwyr arnoch chwi, *gan ddywedyd*, Gwrandêwch ar sain yr udgorn. Hwythau a ddywedasant, Ni wrandâwn ni ddim.

18 ¶ Am hynny clywch, genhedloedd: a thi gynnulleidfa, gwybydd pa bethau sydd yn eu plith hwynt.

19 Gwrando, tydi y ddaear; wele fi yn dwyn drygfyd ar y bobl hyn, *sef* ffrwyth eu meddyliau eu hunain; am na wrandawsant ar fy ngeiriau, na'm cyfraith, eithr gwrthodasant hi.

20 I ba beth y daw i mi thus o Seba, a chalamus peraidd o wlad bell? eich poeth-offrymmau nid *ydynt* gymmeradwy, ac nid melus eich aberthau gennyf.

21 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele fi yn rhoddi tramgwyddiadau i'r bobl hyn, fel y tramgwyddo wrthynt y tadau a'r meibion ynghyd; cymmydog a'i gyfaill a ddifethir.

22 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele bobl yn dyfod o dir y gogledd, a chenedl fawr a gyfyd o ystlysau y ddaear.

23 Yn y bwa a'r waywffon yr ymaflant; creulawn *ydynt*, ac ni chymmerant drugaredd: eu llais a rua megis y môr, ac ar feirch y marchogant yn daclus, megis gwŷr i ryfel yn dy erbyn di, merch Sion.

24 Clywsom sôn am danynt; ein dwylaw a laesasant; blinder a'n daliodd, fel gofid gwraig yn esgor.

25 Na ddos allan i'r maes, ac na rodia ar hyd y ffordd: canys cleddyf y gelyn *ac* arswyd *sydd* oddi amgylch.

26 ¶ Merch fy mhobl, ymwregysa â sachlian, ac ymdroa yn y lludw; gwna i ti gwynfan *a* galar tost, *megis am* unig *fab:* canys y distrywiwr a ddaw yn ddisymmwth arnom ni.

27 Mi a'th roddais di yn dŵr *ac* yn gadernid ym mysg fy mhobl, i wybod ac i brofi eu ffordd hwy.

28 Cyndyn o'r fath gyndynnaf *ydynt* oll, yn rhodio âg enllib; efydd a haiarn *ŷnt;* llygru y maent hwy oll.

29 Llosgodd y fegin; gan dân y darfu y plwm; yn ofer y toddodd y toddydd: canys ni thynnwyd y rhai drygionus ymaith.

30 Yn arian gwrthodedig y galwant hwynt; am wrthod o'r ARGLWYDD hwynt.

PENNOD 7.

1 *Anfon Jeremiah i alw am wir edifeirwch, i luddias y caethiwed.* 8 *Y mae yn llysu eu hofer ymddiried hwy,* 13 *trwy esampl Siloh.* 17 *Y mae yn eu bynwth am eu deiw-addoliaeth:* 21 *yn llysu ebyrth yr anufudd:* 29 *yn eu hannog i alaru, o achos eu ffeidd-dra yn Tophet,* 32 *a'r barnedigaethau a ddeuai am hynny.*

YGAIR yr hwn a ddaeth at Jeremiah oddi wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

2 Saf di ym mhorth tŷ yr ARGLWYDD, a chyhoedda y gair hwn yno, a dywed, Gwrandêwch air yr ARGLWYDD, *chwi* holl Judah, y rhai a ddeuwch i mewn trwy y pyrth hyn i addoli yr ARGLWYDD.

3 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, Gwellhêwch eich ffyrdd, a'ch gweithredoedd; ac mi a wnaf i chwi drigo yn y man yma.

4 Nac ymddiriedwch mewn geiriau celwyddog, gan ddywedyd, Teml yr ARGLWYDD, teml yr ARGLWYDD, teml yr ARGLWYDD *ydynt.*

5 Canys os gan wellhâu y gwellhêwch eich ffyrdd a'ch gweithredoedd; os gan wneuthur y gwnewch farn rhwng gŵr a'i gymmydog;

6 *Ac* ni orthrymmwch y dieithr, yr amddifad, a'r weddw; ac ni

thywelltwch waed gwirion yn y fan hon; ac ni rodiwch ar ol duwiau dïeithr, i'ch niwed eich hun;
7 Yna y gwnaf i chwi drigo yn y fan hon, yn y tir a roddais i'ch tadau chwi, yn oes oesoedd.
8 ¶ Wele chwi yn ymddiried mewn geiriau celwyddog ni wnant les.
9 Ai yn lladratta, yn lladd, ac yn godinebu, a thyngu anudon, ac arogl-darthu i Baal, a rhodio ar ol duwiau dïeithr, y rhai nid adwaenoch;
10 Y deuwch ac y sefwch ger fy mron i yn y tŷ hwn, yr hwn y gelwir fy enw i arno, ac y dywedwch, Rhyddhâwyd ni i wneuthur y ffieidd-dra hyn oll?
11 Ai yn lloches lladron yr aeth y tŷ yma, ar yr hwn y gelwir fy enw i, ger bron eich llygaid? wele, minnau a welais *hyn*, medd yr ARGLWYDD.
12 Eithr, attolwg, ewch i'm lle, yr hwn *a fu* yn Siloh, lle y gosodais fy enw ar y cyntaf, ac edrychwch beth a wneuthum i hwnnw, o herwydd anwiredd fy mhobl Israel.
13 Ac yn awr, am wneuthur o honoch yr holl weithredoedd hyn, medd yr ARGLWYDD, minnau a leferais wrthych, gan godi yn fore, a llefaru, etto ni chlywsoch; a gelwais arnoch, ond nid attebasoch:
14 Am hynny y gwnaf i'r *tŷ hwn* y gelwir fy enw arno, yr hwn yr ydych yn ymddiried ynddo, ac i'r lle a roddais i chwi ac i'ch tadau, megis y gwneuthum i Siloh.
15 A mi a'ch taflaf allan o'm golwg, fel y teflais eich holl frodyr, *sef* holl had Ephraim.
16 Am hynny na weddïa dros y bobl hyn, ac na ddyrchafa waedd na gweddi drostynt, ac nac eiriol arnaf: canys ni'th wrandawaf.
17 ¶ Oni weli di beth y maent hwy yn ei wneuthur yn ninasoedd Judah, ac yn heolydd Jerusalem?
18 Y plant sydd yn casglu cynnud, a'r tadau yn cynneu tân, a'r gwragedd yn tylino toes, i wneuthur teisennau i frenhines y nef, ac i dywallt dïod-offrymmau i dduwiau dïeithr, i'm digio i.
19 Ai fi y maent hwy yn ei ddigio? medd yr ARGLWYDD: ai hwynt eu hun, er cywilydd i'w hwynebau eu hun?
20 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW, Wele, fy llid a'm digofaint a dywelltir ar y man yma, ar ddyn ac ar anifail, ar goed y maes, ac ar ffrwyth y ddaear; ac efe a lysg, ac nis diffoddir.
21 ¶ Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Rhoddwch eich poeth-offrymmau at eich aberthau, a bwyttêwch gig.
22 Canys ni ddywedais i wrth eich tadau, ac ni orchymynais iddynt, y dydd y dygais hwynt o dir yr Aipht, am boeth-offrymmau neu aberthau:
23 Eithr y peth hyn a orchymynais iddynt, gan ddywedyd, Gwrandêwch ar fy llef, a mi a fyddaf DDUW i chwi, a chwithau fyddwch yn bobl i minnau; a rhodiwch yn yr holl ffyrdd a orchymynais i chwi, fel y byddo yn ddaionus i chwi.
24 Eithr ni wrandawsant, ac ni ostyngasant eu clust, ond rhodiasant yn ol cynghorion *a* childynrwydd eu calon ddrygionus; ac aethant yn ol, ac nid ym mlaen.
25 O'r dydd y daeth eich tadau chwi allan o wlad yr Aipht hyd y dydd hwn, mi a ddanfonais attoch fy holl wasanaethwyr y prophwydi, *bob* dydd gan fore-godi, ac anfon:
26 Er hynny ni wrandawsant arnaf fi, ac ni ostyngasant eu clust, eithr caledasant eu gwarrau; gwnaethant yn waeth na'u tadau.
27 Am hynny ti a ddywedi y geiriau hyn oll wrthynt; ond ni wrandawant arnat: gelwi hefyd arnynt; ond nid attebant di.
28 Eithr ti a ddywedi wrthynt, Dyma genedl ni wrendy ar lais yr ARGLWYDD ei DUW, ac ni dderbyn gerydd: darfu am y gwirionedd, a thorrwyd hi ymaith o'u genau hwynt.
29 ¶ Cneifia dy wallt, *O Jerusalem*, a bwrw i ffordd; a chyfod gwynfan ar y lleoedd uchel: canys yr ARGLWYDD a fwriodd i ffordd ac a wrthododd genhedlaeth ei ddigofaint.
30 Canys meibion Judah a wnaethant ddrwg yn fy ngolwg, medd yr

ARGLWYDD: gosodasant eu ffieidd-dra yn y tŷ yr hwn y gelwir fy enw arno, i'w halogi ef.

31 A hwy a adeiladasant uchelfeydd Tophet, yr hon *sydd* y'nglyn mab Hinnom, i losgi eu meibion a'u merched yn tân, yr hyn ni orchymynais, ac ni feddyliodd fy nghalon.

32 ¶ Am hynny wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, na elwir hi mwy Tophet, na glyn mab Hinnom, namyn glyn lladded-igaeth; canys claddant o fewn Tophet, nes bod eisieu lle.

33 A bydd celanedd y bobl hyn yn fwyd i adar y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaear; ac ni *bydd* a'*u* tarfo.

34 Yna y gwnaf i lais llawenydd, a llais digrifwch, llais prïodfab, a llais prïodferch, ddarfod allan o ddinasoedd Judah, ac o heolydd Jerusalem; canys yn anrhaith y bydd y wlad.

PENNOD 8.

1 *Gofid yr Iuddewon, yn fyw ac yn farw.* 4 *Y mae yn edliw iddynt eu hynfyd a'u digywilydd anedifeirwch:* 13 *yn dangos y farn dost a gaent hwy,* 18 *ac yn cwyno eu henbyd gyfwir hwy.*

YN yr amser hwnnw, medd yr ARGLWYDD, y dygant hwy esgyrn brenhinoedd Judah, ac esgyrn ei dywysogion, ac esgyrn yr offeiriaid, ac esgyrn y prophwydi, ac esgyrn trigolion Jerusalem, allan o'u beddau.

2 A hwy a'u taenant o flaen yr haul, ac o flaen y lleuad, a holl lu y nefoedd y rhai a garasant hwy, a'r rhai a wasanaethasant, a'r rhai y rhodiasant ar eu hol, a'r rhai a geisiasant, a'r rhai a addolasant: ni chesglir hwynt, ac nis cleddir; yn dommen ar wyneb y ddaear y byddant.

3 Ac angau a ddewisir o flaen bywyd gan yr holl weddillion a adewir o'r teulu drwg hwn, y rhai a adewir yn y lleoedd oll y gyrrais i hwynt yno, medd ARGLWYDD y lluoedd.

4 ¶ Ti a ddywedi wrthynt hefyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; A gwympant hwy, ac ni chodant? a dry efe ymaith, ac oni ddychwel?

5 Paham y ciliodd pobl Jerusalem yma yn eu hol âg encil tragywyddol? glynasant mewn twyll, gwrthodasant ddychwelyd.

6 Mi a wrandewais ac a glywais, *ond* ni ddywedent yn iawn: nid edifarhaodd neb am ei anwiredd, gan ddywedyd, Beth a wneuthum i? pob un oedd yn troi i'w yrfa, megis march yn rhuthro i'r frwydr.

7 Ië, y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau; y durtur hefyd, a'r aran, a'r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad; eithr fy mhobl i ni wyddant farn yr ARGLWYDD.

8 Pa fodd y dywedwch, Doethion *ydym* ni, a chyfraith yr ARGLWYDD *sydd* gyd â ni? wele, yn ddïau ofer y gwnaeth *hi;* ofer *yw* pin yr ysgrifenyddion.

9 Y doethion a waradwyddwyd, a ddychrynwyd, ac a ddaliwyd: wele, gwrthodasant air yr ARGLWYDD; a pha ddoethineb *sydd* ynddynt?

10 Am hynny y rhoddaf eu gwragedd hwynt i eraill, *a*'u meusydd i'r rhai a'*u* meddianno: canys o'r lleiaf hyd y mwyaf, pob un sydd yn ymrôi i gybydd-dod; o'r prophwyd hyd at yr offeiriad, pawb sydd yn gwneuthur ffalsder.

11 Iachasant hefyd archoll merch fy mhobl yn ysgafn, gan ddywedyd, Heddwch, heddwch; pryd nad *oedd* heddwch.

12 A fu gywilydd arnynt hwy pan wnaethant ffieidd-dra? na fu ddim cywilydd arnynt, ac ni fedrasant wrido: am hynny y syrthiant ym mysg y rhai a syrthiant: yn amser eu hymweliad y syrthiant, medd yr ARGLWYDD.

13 ¶ Gan ddifa y difaf hwynt, medd yr ARGLWYDD; ni *bydd* grawnwin ar y winwydden, na ffigys ar y ffigysbren, a'r ddeilen a syrth; a'*r hyn* a roddais iddynt a ymedy â hwynt.

14 Paham yr ydym ni yn aros? ymgesglwch ynghyd, ac awn i'r dinasoedd cedyrn, a distâwn yno: canys yr ARGLWYDD ein DUW a'n gostegodd, ac a roes i ni ddwfr bustl i'w yfed, o herwydd pechu o honom yn erbyn yr ARGLWYDD.

15 Disgwyl yr oeddym am heddwch, etto ni *ddaeth* daioni; am amser meddyginiaeth, ac wele ddychryn.

16 O Dan y clywir ffroeniad ei feirch ef; gan lais gweryriad ei gedyrn ef y crynodd yr holl ddaear: canys hwy a ddaethant, ac a fwyttasant y tir, ac oll a oedd ynddo; y ddinas a'r rhai sydd yn trigo ynddi.

17 Canys wele, mi a ddanfonaf seirph, aspiaid i'ch mysg, y rhai nid *oes* swyn rhagddynt: a hwy a'ch brathant chwi, medd yr ARGLWYDD.

18 ¶ *Pan* ymgysurwn yn erbyn gofid, fy nghalon *sydd* yn gofidio ynof.

19 Wele lais gwaedd merch fy mhobl, oblegid y rhai o wlad bell: Onid *ydyw* yr ARGLWYDD yn Sïon? onid *yw* ei brenhin hi ynddi? paham y'm digiasant â'u delwau cerfiedig, *ac* âg oferedd dïeithr?

20 Y cynhauaf a aeth heibio, darfu yr haf, ac nid ydym ni gadwedig.

21 Am friw merch fy mhobl y'm briwwyd i: galerais; daliodd synder fi.

22 Onid *oes* drïagl yn Gilead? onid *oes* yno physygwr? paham na wellhâ iechyd merch fy mhobl?

PENNOD 9.

1 Jeremïah yn cwynfan o achos amryw bechodau yr Iuddewon, â'u barnedigaethau. 12 Anufudd-dod yw achos eu chwerw ofid hwy. 17 Y mae yn eu hannog i gwynfan o achos eu dinystr: 23 ac i hyderu, nid arnynt eu hunain, ond ar Dduw. 25 Y mae yn bygwth Iuddewon a Chenhedloedd hefyd.

ONA bai fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynnon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nos am laddedigion merch fy mhobl!

2 O na byddai i mi yn yr anialwch letty fforddolion, fel y gadâwn fy mhobl, ac yr elwn oddi wrthynt! canys hwynt oll *ydynt* odinebus, *a* chymmanfa anffyddloniaid.

3 A hwy a annelasant eu tafod *fel* eu bwa *i* gelwydd; ac nid at wirionedd yr ymgryfhasant ar y ddaear: canys aethant o ddrwg i ddrwg, ac nid adnabuant fi, medd yr ARGLWYDD.

4 Gochelwch bawb ei gymmydog, ac na choelied neb ei frawd: canys pob brawd gan ddisodli a ddisodla, a phob cymmydog a rodia yn dwyllodrus.

5 Pob un hefyd a dwylla ei gymmydog, a'r gwir nis dywedant: hwy a ddysgasant eu tafodau i ddywedyd celwydd, ymflinasant yn gwneuthur anwiredd.

6 Dy drigfan *sydd* y'nghanol twyll: o herwydd twyll y gwrthodasant fy adnabod i, medd yr ARGLWYDD.

7 Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Wele fi yn eu toddi hwynt, ac yn eu profi hwynt: canys pa wedd y gwnaf o herwydd merch fy mhobl?

8 Saeth lem *yw* eu tafod hwy, yn dywedyd twyll: â'i enau y traetha *un* heddwch wrth ei gymmydog, eithr o'i fewn y gesyd gynllwyn iddo.

9 ¶ Onid ymwelaf â hwynt am hyn? medd yr ARGLWYDD: oni ddïal fy enaid ar gyfryw genedl a hon?

10 Dros y mynyddoedd y codaf wylofain a chwynfan, a galar dros lannerchau yr anialwch; am eu llosgi hwynt, fel na thramwyo neb trwyddynt, ac na chlywir llais ysgrubliaid: adar y nefoedd a'r anifeiliaid hefyd a giliasant, aethant ymaith.

11 A mi a wnaf Jerusalem yn garneddau, *ac* yn drigfan dreigiau; a dinasoedd Judah a wnaf yn ddiffaethwch heb breswylydd.

12 ¶ Pa ŵr *sydd* ddoeth a ddeall hyn? a phwy y traethodd genau yr ARGLWYDD wrtho, fel y mynego paham y darfu am y tir, *ac* y llosgwyd fel anialwch heb gynniweirydd?

13 A dywedodd yr ARGLWYDD, Am wrthod o honynt fy nghyfraith, yr hon a roddais ger eu bron hwynt, ac na wrandawsant ar fy llef, na rhodio ynddi;

14 Eithr myned yn ol cyndynrwydd eu calon eu hun, ac yn ol Baalim, yr hyn a ddysgodd eu tadau iddynt:

15 Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, Wele, mi a'u bwydaf hwynt, y bobl hyn, â wermod, ac a'u dïodaf hwynt â dwfr bustl.

16 Gwasgaraf hwynt hefyd ym mysg cenhedloedd nid adnabuant hwy na'u tadau: a mi a ddanfonaf ar eu hol hwynt gleddyf, hyd oni ddifethwyf hwynt.

17 ¶ Fel hyn y dywed ARGLWYDD

y lluoedd; Edrychwch, a gelwch am alar-wragedd i ddyfod, a danfonwch am y rhai cyfarwydd, i beri iddynt ddyfod,

18 A brysio, a chodi cwynfan am danom ni, fel y gollyngo ein llygaid ni ddagrau, ac y difero ein hamrantau ni ddwfr.

19 Canys llais cwynfan a glybuwyd o Sïon, Pa wedd y'n hanrheithiwyd! Ni a lwyr-waradwyddwyd; o herwydd i ni adael y tir, o herwydd i'n trigfannau *ein* bwrw *ni* allan.

20 Etto gwrandêwch air yr ARGLWYDD, O wragedd, a derbynied eich clust air ei enau ef; dysgwch hefyd gwynfan i'ch merched, a galar bob un i'w gilydd.

21 O herwydd dringodd angau i'n ffenestri, *ac* efe a ddaeth i'n palasau, i ddistrywio y rhai bychain oddi allan, *a'r* gwŷr ieuaingc o'r heolydd.

22 Dywed, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Celaneddau dynion a syrthiant megis tom ar wyneb y maes, ac megis y dyrnaid ar ol y medelwr, ac ni chynnull *neb hwynt.*

23 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Nac ymffrostied y doeth yn ei ddoethineb, ac nac ymffrostied y cryf yn ei gryfder, ac nac ymffrostied y cyfoethog yn ei gyfoeth;

24 Eithr y neb a ymffrostio, ymffrostied yn hyn, *ei fod* yn deall, ac yn fy adnabod i, mai myfi *yw* yr ARGLWYDD a wna drugaredd, barn, a chyfiawnder, yn y ddaear: o herwydd yn y rhai hynny yr ymhyfrydais, medd yr ARGLWYDD.

25 ¶ Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, pan ymwelwyf â phob enwaededig ynghyd â'r rhai dïenwaededig;

26 A'r Aipht, ac â Judah, ac âg Edom, ac â meibion Ammon, ac â Moab, ac â'r rhai oll *sydd* yn y cyrrau eithaf, a'r rhai a drigant yn yr anialwch: canys yr holl genhedloedd *hyn sydd* ddïenwaededig, a holl dŷ Israel *sydd* â chalon ddïenwaededig.

PENNOD 10.

1 *Yr anghyffelybrwydd sydd rhwng Duw ac eilunod.* 17 *Y mae yn annog i ochel y gofidiau sydd ar ddyfod:* 19 *yn cwyno anrhaith y tabernacl gan fugeiliaid ymfydion:* 23 *yn gweuthur gweddi ostyngedig.*

GWRANDEWCH y gair a ddywed yr ARGLWYDD wrthych chwi, tŷ Israel:

2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Na ddysgwch ffordd y cenhedloedd, ac nac ofnwch arwyddion y nefoedd: canys y cenhedloedd a'u hofnant hwy.

3 Canys deddfau y bobloedd sydd oferedd: o herwydd cymmyna *un* bren o'r coed, gwaith llaw y saer, â bwyell.

4 Ag arian ac âg aur yr harddant ef; â hoelion ac â morthwylion y sicrhânt ef, fel na syflo.

5 Megis palmwydden, syth *ydynt* hwy, ac ni lefarant: y mae yn rhaid eu dwyn hwy, am na allant gerdded. Nac ofnwch hwynt; canys ni allant wneuthur drwg, a gwneuthur da nid *oes* ynddynt.

6 Yn gymmaint ag nad *oes neb* fel tydi, ARGLWYDD: mawr *wyt*, a mawr *yw* dy enw mewn cadernid.

7 Pwy ni'th ofna di, Brenhin y cenhedloedd? canys i ti y gweddai: o herwydd ym mysg holl ddoethion y cenhedloedd, ac ym mysg eu holl deyrnasoedd hwy, nid *oes neb* fel tydi.

8 Eithr cyd-ynfydasant ac ammhwyllasant: athrawiaeth oferedd yw cyff.

9 Arian wedi ei yrru yn ddalennau a ddygir o Tarsis, ac aur o Uphas, gwaith y celfydd, a dwylaw y toddydd: sidan glas a phorphor *yw* eu gwisg hwy; gwaith y celfydd *ŷnt* oll.

10 Eithr yr ARGLWYDD *ydyw* y gwir DDUW, efe *yw* y DUW byw, a'r Brenhin tragywyddol: rhag ei lid ef y cryna y ddaear, a'r cenhedloedd ni allant ddïoddef ei sorriant ef.

11 Fel hyn y dywedwch wrthynt; Y duwiau ni wnaethant y nefoedd a'r ddaear, difethir hwynt o'r ddaear, ac oddi tan y nefoedd.

12 Efe a wnaeth y ddaear trwy ei nerth, efe a sicrhaodd y byd trwy ei ddoethineb, ac a estynodd y nefoedd trwy ei synwyr.

13 Pan roddo efe ei lais, *y bydd* twrf dyfroedd yn y nefoedd, ac efe a wna i'r tarth ddyrchafu o eithafoedd y ddaear: efe a wna

fellt gyd â'r gwlaw, ac a ddwg y gwynt allan o'i drysorau.

14 Ynfyd yw pob dyn yn *ei* wybodaeth; gwaradwyddwyd pob toddydd trwy y ddelw gerfiedig: canys celwydd *yw* ei ddelw dawdd, ac nid *oes* anadl ynddynt.

15 Oferedd *ŷnt*, *a* gwaith cyfeiliorni: yn amser eu gofwy y difethir hwynt.

16 Nid fel y rhai hyn *yw* rhan Jacob: canys lluniwr pob *peth yw* efe, ac Israel *yw* gwïalen ei etifeddiaeth ef. ARGLWYDD y lluoedd *yw* ei enw.

17 Casgl o'r tir dy farsiandïaeth, yr hon wyt yn trigo yn yr amddiffynfa.

18 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele fi yn taflu trigolion y tir y waith hon, a chyfyngaf arnynt, fel y caffont *felly*.

19 ¶ Gwae fi am fy mriw! dolurus *yw* fy archoll: ond mi a ddywedais, Yn ddïau dyma ofid, a mi a'i dygaf.

20 Fy mhabell i a anrheithiwyd, a'm rhaffau oll a dorrwyd; fy mhlant a aethant oddi wrthyf, ac nid *ydynt:* nid *oes* mwy a ledo fy mhabell, nac a gyfyd fy llenni.

21 Canys y bugeiliaid a ynfydasant, ac ni cheisiasant yr ARGLWYDD: am hynny ni lwyddant; a *defaid* eu porfa hwy oll a wasgerir.

22 Wele, trwst y sôn a ddaeth, a chynnwrf mawr o dir y gogledd, i osod dinasoedd Judah yn ddiffaethwch, *ac* yn drigfan dreigiau.

23 ¶ Gwn, ARGLWYDD, nad eiddo dyn ei ffordd: nid ar law gŵr a rodio *y mae* llywodraethu ei gerddediad.

24 Cospa fi, ARGLWYDD, etto mewn barn; nid yn dy lid, rhag i ti fy ngwneuthur yn ddiddym.

25 Tywallt dy lid ar y cenhedloedd y rhai ni'th adnabuant, ac ar y teuluoedd ni alwasant ar dy enw: canys bwyttasant Jacob, ïe, bwyttasant ef, difasant ef hefyd, ac anrheithiasant ei gyfannedd.

PENNOD 11.

1 *Jeremiah yn cyhoeddi cyfammod Duw;* 8 *yn ceryddu yr Iuddewon am fod yn anufudd iddo,* 11 *yn prophwydo y deuai drygau arnynt hwy,* 18 *ac ar wŷr Anathoth, am gydfwriadu lladd Jeremiah.*

YGAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

2 Gwrandêwch eiriau y cyfammod hwn, a dywedwch wrth wŷr Judah, ac wrth breswylwyr Jerusalem;

3 Dywed hefyd wrthynt, Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel: Melldigedig *fyddo* y gŵr ni wrendy ar eiriau y cyfammod hwn,

4 Yr hwn a orchymynais i'ch tadau chwi y dydd y dygais hwynt o wlad yr Aipht, o'r ffwrn haiarn, gan ddywedyd, Gwrandêwch ar fy llef, a gwnewch hwynt, yn ol yr hyn oll a orchymynwyf i chwi: felly chwi a fyddwch yn bobl i mi, a minnau a fyddaf yn DDUW i chwithau:

5 Fel y gallwyf gwblhâu y llw a dyngais wrth eich tadau, ar roddi iddynt dir yn llifeirio o laeth a mêl, megis *y mae* heddyw. Yna yr attebais, ac y dywedais, O ARGLWYDD, felly y byddo.

6 Yna yr ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Cyhoedda y geiriau hyn oll yn ninasoedd Judah, ac yn heolydd Jerusalem, gan ddywedyd, Gwrandêwch eiriau y cyfammod hwn, a gwnewch hwynt.

7 Canys gan dystiolaethu y tystiolaethais wrth eich tadau, y dydd y dygais hwynt i fyny o dir yr Aipht, hyd y dydd hwn, trwy godi yn fore, a thystiolaethu, gan ddywedyd, Gwrandêwch ar fy llais.

8 Ond ni wrandawsant, ac ni ogwyddasant eu clust, eithr rhodiasant bawb yn ol cyndynrwydd eu calon ddrygionus: am hynny y dygaf arnynt holl eiriau y cyfammod hwn, yr hwn a orchymynais *iddynt* ei wneuthur, ond ni wnaethant.

9 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Cyd-fradwriaeth a gafwyd y'ngwŷr Judah, ac ym mysg trigolion Jerusalem.

10 Troisant at anwiredd eu tadau gynt, y rhai a wrthodasant wrandaw fy ngeiriau: a hwy a aethant ar ol duwiau dïeithr i'w gwasanaethu hwy: tŷ Judah a thŷ Israel a dorrasant fy nghyfammod yr hwn a wneuthum â'u tadau hwynt.

11 ¶ Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele fi yn dwyn drwg arnynt, yr hwn nis gallant

fyned oddi wrtho: yna y gwaeddant arnaf, ac ni wrandawaf hwynt.

12 Yna dinasoedd Judah a thrigolion Jerusalem a ânt, ac a waeddant ar y duwiau yr arogl-darthant iddynt: ond gan waredu ni allant eu gwared hwynt yn amser eu drygfyd.

13 Canys *yn ol* rhifedi dy ddinasoedd yr oedd dy dduwiau, O Judah; ac *yn ol* rhifedi heolydd Jerusalem y gosodasoch allorau i'r peth gwaradwyddus *hwnnw*, ïe, allorau i fwg-darthu i Baal.

14 Am hynny na weddïa dros y bobl hyn, ac na chyfod waedd neu weddi drostynt: canys ni wrandawaf yr amser y gwaeddant arnaf o herwydd eu drygfyd.

15 Beth *a wna* fy anwyl yn fy nhŷ, gan iddi wneuthur ysgelerder lawer? a'r cig cyssegredig a aeth ymaith oddi wrthyt: pan wnelit ddrygioni, yna y llawenychit.

16 Olew-wydden ddeiliog dêg, o ffrwyth prydferth, y galwodd yr ARGLWYDD dy enw: trwy drwst cynnwrf mawr y cynneuodd tân ynddi, a'i changhennau a dorrwyd.

17 Canys ARGLWYDD y lluoedd, yr hwn a'th blannodd, a draethodd ddrwg yn dy erbyn, o herwydd drygioni tŷ Israel a thŷ Judah, y rhai a wnaethant yn eu herbyn eu hun, i'm digio i, trwy fwg-darthu i Baal.

18 ¶ A'r ARGLWYDD a hysbysodd i mi, a mi a'i gwn; yna y dangosaist i mi eu gweithredoedd hwy.

19 A minnau *oeddwn* fel oen *neu* fustach a ddygid i'w ladd; ac ni wyddwn fwriadu o honynt fwriadau yn fy erbyn i, *gan ddywedyd*, Distrywiwn y pren ynghyd â'i ffrwyth, a difethwn ef o dir y rhai byw, fel na chofier ei enw ef mwy.

20 Eithr, O ARGLWYDD y lluoedd, barnwr cyfiawnder, a chwiliwr yr arennau a'r galon, gwelwyf dy ddïaledd arnynt; canys i ti y datguddiais fy nghŵyn.

21 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am wŷr Anathoth, y rhai a geisiant dy einioes, gan ddywedyd, Na phrophwyda yn enw yr ARGLWYDD, rhag dy farw trwy ein dwylaw ni:

22 Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Wele fi yn ymweled â hwynt: y gwŷr ieuaingc a fyddant feirw trwy y cleddyf, a'u meibion a'u merched a fyddant feirw o newyn.

23 Ac ni bydd gweddill o honynt; canys mi a ddygaf ddrygfyd ar wŷr Anathoth, *sef* blwyddyn eu gofwy.

PENNOD 12.

1 Jeremïah yn cwyno rhag llwyddïant yr annuwiol, a thrwy ffydd yn gweled eu cwymp hwy. 5 Duw yn ei rybuddio ef o fradwriaeth ei frodyr yn ei erbyn; 7 ac yn gofidio dros ei etifeddïaeth; 14 ac yn addaw i'r edifeiriol gael dychwelyd o gaethiwed.

CYFIAWN *wyt*, ARGLWYDD, pan ddadleuwyf â thi: er hynny ymresymmaf â thi *am dy* farnedigaethau: Paham y llwydda ffordd yr anwir, *ac* y ffynna yr anffyddloniaid oll?

2 Plennaist hwy, ïe, gwreiddiasant; cynnyddant, ïe, dygant ffrwyth; agos *wyt* yn eu genau, a phell oddi wrth eu harennau.

3 Ond ti, ARGLWYDD, a'm hadwaenost i; ti a'm gwelaist, ac a brofaist fy nghalon tu ag attat; tyn allan hwynt megis defaid i'r lladdfa, a pharottoa hwynt erbyn dydd y lladdfa.

4 Pa hyd y galara y tir, ac y gwywa gwellt yr holl faes, oblegid drygioni y rhai sydd yn trigo ynddo? methodd yr anifeiliaid a'r adar, oblegid iddynt ddywedyd, Ni wêl efe ein diwedd ni.

5 ¶ O rhedaist ti gyd â'r gwŷr traed, a hwy yn dy flino, pa fodd yr ymdarewi â'r meirch? ac os *blinasant di* mewn tir heddychlawn, *yn yr hwn* yr ymddiriedaist, yna pa fodd y gwnei yn ymchwydd yr Iorddonen?

6 Canys dy frodyr, a thŷ dy dad, ïe, y rhai hynny a wnaethant yn anffyddlawn â thi; hwynt-hwy hefyd a waeddasant yn groch ar dy ol: na choelia hwy, er iddynt ddywedyd geiriau teg wrthyt.

7 ¶ Gadewais fy nhŷ, gadewais fy etifeddiaeth; mi a roddais anwylyd fy enaid yn llaw ei gelynion.

8 Fy etifeddiaeth sydd i mi megis llew yn y coed, rhuo y mae i'm herbyn; am hynny caseais hi.

9 *Y mae* fy etifeddiaeth i mi *fel* aderyn brith; *y mae* yr adar o amgylch yn ei herbyn hi: deuwch, ymgesglwch, holl fwystfilod y maes, deuwch i ddifa.

10 Bugeiliaid lawer a ddistrywiasant fy ngwinllan; sathrasant fy rhandir, fy rhandir dirion a wnaethant yn ddiffaethwch anrheithiol.

11 Gwnaethant hi yn anrhaith, *ac* wedi ei hanrheithio y galara hi wrthyf: y tir i gyd a anrheithiwyd, am nad *oes* neb yn *ei* gymmeryd at *ei* galon.

12 Anrheithwyr a ddaethant ar yr holl fryniau trwy yr anialwch: canys cleddyf yr ARGLWYDD a ddifetha o'r *naill* gwr i'r ddaear hyd y cwr *arall* i'r ddaear: nid *oes* heddwch i un cnawd.

13 Hauasant wenith, ond hwy a fedant ddrain; ymboenasant, *ond* ni thyccia iddynt: a hwy a gywilyddiant am eich ffrwythydd chwi, o herwydd llid digofaint yr ARGLWYDD.

14 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD yn erbyn fy holl gymmydogion drwg, y rhai sydd yn cyffwrdd â'r etifeddiaeth a berais i'm pobl Israel ei hetifeddu, Wele, mi a'u tynnaf hwy allan o'u tir, ac a dynnaf dŷ Judah o'u mysg hwynt.

15 Ac wedi i mi eu tynnu hwynt allan, mi a ddychwelaf ac a drugarhâf wrthynt; a dygaf hwynt drachefn bob un i'w etifeddiaeth, a phob un i'w dir.

16 Ac os gan ddysgu y dysgant ffyrdd fy mhobl, i dyngu i'm henw, Byw yw yr ARGLWYDD, (megis y dysgasant fy mhobl i dyngu i Baal,) yna yr adeiledir hwy y'nghanol fy mhobl.

17 Eithr oni wrandawant, yna gan ddiwreiddio y diwreiddiaf fi y genedl hon, a chan ddifetha myfi a'i dinystriaf hi, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 13.

1 *Trwy arwydd y gwregys llan a guddiwyd ym Euphrates, y mae Duw yn rhag-ddangos dinystr et bobl.* 12 *Trwy ddammeg costrelau a lenwid â gwin, yn rhag-fynegi y meddwed hwn â drygfyd.* 15 *Y mae yn eu hannog i ochel y barnedigaethau sydd ar ddyfod;* 22 *ac yn dangos mai eu fleidd-dra hwy oedd yr achos o hynny.*

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD wrthyf, Dos a chais i ti wregys llïan, a dod ef am dy lwynau, ac na ddod ef mewn dwfr.

2 Felly y ceisiais wregys yn ol gair yr ARGLWYDD, ac a'*i* dodais am fy llwynau.

3 A daeth gair yr ARGLWYDD attaf eilwaith, gan ddywedyd,

4 Cymmer y gwregys a gefaist, *ac sydd* am dy lwynau, a chyfod, dos i Euphrates, a chuddia ef mewn twll o'r graig.

5 Felly mi a euthum, ac a'i cuddiais ef yn Euphrates, megis y gorchymynasai yr ARGLWYDD i mi.

6 Ac ar ol dyddiau lawer y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Cyfod, dos i Euphrates, a chymmer oddi yno y gwregys a orchymynais i ti ei guddio yno.

7 Yna yr euthum i Euphrates, ac a gloddiais, ac a gymmerais y gwregys o'r man lle y cuddiaswn ef: ac wele, pydrasai y gwregys, *ac* nid oedd efe dda i ddim.

8 A daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

9 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Felly y gwnaf i falchder Judah, a mawr falchder Jerusalem bydru.

10 Y bobl ddrygionus hyn, y rhai a wrthodant wrandaw fy ngeiriau i, y rhai a rodiant y'nghyndynrwydd eu calon, ac a ânt ar ol duwiau dïeithr, i'w gwasanaethu hwynt, ac i ymostwng iddynt, a fyddant fel y gwregys yma, yr hwn nid yw dda i ddim.

11 Canys megis ag yr ymwasg gwregys am lwynau gŵr, felly y gwneuthum i holl dŷ Israel a holl dŷ Judah lynu wrthyf, medd yr ARGLWYDD, i fod i mi yn bobl, ac yn enw, ac yn foliant, ac yn ogoniant: ond ni wrandawent.

12 ¶ Am hynny y dywedi wrthynt y gair yma; Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel, Pob costrel a lenwir â gwin. A dywedant wrthyt ti, Oni wyddom ni yn sicr y llenwir pob costrel â gwin?

13 Yna y dywedi wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele fi yn llenwi holl drigolion y tir hwn, ïe, y brenhinoedd sydd yn eistedd yn lle Dafydd ar ei orseddfaingc ef,

yr offeiriaid hefyd, a'r prophwydi, a holl breswylwyr Jerusalem, â meddwdod.

14 Tarawaf hwy y naill wrth y llall, y tadau a'r meibion ynghyd, medd yr ARGLWYDD: nid arbedaf, ac ni thrugarhâf, ac ni resynaf, ond eu difetha hwynt.

15 ¶ Clywch, a gwrandêwch; na falchïwch: canys yr ARGLWYDD a lefarodd.

16 Rhoddwch ogoniant i'r ARGLWYDD eich DUW, cyn iddo ef ddwyn tywyllwch, a chyn i chwi daro eich traed wrth y mynyddoedd tywyll; a thra fyddoch yn disgwyl am oleuni, iddo ef ei droi yn gysgod angau, *a'i* wneuthur yn dywyllwch.

17 Ond oni wrandêwch chwi hyn, fy enaid a wyla mewn lleoedd dirgel am *eich* balchder; a'm llygaid gan wylo a wylant, ac a ollyngant ddagrau, o achos dwyn dïadell yr ARGLWYDD i gaethiwed.

18 Dywed wrth y brenhin a'r frenhines, Ymostyngwch, eisteddwch i lawr: canys disgynodd eich pendefigaeth, *sef* coron eich anrhydedd.

19 Dinasoedd y dehau a gauir, ac ni bydd a'*u* hagoro; Judah i gyd a gaethgludir, yn llwyr y dygir hi i gaethiwed.

20 Codwch i fyny eich llygaid, a gwelwch y rhai sydd yn dyfod o'r gogledd: pa le *y mae* y ddïadell a roddwyd i ti, *sef* dy ddïadell brydferth?

21 Beth a ddywedi pan ymwelo â thi? canys ti a'u dysgaist hwynt yn dywysogion, ac yn ben arnat: oni oddiwes gofidiau di megis gwraig yn esgor?

22 ¶ Ac o dywedi yn dy galon, Paham y digwydd hyn i mi? o herwydd amlder dy anwiredd y noethwyd dy odre, *ac* y dinoethwyd dy sodlau.

23 A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu y llewpard ei frychni? *felly* chwithau a ellwch wneuthur da, y rhai a gynnefinwyd â gwneuthur drwg.

24 Am hynny y chwalaf hwynt megis sofl yn myned ymaith gyd â gwynt y diffaethwch.

25 Dyma dy gyfran di, y rhan a fesurais i ti, medd yr ARGLWYDD; am i ti fy anghofio i, ac ymddiried mewn celwydd.

26 Am hynny y dinoethais innau dy odre di dros dy wyneb, fel yr amlyger dy warth.

27 Gwelais dy odineb a'th weryriad, brynti dy butteindra *a*'th ffieidd-dra ar y bryniau yn y meusydd. Gwae di, Jerusalem! a ymlanhêi di? pa bryd bellach?

PENNOD 14.

1 *Y newyn tost, 7 yn peri i Jeremïah weddïo.*
10 *Ni fyn yr Arglwydd ymbïl ag ef dros y bobl.*
13 *Nad yw gau-brophwydi yn esgus iddynt hwy.*
17 *Cyffrôi Jeremïah i gwyno drostynt hwy.*

GAIR yr ARGLWYDD yr hwn a ddaeth at Jeremïah o achos y drudaniaeth.

2 Galara Judah, a'i phyrth a lesgânt; y maent yn ddu hyd lawr, a gwaedd Jerusalem a ddyrchafodd i fyny.

3 A'u boneddigion a hebryngasant eu rhai bychain i'r dwfr: daethant i'r ffosydd, ni chawsant ddwfr; dychwelasant â'u llestri yn weigion: cywilyddio a gwladeiddio a wnaethant, a chuddio eu pennau.

4 Oblegid agennu o'r ddaear, am nad oedd gwlaw ar y ddaear, cywilyddiodd y llafurwyr, cuddiasant eu pennau.

5 Ïe, yr ewig hefyd a lydnodd yn y maes, ac a'*i* gadawodd, am nad oedd gwellt.

6 A'r asynod gwylltion a safasant yn y lleoedd uchel; yfasant wynt fel dreigiau: eu llygaid hwy a ballasant, am nad *oedd* gwellt.

7 ¶ O ARGLWYDD, er i'n hanwireddau dystiolaethu i'n herbyn, gwna di er mwyn dy enw: canys aml yw ein cildynrwydd ni; pechasom i'th erbyn.

8 Gobaith Israel, a'i geidwad yn amser adfyd, paham y byddi megis pererin yn y tir, ac fel ymdeithydd yn troi i lettŷa dros noswaith?

9 Paham y byddi megis gŵr wedi synnu? fel gŵr cadarn heb allu achub? etto *yr ydwyt* yn ein mysg ni, ARGLWYDD, a'th enw di a elwir arnom: na âd ni.

10 ¶ Fel hyn y dywed yr AR-

GLWYDD wrth y bobl hyn, Fel hyn yr hoffasant hwy grwydro, ac ni attaliasant eu traed: am hynny nis myn yr ARGLWYDD hwy; yr awr hon y cofia efe eu hanwiredd hwy, ac a ymwêl â'u pechodau.

11 Yna y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Na weddïa dros y bobl hyn am ddaioni.

12 Pan ymprydiant, ni wrandawaf eu gwaedd hwynt; a phan offrymmant boeth-offrwm a bwyd-offrwm, ni byddaf boddlawn iddynt: ond â'r cleddyf, ac â newyn, ac â haint, y difaf hwynt.

13 ¶ Yna y dywedais, O ARGLWYDD DDUW, wele, mae y prophwydi yn dywedyd wrthynt, Ni welwch chwi gleddyf, ac ni ddaw newyn attoch; eithr mi a roddaf heddwch sicr i chwi yn y lle yma.

14 Yna y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Y prophwydi sydd yn prophwydo celwyddau yn fy enw i; nid anfonais hwy, ni orchymynais iddynt chwaith, ac ni leferais wrthynt: gau weledigaeth, a dewiniaeth, a choegedd, a thwyll eu calon eu hun, y maent hwy yn eu prophwydo i chwi.

15 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am y prophwydi sydd yn prophwydo yn fy enw i, a minnau heb eu hanfon hwynt, etto hwy a ddywedant, Cleddyf a newyn ni bydd yn y tir hwn; Trwy gleddyf a newyn y difethir y prophwydi hynny.

16 A'r bobl y rhai y maent yn prophwydo iddynt, a fyddant wedi eu taflu allan yn heolydd Jerusalem, o herwydd y newyn a'r cleddyf; ac ni bydd neb i'w claddu, hwynt-hwy, na'u gwragedd, na'u meibion, na'u merched: canys mi a dywalltaf arnynt eu drygioni.

17 ¶ Am hynny y dywedi wrthynt y gair yma, Difered fy llygaid i ddagrau nos a dydd, ac na pheidiant: canys â briw mawr y briwwyd y wyryf merch fy mhobl, *ac* â phla tost iawn.

18 Os âf fi allan i'r maes, wele rai wedi eu lladd â'r cleddyf; ac o deuaf i mewn i'r ddinas, wele rai llesg o newyn: canys y prophwyd a'r offeiriad hefyd sydd yn amgylchu i dir nid adwaenant.

19 Gan wrthod a wrthodaist ti Judah? neu a ffieiddiodd dy enaid di Sïon? paham y tarewaist ni, ac nad *oes* i ni feddyginiaeth? disgwyliasom am heddwch, ac nid *oes* daioni; ac am amser iachâd, ac wele ffinder.

20 Yr ydym yn cydnabod, ARGLWYDD, ein camwedd, *ac* anwiredd ein tadau; oblegid ni a bechasom yn dy erbyn di.

21 Na ffieiddia *ni*, er mwyn dy enw, ac na fwrw i lawr orseddfa dy ogoniant: cofia, na thor dy gyfammod â ni.

22 A oes *neb* ym mhlith oferedd y cenhedloedd a wna iddi wlawio? neu a rydd y nefoedd gawodau? Onid ti *yw* efe, O ARGLWYDD ein DUW ni? am hynny arnat ti y disgwyliwn ni: canys ti a wnaethost *y pethau* hyn oll.

PENNOD 15.

1 *Llwyr wrthodiad, ac amryw farnedigaethau yr Iuddewon.* 10 *Jeremïah yn cwyno rhag eu hatyasrwydd hwy; ac yn derbyn addewid iddo ei hun,* 12 *a bygwth arnynt hwythau:* 15 *yn gweddïo,* 19 *ac yn cael addewid grasusol.*

A DYWEDODD yr ARGLWYDD wrthyf, Pe safai Moses a Samuel ger fy mron, *etto* ni *byddai* fy serch ar y bobl yma; bwrw *hwy* allan o'm golwg, ac elont ymaith.

2 Ac os dywedant wrthyt, I ba le yr awn? tithau a ddywedi wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Y sawl *sydd* i angau, i angau; a'r sawl i'r cleddyf, i'r cleddyf; a'r sawl i'r newyn, i'r newyn; a'r sawl i gaethiwed, i gaethiwed.

3 A mi a osodaf arnynt bedwar rhywogaeth, medd yr ARGLWYDD: y cleddyf, i ladd; a'r cwn, i larpio; ac adar y nefoedd, ac anifeiliaid y ddaear, i ysu ac i ddifa.

4 Ac a'u rhoddaf hwynt i'w symmudo i holl deyrnasoedd y ddaear; herwydd Manasseh mab Hesecïah brenhin Judah, am yr hyn a wnaeth efe yn Jerusalem.

5 Canys pwy a drugarhâ wrthyt ti, O Jerusalem? a phwy a gwyna i ti? a phwy a dry i ymofyn pa fodd yr wyt ti?

6 Ti a'm gadewaist, medd yr ARGLWYDD, *ac* a aethost yn ol: am hynny yr estynaf fy llaw yn dy erbyn di, ac a'th ddifethaf; myfi a flinais yn edifarhâu.

7 A mi a'u chwalaf hwynt â gwyntyll ym mhyrth y wlad: diblantaf, difethaf fy mhobl, *gan* na ddychwelant oddi wrth eu ffyrdd.

8 Eu gweddwon a amlhasant i mi tu hwnt i dywod y môr: dygais arnynt yn erbyn mam y gwŷr ieuaingc, anrheithiwr ganol dydd; peraïs *iddo* syrthio yn ddisymmwth arni hi, a dychryn ar y ddinas.

9 Yr hon a blantodd saith, a lesgaodd: ei henaid hi a lesmeiriodd, ei haul a fachludodd tra yr *oedd hi* yn ddydd; hi a gywilyddiodd, ac a waradwyddwyd; a rhoddaf y gweddillion o honynt i'r cleddyf y'ngŵydd eu gelynion, medd yr ARGLWYDD.

10 ¶ Gwae fi, fy mam, ymddŵyn o honot fi yn ŵr ymryson ac yn ŵr cynnen i'r holl ddaear! ni logais, ac ni logwyd i mi; *etto* pawb o honynt sydd yn fy melldithio i.

11 Yr ARGLWYDD a ddywedodd, Yn ddïau *bydd* dy weddill di mewn daioni; yn ddïau gwnaf i'r gelyn fod yn dda wrthyt, yn amser adfyd ac yn amser cystudd.

12 A dyr haiarn yr haiarn o'r gogledd, a'r dur?

13 Dy gyfoeth a'th drysorau a roddaf yn yspail, nid am werth, ond oblegid dy holl bechodau, trwy dy holl derfynau.

14 Gwnaf i ti fyned hefyd gyd â'th elynion i dir nid adwaenost: canys tân a ennynodd yn fy nigofaint, arnoch y llysg.

15 ¶ Ti a wyddost, ARGLWYDD; cofia fi, ac ymwêl â mi, a dïal drosof ar fy erlidwyr; na ddwg fi ymaith yn dy hir-ymaroè: gwybydd ddwyn o honof waradwydd er dy fwyn di.

16 Dy eiriau a gaed, a mi a'u bwytteais hwynt; ac yr oedd dy air di i mi yn llawenydd ac yn hyfrydwch fy nghalon: canys dy enw di a alwyd arnaf fi, O ARGLWYDD DDUW y lluoedd.

17 Nid eisteddais y'nghymmanfa y gwatwarwyr, ac *nid* ymhyfrydais: eisteddais fy hunan o herwydd dy law di; canys ti a'm llenwaist i o lid.

18 Paham y mae fy nolur i yn dragywyddol? a'm pla yn anaele, fel na ellir ei iachâu? a fyddi di i mi megis celwyddog, *neu fel* dyfroedd a ballant?

19 ¶ Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Os dychweli, yna y'th ddygaf eilwaith, *a* thi a sefi ger fy mron; os tynni ymaith y gwerthfawr oddi wrth y gwael, byddi fel fy ngenau i: dychwelant hwy attat ti, ond na ddychwel di attynt hwy.

20 Gwnaf di hefyd i'r bobl yma yn fagwyr efydd gadarn; a hwy a ryfelant yn dy erbyn di, eithr ni'th orchfygant: canys *yr ydwyf* fi gyd â thi, i'th achub ac i'th wared, medd yr ARGLWYDD.

21 A mi a'th waredaf di o law y rhai drygionus, ac a'th ryddhâf di o law yr ofnadwy.

PENNOD 16.

1 *Y prophwyd, trwy gysgodion, sef trwy ymattal oddi wrth briodas, ac oddi wrth dai galar a gwledda, yn rhag-ddangos llwyr ddifrod yr Iuddewon,* 10 *am eu bod ym waeth na'u tadau;* 14 *y bydd rhyfeddach eu hymwared hwy allan o gaethiwed, nag allan o'r Aipht;* 16 *y tâl Duw iddynt eu delw-addoliaeth ym ddau-ddyblyg.*

GAIR yr ARGLWYDD a ddaeth hefyd attaf fi, gan ddywedyd,

2 Na chymmer i ti wraig, ac na fydded i ti feibion na merched, yn y lle hwn.

3 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am y meibion ac am y merched a anwyd yn y lle hwn, ac am eu mammau a'u dug hwynt, ac am eu tadau a'u cenhedlodd hwynt yn y wlad hon;

4 O angau nychlyd y byddant feirw: ni alerir am danynt, ac nis cleddir hwynt: byddant fel tail ar wyneb y ddaear, a darfyddant trwy y cleddyf, a thrwy newyn; a'u celaneddau fydd yn ymborth i adar y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaear.

5 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Na ddos i dŷ y galar, ac na ddos i alaru, ac na chwyna iddynt: canys myfi a gymmerais ymaith fy heddwch oddi wrth y bobl hyn, medd yr ARGLWYDD, *sef* trugaredd a thosturi.

6 A byddant feirw yn y wlad hon,

fawr a bychan: ni chleddir hwynt, ac ni alerir am danynt; nid ymdorrir ac nid ymfoelir drostynt.

7 Ni rannant iddynt *fwyd* mewn galar, i roi cysur iddynt am y marw; ac ni pharant iddynt yfed o phïol cysur, am eu tad, neu am eu mam.

8 Na ddos i dŷ gwledd, i eistedd gyd â hwynt i fwytta ac i yfed.

9 Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Wele, myfi a baraf i lais cerdd a llawenydd, i lais y prïodfab, ac i lais y brïodferch, ddarfod o'r lle hwn, o flaen eich llygaid, ac yn eich dyddiau chwi.

10 ¶ A phan ddangosech i'r bobl yma yr holl eiriau hyn, ac iddynt hwythau ddywedyd wrthyt, Am ba beth y llefarodd yr ARGLWYDD yr holl fawr-ddrwg hyn i'n herbyn ni? neu, Pa beth *yw* ein hanwiredd? neu, Beth *yw* ein pechod a bechasom yn erbyn yr ARGLWYDD ein DUW?

11 Yna y dywedi wrthynt, O herwydd i'ch tadau fy ngadael i, medd yr ARGLWYDD, a myned ar ol duwiau dïeithr, a'u gwasanaethu hwynt, ac ymgrymmu iddynt, a'm gwrthod i, a bod heb gadw fy nghyfraith;

12 A chwithau a wnaethoch yn waeth na'ch tadau, canys wele chwi yn rhodio bob un yn ol cyndynrwydd ei galon ddrwg, heb wrandaw arnaf;

13 Am hynny mi a'ch taflaf chwi o'r tir hwn, i wlad nid adwaenoch chwi na'ch tadau; ac yno y gwasanaethwch dduwiau dïeithr ddydd a nos, lle ni ddangosaf i chwi ffafr.

14 ¶ Gan hynny wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, pryd na ddywedir mwyach, Byw yw yr ARGLWYDD, yr hwn a ddug feibion Israel i fyny o dir yr Aipht:

15 Eithr, Byw yw yr ARGLWYDD, yr hwn a ddug i fyny feibion Israel o dir y gogledd, ac o'r holl diroedd lle y gyrrasai efe hwynt: a mi a'u dygaf hwynt drachefn i'w gwlad a roddais i'w tadau.

16 ¶ Wele fi yn anfon am bysgodwyr lawer, medd yr ARGLWYDD, a hwy a'u pysgottant hwy; ac wedi hynny mi a anfonaf am helwyr lawer, a hwy a'u heliant hwynt oddi ar bob mynydd, ac oddi ar bob bryn, ac o ogofeydd y creigiau.

17 Canys *y mae* fy ngolwg ar eu holl ffyrdd hwynt: nid ydynt guddiedig o'm gŵydd i, ac nid yw eu hanwiredd hwynt guddiedig oddi ar gyfer fy llygaid.

18 Ac yn gyntaf myfi a dalaf yn ddwbl am eu hanwiredd a'u pechod hwynt; am iddynt halogi fy nhir â'u ffiaidd gelanedd; ïe, â'u ffieidd-dra y llanwasant fy etifeddiaeth.

19 O ARGLWYDD, fy nerth a'm cadernid, a'm noddfa yn nydd blinder; attat ti y daw y Cenhedloedd o eithafoedd y ddaear, ac a ddywedant, Dïau mai celwydd a ddarfu i'n tadau ni ei etifeddu, oferedd, a *phethau* heb les ynddynt.

20 A wna dyn dduwiau iddo ei hun, a hwythau heb *fod* yn dduwiau?

21 Am hynny wele, mi a wnaf iddynt wybod y waith hon, dangosaf iddynt fy llaw a'm grym: a chânt wybod mai yr ARGLWYDD *yw* fy enw.

PENNOD 17.

1 Caethiwed Judah am eu pechod. 5 Melldithio ymddiried mewn dyn, 7 a bendithio ymddiried yn Nuw. 9 Nas gall y galon dwyllodrus dwyllo Duw. 12 Iachawdwriaeth Duw. 15 Y prophwyd yn cwyno rhag y rhai oedd yn gwatwar ei brophwydoliaeth ef. 19 Ei anfon ef i adneuddu y cyfammod, trwy sancteiddio y Sabbath.

PECHOD Judah a ysgrifenwyd â phin o haiarn, âg ewin o adamant y cerfiwyd *ef* ar lech eu calon, ac ar gyrn eich allorau;

2 Gan fod eu meibion yn cofio eu hallorau a'u llwyni wrth y pren deiliog ar y bryniau uchel.

3 O fy mynydd yn y maes, dy olud *a*'th holl drysorau di a roddaf yn anrhaith, *a*'th uchelfeydd i bechod, trwy dy holl derfynau.

4 Ti a adewir hefyd dy hunan, heb dy etifeddiaeth a roddais i ti; a mi a wnaf i ti wasanaethu dy elynion mewn tir nid adwaenost: canys cynneuasoch dân yn fy nig, *yr hwn* a lysg byth.

5 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Melldigedig *fyddo* y gŵr a hydero

mewn dyn, ac a wnelo gnawd yn fraich iddo, a'*r hwn* y cilio ei galon oddi wrth yr ARGLWYDD.

6 Canys efe a fydd fel y grug yn y diffaethwch, ac ni wêl pan ddêl daioni; eithr efe a gyfannedda boeth-fannau *yn* yr anialwch, *mewn* tir hallt ac anghyfanneddol.

7 Bendigedig *yw* y gŵr a ymddiriedo yn yr ARGLWYDD, ac y byddo yr ARGLWYDD yn hyder iddo.

8 Canys efe a fydd megis pren wedi ei blannu wrth y dyfroedd, ac a estyn ei wraidd wrth yr afon, ac ni ŵyr oddi wrth ddyfod gwres; ei ddeilen fydd îr, ac ar flwyddyn sychder ni ofala, ac ni phaid â ffrwytho.

9 ¶ Y galon *sydd* fwy ei thwyll na dim, a drwg ddïobaith ydyw; pwy a'i hedwyn?

10 Myfi yr ARGLWYDD *sydd* yn chwilio y galon, yn profi yr arennau, i roddi i bob un yn ol ei ffyrdd, *ac* yn ol ffrwyth ei weithredoedd.

11 *Fel* petris yn eistedd, ac heb ddeor, *yw* yr hwn a helio gyfoeth yn annheilwng: yn hanner ei ddyddiau y gedy hwynt, ac yn ei ddiwedd ynfyd fydd.

12 ¶ Gorsedd ogoneddus ddyrchafedig o'r dechreuad, *yw* lle ein cyssegr ni.

13 O ARGLWYDD, gobaith Israel, y rhai oll a'th wrthodant a waradwyddir, ysgrifenir yn y ddaear y rhai a giliant oddi wrthyf, am iddynt adael yr ARGLWYDD, ffynnon y dyfroedd byw.

14 Iachâ fi, O ARGLWYDD, a mi a iachêir; achub fi, a mi a achubir: canys tydi *yw* fy moliant.

15 ¶ Wele hwynt yn dywedyd wrthyf, Pa le *y mae* gair yr ARGLWYDD? deued bellach.

16 Ond myfi ni phrysurais rhag *bod* yn fugail ar dy ol di: ac ni ddymunais y dydd blin, ti a'i gwyddost: yr oedd yr hyn a ddaeth o'm gwefusau *yn uniawn* ger dy fron di.

17 Na fydd yn ddychryn i mi; ti *yw* fy ngobaith yn nydd y drygfyd.

18 Gwaradwydder fy erlidwyr, ac na'm gwaradwydder i; brawycher hwynt, ac na'm brawycher i: dwg arnynt ddydd drwg, a dryllia hwynt â drylliad dau-ddyblyg.

19 ¶ Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Cerdda, a saf ym mhorth meibion y bobl, trwy yr hwn yr â brenhinoedd Judah i mewn, a thrwy yr hwn y deuant allan, ac yn holl byrth Jerusalem;

20 A dywed wrthynt, Gwrandêwch air yr ARGLWYDD, brenhinoedd Judah, a holl Judah, a holl breswylwyr Jerusalem, y rhai a ddeuwch trwy y pyrth hyn:

21 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Disgwyliwch ar eich eneidiau, ac na ddygwch faich ar y dydd Sabbath, ac na ddygwch *ef* i mewn trwy byrth Jerusalem;

22 Ac na ddygwch faich allan o'ch tai ar y dydd Sabbath, ac na wnewch ddim gwaith; eithr sanctteiddiwch y dydd Sabbath, fel y gorchymynais i'ch tadau.

23 Ond ni wrandawsant, ac ni ogwyddasant eu clust; eithr caledasant eu gwarrau rhag gwrandaw, a rhag derbyn addysg.

24 Er hynny os dyfal-wrandêwch arnaf, medd yr ARGLWYDD, heb ddwyn baich trwy byrth y ddinas hon ar y dydd Sabbath, ond sancteiddio y dydd Sabbath, heb wneuthur dim gwaith arno:

25 Yna y daw trwy byrth y ddinas hon, frenhinoedd a thywysogion yn eistedd ar orsedd Dafydd, yn marchogaeth mewn cerbydau, ac ar feirch, hwy a'u tywysogion, gwŷr Judah, a phreswylwyr Jerusalem; a'r ddinas hon a gyfanneddir byth.

26 Ac o ddinasoedd Judah, ac o amgylchoedd Jerusalem, ac o wlad Benjamin, ac o'r gwastadedd, ac o'r mynydd, ac o'r dehau, y daw rhai yn dwyn poeth-offrymmau, ac aberthau, a bwyd-offrymmau, a thus, ac yn dwyn aberthau moliant i dŷ yr ARGLWYDD.

27 Ond os chwi ni wrendy arnaf, i sancteiddio y dydd Sabbath, heb ddwyn baich, wrth ddyfod i byrth Jerusalem, ar y dydd Sabbath: yna mi a gynneuaf dân yn ei phyrth hi, ac efe a ysa balasau Jerusalem, ac nis diffoddir.

PENNOD 18.

1 *Trwy arwydd o'r crochenydd, y dangostr cyflawn allu Duw i wneuthur â phob cenedl y peth a fynno.* 11 *Bygwth ar Judah am gilio oddi wrth Ddiw.* 18 *Jeremiah yn gweddio yn erbyn y rhai oedd mewn cyd-furiad iddo.*

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,
2 Cyfod, a dos i waered i dŷ y crochenydd, ac yno y paraf i ti glywed fy ngeiriau.
3 Yna mi a euthum i waered i dŷ y crochenydd, ac wele ef yn gwneuthur *ei* waith ar droellau.
4 A'r llestr yr hwn yr oedd efe yn ei wneuthur o glai, a ddifwynwyd yn llaw y crochenydd; felly efe a'i gwnaeth ef drachefn yn llestr arall, fel y gwelodd y crochenydd yn dda *ei* wneuthur *ef*.
5 Yna y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,
6 Oni allaf fi, fel y crochenydd hwn, wneuthur i chwi, tŷ Israel? medd yr ARGLWYDD. Wele, megis ag *y mae* y clai yn llaw y crochenydd, felly yr *ydych* chwithau yn fy llaw i, tŷ Israel.
7 Pa bryd bynnag y dywedwyf am ddiwreiddio, a thynnu i lawr, a difetha cenedl neu frenhiniaeth;
8 Os y genedl honno y dywedais yn ei herbyn a dry oddi wrth ei drygioni, myfi a edifarhâf am y drwg a amcenais ei wneuthur iddi.
9 *A pha* bryd bynnag y dywedwyf am adeiladu, ac am blannu cenedl neu frenhiniaeth;
10 Os hi a wna ddrygioni yn fy ngolwg, heb wrandaw ar fy llais, minnau a edifarhâf am y daioni â'r hwn y dywedais y gwnawn les iddi.
11 ¶ Yn awr gan hynny, attolwg, dywed wrth wŷr Judah, ac wrth breswylwyr Jerusalem, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele fi yn llunio drwg i'ch erbyn, ac yn dychymmygu dychymmyg i'ch erbyn: dychwelwch yr awr hon bob un o'i ffordd ddrwg, a gwnewch eich ffyrdd a'ch gweithredoedd yn dda.
12 Hwythau a ddywedasant, Nid oes obaith; *ond* ar ol ein dychymmygion ein hunain yr awn, a gwnawn bob un amcan ei ddrwg galon ei hun.
13 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Gofynwch, attolwg, ym mysg y cenhedloedd, pwy a glywodd y cyfryw bethau? Gwnaeth y forwyn Israel beth erchyll iawn.
14 A wrthyd *dyn* eira Libanus, *yr hwn sydd yn dyfod* o graig y maes? *neu* a wrthodir y dyfroedd oerion rhedegog sydd yn dyfod o le arall?
15 O herwydd i'm pobl fy anghofio i, *hwy* a arogl-darthasant i wagedd, ac a wnaethant iddynt dramgwyddo yn eu ffyrdd, *allan* o'r hen lwybrau, i gerdded llwybrau ffordd ddisathr;
16 I wneuthur eu tir yn anghyfannedd, *ac* yn chwibaniad byth: pob un a elo heibio iddo a synna, ac a ysgwyd ei ben.
17 Megis â gwynt y dwyrain y chwalaf hwynt o flaen y gelyn; *fy* ngwegil ac nid *fy* wyneb a ddangosaf iddynt yn amser eu dïaledd.
18 ¶ Yna y dywedasant, Deuwch, a dychymmygwn ddychymmygion yn erbyn Jeremïah; canys ni chyll y gyfraith gan yr offeiriad, na chynghor gan y doeth, na'r gair gan y prophwyd: deuwch, tarâwn ef â'r tafod, ac nac ystyriwn yr un o'i eiriau ef.
19 Ystyria di wrthyf, O ARGLWYDD, a chlyw lais y rhai sydd yn ymryson â mi.
20 A delir drwg dros dda? canys cloddiasant ffos i'm henaid: cofia i mi sefyll ger dy fron di i ddywedyd daioni drostynt, *ac* i droi dy ddig oddi wrthynt.
21 Am hynny dyro eu plant hwy i fyny i'r newyn, a thywallt eu *gwaed* hwynt trwy nerth y cleddyf; a bydded eu gwragedd heb eu plant, ac yn weddwon; lladder hefyd eu gwŷr yn feirw, *a* tharawer eu gwŷr ieuainge â'r cleddyf yn y rhyfel.
22 Clywer eu gwaedd o'u tai, pan ddygech fyddin arnynt yn ddisymmwth; canys cloddiasant ffos i'm dal, a chuddiasant faglau i'm traed.
23 Tithau, O ARGLWYDD, a wyddost eu holl gynghor hwynt i'm herbyn *i'm* lladd *i:* na faddeu eu

hanwiredd, ac na ddilea eu pechodau o'th ŵydd ; eithr byddant dramgwyddedig ger dy fron ; gwna *hyn* iddynt yn amser dy ddigofaint.

PENNOD 19.

1 *Dan rith torri llestr crochenydd, y mae yn rhagddangos distryw yr Iuddewon am eu pechodau.*

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD ; Dos, a chais ystên bridd y crochenydd, a *chymmer* o henuriaid y bobl ac o henuriaid yr offeiriaid,

2 A dos allan i ddyffryn mab Hinnom, yr hwn *sydd* wrth ddrws porth y dwyrain, a chyhoedda yno y geiriau a ddywedwyf wrthyt ;

3 A dywed, Brenhinoedd Judah, a phreswylwyr Jerusalem, clywch air yr ARGLWYDD : Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel ; Wele fi yn dwyn ar y lle hwn ddrwg, yr hwn pwy bynnag a'i clywo, ei glustiau a ferwinant.

4 Am iddynt fy ngwrthod i, a dïeithrio y lle hwn, ac arogl darthu ynddo i dduwiau dïeithr, y rhai nid adwaenent hwy, na'u tadau, na brenhinoedd Judah, a llenwi o honynt y lle hwn o waed gwirioniaid ;

5 Adeiladasant hefyd uchelfeydd Baal, i losgi eu meibion â thân *yn* boeth-offrymmau i Baal ; yr hyn ni orchymynais, ac ni ddywedais, ac ni feddyliodd fy nghalon :

6 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, pryd na elwir y lle hwn mwyach Tophet, na Dyffryn mab Hinnom, ond Dyffryn y lladdfa.

7 A mi a wnaf yn ofer gynghor Judah a Jerusalem yn y lle hwn, a pharaf iddynt syrthio gan y cleddyf o flaen eu gelynion, a thrwy law y rhai a geisiant eu heinioes hwy : rhoddaf hefyd eu celaneddau hwynt yn fwyd i ehediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaear.

8 A mi a wnaf y ddinas hon yn anghyfannedd, ac yn ffiaidd ; pob un a elo heibio iddi a synna ac a chwibana, o herwydd ei holl ddïaleddau hi.

9 A mi a baraf iddynt fwytta cnawd eu meibion, a chnawd eu merched, bwyttânt hefyd bob un gnawd ei gyfaill, yn y gwarchae a'r cyfyngder, â'r hwn y cyfynga eu gelynion, a'r rhai sydd yn ceisio eu heinioes, arnynt.

10 Yna y torri yr ystên y'ngŵydd y gwŷr a êl gyd â thi,

11 Ac y dywedi wrthynt, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd ; Yn y modd hwn y drylliaf y bobl hyn, a'r ddinas hon, fel y dryllia *un* lestr pridd, yr hwn ni ellir ei gyfannu mwyach ; ac yn Tophet y cleddir *hwynt*, o eisieu lle i gladdu.

12 Fel hyn y gwnaf i'r lle hwn, medd yr ARGLWYDD, ac i'r rhai sydd yn trigo ynddo ; a mi a wnaf y ddinas hon megis Tophet.

13 A thai Jerusalem, a thai brenhinoedd Judah, a fyddant halogedig fel mangre Tophet : o herwydd yr holl dai y rhai yr arogl-darthasant ar eu pennau i holl lu y nefoedd, ac y tywalltasant ddïod-offrymmau i dduwiau dïeithr.

14 Yna y daeth Jeremïah o Tophet, lle yr anfonasai yr ARGLWYDD ef i brophwydo, ac a safodd yng nghyntedd tŷ yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd wrth yr holl bobl,

15 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel ; Wele fi yn dwyn ar y ddinas hon, ac ar ei holl drefydd, yr holl ddrygau a leferais i'w herbyn, am galedu o honynt eu gwarrau, rhag gwrandaw fy ngeiriau.

PENNOD 20.

1 *Pasur yn taro Jeremïah, ac yn cael enw newydd, a barn ofnadwy.* 7 *Jeremïah yn achwyn rhag dirmyg,* 10 *a bradwriaeth,* 14 *ac yn cwyno ei eni.*

PAN glybu Pasur mab Immer yr offeiriad, yr hwn *oedd* yn benllywodraethwr yn nhŷ yr ARGLWYDD, i Jeremïah brophwydo y geiriau hyn ;

2 Yna Pasur a darawodd Jeremïah y prophwyd, ac a'i rhoddodd ef yn y carchar *oedd* yn y porth uchaf i Benjamin, yr hwn *oedd* wrth dŷ yr ARGLWYDD.

3 A thrannoeth, Pasur a ddug Jeremïah allan o'r carchar. Yna Jeremïah a ddywedodd wrtho ef, Ni alwodd yr ARGLWYDD dy enw di Pasur, ond Magor-missabib.

4 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD ; Wele fi yn dy wneuthur

di yn ddychryn i ti dy hun, ac i'r rhai oll a'th garant; a hwy a syrthiant ar gleddyf eu gelynion, a'th lygaid di yn gweled: rhoddaf hefyd holl Judah yn llaw brenhin Babilon, ac efe a'u caethgluda hwynt i Babilon, ac a'u lladd hwynt â'r cleddyf.

5 Rhoddaf hefyd holl olud y ddinas hon, a'i holl lafur, a phob dim a'r y sydd werthfawr ganddi, a holl drysorau brenhinoedd Judah a roddaf fi yn llaw eu gelynion, y rhai a'u hanrheithiant hwynt, ac a'u cymmerant, ac a'u dygant i Babilon.

6 A thithau, Pasur, a phawb a'r sydd yn trigo yn dy dŷ, a ewch i gaethiwed; a thi a ddeui i Babilon, ac yno y byddi farw, ac yno y'th gleddir, ti, a'r rhai oll a'th garant, y rhai y prophwydaist iddynt yn gelwyddog.

7 ¶ O ARGLWYDD, ti a'm hudaist, a mi a hudwyd: cryfach oeddit na mi, a gorchfygaist: yr ydwyf yn watwargerdd ar hyd y dydd, pob un sydd yn fy ngwatwar.

8 Canys er pan leferais, mi a waeddais, trais ac anrhaith a lefais; am fod gair yr ARGLWYDD yn waradwydd ac yn watwargerdd i mi beunydd.

9 Yna y dywedais, Ni soniaf am dano ef, ac ni lefaraf yn ei enw ef mwyach: ond *ei air* ef oedd yn fy nghalon yn llosgi fel tân, wedi ei gau o fewn fy esgyrn, a mi a flinais yn ymattal, ac ni allwn *beidio.*

10 ¶ Canys clywais ogan llawer, dychryn o amgylch: Mynegwch, *meddant*, a ninnau a'i mynegwn: pob dyn heddychol â mi *oedd* yn disgwyl i mi gloffi, *gan ddywedyd*, Ysgatfydd efe a hudir, a ni a'i gorchfygwn ef, ac a ymddialwn arno.

11 Ond yr ARGLWYDD *oedd* gyd â mi fel un cadarn ofnadwy: am hynny fy erlidwyr a dramgwyddant, ac ni orchfygant; gwaradwyddir hwynt yn ddirfawr, canys ni lwyddant: nid anghofir *eu* gwarth tragywyddol byth.

12 Ond tydi, ARGLWYDD y llu oedd, yr hwn wyt yn profi y cyfiawn, yn gweled yr arennau a'r galon, gâd i mi weled dy ddialedd arnynt: canys i ti y datguddiais fy nghŵyn.

13 Cenwch i'r ARGLWYDD, molien-nwch yr ARGLWYDD: canys efe a achubodd enaid y tlawd o law y drygionus.

14 ¶ Melldigedig *fyddo* y dydd y'm ganwyd arno: na fendiger y dydd y'm hesgorodd fy mam.

15 Melldigedig *fyddo* y gŵr a fynegodd i'm tad, gan ddywedyd, Ganwyd i ti blentyn gwrryw; gan ei lawenychu ef yn fawr.

16 A bydded y gŵr hwnnw fel y dinasoedd a ymchwelodd yr ARGLWYDD, ac ni bu edifar ganddo: a chaffed efe glywed gwaedd y bore, a bloedd bryd hanner dydd:

17 Am na laddodd fi *wrth ddyfod* o'r groth; neu na buasai fy mam yn fedd i mi, a'i chroth yn feichiog *arnaf* byth.

18 Paham y deuthum i allan o'r groth, i weled poen a gofid, fel y darfyddai fy nyddiau mewn gwarth?

PENNOD 21.

1 Sedecïah yn anfon at Jeremïah i ymofyn pa beth a ddigwyddai o ryfel Nebuchodonosor. 3 Jeremïah yn darogan gwarchae tost, a chaethiwed gofidus: 8 y mae yn cynghori y bobl i droi at y Caldeaid; 11 ac yn edliw i dŷ y brenhin.

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, pan anfonodd y brenhin Sedecïah atto ef Pasur mab Melchïah, a Sephanïah mab Maaseiah yr offeiriad, gan ddywedyd,

2 Ymofyn, attolwg, â'r ARGLWYDD drosom ni, (canys y mae Nebuchodonosor brenhin Babilon yn rhyfela yn ein herbyn ni,) i edrych a wna yr ARGLWYDD â ni yn ol ei holl ryfeddodau, fel yr elo efe i fyny oddi wrthym ni.

3 ¶ Yna y dywedodd Jeremïah wrthynt, Fel hyn y dywedwch wrth Sedecïah;

4 Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel, Wele fi yn troi yn eu hol yr arfau rhyfel *sydd* yn eich dwylaw, y rhai yr ydych yn ymladd â hwynt yn erbyn brenhin Babilon, ac *yn erbyn* y Caldeaid, y rhai sydd yn gwarchae arnoch o'r tu allan i'r gaer, a mi a'u casglaf hwynt i ganol y ddinas hon.

5 A mi fy hun a ryfelaf i'ch erbyn â llaw estynedig, ac â braich gref, mewn sorriant, a llid, a digofaint mawr.

6 Tarawaf hefyd drigolion y ddinas hon, yn ddyn, ac yn anifail: byddant feirw o haint mawr.
7 Ac wedi hynny, medd yr ARGLWYDD, y rhoddaf Sedecïah brenhin Judah, a'i weision, a'r bobl, a'r *rhai* a weddillir yn y ddinas hon, gan yr haint, gan y cleddyf, a chan y newyn, i law Nebuchodonosor brenhin Babilon, ac i law eu gelynion, ac i law y rhai sydd yn ceisio eu heinioes: ac efe a'u tery hwynt â min y cleddyf; ni thosturia wrthynt, ac nid erbyd, ac ni chymmer drugaredd.
8 ¶ Ac wrth y bobl hyn y dywedi, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele fi yn rhoddi ger eich bron ffordd einioes, a ffordd angau.
9 Yr hwn a drigo yn y ddinas hon a leddir gan y cleddyf, a chan y newyn, a chan yr haint; ond y neb a elo allan, ac a gilio at y Caldeaid, y rhai sydd yn gwarchae arnoch, a fydd byw, a'i einioes fydd yn ysglyfaeth iddo.
10 Canys mi a osodais fy wyneb yn erbyn y ddinas hon, er drwg, ac nid er da, medd yr ARGLWYDD: yn llaw brenhin Babilon y rhoddir hi, ac efe a'i llysg hi â thân.
11 ¶ Ac am dŷ brenhin Judah, *dywed,* Gwrandêwch air yr ARGLWYDD.
12 O dŷ Dafydd, fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Bernwch uniondeb y bore, ac achubwch y gorthrymmedig o law y gorthrymmwr, rhag i'm llid dorri allan fel tân, a llosgi fel na allo neb ei ddiffodd, o herwydd drygioni eich gweithredoedd.
13 Wele fi yn dy erbyn, yr hon wyt yn preswylio y dyffryn, *a* chraig y gwastadedd, medd yr ARGLWYDD; y rhai a ddywedwch, Pwy a ddaw i waered i'n herbyn? neu, Pwy a ddaw i'n hanneddau?
14 Ond mi a ymwelaf â chwi yn ol ffrwyth eich gweithredoedd, medd yr ARGLWYDD; a mi a gynneuaf dân yn ei choedwig, ac efe a ysa bob dim o'i hamgylch hi.

PENNOD 22.

1 *Y mae yn annog i edifeirwch, trwy addewidion a bygythion.* 10 *Barn Sàlum,* 13 *Jehoiacim,* 20 *a Chonïah.*

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD, Dos di i waered i dŷ brenhin Judah, a llefara yno y gair hwn;
2 A dywed, Gwrando air yr ARGLWYDD, frenhin Judah, yr hwn wyt yn eistedd ar frenhinfaingc Dafydd, ti, a'th weision, a'th bobl y rhai sydd yn dyfod i mewn trwy y pyrth hyn:
3 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Gwnewch farn a chyfiawnder, a gwaredwch y gorthrymmedig o law y gorthrymmwr: na wnewch gam, ac na threisiwch y dïeithr, yr amddifad, na'r weddw, ac na thywelltwch waed gwirion yn y lle hwn.
4 Canys os gan wneuthur y gwnewch y peth hyn, daw trwy byrth y tŷ hwn frenhinoedd yn eistedd ar deyrn-gadair Dafydd, yn marchogaeth mewn cerbydau, ac ar feirch, efe, a'i weision, a'i bobl.
5 Eithr oni wrandêwch y geiriau hyn, i mi fy hun y tyngaf, medd yr ARGLWYDD, y bydd y tŷ hwn yn anghyfannedd.
6 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am dŷ brenhin Judah; Gilead *wyt* i mi, *a* phen Libanus: *etto* yn ddïau mi a'th wnaf yn ddiffaethwch, *ac* yn ddinasoedd anghyfanneddol.
7 Parottoaf hefyd i'th erbyn anrheithwyr, pob un â'i arfau: a hwy a dorrant dy ddewis gedrwydd, ac a'*u* bwriant i'r tân.
8 A chenhedloedd lawer a ânt heb law y ddinas hon, ac a ddywedant bob un wrth ei gilydd, Paham y gwnaeth yr ARGLWYDD fel hyn i'r ddinas fawr hon?
9 Yna yr attebant, Am iddynt ymwrthod â chyfammod yr ARGLWYDD eu DUW, ac addoli duwiau dïeithr, a'u gwasanaethu hwynt.
10 ¶ Nac wylwch dros y marw, ac na ymofidiwch am dano, *ond* gan wylo wylwch am yr hwn sydd yn myned ymaith: canys ni ddychwel mwyach, ac ni wêl wlad ei enedigaeth.
11 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am Sàlum mab Josïah brenhin Judah, yr hwn a deyrnasodd yn lle Josïah ei dad, yr hwn a aeth allan o'r lle hwn; Ni ddychwel efe yno mwyach.

12 Eithr yn y lle y caethgludasant
ef iddo, yno y bydd efe farw; ac
ni wêl efe y wlad hon mwyach.
13 ¶ Gwae yr hwn a adeilado ei
dŷ trwy anghyfiawnder, a'i ystafellau trwy gam; gan beri i'w gymydog ei wasanaethu yn rhad, ac
heb roddi iddo am ei waith:
14 Yr hwn a ddywed, Mi a adeiladaf i mi dŷ eang, ac ystafellau
helaeth; ac a nadd iddo ffenestri,
a llofft o gedrwydd, wedi ei lliwio
â fermilion.
15 A gei di deyrnasu, am i ti ymgau mewn cedrwydd? oni fwyttaodd ac oni yfodd dy dad, ac oni
wnaeth efe farn a chyfiawnder, *ac*
yna *y bu* dda iddo?
16 Efe a farnodd gŵyn y tlawd a'r
anghenus; yna y llwyddodd: onid
fy adnabod i *oedd* hyn? medd yr
ARGLWYDD.
17 Er hynny dy lygaid di a'th
galon nid *ydynt* ond ar dy gybyddod, ac ar dywallt gwaed gwirion,
ac ar wneuthur trais, a cham.
18 Am hynny fel hyn y dywed yr
ARGLWYDD am Jehoiacim mab Josiah brenhin Judah, Ni alarant am
dano, *gan ddywedyd*, O fy mrawd!
neu, O fy chwaer! ni alarant am
dano ef, *gan ddywedyd*, O ior!
neu, O ei ogoniant ef!
19 A chladdedigaeth asyn y cleddir ef, wedi ei lusgo a'i daflu tu hwnt
i byrth Jerusalem.
20 ¶ Dring i Libanus, a gwaedda;
cyfod dy lef yn Basan, a bloeddia
o'r bylchau: canys dinystriwyd y
rhai oll a'th garant.
21 Dywedais wrthyt pan oedd esmwyth arnat; tithau a ddywedaist,
Ni wrandawaf. Dyma dy arfer o'th
ieuengctid, na wrandewaist ar fy
llais.
22 A gwynt a ysa dy holl fugeiliaid, a'th gariadau a ânt i gaethiwed: yna y'th gywilyddir, ac y'th
waradwyddir am dy holl ddrygioni.
23 Ti yr hon wyt yn trigo yn Libanus, yn nythu yn y cedrwydd, mor
hawddgar fyddi pan ddelo gwewyr
arnat, *fel* cnofeydd gwraig yn esgor!
24 *Fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD, pe byddai Coniah mab
Jehoiacim brenhin Judah yn fodrwy ar fy neheulaw, diau y tynnwn
di oddi yno:
25 A mi a'th roddaf di yn llaw y
rhai sydd yn ceisio dy einioes, ac
yn llaw y rhai y mae arnat ofn eu
hwynebau, sef i law Nebuchodonosor brenhin Babilon, ac i law y
Caldeaid.
26 Bwriaf dithau hefyd, a'th fam
a'th esgorodd, i wlad ddïeithr, yr
hon ni'ch ganwyd ynddi, ac yno y
byddwch farw.
27 Ond i'r wlad y bydd arnynt
hiraeth am ddychwelyd iddi, ni
ddychwelant yno.
28 Ai delw ddirmygus ddrylliedig
yw y gŵr hwn Coniah? ai llestr
yw heb hoffder ynddo? paham y
bwriwyd hwynt ymaith, efe a'i had,
ac y taflwyd hwynt i wlad nid adwaenant?
29 O ddaear, ddaear, ddaear,
gwrando air yr ARGLWYDD.
30 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD,
Ysgrifenwch y gŵr hwn yn ddiblant,
gŵr ni ffynna yn ei ddyddiau: canys
ni ffynna o'i had ef un a eisteddo
ar orseddfâ Dafydd, nac a lywodraetho mwyach yn Judah.

PENNOD 23.

1 Y mae yn prophwydo yr adferir y praidd gwasgaredig: 5 yn dangos y teyrnasa Crist, ac y gwared efe hwy. 9 Yn erbyn gau-brophwydi, 33 a gwatwarwyr y gwir brophwydi.

GWAE y bugeiliaid sydd yn difetha ac yn gwasgaru defaid fy
mhorfa! medd yr ARGLWYDD.
2 Am hynny fel hyn y dywed
ARGLWYDD DDUW Israel yn erbyn
y bugeiliaid sydd yn bugeilio fy
mhobl; Chwi a wasgarasoch fy
nefaid, ac a'u hymlidiasoch, ac
nid ymwelsoch â hwynt: wele fi
yn ymweled â chwi, am ddrygioni
eich gweithredoedd, medd yr ARGLWYDD.
3 A mi a gasglaf weddill fy nefaid
o'r holl wledydd lle y gyrrais hwynt,
a mi a'u dygaf hwynt drachefn i'w
corlannau; yna yr amlhânt ac y
chwanegant.
4 Gosodaf hefyd arnynt fugeiliaid, y rhai a'u bugeilia hwynt; ac
nid ofnant mwyach, ac ni ddychrynant, ac ni byddant yn eisieu, medd
yr ARGLWYDD.
5 ¶ Wele y dyddiau yn dyfod,

medd yr ARGLWYDD, y cyfodaf i Dafydd Flaguryn cyfiawn, a Brenhin a deyrnasa ac a lwydda, ac a wna farn a chyfiawnder ar y ddaear.

6 Yn ei ddyddiau ef yr achubir Judah, ac Israel a breswylia yn ddïogel: a hyn *fydd* ei enw *ar* yr hwn y gelwir ef, YR ARGLWYDD EIN CYFIAWNDER.

7 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, pryd na ddywedant mwyach, Byw yw yr ARGLWYDD, yr hwn a ddug feibion Israel i fyny o wlad yr Aipht:

8 Eithr, Byw yw yr ARGLWYDD, yr hwn a ddug i fyny, ac a dywysodd had tŷ Israel o dir y gogledd, ac o bob gwlad lle y gyrraswn i hwynt; a hwy a gânt aros yn eu gwlad eu hun.

9 ¶ O herwydd y prophwydi y torrodd fy nghalon ynof, fy holl esgyrn a grynant: yr ydwyf fel un meddw, ac fel un wedi i win ei orchfygu; o herwydd yr ARGLWYDD, ac o herwydd geiriau ei sancteiddrwydd ef.

10 Canys llawn yw ŷ ddaear o odinebwyr: canys o herwydd llwon y gofidiodd y ddaear, ac y sychodd tirion leoedd yr anialwch; a'u helynt sydd ddrwg, a'u cadernid nid *yw* uniawn.

11 Canys y prophwyd a'r offeiriad hefyd a ragrithiasant: yn fy nhŷ hefyd y cefais eu drygioni hwynt, medd yr ARGLWYDD.

12 Am hynny y bydd eu ffordd yn llithrig iddynt yn y tywyllwch; gyrrir hwynt rhagddynt, a syrthiant ynddi: canys myfi a ddygaf arnynt ddrygfyd, *sef* blwyddyn eu gofwy, medd yr ARGLWYDD.

13 Ar brophwydi Samaria y gwelais hefyd beth diflas: prophwydasant yn Baal, a hudasant fy mhobl Israel.

14 Ac ar brophwydi Jerusalem y gwelais beth erchyll: torri prïodas, a rhodio mewn celwydd: cynnorthwyant hefyd ddwylaw y drygionus, fel na ddychwel neb oddi wrth ei ddrygioni: y mae y rhai hyn oll i mi fel Sodom, a'i thrigolion fel Gomorrah.

15 Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd am y prophwydi, Wele, mi a'u bwydaf hwynt â'r wermod, ac a'u dïodaf hwynt â dwfr bustl: canys oddi wrth brophwydi Jerusalem yr aeth lledrith allan i'r holl dir.

16 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Na wrandêwch ar eiriau y prophwydi sydd yn prophwydo i chwi: y maent yn eich gwneuthur yn ofer: gweledigaeth eu calon eu hunain a lefarant, *ac* nid o enau yr ARGLWYDD.

17 Gan ddywedyd y dywedant wrth fy nirmygwyr, Yr ARGLWYDD a ddywedodd, Bydd i chwi heddwch; ac *wrth* bob un sydd yn rhodio wrth amcan ei galon ei hun y dywedant, Ni ddaw arnoch niwed.

18 Canys pwy a safodd y'nghyfrinach yr ARGLWYDD, ac a welodd ac a glywodd ei air ef? pwy hefyd a ddaliodd ar ei air ef, ac a'i gwrandawodd?

19 Wele, corwynt yr ARGLWYDD *a aeth allan mewn* llidiowgrwydd, sef corwynt angerddol a syrth ar ben y drygionus.

20 Digofaint yr ARGLWYDD ni ddychwel, nes iddo wneuthur, a nes iddo gwblhâu meddwl ei galon: yn y dyddiau diweddaf y deallwch hynny yn eglur.

21 Ni hebryngais i y prophwydi *hyn*, etto hwy a redasant; ni leferais wrthynt, er hynny hwy a brophwydasant.

22 A phe safasent yn fy nghynghor, a phe traethasent fy ngeiriau i'm pobl; yna y gwnaethent iddynt ddychwelyd o'u ffordd ddrwg, ac oddi wrth ddrygioni eu gweithredoedd.

23 Ai DUW o agos *ydwyf* fi, medd yr ARGLWYDD, ac nid DUW o bell?

24 A lecha un mewn dirgel-leoedd, fel nas gwelwyf fi ef? medd yr ARGLWYDD: onid ydwyf fi yn llenwi y nefoedd a'r ddaear? medd yr ARGLWYDD.

25 Mi a glywais beth a ddywedodd y prophwydi sydd yn prophwydo celwydd yn fy enw, gan ddywedyd, Breuddwydiais, breuddwydiais.

26 Pa hyd y bydd *hyn* y'nghalon y prophwydi sydd yn prophwydo

celwydd? ïe, prophwydi hudoliaeth eu calon eu hunain *ydynt.*
27 Y rhai sydd yn meddwl peri i'm pobl anghofio fy enw trwy eu breuddwydion a fynegant bob un i'w gymmydog; fel yr anghofiodd eu tadau fy enw, er mwyn Baal.
28 Y prophwyd sydd â breuddwyd ganddo, myneged freuddwyd; a'r hwn y mae ganddo fy ngair, llefared fy ngair *mewn* gwirionedd: beth *yw* yr us wrth y gwenith? medd yr ARGLWYDD.
29 Onid *yw* fy ngair i megis tân? medd yr ARGLWYDD; ac fel gordd yn dryllio y graig?
30 Am hynny wele fi yn erbyn y prophwydi, medd yr ARGLWYDD, y rhai sydd yn lladratta fy ngeiriau, bob un oddi ar ei gymmydog.
31 Wele fi yn erbyn y prophwydi, medd yr ARGLWYDD, y rhai a lyfnhânt eu tafodau, ac a ddywedant, Efe a ddywedodd.
32 Wele fi yn erbyn y rhai a brophwydant freuddwydion celwyddog, medd yr ARGLWYDD, ac a'u mynegant, ac a hudant fy mhobl â'u celwyddau, ac â'u gwagedd, a mi heb eu gyrru hwynt, ac heb orchymyn iddynt: am hynny ni wnant ddim lles i'r bobl hyn, medd yr ARGLWYDD.
33 ¶ A phan ofyno y bobl hyn, neu y prophwyd, neu yr offeiriad, i ti, gan ddywedyd, Beth *yw* baich yr ARGLWYDD? yna y dywedi wrthynt, Pa faich? eich gwrthod a wnaf, medd yr ARGLWYDD.
34 A'r prophwyd, a'r offeiriad, a'r bobl, y rhai a ddywedo, Baich yr ARGLWYDD, myfi a ymwelaf â'r gŵr hwnnw, ac â'i dŷ.
35 Fel hyn y dywedwch bob un wrth ei gymmydog, a phob un wrth ei frawd, Beth a attebodd yr ARGLWYDD? a pha beth a lefarodd yr ARGLWYDD?
36 Ond am faich yr ARGLWYDD na wnewch goffa mwyach; canys baich i bawb fydd ei air ei hun: o herwydd chwychwi a ŵyrasoch eiriau y DUW byw, ARGLWYDD y lluoedd, ein DUW ni.
37 Fel hyn y dywedi wrth y prophwyd, Pa atteb a roddodd yr ARGLWYDD i ti? a pha beth a lefarodd yr ARGLWYDD?
38 Ond gan eich bod yn dywedyd, Baich yr ARGLWYDD; am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Am i chwi ddywedyd y gair hwn, Baich yr ARGLWYDD, a mi wedi anfon attoch, gan ddywedyd, Na ddywedwch, Baich yr ARGLWYDD:
39 Am hynny wele, myfi a'ch llwyr-anghofiaf chwi, ac mi a'ch gadawaf chwi, a'r ddinas yr hon a roddais i chwi ac i'ch tadau, *ac a'ch buriaf* allan o'm golwg.
40 A mi a roddaf arnoch warthrudd tragywyddol, a gwaradwydd tragywydd, yr hwn nid anghofir.

PENNOD 24.

1 *Dan rith ffigys da a drwg, 4 y mae yn darogan yr adferia y rhai a aethai y'nghaethiwed, 8 ac y distrywid Sedeciah a'r lleill.*

YR ARGLWYDD a ddangosodd i mi, ac wele ddau gawell o ffigys wedi eu gosod ar gyfer teml yr ARGLWYDD, wedi i Nebuchodonosor brenhin Babilon gaethgludo Jechoniah mab Jehoiacim brenhin Judah, a thywysogion Judah, gyd â'r seiri a'r gofaint o Jerusalem, a'u dwyn i Babilon.
2 Un cawell *oedd* o ffigys da iawn, fel ffigys yr addfediad cyntaf: a'r cawell arall *oedd* o ffigys drwg iawn, y rhai ni ellid eu bwytta rhag eu drycced.
3 Yna y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Beth a weli di, Jeremiah? A mi a ddywedais, Ffigys: y ffigys da, yn dda iawn; a'r rhai drwg, yn ddrwg iawn, y rhai ni ellir eu bwytta rhag eu drycced.
4 ¶ Yna y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,
5 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel, Fel y ffigys da hyn, felly y cydnabyddaf fi gaethglud Judah, y rhai a anfonais o'r lle hwn i wlad y Caldeaid er daioni.
6 Canys mi a osodaf fy ngolwg arnynt er daioni, ac a'u dygaf drachefn i'r wlad hon, ac a'u hadeiladaf hwynt, ac ni thynnaf i lawr; plannaf hefyd hwynt, ac nis diwreiddiaf.
7 Rhoddaf hefyd iddynt galon i'm hadnabod, mai yr ARGLWYDD

ydwyf fi: a hwy a fyddant yn bobl i mi, a minnau a fyddaf yn DDUW iddynt hwy: canys hwy a droant attaf fi â'u holl galon.

8 ¶ Ac fel y ffigys drwg, y rhai ni ellir eu bwytta rhag eu drycced, (dïau fel hyn y dywed yr ARGLWYDD,) felly y rhoddaf Sedecïah brenhin Judah, a'i bennaethiaid, a gweddill Jerusalem, y rhai a weddillwyd yn y wlad hon, a'r rhai sydd yn trigo yn nhir yr Aipht:

9 Ïe, rhoddaf hwynt i'w symmud i holl deyrnasoedd y ddaear, er drwg *iddynt, i fod* yn waradwydd ac yn ddïareb, yn watwargerdd ac yn felldith, ym mhob man lle y gyrrwyf hwynt.

10 A mi a anfonaf arnynt y cleddyf, newyn, a haint, nes eu darfod oddi ar y ddaear yr hon a roddais iddynt ac i'w tadau.

PENNOD 25.

1 *Jeremïah yn argyhoeddi yr Iuddewon am eu hanufydd-dod i'r prophwydi;* 8 *yn rhagfynegi deng mlynedd a thri ugain o gaethiwed,* 12 *a chwedi hynny, dinystr Babilon.* 15 *Dan rith y phiolaid win, y mae yn darogan dinystr yr holl genhedloedd.* 34 *Udfa y bugeiliaid.*

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah am holl bobl Judah, yn y bedwaredd flwyddyn i Jehoiacim mab Josïah brenhin Judah, hon *oedd* y flwyddyn gyntaf i Nebuchodonosor brenhin Babilon;

2 Yr hwn a lefarodd y prophwyd Jeremïah wrth holl bobl Judah, ac wrth holl breswylwyr Jerusalem, gan ddywedyd,

3 Er y drydedd flwyddyn ar ddeg i Josïah mab Amon brenhin Judah, hyd y dydd hwn, honno *yw* y drydedd flwyddyn ar hugain, y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, ac mi a ddywedais wrthych, gan foregodi a llefaru, ond ni wrandawsoch.

4 A'r ARGLWYDD a anfonodd attoch chwi ei holl weision y prophwydi, gan fore-godi a'*u* hanfon; ond ni wrandawsoch, ac ni ogwyddasoch eich clust i glywed.

5 Hwy a ddywedent, Dychwelwch yr awr hon bob un oddi wrth ei ffordd ddrwg, ac oddi wrth ddryginoi eich gweithredoedd; a thrigwch yn y tir a roddodd yr ARGLWYDD i chwi ac i'ch tadau, byth ac yn dragywydd:

6 Ac nac ewch ar ol duwiau dïeithr, i'w gwasanaethu, ac i ymgrymmu iddynt; ac na lidiwch fi â gweithredoedd eich dwylaw, ac ni wnaf niwed i chwi.

7 Er hynny ni wrandawsoch arnaf, medd yr ARGLWYDD, fel y digiech fi â gweithredoedd eich dwylaw, er drwg i chwi eich hunain.

8 ¶ Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, O herwydd na wrandawsoch ar fy ngeiriau,

9 Wele, mi a anfonaf ac a gymmeraf holl deuluoedd y gogledd, medd yr ARGLWYDD, a Nebuchodonosor brenhin Babilon, fy ngwas, a mi a'u dygaf hwynt yn erbyn y wlad hon, ac yn erbyn ei phreswylwyr, ac yn erbyn yr holl genhedloedd hyn oddi amgylch; difrodaf hwynt hefyd, a gosodaf hwynt yn syndod, ac yn chwibaniad, ac yn anrhaith tragywyddol.

10 Paraf hefyd i lais hyfrydwch, ac i lais llawenydd, i lais y prïodfab, ac i lais y brïoddferch, i swn y meini melinau, ac i lewyrch y canhwyllau, ballu ganddynt.

11 A'r holl dir hwn fydd yn ddiffaethwch, *ac* yn syndod; a'r cenhedloedd hyn a wasanaethant frenhin Babilon ddeng mlynedd a thri ugain.

12 A phan gyflawner deng mlynedd a thri ugain, myfi a ymwelaf â brenhin Babilon, ac â'r genedl honno, medd yr ARGLWYDD, am eu hanwiredd, ac â gwlad y Caldeaid; a mi a'i gwnaf hi yn anghyfannedd tragywyddol.

13 Dygaf hefyd ar y wlad honno fy holl eiriau, y rhai a leferais i yn ei herbyn, *sef* cwbl *ag sydd* ysgrifenedig yn y llyfr hwn; yr hyn a brophwydodd Jeremïah yn erbyn yr holl genhedloedd.

14 Canys cenhedloedd lawer a brenhinoedd mawrion a fynnant wasanaeth ganddynt hwythau: a mi a dalaf iddynt yn ol eu gweithredoedd, ac yn ol gwaith eu dwylaw eu hun.

15 ¶ Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel, wrthyf fi; Cymmer phïol win y digofaint yma

o'm llaw, a dod hi i'w hyfed i'r holl genhedloedd y rhai yr wyf yn dy anfon attynt.

16 A hwy a yfant, ac a frawychant, ac a wallgofant, o herwydd y cleddyf yr hwn a anfonaf yn eu plith.

17 Yna mi a gymmerais y phïol o law yr ARGLWYDD, ac a'i rhoddais i'w hyfed i'r holl genhedloedd y rhai yr anfonasai yr ARGLWYDD ti attynt:

18 I Jerusalem, ac i ddinasoedd Judah, ac i'w brenhinoedd, ac i'w thywysogion: i'w gwneuthur hwynt yn ddiffaethwch, yn syndod, yn chwibaniad, ac yn felldith, fel *y mae* heddyw;

19 I Pharaoh brenhin yr Aipht, ac i'w weision, ac i'w dywysogion, ac i'w holl bobl;

20 Ac i'r holl bobl gymmysg, ac i holl frenhinoedd gwlad Us, a holl frenhinoedd gwlad y Philistiaid, ac i Ascalon, ac Assah, ac Ecron, a gweddill Asdod;

21 I Edom, a Moab, a meibion Ammon;

22 I holl frenhinoedd Tyrus hefyd, ac i holl frenhinoedd Sidon, ac i frenhinoedd yr ynysoedd y rhai *sydd* dros y môr;

23 I Dedan, a Thema, a Bus; ac i bawb o'r cyrrau eithaf;

24 Ac i holl frenhinoedd Arabia, ac i holl frenhinoedd y bobl gymmysg, y rhai sydd yn trigo yn yr anialwch;

25 Ac i holl frenhinoedd Simri, ac i holl frenhinoedd Elam, ac i holl frenhinoedd y Mediaid;

26 Ac i holl frenhinoedd y gogledd, agos a phell, bob un gyd â'u gilydd; ac i holl deyrnasoedd y byd, y rhai sydd ar wyneb y ddaear: a brenhin Sesach a ŷf ar eu hol hwynt.

27 A thi a ddywedi wrthynt, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Yfwch a meddwch, a chwydwch, a syrthiwch, ac na chyfodwch, o herwydd y cleddyf yr hwn a anfonwyf i'ch plith.

28 Ac os gwrthodant dderbyn y phïol o'th law di i yfed, yna y dywedi wrthynt, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, Dïau yr yfwch:

29 Canys wele fi yn dechreu drygu y ddinas y gelwir fy enw arni, ac a ddïengwch chwi yn ddigerydd? Na ddïengwch; canys yr ydwyf fi yn galw am gleddyf ar holl drigolion y ddaear, medd ARGLWYDD y lluoedd.

30 Am hynny prophwyda yn eu herbyn yr holl eiriau hyn, a dywed wrthynt, Yr ARGLWYDD oddi uchod a rua, ac a rydd ei lef o drigle ei sancteiddrwydd; gan ruo y rhua efe ar ei drigle; bloedd, fel rhai yn sathru *grawnwin*, a rydd efe yn erbyn holl breswylwyr y ddaear.

31 Daw twrf hyd eithafoedd y ddaear; canys *y mae* cŵyn rhwng yr ARGLWYDD a'r cenhedloedd: efe a ymddadleu â phob cnawd, y drygionus a ddyry efe i'r cleddyf, medd yr ARGLWYDD.

32 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Wele ddrwg yn myned allan o genedl at genedl, a chorwynt mawr yn cyfodi o ystlysau y ddaear.

33 A lladdedigion yr ARGLWYDD a fyddant y dwthwn hwnnw o'r *naill* gwr i'r ddaear hyd y cwr *arall* i'r ddaear: ni alerir drostynt, ac nis cesglir, ac nis cleddir hwynt; fel tommen y byddant ar wyneb y ddaear.

34 ¶ Udwch, fugeiliaid, a gwaeddwch; ac ymdreiglwch mewn lludw, chwi flaenoriaid y praidd: canys cyflawnwyd dyddiau eich lladdedigaeth a'ch gwasgarfa; a chwi a syrthiwch fel llestr dymunol.

35 Metha gan y bugeiliaid ffoi, a chan flaenoriaid y praidd ddïangc.

36 *Clywir* llef gwaedd y bugeiliaid, ac udfa blaenoriaid y praidd: canys yr ARGLWYDD a anrheithiodd eu porfa hwynt.

37 A'r anneddau heddychlawn a ddryllir, gan lid digofaint yr ARGLWYDD.

38 Efe a wrthododd ei loches, fel cenaw llew: canys y mae eu tir yn anghyfannedd, gan lid y gorthrymmwr, a chan lid ei ddigofaint ef.

PENNOD 26.

1 *Jeremiah, trwy addewidion a bygythion, yn annog y bobl i edifeirwch;* 8 *a'i ddal ef am hynny,* 10 *a'i ddwyn ger bron.* 12 *Ei atteb*

ef drosto ei hun; 16 *a'i farnu yn ddïeuog, trwy esampl Michah,* 20 *ac Uriah,* 25 *a thrwy ofal Ahicam.*

YN nechreu teyrnasiad Jehoiacim mab Josïah brenhin Judah, y daeth y gair hwn oddi wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,
2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Saf y'nghyntedd tŷ yr ARGLWYDD, a llefara wrth holl ddinasoedd Judah, y rhai a ddêl i addoli i dŷ yr ARGLWYDD, yr holl eiriau a orchymynwyf i ti eu llefaru wrthynt; na attal air:
3 I edrych a wrandawant, ac a ddychwelant bob un o'i ffordd ddrwg; fel yr edifarhâwyf finnau am y drwg a amcenais ei wneuthur iddynt, am ddrygioni eu gweithredoedd.
4 A dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Oni wrandêwch arnaf i rodio yn fy nghyfraith, yr hon a roddais ger eich bron,
5 I wrandaw ar eiriau fy ngweision y prophwydi, y rhai a anfonais attoch, gan godi yn fore, ac anfon, ond ni wrandawsoch chwi;
6 Yna y gwnaf y tŷ hwn fel Siloh, a'r ddinas hon a wnaf yn felldith i holl genhedloedd y ddaear.
7 Yr offeiriaid hefyd, a'r prophwydi, a'r holl bobl a glywsant Jeremïah yn llefaru y geiriau hyn yn nhŷ yr ARGLWYDD.
8 ¶ A phan ddarfu i Jeremïah lefaru yr hyn oll a orchymynasai yr ARGLWYDD ei ddywedyd wrth yr holl bobl; yna yr offeiriaid, a'r prophwydi, a'r holl bobl a'i daliasant ef, gan ddywedyd, Ti a fyddi farw yn ddïau.
9 Paham y prophwydaist yn enw yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Fel Siloh y bydd y tŷ hwn, a'r ddinas hon a wneir yn anghyfannedd heb breswyliwr? Felly ymgasglodd yr holl bobl yn èrbyn Jeremïah yn nhŷ yr ARGLWYDD.
10 ¶ Pan glybu tywysogion Judah y geiriau hyn, yna hwy a ddaethant i fyny o dŷ y brenhin i dŷ yr ARGLWYDD, ac a eisteddasant ar ddrws porth newydd *tŷ* yr ARGLWYDD.
11 Yna yr offeiriaid a'r prophwydi a lefarasant wrth y tywysogion, ac wrth yr holl bobl, gan ddywedyd, Barn marwolaeth *sydd ddyledus* i'r gŵr hwn: canys efe a brophwydodd yn erbyn y ddinas hon, megis y clywsoch â'ch clustiau.
12 ¶ Yna y llefarodd Jeremïah wrth yr holl dywysogion, ac wrth yr holl bobl, gan ddywedyd, Yr ARGLWYDD a'm hanfonodd i brophwydo yn erbyn y tŷ hwn, ac yn erbyn y ddinas hon, yr holl eiriau a glywsoch.
13 Gan hynny gwellhêwch yn awr eich ffyrdd a'ch gweithredoedd, a gwrandêwch ar lais yr ARGLWYDD eich DUW; ac fe a edifarhâ yr ARGLWYDD am y drwg a lefarodd efe i'ch erbyn.
14 Ac am danaf fi, wele fi yn eich dwylaw; gwnewch i mi fel y gweloch yn dda ac yn uniawn.
15 Ond gwybyddwch yn sicr, os chwi a'm lladd, eich bod yn dwyn gwaed gwirion arnoch eich hunain, ac ar y ddinas hon, ac ar ei thrigolion: canys mewn gwirionedd yr ARGLWYDD a'm hanfonodd attoch i lefaru, lle y clywech, yr holl eiriau hyn.
16 ¶ Yna y tywysogion, a'r holl bobl, a ddywedasant wrth yr offeiriaid a'r prophwydi, Ni haeddai y gŵr hwn farn marwolaeth: canys yn enw yr ARGLWYDD ein DUW y llefarodd efe wrthym.
17 Yna rhai o henuriaid y wlad a godasant, ac a lefarasant wrth holl gynnulleidfa y bobl, gan ddywedyd,
18 Michah y Morasthiad oedd yn prophwydo yn nyddiau Hesecïah brenhin Judah, ac efe a lefarodd wrth holl bobl Judah, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Sïon a erddir *fel* maes, a Jerusalem a fydd yn garneddau, a mynydd y tŷ yn uchelfeydd i goed.
19 A roddodd Hesecïah brenhin Judah, a holl Judah, ef i farwolaeth? oni ofnodd efe yr ARGLWYDD, ac *oni* weddïodd efe ger bron yr ARGLWYDD, fel yr edifarhaodd yr ARGLWYDD am y drwg a draethasai efe yn eu herbyn? Fel hyn y gwnaem ddrwg mawr yn erbyn ein heneidiau.
20 Ac yr oedd hefyd ŵr yn prophwydo yn enw yr ARGLWYDD,

Uriah mab Semaiah, o Ciriathjearim, yr hwn a brophwydodd yn erbyn y ddinas hon, ac yn erbyn y wlad hon, yn ol holl eiriau Jeremïah.

21 A phan glywodd y brenhin Jehoiacim, a'i holl gedyrn, a'r holl dywysogion, ei eiriau ef, y brenhin a geisiodd ei ladd ef: ond pan glywodd Uriah, efe a ofnodd, ac a ffodd, ac a aeth i'r Aipht.

22 A'r brenhin Jehoiacim a anfonodd wŷr i'r Aipht, *sef* Elnathan mab Achbor, a gwŷr gyd âg ef i'r Aipht:

23 A hwy a gyrchasant Uriah allan o'r Aipht, ac a'i dygasant ef at y brenhin Jehoiacim, yr hwn a'i lladdodd ef â'r cleddyf, ac a fwriodd ei gelain ef i feddau y cyffredin.

24 Eithr llaw Ahicam mab Saphan oedd gyd â Jeremïah, fel na roddwyd ef i law y bobl i'w ladd.

PENNOD 27.

1 Dan rith rhwymau ac ieuau, y mae yn prophwydo y darostyngid dan Nebuchodonosor y brenhinoedd oedd gymmydogion iddo. 8 Y mae yn eu hannog i ymrôi, ac na chredent y gau-brophwydi. 12 Y mae yn gwneuthur yr un peth i Sedecïah: 19 yn darogan y dygid yr hyn a adawsid o'r llestri i Babilon, ac y byddent yno hyd ddydd yr ymweliad.

YN nechreu teyrnasiad Jehoiacim mab Josïah brenhin Judah, y daeth y gair hwn at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD wrthyf, Gwna i ti rwymau a gefynnau, a dod hwynt am dy wddf;

3 Ac anfon hwynt at frenhin Edom, ac at frenhin Moab, ac at frenhin meibion Ammon, ac at frenhin Tyrus, ac at frenhin Sidon, yn llaw y cenhadau a ddelo i Jerusalem at Sedecïah brenhin Judah;

4 A gorchymyn iddynt ddywedyd wrth eu harglwyddi, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, Duw Israel; Fel hyn y dywedwch wrth eich arglwyddi;

5 Myfi a wneuthum y ddaear, y dyn a'r anifail *sydd* ar wyneb y ddaear, â'm grym mawr, ac â'm braich estynedig, ac a'*u* rhoddais hwynt i'r neb y gwelais yn dda.

6 Ac yn awr mi a roddais yr holl diroedd hyn yn llaw Nebuchodonosor brenhin Babilon, fy ngwas; a mi a roddais hefyd anifeiliaid y maes i'w wasanaethu ef.

7 A'r holl genhedloedd a'i gwasanaethant ef, a'i fab, a mab ei fab, nes dyfod gwir amser ei wlad ef; *yna* cenhedloedd lawer a brenhinoedd mawrion a fynnant wasanaeth ganddo ef.

8 Ond y genedl a'r deyrnas nis gwasanaetho ef, sef Nebuchodonosor brenhin Babilon, a'r rhai ni roddant eu gwddf dan iau brenhin Babilon; â'r cleddyf, ac â newyn, ac â haint, yr ymwelaf â'r genedl honno, medd yr ARGLWYDD, nes i mi eu difetha hwynt trwy ei law ef.

9 Am hynny na wrandêwch ar eich prophwydi, nac ar eich dewiniaid, nac ar eich breuddwydwyr, nac ar eich hudolion, nac ar eich swynyddion, y rhai sydd yn llefaru wrthych, gan ddywedyd, Nid rhaid i chwi wasanaethu brenhin Babilon:

10 Canys celwydd y mae y rhai hyn yn ei brophwydo i chwi, i'ch gyrru chwi ym mhell o'ch gwlad, ac fel y bwriwn chwi ymaith, ac y methoch.

11 Ond y genedl a roddo ei gwddf dan iau brenhin Babilon, ac a'i gwasanaetho ef, y rhai hynny a adawaf fi yn eu gwlad eu hun, medd yr ARGLWYDD; a hwy a'i llafuriant hi, ac a drigant ynddi.

12 ¶ Ac mi a leferais wrth Sedecïah brenhin Judah yn ol yr holl eiriau hyn, gan ddywedyd, Rhoddwch eich gwarrau dan iau brenhin Babilon, a gwasanaethwch ef a'i bobl, fel y byddoch byw.

13 Paham y byddwch feirw, ti a'th bobl, trwy y cleddyf, trwy newyn, a thrwy haint, fel y dywedodd yr ARGLWYDD yn erbyn y genedl ni wasanaethai brenhin Babilon?

14 Am hynny na wrandêwch ar eiriau y prophwydi y rhai a lefarant wrthych, gan ddywedyd, Nid rhaid i chwi wasanaethu brenhin Babilon: canys y maent yn prophwydo celwydd i chwi.

15 O herwydd nid myfi a'u hanfonodd hwynt, medd yr ARGLWYDD; er hynny hwy a brophwydant yn

fy enw ar gelwydd, fel y gyrrwn chwi ymaith, ac y darfyddai am danoch chwi, a'r prophwydi sydd yn prophwydo i chwi.

16 Myfi a leferais hefyd wrth yr offeiriaid, a'r holl bobl hyn, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Na wrandêwch ar eiriau eich prophwydi, y rhai sydd yn prophwydo i chwi, gan ddywedyd, Wele, llestri tŷ yr ARGLWYDD a ddygir yn eu hol o Babilon bellach ar frys; canys celwydd y maent yn ei brophwydo i chwi.

17 Na wrandêwch arnynt; gwasanaethwch chwi frenhin Babilon, a byddwch fyw: paham y byddai y ddinas hon yn ddiffaethwch?

18 Ond os prophwydi *ydynt* hwy, ac od ydyw gair yr ARGLWYDD gyd â hwynt, eiriolant yr awr hon ar ARGLWYDD y lluoedd, nad elo y llestri a adawyd yn nhŷ yr ARGLWYDD, ac yn nhŷ brenhin Judah, ac yn Jerusalem, i Babilon.

19 ¶ Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, am y colofnau, ac am y môr, ac am yr ystolion, ac am y rhan arall o'r llestri a adawyd yn y ddinas hon,

20 Y rhai ni ddug Nebuchodonosor brenhin Babilon ymaith, pan gaethgludodd efe Jechonïah, mab Jehoiacim brenhin Judah, o Jerusalem i Babilon, a holl bendefigion Judah a Jerusalem;

21 Ië, fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, am y llestri a adawyd yn nhŷ yr ARGLWYDD, ac yn nhŷ brenhin Judah a Jerusalem;

22 Hwy a ddygir i Babilon, ac yno y byddant hyd y dydd yr ymwelwyf â hwynt, medd yr ARGLWYDD: yna y dygaf hwynt i fyny, ac y dychwelaf hwynt i'r lle hwn.

PENNOD 28.

1 Hananïah yn gau-brophwydo y dychwelai y llestri yn eu hol, a Jechonïah hefyd. 5 Jeremïah yn dymuno bod hynny yn wir, ac yn dangos mai y diwedd a ddenyys pa rai sydd wir brophwydi. 10 Hananïah yn torri iau Jeremïah. 12 Jeremïah yn darogan iau haiarn, 15 a marwolaeth Hananïah.

AC yn y flwyddyn honno, yn nechreu teyrnasiad Sedecïah brenhin Judah, yn y bedwaredd flwyddyn, ar y pummed mis, y llefarodd Hananïah mab Asur y prophwyd, yr hwn *oedd* o Gibeon, wrthyf fi yn nhŷ yr ARGLWYDD, y'ngŵydd yr offeiriaid a'r holl bobl, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, gan ddywedyd, Myfi a dorrais iau brenhin Babilon.

3 O fewn yspaid dwy flynedd myfi a ddygaf drachefn i'r lle hwn holl lestri tŷ yr ARGLWYDD, y rhai a gymmerth Nebuchodonosor brenhin Babilon ymaith o'r lle hwn, ac a'u dug i Babilon;

4 Ac mi a ddygaf Jechonïah mab Jehoiacim brenhin Judah, a holl gaethglud Judah, y rhai a aethant i Babilon, drachefn i'r lle hwn, medd yr ARGLWYDD; canys mi a dorraf iau brenhin Babilon.

5 ¶ Yna Jeremïah y prophwyd a ddywedodd wrth Hananïah y prophwyd, y'ngŵydd yr offeiriaid, ac y'ngŵydd yr holl bobl, y rhai oedd yn sefyll yn nhŷ yr ARGLWYDD;

6 Ië, y prophwyd Jeremïah a ddywedodd, Amen, poed felly y gwnelo yr ARGLWYDD: yr ARGLWYDD a gyflawno dy eiriau di, y rhai a brophwydaist, am ddwyn drachefn lestri tŷ yr ARGLWYDD, a'r holl gaethglud, o Babilon i'r lle hwn.

7 Etto, gwrando di yr awr hon y gair yma, yr hwn a lefaraf fi lle y clywech di, a lle clywo yr holl bobl;

8 Y prophwydi y rhai a fuant o'm blaen i, ac o'th flaen dithau erioed, a brophwydasant yn erbyn gwledydd lawer, ac yn erbyn teyrnasoedd mawrion, am ryfel, ac am ddrygfyd, ac am haint.

9 Y prophwyd a brophwydo am heddwch, pan ddêl gair y prophwyd *i ben*, yr adnabyddir y prophwyd, mai yr ARGLWYDD a'i hanfonodd ef mewn gwirionedd.

10 ¶ Yna Hananïah y prophwyd a gymmerodd y gefyn oddi am wddf Jeremïah y prophwyd, ac a'i torrodd ef.

11 A Hananïah a lefarodd yng ngŵydd yr holl bobl, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Y modd hyn y torraf fi iau Nebuchodonosor brenhin Babilon o fewn yspaid dwy flynedd oddi ar war pob

cenedl. A Jeremïah y prophwyd a aeth i ffordd.

12 ¶ Yna y daeth gair yr ARGLWYDD at Jeremïah *y prophwyd*, wedi i Hananïah y prophwyd dorri y gefyn oddi am wddf y prophwyd Jeremïah, gan ddywedyd,

13 Dos di, a dywed i Hananïah, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Gefynnau pren a dorraist ti; ond ti a wnei yn eu lle hwynt efynnau o haiarn.

14 Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Rhoddaf iau o haiarn ar war yr holl genhedloedd hyn, fel y gwasanaethont Nebuchodonosor brenhin Babilon, a hwy a'i gwasanaethant ef: mi a roddais hefyd anifeiliaid y maes iddo ef.

15 ¶ Yna Jeremïah y prophwyd a ddywedodd wrth Hananïah y prophwyd, Gwrando yn awr, Hananïah; Ni anfonodd yr ARGLWYDD mo honot ti; ond yr wyt yn peri i'r bobl hyn ymddiried mewn celwydd.

16 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele, mi a'th fwriaf di oddi ar wyneb y ddaear: *o fewn* y flwyddyn hon y byddi farw, o herwydd i ti ddysgu gwrthryfel yn erbyn yr ARGLWYDD.

17 Felly Hananïah y prophwyd a fu farw y flwyddyn honno, yn y seithfed mis.

PENNOD 29.

1 *Jeremïah yn anfon llythyr at y rhai oedd yng nghaethiwed Babilon, ar fod o honynt yn llonydd yno;* 8 *ac na chodient freuddwydion eu prophwydi;* 10 *ac y caent ddychwelyd yn eu hol ym mhen deg a thri ugain o flynyddoedd.* 15 *Y mae yn rhag-fynegi dinystr y lleill, am eu hanufudd-dod:* 20 *ac yn dangos erchyll ddiwedd Ahab a Sedecïah, dau brophwyd celwyddog.* 24 *Semaiah yn ysgrifenu llythyr yn erbyn Jeremïah:* 30 *a Jeremïah yn dangos ei farnedigaeth yntau.*

DYMA eiriau y llythyr a anfonodd Jeremïah y prophwyd o Jerusalem at weddill henuriaid y gaethglud, ac at yr offeiriaid, ac at y prophwydi, ac at yr holl bobl y rhai a gaethgludasai Nebuchodonosor o Jerusalem i Babilon;

2 (Wedi mynedd Jechonïah y brenhin, a'r frenhines, a'r ystafellyddion, tywysogion Judah a Jerusalem, a'r seiri a'r gofaint, allan o Jerusalem;)

3 Yn llaw Elasah mab Saphan, a Gemarïah mab Hilcïah, y rhai a anfonodd Sedecïah brenhin Judah at Nebuchodonosor brenhin Babilon i Babilon, gan ddywedyd,

4 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, wrth yr holl gaethglud, yr hon a berais ei chaethgludo o Jerusalem i Babilon;

5 Adeiledwch dai, a phreswyliwch *ynddynt;* a phlennwch erddi, a bwyttêwch eu ffrwyth hwynt.

6 Cymmerwch wragedd, ac ennillwch feibion a merched; a chymmerwch wragedd i'ch meibion, a rhoddwch eich merched i wŷr, fel yr esgoront ar feibion a merched, ac yr amlhaoch chwi yno, ac na leihaoch.

7 Ceisiwch hefyd heddwch y ddinas yr hon y'ch caethgludais iddi, a gweddïwch ar yr ARGLWYDD drosti hi; canys yn ei heddwch hi y bydd heddwch i chwithau.

8 ¶ O herwydd fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Na thwylled eich prophwydi y rhai *sydd* yn eich mysg chwi mo honoch, na'ch dewiniaid; ac na wrandêwch ar eich breuddwydion y rhai yr ydych chwi yn peri eu breuddwydio:

9 Canys y maent hwy yn prophwydo i chwi ar gelwydd yn fy enw i; ni anfonais i mo honynt, medd yr ARGLWYDD.

10 ¶ O herwydd fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Pan gyflawner yn Babilon ddeng mlynedd a thri ugain, yr ymwelaf â chwi, ac a gyflawnaf â chwi fy ngair daionus, trwy eich dwyn chwi drachefn i'r lle hwn.

11 Oblegid myfi a wn y meddyliau yr wyf fi yn eu meddwl am danoch chwi, medd yr ARGLWYDD, meddyliau heddwch ac nid niwed, i roddi i chwi y diwedd yr ydych chwi yn ei ddisgwyl.

12 Yna y gelwch chwi arnaf, ac yr ewch, ac y gweddïwch arnaf fi, a minnau a'ch gwrandawaf.

13 Ceisiwch fi hefyd, a chwi a'*m* cewch, pan y'm ceisioch â'ch holl galon.

14 A mi a adawaf i chwi fy nghael, medd yr ARGLWYDD, a mi a ddychwelaf eich caethiwed, ac a'ch casglaf chwi o'r holl genhedloedd, ac o'r holl leoedd y rhai y'ch gyrrais iddynt, medd yr ARGLWYDD; a mi a'ch dygaf chwi drachefn i'r lle y perais eich caethgludo chwi allan o hono.

15 ¶ O herwydd i chwi ddywedyd, Yr ARGLWYDD a gyfododd brophwydi i ni yn Babilon;

16 *Gwybyddwch* mai fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am y brenhin sydd yn eistedd ar deyrn-gadair Dafydd, ac am yr holl bobl sydd yn trigo yn y ddinas hon, *ac* am eich brodyr y rhai nid aethant allan gyd â chwi i gaethglud;

17 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, Wele fi yn anfon arnynt y cleddyf, a newyn, a haint, a mi a'u gwnaf hwynt fel y ffigys bryntion, y rhai ni ellir eu bwytta, rhag eu drycced.

18 A mi a'u herlidiaf hwynt â'r cleddyf, â newyn, ac â haint; ac mi a'u rhoddaf hwynt i'w symmud i holl deyrnasoedd y ddaear, yn felldith, ac yn chwithdra, ac yn chwibaniad, ac yn warth, ym mysg yr holl genhedloedd lle y gyrrais i hwynt;

19 Am na wrandawsant ar fy ngeiriau, medd yr ARGLWYDD, y rhai a anfonais i attynt gyd â'm gweision y prophwydi, gan gyfodi yn fore, a'*u* hanfon; ond ni wrandawech, medd yr ARGLWYDD.

20 ¶ Gan hynny gwrandêwch air yr ARGLWYDD, chwi oll o'r gaethglud a anfonais o Jerusalem i Babilon:

21 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, am Ahab mab Colaiah, ac am Sedecïah mab Maaseiah, y rhai sydd yn prophwydo celwydd i chwi yn fy enw i; Wele, myfi a'u rhoddaf hwynt yn llaw Nebuchodonosor brenhin Babilon, ac efe a'u lladd hwynt yng ngŵydd eich llygaid chwi.

22 A holl gaethglud Judah, yr hon *sydd* yn Babilon, a gymmerant y rheg *hon* oddi wrthynt hwy, gan ddywedyd, Gwneled yr ARGLWYDD dydi fel Sedecïah ac fel Ahab, y rhai a rostiodd brenhin Babilon wrth y tân;

23 Am iddynt wneuthur ysgelerder yn Israel, a gwneuthur godineb gyd â gwragedd eu cymmydogion, a llefaru o honynt eiriau celwyddog yn fy enw i, y rhai ni orchymynais iddynt; a minnau yn gwybod, ac yn dyst, medd yr ARGLWYDD.

24 ¶ Ac wrth Semaiah y Nehelamiad y lleferi, gan ddywedyd,

25 Fel hyn y llefarodd ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, gan ddywedyd, Am i ti anfon yn dy enw dy hun lythyrau at yr holl bobl *sydd* yn Jerusalem, ac at Sephanïah mab Maaseiah yr offeiriad, ac at yr holl offeiriaid, gan ddywedyd,

26 Yr ARGLWYDD a'th osododd di yn offeiriad yn lle Jehoiada yr offeiriad, i fod yn olygwr yn nhŷ yr ARGLWYDD, ar bob gŵr gorphwyllog, ac yn cymmeryd arno brophwydo, i'w roddi ef mewn carchar, a chyffion:

27 Ac yn awr paham na cheryddaist ti Jeremïah o Anathoth, yr hwn sydd yn prophwydo i chwi?

28 Canys am hynny yr anfonodd attom ni *i* Babilon, gan ddywedyd, Hir *fydd y caethiwed* hwn: adeiledwch dai, a phreswyliwch *ynddynt;* a phlennwch erddi, a bwyttêwch eu ffrwyth hwynt.

29 A Sephanïah yr offeiriad a ddarllenodd y llythyr hwn lle y clywodd Jeremïah y prophwyd.

30 ¶ Yna y daeth gair yr ARGLWYDD at Jeremïah, gan ddywedyd,

31 Anfon at yr holl gaethglud, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am Semaiah y Nehelamiad; O herwydd i Semaiah brophwydo i chwi, a minnau heb ei anfon ef, a pheri o hono i chwi ymddiried mewn celwydd:

32 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele, mi a ymwelaf â Semaiah y Nehelamiad, ac â'i had ef: ni bydd iddo un a drigo ym mysg y bobl hyn, ac ni chaiff efe weled y daioni a wnaf fi i'm pobl, medd yr ARGLWYDD; am iddo ddysgu gwrthryfel yn erbyn yr ARGLWYDD.

PENNOD 30.

1 *Duw yn dangos i Jeremïah y dychwelai yr Iuddeiwon;* 4 *ac ar ol eu trallod y caent ymwared.* 10 *Y mae yn cysuro Jacob:* 18 *y bydd eu dychweliad hwy yn rasusol:* 23 *y sprth digofaint ar yr anwir.*

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y llefarodd yr ARGLWYDD, DUW Israel, gan ddywedyd, Ysgrifena i ti yr holl eiriau a leferais i wrthyt mewn llyfr.

3 Canys wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, i mi ddychwelyd caethiwed fy mhobl Israel a Judah, medd yr ARGLWYDD: a mi a'u dygaf hwynt drachefn i'r wlad a roddais i'w tadau, a hwy a'i meddiannant hi.

4 ¶ Dyma hefyd y geiriau a lefarodd yr ARGLWYDD am Israel, ac am Judah:

5 O herwydd fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Llef dychryn a glywsom ni, ofn, ac nid heddwch.

6 Gofynwch yr awr hon, ac edrychwch a esgora gwrryw; paham yr ydwyf fi yn gweled pob gŵr â'i ddwylaw ar ei lwynau, fel gwraig wrth esgor, ac y tröwyd yr holl wynebau yn lesni?

7 Och! canys mawr *yw* y dydd hwn, heb gyffelyb iddo: amser blinder *yw* hwn i Jacob; ond efe a waredir o hono.

8 Canys y dydd hwnnw, medd ARGLWYDD y lluoedd, y torraf fi ei iau ef oddi ar dy war di, a mi a ddrylliaf dy rwymau, ac ni chaiff dïeithriaid wneuthur iddo ef eu gwasanaethu hwynt mwyach.

9 Eithr hwy a wasanaethant yr ARGLWYDD eu DUW, a Dafydd eu brenhin, yr hwn a godaf fi iddynt.

10 ¶ Ac nac ofna di, O fy ngwas Jacob, medd yr ARGLWYDD; ac na frawycha di, O Israel: canys wele, mi a'th achubaf di o bell, a'th had o dir eu caethiwed; a Jacob a ddychwel, ac a orphwys, ac a gaiff lonydd, ac ni bydd a'i dychryno.

11 Canys *yr ydwyf* fi gyd â thi, medd yr ARGLWYDD, i'th achub di: er i mi wneuthur pen am yr holl genhedloedd lle y'th wasgerais, etto ni wnaf ben am danat ti; eithr mi a'th geryddaf di mewn barn, ac ni'th adawaf yn gwbl ddigerydd.

12 Oblegid fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Anafus *yw* dy ysigdod, *a* dolurus *yw* dy archoll.

13 Nid *oes* a ddadleuo dy gŵyn, fel y'th iachâer; nid *oes* feddyginiaeth iechyd i ti.

14 Dy holl gariadau a'th anghofiasant: ni cheisiant mo honot ti; canys mi a'th darewais â dyrnod gelyn, *sef* â chospedigaeth y creulawn, am amlder dy anwiredd: *oblegid* dy bechodau a amlhasant.

15 Paham y bloeddi am dy ysigdod? anafus *yw* dy ddolur, gan amlder dy anwiredd: *o herwydd* amlhâu o'th bechodau y gwneuthum hyn i ti.

16 Am hynny y rhai oll a'th ysant a ysir; a chwbl o'th holl elynion a ânt i gaethiwed; a'th anrheithwyr di a fyddant yn anrhaith, a'th holl yspeilwyr a roddaf fi yn yspail.

17 Canys myfi a roddaf iechyd i ti, ac a'th iachâf di o'th friwiau, medd yr ARGLWYDD; oblegid hwy a'th alwasant di, Yr hon a yrrwyd ymaith, *gan ddywedyd*, Dyma Sïon, yr hon nid oes *neb* yn ei cheisio.

18 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele, myfi a ddychwelaf gaethiwed pebyll Jacob, ac a gymmeraf drugaredd ar ei anneddau ef; a'r ddinas a adeiledir ar ei charnedd, a'r llys a erys yn ol ei arfer.

19 A moliant a â allan o honynt, a llais rhai yn gorfoleddu: a mi a'u hamlhâf hwynt, ac ni byddant anaml; a mi a'u hanrhydeddaf hwynt, ac ni byddant wael.

20 Eu meibion hefyd fydd megis cynt, a'u cynnulleidfa a sicrhêir ger fy mron; a mi a ymwelaf â'u holl orthrymwyr hwynt.

21 A'u pendefigion fydd o honynt eu hun, a'u llywiawdwr a ddaw allan o'u mysg eu hun; a mi a baraf iddo nesâu, ac efe a ddaw attaf: canys pwy *yw* hwn a lwyr-roddodd ei galon i nesâu attaf fi? medd yr ARGLWYDD.

22 A chwi a fyddwch yn bobl i mi, a minnau a fyddaf yn DDUW i chwithau.

23 Wele gorwynt yr ARGLWYDD yn myned allan *mewn* digter, cor-

wynt parhaus; ar ben annuwiolion yr erys.

24 Ni ddychwel digofaint llidiog yr ARGLWYDD, nes iddo *ei* wneuthur, ac nes iddo gyflawni meddyliau ei galon: yn y dyddiau diweddaf y deallwch hyn.

PENNOD 31.

1 *Adferu Israel;* 10 *a chyhoeddi hynny.* 15 *Rahel yn galaru am ei phlant.* 18 *Ephraim yn edifarhau, ac yn cael ei ddwyn adref drachefn.* 22 *Addewid o Grist.* 27 *Ei ofal ef dros ei eglwys.* 31 *Ei gyfammod newydd ef.* 35 *Sicrwydd* 38 *a helaethrwydd yr eglwys.*

YR amser hwnnw, medd yr ARGLWYDD, y byddaf DDUW i holl deuluoedd Israel; a hwythau a fyddant bobl i mi.

2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Y bobl *y rhai* a weddillwyd gan y cleddyf, a gafodd ffafr yn yr anialwch, pan euthum i beri llonyddwch iddo ef, *sef* i Israel.

3 Er ys talm yr ymddangosodd yr ARGLWYDD i mi, *gan ddywedyd*, A chariad tragywyddol y'th gerais: am hynny tynnais di â thrugaredd.

4 Myfi a'th adeiladaf etto, a thi a adeiledir, O forwyn Israel: ymdrwsi etto â'th dympanau, ac a âi allan gyd â'r chwareuyddion dawns.

5 Ti a blenni etto winllannoedd ym mynyddoedd Samaria: y planwyr a blannant, ac a'*u* mwynhânt yn gyffredin.

6 Canys daw y dydd y llefa y gwylwyr ym mynydd Ephraim, Codwch, ac awn i fyny i Sïon at yr ARGLWYDD ein DUW.

7 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Cenwch orfoledd i Jacob, a chrechwenwch ym mhlith rhai pennaf y cenhedloedd: cyhoeddwch, molwch, a dywedwch, O ARGLWYDD, cadw dy bobl, gweddill Israel.

8 Wele, mi a'u harweiniaf hwynt o dir y gogledd, ac a'u casglaf hwynt o ystlysau y ddaear, y dall a'r cloff, y feichiog a'r hon sydd yn esgor, ar unwaith gyd â hwynt: cynnulleidfa fawr a ddychwelant yma.

9 Mewn wylofain y deuant, ac mewn tosturiaethau y dygaf hwynt: gwnaf iddynt rodio wrth ffrydiau dyfroedd mewn ffordd uniawn yr hon ni thripiant ynddi: oblegid myfi sydd dad i Israel, ac Ephraim yw fy nghyntaf-anedig.

10 ¶ Gwrandêwch air yr ARGLWYDD, O genhedloedd, a mynegwch yn yr ynysoedd o bell, a dywedwch, Yr hwn a wasgarodd Israel, a'i casgl ef, ac a'i ceidw fel bugail ei braidd.

11 O herwydd yr ARGLWYDD a waredodd Jacob, ac a'i hachubodd ef o law yr hwn *oedd* drech nag ef.

12 Am hynny y deuant, ac y canant yn uchelder Sïon; a hwy a redant at ddaioni yr ARGLWYDD, am wenith, ac am win, ac am olew, ac am eppil y defaid a'r gwartheg: a'u henaid fydd fel gardd ddyfradwy; ac ni ofidiant mwyach.

13 Yna y llawenycha y forwyn yn y dawns, a'r gwŷr ieuaingc a'r henafgwyr ynghyd: canys myfi a droaf eu galar yn llawenydd, ac a'u diddanaf hwynt, ac a'u llawenychaf o'u tristwch.

14 A mi a ddiwallaf enaid yr offeiriaid â brasder, a'm pobl a ddigonir â'm daioni, medd yr ARGLWYDD.

15 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Llef a glywyd yn Ramah, cwynfan *ac* wylofain chwerw; Rahel yn wylo am ei meibion, ni fynnai ei chysuro am ei meibion, o herwydd nad *oeddynt*.

16 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Attal dy lef rhag wylo, a'th lygaid rhag dagrau: canys y mae tâl i'th lafur, medd yr ARGLWYDD; a hwy a ddychwelant o dir y gelyn.

17 Ac y mae gobaith yn dy ddiwedd, medd yr ARGLWYDD, y dychwel *dy* blant i'w bro eu hun.

18 ¶ Gan glywed y clywais Ephraim yn cwynfan *fel hyn;* Cospaist fi, a mi a gospwyd, fel llo heb ei gynnefino *â'r iau:* dychwel di fi, a mi a ddychwelir; oblegid ti *yw* yr ARGLWYDD fy NUW.

19 Yn ddïau wedi i mi ddychwelyd, mi a edifarheais; ac wedi i mi wybod, mi a darewais *fy* morddwyd: myfi a gywilyddiwyd, ac a waradwyddwyd hefyd, am i mi ddwyn gwarth fy ieuengctid.

20 Ai mab hoff gennyf *yw* Ephraim? ai plentyn hyfrydwch *yw?* canys er pan leferais i yn ei er-

byn ef, gan gofio y cofiaf ef etto: am hynny fy mherfedd a ruant am dano ef; gan drugarhâu y trugarhâf wrtho ef, medd yr ARGLWYDD.
21 Cyfod i ti arwyddion ffordd, gosod i ti garneddau uchel: gosod dy galon tu a'r brif-ffordd, y ffordd yr aethost: dychwel, forwyn Israel, dychwel i'th ddinasoedd hyn.
22 ¶ Pa hyd yr ymgrwydri, O ferch wrthnysig? oblegid yr ARGLWYDD a greodd beth newydd ar y ddaear; Benyw a amgylcha ŵr.
23 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Dywedant etto y gair hwn y'ngwlad Judah, ac yn ei dinasoedd, pan ddychwelwyf eu caethiwed hwynt; Yr ARGLWYDD a'th fendithio, trigfa cyfiawnder, mynydd sancteiddrwydd.
24 Yna arddwyr a bugeiliaid a breswyliant ynddi hi Judah, ac yn ei holl ddinasoedd ynghyd.
25 O herwydd yr enaid diffygiol a ddigonais, a phob enaid trist a lenwais.
26 Ar hyn y deffroais, ac yr edrychais, a melus oedd fy hûn gennyf.
27 ¶ Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, yr hauaf dŷ Israel a thŷ Judah â had dyn ac â had anifail.
28 Ac megis y gwyliais arnynt i ddiwreiddio, ac i dynnu i lawr, ac i ddinystrio, ac i ddifetha, ac i ddrygu; felly y gwyliaf arnynt i adeiladu ac i blannu, medd yr ARGLWYDD.
29 Yn y dyddiau hynny ni ddywedant mwyach, Y tadau a fwyttasant rawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae dincod.
30 Ond pob un a fydd farw yn ei anwiredd ei hun: pob un a'r a fwyttao rawnwin surion, ar ei ddannedd ef y bydd dincod.
31 ¶ Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, y gwnaf gyfammod newydd â thŷ Israel, ac â thŷ Judah:
32 Nid fel y cyfammod a wneuthum â'u tadau hwynt ar y dydd yr ymeflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn allan o dir yr Aipht; yr hwn fy nghyfammod a ddarfu iddynt hwy ei ddiddymmu, er fy mod i yn briod iddynt, medd yr ARGLWYDD.
33 Ond dyma y cyfammod a wnaf fi â thŷ Israel ar ol y dyddiau hynny, medd yr ARGLWYDD; Myfi a roddaf fy nghyfraith o'u mewn hwynt, ac a'i hysgrifenaf hi yn eu calonnau hwynt; a mi a fyddaf iddynt hwy yn DDUW, a hwythau a fyddant yn bobl i mi.
34 Ac ni ddysgant mwyach bob un ei gymmydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnabyddwch yr ARGLWYDD: o herwydd hwynt-hwy oll o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt a'm hadnabyddant, medd yr ARGLWYDD; oblegid mi a faddeuaf eu hanwiredd, a'u pechod ni chofiaf mwyach.
35 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, yr hwn sydd yn rhoddi yr haul yn oleuni dydd, defodau y lloer a'r sêr yn oleuni nos, yr hwn sydd yn rhwygo y môr pan ruo ei donnau; ARGLWYDD y lluoedd *yw* ei enw:
36 Os cilia y defodau hynny o'm gŵydd i, medd yr ARGLWYDD, yna had Israel a baid â bod yn genedl ger fy mron i yn dragywydd.
37 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Os gellir mesur y nefoedd oddi uchod, a chwilio sylfeini y ddaear hyd isod, minnau hefyd a wrthodaf holl had Israel, am yr hyn oll a wnaethant hwy, medd yr ARGLWYDD.
38 ¶ Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, yr adeiledir y ddinas i'r ARGLWYDD, o dŵr Hananeel hyd borth y gongl.
39 A'r llinyn mesur a â allan etto ar ei gyfer ef, ar fryn Gareb, ac a amgylcha hyd Goath.
40 A holl ddyffryn y celaneddau, a'r lludw, a'r holl feusydd, hyd afon Cidron, hyd gongl porth y meirch tu a'r dwyrain, *a fydd* sanctaidd i'r ARGLWYDD; nis diwreiddir, ac nis dinystrir mwyach byth.

PENNOD 32.

1 *Jeremiah, wedi ei garcharu gan Sedeciah am ei brophwydoliaeth,* 6 *yn prynu maes Hanameel.* 13 *Baruch yn rhaid iddo gadw yr ysgrifeniadau, megis yn arwyddion o ddychweliad y bobl.* 16 *Jeremiah, yn ei weddi, yn achwyn wrth Dduw.* 26 *Duw yn sicrhau y caethiwed am eu pechodau hwy,* 36 *ac yn addaw iddynt rasusol ddychweliad.*

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD yn y ddegfed flwyddyn i Sedecïah brenhin Judah, honno *oedd* y ddeunawfed flwyddyn i Nebuchodonosor.
2 Canys y pryd hwnnw yr oedd llu brenhin Babilon yn gwarchae ar Jerusalem: a Jeremïah y prophwyd ydoedd wedi cau arno yng nghyntedd y carchar, yr hwn *oedd* yn nhŷ brenhin Judah.
3 Canys Sedecïah brenhin Judah a gauasai arno ef, gan ddywedyd, Paham y prophwydi, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele, mi a roddaf y ddinas hon yn llaw brenhin Babilon, ac efe a'i hennill hi;
4 Ac ni ddïangc Sedecïah brenhin Judah o law y Caldeaid, ond efe a roddir yn ddïau yn llaw brenhin Babilon, ac efe a ymddiddan âg ef enau y'ngenau, a'i lygaid ef a edrychant yn ei lygaid yntau;
5 Ac efe a arwain Sedecïah i Babilon, ac yno y bydd efe hyd oni ymwelwyf fi âg ef, medd yr ARGLWYDD: er i chwi ymladd â'r Caldeaid, ni lwyddwch.
6 ¶ A Jeremïah a lefarodd, Gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf fi, gan ddywedyd,
7 Wele Hanameel mab Sàlum dy ewythr yn dyfod attat, gan ddywedyd, Pryn i ti fy maes, yr hwn *sydd* yn Anathoth: oblegid i ti *y mae* cyfiawnder y pryniad i'*w* brynu *ef*.
8 Felly Hanameel mab fy ewythr frawd fy nhad a ddaeth attaf fi i gyntedd y carchardy, yn ol gair yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd wrthyf, Pryn, attolwg, fy maes *sydd* yn Anathoth yn nhir Benjamin: canys i ti *y mae* cyfiawnder yr etifeddiaeth, ac i ti y perthyn ei ollwng; pryn *ef* i ti. Yna y gwybûm mai gair yr ARGLWYDD *oedd* hwn.
9 A mi a brynais y maes *oedd* yn Anathoth gan Hanameel mab fy ewythr frawd fy nhad, ac a bwysais iddo yr arian, saith sicl a deg *darn* o arian.
10 A mi a ysgrifenais *hyn* mewn llyfr, ac a'i seliais; cymmerais hefyd dystion, a phwysais yr arian mewn cloriannau.
11 Yna mi a gymmerais lyfr y pryniad, *sef yr hwn oedd* wedi ei selio *wrth* gyfraith a defod, a'*r hwn oedd* yn agored.
12 A mi a roddais lyfr y pryniad at Baruch mab Nerïah, mab Maaseiah, y'ngŵydd Hanameel *mab* fy ewythr, ac y'ngŵydd y tystion a ysgrifenasent lyfr y prynedigaeth, yng ngŵydd yr holl Iuddewon oedd yn eistedd y'nghyntedd y carchardy.
13 ¶ A mi a orchymynais i Baruch yn eu gŵydd hwynt, gan ddywedyd,
14 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Cymmer y llyfrau hyn, *sef* y llyfr hwn o'r pryniad yr hwn *sydd* seliedig, a'r llyfr agored hwn, a dod hwynt mewn llestr pridd, fel y parhaont ddyddiau lawer.
15 O herwydd fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Tai, a meusydd, a gwinllannoedd, a feddiennir etto yn y wlad hon.
16 ¶ Ac wedi i mi roddi llyfr y pryniad at Baruch mab Nerïah, myfi a weddïais ar yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,
17 O ARGLWYDD DDUW, wele, ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear, â'th fawr allu ac â'th fraich estynedig; nid oes dim rhy anhawdd i ti.
18 Yr wyt yn gwneuthur trugaredd i filoedd, ac yn talu anwireddau y tadau i fynwes eu meibion ar eu hol hwynt: y DUW mawr, cadarn, ARGLWYDD y lluoedd *yw* ei enw;
19 Mawr mewn cynghor, a galluog ar weithred; canys *y mae* dy lygaid yn agored ar holl ffyrdd meibion dynion, i roddi i bob un yn ol ei ffyrdd, ac yn ol ffrwyth ei weithredoedd;
20 Yr hwn a osodaist arwyddion a rhyfeddodau y'ngwlad yr Aipht hyd y dydd hwn, ac yn Israel, ac ym mysg dynion *eraill;* ac a wnaethost i ti enw, megis heddyw;
21 Ac a ddygaist dy bobl Israel allan o dir yr Aipht, âg arwyddion, ac â rhyfeddodau, ac â llaw gref, ac â braich estynedig, ac âg ofn mawr;
22 Ac a roddaist iddynt y wlad yma, yr hon a dyngaist wrth eu

tadau y rhoddit iddynt, *sef* gwlad yn llifeirio o laeth a mêl.

23 A hwy a ddaethant i mewn, ac a'i meddiannasant hi; ond ni wrandawsant ar dy lais, ac ni rodiasant yn dy gyfraith: ni wnaethant ddim o'r hyn oll a orchymynaist iddynt ei wneuthur: am hynny y peraist i'r holl niwed hyn ddigwydd iddynt.

24 Wele, peiriannau ergydion a ddaeth ar y ddinas i'w goresgyn hi; a'r ddinas a roddir i law y Caldeaid, y rhai sydd yn ymladd yn ei herbyn, o herwydd y cleddyf, a'r newyn, a'r haint: a'r hyn a ddywedaist ti, a gwblhâwyd; ac wele, ti a'*i* gweli.

25 A thi a ddywedaist wrthyf, O ARGLWYDD DDUW, Pryn i ti y maes âg arian, a chymmer dystion: gan fod y ddinas wedi ei rhoddi i law y Caldeaid.

26 ¶ Yna y daeth gair yr ARGLWYDD at Jeremïah, gan ddywedyd,

27 Wele, myfi *yw* yr ARGLWYDD, DUW pob cnawd: a oes dim rhy anhawdd i mi?

28 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele fi yn rhoddi y ddinas hon yn llaw y Caldeaid, ac yn llaw Nebuchodonosor brenhin Babilon, ac efe a'i hennill hi.

29 A'r Caldeaid, y rhai a ryfelant yn erbyn y ddinas hon, a ddeuant ac a ffaglant y ddinas hon â thân, ac a'i llosgant hi, a'r tai y rhai yr arogl-darthasant ar eu pennau i Baal, ac y tywalltasant ddïod-offrwm i dduwiau dïeithr, i'm digio i.

30 Oblegid meibion Israel, a meibion Judah, oeddynt yn gwneuthur yn unig yr hyn oedd ddrwg yn fy ngolwg i o'u mebyd: o herwydd meibion Israel oeddynt yn unig yn fy nigloni i â gweithredoedd eu dwylaw, medd yr ARGLWYDD.

31 Canys i'm digofaint, ac i'm llid, y bu y ddinas hon i mi, er y dydd yr adeiladasant hi hyd y dydd hwn, i beri ei symmud oddi ger bron fy wyneb:

32 Am holl ddrygioni meibion Israel a meibion Judah, y rhai a wnaethant i'm digio i, hwynt-hwy, eu brenhinoedd, eu tywysogion, eu hoffeiriaid, a'u prophwydi, a gwŷr Judah, a phreswylwyr Jerusalem.

33 Er i mi *eu* dysgu, gan foregodi i roddi addysg *iddynt*, etto ni wrandawsant i gymmeryd athrawiaeth; eithr troisant attaf fi eu gwarrau, ac nid eu hwynebau:

34 Eithr gosodasant eu ffieidd-dra yn y tŷ y gelwir fy enw arno, i'w halogi ef.

35 A hwy a adeiladasant uchelfeydd Baal, y rhai *sydd* yn nyffryn mab Hinnom, i wneuthur i'w meibion a'u merched fyned trwy *y tân* i Moloch; yr hyn ni orchymynais iddynt, ac ni feddyliodd fy nghalon iddynt wneuthur y ffieidd-dra hyn, i beri i Judah bechu.

36 ¶ Ac yn awr am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel, am y ddinas hon, am yr hon y dywedwch chwi, Rhoddir hi i law brenhin Babilon, trwy y cleddyf, a thrwy newyn, a thrwy haint;

37 Wele, myfi a'u cynhullaf hwynt o'r holl diroedd, y rhai yn fy nig a'm llid a'm sorriant mawr y gyrrais hwynt iddynt; ac a'u dygaf yn eu hol i'r lle hwn, ac a wnaf iddynt breswylio yn ddïogel.

38 A hwy a fyddant yn bobl i mi, a minnau a fyddaf yn DDUW iddynt hwythau.

39 A mi a roddaf iddynt un galon ac un ffordd, i'm hofni byth, er lles iddynt ac i'w meibion ar eu hol.

40 A mi a wnaf â hwynt gyfammod tragywyddol, na throaf oddi wrthynt, heb wneuthur lles iddynt; a mi a osodaf fy ofn yn eu calonnau, fel na chiliont oddi wrthyf.

41 Ië, mi a lawenychaf ynddynt, gan wneuthur lles iddynt, a mi a'u plannaf hwynt yn y tir hwn yn sicr, â'm holl galon, ac â'm holl enaid.

42 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Megis y dygais i ar y bobl hyn yr holl fawr-ddrwg hyn, felly y dygaf fi arnynt yr holl ddaioni a addewais iddynt.

43 A meusydd a feddiennir yn y wlad yma, *am* yr hon yr ydych chwi yn dywedyd, Anghyfannedd *yw* hi, heb ddyn nac anifail; yn llaw y Caldeaid y rhoddwyd hi.

44 Meusydd a brynant am arian,

ac a ysgrifenant mewn llyfrau, ac a'*u* seliant, ac a gymmerant dystion yn nhir Benjamin, ac yn amgylchoedd Jerusalem, ac yn ninasoedd Judah, ac yn ninasoedd y mynyddoedd, ac yn ninasoedd y gwastad, ac yn ninasoedd y dehau: canys mi a ddychwelaf eu caethiwed hwynt, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 33.

1 Duw yn addaw i'r gaethgludd rasusol ddychweliad, 9 a llawen gyflwr, 12 a llywodraeth ddiysgog, 15 a Christ, Blaguryn cyfiawnder; 17 y parhâi eu brenhiniaeth a'u hoffeiriadaeth; 20 a sicrwydd o had bendïgedig.

GAIR yr ARGLWYDD hefyd a ddaeth at Jeremïah yr ail waith, ac efe etto yn garcharor y'nghyntedd y carchardy, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD yr hwn a'i gwnaeth, yr ARGLWYDD yr hwn a'i lluniodd i'w sicrhâu, yr ARGLWYDD *yw* ei enw:

3 Galw arnaf, a mi a'th attebaf, ac a ddangosaf i ti *bethau* mawrion, a chedyrn, y rhai nis gwyddost.

4 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel, am dai y ddinas hon, ac am dai brenhinoedd Judah, y rhai a ddinystriwyd â pheiriannau rhyfel, ac â chleddyf;

5 Y maent yn dyfod i ymladd â'r Caldeaid, ond i'w llenwi â chelanedd dynion, y rhai a leddais yn fy llid a'm digofaint, ac am i mi gudd-io fy wyneb oddi wrth y ddinas hon am eu holl ddrygioni hwynt.

6 Wele, myfi a ddygaf iddi hi iechyd a meddyginiaeth, a mi a'u meddyginiaethaf hwynt, ac a ddatguddiaf iddynt amlder o heddwch a gwirionedd.

7 A mi a ddychwelaf gaethiwed Judah, a chaethiwed Israel, a mi a'u hadeiladaf hwynt megis yn y dechreuad.

8 A mi a'u puraf hwynt oddi wrth eu holl anwiredd a bechasant i'm herbyn; a mi a faddeuaf iddynt eu holl bechodau *trwy* y rhai y pechasant i'm herbyn, a *thrwy* y rhai y troseddasant yn fy erbyn.

9 ¶ A *hyn* fydd i mi yn enw llawenydd, yn glod ac yn ogoniant, o flaen holl genhedloedd y ddaear, y rhai a glywant yr holl ddaioni yr ydwyf fi yn ei wneuthur iddynt: a hwythau a ofnant ac a grynant am yr holl ddaioni a'r holl lwyddiant yr ydwyf fi yn eu gwneuthur i'r *ddinas* hon.

10 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Clywir etto yn y lle hwn, (*am* yr hwn y dywedwch, Anialwch *yw* efe, heb ddyn ac heb anifail, yn ninasoedd Judah, ac yn heolydd Jerusalem, y rhai a wnaed yn anghyfannedd, heb ddyn, ac heb breswylwr, ac heb anifail,)

11 Llef gorfoledd a llef llawenydd, llef y prïodfab a llef y brïodferch, llef rhai yn dywedyd, Molwch ARGLWYDD y lluoedd; o herwydd daionus *yw* yr ARGLWYDD, oblegid ei drugaredd *a bery* yn dragywydd; *llef* rhai yn dwyn offrwm moliant i dŷ yr ARGLWYDD: canys mi a ddychwelaf gaethiwed y wlad, megis yn y dechreuad, medd yr ARGLWYDD.

12 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, Bydd etto yn y lle yma, *yr hwn sydd* anghyfanneddol heb ddyn ac heb anifail, ac yn ei holl ddinasoedd, drigfa bugeiliaid yn corlannu y praidd.

13 Yn ninasoedd y mynydd, yn ninasoedd y gwastad, ac yn ninasoedd y dehau, ac y'ngwlad Benjamin, ac yn amgylchoedd Jerusalem, ac yn ninasoedd Judah, yr â defaid etto, dan law yr hwn sydd yn *eu* rhifo, medd yr ARGLWYDD.

14 Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, fel y cyflawnwyf y peth daionus a addewais i dŷ Israel, ac i dŷ Judah.

15 ¶ Yn y dyddiau hynny, ac yn yr amser hwnnw, y paraf i Flaguryn cyfiawnder flaguro i Dafydd; ac efe a wna farn a chyfiawnder yn y tir.

16 Yn y dyddiau hynny Judah a waredir, a Jerusalem a breswylia yn ddïogel; a hwn *yw yr enw* y gelwir ef, Yr ARGLWYDD ein cyfiawnder.

17 ¶ Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Ni phalla i Dafydd ŵr yn eistedd ar frenhinfainge tŷ Israel.

18 Ac ni phalla i'r offeiriaid y Lefiaid ŵr ger fy mron i, i offrymmu

poeth-offrwm, ac i offrymmu bwyd-offrwm, ac i wneuthur aberth, yn dragywydd.

19 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth at Jeremïah, gan ddywedyd,

20 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Os gellwch ddiddymmu fy nghyfammod â'r dydd, a'm cyfammod â'r nos, ac na byddo dydd a nos yn eu hamser;

21 Yna y diddymmir fy nghyfammod â Dafydd fy ngwas, na byddo iddo fab yn teyrnasu ar ei deyrngadair ef, ac â'r Lefiaid yr offeiriaid fy ngweinidogion.

22 Megis na ellir cyfrif llu y nefoedd, ac na ellir mesur tywod y môr; felly myfi a amlhâf had Dafydd fy ngwas, a'r Lefiaid y rhai sydd yn gweini i mi.

23 Hefyd, gair yr ARGLWYDD a ddaeth at Jeremïah, gan ddywedyd,

24 Oni weli di pa beth y mae y bobl hyn yn ei lefaru, gan ddywedyd, Y ddau deulu a ddewisodd yr ARGLWYDD, efe a'u gwrthododd hwynt? felly y dirmygasant fy mhobl, fel nad ydynt mwyach yn genedl yn eu golwg hwynt.

25 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Os fy nghyfammod â'r dydd ac â'r nos ni *saif, ac oni* osodais i ddefodau y nefoedd a'r ddaear:

26 Yna had Jacob a Dafydd fy ngwas a wrthodaf fi, fel na chymmerwyf o'i had ef lywodraethwyr ar had Abraham, Isaac, a Jacob: canys mi a ddychwelaf eu caethiwed hwynt, ac a drugarhâf wrthynt.

PENNOD 34.

1 *Jeremïah yn prophwydo caethiwed Sedecïah, a'r ddinas.* 8 *Y tywysogion a'r bobl, wedi iddynt ryddhau eu caethweision, y'ngwrthwyneb i gyfammod Duw, yn eu cymmeryd hwy drachefn.* 12 *Jeremïah, am eu hanufudd-dod, yn eu rhoddi hwy a Sedecïah yn nwylaw eu gelynion.*

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, pan oedd Nebuchodonosor brenhin Babilon, a'i holl lu, a holl deyrnasoedd y ddaear *y rhai oedd* dan lywodraeth ei law ef, a'r holl bobloedd, yn rhyfela yn erbyn Jerusalem, ac yn erbyn ei holl ddinasoedd hi, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel; Dos, a llefara wrth Sedecïah brenhin Judah, a dywed wrtho, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele fi yn rhoddi y ddinas hon i law brenhin Babilon, ac efe a'i llysg hi â thân:

3 Ac ni ddïengi dithau o'i law ef, canys dïau y'th ddèlir, ac y'th roddir i'w law ef; a'th lygaid di a gânt weled llygaid brenhin Babilon, a'i enau ef a ymddiddan â'th enau di, a thithau a âi i Babilon.

4 Er hynny, O Sedecïah brenhin Judah, gwrando air yr ARGLWYDD; Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am danat ti, Ni byddi di farw trwy y cleddyf:

5 Mewn heddwch y byddi farw: a hwy a losgant *bêr-aroglau* i ti, fel y llosgwyd i'th dadau, y brenhinoedd gynt, y rhai a fu o'th flaen di: a hwy a alarant am danat ti, *gan ddywedyd*, O arglwydd! canys myfi a ddywedais y gair, medd yr ARGLWYDD.

6 Yna Jeremïah y prophwyd a lefarodd wrth Sedecïah brenhin Judah yr holl eiriau hyn yn Jerusalem,

7 Pan oedd llu brenhin Babilon yn rhyfela yn erbyn Jerusalem, ac yn erbyn holl ddinasoedd Judah y rhai a adawsid, yn erbyn Lachis, ac yn erbyn Asecah: canys y dinasoedd caerog hyn a adawsid o ddinasoedd Judah.

8 ¶ Y gair yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, wedi i'r brenhin Sedecïah wneuthur cyfammod â'r holl bobl *oedd* yn Jerusalem, am gyhoeddi iddynt ryddid;

9 I ollwng o bob un ei wasanaethwr, a phob un ei wasanaethferch, *y rhai fyddent* Hebread neu Hebrëes, yn rhyddion; ac na cheisiai neb wasanaeth ganddynt, *sef* gan ei frawd o Iuddew.

10 A phan glybu yr holl bennaethiaid, a'r holl bobl y rhai a aethent i'r cyfammod, am ollwng o bob un ei wasanaethwr a phob un ei wasanaethferch yn rhyddion, fel na cheisient wasanaeth ganddynt mwyach, yna hwy a wrandawsant, ac a'u gollyngasant ymaith.

11 Ond wedi hynny yr edifarhaodd arnynt, a hwy a ddygasant yn eu hol eu gweision a'u morwynion, y

rhai a ollyngasent yn rhyddion, ac a'u caethiwasant hwy yn weision ac yn forwynion.

12 ¶ Am hynny y daeth gair yr ARGLWYDD at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, gan ddywedyd,

13 Fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW Israel, Mi a wneuthum gyfammod â'ch tadau chwi, y dydd y dygais hwynt allan o dir yr Aipht, o dŷ y caethiwed, gan ddywedyd,

14 Ym mhen saith mlynedd gollyngwch bob un ei frawd o Hebread, yr hwn a werthwyd i ti, ac a'th wasanaethodd chwe blynedd; gollwng ef yn rhydd oddi wrthyt: ond ni wrandawodd eich tadau arnaf, ac ni ogwyddasant eu clustiau.

15 A chwithau a gymmerasech edifeirwch heddyw, ac a wnaethech yr hyn oedd uniawn yn fy ngolwg, am gyhoeddi rhyddid bob un i'w gymmydog; a chwi a wnaethech gyfammod yn fy ngŵydd i, yn y tŷ y gelwir fy enw arno:

16 Ond chwi a ddychwelasoch, ac a halogasoch fy enw, ac a ddygasoch yn eu hol bob un ei wasanaethwr, a phob un ei wasanaethferch, y rhai a ollyngasech yn rhyddion wrth eu hewyllys eu hun: caethiwasoch hwynt hefyd i fod yn weision ac yn forwynion i chwi.

17 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Ni wrandawsoch arnaf fi, gan gyhoeddi rhyddid bob un i'w frawd, a phob un i'w gymmydog: wele fi yn cyhoeddi i'ch erbyn, medd yr ARGLWYDD, ryddid i'r cleddyf, i'r haint, ac i'r newyn, ac mi a wnaf eich symmud chwi i holl deyrnasoedd y ddaear.

18 A mi a roddaf y dynion a droseddodd fy nghyfammod, y rhai ni chwblhasant eiriau y cyfammod a wnaethant ger fy mron, wedi iddynt fyned rhwng rhannau y llo, yr hwn a holltasent yn ddau;

19 Tywysogion Judah, a thywysogion Jerusalem, yr ystafellyddion, a'r offeiriaid, a holl bobl y wlad y rhai a aethant rhwng rhannau y llo;

20 Ïë, mi a'u rhoddaf hwynt yn llaw eu gelynion, ac yn llaw y rhai sydd yn ceisio eu heinioes: a'u celain fydd yn fwyd i ehediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaear.

21 A mi a roddaf Sedecïah brenhin Judah, a'i dywysogion, i law eu gelynion, ac i law y rhai sydd yn ceisio eu heinioes, ac yn llaw llu brenhin Babilon, y rhai a aethant i fyny oddi wrthych.

22 Wele, mi a orchymynaf, medd yr ARGLWYDD, ac a wnaf iddynt droi yn ol at y ddinas hon, a hwy a ryfelant yn ei herbyn hi, ac a'i goresgynant hi, ac a'i llosgant hi â thân: ac mi a wnaf ddinasoedd Judah yn anghyfannedd heb breswylydd.

PENNOD 35.

1 *Trwy ddangos ufudd-dod y Rechabiaid,* 12 *y mae Jeremïah yn barnu ar anufudd-dod yr Iuddewon.* 18 *Duw yn bendithio y Rechabiaid am eu hufudd-dod.*

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, yn nyddiau Jehoiacim mab Josïah brenhin Judah, gan ddywedyd,

2 Dos di i dŷ y Rechabiaid, a llefara wrthynt, a phâr iddynt ddyfod i dŷ yr ARGLWYDD, i un o'r ystafelloedd, a dod iddynt win i'w yfed.

3 Yna myfi a gymmerais Jaasanïah, mab Jeremïah, mab Habasinïah, a'i frodyr, a'i holl feibion, a holl deulu y Rechabiaid;

4 A mi a'u dygais hwynt i dŷ yr ARGLWYDD, i ystafell meibion Hanan mab Igdalïah, gŵr i DDUW, yr hon *oedd* wrth ystafell y tywysogion, yr hon *sydd* goruwch ystafell Maaseiah mab Salum, ceidwad y drws.

5 A mi a roddais ger bron meibion tŷ y Rechabiaid phïolau yn llawn o win, a chwppanau, a mi a ddywedais wrthynt, Yfwch win.

6 Ond hwy a ddywedasant, Nid yfwn ni ddim gwin: o herwydd Jonadab mab Rechab ein tad a roddodd i ni orchymyn, gan ddywedyd, Nac yfwch win, *na* chwychwi na'ch plant, yn dragywydd:

7 Na adeiledwch dŷ, ac na heuwch had, ac na phlennwch winllan, ac na fydded gennych chwi: ond mewn pebyll y preswyliwch eich holl ddyddiau; fel y byddoch chwi fyw ddyddiau lawer ar wyneb y ddaear, lle *yr ydych* yn ddïeithriaid.

8 A nyni a wrandawsom ar lais Jonadab mab Rechab ein tad, am bob peth a orchymynodd efe i ni;

nad yfem ni win ein holl ddyddiau, nyni, ein gwragedd, ein meibion, a'n merched;
9 Ac nad adeiladem i ni dai i'w preswylio; ac nid oes gennym na gwinllan, na maes, na had:
10 Eithr trigo a wnaethom mewn pebyll, a gwrandaw, a gwneuthur yn ol yr hyn oll a orchymynodd Jonadab ein tad i ni.
11 Ond pan ddaeth Nebuchodonosor brenhin Babilon i fyny i'r wlad, nyni a ddywedasom, Deuwch, ac awn i Jerusalem, rhag llu y Caldeaid, a rhag llu yr Assyriaid: ac yn Jerusalem yr ydym ni yn preswylio.
12 ¶ Yna y daeth gair yr ARGLWYDD at Jeremïah, gan ddywedyd,
13 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Dos, a dywed wrth wŷr Judah, ac wrth breswylwyr Jerusalem, Oni chymmerwch chwi addysg i wrandaw ar fy ngeiriau? medd yr ARGLWYDD.
14 Geiriau Jonadab mab Rechab, y rhai a orchymynodd efe i'w feibion, nad yfent win, a gyflawnwyd: canys nid yfant hwy *win* hyd y dydd hwn; ond hwy a wrandawant ar orchymyn eu tad: a minnau a ddywedais wrthych chwi, gan godi yn fore, a llefaru; ond ni wrandawsoch arnaf.
15 Myfi a anfonais hefyd attoch chwi fy holl weision y prophwydi, gan godi yn fore, ac anfon, gan ddywedyd, Dychwelwch yn awr bawb oddi wrth ei ffordd ddrwg, a gwellhêwch eich gweithredoedd, ac nac ewch ar ol duwiau dïeithr, i'w gwasanaethu hwynt; a chwi a drigwch yn y wlad yr hon a roddais i chwi ac i'ch tadau: ond ni ogwyddasoch eich clustiau, ac ni wrandawsoch arnaf.
16 Gan i feibion Jonadab mab Rechab gyflawni gorchymyn eu tad, yr hwn a orchymynodd efe iddynt; ond y bobl yma ni wrandawsant arnaf fi:
17 Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW y lluoedd, DUW Israel; Wele fi yn dwyn ar Judah, ac ar holl drigolion Jerusalem, yr holl ddrwg a leferais yn eu herbyn: o herwydd i mi ddywedyd wrthynt, ond ni wrandawsant; a galw arnynt, ond nid attebasant.
18 ¶ A Jeremïah a ddywedodd wrth dylwyth y Rechabiaid, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, O herwydd i chwi wrandaw ar orchymyn Jonadab eich tad, a chadw ei holl orchymynion ef, a gwneuthur yn ol yr hyn oll a orchymynodd efe i chwi:
19 Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Ni phalla i Jonadab mab Rechab ŵr i sefyll ger fy mron i yn dragywydd.

PENNOD 36.

1 *Jeremïah yn peri i Baruch ysgrifenu ei brophwydoliaeth ef, 5 a'i darllen ar gyhoedd.* 11 *Y tywysogion, wedi cael gwybodaeth o hynny trwy Michaiah, yn anfon Jehudi i gyrchu y llyfr, ac yn ei ddarllen:* 19 *yn erchi i Baruch ymguddio, efe a Jeremiah.* 20 *Y brenhin Jehoiacim wedi clywed sôn am y llyfr, yn gwrandaw peth o hono, ac yn ei losgi ef.* 27 *Jeremïah yn adrodd ei farn ef.* 32 *Baruch yn ysgrifenu y llyfr o newydd.*

AC yn y bedwaredd flwyddyn i Jehoiacim mab Josïah brenhin Judah, y daeth y gair hwn oddi wrth yr ARGLWYDD at Jeremïah, gan ddywedyd,
2 Cymmer i ti blyg llyfr, ac ysgrifena ynddo yr holl eiriau a leferais i wrthyt yn erbyn Israel, ac yn erbyn Judah, ac yn erbyn yr holl genhedloedd, o'r dydd y lleferais i wrthyt ti, er dyddiau Josïah hyd y dydd hwn.
3 Fe allai pan glywo tŷ Judah yr holl ddrwg yr ydwyf fi yn amcanu ei wneuthur iddynt, y dychwelant bob un o'i ffordd ddrygionus, fel y maddeuwyf eu hanwiredd a'u pechod.
4 Yna Jeremïah a alwodd Baruch mab Nerïah; a Baruch a ysgrifenodd o enau Jeremïah holl eiriau yr ARGLWYDD, y rhai a lefarasai efe wrtho, mewn plyg llyfr.
5 A Jeremïah a orchymynodd i Baruch, gan ddywedyd, Cauwyd arnaf fi, ni allaf fi fyned i dŷ yr ARGLWYDD.
6 Am hynny dos di, a darllen o'r llyfr a ysgrifenaist o'm genau, eiriau yr ARGLWYDD, lle y clywo y bobl, *yn* nhŷ yr ARGLWYDD, ar y dydd ympryd; a lle y clywo holl Judah hefyd, y rhai a ddelont o'u dinasoedd, y darlleni di hwynt.

7 Fe allai y daw eu gweddi hwynt
ger bron yr ARGLWYDD, ac y dy-
chwelant bob un o'i ffordd ddryg-
ionus: canys mawr *yw* y llid a'r
digofaint a draethodd yr AR-
GLWYDD yn erbyn y bobl hyn.
8 Felly Baruch mab Nerïah a
wnaeth yn ol yr hyn oll a orchym-
ynasai Jeremïah y prophwyd iddo,
gan ddarllen o'r llyfr eiriau yr AR-
GLWYDD *yn* nhŷ yr ARGLWYDD.
9 Ac yn y bummed flwyddyn i
Jehoiacim mab Josïah brenhin Ju-
dah, ar y nawfed mis, y cyhoeddas-
ant ympryd ger bron yr ARGLWYDD,
i'r holl bobl yn Jerusalem, ac i'r
holl bobl a ddaethent o ddinasoedd
Judah i Jerusalem.
10 Yna Baruch a ddarllenodd o'r
llyfr eiriau Jeremïah, *yn* nhŷ yr
ARGLWYDD, yn ystafell Gemarïah
mab Saphan yr ysgrifenydd, yn y
cyntedd uchaf, wrth ddrws porth
newydd tŷ yr ARGLWYDD, lle y
clybu yr holl bobl.
11 ¶ Pan glybu Michaiah mab
Gemarïah, mab Saphan, holl eiriau
yr ARGLWYDD allan o'r llyfr,
12 Yna efe a aeth i waered i dŷ y
brenhin i ystafell yr ysgrifenydd:
ac wele, yr holl dywysogion oedd
yno yn eistedd; *sef* Elisama yr ys-
grifenydd, a Delaiah mab Semaiah,
ac Elnathan mab Achbor, a Gema-
rïah mab Saphan, a Sedecïah mab
Hananïah, a'r holl dywysogion.
13 A Michaiah a fynegodd iddynt
yr holl eiriau a glywsai efe pan
ddarllenasai Baruch y llyfr lle y
clybu y bobl.
14 Yna yr holl dywysogion a an-
fonasant Jehudi mab Nethanïah,
mab Selemïah, mab Cusi, at Baruch,
gan ddywedyd, Cymmer yn dy law
y llyfr y darllenaist allan o hono lle
y clybu y bobl, a thyred. Felly Ba-
ruch mab Nerïah a gymmerodd y
llyfr yn ei law, ac a ddaeth attynt.
15 A hwy a ddywedasant wrtho,
Eistedd yn awr, a darllen ef lle y
clywom ni. Felly Baruch a'*i* dar-
llenodd lle y clywsant hwy.
16 A phan glywsant yr holl eiriau,
hwy a ofnasant bawb gyd â'u gil-
ydd; a hwy a ddywedasant wrth
Baruch, Gan fynegi mynegwn yr
holl eiriau hyn i'r brenhin.
17 A hwy a ofynasant i Baruch, gan
ddywedyd, Mynega i ni yn awr, Pa
fodd yr ysgrifenaist ti yr holl eiriau
hyn o'i enau ef?
18 Yna Baruch a ddywedodd wrth-
ynt, Efe a draethodd yr holl eiriau
hyn wrthyf fi â'i enau, a minnau
a'*u* hysgrifenais *hwynt* yn y llyfr
âg ingc.
19 Yna y tywysogion a ddywedas-
ant wrth Baruch, Dos ac ymguddia,
ti a Jeremïah; ac na wyped neb pa
le *y byddoch* chwi.
20 ¶ A hwy a aethant at y bren-
hin i'r cyntedd, (ond hwy a gadw-
asant y llyfr yn ystafell Elisama
yr ysgrifenydd,) ac a fynegasant
yr holl eiriau lle y clybu y bren-
hin.
21 A'r brenhin a anfonodd Jehudi
i gyrchu y llyfr. Ac efe a'i dug ef
o ystafell Elisama yr ysgrifenydd.
A Jehudi a'i darllenodd lle y clybu
y brenhin, a lle y clybu yr holl dy-
wysogion oedd yn sefyll yn ymyl
y brenhin.
22 A'r brenhin oedd yn eistedd
yn y gauafdy, yn y nawfed mis; a
thân wedi ei gynneu ger ei fron.
23 A phan ddarllenasai Jehudi
dair dalen neu bedair, *yna* efe a'i
torrodd â chyllell ysgrifenydd, ac
a'*i* bwriodd i'r tân *oedd* yn yr
aelwyd, nes darfod o'r holl lyfr gan
y tân *oedd* ar yr aelwyd.
24 Etto nid ofnasant, ac ni rwyg-
asant eu dillad, *na*'r brenhin, nac
yr un o'i weision y rhai a glywsant
yr holl eiriau hyn.
25 Etto Elnathan, a Delaiah, a
Gemarïah, a ymbiliasant â'r bren-
hin na losgai efe y llyfr; ond ni
wrandawai efe arnynt.
26 Ond y brenhin a orchymynodd
i Jerahmeel mab Hammelech, a
Seraiah mab Asrïel, a Selemïah mab
Abdiel, ddala Baruch yr ysgrifen-
ydd, a Jeremïah y prophwyd: ond
yr ARGLWYDD a'u cuddiodd hwynt.
27 ¶ Yna y daeth gair yr AR-
GLWYDD at Jeremïah, (wedi i'r
brenhin losgi y llyfr, a'r geiriau a
ysgrifenasai Baruch o enau Jere-
mïah,) gan ddywedyd,
28 Cymmer i ti etto lyfr arall,
ac ysgrifena arno yr holl eiriau
cyntaf y rhai oedd yn y llyfr cyntaf,

yr hwn a losgodd Jehoiacim brenhin Judah:

29 A dywed wrth Jehoiacim brenhin Judah, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Ti a losgaist y llyfr hwn, gan ddywedyd, Paham yr ysgrifenaist ynddo, gan ddywedyd, Dïau y daw brenhin Babilon, ac a anrheithia y wlad hon; ac efe a wna i ddyn ac i anifail ddarfod o honi?

30 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am Jehoiacim brenhin Judah; Ni bydd iddo ef a eisteddo ar frenhinfainge Dafydd: a'i gelain ef a fwrir allan i wres y dydd, ac i rew y nos.

31 A mi a ymwelaf âg ef, ac â'i had, ac â'i weision, am eu hanwireddd; a mi a ddygaf arnynt hwy, ac ar drigolion Jerusalem, ac ar wŷr Judah, yr holl ddrwg a leferais i'w herbyn, ond ni wrandawsant.

32 ¶ Yna Jeremïah a gymmerth lyfr arall, ac a'i rhoddodd at Baruch mab Neriah yr ysgrifenydd; ac efe a ysgrifenodd ynddo o enau Jeremïah holl eiriau y llyfr a losgasai Jehoiacim brenhin Judah yn tân: a chwanegwyd attynt etto eiriau lawer fel hwythau.

PENNOD 37.

1 Wedi darfod i'r Aiphtiaid yrru y Caldeaid ymaith o warchae ar Jerusalem, y mae y brenhin Sedeciah yn anfon at Jeremïah i weddio dros y bobl. 6 Jeremïah yn prophwydo y dychwelai y Caldeaid, ac y gorchfygint. 11 Ei addal ef megis ffoadur, a'i jaeddu, a'i garcharu. 16 Y mae efe yn sicrhau Sedeciah o'r caethiwed: 18 yn ymbil am gael ei oliwng yn rhydd; ac yn cael peth ffafr.

A'R brenhin Sedeciah mab Jôsïah a deyrnasodd yn lle Coniah mab Jehoiacim, yr hwn a wnaeth Nebuchodonosor brenhin Babilon yn frenhin y'ngwlad Judah.

2 Ond ni wrandawodd efe, na'i weision, na phobl y tir, ar eiriau yr ARGLWYDD, y rhai a draethodd efe trwy law Jeremïah y prophwyd.

3 A'r brenhin Sedeciah a anfonodd Jehucal mab Selemïah, a Sephaniah mab Maaseiah yr offeiriad, at Jeremïah y prophwyd, gan ddywedyd, Gweddïa, *attolwg*, drosom ni ar yr ARGLWYDD ein DUW.

4 A Jeremïah *oedd* yn myned i mewn ac allan ym mysg y bobl: canys ni roddasent hwy ef *etto* yn y carchardy.

5 A llu Pharaoh a ddaethai allan o'r Aipht: a phan glybu y Caldeaid *oedd* yn gwarchae ar Jerusalem sôn am danynt, hwy a aethant ymaith oddi wrth Jerusalem.

6 ¶ Yna gair yr ARGLWYDD a ddaeth at Jeremïah y prophwyd, gan ddywedyd,

7 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel; Fel hyn y dywedwch chwi wrth frenhin Judah, yr hwn a'ch anfonodd chwi attaf fi i ymofyn â mi; Wele, llu Pharaoh, yr hwn a ddaeth allan yn gynnorthwy i chwi, a ddychwel i'w wlad ei hun, i'r Aipht.

8 A'r Caldeaid a ddychwelant, ac a ryfelant yn erbyn y ddinas hon, ac a'i hennillant, ac a'i llosgant â thân.

9 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Na thwyllwch eich hunain, gan ddywedyd, Dïau yr â y Caldeaid oddi wrthym ni: oblegid nid ânt hwy.

10 Canys pe tarawech chwi holl lu y Caldeaid y rhai sydd yn rhyfela i'ch erbyn; fel *na* weddillid o honynt *ond* gwŷr archolledig, *etto* hwy a gyfodent bob un yn ei babell, ac a losgent y ddinas hon â thân.

11 ¶ A phan aeth llu y Caldeaid ymaith oddi wrth Jerusalem, rhag llu Pharaoh,

12 Yna Jeremïah a aeth allan o Jerusalem, i fyned i wlad Benjamin, i ymlithro oddi yno y'nghanol y bobl.

13 A phan oedd efe ym mhorth Benjamin, *yr oedd* yno ben-swyddog, a'i enw ef *oedd* Iriah, mab Selemïah, mab Hananïah; ac efe a ddaliodd Jeremïah y prophwyd, gan ddywedyd, Cilio at y Caldeaid yr wyt ti.

14 Yna y dywedodd Jeremïah, Nid gwir; nid ydwyf fi yn cilio at y Caldeaid. Ond ni wrandawai efe arno: felly Iriah a ymaflodd yn Jeremïah, ac a'i dygodd ef at y tywysogion.

15 Am hynny y tywysogion a ddigiasant wrth Jeremïah, ac a'i tarawsant, ac a'i rhoddasant yn y

carchardy yn nhŷ Jonathan yr ysgrifenydd: o herwydd hwnnw a wnaethent hwy yn garchardy.

16 ¶ Pan ddaeth Jeremïah i'r daeardy, ac i'r cabanau, ac *wedi* i Jeremïah aros yno ddyddiau lawer;

17 Yna y brenhin Sedecïah a anfonodd, ac a'i cymmerodd ef allan: a'r brenhin a ofynodd iddo yn gyfrinachol yn ei dŷ ei hun, ac a ddywedodd, A oes gair oddi wrth yr ARGLWYDD? A dywedodd Jeremïah, Oes; canys tydi (*eb efe*) a roddir yn llaw brenhin Babilon.

18 Jeremïah hefyd a ddywedodd wrth y brenhin Sedecïah, Pa bechod a wneuthum i i'th erbyn di, neu yn erbyn dy weision, neu yn erbyn y bobl hyn, pan y'm rhoddasoch yn y carchardy?

19 Pa le *y mae* eich prophwydi a brophwydasant i chwi, gan ddywedyd, Ni ddaw brenhin Babilon i'ch erbyn, nac yn erbyn y wlad hon?

20 Ac yn awr gwrando, attolwg, O fy arglwydd frenhin: attolwg, deued fy ngweddi ger dy fron; fel na pharech i mi ddychwelyd i dŷ Jonathan yr ysgrifenydd, rhag fy marw yno.

21 Yna y brenhin Sedecïah a orchymynodd iddynt hwy roddi Jeremïah y'nghyntedd y carchardy, a rhoddi iddo ef deisen o fara beunydd o heol y pobyddion, nes darfod yr holl fara yn y ddinas. Felly Jeremïah a arhosodd y'nghyntedd y carchardy.

PENNOD 38.

1 *Jeremïah, ar gam-achwyn, yn cael ei fwrw i ddaeardy Malchïah: 7 ac Ebedmelech yn cael peth rhyddid iddo ef.* 14 *Jeremïah, trwy ymddiddan cyfrinachol, yn cynghori i'r brenhin achub ei einioes trwy ymrôi;* 24 *a thrwy archiad y brenhin, yn celu yr ymddiddan hwnnw oddi wrth y tywysogion.*

YNA Sephatïah mab Mattan, a Gedalïah mab Pasur, a Jucal mab Selemïah, a Phasur mab Malchïah, a glywsant y geiriau a draethasai Jeremïah wrth yr holl bobl, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywedodd yr ARGLWYDD, Yr hwn a arhoso yn y ddinas hon, a fydd farw trwy y cleddyf, trwy newyn, a thrwy haint: ond y neb a elo allan at y Caldeaid, a fydd byw; canys ei einioes fydd yn ysglyfaeth iddo, a byw fydd.

3 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Y ddinas hon a roddir yn ddïau yn llaw llu brenhin Babilon, yr hwn a'i hennill hi.

4 Yna y tywysogion a ddywedasant wrth y brenhin, Rhodder, attolwg, y gŵr hwn i farwolaeth: oblegid fel hyn y mae efe yn gwanhâu dwylaw y rhyfelwyr a adawyd yn y ddinas hon, a dwylaw yr holl bobl, wrth ddywedyd wrthynt yn ol y geiriau hyn: o herwydd nid yw y gŵr hwn yn ceisio llwyddiant i'r bobl hyn, ond niwed.

5 A'r brenhin Sedecïah a ddywedodd, Wele ef yn eich llaw chwi: canys nid *yw* y brenhin *ûr* a ddichon ddim yn eich erbyn chwi.

6 Yna hwy a gymmerasant Jeremïah, ac a'i bwriasant ef i ddaeardy Malchïah mab Hammelech, yr hwn *oedd* y'nghyntedd y carchardy: a hwy a ollyngasant Jeremïah i waered wrth raffau. Ac nid *oedd* dwfr yn y daeardy. ond tom: felly Jeremïah a lynodd yn y dom.

7 ¶ A phan glybu Ebedmelech yr Ethiopiad, un o'r ystafellyddion yr hwn oedd yn nhŷ y brenhin, iddynt hwy roddi Jeremïah yn y daeardy, (a'r brenhin yn eistedd ym mhorth Benjamin,)

8 Ebedmelech a aeth allan o dŷ y brenhin, ac a lefarodd wrth y brenhin, gan ddywedyd,

9 O fy arglwydd frenhin, drwg y gwnaeth y gwŷr hyn y'nghwbl ag a wnaethant i Jeremïah y prophwyd, yr hwn a fwriasant hwy i'r daeardy; ac efe a fydd farw o newyn yn y fan lle y mae, o herwydd nid *oes* bara mwyach yn y ddinas.

10 Yna y brenhin a orchymynodd i Ebedmelech yr Ethiopiad, gan ddywedyd, Cymmer oddi yma ddengwr ar hugain gyd â thi, a chyfod Jeremïah y prophwyd o'r daeardy cyn ei farw.

11 Felly Ebedmelech a gymmerodd y gwŷr gyd âg ef, ac a aeth i dŷ y brenhin dan y trysordy, ac a gymmerodd oddi yno hen garpiau, a hen bwdr-fratiau, ac a'u gollyngodd i waered at Jeremïah i'r daeardy wrth raffau.

12 Ac Ebedmelech yr Ethiopiad a ddywedodd wrth Jeremïah, Gosod

yn awr yr hen garpiau a'r pwdr-fratiau hyn dan dy geseiliau oddi tan y rhaffau. A Jeremïah a wnaeth felly.

13 Felly hwy a dynnasant Jeremïah i fyny wrth y rhaffau, ac a'i codasant ef o'r daeardy; a Jeremïah a arhosodd y'nghyntedd y carchardy.

14 ¶ Yna y brenhin Sedecïah a anfonodd, ac a gymmerodd Jeremïah y prophwyd atto i'r trydydd cyntedd, yr hwn *sydd* yn nhŷ yr ARGLWYDD; a'r brenhin a ddywedodd wrth Jeremïah, Mi a ofynaf i ti beth: na chela ddim oddi wrthyf fi.

15 A Jeremïah a ddywedodd wrth Sedecïah, Os mynegaf i ti, oni roddi di fi i farwolaeth? ac os rhoddaf i ti gynghor, oni wrandewi di arnaf?

16 Felly y brenhin Sedecïah a dyngodd wrth Jeremïah yn gyfrinachol, gan ddywedyd, *Fel mai* byw yr ARGLWYDD, yr hwn a wnaeth i ni yr enaid hwn, ni roddaf fi di i farwolaeth, ac ni roddaf di yn llaw y gwŷr hyn sydd yn ceisio dy einioes.

17 Yna y dywedodd Jeremïah wrth Sedecïah, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW y lluoedd, DUW Israel; Os gan fyned yr âi di allan at dywysogion brenhin Babilon, yna y bydd dy enaid fyw, ac ni losgir y ddinas hon â thân; a thithau a fyddi fyw, ti a'th deulu.

18 Ond onid âi di allan at dywysogion brenhin Babilon, yna y ddinas hon a roddir i law y Caldeaid, a hwy a'i llosgant hi â thân, ac ni ddïengi dithau o'u llaw hwynt.

19 A'r brenhin Sedecïah a ddywedodd wrth Jeremïah, Yr ydwyf fi yn ofni yr Iuddewon a giliasant at y Caldeaid, rhag iddynt hwy fy rhoddi i yn eu llaw hwynt, ac i'r rhai hynny fy ngwatwar.

20 A Jeremïah a ddywedodd, Ni roddant ddim: gwrando, attolwg, ar lais yr ARGLWYDD, yr hwn yr ydwyf fi yn ei draethu i ti; felly y bydd yn dda i ti, a'th enaid a fydd byw.

21 Ond os gwrthodi fyned allan, dyma y gair a ddangosodd yr ARGLWYDD i mi:

22 Ac wele, yr holl wragedd, y rhai a adawyd yn nhŷ brenhin Judah, a ddygir allan at dywysogion brenhin Babilon; a hwy a ddywedant, Dy gyfeillion a'th hudasant, ac a'th orchfygasant; dy draed a lynasant yn y dom, *a* hwythau a droisant yn eu hol.

23 Felly hwy a ddygant allan dŷ holl wragedd a'th blant at y Caldeaid, ac ni ddïengi dithau o'u llaw hwynt; canys â llaw brenhin Babilon y'th ddèlir; a'r ddinas hon a losgi â thân.

24 ¶ Yna y dywedodd Sedecïah wrth Jeremïah, Na chaffed neb wybod y geiriau hyn, ac ni'th roddir i farwolaeth.

25 Ond os y tywysogion a glywant i mi ymddiddan â thi, ac *os* deuant attat ti, a dywedyd wrthyt, Mynega yn awr i ni beth a draethaist ti wrth y brenhin; na chela oddi wrthym ni, ac ni roddwn ni mo honot ti i farwolaeth; a pha beth a draethodd y brenhin wrthyt tithau:

26 Yna dywed wrthynt, Myfi a weddïais yn ostyngedig ger bron y brenhin, na yrrai efe fi drachefn i dŷ Jonathan, i farw yno.

27 Yna yr holl dywysogion a ddaethant at Jeremïah, ac a'i holasant ef: ac efe a fynegodd iddynt yn ol yr holl eiriau hyn, y rhai a orchymynasai y brenhin: felly hwy a beidiasant âg ymddiddan âg ef, canys ni chafwyd clywed y peth.

28 A Jeremïah a arhosodd yng nghyntedd y carchardy hyd y dydd yr ennillwyd Jerusalem; ac *yno* yr oedd efe pan ennillwyd Jerusalem.

PENNOD 39.

1 *Ennill Jerusalem.* 4 *Tynnu llygaid Sedecïah, a'i anfon i Babilon.* 8 *Difrodi y ddinas,* 9 *a chaethiwo y bobl.* 11 *Nebuchodonosor yn rhoi gorchymyn ar fod yn dda wrth Jeremïah.* 15 *Addewid Duw i Ebedmelech.*

YN y nawfed flwyddyn i Sedecïah brenhin Judah, ar y degfed mis, y daeth Nebuchodonosor brenhin Babilon, a'i holl lu, yn erbyn Jerusalem, ac a warchaeasant arni.

2 Yn yr unfed flwyddyn ar ddeg i Sedecïah, yn y pedwerydd mis, ar y nawfed *dydd* o'r mis, y torrwyd y ddinas.

3 A holl dywysogion brenhin Babilon a ddaethant i mewn, ac a eisteddasant yn y porth canol, *sef* Nergal-sareser, Samgar-nebo, Sarsechim, Rabsaris, Nergal-sareser, Rabmag, a holl dywysogion eraill brenhin Babilon.

4 ¶ A phan welodd Sedecïah brenhin Judah hwynt, a'r holl ryfelwyr, hwy a ffoisant, ac a aethant allan o'r ddinas liw nos, trwy ffordd gardd y brenhin, i'r porth rhwng y ddau fur: ac efe a aeth allan tu a'r anialwch.

5 A llu y Caldeaid a erlidiasant ar eu hol hwynt, ac a oddiweddasant Sedecïah yn rhosydd Jericho, ac a'i daliasant ef, ac a'i dygasant at Nebuchodonosor brenhin Babilon, i Riblah y'ngwlad Hamath; lle y rhoddodd efe farn arno.

6 Yna brenhin Babilon a laddodd feibion Sedecïah yn Riblah o flaen ei lygaid ef: brenhin Babilon hefyd a laddodd holl bendefigion Judah.

7 Ac efe a dynnodd lygaid Sedecïah, ac a'i rhwymodd ef â chadwynau i'w ddwyn i Babilon.

8 ¶ A'r Caldeaid a losgasant dŷ y brenhin a thai y bobl, â thân; a hwy a ddrylliasant furiau Jerusalem.

9 Yna Nebusaradan pennaeth y milwyr a gaethgludodd i Babilon weddill y bobl y rhai a adawsid yn y ddinas, a'r encilwyr y rhai a giliasent atto ef, ynghyd â gweddill y bobl y rhai a adawsid.

10 A Nebusaradan pennaeth y milwyr a adawodd o dlodion y bobl, y rhai nid oedd dim ganddynt, y'ngwlad Judah, ac efe a roddodd iddynt winllannoedd a meusydd y pryd hwnnw.

11 ¶ A Nebuchodonosor brenhin Babilon a roddodd orchymyn am Jeremïah i Nebusaradan pennaeth y milwyr, gan ddywedyd,

12 Cymmer ef, a bwrw olwg arno, ac na wna iddo ddim niwed; ond megis y dywedo efe wrthyt ti, felly gwna iddo.

13 Felly Nebusaradan pennaeth y milwyr a anfonodd, Nebusasban hefyd, Rabsaris, a Nergal-sareser, Rabmag, a holl bennaethiaid brenhin Babilon;

14 Ie, hwy a anfonasant, ac a gymmerasant Jeremïah o gyntedd y carchardy, ac a'i rhoddasant ef at Gedalïah mab Ahicam, mab Saphan, i'w ddwyn adref: felly efe a drigodd ym mysg y bobl.

15 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth at Jeremïah, pan oedd efe wedi cau arno y'nghyntedd y carchar, gan ddywedyd,

16 Dos, a dywed i Ebedmelech yr Ethiopiad, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Wele, mi a baraf i'm geiriau ddyfod yn erbyn y ddinas hon er niwed, ac nid er lles, a hwy a gwblhêir o flaen dy wyneb y dwthwn hwnnw.

17 Ond myfi a'th waredaf di y dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD, ac ni'th roddir yn llaw y dynion *yr ydwyt* ti yn ofni rhagddynt.

18 Canys gan achub mi a'th achubaf, ac ni syrthi trwy y cleddyf, eithr bydd dy einioes yn ysglyfaeth i ti, am i ti ymddiried ynof fi, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 40.

1 *Jeremïah, wedi darfod i Nebusaradan ei ollwng ef yn rhydd, yn myned at Gedalïah: 7 a'r Iuddewon oedd ar wasgar yn ymgasglu atto ef. 13 Johanan yn datguddio bradwriaeth Ismael, heb gael ei gredu.*

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah oddi wrth yr ARGLWYDD, wedi i Nebusaradan pennaeth y milwyr ei ollwng ef yn rhydd o Ramah, wedi iddo ei gymmeryd ef, ac yntau yn rhwym mewn cadwyni ym mysg holl gaethglud Jerusalem a Judah, *y rhai a* gaethgludasid i Babilon.

2 A phennaeth y milwyr a gymmerodd Jeremïah, ac a ddywedodd wrtho, Yr ARGLWYDD dy DDUW a lefarodd y drwg yma yn erbyn y lle hwn.

3 A'r ARGLWYDD a'*i* dug i ben, ac a wnaeth megis y llefarodd: am i chwi bechu yn erbyn yr ARGLWYDD, ac na wrandawsoch ar ei lais ef, am hynny y daeth y peth hyn i chwi.

4 Ac yn awr wele, mi a'th rydd-

heais di heddyw o'r cadwynau *oedd* am dy ddwylaw: os da gennyt ti ddyfod gyd â mi i Babilon, tyred, a myfi a fyddaf da wrthyt: ond os drwg y gweli ddyfod gyd â mi i Babilon, paid; wele yr holl dir o'th flaen di: i'r fan *y byddo* da a boddlawn gennyt fyned, yno dos.

5 Ac yn awr, ac efe etto heb ddychwelyd, *efe a ddywedodd*, Dychwel at Gedalïah mab Ahicam, mab Saphan, yr hwn a osododd brenhin Babilon ar ddinasoedd Judah, ac aros gyd âg ef ym mhlith y bobl: neu dos lle y gwelech di yn dda fyned. Felly pennaeth y milwyr a roddodd iddo el luniaeth a rhodd, ac a'i gollyngodd ef ymaith.

6 Yna yr aeth Jeremïah at Gedalïah mab Ahicam i Mispah, ac a arhosodd gyd âg ef ym mysg y bobl a adawsid yn y wlad.

7 ¶ A phan glybu holl dywysogion y lluoedd, y rhai *oedd* ar hyd y wlad, hwynt-hwy a'u gwŷr, i frenhin Babilon osod Gedalïah mab Ahicam ar y wlad, ac iddo roddi dan ei law ef wŷr, a gwragedd, a phlant, ac o dlodion y wlad, o'r rhai ni chaethgludasid i Babilon;

8 Yna hwy a ddaethant at Gedalïah i Mispah, *sef* Ismael mab Nethanïah, a Johanan a Jonathan meibion Careah, a Seraiah mab Tanhumeth, a meibion Ephai y Netophathiad, a Jesanïah mab Maachathiad, hwynt-hwy a'u gwŷr.

9 A Gedalïah mab Ahicam mab Saphan a dyngodd wrthynt hwy, ac wrth eu gwŷr, gan ddywedyd, Nac ofnwch wasanaethu y Caldeaid: trigwch yn y wlad, a gwasanaethwch frenhin Babilon, felly y bydd daioni i chwi.

10 Am danaf finnau, wele, mi a drigaf ym Mispah, i wasanaethu y Caldeaid, y rhai a ddeuant attom ni: chwithau, cesglwch win, a ffrwythydd haf, ac olew, a dodwch *hwynt* yn eich llestri, a thrigwch yn eich dinasoedd, y rhai yr ydych yn eu meddiannu.

11 A phan glybu yr holl Iuddewon y rhai *oedd* ym Moab, ac ym mysg meibion Ammon, ac yn Edom, ac yn yr holl wledydd, i frenhin Babilon adael gweddill o Judah, a gosod Gedalïah mab Ahicam mab Saphan yn llywydd arnynt hwy;

12 Yna yr holl Iuddewon a ddychwelasant o'r holl leoedd lle y gyrrasid hwynt, ac a ddaethant i wlad Judah at Gedalïah i Mispah, ac a gasglasant win a ffrwythydd haf lawer iawn.

13 ¶ Johanan hefyd mab Careah, a holl dywysogion y lluoedd y rhai *oedd* ar hyd y wlad, a ddaethant at Gedalïah i Mispah,

14 Ac a ddywedasant wrtho, A wyddost ti yn hysbys i Baalis, brenhin meibion Ammon, anfon Ismael mab Nethanïah i'th ladd di? Ond ni chredodd Gedalïah mab Ahicam iddynt hwy.

15 Yna Johanan mab Careah a ddywedodd wrth Gedalïah ym Mispah yn gyfrinachol, gan ddywedyd, Gâd i mi fyned, attolwg, a mi a laddaf Ismael mab Nethanïah, ac ni chaiff neb wybod: paham y lladdai efe di, fel y gwasgerid yr holl Iuddewon y rhai a ymgasglasant attat ti, ac y darfyddai am y gweddill yn Judah?

16 Ond Gedalïah mab Ahicam a ddywedodd wrth Johanan mab Careah, Na wna y peth hyn; canys celwydd yr ydwyt ti yn ei ddywedyd am Ismael.

PENNOD 41.

1 *Ismael, trwy fradwriaeth, yn lladd Gedalïah ac eraill, ac yn amcanu, efe a'r lleill, ffoi at yr Ammoniaid.* 11 *Johanan yn ennill y caethion, ac yn meddwl ffoi i'r Aiphi.*

AC yn y seithfed mis daeth Ismael mab Nethanïah mab Elisama o'r had brenhinol, a phendefigion y brenhin, sef dengwr gyd âg ef, at Gedalïah mab Ahicam i Mispah: a hwy a fwyttasant yno fara ynghyd ym Mispah.

2 Ac Ismael mab Nethanïah a gyfododd, *efe* a'r dengwr oedd gyd âg ef, ac a darawsant Gedalïah mab Ahicam mab Saphan â'r cleddyf, ac a'i lladdasant ef, yr hwn a osodasai brenhin Babilon yn llywydd ar y wlad.

3 Ismael hefyd a laddodd yr holl Iuddewon oedd gyd âg ef, *sef* gyd â Gedalïah, ym Mispah, a'r Caldeaid y rhai a gafwyd yno, y rhyfelwyr.

4 A'r ail ddydd wedi iddo ef ladd Gedalïah, heb neb yn gwybod,
5 Yna y daeth gwŷr o Sichem, o Siloh, ac o Samaria, *sef* pedwar ugeinwr, wedi eillio eu barfau, a rhwygo eu dillad, ac ymdorri, âg offrymmau ac â thus yn eu dwylaw, i'*w* dwyn i dŷ yr ARGLWYDD.
6 Ac Ismael mab Nethanïah a aeth allan o Mispah i'w cyfarfod hwynt, gan gerdded rhagddo, ac wylo; a phan gyfarfu efe â hwynt, efe a ddywedodd wrthynt, Deuwch at Gedalïah mab Ahicam.
7 A phan ddaethant hwy i ganol y ddinas, yna Ismael mab Nethanïah a'u lladdodd hwynt, *ac a'u bwriodd* i ganol y pydew, efe a'r gwŷr *oedd* gyd âg ef.
8 Ond dengwr a gafwyd yn eu mysg hwynt, y rhai a ddywedasant wrth Ismael, Na ladd ni: oblegid y mae gennym ni drysor yn y maes, o wenith, ac o haidd, ac o olew, ac o fêl. Felly efe a beidiodd, ac ni laddodd hwynt ym mysg eu brodyr.
9 A'r pydew i'r hwn y bwriodd Ismael holl gëlaneddau y gwŷr a laddasai efe er mwyn Gedalïah, *yw* yr hwn a wnaethai y brenhin Asa, rhag ofn Baasa brenhin Israel: hwnnw a ddarfu i Ismael mab Nethanïah ei lenwi â'r rhai a laddasid.
10 Yna Ismael a gaethgludodd holl weddill y bobl y rhai *oedd* ym Mispah, *sef* merched y brenhin, a'r holl bobl y rhai a adawsid ym Mispah, ar y rhai y gosodasai Nebusaradan pennaeth y milwyr Gedalïah mab Ahicam yn llywydd: ac Ismael mab Nethanïah a'u caethgludodd hwynt, ac a ymadawodd i fyned drosodd at feibion Ammon.
11 ¶ Ond pan glybu Johanan mab Careah, a holl dywysogion y llu y rhai *oedd* gyd âg ef, yr holl ddrwg a wnaethai Ismael mab Nethanïah;
12 Yna hwy a gymmerasant *eu* holl wŷr, ac a aethant i ymladd âg Ismael mab Nethanïah, ac a'i cawsant ef wrth y dyfroedd mawrion y rhai *sydd* yn Gibeon.
13 A phan welodd yr holl bobl, y rhai *oedd* gyd âg Ismael, Johanan mab Careah, a holl dywysogion y llu y rhai *oedd* gyd âg ef, yna hwy a lawenychasant.
14 Felly yr holl bobl, y rhai a gaethgludasai Ismael ymaith o Mispah, a droisant ac a ddychwelasant, ac a aethant at Johanan mab Careah.
15 Ond Ismael mab Nethanïah a ddïangodd, ynghyd âg wythnyn, oddi gan Johanan, ac a aeth at feibion Ammon.
16 Yna Johanan mab Careah, a holl dywysogion y llu y rhai *oedd* gyd âg ef, a gymmerasant holl weddill y bobl, y rhai a ddygasai efe yn eu hol oddi ar Ismael mab Nethanïah, o Mispah, (wedi iddo ef ladd Gedalïah mab Ahicam,) *sef* cedyrn ryfelwyr, a'r gwragedd, a'r plant, a'r ystafellyddion, y rhai a ddygasai efe o Gibeon.
17 A hwy a aethant oddi yno, ac a eisteddasant yn nhrigfa Chimham, yn agos at Bethlehem, i fyned i'r Aipht,
18 Rhag y Caldeaid: o herwydd eu bod yn eu hofni hwynt, am i Ismael mab Nethanïah ladd Gedalïah mab Ahicam, yr hwn a roddasai brenhin Babilon yn llywydd yn y wlad.

PENNOD 42.

1 *Johanan yn erfyn ar Jeremïah ymofyn â Duw, ac yn addaw bod yn ufudd i'w ewyllys ef.* 7 *Jeremïah yn dangos iddo y cai efe ddiogelwch yn Judea,* 13 *a dinystr yn yr Aipht.* 19 *Y mae yn bei) ev eu rhagrith hwy yn peri ymofyn â'r Arglwydd am yr hyn nid oedd yn eu bryd ei wneuthur.*

FELLY holl dywysogion y llu, a Johanan mab Careah, a Jesanïah mab Hosaiah, a'r holl bobl, o fychan hyd fawr, a nesasant,
2 Ac a ddywedasant wrth Jeremïah y prophwyd, Attolwg, gwrando ein deisyfiad ni, a gweddïa drosom ni ar yr ARGLWYDD dy DDUW, *sef* dros yr holl weddill hyn; (canys nyni a adawyd o lawer yn ychydig, fel y mae dy lygaid yn ein gweled ni;)
3 Fel y dangoso yr ARGLWYDD dy DDUW i ni y ffordd y mae i ni rodio ynddi, a'r peth a wnelom.
4 Yna Jeremïah y prophwyd a ddywedodd wrthynt, Myfi a'*ch* clywais *chwi;* wele, mi a weddïaf ar yr

ARGLWYDD eich DUW yn ol eich geiriau chwi, a pheth bynnag a ddywedo yr ARGLWYDD am danoch, myfi a'*i* mynegaf i chwi: nid attaliaf ddim oddi wrthych.

5 A hwy a ddywedasant wrth Jeremïah, Yr ARGLWYDD fyddo dyst cywir a ffyddlawn rhyngom ni, onis gwnawn yn ol pob gair a anfono yr ARGLWYDD dy DDUW *gyd â* thi attom ni.

6 Os da neu os drwg *fydd*, ar lais yr ARGLWYDD ein DUW, yr hwn yr ydym ni yn dy anfon atto, y gwrandâwn ni; fel y byddo da i ni, pan wrandawom ar lais yr ARGLWYDD ein DUW.

7 ¶ Ac ym mhen y deng niwrnod y daeth gair yr ARGLWYDD at Jeremïah.

8 Yna efe a alwodd ar Johanan mab Careah, ac ar holl dywysogion y llu y rhai *oedd* gyd âg ef, ac *ar* yr holl bobl o fychan hyd fawr,

9 Ac a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel, yr hwn yr anfonasoch fi atto i roddi i lawr eich gweddïau ger ei fron ef;

10 Os trigwch chwi yn wastad yn *y* wlad hon, myfi a'ch adeiladaf chwi, ac nis tynnaf i lawr, myfi a'ch plannaf chwi, ac nis diwreiddiaf: oblegid y mae yn edifar gennyf am y drwg a wneuthum i chwi.

11 Nac ofnwch rhag brenhin Babilon, yr hwn y mae arnoch ei ofn; nac ofnwch ef, medd yr ARGLWYDD: canys myfi *a fyddaf* gyd â chwi i'ch achub, ac i'ch gwaredu chwi o'i law ef.

12 A mi a roddaf i chwi drugaredd, fel y trugarhao efe wrthych, ac y dygo chwi drachefn i'ch gwlad eich hun.

13 ¶ Ond os dywedwch, Ni thrigwn ni yn y wlad hon, heb wrandaw ar lais yr ARGLWYDD eich DUW,

14 Gan ddywedyd, Nag ê: ond i wlad yr Aipht yr awn ni, lle ni welwn ryfel, ac ni chlywn sain udgorn, ac ni bydd arnom newyn bara, ac yno y trigwn ni:

15 Am hynny, O gweddill Judah, gwrandêwch yn awr air yr ARGLWYDD; Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Os chwi gan osod a osodwch eich wynebau i fyned i'r Aipht, ac a ewch i ymdeithio yno,

16 Yna y bydd i'r cleddyf, yr hwn yr ydych yn ei ofni, eich goddiwes chwi yno yn nhir yr Aipht; a'r newyn yr hwn yr ydych yn gofalu rhagddo, a'ch dilyn chwi yn yr Aipht; ac yno y byddwch feirw.

17 Felly y bydd i'r holl wŷr a osodasant eu hwynebau i fyned i'r Aipht, i aros yno, hwy a leddir â'r cleddyf, â newyn, ac â haint: ac ni bydd un o honynt y'ngweddill, neu yn ddïangel, gan y dïaledd a ddygaf fi arnynt.

18 Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Megis y tywalltwyd fy llid a'm digofaint ar breswylwyr Jerusalem; felly y tywelltir fy nigofaint arnoch chwithau, pan ddeloch i'r Aipht: a chwi a fyddwch yn felldith, ac yn syndod, ac yn rheg, ac yn warth, ac ni chewch weled y lle hwn mwyach.

19 ¶ O gweddill Judah, yr ARGLWYDD a ddywedodd am danoch, Nac ewch i'r Aipht: gwybyddwch yn hysbys i mi eich rhybuddio chwi heddyw.

20 Canys rhagrithiasoch yn eich calonnau, wrth fy anfon i at yr ARGLWYDD eich DUW, gan ddywedyd, Gweddïa drosom ni ar yr ARGLWYDD ein DUW, a mynega i ni yn ol yr hyn oll a ddywedo yr ARGLWYDD ein DUW, a nyni a'*i* gwnawn.

21 A mi a'*i* mynegais i chwi heddyw, ond ni wrandawsoch ar lais yr ARGLWYDD eich DUW, nac ar ddim oll a'r y danfonodd efe fi attoch o'i blegid.

22 Ac yn awr gwybyddwch yn hysbys, mai trwy y cleddyf, *a* thrwy newyn, a thrwy haint, y byddwch chwi feirw yn y lle yr ydych yn ewyllysio myned i ymdeithio ynddo.

PENNOD 43.

1 *Johanan ym anghoelio prophwydoliaeth Jeremïah, ac yn ei ddwyn ef ac eraill i'r Aipht.*
8 *Jeremïah, trwy ysgod, ym prophwydo y goresgynid yr Aipht gan y Babiloniaid.*

A PHAN ddarfu i Jeremïah lefaru wrth yr holl bobl holl eiriau yr ARGLWYDD eu DUW, am y

rhai yr anfonasai yr ARGLWYDD eu DUW ef attynt, *sef* yr holl eiriau hyn:

2 Yna y llefarodd Asarïah mab Hosaiah, a Johanan mab Careah, a'r holl ddynion beilchion, gan ddywedyd wrth Jeremïah, Celwydd yr wyt ti yn ei ddywedyd; ni anfonodd yr ARGLWYDD ein DUW ni mo honot ti i ddywedyd, Nac ewch i'r Aipht i ymdeithio yno.

3 Eithr Baruch mab Nerïah a'th annogodd di i'n herbyn ni, i gael ein rhoddi ni yn llaw y Caldeaid, i'n lladd, ac i'n caethgludo i Babilon.

4 Ond ni wrandawodd Johanan mab Careah, na holl dywysogion y llu, na'r holl bobl, ar lais yr ARGLWYDD, i drigo yn nhir Judah:

5 Eithr Johanan mab Careah, a holl dywysogion y llu, a ddygasant ymaith holl weddill Judah, y rhai a ddychwelasant oddi wrth yr holl genhedloedd lle y gyrrasid hwynt, i aros y ngwlad Judah;

6 Yn wŷr, a gwragedd, a phlant, a merched y brenhin, a phob enaid a'r a adawsai Nebusaradan pennaeth y milwyr gyd â Gedalïah mab Ahicam mab Saphan, y prophwyd Jeremïah hefyd, a Baruch mab Nerïah.

7 Felly hwy a ddaethant i wlad yr Aipht: canys ni wrandawsant ar lais yr ARGLWYDD; fel hyn y daethant i Tapanhes.

8 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth at Jeremïah yn Tapanhes, gan ddywedyd,

9 Cymmer yn dy law gerrig mawrion, a chuddia hwynt yn y clai yn yr odyn briddfaen, yr hon *sydd* yn nrws tŷ Pharaoh, yn Tapanhes, y'ngolwg gwŷr Judah;

10 A dywed wrthynt, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Wele, mi a anfonaf, ac a gymmeraf Nebuchodonosor brenhin Babilon, fy ngwas, ac a osodaf ei frenhinfainge ef ar y cerrig hyn y rhai a guddiais, ac efe a daena ei frenhinol babell arnynt.

11 A phan ddelo, efe a dery wlad yr Aipht; y rhai *sydd* i angau, âg angau; a'r rhai *sydd* i gaethiwed, â chaethiwed; a'r rhai *sydd* i'r cleddyf, â'r cleddyf.

12 A mi a gynneuaf dân yn nhai duwiau yr Aipht, ac efe a'u llysg hwynt, ac a'u caethgluda hwynt; ac efe a ymwisg â gwlad yr Aipht fel y gwisg bugail ei ddillad: ac efe a â allan oddi yno mewn heddwch.

13 Ac efe a dyr ddelwau tŷ yr haul, yr hwn *sydd* y'ngwlad yr Aipht; ac efe a lysg dai duwiau yr Aipht â thân.

PENNOD 44.

1 *Jeremïah yn adrodd dinystr Judah am eu delw-addoliaeth;* 11 *yn prophwydo dinystr y rhai a wnant ddelw-addoliaeth yn yr Aipht.* 15 *Gwrthnysigrwydd yr Iuddewon;* 20 *a Jeremïah yn eu bygwth hwy o'i herwydd,* 29 *ac, yn lle arwydd, yn prophwydo dinystr yr Aipht.*

Y GAIR yr hwn a ddaeth at Jeremïah, am yr holl Iuddewon y rhai oedd yn trigo yng ngwlad yr Aipht, *ac* yn preswylio ym Migdol, ac yn Tapanhes, ac yn Noph, ac y'ngwlad Pathros, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Chwi a welsoch yr holl ddrwg a ddygais i ar Jerusalem, ac ar holl ddinasoedd Judah; ac wele hwy heddyw yn anghyfannedd, ac heb breswylydd ynddynt:

3 O achos eu drygioni yr hwn a wnaethant i'm digio i, gan fyned i arogl-darthu, *ac* i wasanaethu duwiau dïeithr, y rhai nid adwaenent, *na* hwy, *na* chwithau, na'ch tadau.

4 Er i mi anfon attoch fy holl weision y prophwydi, gan fore-godi, ac anfon, i ddywedyd, Na wnewch, attolwg, y ffieidd-beth hyn, yr hwn sydd gas gennyf fi:

5 Etto ni wrandawsant, ac ni ogwyddasant eu clust, i ddychwelyd oddi wrth eu drygioni, fel nad arogl-darthent i dduwiau dïeithr.

6 Am hynny y tywalltwyd fy llid a'm digofaint, ac y llosgodd efe yn hinasoedd Judah, ac yn heolydd Jerusalem; ac y maent hwy yn anghyfannedd, *ac* yn ddiffaethwch, fel *y gwelir* heddyw.

7 Ac yn awr fel hyn y dywed ARGLWYDD DDUW y lluoedd, DUW Israel; Paham y gwnewch y mawr ddrwg *hwn* yn erbyn eich eneidiau,

i dorri ymaith oddi wrthych ŵr
a gwraig, plentyn, a'r hwn sydd
yn sugno, allan o Judah, fel na
adawer i chwi weddill?
8 Gan fy nigio i â gweithredoedd
eich dwylaw, gan arogl-darthu i
dduwiau dïeithr y'ngwlad yr Aipht,
yr hon yr aethoch i aros ynddi,
i'ch difetha eich hunain, ac i fod
yn felldith ac yn warth ym mysg
holl genhedloedd y ddaear.
9 A anghofiasoch chwi ddrygioni
eich tadau, a drygioni brenhinoedd
Judah, a drygioni eu gwragedd
hwynt, a'ch drygioni eich hunain,
a drygioni eich gwragedd, y rhai
a wnaethant hwy y'ngwlad Judah,
ac yn heolydd Jerusalem?
10 Nid ydynt wedi ymostwng
hyd y dydd hwn, ac nid ofnasant,
ni rodiasant chwaith yn fy nghyfraith, nac yn fy neddfau, y rhai a
roddais i o'ch blaen chwi, ac o flaen
eich tadau.
11 Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Duw Israel;
Wele, myfi a osodaf fy wyneb yn
eich erbyn chwi er niwed, ac i
ddifetha holl Judah.
12 A mi a gymmeraf weddill Judah, y rhai a osodasant eu hwynebau i fyned i wlad yr Aipht i
aros yno, a hwy a ddifethir oll;
y'ngwlad yr Aipht y syrthiant: trwy
y cleddyf *a* thrwy newyn y difethir
hwynt: o fychan hyd fawr, trwy
y cleddyf a thrwy newyn y byddant feirw: a hwy a fyddant yn
felldith, *ac* yn syndod, ac yn rheg,
ac yn warth.
13 Canys myfi a ymwelaf â thrigolion gwlad yr Aipht, fel yr ymwelais â Jerusalem, â chleddyf, â
newyn, ac â haint:
14 Fel na byddo un a ddïango,
nac a adawer o weddill Judah, y
rhai a aethant i ymdeithio yno i
wlad yr Aipht, i ddychwelyd i
wlad Judah, yr hon y mae eu hewyllys ar ddychwelyd i aros ynddi;
canys ni ddychwel ond y rhai a
ddïangant.
15 ¶ Yna yr holl wŷr y rhai a
wyddent i'w gwragedd arogl-darthu
i dduwiau dïeithr, a'r holl wragedd
y rhai oedd yn sefyll yno, cynnulleidfa fawr, yr holl bobl y rhai oedd
yn trigo y'ngwlad yr Aipht, yn Pathros, a attebasant Jeremïah, gan
ddywedyd,
16 *Am* y gair a leferaist ti wrthym
ni yn enw yr Arglwydd, ni wrandâwn ni arnat.
17 Ond gan wneuthur y gwnawn
ni bob peth a'r a ddelo allan o'n
genau, gan arogl-darthu i frenhines y nefoedd, a thywallt iddi hi
ddïodydd-offrwm, megis y gwnaethom, nyni a'n tadau, ein brenhinoedd a'n tywysogion, yn ninasoedd
Judah, ac yn heolydd Jerusalem:
canys *yna* yr oeddem ni yn ddïgonol o fara, ac yn dda, ac heb
weled drwg.
18 Ond er pan beidiasom âg arogl-darthu i frenhines y nefoedd, ac â
thywallt dïod-offrwm iddi hi, bu arnom eisieu pob *dim:* trwy gleddyf
hefyd a thrwy newyn y darfuom ni.
19 A phan oeddem ni yn arogl-darthu i frenhines y nefoedd, ac
yn tywallt dïod-offrwm iddi; ai heb
ein gwŷr y gwnaethom ni iddi hi
deisennau i'w haddoli hi, ac y
tywalltasom ddïod-offrwm iddi?
20 ¶ Yna Jeremïah a ddywedodd
wrth yr holl bobl, wrth y gwŷr, ac
wrth y gwragedd, ac wrth yr holl
bobl a'i hattebasant ef felly, gan
ddywedyd,
21 Oni chofiodd yr Arglwydd yr
arogl-darth a arogl-darthasoch chwi
yn ninasoedd Judah, ac yn heolydd Jerusalem, chwychwi a'ch tadau, eich brenhinoedd a'ch tywysogion, a phobl y wlad? ac *oni* ddaeth
yn ei feddwl ef?
22 Fel na allai yr Arglwydd gyddwyn yn hŵy, o achos drygioni
eich gweithredoedd, *a* chan y ffiaidd
bethau a wnaethech: am hynny yr
aeth eich tir yn anghyfannedd, ac
yn syndod, ac yn felldith, heb breswylydd, megis *y gwelir* y dydd hwn.
23 O herwydd i chwi arogl-darthu,
ac am i chwi bechu yn erbyn yr
Arglwydd, ac na wrandawsoch ar
lais yr Arglwydd, ac na rodiasoch
yn ei gyfraith ef, nac yn ei ddeddfau, nac yn ei dystiolaethau; am
hynny y digwyddodd i chwi yr
afflwydd hwn, fel *y gwelir* heddyw.
24 A Jeremïah a ddywedodd wrth
yr holl bobl, ac wrth yr holl wrag-

edd, Gwrandêwch air yr ARGLWYDD, holl Judah y rhai *ydych* y'ngwlad yr Aipht.

25 Fel hyn y llefarodd ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, gan ddywedyd, Chwychwi a'ch gwragedd a lefarasoch â'ch genau, ac a gyflawnasoch â'ch dwylaw, gan ddywedyd, Gan dalu ni a dalwn ein haddunedau y rhai a addunasom, am arogl-darthu i frenhines y nefoedd, ac am dywallt diod-offrwm iddi; llwyr y cwblhêwch eich addunedau, a llwyr y telwch yr hyn a addunedasoch.

26 Am hynny gwrandêwch air yr ARGLWYDD, holl Judah y rhai sydd yn aros y'ngwlad yr Aipht; Wele, myfi a dyngais i'm henw mawr, medd yr ARGLWYDD, na elwir fy enw i mwyach, o fewn holl wlad yr Aipht y'ngenau un gŵr o Judah, gan ddywedyd, Byw yw yr ARGLWYDD DDUW.

27 Wele, mi a wyliaf arnynt hwy er niwed, ac nid er daioni: a holl wŷr Judah, y rhai *sydd* y'ngwlad yr Aipht, a ddifethir â'r cleddyf, ac â newyn, hyd oni ddarfyddont.

28 A'r rhai *a* ddiangant gan y cleddyf, *ac* a ddychwelant o wlad yr Aipht i wlad Judah, *fyddant* ychydig o nifer: a holl weddill Judah, y rhai a aethant i wlad yr Aipht i aros yno, a gânt wybod gair pwy a saif, ai yr eiddof fi, ai yr eiddynt hwy.

29 ¶ A hyn *fydd* yn arwydd i chwi, medd yr ARGLWYDD, *sef* yr ymwelaf â chwi yn y lle hwn, fel y gwypoch y saif fy ngeiriau i'ch erbyn chwi er niwed.

30 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele, myfi a roddaf Pharaoh-hophra brenhin yr Aipht yn llaw ei elynion, ac yn llaw y rhai sydd yn ceisio ei einioes ef, fel y rhoddais i Sedecïah brenhin Judah yn llaw Nebuchodonosor brenhin Babilon ei elyn, a'r hwn oedd yn ceisio ei einioes.

PENNOD 45.

1 *Baruch, yn ei anghysur,* 4 *yn cael ei ddysgu a'i gysuro gan Jeremïah.*

YGAIR yr hwn a lefarodd Jeremïah y prophwyd wrth Baruch mab Nerïah, pan ysgrifenasai efe y geiriau hyn o enau Jeremïah mewn llyfr, yn y bedwaredd flwyddyn i Jehoiacim mab Josïah brenhin Judah, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW Israel, wrthyt ti, Baruch;

3 Tydi a ddywedaist, Gwae fi yn awr! canys yr ARGLWYDD a chwanegodd dristwch ar fy ngofid; myfi a ddiffygiais yn fy ochain, ac nid wyf yn cael gorphwysdra.

4 ¶ Fel hyn y dywedi wrtho ef, Yr ARGLWYDD a ddywed fel hyn; Wele, myfi a ddistrywiaf yr hyn a adeiladais, a mi a ddiwreiddiaf yr hyn a blennais, nid amgen yr holl wlad hon.

5 Ac a geisi di fawredd i ti dy hun? Na chais: canys wele, myfi a ddygaf ddrwg ar bob cnawd, medd yr ARGLWYDD: ond mi a roddaf i ti dy einioes yn ysglyfaeth ym mha le bynnag yr elych di.

PENNOD 46.

1 *Jeremïah yn prophwydo dinystr llu Pharaoh wrth Euphrates,* 13 *ac y goresgynid yr Aipht gan Nebuchodonosor.* 27 *Y mae yn cysuro Jacob yn eu cerydd.*

GAIR yr ARGLWYDD yr hwn a ddaeth at Jeremïah y prophwyd, yn erbyn y Cenhedloedd,

2 Yn erbyn yr Aipht, yn erbyn llu Pharaoh-necho brenhin yr Aipht, yr hwn oedd wrth afon Euphrates yn Carchemis, yr hwn a ddarfu i Nebuchodonosor brenhin Babilon ei daro, yn y bedwaredd flwyddyn i Jehoiacim mab Josïah brenhin Judah.

3 Teclwch y darian a'r astalch, a nesêwch i ryfel.

4 Cenglwch y meirch, ac ewch arnynt, farchogion; sefwch yn *eich* helmau, gloywch y gwaywffyn, gwisgwch y llurigau.

5 Paham y gwelais hwynt yn ddychrynedig, wedi cilio yn eu hol, a'u cedyrn wedi eu curo i lawr, a ffoi ar ffrwst, ac heb edrych yn eu hol? dychryn *sydd* o amgylch, medd yr ARGLWYDD.

6 Na chaed y buan ffoi, na'r cadarn ddïange; tu a'r gogledd, ger llaw afon Euphrates, y tripiant, ac y syrthiant.

7 Pwy *yw* hwn *sydd* yn ymgodi

fel afon, a'i ddyfroedd yn dygyfor fel yr afonydd?

8 Yr Aipht sydd fel afon yn ymgodi, a'i dyfroedd sydd yn dygyfor fel yr afonydd: a hi a ddywed, Mi a âf i fyny, *ac* a orchuddiaf y ddaear; myfi a ddifethaf y ddinas, a'r rhai sydd yn trigo ynddi.

9 O feirch, deuwch i fyny; a chwithau gerbydau, ymgynddeiriogwch; a deuwch allan y cedyrn; yr Ethiopiaid, a'r Libiaid, y rhai sydd yn dwyn tarian; a'r Lydiaid, y rhai sydd yn teimlo *ac* yn annelu bwa.

10 Canys dydd ARGLWYDD DDUW y lluoedd *yw* hwn, dydd dïal, fel yr ymddïalo efe ar ei elynion: a'r cleddyf a ysa, ac a ddigonir, ac a feddwir â'u gwaed hwynt: canys aberth sydd i ARGLWYDD DDUW y lluoedd yn nhir y gogledd wrth afon Euphrates.

11 O forwyn, merch yr Aipht, dos i fyny i Gilead, a chymmer drïagl: yn ofer yr arferi lawer o feddyginiaethau; canys ni *bydd* iachâd i ti.

12 Y cenhedloedd a glywsant dy waradwydd, a'th waedd a lanwodd y wlad; canys cadarn wrth gadarn a dramgwydodd, *a* hwy ill dau a gyd-syrthiasant.

13 ¶ Y gair yr hwn a lefarodd yr ARGLWYDD wrth Jeremïah y prophwyd, y deuai Nebuchodonosor brenhin Babilon, *ac* y tarawai wlad yr Aipht.

14 Mynegwch yn yr Aipht, cyhoeddwch ym Migdol, hysbyswch yn Noph, ac yn Tapanhes: dywedwch, Saf, a bydd barod; oblegid y cleddyf a ysa dy amgylchoedd.

15 Paham y syrthiodd dy rai cryfion? ni safasant, am i'r ARGLWYDD eu gwthio hwynt.

16 Efe a wnaeth i lawer syrthio, ïe, pawb a syrthiodd ar eu gilydd; a hwy a ddywedasant, Cyfodwch, a dychwelwn at ein pobl, i wlad ein genedigaeth, rhag cleddyf y gorthrymmwr.

17 Yno y gwaeddasant, Pharaoh brenhin yr Aipht *nid yw ond* trwst; aeth dros yr amser nodedig.

18 *Fel mai* byw fi, medd y Brenhin, enw yr hwn *yw* ARGLWYDD y lluoedd, cyn sicred *a bod* Tabor yn y mynyddoedd, a Charmel yn y môr, efe a ddaw.

19 O ferch drigiannol yr Aipht, gwna i ti offer caethglud; canys Noph a fydd anghyfannedd, ac a ddifethir heb breswylydd.

20 Yr Aipht *sydd* anner brydferth, y mae dinystr yn dyfod: o'r gogledd y mae yn dyfod.

21 Ei gwŷr cyflog hefyd *sydd* o'i mewn hi fel lloi pasgedig: canys hwythau hefyd a droisant eu hwyneb au, *ac* a gyd-ffoisant; *ac* ni safasant, o herwydd dydd eu gofid, *ac* amser eu gofwy a ddaethai arnynt.

22 Ei llais hi a â allan fel sarph: canys â llu yr ânt hwy, ac â bwyeill y deuant yn ei herbyn hi, fel cymmynwyr coed.

23 Hwy a gymmynant i lawr ei choed hi, medd yr ARGLWYDD, er na ellir ei chwilio: canys amlach fyddant na'r ceiliogod rhedyn, ac heb rifedi arnynt.

24 Merch yr Aipht a gywilyddir; hi a roddir yn llaw pobl y gogledd.

25 ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, sydd yn dywedyd, Wele, myfi a ymwelaf â llïaws No, ac â Pharaoh, ac â'r Aipht, ac â'i duwiau hi, ac â'i brenhinoedd, sef â Pharaoh, ac â'r rhai sydd yn ymddiried ynddo;

26 A mi a'u rhoddaf hwynt yn llaw y rhai sydd yn ceisio eu heinioes, ac yn llaw Nebuchodonosor brenhin Babilon, ac yn llaw ei weision ef; ac wedi hynny hi a gyfanneddir megis y dyddiau gynt, medd yr ARGLWYDD.

27 ¶ Ond nac ofna di, O fy ngwas Jacob; a thithau Israel, na ddychryna; canys wele, myfi a'th gadwaf di o bell, a'th had o wlad eu caethiwed; a Jacob a ddychwel, ac a orphwys, ac a fydd esmwyth arno, ac heb neb a'i dychryno.

28 O fy ngwas Jacob, nac ofna, medd yr ARGLWYDD; canys *yr ydwyf* fi gyd â thi; canys mi a wnaf ddiben ar yr holl genhedloedd y rhai y'th fwriais attynt; ond ni wnaf fi ddiben arnat ti; eithr mi a'th gospaf di mewn barn, ac ni'th dorraf ymaith yn llwyr.

PENNOD 47.

Dinystr y Philistiaid.

GAIR yr ARGLWYDD yr hwn a ddaeth at Jeremïah y prophwyd yn erbyn y Philistiaid, cyn i Pharaoh daro Gasa.

2 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele, dyfroedd a gyfodant o'r gogledd, ac a fyddant fel afon lifeiriol, a hwy a lifant dros y wlad, a'r hyn sydd ynddi; y ddinas, a'r rhai sydd yn aros ynddi; yna y dynion a waeddant, a holl breswylwyr y wlad a udant.

3 Rhag swn twrf carnau ei *feirch* cryfion, rhag trwst ei gerbydau, *a* thrwst ei olwynion ef, y tadau nid edrychant yn ol ar *eu* plant, gan wendid dwylaw:

4 O achos y dydd sydd yn dyfod i ddistrywio yr holl Philistiaid, *ac* i ddinystrio o Tyrus a Sidon bob cynnorthwywr ag y sydd y'ngweddill: oblegid yr ARGLWYDD a ddinystria y Philistiaid, gweddill ynys Caphtor.

5 Moelni a ddaeth ar Gasa, torrwyd ymaith Ascalon, *gyd â*'r rhan arall o'u dyffrynoedd hwynt: pa hyd yr ymrwygi di?

6 O cleddyf yr ARGLWYDD, pa hyd ni lonyddi? dychwel i'th wain, gorphwys a bydd ddistaw.

7 Pa fodd y llonydda efe, gan i'r ARGLWYDD ei orchymyn ef yn erbyn Ascalon, ac yn erbyn glan y môr? yno y gosododd ef.

PENNOD 48.

1 *Barnedigaeth Moab,* 7 *am eu balchder,* 11 *a'u diofalwch,* 14 *a'u hyder cnawdol,* 26 *a'u dystyrwch ar Dduw a'i bobl.* 47 *Adferu Moab.*

FEL hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, yn erbyn Moab; Gwae Nebo! canys hi a anrheithiwyd: gwaradwyddwyd Ciriathaim, *ac* ennillwyd hi; Misgab a waradwyddwyd, ac a ddychrynwyd.

2 Ni *bydd* ymffrost Moab mwy: yn Hesbon hwy a ddychymmygasant ddrwg i'w herbyn hi: Deuwch, dinystriwn hi i lawr, fel na *byddo* yn genedl. Tithau, Madmen, a dorrir i lawr, y cleddyf a'th erlid.

3 Llef yn gweiddi *a glywir* o Horonaim; anrhaith, a dinystr mawr.

4 Moab a ddistrywiwyd; gwnaeth ei rhai bychain glywed gwaedd.

5 Canys yn rhiw Luhith, galar a â i fyny mewn wylofain, ac yng ngoriwaered Horonaim y gelynion a glywsant waedd dinystr.

6 Ffowch, achubwch eich einioes; a byddwch fel y grug yn yr anialwch.

7 ¶ O herwydd am i ti ymddiried yn dy weithredoedd a'th drysorau dy hun, tithau a ddèlir: Cemos hefyd a â allan i gaethiwed, *a*'i offeiriaid a'i dywysogion ynghyd.

8 A'r anrheithiwr a ddaw i bob dinas, ac ni ddïangc un ddinas: eithr derfydd am y dyffryn, a'r gwastad a ddifwynir, megis y dywedodd yr ARGLWYDD.

9 Rhoddwch adenydd i Moab, fel yr ehedo ac yr elo ymaith; canys ei dinasoedd hi a fyddant anghyfannedd, heb breswylydd ynddynt.

10 Melldigedig *fyddo* yr hwn a wnelo waith yr ARGLWYDD yn dwyllodrus, a melldigedig *fyddo* yr hwn a attalio ei gleddyf oddi wrth waed.

11 ¶ Moab a fu esmwyth arni er ei hieuengctid, a hi a orphwysodd ar ei gwaddod, ac ni thywalltwyd hi o lestr i lestr, ac nid aeth hi i gaethiwed: am hynny y safodd ei blas arni, ac ni newidiodd ei harogl.

12 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, pan anfonwyf fudwyr, y rhai a'i mudant hi, ac a waghânt ei llestri hi, ac a ddrylliant eu costrelau.

13 A Moab a gywilyddia oblegid Cemos, fel y cywilyddiodd tŷ Israel oblegid Bethel eu hyder hwynt.

14 ¶ Pa fodd y gywedwch chwi, Cedyrn *ydym* ni, a gwŷr nerthol i ryfel?

15 Moab a anrheithiwyd, ac a aeth i fyny o'i dinasoedd, a'i dewis wŷr ieuainge a ddisgynasant i'r lladdfa, medd y Brenhin, a'i enw ARGLWYDD y lluoedd.

16 Agos *yw* dinystr Moab i ddyfod, a'i dïaledd hi sydd yn brysio yn ffest.

17 Alaethwch drosti hi, y rhai ydych o'i hamgylch; a phawb a'r a edwyn ei henw hi, dywedwch,

Pa fodd y torrwyd y ffon gref, *a'r* wïalen hardd!

18 O breswylferch Dibon, disgyn o'*th* ogoniant, ac eistedd mewn syched; canys anrheithiwr Moab a ddaw i'th erbyn, *ac* a ddinystria dy amddiffynfeydd.

19 Preswylferch Aroer, saf ar y ffordd, a gwylia; gofyn i'r hwn a fyddo yn ffoi, ac i'r hwn a ddïango, *a* dywed, Beth a ddarfu?

20 Gwaradwyddwyd Moab, canys hi a ddinystriwyd: udwch, a gwaeddwch; mynegwch yn Arnon anrheithio Moab;

21 A barn a ddaw ar y tir gwastad, ar Holon, ac ar Jahasah, ac ar Mephaath,

22 Ac ar Dibon, ac ar Nebo, ac ar Beth-diblathaim,

23 Ac ar Ciriathaim, ac ar Bethgamul, ac ar Beth-meon,

24 Ac ar Cerioth, ac ar Bosrah, ac ar holl ddinasoedd gwlad Moab, ym mhell ac yn agos.

25 Corn Moab a ysgythrwyd, a'i braich hi a dorrwyd, medd yr ARGLWYDD.

26 ¶ Meddwwch hi, oblegid hi a *ymfawr*ygodd yn erbyn yr ARGLWYDD: ïe, Moab a ymdrybaedda yn ei chwydfa; am hynny y bydd hi hefyd yn watwargerdd.

27 Ac oni bu Israel yn watwargerdd i ti? a gafwyd ef ym mysg lladron? canys er pan soniaist am dano, yr ymgynhyrfaist.

28 Trigolion Moab, gadêwch y dinasoedd, ac arhoswch yn y graig, a byddwch megis colommen *yr hon* a nytha yn yr ystlysau ar fin y twll.

29 Nyni a glywsom falchder Moab, (*y mae hi* yn falch iawn,) ei huchder, ei rhyfyg, a'i hymchwydd, ac uchder ei chalon.

30 Myfi a adwaen ei llid hi, medd yr ARGLWYDD; ond nid felly *y bydd;* ei chelwyddau hi ni wnant felly.

31 Am hynny yr udaf fi dros Moab, ac y gwaeddaf dros holl Moab: *fy nghalon* a riddfana dros wŷr Cir-heres.

32 Myfi a wylaf drosot ti, gwinwydden Sibmah, âg wylofain Jaser; dy gangau a aethant dros y môr, hyd môr Jaser y cyrhaeddant: yr anrheithiwr a ruthrodd ar dy ffrwythydd haf, ac ar dy gynhauaf gwin.

33 A dygir ymaith lawenydd a gorfoledd o'r doldir, ac o wlad Moab, a mi a wnaf i'r gwin ddarfod o'r cafnau: ni sathr neb trwy floddest; *eu* bloddest ni *bydd* bloddest.

34 O floedd Hesbon hyd Elealeh, *a* hyd Jahas, y llefasant, o Soar hyd Horonaim, *fel* anner deirblwydd: canys dyfroedd Nimrim a fyddant anghyfannedd.

35 Mi a wnaf hefyd ballu ym Moab, medd yr ARGLWYDD, yr hwn sydd yn offrymmu mewn uchelfeydd, a'r hwn sydd yn arogldarthu i'w dduwiau.

36 Am hynny y lleisia fy nghalon am Moab fel pibellau, ac am wŷr Cir-heres y lleisia fy nghalon fel pibellau; oblegid darfod y golud a gasglodd.

37 Oblegid pob pen *a fydd* moel, a phob barf a dorrir; ar bob llaw *y bydd* rhwygiadau, ac am y llwynau, sachlïan.

38 Ar holl bennau tai Moab, a'i heolydd oll, *y bydd* alaeth: oblegid myfi a dorraf Moab fel llestr heb hoffder ynddo, medd yr ARGLWYDD.

39 Hwy a udant, *gan ddywedyd,* Pa fodd y bwriwyd hi i lawr! pa fodd y trodd Moab *ei* gwar trwy gywilydd! Felly Moab a fydd yn watwargerdd, ac yn ddychryn i bawb o'i hamgylch.

40 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele, efe a eheda fel eryr, ac a leda ei adenydd dros Moab.

41 Y dinasoedd a oresgynir, a'r amddiffynfeydd a ennillir, a chalon cedyrn Moab fydd y dydd hwnnw fel calon gwraig wrth esgor.

42 A Moab a ddifethir o fod yn bobl, am iddi *ymf*awrygu yn erbyn yr ARGLWYDD.

43 Ofn, a ffos, a magl *a ddaw* arnat ti, trigiannol Moab, medd yr ARGLWYDD.

44 Y neb a ffy rhag yr ofn, a syrth yn y ffos; a'r hwn a gyfyd o'r ffos, a ddèlir yn y fagl: canys

myfi a ddygaf arni, *sef* ar Moab, flwyddyn eu hymweliad, medd yr ARGLWYDD.

45 Y'nghysgod Hesbon y safodd y rhai a ffoisant rhag y cadernid: eithr tân a ddaw allan o Hesbon, a fflam o ganol Sihon, ac a ysa gongl Moab, a choryn y meibion trystfawr.

46 Gwae di, Moab! darfu am bobl Cemos: canys cymmerwyd ymaith dy feibion yn gaethion, a'th ferched yn gaethion.

47 ¶ Etto myfi a ddychwelaf gaethiwed Moab yn y dyddiau diweddaf, medd yr ARGLWYDD. Hyd yma *y mae* barn Moab.

PENNOD 49.

1 *Barnedigaeth yr Ammoniaid:* 6 *a'u hadferiad.* 7 *Barnedigaeth Edom,* 23 *Damascus,* 28 *Cedar,* 30 *Hasor,* 34 *ac Elam.* 39 *Adferiad Elam.*

AM feibion Ammon, fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Onid oes meibion i Israel? onid oes etifedd iddo? paham y mae eu brenhin hwynt yn etifeddu Gad, a'i bobl yn aros yn ei ddinasoedd ef?

2 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, pan wnelwyf glywed trwst rhyfel yn Rabbah meibion Ammon; a hi a fydd yn garnedd anghyfanneddol, a'i merched hi a losgir â thân: yna Israel a feddianna y rhai a'i meddiannasant ef, medd yr ARGLWYDD.

3 Uda, Hesbon, am anrheithio Ai: gwaeddwch, chwi ferched Rabbah, ymwregyswch mewn sachlïan; alaethwch, a gwibiwch gan y gwrychoedd: oblegid eu brenhin a â i gaethiwed, ei offeiriaid a'i bennaethiaid ynghyd.

4 Paham yr ymffrosti di yn y dyffrynoedd? llifodd dy ddyffryn di ymaith, O ferch wrthnysig, yr hon a ymddiriedodd yn ei thrysor-a'u, *gan ddywedyd,* Pwy a ddaw attaf fi?

5 Wele, myfi a ddygaf arswyd arnat ti, medd ARGLWYDD DDUW y lluoedd, rhag pawb o'th amgylch: a chwi a yrrir allan bob un o'i flaen, ac ni *bydd* a gasglo y crwydriad.

6 Ac wedi hynny myfi a ddychwelaf gaethiwed meibion Ammon, medd yr ARGLWYDD.

7 ¶ Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd am Edom; Onid *oes* doethineb mwy yn Teman? a fethodd cynghor gan y rhai deallgar? a fethodd eu doethineb hwynt?

8 Ffowch, trowch eich cefnau, ewch yn isel i drigo, preswylwyr Dedan: canys mi a ddygaf ddinystr Esau arno, amser ei ofwy.

9 Pe deuai cynhauafwyr gwin attat ti, oni weddillent hwy loffion grawn? pe lladron liw nos, hwy a anrheithient nes cael digon.

10 Ond myfi a ddinoethais Esau, *ac* a ddatguddiais ei lochesau ef, fel na allo lechu: ei had ef a ddifethwyd, a'i frodyr a'i gymmydogion, ac nid *yw* efe.

11 Gâd dy amddifaid, myfi a'u cadwaf *hwynt* yn fyw; ac ymddiriedded dy weddwon ynof fi.

12 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele, y rhai nid *oedd* eu barn i yfed o'r phïol, gan yfed a yfasant, ac a ddïengi di yn ddigerydd? na ddïengi; eithr tithau a yfi yn sicr.

13 Canys i mi fy hun y tyngais, medd yr ARGLWYDD, mai yn anghyfannedd, yn warth, yn anialwch, ac yn felldith, y bydd Bosrah; a'i holl ddinasoedd yn ddiffaethwch tragywyddol.

14 Myfi a glywais chwedl oddi wrth yr ARGLWYDD, bod cennad wedi ei anfon at y cenhedloedd, *yn dywedyd,* Ymgesglwch, a deuwch yn ei herbyn hi, a chyfodwch i'r rhyfel.

15 O herwydd wele, myfi a'th wnaf di yn fychan ym mysg y cenhedloedd, *ac* yn wael ym mhlith dynion.

16 Dy erwindeb a'th dwyllodd, *a* balchder dy galon, ti yr hon ydwyt yn aros y'nghromlechydd y graig, ac yn meddiannu uchelder y bryn: er i ti osod dy nyth cyn uched a'r eryr, myfi a wnaf i ti ddisgyn oddi yno, medd yr ARGLWYDD.

17 Edom hefyd a fydd yn anghyfannedd: pawb a'r a elo heibio iddi a synna, ac a chwibana am ei holl ddïaleddau hi.

18 Fel yn ninystr Sodom a Gomorrah, a'i chymmydogesau, medd yr ARGLWYDD; ni phreswylia neb yno, ac nid erys mab dyn ynddi.

19 Wele, fel llew y daw i fyny oddi wrth ymchwydd yr Iorddonen, i drigfa y cadarn; eithr mi a wnaf iddo redeg yn ddisymmwth oddi wrthi hi: a phwy *sydd ûr* dewisol, a osodwyf fi arni hi? canys pwy *sydd* fel myfi? a phwy a esyd i mi amser? a phwy *yw* y bugail hwnnw a saif o'm blaen i?

20 Am hynny gwrandêwch gynghor yr ARGLWYDD, yr hwn a gymmerodd efe yn erbyn Edom, a'i fwriadau a fwriadodd efe yn erbyn preswylwyr Teman: yn ddïau y rhai lleiaf o'r praidd a'u llusgant hwy; yn ddïau efe a wna yn anghyfannedd eu trigleoedd gyd â hwynt.

21 Gan lef eu cwymp hwynt y cryn y ddaear: llais eu gwaedd hwynt a glybuwyd yn y môr coch.

22 Wele, fel eryr y daw i fyny, ac efe a eheda ac a leda ei adenydd dros Bosrah: yna y bydd calon cedyrn Edom y dydd hwnnw fel calon gwraig wrth esgor.

23 ¶ Am Damascus. Hamath ac Arpad a waradwyddwyd; o herwydd hwy a glywsant chwedl drwg; llesmeiriasant; *y mae* gofal ar y môr heb fedru gorphwys.

24 Damascus a lesgaodd, *ac* a ymdrŷ i ffoi, ond dychryn a'i goddiweddodd *hi;* gwasgfa a phoenau a'i daliodd hi fel gwraig yn esgor.

25 Pa fodd na adewir dinas moliant, caer fy llawenydd?

26 Am hynny ei gwŷr ieuainge a syrthiant yn ei heolydd, a'r holl ryfelwyr a ddifethir y dydd hwnnw, medd ARGLWYDD y lluoedd.

27 A mi a gynneuaf dân ym mur Damascus, ac efe a ddifa lysoedd Benhadad.

28 ¶ Am Cedar, ac am deyrnasoedd Hasor, y rhai a ddinystria Nebuchodonosor brenhin Babilon, fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Cyfodwch, ewch i fyny yn erbyn Cedar, ac anrheithiwch feibion y dwyrain.

29 Eu lluestai a'u dïadellau a gymmerant ymaith; eu llenni, a'u holl lestri, a'u camelod, a gymmerant iddynt eu hunain; a hwy a floeddiant arnynt, *Y mae* ofn o amgylch.

30 ¶ Ffowch, ciliwch ym mhell, ewch yn isel i drigo, preswylwyr Hasor, medd yr ARGLWYDD: o herwydd Nebuchodonosor brenhin Babilon a gymmerodd gynghor yn eich erbyn chwi, ac a fwriadodd fwriad yn eich erbyn chwi.

31 Cyfodwch, ac ewch i fyny at y genedl oludog, yr hon sydd yn trigo yn ddïofal, medd yr ARGLWYDD, heb ddorau na barrau iddi; wrthynt eu hunain *y maent* yn trigo.

32 A'u camelod a fydd yn anrhaith, a'u minteioedd anifeiliaid yn yspail, a mi a wasgaraf tu a phob gwynt y rhai *sydd* yn y conglau eithaf; a myfi a ddygaf o bob ystlys iddi eu dinystr hwynt, medd yr ARGLWYDD.

33 Hasor hefyd fydd yn drigfa dreigiau, *ac* yn anghyfannedd byth: ni phreswylia neb yno, ac nid erys mab dyn ynddi.

34 ¶ Gair yr ARGLWYDD yr hwn a ddaeth at Jeremïah y prophwyd yn erbyn Elam, yn nechreu teyrnasiad Sedecïah brenhin Judah, gan ddywedyd,

35 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd: Wele fi yn torri bwa Elam, eu cadernid pennaf hwynt.

36 A mi a ddygaf ar Elam bedwar gwynt o bedwar eithaf y nefoedd, a mi a'u gwasgaraf hwynt tu a'r holl wyntoedd hyn; ac ni bydd cenedl at yr hon ni ddelo *rhai* o grwydraid Elam.

37 Canys mi a yrraf ar Elam ofn eu gelynion, a'r rhai a geisiant eu heinioes; a myfi a ddygaf arnynt afflwydd, *sef* angerdd fy nigofaint, medd yr ARGLWYDD; a mi a anfonaf y cleddyf ar eu hol, nes i mi eu difetha hwynt.

38 A mi a osodaf fy nheyrngadair yn Elam, a mi a ddifethaf oddi yno y brenhin a'r tywysogion, medd yr ARGLWYDD.

39 ¶ Ond yn y dyddiau diweddaf, myfi a ddychwelaf gaethiwed Elam, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 50.

1, 9, 21, 35 *Barnedigaeth Babilon.* 4, 17, 33 *Ymwared Israel.*

Y GAIR a lefarodd yr ARGLWYDD yn erbyn Babilon, *ac* yn erbyn gwlad y Caldeaid, trwy Jeremïah y prophwyd.

2 Mynegwch ym mysg y cenhedloedd, a chyhoeddwch, a chodwch arwydd; cyhoeddwch, na chelwch: dywedwch, Goresgynwyd Babilon, gwaradwyddwyd Bel, drylliwyd Merodach: ei heilunod a gywilyddiwyd, a'i delwau a ddrylliwyd.

3 Canys o'r gogledd y daw cenedl yn ei herbyn hi, yr hon a wna ei gwlad hi yn anghyfannedd, fel na byddo preswylydd ynddi: yn ddyn ac yn anifail y mudant, ac y ciliant ymaith.

4 ¶ Yn y dyddiau hynny, ac yn yr amser hwnnw, medd yr ARGLWYDD, meibion Israel a ddeuant, hwy a meibion Judah ynghyd, dan gerdded ac wylo yr ânt, ac y ceisiant yr ARGLWYDD eu DUW.

5 Hwy a ofynant y ffordd i Sïon, tu ag yno *y bydd* eu hwynebau hwynt: Deuwch, *meddant*, a glynwn wrth yr ARGLWYDD, *trwy* gyfammod tragywyddol *yr hwn* nid anghofir.

6 Fy mhobl a fu *fel* praidd colledig; eu bugeiliaid a'u gyrrasant hwy ar gyfeiliorn, *ar* y mynyddoedd y troisant hwynt ymaith: aethant o fynydd i fryn, anghofiasant eu gorweddfa.

7 Pawb a'r a'u cawsant a'u difasant, a'u gelynion a ddywedasant, Ni wnaethom ni ar fai; canys hwy a bechasant yn erbyn yr ARGLWYDD, trigle cyfiawnder; sef yr ARGLWYDD, gobaith eu tadau.

8 Ciliwch o ganol Babilon, ac ewch allan o wlad y Caldeaid; a byddwch fel bychod o flaen y praidd.

9 ¶ O herwydd wele, myfi a gyfodaf ac a ddygaf i fyny yn erbyn Babilon gynnulleidfa cenhedloedd mawrion o dir y gogledd: a hwy a ymfyddinant yn ei herbyn; oddi yno y goresgynir hi: eu saethau *fydd* fel *saethau* cadarn cyfarwydd; ni ddychwelant yn ofer.

10 A Chaldea fydd yn yspail: pawb a'r a'i hyspeiliant hi a ddigonir, medd yr ARGLWYDD.

11 Am i chwi fod yn llawen, am i chwi fod yn hyfryd, chwi fathrwyr fy etifeddiaeth, am i chwi frasâu fel anner *mewn* glaswellt, a beichio fel teirw;

12 Eich mam a gywilyddir yn ddirfawr, a'r hon a'ch ymddûg a waradwyddir: wele, yr olaf o'r cenhedloedd yn anialwch, yn grasdir, ac yn ddiffaethwch.

13 O herwydd digofaint yr ARGLWYDD nis preswylir hi, eithr hi a fydd i gyd yn anghyfannedd: pawb a êl heibio i Babilon a synna, ac a chwibana am ei holl ddïaleddau hi.

14 Ymfyddinwch yn erbyn Babilon o amgylch; yr holl berchen bwäau, saethwch atti, nac arbedwch saethau: oblegid hi a bechodd yn erbyn yr ARGLWYDD.

15 Bloeddiwch yn ei herbyn hi o amgylch; hi a roddes ei llaw: ei sylfeini hi a syrthiasant, ei muriau a fwriwyd i lawr; o herwydd dïal yr ARGLWYDD *yw* hyn: dïelwch arni: fel y gwnaeth, gwnewch iddi.

16 Torrwch ymaith yr hauwr o Babilon, a'r hwn a ddalio grymman ar amser cynhauaf: rhag cleddyf y gorthrymmwr y troant bob un at ei bobl ei hun, ac y ffoant bob un i'w wlad.

17 ¶ Fel dafad ar wasgar *yw* Israel; llewod a'*i* hymlidiasant ymaith: brenhin Assyria yn gyntaf a'i hysodd, a'r Nebuchodonosor yma brenhin Babilon yn olaf a'i dïesgyrnodd.

18 Am hynny fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Wele, myfi a ymwelaf â brenhin Babilon, ac â'i wlad, fel yr ymwelais â brenhin Assyria.

19 A mi a ddychwelaf Israel i'w drigfa, ac efe a bawr *ar* Carmel a Basan; ac ar fynydd Ephraim a Gilead y digonir ei enaid ef.

20 Yn y dyddiau hynny, ac yn yr amser hwnnw, medd yr ARGLWYDD, y ceisir anwiredd Israel, ac ni *bydd;* a phechodau Judah, ond nis ceir hwynt: canys myfi a faddeuaf i'r rhai a weddillwyf.

21 ¶ Dos i fyny yn erbyn gwlad

Merathaim, *ie*, yn ei herbyn hi, ac yn erbyn trigolion Pecod: anrheithia di a difroda ar eu hol hwynt, medd yr ARGLWYDD, a gwna yn ol yr hyn oll a orchymynais i ti.

22 Trwst rhyfel *sydd* yn y wlad, a dinystr mawr.

23 Pa fodd y drylliwyd ac y torrwyd gordd yr holl ddaear! pa fodd yr aeth Babilon yn ddiffaethwch ym mysg y cenhedloedd!

24 Myfi a osodais fagl i ti, a thithau Babilon a ddaliwyd, a heb wybod i ti: ti a gafwyd ac a ddaliwyd, o herwydd i ti ymryson yn erbyn yr ARGLWYDD.

25 Yr ARGLWYDD a agorodd ei drysor, ac a ddug allan arfau ei ddigofaint: canys gwaith ARGLWYDD DDUW y lluoedd *yw* hyn y'ngwlad y Caldeaid.

26 Deuwch yn ei herbyn o'r cwr eithaf, agorwch ei hysguboriau hi; dyrnwch hi fel pentwr *ŷd*, a llwyr ddinystriwch hi: na fydded gweddill o honi.

27 Lleddwch ei holl fustych hi; disgynant i'r lladdfa: gwae hwynt! canys eu dydd a ddaeth, *ac* amser eu hymweliad.

28 Llef y rhai a ffoant ac a ddïangant o wlad Babilon, i ddangos yn Sïon ddïal yr ARGLWYDD ein DUW ni, dïal ei deml ef.

29 Gelwch y saethyddion ynghyd yn erbyn Babilon; y perchen bwäau oll, gwersyllwch i'w herbyn hi o amgylch; na chafed neb ddïangc o honi: telwch iddi yn ol ei gweithred; ac yn ol yr hyn oll a wnaeth hi, gwnewch iddi: o herwydd hi a fu falch yn erbyn yr ARGLWYDD, yn erbyn Sanct Israel.

30 Am hynny ei gwŷr ieuainge a syrthiant yn ei heolydd hi; a'i holl ryfelwyr a ddifethir y dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD.

31 Wele fi yn dy erbyn di, *O* falch, medd ARGLWYDD DDUW y lluoedd: o herwydd dy ddydd a ddaeth, yr amser yr ymwelwyf â thi.

32 A'r balch a dramgwydda ac a syrth, ac ni *bydd* a'i cyfodo: a mi a gynneuaf dân yn ei ddinasoedd, ac efe a ddifa ei holl amgylchoedd ef.

33 ¶ Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Meibion Israel a meibion Judah a orthrymmwyd ynghyd; a phawb a'r a'u caethiwodd hwynt a'u daliasant yn dyn, ac a wrthodasant eu gollwng hwy ymaith.

34 Eu Gwaredwr *sydd* gryf; ARGLWYDD y lluoedd *yw* ei enw; efe a lwyr-ddadleu eu dadl hwynt, i beri llonydd i'r wlad, ac aflonyddwch i breswylwyr Babilon.

35 ¶ Cleddyf *sydd* ar y Caldeaid, medd yr ARGLWYDD, ac ar drigolion Babilon, ac ar ei thywysogion, ac ar ei doethion.

36 Cleddyf *sydd* ar y celwyddog, a hwy a ynfydant: cleddyf *sydd* ar ei chedyrn, a hwy a ddychrynant.

37 Cleddyf *sydd* ar ei meirch, ac ar ei cherbydau, ac ar yr holl werin *sydd* yn ei chanol hi; a hwy a fyddant fel gwragedd: cleddyf *sydd* ar ei thrysorau; a hwy a yspeilir.

38 Sychder *sydd* ar ei dyfroedd hi, a hwy a sychant: o herwydd gwlad delwau cerfiedig *yw* hi, ac mewn eilunod y maent yn ynfydu.

39 Am hynny anifeiliaid gwylltion yr anialwch, a chathod, a arhosant *yno*, a chywion yr estrys a drigant ynddi: ac ni phreswylir hi mwyach byth; ac nis cyfanneddir hi o genhedlaeth i genhedlaeth.

40 Fel yr ymchwelodd DUW Sodom a Gomorrah, a'i chymmydogesau, medd yr ARGLWYDD; *felly* ni phreswylia neb yno, ac ni erys mab dyn ynddi.

41 Wele, pobl a ddaw o'r gogledd, a chenedl fawr, a brenhinoedd lawer a godir o eithafoedd y ddaear.

42 Y bwa a'r waywffon a ddaliant; creulawn *ydynt*, ac ni thosturiant: eu llef fel môr a rua, ac ar feirch y marchogant yn daclus i'th erbyn di, merch Babilon, fel gŵr i ryfel.

43 Brenhin Babilon a glywodd sôn am danynt, a'i ddwylaw ef a lesgasant: gwasgfa a'i daliodd ef, *a* gwewyr fel gwraig wrth esgor.

44 Wele, fel llew y daw i fyny oddi wrth ymchwydd yr Iorddonen i drigfa y cadarn: eithr mi a wnaf iddo ef redeg yn ddisymmwth oddi wrthi hi: a phwy *sydd ŵr* dewisol a osodwyf fi arni hi? canys pwy *sydd* fel myfi? a phwy a esyd i

mi yr amser? a phwy *yw* y bugail hwnnw a saif o'm blaen i?

45 Am hynny gwrandêwch chwi gynghor yr ARGLWYDD, yr hwn a gymmerodd efe yn erbyn Babilon, a'i fwriadau a fwriadodd efe yn erbyn gwlad y Caldeaid: yn ddïau y rhai lleiaf o'r praidd a'u llusgant hwy; yn ddïau efe a wna yn anghyfannedd *eu* trigleoedd gyd â hwynt.

46 Gan drwst goresgyniad Babilon y cynhyrfa y ddaear, ac y clywir y waedd ym mysg y cenhedloedd.

PENNOD 51.

1 *Tost farnedigaeth Duw yn erbyn Babilon, er mwyn dïal am Israel.* 59 *Jeremiah yn rhoddi llyfr y brophwydoliaeth at Seraiah, i'w fwrw i Euphrates, a hynny i arwyddoccâu y soddai Babilon dros byth.*

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD, Wele, myfi a godaf wynt dinystriol yn erbyn Babilon, ac yn erbyn y rhai sydd yn trigo y'nghanol y rhai a godant yn fy erbyn i;

2 A mi a anfonaf i Babilon nithwyr, a hwy a'i nithiant hi, ac a waghânt ei thir hi; o herwydd hwy a fyddant yn ei herbyn hi o amgylch ar ddydd blinder.

3 Yn erbyn *yr hwn* a annelo, anneled y saethydd ei fwa, ac yn erbyn *yr hwn* sydd yn ymddyrchafu yn ei lurig; nac arbedwch ei gwŷr ieuainge, difrodwch ei holl lu hi.

4 Felly y rhai lladdedig a syrthiant y'ngwlad y Caldeaid, a'*r rhai* a drywanwyd yn ei heolydd hi.

5 Canys Israel ni adawyd, na Judah, gan ei DDUW, gan ARGLWYDD y lluoedd: er bod eu gwlad hwynt yn llawn o gamwedd yn erbyn Sanct yr Israel.

6 Ffoweh o ganol Babilon, ac achubwch bawb ei enaid ei hun: na adêwch eich difetha yn ei hanwiredd hi: oblegid amser dïal *yw* hwn i'r ARGLWYDD; efe a dâl y pwyth iddi hi.

7 Phïol aur *oedd* Babilon yn llaw yr ARGLWYDD, yn meddwi pob gwlad: yr holl genhedloedd a yfasant o'i gwin hi; am hynny y cenhedloedd a ynfydasant.

8 Yn ddisymmwth y syrthiodd Babilon, ac y drylliwyd hi: udwch drosti, cymmerwch driagl i'w dolur hi, i edrych a iachâ hi.

9 Nyni a iachasom Babilon, ond nid aeth hi yn iach: gadêwch hi, ac awn bawb i'w wlad: canys ei barn a gyrhaedd i'r nefoedd, ac a ddyrchafwyd hyd yr wybrau.

10 Yr ARGLWYDD a ddug allan ein cyfiawnder ni: deuwch, a thraethwn yn Sïon waith yr ARGLWYDD ein DUW.

11 Gloywch y saethau; cesglwch y tariannau: yr ARGLWYDD a gyfododd yspryd brenhinoedd Media: oblegid *y mae* ei fwriad ef yn erbyn Babilon, i'w dinystrio hi; canys dïal yr ARGLWYDD *yw* hyn, dïal ei deml ef.

12 Dyrchefwch faner ar furiau Babilon; cadarnhêwch y wyliadwriaeth; gosodwch i fyny y gwylwyr; darperwch y cynllwynwyr: canys yr ARGLWYDD a fwriadodd, ac efe a wnaeth hefyd yr hyn a lefarodd yn erbyn trigolion Babilon.

13 Tŷdi yr hon ydwyt yn aros ar ddyffoedd lawer, yn aml dy drysorau, dy ddiwedd di a ddaeth, *sef* mesur dy gybydd-dod.

14 ARGLWYDD y lluoedd a dyngodd iddo ei hun, *gan ddywedyd,* Dïau y'th lanwaf â dynion megis â lindys; a hwy a ganant floddest i'th erbyn.

15 Efe a wnaeth y ddaear trwy ei nerth, *ac* a sicrhaodd y byd trwy ei ddoethineb, ac a daenodd y nefoedd trwy ei ddeall.

16 Pan roddo efe *ei* lef, *y mae* twrf dyfroedd yn y nefoedd, ac y mae efe yn codi y niwloedd o eithaf y ddaear: ac efe sydd yn gwneuthur y mellt gyd â'r gwlaw, ac yn dwyn y gwynt allan o'i drysorau.

17 Ynfyd yw pob dyn o wybodaeth; gwaradwyddwyd pob toddydd gan y ddelw gerfiedig: canys celwyddog *yw* ei ddelw dawdd, ac nid *oes* chwythad ynddynt.

18 Oferedd *ydynt,* gwaith cyfeiliorni: yn amser eu hymweliad y difethir hwynt.

19 Nid fel y rhai hyn, eithr Lluniwr y cwbl oll, *yw* rhan Jacob; ac *Israel yw* gwïalen ei etifeddiaeth

ef: ARGLWYDD y lluoedd *yw* ei enw ef.

20 Ti *wyt* forthwyl i mi, *ac* arfau rhyfel: canys â thi y drylliaf y cenhedloedd, ac â thi y dinystriaf deyrnasoedd;

21 A thi hefyd y gwasgaraf y march a'r marchwr; ac â thi y drylliaf y cerbyd a'i farchog;

22 A thi y drylliaf fi ŵr a gwraig; ac â thi y drylliaf hen ac ieuangc; ac â thi y drylliaf y gŵr ieuangc a'r forwyn;

23 A thi hefyd y drylliaf fi y bugail a'i braidd; ac â thi y drylliaf yr arddwr a'i iau ychain; ac â thi y drylliaf y tywysogion a'r pennaethiaid.

24 A mi a dalaf i Babilon, ac i holl breswylwyr Caldea, eu holl ddrwg a wnaethant yn Sïon, yn eich golwg chwi, medd yr ARGLWYDD.

25 Wele fi i'th erbyn di, O fynydd dinystriol, yr hwn *wyt* yn dinystrio yr holl ddaear, medd yr ARGLWYDD; a myfi a estynaf fy llaw arnat, ac a'th dreiglaf di i lawr o'r creigiau, ac a'th wnaf di yn fynydd llosg.

26 Ac ni chymmerant o honot faen congl, na sylfaen; ond diffaethwch tragywyddol a fyddi di, medd yr ARGLWYDD.

27 Dyrchefwch faner yn y tir; lleisiwch udgorn ym mysg y cenhedloedd; darperwch y cenhedloedd yn ei herbyn hi; gelwch ynghyd deyrnasoedd Ararat, Minni, ac Aschenas, yn ei herbyn hi; gosodwch dywysog yn ei herbyn hi; gwnewch i feirch ddyfod i fyny cyn amled a'r lindys blewog.

28 Darperwch y cenhedloedd yn ei herbyn hi, gyd â brenhinoedd Media, a'i thywysogion, a'i holl bennaethiaid, a holl wlad ei lywodraeth ef.

29 Y ddaear hefyd a gryna ac a ofidia; oblegid fe gyflawnir bwriadau yr ARGLWYDD yn erbyn Babilon, i wneuthur gwlad Babilon yn anghyfannedd heb drigiannol *ynddi.*

30 Cedyrn Babilon a beidiasant âg ymladd, *ac* y maent hwy yn aros o fewn *eu* hamddiffynfeydd: pallodd eu nerth hwynt; aethant yn wraggeddos: ei hanneddau hi a losgwyd, *a*'i barrau a dorrwyd.

31 Rhedegwr a rêd i gyfarfod â rhedegwr, a chennad i gyfarfod â chennad, i fynegi i frenhin Babilon oresgyn ei ddinas ef o'i chwr,

32 Ac ennill y rhydau, a llosgi o honynt y cyrs â thân, a synnu ar y rhyfelwyr.

33 Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel; Merch Babilon *sydd* fel llawrdyrnu; amser ei dyrnu hi *a ddaeth;* ac ar fyrder y daw amser cynhauaf iddi.

34 Nebuchodonosor brenhin Babilon a'm hysodd, *ac* a'm hysigodd i; efe a'm gwnaeth fel llestr gwag; efe a'm llyngcodd fel draig, ac a lanwodd ei fol o'm danteithion; efe a'm bwriodd i allan.

35 Y cam a wnaed i mi ac i'm cnawd, *a ddelo* ar Babilon, medd preswylferch Sïon; a'm gwaed i ar drigolion Caldea, medd Jerusalem.

36 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele, myfi a ddadleuaf dy ddadl di, ac a ddialaf drosot ti; a mi a ddyhysbyddaf ei môr hi, ac a sychaf ei ffynhonnau hi.

37 A bydd Babilon yn garneddau, yn drigfa dreigiau, yn syndra, ac yn chwibaniad, heb breswylydd.

38 Cyd-ruant fel llewod; bloeddiant fel cenawon llewod.

39 Yn eu gwres hwynt y gosodaf wleddoedd iddynt, a mi a'u meddwaf hwynt, fel y llawenychont, ac y cysgont hûn dragywyddol, ac na ddeffrônt, medd yr ARGLWYDD.

40 Myfi a'u dygaf hwynt i waered fel ŵyn i'r lladdfa, fel hyrddod a bychod.

41 Pa fodd y goresgynwyd Sesach! pa fodd yr ennillwyd gogoniant yr holl ddaear! pa fodd yr aeth Babilon yn syndod ym mysg y cenhedloedd!

42 Y môr a ddaeth i fyny ar Babilon: hi a orchuddiwyd âg amlder ei donnau ef.

43 Ei dinasoedd hi a aethant yn anghyfannedd, yn grasdir, ac yn ddiffaethwch; gwlad ni thrig un gŵr ynddi, ac ni thramwya mab dyn trwyddi.

44 A mi a ymwelaf â Bel yn

Babilon, a mi a dynnaf o'i safn ef yr hyn a lyngcodd; a'r cenhedloedd ni ddylifant atto mwyach; ïe, mur Babilon a syrth.

45 Deuwch allan o'i chanol, O fy mhobl, ac achubwch bob un ei enaid rhag llid digofaint yr ARGLWYDD,

46 A rhag llwfrhâu eich calonnau, ac ofni rhag y chwedl a glywir yn y wlad: a'r *naill* flwyddyn y daw chwedl newydd, ac ar ol hynny chwedl newydd y flwyddyn *arall;* a thrais yn y wlad, llywodraethwr yn erbyn llywodraethwr.

47 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod yr ymwelwyf â delwau Babilon; a'i holl wlad hi a waradwyddir, a'i holl rai lladdedig hi a syrthiant yn ei chanol.

48 Yna y nefoedd a'r ddaear, a'r hyn oll *sydd* ynddynt, a ganant o herwydd Babilon: oblegid o'r gogledd y daw yr anrheithwyr atti, medd yr ARGLWYDD.

49 Fel *y gwnaeth* Babilon i'r rhai lladdedig o Israel syrthio, felly yn Babilon y syrth lladdedigion yr holl ddaear.

50 Y rhai a ddïangasoch gan y cleddyf, ewch ymaith; na sefwch: cofiwch yr ARGLWYDD o bell, a deued Jerusalem yn eich côf chwi.

51 Gwaradwyddwyd ni, am i ni glywed cabledd: gwarth a orchuddiodd ein hwynebau; canys daeth estroniaid i gyssegroedd tŷ yr ARGLWYDD.

52 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, pan ymwelwyf fi â'i delwau hi; a thrwy ei holl wlad hi yr archolledig a riddfan.

53 Er i Babilon ddyrchafu i'r nefoedd, ac er iddi gadarnhâu ei hamddiffynfa yn uchel; *etto* anrheithwyr a ddaw atti oddi wrthyf fi, medd yr ARGLWYDD.

54 Sain gwaedd *a glywir* o Babilon, a dinystr mawr o wlad y Caldeaid.

55 O herwydd yr ARGLWYDD a anrheithiodd Babilon, ac a ddinystriodd y mawr-air allan o honi hi, er rhuo o'i thonnau fel dyfroedd lawer, *a* rhoddi twrf eu llef hwynt.

56 Canys yr anrheithiwr a ddaeth yn ei herbyn hi, *sef* yn erbyn Babilon, a'i chedyrn hi a ddaliwyd; eu bwa a dorrwyd: canys ARGLWYDD DDUW y gwobr a obrwya yn sicr.

57 A myfi a feddwaf ei thywysogion hi, a'i doethion, ei phennaethiaid, a'i swyddogion, a'i chedyrn: a hwy a gysgant hûn dragywyddol, ac ni ddeffroant, medd y Brenhin, enw yr hwn *yw* ARGLWYDD y lluoedd.

58 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Gan ddryllio y dryllir llydain furiau Babilon, a'i huchel byrth a losgir â thân; a'r bobl a ymboenant mewn oferedd, a'r cenhedloedd mewn tân, a hwy a ddiffygiant.

59 ¶ Y gair yr hwn a orchymynodd Jeremïah y prophwyd i Seraïah mab Nerïah, mab Maaseiah, pan oedd efe yn myned gyd â Sedecïah brenhin Judah i Babilon, yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad ef. A Seraiah *oedd* dywysog llonydd.

60 Felly Jeremïah a ysgrifenodd yr holl aflwydd oedd ar ddyfod yn erbyn Babilon, mewn un llyfr; *sef* yr holl eiriau a ysgrifenwyd yn erbyn Babilon.

61 A Jeremïah a ddywedodd wrth Seraiah, Pan ddelych i Babilon, a gweled, a darllen yr holl eiriau hyn;

62 Yna dywed, O ARGLWYDD, ti a leferaist yn erbyn y lle hwn, am ei ddinystrio, fel na byddai ynddo breswylydd, na dyn nac anifail, eithr ei fod yn anghyfannedd tragywyddol.

63 A phan ddarfyddo i ti ddarllen y llyfr hwn, rhwym faen wrtho, a bwrw ef i ganol Euphrates:

64 A dywed, Fel hyn y soddir Babilon, ac ni chyfyd hi, gan y drwg a ddygaf fi arni: a hwy a ddiffygiant. Hyd hyn *y mae* geiriau Jeremïah.

PENNOD 52.

1 *Sedecïah yn gwrthryfela.* 4 *Angylchynu Jerusalem, a'i gorchfygu.* 8 *Lladd meibion Sedecïah, a thynnu ei lygaid ymtau.* 12 *Nebuzaradan yn llosgi ac yn anrheithio y ddinas;* 24 *yn dwyn caethion ymaith.* 31 *Efil-merodach yn dyrchafu Jehoiacin.*

MAB un flwydd ar hugain *oedd* Sedecïah pan ddechreuodd efe deyrnasu; ac un flynedd ar ddeg

y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Hamutal, merch Jeremïah o Libnah.

2 Ac efe a wnaeth *yr hyn oedd* ddrwg y'ngolwg yr ARGLWYDD, yn ol yr hyn oll a wnaethai Jehoiacim.

3 O herwydd *gan* ddigofaint yr ARGLWYDD y bu, yn Jerusalem ac yn Judah, hyd oni fwriodd efe hwynt allan o'i olwg, wrthryfela o Sedecïah yn erbyn brenhin Babilon.

4 ¶ Ac yn y nawfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef, yn y degfed mis, ar y degfed *dydd* o'r mis, y daeth Nebuchodonosor brenhin Babilon, efe a'i holl lu, yn erbyn Jerusalem, ac a wersyllasant yn ei herbyn hi, ac a adeiladasant gyferbyn â hi amddiffynfa o amgylch ogylch.

5 Felly y ddinas a fu y'ngwarchae hyd yr unfed flwyddyn ar ddeg i'r brenhin Sedecïah.

6 Yn y pedwerydd mis, yn y nawfed *dydd* o'r mis, y newyn a drymhaodd yn y ddinas, fel nad oedd bara i bobl y wlad.

7 Yna y torrwyd y ddinas; a'r holl ryfelwyr a ffoisant, ac a aethant allan o'r ddinas liw nos, ar hyd ffordd y porth rhwng y ddau fur, yr hwn *oedd* wrth ardd y brenhin, (a'r Caldeaid *oedd* wrth y ddinas o amgylch,) a hwy a aethant ar hyd ffordd y rhos.

8 ¶ Ond llu y Caldeaid a ymlidiasant ar ol y brenhin, ac a oddiweddasant Sedecïah yn rhosydd Jericho, a'i holl lu ef a wasgarwyd oddi wrtho.

9 Yna hwy a ddaliasant y brenhin, ac a'i dygasant ef at frenhin Babilon i Riblah y'ngwlad Hamath; ac efe a roddodd farn arno ef.

10 A brenhin Babilon a laddodd feibion Sedecïah y'ngŵydd ei lygaid ef: efe a laddodd hefyd holl dywysogion Judah yn Riblah.

11 Yna efe a dynnodd lygaid Sedecïah, ac a'i rhwymodd ef â chadwyni: a brenhin Babilon a'i harweiniodd ef i Babilon, ac a'i rhoddodd ef mewn carchardy hyd ddydd ei farwolaeth.

12 ¶ Ac yn y pummed mis, ar y degfed *dydd* o'r mis, (hon *oedd* y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg i'r brenhin Nebuchodonosor brenhin Babilon,) y daeth Nebusaradan pennaeth y milwyr, *yr hwn* a safai ger bron brenhin Babilon, i Jerusalem;

13 Ac efe a losgodd dŷ yr ARGLWYDD, a thŷ y brenhin; a holl dai Jerusalem, a phob tŷ mawr, a losgodd efe â thân.

14 A holl lu y Caldeaid y rhai *oedd* gyd â phennaeth y milwyr, a ddrylliasant holl furiau Jerusalem o amgylch.

15 Yna Nebusaradan pennaeth y milwyr a gaethgludodd *rai* o'r bobl wael, a'r gweddill o'r bobl a adawsid yn y ddinas, a'r ffoaduriaid a giliasent at frenhin Babilon, a'r gweddill o'r bobl.

16 Ond Nebusaradan pennaeth y milwyr a adawodd *rai* o dlodion y wlad yn winllanwyr ac yn arddwyr.

17 A'r Caldeaid a ddrylliasant y colofnau pres y rhai *oedd* yn nhŷ yr ARGLWYDD, a'r ystolion, a'r môr pres yr hwn *oedd* yn nhŷ yr ARGLWYDD; a hwy a ddygasant eu holl bres hwynt i Babilon.

18 A hwy a ddygasant ymaith y crochanau, a'r rhawiau, a'r saltringau, a'r cawgiau, a'r thusserau, a'r holl lestri pres, y rhai yr oeddid yn gwasanaethu â hwynt.

19 A'r phïolau, a'r pedyll tân, a'r cawgiau, a'r crochanau, a'r canhwyllbrennau, a'r thusserau, a'r cwppanau, y rhai *oedd* o aur *yn* aur, a'r rhai *oedd* o arian *yn* arian, a gymmerodd pennaeth y milwyr ymaith.

20 Y ddwy golofn, un môr, a deuddeg o ychain pres, y rhai *oedd* dan yr ystolion, y rhai a wnaethai y brenhin Solomon, yn nhŷ yr ARGLWYDD: nid oedd pwys ar bres yr holl lestri hyn.

21 Ac *am* y colofnau, deunaw cufydd *oedd* uchder un golofn, a llinyn o ddeuddeg cufydd oedd yn ei hamgylchu: a'i thewder yn bedair modfedd; *ac* yn gau *yr oedd*.

22 A chnap pres *oedd* arni, a phum cufydd *oedd* uchder un cnap; a rhwydwaith a phomgranadau ar

y cnap o amgylch, yn bres i gyd: ac fel hyn *yr oedd* yr ail golofn a'i phomgranadau.

23 A'r pomgranadau oeddynt, onid pedwar, cant ar ystlys: yr holl bomgranadau ar y rhwydwaith o amgylch *oedd* gant.

24 ¶ A phennaeth y milwyr a gymmerodd Seraiah yr arch-offeiriad, a Sephaniah yr ail offeiriad, a'r tri oedd yn cadw y drws.

25 Ac efe a gymmerodd o'r ddinas ystafellydd, yr hwn oedd swyddog ar y rhyfelwyr; a seithwyr o weision pennaf y brenhin, y rhai a gafwyd yn y ddinas; a phenysgrifenydd y llu, yr hwn a fyddai yn byddino pobl y wlad; a thri ugeinwr o bobl y wlad, y rhai a gafwyd y'nghanol y ddinas.

26 A Nebusaradan pennaeth y milwyr a gymmerodd y rhai hyn, ac a aeth â hwynt i Riblah, at frenhin Babilon.

27 A brenhin Babilon a'u tarawodd hwynt, ac a'u lladdodd hwynt yn Riblah, y'ngwlad Hamath. Fel hyn y caethgludwyd Judah o'i wlad ei hun.

28 Dyma y bobl a gaethgludodd Nebuchodonosor yn y seithfed flwyddyn, tair mil a thri ar hugain o Iuddewon.

29 Yn y ddeunawfed flwyddyn i Nebuchodonosor efe a gaethgludodd o Jerusalem wyth gant a deuddeg ar hugain o ddynion.

30 Yn y drydedd flwyddyn ar hugain i Nebuchodonosor, Nebusaradan pennaeth y milwyr a gaethgludodd saith gant a phump a deugain o Iuddewon: yr holl ddynion hyn *oedd* bedair mil a chwe chant.

31 ¶ Ac yn y ddwyfed flwyddyn ar bymtheg ar hugain wedi caethgludo Jehoiachin brenhin Judah, yn y deuddegfed mis, ar y pummed *dydd* ar hugain o'r mis, Efilmerodach brenhin Babilon, yn y flwyddyn *gyntaf* o'i deyrnasiad, a ddyrchafodd ben Jehoiachin brenhin Judah, ac a'i dug ef allan o'r carchardy;

32 Ac a ddywedodd yn dêg wrtho, ac a osododd ei frenhinfainge ef uwch law gorsedd-feingciau y brenhinoedd, y rhai *oedd* gyd âg ef yn Babilon.

33 Ac efe a newidiodd ei garcharwisg ef: ac efe a fwyttaodd fara ger ei fron ef yn wastad, holl ddyddiau ei einioes.

34 Ac *am* ei luniaeth ef, lluniaeth gwastadol a roddwyd iddo gan frenhin Babilon, dogn dydd yn ei ddydd, hyd ddydd ei farwolaeth, holl ddyddiau ei einioes.

GALARNAD JEREMIAH.

PENNOD 1.

1 *Gofidus gyflwr Jerusalem o herwydd ei phechodau,* 12 *a hithau yn cwyno rhag ei gofid,* 18 *ac yn cyfaddef bod barnedigaethau Duw yn gyfiawn.*

PA fodd y mae y ddinas aml *ei* phobl yn eistedd ei hunan! *pa fodd* y mae y llosog ym mhlith y cenhedloedd megis yn weddw! *pa fodd* y mae tywysoges y taleithiau dan deyrnged!

2 Y mae hi yn wylo yn hidl liw nos, ac *y mae* ei dagrau ar ei gruddiau, heb *neb* o'i holl gariadau yn ei chysuro: ei holl gyfeillion a fuant anghywir iddi, *ac* a aethant yn elynion iddi.

3 Judah a fudodd ymaith gan flinder, a chan faint caethiwed; y mae hi yn aros ym mysg y cenhedloedd, heb gael gorphwysdra: ei holl erlidwyr a'i goddiweddasant hi mewn lleoedd cyfyng.

4 Y mae ffyrdd Sïon yn galaru, o eisieu rhai yn dyfod i'r wyl arbennig: ei holl byrth hi *sydd* anghyfannedd, ei hoffeiriaid yn ucheneidio, ei morwynion yn ofidus, a hithau yn flin arni.

5 Ei gwrthwynebwyr ydynt bennaf, y mae ei gelynion yn ffynnu: canys yr ARGLWYDD a'i gofidiodd hi am amlder ei chamweddau: ei

phlant a aethant i gaethiwed o flaen y gelyn.
6 A holl harddwch merch Sïon a ymadawodd â hi; y mae ei thywysogion hi fel hyddod heb gael porfa, ac yn myned yn ddinerth o flaen yr ymlidiwr.
7 Y mae Jerusalem, yn nyddiau ei blinder a'i chaledi, yn cofio ei holl hyfrydwch oedd *iddi* yn y dyddiau gynt, pan syrthiodd ei phobl hi yn llaw y gelyn, heb *neb* yn ei chynnorthwyo hi: y gelynion a'i gwelsant *hi*, *ac* a chwarddasant am ben ei sabbathau.
8 Jerusalem a bechodd bechod; am hynny y symmudwyd hi: yr holl rai a'i hanrhydeddent sydd yn ei diystyru hi, o herwydd iddynt weled ei noethni hi: ïe, y mae hi yn ucheneidio, ac yn troi yn ei hol.
9 Ei haflendid *sydd* yn ei godre, nid yw hi yn meddwl am ei diwedd; am hynny y syrthiodd hi yn rhyfedd, heb *neb* yn ei chysuro. Edrych, ARGLWYDD, ar fy mlinder; canys *ym*fawrygodd y gelyn.
10 Y gwrthwynebwr a estynodd ei law ar ei holl hoff-bethau hi: hi a welodd y cenhedloedd yn dyfod i mewn i'w chyssegr, i'r rhai y gorchymynasit ti na ddelent i'th gynnulleidfa.
11 Y mae ei holl bobl hi yn ucheneidio, yn ceisio bwyd: hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd i ddadebru yr enaid: edrych, ARGLWYDD, a gwel; canys dirmygus ydwyf fi.
12 ¶ Onid gwaeth gennych chwi, y fforddolion oll? gwelwch ac edrychwch, a oes y fath ofid a'm gofid i, yr hwn a wnaethpwyd i mi, â'r hwn y gofidiodd yr ARGLWYDD *fi* yn nydd angerdd ei ddigter.
13 O'r uchelder yr anfonodd efe dân i'm hesgyrn i, yr hwn a aeth yn drech na hwynt: efe a ledodd rwyd o flaen fy nhraed, ac a'm dychwelodd yn *fy* ol: efe a'm gwnaeth yn anrheithiedig, *ac* yn ofidus ar hyd y dydd.
14 Rhwymwyd iau fy nghamweddau â'i law ef: hwy a blethwyd, *ac* a ddaethant i fyny am fy ngwddf: efe a wnaeth i'm nerth syrthio; yr ARGLWYDD a'm rhoddodd mewn dwylaw, *oddi tan y rhai* ni allaf gyfodi.
15 Yr ARGLWYDD a fathrodd fy holl rai grymmus o'm mewn; efe a gyhoeddodd i'm herbyn gymmanfa, i ddifetha fy ngwŷr ieuainge: *fel* gwin-wrŷf y sathrodd yr ARGLWYDD y forwyn, merch Judah.
16 Am hyn yr ydwyf yn wylo; y mae fy llygad, fy llygad, yn rhedeg gan ddwfr, o herwydd pellhâu oddi wrthyf ddiddanwr a ddadebrai fy enaid: fy meibion sydd anrheithiedig, am i'r gelyn orchfygu.
17 Sïon a ledodd ei dwylaw, heb neb yn ei diddanu: yr ARGLWYDD a orchymynodd am Jacob, *fod* ei elynion yn ei gylch: Jerusalem sydd fel gwraig fis-glwyfus yn eu mysg hwynt.
18 ¶ Cyfiawn yw yr ARGLWYDD; oblegid myfi a fûm anufudd i'w air ef: gwrandêwch, attolwg, bobloedd oll, a gwelwch fy ngofid: fy morwynion a'm gwŷr ieuainge a aethant i gaethiwed.
19 Gelwais am fy nghariadau, *a* hwy a'm twyllasant; fy offeiriaid a'm henafgwyr a drengasant yn y ddinas, tra oeddynt yn ceisio iddynt fwyd i ddadebru eu henaid.
20 Gwel, O ARGLWYDD; canys y mae yn gyfyng arnaf: fy ymysgaroedd a gyffroisant, fy nghalon a drodd ynof; o herwydd fy mod yn rhy anufudd: y mae y cleddyf yn difetha oddi allan, megis marwolaeth *sydd* gartref.
21 Clywsant fy mod i yn ucheneidio: nid *oes* a'm diddano: fy holl elynion, *pan* glywsant fy nrygfyd, a lawenychasant am i ti wneuthur *hynny: ond* ti a ddygi i ben y dydd a gyhoeddaist, a hwy a fyddant fel finnau.
22 Deued eu holl ddrygioni hwynt o'th flaen di; a gwna iddynt hwy fel y gwnaethost i minnau, am fy holl gamweddau: oblegid *y mae* fy ucheneidiau yn aml, a'm calon yn ofidus.

PENNOD 2.

1 Jeremiah yn galaru am ofid Jerusalem: 20 ac yn cwyno wrth Ddduw faint oedd.

PA fodd y dug yr ARGLWYDD gwmmwl ar ferch Sïon yn ei sorriant, *ac* y bwriodd degwch Israel i lawr o'r nefoedd, ac na chofiodd leithig ei draed yn nydd ei ddigofaint!

2 Yr Arglwydd a lyngcodd, heb arbed, holl anneddau Jacob; efe a ddifrododd yn ei ddigter amddiffynfeydd merch Judah; efe a'*u* tynnodd *hwynt* i lawr, *ac* a ddifwynodd y deyrnas a'i thywysogion.

3 Mewn sorriant digllawn y torrodd efe holl gorn Israel: efe a dynnodd *ei* ddeheulaw yn *ei* hol oddi wrth y gelyn; ac yn erbyn Jacob y cynneuodd megis fflam danllyd, *yr hon* a ddifa o amgylch.

4 Efe a annelodd ei fwa fel gelyn; safodd â'i ddeheulaw fel gwrthwynebwr, ac a laddodd bob dim hyfryd i'r golwg ym mhabell merch Sïon: fel tân y tywalltodd efe ei ddigofaint.

5 Yr Arglwydd sydd megis gelyn: efe a lyngcodd Israel, efe a lyngcodd ei holl balasau hi: efe a ddifwynodd ei hamddiffynfeydd, ac a wnaeth gwynfan a galar yn aml ym merch Judah.

6 Efe a anrheithiodd ei babell fel gardd; efe a ddinystriodd leoedd ei gymmanfa: yr ARGLWYDD a wnaeth anghofio yn Sïon yr uchel-wyl a'r Sabbath, ac yn llidiowgrwydd ei sorriant y dirmygodd efe y brenhin a'r offeiriad.

7 Yr ARGLWYDD a wrthododd ei allor, a ffieiddiodd ei gyssegr; rhoddodd gaerau ei phalasau hi yn llaw y gelyn: rhoddasant floedd yn nhŷ yr ARGLWYDD, megis ar ddydd uchel-wyl.

8 Yr ARGLWYDD a fwriadodd ddifwyno mur merch Sïon; efe a estynodd linyn, ac nid attaliodd ei law rhag difetha: am hynny y gwnaeth efe i'r rhagfur ac i'r mur alaru; cyd-lesgasant.

9 Ei phyrth a soddasant i'r ddaear; efe a ddifethodd ac a ddrylliodd ei barrau hi: ei brenhin a'i thywysogion *ydynt* ym mysg y cenhedloedd: heb gyfraith *y mae;* a'i phrophwydi heb gael gweledigaeth gan yr ARGLWYDD.

10 Henuriaid merch Sïon a eisteddant ar lawr, a dawant â sôn; gosodasant lwch ar eu pennau; ymwregysasant â sachlïan: gwyrfon Jerusalem a ostyngasant eu pennau i lawr.

11 Fy llygaid sydd yn pallu gan ddagrau, fy ymysgaroedd a gyffroisant, fy afu a dywalltwyd ar y ddaear; o herwydd dinystr merch fy mhobl, pan lewygodd y plant a'r rhai yn sugno yn heolydd y ddinas.

12 Hwy a ddywedant wrth eu mammau, Pa le *y mae* ŷd a gwin? pan lewygent fel yr archolledig yn heolydd y ddinas, pan dywalltent eu heneidiau ym mynwes eu mammau.

13 Pa beth a gymmeraf yn dyst i ti? beth a gyffelybaf i ti, O ferch Jerusalem? beth a gystadlaf â thi, fel y'th ddiddanwyf, O forwyn, merch Sïon? canys *y mae* dy ddinystr yn fawr fel y môr; pwy a'th iachâ di?

14 Dy brophwydi a welsant i ti gelwydd a diflasrwydd; ac ni ddatguddiasant dy anwiredd, i droi ymaith dy gaethiwed: eithr hwy a welsant i ti feichiau celwyddog, ac achosion deol.

15 Y rhai oll a dramwyent y ffordd, a gurent *eu* dwylaw arnat ti; chwibanent, ac ysgydwent eu pennau ar ferch Jerusalem, *gan ddywedyd,* Ai dyma y ddinas a alwent yn berffeithrwydd tegwch, yn llawenydd yr holl ddaear?

16 Dy holl elynion a ledasant eu safnau arnat ti; a chwibanasant, ac a esgyrnygasant ddannedd, ac a ddywedasant, Llyngcasom *hi:* yn ddïau dyma y dydd a ddisgwyliasom ni; ni a'*i* cawsom, ni a'*i* gwelsom.

17 Yr ARGLWYDD a wnaeth yr hyn a ddychymmygodd; ac a gyflawnodd ei air yr hwn a orchymynodd efe er y dyddiau gynt: efe a ddifrododd, ac nid arbedodd; efe a wnaeth i'r gelyn lawenychu yn dy erbyn di; efe a ddyrchafodd gorn dy wrthwynebwyr di.

18 Eu calon hwynt a waeddodd ar yr ARGLWYDD, O fur merch Sïon, tywallt ddagrau ddydd a nos fel afon; na orphwys, ac na pheidied canwyll dy lygad.

19 Cyfod, cyhoedda liw nos; yn nechreu y wyliadwriaeth tywallt

dy galon fel dwfr ger bron yr ARGLWYDD: dyrchafa dy ddwylaw atto ef am einioes dy blant, y rhai sydd yn llewygu o newyn ym mhen pob heol.

20 ¶ Edrych, ARGLWYDD, a gwel i bwy y gwnaethost fel hyn: a fwytty y gwragedd eu ffrwyth eu hun, plant o rychwant o hŷd? a leddir yr offeiriad a'r prophwyd y'nghyssegr yr ARGLWYDD?

21 Ieuangc a hen sydd yn gorwedd ar lawr *yn* yr heolydd: fy morwynion a'm gwŷr ieuaingc a syrthiasant trwy y cleddyf: ti a'*u* lleddaist *hwynt* yn nydd dy sorriant, lleddaist *hwy* heb arbed.

22 Gelwaist, megis ar ddydd uchelwyl, fy nychryn o amgylch, fel na ddiangodd ac na adawyd neb yn nydd sorriant yr ARGLWYDD: y gelyn a ddifethodd y rhai a faethais ac a fegais i.

PENNOD 3.

1 *Y ffyddloniaid yn cwynfan am eu gofidiau:*
22 *a thrwy drugareddau Duw, yn cadarnhau eu gobaith:* 37 *yn cydnabod cyfiawnder Duw.*
55 *yn gweddïo am ymwared iddynt eu hunain,*
64 *a dial ar eu gelynion.*

MYFI *yw* y gŵr a welodd flinder gan wïalen ei ddigofaint ef.

2 *I* dywyllwch, ac nid *i* oleuni, yr arweiniodd ac y tywysodd efe fi.

3 Yn fy erbyn i yn ddïau y trodd efe, *ac* y mae efe yn troi ei law ar hyd y dydd.

4 Efe a wnaeth fy nghnawd a'm croen yn hen; efe a ddrylliodd fy esgyrn.

5 Efe a adeiladodd i'm herbyn, ac a'*m* hamgylchodd â bustl ac â blinder.

6 Efe a'm gosododd mewn tywyll leoedd, fel y rhai sydd wedi marw er ys talm.

7 Efe a gauodd o'm hamgylch, fel nad elwyf allan: efe a wnaeth fy llyffethair i yn drom.

8 Pan lefwyf, a *phan* floeddiwyf, efe a gau allan fy ngweddi.

9 Efe a gauodd fy ffyrdd â cherrig nadd; efe a ŵyrodd fy llwybrau.

10 *Yr oedd* efe i mi *fel* arth yn cynllwyn, *neu* lew mewn llochesau.

11 Efe a ŵyrodd fy ffyrdd, ac a'm drylliodd; yn anrheithiedig y gwnaeth fi.

12 Efe a annelodd ei fwa, ac a'm gosododd fel nôd i saeth.

13 Efe a wnaeth i saethau ei gawell fyned i'm harennau.

14 Gwatwargerdd oeddwn i'm holl bobl, *a*'u cân ar hyd y dydd.

15 Efe a'm llanwodd â chwerwder; *efe* a'm meddwodd i â'r wermod.

16 Efe a dorrodd fy nannedd â cherrig, ac a'm trybaeddodd yn y llwch.

17 A phellheaist fy enaid oddi wrth heddwch; anghofiais ddaioni.

18 A mi a ddywedais, Darfu am fy nerth a'm gobaith oddi wrth yr ARGLWYDD.

19 Cofia fy mlinder a'm gofid, y wermod a'r bustl.

20 Fy enaid gan gofio a gofia, ac a ddarostyngwyd ynof fi.

21 Hyn yr ydwyf yn ei adgofio; am hynny y gobeithiaf.

22 ¶ Trugareddau yr ARGLWYDD *yw* na ddarfu am danom ni: o herwydd ni phalla ei dosturiaethau ef.

23 Bob bore *y deuant* o newydd: mawr *yw* dy ffyddlondeb.

24 Yr ARGLWYDD *yw* fy rhan i, medd fy enaid; am hynny y gobeithiaf ynddo.

25 Daionus *yw* yr ARGLWYDD i'r rhai a ddisgwyliant wrtho, *ac* i'r enaid a'i ceisio.

26 Da *yw* gobeithio a disgwyl yn ddistaw am iachawdwriaeth yr ARGLWYDD.

27 Da *yw* i ŵr ddwyn *yr* iau yn ei ieuengctid.

28 *Efe* a eistedd ei hunan, ac a daw â sôn; am iddo *ei* dwyn *hi* arno.

29 Efe a ddyry ei enau yn y llwch, *i edrych* a oes obaith.

30 Efe a ddyry *ei* gern i'r hwn a'i tarawo: efe a lenwir â gwaradwydd.

31 Oblegid nid yn dragywydd y gwrthyd yr ARGLWYDD:

32 Ond er iddo gystuddio, etto efe a dosturia, yn ol amlder ei drugareddau.

33 Canys nid o'i fodd y blina efe, nac y cystuddia blant dynion.

34 I fathru holl garcharorion y ddaear dan ei draed,

35 I ŵyro barn gŵr o flaen wyneb
y Goruchaf,
36 Nid yw yr ARGLWYDD yn gwel-
ed *yn dda* wneuthur cam â gŵr yn
ei fatter.
37 ¶ Pwy a ddywed y bydd dim,
heb i'r ARGLWYDD *ei* orchymyn?
38 Oni ddaw o enau y Goruchaf
ddrwg a da?
39 Paham y grwgnach dyn byw,
gŵr am gospedigaeth ei bechod?
40 Ceisiwn a chwiliwn ein ffyrdd,
a dychwelwn at yr ARGLWYDD.
41 Dyrchafwn ein calonnau a'*n*
dwylaw at DDUW yn y nefoedd.
42 Nyni a wnaethom gamwedd,
ac a fuom anufudd; tithau nid
arbedaist.
43 Gorchuddiaist *ni* â sorriant,
ac erlidiaist ni: lleddaist, nid
arbedaist.
44 Ti a'th guddiaist dy hun â
chwmmwl, fel na ddeuai *ein* gweddi
trwodd.
45 Ti a'n gwnaethost yn sorod
ac yn ysgubion y'nghanol y bobl.
46 Ein holl elynion a ledasant
eu safnau yn ein herbyn.
47 Dychryn a magl a ddaeth arnom,
anrhaith a dinystr.
48 Fy llygad a ddiferodd ffrydiau
o ddwfr, o herwydd dinystr merch
fy mhobl.
49 Fy llygad a ddiferodd, ac ni
pheidiodd, am nad oes gorphwys-
dra;
50 Hyd oni edrycho, ac *oni* ys-
tyrio yr ARGLWYDD o'r nefoedd.
51 Y mae fy llygad yn blino fy
enaid, o herwydd holl ferched fy
ninas.
52 Fy ngelynion gan hela a'm hel-
iasant yn ddïachos, fel aderyn.
53 Torrasant ymaith fy einioes yn
y pwll, a bwriasant gerrig arnaf.
54 Y dyfroedd a lifasant dros
fy mhen: dywedais, Torrwyd fi
ymaith.
55 ¶ Gelwais ar dy enw di, O AR-
GLWYDD, o'r pwll isaf.
56 Ti a glywaist fy llef: na chudd
dy glust rhag fy uchenaid a'm
gwaedd.
57 Ti a ddaethost yn nês y dydd
y gelwais arnat: dywedaist, Nac
ofna.
58 Ti, O ARGLWYDD, a ddadleu-
aist gyd â'm henaid: gwaredaist fy
einioes.
59 Ti, O ARGLWYDD, a welaist fy
ngham: barn di fy marn i.
60 Ti a welaist eu holl ddïal hwynt,
a'u holl amcanion i'm herbyn i.
61 Clywaist eu gwaradwydd, O
ARGLWYDD, *a*'u holl fwriadau i'm
herbyn;
62 Gwefusau y rhai a godant i'm
herbyn, a'u myfyrdod i'm herbyn
ar hyd y dydd.
63 Edrych ar eu heisteddiad a'u
cyfodiad; myfi *yw* eu cân hwynt.
64 ¶ Tâl y pwyth iddynt, O AR-
GLWYDD, yn ol gweithred eu dwy-
law.
65 Dod iddynt ofid calon, dy
felldith iddynt.
66 Erlid hwynt â digofaint, a di-
fetha hwy oddi tan nefoedd yr AR-
GLWYDD.

PENNOD 4.

1 *Sïon yn cwyno ei thostur gyflwr:* 13 *yn cyffesu ei phechodau.* 21 *Bygythio Edom;* 22 *a chysuro Sïon.*

PA fodd y tywyllodd yr aur! y
newidiodd yr aur coeth da!
taflwyd cerrig y cyssegr ym mhen
pob heol.
2 Gwerthfawr feibion Sïon, a chys-
tal ag aur pur, pa fodd y cyfrifwyd
hwynt fel ystenau pridd, gwaith
dwylaw y crochenydd!
3 Y dreigiau a dynnant allan eu
bronnau, a roddant sugn i'w cenaw-
on: merch fy mhobl *a aeth* yn
greulawn, fel yr estrysiaid yn yr
anialwch.
4 Tafod y plentyn sugno sydd
yn glynu wrth daflod ei enau gan
syched: y plant a ofynant fara, *ond*
nid *oedd* a dorrai iddynt.
5 Y rhai a ymborthent yn foethus,
a ddifethwyd yn yr heolydd: y rhai
a feithrinwyd mewn ysgarlad, a
gofleidiant y tommennydd.
6 Canys mwy yw anwiredd merch
fy mhobl na phechod Sodom, yr
hon a ddinystriwyd megis yn ddi-
symmwth, ni safodd llaw arni.
7 Purach oedd ei Nasareaid hi
na'r eira, gwynnach oeddynt na'r
llaeth, gwridoccach oeddynt o gorph
na'r cwrel, *a*'u trwsiad *oedd* o
saphir.
8 Duach yw yr olwg arnynt na'r

glöyn; nid adweinir hwynt yn yr heolydd: eu croen a lŷn wrth eu hesgyrn; gwywodd, aeth yn debyg i bren.

9 Gwell yw y rhai a laddwyd â chleddyf, na'r rhai a laddwyd â newyn; oblegid y rhai hyn a ddihoenant, wedi eu trywanu o *eisieu* cnwd y maes.

10 Dwylaw gwragedd tosturiol a ferwasant eu plant eu hun: eu hymborth oeddynt yn ninystr merch fy mhobl.

11 Yr ARGLWYDD a gyflawnodd ei ddigter, a dywalltodd lidiowgrwydd ei sorriant, ac a gynneuodd dân yn Sïon, yr hwn a ddifaodd ei seiliau hi.

12 Ni choeliasai brenhinoedd y ddaear, na holl drigolion y byd, y deuai y gwrthwynebwr a'r gelyn i mewn i byrth Jerusalem.

13 ¶ Am bechodau ei phrophwydi, *ac* anwiredd ei hoffeiriaid, y rhai a ollyngasant waed y rhai cyfiawn o'i mewn hi;

14 Gwibiasant *fel* deillion yn yr heolydd, *ac* ymddifwynasant gan waed, fel na ellid cyffwrdd â'u dillad hwynt.

15 Gwaeddasant arnynt, Ciliwch; aflan *yw;* ciliwch, ciliwch, na chyffyrddwch; pan ffoisant, ac yr aethant ymaith. Dywedent ym mysg y cenhedloedd, Ni thrigant hwy *yma* mwyach.

16 Sorriant yr ARGLWYDD a'u gwasgarodd hwynt; nid edrych efe arnynt mwy: ni pharchent hwy yr offeiriaid, ni thosturient wrth yr henafgwyr.

17 Ninnau hefyd, ein llygaid a ballasant am ein cynnorthwy ofer: gan ddisgwyl disgwyl yr oeddem ni wrth genhedlaeth ni allai *ein* hachub.

18 Hwy a olrheiniant ein cerdded iad, fel na allwn fyned ar hyd ein heolydd: y mae ein diwedd ni yn agos, ein dyddiau ni a gyflawnwyd; canys daeth ein diwedd ni.

19 Buanach yw ein herlidwyr nag eryrod yr awyr: y maent yn ein herlid ni ar y mynyddoedd, yn ein cynllwyn yn yr anialwch.

20 Anadl ein ffroenau, enneiniog yr ARGLWYDD, a ddaliwyd yn eu rhwydau hwynt, *am* yr hwn y dywedasem, Dan ei gysgod ef y byddwn ni byw ym mysg y cenhedloedd.

21 ¶ Bydd lawen a hyfryd, merch Edom, yr hon wyt yn trigo yn nhir Us: daw y cwppan attat tithau hefyd; ti a feddwi, ac a ymnoethi.

22 ¶ Gorphenwyd dy gospedigaeth di, merch Sïon; ni chaethgluda efe di mwy: efe a ymwel â'th anwiredd di, merch Edom; efe a ddatguddia dy bechodau.

PENNOD 5.

Tostur gwynfan Sïon, mewn gweddi at Dduw.

COFIA, O ARGLWYDD, beth a ddaeth i ni: edrych a gwel ein gwaradwydd.

2 Ein hetifeddiaeth ni a dröwyd i estroniaid, a'n tai i ddieithriaid.

3 Amddifaid ydym heb dadau; ein mammau *sydd* megis gweddwon.

4 Yr ydym yn yfed ein dwfr am arian; ein coed sydd yn dyfod am werth.

5 Ein gwarrau sydd dan erlid; llafurio yr ydym, nid oes gorphwysdra i ni.

6 Rhoisom ein llaw i'r Aiphtiaid, i'r Assyriaid, i gael digon o fara.

7 Ein tadau a bechasant, ac nid *ydynt:* ninnau sydd yn dwyn eu cosp hwynt.

8 Gweision sydd yn llywodraethu arnom ni, heb *fod* a'n gwaredo o'u llaw hwynt.

9 *Mewn enbydrwydd* am ein heinioes y dygasom ein bara i mewn, o herwydd cleddyf yr anialwch.

10 Ein croen a dduodd fel ffwrn, gan y newyn tost.

11 Hwy a dreisiasant y gwragedd yn Sïon, a'r morwynion yn ninasoedd Judah.

12 Crogasant dywysogion â'u dwylaw; ni pherchid wynebau yr henafgwyr.

13 Hwy a gymmerasant y gwŷr ieuainge i falu; a'r plant a syrthiasant dan y coed.

14 Yr henafgwyr a beidiasant â'r porth; y gwŷr ieuainge â'u cerdd.

15 Darfu llawenydd ein calon: ein dawns a drodd yn alar.

16 Syrthiodd y goron *oddi am* byth; dy orseddfaingc yn oes
ein pen: gwae ni yn awr bechu o oesoedd.
honom! 20 Paham yr anghofi ni byth, *ac*
17 Am hyn y mae ein calon yn y gadewi ni dros hir ddyddiau?
ofidus; am hyn y tywyllodd ein 21 Dychwel ni, O ARGLWYDD, attat
llygaid. ti, a ni a ddychwelir: adnewydda
18 O herwydd mynydd Sïon, yr ein dyddiau megis cynt.
hwn a anrheithiwyd, y mae y llwyn- 22 Eithr ti a'n llwyr-wrthodaist
ogod yn rhodio ynddo. ni: ti a ddigiaist wrthym ni yn
19 Ti, ARGLWYDD, a barhêi ddirfawr.

LLYFR Y
PROPHWYD ESECIEL.

PENNOD 1.

1 *Yr amsèr y prophwydodd Eseciel yn Chebar.*
4 *Gweledigaeth y pedwar cèrub,* 15 *y pedair olwyn,* 26 *a gogoniant Duw.*

ADARFU yn y ddegfed flwydd-
yn ar hugain, yn y pedwerydd
mis, ar y pummed *dydd* o'r mis,
(a mi ym mysg y gaethglud wrth
afon Chebar,) agoryd y nefoedd,
a gwelwn weledigaethau DUW.
2 Yn y pummed *dydd* o'r mis,
honno *oedd* y bummed flwyddyn o
gaethgludiad brenhin Jehoiachin,
3 Y daeth gair yr ARGLWYDD yn
eglur at Eseciel yr offeiriad, mab
Busi, yn nhir y Caldeaid, wrth afon
Chebar; ac yno y bu llaw yr AR-
GLWYDD arno ef.
4 ¶ Yna yr edrychais, ac wele
yn dyfod o'r gogledd gorwynt, *a*
chwmmwl mawr, a thân yn ym-
gymmeryd, a disgleirdeb o amgylch
iddo; ac o'i ganol, *sef* o ganol y tân,
fel lliw ambr.
5 Hefyd o'i ganol *y daeth* cy-
ffelybrwydd i bedwar peth byw. A
dyma eu hagwedd hwynt; dull dyn
oedd iddynt.
6 A phedwar wyneb *i bob* un, a
phedair aden *i bob* un o honynt.
7 A'u traed yn draed uniawn; a
gwadn eu traed fel gwadn troed
llo; a gwreichioni yr oeddynt fel
lliw efydd gloyw.
8 Ac *yr oedd* dwylaw dyn oddi tan
eu hadenydd, ar eu pedwar ystlys;
eu hwynebau hefyd a'u hadenydd
oedd ganddynt ill pedwar.
9 Eu hadenydd hwynt *oedd* wedi
eu cyssylltu y naill wrth y llall:
pan gerddent, ni thröent; aent bob
un yn uniawn rhag ei wyneb.
10 Dyma ddull eu hwynebau
hwynt; Wyneb dyn, ac wyneb llew,
oedd ar y tu dehau iddynt ill ped-
war: ac wyneb ych o'r tu aswy
iddynt ill pedwar, ac wyneb eryr
iddynt ill pedwar.
11 Dyma eu hwynebau hwynt; a'u
hadenydd *oedd* wedi eu dosparthu
oddi arnodd, dwy i bob un wedi eu
cyssylltu â'u gilydd, a dwy oedd yn
cuddio eu cyrph.
12 Aent hefyd bob un yn uniawn
rhag ei wyneb; i'r lle y byddai yr
yspryd ar fyned, yno yr aent; ni
thröent pan gerddent.
13 Dyma ddull y pethau byw; Eu
gweledigaeth oedd fel marwor tân yn
llosgi, *ac* fel gweledigaeth ffaglau: yr
oedd efe yn ymgerdded rhwng y
pethau byw, a disglaer oedd y tân,
a mellt yn dyfod allan o'r tân.
14 Rhedai hefyd a dychwelai y
pethau byw, fel gweledigaeth mellten.
15 ¶ Edrychais hefyd ar y pethau
byw: ac wele ar lawr yn ymyl y
pethau byw un olwyn, gyd â'i bed-
war wyneb.
16 Dull yr olwynion a'u gwaith
oedd fel lliw beryl: a'r un dull
oedd iddynt ill pedair; a'u gwedd
hwynt a'u gwaith fel pe byddai
olwyn y'nghanol olwyn.
17 Pan elent, aent ar eu pedwar
ochr: ni thröent pan gerddent.

18 Eu cantau hefyd oedd gyfuwch
ag yr oeddynt yn ofnadwy: a'u
cantau *oedd* yn llawn llygaid oddi
amgylch ill pedwar.
19 A phan gerddai y pethau byw,
yr olwynion a gerddent wrthynt;
a phan ymgodai y pethau byw
oddi ar y ddaear, yr ymgodai yr
olwynion.
20 I'r lle *y byddai* yr yspryd
i fyned, yr aent, yno *yr oedd* eu
hyspryd ar fyned; a'r olwynion a
ymgodent ar eu cyfer hwynt: canys
yspryd y peth byw *oedd* yn
yr olwynion.
21 Cerddent pan gerddent hwythau,
a safent pan safent hwythau;
a phan ymgodent hwy oddi ar y
ddaear, yr olwynion a ymgodent ar
eu cyfer hwythau: canys yspryd
y peth byw *oedd* yn yr olwynion.
22 Ac *yr oedd* ar bennau y peth-
au byw ddull y ffurfafen, fel lliw
grisial ofnadwy, wedi ei hestyn dros
eu pennau hwynt oddi arnodd.
23 A than y ffurfafen *yr oedd*
eu hadenydd hwynt yn uniawn, y
naill tu ag at y llall: dwy i bob
un yn eu cuddio o'r naill du, a
dwy i bob un yn cuddio eu cyrph
o'r tu arall.
24 A mi a glywn swn eu hadenydd
hwynt, fel swn dyfroedd lawer, fel
swn yr Hollalluog, pan gerddent:
swn lleferydd, fel swn llu: pan
safent, llaesent eu hadenydd.
25 Ac yr oedd llais oddi ar y ffurf-
afen yr hon *oedd* ar eu pennau
hwynt, pan safent, *ac* y llaesent
eu hadenydd.
26 ¶ Ac oddi ar y ffurfafen yr hon
oedd ar eu pennau hwynt, *yr oedd*
cyffelybrwydd gorseddfaingc, fel
gweleddiad maen saphir; ac ar gy-
ffelybrwydd yr orseddfaingc *yr*
oedd oddi arnodd arno ef gyffelyb-
rwydd megis gweleddiad dyn.
27 Gwelais hefyd megis lliw ambr,
fel gweleddiad tân o'i fewn o am-
gylch: o weleddiad ei lwynau ac uch-
od, ac o weleddiad ei lwynau ac isod,
y gwelais megis gweleddiad tân, a
disgleirdeb iddo oddi amgylch.
28 Fel gweleddiad y bwa a fydd
yn y cwmmwl ar ddydd gwlawog,
fel hyn *yr oedd* gweleddiad y dis-
gleirdeb o amgylch. Dyma weled-
iad cyffelybrwydd gogoniant yr ARGLWYDD. A phan welais, syrth-
iais ar fy wyneb, a chlywais lais
un yn llefaru.

PENNOD 2.

1 *Awdurdod Eseciel,* 6 *a'i addysg.* 9 *Plyg llyfr ei orthrwm brophwydoliaeth ef.*

AC efe a ddywedodd wrthyf, Mab
dyn, saf ar dy draed, a mi a
lefaraf wrthyt.
2 A'r yspryd a aeth ynof, pan
lefarodd efe wrthyf, ac a'm gosod-
odd ar fy nhraed, fel y clywais yr
hwn a lefarodd wrthyf.
3 Ac efe a ddywedodd wrthyf,
Mab dyn, yr ydwyf fi yn dy ddan-
fon di at feibion Israel, at genedl
wrthryfelgar, y rhai a wrthryfelas-
ant i'm herbyn; hwynt-hwy a'u
tadau a droseddasant i'm herbyn,
hyd gorph y dydd hwn.
4 Meibion wyneb-galed hefyd a
chadarn-galon yr wyf fi yn dy ddan-
fon attynt: dywed dithau wrthynt,
Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD
DDUW.
5 A pha un bynnag a wnelont
ai gwrandaw, ai peidio, (canys tŷ
gwrthryfelgar *ydynt,*) etto cânt
wybod fod prophwyd yn eu mysg
hwynt.
6 ¶ Tithau, fab dyn, nac ofna
rhagddynt, ac na arswyda er eu
geiriau hwynt, er *bod* gwrthryfel-
wyr a drain gyd â thi, a thithau
yn trigo ym mysg ysgorpionau;
nac ofna rhag eu geiriau hwynt, ac
na ddychryna gan eu hwynebau
hwynt, er mai tŷ gwrthryfelgar
ydynt.
7 Etto llefara di fy ngeiriau wrth-
ynt, pa un bynnag a wnelont ai
gwrandaw ai peidio; canys gwrth-
ryfelgar *ydynt.*
8 Tithau fab dyn, gwrando yr
hyn yr ydwyf fi yn ei lefaru wrthyt,
Na fydd di wrthryfelgar fel y tŷ
gwrthryfelgar hwn: lleda dy safn,
a bwytta yr hyn yr ydwyf fi yn ei
roddi i ti.
9 ¶ Yna yr edrychais, ac wele
law wedi ei hanfon attaf, ac wele
ynddi blyg llyfr.
10 Ac efe a'i dadblygodd o'm blaen
i: ac *yr oedd* efe wedi ei ysgrifenu
wyneb a chefn; ac *yr oedd* wedi

ysgrifenu arno, galar, a griddfan, a gwae.

PENNOD 3.

1 *Eseciel yn bwytta y plyg llyfr:* 4 *a Duw yn ei nerthu ef:* 15 *ac yn dangos iddo reol prophwydoliaeth:* 22 *ac yn cau ac yn agori genau y prophwyd.*

AC efe a ddywedodd wrthyf, Mab dyn, bwytta yr hyn a geffych, bwytta y llyfr hwn, a dos, *a* llefara wrth dŷ Israel.

2 Yna mi a agorais fy safn, ac efe a wnaeth i mi fwytta y llyfr hwnnw.

3 Dywedodd hefyd wrthyf, Bwyda dy fol, a llanw dy berfedd, fab dyn, â'r llyfr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi attat. Yna y bwytteais; ac yr oedd efe yn fy safn fel mêl o felusder.

4 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, Mab dyn, cerdda, dos at dŷ Israel, a llefara â'm geiriau wrthynt.

5 Canys nid at bobl o iaith ddïeithr ac o dafodiaith galed y'th anfonir di, *ond* at dŷ Israel;

6 Nid at bobloedd lawer o iaith ddïeithr ac o dafodiaith galed, y rhai ni ddealli eu hymadroddion. Oni wrandawsai y rhai hynny arnat, *pe* y'th anfonaswn attynt?

7 Etto tŷ Israel ni fynnant wrandaw arnat ti; canys ni fynnant wrandaw arnaf fi: oblegid tal-gryfion a chaled-galon *ydynt* hwy, holl dŷ Israel.

8 Wele, gwneuthum dy wyneb yn gryf yn erbyn eu hwynebau hwynt, a'th dal yn gryf yn erbyn eu talcennau hwynt.

9 Gwneuthum dy dalcen fel adamant, yn galettach na'r gallestr: nac ofna hwynt, ac na ddychryna rhag eu hwynebau, er mai tŷ gwrthryfelgar *ydynt.*

10 Dywedodd hefyd wrthyf, Ha fab dyn, derbyn â'th galon, a chlyw â'th glustiau, fy holl eiriau a lefarwyf wrthyt.

11 Cerdda hefyd, *a* dos at y gaethglud, at feibion dy bobl, a llefara hefyd wrthynt, a dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; pa un bynnag a wnelont ai gwrandaw ai peidio.

12 Yna yr yspryd a'm cymmerodd, a chlywn swn cynnwrf mawr o'm hol, *yn dywedyd,* Bendigedig *fyddo* gogoniant yr ARGLWYDD o'i le.

13 A swn adenydd y pethau byw oedd yn cyffwrdd â'u gilydd, a swn yr olwynion ar eu cyfer hwynt, a swn cynnwrf mawr.

14 A'r yspryd a'm cyfododd, ac a'm cymmerodd ymaith, a mi a euthum yn chwerw yn angerdd fy yspryd; ond llaw yr ARGLWYDD *oedd* gref arnaf.

15 ¶ A mi a ddeuthum i Tel-abib, at y gaethglud oedd yn aros wrth afon Chebar, a mi a eisteddais lle yr oeddynt hwythau yn eistedd, ïe, eisteddais yno saith niwrnod yn syn yn eu plith hwynt.

16 Ac ym mhen y saith niwrnod y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

17 Mab dyn, mi a'th wneuthum di yn wyliedydd i dŷ Israel: am hynny gwrando y gair o'm genau, a rhybuddia hwynt oddi wrthyf fi.

18 Pan ddywedwyf wrth y drygionus, Gan farw y byddi farw; oni rybuddi ef, ac oni leferi i rybuddio y drygionus oddi wrth ei ddrygffordd, fel y byddo byw; y drygionus hwn a fydd farw yn ei anwiredd: ond ei waed ef a ofynaf fi ar dy law di.

19 Ond os rhybuddi y drygionus, ac yntau heb droi oddi wrth ei ddrygioni, na'i ffordd ddrygionus, efe a fydd marw yn ei ddrygioni; ond ti a achubaist dy enaid.

20 Hefyd pan ddychwelo y cyfiawn oddi wrth ei gyfiawnder, a gwneuthur camwedd, a rhoddi o honof dramgwydd o'i flaen ef, efe fydd farw: am na rybuddiaist ef, am ei bechod y bydd efe farw, a'i gyfiawnder yr hwn a wnaeth efe ni chofir; ond ei waed ef a ofynaf ar dy law di.

21 Ond os tydi a rybuddi y cyfiawn, rhag pechu o'r cyfiawn, ac na phecho efe; gan fyw y bydd efe byw, am ei rybuddio: a thithau a achubaist dy enaid.

22 ¶ Ac yno y bu llaw yr ARGLWYDD arnaf, ac efe a ddywedodd wrthyf, Cyfod, dos i'r gwastadedd, ac yno y llefaraf wrthyt.

23 Yna y cyfodais, ac yr euthum i'r gwastadedd: ac wele ogoniant

yr ARGLWYDD yn sefyll yno, fel y gogoniant a welswn wrth afon Chebar: a mi a syrthiais ar fy wyneb.

24 Yna yr aeth yr yspryd ynof, ac a'm gosododd ar fy nhraed, ac a ymddiddanodd â mi, ac a ddywedodd wrthyf, Dos, a chau arnat o fewn dy dŷ.

25 Tithau fab dyn, wele, hwy a roddant rwymau arnat, ac a'th rwymant â hwynt, ac na ddos allan yn eu plith.

26 A mi a wnaf i'th dafod lynu wrth daflod dy enau, a thi a wneir yn fud, ac ni byddi iddynt yn geryddwr: canys tŷ gwrthryfelgar *ydynt.*

27 Ond pan lefarwyf wrthyt, yr agoraf dy safn, a dywedi wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW: Yr hwn a wrandawo, gwrandawed; a'r hwn a beidio, peidied: canys tŷ gwrthryfelgar *ydynt.*

PENNOD 4.

1 *Dan rith a chysgod amgylchynu y ddinas, y mae yn dangos yr amser o wrthryfel Jeroboam hya y caethiwed:* 9 *a thrwy ddarparu lluniaeth mewn gwarchae, yn dangos dosted fyddai y newyn.*

TITHAU fab dyn, cymmer i ti briddlech, a dod hi o'th flaen, a llunia arni ddinas Jerusalem:

2 A gwarchae yn ei herbyn hi, ac adeilada wrthi warchglawdd, a bwrw o'i hamgylch hi wrthglawdd; dod hefyd wersylloedd wrthi, a gosod offer rhyfel yn ei herbyn o amgylch.

3 Cymmer i ti hefyd badell haiarn, a dod hi *yn* fur haiarn rhyngot a'r ddinas; a chyfeiria dy wyneb atti, a bydd mewn gwarchäedigaeth, a gwarchae di arni. Arwydd *fydd* hyn i dŷ Israel.

4 Gorwedd hefyd ar dy ystlys aswy, a gosod anwiredd tŷ Israel arni; *wrth* rifedi y dyddiau y gorweddych arni, y dygi eu hanwiredd hwynt.

5 Canys rhoddais arnat ti flynyddoedd eu hanwiredd hwynt, wrth rifedi y dyddiau, tri chan niwrnod a deg a phedwar ugain: felly y dygi anwiredd tŷ Israel.

6 A phan orphenych y rhai hynny, gorwedd eilwaith ar dy ystlys ddehau, a thi a ddygi anwiredd tŷ Judah ddeugain niwrnod: pob diwrnod am flwyddyn a roddais i ti.

7 A chyfeiria dy wyneb at warchäedigaeth Jerusalem, a'th fraich yn noeth; a thi a brophwydi yn ei herbyn hi.

8 Wele hefyd, rhoddais rwymau arnat, fel na thröech o ystlys i ystlys, nes gorphen o honot ddyddiau dy warchäedigaeth.

9 ¶ Cymmer i ti hefyd wenith, a haidd, a ffa, a ffacbys, a milet, a chorbys, a dod hwynt mewn un llestr, a gwna hwynt i ti yn fara, *dros* rifedi y dyddiau y gorweddych ar dy ystlys: tri chan niwrnod a deg a phedwar ugain y bwyttêi ef.

10 A'th fwyd a fwyttêi *a fydd* wrth bwys, ugain sicl yn y dydd: o amser i amser y bwyttêi ef.

11 Y dwfr hefyd a yfi wrth fesur; chweched *ran* hin a yfi, o amser i amser.

12 Ac *fel* teisen haidd y bwyttêi ef; ti a'i cresi hi *hefyd* wrth dail tom dyn, yn eu gŵydd hwynt.

13 A dywedodd yr ARGLWYDD, Felly y bwytty meibion Israel eu bara halogedig ym mysg y cenhedloedd y rhai y gyrraf hwynt attynt.

14 Yna y dywedais, O ARGLWYDD DDUW, wele, ni halogwyd fy enaid, ac ni fwytteais furgyn neu ysglyfaeth o'm hieuengctid hyd yr awr hon; ac ni ddaeth i'm safn gig ffiaidd.

15 Yntau a ddywedodd wrthyf, Wele, mi a roddais i ti fiswail gwartheg yn lle tom dyn, ac â hwynt y gwnei dy fara.

16 Dywedodd hefyd wrthyf, Mab dyn, wele fi yn torri ffon bara yn Jerusalem, fel y bwyttaont fara dan bwys, ac mewn gofal; ac yr yfont ddwfr dan fesur, ac mewn syndod.

17 Fel y byddo arnynt eisieu bara a dwfr, ac y synnont un gyd âg arall, ac y darfyddont yn eu hanwiredd.

PENNOD 5.

1 *Dan rith a chysgod y gwallt, 5 y mae yn dangos barnedigaeth Jerusalem am eu hanwfudd-dod;* 12 *a hyniny trwy newyn, a chleddyf, a gwasgarfa.*

TITHAU fab dyn, cymmer i ti gyllell lem, cymmer i ti ellyn eillio, ac eillia dy ben a'th farf: yna y cymmeri i ti gloriannau pwys, ac y rhenni hwynt.
2 Traian a losgi yn tân y'nghanol y ddinas, pan gyflawner dyddiau y gwarchae; traian a gymmeri hefyd, *ac* a'*i* tarewi â'r gyllell o'i amgylch; a thraian a daeni gyd â'r gwynt: a mi a dynnaf gleddyf ar eu hol hwynt.
3 Cymmer hefyd oddi yno ychydig o nifer, a chylymma hwynt yn dy odre.
4 A chymmer eilwaith *rai* o honynt hwy, a thafl hwynt i ganol y tân, a llosg hwynt yn tân: o hono y daw allan dân i holl dŷ Israel.
5 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Jerusalem *yw* hon: gosodais hi ym mysg y cenhedloedd a'r tiroedd o'i hamgylch,
6 A hi a newidiodd fy marnedigaethau i ddrygioni yn fwy na'r cenhedloedd, a'm deddfau yn fwy na'r gwledydd *sydd* o'i hamgylch: canys gwrthodasant fy marnedigaethau a'm deddfau, ni rodiasant ynddynt.
7 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Am i chwi amlhâu yn fwy na'r cenhedloedd *sydd* o'ch amgylch, heb rodio o honoch yn fy neddfau, na gwneuthur fy marnedigaethau, ac na wnaethoch yn ol barnedigaethau y cenhedloedd *sydd* o'ch amgylch;
8 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Wele fi, ïe, myfi, *ydwyf* yn dy erbyn, a gwnaf yn dy ganol di farnedigaethau yng ngolwg y cenhedloedd.
9 A gwnaf ynot yr hyn ni wneuthum, ac nis gwnaf ei fath mwy, am dy holl ffieidd-dra.
10 Am hynny y tadau a fwyttânt y plant yn dy fysg di, a'r plant a fwytty eu tadau; a gwnaf ynot farnedigaethau, a mi a daenaf dy holl weddill gyd â phob gwynt.
11 Am hynny, *fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, Yn ddiau am halogi o honot fy nghyssegr â'th holl ffieidd-dra ac â'th holl frynti, am hynny hefyd y prinhâf finnau *di*; ac nid arbed fy llygad, ac ni thosturiaf chwaith.
12 ¶ Dy draian fyddant feirw o'r haint, ac a ddarfyddant o newyn, yn dy ganol; a thraian a syrthiant ar y cleddyf o'th amgylch; a thraian a daenaf gyd â phob gwynt: a thynnaf gleddyf ar eu hol hwynt.
13 Felly y gorphenir fy nig, ac y llonyddaf fy llidiowgrwydd ynddo ef ac yn eu herbyn hwynt, ac ymgysuraf: a hwy a gânt wybod mai myfi yr ARGLWYDD a'*i* lleferais yn fy ngwŷn, pan orphenwyf fy llid ynddynt.
14 A rhoddaf di hefyd yn anrhaith, ac yn warth ym mysg y cenhedloedd *sydd* o'th amgylch, y'ngolwg pawb a êl heibio.
15 Yna y bydd y gwaradwydd a'r gwarthrudd yn ddysg ac yn syndod i'r cenhedloedd *sydd* o'th amgylch, pan wnelwyf ynot farnedigaethau mewn dig, a llidiowgrwydd, a cherydd llidiog. Myfi yr ARGLWYDD a'*i* lleferais.
16 Pan anfonwyf arnynt ddrwg saethau newyn, y rhai fyddant i'*w* difetha, y rhai a ddanfonaf i'ch difetha: casglaf hefyd newyn arnoch, a thorraf eich ffon bara:
17 Anfonaf hefyd arnoch newyn, a bwystfil drwg; ac efe a'th ddiblanta di: haint hefyd a gwaed a dramwya trwot ti; a dygaf gleddyf arnat. Myfi yr ARGLWYDD a'*i* lleferais.

PENNOD 6.

1 Barnedigaeth Israel am eu delw-addoliaeth. 8 Gweddill a fendithir. 11 Annog y fydd'loniaid i gwyno eu gofid.

ADAETH gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,
2 Mab dyn, gosod dy wyneb tu a mynyddoedd Israel, a phrophwyda yn eu herbyn;
3 A dywed, Mynyddoedd Israel, gwrandêwch air yr ARGLWYDD DDUW: Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW wrth y mynyddoedd ac wrth y bryniau, wrth y nentydd ac wrth y dyffrynoedd; Wele fi, ïe, myfi yn dwyn cleddyf arnoch, a mi a ddinystriaf eich uchel-leoedd.
4 Eich allorau hefyd a ddifwynir, a'ch haul-ddelwau a ddryllir: a

chwympaf eich archolledigion o flaen eich eilunod.

5 A rhoddaf gelanedd meibion Israel ger bron eu heilunod, a thaenaf eich esgyrn o amgylch eich allorau.

6 Yn eich holl drigfeydd y dinasoedd a anrheithir, a'r uchelfeydd a ddifwynir; fel yr anrheithier ac y difwyner eich allorau, ac y torrer ac y peidio eich eilunod, ac y torrer ymaith eich haul-ddelwau, ac y dilëer eich gweithredoedd.

7 Yr archolledig hefyd a syrth yn eich canol; a chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

8 ¶ Etto gadawaf weddill, fel y byddo i chwi *rai* wedi dïangc gan y cleddyf ym mysg y cenhedloedd, pan wasgarer chwi trwy y gwledydd.

9 A'ch rhai dïangol a'm cofiant i ym mysg y cenhedloedd y rhai y caethgludir hwynt attynt, am fy nryllio â'u calon butteinllyd, yr hon a giliodd oddi wrthyf; ac â'u llygaid, y rhai a butteiniasant ar ol eu heilunod: yna yr ymffieiddiant ynddynt eu hun am y drygioni a wnaethant yn eu holl ffieidd-dra.

10 A chânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, *ac* na leferais yn ofer am wneuthur iddynt y drwg hwn.

11 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Taro â'th law, a chur â'th droed, a dywed, O, rhag holl ffieidd-dra drygioni tŷ Israel! canys trwy gleddyf, trwy newyn, a thrwy haint, y syrthiant.

12 Y pellennig a fydd farw o'r haint, a'r cyfagos a syrth gan y cleddyf; y gweddilledig hefyd a'r gwarchäedig a fydd farw o newyn: fel hyn y gorphenaf fy llidiowgrwydd arnynt.

13 A chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan fyddo eu harcholledigion hwynt ym mysg eu heilunod o amgylch eu hallorau, ar bob bryn uchel, ar holl bennau y mynyddoedd, a than bob pren ïr, a than bob derwen gauadfrig, lle y rhoddasant arogl peraidd i'w holl eilunod.

14 Felly yr estynaf fy llaw arnynt, a gwnaf y tir yn anrhaith; ïe, yn fwy anrheithiol na'r anialwch *tu a* Diblath, trwy eu holl drigfeydd: a chânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

PENNOD 7.

1 *Llwyr anrhaith Israel.* 16 *Galarus edifeirwch y rhai a ddiangent.* 20 *Y gelynion yn halogi y cyssegr, o herwydd ffieidd-dra yr Israeliaid.* 23 *Dan rith cadwyn y mae yn danfos eu gofidus gaethiwed huy.*

A DAETH gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

2 Tithau, fab dyn, fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW wrth dir Israel; Diwedd, diwedd a ddaeth ar bedair congl y tir.

3 *Daeth* yr awr hon ddiwedd arnat, a mi a anfonaf fy nig arnat ti; barnaf di *hefyd* yn ol dy ffyrdd, a rhoddaf dy holl ffieidd-dra arnat.

4 Fy llygad *hefyd* ni'th arbed di, ac ni thosturiaf: eithr rhoddaf dy ffyrdd arnat ti, a'th ffieidd-dra fydd yn dy ganol di: fel y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

5 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Drwg, drwg unig, wele, a ddaeth.

6 Diwedd a ddaeth, daeth diwedd: y mae yn gwylio am danat; wele, efe a ddaeth.

7 Daeth y boregwaith attat, breswylydd y tir: daeth yr amser, agos *yw* y dydd terfysg, ac nid adsain mynyddoedd.

8 Weithian ar fyrder y tywalltaf fy llid arnat, ac y gorphenaf fy nig wrthyt: barnaf di hefyd yn ol dy ffyrdd, a rhoddaf dy holl ffieidd-dra arnat.

9 A'm llygad nid arbed, ac ni thosturiaf: rhoddaf arnat yn ol dy ffyrdd, a'th ffieidd-dra a fydd yn dy ganol di; a chewch wybod mai myfi yr ARGLWYDD sydd yn taro.

10 Wele y dydd, wele *efe* yn dyfod: y boregwaith a aeth allan; blodeuodd y wïalen, blagurodd balchder.

11 Cyfododd traha yn wïalen drygioni: ni *bydd un* o honynt, nac o'u llïaws, nac o'r eiddynt, na galar drostynt.

12 Yr amser a ddaeth, y dydd a nesaodd: na lawenyched y prynwr,

ac na thristâed y gwerthwr: canys *mae* digllonedd ar ei holl lïaws hi.
13 Canys y gwerthydd ni ddychwel at yr hyn a werthwyd, er eu bod etto yn fyw: oblegid y weledigaeth *sydd* am ei holl lïaws, *y rhai* ni ddychwelant: ac nid ymgryfhâ neb yn anwiredd ei fuchedd.
14 Udganasant yr udgorn, i barottôi pawb: etto nid â neb i'r rhyfel; am *fod* fy nigllonedd yn erbyn eu holl lïaws.
15 Y cleddyf *fydd* oddi allan, yr haint hefyd a'r newyn o fewn: yr hwn *fyddo* yn y maes, a fydd farw gan gleddyf; a'r hwn *a fyddo* yn y ddinas, newyn a haint a'i difa ef.
16 ¶ Etto eu rhai dïangol hwy a ddïangant, ac ar y mynyddoedd y byddant hwy i gyd fel colommennod y dyffryn, yn griddfan, bob un am ei anwiredd.
17 Yr holl ddwylaw a laesant, a'r holl liniau a ânt yn ddwfr.
18 Ymwregysant hefyd mewn sachlïan, ac arswyd a'u toa hwynt; a *bydd* cywilydd ar bob wyneb, a moelni ar eu holl bennau hwynt.
19 Eu harian a daflant i'r heolydd, a'u haur a roir heibio: eu harian na'u haur ni ddichon eu gwared hwynt yn nydd digter yr ARGLWYDD: eu henaid ni ddiwallant, a'u coluddion ni lanwant: o herwydd tramgwydd eu hanwiredd ydyw.
20 ¶ A thegwch ei harddwch ef a osododd efe yn rhagoriaeth: ond gwnaethant ynddo ddelwau eu ffieidd-dra *a*'u brynti: am hynny y rhoddais ef ym mhell oddi wrthynt.
21 Ac mi a'i rhoddaf yn llaw dïeithriaid yn yspail, ac yn anrhaith i rai drygionus y tir; a hwy a'i halogant ef.
22 Troaf hefyd fy wyneb oddi wrthynt, a halogant fy nirgelfa: ïe, anrheithwyr a ddaw iddi, ac a'i halogant.
23 ¶ Gwna gadwyn; canys llanwyd y tir o farn waedlyd, a'r ddinas sydd lawn o drais.
24 Am hynny y dygaf rai gwaethaf y cenhedloedd, fel y meddiannont eu tai hwynt: gwnaf hefyd i falchder y cedyrn beidio; a'u cyssegroedd a halogir.
25 Y mae dinystr yn dyfod; a hwy a geisiant heddwch, ac nis *cânt*.
26 Daw trychineb ar drychineb, a bydd chwedl ar chwedl: yna y ceisiant weledigaeth gan y prophwyd; ond cyfraith a gyll gan yr offeiriad, a chynghor gan yr henuriaid.
27 Y brenhin a alara, a'r tywysog a wisgir âg anrhaith, a dwylaw pobl y tir a drallodir: gwnaf â hwynt yn ol eu ffordd, ac â'u barnedigaethau y barnaf hwynt; fel y gwybyddont mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

PENNOD 8.

1 *Eseciel, mewn gweledigaeth yn Jerusalem,* 5 *yn cael dangos iddo ddelw eiddigedd,* 7 *ac ystafelloedd y delwau,* 13 *a galarwyr Tammus,* 15 *a'r rhai oedd yn addoli tu a'r haul.* 18 *Digofaint Duw am eu delw-addoliaeth hwy.*

ABU yn y chweched flwyddyn, yn y chweched *mis*, ar y pummed *dydd* o'r mis, a mi yn eistedd yn fy nhŷ, a henuriaid Judah yn eistedd ger fy mron, syrthio o law yr ARGLWYDD DDUW arnaf yno.
2 Yna yr edrychais, ac wele gyffelybrwydd fel gwelediad tân; o wele diad ei lwynau ac isod, yn dân; ac o'i lwynau ac uchod, fel gwelediad disgleirdeb, megis lliw ambr.
3 Ac efe a estynodd lun llaw, ac a'm cymmerodd erbyn cudyn o'm pen: a chododd yr yspryd fi rhwng y ddaear a'r nefoedd, ac a'm dug i Jerusalem mewn gweledigaethau DUW, hyd ddrws y porth nesaf i mewn, yr hwn sydd yn edrych tu a'r gogledd, lle *yr ydoedd* eisteddfa delw yr eiddigedd, yr hon a wna eiddigedd.
4 Ac wele yno ogoniant DUW Israel, fel y weledigaeth a welswn yn y gwastadedd.
5 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, Mab dyn, cyfod yn awr dy lygaid *tu a* ffordd y gogledd. Felly y cyfodais fy llygaid *tu a* ffordd y gogledd; ac wele, tu a'r gogledd, wrth borth yr allor, ddelw yr eiddigedd hon yn y cyntedd.
6 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Mab dyn, a weli di beth y maent

hwy yn ei wneuthur, y ffieidd-dra mawr y mae tŷ Israel yn ei wneuthur yma, i'm gyrru ym mhell oddi wrth fy nghyssegr? ac etto dychwel, cei weled ffieidd-dra mwy.

7 ¶ Ac efe a'm dug i ddrws y cyntedd; a phan edrychais, wele dwll yn y pared.

8 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Mab dyn, cloddia yn y pared: a phan gloddiais yn y pared, wele ddrws.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Dos i mewn, ac edrych y ffieidd-dra drygionus y maent hwy yn eu gwneuthur yma.

10 Felly mi a euthum, ac a edrychais; ac wele bob llun ymlusgiad, ac anifail ffiaidd, a holl eilunod tŷ Israel, wedi eu portreio ar y pared o amgylch ogylch:

11 A dengwr a thri ugain o henuriaid tŷ Israel yn sefyll ar eu cyfer hwynt, a Jaasanïah mab Saphan yn sefyll yn eu canol, pob un a'i thusser yn ei law; a chwmmwl tew o fwg-darth oedd yn dyrchafu.

12 Ac efe a ddywedodd wrthyf, A weli di, fab dyn, yr hyn y mae henuriaid Israel yn ei wneuthur yn y tywyllwch, bob un o fewn ei ddelw-gelloedd? canys dywedant, Nid yw yr ARGLWYDD yn ein gweled; gadawodd yr ARGLWYDD y ddaear.

13 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, Tro etto, cei weled ffieidd-dra mwy, y rhai y maent hwy yn eu gwneuthur.

14 Ac efe a'm dug i ddrws porth tŷ yr ARGLWYDD, yr hwn *oedd* tu a'r gogledd; ac wele yno wragedd yn eistedd yn wylo am Tammus.

15 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, A weli di *hyn*, fab dyn? dychwel etto, cei weled ffieidd-dra mwy na hyn.

16 Ac efe a'm dug i gyntedd tŷ yr ARGLWYDD oddi fewn, ac wele *wrth* ddrws teml yr ARGLWYDD, rhwng y porth a'r allor, ynghylch pumwr ar hugain, a'u cefnau tu ag at deml yr ARGLWYDD, a'u hwynebau tu a'r dwyrain; ac yr oeddynt hwy yn ymgrymmu i'r haul tu a'r dwyrain.

17 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, A weli di *hyn*, fab dyn? ai peth ysgafn gan dŷ Judah wneuthur y ffieidd-dra a wnant yma? canys llanwasant y tir â thrais, a gwrthdroisant i'm cyffrôi i; ac wele hwy yn gosod blaguryn wrth eu trwyn.

18 Minnau hefyd a wnaf mewn llid: nid arbed fy llygad, ac ni thosturiaf: ac er iddynt lefain yn fy nghlustiau â llef uchel, ni wrandawaf hwynt.

PENNOD 9.

1 *Gweledigaeth ym dangos yr achubid rhai,* 5 *ac y distryweid y lleill.* 8 *Duw yn gurthod gwrandaw eiriol drostynt.*

LLEFODD hefyd â llef uchel lle y clywais, gan ddywedyd, Gwnewch i swyddogion y ddinas nesâu, a phob un â'i arf dinystr yn ei law.

2 Ac wele chwech o wŷr yn dyfod o ffordd y porth uchaf, yr hwn sydd yn edrych tu a'r gogledd, a phob un â'i arf dinystr yn ei law: ac *yr oedd* un gŵr yn eu mysg hwynt wedi ei wisgo â llïan, a chorn du ysgrifenydd wrth ei glun; a hwy a aethant i mewn, ac a safasant wrth yr allor bres.

3 A gogoniant DUW Israel a gyfododd oddi ar y cerub yr ydoedd efe arno, hyd riniog y tŷ. Ac efe a lefodd ar y gŵr oedd wedi ei wisgo â llïan, yr hwn *yr oedd* corn du ysgrifenydd wrth ei glun:

4 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrtho, Dos trwy ganol y ddinas, trwy ganol Jerusalem, a noda nôd ar dalcennau y dynion sydd yn ucheneidio ac yn gweiddi am y ffieidd-dra oll a wneir yn ei chanol hi.

5 ¶ Ac wrth y lleill y dywedodd efe lle y clywais, Ewch trwy y ddinas ar ei ol ef, a tharêwch; nac arbeded eich llygad, ac na thosturiwch.

6 Lleddwch yn farw yr henwr, y gŵr ieuangc, a'r forwyn, y plant hefyd, a'r gwragedd; ond na ddeuwch yn agos at un gŵr *y byddo* y nôd arno: ac ar fy nghyssegr y dechreuwch. Yna y dechreuasant ar y gwŷr hen, y rhai *oedd* o flaen y tŷ.

7 Dywedodd wrthynt hefyd, Halogwch y tŷ, a llenwch y cyntedd-

oedd o rai lladdedig: ewch allan. Felly hwy a aethant allan, ac a darawsant yn y ddinas.

8 ¶ A bu, a hwy yn lladd, a'm gadaw innau, i mi syrthio ar fy wyneb, a gwaeddi, a dywedyd, O ARGLWYDD DDUW, a ddifethi di holl weddill Israel, wrth dywallt dy lid ar Jerusalem?

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Anwiredd tŷ Israel a thŷ Judah *sydd* fawr dros ben; a llawn yw y tir o waed, a llanwyd y ddinas o gamwedd: o herwydd dywedant, Gwrthododd yr ARGLWYDD y ddaear, ac nid yw yr ARGLWYDD yn gweled.

10 Ac am danaf fi, nid erbyd fy llygad, ac ni thosturiaf; rhoddaf eu ffordd eu hun ar eu pennau.

11 Ac wele, y gŵr wedi ei wisgo â llïan, yr hwn *yr oedd* y corn du wrth ei glun, yn dwyn gair drachefn, gan ddywedyd, Gwneuthum fel y gorchymynaist i mi.

PENNOD 10.

1 *Gweledigaeth y marwor tân a vasgerid dros y ddinas.* 8 *Gweledigaeth y cerubiaid.*

YNA yr edrychais, ac wele yn y ffurfafen, yr hon *oedd* uwch ben y cerubiaid, megis maen saphir, fel dull cyffelybrwydd gorseddfa, a welid arnynt hwy.

2 Ac efe a lefarodd wrth y gŵr a wisgasid â llïan, ac a ddywedodd, Dos i mewn rhwng yr olwynion, hyd dan y cerub, a llanw dy ddwylaw o farwor tanllyd oddi rhwng y cerubiaid, a thaena ar y ddinas. Ac efe a aeth o flaen fy llygaid.

3 A'r cerubiaid oedd yn sefyll o du dehau y tŷ, pan aeth y gŵr i mewn; a'r cwmmwl a lanwodd y cyntedd nesaf i mewn.

4 Yna y cyfododd gogoniant yr ARGLWYDD oddi ar y cerub, *ac a safodd* oddi ar riniog y tŷ; a'r tŷ a lanwyd â'r cwmmwl, a llanwyd y cyntedd o ddisgleirdeb gogoniant yr ARGLWYDD.

5 A swn adenydd y cerubiaid a glybuwyd hyd y cyntedd nesaf allan, fel swn DUW Hollalluog pan lefarai.

6 Bu hefyd, wedi iddo orchymyn i'r gŵr a wisgasid â llïan, gan ddywedyd, Cymmer dân oddi rhwng yr olwynion, oddi rhwng y cerubiaid; fyned o hono ef, a sefyll wrth yr olwynion.

7 Yna yr estynodd *un* cerub ei law oddi rhwng y cerubiaid i'r tân yr hwn *oedd* rhwng y cerubiaid, ac a gymmerth, ac a roddodd *beth* yn nwylaw *yr hwn a* wisgasid â llïan: yntau a'*i* cymmerodd, ac a aeth allan.

8 ¶ A gwelid yn y cerubiaid lun llaw dyn dan eu hadenydd.

9 Edrychais hefyd, ac wele bedair olwyn wrth y cerubiaid, un olwyn wrth un cerub, ac un olwyn wrth gerub arall: a gwelediad yr olwynion *oedd* fel lliw maen beryl.

10 A'u gwelediad, un wedd oedd iddynt ill pedair, fel pe byddai olwyn y'nghanol olwyn.

11 Pan gerddent, ar eu pedwar ochr y cerddent; ni thröent pan gerddent, ond lle yr edrychai y pen, y cerddent ar ei ol ef; ni thröent pan gerddent.

12 Eu holl gnawd hefyd, a'u cefnau, a'u dwylaw, a'u hadenydd, a'r olwynion, *oedd* yn llawn llygaid oddi amgylch; *sef* yr olwynion oedd iddynt ill pedwar.

13 Galwyd hefyd lle y clywais arnynt hwy, *sef* ar yr olwynion, O olwyn.

14 A phedwar wyneb *oedd* i bob un; yr wyneb cyntaf yn wyneb cerub, a'r ail wyneb yn wyneb dyn, a'r trydydd yn wyneb llew, a'r pedwerydd yn wyneb eryr.

15 A'r cerubiaid a ymddyrchafasant. Dyma y peth byw a welais wrth afon Chebar.

16 A phan gerddai y cerubiaid, y cerddai yr olwynion wrthynt; a phan godai y cerubiaid eu hadenydd i ymddyrchafu oddi ar y ddaear, yr olwynion hwythau ni thröent chwaith oddi wrthynt.

17 Safent, pan safent hwythau; a chodent gyd â hwy, pan godent hwythau; canys yspryd y peth byw *oedd* ynddynt.

18 Yna gogoniant yr ARGLWYDD a aeth allan oddi ar riniog y tŷ, ac a safodd ar y cerubiaid.

19 A'r cerubiaid a godasant eu hadenydd, ac a ymddyrchafasant

oddi ar y ddaear o flaen fy llygaid: a'r olwynion *oedd* yn eu hymyl, pan aethant allan: a safodd *pob un* wrth ddrws porth y dwyrain i dŷ yr ARGLWYDD; a gogoniant DUW Israel *oedd* arnynt oddi arnodd.

20 Dyma y peth byw a welais dan DDUW Israel, wrth afon Chebar: a gwybûm mai y cerubiaid *oeddynt.*

21 Pedwar wyneb oedd i bob un, a phedair aden i bob un, a chyffelybrwydd dwylaw dyn dan eu hadenydd.

22 Cyffelybrwydd eu hwynebau *oedd* yr un wynebau ag a welais wrth afon Chebar, eu dull hwynt a hwythau: cerddent bob un yn uniawn rhag ei wyneb.

PENNOD 11.

1 Rhyfyg y tywysogion. 4 Eu pechod a'u barnedigaeth. 13 Eseciel yn cwyno, a Duw yn dangos iddo ei arfaeth wrth achub gweddill, 21 a chospi yr annuwiol. 22 Gogoniant Duw yn gadael y ddinas. 24 Dychwelyd Eseciel at y gaethgludo.

YNA y'm cyfododd yr ysbryd, ac y'm dug hyd borth dwyrain tŷ yr ARGLWYDD, yr hwn sydd yn edrych tu a'r dwyrain: ac wele bumwr ar hugain yn nrws y porth; *ac* yn eu mysg y gwelwn Jaasanïah mab Asur, a Phelatïah mab Benaiah, tywysogion y bobl.

2 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Ha fab dyn, dyma y gwŷr *sydd* yn dychymmygu anwiredd, ac yn cynghori drwg gynghor yn y ddinas hon:

3 Y rhai a ddywedant, Nid *yw* yn agos; adeiladwn dai; hi *yw* y crochan, a ninnau y cig.

4 Am hynny prophwyda i'w herbyn hwynt, prophwyda, fab dyn.

5 Yna y syrthiodd ysbryd yr ARGLWYDD arnaf, ac a ddywedodd wrthyf, Dywed, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Tŷ Israel, fel hyn y dywedasoch: canys mi a wn y pethau sydd yn dyfod i'ch meddwl chwi, bob un *o honynt.*

6 Amlhasoch eich lladdedigion o fewn y ddinas hon, a llanwasoch ei heolydd hi â chelaneddau.

7 Am hynny, fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Eich lladdedigion, y rhai a osodasoch yn ei chanol hi, *yw* y cig; a hithau *yw* y crochan: chwithau a ddygaf allan o'i chanol.

8 Y cleddyf a ofnasoch, a'r cleddyf a ddygaf arnoch, medd yr ARGLWYDD DDUW.

9 Dygaf chwi hefyd allan o'i chanol hi, a rhoddaf chwi yn llaw dïeithriaid, a gwnaf farn yn eich mysg.

10 Ar y cleddyf y syrthiwch, ar derfyn Israel y barnaf chwi; fel y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

11 *Y ddinas* hon ni bydd i chwi yn grochan, ni byddwch chwithau yn gig o'i mewn; *ond* ar derfyn Israel y barnaf chwi:

12 A chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD: canys ni rodiasoch yn fy neddfau, ac ni wnaethoch fy marnedigaethau; ond yn ol defodau y cenhedloedd o'ch amgylch y gwnaethoch.

13 ¶ A phan brophwydais, bu farw Pelatïah mab Benaiah: yna syrthiais ar fy wyneb, a gwaeddais â llef uchel, a dywedais, O ARGLWYDD DDUW, a wnei di drangc ar weddill Israel?

14 A daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

15 Ha fab dyn, dy frodyr, dy frodyr, dynion dy geraint, a holl dŷ Israel yn gwbl, *ydyw* y rhai y dywedodd preswylwyr Jerusalem wrthynt, Ymbellhêwch oddi wrth yr ARGLWYDD; i ni y rhodded y tir hwn yn etifeddiaeth.

16 Dywed am hynny, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Er gyrru o honof hwynt ym mhell ym mysg y cenhedloedd, ac er gwasgaru o honof hwynt trwy y gwledydd, etto byddaf yn gyssegr bychan iddynt yn y gwledydd lle y deuant.

17 Dywed gan hynny, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Casglaf chwi hefyd o fysg y bobloedd, a chynhullaf chwi o'r gwledydd y'ch gwasgarwyd ynddynt, a rhoddaf i chwi dir Israel.

18 A hwy a ddeuant yno, ac a symmudant ei holl frynti hi a'i holl ffieidd-dra allan o honi hi.

19 A rhoddaf iddynt un galon, ac yspryd newydd a roddaf ynoch; tynnaf hefyd y galon garreg ymaith o'u cnawd hwynt, a rhoddaf iddynt galon gig:
20 Fel y rhodiont yn fy neddfau, ac y cadwont fy marnedigaethau, ac y gwnelont hwynt: a hwy a fyddant yn bobl i mi, a minnau a fyddaf Dduw iddynt hwy.
21 Ond *am y rhai* y mae eu calon yn myned ar ol meddwl eu brynti a'u ffieidd-dra, rhoddaf eu ffordd hwynt ar eu pennau eu hun, medd yr Arglwydd Dduw.
22 ¶ Yna y cerubiaid a gyfodasant eu hadenydd, a'r olwynion yn eu hymyl, a gogoniant Duw Israel *oedd* arnynt oddi arnodd.
23 A gogoniant yr Arglwydd a ymddyrchafodd oddi ar ganol y ddinas, ac a safodd ar y mynydd *sydd* o'r tu dwyrain i'r ddinas.
24 ¶ Yna yr yspryd a'm cododd i, ac a'm dug hyd Caldea at y gaethglud mewn gweledigaeth trwy yspryd Duw. A'r weledigaeth a welswn a ddyrchafodd oddi wrthyf.
25 Yna y lleferais wrth y rhai o'r gaethglud holl eiriau yr Arglwydd, y rhai a ddangosasai efe i mi.

PENNOD 12.

1 Rhith ac arwydd symmudiad Eseciel, 8 yn dangos caethiwed Sedeciah. 17 Dychryn Eseciel yn dangos anghyfannedd-dra yr Iuddewon. 21 Beio ar ryfygus ddiareb yr Iuddewon. 26 Ebrwydded y weledigaeth.

AGAIR yr Arglwydd a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
2 Trigo yr wyt ti, fab dyn, yng nghanol tŷ gwrthryfelgar, y rhai *y mae* llygaid iddynt i weled, ac ni welant; clustiau iddynt i glywed, ac ni chlywant: canys tŷ gwrthryfelgar *ydynt.*
3 A thithau, fab dyn, gwna i ti offer caethglud, a muda liw dydd o flaen eu llygaid hwynt; ïe, muda o'th le dy hun i le arall y'ngŵydd eu llygaid hwynt: nid hwyrach y gwelant, er eu *bod* yn dŷ gwrthryfelgar.
4 A dwg allan dy ddodrefn liw dydd y'ngŵydd eu llygaid, fel dodrefn caethglud: a dos allan yn yr hwyr y'ngŵydd eu llygaid, fel rhai yn myned allan i gaethglud.
5 Cloddia i ti o flaen eu llygaid hwynt trwy y mur, a dwg allan trwy hwnnw.
6 Ar *dy* ysgwydd y dygi yng ngŵydd eu llygaid hwynt, yn y tywyll y dygi allan: dy wyneb a guddi, fel na welech y ddaear: canys *yn* arwydd y'th roddais i dŷ Israel.
7 Ac mi a wneuthum felly fel y'm gorchymynwyd: dygais fy offer allan liw dydd, fel offer caethglud; ac yn yr hwyr y cloddiais trwy y mur â'm llaw: yn y tywyll y dygais allan, ar *fy* ysgwydd y dygais o flaen eu llygaid hwynt.
8 ¶ A'r bore y daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd,
9 Ha fab dyn, oni ddywedodd tŷ Israel, y tŷ gwrthryfelgar, wrthyt, Beth yr wyt ti yn ei wneuthur?
10 Dywed di wrthynt, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, I'r tywysog yn Jerusalem *y mae* y baich hwn, ac i holl dŷ Israel y rhai *sydd* yn eu mysg.
11 Dywed, Eich arwydd chwi *ydwyf* fi; fel y gwneuthum i, felly y gwneir iddynt hwy: mewn caethglud yr ânt i gaethiwed.
12 A'r tywysog yr hwn *sydd* yn eu canol a ddwg ar *ei* ysgwydd yn y tywyll, ac a â allan: cloddiant trwy y mur, i ddwyn allan trwyddo: ei wyneb a guddia fel na welo efe y ddaear â'*i* lygaid.
13 A mi a daenaf fy rhwyd arno ef, fel y dalier ef yn fy rhwyd: a dygaf ef i Babilon, tir y Caldeaid; ac ni wêl efe hi, etto yno y bydd efe farw.
14 A gwasgaraf yr holl rai *sydd* yn ei gylch ef i'w gynnorthwyo, a'i holl fyddinoedd, tu a phob gwynt; a thynnaf gleddyf ar eu hol hwynt.
15 A hwy a gânt wybod mai myfi *yw* yr Arglwydd, wedi gwasgaru o honof hwynt ym mysg y cenhedloedd, a'u taenu ar hyd y gwledydd.
16 Etto gweddillaf o honynt ychydig ddynion oddi wrth y cleddyf, oddi wrth y newyn, ac oddi wrth yr haint; fel y mynegont eu holl ffieidd-dra ym mysg y cenhedloedd, lle y delont: a

gwybyddant mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.
17 ¶ Gair yr ARGLWYDD hefyd a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
18 Ha fab dyn, bwyttêi dy fara dan grynu, a'th ddwfr a yfi mewn dychryn a gofal:
19 A dywed wrth bobl y tir, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW am drigolion Jerusalem, *ac* am wlad Israel; Eu bara a fwyttânt mewn gofal, a'u dwfr a yfant mewn syndod, fel yr anrheithir ei thir o'i chyflawnder, am drais y rhai oll a drigant ynddi.
20 A'r dinasoedd cyfanneddol a anghyfanneddir, a'r tir a fydd anrheithiol; felly y gwybyddwch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.
21 ¶ A daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,
22 Ha fab dyn, beth *yw* y ddïareb hon gennych am dir Israel, gan ddywedyd, Y dyddiau a estynwyd, a darfu am bob gweledigaeth?
23 Am hynny dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Gwnaf i'r ddïareb hon beidio, fel nad arferont hi yn ddïareb mwy yn Israel: ond dywed wrthynt, Y dyddiau sydd agos, a sylwedd pob gweledigaeth.
24 Canys ni bydd mwy un weledigaeth ofer, na dewiniaeth wenhieithus, o fewn tŷ Israel.
25 Canys myfi *yw* yr ARGLWYDD: mi a lefaraf, a'r gair a lefarwyf a wneir; nid oedir ef mwy: o herwydd yn eich dyddiau chwi, O dŷ gwrthryfelgar, y dywedaf y gair, ac a'i gwnaf, medd yr ARGLWYDD DDUW.
26 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
27 Ha fab dyn, wele dŷ Israel yn dywedyd, Y weledigaeth a wêl efe *fydd* wedi dyddiau lawer, a phrophwydo y mae efe am amseroedd pell.
28 Am hynny dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Nid oedir dim o'm geiriau mwy, ond y gair a ddywedais a wneir, medd yr ARGLWYDD DDUW.

PENNOD 13.

1 *Argyhoeddi prophwydi celwyddog,* 10 *a'u priddgalch heb dymheru.* 17 *Y prophwydesau a'u clustoyau.*

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
2 Prophwyda, fab dyn, yn erbyn prophwydi Israel, y rhai sydd yn prophwydo, a dywed wrth y rhai a brophwydant o'u calon eu hun, Gwrandêwch air yr ARGLWYDD.
3 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Gwae y prophwydi ynfyd, y rhai a rodiant yn ol eu hyspryd eu hun, ac heb weled *dim.*
4 Dy brophwydi, Israel, ydynt fel llwynogod yn yr anialwch.
5 Ni safasoch yn yr adwyau, ac ni chauasoch y cae i dŷ Israel, i sefyll yn y rhyfel ar ddydd yr ARGLWYDD.
6 Gwagedd a gau-ddewiniaeth a welsant, y rhai a ddywedant, Dywedodd yr ARGLWYDD; a'r ARGLWYDD heb eu hanfon hwynt: a pharasant i *eraill* ddisgwyl am gyflawni y gair.
7 Onid ofer weledigaeth a welsoch, a gau-ddewiniaeth a draethasoch, pan ddywedasoch, Yr ARGLWYDD a ddywedodd; a minnau heb ddywedyd?
8 Am hynny, fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, Am lefaru o honoch wagedd, a gweled o honoch gelwydd; am hynny wele fi i'ch erbyn, medd yr ARGLWYDD DDUW.
9 A bydd fy llaw yn erbyn y prophwydi sydd yn gweled gwagedd, ac yn dewinio celwydd; yng nghyfrinach fy mhobl ni byddant, ac o fewn ysgrifen tŷ Israel ni ysgrifenir hwynt, i dir Israel hefyd ni ddeuant; a gwybyddwch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD DDUW.
10 ¶ O achos, ïe, o achos hudo o honynt fy mhobl, gan ddywedyd, Heddwch; ac nid *oedd* heddwch; un a adeiladai bared, ac wele eraill yn ei briddo â *chlai* heb ei dymheru.
11 Dywed wrth y rhai a'i priddant â *phridd* rhydd, y syrth efe: canys cur-wlaw a fydd, a chwithau gerrig cenllysg a syrthiwch; a gwynt tymhestlog a'i rhwyga.
12 Wele, pan syrthio y pared, oni ddywedir wrthych, *Mae* y clai â'r hwn y priddasoch *ef?*

13 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, Minnau a'i rhwygaf â gwynt tymhestlog yn fy llid; a chur-wlaw fydd yn fy nig, a cherrig cenllysg yn *fy* llidiowgrwydd, i'w ddifetha.

14 Felly y bwriaf i lawr y pared a briddasoch â *phridd* heb ei dymheru, ac a'i tynnaf hyd lawr, fel y dinoether ei sylfaen, ac efe a syrth, a chwithau a ddifethir yn ei ganol ef; a chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

15 Fel hyn y gorphenaf fy llid ar y pared, ac ar y rhai a'i priddasant â *phridd* heb dymheru; a dywedaf wrthych, Y pared nid *yw*, na'r rhai a'i priddasant:

16 *Sef* prophwydi Israel, y rhai a brophwydant am Jerusalem, ac a welant iddi weledigaethau heddwch, ac nid *oes* heddwch, medd yr ARGLWYDD DDUW.

17 ¶ Tithau fab dyn, gosod dy wyneb yn erbyn merched dy bobl, y rhai a brophwydant o'u calon eu hun; a prophwyda yn eu herbyn hwynt,

18 A dywed, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Gwae y gwnïadyddesau clustogau dan holl benelinoedd fy mhobl, a'r rhai a weithiant foledau am ben pob corpholaeth, i hela eneidiau. Ai eneidiau fy mhobl a heliwch chwi, ac a gedwch chwi yn fyw yr eneidiau *a ddêl* attoch?

19 Ac a halogwch chwi fi ym mysg fy mhobl er dyrneidiau o haidd, ac am dammeidiau o fara, i ladd yr eneidiau ni ddylent farw, a chadw yn fyw yr eneidiau ni ddylent fyw, gan ddywedyd o honoch gelwydd wrth fy mhobl, y rhai a wrandawent gelwydd?

20 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Wele fi yn erbyn eich clustogau chwi, â'r rhai yr ydych yno yn hela eneidiau, i beri *iddynt* ehedeg, a rhwygaf hwynt oddi wrth eich breichiau; a gollyngaf yr eneidiau, *sef* yr eneidiau yr ydych yn eu hela, i beri *iddynt* ehedeg.

21 Rhwygaf hefyd eich moledau chwi, a gwaredaf fy mhobl o'ch llaw, ac ni byddant mwy yn eich llaw chwi yn helfa; a chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

22 Am dristâu calon y cyfiawn trwy gelwydd, a minnau heb ei ofidio ef; ac am gadarnhâu dwylaw yr annuwiol, fel na ddychwelai o'i ffordd ddrygionus, trwy addaw iddo einioes;

23 O herwydd hynny ni welwch wagedd, ac ni ddewiniwch ddewiniaeth mwy; canys gwaredaf fy mhobl o'ch llaw chwi; a chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

PENNOD 14.

1 Duw yn atteb delw-addolwyr yn ol meddwl eu calon eu hun. 6 Eu hannog hwy i edïarhâu, rhag ofn barnedigaethau, o herwydd gau-brophwydi. 12 Sicr farn Duw ar ddaufon newyn, 15 a bwystfilod niweidiol, 17 a chleddyf, 19 a haint y nodau. 22 Gweddill a achubir, er esampl i eraill.

YNA y daeth attaf wŷr o henuriaid Israel, ac a eisteddasant o'm blaen.

2 A daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

3 Y gwŷr hyn, O fab dyn, a ddyrchafasant eu heilunod yn eu calonnau, ac a roddasant dramgwydd eu hanwiredd ar gyfer eu hwynebau: gan ymofyn a ymofyn y cyfryw â myfi?

4 Am hynny ymddiddan â hwynt, a dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Pob un o dŷ Israel, yr hwn a ddyrchafo ei eilunod yn ei galon, ac a osodo dramgwydd ei anwiredd ar gyfer ei wyneb, ac a ddaw at y prophwyd; myfi yr ARGLWYDD a attebaf yr hwn a ddelo yn ol amlder ei eilunod,

5 I ddal tŷ Israel yn eu calonnau, am iddynt ymddïeithrio oddi wrthyf oll trwy eu heilunod.

6 ¶ Am hynny dywed wrth dŷ Israel, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Trowch, a dychwelwch oddi wrth eich eilunod, a throwch eich wynebau oddi wrth eich holl ffieidd-dra.

7 Canys pob un o dŷ Israel, ac o'r dïeithr a ymdeithio o fewn Israel, a ymneillduo oddi ar fy ol i, ac a ddyrchafo ei eilunod yn ei galon, ac a osodo dramgwydd ei anwiredd ar gyfer ei wyneb, ac a ddêl at brophwyd i ymofyn â myfi

trwyddo ef; myfi yr ARGLWYDD a attebaf iddo trwof fy hun.

8 Gosodaf hefyd fy wyneb yn erbyn y gŵr hwnnw, a gwnaf ef yn arwydd ac yn ddïareb, a thorraf ef ymaith o fysg fy mhobl; fel y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

9 Ac os twyllir y prophwyd pan lefaro air, myfi yr ARGLWYDD a dwyllodd y prophwyd hwnnw; a mi a estynaf *hefyd* fy llaw arno ef, ac a'i difethaf o fysg fy mhobl Israel.

10 A hwy a ddygant eu hanwiredd: un fath fydd anwiredd yr ymofynydd ag anwiredd y prophwyd:

11 Fel na chyfeiliorno tŷ Israel mwy oddi ar fy ol, ac na haloger hwy mwy â'u holl droseddau; ond bod o honynt i mi yn bobl, a minnau iddynt hwy yn DDUW, medd yr Arglwydd DDUW.

12 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf drachefn, gan ddywedyd,

13 Ha fab dyn, pan becho gwlad i'm herbyn trwy wneuthur camwedd, yna yr estynaf fy llaw arni, a thorraf ffon ei bara hi, ac anfonaf arni newyn, ac a dorraf ymaith o honi ddyn ac anifail.

14 Pe byddai yn ei chanol y triwyr hyn, Noah, Daniel, a Job, hwynt-hwy yn eu cyfiawnder a achubent eu henaid eu hun *yn unig*, medd yr ARGLWYDD DDUW.

15 ¶ Os bwystfil niweidiol a yrraf trwy y wlad, a'i difa o hwnnw, fel y byddo yn anghyfannedd, heb gynniweirydd rhag ofn y bwystfil:

16 *Pe byddai* y triwyr hyn yn ei chanol, *fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, ni waredent na meibion na merched; hwynt-hwy yn unig a waredid, a'r tir a fyddai yn anghyfannedd.

17 ¶ Neu *os* cleddyf a ddygaf ar y tir hwnnw, a dywedyd o honof, Cynniwair, gleddyf, trwy y tir; fel y torrwyf ymaith o hono ddyn ac anifail:

18 A'r triwyr hyn yn ei ganol, *fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, ni achubent na meibion na merched, ond hwynt-hwy yn unig a achubid.

19 ¶ Neu *os* haint a anfonaf i'r wlad honno, a thywallt o honof fy llid arni mewn gwaed, gan dorri ymaith o honi ddyn ac anifail;

20 A Noah, Daniel, a Job, yn ei chanol hi; *fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, ni waredent na mab na merch; hwynt-hwy yn eu cyfiawnder a waredent eu heneidiau eu hun *yn unig*.

21 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Pa faint mwy, pan anfonwyf fy mhedair drygfarn, cleddyf, a newyn, a bwystfil niweidiol, a haint, ar Jerusalem, i dorri ymaith o honi ddyn ac anifail?

22 ¶ Etto wele, bydd ynddi weddill dïangol, y rhai a ddygir allan, yn feibion a merched: wele hwynt yn dyfod allan attoch, a chewch weled eu ffyrdd hwynt a'u gweithredoedd; fel yr ymgysuroch o herwydd yr adfyd a ddygais ar Jerusalem, *sef* yr hyn oll a ddygais arni.

23 Ïe, cysurant chwi, pan weloch eu ffordd a'u gweithredoedd: a chewch wybod nad heb achos y gwneuthum yr hyn oll a wneuthum i'w herbyn hi, medd yr ARGLWYDD DDUW.

PENNOD 15.

2 Trwy ddangos mor anghymmwys i wneuthur defnydd o honi ydyw y winwydden, 6 y dangosir y llysid ac y gwrthodid Jerusalem.

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,

2 Ha fab dyn, beth yw coed y winwydden *fwy* na phob coed *arall*, *neu* gaingc yr hon sydd ym mysg prennau y coed?

3 A gymmerir o honi goed i wneuthur gwaith? a gymmerant o honi hoel i grogi un offeryn arni?

4 Wele, yn ymborth i'r tân y rhoddir hi; difaodd y tân ei deuben hi, ei chanol a olosgwyd: a wasanaetha hi mewn gwaith?

5 Wele, pan oedd gyfan, nid oedd gymmwys i ddim gwaith: pa faint llai, gan ei difa o dân a'i golosgi, y bydd hi etto gymmwys i waith?

6 ¶ Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Megis pren y winwydden ym mysg prennau y coed, yr hon a roddais yn ymborth

i'r tân, felly y rhoddaf drigolion Jerusalem.

7 A gosodaf fy wyneb yn eu herbyn hwynt: o'r *naill* dân y deuant allan, a thân *arall* a'u difa hwynt; fel y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan osodwyf fy wyneb i'w herbyn hwynt.

8 Gwnaf hefyd y wlad yn anrhaith, am wneuthur o honynt gamwedd, medd yr ARGLWYDD DDUW.

PENNOD 16.

1 *Trwy gyffelybrwydd o ddyn bach mewn gofidus gyflwr, y dangosir cyflwr naturiol Jerusalem.* 6 *Anfeidrol gariad Duw tu ag atti hi:* 15 *a'i hanferth butteindra hithau;* 35 *a'i barn dost.* 44 *Bod ei phechod hi yn gymmaint a'r eiddo ei mam, ac yn fwy na'r eiddo ei chwiorydd Sodom a Gomorrah; ac am hynny yn galw am farnedigaethau.* 60 *Addaw trugaredd iddi yn y diwedd.*

ADAETH gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

2 Ha fab dyn, gwna i Jerusalem adnabod ei ffieidd-dra,

3 A dywed, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW wrth Jerusalem; Dy drigfa a'th enedigaeth *sydd* o wlad Canaan: dy dad *oedd* Amoriad, a'th fam yn Hittëes.

4 Ac *am* dy enedigaeth, ar y dydd y'th anwyd ni thorrwyd dy fogail, ac mewn dwfr ni'th olchwyd i'*th* feddalhâu: ni'th gyweiriwyd chwaith â halen, ac ni'th rwymwyd â rhwymyn.

5 Ni thosturiodd llygad wrthyt, i wneuthur i ti un o hyn, i dosturio wrthyt; ond ar wyneb y maes y'th daflwyd, i ffieiddio dy einioes, ar y dydd y'th aned.

6 ¶ A phan dramwyais heibio i ti, a'th weled yn ymdrybaeddu yn dy waed, dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd fyw; ïe, dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd fyw.

7 Yn fyrddiwn y'th wneuthum fel gwellt y maes, a thi a gynnyddaist ac a aethost yn fawr, ac a ddaethost i harddwch godidog: *dy* fronnau a chwyddasant, a'th wallt a dyfodd, a thi yn llom ac yn noeth *o'r blaen.*

8 Pan euthum heibio i ti, ac edrych arnat, wele dy amser yn amser serchowgrwydd: yna lledais fy aden drosot, a chuddiais dy noethni: tyngais hefyd i ti, ac euthum mewn cyfammod â thi, medd yr ARGLWYDD DDUW, a thi a aethost yn eiddof fi.

9 Yna mi a'th olchais â dwfr; ïe, golchais dy waed oddi wrthyt, ac irais di âg olew.

10 Mi a'th wisgais hefyd â gwaith edau a nodwydd, rhoddais i ti hefyd esgidiau o groen daearfoch, a gwregysais di â lliïan main, a gorchuddiais di â sidan.

11 Mi a'th herddais hefyd â harddwch, a rhoddais freichledau am dy ddwylaw, a chadwyn am dy wddf.

12 Rhoddais hefyd dlws ar dy dalcen, a thlysau wrth dy glustiau, a choron hardd am dy ben.

13 Felly y'th harddwyd âg aur ac arian; a'th wisg *oedd* liïan main, a sidan, a gwaith edau a nodwydd; peillied, a mêl, ac olew a fwyttêit: teg hefyd odiaeth oeddit, a ffynnaist yn frenhiniaeth.

14 Aeth allan *hefyd* i ti enw ym mysg y cenhedloedd, am dy degwch: canys cyflawn *oedd* gan fy harddwch yr hwn a osodaswn arnat, medd yr ARGLWYDD DDUW.

15 ¶ Ond ti a ymddiriedaist i'th degwch, a phutteiniaist o herwydd dy enw, a thywelltaist dy butteindra ar bob cynniweirydd; eiddo ef ydoedd.

16 Cymmeraist *hefyd* o'th ddillad, a gwnaethost i ti uchelfeydd brithion, a phutteiniaist arnynt: *y fath* ni ddaw, ac ni bydd *felly.*

17 A chymmeraist offer dy harddwch o'm haur ac o'm harian i, y rhai a roddaswn i ti, a gwnaethost i ti ddelwau gwŷr, a phutteiniaist gyd â hwynt.

18 Cymmeraist *hefyd* dy wisgoedd o waith edau a nodwydd, ac a'u gwisgaist hwynt: fy olew *hefyd* a'm harogl-darth a roddaist o'u blaen hwynt.

19 Felly fy mwyd yr hwn a roddaswn i ti, yn beillied, ac yn olew, ac yn fêl, *â'r rhai* y'th borthaswn di; rhoddaist hynny hefyd o'u blaen hwynt yn arogl peraidd: *fel hyn* y bu, medd yr ARGLWYDD DDUW.

20 Cymmeraist hefyd dy feibion a'th ferched, y rhai a blantasit i

mi; y rhai hyn a aberthaist iddynt i'w bwytta. *Ai* bychan *hyn* o'th butteindra di,

21 Ladd o honot fy mhlant, a'u rhoddi hwynt i'w tynnu trwy *y tân* iddynt?

22 Ac yn dy holl ffieidd-dra a'th butteindra ni chofiaist ddyddiau dy ieuengctid, pan oeddit lom a noeth, *a*'th fod yn ymdrybaeddu yn dy waed.

23 A bu ar ol dy holl ddrygioni, (Gwae, gwae i ti! medd yr ARGLWYDD DDUW,)

24 Adeiladu o honot i ti uchelfa, a gwneuthur i ti uchelfa ym mhob heol.

25 Ym mhen pob ffordd yr adeiledaist dy uchelfa, a gwnaethost dy degwch yn ffiaidd, ac a ledaist dy draed i bob cynniweirydd, ac amlheaist dy butteindra.

26 Putteiniaist hefyd gyd â meibion yr Aipht dy gymmydogion, mawr eu cnawd; ac a amlheaist dy butteindra, i'm digio i.

27 Am hynny wele, estynais fy llaw arnat, a phrinheais dy ran, a rhoddais di wrth ewyllys dy gaseion, merched y Philistiaid, y rhai sydd gywilydd ganddynt dy ffordd ysgeler.

28 Putteiniaist hefyd gyd â meibion Assur, o eisieu cael dy ddigon; a hefyd wedi putteinio gyd â hwynt, ni'th ddigonwyd.

29 Amlheaist hefyd dy butteindra y'ngwlad Canaan hyd Caldea; ac etto ni'th ddigonwyd â hyn.

30 Mor llesg yw dy galon, medd yr ARGLWYDD DDUW, gan i ti wneuthur hyn oll, *sef* gwaith putteinwraig yn llywodraethu!

31 Pan adeiledaist dy uchelfa ym mhen pob ffordd, ac y gwnaethost dy uchelfa ym mhob heol; ac nid oeddit fel puttain, gan dy fod yn dirmygu gwobr;

32 *Ond fel* gwraig a dorrai ei phrïodas, *ac* a gymmerai ddïeithriaid yn lle ei gŵr.

33 I bob puttain y rhoddant wobr; ond tydi a roddi dy wobr i'th holl gariadau, ac a'u gobrwyi hwynt i ddyfod attat oddi amgylch i'th butteindra.

34 Ac ynot ti y mae y gwrthwyneb i wragedd *eraill* yn dy butteindra, gan na phutteiniodd neb ar dy ol di: canys lle y rhoddi wobr, ac na roddir gwobr i ti, yna yr wyt yn y gwrthwyneb.

35 ¶ Gan hynny, O buttain, clyw air yr ARGLWYDD:

36 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Am dywallt dy frynti, a datguddio dy noethni trwy dy butteindra gyd â'th gariadau, a chyd â holl eilunod dy ffieidd-dra, a thrwy waed dy feibion y rhai a roddaist iddynt;

37 Am hynny wele fi yn casglu dy holl gariadau gyd â'r rhai yr ymddigrifaist, a'r rhai oll a geraist, gyd â'r rhai oll a gaseaist; *ïe*, casglaf hwynt i'th erbyn oddi amgylch, ac a ddinoethaf dy noethni iddynt, fel y gwelont dy holl noethni.

38 Barnaf di hefyd â barnedigaethau putteiniaid, a'r rhai a dywalltant waed; a rhoddaf i ti waed mewn llidiowgrwydd ac eiddigedd.

39 *Ïe*, rhoddaf di yn eu dwylaw hwynt, a hwy a ddinystriant dy uchelfa, ac a fwriant i lawr dy uchel-leoedd: dïosgant di hefyd o'th ddillad, a chymmerant ddodrefn dy harddwch, ac a'th adawant yn llom ac yn noeth.

40 Dygant hefyd dyrfa i'th erbyn, ac a'th labyddiant â meini, ac â'u cleddyfau y'th drywanant.

41 Llosgant *hefyd* dy dai â thân, a gwnant arnat farnedigaethau yng ngolwg gwragedd lawer: a mi a wnaf i ti beidio â phutteinio, a hefyd ni roddi wobr mwy.

42 Felly y llonyddaf fy llid i'th erbyn, a symmud fy eiddigedd oddi wrthyt; mi a lonyddaf hefyd, ac ni ddigiaf mwy.

43 Am na chofiaist ddyddiau dy ieuengctid, ond annogaist fi i lid yn hyn oll; am hynny wele, myfi a roddaf dy ffordd ar *dy* ben, medd yr ARGLWYDD DDUW: fel na wnelech yr ysgelerder hyn am ben dy holl ffieidd-dra.

44 ¶ Wele, pob dïarhebydd a ddïarheba am danat, gan ddywedyd, Fel y fam *y mae* y ferch.

45 Merch dy fam, yr hon a ffieiddiodd ei gŵr a'i meibion, *ydwyt* ti;

a chwaer dy chwïorydd *ydwyt*, y rhai a ffieiddiasant eu gwŷr a'u meibion: eich mam *oedd* Hittëes, a'ch tad yn Amoriad.

46 A'th chwaer hynaf yw Samaria, hi a'i merched, yn trigo ar dy law aswy: a'th chwaer ieuangach na thi, yr hon sydd yn trigo ar dy law ddehau, *yw* Sodom a'i merched.

47 Etto ni rodiaist yn eu ffyrdd hwynt, ac nid yn ol eu ffieidd-dra hwynt y gwnaethost: megis *pettai hynny* ychydig bach, ymlygraist yn fwy na hwy yn dy holl ffyrdd.

48 *Fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, ni wnaeth Sodom dy chwaer, na hi na'i merched, fel y gwnaethost ti a'th ferched.

49 Wele, hyn oedd anwiredd dy chwaer Sodom, Balchder, digonedd bara, ac amlder o seguryd oedd ynddi ac yn ei merched, ac ni chryfhaodd hi law yr anghenog a'r tlawd.

50 A hwy a ymddyrchafasant, ac a wnaethant ffieidd-dra o'm blaen i: am hynny y symmudais hwynt, fel y gwelais *yn dda.*

51 Samaria hefyd ni phechodd fel hanner dy bechod di; ond tydi a amlheaist dy ffieidd-dra yn fwy na hwynt, ac a gyfiawnheaist dy chwïorydd yn dy holl ffieidd-dra a wnaethost.

52 Tithau yr hon a fernaist ar dy chwïorydd, dwg dy waradwydd am dy bechodau y rhai a wnaethost yn ffieiddiach na hwynt: cyfiawnach ydynt na thi: cywilyddia dithau, a dwg dy waradwydd, gan gyfiawnhâu o honot dy chwïorydd.

53 Pan ddychwelwyf eu caethiwed hwynt, caethiwed Sodom a'i merched, a chaethiwed Samaria a'i merched, yna *y dychwelaf* gaethiwed dy gaethion dithau a'th ferched yn eu canol hwynt:

54 Fel y dygech dy warth, ac y'th waradwydder, am yr hyn oll a wnaethost, gan gysuro o honot hwynt.

55 Pan ddychwelo dy chwïorydd, Sodom a'i merched, i'w hen gyflwr, a phan ddychwelo Samaria a'i merched i'w hen gyflwr, yna tithau a'th ferched a ddychwelwch i'ch hen gyflwr.

56 Canys nid oedd mo'r sôn am Sodom dy chwaer yn dy enau yn nydd dy falchder,

57 Cyn datguddio dy ddrygioni, megis *yn* amser *dy* waradwydd gan ferched Syria, a'r holl rai o'i hamgylch, merched y Philistiaid, y rhai a'th ddïystyrant o bob parth.

58 Dy ysgelerder, a'th ffieidd-dra hefyd, ti a'u dygaist hwynt, medd yr ARGLWYDD.

59 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Felly y gwnaf â thi fel y gwnaethost, yr hon a ddïystyraist lw, i ddiddymmu y cyfammod.

60 ¶ Etto mi a gofiaf fy nghyfammod â thi yn nyddiau dy ieuengctid, ac a sicrhâf i ti gyfammod tragywyddol.

61 Ynà y cofi dy ffyrdd, ac y cywilyddi, pan dderbyniech dy chwïorydd hŷn na thi, gyd a'r rhai ieuangach na thi: a rhoddaf hwynt yn ferched i ti, a *hynny* nid wrth dy ammod di.

62 A mi a sicrhâf fy nghyfammod â thi; a chei wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD:

63 Fel y cofiech di, ac y cywilyddiech, ac na byddo i ti mwy agoryd safn gan dy waradwydd, pan ddyhudder fi tu ag attat, am yr hyn oll a wnaethost, medd yr ARGLWYDD DDUW.

PENNOD 17.

1 *Trwy ddammeg o ddau eryr a gwinwydden,* 11 *y dangosir barnedigaeth Duw ar Jerusalem, am droi oddi wrth Babilon at yr Aipht.* 23 *Duw yn addaw plannu cedrwydden yr efengyl.*

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,

2 Mab dyn, traetha ddychymmyg, a dïarheba ddïareb wrth dŷ Israel,

3 A dywed, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Eryr mawr, mawr ei adenydd, hir ei asgell, llawn plu, yr hwn oedd iddo amryw liwiau, a ddaeth i Libanus, ac a gymmerth frigyn uchaf y gedrwydden.

4 Torrodd frig ei blagur hi, ac a'i dug i dir marsiandïaeth: yn ninas marchnadyddion y gosododd efe ef.

5 A chymmerth o had y tir, ac a'i bwriodd mewn maes ffrwyth-

lawn; efe a'*i* gosododd *ef* wrth ddyfroedd lawer, *ac* a'i plannodd *fel* helygen.

6 Ac efe a dyfodd, ac a aeth yn winwydden wasgarog, isel o dwf, a'i changau yn troi atto ef; a'i gwraidd oedd dano ef: felly yr aeth yn winwydden, ac y dug geingciau, ac y bwriodd frig.

7 Yr oedd hefyd ryw eryr mawr, mawr ei esgyll, ac â llawer o blu: ac wele y winwydden hon yn plygu ei gwraidd tu ag atto ef, ac yn bwrw ei cheingciau tu ag atto, i'w dyfrhâu ar hyd rhigolau ei phlaniad.

8 Mewn maes da wrth ddyfroedd lawer y plannasid hi, i fwrw brig, ac i ddwyn ffrwyth, fel y byddai yn winwydden hardd-deg.

9 Dywed, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW: A lwydda hi? oni thyn efe ei gwraidd hi? ac oni thyr efe ei ffrwyth hi, fel y gwywo? sych holl ddail ei brig, ac nid trwy fraich mawr, na thrwy bobl lawer, i'w thynnu hi o'i gwraidd.

10 Ie, wele, wedi ei phlannu, a lwydda hi? gan wywo oni wywa, pan gyffyrddo gwynt y dwyrain â hi? yn rhigolau ei thwf y gwywa.

11 ¶ Daeth hefyd air yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

12 Dywed yr awr hon wrth y tŷ gwrthryfelgar, Oni wyddoch beth *yw* hyn? dywed, Wele, daeth brenhin Babilon i Jerusalem, ac efe a gymmerodd ei brenhin hi, a'i thywysogion, ac a'u dug hwynt gyd âg ef i Babilon:

13 Ac a gymmerodd o'r had brenhinol, ac a wnaeth âg ef gyfammod, ac a'i dug ef dan lw; cymmerodd hefyd gedyrn y wlad:

14 Fel y byddai y deyrnas yn isel, heb ymddyrchafu, *eithr* sefyll o honi trwy gadw ei gyfammod ef.

15 Ond gwrthryfelodd i'w erbyn, gan anfon ei genhadau i'r Aipht, fel y rhoddid iddo feirch, a phobl lawer. A lwydda efe? a ddiangc yr hwn a wnelo hyn? neu a ddiddymma efe y cyfammod, ac a waredir ef?

16 *Fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, y'nghartref y brenhin yr hwn a'i gwnaeth ef yn frenhin, yr hwn y dïystyrodd efe ei lw, a'r hwn y diddymmodd efe ei gyfammod, gyd âg ef y bydd efe farw y'nghanol Babilon.

17 Ac ni wna Pharaoh â'*i* lu mawr, ac â'*i* fintai lïosog, *ddim* gyd âg ef mewn rhyfel, wrth godi clawdd, ac wrth adeiladu cestyll, i dorri ymaith lawer einioes.

18 Gan ddïystyru o hono y llw, gan ddiddymmu y cynghrair, (canys wele, efe a roddasai ei law,) a gwneuthur o hono hynny oll, ni ddïangc.

19 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; *Fel mai* byw fi, fy llw yr hwn a ddïystyrodd efe, a'm cyfammod yr hwn a ddiddymmodd efe, hwnnw a roddaf fi ar ei ben ef.

20 Canys taenaf fy rhwyd arno, ac efe a ddèlir yn fy rhwyd, a dygaf ef i Babilon, ac yno yr ymddadleuaf âg ef *am* ei gamwedd a wnaeth i'm herbyn.

21 A'i holl ffoaduriaid ynghyd â'i holl fyddinoedd a syrthiant gan y cleddyf, a'r gweddill a wasgerir gyd â phob gwynt; fel y gwypoch mai myfi yr ARGLWYDD a'i lleferais.

22 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Mi a gymmeraf hefyd frig y gedrwydden uchel, ac a'*i* gosodaf: o frig ei blagur y torraf *un* tyner, a mi a'*i* plannaf ar fynydd uchel a dyrchafedig.

23 Ar fynydd uchelder Israel y plannaf ef: ac efe a fwrw frig, ac a ddwg ffrwyth, ac a fydd yn gedrwydden hardd-deg: a phob aderyn o bob rhyw asgell a drig dani; dan gysgod ei changhennau y trigant.

24 A holl brennau y maes a gânt wybod mai myfi yr ARGLWYDD a ostyngais y pren uchel, ac a ddyrchefais y pren isel; a sychais y pren îr, ac a ireiddiais y pren crin: myfi yr ARGLWYDD a'*i* lleferais, ac a'*i* gwneuthum.

PENNOD 18.

1 *Duw yn argyhoeddi anghyfiawn ddiareb y grawnwin surion;* 5 *yn dangos y modd y gwna efe â thad cyfiawn:* 10 *ac â mab anghyfiawn i dad cyfiawn:* 14 *ac â mab cyfiawn i dad anghyfiawn:* 19 *ac â'r annwiwiol a edifarhao:* 24 *ac â'r duwiol a ymadawo â'i ddurioldeb.* 25 *Y mae yn amddiffyn ei gyfiawnder,* 31 *ac yn annog i edifeirwch.*

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
2 Paham gennych arferu y ddïareb hon am dir Israel, gan ddywedyd, Y tadau a fwyttasant rawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae dincod?
3 *Fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, ni bydd i chwi mwy arferu y ddïareb hon yn Israel.
4 Wele, yr holl eneidiau eiddof fi ydynt; fel enaid y tad, felly hefyd enaid y mab, eiddof fi ydynt; yr enaid a becho, hwnnw a fydd farw.
5 ¶ Canys os bydd gŵr yn gyfiawn, ac yn gwneuthur barn a chyfiawnder,
6 Heb fwytta ar y mynyddoedd, na chyfodi ei lygaid at eilunod tŷ Israel, ac heb halogi gwraig ei gymmydog, na nesâu at wraig fisglwyfus,
7 Na gorthrymmu neb, *ond* a roddes ei wystl i'r dyledwr yn ei ol, ni threisiodd drais, ei fara a roddodd i'r newynog, ac a ddilladodd y noeth,
8 Ni roddes ar usuriaeth, ac ni chymmerodd ychwaneg, ei law a dynnodd yn ei hol oddi wrth anwiredd, gwir farn a wnaeth rhwng gŵr a gŵr.
9 Yn fy neddfau y rhodiodd, a'm barnedigaethau a gadwodd, i wneuthur gwirionedd: cyfiawn *yw;* gan fyw efe a fydd byw, medd yr ARGLWYDD DDUW.
10 ¶ Os cenhedla efe fab yn lleidr, *ac* yn tywallt gwaed, ac a wna gyffelyb i'r un o'r *pethau* hyn,
11 Ac ni wna yr un o'r *pethau* hynny, ond ar y mynyddoedd y bwytty, a gwraig ei gymmydog a haloga,
12 Yr anghenus a'r tlawd a orthrymma, trais a dreisia, gwystl ni rydd drachefn, ac at eilunod y cyfyd ei lygaid, a wnaeth ffieidd-dra,
13 Ar usuriaeth y rhoddes, ac ychwaneg a gymmerth; gan hynny a fydd efe byw? Ni bydd byw: gwnaeth yr holl ffieidd-dra hyn; gan farw y bydd farw; ei waed a fydd arno ei hun.
14 ¶ Ac wele, *os* cenhedla fab a wêl holl bechodau ei dad y rhai a wnaeth efe, ac a ystyria, ac ni wna felly,
15 Ar y mynyddoedd ni fwytty, a'i lygaid ni chyfyd at eilunod tŷ Israel, ni haloga wraig ei gymmydog,
16 Ni orthrymma neb chwaith, ni attal wystl, ac ni threisia drais, ei fara a rydd i'r newynog, a'r noeth a ddillada,
17 *Ni* thry ei law oddi wrth yr anghenog, usuriaeth na llog ni chymmer, fy marnau a wna, yn fy neddfau y rhodia: hwnnw ni bydd farw am anwiredd ei dad; gan fyw y bydd efe byw.
18 Ei dad, am orthrymmu yn dost, a threisio ei frawd trwy orthrech, a gwneuthur yr hyn nid *oedd* dda ym mysg ei bobl, wele, efe a fydd marw yn ei anwiredd.
19 ¶ Etto chwi a ddywedwch, Paham? oni ddwg y mab anwiredd y tad? Pan wnelo y mab farn a chyfiawnder, *a* chadw fy holl ddeddfau, a'u gwneuthur hwynt, gan fyw efe a fydd byw.
20 Yr enaid a becho, hwnnw a fydd marw. Y mab ni ddwg anwiredd y tad, a'r tad ni ddwg anwiredd y mab: cyfiawnder y cyfiawn fydd arno ef, a drygioni y drygionus fydd arno yntau.
21 Ond os yr annuwiol a ddychwel oddi wrth ei holl bechodau y rhai a wnaeth, a chadw fy holl ddeddfau, a gwneuthur barn a chyfiawnder, efe gan fyw a fydd byw; ni bydd efe marw.
22 Ni chofir iddo yr holl gamweddau a wnaeth: yn ei gyfiawnder a wnaeth y bydd efe byw.
23 Gan ewyllysio a ewyllysiwn i farw yr annuwiol, medd yr ARGLWYDD DDUW, *ac* na ddychwelai oddi wrth ei ffyrdd, a byw?
24 ¶ Ond pan ddychwelo y cyfiawn oddi wrth ei gyfiawnder, a gwneuthur anwiredd, a gwneuthur yn ol yr holl ffieidd-dra a wnelo yr annuwiol; a fydd efe byw? ni chofir yr holl gyfiawnderau a wnaeth efe: yn ei gamwedd yr hwn a wnaeth, ac yn ei bechod a bechodd, ynddynt y bydd efe marw.
25 ¶ Etto chwi a ddywedwch, Nid cymmwys yw ffordd yr AR-

GLWYDD. Gwrandêwch yr awr hon, tŷ Israel, onid yw gymmwys fy ffordd i? onid eich ffyrdd chwi nid ydynt gymmwys?

26 Pan ddychwelo y cyfiawn oddi wrth ei gyfiawnder, a gwneuthur anwiredd, a marw ynddynt; am ei anwiredd a wnaeth y bydd efe marw.

27 A phan ddychwelo yr annuwiol oddi wrth ei ddrygioni yr hwn a wnaeth, a gwneuthur barn a chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei enaid.

28 Am iddo ystyried, a dychwelyd oddi wrth ei holl gamweddau y rhai a wnaeth, gan fyw y bydd byw, ni bydd marw.

29 Etto tŷ Israel a ddywedant, Nid cymmwys yw ffordd yr ARGLWYDD. Tŷ Israel, onid cymmwys fy ffyrdd i? onid eich ffyrdd chwi nid ydynt gymmwys?

30 Am hynny barnaf chwi, tŷ Israel, bob un yn ol ei ffyrdd ei hun, medd yr ARGLWYDD DDUW. Dychwelwch, a throwch oddi wrth eich holl gamweddau; fel na byddo anwiredd yn dramgwydd i chwi.

31 ¶ Bwriwch oddi wrthych eich holl gamweddau y camweddasoch ynddynt, a gwnewch i chwi galon newydd, ac ysspryd newydd: canys paham, tŷ Israel, y byddwch feirw?

32 Canys nid oes ewyllys gennyf i farwolaeth y marw, medd yr ARGLWYDD DDUW. Dychwelwch gan hynny, a byddwch fyw.

PENNOD 19.

1 *Cwynfan am dywysogion Israel, trwy ddammeg o genawon llew a ddâlid mewn pydew;* 10 *ac am Jerusalem, trwy ddammeg o winwydden anrheithiedig.*

CYMMER dithau alarnad am dywysogion Israel,

2 A dywed, Beth *yw* dy fam? llewes: gorweddodd ym mysg llewod, y'nghanol y llewod ieuaingc y maethodd hi ei chenawon.

3 A hi a ddug i fyny un o'i chenawon: efe a aeth yn llew ieuangc, ac a ddysgodd ysglyfaethu ysglyfaeth; bwyttaodd ddynion.

4 Yna y cenhedloedd a glywsant sôn am dano; daliwyd ef yn eu ffos hwynt, a dygasant ef mewn cadwynau i dir yr Aipht.

5 A phan welodd iddi ddisgwyl, *a* darfod am ei gobaith, hi a gymmerodd un *arall* o'i chenawon, *ac* a'i gwnaeth ef yn llew ieuangc.

6 Yntau a dramwyodd ym mysg y llewod; efe a aeth yn llew ieuangc, ac a ddysgodd ysglyfaethu ysglyfaeth; bwyttaodd ddynion.

7 Adnabu hefyd eu gweddwon hwynt, a'u dinasoedd a anrheithiodd efe; *ie,* anrheithiwyd y tir a'i gyflawnder gan lais ei ruad ef.

8 Yna y cenhedloedd a ymosodasant yn ei erbyn ef o amgylch o'r taleithiau, ac a daenasant eu rhwyd arno; ac efe a ddaliwyd yn eu ffos hwynt.

9 A hwy a'i rhoddasant ef yng ngharchar mewn cadwyni, ac a'i dygasant at frenhin Babilon: dygasant ef i amddiffynfeydd, fel na chlywid ei lais ef mwy ar fynyddoedd Israel.

10 ¶ Dy fam *sydd* fel gwinwydden yn dy waed di, wedi ei phlannu wrth ddyfroedd: ffrwythlawn a brigog oedd, o herwydd dyfroedd lawer.

11 Ac yr oedd iddi wïail cryfion yn deyrn-wïail llywodraethwyr, a'i huchder *oedd* uchel ym mysg y tewfrig; fel ŷ gwelid hi yn ei huchder yn amlder ei changhennau.

12 Ond hi a ddiwreiddiwyd mewn llidiowgrwydd, bwriwyd hi i'r llawr, a gwynt y dwyrain a wywodd ei ffrwyth hi: ei gwïail cryfion hi a dorrwyd ac a wywasant; tân a'u hysodd.

13 Ac yr awr hon hi a blannwyd mewn anialwch, mewn tir cras a sychedig.

14 A thân a aeth allan o wïalen ei changhennau, ysodd ei ffrwyth hi, fel nad oedd ynddi wïalen gref yn deyrn-wïalen i lywodraethu. Galarnad *yw* hwn, ac yn alarnad y bydd.

PENNOD 20.

1 *Duw yn gwrthod gadael i henuriaid Israel ymgynghori âg ef:* 5 *yn adrodd ystori eu hanufudd-dod hwy yn yr Aipht,* 10 *yn yr anialwch,* 27 *ac yn eu gwlad:* 33 *yn addaw eu cynnull hwy trwy yr efengyl.* 45 *Dan enw coedwig y mae yn dangos dinystr Jerusalem.*

YN y seithfed flwyddyn, o fewn y pummed *mis,* a'r y degfed *dydd* o'r mis, y daeth gwŷr o hen-

uriaid Israel i ymgynghori â'r ARGLWYDD, ac a eisteddasant ger fy mron i.

2 Yna y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

3 Ha fab dyn, llefara wrth henuriaid Israel, a dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Ai i ymofyn â mi yr ydych chwi yn dyfod? *Fel* mai byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, ni fynnaf gennych ymofyn â mi.

4 A ferni di hwynt, mab dyn, a ferni di hwynt? gwna iddynt wybod ffieidd-dra eu tadau:

5 ¶ A dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Ar y dydd y dewisais Israel, ac y tyngais wrth had tŷ Jacob, ac y'm gwneuthum yn hysbys iddynt yn nhir yr Aipht, pan dyngais wrthynt, gan ddywedyd, Myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi;

6 Yn y dydd y tyngais wrthynt ar eu dwyn hwynt allan o dir yr Aipht, i wlad yr hon a ddarparaswn iddynt, yn llifeirio o laeth a mêl, yr hon *yw* gogoniant yr holl diroedd:

7 Yna y dywedais wrthynt, Bwriwch ymaith bob un ffieidd-dra ei lygaid, ac nac ymhalogwch âg eilunod yr Aipht. Myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.

8 Er hynny gwrthryfelasant i'm herbyn, ac ni fynnent wrandaw arnaf: ni fwriasant ymaith ffieidd-dra eu llygaid bob un, ac ni adawsant eilunod yr Aipht. Yna y dywedais, Tywalltaf arnynt fy llidiowgrwydd, i gyflawni fy nig arnynt y'nghanol gwlad yr Aipht.

9 Etto gwneuthum er mwyn fy enw, rhag ei halogi y'ngolwg y cenhedloedd y rhai *yr oeddynt* hwy yn eu mysg; y'ngŵydd pa rai yr ymhysbysais iddynt hwy, wrth eu dwyn hwynt allan o dir yr Aipht.

10 ¶ Am hynny y dygais hwynt allan o dir yr Aipht, ac a'u dygais hwynt i'r anialwch.

11 A rhoddais iddynt fy neddfau, a hysbysais iddynt fy marnedigaethau, y rhai y bydd byw ynddynt y dyn a'u gwna hwynt.

12 Rhoddais hefyd iddynt fy Sabbathau, i fod yn arwydd rhyngof fi a hwynt, i wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD a'u sancteiddiodd hwynt.

13 Er hynny tŷ Israel a wrthryfelasant i'm herbyn yn yr anialwch: ni rodiasant yn fy neddfau, ond dïystyrasant fy marnedigaethau, y rhai y bydd byw ynddynt y dyn a'u gwnelo hwynt; fy Sabbathau hefyd a halogasant yn ddirfawr. Yna y dywedais y tywalltwn fy llid arnynt yn yr anialwch, i'w difetha hwynt.

14 Etto gwneuthum er mwyn fy enw, fel na halogid ef y'ngolwg y cenhedloedd, y rhai y dygais hwynt allan yn eu gŵydd.

15 Ac etto mi a dyngaswn iddynt yn yr anialwch, na ddygwn hwynt i'r wlad a roddaswn *iddynt*, yn llifeirio o laeth a mêl; honno *yw* gogoniant yr holl wledydd:

16 O herwydd iddynt ddïystyru fy marnedigaethau, ac na rodiasant yn fy neddfau, ond halogi fy Sabbathau: canys eu calon oedd yn myned ar ol eu heilunod.

17 Etto tosturiodd fy llygaid wrthynt rhag eu dinystrio, ac ni wneuthum ddiben am danynt yn yr anialwch.

18 Ond mi a ddywedais wrth eu meibion hwynt yn yr anialwch, Na rodiwch yn neddfau eich tadau, ac na chedwch eu barnedigaethau hwynt, nac ymhalogwch chwaith â'u heilunod hwynt.

19 Myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi: rhodiwch yn fy neddfau, a chedwch fy marnedigaethau, a gwnewch hwynt:

20 Sancteiddiwch hefyd fy Sabbathau; fel y byddont yn arwydd rhyngof fi a chwithau, i wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi.

21 Y meibion hwythau a wrthryfelasant i'm herbyn; yn fy neddfau ni rodiasant, a'm barnedigaethau ni chadwasant trwy eu gwneuthur hwynt, y rhai y bydd byw ynddynt y dyn a'u gwnelo hwynt: halogasant fy Sabbathau: yna y dywedais y tywalltwn fy llid arnynt, i gyflawni fy nig wrthynt yn yr anialwch.

22 Etto troais heibio fy llaw, a

gwneuthum er mwyn fy enw, fel na halogid ef y'ngolwg y cenhedloedd y rhai y dygaswn hwynt allan yn eu gŵydd.

23 Hefyd mi a dyngaswn wrthynt yn yr anialwch, ar eu gwasgaru hwynt ym mysg y cenhedloedd, a'u taenu hwynt ar hyd y gwledydd;

24 O herwydd fy marnedigaethau ni wnaethent, ond fy neddfau a ddïystyrasent, fy Sabbathau hefyd a halogasent, a'u llygaid oedd ar ol eilunod eu tadau.

25 Minnau hefyd a roddais iddynt ddeddfau nid *oeddynt* dda, a barnedigaethau ni byddent fyw ynddynt:

26 Ac a'u halogais hwynt yn eu hoffrymmau, wrth dynnu *trwy dân* bob peth a agoro y groth, fel y dinystriwn hwynt; fel y gwybyddent mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

27 ¶ Am hynny, fab dyn, llefara wrth dŷ Israel, a dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Etto yn hyn y'm cablodd eich tadau, gan wneuthur o honynt gamwedd i'm herbyn.

28 Canys dygais hwynt i'r tir â dyngaswn ar ei roddi iddynt, a gwelsant bob bryn uchel, a phob pren brigog; ac aberthasant yno eu hebyrth, ac yno y rhoddasant eu hoffrymmau digllonedd: yno hefyd y gosodasant eu harogl peraidd, ac yno y tywalltasant eu diod-offrymmau.

29 Yna y dywedais wrthynt, Beth *yw* yr uchelfa yr ydych chwi yn myned iddi? a Bamah y galwyd ei henw hyd y dydd hwn.

30 Am hynny dywed wrth dŷ Israel, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Ai ar ffordd eich tadau yr ymhalogwch chwi? ac a butteiniwch chwi ar ol eu ffieiddra hwynt?

31 Canys pan offrymmoch eich offrymmau, gan dynnu eich meibion trwy y tân, yr ymhalogwch wrth eich holl eilunod hyd heddyw: a fynnaf fi gennych ymofyn â mi, tŷ Israel? *Fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, nid ymofynir â mi gennych.

32 Eich bwriad hefyd ni bydd ddim, yr hyn a ddywedwch, Byddwn fel y cenhedloedd, fel teuluoedd y gwledydd, i wasanaethu pren a maen.

33 ¶ *Fel mai* byw fi, medd yr ARGLWYDD DDUW, yn ddïau â llaw gadarn, ac â braich estynedig, ac â llidiowgrwydd tywalltedig, y teyrnasaf arnoch.

34 A dygaf chwi allan ym mysg y bobloedd, a chasglaf chwi o'r gwledydd y rhai y'ch gwasgarwyd ynddynt, â llaw gadarn, ac â braich estynedig, ac â llidiowgrwydd tywalltedig.

35 A dygaf chwi i anialwch y bobloedd, ac ymddadleuaf â chwi yno wyneb yn wyneb.

36 Fel yr ymddadleuais â'ch tadau yn anialwch tir yr Aipht, felly yr ymddadleuaf â chwithau, medd yr ARGLWYDD DDUW.

37 A gwnaf i chwi fyned dan y wïalen, a dygaf chwi i rwym y cyfammod.

38 A charthaf o honoch y rhai gwrthryfelgar, a'r rhai a droseddant i'm herbyn: dygaf hwynt o wlad eu hymdaith, ac i wlad Israel ni ddeuant: a chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

39 Chwithau, tŷ Israel, fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Ewch, gwasanaethwch bob un ei eilunod, ac ar ol hyn *hefyd*, oni wrandêwch arnaf fi: ond na halogwch mwy fy enw sanctaidd â'ch offrymmau, ac â'ch eilunod.

40 Canys yn fy mynydd sanctaidd, ym mynydd uchelder Israel, medd yr ARGLWYDD DDUW, yno y'm gwasanaetha holl dŷ Israel, cwbl o'r wlad: yno y byddaf foddlawn iddynt; ac yno y gofynaf eich offrymmau, a blaenffrwyth eich offrymmau, gyd â'ch holl sanctaidd bethau.

41 Byddaf foddlawn i chwi gyd â'ch arogl peraidd, pan ddygwyf chwi allan o blith y bobloedd, a'ch casglu chwi o'r tiroedd y'ch gwasgarwyd ynddynt; a mi a sancteiddir ynoch y'ngolwg y cenhedloedd.

42 Hefyd cewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan ddygwyf chwi i dir Israel, i'r tir y tyngais am ei roddi i'ch tadau.

43 Ac yno y cofiwch eich ffyrdd, a'ch holl weithredoedd y rhai yr ymhalogasoch ynddynt; fel yr alaroch arnoch eich hun am yr holl ddrygioni a wnaethoch.

44 A chewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan wnelwyf â chwi er mwyn fy enw, nid yn ol eich ffyrdd drygionus chwi, nac yn ol eich gweithredoedd llygredig, O dŷ Israel, medd yr ARGLWYDD DDUW.

45 ¶ Daeth drachefn air yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

46 Gosod dy wyneb, fab dyn, tu a'r dehau, ïe, difera *eiriau* tu a'r dehau, a phrophwyda yn erbyn coed maes y dehau;

47 A dywed wrth goed y dehau, Gwrando air yr ARGLWYDD: Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Wele fi yn cynneu ynot ti dân, ac efe a ysa ynot ti bob pren îr, a phob pren sych: ffagl y fflam ni ddiffydd, a'r holl wynebau o'r dehau hyd y gogledd a losgir ynddo.

48 A phob cnawd a welant mai myfi yr ARGLWYDD a'i cynneuais: nis diffoddir ef.

49 Yna y dywedais, O ARGLWYDD DDUW, y maent hwy yn dywedyd am danaf, Onid damhegion y mae hwn yn eu traethu?

PENNOD 21.

1 *Esceiel yn prophwydo yn erbyn Jerusalem trwy arwydd ocheneidio.* 8 *Y cleddyf gloywlym,* 18 *yn erbyn Jerusalem,* 25 *yn erbyn y frenhiniaeth,* 28 *ac yn erbyn yr Ammoniaid.*

A DAETH gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

2 Gosod dy wyneb, fab dyn, tu a Jerusalem, a difera *dy eiriau* tu a'r cyssegroedd, a phrophwyda yn erbyn gwlad Israel,

3 A dywed wrth wlad Israel, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Wele fi i'th erbyn, tynnaf hefyd fy nghleddyf o'i wain, a thorraf o honot gyfiawn ac anghyfiawn.

4 O herwydd y torraf o honot gyfiawn ac anghyfiawn, am hynny y daw fy nghleddyf allan o'i wain yn erbyn pob cnawd, o'r dehau hyd y gogledd;

5 Fel y gwypo pob cnawd i mi yr ARGLWYDD dynnu fy nghleddyf allan o'i wain: ni ddychwel efe mwy.

6 Ochain dithau, fab dyn, gyd âg ysigdod lwynau; ïe, ochain yn chwerw yn eu golwg hwynt.

7 A bydd, pan ddywedant wrthyt, Am ba beth yr ydwyt yn ochain? yna ddywedyd o honot, Am y chwedl newydd, am ei fod yn dyfod, fel y toddo pob calon, ac y llaeso y dwylaw oll, ac y pallo pob yspryd, a'r gliniau oll a ânt fel dwfr; wele efe yn dyfod, ac a fydd, medd yr ARGLWYDD DDUW.

8 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,

9 Prophwyda, fab dyn, a dywed, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Dywed, Cleddyf, cleddyf a hogwyd, ac a loywyd.

10 Efe a hogwyd i ladd lladdfa, efe a loywyd fel y byddai ddisglaer: a lawenychwn ni? y mae efe yn dirmygu gwïalen fy mab, *fel* pob pren.

11 Ac efe a'i rhoddes i'w loywi, i'w ddal mewn llaw; y cleddyf hwn a hogwyd, ac a loywyd, i'w roddi yn llaw y lleiddiad.

12 Gwaedda ac uda, fab dyn; canys hwn fydd ar fy mhobl, hwn *fydd* yn erbyn holl dywysogion Israel; dychryn gan y cleddyf fydd ar fy mhobl: am hynny taro *law* ar forddwyd.

13 Canys profiad *yw;* a pheth os *y cleddyf* a ddïystyra y wïalen? ni bydd efe *mwy,* medd yr ARGLWYDD DDUW.

14 Tithau, fab dyn, prophwyda, a tharo law wrth law, a dybler y cleddyf y drydedd waith: cleddyf y lladdedigion, cleddyf lladdedigaeth y gwŷr mawr *ydyw,* yn myned i'w hystafelloedd hwynt.

15 Rhoddais flaen y cleddyf yn erbyn eu holl byrth hwynt, i doddi *eu* calon, ac i amlhâu *eu* tramgwyddiadau: O, gwnaed ef yn loyw, hogwyd ef i ladd!

16 Dos ryw ffordd, *naill* ar y llaw ddehau, ai ar y llaw aswy, lle y tueddo dy wyneb.

17 Minnau hefyd a darawaf y naill law yn y llall, ac a lonyddaf fy llid: myfi yr ARGLWYDD a'*i* lleferais.

18 ¶ A daeth gair yr ARGLWYDD
attaf, gan ddywedyd,
19 Tithau, fab dyn, gosod i ti
ddwy ffordd, fel y delo cleddyf
brenhin Babilon; o un tir y deu-
ant ill dwy: a dewis le, ym mhen
ffordd y ddinas y dewisi *ef*.
20 Gosod ffordd i ddyfod o'r cledd-
yf tu a Rabbath meibion Ammon,
a thu a Judah yn erbyn Jerusalem
gaerog.
21 Canys safodd brenhin Babilon
ar y groes-ffordd, ym mhen y
ddwy ffordd, i ddewinio dewiniaeth:
gloywodd *ei* saethau, ymofynodd
â delwau, edrychodd mewn afu.
22 Yn ei law ddehau yr oedd
dewiniaeth Jerusalem, am osod
capteniaid i agoryd safn mewn
lladdedigaeth, i ddyrchafu llef gyd
â bloedd, i osod offer rhyfel yn
erbyn y pyrth, i fwrw clawdd, i
adeiladu amddiffynfa.
23 A *hyn* fydd ganddynt, fel dew-
inio dewiniaeth gwagedd yn eu
golwg hwynt, i'r rhai a dyngasant
lwon: ond efe a gofia yr anwiredd,
i'w dal *hwynt*.
24 Am hynny fel hyn y dywed
yr ARGLWYDD DDUW, Am beri
o honoch gofio eich anwiredd,
gan amlygu eich camweddau, fel
yr ymddengys eich pechodau yn
eich holl weithredoedd; am beri
o honoch *eich* cofio, y'ch dèlir â
llaw.
25 ¶ Tithau, halogedig annuwiol
dywysog Israel, yr hwn y daeth ei
ddydd, yn amser diwedd anwiredd,
26 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD
DDUW; Symmud y meitr, a thyn
ymaith y goron; nid yr un *fydd*
hon: cyfod yr isel, gostwng yr
uchel.
27 Dymchwelaf, dymchwelaf, dym-
chwelaf hi; ac ni bydd *mwyach*
hyd oni ddelo yr hwn y mae yn
gyfiawn iddo; ac *iddo ef* y rhodd-
af hi.
28 ¶ Prophwyda dithau, fab dyn,
a dywed, Fel hyn y dywed yr AR-
GLWYDD DDUW am feibion Am-
mon, ac am eu gwaradwydd hwynt;
dywed di, Y cleddyf, y cleddyf a
dynnwyd: i ladd y gloywyd ef, i
ddifetha o herwydd y disgleirdeb:
29 Wrth weled gwagedd i ti,
wrth ddewinio i ti gelwydd, i'th
roddi ar yddfau y lladdedigion,
y drygionus y rhai y daeth eu
dydd, yn amser diwedd eu han-
wiredd.
30 ¶ A ddychwelaf fi *ef* i'w wain?
yn y lle y'th grëwyd, yn nhir dy
gynnefin, y'th farnaf.
31 A thywalltaf fy nigllonedd ar-
nat, â thân fy llidiowgrwydd y
chwythaf arnat, a rhoddaf di yn
llaw dynion poethion, cywraint i
ddinystrio.
32 I'r tân y byddi yn ymborth;
dy waed fydd y'nghanol y tir;
ni'th gofir *mwyach:* canys myfi yr
ARGLWYDD a'*i* dywedais.

PENNOD 22.

1 *Rhestr o bechodau Jerusalem.* 18 *Y llysg Duw hwynt megis sothach yn ei fwrn.* 23 *Llygredigaeth yr holl brophwydi, a'r offeiriaid, a'r tywysogion, a'r bobl.*

GAIR yr ARGLWYDD a ddaeth
attaf drachefn, gan ddywedyd,
2 Tithau, fab dyn, a ferni di, a
ferni ddinas y gwaed? ïe, ti a wnei
iddi wybod ei holl ffieidd-dra.
3 Dywed dithau, Fel hyn y dy-
wed yr ARGLWYDD DDUW; Tywallt
gwaed y mae y ddinas yn ei chanol,
i ddyfod o'i hamser, ac eilunod a
wnaeth hi yn ei herbyn ei hun i
ymhalogi.
4 Euog wyt yn dy waed, yr hwn
a dywelltaist; a halogedig yn dy
eilunod, y rhai a wnaethost; a thi
a neseaist dy ddyddiau, a daeth-
ost hyd at dy flynyddoedd: am
hynny y'th wneuthum yn warth
i'r cenhedloedd, ac yn watwargerdd
i'r holl wledydd.
5 *Y rhai* agos a'*r rhai* pell oddi
wrthyt a'th watwarant, yr halog-
edig o enw, *ac* aml dy drallod.
6 Wele, tywysogion Israel oedd-
ynt ynot, bob un yn ei allu i
dywallt gwaed.
7 Dirmygasant ynot dad a mam;
gwnaethant yn dwyllodrus â'r dï-
eithr o'th fewn: gorthrymmasant
ynot yr amddifad a'r weddw.
8 Dirmygaist fy mhethau sanct-
aidd, a halogaist fy Sabbathau.
9 Athrodwyr oedd ynot i dywallt
gwaed; ar y mynyddoedd hefyd
y bwyttasant ynot ti: gwnant ys-
gelerder o'th fewn.

10 Ynot ti y datguddient noethni eu tad: yr aflan o fis-glwyf a ddarostyngent ynot.
11 Gwnai ŵr hefyd ffieidd-dra â gwraig ei gymmydog; a gŵr a halogai ei waudd ei hun mewn ysgelerder; ïe, darostyngai gŵr ynot ei chwaer ei hun, merch ei dad.
12 Gwobr a gymmerent ynot am dywallt gwaed; cymmeraist usuriaeth ac ocraeth, ac elwaist ar dy gymmydogion trwy dwyll, ac anghofiaist fi, medd yr ARGLWYDD DDUW.
13 ¶ Am hynny wele, tarewais fy llaw wrth dy gybydd-dod yr hwn a wnaethost, ac am y gwaed oedd o'th fewn.
14 A bery dy galon, a gryfhâ dy ddwylaw, yn y dyddiau y bydd i mi a wnelwyf â thi? myfi yr ARGLWYDD a'*i* lleferais, ac a'*i* gwnaf.
15 Canys gwasgaraf di ym mysg y cenhedloedd, a thaenaf di ar hyd y gwledydd, a gwnaf i'th aflendid ddarfod allan o honot.
16 A thi a etifeddi ynot dy hun y'ngŵydd y cenhedloedd; a chei wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.
17 A gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
18 Ha fab dyn, tŷ Israel a aeth gennyf yn ammhuredd: pres, ac alcam, a haiarn, a phlwm, *ydynt* oll y'nghanol y pair: ammhuredd arian ydynt.
19 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Am eich bod chwi oll yn ammhuredd, am hynny wele fi yn eich casglu chwi i ganol Jerusalem.
20 *Fel* casglu arian, a phres, a haiarn, a phlwm, ac alcam, i ganol y ffwrn, i chwythu tân arnynt i'*w* toddi; felly yn fy llid a'm dig y casglaf *chwi*, ac a'*ch* gadawaf *yno*, ac a'ch toddaf.
21 Ïe, casglaf chwi, a chwythaf arnoch â thân fy llidiowgrwydd, fel y todder chwi yn ei chanol hi.
22 Fel y toddir arian y'nghanol y pair, felly y toddir chwi yn ei chanol hi; fel y gwypoch mai myfi yr ARGLWYDD a dywelltais fy llidiowgrwydd arnoch.
23 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
24 Dywed wrthi hi, fab dyn, Ti yw y tir sydd heb ei buro, heb wlawio arno yn nydd digter.
25 Cyd-fradwriaeth ei phrophwydi o'i mewn, *sydd* fel llew rhuadwy yn ysglyfaethu ysglyfaeth; eneidiau a ysasant; trysor a phethau gwerthfawr a gymmerasant; ei gweddwon hi a amlhasant hwy o'i mewn.
26 Ei hoffeiriaid a dreisiasant fy nghyfraith, ac a halogasant fy mhethau sanctaidd: ni wnaethant ragor rhwng cyssegredig a halogedig, ac ni wnaethant wybod *rhagor* rhwng yr aflan a'r glân; cuddiasant hefyd eu llygaid oddi wrth fy Sabbathau, a halogwyd fi yn eu mysg hwynt.
27 Ei phennaethiaid *oedd* yn ei chanol fel bleiddiaid yn ysglyfaethu ysglyfaeth, i dywallt gwaed, i ddifetha eneidiau, er elwa elw.
28 Ei phrophwydi hefyd a'u priddasant hwy â *chlai* annhymherus, gan weled gwagedd, a dewinio iddynt gelwydd, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, a'r ARGLWYDD heb ddywedyd.
29 Pobl y tir a arferasant dwyll, ac a dreisiasant drais, ac a orthrymmasant y truan a'r tlawd; y dïeithr hefyd a orthrymmasant yn anghyfiawn.
30 Ceisiais hefyd ŵr o honynt i gau y cae, ac i sefyll ar yr adwy o'm blaen dros y wlad, rhag ei dinystrio; ac nis cefais.
31 Am hynny y tywelltais fy nigofaint arnynt, â thân fy llidiowgrwydd y difethais hwynt; eu ffordd eu hun a roddais ar eu pennau hwynt, medd yr ARGLWYDD DDUW.

PENNOD 23.

1 Putteindra Aholah ac Aholibah. 22 Dïaleddu ar Aholibah gan ei chariadau. 36 Y prophwyd yn argyhoeddi eu godineb hwy ill dwyoedd, 45 ac yn dangos eu barn hwy.

YNA y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,
2 Ha fab dyn, dwy wraig oedd ferched i'r un fam;
3 A phutteiniasant yn yr Aipht, yn eu hieuengctid y putteiniasant: yno y pwyswyd ar eu bronnau, ac yno yr ysigasant ddidennau eu morwyndod.

4 A'u henwau hwynt *oedd*, Aholah yr hynaf, ac Aholibah ei chwaer: ac yr oeddynt yn eiddof fi, a phlantasant feibion a merched. Dyma eu henwau; Samaria *yw* Aholah, a Jerusalem Aholibah.

5 Ac Aholah a butteiniodd pan oedd eiddof fi, ac a ymserchodd yn ei chariadau, *ei* chymmydogion yr Assyriaid;

6 *Y rhai* a wisgid â glas, yn dduciaid ac yn dywysogion, o wŷr ieuaingc dymunol i gyd, yn farchogion yn marchogaeth meirch.

7 Fel hyn y gwnaeth hi ei phutteindra â hwynt, â dewis feibion Assur oll, a chyd â'r rhai oll yr ymserchodd ynddynt; â'u holl eilunod hwynt yr ymhalogodd hi.

8 Ac ni adawodd ei phutteindra *a ddygasai hi* o'r Aipht: canys gorweddasent gyd â hi yn eu hieuengctid, a hwy a ysigasent fronnau ei morwyndod hi, ac a dywalltasent eu putteindra arni.

9 Am hynny y rhoddais hi yn llaw ei chariadau, *sef* yn llaw meibion Assur, y rhai yr ymserchodd hi ynddynt.

10 Y rhai hynny a ddatguddiasant ei noethni hi: hwy a gymmerasant ei meibion hi a'i merched, ac a'i lladdasant hithau â'r cleddyf: a hi a aeth yn enwog ym mysg gwragedd; canys gwnaethent farn arni.

11 A phan welodd ei chwaer Aholibah, hi a lygrodd ei thraserch yn fwy na hi, a'i phutteindra yn fwy na phutteindra ei chwaer.

12 Ymserchodd ym meibion Assur, y duciaid a'r tywysogion o gymmydogion, wedi eu gwisgo yn wych iawn, yn farchogion yn marchogaeth meirch, yn wŷr ieuaingc dymunol i gyd.

13 Yna y gwelais ei halogi hi, *a bod* un ffordd ganddynt ill dwy,

14 Ac iddi hi chwanegu ar ei phutteindra: canys pan welodd wŷr wedi eu llunio ar y pared, delwau y Caldeaid wedi eu llunio â fermilion,

15 Wedi eu gwregysu â gwregys am eu llwynau, yn rhagori mewn lliwiau am eu pennau, mewn golwg yn dywysogion oll, o ddull meibion Babilon yn Caldea, tir eu genedigaeth:

16 Hi a ymserchodd ynddynt pan eu gwelodd â'i llygaid, ac a anfonodd genhadau attynt i Caldea.

17 A meibion Babilon a ddaethant atti i wely cariad, ac a'i halogasant hi â'u putteindra; a hi a ymhalogodd gyd â hwynt, a'i meddwl a giliodd oddi wrthynt.

18 Felly y datguddiodd hi ei phutteindra, ac y datguddiodd ei noethni. Yna y ciliodd fy meddwl oddi wrthi, fel y ciliasai fy meddwl oddi wrth ei chwaer hi.

19 Etto hi a chwanegodd ei phutteindra, gan gofio dyddiau ei hieuengctid, *yn* y rhai y putteiniasai hi yn nhir yr Aipht.

20 Canys hi a ymserchodd yn ei gordderchwyr, y rhai *yr oedd* eu cnawd *fel* cnawd asynod, a'u diferlif *fel* diferlif meirch.

21 Felly y cofiaist ysgelerder dy ieuengctid, pan ysigwyd dy ddidennau gan yr Aiphtiaid, am fronnau dy ieuengctid.

22 ¶ Am hynny, Aholibah, fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Wele fi yn cyfodi dy gariadau i'th erbyn, y rhai y ciliodd dy feddwl oddi wrthynt, a dygaf hwynt i'th erbyn o amgylch:

23 Meibion Babilon a'r holl Galdeaid, Pecod, a Soa, a Coa, *a* holl feibion Assur gyd â hwynt; yn wŷr ieuaingc dymunol, yn dduciaid a thywysogion i gyd, yn bennaethiaid ac yn enwog, yn marchogaeth meirch, bawb o honynt.

24 A deuant i'th erbyn â menni, cerbydau, ac olwynion, ac â chynnulleidfa o bobl; gosodant i'th erbyn oddi amgylch astalch, a tharian, a helm: a rhoddaf o'u blaen hwynt farnedigaeth, a hwy a'th farnant â'u barnedigaethau eu hun.

25 A mi a osodaf fy eiddigedd yn dy erbyn, a hwy a wnant â thi yn llidiog: dy drwyn a'th glustiau a dynnant ymaith, a'th weddill a syrth gan y cleddyf: hwy a ddaliant dy feibion a'th ferched; a'th weddill a ysir gan y tân.

26 Diosgant hefyd dy ddillad, a dygant dy ddodrefn hyfryd.

27 Felly y gwnaf i'th ysgelerder, a'th butteindra o dir yr Aipht, beidio â thi; fel na chodech dy lygaid attynt, ac na chofiech yr Aipht mwy.

28 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, Wele fi yn dy roddi yn llaw y rhai a gaseaist, yn llaw y rhai y ciliodd dy feddwl oddi wrthynt.

29 A gwnant â thi yn atgas, ac a gymmerant dy holl lafur, ac a'th adawant di yn llom ac yn noeth: a datguddir noethni dy butteindra; ïe, dy ysgelerder a'th butteindra.

30 Mi a wnaf hyn i ti, am butteinio o honot ar ol y cenhedloedd, am dy halogi gyd â'u heilunod hwynt.

31 Ti a rodiaist yn ffordd dy chwaer; am hynny y rhoddaf finnau ei chwppan hi yn dy law di.

32 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Dwfn a helaeth gwppan dy chwaer a yfi: ti a fyddi i'th watwar ac i'th ddirmygu: y mae llawer yn genni ynddo.

33 Ti a lenwir â meddwdod ac â gofid, o gwppan syndod ac anrhaith, o gwppan dy chwaer Samaria.

34 Canys ti a yfi, ac a sugni o hono; drylli hefyd ei ddarnau ef, ac a dynni ymaith dy fronnau dy hun: canys myfi a'i lleferais, medd yr ARGLWYDD DDUW.

35 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, O herwydd i ti fy anghofio, a'm bwrw o honot tu ol i'th gefn; am hynny dwg dithau dy ysgelerder a'th butteindra.

36 ¶ Dywedodd yr ARGLWYDD hefyd wrthyf, A ferni di, fab dyn, Aholah ac Aholibah? ïe, mynega iddynt eu ffieidd-dra;

37 Iddynt dorri priodas, a *bod* gwaed yn eu dwylaw; ïe, gyd â'u heilunod y putteiniasant; eu meibion hefyd y rhai a blantasant i mi, a dynnasant trwy *dân* iddynt i'*w* hysu.

38 Gwnaethant hyn ychwaneg i mi; fy nghyssegr a aflanhasant yn y dydd hwnnw, a'm Sabbathau a halogasant.

39 Canys pan laddasant eu meibion i'w heilunod, yna y daethant i'm cyssegr yn y dydd hwnnw, i'w halogi ef: ac wele, fel hyn y gwnaethant y'nghanol fy nhŷ.

40 A hefyd gan anfon o honoch am wŷr i ddyfod o bell, y rhai yr anfonwyd cennad attynt, ac wele daethant: er mwyn pa rai yr ymolchaist, y lliwiaist dy lygaid, ac yr ymherddaist â harddwch.

41 Eisteddaist hefyd ar wely anrhydeddus, a bord drefnus o'i flaen, a gosodaist arno fy arogl-darth a'm holew i.

42 A llais tyrfa heddychol *oedd* gyd â hi: a chyd â'r cyffredin y dygwyd y Sabeaid o'r anialwch, y rhai a roddasant freichledau am eu dwylaw hwynt, a choronau nyfryd am eu pennau hwynt.

43 Yna y dywedais wrth yr hen ei phutteindra, A wnant hwy yn awr butteindra gyd â hi, a hithau *gyd â hwythau?*

44 Etto aethant atti fel myned at butteinwraig; felly yr aethant at Aholah ac Aholibah, y gwragedd ysgeler.

45 ¶ A'r gwŷr cyfiawn hwythau a'u barnant hwy â barnedigaeth putteiniaid, ac â barnedigaeth rhai yn tywallt gwaed: canys putteinio y maent, a gwaed *sydd* yn eu dwylaw.

46 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, Dygaf i fyny dyrfa arnynt hwy, a rhoddaf hwynt i'w mudo ac i'w hanrheithio.

47 A'r dyrfa a'u llabyddiant hwy â meini, ac a'u torrant hwy â'u cleddyfau: eu meibion a'u merched a laddant, a'u tai a losgant â thân.

48 Fel hyn y gwnaf finnau i ysgelerder beidio o'r wlad, fel y dysgir yr holl wragedd na wnelont yn ol eich ysgelerder chwi.

49 A hwy a roddant eich ysgelerder i'ch erbyn, a chwi a ddygwch bechodau eich eilunod; ac a gewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD DDUW.

PENNOD 24.

1 *Trwy ddammeg o grochan berwedig,* 6 *y dangosir sicr ddinystr Jerusalem.* 15 *Trwy fod Eseciel heb alaru am farwolaeth ei wraig,* 19 *y dangosir bod gofid yr Iuddewon y tu hwnt i bob tristwch.*

DRACHEFN yn y nawfed flwyddyn, yn y degfed mis, ar y degfed *dydd* o'r mis, y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,
2 Ysgrifena i ti enw y dydd hwn, fab dyn, *ïe*, corph y dydd hwn: ymosododd brenhin Babilon yn erbyn Jerusalem o fewn corph y dydd hwn.
3 A thraetha ddïareb wrth y tŷ gwrthryfelgar, a dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Gosod y crochan, gosod, a thywallt hefyd ddwfr ynddo.
4 Casgl ei ddrylliau iddo, pob dryll teg, y morddwyd, a'r ysgwyddog; llanw *ef* â'r dewis esgyrn.
5 Cymmer ddewis o'r praidd, a chynneu yr esgyrn dano, *a* berw ef yn ferwedig; ïe, berwed ei esgyrn o'i fewn.
6 ¶ Am hynny yr ARGLWYDD DDUW a ddywed fel hyn, Gwae ddinas y gwaed, y crochan yr hwn *y mae* ei yscum ynddo, ac nid aeth ei yscum allan o hono: tyn ef allan bob yn ddryll: na syrthied coelbren arno.
7 O herwydd ei gwaed sydd yn ei chanol: ar goppa craig y gosododd hi ef; nis tywalltodd ar y ddaear, i fwrw arno lwch:
8 I beri i lid godi i wneuthur dïal; rhoddais ei gwaed hi ar goppa craig, rhag ei guddio.
9 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, Gwae ddinas y gwaed! minnau a wnaf ei thanllwyth yn fawr.
10 Amlhâ y coed, cynneu y tân, difa y cig, a gwna goginiaeth, a llosger yr esgyrn.
11 A dod ef ar ei farwor yn wag, fel y twymo, ac y llosgo ei bres, ac y toddo ei aflendid ynddo, *ac* y darfyddo ei yscum.
12 Ymflinodd â chelwyddau, ac nid aeth ei hyscum mawr allan o honi: yn tân *y bwrir* ei hyscum hi.
13 Yn dy aflendid *y mae* ysgelerder: o herwydd glanhâu o honof di, ac nid wyt lân, o'th aflendid ni'th lanhêir mwy, hyd oni pharwyf i'm llid orphwys arnat.
14 Myfi yr ARGLWYDD a'i llefer-ais: daw, a gwnaf; nid âf yn ol, ac nid arbedaf, ac nid edifarhâf. Yn ol dy ffyrdd, ac yn ol dy weithredoedd, y barnant di, medd yr ARGLWYDD DDUW.
15 ¶ A gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
16 Wele, fab dyn, fi yn cymmeryd oddi wrthyt ddymuniant dy lygaid â dyrnod: etto na alara ac na wyla, ac na ddeued dy ddagrau.
17 Taw â llefain, na wna farwnad; rhwym dy gap am dy ben, a dod dy esgidiau am dy draed, ac na chau ar *dy* enau, na fwytta chwaith fara dynion.
18 Felly y lleferais wrth y bobl y bore; a bu farw fy ngwraig yn yr hwyr; a gwneuthum y bore drannoeth fel y gorchymynasid i mi.
19 ¶ A'r bobl a ddywedasant wrthyf, Oni fynegi i ni beth *yw* hyn i ni, gan i ti wneuthur *felly?*
20 Yna y dywedais wrthynt, Gair yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
21 Dywed wrth dŷ Israel, Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Wele fi yn halogi fy nghyssegr, godidowgrwydd eich nerth, dymuniant eich llygaid, ac anwyldra eich enaid: a'ch meibion a'ch merched, y rhai a adawsoch, a syrthiant gan y cleddyf.
22 Ac fel y gwneuthum i, y gwnewch chwithau; ni chauwch ar *eich* geneuau, ac ni fwyttêwch fara dynion.
23 *Byddwch* a'ch capiau am eich pennau, a'ch esgidiau am eich traed: ni alerwch, ac ni wylwch; ond am eich anwiredd y dihoenwch, ac ocheneidiwch bob un wrth ei gilydd.
24 Felly y mae Eseciel yn arwydd i chwi: yn ol yr hyn oll a wnaeth efe, y gwnewch chwithau: a phan ddelo hyn, chwi a gewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD DDUW.
25 Tithau fab dyn, *onid* yn y dydd y cymmeraf oddi wrthynt eu nerth, llawenydd eu gogoniant, dymuniant eu llygaid, ac anwyldra eu henaid, eu meibion a'u merched,

26 Y dydd hwnnw y daw yr hwn a ddïango, attat, i beri *i ti ei* glywed *â'th* glustiau?

27 Yn y dydd hwnnw yr agorir dy safn wrth yr hwn a ddïango; lleferi hefyd, ac ni byddi fud mwy: a byddi iddynt yn arwydd; fel y gwypont mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

PENNOD 25.

1 *Dial Duw ar yr Ammoniaid, am eu rhyfyg yn erbyn yr Tuddewon;* 8 *ac ar Moab a Seir,* 12 *ac ar Edom,* 15 *ac ar y Philistiaid.*

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,

2 Ha fab dyn, gosod dy wyneb yn erbyn meibion Ammon, a phrophwyda yn eu herbyn hwynt;

3 A dywed wrth feibion Ammon, Gwrandêwch air yr ARGLWYDD DDUW; Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW, Am ddywedyd o honot, Ha, ha, yn erbyn fy nghyssegr, pan halogwyd; ac yn erbyn tir Israel, pan anrheithiwyd; ac yn erbyn tŷ Judah, pan aethant mewn caethglud:

4 Am hynny wele fi yn dy roddi di yn etifeddiaeth i feibion y dwyrain, fel y gosodant eu palasau ynot, ac y gosodant eu pebyll o'th fewn: hwy a ysant dy ffrwyth, a hwy a yfant dy laeth.

5 Rhoddaf hefyd Rabbah yn drigfa camelod, a meibion Ammon yn orweddfa defaid: fel y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

6 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; O herwydd taro o honot *dy* ddwylaw, a churo o honot *â'th* draed, a llawenychu o honot yn *dy* galon â'th holl ddirmyg yn erbyn tir Israel;

7 Am hynny wele, mi a estynaf fy llaw arnat, ac a'th roddaf yn fwyd i'r cenhedloedd, ac a'th dorraf ymaith o fysg y bobloedd, ac a'th ddifethaf o'r tiroedd: dinystriaf di; fel y gwypech mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

8 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Am ddywedyd o Moab a Seir, Wele dŷ Judah fel yr holl genhedloedd:

9 Am hynny wele fi yn agori ystlys Moab o'r dinasoedd, o'i ddinasoedd ef *y rhai sydd* yn ei gyrrau, gogoniant y wlad, Beth-jesimoth, Baalmeon, a Ciriathaim,

10 I feibion y dwyrain ynghyd â meibion Ammon, a rhoddaf hwynt yn etifeddiaeth; fel na chofier meibion Ammon ym mysg y cenhedloedd.

11 Gwnaf farn hefyd ar Moab; fel y gwypont mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

12 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Am i Edom wneuthur yn erbyn tŷ Judah wrth wneuthur dïal, a gwneuthur camwedd mawr, ac ymddïal arnynt;

13 Am hynny, medd yr ARGLWYDD DDUW, yr estynaf finnau fy llaw ar Edom, a thorraf o honi ddyn ac anifail; a gwnaf hi yn anrhaith o Teman; a'r rhai o Dedan a syrthiant gan y cleddyf.

14 A rhoddaf fy nïaledd ar yr Edomiaid trwy law fy mhobl Israel: a hwy a wnant âg Edom yn ol fy nigllonedd, ac yn ol fy llid; fel y gwypont fy nïaledd, medd yr ARGLWYDD DDUW.

15 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Am wneuthur o'r Philistiaid trwy ddïal, a dïalu dïal trwy ddirmyg calon, i'*w* dinystrio am yr hen gas;

16 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Wele fi yn estyn fy llaw ar y Philistiaid, a thorraf ymaith y Cerethiaid, a difethaf weddill porthladd y môr.

17 A gwnaf arnynt ddïaledd mawr trwy gerydd llidiog; a chânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan roddwyf fy nïaledd arnynt.

PENNOD 26.

1 *Bygwth Tyrus, am ei rhyfyg yn erbyn Jerusalem.* 7 *Galluoedd Nebuchodonosor yn ei herbyn hi.* 15 *Cwynfan a syndod y môr o herwydd ei chwymp hi.*

AC yn yr unfed flwyddyn ar ddeg, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

2 Ha fab dyn, o herwydd dywedyd o Tyrus am Jerusalem, Aha, torrwyd hi, pyrth y bobloedd: trodd attaf fi: fo'm llenwir; anrheithiedig yw hi:

3 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Wele fi i'th

erbyn, O Tyrus, a chodaf genhedloedd lawer i'th erbyn, fel y cyfyd y môr ei donnau.

4 A hwy a ddinystriant geurydd Tyrus, a'i thyrau a ddinystriant: minnau a grafaf ei llwch o honi, ac a'i gwnaf yn goppa craig.

5 Yn daenfa rhwydau y bydd y'nghanol y môr: canys myfi a lefarodd *hyn*, medd yr ARGLWYDD DDUW: a hi a fydd yn yspail i'r cenhedloedd.

6 Ei merched hefyd y rhai *sydd* yn y maes a leddir â'r cleddyf; fel y gwypont mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

7 ¶ Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Wele fi yn dwyn ar Tyrus, o'r gogledd, Nebuchodonosor brenhin Babilon, brenhin brenhinoedd, â meirch, ac â cherbydau, ac â marchogion, a thorfoedd, a phobl lawer.

8 Dy ferched a ladd efe yn y maes â'r cleddyf; ac a esyd wrthglawdd i'th erbyn, ac a fwrw glawdd i'th erbyn, ac a gyfyd darian i'th erbyn.

9 Ac efe a esyd beiriannau rhyfel yn erbyn dy geurydd, a'th dyrau a fwrw efe i lawr â'i fwyeill.

10 Gan amlder ei feirch ef, eu llwch a'th doa: dy geurydd a gynhyrfant gan swn y marchogion, a'r olwynion, a'r cerbydau, pan ddelo trwy dy byrth di, fel dyfod i ddinas adwyog.

11 A charnau ei feirch y sathr efe dy heolydd oll: dy bobl a ladd efe â'r cleddyf, a'th sefyll-fannau cedyrn a ddisgyn i'r llawr.

12 A hwy a anrheithiant dy gyfoeth, ac a yspeiliant dy farchnadaeth; ac a ddinystriant dy geurydd, a'th dai dymunol a dynnant i lawr: a'th gerrig, a'th goed, a'th bridd, a osodant y'nghanol y dyfroedd.

13 A gwnaf i swn dy ganiadau beidio; ac ni chlywir mwy lais dy delynau.

14 A gwnaf di yn goppa craig: taenfa rhwydau fyddi; ni'th adeiledir mwy: canys myfi yr ARGLWYDD a'i lleferais, medd yr ARGLWYDD DDUW.

15 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW wrth Tyrus: Oni chryn yr ynysoedd gan swn dy gwymp, pan waeddo yr archolledig, pan ladder lladdfa yn dy ganol?

16 Yna holl dywysogion y môr a ddisgynant o'u gorsedd-feingciau, ac a fwriant ymaith eu mantelloedd, ac a ddïosgant eu gwisgoedd symmudliw: dychryn a wisgant, ar y ddaear yr eisteddant, ac a ddychrynant ar *bob* moment, ac a synnant wrthyt.

17 Codant hefyd alarnad am danat, a dywedant wrthyt, Pa fodd y'th ddifethwyd, *yr hon* a breswylir gan forwyr, y ddinas ganmoladwy, yr hon oedd gref ar y môr, hi a'i thrigolion, y rhai a roddasant eu harswyd ar ei holl ymdeithwyr hi!

18 Yr awr hon yr ynysoedd a ddychrynant *yn* nydd dy gwymp; ïe, yr ynysoedd y rhai *sydd* yn y môr a drallodir wrth dy fynediad di ymaith.

19 Canys fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Pan roddwyf di yn ddinas anrheithiedig, fel y dinasoedd nis cyfanneddir; gan ddwyn arnat y dyfnder, fel y'th guddio dyfroedd lawer;

20 A'th ddisgyn o honof gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll, at y bobl gynt, a'th osod yn iselderau y ddaear, yn yr hen anrhaith, gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll, fel na'th breswylier; a rhoddi o honof ogoniant yn nhir y rhai byw;

21 Gwnaf di yn ddychryn, ac ni *byddi:* er dy geisio, ni'th geir mwy, medd yr ARGLWYDD DDUW.

PENNOD 27.

1 Cyfoeth Tyrus: 26 a'i hanfad gwymp.

GAIR yr ARGLWYDD a ddaeth attaf drachefn, gan ddywedyd,

2 Tithau fab dyn, cyfod alarnad am Tyrus;

3 A dywed wrth Tyrus, O dydi yr hon wyt yn trigo wrth borthladdoedd y môr, marchnadyddes y bobloedd i ynysoedd lawer, fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Tyrus, ti a ddywedaist, Myfi *wyf* berffaith o degwch.

4 Dy derfynau *sydd* y'nghanol y môr; dy adeiladwyr a berffeithiasant dy degwch.

5 Adeiladasant dy holl ystyllod o ffynnidwydd o Senir: cymmerasant gedrwydd o Libanus i wneuthur hwylbren i ti.

6 Gweithiasant dy rwyfau *o* dderw o Basan; mintai yr Assuriaid a wnaethant dy feingciau *o* ifori o ynysoedd Chittim.

7 Lïan main o'r Aipht o symmudliw oedd yr hyn a ledit i fod yn hwyl i ti; glas a phorphor o ynysoedd Elisah, oedd dy dô.

8 Trigolion Sidon ac Arfad oedd dy rwyfwyr: dy ddoethion di, Tyrus, o'th fewn, oedd dy long-lywiawdwyr.

9 Henuriaid Gebal a'i doethion oedd ynot yn cau dy agennau: holl longau y môr a'u llongwyr oedd ynot ti i farchnatta dy farchnad.

10 Y Persiaid, a'r Ludiaid, a'r Phutiaid, oedd ryfelwyr i ti yn dy luoedd: tarian a helm a grogasant ynot; hwy a roddasant i ti harddwch.

11 Meibion Arfad *oedd* gyd â'th luoedd ar dy gaerau oddi amgylch, a'r Gammadiaid yn dy dyrau: crogasant eu tariannau ar dy gaerau oddi amgylch; hwy a berffeithiasant dy degwch.

12 Tarsis *oedd* dy farchnadyddes o herwydd amldra pob golud; âg arian, haiarn, alcam, a phlwm, y marchnattasant yn *dy* ffeiriau.

13 Jafan, Tubal, a Mesech, hwythau *oedd* dy farchnadyddion: marchnattasant *yn* dy farchnad am ddynion a llestri pres.

14 *Y rhai* o dŷ Togarmah a farchnattasant *yn* dy ffeiriau â meirch, a marchogion, a mulod.

15 Meibion Dedan *oedd* dy farchnadwyr; ynysoedd lawer *oedd* farchnadoedd dy law: dygasant gyrn ifori ac ebenus yn anrheg i ti.

16 Aram *oedd* dy farchnadydd o herwydd amled pethau o'th waith di: am garbuncl, porphor, a gwaith edau a nodwydd, *a* llïan meinllin, a chwrel, a gemmau, y marchnattasant *yn* dy ffeiriau.

17 Judah a thir Israel, hwythau *oedd* dy farchnadyddion: marchnattasant *yn* dy farchnad am wenith Minnith, a Phannag, a mêl, ac olew, a thrïagl.

18 Damascus *oedd* dy farchnadydd yn amlder dy waith o herwydd llïaws pob golud; am win Helbon, a gwlan gwyn.

19 Dan hefyd a Jafan yn cynniwair a farchnattasant yn dy farchnadoedd: haiarn wedi ei weithio, cassia, a'r calamus, oedd yn dy farchnad.

20 Dedan *oedd* dy farchnadydd mewn brethynau gwerthfawr i gerbydau.

21 Arabia, a holl dywysogion Cedar, *oedd* hwythau farchnadyddion i ti am ŵyn, hyrddod, a bychod: yn y rhai hyn *yr oedd* dy farchnadyddion.

22 Marchnadyddion Seba a Ramah, hwythau *oedd* dy farchnadyddion: marchnattasant *yn* dy ffeiriau am bob prif bêr-aroglau, ac am bob maen gwerthfawr, ac aur.

23 Haran, a Channeh, ac Eden, marchnadyddion Seba, Assur, *a* Chilmad, *oedd* yn marchnatta *â* thi.

24 Dyma dy farchnadyddion am *bethau* perffaith, am frethynau gleision, a gwaith edau a nodwydd, ac am gistiau gwisgoedd gwerthfawr, wedi eu rhwymo â rhaffau a'u gwneuthur o gedrwydd, ym mysg dy farchnadaeth.

25 Llongau Tarsis *oedd* yn canu am danat yn dy farchnad; â thi a lanwyd, ac a ogoneddwyd yn odiaeth y'nghanol y moroedd.

26 ¶ Y rhai a'th rwyfasant a'th ddygasant i ddyfroedd lawer: gwynt y dwyrain a'th ddrylliodd y'nghanol y moroedd.

27 Dy olud, a'th ffeiriau, dy farchnadaeth, dy forwyr, a'th feistriaid llongau, cyweirwyr dy agennau, a marchnadwyr dy farchnad, a'th ryfelwyr oll y rhai *sydd* ynot, a'th holl gynnulleidfa yr hon *sydd* yn dy ganol, a syrthiant y'nghanol y môr, ar ddydd dy gwymp di.

28 Wrth lef gwaedd dy feistriaid llongau, y tonnau a gyffroant.

29 Yna pob rhwyfwr, y morwyr, holl lywyddion y moroedd, a ddisgynant o'u llongau, ar y tir y safant;

30 A gwnant glywed eu llef am

danat, a gwaeddant yn chwerw, a chodant lwch ar eu pennau, ac ymdrybaeddant yn y lludw.
31 A hwy a'u gwnant eu hunain yn foelion am danat, ac a ymwregysant â sachlïan, ac a wylant am danat â chwerw alar, *mewn* chwerwedd calon.
32 A chodant am danat alarnad yn eu cwynfan, a galarant am danat, *gan ddywedyd*, Pwy *oedd* fel Tyrus, fel yr hon a ddinystriwyd y'nghanol y môr!
33 Pan ddelai dy farchnadaeth o'r moroedd, diwellit bobloedd lawer; âg amlder dy olud a'th farchnadaeth y cyfoethogaist frenhinoedd y ddaear.
34 Y pryd y'th dorrer gan y môr yn nyfnderau y dyfroedd, dy farchnad a'th holl gynnulleidfa a syrthiant yn dy ganol.
35 Holl breswylwyr yr ynysoedd a synnant am danat, a'u brenhinoedd a ddychrynant ddychryn; hwy a drallodir yn *eu* hwynebau.
36 Y marchnadyddion ym mysg y bobloedd a chwibanant arnat: dychryn fyddi, ac ni *byddi* byth mwyach.

PENNOD 28.

1 *Barnedigaeth Duw ar dywysog Tyrus, am ei falchder yn erbyn Duw.* 11 *Cwynfan am fod ei fawr ogoniant ef wedi ei lygru gan bechod.* 20 *Barnedigaeth Sidon.* 24 *Adferu Israel.*

DAETH gair yr Arglwydd attaf drachefn, gan ddywedyd,
2 Ha fab dyn, dywed wrth dywysog Tyrus, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Am falchïo dy galon, a dywedyd o honot, Duw *ydwyf* fi, eisteddi yr ydwyf *yn* eisteddfa Duw y'nghanol y moroedd; a thi yn ddyn, ac nid yn Duw, er gosod o honot dy galon fel calon Duw:
3 Wele di yn ddoethach na Daniel; ni chuddir dim dirgelwch oddi wrthyt:
4 Trwy dy ddoethineb a'th ddeallgarwch y cefaist gyfoeth i ti, ïe, y cefaist aur ac arian i'th drysorau:
5 Trwy dy fawr ddoethineb *ac* wrth dy farchnadaeth yr amlheaist dy gyfoeth, a'th galon a falchïodd o herwydd dy gyfoeth:
6 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Am osod o honot dy galon fel calon Duw,
7 O herwydd hynny wele fi yn dwyn i'th erbyn ddïeithriaid, y trawsaf o'r cenhedloedd; a thynnant eu cleddyfau ar degwch dy ddoethineb, a halogant dy loywder.
8 Disgynant di i'r ffos, a byddi farw o farwolaeth yr archolledig y'nghanol y môr.
9 Gan ddywedyd a ddywedi di o flaen dy leiddiad, Duw *ydwyf* fi? a thi *a fyddi* yn ddyn, ac nid yn Duw, yn llaw dy leiddiad.
10 Byddi farw o farwolaeth y dïenwededig, trwy law dïeithriaid: canys myfi a'*i* dywedais, medd yr Arglwydd Duw.
11 ¶ Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf drachefn, gan ddywedyd,
12 Cyfod, fab dyn, alarnad am frenhin Tyrus, a dywed wrtho, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Ti seliwr nifer, llawn o ddoethineb, a chyflawn o degwch,
13 Ti a fuost yn Eden, gardd Duw: pob maen gwerthfawr a'th orchuddiai, sardius, topas, ac adamant, beryl, onix, a jaspis, saphir, rubi, a smaragdus, ac aur: gwaith dy dympanau a'th bibellau a barottôwyd ynot ar y dydd y'th grëwyd.
14 Cerub enneiniog *ydwyt* yn gorchuddio; ac *felly* y'th roddaswn; oeddit ar sanctaidd fynydd Duw: ymrodiaist y'nghanol y cerrig tanllyd.
15 Perffaith *oeddit* ti yn dy ffyrdd er y dydd y'th grëwyd, hyd oni chaed ynot anwiredd.
16 Yn amlder dy farchnadaeth y llanwasant dy ganol â thrais, a thi a bechaist: am hynny y'th halogaf allan o fynydd Duw, ac y'th ddifethaf di, gerub yn gorchuddio, o ganol y cerrig tanllyd.
17 Balchïodd dy galon yn dy degwch, llygraist dy ddoethineb o herwydd dy loywder: bwriaf di i'r llawr; o flaen brenhinoedd y'th osodaf, fel yr edrychont arnat.
18 Trwy amlder dy anwiredd, âg anwiredd dy farchnadaeth, yr halogaist dy gyssegroedd: am hynny y dygaf dân allan o'th ganol, hwnnw a'th ysa; a gwnaf di yn

lludw ar y ddaear y'ngolwg pawb
a'th welant.
19 Y rhai a'th adwaenant oll ym
mysg y bobloedd, a synnant o'th
achos: dychryn fyddi, ac ni *byddi*
byth.
20 ¶ Yna gair yr ARGLWYDD a
ddaeth attaf, gan ddywedyd,
21 Gosod, fab dyn, dy wyneb yn
erbyn Sidon, a phrophwyda yn ei
herbyn hi,
22 A dywed, Fel hyn y dywed
yr Arglwydd DDUW; Wele fi i'th
erbyn, Sidon; fel y'm gogonedder
yn dy ganol, ac y gwypont mai
myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan wnel-
wyf ynddi farnedigaethau, ac y'm
sancteiddier ynddi.
23 Canys anfonaf iddi haint, a
gwaed i'w heolydd; a bernir yr
archolledig o'i mewn â'r cleddyf,
yr hwn fydd arni oddi amgylch;
a chânt wybod mai myfi *yw* yr
ARGLWYDD.
24 ¶ Ac ni bydd mwy i dŷ Israel,
o'r holl rai o'u hamgylch a'r a'u
dirmygasant, ysbyddaden bigog, na
draenen ofidus; a chânt wybod mai
myfi *yw* yr ARGLWYDD DDUW.
25 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD
DDUW; Pan gasglwyf dŷ Israel o
fysg y bobloedd y rhai y gwasgar-
wyd hwy yn eu plith, ac yr ymsanct-
eiddiwyf ynddynt y'ngolwg y cen-
hedloedd; yna y trigant yn eu gwlad
a roddais i'm gwas Jacob.
26 Ie, trigant ynddi yn ddïogel,
ac adeiladant dai, a phlannant win-
llannoedd; a phreswyliant mewn
dïogelwch, pan wnelwyf farnedig-
aethau â'r rhai oll a'u dirmygant
hwy o'u hamgylch; fel y gwypont
mai myfi *yw* yr ARGLWYDD eu
DUW.

PENNOD 29.

1 *Barnedigaeth Pharaoh, am ei fradwriaeth i Israel.* 8 *Dinystr yr Aipht:* 13 *a'i hadferu ym mhen deugain mlynedd.* 17 *Nebuchodonosor yn cael yr Aipht yn gyflog ac yn wobr am gospi Tyrus.* 21 *Yr adferir Israel.*

YN y degfed *mis* o'r ddegfed
flwyddyn, ar y deuddegfed
dydd o'r mis, y daeth gair yr AR-
GLWYDD attaf, gan ddywedyd,
2 Gosod, fab dyn, dy wyneb yn
erbyn Pharaoh brenhin yr Aipht,
a phrophwyda yn ei erbyn ef, ac
yn erbyn yr Aipht oll.
3 Llefara, a dywed, Fel hyn y
dywed yr Arglwydd DDUW; Wele
fi i'th erbyn, Pharaoh brenhin yr
Aipht, y ddraig fawr yr hwn sydd
yn gorwedd y'nghanol ei afonydd,
yr hwn a ddywedodd, Eiddof fi *yw*
fy afon, a mi a'*i* gwneuthum *hi* i
mi fy hun.
4 Eithr gosodaf fachau yn dy
fochgernau, a gwnaf i bysgod dy
afonydd lynu yn dy emmau, a
chodaf di o ganol dy afonydd; ïe,
holl bysgod dy afonydd a lynant
wrth dy emmau.
5 A mi a'th adawaf yn yr anial-
wch, ti a holl bysgod dy afonydd:
syrthi ar wyneb y maes, ni'th gesgl-
ir, ac ni'th gynhullir; i fwystfilod
y maes ac i ehediaid y nefoedd y'th
roddais yn ymborth.
6 A holl drigolion yr Aipht a
gânt wybod mai myfi *yw* yr AR-
GLWYDD, am iddynt fod yn ffon
gorsen i dŷ Israel.
7 Pan ymaflasant ynot erbyn dy
law, ti a dorraist, ac a rwygaist eu
holl ysgwydd: a phan bwysasant
arnat, ti a dorraist, ac a wnaethost
i'w holl arennau sefyll.
8 ¶ Am hynny fel hyn y dywed
yr Arglwydd DDUW; Wele fi yn
dwyn arnat gleddyf, a thorraf ym-
aith o honot ddyn ac anifail.
9 A bydd tir yr Aipht yn ddin-
ystr ac yn anrhaith; a chânt wyb-
od mai myfi *yw* yr ARGLWYDD: am
iddo ddywedyd, Eiddof fi *yw* yr
afon, a myfi a'*i* gwneuthum.
10 Am hynny wele fi yn dy erbyn
di, ac yn erbyn dy afonydd, a
gwnaf dir yr Aipht yn ddiffaeth-
wch anrheithiedig, *ac* yn anghyf-
annedd, o dŵr Syeneh hyd yn
nherfyn Ethiopia.
11 Ni chynniwair troed dyn
trwyddi, ac ni chynniwair troed
anifail trwyddi, ac nis cyfanneddir
hi ddeugain mlynedd.
12 A mi a wnaf wlad yr Aipht
yn anghyfannedd y'nghanol gwled-
ydd anghyfanneddol, a'i dinasoedd
fyddant yn anghyfannedd ddeu-
gain mlynedd y'nghanol dinasoedd
anrheithiedig; a mi a wasgaraf yr
Aiphtiaid ym mysg y cenhedloedd,
ac a'u taenaf hwynt ar hyd y
gwledydd.

13 ¶ Etto fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Ym mhen deugain mlynedd y casglaf yr Aipht-iaid o fysg y bobloedd lle y gwasgarwyd hwynt.
14 A dychwelaf gaethiwed yr Aipht, ïe, dychwelaf hwynt *i* dir Pathros, i dir eu preswylfa; ac yno y byddant yn frenhiniaeth isel.
15 Isaf fydd o'r brenhiniaethau, ac nid ymddyrchaif mwy oddi ar y cenhedloedd; canys lleihâf hwynt, rhag arglwyddiaethu ar y cenhedloedd.
16 Ac ni bydd hi mwy i dŷ Israel yn hyder, yn dwyn ar gôf *eu* hanwiredd, pan edrychont hwy ar eu hol hwythau: eithr cânt wybod mai myfi *yw* yr Arglwydd Duw.
17 ¶ Ac yn y *mis* cyntaf o'r seithfed flwyddyn ar hugain, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd,
18 Ha fab dyn, Nebuchodonosor brenhin Babilon a wnaeth i'w lu wasanaethu gwasanaeth mawr yn erbyn Tyrus: pob pen a foelwyd, a phob ysgwydd a ddinoethwyd; ond nid oedd am Tyrus gyflog iddo, ac i'w lu, am y gwasanaeth a wasanaethodd efe yn ei herbyn hi:
19 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Wele fi yn rhoddi tir yr Aipht i Nebuchodonosor brenhin Babilon, ac efe a gymmer ei lïaws hi, ac a yspeilia ei hyspail hi, ac a ysglyfaetha ei hysglyfaeth hi, fel y byddo hi yn gyflog i'w lu ef.
20 *Am* ei waith yr hwn a wasanaethodd efe yn ei herbyn hi, y rhoddais iddo dir yr Aipht; o herwydd i mi y gweithiasant, medd yr Arglwydd Duw.
21 ¶ Yn y dydd hwnnw y gwnaf i gorn tŷ Israel flaguro, a rhoddaf i tithau agoriad genau yn eu canol hwynt: a chânt wybod mai myfi *yw* yr Arglwydd.

PENNOD 30.

1 *Dinystr yr Aipht a'i chynnorthwywyr.* 20 *Y cadarnhâir braich Babilon i dorri braich yr Aipht.*

AGAIR yr Arglwydd a ddaeth attaf, gan ddywedyd,
2 Prophwyda, fab dyn, a dywed, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Udwch, Och o'r diwrnod!
3 Canys agos dydd, ïe, agos dydd yr Arglwydd, dydd cymmylog; amser y cenhedloedd fydd efe.
4 A'r cleddyf a ddaw ar yr Aipht, a bydd gofid blin yn Ethiopia, pan syrthio yr archolledig yn yr Aipht, a chymmeryd o honynt ei llïaws hi, a dinystrio ei seiliau.
5 Ethiopia, a Libya, a Lydia, a'u gwerin oll, Chub hefyd, a meibion y tir sydd yn y cyfammod, a syrthiant gyd â hwynt gan y cleddyf.
6 Fel hyn y dywed yr Arglwydd; Y rhai sydd yn cynnal yr Aipht a syrthiant hefyd, a balchder ei nerth hi a ddisgyn: syrthiant ynddi gan y cleddyf o dŵr Syeneh, medd yr Arglwydd Duw.
7 A hwy a wneir yn anghyfannedd ym mhlith y gwledydd anghyfanneddol, a'i dinasoedd fydd y'nghanol y dinasoedd anrheithiedig.
8 A chânt wybod mai myfi *yw* yr Arglwydd, pan roddwyf dân yn yr Aipht, ac y torrer ei holl gynnorthwywyr hi.
9 Y dydd hwnnw cenhadau a ânt allan oddi wrthyf fi mewn llongau, i ddychrynu Ethiopia ddïofal, a bydd gofid blin arnynt fel yn nydd yr Aipht: canys wele ef yn dyfod.
10 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Gwnaf hefyd i lïaws yr Aipht ddarfod trwy law Nebuchodonosor brenhin Babilon.
11 Efe a'i bobl gyd âg ef, y rhai trawsion o'r cenhedloedd, a ddygir i ddifetha y tir: a hwy a dynnant eu cleddyfau ar yr Aipht, ac a lanwant y wlad â chelanedd.
12 Gwnaf hefyd yr afonydd yn sychder, a gwerthaf y wlad i law y drygionus; ïe, anrheithiaf y wlad a'i chyflawnder trwy law dïeithriaid: myfi yr Arglwydd a'*i* dywedodd.
13 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Difethaf hefyd y delwau, a gwnaf i'r eilunod ddarfod o Noph; ac ni bydd tywysog mwyach o dir yr Aipht: ac ofn a roddaf yn nhir yr Aipht.
14 Pathros hefyd a anrheithiaf,

a rhoddaf dân yn Soan, a gwnaf
farnedigaethau yn No.
15 A thywalltaf fy llid ar Sin,
cryfder yr Aipht; ac a dorraf ym-
aith lïaws No.
16 A mi a roddaf dân yn yr Aipht;
gan ofidio y gofidia Sin, a No a
rwygir, a *bydd ar* Noph gyfyng-
derau beunydd.
17 Gwŷr ieuainge Afen a Phi-
beseth a syrthiant gan y cleddyf;
ac i gaethiwed yr ânt hwy.
18 Ac ar Tehaphnehes y tywylla
y diwrnod, pan dorrwyf yno ieuau
yr Aipht: a balchder ei chryfder
a dderfydd ynddi: cwmmwl a'i
cuddia hi, a'i merched a ânt i
gaethiwed.
19 Felly y gwnaf farnedigaethau
yn yr Aipht; fel y gwypont mai
myfi *yw* yr ARGLWYDD.
20 ¶ Ac yn y *mis* cyntaf o'r unfed
flwyddyn ar ddeg, ar y seithfed
dydd o'r mis, y daeth gair yr AR-
GLWYDD attaf, gan ddywedyd,
21 Ha fab dyn, torrais fraich Pha-
raoh brenhin yr Aipht; ac wele, nis
rhwymir i roddi meddyginiaethau
wrtho, i osod rhwymyn i rwymo,
i'w gryfhâu i ddal y cleddyf.
22 Am hynny fel hyn y dywed yr
Arglwydd DDUW; Wele fi yn erbyn
Pharaoh brenhin yr Aipht, a mi a
dorraf ei freichiau ef, y cryf, a'r
hwn oedd ddrylliedig; ac a wnaf
i'r cleddyf syrthio o'i law ef.
23 A mi a wasgaraf yr Aiphtiaid
ym mysg y cenhedloedd, ac a'u
taenaf hwynt ar hyd y gwledydd.
24 A mi a gadarnhâf freichiau
brenhin Babilon, ac a roddaf fy
nghleddyf yn ei law ef: ond mi a
dorraf freichiau Pharaoh, ac efe a
ochain o'i flaen ef âg ocheneidiau
un archolledig.
25 Ond mi â gadarnhâf freichiau
brenhin Babilon, a breichiau Pha-
raoh a syrthiant; fel y gwypont
mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, wedi
i mi roddi fy nghleddyf yn llaw
brenhin Babilon, ac iddo yntau ei
estyn ef ar wlad yr Aipht.
26 A mi a wasgaraf yr Aiphtiaid
ym mysg y cenhedloedd, ac a'u
taenaf hwynt ar hyd y gwledydd;
fel y gwypont mai myfi *yw* yr AR-
GLWYDD

PENNOD 31.

1 *Adrodd i Pharaoh* 3 *ogoniant Assyria,* 10 *a'i chwymp am ei balchder.* 18 *Yr un dinystr ar yr Aipht.*

AC yn y trydydd *mis* o'r unfed
flwyddyn ar ddeg, ar y *dydd*
cyntaf o'r mis, y daeth gair yr AR-
GLWYDD attaf, gan ddywedyd,
2 Dywed, fab dyn, wrth Pharaoh
brenhin yr Aipht, ac wrth ei lïaws,
I bwy yr ydwyt debyg yn dy fawr-
edd?
3 ¶ Wele, Assur oedd gedrwydd-
en yn Libanus, yn dêg ei cheingc-
iau, a'i brig yn cysgodi, ac yn uchel
ei huchder, a'i brigyn oedd rhwng
y tewfrig.
4 Dyfroedd a'i maethasai hi, y
dyfnder a'i dyrchafasai, â'i hafon-
ydd yn cerdded o amgylch ei
phlanfa; bwriodd hefyd ei ffrydiau
at holl goed y maes.
5 Am hynny yr ymddyrchafodd ei
huchder hi goruwch holl goed y
maes, a'i cheingciau a amlhasant,
a'i changhennau a ymestynasant, o
herwydd dyfroedd lawer, pan fwr-
iodd hi allan.
6 Holl ehediaid y nefoedd a
nythent yn ei cheingciau hi, a holl
fwystfilod y maes a lydnent dan
ei changhennau hi; ïe, yr holl gen-
hedloedd llïosog a eisteddent dan
ei chysgod hi.
7 Felly teg ydoedd hi yn ei mawr-
edd, yn hŷd ei brig; o herwydd
ei gwraidd ydoedd wrth ddyfroedd
lawer.
8 Y cedrwydd y'ngardd DUW ni
allent ei chuddio hi: y ffynnidwydd
nid oeddynt debyg i'w cheingciau
hi, a'r ffawydd nid oeddynt fel ei
changhennau hi; ac un pren yng
ngardd yr Arglwydd nid ydoedd
debyg iddi hi yn ei thegwch.
9 Gwnaethwn hi yn dêg gan lïaws
ei changhennau: a holl goed Eden,
y rhai *oedd* y'ngardd DUW, a gen-
figennasant wrthi hi.
10 ¶ Am hynny fel hyn y dywed
yr Arglwydd DDUW; O herwydd
ymddyrchafu o honot mewn uch-
der, a rhoddi o honi ei brig ym
mysg y tewfrig, ac ymddyrchafu ei
chalon yn ei huchder;
11 Am hynny y rhoddais hi yn
llaw cadarn y cenhedloedd: gan

wneuthur y gwna efe iddi; am ei drygioni y bwriais hi allan.

12 A dïeithriaid, rhai ofnadwy y cenhedloedd, a'i torrasant hi ymaith, ac a'i gadawsant hi: ar y mynyddoedd ac yn yr holl ddyffryn-oedd y syrthiodd ei brig hi, a'i changhennau a dorrwyd yn holl afonydd y ddaear; a holl bobloedd y tir a ddisgynasant o'i chysgod hi, ac a'i gadawsant hi.

13 Holl ehediaid y nefoedd a drigant ar ei chyff hi, a holl fwystfilod y maes a fyddant ar ei changhennau hi;

14 Fel nad ymddyrchafo holl goed y dyfroedd yn eu huchder, ac na roddont eu brigyn rhwng y tewfrig, ac na safo yr holl goed dyfradwy yn eu huchder: canys rhoddwyd hwynt oll i farwolaeth yn y tir isaf y'nghanol meibion dynion, gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll.

15 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Yn y dydd y disgynodd hi i'r bedd, gwneuthum alaru: toais y dyfnder am dani hi, ac atteliais ei hafonydd, fel yr attaliwyd dyfroedd lawer; gwneuthum i Libanus alaru am dani hi, ac *yr ydoedd ar* holl goed y maes lesmair am dani hi.

16 Gan swn ei chwymp hi y cynhyrfais y cenhedloedd, pan wneuthum iddi ddisgyn i uffern gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll; a holl goed Eden, y dewis a'r goreu yn Libanus, y dyfradwy oll, a ymgysurant yn y tir isaf.

17 Hwythau hefyd gyd â hi a ddisgynant i uffern at laddedigion y cleddyf, a'r *rhai oedd* fraich iddi hi, *y rhai* a drigasant dan ei chysgod hi y'nghanol y cenhedloedd.

18 ¶ I bwy felly ym mysg coed Eden yr oeddit debyg mewn gogoniant a mawredd? etto ti a ddisgynir gyd â choed Eden i'r tir isaf; gorweddi y'nghanol y rhai dïenwaededig, gyd â lladdedigion y cleddyf. Dyma Pharaoh a'i holl lïaws, medd yr Arglwydd Dduw.

PENNOD 32.

1 *Cwymfan am erchyll gwymp yr Aipht.* 11 *Cleddyf Babilon a'i dinystria hi.* 17 *Y dygir hi i waered i uffern ym mhlith y cenhedloedd dienwaededig.*

AC yn y deuddegfed mis o'r ddeuddegfed flwyddyn, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd,

2 Ha fab dyn, cyfod alarnad am Pharaoh brenhin yr Aipht, a dywed wrtho, Tebygaist i lew ieuangc y cenhedloedd, ac yr *ydwyt* ti fel morfil yn y moroedd: a daethost allan gyd â'th afonydd; cythryblaist hefyd y dyfroedd â'th draed, a methraist eu hafonydd hwynt.

3 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Minnau a daenaf fy rhwyd arnat â chynnulleidfa pobloedd lawer; a hwy a'th godant yn fy rhwyd i.

4 Gadawaf di *hefyd* ar y tir, taflaf di ar wyneb y maes, a gwnaf i holl ehediaid y nefoedd drigo arnat ti; ïe, o honot ti y diwallaf fwystfilod yr holl ddaear.

5 Rhoddaf hefyd dy gig ar y mynyddoedd, a llanwaf y dyffrynoedd â'th uchder di.

6 Mwydaf hefyd â'th waed y tir yr wyt yn nofio ynddo, hyd y mynyddoedd; a llenwir yr afonydd o honot.

7 *Ïe*, cuddiaf y nefoedd wrth dy ddiffoddi, a thywyllaf eu sêr hwynt: yr haul a guddiaf â chwmmwl, a'r lleuad ni wna i'w goleuni oleuo.

8 Tywyllaf arnat holl lewyrch goleuadau y nefoedd, a rhoddaf dywyllwch ar dy dir, medd yr Arglwydd Dduw.

9 A digiaf galon pobloedd lawer, pan ddygwyf dy ddinystr ym mysg y cenhedloedd i diroedd nid adnabuost.

10 A gwnaf i bobloedd lawer ryfeddu wrthyt, a'u brenhinoedd a ofnant yn fawr o'th blegid, pan wnelwyf i'm cleddyf ddisgleirio o flaen eu hwynebau hwynt; a hwy ar *bob* munud a ddychrynant, bob un am ei einioes, yn nydd dy gwymp.

11 ¶ Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Cleddyf brenhin Babilon a ddaw arnat ti.

12 A chleddyfau y rhai cedyrn y cwympaf dy lïaws, *byddant* oll yn gedyrn y cenhedloedd; a hwy a anrheithiant falchder yr Aipht, a'i holl lïaws hi a ddinystrir.

13 Difethaf hefyd ei holl anifeiliaid hi oddi wrth ddyfroedd lawer; ac ni sathr troed dyn hwynt mwy, ac ni fathra carnau anifeiliaid hwynt.

14 Yna y gwnaf yn ddyfnion eu dyfroedd hwynt, a gwnaf i'w hafonydd gerdded fel olew, medd yr Arglwydd Duw.

15 Pan roddwyf dir yr Aipht yn anrhaith, ac anrheithio y wlad o'i llawnder, pan darawyf y rhai oll a breswyliant ynddi, yna y cânt wybod mai myfi *yw* yr Arglwydd.

16 Dyma y galar a alarant am dani hi: merched y cenhedloedd a alarant am dani hi; galarant am dani hi, *sef* am yr Aipht, ac am ei lïaws oll, medd yr Arglwydd Duw.

17 ¶ Ac yn y ddeuddegfed flwyddyn, ar y pymthegfed *dydd* o'r mis, y daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd,

18 Cwyna, fab dyn, am lïaws yr Aipht, a disgyn hi, hi a merched y cenhedloedd enwog, i'r tir isaf, gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll.

19 Teccach na phwy oeddit? disgyn a gorwedd gyd â'r rhai dïenwaededig.

20 Syrthiant y'nghanol *y rhai* a laddwyd â'r cleddyf: i'r cleddyf y rhoddwyd hi; llusgwch hi a'i lïaws oll.

21 Llefared cryfion y cedyrn wrthi hi o ganol uffern gyd â'i chynnorthwywyr: disgynasant, gorweddant yn ddïenwaededig, wedi eu lladd â'r cleddyf.

22 Yno *y mae* Assur a'i holl gynnulleidfa, *a'i* feddau o amgylch; wedi eu lladd oll, a syrthio trwy y cleddyf.

23 Yr hon y rhoddwyd eu beddau yn ystlysau y pwll, a'i chynnulleidfa ydoedd o amgylch ei bedd; wedi eu lladd oll, a syrthio trwy y cleddyf, y rhai a barasant arswyd yn nhir y rhai byw.

24 Yno *y mae* Elam a'i holl lïaws o amgylch ei bedd, wedi eu lladd oll, a syrthio trwy y cleddyf, y rhai a ddisgynasant yn ddïenwaededig i'r tir isaf, y rhai a barasant eu harswyd yn nhir y rhai byw; etto hwy a ddygasant eu gwaradwydd gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll.

25 Y'nghanol y rhai lladdedig y gosodasant iddi wely ynghyd â'i holl lïaws; a'i beddau o'i amgylch: y rhai hynny oll yn ddïenwaededig, a laddwyd â'r cleddyf: er peri eu harswyd yn nhir y rhai byw, etto dygasant eu gwaradwydd gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll: y'nghanol y lladdedigion y rhoddwyd ef.

26 Yno *y mae* Mesech, Tubal, a'i holl lïaws; a'i beddau o amgylch: y rhai hynny oll yn ddïenwaededig, wedi eu lladd â'r cleddyf, er peri o honynt eu harswyd yn nhir y rhai byw.

27 Ac ni orweddant gyd â'r cedyrn a syrthiasant o'r rhai dïenwaededig, y rhai a ddisgynasant i uffern â'u harfau rhyfel: a rhoddasant eu cleddyfau dan eu pennau; eithr eu hanwireddau fydd ar eu hesgyrn hwy, er *eu bod* yn arswyd i'r cedyrn yn nhir y rhai byw.

28 A thithau a ddryllir ym mysg y rhai dïenwaededig, ac a orweddi gyd â'r rhai a laddwyd â'r cleddyf.

29 Yno *y mae* Edom, a'i brenhinoedd, a'i holl dywysogion, y rhai a roddwyd â'u cadernid gyd *â'r rhai a* laddwyd â'r cleddyf: hwy a orweddant gyd â'r rhai dïenwaededig, a chyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll.

30 Yno *y mae* holl dywysogion y gogledd, a'r holl Sidoniaid, y rhai a ddisgynant gyd â'r lladdedigion; gyd â'u harswyd y cywilyddiant am eu cadernid; gorweddant hefyd yn ddïenwaededig gyd a'r rhai a laddwyd â'r cleddyf, ac a ddygant eu gwaradwydd gyd â'r rhai a ddisgynant i'r pwll.

31 Pharaoh a'u gwel hwynt, ac a ymgysura yn ei holl lïaws, Pharaoh a'i holl lu wedi eu lladd â'r cleddyf, medd yr Arglwydd Duw.

32 Canys rhoddais fy ofn yn nhir y rhai byw; a gwneir iddo orwedd y'nghanol y rhai dïenwaededig, gyd â lladdedigion y cleddyf, *sef* i Pharaoh ac i'w holl lïaws, medd yr Arglwydd Duw.

PENNOD 33.

1 *Yn ol dyled gwyliwr yn rhybuddio y bobl,*
7 *y dygir ar gôj i Esceiel ei ddyled yntau.*
10 *Duw yn danjos mor uniawn ydyw ei ffyrdd*
ef tu ag at yr edifeiriol, a thu ag at y rhai a
gilio oddi wrtho: 17 *yn amddiffyn ei gyfiawnder.*
21 *Wrth glywed darfod ennill Jerusalem, y mae*
yn prophwydo dinystr y wlad. 30 *Barnediga-*
ethau Duw yn erbyn y rhai a watwarent y pro-
phwydi.

ADAETH gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

2 Llefara, fab dyn, wrth feibion dy bobl, a dywed wrthynt, Pan ddygwyf gleddyf ar wlad, a chymmeryd o bobl y wlad ryw ŵr o'i chyrrau, a'i roddi yn wyliedydd iddynt:

3 Os gwel efe gleddyf yn dyfod ar y wlad, ac ûdganu mewn udgorn, a rhybuddio y bobl;

4 Yna yr hwn a glywo lais yr udgorn, ac ni chymmer rybudd; eithr dyfod o'r cleddyf a'i gymmeryd ef ymaith, ei waed fydd ar ei ben ei hun.

5 Efe a glybu lais yr udgorn, ac ni chymmerodd rybudd; ei waed fydd arno: ond yr hwn a gymmero rybudd, a wared ei enaid.

6 Ond pan welo y gwyliedydd y cleddyf yn dyfod, ac ni udgana mewn udgorn, a'r bobl heb eu rhybuddio; eithr dyfod o'r cleddyf a chymmeryd un o honynt, efe a ddaliwyd yn ei anwiredd, ond mi a ofynaf ei waed ef ar law y gwyliedydd.

7 ¶ Felly dithau, fab dyn, yn wyliedydd y'th roddais i dŷ Israel; fel y clywech air o'm genau, ac y rhybuddiech hwynt oddi wrthyf fi.

8 Pan ddywedwyf wrth yr annuwiol, *Ti* annuwiol, gan farw a fyddi farw; oni leferi di i rybuddio yr annuwiol o'i ffordd, yr annuwiol hwn a fydd marw yn ei anwiredd, ond ar dy law di y gofynaf ei waed ef.

9 Ond os rhybuddi di yr annuwiol o'i ffordd, i ddychwelyd o honi; os efe ni ddychwel o'i ffordd, efe fydd farw yn ei anwiredd, a thithau a waredaist dy enaid.

10 ¶ Llefara hefyd wrth dŷ Israel, ti fab dyn, Fel hyn gan ddywedyd y dywedwch; Os *yw* ein hanwireddau a'n pechodau arnom, a ninnau yn dihoeni ynddynt, pa fodd y byddem ni byw?

11 Dywed wrthynt, *Fel mâi* byw fi, medd yr Arglwydd DDUW, ni ymhoffaf ym marwolaeth yr annuwiol; ond troi o'r annuwiol oddi wrth ei ffordd, a byw: dychwelwch, dychwelwch oddi wrth eich ffyrdd drygionus; canys, tŷ Israel, paham y byddwch feirw?

12 Dywed hefyd, fab dyn, wrth feibion dy bobl, Cyfiawnder y cyfiawn nis gwared ef yn nydd ei anwiredd: felly am annuwioldeb yr annuwiol, ni syrth efe o'i herwydd yn y dydd y dychwelo oddi wrth ei anwiredd; ni ddichon y cyfiawn chwaith fyw oblegid *ei gyfiawnder*, yn y dydd y pecho.

13 Pan ddywedwyf wrth y cyfiawn, Gan fyw y caiff fyw; os efe a hydera ar ei gyfiawnder, ac a wna anwiredd, ei holl gyfiawnderau ni chofir; ond am ei anwiredd a wnaeth, am dano y bydd efe marw.

14 A phan ddywedwyf wrth yr annuwiol, Gan farw y byddi farw; os dychwel efe oddi wrth ei bechod, a gwneuthur barn a chyfiawnder;

15 *Os* yr annuwiol a ddadrydd wystl, *ac* a rydd yn ei ol yr hyn a dreisiodd, a rhodio yn neddfau y bywyd, heb wneuthur anwiredd; gan fyw y bydd efe byw, ni bydd marw:

16 Ni choffêir iddo yr holl bechodau a bechodd: barn a chyfiawnder a wnaeth; efe gan fyw a fydd byw.

17 ¶ A meibion dy bobl a ddywedant, Nid yw uniawn ffordd yr ARGLWYDD: eithr eu ffordd hwynt nid yw uniawn.

18 Pan ddychwelo y cyfiawn oddi wrth ei gyfiawnder, a gwneuthur anwiredd, efe a fydd marw ynddynt.

19 A phan ddychwelo yr annuwiol oddi wrth ei annuwioldeb, a gwneuthur barn a chyfiawnder, yn y rhai hynny y bydd efe byw.

20 Etto chwi a ddywedwch nad uniawn ffordd yr ARGLWYDD. Barnaf chwi, tŷ Israel, bob un yn ol ei ffyrdd ei hun.

21 ¶ Ac yn y degfed *mis* o'r ddeuddegfed flwyddyn o'n caethgludiad ni, ar y pummed *dydd* o'r mis, y daeth un a ddïangasai o Jerusalem attaf fi, gan ddywedyd, Tarawyd y ddinas.

22 A llaw yr ARGLWYDD a fuasai arnaf yn yr hwyr, cyn dyfod y dïangydd, ac a agorasai fy safn, nes ei ddyfod attaf y bore; ïe, ymagorodd fy safn, ac ni bûm fud mwyach.

23 Yna y daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

24 Ha fab dyn, preswylwyr y diffaethwch hyn yn nhir Israel ydynt yn llefaru, gan ddywedyd, Abraham oedd un, ac a feddiannodd y tir; ninnau *ydym* lawer, i ni y rhoddwyd y tir yn etifeddiaeth.

25 Am hynny dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Yr ydych yn bwytta ynghyd â'r gwaed, ac yn dyrchafu eich llygaid at eich gau-dduwiau, ac yn tywallt gwaed; ac a feddiennwch chwi y tir?

26 Sefyll yr ydych ar eich cleddyf, gwnaethoch ffieidd-dra, halogasoch hefyd bob un wraig ei gymmydog; ac a feddiennwch chwi y tir?

27 Fel hyn y dywedi wrthynt, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; *Fel mai* byw fi, trwy y cleddyf y syrth y rhai *sydd* yn y diffaethwch; a'r hwn *sydd* ar wyneb y maes, i'r bwystfil y rhoddaf ef i'w fwytta; a'r rhai *sydd* yn yr amddiffynfeydd ac mewn ogofeydd, a fyddant feirw o'r haint.

28 Canys gwnaf y tir yn anrhaith, ïe, yn anrhaith; a balchder ei nerth ef a baid, ac anrheithir mynyddoedd Israel, heb gynniweirydd ynddynt.

29 A chânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan wnelwyf y tir yn anrhaith, ïe, yn anrhaith, am eu holl ffieidd-dra a wnaethant.

30 ¶ Tithau fab dyn, meibion dy bobl sydd yn siarad i'th erbyn wrth y parwydydd, ac o fewn drysau y tai, ac yn dywedyd y naill wrth y llall, pob un wrth ei gilydd, gan ddywedyd, Deuwch, attolwg, a gwrandêwch beth *yw* y gair sydd yn dyfod oddi wrth yr ARGLWYDD.

31 Deuant hefyd attat fel y daw y bobl, ac eisteddant o'th flaen *fel* fy mhobl, gwrandawant hefyd dy eiriau, ond nis gwnant hwy: canys â'u geneuau y dangosant gariad, a'u calon sydd yn myned ar ol eu cybydd-dod.

32 Wele di hefyd iddynt fel cân cariad *un* hyfrydlais, ac yn canu yn dda: canys gwrandawant dy eiriau, ond nis gwnant hwynt.

33 A phan ddelo hyn, (wele ef yn dyfod,) yna y cânt wybod fod prophwyd yn eu mysg.

PENNOD 34.

1 *Argyhoeddi y bugeiliaid; 7 a barn Duw yn eu herbyn hwy;* 11 *a'i ragluniaeth dros ei ddïadell.* 20 *Brenhiniaeth Crist.*

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth attaf, gan ddywedyd,

2 Prophwyda, fab dyn, yn erbyn bugeiliaid Israel; prophwyda, a dywed wrthynt, wrth y bugeiliaid, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Gwae fugeiliaid Israel y rhai sydd yn eu porthi eu hunain: oni phortha y bugeiliaid y praidd?

3 Y brasder a fwyttêwch, a'r gwlan a wisgwch, y bras a leddwch; *ond* ni phorthwch y praidd.

4 Ni chryfhasoch y rhai llesg, ac ni feddyginiaethasoch y glaf, ni rwymasoch y ddrylliedig chwaith, a'r gyfeiliornus ni ddygasoch adref, a'r golledig ni cheisiasoch; eithr llywodraethasoch hwynt â thrais ac â chreulondeb.

5 A hwy a wasgarwyd o eisieu bugail: a buant yn ymborth i holl fwystfilod y maes, pan wasgarwyd hwynt.

6 Fy nefaid a grwydrasant ar hyd yr holl fynyddoedd, ac ar bob bryn uchel: ïe, gwasgarwyd fy mhraidd ar hyd holl wyneb y ddaear, ac nid oedd a'u ceisiai, nac a ymofynai *am danynt.*

7 ¶ Am hynny, fugeiliaid, gwrandêwch air yr ARGLWYDD.

8 *Fel mai* byw fi, medd yr Arglwydd DDUW, am fod fy mhraidd yn yspail, a bod fy mhraidd yn ymborth i holl fwystfilod y maes, o eisieu bugail, ac na cheisiodd fy

mugeiliaid fy mhraidd, eithr y bugeiliaid a'u porthasant eu hun, ac ni phorthasant fy mhraidd:
9 Am hynny, O fugeiliaid, gwrandêwch air yr ARGLWYDD.
10 Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Wele fi yn erbyn y bugeiliaid: a gofynaf fy mhraidd ar eu dwylaw hwynt, a gwnaf iddynt beidio â phorthi y praidd; a'r bugeiliaid ni phorthant eu hun mwy: canys gwaredaf fy mhraidd o'u safn hwy, fel na byddont yn ymborth iddynt.
11 ¶ Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW, Wele myfi, *ïe*, myfi a ymofynaf am fy mhraidd, ac a'u ceisiaf hwynt.
12 Fel y cais bugail ei ddïadell ar y dydd y byddo ym mysg ei ddefaid gwasgaredig, felly y ceisiaf finnau fy nefaid, ac a'u gwaredaf hwynt o bob lle y gwasgarer hwynt iddo ar y dydd cymmylog a thywyll.
13 A dygaf hwynt allan o fysg y bobloedd, a chasglaf hwynt o'r tiroedd, a dygaf hwynt i'w tir eu hun, a phorthaf hwynt ar fynyddoedd Israel wrth yr afonydd, ac yn holl drigfannau y wlad.
14 Mewn porfa dda y porthaf hwynt, ac ar uchel fynyddoedd Israel y bydd eu corlan hwynt: yno y gorweddant mewn corlan dda, ïe, *mewn* porfa fras y porant ar fynyddoedd Israel.
15 Myfi a borthaf fy mhraidd, a myfi a'u gorweddfâf hwynt, medd yr Arglwydd DDUW.
16 Y golledig a geisiaf, a'r darfedig a ddychwelaf, a'r friwedig a rwymaf, a'r lesg a gryfhâf: eithr dinystriaf y fras a'r gref; â barn y porthaf hwynt.
17 Chwithau, fy mhraidd, fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW, Wele fi yn barnu rhwng milyn a milyn, rhwng yr hyrddod a'r bychod.
18 Ai bychan gennych bori o honoch y borfa dda, oni bydd i chwi sathru dan eich traed y rhan arall o'ch porfeydd? ac yfed o honoch y dyfroedd dyfnion, oni bydd i chwi sathru y rhan arall â'ch traed?
19 A'm praidd i, y maent yn pori sathrfa eich traed chwi; a mathrfa eich traed a yfant.
20 ¶ Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW wrthynt hwy; Wele myfi, *ïe*, myfi a farnaf rhwng milyn bras a milyn cul.
21 O herwydd gwthio o honoch âg ystlys ac âg ysgwydd, a chornio o honoch â'ch cyrn y rhai llesg oll, hyd oni wasgarasoch hwynt allan:
22 Am hynny y gwaredaf fy mhraidd, fel na byddont mwy yn yspail; a barnaf rhwng milyn a milyn.
23 Cyfodaf hefyd un bugail arnynt, ac efe a'u portha hwynt, *sef* fy ngwas Dafydd; efe a'u portha hwynt, ac efe a fydd yn fugail iddynt.
24 A minnau yr ARGLWYDD a fyddaf yn DDUW iddynt, a'm gwas Dafydd yn dywysog yn eu mysg: myfi yr ARGLWYDD a leferais *hyn*.
25 Gwnaf hefyd â hwynt gyfammod heddwch, a gwnaf i'r bwystfil drwg beidio o'r tir: a hwy a drigant yn ddïogel yn yr anialwch, ac a gysgant yn y coedydd.
26 Hwynt hefyd ac amgylchoedd fy mryn a wnaf yn fendith: a gwnaf i'r gwlaw ddisgyn yn ei amser; cawodydd bendith a fydd.
27 A rhydd pren y maes ei ffrwyth, a'r tir a rydd ei gynnyrch, a byddant yn eu tir eu hun mewn dïogelwch, ac a gânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, pan dorrwyf rwymau eu hiau hwynt, a'u gwared hwynt o law y rhai oedd yn mynnu gwasanaeth ganddynt.
28 Ac ni byddant mwyach yn yspail i'r cenhedloedd, a bwystfil y tir nis bwytty hwynt; eithr trigant mewn dïogelwch, ac ni *bydd* a'*u* dychryno.
29 Cyfodaf iddynt hefyd blanhigyn enwog, ac ni byddant mwy wedi trengi o newyn yn y tir, ac ni ddygant mwy waradwydd y cenhedloedd.
30 Fel hyn y cânt wybod mai myfi yr ARGLWYDD eu DUW *sydd* gyd â hwynt, ac *mai* hwythau, tŷ Israel, *yw* fy mhobl i, medd yr Arglwydd DDUW.
31 Chwithau, fy mhraidd, defaid

fy mhorfa, dynion *ydych* chwi, myfi *yw* eich DUW chwi, medd yr Arglwydd DDUW.

PENNOD 35.

Barnedigaeth mynydd Seir am eu cas tu ag at Israel.

A DAETH gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,
2 Gosod dy wyneb, fab dyn, tu ag at fynydd Seir, a phrophwyda yn ei erbyn,
3 A dywed wrtho, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Wele fi i'th erbyn di, mynydd Seir; estynaf hefyd fy llaw i'th erbyn, a gwnaf di yn anghyfannedd, ac yn ddiffaethwch.
4 Gosodaf dy ddinasoedd yn ddiffaethwch, a thithau a fyddi yn anghyfannedd; fel y gwypech mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.
5 Am fod gennyt alanasdra tragywyddol, a thywallt o honot *waed* meibion Israel â mîn y cleddyf, yn amser eu gofid, yn amser diwedd *eu* hanwiredd *hwynt:*
6 Am hynny *fel mai* byw fi, medd yr Arglwydd DDUW, mi a'th wnaf di yn waed, a gwaed a'th ymlid di: gan na chasêi waed, gwaed a'th ddilyn.
7 Gwnaf hefyd fynydd Seir yn anrhaith ac yn ddiffaethwch; a thorraf ymaith o hono yr hwn a elo allan, a'r hwn a ddychwelo.
8 Llanwaf hefyd ei fynyddoedd ef â'i laddedigion: yn dy fryniau, a'th ddyffrynoedd, a'th holl afonydd, y syrth y rhai a laddwyd â'r cleddyf.
9 Gwnaf di yn anrhaith tragywyddol, a'th ddinasoedd ni ddychwelant; fel y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.
10 Am ddywedyd o honot, Y ddwy genedl a'r ddwy wlad hyn fyddant eiddof fi, a nyni a'i meddiannwn; er bod yr ARGLWYDD yno:
11 Am hynny *fel mai* byw fi, medd yr Arglwydd DDUW, gwnaf yn ol dy ddig, ac yn ol dy genfigen, y rhai o'th gas yn eu herbyn hwynt a wnaethost; fel y'm hadwaener yn eu mysg hwynt, pan y'th farnwyf di.
12 A chei wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, *ac* i mi glywed dy holl gabledd a draethaist yn erbyn mynyddoedd Israel, gan ddywedyd, Anrheithiwyd hwynt, i ni y rhoddwyd hwynt i'w difa.
13 Ymfawrygasoch hefyd â'ch geneuau yn fy erbyn i, ac amlhasoch eich geiriau i'm herbyn: mi a'*u* clywais.
14 Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Pan lawenycho yr holl wlad, mi a'th wnaf di yn anghyfannedd.
15 Yn ol dy lawenydd di am feddiant tŷ Israel, o herwydd ei anrheithio, felly y gwnaf i tithau: anrhaith fyddi di, mynydd Seir, ac Edom oll i gyd; fel y gwypont mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

PENNOD 36.

1 *Cysuro gwlad Israel, trwy ddinystr y cenhedloedd a wnaent yn drahaus â hi,* 8 *a thrwy addaw bendithion Duw iddi.* 16 *Mai am eu pechodau y gwrthodwyd Israel,* 21 *ond yr adferir hwy drachefn, heb iddynt ei haeddu.* 25 *Bendithion brenhiniaeth Crist.*

TITHAU fab dyn, prophwyda wrth fynyddoedd Israel, a dywed, Gwrandêwch, fynyddoedd Israel, air yr ARGLWYDD.
2 Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW, O herwydd dywedyd o'r gelyn hyn am danoch chwi, Aha, aeth yr hen uchelfaon hefyd yn etifeddiaeth i ni:
3 Am hynny prophwyda, a dywed, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; o herwydd iddynt *eich* anrheithio, a'ch llyngcu o amgylch, i fod o honoch yn etifeddiaeth i weddill y cenhedloedd, a myned o honoch yn watwargerdd tafodau, ac yn ogan pobloedd:
4 Am hynny, mynyddoedd Israel, gwrandêwch air yr Arglwydd DDUW; Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW wrth y mynyddoedd ac wrth y bryniau, wrth yr afonydd ac wrth y dyffrynoedd, wrth y diffaethwch anghyfanneddol, ac wrth y dinasoedd gwrthodedig, y rhai a aeth yn yspail ac yn watwar i'r rhan arall o'r cenhedloedd o'u hamgylch:
5 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Dïau yn angerdd fy eiddigedd y lleferais yn erbyn y rhan arall o'r cenhedloedd,

ac yn erbyn holl Edom, y rhai a roddasant fy nhir i yn etifeddiaeth iddynt eu hun, â llawenydd *eu* holl galon, trwy feddwl dirmygus, i'w yrru allan yn yspail.

6 Am hynny prophwyda am dir Israel, a dywed wrth y mynyddoedd ac wrth y bryniau, wrth yr afonydd ac wrth y dyffrynoedd, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Wele, yn fy eiddigedd ac yn fy llid y lleferais, o herwydd dwyn o honoch waradwydd y cenhedloedd.

7 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Myfi a dyngais, Dïau y dwg y cenhedloedd *sydd* o'ch amgylch chwi eu gwaradwydd.

8 ¶ A chwithau, mynyddoedd Israel, a fwriwch allan eich ceingciau, ac a ddygwch eich ffrwyth i'm pobl Israel; canys agos ydynt ar ddyfod.

9 Canys wele fi attoch, ïe, troaf attoch, fel y'ch coledder ac y'ch hauer.

10 Amlhâf ddynion ynoch chwi hefyd, holl dŷ Israel i gyd, fel y cyfannedder y dinasoedd, ac yr adeilader y diffaethwch.

11 Ïe, amlhâf ynoch ddyn ac anifail; a hwy a chwanegant ac a ffrwythant; a gwnaf i chwi breswylio fel yr oeddych gynt; ïe, gwnaf *i chwi* well nag *yn* eich dechreuad, fel y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

12 Ïe, gwnaf i ddynion rodio arnoch, *sef* fy mhobl Israel; a hwy a'th etifeddant di, a byddi yn etifeddiaeth iddynt, ac ni ychwanegi eu gwneuthur hwy yn amddifaid mwy.

13 Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; O herwydd eu bod yn dywedyd wrthych, Yr wyt ti yn difa dynion, ac yn gwneuthur dy genhedloedd yn amddifaid;

14 Am hynny ni fwyttêi ddynion mwy, ac ni wnei dy genhedloedd mwyach yn amddifaid, medd yr Arglwydd DDUW.

15 Ac ni adawaf glywed gwaradwydd y cenhedloedd ynot ti mwy, ni ddygi chwaith warth y cenhedloedd mwyach, ac ni wnei mwy i'th genhedloedd syrthio, medd yr Arglwydd DDUW.

16 ¶ Daeth hefyd air yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

17 Ha fab dyn, pan oedd tŷ Israel yn trigo yn eu tir eu hun, hwy a'i halogasant ef â'u ffordd ac â'u gweithredoedd eu hun: eu ffordd ydoedd ger fy mron i fel aflendid gwraig fis-glwyfus.

18 Yna y tywelltais fy llid arnynt, am y gwaed a dywalltasent ar y tir, ac am eu delwau *trwy y rhai* yr halogasent ef;

19 Ac a'u gwasgerais hwynt ym mhlith y cenhedloedd, a hwy a chwalwyd ar hyd y gwledydd; yn ol eu ffyrdd ac yn ol eu gweithredoedd y bernais hwynt.

20 A phan ddaethant at y cenhedloedd y rhai yr aethant attynt, hwy a halogasant fy enw sanctaidd, pan ddywedid wrthynt, Dyma bobl yr ARGLWYDD, ac o'i wlad ef yr aethant allan.

21 ¶ Er hynny arbedais *hwynt* er mwyn fy enw sanctaidd, yr hwn a halogodd tŷ Israel ym mysg y cenhedloedd y rhai yr aethant attynt.

22 Am hynny dywed wrth dŷ Israel, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Nid er eich mwyn chwi, tŷ Israel, yr ydwyf fi yn gwneuthur *hyn*, ond er mwyn fy enw sanctaidd, yr hwn a halogasoch chwi ym mysg y cenhedloedd lle yr aethoch.

23 A mi a sancteiddiaf fy enw mawr, *yr hwn* a halogwyd ym mysg y cenhedloedd, yr hwn a halogasoch chwi yn eu mysg hwynt; fel y gwypo y cenhedloedd mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, medd yr Arglwydd DDUW, pan ymsancteiddiwyf ynoch o flaen eich llygaid.

24 Canys mi a'ch cymmeraf chwi o fysg y cenhedloedd, ac a'ch casglaf chwi o'r holl wledydd, ac a'ch dygaf i'ch tir eich hun.

25 ¶ Ac a daenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân: oddi wrth eich holl frynti, ac oddi wrth eich holl eilunod, y glanhâf chwi.

26 A rhoddaf i chwi galon newydd, yspryd newydd hefyd a roddaf o'ch

mewn chwi; a thynnaf y galon garreg o'ch cnawd chwi, ac mi a roddaf i chwi galon gig.

27 Rhoddaf hefyd fy yspryd o'ch mewn, a gwnaf i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau, a'*u* gwneuthur.

28 Cewch drigo hefyd yn y tir a roddais i'ch tadau; a byddwch yn bobl i mi, a minnau a fyddaf DDUW i chwithau.

29 Achubaf chwi hefyd oddi wrth eich holl aflendid: a galwaf am yr ŷd, ac a'i hamlhâf; ac ni roddaf arnoch newyn.

30 Amlhâf hefyd ffrwyth y coed, a chynnyrch y maes, fel na ddygoch mwy waradwydd newyn ym mysg y cenhedloedd.

31 Yna y cofiwch eich ffyrdd drygionus, a'ch gweithredoedd nid oeddynt dda, a byddwch yn ffiaidd gennych eich hunain am eich anwireddau ac am eich ffieidd-dra.

32 Nid er eich mwyn chwi yr ydwyf fi yn gwneuthur *hyn*, medd yr Arglwydd DDUW; bydded hysbys i chwi: tŷ Israel, gwridwch a chywilyddiwch am eich ffyrdd eich hun.

33 Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Yn y dydd y glanhâwyf chwi o'ch holl anwireddau, y paraf hefyd i *chwi* gyfanneddu y dinasoedd, ac yr adeiledir yr anghyfannedd-leoedd.

34 A'r tir anrheithiedig a goleddir, lle y bu yn anrhaith y'ngolwg pob cynniweirydd.

35 A hwy a ddywedant, Y tir anrheithiedig hwn a aeth fel gardd Eden, a'r dinasoedd anghyfannedd, ac anrheithiedig, a dinystriol, *a aethant* yn gaerog, *ac* a gyfanneddir.

36 Felly y cenhedloedd y rhai a weddillir o'ch amgylch, a gânt wybod mai myfi yr ARGLWYDD sydd yn adeiladu y lleoedd dinystriol, *ac* yn plannu *eich mannau* anrheithiedig: myfi yr ARGLWYDD a'*i* lleferais, ac a'*i* gwnaf.

37 Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Ymofynir â myfi etto gan dŷ Israel, i wneuthur *hyn* iddynt; amlhâf hwynt â dynion fel praidd.

38 Fel y praidd sanctaidd, fel praidd Jerusalem yn ei huchelwyliau, felly y dinasoedd anghyfannedd fyddant lawn o finteioedd o ddynion; fel y gwypont mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

PENNOD 37.

1 *Trwy adgyfodi esgyrn sychion,* 11 *yr adfywioccêir marw obaith Israel.* 15 *Trwy gydio dau bren,* 18 *yr arwyddoccêir cyssylltu Israel at Judah.* 20 *Addewidion brenhiniaeth Crist.*

BU llaw yr ARGLWYDD arnaf, ac a'm dug allan yn yspryd yr ARGLWYDD, ac a'm gosododd yng nghanol dyffryn, a hwnnw *oedd* yn llawn esgyrn.

2 Ac efe a wnaeth i mi fyned heibio iddynt o amgylch ogylch: ac wele *hwynt* yn aml iawn ar wyneb y dyffryn; wele hefyd, sychion iawn *oeddynt.*

3 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Ha fab dyn, a fydd byw yr esgyrn hyn? A mi a ddywedais, O Arglwydd DDUW, ti a'*i* gwyddost.

4 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Prophwyda am yr esgyrn hyn, a dywed wrthynt, O esgyrn sychion, clywch air yr ARGLWYDD.

5 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW wrth yr esgyrn hyn; Wele fi yn dwyn anadl i'ch mewn, fel y byddoch byw.

6 Gïau hefyd a roddaf arnoch, a pharaf i gig gyfodi arnoch, gwisgaf chwi hefyd â chroen, a rhoddaf anadl ynoch; fel y byddoch byw, ac y gwypoch mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

7 Yna y prophwydais fel y'm gorchymynasid; ac fel yr oeddwn yn prophwydo, bu swn, ac wele gynnwrf, a'r esgyrn a ddaethant ynghyd, asgwrn at ei asgwrn.

8 A phan edrychais, wele, cyfodasai gïau a chig arnynt, a gwisgasai croen am danynt; ond nid *oedd* anadl ynddynt.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Prophwyda tu a'r gwynt, prophwyda, fab dyn, a dywed wrth y gwynt, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; O anadl, tyred oddi wrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw.

10 Felly y prophwydais fel y'm gorchymynasid; a'r anadl a ddaeth

ynddynt, a buant fyw, a safasant
ar eu traed, yn llu mawr iawn.
11 ¶ Yna y dywedodd wrthyf, Ha
fab dyn, yr esgyrn hyn ydynt dŷ
Israel oll: wele, dywedant, Ein
hesgyrn a wywasant, a'n gobaith
a gollodd; torrwyd ni ymaith o'n
rhan ni.
12 Am hynny prophwyda, a dy-
wed wrthynt, Fel hyn y dywed
yr Arglwydd Dduw; Wele fi yn
agori eich beddau, fy mhobl, codaf
chwi hefyd o'ch beddau, a dygaf
chwi i dir Israel.
13 A chewch wybod mai myfi *yw*
yr Arglwydd, pan agorwyf eich
beddau, a phan gyfodwyf chwi i
fyny o'ch beddau, fy mhobl;
14 Ac y rhoddwyf fy yspryd yn-
och, ac y byddoch byw, ac y gos-
odwyf chwi yn eich tir eich hun:
yna y cewch wybod mai myfi yr
Arglwydd a leferais, ac a wneuth-
um *hyn*, medd yr Arglwydd.
15 ¶ A gair yr Arglwydd a ddaeth
attaf, gan ddywedyd,
16 Tithau fab dyn, cymmer i ti
un pren, ac ysgrifena arno, I Ju-
dah, ac i feibion Israel ei gyfeillion.
A chymmer i ti bren arall, ac ysgrif-
ena arno, I Joseph, pren Ephraim,
ac *i* holl dŷ Israel ei gyfeillion:
17 A chydia hwynt y naill wrth
y llall yn un pren i ti; fel y bydd-
ont yn un yn dy law di.
18 ¶ A phan lefaro meibion dy
bobl wrthyt, gan ddywedyd, Oni
fynegi i ni beth *yw* hyn gennyt?
19 Dywed wrthynt, Fel hyn y
dywed yr Arglwydd Dduw; Wele
fi yn cymmeryd pren Joseph, yr
hwn *sydd* yn llaw Ephraim, a
llwythau Israel ei gyfeillion, a mi
a'u rhoddaf hwynt gyd âg ef, *sef*
gyd â phren Judah, ac a'u gwnaf
hwynt yn un pren, fel y byddont
yn fy llaw yn un.
20 ¶ A bydded yn dy law, o flaen
eu llygaid hwynt, y prennau yr
ysgrifenych arnynt;
21 A dywed wrthynt, Fel hyn y
dywed yr Arglwydd Dduw; Wele
fi yn cymmeryd meibion Israel o
fysg y cenhedloedd yr aethant at-
tynt, ac mi a'u casglaf hwynt o
amgylch, ac a'u dygaf hwynt i'w
tir eu hun;
22 A gwnaf hwynt yn un genedl
o fewn y tir ym mynyddoedd Is-
rael, ac un brenhin fydd yn fren-
hin iddynt oll: ni byddant hefyd
mwy yn ddwy genedl, ac ni rennir
hwynt mwyach yn ddwy frenhin-
iaeth:
23 Ac ni ymhalogant mwy wrth
eu heilunod, na thrwy eu ffieidd-
dra, nac yn eu holl anwireddau:
eithr cadwaf hwynt o'u holl drig-
faon, y rhai y pechasant ynddynt,
a mi a'u glanhâf hwynt; fel y
byddont yn bobl i mi, a minnau a
fyddaf yn Dduw iddynt hwythau.
24 A'm gwas Dafydd *fydd* fren-
hin arnynt; ïe, un bugail fydd
iddynt oll: yn fy marnedigaethau
hefyd y rhodiant, a'm deddfau a
gadwant ac a wnant.
25 Trigant hefyd yn y tir a rodd-
ais i'm gwas Jacob, yr hwn y trig-
odd eich tadau ynddo; a hwy a
drigant ynddo, hwy a'u meibion,
a meibion eu meibion byth; a
Dafydd fy ngwas *fydd* dywysog
iddynt yn dragywydd.
26 Gwnaf hefyd â hwynt gyfam-
mod hedd; ammod tragywyddol a
fydd â hwynt: a gosodaf hwynt,
ac a'u hamlhâf, a rhoddaf fy
nghyssegr yn eu mysg hwynt yn
dragywydd.
27 A'm tabernacl fydd gyd â
hwynt; ïe, myfi a fyddaf iddynt
yn Dduw, a hwythau a fyddant i
mi yn bobl.
28 A'r cenhedloedd a gânt wybod
mai myfi yr Arglwydd sydd
yn sancteiddio Israel; gan fod fy
nghyssegr yn eu mysg hwynt yn
dragywydd.

PENNOD 38.

1 *Liu 8 a malais Gog.* 14 *Barn Duw yn ei erbyn ef.*

AGAIR yr Arglwydd a ddaeth
attaf, gan ddywedyd,
2 Gosod dy wyneb, fab dyn, yn
erbyn Gog, tir Magog, pen-tywysog
Mesech a Thubal, a phrophwyda yn
ei erbyn,
3 A dywed, Fel hyn y dywed yr
Arglwydd Dduw; Wele fi yn dy
erbyn di, Gog, pen-tywysog Mesech
a Thubal.
4 Dychwelaf di hefyd, a rhoddaf

fachau yn dy fochgernau, a mi a'th ddygaf allan, a'th holl lu, y meirch a'r marchogion, wedi eu gwisgo i gyd â phob rhyw *arfau*, yn gynnulleidfa fawr â thariannau ac estylch, hwynt oll yn dwyn cleddyfau:

5 Persia, Ethiopia, a Libya, gyd â hwynt; hwynt oll *yn dwyn* tarian a helm:

6 Gomer a'i holl fyddinoedd; tŷ Togarmah o ystlysau y gogledd, a'i holl fyddinoedd; *a* phobl lawer gyd â thi.

7 Ymbarottoa, ïe, parottoa i ti dy hun, ti a'th holl gynnulleidfa y rhai a ymgynnullasant attat, a bydd yn gadwraeth iddynt.

8 ¶ Wedi dyddiau lawer yr ymwelir â thi; yn y blynyddoedd diweddaf y deui i dir wedi ei ddwyn yn ei ol oddi wrth y cleddyf, wedi ei gasglu o bobloedd lawer yn erbyn mynyddoedd Israel, y rhai a fuant yn anghyfannedd bob amser: eithr efe a ddygwyd allan o'r bobloedd, a hwynt oll a drigant mewn dïogelwch.

9 Dringi hefyd fel tymmestl; deui, *a* byddi fel cwmmwl i guddio y ddaear, ti a'th holl fyddinoedd, a phobloedd lawer gyd â thi.

10 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Bydd hefyd yn y dydd hwnnw i bethau ddyfod i'th feddwl, a thi a feddyli feddwl drwg.

11 A thi a ddywedi, Mi a âf i fyny i wlad maesdrefydd; âf at y rhai llonydd, y rhai sydd yn preswylio yn ddïogel, gan drigo oll heb gaerau, ac heb drosolion na dorau iddynt,

12 I yspeilio yspail, i ysglyfaethu ysglyfaeth, i ddychwelyd dy law ar anghyfannedd-leoedd, y rhai a gyfanneddir *yr awr hon*, ac ar y bobl a gasglwyd o'r cenhedloedd, y rhai a ddarparasant anifeiliaid a golud, *ac* ydynt yn trigo yng nghanol y wlad.

13 Seba, a Dedan, a marchnadyddion Tarsis *hefyd*, â'u holl lewod ieuaingc, a ddywedant wrthyt, Ai i yspeilio yspail y daethost ti? ai i ysglyfaethu ysglyfaeth y cesglaist y gynnulleidfa? *ai* i ddwyn ymaith arian ac aur, i gymmeryd anifeiliaid a golud, i yspeilio yspail fawr?

14 ¶ Am hynny prophwyda, fab dyn, a dywed wrth Gog, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Y dydd hwnnw, pan breswylio fy mhobl Israel yn ddïofal, oni chei di wybod?

15 A thi a ddeui o'th fangre dy hun o ystlysau y gogledd, ti, a phobl lawer gyd â thi, hwynt oll yn marchogaeth ar feirch, yn dyrfa fawr, ac yn llu lliosog.

16 A thi a âi i fyny yn erbyn fy mhobl Israel, fel cwmmwl i guddio y ddaear: yn y dyddiau diweddaf y bydd hyn; a mi a'th ddygaf yn erbyn fy nhir, fel yr adwaeno y cenhedloedd fi, pan ymsanceiddiwyf ynot ti, Gog, o flaen eu llygaid hwynt.

17 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Ai tydi *yw* yr hwn y lleferais *am* dano yn y dyddiau gynt, trwy law fy ngweision, prophwydi Israel, y rhai a brophwydasant y dyddiau hynny flynyddoedd *lawer*, y dygwn di yn eu herbyn hwynt?

18 A bydd yn y dydd hwnnw, yn y dydd y delo Gog yn erbyn tir Israel, medd yr Arglwydd Duw, i'm llid gyfodi yn fy sorriant.

19 Canys yn fy eiddigedd, *ac* yn angerdd fy nigllonedd y dywedais, Yn ddïau bydd yn y dydd hwnnw ddychryn mawr yn nhir Israel;

20 Fel y cryno pysgod y môr, ac ehediaid y nefoedd, a bwystfilod y maes, a phob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear, a phob dyn ar wyneb y ddaear, ger fy mron i; a'r mynyddoedd a ddryllir i lawr, a'r grisiau a syrthiant, a phob mur a syrth i lawr.

21 A mi a alwaf am gleddyf yn ei erbyn trwy fy holl fynyddoedd, medd yr Arglwydd Duw: cleddyf pob un fydd yn erbyn ei frawd.

22 Mi a ddadleuaf hefyd yn ei erbyn ef â haint *ac* â gwaed: gwlawiaf hefyd gur-wlaw, a cherrig cenllysg, tân a brwmstan, arno ef, ac ar ei holl fyddinoedd, ac ar y bobloedd lawer *sydd* gyd âg ef.

23 Fel hyn yr ymfawrygaf, ac yr ymsanceiddiaf; a pharaf fy adnabod y'ngolwg cenhedloedd lawer, fel y gwypont mai myfi *yw* yr Arglwydd.

PENNOD 39.

1 *Barn Duw yn erbyn Gog.* 8 *Buddugoliaeth Israel.* 11 *Claddu Gog yn Hamon-gog.* 17 *Gwledd yr adar.* 23 *Wedi dial ar Israel am ei bechodau, efe a gesglir drachefn trwy ffafr dragywyddol.*

PROPHWYDA hefyd, fab dyn, yn erbyn Gog, a dywed, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Wele fi yn dy erbyn di, Gog, pentywysog Mesech a Thubal.

2 A mi a'th ddychwelaf, ac ni adawaf o honot ond y chweched ran, ac a'th ddygaf i fyny o ystlysau y gogledd, ac a'th ddygaf ar fynyddoedd Israel:

3 Ac a darawaf dy fwa o'th law aswy, a gwnaf i'th saethau syrthio o'th law ddehau.

4 Ar fynyddoedd Israel y syrthi, ti a'th holl fyddinoedd, a'r bobloedd *sydd* gyd â thi: i'r ehediaid, *i* bob rhyw aderyn, ac *i* fwystfilod y maes, y'th roddaf i'*th* ddifa.

5 Ar wyneb y maes y syrthi; canys myfi a'*i* dywedais, medd yr Arglwydd DDUW.

6 Anfonaf hefyd dân ar Magog, ac ym mysg y rhai a breswyliant yr ynysoedd yn ddifraw; fel y gwypont mai myfi *yw* yr ARGLWYDD.

7 Felly y gwnaf adnabod fy enw sanctaidd y'nghanol fy mhobl Israel, ac ni adawaf halogi fy enw sanctaidd mwy: a'r cenhedloedd a gânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD, y Sanct yn Israel.

8 ¶ Wele, efe a ddaeth, ac a ddarfu, medd yr Arglwydd DDUW; dyma y diwrnod am yr hwn y dywedais.

9 A phreswylwyr dinasoedd Israel a ânt allan, ac a gynneuant ac a losgant yr arfau, a'r tarian a'r astalch, y bwa a'r saethau, a'r llawffon a'r waywffon; ïe, llosgant hwynt yn tân saith mlynedd.

10 Ac ni ddygant goed o'r maes, ac ni thorrant *ddim* o'r coedydd; canys â'r arfau y cynneuant dân: a hwy a yspeiliant eu hyspeilwyr, ac a ysglyfaethant *oddi ar* eu hysglyfaethwyr, medd yr Arglwydd DDUW.

11 ¶ Bydd hefyd yn y dydd hwnnw, i mi roddi i Gog le bedd yno yn Israel, dyffryn y fforddolion o du dwyrain y môr: ac efe a gau *ffroenau* y fforddolion: ac yno y claddant Gog a'i holl dyrfa, a galwant *ef* Dyffryn Hamon-gog.

12 A thŷ Israel fydd yn eu claddu hwynt saith mis, er mwyn glanhâu y tir.

13 Ië, holl bobl y tir a'*u* claddant; a *hyn* fydd enwog iddynt y dydd y'm gogonedder, medd yr Arglwydd DDUW.

14 A hwy a neilldunant wŷr gwastadol, y rhai a gynniweiriant trwy y wlad i gladdu gyd â'r fforddolion y rhai a adawyd ar wyneb y ddaear, i'w glanhâu hi: ym mhen saith mis y chwiliant.

15 A'r tramwywyr a gynniweiriant trwy y tir, pan welo *un* asgwrn dyn, efe a gyfyd nôd wrtho, hyd oni chladdo y claddwyr ef yn nyffryn Hamon-gog.

16 Ac enw y ddinas hefyd *fydd* Hamonah. Felly y glanhânt y wlad.

17 ¶ Tithau fab dyn, fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Dywed wrth bob rhyw aderyn, ac wrth holl fwystfilod y maes, Ymgesglwch, a deuwch; ymgynhullwch oddi amgylch at fy aberth yr ydwyf fi yn ei aberthu i chwi, aberth mawr ar fynyddoedd Israel, fel y bwyttaoch gig, ac yr yfoch waed.

18 Cig y cedyrn a fwyttêwch, a chwi a yfwch waed tywysogion y ddaear, hyrddod, ŵyn, a bychod, bustych, yn basgedigion Basan oll.

19 Bwyttêwch hefyd frasder hyd ddigon, ac yfwch waed hyd oni feddwoch, o'm haberth a aberthais i chwi.

20 Felly y'ch diwellir ar fy mwrdd i â meirch a cherbydau, â *gwŷr* cedyrn a phob rhyfelwr, medd yr Arglwydd DDUW.

21 A gosodaf fy ngogoniant ym mysg y cenhedloedd, a'r holl genhedloedd a gânt weled fy marnedigaeth yr hon a wneuthum, a'm llaw yr hon a osodais arnynt.

22 A thŷ Israel a gânt wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD eu DUW hwynt o'r dydd hwnnw allan.

23 ¶ Y cenhedloedd hefyd a gânt

wybod mai am eu hanwiredd eu hun y caethgludwyd tŷ Israel: o herwydd gwneuthur o honynt gamwedd i'm herbyn, am hynny y cuddiais fy wyneb oddi wrthynt, ac y rhoddais hwynt yn llaw eu gelynion: felly hwy a syrthiasant oll trwy y cleddyf.

24 Yn ol eu haflendid eu hun, ac yn ol eu hanwireddau, y gwneuthum â hwynt, ac y cuddiais fy wyneb oddi wrthynt.

25 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Yr awr hon y dychwelaf gaethiwed Jacob, tosturiaf hefyd wrth holl dŷ Israel, a gwynfydaf dros fy enw sanctaidd;

26 Wedi dwyn o honynt eu gwaradwydd, a'u holl gamweddau a wnaethant i'm herbyn, pan drigent yn eu tir eu hun yn ddifraw, a heb ddychrynydd.

27 Pan ddychwelwyf hwynt oddi wrth y bobloedd, a'u casglu hwynt o wledydd eu gelynion, ac y'm sancteiddier ynddynt y'ngolwg cenhedloedd lawer;

28 Yna y cânt wybod mai myfi *yw* yr Arglwydd eu Duw hwynt, yr hwn a'u caethgludais hwynt ym mysg y cenhedloedd, ac a'u cesglais hwynt i'w tir eu hun, ac ni adewais mwy *un* o honynt yno.

29 Ni chuddiaf chwaith fy wyneb mwy oddi wrthynt: o herwydd tywelltais fy yspryd ar dŷ Israel, medd yr Arglwydd Duw.

PENNOD 40.

1 *Amser, a dull, a dîben y weledigaeth.* 6 *Portreiad porth y dwyrain,* 20 *a phorth y gogledd,* 24 *a phorth y dehau,* 32 *a phorth y dwyrain,* 35 *a phorth y gogledd.* 39 *Yr wyth bwrdd.* 44 *Yr ystafelloedd.* 48 *Porth y tŷ.*

YN y bummed flwyddyn ar hugain o'n caethgludiad ni, yn nechreu y flwyddyn, ar y degfed *dydd* o'r mis, yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg wedi taro y ddinas, o fewn corph y dydd hwnnw y daeth llaw yr Arglwydd arnaf, ac a'm dug yno.

2 Y'ngweledigaethau Duw y dug efe fi i dir Israel, ac a'm gosododd ar fynydd uchel iawn, ac arno *yr oedd* megis adail dinas o du y dehau.

3 Ac efe a'm dug yno: ac wele ŵr a'i weledigaeth fel gwelediad pres, ac yn ei law linyn llin, a chorsen fesur: ac yr ydoedd efe yn sefyll yn y porth.

4 A dywedodd y gŵr wrthyf, Ha fab dyn, gwel â'th lygaid, gwrando hefyd â'th glustiau, a gosod dy galon ar yr hyn oll a ddangoswyf i ti: o herwydd er mwyn dangos i ti *hyn* y'th ddygwyd yma: mynega i dŷ Israel yr hyn oll a weli.

5 Ac wele fur o'r tu allan i'r tŷ o amgylch ogylch: a chorsen fesur yn llaw y gŵr, yn chwe chufydd *o hŷd*, wrth gufydd a dyrnfedd: ac efe a fesurodd led yr adeiladaeth yn un gorsen, a'r uchder yn un gorsen.

6 ¶ Ac efe a ddaeth i'r porth *oedd* â'i wyneb tu a'r dwyrain, ac a ddringodd ar hyd ei risiau ef, ac a fesurodd riniog y porth yn un gorsen o led, a'r rhiniog arall yn un gorsen o led.

7 A *phob* ystafell *oedd* un gorsen o hŷd, ac un gorsen o led: a phum cufydd *oedd* rhwng yr ystafelloedd: a rhiniog y porth, wrth gyntedd y porth o'r tu mewn, *oedd* un gorsen.

8 Efe a fesurodd hefyd gyntedd y porth oddi fewn, yn un gorsen.

9 Yna y mesurodd gyntedd y porth yn wyth gufydd, a'i byst yn ddau gufydd, a chyntedd y porth *oedd* o'r tu mewn.

10 Ac ystafelloedd y porth tu a'r dwyrain *oedd* dair o'r tu yma, a thair o'r tu accw; un fesur *oeddynt* ill tair: ac un mesur oedd i'r pyst o'r tu yma ac o'r tu accw.

11 Ac efe a fesurodd led drws y porth yn ddeg cufydd, *a* hŷd y porth yn dri chufydd ar ddeg.

12 A'r terfyn o flaen yr ystafelloedd *oedd* un cufydd *o'r naill du*, a'r terfyn o'r tu arall yn un cufydd; a'r ystafelloedd *oedd* chwe chufydd o'r tu yma, a chwe chufydd o'r tu accw.

13 Ac efe a fesurodd y porth o nen y *naill* ystafell hyd nen un arall, yn bum cufydd ar hugain o led, drws ar gyfer drws.

14 Ac efe a wnaeth byst o dri ugain cufydd, a *hynny* hyd bost y cyntedd, o amgylch ogylch y porth.

15 Ac o wyneb porth y dyfodiad i'r mewn, hyd wyneb cyntedd y porth oddi mewn, *yr oedd* deg cufydd a deugain.

16 A ffenestri cyfyng *oedd* i'r ystafelloedd, ac i'w pyst o fewn y porth o amgylch ogylch; ac felly *yr oedd* i'r bwäau meini: a ffenestri *oedd* o amgylch ogylch o fewn; ac *yr oedd* palmwydd ar *bob* post.

17 Ac efe a'm dug i'r cyntedd nesaf allan, ac wele yno ystafelloedd, a phalmant wedi ei wneuthur i'r cyntedd o amgylch ogylch; deg ystafell ar hugain *oedd* ar y palmant.

18 A'r palmant gan ystlys y pyrth ar gyfer hŷd y pyrth, *oedd* y palmant oddi tanodd.

19 Ac efe a fesurodd y lled o wyneb y porth isaf hyd wyneb y cyntedd oddi fewn, yn gan cufydd oddi allan tu a'r dwyrain a'r gogledd.

20 ¶ A'r porth yr hwn *oedd* â'i wyneb tu a'r gogledd, ar y cyntedd nesaf allan, a fesurodd efe, ei hŷd a'i led.

21 A'i ystafelloedd ef *oedd* dair o'r tu yma, a thair o'r tu accw; ac yr ydoedd ei byst, a'i fwäau meini, wrth fesur y porth cyntaf, yn ddeg cufydd a deugain eu hŷd, a'r lled yn bum cufydd ar hugain.

22 Eu ffenestri hefyd, a'u bwäau meini, a'u palmwydd, *oedd* wrth fesur y porth *oedd* â'i wyneb tu a'r dwyrain; ar hyd saith o risiau hefyd y dringent iddo; a'i fwäau meini *oedd* o'u blaen hwynt.

23 A phorth y cyntedd nesaf i mewn *oedd* ar gyfer y porth tu a'r gogledd, a thu a'r dwyrain: ac efe a fesurodd o borth i borth gan cufydd.

24 ¶ Wedi hynny efe a'm dug i tu a'r dehau, ac wele borth tu a'r dehau, ac efe a fesurodd ei byst a'i fwäau meini wrth y mesurau hyn.

25 Ffenestri hefyd *oedd* iddo ac i'w fwäau meini, o amgylch ogylch, fel y ffenestri hynny, yn ddeg cufydd a deugain o hŷd, ac yn bum cufydd ar hugain o led.

26 Saith o risiau hefyd *oedd* ei esgynfa ef, a'i fwäau meini o'u blaen hwynt: *yr oedd* hefyd iddo balmwydd, un o'r tu yma, ac un o'r tu accw, ar ei byst ef.

27 Ac *yr oedd* porth yn y cyntedd nesaf i mewn tu a'r dehau: ac efe a fesurodd o borth i borth, tu a'r dehau, gan cufydd.

28 Ac efe a'm dug i'r cyntedd nesaf i mewn trwy borth y dehau: ac a fesurodd borth y dehau wrth y mesurau hyn;

29 A'i ystafelloedd, a'i byst, a'i fwäau meini, wrth y mesurau hyn: ac *yr oedd* ffenestri ynddo, ac yn ei fwäau meini, o amgylch ogylch: deg cufydd a deugain *oedd* yr hŷd, a phum cufydd ar hugain y lled.

30 A'r bwäau meini o amgylch ogylch *oedd* bum cufydd ar hugain o hŷd, a phum cufydd o led.

31 A'i fwäau meini *oedd* tu a'r cyntedd nesaf allan; a phalmwydd *oedd* ar ei byst; ac wyth o risiau *oedd* ei esgynfa ef.

32 ¶ Ac efe a'm dug i'r cyntedd nesaf i mewn tu a'r dwyrain: ac a fesurodd y porth wrth y mesurau hyn.

33 A'i ystafelloedd, a'i byst, a'i fwäau meini, *oedd* wrth y mesurau hyn: ac *yr oedd* ffenestri ynddo ef, ac yn ei fwäau meini, o amgylch ogylch: yr hŷd *oedd* ddeg cufydd a deugain, a'r lled yn bum cufydd ar hugain.

34 A'i fwäau meini *oedd* tu a'r cyntedd nesaf allan; a phalmwydd *oedd* ar ei byst o'r tu yma, ac o'r tu accw; a'i esgynfa *oedd* wyth o risiau.

35 ¶ Ac efe a'm dug i borth y gogledd, ac a'*i* mesurodd wrth y mesurau hyn:

36 Ei ystafelloedd, ei byst, a'i fwäau meini, a'r ffenestri iddo o amgylch ogylch: yr hŷd *oedd* ddeg cufydd a deugain, a'r lled *oedd* bum cufydd ar hugain.

37 A'i byst *oedd* tu a'r cyntedd nesaf allan; a phalmwydd ar ei byst o'r tu yma, ac o'r tu accw; a'i esgynfa *oedd* wyth o risiau.

38 A'r celloedd a'u drysau *oedd* wrth byst y pyrth, lle y golchent y poeth-offrwm.

39 ¶ Ac y'nghyntedd y porth *yr*

oedd dau fwrdd o'r tu yma, a dau fwrdd o'r tu accw, i ladd y poeth-offrwm, a'r pech-aberth, a'r aberth dros gamwedd, arnynt.

40 Ac ar yr ystlys oddi allan, lle y dringir i ddrws porth y gogledd, *yr oedd* dau fwrdd; a dau fwrdd ar yr ystlys arall, yr hwn *oedd* wrth gyntedd y porth.

41 Pedwar bwrdd *oedd* o'r tu yma, a phedwar bwrdd o'r tu accw, ar ystlys y porth; wyth bwrdd, ar y rhai y lladdent *eu haberthau.*

42 A'r pedwar bwrdd i'r poeth-offrwm *oedd* o gerrig nadd, yn un cufydd a hanner o hŷd, ac yn un cufydd a hanner o led, ac yn un cufydd o uchder: arnynt hwy hefyd y gosodent yr offer y rhai y lladdent yr offrwm poeth a'r aberth â hwynt.

43 Hefyd *yr oedd* bachau, o un ddyrnfedd, wedi eu parottôi o fewn, o amgylch ogylch: a chig yr offrwm *oedd* ar y byrddau.

44 ¶ Ac o'r tu allan i'r porth nesaf i mewn *yr oedd* ystafelloedd y cantorion o fewn y cyntedd nesaf i mewn, yr hwn *oedd* ar ystlys porth y gogledd; a'u hwynebau *oedd* tu a'r dehau: un *oedd* ar ystlys porth y dwyrain, â'i wyneb tu a'r gogledd.

45 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Yr ystafell hon, yr hon *sydd* â'i hwyneb tu a'r dehau, *sydd* i'r offeiriaid, ceidwaid cadwraeth y tŷ.

46 A'r ystafell yr hon *sydd* â'i hwyneb tu a'r gogledd, *sydd* i'r offeiriaid ceidwaid cadwraeth yr allor: y rhai hyn *yw* meibion Sadoc, y rhai ydynt o feibion Lefi, yn nesâu at yr ARGLWYDD i weini iddo.

47 Felly efe a fesurodd y cyntedd, yn gan cufydd o hŷd, ac yn gan cufydd o led, yn bedeirongl; a'r allor *oedd* o flaen y tŷ.

48 ¶ Ac efe a'm dug i borth y tŷ, ac a fesurodd *bob* post i'r porth, yn bum cufydd o'r naill du, ac yn bum cufydd o'r tu arall: a lled y porth *oedd* dri chufydd o'r naill du, a thri chufydd o'r tu arall.

49 Y cyntedd *oedd* ugain cufydd o hŷd, ac un cufydd ar ddeg o led: ac *efe a'm dug* ar hyd y grisiau ar hyd y rhai y dringent iddo: hefyd *yr ydoedd* colofnau wrth y pyst, un o'r naill du, ac un o'r tu arall.

PENNOD 41.

Mesur, a rhannau, ac ystafelloedd, ac addurn y deml.

AC efe a'm dug i i'r deml, ac a fesurodd y pyst yn chwe chufydd o led o'r naill du, ac yn chwe chufydd o led o'r tu arall, *fel yr oedd* lled y babell.

2 Lled y drws hefyd *oedd* ddeg cufydd; ac ystlysau y drws yn bum cufydd o'r naill du, ac yn bum cufydd o'r tu arall: ac efe a fesurodd ei hŷd ef yn ddeugain cufydd, a'r lled yn ugain cufydd.

3 Ac efe a aeth tu ag i mewn, ac a fesurodd bost y drws yn ddau gufydd, a'r drws yn chwe chufydd, a lled y drws yn saith gufydd.

4 Ac efe a fesurodd ei hŷd ef yn ugain cufydd; a'r lled yn ugain cufydd o flaen y deml: ac efe a ddywedodd wrthyf, Dyma y cyssegr sancteiddiolaf.

5 Ac efe a fesurodd bared y tŷ yn chwe chufydd; a lled *pob* ystlysgell yn bedwar cufydd o amgylch ogylch i'r tŷ.

6 A'r celloedd *oedd* dair, cell ar gell, ac yn ddeg ar hugain, o weithiau: ac yr oeddynt yn cyrhaeddyd at bared y tŷ yr hwn *oedd* i'r ystafelloedd o amgylch ogylch, fel y byddent y'nglŷn; ac nid oeddynt y'nglŷn o fewn pared y tŷ.

7 Ac fe a ehangwyd, ac *oedd* yn myned ar dro uwch-uwch i'r celloedd: o herwydd tro y tŷ oedd yn myned i fyny o amgylch y tŷ: am hynny y tŷ *oedd* ehangach oddi arnodd; ac felly y dringid o'r isaf i'r uchaf trwy y ganol.

8 Gwelais hefyd uchder y tŷ o amgylch ogylch: seiliau y celloedd *oedd* gorsen helaeth o chwe chufydd mawrion.

9 A thewder y mur yr hwn *oedd* i'r gell o'r tu allan, *oedd* bum cufydd; a'r gweddill *oedd* le i'r celloedd y rhai *oedd* o fewn.

10 A rhwng yr ystafelloedd *yr oedd* lled ugain cufydd ynghylch y tŷ o amgylch ogylch.

11 A drysau yr ystlys-gell *oedd* tu a'r *llannerch* weddill; un drws tu

a'r gogledd, ac un drws tu a'r dehau: a lled y fan a weddillasid *oedd* bum cufydd o amgylch ogylch.

12 A'r adeiladaeth yr hon *oedd* o flaen y llannerch neilldduol, ar y cwr tu a'r gorllewin, *oedd* ddeg cufydd a thri ugain o led; a mur yr adeiladaeth *oedd* bum cufydd o dewder o amgylch ogylch, a'i hŷd *oedd* ddeg cufydd a phedwar ugain.

13 Ac efe a fesurodd y tŷ, yn gan cufydd o hŷd; a'r llannerch neilldduol, a'r adeiladaeth, a'i pharwydydd, yn gan cufydd o hŷd.

14 A lled wyneb y tŷ, a'r llannerch neilldduol tu a'r dwyrain, *oedd* gan cufydd.

15 Ac efe a fesurodd hŷd yr adeiladaeth ar gyfer y llannerch neilldduol yr hon *oedd* o'r tu cefn iddo, a'i ystafelloedd o'r naill du, ac o'r tu arall, yn gan cufydd, gyd â'r deml oddi fewn, a drysau y cyntedd.

16 Y gorsingau, a'r ffenestri cyfyng, a'r ystafelloedd o amgylch ar eu tri uchder, ar gyfer y rhiniog a ystyllennasid â choed o amgylch ogylch, ac o'r llawr hyd y ffenestri, a'r ffenestri *hefyd* a ystyllennasid;

17 Hyd uwch ben y drws, a hyd y tŷ o fewn ac allan, ac ar yr holl bared o amgylch ogylch o fewn ac allan, wrth fesurau.

18 A cherubiaid hefyd ac â phalmwydd y gweithiasid ef, palmwydden rhwng pob dau gerub: a dau wyneb *oedd* i *bob* cerub.

19 Canys wyneb dyn *oedd* tu a'r palmwydden o'r naill du, ac wyneb llew tu a'r palmwydden o'r tu arall: *yr oedd* wedi ei weithio ar hyd y tŷ o amgylch ogylch.

20 Cerubiaid a phalmwydd a weithiasid o'r ddaear hyd oddi ar y drws, ac *ar* bared y deml.

21 Pedwar ochrog *oedd* pyst y deml, *ac* wyneb y cyssegr; gwelediad *y naill* fel gwelediad *y llall.*

22 Yr allor bren *oedd* dri chufydd ei huchder, a'i hŷd yn ddau gufydd: a'i chonglau, a'i huchder, a'i pharwydydd, *oedd* o bren. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Dyma y bwrdd *sydd* ger bron yr ARGLWYDD.

23 Ac *yr ydoedd* dau ddrws i'r deml ac i'r cyssegr:

24 A dwy ddôr i'r drysau, *sef* dwy ddôr blygedig; dwy ddôr i'r naill ddrws, a dwy ddôr i'r llall.

25 A gwnaethid arnynt, ar ddrysau y deml, gerubiaid a phalmwydd, fel y gwneuthid ar y parwydydd: ac *yr oedd* trawstiau coed ar wyneb y cyntedd o'r tu allan.

26 Ffenestri cyfyng hefyd a phalmwydd *oedd* o bob tu, ar ystlysau y porth, ac *ar* ystafelloedd y tŷ, a'r trawstiau.

PENNOD 42.

1 *Ystafelloedd yr offeiriaid;* 13 *a'r defnydd a wneid a hwynt.* 19 *Mesurau y cyntedd nesaf allan.*

AC efe a'm dug i'r cyntedd nesaf allan, y ffordd tu a'r gogledd; ac a'm dug i'r ystafell *oedd* ar gyfer y llannerch neilldduol, yr hon *oedd* ar gyfer yr adail tu a'r gogledd.

2 Drws y gogledd *oedd* ar gyfer hŷd y can cufydd, a lled y deg cufydd a deugain.

3 Ar gyfer yr ugain *cufydd* y rhai *oedd* i'r cyntedd nesaf i mewn, ac ar gyfer y palmant yr hwn *oedd* i'r cyntedd nesaf allan, *yr ydoedd* ystafell ar gyfer ystafell yn dri *uchder.*

4 Ac o flaen yr ystafelloedd *yr oedd* rhodfa yn ddeg cufydd o led oddi fewn, ffordd o un cufydd, a'u drysau tu a'r gogledd.

5 A'r ystafelloedd uchaf *oedd* gulion: o herwydd yr ystafelloedd oeddynt uwch na'r rhai hyn, na'r rhai isaf ac na'r rhai canol o'r adeiladaeth.

6 Canys yn dri *uchder yr oeddynt* hwy, ac heb golofnau iddynt fel colofnau y cynteddoedd: am hynny yr oeddynt hwy yn gyfyngach na'r rhai isaf ac na'r rhai canol o'r llawr *i fyny.*

7 A'r mur yr hwn *oedd* o'r tu allan ar gyfer yr ystafelloedd, tu a'r cyntedd nesaf allan o flaen yr ystafelloedd, *oedd* ddeg cufydd a deugain ei hŷd.

8 O herwydd hŷd yr ystafelloedd y rhai *oedd* yn y cyntedd nesaf allan *oedd* ddeg cufydd a deugain: ac wele, o flaen y deml *yr oedd* can cufydd.

9 Ac oddi tan yr ystafelloedd hyn *yr ydoedd* mynediad i mewn o du y

dwyrain, ffordd yr elid iddynt hwy o'r cyntedd nesaf allan.

10 O fewn tewder mur y cyntedd tu a'r dwyrain, ar gyfer y llannerch neillduol, ac ar gyfer yr adeiladaeth, *yr oedd* yr ystafelloedd.

11 A'r ffordd o'u blaen hwynt *oedd* fel gwelediad yr ystafelloedd y rhai *oedd* tu a'r gogledd; un hŷd â hwynt *oeddynt*, *ac* un lled â hwynt: a'u holl fynediad allan *oedd* yn ol eu dull hwynt, ac yn ol eu drysau hwynt.

12 Ac fel drysau yr ystafelloedd y rhai *oedd* tu a'r dehau, *yr oedd* drws ym mhen y ffordd, y ffordd ym mhen y mur yn uniawn tu a'r dwyrain, yn y ddyfodfa i mewn.

13 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, Ystafelloedd y gogledd ac ystafelloedd y dehau, y rhai *sydd* ar gyfer y llannerch neillduol, ystafelloedd sanctaidd *yw* y rhai hynny, lle y bwytty yr offeiriaid y rhai a nesânt at yr ARGLWYDD, y pethau sanctaidd cyssegredig: yno y gosodant y sanctaidd bethau cyssegredig, a'r bwyd-offrwm, a'r pech-aberth, a'r aberth dros gamwedd; canys y lle *sydd* sanctaidd.

14 A phan elo yr offeiriaid i mewn iddynt, nid ânt allan o'r cyssegr i'r cyntedd nesaf allan, eithr yno y gosodant eu dillad y rhai y gwasanaethant ynddynt; am eu *bod* yn sanctaidd; ac a wisgant wisgoedd eraill, ac a nesânt at yr hyn *a berthyn* i'r bobl.

15 Pan orphenasai efe fesuro y tŷ oddi fewn, efe a'm dug i tu a'r porth *sydd* â'i wyneb tu a'r dwyrain, ac a'i mesurodd ef o amgylch ogylch.

16 Efe a fesurodd du y dwyrain â chorsen fesur, yn bum cant o gorsennau, wrth y gorsen fesur oddi amgylch.

17 Efe a fesurodd du y gogledd yn bum can corsen, wrth y gorsen fesur oddi amgylch.

18 Y tu dehau a fesurodd efe yn bum can corsen, wrth y gorsen fesur.

19 ¶ Efe a aeth o amgylch i du y gorllewin, *ac* a fesurodd bum can corsen, wrth y gorsen fesur.

20 Efe a fesurodd ei bedwar ystlys ef: mur *oedd* iddo ef o amgylch ogylch, yn bum can *corsen* o hŷd, ac yn bum can *corsen* o led, i wahanu rhwng y cyssegr a'r digyssegr.

PENNOD 43.

1 *Gogoniant Duw ym dychwelyd i'r deml.* 7 *Pechod Israel ym rhwystro cynnrychioldeb Duw.* 10 *Y prophwyd ym eu hannog hwy i edifarhau, ac i gadw cyfraith y tŷ.* 13 *Mesurau* 18 *a defodau yr allor.*

AC efe a'm dug i'r porth, *sef* y porth sydd yn edrych tu a'r dwyrain.

2 Ac wele ogoniant DUW Israel yn dyfod o ffordd y dwyrain; a'i lais fel swn dyfroedd lawer, a'r ddaear yn disgleirio o'i ogoniant ef.

3 Ac *yr oedd* yn ol gwelediad y weledigaeth a welais, *sef* yn ol y weledigaeth a welais pan ddeuthum i ddifetha y ddinas: a'r gweledigaethau *oedd* fel y weledigaeth a welswn wrth afon Chebar: yna y syrthiais ar fy wyneb.

4 A gogoniant yr ARGLWYDD a ddaeth i'r tŷ *ar hyd* ffordd y porth *sydd* â'i wyneb tu a'r dwyrain.

5 Felly yr ysproid a'm cododd, ac a'm dug i'r cyntedd nesaf i mewn; ac wele, llanwasai gogoniant yr ARGLWYDD y tŷ.

6 Clywn *ef* hefyd yn llefaru wrthyf o'r tŷ; ac yr oedd y gŵr yn sefyll yn fy ymyl.

7 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, Ha fab dyn, *dyma* le fy ngorseddfa, a lle gwadnau fy nhraed, lle y trigaf ym mysg meibion Israel yn dragywydd; a'm henw sanctaidd ni haloga tŷ Israel mwy, *na* hwynthhwy, na'u brenhinoedd, trwy eu putteindra, na thrwy gyrph meirw eu brenhinoedd *yn* eu huchelleoedd.

8 Wrth osod eu rhiniog wrth fy rhiniog i, a'u gorsin wrth fy ngorsin i, a phared rhyngof fi â hwynt, hwy a halogasant fy enw sanctaidd â'u ffieidd-dra y rhai a wnaethant: am hynny mi a'u hysais hwy yn fy llid.

9 Pellhânt yr awr hon eu putteindra, a chelanedd eu brenhinoedd oddi wrthyf fi, a mi a drigaf yn eu mysg hwy yn dragywydd.

10 ¶ Ti fab dyn, dangos y tŷ i dŷ Israel, fel y cywilyddiont am

eu hanwireddau; a mesurant y portreiad.

11 Ac os cywilyddiant am yr hyn oll a wnaethant, hysbysa iddynt ddull y tŷ, a'i osodiad, a'i fynediadau allan, a'i ddyfodiadau i mewn, a'i holl ddull, a'i holl ddeddfau, a'i holl ddull, a'i holl gyfreithiau; ac ysgrifena o flaen eu llygaid hwynt, fel y cadwont ei holl ddull ef, a'i holl ddeddfau, ac y gwnelont hwynt.

12 Dyma gyfraith y tŷ; Ar ben y mynydd *y bydd* ei holl derfyn ef, yn gyssegr sancteiddiolaf o amgylch ogylch. Wele, dyma gyfraith y tŷ.

13 ¶ A dyma fesurau yr allor wrth gufyddau. Y cufydd *sydd* gufydd a dyrnfedd; y gwaelod *fydd* yn gufydd, a'r lled yn gufydd, a'i hymylwaith ar ei min o amgylch *fydd* yn rhychwant: a dyma le uchaf yr allor.

14 Ac o'r gwaelod *ar* y llawr, hyd yr ystôl isaf, *y bydd* dau gufydd, ac un cufydd o led; a phedwar cufydd o'r ystôl leiaf hyd yr ystôl fwyaf, a chufydd o led.

15 Felly yr allor *fydd* bedwar cufydd; ac o'r allor *y bydd* hefyd tu ag i fyny bedwar o gyrn.

16 A'r allor *fydd* ddeuddeg *cufydd* o hŷd, a deuddeg o led, yn ysgwâr yn ei phedwar ystlys.

17 A'r ystôl *fydd* bedwar *cufydd* ar ddeg o hŷd, a phedwar ar ddeg o led, yn ei phedwar ystlys; a'r ymylwaith o amgylch iddi yn hanner cufydd; a'i gwaelod yn gufydd o amgylch: a'i grisiau yn edrych tu a'r dwyrain.

18 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, Ha fab dyn, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Dyma ddeddfau yr allor, yn y dydd y gwneler hi, i boeth-offrymmu poeth-offrwm arni, ac i daenellu gwaed arni.

19 Yna y rhoddi at yr offeiriaid y Lefiaid, (y rhai sydd o had Sadoc yn nesâu attaf fi, medd yr Arglwydd D[illegible] ''m gwasanaethu,) fustach ieuanc yn bech-aberth.

20 A chymm[illegible] o'i waed ef, a dyro ar ei phedwar corn hi, ac ar bedair congl yr ystôl, ac ar yr ymyl o amgylch: fel hyn y glanhêi ac y cyssegri hi.

21 Cymmeri hefyd fustach y pech-aberth, ac efe a'i llysg ef yn y lle nodedig i'r tŷ, o'r tu allan i'r cyssegr.

22 Ac ar yr ail ddydd ti a offrymmi fwch geifr perffeith-gwbl yn bech-aberth; a hwy a lanhânt yr allor, megis y glanhasant hi â'r bustach.

23 Pan orphenych ei glanhâu, ti a offrymmi fustach ieuanc perffeith-gwbl, a hwrdd perffeith-gwbl o'r praidd.

24 Ac o flaen yr Arglwydd yr offrymmi hwynt; a'r offeiriaid a fwriant halen arnynt, ac a'u hoffrymmant hwy *yn* boeth-offrwm i'r Arglwydd.

25 Saith niwrnod y darperi fwch *yn* bech-aberth bob dydd; darparant hefyd fustach ieuanc, a hwrdd o'r praidd, o rai perffeith-gwbl.

26 Saith niwrnod y cyssegrant yr allor, ac y glanhânt hi, ac yr ymgyssegrant.

27 A phan ddarffo y dyddiau hyn, bydd ar yr wythfed dydd, ac o hynny allan, i'r offeiriaid offrymmu ar yr allor eich poeth-offrymmau a'ch ebyrth hedd: a mi a fyddaf foddlawn i chwi, medd yr Arglwydd Dduw.

PENNOD 44.

1 *Porth y dwyrain a berthyn yn unig i'r tywysog.* 4 *Ceryddu yr offeiriaid am halogi y cyssegr.* 9 *Na chaiff dieithr-addolwyr swydd yr offeiriaid;* 15 *ond meibion Sadoc a'i caiff.* 17 *Ordeiniadau i'r offeiriaid.*

AC efe a wnaeth i mi ddychwelyd ar hyd ffordd porth y cyssegr nesaf allan, yr hwn sydd yn edrych tu a'r dwyrain, ac *yr oedd* yn gauad.

2 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Y porth hwn fydd gauad; nid agorir ef, ac nid â neb i mewn trwyddo ef: o herwydd Arglwydd Dduw Israel a aeth i mewn trwyddo ef; am hynny y bydd yn gauad.

3 I'r tywysog *y mae;* y tywysog, efe a eistedd ynddo i fwytta bara o flaen yr Arglwydd: ar hyd ffordd cyntedd y porth *hwnnw* y daw efe i mewn, a hyd ffordd yr un yr â efe allan.

4 ¶ Ac efe a'm dug i ffordd porth y gogledd o flaen y tŷ: a mi a edrychais, ac wele, llanwasai go-

goniant yr ARGLWYDD dŷ yr ARGLWYDD: a mi a syrthiais ar fy wyneb.

5 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Gosod dy galon, fab dyn, a gwel â'th lygaid, clyw hefyd â'th glustiau, yr hyn oll yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthyt, am holl ddeddfau tŷ yr ARGLWYDD, ac am ei holl gyfreithiau; a gosod dy feddwl ar ddyfodfa y tŷ, ac ar bob mynedfa allan o'r cyssegr.

6 A dywed wrth y gwrthryfelgar, *sef* tŷ Israel, Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Digon i chwi *hyn*, tŷ Israel, o'ch holl ffieidd-dra;

7 Gan ddwyn o honoch ddïeithriaid dïenwaededig o galon, a dïenwaededig o gnawd, i fod yn fy nghyssegr i'w halogi ef, *sef* fy nhŷ i, pan offrymmasoch fy mara, y brasder a'r gwaed; a hwy a dorrasant fy nghyfammod, o herwydd eich holl ffieidd-dra chwi.

8 Ac ni chadwasoch gadwraeth fy mhethau cyssegredig; eithr gosodasoch i chwi eich hunain geidwaid *ar* fy nghadwraeth yn fy nghyssegr.

9 ¶ Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Ni ddaw i'm cyssegr un mab dïeithr dïenwaededig o galon, a dïenwaededig o gnawd, o'r holl feibion dïeithr y rhai *sydd* ym mysg meibion Israel.

10 A'r Lefiaid y rhai a giliasant ym mhell oddi wrthyf, pan gyfeiliornodd Israel, y rhai a grwydrasant oddi wrthyf ar ol eu delwau, hwy a ddygant eu hanwiredd.

11 Etto hwy a fyddant yn fy nghyssegr, yn weinidogion *mewn* swydd ym mhyrth y tŷ, ac yn gweini i'r tŷ: hwy a laddant yr offrwm poeth, ac aberth y bobl, a hwy a safant o'u blaen hwy i'w gwasanaethu hwynt.

12 O herwydd gwasanaethu o honynt hwy o flaen eu heilunod, a bod o honynt i dŷ Israel yn dramgwydd i anwiredd, am hynny y dyrchefais fy llaw yn eu herbyn hwynt, medd yr Arglwydd DDUW, a hwy a ddygant eu hanwiredd.

13 Ac ni ddeuant yn agos attaf fi i offeiriadu i mi, nac i nesâu at yr un o'm pethau sanctaidd yn y cyssegr sancteiddiolaf: eithr dygant eu cywilydd, a'u ffieidd-dra a wnaethant.

14 Eithr gwnaf hwynt yn geidwaid cadwraeth y tŷ, yn ei holl wasanaeth, ac yn yr hyn oll a wneir ynddo.

15 ¶ Yna yr offeiriaid y Lefiaid, meibion Sadoc, y rhai a gadwasant gadwraeth fy nghyssegr, pan gyfeiliornodd meibion Israel oddi wrthyf, hwynt-hwy a nesânt attaf fi i'm gwasanaethu, ac a safant o'm blaen i offrymmu i mi y brasder a'r gwaed, medd yr Arglwydd IOR:

16 Hwy a ânt i mewn i'm cyssegr, a hwy a nesânt at fy mwrdd i'm gwasanaethu, ac a gadwant fy nghadwraeth.

17 ¶ A phan ddelont i byrth y cyntedd nesaf i mewn, gwisgant wisgoedd llïan; ac na ddeued gwlan am danynt, tra y gwasanaethant ym mhyrth y cyntedd nesaf i mewn, ac o fewn.

18 Capiau llïan fydd am eu pennau hwynt, a llodrau llïan fydd am eu llwynau hwynt: nac ymwregysant â dim a baro chwŷs.

19 A phan elont i'r cyntedd nesaf allan, *sef* at y bobl i'r cyntedd oddi allan, dïosgant eu gwisgoedd y rhai y gwasanaethasant ynddynt, a gosodant hwynt o fewn celloedd y cyssegr, a gwisgant ddillad eraill; ac na chyssegrant y bobl â'u gwisgoedd.

20 Eu pennau hefyd ni eilliant, ac ni ollyngant *eu* gwallt *yn llaes:* gan dalgrynnu talgrynnant eu pennau.

21 Hefyd, nac yfed un offeiriad win, pan ddelont i'r cyntedd nesaf i mewn.

22 Na chymmerant chwaith yn wragedd iddynt wraig weddw, neu ysgaredig; eithr morwynion o had tŷ Israel, neu y weddw a fyddo gweddw offeiriad, a gymmerant.

23 A dysgant i'm pobl *ragor* rhwng y sanctaidd a'r halogedig, a gwnant iddynt wybod *gwahan* rhwng aflan a glân.

24 Ac mewn ymrafael hwy a safant mewn barn, *ac* a farnant yn ol fy marnedigaethau i: cadwant hef-

yd fy nghyfreithiau a'm deddfau yn fy holl uchel-wyliau; a sanct-eiddiant fy Sabbathau.

25 Ni ddeuant chwaith at ddyn marw i ymhalogi: eithr wrth dad, ac wrth fam, ac wrth fab, ac wrth ferch, wrth frawd, ac wrth chwaer yr hon ni bu eiddo gŵr, y gallant ymhalogi.

26 Ac wedi ei buredigaeth y cyfrifir iddo saith niwrnod.

27 A'r dydd yr elo i'r cyssegr, o fewn y cyntedd nesaf i mewn, i weini yn y cyssegr, offrymmed ei bech-aberth, medd yr Arglwydd Dduw.

28 A bydd yn etifeddiaeth iddynt hwy; myfi *yw* eu hetifeddiaeth hwy. Ac na roddwch berchennogaeth iddynt hwy yn Israel; myfi *yw* eu perchennogaeth hwy.

29 Y bwyd-offrwm, a'r pech-aberth, a'r aberth dros gamwedd, a fwyttânt hwy; a phob peth cyssegredig yn Israel fydd eiddynt hwy.

30 A blaenion pob blaenffrwyth o bob *peth*, a phob offrwm pob dim oll o'ch holl offrymmau, fydd eiddo yr offeiriaid: blaenffrwyth eich toes hefyd a roddwch i'r offeiriad, i osod bendith ar dy dŷ.

31 Na fwyttâed yr offeiriaid ddim a fu farw ei hun, neu ysglyfaeth o aderyn neu o anifail.

PENNOD 45.

1 *Rhandir y cyssegr,* 6 *a'r eiddo y ddinas,* 7 *a'r tywysog.* 9 *Ordeiniadau i'r tywysog.*

A PHAN rannoch y tir wrth goelbren yn etifeddiaeth, yr offrymmwch i'r Arglwydd offrwm cyssegredig o'r tir; yr hŷd *fydd* pum mil ar hugain *o gorsennau* o hŷd, a dengmil o led. Cyssegredig *fydd* hynny yn ei holl derfyn o amgylch.

2 O hyn *y bydd* i'r cyssegr bum cant *ar hŷd*, a phum cant *ar led*, yn bedeirongl oddi amgylch; a deg cufydd a deugain, yn faes pentrefol iddo o amgylch.

3 Ac o'r mesur hwn y mesuri bum mil ar hugain o hŷd, a dengmil o led; ac yn hwnnw y bydd y cyssegr, *a'r* lle sancteiddiolaf.

4 Y rhan gyssegredig o'r tir fydd i'r offeiriaid, y rhai a wasanaethant y cyssegr, y rhai a nesânt i wasanaethu yr Arglwydd; ac efe a fydd iddynt yn lle tai, ac yn gyssegrfa i'r cyssegr.

5 A'r pum mil ar hugain o hŷd, a'r dengmil o led, fydd hefyd i'r Lefiaid y rhai a wasanaethant y tŷ, yn etifeddiaeth ugain o ystafell-oedd.

6 ¶ Rhoddwch hefyd bum mil o led, a phum mil ar hugain o hŷd, yn berchennogaeth i'r ddinas, ar gyfer offrwm y rhan gyssegredig: i holl dŷ Israel y bydd *hyn.*

7 ¶ A *rhan fydd* i'r tywysog o'r tu yma ac o'r tu accw i offrwm y rhan gyssegredig, ac i berchennogaeth y ddinas, ar gyfer y rhan gyssegredig, ac ar gyfer etifeddiaeth y ddinas, o du y gorllewin tu a'r gorllewin, ac o du y dwyrain tu a'r dwyrain: a'r hŷd *fydd* ar gyfer *pob* un o'r rhannau, o derfyn y gorllewin hyd derfyn y dwyrain.

8 *Yn* y tir y bydd ei etifeddiaeth ef yn Israel, ac ni orthrymma fy nhywysogion fy mhobl i mwy; a'r *rhan* arall o'r tir a roddant i dŷ Israel yn ol eu llwythau.

9 ¶ Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Digon i chwi hyn, tywysogion Israel; bwriwch ymaith drawsder a difrod, gwnewch hefyd farn a chyfiawnder, tynnwch ymaith eich trethau oddi ar fy mhobl, medd yr Arglwydd Dduw.

10 Bydded gennych gloriannau uniawn, ac ephah uniawn, a bath uniawn.

11 Bydded yr ephah a'r bath un fesur; gan gynnwys o'r bath ddegfed ran homer, a'r ephah ddegfed ran homer: wrth yr homer y bydd eu mesur hwynt.

12 Y sicl *fydd* ugain gerah: ugain sicl, a phum sicl ar hugain, a phymtheg sicl, fydd maneh i chwi.

13 Dyma yr offrwm a offrymmwch: chweched ran ephah o homer o wenith; felly y rhoddwch chweched ran ephah o homer o haidd.

14 Am ddeddf yr olew, bath o olew, degfed ran bath *a roddwch* o'r corus; yr hyn *yw* homer o ddeg bath: o herwydd deg bath *yw'* homer.

15 Un milyn hefyd o'r praidd *a*

offrymmwch o bob deucant, allan o ddolydd Israel, yn fwyd-offrwm, ac yn boeth-offrwm, ac yn aberthau hedd, i wneuthur cymmod drostynt, medd yr Arglwydd DDUW.

16 Holl bobl y tir fyddant dan yr offrwm hwn i'r tywysog yn Israel.

17 Ac ar y tywysog y bydd poeth-offrwm, a bwyd-offrwm, a diod-offrwm, ar yr uchel-wyliau, a'r newydd-loerau, a'r Sabbathau, trwy holl osodedig wyliau tŷ Israel: efe a ddarpara bech-aberth, a bwyd-offrwm, a phoeth-offrwm, ac aberthau hedd, i wneuthur cymmod dros dŷ Israel.

18 Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; O fewn y *mis* cyntaf, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, y cymmeri fustach ieuangc perffeith-gwbl, ac y puri y cyssegr.

19 Yna y cymmer yr offeiriad o waed y pech-aberth, ac a'*i* rhydd ar orsingau y tŷ, ac ar bedair congl ystôl yr allor, ac ar orsingau porth y cyntedd nesaf i mewn.

20 Felly y gwnei hefyd ar y seithfed *dydd* o'r mis, dros y neb a becho yn amryfus, a thros yr ehud: felly y purwch y tŷ.

21 Yn y *mis* cyntaf, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, y bydd i chwi y pasc; gwyl *fydd i chwi* saith niwrnod: bara croyw a fwyttêwch.

22 A'r tywysog a ddarpara ar y dydd hwnnw drosto ei hun, a thros holl bobl y wlad, fustach *yn* bech-aberth.

23 A saith niwrnod yr wyl y darpara efe yn offrwm poeth i'r ARGLWYDD, saith o fustych, a saith o hyrddod perffeith-gwbl, bob dydd o'r saith niwrnod; a bwch geifr yn bech-aberth bob dydd.

24 Bwyd-offrwm hefyd a ddarpara efe, *sef* ephah gyd â *phob* bustach, ac ephah gyd â *phob* hwrdd, a hin o olew gyd â'r ephah.

25 Yn y seithfed *mis*, ar y pymthegfed dydd o'r mis, y gwna y cyffelyb ar yr wyl *dros* saith niwrnod; *sef* fel y pech-aberth, fel y poeth-offrwm, ac fel y bwyd-offrwm, ac fel yr olew.

PENNOD 46.

1 *Ordeiniadau i'r tywysog pan addolo;* 9 *ac i'r bobl.* 16 *Trefn am etifeddiaeth y tywysog.* 19 *Y cynteddi i jerwi ac i bobi.*

FEL hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Porth y cyntedd nesaf i mewn, yr hwn sydd yn edrych tu a'r dwyrain, fydd yn gauad y chwe diwrnod gwaith; ond ar y dydd Sabbath yr agorir ef, ac efe a agorir ar ddydd y newydd-loer.

2 A'r tywysog a ddaw *ar hyd* ffordd cyntedd y porth oddi allan, ac a saif wrth orsing y porth; a'r offeiriaid a ddarparant ei boeth-offrwm ef a'i aberthau hedd, ac efe a addola wrth riniog y porth; ac a â allan: a'r porth ni cheuir hyd yr hwyr.

3 Pobl y tir a addolant hefyd *wrth* ddrws y porth hwnnw, ar y Sabbathau ac ar y newydd-loerau, o flaen yr ARGLWYDD.

4 A'r offrwm poeth a offrymmo y tywysog i'r ARGLWYDD ar y dydd Sabbath, *fydd* chwech o ŵyn perffeith-gwbl, a hwrdd perffeith-gwbl:

5 A bwyd-offrwm o ephah gyd â'r hwrdd, a rhodd ei law o fwyd-offrwm gyd â'r ŵyn, a hin o olew gyd â'r ephah.

6 Ac ar ddydd y newydd-loer, bustach ieuangc perffeith-gwbl, a chwech o ŵyn, a hwrdd; perffeith-gwbl fyddant.

7 Ac efe a ddarpara ephah gyd â'r bustach, ac ephah gyd â'r hwrdd, yn fwyd-offrwm; a chyd â'r ŵyn fel y cyrhaeddo ei law ef, a hin o olew gyd â *phob* ephah.

8 A phan ddelo y tywysog i mewn, *ar hyd* ffordd cyntedd y porth y daw i mewn, ac ar hyd y ffordd honno yr â allan.

9 ¶ A phan ddelo pobl y tir o flaen yr ARGLWYDD ar y gwyliau gosodedig, yr hwn a ddelo i mewn ar hyd ffordd porth y gogledd i addoli, a â allan i ffordd porth y dehau; a'r hwn a ddelo ar hyd ffordd porth y dehau, a â allan ar hyd ffordd porth y gogledd: na ddychweled i ffordd y porth y daeth i mewn trwyddo, eithr eled allan ar ei gyfer.

10 A phan ddelont hwy i mewn,

y daw y tywysog yn eu mysg hwy; a phan elont allan, yr â yntau allan.

11 Ac ar y gwyliau a'r uchel-wyliau *hefyd* y bydd y bwyd-offrwm o ephah gyd â *phob* bustach, ac ephah gyd â *phob* hwrdd, a rhodd ei law gyd â'r ŵyn, a hin o olew gyd â'r ephah.

12 A phan ddarparo y tywysog boeth-offrwm gwirfodd, neu aberthau hedd gwirfodd i'r ARGLWYDD, yna yr egyr *un* iddo y porth sydd yn edrych tu a'r dwyrain, ac efe a ddarpara ei boeth-offrwm a'i aberthau hedd, fel y gwnaeth ar y dydd Sabbath; ac a â allan: ac *un* a gau y porth ar ol ei fyned ef allan.

13 Oen blwydd perffeith-gwbl *hefyd* a ddarperi yn boeth-offrwm i'r ARGLWYDD beunydd: o fore i fore y darperi ef.

14 Darperi hefyd yn fwyd-offrwm gyd âg ef o fore i fore, chweched ran ephah, a thrydedd ran hin o olew, i gymmysgu y peillied, yn fwyd-offrwm i'r ARGLWYDD, *trwy* ddeddf dragywyddol byth.

15 Fel hyn y darparant yr oen, a'r bwyd-offrwm, a'r olew, o fore i fore, *yn* boeth-offrwm gwastadol.

16 ¶ Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW; Os rhydd y tywysog rodd i neb o'i feibion o'i etifeddiaeth, eiddo ei feibion fydd hynny, eu perchennogaeth *fydd* hynny wrth etifeddiaeth.

17 Ond pan roddo efe rodd o'i etifeddiaeth i un o'i weision, bydded hefyd eiddo hwnnw hyd flwyddyn y rhyddid; yna y dychwel i'r tywysog: etto ei etifeddiaeth *fydd eiddo* ei feibion, iddynt hwy.

18 Ac na chymmered y tywysog o etifeddiaeth y bobl, i'w gorthrymmu hwynt allan o'u perchennogaeth; *eithr* rhodded etifeddiaeth i'w feibion o'i berchennogaeth ei hun: fel na wasgarer fy mhobl bob un allan o'i berchennogaeth.

19 ¶ Ac efe a'm dug trwy y ddyfodfa *oedd* ar ystlys y porth, i ystafelloedd cyssegredig yr offeiriaid, y rhai oedd yn edrych tu a'r gogledd: ac wele yno le ar y ddau ystlys tu a'r gorllewin.

20 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Dyma y fan lle y beirw yr offeiriaid yr aberth dros gamwedd a'r pech-aberth, *a* lle y pobant *y* bwyd-offrwm; fel na ddygont hwynt i'r cyntedd nesaf allan, i sancteiddio y bobl.

21 Ac efe a'm dug i'r cyntedd nesaf allan, ac a'm tywysodd heibio i bedair congl y cyntedd; ac wele gyntedd ym mhob congl i'r cyntedd.

22 Ym mhedair congl y cyntedd *yr ydoedd* cynteddau cyssylltiedig o ddeugain *cufydd* o hŷd, a deg ar hugain o led: un fesur *oedd* y conglau ill pedair.

23 Ac *yr ydoedd* adail newydd o amgylch ogylch iddynt ill pedair, a cheginau wedi eu gwneuthur oddi tan y muriau oddi amgylch.

24 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Dyma dŷ y cogau, lle y beirw gweinidogion y tŷ aberth y bobl.

PENNOD 47.

1 *Gweledigaeth y dyfroedd sanctaidd:* 6 *a'u rhinwedd.* 13 *Terfynau y wlad;* 22 *a'i rhannu wrth goelbren.*

AC efe a'm dug i drachefn i ddrws y tŷ; ac wele ddwfr yn dyfod allan oddi tan riniog y tŷ tu a'r dwyrain: o herwydd wyneb y tŷ *oedd tu a'r* dwyrain; a'r dyfroedd oedd yn disgyn oddi tanodd o ystlys dehau y tŷ, o du y dehau i'r allor.

2 Ac efe a'm dug i ar *hyd* ffordd y porth tu a'r gogledd, ac a wnaeth i mi amgylchu y ffordd oddi allan hyd y porth nesaf allan *ar hyd* y ffordd sydd yn edrych tu a'r dwyrain; ac wele ddyfroedd yn tarddu ar yr ystlys dehau.

3 A phan aeth y gŵr yr hwn oedd â'r llinyn yn ei law allan tu a'r dwyrain, efe a fesurodd fil o gufyddau, ac a'm tywysodd i trwy y dyfroedd; *a'r* dyfroedd hyd y fferau.

4 Ac efe a fesurodd fil *eraill*, ac a'm tywysodd trwy y dyfroedd; *a'r* dyfroedd hyd y gliniau: ac a fesurodd fil *eraill*, ac a'm tywysodd trwodd; *a'r* dyfroedd hyd y lwynau:

5 Ac efe a fesurodd fil *eraill; ac* afon *oedd*, yr hon ni allwn fyned trwyddi: canys codasai y dyfroedd

yn ddyfroedd nofiadwy, yn afon ni ellid myned trwyddi.

6 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthyf, A welaist ti *hyn*, fab dyn? Yna y'm tywysodd, ac y'm dychwelodd hyd lan yr afon.

7 Ac wedi i mi ddychwelyd, wele ar fin yr afon goed lawer iawn o'r tu yma ac o'r tu accw.

8 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Y dyfroedd hyn sydd yn myned allan tu a bro y dwyrain, ac a ddisgynant i'r gwastad, ac a ânt i'r môr: *ac* wedi eu myned i'r môr, yr iachêir y dyfroedd.

9 A bydd i bob peth byw, yr hwn a ymlusgo, pa le bynnag y delo yr afonydd, gael byw: ac fe fydd pysgod lawer iawn, o herwydd dyfod y dyfroedd hyn yno: canys iachêir hwynt, a phob dim lle y delo yr afon fydd byw.

10 A bydd i'r pysgodwyr sefyll arni, o En-gedi hyd En-eglaim; hwy a fyddant yn daenfa rhwydau: eu pysgod fydd yn ol eu rhyw, fel pysgod y môr mawr, yn llawer iawn.

11 Ei lleoedd lleidiog a'i chorsydd ni iachêir; i halen y rhoddir hwynt.

12 Ac wrth yr afon y cyfyd, ar ei min o'r ddeutu, bob pren ymborth; ei ddalen ni syrth, a'i ffrwyth ni dderfydd: yn ei fisoedd y dwg ffrwyth newydd; o herwydd ei ddyfroedd, hwy a ddaethant allan o'r cyssegr: am hynny y bydd ei ffrwyth yn ymborth, a'i ddalen yn feddyginiaeth.

13 ¶ Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Dyma y terfyn wrth yr hwn y rhennwch y tir yn etifeddiaeth i ddeuddeg llwyth Israel: Joseph *a gaiff ddwy* o rannau.

14 Hefyd chwi a'i hetifeddwch ef, bob un cystal a'i gilydd; *am* yr hwn y tyngais ar ei roddi i'ch tadau: a'r tir hwn a syrth i chwi yn etifeddiaeth.

15 A dyma derfyn y tir o du y gogledd, o'r môr mawr tu a Hethlon, ffordd yr eir i Sedad:

16 Hamath, Berothah, Sibraim, yr hwn *sydd* rhwng terfyn Damascus a therfyn Hamath; Hasar-hattichon, yr hwn *sydd* ar derfyn Hauran.

17 A'r terfyn o'r môr fydd Hasar-enan, terfyn Damascus, a'r gogledd tu a'r gogledd, a therfyn Hamath. A dyma du y gogledd.

18 Ac ystlys y dwyrain a fesurwch o Hauran, ac o Damascus, ac o Gilead, ac o dir Israel *wrth* yr Iorddonen, o'r terfyn hyd fôr y dwyrain. A dyma du y dwyrain.

19 A'r ystlys ddehau tu a'r dehau, o Tamar hyd ddyfroedd cynnen Cades, yr afon hyd y môr mawr. A dyma yr ystlys ddehau tu a Theman.

20 A thu y gorllewin *fydd* y môr mawr, o'r terfyn hyd oni ddeuer ar gyfer Hamath. Dyma du y gorllewin.

21 Felly y rhennwch y tir hwn i chwi, yn ol llwythau Israel.

22 ¶ Bydd hefyd i chwi ei rannu ef wrth goelbren yn etifeddiaeth i chwi, ac i'r dïeithriaid a ymdeithiant yn eich mysg, y rhai a genhedla blant yn eich plith: a byddant i chwi fel un wedi ei eni yn y wlad ym mysg meibion Israel; gyd â chwi y cânt etifeddiaeth ym mysg llwythau Israel.

23 A bydd, ym mha lwyth bynnag yr ymdeithio y dïeithr, yno y rhoddwch ei etifeddiaeth ef, medd yr Arglwydd Duw.

PENNOD 48.

1, 23 *Rhandiroedd y deuddeg llwyth.* 8 *Rhandir y cyssegr;* 15 *a'r ddinas, a'i phentrefydd:* 21 *a'r tywysog.* 30 *Mesurau pyrth y ddinas.*

A DYMA enwau y llwythau. O gwr y gogledd ar duedd ffordd Hethlon, ffordd yr êir i Hamath, Hasar-enan, terfyn Damascus tu a'r gogledd, i duedd Hamath, (canys y rhai hyn oedd ei derfynau dwyrain *a* gorllewin,) *rhan* i Dan.

2 Ac ar derfyn Dan, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, *rhan* i Aser.

3 Ac ar derfyn Aser, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, i Naphtali *ran.*

4 Ac ar derfyn Naphtali, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, i Manasseh *ran.*

5 Ac ar derfyn Manasseh, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, i Ephraim *ran.*

6 Ac ar derfyn Ephraim, o du

y dwyrain hyd du y gorllewin, i Reuben *ran.*
7 Ac ar derfyn Reuben, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, i Judah *ran.*
8 ¶ Ac ar derfyn Judah, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, y bydd yr offrwm a offrymmoch yn bum mil ar hugain *o gorsennau o* led, ac *o* hŷd fel un o'r rhannau, o du y dwyrain hyd du y gorllewin; a'r cyssegr fydd yn ei ganol.
9 Yr offrwm a offrymmoch i'r ARGLWYDD *fydd* bum mil ar hugain o hŷd, a dengmil o led.
10 Ac eiddo y rhai hyn fydd yr offrwm cyssegredig, *sef* eiddo yr offeiriaid, *fydd* pum mil ar hugain tu a'r gogledd *o hŷd*, a dengmil tu a'r gorllewin o led; felly dengmil tu a'r dwyrain o led, a phum mil ar hugain tu a'r dehau o hŷd: a chyssegr yr ARGLWYDD fydd yn ei ganol.
11 I'r offeiriaid cyssegredig o feibion Sadoc *y bydd*, y rhai a gadwasant fy nghadwraeth, y rhai ni chyfeiliornasant pan gyfeiliornodd plant Israel, megis y cyfeiliornodd y Lefiaid.
12 A bydd eiddynt yr hyn a offrymmir o offrwm y tir, yn sancteidd-beth cyssegredig wrth derfyn y Lefiaid.
13 A'r Lefiaid *a gânt*, ar gyfer terfyn yr offeiriaid, bum mil ar hugain o hŷd, a dengmil o led: pob hŷd *fydd* bum mil ar hugain, ar lled yn ddengmil.
14 Hefyd ni werthant *ddim* o hono, ac ni chyfnewidiant, ac ni throsglwyddant flaenffrwyth y tir; o herwydd cyssegredig *yw* i'r ARGLWYDD.
15 ¶ A'r pum mil gweddill o'r lled, ar gyfer y pum mil ar hugain, fydd digyssegredig, yn drigfa ac yn faes pentrefol i'r ddinas; a'r ddinas fydd yn ei ganol.
16 A dyma ei fesurau ef; Ystlys y gogledd *fydd* bum cant a phedair mil, ac ystlys y dehau yn bum cant a phedair mil, felly o du y dwyrain yn bum cant a phedair mil, a thu a'r gorllewin yn bum cant a phedair mil.
17 A maes pentrefol y ddinas fydd hefyd tu a'r gogledd yn ddeucant a deg a deugain, ac yn ddeucant a deg a deugain tu a'r dehau, ac yn ddeucant a deg a deugain tu a'r dwyrain, ac yn ddeucant a deg a deugain tu a'r gorllewin.
18 A'r gweddill o'r hŷd, ar gyfer offrwm y rhan gyssegredig, *fydd* yn ddengmil tu a'r dwyrain, ac yn ddengmil tu a'r gorllewin: ac ar gyfer offrwm y rhan gyssegredig y bydd; a'i gnwd fydd yn ymborth i weinidogion y ddinas.
19 A gweinidogion y ddinas a'i gwasanaethant o holl lwythau Israel.
20 Yr holl offrwm *fydd* bum mil ar hugain, wrth bum mil ar hugain: yn bedeirongl yr offrymmwch yr offrwm cyssegredig, gyd â pherchennogaeth y ddinas.
21 ¶ A'r hyn a adewir *fydd* i'r tywysog, o ddeutu yr offrwm cyssegredig, ac o berchennogaeth y ddinas, ar gyfer y pum mil ar hugain o'r offrwm tu a therfyn y dwyrain, a thu a'r gorllewin, ar gyfer y pum mil ar hugain tu a therfyn y gorllewin, gyferbyn â rhannau y tywysog: a'r offrwm cyssegredig fydd; a chyssegrfa y tŷ *fydd* y'nghanol hynny.
22 Felly o berchennogaeth y Lefiaid, ac o berchennogaeth y ddinas, y'nghanol yr hyn sydd i'r tywysog rhwng terfyn Judah a therfyn Benjamin, eiddo y tywysog fydd.
23 Ac am y rhan arall o'r llwythau, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, *y bydd rhan* i Benjamin.
24 Ac ar derfyn Benjamin, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, *y bydd rhan* i Simeon.
25 Ac ar derfyn Simeon, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, *rhan* i Issachar.
26 Ac ar derfyn Issachar, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, *rhan* i Sabulon.
27 Ac ar derfyn Sabulon, o du y dwyrain hyd du y gorllewin, *rhan* i Gad.
28 Ac ar derfyn Gad, ar y tu dehau tu a'r dehau, y terfyn fydd o Tamar *hyd* ddyfroedd cynnen Cades, *a* hyd yr afon tu a'r môr mawr.

29 Dyma y tir a rennwch wrth goelbren yn etifeddiaeth i lwythau Israel, a dyma eu rhannau hwynt, medd yr Arglwydd DDUW.

30 ¶ Dyma hefyd fynediad allan y ddinas, o du y gogledd pum cant a phedair mil o fesurau.

31 A phyrth y ddinas *fydd* ar enwau llwythau Israel: tri phorth tu a'r gogledd; porth Reuben yn un, porth Judah yn un, porth Lefi yn un.

32 Ac ar du y dwyrain pum cant a phedair mil: a thri phorth; *sef* porth Joseph yn un, porth Benjamin yn un, porth Dan yn un.

33 A thu a'r dehau pum cant a phedair mil o fesurau: a thri phorth; porth Simeon yn un, a phorth Issachar yn un, a phorth Sabulon yn un.

34 Tu a'r gorllewin *y bydd* pum cant a phedair mil, *a*'u tri phorth; porth Gad yn un, porth Aser yn un, *a* phorth Naphtali yn un.

35 Deunaw mil *o fesurau oedd* hi o amgylch: ac enw y ddinas o'r dydd hwnnw *allan fydd*, Yr ARGLWYDD *sydd* yno.

LLYFR DANIEL.

PENNOD 1.

1 *Caethiwed Jehoiacim.* 3 *Aspenas yn cymmeryd Daniel, Hananiah, Misael, ac Asariah, i'w dysgu y'ngwybodaeth y Caldeaid* 8 *a hwythau yn gwrthod rhan o fwyd y brenhin; ac wrth fwytta ffa, ac yfed dwfr, yn myned yn dda arnynt.* 17 *Eu godidog ddoethineb hwy.*

YN y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Jehoiacim brenhin Judah, y daeth Nebuchodonosor brenhin Babilon i Jerusalem, ac a warchaeodd arni.

2 A'r ARGLWYDD a roddes i'w law ef Jehoiacim brenhin Judah, a rhan o lestri tŷ DDUW; yntau a'u dug hwynt i wlad Sinar, i dŷ ei dduw ef; ac i drysordy ei dduw y dug efe y llestri.

3 ¶ A dywedodd y brenhin wrth Aspenas ei ben-ystafellydd, am ddwyn o feibion Israel, ac o'r had brenhinol, ac o'r tywysogion,

4 Fechgyn y rhai ni *byddai* ynddynt ddim gwrthuni, eithr yn dda yr olwg, a deallgar ym mhob doethineb, ac yn gwybod gwybodaeth, ac yn deall cyfarwyddyd, a'r rhai *y byddai* grym ynddynt i sefyll yn llys y brenhin, i'w dysgu *ar* lyfr ac *yn* iaith y Caldeaid.

5 A'r brenhin a ddognodd iddynt ran beunydd o fwyd y brenhin, ac o'r gwin a yfai efe; felly i'w maethu hwynt dair blynedd, fel y safent ar ol hynny ger bron y brenhin.

6 Ac yr ydoedd yn eu plith hwynt o feibion Judah, Daniel, Hananïah, Misael, ac Asarïah:

7 A'r pen-ystafellydd a osododd arnynt enwau: canys ar Daniel y gosododd efe Beltesassar; ac ar Hananïah, Sadrach; ac ar Misael, Mesach; ac ar Asarïah, Abednego.

8 ¶ A Daniel a roddes ei fryd, nad ymhalogai efe trwy ran *o* fwyd y brenhin, na thrwy y gwin a yfai efe: am hynny efe a ddymunodd ar y pen-ystafellydd, na byddai raid iddo ymhalogi.

9 A DUW a roddes Daniel mewn ffafr a thiriondeb gyd â'r pen-ystafellydd.

10 A'r pen-ystafellydd a ddywedodd wrth Daniel, Ofni yr ydwyf fi fy arglwydd y brenhin, yr hwn a osododd eich bwyd chwi a'ch diod chwi: o herwydd paham y gwelai efe eich wynebau yn gulach na'r bechgyn *sydd* fel chwithau? felly y parech fy mhen yn ddyledus i'r brenhin.

11 Yna y dywedodd Daniel wrth Melsar, yr hwn a osodasai y pen-ystafellydd ar Daniel, Hananïah, Misael, ac Asarïah,

12 Prawf, attolwg, dy weision ddeg diwrnod, a rhoddant i ni ffa i'w bwytta, a dwfr i'w yfed.

13 Yna edrycher ger dy fron di ein gwedd ni, a gwedd y bechgyn sydd yn bwytta rhan o fwyd y

brenhin: ac fel y gwelych, gwna â'th weision.

14 Ac efe a wrandawodd arnynt yn y peth hyn, ac a'u profodd hwynt ddeg o ddyddiau.

15 Ac ym mhen y deng niwrnod y gwelid eu gwedd hwynt yn deccach, ac yn dewach o gnawd, na'r holl fechgyn oedd yn bwytta rhan o fwyd y brenhin.

16 Felly Melsar a gymmerodd ymaith ran eu bwyd hwynt, a'r gwin a yfent; ac a roddes iddynt ffa.

17 ¶ A'r bechgyn hynny ill pedwar, Duw a roddes iddynt wybodaeth a deall ym mhob dysg a doethineb: a Daniel a hyfforddiodd efe ym mhob gweledigaeth a breuddwydion.

18 Ac ym mhen y dyddiau y dywedasai y brenhin am eu dwyn hwynt i mewn, yna y pen-ystafellydd a'u dug hwynt ger bron Nebuchodonosor.

19 A'r brenhin a chwedleuodd â hwynt; ac ni chafwyd o honynt oll *un* fel Daniel, Hananïah, Misael, ac Asarïah: am hynny y safasant hwy ger bron y brenhin.

20 Ac ym mhob rhyw ddoethineb *a* deall a'r a ofynai y brenhin iddynt, efe a'u cafodd hwynt yn ddeg gwell na'r holl ddewiniaid *a'r* astronomyddion *oedd* o fewn ei holl frenhiniaeth ef.

21 A bu Daniel hyd y flwyddyn gyntaf i'r brenhin Cyrus.

PENNOD 2.

1 *Nebuchodonosor yn anghofio ei freuddwyd, a thrwy addwiction a bygythion yn ceisio gan y Caldeaid ei ddangos iddo; 10 hwythau yn cydnabod nas gallent, ac yn cael barn marwolaeth.* 14 *Daniel, wedi cael peth ysgaid, yn cael allan y breuddwyd; 19 yn bendithio Duw; 24 yn attal y farn, ac yn dyfod ger bron y brenhin.* 31 *Y breuddwyd, 36 a'i ddehongliad; 46 a chyfodiad Daniel.*

AC yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodonosor, y breuddwydiodd Nebuchodonosor freuddwydion, a thrallodwyd ei yspryd ef, a'i gwsg a dorrodd oddi wrtho.

2 A'r brenhin a archodd alw am y dewiniaid, ac am yr astronomyddion, ac am yr hudolion, ac am y Caldeaid, i fynegi i'r brenhin ei freuddwydion: a hwy a ddaethant ac a safasant ger bron y brenhin.

3 A'r brenhin a ddywedodd wrthynt, Breuddwydiais freuddwyd, a thrallodwyd fy yspryd am wybod y breuddwyd.

4 Yna y Caldeaid a lefarasant wrth y brenhin yn Syriaeg, O frenhin, bydd fyw yn dragywydd: adrodd dy freuddwyd i'th weision, a mynegwn y dehongliad.

5 Attebodd y brenhin a dywedodd wrth y Caldeaid, Aeth y peth oddi wrthyf: oni fynegwch y breuddwyd i mi, a'i ddehongliad, gwneir chwi yn ddrylliau, a'ch tai a osodir yn dommen.

6 Ond os y breuddwyd a'i ddehongliad a ddangoswch, cewch roddion, a gwobrau, ac anrhydedd mawr o'm blaen i: am hynny dangoswch y breuddwyd, a'i ddehongliad.

7 Attebasant eilwaith a dywedasant, Dyweded y brenhin y breuddwyd i'w weision, ac ni a ddangoswn ei ddehongliad ef.

8 Attebodd y brenhin a dywedodd, Mi a wn yn hysbys mai oedi yr amser yr ydych chwi; canys gwelwch fyned y peth oddi wrthyf.

9 Ond oni wnewch i mi wybod y breuddwyd, un gyfraith *fydd* i chwi: canys gair celwyddog a llygredig a ddarparasoch ei ddywedyd o'm blaen, nes newid yr amser: am hynny dywedwch i mi y breuddwyd, a mi a gaf wybod y medrwch ddangos i mi ei ddehongliad ef.

10 ¶ Y Caldeaid a attebasant o flaen y brenhin, ac a ddywedasant, Nid oes dyn ar y ddaear a ddichon ddangos yr hyn y mae y brenhin yn ei ofyn; ac ni cheisiodd un brenhin, na phennaeth, na llywydd, y fath beth a hwn gan un dewin, nac astronomydd, na Chaldead.

11 Canys dïeithr *yw* y peth a gais y brenhin, ac nid oes *neb* arall a fedr ei ddangos o flaen y brenhin, ond y duwiau, y rhai nid yw eu trigfa gyd â chnawd.

12 O achos hyn y digiodd y brenhin ac y creulonodd yn ddirfawr, ac a orchymynodd ddifetha holl ddoethion Babilon.

13 Yna yr aeth y gyfraith allan am ladd y doethion; ceisiasant hefyd Daniel a'i gyfeillion i'w lladd.

14 ¶ Yna yr attebodd Daniel

trwy gynghor a doethineb i Arioch, pen-distain y brenhin, yr hwn a aethai allan i ladd doethion Babilon:

15 Efe a lefarodd ac a ddywedodd wrth Arioch, distain y brenhin, Paham *y mae* y gyfraith yn myned ar *y fath* frys oddi wrth y brenhin? Yna Arioch a fynegodd y peth i Daniel.

16 Yna Daniel a aeth i mewn, ac a ymbiliodd â'r brenhin am roddi iddo amser, ac y dangosai efe y dehongliad i'r brenhin.

17 Yna yr aeth Daniel i'w dŷ, ac a fynegodd y peth i'w gyfeillion, Hananïah, Misael, ac Asarïah;

18 Fel y ceisient drugareddau gan Dduw y nefoedd yn achos y dirgelwch hwn; fel na ddifethid Daniel a'i gyfeillion gyd â'r rhan arall o ddoethion Babilon.

19 ¶ Yna y datguddiwyd y dirgelwch i Daniel mewn gweledigaeth nos: yna Daniel a fendithiodd Dduw y nefoedd.

20 Attebodd Daniel a dywedodd, Bendigedig fyddo enw Duw o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb: canys doethineb a nerth ydynt eiddo ef:

21 Ac efe sydd yn newid amserau, a thymhorau: efe sydd yn symmud brenhinoedd, ac yn gosod brenhinoedd: efe sydd yn rhoddi doethineb i'r doethion, a gwybodaeth i'r rhai a fedrant ddeall:

22 Efe sydd yn datguddio y *pethau* dyfnion a chuddiedig: efe a ŵyr beth *sydd* yn y tywyllwch, a chyd âg ef y mae y goleuni yn trigo.

23 Tydi Dduw fy nhadau yr ydwyf fi yn diolch iddo, ac yn ei foliannu, o herwydd rhoddi o honot ddoethineb a nerth i mi, a pheri i mi wybod yn awr yr hyn a geisiasom gennyt: canys gwnaethost i ni wybod yr hyn a ofynodd y brenhin.

24 ¶ O herwydd hyn yr aeth Daniel at Arioch, yr hwn a osodasai y brenhin i ddifetha doethion Babilon: efe a aeth, ac a ddywedodd wrtho fel hyn; Na ddifetha ddoethion Babilon; dwg fi o flaen y brenhin, a mi a ddangosaf i'r brenhin y dehongliad.

25 Yna y dug Arioch Daniel o flaen y brenhin ar frys, ac a ddywedodd wrtho fel hyn; Cefais ŵr o blant caethiwed Judah, yr hwn a fynega i'r brenhin y dehongliad.

26 Attebodd y brenhin, a dywedodd wrth Daniel, yr hwn *yr oedd* ei enw Beltesassar, A elli di fynegi i mi y breuddwyd a welaïs, a'i ddehongliad?

27 Attebodd Daniel o flaen y brenhin, a dywedodd, Ni all doethion, astronomyddion, dewiniaid, *na* brudwyr, ddangos i'r brenhin y dirgelwch y mae y brenhin yn ei ofyn:

28 Ond y mae Duw yn y nefoedd yn datguddio dirgeledigaethau, ac a fynegodd i'r brenhin Nebuchodonosor beth a fydd yn y dyddiau diweddaf. Dy freuddwyd a gweledigaethau dy ben yn dy wely *ydoedd* hyn yma:

29 Ti frenhin, dy feddyliau a godasant *yn dy ben* ar dy wely, beth *oedd* i ddyfod ar ol hyn: a'r hwn sydd yn datguddio dirgeledigaethau, a fynegodd i ti beth a fydd.

30 Minnau hefyd, nid o herwydd y doethineb sydd ynof fi yn fwy na neb byw, y datguddiwyd i mi y dirgelwch hwn: ond o'*u* hachos *hwynt* y rhai a fynegant y dehongliad i'r brenhin, ac fel y gwybyddit feddyliau dy galon.

31 ¶ Ti, frenhin, oeddit yn gweled, ac wele ryw ddelw fawr: y ddelw fawr hon, *yr oedd* ei disgleirdeb yn rhagorol, oedd yn sefyll gyferbyn â thi; a'r olwg arni *ydoedd* ofnadwy.

32 Pen y ddelw hon *ydoedd* o aur da, ei dwyfron a'i breichiau o arian, ei bol a'i morddwydydd o bres,

33 Ei choesau o haiarn, ei thraed *oedd beth* o honynt o haiarn, a *pheth* o honynt o bridd.

34 Edrych yr oeddit hyd oni thorrwyd allan garreg, nid trwy waith dwylaw, a hi a darawodd y ddelw ar ei thraed o haiarn a phridd, ac a'u maluriodd hwynt.

35 Yna yr haiarn, y pridd, y pres, yr arian, a'r aur, a gyd-faluriasant, ac oeddynt fel mân us yn *dyfod* o'r lloriau-dyrnu haf; a'r gwynt a'u

dug hwynt ymaith, ac ni chaed lle iddynt; a'r garreg yr hon a darawodd y ddelw a aeth yn fynydd mawr, ac a lanwodd yr holl ddaear.

36 ¶ Dyma y breuddwyd: dywedwn hefyd ei ddehongliad o flaen y brenhin.

37 Ti, frenhin, *wyt* frenhin brenhinoedd: canys Duw y nefoedd a roddodd i ti frenhiniaeth, gallu, a nerth, a gogoniant.

38 A pha le bynnag y preswylia plant dynion, efe a roddes dan dy law fwystfilod y maes, ac ehediaid y nefoedd, ac a'th osododd di yn arglwydd arnynt oll: ti *yw* y pen aur hwnnw.

39 Ac ar dy ol di y cyfyd brenhiniaeth arall îs na thi, a thrydedd frenhiniaeth arall o bres, yr hon a lywodraetha ar yr holl ddaear.

40 Bydd hefyd y bedwaredd frenhiniaeth yn gref fel haiarn: canys yr haiarn a ddryllia, ac a ddofa bob *peth:* ac fel haiarn, yr hwn a ddryllia bob peth, y maluria ac y dryllia hi.

41 A lle y gwelaist y traed a'r bysedd, peth o honynt o bridd crochenydd, a *pheth* o honynt o haiarn, brenhiniaeth rannedig fydd; a bydd ynddi *beth* o gryfder haiarn, o herwydd gweled o honot haiarn wedi ei gymmysgu â phridd cleilyd.

42 Ac *fel yr ydoedd* bysedd y traed, peth o haiarn, a pheth o bridd; *felly* y bydd y frenhiniaeth, o ran yn gref; ac o ran yn frau.

43 A lle y gwelaist haiarn wedi ei gymmysgu â phridd cleilyd, ymgymmysgant â had dyn; ond ni lynant y naill wrth y llall, megis nad ymgymmysga haiarn â phridd.

44 Ac yn nyddiau y brenhinoedd hyn, y cyfyd Duw y nefoedd frenhiniaeth, yr hon ni ddistrywir byth: a'r frenhiniaeth ni adewir i bobl eraill; *ond* hi a faluria, ac a dreulia yr holl frenhiniaethau hyn, a hi a saif yn dragywydd.

45 Lle y gwelaist dorri carreg o'r mynydd, yr hon ni *thorrwyd* â llaw, a malurio o honi yr haiarn, y pres, y pridd, yr arian, a'r aur; hysbysodd y Duw mawr i'r brenhin beth a fydd wedi hyn: felly y breuddwyd *sydd* wir, a'i ddehongliad yn ffyddlawn.

46 ¶ Yna y syrthiodd Nebuchodonosor y brenhin ar ei wyneb, ac a addolodd Daniel; gorchymynodd hefyd am offrymmu iddo offrwm ac arogl-darth.

47 Attebodd y brenhin a dywedodd wrth Daniel, Mewn gwirionedd *y gwn* mai eich Duw chwi *yw* Duw y duwiau, ac Arglwydd y brenhinoedd, a datguddiydd dirgeledigaethau, o herwydd medru o honot ddatguddio y dirgelwch hwn.

48 Yna y brenhin a fawrygodd Daniel, ac a roddes iddo roddion mawrion lawer; ac efe a'i gwnaeth ef yn bennaeth ar holl dalaeth Babilon, ac yn ben i'r swyddogion ar holl ddoethion Babilon.

49 Yna Daniel a ymbiliodd â'r brenhin, ac yntau a osododd Sadrach, Mesach, ac Abednego ar lywodraeth talaeth Babilon: ond Daniel *a eisteddodd* ym mhorth y brenhin.

PENNOD 3.

1 *Nebuchodonosor yn cyssegru delw fawr yn Dura.* 8 *Achwyn ar Sadrach, Mesach, ac Abednego, am nad addolent y ddelw;* 13 *hwythau, wedi eu bygwth, yn gunculhur cyffes ddaionus.* 19 *Duw yn eu gwared hwy allan o'r ffwrn dân.* 26 *Nebuchodonosor, wrth weled y rhyfeddod, yn bendithio Duw.*

NEBUCHODONOSOR y brenhin a wnaeth ddelw aur, ei huchder *oedd* yn dri ugain cufydd, ei lled yn chwe chufydd; *ac* efe a'i gosododd hi i fyny y'ngwastadedd Dura, o fewn talaeth Babilon.

2 Yna Nebuchodonosor y brenhin a anfonodd i gasglu ynghyd y tywysogion, duciaid, a phendefigion, y rhaglawiaid, y trysorwyr, y cyfreithwyr, y trethwyr, a holl lywodraethwyr y taleithiau, i ddyfod wrth gyssegru y ddelw a gyfodasai Nebuchodonosor y brenhin.

3 Yna y tywysogion, duciaid, a phendefigion, rhaglawiaid, y trysorwyr, y cyfreithwyr, y trethwyr, a holl lywodraethwyr y taleithiau, a ymgasglasant ynghyd wrth gyssegru y ddelw a gyfodasai Nebuchodonosor y brenhin: a hwy a safasant o flaen y ddelw a gyfodasai Nebuchodonosor.

4 A chyhoeddwr a lefodd yn groch,

Wrthych chwi, bobloedd, genhedloedd, a ieithoedd, y dywedir,
5 Pan glywoch swn y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulsimer, y saltring, y symphon, a phob rhyw gerdd, y syrthiwch, ac yr addolwch y ddelw aur a gyfododd Nebuchodonosor y brenhin.
6 A'r hwn ni syrthio ac ni addolo, yr awr honno a fwrir i ganol ffwrn o dân poeth.
7 Am hynny yr amser hwnnw, pan glywodd yr holl bobloedd sain y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulsimer, y saltring, a phob rhyw gerdd, y bobloedd, y cenhedloedd, a'r ieithoedd oll, a syrthiasant, *ac* a addolasant y ddelw aur a gyfodasai Nebuchodonosor y brenhin.
8 ¶ O ran hynny yr amser hwnnw y daeth gwŷr o Caldea, ac a gyhuddasant yr Iuddewon.
9 Adroddasant a dywedasant wrth Nebuchodonosor y brenhin, Bydd fyw, frenhin, yn dragywydd.
10 Ti, frenhin, a osodaist orchymyn, ar i bwy bynnag a glywai sain y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulsimer, y saltring, a'r symphon, a phob rhyw gerdd, syrthio ac ymgrymmu i'r ddelw aur:
11 A phwy bynnag ni syrthiai ac *nid* ymgrymmai, y teflid ef i ganol ffwrn o dân poeth.
12 Y mae gwŷr o Iuddewon a osodaist ti ar oruchwyliaeth talaeth Babilon, Sadrach, Mesach, ac Abednego; y gwŷr hyn, O frenhin, ni wnaethant gyfrif o honot ti; dy dduwiau nid addolant, ac nid ymgrymmant i'r ddelw aur a gyfodaist.
13 ¶ Yna Nebuchodonosor mewn llidiowgrwydd a digter a ddywedodd am gyrchu Sadrach, Mesach, ac Abednego. Yna y dygpwyd y gwŷr hyn o flaen y brenhin.
14 Adroddodd Nebuchodonosor a dywedodd wrthynt, Ai gwir *hyn*, Sadrach, Mesach, ac Abednego? oni addolwch chwi fy nuwiau i, ac oni ymgrymmwch i'r ddelw aur a gyfodais i?
15 Yr awr hon *wele*, os byddwch chwi barod pan glywoch sain y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulsimer, y saltring, a'r symphon, a phob rhyw gerdd, i syrthio ac i ymgrymmu i'r ddelw a wneuthum, *da:* ac onid ymgrymmwch, yr awr honno y bwrir chwi i ganol ffwrn o dân poeth; a pha Duw *yw* efe a'ch gwared chwi o'm dwylaw i?
16 Sadrach, Mesach, ac Abednego a attebasant ac a ddywedasant wrth y brenhin, Nebuchodonosor, nid *ydym* ni yn gofalu am atteb i ti yn y peth hyn.
17 Wele, y mae ein Duw ni, yr hwn yr ydym ni yn ei addoli, yn abl i'n gwared ni allan o'r ffwrn danllyd boeth: ac efe a'*n* gwared *ni* o'th law di, O frenhin.
18 Ac onid ê, bydded hysbys i ti, frenhin, na addolwn dy dduwiau, ac nad ymgrymmwn i'th ddelw aur a gyfodaist.
19 ¶ Yna y llanwyd Nebuchodonosor o lidiowgrwydd, a gwedd ei wyneb ef a newidiodd yn erbyn Sadrach, Mesach, ac Abednego; *am hynny* y llefarodd ac y dywedodd am dwymo y ffwrn seithwaith mwy nag y byddid arfer o'i thwymo hi.
20 Ac efe a ddywedodd wrth wŷr cryfion nerthol, y rhai *oedd* yn ei lu ef, am rwymo Sadrach, Mesach, ac Abednego, i'*w* bwrw i'r ffwrn o dân poeth.
21 Yna y rhwymwyd y gwŷr hynny yn eu peisiau, eu llodrau, a'u cwccyllau, a'u dillad *eraill*, ac a'u bwriwyd i ganol y ffwrn o dân poeth.
22 Gan hynny, o achos *bod* gorchymyn y brenhin yn gaeth, a'r ffwrn yn boeth ragorol, fflam y tân a laddodd y gwŷr hynny a fwriasant i fyny Sadrach, Mesach, ac Abednego.
23 A'r triwyr hyn, Sadrach, Mesach, ac Abednego, a syrthiasant y'nghanol y ffwrn o dân poeth yn rhwym.
24 Yna y synnodd ar Nebuchodonosor y brenhin, ac y cyfododd ar frys, attebodd *hefyd* a dywedodd wrth ei gynghoriaid, Onid triwyr a fwriasom ni i ganol y tân yn rhwym? Hwy a attebasant ac a ddywedasant wrth y brenhin, Gwir, O frenhin.
25 Attebodd a dywedodd yntau,

Wele fi yn gweled pedwar o wŷr rhyddion yn rhodio y'nghanol y tân, ac nid oes niwed arnynt; a dull y pedwerydd sydd debyg i Fab Duw.

26 ¶ Yna y nesaodd Nebuchodonosor at enau y ffwrn o dân poeth, *ac* a lefarodd ac a ddywedodd, O Sadrach, Mesach, ac Abednego, gwasanaethwyr y Duw goruchaf, deuwch allan, a deuwch *yma.* Yna Sadrach, Mesach, ac Abednego a ddaethant allan o ganol y tân.

27 A'r tywysogion, duciaid, a phendefigion, a chynghoriaid y brenhin, a ymgasglasant ynghyd, ac a welsant y gwŷr hyn, y rhai ni finiasai y tân ar eu cyrph, ac ni ddeifiasai flewyn o'u pen, ni newidiasai eu peisiau chwaith, ac nid aethai sawr y tân arnynt.

28 Attebodd Nebuchodonosor a dywedodd, Bendigedig *yw* Duw Sadrach, Mesach, ac Abednego, yr hwn a anfonodd ei angel, ac a waredodd ei weision a ymddiriedasant ynddo, ac a dorrasant orchymyn y brenhin, ac a roddasant eu cyrph, rhag gwasanaethu nac ymgrymmu o honynt i un duw, ond i'w Duw eu hun.

29 Am hynny y gosodir gorchymyn gennyf fi, Pob pobl, cenedl, a iaith, yr hon a ddywedo ddim ar fai yn erbyn Duw Sadrach, Mesach, ac Abednego, a wneir yn ddrylliau, a'u tai a wneir yn dommen: o herwydd nad oes duw arall a ddichon wared fel hyn.

30 Yna y mawrhaodd y brenhin Sadrach, Mesach, ac Abednego, o fewn talaeth Babilon.

PENNOD 4.

1 Nebuchodonosor yn cyfaddef brenhiniaeth Duw; 4 yn adrodd ei freuddwydion, a'r dewiniaid heb fedru mo'u dehongl. 8 Daniel yn gwrandaw y breuddwyd, 19 ac yn ei ddehongl. 28 Ystori o'r hyn a ddigwyddodd.

NEBUCHODONOSOR frenhin at yr holl bobloedd, cenhedloedd, a ieithoedd, y rhai a drigant yn yr holl ddaear; Aml fyddo heddwch i chwi.

2 Mi a welais yn dda fynegi yr arwyddion a'r rhyfeddodau a wnaeth y goruchaf Duw â mi.

3 Mor fawr *yw* ei arwyddion ef! ac mor gedyrn *yw* ei ryfeddodau! ei deyrnas ef *sydd* deyrnas dragywyddol, a'i lywodraeth ef *sydd* o genhedlaeth i genhedlaeth.

4 ¶ Myfi Nebuchodonosor oeddwn esmwyth arnaf yn fy nhŷ, ac yn hoyw yn fy llys.

5 Gwelais freuddwyd yr *hwn* a'm hofnodd; meddyliau hefyd yn fy ngwely, a gweledigaethau fy mhen, a'm dychrynasant.

6 Am hynny y gosodwyd gorchymyn gennyf fi, ar ddwyn ger fy mron holl ddoethion Babilon, fel yr hysbysent i mi ddehongliad y breuddwyd.

7 Yna y dewiniaid, yr astronomyddion, y Caldeaid, a'r brudwyr, a ddaethant: a mi a ddywedais y breuddwyd o'u blaen hwynt; ond ei ddehongliad nid hysbysasant i mi.

8 ¶ Ond o'r diwedd daeth Daniel o'm blaen i, (yr hwn *yw* ei enw Beltesassar, yn ol enw fy nuw i, yr hwn hefyd *y mae* yspryd y duwiau sanctaidd ynddo,) a'm breuddwyd a draethais o'i flaen ef, *gan ddywedyd,*

9 Beltesassar, pennaeth y dewiniaid, o herwydd i mi wybod *fod* yspryd y duwiau sanctaidd ynot ti, ac nad oes un dirgelwch yn anhawdd i ti, dywed weledigaethau fy mreuddwyd yr hwn a welais, a'i ddehongliad.

10 A *dyma* weledigaethau fy mhen ar fy ngwely; Edrych yr oeddwn, ac wele bren y'nghanol y ddaear, a'i uchder yn fawr.

11 Mawr oedd y pren a chadarn, a'i uchder a gyrhaeddai hyd y nefoedd; *yr ydoedd* hefyd i'w weled hyd yn eithaf yr holl ddaear.

12 Ei ganghennau *oedd* dêg, a'i ffrwyth yn aml, ac ymborth arno i bob *peth:* dano yr ymgysgodai bwystfilod y maes, ac adar y nefoedd a drigent yn ei ganghennau ef, a phob cnawd a fwyttâi o hono.

13 Edrych yr oeddwn y'ngweledigaethau fy mhen ar fy ngwely, ac wele wyliedydd a sanct yn disgyn o'r nefoedd,

14 Yn llefain yn groch, ac yn dywedyd fel hyn, Torrwch y pren, ac ysgythrwch ei wrysg ef, ysgydwch

ei ddail ef, a gwasgerwch ei ffrwyth: cilied y bwystfil oddi tano, a'r adar o'i ganghennau.

15 Er hynny gadêwch foncyff ei wraidd ef yn y ddaear, mewn rhwym o haiarn a phres, ym mhlith gwellt y maes; gwlycher ef hefyd â gwlith y nefoedd, a *bydded* ei ran gyd â'r bwystfilod y'ngwellt y ddaear.

16 Newidier ei galon ef o *fod yn galon* dyn, a rhodder iddo galon bwystfil: a chyfnewidier saith amser arno.

17 O ordinhâd y gwyliedyddion *y mae* y peth hyn, a'r dymuniad wrth ymadrodd y rhai sanctaidd; fel y gwypo y rhai byw mai y Goruchaf a lywodraetha ym mrenhiniaeth dynion, ac a'i rhydd i'r neb y mynno efe, ac a esyd arni y gwaelaf o ddynion.

18 Dyma y breuddwyd a welais i Nebuchodonosor y brenhin. Tithau, Beltesassar, dywêd ei ddehongliad ef, o herwydd nas gall holl ddoethion fy nheyrnas hysbysu y dehongliad i mi: eithr ti a elli; am *fod* yspryd y duwiau sanctaidd ynot ti.

19 ¶ Yna Daniel, yr hwn *ydoedd* ei enw Beltesassar, a synnodd dros un awr, a'i feddyliau a'i dychrynasant ef. Attebodd y brenhin, a dywedodd, Beltesassar, na ddychryned y breuddwyd ti, na'i ddehongliad. Attebodd Beltesassar, a dywedodd, Fy arglwydd, *deued* y breuddwyd i'th gaseion, a'i ddehongliad i'th elynion.

20 Y pren a welaist, yr hwn a dyfasai, ac a gryfhasai, ac a gyrhaeddasai ei uchder hyd y nefoedd, ac *oedd* i'w weled ar hyd yr holl ddaear;

21 A'i ddail yn dêg, a'i ffrwyth yn aml, ac ymborth i bob *peth* ynddo; tan yr hwn y trigai bwystfilod y maes, ac y preswyliai adar y nefoedd yn ei ganghennau:

22 Ti, frenhin, *yw* efe; tydi a dyfaist, ac a gryfheaist: canys dy fawredd a gynnyddodd, ac a gyrhaeddodd hyd y nefoedd, a'th lywodraeth hyd eithaf y ddaear.

23 A lle y gwelodd y brenhin wyliedydd a sanct yn disgyn o'r nefoedd, ac yn dywedyd, Torrwch y pren, a dinystriwch ef, er hynny gadêwch foncyff ei wraidd ef yn y ddaear, mewn rhwym o haiarn a phres, ym mhlith gwellt y maes, a gwlycher ef â gwlith y nefoedd, a *bydded* ei ran gyd â bwystfil y maes, hyd oni chyfnewidio saith amser arno ef:

24 Dyma y dehongliad, O frenhin, a dyma ordinhâd y Goruchaf, yr hwn sydd yn dyfod ar fy arglwydd frenhin.

25 Canys gyrrant ti oddi wrth ddynion, a chyd â bwystfil y maes y bydd dy drigfa, â gwellt hefyd y'th borthant fel eidionau, ac a'th wlychant â gwlith y nefoedd, a saith amser a gyfnewidia arnat ti, hyd oni wypech mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu ym mrenhiniaeth dynion, ac yn ei rhoddi i'r neb a fynno.

26 A lle y dywedasant am adael boncyff gwraidd y pren; dy frenhiniaeth fydd sicr i ti, wedi i ti wybod mai y nefoedd sydd yn llywodraethu.

27 Am hynny, frenhin, bydded foddlawn gennyt fy nghynghor, a thor ymaith dy bechodau trwy gyfiawnder, a'th anwireddau trwy drugarhâu wrth drueiniaid, *i edrych* a fydd estyniad ar dy heddwch.

28 ¶ Daeth *hyn* oll ar Nebuchodonosor y brenhin.

29 Ym mhen deuddeng mis yr oedd efe yn rhodio yn llys brenhiniaeth Babilon.

30 Llefarodd y brenhin, a dywedodd, Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenhindy y'nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?

31 A'r gair etto y'ngenau y brenhin, syrthiodd llef o'r nefoedd, *yn dywedyd*, Wrthyt ti, frenhin Nebuchodonosor, y dywedir, Aeth y frenhiniaeth oddi wrthyt.

32 A thi a yrrir oddi wrth ddynion, a'th drigfa *fydd* gyd â bwystfilod y maes; â gwellt y'th borthant fel eidionau; a chyfnewidir saith amser arnat; hyd oni wypech mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu ym mrenhiniaeth dynion, ac yn ei rhoddi i'r neb y mynno.

33 Yr awr honno y cyflawnwyd y

gair ar Nebuchodonosor, ac y gyrrwyd ef oddi wrth ddynion, ac y porodd wellt fel eidionau, ac y gwlychwyd ei gorph ef gan wlith y nefoedd, hyd oni thyfodd ei flew ef fel *plu* eryrod, a'i ewinedd fel *ewinedd* adar.

34 Ac yn niwedd y dyddiau, myfi Nebuchodonosor a ddyrchefais fy llygaid tu a'r nefoedd, a'm gwybodaeth a ddychwelodd attaf, a bendithiais y Goruchaf, a moliennais a gogoneddais yr hwn sydd yn byw byth, am *fod* ei lywodraeth ef yn llywodraeth dragywyddol, a'i frenhiniaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

35 A holl drigolion y ddaear a gyfrifir megis yn ddiddym: ac yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu y nefoedd, ac *â* thrigolion y ddaear; ac nid oes a attalio ei law ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur?

36 Yn yr amser hwnnw y dychwelodd fy synwyr attaf fi, a *deuthum* i ogoniant fy mrenhiniaeth, fy harddwch a'm hoywder a ddychwelodd attaf fi, a'm cynghoriaid a'm tywysogion a'm ceisiasant; felly y'm sicrhâwyd yn fy nheyrnas, a chwanegwyd i mi fawredd rhagorol.

37 Yr awr hon myfi Nebuchodonosor ydwyf yn moliannu, ac yn mawrygu, ac yn gogoneddu Brenhin y nefoedd, yr hwn *y mae* ei holl weithredoedd yn wirionedd, a'i lwybrau yn farn, ac a ddichon ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder.

PENNOD 5.

1 *Annuwiol wledd Belsassar.* 5 *Yr ysgrifen-law, yr hon ni fedrai y dewiniaid mo'i darllen, yn blino y brenhin.* 10 *Dwyn Daniel ger bron, ar air y frenhines:* 17 *yntau yn ceryddu y brenhin am ei falchder a'i ddeiw-addoliaeth;* 25 *ac yn darllen, ac yn dirnad yr ysgrifen.* 30 *Troai y llywodraeth at y Mediaid.*

BELSASSAR y brenhin a wnaeth wledd fawr i fil o'i dywysogion, ac a yfodd win y'ngŵydd y mil.

2 Wrth flas y gwin y dywedodd Belsassar am ddwyn y llestri aur ac arian, a ddygasai Nebuchodonosor ei dad ef o'r deml yr hon *oedd* yn Jerusalem, fel yr yfai y brenhin a'i dywysogion, ei wragedd a'i ordderchadon, ynddynt.

3 Yna y dygwyd y llestri aur a ddygasid o deml tŷ Duw, yr hwn *oedd* yn Jerusalem: a'r brenhin a'i dywysogion, ei wragedd a'i ordderchadon, a yfasant ynddynt.

4 Yfasant win, a moliannasant y duwiau o aur, ac o arian, o bres, o haiarn, o goed, ac o faen.

5 ¶ Yr awr honno bysedd llaw dyn a ddaethant allan, ac a ysgrifenasant ar gyfer y canhwyllbren ar galchiad pared llys y brenhin; a gwelodd y brenhin ddarn y llaw a ysgrifenodd.

6 Yna y newidiodd lliw y brenhin, a'i feddyliau a'i cyffroisant ef, fel y dattododd rhwymau ei lwynau ef, ac y curodd ei liniau ef y naill wrth y llall.

7 Gwaeddodd y brenhin yn groch am ddwyn i mewn yr astronomyddion, y Caldeaid, a'r brudwyr: a llefarodd y brenhin, a dywedodd wrth ddoethion Babilon, Pa ddyn bynnag a ddarlleno yr ysgrifen hon, ac a ddangoso i mi ei dehongliad, efe a wisgir â phorphor, ac *a gaiff* gadwyn aur am ei wddf, a chaiff lywodraethu yn drydydd yn y deyrnas.

8 Yna holl ddoethion y brenhin a ddaethant i mewn; ond ni fedrent ddarllen yr ysgrifen, na mynegi i'r brenhin ei dehongliad.

9 Yna y mawr-gyffrôdd y brenhin Belsassar, a'i wedd a ymnewidiodd ynddo, a'i dywysogion a synnasant.

10 ¶ Y frenhines, o herwydd geiriau y brenhin a'i dywysogion, a ddaeth i dŷ y wledd: *a* llefarodd y frenhines, a dywedodd, Bydd fyw byth, frenhin; na chyffrôed dy feddyliau di, ac na newidied dy wedd.

11 Y mae gŵr yn dy deyrnas, yr hwn *y mae* yspryd y duwiau sanctaidd ynddo; ac yn nyddiau dy dad y caed ynddo ef oleuni, a deall, a doethineb fel doethineb y duwiau: a'r brenhin Nebuchodonosor dy dad a'i gosododd ef yn bennaeth y dewiniaid, astronomyddion, Caldeaid, *a* brudwyr, *sef* y brenhin dy dad di,

12 O herwydd cael yn y Daniel hwnnw, yr hwn y rhoddes y brenhin iddo enw Beltesassar, yspryd rhagorol, a gwybodaeth a deall, dehongl breuddwydion, ac egluro damhegion, a dattod cylymmau: galwer Daniel yr awrhon, ac efe a ddengys y dehongliad.

13 Yna y dygpwyd Daniel o flaen y brenhin: *a* llefarodd y brenhin, a dywedodd wrth Daniel, Ai tydi *yw* Daniel, yr hwn wyt o feibion caethglud Judah, y rhai a ddug y brenhin fy nhad i o Judah?

14 Myfi a glywais *sôn* am danat, *fod* yspryd y duwiau ynot, a chael ynot ti oleuni, a deall, a doethineb rhagorol.

15 Ac yr awr hon dygwyd y doethion, yr astronomyddion, o'm blaen, i ddarllen yr ysgrifen hon, ac i fynegi i mi ei dehongliad: ond ni fedrent ddangos dehongliad y peth.

16 Ac mi a glywais am danat ti, y medri ddehongl dehongliadau, a dattod cylymmau; yr awr hon os medri ddarllen yr ysgrifen, a hysbysu i mi ei dehongliad, tydi a wisgir â phorphor, ac *a gei* gadwyn aur am dy wddf, ac a gei lywodraethu yn drydydd yn y deyrnas.

17 ¶ Yna yr attebodd Daniel, ac y dywedodd o flaen y brenhin, Bydded dy roddion i ti, a dod dy anrhegion i arall; er hynny yr ysgrifen a ddarllenaf i'r brenhin, a'r dehongliad a hysbysaf iddo.

18 O frenhin, y Duw goruchaf a roddes i Nebuchodonosor dy dad di frenhiniaeth, a mawredd, a gogoniant, ac anrhydedd.

19 Ac o herwydd y mawredd a roddasai efe iddo, y bobloedd, y cenhedloedd, a'r ieithoedd oll, oedd yn crynu ac yn ofni rhagddo ef: yr hwn a fynnai a laddai, a'r hwn a fynnai a gadwai yn fyw; hefyd y neb a fynnai a gyfodai, a'r neb a fynnai a ostyngai.

20 Eithr pan ymgododd ei galon ef, a chaledu o'i ypryd ef mewn balchder, efe a ddisgynwyd o orseddfa ei frenhiniaeth, a'i ogoniant a dynnasant oddi wrtho:

21 Gyrrwyd ef hefyd oddi wrth feibion dynion, a gwnaethpwyd ei galon fel bwystfil, a chyd â'r asynod gwylltion *yr oedd* ei drigfa: â gwellt y porthasant ef fel eidion, a'i gorph a wlychwyd gan wlith y nefoedd, hyd oni wybu mai y Duw goruchaf oedd yn llywodraethu ym mrenhiniaeth dynion, ac yn gosod arni y neb a fynno.

22 A thithau, Belsassar ei fab ef, ni ddarostyngaist dy galon, er gwybod o honot hyn oll;

23 Eithr ymddyrchefaist yn erbyn Arglwydd y nefoedd, a llestri ei dŷ ef a ddygasant ger dy fron di, a thithau a'th dywysogion, dy wragedd a'th ordderchadon, a yfasoch win ynddynt; a thi a folienaist dduwiau o arian, ac o aur, o bres, haiarn, pren, a maen, y rhai ni welant, ac ni chlywant, ac ni wyddant *ddim:* ac nid anrhydeddaist y Duw *y mae* dy anadl di yn ei law, a'th holl ffyrdd yn eiddo.

24 Yna yr anfonwyd darn y llaw oddi ger ei fron ef, ac yr ysgrifenwyd yr ysgrifen hon.

25 ¶ A dyma yr ysgrifen a ysgrifenwyd: MENE, MENE, TECEL, UPHARSIN.

26 Dyma ddehongliad y peth: MENE; Duw a rifodd dy frenhiniaeth, ac a'i gorphenodd.

27 TECEL; Ti a bwyswyd yn y cloriannau, ac a'th gaed yn brin.

28 PERES; Rhannwyd dy frenhiniaeth, a rhoddwyd hi i'r Mediaid a'r Persiaid.

29 Yna y gorchymynodd Belsassar, a hwy a wisgasant Daniel â phorphor, ac â chadwyn aur am ei wddf; a chyhoeddwyd am dano, y byddai efe yn drydydd yn llywodraethu yn y frenhiniaeth.

30 ¶ Y noson honno y lladdwyd Belsassar brenhin y Caldeaid.

31 A Darius y Mediad a gymmerodd y frenhiniaeth, *ac efe* yn ddwy flwydd a thri ugain *oed.*

PENNOD 6.

1 Gwneuthur Daniel yn ben ar y rhaglawiaid; 4 hwythau yn cyd-furiadu yn ei erbyn ef, ac yn cael gan y brenhin osod cyfraith annuwiol: 10 achwyn ar Daniel am dorri y gyfraith honno, a'i furw i ffau y llewod; 18 a Duw yn ei gadw ef: 24 y llewod yn difa ei wrthwynebwyr ef: 25 a gosod cyfraith i orchymyn moliannu Duw.

GWELODD Darius yn dda osod ar y deyrnas chwe ugain o dywysogion, i fod ar yr holl deyrnas;

2 Ac arnynt hwy *yr oedd* tri rhaglaw, y rhai *yr oedd* Daniel yn bennaf o honynt, i'r rhai y rhoddai y tywysogion gyfrif, fel na byddai y brenhin mewn colled.

3 Yna y Daniel hwn oedd yn rhagori ar y rhaglawiaid a'r tywysogion, o herwydd *bod* yspryd rhagorol ynddo ef: a'r brenhin a feddyliodd ei osod ef ar yr holl deyrnas.

4 ¶ Yna y rhaglawiaid a'r tywysogion oedd yn ceisio cael achlysur yn erbyn Daniel o ran y frenhiniaeth: ond ni fedrent gael un achos na bai; o herwydd ffyddlawn *oedd* efe, fel na chaed ynddo nac amryfusedd na bai.

5 Yna y dywedodd y gwŷr hyn, Ni chawn yn erbyn y Daniel hwn ddim achlysur, oni chawn *beth* o ran cyfraith ei Duw yn ei erbyn ef.

6 Yna y rhaglawiaid a'r tywysogion hyn a aethant ynghyd at y brenhin, ac a ddywedasant wrtho fel hyn; Darius frenhin, bydd fyw byth.

7 Holl raglawiaid y deyrnas, y swyddogion, a'r tywysogion, y cynghoriaid, a'r duciaid, a ymgynghorasant am osod deddf frenhinol, a chadarnhâu gorchymyn, fod bwrw i ffau y llewod pwy bynnag a archai arch gan un Duw na dyn dros ddeng niwrnod ar hugain, ond gennyt ti, O frenhin.

8 Yr awr hon, O frenhin, sicrhâ y gorchymyn, a selia yr ysgrifen, fel nas newidier; yn ol cyfraith y Mediaid a'r Persiaid, yr hon ni newidir.

9 O herwydd hyn y seliodd y brenhin Darius yr ysgrifen a'r gorchymyn.

10 ¶ Yna Daniel, pan wybu selio yr ysgrifen, a aeth i'w dŷ, a'i ffenestri yn agored yn ei ystafell tu a Jerusalem; tair gwaith yn y dydd y gostyngai efe ar ei liniau, ac y gweddiai, ac y cyffesai o flaen ei Duw, megis y gwnai efe cyn hynny.

11 Yna y gwŷr hyn a ddaethant ynghyd, ac a gawsant Daniel yn gweddio ac yn ymbil o flaen ei Duw.

12 Yna y nesasant, ac y dywedasant o flaen y brenhin am orchymyn y brenhin; Oni seliaist ti orchymyn, mai i ffau y llewod y bwrid pa ddyn bynnag a ofynai gan un Duw na dyn *ddim* dros ddeng niwrnod ar hugain, ond gennyt ti, O frenhin? Attebodd y brenhin, a dywedodd, *Y mae* y peth yn wir, yn ol cyfraith y Mediaid a'r Persiaid, yr hon ni newidir.

13 Yna yr attebasant ac y dywedasant o flaen y brenhin, Y Daniel, yr hwn *sydd* o feibion caethglud Judah, ni wnaeth gyfrif o honot ti, frenhin, nac o'r gorchymyn a seliaist, eithr tair gwaith yn y dydd y mae yn gweddio ei weddi.

14 Yna y brenhin, pan glybu y gair *hwn*, a aeth yn ddrwg iawn ganddo, ac a roes *ei* fryd gyd â Daniel ar ei waredu ef: ac a fu hyd fachludiad haul yn ceisio ei achub ef.

15 Yna y gwŷr hynny a ddaethant ynghyd at y brenhin, ac a ddywedasant wrth y brenhin, Gwybydd, frenhin, mai cyfraith y Mediaid a'r Persiaid *yw*, na newidier un gorchymyn na deddf a osodo y brenhin.

16 Yna yr archodd y brenhin, a hwy a ddygasant Daniel, ac a'i bwriasant i ffau y llewod. *Yna* y brenhin a lefarodd ac a ddywedodd wrth Daniel, Dy Duw, yr hwn yr ydwyt yn ei wasanaethu yn wastad, efe a'th achub di.

17 A dygwyd carreg ac a'i gosodwyd ar enau y ffau; a'r brenhin a'i seliodd hi â'i sêl ei hun, ac â sêl ei dywysogion, fel na newidid yr ewyllys am Daniel.

18 ¶ Yna yr aeth y brenhin i'w lys, ac a fu y noson honno heb fwyd: ac ni adawodd ddwyn difyrrwch o'i flaen; ei gwsg hefyd a giliodd oddi wrtho.

19 Yna y cododd y brenhin yn fore iawn ar y wawrddydd, ac a aeth ar frys at ffau y llewod.

20 A phan nesaodd efe at y ffau, efe a lefodd ar Daniel â llais trist. Llefarodd y brenhin, a dywedodd wrth Daniel, Daniel, gwasanaethwr y Duw byw, a all dy Duw di, yr hwn yr wyt yn ei wasanaethu

yn wastad, dy gadw di rhag y llewod?

21 Yna y dywedodd Daniel wrth y brenhin, O frenhin, bydd fyw byth.

22 Fy Nuw a anfonodd ei angel, ac a gauodd safnau y llewod, fel na wnaethant i mi niwed: o herwydd puredd a gaed ynof ger ei fron ef; a hefyd ni wneuthum niwed o'th flaen dithau, frenhin.

23 Yna y brenhin fu dda iawn ganddo o'i achos ef, ac a archodd gyfodi Daniel allan o'r ffau. Yna y codwyd Daniel o'r ffau; ac ni chaed niwed arno, o herwydd credu o hono yn ei Duw.

24 ¶ Yna y gorchymynodd y brenhin, a hwy a ddygasant y gwŷr hynny a gyhuddasent Daniel, ac a'*u* bwriasant i ffau y llewod, hwy, a'u plant, a'u gwragedd; ac ni ddaethant i waelod y ffau hyd oni orchfygodd y llewod hwynt, a dryllio eu holl esgyrn.

25 ¶ Yna yr ysgrifenodd y brenhin Darïus at y bobloedd, at y cenhedloedd, a'r ieithoedd oll, y rhai oedd yn trigo yn yr holl ddaear; Heddwch a amlhâer i chwi.

26 Gennyf fi y gosodwyd cyfraith, ar fod trwy holl lywodraeth fy nheyrnas, i bawb grynu ac ofni rhag Duw Daniel: o herwydd efe *sydd* Duw byw, ac yn parhâu byth; a'i frenhiniaeth ef yw yr hon ni ddifethir, a'i lywodraeth *fydd* hyd y diwedd.

27 Y mae yn gwaredu ac yn achub, ac yn gwneuthur arwyddion a rhyfeddodau yn y nefoedd ac ar y ddaear; yr hwn a waredodd Daniel o feddiant y llewod.

28 A'r Daniel hwn a lwyddodd yn nheyrnasiad Darïus, ac yn nheyrnasiad Cyrus y Persiad.

PENNOD 7.

1 Gweledigaeth y pedwar anifail. 9 Brenhiniaeth Duw. 15 Dirnad y weledigaeth.

YN y flwyddyn gyntaf i Belsassar brenhin Babilon, y gweleodd Daniel freuddwyd, a gweledigaethau ei ben ar ei wely. Yna efe a ysgrifenodd y breuddwyd, *ac* a draethodd swm y geiriau.

2 Llefarodd Daniel, a dywedodd, Mi a welwn yn fy ngweledigaeth y nos, ac wele bedwar gwynt y nefoedd yn ymryson ar y môr mawr.

3 A phedwar bwystfil mawr a ddaethant i fyny o'r môr, yn amryw y naill oddi wrth y llall.

4 Y cyntaf *oedd* fel llew, ac iddo adenydd eryr: edrychais hyd oni thynnwyd ei adenydd, a'i gyfodi oddi wrth y ddaear, a sefyll o hono ar ei draed fel dyn, a rhoddi iddo galon dyn.

5 Ac wele anifail arall, yr ail, yn debyg i arth; ac efe a ymgyfododd ar y naill ystlys, ac *yr oedd* tair asen yn ei safn ef rhwng ei ddannedd: ac fel hyn y dywedent wrtho, Cyfod, bwytta gig lawer.

6 Wedi hyn yr edrychais, ac wele un arall megis llewpard, ac iddo bedair aden aderyn ar ei gefn: a phedwar pen oedd i'r bwystfil; a rhoddwyd llywodraeth iddo.

7 Wedi hyn y gwelwn mewn gweledigaethau nos, ac wele bedwerydd bwystfil, ofnadwy, ac erchyll, a chryf ragorol; ac iddo yr oedd dannedd mawrion o haiarn: yr oedd yn bwytta, ac yn dryllio, ac yn sathru y gweddill dan ei draed: hefyd *yr ydoedd* efe yn amryw oddi wrth y bwystfilod oll y rhai *a fuasai* o'i flaen ef; ac *yr oedd* iddo ddeg o gyrn.

8 Yr oeddwn yn ystyried y cyrn; ac wele, cyfododd corn bychan arall yn eu mysg hwy, a thynnwyd o'r gwraidd dri o'r cyrn cyntaf o'i flaen ef: ac wele lygaid fel llygaid dyn yn y corn hwnnw, a genau yn traethu mawrhydri.

9 ¶ Edrychais hyd oni fwriwyd i lawr y gorseddfeydd, a'r Hen ddihenydd a eisteddodd: ei wisg *oedd* cyn wynned a'r eira, a gwallt ei ben fel gwlan pur; ei orseddfa yn fflam dân, *a*'i olwynion *yn* dân poeth.

10 Afon danllyd oedd yn rhedeg ac yn dyfod allan oddi ger ei fron ef: mil o filoedd a'i gwasanaethent, a myrdd fyrddiwn a safent ger ei fron: y farn a eisteddodd, ac agorwyd y llyfrau.

11 Edrychais yna, o achos llais y geiriau mawrion a draethodd y corn; *ïe*, edrychais hyd oni laddwyd y bwystfil, a difetha ei gorph ef, a'i roddi i'w losgi yn tân.

12 A'r rhan arall o'r bwystfilod, eu llywodraeth a ddygpwyd ymaith; a rhoddwyd iddynt einioes dros yspaid ac amser.

13 Mi a welwn mewn gweledigaethau nos, ac wele, megis Mab y dyn oedd yn dyfod gyd â chymmylau y nefoedd; ac at yr Hen ddihenydd y daeth, a hwy a'i dygasant ger ei fron ef.

14 Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a brenhiniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenhedloedd, a ieithoedd ei wasanaethu ef: ei lywodraeth *sydd* lywodraeth dragywyddol, yr hon nid â ymaith, a'i frenhiniaeth ni ddifethir.

15 ¶ Myfi Daniel a ymofidiais yn fy yspryd y'nghanol *fy* nghorph, a gweledigaethau fy mhen a'm dychrynasant.

16 Neseais at un o'r rhai a safent ger llaw, a cheisiais ganddo y gwirionedd am hyn oll. Ac efe a ddywedodd i mi, ac a wnaeth i mi wybod dehongliad y pethau.

17 Y bwystfilod mawrion hyn, y rhai sydd bedwar, *ydynt* bedwar brenhin, *y rhai* a gyfodant o'r ddaear.

18 Eithr saint y Goruchaf a dderbyniant y frenhiniaeth, ac a feddiannant y frenhiniaeth hyd byth, a hyd byth bythoedd.

19 Yna yr ewyllysiais wybod y gwirionedd am y pedwerydd bwystfil, yr hwn oedd yn amrywio oddi wrthynt oll, yn ofnadwy iawn, a'i ddannedd o haiarn, a'i ewinedd o bres; yn bwytta, ac yn dryllio, ac yn sathru y gweddill â'i draed:

20 Ac am y deg corn *oedd* ar ei ben ef, a'r llall yr hwn a gyfodasai, ac y syrthiasai tri o'i flaen; sef y corn *yr oedd* llygaid iddo, a genau yn traethu mawrhydri, a'r olwg arno *oedd* yn arwach na'i gyfeillion.

21 Edrychais, a'r corn hwn a wnaeth ryfel ar y saint, ac a fu drech na hwynt;

22 Hyd oni ddaeth yr Hen ddihenydd, a rhoddi barn i saint y Goruchaf, a dyfod o'r amser y meddiannai y saint y frenhiniaeth.

23 Fel hyn y dywedodd efe; Y pedwerydd bwystfil fydd y bedwaredd frenhiniaeth ar y ddaear, yr hon a fydd amryw oddi wrth yr holl frenhiniaethau, ac a ddifa yr holl ddaear, ac a'i sáthr hi, ac a'i dryllia.

24 A'r deg corn o'r frenhiniaeth hon *fydd* deg brenhin, *y rhai* a gyfodant: ac un arall a gyfyd ar eu hol hwynt, ac efe a amrywia oddi wrth y rhai cyntaf, ac a ddarostwng dri brenhin.

25 Ac efe a draetha eiriau yn erbyn y Goruchaf, ac a ddifa saint y Goruchaf, ac a feddwl newidio amseroedd a chyfreithiau: a hwy a roddir yn ei law ef, hyd amser ac amseroedd a rhan amser.

26 Yna yr eistedd y farn, a'i lywodraeth a ddygant, i'w difetha ac i'w distrywio hyd y diwedd.

27 A'r frenhiniaeth a'r llywodraeth, a mawredd y frenhiniaeth dan yr holl nefoedd, a roddir i bobl saint y Goruchaf, yr hwn y mae ei frenhiniaeth *yn* frenhiniaeth dragywyddol, a phob llywodraeth a wasanaethant ac a ufuddhânt iddo.

28 Hyd yma *y mae* diwedd y peth. Fy meddyliau i Daniel a'm dychrynodd yn ddirfawr, a'm gwedd a newidiodd ynof; eithr mi a gedwais y peth yn fy nghalon.

PENNOD 8.

1 *Gweledigaeth yr hwrdd a'r bwch.* 13 *Y ddwy fil a thri chant o ddyddiau aberth.* 15 *Gabriel yn cysuro Daniel, ac yn dirnad y weledigaeth.*

YN y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Belsassar y brenhin, yr ymddangosodd i mi weledigaeth, *sef i* myfi Daniel, wedi *yr hon* a ymddangosassai i mi ar y cyntaf.

2 Gwelais hefyd mewn gweledigaeth, (a bu pan welais, mai yn Susan y brenhin-llys, yr hwn *sydd* o fewn talaeth Elam, *yr oeddwn* i,) ïe, gwelais mewn gweledigaeth, ac yr oeddwn i wrth afon Ulai.

3 Yna y cyfodais fy llygaid, ac a welais, ac wele ryw hwrdd yn sefyll wrth yr afon, a deugorn iddo; a'r ddau gorn *oedd* uchel, ac un yn uwch na'r llall; a'r uchaf a gyfodasai yn olaf.

4 Gwelwn yr hwrdd yn cornio tu a'r gorllewin, tu a'r gogledd, a thu a'r dehau, fel na safai un bwystfil o'i flaen ef; ac nid *oedd* a achubai o'i law ef; ond efe a wnaeth yn ol ei ewyllys ei hun, ac a aeth yn fawr.

5 Ac fel yr oeddwn yn ystyried, wele hefyd fwch geifr yn dyfod o'r gorllewin, ar hyd wyneb yr holl ddaear, ac heb gyffwrdd â'r ddaear; ac i'r bwch *yr oedd* corn hynod rhwng ei lygaid.

6 Ac efe a ddaeth hyd at yr hwrdd deugorn a welswn i yn sefyll wrth yr afon, ac efe a redodd atto ef yn angerdd ei nerth.

7 Gwelais ef hefyd yn dyfod hyd at yr hwrdd, ac efe a fu chwerw wrtho, ac a darawodd yr hwrdd, ac a dorrodd ei ddau gorn ef, ac nid oedd nerth yn yr hwrdd i sefyll o'i flaen ef, eithr efe a'i bwriodd ef i lawr, ac a'i sathrodd ef; ac nid oedd a allai achub yr hwrdd o'i law ef.

8 Am hynny y bwch geifr a aeth yn fawr iawn; ac wedi ei gryfhâu, torrodd y corn mawr: a chododd pedwar o rai hynod yn ei le ef, tu a phedwar gwynt y nefoedd.

9 Ac o un o honynt y daeth allan gorn bychan, ac a dyfodd yn rhagorol, tu a'r dehau, a thu a'r dwyrain, a thu a'r hyfryd *wlad.*

10 Aeth yn fawr hefyd hyd lu y nefoedd, a bwriodd i lawr *rai* o'r llu, ac o'r sêr, ac a'u sathrodd hwynt.

11 Ymfawrygodd hefyd hyd at dywysog y llu, a dygwyd ymaith yr *offrwm* gwastadol oddi arno ef, a bwriwyd ymaith le ei gyssegr ef.

12 A rhoddwyd iddo lu yn erbyn yr *offrwm* beunyddiol o herwydd camwedd, ac efe a fwriodd y gwirionedd i lawr; felly y gwnaeth, ac y llwyddodd.

13 ¶ Yna y clywais ryw sant yn llefaru, a dywedodd rhyw sant arall wrth y rhyw *sant* hwnnw oedd yn llefaru, Pa hyd *y bydd* y weledigaeth *am* yr *offrwm* gwastadol, a chamwedd anrhaith, i roddi y cyssegr a'r llu yn sathrfa?

14 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Hyd ddwy fil a thri chant o ddiwrnodiau: yna y purir y cyssegr.

15 ¶ A phan welais i Daniel y weledigaeth, a cheisio o honof y deall, yna wele, safodd ger fy mron megis rhith gŵr.

16 A chlywais lais dyn rhwng *glannau* Ulai, ac efe a lefodd ac a ddywedodd, Gabriel, gwna i hwn ddeall y weledigaeth.

17 Ac efe a ddaeth yn agos i'r lle y safwn; a phan ddaeth, mi a ddychrynais, ac a syrthiais ar fy wyneb: ac efe a ddywedodd wrthyf, Deall, fab dyn; o herwydd y weledigaeth *fydd* yn amser y diwedd.

18 A thra yr oedd efe yn llefaru wrthyf, syrthiais mewn trwmgwsg i lawr ar fy wyneb: ac efe a gyffyrddodd â mi, ac a'm cyfododd yn fy sefyll.

19 Dywedodd hefyd, Wele fi yn hysbysu i ti yr hyn a fydd yn niwedd y digter; canys ar yr amser gosodedig *y bydd* y diwedd.

20 Yr hwrdd deugorn a welaist, *yw* brenhinoedd Media a Phersia.

21 A'r bwch blewog *yw* brenhin Groeg; a'r corn mawr, yr hwn *sydd* rhwng ei lygaid ef, dyna y brenhin cyntaf.

22 Lle y torrwyd ef, ac y cyfododd pedwar yn ei le, pedair brenhiniaeth a gyfodant o'r *un* genedl, ond nid un nerth âg ef.

23 A thu a diwedd eu brenhiniaeth hwynt, pan gyflawner y troseddwyr, y cyfyd brenhin wyneb-greulawn, ac yn deall damhegion.

24 A'i nerth ef a gryfhâ, ond nid trwy ei nerth ei hun; ac efe a ddinystria yn rhyfedd, ac a lwydda, ac a wna, ac a ddinystria y cedyrn, a'r bobl sanctaidd.

25 A thrwy ei gyfrwysdra y ffynna ganddo dwyllo; ac efe a ymfawryga yn ei galon, a thrwy heddwch y dinystria efe lawer: ac efe a saif yn erbyn tywysog y tywysogion; ond efe a ddryllir heb law.

26 A gweledigaeth yr hwyr a'r bore, yr hon a draethwyd, sydd wirionedd: selia dithau y weledigaeth, o herwydd dros ddyddiau lawer *y bydd.*

27 Minnau Daniel a euthum yn llesg, ac a fûm glaf *ennyd* o ddyddiau; yna y cyfodais, ac y gwneuthum orchwyl y brenhin, ac a synnais o herwydd y weledigaeth, ond nid oedd neb yn *ei* deall.

PENNOD 9.

1 *Daniel yn ystyried amser y caethiwed;* 3 *ac yn cyffesu ei bechodau;* 19 *ac yn gweddïo am adnewyddu Jerusalem.* 20 *Gabriel yn dangos iddo y deg wythnos a thri ugain.*

YN y flwyddyn gyntaf i Darïus mab Ahasferus, o had y Mediaid, yr hwn a wnaethid yn frenhin ar deyrnas y Caldeaid,

2 Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef, myfi Daniel a ddeallais wrth lyfrau rifedi y blynyddoedd, *am* y rhai y daethai gair yr ARGLWYDD at Jeremïah y prophwyd, y cyflawnai efe ddeng mlynedd a thri ugain yn anghyfannedd-dra Jerusalem.

3 ¶ Yna y troais fy wyneb at yr Arglwydd DDUW, i geisio *trwy* weddi ac ymbil, ynghyd âg ympryd, a sachlïan, a lludw.

4 A gweddïais ar yr ARGLWYDD fy NUW, a chyffesais, a dywedais, Attolwg, Arglwydd DDUW mawr ac ofnadwy, ceidwad cyfammod a thrugaredd i'r rhai a'i carant, ac i'r rhai a gadwant ei orchymynion;

5 Pechasom, a gwnaethom gamwedd, a buom anwir, gwrthryfelasom hefyd, sef trwy gilio oddi wrth dy orchymynion, ac oddi wrth dy farnedigaethau.

6 Ni wrandawsom chwaith ar y prophwydi dy weision, y rhai a lefarasant yn dy enw di wrth ein brenhinoedd, ein tywysogion, ein tadau, ac wrth holl bobl y tir.

7 I ti, ARGLWYDD, *y perthyn* cyfiawnder, ond i ni gywilydd wynebau, megis heddyw; i wŷr Judah, ac i drigolion Jerusalem, ac i holl Israel, yn agos ac ym mhell, trwy yr holl wledydd lle y gyrraist hwynt, am eu camwedd a wnaethant i'th erbyn.

8 ARGLWYDD, *y mae* cywilydd wynebau i ni, i'n brenhinoedd, i'n tywysogion, ac i'n tadau, o herwydd i ni bechu i'th erbyn.

9 Gan yr ARGLWYDD ein DUW *y mae* trugareddau a maddeuant, er gwrthryfelu o honom i'w erbyn.

10 Ni wrandawsom chwaith ar lais yr ARGLWYDD ein DUW, i rodio yn ei gyfreithiau ef, y rhai a roddodd efe o'n blaen ni trwy law ei weision y prophwydi.

11 Ïe, holl Israel a droseddasant dy gyfraith di, sef trwy gilio rhag gwrandaw ar dy lais di: am hynny y tywalltwyd arnom ni y felldith a'r llw a ysgrifenwyd y'nghyfraith Moses gwasanaethwr DUW, am bechu o honom yn ei erbyn ef.

12 Ac efe a gyflawnodd ei eiriau y rhai a lefarodd efe yn ein herbyn ni, ac yn erbyn ein barnwyr y rhai a'n barnent, gan ddwyn arnom ni ddïaledd mawr; canys ni wnaethpwyd dan yr holl nefoedd megis y gwnaethpwyd ar Jerusalem.

13 Megis y mae yn ysgrifenedig y'nghyfraith Moses y daeth yr holl ddrygfyd hyn arnom ni: etto nid ymbiliasom o flaen yr ARGLWYDD ein DUW, gan droi oddi wrth ein hanwiredd, a chan ddeall dy wirionedd di.

14 Am hynny y gwyliodd yr ARGLWYDD ar y dïaledd, ac a'i dug arnom ni; o herwydd cyfiawn *yw* yr ARGLWYDD ein DUW yn ei holl weithredoedd y mae yn eu gwneuthur: canys ni wrandawsom ni ar ei lais ef.

15 Etto yr awr hon, O ARGLWYDD ein DUW, yr hwn a ddygaist dy bobl allan o wlad yr Aipht â llaw gref, ac a wnaethost i ti enw megis heddyw, nyni a bechasom, ni a wnaethom anwiredd.

16 ¶ O ARGLWYDD, yn ol dy holl gyfiawnderau, attolwg, tröer dy lidiowgrwydd a'th ddigter oddi wrth dy ddinas Jerusalem, dy fynydd sanctaidd; o herwydd am ein pechodau, ac am anwireddau ein tadau, y mae Jerusalem a'th bobl yn waradwydd i bawb o'n hamgylch.

17 Ond yr awr hon gwrando, O ein DUW ni, ar weddi dy was, ac ar ei ddeisyfiadau, a llewyrcha dy wyneb ar dy gyssegr anrheithiedig, er mwyn yr ARGLWYDD.

18 Gostwng dy glust, O fy NUW, a chlyw; agor dy lygaid, a gwel ein hanrhaith ni, a'r ddinas y gelwir dy enw di arni: oblegid nid o herwydd ein cyfiawnderau ein hun yr ydym ni yn tywallt ein gweddïau ger dy fron, eithr o herwydd dy aml drugareddau di.

19 Clyw, ARGLWYDD; arbed, ARGLWYDD; ystyr, O ARGLWYDD, a

gwna; nac oeda, er dy fwyn dy hun, O fy NUW: o herwydd dy enw di a alwyd ar y ddinas hon, ac ar dy bobl.

20 ¶ A mi etto yn llefaru, ac yn gweddïo, ac yn cyffesu fy mhechod, a phechod fy mhobl Israel, ac yn tywallt fy ngweddi ger bron yr ARGLWYDD fy NUW dros fynydd sanctaidd fy NUW;

21 *Ïe*, a mi etto yn llefaru mewn gweddi, yna y gŵr Gabriel, yr hwn a welswn mewn gweledigaeth yn y dechreuad, gan ehedeg yn fuan, a gyffyrddodd â mi ynghylch pryd yr offrwm prydnhawnol.

22 Ac efe a barodd *i mi* ddeall, ac a ymddiddanodd â mi, ac a ddywedodd, Daniel, deuthum yn awr allan i beri i ti fedru deall.

23 Yn nechreu dy weddïau yr aeth y gorchymyn allan, ac mi a ddeuthum i'w fynegi *i ti:* canys anwyl *ydwyt* ti: ystyr dithau y peth, a deall y weledigaeth.

24 Deng wythnos a thri ugain a derfynwyd ar dy bobl, ac ar dy ddinas sanctaidd, i ddibennu camwedd, ac i selio pechodau, ac i wneuthur cymmod dros anwiredd, ac i ddwyn cyfiawnder tragywyddol, ac i selio y weledigaeth a'r brophwydoliaeth, ac i enneinio y sancteiddiolaf.

25 Gwybydd gan hynny a deall, *y bydd* o fynediad y gorchymyn allan am adferu ac am adeiladu Jerusalem, hyd y blaenor Messïah, saith wythnos, a dwy wythnos a thri ugain: yr heol a adeiledir drachefn, a'r mur, sef mewn amseroedd blinion.

26 Ac wedi dwy wythnos a thri ugain y lleddir y Messïah, ond nid o'i achos ei hun: a phobl y tywysog yr hwn a ddaw a ddinystria y ddinas a'r cyssegr; a'i ddiwedd *fydd* trwy lifeiriant, a hyd ddiwedd y rhyfel *y bydd* dinystr anrheithiol.

27 Ac efe a sicrhâ y cyfammod â llawer dros un wythnos: ac yn hanner yr wythnos y gwna efe i'r aberth a'r bwyd-offrwm beidio; a thrwy luoedd ffiaidd yr anrheithia efe *hi*, hyd oni thywallter y diben terfynedig ar yr anrheithiedig.

PENNOD 10.

1 *Daniel, wedi ymddarostwng, yn gweled gweledigaeth.* 10 *Dychryn yn ei ffino ef; a'r angel yn ei gysuro.*

YN y drydedd flwyddyn i Cyrus brenhin Persia, y datguddiwyd peth i Daniel, yr hwn y gelwid ei enw Beltesassar; a'r peth *oedd* wir, ond yr amser nodedig *oedd* hir; ac efe a ddeallodd y peth, ac a gafodd wybod y weledigaeth.

2 Yn y dyddiau hynny y galerais i Daniel dair wythnos o ddyddiau.

3 Ni fwytteais fara blasus, ac ni ddaeth cig na gwin yn fy ngenau; gan ymiro hefyd nid ymirais, nes cyflawni tair wythnos o ddyddiau.

4 Ac yn y pedwerydd dydd ar hugain o'r mis cyntaf, fel yr oeddwn i wrth ymyl yr afon fawr, honno *yw* Hidecel;

5 Yna y cyfodais fy llygaid, ac yr edrychais, ac wele ryw ŵr wedi ei wisgo â llïan, a'i lwynau wedi eu gwregysu âg aur coeth o Uphas:

6 A'i gorph *oedd* fel *maen* beryl, a'i wyneb fel gwelediad mellten, a'i lygaid fel lampau tân, a'i freichiau a'i draed fel lliw pres gloyw, a sain ei eiriau fel sain tyrfa.

7 A mi Daniel yn unig a welais y weledigaeth; canys y dynion y rhai oedd gyd â mi ni welsant y weledigaeth; eithr syrthiodd arnynt ddychryn mawr, fel y ffoisant i ymguddio.

8 A mi a adawyd fy hunan, ac a welais y weledigaeth fawr hon, ac ni thrigodd nerth ynof: canys fy ngwedd a drodd ynof yn llygredigaeth, ac nid atteliais nerth.

9 Etto mi a glywais sain ei eiriau ef: a phan glywais sain ei eiriau ef, yna yr oeddwn mewn trwmgwsg ar fy wyneb, a'm hwyneb tu a'r ddaear.

10 ¶ Ac wele, llaw a gyffyrddodd â mi, ac a'm gosododd ar fy ngliniau, ac *ar* gledr fy nwylaw.

11 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Daniel, ŵr anwyl, deall y geiriau a lefaraf wrthyt, a saf yn dy sefyll: canys attat ti y'm hanfonwyd yr awr hon. Ac wedi iddo ddywedyd y gair hwn, sefais gan grynu.

12 Yna efe a ddywedodd wrthyf, Nac ofna, Daniel: o herwydd er y

dydd cyntaf y rhoddaist dy galon i ddeall, ac i ymgystuddio ger bron dy DDUW, y gwrandawyd dy eiriau; ac o herwydd dy eiriau di y deuthum i.

13 Ond tywysog teyrnas Persia a safodd yn fy erbyn un diwrnod ar hugain: ond wele Michael, un o'r tywysogion pennaf, a ddaeth i'm cynnorthwyo; a mi a arhosais yno gyd â brenhinoedd Persia.

14 A mi a ddeuthum i beri i ti ddeall yr hyn a ddigwydd i'th bobl yn y dyddiau diweddaf: o herwydd *y mae* y weledigaeth etto dros ddyddiau *lawer*.

15 Ac wedi iddo lefaru wrthyf y geiriau hyn, gosodais fy wyneb tu a'r ddaear, ac a euthum yn fud.

16 Ac wele, tebyg i ddyn a gyffyrddodd â'm gwefusau: yna yr agorais fy safn, ac y lleferais, ac y dywedais wrth yr hwn oedd yn sefyll ar fy nghyfer, O fy arglwydd, fy ngofidiau a droisant arnaf gan y weledigaeth, ac nid atteliais nerth.

17 A pha fodd y dichon gwasanaethwr fy arglwydd yma lefaru wrth fy arglwydd yma? a minnau yna ni safodd nerth ynof, ac nid arhôdd ffun ynof.

18 Yna y cyffyrddodd eilwaith â mi fel dull dyn, ac a'm cryfhaodd i,

19 Ac a ddywedodd, Nac ofna, ŵr anwyl; heddwch i ti, ymnertha, ïe, ymnertha. A phan lefarasai efe wrthyf, ymnerthais, a dywedais, Llefared fy arglwydd; o herwydd cryfheaist fi.

20 Ac efe a ddywedodd, A wyddost ti paham y deuthum attat? ac yn awr dychwelaf i ryfela â thywysog Persia: ac wedi i mi fyned allan, wele, tywysog tir Groeg a ddaw.

21 Eithr mynegaf i ti yr hyn a hysbyswyd yn ysgrythyr y gwirionedd; ac nid *oes* un yn ymegnïo gyd â mi yn hyn, ond Michael eich tywysog chwi.

PENNOD 11.

1 *Dinystr Persia gan frenhin Groeg.* 5 *Y cynghreiriau a'r cadau rhwng brenhin y dehau a brenhin y gogledd.* 30 *Rhuthr a chreulonder y Rhufeiniaid.*

AC yn y flwyddyn gyntaf i Darius y Mediad, y sefais i i'w gryfhâu ac i'w nerthu ef.

2 Ac yr awr hon y gwirionedd a fynegaf i ti; Wele, tri brenhin etto a safant o fewn Persia, a'r pedwerydd a fydd gyfoethoccach na *hwynt* oll: ac fel yr ymgadarnhao efe yn ei gyfoeth, y cyfyd efe bawb yn erbyn teyrnas Groeg.

3 A brenhin cadarn a gyfyd, ac a lywodraetha â llywodraeth fawr, ac a wna fel y mynno.

4 A phan safo efe, dryllir ei deyrnas, ac a'i rhennir tu a phedwar gwynt y nefoedd; ac nid i'w hiliogaeth ef, nac fel ei lywodraeth a lywodraethodd efe: o herwydd ei frenhiniaeth ef a ddiwreiddir i eraill heb law y rhai hynny.

5 ¶ Yna y cryfhâ brenhin y dehau, ac *un* o'i dywysogion: ac efe a gryfhâ uwch ei law ef, ac a lywodraetha: llywodraeth fawr *fydd* ei lywodraeth ef.

6 Ac yn niwedd blynyddoedd yr ymgyssylltant; canys merch brenhin y dehau a ddaw at frenhin y gogledd i wneuthur cymmod; ond ni cheidw hi nerth y braich; ac ni saif yntau, na'i fraich: eithr rhoddir hi i fyny, a'r rhai a'i dygasant hi, a'r hwn a'i cenhedlodd hi, a'i chymhorthwr, yn yr amseroedd *hyn*.

7 Eithr yn ei le ef y saif *un* allan o flaguryn ei gwraidd hi, yr hwn a ddaw â llu, ac a â i amddiffynfa brenhin y gogledd, ac a wna yn eu herbyn hwy, ac a orchfyga;

8 Ac a ddwg hefyd i gaethiwed i'r Aipht, eu duwiau hwynt, a'u tywysogion, a'u dodrefn anwyl o arian ac aur; ac efe a bery *fwy o* flynyddoedd na brenhin y gogledd.

9 A brenhin y dehau a ddaw i'*w* deyrnas, ac a ddychwel i'w dir ei hun.

10 A'i feibion a gyffrôir, ac a gasglant dyrfa o luoedd mawrion: a chan ddyfod y daw *un*, ac a lifeiria, ac a â trosodd: yna efe a ddychwel, ac a gyffrôir hyd ei amddiffynfa ef.

11 Yna y cyffry brenhin y dehau, ac yr â allan, ac a ymladd âg ef, *sef* â brenhin y gogledd: ac efe a gyfyd dyrfa fawr; ond y dyrfa a roddir i'w law ef.

12 Pan gymmerer ymaith y dyrfa, yr ymddyrchafa ei galon, ac efe a gwympa fyrddiwn; er hynny ni bydd efe gryf.
13 Canys brenhin y gogledd a ddychwel, ac a gyfyd dyrfa fwy na'r gyntaf, ac ym mhen ennyd o flynyddoedd, gan ddyfod y daw â llu mawr, ac â chyfoeth mawr.
14 Ac yn yr amseroedd hynny llawer a safant yn erbyn brenhin y dehau; a'r ypseilwyr o'th bobl a ymddyrchafant i sicrhâu y weledigaeth; ond hwy a syrthiant.
15 Yna y daw brenhin y gogledd, ac a fwrw glawdd, ac a ennill y dinasoedd caerog, ond breichiau y dehau ni wrthsafant, na'i bobl ddewisol ef; ac ni *bydd* nerth i sefyll.
16 A'r hwn a ddaw yn ei erbyn ef a wna fel y mynno, ac ni *bydd* a safo o'i flaen; ac efe a saif yn y wlad hyfryd, a thrwy ei law ef y difethir hi.
17 Ac efe a esyd ei wyneb ar fyned â chryfder ei holl deyrnas, a rhai uniawn gyd âg ef; fel hyn y gwna: ac efe a rydd iddo ferch gwragedd, gan ei llygru hi; ond ni saif hi *ar ei du ef*, ac ni bydd hi gyd âg ef.
18 Yna y try efe ei wyneb at yr ynysoedd, ac a ennill lawer; ond pennaeth a bair i'w warth ef beidio, er ei fwyn ei hun, heb warth iddo ei hun: efe a'i dettry arno ef.
19 Ac efe a dry ei wyneb at amddiffynfeydd ei dir ei hun: ond efe a dramgwydda, ac a syrth, ac nis ceir ef.
20 Ac yn ei le ef y saif un a gyfyd drethau y'ngogoniant y deyrnas; ond o fewn ychydig ddyddiau y distrywir ef; ac nid mewn dig, nac mewn rhyfel.
21 Ac yn ei le yntau y saif *un* dirmygus, ac ni roddant iddo ogoniant y deyrnas: eithr efe a ddaw i mewn yn heddychol, ac a ymeifl yn y frenhiniaeth trwy weniaith.
22 Ac â breichiau llifeiriant y llifir trostynt o'i flaen ef, ac y dryllir hwynt, a thywysog y cyfammod hefyd.
23 Ac wedi ymgyfeillach âg ef, y gwna efe dwyll: canys efe a ddaw i fyny, ac a ymgryfhâ âg ychydig bobl.
24 I'r dalaeth heddychol a bras y daw efe, ac a wna yr hyn ni wnaeth ei dadau, na thadau ei dadau: ysglyfaeth, ac yspail, a golud, a daena efe yn eu mysg: ac ar gestyll y bwriada efe ei fwriadau, *sef* dros amser.
25 Ac efe a gyfyd ei nerth a'i galon yn erbyn brenhin y dehau â llu mawr: a brenhin y dehau a ymesyd i ryfel â llu mawr a chryf iawn; ond ni saif efe: canys bwriadant fwriadau yn ei erbyn ef.
26 Y rhai a fwyttânt ran o'i fwyd ef a'i difethant ef, a'i lu ef a lifeiria; a llawer a syrth yn lladdedig.
27 A chalon y ddau frenhin hyn *fydd* ar wneuthur drwg, ac ar un bwrdd y traethant gelwydd; ond ni thyccia: canys etto *y bydd* y diwedd ar yr amser nodedig.
28 Ac efe a ddychwel i'w dir ei hun â chyfoeth mawr; a'i galon *fydd* yn erbyn y cyfammod sanctaidd: felly y gwna efe, ac y dychwel i'w wlad.
29 Ar amser nodedig y dychwel, ac y daw tu a'r dehau; ac ni bydd fel y *daith* gyntaf, neu fel yr olaf.
30 ¶ Canys llongau Chittim a ddeuant yn ei erbyn ef; am hynny yr ymofidia, ac y dychwel, ac y digia yn erbyn y cyfammod sanctaidd: felly y gwna efe, ac y dychwel; ac efe a ymgynghora â'r rhai a adawant y cyfammod sanctaidd.
31 Breichiau hefyd a safant ar ei du ef, ac a halogant gyssegr yr amddiffynfa, ac a ddygant ymaith y gwastadol *aberth*, ac a osodant *yno* y ffieidd-dra anrheithiol.
32 A throseddwyr y cyfammod a lygra efe trwy weniaith: eithr y bobl a adwaenant eu Duw, a fyddant gryfion, ac a ffynnant.
33 A'r rhai synhwyrol ym mysg y bobl a ddysgant lawer; etto syrthiant trwy y cleddyf, a thrwy dân, trwy gaethiwed, a thrwy yspail, ddyddiau *lawer*.
34 A phan syrthiant, â chymmorth bychan y cymhorthir hwynt: eithr llawer a lyn wrthynt hwy trwy weniaith.

35 A *rhai* o'r deallgar a syrthiant i'w puro, ac i'*w* glanhâu, ac i'*w* cannu, hyd amser y diwedd: canys *y mae* etto dros amser nodedig.

36 A'r brenhin a wna wrth ei ewyllys ei hun, ac a ymddyrcha, ac a ymfawryga uwch law pob duw; ac yn erbyn Duw y duwiau y traetha efe bethau rhyfedd, ac a lwydda nes diweddu y digter: canys yr hyn a ordeiniwyd, a fydd.

37 Nid ystyria efe Dduw ei dadau, na serch ar wragedd, ïe, nid ystyria un duw: canys goruwch pawb yr ymfawryga.

38 Ac efe a anrhydedda Dduw y nerthoedd yn ei le ef: ïe, duw yr hwn nid adwaenai ei dadau a ogonedda efe âg aur ac âg arian, ac â meini gwerthfawr, ac â phethau dymunol.

39 Fel hyn y gwna efe yn yr amddiffynfeydd cryfaf gyd â duw dïeithr, yr hwn a gydnebydd efe, *ac* a chwanega ei ogoniant: ac a wna iddynt lywodraethu ar lawer, ac a ranna y tir am werth.

40 Ac yn amser y diwedd yr ymgornia brenhin y dehau âg ef, a brenhin y gogledd a ddaw fel corwynt yn ei erbyn ef, â cherbydau, ac â marchogion, ac â llongau lawer; ac efe a ddaw i'r tiroedd, ac a lifa, ac a â trosodd.

41 Ac efe a ddaw i'r hyfryd wlad, a llawer *o wledydd* a syrthiant: ond y rhai hyn a ddïangant o'i law ef, Edom, a Moab, a phennaf meibion Ammon.

42 Ac efe a estyn ei law ar y gwledydd; a gwlad yr Aipht ni bydd dïangol.

43 Eithr efe a lywodraetha ar drysorau aur ac arian, ac ar holl anwyl bethau yr Aipht: y Libyaid hefyd a'r Ethiopiaid *fyddant* ar ei ol ef.

44 Eithr chwedlau o'r dwyrain ac o'r gogledd a'i trallodant ef: ac efe a â allan mewn llid mawr i ddifetha, ac i ddifrodi llawer.

45 Ac efe a esyd bebyll ei lys rhwng y moroedd, ar yr hyfryd fynydd sanctaidd: etto efe a ddaw hyd ei derfyn, ac ni *bydd* cynnorthwywr iddo.

PENNOD 12.

1 Michael a wared Israel o'i ffinderau. 5 Dangos yr amseroedd i Daniel.

AC yn yr amser hwnnw y saif Michael y tywysog mawr, yr hwn sydd yn sefyll dros feibion dy bobl: yna y bydd amser blinder, y cyfryw ni bu er pan yw cenedl hyd yr amser hwnnw: ac yn yr amser hwnnw y gwaredir dy holl bobl, y rhai a gaffer yn ysgrifenedig yn y llyfr.

2 A llawer o'r rhai sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffroant, rhai i fywyd tragywyddol, a rhai i warth *a* dirmyg tragywyddol.

3 A'r doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, a *fyddant* fel y sêr byth yn dragywydd.

4 Tithau, Daniel, cau ar y geiriau, a selia y llyfr hyd amser y diwedd: llawer a gynniweirant, a gwybodaeth a amlhêir.

5 ¶ Yna myfi Daniel a edrychais, ac wele ddau eraill yn sefyll, un o'r tu yma ar fin yr afon, ac un *arall* o'r tu arall ar fin yr afon.

6 Ac *un* a ddywedodd wrth yr hwn a wisgasid â llïan, yr hwn *ydoedd* ar ddyfroedd yr afon, Pa hyd *fydd* hyd ddiwedd y rhyfeddodau hyn?

7 Clywais hefyd y gŵr a wisgasid â llïan, yr hwn *ydoedd* ar ddyfroedd yr afon, pan ddyrchafodd efe ei law ddehau a'i aswy tu a'r nefoedd, ac y tyngodd i'r hwn sydd yn byw yn dragywydd, *y bydd* dros amser, amserau, a hanner: ac wedi darfod gwasgaru nerth y bobl sanctaidd, y gorphenir hyn oll.

8 Yna y clywais, ond ni ddeallais: eithr dywedais, O fy arglwydd, beth *fydd* diwedd y *pethau* hyn?

9 Ac efe a ddywedodd, Dos, Daniel: canys cauwyd *a* seliwyd y geiriau hyd amser y diwedd.

10 Llawer a burir, ac a gennir, ac a brofir; eithr y rhai drygionus a wnant ddrygioni: ac ni ddeall yr un o'r rhai drygionus; ond y rhai doethion a ddeallant.

11 Ac o'r amser y tynner ymaith

y gwastadol *aberth*, ac y gosoder
i fyny y ffieidd-dra anrheithiol, *y*
bydd mil dau cant a deg a phed-
war ugain o ddyddiau.
12 Gwyn ei fyd a ddisgwylio, ac
a ddêl hyd y mil tri chant a phym-
theg ar hugain o ddyddiau.
13 Dos dithau hyd y diwedd:
canys gorphwysi, a sefi yn dy ran
yn niwedd y dyddiau.

LLYFR HOSEA.

PENNOD 1.

1 *Hosea, er mwyn dangos barn Duw am butteindra ysprydol, yn cymmeryd Gomer yn wraig;* 4 *ac yn cenhedlu Jesreel,* 6 *a Lo-ruhamah,* 8 *a Lo-ammi.* 10 *Edfryd Judah ac Israel.*

GAIR yr ARGLWYDD yr hwn a ddaeth at Hosea, mab Beeri, yn nyddiau Ussïah, Jotham, Ahas, *a* Hesecïah, brenhinoedd Judah, ac yn nyddiau Jeroboam mab Joas, brenhin Israel.

2 Dechreu ymadrodd yr ARGLWYDD trwy Hosea. Yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth Hosea, Dos, cymmer i ti wraig o odineb, a phlant *o* odineb: o herwydd y mae y wlad gan butteinio yn putteinio oddi ar ol yr ARGLWYDD.

3 Ac efe a aeth ac a gymmerodd Gomer merch Diblaim; ac hi a feichiogodd, ac a ddug iddo ef fab.

4 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrtho, Galw ei enw ef Jesreel: canys ar fyrder y dïalaf waed Jesreel ar dŷ Jehu, ac y gwnaf i frenhiniaeth tŷ Israel ddarfod.

5 A'r dydd hwnnw y torraf fwa Israel y'nglyn Jesreel.

6 ¶ A hi a feichiogodd eilwaith, ac a esgorodd ar ferch. A dywedodd *yr Arglwydd* wrtho, Galw ei henw hi Lo-ruhamah; am na chwanegaf drugarhâu wrth dŷ Israel; eithr dygaf hwynt ymaith yn llwyr.

7 Ac etto mi a drugarhâf wrth dŷ Judah, ac a'u cadwaf hwynt trwy yr ARGLWYDD eu DUW; ac nid â bwa, nac â chleddyf, nac â rhyfel, *nac* â meirch nac â marchogion, y cadwaf hwynt.

8 ¶ A hi a ddiddyfnodd Lo-ruhamah, ac a feichiogodd, ac a esgorodd ar fab.

9 A *DUW* a ddywedodd, Galw ei enw ef Lo-ammi: canys nid *ydych* bobl i mi, ac ni byddaf i chwithau *yn DDUW.*

10 ¶ Etto bydd nifer meibion Israel fel tywod y môr, yr hwn nis mesurir, ac nis cyfrifir: a bydd, yn y man lle y dywedwyd wrthynt, Nid pobl i mi *ydych* chwi, y dywedir *yno* wrthynt, Meibion y Duw byw *ydych.*

11 Yna meibion Judah a meibion Israel a gesglir ynghyd, a hwy a osodant iddynt un pen; a deuant i fyny o'r tir: canys mawr *fydd* dydd Jesreel.

PENNOD 2.

1 *Delw-addoliaeth y bobl;* 6 *a barn Duw yn eu herbyn hwy;* 14 *y mae yn addaw cymmodi â hwynt.*

DYWEDWCH wrth eich brodyr, Ammi; ac wrth eich chwïorydd, Ruhamah.

2 Dadleuwch â'ch mam, dadleuwch: canys nid fy ngwraig *yw* hi, ac nid ei gŵr hi *ydwyf* finnau: bwried hithau ymaith ei phutteindra o'i golwg, a'i godineb oddi rhwng ei bronnau;

3 Rhag i mi ei dïosg hi yn noethlymmun, a'i gosod fel y dydd y ganed hi, a'i gwneuthur fel anialwch, a'i gosod fel tir diffaeth, a'i lladd â syched.

4 Ac ar ei phlant ni chymmeraf drugaredd; am eu *bod* yn blant godineb.

5 Canys eu mam hwynt a butteiniodd; gwaradwyddus y gwnaeth yr hon a'u hymddûg hwynt: canys dywedodd hi, Af ar ol fy nghariadau, y rhai sydd yn rhoi fy mara 'a'm dwfr, fy ngwlan a'm llin, fy olew a'm diodydd.

6 ¶ Am hynny wele, mi a gauaf i fyny dy ffordd di â drain, ac

a furiaf fur, fel na chaffo hi ei llwybrau.

7 A hi a ddilyn ei chariadau, ond nis goddiwes hwynt; a hi a'u cais hwynt, ond nis caiff: yna y dywed, Af a dychwelaf at fy ngŵr cyntaf; canys gwell *oedd* arnaf fi yna nag yr awr hon.

8 Ac ni wyddai hi mai myfi a roddais iddi ŷd, a gwin, ac olew, ac a amlheais ei harian a'i haur, *y rhai* a ddarparasant hwy i Baal.

9 Am hynny y dychwelaf, a chymmeraf fy ŷd yn ei amser, a'm gwin yn ei dymmor; a dygaf ymaith fy ngwlan a'm llin a guddiai ei noethni hi.

10 A mi a ddatguddiaf bellach ei brynti hi y'ngolwg ei chariadau; ac nis gwared neb hi o'm llaw i.

11 Gwnaf hefyd i'w holl orfoledd hi, ei gwyliau, ei newydd-leuadau, a'i Sabbathau, a'i holl uchel-wyliau, beidio.

12 A mi a anrheithiaf ei gwinwydd hi a'i ffigyswydd, am y rhai y dywedodd, Dyma fy ngwobrwyon y rhai a roddodd fy nghariadau i mi; ac mi a'u gosodaf yn goedwig, a bwystfilod y maes a'u difa hwynt.

13 A mi a ymwelaf â hi am ddyddiau Baalim, *yn* y rhai y llosgodd hi arogl-darth iddynt, ac y gwisgodd ei chlust-fodrwyau a'i thlysau, ac yr aeth ar ol ei chariadau, ac yr anghofiodd ñi, medd yr ARGLWYDD.

14 ¶ Am hynny wele, mi a'i denaf hi, ac a'i dygaf i'r anialwch, ac a ddywedaf wrth *fodd* ei chalon.

15 A mi a roddaf iddi ei gwinllannoedd o'r fan honno, a dyffryn Achor yn ddrws gobaith; ac yno y cân hi, fel yn nyddiau ei hieuengctid, ac megis *yn* y dydd y daeth hi i fyny o wlad yr Aipht.

16 Y dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD, y'm gelwi Issi, ac ni'm gelwi mwyach Baali.

17 Canys bwriaf enwau Baalim allan o'i genau hi, ac nis coffëir hwy mwyach wrth eu henwau.

18 A'r dydd hwnnw y gwnaf ammod drostynt âg anifeiliaid y maes, ac âg ehediaid y nefoedd, ac *âg* ymlusgiaid y ddaear; a'r bwa, a'r cleddyf, a'r rhyfel, a dorraf ymaith o'r ddaear, a gwnaf iddynt orwedd yn ddïogel.

19 A mi a'th ddyweddïaf â mi fy hun yn dragywydd; ïe, dyweddïaf di â mi fy hun mewn cyfiawnder, ac mewn barn, ac mewn tiriondeb, ac mewn trugareddau.

20 A dyweddïaf di â mi mewn ffyddlondeb; a thi a adnabyddi yr ARGLWYDD.

21 A'r dydd hwnnw y gwrandawaf, medd yr ARGLWYDD, ar y nefoedd y gwrandawaf; a hwythau a wrandawant ar y ddaear;

22 A'r ddaear a wrendy ar yr ŷd, a'r gwin, a'r olew; a hwythau a wrandawant ar Jesreel.

23 A mi a'i hauaf hi i mi fy hun yn y ddaear, ac a drugarhâf wrth yr hon ni chawsai drugaredd; ac a ddywedaf wrth *y rhai* nid *oedd* bobl i mi, Fy mhobl *wyt* ti: a hwythau a ddywedant, *O* fy NUW.

PENNOD 3.

1 *Trwy lanhau godineb-wraig,* 4 *y dangosir anghyfannedd-dra Israel o flaen ei adferiad.*

YNA yr ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Dos etto, câr wraig, (hoff gan *ei* chyfaill, a hithau wedi torri ei phriodas,) yn ol cariad yr ARGLWYDD ar feibion Israel, a hwythau yn edrych ar ol duwiau dïeithr, ac yn hoffi costrelau gwin.

2 A mi a'i prynais hi i mi er pymtheg o arian, ac *er* homer o haidd, a hanner homer o haidd:

3 A dywedais wrthi, Aros am danaf lawer o ddyddiau; na phutteinia, ac na fydd i ŵr *arall:* a minnau *a fyddaf* felly i tithau.

4 Canys llawer o ddyddiau yr erys meibion Israel heb frenhin, a heb dywysog, a heb aberth, a heb ddelw, a heb ephod, a *heb* deraphim.

5 Wedi hynny y dychwel meibion Israel, ac y ceisiant yr ARGLWYDD eu DUW, a Dafydd eu brenhin; ac a barchant yr ARGLWYDD a'i ddaioni yn y dyddiau diweddaf.

PENNOD 4.

1 *Barnedigaethau Duw yn erbyn pechodau y bobl,* 6 *a'r offeiriaid;* 12 *ac yn erbyn eu delw-addoliaeth hwy.* 15 *Annog Judah i gymmeryd rhybudd wrth ofidiau Israel.*

MEIBION Israel, gwrandêwch air yr ARGLWYDD: canys *y mae* cwyn rhwng yr ARGLWYDD a thrigolion y wlad, am nad *oes* na gwirionedd, na thrugaredd, na gwybodaeth o DDUW, yn y wlad.

2 *Trwy* dyngu, a dywedyd celwydd, a lladd celain, a lladratta, a thorri prïodas, y maent yn torri allan, a gwaed a gyffwrdd â gwaed.

3 Am hynny y galara y wlad, ac y llesgâ oll sydd yn trigo ynddi, ynghyd â bwystfilod y maes, ac ehediaid y nefoedd; pysgod y môr hefyd a ddarfyddant.

4 Er hynny nac ymrysoned, ac na cherydded neb eu gilydd: canys dy bobl *sydd* megis rhai yn ymryson â'r offeiriad.

5 Am hynny ti a syrthi y dydd, a'r prophwyd hefyd a syrth gyd â thi y nos, a mi a ddifethaf dy fam.

6 ¶ Fy mhobl a ddifethir o eisieu gwybodaeth: am i ti ddïystyru gwybodaeth, minnau a'th ddiystyraf dithau, fel na byddech offeiriad i mi; *ac* am i ti anghofio cyfraith dy DDUW, minnau a anghofiaf dy blant dithau hefyd.

7 Fel yr amlhasant, felly y pechasant i'm herbyn: *am hynny* eu gogoniant a newidiaf yn warth.

8 Bwytta y maent bechod fy mhobl, ac at eu hanwiredd hwynt y maent yn dyrchafu eu calon.

9 A bydd yr un fath, bobl ac offeiriad: ac ymwelaf â hwynt am eu ffyrdd, a thalaf iddynt eu gweithredoedd.

10 Bwyttânt, ac nis diwellir; putteiniant, ac nid amlhânt; am iddynt beidio â disgwyl wrth yr ARGLWYDD.

11 Godineb, a gwin, a gwin newydd, a ddwg y galon ymaith.

12 ¶ Fy mhobl a ofynant gynghor i'w cyffion, a'u ffon a ddengys iddynt: canys yspryd godineb a'*u* cyfeiliornodd *hwynt*, a phutteiniasant oddi wrth eu DUW.

13 Ar bennau y mynyddoedd yr aberthant, ac ar y bryniau y llosgant arogl-darth, dan y dderwen, a'r boplysen, a'r llwyfen, am *fod* yn dda eu cysgod: am hynny y putteinia eich merched chwi, a'ch gwragedd a dorrant brïodas.

14 Nid ymwelaf â'ch merched pan butteiniont, nac â'ch gwragedd pan dorront brïodas: am fod y rhai hyn yn ymddidoli gyd â phutteiniaid, ac aberthasant gyd â dihirogod; a'r bobl ni ddeallant, a dramgwyddant.

15 ¶ Er i ti, Israel, butteinio, *etto* na phached Judah: nac ewch i Gilgal, nac ewch i fyny i Bethafen; ac na thyngwch, Byw *yw* yr ARGLWYDD.

16 Fel anner anhywaith yr anhŷweithiodd Israel: yr ARGLWYDD yr awr hon a'u portha hwynt fel oen mewn ehangder.

17 Ephraim a ymgyssylltodd âg eilunod: gâd iddo.

18 Surodd eu dïod hwy; gan butteinio y putteiniasant: hoff yw, Moeswch, *trwy* gywilydd gan ei llywodraethwyr hi.

19 Y gwynt a'i rhwymodd hi yn ei hadenydd, a bydd arnynt gywilydd o herwydd eu haberthau.

PENNOD 5.

1 *Barnedigaethau Duw yn erbyn offeiriaid, a phobl, a thywysogion Israel, am eu hamryw bechodau, 15 nes iddynt edifarhau.*

CLYWCH hyn, chwi offeiriaid; gwrandêwch, tŷ Israel; a thŷ y brenhin, rhoddwch glust: canys *y mae* barn tu ag attoch, am eich bod yn fagl ar Mispah, ac yn rhwyd wedi ei lledu ar Tabor.

2 Y rhai a ŵyrant i ladd a ânt i'r dwfn, er i mi eu ceryddu hwynt oll.

3 Myfi a adwaen Ephraim, ac nid yw Israel guddiedig oddi wrthyf: canys yn awr ti, Ephraim, a butteiniaist, *ac* Israel a halogwyd.

4 Ni roddant eu gwaith ar droi at eu DUW; am *fod* yspryd godineb o'u mewn, ac nid adnabuant yr ARGLWYDD.

5 A balchder Israel a ddwg dystiolaeth yn ei wyneb: am hynny Israel ac Ephraim a syrthiant yn eu hanwiredd; Judah hefyd a syrth gyd â hwynt.

6 A'u defaid ac â'u gwartheg y deuant i geisio yr ARGLWYDD; ond nis cânt *ef:* ciliodd efe oddi wrthynt.

7 Yn erbyn yr ARGLWYDD y buant anffyddlawn: canys cenhedlasant

blant dïeithr: mis bellach a'u difa hwynt ynghyd â'u rhannau.

8 Cenwch y corn yn Gibeah, yr udgorn yn Ramah; bloeddiwch *yn* Beth-afen ar dy ol di, Benjamin.

9 Ephraim fydd yn anrhaith yn nydd y cerydd: ym mysg llwythau Israel y perais wybod yr hyn fydd yn sicr.

10 Bu dywysogion Judah fel symmudwyr terfyn: *am hynny* y tywalltaf arnynt fy llid fel dwfr.

11 Gorthrymmwyd Ephraim, drylliwyd ef mewn barn, am iddo yn ewyllysgar fyned ar ol y gorchymyn.

12 Am hynny *y byddaf* fel gwyfyn i Ephraim, ac fel pydredd i dŷ Judah.

13 Pan welodd Ephraim ei lesgedd, a Judah ei archoll; yna yr aeth Ephraim at yr Assyriad, ac a hebryngodd at frenhin Jareb: etto ni allai efe eich meddyginiaethu, na'ch iachâu o'ch archoll.

14 Canys mi *a fyddaf* i Ephraim fel llew, ac i dŷ Judah fel cenaw llew: myfi a ysglyfaethaf, ac a âf ymaith; dygaf ymaith, ac ni *bydd* a achubo.

15 ¶ Af *a* dychwelaf i'm lle, hyd oni chydnabyddont eu bai, a cheisio fy wyneb: pan fyddo adfyd arnynt, y'm bore-geisiant.

PENNOD 6.

1 *Annog i edifeirwch.* 4 *Achwyn mor anhynaws ac mor annuwiol ydynt.*

DEUWCH, a dychwelwn at yr ARGLWYDD: canys efe a'n drylliodd, ac efe a'n hiachâ ni; efe a darawodd, ac efe a'n meddyginiaetha ni.

2 Efe a'n bywhâ ni ar ol deuddydd, a'r trydydd dydd y cyfyd ni i fyny, a byddwn fyw ger ei fron ef.

3 Yna yr adnabyddwn, *os* dilynwn adnabod yr ARGLWYDD: ei fynediad a ddarperir fel y bore; ac efe a ddaw fel gwlaw attom, fel y diweddar-wlaw *a*'r cynnar-wlaw i'r ddaear.

4 ¶ Beth a wnaf i ti, Ephraim? beth a wnaf i ti, Judah? eich mwynder sydd yn ymadaw fel cwmmwl y bore, ac fel gwlith boreol.

5 Am hynny y tarewais *hwynt* trwy y prophwydi; lleddais hwynt â geiriau fy ngenau: a'th farnedigaethau *sydd fel* goleuni yn myned allan.

6 Canys ewyllysiais drugaredd, ac nid aberth; a gwybodaeth o DDUW, yn fwy na phoeth-offrymmau.

7 A'r rhai hyn, fel dynion, a dorrasant y cyfammod: yno y buant anffyddlawn i'm herbyn.

8 Dinas gweithredwyr anwiredd *yw* Gilead, wedi ei halogi gan waed.

9 Ac fel y mae mintai o ladron yn disgwyl gŵr, *felly* y mae cynnulleidfa yr offeiriaid yn lladd ar y ffordd yn gyttûn: canys gwnant ysgelerder.

10 Gwelais yn nhŷ Israel beth erchyll: yno *y mae* godineb Ephraim; halogwyd Israel.

11 Gosododd hefyd gynhauaf i tithau, Judah, a mi yn dychwelyd caethiwed fy mhobl.

PENNOD 7.

1 *Argyhoeddi amryw bechodau.* 11 *Dïgofaint Duw yn erbyn y bobl am eu rhagrith.*

AMI yn ewyllysio iachâu Israel, datguddiwyd anwiredd Ephraim, a drygioni Samaria: canys gwnant ffalsder; a'r lleidr a ddaw i mewn, *a* mintai o yspeilwyr a anrheithia oddi allan.

2 Ac nid ydynt yn meddwl yn eu calonnau fy mod i yn cofio eu holl ddrygioni hwynt: weithian eu gweithredoedd eu hun a'u hamgylchynodd; y maent ger bron fy wyneb.

3 Llawenhânt y brenhin â'u drygioni, a'r tywysogion â'u celwyddau.

4 Pawb o honynt *sydd* yn torri prïodas, fel ffwrn wedi ei thwymo gan y pobydd, *yr hwn* a baid â chodi wedi iddo dylino y toes, hyd oni byddo wedi ei lefeinio.

5 Yn niwrnod ein brenhin y tywysogion a'*i* gwnaethant yn glaf â chostrelau gwin: estynodd ei law gyd â gwatwarwyr.

6 Fel yr oeddynt yn cynllwyn, darparasant eu calon fel ffwrn: eu pobydd a gwsg ar hyd y nos; y bore y llysg fel fflam dân.

7 Pawb o honynt a wresogant fel y ffwrn, ac a ysant eu barnwyr: eu holl frenhinoedd a gwympasant, heb *un* o honynt yn galw arnaf fi.

8 Ephraim a ymgymmysgodd â'r

bobloedd; Ephraim sydd *fel* teisen heb ei throi.

9 Estroniaid a fwyttânt ei gryfder, ac nis gŵyr efe: ymdaenodd penwynni ar hyd-ddo, ac nis gwybu efe.

10 Ac y mae balchder Israel yn tystiolaethu yn ei wyneb; ac er hyn oll ni throant at yr ARGLWYDD eu DUW, ac nis ceisiant ef.

11 ¶ Ephraim *sydd* fel colommen ynfyd heb galon; galwant ar yr Aipht, ânt i Assyria.

12 Pan elont, taenaf fy rhwyd drostynt, a thynnaf hwynt i lawr fel ehediaid y nefoedd: cospaf hwynt, fel y clybu eu cynnulleidfa hwynt.

13 Gwae hwynt! canys ffoisant oddi wrthyf: dinystr arnynt; o herwydd gwnaethant gamwedd i'm herbyn: er i mi eu gwared hwynt, etto hwy a ddywedasant gelwydd arnaf fi.

14 Ac ni lefasant arnaf â'u calon, pan udasant ar eu gwelŷau: am ŷd a melus win yr ymgasglant; ciliasant oddi wrthyf.

15 Er i mi rwymo *a* nerthu eu breichiau hwynt, etto meddyliasant ddrwg i mi.

16 Dychwelasant, nid at y Goruchaf: y maent fel bwa twyllodrus: eu tywysogion a syrthiant gan y cleddyf am gynddaredd eu tafod. Dyma eu gwatwar hwynt y'ngwlad yr Aipht.

PENNOD 8.

1, 12 Bygwth dinystr am anniwioldeb y bobl, 5 a'u gau-ddiuwiaeth.

AT dy safn â'r udgorn. Fel yr eryr *y daw* yn erbyn tŷ yr ARGLWYDD, am iddynt droseddu fy nghyfammod, a phechu yn erbyn fy nghyfraith.

2 Israel a lefant arnaf, Fy NUW, nyni a'th adwaenom di.

3 Israel a fwriodd heibio ddaioni: y gelyn a'i herlid yntau.

4 Hwy a wnaethant frenhinoedd, ac nid trwof fi; gwnaethant dywysogion, ac nis gwybûm: o'u harian a'u haur y gwnaethant iddynt eu hun ddelwau, fel y torrer hwynt ymaith.

5 ¶ Samaria, dy lo a'*th* fwriodd heibio: fy nig a gynneuodd i'w herbyn; pa hyd ni fedrant *ddilyn* diniweidrwydd?

6 Canys o Israel *y mae;* y saer a'i gwnaeth; am hynny nid *yw* efe DDUW: ond yn ddrylliau y bydd llo Samaria.

7 Canys gwynt a hauasant, a chorwynt a fedant: corsen ni bydd iddo: y dywysen ni wna flawd: *ac* os gwna, dïeithriaid a'i llwngc.

8 Israel a lyngcwyd: bellach y byddant ym mysg y cenhedloedd fel dodrefnyn heb hoffder ynddo.

9 Canys hwy a aethant i fyny i Assyria, yn asyn gwyllt unig iddo ei hun: Ephraim a gyflogodd gariadau.

10 Hefyd er iddynt gyflogi *rhai* ym mysg y cenhedloedd, yn awr mi a'u casglaf hwynt: canys tristânt ychydig, o herwydd baich brenhin y tywysogion.

11 O herwydd amlhâu o Ephraim allorau i bechu, allorau fydd ganddo i bechu.

12 Mi a ysgrifenais iddo bethau mawrion fy nghyfraith, *ac* fel dïeithr-beth y cyfrifwyd.

13 *Yn lle* ebyrth fy offrymmau, cig a aberthant, ac a fwyttânt; yr ARGLWYDD nid yw foddlawn iddynt: efe a gofia bellach eu hanwiredd, ac efe a ofwya eu pechodau; dychwelant i'r Aipht.

14 Canys anghofiodd Israel ei Wneuthurwr, ac a adeiladodd demlau; a Judah a amlhaodd ddinasoedd caerog: ond myfi a anfonaf dân i'w ddinasoedd, ac efe a ysa ei balasau.

PENNOD 9.

Cyfyngder a chaethiwed Israel am eu pechodau a'u gau-ddiuwiaeth.

ISRAEL, na orfoledda gan lawenydd, fel pobloedd *eraill:* canys putteiniaist oddi wrth dy DDUW, gwobrau a hoffaist ar bob llawr-dyrnu ŷd.

2 Y llawr-dyrnu na'r gwin-wrŷf nis portha hwynt, a'r gwin newydd a'i twylla hi.

3 Ni thrigant y'ngwlad yr ARGLWYDD; ond Ephraim a ddychwel i'r Aipht, ac yn Assyria y bwyttânt *beth* aflan.

4 Nid offrymmant win i'r ARGLWYDD, a'u haberthau ni bydd

melus ganddo; *byddant* iddynt fel bara galarwyr; pawb a fwyttao o hono a halogir: o herwydd eu bara dros eu heneidiau ni ddaw i dŷ yr ARGLWYDD.

5 Beth a wnewch ar ddydd yr uchel-wyl, ac ar ddydd gwyl yr ARGLWYDD?

6 Canys wele, aethant ymaith gan ddinystr; yr Aipht a'u casgl hwynt, Memphis a'u cladd hwynt: danadl a oresgyn hyfryd *leoedd* eu harian hwynt; drain *a dŷf* yn eu pebyll.

7 Dyddiau i ymweled a ddaethant, dyddiau talu y pwyth a ddaethant; Israel a gânt wybod *hyn:* y prophwyd *sydd* ffol, ynfyd *yw* y gŵr ysprydol, am amlder dy anwiredd, a'r cas mawr.

8 Gwyliedydd Ephraim *a fu* gyd â'm DUW; *aeth* y prophwyd yn fagl adarwr yn ei holl lwybrau, *ac* yn gasineb yn nhŷ ei DDUW.

9 *Ym*lygrasant yn ddwfn, megis yn amser Gibeah: *am hynny* efe a goffa eu hanwiredd, efe a ymwêl â'u pechod.

10 Cefais Israel fel grawnwin yn yr anialwch; gwelais eich tadau megis y ffrwyth cynharaf yn y ffigysbren yn ei dechreuad: *ond* hwy a aethant at Baal-peor, ymddidolasant at y gwarth hwnnw; a bu *eu* ffieidd-dra fel y carasant.

11 *Am* Ephraim, eu gogoniant hwy a eheda fel aderyn; o'r enedigaeth, o'r groth, ac o'r beichiogi.

12 Er iddynt fagu eu plant, gwnaf hwynt yn amddifaid o ddynion: a gwae hwynt, pan ymadawyf oddi wrthynt!

13 Ephraim, fel y gwelais Tyrus, *a* blannwyd mewn hyfryd gyfannedd: etto Ephraim a ddwg ei blant allan at y lleiddiad.

14 Dyro iddynt, ARGLWYDD: beth a roddi? dyro iddynt groth yn erthylu, a bronnau hespion.

15 Eu holl ddrygioni *sydd* yn Gilgal: canys yno y caseais hwynt: am ddrygioni eu gweithredoedd y bwriaf hwynt allan o'm tŷ; ni chwanegaf eu caru hwynt: eu holl dywysogion *sydd* wrthryfelgar.

16 Ephraim a darawyd, eu gwraidd a wywodd, dwyn ffrwyth nis gwnant: ac os cenhedlant, etto lladdaf anwyl *blant* eu crothau.

17 Fy NUW a'u gwrthyd hwynt, am na wrandawsant arno ef: am hynny y byddant grwydriaid ym mhlith y cenhedloedd.

PENNOD 10.

Argyhoeddi Israel am eu pechodau a'u gaudduwiaeth.

GWINWYDDEN wag *yw* Israel; efe a ddwg ffrwyth iddo ei hun: yn ol amlder ei ffrwyth yr amlhaodd efe allorau; yn ol daioni ei dir gwnaethant ddelwau teg.

2 Eu calon a ymrannodd; yn awr y ceir hwy yn feius: efe a dyr i lawr eu hallorau hwynt; efe a ddistrywia eu delwau.

3 Canys yr awr hon y dywedant, Nid *oes* i ni frenhin, am nad ofnasom yr ARGLWYDD; a pheth a wnai brenhin i ni?

4 Dywedasant eiriau, gan dyngu anudon wrth wneuthur ammod; tarddodd barn megis wermod yn rhychau y meusydd.

5 Preswylwyr Samaria a ofnant o herwydd lloiau Beth-afen; canys ei bobl a alara drosto, a'i offeiriaid *y rhai* a lawenychant ynddo, o achos ei ogoniant, am iddo ymadaw oddi wrtho ef.

6 *Hefyd* efe a ddygir i Assyria yn anrheg i frenhin Jareb: Ephraim a dderbyn gywilydd, ac Israel a fydd cywilydd ganddo ei gynghor ei hun.

7 Samaria, ei brenhin a dorrir ymaith fel ewyn ar wyneb y dwfr.

8 *A* distrywir uchelfeydd Afen, pechod Israel; dring drain a mieri ar eu hallorau: a dywedant wrth y mynyddoedd, Gorchuddiwch ni; ac wrth y bryniau, Syrthiwch arnom.

9 O Israel, ti a bechaist er dyddiau Gibeah: yno y safasant; a'r rhyfel yn Gibeah yn erbyn plant anwiredd ni oddiweddodd hwynt.

10 Wrth fy ewyllys y cospaf hwynt: a phobl a gesglir yn eu herbyn, pan ymrwymont yn eu dwy gwys.

11 Ac Ephraim *sydd* anner wedi ei dysgu, yn dda ganddi ddyrnu; a minnau a euthum dros degwch ei gwddf hi: paraf i Ephraim farch-

ogaeth: Judah a ardd, *a* Jacob a lyfna iddo.
12 Heuwch i chwi mewn cyfiawnder, medwch mewn trugaredd; braenerwch i chwi fraenar: canys *y mae* yn amser i geisio yr ARGLWYDD, hyd oni ddelo a gwlawio cyfiawnder arnoch.
13 Arddasoch i chwi ddrygioni, medasoch anwiredd, bwyttasoch ffrwyth celwydd; am i ti ymddiried yn dy ffordd dy hun, yn llïosowgrwydd dy gedyrn.
14 Am hynny y cyfyd terfysg ym mysg dy bobl, a'th holl amddiffynfeydd a ddinystrir, fel y darfu i Salman ddinystrio Beth-arbel yn amser rhyfel; *lle* y drylliwyd y fam ar y plant.
15 Fel hynny y gwna Bethel i chwi, am eich mawrddrwg: gan ddifetha y difethir brenhin Israel ar foregwaith.

PENNOD 11.

1 *Anniolchgarwch Israel i Duw am ei ddoniau.* 5 *Eu barnedigaeth hwy;* 8 *a thrugaredd Duw tu ag attynt.*

PAN *oedd* Israel yn fachgen, mi a'i cerais ef, ac a elwais fy mab o'r Aipht.
2 *Fel* y galwent arnynt, felly hwythau a aent o'u gŵydd hwy; aberthasant i Baalim, llosgasant arogl-darth i ddelwau cerfiedig.
3 Myfi hefyd a ddysgais i Ephraim gerdded, gan eu cymmeryd erbyn eu breichiau; ond ni chydnabuant mai myfi a'u meddyginiaethodd hwynt.
4 Tynnais hwynt â rheffynnau dynol, â rhwymau cariad; ac oeddwn iddynt megis y rhai a godant yr iau ar eu bochgernau hwynt; a bwriais attynt fwyd.
5 ¶ Ni ddychwel efe i wlad yr Aipht; ond yr Assyriad fydd ei frenhin, am iddynt wrthod troi.
6 A'r cleddyf a erys ar ei ddinasoedd ef, ac a dreulia ac a ysa ei geingciau ef, am eu cynghorion eu hun.
7 A'm pobl i sydd ar feddwl cilio oddi wrthyf fi; er iddynt eu galw at y Goruchaf, etto ni ddyrchafai neb *ef.*
8 Pa fodd y'th roddaf ymaith, Ephraim? y'th roddaf i fyny, Israel? pa fodd y'th wnaf fel Admah? *ac* y'th osodaf megis Seboim? trodd fy nghalon ynof, a'm hedifeirwch a gyd-gynneuwyd.
9 Ni chyflawnaf angerdd fy llid: ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim, canys DUW *ydwyf* fi, ac nid dyn; y Sanct yn dy ganol di; ac nid âf i mewn i'r ddinas.
10 Ar ol yr ARGLWYDD yr ânt; efe a rua fel llew: pan ruo efe, yna meibion o'r gorllewin a ddychrynant.
11 Dychrynant fel aderyn o'r Aipht, ac fel colommen o dir Assyria: a mi a'u gosodaf hwynt yn eu tai, medd yr ARGLWYDD.
12 Ephraim a'm hamgylchynodd â chelwydd, a thŷ Israel â thwyll; ond y mae Judah etto yn llywodraethu gyd â DUW, ac yn ffyddlawn gyd â'r saint.

PENNOD 12.

1 *Argyhoeddi Ephraim, Judah, a Jacob.* 3 *Y mae yn eu hannog i edifarhau, o herwydd y daioni a gawsent.* 7 *Pechodau Ephraim yn cyffroi Duw.*

EPHRAIM sydd yn ymborthi ar wynt, ac yn dilyn gwynt y dwyrain: ar hyd y dydd yr amlhaodd gelwydd a dinystr; ammod a wnaethant â'r Assyriaid; *ac* olew a ddygwyd i'r Aipht.
2 Ac *y mae* gan yr ARGLWYDD gŵyn ar Judah; ac efe a ymwêl â Jacob yn ol ei ffyrdd: yn ol ei weithredoedd y tâl iddo y pwyth.
3 ¶ Yn y groth y daliodd efe sawdl ei frawd, ac yn ei nerth y cafodd allu gyd â DUW.
4 Ie, cafodd nerth ar yr angel, a gorchfygodd; wylodd, ac ymbiliodd âg ef: cafodd ef *yn* Bethel, ac yno yr ymddiddanodd â ni;
5 Sef ARGLWYDD DDUW y lluoedd: yr ARGLWYDD *yw* ei goffadwriaeth.
6 Tro dithau at dy DDUW; cadw drugaredd a barn, a disgwyl wrth dy DDUW bob amser.
7 ¶ Marsiandwr *yw efe;* yn ei law ef *y mae* cloŕiannau twyll: da ganddo orthrymmu.
8 A dywedodd Ephraim, Etto mi a gyfoethogais, cefais i mi olud; ni chafwyd *yn* fy holl lafur anwiredd ynof, *a fyddai* bechod.

9 A mi, *yr hwn yw* yr ARGLWYDD dy DDUW *a'th ddug* o dir yr Aipht, a wnaf i ti drigo etto mewn pebyll, megis ar ddyddiau uchel-wyl.

10 Ymddiddenais trwy y prophwydi, a mi a amlheais weledigaethau, ac a arferais gyffelybiaethau, trwy law y prophwydi.

11 *A oes* anwiredd yn Gilead? yn ddiau gwagedd ydynt; yn Gilgal yr aberthant ychain: eu hallorau *hefyd sydd* fel carneddau yn rhychau y meusydd.

12 Ffodd Jacob hefyd i wlad Syria, a gwasanaethodd Israel am wraig, ac am wraig y cadwodd *ddefaid.*

13 A thrwy brophwyd y dug yr ARGLWYDD Israel o'r Aipht, a thrwy brophwyd y cadwyd ef.

14 Ephraim a'*i* cyffrôdd *ef* i ddig ynghyd â chwerwedd; am hynny y gâd efe ei waed ef arno, a'i Arglwydd a dâl iddo ei waradwydd.

PENNOD 13.

1 Gogoniant Ephraim, o herwydd eu gau-ddwuiaeth, yn diflannu. 5 Digofaint Duw wrthynt am eu hangharedigrwydd. 9 Addewid o drugaredd Duw. 15 Barnedigaeth am anufuddod.

PAN lefarodd Ephraim *â* dychryn, ymddyrchafodd efe yn Israel; ond pan bechodd gyd â Baal, y bu farw.

2 Ac yr awr hon ychwanegasant bechu, ac o'u harian y gwnaethant iddynt ddelwau tawdd, *ac* eilunod, yn ol eu deall eu hun, y cwbl o waith y crefftwyr, am y rhai y maent yn dywedyd, Y rhai a aberthant, cusanant y lloi.

3 Am hynny y byddant fel y bore-gwmmwl, ac megis y gwlith yr ymedy yn fore, fel mân us a chwaler gan gorwynt allan o'r llawr-dyrnu, ac fel mwg o'r ffumer.

4 Etto myfi *yw* yr ARGLWYDD dy DDUW, *a'th ddug di* o dir yr Aipht; ac ni chei gydnabod DUW ond myfi: ac nid *oes* Iachawdwr ond myfi.

5 ¶ Mi a'th adnabûm yn y diffaethwch, yn nhir sychder mawr.

6 Fel *yr oedd* eu porfa, y cawsant eu gwala: cawsant eu gwala, a chodasant eu calonnau; ac anghofiasant fi.

7 Ond mi a fyddaf fel llew iddynt; megis llewpard ar y ffordd y disgwyliaf *hwynt.*

8 Cyfarfyddaf â hwynt fel arth wedi colli *ei chenawon;* rhwygaf orchudd eu calon hwynt; ac yna fel llew y difaf hwynt: bwystfil y maes a'u llarpia hwynt.

9 ¶ O Israel, tydi a'th ddinystriaist dy hun; ond ynof fi *y mae* dy gymmorth.

10 Dy frenhin fyddaf: pa le *y mae arall* a'th waredo di yn dy holl ddinasoedd? a'th frawdwyr, am y rhai y dywedaist, Dyro i mi frenhin a thywysogion?

11 Rhoddais i ti frenhin yn fy nig, a dygais *ef* ymaith yn fy llid.

12 Rhwymwyd anwiredd Ephraim; cuddiwyd ei bechod ef.

13 Gofid un yn esgor a ddaw arno: mab anghall yw efe; canys ni ddylasai efe sefyll yn hir yn esgoreddfa y plant.

14 O law y bedd yr achubaf hwynt; oddi wrth angau y gwaredaf hwynt: byddaf angau i ti, O angau; byddaf drangc i ti, y bedd: cuddir edifeirwch o'm golwg.

15 ¶ Er ei fod yn ffrwythlawn ym mysg *ei* frodyr, daw gwynt y dwyrain, gwynt yr ARGLWYDD o'r anialwch a ddyrchafa, a'i ffynhonnell a sych, a'i ffynnon a â yn hesp: efe a yspeilia drysor pob llestr dymunol.

16 Diffaethir Samaria, am ei bod yn anufudd i'w DUW: syrthiant ar y cleddyf: eu plant a ddryllir, a'u gwragedd beichiogion a rwygir.

PENNOD 14.

1 Annog i edifeirwch. 4 Addewid o fendithion Duw.

YMCHWEL, Israel, at yr ARGLWYDD dy DDUW; canys ti a syrthiaist trwy dy anwiredd.

2 Cymmerwch eiriau gyd â chwi, a dychwelwch at yr ARGLWYDD: dywedwch wrtho, Maddeu yr holl anwiredd; derbyn *ni* yn ddaionus: a thalwn *i ti* loi ein gwefusau.

3 Ni all Assur ein hachub ni; ni farchogwn ar feirch; ac ni ddywedwn mwyach wrth waith ein dwylaw, O ein duwiau: o herwydd ynot ti y caiff yr amddifad drugaredd.

4 ¶ Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt, caraf hwynt yn rhad: canys trodd fy nig oddi wrtho.
5 Byddaf fel gwlith i Israel: efe a flodeua fel y lili, ac a leda ei wraidd megis Libanus.
6 Ei geingciau a gerddant, a bydd ei degwch fel yr olew-wydden, a'i arogl fel Libanus.
7 Y rhai a arhosant dan ei gysgod ef a ddychwelant: adfywiant *fel* ŷd, blodeuant hefyd fel y winwydden: *bydd* ei goffadwriaeth fel gwin Libanus.
8 Ephraim *a ddywed*, Beth *sydd* i mi mwyach *a wnelwyf* âg eilunod? Gwrandewais, ac edrychais arno: myfi *sydd* fel ffynnidwydden ir; o honof fi y ceir dy ffrwyth di.
9 Pwy *sydd* ddoeth, ac efe a ddeall hyn? *a* deallgar, ac efe a'i gwybydd? canys uniawn *yw* ffyrdd yr ARGLWYDD, a'r rhai cyfiawn a rodiant ynddynt: ond y troseddwyr a dramgwyddant ynddynt.

LLYFR JOEL.

PENNOD 1.

1 Jöel yn datgan amryw farnedigaethau Duw; ac yn annog i ddal arnynt, 8 ac i alaru: 14 yn gosod ympryd i gwynfan.

GAIR yr ARGLWYDD yr hwn a ddaeth at Jöel mab Pethuel.
2 Gwrandêwch hyn, chwi henuriaid; a rhoddwch glust, holl drigolion y wlad: a fu hyn yn eich dyddiau, neu yn nyddiau eich tadau?
3 Mynegwch hyn i'ch plant, a'ch plant i'w plant hwythau, a'u plant hwythau i genhedlaeth arall.
4 Gweddill y lindys a fwyttaodd y ceiliog rhedyn, a gweddill y ceiliog rhedyn a ddifaodd pryf y rhwd, a gweddill pryf y rhwd a ysodd y locust.
5 Deffrôwch, feddwyr, ac wylwch; ac udwch, holl yfwyr gwin, am y gwin newydd; canys torrwyd ef oddi wrth eich min.
6 O herwydd cenhedlaeth gref annifeiriol a ddaeth i fyny ar fy nhir; dannedd llew *yw* ei dannedd, a chil-ddannedd hen lew *sydd* iddi.
7 Gosododd fy ngwinwydden yn ddifrod, a'm ffigysbren a ddirisgliodd: gan ddinoethi dinoethodd hi, a thaflodd *hi* ymaith: ei changau a wynnasant.
8 ¶ Uda fel gwyryf wedi ymwregysu *mewn* sachlïan am brïod ei hieuengctid.
9 Torrwyd oddi wrth dŷ yr ARGLWYDD yr offrwm bwyd, a'r offrwm dïod: y mae yr offeiriaid, gweinidogion yr ARGLWYDD, yn galaru.
10 Difrodwyd y maes, y ddaear a alara; canys gwnaethpwyd difrod ar yr ŷd: sychodd y gwin newydd, llesgaodd yr olew.
11 Cywilyddiwch, y llafurwyr; udwch, y gwinwyddwyr, am y gwenith, ac am yr haidd: canys darfu am gynhauaf y maes.
12 Gwywodd y winwydden, llesgaodd y ffigysbren, y pren pomgranad, y balmwydden hefyd, a'r afallen, *a* holl brennau y maes, a wywasant; am wywo llawenydd oddi wrth feibion dynion.
13 Ymwregyswch a griddfenwch, chwi offeiriaid; udwch, weinidogion yr allor; deuwch, weinidogion fy NUW, gorweddwch ar hyd y nos mewn sachlïan: canys attelir oddi wrth dŷ eich DUW yr offrwm bwyd, a'r offrwm dïod.
14 ¶ Cyssegrwch ympryd, gelwch gymmanfa, cesglwch yr henuriaid, *a* holl drigolion y wlad, i dŷ yr ARGLWYDD eich DUW, a gwaeddwch ar yr ARGLWYDD;
15 Och o'r diwrnod! canys dydd yr ARGLWYDD *sydd* yn agos, ac fel difrod oddi wrth yr Hollalluog y daw.
16 Oni thorrwyd y ngŵydd ein llygaid ni oddi wrth dŷ ein DUW, y bwyd, y llawenydd, a'r digrifwch?
17 Pydrodd yr hadau dan eu

priddellau, yr ysguboriau a anrheithiwyd, yr ydlannau a fwriwyd i lawr; canys yr ŷd a wywodd.

18 O o'r griddfan y mae yr anifeiliaid! y mae yn gyfyng ar y minteioedd gwartheg, am nad *oes* borfa iddynt; y diädellau defaid hefyd a anrheithiwyd.

19 Arnat ti, ARGLWYDD, y llefaf; canys y tân a ddifaodd borfeydd yr anialwch, y fflam a oddeithiodd holl brennau y maes.

20 Anifeiliaid y maes hefyd sydd yn brefu arnat; canys sychodd y ffrydiau dwfr, a'r tân a ysodd borfeydd yr anialwch.

PENNOD 2.

1 *Y mae yn dangos i Sion mor ofnadwy ydyw barnedigaethau Duw;* 12 *yn annog i edifeirwch;* 15 *yn gorchymyn ympryd,* 18 *ac yn addaw bendith arno.* 21 *Y mae yn cysuro Sion â bendithion presennol,* 28 *ac â rhai a ddeuai.*

CENWCH yr udgorn yn Sïon, a bloeddiwch ar fynydd fy sancteiddrwydd: dychryned holl breswylwyr y wlad; canys daeth dydd yr ARGLWYDD, canys *y mae* yn agos.

2 Diwrnod tywyll du, diwrnod cymmylog a niwlog, fel y wawr wedi ymwasgaru ar y mynyddoedd: pobl fawr a chryfion, ni bu eu bath erioed, ac ni bydd eilwaith ar eu hol, hyd flynyddoedd cenhedlaeth a chenhedlaeth.

3 O'u blaen y difa y tân, ac ar eu hol y fflam; *mae* y wlad o'u blaen fel gardd baradwys, ac ar eu hol yn ddiffaethwch anrheithiedig; a hefyd ni ddïangc dim ganddynt.

4 Yr olwg arnynt *sydd* megis golwg o feirch; ac fel marchogion, felly y rhedant.

5 Megis swn cerbydau ar bennau y mynyddoedd y llammant, fel swn tân ysol yn difa y sofi, *ac* fel pobl gryfion wedi ymosod i ryfel.

6 O'u blaen yr ofna y bobl; pob wyneb a gasgl barddu.

7 Rhedant fel glewion, dringant y mur fel rhyfelwyr, a cherddant bob un yn ei ffordd ei hun, ac ni ŵyrant oddi ar eu llwybrau.

8 Ni wthiant y naill y llall; cerddant bob un ei lwybr ei hun: ac er eu syrthio ar y cleddyf, nid archollir hwynt.

9 Gwibiant ar hyd y ddinas; rhedant ar y mur, dringant i'r tai; ânt i mewn trwy *y* ffenestri fel lleidr.

10 O'u blaen y cryn y ddaear, y nefoedd a gynhyrfir; yr haul a'r lleuad a dywyllir, a'r sêr a attaliant eu llewyrch.

11 A'r ARGLWYDD a rydd ei lef o flaen ei lu: canys mawr iawn *yw* ei wersyll ef: canys cryf *yw* yr hwn sydd yn gwneuthur ei air ef: o herwydd mawr *yw* dydd yr ARGLWYDD, ac ofnadwy iawn; a phwy a'i herys?

12 ¶ Ond yr awr hon, medd yr ARGLWYDD, Dychwelwch attaf fi â'ch holl galon, âg ympryd hefyd, ac âg wylofain, ac â galar.

13 A rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad; ac ymchwelwch at yr ARGLWYDD eich DUW: o herwydd graslawn a thrugarog *yw* efe, hwyrfrydig i ddigofaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg.

14 Pwy a ŵyr a dry efe, ac edifarhâu, a gweddill bendith ar ei ol, *sef* bwyd-offrwm a dïod-offrwm i'r ARGLWYDD eich DUW?

15 ¶ Cenwch udgorn yn Sïon, cyssegrwch ympryd, gelwch gymmanfa:

16 Cesglwch y bobl; cyssegrwch y gynnulleidfa: cynhullwch yr henuriaid; cesglwch y plant, a'r rhai yn sugno bronnau; deued y prïodfab allan o'i ystafell, a'r brïodferch allan o ystafell ei gwely.

17 Wyled yr offeiriaid, gweinidogion yr ARGLWYDD, rhwng y porth a'r allor, a dywedant, Arbed dy bobl, O ARGLWYDD, ac na ddyro dy etifeddiaeth i warth, i lywodraethu o'r cenhedloedd arnynt: paham y dywedent ym mhlith y bobloedd, Pa le *y mae* eu DUW hwynt?

18 ¶ Yna yr ARGLWYDD a eiddigedda am ei dir, ac a arbed ei bobl.

19 A'r ARGLWYDD a ettyb, ac a ddywed wrth ei bobl, Wele fi yn anfon i chwi ŷd, a gwin, ac olew; a diwellir chwi o hono: ac ni wnaf chwi mwyach yn waradwydd ym mysg y cenhedloedd.

20 Eithr bwriaf yn bell oddi wrthych y gogledd-*lu*, a gyrraf ef

i dir sych diffaeth, a'i wyneb tu a môr y dwyrain, a'i ben ol tu a'r môr eithaf: a'i ddrewi a gyfyd, a'i ddrygsawr a â i fyny, am iddo wneuthur mawrhydri.

21 ¶ Nac ofna di, ddaear; gorfoledda a llawenycha: canys yr ARGLWYDD a wna fawredd.

22 Nac ofnwch, anifeiliaid y maes: canys tarddu y mae porfeydd yr anialwch; canys y pren a ddwg ei ffrwyth, y ffigysbren a'r winwydden a roddant eu cnwd.

23 Chwithau, plant Sïon, gorfoleddwch, ac ymlawenhêwch yn yr ARGLWYDD eich DUW: canys efe a roddes i chwi y cynnar-wlaw yn gymmedrol, ac a wna i'r cynnar-wlaw a'r diweddar-wlaw ddisgyn i chwi yn y *mis* cyntaf.

24 A'r ysguboriau a lenwir o ŷd, a'r gwin newydd a'r olew a â dros y llestri.

25 A mi a dalaf i chwi y blynyddoedd a ddifaodd y ceiliog rhedyn, pryf y rhwd, a'r locust, a'r lindys, fy llu mawr i, yr hwn a anfonais yn eich plith.

26 Yna y bwyttêwch, gan fwytta ac ymddigoni; ac y moliennwch enw yr ARGLWYDD eich DUW, yr hwn a wnaeth â chwi yn rhyfedd: ac ni waradwyddir fy mhobl byth.

27 A chewch wybod fy *mod* i y'nghanol Israel, ac *mai* myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW, ac nid *neb* arall: a'm pobl nis gwaradwyddir byth.

28 ¶ A bydd ar ol hynny, y tywalltaf fy yspryd ar bob cnawd; a'ch meibion a'ch merched a brophwydant, eich henuriaid a welant freuddwydion, eich gwŷr ieuaingc a welant weledigaethau:

29 Ac ar y gweision hefyd ac ar y morwynion y tywalltaf fy yspryd yn y dyddiau hynny.

30 A gwnaf ryfèddodau yn y nefoedd; ac yn y ddaear, gwaed, a thân, a cholofnau mwg.

31 Yr haul a droir yn dywyllwch, a'r lleuad yn waed, o flaen dyfod mawr ac ofnadwy ddydd yr ARGLWYDD.

32 A bydd, yr achubir pob un a alwo ar enw yr ARGLWYDD; canys bydd ymwared, fel y dywedodd yr ARGLWYDD, ym mynydd Sïon, ac yn Jerusalem, ac yn y gweddillion a alwo yr ARGLWYDD.

PENNOD 3.

1 *Barnedigaethau Duw yn erbyn gelynion ei bobl:* 2 *ac y bydd rhaid ei adnabod ef yn ei farnedigaeth.* 18 *Ei fendithion ef ar yr eglwys.*

CANYS wele, yn y dyddiau hynny, ac yn yr amser hwnnw, pan ddychwelwyf gaethiwed Judah a Jerusalem,

2 Casglaf hefyd yr holl genhedloedd, a dygaf hwynt i waered i ddyffryn Jehosaphat; a dadleuaf â hwynt yno dros fy mhobl, a'm hetifeddiaeth Israel, y rhai a wasgaraasant hwy ym mysg y cenhedloedd, a rhannasant fy nhir.

3 Ac ar fy mhobl y bwriasant goelbrennau, a rhoddasant y bachgen er puttain, a gwerthasant fachgennes er gwin, fel yr yfent.

4 Tyrus hefyd a Sidon, a holl ardaloedd Palestina, beth sydd i chwi *a wneloch* â mi? a delwch i mi y pwyth? ac os telwch i mi, buan iawn y dychwelaf eich tâl ar eich pen eich hunain;

5 Am i chwi gymmeryd fy arian a'm haur, a dwyn i'ch temlau fy nhlysau dymunol.

6 Gwerthasoch hefyd feibion Judah a meibion Jerusalem i'r Groegiaid, i'w pellhâu oddi wrth eu hardaloedd.

7 Wele, mi a'u codaf hwynt o'r lle y gwerthasoch hwynt iddo, ac a ddattroaf eich tâl ar eich pen eich hunain.

8 A minnau a werthaf eich meibion a'ch merched i law meibion Judah, a hwythau a'u gwerthant i'r Sabeaid, i genedl o bell; canys yr ARGLWYDD a lefarodd *hyn.*

9 ¶ Cyhoeddwch hyn ym mysg y cenhedloedd, gosodwch ryfel, deffrôwch y gwŷr cryfion, nesâed y gwŷr o ryfel, deuant i fyny.

10 Gyrrwch eich sychau yn gleddyfau, a'ch pladuriau yn waywffyn: dyweded y llesg, Cryf *ydwyf.*

11 Ymgesglwch, a deuwch, y cenhedloedd o amgylch ogylch, ac ymgynhullwch: yno disgyn, O ARGLWYDD, dy gedyrn.

12 Deffrôed y cenhedloedd, a deuant i fyny i ddyffryn Jehosaphat;

o herwydd yno yr eisteddaf i farnu yr holl genhedloedd o amgylch.
13 Rhowch i mewn y crymman; canys addfedodd y cynhauaf: deuwch, ewch i waered; o herwydd y gwrŷf a lanwodd, a'r gwasg-gafnau a aethant trosodd, am amlhâu eu drygioni hwynt.
14 Torfeydd, torfeydd *a fydd* yng nglyn terfyniad: canys agos *yw* dydd yr ARGLWYDD y'nglyn terfyniad.
15 Yr haul a'r lloer a dywyllant, a'r sêr a attaliant eu llewyrch.
16 A'r ARGLWYDD a rua o Sïon, ac a rydd ei lef o Jerusalem; y nefoedd hefyd a'r ddaear a grynant: ond yr ARGLWYDD *fydd* gobaith ei bobl, a chadernid meibion Israel.
17 Felly y cewch wybod mai myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW, yn trigo yn Sïon, fy mynydd sanctaidd: yna y bydd Jerusalem yn sanctaidd, ac nid â dïeithriaid trwyddi mwyach.
18 ¶ A'r dydd hwnnw y bydd i'r mynyddoedd ddefnynnu melyswin, a'r bryniau a lifeiriant o laeth, a holl ffrydiau Judah a redant gan ddwfr, a ffynnon a ddaw allan o dŷ yr ARGLWYDD, ac a ddyfrhâ ddyffryn Sittim.
19 Yr Aipht a fydd anghyfannedd, ac Edom fydd anialwch anghyfanneddol, am y traha *yn erbyn* meibion Judah, am iddynt dywallt gwaed gwirion yn eu tir hwynt.
20 Etto Judah a drig byth, a Jerusalem o genhedlaeth i genhedlaeth.
21 Canys glanhâf waed y rhai nis glanheais: canys yr ARGLWYDD sydd yn trigo yn Sïon.

LLYFR AMOS.

PENNOD 1.

1 *Amos yn dangos barnedigaethau Duw ar Syria,* 6 *ac ar y Philistiaid,* 9 *ac ar Tyrus,* 11 *ac ar Edom,* 13 *ac ar Ammon.*

GEIRIAU Amos, (yr hwn oedd ym mysg bygeiliaid Tecoa,) y rhai a welodd efe am Israel, yn nyddiau Ussïah brenhin Judah, ac yn nyddiau Jeroboam mab Joas brenhin Israel, ddwy flynedd o flaen y ddaeargryn.
2 Ac efe a ddywedodd, Yr ARGLWYDD a rua o Sïon, ac a rydd ei lef o Jerusalem; a chyfanneddau y bugeiliaid a alarant, a phen Carmel a wywa.
3 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; O herwydd tair o anwireddau Damascus, ac o herwydd pedair, nis troaf ymaith ei *chosp* hi; am iddynt ddyrnu Gilead âg offer dyrnu o heiyrn.
4 Ond anfonaf dân i dŷ Hasael, ac efe a ddifa balasau Benhadad.
5 Drylliaf drosol Damascus, a thorraf ymaith y preswylwyr o ddyffryn Afen, a'r hwn sydd yn dal teyrn-wïalen o dŷ Eden; a phobl Syria a ânt yn gaeth i Cir, medd yr ARGLWYDD.
6 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Am dair *o* anwireddau Gasa, ac am bedair, ni throaf ymaith ei *chosp* hi; am iddynt gaethgludo y gaethiwed gyflawn, i'w rhoddi i fyny i Edom.
7 Eithr anfonaf dân ar fur Gasa, ac efe a ddifa ei phalasau hi.
8 A mi a dorraf y preswylwyr o Asdod, a'r hwn a ddeil deyrn-wïalen o Ascalon; a throaf fy llaw yn erbyn Ecron, a derfydd am weddill y Philistiaid, medd yr ARGLWYDD DDUW.
9 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Am dair o anwireddau Tyrus, ac am bedair, ni throaf ymaith ei *chosp* hi; o herwydd iddynt hwy roddi i fyny gwbl o'r gaethiwed i Edom, ac na chofiasant y cyfammod brawdol.
10 Eithr anfonaf dân i fur Tyrus, ac efe a ddifa ei phalasau hi.
11 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Am dair o anwireddau Edom, ac am bedair, ni throaf

ymaith ei *chosp* hi; am iddo erlid ei frawd â'r cleddyf, a llygru ei drugaredd, a bod ei ddig yn rhwygo yn wastadol, a'i fod yn cadw ei lid yn dragywyddol.

12 Eithr anfonaf dân i Teman, yr hwn a ddifa balasau Bosrah.

13 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Am dair o anwireddau meibion Ammon, ac am bedair, ni throaf ymaith ei *chosp* hi; am iddynt hwy rwygo gwragedd beichiogion Gilead, er mwyn helaethu eu terfynau.

14 Eithr cynneuaf dân ym mur Rabbah, ac efe a ddifa ei phalasau, gyd â gwaedd ar ddydd y rhyfel, gyd â thymmestl ar ddydd corwynt.

15 A'u brenhin a â yn gaeth, efe a'i bennaethiaid ynghyd, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 2.

1 *Digofaint Duw yn erbyn Moab,* 4 *ac ar Judah,* 6 *ac ar Israel.* 9 *Duw yn achwyn rhag eu hannkolchgarwch hwy.*

FEL hyn y dywed yr ARGLWYDD; Am dair o anwireddau Moab, ac am bedair, ni throaf ymaith ei *chosp* hi; am iddo losgi esgyrn brenhin Edom yn galch.

2 Eithr anfonaf dân i Moab, yr hwn a ddifa balasau Cerioth: a Moab fydd marw mewn terfysg, gwaeddi, *a* llais udgorn.

3 A mi a dorraf ymaith y barnwr o'i chanol hi, a'i holl bendefigion a laddaf gyd âg ef, medd yr ARGLWYDD.

4 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Am dair o anwireddau Judah, ac am bedair, ni throaf ymaith ei *chosp* hi; am iddynt ddirmygu cyfraith yr ARGLWYDD, ac nas cadwasant ei ddeddfau ef; a'u celwyddau a'u cyfeiliornodd hwynt, y rhai yr aeth eu tadau ar eu hol.

5 Eithr anfonaf dân i Judah, ac efe a ddifa balasoedd Jerusalem.

6 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Am dair o anwireddau Israel, ac am bedair, ni throaf ymaith ei *chosp* hi; am iddynt werthu y cyfiawn am arian, a'r tlawd er pâr o esgidiau:

7 Y rhai a ddyheuant ar ol llwch y ddaear ar ben y tlodion, ac a ŵyrant ffordd y gostyngedig: a gŵr a'i dad a â at yr *un* llangces, i halogi fy enw sanctaidd.

8 Ac ar ddillad wedi eu rhoi yng ngwystl y gorweddant wrth bob allor; a gwin y dirwyol a yfant *yn* nhŷ eu duw.

9 ¶ Etto myfi a ddinystriais yr Amoriad o'u blaen hwynt, yr hwn *yr oedd* ei uchder fel uchder y cedrwydd, ac efe *oedd* gryf fel derw; etto mi a ddinystriais ei ffrwythau oddi arnodd, a'i wraidd oddi tanodd.

10 Myfi hefyd a'ch dygais chwi i fyny o wlad yr Aipht, ac a'ch arweiniais chwi ddeugain mlynedd trwy yr anialwch, i feddiannu gwlad yr Amoriad.

11 A mi a gyfodais o'ch meibion chwi *rai* yn brophwydi, ac o'ch gwŷr ieuaingc rai yn Nasareaid. Oni *bu* hyn, O meibion Israel? medd yr ARGLWYDD.

12 Ond chwi a roisoch i'r Nasareaid win i'w yfed; ac a orchymynasoch i'ch prophwydi, gan ddywedyd, Na phrophwydwch.

13 Wele fi wedi fy llethu tanoch fel y llethir y fen lawn o ysgubau.

14 A metha gan y buan ddïangc, a'r cryf ni chadarnhâ ei rym, a'r cadarn ni wared ei enaid ei hun:

15 Ni saif a ddalio y bwa, ni ddïangc y buan o draed, nid achub marchog march ei einioes ei hun.

16 A'r cryfaf ei galon o'r cedyrn a ffy y dwthwn hwnnw yn noethlymmun medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 3.

1 *Mor anghenraid yw barnedigaethau Duw yn erbyn Israel:* 9 *cyhoeddi hynny, a'i achos hefyd.*

GWRANDEWCH y gair a lefarodd yr ARGLWYDD i'ch erbyn chwi, plant Israel, yn erbyn yr holl deulu a ddygais i fyny o wlad yr Aipht, gan ddywedyd,

2 Chwi yn unig a adnabûm o holl deuluoedd y ddaear: am hynny ymwelaf â chwi *am* eich holl anwireddau.

3 A rodia dau ynghyd, heb fod yn gyttûn?

4 A rua y llew yn y goedwig, heb ganddo ysglyfaeth? a leisia cenaw llew o'i ffau, heb ddal dim?
5 A syrth yr aderyn yn y fagl ar y ddaear, heb *fod* croglath iddo? a gyfyd *un* y fagl oddi ar y ddaear, heb ddal dim?
6 A genir udgorn yn y ddinas, heb ddychrynu o'r bobl? a fydd niwed yn y ddinas, heb i'r ARGLWYDD *ei* wneuthur?
7 Canys ni wna yr ARGLWYDD ddim, a'r nas dangoso ei gyfrinach i'w weision y prophwydi.
8 Rhuodd y llew, pwy nid ofna? yr Arglwydd IOR a lefarodd, pwy ni phrophwyda?
9 ¶ Cyhoeddwch o fewn y palasau yn Asdod, ac yn y palasau y'ngwlad yr Aipht, a dywedwch, Deuwch ynghyd ar fynyddoedd Samaria, a gwelwch derfysgoedd lawer o'i mewn, a'r gorthrymmedigion yn ei chanol hi.
10 Canys ni fedrant wneuthur uniondeb, medd yr ARGLWYDD: pentyrru y maent drais ac yspail yn eu palasau.
11 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Gelyn *fydd* o amgylch y tir; ac efe a dyn i lawr dy nerth oddi wrthyt, a'th balasoedd a yspeilir.
12 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Fel yr achub y bugail o safn y llew y ddwygoes, neu ddarn o glust; felly yr achubir meibion Israel y rhai sydd yn trigo yn Samaria mewn cwr gwely, ac yn Damascus *mewn* gorweddle.
13 Gwrandêwch, a thystiolaethwch yn nhŷ Jacob, medd yr ARGLWYDD DDUW, DUW y lluoedd,
14 Mai y dydd yr ymwelaf âg anwiredd Israel arno ef, y gofwyaf hefyd allorau Bethel: a chyrn yr allor a dorrir, ac a syrthiant i'r llawr.
15 A mi a darawaf y gauafdy a'r hafdy; a derfydd am y tai ifori, a bydd diben ar y teiau mawrion, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 4.

1 *Y mae yn ceryddu Israel am eu trais,* 4 *a'u delw-addoliaeth,* 6 *ac am nad oeddynt yn gwellhau wrth eu ceryddu.*

GWRANDEWCH y gair hwn, gwartheg Basan, y rhai *ydych* ym mynydd Samaria, y rhai ydych yn gorthrymmu y tlawd, yn ysigo yr anghenog, yn dywedyd wrth eu meistriaid, Dygwch, ac yfwn.
2 Tyngodd yr Arglwydd DDUW i'w sancteiddrwydd, y daw, wele, y dyddiau arnoch, y dwg efe chwi ymaith â drain, a'ch hiliogaeth â bachau pysgotta.
3 A chwi a ewch allan i'r adwyau, bob un ar ei chyfer; a chwi a'u teflwch hwynt i'r palas, medd yr ARGLWYDD.
4 ¶ Deuwch i Bethel, a throseddwch; i Gilgal, a throseddwch fwyfwy: dygwch bob bore eich aberthau, *a*'ch degymmau wedi tair blynedd *o ddyddiau;*
5 Ac offrymmwch o surdoes *aberth* diolch, cyhoeddwch *a* hysbyswch aberthau gwirfodd: canys hyn a hoffwch, meibion Israel, medd yr ARGLWYDD DDUW.
6 ¶ A rhoddais i chwi lendid dannedd yn eich holl ddinasoedd, ac eisieu bara yn eich holl leoedd: etto ni ddychwelasoch attaf fi, medd yr ARGLWYDD.
7 Myfi hefyd a atteliais y gwlaw rhagoch, pan *oedd* etto dri mis hyd y cynhauaf: gwlawiais hefyd ar un ddinas, ac ni wlawiais ar ddinas arall: un rhan a gafodd wlaw; a'r rhan ni chafodd wlaw a wywodd.
8 Gwibiodd dwy ddinas *neu* dair i un ddinas, i yfed dwfr; ond nis diwallwyd: etto ni ddychwelasoch attaf fi, medd yr ARGLWYDD.
9 Tarêwais chwi â diflanniad, ac â mallder: pan amlhaodd eich gerddi, a'ch gwinllannoedd, a'ch ffigyswydd, a'ch olew-wydd, y lindys a'*u* hysodd: etto ni throisoch attaf fi, medd yr ARGLWYDD.
10 Anfonais yr haint yn eich mysg, megis yn ffordd yr Aipht: eich gwŷr ieuainge a leddais â'r cleddyf, gyd â chaethgludo eich meirch; a chodais ddrewi eich gwersylloedd i'ch ffroenau: etto ni throisoch attaf fi, medd yr ARGLWYDD.
11 Mi a ddymchwelais *rai* o honoch, fel yr ymchwelodd DUW Sodom a Gomorrah; ac yr oeddech fel pentewyn wedi ei achub o'r

gynneu dân: etto ni throisoch attaf fi, medd yr ARGLWYDD.

12 O herwydd hynny yn y modd yma y gwnaf i ti, Israel: *ac* o herwydd mai hyn a wnaf i ti, bydd barod, Israel, i gyfarfod â'th DDUW.

13 Canys wele, Lluniwr y mynyddoedd, a Chreawdwr y gwynt, yr hwn a fynega i ddyn beth *yw* ei feddwl, *ac* a wna y bore yn dywyllwch, ac a gerdd ar uchelderau y ddaear, yr ARGLWYDD, DUW y lluoedd, *yw* ei enw.

PENNOD 5.

1 *Cwynfan dros Israel.* 4 *Annog i edifeirwch.* 21 *Duw yn gwrthod eu rhagrithiol wasanaeth hwy.*

GWRANDEWCH y gair hwn a godaf i'ch erbyn, *sef* galarnad, O dŷ Israel.

2 Y wyryf Israel a syrthiodd; ni chyfyd mwy: gadawyd hi ar ei thir; nid *oes* a'i cyfyd.

3 Canys y modd hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW; Y ddinas a aeth allan *â* mil, a weddill gant; a'r hon a aeth allan *ar* ei chanfed, a weddill ddeg i dŷ Israel.

4 ¶ O herwydd fel hyn y dywed yr ARGLWYDD wrth dŷ Israel; Ceisiwch fi, a byw fyddwch.

5 Ond nac ymgeisiwch â Bethel, ac nac ewch i Gilgal, ac na thrammwywch i Beerseba: o herwydd gan gaethgludo y caethgludir Gilgal, a Bethel a fydd yn ddiddym.

6 Ceisiwch yr ARGLWYDD, a byw fyddwch; rhag iddo dorri allan yn nhŷ Joseph fel tân, a'*i* ddifa, ac na *byddo* a'*i* diffoddo yn Bethel.

7 Y rhai a drowch farn yn wermod, ac a adêwch gyfiawnder ar y llawr,

8 *Ceisiwch yr hwn* a wnaeth y saith seren, ac Orïon, ac a dry gysgod angau yn foreddydd, ac a dywylla y dydd yn nos; yr hwn a eilw ddyfroedd y môr, ac a'u tywallt ar wyneb y ddaear: Yr ARGLWYDD *yw* ei enw:

9 Yr hwn sydd yn nerthu yr anrheithiedig yn erbyn y cryf, fel y delo yr anrheithiedig yn erbyn yr amddiffynfa.

10 Cas ganddynt a geryddo yn y porth, a ffiaidd ganddynt a lefaro yn berffaith.

11 O herwydd hynny am i chwi sathru y tlawd, a dwyn y beichiau gwenith oddi arno; chwi a adeiladasoch dai o gerrig nadd, ond ni thrigwch ynddynt; plannasoch winllannoedd hyfryd, ac nid yfwch eu gwin hwynt.

12 Canys mi a adwaen eich anwireddau lawer, a'ch pechodau cryfion: y maent yn blino y cyfiawn, yn cymmeryd iawn, ac yn troi heibio y tlawd yn y porth.

13 Am hynny y neb a fyddo gall a ostega yr amser hwnnw: canys amser drwg *yw*.

14 Ceisiwch ddaioni, ac nid drygioni; fel y byddoch fyw: ac felly yr ARGLWYDD, DUW y lluoedd, fydd gyd â chwi, fel y dywedasoch.

15 Casêwch ddrygioni, a hoffwch ddaioni, a gosodwch farn yn y porth: fe allai y bydd ARGLWYDD DDUW y lluoedd yn rasiawn i weddill Joseph.

16 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, DUW y lluoedd, yr Arglwydd; Ym mhob heol *y bydd* cwynfan, ac ym mhob prif-ffordd y dywedant, O! O! a galwant yr arddwr i alaru; a'r neb a fedro alaru, i gwynfan.

17 Ac ym mhob gwinllan *y bydd* cwynfan: canys tramwyaf trwy dy ganol di, medd yr ARGLWYDD.

18 Gwae y neb sydd yn dymuno dydd yr ARGLWYDD! beth *yw* hwnnw i chwi? tywyllwch, ac nid goleuni *yw* dydd yr ARGLWYDD.

19 Megis pe ffoai gŵr rhag llew, ac arth yn cyfarfod âg ef; a myned i'r tŷ, a phwyso ei law ar y pared, a'i frathu o sarph.

20 Oni *bydd* dydd yr ARGLWYDD yn dywyllwch, ac nid yn oleuni? yn dywyll iawn, ac heb lewyrch ynddo?

21 ¶ Caseais *a* ffieiddiais eich gwyliau, ac nid aroglaf yn eich cymmanfaoedd.

22 Canys er i chwi offrymmu i mi boeth-offrymmau, a'ch offrymmau bwyd, ni fyddaf foddlawn *iddynt;* ac nid edrychaf ar hedd-offrwm eich pasgedigion.

23 Symmud oddi wrthyf drwst dy ganiadau: canys ni wrandawaf beroriaeth dy nablau.

24 Ond rheded barn fel dyfroedd,
a chyfiawnder fel ffrwd gref.
25 A offrymmasoch chwi i mi
aberthau a bwyd-offrymmau yn y
diffaethwch ddeugain mlynedd, tŷ
Israel?
26 Ond dygasoch babell eich
Moloch a Chiwn, eich delwau, sen-
eich duw, a wnaethoch i chwi
eich hunain.
27 Am hynny y caethgludaf chwi
i'r tu hwnt i Damascus, medd yr
ARGLWYDD; DUW y lluoedd *yw* ei
enw.

PENNOD 6.

1 *Y cospir nwyfiant Israel 7 âg anghyfanneddrwydd.* 12 *Mor anhawdd gandidynt weithdu.*

GWAE y rhai esmwyth arnynt yn
Sïon, ac sydd yn ymddiried ym
mynydd Samaria, y rhai a enwir yn
bennaf o'r cenhedloedd, y rhai y
daeth tŷ Israel attynt!
2 Tramwywch i Calneh, ac edrych-
wch, ac ewch oddi yno i Hamath
fwyaf; yna disgynwch i Gath y
Philistiaid: ai gwell *ydynt* na'r
teyrnasoedd hyn? ai helaethach eu
terfyn hwy na'ch terfyn chwi?
3 Y rhai ydych yn pellhâu y dydd
drwg, ac yn nesâu eisteddle trais;
4 Gorwedd y maent ar welŷau
ifori, ac ymestyn ar eu glythau, a
bwytta yr ŵyn o'r praidd, a'r lloi o
ganol y cut;
5 Y rhai a ddatganant gyd â llais
y nabl; dychymmygasant iddynt eu
hun offer cerdd, megis Dafydd;
6 Y rhai a yfant win mewn
phïolau, ac a ymirant â'r ennaint
pennaf; ond nid ymofidiant am
ddryllio Joseph.
7 ¶ Am hynny yr awr hon hwy a
ddygir yn gaeth gyd â'r cyntaf a
ddygir yn gaeth; a gwledd y rhai
a ymestynant, a symmudir.
8 Tyngodd yr ARGLWYDD DDUW
iddo ei hun, Ffiaidd gennyf odid-
owgrwydd Jacob, a chaseais ei ba-
lasau: am hynny y rhoddaf i fyny
y ddinas ac sydd ynddi, medd AR-
GLWYDD DDUW y lluoedd.
9 A bydd, os gweddillir mewn un
tŷ ddeg o ddynion, y byddant
feirw.
10 Ei ewythr a'i cyfyd i fyny, a'r
hwn a'i llysg, i ddwyn yr esgyrn
allan o'r tŷ, ac a ddywed wrth yr
hwn a fyddo wrth ystlysau y tŷ,
A oes etto *neb* gyd â thi? ac efe
a ddywed, Nac *oes:* yna y dywed
yntau, Taw; am na *wasanaetha*
cofio enw yr ARGLWYDD.
11 O herwydd wele yr ARGLWYDD
yn gorchymyn, ac efe a dery y tŷ
mawr âg agennau, a'r tŷ bychan â
holltau.
12 ¶ A rêd meirch ar y graig?
a ardd *neb hi* âg ychain? canys
troisoch farn yn fustl, a ffrwyth
cyfiawnder yn wermod.
13 O chwi y rhai sydd yn llawen-
ychu mewn peth diddym, yn dy-
wedyd, Onid o'n nerth ein hun y
cymmerasom i ni gryfder?
14 Ond wele, mi a gyfodaf i'ch
erbyn chwi, tŷ Israel, medd AR-
GLWYDD DDUW y lluoedd, genedl;
a hwy a'ch cystuddiant chwi, o'r
ffordd yr ewch i Hamath, hyd afon
y diffaethwch.

PENNOD 7.

1 *Troi heibio farnedigaethau y ceiliogod rhedyn,* 4 *a'r tân, trwy weddi Amos.* 7 *Trwy weledigaeth o fur a llinyn mesur, y dangosir gwrthodiad Israel.* 10 *Amasiah yn achwyn ar Amos.* 14 *Amos yn dangos ei alwedigaeth ei hun,* 16 *a barnedigaeth Amasiah.*

FEL hyn y dangosodd yr AR-
GLWYDD i mi; ac wele ef yn
ffurfio ceiliogod rhedyn pan dde-
chreuodd yr adladd godi; ac wele,
adladd wedi lladd *gwair* y brenhin
oedd.
2 A phan ddarfu iddynt fwytta
glaswellt y tir, yna y dywedais,
Arbed, ARGLWYDD, attolwg: pwy a
gyfyd Jacob? canys bychan *yw.*
3 Edifarhaodd yr ARGLWYDD am
hyn: Ni bydd hyn, eb yr AR-
GLWYDD.
4 ¶ Fel hyn y dangosodd yr AR-
GLWYDD DDUW i mi: ac wele yr
ARGLWYDD DDUW yn galw i farn
trwy dân; a difaodd *y tân* y dyfn-
der mawr, ac a ysodd beth.
5 Yna y dywedais, ARGLWYDD
DDUW, paid, attolwg: pwy a gyfyd
Jacob? canys bychan *yw.*
6 Edifarhaodd yr ARGLWYDD am
hyn: Ni bydd hyn chwaith, eb yr
ARGLWYDD DDUW.
7 ¶ Fel hyn y dangosodd efe i mi:
ac wele yr ARGLWYDD yn sefyll ar
gaer *a wnaethpwyd* wrth linyn, ac
yn ei law linyn.

8 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Beth a weli di, Amos? a mi a ddywedais, Llinyn. A'r ARGLWYDD a ddywedodd, Wele, gosodaf linyn y'nghanol fy mhobl Israel, *ac* ni chwanegaf fyned heibio iddynt mwyach.

9 Uchelfeydd Isaac hefyd a wneir yn anghyfannedd, a chyssegrau Israel a ddifethir; a mi a gyfodaf yn erbyn tŷ Jeroboam â'r cleddyf.

10 ¶ Yna Amasïah offeiriad Bethel a anfonodd at Jeroboam brenhin Israel, gan ddywedyd, Cydfwriadodd Amos i'th erbyn yng nghanol tŷ Israel: ni ddichon y tir ddwyn ei holl eiriau ef.

11 Canys fel hyn y dywed Amos, Jeroboam a fydd farw trwy y cleddyf, ac Israel a gaethgludir yn llwyr allan o'i wlad.

12 Dywedodd Amasïah hefyd wrth Amos, Ti weledydd, dos, ffo ymaith i wlad Judah; a bwytta fara yno, a phrophwyda yno:

13 Na chwanega brophwydo yn Bethel mwy: canys cappel y brenhin a llys y brenhin *yw.*

14 ¶ Yna Amos a attebodd ac a ddywedodd wrth Amasïah, Nid prophwyd *oeddwn* i, ac nid mab i brophwyd *oeddwn* i; namyn bugail *oeddwn* i, a chasglydd ffigys gwylltion:

15 A'r ARGLWYDD a'm cymmerodd oddi ar ol y praidd; a'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Dos, *a* phrophwyda i'm pobl Israel.

16 ¶ Yr awr hon gan hynny gwrando air yr ARGLWYDD; Ti a ddywedi, Na phrophwyda yn erbyn Israel, ac nac yngan yn erbyn tŷ Isaac.

17 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Dy wraig a butteinia yn y ddinas, dy feibion a'th ferched a syrthiant gan y cleddyf, a'th dir a rennir wrth linyn; a thithau a fyddi farw mewn tir halogedig, a chan gaethgludo y caethgludir Israel allan o'i wlad.

PENNOD 8.

1 *Wrth gawell o ffrwythydd haf, y dangosir mor agos yw diwedd Israel.* 4 *Argyhoeddi trais a thraha.* 11 *Bygwth newyn gair Duw.*

FEL hyn y dangosodd yr ARGLWYDD i mi; ac wele gawellaid o ffrwythydd haf.

2 Ac efe a ddywedodd, Beth a weli di, Amos? A mi a ddywedais, Cawellaid o ffrwythydd haf. Yna y dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Daeth y diwedd ar fy mhobl Israel; nid âf heibio iddynt mwyach.

3 Caniadau y deml hefyd a droir yn udo ar y dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD DDUW: llawer o gelaneddau *a fydd* ym mhob lle; bwrir *hwynt* allan yn ddistaw.

4 ¶ Gwrandêwch hyn, y sawl ydych yn llyngcu yr anghenog, i ddifa tlodion y tir,

5 Gan ddywedyd, Pa bryd yr â y mis heibio, fel y gwerthom ŷd? a'r Sabbath, fel y dygom allan y gwenith, gan brinhâu yr ephah, a helaethu y sicl, ac anghyfiawnu y cloriannau trwy dwyll?

6 I brynu y tlawd er arian, a'r anghenus er pâr o esgidiau, ac i werthu gwehilion y gwenith?

7 Tyngodd yr ARGLWYDD i ragorfraint Jacob, Dïau nid anghofiaf byth yr un o'u gweithredoedd hwynt.

8 Oni chryn y ddaear am hyn? ac oni alara ei holl breswylwyr? cyfyd hefyd i gyd fel llif; a bwrir hi ymaith a hi a foddir, megis *gan* afon yr Aipht.

9 A'r dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD DDUW, y gwnaf i'r haul fachludo hanner dydd, a thywyllaf y ddaear *liw* dydd goleu.

10 Troaf hefyd eich gwyliau yn alar, a'ch holl ganiadau yn oernad; dygaf sachlïan ar yr holl lwynau, a moelni ar bob pen: a mi a'i gwnaf fel galar *am* unmab, a'i ddiwedd fel dydd chwerw.

11 ¶ Wele, y mae y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD DDUW, yr anfonaf newyn i'r tir; nid newyn am fara, ac nid syched am ddwfr, ond am wrandaw geiriau yr ARGLWYDD.

12 A hwy a grwydrant o fôr i fôr, ac a wibiant o'r gogledd hyd y dwyrain, i geisio gair yr ARGLWYDD, ac nis cânt.

13 Y diwrnod hwnnw y gwyryfon

glân a'r meibion ieuaingc a ddiffoddant o syched.

14 Y rhai a dyngant i bechod Samaria, ac a ddywedant, Byw *yw* dy dduw di, O Dan; a, Byw yw ffordd Beerseba; hwy a syrthiant, ac ni chodant mwy.

PENNOD 9.

1 *Mor sicr fydd y dinystr.* 11 *Adferu tabernacl Dafydd.*

GWELAIS yr ARGLWYDD yn sefyll ar yr allor: ac efe a ddywedodd, Taro gappan y drws, fel y siglo y gorsingau; a thor hwynt oll yn y pen; minnau a laddaf y rhai olaf o honynt â'r cleddyf: ni ffy ymaith o honynt a ffo, ac ni ddiangc o honynt a ddiango.

2 Pe cloddient hyd uffern, fy llaw a'u tynnai hwynt oddi yno; a phe dringent i'r nefoedd, mi a'u disgynwn hwynt oddi yno:

3 A phe llechent ar ben Carmel, chwiliwn, a chymmerwn hwynt oddi yno; a phe ymguddient o'm golwg y'ngwaelod y môr, oddi yno y gorchymynaf i'r sarph eu brathu hwynt:

4 Ac os ânt i gaethiwed o flaen eu gelynion, oddi yno y gorchymynaf i'r cleddyf, ac efe a'u lladd hwynt: a gosodaf fy ngolwg yn eu herbyn er drwg, ac nid er da *iddynt.*

5 Ac ARGLWYDD DDUW y lluoedd a gyffwrdd â'r ddaear, a hi a dawdd; a galara pawb a'r a drig ynddi, a hi a gyfyd oll fel llifeiriant, ac a foddir megis *gan* afon yr Aipht.

6 Yr hwn a adeilada ei esgynfeydd yn y nefoedd, ac a sylfaenodd ei fintai ar y ddaear, yr hwn a eilw ddyfroedd y môr, ac a'u tywallt ar wyneb y ddaear: Yr ARGLWYDD *yw* ei enw.

7 Onid *ydych* chwi, meibion Israel, i mi fel meibion yr Ethiopiaid? medd yr ARGLWYDD: oni ddygais i fyny feibion Israel allan o dir yr Aipht, a'r Philistiaid o Caphtor, a'r Syriaid o Cir?

8 Wele lygaid yr ARGLWYDD ar y deyrnas bechadurus, a mi a'i difethaf oddi ar wyneb y ddaear: ond ni lwyr-ddifethaf dŷ Jacob, medd yr ARGLWYDD.

9 Canys wele, myfi a orchymynaf, ac a ogrynnaf dŷ Israel ym mysg yr holl genhedloedd, fel y gogrynnir *ŷd* mewn gogr; ac ni syrth y gronyn lleiaf i'r llawr.

10 Holl bechaduriaid fy mhobl a fyddant feirw gan y cleddyf, y rhai a ddywedant, Ni oddiwes drwg ni, ac ni achub ein blaen.

11 ¶ Y dydd hwnnw y codaf babell Dafydd, yr hon a syrthiodd, ac a gauaf ei bylchau, ac a godaf ei hadwyau, ac a'i hadeiladaf fel yn y dyddiau gynt:

12 Fel y meddianno y rhai y gelwir fy enw arnynt, weddill Edom, a'r holl genhedloedd, medd yr ARGLWYDD, yr hwn a wna hyn.

13 Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr ARGLWYDD, y goddiwes yr arddwr y medelwr, a sathrydd y grawnwin yr hauwr had; a'r mynyddoedd a ddefnynant felyswin, a'r holl fryniau a doddant.

14 A dychwelaf gaethiwed fy mhobl Israel; a hwy a adeiladant y dinasoedd anghyfannedd, ac a'u preswyliant; a hwy a blannant winllannoedd, ac a yfant o'u gwin; gwnant hefyd erddi, a bwyttânt eu ffrwyth hwynt.

15 Ac mi a'u plannaf hwynt yn eu tir, ac nis diwreiddir hwynt mwyach o'u tir a roddais i iddynt, medd yr ARGLWYDD dy DDUW.

LLYFR OBADIAH.

1 *Dinystr Edom,* 3 *am eu balchder,* 10 *ac am y cam a wnaethent i Jacob.* 17 *Iachawdwriaeth a buddugoliaeth Jacob.*

GWELEDIGAETH Obadïah. Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD DDUW am Edom; Clywsom sôn oddi wrth yr ARGLWYDD, a chennad a hebryngwyd ym mysg y cenhedloedd; Codwch, a chyfodwn i ryfela yn ei herbyn hi.

2 Wele, mi a'th wneuthum yn fychan ym mysg y cenhedloedd; dibris iawn *wyt.*

3 ¶ Balchder dy galon a'th dwyllodd: ti yr hwn wyt yn trigo yn holltau y graig, *yn* uchel ei drigfa; yr hwn a ddywed yn ei galon, Pwy a'm tyn i'r llawr?

4 Ped ymddyrchefit megis yr eryr, a phe rhoit dy nyth ym mhlith y sêr, mi a'th ddisgynwn oddi yno, medd yr ARGLWYDD.

5 Pe deuai lladron attat, neu yspeilwyr nos, (pa fodd y'th dorrwyd ymaith!) oni ladrattasent hwy eu digon? pe daethai cynhullwyr grawnwin attat, oni weddillasent rawn?

6 Pa fodd y chwiliwyd Esau, *ac* y ceisiwyd ei guddfeydd ef!

7 Yr holl wŷr y rhai yr oedd cyfammod rhyngot â hwynt, a'th yrrasant hyd y terfyn; *y* gwŷr yr oedd heddwch rhyngot â hwynt, a'th dwyllasant, *ac* a'th orfuant; *bwyttâvyr* dy fara a roddasant archoll danat: nid *oes* deall ynddo.

8 Oni ddinystriaf y dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD, y doethion allan o Edom, a'r deall allan o fynydd Esau?

9 Dy gedyrn di, Teman, a ofnant; fel y torrer ymaith bob un o fynydd Esau trwy laddfa.

10 ¶ Am *dy* draha yn erbyn dy frawd Jacob, gwarth a'th orchuddia, a thi a dorrir ymaith byth.

11 Y dydd y sefaist o'r tu arall, y dydd y caethgludodd estroniaid ei olud ef, a myned o ddïeithriaid i'w byrth ef, a bwrw coelbrennau ar Jerusalem, tithau hefyd *oeddit* megis un o honynt.

12 Ond ni ddylesit ti edrych ar ddydd dy frawd, y dydd y dïeithriwyd ef; ac ni ddylesit lawenychu o achos plant Judah, y dydd y difethwyd hwynt; ac ni ddylesit ledu dy safn ar ddydd y cystudd.

13 Ni ddylesit ddyfod o fewn porth fy mhobl yn nydd eu haflwydd; ïe, ni ddylesit edrych ar eu hadfyd yn nydd eu haflwydd; ac ni ddylesit estyn *dy law* ar eu golud yn nydd eu difethiad hwynt:

14 Ac ni ddylesit sefyll ar y croesffyrdd, i dorri ymaith y rhai a ddïangai o hono; ac ni ddylesit roi i fyny y gweddill o hono ar ddydd yr adfyd.

15 Canys agos *yw* dydd yr ARGLWYDD ar yr holl genhedloedd: fel y gwnaethost, y gwneir i tithau; dy wobr a ddychwel ar dy ben dy hun.

16 Canys megis yr yfasoch ar fy mynydd sanctaidd, *felly* yr holl genhedloedd a yfant yn wastad; ïe, yfant, a llyngcant, a byddant fel pe na buasent.

17 ¶ Ond ar fynydd Sïon y bydd ymwared, ac y bydd sanctaiddrwydd; a thŷ Jacob a berchennogant eu perchennogaeth hwynt.

18 Yna y bydd tŷ Jacob yn dân, a thŷ Joseph yn fflam, a thŷ Esau yn sofl, a chynneuant ynddynt, a difânt hwynt; ac ni bydd *un* gweddill o dŷ Esau: canys yr ARGLWYDD a'i dywedodd.

19 Goresgyn y dehau hefyd fynydd Esau, a'r gwastadedd y Philistiaid; a pherchennogant feusydd Ephraim, a meusydd Samaria, a Benjamin *a feddianna* Gilead;

20 A chaethglud y llu hwn o blant Israel, yr hyn *a fu eiddo* y Canaaneaid, hyd Sarephath; a chaethion Jerusalem, y rhai *sydd* yn Sepharad, a feddiannant ddinasoedd y dehau.

21 A gwaredwyr a ddeuant i fyny ar fynydd Sïon i farnu mynydd Esau: a'r frenhiniaeth fydd eiddo yr ARGLWYDD.

LLYFR JONAH.

PENNOD 1.

1 *Danfon Jonah i Ninefeh, ac ymtau yn ffoi i Tarsis: 4 a thymmestl yn ei gyhuddo ef.* 11 *Ei daflu ef i'r môr,* 17 *a physgodyn yn ei lyngcu ef.*

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth at Jonah mab Amittai, gan ddywedyd,

2 Cyfod, dos i Ninefeh y ddinas fawr, a llefa yn ei herbyn; canys eu drygioni hwynt a ddyrchafodd ger fy mron.

3 A Jonah a gyfododd i ffoi i Tarsis oddi ger bron yr ARGLWYDD: ac efe a aeth i waered i Joppa, ac a gafodd long yn myned i Tarsis, ac a dalodd ei llong-lôg hi, ac a aeth i waered iddi i fyned gyd â hwynt i Tarsis, oddi ger bron yr ARGLWYDD.

4 ¶ Ond yr ARGLWYDD a gyfododd wynt mawr yn y môr, a bu yn y môr dymmestl fawr, fel y tybygwyd y drylliai y llong.

5 Yna y morwyr a ofnasant, ac a lefasant bob un ar ei dduw, a bwriasant y dodrefn *oedd* yn y llong i'r môr, i ymysgafnhâu o honynt: ond Jonah a aethai i waered i ystlysau y llong, ac a orweddasai, ac a gysgasai.

6 A meistr y llong a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, Beth *a ddarfu* i ti, gysgadur? cyfod, galw ar dy Dduw: fe allai yr ystyr y Duw hwnnw wrthym, fel na'n coller.

7 A dywedasant bob un wrth ei gyfaill, Deuwch, a bwriwn goelbrennau, fel y gwypom o achos pwy *y mae* y drwg hwn arnom. A bwriasant goelbrennau, a'r coelbren a syrthiodd ar Jonah.

8 A dywedasant wrtho, Attolwg, dangos i ni er mwyn pwy *y mae* i ni y drwg hwn: beth *yw* dy gelfyddyd di? ac o ba le y daethost? pa le *yw* dy wlad? ac o ba bobl *yr wyt* ti?

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Hebread *ydwyf* fi; ac ofni yr wyf fi ARGLWYDD DDUW y nefoedd, yr hwn a wnaeth y môr a'r sychdir.

10 A'r gwŷr a ofnasant *gan* ofn mawr, ac a ddywedasant wrtho, Paham y gwnaethost hyn? Canys y dynion a wyddent iddo ffoi oddi ger bron yr ARGLWYDD, o herwydd efe a fynegasai iddynt.

11 ¶ A dywedasant wrtho, Beth a wnawn i ti, fel y gostego y môr oddi wrthym? canys gweithio yr oedd y môr, a therfysgu.

12 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Cymmerwch fi, a bwriwch fi i'r môr; a'r môr a ostega i chwi; canys gwn mai o'm hachos i *y mae* y dymmestl fawr hon arnoch chwi.

13 Er hyn y gwŷr a rwyfasant i'*w* dychwelyd i dir; ond nis gallent: am fod y môr yn gweithio, ac yn terfysgu yn eu herbyn hwy.

14 Llefasant gan hynny ar yr ARGLWYDD, a dywedasant, Attolwg, ARGLWYDD, attolwg, na ddifether ni am einioes y gŵr hwn, ac na ddyro i'n herbyn waed gwirion: canys ti, O ARGLWYDD, a wnaethost fel y gwelaist yn dda.

15 Yna y cymmerasant Jonah, ac a'i bwriasant ef i'r môr: a pheidiodd y môr â'i gyffro.

16 A'r gwŷr a ofnasant yr ARGLWYDD âg ofn mawr, ac a aberthasant aberth i'r ARGLWYDD, ac a addunasant addunedau.

17 ¶ A'r ARGLWYDD a ddarparasai bysgodyn mawr i lyngcu Jonah. A Jonah a fu ym mol y pysgodyn dri diwrnod a thair nos.

PENNOD 2.

1 *Gweddi Jonah:* 10 *a'i wared ef o fol y pysgodyn.*

A JONAH a weddïodd ar yr ARGLWYDD ei DDUW o fol y pysgodyn,

2 Ac a ddywedodd, O'm hing y gelwais ar yr ARGLWYDD, ac efe a'm hattebodd; o fol uffern y gwaeddais, *a* chlywaist fy llef.

3 Ti a'm bwriaist i'r dyfnder, i ganol y môr; a'r llanw a'm hamgylchodd: dy holl donnau a'th lifeiriaint a aethant drosof.

4 A minnau a ddywedais, Bwriwyd fi o ŵydd dy lygaid; er hynny mi a edrychaf etto tu a'th deml sanctaidd.
5 Y dyfroedd a'm hamgylchasant hyd yr enaid; y dyfnder a ddaeth o'm hamgylch; ymglymmodd yr hesg am fy mhen.
6 Disgynais i odre y mynyddoedd; y ddaear a'i throsolion *oedd* o'm hamgylch yn dragywydd: etto ti a ddyrchefaist fy einioes o'r ffos, O ARGLWYDD fy NUW.
7 Pan lewygodd fy enaid ynof, cofiais yr ARGLWYDD; a'm gweddi a ddaeth i mewn attat i'th deml sanctaidd.
8 Y neb a gadwant oferedd celwydd, a wrthodant eu trugaredd eu hun.
9 A minnau mewn llais clodforedd a aberthaf i ti, talaf *yr hyn* a addunedais. Iachawdwriaeth *sydd* eiddo yr ARGLWYDD.
10 ¶ A llefarodd yr ARGLWYDD wrth y pysgodyn, ac efe a fwriodd Jonah ar y tir sych.

PENNOD 3.

1 *Danfon Jonah yr ail waith, ac yntau yn pregethu i'r Ninefeaid.* 5 *Ar eu hedifeirwch hwy,* 10 *y mae Duw yntau yn edifarhau.*

AGAIR yr ARGLWYDD a ddaeth yr ail waith at Jonah, gan ddywedyd,
2 Cyfod, dos i Ninefeh y ddinas fawr, a phregetha iddi y bregeth a lefarwyf wrthyt.
3 A Jonah a gyfododd ac a aeth i Ninefeh, yn ol gair yr ARGLWYDD. A Ninefeh oedd ddinas fawr iawn o daith tri diwrnod.
4 A Jonah a ddechreuodd fyned i'r ddinas daith un diwrnod, ac efe a lefodd ac a ddywedodd, Deugain niwrnod *fydd* etto, a Ninefeh a gwympir.
5 ¶ A gwŷr Ninefeh a gredasant i DDUW, ac a gyhoeddasant ympryd, ac a wisgasant sachlïan, o'r mwyaf hyd y lleiaf o honynt.
6 Canys gair a ddaeth at frenhin Ninefeh, ac efe a gyfododd o'i frenhinfainge, ac a ddiosgodd oddi am dano ei frenhinwisg, ac a roddes am dano llïan sach, ac a eisteddodd mewn lludw.
7 Ac efe a barodd gyhoeddi, a dywedyd trwy Ninefeh, trwy orchymyn y brenhin a'i bendefigion, gan ddywedyd, Dyn ac anifail, eidion a dafad, na phrofant ddim; na phorant, ac nac yfant ddwfr.
8 Gwisger dyn ac anifail â sachlen, a galwant ar DDUW yn lew: ïe, dychwelant bob un oddi wrth ei ffordd ddrygionus, ac oddi wrth y trawsder *sydd* yn eu dwylaw.
9 Pwy a ŵyr a dry DUW ac edifarhâu, a throi oddi wrth angerdd ei ddig, fel na ddifether ni?
10 ¶ A gwelodd DUW eu gweithredoedd hwynt, droi o honynt o'u ffyrdd drygionus; ac edifarhaodd DUW am y drwg a ddywedasai y gwnai iddynt, ac nis gwnaeth.

PENNOD 4.

1 *Jonah yn anfoddlawn i drugaredd Duw,* 4 *ac yn cael ei geryddu dan rith pren cicaion.*

ABU ddrwg iawn gan Jonah hyn, ac efe a ddigiodd yn fawr.
2 Ac efe a weddïodd ar yr ARGLWYDD, ac a ddywedodd, Attolwg i ti, ARGLWYDD, oni ddywedais i hyn pan oeddwn etto yn fy ngwlad? am hynny yr achubais flaen i ffoi i Tarsis; am y gwyddwn dy *fod* di yn DDUW graslawn a thrugarog, hwyrfrydig i ddig, aml o drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg.
3 Am hynny yn awr, O ARGLWYDD, cymmer, attolwg, fy einioes oddi wrthyf: canys gwell i mi farw na byw.
4 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd, Ai da yw y gwaith ymddigio o honot?
5 A Jonah a aeth allan o'r ddinas, ac a eisteddodd o'r tu dwyrain i'r ddinas, ac a wnaeth yno gaban iddo ei hun, ac a eisteddodd dano yn y cysgod, hyd oni welai beth a fyddai yn y ddinas.
6 A'r ARGLWYDD DDUW a ddarparodd cicaion, ac a wnaeth *iddo* dyfu dros Jonah, i fod yn gysgod uwch ei ben ef, i'w waredu o'i ofid: a bu Jonah lawen iawn am y cicaion.
7 A'r Arglwydd a barottôdd bryf ar godiad y wawr drannoeth, ac efe a darawodd y cicaion, ac yntau a wywodd.
8 A phan gododd haul, bu i DDUW ddarparu poeth-wynt y dwyrain;

a'r haul a darawodd ar ben Jonah, fel y llewygodd, ac y deisyfodd farw o'i einioes, ac a ddywedodd, Gwell i mi farw na byw.

9 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Jonah, Ai da yw y gwaith ymddigio o honot am y cicaion? Ac efe a ddywedodd, Da yw i mi ymddigio hyd angau.

10 A'r ARGLWYDD a ddywedodd, Ti a dosturiaist wrth y cicaion ni lafuriaist wrtho, ac nis peraist iddo dyfu: mewn noswaith y bu, ac mewn noswaith y darfu:

11 Ac oni arbedwn i Ninefeh y ddinas fawr, yr hon y mae ynddi fwy na deuddeng myrdd o ddynion, y rhai ni wyddant *ragor* rhwng eu llaw ddehau a'u llaw aswy, ac anifeiliaid lawer?

LLYFR MICHAH.

PENNOD 1.

1 *Michah yn dangos digofaint Duw yn erbyn Jacob am eu gau-ddwviaeth;* 10 *ac yn annog i alaru.*

GAIR yr ARGLWYDD yr hwn a ddaeth at Michah y Morasthiad yn nyddiau Jotham, Ahas, *a* Heseciah, brenhinoedd Judah, yr hwn a welodd efe am Samaria a Jerusalem.

2 Gwrandêwch, bobl oll; clyw dithau, y ddaear, ac sydd ynddi; a bydded yr ARGLWYDD DDUW yn dyst i'ch erbyn, yr Arglwydd o'i deml sanctaidd.

3 Canys wele yr ARGLWYDD yn dyfod o'i le; *efe* hefyd a ddisgyn, ac a sathr ar uchelderau y ddaear.

4 A'r mynyddoedd a doddant tano ef, a'r glynnoedd a ymholltant fel cŵyr o flaen y tân, *ac* fel y dyfroedd a dywelltir ar y goriwaered.

5 Hyn i gyd *sydd* am anwiredd Jacob, ac am bechodau tŷ Israel. Beth *yw* anwiredd Jacob? onid Samaria? Pa rai *yw* uchel-leoedd Judah? onid Jerusalem?

6 Am hynny y gosodaf Samaria yn garnedd-faes *dda* i blannu gwinllan; a gwnaf i'w cherrig dreiglo i'r dyffryn, a datguddiaf ei sylfeini.

7 A'i holl ddelwau cerfiedig a gurir yn ddrylliau, a'i holl wobrau a losgir yn tân, a'i holl eilunod a osodaf yn anrheithiedig: o herwydd o wobr puttain y casglodd hi *hwynt*, ac yn wobr puttain y dychwelant.

8 O herwydd hyn galaraf ac udaf; cerddaf yn noeth ac yn llwm: gwnaf alar fel dreigiau, a gofid fel cywion y dylluan.

9 O herwydd dolurus *yw* ei harcholl: canys daeth hyd at Judah; daeth hyd borth fy mhobl, hyd Jerusalem.

10 ¶ Na fynegwch *hyn* yn Gath; gan wylo na wylwch ddim: ymdreigla mewn llwch yn nhŷ Aphrah.

11 Dos heibio, preswylferch Saphir, yn noeth dy warth: ni ddaeth preswylferch Saanan allan y'ngalar Beth-esel, efe a dderbyn gennych ei sefyllfan.

12 Canys trigferch Maroth a ddisgwyliodd yn ddyfal am ddaioni; eithr drwg a ddisgynodd oddi wrth yr ARGLWYDD hyd at borth Jerusalem.

13 Preswylferch Lachis, rhwym y cerbyd wrth y buan-farch: dechreuad pechod *yw* hi i ferch Sïon: canys ynot ti y cafwyd anwireddau Israel.

14 Am hynny y rhoddi anrhegion i Moreseth-gath: tai Achsib *a fyddant* yn gelwydd i frenhinoedd Israel.

15 Etto mi a ddygaf etifedd i ti, preswylferch Maresah; daw hyd Adùlam, gogoniant Israel.

16 Ymfoela, ac ymeillia am dy blant moethus: helaetha dy foelder fel eryr; canys caethgludwyd hwynt oddi wrthyt.

PENNOD 2.

1 *Yn erbyn trais.* 4 *Cwynfan.* 7 *Ceryddu anghyfawonder a delw-addoliaeth.* 12 *Addaw adferu Jacob.*

GWAE a ddychymmygo anwiredd, ac a wnelo ddrygioni

ar eu gwelŷau! pan oleuo y bore
y gwnant hyn; am ei fod ar eu
dwylaw.
2 Meusydd a chwennychant hefyd, ac a ddygant trwy drais; a
theiau, ac a'*u* dygant: gorthrymmant hefyd ŵr a'i dŷ, dyn a'i etifeddiaeth.
3 Am hynny fel hyn y dywed yr
ARGLWYDD; Wele, yn erbyn y
teulu hwn y dychymmygais ddrwg,
yr hwn ni thynnwch eich gyddfau
o hono, ac ni rodiwch yn falch;
canys amser drygfyd *yw*.
4 ¶ Yn y dydd hwnnw y cyfyd
un ddammeg am danoch chwi, ac
a alara alar gofidus, gan ddywedyd, Dinystriwyd ni yn llwyr; newidiodd ran fy mhobl: pa fodd y
dug *ef* oddi arnaf! gan droi ymaith, efe a rannodd ein meusydd.
5 Am hynny ni bydd i ti a fwrio
reffyn coelbren y'nghynnulleidfa yr
ARGLWYDD.
6 Na phrophwydwch, *meddant*
wrth y rhai a brophwydant: ond
ni phrophwydant iddynt na dderbynïont gywilydd.
7 ¶ O yr hon a elwir Tŷ Jacob,
a fyrhâwyd yspryd yr ARGLWYDD?
ai dyma ei weithredoedd ef? oni
wna fy ngeiriau les i'r neb a rodio
yn uniawn?
8 *Y rhai oedd* fy mhobl ddoe, a
godasant yn elyn: dïosgwch y dilledyn gyd â'r wisg oddi am y rhai
a ânt heibio yn ddïofal, *fel* rhai yn
dychwelyd o ryfel.
9 Gwragedd fy mhobl a fwriasoch
allan o dŷ eu hyfrydwch; *a* dygasoch oddi ar eu plant hwy fy
harddwch byth.
10 Codwch, ac ewch ymaith; canys nid dyma *eich* gorphwysfa: am
ei halogi, y dinystria hi *chwi* â
dinystr tost.
11 Os un yn rhodio yn yr yspryd
a chelwydd, a ddywed yn gelwyddog, Prophwydaf i ti am win a dïod
gadarn; efe a gaiff fod yn brophwyd i'r bobl hyn.
12 ¶ Gan gasglu y'th gasglaf,
Jacob oll: gan gynnull cynhullaf
weddill Israel; gosodaf hwynt ynghyd fel defaid Bosrah, fel y praidd
y'nghanol eu corlan: trystiant rhag
amled dyn.
13 Daw y rhwygydd i fyny o'u
blaen hwynt; rhwygasant, a thrammwyasant trwy y porth, ac aethant
allan trwyddo, a thrammwya eu
brenhin o'u blaen, a'r ARGLWYDD
ar eu pennau hwynt.

PENNOD 3.

1 Creulondeb y tywysogion. 5 Ffalsedd y prophwydi: 8 a diofalwch pob un o'r ddau.

DYWEDAIS hefyd, Gwrandêwch, attolwg, pennaethiaid
Jacob, a thywysogion tŷ Israel:
Onid i chwi *y perthyn* gwybod
barn?
2 Y rhai ydych yn casâu y da, ac
yn hoffi y drwg, gan flingo eu croen
oddi am danynt, a'u cig oddi wrth
eu hesgyrn;
3 Y rhai hefyd a fwyttânt gig fy
mhobl, a'u croen a flingant oddî
am danynt, a'u hesgyrn a ddrylliant, ac a friwant, megis i'r crochan, ac fel cig yn y badell.
4 Yna y llefant ar yr ARGLWYDD,
ac nis ettyb hwynt; efe a guddia
ei wyneb oddi wrthynt y pryd
hwnnw, fel y buant ddrwg yn eu
gweithredoedd.
5 ¶ Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD am y prophwydi sydd
yn cyfeiliorni fy mhobl, y rhai a
frathant â'u dannedd, ac a lefant,
Heddwch: a'r neb ni roddo yn eu
pennau hwynt, darparant ryfel yn
ei erbyn.
6 Am hynny *y bydd* nos i chwi,
fel na chaffoch weledigaeth; a
thywyllwch i chwi, fel na chaffoch
ddewiniaeth: yr haul hefyd a fachluda ar y prophwydi, a'r dydd a
ddua arnynt.
7 Yna y gweledyddion a gywilyddiant, a'r dewiniaid a waradwyddir; ïe, pawb o honynt a gauant ar eu genau, am na *rydd* DUW
atteb.
8 ¶ Ond yn ddïau llawn wyf fi o
rym gan yspryd yr ARGLWYDD, ac
o farn a nerth, i ddangos ei anwiredd i Jacob, a'i bechod i Israel.
9 Gwrandêwch hyn, attolwg, pennaethiaid tŷ Jacob, a thywysogion
tŷ Israel, y rhai sydd ffiaidd ganddynt farn, ac yn gŵyro pob uniondeb.
10 Adeiladu Sïon y maent â gwaed,
a Jerusalem âg anwiredd.

11 Ei phennaethiaid a roddant farn er gwobr, a'i hoffeiriaid a ddysgant er cyflog, a'r prophwydi a ddewiniant er arian; etto wrth yr ARGLWYDD yr ymgynhaliant, gan ddywedyd, Onid *yw* yr ARGLWYDD i'n plith? ni ddaw drwg arnom.

12 Am hynny o'ch achos chwi yr erddir Sïon *fel* maes, a Jerusalem a fydd yn garneddau, a mynydd y tŷ fel uchel-leoedd y goedwig.

PENNOD 4.

1 *Gogoniant,* 3 *heddwch,* 8 *teyrnas,* 11 *a buddugoliaeth yr eglwys.*

A BYDD yn niwedd y dyddiau, i fynydd tŷ yr ARGLWYDD fod wedi ei sicrhâu ym mhen y mynyddoedd; ac efe a ddyrchefir goruwch y bryniau; a phobloedd a ddylifant atto.

2 A chenhedloedd lawer a ânt, ac a ddywedant, Deuwch, ac awn i fyny i fynydd yr ARGLWYDD, ac i dŷ DDUW Jacob; ac efe a ddysg i ni ei ffyrdd, ac yn ei lwybrau y rhodiwn: canys y gyfraith a â allan o Sïon, a gair yr ARGLWYDD o Jerusalem.

3 ¶ Ac efe a farna rhwng poblloedd lawer, ac a gerydda genhedloedd cryfion hyd ym mhell; a thorrant eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaywffyn yn bladuriau: ac ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach.

4 Ond eisteddant bob un dan ei winwydden a than ei ffigysbren, heb neb i'*w* dychrynu; canys genau ARGLWYDD y lluoedd a'*i* llefarodd.

5 Canys yr holl bobloedd a rodiant bob un yn enw ei dduw ei hun, a ninnau a rodiwn yn enw yr ARGLWYDD ein DUW byth ac yn dragywydd.

6 Yn y dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD, y casglaf y gloff, ac y cynhullaf yr hon a yrrwyd allan, a'r hon a ddrygais;

7 A gwnaf y gloff yn weddill, a'r hon a daflwyd ym mhell, yn genedl gref; a'r ARGLWYDD a deyrnasa arnynt ym mynydd Sïon o hyn allan byth.

8 ¶ A thithau, tŵr y praidd, castell merch Sïon, hyd attat y daw, ïe, y daw yr arglwyddiaeth bennaf, y deyrnas i ferch Jerusalem.

9 Paham gan hynny y gweiddi waedd? onid *oes* ynot frenhin? a ddarfu am dy gynghorydd? canys gwewyr a'th gymmerodd megis gwraig yn esgor.

10 Ymofidia a griddfana, merch Sïon, fel gwraig yn esgor: o herwydd yr awr hon yr âi di allan o'r ddinas, a thrigi yn y maes; ti a âi hyd Babilon: yno y'th waredir; yno yr achub yr ARGLWYDD di o law dy elynion.

11 ¶ Yr awr hon hefyd llawer o genhedloedd a ymgasglasant i'th erbyn, gan ddywedyd, Haloger hi, a gweled ein llygaid *hynny* ar Sïon.

12 Ond ni wyddant hwy feddyliau yr ARGLWYDD, ac ni ddeallant ei gynghor ef: canys efe a'u casgl hwynt fel ysgubau i'r llawr-dyrnu.

13 Cyfod, merch Sïon, a dyrna; canys gwnaf dy gorn yn haiarn, a'th garnau yn bres; a thi a ddrylli bobloedd lawer: a chyssegraf i'r ARGLWYDD eu helw hwynt, a'u golud i ARGLWYDD yr holl ddaear.

PENNOD 5.

1 *Genedigaeth Crist,* 4 *a'i frenhiniaeth,* 8 *a'i fuddugoliaeth.*

YR awr hon ymfyddina, merch y fyddin; gosododd gynllwyn i'n herbyn: tarawant farnwr Israel â gwïalen ar *ei* gern.

2 A thithau, Bethlehem Ephratah, *er* dy fod yn fechan ym mhlith miloedd Judah, *etto* o honot ti y daw allan i mi *un* i fod yn llywydd yn Israel; yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragywyddoldeb.

3 Am hynny y rhydd efe hwynt i fyny, hyd yr amser y darffo i'r hon a esgoro esgor: yna gweddill ei frodyr ef a ddychwelant at feibion Israel.

4 ¶ Ac efe a saif, ac a bortha â nerth yr ARGLWYDD, yn arddercho wgrwydd enw yr ARGLWYDD ei DDUW; a hwy a drigant: canys yr awr hon efe a fawrhêir hyd eithafoedd y ddaear.

5 A hwn fydd yr heddwch, pan ddêl yr Assyriad i'n tir ni: a phan sathro o fewn ein palasau, yna cyf-

odwn yn ei erbyn saith fugail, ac wyth o'r dynion pennaf.

6 A hwy a ddinystriant dir Assyria â'r cleddyf, a thir Nimrod â'i gleddyfau noethion ei hun: ac efe a'*n* hachub rhag yr Assyriad, pan dêl i'n tir, *a* phan sathro o fewn ein terfynau.

7 A bydd gweddill Jacob yng nghanol llawer o bobl, fel y gwlith oddi wrth yr ARGLWYDD, megis cawodydd ar y gwelltglas, yr hwn nid erys ar ddyn, *ac* ni ddisgwyl wrth feibion dynion.

8 ¶ A gweddill Jacob a fydd ym mysg y Cenhedloedd, y'nghanol pobl lawer, fel llew ym mysg bwystfilod y goedwig, ac fel cenaw llew ym mhlith y dïadellau defaid; yr hwn, pan êl trwodd, a sathr ac a ysglyfaetha, ac ni *bydd* achubydd.

9 Dy law a ddyrchefir yn erbyn dy wrthwynebwyr, a'th holl elynion a dorrir ymaith.

10 A bydd y dwthwn hwnnw, medd yr ARGLWYDD, i mi dorri ymaith dy feirch o'th ganol di, a dinystrio dy gerbydau:

11 Torraf hefyd i lawr ddinasoedd dy wlad, a dymchwelaf dy holl amddiffynfeydd:

12 A thorraf ymaith o'th law y swynion, ac ni bydd i ti ddewiniaid:

13 Torraf hefyd i lawr dy luniau cerfiedig, a'th ddelwau o'th blith; ac ni chei ymgrymmu mwyach i weithredoedd dy ddwylaw dy hun:

14 Diwreiddiaf dy lwyni o'th ganol hefyd; a dinystriaf dy ddinasoedd.

15 Ac mewn dig a llid y gwnaf ar y cenhedloedd y fath ddïaledd ag na chlywsant.

PENNOD 6.

1 *Ymrafael Duw o herwydd angharedigrwydd,* 6 *ac anwybodaeth,* 10 *ac anghyfiawnder,* 16 *a delw-addoliaeth ei bobl.*

GWRANDEWCH, attolwg, y peth a ddywed yr ARGLWYDD; Cyfod, ymddadleu â'r mynyddoedd, a chlywed y bryniau dy lais.

2 Gwrandêwch, y mynyddoedd, a chedyrn sylfeini y ddaear, gŵyn yr ARGLWYDD; canys *y mae* cwyn rhwng yr ARGLWYDD a'i bobl, ac efe a ymddadleu âg Israel.

3 Fy mhobl, beth a wneuthum i ti? ac ym mha beth y'th flinais? tystiolaetha i'm herbyn.

4 Canys mi a'th ddygais o dir yr Aipht, ac a'th ryddheais o dŷ y caethiwed, ac a anfonais o'th flaen Moses, Aaron, à Miriam.

5 Fy mhobl, cofia, attolwg, beth a fwriadodd Balac brenhin Moab, a pha atteb a roddes Balaam mab Beor iddo, o Sittim hyd Gilgal; fel y galloch wybod cyfiawnder yr ARGLWYDD.

6 ¶ A pha beth y deuaf ger bron yr ARGLWYDD, *ac* yr ymgrymmaf ger bron yr uchel DDUW? a ddeuaf fi ger ei fron ef â phoeth-offrymmau, ac â dyniewaid?

7 A foddlonir yr ARGLWYDD â miloedd o feheryn, *neu* â myrddiwn o ffrydiau olew? a roddaf fi fy nghyntaf-anedig *dros* fy anwiredd, ffrwyth fy nghroth *dros* bechod fy enaid?

8 Dangosodd efe i ti, ddyn, beth *sydd* dda: a pha beth a gais yr ARGLWYDD gennyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyd â'th DDUW?

9 Llef yr ARGLWYDD a lefa ar y ddinas, a'r doeth a wêl dy enw: gwrandêwch y wïalen, a phwy a'i hordeiniodd.

10 ¶ *A oes* etto drysorau anwiredd o fewn tŷ y gŵr anwir, a'r mesur prin, *peth sydd* ffiaidd?

11 A gyfrifwn yn lân *un* â chloriannau anwir, ac â chôd o gerrig twyllodrus?

12 Canys y mae ei chyfoethogion yn llawn trais, a'i thrigolion a ddywedasant gelwydd; a'u tafod *sydd* dwyllodrus yn eu genau.

13 A minnau hefyd a'*th* glwyfaf wrth dy daro, wrth *dy* anrheithio am dy bechodau.

14 Ti a fwyttêi, ac ni'th ddigonir; a'th ostyngiad *fydd* yn dy ganol dy hun: ti a ymafli, ac nid achubi; a'r hyn a achubech, a roddaf i'r cleddyf.

15 Ti a haui, ond ni fedi; ti a sethri yr olew-wydd, ond nid ymiri âg olew; a gwin newydd, ond nid yfi win.

16 ¶ Cadw yr ydys ddeddfau Omri, a holl weithredoedd Ahab, a rhodio yr ydych yn eu cynghorion; fel y'th wnawn yn anghyfannedd, a'i thrigolion i'w hwtio: am hynny y dygwch warth fy mhobl.

PENNOD 7.

1 *Yr eglwys yn cwyno leied yw o rifedi,* 3 *mor gyffredin yw llygredigaeth;* 5 *ac yn rhoi ei gogiad a'i hyder, nid ar ddyn, ond ar Dduw:* 8 *yn gorfoleddu ar ei gelynion;* 14 *a Duw yn ei chysuro hi trwy addewidion,* 16 *a thrwy varadwyddo ei gelynion,* 18 *a thrwy ei drugareddau.*

GWAE fi! canys ydwyf fel casgliadau ffrwythydd haf, fel lloffion grawnwin y cynhauaf gwin; nid *oes* swp o rawn i'*w* bwytta; fy enaid a flysiodd yr addfed ffrwyth cyntaf.

2 Darfu am y duwiol oddi ar y ddaear, ac nid *oes* un uniawn ym mhlith dynion; cynllwyn y maent oll am waed; pob un sydd yn hela ei frawd â rhwyd.

3 ¶ I wneuthur drygioni â'r ddwy law yn egnïol, y tywysog a ofyn, a'r barnwr am wobr; a'*r hwn sydd* fawr a ddywed lygredigaeth ei feddwl: felly y plethant ef.

4 Y goreu o honynt *sydd* fel mïeren, yr unionaf *yn arwach* na chae drain; dydd dy wylwyr, *a*'th ofwy, sydd yn dyfod: bellach y bydd eu penbleth hwynt.

5 ¶ Na chredwch i gyfaill, nac ymddiriedwch i dywysog: cadw ddrws dy enau rhag yr hon a orwedd yn dy fynwes.

6 Canys mab a ammharcha ei dad, y ferch a gyfyd yn erbyn ei mam, a'r waudd yn erbyn ei chwegr: a gelynion gŵr *yw* dynion ei dŷ.

7 Am hynny mi a edrychaf ar yr ARGLWYDD, disgwyliaf wrth DDUW fy iachawdwriaeth: fy NUW a'm gwrendy.

8 ¶ Na lawenycha i'm herbyn, fy ngelynes: pan syrthiwyf, cyfodaf; pan eisteddwyf mewn tywyllwch, yr ARGLWYDD a lewyrcha i mi.

9 Dïoddefaf ddig yr ARGLWYDD, canys pechais i'w erbyn; hyd oni ddadleuo fy nghŵyn, a gwneuthur i mi farn: efe a'm dwg allan i'r goleuad, a mi a welaf ei gyfiawnder ef.

10 A'm gelynes a gaiff weled, a chywilydd a'i gorchuddia hi, yr hon a ddywedodd wrthyf, Mae yr ARGLWYDD dy DDUW? fy llygaid a'i gwelant hi; bellach y bydd hi yn sathrfa, megis tom yr heolydd.

11 Y dydd yr adeiledir dy furiau, y dydd hwnnw yr ymbellhâ y ddeddf.

12 Y dydd hwnnw y daw efe hyd attat o Assyria, ac o'r dinasoedd cedyrn, ac o'r cadernid hyd yr afon, ac o fôr i fôr, ac o fynydd i fynydd.

13 Etto y wlad a fydd yn anrhaith o achos ei thrigolion, am ffrwyth eu gweithredoedd.

14 ¶ Portha dy bobl â'th wïalen, defaid dy etifeddiaeth, y rhai sydd yn trigo *yn* y coed yn unig, yng nghanol Carmel: porant *yn* Basan a Gilead, megis yn y dyddiau gynt.

15 Megis y dyddiau y daethost allan o dir yr Aipht, y dangosaf iddo ryfeddodau.

16 ¶ Y cenhedloedd a welant, ac a gywilyddiant gan eu holl gryfder hwynt: rhoddant *eu* llaw ar *eu* genau; eu clustiau a fyddarant.

17 Llyfant y llwch fel sarph; fel pryfed y ddaear y symmudant o'u llochesau: arswydant rhag yr ARGLWYDD ein DUW ni, ac o'th achos di yr ofnant.

18 ¶ Pa DDUW *sydd* fel tydi, yn maddeu anwiredd, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill ei etifeddiaeth? ni ddeil efe ei ddig byth, am fod yn hoff ganddo drugaredd.

19 Efe a ddychwel, efe a drugarhâ wrthym: efe a ddarostwng ein hanwireddau; a thi a defli eu holl bechodau i ddyfnderoedd y môr.

20 Ti a gyflawni y gwirionedd i Jacob, y drugaredd *hefyd* i Abraham, yr hwn a dyngaist i'n tadau er y dyddiau gynt.

LLYFR NAHUM.

PENNOD 1.

Mawredd Duw yn ei ddaioni tu ag at ei bobl, a'i doster yn erbyn ei elynion.

BAICH Ninefeh. Llyfr gweledigaeth Nahum yr Elcosiad.
2 Duw *sydd* eiddigus, a'r Arglwydd sydd yn dïal; yr Arglwydd sydd yn dïal, ac yn berchen llid: dïal yr Arglwydd ar ei wrthwynebwyr, a dal *dig* y mae efe i'w elynion.
3 Yr Arglwydd *sydd* hwyrfrydig i ddig, a mawr ei rym, ac ni ddïeuoga *yr anwir:* yr Arglwydd *sydd* a'i lwybr yn y corwynt ac yn y rhyferthwy, a'r cymmylau *yw* llwch ei draed ef.
4 Efe a gerydda y môr, ac a'i sych; yr holl afonydd a ddyhysbydda efe: llesgaodd Basan a Charmel, a llesgaodd blodeuyn Libanus.
5 Y mynyddoedd a grynant rhagddo, a'r bryniau a doddant, a'r ddaear a lysg gan ei olwg, a'r byd hefyd a chwbl ag a drigant ynddo.
6 Pwy a saif o flaen ei lid ef? a phwy a gyfyd y'nghynddaredd ei ddigofaint ef? ei lid a dywelltir fel tân, a'r creigiau a fwrir i lawr ganddo.
7 Daionus *yw* yr Arglwydd, amddiffynfa yn nydd blinder; ac efe a edwyn y rhai a ymddiriedant ynddo.
8 A llifeiriant yn myned trosodd y gwna efe drangc ar ei lle hi, a thywyllwch a erlid ei elynion ef.
9 Beth a ddychymmygwch yn erbyn yr Arglwydd? efe a wna drangc; ni chyfyd blinder ddwywaith.
10 Canys tra yr ymddyrysont fel drain, a thra meddwont *fel* meddwon, ysir hwynt fel sofl wedi llawnwywo.
11 O honot y daeth allan a ddychymmyga ddrwg yn erbyn yr Arglwydd: cynghorwr drygionus.
12 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Pe *byddent* heddychol, ac felly yn aml, etto fel hyn y torrir hwynt i lawr, pan elo efe heibio. Er i mi dy flino, ni'th flinaf mwyach.
13 Canys yr awrhon y torraf ei iau ef oddi arnat, drylliaf dy rwymau.
14 Yr Arglwydd hefyd a orchymynodd o'th blegid, na hauer o'th enw mwyach: torraf o dŷ dy dduwiau y gerfiedig a'r dawdd ddelw: gwnaf dy fedd; canys gwael ydwyt.
15 Wele ar y mynyddoedd draed yr efengylwr, cyhoeddwr heddwch: cadw di, O Judah, dy wyliau, tâl dy addunedau: canys nid â y drygionus trwot mwy; cwbl-dorrwyd ef ymaith.

PENNOD 2.

Ofnadwy a buddugol tuoedd Duw yn erbyn Ninefeh.

DAETH y chwalwr i fyny o flaen dy wyneb: cadw yr amddiffynfa, gwylia y ffordd, nertha *dy* lwynau, cadarnhâ *dy* nerth yn fawr.
2 Canys dychwelodd yr Arglwydd ardderchowgrwydd Jacob, fel ardderchowgrwydd Israel: canys y dyhysbyddwyr a'u dyhysbyddodd hwynt, ac a lygrasant eu cangau gwinwydd.
3 Tarian ei wŷr grymmus a liwiwyd yn goch, *ei* wŷr o ryfel a wisgwyd âg ysgarlad; y cerbydau *fyddant* gyd â lampau tanllyd y dydd y byddo ei arlwy, a'r ffynnidwydd a ysgydwir yn aruthrol.
4 Y cerbydau a gynddeiriogant yn yr heolydd, tarawant wrth eu gilydd yn y prif-ffyrdd: eu gweledigaeth fydd fel fflammau, ac fel mellt y saethant.
5 Efe a gyfrif ei *weision* gwychion; tramgwyddant wrth gerdded; prysurant at ei chaer hi, a'r amddiffyn a barottôir.
6 Pyrth y dwfr a agorir, a'r palas a ymddettyd.
7 A Hussab a gaethgludir, dygir hi i fyny, a'i morwynion yn *ei* harwain megis â llais colommennod, yn curo ar eu dwyfronnau.
8 A Ninefeh *sydd* er ys dyddiau fel llyn o ddwfr: ond hwy a ffoant.

Sefwch, sefwch, *meddant;* ac ni bydd a edrycho yn ol.

9 Ysglyfaethwch arian, ysglyfaethwch aur; canys nid *oes* diben ar yr ystôr, *a*'r gogoniant o bob dodrefn dymunol.

10 Gwag, a gorwag, ac anrheithiedig yw hi, a'r galon yn toddi, a'r gliniau yn taro ynghyd, ac anhwyl ar bob lwynau, *a*'u hwynebau oll a gasglant barddu.

11 Pa le *y mae* trigfa y llewod, a phorfa cenawon y llewod? lle y rhodiai y llew, *sef* yr hen lew, *a*'r cenaw llew, ac nid *oedd* a'*u* tarfai?

12 Y llew a ysglyfaethodd ddigon i'w genawon, ac a dagodd i'w lewesau, ac a lanwodd âg ysglyfaeth ei ffau, a'i loches âg yspail.

13 Wele fi yn dy erbyn, medd ARGLWYDD y lluoedd; a mi a losgaf ei cherbydau yn y mwg, a'r cleddyf a ddifa dy lewod ieuaingc; a thorraf ymaith o'r ddaear dy ysglyfaeth, ac ni chlywir mwy lais dy genhadau.

PENNOD 3.

Gofidus gwymp Ninefeh.

GWAE ddinas y gwaed! llawn celwydd *ac* yspail ydyw i gyd, a'r ysglyfaeth heb ymadaw.

2 *Bydd* swn y ffrewyll, a swn cynnwrf olwynion, a'r march yn prangcio, a'r cerbyd yn neidio.

3 Y marchog sydd yn codi ei gleddyf gloyw, a'i ddisglaer waywffon; lliaws o laddedigion, ac aneirif o gelanedd; a heb ddiwedd ar y cyrph: tripiant wrth eu cyrph hwynt:

4 O herwydd aml butteindra y buttain dêg, meistres swynion, yr hon a werth genhedloedd trwy ei phutteindra, a theuluoedd trwy ei swynion.

5 Wele fi i'th erbyn, medd ARGLWYDD y lluoedd, a datguddiaf dy odre ar dy wyneb, a gwnaf i genhedloedd weled dy noethni, ac i deyrnasoedd dy warth.

6 A thaflaf ffiaidd bethau arnat, a gwnaf di yn wael, a gosodaf di yn ddrych.

7 A bydd i bawb a'th welo ffoi oddi wrthyt, a dywedyd, Anrheithiwyd Ninefeh, pwy a gwyna iddi? O ba le y ceisiaf ddiddanwyr i ti?

8 Ai gwell ydwyt na No dylwythog, yr hon a osodir rhwng yr afonydd, ac a amgylchir â dyfroedd, i'r hon *y mae* y môr yn rhagfur, *a*'i mur o'r môr?

9 Ethiopia *oedd* ei chadernid, a'r Aipht, ac aneirif: Put a Lubim oedd yn gynnorthwy i ti.

10 Er hynny hi a ddygpwyd ymaith, hi a gaethgludwyd; *a*'i phlant bychain a ddrylliwyd ym mhen pob heol; ac am ei phendefigion y bwriasant goelbrennau, a'i holl wŷr mawr a rwymwyd mewn gefynnau.

11 Tithau hefyd a feddwi; byddi guddiedig; ceisi hefyd gadernid rhag y gelyn.

12 Dy holl amddiffynfeydd *fyddant fel* ffigyswydd a'u blaenffrwyth arnynt: os ysgydwir hwynt, syrthiant yn safn y bwyttâwr.

13 Wele dy bobl yn wragedd yn dy ganol di: pyrth dy dir a agorir i'th elynion; tân a ysodd dy farrau.

14 Tyn i ti ddwfr i'r gwarchae, cadarnhâ dy amddiffynfeydd; dos i'r dom, sathr y clai, cryfhâ yr odyn briddfaen.

15 Yno y tân a'th ddifa, y cleddyf a'th dyr ymaith, efe a'th ysa di fel pryf y rhwd; ymliosoga fel pryf y rhwd, ymliosoga fel y ceiliog rhedyn.

16 Amlheaist dy farchnadwyr rhagor sêr y nefoedd: difwynodd pryf y rhwd, ac ehododd ymaith.

17 Dy rai coronog *sydd* fel y locustiaid, a'th dywysogion fel y ceiliogod rhedyn mawr, y rhai a wersyllant yn y caeau ar y dydd oerfelog, *ond* pan gyfodo yr haul, hwy a ehedant ymaith, ac ni adwaenir eu man lle *y maent.*

18 Dy fugeiliaid, brenhin Assyria, a hepiant; a'th bendefigion a orweddant; gwasgerir dy bobl ar y mynyddoedd, ac ni *bydd* a'*u* casglo.

19 Ni thynnir dy archoll ynghyd, clwyfus yw dy weli; pawb a glywo sôn am danat a gurant eu dwylaw arnat; o herwydd pwy nid aeth dy ddrygioni drosto bob amser?

LLYFR HABACUC.

PENNOD 1.

1 *Habacuc yn achwyn rhag anwiredd y wlad, 5 ac yn cael dangos iddo y dialedd erchyll a ddeuai trwy y Caldeaid: 12 ac yn cwyno bod yn dialeddu ar y bobl trwy rai oedd lawer gwaeth na hwynt-hwy eu hunain.*

Y BAICH a welodd y prophwyd Habacuc.

2 Pa hyd, ARGLWYDD, y gwaeddaf, ac nis gwrandewi! y bloeddiaf arnat *rhag* trais, ac nid achubi!

3 Paham y gwnei i mi weled anwiredd, ac y peri *i mi* edrych ar flinder? anrhaith a thrais *sydd* o'm blaen i; ac y mae a gyfyd ddadl ac ymryson.

4 Am hynny yr oedir cyfraith, ac nid â barn allan byth: am fod y drygionus yn amgylchu y cyfiawn; am hynny cam farn a â allan.

5 ¶ Gwelwch ym mysg y cenhedloedd, ac edrychwch, rhyfeddwch yn aruthrol: canys gweithredaf weithred yn eich dyddiau, ni choeliwch er ei mynegi *i chwi.*

6 Canys wele fi yn codi y Caldeaid, cenedl chwerw a phrysur, yr hon a rodia ar hyd lled y tir, i feddianna cyfanneddoedd nid *yw* eiddynt.

7 *Y maent* i'w hofni ac i'w harswydo: o honynt eu hun y daw allan eu barn a'u rhagoriaeth.

8 A'u meirch sydd fuanach na'r llewpardiaid, a llymmach ydynt na bleiddiau yr hwyr: eu marchogion hefyd a ymdaenant, a'u marchogion a ddeuant o bell; ehedant fel eryr yn prysuro at fwyd.

9 Hwy a ddeuant oll i dreisio; ar gyfer eu hwyneb *y bydd* gwynt y dwyrain, a hwy a gasglant gaethion fel y tywod.

10 A hwy a watwarant frenhinoedd, a thywysogion *a fyddant* watwargerdd iddynt: hwy a watwarant yr holl gestyll, ac a gasglant lwch, ac a'i goresgynant.

11 Yna y newidia *ei* feddwl, ac yr â trosodd, ac a drosedda, *gan ddrolch am* ei rym yma i'w dduw *ei hun.*

12 ¶ Onid *wyt* ti er tragywyddoldeb, O ARGLWYDD fy NUW, fy Sanctaidd? ni byddwn feirw. O ARGLWYDD, ti a'u gosodaist hwy i farn, ac a'u sicrheaist, O DDUW, i gospedigaeth.

13 *Ydwyt* lanach dy lygaid nag y *gelli* edrych ar ddrwg, ac ni elli edrych ar anwiredd: paham yr edrychi ar yr anffyddloniaid, *ac* y tewi pan lyngco yr anwir *un* cyfiawnach nag ef ei hun?

14 Ac y gwnei ddynion fel pysgod y môr, fel yr ymlusgiaid heb lywydd arnynt?

15 Cyfodant hwynt oll â'r bach; casglant hwynt yn eu rhwyd, a chynhullant hwynt yn eu ballegrwyd: am hynny hwy a lawenychant ac a ymddigrifant.

16 Am hynny yr aberthant i'w rhwyd, ac y llosgant arogl-darth i'w ballegrwyd: canys trwyddynt hwy y mae eu rhan yn dew, a'u bwyd yn fras.

17 A gânt hwy gan hynny dywallt eu rhwyd, ac nad arbedont ladd y cenhedloedd yn wastadol?

PENNOD 2.

1 *I Habacuc, yn disgwyl am atteb, y dangosir y bydd rhaid iddo ddisgwyl trwy ffydd. 5 Y barnedigaethau a ddaw ar y Caldeaid am eu hannigonolrwydd, 9 a'u trachwant, 12 a'u creulondeb, 15 a'u meddwdod, 18 a'u delwaddoliaeth.*

SAFAF ar fy nisgwylfa, ac ymsefydlaf ar y tŵr, a gwyliaf, i edrych beth a ddywed efe wrthyf, a pha beth a attebaf pan y'm cerydder.

2 A'r ARGLWYDD a attebodd ac a ddywedodd, Ysgrifena y weledigaeth, a gwna hi yn eglur ar lechau, fel y rhedo yr hwn a'i darlleno.

3 Canys y weledigaeth *sydd* etto dros amser gosodedig, ond hi a ddywed o'r diwedd, ac ni thwylla: os erys, disgwyl am dani; canys gan ddyfod y daw, nid oeda.

4 Wele, *yr hwn* a ymchwydda, nid yw uniawn ei enaid ynddo: ond y cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd.

5 ¶ A hefyd gan ei fod yn troseddu trwy win, gŵr balch *yw efe,*

ac heb aros gartref, yr hwn a helaetha ei feddwl fel uffern, ac *y mae* fel angau, ac nis digonir; ond efe a gasgl atto yr holl genhedloedd, ac a gynnull atto yr holl bobloedd.

6 Oni chyfyd y rhai hyn oll yn ei erbyn ddiareb, a gair du yn ei erbyn, a dywedyd, Gwae a helaetho *y peth* nid *yw* eiddo! pa hyd? a'r neb a lwytho arno ei hun y clai tew!

7 Oni chyfyd yn ddisymmwth y rhai a'th frathant, ac oni ddeffry y rhai a'th gystuddiant, a thi a fyddi yn wasarn iddynt?

8 Am i ti yspeilio cenhedloedd lawer, holl weddill y bobloedd a'th yspeilia dithau: am waed dynion, ac *am* y trais ar y tir, ar y ddinas, ac ar oll a drigant ynddi.

9 ¶ Gwae a elwo elw drwg i'w dŷ, i osod ei nyth yn uchel, i ddïangc o law y drwg!

10 Cymmeraist gynghor gwarthus i'th dŷ, wrth ddistrywio pobloedd lawer; pechaist *yn erbyn* dy enaid.

11 O herwydd y garreg a lefa o'r mur, a'r trawst a'i hettyb o'r *gwaith* coed.

12 ¶ Gwae a adeilado dref trwy waed, ac a gadarnhao ddinas mewn anwiredd!

13 Wele, onid oddi wrth ARGLWYDD y lluoedd *y mae*, bod i'r bobl ymflino yn y tân, ac i'r cenhedloedd ymddiffygio am wir wagedd?

14 Canys y ddaear a lenwir o wybodaeth gogoniant yr ARGLWYDD, fel y toa y dyfroedd y môr.

15 ¶ Gwae a roddo ddïod i'w gymmydog: yr hwn ydwyt yn rhoddi *iddo* dy gostrel, ac yn *ei* feddwi hefyd, er cael gweled eu noethni hwynt!

16 Llanwyd di o warth yn lle gogoniant; ŷf dithau hefyd, a noether dy flaengroen: ymchwel cwppan deheulaw yr ARGLWYDD attat ti, a chwydiad gwarthus *fydd* ar dy ogoniant.

17 Canys trais Libanus a'th orchuddia, ac anrhaith yr anifeiliaid, *yr hwn* a'u dychrynodd hwynt, o achos gwaed dynion, a thrais y tir, y ddinas ac oll a drigant ynddi.

18 ¶ Pa les a wna i'r ddelw gerfiedig, ddarfod i'w lluniwr ei cherfio; i'r ddelw dawdd, ác athraw celwydd, fod lluniwr ei waith yn ymddiried ynddo, i wneuthur eilunod mudion?

19 Gwae a ddywedo wrth bren, Deffro; wrth garreg fud, Cyfod, efe a rydd addysg: wele, gwisgwyd ef âg aur ac arian, a dim anadl nid *oes* o'i fewn.

20 Ond yr ARGLWYDD *sydd* yn ei deml sanctaidd: y ddaear oll, gostega di ger ei fron ef.

PENNOD 3.

1 *Habacuc yn ei weddi yn crynu gan fawrhydi Duw.* 17 *Hyder ei fydd ef.*

GWEDDI Habacuc y prophwyd, ar Sigionoth.

2 Clywais, O ARGLWYDD, dy air, *ac* ofnais: O ARGLWYDD, bywhâ dy waith y'nghanol y blynyddoedd, pâr wybod y'nghanol y blynyddoedd; yn *dy* lid cofia drugaredd.

3 Duw a ddaeth o Teman, a'r Sanctaidd o fynydd Paran. Selah. Ei ogoniant a dôdd y nefoedd, a'r ddaear a lanwyd o'i fawl.

4 A'i lewyrch oedd fel goleuni: *yr oedd* cyrn iddo *yn dyfod* allan o'i law; ac yno *yr oedd* cuddiad ei gryfder.

5 Aeth yr haint o'i flaen ef, ac aeth marwor tanllyd allan wrth ei draed ef.

6 Safodd, a mesurodd y ddaear; edrychodd, a gwasgarodd y cenhedloedd: y mynyddoedd tragywyddol hefyd a ddrylliwyd, a'r bryniau oesol a grymmasant: llwybrau tragywyddol *sydd* iddo.

7 Dan gystudd y gwelais wersyllau Cuwsan: crynodd llenni tir Midian.

8 A sorrodd yr ARGLWYDD wrth yr afonydd? ai wrth yr afonydd *y mae* dy ddig? ai wrth y môr *y mae* dy ddigofaint, gan i ti farchogaeth ar dy feirch, *ac* ar gerbydau dy iachawdwriaeth?

9 Llwyr noethwyd dy fwa, *yn ol* llwon y llwythau, *sef dy* air *di*. Selah. Holltaist y ddaear âg afonydd.

10 Y mynyddoedd a'th welsant,

ac a grynasant; y llifeiriant dwfr a aeth heibio; y dyfnder a wnaeth dwrf; cyfododd *hefyd* ei ddwylaw yn uchel.

11 Yr haul *a'r* lleuad a safodd yn eu preswylfa; wrth oleuad dy saethau yr aethant, *ac* wrth lewyrch dy waywffon ddisglaer.

12 Mewn llid y cerddaist y ddaear, a dyrnaist y cenhedloedd mewn digter.

13 Aethost allan er iachawdwriaeth i'th bobl, er iachawdwriaeth ynghyd â'th enneiniog: torraist *y* pen allan o dŷ yr anwir, gan ddinoethi y sylfaen hyd y gwddf. Selah.

14 Trywenaist ben ei faesdrefydd â'i ffyn ei hun; rhyferthwyasant i'm gwasgaru; ymlawenhasant, megis i fwytta y tlawd mewn dirgelwch.

15 Rhodiaist â'th feirch trwy y môr, *trwy* bentwr o ddyfroedd mawrion.

16 Pan glywais, fy mol a ddychrynodd; fy ngwefusau a grynasant wrth y llef: daeth pydredd i'm hesgyrn, ac yn fy lle y crynais, fel y gorphwyswn yn nydd trallod: pan ddêl efe i fyny at y bobl, efe a'u difetha hwynt â'i fyddinoedd.

17 ¶ Er i'r ffigysbren na flodeuo, ac na *byddo* ffrwyth ar y gwinwydd; gwaith yr olew-wydd a balla, a'r meusydd ni roddant fwyd; torrir ymaith y praidd o'r gorlan, ac ni *bydd* eidion yn eu beudai:

18 Etto mi a lawenychaf yn yr ARGLWYDD; byddaf hyfryd yn NUW fy iachawdwriaeth.

19 Yr ARGLWYDD DDUW *yw* fy nerth, a'm traed a wna efe fel *traed* ewigod; ac efe a wna i mi rodio ar fy uchel-leoedd. I'r pencerdd ar fy offer tannau.

LLYFR SEPHANIAH.

PENNOD 1.

Diogel farn Duw ar Judah am amryw bechodau.

GAIR yr ARGLWYDD yr hwn a ddaeth at Sephanïah mab Cusi, fab Gedalïah, fab Amarïah, fab Hesecïah, yn amser Josïah mab Amon brenhin Judah.

2 Gan ddistrywio y distrywiaf bob dim oddi ar wyneb y ddaear, medd yr ARGLWYDD.

3 Distrywiaf ddyn ac anifail; distrywiaf adar yr awyr, a physgod y môr; a'r tramgwyddiadau ynghyd â'r annuwiolion; a thorraf ymaith ddyn oddi ar wyneb y ddaear, medd yr ARGLWYDD.

4 Estynaf hefyd fy llaw ar Judah, ac ar holl breswylwyr Jerusalem; a thorraf ymaith o'r lle hwn weddill Baal, *ac* enw y Chemariaid â'r offeiriaid;

5 A'r neb a ymgrymmant ar bennau y tai i lu y nefoedd; a'r addolwyr y rhai a dyngant i'r ARGLWYDD, a hefyd a dyngant i Malcham;

6 A'r rhai a giliant oddi ar ol yr ARGLWYDD; a'*r rhai* ni cheisiasant yr ARGLWYDD, ac nid ymofynasant am dano.

7 Distawa ger bron yr ARGLWYDD DDUW; canys agos *yw* dydd yr ARGLWYDD: o herwydd arlwyodd yr ARGLWYDD aberth, gwahoddodd ei wahoddedigion.

8 A bydd, ar ddydd aberth yr ARGLWYDD, i mi ymweled â'r tywysogion, ac â phlant y brenhin, ac â phawb a wisgant wisgoedd dieithr.

9 Ymwelaf hefyd â phawb a neidiant ar y rhiniog y dydd hwnnw, y sawl a lanwant dai eu meistr â thrais ac *â* thwyll.

10 A'r dydd hwnnw, medd yr ARGLWYDD, *y bydd* llais gwaedd o borth y pysgod, ac udfa o'r ail, a drylliad mawr o'r bryniau.

11 Udwch, breswylwyr Machtes: canys torrwyd ymaith yr holl bobl o farchnadyddion; a holl gludwyr arian a dorrwyd ymaith.

12 A'r amser hwnnw y chwiliaf Jerusalem â llusernau, ac yr ym-

welaf â'r dynion sydd yn ceulo ar eu sorod; y rhai a ddywedant yn eu calon, Ni wna yr ARGLWYDD dda, ac ni wna ddrwg.

13 Am hynny eu cyfoeth a â yn yspail, a'u teiau yn anghyfannedd: adeiladant hefyd dai, ond nis preswyliant *ynddynt*; a phlannant winllannoedd, ond nid yfant o'r gwin.

14 Agos *yw* mawr ddydd yr ARGLWYDD, agos a phrysur iawn, *sef* llais dydd yr ARGLWYDD: yno y bloeddia y dewr yn chwerw.

15 Diwrnod llidiog *yw* y diwrnod hwnnw, diwrnod trallod a chyfyngdra, diwrnod dinystr ac anghyfannedd-dra, diwrnod tywyll a du, diwrnod cymmylau a thywyllni.

16 Diwrnod udgorn a larwm yn erbyn y dinasoedd caerog, ac yn erbyn y tyrau uchel.

17 A mi a gyfyngaf ar ddynion, a hwy a rodiant megis deillion, am bechu o honynt yn erbyn yr ARGLWYDD; a'u gwaed a dywelltir fel llwch, a'u cnawd fel tom.

18 Nid eu hariant na'u haur *chwaith* a ddichon eu hachub hwynt ar ddiwrnod llid yr ARGLWYDD; ond â thân ei eiddigedd ef yr ysir yr holl dir: canys gwna *yr Arglwydd* ddiben prysur ar holl breswylwyr y ddaear.

PENNOD 2.

1 Annog i edifeirwch. 4 Barn y Philistiaid, 8 a'r Moabiaid, ac Ammon, 12 ac Ethiopia, ac Assyria.

YMGESGLWCH, ïe, deuwch ynghyd, genedl anhawddgar;
2 Cyn i'r ddeddf esgor, *cyn* i'r dydd fyned heibio fel peiswyn, cyn dyfod arnoch lid digofaint yr ARGLWYDD, cyn dyfod arnoch ddydd sorriant yr ARGLWYDD.

3 Ceisiwch yr ARGLWYDD, holl rai llariaidd y ddaear, y rhai a wnaethant ei farn ef; ceisiwch gyfiawnder, ceisiwch larieidd-dra: fe allai y cuddir chwi yn nydd digofaint yr ARGLWYDD.

4 ¶ Canys bydd Gasa yn wrthodedig, ac Ascalon yn anghyfannedd: gyrrant allan Asdod hanner dydd, a diwreiddir Ecron.

5 Gwae breswylwyr glan y môr, cenedl y Cerethiaid! *y mae* gair yr ARGLWYDD i'ch erbyn: O Ganaan, gwlad y Philistiaid, mi a'th ddifethaf, fel na byddo cyfanneddwr.

6 A bydd glan y môr yn drigfäau *ac* yn fythod i fugeiliaid, ac yn gorlannau defaid.

7 A bydd y fro yn rhan i weddill tŷ Judah; porant arnynt: yn nheiau Ascalon y gorweddant yn yr hwyr: canys yr ARGLWYDD eu DUW a ymwêl â hwynt, ac a ddychwel eu caethiwed.

8 ¶ Clywais waradwyddiad Moab, a chabledd meibion Ammon, â'r hwn y gwaradwyddasant fy mhobl, ac yr *ym*fawrygasant yn erbyn eu terfynau hwynt.

9 Am hynny *fel mai* byw fi, medd ARGLWYDD y lluoedd, DUW Israel, Fel Sodom y bydd Moab, a meibion Ammon fel Gomorrah: danadldir, a phyllau halen, ac anghyfanneddle tragywyddol: gweddill fy mhobl a'u difroda, a gweddill fy nghenedl a'u meddianna hwynt.

10 Hyn a ddaw iddynt am eu balchder, am iddynt waradwyddo ac *ym*fawrygu yn erbyn pobl ARGLWYDD y lluoedd.

11 Ofnadwy *a fydd* yr ARGLWYDD iddynt: canys efe a newyna holl dduwiau y ddaear; ac addolant ef bob un o'i fan, *sef* holl ynysoedd y cenhedloedd.

12 ¶ Chwithau hefyd, yr Ethiopiaid, a leddir â'm cleddyf.

13 Ac efe a estyn ei law yn erbyn y gogledd, ac a ddifetha Assyria, ac a wna Ninefeh yn anghyfannedd, *ac* yn sych fel diffaethwch.

14 A diadellau a orweddant yn ei chanol hi, holl anifeiliaid y cenhedloedd: y pelican a'r dylluan hefyd a lettŷant ar gap y drws; *eu* llais a gân yn y ffenestri; anghyfannedd-dra *a fydd* yn y gorsingau: canys efe a ddinoetha y cedrwaith.

15 Hon *yw* y ddinas hoyw oedd yn trigo yn ddïofal, yn dywedyd yn ei chalon, Myfi *sydd*, ac nid *oes* ond myfi: pa fodd yr aeth yn anghyfannedd, yn orweddfa anifeiliaid! pawb a'r a êl heibio iddi, a'i hwtia, *ac* a ysgwyd ei law *arni*.

PENNOD 3.

1 *Tostlym gerydd Jerusalem am amryw bechodau.* 8 *Annog i ddisgwyl am adferiad Israel,* 14 *ac i lawenychu o achos eu hymwared gan Dduw.*

GWAE y fudr a'r halogedig, y ddinas orthrymmus!
2 Ni wrandawodd ar y llef, ni dderbyniodd gerydd; nid ymddiriedodd yn yr ARGLWYDD, ni nesaodd at ei DUW.
3 Ei thywysogion o'i mewn *sydd* yn llewod rhuadwy; ei barnwyr yn fleiddiau yr hwyr, ni adawant asgwrn erbyn y bore.
4 Ei phrophwydi *sydd* ysgafn, yn wŷr anffyddlawn: ei hoffeiriaid a halogasant y cyssegr, treisiasant y gyfraith.
5 Yr ARGLWYDD cyfiawn *sydd* yn ei chanol; ni wna efe anwiredd: yn fore y dwg ei farn i oleuni, ni phalla; ond yr anwir ni fedr gywilyddio.
6 Torrais ymaith y cenhedloedd: eu tyrau sydd anghyfannedd; diffaethiais eu heolydd, fel nad elo neb heibio; eu dinasoedd a ddifwynwyd, heb ŵr, a heb drigiannol.
7 Dywedais, Yn ddïau ti a'm hofni; derbyni gerydd: felly ei thrigfa ni thorrid ymaith, pa fodd bynnag yr ymwelais â hi: etto bore-godasant, *a* llygrasant eu holl weithredoedd.
8 ¶ Am hynny disgwyliwch arnaf fi, medd yr ARGLWYDD, hyd y dydd y cyfodwyf i'r ysglyfaeth: canys fy marn *sydd* ar gynnull y cenhedloedd, ar gasglu y teyrnasoedd, i dywallt arnynt fy llid, holl angerdd fy nigofaint: canys â thân fy eiddigedd yr ysir yr holl ddaear.
9 O herwydd yna yr adferaf i'r bobl wefus bur, fel y galwo pob un o honynt ar enw yr ARGLWYDD, i'w wasanaethu ef âg un ysgwydd.
10 O'r tu hwnt i afonydd Ethiopia y dwg fy ngweddïwyr, *sef* merch fy ngwasgaredig, fy offrwm.
11 Y dydd hwnnw ni'th waradwyddir am dy holl weithredoedd, yn y rhai y pechaist i'm herbyn: canys yna y symmudaf o'th blith y neb sydd yn hyfryd ganddynt dy falchder, fel nad ymddyrchafech mwyach yn fy mynydd sanctaidd.
12 Gadawaf ynot hefyd bobl druain dlodion, ac yn enw yr ARGLWYDD y gobeithiant hwy.
13 Gweddill Israel ni wna anwiredd, ac ni ddywedant gelwydd; ac ni cheir yn eu geneuau dafod twyllodrus: canys hwy a borant ac a orweddant, ac ni *bydd a'u* tarfo.
14 ¶ Merch Sïon, cân; Israel, crechwena; merch Jerusalem, ymlawenycha a gorfoledda â'th holl galon.
15 Tynnodd yr ARGLWYDD ymaith dy farnau, bwriodd allan dy elynion: yr ARGLWYDD brenhin Israel *sydd* yn dy ganol, nid ofni ddrwg mwyach.
16 Y dydd hwnnw y dywedir wrth Jerusalem, Nac ofna; *wrth* Sïon, Na laesed dy ddwylaw.
17 Yr ARGLWYDD dy DDUW yn dy ganol di *sydd* gadarn: efe a achub, efe a lawenycha o'th blegid gan lawenydd; efe a lonydda yn ei gariad, efe a ymddigrifa ynot dan ganu.
18 Casglaf *y rhai sydd* brudd am y gymmanfa, *y rhai* sydd o honot, *i'r rhai yr oedd* ei gwaradwydd yn faich.
19 Wele, mi a ddifethaf yr amser hwnnw bawb a'th flinant: ac a achubaf y gloff, a chasglaf y wasgaredig; ac a'u gosodaf yn glodfawr ac yn enwog yn holl dir eu gwarth.
20 Yr amser hwnnw y dygaf chwi *drachefn*, yr amser y'ch casglaf: canys gwnaf chwi yn enwog ac yn glodfawr ym mysg holl bobl y ddaear, pan ddychwelwyf eich caethiwed o flaen eich llygaid, medd yr ARGLWYDD.

LLYFR HAGGAI.

PENNOD 1.

1 *Haggai yn beio ar y bobl am esgeuluso adeiladu y tŷ: 7 yn eu hannog hwy i'w adeiladu ef: 12 ac yn addaw cymmorth Duw iddynt, os gwnaent hynny yn ewyllysgar.*

YN yr ail flwyddyn i'r brenhin Darius, yn y chweched mis, ar y dydd cyntaf o'r mis, y daeth gair yr ARGLWYDD trwy law Haggai y prophwyd at Sorobabel mab Salathiel tywysog Judah, ac at Josua mab Josedec yr arch-offeiriad, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y llefara ARGLWYDD y lluoedd, gan ddywedyd, Y bobl hyn a ddywedant, Ni ddaeth yr amser, yr amser i adeiladu tŷ yr ARGLWYDD.

3 Yna y daeth gair yr ARGLWYDD trwy law Haggai y prophwyd, gan ddywedyd,

4 Ai amser *yw* i chwi eich hunain drigo yn eich tai byrddiedig, a'r tŷ hwn yn anghyfannedd?

5 Fel hyn gan hynny yn awr y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Ystyriwch eich ffyrdd.

6 Hauasoch lawer, a chludasoch ychydig; bwytta yr ydych, ond nid hyd ddigon; yfed, ac nid hyd fod yn ddiwall; ymwisgasoch, ac nid hyd glydwr i neb; a'r hwn a ennillo gyflog, sydd yn casglu cyflog i gôd dyllog.

7 ¶ Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Ystyriwch eich ffyrdd.

8 Esgynwch i'r mynydd, a dygwch goed, ac adeiledwch y tŷ; mi a ymfoddlonaf ynddo, ac y'm gogoneddir, medd yr ARGLWYDD.

9 Edrychasoch am lawer, ac wele, *yr oedd* yn ychydig; a phan y dygasoch adref, chwythais arno. Am ba beth? medd ARGLWYDD y lluoedd. Am fy nhŷ i, yr hwn *sydd* yn anghyfannedd, a chwithau yn rhedeg bawb i'w dŷ ei hun.

10 Am hynny gwaharddwyd i'r nefoedd oddi arnoch wlitho, a gwaharddwyd i'r ddaear roddi ei ffrwyth.

11 Gelwais hefyd am sychder ar y ddaear, ac ar y mynyddoedd, ac ar yr ŷd, ac ar y gwin, ac ar yr olew, ac ar *yr hyn* a ddwg y ddaear allan; ar ddyn hefyd, ac ar anifail, ac ar holl lafur dwylaw.

12 ¶ Yna y gwrandawodd Sorobabel mab Salathiel, a Josua mab Josedec yr arch-offeiriad, a holl weddill y bobl, ar lais yr ARGLWYDD eu DUW, ac ar eiriau Haggai y prophwyd, megis yr anfonasai eu HARGLWYDD DDUW hwynt ef; a'r bobl a ofnasant ger bron yr ARGLWYDD.

13 Yna Haggai cennad yr ARGLWYDD a lefarodd trwy gennadwri yr ARGLWYDD wrth y bobl, gan ddywedyd, *Yr wyf* fi gyd â chwi, medd yr ARGLWYDD.

14 Felly y cynhyrfodd yr ARGLWYDD yspryd Sorobabel mab Salathiel tywysog Judah, ac yspryd Josua mab Josedec yr arch-offeiriad, ac yspryd holl weddill y bobl; a hwy a ddaethant ac a weithiasant y gwaith yn nhŷ ARGLWYDD y lluoedd eu DUW hwynt,

15 Y pedwerydd dydd ar hugain o'r chweched mis, yn yr ail flwyddyn i Darius y brenhin.

PENNOD 2.

1 *Y mae yn rhoi calon yn y bobl i weithio, trwy addaw gogoniant mwy i'r ail deml nag oedd yn y gyntaf. 10 Dan rith pethau sanctaidd a phethau aflan, y mae yn dangos fod eu pechodau hwy yn rhwystro y gwaith. 20 Addewid Duw i Sorobabel.*

YN y seithfed *mis, ar* yr unfed *dydd* ar hugain o'r mis, y daeth gair yr ARGLWYDD trwy law y prophwyd Haggai, gan ddywedyd,

2 Dywed yn awr wrth Sorobabel mab Salathiel tywysog Judah, ac wrth Josua mab Josedec yr arch-offeiriad, ac wrth weddill y bobl, gan ddywedyd,

3 Pwy yn eich plith a adawyd, yr hwn a welodd y tŷ hwn yn ei ogoniant cyntaf? a pha fodd y gwelwch chwi ef yr awr hon? onid *yw* wrth hwnnw yn eich golwg fel peth heb ddim?

4 Etto yn awr ymgryfhâ, Sorobabel, medd yr ARGLWYDD; ac ym-

gryfhâ, Josua mab Josedec yr arch-
offeiriad; ac ymgryfhêwch, holl
bobl y tir, medd yr ARGLWYDD,
a gweithiwch: canys *yr ydwyf*
fi gyd â chwi, medd ARGLWYDD y
lluoedd:
5 *Yn ol* y gair a ammodais â chwi
pan ddaethoch allan o'r Aipht, felly
yr erys fy yspryd yn eich mysg:
nac ofnwch.
6 Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Unwaith etto,
ennyd fechan *yw*, a mi a ysgydwaf
y nefoedd, a'r ddaear, a'r môr, a'r
sychdir;
7 Ysgydwaf hefyd yr holl genhedloedd, a dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw: llanwaf hefyd y tŷ
hwn â gogoniant, medd ARGLWYDD
y lluoedd.
8 Eiddof fi yr arian, ac eiddof fi yr
aur, medd ARGLWYDD y lluoedd.
9 Bydd mwy gogoniant y tŷ diweddaf hwn na'r cyntaf, medd ARGLWYDD y lluoedd: ac yn y lle
hwn y rhoddaf dangnefedd, medd
ARGLWYDD y lluoedd.
10 ¶ Ar y pedwerydd *dydd* ar
hugain o'r nawfed *mis*, yn yr ail
flwyddyn i Darîus, y daeth gair yr
ARGLWYDD trwy law Haggai y prophwyd, gan ddywedyd,
11 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y
lluoedd; Gofyn yr awr hon i'r offeiriaid y gyfraith, gan ddywedyd,
12 Os dwg un gig sanctaidd yng
nghwr ei wisg, ac â'i gwr a gyffwrdd â'r bara, neu â'r cawl, neu â'r
gwin, neu â'r olew, neu â dim o'r
bwyd, a fyddant hwy sanctaidd?
A'r offeiriaid a attebasant ac a
ddywedasant, Na *fyddant*.
13 A Haggai a ddywedodd, Os *un*
a fo aflan gan gorph marw a gyffwrdd â dim o'r rhai hyn, a fyddant
hwy aflan? A'r offeiriaid a attebasant ac a ddywedasant, Byddant
aflan.
14 Yna yr attebodd Haggai, ac a
ddywedodd, Felly *y mae* y bobl
hyn, ac felly *y mae* y genhedlaeth
hon ger fy mron, medd yr ARGLWYDD; ac felly *y mae* holl waith
eu dwylaw, a'r hyn a aberthant
yno, yn aflan.
15 Ac yr awr hon meddyliwch,
attolwg, o'r diwrnod hwn *allan* a
chynt, cyn gosod carreg ar garreg
yn nheml yr ARGLWYDD;
16 Er pan oedd *y dyddiau* hynny
pan ddelid at dwr o ugain *llestraid*, deg fyddai; pan ddelid at y
gwin-wrŷf i dynnu deg *llestraid* a
deugain o'r cafn, ugain a fyddai
yno.
17 Tarewais chwi â diflanniad, ac
â mallder, ac â chenllysg, yn holl
waith eich dwylaw; a chwithau
ni *throisoch* attaf fi, medd yr ARGLWYDD.
18 Ystyriwch yr awr hon o'r dydd
hwn ac er cynt, o'r pedwerydd
dydd ar hugain o'r nawfed *mis*,
ac ystyriwch o'r dydd y sylfaenwyd teml yr ARGLWYDD.
19 *A yw* yr had etto yn yr
ysgubor? y winwydden hefyd, y
ffigysbren, a'r pomgranad, a'r pren
olew-wydd, ni ffrwythasant: o'r
dydd hwn allan y bendithiaf *chwi*.
20 ¶ A gair yr ARGLWYDD a
ddaeth eilwaith at Haggai, ar y
pedwerydd *dydd* ar hugain o'r
mis, gan ddywedyd,
21 Llefara wrth Sorobabel tywysog Judah, gan ddywedyd,
Myfi a ysgydwaf y nefoedd a'r
ddaear;
22 A mi a ymchwelaf deyrn-gadair
teyrnasoedd, ac a ddinystriaf gryfder brenhiniaethau y cenhedloedd;
ymchwelaf hefyd y cerbydau, a'r
rhai a eisteddant ynddynt; a'r
meirch a'u marchogion a syrthiant,
bob un gan gleddyf ei frawd.
23 Y diwrnod hwnnw, medd ARGLWYDD y lluoedd, y'th gymmeraf
di, fy ngwas Sorobabel, mab Salathiel, medd yr ARGLWYDD, ac
y'th wnaf fel sêl: canys mi a'th
ddewisais di, medd ARGLWYDD y
lluoedd.

LLYFR SECHARIAH.

PENNOD 1.

1 Sechariah yn annog i edifeirwch. 7 Gweledigaeth y meirch. 12 Trwy weddi yr angel y gyneir addewidion cysurol i Jerusalem. 18 Gweledigaeth y pedwar corn, a'r pedwar saer.

YN yr wythfed mis o'r ail flwyddyn i Darïus, y daeth gair yr ARGLWYDD at Sechariah, mab Barachïah, mab Ido y prophwyd, gan ddywedyd,

2 Llwyr-ddigiodd yr ARGLWYDD wrth eich tadau.

3 Am hynny dywed wrthynt, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Dychwelwch attaf fi, medd ARGLWYDD y lluoedd, a mi a ddychwelaf attoch chwithau, medd ARGLWYDD y lluoedd.

4 Na fyddwch fel eich tadau, y rhai y galwodd y prophwydi o'r blaen arnynt, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Dychwelwch yn awr oddi wrth eich ffyrdd drwg, ac *oddi wrth* eich gweithredoedd drygionus: ond ni chlywent, ac ni wrandawent arnaf, medd yr ARGLWYDD.

5 Eich tadau, pa le *y maent* hwy? a'r prophwydi, ydynt hwy yn fyw byth?

6 Oni ddarfu er hynny i'm geiriau a'm deddfau, y rhai a orchymynais wrth fy ngweision y prophwydi, oddiwes eich tadau? a hwy a ddychwelasant, ac a ddywedasant, Megis y meddyliodd ARGLWYDD y lluoedd wneuthur i ni, yn ol ein ffyrdd, ac yn ol ein gweithredoedd *ein hun*, felly y gwnaeth efe â ni.

7 ¶ Ar y pedwerydd dydd ar hugain o'r unfed mis ar ddeg, hwnnw *yw* mis Sebat, o'r ail flwyddyn i Darïus, y daeth gair yr ARGLWYDD at Sechariah, mab Barachïah, mab Ido y prophwyd, gan ddywedyd,

8 Gwelais noswaith; ac wele ŵr yn marchogaeth ar farch coch, ac yr oedd efe yn sefyll rhwng y myrtwydd y rhai *oedd* yn y pant; ac o'i ol ef feirch cochion, brithion, a gwynion.

9 Yna y dywedais, Beth *yw* y rhai hyn, fy arglwydd? A dywedodd yr angel oedd yn ymddiddan â mi wrthyf, Mi a ddangosaf i ti beth yw y rhai hyn.

10 A'r gŵr, yr hwn oedd yn sefyll rhwng y myrtwydd, a attebodd ac a ddywedodd, Dyma y rhai a hebryngodd yr ARGLWYDD i ymrodio trwy y ddaear.

11 A hwythau a attebasant angel yr ARGLWYDD, yr hwn oedd yn sefyll rhwng y coed myrt, ac a ddywedasant, Rhodiasom trwy y ddaear; ac wele yr holl ddaear yn eistedd, ac yn llonydd.

12 ¶ Ac angel yr ARGLWYDD a attebodd ac a ddywedodd, O ARGLWYDD y lluoedd, pa hyd na thrugarhêi wrth Jerusalem, a dinasoedd Judah, wrth y rhai y digiaist y deng mlynedd a thri ugain hyn?

13 A'r ARGLWYDD a attebodd yr angel oedd yn ymddiddan â mi, *â* geiriau daionus, *a* geiriau comfforddus.

14 A'r angel yr hwn oedd yn ymddiddan â mi a ddywedodd wrthyf, Gwaedda, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Deliais eiddigedd mawr dros Jerusalem a thros Sïon:

15 A digiais yn ddirfawr wrth y cenhedloedd difraw; y rhai *pan* ddigiais ychydig, hwythau a gynnorthwyasant y niwed.

16 Am hynny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Dychwelais at Jerusalem â thrugareddau: fy nhŷ a adeiledir ynddi, medd ARGLWYDD y lluoedd, a llinyn a estynir ar Jerusalem.

17 Gwaedda etto, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Fy ninasoedd a ymehangant gan ddaioni, a'r ARGLWYDD a rydd gysur i Sïon etto, ac a ddewis Jerusalem etto.

18 ¶ A chodais fy llygaid, ac edrychais; ac wele, bedwar corn.

19 A dywedais wrth yr angel oedd yn ymddiddan â mi, Beth *yw* y rhai hyn? Dywedodd yntau wrthyf, Y

rhai hyn *yw* y cyrn a wasgarasant Judah, Israel, a Jerusalem.

20 A'r ARGLWYDD a ddangosodd i mi bedwar saer *hefyd.*

21 Yna y dywedais, I wneuthur pa beth y daw y rhai hyn? Ac efe a lefarodd, gan ddywedyd, Y rhai hyn *yw* y cyrn a wasgarasant Judah, fel na chodai un ei ben: ond y rhai hyn a ddaethant i'w tarfu hwynt, i daflu allan gyrn y Cenhedloedd, y rhai a godasant *eu* cyrn ar wlad Judah i'w gwasgaru hi.

PENNOD 2.

1 *Duw, o'i ofal dros Jerusalem, yn anfon i'w mesuro hi.* 6 *Gwared Sïon.* 10 *Addewid o bresennoldeb Duw.*

DYRCHEFAIS fy llygaid drachefn, ac edrychais; ac wele ŵr, ac yn ei law linyn mesur.

2 A dywedais, I ba le yr âi di? Ac efe a ddywedodd wrthyf, I fesuro Jerusalem, i weled beth *yw* ei lled hi, a pheth *yw* ei hŷd hi.

3 Ac wele yr angel a oedd yn ymddiddan â mi yn myned allan, ac angel arall yn myned allan i'w gyfarfod ef.

4 Ac *efe* a ddywedodd wrtho, Rhed, llefara wrth y llangc hwn, gan ddywedyd, Jerusalem a gyfanneddir *fel* maesdrefi, rhag amled dyn ac anifail o'i mewn.

5 Canys byddaf iddi yn fur o dân o amgylch, medd yr ARGLWYDD, a byddaf yn ogoniant yn ei chanol.

6 ¶ Ho, ho, *deuwch allan,* a ffowch o wlad y gogledd, medd yr ARGLWYDD: canys taenais chwi fel pedwar gwynt y nefoedd, medd yr ARGLWYDD.

7 O Sïon, ymachub, yr hon wyt yn preswylio *gyd â* merch Babilon.

8 Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Ar ol y gogoniant y'm hanfonodd at y cenhedloedd y rhai a'ch yspeiliasant chwi: canys a gyffyrddo â chwi, sydd yn cyffwrdd â chanwyll ei lygad ef.

9 Canys wele fi yn ysgwyd fy llaw arnynt, a byddant yn ysglyfaeth i'w gweision: a chânt wybod mai ARGLWYDD y lluoedd a'm hanfonodd.

10 ¶ Cân a llawenycha, merch Sïon: canys wele fi yn dyfod; a mi a drigaf yn dy ganol di, medd yr ARGLWYDD.

11 A'r dydd hwnnw cenhedloedd lawer a ymlynant wrth yr ARGLWYDD, ac a fyddant bobl i mi: a mi a drigaf yn dy ganol di; a chei wybod mai ARGLWYDD y lluoedd a'm hanfonodd attat.

12 A'r ARGLWYDD a etifedda Judah, ei ran yn y tir sanctaidd, ac a ddewis Jerusalem drachefn.

13 Pob cnawd, taw y'ngŵydd yr ARGLWYDD: canys cyfododd o drigfa ei sancteiddrwydd.

PENNOD 3.

1 *Dan rith Josua, y dangosir adferiad yr eglwys.* 8 *Addaw Crist y Blaguryn.*

AC efe a ddangosodd i mi Josua yr arch-offeiriad yn sefyll ger bron angel yr ARGLWYDD, a Satan yn sefyll ar ei ddeheulaw ef i'w wrthwynebu ef.

2 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Satan, Cerydded yr ARGLWYDD dydi, Satan; sef yr ARGLWYDD yr hwn a ddewisodd Jerusalem, a'th geryddo: onid pentewyn *yw* hwn wedi ei achub o'r tân?

3 A Josua ydoedd wedi ei wisgo â dillad budron, ac yn sefyll yng ngŵydd yr angel.

4 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn sefyll ger ei fron, gan ddywedyd, Cymmerwch ymaith y dillad budron oddi am dano ef. Wrtho yntau y dywedodd, Wele, symmudais dy anwiredd oddi wrthyt, a gwisgaf di hefyd â newid dillad.

5 A dywedais hefyd, Rhoddant feitr teg ar ei ben ef: a rhoddasant feitr teg ar ei ben ef, ac a'i gwisgasant â dillad; ac angel yr ARGLWYDD oedd yn sefyll ger llaw.

6 Ac angel yr ARGLWYDD a dystiolaethodd wrth Josua, gan ddywedyd,

7 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Os rhodi di yn fy ffyrdd, ac os cedwi fy nghadwraeth, tithau hefyd a ferni fy nhŷ, ac a gedwi fy nghynteddoedd; rhoddaf i ti hefyd leoedd i rodio ym mysg y rhai hyn sydd yn sefyll *yma.*

8 Gwrando, attolwg, Josua yr arch-offeiriad, ti a'th gyfeillion sydd yn eistedd ger dy fron: canys gwŷr rhyfedd *yw* y rhai hyn: o

herwydd wele, dygaf allan fy ngwas Y BLAGURYN.

9 Canys wele, y garreg a roddais ger bron Josua; ar un garreg *y bydd* saith o lygaid: wele fi yn naddu ei naddiad hi, medd ARGLWYDD y lluoedd, a mi a symmudaf ymaith anwiredd y tir hwnnw mewn un diwrnod.

10 Y dwthwn hwnnw, medd ARGLWYDD y lluoedd, y gelwch bob un ei gymmydog dan y winwyddden, a than y ffigysbren.

PENNOD 4.

1 *Trwy weledigaeth y canhwyllbren aur, y dangosir y llwydaiant a gai sylfaeniad Sorobabel:* 11 *ac wrth y ddwy olew-wydden, yr arwyddocêir y ddau enneiniog.*

A'R angel yr hwn oedd yn ymddiddan â mi, a ddychwelodd, ac a'm deffrôdd, fel y deffrôir un o'i gwsg,

2 Ac a ddywedodd wrthyf, Beth a weli di? A mi a ddywedais, Edrychais, ac wele ganhwyllbren i gyd *o* aur, a'i badell ar ei ben, a'i saith lusern arno, a saith o bibellau i'r saith lusern *oedd* ar ei ben ef;

3 A dwy olew-wydden wrtho, y naill o'r *tu* dehau i'r badell, a'r llall o'r *tu* aswy iddi.

4 A mi a attebais, ac a ddywedais wrth yr angel oedd yn ymddiddan â mi, gan ddywedyd, Beth *yw* y rhai hyn, fy arglwydd?

5 A'r angel oedd yn ymddiddan â mi, a attebodd, ac a ddywedodd wrthyf, Oni wyddost beth *yw* y rhai yma? Yna y dywedais, Na *wn*, fy arglwydd.

6 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthyf, gan ddywedyd, Hyn *yw* gair yr ARGLWYDD at Sorobabel, gan ddywedyd, Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy yspryd, medd ARGLWYDD y lluoedd.

7 Pwy *wyt* ti, y mynydd mawr? ger bron Sorobabel *y byddi* yn wastadedd; ac efe a ddwg allan y maen pennaf, gan weiddi, Rhad, rhad iddo.

8 Daeth gair yr ARGLWYDD attaf drachefn, gan ddywedyd,

9 Dwylaw Sorobabel a sylfaenasant y tŷ hwn, a'i ddwylaw ef a'i gorphen: a chei wybod mai ARGLWYDD y lluoedd a'm hebryngodd attoch.

10 Canys pwy a ddïystyrodd ddydd y pethau bychain? canys llawenychant, a gwelant y garreg alcam yn llaw Sorobabel *gyd â*'r saith hynny: llygaid yr ARGLWYDD *ydynt*, y rhai sydd yn cynniwair trwy yr holl ddaear.

11 ¶ A mi a attebais ac a ddywedais wrtho, Beth *yw* y ddwy olew-wydden hyn, ar y *tu* dehau i'r canhwyllbren, ac ar ei aswy?

12 A mi a attebais drachefn, ac a ddywedais wrtho, Beth *yw* y ddau bingcyn olew-wydden, y rhai trwy y ddwy bibell aur sydd yn tywallt allan o honynt eu hunain yr *olew* euraid?

13 Ac efe a lefarodd wrthyf, gan ddywedyd, Oni wyddost ti beth *yw* y rhai hyn? A dywedais, Na *wn*, fy arglwydd.

14 Ac efe a ddywedodd, Dyma y ddwy gaingc olew-wydden sydd yn sefyll ger bron ARGLWYDD yr holl ddaear.

PENNOD 5.

1 *Wrth y llyfr yn ehedeg, y dangosir melldith lladratta a thyngu.* 5 *Yn rhith gwraig yn eistedd mewn ephah, a thalent o blwm, y dangosir damnedigaeth Babilon.*

YNA y troais, a chodais fy llygaid, ac edrychais; ac wele blyg llyfr yn ehedeg.

2 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Beth a weli di? A dywedais, Mi a welaf blyg llyfr yn ehedeg, a'i hŷd yn ugain cufydd, a'i led yn ddeg cufydd.

3 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Dyma y felldith sydd yn myned allan ar wyneb yr holl ddaear: canys pob un a ladratto, a dorrir ymaith *fel* o'r tu yma, yn ei hol hi; a phob un a dyngo, a dorrir ymaith *fel* o'r tu accw, yn ei hol hi.

4 Dygaf hi allan, medd ARGLWYDD y lluoedd, a hi a ddaw i dŷ y lleidr, ac i dŷ y neb a dyngo i'm henw i ar gam: a hi a erys y'nghanol ei dŷ ef, ac a'i difa ef, a'i goed, a'i gerrig.

5 ¶ Yna yr angel oedd yn ym-

ddiddan â mi, a aeth allan, ac a ddywedodd wrthyf, Cyfod yn awr dy lygaid, ac edrych beth *yw* hyn sydd yn myned allan.

6 A mi a ddywedais, Beth *ydyw?* Ac efe a ddywedodd, Ephah *ydyw*, sydd yn myned allan. Ac efe a ddywedodd, Dyma eu gwelediad yn yr holl ddaear.

7 Ac wele dalent o blwm wedi ei godi i fyny: a dyma wraig yn eistedd y'nghanol yr ephah.

8 Ac efe a ddywedodd, Anwiredd *yw* hon. Ac efe a'i taflodd hi i ganol yr ephah; a bwriodd y pwys plwm ar ei enau ef.

9 A chyfodais fy llygaid, ac edrychais; ac wele ddwy wraig yn dyfod allan, a gwynt yn eu hesgyll; canys esgyll oedd ganddynt fel esgyll y ciconia: a chyfodasant yr ephah rhwng y ddaear a'r nefoedd.

10 Yna y dywedais wrth yr angel oedd yn ymddiddan â mi, I ba le y mae y rhai hyn yn myned â'r ephah?

11 Dywedodd yntau wrthyf, I adeiladu iddi dŷ y'ngwlad Sinar: a hi a sicrhêir, ac a osodir yno ar ei hystôl ei hun.

PENNOD 6.

1 *Gweledigaeth y pedwar cerbyd.* 9 *Dan rith coronau Josua, y dangosir teml a brenhiniaeth Crist y Blaguryn.*

HEFYD mi a droais, ac a ddyrchefais fy llygaid, ac a edrychais; ac wele bedwar o gerbydau yn dyfod allan oddi rhwng dau fynydd: a'r mynyddoedd *oedd* fynyddoedd o bres.

2 Yn y cerbyd cyntaf *yr oedd* meirch cochion, ac yn yr ail gerbyd meirch duon,

3 Ac yn y trydydd gerbyd meirch gwynion, ac yn y pedwerydd gerbyd meirch brithion a gwineuon.

4 Yna yr attebais, ac y dywedais wrth yr angel oedd yn ymddiddan â mi, Beth *yw* y rhai hyn, fy arglwydd?

5 A'r angel a attebodd ac a ddywedodd, Dyma bedwar yspryd y nefoedd, y rhai sydd yn myned allan o sefyll ger bron ARGLWYDD yr holl ddaear.

6 Y meirch duon *sydd* ynddo a ânt allan i dir y gogledd; a'r gwynion a ânt allan ar eu hol hwythau; a'r brithion a ânt allan i'r deheudir.

7 A'r gwineuon a aethant allan, ac a geisiasant fyned i gynniwair trwy y ddaear: ac efe a ddywedodd, Ewch, cynniweirwch trwy y ddaear. Felly hwy a gynniweirasant trwy y ddaear.

8 Yna efe a waeddodd arnaf, ac a lefarodd wrthyf, gan ddywedyd, Edrych, y rhai a aethant i dir y gogledd a lonyddasant fy yspryd yn nhir y gogledd.

9 ¶ A daeth gair yr ARGLWYDD attaf, gan ddywedyd,

10 Cymmer gan y gaethglud, gan Heldai, gan Tobïah, a chan Jedaiah, y rhai a ddaethant o Babilon, a thyred y dydd hwnnw, a dos i dŷ Josïah mab Sephanïah:

11 Yna cymmer arian ac aur, a gwna goronau, a gosod ar ben Josua mab Josedec yr arch-offeiriad;

12 A llefara wrtho, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd, gan ddywedyd, Wele y gŵr a'i enw BLAGURYN: o'i le hefyd y blagura, ac efe a adeilada deml yr ARGLWYDD:

13 Ie, teml yr ARGLWYDD a adeilada efe; ac efe a ddwg y gogoniant, ac a eistedd, ac a lywodraetha ar ei frenhinfainge; bydd yn offeiriad hefyd ar ei frenhinfainge: a chynghor hedd a fydd rhyngddynt ill dau.

14 A'r coronau fydd i Helem, ac i Tobïah, ac i Jedaiah, ac i Hen mab Sephanïah, er coffadwriaeth yn nheml yr ARGLWYDD.

15 A'r pellennigion a ddeuant, ac a adeiladant yn nheml yr ARGLWYDD, a chewch wybod mai ARGLWYDD y lluoedd a'm hanfonodd attoch. A *hyn* a fydd, os gan wrandaw y gwrandêwch ar lais yr ARGLWYDD DDUW.

PENNOD 7.

1 *Y caethion yn ymofyn am ympryd.* 4 *Sechariah yn argyhoeddi eu hympryd hwy.* 8 *Pechod yw yr achos o'u caethiwed hwy.*

AC yn y bedwaredd flwyddyn i'r brenhin Darïus y daeth gair yr ARGLWYDD at Sechariah, ar y pedwerydd *dydd* o'r nawfed mis, *sef* Cisleu;

2 Pan anfonasent Sereser, a Regem-melech, a'u gwŷr, i dŷ DDUW, i weddio ger bron yr ARGLWYDD,

3 *Ac* i ddywedyd wrth yr offeiriaid *oedd* yn nhŷ ARGLWYDD y lluoedd, ac wrth y prophwydi, gan ddywedyd, A wylaf fi y pummed mis, gan ymneilldu o, fel y gwneuthum weithian gymmaint o flynyddoedd?

4 ¶ Yna gair ARGLWYDD y lluoedd a ddaeth attaf, gan ddywedyd,

5 Dywed wrth holl bobl y tir, ac wrth yr offeiriaid, gan lefaru, Pan oeddych yn ymprydio ac yn galaru y pummed a'r seithfed *mis*, y deng mlynedd a thri ugain hynny, ai i mi yr ymprydiasoch chwi ympryd, i mi?

6 A phan fwyttasoch, a phan yfasoch, onid oeddych yn bwytta *i chwi eich hunain*, ac yn yfed *i chwi eich hunain?*

7 Oni *ddylech wrandaw* y geiriau a gyhoeddodd yr ARGLWYDD trwy law y prophwydi gynt, pan oedd Jerusalem yn gyfannedd, ac yn llwyddiannus, a'i dinasoedd o'i hamgylch, a *phobl* yn cyfanneddu y deheudir a'r dyffryndir?

8 ¶ A daeth gair yr ARGLWYDD at Sechariah, gan ddywedyd,

9 Fel hyn y llefara ARGLWYDD y lluoedd, gan ddywedyd, Bernwch farn gywir, gwnewch drugaredd a thosturi bob un i'w frawd:

10 Ac na orthrymmwch y weddw a'r amddifad, y dïeithr a'r anghenog; ac na feddyliwch ddrwg bob un i'w gilydd yn eich calonnau.

11 Er hyn gwrthodasant wrandaw, a rhoddasant ysgwydd anhydyn, a thrymhasant eu clustiau rhag clywed.

12 Gwnaethant hefyd eu calonnau yn adamant, rhag clywed y gyfraith a'r geiriau a anfonodd ARGLWYDD y lluoedd trwy ei ysbryd, yn llaw y prophwydi gynt: am hynny y daeth digofaint mawr oddi wrth ARGLWYDD y lluoedd.

13 A bu, megis y galwodd efe, ac na wrandawent hwy; felly y galwasant hwy, ac nis gwrandâwn innau, medd ARGLWYDD y lluoedd.

14 Ond gwasgerais hwynt â chorwynt i blith yr holl genhedloedd y rhai nid adwaenent; a'r tir a anghyfanneddwyd ar eu hol hwynt, fel nad oedd a'i tramwyai nac a ddychwelai: felly y gosodasant y wlad ddymunol yn ddiffaethwch.

PENNOD 8.

1 *Adnewyddu Jerusalem.* 9 *Eu cysuro hwy i adeiladu, trwy fod ffafr Duw tu ag attynt.* 16 *Gweithredoedd da y mae Duw yn eu gofyn ganddynt.* 18 *Addaw llawenydd a rhyddhâd.*

DRACHEFN y daeth gair ARGLWYDD y lluoedd *attaf*, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Eiddigeddais eiddigedd mawr dros Sïon, ac â llid mawr yr eiddigeddais drosti.

3 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD; Dychwelais at Sïon, a thrigaf yng nghanol Jerusalem; a Jerusalem a elwir Dinas y gwirionedd; a mynydd ARGLWYDD y lluoedd, Y mynydd sanctaidd.

4 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Hen wŷr a hen wragedd a drigant etto yn heolydd Jerusalem, a phob gŵr â'i ffon yn ei law o herwydd amlder dyddiau.

5 A heolydd y ddinas a lenwir o fechgyn a genethod yn chwarae yn ei heolydd hi.

6 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Os anhawdd yw *hyn* yn y dyddiau hyn y'ngolwg gweddill y bobl hyn, ai anhawdd fyddai hefyd yn fy ngolwg i? medd ARGLWYDD y lluoedd.

7 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Wele fi yn gwaredu fy mhobl o dir y dwyrain, ac o dir machludiad haul.

8 A mi a'u dygaf hwynt, fel y preswyliont y'nghanol Jerusalem: a hwy a fyddant yn bobl i mi, a byddaf finnau iddynt hwythau yn DDUW mewn gwirionedd ac mewn cyfiawnder.

9 ¶ Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Cryfhâer eich dwylaw chwi, y rhai ydych yn clywed yn y dyddiau hyn y geiriau hyn o enau y prophwydi, y rhai *oedd* yn y dydd y sylfaenwyd tŷ ARGLWYDD y lluoedd, fel yr adeiledid y deml.

10 Canys cyn y dyddiau hyn nid oedd na chyflog i ddyn, na llog am anifail; na heddwch i'r un a elai

allan, nac a ddelai i mewn, gan y gorthrymder: oblegid gyrrais yr holl ddynion bob un ym mhen ei gymmydog.

11 Ond yn awr ni *byddaf* fi i weddill y bobl hyn megis yn y dyddiau gynt, medd ARGLWYDD y lluoedd.

12 Canys *bydd* yr had yn ffynnadwy; y winwydden a rydd ei ffrwyth, a'r ddaear a rydd ei chynnyrch, a'r nefoedd a roddant eu gwlith: a pharaf i weddill y bobl hyn feddiannu yr holl *bethau* hyn.

13 A bydd, mai megis y buoch chwi, tŷ Judah a thŷ Israel, yn felldith ym mysg y cenhedloedd; felly y'ch gwaredaf chwi, a byddwch yn fendith: nac ofnwch, *ond* cryfhâer eich dwylaw.

14 Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Fel y meddyliais eich drygu chwi, pan y'm digiodd eich tadau, medd ARGLWYDD y lluoedd, ac nid edifarheais;

15 Felly drachefn y meddyliais yn y dyddiau hyn wneuthur lles i Jerusalem, ac i dŷ Judah: nac ofnwch.

16 ¶ Dyma y pethau a wnewch chwi; Dywedwch y gwir bawb wrth ei gymmydog; bernwch farn gwirionedd *a* thangnefedd yn eich pyrth;

17 Ac na fwriedwch ddrwg neb i'w gilydd yn eich calonnau; ac na hoffwch lw celwyddog: canys yr holl *bethau* hyn a gaseais, medd yr ARGLWYDD.

18 ¶ A gair ARGLWYDD y lluoedd a ddaeth attaf, gan ddywedyd,

19 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Ympryd y pedwerydd *mis*, ac ympryd y pummed, ac ympryd y seithfed, ac ympryd y degfed, a fydd i dŷ Judah yn llawenydd a hyfrydwch, ac yn uchel-wyliau daionus: gan hynny cerwch wirionedd a heddwch.

20 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; *Bydd* etto, y daw pobloedd, a phreswylwyr dinasoedd lawer:

21 Ac yr â preswylwyr y naill *ddinas* i'r llall, gan ddywedyd, Awn gan fyned i weddïo ger bron yr ARGLWYDD, ac i geisio ARGLWYDD y lluoedd: minnau a âf hefyd.

22 Ië, pobloedd lawer a chenhedloedd cryfion a ddeuant i geisio ARGLWYDD y lluoedd yn Jerusalem, ac i weddïo ger bron yr ARGLWYDD.

23 Fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Yn y dyddiau hynny *y bydd* i ddeg o ddynion, o bob tafodiaith y cenhedloedd, ymaflyd, ymaflyd, *meddaf*, y'ngodrau gŵr o Iuddew, gan ddywedyd, Awn gyd â chwi: canys clywsom *fod* DUW gyd â chwi.

PENNOD 9.

1 Duw yn amddiffyn ei eglwys. 9 Annog Sion i lawenychu am ddyfodiad Crist, a'i heddychol frenhiniaeth. 12 Duw yn addaw buddugoliaeth ac amddiffyn.

BAICH gair yr ARGLWYDD yn nhir Hadrach, a Damascus *fydd* ei orphwysfa ef: pan *fyddo* llygaid dyn ar yr ARGLWYDD, fel yr eiddo holl lwythau Israel.

2 A Hamath hefyd a derfyna wrthi; Tyrus a Sidon *hefyd*, er ei bod yn ddoeth iawn.

3 A Thyrus a adeiladodd iddi ei hun amddiffynfa, ac a bentyrrodd arian fel llwch, ac aur coeth fel tom yr heolydd.

4 Wele, yr ARGLWYDD a'i bwrw hi allan, ac a dery ei nerth hi yn y môr; a hi a ysir â thân.

5 Ascalon a'*i* gwel, ac a ofna; a Gasa, ac a ymofidia yn ddirfawr; Ecron hefyd, am ei chywilyddio o'i gobaith; difethir hefyd y brenhin allan o Gasa, ac Ascalon ni chyfanneddir.

6 Estron hefyd a drig yn Asdod, a thorraf ymaith falchder y Philistiaid.

7 A mi a gymmeraf ymaith ei waed o'i enau, a'i ffieidd-dra oddi rhwng ei ddannedd: ac efe a weddillir i'n DUW ni, fel y byddo megis pennaeth yn Judah, ac Ecron megis Jebusiad.

8 A gwersyllaf o amgylch fy nhŷ rhag y llu, rhag a êl heibio, a rhag a ddychwelo; fel nad elo gorthrymmwr trwyddynt mwyach: canys yn awr gwelais â'm llygaid.

9 ¶ Bydd lawen iawn, ti ferch Sïon; a chrechwena, ha ferch Jerusalem: wele dy frenhin yn dyfod attat: cyfiawn ac achubydd *yw* efe; *y mae efe* yn llariaidd, ac yn

marchogaeth ar asyn, ac ar ebol llwdn asen.

10 Torraf hefyd y cerbyd oddi wrth Ephraim, a'r march oddi wrth Jerusalem, a'r bwa rhyfel a dorrir: ac efe a lefara heddwch i'r cenhedloedd: a'i lywodraeth *fydd* o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd eithafoedd y ddaear.

11 A thithau, trwy waed dy ammod y gollyngais dy garcharorion o'r pydew heb ddwfr ynddo.

12 ¶ Trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol; heddyw yr ydwyf yn dangos y talaf i ti yn ddau-ddyblyg:

13 Pan annelwyf Judah i mi, ac y llanwyf y bwa âg Ephraim, ac y cyfodwyf dy feibion di, Sïon, yn erbyn dy feibion di, Groeg, ac y'th wnelwyf fel cleddyf gŵr grymmus:

14 A'r ARGLWYDD a welir trostynt, a'i saeth ef a â allan fel mellten: a'r ARGLWYDD DDUW a gân âg udgorn, ac a gerdd â chorwyntoedd y dehau.

15 ARGLWYDD y lluoedd a'u hamddiffyn hwynt: a hwy a ysant, ac a ddarostyngant gerrig y dafl; yfant, *a* therfysgant megis *mewn* gwin, a llenwir hwynt fel meiliau, *ac* fel conglau yr allor.

16 A'r ARGLWYDD eu DUW a'u gwared hwynt y dydd hwnnw fel praidd ei bobl: canys *fel* meini coron *y byddant*, wedi eu dyrchafu yn fanerau ar ei dir ef.

17 Canys pa faint *yw* ei ddaioni ef, a pha faint ei degwch ef! ŷd a lawenycha y gwŷr ieuaingc, a gwin y gwyryfon.

PENNOD 10.

1 Duw eydd raid ymgais dg ef, ac nid ellunod. 5 Megis yr ymwelodd efe a'i ddiadell am eu pechod, felly yr achub ac yr adfera efe hwy.

ERCHWCH gan yr ARGLWYDD wlaw mewn pryd diweddarwlaw; *a'r* ARGLWYDD a bair ddisglaer gymmylau, ac a ddŷd iddynt gawod o wlaw, i bob un laswellt yn y maes.

2 Canys y delwau a ddywedasant wagedd, a'r dewiniaid a welsant gelwydd, ac a ddywedasant freuddwydion ofer; rhoddasant ofer gysur: am hynny yr aethant fel defaid, cystuddiwyd hwynt, am nad *oedd* bugail.

3 Wrth y bugeiliaid yr ennynodd fy llid, a mi a gospais y bychod: canys ARGLWYDD y lluoedd a ymwelodd â'i braidd tŷ Judah, ac a'u gwnaeth fel ei harddfarch yn y rhyfel.

4 Y gongl a ddaeth allan o hono, yr hoel o hono, y bwa rhyfel o hono, *a* phob gorthrymmwr ynghyd *a ddaeth* o hono.

5 ¶ A byddant fel cewri yn sathru *eu gelynion* yn nhom yr heolydd yn y rhyfel: a hwy a ymladdant, am *fod* yr ARGLWYDD gyd â hwynt; a chywilyddir marchogion meirch.

6 A nerthaf dŷ Judah, a gwaredaf dŷ Joseph, a pharaf iddynt ddychwelyd i'w cyfle; canys trugarheais wrthynt; a byddant fel pe nas gwrthodaswn hwynt: o herwydd myfi *yw* yr ARGLWYDD eu DUW hwynt, ac a'u gwrandawaf hwynt.

7 Bydd Ephraim hefyd fel cawr, a'u calonnau a lawenychant fel trwy win: a'u meibion a gânt weled, ac a lawenychant; bydd eu calon yn hyfryd yn yr ARGLWYDD.

8 Chwibanaf arnynt, a chasglaf hwynt; canys gwaredais hwynt: ac amlhânt fel yr amlhasant.

9 A hauaf hwynt ym mysg y bobloedd: ac mewn gwledydd pell y'm cofiant, a byddant fyw gyd â'u plant, a dychwelant.

10 A dychwelaf hwynt o dir yr Aipht, a chasglaf hwynt o Assyria; ac arweiniaf hwynt i dir Gilead a Libanus, ac ni cheir *lle* iddynt.

11 Ac efe a dramwya trwy y môr mewn blinder, ac a dery y tonnau yn y môr; a holl ddyfnderoedd yr afon a fyddant ddyhysbydd: a disgynir balchder Assyria, a theyrnwïalen yr Aipht a gilia ymaith.

12 Nerthaf hwynt hefyd yn yr ARGLWYDD, ac yn ei enw ef yr ymrodiant, medd yr ARGLWYDD.

PENNOD 11.

1 Dinystr Jerusalem. 3 Gofalu am yr etholedigion, a gwrthod y lleill. 10 Torri ffon Tegwch a Rhwymau, trwy wrthod Crist. 15 Arwydd a melldith y bugail ynfyd.

LIBANUS, agor dy ddorau, fel yr yso y tân dy gedrwydd.

2 Y ffynnidwydd, udwch; canys

cwympodd y cedrwydd, difwynwyd y rhai ardderchog: udwch, dderw Basan; canys syrthiodd coedwig y gwin gynhauaf.

3 ¶ *Y mae* llef udfa y bugeiliaid! am ddifwyno eu hardderchowgrwydd: llef rhuad y llewod ieuaingc! am ddifwyno balchder yr Iorddonen.

4 Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD fy NUW; Portha ddefaid y lladdfa;

5 Y rhai y mae eu perchennogion yn eu lladd, heb dybied eu bod yn euog; a'u gwerthwyr a ddywedant, Bendigedig *fyddo* yr ARGLWYDD, am fy nghyfoethogi: a'u bugeiliaid nid arbedant hwynt.

6 Canys nid arbedaf mwyach drigolion y wlad, medd yr ARGLWYDD; ond wele fi yn rhoddi y dynion bob un i law ei gymmydog, ac i law ei frenhin; a hwy a darawant y tir, ac nid achubaf *hwynt* o'u llaw hwy.

7 A mi a borthaf ddefaid y lladdfa, *sef* chwi, drueiniaid y praidd. A chymmerais i mi ddwy ffon; un a elwais Hyfrydwch, a'r llall a elwais Rhwymau; a mi a borthais y praidd.

8 A thorrais ymaith dri bugail mewn un mis; a'm henaid a alarodd arnynt hwy, a'u henaid hwythau a'm ffieiddiodd innau.

9 Dywedais hefyd, Ni phorthaf chwi: a fyddo farw, bydded farw; ac y sydd i'w dorri ymaith, torrer ef ymaith; a'r gweddill, ysant bob un gnawd ei gilydd.

10 ¶ A chymmerais fy ffon Hyfrydwch, a thorrais hi, i dorri fy nghyfammod yr hwn a ammodaswn â'r holl bobl.

11 A'r dydd hwnnw y torrwyd hi: ac felly y gwybu trueiniaid y praidd, y rhai oedd yn disgwyl wrthyf fi, mai gair yr ARGLWYDD *oedd* hyn.

12 A dywedais wrthynt, Os gwelwch yn dda, dygwch fy ngwerth; ac onid ê, peidiwch: a'm gwerth a bwysasant yn ddeg ar hugain o arian.

13 A dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, Bwrw ef i'r crochenydd: pris teg â'r hwn y'm prisiwyd ganddynt. A chymmerais y deg ar hugain arian, a bwriais hwynt i dŷ yr ARGLWYDD, i'r crochenydd.

14 Yna mi a dorrais fy ail ffon, *sef* Rhwymau, i dorri y brawdoliaeth rhwng Judah ac Israel.

15 ¶ A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrthyf, Cymmer etto i ti offer bugail ffol.

16 Canys wele fi yn codi bugail yn y tir, *yr hwn* ni ofwya y cuddiedig, ni chais yr ieuangc, ni feddyginiaetha y briwedig, a fyddo yn sefyll ni phortha; ond bwytty gig y bras, ac a ddryllia eu hewinedd hwynt.

17 Gwae yr eilun fugail, yn gadael y praidd: y cleddyf *fydd* ar ei fraich, ac ar ei lygad dehau: ei fraich gan wywo a wywa, a'i lygad dehau gan dywyllu a dywylla.

PENNOD 12.

1 Jerusalem yn phïol gwsg a dychryn iddi ei hun, 3 ac yn faen pwysfawr i'w gwrthwynebwyr. 6 Buddugawl adferiad Judah. 9 Edifeirwch Jerusalem.

BAICH gair yr ARGLWYDD i Israel, medd yr ARGLWYDD, yr hwn sydd yn estyn allan y nefoedd, ac yn sylfaenu y ddaear, ac yn llunio yspryd dyn ynddo.

2 Wele fi yn gwneuthur Jerusalem yn phïol gwsg i'r bobloedd oll o amgylch, pan fyddont yn y gwarchae yn erbyn Judah, *ac* yn erbyn Jerusalem.

3 ¶ A bydd y dwthwn hwnnw i mi wneuthur Jerusalem yn faen trwm i'r holl bobloedd: pawb a ymlwytho âg ef, *yn ddïau* a rwygir, er ymgasglu o holl genhedloedd y ddaear yn ei erbyn ef.

4 Y diwrnod hwnnw, medd yr ARGLWYDD, y tarawaf bob march â syndra, a'i farchog âg ynfydrwydd; ac agoraf fy llygaid ar dŷ Judah, a tharawaf holl feirch y bobl â dallineb.

5 A thywysogion Judah a ddywedant yn eu calon, Nerth i mi *fydd* preswylwyr Jerusalem yn ARGLWYDD y lluoedd eu DUW hwynt.

6 ¶ Y dydd hwnnw y gwnaf dywysogion Judah fel aelwyd o dân yn y coed, ac fel ffagl dân mewn ysgub o wellt; ac ysant ar y llaw ddehau ac ar yr aswy, yr holl bobloedd o amgylch: a Jerusalem a

gyfanneddir drachefn yn ei lle ei hun, yn Jerusalem.

7 Yr ARGLWYDD a geidw bebyll Judah yn gyntaf, megis nad *ym*fawrygo gogoniant tŷ Dafydd, a gogoniant preswylwyr Jerusalem, yn erbyn Judah.

8 Y dydd hwnnw yr amddiffyn yr ARGLWYDD breswylwyr Jerusalem: a bydd y llesgaf o honynt y dydd hwnnw fel Dafydd; a thŷ Dafydd *fydd* fel DUW, fel angel yr ARGLWYDD o'u blaen hwynt.

9 ¶ Y dydd hwnnw y bydd i mi geisio difetha yr holl genhedloedd y sydd yn dyfod yn erbyn Jerusalem.

10 A thywalltaf ar dŷ Dafydd, ac ar breswylwyr Jerusalem, yspryd gras a gweddïau; a hwy a edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant; galarant hefyd am dano fel un yn galaru am *ei* unig-anedig, ac ymofidiant am dano ef megis un yn gofidio am *ei* gyntaf-anedig.

11 Y dwthwn hwnnw y bydd galar mawr yn Jerusalem, megis galar Hadad-rimmon yn nyffryn Megidon.

12 A'r wlad a alara, pob teulu wrtho ei hun; teulu tŷ Dafydd wrtho ei hun, a'u gwragedd wrthynt eu hunain; teulu tŷ Nathan wrtho ei hunan, a'u gwragedd wrthynt eu hunain;

13 Teulu tŷ Lefi wrtho ei hunan, a'u gwragedd wrthynt eu hunain; teulu tŷ Simei wrtho ei hunan, a'u gwragedd wrthynt eu hunain;

14 Yr holl deuluoedd eraill, pob teulu wrtho ei hun, a'u gwragedd wrthynt eu hunain.

PENNOD 13.

1 Ffynnon i lanhâu Jerusalem 2 oddi wrth ddelw-addoliaeth a gau-brophwydoliaeth. 7 Marwolaeth Crist, a phrofi y drydedd ran.

Y DYDD hwnnw y bydd ffynnon wedi ei hagoryd i dŷ Dafydd, ac i breswylwyr Jerusalem, i bechod ac aflendid.

2 ¶ A bydd y dwthwn hwnnw, medd ARGLWYDD y lluoedd, i mi dorri enwau yr eilunod allan o'r tir, ac nis cofir hwynt mwyach; a gyrraf hefyd y prophwydi ac yspryd aflendid o'r wlad.

3 A bydd pan brophwydo un mwyach, y dywed ei dad a'i fam a'i cenhedlasant ef wrtho, Ni chei fyw; canys dywedaist gelwydd yn enw yr ARGLWYDD: a'i dad a'i fam a'i cenhedlasant ef a'i gwanant ef pan fyddo yn prophwydo.

4 A bydd y dydd hwnnw, i'r prophwydi gywilyddio bob un am ei weledigaeth, wedi iddo brophwydo; ac ni wisgant grys o rawn i dwyllo:

5 Ond efe a ddywed, Nid prophwyd *ydwyf* fi; llafurwr y ddaear *ydwyf* fi: canys dyn a'm dysgodd i gadw anifeiliaid o'm hieuengctid.

6 A dywed *un* wrtho, Beth *a wna* y gweliau hyn yn dy ddwylaw? Yna efe a ddywed, *Dyma* y rhai y'm clwyfwyd â hwynt *yn* nhŷ fy nghariedigion.

7 ¶ Deffro, gleddyf, yn erbyn fy mugail, ac yn erbyn y gŵr *sydd* gyfaill i mi, medd ARGLWYDD y lluoedd: taro y bugail, a'r praidd a wasgerir; a dychwelaf fy llaw ar y rhai bychain.

8 A bydd yn yr holl dir, medd yr ARGLWYDD, y torrir ymaith *ac* y bydd marw dwy ran ynddo; a'r drydedd a adewir ynddo.

9 A dygaf y drydedd ran trwy y tân, a phuraf hwynt fel puro arian, a choethaf hwynt fel coethi aur: hwy a alwant ar fy enw, a minnau a'u gwrandawaf: dywedaf, Fy mhobl *yw* efe; ac yntau a ddywed, Yr ARGLWYDD *yw* fy NUW.

PENNOD 14.

1 Distrywio dinystrwyr Jerusalem. 4 Dyfodiad Crist, a rhaddau ei frenhiniaeth ef. 12 Pla gelynion Jerusalem. 16 Y gweddill a dry at yr Arglwydd, 20 a sanctaidd fydd eu hanrhaith.

WELE ddydd yr ARGLWYDD yn dyfod, a rhennir dy yspail yn dy ganol di.

2 Canys mi a gasglaf yr holl genhedloedd i ryfel yn erbyn Jerusalem: a'r ddinas a oresgynir, y tai a anrheithir, a'r gwragedd a dreisir; a hanner y ddinas a â allan i gaethiwed, a'r rhan arall o'r bobl nis torrir ymaith o'r ddinas.

3 A'r ARGLWYDD a â allan, ac a ryfela yn erbyn y cenhedloedd hynny, megis y dydd y rhyfelodd efe yn nydd y gâd.

4 ¶ A'i draed a safant y dydd hwnnw ar fynydd yr Olew-wydd, yr hwn *sydd* ar gyfer Jerusalem, o du y dwyrain; a mynydd yr Olew-wydd a hyllt ar draws ei hanner tu a'r dwyrain a thu a'r gorllewin, *a bydd* dyffryn mawr iawn: a hanner y mynydd a symmud tu a'r gogledd, a'i hanner tu a'r dehau.

5 A chwi a ffowch *i* ddyffryn y mynyddoedd; canys dyffryn y mynyddoedd a gyrhaedd hyd Asal: a ffowch fel y ffoisoch rhag y ddaeargryn yn nyddiau Ussïah brenhin Judah: a daw yr ARGLWYDD fy NUW, *a*'r holl saint gyd â thi.

6 A'r dydd hwnnw y daw i ben, na byddo goleuni disglaer, na thywyll:

7 Ond bydd un dïwrnod, hwnnw a adweinir gan yr ARGLWYDD, nid dydd, ac nid nos; ond bydd goleuni yn yr hwyr.

8 A bydd y dwthwn hwnnw, y daw allan o Jerusalem ddyfroedd bywiol; eu hanner hwynt tu a môr y dwyrain, a'u hanner tu a'r môr eithaf: haf a gauaf y bydd *hyn.*

9 A'r ARGLWYDD a fydd yn Frenhin ar yr holl ddaear: y dydd hwnnw y bydd un ARGLWYDD, a'i enw yn un.

10 Troir yr holl dir megis yn wastad o Geba hyd Rimmon, o'r tu dehau i Jerusalem: hi a ddyrchefir, ac a gyfanneddir yn ei lle, o borth Benjamin hyd le y porth cyntaf, hyd borth y gongl, ac *o* dŵr Hananeel hyd win-wrŷfau y brenhin.

11 Yno y trigant ynddi, ac ni bydd yn ddifrod mwyach; ond Jerusalem a gyfanneddir yn ddïenbyd.

12 ¶ A hyn fydd y pla â'r hwn y tery yr ARGLWYDD yr holl bobloedd a ryfelant yn erbyn Jerusalem; Eu cnawd a dderfydd, er eu bod yn sefyll ar eu traed, a'u llygaid a ddarfyddant yn eu tyllau, a'u tafod a dderfydd yn eu safn.

13 Y dydd hwnnw y bydd mawr derfysg oddi wrth yr ARGLWYDD yn eu plith hwynt; a phob un a ymfael yn llaw ei gymmydog, a'i law a gyfyd yn erbyn llaw ei gymmydog.

14 A Judah hefyd a ryfela yn Jerusalem: a chesglir golud yr holl genhedloedd o amgylch, aur ac arian, a gwisgoedd lawer iawn.

15 Ac felly y bydd pla y march, y mul, y camel, yr asyn, a phob anifail a fyddo yn y gwersylloedd hyn, fel y pla hwn.

16 ¶ A bydd i bob un a adawer o'r holl genhedloedd a ddaethant yn erbyn Jerusalem, fyned i fyny o flwyddyn i flwyddyn, i addoli y Brenhin, ARGLWYDD y lluoedd, ac i gadw gwyl y pebyll.

17 A phwy bynnag nid êl i fyny o deuluoedd y ddaear i Jerusalem, i addoli y Brenhin, ARGLWYDD y lluoedd, ni bydd gwlaw arnynt.

18 Ac os teulu yr Aipht nid â i fyny, ac ni ddaw, y rhai nid oes *gwlaw* arnynt; yno y bydd y pla â'r hwn y tery yr ARGLWYDD y cenhedloedd y rhai nid esgynant i gadw gwyl y pebyll.

19 Hyn a fydd cosp yr Aipht, a chosp yr holl genhedloedd nid elont i fyny i gadw gwyl y pebyll.

20 ¶ Y dydd hwnnw y bydd ar ffrwynau y meirch, SANCTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD; a bydd y crochanau yn nhŷ yr ARGLWYDD fel meiliau ger bron yr allor.

21 Bydd pob crochan yn Jerusalem ac yn Judah yn Sanctteiddrwydd i ARGLWYDD y lluoedd: a daw pob aberthwr, ac a gymmerant o honynt, ac a ferwant ynddynt: ac ni bydd Canaanead mwyach yn nhŷ ARGLWYDD y lluoedd y dydd hwnnw.

LLYFR MALACHI.

PENNOD 1.

1 *Malachi yn achwyn rhag angharedigrwydd Israel,* 6 *a'u hanghrefydd,* 12 *a'u halogrwydd.*

BAICH gair yr ARGLWYDD at Israel trwy law Malachi.
2 Hoffais chwi, medd yr ARGLWYDD: a chwi a ddywedwch, Ym mha beth yr hoffaist ni? Onid brawd *oedd* Esau i Jacob? medd yr ARGLWYDD: etto Jacob a hoffais,
3 Ac Esau a gaseais, ac a osodais ei fynyddoedd yn ddiffaethwch, a'i etifeddiaeth i ddreigiau yr anialwch.
4 Lle y dywed Edom, Tlodwyd ni, etto dychwelwn, ac adeiladwn yr anghyfannedd-leoedd; fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Hwy a adeiladant, ond minnau a fwriaf i lawr; a galwant hwynt yn Ardal drygioni, a'r Bobl *wrth* y rhai y llidiodd yr ARGLWYDD yn dragywydd.
5 Eich llygaid hefyd a welant, a chwithau a ddywedwch, Mawrygir yr ARGLWYDD oddi ar derfyn Israel.
6 ¶ Mab a anrhydedda *ei* dad, a gweinidog ei feistr: ac os *ydwyf* fi dad, pa le *y mae* fy anrhydedd? ac os *ydwyf* fi feistr, pa le *y mae* fy ofn? medd ARGLWYDD y lluoedd wrthych chwi yr offeiriaid, y rhai ydych yn dirmygu fy enw: a chwi a ddywedwch, Ym mha beth y dirmygasom dy enw di?
7 Offrymmu yr ydych ar fy allor fara halogedig; a chwi a ddywedwch, Ym mha beth yr halogasom di? Am i chwi ddywedyd, Dirmygus *yw* bwrdd yr ARGLWYDD.
8 Ac os offrymmu yr ydych y dall yn aberth, onid drwg *hynny?* ac os offrymmwch y cloff a'r clwyfus, onid drwg *hynny?* cynnyg ef yr awrhon i'th dywysog, a fydd efe boddlawn i ti? neu a dderbyn efe dy wyneb? medd ARGLWYDD y lluoedd.
9 Ac yn awr gweddïwch, attolwg, ger bron DUW, fel y trugarhao wrthym: o'ch llaw chwi y bu hyn: a dderbyn efe wyneb *un* o honoch? medd ARGLWYDD y lluoedd.
10 A phwy hefyd o honoch a gauai y dorau, neu a oleuai fy allor yn rhad? Nid *oes* gennyf foddlonrwydd ynoch chwi, medd ARGLWYDD y lluoedd, ac ni dderbyniaf offrwm o'ch llaw.
11 Canys o gyfodiad haul hyd ei fachludiad hefyd, mawr *fydd* fy enw ym mysg y Cenhedloedd: ac ym mhob lle arogl-darth a offrymmir i'm henw, ac offrwm pur: canys mawr *fydd* fy enw ym mhlith y cenhedloedd, medd ARGLWYDD y lluoedd.
12 ¶ Ond chwi a'i halogasoch ef, pan ddywedasoch, Bwrdd yr ARGLWYDD *sydd* halogedig; a'i ffrwyth, *sef* ei fwyd, sydd ddirmygus.
13 Chwi hefyd a ddywedasoch, Wele, pa flinder *yw!* a ffroenasoch arno, medd ARGLWYDD y lluoedd; a dygasoch yr hyn a ysglyfaethwyd, a'r cloff, a'r clwyfus;- fel hyn y dygasoch offrwm: a fyddaf fi foddlawn i hynny o'ch llaw chwi? medd yr ARGLWYDD.
14 Ond melldigedig *yw* y twyllodrus, yr hwn y mae yn ei ddïadell wrryw, ac a adduna ac a abertha *un* llygredig i'r ARGLWYDD: canys Brenhin mawr *ydwyf* fi, medd ARGLWYDD y lluoedd, a'm henw *sydd* ofnadwy ym mhlith y cenhedloedd.

PENNOD 2.

1 *Y mae yn ceryddu yr offeiriaid yn dost, am esgeuluso eu cyfammod;* 11 *a'r bobl, am eu gau-dduwiaeth,* 14 *a'u godineb,* 17 *a'u hanfyddlondeb.*

AC yr awr hon, chwi offeiriaid, i chwi *y mae* y gorchymyn hwn.
2 Oni wrandêwch, ac oni ystyriwch, i roddi anrhydedd i'm henw i, medd ARGLWYDD y lluoedd; yna mi a anfonaf felldith arnoch chwi, ac a felldithiaf eich bendithion chwi: ïe, myfi a'u melldithiais eisoes, am nad ydyeh yn ystyried.
3 Wele fi yn llygru eich had chwi, a thaenaf dom ar eich wyn-

ebau, *sef* tom eich uchel-wyliau; ac *un* a'ch cymmer chwi atto ef.
4 Hefyd cewch wybod mai myfi a anfonais attoch y gorchymyn hwn, fel y byddai fy nghyfammod â Lefi, medd ARGLWYDD y lluoedd.
5 Fy nghyfammod âg ef oedd am fywyd a heddwch; a mi a'u rhoddais hwynt iddo *am* yr ofn â'r hwn y'm hofnodd, ac yr arswydodd o flaen fy enw.
6 Cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef, ac anwiredd ni chafwyd yn ei wefusau: mewn hedd ac uniondeb y rhodiodd gyd â mi, a llaweroedd a drodd efe oddi wrth anwiredd.
7 Canys gwefusau yr offeiriad a gadwant wybodaeth, a'r gyfraith a geisiant o'i enau ef: o herwydd cennad ARGLWYDD y lluoedd *yw* efe.
8 Ond chwi a giliasoch allan o'r ffordd, ac a barasoch i laweroedd dramgwyddo wrth y gyfraith; llygrasoch gyfammod Lefi, medd ARGLWYDD y lluoedd.
9 Am hynny minnau hefyd a'ch gwneuthum chwi yn ddirmygus ac yn ddïystyr gan yr holl bobl; megis na chadwasoch fy ffyrdd i, ond bod yn derbyn wynebau yn y gyfraith.
10 Onid un Tad *sydd* i ni oll? onid un DUW a'n creodd ni? paham y gwnawn yn anffyddlawn bob un yn erbyn ei frawd, gan halogi cyfammod ein tadau?
11 ¶ Judah a wnaeth yn anffyddlawn, a ffieidd-dra a wnaethpwyd yn Israel ac yn Jerusalem: canys Judah a halogodd sancteiddrwydd yr ARGLWYDD, yr hwn a hoffasai, ac a briododd ferch duw dïeithr.
12 Yr ARGLWYDD a dyr ymaith y gŵr a wnel hyn; yr athraw a'r disgybl o bebyll Jacob, ac offrymmydd offrwm i ARGLWYDD y lluoedd.
13 Hyn hefyd eilwaith a wnaethoch, gan orchuddio â dagrau allor yr ARGLWYDD trwy wylofain a gweiddi; fel nad edrych efe mwyach ar yr offrwm, ac na chymmer *ef* yn foddlawn o'ch llaw chwi.
14 ¶ Er hynny chwi a ddywedwch, Pa herwydd? O herwydd mai yr ARGLWYDD a fu dyst rhyngot ti a rhwng gwraig dy ieuengctid, yr hon y buost anffyddlawn iddi; er ei *bod* yn gymmar i ti, ac yn wraig dy gyfammod.
15 Onid un a wnaeth efe? a'r ysbryd y'ngweddill ganddo. A phaham un? I geisio had duwiol. Am hynny gwyliwch ar eich yspryd, ac na fydded *neb* anffyddlawn yn erbyn gwraig ei ieuengctid.
16 Pan gasâech di *hi*, gollwng *hi* ymaith, medd yr ARGLWYDD, DUW Israel: canys gorchuddio y mae efe drais â'i wisg, medd ARGLWYDD y lluoedd: gan hynny gwyliwch ar eich yspryd, na fyddoch anffyddlawn.
17 ¶ Blinasoch yr ARGLWYDD â'ch geiriau: a chwi a ddywedwch, Ym mha beth y blinasom *ef?* Am i chwi ddywedyd, Pob gwneuthurwr drwg *sydd* dda y'ngolwg yr ARGLWYDD, ac iddynt y mae efe yn foddlawn; neu, Pa le *y mae* DUW y farn?

PENNOD 3.

1 Cennad, a mawrhydi, a gras Crist. 7 Anufudd dod, 8 a chyssegr-ladrad, 13 ac anffyddlondeb y bobl. 16 Addaw bendith iddynt oddi wrth Duw.

WELE fi yn anfon fy nghennad, ac efe a arloesa y ffordd o'm blaen i: ac yn ddisymmwth y daw yr ARGLWYDD, yr hwn yr ydych yn ei geisio, i'w deml; sef angel y cyfammod yr hwn yr ydych yn ei chwennych: wele efe yn dyfod, medd ARGLWYDD y lluoedd.
2 Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef? a phwy a saif pan ymddangoso efe? canys *y mae* efe fel tân y toddydd, ac fel sebon y golchyddion.
3 Ac efe a eistedd *fel* purwr a glanhâwr arian: ac efe a bura feibion Lefi, ac a'u coetha hwynt fel aur ac fel arian, fel y byddont yn offrymmu i'r ARGLWYDD offrwm mewn cyfiawnder.
4 Yna y bydd melus gan yr ARGLWYDD offrwm Judah a Jerusalem, megis yn y dyddiau gynt, ac fel y blynyddoedd gynt.
5 A mi a nesâf attoch chwi i farn; a byddaf dyst cyflym yn erbyn yr hudolion, ac yn erbyn y godinebwyr, ac yn erbyn yr anudonwyr, ac

yn erbyn cam-attalwyr cyflog y cyflogedig, a'r rhai sydd yn gorthrymmu y weddw, a'r amddifad, a'r dïeithr, ac heb fy ofni i, medd ARGLWYDD y lluoedd.

6 Canys myfi yr ARGLWYDD ni'm newidir; am hynny ni ddifethwyd chwi, meibion Jacob.

7 ¶ Er dyddiau eich tadau y ciliasoch oddi wrth fy neddfau, ac ni chadwasoch *hwynt:* dychwelwch attaf fi, a mi a ddychwelaf attoch chwithau, medd ARGLWYDD y lluoedd: ond chwi a ddywedwch, Ym mha beth y dychwelwn?

8 ¶ A yspeilia dyn DDUW? etto chwi a'm hyspeiliasoch i: ond chwi a ddywedwch, Ym mha beth y'th yspeiliasom? Yn y degwm a'r offrwm.

9 Melldigedig *ydych* trwy felldith: canys chwi a'm hyspeiliasoch i, *sef* yr holl genedl hon.

10 Dygwch yr holl ddegwm i'r trysordy, fel y byddo bwyd yn fy nhŷ; a phrofwch fi yr awr hon yn hyn, medd ARGLWYDD y lluoedd, onid agoraf i chwi ffenestri y nefoedd, a thywallt i chwi fendith, fel na *byddo* digon *o le i'w derbyn.*

11 Myfi hefyd a argyhoeddaf er eich mwyn chwi yr ormes, ac ni ddifwyna i chwi ffrwyth y ddaear: a'r winwydden yn y maes ni fwrw ei ffrwyth cyn yr amser i chwi, medd ARGLWYDD y lluoedd.

12 A'r holl genhedloedd a'ch galwant chwi yn wynfydedig: canys byddwch yn wlad hyfryd, medd ARGLWYDD y lluoedd.

13 ¶ Eich geiriau chwi a ymgryfhaodd i'm herbyn, medd yr ARGLWYDD: etto chwi a ddywedwch, Pa beth a ddywedasom ni yn dy erbyn di?

14 Dywedasoch, Oferedd *yw* gwasanaethu DUW: a pha lesiant *sydd* er i ni gadw ei orchymynion ef, ac er i ni rodio yn alarus ger bron ARGLWYDD y lluoedd?

15 Ac yr awr hon yr ydym yn galw y beilchion yn wynfydedig: ïe, gweithredwyr drygioni a adeiladwyd; ïe, *y rhai* a demtiant DDUW, a waredwyd.

16 ¶ Yna y rhai oedd yn ofni yr ARGLWYDD a lefarasant bob un wrth ei gymmydog: a'r ARGLWYDD a wrandawodd, ac a glybu; ac ysgrifenwyd llyfr coffadwriaeth ger ei fron ef i'r rhai oedd yn ofni yr ARGLWYDD, ac i'r rhai oedd yn meddwl am ei enw ef.

17 A byddant eiddof fi, medd ARGLWYDD y lluoedd, y dydd y gwnelwyf briodoledd; arbedaf hwynt hefyd fel yr arbed gŵr ei fab sydd yn ei wasanaethu.

18 Yna y dychwelwch, ac y gwelwch *ragor* rhwng y cyfiawn a'r drygionus, rhwng yr hwn a wasanaetho DDUW a'r hwn nis gwasanaetho ef.

PENNOD 4.

1 Barn Duw ar yr anwir, 2 a'i fendith ar y daionus. 4 Y mae yn eu hannog i fyfyrio ar y gyfraith; 5 ac yn adrodd iddynt ddyfodiad a swydd Elias.

CANYS wele y dydd yn dyfod, yn llosgi megis ffwrn; a'r holl feilchion, a holl weithredwyr anwiredd, a fyddant sofl: a'r dydd sydd yn dyfod a'u llysg hwynt, medd ARGLWYDD y lluoedd, fel nas gadawo iddynt na gwreiddyn na changen.

2 ¶ Ond Haul cyfiawnder a gyfyd i chwi, y rhai ydych yn ofni fy enw, â meddyginiaeth yn ei esgyll; a chwi a ewch allan, ac a gynnyddwch megis lloi pasgedig.

3 A chwi a fethrwch yr annuwiolion; canys byddant yn lludw dan wadnau eich traed chwi, yn y dydd y gwnelwyf *hyn,* medd ARGLWYDD y lluoedd.

4 ¶ Cofiwch gyfraith Moses fy ngwas, yr hon a orchymynais iddo ef yn Horeb i holl Israel, y deddfau a'r barnedigaethau.

5 ¶ Wele, mi a anfonaf i chwi Elïas y prophwyd, cyn dyfod dydd mawr ac ofnadwy yr ARGLWYDD:

6 Ac efe a dry galon y tadau at y plant, a chalon y plant at eu tadau; rhag i mi ddyfod a tharo y ddaear â melldith.

TERFYN Y PROPHWYDI.

TESTAMENT NEWYDD

EIN

HARGLWYDD A'N HIACHAWDWR

IESU GRIST

CAER GRAWNT

ARGRAPHEDIG YN ARGRAPHDY Y BRIFYSGOL

CUM PRIVILEGIO

1920

YR EFENGYL YN OL
SANT MATTHEW.

PENNOD 1.

1 *Achau Crist o Abraham i Joseph.* 18 *Ei genhedlu ef o'r Ysprid Glân, a'i eni o Fair forwyn, wedi ei dyweddïo hi â Joseph.* 19 *Yr angel yn boddloni camdybius feddyliau Joseph, ac yn dehongli enwau Crist.*

LLYFR cenhedliad Iesu Grist, fab Dafydd, fab Abraham.
2 Abraham a genhedlodd Isaac; ac Isaac a genhedlodd Jacob; a Jacob a genhedlodd Judas a'i frodyr;
3 A Judas a genhedlodd Phares a Sara o Thamar; a Phares a genhedlodd Esrom; ac Esrom a genhedlodd Aram;
4 Ac Aram a genhedlodd Aminadab; ac Aminadab a genhedlodd Naasson; a Naasson a genhedlodd Salmon;
5 A Salmon a genhedlodd Boos o Rachab; a Boos a genhedlodd Obed o Ruth; ac Obed a genhedlodd Jesse;
6 A Jesse a genhedlodd Dafydd frenhin; a Dafydd frenhin a genhedlodd Solomon o'r hon *a fuasai wraig* Urïas;
7 A Solomon a genhedlodd Roboam; a Roboam a genhedlodd Abïa; ac Abïa a genhedlodd Asa;
8 Ac Asa a genhedlodd Josaphat; a Josaphat a genhedlodd Joram; a Joram a genhedlodd Osïas;
9 Ac Osïas a genhedlodd Joatham; a Joatham a genhedlodd Achas; ac Achas a genhedlodd Esecïas;
10 Ac Esecïas a genhedlodd Manasses; a Manasses a genhedlodd Amon; ac Amon a genhedlodd Josïas;
11 A Josïas a genhedlodd Jechonïas a'i frodyr, ynghylch amser y symmudiad i Babilon:
12 Ac wedi y symmudiad i Babilon, Jechonïas a genhedlodd Salathiel; a Salathiel a genhedlodd Sorobabel;
13 A Sorobabel a genhedlodd Abïud; ac Abïud a genhedlodd Elïacim; ac Elïacim a genhedlodd Asor;
14 Ac Asor a genhedlodd Sadoc; a Sadoc a genhedlodd Achim; ac Achim a genhedlodd Elïud;
15 Ac Elïud a genhedlodd Eleasar; ac Eleasar a genhedlodd Matthan; a Matthan a genhedlodd Jacob;
16 A Jacob a genhedlodd Joseph, gŵr Mair, o'r hon y ganed Iesu, yr hwn a elwir Crist.
17 Felly yr holl genhedlaethau o Abraham hyd Dafydd, *sydd* bedair cenhedlaeth ar ddeg; ac o Dafydd hyd y symmudiad i Babilon, pedair cenhedlaeth ar ddeg; ac o'r symmudiad i Babilon hyd Grist, pedair cenhedlaeth ar ddeg.
18 ¶ A genedigaeth yr Iesu Grist oedd fel hyn: Wedi dyweddïo Mair ei fam ef â Joseph, cyn eu dyfod hwy ynghyd, hi a gafwyd yn feichiog o'r Ysprid Glân.
19 A Joseph ei gŵr hi, gan ei fod yn gyfiawn, ac heb chwennych ei gwneuthur hi yn siampl, a ewyllysiodd ei rhoi hi ymaith yn ddirgel.
20 Ac efe yn meddwl y pethau hyn, wele, angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo mewn breuddwyd, gan ddywedyd, Joseph, mab Dafydd, nac ofna gymmeryd Mair dy wraig: oblegid yr hyn a genhedlwyd ynddi sydd o'r Ysprid Glân.
21 A hi a esgor ar fab, a thi a elwi ei enw ef IESU: oblegid efe a wared ei bobl oddi wrth eu pechodau.
22 (A hyn oll a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd gan yr Arglwydd trwy y prophwyd, gan ddywedyd,
23 Wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab; a hwy a alwant ei enw ef Emmanuel; yr hyn o'i gyfieithu yw, Duw gyd â ni.)
24 A Joseph, pan ddeffroes o gwsg, a wnaeth megis y gorchymynasai angel yr Arglwydd iddo, ac a gymmerodd ei wraig:

25 Ac nid adnabu efe hi hyd
oni esgorodd hi ar ei mab cyntaf-
anedig. A galwodd ei enw ef
IESU.

PENNOD 2.

1 *Y doethion yn cael eu cyfarwyddo at Grist trwy*
weinidogaeth seren: 11 *yn ei addoli ef, ac yn*
cyflwyno eu hanrhegion. 14 *Joseph yn ffoi i'r*
Aipht, efe, a'r Iesu a'i fam. 16 *Herod yn lladd*
y plant; 20 *ac yn marw.* 23 *Dwyn Crist yn ei*
ol i Galilea i Nasareth.

AC wedi geni yr Iesu yn Bethle-
hem Judea, yn nyddiau Herod
frenhin, wele, doethion a ddaethant
o'r dwyrain i Jerusalem,
2 Gan ddywedyd, Pa le y mae
yr hwn a anwyd yn Frenhin yr
Iuddewon? canys gwelsom ei seren
ef yn y dwyrain, a daethom i'w
addoli ef.
3 Ond pan glybu Herod frenhin,
efe a gyffröwyd, a holl Jerusalem
gyd âg ef.
4 A chwedi dwyn ynghyd yr holl
arch-offeiriaid ac ysgrifenyddion y
bobl, efe a ymofynodd â hwynt pa
le y genid Crist.
5 A hwy a ddywedasant wrtho,
Yn Bethlehem Judea: canys felly
yr ysgrifenwyd trwy y prophwyd:
6 A thithau, Bethlehem, tir Juda,
nid lleiaf wyt ym mhlith tywysog-
ion Judah: canys o honot ti y daw
Tywysog, yr hwn a fugeilia fy mhobl
Israel.
7 Yna Herod, wedi galw y doeth-
ion yn ddirgel, a'u holodd hwynt
yn fanwl am yr amser yr ymddang-
osasai y seren.
8 Ac wedi eu danfon hwy i Beth-
lehem, efe a ddywedodd, Ewch, ac
ymofynwch yn fanwl am y mab
bychan; a phan gaffoch *ef*, myneg-
wch i mi, fel y gallwyf finnau ddy-
fod a'i addoli ef.
9 Hwythau, wedi clywed y bren-
hin, a aethant; ac wele, y seren a
welsent yn y dwyrain a aeth o'u
blaen hwy, hyd oni ddaeth hi a
sefyll goruwch y lle yr oedd y mab
bychan.
10 A phan welsant y seren, lla-
wenychasant â llawenydd mawr
dros ben.
11 ¶ A phan ddaethant i'r tŷ, hwy
a welsant y mab bychan gyd â
Mair ei fam; a hwy a syrthiasant i
lawr, ac a'i haddolasant ef: ac wedi
agoryd eu trysorau, a offrymmasant
iddo anrhegion; aur, a thus, a myr.
12 Ac wedi eu rhybuddio hwy gan
Dduw trwy freuddwyd, na ddy-
chwelent at Herod, hwy a aethant
drachefn i'w gwlad ar hyd ffordd
arall.
13 Ac wedi iddynt ymadaw, wele
angel yr Arglwydd yn ymddangos
i Joseph mewn breuddwyd, gan
ddywedyd, Cyfod, cymmer y mab
bychan a'i fam, a ffo i'r Aipht, a
bydd yno hyd oni ddywedwyf i ti:
canys ceisio a wna Herod y mab
bychan i'w ddifetha ef.
14 *Ac* yntau pan gyfododd, a gym-
merth y mab bychan a'i fam o hyd
nos, ac a giliodd i'r Aipht;
15 Ac a fu yno hyd farwolaeth
Herod: fel y cyflawnid yr hyn a
ddywedwyd gan yr Arglwydd trwy
y prophwyd, gan ddywedyd, O'r
Aipht y gelwais fy mab.
16 ¶ Yna Herod, pan weles ei
siommi gan y doethion, a ffrom-
modd yn aruthr, ac a ddanfonodd,
ac a laddodd yr holl fechgyn oedd
yn Bethlehem, ac yn ei holl gyffin-
iau, o ddwyflwydd oed a than hyn-
ny, wrth yr amser yr ymofynasai
efe yn fanwl â'r doethion.
17 Yna y cyflawnwyd yr hyn a
ddywedasid gan Jeremïas y pro-
phwyd, gan ddywedyd,
18 Llef a glybuwyd yn Rama,
galar, ac wylofain, ac ochain mawr,
Rachel yn wylo *am* ei phlant;
ac ni fynnai ei chysuro, am nad
oeddynt.
19 ¶ Ond wedi marw Herod, wele
angel yr Arglwydd mewn breudd-
wyd yn ymddangos i Joseph yn yr
Aipht,
20 Gan ddywedyd, Cyfod, a chym-
mer y mab bychan a'i fam, a dos i
dir Israel: canys y rhai oedd yn
ceisio einioes y mab bychan a fuant
feirw.
21 Ac wedi ei gyfodi, efe a gym-
merth y mab bychan a'i fam, ac a
ddaeth i dir Israel.
22 Eithr pan glybu efe fod Ar-
chelaus yn teyrnasu ar Judea yn
lle ei dad Herod, efe a ofnodd
fyned yno. Ac wedi ei rybuddio
gan Dduw mewn breuddwyd, efe
a giliodd i barthau Galilea.

23 A phan ddaeth, efe a drigodd mewn dinas a elwid Nasareth: fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy y prophwydi, Y gelwid ef yn Nasaread.

PENNOD 3.

1 *Pregeth Ioan, a'i swydd, a'i fuchedd, a'i fedydd; 7 y mae yn ceryddu y Phariseaid, 13 ac yn bedyddio Crist yn yr Iorddonen.*

AC yn y dyddiau hynny y daeth Ioan Fedyddiwr, gan bregethu yn niffaethwch Judea,

2 A dywedyd, Edifarhêwch: canys nesaodd teyrnas nefoedd.

3 Oblegid hwn yw efe yr hwn y dywedwyd am dano gan Esaias y prophwyd, gan ddywedyd, Llef un yn llefain yn y diffaethwch, Parottôwch ffordd yr Arglwydd; gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef.

4 A'r Ioan hwnnw oedd â'i ddillad o flew camel, a gwregys o groen ynghylch ei lwynau: a'i fwyd oedd locustiaid a mêl gwyllt.

5 Yna yr aeth allan atto ef Jerusalem a holl Judea, a'r holl wlad o amgylch yr Iorddonen:

6 A hwy a fedyddiwyd ganddo ef yn yr Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau.

7 ¶ A phan welodd efe lawer o'r Phariseaid ac o'r Saduceaid yn dyfod i'w fedydd ef, efe a ddywedodd wrthynt hwy, O genhedlaeth gwiberod, pwy a'ch rhag-rybuddiodd i ffoi rhag y llid a fydd?

8 Dygwch gan hynny ffrwythau addas i edifeirwch.

9 Ac na feddyliwch ddywedyd ynoch eich hunain, Y mae gennym ni Abraham yn dad *i ni:* canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, y dichon Duw, ïe, o'r meini hyn, gyfodi plant i Abraham.

10 Ac yr awr hon hefyd y mae y fwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y prennau: pob pren gan hynny yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da, a dorrir i lawr, ac a deflir yn tân.

11 Myfi yn ddïau ydwyf yn eich bedyddio chwi â dwfr i edifeirwch: eithr yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, sydd gryfach na myfi, yr hwn nid ydwyf deilwng i ddwyn ei esgidiau: efe a'ch bedyddia chwi â'r Ysprvd Glân, ac â thân.

12 Yr hwn *y mae* ei wyntyll yn ei law, ac efe a lwyr-lanhâ ei lawr-dyrnu, ac a gasgl ei wenith i'w ysgubor; eithr yr us a lysg efe â thân anniffoddadwy.

13 ¶ Yna y daeth yr Iesu o Galilea i'r Iorddonen at Ioan, i'w fedyddio ganddo.

14 Eithr Ioan a warafunodd iddo ef, gan ddywedyd, Y mae arnaf fi eisieu fy medyddio gennyt ti, ac a ddeui di attaf fi?

15 Ond yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, Gâd yr awr hon; canys fel hyn y mae yn weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder. Yna efe a adawodd iddo.

16 A'r Iesu, wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fyny o'r dwfr: ac wele, y nefoedd a agorwyd iddo, ac efe a welodd Ysprvd Duw yn disgyn fel colommen, ac yn dyfod arno ef.

17 Ac wele lef o'r nefoedd, yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.

PENNOD 4.

1 *Ymprvd Crist, a'i demtiad,* 11 *Yr angylion yn gweini iddo.* 13 *Efe yn trigo yn Capernaum,* 17 *yn dechreu pregethu,* 18 *yn galw Pedr ac Andreas,* 21 *Iago ac Ioan;* 23 *ac yn iachâu yr holl gleifion.*

YNA yr Iesu a arweiniwyd i fyny i'r anialwch gan yr ysprvd, i'w demtio gan ddiafol.

2 Ac wedi iddo ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nos, ar ol hynny efe a newynodd.

3 A'r temtiwr pan ddaeth atto, a ddywedodd, Os mab Duw wyt ti, arch i'r cerrig hyn fod yn fara.

4 Ac yntau a attebodd ac a ddywedodd, Ysgrifenwyd, Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw.

5 Yna y cymmerth diafol ef i'r ddinas sanctaidd, ac a'i gosododd ef ar binacl y deml;

6 Ac a ddywedodd wrtho, Os mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr; canys ysgrifenwyd, Y rhydd efe orchymyn i'w angylion am danat; a hwy a'th ddygant yn *eu* dwylaw, rhag taro o honot un amser dy droed wrth garreg.

7 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Ysgrifenwyd drachefn, Na themtia yr Arglwydd dy Dduw.

8 Trachefn y cymmerth diafol ef
i fynydd tra uchel, ac a ddangos-
odd iddo holl deyrnasoedd y byd,
a'u gogoniant;
9 Ac a ddywedodd wrtho, Hyn
oll a roddaf i ti, os syrthi i lawr
a'm haddoli i.
10 Yna yr Iesu a ddywedodd wrtho,
Ymaith, Satan; canys ysgrifenwyd,
Yr Arglwydd dy Dduw a addoli,
ac ef yn unig a wasanaethi.
11 Yna y gadawodd diafol ef: ac
wele, angylion a ddaethant ac a
weiniasant iddo.
12 ¶ A phan glybu yr Iesu dra-
ddodi Ioan, efe a aeth i Galilea.
13 A chan adaw Nasareth, efe a
aeth ac a arhosodd yn Capernaum,
yr hon sydd wrth y môr, y'nghy-
ffiniau Sabulon a Nephthali:
14 Fel y cyflawnid yr hyn a ddy-
wedwyd trwy Esaias y prophwyd,
gan ddywedyd,
15 Tir Sabulon, a thir Neph-
thali, *wrth* ffordd y môr, tu hwnt
i'r Iorddonen, Galilea y Cenhedl-
oedd:
16 Y bobl oedd yn eistedd mewn
tywyllwch, a welodd oleuni mawr;
ac i'r rhai a eisteddent ym mro a
chysgod angau, y cyfododd goleuni
iddynt.
17 ¶ O'r pryd hwnnw y dechreu-
odd yr Iesu bregethu, a dywedyd,
Edifarhêwch: canys nesaodd teyrn-
as nefoedd.
18 ¶ A'r Iesu yn rhodio wrth fôr
Galilea, efe a ganfu ddau frawd,
Simon, *yr hwn* a elwir Pedr, ac
Andreas ei frawd, yn bwrw rhwyd
i'r môr; canys pysgodwyr oedd-
ynt:
19 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Deuwch ar fy ol i, a mi a'ch gwnaf
yn bysgodwyr dynion.
20 A hwy yn y fan, gan adael y
rhwydau, a'i canlynasant ef.
21 Ac wedi myned rhagddo oddi
yno, efe a welodd ddau frawd eraill,
Iago *fab* Sebedëus, ac Ioan ei frawd,
mewn llong gyd â Sebedëus eu tad,
yn cyweirio eu rhwydau; ac a'u
galwodd hwy.
22 Hwythau yn ebrwydd, gan
adael y llong a'u tad, a'i canlynas-
ant ef.
23 ¶ A'r Iesu a aeth o amgylch
holl Galilea, gan ddysgu yn eu
synagogau, a phregethu efengyl y
deyrnas, a iachâu pob clefyd a phob
afiechyd ym mhlith y bobl.
24 Ac aeth sôn am dano ef trwy
holl Syria; a hwy a ddygasant atto
yr holl rai drwg eu hwyl, a'r rhai
yr oedd amryw glefydau a chno-
feydd yn eu dala, a'r rhai cythreulig,
a'r rhai lloerig, a'r sawl oedd â'r
parlys arnynt; ac efe a'u hiacha-
odd hwynt.
25 A thorfeydd lawer a'i canlyn-
asant ef o Galilea, a Decapolis, a
Jerusalem, a Judea, ac *o'r* tu hwnt
i'r Iorddonen.

PENNOD 5.

1 Crist yn dechreu ei bregeth ar y mynydd; 3 ac yn dangos pwy sydd ddedwydd, 13 pwy yw halen y ddaear, 14 goleuni y byd, dinas ar fryn, 15 y ganwyll: 17 ei ddyfod ef i gyflawni y gyfraith, 21 Beth yw lladd, 27 a godineb, 33 a thyngu. 38 Y mae yn annog i ddioddef cam, 43 i garu, ie, ein gelynion, 48 ac i ymegnio at berffeithrwydd.

A PHAN welodd *yr Iesu* y tyrfa-
oedd, efe a esgynodd i'r myn-
ydd: ac wedi iddo eistedd, ei ddis-
gyblion a ddaethant atto.
2 Ac efe a agorodd ei enau, ac a'u
dysgodd hwynt, gan ddywedyd,
3 Gwyn eu byd y tlodion yn yr
yspryd: canys eiddynt yw teyrnas
nefoedd.
4 Gwyn eu byd y rhai sydd yn
galaru: canys hwy a ddiddenir.
5 Gwyn eu byd y rhai addfwyn:
canys hwy a etifeddant y ddaear.
6 Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt
newyn a syched am gyfiawnder:
canys hwy a ddiwellir.
7 Gwyn eu byd y rhai trugarogion:
canys hwy a gânt drugaredd.
8 Gwyn eu byd y rhai pur o galon:
canys hwy a welant Dduw.
9 Gwyn eu byd y tangnefedd-
wyr: canys hwy a elwir yn blant
i Dduw.
10 Gwyn eu byd y rhai a erlidir
o achos cyfiawnder: canys eiddynt
yw teyrnas nefoedd.
11 Gwyn eich byd pan y'ch
gwaradwyddant, ac *y'ch* erlidiant,
ac y dywedant bob drygair yn eich
erbyn er fy mwyn i, a hwy yn
gelwyddog.
12 Byddwch lawen a hyfryd:
canys mawr *yw* eich gwobr yn y

nefoedd: oblegid felly yr erlidiasant hwy y prophwydi a fu o'ch blaen chwi.

13 ¶ Chwi yw halen y ddaear: eithr o diflasodd yr halen â pha beth yr helltir ef? ni thâl efe mwy ddim ond i'w fwrw allan, a'i sathru gan ddynion.

14 Chwi yw goleuni y byd. Dinas a osodir ar fryn, ni ellir ei chuddio.

15 Ac ni oleuant ganwyll, a'i dodi dan lestr, ond mewn canhwyllbren; a hi a oleua i bawb sydd yn y tŷ.

16 Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

17 ¶ Na thybiwch fy nyfod i dorri y gyfraith, neu y prophwydi: ni ddeuthum i dorri, ond i gyflawni.

18 Canys yn wir meddaf i chwi, Hyd onid êl y nef a'r ddaear heibio, nid â un iod nac un tippyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblhâer oll.

19 Pwy bynnag gan hynny a dorro un o'r gorchymynion lleiaf hyn, ac a ddysgo i ddynion felly, lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas nefoedd: ond pwy bynnag a'*u* gwnelo, ac a'*u* dysgo *i eraill*, hwn a elwir yn fawr yn nheyrnas nefoedd.

20 Canys meddaf i chwi, Oni bydd eich cyfiawnder yn helaethach na *chyfiawnder* yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd.

21 ¶ Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, Na ladd; a phwy bynnag a laddo, euog fydd o farn:

22 Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, Pob un a ddigio wrth ei frawd heb ystyr, a fydd euog o farn: a phwy bynnag a ddywedo wrth ei frawd, Raca, a fydd euog o gynghor: a phwy bynnag a ddywedo, O ynfyd, a fydd euog o dân uffern.

23 Gan hynny, os dygi dy rodd i'r allor, ac yno dyfod i'th gôf fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn;

24 Gâd yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith: yn gyntaf cymmoder di â'th frawd, ac yna tyred ac offrwm dy rodd.

25 Cyttuna â'th wrthwynebwr ar frys, tra fyddech ar y ffordd gyd âg ef; rhag un amser i'th wrthwynebwr dy roddi di yn llaw y barnwr, ac i'r barnwr dy roddi at y swyddog, a'th daflu y'ngharchar.

26 Yn wir meddaf i ti, Ni ddeui di allan oddi yno, hyd oni thalech y ffyrling eithaf.

27 ¶ Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, Na wna odineb:

28 Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, fod pob un a'r sydd yn edrych ar wraig i'w chwennychu hi, wedi gwneuthur eisoes odineb â hi yn ei galon.

29 Ac os dy lygad dehau a'th rwystra, tyn ef allan, a thafl oddi wrthyt: canys da i ti golli un o'th aelodau, ac na thafler dy holl gorph i uffern.

30 Ac os dy law ddehau a'th rwystra, tor hi ymaith, a thafl oddi wrthyt: canys da i ti golli un o'th aelodau, ac na thafler dy holl gorph i uffern.

31 A dywedwyd, Pwy bynnag a ollyngo ymaith ei wraig, rhoed iddi lythyr ysgar:

32 Ond yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, fod pwy bynnag a ollyngo ymaith ei wraig, ond o achos godineb, yn peri iddi wneuthur godineb: a phwy bynnag a briodo yr hon a ysgarwyd, y mae efe yn gwneuthur godineb.

33 ¶ Trachefn, clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, Na thwng anudon; eithr tâl dy lwon i'r Arglwydd:

34 Ond yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, Na thwng ddim: nac i'r nef; canys gorseddfa Duw ydyw:

35 Nac i'r ddaear; canys troedfaingc ei draed ydyw: nac i Jerusalem; canys dinas y brenhin mawr ydyw.

36 Ac na thwng i'th ben; am na elli wneuthur un blewyn yn wyn, neu yn ddu.

37 Eithr bydded eich ymadrodd chwi, Ië, ïe; Nag ê, nag ê; oblegid beth bynnag *sydd* dros ben hyn, o'r drwg y mae.

38 ¶ Clywsoch ddywedyd, Llygad am lygad, a dant am ddant:

39 Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd

wrthych chwi, Na wrthwynebwch ddrwg: ond pwy bynnag a'th darawo ar dy rudd ddehau, tro y llall iddo hefyd.

40 Ac i'r neb a fynno ymgyfreithio â thi, a dwyn dy bais, gâd iddo *dy* gochl hefyd.

41 A phwy bynnag a'th gymhello un filldir, dos gyd âg ef ddwy.

42 Dyro i'r hwn a ofyno gennyt; ac na thro oddi wrth yr hwn sydd yn ewyllysio echwyna gennyt.

43 ¶ Clywsoch ddywedyd, Câr dy gymmydog, a chasâ dy elyn:

44 Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, Cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt, a gweddïwch dros y rhai a wnel niwed i chwi, ac a'ch erlidiant;

45 Fel y byddoch blant i'ch Tad yr hwn *sydd* yn y nefoedd: canys y mae efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.

46 Oblegid os cerwch y sawl a'ch caro, pa wobr sydd i chwi? oni wna y publicanod hefyd yr un peth?

47 Ac os cyferchwch well i'ch brodyr yn unig, pa ragoriaeth yr ydych chwi yn ei wneuthur? onid ydyw y publicanod hefyd yn gwneuthur felly?

48 Byddwch chwi gan hynny yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith.

PENNOD 6.

1 *Crist yn myned rhaddo yn ei bregeth ar y mynydd; gan draethu am elusen,* 5 *a gweddi,* 14 *maddeu i'n brodyr,* 16 *ac ympryd;* 19 *pa le y mae i ni roddi ein trysor i gadw;* 24 *ynghylch gwasanaethu Duw a mammon:* 25 *yn annog na bydder gofalus am bethau bydol;* 33 *ond am geisio teyrnas Ddiw.*

GOCHELWCH rhag gwneuthur eich elusen y'ngŵydd dynion, er mwyn cael eich gweled ganddynt: os amgen, ni chewch dâl gan eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

2 Am hynny pan wnelych elusen, na udgana o'th flaen, fel y gwna y rhagrithwyr yn y synagogau, ac ar yr heolydd, fel y molianner hwy gan ddynion. Yn wir, meddaf i chwi, Y maent yn derbyn eu gwobr.

3 Eithr pan wnelych di elusen, na wyped dy *law* aswy pa beth a wna dy *law* ddehau;

4 Fel y byddo dy elusen yn y dirgel: a'th Dad yr hwn a wêl yn y dirgel, efe a dâl i ti yn yr amlwg.

5 ¶ A phan weddïech, na fydd fel y rhagrithwyr: canys hwy a garant weddïo yn sefyll yn y synagogau, ac y'nghonglau yr heolydd, fel yr ymddangosont i ddynion. Yn wir meddaf i chwi, Y maent yn derbyn eu gwobr.

6 Ond tydi, pan weddïech, dos i'th ystafell; ac wedi cau dy ddrws, gweddïa ar dy Dad yr hwn *sydd* yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wêl yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg.

7 A phan weddïoch, na fyddwch siaradus, fel y cenhedloedd: canys y maent hwy yn tybied y cânt eu gwrandaw am eu haml eiriau.

8 Na fyddwch gan hynny debyg iddynt hwy: canys gŵyr eich Tad pa bethau sydd arnoch eu heisieu, cyn gofyn o honoch ganddo.

9 Am hynny gweddïwch chwi fel hyn: Ein Tad, yr hwn *wyt* yn y nefoedd, Sancteiddier dy enw.

10 Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, *felly* ar y ddaear hefyd.

11 Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol.

12 A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

13 Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw y deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

14 Oblegid os maddeuwch i ddynion eu camweddau, eich Tad nefol a faddeu hefyd i chwithau:

15 Eithr oni faddeuwch i ddynion eu camweddau, ni faddeu eich Tad eich camweddau chwithau.

16 ¶ Hefyd, pan ymprydioch, na fyddwch fel y rhagrithwyr, yn wyneb-drist: canys anffurfio eu hwynebau y maent, fel yr ymddangosont i ddynion eu bod yn ymprydio. Yn wir meddaf i chwi, Y maent yn derbyn eu gwobr.

17 Eithr pan ymprydiech di, enneinia dy ben, a golch dy wyneb;

18 Fel nad ymddangosech i ddynion dy fod yn ymprydio, ond i'th

Dad yr hwn sydd yn y dirgel: a'th Dad yr hwn sydd yn gweled yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg.

19 ¶ Na thrysorwch i chwi drysorau ar y ddaear, lle y mae gwyfyn a rhwd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd ac yn lladratta;

20 Eithr trysorwch i chwi drysorau yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle nis cloddia lladron trwodd ac nis lladrattânt.

21 Canys lle y mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd.

22 Canwyll y corph yw y llygad: am hynny o bydd dy lygad yn syml, dy holl gorph fydd yn oleu.

23 Eithr os bydd dy lygad yn ddrwg, dy holl gorph fydd yn dywyll. Am hynny os bydd y goleuni sydd ynot yn dywyllwch, pa faint *fydd* y tywyllwch!

24 ¶ Ni ddichon neb wasanaethu dau arglwydd; canys naill ai efe a gasâ y naill, ac a gâr y llall; ai efe a ymlŷn wrth y naill, ac a esgeulusa y llall. Ni ellwch wasanaethu Duw a mammon.

25 Am hynny meddaf i chwi, Na ofelwch am eich bywyd, pa beth a fwyttâoch, neu pa beth a yfoch; neu am eich corph, pa beth a wisgoch. Onid yw y bywyd yn fwy na'r bwyd, a'r corph *yn fwy* na'r dillad?

26 Edrychwch ar adar y nefoedd: oblegid nid ydynt yn hau, nac yn medi, nac yn cywain i ysguboriau; ac y mae eich Tad nefol yn eu porthi hwy. Onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy?

27 A phwy o honoch gan ofalu, a ddichon chwanegu un cufydd at ei faintioli?

28 A phaham yr ydych chwi yn gofalu am ddillad? Ystyriwch lili y maes, pa fodd y maent yn tyfu; nid ydynt nac yn llafurio nac yn nyddu:

29 Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn.

30 Am hynny os dillada Duw felly lysieuyn y maes, yr hwn sydd heddyw, ac y fory a fwrir i'r ffwrn, oni *ddillada efe* chwi yn hytrach o lawer, O chwi o ychydig ffydd?

31 Am hynny na ofelwch, gan ddywedyd, Beth a fwyttâwn? neu, Beth a yfwn? neu, A pha beth yr ymddilladwn?

32 (Canys yr holl bethau hyn y mae y Cenhedloedd yn eu ceisio;) oblegid gŵyr eich Tad nefol fod arnoch eisieu yr holl bethau hyn.

33 Eithr yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg.

34 Na ofelwch gan hynny dros drannoeth: canys trannoeth a ofala am ei bethau ei hun. Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.

PENNOD 7.

1 *Crist yn gorphen ei bregeth ar y mynydd; yn gwaharddd barn ehud,* 6 *a bwrw pethau sanctaidd i gôn:* 7 *yn annog i weddio,* 13 *i fyned i mewn trwy y porth cyfyng,* 15 *i ymgadw rhag gau-brophwydi;* 21 *na byddom wrandawyr yn unig, ond gwneuthurwyr y gair,* 24 *a chyffelyb i dai wedi eu hadeiladu ar y graig,* 26 *ac nid ar y tywod.*

NA fernwch, fel na'ch barner:

2 Canys â pha farn y barnoch, y'ch bernir; ac â pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau.

3 A phaham yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, ac nad ydwyt yn ystyried y trawst sydd yn dy lygad dy hun?

4 Neu pa fodd y dywedi wrth dy frawd, Gâd i mi fwrw allan y brycheuyn o'th lygad; ac wele drawst yn dy lygad dy hun?

5 *O* ragrithiwr, bwrw allan yn gyntaf y trawst o'th lygad dy hun; ac yna y gweli yn eglur fwrw y brycheuyn allan o lygad dy frawd.

6 ¶ Na roddwch y peth *sydd* sanctaidd i'r cwn, ac na theflwch eich gemmau o flaen y moch; rhag iddynt eu sathru dan eu traed, a throi a'ch rhwygo chwi.

7 ¶ Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi:

8 Canys pob un sydd yn gofyn, sydd yn derbyn; a'r neb sydd yn ceisio, sydd yn cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir.

9 Neu a oes un dyn o honoch, yr hwn os gofyn ei fab iddo fara, a rydd iddo garreg?

10 Ac os gofyn efe bysgodyn, a ddyry efe sarph iddo?

11 Os chwychwi gan hynny, a chwi yn ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai a ofynant iddo?

12 Am hynny pa bethau bynnag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy: canys hyn yw y gyfraith a'r prophwydi.

13 ¶ Ewch i mewn trwy y porth cyfyng: canys eang *yw* y porth, a llydan *yw* y ffordd, sydd yn arwain i ddistryw; a llawer yw y rhai sydd yn myned i mewn trwyddi:

14 Oblegid cyfyng *yw* y porth, a chul *yw* y ffordd, sydd yn arwain i'r bywyd; ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi.

15 ¶ Ymogelwch rhag gau-brophwydi, y rhai a ddeuant attoch y'ngwisgoedd defaid, ond oddi mewn bleiddiaid rheibus ydynt hwy.

16 Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt. A gasgl rhai rawnwin oddi ar ddrain, neu ffigys oddi ar ysgall?

17 Felly pob pren da sydd yn dwyn ffrwythau da; ond y pren drwg sydd yn dwyn ffrwythau drwg.

18 Ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau drwg, na phren drwg ddwyn ffrwythau da.

19 Pob pren heb ddwyn ffrwyth da, a dorrir i lawr, ac a deflir yn tân.

20 O herwydd paham, wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.

21 ¶ Nid pob un a'r sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

22 Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di?

23 Ac yna yr addefaf wrthynt, Nis adnabûm chwi erioed: ewch ymaith oddi wrthyf, chwi weithredwyr anwiredd.

24 ¶ Gan hynny pwy bynnag sydd yn gwrandaw fy ngeiriau hyn, ac yn eu gwneuthur, mi a'i cyffelybaf ef i ŵr doeth, yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y graig:

25 A'r gwlaw a ddisgynodd, a'r llifeiriaint a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant, ac a ruthrasant ar y tŷ hwnnw; ac ni syrthiodd: oblegid sylfaenesid ef ar y graig.

26 A phob un a'r sydd yn gwrandaw fy ngeiriau hyn, ac heb eu gwneuthur, a gyffelybir i ŵr ffol, yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y tywod:

27 A'r gwlaw a ddisgynodd, a'r llifddyfroedd a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant, ac a gurasant ar y tŷ hwnnw; ac efe a syrthiodd, a'i gwymp a fu fawr.

28 A bu, wedi i'r Iesu orphen y geiriau hyn, y torfeydd a synnasant wrth ei ddysgeidiaeth ef:

29 Canys yr oedd efe yn eu dysgu hwynt fel *un* ag awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion.

PENNOD 8.

2 Crist yn glanhâu y gwahan-glwyfus; 5 yn iachâu gwas y canwriad, 14 a mam gwraig Pedr, 16 a llawer o rai clwyfus eraill; 19 yn dangos pa fodd y mae ei ddilyn ef; 23 yn gostegu y dymmestl ar y môr; 28 yn gyrru cythreuliaid allan o ddau gythreulig; 31 ac yn caniadu iddynt fyned i'r moch.

AC wedi ei ddyfod ef i waered o'r mynydd, torfeydd lawer a'i canlynasant ef.

2 Ac wele, *un* gwahan-glwyfus a ddaeth, ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, os mynni, ti a elli fy nglanhâu i.

3 A'r Iesu a estynodd *ei* law, ac a gyffyrddodd âg ef, gan ddywedyd, Mynnaf, glanhâer di. Ac yn y fan ei wahan-glwyf ef a lanhâwyd.

4 A dywedodd yr Iesu wrtho, Gwel na ddywedych wrth neb; eithr dos, dangos dy hun i'r offeiriad, ac offrymma y rhodd a orchymynodd Moses, er tystiolaeth iddynt.

5 ¶ Ac wedi dyfod yr Iesu i mewn i Capernaum, daeth atto ganwriad, gan ddeisyfu arno,

6 A dywedyd, Arglwydd, y mae fy

ngwas yn gorwedd gartref yn glaf o'r parlys, ac mewn poen ddirfawr.
7 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Mi a ddeuaf, ac a'i hiachâf ef.
8 A'r canwriad a attebodd ac a ddywedodd, Arglwydd, nid ydwyf fi deilwng i ddyfod o honot dan fy nghronglwyd: eithr yn unig dywed y gair, a'm gwas a iachêir.
9 Canys dyn ydwyf finnau dan awdurdod, a chennyf filwyr danaf: a dywedaf wrth hwn, Cerdda, ac efe a â; ac wrth arall, Tyred, ac efe a ddaw; ac wrth fy ngwas, Gwna hyn, ac efe a'*i* gwna.
10 A'r Iesu pan glybu, a ryfeddodd, ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn canlyn, Yn wir meddaf i chwi, Ni chefais gymmaint ffydd, na ddo yn yr Israel.
11 Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin, ac a eisteddant gyd âg Abraham ac Isaac a Jacob yn nheyrnas nefoedd;
12 Ond plant y deyrnas a deflir i'r tywyllwch eithaf: yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.
13 A dywedodd yr Iesu wrth y canwriad, Dos ymaith; ac megis y credaist, bydded i ti. A'i was a iachâwyd yn yr awr honno.
14 ¶ A phan ddaeth yr Iesu i dŷ Pedr, efe a welodd ei chwegr ef yn gorwedd, ac yn glaf o'r cryd.
15 Ac efe a gyffyrddodd â'i llaw hi; a'r cryd a'i gadawodd hi: a hi a gododd, ac a wasanaethodd arnynt.
16 ¶ Ac wedi ei hwyrhâu hi, hwy a ddygasant atto lawer o rai cythreulig: ac efe a fwriodd allan yr ysprydion â'*i* air, ac a iachaodd yr holl gleifion;
17 Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy Esaias y prophwyd, gan ddywedyd, Efe a gymmerodd ein gwendid ni, ac a ddug *ein* clefydau.
18 ¶ A'r Iesu, pan welodd dorfeydd lawer o'i amgylch, a orchymynodd fyned drosodd i'r lan arall.
19 A rhyw ysgrifenydd a ddaeth, ac a ddywedodd wrtho, Athraw, mi a'th ganlynaf i ba le bynnag yr elych.
20 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Y mae ffauau gan y llwynogod, a chan ehediaid y nefoedd nythod; ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi *ei* ben *i lawr*.
21 Ac un arall o'i ddisgyblion a ddywedodd wrtho, Arglwydd, gâd i mi yn gyntaf fyned a chladdu fy nhad.
22 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Canlyn fi; a gâd i'r meirw gladdu eu meirw.
23 ¶ Ac wedi iddo fyned i'r llong, ei ddisgyblion a'i canlynasant ef.
24 Ac wele, bu cynnwrf mawr yn y môr, hyd oni chuddiwyd y llong gan y tonnau: eithr efe oedd yn cysgu.
25 A'i ddisgyblion a ddaethant *atto*, ac a'i deffroasant, gan ddywedyd, Arglwydd, cadw ni: darfu am danom.
26 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Paham yr ydych yn ofnus, O chwi o ychydig ffydd? Yna y cododd efe, ac y ceryddodd y gwyntoedd a'r môr; a bu dawelwch mawr.
27 A'r dynion a ryfeddasant, gan ddywedyd, Pa ryw un yw hwn, gan fod y gwyntoedd hefyd a'r môr yn ufuddhâu iddo?
28 ¶ Ac wedi ei ddyfod ef i'r lan arall, i wlad y Gergesiaid, dau ddieflig a gyfarfuant âg ef, y rhai a ddeuent o'r beddau, yn dra ffyrnig, fel na allai neb fyned y ffordd honno.
29 Ac wele, hwy a lefasant, gan ddywedyd, Iesu, Fab Duw, beth sydd i ni *a wnelom* â thi? a ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser?
30 Ac yr oedd ym mhell oddi wrthynt genfaint o foch lawer, yn pori.
31 A'r cythreuliaid a ddeisyfasant arno, gan ddywedyd, Os bwri ni allan, caniattâ i ni fyned ymaith i'r genfaint foch.
32 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch. A hwy wedi myned allan, a aethant i'r genfaint foch: ac wele, yr holl genfaint foch a ruthrodd dros y dibyn i'r môr, ac a fuant feirw yn y dyfroedd.
33 A'r meichiaid a ffoisant: ac wedi eu dyfod hwy i'r ddinas, hwy a fynegasant bob peth; a pha beth a ddarfuasai i'r rhai dieflig.

34 Ac wele, yr holl ddinas a ddaeth
allan i gyfarfod â'r Iesu: a phan ei
gwelsant, attolygasant iddo ymad-
ael o'u cyffiniau hwynt.

PENNOD 9.

2 Crist yn iachâu un claf o'r parlys, 9 yn galw Matthew o'r dollfa, 10 yn bwytta gyd â phublicanod a phechaduriaid, 14 yn amddiffyn ei ddisgyblion am nad ymprydient, 20 yn iachâu y diferlif gwaed, 23 yn cyfodi merch Jairus o farw, 27 yn rhoddi eu golwg i ddau ddyn dall, 32 yn iachâu mudan cythreulig, 36 ac yn tosturio wrth y dyrfa.

AC efe a aeth i mewn i'r llong,
ac a aeth trosodd, ac a ddaeth
i'w ddinas ei hun.
2 Ac wele, hwy a ddygasant atto
ŵr claf o'r parlys, yn gorwedd
mewn gwely: a'r Iesu yn gweled
eu ffydd hwy, a ddywedodd wrth
y claf o'r parlys, *Ha* fab, cymmer
gysur; maddeuwyd i ti dy bech-
odau.
3 Ac wele, rhai o'r ysgrifenyddion
a ddywedasant ynddynt eu hunain,
Y mae hwn yn cablu.
4 A phan welodd yr Iesu eu medd-
yliau, efe a ddywedodd, Paham y
meddyliwch ddrwg yn eich calon-
nau?
5 Canys pa un hawsaf ai dywed-
yd, Maddeuwyd i ti dy bechodau;
ai dywedyd, Cyfod, a rhodia?
6 Eithr fel y gwypoch fod awdur-
dod gan Fab y dyn ar y ddaear i
faddeu pechodau, (yna y dywedodd
efe wrth y claf o'r parlys,) Cyfod,
cymmer dy wely i fyny, a dos i'th
dŷ.
7 Ac efe a gyfododd, ac a aeth
ymaith i'w dŷ ei hun.
8 A'r torfeydd pan welsant, rhy-
feddu a wnaethant, a gogoneddu
Duw, yr hwn a roisai gyfryw awd-
urdod i ddynion.
9 ¶ Ac fel yr oedd yr Iesu yn
myned oddi yno, efe a ganfu ŵr
yn eistedd wrth y dollfa, a elwid
Matthew, ac a ddywedodd wrtho,
Canlyn fi. Ac efe a gyfododd, ac
a'i canlynodd ef.
10 ¶ A bu, ac efe yn eistedd i
fwytta yn y tŷ, wele hefyd, pub-
licanod lawer a phechaduriaid a
ddaethant ac a eisteddasant gyd
â'r Iesu a'i ddisgyblion.
11 A phan welodd y Phariseaid,
hwy a ddywedasant wrth ei ddis-
gyblion ef, Paham y bwytty eich
Athraw chwi gyd â'r publicanod
a'r pechaduriaid?
12 A phan glybu yr Iesu, efe a
ddywedodd wrthynt, Nid rhaid i'r
rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai
cleifion.
13 Ond ewch, a dysgwch pa beth
yw *hyn*, Trugaredd yr ydwyf yn ei
ewyllysio, ac nid aberth: canys ni
ddeuthum i alw rhai cyfiawn, ond
pechaduriaid, i edifeirwch.
14 ¶ Yna y daeth disgyblion Ioan
atto, gan ddywedyd, Paham yr
ydym ni a'r Phariseaid yn ym-
prydio yn fynych, ond dy ddis-
gyblion di nid ydynt yn ym-
prydio?
15 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt,
A all plant yr ystafell briodas alaru
tra fo y priodfab gyd â hwynt?
ond y dyddiau a ddaw, pan ddyger
y priodfab oddi arnynt, ac yna yr
ymprydiant.
16 *Hefyd*, ni ddŷd neb lain o
frethyn newydd at hen ddilledyn:
canys y cyflawniad a dŷn oddi wrth
y dilledyn, a'r rhwyg a wneir yn
waeth.
17 Ac ni ddodant win newydd
mewn costrelau hen: os amgen, y
costrelau a dyr, a'r gwin a rêd
allan, a'r costrelau a gollir: eithr
gwin newydd a ddodant mewn cos-
trelau newyddion, ac *felly* y cedwir
y ddau.
18 ¶ Tra yr oedd efe yn dywed-
yd hyn wrthynt, wele, daeth rhyw
bennaeth, ac a'i haddolodd ef, gan
ddywedyd, Bu farw fy merch yr
awr hon: eithr tyred, a gosod dy
law arni, a byw fydd hi.
19 A'r Iesu a gyfododd, ac a'i
canlynodd ef, a'i ddisgyblion.
20 ¶ (Ac wele, gwraig y buasai
gwaedlif arni ddeuddeng mlynedd,
a ddaeth o'r tu cefn *iddo*, ac a gy-
ffyrddodd âg ymyl ei wisg ef:
21 Canys hi a ddywedasai ynddi
ei hun, Os câf yn unig gyffwrdd â'i
wisg ef, iach fyddaf.
22 Yna yr Iesu a drodd; a phan
ei gwelodd hi, efe a ddywedodd,
Ha ferch, bydd gysurus; dy ffydd
a'th iachaodd. A'r wraig a iachâ-
wyd o'r awr honno.)
23 A phan ddaeth yr Iesu i dŷ y

pennaeth, a gweled y cerddorion a'r dyrfa yn terfysgu,
24 Efe a ddywedodd wrthynt, Ciliwch; canys ni bu farw y llangces, ond cysgu y mae hi. A hwy a'i gwatwarasant ef.
25 Ac wedi bwrw y dyrfa allan, efe a aeth i mewn, ac a ymaflodd yn ei llaw hi; a'r llangces a gyfododd.
26 A'r gair o hyn a aeth dros yr holl wlad honno.
27 ¶ A phan oedd yr Iesu yn myned oddi yno, dau ddeillion a'i canlynasant ef, gan lefain a dywedyd, Mab Dafydd, trugarhâ wrthym.
28 Ac wedi iddo ddyfod i'r tŷ, y deillion a ddaethant atto: a'r Iesu a ddywedodd wrthynt, A ydych chwi yn credu y gallaf fi wneuthur hyn? Hwy a ddywedasant wrtho, Ydym, Arglwydd.
29 Yna y cyffyrddodd efe â'u llygaid hwy, gan ddywedyd, Yn ol eich ffydd bydded i chwi.
30 A'u llygaid a agorwyd: a'r Iesu a orchymynodd iddynt trwy fygwth, gan ddywedyd, Gwelwch nas gwypo neb.
31 Ond wedi iddynt ymadaw, hwy a'i clodforasant ef trwy yr holl wlad honno.
32 ¶ Ac a hwy yn myned allan, wele, rhai a ddygasant atto ddyn mud, cythreulig.
33 Ac wedi bwrw y cythraul allan, llefarodd y mudan: a'r torfeydd a ryfeddasant, gan ddywedyd, Ni welwyd y cyffelyb erioed yn Israel.
34 Ond y Phariseaid a ddywedasant, Trwy bennaeth y cythreuliaid y mae efe yn bwrw allan gythreuliaid.
35 A'r Iesu a aeth o amgylch yr holl ddinasoedd a'r trefydd, gan ddysgu yn eu synagogau hwynt, a chan bregethu efengyl y deyrnas, a iachâu pob clefyd a phob afiechyd ym mhlith y bobl.
36 ¶ A phan welodd efe y torfeydd, efe a dosturiodd wrthynt, am eu bod wedi blino, a'u gwasgaru, fel defaid heb ganddynt fugail.
37 Yna y dywedodd efe wrth ei ddisgyblion, Y cynhauaf yn ddïau *sydd* fawr, ond y gweithwyr yn anaml:
38 Am hynny attolygwch i Arglwydd y cynhauaf, anfon gweithwyr i'w gynhauaf.

PENNOD 10.

1 *Crist yn anfon ei ddeuddeg apostol, gan roddi gallu iddynt i wneuthur rhyfeddodau: 5 yn rhoddi gorchymyn iddynt, ac yn ei dysgu, 16 ac yn ei cysuro yn erbyn erlidiau, 40 ac yn addaw bendith i'r rhai a'u derbynio hwynt.*

AC wedi galw ei ddeuddeg disgybl atto, efe a roddes iddynt awdurdod *yn erbyn* ysprydion aflan, i'w bwrw hwynt allan, ac i iachâu pob clefyd a phob afiechyd.
2 Ac enwau y deuddeg apostolion yw y rhai hyn: Y cyntaf, Simon, yr hwn a elwir Pedr, ac Andreas ei frawd; Iago *mab* Sebedëus, ac Ioan ei frawd;
3 Phylip, a Bartholomëus; Thomas, a Matthew y publican; Iago *mab* Alphëus, a Lebbëus, yr hwn a gyfenwid Thadëus;
4 Simon y Canaanead, a Judas Iscariot, yr hwn hefyd a'i bradychodd ef.
5 Y deuddeg hyn a anfonodd yr Iesu, ac a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, Nac ewch i ffordd y Cenhedloedd, ac i ddinas y Samariaid nac ewch i mewn:
6 Eithr ewch yn hytrach at gyfrgolledig ddefaid tŷ Israel.
7 Ac wrth fyned, pregethwch, gan ddywedyd, Fod teyrnas nefoedd yn nesâu.
8 Iachêwch y cleifion, glanhêwch y rhai gwahan-glwyfus, cyfodwch y meirw, bwriwch allan gythreuliaid: derbyniasoch yn rhad, rhoddwch yn rhad.
9 Na feddwch aur, nac arian, nac efydd i'ch pyrsau;
10 Nac ysgreppan i'r daith, na dwy bais, nac esgidiau, na ffon: canys teilwng i'r gweithiwr ei fwyd.
11 Ac i ba ddinas bynnag neu dref yr eloch, ymofynwch pwy sydd deilwng ynddi; ac yno trigwch hyd onid eloch ymaith.
12 A phan ddeloch i dŷ, cyferchwch well iddo.
13 Ac os bydd y tŷ yn deilwng, deued eich tangnefedd arno: ac oni bydd yn deilwng, dychweled eich tangnefedd attoch.
14 A phwy bynnag ni'ch derbynio chwi, ac ni wrandawo eich geir-

iau, pan ymadawoch o'r tŷ hwnnw, neu o'r ddinas honno, ysgydwch y llwch oddi wrth eich traed.

15 Yn wir meddaf i chwi, Esmwythach fydd i dir y Sodomiaid a'r Gomorriaid yn nydd y farn, nag i'r ddinas honno.

16 ¶ Wele, yr ydwyf fi yn eich danfon fel defaid y'nghanol bleiddiaid; byddwch chwithau gall fel y seirph, a diniwed fel y colommennod.

17 Eithr ymogelwch rhag dynion; canys hwy a'ch rhoddant chwi i fyny i'r cynghorau, ac a'ch ffrewyllant chwi yn eu synagogau.

18 A chwi a ddygir at lywiawdwyr a brenhinoedd o'm hachos i, er tystiolaeth iddynt hwy ac i'r Cenhedloedd.

19 Eithr pan y'ch rhoddant chwi i fyny, na ofelwch pa fodd neu pa beth a lefaroch: canys rhoddir i chwi yn yr awr honno pa beth a lefaroch.

20 Canys nid chwychwi yw y rhai sydd yn llefaru, ond Yspryd eich Tad yr hwn sydd yn llefaru ynoch.

21 A brawd a rydd frawd i fyny i farwolaeth, a thad ei blentyn: a phlant a godant i fyny yn erbyn *eu* rhïeni, ac a barant eu marwolaeth hwynt.

22 A chas fyddwch gan bawb er mwyn fy enw i: ond yr hwn a barhao hyd y diwedd, efe fydd gadwedig.

23 A phan y'ch erlidiant yn y ddinas hon, ffowch i un arall: canys yn wir y dywedaf wrthych, Na orphenwch ddinasoedd Israel, nes dyfod Mab y dyn.

24 Nid yw y disgybl yn uwch na'i athraw, na'r gwas yn uwch na'i arglwydd.

25 Digon i'r disgybl fod fel ei athraw, a'r gwas fel ei arglwydd. Os galwasant berchen y tŷ yn Beelsebub, pa faint mwy ei dylwyth ef?

26 Am hynny nac ofnwch hwynt: oblegid nid oes dim cuddiedig, a'r nas datguddir; na dirgel, a'r nas gwybyddir.

27 Yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthych chwi yn y tywyllwch, dywedwch yn y goleuni: a'r hyn a glywch yn y glust, pregethwch ar bennau y tai.

28 Ac nac ofnwch rhag y rhai a laddant y corph, ac nid allant ladd yr enaid; eithr yn hytrach ofnwch yr hwn a ddichon ddistrywio enaid a chorph yn uffern.

29 Oni werthir dau aderyn y tô er ffyrling? ac ni syrth un o honynt ar y ddaear heb eich Tad chwi.

30 Ac y mae, ïe, holl wallt eich pen wedi eu cyfrif.

31 Nac ofnwch gan hynny: chwi a delwch fwy na llawer o adar y tô.

32 Pwy bynnag gan hynny a'm cyffeso i y'ngŵydd dynion, minnau a'i cyffesaf yntau y'ngŵydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd:

33 A phwy bynnag a'm gwado i y'ngŵydd dynion, minnau a'i gwadaf yntau y'ngŵydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

34 Na thybygwch fy nyfod i ddanfon tangnefedd ar y ddaear: ni ddeuthum i ddanfon tangnefedd, ond cleddyf.

35 Canys mi a ddeuthum i osod dyn i ymrafaelio yn erbyn ei dad, a'r ferch yn erbyn ei mam, a'r waudd yn erbyn ei chwegr.

36 A gelynion dyn *fydd* tylwyth ei dŷ ei hun.

37 Yr hwn sydd yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi: a'r neb sydd yn caru mab neu ferch yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi.

38 A'r hwn nid yw yn cymmeryd ei groes, ac yn canlyn ar fy ol i, nid yw deilwng o honof fi.

39 Y neb sydd yn cael ei einioes, a'i cyll: a'r neb a gollo ei einioes o'm plegid i, a'i caiff hi.

40 ¶ Y neb sydd yn eich derbyn chwi, sydd yn fy nerbyn i; a'r neb sydd yn fy nerbyn i, sydd yn derbyn yr hwn a'm danfonodd i.

41 Y neb sydd yn derbyn prophwyd yn enw prophwyd, a dderbyn wobr prophwyd; a'r neb sydd yn derbyn *un* cyfiawn yn enw *un* cyfiawn, a dderbyn wobr *un* cyfiawn.

42 A phwy bynnag a roddo i'w yfed i un o'r rhai bychain hyn, phïolaid o *ddwfr* oer yn unig yn enw disgybl, yn wir meddaf i chwi, Ni chyll efe ei wobr.

PENNOD 11.

2 Ioan yn anfon ei ddisgyblion at Grist. 7 Tystiolaeth Crist am Ioan. 18 Tyb y bobl am Ioan, a Christ. 20 Crist yn dannod anniolchgarwch a diedifeirwch Chorasin, Bethsaida, a Chapernaum; 25 a chan foliannu doethineb ei Dad, yn eglurо yr efengyl i'r rhai bychain; 28 yn galw atto y rhai sydd yn teimlo baich eu pechodau.

ABU, pan orphenodd yr Iesu orchymyn i'w ddeuddeg disgybl, efe a aeth oddi yno i ddysgu ac i bregethu yn eu dinasoedd hwy.

2 A Ioan, pan glybu yn y carchar weithredoedd Crist, wedi danfon dau o'i ddisgyblion,

3 A ddywedodd wrtho, Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddisgwyl?

4 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Ewch, a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch:

5 Y mae y deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhâu, a'r byddariaid yn clywed; y mae y meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt.

6 A dedwydd yw yr *hwn* ni rwystrir yuof fi.

7 ¶ Ac a hwy yn myned ymaith, yr Iesu a ddechreuodd ddywedyd wrth y bobloedd am Ioan, Pa beth yr aethoch allan i'r anialwch i edrych am dano? ai corsen yn ysgwyd gan wynt?

8 Eithr pa beth yr aethoch allan i'w weled? ai dyn wedi ei wisgo â dillad esmwyth? wele, y rhai sydd yn gwisgo *dillad* esmwyth, mewn tai brenhinoedd y maent.

9 Eithr pa beth yr aethoch allan i'w weled? ai prophwyd? ïe, meddaf i chwi, a mwy na phrophwyd:

10 Canys hwn ydyw *efe* am yr hwn yr ysgrifenwyd, Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb, yr hwn a barottoa dy ffordd o'th flaen.

11 Yn wir meddaf i chwi, Ymmhlith plant gwragedd, ni chododd neb mwy nag Ioan Fedyddiwr: er hynny yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd, sydd fwy nag ef.

12 Ac o ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd yn awr, yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd, a threiswyr sydd yn ei chipio hi.

13 Canys yr holl brophwydi a'r gyfraith a brophwydasant hyd Ioan.

14 Ac os ewyllysiwch *ei* ddderbyn, efe yw Eliäs, yr hwn oedd ar ddyfod.

15 Y neb sydd ganddo glustiau i wrandaw, gwrandawed.

16 ¶ Eithr i ba beth y cyffelybaf fi y genhedlaeth hon? Cyffelyb yw i blant yn eistedd yn y marchnadoedd, ac yn llefain wrth eu cyfeillion,

17 Ac yn dywedyd, Canasom bibell i chwi, ac ni ddawnsiasoch; canasom alarnad i chwi, ac ni chwynfanasoch.

18 Canys daeth Ioan heb na bwytta nac yfed; ac meddant, Y mae cythraul ganddo.

19 Daeth Mab y dyn yn bwytta ac yn yfed; ac meddant, Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid. A doethineb a gyfiawnhâwyd gan ei phlant ei hun.

20 ¶ Yna y dechreuodd efe edliw i'r dinasoedd yn y rhai y gwnaethid y rhan fwyaf o'i weithredoedd nerthol ef, am nad edifarhasent:

21 Gwae di, Chorasin! gwae di, Bethsaida! canys pe gwnaethid yn Tyrus a Sidon y gweithredoedd nerthol a wnaethpwyd ynoch chwi, hwy a edifarhasent er ys talm mewn sachlïan a lludw.

22 Eithr meddaf i chwi, Esmwythach fydd i Tyrus a Sidon yn nydd y farn, nag i chwi.

23 A thydi, Capernaum, yr hon a ddyrchafwyd hyd y nef, a dynnir i lawr hyd yn uffern: canys pe gwnaethid yn Sodom y gweithredoedd nerthol a wnaethpwyd ynot ti, hi a fuasai yn aros hyd heddyw.

24 Eithr yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Y bydd esmwythach i dir Sodom yn nydd y farn, nag i ti.

25 ¶ Yr amser hwnnw yr attebodd yr Iesu, ac y dywedodd, I ti yr ydwyf yn diolch, O Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a'u datguddio o honot i rai bychain:

26 Ië, O Dad; canys felly y rhyngodd bodd i ti.

27 Pob peth a roddwyd i mi gan

fy Nhad: ac nid edwyn neb y Mab
ond y Tad; ac nid edwyn neb y
Tad ond y Mab, a'r *hwn* yr ewyll-
ysio y Mab *ei* ddatguddio iddo.
28 ¶ Deuwch attaf fi bawb a'r y
sydd yn flinderog ac yn llwythog,
a mi a esmwythâf arnoch.
29 Cymmerwch fy iau arnoch, a
dysgwch gennyf; canys addfwyn
ydwyf, a gostyngedig o galon: a
chwi a gewch orphwysdra i'ch en-
eidiau:
30 Canys fy iau *sydd* esmwyth, a'm
baich sydd ysgafn.

PENNOD 12.

1 *Crist yn ceryddu dallineb y Phariseaid, o ran torri y Sabbath;* 3 *trwy ysgrythyrau,* 10 *trwy reswm,* 13 *a thrwy ryddod;* 22 *yn iachâu y dyn cythreuliig, mud, a dall.* 31 *Ni faddeuir byth gabledd yn erbyn yr Ysprryd Glân.* 36 *Y rhoddir cyfrif am eiriau segur.* 38 *Y mae yn ceryddu yr anffyddloniaid a geisient arwydd;* 49 *ac yn dangos pwy yw ei frawd, a'i chwaer, a'i fam.*

YR amser hwnnw yr aeth yr Iesu
ar y *dydd* Sabbath trwy yr ŷd:
ac yr oedd chwant bwyd ar ei
ddisgyblion, a hwy a ddechreuasant
dynnu tywys, a bwytta.
2 A phan welodd y Phariseaid,
hwy a ddywedasant wrtho, Wele, y
mae dy ddisgyblion yn gwneuthur
yr hyn nid yw rydd ei wneuthur ar
y Sabbath.
3 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Oni ddarllenasoch pa beth a wnaeth
Dafydd, pan oedd chwant bwyd
arno ef, a'r rhai *oedd* gyd âg ef?
4 Pa fodd yr aeth efe i mewn i
dŷ Dduw, ac y bwyttaodd y bara
gosod, yr hwn nid oedd rydd iddo
ei fwytta, nac i'r rhai oedd gyd âg
ef, ond yn unig i'r offeiriaid?
5 Neu oni ddarllenasoch yn y
gyfraith, fod yr offeiriaid ar y
Sabbathau yn y deml yn halogi y
Sabbath, a'u bod yn ddigerydd?
6 Eithr yr ydwyf yn dywedyd i
chwi, fod yma *un* mwy na'r deml.
7 Ond pe gwybasech beth yw *hyn*,
Trugaredd a ewyllysiaf, ac nid
aberth, ni farnasech chwi yn erbyn
y rhai diniwed.
8 Canys Arglwydd ar y Sabbath
hefyd yw Mab y dyn.
9 Ac wedi iddo ymadael oddi yno,
efe a aeth i'w synagog hwynt.
10 ¶ Ac wele, yr oedd dyn a chan-
ddo law wedi gwywo. A hwy a
ofynasant iddo, gan ddywedyd, Ai
rhydd iachâu ar y Sabbathau? fel
y gallent achwyn arno.
11 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Pa ddyn o honoch fydd a chanddo
un ddafad, ac o syrth honno mewn
pwll ar y *dydd* Sabbath, nid ymeifl
ynddi, a'*i* chodi allan?
12 Pa faint gwell gan hynny ydyw
dyn na dafad? Felly rhydd yw
gwneuthur yn dda ar y Sabbathau.
13 Yna y dywedodd efe wrth y
dyn, Estyn dy law. Ac efe a'*i* hes-
tynodd; a *hi* a wnaed yn iach, fel
y llall.
14 ¶ Yna yr aeth y Phariseaid
allan, ac a ymgynghorasant yn ei
erbyn ef, pa fodd y difethent ef.
15 A'r Iesu gan wybod, a giliodd
oddi yno; a thorfeydd lawer a'i
canlynasant ef, ac efe a'u hiach-
aodd hwynt oll;
16 Ac a orchymynodd iddynt, na
wnaent ef yn gyhoedd:
17 Fel y cyflawnid yr hyn a ddy-
wedasid trwy Esaias y prophwyd,
gan ddywedyd,
18 Wele fy ngwasanaethwr, yr
hwn a ddewisais; fy anwylyd, yn yr
hwn y mae fy enaid yn foddlawn:
gosodaf fy yspryd arno, ac efe a
draetha farn i'r Cenhedloedd.
19 Ni ymryson efe, ac ni lefain;
ac ni chlyw neb ei lais ef yn yr
heolydd.
20 Corsen ysig nis tyr, a llin yn
mygu nis diffydd, hyd oni ddygo
efe allan farn i fuddugoliaeth.
21 Ac yn ei enw ef y gobeithia y
Cenhedloedd.
22 ¶ Yna y dygpwyd atto un cy-
threulig, dall a mud: ac efe a'i
hiachaodd ef, fel y llefarodd ac y
gwelodd y dall a mud.
23 A'r holl dorfeydd a synnasant,
ac a ddywedasant, Ai hwn yw mab
Dafydd?
24 Eithr pan glybu y Phariseaid,
hwy a ddywedasant, Nid yw hwn
yn bwrw allan gythreuliaid, ond
trwy Beelsebub pennaeth y cy-
threuliaid.
25 A'r Iesu yn gwybod eu medd-
yliau, a ddywedodd wrthynt, Pob
teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn
ei hun, a anghyfanneddir; a phob

dinas neu dŷ wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun, ni saif.
26 Ac os Satan a fwrw allan Satan, efe a ymrannodd yn ei erbyn ei hun: pa wedd gan hynny y saif ei deyrnas ef?
27 Ac os trwy Beelsebub yr ydwyf fi yn bwrw allan gythreuliaid, trwy bwy y mae eich plant chwi yn *eu* bwrw *hwynt* allan? am hynny y byddant hwy yn farnwyr arnoch chwi.
28 Eithr os ydwyf fi yn bwrw allan gythreuliaid trwy Ysbryd Duw, yna y daeth teyrnas Dduw attoch.
29 Neu, pa fodd y dichon neb fyned i mewn i dŷ un cadarn, a *llwyr*-yspeilio ei ddodrefn ef, oddi eithr iddo yn gyntaf rwymo y cadarn? ac yna yr yspeilia efe ei dŷ ef.
30 Y neb nid yw gyd â mi, sydd yn fy erbyn; a'r neb nid yw yn casglu gyd â mi, sydd yn gwasgaru.
31 ¶ Am hynny y dywedaf wrthych chwi, Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion: ond cabledd *yn erbyn* yr Ysbryd *Glân* ni faddeuir i ddynion.
32 A phwy bynnag a ddywedo air yn erbyn Mab y dyn, fe a faddeuir iddo: ond pwy bynnag a ddywedo yn erbyn yr Ysbryd Glân, nis maddeuir iddo, nac yn y byd hwn, nac yn *y byd* a ddaw.
33 Naill ai gwnewch y pren yn dda, a'i ffrwyth yn dda; ai gwnewch y pren yn ddrwg, a'i ffrwyth yn ddrwg: canys y pren a adwaenir wrth *ei* ffrwyth.
34 O eppil gwiberod, pa wedd y gellwch lefaru pethau da, a chwi yn ddrwg? canys o helaethrwydd y galon y llefara y genau.
35 Y dyn da, o drysor da y galon, a ddwg allan bethau da: a'r dyn drwg, o'r trysor drwg, a ddwg allan bethau drwg.
36 Eithr yr ydwyf yn dywedyd wrthych, Mai am bob gair segur a ddywedo dynion, y rhoddant hwy gyfrif yn nydd y farn.
37 Canys wrth dy eiriau y'th gyfiawnhêir, ac wrth dy eiriau y'th gondemnir.
38 ¶ Yna yr attebodd rhai o'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid, gan ddywedyd, Athraw, ni a chwennychem weled arwydd gennyt.
39 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Cenhedlaeth ddrwg a godinebus sydd yn ceisio arwydd; ac arwydd nis rhoddir iddi, ond arwydd y prophwyd Jonas:
40 Canys fel y bu Jonas dridiau a thair nos ym mol y morfil, felly y bydd Mab y dyn dridiau a thair nos y'nghalon y ddaear.
41 Gwŷr Ninefe a gyfodant yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon, ac a'i condemniant hi; am iddynt hwy edifarhâu wrth bregeth Jonas: ac wele fwy na Jonas yma.
42 Brenhines y dehau a gyfyd yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon, ac a'i condemnia hi; am iddi hi ddyfod o eithafoedd y ddaear i glywed doethineb Solomon: ac wele fwy na Solomon yma.
43 A phan êl yr yspryd aflan allan o ddyn, efe a rodia ar hyd lleoedd sychion, gan geisio gorphwysdra, ac nid *yw* yn ei gael.
44 Yna medd efe, Mi a ddychwelaf i'm tŷ o'r lle y deuthum allan. Ac wedi y delo, y mae yn *ei* gael yn wag, wedi *ei* ysgubo a'*i* drwsio.
45 Yna y mae efe yn myned, ac yn cymmeryd gyd âg ef ei hun saith yspryd eraill gwaeth nag ef ei hun; ac wedi iddynt fyned i mewn, hwy a gyfanneddant yno: ac y mae diwedd y dyn hwnnw yn waeth na'i ddechreuad. Felly y bydd hefyd i'r genhedlaeth ddrwg hon.
46 ¶ Tra yr ydoedd efe yn llefaru wrth y torfeydd, wele, *ei* fam a'i frodyr oedd yn sefyll allan, yn ceisio ymddiddan âg ef.
47 A dywedodd un wrtho, Wele, y mae dy fam di a'th frodyr yn sefyll allan, yn ceisio ymddiddan â thi.
48 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrth yr hwn a ddywedasai wrtho, Pwy yw fy mam i? a phwy yw fy mrodyr i?
49 Ac efe a estynodd ei law tu ag at ei ddisgyblion, ac a ddywedodd, Wele fy mam i, a'm brodyr i:
50 Canys pwy bynnag a wna ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd, efe yw fy mrawd i, a'm chwaer, a'm mam.

PENNOD 13.

3 *Dammeg yr hauwr a'r had;* 18 *a'i dehongliad.* 24 *Dammeg yr efrau,* 31 *yr had mwstard,* 33 *y surdoes,* 44 *y trysor cuddiedig,* 45 *y peri,* 47 *a'r rhwyd.* 53 *Y modd y dirmygir Crist gan ei wladwyr ei hun.*

Y DYDD hwnnw yr aeth yr Iesu allan o'r tŷ, ac yr eisteddodd wrth *lan* y môr.

2 A thorfeydd lawer a ymgynnullasant atto ef, fel yr aeth efe i'r llong, ac yr eisteddodd: a'r holl dyrfa a safodd ar y lan.

3 Ac efe a lefarodd wrthynt lawer o bethau trwy ddamhegion, gan ddywedyd, Wele, yr hauwr a aeth allan i hau.

4 Ac fel yr oedd efe yn hau, peth a syrthiodd ar *fin* y ffordd; a'r adar a ddaethant, ac a'i difasant.

5 Peth arall a syrthiodd ar greigleoedd, lle ni chawsant fawr ddaear: ac yn y man yr eginasant, gan nad oedd iddynt ddyfnder daear:

6 Ac wedi codi yr haul, y poethasant; ac am nad oedd ganddynt wreiddyn, hwy a wywasant.

7 A pheth arall a syrthiodd ym mhlith y drain; a'r drain a godasant, ac a'u tagasant hwy.

8 Peth arall hefyd a syrthiodd mewn tir da, ac a ddygasant ffrwyth, peth ar ei ganfed, arall ar ei dri-ugeinfed, arall ar ei ddegfed ar hugain.

9 Y neb sydd ganddo glustiau i wrandaw, gwrandawed.

10 A daeth y disgyblion, ac a ddywedasant wrtho, Paham yr wyt ti yn llefaru wrthynt trwy ddamhegion?

11 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Am roddi i chwi wybod dirgelion teyrnas nefoedd, ac ni roddwyd iddynt hwy.

12 Oblegid pwy bynnag sydd ganddo, i hwnnw y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd: eithr pwy bynnag nid oes ganddo, oddi arno ef y dygir, ïe, yr hyn sydd ganddo.

13 Am hynny yr ydwyf yn llefaru wrthynt hwy ar ddamhegion: canys a hwy yn gweled, nid ydynt yn gweled; ac yn clywed, nid ydynt yn clywed, nac yn deall.

14 Ac ynddynt hwy y cyflawnir prophwydoliaeth Esaias, yr hon sydd yn dywedyd, Gan glywed y clywch, ac ni ddeallwch; ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch;

15 Canys brasâwyd calon y bobl hyn, a hwy a glywsant â'u clustiau yn drwm, ac a gauasant eu llygaid; rhag canfod â'u llygaid, a chlywed â'u clustiau, a deall â'r galon, a throi, ac i mi eu hiachâu hwynt.

16 Eithr dedwydd *yw* eich llygaid chwi, am eu bod yn gweled; a'ch clustiau, am eu bod yn clywed:

17 Oblegid yn wir y dywedaf i chwi, chwennychu o lawer o brophwydi a rhai cyfiawn weled *y pethau* a welwch chwi, ac nis gwelsant; a chlywed *yr hyn* a glywch chwi, ac nis clywsant.

18 ¶ Gwrandêwch chwithau gan hynny ddammeg yr hauwr.

19 Pan glywo neb air y deyrnas, ac heb *ei* ddeall, y mae y drwg yn dyfod, ac yn cipio yr hyn a hauwyd yn ei galon ef. Dyma yr hwn a hauwyd ar *fin* y ffordd.

20 A'r hwn a hauwyd ar y creigleoedd, yw yr hwn sydd yn gwrandaw y gair, ac yn ebrwydd trwy lawenydd yn ei dderbyn;

21 Ond nid oes ganddo wreiddyn ynddo ei hun, eithr dros amser y mae: a phan ddelo gorthrymder neu erlid oblegid y gair, yn y fan efe a rwystrir.

22 A'r hwn a hauwyd ym mhlith y drain, yw yr hwn sydd yn gwrandaw y gair; ac y mae gofal y byd hwn, a thwyll cyfoeth, yn tagu y gair, ac y mae yn myned yn ddiffrwyth.

23 Ond yr hwn a hauwyd yn y tir da, yw yr hwn sydd yn gwrandaw y gair, ac yn *ei* ddeall; *sef* yr hwn sydd yn ffrwytho, ac yn dwyn peth ei ganfed, arall ei dri-ugeinfed, arall ei ddegfed ar hugain.

24 ¶ Dammeg arall a osododd efe iddynt, gan ddywedyd, Teyrnas nefoedd sydd gyffelyb i ddyn a hauodd had da yn ei faes:

25 A thra yr oedd y dynion yn cysgu, daeth ei elyn ef, ac a hauodd efrau ym mhlith y gwenith, ac a aeth ymaith.

26 Ac wedi i'r eginyn dyfu, a dwyn ffrwyth, yna yr ymddangosodd yr efrau hefyd.

27 A gweision gŵr y tŷ a ddaethant, ac a ddywedasant wrtho, Arglwydd, oni hauaist di had da yn dy faes? o ba le gan hynny y mae yr efrau ynddo?
28 Yntau a ddywedodd wrthynt, Y gelyn *ddyn* a wnaeth hyn. A'r gweision a ddywedasant wrtho, A fynni di gan hynny i ni fyned a'u casglu hwynt?
29 Ac efe a ddywedodd, Na fynnaf; rhag i chwi, wrth gasglu yr efrau, ddiwreiddio y gwenith gyd â hwynt.
30 Gadêwch i'r ddau gyd-dyfu hyd y cynhauaf: ac yn amser y cynhauaf y dywedaf wrth y medelwyr, Cesglwch yn gyntaf yr efrau, a rhwymwch hwynt yn ysgubau i'w *llwyr*-losgi; ond cesglwch y gwenith i'm hysgubor.
31 ¶ Dammeg arall a osododd efe iddynt, gan ddywedyd, Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i ronyn o had mwstard, yr hwn a gymmerodd dyn, ac a'i hauodd yn ei faes:
32 Yr hwn yn wir sydd leiaf o'r holl hadau; ond wedi iddo dyfu, mwyaf un o'r llysiau ydyw, ac y mae efe yn myned yn bren; fel y mae adar y nef yn dyfod, ac yn nythu yn ei gangau ef.
33 ¶ Dammeg arall a lefarodd efe wrthynt; Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i surdoes, yr hwn a gymmerodd gwraig, ac a'i cuddiodd mewn tri pheccaid o flawd, hyd oni surodd y cwbl.
34 Hyn oll a lefarodd yr Iesu trwy ddamhegion wrth y torfeydd; ac heb ddammeg ni lefarodd efe wrthynt;
35 Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd trwy y prophwyd, gan ddywedyd, Agoraf fy ngenau mewn damhegion; mynegaf bethau cuddiedig er pan seiliwyd y byd.
36 ¶ Yna yr anfonodd yr Iesu y torfeydd ymaith, ac yr aeth i'r tŷ: a'i ddisgyblion a ddaethant atto, gan ddywedyd, Eglura i ni ddammeg efrau y maes.
37 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yr hwn sydd yn hau yr had da, yw Mab y dyn;
38 A'r maes yw y byd; a'r had da, hwynt-hwy yw plant y deyrnas; a'r efrau yw plant y drwg;
39 A'r gelyn yr hwn a'u hauodd hwynt, yw diafol; a'r cynhauaf yw diwedd y byd; a'r medelwyr yw yr angylion.
40 Megis gan hynny y cynhullir yr efrau, ac a'u llwyr-losgir yn tân; felly y bydd yn niwedd y byd hwn.
41 Mab y dyn a ddenfyn ei angylion, a hwy a gynhullant allan o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd;
42 Ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn dân: yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.
43 Yna y llewyrcha y rhai cyfiawn fel yr haul, yn nheyrnas eu Tad. Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrandaw, gwrandawed.
44 ¶ Drachefn, cyffelyb yw teyrnas nefoedd i drysor wedi ei guddio mewn maes; yr hwn wedi i ddyn ei gaffael, a'i cuddiodd, ac o lawenydd am dano, sydd yn myned ymaith, ac yn gwerthu yr hyn oll a fedd, ac yn prynu y maes hwnnw.
45 ¶ Drachefn, cyffelyb yw teyrnas nefoedd i farchnattâwr, yn ceisio perlau teg:
46 Yr hwn wedi iddo gaffael un perl gwerthfawr, a aeth, *ac* a werthodd gymmaint oll ag a feddai, ac a'i prynodd ef.
47 ¶ Drachefn, cyffelyb yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwriwyd yn y môr, ac a gasglodd o bob rhyw beth:
48 Yr hon, wedi ei llenwi, a ddygasant i'r lan, ac a eisteddasant, ac a gasglasant y rhai da mewn llestri, ac a fwriasant allan y rhai drwg.
49 Felly y bydd yn niwedd y byd: yr angylion a ânt allan, ac a ddidolant y rhai drwg o blith y rhai cyfiawn,
50 Ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn dân: yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.
51 Iesu a ddywedodd wrthynt, A ddarfu i chwi ddeall hyn oll? Hwythau a ddywedasant wrtho, Do, Arglwydd.
52 A dywedodd yntau wrthynt, Am hynny pob ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd, sydd debyg i ddyn o berchen tŷ, yr hwn sydd yn dwyn allan o'i drysor *bethau* newydd a hen.

53 ¶ A bu, wedi i'r Iesu orphen y damheglon hyn, efe a ymadawodd oddi yno.
54 Ac efe a ddaeth i'w wlad ei hun, ac a'u dysgodd hwynt yn eu synagog; fel y synnodd arnynt, ac y dywedasant, O ba le y daeth y doethineb hwn a'r gweithredoedd nerthol i'r *dyn* hwn?
55 Onid hwn yw mab y saer? onid Mair y gelwir ei fam ef? a Iago, a Joses, a Simon, a Judas, ei frodyr ef?
56 Ac onid yw ei chwiorydd ef oll gyd â ni? o ba le gan hynny y mae gan hwn y pethau hyn oll?
57 A hwy a rwystrwyd ynddo ef. A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Nid yw prophwyd heb anrhydedd, ond yn ei wlad ei hun, ac yn ei dŷ ei hun.
58 Ac ni wnaeth efe nemmawr o weithredoedd nerthol yno, oblegid eu hanghrediniaeth hwynt.

PENNOD 14.

1 *Tyb Herod am Grist.* 3 *Carchariad Ioan, a'i ddihenydd.* 13 *Yr Iesu yn ymadaw i le anial:* 15 *lle y mae efe yn porthi pum mil o bobl â phum torth ac â dau bysgodyn:* 22 *yn rhodio ar y môr at ei ddisgyblion;* 34 *ac wedi tirio yn Gennesaret, yn iachâu y cleifion a gyffyrddai ag ymyl ei wisg ef.*

YPRYD hwnnw y clybu Herod y tetrarch sôn am yr Iesu;
2 Ac efe a ddywedodd wrth ei weision, Hwn yw Ioan Fedyddiwr: efe a gyfododd o feirw; ac am hynny y mae nerthoedd yn gweithio ynddo ef.
3 ¶ Canys Herod a ddaliasai Ioan, ac a'i rhwymasai, ac a'*i* dodasai y'ngharchar, oblegid Herodias, gwraig Phylip ei frawd ef.
4 Canys Ioan a ddywedodd wrtho, Nid cyfreithlawn i ti ei chael hi.
5 Ac efe yn ewyllysio ei roddi ef i farwolaeth, a ofnodd y dyrfa; canys hwy a'i cymmerent ef megis prophwyd.
6 Eithr pan gadwyd dydd genedigaeth Herod, y dawnsiodd merch Herodias ger eu bron hwy, ac a ryngodd fodd Herod.
7 O ba herwydd efe a addawodd, trwy lw, roddi iddi beth bynnag a ofynai.
8 A hithau, wedi ei rhag-ddysgu gan ei mam, a ddywedodd, Dyro i mi yma ben Ioan Fedyddiwr mewn dysgl.
9 A'r brenhin a fu drist ganddo: eithr o herwydd y llw, a'r rhai a eisteddent gyd âg ef wrth y ford, efe a orchymynodd *ei* roi *ef iddi.*
10 Ac efe a anfonodd, ac a dorrodd ben Ioan yn y carchar.
11 A dygpwyd ei ben ef mewn dysgl, ac a'i rhoddwyd i'r llangces: a hi a'*i* dug *ef* i'w mam.
12 A'i ddisgyblion ef a ddaethant, ac a gymmerasant ei gorph ef, ac a'i claddasant; ac a aethant, ac a fynegasant i'r Iesu.
13 ¶ A phan glybu yr Iesu, efe a ymadawodd oddi yno mewn llong, i anghyfanneddle o'r neilldu: ac wedi clywed o'r torfeydd, hwy a'i canlynasant ef ar draed allan o'r dinasoedd.
14 A'r Iesu a aeth allan, ac a weloodd dyrfa fawr, ac a dosturiodd wrthynt; ac efe a iachaodd eu cleifion hwynt.
15 ¶ Ac wedi ei myned hi yn hwyr, daeth ei ddisgyblion atto, gan ddywedyd, Y lle sydd anghyfannedd, a'r awr a aeth weithian heibio: gollwng y dyrfa ymaith, fel yr elont i'r pentrefi, ac y prynont iddynt fwyd.
16 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Nid rhaid iddynt fyned ymaith: rhoddwch chwi iddynt beth i'w fwytta.
17 A hwy a ddywedasant wrtho, Nid oes gennym ni yma ond pum torth, a dau bysgodyn.
18 Ac efe a ddywedodd, Dygwch hwynt yma i mi.
19 Ac wedi gorchymyn i'r torfeydd eistedd ar y gwelltglas, a chymmeryd y pum torth a'r ddau bysgodyn, efe a edrychodd i fyny tu a'r nef, ac a fendithiodd, ac a dorrodd; ac a roddes y torthau i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r torfeydd.
20 A hwynt oll a fwyttasant, ac a gawsant eu digon: ac a godasant o'r briwfwyd oedd y'ngweddill, ddeuddeg basgedaid yn llawn.
21 A'r rhai a fwyttasent oedd ynghylch pum mil o wŷr, heb law gwragedd a phlant.
22 ¶ Ac yn y fan y gyrrodd yr

Iesu ei ddisgyblion i fyned i'r llong, ac i fyned i'r lan arall o'i flaen ef, tra fyddai efe yn gollwng y torfeydd ymaith.

23 Ac wedi iddo ollwng y torfeydd ymaith, efe a esgynodd i'r mynydd wrtho ei hun, i weddïo: ac wedi ei hwyrhâu hi, yr oedd efe yno yn unig.

24 A'r llong oedd weithian yng nghanol y môr, yn drallodus gan donnau: canys gwynt gwrthwynebus ydoedd.

25 Ac yn y bedwaredd wylfa o'r nos yr aeth yr Iesu attynt, gan rodio ar y môr.

26 A phan welodd y disgyblion ef yn rhodio ar y môr, dychrynasant, gan ddywedyd, Drychiolaeth ydyw. A hwy a waeddasant rhag ofn.

27 Ac yn y man y llefarodd yr Iesu wrthynt, gan ddywedyd, Cymmerwch gysur: myfi ydyw; nac ofnwch.

28 A Phedr a'i hattebodd, ac a ddywedodd, O Arglwydd, os tydi yw, arch i mi ddyfod attat ar y dyfroedd.

29 Ac efe a ddywedodd, Tyred. Ac wedi i Pedr ddisgyn o'r llong, efe a rodiodd ar y dyfroedd, i ddyfod at yr Iesu.

30 Ond pan welodd efe y gwynt yn gryf, efe a ofnodd: a phan ddechreuodd suddo, efe a lefodd, gan ddywedyd, Arglwydd, cadw fi.

31 Ac yn y man yr estynodd yr Iesu *ei* law, ac a ymaflodd ynddo ef, ac a ddywedodd wrtho, Tydi o ychydig ffydd, paham y petrusaist?

32 A phan aethant hwy i mewn i'r llong, peidiodd y gwynt.

33 A daeth y rhai oedd yn y llong, ac a'i haddolasant ef, gan ddywedyd, Yn wir Mab Duw ydwyt ti.

34 ¶ Ac wedi iddynt fyned trosodd, hwy a ddaethant i dir Gennesaret.

35 A phan adnabu gwŷr y fan honno ef, hwy a anfonasant i'r holl wlad honno o amgylch, ac a ddygasant atto y rhai oll oedd mewn anhwyl;

36 Ac a attolygasant iddo gael cyffwrdd yn unig âg ymyl ei wisg ef: a chynnifer ag a gyffyrddodd, a iachâwyd.

PENNOD 15.

3 Crist yn argyhoeddi yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid am dorri gorchymynion Duw trwy eu traddodiadau eu hunain: 11 yn dysgu nad yw y peth sydd yn myned i mewn i'r genau yn halogi dyn: 21 yn iachau merch y wraig o Ganaan, 30 a thorfoedd eraill lawer: 32 ac á saith dorth, ac ychydig bysgod bychain, yn porthi pedair mil o wŷr, heb law gwragedd a plant.

YNA yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, y rhai oedd o Jerusalem, a ddaethant at yr Iesu, gan ddywedyd,

2 Paham y mae dy ddisgyblion di yn troseddu traddodiad yr hynafiaid? canys nid ydynt yn golchi eu dwylaw pan fwyttaont fara.

3 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, A phaham yr ydych chwi yn troseddu gorchymyn Duw trwy eich traddodiad chwi?

4 Canys Duw a orchymynodd, gan ddywedyd, Anrhydedda dy dad a'th fam: a'r hwn a felldithio dad neu fam, lladder ef yn farw.

5 Eithr yr ydych chwi yn dywedyd, Pwy bynnag a ddywedo wrth *ei* dad neu *ei* fam, Rhodd *yw* pa beth bynnag y ceit les oddi wrthyf fi, ac ni anrhydeddo ei dad neu ei fam, *difai fydd.*

6 Ac fel hyn y gwnaethoch orchymyn Duw yn ddirym trwy eich traddodiad eich hun.

7 *O* ragrithwyr, da y prophwydodd Esaias am danoch chwi, gan ddywedyd,

8 Nesâu y mae y bobl hyn attaf â'u genau, a'm hanrhydeddu â'u gwefusau; a'u calon sydd bell oddi wrthyf.

9 Eithr yn ofer y'm hanrhydeddant i, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth.

10 ¶ Ac wedi iddo alw y dyrfa atto, efe a ddywedodd wrthynt, Clywch, a deallwch.

11 Nid yr hyn sydd yn myned i mewn i'r genau, sydd yn halogi dyn; ond yr hyn sydd yn dyfod allan o'r genau, hynny sydd yn halogi dyn.

12 Yna y daeth ei ddisgyblion atto, ac a ddywedasant wrtho, A wyddost ti ymrwystro o'r Phariseaid wrth glywed yr ymadrodd hwn?

13 Ac yntau a attebodd ac a ddywedodd, Pob planhigyn yr hwn

nis plannodd fy Nhad nefol, a ddiwreiddir.
14 Gadêwch iddynt: tywysogion deillion i'r deillion ydynt. Ac os y dall a dywys y dall, y ddau a syrthiant yn y ffos.
15 A Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Eglura i ni y ddammeg hon.
16 A dywedodd yr Iesu, A ydych chwithau etto heb ddeall?
17 Onid ydych chwi yn deall etto, fod yr hyn oll sydd yn myned i mewn i'r genau, yn cilio i'r bola, ac y bwrir ef allan i'r geudy?
18 Eithr y pethau a ddeuant allan o'r genau, sydd yn dyfod allan o'r galon; a'r *pethau* hynny a halogant ddyn.
19 Canys o'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor-prïodasau, godinebau, lladradau, cam-dystiolaethau, cablau:
20 Dyma y pethau sydd yn halogi dyn: eithr bwytta â dwylaw heb olchi, ni haloga ddyn.
21 ¶ A'r Iesu a aeth oddi yno, ac a giliodd i dueddau Tyrus a Sidon.
22 Ac wele, gwraig o Ganaan a ddaeth o'r parthau hynny, ac a lefodd, gan ddywedyd wrtho, Trugarhâ wrthyf, O Arglwydd, Fab Dafydd: y mae fy merch yn ddrwg ei hwyl gan gythraul.
23 Eithr nid attebodd efe iddi *un* gair. A daeth ei ddisgyblion atto, ac a attolygasant iddo, gan ddywedyd, Gollwng hi ymaith; canys y mae hi yn llefain ar ein hol.
24 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Ni'm danfonwyd i ond at ddefaid colledig tŷ Israel.
25 Ond hi a ddaeth, ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, cymmorth fi.
26 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Nid da cymmeryd bara y plant, a'i fwrw i'r cwn.
27 Hithau a ddywedodd, Gwir *yw*, Arglwydd: canys y mae y cwn yn bwytta o'r briwsion sydd yn syrthio oddi ar fwrdd eu harglwyddi.
28 Yna yr attebodd yr Iesu, ac a ddywedodd wrthi, Ha wraig, mawr *yw* dy ffydd: bydded i ti fel yr wyt yn ewyllysio. A'i merch a iachâwyd o'r awr honno allan.
29 ¶ A'r Iesu a aeth oddi yno, ac a ddaeth ger llaw môr Galilea; ac a esgynodd i'r mynydd, ac a eisteddodd yno.
30 A daeth atto dorfeydd lawer, a chanddynt gyd â hwynt gloffion, deillion, mudion, anafusion, ac eraill lawer: a hwy a'u bwriasant i lawr wrth draed yr Iesu, ac efe a'u hiachaodd hwynt:
31 Fel y rhyfeddodd y torfeydd, wrth weled y mudion yn llefaru, y rhai anafus yn iach, y cloffion yn rhodio, a'r deillion yn gweled: a hwy a ogoneddasant Dduw Israel.
32 ¶ A galwodd yr Iesu ei ddisgyblion atto, ac a ddywedodd, Yr ydwyf yn tosturio wrth y dyrfa; canys y maent yn aros gyd â mi dridiau weithian, ac nid oes ganddynt ddim i'w fwytta: ac nid ydwyf yn ewyllysio eu gollwng hwynt ymaith ar eu cythlwng, rhag eu llewygu ar y ffordd.
33 A'i ddisgyblion a ddywedent wrtho, O ba le y caem ni gymmaint o fara yn y diffaethwch, fel y digonid tyrfa gymmaint?
34 A'r Iesu a ddywedai wrthynt, Pa sawl torth sydd gennych? A hwy a ddywedasant, Saith, ac ychydig bysgod bychain.
35 Ac efe a orchymynodd i'r torfeydd eistedd ar y ddaear.
36 A chan gymmeryd y saith dorth, a'r pysgod, a diolch, efe a'*u* torrodd, ac a'*u* rhoddodd i'w ddisgyblion, a'r disgyblion i'r dyrfa.
37 A hwy oll a fwyttasant, ac a gawsant eu digon; ac a godasant o'r briwfwyd oedd y'ngweddill, saith fasgedaid yn llawn.
38 A'r rhai a fwyttasant oedd bedair mil o wŷr, heb law gwragedd a phlant.
39 Ac wedi iddo ollwng y torfeydd ymaith, efe a aeth i long, ac a ddaeth i barthau Magdala.

PENNOD 16.

1 *Y Phariseaid yn gofyn arwydd. 6 Iesu yn rhybuddio ei ddisgyblion am lefain y Phariseaid a'r Saduceaid.* 13 *Tyb y bobl am Grist,* 16 *a chyffes Pedr am dano.* 21 *Iesu yn rhagfynegi ei farwolaeth:* 23 *yn ceryddu Pedr am ei gymhori i'r gwrthwyneb;* 24 *ac yn rhybuddio y sawl a fynnent ei ganlyn ef, i ddwyn y groes.*

AC wedi i'r Phariseaid a'r Saduceaid ddyfod atto, a'i demtio,

hwy a attolygasant iddo ddangos
iddynt arwydd o'r nef.
2 Ac efe a attebodd ac a ddywed-
odd wrthynt, Pan fyddo yr hwyr,
y dywedwch, Tywydd teg; canys
y mae yr wybr yn goch.
3 A'r bore, Heddyw dryccin; can-
ys y mae yr wybr yn goch ac yn
bruddaidd. O ragrithwyr, chwi a
fedrwch ddeall wyneb yr wybren;
ac oni fedrwch arwyddion yr am-
serau?
4 Y mae cenhedlaeth ddrwg a
godinebus yn ceisio arwydd; ac
arwydd nis rhoddir iddi, ond ar-
wydd y prophwyd Jonas. Ac efe
a'u gadawodd hwynt, ac a aeth
ymaith.
5 Ac wedi dyfod ei ddisgyblion ef
i'r lan arall, hwy a ollyngasent dros
gôf gymmeryd bara *ganddynt.*
6 ¶ A'r Iesu a ddywedodd wrthynt,
Edrychwch ac ymogelwch rhag
surdoes y Phariseaid a'r Sadu-
ceaid.
7 A hwy a ymresymmasant yn
eu plith eu hunain, gan ddywedyd,
Hyn sydd am na chymmerasom
fara *gennym.*
8 A'r Iesu yn gwybod, a ddywed-
odd wrthynt, Chwychwi o ychydig
ffydd, paham yr ydych yn ymres-
ymmu yn eich plith eich hunain,
am na chymmerasoch fara *gyd â*
chwi?
9 Onid ydych chwi yn deall etto,
nac yn cofio pum torth y pum
mil, a pha sawl basgedaid a gym-
merasoch i fyny?
10 Na saith dorth y pedair mil,
a pha sawl cawellaid a gymmeras-
och i fyny?
11 Pa fodd nad ydych yn deall,
nad am fara y dywedais wrthych,
ar ymogelyd rhag surdoes y Pha-
riseaid a'r Saduceaid?
12 Yna y deallasant na ddywed-
asai efe am ymogelyd rhag surdoes
bara, ond rhag athrawiaeth y Pha-
riseaid a'r Saduceaid.
13 ¶ Ac wedi dyfod yr Iesu i du-
eddau Cesarea Philippi, efe a ofyn-
odd i'w ddisgyblion, gan ddywedyd,
Pwy y mae dynion yn dywedyd
fy mod i, Mab y dyn?
14 A hwy a ddywedasant, Rhai,
mai Ioan Fedyddiwr, a rhai, *mai*
Elias, ac eraill, *mai* Jeremias, neu
un o'r prophwydi.
15 Efe a ddywedodd wrthynt, Ond
pwy meddwch chwi ydwyf fi?
16 A Simon Pedr a attebodd ac
a ddywedodd, Ti yw y Crist, Mab
y Duw byw.
17 A'r Iesu gan atteb a ddy-
wedodd wrtho, Gwyn dy fyd di,
Simon mab Jona: canys nid cig
a gwaed a ddatguddiodd *hyn* i ti,
ond fy Nhad yr hwn sydd yn y
nefoedd.
18 Ac yr ydwyf finnau yn dywed-
yd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y
graig hon yr adeiladaf fy eglwys;
a phyrth uffern nis gorchfygant hi.
19 A rhoddaf i ti agoriadau teyrn-
as nefoedd: a pha beth bynnag
a rwymech ar y ddaear, a fydd
rhwymedig yn y nefoedd; a pha
beth bynnag a ryddhâech ar y
ddaear, a fydd wedi ei ryddhâu yn
y nefoedd.
20 Yna y gorchymynodd efe i'w
ddisgyblion, na ddywedent i neb
mai efe oedd Iesu Grist.
21 ¶ O hynny allan y dechreu-
odd yr Iesu ddangos i'w ddisgyb-
lion fod yn rhaid iddo fyned i Je-
rusalem, a dioddef llawer gan yr
henuriaid, a'r arch-offeiriaid, a'r
ysgrifenyddion, a'i ladd, a chyfodi
y trydydd dydd.
22 A Phedr, wedi ei gymmeryd ef
atto, a ddechreuodd ei geryddu ef,
gan ddywedyd, Arglwydd, trugarhâ
wrthyt dy hun; nis bydd hyn i ti.
23 Ac efe a drodd, ac a ddywed-
odd wrth Pedr, Dos yn fy ol i,
Satan: rhwystr ydwyt ti i mi: am
nad ydwyt yn synied y pethau sydd
o Dduw, ond y pethau sydd o
ddynion.
24 ¶ Yna y dywedodd yr Iesu wrth
ei ddisgyblion, Os myn neb ddyfod
ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a
chyfoded ei groes, a chanlyned fi.
25 Canys pwy bynnag a ewyll-
ysio gadw ei fywyd, a'i cyll: a
phwy bynnag a gollo ei fywyd o'm
plegid i, a'i caiff.
26 Canys pa lesâd i ddyn, os ennill
efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei
hun? neu pa beth a rydd dyn yn
gyfnewid am ei enaid?
27 Canys Mab y dyn a ddaw yng

ngogoniant ei Dad gyd â'i angylion; ac yna y rhydd efe i bawb
yn ol ei weithred.
28 Yn wir y dywedaf wrthych, Y
mae rhai o'r sawl sydd yn sefyll
yma, a'r ni phrofant angau, hyd
oni welont Fab y dyn yn dyfod yn
ei frenhiniaeth.

PENNOD 17.

1 *Gwedd-newidiad Crist.* 14 *Y mae efe yn iachâu y lloerig;* 22 *yn rhag-fynegi ei ddïoddefaint;* 24 *ac yn talu teyrnged.*

AC ar ôl chwe diwrnod y cym-
merodd yr Iesu Pedr, ac Iago,
ac Ioan ei frawd, ac a'u dug hwy
i fynydd uchel o'r neilldu;
2 A gwedd-newidiwyd ef ger eu
bron hwy: a'i wyneb a ddisgleir-
iodd fel yr haul, a'i ddillad oedd
cyn wynned a'r goleuni.
3 Ac wele, Moses ac Elïas a ym-
ddangosodd iddynt, yn ymddiddan
âg ef.
4 A Phedr a attebodd ac a ddy-
wedodd wrth yr Iesu, O Arglwydd,
da yw i ni fod yma: os ewyllysi,
gwnawn yma dair pabell; un i ti,
ac un i Moses, ac un i Elïas.
5 Ac efe etto yn llefaru, wele,
cwmmwl goleu a'u cysgododd
hwynt: ac wele lef o'r cwmmwl
yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl
Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd:
gwrandêwch arno ef.
6 A phan glybu y disgyblion *hyn-
ny*, hwy a syrthiasant ar eu hwyn-
eb, ac a ofnasant yn ddirfawr.
7 A daeth yr Iesu, ac a gyffyrdd-
odd â hwynt, ac a ddywedodd, Cyf-
odwch, ac nac ofnwch.
8 Ac wedi iddynt ddyrchafu eu
llygaid, ni welsant neb ond yr Iesu
yn unig.
9 Ac fel yr oeddynt yn disgyn
o'r mynydd, gorchymynodd yr Iesu
iddynt, gan ddywedyd, Na ddywed-
wch y weledigaeth i neb, hyd oni
adgyfodo Mab y dyn o feirw.
10 A'i ddisgyblion a ofynasant
iddo, gan ddywedyd, Paham gan
hynny y mae yr ysgrifenyddion yn
dywedyd, fod yn rhaid dyfod o
Elïas yn gyntaf?
11 A'r Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd wrthynt, Elïas yn wir a
ddaw yn gyntaf, ac a edfryd bob
peth.
12 Eithr yr ydwyf fi yn dywed-
yd i chwi, ddyfod o Elïas eisoes:
ac nad adnabuant hwy ef, ond
gwneuthur o honynt iddo beth
bynnag a fynnasant: felly y bydd
hefyd i Fab y dyn ddïoddef gan-
ddynt hwy.
13 Yna y deallodd y disgyblion
mai am Ioan Fedyddiwr y dywed-
asai efe wrthynt.
14 ¶ Ac wedi eu dyfod hwy at y
dyrfa, daeth atto *ryw* ddyn, *ac* a
ostyngodd iddo ar ei liniau,
15 Ac a ddywedodd, Arglwydd,
trugarhâ wrth fy mab, oblegid y
mae efe yn lloerig, ac yn flin
arno: canys y mae efe yn syrthio
yn y tân yn fynych, ac yn y dwfr
yn fynych.
16 Ac mi a'i dygais ef at dy
ddisgyblion di, ac ni allent hwy ei
iachâu ef.
17 A'r Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd, O genhedlaeth anffydd-
lawn a throfaus, pa hyd y byddaf
gyd â chwi? pa hyd y dïoddefaf
chwi? dygwch ef yma attaf fi.
18 A'r Iesu a geryddodd y cy-
thraul; ac efe a aeth allan o hono:
a'r bachgen a iachâwyd o'r awr
honno.
19 Yna y daeth y disgyblion at
yr Iesu o'r neilldu, ac y dywedas-
ant, Paham na allem ni ei fwrw
ef allan?
20 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt,
Oblegid eich anghrediniaeth: canys
yn wir y dywedaf i chwi, Pe bai
gennych ffydd megis gronyn o had
mwstard, chwi a ddywedech wrth y
mynydd hwn, Symmud oddi yma
draw; ac efe a symmudai: ac ni
bydd dim ammhosibl i chwi.
21 Eithr nid â y rhywogaeth hyn
allan, ond trwy weddi ac ympryd.
22 ¶ Ac fel yr oeddynt hwy yn
aros yn Galilea, dywedodd yr Iesu
wrthynt, Mab y dyn a draddodir i
ddwylaw dynion:
23 A hwy a'i lladdant; a'r trydydd
dydd y cyfyd efe. A hwy a aethant
yn drist iawn.
24 ¶ Ac wedi dyfod o honynt i
Capernaum, y rhai oedd yn derbyn
arian y deyrnged a ddaethant at
Pedr, ac a ddywedasant, Onid yw
eich athraw chwi yn talu teyrnged?

25 Yntau a ddywedodd, Ydyw. Ac wedi ei ddyfod ef i'r tŷ, yr Iesu a achubodd ei flaen ef, gan ddywedyd, Beth yr wyt ti yn ei dybied, Simon? gan bwy y cymmer brenhinoedd y ddaear deyrnged neu dreth? gan eu plant eu hun, ynte gan estroniaid?

26 Pedr a ddywedodd wrtho, Gan estroniaid. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Gan hynny y mae y plant yn rhyddion.

27 Er hynny, rhag i ni eu rhwystro hwy, dos i'r môr, a bwrw fach, a chymmer y pysgodyn a ddêl i fyny yn gyntaf; ac wedi i ti agoryd ei safn, ti a gei ddarn o arian: cymmer hwnnw, a dyro iddynt drosof fi a thithau.

PENNOD 18.

1 *Crist yn rhybuddio ei ddisgyblion i fod yn ostyngedig ac yn ddiniwed; 7 i ochelyd rhwystrau, ac na ddirmygent y rhai bychain: 15 yn dysgu pa fodd y mae i ni ymdduwyn tu ag at ein brodyr, pan wneiont i'n herbyn; 21 a pha sawi gwaith y maddeuwn iddynt: 23 yr hyn beth y mae yn ei oesod allan trwy ddammeg y brenhin a gymmerai gyfrif gan ei weision, 32 ac a gospodd yr hwn ni ionaethai drugaredd a'i gydymmaith.*

AR yr awr honno y daeth y disgyblion at yr Iesu, gan ddywedyd, Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?

2 A'r Iesu a alwodd atto fachgennyn, ac a'i gosododd yn eu canol hwynt;

3 Ac a ddywedodd, Yn wir y dywedaf i chwi, Oddi eithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd.

4 Pwy bynnag gan hynny a'i gostyngo ei hunan fel y bachgennyn hwn, hwnnw yw y mwyaf yn nheyrnas nefoedd.

5 A phwy bynnag a dderbynio gyfryw fachgennyn yn fy enw i, a'm derbyn i.

6 A phwy bynnag a rwystro un o'r rhai bychain hyn a gredant ynof fi, da fyddai iddo pe crogid maen melin am ei wddf, a'i foddi yn eigion y môr.

7 ¶ Gwae y byd oblegid rhwystrau! canys anghenraid yw dyfod rhwystrau; er hynny gwae y dyn hwnnw trwy yr hwn y daw y rhwystr!

8 Am hynny os dy law neu dy droed a'th rwystra, tor hwynt ymaith, a thafl oddi wrthyt; gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn gloff, neu yn anafus, nag â chennyt ddwy law, neu ddau droed, dy daflu i'r tân tragywyddol.

9 Ac os dy lygad a'th rwystra, tyn ef allan, a thafl oddi wrthyt: gwell yw i ti yn un-llygeidiog fyned i mewn i'r bywyd, nag â dau lygad gennyt dy daflu i dân uffern.

10 Edrychwch na ddirmygoch yr un o'r rhai bychain hyn: canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, fod eu hangylion hwy yn y nefoedd bob amser yn gweled wyneb fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

11 Canys daeth Mab y dyn i gadw yr hyn a gollasid.

12 Beth dybygwch chwi? O bydd gan ddyn gant o ddefaid, a myned o un o honynt ar ddisberod; oni âd efe yr amyn un cant, a myned i'r mynyddoedd, a cheisio yr hon a aeth ar ddisberod?

13 Ac os bydd *iddo* ei chael hi, yn wir meddaf i chwi, y mae yn llawenhâu am honno mwy nag am yr amyn un cant y rhai nid aethant ar ddisberod.

14 Felly nid yw ewyllys eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, gyfrgolli yr un o'r rhai bychain hyn.

15 ¶ Ac os pecha dy frawd i'th erbyn, dos, ac argyhoedda ef rhyngot ti ac ef ei hun. Os efe a wrendy arnat, ti a ennillaist dy frawd.

16 Ac os efe ni wrendy, cymmer gyd â thi etto un neu ddau, fel y ngenau dau neu dri o dystion y byddo pob gair yn safadwy.

17 Ac os efe ni wrendy arnynt hwy, dywed i'r eglwys: ac os efe ni wrendy ar yr eglwys chwaith, bydded ef i ti megis yr ethnig a'r publican.

18 Yn wir meddaf i chwi, Pa bethau bynnag a rwymoch ar y ddaear fyddant wedi eu rhwymo yn y nef: a pha bethau bynnag a ryddhaoch ar y ddaear, a fyddant wedi eu rhyddhâu yn y nef.

19 Trachefn meddaf i chwi, Os cydsynia dau o honoch ar y ddaear am ddim oll beth bynnag a'r a ofynant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

20 Canys lle mae dau neu dri
wedi ymgynnull yn fy enw i, yno
yr ydwyf yn eu canol hwynt.
21 ¶ Yna y daeth Pedr atto ef, ac
a ddywedodd, Arglwydd, pa sawl
gwaith y pecha fy mrawd i'm her-
byn, ac y maddeuaf iddo? ai hyd
seithwaith?
22 Yr Iesu a ddywedodd wrtho,
Nid ydwyf yn dywedyd wrthyt, Hyd
seithwaith; ond, Hyd ddengwaith
a thri ugain seithwaith.
23 ¶ Am hynny y cyffelybir teyrn-
as nefoedd i ryw frenhin a fynnai
gael cyfrif gan ei weision.
24 A phan ddechreuodd gyfrif, fe
a ddygwyd atto un a oedd yn ei
ddyled ef o ddeng mil o dalentau.
25 A chan nad oedd ganddo *ddim*
i dalu, gorchymynodd ei arglwydd
ei werthu ef, a'i wraig, a'i blant,
a chwbl a'r a feddai, a thalu *y*
ddyled.
26 A'r gwas a syrthiodd i lawr, ac
a'i haddolodd ef, gan ddywedyd,
Arglwydd, bydd ymarhous wrthyf,
a mi a dalaf i ti y cwbl oll.
27 Ac arglwydd y gwas hwnnw a
dosturiodd *wrtho,* ac a'i gollyng-
odd, ac a faddeuodd iddo y ddyled.
28 Ac wedi myned o'r gwas hwn-
nw allan, efe a gafodd un o'i gyd-
weision, yr hwn oedd yn ei ddyled
ef o gan ceiniog: ac efe a ymafl-
odd ynddo, ac a'*i* llindagodd, gan
ddywedyd, Tâl i mi yr hyn sydd
ddyledus arnat.
29 Yna y syrthiodd ei gyd-was
wrth ei draed ef, ac a ymbiliodd
âg ef, gan ddywedyd, Bydd ym-
arhous wrthyf, a mi a dalaf i ti y
cwbl oll.
30 Ac nis gwnai efe; ond myned
a'i fwrw ef y'ngharchar, hyd oni
thalai yr hyn oedd ddyledus.
31 A phan welodd ei gyd-weision
y pethau a wnelsid, bu ddrwg dros
ben ganddynt: a hwy a ddaethant,
ac a fynegasant i'w harglwydd yr
holl bethau a fuasai.
32 Yna ei arglwydd, wedi ei alw
ef atto, a ddywedodd wrtho, Ha
was drwg, maddeuais i ti yr holl
ddyled honno, am i ti ymbil â mi:
33 Ac oni ddylesit tithau drugar-
hâu wrth dy gyd-was, megis y tru-
garheais innau wrthyt ti?
34 A'i arglwydd a ddigiodd, ac
a'i rhoddodd ef i'r poenwyr, hyd
oni thalai yr hyn oll oedd ddyledus
iddo.
35 Ac felly y gwna fy Nhad nefol
i chwithau, oni faddeuwch o'ch ca-
lonnau bob un i'w frawd eu cam-
weddau.

PENNOD 19.

*2 Crist yn iachâu y cleifion: 3 yn atteb y Phari-
seaid am ysgariaeth: 10 yn dangos pa bryd
y mae priodas yn angenrheidiol: 13 yn derbyn
plant bychain: 16 yn dysgu i'r gŵr ieuanc y
modd i gael bywyd tragywyddol, 20 ac i fod
yn berffaith: 23 yn dywedyd i'w ddisgyblion
mor anhawdd ydyw i'r goludog fyned i mewn
i deyrnas Duw; 27 ac yn addaw gwobr i'r
sawl a ymadawant â dim er mwyn ei ganlyn ef.*

ABU, pan orphenodd yr Iesu
yr ymadroddion hyn, efe a
ymadawodd o Galilea, ac a ddaeth
i derfynau Judea, tu hwnt i'r Ior-
ddonen:
2 A thorfeydd lawer a'i can-
lynasant ef; ac efe a'u hiachaodd
hwynt yno.
3 ¶ A daeth y Phariseaid atto,
gan ei demtio, a dywedyd wrtho,
Ai cyfreithlawn i ŵr ysgar â'i wraig
am bob achos?
4 Ac efe a attebodd ac a ddy-
wedodd wrthynt, Oni ddarllenas-
och, i'r hwn a'*u* gwnaeth o'r de-
chreu, eu gwneuthur hwy yn wrryw
a benyw?
5 Ac efe a ddywedodd, Oblegid
hyn y gâd dyn dad a mam, ac y
glŷn wrth ei wraig: a'r ddau fydd-
ant yn un cnawd.
6 O herwydd paham, nid ydynt
mwy yn ddau, ond yn un cnawd.
Y peth gan hynny a gyssylltodd
Duw, na ysgared dyn.
7 Hwythau a ddywedasant wrtho,
Paham gan hynny y gorchymyn-
odd Moses roddi llythyr ysgar, a'i
gollwng hi ymaith?
8 Yntau a ddywedodd wrthynt,
Moses, o herwydd caledrwydd eich
calonnau, a oddefodd i chwi ysgar
â'ch gwragedd: eithr o'r dechreu
nid felly yr oedd.
9 Ac meddaf i chwi, Pwy bynnag
a ysgaro â'i wraig, ond am odineb,
ac a briodo un arall, y mae efe
yn torri priodas: ac y mae yr hwn
a briodo yr hon a ysgarwyd, yn
torri priodas.
10 ¶ Dywedodd ei ddisgyblion

wrtho, Os felly y mae yr achos rhwng gŵr a gwraig, nid da gwreicca.
11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Nid yw pawb yn derbyn y gair hwn, ond *y rhai* y rhoddwyd iddynt.
12 Canys y mae eunuchiaid a aned felly o groth *eu* mam; ac y mae eunuchiaid a wnaed gan ddynion yn eunuchiaid; ac y mae eunuchiaid a'u gwnaethant eu hun yn eunuchiaid er mwyn teyrnas nefoedd. Y neb a ddichon *ei* dderbyn, derbynied.
13 ¶ Yna y dygwyd atto blant bychain, fel y rhoddai *ei* ddwylaw arnynt, ac y gweddïai: a'r disgyblion a'u ceryddodd hwynt.
14 A'r Iesu a ddywedodd, Gadêwch i blant bychain, ac na waherddwch iddynt ddyfod attaf fi: canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.
15 Ac wedi iddo roddi *ei* ddwylaw arnynt, efe a aeth *ymaith* oddi yno.
16 ¶ Ac wele, un a ddaeth, ac a ddywedodd wrtho, Athraw da, pa beth da a wnaf, fel y caffwyf fywyd tragywyddol?
17 Yntau a ddywedodd wrtho, Paham y gelwi fi yn dda? nid da neb ond un, *sef* Duw: ond os ewyllysi fyned i mewn i'r bywyd, cadw y gorchymynion.
18 Efe a ddywedodd wrtho yntau, Pa rai? A'r Iesu a ddywedodd, Na ladd, Na odineba, Na ladratta, Na ddwg gam dystiolaeth,
19 Anrhydedda dy dad a'*th* fam, a Châr dy gymmydog fel ti dy hun.
20 Y gŵr ieuangc a ddywedodd wrtho, Mi a gedwais y rhai hyn oll o'm hieuengctid: beth sydd yn eisieu i mi etto?
21 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Os ewyllysi fod yn berffaith, dos, gwerth yr hyn sydd gennyt, a dyro i'r tlodion; a thi a gei drysor yn y nef: a thyred, canlyn fi.
22 A phan glybu y gŵr ieuangc yr ymadrodd, efe a aeth i ffordd yn drist: canys yr oedd yn berchen dâ lawer.
23 ¶ Yna y dywedodd yr Iesu wrth ei ddisgyblion, Yn wir y dywedaf i chwi, mai yn anhawdd yr â goludog i mewn i deyrnas nefoedd.
24 A thrachefn meddaf i chwi, Haws yw i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw.
25 A phan glybu ei ddisgyblion ef *hyn*, synnu a wnaethant yn ddirfawr, gan ddywedyd, Pwy gan hynny a all fod yn gadwedig?
26 A'r Iesu a edrychodd arnynt, ac a ddywedodd wrthynt, Gyd â dynion ammhosibl yw hyn; ond gyd â Duw pob peth sydd bosibl.
27 ¶ Yna Pedr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Wele, nyni a adawsom bob peth, ac a'th ganlynasom di: beth gan hynny a fydd i ni?
28 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir meddaf i chwi, y cewch chwi, y rhai a'm canlynasoch i, yn yr adenedigaeth, pan eisteddo Mab y dyn ar orsedd ei ogoniant, eistedd chwithau ar ddeuddeg gorsedd, yn barnu deuddeg llwyth Israel.
29 A phob un a'r a adawodd dai, neu frodyr, neu chwïorydd, neu dad, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, er mwyn fy enw i, a dderbyn y can cymmaint, a bywyd tragywyddol a etifedda efe.
30 Ond llawer *o'r rhai* blaenaf a fyddant yn olaf, a'r rhai olaf yn flaenaf.

PENNOD 20.

1 Crist, trwy ddammeg y gweithwyr yn y winllan, yn dangos nad ydyw Duw yn ddyledwr i neb: 17 yn rhag-fynegi ei ddioddefaint: 20 trwy atteb i fam meibion Sebedeus, yn dysgu i'w ddisgyblion fod yn ostyngedig; 30 ac yn rhoddi i ddau ddyn dall eu golwg.

CANYS teyrnas nefoedd sydd debyg i ŵr o berchen tŷ, yr hwn a aeth allan a hi yn dyddhâu, i gyflogi gweithwyr i'w winllan.
2 Ac wedi cyttuno â'r gweithwyr er ceiniog y dydd, efe a'u hanfonodd hwy i'w winllan.
3 Ac efe a aeth allan ynghylch y drydedd awr, ac a welodd eraill yn sefyll yn segur yn y farchnadfa;
4 Ac a ddywedodd wrthynt, Ewch chwithau i'r winllan; a pha beth bynnag a fyddo cyfiawn, mi a'*i* rhoddaf i chwi.
5 A hwy a aethant ymaith. *Ac* efe a aeth allan drachefn ynghylch

y chweched a'r nawfed awr, ac a wnaeth yr un modd.
6 Ac efe a aeth allan ynghylch yr unfed awr ar ddeg, ac a gafodd eraill yn sefyll yn segur, ac a ddywedodd wrthynt, Paham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?
7 Dywedasant wrtho, Am na chyflogodd neb nyni. Dywedodd yntau wrthynt, Ewch chwithau i'r winllan; a pha beth bynnag fyddo cyfiawn, chwi a'*i* cewch.
8 A phan aeth hi yn hwyr, arglwydd y winllan a ddywedodd wrth ei oruchwyliwr, Galw y gweithwyr, a dyro iddynt *eu* cyflog, gan ddechreu o'r *rhai* diweddaf hyd y *rhai* cyntaf.
9 A phan ddaeth y rhai *a gyflogasid* ynghylch yr unfed awr ar ddeg, hwy a gawsant bob un geiniog.
10 A phan ddaeth y rhai cyntaf, hwy a dybiasant y caent fwy; a hwythau a gawsant bob un geiniog.
11 Ac wedi iddynt gael, grwgnach a wnaethant yn erbyn gŵr y tŷ,
12 Gan ddywedyd, Un awr y gweithiodd y rhai olaf hyn, a thi a'u gwnaethost hwynt yn gystal a ninnau, y rhai a ddygasom bwys y dydd, a'r gwres.
13 Yntau a attebodd ac a ddywedodd wrth un o honynt, Y cyfaill, nid ydwyf yn gwneuthur cam â thi: onid er ceiniog y cyttunaist â mi?
14 Cymmer yr *hyn sydd* eiddot, a dos ymaith: yr ydwyf yn ewyllysio rhoddi i'r olaf hwn megis i tithau.
15 Ai nid cyfreithlawn i mi wneuthur a fynnwyf â'r eiddof fy hun? neu a ydyw dy lygad di yn ddrwg, am fy mod i yn dda?
16 Felly y rhai olaf fyddant yn flaenaf, a'r rhai blaenaf yn olaf: canys llawer sydd wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis.
17 ¶ Ac a'r Iesu yn myned i fyny i Jerusalem, efe a gymmerth y deuddeg disgybl o'r neilldu ar y ffordd, ac a ddywedodd wrthynt,
18 Wele, yr ydym ni yn myned i fyny i Jerusalem; a Mab y dyn a draddodir i'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion, a hwy a'i condemniant ef i farwolaeth,
19 Ac a'i traddodant ef i'r Cenhedloedd, i'*w* watwar, ac i'*w* fflangellu, ac i'*w* groeshoelio: a'r trydydd dydd efe a adgyfyd.
20 ¶ Yna y daeth mam meibion Sebedëus atto gyd â'i meibion, gan addoli, a deisyf rhyw beth ganddo.
21 Ac efe a ddywedodd wrthi, Pa beth a fynni? Dywedodd hithau wrtho, Dywed am gael o'm dau fab hyn eistedd, y naill ar dy law ddehau, a'r llall ar dy law aswy, yn dy frenhiniaeth.
22 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Ni wyddoch chwi beth yr ydych yn ei ofyn. A ellwch chwi yfed o'r cwppan yr ydwyf fi ar yfed o hono, a'ch bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi? Dywedasant wrtho, Gallwn.
23 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Diau yr yfwch o'm cwppan, ac y'ch bedyddir â'r bedydd y'm bedyddir âg ef: eithr eistedd ar fy llaw ddehau ac ar fy llaw aswy, nid eiddof *ei* roddi; ond i'r sawl y darparwyd gan fy Nhad.
24 A phan glybu y deg *hyn*, hwy a sorrasant wrth y ddau frawd.
25 A'r Iesu a'u galwodd hwynt atto, ac a ddywedodd, Chwi a wyddoch fod pennaethiaid y Cenhedloedd yn tra-arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai mawrion yn tra-awdurdodi arnynt hwy.
26 Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi: ond pwy bynnag a fynno fod yn fawr yn eich plith chwi, bydded yn weinidog i chwi;
27 A phwy bynnag a fynno fod yn bennaf yn eich plith, bydded yn was i chwi:
28 Megis na ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer.
29 ¶ Ac a hwy yn myned allan o Jericho, tyrfa fawr a'i canlynodd ef.
30 Ac wele, dau ddeillion yn eistedd ar *fin* y ffordd, pan glywsant fod yr Iesu yn myned heibio, a lefasant, gan ddywedyd, Arglwydd, fab Dafydd, trugarhâ wrthym.
31 A'r dyrfa a'u ceryddodd hwynt, fel y tawent: hwythau a lefasant fwyfwy, gan ddywedyd, Arglwydd, fab Dafydd, trugarhâ wrthym.
32 A'r Iesu a safodd, ac a'u galw-

odd hwynt, ac a ddywedodd, Pa beth a ewyllysiwch ei wneuthur o honof i chwi?

33 Dywedasant wrtho, Arglwydd, agoryd ein llygaid ni.

34 A'r Iesu a dosturiodd *wrthynt*, ac a gyffyrddodd â'u llygaid: ac yn ebrwydd y cafodd eu llygaid olwg, a hwy a'i canlynasant ef.

PENNOD 21.

1 *Crist yn marchogaeth ar asen i Jerusalem;* 12 *yn gyrru y prynwyr a'r gwerthwyr o'r deml;* 17 *yn melldithio y ffigysbren;* 23 *yn gostegu yr offeiriaid a'r henuriaid.* 28 *ac yn eu ceryddu trwy gyffelybrwydd y ddau fab,* 33 *a'r llafurwyr a laddasant y rhai a anfonwyd attynt.*

A PHAN ddaethant yn gyfagos i Jerusalem, a'u dyfod hwy i Bethphage, i fynydd yr Olewwydd, yna yr anfonodd yr Iesu ddau ddisgybl,

2 Gan ddywedyd wrthynt, Ewch i'r pentref sydd ar eich cyfer, ac yn y man chwi a gewch asen yn rhwym, ac ebol gyd â hi: gollyngwch *hwynt*, a dygwch attaf fi.

3 Ac os dywed neb ddim wrthych, dywedwch, Y mae yn rhaid i'r Arglwydd wrthynt: ac yn y man efe a'u denfyn hwynt.

4 A hyn oll a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy y prophwyd, yn dywedyd,

5 Dywedwch i ferch Sïon, Wele dy frenhin yn dyfod i ti, yn addfwyn, ac yn eistedd ar asen, ac ebol llwdn *asen* arferol â'r iau.

6 Y disgyblion a aethant, ac a wnaethant fel y gorchymynasai yr Iesu iddynt.

7 A hwy a ddygasant yr asen a'r ebol, ac a ddodasant eu dillad arnynt, ac a'*i* gosodasant *ef* i eistedd ar hynny.

8 A thyrfa ddirfawr a daenasant eu dillad ar y ffordd; eraill a dorrasant gangau o'r gwŷdd, ac a'*u* taenasant ar hyd y ffordd.

9 A'r torfeydd, y rhai oedd yn myned o'r blaen, a'r rhai oedd yn dyfod ar ol, a lefasant, gan ddywedyd, Hosanna i fab Dafydd: Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd: Hosanna yn y goruchafion.

10 Ac wedi ei ddyfod ef i mewn i Jerusalem, y ddinas oll a gynhyrfodd, gan ddywedyd, Pwy yw hwn?

11 A'r torfeydd a ddywedasant, Hwn yw Iesu y prophwyd o Nasareth yn Galilea.

12 ¶ A'r Iesu a aeth i mewn i deml Dduw, ac a daflodd allan bawb a'r oedd yn gwerthu ac yn prynu yn y deml, ac a ddymchwelodd i lawr fyrddau y newidwyr arian, a chadeiriau y rhai oedd yn gwerthu colommennod:

13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ysgrifenwyd, Tŷ gweddi y gelwir fy nhŷ i; eithr chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.

14 A daeth y deillion a'r cloffion atto yn y deml; ac efe a'u hiachaodd hwynt.

15 A phan welodd yr arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion y rhyfeddodau a wnaethai efe, a'r plant yn llefain yn y deml, ac yn dywedyd, Hosanna i fab Dafydd; hwy a lidiasant,

16 Ac a ddywedasant wrtho, A wyt ti yn clywed beth y mae y rhai hyn yn ei ddywedyd? A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Ydwyf. Oni ddarllenasoch chwi erioed, O enau plant bychain a rhai yn sugno y perffeithiaist foliant?

17 ¶ Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth allan o'r ddinas i Bethania, ac a lettŷodd yno.

18 A'r bore, fel yr oedd efe yn dychwelyd i'r ddinas, yr oedd arno chwant bwyd.

19 A phan welodd efe ffigysbren ar y ffordd, efe a ddaeth atto, ac ni chafodd ddim arno, ond dail yn unig: ac *efe* a ddywedodd wrtho, Na thyfed ffrwyth arnat byth mwyach. Ac yn ebrwydd y crinodd y ffigysbren.

20 A phan welodd y disgyblion, hwy a ryfeddasant, gan ddywedyd, Mor ddisymmwth y crinodd y ffigysbren!

21 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn wir meddaf i chwi, Os bydd gennych ffydd, ac heb ammeu, ni wnewch yn unig hyn *a wneuthum i* i'r ffigysbren, eithr hefyd os dywedwch wrth y mynydd hwn, Coder di i fyny, a bwrier di i'r môr; hynny a fydd.

22 A pha beth bynnag a ofynoch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch.

23 ¶ Ac wedi ei ddyfod ef i'r deml, yr arch-offeiriaid a henuriaid y bobl a ddaethant atto, fel yr oedd efe yn athrawiaethu, gan ddywedyd, Trwy ba awdurdod yr wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn? a phwy a roddes i ti yr awdurdod hon?

24 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Minnau a ofynaf i chwithau un gair, yr hwn os mynegwch i mi, minnau a fynegaf i chwithau trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.

25 Bedydd Ioan, o ba le yr oedd? ai o'r nef, ai o ddynion? A hwy a ymresymmasant yn eu plith eu hunain, gan ddywedyd, Os dywedwn, O'r nef; efe a ddywed wrthym, Paham gan hynny nas credasoch ef?

26 Ond os dywedwn, O ddynion; y mae arnom ofn y bobl: canys y mae pawb yn cymmeryd Ioan megis prophwyd.

27 A hwy a attebasant i'r Iesu, ac a ddywedasant, Ni wyddom ni. Ac yntau a ddywedodd wrthynt, Nid wyf finnau yn dywedyd i chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.

28 ¶ Ond beth dybygwch chwi? Yr oedd gan ŵr ddau fab: ac efe a ddaeth at y cyntaf ac a ddywedodd, *Fy* mab, dos, gweithia heddyw yn fy ngwinllan.

29 Ac yntau a attebodd ac a ddywedodd, Nid âf: ond wedi hynny efe a edifarhaodd, ac a aeth.

30 A phan ddaeth efe at yr ail, efe a ddywedodd yr un modd. Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Myfi *a âf*, arglwydd; ac nid aeth efe.

31 Pa un o'r ddau a wnaeth ewyllys y tad? Dywedasant wrtho, Y cyntaf. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir meddaf i chwi, yr â y publicanod a'r putteiniaid i mewn i deyrnas Dduw o'ch blaen chwi.

32 Canys daeth Ioan attoch yn ffordd cyfiawnder, ac ni chredasoch ef; ond y publicanod a'r putteiniaid a'i credasant ef: chwithau, yn gweled, nid edifarhasoch wedi hynny, fel y credech ef.

33 ¶ Clywch ddammeg arall. Yr oedd rhyw ddyn o berchen tŷ, yr hwn a blannodd winllan, ac a osododd gae yn ei chylch hi, ac a gloddiodd ynddi win-wrŷf, ac a adeiladodd dŵr, ac a'i gosododd hi allan i lafurwyr, ac a aeth oddi cartref.

34 A phan nesaodd amser ffrwythau, efe a ddanfonodd ei weision at y llafurwyr, i dderbyn ei ffrwythau hi.

35 A'r llafurwyr a ddaliasant ei weision ef, ac un a gurasant, ac arall a laddasant, ac arall a labyddiasant.

36 Trachefn, efe a anfonodd weision eraill, fwy na'r rhai cyntaf: a hwy a wnaethant iddynt yr un modd.

37 Ac yn ddiweddaf oll, efe a anfonodd attynt ei fab ei hun, gan ddywedyd, Hwy a barchant fy mab i.

38 A phan welodd y llafurwyr y mab, hwy a ddywedasant yn eu plith eu hun, Hwn yw yr etifedd; deuwch, lladdwn ef, a daliwn ei etifeddiaeth ef.

39 Ac wedi iddynt ei ddal, hwy a'i bwriasant ef allan o'r winllan, ac a'*i* lladdasant.

40 Am hynny pan ddêl arglwydd y winllan, pa beth a wna efe i'r llafurwyr hynny?

41 Hwy a ddywedasant wrtho, Efe a ddifetha yn llwyr y dynion drwg hynny, ac a esyd y winllan i lafurwyr eraill, y rhai a dalant iddo y ffrwythau yn eu hamserau.

42 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Oni ddarllenasoch chwi erioed yn yr ysgrythyrau, Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwn a wnaethpwyd yn ben congl: gan yr Arglwydd y gwnaethpwyd hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni?

43 Am hynny meddaf i chwi, Y dygir teyrnas Dduw oddi arnoch chwi, ac a'i rhoddir i genedl a ddygo ei ffrwythau.

44 A phwy bynnag a syrthio ar y maen hwn, efe a ddryllir: ac ar bwy bynnag y syrthio, efe a'i mâl ef yn chwilfriw.

45 A phan glybu yr arch-offeiriaid
a'r Phariseaid ei ddamhegion ef,
hwy a wybuant mai am danynt hwy
y dywedai efe.
46 Ac a hwy yn ceisio ei ddala,
hwy a ofnasant y torfeydd; am eu
bod yn ei gymmeryd ef fel prophwyd.

PENNOD 22.

1 Dammeg priodas mab y brenhin. 9 Galwedigaeth y Cenhedloedd. 12 Cospedigaeth yr hwn nid oedd ganddo y wisg briodas. 15 Y dyliid talu teyrnged i Cesar. 23 Crist yn gosteguu y Saduceaid ynghylch yr adgyfodiad: 34 yn atteb y cyfreithiwr, pa un yw y gorchymyn cyntaf, a'r nawfr; 41 ac yn holi y Phariseaid ynghylch y Messias.

AR Iesu a attebodd, ac a lefar-
odd wrthynt drachefn mewn
damhegion, gan ddywedyd,
2 Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i
ryw frenhin a wnaeth briodas i'w
fab,
3 Ac a ddanfonodd ei weision i
alw y rhai a wahoddasid i'r briod-
as: ac ni fynnent hwy ddyfod.
4 Trachefn, efe a anfonodd weis-
ion eraill, gan ddywedyd, Dywed-
wch wrth y rhai a wahoddwyd,
Wele, parottoais fy nghiniaw: fy
ychain a'*m* pasgedigion a laddwyd,
a phob peth *sydd* barod: deuwch
i'r briodas.
5 A hwy yn ddïystyr ganddynt,
a aethant ymaith, un i'w faes, ac
arall i'w fasnach:
6 A'r lleill a ddaliasant ei weision
ef, ac a'*u* hammharchasant, ac a'*u*
lladdasant.
7 A phan glybu y brenhin, efe a
lidiodd; ac a ddanfonodd ei luoedd,
ac a ddinystriodd y lleiddiaid hyn-
ny, ac a losgodd eu dinas hwynt.
8 Yna efe a ddywedodd wrth ei
weision, Yn wir y briodas sydd
barod, ond y rhai a wahoddasid
nid oeddynt deilwng.
9 Ewch gan hynny i'r prif-ffyrdd,
a chynnifer ag a gaffoch, gwahodd-
wch i'r briodas.
10 A'r gweision hynny a aethant
allan i'r *prif*-ffyrdd, ac a gasgl-
asant ynghyd gynnifer oll ag a
gawsant, drwg a da: a llanwyd y
briodas o wahoddedigion.
11 ¶ A phan ddaeth y brenhin i
mewn i weled y gwahoddedigion,
efe a ganfu yno ddyn heb wisg
priodas am dano:
12 Ac efe a ddywedodd wrtho, Y
cyfaill, pa fodd y daethost i mewn
yma, heb fod gennyt wisg priodas?
Ac yntau a aeth yn fud.
13 Yna y dywedodd y brenhin
wrth y gweinidogion, Rhwymwch ei
draed a'i ddwylaw, a chymmerwch
ef ymaith, a theflwch i'r tywyll-
wch eithaf: yno y bydd wylofain a
rhingcian dannedd.
14 Canys llawer sydd wedi eu
galw, ac ychydig wedi eu dewis.
15 ¶ Yna yr aeth y Phariseaid,
ac a gymmerasant gynghor pa fodd
y rhwydent ef yn *ei* ymadrodd.
16 A hwy a ddanfonasant atto eu
disgyblion ynghyd â'r Herodian-
iaid, gan ddywedyd, Athraw, ni a
wyddom dy fod yn eirwir, ac yn
dysgu ffordd Duw mewn gwirion-
edd, ac nad oes arnat ofal rhag
neb: oblegid nid wyt ti yn edrych
ar wyneb dynion.
17 Dywed i ni gan hynny, Beth
yr wyt ti yn ei dybied? Ai cyf-
reithlawn rhoddi teyrnged i Cesar,
ai nid *yw?*
18 Ond yr Iesu a wybu eu dryg-
ioni hwy, ac a ddywedodd, Paham
yr ydych yn fy nhemtio i, chwi
ragrithwyr?
19 Dangoswch i mi arian y deyrn-
ged. A hwy a ddygasant atto gein-
iog:
20 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Eiddo pwy *yw* y ddelw hon a'r
argraph?
21 Dywedasant wrtho, Eiddo Ce-
sar. Yna y dywedodd wrthynt,
Telwch chwithau yr eiddo Cesar
i Cesar, a'r eiddo Duw i Dduw.
22 *A* phan glywsant hwy *hyn*,
rhyfeddu a wnaethant, a'i adael ef,
a myned ymaith.
23 ¶ Y dydd hwnnw y daeth
atto y Saduceaid, y rhai sydd yn
dywedyd nad oes adgyfodiad, ac
a ofynasant iddo,
24 Gan ddywedyd, Athraw, dy-
wedodd Moses, Os bydd marw neb
heb iddo blant, prïoded ei frawd
ei wraig ef, a chyfoded had i'w
frawd.
25 Ac yr oedd gyd â ni saith o
frodyr: a'r cyntaf a briododd wraig,
ac a fu farw; ac efe heb hiliogaeth
iddo, a adawodd ei wraig i'w frawd.

26 Felly hefyd yr ail, a'r trydydd, hyd y seithfed.
27 Ac yn ddiweddaf oll bu farw y wraig hefyd.
28 Yn yr adgyfodiad, gan hynny, gwraig i bwy o'r saith fydd hi? canys hwynt-hwy oll a'i cawsant hi.
29 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yr ydych yn cyfeiliorni, gan na wyddoch yr ysgrythyrau, na gallu Duw.
30 Oblegid yn yr adgyfodiad nid ydynt nac yn gwreicca, nac yn gŵra; eithr y maent fel angylion Duw yn y nef.
31 Ac am adgyfodiad y meirw, oni ddarllenasoch yr hyn a ddywedwyd wrthych gan Dduw, gan ddywedyd,
32 Myfi yw Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob? Nid yw Duw Dduw y *rhai* meirw, ond y *rhai* byw.
33 A phan glybu y torfeydd *hynny*, hwy a synnasant wrth ei athrawiaeth ef.
34 ¶ Ac wedi clywed o'r Phariseaid ddarfod *i'r Iesu* ostegu y Saduceaid, hwy a ymgynnullasant ynghyd i'r un lle.
35 Ac un o honynt, *yr hwn oedd* gyfreithiwr, a ofynodd *iddo*, gan ei demtio, a dywedyd,
36 Athraw, pa un *yw* y gorchymyn mawr yn y gyfraith?
37 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl.
38 Hwn yw y cyntaf, a'r gorchymyn mawr.
39 A'r ail *sydd* gyffelyb iddo, Câr dy gymmydog fel ti dy hun.
40 Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll.
41 ¶ Ac wedi ymgasglu o'r Phariseaid ynghyd, yr Iesu a ofynodd iddynt,
42 Gan ddywedyd, Beth a dybygwch chwi am Grist? mab i bwy ydyw? Dywedent wrtho, *Mab* Dafydd.
43 Dywedai yntau wrthynt, Pa fodd gan hynny y mae Dafydd yn yr yspryd yn ei alw ef yn Arglwydd, gan ddywedyd,
44 Dywedodd yr ARGLWYDD wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfainge i'th draed di?
45 Os yw Dafydd gan hynny yn ei alw ef yn Arglwydd, pa fodd y mae efe yn fab iddo?
46 Ac nid allodd neb atteb gair iddo, ac ni feiddiodd neb o'r dydd hwnnw allan ymofyn âg ef mwyach.

PENNOD 23.

1 *Crist yn rhybuddio y bobl i ddilyn athrawiaeth dda, ac nid esamplau drwg yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid.* 5 *Rhaid i ddisgyblion Crist ochelyd eu rhyfyg hwy.* 13 *Mae efe yn cyhoeddi wyth wae yn erbyn eu rhagrith a'u dalineb hwy;* 34 *ac yn prophwydo dinystr Jerusalem.*

YNA y llefarodd yr Iesu wrth y torfeydd a'i ddisgyblion,
2 Gan ddywedyd, Y'nghadair Moses yr eistedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid.
3 Yr hyn oll gan hynny a ddywedant wrthych am eu cadw, cedwch a gwnewch; eithr yn ol eu gweithredoedd na wnewch: canys dywedant, ac nis gwnant.
4 Oblegid y maent yn rhwymo beichiau trymion ac anhawdd eu dwyn, ac yn *eu* gosod ar ysgwyddau dynion; ond nid ewyllysiant eu syflyd hwy âg un o'u bysedd.
5 Ond y maent yn gwneuthur eu holl weithredoedd er mwyn eu gweled gan ddynion: *canys* y maent yn gwneuthur yn llydain eu phylacterau, ac yn gwneuthur ymylwaith eu gwisgoedd yn helaeth;
6 A charu *y maent* y lle uchaf mewn gwleddoedd, a'r prif-gadeiriau yn y synagogau,
7 A chyfarch yn y marchnadoedd, a'u galw gan ddynion, Rabbi, Rabbi.
8 Eithr na'ch galwer chwi Rabbi: canys un yw eich Athraw chwi, *sef* Crist; a chwithau oll brodyr ydych.
9 Ac na elwch neb yn dad i chwi ar y ddaear: canys un Tad sydd i chwi, yr hwn sydd yn y nefoedd.
10 Ac na'ch galwer yn athrawon: canys un yw eich Athraw chwi, *sef* Crist.
11 A'r mwyaf o honoch a fydd yn weinidog i chwi.
12 A phwy bynnag a'i dyrchafo ei hun, a ostyngir; a phwy bynnag a'i gostyngo ei hun, a ddyrchefir.

13 ¶ Eithr gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn cau teyrnas nefoedd o flaen dynion: canys chwi nid ydych yn myned i mewn, a'r rhai sydd yn myned i mewn nis gadêwch i fyned i mewn.

14 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn llwyr-fwytta tai gwragedd gweddwon, a hynny yn rhith hirweddïo: am hynny y derbyniwch farn fwy.

15 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys amgylchu yr ydych y môr a'r tir i wneuthur un proselyt; ac wedi y gwneler, yr ydych yn ei wneuthur ef yn fab uffern, yn ddau mwy na chwi eich hunain.

16 Gwae chwi, dywysogion deillion! y rhai ydych yn dywedyd, Pwy bynnag a dwng i'r deml, nid yw ddim; ond pwy bynnag a dwng i aur y deml, y mae efe mewn dyled.

17 Ffyliaid, a deillion: canys pa un sydd fwyaf, yr aur, ai y deml sydd yn sancteiddio yr aur?

18 A phwy bynnag a dwng i'r allor, nid yw ddim; ond pwy bynnag a dyngo i'r rhodd sydd arni, y mae efe mewn dyled.

19 Ffyliaid, a deillion: canys pa un fwyaf, y rhodd, ai yr allor sydd yn sancteiddio y rhodd?

20 Pwy bynnag gan hynny a dwng i'r allor, sydd yn tyngu iddi, ac i'r hyn oll *sydd* arni.

21 A phwy bynnag a dwng i'r deml, sydd yn tyngu iddi, ac i'r hwn sydd yn preswylio ynddi.

22 A'r hwn a dwng i'r nef, sydd yn tyngu i orseddfainge Duw, ac i'r hwn sydd yn eistedd arni.

23 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn degymmu y mintys, a'r anis, a'r cwmin, ac a adawsoch heibio y pethau trymach o'r gyfraith, barn, a thrugaredd, a ffydd: rhaid oedd gwneuthur y pethau hyn, ac na adewid y lleill heibio.

24 Tywysogion deillion, y rhai ydych yn hidlo gwybedyn, ac yn llyngcu camel.

25 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn glanhâu y tu allan i'r cwppan a'r ddysgl, ac o'r tu mewn y maent yn llawn o drawsedd ac anghymmedroldeb.

26 *Ti* Pharisead dall, glanhâ yn gyntaf yr hyn *sydd* oddi fewn i'r cwppan a'r ddysgl, fel y byddo yn lân hefyd yr hyn sydd oddi allan iddynt.

27 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys tebyg ydych chwi i feddau wedi eu gwynnu, y rhai sydd yn ymddangos yn dêg oddi allan, ond oddi mewn sydd yn llawn o esgyrn y meirw, a phob aflendid.

28 Ac felly chwithau oddi allan ydych yn ymddangos i ddynion yn gyfiawn, ond o fewn yr ydych yn llawn rhagrith ac anwiredd.

29 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn adeiladu beddau y prophwydi, ac yn addurno beddau y rhai cyfiawn;

30 Ac yr ydych yn dywedyd, Pe buasem ni yn nyddiau ein tadau, ni buasem ni gyfrannogion â hwynt y'ngwaed y prophwydi.

31 Felly yr ydych yn tystiolaethu am danoch eich hunain, eich bod yn blant i'r rhai a laddasant y prophwydi.

32 Cyflawnwch chwithau hefyd fesur eich tadau.

33 O seirph, hiliogaeth gwiberod, pa fodd y gellwch ddïangc rhag barn uffern?

34 ¶ Am hynny, wele, yr ydwyf yn anfon attoch brophwydi, a doethion, ac ysgrifenyddion: a *rhai* o honynt a leddwch, ac a groeshoeliwch; a *rhai* o honynt a ffrewyllwch yn eich synagogau, ac a erlidiwch o dref i dref:

35 Fel y delo arnoch chwi yr holl waed cyfiawn a'r a ollyngwyd ar y ddaear, o waed Abel gyfiawn hyd waed Sacharïas fab Barachïas, yr hwn a laddasoch rhwng y deml a'r allor.

36 Yn wir meddaf i chwi, Daw hyn oll ar y genhedlaeth hon.

37 Jerusalem, Jerusalem, *yr hon* wyt yn lladd y prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a ddanfonir attat, pa sawl gwaith y mynnaswn gasglu

dy blant ynghyd, megis y casgl iâr
ei chywion dan *ei* hadenydd, ac
nis mynnech!
38 Wele, yr ydys yn gadael eich
tŷ i chwi yn anghyfannedd.
39 Canys meddaf i chwi, Ni'm
gwelwch ar ol hyn, hyd oni ddy-
wedoch, Bendigedig *yw* yr hwn
sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.

PENNOD 24.

1 Crist yn rhag-ddywedyd dinystr y deml: 3 pa fath a pha faint o gystuddiau a fydd o'r blaen. 29 A rwyddion ei ddyfodiad ef i farn. 36 Ac o ran bod y dydd a'r awr yn anhysbys, 42 y dylem ni wylied fel gweision da, yn disgwyl bob amser am ddyfodiad ein meistr.

AR Iesu a aeth allan, ac a ym-
adawodd o'r deml: a'i ddis-
gyblion a ddaethant *atto*, i ddangos
iddo adeiladau y deml.
2 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt,
Oni welwch chwi hyn oll? Yn wir
meddaf i chwi, Ni adewir yma
garreg ar garreg, a'r ni ddattodir.
3 ¶ Ac efe yn eistedd ar fynydd yr
Olew-wydd, y disgyblion a ddaeth-
ant atto o'r neilldu, gan ddywedyd,
Mynega i ni, pa bryd y bydd y peth-
au hyn? a pha arwydd *fydd* o'th
ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd?
4 A'r Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd wrthynt, Edrychwch rhag
i neb eich twyllo chwi.
5 Canys daw llawer yn fy enw i,
gan ddywedyd, Myfi yw Crist; ac a
dwyllant lawer.
6 A chwi a gewch glywed am ry-
feloedd, a sôn am ryfeloedd: gwel-
wch na chyffrôer chwi: canys rhaid
yw bod *hyn* oll; eithr nid yw y
diwedd etto.
7 Canys cyfyd cenedl yn erbyn
cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrn-
as: ac fe fydd newyn, a nodau, a
daeargrynfäau mewn mannau.
8 *A* dechreuad gofidiau *yw* hyn
oll.
9 Yna y'ch traddodant chwi i'ch
gorthrymmu, ac a'ch lladdant: a
chwi a gasêir gan yr holl genhedl-
oedd er mwyn fy enw i.
10 Ac yna y rhwystrir llawer, ac y
bradychant eu gilydd, ac y casânt
eu gilydd.
11 A gau-brophwydi lawer a god-
ant, ac a dwyllant lawer.
12 Ac o herwydd yr amlhâ anwir-
edd, fe a oera cariad llawer.
13 Eithr y neb a barhao hyd y
diwedd, hwnnw a fydd gadwedig.
14 A'r efengyl hon *am* y deyrnas
a bregethir trwy yr holl fyd, er
tystiolaeth i'r holl genhedloedd: ac
yna y daw y diwedd.
15 Am hynny pan weloch y ffi-
eidd-dra anghyfanneddol, a ddy-
wedwyd trwy Daniel y prophwyd,
yn sefyll yn y lle sanctaidd, (y neb
a ddarlleno, ystyried;)
16 Yna y rhai a fyddant yn Judea,
ffoant i'r mynyddoedd.
17 Y neb *a fyddo* ar ben y tŷ, na
ddisgyned i gymmeryd dim allan
o'i dŷ:
18 A'r hwn *a fyddo* yn y maes,
na ddychweled yn ei ol i gymmeryd
ei ddillad.
19 A gwae y rhai beichiogion, a'r
rhai yn rhoi bronnau, yn y dyddiau
hynny.
20 Eithr gweddiwch na byddo eich
ffoedigaeth yn y gauaf, nac ar y
dydd Sabbath:
21 Canys y pryd hwnnw y bydd
gorthrymder mawr, y fath ni bu o
ddechreu y byd hyd yr awr hon, ac
ni bydd chwaith.
22 Ac oni bai fyrhâu y dyddiau
hynny, ni fuasai gadwedig un cnawd
oll: eithr er mwyn yr etholedigion
fe fyrhêir y dyddiau hynny.
23 Yna os dywed neb wrthych,
Wele, llyma Grist, neu llyma; na
chredwch.
24 Canys cyfyd gau-Gristiau, a
gau-brophwydi, ac a roddant ar-
wyddion mawrion a rhyfeddodau,
hyd oni thwyllant, pe *byddai*
bosibl, ïe, yr etholedigion.
25 Wele, rhag-ddywedais i chwi.
26 Am hynny, os dywedant wrth-
ych, Wele, y mae efe yn y diffaeth-
wch; nac ewch allan: wele, yn yr
ystafelloedd; na chredwch.
27 Oblegid fel y daw y fellten o'r
dwyrain, ac y tywynna hyd y gor-
llewin; felly hefyd y bydd dyfod-
iad Mab y dyn.
28 Canys pa le bynnag y byddo y
gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod.
29 ¶ Ac yn y fan wedi gorthrym-
der y dyddiau hynny, y tywyllir yr
haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni,
a'r sêr a syrth o'r nef, a nerthoedd
y nefoedd a ysgydwir.

30 Ac yna yr ymddengys arwydd
Mab y dyn yn y nef: ac yna y ga-
lara holl lwythau y ddaear; a hwy a
welant Fab y dyn yn dyfod ar gym-
mylau y nef, gyd â nerth a gogoni-
ant mawr.
31 Ac efe a ddenfyn ei angylion
â mawr sain udgorn; a hwy a
gasglant ei etholedigion ef ynghyd
o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y
nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt.
32 Ond dysgwch ddammeg oddi
wrth y ffigysbren; Pan yw ei gangen
eisoes yn dyner, a'i ddail yn torri
allan, chwi a wyddoch *fod* yr haf yn
agos:
33 Ac felly chwithau, pan weloch
hyn oll, gwybyddwch ei fod yn
agos, wrth y drysau.
34 Yn wir meddaf i chwi, Nid â
y genhedlaeth hon heibio, hyd oni
wneler hyn oll.
35 Nef a daear a ânt heibio, eithr
fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim.
36 ¶ Ond am y dydd hwnnw a'r
awr nis gŵyr neb, nac angylion y
nefoedd, ond fy Nhad yn unig.
37 Ac fel *yr oedd* dyddiau Nöe,
felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y
dyn.
38 Oblegid fel yr oeddynt yn y
dyddiau ym mlaen y diluw yn
bwytta ac yn yfed, yn prïodi ac yn
rhoi i brïodas, hyd y dydd yr aeth
Nöe i mewn i'r arch,
39 Ac ni wybuant hyd oni ddaeth
y diluw, a'u cymmeryd hwy oll ym-
aith; felly hefyd y bydd dyfodiad
Mab y dyn.
40 Yna y bydd dau yn y maes;
y naill a gymmerir, a'r llall a ad-
ewir.
41 Dwy *a fydd* yn malu mewn
melin; un a gymmerir, a'r llall a
adewir.
42 ¶ Gwyliwch gan hynny; am
na wyddoch pa awr y daw eich
Arglwydd.
43 A gwybyddwch hyn, pe gwybu-
asai gŵr y tŷ pa wyliadwriaeth
y deuai y lleidr, efe a wyliasai, ac
ni adawsai gloddio ei dŷ trwodd.
44 Am hynny byddwch chwithau
barod: canys yn yr awr ni thybioch
y daw Mab y dyn.
45 Pwy gan hynny sydd was ffydd-
lawn a doeth, yr hwn a osododd ei
arglwydd ar ei deulu, i roddi bwyd
iddynt mewn pryd?
46 Gwyn ei fyd y gwas hwnnw,
yr hwn y caiff ei arglwydd ef, pan
ddelo, yn gwneuthur felly.
47 Yn wir meddaf i chwi, Ar ei
holl ddâ y gesyd efe ef.
48 Ond os dywed y gwas drwg
hwnnw yn ei galon, Y mae fy ar-
glwydd yn oedi dyfod;
49 A dechreu curo *ei* gyd-weision,
a bwytta ac yfed gyd â'r meddwon;
50 Arglwydd y gwas hwnnw a
ddaw yn y dydd nid yw efe yn
disgwyl am *dano*, ac mewn awr nis
gŵyr efe;
51 Ac efe a'i gwahana ef, ac a
esyd ei ran ef gyd â'r rhagrithwyr:
yno y bydd wylofain a rhingcian
dannedd.

PENNOD 25.

1 *Dammeg y deg morwyn,* 14 *a'r talentau;*
31 *a dull y farn addiweddaf.*

YNA tebyg fydd teyrnas nefoedd
i ddeg o forwynion, y rhai a
gymmerasant eu lampau, ac a aeth-
ant allan i gyfarfod â'r prïodfab.
2 A phump o honynt oedd gall, a
phump yn ffol.
3 Y rhai oedd ffol a gymmerasant
eu lampau, ac ni chymmerasant
olew gyd â hwynt:
4 A'r rhai call a gymmerasant
olew yn eu llestri gyd â'u lampau.
5 A thra yr oedd y prïodfab yn
aros yn hir, yr hepiasant oll ac yr
hunasant.
6 Ac ar hanner nos y bu gwaedd,
Wele, y mae y prïodfab yn dyfod;
ewch allan i gyfarfod âg ef.
7 Yna y cyfododd yr holl for-
wynion hynny, ac a drwsiasant eu
lampau.
8 A'r rhai ffol a ddywedasant wrth
y rhai call, Rhoddwch i ni o'ch olew
chwi: canys y mae ein lampau yn
diffoddi.
9 A'r rhai call a attebasant, gan
ddywedyd, *Nid felly;* rhag na
byddo digon i ni ac i chwithau: ond
ewch yn hytrach at y rhai sydd yn
gwerthu, a phrynwch i chwi eich
hunain.
10 A thra yr oeddynt yn myned
ymaith i brynu, daeth y prïodfab;
a'r rhai oedd barod, a aethant i

mewn gyd âg ef i'r briodas: a chauwyd y drws.
11 Wedi hynny y daeth y morwynion eraill hefyd, gan ddywedyd, Arglwydd, Arglwydd, agor i ni.
12 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Yn wir meddaf i chwi, Nid adwaen chwi.
13 Gwyliwch gan hynny; am na wyddoch na'r dydd na'r awr y daw Mab y dyn.
14 ¶ Canys *y mae teyrnas nefoedd* fel dyn yn myned i wlad ddieithr, yr hwn a alwodd ei weision, ac a roddes ei ddâ attynt.
15 Ac i un y rhoddodd efe bum talent, ac i arall ddwy, ac i arall un, i bob un yn ol ei allu ei hun; ac yn y fan efe a aeth oddi cartref.
16 A'r hwn a dderbyniasai y pum talent a aeth, ac a farchnattaodd â hwynt, ac a wnaeth bum talent eraill.
17 A'r un modd yr hwn *a dderbyniasai y* ddwy, a ennillodd yntau ddwy eraill.
18 Ond yr hwn a dderbyniasai un, a aeth ac a gloddiodd yn y ddaear, ac a guddiodd arian ei arglwydd.
19 Ac wedi llawer o amser, y mae arglwydd y gweision hynny yn dyfod, ac yn cyfrif â hwynt.
20 A daeth yr hwn a dderbyniasai bum talent, ac a ddug bum talent eraill, gan ddywedyd, Arglwydd, pum talent a roddaist attaf: wele, mi a ennillais bum talent eraill attynt.
21 A dywedodd ei arglwydd wrtho, Da, was da a ffyddlawn: buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer: dos i mewn i lawenydd dy arglwydd.
22 A'r hwn a dderbyniasai ddwy dalent a ddaeth, ac a ddywedodd, Arglwydd, dwy dalent a roddaist attaf: wele, dwy eraill a ennillais attynt.
23 Ei arglwydd a ddywedodd wrtho, Da, was da a ffyddlawn: buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer: dos i mewn i lawenydd dy arglwydd.
24 A'r hwn a dderbyniasai yr un dalent a ddaeth, ac a ddywedodd, Arglwydd, mi a'th adwaenwn di, mai gŵr caled ydwyt, yn medi lle nis hauaist, ac yn casglu lle ni wasgeraist:
25 Ac mi a ofnais, ac a euthum, ac a guddiais dy dalent yn y ddaear: wele, yr wyt yn cael yr eiddot dy hun.
26 A'i arglwydd a attebodd ac a ddywedodd wrtho, O was drwg a diog, ti a wyddit fy mod yn medi lle nis hauais, ac yn casglu lle nis gwasgerais:
27 Am hynny y dylesit ti roddi fy arian at y cyfnewidwyr; a mi, pan ddaethwn, a gawswn dderbyn yr eiddof fy hun gyd â llog.
28 Cymmerwch gan hynny y dalent oddi wrtho, a rhoddwch i'r hwn sydd ganddo ddeg talent.
29 Canys i bob un y mae ganddo y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd; ac oddi ar yr hwn nid oes ganddo y dygir oddi arno, ie, yr hyn sydd ganddo.
30 A bwriwch allan y gwas anfuddiol i'r tywyllwch eithaf: yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.
31 ¶ A Mab y dyn, pan ddêl yn ei ogoniant, a'r holl angylion sanctaidd gyd âg ef, yna yr eistedd ar orseddfainge ei ogoniant.
32 A chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd: ac efe a'u didola hwynt oddi wrth eu gilydd, megis y didola y bugail y defaid oddi wrth y geifr:
33 Ac a esyd y defaid ar ei ddeheulaw, ond y geifr ar yr aswy.
34 Yna y dywed y Brenhin wrth y rhai ar ei ddeheulaw, Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barottöwyd i chwi er seiliad y byd.
35 Canys bûm newynog, a chwi a roisoch i mi fwyd: bu arnaf syched, a rhoisoch i mi ddiod: bûm ddieithr, a dygasoch fi gyd â chwi:
36 Noeth, a dilladasoch fi: bûm glaf, ac ymwelsoch â mi: bûm yng ngharchar, a daethoch attaf.
37 Yna yr ettyb y rhai cyfiawn iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, pa bryd y'th welsom yn newynog, ac y'*th* borthasom? neu yn sychedig, ac y rhoisom *i ti* ddiod?
38 A pha bryd y'th welsom yn ddieithr, ac y'*th* ddygasom gyd â

ni? neu yn noeth, ac y'*th* ddilladasom?
39 A pha bryd y'th welsom yn glaf, neu y'ngharchar, ac y daethom attat?
40 A'r Brenhin a ettyb, ac a ddywed wrthynt, Yn wir meddaf i chwi, Yn gymmaint a'*i* wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch.
41 Yna y dywed efe hefyd wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy, Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, *yr hwn* a barottöwyd i ddiafol ac i'w angylion.
42 Canys bûm newynog, ac ni roisoch i mi fwyd: bu arnaf syched, ac ni roisoch i mi ddïod:
43 Bûm ddïeithr, ac ni'm dygasoch gyd â chwi: noeth, ac ni'm dilladasoch: yn glaf, ac y'ngharchar, ac ni ymwelsoch â mi.
44 Yna yr attebant hwythau hefyd iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, pa bryd y'th welsom yn newynog, neu yn sychedig, neu yn ddïeithr, neu yn noeth, neu yn glaf, neu yng ngharchar, ac ni weiniasom i ti?
45 Yna yr ettyb efe iddynt, gan ddywedyd, Yn wir meddaf i chwi, Yn gymmaint ag nas gwnaethoch i'r un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau.
46 A'r rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol: ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol.

PENNOD 26.

3 Y llywodraethwyr yn cyd-furiadu yn erbyn Crist. 6 Y wraig yn enneinio ei ben ef. 14 Judas yn ei werthu ef. 17 Crist yn bwytta y pasc: 26 yn ordeinio ei swpper sanctaidd: 36 yn gweddio yn yr ardd: 47 ac wedi ei fradychu â chusan, 57 yn cael ei arwain at Caiaphas, 69 a'i wadu gan Pedr.

ABU, wedi i'r Iesu orphen y geiriau hyn oll, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion,
2 Chwi a wyddoch mai gwedi deuddydd y mae y pasc; a Mab y dyn a draddodir i'w groeshöelio.
3 Yna yr ymgasglodd yr arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a henuriaid y bobl, i lys yr arch-offeiriad, yr hwn a elwid Caiaphas:
4 A hwy a gyd-ymgynghorasant fel y dalient yr Iesu trwy ddichell, ac y lladdent *ef*.
5 Eithr hwy a ddywedasant, Nid ar yr wyl, rhag bod cynnwrf ym mhlith y bobl.
6 ¶ Ac a'r Iesu yn Bethania, yn nhŷ Simon y gwahan-glwyfus,
7 Daeth atto wraig a chanddi flwch o ennaint gwerthfawr, ac *a'i* tywalltodd ar ei ben, ac efe yn eistedd *wrth y ford*.
8 A phan welodd ei ddisgyblion, hwy a sorrasant, gan ddywedyd, I ba beth *y bu* y golled hon?
9 Canys fe a allasid gwerthu yr ennaint hwn er llawer, a'i roddi i'r tlodion.
10 A'r Iesu a wybu, ac a ddywedodd wrthynt, Paham yr ydych yn gwneuthur blinder i'r wraig? canys hi a weithiodd weithred dda arnaf.
11 Oblegid y mae gennych y tlodion bob amser gyd â chwi; a mi nid ydych yn ei gael bob amser.
12 Canys hi yn tywallt yr ennaint hwn ar fy nghorph, a wnaeth *hyn* i'm claddu i.
13 Yn wir meddaf i chwi, Pa le bynnag y pregether yr efengyl hon yn yr holl fyd, mynegir yr hyn a wnaeth hi hefyd, er coffa am dani hi.
14 ¶ Yna yr aeth un o'r deuddeg, yr hwn a elwid Judas Iscariot, at yr arch-offeiriaid,
15 Ac a ddywedodd *wrthynt*, Pa beth a roddwch i mi, a mi a'i traddodaf ef i chwi? A hwy a osodasant iddo ddeg ar hugain o arian.
16 Ac o hynny allan y ceisiodd efe amser cyfaddas i'w fradychu ef.
17 ¶ Ac ar y *dydd* cyntaf o *wyl* y bara croyw, y disgyblion a ddaethant at yr Iesu, gan ddywedyd wrtho, Pa le y mynni i ni barottôi i ti fwytta y pasc?
18 Ac yntau a ddywedodd, Ewch i'r ddinas at y cyfryw un, a dywedwch wrtho, Y mae yr Athraw yn dywedyd, Fy amser sydd agos: gyd â thi y cynhaliaf y pasc, mi a'm disgyblion.
19 A'r disgyblion a wnaethant y modd y gorchymynasai yr Iesu iddynt, ac a barottoisant y pasc.
20 Ac wedi ei myned hi yn hwyr, efe a eisteddodd gyd â'r deuddeg.
21 Ac fel yr oeddynt yn bwytta, efe a ddywedodd, Yn wir yr wyf yn

dywedyd i chwi, mai un o honoch chwi a'm bradycha i.
22 A hwythau yn drist iawn, a ddechreuasant ddywedyd wrtho, bob un o honynt, Ai myfi yw, Arglwydd?
23 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Yr hwn a wlych *ei* law gyd â mi yn y ddysgl, hwnnw a'm bradycha i.
24 Mab y dyn yn ddïau sydd yn myned, fel y mae yn ysgrifenedig am dano: eithr gwae y dyn hwnnw trwy yr hwn y bradychir Mab y dyn! da fuasai i'r dyn hwnnw pe nas ganesid ef.
25 A Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, a attebodd ac a ddywedodd, Ai myfi yw *efe*, Athraw? Yntau a ddywedodd wrtho, Ti a ddywedaist.
26 ¶ Ac fel yr oeddynt yn bwytta, yr Iesu a gymmerth y bara, ac wedi iddo fendithio, efe a'*i* torrodd, ac a'*i* rhoddodd i'r disgyblion, ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttêwch: hwn yw fy nghorph.
27 Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, a dïolch, efe a'*i* rhoddes iddynt, gan ddywedyd, Yfwch bawb o hwn:
28 Canys hwn yw fy ngwaed o'r testament newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer, er maddeuant pechodau.
29 Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad yfaf o hyn allan o ffrwyth hwn y winwydden, hyd y dydd hwnnw pan yfwyf ef gyd â chwi yn newydd yn nheyrnas fy Nhad.
30 Ac wedi iddynt ganu hymn, hwy a aethant allan i fynydd yr Olew-wydd.
31 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt, Chwychwi oll a rwystrir heno o'm plegid i: canys ysgrifenedig yw, Tarawaf y bugail, a defaid y praidd a wasgerir.
32 Eithr wedi fy adgyfodi, mi a âf o'ch blaen chwi i Galilea.
33 A Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Pe rhwystrid pawb o'th blegid di, *etto* ni'm rhwystrir i byth.
34 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Yn wir yr wyf yn dywedyd i ti, mai y nos hon, cyn canu o'r ceiliog, y'm gwedi deirgwaith.
35 Pedr a ddywedodd wrtho, Pe gorfyddai i mi farw gyd â thi, ni'th wadaf ddim. Yr un modd hefyd y dywedodd yr holl ddisgyblion.
36 ¶ Yna y daeth yr Iesu gyd â hwynt i fan a elwid Gethsemane, ac a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Eisteddwch yma, tra yr elwyf a gweddïo accw.
37 Ac efe a gymmerth Pedr, a dau fab Sebedëus, ac a ddechreuodd dristâu ac ymofidio.
38 Yna efe a ddywedodd wrthynt, Trist iawn yw fy enaid hyd angau: arhoswch yma, a gwyliwch gyd â mi.
39 Ac wedi iddo fyned ychydig ym mlaen, efe a syrthiodd ar ei wyneb, gan weddïo, a dywedyd, Fy Nhad, os yw bosibl, aed y cwppan hwn heibio oddi wrthyf: etto nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti.
40 Ac efe a ddaeth at y disgyblion, ac a'u cafodd hwy yn cysgu; ac a ddywedodd wrth Pedr, Felly; oni ellych chwi wylied un awr gyd â mi?
41 Gwyliwch a gweddïwch, fel nad eloch i brofedigaeth. Yr yspryd yn ddïau *sydd* yn barod, eithr y cnawd *sydd* wan.
42 Efe a aeth drachefn yr ail waith, ac a weddïodd, gan ddywedyd, Fy Nhad, onis gall y cwppan hwn fyned heibio oddi wrthyf, na byddo i mi yfed o hono, gwneler dy ewyllys di.
43 Ac efe a ddaeth, ac a'u cafodd hwy yn cysgu drachefn: canys yr oedd eu llygaid hwy wedi trymhâu.
44 Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth ymaith drachefn, ac a weddïodd y drydedd waith, gan ddywedyd yr un geiriau.
45 Yna y daeth efe at ei ddisgyblion, ac a ddywedodd wrthynt, Cysgwch bellach, a gorphwyswch: wele, y mae yr awr wedi nesâu, a Mab y dyn a draddodir i ddwylaw pechaduriaid.
46 Codwch, awn: wele, nesaodd yr hwn sydd yn fy mradychu.
47 ¶ Ac efe etto yn llefaru, wele, Judas, un o'r deuddeg, a ddaeth, a chyd âg ef dyrfa fawr â chleddyfau a ffyn, oddi wrth yr arch-offeiriaid a henuriaid y bobl.
48 A'r hwn a'i bradychodd ef a

roisai arwydd iddynt, gan ddywedyd, Pa un bynnag a gusanwyf, hwnnw yw efe: deliwch ef.

49 Ac yn ebrwydd y daeth at yr Iesu, ac a ddywedodd, Henffych well, Athraw; ac a'i cusanodd ef.

50 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Y cyfaill, i ba beth y daethost? Yna y daethant, ac y rhoisant ddwylaw ar yr Iesu, ac a'i daliasant ef.

51 Ac wele, un o'r rhai oedd gyd â'r Iesu, a estynodd *ei* law, ac a dynnodd ei gleddyf, ac a darawodd was yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ei glust ef.

52 Yna y dywedodd yr Iesu wrtho, Dychwel dy gleddyf i'w le: canys pawb a'r a gymmerant gleddyf, a ddifethir â chleddyf.

53 A ydwyt ti yn tybied nas gallaf yr awr hon ddeisyf ar fy Nhad, ac efe a rydd yn y fan i mi fwy na deuddeg lleng o angylion?

54 Pa fodd ynte y cyflawnid yr ysgrythyrau, mai felly y gorfydd bod?

55 Yn yr awr honno y dywedodd yr Iesu wrth y torfeydd, Ai megis at leidr y daethoch chwi allan, â chleddyfau a ffyn i'm dal i? yr oeddwn i beunydd gyd â chwi yn eistedd yn dysgu yn y deml, ac ni'm daliasoch.

56 A hyn oll a wnaethpwyd, fel y cyflawnid ysgrythyrau y prophwydi. Yna yr holl ddisgyblion a'i gadawsant ef, ac a ffoisant.

57 ¶ A'r rhai a ddaliasent yr Iesu, a'*i* dygasant *ef* ymaith at Caiaphas yr arch-offeiriad, lle yr oedd yr ysgrifenyddion a'r henuriaid wedi ymgasglu ynghyd.

58 A Phedr a'i canlynodd ef o hirbell, hyd yn llys yr arch-offeiriad; ac a aeth i mewn, ac a eisteddodd gyd â'r gweision, i weled y diwedd.

59 A'r arch-offeiriaid, a'r henuriaid, a'r holl gynghor, a geisiasant gau-dystiolaeth yn erbyn yr Iesu, fel y rhoddent ef i farwolaeth;

60 Ac nis cawsant: ïe, er dyfod *yno* gau-dystion lawer, ni chawsant. Eithr o'r diwedd fe a ddaeth dau gau-dyst,

61 Ac a ddywedasant, Hwn a ddywedodd, Mi a allaf ddinystrio teml Dduw, a'i hadeiladu mewn tri diwrnod.

62 A chyfododd yr arch-offeiriad, ac a ddywedodd wrtho, A attebi di ddim? beth *y mae* y rhai hyn yn *ei* dystiolaethu yn dy erbyn?

63 Ond yr Iesu a dawodd. A'r arch-offeiriad gan atteb a ddywedodd wrtho, Yr ydwyf yn dy dynghedu di trwy y Duw byw, ddywedyd o honot i ni, ai tydi yw y Crist, Mab Duw.

64 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Ti a ddywedaist: eithr meddaf i chwi, Ar ol hyn y gwelwch Fab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod ar gymmylau y nef.

65 Yna y rhwygodd yr arch-offeiriad ei ddillad, gan ddywedyd, Efe a gablodd: pa raid i ni mwy wrth dystion? wele, yr awr hon y clywsoch ei gabledd ef.

66 Beth dybygwch chwi? Hwythau gan atteb a ddywedasant, Y mae efe yn euog o farwolaeth.

67 Yna y poerasant yn ei wyneb, ac a'i cernodiasant; eraill a'*i* tarawsant *ef* â gwïail,

68 Gan ddywedyd, Prophwyda i ni, O Crist, pwy yw yr hwn a'th darawodd?

69 ¶ A Phedr oedd yn eistedd allan yn y llys: a daeth morwynig atto, ac a ddywedodd, *A* thithau oeddit gyd âg Iesu y Galilead.

70 Ac efe a wadodd ger *eu* bron *hwy* oll, ac a ddywedodd, Nis gwn beth yr wyt yn ei ddywedyd.

71 A phan aeth efe allan i'r porth, gwelodd un arall ef; a *hi* a ddywedodd wrth y rhai oedd yno, Yr oedd hwn hefyd gyd â'r Iesu o Nasareth.

72 A thrachefn efe a wadodd trwy lw, Nid adwaen i y dyn.

73 Ac ychydig wedi, daeth y rhai oedd yn sefyll ger llaw, ac a ddywedasant wrth Pedr, Yn wir yr wyt tithau *yn un* o honynt; canys y mae dy leferydd yn dy gyhuddo.

74 Yna y dechreuodd efe regu a thyngu, Nid adwaen i y dyn. Ac yn y man y canodd y ceiliog.

75 A chofiodd Pedr air yr Iesu, yr hwn a ddywedasai wrtho, Cyn canu o'r ceiliog, ti a'm gwedi deirgwaith. Ac efe a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw-dost.

PENNOD 27.

1 *Rhoddi Crist yn rhwym at Pilat.* 3 *Judas yn ymgrogi.* 19 *Pilat, wedi ei rybuddio gan ei wraig,* 24 *yn golchi ei ddwylaw.* 26 *Rhyddhau Barabbas.* 29 *Coroni Crist â drain,* 35 *a'i groeshoelio,* 40 *a'i ddifenwi:* 50 *ymtau yn marw: ei gladdu ef.* 66 *Selio a gwylio ei fedd ef.*

A PHAN ddaeth y bore, cyd-ymgynghorodd yr holl arch-offeiriaid, a henuriaid y bobl, yn erbyn yr Iesu, *fel* y rhoddent ef i farwolaeth.

2 Ac wedi iddynt ei rwymo, hwy a'*i* dygasant *ef* ymaith, ac a'i traddodasant ef i Pontius Pilat y rhaglaw.

3 ¶ Yna pan welodd Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, ddarfod ei gondemnio ef, bu edifar ganddo, ac a ddug drachefn y deg ar hugain arian i'r arch-offeiriaid a'r henuriaid,

4 Gan ddywedyd, Pechais, gan fradychu gwaed gwirion. Hwythau a ddywedasant, Pa beth *yw hynny* i ni? edrych di.

5 Ac wedi iddo daflu yr arian yn y deml, efe a ymadawodd, ac a aeth ac a ymgrogodd.

6 A'r arch-offeiriaid a gymmerasant yr arian, ac a ddywedasant, Nid cyfreithlawn *i ni* eu bwrw hwynt yn y drysorfa; canys gwerth gwaed ydyw.

7 Ac wedi iddynt gyd-ymgynghori, hwy a brynasant â hwynt faes y crochenydd, yn gladdfa dïeithriaid.

8 Am hynny y galwyd y maes hwnnw, Maes y gwaed, hyd heddyw.

9 (Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedwyd trwy Jeremïas y prophwyd, gan ddywedyd, A hwy a gymmerasant y deg ar hugain arian, pris y prisiedig, yr hwn a brynasant gan feibion Israel;

10 Ac a'u rhoisant hwy am faes y crochenydd, megis y gosododd yr Arglwydd i mi.)

11 A'r Iesu a safodd ger bron y rhaglaw: a'r rhaglaw a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Yr wyt ti yn dywedyd.

12 A phan gyhuddid ef gan yr arch-offeiriaid a'r henuriaid, nid attebodd efe ddim.

13 Yna y dywedodd Pilat wrtho, Oni chlywi di faint o bethau y maent hwy yn eu tystiolaethu yn dy erbyn di?

14 Ac nid attebodd efe iddo i un gair; fel y rhyfeddodd y rhaglaw yn fawr.

15 Ac ar yr wyl *honno* yr arferai y rhaglaw ollwng yn rhydd i'r bobl un carcharor, yr hwn a fynnent.

16 Ac yna yr oedd ganddynt garcharor hynod, a elwid Barabbas.

17 Wedi iddynt gan hynny ymgasglu ynghyd, Pilat a ddywedodd wrthynt, Pa un a fynnwch i mi ei ollwng yn rhydd i chwi? Barabbas, ai yr Iesu, yr hwn a elwir Crist?

18 Canys efe a wyddai mai o genfigen y traddodasent ef.

19 ¶ Ac efe yn eistedd ar yr orseddfainge, ei wraig a ddanfonodd atto, gan ddywedyd, Na fydded i ti a wnelych â'r cyfiawn hwnnw: canys goddefais lawer heddyw mewn breuddwyd o'i achos ef.

20 A'r arch-offeiriaid a'r henuriaid a berswadiasant y bobl, fel y gofynent Barabbas, ac y difethent yr Iesu.

21 A'r rhaglaw a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Pa un o'r ddau a fynnwch i mi ei ollwng yn rhydd i chwi? Hwythau a ddywedasant, Barabbas.

22 Pilat a ddywedodd wrthynt, Pa beth gan hynny a wnaf i'r Iesu, yr hwn a elwir Crist? Hwythau oll a ddywedasant wrtho, Croeshoelier ef.

23 A'r rhaglaw a ddywedodd, Ond pa ddrwg a wnaeth efe? Hwythau a lefasant yn fwy, gan ddywedyd, Croeshoelier ef.

24 ¶ A Philat, pan welodd nad oedd dim yn tycio, ond yn hytrach bod cynnwrf, a gymmerth ddwfr, ac a olchodd *ei* ddwylaw ger bron y bobl, gan ddywedyd, Dïeuog ydwyf fi oddi wrth waed y cyfiawn hwn: edrychwch chwi.

25 A'r holl bobl a attebodd ac a ddywedodd, *Bydded* ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant.

26 ¶ Yna y gollyngodd efe Barabbas yn rhydd iddynt: ond yr Iesu a fflangellodd efe, ac a'*i* rhoddes i'*w* groeshoelio.

27 Yna milwyr y rhaglaw a gym-

merasant yr Iesu i'r dadleudy, ac
a gynnullasant atto yr holl fyddin.
28 A hwy a'i diosgasant ef, ac a
roisant am dano fantell o ysgarlad.
29 ¶ A chwedi iddynt blethu coron
o ddrain, hwy a'*i* gosodasant ar ei
ben ef, a chorsen yn ei law ddehau;
ac a blygasant eu gliniau ger ei
fron ef, ac a'i gwatwarasant, gan
ddywedyd, Henffych well, brenhin
yr Iuddewon.
30 A hwy a boerasant arno, ac a
gymmerasant y gorsen, ac a'i tar-
awsant ar ei ben.
31 Ac wedi iddynt ei watwar, hwy
a'i diosgasant ef o'r fantell, ac a'i
gwisgasant â'i ddillad ei hun, ac
a'i dygasant ef ymaith i'w groes-
hoelio.
32 ¶ Ac fel yr oeddynt yn myned
allan, hwy a gawsant ddyn o Cyrene,
a'i enw Simon; hwn a gymmellas-
ant i ddwyn ei groes ef.
33 A phan ddaethant i le a elwid
Golgotha, yr hwn a elwir, Lle y
benglog,
34 Hwy a roisant iddo i'w yfed,
finegr yn gymmysgedig â bustl: ac
wedi iddo *ei* brofi, ni fynnodd efe
yfed.
35 Ac wedi iddynt ei groeshoelio
ef, hwy a rannasant ei ddillad, gan
fwrw coelbren: er cyflawni y peth
a ddywedwyd trwy y prophwyd,
Hwy a rannasant fy nillad yn eu
plith, ac ar fy ngwisg y bwriasant
goelbren.
36 A chan eistedd, hwy a'i gwyl-
iasant ef yno:
37 A gosodasant hefyd uwch ei
ben ef ei achos yn ysgrifenedig,
HWN YW IESU, BRENHIN YR
IUDDEWON.
38 Yna y croeshoeliwyd gyd âg
ef ddau leidr; un ar y llaw ddehau,
ac un ar yr aswy.
39 ¶ A'r rhai oedd yn myned
heibio a'i cablasant ef, gan ysgwyd
eu pennau,
40 A dywedyd, Ti yr hwn a ddin-
ystri y deml, ac a'*i* hadeiledi mewn
tridiau, gwared dy hun. Os ti yw
Mab Duw, disgyn oddi ar y groes.
41 A'r un modd yr arch-offeiriaid
hefyd, gan watwar, gyd â'r ysgrif-
enyddion a'r henuriaid, a ddywed-
asant,
42 Efe a waredodd eraill, ei hunan
nis gall efe ei waredu. Os Brenhin
Israel yw, disgyned yr awr hon oddi
ar y groes, ac ni a gredwn iddo.
43 Ymddiriedodd yn Nuw; gwar-
eded efe ef yr awr hon, os efe a'i
myn ef: canys efe a ddywedodd,
Mab Duw ydwyf.
44 A'r un peth hefyd a edliwiodd
y lladron iddo, y rhai a groeshoel-
iasid gyd âg ef.
45 Ac o'r chweched awr y bu
tywyllwch ar yr holl ddaear hyd
y nawfed awr.
46 Ac ynghylch y nawfed awr y
llefodd yr Iesu â llef uchel, gan
ddywedyd, Eli, Eli, lama sabach-
thani? hynny yw, Fy Nuw, fy
Nuw, paham y'm gadewaist?
47 A rhai o'r sawl oedd yn sefyll
yno, pan glywsant, a ddywedasant,
Y mae hwn yn galw am Elias.
48 Ac yn y fan un o honynt a
redodd, ac a gymmerth yspwng,
ac a'*i* llanwodd o finegr, ac a'*i*
rhoddodd ar gorsen, ac a'i diod-
odd ef.
49 A'r lleill a ddywedasant, Paid,
edrychwn a ddaw Elias i'w war-
edu ef.
50 ¶ A'r Iesu, wedi llefain dra-
chefn â llef uchel, a ymadawodd â'r
ysbryd.
51 Ac wele, llen y deml a rwygwyd
yn ddau oddi fyny hyd i waered:
a'r ddaear a grynodd, a'r meini a
holltwyd:
52 A'r beddau a agorwyd; a llawer
o gyrph y saint a hunasent a gyf-
odasant,
53 Ac a ddaethant allan o'r beddau
ar ol ei gyfodiad ef, ac a aethant
i mewn i'r ddinas sanctaidd, ac a
ymddangosasant i lawer.
54 Ond y canwriad, a'r rhai oedd
gyd âg ef yn gwylied yr Iesu, wedi
gweled y ddaeargryn, a'r pethau a
wnaethid, a ofnasant yn fawr, gan
ddywedyd, Yn wir Mab Duw yd-
oedd hwn.
55 Ac yr oedd yno lawer o wrag-
edd yn edrych o hirbell, y rhai a
ganlynasent yr Iesu o Galilea, gan
weini iddo ef:
56 Ym mhlith y rhai yr oedd Mair
Magdalen, a Mair mam Iago a Joses,
a mam meibion Sebedëus.

57 ¶ Ac wedi ei myned hi yn hwyr, daeth gŵr goludog o Arimathea, a'i enw Joseph, yr hwn a fuasai yntau yn ddisgybl i'r Iesu:
58 Hwn a aeth at Pilat, ac a ofynodd gorph yr Iesu. Yna y gorchymynodd Pilat roddi y corph.
59 A Joseph wedi cymmeryd y corph, a'i hamdôdd â llïan glân,
60 Ac a'i gosododd ef yn ei fedd newydd ei hun, yr hwn a dorrasai efe yn y graig; ac a dreiglodd faen mawr wrth ddrws y bedd, ac a aeth ymaith.
61 Ac yr oedd yno Mair Magdalen, a'r Fair arall, yn eistedd gyferbyn â'r bedd.
62 ¶ A thrannoeth, yr hwn sydd ar ol y darpar-wyl, yr ymgynhullodd yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid at Pilat,
63 Gan ddywedyd, Arglwydd, y mae yn gôf gennym ddywedyd o'r twyllwr hwnnw, ac efe etto yn fyw, Wedi tridiau y cyfodaf.
64 Gorchymyn gan hynny gadw y bedd yn ddïogel hyd y trydydd dydd; rhag dyfod ei ddisgyblion o hyd nos, a'i ladratta ef, a dywedyd wrth y bobl, Efe a gyfododd o feirw: a bydd yr amryfusedd diweddaf yn waeth na'r cyntaf.
65 A dywedodd Pilat wrthynt, Y mae gennych wyliadwriaeth; ewch, gwnewch mor ddïogel ag y medroch.
66 A hwy a aethant, ac a wnaethant y bedd yn ddïogel, ac a seliasant y maen, gyd â'r wyliadwriaeth.

PENNOD 28.

1 *Dangos adgyfodiad Crist i'r gwragedd gan angel.* 9 *Crist ei hun yn ymddangos iddynt.* 11 *Yr arch-offeiriaid yn rhoddi arian i'r milwyr, i ddywedyd ddarfod ei ladratta ef allan o'r bedd.* 16 *Crist yn ymddangos i'w ddisgyblion,* 19 *yn eu hanfon i fedyddio, ac i ddysgu yr holl genhedloedd.*

AC yn niwedd y Sabbath, a hi yn dyddhâu i'r *dydd* cyntaf o'r wythnos, daeth Mair Magdalen, a'r Fair arall, i edrych y bedd.
2 Ac wele, bu daeargryn mawr: canys disgynodd angel yr Arglwydd o'r nef, ac a ddaeth ac a dreiglodd y maen oddi wrth y drws, ac a eisteddodd arno.
3 A'i wynebpryd oedd fel mellten, a'i wisg yn wen fel eira.
4 A rhag ei ofn ef y crynodd y ceidwaid, ac a aethant megis yn feirw.
5 A'r angel a attebodd ac a ddywedodd wrth y gwragedd, Nac ofnwch: canys mi a wn mai ceisio yr ydych yr Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd.
6 Nid yw efe yma: canys cyfododd, megis y dywedodd. Deuwch, gwelwch y fan lle y gorweddodd yr Arglwydd.
7 Ac ewch ar ffrwst, a dywedwch i'w ddisgyblion, gyfodi o hono o feirw. Ac wele, y mae efe yn myned o'ch blaen chwi i Galilea: yno y gwelwch ef. Wele, dywedais i chwi.
8 Ac wedi eu myned ymaith ar frys oddi wrth y bedd, gyd âg ofn a llawenydd mawr, rhedasant i fynegi i'w ddisgyblion ef.
9 ¶ Ac fel yr oeddynt yn myned i fynegi i'w ddisgyblion ef, wele, yr Iesu a gyfarfu â hwynt, gan ddywedyd, Henffych well. A hwy a ddaethant, ac a ymafaelasant yn ei draed ef, ac a'i haddolasant.
10 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt, Nac ofnwch: ewch, mynegwch i'm brodyr, fel yr elont i Galilea, ac yno y'm gwelant i.
11 ¶ Ac wedi eu myned hwy, wele, rhai o'r wyliadwriaeth a ddaethant i'r ddinas, ac a fynegasant i'r arch-offeiriaid yr hyn oll a wnaethid.
12 Ac wedi iddynt ymgasglu ynghyd gyd â'r henuriaid, a chydymgynghori, hwy a roisant arian lawer i'r milwyr,
13 Gan ddywedyd, Dywedwch, Ei ddisgyblion a ddaethant o hyd nos, ac a'i lladrattasant ef, a nyni yn cysgu.
14 Ac os clyw y rhaglaw hyn, ni a'i perswadiwn ef, ac a'ch gwnawn chwi yn ddïofal.
15 A hwy a gymmerasant yr arian, ac a wnaethant fel yr addysgwyd hwynt: a thaenwyd y gair hwn ym mhlith yr Iuddewon hyd y dydd heddyw.
16 ¶ A'r un disgybl ar ddeg a aethant i Galilea, i'r mynydd lle yr ordeiniasai yr Iesu iddynt.
17 A phan welsant ef, hwy a'i haddolasant ef: ond rhai a ammheuasant.

18 A'r Iesu a ddaeth, ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear.
19 Ewch gan hynny a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu beddyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân;
20 Gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynais i chwi. Ac wele, yr ydwyf fi gyd â chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen.

YR EFENGYL YN OL

SANT MARC.

PENNOD 1.

2 Swydd Ioan Fedyddiwr. 9 Bedyddio yr Iesu, 12 a'i demtio. 14 Efe yn pregethu; 16 yn galw Pedr, Andreas, Iago, ac Ioan: 23 yn iachâu dyn ag ysprydafan ynddo, 29 a mam gwraig Pedr, 32 a llawer o gleifion: 41 ac yn glanhau y gwahan-glwyfus.

DECHREU efengyl Iesu Grist, Fab Duw;
2 Fel yr ysgrifenwyd yn y prophwydi, Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb, yr hwn a barottoa dy ffordd o'th flaen.
3 Llef un yn llefain yn y diffaethwch, Parottôwch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef.
4 Yr oedd Ioan yn bedyddio yn y diffaethwch, ac yn pregethu bedydd edifeirwch er maddeuant pechodau.
5 Ac aeth allan atto ef holl wlad Judea, a'r Hierosolymitiaid, ac a'u bedyddiwyd oll ganddo yn afon yr Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau.
6 Ac Ioan oedd wedi ei wisgo â blew camel, a gwregys croen ynghylch ei lwynau, ac yn bwytta locustiaid a mêl gwyllt.
7 Ac efe a bregethodd, gan ddywedyd, Y mae yn dyfod ar fy ol i un cryfach na myfi, carrai esgidiau yr hwn nid wyf fi deilwng i ymostwng ac i'w dattod.
8 Myfi yn wir a'ch bedyddiais chwi â dwfr: eithr efe a'ch bedyddia chwi â'r Ysbryd Glân.
9 A bu yn y dyddiau hynny, ddyfod o'r Iesu o Nasareth yn Galilea; ac efe a fedyddiwyd gan Ioan yn yr Iorddonen.
10 Ac yn ebrwydd wrth ddyfod i fyny o'r dwfr, efe a welodd y nefoedd yn agored, a'r Ysbryd yn disgyn arno megis colommen.
11 A llef a ddaeth o'r nefoedd, Tydi yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.
12 Ac yn ebrwydd y gyrrodd yr ysbryd ef i'r diffaethwch.
13 Ac efe a fu yno yn y diffaethwch ddeugain niwrnod yn ei demtio gan Satan: ac yr oedd efe gyd â'r gwylltfilod: a'r angylion a weiniasant iddo.
14 Ac ar ol traddodi Ioan, yr Iesu a ddaeth i Galilea, gan bregethu efengyl teyrnas Dduw;
15 A dywedyd, Yr amser a gyflawnwyd, a theyrnas Dduw a nesaodd: edifarhêwch, a chredwch yr efengyl.
16 Ac fel yr oedd efe yn rhodio wrth fôr Galilea, efe a ganfu Simon, ac Andreas ei frawd, yn bwrw rhwyd yn y môr: (canys pysgodwyr oeddynt.)
17 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Deuwch ar fy ol i, a gwnaf i chwi fod yn bysgodwyr dynion.
18 Ac yn ebrwydd, gan adael eu rhwydau, y canlynasant ef.
19 Ac wedi iddo fyned rhagddo ychydig oddi yno, efe a ganfu Iago *fab* Sebedëus, ac Ioan ei frawd ef, a hwy yn y llong yn cyweirio y rhwydau.
20 Ac yn y man efe a'u galwodd hwynt: a hwy a adawsant eu tad Sebedëus yn y llong gyd â'r cyflogddynion, ac a aethant ar ei ol ef.
21 A hwy a aethant i mewn i Capernaum; ac yn ebrwydd ar y dydd Sabbath, wedi iddo fyned i

mewn i'r synagog, efe á athrawiaethodd.
22 A synnasant wrth ei athrawiaeth ef: canys yr oedd efe yn eu dysgu hwy megis un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion.
23 Ac yr oedd yn eu synagog hwy ddyn ag ynddo yspryd aflan; ac efe a lefodd,
24 Gan ddywedyd, Och, beth sydd i ni a wnelom â thi, Iesu o Nasareth? a ddaethost ti i'n difetha ni? mi a'th adwaen pwy ydwyt, Sanct Duw.
25 A'r Iesu a'i ceryddodd ef, gan ddywedyd, Taw, a dos allan o hono.
26 Yna wedi i'r yspryd aflan ei rwygo ef, a gwaeddi â llef uchel, efe a ddaeth allan o hono.
27 Ac fe a aeth ar bawb fraw, fel yr ymofynasant yn eu mysg eu hunain, gan ddywedyd, Beth yw hyn? pa athrawiaeth newydd *yw* hon? canys trwy awdurdod y mae efe yn gorchymyn, ïe, yr ysprydion aflan, a hwy yn ufuddhâu iddo.
28 Ac yn ebrwydd yr aeth sôn am dano dros yr holl wlad o amgylch Galilea.
29 Ac yn y man wedi iddynt fyned allan o'r synagog, hwy a aethant i dŷ Simon ac Andreas, gyd âg Iago ac Ioan.
30 Ac yr oedd chwegr Simon yn gorwedd yn glaf o'r cryd: ac yn ebrwydd y dywedasant wrtho am dani hi.
31 Ac efe a ddaeth ac a'i cododd hi i fyny, gan ymaflyd yn ei llaw hi: a'r cryd a'i gadawodd hi yn y man, a hi a wasanaethodd arnynt hwy.
32 Ac wedi iddi hwyrhâu, pan fachludodd yr haul, hwy a ddygasant atto yr holl rai drwg eu hwyl, a'r rhai cythreulig.
33 A'r holl ddinas oedd wedi ymgasglu wrth y drws.
34 Ac efe a iachaodd lawer o rai drwg eu hwyl o amryw heintiau, ac a fwriodd allan lawer o gythreuliaid; ac ni adawodd i'r cythreuliaid ddywedyd yr adwaenent ef.
35 A'r bore yn blygeiniol iawn, wedi iddo godi, efe a aeth allan, ac a aeth i le anghyfannedd; ac yno y gweddïodd.
36 A Simon, a'r rhai oedd gyd âg ef, a'i dilynasant ef.
37 Ac wedi iddynt ei gael ef, hwy a ddywedasant wrtho, Y mae pawb yn dy geisio di.
38 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Awn i'r trefydd nesaf, fel y gallwyf bregethu yno hefyd: canys i hynny y deuthum allan.
39 Ac yr oedd efe yn pregethu yn eu synagogau hwynt trwy holl Galilea, ac yn bwrw allan gythreuliaid.
40 A daeth atto ef *un* gwahanglwyfus, gan ymbil âg ef, a gostwng ar ei liniau iddo, a dywedyd wrtho, Os mynni, ti a elli fy nglanhâu.
41 A'r Iesu, gan dosturio, a estynodd *ei* law, ac a gyffyrddodd âg ef, ac a ddywedodd wrtho, Mynnaf, bydd lân.
42 Ac wedi iddo ddywedyd *hynny*, ymadawodd y gwahan-glwyf âg ef yn ebrwydd, a glanhâwyd ef.
43 Ac wedi gorchymyn iddo yn gaeth, efe a'i hanfonodd ef ymaith yn y man;
44 Ac a ddywedodd wrtho, Gwel na ddywedych ddim wrth neb: eithr dos ymaith, dangos dy hun i'r offeiriad, ac offrymma dros dy lanhâd y pethau a orchymynodd Moses, er tystiolaeth iddynt hwy.
45 Eithr efe a aeth ymaith, ac a ddechreuodd gyhoeddi llawer, a thaenu y gair ar led, fel na allai yr Iesu fyned mwy yn amlwg i'r ddinas; eithr yr oedd efe allan mewn lleoedd anghyfannedd: ac o bob parth y daethant atto ef.

PENNOD 2.

3 Crist yn iachâu un claf o'r parlys; 14 yn galw Matthew o'r dollja; 15 yn bwyita gyd â phublicanod a phechaduriaid; 18 yn esgusodi ei ddisgyblion, am nad ymprydient, 23 ac am dynnu y tywys ŷd ar y dydd Sabbath.

AC efe a aeth drachefn i Capernaum, wedi *rhai* dyddiau; a chlybuwyd ei fod ef yn y tŷ.
2 Ac yn y man llawer a ymgasglasant ynghyd, hyd na annent hyd yn nod yn y lleoedd ynghylch y drws: ac efe a bregethodd y gair iddynt hwy.
3 A daethant atto, gan ddwyn un claf o'r parlys, yr hwn a ddygid gan bedwar.
4 A chan na allent nesâu atto gan

y dyrfa, didôi y tô a wnaethant lle yr oedd efe: ac wedi iddynt dorri trwodd, hwy a ollyngasant i waered y gwely yn yr hwn y gorweddai y claf o'r parlys.

5 A phan welodd yr Iesu eu ffydd hwynt, efe a ddywedodd wrth y claf o'r parlys, *Ha* fab, maddeuwyd i ti dy bechodau.

6 Ac yr oedd rhai o'r ysgrifenyddion yn eistedd yno, ac yn ymresymmu yn eu calonnau,

7 Beth a wna hwn fel hyn yn dywedyd cabledd? pwy a all faddeu pechodau, ond Duw yn unig?

8 Ac yn ebrwydd, pan wybu yr Iesu yn ei ysproyd eu bod hwy yn ymresymmu felly ynddynt eu hunain, efe a ddywedodd wrthynt, Paham yr ydych yn ymresymmu am y pethau hyn yn eich calonnau?

9 Pa un sydd hawsaf, ai dywedyd wrth y claf o'r parlys, Maddeuwyd i ti *dy* bechodau; ai dywedyd, Cyfod, a chymmer i fyny dy wely, a rhodia?

10 Eithr fel y gwypoch fod gan Fab y dyn awdurdod i faddeu pechodau ar y ddaear, (eb efe wrth y claf o'r parlys,)

11 Wrthyt ti yr wyf yn dywedyd, Cyfod, a chymmer i fyny dy wely, a dos i'th dŷ.

12 Ac yn y man y cyfododd efe, ac y cymmerth i fyny ei wely, ac a aeth allan yn eu gŵydd hwynt oll; hyd oni synnodd pawb, a gogoneddu Duw, gan ddywedyd, Ni welsom ni erioed fel hyn.

13 Ac efe a aeth allan drachefn wrth lan y môr: a'r holl dyrfa a ddaeth atto; ac efe a'u dysgodd hwynt.

14 ¶ Ac efe yn myned heibio, efe a ganfu Lefi *fab* Alphëus yn eistedd wrth y dollfa, ac a ddywedodd wrtho, Canlyn fi. Ac efe a gododd, ac a'i canlynodd ef.

15 A bu, a'r Iesu yn eistedd i fwytta yn ei dŷ ef, i lawer hefyd o bublicanod a phechaduriaid eistedd gyd â'r Iesu a'i ddisgyblion; canys llawer oeddynt, a hwy a'i canlynasent ef.

16 A phan welodd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid ef yn bwytta gyd â'r publicanod a'r pechaduriaid, hwy a ddywedasant wrth ei ddisgyblion ef, Paham y mae efe yn bwytta ac yn yfed gyd â'r publicanod a'r pechaduriaid?

17 A'r Iesu, pan glybu, a ddywedodd wrthynt, Y rhai sydd iach nid rhaid iddynt wrth y meddyg, ond y rhai cleifion: ni ddeuthum i alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid, i edifeirwch.

18 ¶ A disgyblion Ioan a'r Phariseaid oeddynt yn ymprydio. A hwy a ddaethant ac a ddywedasant wrtho, Paham y mae disgyblion Ioan a'r Phariseaid yn ymprydio, ond dy ddisgyblion di nid ydynt yn ymprydio?

19 A dywedodd yr Iesu wrthynt, A all plant yr ystafell briodas ymprydio, tra fyddo y priodasfab gyd â hwynt? tra fyddo ganddynt y priodasfab gyd â hwynt, ni allant ymprydio.

20 Eithr y dyddiau a ddaw, pan ddyger y priodasfab oddi arnynt; ac yna yr ymprydiant yn y dyddiau hynny.

21 Hefyd ni wnïa neb ddernyn o frethyn newydd ar ddilledyn hen: *os* amgen, ei gyflawniad newydd ef a dyn oddi wrth yr hen, a gwaeth fydd y rhwyg.

22 Ac ni rydd neb win newydd mewn hen gostrelau: *os* amgen, y gwin newydd a ddryllia y costrelau, a'r gwin a red allan, a'r costrelau a gollir: eithr gwin newydd sydd raid ei roi mewn costrelau newyddion.

23 ¶ A bu iddo fyned trwy yr ŷd ar y Sabbath; a'i ddisgyblion a ddechreuasant ymdaith gan dynnu y tywys.

24 A'r Phariseaid a ddywedasant wrtho, Wele, paham y gwnant ar y Sabbath yr hyn nid yw gyfreithlawn?

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Oni ddarllenasoch erioed beth a wnaeth Dafydd, pan oedd angen a chwant bwyd arno, efe a'r rhai oedd gyd âg ef?

26 Pa fodd yr aeth efe i dŷ Dduw, dan Abïathar yr arch-offeiriad, ac y bwyttaodd y bara gosod, y rhai nid cyfreithlawn eu bwytta, ond i'r

offeiriaid yn unig, ac a'*i* rhoddes
hefyd i'r rhai oedd gyd âg ef?
27 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Y Sabbath a wnaethpwyd er mwyn
dyn, ac nid dyn er mwyn y Sab-
bath:
28 Am hynny y mae Mab y dyn
yn Arglwydd hefyd ar y Sabbath.

PENNOD 3.

1 *Crist yn iachâu y llaw wedi gwywo,* 10 *a llawer o glefydau eraill:* 11 *yn cerydda yr ysprydion aflan:* 13 *yn dewis ei ddeuddeg apostol:* 22 *yn atteb cabledd y rhai a ddywedent ei fod ef yn burw allan gythreuliaid trwy Beelsebub;* 31 *ac yn dangos pwy ydyw ei frawd, a'i chwaer, a'i fam.*

AC efe a aeth i mewn drachefn
i'r synagog; ac yr oedd yno
ddyn a chanddo law wedi gwywo.
2 A hwy a'i gwyliasant ef, a iachâi
efe ef ar y dydd Sabbath; fel y
cyhuddent ef.
3 Ac efe a ddywedodd wrth y dyn
yr oedd ganddo y llaw wedi gwywo;
Cyfod i'r canol.
4 Ac efe a ddywedodd wrthynt
hwy, Ai rhydd gwneuthur da ar
y dydd Sabbath, ynte gwneuthur
drwg? cadw einioes, ai lladd? A
hwy a dawsant â sôn.
5 Ac wedi edrych arnynt o am-
gylch yn ddiglîawn, gan dristâu am
galedrwydd eu calon hwynt, efe a
ddywedodd wrth y dyn, Estyn allan
dy law. Ac efe a'*i* hestynodd: a'i
law ef a wnaed yn iach fel y llall.
6 A'r Phariseaid a aethant allan,
ac a ymgynghorasant yn ebrwydd
gyd â'r Herodianiaid yn ei erbyn
ef, pa fodd y difethent ef.
7 A'r Iesu gyd â'i ddisgyblion a
giliodd tu a'r môr: a llïaws mawr
a'i canlynodd ef, o Galilea, ac o
Judea,
8 Ac o Jerusalem, ac o Idumea,
ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen; a'r
rhai o gylch Tyrus a Sidon, llïaws
mawr, pan glywsant gymmaint a
wnaethai efe, a ddaethant atto.
9 Ac efe a ddywedodd wrth ei
ddisgyblion am fod llong yn barod
iddo, oblegid y dyrfa, rhag iddynt
ei wasgu ef.
10 Canys efe a iachasai lawer, hyd
oni phwysent arno, er mwyn cy-
ffwrdd âg ef, cynnifer ag oedd a
phläau arnynt.
11 A'r ysprydion aflan, pan wel-
sant ef, a syrthiasant i lawr ger ei
fron ef, a a waeddasant, gan ddy-
wedyd, Ti yw Mab Duw.
12 Yntau a orchymynodd iddynt
yn gaeth, na chyhoeddent ef.
13 ¶ Ac efe a esgynodd i'r myn-
ydd, ac a alwodd atto y rhai a fyn-
nodd efe: a hwy a ddaethant atto.
14 Ac efe a ordeiniodd ddeuddeg,
fel y byddent gyd âg ef, ac fel y
danfonai efe hwynt i bregethu;
15 Ac i fod ganddynt awdurdod
i iachâu clefydau, ac i fwrw allan
gythreuliaid.
16 Ac i Simon y rhoddes efe enw
Pedr;
17 Ac Iago *fab* Sebedëus, ac Ioan
brawd Iago, (ac efe a roddes idd-
ynt enwau, Boanerges; yr hyn yw,
Meibion y daran;)
18 Ac Andreas, a Phylip, a Bar-
tholomëus, a Matthew, a Thomas,
ac Iago *fab* Alphëus, a Thadëus, a
Simon y Canaanead,
19 A Judas Iscariot, yr hwn hefyd
a'i bradychodd ef. A hwy a ddaeth-
ant i dŷ.
20 A'r dyrfa a ymgynhullodd dra-
chefn, fel na allent gymmaint a
bwytta bara.
21 A phan glybu yr eiddo ef,
hwy a aethant i'w ddal ef: canys
dywedasant, Y mae efe allan o'i
bwyll.
22 ¶ A'r ysgrifenyddion, y rhai a
ddaethent i waered o Jerusalem, a
ddywedasant fod Beelsebub gan-
ddo, ac mai trwy bennaeth y cy-
threuliaid yr oedd efe yn bwrw
allan gythreuliaid.
23 Ac wedi iddo eu galw hwy
atto, efe a ddywedodd wrthynt
mewn damhegion, Pa fodd y gall
Satan fwrw allan Satan?
24 Ac o bydd teyrnas wedi ymran-
nu yn ei herbyn ei hun, ni ddichon
y deyrnas honno sefyll.
25 Ac o bydd tŷ wedi ymrannu
yn ei erbyn ei hun, ni ddichon y
tŷ hwnnw sefyll.
26 Ac os Satan a gyfyd yn ei er-
byn ei hun, ac a fydd wedi ymran-
nu, ni all efe sefyll, eithr y mae
iddo ddiwedd.
27 Ni ddichon neb fyned i mewn
i dŷ y cadarn, ac yspeilio ei ddo-
drefn ef, oni bydd iddo yn gyntaf

rwymo y cadarn; ac yna yr yspeilia
ei dŷ ef.
28 Yn wir y dywedaf i chwi, y
maddeuir pob pechod i feibion dyn-
ion, a pha gabledd bynnag a gabl-
ant:
29 Eithr yr hwn a gablo yn erbyn
yr Ysprydd Glân, ni chaiff faddeu-
ant yn dragywydd, ond y mae yn
euog o farn dragywydd:
30 Am iddynt ddywedyd, Y mae
ysprydd aflan ganddo.
31 ¶ Daeth gan hynny ei frodyr
ef a'i fam; a chan sefyll allan, hwy
a anfonasant atto, gan ei alw ef.
32 A'r bobl oedd yn eistedd o'i
amgylch, ac a ddywedasant wrtho,
Wele, y mae dy fam di a'th frodyr
allan yn dy geisio.
33 Ac efe a'u hattebodd hwynt,
gan ddywedyd, Pwy yw fy mam i,
neu fy mrodyr i?
34 Ac wedi iddo edrych oddi am-
gylch ar y rhai oedd yn eistedd yn
ei gylch, efe a ddywedodd, Wele fy
mam i, a'm brodyr i.
35 Canys pwy bynnag a wnelo
ewyllys Duw, hwnnw yw fy mrawd
i, a'm chwaer, a'm mam i.

PENNOD 4.

1 Dammeg yr hauwr, 14 a'i dehongliad. 21 Rhaid i ni gyfrannu goleuni ein gwybodaeth i eraill. 26 Dammeg yr had yn tyfu yn ddiarwybod, 30 a'r gronyn mustard. 35 Crist yn gostegu y dymmestl ar y môr.

AC efe a ddechreuodd drachefn
athrawiaethu yn ymyl y môr:
a thyrfa fawr a ymgasglodd atto,
hyd oni bu iddo fyned i'r llong,
ac eistedd ar y môr; a'r holl dyrfa
oedd wrth y môr, ar y tir.
2 Ac efe a ddysgodd iddynt lawer
ar ddamhegion, ac a ddywedodd
wrthynt yn ei ddysgeidiaeth ef,
3 Gwrandêwch: Wele, hauwr a
aeth allan i hau:
4 A darfu, wrth hau, i beth syrthio
ar fin y ffordd, ac ehediaid yr awyr
a ddaethant ac a'i difasant.
5 A pheth a syrthiodd ar greigle,
lle ni chafodd fawr ddaear; ac yn
y fan yr eginodd, am nad oedd iddo
ddyfnder daear.
6 A phan gododd yr haul, y poeth-
wyd ef; ac am nad oedd gwreiddyn
iddo, efe a wywodd.
7 A pheth a syrthiodd ym mhlith
drain; a'r drain a dyfasant, ac a'i
tagasant ef, ac ni ddug ffrwyth.
8 A pheth arall a syrthiodd mewn
tir da, ac a roddes ffrwyth tyfadwy
a chynnyrchiol, ac a ddug un ddeg
ar hugain, ac un dri ugain, ac un
gant.
9 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Y
neb sydd ganddo glustiau i wran-
daw, gwrandawed.
10 A phan oedd efe wrtho ei hun,
y rhai oedd yn ei gylch ef gyd â'r
deuddeg a ofynasant iddo am y
ddammeg.
11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, I
chwi y rhodded gwybod dirgelwch
teyrnas Dduw: eithr i'r rhai sydd
allan, ar ddamhegion y gwneir pob
peth:
12 Fel yn gweled y gwelant, ac
na chanfyddant; ac yn clywed y
clywant, ac ni ddeallant; rhag idd-
ynt ddychwelyd, a maddeu iddynt
eu pechodau.
13 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Oni wyddoch chwi y ddammeg hon?
a pha fodd y gwybyddwch yr holl
ddamhegion?
14 ¶ Yr hauwr sydd yn hau y
gair.
15 A'r rhai hyn yw y rhai ar fin y
ffordd, lle yr hauir y gair; ac wedi
iddynt ei glywed, y mae Satan yn
dyfod yn ebrwydd, ac yn dwyn
ymaith y gair a hauwyd yn eu cal-
onnau hwynt.
16 A'r rhai hyn yr un ffunud yw
y rhai a hauir ar y creigle; y rhai,
wedi clywed y gair, sydd yn eb-
rwydd yn ei dderbyn ef yn llaw-
en;
17 Ac nid oes ganddynt wreiddyn
ynddynt eu hunain, eithr dros am-
ser y maent: yna, pan ddêl blinder
neu erlid o achos y gair, yn y man
y rhwystrir hwynt.
18 A'r rhai hyn yw y rhai a hau-
wyd ym mysg y drain; y rhai a
wrandawant y gair,
19 Ac y mae gofalon y byd hwn,
a hudoliaeth golud, a chwantau am
bethau eraill, yn dyfod i mewn, ac
yn tagu y gair, a myned y mae yn
ddiffrwyth.
20 A'r rhai hyn yw y rhai a hau-
wyd mewn tir da; y rhai sydd yn
gwrandaw y gair, ac yn *ei* dder-

byn, ac yn dwyn ffrwyth, un ddeg ar hugain, ac un dri ugain, ac un gant.

21 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthynt, A ddaw canwyll i'w dodi dan lestr, neu dan wely? ac nid i'w gosod ar ganhwyllbren?

22 Canys nid oes dim cuddiedig, a'r nis amlygir; ac ni bu ddim dirgel, ond fel y delai i eglurdeb.

23 Od oes gan neb glustiau i wrandaw, gwrandawed.

24 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Edrychwch beth a wrandawoch. A pha fesur y mesuroch, y mesurir i chwithau; a chwanegir i chwi, y rhai a wrandêweh.

25 Canys yr hwn y mae ganddo, y rhoddir iddo: a'r hwn nid oes ganddo, ïe, yr hyn sydd ganddo a ddygir oddi arno.

26 ¶ Ac efe a ddywedodd, Felly y mae teyrnas Dduw, fel pe bwriai dyn had i'r ddaear;

27 A chysgu, a chodi nos a dydd, a'r had yn egino ac yn tyfu, y modd nis gwŷr efe.

28 Canys y ddaear a ddwg ffrwyth o honi ei hun; yn gyntaf yr eginyn, ar ol hynny y dywysen, yna yr ŷd yn llawn yn y dywysen.

29 A phan ymddangoso y ffrwyth, yn ebrwydd y rhydd efe y crymman ynddo, am ddyfod y cynhauaf.

30 ¶ Ac efe a ddywedodd, I ba beth y cyffelybem deyrnas Dduw? neu ar ba ddammeg y gwnaem gyffelybrwydd o honi?

31 Megis gronyn o had mwstard *ydyw*, yr hwn pan hauer yn y ddaear, sydd leiaf o'r holl hadau sydd ar y ddaear:

32 Eithr wedi yr hauer, y mae yn tyfu, ac yn myned yn fwy na'r holl lysiau, ac efe a ddwg ganghennau mawrion; fel y gallo ehediaid yr awyr nythu dan ei gysgod ef.

33 Ac â chyfryw ddamhegion lawer y traethodd efe iddynt y gair, hyd y gallent *ei* wrandaw:

34 Ond heb ddammeg ni lefarodd wrthynt: ac o'r neilldu i'w ddisgyblion efe a eglurodd bob peth.

35 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthynt y dwthwn hwnnw, wedi ei hwyrhâu hi, Awn trosodd i'r tu draw.

36 Ac wedi iddynt ollwng ymaith y dyrfa, hwy a'i cymmerasant ef fel yr oedd yn y llong: ac yr oedd hefyd longau eraill gyd âg ef.

37 Ac fe a gyfododd tymmestl fawr o wynt, a'r tonnau a daflasant i'r llong, hyd onid oedd hi yn llawn weithian.

38 Ac yr oedd efe yn y pen ol i'r llong, yn cysgu ar obennydd: a hwy a'i deffroisant ef, ac a ddywedasant wrtho, Athraw, ai difatter gennyt ein colli ni?

39 Ac efe a gododd i fyny, ac a geryddodd y gwynt, ac a ddywedodd wrth y môr, Gostega, distawa. A'r gwynt a ostegodd, a bu tawelwch mawr.

40 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Paham yr ydych mor ofnog? pa fodd nad oes gennych ffydd?

41 Eithr hwy a ofnasant yn ddirfawr, ac a ddywedasant wrth eu gilydd, Pwy yw hwn, gan fod y gwynt a'r môr yn ufuddhâu iddo?

PENNOD 5.

1 Crist yn gwaredu y dyn yr oedd ynddo leng o gythreuliaid: 13 hwythau yn myned i'r moch. 25 Y mae efe yn iachâu y wraig o'r diferlif gwaed, 35 ac yn cyfodi merch Jairus o farw i fyw.

AHWY a ddaethant i'r tu hwnt i'r môr, i wlad y Gadareniaid.

2 Ac ar ei ddyfodiad ef allan o'r llong, yn y man cyfarfu âg ef o blith y beddau, ddyn ag ysprŷd aflan ynddo,

3 Yr hwn oedd â'i drigfan ym mhlith y beddau; ac ni allai neb, ïe, â chadwynau, ei rwymo ef:

4 O herwydd ei rwymo ef yn fynych â llyffetheiriau, ac â chadwynau, a darnio o hono y cadwynau, a dryllio y llyffetheiriau: ac ni allai neb ei ddofi ef.

5 Ac yn wastad nos a dydd yr oedd efe yn llefain yn y mynyddoedd, ac ym mhlith y beddau, ac yn ei dorri ei hun â cherrig.

6 Ond pan ganfu efe yr Iesu o hirbell, efe a redodd, ac a'i haddolodd ef;

7 A chan waeddi â llef uchel, efe a ddywedodd, Beth sydd i mi *a wnelwyf* â thi, Iesu Mab y Duw

goruchaf? yr ydwyf yn dy dynghedu trwy Dduw, na phoenech fi.
8 (Canys dywedasai wrtho, Yspryd aflan, dos allan o'r dyn.)
9 Ac efe a ofynodd iddo, Beth *yw* dy enw? Yntau a attebodd, gan ddywedyd, Lleng *yw* fy enw; am fod llawer o honom.
10 Ac efe a fawr-ymbiliodd âg ef, na yrrai efe hwynt allan o'r wlad.
11 Ond yr oedd yno ar y mynyddoedd genfaint fawr o foch yn pori.
12 A'r holl gythreuliaid a attolygasant iddo, gan ddywedyd, Danfon ni i'r moch, fel y gallom fyned i mewn iddynt.
13 Ac yn y man y caniattaodd yr Iesu iddynt. A'r ysprydion aflan, wedi myned allan, a aethant i mewn i'r moch: a rhuthrodd y genfaint dros y dibyn i'r môr (*ac* ynghylch dwy fil oeddynt) ac a'u boddwyd yn y môr.
14 A'r rhai a borthent y moch a ffoisant, ac a fynegasant *y peth* yn y ddinas, ac yn y wlad: a hwy a aethant allan i weled beth oedd hyn a wnaethid.
15 A hwy a ddaethant at yr Iesu, ac a welsant y cythreulig, yr hwn y buasai y lleng ynddo, yn eistedd, ac yn ei ddillad, ac yn ei iawn bwyll; ac a ofnasant.
16 A'r rhai a welsant a fynegasant iddynt, pa fodd y buasai i'r cythreulig, ac am y moch.
17 A dechreuasant ddymuno arno ef fyned ymaith o'u goror hwynt.
18 Ac efe yn myned i'r llong, yr hwn y buasai y cythraul ynddo a ddymunodd arno gael bod gyd âg ef.
19 Ond yr Iesu ni adawodd iddo; eithr dywedodd wrtho, Dos i'th dŷ at yr eiddot, a mynega iddynt pa faint a wnaeth yr Arglwydd erot, ac iddo drugarhâu wrthyt.
20 Ac efe a aeth ymaith, ac a ddechreuodd gyhoeddi trwy Decapolis, pa bethau eu maint a wnaethai yr Iesu iddo: a phawb a ryfeddasant.
21 ¶ Ac wedi i'r Iesu drachefn fyned mewn llong i'r lan arall, ymgasglodd tyrfa fawr atto: ac yr oedd efe wrth y môr.
22 Ac wele, un o bennaethiaid y synagog a ddaeth, a'i enw Jairus: a phan ei gwelodd, efe a syrthiodd wrth ei draed ef;
23 Ac efe a fawr-ymbiliodd âg ef, gan ddywedyd, Y mae fy merch fechan ar drange: *attolwg i ti* ddyfod, a dodi dy ddwylaw arni, fel yr iachâer hi; a byw fydd.
24 A'*r Iesu* a aeth gyd âg ef: a thyrfa fawr a'i canlynodd ef, ac a'i gwasgasant ef.
25 A rhyw wraig, yr hon a fuasai mewn diferlif gwaed ddeuddeng mlynedd,
26 Ac a oddefasai lawer gan laweroedd o feddygon, ac a dreuliasai gymmaint ag oedd ar ei helw, ac ni chawsai ddim llesâd, eithr yn hytrach myned waeth-waeth,
27 Pan glybu hi am yr Iesu, hi a ddaeth yn y dyrfa o'r tu ol, ac a gyffyrddodd â'i wisg ef;
28 Canys hi a ddywedasai, Os cyffyrddaf â'i ddillad ef, iach fyddaf.
29 Ac yn ebrwydd y sychodd ffynhonnell ei gwaed hi: a hi a wybu yn ei chorph ddarfod ei hiachâu o'r pla.
30 Ac yn y fan yr Iesu, gan wybod ynddo ei hun fyned rhinwedd allan o hono, a drodd yn y dyrfa, ac a ddywedodd, Pwy a gyffyrddodd â'm dillad?
31 A'i ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Ti a weli y dyrfa yn dy wasgu, ac a ddywedi di, Pwy a'm cyffyrddodd?
32 Ac yntau a edrychodd o amgylch, i weled yr hon a wnaethai hyn.
33 Ond y wraig, gan ofni a chrynu, yn gwybod beth a wnaethid ynddi, a ddaeth ac a syrthiodd ger ei fron ef, ac a ddywedodd iddo yr holl wirionedd.
34 Ac efe a ddywedodd wrthi, *Ha* ferch, dy ffydd a'th iachaodd: dos mewn heddwch, a bydd iach o'th bla.
35 Ac efe etto yn llefaru, daeth *rhai* o *dŷ* pennaeth y synagog, gan ddywedyd, Bu farw dy ferch: i ba beth etto yr aflonyddi yr Athraw?
36 A'r Iesu, yn ebrwydd wedi clywed y gair a ddywedasid, a ddywedodd wrth bennaeth y synagog, Nac ofna; cred yn unig.

37 Ac ni adawodd efe neb i'w ddilyn, ond Pedr, ac Iago, ac Ioan brawd Iago.

38 Ac efe a ddaeth i dŷ pennaeth y synagog, ac a ganfu y cynnwrf, a'r rhai oedd yn wylo ac yn ochain llawer.

39 Ac wedi iddo fyned i mewn, efe a ddywedodd wrthynt, Paham y gwnewch gynnwrf, ac yr wylwch? ni bu farw yr eneth, eithr cysgu *y mae.*

40 A hwy a'i gwatwarasant ef. Ond efe, gwedi bwrw pawb allan, a gymmerth dad yr eneth a'i mam, a'r rhai oedd gyd âg ef, ac a aeth i mewn lle yr oedd yr eneth yn gorwedd.

41 Ac wedi ymaflyd yn llaw yr eneth, efe a ddywedodd wrthi, Talitha, cwmi; yr hyn o'i gyfieithu yw, Yr eneth, yr wyf yn dywedyd wrthyt, cyfod.

42 Ac yn y fan y cyfododd yr eneth, ac a rodiodd: canys deuddeng mlwydd *oed* ydoedd hi. A synnu a wnaeth arnynt â syndod mawr.

43 Ac efe a orchymynodd iddynt yn gaeth, na chai neb wybod hyn; ac a ddywedodd am roddi peth iddi i'w fwytta.

PENNOD 6.

1 *Dystyru Crist gan ei wladwyr ei hun.* 7 *Y mae efe yn rhoddi i'r deuddeg awdurdod ar ysprydion aflan.* 14 *Amryw dyb am Grist.* 27 *Torri pen Ioan Fedyddiwr;* 29 *a'i gladdu.* 30 *Yr apostolion yn dychwelyd o bregethu.* 34 *Gwyrthiau y pum torth bara, a'r ddau bysgodyn.* 48 *Crist yn rhodio ar y môr:* 53 *ac yn iachâu pawb a gyffyrddai âg ef.*

AC efe a aeth ymaith oddi yno, ac a ddaeth i'w wlad ei hun; a'i ddisgyblion a'i canlynasant ef.

2 Ac wedi dyfod y Sabbath, efe a ddechreuodd athrawiaethu yn y synagog: a synnu a wnaeth llawer a'*i* clywsant, gan ddywedyd, O ba le y daeth y pethau hyn i hwn? a pha ddoethineb *yw* hon a roed iddo, fel y gwneid y cyfryw nerthoedd trwy ei ddwylaw ef?

3 Onid hwn yw y saer, mab Mair, brawd Iago, a Joses, a Judas, a Simon? ac onid yw ei chwïorydd ef yma yn ein plith ni? A hwy a rwystrwyd o'i blegid ef.

4 Ond yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Nid yw prophwyd yn ddibris ond yn ei wlad ei hun, ac ym mhlith ei genedl ei hun, ac yn ei dŷ ei hun.

5 Ac ni allai efe yno wneuthur dim gwyrthiau, ond rhoi ei ddwylaw ar ychydig gleifion, a'*u* hiachâu *hwynt.*

6 Ac efe a ryfeddodd o herwydd eu hanghrediniaeth: ac a aeth i'r pentrefi oddi amgylch, gan athrawiaethu.

7 ¶ Ac efe a alwodd y deuddeg, ac a ddechreuodd eu danfon hwynt bob yn ddau a dau; ac a roddes iddynt awdurdod *ar* ysprydion aflan;

8 Ac a orchymynodd iddynt, na chymmerent ddim i'r daith, ond llawffon yn unig; nac ysgreppan, na bara, nac arian yn *eu* pyrsau:

9 Eithr *eu bod* â sandalau am eu traed; ac na wisgent ddwy bais.

10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, I ba le bynnag yr eloch i mewn i dŷ, arhoswch yno hyd onid eloch ymaith oddi yno.

11 A pha rai bynnag ni'ch derbyniant, ac ni'ch gwrandawant, pan eloch oddi yno, ysgydwch y llwch *a fyddo* dan eich traed, yn dystiolaeth iddynt. Yn wir meddaf i chwi, Y bydd esmwythach i Sodom a Gomorrah yn nydd y farn, nag i'r ddinas honno.

12 A hwy a aethant allan, ac a bregethasant ar iddynt edifarhâu:

13 Ac a fwriasant allan lawer o gythreuliaid, ac a eliasant âg olew lawer o gleifion, ac a'*u* hiachasant.

14 ¶ A'r brenhin Herod a glybu (canys cyhoedd ydoedd ei enw ef); ac efe a ddywedodd, Ioan Fedyddiwr a gyfododd o feirw, ac am hynny y mae nerthoedd yn gweithio ynddo ef.

15 Eraill a ddywedasant, Mai Elïas yw. Ac eraill a ddywedasant, Mai prophwyd yw, neu megis un o'r prophwydi.

16 Ond Herod, pan glybu, a ddywedodd, Mai yr Ioan a dorrais i ei ben yw hwn; efe a gyfododd o feirw.

17 Canys yr Herod hwn a ddanfonasai, ac a ddaliasai Ioan, ac a'i rhwymasai ef yn y carchar, o achos Herodias gwraig Phylip ei frawd; am iddo ei phrïodi hi.

18 Canys Ioan a ddywedasai wrth

Herod, Nid cyfreithlawn i ti gael
gwraig dy frawd.
19 Ond Herodias a ddaliodd ŵg
iddo, ac a chwennychodd ei ladd
ef; ac nis gallodd:
20 Canys Herod oedd yn ofni Ioan,
gan wybod ei fod ef yn ŵr cyfiawn,
ac yn sanctaidd; ac a'i parchai ef:
ac wedi iddo ei glywed ef, efe a
wnai lawer o bethau, ac a'i gwran-
dawai ef yn ewyllysgar.
21 Ac wedi dyfod diwrnod cyfadd-
as, pan wnaeth Herod ar ei ddydd
genedigaeth swpper i'w bennaeth-
iaid, a'i flaenoriaid, a goreugwyr
Galilea:
22 Ac wedi i ferch Herodias hon-
no ddyfod i mewn, a dawnsio, a
boddhâu Herod, a'r rhai oedd yn
eistedd gyd âg ef, y brenhin a ddy-
wedodd wrth y llangces, Gofyn i
mi y peth a fynnech, ac mi a'*i*
rhoddaf i ti.
23 Ac efe a dyngodd iddi, Beth
bynnag a ofynech i mi, mi a'*i* rhodd-
af i ti, hyd hanner fy nheyrnas.
24 A hithau a aeth allan, ac a
ddywedodd wrth ei mam, Pa beth
a ofynaf? A hithau a ddywedodd,
Pen Ioan Fedyddiwr.
25 Ac yn y fan hi a aeth i mewn
ar frys at y brenhin, ac a ofynodd,
gan ddywedyd, Mi a fynnwn i ti
roi i mi allan o law, ar ddysgl, ben
Ioan Fedyddiwr.
26 A'r brenhin yn drist iawn, ni
chwennychai ei bwrw hi heibio, o
herwydd y llwon, a'r rhai oedd yn
eistedd gyd âg ef.
27 Ac yn y man y brenhin a ddan-
fonodd ddihenyddwr, ac a orchy-
mynodd ddwyn ei ben ef.
28 Ac yntau a aeth, ac a dorrodd
ei ben ef yn y carchar, ac a ddug
ei ben ef ar ddysgl, ac a'i rhoddes
i'r llangces; a'r llangces a'i rhoddes
ef i'w mam.
29 A phan glybu ei ddisgyblion
ef, hwy a ddaethant ac a gymmer-
asant ei gorph ef, ac a'i dodasant
mewn bedd.
30 ¶ A'r apostolion a ymgasglas-
ant at yr Iesu, ac a fynegasant iddo
yr holl bethau, y rhai a wnaethent,
a'r rhai hefyd a athrawiaethasent.
31 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Deuwch eich hunain i le anghyfan-
nedd o'r neilldu, a gorphwyswch
encyd. Canys llawer oedd yn dyfod
ac yn myned, fel nad oeddynt yn
cael ennyd cymmaint ag i fwytta.
32 A hwy a aethant i le anghyf-
annedd mewn llong o'r neilldu.
33 A'r bobloedd a'u gwelsant hwy
yn myned ymaith, a llawer a'i had-
nabuant ef, ac a redasant yno ar
draed o'r holl ddinasoedd, ac a'u
rhag-flaenasant hwynt, ac a ym-
gasglasant atto ef.
34 A'r Iesu, wedi myned allan,
a welodd dyrfa fawr, ac a dostur-
iodd wrthynt, am eu bod fel defaid
heb ganddynt fugail: ac a dde-
chreuodd ddysgu iddynt lawer o
bethau.
35 Ac yna wedi ei myned hi yn
llawer o'r dydd, y daeth ei ddis-
gyblion atto ef, gan ddywedyd, Y
lle sydd anial, ac weithian *y mae*
hi yn llawer o'r dydd:
36 Gollwng hwynt ymaith, fel yr
elont i'r wlad oddi amgylch, ac i'r
pentrefi, ac y prynont iddynt eu
hunain fara: canys nid oes gan-
ddynt ddim i'w fwytta.
37 Ond efe a attebodd ac a ddy-
wedodd wrthynt, Rhoddwch chwi
iddynt *beth* i'w fwytta. A hwy a
ddywedasant wrtho, A awn ni a
phrynu gwerth deucan ceiniog o
fara, a'i roddi iddynt i'w fwytta?
38 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Pa sawl torth sydd gennych? ewch,
ac edrychwch. Ac wedi iddynt
wybod, hwy a ddywedasant, Pump,
a dau bysgodyn.
39 Ac efe a orchymynodd iddynt
beri i bawb eistedd yn fyrddeidiau
ar y glaswellt.
40 A hwy a eisteddasant yn finte-
oedd a minteioedd, o fesur can-
noedd, ac o fesur deg a deugeiniau.
41 Ac wedi cymmeryd y pum torth
a'r ddau bysgodyn, gan edrych i
fyny tu a'r nef, efe a fendithiodd,
ac a dorrodd y bara, ac a'*u* rhoddes
at ei ddisgyblion, i'*w* gosod ger eu
bronnau hwynt: a'r ddau bysgodyn
a rannodd efe rhyngddynt oll.
42 A hwy oll a fwyttasant, ac a
gawsant ddigon.
43 A chodasant ddeuddeg bas-
gedaid yn llawn o'r briwfwyd, ac
o'r pysgod.

44 A'r rhai a fwyttasent o'r torthau, oedd ynghylch pum mil o wŷr.
45 Ac yn y man efe a gymhellodd ei ddisgyblion i fyned i'r llong, a myned o'r blaen i'r lan arall i Bethsaida, tra fyddai efe yn gollwng ymaith y bobl.
46 Ac wedi iddo eu danfon hwynt ymaith, efe a aeth i'r mynydd i weddïo.
47 ¶ A phan aeth hi yn hwyr, yr oedd y llong ar ganol y môr, ac yntau ei hun ar y tir.
48 Ac efe a'u gwelai hwynt yn flin arnynt yn rhwyfo; canys y gwynt oedd yn eu herbyn. Ac ynghylch y bedwaredd wylfa o'r nos efe a ddaeth attynt, gan rodio ar y môr; ac a fynnasai fyned heibio iddynt.
49 Ond pan welsant hwy ef yn rhodio ar y môr, hwy a dybiasant mai drychiolaeth ydoedd: a *hwy* a waeddasant.
50 (Canys hwynt oll a'i gwelsant ef, ac a ddychrynasant.) Ac yn y man yr ymddiddanodd efe â hwynt, ac y dywedodd wrthynt, Cymmerwch gysur: myfi yw; nac ofnwch.
51 Ac efe a aeth i fyny attynt i'r llong; a'r gwynt a dawelodd. A hwy a synnasant ynddynt eu hunain yn fwy o lawer, ac a ryfeddasant.
52 Oblegid ni ddeallasant am y torthau *hynny:* canys yr oedd eu calon hwynt wedi caledu.
53 Ac wedi iddynt ddyfod trosodd, hwy a ddaethant i dir Gennesaret, ac a laniasant.
54 Ac wedi eu myned hwynt allan o'r llong, hwy a'i hadnabuant ef yn ebrwydd.
55 Ac wedi iddynt redeg trwy gwbl o'r goror hwnnw, hwy a ddechreuasant ddwyn oddi amgylch mewn gwelŷau rai cleifion, pa le bynnag y clywent ei fod ef.
56 Ac i ba le bynnag yr elai efe i mewn, i bentrefi, neu ddinasoedd, neu wlad, hwy a osodent y cleifion yn yr heolydd, ac a attolygent iddo gael o honynt gyffwrdd cymmaint ag âg ymyl ei wisg ef: a chynnifer ag a gyffyrddasant âg ef, a iachâwyd.

PENNOD 7.

1 *Y Phariseaid ym beio ar y disgyblion am fwytta heb ymolchi:* 8 *yn torri gorchymyn Duw trwy draddodiadau dynion.* 14 *Nad yw bwyd yn halogi dyn.* 24 *Crist yn iachâu merch y wraig o Syrophenisia oddi urth yspryd aflan;* 31 *ac un oedd fyddar, ac âg attal dywedyd arno.*

Y NA yr ymgasglodd atto y Phariseaid, a rhai o'r ysgrifenyddion a ddaethai o Jerusalem.
2 A phan welsant rai o'i ddisgyblion ef â dwylaw cyffredin (hynny ydyw, heb olchi,) yn bwytta bwyd, hwy a argyhoeddasant.
3 Canys y Phariseaid, a'r holl Iuddewon, oni bydd iddynt olchi *eu* dwylaw yn fynych, ni fwyttânt; gan ddal traddodiad yr hynafiaid.
4 A *phan ddelont* o'r farchnad, oni bydd iddynt ymolchi, ni fwyttânt. A llawer o bethau eraill y sydd, y rhai a gymmerasant i'w cadw; *megis* golchi cwppanau, ac ystenau, ac efyddynau, a byrddau.
5 Yna y gofynodd y Phariseaid a'r ysgrifenyddion iddo, Paham nad yw dy ddisgyblion di yn rhodio yn ol traddodiad yr hynafiaid, ond bwytta eu bwyd â dwylaw heb olchi?
6 Ond efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Da y prophwydodd Esaias am danoch chwi, ragrithwyr, fel y mae yn ysgrifenedig, Y mae y bobl hyn yn fy anrhydeddu i â'*u* gwefusau, ond eu calon sydd bell oddi wrthyf.
7 Eithr ofer y maent yn fy addoli, gan ddysgu *yn lle* dysgeidiaeth, orchymynion dynion.
8 Canys, gan adael heibio orchymyn Duw, yr ydych yn dal traddodiad dynion; sef golchiadau ystenau a chwppanau: a llawer eraill o'r cyffelyb bethau yr ydych yn eu gwneuthur.
9 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Gwych yr ydych yn rhoi heibio orchymyn Duw, fel y cadwoch eich traddodiad eich hunain.
10 Canys Moses a ddywedodd, Anrhydedda dy dad a'th fam: a'r hwn a felldithio dad neu fam, bydded farw y farwolaeth.
11 Ac meddwch chwithau, Os dywed dyn wrth ei dad neu ei fam, Corban, hynny yw, Rhodd, trwy ba beth bynnag y ceit les oddi wrthyf fi; *difai fydd.*

12 Ac nid ydych mwyach yn gadael iddo wneuthur dim i'w dad neu i'w fam;
13 Gan ddirymmu gair Duw â'ch traddodiad eich hunain, yr hwn a draddodasoch chwi: a llawer o gyffelýb bethau a hynny yr ydych yn eu gwneuthur.
14 ¶ A chwedi galw atto yr holl dyrfa, efe a ddywedodd wrthynt, Gwrandêwch chwi oll arnaf, a deallwch.
15 Nid oes dim allan o ddyn yn myned i mewn iddo, a ddichon ei halogi ef: eithr y pethau sydd yn dyfod allan o hono, y rhai hynny yw y pethau sydd yn halogi dyn.
16 Od oes gan neb glustiau i wrandaw, gwrandawed.
17 A phan ddaeth efe i mewn i'r tŷ oddi wrth y bobl, ei ddisgyblion a ofynasant iddo am y ddammeg.
18 Yntau a ddywedodd wrthynt, Ydych chwithau hefyd mor ddiddeall? Oni wyddoch am bob peth oddi allan a êl i mewn i ddyn, na all hynny ei halogi ef;
19 Oblegid nid yw yn myned i'w galon ef, ond i'r bol; ac yn myned allan i'r geudy, gan garthu yr holl fwydydd?
20 Ac efe a ddywedodd, Yr hyn sydd yn dyfod allan o ddyn, hynny sydd yn halogi dyn.
21 Canys oddi mewn, allan o galon dynion, y daw drwg-feddyliau, tor-priodasau, putteindra, llofruddiaeth,
22 Lladradau, cybydd-dod, drygioni, twyll, anlladrwydd, drwglygad, cabledd, balchder, ynfydrwydd:
23 Yr holl ddrwg bethau hyn sydd yn dyfod oddi mewn, ac yn halogi dyn.
24 ¶ Ac efe a gyfododd oddi yno, ac a aeth i gyffiniau Tyrus a Sidon; ac a aeth i mewn i dŷ, ac ni fynnasai i neb wybod: eithr ni allai efe fod yn guddiedig.
25 Canys pan glybu gwraig, yr hon yr oedd ei merch fechan âg ysbryd aflan ynddi, sôn am dano, hi a ddaeth ac a syrthiodd wrth ei draed ef:
26 (A Groeges oedd y wraig, Syropheniciad o genedl.) A hi a attolygodd iddo fwrw y cythraul allan o'i merch.
27 A'r Iesu a ddywedodd wrthi, Gâd yn gyntaf i'r plant gael eu digoni: canys nid cymmwys yw cymmeryd bara y plant, a'i daflu i'r cenawon cwn.
28 Hithau a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Gwir, *O* Arglwydd: *ac* etto y mae y cenawon dan y bwrdd yn bwytta o friwsion y plant.
29 Ac efe a ddywedodd wrthi, Am y gair hwnnw dos ymaith: aeth y cythraul allan o'th ferch.
30 Ac wedi iddi fyned i'w thŷ, hi a gafodd fyned o'r cythraul allan, a'i merch wedi ei bwrw ar y gwely.
31 ¶ Ac efe a aeth drachefn ymaith o dueddau Tyrus a Sidon, ac a ddaeth hyd fôr Galilea, trwy ganol terfynau Decapolis.
32 A hwy a ddygasant atto un byddar, âg attal dywedyd arno; ac a attolygasant iddo ddodi ei law arno ef.
33 Ac wedi iddo ei gymmeryd ef o'r neilldu allan o'r dyrfa, efe a estynodd ei fysedd yn ei glustiau ef; ac wedi iddo boeri, efe a gyffyrddodd â'i dafod ef;
34 A chan edrych tu a'r nef, efe a ocheneidiodd, ac a ddywedodd wrtho, Ephphatha, hynny yw, Ymagor.
35 Ac yn ebrwydd ei glustiau ef a agorwyd, a rhwym ei dafod a ddattodwyd; ac efe a lefarodd yn eglur.
36 Ac efe a waharddodd iddynt ddywedyd i neb: ond po mwyaf y gwaharddodd efe iddynt, mwy o lawer y cyhoeddasant.
37 A synnu a wnaethant yn anfeidrol, gan ddywedyd, Da y gwnaeth efe bob peth: y mae efe yn gwneuthur i'r byddariaid glywed, ac i'r mudion ddywedyd.

PENNOD 8.

1 *Crist yn porthi y bobl ym rhyfeddol;* 10 *yn naccâu rhoddi arwydd i'r Phariseaid:* 14 *yn rhybuddio ei ddisgyblion i ochelyd surdoes y Phariseaid, a surdoes Herod.* 22 *yn rhoddi ca olwg i ddyn dall:* 27 *yn cydnabod mai efe yw Crist, yr hwn a ddioddefai, ac a gyfodai eilwaith;* 34 *ac yn annog i fod ym ddioddefgar mewn eriid o achos proffesu yr efengyl.*

YN y dyddiau hynny, pan oedd y dyrfa yn fawr iawn, ac heb

ganddynt ddim i'w fwytta, y galwodd yr Iesu ei ddisgyblion atto, ac a ddywedodd wrthynt,
2 Yr wyf fi yn tosturio wrth y dyrfa, oblegid y maent hwy dridiau weithian yn aros gyd â mi, ac nid oes ganddynt ddim i'w fwytta:
3 Ac os gollyngaf hwynt ymaith ar eu cythlwng i'w teiau eu hunain, hwy a lewygant ar y ffordd: canys rhai o honynt a ddaeth o bell.
4 A'i ddisgyblion ef a'i hattebasant, O ba le y gall neb ddigoni y rhai hyn â bara yma yn yr anialwch?
5 Ac efe a ofynodd iddynt, Pa sawl torth sydd gennych? A hwy a ddywedasant, Saith.
6 Ac efe a orchymynodd i'r dyrfa eistedd ar y llawr: ac a gymmerodd y saith dorth, ac a ddïolchodd, ac a'*u* torrodd *hwynt*, ac a'*u* rhoddes i'w ddisgyblion, fel y gosodent *hwynt* ger *eu* bronnau; a gosodasant *hwynt* ger bron y bobl.
7 Ac yr oedd ganddynt ychydig bysgod bychain: ac wedi iddo fendithio, efe a barodd ddodi y rhai hynny hefyd ger *eu* bronnau *hwynt*.
8 A hwy a fwyttasant, ac a ddigonwyd: a hwy o godasant o'r briwfwyd gweddill, saith fasgedaid.
9 A'r rhai a fwyttasent oedd ynghylch pedair mil: ac efe a'u gollyngodd hwynt ymaith.
10 ¶ Ac yn y man, wedi iddo fyned i long gyd â'i ddisgyblion, efe a ddaeth i barthau Dalmanutha.
11 A'r Phariseaid a ddaethant allan, ac a ddechreuasant ymholi âg ef, gan gcisio ganddo arwydd o'r nef, gan ei demtio.
12 Yntau, gan ddwys-ocheneidio yn ei yspryd, a ddywedodd, Beth a wna y genhedlaeth yma yn ceisio arwydd? Yn wir meddaf i chwi, Ni roddir arwydd i'r genhedlaeth yma.
13 Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth i'r llong drachefn, ac a dynnodd ymaith i'r lan arall.
14 ¶ A'*r disgyblion* a adawsant yn anghof gymmeryd bara, ac nid oedd ganddynt gyd â hwynt ond un dorth yn y llong.
15 Yna y gorchymynodd efe iddynt, gan ddywedyd, Gwyliwch, ymogelwch rhag surdoes y Phariseaid, a surdoes Herod.
16 Ac ymresymmu a wnaethant y naill wrth y llall, gan ddywedyd, *Hyn sydd* oblegid nad oes gennym fara.
17 A phan wybu yr Iesu, efe a ddywedodd wrthynt, Pa ymresymmu yr ydych, am nad oes gennych fara? onid ydych chwi etto yn ystyried, nac yn deall? ydyw eich calon etto gennych wedi caledu?
18 A chennych lygaid, oni welwch? a chennych glustiau, oni chlywch? ac onid ydych yn cofio?
19 Pan dorrais y pum torth *hynny* ym mysg y pum mil, pa sawl basgedaid yn llawn o friwfwyd a godasoch i fyny? Dywedasant wrtho, Deuddeg.
20 A phan *dorrais* y saith ym mhlith y pedair mil, llonaid pa sawl basged o friwfwyd a godasoch i fyny? A hwy a ddywedasant, Saith.
21 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa fodd nad ydych yn deall?
22 ¶ Ac efe a ddaeth i Bethsaida; a hwy a ddygasant atto un dall, ac a ddeisyfasant arno ar iddo gyffwrdd âg ef.
23 Ac wedi ymaflyd yn llaw y dall, efe a'i tywysodd ef allan o'r dref: ac wedi iddo boeri ar ei lygaid ef, a dodi ei ddwylaw arno, efe a ofynodd iddo, a oedd efe yn gweled dim.
24 Ac wedi edrych i fyny, efe a ddywedodd, Yr ydwyf yn gweled dynion megis prennau yn rhodio.
25 Wedi hynny y gosododd efe *ei* ddwylaw drachefn ar ei lygaid ef, ac a barodd iddo edrych i fyny: ac efe a gafodd ei olwg, ac efe a welai bawb o bell, ac yn eglur.
26 Ac efe a'i hanfonodd ef adref, i'w dŷ, gan ddywedyd, Na ddos i'r dref, ac na ddywed i neb yn y dref.
27 ¶ A'r Iesu a aeth allan, efe a'i ddisgyblion, i drefi Cesarea Philippi: ac ar y ffordd efe a ofynodd i'w ddisgyblion, gan ddywedyd wrthynt, Pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod i?
28 A hwy a attebasant, Ioan Fedyddiwr; a rhai, Elïas; ac eraill, Un o'r prophwydi.
29 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ond pwy yr ydych chwi yn dy-

wedyd fy mod i? A Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Ti yw y Crist.
30 Ac efe a orchymynodd iddynt na ddywedent i neb am dano.
31 Ac efe a ddechreuodd eu dysgu hwynt, fod yn rhaid i Fab y dyn oddef llawer, a'i wrthod gan yr henuriaid, a'r arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, ac wedi tridiau adgyfodi.
32 A'r ymadrodd hwnnw a ddywedodd efe yn eglur. A Phedr a ymaflodd ynddo, ac a ddechreuodd ei geryddu ef.
33 Eithr wedi iddo droi, ac edrych ar ei ddisgyblion, efe a geryddodd Pedr, gan ddywedyd, Dos ymaith yn fy ol i, Satan; am nad wyt yn synied y pethau sydd o Dduw, ond y pethau sydd o ddynion.
34 ¶ Ac wedi iddo alw atto y dyrfa, gyd â'i ddisgyblion, efe a ddywedodd wrthynt, Y neb a fynno ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes, a dilyned fi.
35 Canys pwy bynnag a fynno gadw ei einioes, a'i cyll hi: ond pwy bynnag a gollo ei einioes er fy mwyn i a'r efengyl, hwnnw a'i ceidw hi.
36 Canys pa lesâd i ddyn, os ennill yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?
37 Neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?
38 Canys pwy bynnag a fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau yn yr odinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon; bydd cywilydd gan Fab y dyn yntau hefyd, pan ddêl y'ngogoniant ei Dad, gyd â'r angylion sanctaidd.

PENNOD 9.

2 Gwedd-newidiad yr Iesu. 11 Efe yn dysgu ei ddisgyblion ynghylch dyfodiad Elias; 14 yn bwrw allan ysprryd mud a byddar; 30 yn rhagfynegi ei farwolaeth a'i adgyfodiad; 33 yn annog ei ddisgyblion i ostyngeiddrwydd; 38 gan erchi iddynt, na luddient y rhai nid ydynt yn eu herbyn, ac na roddent rwystr i neb o'r ffyddloniaid.

AC efe a ddywedodd wrthynt, Yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, fod rhai o'r rhai sydd yn sefyll yma, ni phrofant angau, hyd oni welont deyrnas Dduw wedi dyfod mewn nerth.

2 ¶ Ac wedi chwe diwrnod, y cymmerth yr Iesu Pedr, ac Iago, ac Ioan, ac a'u dug hwynt i fynydd uchel, eu hunain o'r neilldu: ac efe a wedd-newidiwyd yn eu gŵydd hwynt.
3 A'i ddillad ef a aethant yn ddisglaer, yn gannaid iawn fel eira; y fath ni fedr un pannwr ar y ddaear eu cannu.
4 Ac ymddangosodd iddynt Elias, gyd â Moses: ac yr oeddynt yn ymddiddan â'r Iesu.
5 A Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrth yr Iesu, Rabbi, da yw i ni fod yma: a gwnawn dair pabell; i ti un, ac i Moses un, ac i Elias un.
6 Canys nis gwyddai beth yr oedd yn ei ddywedyd: canys yr oeddynt wedi dychrynu.
7 A daeth cwmmwl yn cysgodi drostynt hwy: a llef a ddaeth allan o'r cwmmwl, gan ddywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab; gwrandêwch ef.
8 Ac yn ddisymmwth, pan edrychasant o amgylch, ni welsant neb mwy, ond yr Iesu yn unig gyd â hwynt.
9 A phan oeddynt yn dyfod i waered o'r mynydd, efe a orchymynodd iddynt na ddangosent i neb y pethau a welsent, hyd pan adgyfodai Mab y dyn o feirw.
10 A hwy a gadwasant y gair gyd â hwynt eu hunain, gan gyd-ymholi beth yw yr adgyfodi o feirw.
11 ¶ A hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Paham y dywed yr ysgrifenyddion, fod yn rhaid i Elias ddyfod yn gyntaf?
12 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Elias yn ddiau gan ddyfod yn gyntaf a edfryd bob peth; a'r modd yr ysgrifenwyd am Fab y dyn, y dioddefai lawer o bethau, ac y dirmygid ef.
13 Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, ddyfod Elias yn ddiau, a gwneuthur o honynt iddo yr hyn a fynnasant, fel yr ysgrifenwyd am dano.
14 ¶ A phan ddaeth efe at *ei* ddisgyblion, efe a welodd dyrfa fawr yn eu cylch hwynt, a'r ysgrifenyddion yn cyd-ymholi â hwynt.
15 Ac yn ebrwydd yr holl dyrfa,

pan ganfuant ef, a ddychrynasant, a chan redeg atto, a gyfarchasant iddo.

16 Ac efe a ofynodd i'r ysgrifenyddion, Pa gyd-ymholi yr ydych yn eich plith?

17 Ac un o'r dyrfa a attebodd ac a ddywedodd, Athraw, mi a ddygais fy mab attat, âg yspryd mud ynddo:

18 A pha le bynnag y cymmero ef, efe a'i rhwyga; ac yntau a fwrw ewyn, ac a ysgyrnyga ddannedd, ac y mae yn dihoeni: ac mi a ddywedais wrth dy ddisgyblion ar iddynt ei fwrw ef allan; ac nis gallasant.

19 Ac efe a attebodd iddynt, ac a ddywedodd, O genhedlaeth anffyddlawn, pa hyd y byddaf gyd â chwi? pa hyd y goddefaf chwi? dygwch ef attaf fi.

20 A hwy a'i dygasant ef atto. A phan welodd ef, yn y man yr yspryd a'i drylliodd ef; a chan syrthio ar y ddaear, efe a ymdreiglodd, dan falu ewyn.

21 A gofynodd *yr Iesu* i'w dad ef, Beth sydd o amser er pan ddarfu fel hyn iddo? Yntau a ddywedodd, Er yn fachgen.

22 A mynych y taflodd efe ef yn tân, ac i'r dyfroedd, fel y difethai efe ef: ond os gelli di ddim, cymmorth ni, gan dosturio wrthym.

23 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Os gelli di gredu, pob peth a all fod i'r neb a gredo.

24 Ac yn y fan tad y bachgen, dan lefain ac wylofain, a ddywedodd, Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd; cymmorth fy anghrediniaeth i.

25 A phan welodd yr Iesu fod y dyrfa yn cyd-redeg atto, efe a geryddodd yr yspryd aflan, gan ddywedŷd wrtho, *Tydi* yspryd mud a byddar, yr wyf fi yn gorchymyn i ti, Tyred allan o hono, ac na ddos mwy iddo ef.

26 Ac wedi *i'r yspryd* lefain, a dryllio llawer arno ef, efe a aeth allan: ac yr oedd efe fel *un* marw, fel y dywedodd llawer ei farw ef.

27 A'r Iesu a'i cymmerodd ef erbyn ei law, ac a'i cyfododd; ac efe a safodd i fyny.

28 Ac wedi iddo fyned i mewn i'r tŷ, ei ddisgyblion a ofynasant iddo o'r neilldu, Paham na allem ni ei fwrw ef allan?

29 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Y rhyw hwn ni all er dim ddyfod allan, ond trwy weddi ac ympryd.

30 ¶ Ac wedi ymadael oddi yno, hwy a ymdeithiasant trwy Galilea: ac ni fynnai efe wybod o neb.

31 Canys yr oedd efe yn dysgu ei ddisgyblion, ac yn dywedyd wrthynt, Y traddodid Mab y dyn i ddwylaw dynion, ac y lladdent ef; ac wedi ei ladd, yr adgyfodai y trydydd dydd.

32 Ond nid oeddynt hwy yn deall yr ymadrodd, ac ofni yr oeddynt ofyn iddo.

33 ¶ Ac efe a ddaeth i Capernaum: a phan oedd efe yn y tŷ, efe a ofynodd iddynt, Beth yr oeddych yn ymddadleu yn eich plith eich hunain ar y ffordd?

34 Ond hwy a dawsant â sôn: canys ymddadleuasent â'u gilydd ar y ffordd, pwy *a fyddai* fwyaf.

35 Ac efe a eisteddodd, ac a alwodd y deuddeg, ac a ddywedodd wrthynt, Os myn neb fod yn gyntaf, efe a fydd olaf o'r cwbl, a gweinidog i bawb.

36 Ac efe a gymmerth fachgennyn, ac a'i gosododd ef yn eu canol hwynt: ac wedi iddo ei gymmeryd ef yn ei freichiau, efe a ddywedodd wrthynt,

37 Pwy bynnag a dderbynio un o'r cyfryw fachgyn yn fy enw i, sydd yn fy nerbyn i: a phwy bynnag a'm derbyn i, nid myfi y mae yn ei dderbyn, ond yr hwn a'm danfonodd i.

38 ¶ Ac Ioan a'i hattebodd ef, gan ddywedyd, Athraw, ni a welsom un yn bwrw allan gythreuliaid yn dy enw di, yr hwn nid yw yn ein dilyn ni; ac ni a waharddasom iddo, am nad yw yn ein dilyn ni.

39 A'r Iesu a ddywedodd, Na waherddwch iddo; canys nid oes neb a wna wyrthiau yn fy enw i, ac a all yn y fan roi drygair i mi.

40 Canys y neb nid yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae.

41 Canys pwy bynnag a roddo i chwi i'w yfed gwppanaid o ddwfr yn fy enw i, am eich bod yn perthyn

i Grist, yn wir meddaf i chwi, Ni chyll efe ei obrwy.

42 A phwy bynnag a rwystro un o'r rhai bychain *hyn* sydd yn credu ynof fi, gwell oedd iddo osod maen melin o amgylch ei wddf, a'i daflu i'r môr.

43 Ac os dy law a'th rwystra, tor hi ymaith: gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn anafus, nag â dwy law gennyt fyned i uffern, i'r tân anniffoddadwy:

44 Lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tân yn diffodd.

45 Ac os dy droed a'th rwystra, tor ef ymaith: gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn gloff, nag â dau droed gennyt dy daflu i uffern, i'r tân anniffoddadwy:

46 Lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tân yn diffodd.

47 Ac os dy lygad a'th rwystra, bwrw ef ymaith: gwell yw i ti fyned i mewn i deyrnas Dduw yn unllygeidiog, nag â dau lygad gennyt dy daflu i dân uffern:

48 Lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tân yn diffodd.

49 Canys pob un a helltir â thân, a phob aberth a helltir â halen.

50 Da *yw* yr halen: ond os bydd yr halen yn ddihallt, â pha beth yr helltwch ef? Bid gennych halen ynoch eich hunain, a byddwch heddychlawn â'ch gilydd.

PENNOD 10.

2 Crist yn ymresymmu â'r Phariseaid ynghylch ysgar: 13 yn bendithio y plant a ddyfynyd atto: 17 yn atteb i ŵr goludog, pa fodd y cai etifeddiv bywyd tragywyddol: 23 yn damjos i'w ddisgybliion berygl gohud: 28 yn addaw gwobrau i'r sawl a ymadawo â dim er mwyn yr efengyl: 32 yn rhag-fynegi ei farwolaeth, a'i adgyfodiad: 35 yn gorchymyn i feibion Sebedeus, a geisient barch ganddo, feddiwl ym hytrach am ddioddef gyd âg ef: 46 ac yn rhoddi ei olwg i Bartimêus.

AC efe a gyfododd oddi yno, ac a aeth i dueddau Judea, trwy y tu hwnt i'r Iorddonen; a'r bobloedd a gyd-gyrchasant atto ef drachefn: ac fel yr oedd yn arferu, efe a'u dysgodd hwynt drachefn.

2 ¶ A'r Phariseaid, wedi dyfod atto, a ofynasant iddo, Ai rhydd i ŵr roi ymaith ei wraig? gan ei demtio ef.

3 Yntau a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Beth a orchymynodd Moses i chwi?

4 A hwy a ddywedasant, Moses a ganiattaodd ysgrifenu llythyr ysgar, a'i gollwng hi ymaith.

5 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, O achos eich calon-galedwch chwi yr ysgrifenodd efe i chwi y gorchymyn hwnnw:

6 Ond o ddechreuad y creadigaeth, yn wrryw a benyw y gwnaeth Duw hwynt.

7 Am hyn y gâd dyn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig;

8 A hwy ill dau a fyddant un cnawd: fel nad ydynt mwy ddau, ond un cnawd.

9 Y peth gan hynny a gyssylltodd Duw, na wahaned dyn.

10 Ac yn y tŷ drachefn ei ddisgybliion a ofynasant iddo am yr un peth.

11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pwy bynnag a roddo ymaith ei wraig, ac a briodo un arall, y mae yn godinebu yn ei herbyn hi.

12 Ac os gwraig a ddyry ymaith ei gŵr, a phriodi un arall, y mae hi yn godinebu.

13 ¶ A hwy a ddygasant blant bychain atto, fel y cyffyrddai efe â hwynt: a'r disgyblion a geryddasant y rhai oedd yn *eu* dwyn *hwynt.*

14 A'r Iesu pan welodd *hynny,* fu anfoddlawn, ac a ddywedodd wrthynt, Gadêwch i blant bychain ddyfod attaf fi, ac na waherddwch iddynt: canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw.

15 Yn wir meddaf i chwi, Pwy bynnag ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bach, nid â efe i mewn iddi.

16 Ac efe a'u cymmerodd hwy yn ei freichiau, *ac* a roddes *ei* ddwylaw arnynt, ac a'u bendithiodd.

17 ¶ Ac wedi iddo fyned allan i'r ffordd, rhedodd un atto, a gostyngodd iddo, ac a ofynodd iddo, O Athraw da, beth a wnaf fel yr etifeddwyf fywyd tragywyddol?

18 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Paham y gelwi fi yn dda? nid *oes* neb da ond un, *sef* Duw.

19 Ti a wyddost y gorchymynion, Na odineba, Na ladd, Na ladratta, Na cham-dystiolaetha, Na cham-gollelda, Anrhydedda dy dad a'th fam.

20 Yntau a attebodd ac a ddy-

wedodd wrtho, Athraw, y rhai hyn
i gyd a gedwais o'm hieuengctid.
21 A'r Iesu gan edrych arno, a'i
hoffodd, ac a ddywedodd wrtho,
Un peth sydd ddiffygiol i ti: dos,
gwerth yr hyn oll sydd gennyt, a
dyro i'r tlodion; a thi a gei drysor
yn y nef: a thyred, *a* chymmer i
fyny y groes, a dilyn fi.
22 Ac efe a bruddhaodd wrth yr
ymadrodd, ac a aeth ymaith yn
athrist: canys yr oedd ganddo fedd-
iannau lawer.
23 ¶ A'r Iesu a edrychodd o'*i*
amgylch, ac a ddywedodd wrth ei
ddisgyblion, Mor anhawdd yr â y
rhai y mae golud ganddynt i deyrn-
as Dduw!
24 A'r disgyblion a frawychasant
wrth ei eiriau ef. Ond yr Iesu a
attebodd drachefn, ac a ddywedodd
wrthynt, O blant, mor anhawdd yw
i'r rhai sydd â'u hymddiried yn eu
golud fyned i deyrnas Dduw!
25 Y mae yn haws i gamel fyned
trwy grai y nodwydd, nag i oludog
fyned i mewn i deyrnas Dduw.
26 A hwy a synnasant yn ddirfawr,
gan ddywedyd wrthynt eu hunain,
A phwy a all fod yn gadwedig?
27 A'r Iesu, wedi edrych arnynt,
a ddywedodd, Gyd â dynion am-
mhosibl *yw*, ac nid gyd â Duw:
canys pob peth sydd bosibl gyd
â Duw.
28 ¶ Yna y dechreuodd Pedr
ddywedyd wrtho, Wele, nyni a ad-
awsom bob peth, ac a'th ddilynas-
om di.
29 A'r Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd, Yn wir meddaf i chwi,
Nid oes neb a'r a adawodd dŷ, neu
frodyr, neu chwïorydd, neu dad,
neu fam, neu wraig, neu blant,
neu diroedd, o'm hachos i a'r ef-
engyl,
30 A'r ni ddderbyn y can cymmaint
yr awrhon y pryd hwn, dai, a brod-
yr, a chwïorydd, a mammau, a
phlant, a thiroedd, ynghyd âg er-
lidiau; ac yn y byd a ddaw, fywyd
tragywyddol.
31 Ond llawer rhai cyntaf a fydd-
ant ddiweddaf; a'r diweddaf *fydd-
ant* gyntaf.
32 ¶ Ac yr oeddynt ar y ffordd
yn myned i fyny i Jerusalem; ac yr
oedd yr Iesu yn myned o'u blaen
hwynt: a hwy a frawychasant; ac
fel yr oeddynt yn canlyn, yr oedd
arnynt ofn. Ac wedi iddo drachefn
gymmeryd y deuddeg, efe a dde-
chreuodd fynegi iddynt y pethau
a ddigwyddent iddo ef:
33 *Canys* wele, yr ydym ni yn
myned i fyny i Jerusalem; a Mab
y dyn a draddodir i'r arch-offeir-
iaid, ac i'r ysgrifenyddion; a hwy
a'i condemniant ef i farwolaeth, ac
a'i traddodant ef i'r Cenhedloedd:
34 A hwy a'i gwatwarant ef, ac
a'i fflangellant, ac a boerant arno,
ac a'i lladdant: a'r trydydd dydd
yr adgyfyd.
35 ¶ A daeth atto Iago ac Ioan,
meibion Sebedëus, gan ddywedyd,
Athraw, ni a fynnem wneuthur o
honot i ni yr hyn a ddymunem.
36 Yntau a ddywedodd wrthynt,
Beth a fynnech i mi ei wneuthur
i chwi?
37 Hwythau a ddywedasant wrtho,
Caniattâ i ni eistedd, un ar dy dde-
heulaw, a'r llall ar dy aswy, yn dy
ogoniant.
38 Ond yr Iesu a ddywedodd wrth-
ynt, Ni wyddoch pa beth yr ydych
yn ei ofyn: a ellwch chwi yfed o'r
cwppan yr wyf fi yn ei yfed? a'ch
bedyddio â'r bedydd y'm bedyddir
i âg ef?
39 A hwy a ddywedasant wrtho,
Gallwn. A'r Iesu a ddywedodd
wrthynt, Dïau yr yfwch o'r cwppan
yr yfwyf fi; ac y'ch bedyddir â'r
bedydd y bedyddir finnau:
40 Ond eistedd ar fy neheulaw a'm
haswy, nid eiddof fi ei roddi; ond
i'r rhai y darparwyd.
41 A phan glybu y deg, hwy a
ddechreuasant fod yn anfoddlawn
ynghylch Iago ac Ioan.
42 A'r Iesu a'u galwodd hwynt
atto, ac a ddywedodd wrthynt,
Chwi a wyddoch fod y rhai a dybir
eu bod yn llywodraethu ar y Cen-
hedloedd, yn tra-arglwyddiaethu
arnynt; a'u gwŷr mawr hwynt yn
tra-awdurdodi arnynt.
43 Eithr nid felly y bydd yn eich
plith chwi: ond pwy bynnag a e-
wyllysio fod yn fawr yn eich plith,
bydded weinidog i chwi;
44 A phwy bynnag o honoch a

fynno fod yn bennaf, bydded was i bawb.

45 Canys ni ddaeth Mab 'y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.

46 ¶ A hwy a ddaethant i Jericho. Ac fel yr oedd efe yn myned allan o Jericho, efe a'i ddisgyblion, a bagad o bobl, Bartimëus ddall, mab Timëus, oedd yn eistedd ar fin y ffordd, yn cardotta.

47 A phan glybu mai yr Iesu o Nasareth ydoedd, efe a ddechreuodd lefain, a dywedyd, Iesu, mab Dafydd, trugarhâ wrthyf.

48 A llawer a'i ceryddasant ef, i *geisio ganddo* dewi: ond efe a lefodd yn fwy o lawer, Mab Dafydd, trugarhâ wrthyf.

49 A'r Iesu a safodd, ac a archodd ei alw ef. A hwy a alwasant y dall, gan ddywedyd wrtho, Cymmer galon; cyfod: y mae efe yn dy alw di.

50 Ond efe, wedi taflu ei gochl ymaith, a gyfododd, ac a ddaeth at yr Iesu.

51 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Beth a fynni i mi ei wneuthur i ti? A'r dall a ddywedodd wrtho, Athraw, caffael o honof fy ngolwg.

52 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Dos ymaith: dy ffydd a'th iachaodd. Ac yn y man y cafodd efe ei olwg, ac efe a ddilynodd yr Iesu ar hyd y ffordd.

PENNOD 11.

1 *Crist yn marchogaeth mewn goruchafiaeth i Jerusalem.* 12 *yn melldithio y pren deiliog diffrwyth:* 15 *yn glanhâu y deml:* 20 *yn annog ei ddisgyblion i fod yn ddisigl mewn ffydd; ac i faddeu i'w gelynion:* 27 *ac yn amddiffyn fod ei weithredoedd ef yn gyfreithlawn, trwy dystiolaeth Ioan, yr hwn oedd ôr wedi ei ddanfon oddi wrth Ddiw.*

AC wedi eu dyfod yn agos i Jerusalem, i Bethphage a Bethania, hyd fynydd yr Olew-wydd, efe a anfonodd ddau o'i ddisgyblion,

2 Ac a ddywedodd wrthynt, Ewch ymaith i'r pentref *sydd* gyferbyn â chwi: ac yn y man wedi y deloch i mewn iddo, chwi a gewch ebol wedi ei rwymo, ar yr hwn nid eisteddodd neb; gollyngwch ef yn rhydd, a dygwch ymaith.

3 Ac os dywed neb wrthych, Paham y gwnewch hyn? dywedwch, Am fod yn rhaid i'r Arglwydd wrtho; ac yn ebrwydd efe a'i denfyn yma.

4 A hwy a aethant ymaith, ac a gawsant yr ebol yn rhwym wrth y drws oddi allan, mewn croesffordd; ac a'i gollyngasant ef yn rhydd.

5 A rhai o'r rhai oedd yn sefyll yno a ddywedasant wrthynt, Beth a wnewch chwi, yn gollwng yr ebol yn rhydd?

6 A hwy a ddywedasant wrthynt fel y gorchymynasai yr Iesu: a hwy a adawsant iddynt fyned ymaith.

7 A hwy a ddygasant yr ebol at yr Iesu, ac a fwriasant eu dillad arno; ac efe a eisteddodd arno.

8 A llawer a daenasant eu dillad ar hyd y ffordd; ac eraill a dorrasant gangau o'r gwŷdd, ac a'*u* taenasant ar y ffordd.

9 A'r rhai oedd yn myned o'r blaen, a'r rhai oedd yn dyfod ar ol, a lefasant, gan ddywedyd, Hosanna; Bendigedig *fyddo* yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd:

10 Bendigedig *yw* y deyrnas sydd yn dyfod yn enw Arglwydd ein tad Dafydd: Hosanna yn y goruchaf.

11 A'r Iesu a aeth i mewn i Jerusalem, ac i'r deml: ac wedi iddo edrych ar bob peth o'i amgylch, a hi weithian yn hwyr, efe a aeth allan i Bethania gyd â'r deuddeg.

12 ¶ A thrannoeth, wedi iddynt ddyfod allan o Bethania, yr oedd arno chwant bwyd.

13 Ac wedi iddo ganfod o hirbell ffigysbren âg arno ddail, efe a aeth *i edrych* a gaffai ddim arno. A phan ddaeth atto, ni chafodd efe ddim ond y dail: canys nid oedd amser ffigys.

14 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Na fwyttâed neb ffrwyth o honot byth mwy. A'i ddisgyblion ef a glywsant.

15 ¶ A hwy a ddaethant i Jerusalem. A'r Iesu a aeth i'r deml, ac a ddechreuodd fwrw allan y rhai a werthent ac a brynent yn y deml; ac a ymchwelodd drestlau yr arianwyr, a chadeiriau y gwerthwyr colommennod:

16 Ac ni adawai *efe* i neb ddwyn llestr trwy y deml.

17 Ac efe a'u dysgodd, gan ddywedyd wrthynt, Onid yw yn ysgrifenedig, Y gelwir fy nhŷ i yn dŷ gweddi i'r holl genhedloedd? ond chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.

18 A'r ysgrifenyddion a'r archoffeiriaid a glywsant *hyn*, ac a geisiasant pa fodd y difethent ef: canys yr oeddynt yn ei ofni ef, am fod yr holl bobl yn synnu oblegid ei athrawiaeth ef.

19 A phan aeth hi yn hwyr, efe a aeth allan o'r ddinas.

20 ¶ A'r bore, wrth fyned heibio, hwy a welsant y ffigysbren wedi crino o'r gwraidd.

21 A Phedr, wedi adgofio, a ddywedodd wrtho, Athraw, wele y ffigysbren a felldithiaist, wedi crino.

22 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Bydded gennych ffydd yn Nuw:

23 Canys yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, Pwy bynnag a ddywedo wrth y mynydd hwn, Tynner di ymaith, a bwrier di i'r môr; ac nid ammheuo yn ei galon, ond credu y daw i ben y pethau a ddywedo efe; beth bynnag a ddywedo, a fydd iddo.

24 Am hynny meddaf i chwi, Beth bynnag oll a geisioch wrth weddïo, credwch y derbyniwch, ac efe fydd i chwi.

25 A phan safoch i weddïo, maddeuwch, o bydd gennych ddim yn erbyn neb; fel y maddeuo eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd i chwithau eich camweddau:

26 Ond os chwi ni faddeuwch, eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd ni faddeu chwaith eich camweddau chwithau.

27 ¶ A hwy a ddaethant drachefn i Jerusalem; ac fel yr oedd efe yn rhodio yn y deml, yr arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'r henuriaid, a ddaethant atto,

28 Ac a ddywedasant wrtho, Trwy ba awdurdod yr wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn? a phwy a roddes i ti yr awdurdod hon i wneuthur y pethau hyn?

29 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, A minnau a ofynaf i chwithau un gair; ac attebwch fi, a mi a ddywedaf i chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.

30 Bedydd Ioan, ai o'r nef yr oedd, ai o ddynion? attebwch fi.

31 Ac ymresymmu a wnaethant wrthynt eu hunain, gan ddywedyd, Os dywedwn, O'r nef; efe a ddywed, Paham gan hynny na chredech iddo?

32 Eithr os dywedwn, O ddynion; yr oedd arnynt ofn y bobl: canys pawb oll a gyfrifent Ioan mai prophwyd yn ddïau ydoedd.

33 A hwy a attebasant ac a ddywedasant wrth yr Iesu, Ni wyddom ni. A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt hwythau, Ac ni ddywedaf finnau i chwithau trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.

PENNOD 12.

1 Trwy ddammeg y winllan a logwyd i lafurwyr anniolchgar, y mae Crist yn rhag-ddangos gwrthodiad yr Iuddewon, a galwad y Cenhedloedd; 13 y mae yn gochelyd mayl y Phariseaid a'r Herodianiaid ynghylch talu teyrnged i Cesar; 18 yn argyhoeddi amryfusedd y Saduceaid, y rhai a wadent yr adgyfodiad; 23 yn atteb yr ysgrifenydd oedd yn ymofyn am y gorchymyn cyntaf; 35 yn beio ar dyb yr ysgrifenyddion am Grist; 38 ac yn gorchymyn i'r bobl ochelyd eu huchder a'u rhagrith hwy; 41 ac yn canmol y weddw dlawd am ei dwy hatling, yn fwy na neb.

AC efe a ddechreuodd ddywedyd wrthynt ar ddamhegion. Gŵr a blannodd winllan, ac a ddododd gae o'*i* hamgylch, ac a gloddiodd *le i*'r gwin-gafn, ac a adeiladodd dŵr, ac a'i gosododd hi allan i lafurwyr, ac a aeth oddi cartref.

2 Ac efe a anfonodd was mewn amser at y llafurwyr, i ddderbyn gan y llafurwyr o ffrwyth y winllan.

3 A hwy a'*i* daliasant *ef*, ac a'i baeddasant, ac a'*i* gyrrasant ymaith yn wag-*law*.

4 A thrachefn yr anfonodd efe attynt was arall; a hwnnw y taflasant gerrig atto, ac yr archollasant *ei* ben, ac a'*i* gyrrasant ymaith yn ammharchus.

5 A thrachefn yr anfonodd efe un arall; a hwnnw a laddasant: a llawer eraill; gan faeddu rhai, a lladd y lleill.

6 Am hynny etto, a chanddo un mab, ei anwylyd, efe a anfonodd hwnnw hefyd attynt yn ddiweddaf,

gan ddywedyd, Hwy a barchant fy mab i.
7 Ond y llafurwyr hynny a ddywedasant yn eu plith eu hunain, Hwn yw yr etifedd; deuwch, lladdwn ef, a'r etifeddiaeth fydd eiddom ni.
8 A hwy a'i daliasant ef, ac a'*i* lladdasant, ac a'*i* bwriasant allan o'r winllan.
9 Beth gan hynny a wna arglwydd y winllan? efe a ddaw, ac a ddifetha y llafurwyr, ac a rydd y winllan i eraill.
10 Oni ddarllenasoch yr ysgrythyr hon? Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, *hwn* a wnaethpwyd yn ben y gongl:
11 Hyn a wnaethpwyd gan yr Arglwydd; a rhyfedd yw yn ein golwg ni.
12 A hwy a geisiasant ei ddala ef; ac yr oedd arnynt ofn y dyrfa: canys hwy a wyddent mai yn eu herbyn hwy y dywedasai efe y ddammeg: a hwy a'i gadawsant ef, ac a aethant ymaith.
13 ¶ A hwy a anfonasant atto rai o'r Phariseaid, ac o'r Herodianiaid, i'w rwydo ef yn *ei* ymadrodd.
14 Hwythau, pan ddaethant, a ddywedasant wrtho, Athraw, ni a wyddom dy fod di yn eirwir, ac nad oes arnat ofal rhag neb: canys nid wyt ti yn edrych ar wyneb dynion, ond yr wyt yn dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd: Ai cyfreithlawn rhoi teyrnged i Cesar, ai nid *yw?* a roddwn, ai ni roddwn *hi?*
15 Ond efe, gan wybod eu rhagrith hwynt, a ddywedodd wrthynt, Paham y temtiwch fi? dygwch i mi geiniog, fel y gwelwyf *hi.*
16 A hwy a'*i* dygasant. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Eiddo pwy *yw* y ddelw hon a'r argraph? A hwy a ddywedasant wrtho, Eiddo Cesar.
17 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Rhoddwch yr eiddo Cesar i Cesar, a'r eiddo Duw i Dduw. A rhyfeddu a wnaethant o'i blegid.
18 ¶ Daeth y Saduceaid hefyd atto, y rhai a ddywedant nad oes adgyfodiad; a gofynasant iddo, gan ddywedyd,
19 Athraw, Moses a ysgrifenodd i ni, O bydd marw brawd neb, a gadu ei wraig, ac heb adu plant, am gymmeryd o'i frawd ei wraig ef, a chodi had i'w frawd.
20 Yr oedd gan hynny saith o frodyr: a'r cyntaf a gymmerth wraig; a phan fu farw, ni adawodd had.
21 A'r ail a'i cymmerth hi, ac a fu farw, ac ni adawodd yntau had: a'r trydydd yr un modd.
22 A hwy a'i cymmerasant hi ill saith, ac ni adawsant had. Yn ddiweddaf o'r cwbl bu farw y wraig hefyd.
23 Yn yr adgyfodiad gan hynny, pan adgyfodant, gwraig i ba un o honynt fydd hi? canys y saith a'i cawsant hi yn wraig.
24 A'r Iesu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, Onid am hyn yr ydych yn cyfeiliorni, am nad ydych yn gwybod yr ysgrythyrau, na gallu Duw?
25 Canys pan adgyfodant o feirw, ni wreiccant, ac ni ŵrant; eithr y maent fel yr angylion sydd yn y nefoedd.
26 Ond am y meirw, yr adgyfodir hwynt; oni ddarllenasoch chwi yn llyfr Moses, y modd y llefarodd Duw wrtho yn y berth, gan ddywedyd, Myfi *yw* Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob?
27 Nid yw efe Dduw y meirw, ond Duw y rhai byw: am hynny yr ydych chwi yn cyfeiliorni yn fawr.
28 ¶ Ac un o'r ysgrifenyddion a ddaeth, wedi eu clywed hwynt yn ymresymmu, a gwybod atteb o hono iddynt yn gymmwys, ac a ofynodd iddo, Pa un yw y gorchymyn cyntaf o'r cwbl?
29 A'r Iesu a attebodd iddo, Y cyntaf o'r holl orchymynion *yw,* Clyw, Israel; Yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw:
30 A chân yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth. Hwn yw y gorchymyn cyntaf.
31 A'r ail *sydd* gyffelyb iddo; Câr dy gymmydog fel ti dy hun. Nid oes orchymyn arall mwy na'r rhai hyn.
32 A dywedodd yr ysgrifenydd

wrtho, Da, Athraw, mewn gwirion-
edd y dywedaist, mai un Duw sydd,
ac nad oes arall ond efe:
33 A'i garu ef â'r holl galon, ac
â'r holl ddeall, ac â'r holl enaid, ac
â'r holl nerth, a charu *ei* gymmydog
megis ei hun, sydd fwy na'r holl
boeth-offrymmau a'r aberthau.
34 A'r Iesu, pan welodd iddo at-
teb yn synhwyrol, a ddywedodd
wrtho, Nid wyt ti bell oddi wrth
deyrnas Dduw. Ac ni feiddiodd
neb mwy ymofyn âg ef.
35 ¶ A'r Iesu a attebodd ac a
ddywedodd, wrth ddysgu yn y deml,
Pa fodd y dywed yr ysgrifenyddion
fod Crist yn fab Dafydd?
36 Canys Dafydd ei hun a ddy-
wedodd trwy yr Ysbryd Glân, Yr
ARGLWYDD a ddywedodd wrth fy
Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw,
hyd oni osodwyf dy elynion yn
droedfainge i'th draed.
37 Y mae Dafydd ei hun, gan
hynny, yn ei alw ef yn Arglwydd;
ac o ba le y mae efe yn fab iddo?
A llawer o bobl a'i gwrandawent ef
yn ewyllysgar.
38 ¶ Ac efe a ddywedodd wrth-
ynt yn ei athrawiaeth, Ymogelwch
rhag yr ysgrifenyddion, y rhai a
chwennychant rodio mewn gwisg-
oedd llaesion, a chael cyfarch yn
y marchnadoedd,
39 A'r prif-gadeiriau yn y syna-
gogau, a'r prif-eisteddleoedd mewn
swpperau;
40 Y rhai sydd yn llwyr-fwytta
tai gwragedd gweddwon, ac mewn
rhith yn hir-weddïo: y rhai hyn a
dderbyniant farnedigaeth fwy.
41 ¶ A'r Iesu a eisteddodd gyfer-
byn â'r drysorfa, ac a edrychodd
pa fodd yr oedd y bobl yn bwrw
arian i'r drysorfa: a chyfoethogion
lawer a fwriasant lawer.
42 A rhyw wraig weddw dlawd a
ddaeth, ac a fwriodd i mewn ddwy
hatling, yr hyn yw ffyrling.
43 Ac efe a alwodd ei ddisgyblion
atto, ac a ddywedodd wrthynt, Yn
wir yr wyf yn dywedyd i chwi,
fwrw o'r wraig weddw dlawd hon
i mewn fwy na'r rhai oll a fwrias-
ant i'r drysorfa.
44 Canys *hwynt-hwy* oll a fwrias-
ant o'r hyn a oedd y'ngweddill gan-
ddynt: ond hon o'i heisieu a fwr-
iodd i mewn yr hyn oll a feddai,
sef ei holl fywyd.

PENNOD 13.

1 *Crist yn rhag-fynegi dinystr y deml:* 9 *yr erlidiau o achos yr efengyl:* 10 *y bydd rhaid pregethu yr efengyl i'r Cenhedloedd oll:* 14 *y mawr gystuddiau a ddigwyddai i'r Iuddewon:* 24 *a dull ei ddyfodiad ef i'r farn:* 32 *o ran na ŵyr neb yr awr, y dylai pob dyn wylied a gweddïo, rhag ein cael yn ammharod pan ddêl efe at bob un trwy farwolaeth.*

AC fel yr oedd efe yn myned
allan o'r deml, un o'i ddisgybl-
ion a ddywedodd wrtho, Athraw,
edrych pa ryw feini, a pha fath
adeiladau *sydd yma.*
2 A'r Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd wrtho, A weli di yr adeil-
adau mawrion hyn? ni edir maen
ar faen, a'r nis dattodir.
3 Ac fel yr oedd efe yn eistedd
ar fynydd yr Olew-wydd, gyferbyn
â'r deml, Pedr, ac Iago, ac Ioan,
ac Andreas, a ofynasant iddo o'r
neilldu,
4 Dywed i ni pa bryd y bydd y
pethau hyn? a pha arwydd *fydd*
pan fo y pethau hyn oll ar ddi-
bennu?
5 A'r Iesu a attebodd iddynt, ac a
ddechreuodd ddywedyd, Edrych-
wch rhag twyllo o neb chwi:
6 Canys llawer un a ddaw yn fy
enw i, gan ddywedyd, Myfi yw
Crist; ac a dwyllant lawer.
7 Ond pan glywoch am ryfeloedd,
a sôn am ryfeloedd, na chyffrôer
chwi: canys rhaid *i hynny* fod;
ond nid *yw* y diwedd etto.
8 Canys cenedl a gyfyd yn erbyn
cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrn-
as: a daeargrynfäau fyddant mewn
mannau, a newyn a thrallod fydd-
ant.
9 ¶ Dechreuad gofidiau *yw* y peth-
au hyn. Eithr edrychwch chwi ar-
noch eich hunain: canys traddod-
ant chwi i'r cynghorau, ac i'r syna-
gogau; chwi a faeddir, ac a ddygir
ger bron rhaglawiaid a brenhin-
oedd o'm hachos i, er tystiolaeth
iddynt hwy.
10 Ac y mae yn rhaid yn gyntaf
bregethu yr efengyl ym mysg yr
holl genhedloedd.
11 Ond pan ddygant *chwi,* a'ch

traddodi, na rag-ofelwch beth a ddywedoch, ac na fyfyriwch: eithr pa beth bynnag a rodder i chwi yn yr awr honno, hynny dywedwch: canys nid chwychwi sydd yn dywedyd, ond yr Ysbryd Glân.

12 A'r brawd a ddyry frawd i farwolaeth, a thad ei blentyn: a phlant a gyfyd yn erbyn *eu* rhïeni, ac a'u rhoddant hwy i farwolaeth.

13 A chwi a fyddwch gas gan bawb er mwyn fy enw i: eithr y neb a barhao hyd y diwedd, hwnnw a fydd gadwedig.

14 ¶ Ond pan weloch chwi y ffieidd-dra anghyfanneddol, yr hwn a ddywedwyd gan Daniel y prophwyd, wedi ei osod lle nis dylid, (y neb a ddarlleno, dealled;) yna y rhai a fyddant yn Judea, ffoant i'r mynyddoedd:

15 A'r neb a fyddo ar ben y tŷ, na ddisgyned i'r tŷ, ac nac aed i mewn i gymmeryd dim o'i ddŷ.

16 A'r neb a fyddo yn y maes, na throed yn ei ol i gymmeryd ei wisg.

17 Ond gwae y rhai beichiog, a'r rhai yn rhoi bronnau, yn y dyddiau hynny!

18 Ond gweddïwch na byddo eich ffoedigaeth yn y gauaf.

19 Canys yn y dyddiau hynny y bydd gorthrymder, y cyfryw ni bu y fath o ddechreu y creadwriaeth a greodd Duw, hyd y pryd hwn, ac ni bydd chwaith.

20 Ac oni bai fod i'r Arglwydd fyrhâu y dyddiau, ni chadwesid un cnawd: eithr er mwyn yr etholedigion a etholodd, efe a fyrhaodd y dyddiau.

21 Ac yna os dywed neb wrthych, Wele, llyma y Crist; neu, Wele, accw; na chredwch:

22 Canys gau-Gristiau a gau-brophwydi a gyfodant, ac a ddangosant arwyddion a rhyfeddodau, i hudo ymaith, pe *byddai* bosibl, ïe, yr etholedigion.

23 Eithr ymogelwch chwi: wele, rhag-ddywedais i chwi bob peth.

24 ¶ Ond yn y dyddiau hynny, wedi y gorthrymder hwnnw, y tywylla yr haul, a'r lloer ni rydd ei goleuni,

25 A sêr y nef a syrthiant, a'r nerthoedd sydd yn y nefoedd a siglir.

26 Ac yna y gwelant Fab y dyn yn dyfod yn y cymmylau, gyd â gallu mawr a gogoniant.

27 Ac yna yr enfyn efe ei angylion, ac y cynnull ei etholedigion oddi wrth y pedwar gwynt, o eithaf y ddaear hyd eithaf y nef.

28 Ond dysgwch ddammeg oddi wrth y ffigysbren: Pan fo ei gangen eisoes yn dyner, a'r dail yn torri allan, chwi a wyddoch fod yr haf yn agos:

29 Ac felly chwithau, pan weloch y pethau hyn wedi dyfod, gwybyddwch ei fod yn agos, wrth y drysau.

30 Yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, nad â yr oes hon heibio, hyd oni wneler y pethau hyn oll.

31 Nef a daear a ânt heibio: ond y geiriau mau fi nid ânt heibio ddim.

32 ¶ Eithr am y dydd hwnnw a'r awr ni ŵyr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad.

33 Ymogelwch, gwyliwch a gweddïwch: canys ni wyddoch pa bryd y bydd yr amser.

34 *Canys Mab y dyn sydd* fel gŵr yn ymdaith i bell, wedi gadael ei dŷ, a rhoi awdurdod i'w weision, ac i bob un ei waith ei hun, a gorchymyn i'r drysawr wylio.

35 Gwyliwch gan hynny, (canys nis gwyddoch pa bryd y daw meistr y tŷ; yn yr hwyr, ai hanner nos, ai ar ganiad y ceiliog, ai y boreddydd;)

36 Rhag iddo ddyfod yn ddisymmwth, a'ch cael chwi yn cysgu.

37 A'r hyn yr wyf yn eu dywedyd wrthych chwi, yr wyf yn eu dywedyd wrth bawb, Gwyliwch.

PENNOD 14.

1 *Cyd-furiad yn erbyn Crist.* 3 *Gwraig yn tywallt ennaint gwerthfawr ar ei ben ef.* 10 *Judas yn gwerthu ei feistr am arian.* 12 *Crist ei hun yn rhag-ddywedyd y bradychai un o'i ddisyblion ef.* 22 *Wedi darpara a bwyta y pasc, y mae yn ordeinio ei swpper;* 26 *yn hysbysu ym mlaen llaw y ffoai ei holl ddisyblion, ac y gwadai Pedr ef.* 43 *Judas yn ei fradychu ef â chusan.* 46 *Ei ddala ef yn yr ardd.* 53 *Cynnulleidfa yr Iuddewon yn achwyn arno ef ar gam, ac yn ei farnu yn annuwiol,* 65 *ac yn ei ammherchi yn gywilyddus.* 66 *Pedr yn ei wadu ef deirgwaith.*

AC wedi deuddydd yr oedd y pasc, a *gwyl* y bara croyw: a'r

arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a geisiasant pa fodd y dalient ef trwy dwyll, ac y lladdent ef:
2 Eithr dywedasant, Nid ar yr wyl, rhag bod cynnwrf ym mhlith y bobl.
3 ¶ A phan oedd efe yn Bethania, yn nhŷ Simon y gwahan-glwyfus, ac efe yn eistedd i fwytta, daeth gwraig a chanddi flwch o ennaint o nard gwlyb gwerthfawr; a hi a dorrodd y blwch, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef.
4 Ac yr oedd rhai yn anfoddlawn ynddynt eu hunain, ac yn dywedyd, I ba beth y gwnaethpwyd y golled hon o'r ennaint?
5 Oblegid fe a allasid gwerthu hwn uwch law tri chan ceiniog, a'u rhoddi i'r tlodion. A hwy a ffrommasant yn ei herbyn hi.
6 A'r Iesu a ddywedodd, Gadêwch iddi; paham y gwnewch flinder iddi? hi a wnaeth weithred dda arnaf fi.
7 Canys bob amser y cewch y tlodion gyd â chwi; a phan fynnoch ý gellwch wneuthur da iddynt hwy: ond myfi ni chewch bob amser.
8 Hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth: hi a achubodd y blaen i enneinio fy nghorph erbyn y claddedigaeth.
9 Yn wir meddaf i chwi, Pa le bynnag y pregether yr efengyl hon yn yr holl fyd, *yr hyn* a wnaeth hon hefyd a adroddir er coffa am dani.
10 ¶ A Judas Iscariot, un o'r deuddeg, a aeth ymaith at yr arch-offeiriaid, i'w fradychu ef iddynt.
11 A phan glywsant, fe fu lawen ganddynt, ac a addawsant roi arian iddo. Yntau a geisiodd pa fodd y gallai yn gymmwys ei fradychu ef.
12 ¶ A'r dydd cyntaf o *wyl* y bara croyw, pan âberthent y pasc, dywedodd ei ddisgyblion wrtho, I ba le yr wyt ti yn ewyllysio i ni fyned i barottôi i ti, i fwytta y pasc?
13 Ac efe a anfonodd ddau o'i ddisgyblion, ac a ddywedodd wrthynt, Ewch i'r ddinas; a chyferfydd â chwi ddyn yn dwyn ystenaid o ddwfr: dilynwch ef.
14 A pha le bynnag yr êl i mewn, dywedwch wrth ŵr y tŷ, Fod yr Athraw yn dywedyd, Pa le y mae y lletty, lle y gallwyf, mi a'm disgyblion, fwytta y pasc?
15 Ac efe a ddengys i chwi oruwchystafell fawr wedi ei thaenu yn barod: yno parottôwch i ni.
16 A'i ddisgyblion a aethant, ac a ddaethant i'r ddinas; ac a gawsant megis y dywedasai efe wrthynt: ac a barottoisant y pasc.
17 A phan aeth hi yn hwyr, efe a ddaeth gyd â'r deuddeg.
18 Ac fel yr oeddynt yn eistedd, ac yn bwytta, yr Iesu a ddywedodd, Yn wir meddaf i chwi, Un o honoch, yr hwn sydd yn bwytta gyd â myfi, a'm bradycha i.
19 Hwythau a ddechreuasant dristâu, a dywedyd wrtho bob yn un ac un, Ai myfi? ac arall, Ai myfi?
20 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Un o'r deuddeg, yr hwn sydd yn gwlychu gyd â mi yn y ddysgl, *yw efe.*
21 Mab y dyn yn wir sydd yn myned ymaith, fel y mae yn ysgrifenedig am dano: ond gwae y dyn hwnnw trwy yr hwn y bradychir Mab y dyn! da fuasai i'r dyn hwnnw pe nas ganesid.
22 ¶ Ac fel yr oeddynt yn bwytta, yr Iesu a gymmerodd fara, ac a'*i* bendithiodd, ac a'*i* torrodd, ac a'*i* rhoddes iddynt; ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttêwch: hwn yw fy nghorph.
23 Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, a rhoi diolch, efe a'i rhoddes iddynt: a hwynt oll a yfasant o hono.
24 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Hwn yw fy ngwaed i o'r testament newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer.
25 Yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych, nad yfaf mwy o ffrwyth y winwydden, hyd y dydd hwnnw pan yfwyf ef yn newydd yn nheyrnas Dduw.
26 ¶ Ac wedi iddynt ganu mawl, hwy a aethant allan i fynydd yr Olew-wydd.
27 A dywedodd yr Iesu wrthynt, Chwi a rwystrir oll o'm plegid i y nos hon: canys ysgrifenedig yw, Tarawaf y bugail, a'r defaid a wasgerir.

28 Eithr wedi i mi adgyfodi, mi a âf o'ch blaen chwi i Galilea.
29 Ond Pedr a ddywedodd wrtho, Pe byddai pawb wedi eu rhwystro, etto ni *byddaf* fi.
30 A dywedodd yr Iesu wrtho, Yn wir yr ydwyf yn dywedyd i ti, Heddyw, o fewn y nos hon, cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, y gwedi fi deirgwaith.
31 Ond efe a ddywedodd yn helaethach o lawer, Pe gorfyddai i mi farw gyd â thi, ni'th wadaf ddim. A'r un modd y dywedasant oll.
32 A hwy a ddaethant i le yr oedd ei enw Gethsemane: ac efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Eisteddwch yma, tra fyddwyf yn gweddïo.
33 Ac efe a gymmerth gyd âg ef Pedr, ac Iago, ac Ioan, ac a ddechreuodd ymofidio, a thristâu yn ddirfawr.
34 Ac *efe* a ddywedodd wrthynt, Y mae fy enaid yn athrist hyd angau: arhoswch yma, a gwyliwch.
35 Ac efe a aeth ychydig ym mlaen, ac a syrthiodd ar y ddaear, ac a weddïodd, o bai bosibl, ar fyned yr awr honno oddi wrtho.
36 Ac efe a ddywedodd, Abba, Dad, pob peth *sydd* bosibl i ti: tro heibio y cwppan hwn oddi wrthyf: eithr nid y peth yr ydwyf fi yn ei ewyllysio, ond y peth yr ydwyt ti.
37 Ac efe a ddaeth, ac a'u cafodd hwy yn cysgu; ac a ddywedodd wrth Pedr, Simon, ai cysgu yr wyt ti? oni allit wylio un awr?
38 Gwyliwch a gweddïwch, rhag eich myned mewn temtasiwn. Yr ysprydyn ddïau *sydd* barod, ond y cnawd *sydd* wan.
39 Ac wedi iddo fyned ymaith drachefn, efe a weddïodd, gan ddywedyd yr un ymadrodd.
40 Ac wedi iddo ddychwelyd, efe a'u cafodd hwynt drachefn yn cysgu; canys yr oedd eu llygaid hwynt wedi trymhâu: ac ni wyddent beth a attebent iddo.
41 Ac efe a ddaeth y drydedd waith, ac a ddywedodd wrthynt, Cysgwch weithian, a gorphwyswch: digon yw; daeth yr awr: wele, yr ydys yn bradychu Mab y dyn i ddwylaw pechaduriaid.
42 Cyfodwch, awn; wele, y mae yr hwn sydd yn fy mradychu yn agos.
43 ¶ Ac yn y man, ac efe etto yn llefaru, daeth Judas, un o'r deuddeg, a chyd âg ef dyrfa fawr â chleddyfau a ffyn, oddi wrth yr arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'r henuriaid.
44 A'r hwn a'i bradychodd ef a roddasai arwydd iddynt, gan ddywedyd, Pwy bynnag a gusanwyf, hwnnw yw: deliwch ef, a dygwch ymaith yn sicr.
45 A phan ddaeth, yn ebrwydd efe a aeth atto, ac a ddywedodd, Rabbi, Rabbi; ac a'i cusanodd ef.
46 ¶ A hwythau a roisant eu dwylaw arno, ac a'i daliasant ef.
47 A rhyw un o'r rhai oedd yn sefyll ger llaw, a dynnodd ei gleddyf, ac a darawodd was yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ymaith ei glust ef.
48 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Ai megis at leidr y daethoch allan, â chleddyfau ac *â* ffyn, i'm dala i?
49 Yr oeddwn i beunydd gyd â chwi yn athrawiaethu yn y deml, ac ni'm daliasoch: ond rhaid yw cyflawni yr ysgrythyrau.
50 A hwynt oll a'i gadawsant ef, ac a ffoisant.
51 A rhyw ŵr ieuangc oedd yn ei ddilyn ef, wedi ymwisgo â llïan main ar ei gorph noeth; a'r gwŷr ieuaingc a'i daliasant ef.
52 A hwn a adawodd y llïan, ac a ffodd oddi wrthynt yn noeth.
53 ¶ A hwy a ddygasant yr Iesu at yr arch-offeiriad: a'r holl arch-offeiriaid, a'r henuriaid, a'r ysgrifenyddion, a ymgasglasant gyd âg ef.
54 A Phedr a'i canlynodd ef o hirbell, hyd yn llys yr arch-offeiriad; ac yr oedd efe yn eistedd gyd â'r gwasanaethwyr, ac yn ymdwymo wrth y tân.
55 A'r arch-offeiriaid a'r holl gynghor a geisiasant dystiolaeth yn erbyn yr Iesu, i'w roi ef i'*w* farwolaeth; ac ni chawsant.
56 Canys llawer a ddygasant gau-dystiolaeth yn ei erbyn ef; eithr nid oedd eu tystiolaethau hwy yn gysson.

57 A rhai a gyfodasant ac a ddygasant gam-dystiolaeth yn ei erbyn, gan ddywedyd,
58 Ni a'i clywsom ef yn dywedyd, Mi a ddinystriaf y deml hon o waith dwylaw, ac mewn tridiau yr adeiladaf arall heb fod o waith llaw.
59 Ac etto nid oedd eu tystiolaeth hwy felly yn gysson.
60 A chyfododd yr arch-offeiriad yn y canol, ac a ofynodd i'r Iesu, gan ddywedyd, Oni attebi di ddim? beth y mae y rhai hyn yn ei dystiolaethu yn dy erbyn?
61 Ac efe a dawodd, ac nid attebodd ddim. Drachefn yr arch-offeiriad a ofynodd iddo, ac a ddywedodd wrtho, Ai tydi yw Crist, Mab y Bendigedig?
62 A'r Iesu a ddywedodd, Myfi yw: a chwi a gewch weled Mab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod y'nghymmylau y nef.
63 Yna yr arch-offeiriad, gan rwygo ei ddillad, a ddywedodd, Pa raid i ni mwy wrth dystion?
64 Chwi a glywsoch y gabledd: beth dybygwch chwi? A hwynt oll a'i condemniasant ef, ei fod yn euog o farwolaeth.
65 A dechreuodd rhai boeri arno, a chuddio ei wyneb, a'i gernodio; a dywedyd wrtho, Prophwyda. A'r gweinidogion a'i tarawsant ef â gwïail.
66 ¶ Ac fel yr oedd Pedr yn y llys i waered, daeth un o forwynion yr arch-offeiriad:
67 A phan ganfu hi Pedr yn ymdwymo, hi a edrychodd arno, ac a ddywedodd, Tithau hefyd oeddit gyd â'r Iesu o Nasareth.
68 Ac efe a wadodd, gan ddywedyd, Nid adwaen i, ac ni wn i beth yr wyt yn ei ddywedyd. Ac efe a aeth allan i'r porth; a'r ceiliog a ganodd.
69 A phan welodd y llangces ef drachefn, hi a ddechreuodd ddywedyd wrth y rhai oedd yn sefyll yno, Y mae hwn *yn un* o honynt.
70 Ac efe a wadodd drachefn. Ac ychydig wedi, y rhai oedd yn sefyll ger llaw a ddywedasant wrth Pedr drachefn, Yn wir yr wyt ti *yn un* o honynt; canys Galilead wyt, a'th leferydd sydd debyg.
71 Ond efe a ddechreuodd regu a thyngu, Nid adwaen i y dyn yma yr ydych chwi yn dywedyd am dano.
72 A'r ceiliog a ganodd yr ail waith. A Phedr a gofiodd y gair a ddywedasai yr Iesu wrtho, Cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, ti a'm gwedi deirgwaith. A chan ystyried hynny, efe a wylodd.

PENNOD 15.

1 *Dwyn yr Iesu yn rhwym, ac achwyn arno ger bron Pilat.* 15 *Wrth foedd y bobl gyffredin, gollwng Barabbas y llofrudd yn rhydd, a thraddodi yr Iesu i'w groeshoelio.* 17 *Ei goroni ef â drain,* 19 *poeri arno, a'i watwar.* 21 *Efe yn diffygio yn dwyn ei groes.* 27 *Ei grogi ef rhwng dau leidr.* 29 *Y mae yn dioddef difenwad yr Iuddewon:* 39 *etto y canwriad yn cyffesu ei fod ef yn Fab Duw:* 43 *a Joseph yn ei gladdu ef yn barchedig.*

AC yn y fan, y bore, yr ymgynghorodd yr arch-offeiriaid gyd â'r henuriaid a'r ysgrifenyddion, a'r holl gynghor: ac wedi iddynt rwymo yr Iesu, hwy a'*i* dygasant *ef* ymaith, ac a'*i* traddodasant at Pilat.
2 A gofynodd Pilat iddo, Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? Yntau a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yr wyt ti yn dywedyd.
3 A'r arch-offeiriaid a'i cyhuddasant ef o lawer o bethau: eithr nid attebodd efe ddim.
4 A Philat drachefn a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Onid attebi di ddim? wele faint o bethau y maent yn eu tystiolaethu yn dy erbyn.
5 Ond yr Iesu etto nid attebodd ddim; fel y rhyfeddodd Pilat.
6 Ac ar yr wyl *honno* y gollyngai efe yn rhydd iddynt un carcharor, yr hwn a ofynent iddo.
7 Ac yr oedd *un* a elwid Barabbas, yr hwn oedd yn rhwym gyd â'i gyd-derfysgwyr, y rhai yn y derfysg a wnaethent lofruddiaeth.
8 A'r dyrfa gan groch-lefain, a ddechreuodd ddeisyf *arno wneuthur* fel y gwnaethai bob amser iddynt.
9 A Philat a attebodd iddynt, gan ddywedyd, A fynnwch chwi i mi ollwng yn rhydd i chwi Frenhin yr Iuddewon?
10 (Canys efe a wyddai mai o genfigen y traddodasai yr arch-offeiriaid ef.)
11 A'r arch-offeiriaid a gynhyrfasent y bobl, fel y gollyngai efe yn hytrach Barabbas yn rhydd iddynt.

12 A Philat a attebodd ac a ddywedodd drachefn wrthynt, Beth gan hynny a fynnwch i mi ei wneuthur *i'r hwn* yr ydych yn ei alw Brenhin yr Iuddewon?
13 A hwythau a lefasant drachefn, Croeshoelia ef.
14 Yna Pilat a ddywedodd wrthynt, Ond pa ddrwg a wnaeth efe? A hwythau a lefasant fwyfwy, Croeshoelia ef.
15 ¶ A Philat yn chwennych boddloni y bobl, a ollyngodd yn rhydd iddynt Barabbas; a'r Iesu, wedi iddo *ei* fflangellu, a draddododd efe i'*w* groeshoelio.
16 A'r milwyr a'i dygasant ef i fewn y llys, a elwir Pretorium: a hwy a alwasant ynghyd yr holl fyddin;
17 Ac a'i gwisgasant ef â phorphor, ac a blethasant goron o ddrain, ac a'i dodasant am ei *ben;*
18 Ac a ddechreuasant gyfarch iddo, Henffych well, Brenhin yr Iuddewon.
19 A hwy a gurasant ei ben ef â chorsen, ac a boerasant arno, a chan ddodi *eu* gliniau *i lawr*, a'i haddolasant ef.
20 Ac wedi iddynt ei watwar ef, hwy a ddïosgasant y porphor oddi am dano, ac a'i gwisgasant ef â'i ddillad ei hun, ac a'i dygasant allan i'w groeshoelio.
21 A hwy a gymhellasant un Simon o Cyrene, yr hwn oedd yn myned heibio, wrth ddyfod o'r wlad, *sef* tad Alexander a Ruffus, i ddwyn ei groes ef.
22 A hwy a'i harweiniasant ef i le *a elwid* Golgotha; yr hyn o'i gyfieithu yw, Lle y benglog;
23 Ac a roisant iddo i'w yfed win myrllyd: eithr efe nis cymmerth.
24 Ac wedi iddynt ei groeshoelio, hwy a rannasant ei ddillad ef, gan fwrw coelbren arnynt, beth a gai pob un.
25 A'r drydedd awr oedd hi; a hwy a'i croeshoeliasant ef.
26 Ac yr oedd ysgrifen ei achos ef wedi ei hargraphu, BRENHIN YR IUDDEWON.
27 A hwy a groeshoeliasant gyd âg ef ddau leidr; un ar y llaw ddehau, ac un ar yr aswy iddo.
28 A'r ysgrythyr a gyflawnwyd, yr hon a ddywed, Ac efe a gyfrifwyd gyd â'r rhai anwir.
29 A'r rhai oedd yn myned heibio a'i cablasant ef, gan ysgwyd eu pennau, a dywedyd, Och, tydi yr hwn wyt yn dinystrio y deml, ac yn *ei* hadeiladu mewn tridiau,
30 Gwared dy hun, a disgyn oddi ar y groes.
31 Yr un ffunud yr arch-offeiriaid hefyd yn gwatwar, a ddywedasant wrth eu gilydd, gyd â'r ysgrifenyddion, Eraill a waredodd, ei hun nis gall ei wared.
32 Disgyned Crist, Brenhin yr Israel, yr awr hon oddi ar y groes, fel y gwelom, ac y credom. A'r rhai a groeshoeliesid gyd âg ef, a'i difenwasant ef.
33 A phan ddaeth y chweched awr, y bu tywyllwch ar yr holl ddaear hyd y nawfed awr.
34 Ac ar y nawfed awr y dolefodd yr Iesu â llef uchel, gan ddywedyd, Eloi, Eloi, lama sabachthani? yr hyn o'i gyfieithu yw, Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?
35 A rhai o'r rhai a safent ger llaw, pan glywsant, a ddywedasant, Wele, y mae efe yn galw ar Elïas.
36 Ac un a redodd, ac a lanwodd yspwng yn llawn o finegr, ac a'i dododd ar gorsen, ac a'i dïododd ef, gan ddywedyd, Peidiwch, edrychwn a ddaw Elïas i'w dynnu ef i lawr.
37 A'r Iesu a lefodd â llef uchel, ac a ymadawodd â'r yspryd.
38 A llen y deml a rwygwyd yn ddwy, oddi fyny hyd i waered.
39 A phan welodd y canwriad, yr hwn oedd yn sefyll ger llaw gyferbyn âg ef, ddarfod iddo yn llefain felly ymadaw â'r yspryd, efe a ddywedodd, Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn.
40 Ac yr oedd hefyd wragedd yn edrych o hirbell: ym mhlith y rhai yr oedd Mair Magdalen, a Mair mam Iago fychan a Jose, a Salome;
41 Y rhai hefyd, pan oedd efe yn Galilea, a'i dilynasant ef, ac a weiniasant iddo; a gwragedd eraill lawer, y rhai a ddaethent gyd âg ef i fyny i Jerusalem.
42 ¶ Pan ydoedd hi weithian yn

hwyr, (am ei bod hi yn ddarpar-wyl, sef y dydd cyn y Sabbath,)

43 Daeth Joseph o Arimathea, cynghorwr pendefigaidd, yr hwn oedd yntau yn disgwyl am deyrnas Dduw, ac a aeth yn hyf i mewn at Pilat, ac a ddeisyfodd gorph yr Iesu.

44 A rhyfedd oedd gan Pilat o buasai efe farw eisoes: ac wedi iddo alw y canwriad atto, efe a ofynodd iddo a oedd efe wedi marw er ys meityn.

45 A phan wybu gan y canwriad, efe a roddes y corph i Joseph.

46 Ac efe a brynodd lïan main, ac a'i tynnodd ef i lawr, ac a'i hamdôdd yn y llïan main, ac a'i dododd ef mewn bedd a naddasid o'r graig; ac a dreiglodd faen ar ddrws y bedd.

47 A Mair Magdalen a Mair mam Jose, a edrychasant pa le y dodid ef.

PENNOD 16.

1 *Angel yn mynegi adgyfodiad Crist i dair o wragedd.* 9 *Crist ei hun yn ymddangos i Mair Magdalen:* 12 *i ddau oedd yn myned i'r wlad:* 14 *yna i'r apostolion,* 15 *y rhai y mae efe yn eu hanfon allan i bregethu yr efengyl:* 19 *mae yn esgyn i'r nefoedd.*

AC wedi darfod y *dydd* Sabbath, Mair Magdalen, a Mair *mam* Iago, a Salome, a brynasant bêr-aroglau, i ddyfod i'w enneinio ef.

2 Ac yn fore iawn, y *dydd* cyntaf o'r wythnos, y daethant at y bedd, a'r haul wedi codi.

3 A hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Pwy a dreigla i ni y maen ymaith oddi wrth ddrws y bedd?

4 (A phan edrychasant, hwy a ganfuant fod y maen wedi ei dreiglo ymaith;) canys yr oedd efe yn fawr iawn.

5 Ac wedi iddynt fyned i mewn i'r bedd, hwy a welsant fab ieuangc yn eistedd o'r tu dehau, wedi ei ddilladu â gwisg wenllaes; ac a ddychrynasant.

6 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Na ddychrynwch. Ceisio yr ydych yr Iesu o Nasareth, yr hwn a groeshoeliwyd: efe a gyfododd; nid yw efe yma: wele y man y dodasant ef.

7 Eithr ewch ymaith, dywedwch i'w ddisgyblion ef, ac i Pedr, ei fod ef yn myned o'ch blaen chwi i Galilea: yno y cewch ei weled ef, fel y dywedodd i chwi.

8 Ac wedi myned allan ar frys, hwy a ffoisant oddi wrth y bedd; canys dychryn a syndod oedd arnynt. Ac ni ddywedasant ddim wrth neb: canys yr oeddynt wedi ofni.

9 ¶ A'*r Iesu*, wedi adgyfodi y bore ý *dydd* cyntaf o'r wythnos, a ymddangosodd yn gyntaf i Mair Magdalen, o'r hon y bwriasai efe allan saith o gythreuliaid.

10 Hithau a aeth, ac a fynegodd i'r rhai a fuasent gyd âg ef, ac oeddynt mewn galar ac wylofain.

11 A hwythau, pan glywsant ei fod ef yn fyw, ac iddi hi ei weled ef, ni chredent.

12 ¶ Ac wedi hynny yr ymddangosodd efe mewn gwedd arall i ddau o honynt, *a hwynt* yn ymdeithio, ac yn myned i'r wlad.

13 A hwy a aethant, ac a fynegasant i'r lleill: ac ni chredent iddynt hwythau.

14 ¶ *Ac* ar ol hynny efe a ymddangosodd i'r un ar ddeg, a hwy yn eistedd i fwytta; ac a ddannododd iddynt eu hanghrediniaeth a'u calon-galedwch, am na chredasent y rhai a'i gwelsent ef wedi adgyfodi.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur.

16 Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd gadwedig: eithr y neb ni chredo a gondemnir.

17 A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant: Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; *ac* â thafodau newyddion y llefarant;

18 Seirph a godant ymaith; ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach.

19 ¶ Ac felly yr Arglwydd, wedi llefaru wrthynt, a gymmerwyd i fyny i'r nef, ac a eisteddodd ar ddeheulaw Duw.

20 A hwythau a aethant allan, ac a bregethasant ym mhob man, a'r Arglwydd yn cyd-weithio, ac yn cadarnhâu y gair trwy arwyddion, y rhai oedd yn canlyn. Amen.

SANT LUC.

PENNOD 1.

1 Rhagymadrodd yr holl efengyl. 5 Cenhedliad Ioan Fedyddiwr, 26 a Christ. 39 Prophwydoliaeth Elisabeth a Mair am Grist. 57 Genedigaeth ac enwediad Ioan. 67 Prophwydoliaeth Sacharias am Grist, 76 ac Ioan.

YN gymmaint a darfod i lawer gymmeryd mewn llaw osod allan mewn trefn draethawd am y pethau a gredir yn ddïammeu yn ein plith,

2 Megis y traddodasant hwy i ni, y rhai oeddynt eu hunain o'r dechreuad yn gweled, ac yn weinidogion y gair:

3 Minnau a welais yn dda, wedi i mi ddilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad, ysgrifenu mewn trefn attat, O ardderchoccaf Theophilus,

4 Fel y ceit wybod sicrwydd am y pethau y'th ddysgwyd ynddynt.

5 YR oedd yn nyddiau Herod, brenhin Judea, ryw offeiriad a'i enw Sacharïas, o ddyddgylch Abïa: a'i wraig *oedd* o ferched Aaron, a'i henw Elisabeth.

6 Ac yr oeddynt ill dau yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddïargyhoedd.

7 Ac nid oedd plentyn iddynt, am fod Elisabeth yn ammhlantadwy; ac yr oeddynt wedi myned ill dau mewn gwth o oedran.

8 A bu, ac efe yn gwasanaethu swydd offeiriad ger bron Duw, yn nhrefn ei ddydd-gylch ef,

9 Yn ol arfer swydd yr offeiriaid, ddyfod o ran iddo arogl-darthu yn ol ei fyned i deml yr Arglwydd.

10 A holl lïaws y bobl oedd allan yn gweddïo ar awr yr arogldarthiad.

11 Ac ymddangosodd iddo angel yr Arglwydd yn sefyll o'r tu dehau i allor yr arogl-darth.

12 A Sacharïas, pan ganfu, a gythryblwyd, ac ofn a syrthiodd arno.

13 Eithr yr angel a ddywedodd wrtho, Nac ofna, Sacharïas: canys gwrandawyd dy weddi; a'th wraig Elisabeth a ddwg i ti fab, a thi a elwi ei enw ef Ioan.

14 A bydd i ti lawenydd a gorfoledd; a llawer a lawenychant am ei enedigaeth ef.

15 Canys mawr fydd efe y'ngolwg yr Arglwydd, ac nid ŷf na gwin na dïod gadarn; ac efe a gyflawnir o'r Ysprydd Glân, ïe, o groth ei fam.

16 A llawer o blant Israel a dry efe at yr Arglwydd eu Duw.

17 Ac efe a â o'i flaen ef yn ysbryd a nerth Elïas, i droi calonnau y tadau at y plant, a'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn; i ddarparu i'r Arglwydd bobl barod.

18 A dywedodd Sacharïas wrth yr angel, Pa fodd y gwybyddaf fi hyn? canys henafgwr wyf fi, a'm gwraig hefyd mewn gwth o oedran.

19 A'r angel gan atteb a ddywedodd wrtho, Myfi yw Gabriel, yr hwn wyf yn sefyll ger bron Duw, ac a anfonwyd i lefaru wrthyt, ac i fynegi i ti y newyddion da hyn.

20 Ac wele, ti a fyddi fud ac heb allu llefaru hyd y dydd y gwneler y pethau hyn, am na chredaist i'm geiriau i, y rhai a gyflawnir yn eu hamser.

21 Ac yr oedd y bobl yn disgwyl am Sacharïas: a rhyfeddu a wnaethant ei fod ef yn aros cyhyd yn y deml.

22 A phan ddaeth efe allan, ni allai efe lefaru wrthynt; a hwy a wybuant weled o hono weledigaeth yn y deml: ac yr oedd efe yn gwneuthur amnaid iddynt; ac *efe* a arhosodd yn fud.

23 A bu, cyn gynted ag y cyflawnwyd dyddiau ei weinidogaeth ef, fyned o hono i'w dŷ ei hun.

24 Ac ar ol y dyddiau hynny y cafodd Elisabeth ei wraig ef feichiogi, ac a ymguddiodd bum mis, gan ddywedyd,

25 Fel hyn y gwnaeth yr Arglwydd i mi yn y dyddiau yr edrychodd

arnaf, i dynnu ymaith fy ngwaradwydd ym mhlith dynion.
26 ¶ Ac yn y chweched mis yr anfonwyd yr angel Gabriel oddi wrth Dduw, i ddinas yn Galilea a'i henw Nasareth,
27 At forwyn wedi ei dyweddïo i ŵr a'i enw Joseph, o dŷ Dafydd; ac enw y forwyn *oedd* Mair.
28 A'r angel a ddaeth i mewn atti, ac a ddywedodd, Henffych well, yr hon a gefaist ras; yr Arglwydd *sydd* gyd â thi: bendigaid *wyt* ym mhlith gwragedd.
29 A hithau, pan ei gwelodd, a gythryblwyd wrth ei ymadrodd ef; a meddylio a wnaeth pa fath gyfarch oedd hwn.
30 A dywedodd yr angel wrthi, Nac ofna, Mair: canys ti a gefaist ffafr gyd â Duw.
31 Ac wele, ti a gei feichiogi yn dy groth, ac a esgori ar fab, ac a elwi ei enw ef IESU.
32 Hwn fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf: ac iddo y rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd.
33 Ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd; ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd.
34 A Mair a ddywedodd wrth yr angel, Pa fodd y bydd hyn, gan nad adwaen i ŵr?
35 A'r angel a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Yr Ysbryd Glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di: am hynny hefyd y peth sanctaidd a aner o honot ti, a elwir yn Fab Duw.
36 Ac wele, Elisabeth dy gares, y mae hithau wedi beichiogi ar fab yn ei henaint: a hwn yw y chweched mis iddi hi, yr hon a elwid yn ammhlantadwy.
37 Canys gyd â Duw ni bydd dim yn ammhosibl.
38 A dywedodd Mair, Wele wasanaethyddes yr Arglwydd; bydded i mi yn ol dy air di. A'r angel a aeth ymaith oddi wrthi hi.
39 ¶ A Mair a gyfododd yn y dyddiau hynny, ac a aeth i'r mynydd-dir ar frys, i ddinas o Juda;
40 Ac a aeth i mewn i dŷ Sacharïas, ac a gyfarchodd well i Elisabeth.
41 A bu, pan glybu Elisabeth gyfarchiad Mair, i'r plentyn yn ei chroth hi lammu: ac Elisabeth a lanwyd o'r Ysbryd Glân.
42 A llefain a wnaeth â llef uchel, a dywedyd, Bendigedig *wyt* ti ym mhlith gwragedd, a bendigedig *yw* ffrwyth dy groth di.
43 Ac o ba le *y mae* hyn i mi, fel y delai mam fy Arglwydd attaf fi?
44 Canys wele, er cynted y daeth lleferydd dy gyfarchiad di i'm clustiau, y plentyn a lammodd o lawenydd yn fy nghroth.
45 A bendigedig *yw yr* hon a gredodd: canys bydd cyflawniad o'r pethau a ddywedwyd wrthi gan yr Arglwydd.
46 ¶ A dywedodd Mair, Y mae fy enaid yn mawrhâu yr Arglwydd,
47 A'm hyspryd a lawenychodd yn Nuw fy Iachawdwr.
48 Canys efe a edrychodd ar waeledd ei wasanaethyddes: oblegid, wele, o hyn allan yr holl genhedlaethau a'm geilw yn wynfydedig.
49 Canys yr hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd; a sanctaidd *yw* ei enw ef.
50 A'i drugaredd *sydd* yn oes oesoedd ar y rhai a'i hofnant ef.
51 Efe a wnaeth gadernid â'i fraich: efe a wasgarodd y rhai beilchion ym mwriad eu calon.
52 Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'*u* heisteddfäau, ac a ddyrchafodd y rhai iselradd.
53 Y rhai newynog a lanwodd efe â phethau da; ac efe a anfonodd ymaith y rhai goludog yn weigion.
54 Efe a gynnorthwyodd ei was Israel, gan gofio *ei* drugaredd;
55 Fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i had, yn dragywydd.
56 A Mair a arhosodd gyd â hi ynghylch tri mis, ac a ddychwelodd i'w thŷ ei hun.
57 ¶ A chyflawnwyd tymp Elisabeth i esgor; a hi a esgorodd ar fab.
58 A'i chymmydogion a'i chenedl a glybu fawrhâu o'r Arglwydd ei drugaredd arni; a hwy a gydlawenychasant â hi.
59 A bu, ar yr wythfed dydd hwy a ddaethant i enwaedu ar y dyn bach; ac a'i galwasant ef Sacharïas, yn ol enw ei dad.

60 A'i fam a attebodd ac a ddywedodd, Nid *felly;* eithr Ioan y gelwir ef.
61 Hwythau a ddywedasant wrthi, Nid oes neb o'th genedl a elwir ar yr enw hwn.
62 A hwy a wnaethant amnaid ar ei dad ef, pa fodd y mynnai efe ei enwi ef.
63 Yntau a alwodd am argraphlech, ac a ysgrifenodd, gan ddywedyd, Ioan yw ei enw ef. A rhyfeddu a wnaethant oll.
64 Ac agorwyd ei enau ef yn ebrwydd, a'i dafod ef; ac efe a lefarodd, gan fendithio Duw.
65 A daeth ofn ar bawb oedd yn trigo yn eu cylch hwy: a thrwy holl fynydd-dir Judea y cyhoeddwyd y geiriau hyn oll.
66 A phawb a'r a'*u* clywsant, a'*u* gosodasant yn eu calonnau, gan ddywedyd, Beth fydd y bachgennyn hwn? A llaw yr Arglwydd oedd gyd âg ef.
67 ¶ A'i dad ef Sacharïas a gyflawnwyd o'r Ysbryd Glân, ac a brophwydodd, gan ddywedyd,
68 Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel: canys efe a ymweloddd, ac a wnaeth ymwared i'w bobl;
69 Ac *efe* a ddyrchafodd gorn iachawdwriaeth i ni, yn nhŷ Dafydd ei wasanaethwr;
70 Megis y llefarodd trwy enau ei sanctaidd brophwydi, y rhai oedd o ddechreuad y byd:
71 Fel y byddai i ni ymwared rhag ein gelynion, ac o law pawb o'n caseion;
72 I gwblhâu y drugaredd â'n tadau, ac i gofio ei sanctaidd gyfammod:
73 Y llw a dyngodd efe wrth ein tad Abraham, ar roddi i ni,
74 Gwedi ein rhyddhâu o law ein gelynion, ei wasanaethu ef yn ddïofn,
75 Mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron ef, holl ddyddiau ein bywyd.
76 A thithau, fachgennyn, a elwir yn brophwyd i'r Goruchaf: canys ti a âi o flaen wyneb yr Arglwydd, i barottôi ei ffyrdd ef;
77 I roddi gwybodaeth iachawdwriaeth i'w bobl, trwy faddeuant o'u pechodau,
78 O herwydd tirion deb trugaredd ein Duw; trwy yr hon yr ymwelodd â ni godiad haul o'r uchelder,
79 I lewyrchu i'r rhai sydd yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angau, i gyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd.
80 A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhâwyd yn yr yspryd, ac a fu yn y diffaethwch hyd y dydd yr ymddangosodd efe i'r Israel.

PENNOD 2.

1 *Augustus yn trethu holl ymerodraeth Rhufain.* 6 *Genedigaeth Crist.* 8 *Angel yn ei fynegi i'r bugeiliaid:* 13 *a llawer yn canu moliant i Ddiw am dano.* 21 *Enwaedu Crist.* 22 *Puredigaeth Mair.* 28 *Simeon ac Anna yn prophwydo am Grist:* 40 *ac yntau yn cynyddu mewn doethineb:* 46 *yn ymresymmu â'r doctoriaid yn y deml,* 51 *ac yn ufudd i'w rieni.*

BU hefyd yn y dyddiau hynny, fyned gorchymyn allan oddi wrth Augustus Cesar, i drethu yr holl fyd.
2 (Y trethiad yma a wnaethpwyd gyntaf pan oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria.)
3 A phawb a aethant i'w trethu, bob un i'w ddinas ei hun.
4 A Joseph hefyd a aeth i fyny o Galilea, o ddinas Nasareth, i Judea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem (am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd),
5 I'w drethu gyd â Mair, yr hon a ddyweddïasid yn wraig iddo, yr hon oedd yn feichiog.
6 A bu, tra yr oeddynt hwy yno, cyflawnwyd y dyddiau i esgor o honi.
7 A hi a esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a'i dododd ef yn y preseb; am nad oedd iddynt le yn y lletty.
8 ¶ Ac yr oedd yn y wlad honno fugeiliaid yn aros yn y maes, ac yn gwylied eu praidd liw nos.
9 Ac wele, angel yr Arglwydd a safodd ger llaw iddynt, a gogoniant yr Arglwydd a ddisgleiriodd o'u hamgylch: ac ofni yn ddirfawr a wnaethant.
10 A'r angel a ddywedodd wrthynt, Nac ofnwch; canys wele, yr

wyf fi yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl:
11 Canys ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd.
12 A hyn *fydd* arwydd i chwi; Chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo mewn cadachau, *a'i* ddodi yn y preseb.
13 Ac yn ddisymmwth yr oedd gyd â'r angel liaws o lu nefol, yn moliannu Duw, ac yn dywedyd,
14 Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da.
15 A bu, pan aeth yr angylion ymaith oddi wrthynt i'r nef, y bugeiliaid hwythau a ddywedasant wrth eu gilydd, Awn hyd Bethlehem, a gwelwn y peth hwn a wnaethpwyd, yr hwn a hysbysodd yr Arglwydd i ni.
16 A hwy a ddaethant ar frys; ac a gawsant Mair a Joseph, a'r dyn bach yn gorwedd yn y preseb.
17 A phan welsant, hwy a gyhoeddasant y gair a ddywedasid wrthynt am y bachgen hwn.
18 A phawb a'r a'*i* clywsant, a ryfeddasant am y pethau a ddywedasid gan y bugeiliaid wrthynt.
19 Eithr Mair a gadwodd y pethau hyn oll, gan *eu* hystyried yn ei chalon.
20 A'r bugeiliaid a ddychwelasant, gan ogoneddu a moliannu Duw am yr holl bethau a glywsent ac a welsent, fel y dywedasid wrthynt.
21 ¶ A phan gyflawnwyd wyth niwrnod i enwaedu ar y dyn bach, galwyd ei enw ef IESU, yr hwn a enwasid gan yr angel cyn ei ymddŵyn ef yn y groth.
22 Ac wedi cyflawni dyddiau ei phuredigaeth hi, yn ol deddf Moses, hwy a'i dygasant ef i Jerusalem, i'*w* gyflwyno i'r Arglwydd;
23 (Fel yr ysgrifenwyd yn neddf yr Arglwydd, Pob gwrryw cyntafanedig a elwir yn sanctaidd i'r Arglwydd;)
24 Ac i roddi aberth, yn ol yr hyn a ddywedwyd yn neddf yr Arglwydd, Pâr o durturod, neu ddau gyw colommen.
25 Ac wele, yr oedd gŵr yn Jerusalem, a'i enw Simeon; a'r gŵr hwn *oedd* gyfiawn a duwiol, yn disgwyl am ddiddanwch yr Israel: a'r Ysbryd Glân oedd arno.
26 Ac yr oedd wedi ei hysbysu iddo gan yr Ysbryd Glân, na welai efe angau, cyn iddo weled Crist yr Arglwydd.
27 Ac efe a ddaeth trwy yr ysbryd i'r deml: a phan ddug ei rïeni y dyn bach Iesu, i wneuthur drosto yn ol defod y gyfraith;
28 Yna efe a'i cymmerth ef yn ei freichiau, ac a fendithiodd Dduw, ac a ddywedodd,
29 Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air:
30 Canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth,
31 Yr hon a barottoaist ger bron wyneb yr holl bobloedd;
32 Goleuni i oleuo y Cenhedloedd, a gogoniant dy bobl Israel.
33 Ac yr oedd Joseph a'i fam ef yn rhyfeddu am y pethau a ddywedwyd am dano ef.
34 A Simeon a'u bendithiodd hwynt, ac a ddywedodd wrth Mair ei fam ef, Wele, hwn a osodwyd yn gwymp ac yn gyfodiad i lawer yn Israel, ac yn arwydd yr hwn y dywedir yn ei erbyn;
35 A thrwy dy enaid di dy hun hefyd yr â cleddyf; fel y datguddir meddyliau llawer o galonnau.
36 Ac yr oedd Anna brophwydes, merch Phanuel, o lwyth Aser: hon oedd oedrannus iawn, ac a fuasai fyw gyd â gŵr saith mlynedd o'i morwyndod;
37 Ac *a fuasai* yn weddw ynghylch pedair a phedwar ugain mlynedd, yr hon nid âi allan o'r deml, ond gwasanaethu *Duw* mewn ymprydiau a gweddïau ddydd a nos.
38 A hon hefyd yn yr awr honno, gan sefyll ger llaw, a foliannodd yr Arglwydd, ac a lefarodd am dano ef wrth y rhai oll oedd yn disgwyl ymwared yn Jerusalem.
39 Ac wedi iddynt orphen pob peth yn ol deddf yr Arglwydd, hwy a ddychwelasant i Galilea, i'w dinas eu hun Nasareth.
40 A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhaodd yn yr ysbryd, yn gyf-

lawn o ddoethineb: a gras Duw oedd arno ef.
41 ¶ A'i rïeni ef a aent i Jerusalem bob blwyddyn ar wyl y pasc.
42 A phan oedd efe yn ddeuddeng mlwydd oed, hwynt-hwy a aethant i fyny i Jerusalem yn ol defod yr wyl.
43 Ac wedi gorphen y dyddiau, a hwy yn dychwelyd, arhosodd y bachgen Iesu yn Jerusalem; ac ni wyddai Joseph a'i fam ef:
44 Eithr gan dybied ei fod ef yn y fintai, hwy a aethant daith diwrnod; ac a'i ceisiasant ef ym mhlith *eu* cenedl a'*u* cydnabod.
45 A phryd na chawsant ef, hwy a ddychwelasant i Jerusalem, gan ei geisio ef.
46 A bu, ar ol tridiau, gael o honynt hwy ef yn y deml, yn eistedd y'nghanol y doctoriaid, yn gwrandaw arnynt, ac yn eu holi hwynt.
47 A synnu a wnaeth ar bawb a'r a'i clywsant ef, o herwydd ei ddeall ef a'i attebion.
48 A phan welsant ef, bu aruthr ganddynt. A'i fam a ddywedodd wrtho, Fy mab, paham y gwnaethost felly â ni? wele, dy dad a minnau yn ofidus a'th geisiasom di.
49 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Paham y ceisiech fi? oni wyddech fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad?
50 A hwy ni ddeallasant y gair a ddywedasai efe wrthynt.
51 Ac efe a aeth i waered gyd â hwynt, ac a ddaeth i Nasareth, ac a fu ostyngedig iddynt. A'i fam ef a gadwodd yr holl eiriau hyn yn ei chalon.
52 A'r Iesu a gynnyddodd mewn doethineb a chorpholaeth, a ffafr gyd â Duw a dynion.

PENNOD 3.

1 *Pregeth a bedydd Ioan:* 15 *ei dystiolaeth ef am Grist.* 20 *Herod yn carcharu Ioan.* 21 *Crist, wedi ei fedyddio, yn derbyn tystiolaeth o'r nef.* 23 *Oedran, ac achau Crist o Joseph i fyny.*

YN y bymthegfed flwyddyn o ymerodraeth Tiberius Cesar, a Phontius Pilat yn rhaglaw Judea, a Herod yn detrarch Galilea, a'i frawd Phylip yn detrarch Iturea a gwlad Trachonitis, a Lysanias yn detrarch Abilene,
2 Dan yr arch-offeiriaid Annas a Chaiaphas, y daeth gair Duw at Ioan, mab Sacharïas, yn y diffaethwch.
3 Ac efe a ddaeth i bob goror ynghylch yr Iorddonen, gan bregethu bedydd edifeirwch er maddeuant pechodau;
4 Fel y mae yn ysgrifenedig yn llyfr ymadroddion Esaias y prophwyd, yr hwn sydd yn dywedyd, Llef un yn llefain yn y diffaethwch, Parottôwch ffordd yr Arglwydd, gwnewch ei lwybrau ef yn uniawn.
5 Pob pant a lenwir, a phob mynydd a bryn a ostyngir, a'r gŵyrgeimion a wneir yn uniawn, a'r geirwon yn ffyrdd gwastad:
6 A phob cnawd a wêl iachawdwriaeth Duw.
7 Am hynny efe a ddywedodd wrth y bobl oedd yn dyfod i'w bedyddio ganddo, O genhedlaeth gwiberod, pwy a'ch rhag-rybuddiodd chwi i ffoi oddi wrth y digofaint sydd ar ddyfod?
8 Dygwch gan hynny ffrwythau addas i edifeirwch; ac na ddechreuwch ddywedyd ynoch eich hunain, Y mae gennym ni Abraham yn dad: canys yr wyf yn dywedyd i chwi, y dichon Duw o'r cerrig hyn godi plant i Abraham.
9 Ac yr awr hon y mae y fwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y prennau: pob pren gan hynny a'r nid yw yn dwyn ffrwyth da, a gymmynir i lawr, ac a fwrir yn tân.
10 A'r bobloedd a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Pa beth gan hynny a wnawn ni?
11 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Y neb sydd ganddo ddwy bais, rhodded i'r neb sydd heb yr un; a'r neb sydd ganddo fwyd, gwnaed yr un modd.
12 A'r publicanod hefyd a ddaethant i'w bedyddio, ac a ddywedasant wrtho, Athraw, beth a wnawn ni?
13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Na cheisiwch ddim mwy nag sydd wedi ei osod i chwi.
14 A'r milwyr hefyd a ofynasant iddo, gan ddywedyd, A pha beth a wnawn ninnau? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Na fyddwch draws wrth neb, ac na cham-achwynwch

ar neb; a byddwch foddlawn i'ch cyflogau.
15 Ac fel yr oedd y bobl yn disgwyl, a phawb yn meddylied yn eu calonnau am Ioan, ai efe oedd y Crist;
16 Ioan a attebodd, gan ddywedyd wrthynt oll, Myfi yn ddïau ydwyf yn eich bedyddio chwi â dwfr: ond y mae un cryfach na myfi yn dyfod, yr hwn nid wyf fi deilwng i ddattod carrai ei esgidiau: efe a'ch bedyddia chwi â'r Ysbryd Glân, ac â thân.
17 Yr hwn *y mae* ei wyntyll yn ei law, ac efe a lwyr-lanhâ ei lawr-dyrnu, ac a gasgl y gwenith i'w ysgubor; ond yr us a lysg efe â thân anniffoddadwy.
18 A llawer o bethau eraill a gynghorodd efe, ac a bregethodd i'r bobl.
19 Ond Herod y tetrarch, pan geryddwyd ef ganddo am Herodias gwraig Phylip ei frawd, ac am yr holl ddrygioni a wnaethai Herod,
20 A chwanegodd hyn hefyd heb law y cwbl, ac a gauodd ar Ioan yn y carchar.
21 ¶ A bu, pan oeddid yn bedyddio yr holl bobl, a'r Iesu yn ei fedyddio hefyd, ac yn gweddïo, agoryd y nef,
22 A disgyn o'r Ysbryd Glân mewn rhith corphorol, megis colommen, arno ef; a dyfod llef o'r nef yn dywedyd, Ti yw fy anwyl Fab; ynot ti y'm boddlonwyd.
23 A'r Iesu ei hun oedd ynghylch dechreu ei ddengmlwydd ar hugain oed, mab (fel y tybid) i Joseph, *fab* Eli,
24 *Fab* Matthat, *fab* Lefi, *fab* Melchi, *fab* Janna, *fab* Joseph,
25 *Fab* Mattathïas, *fab* Amos, *fab* Näum, *fab* Esli, *fab* Naggai,
26 *Fab* Maath, *fab* Mattathïas, *fab* Semei, *fab* Joseph, *fab* Juda,
27 *Fab* Joanna, *fab* Rhesa, *fab* Sorobabel, *fab* Salathiel, *fab* Neri,
28 *Fab* Melchi, *fab* Adi, *fab* Cosam, *fab* Elmodam, *fab* Er,
29 *Fab* Jose, *fab* Elïeser, *fab* Jorim, *fab* Matthat, *fab* Lefi,
30 *Fab* Simeon, *fab* Juda, *fab* Joseph, *fab* Jonan, *fab* Elïacim,
31 *Fab* Melea, *fab* Mainan, *fab* Mattatha, *fab* Nathan, *fab* Dafydd,
32 *Fab* Jesse, *fab* Obed, *fab* Boos, *fab* Salmon, *fab* Naasson,
33 *Fab* Aminadab, *fab* Aram, *fab* Esrom, *fab* Phares, *fab* Juda,
34 *Fab* Jacob, *fab* Isaac, *fab* Abraham, *fab* Thara, *fab* Nachor,
35 *Fab* Saruch, *fab* Ragau, *fab* Phalec, *fab* Heber, *fab* Sala,
36 *Fab* Cainan, *fab* Arphaxad, *fab* Sem, *fab* Nöe, *fab* Lamech,
37 *Fab* Mathusala, *fab* Enoch, *fab* Jared, *fab* Maleleel, *fab* Cainan,
38 *Fab* Enos, *fab* Seth, *fab* Adda, *fab* Duw.

PENNOD 4.

1 *Temtiad ac ympryd Crist.* 13 *Y mae efe yn gorchfygu y cythraul:* 14 *yn dechreu pregethu.* 16 *Pobl Nasareth yn rhyfeddu am ei eiriau grasusol ef.* 33 *Y mae efe yn iachâu un cythreulig,* 38 *a mam gwraig Pedr,* 40 *a llawer o gleifion eraill.* 41 *Y cythreuliaid yn cydnabod Crist, ac yn cael ceryddu ganddo.* 43 *Y mae efe yn preythu trwy y dinasoedd.*

A'R Iesu yn llawn o'r Ysbryd Glân, a ddychwelodd oddi wrth yr Iorddonen, ac a arweiniwyd gan yr ysbryd i'r anialwch,
2 Yn cael ei demtio gan ddiafol ddeugain niwrnod. Ac ni fwyttaodd efe ddim o fewn y dyddiau hynny: ac wedi eu diweddu hwynt, ar ol hynny y daeth arno chwant bwyd.
3 A dywedodd diafol wrtho, Os mab Duw ydwyt ti, dywed wrth y garreg hon fel y gwneler hi yn fara.
4 A'r Iesu a attebodd iddo, gan ddywedyd, Ysgrifenedig yw, Nad ar fara yn unig y bydd dyn fyw, ond ar bob gair Duw.
5 A diafol, wedi ei gymmeryd ef i fyny i fynydd uchel, a ddangosodd iddo holl deyrnasoedd y ddaear mewn munud awr.
6 A diafol a ddywedodd wrtho, I ti y rhoddaf yr awdurdod hon oll, a'u gogoniant hwynt: canys i mi y rhoddwyd; ac i bwy bynnag y mynnwyf y rhoddaf finnau hi.
7 Os tydi gan hynny a addoli o'm blaen, eiddot ti fyddant oll.
8 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Dos ymaith, Satan, yn fy ol i; canys ysgrifenedig yw, Addoli yr Arglwydd dy Dduw, ac ef yn unig a wasanaethi.

9 Ac efe a'i dug ef i Jerusalem,
ac a'i gosododd ar binacl y deml,
ac a ddywedodd wrtho, Os mab
Duw ydwyt, bwrw dy hun i lawr
oddi yma:
10 Canys ysgrifenedig yw, Y gor-
chymyn efe i'w angylion o'th achos
di, ar dy gadw di;
11 Ac y cyfodant di yn *eu* dwylaw,
rhag i ti un amser daro dy droed
wrth garreg.
12 A'r Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd wrtho, Dywedwyd, Na
themtia yr Arglwydd dy Dduw.
13 Ac wedi i ddiafol orphen yr
holl demtasiwn, efe a ymadawodd
âg ef dros amser.
14 ¶ A'r Iesu a ddychwelodd trwy
nerth yr yspryd i Galilea: a sôn
a aeth am dano ef trwy yr holl
fro oddi amgylch.
15 Ac yr oedd efe yn athraw-
iaethu yn eu synagogau hwynt, ac
yn cael anrhydedd gan bawb.
16 ¶ Ac efe a ddaeth i Nasareth,
lle y magesid ef: ac yn ol ei arfer,
efe a aeth i'r synagog ar y Sabbath,
ac a gyfododd i fyny i ddarllen.
17 A rhodded atto lyfr y pro-
phwyd Esaias. Ac wedi iddo agoryd
y llyfr, efe a gafodd y lle yr oedd
yn ysgrifenedig,
18 Ysprydyr Arglwydd *sydd*
arnaf fi, o herwydd iddo fy en-
neinio i; i bregethu i'r tlodion yr
anfonodd fi, i iachâu y drylliedig
o galon, i bregethu gollyngdod i'r
caethion, a chaffaeliad golwg i'r
deillion, i ollwng y rhai ysig mewn
rhydd-deb,
19 I bregethu blwyddyn gymmer-
adwy yr Arglwydd.
20 Ac wedi iddo gau y llyfr, a'i
roddi i'r gweinidog, efe a eisedd-
odd. A llygaid pawb oll yn y syna-
gog oedd yn craffu arno.
21 Ac efe a ddechreuodd ddywed-
yd wrthynt, Heddyw y cyflawnwyd
yr ysgrythyr hon yn eich clustiau
chwi.
22 Ac yr oedd pawb yn dwyn
tystiolaeth iddo, ac yr oeddynt yn
rhyfeddu am y geiriau grasusol a
ddeuai allan o'i enau ef. A hwy a
ddywedasant, Onid hwn yw mab
Joseph?
23 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Yn hollawl y dywedwch y ddïareb
hon wrthyf, Y meddyg, iachâ di dy
hun: y pethau a glywsom ni eu
gwneuthur yn Capernaum, gwna
yma hefyd yn dy wlad dy hun.
24 Ac efe a ddywedodd, Yn wir
meddaf i chwi, Nad yw un pro-
phwyd yn gymmeradwy yn ei wlad
ei hun.
25 Eithr mewn gwirionedd meddaf
i chwi, Llawer o wragedd gweddw-
on oedd yn Israel yn nyddiau Elïas,
pan gauwyd y nef dair blynedd a
chwe mis, fel y bu newyn mawr
trwy yr holl dir;
26 Ac nid at yr un o honynt yr
anfonwyd Elïas, ond i Sarepta yn
Sidon, at wraig weddw.
27 A llawer o wahan-gleifion oedd
yn Israel yn amser Elisëus y pro-
phwyd; ac ni lanhâwyd yr un o
honynt, ond Naaman y Syriad.
28 A'r rhai oll yn y synagog, wrth
glywed y pethau hyn, a lanwyd o
ddigofaint;
29 Ac a godasant i fyny, ac a'i
bwriasant ef allan o'r ddinas, ac
a'i dygasant ef hyd ar ael y bryn
yr hwn yr oedd eu dinas wedi ei
hadeiladu arno, ar fedr ei fwrw ef
bendramwnwgl i lawr.
30 Ond efe, gan fyned trwy eu
canol hwynt, a aeth ymaith;
31 Ac a ddaeth i waered i Caper-
naum, dinas yn Galilea: ac yr oedd
yn eu dysgu hwynt ar y dyddiau
Sabbath.
32 A bu aruthr ganddynt wrth ei
athrawiaeth ef: canys ei ymadrodd
ef oedd gyd âg awdurdod.
33 ¶ Ac yn y synagog yr oedd
dyn a chanddo yspryd cythraul
aflan; ac efe a waeddodd â llef
uchel,
34 Gan ddywedyd, Och, beth
sydd i ni a wnelom â thi, Iesu o
Nasareth? a ddaethost ti i'n di-
fetha ni? Myfi a'th adwaen pwy
ydwyt; Sanct Duw.
35 A'r Iesu a'i ceryddodd ef, gan
ddywedyd, Distawa, a dos allan o
hono. A'r cythraul, wedi ei daflu
ef i'r canol, a aeth allan o hono,
heb wneuthur dim niwed iddo.
36 A daeth braw arnynt oll: a
chyd-ymddiddanasant â'u gilydd,
gan ddywedyd, Pa ymadrodd *yw*

hwn? gan ei fod ef trwy awdurdod
a nerth yn gorchymyn yr ysprydion
aflan, a hwythau yn myned allan.
37 A sôn am dano a aeth allan i
bob man o'r wlad oddi amgylch.
38 ¶ A phan gyfododd *yr Iesu*
o'r synagog, efe a aeth i mewn i
dŷ Simon. Ac yr oedd chwegr
Simon yn glaf o gryd blin: a hwy
a attolygasant arno drosti hi.
39 Ac efe a safodd uwch *ei phen*
hi, ac a geryddodd y cryd; a'r *cryd*
a'i gadawodd hi: ac yn y fan hi a
gyfododd, ac a wasanaethodd ar-
nynt hwy.
40 ¶ A phan fachludodd yr haul,
pawb a'r oedd ganddynt rai cleif-
ion o amryw glefydau, a'u dygasant
hwy atto ef; ac efe a roddes ei
ddwylaw ar bob un o honynt, ac
a'u hiachaodd hwynt.
41 A'r cythreuliaid hefyd a aeth-
ant allan o lawer, dan lefain a dy-
wedyd, Ti yw Crist, Mab Duw. Ac
efe a'u ceryddodd hwynt, ac ni
adawai iddynt ddywedyd y gwydd-
ent mai efe oedd y Crist.
42 Ac wedi ei myned hi yn ddydd,
efe a aeth allan, ac a gychwynodd
i le diffaeth: a'r bobloedd a'i cei-
siasant ef; a hwy a ddaethant hyd
atto, ac a'i hattaliasant ef rhag
myned ymaith oddi wrthynt.
43 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Yn wir y mae yn rhaid i mi breg-
ethu teyrnas Dduw i ddinasoedd
eraill hefyd: canys i hyn y'm dan-
fonwyd.
44 Ac yr oedd efe yn pregethu yn
synagogau Galilea.

PENNOD 5.

1 *Crist yn dysgu y bobl allan o long Pedr:* 4 *trwy helfa rufeddol o bysgod, yn dangos pa fodd y gwnai efe ef a'i gyfeillion yn bysgodwyr dynion:* 12 *yn glanhâu y gwahan-glwyfus:* 16 *yn gweddio yn y diffaethwch:* 18 *yn iachâu un claf o'r parlys:* 27 *yn galw Matthew y publican:* 29 *megis Physyggwr eneidiau, yn bwyllta gyd â phechaduriaid:* 34 *yn rhag-fynegi ymprydiau a chystuddiau i'r apostolion ar ol ei ddyrchafiad ef:* 36 *ac yn cyffelybu disgyblion llwyf gweiniaid i gostrelau hen, a dillad wedi treulio.*

BU hefyd, a'r bobl yn pwyso
atto i wrandaw gair Duw, yr
oedd yntau yn sefyll yn ymyl llyn
Gennesaret;
2 Ac efe a welai ddwy long yn
sefyll wrth y llyn: a'r pysgodwyr a
aethent allan o honynt, ac oeddynt
yn golchi *eu* rhwydau.
3 Ac efe a aeth i mewn i un o'r
llongau, yr hon oedd eiddo Simon,
ac a ddymunodd arno wthio ychyd-
ig oddi wrth y tir. Ac efe a eis-
teddodd, ac a ddysgodd y bobloedd
allan o'r llong.
4 A phan beidiodd â llefaru, efe
a ddywedodd wrth Simon, Gwthia
i'r dwfn, a bwriwch eich rhwydau
am helfa.
5 A Simon a attebodd ac a ddy-
wedodd wrtho, O Feistr, er i ni
boeni ar hyd y nos, ni ddaliasom ni
ddim: etto ar dy air di mi a fwriaf
y rhwyd.
6 Ac wedi iddynt wneuthur hynny,
hwy a ddaliasant lïaws mawr o bysg-
od: a'u rhwyd hwynt a rwygodd.
7 A hwy a amneidiasant ar *eu* cyf-
eillion, oedd yn y llong arall, i ddy-
fod i'w cynnorthwyo hwynt. A hwy
a ddaethant; a llanwasant y ddwy
long, onid oeddynt hwy ar soddi.
8 A Simon Pedr, pan welodd *hyn-
ny*, a syrthiodd wrth liniau yr Iesu,
gan ddywedyd, Dos ymaith oddi
wrthyf; canys dyn pechadurus wyf
fi, O Arglwydd.
9 Oblegid braw a ddaethai arno
ef, a'r rhai oll oedd gyd âg ef, o
herwydd yr helfa bysgod a ddaliasa-
ent hwy;
10 A'r un ffunud ar Iago ac Ioan
hefyd, meibion Sebedëus, y rhai
oedd gyfrannogion â Simon. A dy-
wedodd yr Iesu wrth Simon, Nac
ofna: o hyn allan y deli ddynion.
11 Ac wedi iddynt ddwyn y llong-
au i dir, hwy a adawsant bob peth,
ac a'i dilynasant ef.
12 ¶ A bu, fel yr oedd efe mewn
rhyw ddinas, wele ŵr yn llawn o'r
gwahan-glwyf: a phan welodd efe
yr Iesu, efe a syrthiodd ar *ei* wyn-
eb, ac a ymbiliodd âg ef, gan ddy-
wedyd, O Arglwydd, os ewyllysi, ti
a elli fy nglanhâu.
13 Yntau a estynodd *ei* law, ac a
gyffyrddodd âg ef, gan ddywedyd,
Yr wyf yn ewyllysio; bydd lân. Ac
yn ebrwydd y gwahan-glwyf a aeth
ymaith oddi wrtho.
14 Ac efe a orchymynodd iddo
na ddywedai i neb: eithr dos ym-
aith, a dangos dy hun i'r offeiriad,

ac offrwm dros dy lanhâd, fel y gorchymynodd Moses, er tystiolaeth iddynt.

15 A'r gair am dano a aeth yn fwy ar led: a llawer o bobloedd a ddaethant ynghyd i'w wrandaw ef, ac i'w hiachâu ganddo o'u clefydau.

16 ¶ Ac yr oedd efe yn cilio o'r neilldu yn y diffaethwch, ac yn gweddïo.

17 A bu ar ryw ddiwrnod, fel yr oedd efe yn athrawiaethu, fod Phariseaid a doctoriaid y gyfraith yn eistedd *yno*, y rhai a ddaethent o bob pentref yn Galilea, a Judea, a Jerusalem: ac yr oedd gallu yr Arglwydd i'w hiachâu hwynt.

18 ¶ Ac wele wŷr yn dwyn mewn gwely ddyn a oedd glaf o'r parlys: a hwy a geisiasant ei ddwyn ef i mewn, a'i ddodi ger ei fron ef.

19 A phan na fedrent gael pa ffordd y dygent ef i mewn, o achos y dyrfa, hwy a ddringasant ar nen y tŷ, ac a'i gollyngasant ef i waered yn y gwely trwy y pridd-lechau, yn y canol ger bron yr Iesu.

20 A phan welodd efe eu ffydd hwynt, efe a ddywedodd wrtho, Y dyn, maddeuwyd i ti dy bechodau.

21 A'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid a ddechreuasant ymresymmu, gan ddywedyd, Pwy yw hwn sydd yn dywedyd cabledd? pwy a ddichon faddeu pechodau ond Duw yn unig?

22 A'r Iesu, yn gwybod eu hymresymiadau hwynt, a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Pa resymmu yn eich calonnau yr ydych?

23 Pa un hawsaf, ai dywedyd, Maddeuwyd i ti dy bechodau; ai dywedyd, Cyfod, a rhodia?

24 Ond fel y gwypoch fod gan Fab y dyn awdurdod ar y ddaear i faddeu pechodau, (eb efe wrth y claf o'r parlys,) Yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod, a chymmer dy wely, a dos i'th dŷ.

25 Ac yn y man y cyfododd efe i fyny yn eu gŵydd hwynt; ac efe a gymmerth yr hyn y gorweddai arno, ac a aeth ymaith i'w dŷ ei hun, gan ogoneddu Duw.

26 A syndod a ddaeth ar bawb, a hwy a ogoneddasant Dduw; a hwy a lanwyd o ofn, gan ddywedyd, Gwelsom bethau anhygoel heddyw.

27 ¶ Ac ar ol y pethau hyn yr aeth efe allan, ac a welodd bublican, a'i enw Lefi, yn eistedd wrth y dollfa; ac efe a ddywedodd wrtho, Dilyn fi.

28 Ac efe a adawodd bob peth, ac a gyfododd i fyny, ac a'i dilynodd ef.

29 A gwnaeth Lefi iddo wledd fawr yn ei dŷ: ac yr oedd tyrfa fawr o bublicanod ac eraill, yn eistedd gyd â hwynt ar y bwrdd.

30 Eithr eu hysgrifenyddion a'u Phariseaid hwynt a furmurasant yn erbyn ei ddisgyblion ef, gan ddywedyd, Paham yr ydych chwi yn bwytta ac yn yfed gyd â phublicanod a phechaduriaid?

31 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg; ond i'r rhai cleifion.

32 Ni ddeuthum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid, i edifeirwch.

33 ¶ A hwy a ddywedasant wrtho, Paham y mae disgyblion Ioan yn ymprydio yn fynych, ac yn gwneuthur gweddïau, a'r un modd yr eiddo y Phariseaid; ond yr eiddot ti yn bwytta ac yn yfed?

34 Yntau a ddywedodd wrthynt, A ellwch chwi beri i blant yr ystafell brïodas ymprydio, tra fyddo y prïodasfab gyd â hwynt?

35 Ond y dyddiau a ddaw, pan ddyger y prïodasfab oddi arnynt: ac yna yr ymprydiant yn y dyddiau hynny.

36 ¶ Ac efe a ddywedodd hefyd ddammeg wrthynt: Ni rydd neb lain o ddilledyn newydd mewn hen ddilledyn: os amgen, y mae y newydd yn gwneuthur rhwygiad, a'r llain o'r newydd ni chyttuna â'r hen.

37 Ac nid yw neb yn bwrw gwin newydd i hen gostrelau: os amgen, y gwin newydd a ddryllia y costrelau, ac efe a rêd allan, a'r costrelau a gollir.

38 Eithr gwin newydd sydd raid ei fwrw mewn costrelau newyddion; a'r ddau a gedwir.

39 Ac nid oes neb, gwedi iddo yfed

gwin hen, a chwennych y newydd yn y fan: canys efe a ddywed, Gwell yw yr hen.

PENNOD 6.

1 *Crist yn argyhoeddi dallineb y Phariseaid ynghylch cadw y Sabbath, trwy ysgrythyrau, a rheswm, a gwyrthiau:* 13 *yn dewis deuddeg apostol:* 17 *yn iachâu y cleifion:* 20 *a cher bron y bobl, yn pregethu i'w ddisgyblion fendithion a melldithion.* 27 *Pa fodd y mae i ni garu ein gelynion:* 46 *a chyssylltu ufudd-dod gweithredoedd da ynghyd â gurandwo y gair; rhag yn nrygddydd profedigaeth, i ni syrthio fel tywedi ei adeiladu ar wyneb y ddaear, heb ddim sylfaen.*

ABU ar yr ail prif Sabbath, fyned o hono trwy yr ŷd: a'i ddisgyblion a dynnasant y tywys, ac a'u bwyttasant, gwedi *eu* rhwbio â'*u* dwylaw.

2 A rhai o'r Phariseaid a ddywedasant wrthynt, Paham yr ydych yn gwneuthur yr hyn nid yw gyfreithlawn ei wneuthur ar y Sabbathau?

3 A'r Iesu gan atteb iddynt a ddywedodd, Oni ddarllenasoch hyn chwaith, yr hyn a wnaeth Dafydd, pan oedd chwant bwyd arno ef, a'r rhai oedd gyd âg ef;

4 Y modd yr aeth efe i mewn i dŷ Dduw, ac y cymmerth ac y bwyttaodd y bara gosod, ac a'i rhoddes hefyd i'r rhai oedd gyd âg ef; yr hwn nid yw gyfreithlawn ei fwytta, ond i'r offeiriaid yn unig?

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Y mae Mab y dyn yn Arglwydd ar y Sabbath hefyd.

6 ¶ A bu hefyd ar Sabbath arall, iddo fyned i mewn i'r synagog, ac athrawiaethu: ac yr oedd yno ddyn a'i law ddehau wedi gwywo.

7 A'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid a'i gwyliasant ef, a iachâi efe ef ar y *dydd* Sabbath; fel y caffent achwyn yn ei erbyn ef.

8 Eithr efe a wybu eu meddyliau hwynt, ac a ddywedodd wrth y dyn oedd a'r llaw wedi gwywo, Cyfod i fyny, a saf yn y canol. Ac efe a gyfododd i fyny, ac a safodd.

9 Yr Iesu am hynny a ddywedodd wrthynt, Myfi a ofynaf i chwi, Beth sydd gyfreithlawn ar y Sabbathau? gwneuthur da, ynte gwneuthur drwg? cadw einioes, ai colli?

10 Ac wedi edrych arnynt oll oddi amgylch, efe a ddywedodd wrth y dyn, Estyn dy law. Ac efe a wnaeth felly: a'i law ef a wnaed yn iach fel y llall.

11 A hwy a lanwyd o ynfydrwydd, ac a ymddiddanasant y naill wrth y llall, pa beth a wnaent i'r Iesu.

12 A bu yn y dyddiau hynny, fyned o hono ef allan i'r mynydd i weddïo; a pharhâu ar hyd y nos yn gweddïo Duw.

13 ¶ A phan aeth hi yn ddydd, efe a alwodd atto ei ddisgyblion: ac o honynt efe a etholodd ddeuddeg, y rhai hefyd a enwodd efe yn apostolion;

14 Simon (yr hwn hefyd a enwodd efe Pedr,) ac Andreas ei frawd; Iago, ac Ioan; Phylip, a Bartholomëus;

15 Matthew, a Thomas; Iago *mab* Alphëus, a Simon a elwir Selotes;

16 Judas *brawd* Iago, a Judas Iscariot, yr hwn hefyd a aeth yn fradwr.

17 ¶ Ac efe a aeth i waered gyd â hwynt, ac a safodd mewn gwastattir; a'r dyrfa o'i ddisgyblion, a lïaws mawr o bobl o holl Judea a Jerusalem, ac o duedd môr Tyrus a Sidon, y rhai a ddaeth i wrandaw arno, ac i'w hiachâu o'u clefydau;

18 A'r rhai a flinid gan ysprydion aflan: a hwy a iachâwyd.

19 A'r holl dyrfa oedd yn ceisio cyffwrdd âg ef; am fod nerth yn myned o hono allan, ac yn iachâu pawb.

20 ¶ Ac efe a ddyrchafodd ei olygon ar ei ddisgyblion, ac a ddywedodd, Gwyn eich byd y tlodion: canys eiddoch chwi yw teyrnas Dduw.

21 Gwyn eich byd y rhai ydych yn dwyn newyn yr awr hon: canys chwi a ddigonir. Gwyn eich byd y rhai ydych yn wylo yr awr hon: canys chwi a chwerddwch.

22 Gwyn eich byd pan y'ch casao dynion, a phan y'ch didolant *oddi wrthynt*, ac y'*ch* gwaradwyddant, ac y bwriant eich enw allan megis drwg, er mwyn Mab y dyn.

23 Byddwch lawen y dydd hwnnw, a llemmwch; canys wele, eich gwobr *sydd* fawr yn y nef: oblegid yr un ffunud y gwnaeth eu tadau hwynt i'r prophwydi.

24 Eithr gwae chwi y cyfoethogion! canys derbyniasoch eich diddanwch.
25 Gwae chwi y rhai llawn! canys chwi a ddygwch newyn. Gwae chwi y rhai a chwerddwch yr awr hon! canys chwi a alerwch ac a wylwch.
26 Gwae chwi pan ddywedo pob dyn yn dda am danoch! canys felly y gwnaeth eu tadau hwynt i'r gaubrophwydi.
27 ¶ Ond yr wyf yn dywedyd wrthych chwi y rhai ydych yn gwrandaw, Cerwch eich gelynion; gwnewch dda i'r rhai a'ch casânt:
28 Bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, a gweddïwch dros y rhai a'ch drygant.
29 Ac i'r hwn a'th darawo ar y *naill* gern, cynnyg y llall hefyd; ac i'r hwn a ddygo ymaith dy gochl, na wahardd dy bais hefyd.
30 A dyro i bob un a geisio gennyt; a chan y neb a fyddo yn dwyn yr eiddot, na chais eilchwyl.
31 Ac fel y mynnech wneuthur o ddynion i chwi, gwnewch chwithau iddynt yr un ffunud.
32 Ac os cerwch y rhai a'ch carant chwithau, pa ddïolch fydd i chwi? oblegid y mae pechaduriaid hefyd yn caru y rhai a'u câr hwythau.
33 Ac os gwnewch dda i'r rhai a wnant dda i chwithau, pa ddïolch fydd i chwi? oblegid y mae y pechaduriaid hefyd yn gwneuthur yr un peth.
34 Ac os rhoddwch echwyn i'r rhai yr ydych yn gobeithio y cewch chwithau ganddynt, pa ddïolch fydd i chwi? oblegid y mae y pechaduriaid hefyd yn rhoddi echwyn i bechaduriaid, fel y derbyniont y cyffelyb.
35 Eithr cerwch eich gelynion, a gwnewch dda, a rhoddwch echwyn, heb obeithio dim drachefn; a'ch gwobr a fydd mawr, a phlant fyddwch i'r Goruchaf: canys daionus yw efe i'r rhai annïolchgar a drwg.
36 Byddwch gan hynny drugaroglon, megis ag y mae eich Tad yn drugarog.
37 Ac na fernwch, ac ni'ch bernir: na chondemniwch, ac ni'ch condemnir: maddeuwch, a maddeuir i chwithau:
38 Rhoddwch, a rhoddir i chwi; mesur da, dwysedig, ac wedi ei ysgwyd, ac yn myned trosodd, a roddant yn eich mynwes: canys â'r un mesur ag y mesuroch, y mesurir i chwi drachefn.
39 Ac efe a ddywedodd ddammeg wrthynt: A ddichon y dall dywyso y dall? oni syrthiant ill dau yn y clawdd?
40 Nid yw y disgybl uwch law ei athraw: eithr pob un perffaith a fydd fel ei athraw.
41 A phaham yr wyt ti yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, ac nad ydwyt yn ystyried y trawst sydd yn dy lygad dy hun?
42 Neu pa fodd y gelli di ddywedyd wrth dy frawd, *Fy* mrawd, gâd i mi dynnu allan y brycheuyn sydd yn dy lygad, a thithau heb weled y trawst sydd yn dy lygad dy hun? *O* ragrithiwr, bwrw allan y trawst o'th lygad dy hun yn gyntaf, ac yna y gweli yn eglur dynnu allan y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd.
43 Canys nid yw pren da yn dwyn ffrwyth drwg; na phren drwg yn dwyn ffrwyth da.
44 Oblegid pob pren a adwaenir wrth ei ffrwyth ei hun: canys nid oddi ar ddrain y casglant ffigys, nac oddi ar berth yr heliant rawnwin.
45 Y dyn da, o ddaionus drysor ei galon, a ddwg allan ddaioni; a'r dyn drwg, o ddrygionus drysor ei galon, a ddwg allan ddrygioni: canys o helaethrwydd y galon y mae ei enau yn llefaru.
46 ¶ Paham hefyd yr ydych yn fy ngalw i, Arglwydd, Arglwydd, ac nad ydych yn gwneuthur yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd?
47 Pwy bynnag a ddêl attaf fi, ac a wrendy fy ngeiriau, ac a'u gwnelo hwynt, mi a ddangosaf i chwi i bwy y mae efe yn gyffelyb:
48 Cyffelyb yw i ddyn yn adeiladu tŷ, yr hwn a gloddiodd, ac a aeth yn ddwfn, ac a osododd ei sail ar y graig: a phan ddaeth llifeiriant, y llif-ddyfroedd a gurodd ar y tŷ hwnnw, ac ni allai ei siglo; canys yr oedd wedi ei seilio ar y graig.

49 Ond yr hwn a wrendy, ac ni wna, cyffelyb yw i ddyn a adeiladai dŷ ar y ddaear, heb sail; ar yr hwn y curodd y llif-ddyfroedd, ac yn y fan y syrthiodd: a chwymp y tŷ hwnnw oedd fawr.

PENNOD 7.

1 *Crist yn cafael mwy o ffydd yn y canwriad, un o'r Cenhedloedd, nag yn yr un o'r Iuddewon:* 10 *yn iachâu ei was ef yn ei absen:* 11 *yn cyfodi o farw i fyw fab y wraig weddw o Nain:* 19 *yn atteb cenhadon Ioan, trwy ddangos ei wyrthiau:* 24 *yn tystiolaethu i'r bobl ei feddwl am Ioan:* 30 *yn bwrw bai ar yr Iuddewon, y rhai ni ellid eu hennill na thrwy ymarweddiad Ioan na'r eiddo yr Iesu:* 36 *ac yn dangos trwy achlysur y wraig oedd bechadures pa fodd y mae efe yn gyfaill i bechaduriaid, nid i'w maentumio mewn pechodau, ond i faddeu iddynt eu pechodau, ar eu ffydd a'u hedifeirwch.*

AC wedi iddo orphen ei holl ymadroddion lle y clywai y bobl, efe a aeth i mewn i Capernaum.

2 A gwas rhyw ganwriad, yr hwn oedd anwyl ganddo, oedd yn ddrwg ei hwyl, ym mron marw.

3 A phan glybu efe sôn am yr Iesu, efe a ddanfonodd atto henuriaid yr Iuddewon, gan attolwg iddo ddyfod a iachâu ei was ef.

4 Y rhai pan ddaethant at yr Iesu, a attolygasant arno yn daer, gan ddywedyd, Oblegid y mae efe yn haeddu cael gwneuthur o honot hyn iddo:

5 Canys y mae yn caru ein cenedl ni, ac efe a adeiladodd i ni synagog.

6 A'r Iesu a aeth gyd â hwynt. Ac efe weithian heb fod neppell oddi wrth y tŷ, y canwriad a anfonodd gyfeillion atto, gan ddywedyd wrtho, Arglwydd, na phoena; canys nid wyf fi deilwng i ddyfod o honot dan fy nghronglwyd:

7 O herwydd paham ni'm tybiais fy hun yn deilwng i ddyfod attat: eithr dywed y gair, a iach fydd fy ngwas.

8 Canys dyn wyf finnau wedi fy ngosod dan awdurdod, a chennyf filwyr danaf: ac meddaf wrth hwn, Dos, ac efe a â; ac wrth arall, Tyred, ac efe a ddaw; ac wrth fy ngwas, Gwna hyn, ac efe a'i gwna.

9 Pan glybu yr Iesu y pethau hyn, efe a ryfeddodd wrtho, ac a drodd, ac a ddywedodd wrth y bobl oedd yn ei ganlyn, Yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Ni chefais gymmaint ffydd, na ddo yn yr Israel.

10 A'r rhai a anfonasid, wedi iddynt ddychwelyd i'r tŷ, a gawsant y gwas a fuasai glaf, yn holliach.

11 ¶ A bu drannoeth, iddo ef fyned i ddinas a elwid Naïn; a chyd âg ef yr aeth llawer o'i ddisgyblion, a thyrfa fawr.

12 A phan ddaeth efe yn agos at borth y ddinas, wele, un marw a ddygid allan, *yr hwn oedd* unig fab ei fam, a honno yn weddw: a bagad o bobl y ddinas oedd gyd â hi.

13 A'r Arglwydd pan y gwelodd hi, a gymmerodd drugaredd arni, ac a ddywedodd wrthi, Nac wyla.

14 A phan ddaeth *attynt*, efe a gyffyrddodd â'r elor: a'r rhai oedd yn ei dwyn, a safasant. Ac efe a ddywedodd, Y mab ieuangc, yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod.

15 A'r marw a gyfododd yn ei eistedd, ac a ddechreuodd lefaru. Ac efe a'i rhoddes i'w fam.

16 Ac ofn a ddaeth ar bawb: a hwy a ogoneddasant Dduw, gan ddywedyd, Prophwyd mawr a gyfododd yn ein plith; ac, Ymwelodd Duw â'i bobl.

17 A'r gair hwn a aeth allan am dano trwy holl Judea, a thrwy gwbl o'r wlad oddi amgylch.

18 A'i ddisgyblion a fynegasant i Ioan hyn oll.

19 ¶ Ac Ioan, wedi galw rhyw ddau o'i ddisgyblion atto, a anfonodd at yr Iesu, gan ddywedyd, Ai ti yw yr hwn sydd yn dyfod? ai un arall yr ym yn ei ddisgwyl?

20 A'r gwŷr pan ddaethant atto, a ddywedasant, Ioan Fedyddiwr a'n danfonodd ni attat ti, gan ddywedyd, Ai ti yw yr hwn sydd yn dyfod? ai arall yr ym yn ei ddisgwyl?

21 A'r awr honno efe a iachaodd lawer oddi wrth glefydau, a phläau, ac ysprydion drwg; ac i lawer o ddeillion y rhoddes efe eu golwg.

22 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Ewch, a mynegwch i Ioan y pethau a welsoch ac a glywsoch; fod y deillion yn gweled eilwaith, y cloffion yn rhodio, y gwahan-glwyfus wedi eu glanhâu, y byddariaid yn clywed, y

meirw yn cyfodi, y tlodion yn derbyn yr efengyl.
23 A gwyn ei fyd y neb ni rwystrir ynof fi.
24 ¶ Ac wedi i genhadau Ioan fyned ymaith, efe a ddechreuodd ddywedyd wrth y bobloedd am Ioan, Beth yr aethoch allan i'r diffaethwch i'*w* weled? Ai corsen yn siglo gan wynt?
25 Ond pa beth yr aethoch allan i'*w* weled? Ai dyn wedi ei ddilladu â dillad esmwyth? Wele, y rhai sydd yn arfer dillad anrhydeddus, a moethau, mewn palasau brenhinoedd y maent.
26 Eithr beth yr aethoch allan i'*w* weled? Ai prophwyd? Yn ddïau meddaf i chwi, a llawer mwy na phrophwyd.
27 Hwn yw *efe* am yr un yr ysgrifenwyd, Wele, yr wyf fi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb, yr hwn a barottoa dy ffordd o'th flaen.
28 Canys meddaf i chwi, Ym mhlith y rhai a aned o wragedd, nid oes brophwyd mwy nag Ioan Fedyddiwr: eithr yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas Dduw, sydd fwy nag ef.
29 A'r holl bobl a'r oedd yn gwrandaw, a'r publicanod, a gyfiawnhasant Dduw, gwedi eu bedyddio â bedydd Ioan.
30 Eithr y Phariseaid a'r cyfreithwyr yn eu herbyn eu hunain a ddïystyrasant gynghor Duw, heb eu bedyddio ganddo.
31 ¶ A dywedodd yr Arglwydd, I bwy gan hynny y cyffelybaf ddynion y genhedlaeth hon? ac i ba beth y maent yn debyg?
32 Tebyg ydynt i blant yn eistedd yn y farchnad, ac yn llefain wrth eu gilydd, ac yn dywedyd, Canasom bibau i chwi, ac ni ddawnsiasoch; cwynfanasom i chwi, ac nid wylasoch.
33 Canys daeth Ioan Fedyddiwr heb na bwytta bara, nac yfed gwin; a chwi a ddywedwch, Y mae cythraul ganddo.
34 Daeth Mab y dyn yn bwytta ac yn yfed; ac yr ydych yn dywedyd, Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid.
35 A doethineb a gyfiawnhâwyd gan bawb o'i phlant.
36 ¶ Ac un o'r Phariseaid a ddymunodd arno fwytta gyd âg ef: ac yntau a aeth i dŷ y Pharisead, ac a eisteddodd i fwytta.
37 Ac wele, gwraig yn y ddinas, yr hon oedd bechadures, pan wybu hi fod yr Iesu yn eistedd ar y bwrdd yn nhŷ y Pharisead, a ddug flwch o ennaint:
38 A chan sefyll wrth ei draed ef o'r tu ol, ac wylo, *hi* a ddechreuodd olchi ei draed ef â dagrau, ac a'*u* sychodd â gwallt ei phen: a hi a gusanodd ei draed ef, ac a'u hirodd â'r ennaint.
39 A phan welodd y Pharisead, yr hwn a'i gwahoddasai, efe a ddywedodd ynddo ei hun, gan ddywedyd, Pe bai hwn brophwyd, efe a wybuasai pwy, a pha fath wraig *yw yr hon* sydd yn cyffwrdd âg ef: canys pechadures yw hi.
40 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd wrtho, Simon, y mae gennyf beth i'w ddywedyd wrthyt. Yntau a ddywedodd, Athraw, dywed.
41 Dau ddyledwr oedd i'r un echwynwr: y naill oedd arno bum can ceiniog o ddyled, a'r llall ddeg a deugain.
42 A phryd nad oedd ganddynt ddim i dalu, efe a faddeuodd iddynt ill dau. Dywed gan hynny, pwy o'r rhai hyn a'i câr ef yn fwyaf?
43 A Simon a attebodd ac a ddywedodd, Yr wyf fi yn tybied mai yr hwn y maddeuodd efe iddo fwyaf. Yntau a ddywedodd wrtho, Uniawn y bernaist.
44 Ac efe a drodd at y wraig, ac a ddywedodd wrth Simon, A weli di y wraig hon? mi a ddeuthum i'th dŷ di, *ac* ni roddaist i mi ddwfr i'm traed: ond hon a olchodd fy nhraed â dagrau, ac a'*u* sychodd â gwallt ei phen.
45 Ni roddaist i mi gusan: ond hon, er pan ddeuthum i mewn, ni pheidiodd â chusanu fy nhraed.
46 Fy mhen âg olew nid iraist: ond hon a irodd fy nhraed âg ennaint.
47 O herwydd paham y dywedaf wrthyt, Maddeuwyd ei haml bechodau hi; oblegid hi a garodd yn

fawr: ond y neb y maddeuer ychydig iddo, a gâr ychydig.
48 Ac efe a ddywedodd wrthi, Maddeuwyd i ti dy bechodau.
49 A'r rhai oedd yn cyd-eistedd i fwytta a ddechreuasant ddywedyd ynddynt eu hunain, Pwy yw hwn sydd yn maddeu pechodau hefyd?
50 Ac efe a ddywedodd wrth y wraig, Dy ffydd a'th gadwodd; dos mewn tangnefedd.

PENNOD 8.

1 Y gwragedd yn gweini i Grist o'u golud. 4 Crist, wedi iddo bregethu o fan i fan, a'i apostolion yn ei ganlyn, yn gosod allan ddammeg yr hauwr; 16 a'r ganwyll: 21 yn dangos pwy ydyw ei fam a'i frodyr: 22 yn ceryddu y gwyntoedd: 26 yn bwrw y lleng gythreuliaid allan o'r dyn i'r genfaint foch. 37 Y Gadareniaid yn ei wrthod ef: 43 ymlau yn iachâu y wraig o'i diferlif gwaed, 49 ac yn bywhau merch Jairus.

ABU wedi hynny, iddo fyned trwy bob dinas a thref, gan bregethu, ac efengylu teyrnas Dduw: a'r deuddeg *oedd* gyd âg ef,
2 A gwragedd rai, a'r a iachesid oddi wrth ysprydion drwg a gwendid; Mair yr hon a elwid Magdalen, o'r hon yr aethai saith gythraul allan;
3 Joanna, gwraig Chusa goruchwyliwr Herod, a Susanna, a llawer eraill, y rhai oedd yn gweini iddo o'r pethau oedd ganddynt.
4 ¶ Ac wedi i lawer o bobl ymgynnull ynghyd, a chyrchu atto o bob dinas, efe a ddywedodd ar ddammeg:
5 Yr hauwr a aeth allan i hau ei had: ac wrth hau, peth a syrthiodd ar ymyl y ffordd, ac a fathrwyd; ac ehediaid y nef a'i bwyttaodd.
6 A pheth arall a syrthiodd ar y graig; a phan eginodd, y gwywodd, am nad oedd iddo wlybwr.
7 A pheth arall a syrthiodd ym mysg drain; a'r drain a gyd-dyfasant, ac a'i tagasant ef.
8 A pheth arall a syrthiodd ar dir da; ac a eginodd, ac a ddug ffrwyth ar ei ganfed. Wrth ddywedyd y pethau hyn, efe a lefodd, Y neb sydd a chlustiau ganddo i wrandaw, gwrandawed.
9 A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Pa ddammeg oedd hon?
10 Yntau a ddywedodd, I chwi y rhoddwyd gwybod dirgeloedd teyrnas Dduw; eithr i eraill ar ddammhegion; fel yn gweled na welant, ac yn clywed na ddeallant.
11 A dyma y ddammeg: Yr had yw gair Duw.
12 A'r rhai ar ymyl y ffordd, ydyw y rhai sydd yn gwrandaw; wedi hynny y mae y diafol yn dyfod, ac yn dwyn ymaith y gair o'u calon hwynt, rhag iddynt gredu, a bod yn gadwedig.
13 A'r rhai ar y graig, *yw y rhai* pan glywant, a dderbyniant y gair yn llawen; a'r rhai hyn nid oes ganddynt wreiddyn, y rhai sydd yn credu dros amser, ac yn amser profedigaeth yn cilio.
14 A'r hwn a syrthiodd ym mysg drain, yw y rhai a wrandawsant; ac wedi iddynt fyned ymaith, hwy a dagwyd gan ofalon, a golud, a melyswedd buchedd, ac nid ydynt yn dwyn ffrwyth i berffeithrwydd.
15 A'r hwn ar y tir da, yw y rhai hyn, y rhai â chalon hawddgar a da, ydynt yn gwrandaw y gair, ac yn ei gadw, ac yn dwyn ffrwyth trwy amynedd.
16 ¶ Nid yw neb wedi goleu canwyll, yn ei chuddio hi â llestr, neu yn *ei* dodi dan wely; eithr yn ei gosod ar ganhwyllbren, fel y caffo y rhai a ddêl i mewn weled y goleuni.
17 Canys nid oes dim dirgel, a'r ni bydd amlwg; na dim cuddiedig, a'r nis gwybyddir, ac na ddaw i'r goleu.
18 Edrychwch am hynny pa fodd y clywoch: canys pwy bynnag y mae ganddo, y rhoddir iddo; a'r neb nid oes ganddo, ïe, yr hyn y mae yn tybied ei fod ganddo, a ddygir oddi arno.
19 ¶ Daeth atto hefyd *ei* fam a'i frodyr; ac ni allent ddyfod hyd atto gan y dorf.
20 A mynegwyd iddo *gan rai*, yn dywedyd, Y mae dy fam a'th frodyr yn sefyll allan, yn ewyllysio dy weled.
21 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Fy mam i a'm brodyr i yw y rhai hyn sydd yn gwrandaw gair Duw, ac yn ei wneuthur.
22 ¶ A bu ar ryw ddiwrnod, ac

efe a aeth i long, efe a'i ddisgyblion: a dywedodd wrthynt, Awn trosodd i'r tu hwnt i'r llyn. A hwy a gychwynasant.

23 Ac fel yr oeddynt yn hwylio, efe a hunodd: a chawod o wynt a ddisgynodd ar y llyn; ac yr oeddynt yn llawn *o ddwfr*, ac mewn enbydrwydd.

24 A hwy a aethant atto, ac a'i deffroisant ef, gan ddywedyd, *O* Feistr, Feistr, darfu am danom. Ac efe a gyfododd, ac a geryddodd y gwynt a'r tonnau dwfr: a hwy a beidiasant, a hi a aeth yn dawel.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa le y mae eich ffydd chwi? A hwy wedi ofni, a ryfeddasant, gan ddywedyd wrth eu gilydd, Pwy yw hwn, gan ei fod yn gorchymyn i'r gwynt oedd ac i'r dwfr hefyd, a hwythau yn ufuddhâu iddo?

26 ¶ A hwy a hwyliasant i wlad y Gadareniaid, yr hon sydd o'r tu arall, ar gyfer Galilea.

27 Ac wedi iddo fyned allan i dir, cyfarfu âg ef ryw ŵr o'r ddinas, yr hwn oedd ganddo gythreuliaid er ys talm o amser; ac ni wisgai ddillad, ac nid arhosai mewn tŷ, ond yn y beddau.

28 *Hwn*, wedi gweled yr Iesu, a dolefain, a syrthiodd i lawr ger ei fron ef, ac a ddywedodd â llef uchel, Beth sydd i mi â thi, *O* Iesu, Fab Duw goruchaf? yr wyf yn attolwg i ti na'm poenech.

29 (Canys efe a orchymynasai i'r ysbryd aflan ddyfod allan o'r dyn. Canys llawer o amserau y cipiasai ef: ac efe a gedwid yn rhwym â chadwynau, ac â llyffetheiriau; ac wedi dryllio y rhwymau, efe a yrrwyd gan y cythraul i'r diffaethwch.)

30 A'r Iesu a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Beth yw dy enw di? Yntau a ddywedodd, Lleng: canys llawer o gythreuliaid a aethent iddo ef.

31 A hwy a ddeisyfasant arno, na orchymynai iddynt fyned i'r dyfnder.

32 Ac yr oedd yno genfaint o foch lawer yn pori ar y mynydd: a hwynt-hwy a attolygasant iddo adael iddynt fyned i mewn i'r rhai hynny. Ac efe a adawodd iddynt.

33 A'r cythreuliaid a aethant allan o'r dyn, ac a aethant i mewn i'r moch: a'r genfaint a ruthrodd oddi ar y dibyn i'r llyn, ac a foddwyd.

34 A phan welodd y meichiaid yr hyn a ddarfuasai, hwy a ffoisant, ac a aethant, ac a fynegasant yn y ddinas, ac yn y wlad.

35 A hwy a aethant allan i weled y peth a wnelsid; ac a ddaethant at yr Iesu, ac a gawsant y dyn, o'r hwn yr aethai y cythreuliaid allan, yn ei ddillad, a'i iawn bwyll, yn eistedd wrth draed yr Iesu: a hwy a ofnasant.

36 A'r rhai a welsent, a fynegasant hefyd iddynt pa fodd yr iachasid y cythreulig.

37 ¶ A'r holl liaws o gylch gwlad y Gadareniaid a ddymunasant arno fyned ymaith oddi wrthynt; am eu bod mewn ofn mawr. Ac efe wedi myned i'r llong, a ddychwelodd.

38 A'r gŵr o'r hwn yr aethai y cythreuliaid allan, a ddeisyfodd arno gael bod gyd âg ef: eithr yr Iesu a'i danfonodd ef ymaith, gan ddywedyd,

39 Dychwel i'th dŷ, a dangos faint o bethau a wnaeth Duw i ti. Ac efe a aeth, dan bregethu trwy gwbl o'r ddinas, faint a wnaethai yr Iesu iddo.

40 A bu, pan ddychwelodd yr Iesu, dderbyn o'r bobl ef: canys yr oeddynt oll yn disgwyl am dano ef.

41 ¶ Ac wele, daeth gŵr a'i enw Jairus; ac efe oedd lywodraethwr y synagog: ac efe a syrthiodd wrth draed yr Iesu, ac a attolygodd iddo ddyfod i'w dŷ ef:

42 O herwydd yr oedd iddo ferch unig-anedig, ynghylch deuddeng mlwydd oed, a hon oedd yn marw. Ond fel yr oedd efe yn myned, y bobloedd a'i gwasgent ef.

43 ¶ A gwraig, yr hon oedd mewn diferlif gwaed er ys deuddeng mlynedd, yr hon a dreuliasai ar physygwyr ei holl fywyd, ac nis gallai gael gan neb ei hiachâu,

44 A ddaeth o'r tu cefn, ac a gyffyrddodd âg ymyl ei wisg ef: ac yn y fan y safodd diferlif ei gwaed hi.

45 A dywedodd yr Iesu, Pwy *yw* a gyffyrddodd â mi? Ac a phawb yn gwadu, y dywedodd Pedr, a'r

rhai oedd gyd âg ef, *O* Feistr, y mae y bobloedd yn dy wasgu, ac yn *dy* flino; ac a ddywedi di, Pwy *yw* a gyffyrddodd â mi?

46 A'r Iesu a ddywedodd, Rhyw un a gyffyrddodd â mi: canys mi a wn fyned rhinwedd allan o honof.

47 A phan welodd y wraig nad oedd hi guddiedig, hi a ddaeth dan grynu, ac a syrthiodd ger ei fron ef, ac a fynegodd iddo, y'ngŵydd yr holl bobl, am ba achos y cyffyrddasai hi âg ef, ac fel yr iachasid hi yn ebrwydd.

48 Yntau a ddywedodd wrthi, Cymmer gysur, ferch; dy ffydd a'th iachaodd: dos mewn tangnefedd.

49 ¶ Ac efe etto yn llefaru, daeth un o *dŷ* llywodraethwr y synagog, gan ddywedyd wrtho, Bu farw dy ferch: na phoena mo'r Athraw.

50 A'r Iesu pan glybu *hyn*, a'i hattebodd ef, gan ddywedyd, Nac ofna: cred yn unig, a hi a iachêir.

51 Ac wedi ei fyned ef i'r tŷ, ni adawodd i neb ddyfod i mewn, ond Pedr, ac Iago, ac Ioan, a thad yr eneth a'i mam.

52 Ac wylo a wnaethant oll, a chwynfan am dani. Eithr efe a ddywedodd, Nac wylwch; nid marw hi, eithr cysgu y mae.

53 A hwy a'i gwatwarasant ef, am iddynt wybod ei marw hi.

54 Ac efe a'u bwriodd hwynt oll allan, ac a'i cymmerth hi erbyn ei llaw, ac a lefodd, gan ddywedyd, Herlodes, cyfod.

55 A'i hyspryd hi a ddaeth drachefn, a hi a gyfododd yn ebrwydd: ac efe a orchymynodd roi bwyd iddi.

56 A synnu a wnaeth ar ei rhïeni hi: ac efe a orchymynodd iddynt, na ddywedent i neb y peth a wnaethid.

PENNOD 9.

1 Crist yn anfon ei apostolion i wneuthur rhyfeddodau, ac i bregethu. 7 Herod yn chwennych gweled Crist. 17 Crist yn porthi pum mil: 18 yn ymofyn beth yr oedd y byd yn ei dybied am dano: 22 yn rhag-fynegi ei ddioddefaint: 23 yn gosod allan i bawb siampl o'i ddioddefgarwch. 28 Ei weddnewidiad ef. 37 Mae efe yn iachâu y lloerig: 43 a thruchefin yn rhag-rybuddio ei ddisgyblion am ei ddioddefaint: 46 yn cammol gostyngeiddrwydd; 51 yn gorchymyn iddynt ddangos llarieidd-dra tu ag at bawb, heb chwennych dial. 57 Rhai yn chwennych ei ganlyn ef, ond dan ammod.

AC efe a alwodd ynghyd ei ddeuddeg disgybl, ac a roddes iddynt feddiant ac awdurdod ar yr holl gythreuliaid, ac i iachâu clefydau.

2 Ac efe a'u hanfonodd hwynt i bregethu teyrnas Dduw, ac i iachâu y rhai cleifion.

3 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Na chymmerwch ddim i'r daith, na ffyn, nac ysgreppan, na bara, nac arian; ac na fydded gennych ddwy bais bob un.

4 Ac i ba dŷ bynnag yr eloch i mewn, arhoswch yno, ac oddi yno ymadêwch.

5 A pha rai bynnag ni'ch derbyniant, pan eloch allan o'r ddinas honno, ysgydwch hyd yn nod y llwch oddi wrth eich traed, yn dystiolaeth yn eu herbyn hwynt.

6 Ac wedi iddynt fyned allan, hwy a aethant trwy y trefi, gan bregethu yr efengyl, a iachâu ym mhob lle.

7 ¶ A Herod y tetrarch a glybu y cwbl oll a wnaethid ganddo; ac efe a betrusodd, am fod rhai yn dywedyd gyfodi Ioan o feirw;

8 A rhai eraill, ymddangos o Elïas; a rhai eraill, mai prophwyd, un o'r rhai gynt, a adgyfodasai.

9 A Herod a ddywedodd, Ioan a dorrais i ei ben: ond pwy ydyw hwn yr wyf yn clywed y cyfryw bethau am dano? Ac yr oedd efe yn ceisio ei weled ef.

10 ¶ A'r apostolion, wedi dychwelyd, a fynegasant iddo y cwbl a wnaethent. Ac efe a'u cymmerth hwynt, ac a aeth o'r neilldu, i le anghyfannedd yn perthynu i'r ddinas a elwir Bethsaida.

11 A'r bobloedd pan wybuant, a'i dilynasant ef: ac efe a'u derbyniodd hwynt, ac a lefarodd wrthynt am deyrnas Dduw, ac a iachaodd y rhai oedd arnynt eisieu eu hiachâu.

12 A'r dydd a ddechreuodd hwyrhâu; a'r deuddeg a ddaethant, ac a ddywedasant wrtho, Gollwng y dyrfa ymaith, fel y gallont fyned i'r trefi, ac i'r wlad oddi amgylch, i lettŷa, ac i gael bwyd: canys yr ydym ni yma mewn lle anghyfannedd.

13 Eithr efe a ddywedodd wrthynt,

Rhoddwch chwi iddynt *beth* i'w fwytta. A hwythau a ddywedasant, Nid oes gennym ni ond pum torth, a dau bysgodyn, oni bydd i ni fyned a phrynu bwyd i'r bobl hyn oll.

14 Canys yr oeddynt ynghylch pum mil o wŷr. Ac efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Gwnewch iddynt eistedd yn fyrddeidiau, bob yn ddeg a deugain.

15 Ac felly y gwnaethant; a *hwy* a wnaethant iddynt oll eistedd.

16 Ac efe a gymmerodd y pum torth, a'r ddau bysgodyn, ac a edrychodd i fyny i'r nef, ac a'*u* bendithiodd hwynt, ac a'*u* torrodd, ac a'*u* rhoddodd i'r disgyblion i'w gosod ger bron y bobl.

17 A hwynt-hwy oll a fwyttasant, ac a gawsant ddigon: a chyfodwyd a weddillasai iddynt o friwfwyd, ddeuddeg basgedaid.

18 ¶ Bu hefyd, fel yr oedd efe yn gweddïo ei hunan, fod ei ddisgyblion gyd âg ef: ac efe a ofynodd iddynt, gan ddywedyd, Pwy y mae y bobl yn dywedyd fy mod i?

19 Hwythau gan atteb a ddywedasant, Ioan Fedyddiwr; ond eraill, mai Elïas; ac eraill, mai rhyw brophwyd o'r rhai gynt a adgyfododd.

20 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ond pwy yr ydych chwi yn dywedyd fy mod i? A Phedr gan atteb a ddywedodd, Crist Duw.

21 Ac efe a roes orchymyn arnynt, ac a archodd *iddynt* na ddywedent hynny i neb;

22 Gan ddywedyd, Mae yn rhaid i Fab y dyn oddef llawer, a'i wrthod gan yr henuriaid, a'r arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, a'r trydydd dydd adgyfodi.

23 ¶ Ac efe a ddywedodd wrth bawb, Os ewyllysia neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a choded ei groes beunydd, a dilyned fi.

24 Canys pwy bynnag a ewyllysio gadw ei einioes, a'i cyll; ond pwy bynnag a gollo ei einioes o'm hachos i, hwnnw a'i ceidw hi.

25 Canys pa lesâd i ddyn, er ennill yr holl fyd, a'i ddifetha ei hun, neu fod wedi ei golli?

26 Canys pwy bynnag fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnnw fydd gywilydd gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd.

27 Eithr dywedaf i chwi yn wir, Y mae rhai o'r sawl sydd yn sefyll yma a'r ni archwaethant angau, hyd oni welont deyrnas Dduw.

28 ¶ A bu, ynghylch wyth niwrnod wedi y geiriau hyn, gymmeryd o hono ef Pedr, ac Ioan, ac Iago, a myned i fyny i'r mynydd i weddïo.

29 Ac fel yr oedd efe yn gweddïo, gwedd ei wynebpryd ef a newidiwyd, a'i wisg *oedd* yn wen ddisglaer.

30 Ac wele, dau ŵr a gyd-ymddiddanodd âg ef, y rhai oedd Moses ac Elïas:

31 Y rhai a ymddangosasant mewn gogoniant, ac a ddywedasant am ei ymadawiad ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem.

32 A Phedr, a'r rhai oedd gyd âg ef, oeddynt wedi trymhâu gan gysgu: a phan ddihunasant, hwy a welsant ei ogoniant ef, a'r ddau ŵr y rhai oedd yn sefyll gyd âg ef.

33 A bu, a hwy yn ymadaw oddi wrtho ef, ddywedyd o Pedr wrth yr Iesu, *O* Feistr, da yw i ni fod yma: a gwnawn dair pabell; un i ti, ac un i Moses, ac un i Elïas: heb wybod beth yr oedd yn ei ddywedyd.

34 Ac fel yr oedd efe yn dywedyd hyn, daeth cwmmwl, ac a'u cysgododd hwynt: a hwynt-hwy a ofnasant wrth fyned o honynt i'r cwmmwl.

35 A daeth llef allan o'r cwmmwl, gan ddywedyd, Hwn yw fy Mab anwyl; gwrandêwch ef.

36 Ac wedi bod y llef, cafwyd yr Iesu yn unig. A hwy a gelasant, ac ni fynegasant i neb y dyddiau hynny ddim o'r pethau a welsent.

37 ¶ A darfu drannoeth, pan ddaethant i waered o'r mynydd, i dyrfa fawr gyfarfod âg ef.

38 Ac wele, gŵr o'r dyrfa a ddolefodd, gan ddywedyd, *O* Athraw, yr wyf yn attolwg i ti, edrych ar fy mab; canys fy unig-anedig yw.

39 Ac wele, y mae yspryd yn ei gymmeryd ef, ac yntau yn ddisymmwth yn gwaeddi; ac y mae yn ei ddryllio ef, hyd oni falo ewyn; a

braidd yr ymedy oddi wrtho, wedi iddo ei ysigo ef.
40 Ac mi a ddeisyfais ar dy ddisgyblion di ei fwrw ef allan; ac nis gallasant.
41 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd, O genhedlaeth anffyddlawn a throfaus, pa hyd y byddaf gyd â chwi, ac y'ch goddefaf? dwg dy fab yma.
42 Ac fel yr oedd efe etto yn dyfod, y cythraul a'i rhwygodd ef, ac a'i drylliodd: a'r Iesu a geryddodd yr yspryd aflan, ac a iachaodd y bachgen, ac a'i rhoddes ef i'w dad.
43 ¶ A brawychu a wnaethant oll gan fawredd Duw. Ac a phawb yn rhyfeddu am yr holl bethau a wnaethai yr Iesu, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion,
44 Gosodwch chwi yn eich clustiau yr ymadroddion hyn: canys Mab y dyn a draddodir i ddwylaw dynion.
45 Eithr hwy ni wybuant y gair hwn, ac yr oedd yn guddiedig oddi wrthynt, fel nas deallent ef: ac yr oedd arnynt arswyd ymofyn âg ef am y gair hwn.
46 ¶ A dadl a gyfododd yn eu plith, pwy a fyddai fwyaf o honynt.
47 A'r Iesu, wrth weled meddwl eu calon hwynt, a gymmerth fachgennyn, ac a'i gosododd yn ei ymyl,
48 Ac a ddywedodd wrthynt, Pwy bynnag a dderbynio y bachgennyn hwn yn fy enw i, sydd yn fy nerbyn i; a phwy bynnag a'm derbynio i, sydd yn derbyn yr hwn a'm hanfonodd i: canys yr hwn sydd leiaf yn eich plith chwi oll, hwnnw a fydd mawr.
49 ¶ Ac Ioan a attebodd ac a ddywedodd, *O* Feistr, ni a welsom ryw un yn dy enw di yn bwrw allan gythreuliaid; ac a waharddasom iddo, am nad oedd yn canlyn gyd â ni.
50 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Na waherddwch *iddo:* canys y neb nid yw i'n herbyn, trosom ni y mae.
51 ¶ A bu, pan gyflawnwyd y dyddiau y cymmerid ef i fyny, yntau a roddes ei fryd ar fyned i Jerusalem.
52 Ac efe a ddanfonodd genhadau o flaen ei wyneb: a hwy wedi myned, a aethant i mewn i dref y Samariaid, i barottôi iddo ef.
53 Ac nis derbyniasant hwy ef, oblegid fod ei wyneb ef yn tueddu tu a Jerusalem.
54 A'i ddisgyblion ef, Iago ac Ioan, pan welsant, a ddywedasant, Arglwydd, a fynni di ddywedyd o honom am ddyfod tân i lawr o'r nef, a'u difa hwynt, megis y gwnaeth Elïas?
55 Ac efe a drodd, ac a'u ceryddodd hwynt; ac a ddywedodd, Ni wyddoch o ba yspryd yr ydych chwi.
56 Canys ni ddaeth Mab y dyn i ddistrywio eneidiau dynion, ond i'*w* cadw. A hwy a aethant i dref arall.
57 ¶ A bu, a hwy yn myned, ddywedyd o ryw un ar y ffordd wrtho ef, Arglwydd, mi a'th ganlynaf i ba le bynnag yr elych.
58 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Y mae gan y llwynogod ffauau, a *chan* adar yr awyr nythod; ond gan Fab y dyn nid oes lle y rhoddo *ei* ben i lawr.
59 Ac efe a ddywedodd wrth un arall, Dilyn fi. Ac yntau a ddywedodd, Arglwydd, gâd i mi yn gyntaf fyned a chladdu fy nhad.
60 Eithr yr Iesu a ddywedodd wrtho, Gâd i'r meirw gladdu eu meirw: ond dos di, a phregetha deyrnas Dduw.
61 Ac un arall hefyd a ddywedodd, Mi a'th ddilynaf di, O Arglwydd; ond gâd i mi yn gyntaf ganu yn iach i'r rhai sydd yn fy nhŷ.
62 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Nid oes neb a'r sydd yn rhoi ei law ar yr aradr, ac yn edrych ar y pethau sydd o'i ol, yn gymmwys i deyrnas Dduw.

PENNOD 10.

1 *Crist yn anfon allan ar unwaith ddeg disgybl a thri ugain i wneuthur gwyrthiau, ac i bregethu;* 17 *yn eu rhybuddio hwy i fod yn ostyngedig, ac ym mha beth y gorfoleddent:* 21 *yn diolch i'w Dad am ei ras:* 23 *yn mawrygu dedwydd gyflwr eu eglwys:* 25 *yn dysgu y cyfreithiwr y modd i gael bywyd tragwyddol, ac i gymmeryd pawb yn gymmydog iddo, a'r a fo ag eisieu ei drugaredd ef arno:* 41 *yn argyhoeddi Martha, ac yn canmol Mair ei chwaer hi.*

WEDI y pethau hyn yr ordeiniodd yr Arglwydd ddeg

a thri ugain eraill hefyd, ac a'u danfonodd hwynt bob yn ddau o flaen ei wyneb i bob dinas a man lle yr oedd efe ar fedr dyfod.

2 Am hynny efe a ddywedodd wrthynt, Y cynhauaf yn wir *sydd* fawr, ond y gweithwyr yn anaml: gweddïwch gan hynny ar Arglwydd y cynhauaf, am ddanfon allan weithwyr i'w gynhauaf.

3 Ewch: wele, yr wyf fi yn eich danfon chwi fel ŵyn ym mysg bleiddiaid.

4 Na ddygwch gôd, nac ysgreppan, nac esgidiau; ac na chyfferchwch well i neb ar y ffordd.

5 Ac i ba dŷ bynnag yr eloch i mewn, yn gyntaf dywedwch, Tangnefedd i'r tŷ hwn.

6 Ac o bydd yno fab tangnefedd, eich tangnefedd a orphwys arno: os amgen, hi a ddychwel attoch chwi.

7 Ac yn y tŷ hwnnw arhoswch, gan fwytta ac yfed y cyfryw bethau ag *a gaffoch* ganddynt: canys teilwng yw i'r gweithiwr ei gyflog. Na threiglwch o dŷ i dŷ.

8 A pha ddinas bynnag yr eloch iddi, a hwy yn eich derbyn, bwyttêwch y cyfryw bethau ag a rodder ger eich bronnau:

9 Ac iachêwch y cleifion a fyddo ynddi, a dywedwch wrthynt, Daeth teyrnas Dduw yn agos attoch.

10 Eithr pa ddinas bynnag yr eloch iddi, a hwy heb eich derbyn, ewch allan i'w heolydd, a dywedwch,

11 Hyd yn nod y llwch, yr hwn a lynodd wrthym o'ch dinas, yr ydym yn ei sychu ymaith i chwi: er hynny gwybyddwch hyn, fod teyrnas Dduw wedi nesâu attoch.

12 Eithr dywedaf wrthych, mai esmwythach fydd i Sodom yn y dydd hwnnw, nag i'r ddinas honno.

13 Gwae di, Chorasin! gwae di, Bethsaida! canys pe gwnaethid yn Tyrus a Sidon y gweithredoedd nerthol a wnaethpwyd yn eich plith chwi, hwy a edifarhasent er ys talm, gan eistedd mewn sachlïan a lludw.

14 Eithr esmwythach fydd i Tyrus a Sidon yn y farn, nag i chwi.

15 A thithau, Capernaum, yr hon a ddyrchafwyd hyd y nef, a dynnir i lawr hyd yn uffern.

16 Y neb sydd yn eich gwrandaw chwi, sydd yn fy ngwrandaw i; a'r neb sydd yn eich dirmygu chwi, sydd yn fy nirmygu i; a'r neb sydd yn fy nirmygu i, sydd yn dirmygu yr hwn a'm hanfonodd i.

17 ¶ A'r deg a thri ugain a ddychwelasant gyd â llawenydd, gan ddywedyd, Arglwydd, hyd yn nod y cythreuliaid a ddarostyngir i ni, yn dy enw di.

18 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Mi a welais Satan megis mellten, yn syrthio o'r nef.

19 Wele, yr ydwyf fi yn rhoddi i chwi awdurdod i sathru ar seirph ac ysgorpionau, ac ar holl gryfder y gelyn: ac nid oes dim a wna ddim niwed i chwi.

20 Eithr yn hyn na lawenhêwch, fod yr ysprydion wedi eu darostwng i chwi; ond llawenhêwch yn hytrach, am fod eich enwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd.

21 ¶ Yr awr honno yr Iesu a lawenychodd yn yr ysprydol, ac a ddywedodd, Yr wyf yn diolch i ti, O Dad, Arglwydd nef a daear, am guddio o honot y pethau hyn oddi wrth y doethion a'r deallus, a'u datguddio o honot i rai bychain: yn wir, O Dad; oblegid felly y gwelid yn dda yn dy olwg di.

22 Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhad: ac ni ŵyr neb pwy yw y Mab, ond y Tad; na phwy yw y Tad, ond y Mab, a'r neb y mynno y Mab *ei* ddatguddio iddo.

23 ¶ Ac efe a drodd at *ei* ddisgyblion, ac a ddywedodd o'r neilldu, Gwyn fyd y llygaid sydd yn gweled y pethau yr ydych chwi yn eu gweled:

24 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, ewyllysio o lawer o brophwydi a brenhinoedd weled y pethau yr ydych chwi yn eu gweled, ac nis gwelsant; a chlywed y pethau yr ydych chwi yn eu clywed, ac nis clywsant.

25 ¶ Ac wele, rhyw gyfreithiwr a gododd, gan ei demtio ef, a dywedyd, Athraw, pa beth a wnaf i gael etifeddu bywyd tragywyddol?

26 Yntau a ddywedodd wrtho, Pa

beth sydd ysgrifenedig yn y gyfraith? pa fodd y darlleni?
27 Ac efe gan atteb a ddywedodd, Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl; a'th gymmydog fel ti dy hun.
28 Yntau a ddywedodd wrtho, Ti a attebaist yn uniawn: gwna hyn, a byw fyddi.
29 Eithr efe, yn ewyllysio ei gyfiawnhâu ei hun, a ddywedodd wrth yr Iesu, A phwy yw fy nghymmydog?
30 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd, Rhyw ddyn oedd yn myned i waered o Jerusalem i Jericho, ac a syrthiodd ym mysg lladron; y rhai wedi ei ddïosg ef, a'*i* archolli, a aethant ymaith, gan *ei* adael yn hanner marw.
31 Ac ar ddâmwain, rhyw offeiriad a ddaeth i waered y ffordd honno: a phan ei gwelodd, efe a aeth o'r tu arall heibio.
32 A'r un ffunud Lefiad hefyd, wedi dyfod i'r fan, a'*i* weled *ef*, a aeth o'r tu arall heibio.
33 Eithr rhyw Samariad, wrth ymdaith, a ddaeth atto ef: a phan ei gwelodd, a dosturiodd,
34 Ac a aeth atto, ac a rwymodd ei archollion ef, gan dywallt ynddynt olew a gwin; ac a'i gosododd ef ar ei anifail ei hun, ac a'i dug ef i'r lletty, ac a'i hymgeleddodd.
35 A thrannoeth wrth fyned ymaith, efe a dynnodd allan ddwy geiniog, ac a'*u* rhoddes i'r llettŷwr, ac a ddywedodd wrtho, Cymmer ofal drosto: a pha beth bynnag a dreuliech yn ychwaneg, pan ddelwyf drachefn, mi a'i talaf i ti.
36 Pwy gan hynny o'r tri hyn, yr ydwyt ti yn tybied ei fod yn gymmydog i'r hwn a syrthiasai ym mhlith y lladron?
37 Ac efe a ddywedodd, Yr hwn a wnaeth drugaredd âg ef. A'r Iesu am hynny a ddywedodd wrtho, Dos, a gwna dithau yr un modd.
38 ¶ A bu, a hwy yn ymdeithio, ddyfod o hono i ryw dref: a rhyw wraig, a'i henw Martha, a'i derbyniodd ef i'w thŷ.
39 Ac i hon yr oedd chwaer a elwid Mair, yr hon hefyd a eisteddodd wrth draed yr Iesu, ac a wrandawodd ar ei ymadrodd ef.
40 Ond Martha oedd drafferthus ynghylch llawer o wasanaeth: a chan sefyll ger llaw, hi a ddywedodd, Arglwydd, onid oes ofal gennyt am i'm chwaer fy ngadael i fy hun i wasanaethu? dywed wrthi gan hynny am fy helpio.
41 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Martha, Martha, gofalus a thrafferthus wyt ynghylch llawer o bethau:
42 Eithr un peth sydd angenrheidiol: a Mair a ddewisodd y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arni.

PENNOD 11.

1 *Crist yn dysgu gweddïo, a hynny heb ddiffygio:* 11 *gan sicrhâu y rhydd Duw felly i ni bethau da.* 14 *Wrth fwrw allan gythraul mud, y mae efe yn ceryddu y Phariseaid cablaidd:* 28 *ac yn dangos pwy sydd fendigedig:* 29 *ac yn pregethu i'r bobl;* 37 *ac yn argyhoeddi ffug sancteiddiwydd y Phariseaid, a'r ysgrifenyddion, a'r cyfreithiwyr.*

A BU, ac efe mewn rhyw fan yn gweddïo, pan beidiodd, ddywedyd o un o'i ddisgyblion wrtho, Arglwydd, dysg i ni weddïo, megis ag y dysgodd Ioan i'w ddisgyblion.
2 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pan weddïoch, dywedwch, Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy enw. Deued dy deyrnas.
Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
3 Dyro i ni o ddydd i ddydd ein bara beunyddiol.
4 A maddeu i ni ein pechodau: canys yr ydym ninnau yn maddeu i bawb sydd yn ein dyled. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg.
5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pwy o honoch fydd iddo gyfaill, ac a â atto hanner nos, ac a ddywed wrtho, *O* gyfaill, moes i mi dair torth yn echwyn;
6 Canys cyfaill i mi a ddaeth attaf wrth ymdaith, ac nid oes gennyf ddim i'w ddodi ger ei fron ef:
7 Ac yntau oddi mewn a ettyb ac a ddywed, Na flina fi: yn awr y mae y drws yn gauad, a'm plant gyd â mi yn y gwely; ni allaf godi a'u rhoddi i ti.
8 Yr wyf yn dywedyd i chwi, Er

na chyfyd efe a rhoddi iddo, am ei fod yn gyfaill iddo; etto o herwydd ei daerni, efe a gyfyd, ac a rydd iddo gynnifer ag y sydd arno eu heisieu.

9 Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe a agorir i chwi.

10 Canys pob un sydd yn gofyn, sydd yn derbyn; a'r neb sydd yn ceisio, sydd yn cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir.

11 Os bara a ofyn mab i un o honoch chwi sydd dad, a ddyry efe garreg iddo? ac os pysgodyn, a ddyry efe iddo sarph yn lle pysgodyn?

12 Neu os gofyn efe ŵy, a ddyry efe ysgorpion iddo?

13 Os chwychwi gan hynny, y rhai ydych ddrwg, a fedrwch roi rhoddion da i'ch plant chwi; pa faint mwy y rhydd *eich* Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofyno ganddo?

14 ¶ Ac yr oedd efe yn bwrw allan gythraul, a hwnnw oedd fud. A bu, wedi i'r cythraul fyned allan, i'r mudan lefaru; a'r bobloedd a ryfeddasant.

15 Eithr rhai o honynt a ddywedasant, Trwy Beelsebub, pennaeth y cythreuliaid, y mae efe yn bwrw allan gythreuliaid.

16 Ac eraill, gan *ei* demtio, a geisiasant ganddo arwydd o'r nef.

17 Yntau, yn gwybod eu meddyliau hwynt, a ddywedodd wrthynt, Pob teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, a anghyfanneddir; a thŷ yn erbyn tŷ, a syrth.

18 Ac os Satan hefyd sydd wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun, pa fodd y saif ei deyrnas ef? gan eich bod yn dywedyd, mai trwy Beelsebub yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid.

19 Ac os trwy Beelsebub yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid, trwy bwy y mae eich plant chwi yn eu bwrw hwynt allan? am hynny y byddant hwy yn farnwyr arnoch chwi.

20 Eithr os myfi trwy fys Duw ydwyf yn bwrw allan gythreuliaid, diammeu ddyfod teyrnas Dduw attoch chwi.

21 Pan fyddo un cryf arfog yn cadw ei neuadd, y mae yr hyn sydd ganddo mewn heddwch:

22 Ond pan ddêl un cryfach nag ef arno, a'i orchfygu, efe a ddwg ymaith ei holl arfogaeth ef yn yr hon yr oedd yn ymddiried, ac a ran ei anrhaith ef.

23 Y neb nid yw gyd â mi, sydd yn fy erbyn: a'r neb nid yw yn casglu gyd â mi, sydd yn gwasgaru.

24 Pan êl yr ysbryd aflan allan o ddyn, efe a rodia mewn lleoedd sychion, gan geisio gorphwysdra: a phryd na chaffo, efe a ddywed, Mi a ddychwelaf i'm tŷ o'r lle y deuthum allan.

25 A phan ddêl, y mae yn *ei* gael wedi ei ysgubo a'i drefnu.

26 Yna yr â efe, ac y cymmer atto saith ysbryd eraill gwaeth nag ef ei hun; a hwy a ânt i mewn, ac a arhosant yno: a diwedd y dyn hwnnw fydd gwaeth na'i ddechreuad.

27 ¶ A bu, fel yr oedd efe yn dywedyd hyn, rhyw wraig o'r dyrfa a gododd ei llef, ac a ddywedodd wrtho, Gwyn fyd y groth a'th ddug di, a'r bronnau a sugnaist.

28 Ond efe a ddywedodd, Yn hytrach gwyn fyd y rhai sydd yn gwrandaw gair Duw, ac yn ei gadw.

29 ¶ Ac wedi i'r bobloedd ymdyrru ynghyd, efe a ddechreuodd ddywedyd, Y genhedlaeth hon sydd ddrwg: y mae hi yn ceisio arwydd; ac arwydd ni roddir iddi, ond arwydd Jonas y prophwyd:

30 Canys fel y bu Jonas yn arwydd i'r Ninefeaid, felly y bydd Mab y dyn hefyd i'r genhedlaeth hon.

31 Brenhines y dehau a gyfyd yn y farn gyd â gwŷr y genhedlaeth hon, ac a'u condemnia hwynt; am iddi hi ddyfod o eithafoedd y ddaear i wrandaw doethineb Solomon: ac wele un mwy na Solomon yma.

32 Gwŷr Ninefe a godant i fyny yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon, ac a'i condemniant hi; am iddynt edifarhâu wrth bregeth Jonas: ac wele un mwy na Jonas yma.

33 Ac nid yw neb wedi goleu canwyll, yn *ei* gosod mewn lle dir-

gel, na than lestr; eithr ar ganhwyllbren, fel y gallo y rhai a ddelo i mewn weled y goleuni.

34 Canwyll y corph yw y llygad: am hynny pan fyddo dy lygad yn syml, dy holl gorph hefyd fydd oleu: ond pan fyddo *dy lygad* yn ddrwg, dy gorph hefyd fydd dywyll.

35 Edrych am hynny rhag i'r goleuni sydd ynot fod yn dywyllwch.

36 Os dy holl gorph gan hynny *sydd* oleu, heb un rhan dywyll ynddo, bydd y cwbl yn oleu, megis pan fo canwyll â'i llewyrch yn dy oleuo di.

37 ¶ Ac fel yr oedd efe yn llefaru, rhyw Pharisead a ddymunodd arno giniawa gyd âg ef. Ac wedi iddo ddyfod i mewn, efe a eisteddodd i fwytta.

38 A'r Pharisead pan welodd, a ryfeddodd nad ymolchasai efe yn gyntaf o flaen ciniaw.

39 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Yn awr chwychwi y Phariseaid ydych yn glanhâu y tu allan i'r cwppan a'r ddysgl; ond eich tu mewn sydd yn llawn o drais a drygioni.

40 *O* ynfydion, onid yr hwn a wnaeth yr hyn sydd oddi allan, a wnaeth yr hyn sydd o fewn hefyd?

41 Yn hytrach rhoddwch elusen o'r pethau sydd gennych: ac wele, pob peth sydd lân i chwi.

42 Eithr gwae chwi y Phariseaid! canys yr ydych chwi yn degymmu y mintys, a'r ryw, a phob llysieuyn, ac yn myned heibio i farn a chariad Duw. Y pethau hyn oedd raid eu gwneuthur, ac na adewid y lleill heb wneuthur.

43 Gwae chwi y Phariseaid! canys yr ydych yn caru y prif-gadeiriau yn y synagogau, a chyfarch yn y marchnadoedd.

44 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! am eich bod fel beddau anamlwg, a'r dynion a rodiant *arnynt* heb wybod *oddi wrthynt.*

45 ¶ Ac un o'r cyfreithwyr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Athraw, wrth ddywedyd hyn, yr wyt ti yn ein gwaradwyddo ninnau hefyd.

46 Yntau a ddywedodd, Gwae chwithau hefyd, y cyfreithwyr! canys yr ydych yn llwytho dynion â beichiau anhawdd eu dwyn, a chwi nid ydych yn cyffwrdd â'r beichiau âg un o'ch bysedd.

47 Gwae chwychwi! canys yr ydych yn adeiladu beddau y prophwydi, a'ch tadau chwi a'u lladdodd hwynt.

48 Yn wir yr ydych yn tystiolaethu, ac yn gyd-foddlawn i weithredoedd eich tadau: canys hwynthwy yn wir a'u lladdasant hwy, a chwithau ydych yn adeiladu eu beddau hwynt.

49 Am hynny hefyd y dywedodd doethineb Duw, Anfonaf attynt brophwydi ac apostolion, a *rhai* o honynt a laddant ac a erlidiant:

50 Fel y gofyner i'r genhedlaeth hon waed yr holl brophwydi, yr hwn a dywalltwyd o ddechreuad y byd;

51 O waed Abel hyd waed Sacharias, yr hwn a laddwyd rhwng yr allor a'r deml: diau meddaf i chwi, Gofynir ef i'r genhedlaeth hon.

52 Gwae chwychwi, y cyfreithwyr! canys chwi a ddygasoch ymaith agoriad y gwybodaeth: nid aethoch i mewn eich hunain, a'r rhai oedd yn myned a waharddasoch chwi.

53 Ac fel yr oedd efe yn dywedyd y pethau hyn wrthynt, y dechreuodd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid fod yn daer iawn *arno*, a'i annog i ymadrodd am lawer o bethau;

54 Gan ei gynllwyn ef, a cheisio hela rhyw beth o'i ben ef, i gael achwyn arno.

PENNOD 12.

1 *Crist yn pregethu i'w ddisgyblion am ochel rhagrith, ac ofn wrth ddatgan ei athrawiaeth ef:* 13 *yn rhyduddio y bobl i ochelyd cybyddra, trwy ddammeg y gŵr goludog a adeiladodd ysguboriau mwy.* 22 *Ni wasanaetha i ni fod yn rhy ofalus am bethau bydol;* 31 *ond ceisio teyrnas Ddaiu,* 33 *a rhoddi elusen,* 36 *a bod yn barod i agoryd i'n Harglwydd pan guro, pa bryd bynnag y delo.* 41 *Y dijlai gweinidogion Crist edrych ar eu siars,* 49 *a disgwyl am erlid.* 54 *Rhaid i'r bobl dderbyn yr amser hwn o ras,* 58 *obtegid peth ofnadwy yw marw heb gymmodi.*

YN y cyfamser, wedi i fyrddiwn o bobl ymgasglu ynghyd, hyd oni ymsathrai y naill y llall,

efe a ddechreuodd ddywedyd wrth
ei ddisgyblion, Yn gyntaf, gwyliwch
arnoch rhag surdoes y Phariseaid,
yr hwn yw rhagrith.
2 Canys nid oes dim cuddiedig,
a'r nas datguddir; na dirgel, a'r
nis gwybyddir.
3 Am hynny pa bethau bynnag
a ddywedasoch yn y tywyllwch, a
glywir yn y goleu; a'r peth a ddy-
wedasoch yn y glust mewn ystafell-
oedd, a bregethir ar bennau tai.
4 Ac yr wyf yn dywedyd wrth-
ych, fy nghyfeillion, Nac ofnwch
y rhai sydd yn lladd y corph, ac
wedi hynny heb ganddynt ddim
mwy i'w wneuthur.
5 Ond rhag-ddangosaf i chwi pwy
a ofnwch: Ofnwch yr hwn, wedi y
darffo iddo ladd, sydd âg awdurdod
ganddo i fwrw i uffern; ïe, meddaf
i chwi, Hwnnw a ofnwch.
6 Oni werthir pump o adar y
tô er dwy ffyrling? ac nid oes un
o honynt mewn anghof ger bron
Duw.
7 Ond y mae hyd yn nod blew
eich pennau chwi yn gyfrifedig oll.
Am hynny nac ofnwch: yr ydych
chwi yn well na llawer o adar y
tô.
8 Ac meddaf i chwi, Pwy byn-
nag a'm haddefo i ger bron dynion,
Mab y dyn hefyd a'i haddef yntau
ger bron angylion Duw.
9 A'r hwn a'm gwado i ger bron
dynion, a wedir ger bron angylion
Duw.
10 A phwy bynnag a ddywedo air
yn erbyn Mab y dyn, fe a faddeuir
iddo: eithr i'r neb a gablo yn er-
byn yr Ysbryd Glân, ni faddeuir.
11 A phan y'ch dygant i'r syna-
gogau, ac *at* y llywiawdwyr, a'r
awdurdodau, na ofelwch pa fodd,
neu pa beth a atteboch, neu beth
a ddywedoch:
12 Canys yr Ysbryd Glân a ddysg
i chwi yn yr awr honno beth sydd
raid ei ddywedyd.
13 ¶ A rhyw un o'r dyrfa a ddy-
wedodd wrtho, Athraw, dywed wrth
fy mrawd am rannu â myfi yr eti-
feddiaeth.
14 Yntau a ddywedodd wrtho, Y
dyn, pwy a'm gosododd i yn farnwr
neu yn rhannwr arnoch chwi?
15 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Edrychwch, ac ymogelwch rhag
cybydd-dod: canys nid yw bywyd
neb yn sefyll ar amlder y pethau
sydd ganddo.
16 ¶ Ac efe a draethodd wrth-
ynt ddammeg, gan ddywedyd, Tir
rhyw ŵr goludog a gnydiodd yn
dda.
17 Ac efe a ymresymmodd ynddo
ei hun, gan ddywedyd, Beth a wnaf,
am nad oes gennyf le i gasglu fy
ffrwythau iddo?
18 Ac efe a ddywedodd, Hyn a
wnaf: Mi a dynnaf i lawr fy ysgub-
oriau, ac a adeiladaf rai mwy; ac
yno y casglaf fy holl ffrwythau,
a'm dâ.
19 A dywedaf wrth fy enaid, Fy
enaid, y mae gennyt ddâ lawer
wedi eu rhoi i gadw dros lawer o
flynyddoedd: gorphwys, bwytta, ŷf,
bydd lawen.
20 Eithr Duw a ddywedodd wrtho,
O ynfyd, y nos hon y gofynant
dy enaid oddi wrthyt; ac eiddo
pwy fydd y pethau a barottoaist?
21 Felly y mae yr hwn sydd yn
trysori iddo ei hun, ac nid yw gyf-
oethog tu ag at Dduw.
22 ¶ Ac efe a ddywedodd wrth ei
ddisgyblion, Am hyn yr wyf yn dy-
wedyd wrthych, Na chymmerwch
ofal am eich bywyd, beth a fwytt-
aoch; nac am eich corph, beth a
wisgoch.
23 Y mae y bywyd yn fwy na'r
ymborth, a'r corph *yn fwy* na'r
dillad.
24 Ystyriwch y brain: canys nid
ydynt yn hau nac yn medi; i'r rhai
nid oes gell nac ysgubor; ac y mae
Duw yn eu porthi hwynt: o ba
faint mwy yr ydych chwi yn well
na'r adar!
25 A phwy o honoch, gan gym-
meryd gofal, a ddichon chwanegu
un cufydd at ei faintioli?
26 Am hynny, oni ellwch wneuth-
ur y peth lleiaf, paham yr ydych
yn cymmeryd gofal am y lleill?
27 Ystyriwch y lili, pa fodd y
maent yn tyfu; nid ydynt yn lla-
furio, nac yn nyddu: ac yr wyf yn
dywedyd i chwi, na wisgwyd Solo-
mon yn ei holl ogoniant fel un o'r
rhai hyn.

28 Ac os yw Duw felly yn dilladu
y llysieuyn, yr hwn sydd heddyw
yn y maes, ac y fory a deflir i'r
ffwrn: pa faint mwy *y dillada efe*
chwychwi, O rai o ychydig ffydd?
29 Chwithau na cheisiwch beth a
fwyttaoch, neu pa beth a yfoch;
ac na fyddwch ammhëus.
30 Canys y pethau hyn oll y mae
cenhedloedd y byd yn eu hargeisio: ac y mae eich Tad chwi yn
gwybod fod arnoch chwi eisieu y
pethau hyn.
31 ¶ Yn hytrach ceisiwch deyrnas Dduw; a'r pethau hyn oll a
roddir i chwi yn ychwaneg.
32 Nac ofna, braidd bychan: canys rhyngodd bodd i'ch Tad roddi
i chwi y deyrnas.
33 Gwerthwch yr hyn sydd gennych, a rhoddwch elusen: gwnewch
i chwi byrsau y rhai ni heneiddiant; trysor yn y nefoedd, yr hwn
ni dderfydd, lle ni ddaw lleidr yn
agos, ac ni lygra pryf.
34 Canys lle y mae eich trysor
chwi, yno y bydd eich calon hefyd.
35 Bydded eich lwynau wedi eu
hymwregysu, a'*ch* canhwyllau wedi
eu goleu:
36 A chwithau yn debyg i ddynion yn disgwyl eu harglwydd, pa
bryd y dychwel o'r neithior; fel
pan ddelo a churo, yr agoront iddo
yn ebrwydd.
37 Gwyn eu byd y gweision hynny, y rhai a gaiff eu harglwydd, pan
ddêl, yn neffro: yn wir, meddaf i
chwi, efe a ymwregysa, ac a wna
iddynt eistedd i lawr i fwytta, ac
a ddaw, ac a wasanaetha arnynt
hwy.
38 Ac os daw efe ar yr ail wyliadwriaeth, ac *os* ar y drydedd wyliadwriaeth y daw, a'*u* cael *hwynt* felly,
gwyn eu byd y gweision hynny.
39 A hyn gwybyddwch, pe gwybuasai gŵr y tŷ pa awr y deuai y
lleidr, efe a wyliasai, ac ni adawsai
gloddio ei dŷ trwodd.
40 A chwithau gan hynny, byddwch barod: canys yr awr ni thybioch, y daw Mab y dyn.
41 ¶ A Phedr a ddywedodd wrtho,
Arglwydd, ai wrthym ni yr wyt ti
yn dywedyd y ddammeg hon, ai
wrth bawb hefyd?
42 A'r Arglwydd a ddywedodd,
Pwy yw y goruchwyliwr ffyddlawn
a phwyllog, yr hwn a esyd *ei* arglwydd ar ei deulu, i roddi cyfluniaeth *iddynt* mewn pryd?
43 Gwyn ei fyd y gwas hwnnw,
yr hwn y caiff ei arglwydd ef, pan
ddêl, yn gwneuthur felly.
44 Yn wir meddaf i chwi, Efe a'i
gesyd ef *yn llywodraethwr* ar gwbl
a'r y sydd eiddo.
45 Eithr os dywed y gwas hwnnw
yn ei galon, Y mae fy arglwydd
yn oedi dyfod; a dechreu curo y
gweision a'r morwynion, a bwytta
ac yfed, a meddwi:
46 Daw arglwydd y gwas hwnnw
mewn dydd nad yw efe yn disgwyl,
ac ar awr nad yw efe yn gwybod,
ac a'i gwahana ef, ac a esyd ei ran
ef gyd â'r anffyddloniaid.
47 A'r gwas hwnnw, yr hwn a
wybu ewyllys ei arglwydd, ac nid
ymbarottôdd, ac ni wnaeth yn ol
ei ewyllys ef, a gurir â llawer
ffonnod.
48 Eithr yr hwn ni wybu, ac a
wnaeth bethau yn haeddu ffonnodiau, a gurir âg ychydig *ffonnodiau.*
Ac i bwy bynnag y rhoddwyd llawer, llawer a ofynir ganddo; a chyd
â'r neb y gadawsant lawer, ychwaneg a ofynant ganddo.
49 ¶ Mi a ddeuthum i fwrw tân
ar y ddaear: a pheth a fynnaf os
cynneuwyd ef eisoes?
50 Eithr y mae gennyf fedydd i'm
bedyddio âg ef; ac mor gyfyng yw
arnaf hyd oni orphener!
51 Ydych chwi yn tybied mai
heddwch y deuthum i i'w roddi ar
y ddaear? nag ê, meddaf i chwi;
ond yn hytrach ymrafael:
52 Canys bydd o hyn allan bump
yn yr un tŷ wedi ymrannu, tri yn
erbyn dau, a dau yn erbyn tri.
53 Y tad a ymranna yn erbyn y
mab, a'r mab yn erbyn y tad, y
fam yn erbyn y ferch, a'r ferch yn
erbyn y fam; y chwegr yn erbyn
ei gwaudd, a'r waudd yn erbyn ei
chwegr.
54 ¶ Ac efe a ddywedodd hefyd
wrth y bobloedd, Pan weloch gwmmwl yn codi o'r gorllewin, yn y fan
y dywedwch, Y mae cawod yn dyfod: ac felly y mae.

55 A phan *weloch* y deheuwynt
yn chwythu, y dywedwch, Y bydd
gwres: ac fe fydd.
56 *O* ragrithwyr, chwi a fedrwch
ddeall wynebpryd y ddaear a'r
wybr: ond yr amser hwn, pa fodd
nad ydych yn ei ddeall?
57 A phaham nad ydych, ïe, o
honoch eich hunain, yn barnu yr
hyn sydd gyfiawn?
58 ¶ Canys tra fyddech yn myned
gyd â'th wrthwynebwr at lywodr-
aethwr, gwna dy oreu ar y ffordd
i gael myned yn rhydd oddi wrtho;
rhag iddo dy ddwyn at y barnwr,
ac i'r barnwr dy roddi at y swydd-
og, ac i'r swyddog dy daflu yng
ngharchar:
59 Yr wyf yn dywedyd i ti, Nad
âi di ddim oddi yno, hyd oni thel-
ych, ïe, yr hatling eithaf.

PENNOD 13.

1 *Crist yn pregethu edifeirwch, wrth gospedigaeth y Galileaid, ac eraill.* 6 *Y ffigysbren diffrwyth ni chaiff sefyll.* 11 *Crist yn iachâu y wraig oedd wedi crymmu;* 18 *yn dangos gallwog weithrediad y gair y'nghalonnau ei etholedigion, trwy ddammeg y gronyn mwstard, a'r surdoes;* 24 *yn annog i fyned i mewn trwy y porth cyfyng:* 31 *ac yn argyhoeddi Herod, a Jerusalem.*

AC yr oedd yn bresennol y cyf-
amser hwnnw rai yn mynegi
iddo am y Galileaid, y rhai y cym-
mysgasai Pilat eu gwaed ynghyd
â'u haberthau.
2 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd
wrthynt, Ydych chwi yn tybied fod
y Galileaid hyn yn bechaduriaid
mwy na'r holl Galileaid, am iddynt
ddïoddef y cyfryw bethau?
3 Nac oeddynt, meddaf i chwi:
eithr, onid edifarhêwch, chwi a
ddifethir oll yn yr un modd.
4 Neu y deunaw hynny ar y rhai
y syrthiodd y tŵr yn Siloam, ac
a'u lladdodd hwynt: a ydych chwi
yn tybied eu bod hwy yn bechad-
uriaid mwy na'r holl ddynion oedd
yn cyfanneddu yn Jerusalem?
5 Nac oeddynt, meddaf i chwi:
eithr, onid edifarhêwch, chwi a
ddifethir oll yn yr un modd.
6 ¶ Ac efe a ddywedodd y ddam-
meg hon: Yr oedd gan un ffigys-
bren wedi ei blannu yn ei winllan;
ac efe a ddaeth i geisio ffrwyth
arno, ac nis cafodd.
7 Yna efe a ddywedodd wrth y
gwinllannydd, Wele, tair blynedd
yr ydwyf yn dyfod, gan geisio
ffrwyth ar y ffigysbren hwn; ac
nid ydwyf yn cael *dim:* tor ef i
lawr; paham y mae efe yn di-
ffrwytho y tir?
8 Ond efe gan atteb a ddywedodd
wrtho, Arglwydd, gâd ef y flwyddyn
hon hefyd, hyd oni ddarffo i mi
gloddio o'i amgylch, a bwrw tail:
9 Ac os dwg efe ffrwyth, *da:* onid
ê, gwedi hynny tor ef i lawr.
10 Ac yr oedd efe yn dysgu yn
un o'r synagogau ar y Sabbath.
11 ¶ Ac wele, yr oedd gwraig âg
ynddi yspryd gwendid ddeunaw
mlynedd, ac oedd wedi cyd-grym-
mu, ac ni allai hi mewn modd yn y
byd ymuniawnu.
12 Pan welodd yr Iesu hon, efe
a'*i* galwodd *hi* atto, ac a ddywed-
odd wrthi, *Ha* wraig, rhyddhâwyd
di oddi wrth dy wendid.
13 Ac efe a roddes *ei* ddwylaw
arni: ac yn ebrwydd hi a uniawn-
wyd, ac a ogoneddodd Dduw.
14 A'r arch-synagogydd a atteb-
odd yn ddigllawn, am i'r Iesu iach-
âu ar y Sabbath, ac a ddywedodd
wrth y bobl, Chwe diwrnod sydd,
yn y rhai y dylid gweithio: ar y
rhai hyn gan hynny deuwch, a
iachâer chwi: ac nid ar y dydd
Sabbath.
15 Am hynny yr Arglwydd a'i
hattebodd ef, ac a ddywedodd, *O*
ragrithiwr, oni ollwng pob un o
honoch ar y Sabbath ei ŷch neu
ei asyn o'r preseb, a'*i* arwain i'r
dwfr?
16 Ac oni ddylai hon, a hi yn
ferch i Abraham, yr hon a rwym-
odd Satan, wele, ddeunaw mlyn-
edd, gael ei rhyddhâu o'r rhwym
hwn ar y dydd Sabbath?
17 Ac fel yr oedd efe yn dy-
wedyd y pethau hyn, ei holl wrth-
wynebwyr ef a gywilyddiasant: a'r
holl bobl a lawenychasant am yr
holl bethau gogoneddus a wnaid
ganddo.
18 ¶ Ac efe a ddywedodd, I ba
beth y mae teyrnas Dduw yn de-
byg? ac i ba beth y cyffelybaf hi?
19 Tebyg yw i ronyn o had mws-
tard, yr hwn a gymmerodd dyn, ac

a'*i* hauodd yn ei ardd; ac efe a gynnyddodd, ac a aeth yn bren mawr, ac adar yr awyr a nythasant yn ei ganghennau ef.

20 A thrachefn y dywedodd, I ba beth y cyffelybaf deyrnas Dduw?

21 Cyffelyb yw i surdoes, yr hwn a gymmerodd gwraig, ac a'i cuddiodd mewn tri mesur o flawd, hyd oni surodd y cwbl oll.

22 ¶ Ac efe a dramwyodd trwy ddinasoedd a threfi, gan athrawiaethu, ac ymdeithio tu a Jerusalem.

23 A dywedodd un wrtho, Arglwydd, ai ychydig yw y rhai cadwedig? Ac efe a ddywedodd wrthynt,

24 Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng: canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant.

25 Gwedi cyfodi gŵr y tŷ, a chau y drws, a dechreu o honoch sefyll oddi allan, a churo y drws, gan ddywedyd, Arglwydd, Arglwydd, agor i ni; ac iddo yntau atteb a dywedyd wrthych, Nid adwaen ddim o honoch o ba le yr ydych:

26 Yna y dechreuwch ddywedyd, Ni a fwyttasom ac a yfasom yn dy ŵydd di, a thi a ddysgaist yn ein heolydd ni.

27 Ac efe a ddywed, Yr wyf yn dywedyd i chwi, Nid adwaen chwi o ba le yr ydych: ewch ymaith oddi wrthyf, *chwi* holl weithredwyr anwiredd.

28 Yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd, pan weloch Abraham, ac Isaac, a Jacob, a'r holl brophwydi, yn nheyrnas Dduw, a chwithau wedi eich bwrw allan.

29 A daw rhai o'r dwyrain, ac *o*'r gorllewin, ac o'r gogledd, ac *o*'r dehau, ac a eisteddant yn nheyrnas Dduw.

30 Ac wele, olaf ydyw y rhai a fyddant flaenaf, a blaenaf ydyw y rhai a fyddant olaf.

31 ¶ Y dwthwn hwnnw y daeth atto ryw Phariseaid, gan ddywedyd wrtho, Dos allan, a cherdda oddi yma: canys y mae Herod yn ewyllysio dy ladd di.

32 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch, a dywedwch i'r cadnaw hwnnw, Wele, yr wyf yn bwrw allan gythreuliaid, ac yn iachâu heddyw ac y fory, a'r trydydd dydd y'm perffeithir.

33 Er hynny rhaid i mi ymdaith heddyw ac y fory, a thrennydd: canys ni all fod y derfydd am brophwyd allan o Jerusalem.

34 O Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a anfonir attat: pa sawl gwaith y mynnaswn gasglu dy blant ynghyd, y modd *y casgl* yr iâr ei chywion dan *ei* hadenydd ac nis mynnech!

35 Wele, eich tŷ a adewir i chwi yn anghyfannedd. Ac yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych, Ni welwch fi, hyd oni ddêl yr amser pan ddywedoch, Bendigedig *yw* yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.

PENNOD 14.

2 Crist yn iachâu y dropsi ar y Sabbath; 7 yn dysgu gostyngeiddrwydd; 12 a gwneuthur ciniawau i'r tlodion: 16 wrth ddammeg y supper mawr, yn dangos pa fodd y cautir dynion a meddyliau bydol, y rhai a ddysytyrant air Duw, allan o'r nef. 25 Rhaid i'r rhai a fynnai fod yn ddisgyblion iddo, i ddwyn eu croes, a gwneuthur eu cyfrifon ym mlaen llaw; rhag iddynt trwy gywilydd syrthio oddi wrtho ar ol hynny, 34 a myned yn gwbl ddilés, fel halen wedi colli ei flas.

BU hefyd, pan ddaeth efe i dŷ un o bennaethiaid y Phariseaid ar y Sabbath, i fwytta bara, iddynt hwythau ei wylied ef.

2 Ac wele, yr oedd ger ei fron ef ryw ddyn yn glaf o'r dropsi.

3 A'r Iesu gan atteb a lefarodd wrth y cyfreithwyr a'r Phariseaid, gan ddywedyd, Ai rhydd iachâu ar y Sabbath?

4 A thewi a wnaethant. Ac efe a'*i* cymmerodd atto, ac a'i hiachaodd ef, ac a'*i* gollyngodd ymaith;

5 Ac a attebodd iddynt hwythau, ac a ddywedodd, Asyn neu ych pa un o honoch a syrth i bwll, ac yn ebrwydd nis tyn ef allan ar y dydd Sabbath?

6 Ac ni allent roi atteb yn ei erbyn ef am y pethau hyn.

7 ¶ Ac efe a ddywedodd wrth y gwahoddedigion ddammeg, pan ystyriodd fel yr oeddynt yn dewis yr eisteddleoedd uchaf; gan ddywedyd wrthynt,

8 Pan y'th wahodder gan neb i

neithior, nac eistedd yn y lle uchaf, rhag bod un anrhydeddusach na thi wedi ei wahodd ganddo;
9 Ac i hwn a'th wahoddodd di ac yntau ddyfod, a dywedyd wrthyt, Dyro le i hwn; ac yna dechreu o honot ti trwy gywilydd gymmeryd y lle isaf.
10 Eithr pan y'th wahodder, dos ac eistedd yn y lle isaf; fel pan ddelo yr hwn a'th wahoddodd di, y gallo efe ddywedyd wrthyt, *Y* cyfaill, eistedd yn uwch i fyny: yna y bydd i ti glod y'ngŵydd y rhai a eisteddant gyd â thi ar y bwrdd.
11 Canys pob un a'r a'i dyrchafo ei hun, a ostyngir; a'r hwn sydd yn ei ostwng ei hun, a ddyrchefir.
12 ¶ Ac efe a ddywedodd hefyd wrth yr hwn a'i gwahoddasai ef, Pan wnelych giniaw neu swpper, na alw dy gyfeillion, na'th frodyr, na'th geraint, na'*th* gymmydogion goludog; rhag iddynt hwythau elichwyl dy wahodd dithau, a gwneuthur taledigaeth i ti.
13 Eithr pan wnelych wledd, galw y tlodion, yr efryddion, y cloffion, y deillion:
14 A dedwydd fyddi; am nad oes ganddynt ddim i dalu i ti: canys fe a delir i ti yn adgyfodiad y rhai cyfiawn.
15 ¶ A phan glywodd rhyw un o'r rhai oedd yn eistedd ar y bwrdd y pethau hyn, efe a ddywedodd wrtho, Gwyn ei fyd y neb a fwyttao fara yn nheyrnas Dduw.
16 Ac yntau a ddywedodd wrtho, Rhyw ŵr a wnaeth swpper mawr, ac a wahoddodd lawer:
17 Ac a ddanfonodd ei was bryd swpper, i ddywedyd wrth y rhai a wahoddasid, Deuwch; canys weithian y mae pob peth yn barod.
18 A hwy oll a ddechreuasant yn un-*fryd* ymesgusodi. Y cyntaf a ddywedodd wrtho, Mi a brynais dyddyn, ac y mae yn rhaid i mi fyned a'i weled: attolwg i ti, cymmer fi yn esgusodol.
19 Ac arall a ddywedodd, Mi a brynais bum iau o ychain, ac yr ydwyf yn myned i'w profi hwynt: attolwg i ti, cymmer fi yn esgusodol.
20 Ac arall a ddywedodd, Mi a briodais wraig; ac am hynny nis gallaf fi ddyfod.
21 A'r gwas hwnnw, pan ddaeth *adref*, a fynegodd y pethau hyn i'w arglwydd. Yna gŵr y tŷ, wedi digio, a ddywedodd wrth ei was, Dos allan ar frys i heolydd ac ystrydoedd y ddinas, a dwg i mewn yma y tlodion, a'r anafus, a'r cloffion, a'r deillion.
22 A'r gwas a ddywedodd, Arglwydd, gwnaethpwyd fel y gorchymynaist; ac etto y mae lle.
23 A'r arglwydd a ddywedodd wrth y gwas, Dos allan i'r priffyrdd a'r caeau, a chymmell *hwynt* i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhŷ.
24 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, na chaiff yr un o'r gwŷr hynny a wahoddwyd, brofi o'm swpper i.
25 ¶ A llawer o bobl a gydgerddodd âg ef: ac efe a droes, ac a ddywedodd wrthynt,
26 Os daw neb attaf fi, ac ni chasao ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwïorydd, ïe, a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddisgybl i mi.
27 A phwy bynnag ni ddycco ei groes, a dyfod ar fy ol i, ni all efe fod yn ddisgybl i mi.
28 ¶ Canys pwy o honoch chwi a'i fryd ar adeiladu tŵr, nid eistedd yn gyntaf, a bwrw y draul, a oes ganddo a'*i* gorpheno?
29 Rhag wedi iddo osod y sail, ac heb allu *ei* orphen, ddechreu o bawb a'*i* gwelant ei watwar ef,
30 Gan ddywedyd, Y dyn hwn a ddechreuodd adeiladu, ac ni allodd ei orphen.
31 Neu pa frenhin yn myned i ryfel yn erbyn brenhin arall, nid eistedd yn gyntaf, ac ymgynghori a all efe â deng mil gyfarfod â'r hwn sydd yn dyfod yn ei erbyn ef âg ugain mil?
32 Ac os amgen, tra fyddo efe ym mhell *oddi wrtho*, efe a enfyn gennadwri, ac a ddeisyf ammodau heddwch.
33 Felly hefyd, pob un o honoch chwithau nid ymwrthodo â chymmaint oll ag a feddo, ni all fod yn ddisgybl i mi.

34 ¶ Da *yw* yr halen: eithr o
bydd yr halen yn ddiflas, â pha
beth yr helltir ef?
35 Nid yw efe gymmwys nac i'r
tir, nac i'r dommen; *ond* ei fwrw ef
allan y maent. Y neb sydd ganddo
glustiau i wrandaw, gwrandawed.

PENNOD 15.

1 *Dammeg y ddafad a gollesid,* 8 *y darn arian,*
11 *a'r mab afradlon.*

AC yr oedd yr holl bublicanod
a'r pechaduriaid yn nesâu atto
ef, i wrandaw arno.
2 A'r Phariseaid a'r ysgrifenyddion
a rwgnachasant, gan ddywedyd, Y
mae hwn yn derbyn pechaduriaid,
ac yn bwytta gyd â hwynt.
3 ¶ Ac efe a adroddodd wrthynt y
ddammeg hon, gan ddywedyd,
4 Pa ddyn o honoch a chanddo
gant o ddefaid, ac os cyll un o hon-
ynt, nid yw yn gadael yr amyn un
pum ugain yn yr anialwch, ac yn
myned ar ol yr hon a gollwyd, hyd
oni chaffo efe hi?
5 Ac wedi iddo *ei* chael, efe a'*i*
dŷd *hi* ar ei ysgwyddau ei hun yn
llawen.
6 A phan ddêl adref, efe a eilw
ynghyd *ei* gyfeillion a'*i* gymmydog-
ion, gan ddywedyd wrthynt, Lla-
wenhêwch gyd â mi; canys cefais
fy nafad a gollasid.
7 Yr wyf yn dywedyd i chwi, mai
felly y bydd llawenydd yn y nef
am un pechadur a edifarhao, *mwy*
nag am onid un pum ugain o rai
cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt
wrth edifeirwch.
8 ¶ Neu pa wraig a chanddi ddeg
dryll o arian, os cyll hi un dryll,
ni oleu ganwyll, ac ysgubo y tŷ,
a cheisio yn ddyfal, hyd onis caffo
ef?
9 Ac wedi iddi *ei* gael, hi a eilw
ynghyd *ei* chyfeillesau a'*i* chym-
mydogesau, gan ddywedyd, Cyd-
lawenhêwch â mi; canys cefais y
dryll a gollaswn.
10 Felly, meddaf i chwi, y mae
llawenydd y'ngŵydd angylion Duw
am un pechadur a edifarhao.
11 ¶ Ac efe a ddywedodd, Yr oedd
gan ryw ŵr ddau fab:
12 A'r ieuangaf o honynt a ddy-
wedodd wrth *ei* dad, *Fy* nhad, dyro
i mi y rhan a ddigwydd o'r dâ. Ac
efe a rannodd iddynt *ei* fywyd.
13 Ac ar ol ychydig ddyddiau y
mab ieuangaf a gasglodd y cwbl
ynghyd, ac a gymmerth ei daith i
wlad bell; ac yno *efe* a wasgarodd
ei ddâ, gan fyw yn afradlon.
14 Ac wedi iddo dreulio y cwbl, y
cododd newyn mawr trwy y wlad
honno; ac yntau a ddechreuodd
fod mewn eisieu.
15 Ac efe a aeth, ac a lynodd wrth
un o ddinaswyr y wlad honno; ac
efe a'i hanfonodd ef i'w feusydd i
borthi moch.
16 Ac efe a chwennychai lenwi ei
fol â'r cibau a fwyttâi y moch; ac
ni roddodd neb iddo.
17 A phan ddaeth atto ei hun, efe
a ddywedodd, Pa sawl gwas cyflog
o'r eiddo fy nhad sydd yn cael eu
gwala a'u gweddill o fara, a minnau
yn marw o newyn?
18 Mi a godaf, ac a âf at fy nhad,
ac a ddywedaf wrtho, *Fy* nhad,
pechais yn erbyn y nef, ac o'th
flaen dithau;
19 Ac mwyach nid ydwyf deilwng
i'm galw yn fab i ti: gwna fi fel un
o'th weision cyflog.
20 Ac efe a gododd, ac a aeth at
ei dad. A phan oedd efe etto ym
mhell oddi wrtho, ei dad a'i canfu
ef, ac a dosturiodd, ac a redodd, ac
a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i
cusanodd.
21 A'r mab a ddywedodd wrtho,
Fy nhad, pechais yn erbyn y
nef, ac o'th flaen dithau; ac nid
ydwyf mwy deilwng i'm galw yn
fab i ti.
22 A'r tad a ddywedodd wrth ei
weision, Dygwch allan y wisg oreu,
a gwisgwch am dano ef, a rhoddwch
fodrwy ar ei law, ac esgidiau am *ei*
draed:
23 A dygwch y llo pasgedig, a
lleddwch *ef;* a bwyttâwn, a bydd-
wn lawen.
24 Canys fy mab hwn oedd farw,
ac a aeth yn fyw drachefn; *ac* efe
a gollesid, ac a gaed. A hwy a
ddechreuasant fod yn llawen.
25 Ac yr oedd ei fab hynaf ef yn
y maes; a phan ddaeth efe a nesâu
at y tŷ, efe a glywai gynghanedd a
dawnsio.

26 Ac wedi iddo alw un o'r gweision, efe a ofynodd beth oedd hyn.
27 Yntau a ddywedodd wrtho, Dy frawd a ddaeth; a'th dad a laddodd y llo pasgedig, am iddo ei dderbyn ef yn iach.
28 Ond efe a ddigiodd, ac nid âi i mewn. Am hynny y daeth ei dad allan, ac a ymbiliodd âg ef.
29 Yntau a attebodd *ac* a ddywedodd wrth *ei* dad, Wele, cynnifer o flynyddoedd yr ydwyf yn dy wasanaethu di, ac ni throseddais i un amser dy orchymyn; ac ni roddaist fyn erioed i mi, i fod yn llawen gyd â'm cyfeillion:
30 Eithr pan ddaeth dy fab hwn, yr hwn a ddifaodd dy fywyd di gyd â phutteiniaid, ti a leddaist iddo ef y llo pasgedig.
31 Ac efe a ddywedodd wrtho, Fy mab, yr wyt ti yn wastadol gyd â mi, a'r eiddof fi oll ydynt eiddot ti.
32 Rhaid oedd llawenychu, a gorfoleddu: oblegid dy frawd hwn oedd yn farw, ac a aeth yn fyw drachefn; ac a fu golledig, ac a gafwyd.

PENNOD 16.

1 *Dammeg y goruchwyliwr anghyfiawn.* 14 *Crist yn ceryddu rhagrith y Phariseaid cybyddiyd.* 19 *Y gŵrth goludog, a Lasarus y cardotlyn.*

AC efe a ddywedodd hefyd wrth ei ddisgyblion, Yr oedd rhyw ŵr goludog, yr hwn oedd ganddo oruchwyliwr; a hwn a gyhuddwyd wrtho, ei fod efe megis yn afradloni ei ddâ ef.
2 Ac efe a'i galwodd ef, ac a ddywedodd wrtho, Pa beth yw hyn yr wyf yn ei glywed am danat? dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth: canys ni elli fod mwy yn oruchwyliwr.
3 A'r goruchwyliwr a ddywedodd ynddo ei hun, Pa beth a wnaf? canys y mae fy arglwydd yn dwyn yr oruchwyliaeth oddi arnaf: cloddio nis gallaf, *a* chardotta sydd gywilyddus gennyf.
4 Mi a wn beth a wnaf, fel, pan y'm bwrier allan o'r oruchwyliaeth, y derbyniont fi i'w tai.
5 Ac wedi iddo alw atto bob un o ddyledwyr ei arglwydd. efe a ddywedodd wrth y cyntaf, Pa faint sydd arnat ti o ddyled i'm harglwydd?
6 Ac efe a ddywedodd, Can mesur o olew. Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer dy ysgrifen, ac eistedd ar frys, ac ysgrifena ddeg a deugain.
7 Yna y dywedodd wrth *un* arall, A pha faint o ddyled sydd arnat tithau? Ac efe a ddywedodd, Can mesur o wenith. Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer dy ysgrifen, ac ysgrifena bedwar ugain.
8 A'r arglwydd a ganmolodd y goruchwyliwr anghyfiawn, am iddo wneuthur yn gall: oblegid y mae plant y byd hwn yn gallach yn eu cenhedlaeth na phlant y goleuni.
9 Ac yr wyf yn dywedyd i chwi, Gwnewch i chwi gyfeillion o'r mammon anghyfiawn: fel, pan fo eisieu arnoch, y'ch derbyniont i'r tragywyddol bebyll.
10 Y neb sydd ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer; a'r neb sydd anghyfiawn yn y lleiaf, sydd anghyfiawn hefyd mewn llawer.
11 Am hynny, oni buoch ffyddlawn yn y mammon anghyfiawn, pwy a ymddiried i chwi am y gwir *olud?*
12 Ac oni buoch ffyddlawn yn yr eiddo arall, pwy a rydd i chwi yr eiddoch eich hun?
13 Ni ddichon un gwas wasanaethu dau arglwydd: canys naill ai efe a gasâ y naill, ac a gâr y llall; ai efe a lŷn wrth y naill, ac a ddirmyga y llall. Ni ellwch wasanaethu Duw a mammon.
14 ¶ A'r Phariseaid hefyd, y rhai oedd ariangar, a glywsant y pethau hyn oll, ac a'i gwatwarasant ef.
15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Chwychwi yw y rhai sydd yn eich cyfiawnhâu eich hunain ger bron dynion; eithr Duw a ŵyr eich calonnau chwi: canys y peth sydd uchel gyd â dynion, sydd ffiaidd ger bron Duw.
16 Y gyfraith a'r prophwydi *oedd* hyd Ioan: er y pryd hwnnw y pregethir teyrnas Dduw, a phob dyn sydd yn ymwthio iddi.
17 A haws yw i nef a daear fyned heibio, nag i un tippyn o'r gyfraith ballu.
18 Pwy bynnag a ollyngo ymaith ei wraig, ac a briodo un arall, y

mae efe yn godinebu; a phwy bynnag a briodo yr hon a ollyngwyd ymaith oddi wrth *ei* gŵr, y mae efe yn godinebu.

19 ¶ Yr oedd rhyw ŵr goludog, ac a wisgid â phorphor a lliian main, ac yr oedd yn cymmeryd byd da yn helaethwych beunydd:

20 Yr oedd hefyd ryw gardottyn, a'i enw Lasarus, yr hwn a fwrid wrth ei borth ef yn gornwydlyd,

21 Ac yn chwennychu cael ei borthi â'r briwsion a syrthiai oddi ar fwrdd y gŵr cyfoethog; ond y cwn a ddaethant, ac a lyfasant ei gornwydydd ef.

22 A bu, i'r cardottyn farw, a'i ddwyn gan yr angylion i fynwes Abraham. A'r goludog hefyd a fu farw, ac a gladdwyd:

23 Ac yn uffern efe a gododd ei olwg, ac efe mewn poenau, ac a ganfu Abraham o hirbell, a Lasarus yn ei fynwes.

24 Ac efe a lefodd, ac a ddywedodd, O dad Abraham, trugarhâ wrthyf, a danfon Lasarus, i drochi pen ei fys mewn dwfr, ac i oeri fy nhafod: canys fe a'm poenir yn y fflam hon.

25 Ac Abraham a ddywedodd, *Ha* fab, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd, ac felly Lasarus ei adfyd: ac yn awr y diddenir ef, ac y poenir dithau.

26 Ac heb law hyn oll, rhyngom ni a chwithau y sicrhâwyd gagendor mawr: fel na allo y rhai a fynnent, dramwy oddi yma attoch chwi; na'r rhai oddi yna, dramwy attom ni.

27 Ac efe a ddywedodd, Yr wyf yn attolwg i ti gan hynny, O dad, ddanfon o honot ef i dŷ fy nhad;

28 Canys y mae i mi bump o frodyr: fel y tystiolaetho iddynt hwy, rhag dyfod o honynt hwythau hefyd i'r lle poenus hwn.

29 Abraham a ddywedodd wrtho, Y mae ganddynt Moses a'r prophwydi; gwrandawant arnynt hwy.

30 Yntau a ddywedodd, Nag ê, y tad Abraham: eithr os â un oddi wrth y meirw attynt, hwy a edifarhânt.

31 Yna *Abraham* a ddywedodd wrtho, Oni wrandawant ar Moses a'r prophwydi, ni chredant chwaith pe codai un oddi wrth y meirw.

PENNOD 17.

1 *Crist yn dysgu gochelyd achosion rhwystr.* 3 *Am faddeu bawb i'w gilydd.* 6 *Gallu ffydd.* 7 *Pa fodd yr ydym ni yn rhwymedig i Ddiw, ac nid efe i ni.* 11 *Y mae yn iachâu deg o wahan-gleifion.* 20 *Am deyrnas Ddiw, a dyfodiad Mab y dyn.*

AC efe a ddywedodd wrth y disgyblion, Ni all na ddêl rhwystrau: ond gwae *efe* trwy yr hwn y deuant!

2 Gwell fyddai iddo pe rhoddid maen melin o amgylch ei wddf ef, a'i daflu i'r môr, nag iddo rwystro un o'r rhai bychain hyn.

3 ¶ Edrychwch arnoch eich hunain. Os pecha dy frawd yn dy erbyn, cerydda ef; ac os edifarhâ efe, maddeu iddo.

4 Ac os pecha yn dy erbyn seithwaith yn y dydd, a seithwaith yn y dydd droi attat, gan ddywedyd, Y mae yn edifar gennyf; maddeu iddo.

5 A'r apostolion a ddywedasant wrth yr Arglwydd, Anghwanega ein ffydd ni.

6 A'r Arglwydd a ddywedodd, Pe byddai gennych ffydd gymmaint a gronyn o had mwstard, chwi a ellych ddywedyd wrth y sycamorwydden hon, Ymddadwreiddia, a phlanner di yn y môr; a hi a ufuddhâi i chwi.

7 Eithr pwy o honoch chwi ag iddo was yn aredig, neu yn bugeilio, a ddywed wrtho yn y man pan ddêl o'r maes, Dos ac eistedd i lawr i fwytta?

8 Ond yn hytrach a ddywed wrtho, Arlwya i mi i swpperu, ac ymwregysa, a gwasanaetha arnaf fi, nes i mi fwytta ac yfed; ac wedi hynny y bwyttêi ac yr yfi dithau?

9 Oes ganddo ddiolch i'r gwas hwnnw, am wneuthur o hono y pethau a orchymynasid iddo? Nid wyf yn tybied.

10 Felly chwithau hefyd, gwedi i chwi wneuthur y cwbl oll ag a orchymynwyd i chwi, dywedwch, Gweision anfuddiol ydym: oblegid yr hyn a ddylasem ei wneuthur, a wnaethom.

11 ¶ Bu hefyd, ac efe yn myned i Jerusalem, fyned o hono ef trwy ganol Samaria a Galilea.

12 A phan oedd efe yn myned i
mewn i ryw dref, cyfarfu âg ef
ddeg o wŷr gwahan-gleifion, y rhai
a safasant o hirbell:
13 A hwy a godasant *eu* llef, gan
ddywedyd, Iesu Feistr, trugarhâ
wrthym.
14 A phan welodd efe *hwynt*, efe
a ddywedodd wrthynt, Ewch a
dangoswch eich hunain i'r offeir-
iaid. A bu, fel yr oeddynt yn
myned, fe a'u glanhâwyd hwynt.
15 Ac un o honynt, pan welodd
ddarfod ei iachâu, a ddychwelodd,
gan foliannu Duw â llef uchel.
16 Ac efe a syrthiodd ar *ei* wyneb
wrth ei draed ef, gan ddïolch iddo.
A Samariad oedd efe.
17 A'r Iesu gan' atteb a ddywed-
odd, Oni lanhâwyd y deg? ond pa
le *y mae* y naw?
18 Ni chaed a ddychwelasant i roi
gogoniant i Dduw, ond yr estron
hwn.
19 Ac efe a ddywedodd wrtho,
Cyfod, a dos ymaith: dy ffydd a'th
iachaodd.
20 ¶ A phan ofynodd y Phariseaid
iddo, pa bryd y deuai teyrnas
Dduw, efe a attebodd iddynt, ac a
ddywedodd, Ni ddaw teyrnas Dduw
wrth ddisgwyl.
21 Ac ni ddywedant, Wele yma;
neu, Wele accw: canys wele, teyrn-
as Dduw, o'ch mewn chwi y mae.
22 Ac efe a ddywedodd wrth y
disgyblion, Y dyddiau a ddaw
pan chwennychoch weled un o
ddyddiau Mab y dyn, ac nis
gwelwch.
23 A hwy a ddywedant wrthych,
Wele yma; neu, Wele accw: nac
ewch, ac na chanlynwch *hwynt*.
24 Canys megis y mae y fellten
a felltenna o'r naill *ran* dan y nef,
yn disgleirio hyd y *rhan* arall dan
y nef; felly y bydd Mab y dyn
hefyd yn ei ddydd ef.
25 Eithr yn gyntaf rhaid iddo
ddïoddef llawer, a'i wrthod gan y
genhedlaeth hon.
26 Ac megis y bu yn nyddiau Nöe,
felly y bydd hefyd yn nyddiau Mab
y dyn.
27 Yr oeddynt yn bwytta, yn yfed,
yn gwreicca, yn gŵra, hyd y dydd
yr aeth Nöe i mewn i'r arch; a
daeth y diluw, ac a'u difethodd
hwynt oll.
28 Yr un modd hefyd ag y bu yn
nyddiau Lot: yr oeddynt yn bwytta,
yn yfed, yn prynu, yn gwerthu, yn
plannu, yn adeiladu;
29 Eithr y dydd yr aeth Lot allan
o Sodom, y gwlawiodd tân a brwm-
stan o'r nef, ac a'u difethodd hwynt
oll:
30 Fel hyn y bydd yn y dydd y
datguddir Mab y dyn.
31 Yn y dydd hwnnw y neb a
fyddo ar ben y tŷ, a'i ddodrefn o
fewn y tŷ, na ddisgyned i'w cym-
meryd hwynt; a'r hwn *a fyddo*
yn y maes, yr un ffunud na ddy-
chweled yn ei ol.
32 Cofiwch wraig Lot.
33 Pwy bynnag a geisio gadw ei
einioes, a'i cyll; a phwy bynnag a'i
cyll, a'i bywhâ hi.
34 Yr wyf yn dywedyd i chwi,
Y nos honno y bydd dau yn yr un
gwely; y naill a gymmerir, a'r llall
a adewir.
35 Dwy a fydd yn malu yn yr un
lle; y naill a gymmerir, a'r llall a
adewir.
36 Dau a fyddant yn y maes; y
naill a gymmerir, a'r llall a adewir.
37 A hwy a attebasant ac a ddy-
wedasant wrtho, Pa le, Arglwydd?
Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa le
bynnag *y byddo* y corph, yno yr
ymgasgl yr eryrod.

PENNOD 18.

3 Am y weddw daer. 9 Am y Pharisead a'r publican. 15 Dwyn plant at Grist. 18 Y llywydd a fynnai ganlŷn Crist, ond a rwystrir gan ei gyfoeth. 28 Gwobr y rhai a ymadawant â'r cwbl oll er ei fwyn ef. 31 Y mae efe yn rhag-fynegi ei farwolaeth; 35 ac yn rhoddi i ddyn dall ei olwg.

AC efe a ddywedodd hefyd ddam-
meg wrthynt, fod yn rhaid
gweddïo yn wastad, ac heb ddi-
ffygio;
2 Gan ddywedyd, Yr oedd rhyw
farnwr mewn rhyw ddinas, yr hwn
nid ofnai Dduw, ac ni pharchai
ddyn.
3 Yr oedd hefyd yn y ddinas hon-
no wraig weddw; a hi a ddaeth
atto ef, gan ddywedyd, Dïal fi ar fy
ngwrthwynebwr.
4 Ac efe nis gwnai dros amser:
eithr wedi hynny efe a ddywedodd

ynddo ei hun, Er nad ofnaf Dduw,
ac na pharchaf ddyn ;
5 Etto am fod y weddw hon yn
peri i mi flinder, mi a'i dïalaf hi ;
rhag iddi yn y diwedd ddyfod a'm
syfrdanu i.
6 A'r Arglwydd a ddywedodd,
Gwrandêwch beth a ddywed y barn-
wr anghyfiawn.
7 Ac oni ddïal Duw ei etholedig-
ion, sydd yn llefain arno ddydd a
nos, er ei fod yn hir oedi drostynt?
8 Yr wyf yn dywedyd i chwi, y
dïal efe hwynt ar frys. Eithr Mab
y dyn, pan ddêl, a gaiff efe ffydd ar
y ddaear?
9 ¶ Ac efe a ddywedodd y ddam-
meg hon hefyd wrth y rhai oedd yn
hyderu arnynt eu hunain eu bod
yn gyfiawn, ac yn dïystyru eraill :
10 Dau ŵr a aeth i fyny i'r deml i
weddïo ; un yn Pharisead, a'r llall
yn bublican.
11 Y Pharisead o'i sefyll a weddï-
odd rhyngddo ag ef ei hun fel hyn ;
O Dduw, yr wyf yn dïolch i ti nad
wyf fi fel *y mae* dynion eraill, yn
drawsion, yn anghyfiawn, yn odin-
ebwyr ; neu, fel y publican hwn
chwaith.
12 Yr wyf yn ymprydio ddwywaith
yn yr wythnos ; yr wyf yn degym-
mu cymmaint oll ag a feddaf.
13 A'r publican, gan sefyll o hirbell,
ni fynnai gymmaint a chodi ei olyg-
on tu a'r nef ; eithr efe a gurodd ei
ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw,
bydd drugarog wrthyf bechadur.
14 Dywedaf i chwi, Aeth hwn i
waered i'w dŷ wedi ei gyfiawnhâu
yn fwy na'r llall : canys pob un a'r
y sydd yn ei ddyrchafu ei hun, a
ostyngir ; a phob un a'r y sydd yn
ei ostwng ei hun, a ddyrchefir.
15 ¶ A hwy a ddygasant atto
blant bychain hefyd, fel y cyffyrdd-
ai efe â hwynt : a'r disgyblion pan
welsant, a'u ceryddasant hwy.
16 Eithr yr Iesu a'u galwodd hwynt
atto, ac a ddywedodd, Gadêwch i'r
plant bychain ddyfod attaf fi, ac na
waherddwch hwynt : canys eiddo
y cyfryw rai yw teyrnas Dduw.
17 Yn wir meddaf i chwi, Pwy
bynnag ni dderbynio deyrnas Dduw
fel dyn bach, nid â efe i mewn iddi.
18 ¶ A rhyw lywodraethwr a ofyn-
odd iddo, gan ddywedyd, Athraw
da, wrth wneuthur pa beth yr eti-
feddaf fi fywyd tragywyddol?
19 A'r Iesu a ddywedodd wrtho,
Paham y'm gelwi yn dda? nid *oes*
neb yn dda ond un, *sef* Duw.
20 Ti a wyddost y gorchymynion,
Na odineba, Na ladd, Na ladratta,
Na ddwg gam dystiolaeth, Anrhy-
dedda dy dad a'th fam.
21 Ac efe a ddywedodd, Hyn oll a
gedwais o'm hieuengctid.
22 A'r Iesu pan glybu hyn, a ddy-
wedodd wrtho, Y mae un peth etto
yn ol i ti : gwerth yr hyn oll sydd
gennyt, a dyro i'r tlodion ; a thi a
gei drysor yn y nef : a thyred, can-
lyn fi.
23 Ond pan glybu efe y pethau
hyn, efe a aeth yn athrist : canys
yr oedd efe yn gyfoethog iawn.
24 A'r Iesu, pan welodd ef wedi
myned yn athrist, a ddywedodd,
Mor anhawdd yr â y rhai y mae
golud ganddynt i mewn i deyrnas
Dduw!
25 Canys haws yw i gamel fyned
trwy grai y nodwydd ddur, nag i ol-
udog fyned i mewn i deyrnas Dduw.
26 A'r rhai a glywsent a ddywedas-
ant, A phwy a all fod yn gadwedig?
27 Ac efe a ddywedodd, Y pethau
sydd ammhosibl gyd â dynion, sydd
bosibl gyd â Duw.
28 A dywedodd Pedr, Wele, nyni
a adawsom bob peth, ac a'th gan-
lynasom di.
29 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Yn wir meddaf i chwi, Nid oes
neb a'r a adawodd dŷ, neu rïeni,
neu frodyr, neu wraig, neu blant,
er mwyn teyrnas Dduw,
30 A'r nis derbyn lawer cymmaint
yn y pryd hwn, ac yn y byd a ddaw
fywyd tragywyddol.
31 ¶ Ac efe a gymmerodd y deud-
ddeg atto, ac a ddywedodd wrth-
ynt, Wele, yr ydym ni yn myned
i fyny i Jerusalem ; a chyflawnir
pob peth a'r sydd yn ysgrifenedig
trwy y prophwydi am Fab y dyn.
32 Canys efe a draddodir i'r Cen-
hedloedd, ac a watwerir, ac a am-
mherchir, ac a boerir arno :
33 Ac wedi iddynt *ei* fflangellu, y
lladdant ef : a'r trydydd dydd efe
a adgyfyd.

34 A hwy ni ddeallasant ddim
o'r pethau hyn; a'r gair hwn
oedd guddiedig oddi wrthynt, ac ni
wybuant y pethau a ddywedwyd.
35 ¶ A bu, ac efe yn nesâu at Je-
richo, i ryw ddyn dall fod yn eis-
tedd yn ymyl y ffordd yn cardotta:
36 A phan glybu efe y dyrfa yn
myned heibio, efe a ofynodd pa
beth oedd hyn.
37 A hwy a ddywedasant iddo,
Mai Iesu o Nasareth oedd yn myn-
ed heibio.
38 Ac efe a lefodd, gan ddywedyd,
Iesu, Mab Dafydd, trugarhâ wrthyf.
39 A'r rhai oedd yn myned o'r
blaen a'i ceryddasant ef i dewi:
eithr efe a lefodd yn fwy o lawer,
Mab Dafydd, trugarhâ wrthyf.
40 A'r Iesu a safodd, ac a orchy-
mynodd ei ddwyn ef atto. A phan
ddaeth efe yn agos, efe a ofynodd
iddo,
41 Gan ddywedyd, Pa beth a fynni
di i mi ei wneuthur i ti? Yntau a
ddywedodd, Arglwydd, cael o honof
fy ngolwg.
42 A'r Iesu a ddywedodd wrtho,
Cymmer dy olwg: dy ffydd a'th
iachaodd.
43 Ac allan o law y cafodd efe
ei olwg, ac a'i canlynodd ef, gan
ogoneddu Duw. A'r holl bobl, pan
welsant, a roisant foliant i Dduw.

PENNOD 19.

1 *Am Sacchëus y publican.* 11 *Y deg darn o arian.* 28 *Crist yn marchogaeth i Jerusalem mewn gorfoledd:* 41 *yn wylo drosti:* 45 *yn gyrru y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r deml;* 47 *gan athrawiaethu beunydd yndd. Y llywodraethwyr a fynnent ei ddifetha ef, oni bai rhag ofn y bobl.*

A'*R Iesu* a aeth i mewn, ac a aeth
trwy Jericho.
2 Ac wele ŵr a elwid wrth ei enw
Sacchëus, *ac* efe oedd ben-publican,
a hwn oedd gyfoethog.
3 Ac yr oedd efe yn ceisio gweled
yr Iesu, pwy ydoedd; ac ni allai
gan y dyrfa, am ei fod yn fychan o
gorpholaeth.
4 Ac efe a redodd o'r blaen, ac a
ddringodd i sycamorwydden, fel y
gallai ei weled ef: oblegid yr oedd
efe i ddyfod y ffordd honno.
5 A phan ddaeth yr Iesu i'r lle,
efe a edrychodd i fyny, ac a'i canfu
ef; ac a ddywedodd wrtho, Sacchë-
us, disgyn ar frys: canys rhaid i mi
heddyw aros yn dy dŷ di.
6 Ac efe a ddisgynodd ar frys, ac
a'i derbyniodd ef yn llawen.
7 A phan welsant, grwgnach a
wnaethant oll, gan ddywedyd, Fyn-
ed o hono ef i mewn i lettŷa at ŵr
pechadurus.
8 A Sacchëus a safodd, ac a ddy-
wedodd wrth yr Arglwydd, Wele,
hanner fy nâ, *O* Arglwydd, yr yd-
wyf yn ei roddi i'r tlodion; ac os
dygais ddim o'r eiddo neb trwy
gam-achwyn, yr ydwyf yn ei dalu
ar ei bedwerydd.
9 A'r Iesu a ddywedodd wrtho,
Heddyw y daeth iachawdwriaeth i'r
tŷ hwn, o herwydd ei fod yntau
yn fab i Abraham.
10 Canys Mab y dyn a ddaeth i
geisio ac i gadw yr hyn a gollasid.
11 ¶ Ac a hwy yn gwrandaw ar y
pethau hyn, efe a chwanegodd, ac
a ddywedodd ddammeg, am ei fod
efe yn agos i Jerusalem, ac am idd-
ynt dybied yr ymddangosai teyrnas
Dduw yn y fan.
12 Am hynny y dywedodd efe,
Rhyw ŵr bonheddig a aeth i wlad
bell i dderbyn teyrnas iddo ei hun,
ac i ddychwelyd.
13 Ac wedi galw ei ddeg gwas,
efe a roddes iddynt ddeg punt, ac
a ddywedodd wrthynt, Marchnat-
têwch hyd oni ddelwyf.
14 Eithr ei ddinaswyr a'i casasant
ef, ac a ddanfonasant gennadwri ar
ei ol ef, gan ddywedyd, Ni fynnwn
ni hwn i deyrnasu arnom.
15 A bu, pan ddaeth efe yn ei ol,
wedi derbyn y deyrnas, erchi o hono
ef alw y gweision hyn atto, i'r rhai
y rhoddasai efe yr arian, fel y gwyb-
yddai beth a elwasai bob un wrth
farchnatta.
16 A daeth y cyntaf, gan ddywed-
yd, Arglwydd, dy bunt a ennillodd
ddeg punt.
17 Yntau a ddywedodd wrtho, Da,
was da: am i ti fod yn ffyddlawn
yn y lleiaf, bydded i ti awdurdod ar
ddeg dinas.
18 A'r ail a ddaeth, gan ddywed-
yd, Arglwydd, dy bunt di a wnaeth
bum punt.
19 Ac efe a ddywedodd hefyd

wrth hwnnw, Bydd dithau ar bum dinas.
20 Ac un arall a ddaeth, gan ddywedyd, Arglwydd, wele dy bunt, yr hon oedd gennyf wedi ei dodi mewn napcyn:
21 Canys mi a'th ofnais, am dy fod yn ŵr tost: yr wyt ti yn cymmeryd i fyny y peth ni roddaist i lawr, ac yn medi y peth ni heuaist.
22 Yntau a ddywedodd wrtho, O'th enau dy hun y'th farnaf, tydi was drwg. Ti a wyddit fy mod i yn ŵr tost, yn cymmeryd i fyny y peth ni roddais i lawr, ac yn medi y peth ni heuais:
23 *A* phaham na roddaist fy arian i i'r bwrdd *cyfnewid*, fel, pan ddaethwn, y gallaswn ei gael gyd â llog?
24 Ac efe a ddywedodd wrth y rhai oedd yn sefyll ger llaw, Dygwch oddi arno ef y bunt, a rhoddwch i'r hwn sydd â deg punt ganddo;
25 (A hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, y mae ganddo ef ddeg punt;)
26 Canys yr wyf fi yn dywedyd i chwi, mai i bob un y mae ganddo, y rhoddir iddo; eithr oddi ar yr hwn nid oes ganddo, y dygir oddi arno, ïe, yr hyn sydd ganddo.
27 A *hefyd* fy ngelynion hynny, y rhai ni fynnasent i mi deyrnasu arnynt, dygwch hwynt yma, a lleddwch ger fy mron i.
28 ¶ Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, efe a aeth o'r blaen, gan fyned i fyny i Jerusalem.
29 Ac fe a ddigwyddodd pan ddaeth efe yn agos at Bethphage a Bethania, i'r mynydd a elwir Olewwydd, efe a anfonodd ddau o'i ddisgyblion,
30 Gan ddywedyd, Ewch i'r pentref ar *eich* cyfer; yn yr hwn, gwedi eich dyfod i mewn, chwi a gewch ebol yn rhwym, ar yr hwn nid eisteddodd dyn erioed: gollyngwch ef, a dygwch *yma*.
31 Ac os gofyn neb i chwi, Paham yr ydych yn *ei* ollwng? fel hyn y dywedwch wrtho, Am fod yn rhaid i'r Arglwydd wrtho.
32 A'r rhai a ddanfonasid a aethant ymaith, ac a gawsant fel y dywedasai efe wrthynt.
33 Ac fel yr oeddynt yn gollwng yr ebol, ei berchennogion a ddywedasant wrthynt, Paham yr ydych yn gollwng yr ebol?
34 A hwy a ddywedasant, Mae yn rhaid i'r Arglwydd wrtho ef.
35 A hwy a'i dygasant ef at yr Iesu: ac wedi iddynt fwrw eu dillad ar yr ebol, hwy a ddodasant yr Iesu arno.
36 Ac fel yr oedd efe yn myned, hwy a daenasant eu dillad ar hyd y ffordd.
37 Ac weithian, ac efe yn nesâu at ddisgynfa mynydd yr Olew-wydd, dechreuodd yr holl lïaws disgyblion lawenhâu, a chlodfori Duw â llef uchel, am yr holl weithredoedd nerthol a welsent;
38 Gan ddywedyd, Bendigedig *yw* y Brenhin sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd: Tangnefedd yn y nef, a gogoniant yn y goruchaf.
39 A rhai o'r Phariseaid o'r dyrfa a ddywedasant wrtho, Athraw, cerydda dy ddisgyblion.
40 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Pe tawai y rhai hyn, y llefai y cerrig yn y fan.
41 ¶ Ac wedi iddo ddyfod yn agos, *pan* welodd efe y ddinas, efe a wylodd drosti,
42 Gan ddywedyd, Pe gwybuasit dithau, ïe, yn dy ddydd hwn, y pethau *a berthynent* i'th heddwch! eithr y maent yn awr yn guddiedig oddi wrth dy lygaid.
43 Canys daw y dyddiau arnat, a'th elynion a fwriant glawdd o'th amgylch, ac a'th amgylchant, ac a'th warchaeant o bob parth,
44 Ac a'th wnant yn gydwastad â'r llawr, a'th blant o'th fewn; ac ni adawant ynot faen ar faen; o herwydd nad adnabuost amser dy ymweliad.
45 Ac efe a aeth i mewn i'r deml, ac a ddechreuodd fwrw allan y rhai oedd yn gwerthu ynddi, ac yn prynu;
46 Gan ddywedyd wrthynt, Y mae yn ysgrifenedig, Fy nhŷ i, tŷ gweddi yw: eithr chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.
47 Ac yr oedd efe beunydd yn athrawiaethu yn y deml. A'r arch-

offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a phennaethiaid y bobl, a geisient ei ddifetha ef;

48 Ac ni fedrasant gael beth a wnaent: canys yr holl bobl oedd yn glynu wrtho i wrandaw arno.

PENNOD 20.

1 *Crist yn profi ei awdurdod, trwy ymofyn am fedydd Ioan.* 9 *Dammeg y winllan.* 19 *Am rodai teyrnged i Cesar.* 27 *Y mae efe yn gorchfygu y Saduceaid, y rhai a wadent yr adgyfodiad.* 41 *Y modd y mae Crist yn fab Dafydd.* 45 *Y mae efe yn rhybuddio ei ddisgyblion i ochelyd yr ysgrifenyddion.*

A DIGWYDDODD ar un o'r dyddiau hynny, ac efe yn dysgu y bobl yn y deml, ac yn pregethu yr efengyl, ddyfod arno yr arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion, gyd â'r henuriaid,

2 A llefaru wrtho, gan ddywedyd, Dywed i ni, Trwy ba awdurdod yr wyt yn gwneuthur y pethau hyn? neu pwy yw yr hwn a roddodd i ti yr awdurdod hon?

3 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, A minnau a ofynaf i chwithau un gair; a dywedwch i mi:

4 Bedydd Ioan, ai o'r nef yr ydoedd, ai o ddynion?

5 Eithr hwy a ymresymmasant yn eu plith eu hunain, gan ddywedyd, Os dywedwn, O'r nef; efe a ddywed, Paham gan hynny na chredech ef?

6 Ac os dywedwn, O ddynion; yr holl bobl a'n llabyddiant ni: canys y maent hwy yn cwbl-gredu fod Ioan yn brophwyd.

7 A hwy a attebasant, nas gwyddent o ba le.

8 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Ac nid wyf finnau yn dywedyd i chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.

9 ¶ Ac efe a ddechreuodd ddywedyd y ddammeg hon wrth y bobl: Rhyw ŵr a blannodd winllan, ac a'i gosododd i lafurwyr, ac a aeth oddi cartref dros dalm o amser.

10 Ac mewn amser efe a anfonodd was at y llafurwyr, fel y rhoddent iddo o ffrwyth y winllan: eithr y llafurwyr a'i curasant ef, ac a'i hanfonasant ymaith yn wag-*law*.

11 Ac efe a chwanegodd anfon gwas arall: eithr hwy a gurasant ac a ammharchasant hwnnw hefyd, ac a'*i* hanfonasant ymaith yn wag-*law*.

12 Ac efe a chwanegodd anfon y trydydd: a hwy a glwyfasant hwn hefyd, ac a'*i* bwriasant *ef* allan.

13 Yna y dywedodd arglwydd y winllan, Pa beth a wnaf? Mi a anfonaf fy anwyl fab: fe allai pan welant ef, y parchant *ef*.

14 Eithr y llafurwyr, pan welsant ef, a ymresymmasant â'u gilydd, gan ddywedyd, Hwn yw yr etifedd: deuwch, lladdwn ef, fel y byddo yr etifeddiaeth yn eiddom ni.

15 A hwy a'i bwriasant ef allan o'r winllan, ac a'*i* lladdasant. Pa beth gan hynny a wna arglwydd y winllan iddynt hwy?

16 Efe a ddaw, ac a ddifetha y llafurwyr hyn, ac a rydd ei winllan i eraill. A phan glywsant hyn, hwy a ddywedasant, Na atto Duw.

17 Ac efe a edrychodd arnynt, ac a ddywedodd, Beth gan hynny yw hyn a ysgrifenwyd, Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwn a wnaethpwyd yn ben y gongl?

18 Pwy bynnag a syrthio ar y maen hwnnw, a ddryllir: ac ar bwy bynnag y syrthio, efe a'i mâl ef.

19 ¶ A'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a geisiasant roddi dwylaw arno yr awr honno; ac yr oedd arnynt ofn y bobl: canys gwybuant mai yn eu herbyn hwynt y dywedasai efe y ddammeg hon.

20 A hwy a'*i* gwyliasant *ef*, ac a yrrasant gynllwynwyr, y rhai a gymmerent arnynt eu bod yn gyfiawn; fel y dalient ef yn ei ymadrodd, i'w draddodi ym meddiant ac awdurdod y rhaglaw.

21 A hwy a ofynasant iddo ef, gan ddywedyd, Athraw, ni a wyddom mai uniawn yr ydwyt ti yn dywedyd ac yn dysgu, ac nad wyt yn derbyn wyneb, eithr yn dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd.

22 Ai cyfreithlawn i ni roi teyrnged i Cesar, ai nid yw?

23 Ac efe a ddeallodd eu cyfrwysdra hwy, ac a ddywedodd wrthynt, Paham y temtiwch fi?

24 Dangoswch i mi geiniog. Llun ac argraph pwy sydd arni? A hwy a attebasant ac a ddywedasant, Yr eiddo Cesar.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Rhoddwch chwithau yr eiddo Cesar i Cesar, a'r eiddo Duw i Dduw.
26 Ac ni allasant feio ar ei eiriau ef ger bron y bobl: a chan ryfeddu wrth ei atteb ef, hwy a dawsant â sôn.
27 ¶ A rhai o'r Saduceaid (y rhai sydd yn gwadu nad oes adgyfodiad) a ddaethant atto ef, ac a ofynasant iddo,
28 Gan ddywedyd, Athraw, Moses a ysgrifenodd i ni, Os byddai farw brawd neb, ac iddo wraig, a marw o hono yn ddiblant, ar gymmeryd o'i frawd ei wraig ef, a chodi had i'w frawd.
29 Yr oedd gan hynny saith o frodyr: a'r cyntaf a gymmerodd wraig, ac a fu farw yn ddiblant.
30 A'r ail a gymmerth y wraig, ac a fu farw yn ddiblant.
31 A'r trydydd a'i cymmerth hi; ac yr un ffunud y saith hefyd: ac ni adawsant blant, ac a fuont feirw.
32 Ac yn ddiweddaf oll bu farw y wraig hefyd.
33 Yn yr adgyfodiad gan hynny, gwraig i bwy un o honynt yw hi? canys y saith a'i cawsant hi yn wraig.
34 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd wrthynt, Plant y byd hwn sydd yn gwreicca, ac yn gŵra:
35 Eithr y rhai a gyfrifir yn deilwng i gael y byd hwnnw, a'r adgyfodiad oddi wrth y meirw, nid ydynt nac yn gwreicca, nac yn gŵra:
36 Canys nis gallant farw mwy: oblegid cyd-stad ydynt â'r angylion; a phlant Duw ydynt, gan eu bod yn blant yr adgyfodiad.
37 Ac y cyfyd y meirw, Moses hefyd a hysbysodd wrth y berth, pan yw ef yn galw yr Arglwydd yn Dduw Abraham, ac yn Dduw Isaac, ac yn Dduw Jacob.
38 Ac nid yw efe Dduw y meirw, ond y byw: canys pawb sydd fyw iddo ef.
39 Yna rhai o'r ysgrifenyddion gan atteb a ddywedasant, Athraw, da y dywedaist.
40 Ac ni feiddiasant mwyach ofyn dim iddo ef.
41 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa fodd y maent yn dywedyd fod Crist yn fab i Dafydd?
42 Ac y mae Dafydd ei hun yn dywedyd yn llyfr y Psalmau, Yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw,
43 Hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfainge i'th draed di.
44 Y mae Dafydd gan hynny yn ei alw ef yn Arglwydd; a pha fodd y mae efe yn fab iddo?
45 ¶ Ac a'r holl bobl yn clywed, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion,
46 Ymogelwch rhag yr ysgrifenyddion, y rhai a ewyllysiant rodio mewn dillad lleision, ac a garant gyfarchiadau yn y marchnadoedd, a'r prif-gadeiriau yn y synagogau, a'r prif-eisteddleoedd yn y gwleddoedd:
47 Y rhai sydd yn llwyr-fwytta tai gwragedd gweddwon, ac mewn rhith yn hir-weddïo: y rhai hyn a dderbyniant farn fwy.

PENNOD 21.

1 *Crist yn canmol y weddw dlawd:* 5 *yn rhagfynegi dinystr y demi a dinas Jerusalem,* 25 *a'r arwyddion a fydd o flaen y dydd diweddaf:* 34 *ac yn eu hannog hwy i fod yn wyliadwrus.* 37 *Arfer Crist tra fu yn Jerusalem.*

AC wedi iddo edrych i fyny, efe a ganfu y rhai goludog yn bwrw eu rhoddion i'r drysorfa.
2 Ac efe a ganfu hefyd ryw wraig weddw dlawd yn bwrw yno ddwy hatling.
3 Ac efe a ddywedodd, Yn wir meddaf i chwi, fwrw o'r wraig weddw dlawd hon i mewn fwy na hwynt oll:
4 Canys y rhai hyn oll o'r hyn oedd weddill ganddynt a fwriasant at offrymmau Duw: eithr hon o'i phrinder a fwriodd i mewn yr holl fywyd a oedd ganddi.
5 ¶ Ac fel yr oedd rhai yn dywedyd am y deml, ei bod hi wedi ei harddu â meini teg a rhoddion, efe a ddywedodd,
6 Y pethau hyn yr ydych yn edrych arnynt, daw y dyddiau yn y rhai ni adewir maen ar faen, a'r nis dattodir.
7 A hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Athraw, pa bryd gan

hynny y bydd y pethau hyn? a pha arwydd *fydd* pan fo y pethau hyn ar ddyfod?

8 Ac efe a ddywedodd, Edrychwch na thwyller chwi: canys llawer a ddeuant yn fy enw i, gan ddywedyd, Myfi yw *Crist;* a'r amser a nesaodd: nac ewch gan hynny ar eu hol hwynt.

9 A phan glywoch sôn am ryfeloedd a therfysgoedd, na chymmerwch fraw: canys rhaid i'r pethau hyn fod yn gyntaf: ond ni *ddaw* y diwedd yn y man.

10 Yna y dywedodd efe wrthynt, Cenedl a gyfyd yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas:

11 A daeargrynfäau mawrion a fyddant yn amryw leoedd, a newyn, a heintiau; a phethau ofnadwy, ac arwyddion mawrion a fydd o'r nef.

12 Eithr o flaen hyn oll, hwy a roddant eu dwylaw arnoch, ac a'*ch* erlidiant, gan *eich* traddodi i'r synagogau, ac i garcharau, wedi eich dwyn ger bron brenhinoedd a llywodraethwyr o achos fy enw i.

13 Eithr fe a ddigwydd i chwi yn dystiolaeth.

14 Am hynny rhoddwch eich bryd ar na rag-fyfyrioch beth a atteboch:

15 Canys myfi a roddaf i chwi enau a doethineb, yr hon nis gall eich holl wrthwynebwyr na dywedyd yn ei herbyn na'i gwrthsefyll.

16 A chwi a fradychir, ïe, gan rïeni, a brodyr, a cheraint, a chyfeillion; ac *i rai* o honoch y parant farwolaeth.

17 A chas fyddwch gan bawb o herwydd fy enw i.

18 Ond ni chyll blewyn o'ch pen chwi.

19 Yn eich amynedd meddiennwch eich eneidiau.

20 A phan weloch Jerusalem wedi ei hamgylchu gan luoedd, yna gwybyddwch fod ei hanghyfannedd-dra hi wedi nesâu.

21 Yna y rhai fyddant yn Judea, ffoant i'r mynyddoedd; a'r rhai a fyddant yn ei chanol hi, ymadawant; a'r rhai a fyddant yn y meusydd, nac elont i mewn iddi.

22 Canys dyddiau dïal yw y rhai hyn, i gyflawni yr holl bethau a ysgrifenwyd.

23 Eithr gwae y rhai beichiogion, a'r rhai yn rhoi bronnau, yn y dyddiau hynny! canys bydd angen mawr yn y tir, a digofaint ar y bobl hyn.

24 A hwy a syrthiant trwy fin y cleddyf, a chaethgludir hwynt at bob cenhedlaeth: a Jerusalem a fydd wedi ei mathru gan y Cenhedloedd, hyd oni chyflawner amser y Cenhedloedd.

25 ¶ A bydd arwyddion yn yr haul, a'r lleuad, a'r sêr; ac ar y ddaear ing cenhedloedd, gan gyfyng-gynghor; a'r môr a'r tonnau yn rhuo;

26 A dynion yn llewygu gan ofn, a disgwyl am y pethau sydd yn dyfod ar y ddaear: oblegid nerthoedd y nefoedd a ysgydwir.

27 Ac yna y gwelant Fab y dyn yn dyfod mewn cwmmwl, gyd â gallu a gogoniant mawr.

28 A phan ddechreuo y pethau hyn ddyfod, edrychwch i fyny, a chodwch eich pennau: canys y mae eich ymwared yn nesâu.

29 Ac efe a ddywedodd ddammeg iddynt; Edrychwch ar y ffigysbren, a'r holl brennau;

30 Pan ddeiliant hwy weithian, chwi a welwch ac a wyddoch o honoch eich hun, fod yr haf yn agos.

31 Felly chwithau, pan weloch y pethau hyn yn digwydd, gwybyddwch fod teyrnas Dduw yn agos.

32 Yn wir meddaf i chwi, Nid â yr oes hon heibio, hyd oni ddêl y cwbl i ben.

33 Y nef a'r ddaear a ânt heibio; ond fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim.

34 ¶ Ac edrychwch arnoch eich hunain, rhag i'ch calonnau un amser drymhâu trwy lythineb, a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn, a dyfod y dydd hwnnw arnoch yn ddisymmwth;

35 Canys efe a ddaw, fel magl, ar warthaf pawb oll a'r sydd yn trigo ar wyneb yr holl ddaear.

36 Gwyliwch gan hynny a gweddïwch bob amser, ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddïangc rhag y peth-

au hyn oll sydd ar ddyfod, ac i sefyll ger bron Mab y dyn.
37 A'r dydd yr ydoedd efe yn athrawiaethu yn y deml; a'r nos yr oedd efe yn myned ac yn aros yn y mynydd a elwid yr Olew-wydd.
38 A'r holl bobl a fore-gyrchent atto ef yn y deml, i'w glywed ef.

PENNOD 22.

1 Yr Iuddewon yn cyd-fwriadu yn erbyn Crist. 3 Satan yn parottôi Judas i'w fradychu ef. 7 Yr apostolion yn arlwyo y pasc. 19 Crist yn ordeinio ei swpper sanctaidd: 21 yn guddiedig yn rhag-ddywedyd am y bradychwr: 24 yn annog y rhan arall o'i apostolion i ochelyd rhyfyg: 31 yn sicrhau Pedr na phallai ei ffydd ef: 34 ac er hynny y gwadai efe ef dair gwaith: 39 yn gweddio yn y mynydd; ac yn chwysu y gwaed: 47 yn cael ei fradychu â chusan: 50 yn iachau clust Malchus: 54 yn cael ei wadu dair gwaith gan Pedr, 63 a'i ammherchi yn gynwitydduss; 66 ac yn cyfaddef ei fod yn Fab Duw.

ANESAODD gwyl y bara croyw, yr hon a elwir y pasc.
2 A'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a geisiasant pa fodd y difethent ef: oblegid yr oedd arnynt ofn y bobl.
3 ¶ A Satan a aeth i mewn i Judas, yr hwn a gyfenwid Iscariot, yr hwn oedd o rifedi y deuddeg.
4 Ac efe a aeth ymaith, ac a ymddiddanodd â'r arch-offeiriaid a'r blaenoriaid, pa fodd y bradychai efe ef iddynt.
5 Ac yr oedd yn llawen ganddynt: a hwy a gyttunasant ar roddi arian iddo.
6 Ac efe a addawodd, ac a geisiodd amser cyfaddas i'w fradychu ef iddynt yn absen y bobl.
7 ¶ A daeth dydd y bara croyw, ar yr hwn yr oedd rhaid lladd y pasc.
8 Ac efe a anfonodd Pedr ac Ioan, gan ddywedyd, Ewch, parottôwch i ni y pasc, fel y bwyttaom.
9 A hwy a ddywedasant wrtho, Pa le y mynni barottôi o honom?
10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Wele, pan ddèloch i mewn i'r ddinas, cyferfydd â chwi ddyn yn dwyn ystenaid o ddwfr: canlynwch ef i'r tŷ lle yr êl efe i mewn.
11 A dywedwch wrth ŵr y tŷ, Y mae yr Athraw yn dywedyd wrthyt, Pa le y mae y lletty, lle y gallwyf fwytta y pasc gyd â'm disgyblion?
12 Ac efe a ddengys i chwi oruwch-ystafell fawr, wedi ei thaenu: yno parottôwch.
13 A hwy a aethant, ac a gawsant fel y dywedasai efe wrthynt; ac a barottoisant y pasc.
14 A phan ddaeth yr awr, efe a eisteddodd i lawr, a'r deuddeg apostol gyd âg ef.
15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Mi a chwennychais yn fawr fwytta y pasc hwn gyd â chwi cyn dioddef o honof.
16 Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Ni fwyttâf fi mwyach o hono, hyd oni chyflawner yn nheyrnas Dduw.
17 Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, a rhoddi diolch, efe a ddywedodd, Cymmerwch hwn, a rhennwch yn eich plith:
18 Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad yfaf o ffrwyth y winwydden, hyd oni ddêl teyrnas Dduw.
19 ¶ Ac wedi iddo gymmeryd bara, a rhoi diolch, efe a'*i* torrodd, ac a'*i* rhoddes iddynt, gan ddywedyd, Hwn yw fy nghorph yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch: gwnewch hyn er coffa am danaf.
20 Yr un modd y cwppan hefyd wedi swpperu, gan ddywedyd, Y cwppan hwn *yw* y testament newydd yn fy ngwaed i, yr hwn yr ydys yn ei dywallt drosoch.
21 ¶ Eithr wele law yr hwn sydd yn fy mradychu gyd â mi ar y bwrdd.
22 Ac yn wir y mae Mab y dyn yn myned, megis y mae wedi ei luniaethu: eithr gwae y dyn hwnnw, trwy yr hwn y bradychir ef!
23 Hwythau a ddechreuasant ymofyn yn eu plith eu hunain, pwy o honynt oedd yr hwn a wnai hynny.
24 ¶ A bu ymryson yn eu plith, pwy o honynt a dybygid ei fod yn fwyaf.
25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Y mae brenhinoedd y Cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt; a'r rhai sydd mewn awdurdod arnynt, a elwir yn bendefigion.
26 Ond na *fyddwch* chwi felly: eithr y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megis yr ieuangaf; a'r pennaf, megis yr hwn sydd yn gweini.

27 Canys pa un fwyaf, ai yr hwn
sydd yn eistedd ar y bwrdd, ai yr
hwn sydd yn gwasanaethu? onid yr
hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd?
eithr yr ydwyf fi yn eich mysg fel
un yn gwasanaethu.
28 A chwychwi yw y rhai a ar-
hosasoch gyd â mi yn fy mhrof-
edigaethau.
29 Ac yr wyf fi yn ordeinio i
chwi deyrnas, megis yr ordeiniodd
fy Nhad i minnau;
30 Fel y bwyttaoch ac yr yfoch
ar fy mwrdd i yn fy nheyrnas, ac
yr eisteddoch ar orseddfeydd, yn
barnu deuddeg llwyth Israel.
31 ¶ A'r Arglwydd a ddywed-
odd, Simon, Simon, wele, Satan
a'ch ceisiodd chwi, i'*ch* nithio fel
gwenith:
32 Eithr mi a weddïais drosot, na
ddiffygiai dy ffydd di: tithau pan
y'th dröer, cadarnhâ dy frodyr.
33 Ac efe a ddywedodd wrtho,
Arglwydd, yr ydwyf fi yn barod i
fyned gyd â thi i garchar, ac i angau.
34 Yntau a ddywedodd, Yr wyf
yn dywedyd i ti, Pedr, Na chân y
ceiliog heddyw, nes i ti wadu dair
gwaith yr adweini fi.
35 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Pan y'ch anfonais heb na phwrs,
na chôd, nac esgidiau, a fu arnoch
eisieu dim? A hwy a ddywedasant,
Na ddo ddim.
36 Yna y dywedodd wrthynt, Ond
yn awr y neb sydd ganddo bwrs,
cymmered; a'r un modd gôd: a'r
neb nid oes ganddo, gwerthed ei
bais, a phryned gleddyf.
37 Canys yr wyf yn dywedyd i
chwi, fod yn rhaid etto gyflawni
ynof fi y peth hwn a ysgrifenwyd;
sef, A chyd â'r anwir y cyfrifwyd
ef; canys y mae diben i'r pethau
am danaf fi.
38 A hwy a ddywedasant, Ar-
glwydd, wele ddau gleddyf yma.
Ac efe a ddywedodd wrthynt, Di-
gon yw.
39 ¶ Ac wedi iddo fyned allan,
efe a aeth, yn ol ei arfer, i fynydd
yr Olew-wydd; a'i ddisgyblion hef-
yd a'i canlynasant ef.
40 A phan ddaeth efe i'r man, efe
a ddywedodd wrthynt, Gweddïwch
nad eloch mewn profedigaeth.
41 Ac efe a dynnodd oddi wrth-
ynt tu ag ergyd carreg; ac wedi
iddo fyned ar ei liniau, efe a wedd-
ïodd,
42 Gan ddywedyd, O Dad, os
ewyllysi droi heibio y cwppan hwn
oddi wrthyf: er hynny nid fy ewyll-
ys i, ond yr eiddot ti a wneler.
43 Ac angel o'r nef a ymddang-
osodd iddo, yn ei nerthu ef.
44 Ac efe mewn ymdrech medd-
wl, a weddïodd yn ddyfalach: a'i
chwŷs ef oedd fel defnynnau gwaed
yn disgyn ar y ddaear.
45 A phan gododd efe o'i weddi, a
dyfod at ei ddisgyblion, efe a'u caf-
odd hwynt yn cysgu gan dristwch;
46 Ac a ddywedodd wrthynt, Pa-
ham yr ydych yn cysgu? codwch, a
gweddïwch nad eloch mewn prof-
edigaeth.
47 ¶ Ac efe etto yn llefaru, wele
dyrfa; a'r hwn a elwir Judas, un
o'r deuddeg, oedd yn myned o'u
blaen hwynt, ac a nesaodd at yr
Iesu, i'w gusanu ef.
48 A'r Iesu a ddywedodd wrtho,
Judas, ai â chusan yr wyt ti yn
bradychu Mab y dyn?
49 A phan welodd y rhai oedd yn
ei gylch ef y peth oedd ar ddyfod,
hwy a ddywedasant wrtho, Ar-
glwydd, a darâwn ni â chleddyf?
50 ¶ A rhyw un o honynt a
darawodd was yr arch-offeiriad, ac
a dorrodd ymaith ei glust ddehau
ef.
51 A'r Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd, Goddefwch hyd yn hyn.
Ac efe a gyffyrddodd â'i glust, ac
a'i hiachaodd ef.
52 A'r Iesu a ddywedodd wrth
yr arch-offeiriaid, a blaenoriaid
y deml, a'r henuriaid, y rhai a
ddaethent atto, Ai fel at leidr y
daethoch chwi allan, â chleddyfau
ac â ffyn?
53 Pan oeddwn beunydd gyd â
chwi yn y deml, nid estynasoch
ddwylaw i'm herbyn: eithr hon yw
eich awr chwi, a gallu y tywyllwch.
54 ¶ A hwy a'i daliasant ef, ac
a'*i* harweiniasant, ac a'i dygasant
i mewn i dŷ yr arch-offeiriad. A
Phedr a ganlynodd o hirbell.
55 Ac wedi iddynt gynneu tân
y'nghanol y neuadd, a chyd-eistedd

o honynt, eisteddodd Pedr yntau
yn eu plith hwynt.
56 A phan ganfu rhyw langces ef
yn eistedd wrth y tân, a dal sylw
arno, hi a ddywedodd, Yr oedd hwn
hefyd gyd âg ef.
57 Yntau a'i gwadodd ef, gan ddy-
wedyd, *O* wraig, nid adwaen i ef.
58 Ac ychydig wedi, un arall a'i
gwelodd ef, ac a ddywedodd, Yr
wyt tithau hefyd *yn un* o honynt.
A Phedr a ddywedodd, *O* ddyn, nid
ydwyf.
59 Ac ar ol megis yspaid un awr,
rhyw un arall a daerodd, gan ddy-
wedyd, Mewn gwirionedd yr oedd
hwn hefyd gyd âg ef: canys Gali-
lead yw.
60 A Phedr a ddywedodd, Y dyn,
nis gwn beth yr wyt yn ei ddy-
wedyd. Ac yn y man, ac efe etto
yn llefaru, canodd y ceiliog.
61 A'r Arglwydd a drodd, ac a
edrychodd ar Pedr. A Phedr a gof-
iodd ymadrodd yr Arglwydd, fel y
dywedasai efe wrtho, Cyn canu o'r
ceiliog, y gwedi fi deirgwaith.
62 A Phedr a aeth allan, ac a wyl-
odd yn chwerw-dost.
63 ¶ A'r gwŷr oedd yn dal yr
Iesu, a'i gwatwarasant ef, gan *ei*
daro.
64 Ac wedi iddynt guddio ei lyg-
aid ef, hwy a'i tarawsant ef ar ei
wyneb, ac a ofynasant iddo, gan
ddywedyd, Prophwyda, pwy yw yr
hwn a'th darawodd di?
65 A llawer o bethau eraill, gan
gablu, a ddywedasant yn ei erbyn
ef.
66 ¶ A phan aeth hi yn ddydd,
ymgynhullodd henuriaid y bobl, a'r
arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion,
ac a'i dygasant ef i'w cynghor
hwynt,
67 Gan ddywedyd, Ai ti yw Crist?
dywed i ni. Ac efe a ddywedodd
wrthynt, Os dywedaf i chwi, ni
chredwch ddim:
68 Ac os gofynaf hefyd *i chwi*,
ni'm hattebwch, ac ni'*m* gollyng-
wch ymaith.
69 Ar ol hyn y bydd Mab y
dyn yn eistedd ar ddeheulaw gallu
Duw.
70 A hwy oll a ddywedasant, Ai
Mab Duw gan hynny ydwyt ti?
Ac efe a ddywedodd wrthynt, Yr
ydych chwi yn dywedyd fy mod.
71 Hwythau a ddywedasant, Pa
raid i ni mwyach wrth dystiolaeth?
canys clywsom ein hunain o'i enau
ef ei hun.

PENNOD 23.

1 *Cyhuddo yr Iesu ger bron Pilat, a'i anfon at Herod;* 8 *a Herod yn ei watwar ef.* 12 *Herod a Philat yn cynmodi a'u gilydd,* 13 *Y bobl yn deisyf cael Barabbas;* 15 *a Philat yn ei oliwng ef iddynt, ac yn rhoddi yr Iesu i'w groeshoelio.* 27 *Yntau yn mynegi i'r gwerageddd, a alarent o'i blegid ef, ddinystr Jerusalem:* 34 *yn gweddio dros ei elynion.* 39 *Crogi dau ddrwg-weithredwr gyd âg ef.* 46 *Ei farwolaeth,* 50 *a'i gladdedigaeth ef.*

A'R holl lŵaws o honynt a gyf-
odasant, ac a'i dygasânt ef at
Pilat:
2 Ac a ddechreuasant ei gyhuddo
ef, gan ddywedyd, Ni a gawsom
hwn yn gŵyrdroi y bobl, ac yn
gwahardd rhoi teyrnged i Cesar,
gan ddywedyd mai efe ei hun yw
Crist Frenhin.
3 A Philat a ofynodd iddo, gan
ddywedyd, Ai ti yw Brenhin yr
Iuddewon? Ac efe a attebodd iddo,
ac a ddywedodd, Yr wyt ti yn dy-
wedyd.
4 A dywedodd Pilat wrth yr arch-
offeiriaid a'r bobl, Nid wyf fi yn
cael dim bai ar y dyn hwn.
5 A hwy a fuant daerach, gan
ddywedyd, Y mae efe yn cyffrôi y
bobl, gan ddysgu trwy holl Judea,
wedi dechreu o Galilea hyd yma.
6 A phan glybu Pilat sôn am
Galilea, efe a ofynodd ai Galilead
oedd y dyn.
7 A phan wybu efe ei fod ef o
lywodraeth Herod, efe a'i hanfon-
odd ef at Herod, yr hwn oedd yntau
yn Jerusalem y dyddiau hynny.
8 ¶ A Herod, pan welodd yr Iesu,
a lawenychodd yn fawr: canys yr
oedd efe yn chwennych er ys talm
ei weled ef, oblegid iddo glywed
llawer am dano ef; ac yr ydoedd
yn gobeithio cael gweled gwneuth-
ur rhyw arwydd ganddo ef.
9 Ac efe a'i holodd ef mewn llawer
o eiriau; eithr efe nid attebodd
ddim iddo.
10 A'r arch-offeiriaid a'r ysgrifen-
yddion a safasant, gan ei gyhuddo
ef yn haerllug.
11 A Herod a'i filwyr, wedi iddo

ei ddïystyru ef, a'*i* watwar, a'i wisgo
â gwisg glaerwen, a'i danfonodd ef
drachefn at Pilat.
12 ¶ A'r dwthwn hwnnw yr aeth
Pilat a Herod yn gyfeillion: canys
yr oeddynt o'r blaen mewn gelyn-
iaeth â'u gilydd.
13 ¶ A Philat, wedi galw ynghyd
yr arch-offeiriaid, a'r llywiawdwyr,
a'r bobl,
14 A ddywedodd wrthynt, Chwi a
ddygasoch y dyn hwn attaf fi, fel
un a fyddai yn gŵyrdroi y bobl:
ac wele, myfi a'*i* holais *ef* yn eich
gŵydd chwi, ac ni chefais yn y dyn
hwn ddim bai, o ran y pethau yr
ydych chwi yn ei gyhuddo ef am
danynt:
15 Na Herod chwaith: canys an-
fonais chwi atto ef; ac wele, dim
yn haeddu marwolaeth nis gwnaed
iddo.
16 Am hynny mi a'i ceryddaf ef,
ac a'*i* gollyngaf ymaith.
17 Canys yr ydoedd yn rhaid
iddo ollwng un yn rhydd iddynt
ar yr wyl.
18 A'r holl ïaws a lefasant ar
unwaith, gan ddywedyd, Bwrw hwn
ymaith, a gollwng i ni Barabbas yn
rhydd:
19 (Yr hwn, am ryw derfysg a
wnaethid yn y ddinas, a llofrudd-
iaeth, oedd wedi ei daflu i garchar.)
20 Am hynny Pilat a ddywed-
odd wrthynt drachefn, gan ewyllys-
io gollwng yr Iesu yn rhydd.
21 Eithr hwy a lefasant arno, gan
ddywedyd, Croeshoelia, croeshoelia
ef.
22 Ac efe a ddywedodd wrthynt
y drydedd waith, Canys pa ddrwg
a wnaeth efe? ni chefais i ddim
achos marwolaeth ynddo; am hyn-
ny mi a'i ceryddaf ef, ac a'*i* goll-
yngaf yn rhydd.
23 Hwythau a fuont daerion â
llefau uchel, gan ddeisyfu ei groes-
hoelio ef. A'u llefau hwynt a'r arch-
offeiriaid a orfuant.
24 A Philat a farnodd wneuthur
eu deisyfiad hwynt.
25 Ac efe a ollyngodd yn rhydd
iddynt yr hwn am derfysg a llof-
ruddiaeth a fwriasid y'ngharchar, yr
hwn a ofynasant: eithr yr Iesu a
draddododd efe i'w hewyllys hwynt.
26 Ac fel yr oeddynt yn ei ar-
wain ef ymaith, hwy a ddaliasant
un Simon o Cyrene, yn dyfod o'r
wlad, ac a ddodasant y groes arno
ef, i'*w* dwyn ar ol yr Iesu.
27 ¶ Ac yr oedd yn ei ganlyn ef
lïaws mawr o bobl, ac o wragedd,
y rhai hefyd oedd yn cwynfan ac
yn galaru o'i blegid ef.
28 A'r Iesu, wedi troi attynt, a
ddywedodd, Merched Jerusalem, na
wylwch o'm plegid i: eithr wylwch
o'ch plegid eich hunain, ac oblegid
eich plant.
29 Canys wele, y mae y dyddiau
yn dyfod, yn y rhai y dywedant,
Gwyn eu byd y rhai ammhlant-
adwy, a'r crothau ni eppiliasant, a'r
bronnau ni roisant sugn.
30 Yna y dechreuant ddywedyd
wrth y mynyddoedd, Syrthiwch
arnom; ac wrth y bryniau, Cudd-
iwch ni.
31 Canys os gwnant hyn yn y
pren ïr, pa beth a wneir yn y crin?
32 Ac arweiniwyd gyd âg ef hef-
yd ddau eraill, drwg-weithredwyr,
i'w rhoi i'w marwolaeth.
33 A phan ddaethant i'r lle a elwir
Calfaria, yno y croeshoeliasant ef,
a'r drwg-weithredwyr; un ar y llaw
ddehau, a'r llall ar yr aswy.
34 ¶ A'r Iesu a ddywedodd, O
Dad, maddeu iddynt: canys ni
wyddant pa beth y maent yn ei
wneuthur. A hwy a rannasant ei
ddillad ef, ac a fwriasant goelbren.
35 A'r bobl a safodd yn edrych.
A'r pennaethiaid hefyd gyd â hwynt
a watwarasant, gan ddywedyd, Er-
aill a waredodd efe; gwareded ef
ei hun, os hwn yw Crist, etholedig
Duw.
36 A'r milwyr hefyd a'i gwatwar-
asant ef, gan ddyfod atto, a chyn-
nyg iddo finegr,
37 A dywedyd, Os tydi yw Bren-
hin yr Iuddewon, gwared dy hun.
38 Ac yr ydoedd hefyd ar-ysgrifen
wedi ei ysgrifenu uwch ei ben ef,
â llythyrennau Groeg, a Lladin, ac
Hebraeg. HWN YW BRENHIN
YR IUDDEWON.
39 ¶ Ac un o'r drwg-weithredwyr
a grogasid a'i cablodd ef, gan ddy-
wedyd, Os tydi yw Crist, gwared
dy hun a ninnau.

40 Eithr y llall a attebodd, ac a'i ceryddodd ef, gan ddywedyd, Onid wyt ti yn ofni Duw, gan dy fod dan yr un ddamnedigaeth?
41 A nyni yn wir yn gyfiawn; canys yr ydym yn derbyn yr hyn a haeddai y pethau a wnaethom: eithr hwn ni wnaeth ddim allan o'i le.
42 Ac efe a ddywedodd wrth yr Iesu, Arglwydd, cofia fi pan ddelych i'th deyrnas.
43 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Yn wir meddaf i ti, Heddyw y byddi gyd â mi ym mharadwys.
44 Ac yr ydoedd hi ynghylch y chweched awr, a thywyllwch a fu ar yr holl ddaear hyd y nawfed awr.
45 A'r haul a dywyllwyd, a llen y deml a rwygwyd yn ei chanol.
46 ¶ A'r Iesu, gan lefain â llef uchel, a ddywedodd, O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy yspryd. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a drengodd.
47 A'r canwriad, pan welodd y peth a wnaethpwyd, a ogoneddodd Dduw, gan ddywedyd, Yn wir yr oedd hwn yn ŵr cyfiawn.
48 A'r holl bobloedd y rhai a ddaethent ynghyd i edrych hyn, wrth weled y pethau a wnaethpwyd, a ddychwelasant gan guro eu dwyfronnau.
49 A'i holl gydnabod ef a safasant o hirbell, a'r gwragedd y rhai a'i canlynasent ef o Galilea, yn edrych ar y pethau hyn.
50 ¶ Ac wele, gŵr a'i enw Joseph, yr hwn oedd gynghorwr, gŵr da a chyfiawn:
51 (Hwn ni chyttunasai â'u cynghor ac â'u gweithred hwynt;) o Arimathea, dinas yr Iuddewon, yr hwn oedd yntau yn disgwyl hefyd am deyrnas Dduw;
52 Hwn a ddaeth at Pilat, ac a ofynodd gorph yr Iesu.
53 Ac efe a'i tynnodd i lawr, ac a'i hamdôdd mewn llïan main, ac a'i rhoddes mewn bedd wedi ei naddu mewn carreg, yn yr hwn ni roddasid dyn erioed.
54 A'r dydd hwnnw oedd ddarpar-wyl, a'r Sabbath oedd yn nesâu.
55 A'r gwragedd hefyd, y rhai a ddaethent gyd âg ef o Galilea, a ganlynasant, ac a welsant y bedd, a pha fodd y dodwyd ei gorph ef.
56 A hwy a ddychwelasant, ac a barottoisant bêr-aroglau ac ennaint; ac a orphwysasant ar y Sabbath, yn ol y gorchymyn.

PENNOD 24.

1 Dau angel yn mynegi adgyfodiad Crist i'r gwragedd oedd yn dyfod at y bedd; 9 a'r rhai hynny yn ei adrodd i eraill. 13 Crist ei hun yn ymddangos i'r ddau ddisgybl oedd yn myned i Emmäus: 36 ac wedi hynny i'r apostolion; ac yn ceryddu eu hanghrediniaeth hwy: 47 yn rhoddi gorchymyn iddynt: 49 ac yn addaw yr Yspryd Glân: 51 ac felly yn esgyn i'r nefoedd.

A'R *dydd* cyntaf o'r wythnos, ar y cynddydd, hwy a ddaethant at y bedd, gan ddwyn y pêr-aroglau a barottoisent, a rhai gyd â hwynt.
2 A hwy a gawsant y maen wedi ei dreiglo ymaith oddi wrth y bedd.
3 Ac wedi iddynt fyned i mewn, ni chawsant gorph yr Arglwydd Iesu.
4 A bu, a hwy yn petruso am y peth hwn, wele, dau ŵr a safodd yn eu hymyl mewn gwisgoedd disglaer.
5 Ac wedi iddynt ofni, a gostwng *eu* hwynebau tu a'r ddaear, hwy a ddywedasant wrthynt, Paham yr ydych yn ceisio y byw ym mysg y meirw?
6 Nid yw efe yma, ond efe a gyfododd. Cofiwch pa fodd y dywedodd wrthych, ac efe etto yn Galilea,
7 Gan ddywedyd, Rhaid yw rhoi Mab y dyn yn nwylaw dynion pechadurus, a'i groeshoelio, a'r trydydd dydd adgyfodi.
8 A hwy a gofiasant ei eiriau ef;
9 Ac a ddychwelasant oddi wrth y bedd, ac a fynegasant hyn oll i'r un ar ddeg, ac i'r lleill oll.
10 A Mair Magdalen, a Joanna, a Mair *mam* Iago, a'r lleill gyd â hwynt, oedd y rhai a ddywedasant y pethau hyn wrth yr apostolion.
11 A'u geiriau a welid yn eu golwg hwynt fel gwegi, ac ni chredasant iddynt.
12 Eithr Pedr a gododd i fyny, ac a redodd at y bedd; ac wedi ymgrymmu, efe a ganfu y llïeiniau wedi eu gosod o'r neilldu; ac a aeth ymaith, gan ryfeddu rhyngddo ac ef ei hun am y peth a ddarfuasai.
13 ¶ Ac wele, dau o honynt oedd

yn myned y dydd hwnnw i dref a'i henw Emmäus, yr hon oedd ynghylch tri ugain ystâd oddi wrth Jerusalem.

14 Ac yr oeddynt hwy yn ymddiddan â'u gilydd am yr holl bethau hyn a ddigwyddasent.

15 A bu, fel yr oeddynt yn ymddiddan, ac yn ymofyn â'u gilydd, yr Iesu ei hun hefyd a nesaodd, ac a aeth gyd â hwynt.

16 Eithr eu llygaid hwynt a attaliwyd, fel nas adwaenent ef.

17 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa ryw ymadroddion yw y rhai hyn yr ydych yn eu bwrw at eu gilydd, dan rodio, ac yn wyneb-drist?

18 Ac un *o honynt*, a'i enw Cleopas, gan atteb a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn unig yn ymdeithydd yn Jerusalem, ac ni wybuost y pethau a wnaethpwyd ynddi hi yn y dyddiau hyn?

19 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa bethau? Hwythau a ddywedasant wrtho, Y pethau ynghylch Iesu o Nasareth, yr hwn oedd ŵr o brophwyd, galluog mewn gweithred a gair ger bron Duw a'r holl bobl;

20 A'r modd y traddododd yr archoffeiriaid a'n llywodraethwyr ni ef i farn marwolaeth, ac a'i croeshoeliasant ef.

21 Ond yr oeddym ni yn gobeithio mai efe oedd yr hwn a waredai yr Israel. Ac heb law hyn oll, heddyw yw y trydydd dydd er pan wnaethpwyd y pethau hyn.

22 A hefyd rhai gwragedd o honom ni a'n dychrynasant ni, gwedi iddynt fod yn fore wrth y bedd:

23 A phan na chawsant ei gorph ef, hwy a ddaethant, gan ddywedyd weled o honynt weledigaeth o angylion, y rhai a ddywedent ei fod ef yn fyw.

24 A rhai o'r rhai oedd gyd â nyni a aethant at y bedd, ac a gawsant felly, fel y dywedasai y gwragedd: ond ef nis gwelsant.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, O ynfydion, a hwyrfrydig o galon i gredu yr holl bethau a ddywedodd y prophwydi!

26 Onid oedd raid i Grist ddïoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?

27 A chan ddechreu ar Moses, a'r holl brophwydi, efe a esboniodd iddynt yn yr holl ysgrythyrau y pethau am dano ei hun.

28 Ac yr oeddynt yn nesâu i'r dref lle yr oeddynt yn myned: ac yntau a gymmerth arno ei fod yn myned ym mhellach.

29 A hwy a'i cymhellasant ef, gan ddywedyd, Aros gyd â ni; canys y mae hi yn hwyrhâu, a'r dydd yn darfod. Ac efe a aeth i mewn i aros gyd â hwynt.

30 A darfu, ac efe yn eistedd gyd â hwynt, efe a gymmerodd fara, ac a'i bendithiodd, ac a'i torrodd, ac a'*i* rhoddes iddynt.

31 A'u llygaid hwynt a agorwyd, a hwy a'i hadnabuant ef: ac efe a ddiflannodd allan o'u golwg hwynt.

32 A hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Onid oedd ein calon ni yn llosgi ynom tra yr ydoedd efe yn ymddiddan â ni ar y ffordd, a thra yr ydoedd efe yn agoryd i ni yr ysgrythyrau?

33 A hwy a godasant yr awr honno, ac a ddychwelasant i Jerusalem, ac a gawsant yr un ar ddeg wedi ymgasglu ynghyd, a'r sawl *oedd* gyd â hwynt,

34 Yn dywedyd, Yr Arglwydd a gyfododd yn wir, ac a ymddangosodd i Simon.

35 A hwythau a adroddasant y pethau *a wnaethesid* ar y ffordd, a pha fodd yr adnabuwyd ef ganddynt wrth dorriad y bara.

36 ¶ Ac a hwy yn dywedyd y pethau hyn, yr Iesu ei hun a safodd yn eu canol hwynt, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi.

37 Hwythau, wedi brawychu ac ofni, a dybiasant weled o honynt yspryd.

38 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Paham y'ch trallodir? a phaham y mae meddyliau yn codi yn eich calonnau?

39 Edrychwch fy nwylaw a'm traed, mai myfi fy hun ydyw: teimlwch fi, a gwelwch: canys nid oes gan yspryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod gennyf fi.

40 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangosodd iddynt *ei* ddwylaw a'*i* draed.

41 Ac a hwy etto heb gredu gan lawenydd, ac yn rhyfeddu, efe a ddywedodd wrthynt, A oes gennych chwi yma ddim bwyd?
42 A hwy a roisant iddo ddarn o bysgodyn wedi ei rostio, ac o ddil mêl.
43 Yntau a'*i* cymmerodd, ac a'*i* bwyttaodd yn eu gŵydd hwynt.
44 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Dyma y geiriau a ddywedais i wrthych, pan oeddwn etto gyd â chwi, bod yn rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenwyd y'nghyfraith Moses, a'r prophwydi, a'r psalmau, am danaf fi.
45 Yna yr agorodd efe eu deall hwynt, fel y deallent yr ysgrythyrau.
46 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Felly yr ysgrifenwyd, ac felly yr oedd raid i Grist ddioddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd:
47 A phregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef ym mhlith yr holl genhedloedd, gan ddechreu yn Jerusalem.
48 Ac yr ydych chwi yn dystion o'r pethau hyn.
49 ¶ Ac wele, yr ydwyf fi yn anfon addewid fy Nhad arnoch: eithr arhoswch chwi yn ninas Jerusalem, hyd oni wisger chwi â nerth o'r uchelder.
50 ¶ Ac efe a'u dug hwynt allan hyd yn Bethania; ac a gododd ei ddwylaw, ac a'u bendithiodd hwynt.
51 Ac fe a ddarfu, tra yr oedd efe yn eu bendithio hwynt, ymadael o hono ef oddi wrthynt, ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef.
52 Ac wedi iddynt ei addoli ef, hwy a ddychwelasant i Jerusalem, gyd â llawenydd mawr:
53 Ac yr oeddynt yn wastadol yn y deml, yn moli ac yn bendithio Duw. Amen.

YR EFENGYL YN OL

SANT IOAN.

PENNOD 1.

1 *Duwdeb, dymdeb, a swydd Iesu Grist.* 15 *Tystiolaeth Ioan.* 39 *Galwad Andreas, Pedr, Phylip, a Nathanïel.*

YN y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair.
2 Hwn oedd yn y dechreuad gyd â Duw.
3 Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd.
4 Ynddo ef yr oedd bywyd; a'r bywyd oedd oleuni dynion.
5 A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch; a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.
6 ¶ Yr ydoedd gŵr wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan.
7 Hwn a ddaeth yn dystiolaeth, fel y tystiolaethai am y Goleuni, fel y credai pawb trwyddo ef.
8 Nid efe oedd y Goleuni, eithr *efe a anfonasid* fel y tystiolaethai am y Goleuni.
9 Hwn ydoedd y gwir Oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd.
10 Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef; a'r byd nid adnabu ef.
11 At ei eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef.
12 Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, *sef* i'r sawl a gredant yn ei enw ef:
13 Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Dduw.
14 A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr Unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd.
15 ¶ Ioan a dystiolaethodd am dano ef, ac a lefodd, gan ddywedyd, Hwn oedd yr un y dywedais am dano, Yr hwn sydd yn dyfod

ar fy ol i, a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i.
16 Ac o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras.
17 Canys y gyfraith a roddwyd trwy Moses, ond y gras a'r gwirioneedd a ddaeth trwy Iesu Grist.
18 Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd ym mynwes y Tad, hwnnw a'i hysbysodd *ef*.
19 ¶ A hon yw tystiolaeth Ioan, pan anfonodd yr Iuddewon o Jerusalem offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, Pwy wyt ti?
20 Ac efe a gyffesodd, ac ni wadodd; a chyffesodd, Nid myfi yw y Crist.
21 A hwy a ofynasant iddo, Beth ynte? Ai Elïas wyt ti? Yntau a ddywedodd, Nag ê. Ai y Prophwyd wyt ti? Ac efe a attebodd, Nag ê.
22 Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? fel y rhoddom atteb i'r rhai a'n danfonodd. Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am danat dy hun?
23 Eb efe, Myfi *yw* llef un yn gwaeddi yn y diffaethwch, Uniawnwch ffordd yr Arglwydd, fel y dywedodd Esaias y prophwyd.
24 A'r rhai a anfonasid oedd o'r Phariseaid.
25 A hwy a ofynasant iddo, ac a ddywedasant wrtho, Paham gan hynny yr wyt ti yn bedyddio, onid ydwyt ti na'r Crist, nac Elïas, na'r prophwyd?
26 Ioan a attebodd iddynt, gan ddywedyd, Myfi sydd yn bedyddio â dwfr; ond y mae un yn sefyll yn eich plith chwi, yr hwn nid adwaenoch chwi:
27 Efe yw yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, yr hwn a aeth o'm blaen i; yr hwn nid ydwyf fi deilwng i ddattod carrai ei esgid.
28 Y pethau hyn a wnaethpwyd yn Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen, lle yr oedd Ioan yn bedyddio.
29 ¶ Trannoeth Ioan a ganfu yr Iesu yn dyfod atto; ac *efe* a ddywedodd, Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd.
30 Hwn yw efe am yr hwn y dywedais i, Ar fy ol i y mae gŵr yn dyfod, yr hwn a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i.
31 Ac myfi nid adwaenwn ef: eithr fel yr amlygid ef i Israel, i hynny y deuthum i, gan fedyddio â dwfr.
32 Ac Ioan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Mi a welais yr Ysbryd yn disgyn megis colommen, o'r nef, ac efe a arhosodd arno ef.
33 A myfi nid adwaenwn ef; eithr yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio â dwfr, efe a ddywedodd wrthyf, Ar yr hwn y gwelych yr Ysbryd yn disgyn, ac yn aros arno, hwnnw yw yr un sydd yn bedyddio â'r Ysbryd Glân.
34 A mi a welais, ac a dystiolaethais mai hwn yw Mab Duw.
35 ¶ Trannoeth drachefn y safodd Ioan, a dau o'i ddisgyblion:
36 A chan edrych ar yr Iesu yn rhodio, efe a ddywedodd, Wele Oen Duw.
37 A'r ddau ddisgybl a'i clywsant ef yn llefaru, ac a ganlynasant yr Iesu.
38 Yna yr Iesu a droes; a phan welodd hwynt yn canlyn, efe a ddywedodd wrthynt, Beth yr ydych chwi yn ei geisio? A hwy a ddywedasant wrtho ef, Rabbi, (yr hyn o'i gyfieithu yw, Athraw,) pa le yr wyt ti yn trigo?
39 Efe a ddywedodd wrthynt, Deuwch a gwelwch. A hwy a ddaethant, ac a welsant lle yr oedd efe yn trigo, ac a arhosasant gyd âg ef y diwrnod hwnnw: ac yr oedd hi ynghylch y ddegfed awr.
40 Andreas, brawd Simon Pedr, oedd un o'r ddau a glywsent *hynny* gan Ioan, ac a'i dilynasent ef.
41 Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Simon, ac a ddywedodd wrtho, Nyni a gawsom y Messïas; yr hyn o'i ddehongl yw, Y Crist.
42 Ac efe a'i dug ef at yr Iesu. A'r Iesu wedi edrych arno ef, a ddywedodd, Ti yw Simon mab Jona: ti a elwir Cephas, yr hwn a gyfieithir, Carreg.
43 ¶ Trannoeth yr ewyllysiodd yr Iesu fyned allan i Galilea: ac efe a gafodd Phylip, ac a ddywedodd wrtho, Dilyn fi.

44 A Phylip oedd o Bethsaida, o
ddinas Andreas a Phedr.
45 Phylip a gafodd Nathanäel,
ac a ddywedodd wrtho, Cawsom yr
hwn yr ysgrifenodd Moses yn y
gyfraith, a'r prophwydi, am dano,
Iesu o Nasareth, mab Joseph.
46 A Nathanäel a ddywedodd
wrtho, A ddichon dim da ddyfod
o Nasareth? Phylip a ddywedodd
wrtho, Tyred a gwel.
47 Iesu a ganfu Nathanäel yn dy-
fod atto; ac a ddywedodd am dano,
Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn
nid oes dwyll.
48 Nathanäel a ddywedodd wrtho,
Pa fodd y'm hadwaenost? Iesu a
attebodd ac a ddywedodd wrtho,
Cyn i Phylip dy alw di, pan oeddit
tan y ffigysbren, mi a'th welais di.
49 Nathanäel a attebodd ac a
ddywedodd wrtho ef, Rabbi, ti yw
Mab Duw; ti yw Brenhin Israel.
50 Iesu a attebodd ac a ddywed-
odd wrtho ef, O herwydd i mi
ddywedyd i ti, Myfi a'th welais di
dan y ffigysbren, a ydwyt ti yn
credu? ti a gei weled pethau mwy
na'r rhai hyn.
51 Ac efe a ddywedodd wrtho, Yn
wir, yn wir, meddaf i chwi, Ar ol
hyn y gwelwch y nef yn agored,
ac angylion Duw yn esgyn ac yn
disgyn ar Fab y dyn.

PENNOD 2.

1 Crist yn troi y dwfr yn win: 12 yn myned i waered i Capernaum a Jerusalem: 14 ac yno yn bwrw y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r deml: 19 yn rhag-fynegi ei farwolaeth, a'i adgyfodiad. 23 Llawer yn credu yndo, o herwydd ei wyrthiau; ond er hynny nid ymddiriedai efe iddynt am dano ei hun.

A'R trydydd dydd yr oedd priod-
as yn Cana Galilea: a mam
yr Iesu oedd yno.
2 A galwyd yr Iesu hefyd a'i ddis-
gyblion i'r briodas.
3 A phan ballodd y gwin, mam yr
Iesu a ddywedodd wrtho ef, Nid
oes ganddynt mo'r gwin.
4 Iesu a ddywedodd wrthi, Beth
sydd i mi *a wnelwyf* â thi, wraig?
ni ddaeth fy awr i etto.
5 Ei fam ef a ddywedodd wrth
y gwasanaethwyr, Beth bynnag a
ddywedo efe wrthych, gwnewch.
6 Ac yr oedd yno chwech o ddyfr-
lestri meini wedi eu gosod, yn ol
defod puredigaeth yr Iuddewon, y
rhai a ddalient bob un ddau ffircyn
neu dri.
7 Iesu a ddywedodd wrthynt, Llen-
wch y dyfr-lestri o ddwfr. A hwy
a'u llanwasant hyd yr ymyl.
8 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Gollyngwch yn awr, a dygwch at
lywodraethwr y wledd. A hwy a
ddygasant.
9 A phan brofodd llywodraethwr
y wledd y dwfr a wnaethid yn win,
(ac ni wyddai o ba le yr ydoedd,
eithr y gwasanaethwyr, y rhai a
ollyngasent y dwfr, a wyddent,)
llywodraethwr y wledd a alwodd
ar y priodfab,
10 Ac a ddywedodd wrtho, Pob
dyn a esyd y gwin da yn gyntaf; ac
wedi iddynt yfed yn dda, yna un a
fo gwaeth: tithau a gedwaist y gwin
da hyd yr awr hon.
11 Hyn o ddechreu gwyrthiau a
wnaeth yr Iesu yn Cana Galilea, ac
a eglurodd ei ogoniant; a'i ddis-
gyblion a gredasant ynddo.
12 ¶ Wedi hyn efe a aeth i waered
i Capernaum, efe, a'i fam, a'i frod-
yr, a'i ddisgyblion: ac yno nid
arhosasant nemmawr o ddyddiau.
13 ¶ A phasc yr Iuddewon oedd
yn agos: a'r Iesu a aeth i fyny i
Jerusalem;
14 Ac a gafodd yn y deml rai yn
gwerthu ychain, a defaid, a chol-
ommennod, a'r newidwyr arian yn
eistedd.
15 Ac wedi gwneuthur fflangell
o fân reffynnau, efe a'u gyrrodd
hwynt oll allan o'r deml, y defaid
hefyd a'r ychain; ac a dywalltodd
allan arian y newidwyr, ac a ddym-
chwelodd y byrddau:
16 Ac a ddywedodd wrth y rhai
oedd yn gwerthu colommennod,
Dygwch y rhai hyn oddi yma; na
wnewch dŷ fy Nhad i yn dŷ march-
nad.
17 A'i ddisgyblion a gofiasant fod
yn ysgrifenedig, Sêl dy dŷ di a'm
hysodd i.
18 ¶ Yna yr Iuddewon a attebas-
ant ac a ddywedasant wrtho ef,
Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddang-
os i ni, gan dy fod yn gwneuthur
y pethau hyn?
19 Yr Iesu a attebodd ac a ddy-

wedodd wrthynt, Dinystriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi.

20 Yna yr Iuddewon a ddywedasant, Chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y deml hon; ac a gyfodi di hi mewn tridiau?

21 Ond efe a ddywedasai am deml ei gorph.

22 Am hynny pan gyfododd efe o feirw, ei ddisgyblion ef a gofiasant iddo ddywedyd hyn wrthynt hwy: a hwy a gredasant yr ysgrythyr, a'r gair a ddywedasai yr Iesu.

23 ¶ Ac fel yr oedd efe yn Jerusalem ar y pasc yn yr wyl, llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe.

24 Ond nid ymddiriedodd yr Iesu iddynt am dano ei hun, am yr adwaenai efe hwynt oll;

25 Ac nad oedd raid iddo dystiolaethu o neb *iddo* am ddyn: o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.

PENNOD 3.

1 *Crist yn dysgu Nicodemus mor angenrheidiol yw adenedigaeth.* 14 *Am fydd yn ei farwolaeth ef.* 16 *Mawr gariad Duw tu ag at y byd.* 18 *Condemniad an anghredimiaeth.* 23 *Bedydd, iystiolaeth, ac athrawiaeth Ioan am Grist.*

AC yr oedd dyn o'r Phariseaid, a'i enw Nicodemus, pennaeth yr Iuddewon:

2 Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos, ac a ddywedodd wrtho, Rabbi, nyni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw: canys ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr wyt ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gyd âg ef.

3 Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.

4 Nicodemus a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen? a ddichon efe fyned i groth ei fam eilwaith, a'i eni?

5 Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.

6 Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd; a'r hyn a aned o'r Ysbryd, sydd ysbryd.

7 Na ryfedda ddywedyd o honof fi wrthyt, Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.

8 Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno: a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned: felly mae pob un a'r a aned o'r Ysbryd.

9 Nicodemus a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?

10 Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel, ac ni wyddost y pethau hyn?

11 Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Mai yr hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru, a'r hyn a welsom yr ydym yn ei dystiolaethu; a'n tystiolaeth ni nid ydych yn ei derbyn.

12 Os dywedais i chwi bethau daearol, a chwithau nid ydych yn credu; pa fodd, os dywedaf i chwi bethau nefol, y credwch?

13 Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddi eithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, *sef* Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef.

14 ¶ Ac megis y dyrchafodd Moses y sarph yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn;

15 Fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.

16 ¶ Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.

17 Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef.

18 ¶ Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, ni ddemnir: eithr yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes; o herwydd na chredodd yn enw unig-anedig Fab Duw.

19 A hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni; canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.

20 O herwydd pob un a'r sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casâu y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef.

21 Ond yr hwn sydd yn gwneuthur gwirionedd, sydd yn dyfod i'r goleuni, fel yr eglurhâer ei weithredoedd ef, mai yn Nuw y gwnaed hwynt.

22 ¶ Wedi y pethau hyn, daeth yr Iesu a'i ddisgyblion i wlad Judea; ac a arhosodd yno gyd â hwynt, ac a fedyddiodd.

23 ¶ Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio yn Ainon, yn agos i Salim; canys dyfroedd lawer oedd yno: a hwy a ddaethant, ac a'u bedyddiwyd;

24 Canys ni fwriasid Ioan etto y'ngharchar.

25 ¶ Yna y bu ymofyn rhwng *rhai* o ddisgyblion Ioan a'r Iuddewon, ynghylch puredigaeth.

26 A hwy a ddaethant at Ioan, ac a ddywedasant wrtho, Rabbi, yr hwn oedd gyd â thi y tu hwnt i'r Iorddonen, am yr hwn y tystiolaethaist ti, wele, y mae hwnnw yn bedyddio, a phawb yn dyfod atto ef.

27 Ioan a attebodd ac a ddywedodd, Ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef.

28 Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi, ddywedyd o honof fi, Nid myfi yw y Crist, eithr fy mod wedi fy anfon o'i flaen ef.

29 Yr hwn sydd ganddo y briodferch, yw y priodfab: ond cyfaill y priodfab, yr hwn sydd yn sefyll ac yn ei glywed ef, sydd yn llawenychu yn ddirfawr oblegid llef y priodfab: y llawenydd hwn mau fi gan hynny a gyflawnwyd.

30 Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu, ac i minnau leihâu.

31 Yr hwn a ddaeth oddi uchod, sydd goruwch pawb oll: yr hwn sydd o'r ddaear, sydd o'r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru: yr hwn sydd yn dyfod o'r nef, sydd goruwch pawb.

32 A'r hyn a welodd efe ac a glywodd, hynny y mae efe yn ei dystiolaethu: ond nid oes neb yn derbyn ei dystiolaeth ef.

33 Yr hwn a dderbyniodd ei dystiolaeth ef, a seliodd mai geirwir yw Duw.

34 Canys yr hwn a anfonodd Duw, sydd yn llefaru geiriau Duw; oblegid nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi *iddo ef* yr Ysbryd.

35 Y mae y Tad yn caru y Mab, ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef.

36 Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.

PENNOD 4.

1 Crist yn ymddiddan â gwraig o Samaria, ac yn ei ddatguddio ei hun iddi. 27 Ei ddisgyblion yn rhyfeddu; 31 ac ymtau ym hysbysu iddynt ei sêl tu ag at ogoniant Duw. 39 Llawer o'r Samariaid yn credu ynddo; 43 ac yntau yn myned ymaith i Galilea, ac yn iachâu mab y llywydd oedd yn gorwedd yn glaf yn Capernaum.

PAN wybu yr Arglwydd gan hynny glywed o'r Phariseaid fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddisgyblion nag Ioan,

2 (Er na fedyddiasai yr Iesu ei hun, eithr ei ddisgyblion ef,)

3 Efe a adawodd Judea, ac a aeth drachefn i Galilea.

4 Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy Samaria.

5 Efe a ddaeth gan hynny i ddinas yn Samaria a elwid Sichar, ger llaw y rhandir a roddasai Jacob i'w fab Joseph:

6 Ac yno yr oedd ffynnon Jacob. Yr Iesu gan hynny yn ddiffygiol gan y daith, a eisteddodd felly ar y ffynnon: ac ynghylch y chweched awr ydoedd hi.

7 Daeth gwraig o Samaria i dynnu dwfr: a'r Iesu a ddywedodd wrthi, Dyro i mi i yfed.

8 Canys ei ddisgyblion ef a aethent i'r ddinas i brynu bwyd.

9 Yna y wraig o Samaria a ddywedodd wrtho ef, Pa fodd yr ydwyt ti, a thi yn Iuddew, yn gofyn diod gennyf fi, a myfi yn wraig o Samaria? oblegid nid yw yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid.

10 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Ped adwaenit ti ddawn Duw, a phwy yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt, Dyro i mi i yfed; tydi a ofynasit iddo ef, ac efe a roddasai i ti ddwfr bywiol.

11 Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, nid oes gennyt ti ddim i godi *dwfr*, a'r pydew sydd ddwfn;

o ba le gan hynny y mae gennyt ti
y dwfr bywiol hwnnw?
12 Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob,
yr hwn a roddodd i ni y pydew, ac
efe ei hun a yfodd o hono, a'i feib-
ion, a'i anifeiliaid?
13 Iesu a attebodd ac a ddywed-
odd wrthi, Pwy bynnag sydd yn
yfed o'r dwfr hwn, efe a sycheda
drachefn:
14 Ond pwy bynnag a yfo o'r dwfr
a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn
dragywydd; eithr y dwfr a rodd-
wyf iddo, a fydd ynddo yn ffynnon
o ddwfr yn tarddu i fywyd tragy-
wyddol.
15 Y wraig a ddywedodd wrtho,
Arglwydd, dyro i mi y dwfr hwn,
fel na sychedwyf, ac na ddelwyf
yma i godi *dwfr.*
16 Iesu a ddywedodd wrthi, Dos,
galw dy ŵr, a thyred yma.
17 Y wraig a attebodd ac a ddy-
wedodd, Nid oes gennyf ŵr. Iesu a
ddywedodd wrthi, Da y dywedaist,
Nid oes gennyf ŵr:
18 Canys pump o wŷr a fu i ti; a'r
hwn sydd gennyt yr awrhon, nid yw
ŵr i ti: hyn a ddywedaist yn wir.
19 Y wraig a ddywedodd wrtho ef,
Arglwydd, mi a welaf mai pro-
phwyd wyt ti.
20 Ein tadau a addolasant yn y
mynydd hwn; ac yr ydych chwi yn
dywedyd mai yn Jerusalem y mae
y man lle y mae yn rhaid addoli.
21 Iesu a ddywedodd wrthi hi, O
wraig, cred fi, y mae yr awr yn dy-
fod, pryd nad addoloch y Tad, nac
yn y mynydd hwn, nac yn Jeru-
salem.
22 Chwychwi ydych yn addoli y
peth ni wyddoch: ninnau ydym yn
addoli y peth a wyddom: canys
iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon.
23 Ond dyfod y mae yr awr, ac yn
awr y mae hi, pan addolo y gwir
addolwyr y Tad mewn ysbryd a
gwirionedd: canys y cyfryw y mae
y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef.
24 Ysbryd *yw* Duw; a rhaid i'r
rhai a'i haddolant ef, addoli mewn
ysbryd a gwirionedd.
25 Y wraig a ddywedodd wrtho,
Mi a wn fod y Messïas yn dyfod, yr
hwn a elwir Crist: pan ddelo hwn-
nw, efe a fynega i ni bob peth.
26 Iesu a ddywedodd wrthi hi,
Myfi, yr hwn wyf yn ymddiddan â
thi, yw *hwnnw.*
27 ¶ Ac ar hyn y daeth ei ddis-
gyblion; a bu ryfedd ganddynt ei
fod ef yn ymddiddan â gwraig:
er hynny ni ddywedodd neb, Beth
a geisi? neu, Paham yr ydwyt yn
ymddiddan â hi?
28 Yna y wraig a adawodd ei dwfr-
lestr, ac a aeth i'r ddinas, ac a ddy-
wedodd wrth y dynion,
29 Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn
a ddywedodd i mi yr hyn oll a
wneuthum: onid hwn yw y Crist?
30 Yna hwy a aethant allan o'r
ddinas, ac a ddaethant atto ef.
31 ¶ Yn y cyfamser y disgyblion
a attolygasant iddo, gan ddywedyd,
Rabbi, bwytta.
32 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Y mae gennyf fi fwyd i'w fwytta yr
hwn ni wyddoch chwi oddi wrtho.
33 Am hynny y disgyblion a ddy-
wedasant wrth eu gilydd, A ddug
neb iddo *ddim i'w* fwytta?
34 Iesu a ddywedodd wrthynt, Fy
mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr
hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei
waith ef.
35 Onid ydych chwi yn dywedyd,
Y mae etto bedwar mis, ac *yna* y
daw y cynhauaf? Wele, yr ydwyf
fi yn dywedyd wrthych, Dyrchef-
wch eich llygaid, ac edrychwch ar
y meusydd; canys gwynion ydynt
eisoes *i'r* cynhauaf.
36 A'r hwn sydd yn medi, sydd yn
derbyn cyflog, ac yn casglu ffrwyth
i fywyd tragywyddol: fel y byddo
i'r hwn sydd yn hau, ac i'r hwn
sydd yn medi, lawenychu ynghyd.
37 Canys yn hyn y mae y gair
yn wir, Mai arall yw yr hwn sydd
yn hau, ac arall yr hwn sydd yn
medi.
38 Myfi a'ch anfonais chwi i fedi
yr hyn ni lafuriasoch: eraill a la-
furiasant, a chwithau a aethoch i
mewn i'w llafur hwynt.
39 ¶ A llawer o'r Samariaid o'r
ddinas honno a gredasant ynddo, o
herwydd gair y wraig, yr hon oedd
yn tystiolaethu, Efe a ddywedodd i
mi yr hyn oll a wneuthum.
40 Am hynny pan ddaeth y Sa-
mariaid atto ef, hwy a attolygasant

iddo aros gyd â hwynt. Ac efe a arhosodd yno ddeuddydd.

41 A mwy o lawer a gredasant ynddo ef, oblegid ei air ei hun.

42 A *hwy* a ddywedasant wrth y wraig, Nid ydym ni weithian yn credu oblegid dy ymadrodd di: canys ni a'*i* clywsom *ef* ein hunain, ac a wyddom mai hwn yn ddïau yw y Crist, Iachawdwr y byd.

43 ¶ Ac ym mhen y ddeuddydd efe a aeth ymaith oddi yno, ac a aeth i Galilea.

44 Canys yr Iesu ei hun a dystiolaethodd, nad ydyw prophwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun.

45 Yna pan ddaeth efe i Galilea, y Galileaid a'i derbyniasant ef, wedi iddynt weled yr holl bethau a wnaeth efe yn Jerusalem ar yr wyl: canys hwythau a ddaethant i'r wyl.

46 Felly yr Iesu a ddaeth drachefn i Cana yn Galilea, lle y gwnaeth efe y dwfr yn win. Ac yr oedd rhyw bendefig, yr hwn yr oedd ei fab yn glaf yn Capernaum.

47 ¶ Pan glybu hwn ddyfod o'r Iesu o Judea i Galilea, efe a aeth atto ef, ac a attolygodd iddo ddyfod i waered, a iachâu ei fab ef: canys yr oedd efe ym mron marw.

48 Yna Iesu a ddywedodd wrtho ef, Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch.

49 Y pendefig a ddywedodd wrtho ef, O Arglwydd, tyred i waered cyn marw fy machgen.

50 Iesu a ddywedodd wrtho ef, Dos ymaith; y mae dy fab yn fyw. A'r gŵr a gredodd y gair a ddywedasai Iesu wrtho, ac efe a aeth ymaith.

51 Ac fel yr oedd efe yr awrhon yn myned i waered, ei weision a gyfarfuant âg ef, ac a fynegasant, gan ddywedyd, Y mae dy fachgen yn fyw.

52 Yna efe a ofynodd iddynt yr awr y gwellhasai arno. A hwy a ddywedasant wrtho, Doe, y seithfed awr, y gadawodd y cryd ef.

53 Yna y gwybu y tad mai yr awr honno *oedd*, yn yr hon y dywedasai Iesu wrtho ef, Y mae dy fab yn fyw. Ac efe a gredodd, a'i holl dŷ.

54 Yr ail arwydd yma drachefn a wnaeth yr Iesu, wedi dyfod o Judea i Galilea.

PENNOD 5.

1 Yr Iesu ar y dydd Sabbath ym iachâu yr hwn a fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain: 10 a'r Iuddewon am hynny yn cwerylu, ac ym ei erlid ef. 17 Ynlau ym atteb drosto ei hun, ac ym eu harryhoeddi hwy, gan ddangos pwy ydyw ef, trwy dystiolaeth ei Dad, 32 ac Ioan, 36 a'i weithredoedd ei hun, 39 a'r ysgrythyrau.

WEDI hynny yr oedd gwyl yr Iuddewon; a'r Iesu a aeth i fyny i Jerusalem.

2 Ac y mae yn Jerusalem, wrth *farchnad* y defaid, lyn a elwir yn Hebraeg, Bethesda, âg iddo bum porth;

3 Yn y rhai y gorweddai lliaws mawr o rai cleifion, deillion, cloffion, gwywedigion, yn disgwyl am gynhyrfiad y dwfr.

4 Canys angel oedd ar amserau yn disgyn i'r llyn, ac yn cynhyrfu y dwfr: yna yr hwn a elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y dwfr, a âi yn iach o ba glefyd bynnag a fyddai arno.

5 Ac yr oedd rhyw ddyn yno, yr hwn a fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain.

6 Yr Iesu, pan welodd hwn yn gorwedd, a gwybod ei fod ef *felly* yn hir o amser bellach, a ddywedodd wrtho, A fynni di dy wneuthur yn iach?

7 Y claf a attebodd iddo, Arglwydd, nid oes gennyf ddyn i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr: ond tra fyddwyf fi yn dyfod, arall a ddisgyn o'm blaen i.

8 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Cyfod, cymmer dy wely i fyny, a rhodia.

9 Ac yn ebrwydd y gwnaed y dyn yn iach; ac *efe* a gododd ei wely, ac a rodiodd. A'r Sabbath oedd y diwrnod hwnnw.

10 ¶ Am hynny yr Iuddewon a ddywedasant wrth yr hwn a wnaethid yn iach, Y Sabbath yw hi: nid cyfreithlawn i ti godi *dy* wely.

11 Efe a attebodd iddynt, Yr hwn a'm gwnaeth i yn iach, efe a ddywedodd wrthyf, Cyfod dy wely, a rhodia.

12 Yna hwy a ofynasant iddo, Pwy yw y dyn a ddywedodd wrthyt ti, Cyfod dy wely, a rhodia?

13 A'r hwn a iachasid ni wyddai
pwy oedd efe: canys yr Iesu a
giliasai o'r dyrfa oedd yn y fan
honno.
14 Wedi hynny yr Iesu a'i cafodd
ef yn y deml, ac a ddywedodd wrtho,
Wele, ti a wnaethpwyd yn iach: na
phecha mwyach, rhag digwydd i ti
beth a fyddo gwaeth.
15 Y dyn a aeth ymaith, ac a fyn-
egodd i'r Iuddewon, mai yr Iesu
oedd yr hwn a'i gwnaethai ef yn
iach.
16 Ac am hynny yr Iuddewon a
erlidiasant yr Iesu, ac a geisiasant
ei ladd ef, oblegid iddo wneuthur
y pethau hyn ar y Sabbath.
17 ¶ Ond yr Iesu a'u hattebodd
hwynt, Y mae fy Nhad yn gweithio
hyd yn hyn, ac yr ydwyf finnau yn
gweithio.
18 Am hyn gan hynny yr Iudd-
ewon a geisiasant yn fwy ei ladd
ef, oblegid nid yn unig iddo dorri
y Sabbath, ond hefyd iddo ddy-
wedyd fod Duw yn Dad iddo, gan
ei wneuthur ei hun yn gystal â
Duw.
19 Yna yr Iesu a attebodd ac a
ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir,
meddaf i chwi, Ni ddichon y Mab
wneuthur dim o hono ei hunan,
eithr yr hyn a welo efe y Tad yn ei
wneuthur: canys beth bynnag y
mae efe yn ei wneuthur, hynny
hefyd y mae y Mab yr un ffunud yn
ei wneuthur.
20 Canys y Tad sydd yn caru y
Mab, ac yn dangos iddo yr hyn oll
y mae efe yn ei wneuthur: ac efe
a ddengys iddo ef weithredoedd
mwy na'r rhai hyn, fel y rhyfedd-
och chwi.
21 Oblegid megis y mae y Tad yn
cyfodi y rhai meirw, ac yn *eu* byw-
hâu; felly hefyd y mae y Mab yn
bywhâu y rhai a fynno.
22 Canys y Tad nid yw yn barnu
neb; eithr efe a roddes bob barn
i'r Mab:
23 Fel yr anrhydeddai pawb y
Mab, fel y maent yn anrhydeddu y
Tad. Yr hwn nid yw yn anrhy-
deddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu
y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef.
24 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi,
Y neb sydd yn gwrandaw fy ngair
i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfon-
odd i, a gaiff fywyd tragywyddol,
ac ni ddaw i farn; eithr ofe a aeth
trwodd o farwolaeth i fywyd.
25 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi,
Y mae yr awr yn dyfod, ac yn awr
y mae, pan glywo y meirw lef Mab
Duw: a'r rhai a glywant, a fyddant
byw.
26 Canys megis y mae gan y
Tad fywyd ynddo ei hunan, felly
y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod
ganddo fywyd ynddo ei hun;
27 Ac a roddes awdurdod iddo i
wneuthur barn hefyd, o herwydd ei
fod yn Fab dyn.
28 Na ryfeddwch am hyn: canys
y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon
y caiff pawb a'r sydd yn y beddau
glywed ei leferydd ef;
29 A *hwy* a ddeuant allan: y
rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad
bywyd; ond y rhai a wnaethant
ddrwg, i adgyfodiad barn.
30 Ni allaf fi wneuthur dim o
honof fy hunan: fel yr ydwyf yn
clywed, yr ydwyf yn barnu: a'm
barn i sydd gyfiawn; canys nid
ydwyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan,
ond ewyllys y Tad yr hwn a'm han-
fonodd i.
31 Os ydwyf fi yn tystiolaethu am
danaf fy hunan, nid yw fy nhystiol-
aeth i wir.
32 ¶ Arall sydd yn tystiolaethu
am danaf fi; ac mi wn mai gwir yw
y dystiolaeth y mae efe yn ei thyst-
iolaethu am danaf fi.
33 Chwychwi a anfonasoch at
Ioan, ac efe a ddug dystiolaeth i'r
gwirionedd.
34 Ond myfi nid ydwyf yn derbyn
tystiolaeth gan ddyn: eithr y peth-
au hyn yr ydwyf yn eu dywedyd,
fel y gwareder chwi.
35 Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac
yn goleuo; a chwithau oeddych
ewyllysgar i orfoleddu dros amser
yn ei oleuni ef.
36 ¶ Ond y mae gennyf fi dystiol-
aeth fwy nag Ioan: canys y gweith-
redoedd a roddes y Tad i mi i'w
gorphen, y gweithredoedd hynny y
rhai yr ydwyf fi yn eu gwneuthur,
sydd yn tystiolaethu am danaf fi,
mai y Tad a'm hanfonodd i.
37 A'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd

i, efe a dystiolaethodd am danaf fi. *Ond* ni chlywsoch chwi ei lais ef un amser, ac ni welsoch ei wedd ef.

38 Ac nid oes gennych chwi mo'i air ef yn aros ynoch: canys yr hwn a anfonodd efe, hwnnw nid ydych chwi yn credu iddo.

39 ¶ Chwiliwch yr ysgrythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol: a hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.

40 Ond ni fynnwch chwi ddyfod attaf fi, fel y caffoch fywyd.

41 Nid ydwyf fi yn derbyn gogoniant oddi wrth ddynion.

42 Ond myfi a'ch adwaen chwi, nad oes gennych gariad Duw ynoch.

43 Myfi a ddeuthum yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i: os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnnw a dderbyniwch.

44 Pa fodd y gellwch chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan eich gilydd, ac heb geisio y gogoniant *sydd* oddi wrth Dduw yn unig?

45 Na thybiwch y cyhuddaf fi chwi wrth y Tad: y mae a'ch cyhudda chwi, *sef* Moses, yn yr hwn yr ydych yn gobeithio.

46 Canys pe credasech chwi i Moses, chwi a credasech i minnau: oblegid am danaf fi yr ysgrifenodd efe.

47 Ond os chwi ni chredwch i'w ysgrifeniadau ef, pa fodd y credwch i'm geiriau i?

PENNOD 6.

1 Crist yn porthi pum mil o bobl â phum torth a dau bysgodyn: 15 a'r bobl o herwydd hynny yn ceisio ei wneuthur ef yn frenhin: 16 ynlcau yn cilio o'r neilldu, ac yn rhodio ar y môr at ei ddisgyblion: 26 ac yn ceryddu y bobl oedd yn heidio ar ei ol, a holl gnawdol wrandawyr ei air: 32 ac yn dangos mai efe yw bara y bywyd i'r ffyddloniaid. 66 Llawer o ddisgyblion yn ymadael ag ef. 68 Pedr yn ei gyffesu ef. 70 Bod Judas yn gythraul.

WEDI y pethau hyn yr aeth yr Iesu dros fôr Galilea, hwnnw yw *môr* Tiberias.

2 A thyrfa fawr a'i canlynodd ef; canys hwy a welsent ei arwyddion, y rhai a wnaethai efe ar y cleifion.

3 A'r Iesu a aeth i fyny i'r mynydd, ac a eisteddodd yno gyd â'i ddisgyblion.

4 A'r pasc, gwyl yr Iuddewon, oedd yn agos.

5 ¶ Yna yr Iesu a ddyrchafodd *ei* lygaid, ac a welodd fod tyrfa fawr yn dyfod atto; ac a ddywedodd wrth Phylip, O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta?

6 (A hyn a ddywedodd efe i'w brofi ef: canys efe a wyddai beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur.)

7 Phylip a'i hattebodd ef, Gwerth dau can ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un ô honynt gymmeryd ychydig.

8 Un o'i ddisgyblion a ddywedodd wrtho, Andreas, brawd Simon Pedr,

9 Y mae yma ryw fachgennyn, a chanddo bum torth haidd, a dau bysgodyn: ond beth yw hynny rhwng cynnifer?

10 A'r Iesu a ddywedodd, Perwch i'r dynion eistedd i lawr. Ac yr oedd glaswellt lawer yn y fan *honno*. Felly y gwŷr a eistedd̂asant i lawr, ynghylch pum mil o nifer.

11 A'r Iesu a gymmerth y torthau, ac wedi iddo ddiolch, efe a'*u* rhannodd i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r rhai oedd yn eistedd; felly hefyd o'r pysgod, cymmaint ag a fynnasant.

12 Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim.

13 Am hynny hwy a'*u* casglasant, ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briwfwyd o'r pum torth haidd a weddillasai gan y rhai a fwyttasent.

14 Yna y dynion, pan welsant yr arwydd a wnaethai yr Iesu, a ddywedasant, Hwn yn ddiau yw y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd.

15 ¶ Yr Iesu gan hynny, pan wybu eu bod hwy ar fedr dyfod, a'i gipio ef i'w wneuthur yn frenhin, a giliodd drachefn i'r mynydd, ei hunan yn unig.

16 A phan hwyrhaodd hi, ei ddisgyblion a aethant i waered at y môr.

17 Ac wedi iddynt ddringo i long, hwy a aethant dros y môr i Capernaum. Ac yr oedd hi weithian yn dywyll, a'r Iesu ni ddaethai attynt hwy.

18 A'r môr, gan wynt mawr yn chwythu, a gododd.
19 Yna, wedi iddynt rwyfo ynghylch pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadiau, hwy a welent yr Iesu yn rhodio ar y môr, ac yn nesâu at y llong; ac a ofnasant.
20 Ond efe a ddywedodd wrthynt, Myfi yw; nac ofnwch.
21 Yna y derbyniasant ef yn chwannog i'r llong: ac yn ebrwydd yr oedd y llong wrth y tir yr oeddynt yn myned iddo.
22 ¶ Trannoeth, pan welodd y dyrfa oedd yn sefyll y tu hwnt i'r môr, nad oedd un llong arall yno ond yr un honno i'r hon yr aethai ei ddisgyblion ef, ac nad aethai yr Iesu gyd â'i ddisgyblion i'r llong, ond myned o'i ddisgyblion ymaith eu hunain;
23 (Eithr llongau eraill a ddaethent o Tiberias yn gyfagos i'r fan lle y bwyttasent hwy fara, wedi i'r Arglwydd roddi diolch:)
24 Pan welodd y dyrfa gan hynny nad oedd yr Iesu yno, na'i ddisgyblion, hwythau a aethant i longau, ac a ddaethant i Capernaum, dan geisio yr Iesu.
25 Ac wedi iddynt ei gael ef y tu hwnt i'r môr, hwy a ddywedasant wrtho, Rabbi, pa bryd y daethost ti yma?
26 Yr Iesu a attebodd iddynt, ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr ydych chwi yn fy ngheisio i, nid o herwydd i chwi weled y gwyrthiau, eithr o herwydd i chwi fwytta o'r torthau, a'ch digoni.
27 Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol, yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi: canys hwn a seliodd Duw Dad.
28 Yna y dywedasant wrtho, Pa beth a wnawn ni, fel y gweithredom weithredoedd Duw?
29 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Hyn yw gwaith Duw; credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe.
30 Dywedasant gan hynny wrtho ef, Pa arwydd yr ydwyt ti yn ei wneuthur, fel y gwelom, ac y credom i ti? pa beth yr wyt ti yn ei weithredu?
31 Ein tadau ni a fwyttasant y manna yn yr anialwch, fel y mae yn ysgrifenedig, Efe a roddodd iddynt fara o'r nef i'w fwytta.
32 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Nid Moses a roddodd i chwi y bara o'r nef: eithr fy Nhad sydd yn rhoddi i chwi y gwir fara o'r nef.
33 Canys bara Duw ydyw yr hwn sydd yn dyfod i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd.
34 Yna hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, dyro i ni y bara hwn yn wastadol.
35 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Myfi yw bara y bywyd. Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser.
36 Eithr dywedais wrthych, i chwi fy ngweled, ac nad ydych yn credu.
37 Yr hyn oll y mae y Tad yn ei roddi i mi, a ddaw attaf fi: a'r hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf ef allan ddim.
38 Canys myfi a ddisgynais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd.
39 A hyn yw ewyllys y Tad a'm hanfonodd i; o'r cwbl a roddes efe i mi, na chollwn ddim o hono, eithr bod i mi ei adgyfodi ef yn y dydd diweddaf.
40 A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bob un a'r sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol: a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf.
41 Yna yr Iuddewon a rwgnachasant yn ei erbyn ef, o herwydd iddo ddywedyd, Myfi yw y bara a ddaeth i waered o'r nef.
42 A hwy a ddywedasant, Onid hwn yw Iesu mab Joseph, tad a mam yr hwn a adwaenom ni? pa fodd gan hynny y mae efe yn dywedyd, O'r nef y disgynais?
43 Yna yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Na furmurwch wrth eich gilydd.
44 Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddi eithr i'r Tad, yr hwn a'm

hanfonodd, ei dynnu ef: a myfi a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf.
45 Y mae yn ysgrifenedig yn y prophwydi, A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw. Pob un gan hynny a glywodd gan y Tad, ac a ddysgodd, sydd yn dyfod attaf fi.
46 Nid o herwydd gweled o neb y Tad, ond yr hwn sydd o Dduw; efe a welodd y Tad.
47 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol.
48 Myfi yw bara y bywyd.
49 Eich tadau chwi a fwyttasant y manna yn yr anialwch, ac a fuont feirw.
50 Hwn yw y bara sydd yn dyfod i waered o'r nef, fel y bwyttao dyn o hono, ac na byddo marw.
51 Myfi yw y bara bywiol, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef. Os bwytty neb o'r bara hwn, efe a fydd byw yn dragywydd. A'r bara a roddaf fi, yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd.
52 Yna yr Iuddewon a ymryson-asant â'u gilydd, gan ddywedyd, Pa fodd y dichon hwn roddi i ni *ei* gnawd i'*w* fwytta?
53 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni fwyttêwch gnawd Mab y dyn, ac *oni* yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch.
54 Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragywyddol: ac myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf.
55 Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddiod yn wir.
56 Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo ynta.
57 Fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy y Tad: felly yr hwn sydd yn fy mwytta i, yntau a fydd byw trwof fi.
58 Dyma y bara a ddaeth i waered o'r nef: nid megis y bwyttaodd eich tadau chwi y manna, ac y buont feirw. Y neb sydd yn bwytta y bara hwn, a fydd byw yn dragywydd.
59 Y pethau hyn a ddywedodd efe yn y synagog, wrth athrawiaethu yn Capernaum.
60 Llawer gan hynny o'i ddisgyblion, pan glywsant, a ddywedasant, Caled yw yr ymadrodd hwn; pwy a ddichon wrandaw arno?
61 Pan wybu yr Iesu ynddo ei hun, fod ei ddisgyblion yn grwgnach am hyn, efe a ddywedodd wrthynt, A ydyw hyn yn eich rhwystro chwi?
62 *Beth* gan hynny os gwelwch Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen?
63 Yr yspryd yw yr hyn sydd yn bywhâu; y cnawd nid yw yn llesâu dim: y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, yspryd ydynt, a bywyd ydynt.
64 Ond y mae o honoch chwi rai nid ydynt yn credu. Canys yr Iesu a wyddai o'r dechreuad, pwy oedd y rhai nid oedd yn credu, a phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef.
65 Ac efe a ddywedodd, Am hynny y dywedais wrthych, na ddichon neb ddyfod attaf fi, oni bydd wedi ei roddi iddo oddi wrth fy Nhad.
66 ¶ O hynny allan llawer o'i ddisgyblion ef a aethant yn eu hol, ac ni rodiasant mwyach gyd âg ef.
67 Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrth y deuddeg, A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith?
68 Yna Simon Pedr a'i hattebodd ef, *O* Arglwydd, at bwy yr awn ni? gennyt ti y mae geiriau bywyd tragywyddol.
69 Ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw.
70 Iesu a'u hattebodd hwynt, Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg, ac o honoch y mae un yn ddiafol?
71 Eithr efe a ddywedasai am Judas Iscariot, *mab* Simon: canys hwn oedd ar fedr ei fradychu ef, ac efe yn un o'r deuddeg.

PENNOD 7.

1 *Iesu yn argyhoeddâi rhyfyg a hyfder ei geraint:* 10 *yn mynied i fynu o Galilea i wyl y pebyll;* 14 *yn dysgu yn y deml.* 40 *Amryw dyb am dano ef yn mhlith y bobl.* 45 *Y Phariseaid yn ddiglawm am na ddaliasai eu swyddogion hwy ef; ac yn rhoddi sen i Nicodemus am gymmeryd ei blaid ef.*

A'R Iesu a rodiodd ar ol y pethau hyn yn Galilea: canys nid oedd

efe yn chwennych rhodio yn Judea, oblegid bod yr Iuddewon yn ceisio ei ladd ef.

2 A gwyl yr Iuddewon, *sef* gwyl y pebyll, oedd yn agos.

3 Am hynny ei frodyr ef a ddywedasant wrtho, Cerdda ymaith oddi yma, a dos i Judea; fel y gwelo dy ddisgyblion dy weithredoedd di y rhai yr ydwyt yn eu gwneuthur.

4 Canys nid oes neb yn gwneuthur dim yn ddirgel, ac yntau yn ceisio bod yn gyhoedd: od wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn, amlyga dy hun i'r byd.

5 Canys nid oedd ei frodyr yn credu ynddo.

6 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, hwy, Ni ddaeth fy amser i etto: ond eich amser chwi sydd yn wastad yn barod.

7 Ni ddichon y byd eich casâu chwi; ond myfi y mae yn ei gasâu, o herwydd fy mod i yn tystiolaethu am dano, fod ei weithredoedd ef yn ddrwg.

8 Ewch chwi i fyny i'r wyl hon: nid wyf fi etto yn myned i fyny i'r wyl hon, oblegid ni chyflawnwyd fy amser i etto.

9 Gwedi iddo ddywedyd y pethau hyn wrthynt, efe a arhosodd yn Galilea.

10 ¶ Ac wedi myned o'i frodyr ef i fyny, yna yntau hefyd a aeth i fyny i'r wyl; nid yn amlwg, ond megis yn ddirgel.

11 Yna yr Iuddewon a'i ceisiasant ef yn yr wyl, ac a ddywedasant, Pa le y mae efe?

12 A murmur mawr oedd am dano ef ym mysg y bobl. Canys rhai a ddywedent, Gŵr da yw: ac eraill a ddywedent, Nag ê; eithr twyllo y bobl y mae.

13 Er hynny ni lefarodd neb yn eglur am dano ef, rhag ofn yr Iuddewon.

14 ¶ *Ac* yr awrhon ynghylch canol yr wyl, yr Iesu a aeth i fyny i'r deml, ac a athrawiaethodd.

15 A'r Iuddewon a ryfeddasant, gan ddywedyd, Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, *ac yntau* heb ddysgu?

16 Yr Iesu a attebodd iddynt, ac a ddywedodd, Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i.

17 Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru.

18 Y mae yr hwn sydd yn llefaru o hono ei hun, yn ceisio ei ogoniant ei hun: ond yr hwn sydd yn ceisio gogoniant yr hwn a'i hanfonodd, hwnnw sydd eirwir, ac anghyfiawnder nid oes ynddo ef.

19 Oni roddes Moses i chwi y gyfraith, ac nid oes neb o honoch yn gwneuthur y gyfraith? Paham yr ydych yn ceisio fy ladd i?

20 Y bobl a attebodd ac a ddywedodd, Y mae gennyt ti gythraul: pwy sydd yn ceisio dy ladd di?

21 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Un weithred a wneuthum, ac yr ydych oll yn rhyfeddu.

22 Am hynny y rhoddes Moses i chwi yr enwaediad; (nid o herwydd ei fod o Moses, eithr o'r tadau;) ac yr ydych yn enwaedu ar ddyn ar y Sabbath.

23 Os yw dyn yn derbyn enwaediad ar y Sabbath, heb dorri cyfraith Moses; a ydych yn llidiog wrthyf fi, am i mi wneuthur dyn yn holliach ar y Sabbath?

24 Na fernwch wrth y golwg, eithr bernwch farn gyfiawn.

25 Yna y dywedodd rhai o'r Hierosolymitaniaid, Onid hwn yw yr un y maent hwy yn ceisio ei ladd?

26 Ac wele, y mae yn llefaru ar gyhoedd, ac nid ydynt yn dywedyd dim wrtho ef: a wybu y pennaethiaid mewn gwirionedd mai hwn yw Crist yn wir?

27 Eithr nyni a adwaenom hwn o ba le y mae: eithr pan ddêl Crist, nis gŵyr neb o ba le y mae.

28 Am hynny yr Iesu, wrth athrawiaethu yn y deml, a lefodd ac a ddywedodd, Chwi a'm hadwaenoch i, ac a wyddoch o ba le yr ydwyf fi: ac ni ddeuthum i o honof fy hun, eithr y mae yn gywir yr hwn a'm hanfonodd i, yr hwn nid adwaenoch chwi.

29 Ond myfi a'i hadwaen : oblegid o hono ef yr ydwyf fi, ac efe a'm hanfonodd i.
30 Am hynny hwy a geisiasant ei ddal ef : ond ni osododd neb law arno, am na ddaethai ei awr ef etto.
31 A llawer o'r bobl a gredasant ynddo, ac a ddywedasant, Pan ddelo Crist, a wna efe fwy o arwyddion na'r rhai hyn a wnaeth hwn ?
32 ¶ Y Phariseaid a glywsant fod y bobl yn murmur y pethau hyn am dano ef ; a'r Phariseaid a'r arch-offeiriaid a anfonasant swyddogion i'w ddal ef.
33 Am hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy, Yr ydwyf fi ychydig amser etto gyd â chwi, ac yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd.
34 Chwi a'm ceisiwch, ac ni'*m* cewch : a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod.
35 Yna y dywedodd yr Iuddewon yn eu mysg eu hunain, I ba le y mae hwn ar fedr myned, fel na chaffom ni ef ? ai at y rhai sydd ar wasgar ym mhlith y Groegiaid y mae efe ar fedr myned, a dysgu y Groegiaid ?
36 Pa ymadrodd yw hwn a ddywedodd efe, Chwi a'm ceisiwch, ac ni'*m* cewch : a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod ?
37 Ac ar y dydd diweddaf, y *dydd* mawr o'r wyl, y safodd yr Iesu, ac a lefodd, gan ddywedyd, Od oes ar neb syched, deued attaf fi, ac yfed.
38 Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megis y dywedodd yr ysgrythyr, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef.
39 (A hyn a ddywedodd efe am yr Ysbryd, yr hwn a gai y rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn : canys etto nid oedd yr Ysbryd Glân *wedi ei roddi*, o herwydd na ogoneddasid yr Iesu etto).
40 ¶ Am hynny llawer o'r bobl, wedi clywed yr ymadrodd hwn, a ddywedasant, Yn wir hwn yw y Prophwyd.
41 Eraill a ddywedasant, Hwn yw Crist. Eraill a ddywedasant, Ai o Galilea y daw Crist ?
42 Oni ddywedodd yr ysgrythyr, Mai o had Dafydd, ac o Bethlehem, y dref lle y bu Dafydd, y mae Crist yn dyfod ?
43 Felly yr aeth ymrafael ym mysg y bobl o'i blegid ef.
44 A rhai o honynt a fynnasent ei ddal ef : ond ni osododd neb ddwylaw arno.
45 ¶ Yna y daeth y swyddogion at yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid ; a hwy a ddywedasant wrthynt hwy, Paham na ddygasoch chwi ef ?
46 A'r swyddogion a attebasant, Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.
47 Yna y Phariseaid a attebasant iddynt, A hudwyd chwithau hefyd ?
48 A gredodd neb o'r pennaethiaid ynddo ef, neu o'r Phariseaid ?
49 Eithr y bobl hyn, y rhai ni wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt.
50 Nicodemus (yr hwn a ddaethai at yr Iesu o hyd nos, ac oedd un o honynt) a ddywedodd wrthynt,
51 A ydyw ein cyfraith ni yn barnu dyn, oddi eithr clywed ganddo ef yn gyntaf, a gwybod beth a wnaeth efe ?
52 Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, A ydwyt tithau o Galilea ? Chwilia a gwel, na chododd prophwyd o Galilea.
53 A phob un a aeth i'w dŷ ei hun.

PENNOD 8.

1 *Crist yn gwaredu y wraig a ddaliesid mewn godineb : 12 yn pregethu ei fod ef ei hun yn oleuni y byd ; ac yn gwirio ei athrawiaeth : 33 yn atteb yr Iuddewon a wnaent eu bost o Abraham ; 59 ac yn gochelyd eu creulondeb hwy.*

A'R Iesu a aeth i fynydd yr Olewwydd :
2 Ac a ddaeth drachefn y bore i'r deml ; a'r holl bobl a ddaeth atto ef : yntau a eisteddodd, ac a'u dysgodd hwynt.
3 A'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid a ddygasant atto ef wraig, yr hon a ddaliesid mewn godineb ; ac wedi ei gosod hi yn y canol,
4 Hwy a ddywedasant wrtho, Athraw, y wraig hon a ddaliwyd ar y weithred yn godinebu.
5 A Moses yn y gyfraith a orchymynodd i ni labyddio y cyfryw : beth gan hynny yr wyt ti yn ei ddywedyd ?

6 A hyn a ddywedasant hwy, gan ei demtio ef, fel y gallent ei gyhuddo ef. Eithr yr Iesu, wedi ymgrymmu tu a'r llawr, a ysgrifenodd â'*i* fys ar y ddaear, heb gymmeryd arno eu clywed.

7 Ond fel yr oeddynt hwy yn parhâu yn gofyn iddo, efe a ymuniawnodd, ac a ddywedodd wrthynt, Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg atti hi.

8 Ac wedi iddo eilwaith ymgrymmu tu a'r llawr, efe a ysgrifenodd ar y ddaear.

9 Hwythau, pan glywsant *hyn*, wedi hefyd eu hargyhoeddi gan eu cydwybod, a aethant allan o un i un, gan ddechreu o'r hynaf hyd yr olaf: a gadawyd yr Iesu yn unig, a'r wraig yn sefyll yn y canol.

10 A'r Iesu wedi ymuniawnu, ac heb weled neb ond y wraig, a ddywedodd wrthi, *Ha* wraig, pa le y mae dy gyhuddwyr di? oni chondemniodd neb di?

11 Hithau a ddywedodd, Na ddo neb, Arglwydd. A dywedodd yr Iesu wrthi, Nid wyf finnau yn dy gondemnio di: dos, ac na phecha mwyach.

12 ¶ Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddywedyd, Goleuni y byd ydwyf fi: yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.

13 Am hynny y Phariseaid a ddywedasant wrtho, Tydi sydd yn tystiolaethu am danat dy hun; nid yw dy dystiolaeth di wir.

14 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt hwy, Er fy mod i yn tystiolaethu am danaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth i yn wir: oblegid mi a wn o ba le y deuthum, ac i ba le yr ydwyf yn myned; chwithau nis gwyddoch o ba le yr wyf fi yn dyfod, nac i ba le yr wyf fi yn myned.

15 Chwychwi sydd yn barnu yn ol y cnawd; nid ydwyf fi yn barnu neb.

16 Ac etto os wyf fi yn barnu, y mae fy marn i yn gywir: oblegid nid wyf fi yn unig, ond myfi a'r Tad yr hwn a'm hanfonodd i.

17 Y mae hefyd yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mai gwir yw tystiolaeth dau ddyn.

18 Myfi yw yr hwn sydd yn tystiolaethu am danaf fy hun; ac y mae y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, yn tystiolaethu am danaf fi.

19 Yna y dywedasant wrtho, Pa le y mae dy Dad di? Yr Iesu a attebodd, Nid adwaenoch na myfi, na'm Tad: ped adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad i hefyd.

20 Y geiriau hyn a lefarodd yr Iesu yn y trysordy, wrth athrawiaethu yn y deml: ac ni ddaliodd neb ef, am na ddaethai ei awr ef etto.

21 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy drachefn, Yr wyf fi yn myned ymaith, a chwi a'm ceisiwch i, ac a fyddwch feirw yn eich pechod: lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.

22 Am hynny y dywedodd yr Iuddewon, A ladd efe ei hun? gan ei fod yn dywedyd, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Chwychwi sydd oddi isod; minnau sydd oddi uchod: chwychwi sydd o'r byd hwn; minnau nid wyf o'r byd hwn.

24 Am hynny y dywedais wrthych, y byddwch chwi feirw yn eich pechodau: oblegid oni chredwch chwi mai myfi yw *efe*, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau.

25 Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd hefyd wrthych o'r dechreuad.

26 Y mae gennyf fi lawer o bethau i'*w* dywedyd ac i'*w* barnu am danoch chwi: eithr cywir yw yr hwn a'm hanfonodd i; a'r pethau a glywais i ganddo, y rhai hynny yr ydwyf fi yn eu dywedyd i'r byd.

27 Ni wyddent hwy mai am y Tad yr oedd efe yn dywedyd wrthynt hwy.

28 Am hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt, Pan ddyrchafoch chwi Fab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw *efe*, ac nad wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun; ond megis y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn.

29 A'r hwn a'm hanfonodd i sydd
gyd â myfi: ni adawodd y Tad
fi yn unig; oblegid yr wyf fi yn
gwneuthur bob amser y pethau
sydd foddlawn ganddo ef.
30 Fel yr oedd efe yn llefaru y
pethau hyn, llawer a gredasant
ynddo ef.
31 Yna y dywedodd yr Iesu wrth
yr Iuddewon a gredasant ynddo,
Os arhoswch chwi yn fy ngair i,
disgyblion i mi ydych yn wir;
32 A chwi a gewch wybod y gwir-
ionedd, a'r gwirionedd a'ch rhydd-
hâ chwi.
33 ¶ Hwythau a attebasant iddo,
Had Abraham ydym ni, ac ni was-
anaethasom ni neb erioed: pa fodd
yr wyt ti yn dywedyd, Chwi a wneir
yn rhyddion?
34 Yr Iesu a attebodd iddynt, Yn
wir, yn wir, meddaf i chwi, Pwy
bynnag sydd yn gwneuthur pechod,
y mae efe yn was i bechod.
35 Ac nid yw y gwas yn aros yn
tŷ byth: y Mab sydd yn aros byth.
36 Os y Mab gan hynny a'ch
rhyddhâ chwi, rhyddion fyddwch
yn wir.
37 Mi a wn mai had Abraham
ydych chwi: ond yr ydych chwi
yn ceisio fy lladd i, am nad yw
fy ngair i yn genni ynoch chwi.
38 Yr wyf fi yn llefaru yr hyn a
welais gyd â'm Tad i: a chwithau
sydd yn gwneuthur yr hyn a wel-
soch gyd â'ch tad chwithau.
39 Hwythau a attebasant ac a
ddywedasant wrtho, Ein tad ni
yw Abraham. Yr Iesu a ddywed-
odd wrthynt, Pe plant Abraham
fyddech, gweithredoedd Abraham
a wnaech.
40 Eithr yn awr yr ydych chwi
yn ceisio fy lladd i, dyn a ddywed-
odd i chwi y gwirionedd, yr hwn
a glywais i gan Dduw: hyn ni
wnaeth Abraham.
41 Yr ydych chwi yn gwneuthur
gweithredoedd eich tad chwi. Am
hynny y dywedasant wrtho, Nid
trwy butteindra y cenhedlwyd ni:
un Tad sydd gennym ni, *sef* Duw.
42 Yna y dywedodd yr Iesu wrth-
ynt hwy, Pe Duw fyddai eich Tad,
chwi a'm carech i: canys oddi wrth
Dduw y deilliais, ac y deuthum i;
oblegid nid o honof fy hun y deuth-
um i, ond efe a'm hanfonodd i.
43 Paham nad ydych yn deall fy
lleferydd i? am na ellwch wrandaw
fy ymadrodd i.
44 O'*ch* tad diafol yr ydych chwi,
a thrachwantau eich tad a fyn-
nwch chwi eu gwneuthur. Lleidd-
iad dyn oedd efe o'r dechreuad; ac
ni safodd yn y gwirionedd, oblegid
nid oes gwirionedd ynddo ef. Pan
yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo
ei hun y mae yn dywedyd: canys
y mae yn gelwyddog, ac yn dad
iddo.
45 Ac am fy mod i yn dywedyd
y gwirionedd, nid ydych yn credu
i mi.
46 Pwy o honoch a'm hargyhoedda
i o bechod? Ac od wyf fi yn dy-
wedyd y gwir, paham nad ydych
yn credu i mi?
47 Y mae yr hwn sydd o Dduw,
yn gwrandaw geiriau Duw: am hyn-
ny nid ydych chwi yn *eu* gwrandaw,
am nad ydych o Dduw.
48 Yna yr attebodd yr Iuddewon,
ac y dywedasant wrtho ef, Onid
da yr ydym ni yn dywedyd, mai
Samaritan wyt ti, a bod gennyt
gythraul?
49 Yr Iesu a attebodd, Nid oes
gennyf gythraul; ond yr wyf fi yn
anrhydeddu fy Nhad, ac yr ydych
chwithau yn fy nïanrhydeddu in-
nau.
50 Ac nid wyf fi yn ceisio fy
ngogoniant fy hun: y mae a'i cais,
ac a farn.
51 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi,
Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wêl
efe farwolaeth yn dragywydd.
52 Yna y dywedodd yr Iuddewon
wrtho, Yr awr hon y gwyddom fod
gennyt gythraul. Bu Abraham
farw, a'r prophwydi; ac meddi di,
Os ceidw neb fy ymadrodd i, nid
archwaetha efe farwolaeth yn dra-
gywydd.
53 Ai mwy wyt ti nag Abraham
ein tad ni, yr hwn a fu farw? a'r
prophwydi a fuant feirw: pwy yr
wyt ti yn dy wneuthur dy hun?
54 Yr Iesu a attebodd, Os wyf fi
yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngo-
goniant i nid yw ddim: fy Nhad yw
yr hwn sydd yn fy ngogoneddu i,

yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd, mae eich Duw chwi yw.
55 Ond nid adnabuoch chwi ef: eithr myfi a'i hadwaen ef. Ac os dywedaf nad adwaen ef, myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelwyddog: ond mi a'i hadwaen ef, ac yr wyf yn cadw ei ymadrodd ef.
56 Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i: ac efe a'i gwelodd *hefyd*, ac a lawenychodd.
57 Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Nid wyt ti ddengmlwydd a deugain etto, ac a welaist ti Abraham?
58 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Cyn bod Abraham, yr wyf fi.
59 Yna hwy a godasant gerrig i'w tafiu atto ef. A'r Iesu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml, gan fyned trwy eu canol hwynt: ac felly yr aeth *efe* heibio.

PENNOD 9.

1 *Y dyn a anesid yn ddall yn cael ei olwg;* 13 *a'i ddwyn ef at y Phariseaid;* 16 *hwythau yn ymrwystro, ac yn ei ysgymmuno ef;* 35 *ac yntau yn cael ei dderbyn gan yr Iesu, ac yn ei gyffesu ef.* 39 *Pwy yw y rhai y mae Crist yn eu goleuo.*

AC wrth fyned heibio, efe a ganfu ddyn dall o'i enedigaeth.
2 A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rïeni, fel y genid ef yn ddall?
3 Yr Iesu a attebodd, Nid hwn a bechodd, na'i rïeni chwaith: eithr fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef.
4 Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd, tra yr ydyw hi yn ddydd: y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio.
5 Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf.
6 Wedi iddo ef ddywedyd hyn, efe a boerodd ar lawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn, ac a irodd y clai ar lygaid y dall;
7 Ac a ddywedodd wrtho, Dos, ac ymolch yn llyn Siloam (yr hwn a gyfieithir, Anfonedig.) Am hynny efe a aeth ymaith, ac a ymolchodd, ac a ddaeth yn gweled.
8 ¶ Y cymmydogion gan hynny, a'r rhai a'i gwelsent ef o'r blaen, mai dall oedd efe, a ddywedasant, Onid hwn yw yr un oedd yn eistedd ac yn cardotta?
9 Rhai a ddywedasant, Hwn yw efe: ac eraill, Y mae efe yn debyg iddo. Yntau a ddywedodd, Myfi yw *efe*.
10 Am hynny y dywedasant wrtho, Pa fodd yr agorwyd dy lygaid di?
11 Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Dyn a elwir Iesu, a wnaeth glai, ac a irodd fy llygaid i; ac a ddywedodd wrthyf, Dos i lyn Siloam, ac ymolch. Ac wedi i mi fyned ac ymolchi, mi a gefais fy ngolwg.
12 Yna y dywedasant wrtho, Pa le y mae efe? Yntau a ddywedodd, Ni wn i.
13 ¶ Hwythau a'i dygasant ef at y Phariseaid, yr hwn gynt *a fuasai* yn ddall.
14 A'r Sabbath oedd hi pan wnaeth yr Iesu y clai, a phan agorodd efe ei lygaid ef.
15 Am hynny y Phariseaid hefyd a ofynasant iddo drachefn, pa fodd y cawsai efe ei olwg. Yntau a ddywedodd wrthynt, Clai a osododd efe ar fy llygaid i, a mi a ymolchais, ac yr ydwyf yn gweled.
16 Yna rhai o'r Phariseaid a ddywedasant, Nid yw y dyn hwn o Dduw, gan nad yw efe yn cadw y Sabbath. Eraill a ddywedasant, Pa fodd y gall dyn pechadurus wneuthur y cyfryw arwyddion? Ac yr oedd ymrafael yn eu plith.
17 Hwy a ddywedasant drachefn wrth y dall, Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am dano ef, am agoryd o hono dy lygaid di? Yntau a ddywedodd, *Mai* prophwyd yw *efe*.
18 Am hynny ni chredai yr Iuddewon am dano ef, mai dall fuasai, a chael o hono ef ei olwg, nes galw o honynt ei rïeni ef, yr hwn a gawsai ei olwg.
19 A hwy a ofynasant iddynt, gan ddywedyd, Ai hwn yw eich mab chwi, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd ei eni yn ddall? pa fodd gan hynny y mae efe yn gweled yn awr?
20 Ei rïeni ef a attebasant iddynt hwy, ac a ddywedasant, Nyni a

wyddom mai hwn yw ein mab ni, ac mai yn ddall y ganwyd ef:
21 Ond pa fodd y mae efe yn gweled yr awr hon, nis gwyddom ni; neu pwy a agorodd ei lygaid ef, nis gwyddom ni: y mae efe mewn oedran; gofynwch iddo ef: efe a ddywed am dano ei hun.
22 Hyn a ddywedodd ei rïeni ef, am eu bod yn ofni yr Iuddewon: oblegid yr Iuddewon a gyd-ordeiniasent eisoes, os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef allan o'r synagog.
23 Am hynny y dywedodd ei rïeni ef, Y mae efe mewn oedran; gofynwch iddo ef.
24 Am hynny hwy a alwasant eilwaith y dyn a fuasai yn ddall, ac a ddywedasant wrtho, Dyro y gogoniant i Dduw: nyni a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn.
25 *Yna* yntau a attebodd ac a ddywedodd, Ai pechadur yw, nis gwn i: un peth a wn i, lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled.
26 Hwythau a ddywedasant wrtho drachefn, Beth a wnaeth efe i ti? pa fodd yr agorodd efe dy lygaid di?
27 Yntau a attebodd iddynt, Mi a ddywedais i chwi eisoes, ac ni wrandawsoch: paham yr ydych yn ewyllysio clywed drachefn? a ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddisgyblion iddo ef?
28 Hwythau a'i difenwasant ef, ac a ddywedasant, Tydi sydd ddisgybl iddo ef; eithr disgyblion Moses ydym ni.
29 Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses: *eithr* hwn, nis gwyddom ni o ba le y mae efe.
30 Y dyn a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn hyn yn ddïau y mae yn rhyfedd, na wyddoch chwi o ba le y mae efe, ac efe a agorodd fy llygaid i.
31 Ac ni a wyddom nad yw Duw yn gwrandaw pechaduriaid: ond os yw neb yn addolwr Duw, ac yn gwneuthur ei ewyllys ef, hwnnw y mae yn ei wrandaw.
32 Ni chlybuwyd erioed agoryd o neb lygaid un a anesid yn ddall.
33 Oni bai fod hwn o Dduw, ni allai efe wneuthur dim.
34 Hwy a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Mewn pechodau y ganwyd ti oll; ac a wyt ti yn ein dysgu ni? A hwy a'i bwriasant ef allan.
35 Clybu yr Iesu ddarfod iddynt ei fwrw ef allan: a phan ei cafodd, efe a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn credu ym Mab Duw?
36 Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Pwy yw *efe, O* Arglwydd, fel y credwyf ynddo?
37 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Ti a'i gwelaist ef; a'r hwn sydd yn ymddiddan â thi, hwnnw ydyw efe.
38 Yntau a ddywedodd, Yr wyf fi yn credu, *O* Arglwydd. Ac efe a'i haddolodd ef.
39 ¶ A'r Iesu a ddywedodd, I farn y deuthum i'r byd hwn; fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion.
40 A *rhai* o'r Phariseaid a oedd gyd âg ef, a glywsant y pethau hyn, ac a ddywedasant wrtho, Ydym ninnau hefyd yn ddeillion?
41 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod: eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; am hynny y mae eich pechod yn aros.

PENNOD 10.

1 *Crist yw y drws, a'r bugail da.* 19 *Amryw dyb am dano.* 26 *Y mae efe yn profi trwy ei weithredoedd, mai efe yw Crist Mab Duw:* 39 *yn diange rhag yr Iuddewon,* 40 *ac yn myned drachefn dros yr Iorddonen: lle y credodd llawer ynddo ef.*

YN wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid, eithr sydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yspeiliwr yw.
2 Ond yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws, bugail y defaid ydyw.
3 I hwn y mae y drysawr yn agoryd, ac y mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais ef: ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, ac yn eu harwain hwy allan.
4 Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun, y mae efe yn myned o'u blaen hwy: a'r defaid sydd yn ei

ganlyn ef, oblegid y maent yn adnabod ei lais ef.

5 Ond y dïeithr nis canlynant, eithr ffoant oddi wrtho: oblegid nad adwaenant lais dïeithriaid.

6 Y ddammeg hon a ddywedodd yr Iesu wrthynt: ond hwy ni wybuant pa bethau ydoedd y rhai yr oedd efe yn eu llefaru wrthynt.

7 Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrthynt drachefn, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Myfi yw drws y defaid.

8 Cynnifer oll ag a ddaethant o'm blaen i, lladron ac ysperlwyr ŷnt: eithr ni wrandawodd y defaid arnynt.

9 Myfi yw y drws: os â neb i mewn trwof fi, efe a fydd gadwedig; ac efe a â i mewn ac allan, ac a gaiff borfa.

10 Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladratta, ac i ladd, ac i ddistrywio: myfi a ddeuthum fel y caent fywyd, ac y caent *ef* yn helaethach.

11 Myfi yw y bugail da. Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid.

12 Eithr y gwas cyflog, a'r hwn nid yw fugail, yr hwn nid eiddo y defaid, sydd yn gweled y blaidd yn dyfod, ac yn gadael y defaid, ac yn ffoi: a'r blaidd sydd yn eu hysglyfio hwy, ac yn tarfu y defaid.

13 Y mae y gwas cyflog yn ffoi, oblegid mai gwas cyflog yw, ac nid oes ofal arno am y defaid.

14 Myfi yw y bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadweinir gan yr eiddof fi.

15 Fel yr edwyn y Tad fyfi, felly yr adwaen innau y Tad: ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes dros y defaid.

16 A defaid eraill sydd gennyf, y rhai nid ŷnt o'r gorlan hon: y rhai hynny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu, a'm llais i a wrandawant; a bydd un gorlan, *ac* un bugail.

17 Am hyn y mae y Tad yn fy ngharu i, am fy mod i yn dodi fy einioes, fel y cymmerwyf hi drachefn.

18 Nid oes neb yn ei dwyn oddi arnaf fi: ond myfi sydd yn ei dodi hi i lawr o honof fy hun. Y mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae gennyf feddiant i'w chymmeryd hi drachefn. Y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan fy Nhad.

19 ¶ Yna y bu drachefn ymrafael ym mysg yr Iuddewon, am yr ymadroddion hyn.

20 A llawer o honynt a ddywedasant, Y mae cythraul ganddo, ac y mae efe yn ynfydu: paham y gwrandêwch chwi arno ef?

21 Eraill a ddywedasant, Nid yw y rhai hyn eiriau un â chythraul ynddo. A all cythraul agoryd llygaid y deillion?

22 ¶ Ac yr oedd y gyssegr-wyl yn Jerusalem, a'r gauaf oedd hi.

23 Ac yr oedd yr Iesu yn rhodio yn y deml, ym mhorth Solomon.

24 Am hynny y daeth yr Iuddewon yn ei gylch ef, ac a ddywedasant wrtho, Pa hyd yr wyt yn peri i ni ammeu? os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur.

25 Yr Iesu a attebodd iddynt, Mi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu. Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hynny yn tystiolaethu am danaf fi.

26 Ond chwi nid ydych yn credu: canys nid ydych chwi o'm defaid i, fel y dywedais i chwi.

27 Y mae fy nefaid i yn gwrandaw fy llais i; a mi a'u hadwaen hwynt, a hwy a'm canlynant i:

28 A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol; ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.

29 Fy Nhad i, yr hwn a'*u* rhoddes i mi, sydd fwy na phawb: ac nis gall neb *eu* dwyn *hwynt* allan o law fy Nhad i.

30 Myfi a'r Tad un ydym.

31 Am hynny y cododd yr Iuddewon gerrig drachefn i'w labyddio ef.

32 Yr Iesu a attebodd iddynt, Llawer o weithredoedd da a ddangosais i chwi oddi wrth fy Nhad: am ba un o'r gweithredoedd hynny yr ydych yn fy llabyddio i?

33 Yr Iuddewon a attebasant iddo, gan ddywedyd, Nid am weithred dda yr ydym yn dy labyddio, ond am gabledd, ac am dy fod di, a thithau yn ddyn, yn dy wneuthur dy hun yn Dduw.

34 Yr Iesu a attebodd iddynt,
Onid yw yn ysgrifenedig yn eich
cyfraith chwi, Mi a ddywedais,
Duwiau ydych?
35 Os galwodd efe hwy yn dduw-
iau, at y rhai y daeth gair Duw (a'r
ysgrythyr nis gellir ei thorri),
36 A ddywedwch chwi am yr hwn
a sancteiddiodd y Tad, ac a'i han-
fonodd i'r byd, Yr wyt ti yn cablu;
am i mi ddywedyd, Mab Duw yd-
wyf?
37 Onid wyf fi yn gwneuthur
gweithredoedd fy Nhad, na chred-
wch i mi:
38 Ond os ydwyf yn eu gwneuthur,
er nad ydych yn credu i mi, cred-
wch y gweithredoedd; fel y gwyb-
yddoch ac y credoch, *fod* y Tad
ynof fi, a minnau ynddo yntau.
39 Am hynny y ceisiasant dra-
chefn ei ddal ef: ac efe a ddïang-
odd allan o'u dwylaw hwynt.
40 Ac efe a aeth ymaith drachefn
dros yr Iorddonen, i'r man lle y
buasai Ioan ar y cyntaf yn bedydd-
io; ac a arhosodd yno.
41 A llawer a ddaethant atto ef,
ac a ddywedasant, Ioan yn wir ni
wnaeth un arwydd: ond yr holl
bethau a'r a ddywedodd Ioan am
hwn, oedd wir.
42 A llawer yno a gredasant ynddo.

PENNOD 11.

1 *Crist yn cyfodi Lasarus, yr hwn a gladdesid er ys pedwar diwrnod.* 45 *Llawer o Iuddewon yn credu.* 47 *Yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid yn casglu cynghor yn erbyn Crist.* 49 *Caiaphas yn prophwydo.* 54 *Iesu yn ymguddio:* 55 *hwythau ar y pasc yn ymofyn am dano, ac yn gosod cynllwyn iddo.*

AC yr oedd un yn glaf, Lasarus
o Bethania, o dref Mair a'i
chwaer Martha.
2 (A Mair ydoedd yr hon a en-
neiniodd yr Arglwydd âg ennaint,
ac a sychodd ei draed ef â'i gwallt,
yr hon yr oedd ei brawd Lasarus
yn glaf.)
3 Am hynny y chwïorydd a ddan-
fonasant atto ef, gan ddywedyd, Ar-
glwydd, wele, y mae yr hwn sydd
hoff gennyt ti, yn glaf.
4 A'r Iesu pan glybu, a ddywedodd,
Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth,
ond er gogoniant Duw, fel y go-
gonedder Mab Duw trwy hynny.
5 A hoff oedd gan yr Iesu Martha,
a'i chwaer, a Lasarus.
6 Pan glybu efe gan hynny ei fod
ef yn glaf, efe a arhosodd yn y lle
yr oedd, ddau ddiwrnod.
7 Yna wedi hynny efe a ddywed-
odd wrth y disgyblion, Awn i Judea
drachefn.
8 Y disgyblion a ddywedasant
wrtho, Rabbi, yr oedd yr Iuddewon
yn awr yn ceisio dy labyddio di; ac
a wyt ti yn myned yno drachefn?
9 Yr Iesu a attebodd, Onid oes
deuddeg awr o'r dydd? os rhodia
neb y dydd, ni thramgwydda, am ei
fod yn gweled goleuni y byd hwn:
10 Ond os rhodia neb y nos, efe
a dramgwydda, am nad oes goleuni
ynddo.
11 Hyn a lefarodd efe: ac wedi
hynny efe a ddywedodd wrthynt, Y
mae ein cyfaill Lasarus yn huno;
ond yr wyf fi yn myned i'w ddi-
huno ef.
12 Yna ei ddisgyblion a ddywed-
asant wrtho, Arglwydd, os huno y
mae, efe a fydd iach.
13 Ond yr Iesu a ddywedasai am
ei farwolaeth ef: eithr hwy a dyb-
iasant mai am hûn cwsg yr oedd
efe yn dywedyd.
14 Yna y dywedodd yr Iesu wrth-
ynt yn eglur, Bu farw Lasarus.
15 Ac y mae yn llawen gennyf nad
oeddwn i yno, er eich mwyn chwi,
fel y credoch; ond awn atto ef.
16 Yna y dywedodd Thomas, yr
hwn a elwir Didymus, wrth ei gyd-
ddisgyblion, Awn ninnau hefyd, fel
y byddom feirw gyd âg ef.
17 Yna yr Iesu wedi dyfod, a'i
cafodd ef wedi bod weithian bed-
war diwrnod yn y bedd.
18 A Bethania oedd yn agos i Je-
rusalem, ynghylch pymtheg ystâd
oddi wrthi:
19 A llawer o'r Iuddewon a ddaeth-
ent at Martha a Mair, i'w cysuro
hwy am eu brawd.
20 Yna Martha, cyn gynted ag y
clybu hi fod yr Iesu yn dyfod, a
aeth i'w gyfarfod ef: ond Mair a
eisteddodd yn y tŷ.
21 Yna y dywedodd Martha wrth
yr Iesu, Arglwydd, pe buasit ti yma,
ni buasai farw fy mrawd.
22 Eithr mi a wn hefyd yr awr

hon, pa bethau bynnag a ddymunech di gan Dduw, y dyry Duw i ti.
23 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Adgyfodir dy frawd drachefn.
24 Dywedodd Martha wrtho, Myfi a wn yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad, y dydd diweddaf.
25 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd: yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw:
26 A phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. A wyt ti yn credu hyn?
27 Dywedodd hithau wrtho, Ydwyf, Arglwydd: yr wyf fi yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw, yr hwn sydd yn dyfod i'r byd.
28 Ac wedi iddi ddywedyd y pethau hyn, hi a aeth ymaith, ac a alwodd yn ddirgel ei chwaer Mair, gan ddywedyd, Fe ddaeth yr Athraw, ac y mae yn galw am danat.
29 Cyn gynted ag y clybu hi, hi a gododd yn ebrwydd, ac a ddaeth atto ef.
30 (A'r Iesu ni ddaethai etto i'r dref, ond yr oedd efe yn y man lle y cyfarfuasai Martha âg ef.)
31 Yna yr Iuddewon y rhai oedd gyd â hi yn y tŷ, ac yn ei chysuro hi, pan welsant Mair yn codi ar frys, ac yn myned allan, a'i canlynasant hi, gan ddywedyd, Y mae hi yn myned at y bedd, i wylo yno.
32 Yna Mair, pan ddaeth lle yr oedd yr Iesu, a'i weled ef, a syrthiodd wrth ei draed ef, gan ddywedyd wrtho, Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai fy mrawd farw.
33 Yr Iesu gan hynny, pan welodd hi yn wylo, a'r Iuddewon y rhai a ddaethai gyd â hi yn wylo, a riddfanodd yn yr ysbryd, ac a gynhyrfwyd;
34 Ac a ddywedodd, Pa le y doddasoch chwi ef? Hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, tyred a gwel.
35 Yr Iesu a wylodd.
36 Am hynny y dywedodd yr Iuddewon, Wele, fel yr oedd yn ei garu ef.
37 Eithr rhai o honynt a ddywedasant, Oni allasai hwn, yr hwn a agorodd lygaid y dall, beri na buasai hwn farw chwaith?
38 Yna yr Iesu drachefn a riddfanodd ynddo ei hunan, ac a ddaeth at y bedd. Ac ogof oedd, a maen oedd wedi ei ddodi arno.
39 Yr Iesu a ddywedodd, Codwch ymaith y maen. Martha, chwaer yr hwn a fuasai farw, a ddywedodd wrtho, Arglwydd, y mae efe weithian yn drewi: herwydd y mae *yn farw* er ys pedwar diwrnod.
40 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Oni ddywedais i ti, pes credit, y cait ti weled gogoniant Duw?
41 Yna y codasant y maen lle yr oedd y marw wedi ei osod. A'r Iesu a gododd *ei* olwg i fyny, ac a ddywedodd, Y Tad, yr wyf yn diolch i ti am i ti wrandaw arnaf.
42 Ac myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrandaw bob amser: eithr er mwyn y bobl sydd yn sefyll o amgylch, y dywedais, fel y credont mai tydi a'm hanfonaist i.
43 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a lefodd â llef uchel, Lasarus, tyred allan.
44 A'r hwn a fuasai farw a ddaeth allan, yn rhwym ei draed a'i ddwylaw mewn amdo: a'i wyneb oedd wedi ei rwymo â napcyn. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Gollyngwch ef yn rhydd, a gadêwch iddo fyned *ymaith.*
45 Yna llawer o'r Iuddewon, y rhai a ddaethent at Mair, ac a welsent y pethau a wnaethai yr Iesu, a gredasant ynddo ef.
46 Eithr rhai o honynt a aethant ymaith at y Phariseaid, ac a ddywedasant iddynt y pethau a wnaethai yr Iesu.
47 ¶ Yna yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid a gasglasant gynghor, ac a ddywedasant, Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur? canys y mae y dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion.
48 Os gadâwn ni ef fel hyn, pawb a gredant ynddo; ac fe a ddaw y Rhufeiniaid, ac a ddifethant ein lle ni a'n cenedl hefyd.
49 A *rhyw* un o honynt, Caiaphas, yr hwn oedd arch-offeiriad y flwyddyn honno, a ddywedodd wrthynt, Nid ydych chwi yn gwybod dim oll,
50 Nac yn ystyried, mai buddiol

yw i ni, farw o un dyn dros y bobl,
ac na ddifether yr holl genedl.
51 Hyn ni ddywedodd efe o hono
ei hun: eithr, *ac* efe yn arch-offeiriad y flwyddyn honno, efe a brophwydodd y byddai yr Iesu farw
dros y genedl;
52 Ac nid dros y genedl yn unig, eithr fel y casglai efe ynghyd yn
un blant Duw hefyd y rhai a wasgarasid.
53 Yna o'r dydd hwnnw allan y
cyd-ymgynghorasant fel y lladdent ef.
54 Am hynny ni rodiodd yr Iesu mwy yn amlwg ym mysg yr Iuddewon; ond efe a aeth oddi yno i'r
wlad yn agos i'r anialwch, i ddinas a elwir Ephraim, ac a arhosodd
yno gyd â'i ddisgyblion.
55 ¶ A phasc yr Iuddewon oedd
yn agos: a llawer a aethant o'r wlad
i fyny i Jerusalem o flaen y pasc,
i'w glanhâu eu hunain.
56 Yna y ceisiasant yr Iesu; a
dywedasant wrth eu gilydd, fel yr
oeddynt yn sefyll yn y deml, Beth
a dybygwch chwi, gan na ddaeth
efe i'r wyl?
57 A'r arch-offeiriaid a'r Phariseaid
a roisant orchymyn, os gwyddai neb
pa le yr oedd efe, ar fynegi o hono,
fel y gallent ei ddal ef.

PENNOD 12.

1 Yr Iesu yn esgusodi Mair am enneinio ei draed ef. 9 Y bobl yn ymgasglu i weled Lasarus: 10 yr arch-offeiriaid yn ymgynghori i'w ladd ef. 12 Crist yn marchogaeth i Jerusalem. 20 Groegwyr yn ewyllysio gweled yr Iesu. 23 Y mae efe yn rhag-fynegi ei farwolaeth. 37 Yr Iuddewon gan mwyaf wedi eu dallu: 42 er hynny llawer o bennaethiaid yn credu, ond heb ei gyffesu ef: 44 yr Iesu gan hynny yn galw yn daer am gyffesu ffydd.

YNA yr Iesu, chwe diwrnod cyn
y pasc, a ddaeth i Bethania,
lle yr oedd Lasarus, yr hwn a fuasai
farw, yr hwn a godasai efe o feirw.
2 *Ac* yno y gwnaethant iddo
swpper; a Martha oedd yn gwasanaethu: a Lasarus oedd un o'r
rhai a eisteddent gyd âg ef.
3 Yna y cymmerth Mair bwys o
ennaint nard gwlyb gwerthfawr, ac
a enneiniodd draed yr Iesu, ac a
sychodd ei draed ef â'i gwallt: a'r
tŷ a lanwyd gan arogl yr ennaint.
4 Am hynny y dywedodd un o'i
ddisgyblion ef, Judas Iscariot, *mab*
Simon, yr hwn oedd ar fedr ei fradychu ef,
5 Paham na werthwyd yr ennaint
hwn er tri chan ceiniog, a'i roddi
i'r tlodion?
6 *Eithr* hyn a ddywedodd efe, nid
o herwydd bod arno ofal dros y
tlodion; ond am ei fod yn lleidr,
a bod ganddo y pwrs, a'i fod yn
dwyn yr hyn a fwrid ynddo.
7 A'r Iesu a ddywedodd, Gâd
iddi! erbyn dydd fy nghladdedigaeth y cadwodd hi hwn.
8 Canys y mae gennych y tlodion
gyd â chwi bob amser; eithr myfi
nid oes gennych bob amser.
9 Gwybu gan hynny dyrfa fawr
o'r Iuddewon ei fod ef yno: a hwy
a ddaethant, nid er mwyn yr Iesu
yn unig, ond fel y gwelent Lasarus
hefyd, yr hwn a godasai efe o
feirw.
10 ¶ Eithr yr arch-offeiriaid a
ymgynghorasant fel y lladdent Lasarus hefyd:
11 Oblegid llawer o'r Iuddewon
a aethant ymaith o'i herwydd ef,
ac a gredasant yn yr Iesu.
12 ¶ Trannoeth, tyrfa fawr yr hon
a ddaethai i'r wyl, pan glywsant fod
yr Iesu yn dyfod i Jerusalem,
13 A gymmerasant gangau o'r
palmwydd, ac a aethant allan i
gyfarfod âg ef, ac a lefasant, Hosanna: Bendigedig *yw* Brenhin
Israel, yr hwn sydd yn dyfod yn
enw yr Arglwydd.
14 A'r Iesu wedi cael asynyn, a
eisteddodd arno; megis y mae yn
ysgrifenedig,
15 Nac ofna, ferch Sïon: wele, y
mae dy Frenhin yn dyfod, yn eistedd ar ebol asyn.
16 Y pethau hyn ni wybu ei ddisgyblion ef ar y cyntaf: eithr pan
ogoneddwyd yr Iesu, yna y cofiasant fod y pethau hyn yn ysgrifenedig am dano, ac iddynt wneuthur
hyn iddo.
17 Tystiolaethodd gan hynny y
dyrfa, yr hon oedd gyd âg ef pan
alwodd efe Lasarus o'r bedd, a'i
godi ef o feirw.
18 Am hyn y daeth y dyrfa hefyd i
gyfarfod âg ef, am glywed o honynt
iddo wneuthur yr arwydd hon.
19 Y Phariseaid gan hynny a ddy-

wedasant yn eu plith eu hunain, A welwch chwi nad ydych yn tycio dim? wele, fe aeth y byd ar ei ol ef.

20 ¶ Ac yr oedd rhai Groegiaid ym mhlith y rhai a ddaethent i fyny i addoli ar yr wyl:

21 Y rhai hyn gan hynny a ddaethant at Phylip, yr hwn oedd o Bethsaida yn Galilea, ac a ddymunasant arno, gan ddywedyd, Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu.

22 Phylip a ddaeth, ac a ddywedodd i Andreas; a thrachefn Andreas a Phylip a ddywedasant i'r Iesu.

23 ¶ A'r Iesu a attebodd iddynt, gan ddywedyd, Daeth yr awr y gogonedder Mab y dyn.

24 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, hwnnw a erys yn unig; eithr os bydd efe marw, efe a ddwg ffrwyth lawer.

25 Yr hwn sydd yn caru ei einioes, a'i cyll hi; a'r hwn sydd yn casâu ei einioes yn y byd hwn, a'i ceidw hi i fywyd tragywyddol.

26 Os gwasanaetha neb fi, dilyned fi: a lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngweinidog hefyd: ac os gwasanaetha neb fi, y Tad a'i hanrhydedda ef.

27 Yr awr hon y cynhyrfwyd fy enaid: a pha beth a ddywedaf? *O* Dad, gwared fi allan o'r awr hon: eithr o herwydd hyn y deuthum i'r awr hon.

28 *O* Dad, gogonedda dy enw. Yna y daeth llef o'r nef, Mi a'*i* gogoneddais, ac a'*i* gogoneddaf drachefn.

29 Y dyrfa gan hynny, yr hon oedd yn sefyll ac yn clywed, a ddywedodd mai taran oedd: eraill a ddywedasant, Angel a lefarodd wrtho.

30 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Nid o'm hachos i y bu y llef hon, ond o'ch achos chwi.

31 Yn awr y mae barn y byd hwn: yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn.

32 A minnau, os dyrchefir fi oddi ar y ddaear, a dynnaf bawb attaf fy hun.

33 (*A* hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo o ba angau y byddai farw.)

34 Y dyrfa a attebodd iddo, Ni a glywsom o'r ddeddf, fod Crist yn aros yn dragywyddol: a pha wedd yr wyt ti yn dywedyd, fod yn rhaid dyrchafu Mab y dyn? pwy ydyw hwnnw Mab y dyn?

35 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Etto ychydig ennyd y mae y goleuni gyd â chwi. Rhodiwch tra fyddo gennych y goleuni, fel na ddalio y tywyllwch chwi: a'r hwn sydd yn rhodio mewn tywyllwch, ni ŵyr i ba le y mae yn myned.

36 Tra fyddo gennych oleuni, credwch yn y goleuni, fel y byddoch blant y goleuni. Hyn a ddywedodd yr Iesu, ac efe a ymadawodd, ac a ymguddiodd rhagddynt.

37 ¶ Ac er gwneuthur o hono ef gymmaint o arwyddion yn eu gŵydd hwynt, ni chredasant ynddo:

38 Fel y cyflawnid ymadrodd Esaias y prophwyd, yr hwn a ddywedodd efe, Arglwydd, pwy a gredodd i'n hymadrodd ni? ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd?

39 Am hynny ni allent gredu, oblegid dywedyd o Esaias drachefn,

40 Efe a ddallodd eu llygaid, ac a galedodd eu calon; fel na welent â'*u* llygaid, a deall â'*u* calon, ac ymchwelyd o honynt, ac i mi eu hiachâu hwynt.

41 Y pethau hyn a ddywedodd Esaias, pan welodd ei ogoniant ef, ac y llefarodd am dano ef.

42 ¶ Er hynny llawer o'r pennaethiaid hefyd a gredasant ynddo; ond oblegid y Phariseaid ni chyffesasant *ef*, rhag eu bwrw allan o'r synagog:

43 Canys yr oeddynt yn caru gogoniant dynion yn fwy na gogoniant Duw.

44 ¶ A'r Iesu a lefodd ac a ddywedodd, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, nid yw yn credu ynof fi, ond yn yr hwn a'm hanfonodd i.

45 A'r hwn sydd yn fy ngweled i, sydd yn gweled yr hwn a'm danfonodd i.

46 Mi a ddeuthum yn oleuni i'r byd, fel *y bo i* bob un a'r sydd yn credu ynof fi, nad arhoso yn y tywyllwch.

47 Ac os clyw neb fy ngeiriau, ac
ni chred, myfi nid wyf yn ei farnu
ef: canys ni ddeuthum i farnu y
byd, eithr i achub y byd.
48 Yr hwn sydd yn fy nirmygu i,
ac heb dderbyn fy ngeiriau, y mae
iddo un yn ei farnu: y gair a
leferais i, hwnnw a'i barn ef yn y
dydd diweddaf.
49 Canys myfi ni leferais o honof
fy hun: ond y Tad yr hwn a'm
hanfonodd i, efe a roddes orchy-
myn i mi, beth a ddywedwn, a pha
beth a lefarwn.
50 Ac mi a wn fod ei orchymyn ef
yn fywyd tragywyddol: am hynny
y pethau yr wyf fi yn eu llefaru, fel
y dywedodd y Tad wrthyf, felly yr
wyf yn llefaru.

PENNOD 13.

1 *Yr Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion:* 14 *yn eu hannog i ostyngeiddrwydd a chariad perfaith:* 18 *yn rhag-ddywedyd, ac yn datguddio i Ioan trwy arwydd, y bradychai Judas ef:* 31 *yn gorchymyn iddynt garu eu gilydd;* 36 *ac yn rhybuddio Pedr y gwadai efe ef.*

ACHYN gwyl y pasc, yr Iesu
yn gwybod ddyfod ei awr ef
i ymadael â'r byd hwn at y Tad,
efe yn caru yr eiddo y rhai oedd
yn y byd, a'u carodd hwynt hyd y
diwedd.
2 Ac wedi darfod swpper, wedi
i ddiafol eisoes roi y'nghalon Ju-
das Iscariot, *mab* Simon, ei frad-
ychu ef;
3 Yr Iesu yn gwybod roddi o'r
Tad bob peth oll yn ei ddwylaw
ef, a'i fod wedi dyfod oddi wrth
Dduw, ac yn myned at Dduw;
4 Efe a gyfododd oddi ar swpper,
ac a roes heibio ei gochl-wisg, ac
a gymmerodd dywel, ac a ymwreg-
ysodd.
5 Wedi hynny efe a dywalltodd
ddwfr i'r cawg, ac a ddechreuodd
olchi traed y disgyblion, a'*u* sychu
â'r tywel, â'r hwn yr oedd efe wedi
ei wregysu.
6 Yna y daeth efe at Simon Pedr:
ac efe a ddywedodd wrtho, Ar-
glwydd, a wyt ti yn golchi fy
nhraed i?
7 Yr Iesu a attebodd ac a ddy-
wedodd wrtho, Y peth yr wyf fi
yn ei wneuthur, ni wyddost ti yr
awr hon: eithr ti a gei wybod ar
ol hyn.
8 Pedr a ddywedodd wrtho, Ni
chei di olchi fy nhraed i byth. Yr
Iesu a attebodd iddo, Oni olchaf di,
nid oes i ti gyfran gyd â myfi.
9 Simon Pedr a ddywedodd wrtho,
Arglwydd, nid fy nhraed yn unig,
eithr *fy* nwylaw a'*m* pen hefyd.
10 Yr Iesu a ddywedodd wrtho,
Yr hwn a olchwyd, nid rhaid iddo
ond golchi *eï* draed, eithr y mae
yn lân oll: ac yr ydych chwi yn
lân, eithr nid pawb oll.
11 Canys efe a wyddai pwy a'i
bradychai ef: am hynny y dywed-
odd, Nid ydych chwi yn lân bawb
oll.
12 Felly wedi iddo olchi eu traed
hwy, a chymmeryd ei gochl-wisg,
efe a eisteddodd drachefn, ac a ddy-
wedodd wrthynt, A wyddoch chwi
pa beth a wneuthum i chwi?
13 Yr ydych chwi yn fy ngalw
i, Yr Athraw, a'r Arglwydd: a
da y dywedwch; canys *felly* yr
ydwyf.
14 Am hynny os myfi, yn Ar-
glwydd ac yn Athraw, a olchais
eich traed chwi; chwithau a ddyl-
ech olchi traed eich gilydd;
15 Canys rhoddais esampl i chwi,
fel y gwnelech chwithau megis y
gwneuthum i chwi.
16 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi,
Nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd;
na'r hwn a ddanfonwyd yn fwy na'r
hwn a'i danfonodd.
17 Os gwyddoch y pethau hyn,
gwyn eich byd os gwnewch hwynt.
18 ¶ Nid wyf fi yn dywedyd am
danoch oll; mi a wn pwy a etholais: ond fel y cyflawnid yr ys-
grythyr, Yr hwn sydd yn bwytta
bara gyd â mi, a gododd ei sawdl
yn fy erbyn.
19 Yn awr yr wyf yn dywedyd
wrthych cyn ei ddyfod, fel pan
ddêl, y credoch mai myfi yw *efe*.
20 Yn wir, yn wir, meddaf i
chwi, Yr hwn sydd yn derbyn y
neb a ddanfonwyf fi, sydd yn fy
nerbyn i; a'r hwn sydd yn fy ner-
byn i, sydd yn derbyn yr hwn a'm
danfonodd i.
21 Wedi i'r Iesu ddywedyd y
pethau hyn, efe a gynhyrfwyd yn
yr ysbryd, ac a dystiolaethodd, ac
a ddywedodd, Yn wir, yn wir, y

dywedaf wrthych, y bradycha un o honoch fi.
22 Yna y disgyblion a edrychasant ar eu gilydd, gan ammeu am bwy yr oedd efe yn dywedyd.
23 Ac yr oedd un o'i ddisgyblion yn pwyso ar fynwes yr Iesu, yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu.
24 Am hynny yr amneidiodd Simon Pedr ar hwnnw, i ofyn pwy oedd efe, am yr hwn yr oedd efe yn dywedyd.
25 Ac yntau yn pwyso ar ddwyfron yr Iesu, a ddywedodd wrtho, Arglwydd, pwy yw efe?
26 Yr Iesu a attebodd, Hwnnw yw efe, i'r hwn y rhoddaf fi dammaid wedi i mi ei wlychu. Ac wedi iddo wlychu y tammaid, efe a'i rhoddodd i Judas Iscariot, *mab* Simon.
27 Ac ar ol y tammaid, yna yr aeth Satan i mewn iddo. Am hynny y dywedodd yr Iesu wrtho, Hyn yr wyt yn ei wneuthur, gwna ar frys.
28 Ac ni wyddai neb o'r rhai oedd yn eistedd i ba beth y dywedasai efe hyn wrtho.
29 Canys rhai oedd yn tybied, am fod Judas a'r gôd ganddo, fod yr Iesu yn dywedyd wrtho, Pryn *y pethau* sydd arnom eu heisieu erbyn yr wyl; neu, ar roi o hono beth i'r tlodion.
30 Yntau gan hynny, wedi derbyn y tammaid, a aeth allan yn ebrwydd. Ac yr oedd hi yn nos.
31 ¶ Yna gwedi iddo fyned allan, yr Iesu a ddywedodd, Yn awr y gogoneddwyd Mab y dyn, a Duw a ogoneddwyd ynddo ef.
32 Os gogoneddwyd Duw ynddo ef, Duw hefyd a'i gogonedda ef ynddo ei hun, ac efe a'i gogonedda ef yn ebrwydd.
33 *O* blant bychain, etto yr wyf ennyd fechan gyd â chwi. Chwi a'm ceisiwch: ac, megis y dywedais wrth yr Iuddewon, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod; yr ydwyf yn dywedyd wrthych chwithau hefyd yr awr hon.
34 Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, Ar garu o honoch eich gilydd; fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd.
35 Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi ydych, os bydd gennych gariad i'ch gilydd.
36 ¶ A Simon Pedr a ddywedodd wrtho, Arglwydd, i ba le yr wyt ti yn myned? Yr Iesu a attebodd iddo, Lle yr ydwyf fi yn myned, ni elli di yr awr hon fy nghanlyn: eithr ar ol hyn y'm canlyni.
37 Pedr a ddywedodd wrtho, Arglwydd, paham na allaf fi dy ganlyn yr awr hon? mi a roddaf fy einioes drosot.
38 Yr Iesu a attebodd iddo, A roddi di dy einioes drosof fi? Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Ni chân y ceiliog nes i ti fy ngwadu dair gwaith.

PENNOD 14.

1 *Crist yn cysuro ei ddisgyblion a gobaith teyrnas nef:* 6 *yn proffesu mai efe yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd; a'i fod yn un a'r Tad:* 13 *yn gwaraniw y bydd eu gweddiau hwy yn ei enw ef yn ffrwythlawn:* 15 *yn dymuno cariad ac ufudd-dod:* 16 *yn addaw yr Ysprryd Glân y Diddanydd;* 27 *ac yn gadael ei dangnefedd ynd â hwynt.*

NA thralloder eich calon: yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd.
2 Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau: a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf fi yn myned i barottôi lle i chwi.
3 Ac os myfi a âf, ac a barottoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun; fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd.
4 Ac i ba le yr wyf fi yn myned, chwi a wyddoch, a'r ffordd a wyddoch.
5 Dywedodd Thomas wrtho, Arglwydd, ni wyddom ni i ba le yr wyt ti yn myned; a pha fodd y gallwn wybod y ffordd?
6 Yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi.
7 Ped adnabuasech fi, fy Nhad hefyd a adnabuasech: ac o hyn allan yr adwaenoch ef, a chwi a'i gwelsoch ef.
8 Dywedodd Phylip wrtho, Arglwydd, dangos i ni y Tad, a digon yw i ni.
9 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, A ydwyf gyhyd o amser gyd â chwi, ac nid adnabuost fi, Phylip?

Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad: a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad?
10 Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau? Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd.
11 Credwch fi, fy *mod* i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau: ac onid ê, credwch fi er mwyn y gweithredoedd eu hunain.
12 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy na'r rhai hyn a wna efe: oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad.
13 A pha beth bynnag a ofynoch yn fy enw i, hynny a wnaf; fel y gogonedder y Tad yn y Mab.
14 Os gofynwch ddim yn fy enw i, mi a'*i* gwnaf.
15 ¶ O cherwch fi, cedwch fy ngorchymynion.
16 A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyd â chwi yn dragywyddol;
17 Yspryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef: ond chwi a'i hadwaenoch ef; o herwydd y mae yn aros gyd â chwi, ac ynoch y bydd efe.
18 Nis gadawaf chwi yn amddifaid: mi a ddeuaf attoch chwi.
19 Etto ennyd bach, a'r byd ni'm gwel mwy; eithr chwi a'm gwelwch: canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.
20 Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy *mod* i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau.
21 Yr hwn sydd â'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i: a'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i: a minnau a'i caraf ef, ac a'm heglurafy hun iddo.
22 Dywedodd Judas wrtho, (nid yr Iscariot,) Arglwydd, pa beth yw yr achos yr wyt ar fedr dy eglurhâu dy hun i ni, ac nid i'r byd?
23 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair; a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn atto, ac a wnawn ein trigfa gyd âg ef.
24 Yr hwn nid yw yn fy ngharu i, nid yw yn cadw fy ngeiriau: a'r gair yr ydych yn ei glywed, nid eiddof fi ydyw, ond eiddo y Tad a'm hanfonodd i.
25 Y pethau hyn a ddywedais wrthych, a mi yn aros gyd â chwi.
26 Eithr y Diddanydd, yr Yspryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi yr holl bethau, ac a ddwg ar gôf i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi.
27 Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi: nid fel y mae y byd yn rhoddi, yr wyf fi yn rhoddi i chwi. Na thralloder eich calon, ac nac ofned.
28 Clywsoch fel y dywedais wrthych, Yr wyf yn myned ymaith, ac mi a ddeuaf attoch. Pe carech fi, chwi a lawenhâech am i mi ddywedyd, Yr wyf yn myned at y Tad: canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi.
29 Ac yr awr hon y dywedais i chwi cyn ei ddyfod, fel pan ddêl, y credoch.
30 Nid ymddiddanaf â chwi nemmawr bellach: canys tywysog y byd hwn sydd yn dyfod, ac nid oes iddo ddim ynof fi.
31 Ond fel y gwypo y byd fy mod i yn caru y Tad, ac megis y gorchymynodd y Tad i mi, felly yr wyf yn gwneuthur. Codwch, awn oddi yma.

PENNOD 15.

1 Y diddanwch a'r caredigrwydd sydd rhwng Crist a'i aelodau, trwy ddammeg y winwydden. 18 Cysur mewn casineb, ac erlid bydol. 26 Swydd yr Ysbryd Glân, a'r apostolion.

MYFI yw y wir winwydden, a'm Tad yw y llafurwr.
2 Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith: a phob un a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhâu, fel y dygo fwy o ffrwyth.
3 Yr awr hon yr ydych chwi yn lân trwy y gair a leferais i wrthych.
4 Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chwi. Megis na all y gangen ddwyn

ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi.

5 Myfi yw y winwydden, chwithau *yw* y canghennau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer: oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.

6 Onid erys un ynof fi, efe a daflwyd allan megis cangen, ac a wywodd; ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn *eu* bwrw yn tân, a hwy a losgir.

7 Os arhoswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, beth bynnag a ewyllysioch, gofynwch, ac efe a fydd i chwi.

8 Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer; a disgyblion fyddwch i mi.

9 Fel y carodd y Tad fi, felly y cerais innau chwithau: arhoswch yn fy nghariad i.

10 Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoswch yn fy nghariad; fel y cedwais i orchymynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef.

11 Hyn a ddywedais wrthych, fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn.

12 Dyma fy ngorchymyn i; Ar i chwi garu eich gilydd, fel y cerais i chwi.

13 Cariad mwy na hwn nid oes gan neb; sef, bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion.

14 Chwychwi yw fy nghyfeillion, os gwnewch pa bethau bynnag yr wyf yn eu gorchymyn i chwi.

15 Nid ydwyf mwyach yn eich galw yn weision; oblegid y gwas ni ŵyr beth y mae ei arglwydd yn ei wneuthur: ond mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion; oblegid pob peth a'r a glywais gan fy Nhad, a hysbysais i chwi.

16 Nid chwi a'm dewisasoch i, ond myfi a'ch dewisais chwi, ac a'ch ordeiniais chwi, fel yr elech ac y dygech ffrwyth, ac yr arhosai eich ffrwyth; megis pa beth bynnag a ofynoch gan y Tad yn fy enw i, y rhoddo efe i chwi.

17 Hyn yr wyf yn ei orchymyn i chwi, garu o honoch eich gilydd.

18 Os yw y byd yn eich casâu chwi, chwi a wyddoch gasâu o hono fyfi o'ch blaen chwi.

19 Pe byddech o'r byd, y byd a garai yr eiddo; ond oblegid nad ydych o'r byd, eithr i mi eich dewis allan o'r byd, am hynny y mae y byd yn eich casâu chwi.

20 Cofiwch yr ymadrodd a ddywedais i wrthych; Nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd. Os erlidiasant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau: os cadwasant fy ngair i, yr eiddoch chwithau hefyd a gadwant.

21 Eithr hyn oll a wnant i chwi er mwyn fy enw i, am nad adwaenant yr hwn a'm hanfonodd i.

22 Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod: ond yr awr hon nid oes ganddynt esgus am eu pechod.

23 Yr hwn sydd yn fy nghasâu i, sydd yn casâu fy Nhad hefyd.

24 Oni bai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buasai arnynt bechod: ond yr awr hon hwy a welsant, ac a'm casasant i a'm Tad hefyd.

25 Eithr, fel y cyflawnid y gair sydd ysgrifenedig yn eu cyfraith hwynt, Hwy a'm casasant yn ddiachos.

26 Eithr pan ddêl y Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddi wrth y Tad, *sef* Yspryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddi wrth y Tad, efe a dystiolaetha am danaf fi.

27 A chwithau hefyd a dystiolaethwch, am eich bod o'r dechreuad gyd â mi.

PENNOD 16.

1 *Crist yn cysuro ei ddisgyblion yn erbyn blinder, trwy addewid o'r Yspryd Glân, a thrwy ei ail-gyfodiad a'i esgyniad:* 23 *yn eu sicrhâu y bydd eu gweddïau hwy yn ei enw ef yn gymeradwy gan ei Dad.* 33 *Tangnefedd yng Nghrist; ac yn y byd gorthrymder.*

Y PETHAU hyn a ddywedais i chwi, fel na rwystrer chwi.

2 Hwy a'ch bwriant chwi allan o'r synagogau: ac y mae yr awr yn dyfod, y tybia pwy bynnag a'ch lladdo, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw.

3 A'r pethau hyn a wnant i chwi, oblegid nad adnabuant y Tad, na myfi.

4 Eithr y pethau hyn a ddywedais i chwi, fel pan ddêl yr awr, y cofioch hwynt, ddarfod i mi ddywedyd i chwi: a'r pethau hyn ni ddywedais i chwi o'r dechreuad, am fy mod gyd â chwi.

5 Ac yn awr yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd; ac nid yw neb o honoch yn gofyn i mi, I ba le yr wyt ti yn myned?

6 Eithr am i mi ddywedyd y pethau hyn i chwi, tristwch a lanwodd eich calon.

7 Ond yr wyf fi yn dywedyd gwirionedd i chwi; Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith: canys onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd attoch; eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf ef attoch.

8 A phan ddêl, efe a argyhoedda y byd o bechod, ac o gyfiawnder, ac o farn:

9 O bechod, am nad ydynt yn credu ynof fi;

10 O gyfiawnder, am fy mod yn myned at fy Nhad, ac ni'm gwelwch i mwyach;

11 O farn, oblegid tywysog y byd hwn a farnwyd.

12 Y mae gennyf etto lawer o bethau i'w dywedyd i chwi, ond ni ellwch eu dwyn yr awr hon.

13 Ond pan ddêl efe, *sef* Yspryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd: canys ni lefara o hono ei hun; ond pa bethau bynnag a glywo, a lefara efe: a'r pethau sydd i ddyfod, a fynega efe i chwi.

14 Efe a'm gogonedda i: canys efe a gymmer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi.

15 Yr holl bethau sydd eiddo y Tad, ydynt eiddof fi; o herwydd hyn y dywedais, mai o'r eiddof fi y cymmer, ac y mynega i chwi.

16 Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch: am fy mod yn myned at y Tad.

17 Am hynny y dywedodd *rhai* o'i ddisgyblion wrth eu gilydd, Beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd wrthym, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch: ac, Am fy mod yn myned at y Tad?

18 Am hynny hwy a ddywedasant, Beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd, Ychydig ennyd? ni wyddom ni beth y mae efe yn ei ddywedyd.

19 Yna y gwybu yr Iesu eu bod hwy yn ewyllysio gofyn iddo; ac a ddywedodd wrthynt, Ai ymofyn yr ydych â'ch gilydd am hyn, oblegid i mi ddywedyd, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch?

20 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Chwi a wylwch ac a alerwch, a'r byd a lawenycha: eithr chwi a fyddwch dristion; ond eich tristwch a droir yn llawenydd.

21 Gwraig wrth esgor sydd mewn tristwch, am ddyfod ei hawr: eithr wedi geni y plentyn, nid yw hi yn cofio ei gofid mwyach, gan lawenydd geni dyn i'r byd.

22 A chwithau am hynny ydych yr awr hon mewn tristwch: eithr mi a ymwelaf â chwi drachefn, a'ch calon a lawenycha, a'ch llawenydd ni ddwg neb oddi arnoch.

23 A'r dydd hwnnw ni ofynwch ddim i mi. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Pa bethau bynnag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi.

24 Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim yn fy enw i: gofynwch, a chwi a gewch; fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.

25 Y pethau hyn a leferais wrthych mewn damhegion: eithr y mae yr awr yn dyfod, pan na lefarwyf wrthych mewn damhegion mwyach, eithr y mynegaf i chwi yn eglur am y Tad.

26 Y dydd hwnnw y gofynwch yn fy enw: ac nid wyf yn dywedyd i chwi, y gweddïaf fi ar y Tad trosoch:

27 Canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi, am i chwi fy ngharu i, a chredu fy nyfod i allan oddi wrth Dduw.

28 Mi a ddeuthum allan oddi wrth y Tad, ac a ddeuthum i'r byd: trachefn yr wyf yn gadael y byd, ac yn myned at y Tad.

29 Ei ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Wele, yr wyt ti yn awr yn dywedyd yn eglur, ac nid wyt yn dywedyd un ddammeg.

30 Yn awr y gwyddom y gwyddost bob peth, ac nid rhaid i ti ym-

ofyn o neb â thi: wrth hyn yr ydym yn credu ddyfod o honot allan oddi wrth Dduw.

31 Yr Iesu a'u hattebodd hwynt, A ydych chwi yn awr yn credu?

32 Wele, y mae yr awr yn dyfod, ac yr awr hon hi a ddaeth, y gwasgerir chwi bob un at yr eiddo, ac y gadêwch fi yn unig: ac nid wyf yn unig, oblegid y mae y Tad gyd â myfi.

33 Y pethau hyn a ddywedais wrthych fel y caffech dangnefedd ynof. Yn y byd gorthrymder a gewch: eithr cymmerwch gysur, myfi a orchfygais y byd.

PENNOD 17.

1 *Crist yn gweddïo ar ei Dad am ei ogoneddu ef:* 6 *am gadw ei apostolion* 11 *mewn undeb,* 17 *a gwirionedd:* 20 *am eu gogoneddu hwy, a'r holl ffyddloniaid erail, gyd âg ef yn y nefoedd.*

Y PETHAU hyn a lefarodd yr Iesu, ac *efe* a gododd ei lygaid i'r nef, ac a ddywedodd, Y Tad, daeth yr awr; gogonedda dy Fab, fel y gogoneddo dy Fab dithau:

2 Megis y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd, fel am y cwbl a roddaist iddo, y rhoddai efe iddynt fywyd tragywyddol.

3 A hyn yw y bywyd tragywyddol; iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist.

4 Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear; mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur.

5 Ac yr awr hon, O Dad, gogonedda di fyfi gyd â thi dy hun, â'r gogoniant oedd i mi gyd â thi cyn bod y byd.

6 Mi a eglurais dy enw i'r dynion a roddaist i mi allan o'r byd: eiddot ti oeddynt, a thi a'u rhoddaist hwynt i mi; a hwy a gadwasant dy air di.

7 Yr awr hon y gwybuant mai oddi wrthyt ti y mae yr holl bethau a roddaist i mi:

8 Canys y geiriau a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; a hwy a'u derbyniasant, ac a wybuant yn wir mai oddi wrthyt ti y deuthum i allan, ac a gredasant mai tydi a'm hanfonaist i.

9 Drostynt hwy yr wyf fi yn gweddïo: nid dros y byd yr wyf yn gweddïo, ond dros y rhai a roddaist i mi; canys eiddot ti ydynt.

10 A'r eiddof fi oll sydd eiddot ti, a'r eiddot ti sydd eiddof fi: a mi a ogoneddwyd ynddynt.

11 Ac nid wyf mwyach yn y byd, ond y rhai hyn sydd yn y byd, a myfi sydd yn dyfod attat ti. Y Tad sanctei ddiol, cadw hwynt trwy dy enw, y rhai a roddaist i mi; fel y byddont un, megis ninnau.

12 Tra fûm gyd â hwynt yn y byd, mi a'u cedwais yn dy enw: y rhai a roddaist i mi, a gedwais, ac ni chollwyd o honynt ond mab y golledigaeth; fel y cyflawnid yr ysgrythyr.

13 Ac yr awr hon yr wyf yn dyfod attat: a'r pethau hyn yr wyf yn eu llefaru yn y byd, fel y caffont fy llawenydd i yn gyflawn ynddynt eu hunain.

14 Myfi a roddais iddynt hwy dy air di: a'r byd a'u casaodd hwynt, oblegid nad ydynt o'r byd, megis nad ydwyf finnau o'r byd.

15 Nid wyf yn gweddïo ar i ti eu cymmeryd hwynt allan o'r byd, eithr ar i ti eu cadw hwynt rhag y drwg.

16 O'r byd nid ydynt, megis nad wyf finnau o'r byd.

17 Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd: dy air sydd wirionedd.

18 Fel yr anfonaist fi i'r byd, felly yr anfonais innau hwythau i'r byd.

19 Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy sancteiddio fy hun, fel y byddont hwythau wedi eu sancteiddio yn y gwirionedd.

20 Ac nid wyf yn gweddïo dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt:

21 Fel y byddont oll yn un; megis yr *wyt* ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni: fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i.

22 A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un:

23 Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un, ac fel y gwypo y byd mai tydi a'm hanfonaist i, a charu o honot hwynt, megis y ceraist fi.

24 Y Tad, y rhai a roddaist i mi,
yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi,
fod o honynt hwythau hefyd gyd â
myfi; fel y gwelont fy ngogoniant
a roddaist i mi: oblegid ti a'm
ceraist cyn seiliad y byd.
25 Y Tad cyfiawn, nid adnabu y
byd dydi: eithr mi a'th adnabûm,
a'r rhai hyn a wybu mai tydi a'm
hanfonaist i.
26 Ac mi a hysbysais iddynt dy
enw, ac a'*i* hysbysaf: fel y byddo
ynddynt hwy y cariad â'r hwn y
ceraist fi, a minnau ynddynt hwy.

PENNOD 18.

1 *Judas yn bradychu yr Iesu.* 6 *Y swyddogion yn syrthio ŷr llawr.* 10 *Pedr yn torri clust Malchus.* 12 *Dal yr Iesu, a'i ddwyn at Annas a Chaiaphas.* 15 *Pedr yn gwadu Crist.* 19 *Holi yr Iesu ger bron Caiaphas,* 28 *a cher bron Pilat.* 36 *Ei deyrnas ef.* 40 *Yr Iuddewon yn dymuno cael gollwng Barabbas yn rhydd.*

GWEDI i'r Iesu ddywedyd y
geiriau hyn, efe a aeth allan,
efe a'i ddisgyblion, dros afon Cedron,
lle yr oedd gardd, i'r hon yr
aeth efe a'i ddisgyblion.
2 A Judas hefyd, yr hwn a'i bradychodd
ef, a adwaenai y lle: oblegid
mynych y cyrchasai yr Iesu
a'i ddisgyblion yno.
3 Judas gan hynny, wedi iddo
gael byddin a swyddogion gan yr
arch-offeiriaid a'r Phariseaid, a
ddaeth yno â lanternau, a lampau,
ac arfau.
4 Yr Iesu gan hynny, yn gwybod
pob peth a oedd ar ddyfod arno, a
aeth allan, ac a ddywedodd wrthynt,
Pwy yr ydych yn ei geisio?
5 Hwy a attebasant iddo, Iesu o
Nasareth. Yr Iesu a ddywedodd
wrthynt, Myfi yw. A Judas, yr
hwn a'i bradychodd ef, oedd hefyd
yn sefyll gyd â hwynt.
6 Cyn gynted gan hynny ag y
dywedodd efe wrthynt, Myfi yw,
hwy a aethant yn wysg eu cefnau,
ac a syrthiasant i lawr.
7 Am hynny efe a ofynodd iddynt
drachefn, Pwy yr ydych yn ei
geisio? A hwy a ddywedasant, Iesu
o Nasareth.
8 Yr Iesu a attebodd, Mi a ddywedais
i chwi mai myfi yw: am
hynny os myfi yr ydych yn ei
geisio, gadêwch i'r rhai hyn fyned
ymaith:
9 Fel y cyflawnid y gair a ddywedasai
efe, O'r rhai a roddaist
i mi, ni chollais i yr un.
10 Simon Pedr gan hynny a chanddo
gleddyf, a'i tynnodd ef, ac a
darawodd was yr arch-offeiriad, ac
a dorrodd ymaith ei glust ddehau
ef: ac enw y gwas oedd Malchus.
11 Am hynny yr Iesu a ddywedodd
wrth Pedr, Dod dy gleddyf yn
y wain: y cwppan a roddes y Tad
i mi, onid yfaf ef?
12 Yna y fyddin, a'r milwriad, a
swyddogion yr Iuddewon, a ddaliasant
yr Iesu, ac a'i rhwymasant ef,
13 Ac a'i dygasant ef at Annas
yn gyntaf; canys chwegrwn Caiaphas,
yr hwn oedd arch-offeiriad y
flwyddyn honno, ydoedd efe.
14 A Chaiaphas oedd yr hwn
a gynghorasai i'r Iuddewon, mai
buddiol oedd farw un dyn dros y
bobl.
15 ¶ Ac yr oedd yn canlyn yr
Iesu, Simon Pedr, a disgybl arall:
a'r disgybl hwnnw oedd adnabyddus
gan yr arch-offeiriad, ac efe a
aeth i mewn gyd â'r Iesu i lys yr
arch-offeiriad.
16 A Phedr a safodd wrth y drws
allan. Yna y disgybl arall yr hwn
oedd adnabyddus gan yr arch-
offeiriad, a aeth allan, ac a ddywedodd
wrth y ddrysores, ac a
ddug Pedr i mewn.
17 Yna y dywedodd y llangces
oedd ddrysores wrth Pedr, Onid
wyt tithau o ddisgyblion y dyn
hwn? Dywedodd yntau, Nac wyf.
18 A'r gweision a'r swyddogion,
gwedi gwneuthur tân glo, o herwydd
ei bod hi yn oer, oeddynt
yn sefyll, ac yn ymdwymo: ac
yr oedd Pedr gyd â hwynt yn sefyll,
ac yn ymdwymo.
19 ¶ A'r arch-offeiriad a ofynodd
i'r Iesu am ei ddisgyblion, ac am
ei athrawiaeth.
20 Yr Iesu a attebodd iddo, Myfi
a lefarais yn eglur wrth y byd:
yr oeddwn bob amser yn athrawiaethu
yn y synagog, ac yn y deml,
lle mae yr Iuddewon yn ymgynnull
bob amser; ac yn ddirgel ni
ddywedais i ddim.
21 Paham yr wyt ti yn gofyn i
mi? gofyn i'r rhai a'm clywsant,

beth a ddywedais wrthynt: wele, y rhai hynny a wyddant pa bethau a ddywedais i.

22 Wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, un o'r swyddogion a'r oedd yn sefyll ger llaw, a roddes gernod i'r Iesu, gan ddywedyd, Ai felly yr wyt ti yn atteb yr arch-offeiriad?

23 Yr Iesu a attebodd iddo, Os drwg y dywedais, tystiolaetha o'r drwg; ac os da, paham yr wyt yn fy nharo i?

24 Ac Annas a'i hanfonasai ef yn rhwym at Caiaphas yr arch-offeiriad.

25 A Simon Pedr oedd yn sefyll, ac yn ymdwymo. Hwythau a ddywedasant wrtho, Onid wyt tithau hefyd o'i ddisgyblion ef? Yntau a wadodd, ac a ddywedodd, Nac wyf.

26 Dywedodd un o weision yr arch-offeiriad, (câr i'r hwn y torrasai Pedr ei glust,) Oni welais i di gyd âg ef yn yr ardd?

27 Yna Pedr a wadodd drachefn; ac yn y man y canodd y ceiliog.

28 ¶ Yna y dygasant yr Iesu oddi wrth Caiaphas i'r dadleudy: a'r bore ydoedd hi; ac nid aethant hwy i mewn i'r dadleudy, rhag eu halogi; eithr fel y gallent fwytta y pasc.

29 Yna Pilat a aeth allan attynt, ac a ddywedodd, Pa achwyn yr ydych chwi yn ei ddwyn yn erbyn y dyn hwn?

30 Hwy a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Oni bai fod hwn yn ddrwg-weithredwr, ni thraddodasem ni ef attat ti.

31 Am hynny y dywedodd Pilat wrthynt, Cymmerwch chwi ef, a bernwch ef yn ol eich cyfraith chwi. Yna yr Iuddewon a ddywedasant wrtho, Nid cyfreithlawn i ni ladd neb:

32 Fel y cyflawnid gair yr Iesu, yr hwn a ddywedasai efe, gan arwyddoccâu o ba angau y byddai farw.

33 Yna Pilat a aeth drachefn i'r dadleudy, ac a alwodd yr Iesu, ac a ddywedodd wrtho, Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon?

34 Yr Iesu a attebodd iddo, Ai o honot dy hun yr wyt ti yn dywedyd hyn, ai eraill a'i dywedasant i ti am danaf fi?

35 Pilat a attebodd, Ai Iuddew ydwyf fi? Dy genedl dy hun a'r arch-offeiriaid a'th draddodasant i mi. Beth a wnaethost ti?

36 Yr Iesu a attebodd, Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn. Pe o'r byd hwn y byddai fy mrenhiniaeth i, fy ngweision i a ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iuddewon: ond yr awr hon nid yw fy mrenhiniaeth i oddi yma.

37 Yna y dywedodd Pilat wrtho, Wrth hynny ai Brenhin wyt ti? Yr Iesu a attebodd, Yr ydwyt ti yn dywedyd mai Brenhin wyf fi. Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y deuthum i'r byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd. Pob un a'r sydd o'r gwirionedd, sydd yn gwrandaw fy lleferydd i.

38 Pilat a ddywedodd wrtho, Beth yw gwirionedd? Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a aeth allan drachefn at yr Iuddewon, ac a ddywedodd wrthynt, Nid wyf fi yn cael dim achos ynddo ef.

39 Eithr y mae gennych chwi ddefod, i mi ollwng i chwi un yn rhydd ar y pasc: a fynnwch chwi gan hynny i mi ollwng yn rhydd i chwi Frenhin yr Iuddewon?

40 Yna y llefasant oll drachefn, gan ddywedyd, Nid hwnnw, ond Barabbas. A'r Barabbas *hwnnw* oedd leidr.

PENNOD 19.

1 *Eflangellu Crist, a'i gorcni â drain, a'i guro.* 4 *Pilat yn chwennych ei ollwng ef yn rhydd: etto, wedi ei orchfygu gan lefain yr Iuddewon, yn ei roddi ef i'w groeshoelio.* 23 *Burw coelbrennau ar ei ddillad ef:* 26 *ymtau yn gorchymyn ei fam i Ioan;* 28 *ac yn marw.* 31 *Gwanu ei ystlys ef.* 38 *Joseph a Nicodemus yn ei gladdu ef.*

YNA gan hynny y cymmerodd Pilat yr Iesu, ac a'i fflangellodd *ef.*

2 A'r milwyr a blethasant goron o ddrain, ac a'i gosodasant ar ei ben ef, ac a roisant wisg o borphor am dano;

3 Ac a ddywedasant, Henffych well, Brenhin yr Iuddewon; ac a roisant iddo gernodiau.

4 Pilat gan hynny a aeth allan drachefn, ac a ddywedodd wrthynt,

Wele, yr wyf fi yn ei ddwyn ef allan i chwi, fel y gwypoch nad wyf fi yn cael ynddo ef un bai.

5 Yna y daeth yr Iesu allan, yn arwain y goron ddrain, a'r wisg borphor. A *Philat* a ddywedodd wrthynt, Wele y dyn.

6 Yna yr arch-offeiriaid a'r swyddogion, pan welsant ef, a lefasant, gan ddywedyd, Croeshoelia, croeshoelia *ef*. Pilat a ddywedodd wrthynt, Cymmerwch chwi ef, a chroeshoeliwch: canys nid wyf fi yn cael dim bai ynddo.

7 Yr Iuddewon a attebasant iddo, Y mae gennym ni gyfraith, ac wrth ein cyfraith ni efe a ddylai farw, am iddo ei wneuthur ei hun yn Fab Duw.

8 ¶ A phan glybu Pilat yr ymadrodd hwnnw, efe a ofnodd yn fwy;

9 Ac a aeth drachefn i'r dadleudy, ac a ddywedodd wrth yr Iesu, O ba le yr wyt ti? Ond ni roes yr Iesu atteb iddo.

10 Yna Pilat a ddywedodd wrtho, Oni ddywedi di wrthyf fi? oni wyddost ti fod gennyf awdurdod i'th groeshoelio di, a bod gennyf awdurdod i'th ollwng yn rhydd?

11 Yr Iesu a attebodd, Ni byddai i ti ddim awdurdod arnaf fi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti oddi uchod: am hynny yr hwn a'm traddodes i ti, sydd fwy ei bechod.

12 O hynny allan y ceisiodd Pilat ei ollwng ef yn rhydd: ond yr Iuddewon a lefasant, gan ddywedyd, Os gollyngi di hwn yn rhydd, nid wyt ti yn garedig i Cesar. Pwy bynnag a'i gwnelo ei hun yn frenhin, y mae yn dywedyd yn erbyn Cesar.

13 Yna Pilat, pan glybu yr ymadrodd hwn, a ddug allan yr Iesu; ac a eisteddodd ar yr orseddfainge, yn y lle a elwir y Palmant, ac yn Hebraeg, Gabbatha.

14 A darpar-wyl y pasc oedd hi, ac ynghylch y chweched awr: ac efe a ddywedodd wrth yr Iuddewon, Wele eich Brenhin.

15 Eithr hwy a lefasant, Ymaith âg *ef*, ymaith âg *ef*, croeshoelia ef. Pilat a ddywedodd wrthynt, A groeshoeliaf fi eich Brenhin chwi? A'r arch-offeiriaid a attebasant, Nid oes i ni frenhin ond Cesar.

16 Yna gan hynny efe a'i traddodes ef iddynt i'w groeshoelio. A hwy a gymmerasant yr Iesu, ac a'i dygasant ymaith.

17 Ac efe gan ddwyn ei groes, a ddaeth i le a elwid Lle y benglog, ac a elwir yn Hebraeg, Golgotha:

18 Lle y croeshoeliasant ef, a dau eraill gyd âg ef, un o bob tu, a'r Iesu yn y canol.

19 ¶ A Philat a ysgrifenodd deitl, ac a'i dododd ar y groes. A'r ysgrifen oedd, IESU O NASARETH, BRENHIN YR IUDDEWON.

20 Y teitl hwn gan hynny a ddarllenodd llawer o'r Iuddewon; oblegid agos i'r ddinas oedd y fan lle y croeshoeliwyd yr Iesu: ac yr oedd wedi ei ysgrifenu yn Hebraeg, Groeg, *a* Lladin.

21 Yna arch-offeiriaid yr Iuddewon a ddywedasant wrth Pilat, Nac ysgrifena, Brenhin yr Iuddewon; eithr dywedyd o hono ef, Brenhin yr Iuddewon ydwyf fi.

22 Pilat a attebodd, Yr hyn a ysgrifenais, a ysgrifenais.

23 ¶ Yna y milwyr, wedi iddynt groeshoelio yr Iesu, a gymmerasant ei ddillad ef, ac a wnaethant bedair rhan, i bob milwr ran; a'i bais *ef:* a'i bais ef oedd ddiwnïad, wedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll.

24 Hwythau a ddywedasant wrth eu gilydd, Na thorrwn hi, ond bwriwn goelbrennau am dani, eiddo pwy fydd hi: fel y cyflawnid yr ysgrythyr sydd yn dywedyd, Rhannasant fy nillad yn eu mysg, ac am fy mhais y bwriasant goelbrennau. A'r milwyr a wnaethant y pethau hyn.

25 ¶ Ac yr oedd yn sefyll wrth groes yr Iesu, ei fam ef, a chwaer ei fam ef, Mair *gwraig* Cleophas, a Mair Magdalen.

26 Yr Iesu gan hynny, pan weloddi ei fam, a'r disgybl yr hwn a garai efe yn sefyll ger llaw, a ddywedodd wrth ei fam, *O* wraig, wele dy fab.

27 Gwedi hynny y dywedodd wrth y disgybl, Wele dy fam. Ac o'r awr honno allan y cymmerodd y disgybl hi i'w gartref.

28 ¶ Wedi hynny yr Iesu, yn

gwybod fod pob peth wedi ei orphen weithian, fel y cyflawnid yr ysgrythyr, a ddywedodd, Y mae syched arnaf.

29 Yr oedd gan hynny lestr wedi ei osod yn llawn o finegr; a hwy a lanwasant yspwng o finegr, ac a'i rhoddasant ynghylch isop, ac a'i dodasant wrth ei enau ef.

30 Yna pan gymmerodd yr Iesu y finegr, efe a ddywedodd, Gorphenwyd: a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fyny yr yspryd.

31 Yr Iuddewon gan hynny, fel nad arhoai y cyrph ar y groes ar y Sabbath, o herwydd ei bod yn ddarpar-wyl, (canys mawr oedd y dydd Sabbath hwnnw,) a ddeisyfasant ar Pilat gael torri eu hesgeiriau hwynt, a'u tynnu i lawr.

32 Yna y milwyr a ddaethant, ac a dorrasant esgeiriau y cyntaf, a'r llall, yr hwn a groeshoeliasid gyd âg ef.

33 Eithr wedi iddynt ddyfod at yr Iesu, pan welsant ef wedi marw eisoes, ni thorrasant ei esgeiriau ef.

34 Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys ef â gwaywffon: ac yn y fan daeth allan waed a dwfr.

35 A'r hwn a'i gweloddd, a dystiolaethodd; a gwir yw ei dystiolaeth: ac efe a ŵyr ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwi.

36 Canys y pethau hyn a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr ysgrythyr, Ni thorrir asgwrn o hono.

37 A thrachefn, ysgrythyr arall sydd yn dywedyd, Hwy a edrychant ar yr hwn a wanasant.

38 ¶ Ac ar ol hyn, Joseph o Arimathea (yr hwn oedd ddisgybl i'r Iesu, eithr yn guddiedig, rhag ofn yr Iuddewon) a ddeisyfodd ar Pilat, gael tynnu i lawr gorph yr Iesu: a Philat a ganiattaodd iddo. Yna y daeth efe ac a ddug ymaith gorph yr Iesu.

39 A daeth Nicodemus hefyd, (yr hwn ar y cyntaf a ddaethai at yr Iesu o hyd nos,) ac a ddug fyr ac aloes y'nghymmysg, tu a chan pwys.

40 Yna y cymmerasant gorph yr Iesu, ac a'i rhwymasant mewn llïeiniau, gyd âg aroglau, fel y mae arfer yr Iuddewon ar gladdu.

41 Ac yn y fangre lle y croeshoeliasid ef, yr oedd gardd; a bedd newydd yn yr ardd, yn yr hwn ni ddodasid dyn erioed.

42 Ac yno, rhag nesed oedd darpar-*wyl* yr Iuddewon, am fod y bedd hwnnw yn agos, y rhoddasant yr Iesu.

PENNOD 20.

1 Mair yn dyfod at y bedd, 3 a Phedr hefyd ac Ioan, heb wybod adgyfodi o'r Iesu. 11 Yr Iesu yn ymddangos i Mair Magdalen, 19 ac i'w ddisgyblion. 24 Anghrediniaeth a chyffes Thomas. 30 Bod yr ysgrythyr tân yn ddigonol i iachawdwriaeth.

Y *DYDD* cyntaf o'r wythnos, Mair Magdalen a ddaeth y bore, a hi etto yn dywyll, at y bedd; ac a welodd y maen wedi ei dynnu ymaith oddi ar y bedd.

2 Yna y rhedodd hi, ac a ddaeth at Simon Pedr, a'r disgybl arall yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu, ac a ddywedodd wrthynt, Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith o'r bedd, ac ni wyddom ni pa le y dodasant ef.

3 Yna Pedr a aeth allan, a'r disgybl arall, a *hwy* a ddaethant at y bedd;

4 Ac a redasant ill dau ynghyd: a'r disgybl arall a redodd o'r blaen yn gynt na Phedr, ac a ddaeth yn gyntaf at y bedd.

5 Ac wedi iddo grymmu, efe a ganfu y llïeiniau wedi eu gosod: er hynny nid aeth efe i mewn.

6 Yna y daeth Simon Pedr yn ei ganlyn ef, ac a aeth i mewn i'r bedd, ac a ganfu y llïeiniau wedi eu gosod;

7 A'r napcyn a fuasai am ei ben ef, wedi ei osod, nid gyd â'r llïeiniau, ond o'r neilldu wedi ei blygu mewn lle arall.

8 Yna yr aeth y disgybl arall hefyd i mewn, yr hwn a ddaethai yn gyntaf at y bedd; ac a welodd, ac a gredodd.

9 Canys hyd yn hyn ni wyddent yr ysgrythyr, fod yn rhaid iddo gyfodi o feirw.

10 Yna y disgyblion a aethant ymaith drachefn at yr eiddynt.

11 ¶ Ond Mair a safodd wrth y bedd oddi allan, yn wylo: ac fel yr oedd hi yn wylo, hi a ymostyngodd i'r bedd

12 Ac a ganfu ddau angel mewn *gwisgoedd* gwynion, yn eistedd, un wrth ben, ac un wrth draed y lle y dodasid corph yr Iesu.
13 A hwy a ddywedasant wrthi, *O* wraig, paham yr wyt ti yn wylo? Hithau a ddywedodd wrthynt, Am ddwyn o honynt hwy fy Arglwydd i ymaith, ac nas gwn pa le y dodasant ef.
14 Ac wedi dywedyd o honi hyn, hi a droes drach ei chefn, ac a welodd yr Iesu yn sefyll: ac nis gwyddai *hi* mai yr Iesu oedd efe.
15 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, *O* wraig, paham yr wyt ti yn wylo? pwy yr wyt ti yn ei geisio? Hithau, yn tybied mai y garddwr oedd efe, a ddywedodd wrtho, Syr, os tydi a'i dygaist ef, dywed i mi pa le y dodaist ef, a myfi a'i cymmeraf ef ymaith.
16 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Mair. Hithau a droes, ac a ddywedodd wrtho, Rabboni; yr hyn yw dywedyd, Athraw.
17 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Na chyffwrdd â mi; oblegid ni ddyrchefais i etto at fy Nhad: eithr dos at fy mrodyr, a dywed wrthynt, Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, a'm Duw i a'ch Duw chwithau.
18 Mair Magdalen a ddaeth ac a fynegodd i'r disgyblion, weled o honi hi yr Arglwydd, a dywedyd o hono y pethau hyn iddi.
19 ¶ Yna, a hi yn hwyr y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, a'r drysau yn gauad lle yr oedd y disgyblion wedi ymgasglu ynghyd rhag ofn yr Iuddewon, daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi.
20 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangosodd iddynt *ei* ddwylaw a'i ystlys. Yna y disgyblion a lawenychasant pan welsant yr Arglwydd.
21 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt drachefn, Tangnefedd i chwi: megis y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi.
22 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a anadlodd *arnynt*, ac a ddywedodd wrthynt, Derbyniwch yr Ysbryd Glân.
23 Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt; a'r eiddo pwy bynnag a attalioch, hwy a attaliwyd.
24 ¶ Eithr Thomas, un o'r deudeg, yr hwn a elwir Didymus, nid oedd gyd â hwynt pan ddaeth yr Iesu.
25 Y disgyblion eraill gan hynny a ddywedasant wrtho, Ni a welsom yr Arglwydd. Yntau a ddywedodd wrthynt, Oni châf weled yn ei ddwylaw ef ôl yr hoelion, a dodi fy mys yn ôl yr hoelion, a dodi fy llaw yn ei ystlys ef, ni chredaf fi.
26 ¶ Ac wedi wyth niwrnod drachefn yr oedd ei ddisgyblion ef i mewn, a Thomas gyd â hwynt. Yna yr Iesu a ddaeth, a'r drysau yn gauad, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd, Tangnefedd i chwi.
27 Wedi hynny y dywedodd efe wrth Thomas, Moes yma dy fys, a gwel fy nwylaw; ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys: ac na fydd anghredadyn, ond credadyn.
28 A Thomas a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Fy Arglwydd a'm Duw.
29 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Am i ti fy ngweled, Thomas, y credaist: bendigedig *yw* y rhai ni welsant, ac a gredasant.
30 ¶ A llawer hefyd o arwyddion eraill a wnaeth yr Iesu y'ngŵydd ei ddisgyblion, y rhai nid ydynt ysgrifenedig yn y llyfr hwn.
31 Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd, fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef.

PENNOD 21.

1 *Ei ddisgyblion yn adnabod Crist ar et ailymddangosiad, wrth y ddalfa fawr o bysgod:* 12 *ymtau yn ciniawa gyd â hwynt:* 15 *yn rhoddi gorchymyn mawr ar Pedr, i borthi ei ŵyn ef a'i ddefaid:* 18 *yn ei rybuddio ef o'i farwolaeth:* 22 *yn cerydda ei brysurdeb ef ynghylch Ioan.* 25 *Y diben.*

GWEDI y pethau hyn, yr Iesu a ymddangosodd drachefn i'w ddisgyblion wrth fôr Tiberias: ac fel hyn yr ymddangosodd.
2 Yr oedd ynghyd Simon Pedr, a Thomas yr hwn a elwir Didymus, a Nathanäel o Cana yn Galilea, a *meibion* Sebedëus, a dau eraill o'i ddisgyblion ef.

3 Dywedodd Simon Pedr wrthynt, Yr wyf fi yn myned i bysgotta. Dywedasant wrtho, Yr ydym ninnau hefyd yn dyfod gyd â thi. A hwy a aethant allan, ac a ddringasant i long yn y man: a'r nos honno ni ddaliasant ddim.

4 A phan ddaeth y bore weithian, safodd yr Iesu ar y lan: eithr y disgyblion ni wyddent mai yr Iesu ydoedd.

5 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, *O* blant, a oes gennych ddim bwyd? Hwythau a attebasant iddo, Nac oes.

6 Yntau a ddywedodd wrthynt, Bwriwch y rhwyd i'r tu dehau i'r llong, a chwi a gewch. Hwy a fwriasant gan hynny; ac ni allent bellach ei thynnu, gan y lliaws pysgod.

7 Am hynny y disgybl hwnnw yr oedd yr Iesu yn ei garu a ddywedodd wrth Pedr, Yr Arglwydd yw. Yna Simon Pedr, pan glybu mai yr Arglwydd oedd, a wregysodd *ei* amwisg, (canys noeth oedd efe,) ac a'i bwriodd ei hun i'r môr.

8 Eithr y disgyblion eraill a ddaethant mewn llong, (oblegid nid oeddynt bell oddi wrth dir, ond megis dau can cufydd,) dan lusgo y rhwyd â'r pysgod.

9 A chyn gynted ag y daethant i dir, hwy a welent dân o farwor wedi ei osod, a physgod wedi eu dodi arno, a bara.

10 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Dygwch o'r pysgod a ddaliasoch yr awr hon.

11 Simon Pedr a esgynodd, ac *a* dynnodd y rhwyd i dir, yn llawn o bysgod mawrion, cant a thri ar ddeg a deugain: ac er bod cymmaint, ni thorrodd y rhwyd.

12 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Deuwch, ciniawwch. Eithr ni feiddiai neb o'r disgyblion ofyn iddo, Pwy wyt ti? am eu bod yn gwybod mai yr Arglwydd oedd.

13 Yna y daeth yr Iesu, ac a gymmerth fara, ac a'i rhoddes iddynt, a'r pysgod yr un modd.

14 Y drydedd waith hon yn awr yr ymddangosodd yr Iesu i'w ddisgyblion, wedi iddo gyfodi o feirw.

15 ¶ Yna gwedi iddynt giniawa, yr Iesu a ddywedodd wrth Simon Pedr, Simon *mab* Jona, a wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn? Dywedodd yntau wrtho, Ydwyf, Arglwydd; ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntau wrtho, Portha fy ŵyn.

16 Efe a ddywedodd wrtho drachefn yr ail waith, Simon *mab* Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? Dywedodd yntau wrtho, Ydwyf, Arglwydd; ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntau wrtho, Bugeilia fy nefaid.

17 Efe a ddywedodd wrtho y drydedd waith, Simon *mab* Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? Pedr a dristaodd am iddo ddywedyd wrtho y drydedd waith, A wyt ti yn fy ngharu i? Ac efe a ddywedodd wrtho, Arglwydd, ti a wyddost bob peth; ti a wyddost fy mod i yn dy garu di. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Portha fy nefaid.

18 Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Pan oeddit ieuangc, ti a'th wregysaist dy hun, ac a rodiaist lle y mynnaist: eithr pan elech yn hen, ti a estyni dy ddwylaw, ac arall a'th wregysa, ac a'th arwain lle ni fynnit.

19 A hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo trwy ba fath angau y gogoneddai efe Dduw. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddywedodd wrtho, Canlyn fi.

20 ¶ A Phedr a drodd, ac a welodd y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu, yn canlyn, (yr hwn hefyd a bwysasai ar ei ddwyfron ef, ar swpper, ac a ddywedasai, Pwy, Arglwydd, yw yr hwn a'th fradycha di?)

21 Pan welodd Pedr hwn, efe a ddywedodd wrth yr Iesu, Arglwydd, ond beth *a wna* hwn?

22 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth *yw hynny* i ti? canlyn di fyfi.

23 Am hynny yr aeth y gair yma allan ym mhlith y brodyr, na fyddai y disgybl hwnnw farw: ac ni ddywedasai yr Iesu wrtho na fyddai efe farw; ond, Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth *yw hynny* i ti?

24 Hwn yw y disgybl sydd yn tystiolaethu am y pethau hyn, ac a ysgrifenodd y pethau hyn; ac ni a wyddom fod ei dystiolaeth ef yn wir.

25 Ac y mae hefyd lawer o bethau eraill a wnaeth yr Iesu, y rhai ped ysgrifenid hwy bob yn un ac un, nid wyf yn tybied y cynhwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid. Amen.

ACTAU,

NEU

WEITHREDOEDD YR APOSTOLION SANCTAIDD.

PENNOD 1.

1 *Crist, er mwyn parottôi ei apostolion i weled ei ddyrchafiad ef, yn eu casglu hwy ynghyd i fynydd yr Olew-wydd; ac yn gorchymyn iddynt ddisgwyli yn Jerusalem am ddanfon yr Ysbryd Glân; ac yn addaw cyn nemmawr o ddyddiau ei anfon ef; trwy rinwedd yr hwn y bydd ynt yn dystion iddo ef hyd eithafoedd y ddaear.* 9 *Ar ol ei ymddyrchafiad ef, y mae dau angel yn eu rhybuddio hwy i ymadael, ac i roddi eu meddyliau ar ei ail-ddyfodiad ef.* 12 *Hwythau felly yn dychwelyd; a chan ymrôi i weddi, yn dewis Matthias yn apostol yn lle Judas.*

Y TRAETHAWD cyntaf a wneuthum, O Theophilus, am yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu,

2 Hyd y dydd y derbyniwyd ef i fyny, wedi iddo trwy yr Ysbryd Glân roddi gorchymynion i'r apostolion a etholasai:

3 I'r rhai hefyd yr ymddangosodd efe yn fyw wedi iddo ddioddef, trwy lawer o arwyddion sicr; gan fod yn weledig iddynt dros ddeugain niwrnod, a dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw.

4 Ac wedi ymgynnull gyd â hwynt, efe a orchymynodd iddynt nad ymadawent o Jerusalem, eithr disgwyl am addlewid y Tad, yr hwn, *eb efe*, a glywsoch gennyf fi.

5 Oblegid Ioan yn ddïau a fedyddiodd â dwfr; ond chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân, cyn nemmawr o ddyddiau.

6 Gan hynny wedi eu dyfod hwy ynghyd, hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, ai y pryd hwn y rhoddi drachefn y frenhiniaeth i Israel?

7 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun.

8 Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd Glân wedi y delo efe arnoch; ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear.

9 Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, a hwynt-hwy yn edrych, efe a ddyrchafwyd i fyny; a chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt.

10 Ac fel yr oeddynt yn edrych yn ddyfal tu a'r nef, ac efe yn myned i fyny, wele, dau ŵr a safodd ger llaw iddynt mewn gwisg wen;

11 Ŷ rhai hefyd a ddywedasant, Chwi wŷr o Galilea, paham y sefwch yn edrych tu a'r nef? yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fyny oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef.

12 Yna y troisant i Jerusalem, o'r mynydd a elwir Olew-wydd, yr hwn sydd yn agos i Jerusalem, *sef* taith *diwrnod* Sabbath.

13 Ac wedi eu dyfod i mewn, hwy a aethant i fyny i oruwch-ystafell, lle yr oedd Pedr, ac Iago, ac Ioan, ac Andreas, Phylip, a Thomas, Bartholomew, a Matthew, Iago *mab* Alphëus, a Simon Selotes, a Judas *brawd* Iago, yn aros.

14 Y rhai hyn oll oedd yn parhâu yn gyttûn mewn gweddi ac ymbil,

gyd â'r gwragedd, a Mair mam yr Iesu, a chyd â'i frodyr ef.

15 ¶ Ac yn y dyddiau hynny Pedr a gyfododd i fyny y'nghanol y disgyblion, ac a ddywedodd, (a nifer yr enwau yn yr un man oedd ynghylch ugain a chant,)

16 *Ha* wŷr frodyr, yr oedd yn rhaid cyflawni yr ysgrythyr yma a rag-ddywedodd yr Ysprid Glân trwy enau Dafydd am Judas, yr hwn a fu flaenor i'r rhai a ddaliasant yr Iesu:

17 Canys efe a gyfrifwyd gyd â ni, ac a gawsai ran o'r weinidogaeth hon.

18 A hwn a bwrcasodd faes â gwobr anwiredd; ac wedi ymgrogi, a dorrodd yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ef a dywalltwyd allan.

19 A bu hysbys hyn i holl breswylwyr Jerusalem, hyd oni elwir y maes hwnnw yn eu tafod priodol hwy, Aceldama, hynny yw, Maes y gwaed.

20 Canys ysgrifenwyd yn llyfr y Psalmau, Bydded ei drigfan ef yn ddiffaethwch, ac na bydded a drigo ynddi: a chymmered arall ei esgobaeth ef.

21 Am hynny y mae yn rhaid, o'r gwŷr a fu yn cydymdaith â ni yr holl amser yr aeth yr Arglwydd Iesu i mewn ac allan yn ein plith ni,

22 Gan ddechreu o fedydd Ioan hyd y dydd y cymmerwyd ef i fyny oddi wrthym ni, bod un o'r rhai hyn gyd â ni yn dyst o'i adgyfodiad ef.

23 A hwy a osodasant ddau ger bron, Joseph, yr hwn a enwid Barsabas, ac a gyfenwid Justus, a Matthias.

24 A chan weddïo, hwy a ddywedasant, Tydi, Arglwydd, yr hwn a wyddost galonnau pawb, dangos pa un o'r ddau hyn a etholaist,

25 I dderbyn rhan o'r weinidogaeth hon, a'r apostoliaeth, o'r hon y cyfeiliornodd Judas, i fyned i'w le ei hun.

26 A hwy a fwriasant eu coelbrennau hwynt: ac ar Matthias y syrthiodd y coelbren; ac efe a gyfrifwyd gyd â'r un apostol ar ddeg.

PENNOD 2.

1 *Yr apostolion, wedi eu llenwi â'r Ysprid Glân, yn llefaru âg amryw dafodau; a rhai yn rhyfeddu o'u plegid; ac eraill yn eu gwatwar:* 14 *a Phedr yn eu hargyhoeddi hwy, ac yn dangos fod yr apostolion yn llefaru trwy nerth yr Ysprid Glân; a bod yr Iesu wedi cyfodi oddi wrth y metrau, a dyrchafu i'r nefoedd; a thyncallt o hono yr Ysprid Glân; ac mai efe oedd y Messias, gŵr a wyddent hwy ei fod yn brofedig gan Ddduw, trwy ei wyrthiau, a'i ryfeddodau, a'i arwyddion; a chwedi ei groesholio, nid heb ci derfynedig gynghor a'i ragwybodaeth ef.* 37 *Pedr yn bedyddio llawer o'r rhai a drosiaid:* 41 *y rhai wedi hynny sydd yn cyttal yn ddiwiol ac yn gariadus. Yr apostolion yn gwneuthur gwyrthiau lawer; a Duw beunydd yn chwanegu ei eglwys.*

AC wedi dyfod dydd y Pentecost, yr oeddynt hwy oll yn gyttûn yn yr un lle.

2 Ac yn ddisymmwth y daeth swn o'r nef, megis gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd.

3 Ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megis o dân, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt.

4 A hwy oll a lanwyd â'r Ysprid Glân, ac a ddechreuasant lefaru â thafodau eraill, megis y rhoddes yr Ysprid iddynt ymadrodd.

5 Ac yr oedd yn trigo yn Jerusalem, Iuddewon, gwŷr bucheddol, o bob cenedl dan y nef.

6 Ac wedi myned y gair o hyn, daeth y lliaws ynghyd, ac a drallodwyd, o herwydd bod pob un yn eu clywed hwy yn llefaru yn ei iaith ei hun.

7 Synnodd hefyd ar bawb, a rhyfeddu a wnaethant, gan ddywedyd wrth eu gilydd, Wele, onid Galileaid yw y rhai hyn oll sydd yn llefaru?

8 A pha fodd yr ydym ni yn eu clywed hwynt bob un yn ein hiaith ein hun, yn yr hon y'n ganed ni?

9 Parthiaid, a Mediaid, ac Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, a Judea, a Chappadocia, Pontus, ac Asia,

10 Phrygia, a Phamphylia, yr Aipht, a pharthau Libya, yr hon sydd ger llaw Cyrene, a dïeithriaid o Rufeinwyr, Iuddewon, a phroselytiaid,

11 Cretiaid, ac Arabiaid, yr ydym ni yn eu clywed hwynt yn llefaru yn ein hiaith ni fawrion weithred oedd Duw.

12 A synnasant oll, ac a ammheu-
asant, gan ddywedyd y naill wrth
y llall, Beth a all hyn fod?
13 Ac eraill, gan watwar, a ddywed-
asant, Llawn o win melus ydynt.
14 ¶ Eithr Pedr, yn sefyll gyd â'r
un ar ddeg, a gyfododd ei leferydd,
ac a ddywedodd wrthynt, *O* wŷr o
Iuddewon, a chwi oll sydd yn trigo
yn Jerusalem, bydded hysbysol hyn
i chwi, a chlust-ymwrandêwch â'm
geiriau:
15 Canys nid yw y rhai hyn yn
feddwon, fel yr ydych chwi yn
tybied; oblegid y drydedd awr o'r
dydd yw hi.
16 Eithr hyn yw y peth a ddywed-
wyd trwy y prophwyd Joel;
17 A bydd yn y dyddiau diweddd-
af, medd Duw, y tywalltaf o'm
Hyspryd ar bob cnawd: a'ch meib-
ion chwi a'ch merched a bro-
phwydant, a'ch gwŷr ieuainge a
welant weledigaethau, a'ch hyn-
afgwyr a freuddwydiant freudd-
wydion:
18 Ac ar fy ngweision ac ar fy
llaw-forwynion y tywalltaf o'm Hys-
pryd yn y dyddiau hynny; a hwy
a brophwydant:
19 A mi a roddaf ryfeddodau yn
y nef uchod, ac arwyddion yn y
ddaear isod; gwaed, a thân, a tharth
mwg.
20 Yr haul a droir yn dywyllwch,
a'r lloer yn waed, cyn i ddydd
mawr ac eglur yr Arglwydd ddy-
fod.
21 A bydd, pwy bynnag a alwo
ar enw yr Arglwydd, a fydd gadw-
edig.
22 *Ha* wŷr Israel, clywch y geir-
iau hyn; Iesu o Nasareth, gŵr
profedig gan Dduw yn eich plith
chwi, trwy nerthoedd a rhyfeddod-
au ac arwyddion, y rhai a wnaeth
Duw trwyddo ef yn eich canol chwi,
megis ag y gwyddoch chwithau:
23 Hwn, wedi ei roddi trwy der-
fynedig gynghor a rhag-wybod-
aeth Duw, a gymmerasoch chwi,
a thrwy ddwylaw anwir a groes-
hoeliasoch, ac a laddasoch:
24 Yr hwn a gyfododd Duw, gan
ryddhâu gofidiau angau: canys nid
oedd bosibl ei attal ef ganddo.
25 Canys Dafydd sydd yn dywed-
yd am dano, Rhag-welais yr Ar-
glwydd ger fy mron yn wastad;
canys ar fy neheulaw y mae, fel
na'm hysgoger.
26 Am hynny y llawenychodd fy
nghalon, ac y gorfoleddodd fy nha-
fod; ïe, a'm cnawd hefyd a orphwys
mewn gobaith:
27 Am na adewi fy enaid yn
uffern, ac na oddefi i'th Sanct weled
llygredigaeth.
28 Gwnaethost yn hysbys i mi
ffyrdd y bywyd: ti a'm cyflawni o
lawenydd â'th wynebpryd.
29 *Ha* wŷr frodyr, y mae yn rhydd
i mi ddywedyd yn hyf wrthych am
y patriarch Dafydd, ei farw ef a'i
gladdu, ac y mae ei feddrod ef gyd
â ni hyd y dydd hwn.
30 Am hynny, ac efe yn bro-
phwyd, yn gwybod dyngu o Dduw
iddo trwy lw, Mai o ffrwyth ei
lwynau ef o ran y cnawd, y cyfod-
ai efe Grist i eistedd ar ei orsedd-
fa ef:
31 Ac efe yn rhag-weled, a lefar-
odd am adgyfodiad Crist, na adaw-
yd ei enaid ef yn uffern, ac nas
gwelodd ei gnawd ef lygredigaeth.
32 Yr Iesu hwn a gyfododd Duw
i fyny; o'r hyn yr ydym ni oll yn
dystion.
33 Am hynny, wedi ei ddyrchafu
ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo
dderbyn gan y Tad yr addewid o'r
Ysbryd Glân, efe a dywalltodd y
peth yma yr ydych chwi yr awr hon
yn ei weled ac yn ei glywed.
34 Oblegid ni ddyrchafodd Da-
fydd i'r nefoedd: ond y mae efe yn
dywedyd ei hun, Yr ARGLWYDD
a ddywedodd wrth fy Arglwydd,
Eistedd ar fy neheulaw,
35 Hyd oni osodwyf dy elynion yn
droedfainge i'th draed.
36 Am hynny gwybydded holl dŷ
Israel yn ddïogel, ddarfod i Dduw
wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist,
yr Iesu hwn a groeshoeliasoch
chwi.
37 ¶ Hwythau, wedi clywed *hyn*,
a ddwys-bigwyd yn eu calon, ac a
ddywedasant wrth Pedr, a'r apos-
tolion eraill, *Ha* wŷr frodyr, beth
a wnawn ni?
38 A Phedr a ddywedodd wrth-
ynt, Edifarhêwch, a bedyddier pob

un o honoch yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau; a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân.

39 Canys i chwi y mae yr addewid, ac i'ch plant, ac i bawb ym mhell, cynnifer ag a alwo yr Arglwydd ein Duw ni atto.

40 Ac â llawer o ymadroddion eraill y tystiolaethodd ac y cynghorodd efe, gan ddywedyd, Ymgedwch rhag y genhedlaeth drofaus hon.

41 ¶ Yna y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar a fedyddiwyd; a chwanegwyd *attynt* y dwthwn hwnnw ynghylch tair mil o eneidiau.

42 Ac yr oeddynt yn parhâu yn athrawiaeth ac y'nghymdeithas yr apostolion, ac yn torri bara, ac mewn gweddïau.

43 Ac ofn a ddaeth ar bob enaid: a llawer o ryfeddodau ac arwyddion a wnaethpwyd gan yr apostolion.

44 A'r rhai a gredent oll oeddynt yn yr un man, a phob peth ganddynt yn gyffredin;

45 A *hwy* a werthasant eu meddiannau a'u dâ, ac a'u rhannasant i bawb, fel yr oedd yr eisieu ar neb.

46 A hwy beunydd yn parhâu yn gyttûn yn y deml, ac yn torri bara o dŷ i dŷ, a gymmerasant eu lluniaeth mewn llawenydd a symledd calon,

47 Gan foli Duw, a chael ffafr gan yr holl bobl. A'r Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr eglwys y rhai fyddent gadwedig.

PENNOD 3.

1 *Pedr, wrth bregethu i'r bobl a ddaethai i weled y cloff a roisid ar ei draed,* 12 *yn proffesu nad trwy ei rym a'i ddiwioldeb ef neu Ioan y gwnaethid ef yn iach; ond trwy Dduw, a'i Fab Iesu, a thrwy ffydd yn ei enw ef:* 13 *gan eu ceryddu hwy hefyd am groeshoelio yr Iesu;* 17 *yr hwn beth gan iddynt ei wneuthur mewn anwybod, ac wrth hynny cyflawni ceryfnedig gynghor Duw, a'r ysgrythyrau,* 19 *y mae efe yn eu hannog hwy, trwy edifeirwch a ffydd, i geisio maddeuant o'u pechodau, a iachawdwriaeth yn yr unrhyw Iesu.*

PEDR hefyd ac Ioan a aethant i fyny i'r deml ynghyd ar yr awr weddi, *sef* y nawfed.

2 A rhyw ŵr cloff o groth ei fam a ddygid, yr hwn a ddodent beunydd wrth borth y deml, yr hwn a elwid Prydferth, i ofyn elusen gan y rhai a elai i mewn i'r deml.

3 Yr hwn, pan welodd efe Pedr ac Ioan ar fedr myned i mewn i'r deml, a ddeisyfodd gael elusen.

4 A Phedr yn dal sylw arno, gyd âg Ioan, a ddywedodd, Edrych arnom ni.

5 Ac efe a ddaliodd sylw arnynt, gan obeithio cael rhyw beth ganddynt.

6 Yna y dywedodd Pedr, Arian ac aur nid oes gennyf; eithr yr hyn sydd gennyf, *hynny* yr wyf yn ei roddi i ti: Yn enw Iesu Grist o Nasareth, cyfod a rhodia.

7 A chan ei gymmeryd ef erbyn ei ddeheulaw, efe a'*i* cyfododd *ef* i fyny; ac yn ebrwydd ei draed *ef* a'i fferau a gadarnhâwyd.

8 A chan neidio i fyny, efe a safodd, ac a rodiodd, ac a aeth gyd â hwynt i'r deml, dan rodio, a neidio, a moli Duw.

9 A'r holl bobl a'i gwelodd ef yn rhodio, ac yn moli Duw.

10 Ac yr oeddynt hwy yn ei adnabod, mai hwn oedd yr un a eisteddai am elusen wrth borth Prydferth y deml: a hwy a lanwyd o fraw a synnedigaeth am y peth a ddigwyddasai iddo.

11 Ac fel yr oedd y cloff a iachasid yn attal Pedr ac Ioan, yr holl bobl yn frawychus a gyd-redodd attynt i'r porth a elwir *Porth* Solomon.

12 ¶ A phan welodd Pedr, efe a attebodd i'r bobl, *Ha* wŷr Israeliaid, beth a wnewch chwi yn rhyfeddu am hyn? neu beth a wnewch chwi yn dal sylw arnom ni, fel pe trwy ein nerth ein hun neu *ein* duwioldeb y gwnaethem i hwn rodio?

13 Duw Abraham, ac Isaac, a Jacob, Duw ein tadau ni, a ogoneddodd ei Fab Iesu, yr hwn a draddodasoch chwi, ac a'i gwadasoch ger bron Pilat, pan farnodd efe *ef* i'*w* ollwng yn rhydd.

14 Eithr chwi a wadasoch y Sanct a'r Cyfiawn, ac a ddeisyfasoch roddi i chwi ŵr llofruddiog;

15 A Thywysog y bywyd a laddasoch, yr hwn a gododd Duw o feirw; o'r hyn yr ydym ni yn dystion.

16 A'i enw ef, trwy ffydd yn ei enw ef, a nerthodd y dyn yma, a

welwch ac a adwaenoch chwi: a'r ffydd yr hon sydd trwyddo ef, a roes iddo ef yr holl iechyd hwn yn eich gŵydd chwi oll.

17 Ac yn awr, frodyr, mi a wn mai trwy anwybod y gwnaethoch, megis y *gwnaeth* eich pendefigion chwi hefyd.

18 Eithr y pethau a rag-fynegodd Duw trwy enau ei holl brophwydi, y dïoddefai Crist, a gyflawnodd efe fel hyn.

19 ¶ Edifarhêwch gan hynny, a dychwelwch, fel y dileer eich pechodau, pan ddelo yr amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd;

20 Ac yr anfono efe Iesu Grist, yr hwn a bregethwyd o'r blaen i chwi:

21 Yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn, hyd amseroedd adferiad pob peth, y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei holl sanctaidd brophwydi erioed.

22 Canys Moses a ddywedodd wrth y tadau, Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi Brophwyd o'ch brodyr, megis myfi: arno ef y gwrandêwch ym mhob peth a ddywetto wrthych.

23 A bydd, pob enaid ni wrandawo ar y Prophwyd hwnnw, a lwyr-ddifethir o blith y bobl.

24 A'r holl brophwydi hefyd, o Samuel ac o'r rhai wedi, cynnifer ag a lefarasant, a rag-fynegasant hefyd am y dyddiau hyn.

25 Chwychwi ydych blant y prophwydi, a'r cyfammod yr hwn a wnaeth Duw â'n tadau ni, gan ddywedyd wrth Abraham, Ac yn dy had di y bendithir holl dylwythau y ddaear.

26 Duw, gwedi cyfodi ei Fab Iesu, a'i hanfonodd ef i chwi yn gyntaf, gan eich bendithio chwi, trwy droi pob un o honoch ymaith oddi wrth eich drygioni.

PENNOD 4.

1 *Llywodraethwyr yr Iuddewon yn anfoddlawn i bregeth Pedr,* 4 *er troi miloedd i'r ffydd o'r bobl a glywsent y gair, ac yn ei garcharu ef, ac Ioan:* 5 *wedi hynny Pedr, wrth ei holi, yn dywedyd yn hyderus, mai trwy enw yr Iesu yr iachasid y cleff;* ac mai trwy Iesu yn unig y bydd raid i ninnau gael iachawdwriaeth dragywyddol: 13 *hwythau yn gorchymyn iddo ef ac i Ioan, na phregethent mwyach yn yr enw hwnnw:* ac yn eu bygwth hwy: 23 *yr eglwys ar hynny yn ymrôl i weddio:* 31 *a Duw, trwy gynhyrfu y lle yr oeddynt wedi ymgynnull ynddo, yn tystiolaethu glywed o hono ef eu gweddi hwynt:* ac yn cadarnhau yr eglwys, trwy roddi yr Ysprryd Glân, a chariad perffaith tu ag at eu gilydd.

AC fel yr oeddynt yn llefaru wrth y bobl, yr offeiriaid, a blaenor y deml, a'r Saduceaid, a ddaethant arnynt hwy;

2 Yn flin ganddynt am eu bod hwy yn dysgu y bobl, ac yn pregethu trwy yr Iesu yr adgyfodiad o feirw.

3 A hwy a osodasant ddwylaw arnynt hwy, ac a'u dodasant mewn dalfa hyd drannoeth: canys yr oedd hi yn awr yn hwyr.

4 Eithr llawer o'r rhai a glywsant y gair a gredasant: a rhifedi y gwŷr a wnaed ynghylch pum mil.

5 ¶ A digwyddodd drannoeth ddarfod i'w llywodraethwyr hwy, a'r henuriaid, a'r ysgrifenyddion, ymgynnull i Jerusalem,

6 Ac Annas yr arch-offeiriad, a Chaiaphas, ac Ioan, ac Alexander, a chymmaint ag oedd o genedl yr arch-offeiriad.

7 Ac wedi iddynt eu gosod hwy yn y canol, hwy a ofynasant, Trwy ba awdurdod, neu ym mha enw, y gwnaethoch chwi hyn?

8 Yna Pedr, yn gyflawn o'r Ysprryd Glân, a ddywedodd wrthynt, *Chwychwi* bennaethiaid y bobl, a henuriaid Israel,

9 Od ydys yn ein holi ni heddyw am y weithred dda i'r dyn claf, *sef* pa wedd yr iachâwyd ef;

10 Bydded hysbys i chwi oll, ac i bawb o bobl Israel, mai trwy enw Iesu Grist o Nasareth, yr hwn a groeshoeliasoch chwi, yr hwn a gyfododd Duw o feirw, trwy hwnnw y mae hwn yn sefyll yn iach ger eich bron chwi.

11 Hwn yw y maen a lyswyd gennych chwi yr adeiladwyr, yr hwn a wnaed yn ben i'r gongl.

12 Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall: canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ym mhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig.

13 ¶ A phan welsant hyfder Pedr ac Ioan, a deall mai gwŷr anllythyrenog ac annysgedig oeddynt, hwy

a ryfeddasant; a hwy a'u hadwaenent, eu bod hwy gyd â'r Iesu.

14 Ac wrth weled y dyn a iachasïd yn sefyll gyd â hwynt, nid oedd ganddynt ddim i'w ddywedyd yn erbyn hynny.

15 Eithr wedi gorchymyn iddynt fyned allan o'r gynghorfa, hwy a ymgynghorasant â'u gilydd,

16 Gan ddywedyd, Beth a wnawn ni i'r dynion hyn? canys yn ddïau arwydd hynod a wnaed trwyddynt hwy, hysbys i bawb a'r sydd yn preswylio yn Jerusalem, ac nis gallwn ni *ei* wadu.

17 Eithr fel nas taener ym mhellach ym mhlith y bobl, gan fygwth bygythiwn hwy, na lefaront mwyach wrth un dyn yn yr enw hwn.

18 A hwy a'u galwasant hwynt, ac a orchymynasant iddynt nad ynganent ddim, ac na ddysgent yn enw yr Iesu.

19 Eithr Pedr ac Ioan a attebasant iddynt, ac a ddywedasant, Ai cyfiawn yw ger bron Duw, wrandaw arnoch chwi yn hytrach nag ar Dduw, bernwch chwi.

20 Canys ni allwn ni na ddywedom y pethau a welsom ac a glywsom.

21 Eithr wedi eu bygwth ym mhellach, hwy a'u gollyngasant hwy yn rhyddion, heb gael dim i'w cospi hwynt, oblegid y bobl: canys yr oedd pawb yn gogoneddu Duw am yr hyn a wnaethid.

22 Canys yr oedd y dyn uwchlaw deugain oed, ar yr hwn y gwnaethid yr arwydd hwn o iechydwriaeth.

23 ¶ A hwythau, wedi eu gollwng ymaith, a ddaethant at yr eiddynt, ac a ddangosasant yr holl bethau a ddywedasai yr arch-offeiriaid a'r henuriaid wrthynt.

24 Hwythau pan glywsant, o un fryd a gyfodasant eu llef at Dduw, ac a ddywedasant, *O* Arglwydd, tydi *yw y* Duw yr hwn a wnaethost y nef, a'r ddaear; a'r môr, ac oll sydd ynddynt;

25 Yr hwn trwy yr Ysbryd Glân, y'ngenau dy was Dafydd, a ddywedaist, Paham y terfysgodd y cenhedloedd, ac y bwriadodd y bobloedd bethau ofer?

26 Brenhinoedd y ddaear a safasant i fyny, a'r llywodraethwyr a ymgasglasant ynghyd, yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef.

27 Canys mewn gwirionedd, yn y ddinas hon yr ymgynhullodd yn erbyn dy Sanct Fab Iesu, yr hwn a enneiniaist ti, Herod a Phontius Pilat, gyd â'r Cenhedloedd, a phobl Israel,

28 I wneuthur pa bethau bynnag a ragluniodd dy law a'th gynghor di eu gwneuthur.

29 Ac yn awr, Arglwydd, edrych ar eu bygythion hwy, a chaniattâ i'th weision draethu dy air di gyd â phob hyfder;

30 Trwy estyn o honot dy law i iachâu, ac fel y gwneler arwyddion a rhyfeddodau trwy enw dy sanctaidd Fab Iesu.

31 ¶ Ac wedi iddynt weddïo, siglwyd y lle yr oeddynt wedi ymgynnull ynddo; a hwy a lanwyd oll o'r Ysbryd Glân, a hwy a lefarasant air Duw yn hyderus.

32 A lliaws y rhai a gredasant oedd o un galon, ac un enaid; ac ni ddywedodd neb *o honynt* fod dim a'r a feddai yn eiddo ei hunan, eithr yr oedd ganddynt bob peth yn gyffredin.

33 A'r apostolion trwy nerth mawr a roddasant dystiolaeth o adgyfodiad yr Arglwydd Iesu: a gras mawr oedd arnynt hwy oll.

34 Canys nid oedd un anghenus yn eu plith hwy: oblegid cynnifer ag oedd berchen tiroedd neu dai, a'u gwerthasant, ac a ddygasant werth y pethau a werthasid,

35 Ac a'*u* gosodasant wrth draed yr apostolion: a rhanwyd i bob un megis yr oedd yr angen arno.

36 A Joseph, yr hwn a gyfenwid Barnabas gan yr apostolion, (yr hyn o'i gyfieithu yw, Mab diddanwch,) yn Lefiad, *ac* yn Gypriad o genedl,

37 A thir ganddo, a'*i* gwerthodd, ac a ddug yr arian, ac a'*i* gosododd wrth draed yr apostolion.

PENNOD 5.

1 *Wedi i Ananias a Sapphira ei wraig, am eu rhagrith, gwympo i lawr ym feirw wrth eryddd Pedr,* 12 *ac i'r apostolion eraill wneuthur llawer o wyrthiau* 14 *er cynnydd i'r ffydd,* 17 *y mae yr apostolion yn cael eu carcharu eilwaith;* 19 *ac er hynny yn cael eu gwaredu gan angel, yr hwn sydd yn erchi iddynt*

bregethu i bawb ar gyhoedd: 21 *hwythau, wedi iddynt bregethu felly yn y deml,* 29 *a cher bron y cynghor,* 33 *mewn perygl o gael eu lladd; eithr trwy gynghor Gamaliel, cynghorwr mawr ym mhlith yr Iuddewon, yn cael eu cadw yn fyw,* 40 *ac yn unig eu curo: a hwythau yn gogoneddu Duw am hynny, ac heb beidio â phregethu.*

EITHR rhyw ŵr â'i enw Ananïas, gyd â Sapphira ei wraig, a werthodd dir,

2 Ac a ddarn-guddiodd *beth* o'r gwerth, a'i wraig hefyd o'r gyfrinach, ac a ddug ryw gyfran, ac a'*i* gosododd wrth draed yr apostolion.

3 Eithr Pedr a ddywedodd, Ananïas, paham y llanwodd Satan dy galon di i ddywedyd celwydd wrth yr Ysprydy Glân, ac i ddarn-guddio *peth* o werth y tir?

4 Tra yr ydoedd yn aros, onid i ti yr oedd yn aros? ac wedi ei werthu, onid oedd yn dy feddiant di? Paham y gosodaist y peth hwn yn dy galon? ni ddywedaist ti gelwydd wrth ddynion, ond wrth Dduw.

5 Ac Ananïas, pan glybu y geiriau hyn, a syrthiodd i lawr, ac a drengodd. A daeth ofn mawr ar bawb a glybu y pethau hyn.

6 A'r gwŷr ieuainge a gyfodasant, ac a'i cymmerasant ef, ac a'*i* dygasant allan, ac a'*i* claddasant.

7 A bu megis yspaid tair awr, a'i wraig ef, heb wybod y peth a wnaethid, a ddaeth i mewn.

8 A Phedr a attebodd iddi, Dywed di i mi, Ai er cymmaint y gwerthasoch chwi y tir? Hithau a ddywedodd, Ië, er cymmaint.

9 A Phedr a ddywedodd wrthi, Paham y cyttunasoch i demtio Ysprydy yr Arglwydd? wele draed y rhai a gladdasant dy ŵr di wrth y drws, a hwy a'th ddygant dithau allan.

10 Ac yn y man hi a syrthiodd wrth ei draed ef, ac a drengodd: a'r gwŷr ieuainge wedi dyfod i mewn, a'i cawsant hi yn farw; ac wedi iddynt *ei* dwyn *hi* allan, hwy a'*i* claddasant *hi* yn ymyl ei gŵr.

11 A bu ofn mawr ar yr holl eglwys, ac ar bawb oll a glybu y pethau hyn.

12 ¶ A thrwy ddwylaw yr apostolion y gwnaed arwyddion a rhyfeddodau lawer ym mhlith y bobl; ac yr oeddynt oll yn gyttûn ym mhorth Solomon.

13 Eithr ni feiddiai neb o'r lleill ymgyssylltu â hwynt: ond y bobl oedd yn eu mawrhâu.

14 A chwanegwyd attynt rai yn credu yn yr Arglwydd, llïaws o wŷr a gwragedd hefyd:

15 Hyd oni ddygent y rhai cleifion allan ar hyd yr heolydd, a'*u* gosod ar welŷau a glythau, fel o'r hyn lleiaf y cysgodai cysgod Pedr, pan ddelai heibio, rai o honynt.

16 A llïaws a ddaeth hefyd ynghyd o'r dinasoedd o amgylch Jerusalem, gan ddwyn rhai cleifion, a rhai a drallodid gan ysprydion aflan; y rhai a iachâwyd oll.

17 ¶ A'r arch-offeiriad a gyfododd, a'r holl rai oedd gyd âg ef (yr hon yw heresi y Saduceaid), ac a lanwyd o genfigen,

18 Ac a ddodasant eu dwylaw ar yr apostolion, ac a'u rhoisant yn y carchar cyffredin.

19 Eithr angel yr Arglwydd o hyd nos a agorodd ddrysau y carchar, ac a'u dug hwynt allan, ac a ddywedodd,

20 Ewch, sefwch a lleferwch yn y deml wrth y bobl holl eiriau y fuchedd hon.

21 A phan glywsant, hwy a aethant yn fore i'r deml, ac a athrawiaethasant. Eithr daeth yr arch-offeiriad, a'r rhai oedd gyd âg ef, ac a alwasant ynghyd y cynghor, a holl henuriaid plant yr Israel, ac a ddanfonasant i'r carchar i'w dwyn hwy *ger bron.*

22 A'r swyddogion, pan ddaethant, ni chawsant hwynt yn y carchar; eithr hwy a ddychwelasant, ac a fynegasant,

23 Gan ddywedyd, Yn wir ni a gawsom y carchar wedi ei gau o'r fath sicraf, a'r ceidwaid yn sefyll allan o flaen y drysau; eithr pan agorasom, ni chawsom neb i mewn.

24 A phan glybu yr arch-offeiriad, a blaenor y deml, a'r offeiriaid pennaf, yr ymadroddion hyn, ammeu a wnaethant yn eu cylch hwy beth a ddeuai o hyn.

25 Yna y daeth un, ac a fynegodd iddynt, gan ddywedyd, Wele, y mae y gwŷr a ddodasoch chwi

y'ngharchar, yn sefyll yn y deml, ac yn dysgu y bobl.
26 Yna y blaenor, gyd â'r swyddogion, a aeth ac a'u dug hwy heb drais; oblegid yr oedd arnynt ofn y bobl, rhag eu llabyddio;
27 Ac wedi eu dwyn, hwy a'*u* gosodasant o flaen y cynghor: a'r arch-offeiriad a ofynodd iddynt,
28 Gan ddywedyd, Oni orchymynasom ni, gan orchymyn i chwi na athrawiaethech yn yr enw hwn? ac wele, chwi a lanwasoch Jerusalem â'ch athrawiaeth, ac yr ydych yn ewyllysio dwyn arnom ni waed y dyn hwn.
29 ¶ A Phedr a'r apostolion a attebasant ac a ddywedasant, Rhaid yw ufuddhâu i Dduw yn fwy nag i ddynion.
30 Duw ein tadau ni a gyfododd i fyny Iesu, yr hwn a laddasoch chwi, ac a groeshoeliasoch ar bren.
31 Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw, yn Dywysog, ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau.
32 A nyni ydym ei dystion ef o'r pethau hyn, a'r Ysbryd Glân hefyd, yr hwn a roddes Duw i'r rhai sydd yn ufuddhâu iddo ef.
33 ¶ A phan glywsant hwy *hynny*, hwy a ffrommasant, ac a ymgynghorasant am eu lladd hwynt.
34 Eithr rhyw Pharisead â'i enw Gamaliel, doctor o'r gyfraith, parchedig gan yr holl bobl, a gyfododd i fyny yn y cynghor, ac a archodd yrru yr apostolion allan dros ennyd fechan;
35 Ac a ddywedodd wrthynt, *Ha* wŷr o Israel, edrychwch arnoch eich hunain, pa beth yr ydych ar fedr ei wneuthur am y dynion hyn.
36 Canys o flaen y dyddiau hyn cyfododd Theudas i fyny, gan ddywedyd ei fod ef yn rhyw un; wrth yr hwn y glynodd rhifedi o wŷr, ynghylch pedwar cant: yr hwn a laddwyd, a chynnifer oll a ufuddhasant iddo a wasgarwyd, ac a wnaed yn ddiddym.
37 Ar ol hwn y cyfododd Judas y Galilead, yn nyddiau y dreth; ac efe a drodd bobl lawer ar ei ol: ac yntau hefyd a ddarfu am dano, a chynnifer oll a ufuddhasant iddo a wasgarwyd.
38 Ac yr awr hon meddaf i chwi, Ciliwch oddi wrth y dynion hyn, a gadêwch iddynt: oblegid os o ddynion y mae y cynghor hwn, neu y weithred hon, fe a ddiddymmir;
39 Eithr os o Dduw y mae, ni ellwch chwi ei ddiddymmu, rhag eich cael yn ymladd yn erbyn Duw.
40 A chyttuno âg ef a wnaethant. Ac wedi iddynt alw yr apostolion attynt, a'*u* curo, hwy a orchymynasant iddynt na lefarent yn enw yr Iesu, ac a'u gollyngasant ymaith.
41 ¶ A hwy a aethant allan o olwg y cynghor yn llawen, am eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddïoddef ammharch o achos ei enw ef.
42 A beunydd yn y deml, ac o dŷ i dŷ, ni pheidiasant â dysgu a phregethu Iesu Crist.

PENNOD 6.

1 *Yr apostolion, yn chwennych nad esgeuluseid y tiodion o ran eu llunïaeth corphorol, ac yn ofalus hefyd eu hunain am gyfrannu gair Duw, llunïaeth yr enaid,* 3 *yn ordeïnio swydd diaconiaeth i saith o wŷr etholedig;* 5 *o r rhai y mae Stephan, gŵr llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân, yn un:* 12 *ei ddal of gan y rhai a waradwyddodd efe wrth ymresymmu;* 13 *ac achwyn arno ar gam, am gablu yn erbyn y gyfraith a'r demi.*

AC yn y dyddiau hynny, a'r disgyblion yn amlhâu, bu grwgnach gan y Groegiaid yn erbyn yr Hebreaid, am ddirmygu eu gwragedd gweddwon hwy yn y weinidogaeth feunyddiol.
2 Yna y deuddeg a alwasant ynghyd y lliaws disgyblion, ac a ddywedasant, Nid yw gymhesur i ni adael gair Duw, a gwasanaethu byrddau.
3 Am hynny, frodyr, edrychwch yn eich plith am seithwyr da eu gair, yn llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb, y rhai a osodom ar hyn o orchwyl.
4 Eithr ni a barhâwn mewn gweddi a gweinidogaeth y gair.
5 ¶ A boddlawn fu yr ymadrodd gan yr holl lïaws: a hwy a etholasant Stephan, gŵr llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân, a Phylip, a Phrochorus, a Nicanor, a Thimon, a Pharmenas, a Nicolas, proselyt o Antiochia:
6 Y rhai a osodasant hwy ger bron yr apostolion; ac wedi idd-

ynt weddïo, hwy a ddodasant *eu* dwylaw arnynt hwy.

7 A gair Duw a gynnyddodd; a rhifedi y disgyblion yn Jerusalem a amlhaodd yn ddirfawr, a thyrfa fawr o'r offeiriaid a ufuddhasant i'r ffydd.

8 Eithr Stephan, yn llawn ffydd a nerth, a wnaeth ryfeddodau ac arwyddion mawrion ym mhlith y bobl.

9 ¶ Yna y cyfododd rhai o'r synagog a elwir eiddo y Libertiniaid, a'r Cyreniaid, a'r Alexandriaid, a'r rhai o Cilicia, ac o Asia, gan ymddadleu â Stephan:

10 Ac ni allent wrthwynebu y doethineb a'r yspryd trwy yr hwn yr oedd efe yn llefaru.

11 Yna y gosodasant wŷr i ddywedyd, Nyni a'i clywsom ef yn dywedyd geiriau cablaidd yn erbyn Moses a Duw.

12 A hwy a gynhyrfasant y bobl, a'r henuriaid, a'r ysgrifenyddion; a chan ddyfod arno, a'i cipiasant ef, ac a'*i* dygasant i'r gynghorfa;

13 Ac a osodasant gau-dystion, y rhai a ddywedent, Nid yw y dyn hwn yn peidio â dywedyd cableiriau yn erbyn y lle sanctaidd hwn, a'r gyfraith:

14 Canys nyni a'i clywsom ef yn dywedyd, y distrywiai yr Iesu hwn o Nasareth y lle yma, ac y newidiai efe y defodau a draddododd Moses i ni.

15 Ac fel yr oedd yr holl rai a eisteddent yn y cynghor yn dal sylw arno, hwy a welent ei wyneb ef fel wyneb angel.

PENNOD 7.

1 *Stephan, wrth gael cennad i atteb drosto ei hun am y gabledd,* 2 *yn danyos ddaryod i Abraham addoli Duw yn iawn; a pha fodd y dewisodd Duw y tadau,* 20 *cyn geni Moses, a chyn adeiladu y babell a'r deml:* 37 *a thystiolaethu o Moses ei hun am Grist:* 44 *ac na pharhâi y seremonïau oddi allan, y rhai a ordeiniasid ar ddull y portreiad nefol, ond dros amser;* 51 *gan eu ceryddu hwy am eu gwaith yn gwrthwynebu ac yn lladd Crist, y Cyfiawn hwnnw, am yr hwn y rhag-ddywedasai y prophwydi y deuai efe i'r byd.* 54 *Hwythau ar hynny yn ei lawddio ef i farwolaeth; ac yntau yn gorchymyn ei enaid i'r Iesu, ac yn gweddïo drostynt hwy.*

YNA y dywedodd yr arch-offeiriad, A ydyw y pethau hyn felly?

2 Yntau a ddywedodd, *Ha* wŷr, frodyr, a thadau, gwrandêwch: Duw y gogoniant a ymddangosodd i'n tad Abraham, pan oedd efe ym Mesopotamia, cyn iddo drigo yn Charran;

3 Ac a ddywedodd wrtho, Dos allan o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth, a thyred i'r tir a ddangoswyf i ti.

4 Yna y daeth efe allan o dir y Caldeaid, ac y preswyliodd yn Charran: ac oddi yno, wedi marw ei dad, efe a'i symmudodd ef i'r tir yma, yn yr hwn yr ydych chwi yn preswylio yr awr hon.

5 Ac ni roes iddo etifeddiaeth ynddo, na ddo led troed; ac efe a addawodd ei roddi iddo i'w feddiannu, ac i'w had ar ei ol, pryd nad oedd plentyn iddo.

6 A Duw a lefarodd fel hyn; Dy had di a fydd ymdeithydd mewn gwlad ddïeithr, a hwy a'i caethiwant ef, ac a'*i* drygant, bedwar can mlynedd.

7 Eithr y genedl yr hon a wasanaethant hwy, a farnaf fi, medd Duw: ac wedi hynny y deuant allan, ac a'm gwasanaethant i yn y lle hwn.

8 Ac efe a roddes iddo gyfammod yr enwaediad. Felly *Abraham* a genhedlodd Isaac, ac a enwaedodd arno yr wythfed dydd: ac Isaac *a genhedlodd* Jacob; a Jacob *a genhedlodd* y deuddeg patriarch.

9 A'r patrieirch, gan genfigennu, a werthasant Joseph i'r Aipht: ond yr oedd Duw gyd âg ef,

10 Ac a'i hachubodd ef o'i holl orthrymderau, ac a roes iddo hawddgarwch a doethineb y'ngolwg Pharaoh brenhin yr Aipht; ac efe a'i gosododd ef yn llywodraethwr ar yr Aipht, ac ar ei holl dŷ.

11 Ac fe ddaeth newyn dros holl dir yr Aipht a Chanaan, a gorthrymder mawr; a'n tadau ni chawsant luniaeth.

12 Ond pan glybu Jacob fod ŷd yn yr Aipht, efe a anfonodd ein tadau ni allan yn gyntaf.

13 A'r ail *waith* yr adnabuwyd Joseph gan ei frodyr; a chenedl Joseph a aeth yn hysbys i Pharaoh.

14 Yna yr anfonodd Joseph, ac a gyrchodd ei dad Jacob, a'i holl genedl, pymtheg enaid a thri ugain.
15 Felly yr aeth Jacob i waered i'r Aipht, ac a fu farw, efe a'n tadau hefyd.
16 A hwy a symmudwyd i Sichem, ac a ddodwyd yn y bedd a brynasai Abraham er arian gan feibion Emmor *tad* Sichem.
17 A phan nesaodd amser yr addewid, yr hwn a dyngasai Duw i Abraham, y bobl a gynnyddodd ac a amlhaodd yn yr Aipht,
18 Hyd oni chyfododd brenhin arall, yr hwn nid adwaenai mo Joseph.
19 Hwn a fu ddichellgar wrth ein cenedl ni, ac a ddrygodd ein tadau, gan beri iddynt fwrw allan eu plant, fel na eppilient.
20 Ar yr hwn amser y ganwyd Moses; ac efe oedd dlws i Dduw, ac a fagwyd dri mis yn nhŷ ei dad.
21 Ac wedi ei fwrw ef allan, merch Pharaoh a'i cyfododd ef i fyny, ac a'i magodd ef yn fab iddi ei hun.
22 A Moses oedd ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid, ac oedd nerthol mewn geiriau ac mewn gweithredoedd.
23 A phan oedd efe yn llawn deugain mlwydd oed, daeth i'w galon ef ymweled â'i frodyr plant yr Israel.
24 A phan welodd efe un yn cael cam, efe a'*i* hamddiffynodd *ef*, ac a ddialodd gam yr hwn a orthrymmid, gan daro yr Aiphtiwr.
25 Ac efe a dybiodd fod ei frodyr yn deall, fod Duw yn rhoddi iachawdwriaeth iddynt trwy ei law ef; eithr hwynt-hwy ni ddeallasant.
26 A'r dydd nesaf yr ymddangosodd efe iddynt, a hwy yn ymrafaelio, ac a'u hannogodd hwynt i heddychu, gan ddywedyd, *Ha* wŷr, brodyr ydych chwi; paham y gwnewch gam â'ch gilydd?
27 Ond yr hwn oedd yn gwneuthur cam â'i gymmydog, a'i cilgwthiodd ef, gan ddywedyd, Pwy a'th osododd di yn llywodraethwr ac yn farnwr arnom ni?
28 A leddi di fi, y modd y lleddaist yr Aiphtiwr ddoe?
29 A Moses a ffodd ar y gair hwn, ac a fu ddïeithr yn nhir Midian; lle y cenhedlodd efe ddau o feibion.
30 Ac wedi cyflawni deugain mlynedd, yr ymddangosodd iddo yn anialwch mynydd Sina, angel yr Arglwydd mewn fflam dân mewn perth.
31 A Moses, pan welodd, a fu ryfedd ganddo y golwg: a phan nesaodd i ystyried, daeth llef yr Arglwydd atto, *gan ddywedyd*,
32 Myfi *yw* Duw dy dadau, Duw Abraham, a Duw Isaac, -a Duw Jacob. A Moses, wedi myned yn ddychrynedig, ni feiddiai ystyried.
33 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrtho, Dattod dy esgidiau oddi am dy draed; canys y lle yr wyt yn sefyll ynddo sydd dir sanctaidd.
34 Gan weled y gwelais ddrygfyd fy mhobl y rhai sydd yn yr Aipht, a mi a glywais eu griddfan, ac a ddisgynais i'w gwared hwy. Ac yn awr tyred, mi a'th anfonaf di i'r Aipht.
35 Y Moses yma, yr hwn a wrthodasant hwy, gan ddywedyd, Pwy a'th osododd di yn llywodraethwr ac yn farnwr? hwn a anfonodd Duw yn llywydd ac yn waredwr, trwy law yr angel, yr hwn a ymddangosodd iddo yn y berth.
36 Hwn a'u harweiniodd hwynt allan, gan wneuthur rhyfeddodau ac arwyddion yn nhir yr Aipht, ac yn y môr coch, ac yn y diffaethwch ddeugain mlynedd.
37 ¶ Hwn yw y Moses a ddywedodd i feibion Israel, Prophwyd a gyfyd yr Arglwydd eich Duw i chwi o'ch brodyr fel myfi: arno ef y gwrandêwch.
38 Hwn yw efe a fu yn yr eglwys yn y diffaethwch, gyd â'r angel a ymddiddanodd âg ef ym mynydd Sina, ac *â*'n tadau ni; yr hwn a dderbyniodd ymadroddion bywiol i'w rhoddi i ni.
39 Yr hwn ni fynnai ein tadau fod yn ufudd iddo, eithr cilgwthiasant *ef*, a throisant yn eu calonnau i'r Aipht,
40 Gan ddywedyd wrth Aaron, Gwna i ni dduwiau i'n blaenori: oblegid y Moses yma, yr hwn a'n dug ni allan o dir yr Aipht, ni wyddom ni beth a ddigwyddodd iddo.

41 A hwy a wnaethant lo yn y dyddiau hynny, ac a offrymmasant aberth i'r eilun, ac a ymlawenhasant y'ngweithredoedd eu dwylaw eu hun.

42 Yna y trodd Duw, ac a'u rhoddes hwy i fyny i wasanaethu llu y nef; fel y mae yn ysgrifenedig yn llyfr y prophwydi, A offrymmasoch i mi laddedigion ac aberthau ddeugain mlynedd yn yr anialwch, chwi tŷ Israel?

43 A chwi a gymmerasoch babell Moloch, a seren eich duw Remphan, lluniau y rhai a wnaethoch i'w haddoli: minnau a'ch symmudaf chwi tu hwnt i Babilon.

44 Tabernacl y dystiolaeth oedd ym mhlith ein tadau yn yr anialwch, fel y gorchymynasai yr hwn a ddywedai wrth Moses, am ei wneuthur ef yn ol y portreiad a welsai.

45 Yr hwn a ddarfu i'n tadau ni ei gymmeryd, a'i ddwyn i mewn gyd âg Iesu i berchennogaeth y Cenhedloedd, y rhai a yrrodd Duw allan o flaen ein tadau, hyd yn nyddiau Dafydd;

46 Yr hwn a gafodd ffafr ger bron Duw, ac a ddymunodd gael tabernacl i Dduw Jacob.

47 Eithr Solomon a adeiladodd dŷ iddo ef.

48 Ond nid yw y Goruchaf yn trigo mewn temlau o waith dwylaw; fel y mae y prophwyd yn dywedyd,

49 Y nef *yw* fy ngorseddfaingc, a'r ddaear *yw* troedfaingc fy nhraed. Pa dŷ a adeiledwch i mi? medd yr Arglwydd; neu pa le *fydd* i'm gorphwysfa i?

50 Onid fy llaw i a wnaeth hyn oll?

51 ¶ Chwi rai gwargaled, a dïenwaededig o galon ac o glustiau, yr ydych chwi yn wastad yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân: megis eich tadau, felly chwithau.

52 Pa un o'r prophwydi ni ddarfu i'ch tadau chwi ei erlid? a hwy a laddasant y rhai oedd yn rhagfynegi dyfodiad y Cyfiawn, i'r hwn yr awr hon y buoch chwi fradwyr a llofruddion:

53 Y rhai a dderbyniasoch y gyfraith trwy drefniad angylion, ac nis cadwasoch.

54 ¶ A phan glywsant hwy y pethau hyn, hwy a ffrommasant yn eu calonnau, ac a ysgyrnygasant ddannedd arno.

55 Ac efe, yn gyflawn o'r Ysbryd Glân, a edrychodd yn ddyfal tu a'r nef; ac a welodd ogoniant Duw, a'r Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Duw.

56 Ac efe a ddywedodd, Wele, mi a welaf y nefoedd yn agored, a Mab y dyn yn sefyll ar ddeheulaw Duw.

57 Yna y gwaeddasant â llef uchel, ac a gauasant eu clustiau, ac a ruthrasant yn unfryd arno,

58 Ac a'*i* bwriasant allan o'r ddinas, ac a'*i* llabyddiasant: a'r tystion a ddodasant eu dillad wrth draed dyn ieuangc a elwid Saul.

59 A hwy a labyddiasant Stephan, ac efe yn galw *ar Dduw*, ac yn dywedyd, Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd.

60 Ac efe a ostyngodd ar ei liniau, ac a lefodd â llef uchel, Arglwydd, na ddod y pechod hwn yn eu herbyn. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a hunodd.

PENNOD 8.

1 *Yr eglwys, o achos yr erlid yn Jerusalem, wedi ei phlannu yn Samaria,* 5 *trwy waith Phylip y diacon; yr hwn a bregethodd, ac a wnaeth wyrthiau, ac a fedyddiodd lawer; ym mhlith eraill Simon y swynwr, hudol mawr ym mysg y bobl.* 14 *Pedr ac Ioan yn dyfod i gadarnhau ac i chwanegu yr eglwys, gan roddi yr Ysbryd Glân trwy weddi ac arddodiad dwylaw;* 18 *a Simon yn ceisio prynu y cyffelyb awdurdod gandâynt;* 20 *a Phedr yn ei geryddu ef yn dost am ei ragrith a'i gybydd-dod, ac yn ei annog ef i edifarhau;* 25 *ac yn dychwelyd i Jerusalem, gan bregethu gair yr Arglwydd, efe ac Ioan.* 26 *Angel yn anfon Phylip i ddysgu ac i fedyddio yr eunuch o Ethiopia.*

A SAUL oedd yn cyttuno i'w ladd ef. A bu yn y dyddiau hynny erlid mawr ar yr eglwys oedd yn Jerusalem: a phawb a wasgarwyd ar hyd gwledydd Judea a Samaria, ond yr apostolion.

2 A gwŷr bucheddol a ddygasant Stephan *i'w gladdu*, ac a wnaethant alar mawr am dano ef.

3 Eithr Saul oedd yn anrheithio yr eglwys, gan fyned i mewn i bob tŷ, a chan lusgo allan wŷr a gwragedd, efe a'*u* rhoddes y'ngharchar.

4 A'r rhai a wasgarasid a dramwyasant gan bregethu y gair.

5 Yna Phylip a aeth i waered i ddinas Samaria, ac a bregethodd Grist iddynt.
6 A'r bobl yn gyttûn a ddaliodd ar y pethau a ddywedid gan Phylip, wrth glywed o honynt, a gweled yr arwyddion yr oedd efe yn eu gwneuthur.
7 Canys ysprydion aflan, gan lefain â llef uchel, a aethant allan o lawer a berchennogid *ganddynt;* a llawer yn gleifion o'r parlys, ac yn gloffion, a iachâwyd.
8 Ac yr oedd llawenydd mawr yn y ddinas honno.
9 Eithr rhyw ŵr â'i enw Simon, oedd o'r blaen yn y ddinas yn swyno ac yn hudo pobl Samaria, gan ddywedyd ei fod ef ei hun yn rhyw un mawr:
10 Ar yr hwn yr oedd pawb, o'r lleiaf hyd y mwyaf, yn gwrandaw, gan ddywedyd, Mawr allu Duw yw hwn.
11 Ac yr oeddynt â'u coel arno, o herwydd iddo dalm o amser eu hudo hwy â swynion.
12 Eithr pan gredasant i Phylip, yn pregethu y pethau a berthynent i deyrnas Dduw, ac i enw Iesu Grist, hwy a fedyddiwyd, yn wŷr ac yn wragedd.
13 A Simon yntau hefyd a gredodd; ac wedi ei fedyddio, a lynodd wrth Phylip: a synnodd arno wrth weled yr arwyddion a'r nerthoedd mawrion a wneid.
14 ¶ A phan glybu yr apostolion yn Jerusalem, dderbyn o Samaria air Duw, hwy a anfonasant attynt Pedr ac Ioan:
15 Y rhai wedi eu dyfod i waered, a weddïasant drostynt, ar iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân.
16 (Canys etto nid oedd efe wedi syrthio ar neb o honynt; ond yr oeddynt yn unig wedi eu bedyddio yn enw yr Arglwydd Iesu.)
17 Yna hwy a ddodasant *ew* dwylaw arnynt, a hwy a dderbyniasant yr Ysbryd Glân.
18 A phan welodd Simon mai trwy osodiad dwylaw yr apostolion y rhoddid yr Ysbryd Glân, efe a gynnygiodd iddynt arian,
19 Gan ddywedyd, Rhoddwch i minnau hefyd yr awdurdod hon, fel ar bwy bynnag y gosodwyf fy nwylaw, y derbynio efe yr Ysbryd Glân.
20 Eithr Pedr a ddywedodd wrtho, Bydded dy arian gyd â thi i ddistryw, am i ti dybied y meddiennir dawn Duw trwy arian.
21 Nid oes i ti na rhan na chyfran yn y gorchwyl hwn: canys nid yw dy galon di yn uniawn ger bron Duw.
22 Edifarhâ gan hynny am dy ddrygioni hwn, a gweddïa Dduw, a faddeuir i ti feddylfryd dy galon.
23 Canys mi a'th welaf mewn bustl chwerwder, ac *mewn* rhwymedigaeth anwiredd.
24 A Simon a attebodd ac a ddywedodd, Gweddïwch chwi drosof fi at yr Arglwydd, fel na ddêl dim arnaf o'r pethau a ddywedasoch.
25 Ac wedi iddynt dystiolaethu a llefaru gair yr Arglwydd, hwy a ddychwelasant i Jerusalem, ac a bregethasant yr efengyl yn llawer o bentrefi y Samariaid.
26 ¶ Ac angel yr Arglwydd a lefarodd wrth Phylip, gan ddywedyd, Cyfod, a dos tu a'r dehau, i'r ffordd sydd yn myned i waered o Jerusalem i Gasa, yr hon sydd anghyfannedd.
27 Ac efe a gyfododd, ac a aeth. Ac wele, gŵr o Ethiopia, eunuch galluog dan Candace brenhines yr Ethiopiaid, yr hwn oedd ar ei holl drysor hi, yr hwn a ddaethai i Jerusalem i addoli;
28 Ac oedd yn dychwelyd, ac yn eistedd yn ei gerbyd, ac yn darllen y prophwyd Esaias.
29 A dywedodd yr Ysbryd wrth Phylip, Dos yn nês, a glŷn wrth y cerbyd yma.
30 A Phylip a redodd atto, ac a'i clybu ef yn darllen y prophwyd Esaias; ac a ddywedodd, A wyt ti yn deall y pethau yr wyt yn eu darllen?
31 Ac efe a ddywedodd, Pa fodd y gallaf, oddi eithr i ryw un fy nghyfarwyddo i? Ac efe a ddymunodd ar Phylip ddyfod i fyny, ac eistedd gyd âg ef.
32 A'r lle o'r ysgrythyr yr oedd efe yn ei ddarllen, oedd hwn, Fel dafad i'r lladdfa yr arweiniwyd ef;

ac fel oen ger bron ei gneifiwr yn fud, felly nid agorodd efe ei enau:
33 Yn ei ostyngiad, ei farn ef a dynnwyd ymaith: eithr pwy a draetha ei genhedlaeth ef? oblegid dygir ei fywyd ef oddi ar y ddaear.
34 A'r eunuch a attebodd Phylip, ac a ddywedodd, Attolwg i ti, am bwy y mae y prophwyd yn dywedyd hyn? am dano ei hun, ai am ryw un arall?
35 A Phylip a agorodd ei enau, ac a ddechreuodd ar yr ysgrythyr honno, ac a bregethodd iddo yr Iesu.
36 Ac fel yr oeddynt yn myned ar hyd y ffordd, hwy a ddaethant at ryw ddwfr. A'r eunuch a ddywedodd, Wele ddwfr; beth sydd yn lluddias fy medyddio?
37 A Phylip a ddywedodd, Os wyt ti yn credu â'th holl galon, fe a ellir. Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw.
38 Ac efe a orchymynodd sefyll o'r cerbyd: a hwy a aethant i waered ill dau i'r dwfr, Phylip a'r eunuch; ac efe a'i bedyddiodd ef.
39 A phan ddaethant i fyny o'r dwfr, Yspryd yr Arglwydd a gipiodd Phylip ymaith, ac ni welodd yr eunuch ef mwyach: ac efe a aeth ar hyd ei ffordd ei hun yn llawen.
40 Eithr Phylip a gaed yn Asotus: a chan dramwy, efe a efengylodd ym mhob dinas hyd oni ddaeth efe i Cesarea.

PENNOD 9.

1 *Saul yn myned i Damascus; ei daro ef i lawr i'r ddaear;* 10 *a'i alw i fod yn apostol:* 18 *a'i fedyddio gan Ananias:* 20 *yntau yn pregethu Crist yn hyderus.* 23 *Yr Iuddewon yn cynllwyn i'w ladd ef,* 29 *a'r Groegwyr hefyd; yntau yn diange rhag y ddwy blaid.* 31 *Yr eglwysi yn cael llonyddwch.* 32 *Pedr yn iachäu Aeneas o'r parlys,* 36 *ac yn codi Tabitha o farw i fywyd.*

A SAUL etto yn chwythu bygythiau a chelanedd yn erbyn disgyblion yr Arglwydd, a aeth at yr arch-offeiriad,
2 Ac a ddeisyfodd ganddo lythyrau i Damascus, at y synagogau; fel os cai efe neb o'r ffordd *hon*, na gwŷr na gwragedd, y gallai efe eu dwyn hwy yn rhwym i Jerusalem.
3 Ac fel yr oedd efe yn ymdaith, bu iddo ddyfod yn agos i Damascus: ac yn ddisymmwth llewyrchodd o'i amgylch oleuni o'r nef.
4 Ac efe a syrthiodd ar y ddaear, ac a glybu lais yn dywedyd wrtho, Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?
5 Yntau a ddywedodd, Pwy wyt ti, Arglwydd? A'r Arglwydd a ddywedodd, Myfi yw Iesu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid: caled *yw* i ti wingo yn erbyn y symbylau.
6 Yntau gan grynu, ac â braw arno, a ddywedodd, Arglwydd, beth a fynni di i mi ei wneuthur? A'r Arglwydd *a ddywedodd* wrtho, Cyfod, a dos i'r ddinas, ac fe a ddywedir i ti pa beth sydd raid i ti ei wneuthur.
7 A'r gwŷr oedd yn cyd-deithio âg ef a safasant yn fud, gan glywed y llais, ac heb weled neb.
8 A Saul a gyfododd oddi ar y ddaear; a phan agorwyd ei lygaid, ni welai efe neb: eithr hwy a'i tywysasant ef erbyn ei law, ac a'*i* dygasant *ef* i mewn i Damascus.
9 Ac efe a fu dridiau heb weled, ac ni wnaeth na bwytta nac yfed.
10 ¶ Ac yr oedd rhyw ddisgybl yn Damascus, a'i enw Ananïas: a'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef mewn gweledigaeth, Ananïas. Yntau a ddywedodd, Wele fi, Arglwydd.
11 A'r Arglwydd *a ddywedodd* wrtho, Cyfod, a dos i'r heol a elwir Uniawn, a chais yn nhŷ Judas *un* a'*i* enw Saul, o Tarsus: canys, wele, y mae yn gweddïo;
12 Ac *efe* a welodd mewn gweledigaeth ŵr â'i enw Ananïas yn dyfod i mewn, ac yn dodi *ei* law arno, fel y gwelai eilwaith.
13 Yna yr attebodd Ananïas, *O* Arglwydd, mi a glywais gan lawer am y gŵr hwn, faint o ddrygau a wnaeth efe i'th saint di yn Jerusalem:
14 Ac yma y mae ganddo awdurdod oddi wrth yr arch-offeiriaid, i rwymo pawb sydd yn galw ar dy enw di.
15 A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Dos ymaith: canys y mae hwn yn llestr etholedig i mi, i ddwyn fy enw ger bron y Cenhedloedd, a brenhinoedd, a phlant Israel.

16 Canys myfi a ddangosaf iddo pa bethau eu maint sydd raid iddo ef eu dïoddef er mwyn fy enw i.

17 Ac Ananias a aeth ymaith, ac a aeth i mewn i'r tŷ; ac wedi dodi ei ddwylaw arno, efe a ddywedodd, *Y* brawd Saul, yr Arglwydd a'm hanfonodd i, (Iesu yr hwn a ymddangosodd i ti ar y ffordd y daethost,) fel y gwelych drachefn, ac y'th lanwer â'r Ysbryd Glân.

18 Ac yn ebrwydd y syrthiodd oddi wrth ei lygaid ef megis cen: ac efe a gafodd ei olwg yn y man; ac *efe* a gyfododd, ac a fedyddiwyd.

19 Ac wedi iddo gymmeryd bwyd, efe a gryfhaodd. A bu Saul gyd â'r disgyblion oedd yn Damascus dalm o ddyddiau.

20 Ac yn ebrwydd yn y synagogau efe a bregethodd Grist, mai efe yw Mab Duw.

21 A phawb a'r a'*i* clybu *ef*, a synnasant, ac a ddywedasant, Onid hwn yw yr un oedd yn difetha yn Jerusalem y rhai a alwent ar yr enw hwn, ac a ddaeth yma er mwyn hyn, fel y dygai hwynt yn rhwym at yr arch-offeiriaid?

22 Eithr Saul a gynnyddodd fwyfwy o nerth, ac a orchfygodd yr Iuddewon oedd yn preswylio yn Damascus, gan gadarnhâu mai hwn yw y Crist.

23 ¶ Ac wedi cyflawni llawer o ddyddiau, cyd-ymgynghorodd yr Iuddewon i'w ladd ef.

24 Eithr eu cyd-fwriad hwy a wybuwyd gan Saul: a hwy a ddisgwyliasant y pyrth ddydd a nos, i'w ladd ef.

25 Yna y disgyblion a'i cymmerasant ef o hyd nos, ac a'*i* gollyngasant i waered dros y mur mewn basged.

26 A Saul, wedi ei ddyfod i Jerusalem, a geisiodd ymwasgu â'r disgyblion: ac yr oeddynt oll yn ei ofni ef, heb gredu ei fod ef yn ddisgybl.

27 Eithr Barnabas a'i cymmerodd ef, ac a'*i* dug at yr apostolion, ac a fynegodd iddynt pa fodd y gwelsai efe yr Arglwydd ar y ffordd, ac ymddiddan o hono âg ef, ac mor hyf a fuasai efe yn Damascus yn enw yr Iesu.

28 Ac yr oedd efe gyd â hwynt, yn myned i mewn ac yn myned allan, yn Jerusalem.

29 A chan fod yn hyf yn enw yr Arglwydd Iesu, efe a lefarodd ac a ymddadleuodd yn erbyn y Groegiaid; a hwy a geisiasant ei ladd ef.

30 A'r brodyr, pan wybuant, a'i dygasant ef i waered i Cesarea, ac a'i hanfonasant ef ymaith i Tarsus.

31 Yna yr eglwysi trwy holl Judea, a Galilea, a Samaria, a gawsant heddwch, ac a adeiladwyd; a chan rodio yn ofn yr Arglwydd, ac yn niddanwch yr Ysbryd Glân, hwy a amlhâwyd.

32 ¶ A bu, a Phedr yn tramwy trwy yr holl *wledydd*, iddo ddyfod i waered at y saint hefyd y rhai oedd yn trigo yn Lŷda.

33 Ac efe a gafodd yno ryw ddyn a'i enw Aeneas, er ys wyth mlynedd yn gorwedd ar wely, yr hwn oedd glaf o'r parlys.

34 A Phedr a ddywedodd wrtho, Aeneas, y mae Iesu Grist yn dy iachâu di: cyfod, a chyweiria dy wely. Ac efe a gyfododd yn ebrwydd.

35 A phawb a'r oedd yn preswylio yn Lŷda a Saron a'i gwelsant ef, ac a ymchwelasant at yr Arglwydd.

36 ¶ Ac yn Joppa yr oedd rhyw ddisgybles â'i henw Tabitha, yr hon os cyfieithir a elwir Dorcas: hon oedd yn llawn o weithredoedd da ac elusenau, y rhai a wnaethai hi.

37 A digwyddodd yn y dyddiau hynny iddi fod yn glaf, a marw: ac wedi iddynt ei golchi, hwy a'*i* dodasant *hi* mewn llofft.

38 Ac o herwydd bod Lŷda yn agos i Joppa, y disgyblion a glywsant fod Pedr yno; ac a anfonasant ddau ŵr atto ef, gan ddeisyf nad oedai ddyfod hyd attynt hwy.

39 A Phedr a gyfododd, ac a aeth gyd â hwynt. *Ac* wedi ei ddyfod, hwy a'i dygasant ef i fyny i'r llofft: a'r holl wragedd gweddwon a safasant yn ei ymyl ef yn wylo, ac yn dangos y peisiau a'r gwisgoedd a wnaethai Dorcas tra yr ydoedd hi gyd â hwynt.

40 Eithr Pedr, wedi eu bwrw hwy i gyd allan, a dodi ei liniau *ar*

lawr, a weddïodd; a chan droi at y corph, a ddywedodd, Tabitha, cyfod. A hi a agorodd ei llygaid; a phan welodd hi Pedr, hi a gododd yn ei heistedd.

41 Ac efe a roddodd ei law iddi, ac a'i cyfododd hi i fyny. Ac wedi galw y saint a'r gwragedd gweddwon, *efe* a'i gosododd hi ger bron yn fyw.

42 A hysbys fu trwy holl Joppa; a llawer a gredasant yn yr Arglwydd.

43 A bu iddo aros yn Joppa lawer o ddyddiau gyd âg un Simon, barcer.

PENNOD 10.

1 *Cornelius, gŵr defosiynol, 5 wrth orchymyn angel, yn danfon i gyrchu Pedr:* 11 *ymtau, trwy weledigaeth,* 15, 20 *a ddysgir na ddiystyrai neb Cenhedloedd.* 34 *Ac efe yn preythu Crist i Cornelius, a'r rhai oedd gyd âg ef,* 44 *yr Ysprŷd Glân yn disgyn arnynt;* 48 *a'u bedyddio hwy.*

YR oedd rhyw ŵr yn Cesarea, â'i enw Cornelius, canwriad o'r fyddin a elwid yr Italaidd;

2 *Gŵr* defosiynol, ac yn ofni Duw, ynghyd â'i holl dŷ, ac yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl, ac yn gweddïo Duw yn wastadol.

3 Efe a welodd mewn gweledigaeth yn eglur, ynghylch y nawfed awr o'r dydd, angel Duw yn dyfod i mewn atto, ac yn dywedyd wrtho, Cornelius.

4 Ac wedi iddo graffu arno, a myned yn ofnus, efe a ddywedodd, Beth sydd, Arglwydd? Ac efe a ddywedodd wrtho, Dy weddïau di a'th elusenau a ddyrchafasant yn goffadwriaeth ger bron Duw.

5 Ac yn awr anfon wŷr i Joppa, a gyr am Simon, yr hwn a gyfenwir Pedr:

6 Y mae efe yn llettŷa gyd âg un Simon, barcer; tŷ yr hwn sydd wrth y môr: efe a ddywed i ti pa beth sydd raid i ti ei wneuthur.

7 A phan ymadawodd yr angel oedd yn ymddiddan â Cornelius, efe a alwodd ar ddau o dylwyth ei dŷ, a milwr defosiynol o'r rhai oedd yn aros gyd âg ef:

8 Ac wedi iddo fynegi iddynt y cwbl, efe a'u hanfonodd hwynt i Joppa.

9 ¶ A thrannoeth, fel yr oeddynt hwy yn ymdeithio, ac yn nesâu at y ddinas, Pedr a aeth i fyny ar y tŷ i weddïo, ynghylch y chweched awr.

10 Ac fe ddaeth arno newyn mawr, ac efe a chwennychai gael bwyd. Ac a hwynt yn parottôi *iddo*, fe syrthiodd arno lewyg:

11 Ac *efe* a welai y nef yn agored, a rhyw lestr yn disgyn arno, fel llen-llïan fawr, wedi rhwymo ei phedair congl, a'i gollwng i waered hyd y ddaear:

12 Yn yr hon yr oedd pob rhyw bedwar-carnolion y ddaear, a gwylltfilod, ac ymlusgiaid, ac ehediaid y nef.

13 A daeth llef atto, Cyfod, Pedr; lladd, a bwytta.

14 A Phedr a ddywedodd, Nid felly, Arglwydd: canys ni fwytteais i erioed ddim cyffredin neu aflan.

15 A'r llef drachefn *a ddywedodd* wrtho yr ail waith, Y pethau a lanhaodd Duw, na alw di yn gyffredin.

16 A hyn a wnaed dair gwaith: a'r llestr a dderbyniwyd drachefn i fyny i'r nef.

17 Ac fel yr oedd Pedr yn ammeu ynddo ei hun beth oedd y weledigaeth a welsai; wele, y gwŷr a anfonasid oddi wrth Cornelius, wedi ymofyn am dŷ Simon, oeddynt yn sefyll wrth y porth.

18 Ac wedi iddynt alw, hwy a ofynasant a oedd Simon, yr hwn a gyfenwid Pedr, yn llettŷa yno.

19 ¶ Ac fel yr oedd Pedr yn meddwl am y weledigaeth, dywedodd yr Ysprŷd wrtho, Wele driwyr yn dy geisio di.

20 Am hynny cyfod, disgyn, a dos gyd â hwynt, heb ammeu dim: o herwydd myfi a'u hanfonais hwynt.

21 A Phedr, wedi disgyn at y gwŷr a anfonasid oddi wrth Cornelius atto, a ddywedodd, Wele, myfi yw yr hwn yr ydych chwi yn ei geisio: beth *yw* yr achos y daethoch o'i herwydd?

22 Hwythau a ddywedasant, Cornelius y canwriad, gŵr cyfiawn, ac yn ofni Duw, ac â gair da iddo gan holl genedl yr Iuddewon, a rybuddiwyd gan angel sanctaidd,

i ddanfon am danat ti i'w dŷ, ac
i wrandaw geiriau gennyt.
23 Am hynny efe a'u galwodd
hwynt i mewn, ac a'*u* llettŷodd
hwy. A thrannoeth yr aeth Pedr
ymaith gyd â hwy, a rhai o'r brodyr
o Joppa a aeth gyd âg ef.
24 A thrannoeth yr aethant i mewn
i Cesarea. Ac yr oedd Cornelius yn
disgwyl am danynt; ac efe a alw-
asai ei geraint a'i anwyl gyfeillion
ynghyd.
25 Ac fel yr oedd Pedr yn dyfod i
mewn, Cornelius a gyfarfu âg ef,
ac a syrthiodd wrth ei draed, ac
a'*i* haddolodd *ef*.
26 Eithr Pedr a'i cyfododd ef i
fyny, gan ddywedyd, Cyfod; dyn
wyf finnau hefyd.
27 A than ymddiddan âg ef, efe
a ddaeth i mewn, ac a gafodd lawer
wedi ymgynnull ynghyd.
28 Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Chwi a wyddoch mai anghyfreith-
lawn yw i ŵr o Iuddew ymwasgu
neu ddyfod at alltud: eithr Duw
a ddangosodd i mi na alwn neb
yn gyffredin neu yn aflan.
29 O ba herwydd, *ie*, yn ddinâg,
y deuthum, pan anfonwyd am dan-
af: yr wyf gan hynny yn gofyn am
ba achos y danfonasoch am danaf.
30 A Chornelius a ddywedodd, Er
ys pedwar diwrnod i'r awr hon *o'r*
dydd yr oeddwn yn ymprydio, ac
ar y nawfed awr yn gweddïo yn fy
nhŷ: ac wele, safodd gŵr ger fy
mron mewn gwisg ddisglaer,
31 Ac a ddywedodd, Cornelius,
gwrandawyd dy weddi di, a'th elus-
enau a ddaethant mewn coffa ger
bron Duw.
32 Am hynny anfon i Joppa, a
galw am Simon, yr hwn a gyfen-
wir Pedr: y mae efe yn llettŷa yn
nhŷ Simon, barcer, y'nglan y môr;
yr hwn, pan ddelo attat, a lefara
wrthyt.
33 Am hynny yn ddïoed myfi a
anfonais attat; a thi a wnaethost
yn dda ddyfod. Yr awr hon, gan
hynny, yr ŷm ni oll yn bresennol
ger bron Duw, i wrandaw yr holl
bethau a orchymynwyd i ti gan
Dduw.
34 ¶ Yna yr agorodd Pedr *ei* enau,
ac a ddywedodd, Yr wyf yn deall
mewn gwirionedd, nad ydyw Duw
dderbyniwr wyneb:
35 Ond ym mhob cenedl, y neb
sydd yn ei ofni ef, ac yn gweith-
redu cyfiawnder, sydd gymmerad-
wy ganddo ef.
36 Y gair yr hwn a anfonodd *Duw*
i blant Israel, gan bregethu tangnef-
edd trwy Iesu Grist (efe yw Ar-
glwydd pawb oll):
37 Chwychwi a wyddoch y gair
a fu yn holl Judea, gan ddechreu
o Galilea, wedi y bedydd a bregeth-
odd Ioan:
38 Y modd yr enneiniodd Duw
Iesu o Nasareth â'r Ysbryd Glân,
ac â nerth; yr hwn a gerddodd o
amgylch gan wneuthur daioni, ac
iachâu pawb a'r oedd wedi eu gor-
thrymmu gan ddiafol: oblegid yr
oedd Duw gyd âg ef.
39 A ninnau ydym dystion o'r
pethau oll a wnaeth efe y'ngwlad
yr Iuddewon, ac yn Jerusalem; yr
hwn a laddasant, ac a groeshoel-
iasant ar bren:
40 Hwn a gyfododd Duw y tryd-
ydd dydd, ac a'i rhoddes ef i'w
wneuthur yn amlwg;
41 Nid i'r bobl oll, eithr i'r tystion
etholedig o'r blaen gan Dduw, *sef* i
ni, y rhai a fwyttasom ac a yfasom
gyd âg ef wedi ei adgyfodi ef o
feirw.
42 Ac efe a orchymynodd i ni
bregethu i'r bobl, a thystiolaethu,
mai efe yw yr hwn a ordeiniwyd
gan Dduw yn Farnwr byw a meirw.
43 I hwn y mae yr holl brophwydi
yn dwyn tystiolaeth, y derbyn
pawb a gredo ynddo ef faddeuant
pechodau trwy ei enw ef.
44 ¶ A Phedr etto yn llefaru y
geiriau hyn, syrthiodd yr Ysbryd
Glân ar bawb a oedd yn clywed y
gair.
45 A'r rhai o'r enwaediad a oedd-
ynt yn credu, cynnifer ag a ddaeth-
ent gyd â Phedr, a synnasant, am
dywallt dawn yr Ysbryd Glân ar y
Cenhedloedd hefyd.
46 Canys yr oeddynt yn eu clywed
hwy yn llefaru â thafodau, ac yn
mawrygu Duw. Yna yr attebodd
Pedr,
47 A all neb luddias dwfr, fel na
fedyddier y rhai hyn, y rhai a

dderbyniasant yr Ysprydd Glân fel ninnau?
48 Ac efe a orchymynodd eu bedyddio hwynt yn enw yr Arglwydd. Yna y deisyfasant arno aros dros ennyd o ddyddiau.

PENNOD 11.

1 *Pedr, wedi achwyn arno am fyned i mewn at y Cenhedloedd, yn gwneuthur ei amddiffyn;* 18 *ac yn cael ei dderbyn.* 19 *Wedi cyrhaeddyd o'r efengyl hyd Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, yr ydys yn danfon Barnabas i'w cadarnhau hwynt.* 26 *Y disgyblion yno yn cael yn gyntaf rhai eu galw yn Gristionogion;* 27 *ac yn anfon ymwared i'r brodyr yn Judea, yn amser newyn.*

AR apostolion a'r brodyr oedd yn Judea, a glywsant ddarfod i'r Cenhedloedd hefyd dderbyn gair Duw.
2 A phan ddaeth Pedr i fyny i Jerusalem, y rhai o'r enwaediad a ymrysonasant yn ei erbyn ef,
3 Gan ddywedyd, Ti a aethost i mewn at wŷr dïenwaededig, ac a fwytteaist gyd â hwynt.
4 Eithr Pedr a ddechreuodd, ac a eglurodd *y peth* iddynt mewn trefn, gan ddywedyd,
5 Yr oeddwn i yn ninas Joppa yn gweddïo; ac mewn llewyg y gwelais weledigaeth, Rhyw lestr megis llen-llïan fawr yn disgyn, wedi ei gollwng o'r nef erbyn ei phedair congl; a hi a ddaeth hyd attaf fi.
6 Ar yr hon pan edrychais, yr ystyriais, ac mi a welais bedwarcarnolion y ddaear, a gwylltfilod, ac ymlusgiaid, ac ehediaid y nef.
7 Ac mi a glywais lef yn dywedyd wrthyf, Cyfod, Pedr; lladd, a bwytta.
8 Ac mi a ddywedais, Nid felly, Arglwydd: canys dim cyffredin neu aflan nid aeth un amser i'm genau.
9 Eithr y llais a'm hattebodd i eilwaith o'r nef, Y pethau a lanhaodd Duw, na alw di yn gyffredin.
10 A hyn a wnaed dair gwaith: a'r holl bethau a dynnwyd i fyny i'r nef drachefn.
11 Ac wele, yn y man yr oedd triwyr yn sefyll wrth y tŷ yr oeddwn ynddo, wedi eu hanfon o Cesarea attaf fi.
12 A'r Ysprydd a archodd i mi fyned gyd â hwynt, heb ammeu dim. A'r chwe brodyr hyn a ddaethant gyd â mi; a nyni a ddaethom i mewn i dŷ y gŵr.
13 Ac efe a fynegodd i ni pa fodd y gwelsai efe angel yn ei dŷ, yn sefyll ac yn dywedyd wrtho, Anfon wŷr i Joppa, a gyr am Simon, a gyfenwir Pedr:
14 Yr hwn a lefara eiriau wrthyt, trwy y rhai y'th iachêir di a'th holl dŷ.
15 Ac a myfi yn dechreu llefaru, syrthiodd yr Ysprydd Glân arnynt, megis arnom ninnau yn y dechreuad.
16 Yna y cofiais air yr Arglwydd, y modd y dywedasai efe, Ioan yn wir a fedyddiodd â dwfr; eithr chwi a fedyddir â'r Ysprydd Glân.
17 Os rhoddes Duw gan hynny iddynt hwy gyffelyb rodd ag i ninnau, y rhai a gredasom yn yr Arglwydd Iesu Grist, pwy oeddwn i, i allu lluddias Duw?
18 A phan glywsant y pethau hyn, distawu a wnaethant, a gogoneddu Duw, gan ddywedyd, Fe roddes Duw gan hynny i'r Cenhedloedd hefyd edifeirwch i fywyd.
19 ¶ A'r rhai a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan, a dramwyasant hyd yn Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, heb lefaru y gair wrth neb ond wrth yr Iuddewon yn unig.
20 A rhai o honynt oedd wŷr o Cyprus ac o Cyrene, y rhai wedi dyfod i Antiochia, a lefarasant wrth y Groegiaid, gan bregethu yr Arglwydd Iesu.
21 A llaw yr Arglwydd oedd gyd â hwynt: a nifer mawr a gredodd, ac a drodd at yr Arglwydd.
22 ¶ A'r gair a ddaeth i glustiau yr eglwys oedd yn Jerusalem am y pethau hyn: a hwy a anfonasant Barnabas i fyned hyd Antiochia.
23 Yr hwn pan ddaeth, a gweled gras Duw, a fu lawen ganddo, ac a gynghorodd bawb oll, trwy lwyrfryd calon, i lynu wrth yr Arglwydd.
24 Oblegid yr oedd efe yn ŵr da, ac yn llawn o'r Ysprydd Glân, ac o ffydd: a llawer o bobl a chwanegwyd i'r Arglwydd.
25 Yna yr aeth Barnabas i Tarsus, i geisio Saul. Ac wedi iddo ei gael, efe a'i dug i Antiochia.

26 A bu iddynt fiwyddyn gyfan ymgynnull yn yr eglwys, a dysgu pobl lawer; a bod galw y disgyblion yn Gristionogion yn gyntaf yn Antiochia.

27 ¶ Ac yn y dyddiau hynny daeth prophwydi o Jerusalem i waered i Antiochia.

28 Ac un o honynt, a'i enw Agabus, a gyfododd, ac a arwyddoccaodd trwy yr Ysprydd, y byddai newyn mawr dros yr holl fyd: yr hwn *hefyd* a fu dan Claudius Cesar.

29 Yna y disgyblion, bob un yn ol ei allu, a fwriadasant anfon cymmorth i'r brodyr oedd yn preswylio yn Judea:

30 Yr hyn beth hefyd a wnaethant, gan ddanfon at yr henuriaid trwy law Barnabas a Saul.

PENNOD 12.

1 *Herod yn erlid y Cristionogion; yn lladd Iago; ac yn carcharu Pedr: a'r angel yn ei waredu ef, wrth weddiau yr eglwys.* 20 *Herod, trwy falchder, yn cymmeryd iddo ei hun y gogoniant oedd ddyledus i Dduw; ac yn cael ei daro gan yr angel, ac yn marw yn resynol:* 24 *a'r eglwys yn llwyddo ar ol ei farwolaeth ef.*

AC ynghylch y pryd hwnnw yr estynodd Herod frenhin *ei* ddwylaw i ddrygu rhai o'r eglwys.

2 Ac efe a laddodd Iago brawd Ioan â'r cleddyf.

3 A phan welodd fod yn dda gan yr Iuddewon hynny, efe a chwanegodd ddala Pedr hefyd. (A dyddiau y bara croyw ydoedd hi.)

4 Yr hwn, wedi ei ddal, a roddes efe y'ngharchar, ac a'i traddododd at bedwar pedwariaid o filwyr i'w gadw; gan ewyllysio, ar ol y Pasc, ei ddwyn ef allan at y bobl.

5 Felly Pedr a gadwyd yn y carchar: eithr gweddi ddyfal a wnaethpwyd gan yr eglwys at Dduw drosto ef.

6 A phan oedd Herod â'i fryd ar ei ddwyn ef allan, y nos honno yr oedd Pedr yn cysgu rhwng dau filwr, wedi ei rwymo â dwy gadwyn; a'r ceidwaid o flaen y drws oeddynt yn cadw y carchar.

7 Ac wele, angel yr Arglwydd a safodd ger llaw, a goleuni a ddisgleiriodd yn y carchar: ac efe a darawodd ystlys Pedr, ac a'i cyfododd ef, gan ddywedyd, Cyfod yn fuan. A'i gadwyni ef a syrthiasant oddi wrth *ei* ddwylaw.

8 A dywedodd yr angel wrtho, Ymwregysa, a rhwym dy sandalau. Ac felly y gwnaeth efe. Yna y dywedodd, Bwrw dy wisg am danat, a chanlyn fi.

9 Ac efe a aeth allan, ac a'i canlynodd ef: ac nis gwybu mai gwir oedd y peth a wnaethid gan yr angel; eithr yr oedd yn tybied mai gweled gweledigaeth yr oedd.

10 Ac wedi myned o honynt heb law y gyntaf a'r ail wyliadwriaeth, hwy a ddaethant i'r porth haiarn yr hwn sydd yn arwain i'r ddinas, yr hwn a ymagorodd iddynt o'i waith ei hun: ac wedi eu myned allan, hwy a aethant ar hyd un heol; ac yn ebrwydd yr angel a aeth ymaith oddi wrtho.

11 A Phedr, wedi dyfod atto ei hun, a ddywedodd, Yn awr y gwn yn wir anfon o'r Arglwydd ei angel, a'm gwared i allan o law Herod, ac *oddi wrth* holl ddisgwyliad pobl yr Iuddewon.

12 Ac wedi iddo gymmeryd pwyll, efe a ddaeth i dŷ Mair mam Ioan, yr hwn oedd â'i gyfenw Marc, lle yr oedd llawer wedi ymgasglu, *ac* yn gweddïo.

13 Ac fel yr oedd Pedr yn curo drws y porth, morwyn a ddaeth i ymwrandaw, a'i henw Rhode.

14 A phan adnabu hi lais Pedr, nid agorodd hi y porth gan lawenydd; eithr hi a redodd i mewn, ac a fynegodd fod Pedr yn sefyll o flaen y porth.

15 Hwythau a ddywedasant wrthi, Yr wyt ti yn ynfydu. Hithau a daerodd mai felly yr oedd. Eithr hwy a ddywedasant, Ei angel ef ydyw.

16 A Phedr a barhaodd yn curo: ac wedi iddynt agori, hwy a'i gwelsant ef, ac a synnasant.

17 Ac efe a amneidiodd arnynt â llaw i dewi, ac a adroddodd iddynt pa wedd y dygasai yr Arglwydd ef allan o'r carchar: ac efe a ddywedodd, Mynegwch y pethau hyn i Iago, ac i'r brodyr. Ac efe a ymadawodd, ac a aeth i le arall.

18 Ac wedi ei myned hi yn ddydd, yr oedd trallod nid bychan ym

mhlith y milwyr, pa beth a ddaethai o Pedr.

19 Eithr Herod, pan ei ceisiodd ef, ac heb ei gael, a holodd y ceidwaid, ac a orchymynodd *eu* cymmeryd *hwy* ymaith. Yntau a aeth i waered o Judea i Cesarea, ac a arhosodd *yno*.

20 ¶ Eithr Herod oedd yn llidiog iawn yn erbyn gwŷr Tyrus a Sidon: a hwy a ddaethant yn gyttûn atto; ac wedi ennill Blastus, yr hwn oedd ystafellydd y brenhin, hwy a ddeisyfasant dangnefedd; am fod eu gwlad hwynt yn cael ei chynhaliaeth o *wlad* y brenhin.

21 Ac ar ddydd nodedig, Herod, gwedi gwisgo dillad brenhinol, a eisteddodd ar orseddfaingc, ac a areithiodd wrthynt.

22 A'r bobl a roes floedd, Lleferydd Duw, ac nid dyn *ydyw*.

23 Ac allan o law y tarawodd angel yr Arglwydd ef, am na roisai y gogoniant i Dduw: a chan bryfed yn ei ysu, efe a drengodd.

24 ¶ A gair Duw a gynnyddodd ac a amlhaodd.

25 A Barnabas a Saul, wedi cyflawni *eu* gweinidogaeth, a ddychwelasant o Jerusalem, gan gymmeryd gyd â hwynt Ioan hefyd, yr hwn a gyfenwid Marc.

PENNOD 13.

1 *Dewis Paul a Barnabas i fyned at y Cenhedloedd.* 7 *Sergius Paulus, ac Elymas y swynwr.* 14 *Paul yn pregethu yn Antiochia mai Iesu yw Crist.* 42 *Y Cenhedloedd yn credu;* 45 *yr Iuddewon yn gwrthwynebu, ac yn cablu:* 46 *Paul a Barnabas, ar hynny, yn troi at y Cenhedloedd.* 48 *Y rhai a drefnesid i fywyd, yn credu.*

YR oedd hefyd yn yr eglwys ydoedd yn Antiochia, rai prophwydi ac athrawon; Barnabas, a Simeon, yr hwn a elwid Niger, a Lucius o Cyrene, a Manaen, brawdmaeth Herod y tetrarch, a Saul.

2 Ac fel yr oeddynt hwy yn gwasanaethu yr Arglwydd, ac yn ymprydio, dywedodd yr Ysbryd Glân, Neilluduch i mi Barnabas a Saul, i'r gwaith y gelwais hwynt iddo.

3 Yna, wedi iddynt ymprydio a gweddio, a dodi eu dwylaw arnynt, hwy a'*u* gollyngasant ymaith.

4 ¶ A hwythau, wedi eu danfon ymaith gan yr Ysbryd Glân, a ddaethant i Seleucia; ac oddi yno a fordwyasant i Cyprus.

5 A phan oeddynt yn Salamis, hwy a bregethasant air Duw yn synagogau yr Iuddewon: ac yr oedd hefyd ganddynt Ioan yn weinidog.

6 Ac wedi iddynt dramwy trwy ŷr ynys hyd Paphus, hwy a gawsant ryw swynwr, gau-brophwyd o Iuddew, a'i enw Bar-iesu;

7 Yr hwn oedd gyd â'r rhaglaw, Sergius Paulus, gŵr call: hwn, wedi galw atto Barnabas a Saul, a ddeisyfodd gael clywed gair Duw.

8 Eithr Elymas y swynwr, (canys felly y cyfieithir ei enw ef,) a'u gwrthwynebodd hwynt, gan geisio gŵyrdroi y rhaglaw oddi wrth y ffydd.

9 Yna Saul, (yr hwn hefyd *a elwir* Paul,) yn llawn o'r Ysbryd Glân, a edrychodd yn graff arno ef,

10 Ac a ddywedodd, O gyflawn o bob twyll a phob ysgelerder, tydi mab diafol, a gelyn pob cyfiawnder, oni pheidi di â gŵyro uniawn ffyrdd yr Arglwydd?

11 Ac yn awr wele, *y mae* llaw yr Arglwydd arnat ti, a thi a fyddi ddall heb weled yr haul dros amser. Ac yn ddiattreg y syrthiodd arno niwlen a thywyllwch; ac efe a aeth oddi amgylch gan geisio rhai i'w arwain erbyn ei law.

12 Yna y rhaglaw, pan welodd yr hyn a wnaethid, a gredodd, gan ryfeddu wrth ddysgeidiaeth yr Arglwydd.

13 A Phaul a'r rhai oedd gyd âg ef a aethant ymaith o Paphus, ac a ddaethant i Perga yn Pamphylia: eithr Ioan a ymadawodd oddi wrthynt, ac a ddychwelodd i Jerusalem.

14 ¶ Eithr hwynt-hwy, wedi ymadaw o Perga, a ddaethant i Antiochia yn Pisidia, ac a aethant i mewn i'r synagog ar y dydd Sabbath, ac a eisteddasant.

15 Ac ar ol darllen y gyfraith a'r prophwydi, llywodraethwyr y synagog a anfonasant attynt, gan ddywedyd, *Ha* wŷr, frodyr, od oes gennych air o gynghor i'r bobl, traethwch.

16 Yna y cyfododd Paul i fyny, a chan amneidio â'i law am osteg, a

ddywedodd, *O* wŷr o Israel, a'r rhai ydych yn ofni Duw, gwrandêwch.
17 Duw y bobl hyn Israel a etholodd ein tadau ni, ac a ddyrchafodd y bobl, pan oeddynt yn ymdeithio y'ngwlad yr Aipht, ac â braich uchel y dug efe hwynt oddi yno allan.
18 Ac ynghylch deugain mlynedd o amser y goddefodd efe eu harferion hwynt yn yr anialwch.
19 Ac wedi iddo ddinystrio saith genedl yn nhir Canaan, â choelbren y parthodd efe dir y rhai hynny iddynt hwy.
20 Ac wedi y pethau hyn, dros yspaid ynghylch pedwar cant a deng mlynedd a deugain, efe a roddes farnwyr *iddynt*, hyd Samuel y prophwyd.
21 Ac ar ol hynny y dymunasant gael brenhin: ac fe a roddes Duw iddynt Saul mab Cis, gŵr o lwyth Benjamin, ddeugain mlynedd.
22 Ac wedi ei ddiswyddo ef, y cyfododd efe Dafydd yn frenhin iddynt; am yr hwn y tystiolaethodd, ac y dywedodd, Cefais Dafydd *mab* Jesse, gŵr yn ol fy nghalon, yr hwn a gyflawna fy holl ewyllys.
23 O had hwn, Duw, yn ol *ei* addewid, a gyfododd i Israel *yr* Iachawdwr Iesu:
24 Gwedi i Ioan rag-bregethu o flaen ei ddyfodiad ef i mewn, fedydd edifeirwch i holl bobl Israel.
25 Ac fel yr oedd Ioan yn cyflawni ei redfa, efe a ddywedodd, Pwy yr ydych chwi yn tybied fy mod i? Nid myfi yw *efe:* eithr wele, y mae *un* yn dyfod ar fy ol i, yr hwn nid wyf yn deilwng i ddattod esgidiau *ei* draed.
26 *Ha* wŷr frodyr, plant o genedl Abraham, a'r rhai yn eich plith sydd yn ofni Duw, i chwi y danfonwyd gair yr iachawdwriaeth hon.
27 Canys y rhai oedd yn preswylio yn Jerusalem, a'u tywysogion, heb adnabod hwn, a lleferydd y prophwydi y rhai a ddarllenid bob Sabbath, gan *ei* farnu *ef*, a'*u* cyflawnasant.
28 Ac er na chawsant *ynddo* ddim achos angau, hwy a ddymunasant ar Pilat ei ladd ef.
29 Ac wedi iddynt gwblhâu pob peth a'r a ysgrifenasid am dano ef, hwy a'*i* disgynasant *ef* oddi ar y pren, ac a'*i* dodasant mewn bedd.
30 Eithr Duw a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw:
31 Yr hwn a welwyd dros ddyddiau lawer gan y rhai a ddaethant i fyny gyd âg ef o Galilea i Jerusalem, y rhai sydd dystion iddo wrth y bobl.
32 Ac yr ydym ni yn efengylu i chwi yr addewid a wnaed i'r tadau, ddarfod i Dduw gyflawni hon i ni eu plant hwy, gan iddo adgyfodi yr Iesu:
33 Megis ag yr ysgrifenwyd yn yr ail psalm, Fy Mab i ydwyt ti; myfi heddyw a'th genhedlais.
34 Ac am iddo ei gyfodi ef o'r meirw, nid i ddychwelyd mwy i lygredigaeth, y dywedodd fel hyn, Rhoddaf i chwi sicr drugareddau Dafydd.
35 *Ac* am hynny y mae yn dywedyd mewn *psalm* arall, Ni adewi i'th Sanct weled llygredigaeth.
36 Canys Dafydd, wedi iddo wasanaethu ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, a hunodd, ac a ddodwyd at ei dadau, ac a welodd lygredigaeth:
37 Eithr yr hwn a gyfododd Duw, ni welodd lygredigaeth.
38 Am hynny bydded hysbys i chwi, *ha* wŷr frodyr, mai trwy hwn yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau:
39 A thrwy hwn y cyfiawnhêir pob un sydd yn credu, oddi wrth yr holl bethau y rhai ni allech trwy gyfraith Moses gael eich cyfiawnhâu oddi wrthynt.
40 Gwyliwch gan hynny na ddêl arnoch y peth a ddywedwyd yn y prophwydi;
41 Edrychwch, *O* ddirmygwyr, a rhyfeddwch, a diflennwch: canys yr wyf yn gwneuthur gweithred yn eich dyddiau, gwaith ni chredwch ddim, er i neb ei ddangos i chwi.
42 ¶ A phan aeth yr Iuddewon allan o'r synagog, y Cenhedloedd a attolygasant gael pregethu y geiriau hyn iddynt y Sabbath nesaf.
43 Ac wedi gollwng y gynnulleidfa, llawer o'r Iuddewon ac o'r pro-

selytiaid crefyddol a ganlynasant Paul a Barnabas; y rhai gan lefaru wrthynt, a gynghorasant iddynt aros y'ngras Duw.

44 ¶ A'r Sabbath nesaf, yr holl ddinas agos a ddaeth ynghyd i wrandaw gair Duw.

45 Eithr yr Iuddewon, pan welsant y torfeydd, a lanwyd o genfigen, ac a ddywedasant yn erbyn y pethau a ddywedid gan Paul, gan wrth-ddywedyd a chablu.

46 Yna Paul a Barnabas a aethant yn hyf, ac a ddywedasant, Rhaid oedd llefaru gair Duw wrthych chwi yn gyntaf: eithr o herwydd eich bod yn ei wrthod, ac yn eich barnu eich hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol, wele, yr ydym yn troi at y Cenhedloedd.

47 Canys felly y gorchymynodd yr Arglwydd i ni, *gan ddywedyd*, Mi a'th osodais di yn oleuni i'r Cenhedloedd, i fod o honot yn iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear.

48 A'r Cenhedloedd pan glywsant, a fu lawen ganddynt, ac a ogoneddasant air yr Arglwydd: a chynnifer ag oedd wedi eu hordeinio i fywyd tragywyddol, a gredasant.

49 A gair yr Arglwydd a daenwyd trwy yr holl wlad.

50 A'r Iuddewon a annogasant y gwragedd crefyddol ac anrhydeddus, a phennaethiaid y ddinas, ac a godasant erlid yn erbyn Paul a Barnabas, ac a'u bwriasant hwy allan o'u terfynau.

51 Eithr hwy a ysgydwasant y llwch oddi wrth eu traed yn eu herbyn hwynt, ac a ddaethant i Iconium.

52 A'r disgyblion a gyflawnwyd o lawenydd, ac o'r Ysbryd Glân.

PENNOD 14.

1 *Erlid Paul a Barnabas allan o Iconium.* 8 *Paul yn iachâu y cloff efrydd yn Lystra: ac ar hynny y bobl yn tybied mai duwiau oeddynt hwy.* 19 *Llabyddio Paul.* 21 *Hwynthhwy yn myned trwy fagad o eglwysi, gan gadarnhau y disgyblion yn y ffydd, ac mewn dioddefgarwch:* 26 *ac wedi dychwelyd i Antiochia, yn mynegi yno beth a wnaethai Duw trwyddynt hwy.*

ADIGWYDDODD yn Iconium iddynt fyned ynghyd i synagog yr Iuddewon, a llefaru felly, fel y credodd lliaws mawr o'r Iuddewon ac o'r Groegwyr hefyd.

2 Ond yr Iuddewon anghredadyn a gyffroisant feddyliau y Cenhedloedd, ac a'u gwnaethant yn ddrwg yn erbyn y brodyr.

3 Am hynny hwy a arhosasant *yno* amser mawr, gan fod yn hyf yn yr Arglwydd, yr hwn oedd yn dwyn tystiolaeth i air ei ras, ac yn cenhadu gwneuthur arwyddion a rhyfeddodau trwy eu dwylaw hwynt.

4 Eithr lliaws y ddinas a rannwyd; a rhai oedd gyd â'r Iuddewon, a rhai gyd â'r apostolion.

5 A phan wnaethpwyd rhuthr gan y Cenhedloedd a'r Iuddewon, ynghyd â'u llywodraethwyr, i'*w* hammherchi *hwy*, ac i'w llabyddio,

6 Hwythau a ddeallasant *hyn*, ac a ffoisant i Lystra a Derbe, dinasoedd o Lycaonia, ac i'r wlad oddi amgylch:

7 Ac yno y buant yn efengylu.

8 ¶ Ac yr oedd gŵr yn eistedd yn Lystra yn ddiffrwyth ei draed, yr hwn oedd gloff o groth ei fam, ac ni rodiasai erioed.

9 Hwn a glybu Paul yn llefaru, yr hwn wrth edrych yn graff arno, a gweled fod ganddo ffydd i gael iechyd,

10 A ddywedodd â llef uchel, Saf ar dy draed yn uniawn. Ac efe a neidiodd *i fyny*, ac a rodiodd.

11 A phan welodd y boboedd y peth a wnaethai Paul, hwy a godasant eu llef, gan ddywedyd yn iaith Lycaonia, Y duwiau yn rhith dynion a ddisgynasant attom.

12 A hwy a alwasant Barnabas yn Jupiter; a Phaul yn Mercurius, oblegid efe oedd yr ymadroddwr pennaf.

13 Yna offeiriad Jupiter, yr hwn oedd o flaen eu dinas, a ddug deirw a garlantau i'r pyrth, ac a fynnasai gyd â'r bobl aberthu.

14 A'r apostolion Barnabas a Phaul, pan glywsant *hynny*, a rwygasant eu dillad, ac a neidiasant ym mhlith y bobl, gan lefain,

15 A dywedyd, *Ha* wŷr, paham y gwnewch chwi y pethau hyn? dynion hefyd ydym ninnau, yn gorfod goddef fel chwithau, ac yn pregethu i chwi ar i chwi droi oddi wrth y

pethau gweigion yma at Dduw byw,
yr hwn a wnaeth nef a daear, a'r
môr, a'r holl bethau sydd ynddynt:
16 Yr hwn yn yr oesoedd gynt a
oddefodd i'r holl genhedloedd fyn-
ed yn eu ffyrdd eu hunain.
17 Er hynny ni adawodd efe
mo hono ei hun yn ddidyst, gan
wneuthur daioni, a rhoddi gwlaw
o'r nefoedd i ni, a thymhorau
ffrwythlawn, a llenwi ein calonnau
ni â lluniaeth ac â llawenydd.
18 Ac er dywedyd y pethau hyn,
braidd yr attaliasant y bobl rhag
aberthu iddynt.
19 ¶ A daeth yno Iuddewon o
Antiochia ac Iconium, a hwy a
berswadiasant y bobl; ac wedi
llabyddio Paul, a'*i* llusgasant *ef*
allan o'r ddinas, gan dybied ei fod
ef wedi marw.
20 Ac fel yr oedd y disgyblion yn
sefyll o'i amgylch, efe a gyfododd,
ac a aeth i'r ddinas: a thrannoeth
efe a aeth allan, *efe* a Barnabas, i
Derbe.
21 Ac wedi iddynt bregethu yr
efengyl i'r ddinas honno, ac ennill
llawer o ddisgyblion, hwy a ddy-
chwelasant i Lystra, ac Iconium,
ac Antiochia,
22 Gan gadarnhâu eneidiau y dis-
gyblion, *a*'u cynghori i aros yn
y ffydd, ac mai trwy lawer o or-
thrymderau y mae yn rhaid i ni
fyned i deyrnas Dduw.
23 Ac wedi ordeinio iddynt hen-
uriaid ym mhob eglwys, a gweddio
gyd âg ymprydiau, hwy a'u gorchy-
mynasant hwynt i'r Arglwydd, yr
hwn y credasent ynddo.
24 Ac wedi iddynt dramwy trwy Pi-
sidia, hwy a ddaethant i Pamphylia.
25 Ac wedi pregethu y gair yn
Perga, hwy a ddaethant i waered
i Attalia:
26 Ac oddi yno a fordwyasant i
Antiochia, o'r lle yr oeddynt wedi
eu gorchymyn i ras Duw i'r gor-
chwyl a gyflawnasant.
27 Ac wedi iddynt ddyfod, a chyn-
null yr eglwys ynghyd, adrodd a
wnaethant faint o bethau a wnaeth-
ai Duw gyd â hwy, ac iddo ef agor-
yd i'r Cenhedloedd ddrws y ffydd.
28 Ac yno yr arhosasant hwy dros
hir o amser gyd â'r disgyblion.

PENNOD 15.

1 *Ymryson mawr yn cyfodi ynghylch yr en-*
waediad: 6 *yr apostolion yn ymgynghori*
ynghylch hynny; 22 *ac yn anfon eu meddwl*
trwy lythyrau at yr eglwysi. 36 *Paul a Bar-*
nabas, wedi bwriadu myned i ymweled â'r
brodyr, yn ymrafaelio, ac yn ymadael â'u
gilydd.

ARHAI wedi dyfod i waered o
Judea, a ddysgasant y brodyr,
gan ddywedyd, Onid enwaedir chwi
yn ol defod Moses, ni ellwch fod
yn gadwedig.
2 *A* phan ydoedd ymryson a dadleu
nid bychan gan Paul a Barnabas
yn eu herbyn, hwy a ordeiniasant
fyned o Paul a Barnabas, a rhai
eraill o honynt, i fyny i Jerusalem,
at yr apostolion a'r henuriaid, yng-
hylch y cwestiwn yma.
3 Ac wedi eu hebrwng gan yr
eglwys, hwy a dramwyasant trwy
Phenice a Samaria, gan fynegi tro-
ad y Cenhedloedd: a hwy a baras-
ant lawenydd mawr i'r brodyr oll.
4 Ac wedi eu dyfod hwy i Jeru-
salem, hwy a dderbyniwyd gan yr
eglwys, a *chan* yr apostolion, a *chan*
yr henuriaid; a hwy a fynegasant
yr holl bethau a wnaethai Duw gyd
â hwynt.
5 Eithr cyfododd rhai o sect y
Phariseaid y rhai oedd yn credu,
gan ddywedyd, Mai rhaid iddynt
eu henwaedu, a gorchymyn cadw
deddf Moses.
6 ¶ A'r apostolion a'r henuriaid
a ddaethant ynghyd i edrych am
y matter yma.
7 Ac wedi bod ymddadleu mawr,
cyfododd Pedr, ac a ddywedodd
wrthynt, *Ha* wŷr frodyr, chwi a
wyddoch ddarfod i Dduw er ys
talm o amser yn ein plith ni fy
ethol i, i gael o'r Cenhedloedd trwy
fy ngenau i glywed gair yr efengyl,
a chredu.
8 A Duw, adnabyddwr calonnau, a
ddug dystiolaeth iddynt, gan roddi
iddynt yr Ysbryd Glân, megis ag i
ninnau:
9 Ac ni wnaeth *efe* ddim gwahan-
iaeth rhyngom ni a hwynt, gan
buro eu calonnau hwy trwy ffydd.
10 Yn awr gan hynny paham yr
ydych chwi yn temtio Duw, i
ddodi iau ar warrau y disgyblion,
yr hon nid allai ein tadau ni na
ninnau ei dwyn?

11 Eithr trwy ras yr Arglwydd Iesu Grist, yr ydym ni yn credu ein bod yn gadwedig, yr un modd a hwythau.

12 ¶ A'r holl lïaws a ddistawodd, ac a wrandawodd ar Barnabas a Phaul, yn mynegi pa arwyddion a rhyfeddodau *eu maint* a wnaethai Duw ym mhlith y Cenhedloedd trwyddynt hwy.

13 ¶ Ac wedi iddynt ddistewi, attebodd Iago, gan ddywedyd, *Ha* wŷr frodyr, gwrandêwch arnaf fi:

14 Simeon a fynegodd pa wedd yr ymwelodd Duw ar y cyntaf, i gymmeryd o'r Cenhedloedd bobl i'w enw.

15 Ac â hyn y cyttuna geiriau y prophwydi; megis y mae yn ysgrifenedig,

16 Ar ol hyn y dychwelaf, ac yr adeiladaf drachefn dabernacl Dafydd, yr hwn sydd wedi syrthio; a'i fylchau ef a adeiladaf drachefn, ac a'i cyfodaf eilchwyl:

17 Fel y byddo i hyn a weddiller o ddynion geisio yr Arglwydd, ac i'r holl Genhedloedd, y rhai y gelwir fy enw i arnynt, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn.

18 Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed.

19 O herwydd paham fy marn i yw, na flinom y rhai o'r Cenhedloedd a droisant at Dduw:

20 Eithr ysgrifenu o honom ni attynt, ar ymgadw o honynt oddi wrth halogrwydd delwau, a godineb, ac *oddi wrth* y peth a dagwyd, ac *oddi wrth* waed.

21 Canys y mae i Moses ym mhob dinas, er yr hen amseroedd, rai a'i pregethant ef, gan fod yn ei ddarllen yn y synagogau bob Sabbath.

22 Yna y gwelwyd yn dda gan yr apostolion a'r henuriaid, ynghyd â'r holl eglwys, anfon gwŷr etholedig o honynt eu hunain, i Antiochia, gyd â Phaul a Barnabas; *sef* Judas a gyfenwir Barsabas, a Silas, gwŷr rhagorol ym mhlith y brodyr:

23 A *hwy* a ysgrifenasant gyd â hwynt fel hyn; Yr apostolion, a'r henuriaid, a'r brodyr, at y brodyr y rhai sydd o'r Cenhedloedd yn Antiochia, a Syria, a Cilicia, yn anfon annerch:

24 Yn gymmaint a chlywed o honom ni, i rai a aethant allan oddi wrthym ni eich trallodi chwi â geiriau, gan ddymchwelyd eich eneidiau chwi, a dywedyd *fod* yn rhaid enwaedu arnoch, a chadw y ddeddf; i'r rhai ni roisem ni *gyfryw* orchymyn:

25 Ni a welsom yn dda, wedi i ni ymgynnull yn gyttûn, anfon gwŷr etholedig attoch, gyd â'n hanwylyd Barnabas a Phaul;

26 Gwŷr a roisant eu heneidiau dros enw ein Harglwydd ni Iesu Grist.

27 Ni a anfonasom gan hynny Judas a Silas; a hwythau ar air a fynegant *i chwi* yr un pethau.

28 Canys gwelwyd yn dda gan yr Ysbryd Glân, a chennym ninnau, na ddodid arnoch faich ychwaneg na'r pethau angenrheidiol hyn;

29 Bod i chwi ymgadw oddi wrth yr hyn a aberthwyd i eilunod, a gwaed, ac oddi wrth y peth a dagwyd, ac oddi wrth odineb: oddi wrth yr hyn bethau os ymgedwch, da y gwnewch. Byddwch iach.

30 Felly wedi eu gollwng hwynt ymaith, hwy a ddaethant i Antiochia: ac wedi cynnull y llïaws ynghyd, hwy a roisant y llythyr.

31 Ac wedi iddynt *ei* ddarllen, llawenychu a wnaethant am y diddanwch.

32 Judas hefyd a Silas, a hwythau yn brophwydi, trwy lawer o ymadrodd a ddiddanasant y brodyr, ac a'*u* cadarnhasant.

33 Ac wedi iddynt aros *yno* dros amser, hwy a ollyngwyd ymaith mewn heddwch, gan y brodyr, at yr apostolion.

34 Eithr gwelodd Silas yn dda aros yno.

35 A Phaul a Barnabas a arhosasant yn Antiochia, gan ddysgu ac efengylu gair yr Arglwydd, gyd â llawer eraill hefyd.

36 ¶ Ac wedi rhai dyddiau, dywedodd Paul wrth Barnabas, Dychwelwn, ac ymwelwn â'n brodyr ym mhob dinas y pregethasom air yr Arglwydd ynddynt, *i weled* pa fodd y maent hwy.

37 A Barnabas a gynghorodd gymmeryd gyd â hwynt Ioan, yr hwn a gyfenwid Marc.
38 Ond ni welai Paul yn addas gymmeryd hwnnw gyd â hwynt, yr hwn a dynnasai oddi wrthynt o Pamphylia, ac nid aethai gyd â hwynt i'r gwaith.
39 A bu gymmaint cynnwrf *rhyngddynt,* fel yr ymadawsant oddi wrth eu gilydd; ac y cymmerth Barnabas Marc gyd âg ef, ac y mordwyodd i Cyprus:
40 Eithr Paul a ddewisodd Silas, ac a aeth ymaith, wedi ei orchymyn i ras Duw gan y brodyr.
41 Ac efe a dramwyodd trwy Syria a Cilicia, gan gadarnhâu yr eglwysi.

PENNOD 16.

1 *Paul, wedi enwaedu ar Timothëus, 7 ac wedi ei alw gan yr Yspryd, 14 yn troi Lydia; 16 yn bwrw allan ysprydeiniaeth; 19 ac am hynny Silas ac ynta yn cael eu ffiangellu, a'u carcharu. 26 Agoryd drysau y carchar: 31 troi ceidwad y carchar, 37 a'u gwaredu hwythau.*

YNA y daeth efe i Derbe ac i Lystra. Ac wele, yr oedd yno ryw ddisgybl, a'i enw Timothëus, mab i ryw wraig yr hon oedd Iuddewes, ac yn credu; a'i dad *oedd* Roegwr:
2 Yr hwn oedd yn cael gair da gan y brodyr oedd yn Lystra, ac *yn* Iconium.
3 Paul a fynnai i hwn fyned allan gyd âg ef; ac *efe* a'i cymmerth ac a'i henwaedodd ef, o achos yr Iuddewon oedd yn y lleoedd hynny: canys hwy a wyddent bawb mai Groegwr oedd ei dad ef.
4 Ac fel yr oeddynt yn ymdaith trwy y dinasoedd, hwy a roisant arnynt gadw y gorchymynion a ordeiniesid gan yr apostolion a'r henuriaid y rhai oedd yn Jerusalem.
5 Ac felly yr eglwysi a gadarnhâwyd yn y ffydd, ac a gynnyddasant mewn rhifedi beunydd.
6 Ac wedi iddynt dramwy trwy Phrygia, a gwlad Galatia, a gwarafun iddynt gan yr Ysprydeiniaeth Glân bregethu y gair yn Asia;
7 Pan ddaethant i Mysia, hwy a geisiassant fyned i Bithynia: ac ni oddefodd Ysprydeiniaeth Iesu iddynt.
8 Ac wedi myned heibio i Mysia, hwy a aethant i waered i Troas.
9 A gweledigaeth a ymddangosodd i Paul liw nos: Rhyw ŵr o Macedonia a safai, ac a ddeisyfai arno, ac a ddywedai, Tyred drosodd i Macedonia, a chymmorth ni.
10 A phan welodd efe y weledigaeth, yn ebrwydd ni a geisiasom fyned i Macedonia; gan gwbl-gredu alw o'r Arglwydd nyni i efengylu iddynt hwy.
11 Am hynny, wedi myned ymaith o Troas, ni a gyrchasom yn uniawn i Samothracia, a thrannoeth i Neapolis;
12 Ac oddi yno i Philippi, yr hon sydd brif-ddinas o barth o Macedonia, dinas rydd: ac ni a fuom yn aros yn y ddinas honno ddyddiau rai.
13 Ac ar y dydd Sabbath ni a aethom allan o'r ddinas i lan afon, lle y byddid arferol o weddïo; ac ni a eisteddasom, ac a lefarasom wrth y gwragedd a ddaethant ynghyd.
14 ¶ A rhyw wraig a'i henw Lydia, un yn gwerthu porphor, o ddinas y Thyatiriaid, yr hon oedd yn addoli Duw, a wrandawodd; yr hon yr agorodd yr Arglwydd ei chalon, i ddal ar y pethau a leferid gan Paul.
15 Ac wedi ei bedyddio hi a'i theulu, hi a ddymunodd *arnom,* gan ddywedyd, Os barnasoch fy mod i yn ffyddlawn i'r Arglwydd, deuwch i mewn i'm tŷ, ac arhoswch *yno.* A hi a'n cymhellodd ni.
16 ¶ A digwyddodd, a ni yn myned i weddïo, i ryw langces, yr hon oedd ganddi ysprydeiniaeth, gyfarfod â ni; yr hon oedd yn peri llawer o elw i'w meistriaid wrth ddywedyd deiniaeth.
17 Hon a ddilynodd Paul a ninnau, ac a lefodd, gan ddywedyd, Y dynion hyn ydynt weision y Duw goruchaf, y rhai sydd yn mynegi i chwi ffordd iachawdwriaeth.
18 A hyn a wnaeth hi dros ddyddiau lawer. Eithr Paul yn flin ganddo, a drodd, ac a ddywedodd wrth yr ysprydeiniaeth, Yr ydwyf yn gorchymyn i ti, yn enw Iesu Grist, fyned allan o honi. Ac efe a aeth allan yr awr honno.
19 ¶ A phan welodd ei meistriaid

hi fyned gobaith eu helw hwynt
ymaith, hwy a ddaliasant Paul a
Silas, ac a'*u* llusgasant *hwy* i'r
farchnadfa, at y llywodraethwyr;
20 Ac a'u dygasant hwy at y swydd-
ogion, ac a ddywedasant, Y mae y
dynion hyn, y rhai ydynt Iuddewon,
yn llwyr-gythryblio ein dinas ni,
21 Ac yn dysgu defodau, y rhai
nid ydyw rydd i ni eu derbyn na'u
gwneuthur, y rhai ydym Rufeinwyr.
22 A'r dyrfa a safodd i fyny yng-
hyd yn eu herbyn hwy; a'r swydd-
ogion, gan rwygo eu dillad, a orchy-
mynasant *eu* curo *hwy* â gwïail.
23 Ac wedi rhoddi gwïalennodiau
lawer iddynt, hwy a'*u* taflasant i
garchar, gan orchymyn i geidwad y
carchar eu cadw hwy yn ddïogel;
24 Yr hwn, wedi derbyn y cyfryw
orchymyn, a'*u* bwriodd hwy i'r
carchar nesaf i mewn, ac a wnaeth
eu traed hwy yn sicr yn y cyffion.
25 ¶ Ac ar hanner nos Paul a
Silas oedd yn gweddïo, ac yn canu
mawl i Dduw: a'r carcharorion a'u
clywsant hwy.
26 Ac yn ddisymmwth y bu dae-
argryn mawr, hyd oni siglwyd seil-
iau y carchar: ac yn ebrwydd yr
holl ddrysau a agorwyd, a rhwym-
au pawb a aethant yn rhyddion.
27 A phan ddeffrôdd ceidwad y
carchar, a chanfod drysau y carchar
yn agored, efe a dynnodd ei gleddyf,
ac a amcanodd ei ladd ei hun; gan
dybied ffoi o'r carcharorion ymaith.
28 Eithr Paul a lefodd â llef uch-
el, gan ddywedyd, Na wna i ti dy
hun ddim niwed; canys yr ydym
ni yma oll.
29 Ac wedi galw am oleu, efe a
ruthrodd i mewn, ac yn ddychryn-
edig efe a syrthiodd i lawr ger
bron Paul a Silas,
30 Ac a'u dug hwynt allan, ac a
ddywedodd, *O* feistriaid, beth sydd
raid i mi ei wneuthur, fel y bydd-
wyf gadwedig?
31 A hwy a ddywedasant, Cred
yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chad-
wedig fyddi, ti a'th deulu.
32 A hwy a draethasant iddo air
yr Arglwydd, ac i bawb oedd yn
ei dŷ ef.
33 Ac efe a'u cymmerth hwy yr
awr honno o'r nos, ac a olchodd
eu briwiau: ac efe a fedyddiwyd,
a'r eiddo oll, yn y man.
34 Ac wedi iddo eu dwyn hwynt
i'w dŷ, efe a osododd fwyd ger eu
bron hwy, ac a fu lawen, gan gredu
i Dduw, efe a'i holl deulu.
35 A phan aeth hi yn ddydd, y
swyddogion a anfonasant y ceisiaid,
gan ddywedyd, Gollwng ymaith y
dynion hynny.
36 A cheidwad y carchar a fyneg-
odd y geiriau hyn wrth Paul, Y
swyddogion a anfonasant i'ch goll-
wng chwi ymaith: yn awr gan hyn-
ny cerddwch ymaith; ewch mewn
heddwch.
37 Eithr Paul a ddywedodd wrth-
ynt, Wedi iddynt ein curo yn gy-
hoedd heb ein barnu, a ninnau yn
Rhufeinwyr, hwy a'n bwriasant ni i
garchar; ac yn awr a ydynt hwy yn
ein bwrw ni allan yn ddirgel? nid
felly; ond deuant hwy eu hunain,
a dygant ni allan.
38 A'r ceisiaid a fynegasant y
geiriau hyn i'r swyddogion: a hwy
a ofnasant, pan glywsant mai Rhu-
feiniaid oeddynt.
39 A hwy a ddaethant ac a att-
olygasant arnynt, ac a'*u* dygas-
ant allan, ac a ddeisyfasant arnynt
fyned allan o'r ddinas.
40 Ac wedi myned allan o'r
carchar, hwy a aethant i mewn
at Lydia: ac wedi gweled y brodyr,
hwy a'u cysurasant, ac a ymad-
awsant.

PENNOD 17.

1 Paul yn pregethu yn Thessalonica, 4 lle y mae rhai yn credu, ac eraill yn ei erlid ef. 10 Ei anfon ef i Berea, ac yntau yn pregethu yno; 13 ac wedi ei erlid yn Thessalonica, 15 yn dyfod i Athen; ac yno yn ymresymmu, ac yn pregethu iddynt hwy y Duw byw, yr hwn nid adwaenent; 34 ac wrth hynny bagad yn troi at Grist.

GWEDI iddynt dramwy trwy
Amphipolis ac Apolonia, hwy
a ddaethant i Thessalonica, lle yr
oedd synagog i'r Iuddewon.
2 A Phaul, yn ol ei arfer, a aeth i
mewn attynt, a thros dri Sabbath
a ymresymmodd â hwynt allan o'r
ysgrythyrau,
3 Gan egluro a dodi ger eu bron-
nau, mai rhaid oedd i Grist ddï-
oddef, a chyfodi oddi wrth y meirw;
ac mai hwn yw y Crist Iesu, yr hwn
yr wyf fi yn ei bregethu i chwi.

4 A rhai o honynt a gredasant, ac a ymwasgasant â Phaul a Silas, ac o'r Groegwyr crefyddol lïaws mawr, ac o'r gwragedd pennaf nid ychydig.

5 ¶ Eithr yr Iuddewon y rhai oedd heb gredu, gan genfigennu, a gymmerasant attynt ryw ddynion drwg o grwydriaid; ac wedi casglu tyrfa, hwy a wnaethant gyffro yn y ddinas, ac a osodasant ar dŷ Jason, ac a geisiasant eu dwyn hwynt allan at y bobl.

6 A phan na chawsant hwynt, hwy a lusgasant Jason, a rhai o'r brodyr, at bennaethiaid y ddinas, gan lefain, Y rhai sydd yn aflonyddu y byd, *y rhai hynny* a ddaethant yma hefyd;

7 Y rhai a dderbyniodd Jason: ac y mae y rhai hyn oll yn gwneuthur yn erbyn ordeiniadau Cesar, gan ddywedyd fod brenhin arall, *sef* Iesu.

8 A hwy a gyffroisant y dyrfa, a llywodraethwyr y ddinas hefyd, wrth glywed y pethau hyn.

9 Ac wedi iddynt gael sicrwydd gan Jason a'r lleill, hwy a'u gollyngasant hwynt ymaith.

10 ¶ A'r brodyr yn ebrwydd o hyd nos a anfonasant Paul a Silas i Berea: y rhai wedi eu dyfod *yno*, a aethant i synagog yr Iuddewon.

11 Y rhai hyn oedd foneddigeiddiach na'r rhai oedd yn Thessalonica, y rhai a dderbyniasant y gair gyd â phob parodrwydd meddwl, gan chwilio beunydd yr ysgrythyrau, a oedd y pethau hyn felly.

12 Felly llawer o honynt a gredasant, ac o'r Groegesau parchedig, ac o wŷr, nid ychydig.

13 A phan wybu yr Iuddewon o Thessalonica fod gair Duw yn ei bregethu gan Paul yn Berea hefyd, hwy a ddaethant yno hefyd, gan gyffrôi y dyrfa.

14 Ac yna yn ebrwydd y brodyr a anfonasant Paul ymaith, i fyned megis i'r môr: ond Silas a Thimothëus a arhosasant yno.

15 A chyfarwyddwyr Paul a'i dygasant ef hyd Athen; ac wedi derbyn gorchymyn at Silas a Thimothëus, ar iddynt ddyfod atto ar ffrwst, hwy a aethant ymaith.

16 ¶ A thra yr ydoedd Paul yn aros am danynt yn Athen, ei yspryd a gynhyrfwyd ynddo, wrth weled y ddinas wedi ymrôi i eilunod.

17 O herwydd hynny yr ymresymmodd efe yn y synagog â'r Iuddewon, ac â'r rhai crefyddol, ac yn y farchnad beunydd â'r rhai a gyfarfyddent âg ef.

18 A rhai *o'r* philosophyddion o'r Epicuriaid, ac o'r Stoiciaid, a ymddadleuasant âg ef; a rhai a ddywedasant, Beth a fynnai y siaradwr hwn ei ddywedyd? a rhai, Tebyg yw ei fod ef yn mynegi duwiau dïeithr: am ei fod yn pregethu yr Iesu, a'r adgyfodiad iddynt.

19 A hwy a'i daliasant ef, ac a'i dygasant i Areopagus, gan ddywedyd, A allwn ni gael gwybod beth *yw* y ddysg newydd hon, a draethir gennyt?

20 Oblegid yr wyt ti yn dwyn rhyw bethau dïeithr i'n clustiau ni: am hynny ni a fynnem wybod beth a allai y pethau hyn fod.

21 (A'r holl Atheniaid, a'r dïeithriaid y rhai oedd yn ymdeithio yno, nid oeddynt yn cymmeryd hamdden i ddim arall, ond i ddywedyd neu i glywed rhyw newydd.)

22 ¶ Yna y safodd Paul y'nghanol Areopagus, ac a ddywedodd, *Ha* wŷr Atheniaid, mi a'ch gwelaf chwi ym mhob peth yn dra choel-grefyddol:

23 Canys wrth ddyfod heibio, ac edrych ar eich defosiynau, mi a gefais allor yn yr hon yr ysgrifenasid, I'R DUW NID ADWAENIR. Yr hwn gan hynny yr ydych chwi heb ei adnabod yn ei addoli, hwnnw yr wyf fi yn ei fynegi i chwi.

24 Y Duw a wnaeth y byd, a phob peth sydd ynddo, gan ei fod yn Arglwydd nef a daear, nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw:

25 Ac nid â dwylaw dynion y gwasanaethir ef, fel pe bai arno eisieu dim; gan ei fod ef yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll.

26 Ac *efe* a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion, i breswylio ar holl wyneb y ddaear, ac a bennodd yr amseroedd rhag-osodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt;

27 Fel y ceisient yr Arglwydd, os gallent ymbalfalu am dano ef, a'i gael, er nad yw efe yn ddïau neppell oddi wrth bob un o honom:
28 Oblegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod; megis y dywedodd rhai o'ch pöetau chwi eich hunain, Canys ei hiliogaeth ef hefyd ydym ni.
29 Gan ein bod ni gan hynny yn hiliogaeth Duw, ni ddylem ni dybied fod y Duwdod yn debyg i aur, neu arian, neu faen, o gerfiad celfyddyd a dychymmyg dyn.
30 A Duw, wedi esgeuluso amseroedd yr anwybodaeth hon, sydd yr awr hon yn gorchymyn i bob dyn ym mhob man edifarhâu:
31 O herwydd iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gŵr a ordeiniodd efe; gan roddi ffydd i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddi wrth y meirw.
32 ¶ A phan glywsant sôn am adgyfodiad y meirw, rhai a watwarasant; a rhai a ddywedasant, Ni a'th wrandâwn drachefn am y peth hwn.
33 Ac felly Paul a aeth allan o'u plith hwynt.
34 Eithr rhai gwŷr a lynasant wrtho, ac a gredasant: ym mhlith y rhai *yr oedd* Dionysius yr Areopagiad, a gwraig a'i henw Damaris, ac eraill gyd â hwynt.

PENNOD 18.

1 Paul yn gweithio â'i ddwylaw, ac yn pregethu yn Corinth i'r Cenhedloedd. 9 Yr Arglwydd yn ei gysuro ef trwy weledigaeth. 12 Achwyn arno ef ger bron Gàlio y rhaglaw; ymtau yn cael ei oltwng ymaith: 18 ac wedi hynny yn tramwy o ddinas i ddinas, ac yn nerthu y disgyblion. 24 Apòlos, wedi ei ddysgu yn fanylach gan Acwila a Phriscìla, 28 yn pregethu Crist gyd â nerth mawr.

AR ol y pethau hyn, Paul a ymadawodd âg Athen, ac a ddaeth i Corinth.
2 Ac wedi iddo gael rhyw Iuddew â'i enw Acwila, un o Pontus o genedl, wedi dyfod yn hwyr o'r Ital, a'i wraig Priscìla, (am orchymyn o Claudius i'r Iuddewon oll fyned allan o Rufain,) efe a ddaeth attynt.
3 A'e, o herwydd ei fod o'r un gelfyddyd, efe a arhoes gyd â hwynt, ac a weithiodd; (canys gwneuthurwyr pebyll oeddynt wrth eu celfyddyd.)
4 Ac efe a ymresymmodd yn y synagog bob Sabbath, ac a gynghorodd yr Iuddewon, a'r Groegiaid.
5 A phan ddaeth Silas a Thimothëus o Macedonia, bu gyfyng ar Paul yn yr ysprydd, ac *efe* a dystiolaethodd i'r Iuddewon, mai Iesu oedd Crist.
6 A hwythau gwedi ymosod yn ei erbyn, a chablu, efe a ysgydwodd *ei* ddillad, ac a ddywedodd wrthynt, *Bydded* eich gwaed chwi ar eich pennau eich hunain; glân *ydwyf* fi: o hyn allan mi a âf at y Cenhedloedd.
7 ¶ Ac wedi myned oddi yno, efe a ddaeth i dŷ un â'i enw Justus, *un* oedd yn addoli Duw, tŷ yr hwn oedd yn cyffwrdd â'r synagog.
8 A Chrispus yr arch-synagogydd a gredodd yn yr Arglwydd, a'i holl dŷ: a llawer o'r Corinthiaid, wrth wrandaw, a gredasant, ac a fedyddiwyd.
9 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Paul trwy weledigaeth liw nos, Nac ofna; eithr llefara, ac na thaw;
10 Canys yr wyf fi gyd â thi, ac ni esyd neb arnat, i wneuthur niwed i ti: o herwydd y mae i mi bobl lawer yn y ddinas hon.
11 Ac efe a arhoes *yno* flwyddyn a chwe mis, yn dysgu gair Duw yn eu plith hwynt.
12 ¶ A phan oedd Gàlio yn rhaglaw yn Achaia, cyfododd yr Iuddewon yn unfryd yn erbyn Paul, ac a'i dygasant ef i'r frawdle,
13 Gan ddywedyd, Y mae hwn yn annog dynion i addoli Duw yn erbyn y ddeddf.
14 Ac fel yr oedd Paul yn amcanu agoryd ei enau, dywedodd Gàlio wrth yr Iuddewon, Pe buasai gam, neu ddrwg weithred, O Iuddewon, wrth reswm myfi a gyd-ddygaswn â chwi:
15 Eithr os y cwestiwn sydd am ymadrodd, ac enwau, a'r ddeddf sydd yn eich plith chwi, edrychwch eich hunain; canys ni fyddaf fi farnwr am y pethau hyn.
16 Ac efe a'u gyrrodd hwynt oddi wrth y frawdle.
17 A'r holl Roegwyr a gymmeras-

ant Sosthenes yr arch-synagogydd, ac a'i curasant o flaen y frawdle. Ac nid oedd Gàlio yn gofalu am ddim o'r pethau hynny.

18 ¶ Eithr Paul, wedi aros etto ddyddiau lawer, a ganodd yn iach i'r brodyr, ac a fordwyodd ymaith i Syria, a chyd âg ef Priscìla ac Acwila; gwedi iddo gneifio *ei* ben yn Cenchrea: canys yr oedd arno adduned.

19 Ac efe a ddaeth i Ephesus, ac a'u gadawodd hwynt yno; eithr efe a aeth i'r synagog, ac a ymresymmodd â'r Iuddewon.

20 A phan ddymunasant *arno* aros gyd â hwynt dros amser hŵy, ni chaniattaodd efe:

21 Eithr efe a ganodd yn iach iddynt, gan ddywedyd, Y mae yn anghenraid i mi gadw yr wyl sydd yn dyfod yn Jerusalem; ond os myn Duw, mi a ddeuaf yn fy ol attoch chwi drachefn. Ac efe a aeth ymaith o Ephesus.

22 Ac wedi iddo ddyfod i waered i Cesarea, efe a aeth i fyny ac a gyfarchodd yr eglwys, ac a ddaeth i waered i Antiochia.

23 Ac wedi iddo dreulio talm o amser efe a aeth ymaith, gan dramwy trwy wlad Galatia, a Phrygia, mewn trefn, a chadarnhâu yr holl ddisgyblion.

24 ¶ Eithr rhyw Iuddew, â'i enw Apòlos, Alexandriad o genedl, gŵr ymadroddus, cadarn yn yr ysgrythyrau, a ddaeth i Ephesus.

25 Hwn oedd wedi dechreu dysgu iddo ffordd yr Arglwydd: ac *efe* yn wresog yn yr ysbryd, a lefarodd, ac a athrawiaethodd yn ddiwyd y pethau a berthynent i'r Arglwydd, heb ddeall ond bedydd Ioan yn unig.

26 A hwn a ddechreuodd lefaru yn hyf yn y synagog: a phan glybu Acwila a Phriscìla, hwy a'i cymmerasant ef attynt, ac a agorasant iddo ffordd Duw yn fanylach.

27 A phan oedd efe yn ewyllysio myned i Achaia, y brodyr, gan annog, a ysgrifenasant at y disgyblion i'w dderbyn ef: yr hwn, wedi ei ddyfod, a gynnorthwyodd lawer ar y rhai a gredasent trwy ras;

28 Canys efe a orchfygodd yr Iuddewon yn egnïol, ar gyhoedd, gan ddangos trwy ysgrythyrau, mai Iesu yw Crist.

PENNOD 19.

6 Rhoddi yr Ysbryd Glân trwy ddwylaw Paul. 9 Yr Iuddewon yn cubìu ei athrawiaeth ef, yr hon a gadarnhêir trwy wyrthiau. 13 Y consurwyr Iuddewaidd 16 yn caèl eu curo gan y cythraul. 19 Llosgi y llyfrau consurio. 24 Demetrius, o chwant elw, yn codi terfysg mawr yn erbyn Paul: 35 ac ysgolhaig y ddinas yn llonyddu y derfysg.

A DIGWYDDODD, tra fu Apòlos yn Corinth, wedi i Paul dramwy trwy y parthau uchaf, dyfod o hono ef i Ephesus: ac wedi iddo gael rhyw ddisgyblion,

2 Efe a ddywedodd wrthynt, A dderbyniasoch chwi yr Ysbryd Glân er pan gredasoch? A hwy a ddywedasant wrtho, Ni chawsom ni gymmaint a chlywed a oes Ysbryd Glân.

3 Ac efe a ddywedodd wrthynt, I ba beth gan hynny y bedyddiwyd chwi? Hwythau a ddywedasant, I fedydd Ioan.

4 A dywedodd Paul, Ioan yn ddïau a fedyddiodd â bedydd edifeirwch, gan ddywedyd wrth y bobl am gredu yn yr hwn oedd yn dyfod ar ei ol ef, sef yng Nghrist Iesu.

5 A phan glywsant hwy *hyn*, hwy a fedyddiwyd yn enw yr Arglwydd Iesu.

6 Ac wedi i Paul ddodi *ei* ddwylaw arnynt, yr Ysbryd Glân a ddaeth arnynt; a hwy a draethasant â thafodau, ac a brophwydasant.

7 A'r gwŷr oll oeddynt ynghylch deuddeg.

8 Ac efe a aeth i mewn i'r synagog, ac a lefarodd yn hyf dros dri mis, gan ymresymmu a chynghori y pethau *a berthynent* i deyrnas Dduw.

9 Eithr pan oedd rhai wedi caledu, ac heb gredu, gan ddywedyd yn ddrwg am y ffordd honno ger bron y lliaws, efe a dynnodd ymaith oddi wrthynt, ac a neilluodd y disgyblion; gan ymresymmu beunydd yn ysgol un Tyrannus.

10 A hyn a fu dros yspaid dwy flynedd, hyd oni ddarfu i bawb a oedd yn trigo yn Asia, yn Iuddewon a Groegiaid, glywed gair yr Arglwydd Iesu.

11 A gwyrthiau rhagorol a wnaeth
Duw trwy ddwylaw Paul:
12 Hyd oni ddygid at y cleifion,
oddi wrth ei gorph ef, napcynau
neu foledau; a'r clefydau a ym-
adawai â hwynt, a'r ysprydion drwg
a aent allan o honynt.
13 ¶ Yna rhai o'r Iuddewon
crwydraidd, *y rhai oedd* gonsurwyr,
a gymmerasant arnynt enwi uwch
ben y rhai oedd âg ysprydion drwg
ynddynt, enw yr Arglwydd Iesu,
gan ddywedyd, Yr ydym ni yn eich
tynghedu chwi trwy yr Iesu, yr hwn
y mae Paul yn ei bregethu.
14 Ac yr oedd rhyw saith o feibion
i Scefa, Iuddew *ac* arch-offeiriad, y
rhai oedd yn gwneuthur hyn.
15 A'r ysprydrwg a attebodd ac
a ddywedodd, Yr Iesu yr wyf yn ei
adnabod, a Phaul a adwaen; eithr
pwy ydych chwi?
16 A'r dyn yr hwn yr oedd yr
ysprydrwg ynddo, a ruthrodd
arnynt, ac a'u gorchfygodd, ac a
fu drwm yn eu herbyn; hyd oni
ffoisant hwy allan o'r tŷ hwnnw, yn
noethion ac yn archolledig.
17 A hyn a fu hysbys gan yr
holl Iuddewon a'r Groegiaid hefyd,
y rhai oedd yn preswylio yn Ephes-
us; ac ofn a syrthiodd arnynt oll,
ac enw yr Arglwydd Iesu a fawr-
ygwyd.
18 A llawer o'r rhai a gredasent a
ddaethant, ac a gyffesasant, ac a
fynegasant eu gweithredoedd.
19 Llawer hefyd o'r rhai a fuasai
yn gwneuthur rhodreswaith, a
ddygasant eu llyfrau ynghyd, ac
a'u llosgasant y'ngŵydd pawb: a
hwy a fwriasant eu gwerth hwy, ac
a'i cawsant yn ddengmil a deugain
o *ddarnau* arian.
20 Mor gadarn y cynnyddodd gair
yr Arglwydd, ac y cryfhaodd.
21 ¶ A phan gyflawnwyd y peth-
au hyn, arfaethodd Paul yn yr
ysprydd, gwedi iddo dramwy trwy
Macedonia ac Achaia, fyned i Je-
rusalem; gan ddywedyd, Gwedi i
mi fod yno, rhaid i mi weled Rhu-
fain hefyd.
22 Ac wedi anfon i Macedonia
ddau o'r rhai oedd yn gweini iddo,
sef Timothëus ac Erastus, efe ei hun
a arhosodd dros amser yn Asia.
23 ¶ A bu ar yr amser hwnnw
drallod nid bychan ynghylch y
ffordd honno.
24 Canys rhyw un â'i enw Deme-
trius, gôf arian, yn gwneuthur teml-
au arian i Dïana, oedd yn peri elw
nid bychan i'r crefftwyr;
25 Y rhai a alwodd efe, ynghyd â
gweithwyr y cyfryw bethau hefyd,
ac a ddywedodd, *Ha* wŷr, chwi a
wyddoch mai oddi wrth yr elw hwn
y mae ein golud ni:
26 Chwi a welwch hefyd ac a
glywch, nid yn unig yn Ephesus,
eithr agos dros Asia oll, ddarfod i'r
Paul yma berswadio a throi llawer
o bobl ymaith, wrth ddywedyd nad
ydyw dduwiau y rhai a wneir â
dwylaw.
27 Ac nid yw yn unig yn enbyd
i ni, ddyfod y rhan hon i ddirmyg;
eithr hefyd bod cyfrif teml y ddduw-
ies fawr Dïana yn ddiddym, a bod
hefyd ddistrywio ei mawrhydi hi,
yr hon y mae Asia oll a'r byd yn ei
haddoli.
28 A phan glywsant, hwy a lan-
wyd o ddigofaint; ac a lefasant,
gan ddywedyd, Mawr *yw* Dïana yr
Ephesiaid.
29 A llanwyd yr holl ddinas o
gythrwfl: a hwy a ruthrasant yn
unfryd i'r orsedd, gwedi cipio Gai-
us ac Aristarchus o Macedonia, cyd-
ymdeithion Paul.
30 A phan oedd Paul yn ewyllysio
myned i mewn i blith y bobl, ni
adawodd y disgyblion iddo.
31 Rhai hefyd o bennaethiaid
Asia, y rhai oedd gyfeillion iddo, a
yrrasant atto, i ddeisyf *arno*, nad
ymroddai efe i fyned i'r orsedd.
32 A rhai a lefasant un peth, ac
eraill beth arall: canys y gynnull-
eidfa oedd yn gymmysg; a'r rhan
fwyaf ni wyddent o herwydd pa
beth y daethent ynghyd.
33 A hwy a dynnasant Alexander
allan o'r dyrfa, a'r Iuddewon yn ei
yrru ef ym mlaen. Ac Alexander
a amneidiodd â'i law am osteg, ac
a fynnasai ei amddiffyn ei hun wrth
y bobl.
34 Eithr pan wybuant mai Iuddew
oedd efe, pawb âg un llef a lefas-
ant megis dros ddwy awr, Mawr *yw*
Dïana yr Ephesiaid.

35 Ac wedi i ysgolhaig y ddinas
lonyddu y bobl, efe a ddywedodd,
Ha wŷr Ephesiaid, pa ddyn sydd
nis gŵyr fod dinas yr Ephesiaid
yn addoli y dduwies fawr Dïana,
a'r *ddelw* a ddisgynodd oddi wrth
Jupiter?
36 A chan fod y pethau hyn heb
allu dywedyd i'w herbyn, rhaid i
chwi fod yn llonydd, ac na wnel-
och ddim mewn byrbwyll.
37 Canys dygasoch yma y gwŷr
hyn, y rhai nid ydynt nac yn ys-
peilwyr temlau, nac yn cablu eich
duwies chwi.
38 Od oes gan hynny gan De-
metrius a'r crefftwyr sydd gyd âg
ef, un hawl yn erbyn neb, y mae
cyfraith i'w chael, ac y mae rhag-
lawiaid: rhodded pawb yn erbyn
eu gilydd.
39 Ac os gofynwch ddim am
bethau eraill, mewn cynnulleidfa
gyfreithlawn y terfynir *hynny.*
40 O herwydd enbyd yw rhag
achwyn arnom am y derfysg hedd-
yw; gan nad oes un achos trwy
yr hwn y gallom roddi rheswm o'r
ymgyrch hwn.
41 Ac wedi iddo ddywedyd hyn,
efe a ollyngodd y gynnulleidfa
ymaith.

PENNOD 20.

1 Paul yn myned i Macedonia; 7 yn gwasanaethu swpper yr Arglwydd, ac yn pregethu. 9 Eutychus, wedi cwympo i lawr yn farw, yn cael ei godi i fyny yn fyw. 17 Paul, yn Miletus, yn galw yr henuriaid ymghyd; ac yn mynegi iddynt beth a ddigwyddai iddo: 28 yn gorchymyn praidd Duw iddynt: 29 yn eu rhybuddio hwynt am y gau-athrawon: 36 yn gweddïo gyd â hwynt, ac yn myned ymaith.

AC ar ol gostegu y cythrwfl, Paul,
wedi galw y disgyblion atto,
a'*u* cofleidio, a ymadawodd i fyned
i Macedonia.
2 Ac wedi iddo fyned dros y
parthau hynny, a'u cynghori hwynt
â llawer o ymadrodd, efe a ddaeth
i dir Groeg.
3 Ac wedi aros dri mis, a gwneuth-
ur o'r Iuddewon gynllwyn iddo, fel
yr oedd ar fedr morio i Syria, efe
a arfaethodd ddychwelyd trwy Ma-
cedonia.
4 A chyd-ymdeithiodd âg ef hyd
yn Asia, Sopater o Berea; ac o'r
Thessaloniaid, Aristarchus a Se-
cundus; a Gaius o Derbe, a Timo-
thëus; ac o'r Asiaid, Tychicus a
Trophimus.
5 Y rhai hyn a aethant o'r blaen, *ac*
a arhosasant am danom yn Troas.
6 A ninnau a fordwyasom ymaith
oddi wrth Philippi, ar ol dyddiau y
bara croyw, ac a ddaethom attynt
hwy i Troas mewn pum niwrnod;
lle yr arhosasom saith niwrnod.
7 Ac ar y *dydd* cyntaf o'r wyth-
nos, wedi i'r disgyblion ddyfod yng-
hyd i dorri bara, Paul a ymres-
ymmodd â hwynt, ar fedr myned
ymaith drannoeth; ac *efe* a barha-
odd yn ymadrodd hyd hanner nos.
8 Ac yr oedd llawer o lampau yn
y llofft lle yr oeddynt wedi ym-
gasglu.
9 A rhyw ŵr ieuangc, a'i enw Eu-
tychus, a eisteddai mewn ffenestr:
ac efe a syrthiodd mewn trwmgwsg,
tra yr oedd Paul yn ymresymmu yn
hir, wedi ei orchfygu gan gwsg, ac a
gwympodd i lawr o'r drydedd lofft;
ac a gyfodwyd i fyny yn farw.
10 A Phaul a aeth i waered, ac
a syrthiodd arno ef, a chan *ei*
gofleidio, a ddywedodd, Na chy-
ffrôed arnoch: canys y mae ei enaid
ynddo ef.
11 Ac wedi iddo ddyfod i fyny, a
thorri bara, a bwytta, ac ymddiddan
llawer hyd dorriad y dydd; felly
efe a aeth ymaith.
12 A hwy a ddygasant y llangc yn
fyw, ac a gysurwyd yn ddirfawr.
13 ¶ Ond nyni a aethom o'r blaen
i'r llong, ac a hwyliasom i Assos; ar
fedr oddi yno dderbyn Paul: canys
felly yr oedd efe wedi ordeinio, ar
fedr myned ei hun ar ei draed.
14 A phan gyfarfu efe â ni yn
Assos, nyni a'i derbyniasom ef i
mewn, ac a ddaethom i Mitylene.
15 A morio a wnaethom oddi yno,
a dyfod drannoeth gyferbyn â Chi-
os; a thradwy y tiriasom yn Samos,
ac a arhosasom yn Trogylium; a'r
ail ddydd y daethom i Miletus.
16 Oblegid Paul a roddasai ei fryd
ar hwylio heibio i Ephesus, fel na
byddai iddo dreulio amser yn Asia.
Canys brysio yr oedd, os bai bosibl
iddo, i fod yn Jerusalem erbyn
dydd y Sulgwyn.
17 ¶ Ac o Miletus efe a anfonodd

i Ephesus, ac a alwodd atto henuriaid yr eglwys.
18 A phan ddaethant atto, efe a ddywedodd wrthynt, Chwi a wyddoch, er y dydd cyntaf y deuthum i Asia, pa fodd y bûm i gyd â chwi dros yr holl amser,
19 Yn gwasanaethu yr Arglwydd gyd â phob gostyngeiddrwydd, a llawer o ddagrau, a phrofedigaethau, y rhai a ddigwyddodd i mi trwy gynllwynion yr Iuddewon:
20 Y modd nad atteliais ddim o'r pethau buddiol heb eu mynegi *i chwi*, a'ch dysgu ar gyhoedd, ac o dŷ i dŷ;
21 Gan dystiolaethu i'r Iuddewon, ac i'r Groegiaid hefyd, yr edifeirwch sydd tu ag at Dduw, a'r ffydd sydd tu ag at ein Harglwydd Iesu Grist.
22 Ac yn awr, wele fi yn rhwym yn yr ysbryd yn myned i Jerusalem, heb wybod y pethau a ddigwydd i mi yno:
23 Eithr bod yr Ysbryd Glân yn tystio i mi ym mhob dinas, gan ddywedyd, fod rhwymau a blinderau yn fy aros.
24 Ond nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr gennyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw.
25 Ac yr awr hon, wele, mi a wn na chewch chwi oll, ym mysg y rhai y bûm i yn tramwy yn pregethu teyrnas Dduw, weled fy wyneb i mwyach.
26 O herwydd paham yr ydwyf yn tystio i chwi y dydd heddyw, fy mod i yn lân oddi wrth waed pawb oll:
27 Canys nid ymatteliais rhag mynegi i chwi holl gynghor Duw.
28 ¶ Edrychwch gan hynny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i brïod waed.
29 Canys myfi a wn hyn, y daw, ar ol fy ymadawiad i, fleiddiau blinion i'ch plith, heb arbed y praidd.
30 Ac o honoch chwi eich hunain y cyfyd gwŷr yn llefaru pethau gŵyrdraws, i dynnu disgyblion ar eu hol.
31 Am hynny gwyliwch, a chofiwch, dros dair blynedd na pheidiais i nos a dydd â rhybuddio pob un *o honoch* â dagrau.
32 Ac yr awr hon, frodyr, yr ydwyf yn eich gorchymyn i Dduw, ac i air ei ras ef, yr hwn a all adeiladu ychwaneg, a rhoddi i chwi etifeddiaeth ym mhlith yr holl rai a sancteiddiwyd.
33 Arian, neu aur, neu wisg neb, ni chwennychais:
34 Ië, chwi a wyddoch eich hunain, ddarfod i'r dwylaw hyn wasanaethu i'm cyfreidiau i, ac i'r rhai oedd gyd â mi.
35 Mi a ddangosais i chwi bob peth, mai wrth lafurio felly y mae yn rhaid cynnorthwyo y gweiniaid; a chofio geiriau yr Arglwydd Iesu, ddywedyd o hono ef, mai Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.
36 ¶ Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, efe a roddodd ei liniau i lawr, ac a weddïodd gyd â hwynt oll.
37 Ac wylo yn dost a wnaeth pawb: a *hwy* a syrthiasant ar wddf Paul, ac a'i cusanasant ef;
38 Gan ofidio yn bennaf am y gair a ddywedasai efe, na chaent weled ei wyneb ef mwy. A hwy a'i hebryngasant ef i'r llong.

PENNOD 21.

1 Paul yn gwrthod ei gynghori i beidio â myned i Jerusalem. 9 Merched Phylip yn brophwydesau. 15 Paul yn dyfod i Jerusalem, 27 lle y daliwyd ef, ac y bu mewn mawr beryl: 31 a'r pen-capten yn ei achub ef, ac yn rhoi cennad iddo i lefaru wrth y bobl.

ADIGWYDDODD, wedi i ni osod allan, ac ymadael â hwynt, ddyfod o honom âg uniawn-gyrch i Coos, a thrannoeth i Rhodes; ac oddi yno i Patara.
2 A phan gawsom long yn hwylio trosodd i Phenice, ni a ddringasom iddi, ac a aethom ymaith.
3 Ac wedi ymddangos o Cyprus i ni, ni a'i gadawsom hi ar y llaw aswy, ac a hwyliasom i Syria, ac a diriasom yn Tyrus: canys yno yr oedd y llong yn dadlwytho y llwyth.

4 Ac wedi i ni gael disgyblion, nyni a arhosasom yno saith niwrnod: y rhai a ddywedasant i Paul, trwy yr Ysbryd, nad elai i fyny i Jerusalem.

5 A phan ddarfu i ni orphen y dyddiau, ni a ymadawsom, ac a gychwynasom; a phawb, ynghyd â'r gwragedd a'r plant, a'n hebryngasant *ni* hyd allan o'r ddinas: ac wedi i ni ostwng ar ein gliniau ar y traeth, ni a weddïasom.

6 Ac wedi i ni ymgyfarch â'n gilydd, ni a ddringasom i'r llong; a hwythau a ddychwelasant i'w cartref.

7 Ac wedi i ni orphen hwylio o Tyrus, ni a ddaethom i Ptolemais: ac wedi *i ni* gyfarch y brodyr, ni a drigasom un diwrnod gyd â hwynt.

8 A thrannoeth, y rhai oedd ynghylch Paul a ymadawsant, ac a ddaethant i Cesarea. Ac wedi i ni fyned i mewn i dŷ Phylip yr efengylwr, (yr hwn oedd *un* o'r saith,) ni a arhosasom gyd âg ef.

9 Ac i hwn yr oedd pedair merch, o forwynion, yn prophwydo.

10 Ac fel yr oeddem yn aros *yno* ddyddiau lawer, daeth i waered o Judea brophwyd a'i enw Agabus.

11 Ac wedi dyfod attom, a chymmeryd gwregys Paul, a rhwymo ei ddwylaw ef a'i draed, efe a ddywedodd, Hyn a ddywed yr Ysbryd Glân; Y gŵr bïau y gwregys hwn a rwym yr Iuddewon fel hyn yn Jerusalem, ac a'i traddodant i ddwylaw y Cenhedloedd.

12 A phan glywsom y pethau hyn, nyni, a'r rhai oedd o'r fan honno hefyd, a ddeisyfasom nad elai efe i fyny i Jerusalem.

13 Eithr Paul a attebodd, Beth a wnewch chwi yn wylo, ac yn torri fy nghalon i? canys parod wyf fi nid i'm rhwymo yn unig, ond i farw hefyd yn Jerusalem, er mwyn enw yr Arglwydd Iesu.

14 A chan na ellid ei berswadio, ni a beidiasom, gan ddywedyd, Ewyllys yr Arglwydd a wneler.

15 Hefyd, ar ol y dyddiau hynny, ni a gymmerasom ein beichiau, ac a aethom i fyny i Jerusalem.

16 A *rhai* o'r disgyblion o Cesarea a ddaeth gyd â ni, gan ddwyn un Mnason o Cyprus, hen ddisgybl, gyd â'r hwn y llettŷem.

17 Ac wedi ein dyfod i Jerusalem, y brodyr a'n derbyniasant yn llawen.

18 A'r *dydd* nesaf yr aeth Paul gyd â ni i mewn at Iago; a'r holl henuriaid a ddaethant yno.

19 Ac wedi iddo gyfarch gwell iddynt, efe a fynegodd iddynt, bob yn un ac un, bob peth a wnaethai Duw ym mhlith y Cenhedloedd trwy ei weinidogaeth ef.

20 A phan glywsant, hwy a ogoneddasant yr Arglwydd, ac a ddywedasant wrtho, Ti a weli, frawd, pa sawl myrddiwn sydd o'r Iuddewon y rhai a gredasant; ac y maent oll yn dwyn sêl i'r ddeddf.

21 A hwy a glywsant am danat ti, dy fod di yn dysgu yr Iuddewon oll, y rhai sydd ym mysg y Cenhedloedd, i ymwrthod â Moses; ac yn dywedyd, na ddylent hwy enwaedu ar *eu* plant, na rhodio yn ol y defodau.

22 Pa beth gan hynny? nïd oes fodd na ddêl y lliaws ynghyd: canys hwy a gânt glywed dy ddyfod di.

23 Gwna gan hynny yr hyn a ddywedwn wrthyt: Y mae gennym ni bedwar gŵr a chanddynt adduned arnynt:

24 Cymmer y rhai hyn, a glanhâer di gyd â hwynt, a gwna draul arnynt, fel yr eilliont *eu* pennau; ac y gwypo pawb am y pethau a glywsant am danat ti, nad ydynt ddim, ond dy fod di dy hun hefyd yn rhodio, ac yn cadw y ddeddf.

25 Eithr am y Cenhedloedd y rhai a gredasant, ni a ysgrifenasom, *ac* a farnasom, na bo iddynt gadw dim o'r cyfryw beth; eithr iddynt ymgadw oddi wrth y pethau a aberthwyd i eilunod, a gwaed, a rhag *peth* tagedig, a rhag putteindra.

26 Yna Paul a gymmerth y gwŷr; a thrannoeth, gwedi iddo ymlanhâu gyd â hwynt, efe a aeth i mewn i'r deml; gan hysbysu cyflawni dyddiau y glanhâd, hyd oni offrymmid offrwm dros bob un o honynt.

27 A phan oedd y saith niwrnod ar ddarfod, yr Iuddewon a oeddent o Asia, pan welsant ef yn y deml,

a derfysgasant yr holl bobl, ac a ddodasant ddwylaw arno,

28 Gan lefain, *Ha* wŷr Israeliaid, cynnorthwywch. Dyma y dyn sydd yn dysgu pawb ym mhob man yn erbyn y bobl, a'r gyfraith, a'r lle yma: ac ym mhellach, y Groegiaid hefyd a ddug *efe* i mewn i'r deml, ac a halogodd y lle sanctaidd hwn.

29 Canys hwy a welsent o'r blaen Trophimus yr Ephesiad yn y ddinas gyd âg ef, yr hwn yr oeddynt hwy yn tybied ddarfod i Paul ei ddwyn i mewn i'r deml.

30 A chynhyrfwyd y ddinas oll, a'r bobl a redodd ynghyd: ac wedi ymaelyd yn Paul, hwy a'i tynnasant ef allan o'r deml: ac yn ebrwydd cauwyd y drysau.

31 Ac fel yr oeddynt hwy yn ceisio ei ladd ef, daeth y gair at ben-capten y fyddin, fod Jerusalem oll mewn terfysg.

32 Yr hwn allan o law a gymmerodd filwyr, a chanwriaid, ac a redodd i waered attynt: hwythau, pan welsant y pen-capten a'r milwyr, a beidiasant â churo Paul.

33 Yna y daeth y pen-capten yn nês, ac a'i daliodd ef, ac a archodd *ei* rwymo *ef* â dwy gadwyn; ac a ymofynodd pwy oedd efe, a pha beth a wnaethai.

34 Ac amryw rai a lefent amryw beth yn y dyrfa: ac am nas gallai wybod hysbysrwydd o herwydd y cythrwfl, efe a orchymynodd ei ddwyn ef i'r castell.

35 A phan oedd efe ar y grisiau, fe a ddigwyddodd gorfod ei ddwyn ef gan y milwyr, o achos trais y dyrfa.

36 Canys yr oedd lliaws y bobl yn canlyn, gan lefain, Ymaith âg ef.

37 A phan oedd Paul ar ei ddwyn i mewn i'r castell, efe a ddywedodd wrth y pen-capten, Ai rhydd i mi ddywedyd peth wrthyt? Ac efe a ddywedodd, A fedri di Roeg?

38 Onid tydi yw yr Aiphtwr, yr hwn o flaen y dyddiau hyn a gyfodaist derfysg, ac a arweiniaist i'r anialwch bedair mil o wŷr llofruddiog?

39 A Phaul a ddywedodd, Gŵr ydwyf fi yn wir o Iuddew, *un* o Tarsus, dinesydd o ddinas nid aneuwog, o Cilicia; ac yr wyf yn deisyf arnat ti, dyro gennad i mi i lefaru wrth y bobl.

40 Ac wedi iddo roi cennad iddo, Paul a safodd ar y grisiau, ac a amneidiodd â llaw ar y bobl. Ac wedi gwneuthur distawrwydd mawr, efe a lefarodd wrthynt yn Hebraeg, gan ddywedyd,

PENNOD 22.

1 Paul yn mynegi yn helaeth y modd y troisid ef i'r ffydd, 17 ac y galwesid ef i fod yn apostol. 22 Y bobl, wrth glywed crylaylll am y Cenhedloedd, yn llefain yn ei erbyn ef; 24 yntau yn debyg i gael ei flangellu; 25 ac etto yn diange, trwy ymhonni o ddinas-fraint Rhufain.

HA wŷr, frodyr, a thadau, gwrandêwch fy amddiffyn wrthych yr awr hon.

2 A phan glywsant mai yn Hebraeg yr oedd efe yn llefaru wrthynt, hwy a roisant iddo osteg gwell: ac efe a ddywedodd,

3 Gŵr wyf fi yn wir o Iuddew, yr hwn a aned yn Tarsus yn Cilicia, ac wedi fy meithrin yn y ddinas hon wrth draed Gamaliel, *ac* wedi fy athrawiaethu yn ol manylaf gyfraith y tadau, yn dwyn sêl i Dduw, fel yr ydych chwithau oll heddyw.

4 A mi a erlidiais y ffordd hon hyd angau, gan rwymo a dodi yng ngharchar wŷr a gwragedd hefyd.

5 Megis ag y mae yr arch-offeiriad yn dyst i mi, a'r holl henaduriaeth; gan y rhai hefyd y derbyniais lythyrau at y brodyr, ac yr euthum i Damascus, ar fedr dwyn y rhai oedd yno *hefyd*, yn rhwym i Jerusalem, i'w cospi.

6 Eithr digwyddodd, a myfi yn myned, ac yn nesâu at Damascus ynghylch hanner dydd, yn ddisymmwth i fawr oleuni o'r nef ddisgleirio o'm hamgylch.

7 A mi a syrthiais ar y ddaear, ac a glywais lais yn dywedyd wrthyf, Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid?

8 A minnau a attebais, Pwy wyt ti, *O* Arglwydd? Yntau a ddywedodd wrthyf, Myfi yw Iesu o Nasareth, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.

9 Hefyd y rhai oedd gyd â myfi a welsant y goleuni yn ddïau, ac

a ofnasant; ond ni chlywsant hwy
lais yr hwn oedd yn llefaru wrthyf.
10 Ac myfi a ddywedais, Beth a
wnaf, *O* Arglwydd? A'r Arglwydd
a ddywedodd wrthyf, Cyfod, a dos
i Damascus; ac yno y dywedir i ti
bob peth a'r a ordeiniwyd i ti eu
gwneuthur.
11 A phryd nad oeddwn yn gwel-
ed gan ogoniant y goleuni hwn-
nw, a'r rhai oedd gyd â mi yn
fy nhywys erbyn fy llaw, myfi a
ddeuthum i Damascus.
12 Ac un Ananïas, gŵr defosiynol
yn ol y ddeddf, ac iddo air da gan
yr Iuddewon oll a'r oeddynt yn
preswylio *yno*,
13 A ddaeth attaf, ac a safodd
ger llaw, ac a ddywedodd wrthyf,
Y brawd Saul, cynmer dy olwg.
Ac mi a edrychais arno yn yr awr
honno.
14 Ac efe a ddywedodd, Duw ein
tadau ni a'th rag-ordeiniodd di
i wybod ei ewyllys ef, ac i weled y
Cyfiawn hwnnw, ac i glywed lle-
ferydd ei enau ef.
15 Canys ti a fyddi dyst iddo wrth
bob dyn, o'r *pethau* a welaist ac a
glywaist.
16 Ac yr awr hon beth yr wyt ti
yn ei aros? cyfod, bedyddier di,
a golch ymaith dy bechodau, gan
alw ar enw yr Arglwydd.
17 A darfu, wedi i mi ddyfod yn
fy ol i Jerusalem, fel yr oeddwn yn
gweddïo yn y deml, i mi syrthio
mewn llewyg;
18 A'i weled ef yn dywedyd wrth-
yf, Brysia, a dos ar frys allan o
Jerusalem: o herwydd ni dderbyn-
iant dy dystiolaeth am danaf fi.
19 A minnau a ddywedais, *O* Ar-
glwydd, hwy a wyddant fy mod
i yn carcharu, ac yn baeddu ym
mhob synagog, y rhai a gredent
ynot ti:
20 A phan dywalltwyd gwaed
Stephan dy ferthyr di, yr oeddwn
i hefyd yn sefyll ger llaw, ac yn
cydsynio i'w ladd ef, ac yn cadw
dillad y rhai a'i lladdent ef.
21 Ac efe a ddywedodd wrthyf,
Dos ymaith: canys mi a'th anfonaf
ym mhell at y Cenhedloedd.
22 A hwy a'i gwrandawsant ef hyd
y gair hwn; a hwy a godasant eu
llef, ac a ddywedasant, Ymaith â'r
cyfryw un oddi ar y ddaear: canys
nid cymmwys ei fod ef yn fyw.
23 Ac fel yr oeddynt yn llefain,
ac yn bwrw *eu* dillad, ac yn tafiu
llwch i'r awyr,
24 Y pen-capten a orchymynodd
ei ddwyn èf i'r castell, gan beri ei
holi ef trwy fflangellau; fel y gallai
wybod am ba achos yr oeddynt yn
llefain arno felly.
25 Ac fel yr oeddynt yn ei rwymo
ef â charreiau, dywedodd Paul wrth
y canwriad yr hwn oedd yn sefyll
ger llaw, Ai rhydd i chwi fflangellu
gŵr o Rufeiniad, ac heb ei gon-
demnio hefyd?
26 *A* phan glybu y canwriad, efe a
aeth ac a fynegodd i'r pen-capten,
gan ddywedyd, Edrych beth yr wyt
yn ei wneuthur: canys Rhufeiniad
yw y dyn hwn.
27 A'r pen-capten a ddaeth, ac a
ddywedodd wrtho, Dywed i mi, ai
Rhufeiniad wyt ti? Ac efe a ddy-
wedodd, Ie.
28 A'r pen-capten a attebodd, A
swm mawr y cefais i y ddinas-fraint
hon. Eithr Paul a ddywedodd, A
minnau a anwyd *yn freiniol.*
29 Yn ebrwydd gan hynny yr
ymadawodd oddi wrtho y rhai oedd
ar fedr ei holi ef: a'r pen-capten
hefyd a ofnodd, pan wybu ei fod ef
yn Rhufeiniad, ac oblegid darfod
iddo ei rwymo ef.
30 A thrannoeth, ac efe yn ewyll-
ysio gwybod hysbysrwydd am ba
beth y cyhuddid ef gan yr Iuddew-
on, efe a'i gollyngodd ef o'r rhwym-
au, ac a archodd i'r arch-offeiriaid
a'u cynghor oll ddyfod *yno;* ac *efe*
a ddug Paul i waered, ac a'i gosod-
odd ger eu bron hwy.

PENNOD 23.

1 Paul yn atteb drosto ei hun. 2 Ananïas yn gorchymyn ei daro ef. 7 Ymryson ym mysg ei gyhuddwyr ef. 11 Duw yn ei gysuro ef. 14 Yr Iuddewon yn cynllwyn iddo; 20 a dangos hynny i'r pen-capten: 27 ynlau yn ei anfon ef at Ffelix y rhaglaw.

APHAUL, yn edrych yn graff
ar y cynghor, a ddywedodd,
Ha wŷr frodyr, mi a wasanaethais
Duw mewn pob cydwybod dda,
hyd y dydd heddyw.
2 A'r arch-offeiriad Ananïas a

archodd i'r rhai oedd yn sefyll yn ei ymyl, ei daro ef ar ei enau.
3 Yna y dywedodd Paul wrtho, Duw a'th dery di, bared wedi ei wyngalchu: canys a ydwyt ti yn eistedd i'm barnu i yn ol y ddeddf, a chan droseddu y ddeddf yn peri fy nharo i?
4 A'r sefyllwyr a ddywedasant wrtho, A ddifenwi di arch-offeiriad Duw?
5 A dywedodd Paul, Ni wyddwn i, frodyr, mai yr arch-offeiriad oedd efe: canys ysgrifenedig yw, Na ddywed yn ddrwg am bennaeth dy bobl.
6 A phan wybu Paul fod y naill ran o'r Saduceaid, a'r llall o'r Phariseaid, efe a lefodd yn y cynghor, *Ha* wŷr frodyr, Pharisead wyf fi, mab i Pharisead: am obaith ac adgyfodiad y meirw yr ydys yn fy marnu i.
7 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, bu ymryson rhwng y Phariseaid a'r Saduceaid: a rhannwyd y lliaws.
8 Canys y Saduceaid yn wir a ddywedant nad oes nac adgyfodiad, nac angel, nac ysbryd: eithr y Phariseaid sydd yn addef pob un o'r ddau.
9 A bu llefain mawr: a'r ysgrifenyddion *o ran* y Phariseaid a godasant i fyny, ac a ymrysonasant, gan ddywedyd, Nid ydym ni yn cael dim drwg yn y dyn hwn: eithr os ysbryd a lefarodd wrtho, neu angel, nac ymrysonwn â Duw.
10 Ac wedi cyfodi terfysg mawr, y pen-capten, yn ofni rhag tynnu Paul yn ddrylliau ganddynt, a archodd i'r milwyr fyned i waered, a'i gipio ef o'u plith hwynt, a'i ddwyn i'r castell.
11 Yr ail nos yr Arglwydd a safodd ger llaw iddo, ac a ddywedodd, Paul, cymmer gysur: canys megis y tystiolaethâist am danaf fi yn Jerusalem, felly y mae yn rhaid i ti dystiolaethu yn Rhufain hefyd.
12 A phan aeth hi yn ddydd, rhai o'r Iuddewon, wedi llunio cyfarfod, a'u rhwymasant eu hunain â dïofryd, gan ddywedyd na fwyttâent *ac* nad yfent nes iddynt ladd Paul.
13 Ac yr oedd mwy na deugain o'r rhai a wnaethant y cynghrair hwn.
14 A hwy a ddaethant at yr arch-offeiriaid a'r henuriaid, ac a ddywedasant, Ni a'n rhwymasom ein hunain â dïofryd, na archwaethem ddim hyd oni laddem Paul.
15 Yn awr gan hynny hysbyswch gyd â'r cynghor i'r pen-capten, fel y dygo efe ef i waered y fory attoch chwi, fel pe byddech ar fedr cael gwybod yn fanylach ei hanes ef: a ninnau, cyn y delo efe yn agos, ydym barod i'w ladd ef.
16 Eithr pan glybu mab chwaer Paul y cynllwyn yma, efe a aeth i mewn i'r castell, ac a fynegodd i Paul.
17 A Phaul a alwodd un o'r canwriaid atto, ac a ddywedodd, Dwg y gŵr ieuangc hwn at y pen-capten; canys y mae ganddo beth i'w fynegi iddo.
18 Ac efe a'i cymmerth ef, ac a'i dug at y pen-capten; ac a ddywedodd, Paul y carcharor a'm galwodd i atto, ac a ddymunodd arnaf ddwyn y gŵr ieuangc yma attat ti, yr hwn sydd ganddo beth i'w ddywedyd wrthyt.
19 A'r pen-capten a'i cymmerodd ef erbyn ei law, ac a aeth *âg ef* o'r neilldu, ac a ofynodd, Beth yw yr hyn sydd gennyt i'w fynegi i mi?
20 Ac efe a ddywedodd, Yr Iuddewon a gyd-fwriadasant ddeisyf arnat ddwyn Paul i waered y fory i'r cynghor, fel pe baent ar fedr ymofyn yn fanylach yn ei gylch ef.
21 Ond na chyttuna di â hwynt; canys y mae yn cynllwyn iddo fwy na deugeinwr o honynt, y rhai a roisant ddïofryd, na bwytta nac yfed, nes ei ladd ef: ac yn awr y maent hwy yn barod, yn disgwyl am addewid gennyt ti.
22 Y pen-capten gan hynny a ollyngodd y gŵr ieuangc ymaith, wedi gorchymyn *iddo* na ddywedai i neb, ddangos o hono y pethau hyn iddo ef.
23 Ac wedi galw atto ryw ddau ganwriad, efe a ddywedodd, Parottôwch ddau cant o filwyr, i fyned hyd yn Cesarea, a deg a thri ugain o wŷr meirch, a deucant o ffynwewyr, ar y drydedd awr o'r nos;
24 A pharottôwch ysgrubliaid *idd-*

ynt i osod Paul arnynt, i'w ddwyn ef yn ddiogel at Ffelix y rhaglaw.
25 Ac efe a ysgrifenodd lythyr, yn cynnwys yr ystyriaeth yma:
26 Claudius Lysias at yr ardderchoccaf raglaw Ffelix, *yn anfon* annerch.
27 Y gŵr hwn a ddaliwyd gan yr Iuddewon, ac a fu agos a'i ladd ganddynt; ac a achubais i, gan ddyfod â llu arnynt, gwedi deall mai Rhufeiniad oedd.
28 A chan ewyllysio gwybod yr achos yr oeddynt yn achwyn arno, mi a'i dygais ef i waered i'w cynghor hwynt:
29 Yr hwn y cefais fod yn achwyn arno am arholion o'u cyfraith hwy, heb fod un cwyn arno yn haeddu angau, neu rwymau.
30 A phan fynegwyd i mi fod yr Iuddewon ar fedr cynllwyn i'r gŵr, myfi a'i hanfonais ef allan o law attat ti; ac a rybuddiais y cyhuddwyr i ddywedyd y pethau oedd yn ei erbyn ef ger dy fron di. Bydd iach.
31 Yna y milwyr, megis y gorchymynasid iddynt, a gymmerasant Paul, ac a'*i* dygasant o hyd nos i Antipatris.
32 A thrannoeth, gan adael i'r gwŷr meirch fyned gyd âg ef, hwy a ddychwelasant i'r castell:
33 Y rhai, gwedi dyfod i Cesarea, a rhoddi y llythyr at y rhaglaw, a osodasant Paul hefyd ger ei fron ef.
34 Ac wedi i'r rhaglaw ddarllen *y llythyr*, ac ymofyn o ba dalaeth yr oedd efe: a gwybod mai o Cilicia yr ydoedd;
35 Mi a'th wrandawaf, eb efe, pan ddelo dy gyhuddwyr hefyd. Ac efe a orchymynodd ei gadw ef yn nadleudy Herod.

PENNOD 24.

1 *Paul, wedi ei gyhuddo gan Tertùlus yr areithiwr,* 10 *yn atteb dros ei fuchedd a'i athrawiaeth:* 24 *yn pregethu Crist i'r rhaglaw a'i wraig.* 26 *Y rhaglaw yn gobeithio cael gwobr, eithr yn ofer;* 27 *ac o'r diwedd, wrth fyned allan o'i swydd, yn gadael Paul y'ngharchar.*

AC ar ol pum niwrnod, y daeth Ananïas yr arch-offeiriad i waered, a'r henuriaid, ac un Tertùlus, areithiwr; y rhai a ymddangosasant ger bron y rhaglaw yn erbyn Paul.
2 Ac wedi ei alw ef ger bron, Tertùlus a ddechreuodd *ei* gyhuddo *ef*, gan ddywedyd,
3 Gan ein bod ni yn cael trwot ti heddwch mawr, a bod pethau llwyddiannus i'r genedl hon trwy dy ragweledigaeth di, yr ydym ni yn gwbl, ac ym mhob man, yn *eu* cydnabod, *O* ardderchoccaf Ffelix, gyd â phob diolch.
4 Eithr, fel na rwystrwyf di ym mhellach, yr ydwyf yn deisyf arnat, o'th hynawsedd, wrandaw arnom ar fyr eiriau.
5 Oblegid ni a gawsom y gŵr hwn yn bla, ac yn cyfodi terfysg ym mysg yr holl Iuddewon trwy y byd, ac yn ben ar sect y Nasareniaid:
6 Yr hwn a amcanodd halogi y deml: yr hwn hefyd a ddaliasom ni, ac a fynnasem ei farnu yn ol ein cyfraith ni.
7 Eithr Lysias y pen-capten a ddaeth, a thrwy orthrech mawr a'*i* dug *ef* allan o'n dwylaw ni,
8 *Ac* a archodd i'w gyhuddwyr ddyfod ger dy fron di: gan yr hwn, wrth ei holi, y gelli dy hun gael gwybodaeth o'r holl bethau am y rhai yr ydym ni yn achwyn arno.
9 A'r Iuddewon a gydsyniasant hefyd, gan ddywedyd fod y pethau hyn felly.
10 A Phaul a attebodd, wedi i'r rhaglaw amneidio arno i ddywedyd, Gan i mi wybod dy fod di yn farnwr i'r genedl hon er ys llawer o flynyddoedd, yr ydwyf yn fwy cysurus yn atteb trosof fy hun.
11 Canys ti a elli wybod nad oes dros ddeuddeg diwrnod er pan ddeuthum i fyny i addoli yn Jerusalem.
12 Ac ni chawsant fi yn y deml yn ymddadleu â neb, nac yn gwneuthur terfysg i'r bobl, nac yn y synagogau, nac yn y ddinas:
13 Ac ni allant brofi y pethau y maent yn awr yn achwyn arnaf o'u plegid.
14 Ond hyn yr ydwyf yn ei gyffesu i ti, mai yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn heresi, felly yr wyf fi yn addoli Duw fy nhadau;

gan gredu yr holl bethau sydd
ysgrifenedig yn y ddeddf a'r pro-
phwydi;
15 A chennyf obaith ar Dduw,
yr hon y mae y rhai hyn eu hunain
yn ei disgwyl, y bydd adgyfodiad
y meirw, i'r cyfiawnion ac i'r ang-
hyfiawnion.
16 Ac yn hyn yr ydwyf fi fy hun
yn ymarfer, i gael cydwybod ddi-
rwystr tu ag at Dduw a dynion, yn
wastadol.
17 Ac ar ol llawer o flynyddoedd,
y deuthum i wneuthur elusenau
i'm cenedl, ac offrymmau.
18 Ar hynny rhai o'r Iuddewon o
Asia a'm cawsant i wedi fy nglan-
hâu yn y deml, nid gyd â thorf na
therfysg.
19 Y rhai a ddylasent fod ger dy
fron di, ac achwyn, os oedd gan-
ddynt ddim i'm herbyn.
20 Neu, dyweded y rhai hyn eu
hunain, os cawsant ddim camwedd
ynof, tra fûm i yn sefyll o flaen y
cynghor;
21 Oddi eithr yr un llef hon a
lefais pan oeddwn yn sefyll yn eu
plith; Am adgyfodiad y meirw y'm
bernir heddyw gennych.
22 Pan glybu Ffelix y pethau
hyn, efe a'u hoedodd hwynt, gan
wybod yn hysbysach y pethau a
berthynent i'r ffordd *honno;* ac
a ddywedodd, Pan ddêl Lysias y
pen-capten i waered, mi a gâf
wybod eich matterion chwi yn
gwbl.
23 Ac efe a archodd i'r canwriad
gadw Paul, a chael *o hono* es-
mwythdra; ac na lesteiriai neb o'r
eiddo ef i'w wasanaethu, nac i ddy-
fod atto.
24 Ac ar ol talm o ddyddiau, y
daeth Ffelix, gyd â'i wraig Drusila,
yr hon ydoedd Iuddewes, ac a yr-
rodd am Paul, ac a'i gwrandawodd
ef ynghylch y ffydd yng Nghrist.
25 Ac fel yr oedd efe yn ymres-
ymmu am gyfiawnder, a dirwest, a'r
farn a fydd, Ffelix a ddychrynodd,
ac a attebodd, Dos ymaith ar hyn
o amser; a phan gafiwyf fi amser
cyfaddas, mi a alwaf am danat.
26 A chan obeithio hefyd y rhodd-
id arian iddo gan Paul, er ei ollwng
ef yn rhydd: o herwydd paham efe
a anfonodd am dano yn fynychach,
ac a chwedleuodd âg ef.
27 Ac wedi cyflawni dwy flyn-
edd, y daeth Porcius Ffestus yn
lle Ffelix. A Ffelix, yn ewyllysio
gwneuthur cymmwynas i'r Iuddew-
on, a adawodd Paul yn rhwym.

PENNOD 25.

2 Yr Iuddewon yn achwyn ar Paul ger bron Ffestus: 8 ac yntau yn atteb drosto ei hun, 11 ac yn appelio at Cesar: 14 ac wedi hynny Ffestus yn hysbysu ei achos ef i'r brenhin Agrippa, 23 a'i ddwyn ef ger bron. 25 Ffestus yn ei ddiheuro ef, na wnaethai efe ddim a haeddai farwolaeth.

FFESTUS gan hynny, wedi dy-
fod i'r dalaeth, ar ol tri diwr-
nod a aeth i fyny i Jerusalem o
Cesarea.
2 Yna yr ymddangosodd yr arch-
offeiriad a phennaethiaid yr Iudd-
ewon ger ei fron ef, yn erbyn Paul,
ac a ymbiliasant âg ef,
3 Gan geisio ffafr yn ei erbyn ef,
fel y cyrchai efe ef i Jerusalem,
gan wneuthur cynllwyn i'w ladd ef
ar y ffordd.
4 A Ffestus a attebodd, y cedwid
Paul yn Cesarea, ac yr âi efe ei hun
yno ar fyrder.
5 Y rhai gan hynny a allant yn
eich mysg, eb efe, deuant i waered
gyd â *mi*, ac od oes dim drwg yn y
gŵr hwn, cyhuddant ef.
6 A phryd na thrigasai efe gyd â
hwy dros ddeng niwrnod, efe a aeth
i waered i Cesarea; a thrannoeth
efe a eisteddodd yn yr orsedd, ac a
archodd ddwyn Paul atto.
7 Ac wedi ei ddyfod, yr Iudd-
ewon a ddaethent o Jerusalem i
waered, a safasant o'i amgylch, ac
a ddygasant lawer o achwynion
trymion yn erbyn Paul, y rhai nis
gallent eu profi.
8 Ac yntau yn ei amddiffyn ei hun,
Ni phechais i ddim, nac yn erbyn
cyfraith yr Iuddewon, nac yn erbyn
y deml, nac yn erbyn Cesar.
9 Eithr Ffestus, yn chwennych
dangos ffafr i'r Iuddewon, a at-
tebodd Paul, ac a ddywedodd, A
fynni di fyned i fyny i Jerusalem,
i'th farnu yno ger fy mron i am y
pethau hyn?
10 A Phaul a ddywedodd, O flaen
gorseddfainge Cesar yr wyf fi yn
sefyll, lle y mae yn rhaid fy marnu:

ni wneuthum i ddim cam â'r Iuddewon, megis y gwyddost ti yn dda.
11 Canys os ydwyf yn gwneuthur cam, ac *os* gwneuthum ddim yn haeddu angau, nid wyf yn gwrthod marw: eithr onid oes dim o'r pethau y mae y rhai hyn yn fy nghyhuddo, ni ddichon neb fy rhoddi iddynt. Appelio yr wyf at Cesar.
12 Yna Ffestus, wedi ymddiddan â'r cynghor, a attebodd, A appeliaist ti at Cesar? at Cesar y cei di fyned.
13 Ac wedi talm o ddyddiau, Agrippa y brenhin a Bernice a ddaethant i Cesarea i gyfarch Ffestus.
14 Ac wedi iddynt aros yno lawer o ddyddiau, Ffestus a fynegodd i'r brenhin hanes Paul, gan ddywedyd, Y mae *yma* ryw ŵr wedi ei adael gan Ffelix y'ngharchar:
15 Ynghylch yr hwn, pan oeddwn yn Jerusalem, yr ymddangosodd arch-offeiriaid a henuriaid yr Iuddewon ger bron, gan ddeisyf *cael* barn yn ei erbyn ef.
16 I'r rhai yr attebais, nad oedd arfer y Rhufeinwyr roddi neb rhyw ddyn i'w ddifetha, nes cael o'r cyhuddol ei gyhuddwyr yn ei wyneb, a chael lle i'w amddiffyn ei hun rhag y cwyn.
17 Wedi eu dyfod hwy yma gan hynny, heb wneuthur dim oed, trannoeth mi a eisteddais ar yr orseddfainge, ac a orchymynais ddwyn y gŵr ger bron.
18 Am yr hwn ni ddug y cyhuddwyr *i fyny* ddim achwyn o'r pethau yr oeddwn i yn tybied:
19 Ond yr oedd ganddynt yn ei erbyn ef ryw ymofynion ynghylch eu coel-grefydd eu hunain, ac ynghylch un Iesu a fuasai farw, yr hwn a daerai Paul ei fod yn fyw.
20 A myfi, yn anhysbys i ymofyn am hyn, a ddywedais, a fynnai efe fyned i Jerusalem, a'i farnu yno am y pethau hyn.
21 Eithr gwedi i Paul appelio i'w gadw i wybyddiaeth Augustus, mi a erchais ei gadw ef hyd oni allwn ei anfon ef at Cesar.
22 Yna Agrippa a ddywedodd wrth Ffestus, Minnau a ewyllysiwn glywed y dyn. Yntau a ddywedodd, Ti a gei ei glywed ef y fory.
23 Trannoeth gan hynny, wedi dyfod Agrippa a Bernice, â rhwysg fawr, a myned i mewn i'r orsedd, â'r pen-capteniaid, a phendefigion y ddinas, wrth orchymyn Ffestus fe a ddygwyd Paul ger bron.
24 A Ffestus a ddywedodd, *O* frenhin Agrippa, a chwi wŷr oll sydd gyd â ni yn bresennol, chwi a welwch y dyn hwn, oblegid pa un y galwodd holl liaws yr Iuddewon arnaf fi, yn Jerusalem ac yma, gan lefain na ddylai efe fyw yn hŵy.
25 Eithr pan ddeallais na wnaethai efe ddim yn haeddu angau, ac yntau ei hun wedi appelio at Augustus, mi a fernais ei ddanfon ef.
26 Am yr hwn nid oes gennyf ddim sicrwydd i'w ysgrifenu at fy arglwydd. O herwydd paham mi a'i dygais ef ger eich bron chwi, ac yn enwedig ger dy fron di, *O* frenhin Agrippa; fel, wedi ei holi ef, y caffwyf ryw beth i'w ysgrifenu.
27 Canys allan o reswm y gwelaf fi anfon carcharor, heb hysbysu hefyd yr achwynion *a fyddo* yn ei erbyn ef.

PENNOD 26.

2 Paul, y'ngŵydd Agrippa, yn dangos ei fuchedd o'i febyd: 12 ac mor rhyfeddol y troisiâd ac y galwesiâd ef i fod yn apostol. 24 Ffestus yn taeru ei fod ef wedi ymfydu: yntau ar hynny yn atteb yn llariaidd. 28 Agrippa yn mron myned yn Gristion. 31 Yr holl gymmuleidfa yn ei farnu ef yn ddieuog.

AC Agrippa a ddywedodd wrth Paul, Y mae cennad i ti i ddywedyd drosot dy hunan. Yna Paul a estynodd ei law, ac a'i hamddiffynodd ei hun.
2 Yr ydwyf yn fy nhybied fy hun yn ddedwydd, O frenhin Agrippa, gan fy mod yn cael fy amddiffyn fy hun ger dy fron di heddyw, am yr holl bethau yr achwynir arnaf gan yr Iuddewon:
3 Yn bendifaddeu gan wybod dy fod di yn gydnabyddus â'r holl ddefodau a'r holion sydd ym mhlith yr Iuddewon: o herwydd paham yr ydwyf yn deisyf arnat fy ngwrandaw i yn ddïoddefgar.
4 Fy muchedd i o'm mebyd, yr hon oedd o'r dechreuad ym mhlith

fy nghenedl yn Jerusalem, a ŵyr yr Iuddewon oll;
5 Y rhai a'm hadwaenent i o'r dechreu, (os mynnant dystiolaethu,) mai yn ol y sect fanylaf o'n crefydd ni y bûm i fyw yn Pharisead.
6 Ac yn awr, am obaith yr addewid a wnaed i'n tadau gan Dduw, yr wyf yn sefyll i'm barnu:
7 I'r hon *addewid* y mae ein deuddeg llwyth ni, heb dor yn gwasanaethu *Duw* nos a dydd, yn gobeithio dyfod. Am yr hwn obaith yr achwynir arnaf, *O* frenhin Agrippa, gan yr Iuddewon.
8 Pa beth? ai anghredadwy y bernir gennych chwi, y cyfyd Duw y meirw?
9 Minnau yn wir a dybiais ynof fy hun, fod yn rhaid *i mi* wneuthur llawer o bethau yn erbyn enw Iesu o Nasareth.
10 Yr hyn hefyd a wneuthum yn Jerusalem: a llawer o'r saint a geuais i mewn carcharau, wedi derbyn awdurdod gan yr arch-offeiriaid; ac wrth eu difetha, mi a roddais farn yn *eu* herbyn.
11 Ac ym mhob synagog yn fynych mi a'u cospais hwy, ac a'*u* cymhellais i gablu; a chan ynfydu yn fwy yn eu herbyn, mi a'*u* herlidiais hyd ddinasoedd dïeithr hefyd.
12 Ac yn hyn, a myfi yn myned i Damascus âg awdurdod a chennad oddi wrth yr arch-offeiriaid,
13 Ar hanner dydd, O frenhin, ar y ffordd, y gwelais oleuni o'r nef, mwy na disgleirdeb yr haul, yn disgleirio o'm hamgylch, a'r rhai oedd yn ymdaith gyd â mi.
14 Ac wedi i ni oll syrthio ar y ddaear, mi a glywais leferydd yn llefaru wrthyf, ac yn dywedyd yn Hebraeg, Saul, Saul, paham yr ydwyt yn fy erlid i? Caled *yw* i ti wingo yn erbyn y symbylau.
15 Ac mi a ddywedais, Pwy wyt ti, Arglwydd? Ac efe a ddywedodd, Myfi yw Iesu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.
16 Eithr cyfod, a saf ar dy draed: canys i hyn yr ymddangosais i ti, i'th osod di yn weinidog ac yn dyst o'r pethau a welaist, ac o'r pethau yr ymddangosaf i ti ynddynt;
17 Gan dy wared di oddi wrth y bobl, a'r Cenhedloedd, at y rhai yr ydwyf yn dy anfon di yr awr hon;
18 I agoryd eu llygaid, ac i'*w* troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw; fel y derbyniont faddeuant pechodau, a chyfran ym mysg y rhai a sancteiddiwyd, trwy y ffydd sydd ynof fi.
19 Am ba achos, O frenhin Agrippa, ni bûm anufudd i'r weledigaeth nefol:
20 Eithr mi a bregethais i'r rhai yn Damascus yn gyntaf, ac yn Jerusalem, a thros holl wlad Judea, ac i'r Cenhedloedd; ar iddynt edifarhâu, a dychwelyd at Dduw, a gwneuthur gweithredoedd addas i edifeirwch.
21 O achos y pethau hyn yr Iuddewon a'm daliasant i yn y deml, ac a geisiasant *fy* lladd *i â'u dwylaw eu hun.*
22 Am hynny, wedi i mi gael help gan Dduw, yr wyf fi yn aros hyd y dydd hwn, gan dystiolaethu i fychan a mawr, ac heb ddywedyd dim amgen nag a ddywedasai y prophwydi a Moses y delent i ben;
23 Y dïoddefai Crist, *ac* y byddai efe yn gyntaf o adgyfodiad y meirw, ac y dangosai oleuni i'r bobl, ac i'r Cenhedloedd.
24 Ac fel yr oedd efe yn dywedyd y pethau hyn trosto, Ffestus a ddywedodd â llef uchel, Paul, yr wyt ti yn ynfydu; llawer o ddysg sydd yn dy yrru di yn ynfyd.
25 Ac efe a ddywedodd, Nid wyf fi yn ynfydu, *O* ardderchoccaf Ffestus; eithr geiriau gwirionedd a sobrwydd yr wyf fi yn eu hadrodd.
26 Canys y brenhin a ŵyr oddi wrth y pethau hyn, wrth yr hwn yr wyf fi yn llefaru yn hyf: o herwydd nid wyf yn tybied fod dim o'r pethau hyn yn guddiedig rhagddo; oblegid nid mewn congl y gwnaed hyn.
27 *O* frenhin Agrippa, A wyt ti yn credu i'r prophwydi? Mi a wn dy fod yn credu.
28 Ac Agrippa a ddywedodd wrth Paul, Yr wyt ti o fewn ychydig i'm hennill i fod yn Gristion.
29 A Phaul a ddywedodd, Mi a ddymunwn gan Dduw, o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, fod nid tydi

yn unig, ond pawb hefyd a'r sydd yn fy ngwrandaw heddyw, yn gyfryw ag wyf fi, ond y rhwymau hyn.
30 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, cyfododd y brenhin, a'r rhaglaw, a Bernice, a'r rhai oedd yn eistedd gyd â hwynt:
31 Ac wedi iddynt fyned o'r neilldu, hwy a lefarasant wrth eu gilydd, gan ddywedyd, Nid yw y dyn hwn yn gwneuthur dim yn haeddu angau, neu rwymau.
32 Yna y dywedodd Agrippa wrth Ffestus, Fe allasid gollwng y dyn yma ymaith, oni buasai iddo appelio at Cesar.

PENNOD 27.

1 *Paul, wrth forio tu a Rhufain,* 10 *yn rhagddywedyd perygl y daith;* 11 *ac heb gael ei goelio:* 14 *hwythau yn cael eu tafu draw ac yma gan y dymmestl:* 41 *y llong yn torri arnynt;* 22, 34, 44 *ac er hynny maent yn dyfod i gyd i dir yn ddiangol.*

A PHAN gyttunwyd forio o honom ymaith i'r Ital, hwy a roisant Paul, a rhyw garcharorion eraill, at ganwriad a'i enw Julius, o fyddin Augustus.
2 Ac wedi dringo i long o Adramyttium, ar fedr hwylio i dueddau Asia, ni a aethom allan o'r porthladd; a chyd â ni yr oedd Aristarchus, Macedoniad o Thessalonica.
3 A thrannoeth ni a ddygwyd i waered i Sidon. A Julius a ymddûg yn garedigol tu ag at Paul, ac a roddes *iddo* gennad i fyned at ei gyfeillion i gael ymgeledd.
4 Ac wedi myned oddi yno, ni a hwyliasom dan Cyprus, am fod y gwyntoedd yn wrthwynebus.
5 Ac wedi hwylio o honom dros y môr sydd ger llaw Cilicia a Phamphylia, ni a ddaethom i Myra, *dinas* yn Lycia.
6 Ac yno y canwriad, wedi cael llong o Alexandria yn hwylio i'r Ital, a'n gosododd ni ynddi.
7 Ac wedi i ni hwylio yn anniben lawer o ddyddiau, a dyfod yn brin ar gyfer Cnidus, am na adawai y gwynt i ni, ni a hwyliasom îs law Creta, ar gyfer Salmone.
8 Ac *wedi i ni* yn brin fyned heibio iddi, ni a ddaethom i ryw le a elwir, Y porthladdoedd prydferth, yr hwn yr oedd dinas Lasea yn agos iddo.
9 Ac wedi i dalm o amser fyned heibio, a bod morio weithian yn enbyd, o herwydd hefyd ddarfod yr ympryd weithian, Paul a gynghorodd,
10 Gan ddywedyd wrthynt, *Ha* wŷr, yr wyf yn gweled y bydd yr hynt hon ynghyd â sarhâd a choll-ed fawr, nid yn unig am y llwyth a'r llong, eithr am ein heinioes ni hefyd.
11 Eithr y canwriad a gredodd i lywydd ac i berchen y llong, yn fwy nag i'r pethau a ddywedid gan Paul.
12 A chan fod y porthladd yn anghyfleus i auafu, y rhan fwyaf a roisant gynghor i ymadaw oddi yno hefyd, os gallent ryw fodd gyrhaeddyd hyd Phenice, i auafu *yno;* yr hwn sydd borthladd yn Creta, ar gyfer y dehau-orllewin, a'r gogledd-orllewin.
13 A phan chwythodd y deheuwynt yn araf, hwynt-hwy yn tybied cael *eu* meddwl, gan godi *hwyliau,* a foriasant heibio yn agos i Creta.
14 Ond cyn nemmawr cyfododd yn ei herbyn hi wynt tymhestlog, yr hwn a elwir Euroclydon.
15 A phan gipiwyd y llong, ac heb allu gwrthwynebu y gwynt, ni a ymroisom, ac a ddygwyd *gyd â'r gwynt.*
16 Ac wedi i ni redeg goris ynys fechan a elwir Clauda, braidd y gallasom gael y bâd:
17 Yr hwn a godasant i fyny, ac a wnaethant gynnorthwyon, gan wregysu y llong oddi dani: a hwy yn ofni rhag syrthio ar sugndraeth, wedi gostwng yr hwyl, a ddygwyd felly.
18 A ni yn flin iawn arnom gan y dymmestl, drannoeth hwy a ysgafnhasant y llong;
19 A'r trydydd *dydd* bwriasom â'n dwylaw ein hunain daclau y llong allan.
20 A phan nad oedd na haul na sêr yn ymddangos dros lawer o ddyddiau, a thymmestl nid bychan yn pwyso *arnom,* pob gobaith y byddem gadwedig a ddygwyd oddi arnom o hynny allan.
21 Ac wedi bod hir ddirwest, yna y safodd Paul yn eu canol hwy, ac

a ddywedodd, *Ha* wŷr, chwi a ddylasech wrandaw arnaf fi, a bod heb ymadaw o Creta, ac ennill y sarhâd yma a'r golled.

22 Ac yr awr hon yr wyf yn eich cynghori chwi i fod yn gysurus: canys ni bydd colled am einioes *un* o honoch, ond am y llong yn unig.

23 Canys safodd yn fy ymyl y nos hon angel Duw, yr hwn a'm pïau, a'r hwn yr wyf yn ei addoli,

24 Gan ddywedyd, Nac ofna, Paul; rhaid i ti sefyll ger bron Cesar: ac wele, rhoddes Duw i ti y rhai oll sydd yn morio gyd â thi.

25 Am hynny, *ha* wŷr, cymmerwch gysur: canys yr wyf fi yn credu i Dduw, mai felly y bydd, yn ol y modd y dywedwyd i mi.

26 Ond mae yn rhaid ein bwrw ni i ryw ynys.

27 Ac wedi dyfod y bedwaredd nos ar ddeg, fe a ddigwyddodd, a ni yn morio yn Adria, ynghylch hanner nos, dybied o'r morwyr eu bod yn nesâu i ryw wlad;

28 Ac wedi iddynt blymio, hwy a'i cawsant yn ugain gwrhyd: ac wedi myned ychydig pellach, a phlymio drachefn, hwy a'i cawsant yn bymtheg gwrhyd.

29 Ac a hwy yn ofni rhag i ni syrthio ar leoedd geirwon, wedi iddynt fwrw pedair angor allan o'r llyw, hwy a ddeisyfasant ei myned hi yn ddydd.

30 Ac fel yr oedd y llongwyr yn ceisio ffoi allan o'r llong, ac wedi gollwng y bâd i waered i'r môr, yn rhith bod ar fedr bwrw angorau o'r pen blaen i'r llong,

31 Dywedodd Paul wrth y canwriad a'r milwyr, Onid erys y rhai hyn yn y llong, ni ellwch chwi fod yn gadwedig.

32 Yna y torrodd y milwyr raffau y bâd, ac a adawsant iddo syrthio ymaith.

33 A thra yr ydoedd hi yn dyddhâu, Paul a eiriolodd ar bawb gymmeryd lluniaeth, gan ddywedyd, Heddyw yw y pedwerydd dydd ar ddeg yr ydych chwi yn disgwyl, ac yn aros ar eich cythlwng, heb gymmeryd dim.

34 O herwydd paham yr ydwyf yn dymuno arnoch gymmeryd lluniaeth; oblegid hyn sydd er lechyd i chwi: canys blewyn i'r un o honoch ni syrth oddi ar ei ben.

35 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a gymmerodd fara, ac a ddïolchodd i Dduw yn eu gŵydd hwynt oll, ac a'*i* torrodd, ac a ddechreuodd fwytta.

36 Ac yr oeddynt bawb wedi myned yn gysurol; a hwy a gymmerasant luniaeth hefyd.

37 Ac yr oeddem yn y llong i gyd, yn ddau cant ac un ar bymtheg a thri ugain o eneidiau.

38 Ac wedi eu digoni o luniaeth, hwy a ysgafnhasant y llong, gan fwrw y gwenith allan i'r môr.

39 A phan aeth hi yn ddydd, nid oeddynt yn adnabod y tir: ond hwy a ganfuant ryw gilfach a glan iddi; i'r hon y cynghorasant, os gallent, wthio y llong iddi.

40 Ac wedi iddynt godi yr angorau, hwy a ymollyngasant i'r môr, ac a ollyngasant hefyd yn rhydd rwymau y llyw, ac a godasant yr hwyl i'r gwynt, ac a geisiasant y lan.

41 Ac wedi *i ni* syrthio ar le deufor-gyfarfod, hwy a wthiasant y llong: a'r pen blaen iddi a lynodd, ac a safodd yn ddïysgog; eithr y pen ol a ymddattododd gan nerth y tonnau.

42 A chynghor y milwyr oedd, ladd y carcharorion, rhag i neb o honynt nofio allan, a dïangc ymaith.

43 Ond y canwriad, yn ewyllysio cadw Paul, a rwystrodd iddynt *eu* hamcan; ac a archodd i bawb a'r a fedrai nofio, ymfwrw yn gyntaf *i'r môr*, a myned allan i'r tir:

44 Ac i'r lleill, rhai ar ystyllod, ac eraill ar ryw *ddrylliau* o'r llong. Ac felly y digwyddodd ddyfod o bawb i dir yn ddïangol.

PENNOD 28.

1 *Paul, wedi torri y llong arno, yn cael ei dderbyn yn rhywlogaidd gan y barbariaid.* 5 *Y wiber ar ei law ef heb wneuthur iddo niwed:* 8 *ac ymtau yn iachâu llawer o glefydau yn yr ynys.* 11 *Hwynt-hwy yn myned ymaith tu a Rhufain.* 17 *Paul yn mynegi i'r Iuddewon achos ei ddyfodiad.* 24 *Wedi iddo bregethu, rhai yn credu, a rhai heb credu:* 30 *ac ymtau er hynny yn pregethu ymo ddwy flynedd.*

AC wedi iddynt ddïangc, yna y gwybuant mai Melita y gelwid yr ynys.
2 A'r barbariaid a ddangosasant i ni fwyneidd-dra nid bychan: oblegid hwy a gynneuasant dân, ac a'n derbyniasant ni oll o herwydd y gawod gynnrychiol, ac o herwydd yr oerfel.
3 Ac wedi i Paul gynnull ynghyd lawer o friw-wŷdd, a'u dodi ar y tân, gwiber a ddaeth allan o'r gwres, ac a lynodd wrth ei law ef.
4 A phan welodd y barbariaid y bwystfil y'nghrôg wrth ei law ef, hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Yn sicr llawruddiog yw y dyn hwn, yr hwn, er ei ddïangc o'r môr, ni adawodd dïaledd iddo fyw.
5 Ac efe a ysgydwodd y bwystfil i'r tân, ac ni oddefodd ddim niwed.
6 Ond yr oeddynt hwy yn disgwyl iddo ef chwyddo, neu syrthio yn ddisymmwth yn farw. Eithr wedi iddynt hir-ddisgwyl, a gweled nad oedd dim niwed yn digwydd iddo, hwy a newidiasant eu meddwl, ac a ddywedasant mai duw oedd efe.
7 Ynghylch y man hwnnw yr oedd tiroedd i bennaeth yr ynys, a'i enw Publius, yr hwn a'n derbyniodd ni, ac a'n llettŷodd dridiau yn garedig.
8 A digwyddodd, fod tad Publius yn gorwedd yn glaf o gryd a gwaedlif: at yr hwn wedi i Paul fyned i mewn, a gweddïo, efe a ddododd ei ddwylaw arno ef, ac a'i hiachaodd.
9 Felly wedi gwneuthur hyn, y lleill hefyd, y rhai oedd â heintiau arnynt yn yr ynys, a ddaethant atto, ac a iachâwyd:
10 Y rhai hefyd a'n parchasant ni â llawer o urddas; a phan oeddym yn ymadael, hwy a'*n* llwythasant *ni* â phethau angenrheidiol.
11 Ac wedi tri mis, yr aethom ymaith mewn llong o Alexandria, yr hon a auafasai yn yr ynys; *a*'i harwydd hi oedd Castor a Phôlux.
12 Ac wedi ein dyfod i Syracusa, ni a drigasom *yno* dridiau.
13 Ac oddi yno, wedi myned oddi amgylch, ni a ddaethom i Rhegium. Ac ar ol un diwrnod y deheuwynt a chwythodd, ac ni a ddaethom yr ail ddydd i Puteoli:
14 Lle y cawsom frodyr, ac y dymunwyd arnom aros gyd â hwynt saith niwrnod: ac felly ni'a ddaethom i Rufain.
15 Ac oddi yno, pan glybu y brodyr am danom, hwy a ddaethant i'n cyfarfod ni hyd Appii-fforum, a'r Tair tafarn: y rhai pan welodd Paul, efe a ddiolchodd i Dduw, ac a gymmerodd gysur.
16 Eithr pan ddaethom i Rufain, y canwriad a roddes y carcharorion at ben-capten y llu; eithr cenhadwyd i Paul aros wrtho ei hun, gyd â milwr oedd yn ei gadw ef.
17 A digwyddodd, ar ol tridiau, alw o Paul ynghyd y rhai oedd bennaf o'r Iuddewon. Ac wedi iddynt ddyfod ynghyd, efe a ddywedodd wrthynt, *Ha* wŷr frodyr, er na wneuthum i ddim yn erbyn y bobl, na defodau y tadau, etto mi a roddwyd yn garcharor o Jerusalem i ddwylaw y Rhufeinwyr.
18 Y rhai, wedi darfod fy holi, a fynnasent *fy* ngollwng ymaith, am nad oedd dim achos angau ynof.
19 Eithr am fod yr Iuddewon yn dywedyd yn erbyn *hyn*, mi a yrrwyd i appelio at Cesar; nid fel pettai gennyf beth i achwyn ar fy nghenedl.
20 Am yr achos hwn gan hynny y gelwais am danoch chwi, i'*ch* gweled, ac i ymddiddan â *chwi:* canys o achos gobaith Israel y'm rhwymwyd i â'r gadwyn hon.
21 A hwythau a ddywedasant wrtho, Ni dderbyniasom ni lythyrau o Judea yn dy gylch di, ac ni fynegodd ac ni lefarodd neb o'r brodyr a ddaeth oddi yno ddim drwg am danat ti.
22 Ond yr ydym ni yn deisyf cael clywed gennyt ti beth yr ydwyt yn ei synied: oblegid am y sect hon, y mae yn hysbys i ni fod ym mhob man yn dywedyd yn ei herbyn.
23 Ac wedi iddynt nodi diwrnod iddo, llawer a ddaeth atto ef i'w letty; i'r rhai y tystiolaethodd ac yr eglurodd efe deyrnas Dduw, gan gynghori iddynt y pethau am yr Iesu, allan o gyfraith Moses, a'r prophwydi, o'r bore hyd yr hwyr.
24 A rhai a gredasant i'r pethau a ddywedasid, a rhai ni chredasant.

25 Ac a hwy yn anghyttûn â'u gilydd, hwy a ymadawsant, wedi i Paul ddywedyd un gair, *mai* da y llefarodd yr Ysbryd Glân trwy Esaias y prophwyd wrth ein tadau ni,
26 Gan ddywedyd, Dos at y bobl yma, a dywed, Yn clywed y clywch, ac ni ddeallwch; ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch:
27 Canys brasâwyd calon y bobl hyn, a thrwm y clywsant â'u clustiau, a'u llygaid a gauasant; rhag iddynt weled â'*u* llygaid, a chlywed â'*u* clustiau, a deall â'*r* galon, a dychwelyd, ac i mi eu hiachâu hwynt.
28 Bydded hysbys i chwi gan hynny, anfon iachawdwriaeth Duw at y Cenhedloedd; a hwy a wrandawant.
29 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, ymadawodd yr Iuddewon, a chanddynt ddadl mawr yn eu plith.
30 A Phaul a arhoes ddwy flynedd gyfan yn ei dŷ ardrethol ei hun, ac a dderbyniodd bawb a'r oedd yn dyfod i mewn atto,
31 Gan bregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist, gyd â phob hyfder, yn ddïwahardd.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT Y RHUFEINIAID.

PENNOD 1.

1 *Paul yn dangos ei alwedigaeth i'r Rhufeiniaid,* 9 *a'i chwant i ddyfod attynt.* 16 *Beth yw ei efengyl ef, a'r cyfiawnder y mae hi yn ei ddangos.* 18 *Bod Duw yn ddigllawn wrth bob math ar bechod.* 21 *Pa beth oedd pechodau y Cenhedloedd.*

PAUL, gwasanaethwr Iesu Grist, wedi ei alw *i fod* yn apostol, *ac* wedi ei neilldu o ran y cnawd;
2 Yr hon a rag-addawsai efe trwy ei brophwydi yn yr ysgrythyrau sanctaidd,
3 Am ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd ni, yr hwn a wnaed o had Dafydd o ran y cnawd;
4 Ac a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, yn ol yspryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddi wrth y meirw:
5 Trwy yr hwn y derbyniasom ras ac apostoliaeth, i ufudd-dod ffydd ym mhlith yr holl genhedloedd, er mwyn ei enw ef:
6 Ym mysg y rhai yr ydych chwithau yn alwedigion Iesu Grist:
7 At bawb sydd yn Rhufain, yn anwyl gan Dduw, wedi eu galw *i fod* yn saint: Gras i chwi a thangnefedd oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.
8 Yn gyntaf, yr wyf yn dïolch i'm Duw trwy Iesu Grist drosoch chwi oll, oblegid bod eich ffydd chwi yn gyhoeddus yn yr holl fyd.
9 Canys tyst i mi yw Duw, yr hwn yr ydwyf yn ei wasanaethu yn fy yspryd yn efengyl ei Fab ef, fy mod i yn ddibaid yn gwneuthur coffa o honoch bob amser yn fy ngweddïau,
10 Gan ddeisyf a gawn ryw fodd, ryw amser bellach, rwydd hynt gyd âg ewyllys Duw i ddyfod attoch chwi.
11 Canys yr wyf yn hiraethu am eich gweled, fel y gallwyf gyfrannu i chwi ryw ddawn ysprydol, fel y'ch cadarnhâer:
12 *A* hynny sydd i'm cyd-ymgysuro ynoch chwi, trwy ffydd ein gilydd, yr eiddoch chwi a'r eiddof finnau.
13 Eithr ni fynnwn i chwi fod heb wybod, frodyr, i mi yn fynych arfaethu dyfod attoch, (ond fo'm lluddiwyd i hyd yn hyn,) fel y cawn ryw ffrwyth ynoch chwi hefyd, megis ag yn y Cenhedloedd eraill.
14 Dyledwr ydwyf i'r Groegiaid, ac i'r barbariaid hefyd; i'r doethion, ac i'r annoethion hefyd.
15 Felly, hyd y mae ynof fi, parod ydwyf i bregethu yr efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain.

16 Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist: oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu; i'r Iuddew yn gyntaf, a hefyd i'r Groegwr.
17 Canys ynddi hi y datguddir cyfiawnder Duw o ffydd i ffydd; megis y mae yn ysgrifenedig, Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.
18 Canys digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion, y rhai sydd yn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder.
19 O herwydd yr hyn a ellir ei wybod am Dduw, sydd eglur ynddynt hwy: canys Duw a'*i* heglurodd iddynt.
20 Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, *sef* ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod; hyd onid ydynt yn ddïesgus:
21 Oblegid a hwy yn adnabod Duw, nis gogoneddasant ef megis Duw, ac na buont ddïolchgar iddo; eithr ofer fuont yn eu rhesymmau, a'u calon anneallus hwy a dywyllwyd.
22 Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid;
23 Ac a newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwar-carnol, ac ymlusgiaid.
24 O ba herwydd Duw hefyd a'u rhoddes hwy i fyny, yn nhrachwantau eu calonnau, i aflendid, i ammherchi eu cyrph eu hun yn eu plith eu hunain:
25 Y rhai a newidiasant wirionedd Duw yn gelwydd, ac a addolasant àc a wasanaethasant y creadur yn fwy na'r Creawdwr, yr hwn sydd fendigedig yn dragywyddol. Amen.
26 Oblegid hyn y rhoddes Duw hwynt i fyny i wŷniau gwarthus: canys eu gwragedd hwy a newidiasant yr arfer anianol i'r hon sydd yn erbyn anian:
27 Ac yn gyffelyb y gwŷr hefyd, gan adael yr arfer naturiol o'r wraig, a ymlosgent yn eu hawydd i'w gilydd; y gwŷr ynghyd â gwŷr yn gwneuthur brynti, ac yn derbyn ynddynt eu hunain y cyfryw dâl am eu cyfeiliorni ag ydoedd raid.
28 Ac megis nad oedd gymmeradwy ganddynt gadw Duw yn *eu* gwybodaeth, Duw a'u rhoddes hwynt i fyny i feddwl anghymmeradwy, i wneuthur y pethau nid oedd weddaidd:
29 Wedi eu llenwi â phob anghyfiawnder, godineb, anwiredd, cybydd-dod, drygioni; yn llawn cenfigen, llofruddiaeth, cynnen, twyll, drwg-anwydau;
30 Yn hustyngwyr, yn athrodwyr, yn gas ganddynt Dduw, yn drahaus, yn feilchion, yn ffrostwyr, yn ddychymmygwyr drygioni, yn anufudd i rïeni,
31 Yn anneallus, yn dorrwyr ammod, yn angharedig, yn anghymmodlawn, yn annhrugarogion:
32 Y rhai yn gwybod cyfiawnder Duw, fod y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth, *ydynt* nid yn unig yn gwneuthur y pethau hyn, eithr hefyd yn cyd-ymfoddloni â'r rhai sydd yn eu gwneuthur hwynt.

PENNOD 2.

1 *Na all y rhai sydd ym pechu, er eu bod yn condemnio pechod mewn eraill, mo'u hesgusodi eu hunain; 6 ac mai anhaws o lawer iddynt ddïangc rhag barn Duw, 9 pa un bynnag fônt ai Iuddewon ai Cenhedloedd, 14 Nas gall y Cenhedloedd ddïangc, 17 na'r Iuddewon, chwaith; 25 ac na wna eu henwaediad lesâd iddynt, oni chadwant y ddeddf.*

O HERWYDD paham, dïesgus wyt ti, O ddyn, pwy bynnag wyt yn barnu: canys yn yr hyn yr wyt yn barnu arall, yr wyt yn dy gondemnio dy hun: canys ti yr hwn wyt yn barnu, wyt yn gwneuthur yr un pethau.
2 Eithr ni a wyddom fod barn Duw yn ol gwirionedd, yn erbyn y rhai a wnant gyfryw bethau.
3 Ac a wyt ti yn tybied hyn, O ddyn, yr hwn wyt yn barnu y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau, a thithau yn gwneuthur yr un pethau, y dïengi di rhag barn Duw?
4 Neu a wyt ti yn dïystyru golud ei ddaioni ef, a'i ddïoddefgarwch, a'i ymaros, heb wybod fod daioni Duw yn dy dywys di i edifeirwch?

5 Eithr yn ol dy galedrwydd, a'th galon ddïedifeiriol, wyt yn trysori i ti dy hun ddigofaint erbyn dydd y digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw,

6 Yr hwn a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd:

7 *Sef* i'r rhai trwy barhâu yn gwneuthur da a geisiant ogoniant ac anrhydedd ac anllygredigaeth, bywyd tragywyddol:

8 Eithr i'r rhai sydd gynhennus, ac anufudd i'r gwirionedd, eithr yn ufudd i anghyfiawnder, *y bydd* llid a digofaint;

9 Trallod ac ing ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg; yr Iuddew yn gyntaf, a'r Groegwr hefyd:

10 Eithr gogoniant, ac anrhydedd, a thangnefedd, i bob un sydd yn gwneuthur daioni; i'r Iuddew yn gyntaf, ac i'r Groegwr hefyd.

11 Canys nid oes derbyn wyneb ger bron Duw.

12 Oblegid cynnifer ag a bechasant yn ddiddeddf, a gyfrgollir hefyd yn ddiddeddf; a chynnifer ag a bechasant yn y ddeddf, a fernir wrth y ddeddf;

13 Canys nid gwrandawyr y ddeddf *sydd* gyfiawn ger bron Duw, ond gwneuthurwyr y ddeddf a gyfiawnhêir.

14 Canys pan yw y Cenhedloedd, y rhai nid yw y ddeddf ganddynt, wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf, y rhai hyn heb fod y ddeddf ganddynt, ydynt ddeddf iddynt eu hunain:

15 Y rhai sydd yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonnau, a'u cydwybod yn cyddystiolaethu, a'*u* meddyliau yn cyhuddo eu gilydd, neu yn esgusodi;

16 Yn y dydd y barno Duw ddirgeloedd dynion, yn ol fy efengyl i, trwy Iesu Grist.

17 Wele, Iuddew y'th elwir di, ac yr wyt yn gorphwys yn y ddeddf, ac yn gorfoleddu yn Nuw;

18 Ac yn gwybod *ei* ewyllys *ef*, ac yn darbod pethau rhagorol, gan fod wedi dy addysgu o'r ddeddf;

19 Ac yr wyt yn coelio dy fod yn dywysog i'r deillion, yn llewyrch i'r rhai *sydd* mewn tywyllwch,

20 Yn athraw i'r anghall, yn ddysgawdwr i'r rhai bach, a chennyt ffurf y gwybodaeth a'r gwirionedd yn y ddeddf.

21 Tydi, gan hynny, yr hwn wyt yn addysgu arall, oni'th ddysgi dy hun? yr hwn wyt yn pregethu, Na ladratter, a ladretti di?

22 Yr hwn wyt yn dywedyd, Na-odineber, a odinebi di? yr hwn wyt yn ffieiddio delwau, a gyssegryspeili di?

23 Yr hwn wyt yn gorfoleddu yn y ddeddf, trwy dorri y ddeddf a ddïanrhydeddi di Duw?

24 Canys enw Duw o'ch plegid chwi a geblir ym mhlith y Cenhedloedd, megis y mae yn ysgrifenedig.

25 Canys enwaediad yn wir a wna les, os cedwi y ddeddf: eithr os troseddwr y ddeddf ydwyt, aeth dy enwaediad yn ddïenwaediad.

26 Os y dïenwaediad gan hynny a geidw gyfiawnderau y ddeddf, oni chyfrifir ei ddïenwaediad ef yn enwaediad?

27 Ac oni bydd i'r dïenwaediad yr hwn sydd o naturiaeth, os ceidw y ddeddf, dy farnu di, yr hwn wrth y llythyren a'r enwaediad wyt yn troseddu y ddeddf?

28 Canys nid yr hwn sydd yn yr amlwg sydd Iuddew; ac nid enwaediad *yw yr hyn* sydd yn yr amlwg yn y cnawd:

29 Eithr yr hwn sydd yn y dirgel *sydd* Iuddew; ac enwaediad y galon *sydd* yn yr ysbryd, nid yn y llythyren; yr hwn *y mae* ei glod nid o ddynion, ond o Dduw.

PENNOD 3.

1 *Rhagorfraint yr Iuddewon:* 3 *yr hon ni chollasant:* 9 *er hynny y mae y ddeddf yn eu barnu hwythau hefyd yn euog o bechod:* 20 *gan hynny ni chyfiawnhêir un cnawd trwy y ddeddf:* 28 *eithr pawb, heb wahaniaeth, trwy ffydd yn unig:* 31 *ac etto ni ddiddymwyd y ddeddf.*

PA ragoriaeth gan hynny sydd i'r Iuddew? neu pa fudd *sydd* o'r enwaediad?

2 Llawer, ym mhob rhyw fodd: yn gyntaf, o herwydd darfod ymddiried iddynt hwy am ymadroddion Duw.

3 Oblegid beth os anghredodd rhai? a wna eu hanghrediniaeth hwy ffydd Duw yn ofer?

4 Na atto Duw: eithr bydded Duw yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog; megis yr ysgrifenwyd, Fel y'th gyfiawnhâer yn dy eiriau, ac y gorfyddech pan y'th farner.

5 Eithr os yw ein hanghyfiawnder ni yn canmol cyfiawnder Duw, pa beth a ddywedwn? Ai anghyfiawn *yw* Duw, yr hwn sydd yn dwyn arnom ddigofaint? (yn ol dyn yr wyf yn dywedyd;)

6 Na atto Duw: canys wrth hynny pa fodd y barna Duw y byd?

7 Canys os bu gwirionedd Duw trwy fy nghelwydd i yn helaethach i'w ogoniant ef, paham y'm bernir innau etto megis pechadur?

8 Ac nid, (megis y'n ceblir, ac megis y dywed rhai ein bod yn dywedyd,) Gwnawn ddrwg, fel y dêl daioni? y rhai y mae eu damnedigaeth yn gyfiawn.

9 Beth gan hynny? a ydym ni yn fwy rhagorol? Nac *ydym* ddim: canys ni a brofasom o'r blaen fod pawb, yr Iuddewon a'r Groegwyr, dan bechod;

10 Megis y mae yn ysgrifenedig, Nid oes neb cyfiawn, nac oes un:

11 Nid oes neb yn deall; nid oes neb yn ceisio Duw.

12 Gŵyrasant oll, aethant i gyd yn anfuddiol; nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un.

13 Bedd agored *yw* eu ceg; â'u tafodau y gwnaethant ddichell; gwenwyn aspiaid *sydd* dan eu gwefusau:

14 Y rhai y mae eu genau yn llawn melldith a chwerwedd:

15 Buan *yw* eu traed i dywallt gwaed:

16 Distryw ac aflwydd *sydd* yn eu ffyrdd:

17 A ffordd tangnefedd ni adnabuant:

18 Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid.

19 Ni a wyddom hefyd am ba bethau bynnag y mae y ddeddf yn ei ddywedyd, mai wrth y rhai sydd dan y ddeddf y mae hi yn ei ddywedyd: fel y cauer pob genau, ac y byddo yr holl fyd dan farn Duw.

20 Am hynny trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnhêir un cnawd yn ei olwg ef; canys trwy y ddeddf *y mae* adnabod pechod.

21 Ac yr awr hon yr églurwyd cyfiawnder Duw heb y ddeddf, wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi;

22 Sef cyfiawnder Duw *yr hwn sydd* trwy ffydd Iesu Grist, i bawb ac ar bawb a gredant: canys nid oes gwahaniaeth:

23 Oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw;

24 A hwy wedi eu cyfiawnhâu yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu:

25 Yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddïoddefgarwch Duw;

26 I ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn; fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhâu y neb sydd o ffydd Iesu.

27 Pa le gan hynny *y mae* y gorfoledd? Efe a gauwyd allan. Trwy ba ddeddf? ai *deddf* gweithredoedd? Nag ê; eithr trwy ddeddf ffydd.

28 Yr ydym ni gan hynny yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnhêir dyn, heb weithredoedd y ddeddf.

29 Ai i'r Iuddewon *y mae efe* yn Dduw yn unig? onid *yw* i'r Cenhedloedd hefyd? Yn wir *y mae efe* i'r Cenhedloedd hefyd:

30 Gan mai un Duw *sydd*, yr hwn a gyfiawnhâ yr enwaediad wrth ffydd, a'r dïenwaediad trwy ffydd.

31 Wrth hynny, a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? Na atto Duw: eithr yr ydym yn cadarnhâu y ddeddf.

PENNOD 4.

1 Ffydd Abraham a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder, 10 cyn enwaedu arno. 13 Trwy ffydd yn unig y derbyniodd efe a'i had yr addewid. 16 Abraham yw tad pawb a'r sydd yn credu. 24 Ein ffydd ninnau hefyd a gyfrifir i ni yn gyfiawnder.

PA beth gan hynny a ddywedwn ni ddarfod i Abraham ein tad ni ei gael, yn ol y cnawd?

2 Canys os Abraham a gyfiawnhâwyd trwy weithredoedd, y mae iddo orfoledd; eithr nid ger bron Duw.

3 Canys pa beth a ddywed yr ysgrythyr? Credodd Abraham i Dduw; a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.
4 Eithr i'r neb sydd yn gweithio, ni chyfrifir y gwobr o ras; ond o ddyled.
5 Eithr i'r neb nid yw yn gweithio, ond yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhâu yr annuwiol, ei ffydd ef a gyfrifir yn gyfiawnder.
6 Megis y mae Dafydd hefyd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd, *gan ddywedyd*,
7 Dedwydd *yw* y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau, a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau:
8 Dedwydd *yw* y gŵr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.
9 *A ddaeth* y dedwyddwch hwn gan hynny ar yr enwaediad *yn unig*, ynte ar y dïenwaediad hefyd? canys yr ydym yn dywedyd ddarfod cyfrif ffydd i Abraham yn gyfiawnder.
10 Pa fodd gan hynny y cyfrifwyd hi? ai pan oedd yn yr enwaediad, ynte yn y dïenwaediad? Nid yn yr enwaediad, ond yn y dïenwaediad.
11 Ac efe a gymmerth arwydd yr enwaediad, yn insel cyfiawnder y ffydd, yr hon *oedd ganddo* yn y dïenwaediad: fel y byddai efe yn dad pawb a gredent, yn y dïenwaediad; fel y cyfrifid cyfiawnder iddynt hwythau hefyd:
12 Ac yn dad yr enwaediad, nid i'r rhai o'r enwaediad yn unig, ond i'r sawl hefyd a gerddant lwybrau ffydd Abraham ein tad ni, yr hon *oedd ganddo* yn y dïenwaediad.
13 Canys nid trwy y ddeddf *y daeth* yr addewid i Abraham, neu i'w had, y byddai efe yn etifedd y byd; eithr trwy gyfiawnder ffydd.
14 Canys os y rhai sydd o'r ddeddf *yw* yr etifeddion, gwnaed ffydd yn ofer, a'r addewid yn dïdirym.
15 Oblegid y mae y ddeddf yn peri digofaint; canys lle nid oes deddf, nid *oes* gamwedd.
16 Am hynny o ffydd *y mae*, fel *y byddai* yn ol gras: fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl had; nid yn unig i'r hwn sydd o'r ddeddf, ond hefyd i'r hwn sydd o ffydd Abraham, yr hwn yw ein tad ni oll,
17 (Megis y mae yn ysgrifenedig, Mi a'th wneuthum yn dad llawer o genhedloedd,) ger bron y neb y credodd efe iddo, *sef* Duw, yr hwn sydd yn bywhâu y meirw, ac sydd yn galw y pethau nid ydynt, fel pe byddent:
18 Yr hwn yn erbyn gobaith a gredodd dan obaith, fel y byddai efe yn dad cenhedloedd lawer; yn ol yr hyn a ddywedasid, Felly y bydd dy had di.
19 Ac efe, yn ddïegwan o ffydd, nid ystyriodd ei gorph ei hun, *yr hwn oedd* yr awr hon wedi marweiddio, ac efe ynghylch can mlwydd oed, na marweidd-dra bru Sara.
20 Ac nid ammheuodd efe addewid Duw trwy anghrediniaeth; eithr efe a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw:
21 Ac yn gwbl sicr *ganddo*, am yr hyn a addawsai efe, ei fod ef yn abl i'w wneuthur hefyd.
22 Ac am hynny y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.
23 Eithr nid ysgrifenwyd hynny er ei fwyn ef yn unig, ddarfod ei gyfrif iddo;
24 Ond er ein mwyn ninnau hefyd, i'r rhai y cyfrifir, y rhai ydym yn credu yn yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd ni o feirw:
25 Yr hwn a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhâu ni.

PENNOD 5.

1 *Wedi ein cyfiawnhâu trwy ffydd, y mae i ni dangnefedd rhyngom a Duw,* 2 *a llawenydd yn ein gobaith:* 8 *gan ein cymmodi trwy ei waed ef, a nymi yn elynion iddo,* 10 *y cawn yn hytrach fod yn gadwedig wedi ein cymmodi.* 12 *Megis y daeth pechod a marwolaeth trwy Adda,* 17 *felly yn hytrach y daw cyfiawnder a bywyd trwy Iesu Grist.* 20 *Lle yr amlhaodd pechod, y rhagor-amlhaodd yras.*

AM hynny, gan ein bod wedi ein cyfiawnhâu trwy ffydd, y mae gennym heddwch tu ag at Dduw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist:
2 Trwy yr hwn hefyd y çawsom ddyfodfa trwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll, ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw.
3 Ac nid *felly* yn unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gor-

thrymderau; gan wybod fod gorthrymder yn peri dïoddefgarwch;
4 A dïoddefgarwch, brofiad; a phrofiad, obaith:
5 A gobaith ni chywilyddia, am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau ni, trwy yr Ysbryd Glân yr hwn a roddwyd i ni.
6 Canys Crist, pan oeddym ni etto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol.
7 Oblegid braidd y bydd neb farw dros un cyfiawn: oblegid dros y da ysgatfydd fe feiddiai un farw hefyd.
8 Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tu ag attom; oblegid, a nyni etto yn bechaduriaid, i Grist farw trosom ni.
9 Mwy ynte o lawer, a nyni yn awr wedi ein cyfiawnhâu trwy ei waed ef, y'n hachubir rhag digofaint trwyddo ef.
10 Canys os pan oeddym yn elynion, y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef; mwy o lawer, wedi ein heddychu, y'n hachubir trwy ei fywyd ef.
11 Ac nid *hynny* yn unig, eithr gorfoleddu yr ydym hefyd yn Nuw trwy ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn yr awr hon y derbyniasom y cymmod.
12 Am hynny, megis trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb:
13 Canys hyd y ddeddf yr oedd pechod yn y byd: eithr ni chyfrifir pechod pryd nad oes deddf.
14 Eithr teyrnasodd marwolaeth o Adda hyd Moses, ïe, arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda, yr hwn yw ffurf yr un oedd ar ddyfod.
15 Eithr nid megis y camwedd, felly y mae y dawn hefyd. Canys os trwy gamwedd un y bu feirw llawer; mwy o lawer yr amlhaodd gras Duw, a'r dawn trwy ras yr un dyn Iesu Grist, i laweroedd.
16 Ac nid megis *y bu* trwy un a bechodd, *y mae* y dawn: canys y farn a ddaeth o un *camwedd* i gondemniad; eithr y dawn *sydd* o gamweddau lawer i gyfiawnhâd.
17 Canys os trwy gamwedd un y teyrnasodd marwolaeth trwy un; mwy o lawer y caiff y rhai sydd yn derbyn llïosowgrwydd o ras, ac o ddawn cyfiawnder, deyrnasu mewn bywyd trwy un, Iesu Grist.
18 Felly gan hynny, megis trwy gamwedd un *y daeth barn* ar bob dyn i gondemniad; felly hefyd trwy gyfiawnder un *y daeth y dawn* ar bob dyn i gyfiawnhâd bywyd.
19 Oblegid megis trwy anufuddod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufuddod un y gwneir llawer yn gyfiawn.
20 Eithr y ddeddf a ddaeth i mewn fel yr amlhâi y camwedd: eithr lle yr amlhaodd y pechod, y rhagoramlhaodd gras:
21 Fel megis y teyrnasodd pechod i farwolaeth, felly hefyd y teyrnasai gras trwy gyfiawnder i fywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

PENNOD 6.

1 *Na ddylem ni fyw mewn pechod,* 2 *a ninnau wedi marw iddo;* 3 *megis y mae ein bedydd ni yn dangos.* 12 *Na theyrnaseed pechod mwyach,* 18 *gan ddarfod i ni ymroi i wasanaeth cyfiawnder;* 23 *ac o herwydd mai cyflog pechod yw marwolaeth.*

BETH wrth hynny a ddywedwn ni? a drigwn ni yn wastad mewn pechod, fel yr amlhao gras?
2 Na atto Duw. A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn byw etto ynddo ef?
3 Oni wyddoch chwi, am gynnifer o honom ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, ein bedyddio ni i'w farwolaeth ef?
4 Claddwyd ni gan hynny gyd âg ef trwy fedydd i farwolaeth: fel megis ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd.
5 Canys os gwnaed ni yn gydblanhigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, felly y byddwn *i gyffelybiaeth ei* adgyfodiad *ef*.
6 Gan wybod hyn, ddarfod croeshoelio ein hen ddyn ni gyd âg *ef*, er mwyn dirymmu corph pechod, fel rhag llaw na wasanaethom bechod.
7 Canys y mae yr hwn a fu farw, wedi ei ryddhâu oddi wrth bechod.

8 Ac os buom feirw gyd â Christ, yr ydym ni yn credu y byddwn byw hefyd gyd âg ef:
9 Gan wybod nad yw Crist, yr hwn a gyfodwyd oddi wrth y meirw, yn marw mwyach; nad arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach.
10 Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod: ac fel y mae yn byw, byw y mae i Dduw.
11 Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn feirw i bechod: eithr yn fyw i Dduw, yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.
12 Na theyrnased pechod gan hynny yn eich corph marwol, i ufuddhâu o honoch iddo yn ei chwantau.
13 Ac na roddwch eich aelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod: eithr rhoddwch eich hunain i Dduw, megis rhai o feirw yn fyw; a'ch aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw.
14 Canys nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi: oblegid nid ydych chwi dan y ddeddf, eithr dan ras.
15 Beth wrth hynny? a bechwn ni, o herwydd nad ydym dan y ddeddf, eithr dan ras? Na atto Duw.
16 Oni wyddoch chwi, mai i bwy bynnag yr ydych yn eich rhoddi eich hunain yn weision i ufuddhâu iddo, eich bod yn weision i'r hwn yr ydych yn ufuddhâu iddo; pa un bynnag ai i bechod i farwolaeth, ynte i ufudd-dod i gyfiawnder?
17 Ond i Dduw y bo y diolch, eich bod chwi *gynt* yn weision i bechod; eithr ufuddhâu o honoch o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i chwi.
18 Ac wedi eich rhyddhâu oddi wrth bechod, fe a'ch gwnaethpwyd yn weision i gyfiawnder.
19 Yn ol dull dynol yr ydwyf yn dywedyd, oblegid gwendid eich cnawd chwi. Canys megis ag y rhoddasoch eich aelodau yn weision i aflendid ac anwiredd, i anwiredd; felly yr awr hon rhoddwch eich aelodau yn weision i gyfiawnder, i sancteiddrwydd.
20 Canys pan oeddych yn weision pechod, rhyddion oeddych oddi wrth gyfiawnder.
21 Pa ffrwyth gan hynny oedd i chwi y pryd hwnnw o'r pethau y mae arnoch yr awr hon gywilydd o'u plegid? canys diwedd y pethau hynny *yw* marwolaeth.
22 Ac yr awr hon, wedi eich rhyddhâu oddi wrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol.
23 Canys cyflog pechod *yw* marwolaeth; eithr dawn Duw *yw* bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

PENNOD 7.

1 Nad oes un ddeddf yn arglwyddiaethu ar ddyn, ond tra fyddo byw: 4 ond eiu bod ni wedi meirw i'r ddeddf. 7 Etto nad yw'r ddeddf bechod; 12 eithr sanctaidd, a chyfiawn, a da; 16 fel yr ydwyf fi yn cydnabod, ac yn ddrwg gennyf nas gallaf ei chadw.

ONI wyddoch chwi, frodyr, (canys wrth y rhai sydd yn gwybod y ddeddf yr wyf yn dywedyd,) fod y ddeddf yn arglwyddiaethu ar ddyn tra fyddo efe byw?
2 Canys y wraig y mae iddi ŵr, sydd yn rhwym wrth y ddeddf i'r gŵr, tra fyddo efe byw: ond o bydd marw y gŵr, hi a ryddhâwyd oddi wrth ddeddf y gŵr.
3 Ac felly, os a'r gŵr yn fyw, y bydd hi yn eiddo gŵr arall, hi a elwir yn odinebus: eithr os marw fydd ei gŵr hi, y mae hi yn rhydd oddi wrth y ddeddf; fel nad yw hi odinebus, er bod yn eiddo gŵr arall.
4 Ac felly chwithau, fy mrodyr, ydych wedi meirw i'r ddeddf trwy gorph Crist; fel y byddech eiddo un arall, *sef* eiddo yr hwn a gyfodwyd o feirw, fel y dygem ffrwyth i Dduw.
5 Canys pan oeddym yn y cnawd, gwŷniau pechodau, y rhai oedd trwy y ddeddf, oedd yn gweithio yn ein haelodau ni, i ddwyn ffrwyth i farwolaeth.
6 Eithr yn awr y rhyddhâwyd ni oddi wrth y ddeddf, wedi ein meirw i'r peth y'n hattelid; fel y gwasanaethem mewn newydd-deb yspryd, ac nid *yn* hender y llythyren.

7 Beth wrth hynny a ddywedwn ni? Ai pechod *yw* y ddeddf? Na atto Duw. Eithr nid adnabûm i bechod, ond wrth y ddeddf: canys nid adnabuaswn i drachwant, oni bai ddywedyd o'r ddeddf, Na thrachwanta.

8 Eithr pechod, wedi cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn, a weithiodd ynof fi bob trachwant.

9 Canys heb y ddeddf marw *oedd* pechod. Eithr yr oeddwn i gynt yn fyw heb y ddeddf: ond pan ddaeth y gorchymyn, yr adfywiodd pechod, a minnau a fûm farw.

10 A'r gorchymyn, yr hwn *ydoedd* i fywyd, hwnnw a gaed i mi i farwolaeth.

11 Canys pechod, wedi cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn, a'm twyllodd i; a thrwy hwnnw a'm lladdodd.

12 Felly yn wir *y mae* y ddeddf yn sanctaidd; a'r gorchymyn yn sanctaidd, ac yn gyfiawn, ac yn dda.

13 Gan hynny a wnaethpwyd y peth oedd dda, yn farwolaeth i mi? Na atto Duw. Eithr pechod, fel yr ymddangosai yn bechod, gan weithio marwolaeth ynof fi trwy yr hyn sydd dda; fel y byddai pechod trwy y gorchymyn yn dra phechadurus.

14 Canys ni a wyddom fod y ddeddf yn ysprydol: eithr myfi sydd gnawdol, wedi fy ngwerthu dan bechod.

15 Canys yr hyn yr wyf yn ei wneuthur, nid yw foddlawn gennyf: canys nid y peth yr wyf yn ei ewyllysio, hynny yr wyf yn ei wneuthur; eithr y peth sydd gas gennyf, hyn yr ydwyf yn ei wneuthur.

16 *Ac* os y peth nid wyf yn ei ewyllysio, *hynny* yr wyf yn ei wneuthur, yr wyf fi yn cydsynio â'r ddeddf mai da *ydyw.*

17 Felly yr awr hon nid myfi sydd mwy yn gwneuthur hynny, eithr y pechod yr hwn sydd yn trigo ynof fi.

18 Canys mi a wn nad oes ynof fi (hynny yw, yn fy nghnawd i,) ddim da yn trigo: oblegid yr ewyllysio sydd barod gennyf; eithr cwblhâu yr hyn sydd dda, nid wyf yn medru arno.

19 Canys nid wyf yn gwneuthur y peth da yr wyf yn ei ewyllysio; ond y drwg yr hwn nid wyf yn ei ewyllysio, hynny yr wyf yn ei wneuthur.

20 Ac os ydwyf fi yn gwneuthur y peth nid wyf yn ei ewyllysio, nid myfi mwyach sydd yn ei wneuthur, ond y pechod sydd yn trigo ynof fi.

21 Yr ydwyf fi gan hynny yn cael deddf, a mi yn ewyllysio gwneuthur da, fod drwg yn bresennol gyd â mi.

22 Canys ymhyfrydu yr wyf yng nghyfraith Duw, yn ol y dyn oddi mewn:

23 Eithr yr wyf yn gweled deddf arall yn fy aelodau, yn gwrthryfela yn erbyn deddf fy meddwl, ac yn fy nghaethiwo i ddeddf pechod, yr hon sydd yn fy aelodau.

24 Ys truan o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared i oddi wrth gorph y farwolaeth hon?

25 Yr wyf fi yn diolch i Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Felly gan hynny, yr wyf fi fy hun â'r meddwl yn gwasanaethu cyfraith Duw; ond â'r cnawd, cyfraith pechod.

PENNOD 8.

1 Bod y rhai sydd yng Nghrist, ac yn byw yn ol yr Ysprvd, yn rhyddion oddi wrth ddamnedigaeth. 5, 13 Pa niwed sydd yn digwydd oddi wrth y cnawd; 6, 14 a pha les oddi wrth yr Ysprvd, 17 ac o fod yn blentyn i Dduw: 19 yr hwn y mae pob peth yn hiraethu am ei ogoneddus ymwared: 29 yr hun a rag-ordeiniwyd gan Dduw. 38 Na all dim ein gwahanu ni oddi wrth ei gariad ef.

NID *oes* gan hynny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yng Nghrist Iesu, y rhai sydd yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysprvd.

2 Canys deddf Ysprvd y bywyd yng Nghrist Iesu a'm rhyddhaodd i oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth.

3 Canys yr hyn ni allai y ddeddf, o herwydd ei bod yn wan trwy y cnawd, Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun y nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac am bechod a gondemniodd bechod yn y cnawd:

4 Fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni, y rhai ydym yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysprvd.

5 Canys y rhai sydd yn ol y cnawd, am bethau y cnawd y maent yn synio: eithr y rhai sydd yn ol yr Yspryd, am bethau yr Yspryd.

6 Canys syniad y cnawd, marwolaeth *yw;* a syniad yr Yspryd, bywyd a thangnefedd *yw:*

7 Oblegid syniad y cnawd *sydd* elyniaeth yn erbyn Duw: canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw; oblegid nis gall chwaith.

8 A'r rhai sydd yn y cnawd, ni allant ryngu bodd Duw.

9 Eithr chwychwi nid ydych yn y cnawd, ond yn yr Yspryd, od yw Yspryd Duw yn trigo ynoch. Ac od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef.

10 Ac os *yw* Crist ynoch, *y mae* y corph yn farw, o herwydd pechod; eithr yr Yspryd yn fywyd, o herwydd cyfiawnder.

11 Ac os Yspryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch, yr hwn a gyfododd Grist o feirw a fywioccâ hefyd eich cyrph marwol chwi, trwy ei Yspryd yr hwn sydd yn trigo ynoch.

12 Am hynny, frodyr, dyledwyr ydym, nid i'r cnawd, i fyw yn ol y cnawd.

13 Canys os byw yr ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch: eithr os ydych yn marweiddio gweithredoedd y corph trwy yr Yspryd, byw fyddwch.

14 Canys y sawl a arweinir gan Yspryd Duw, y rhai hyn sydd blant i Dduw.

15 Canys ni dderbyniasoch yspryd caethiwed drachefn i *beri* ofn; eithr derbyniasoch Yspryd mabwysiad, trwy yr hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dad.

16 Y mae yr Yspryd hwn yn cyd-dystiolaethu â'n hyspryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw:

17 Ac os plant, etifeddion hefyd; *sef* etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ: os ydym yn cyddddioddef *gyd âg ef,* fel y'n cydogonedder hefyd.

18 Oblegid yr ydwyf yn cyfrif, nad *yw* dioddefiadau yr amser presennol hwn, yn haeddu *eu cyffelybu* i'r gogoniant a ddatguddir i ni.

19 Canys awyddfryd y creadur sydd yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw.

20 Canys y creadur sydd wedi ei ddarostwng i oferedd; nid o'i fodd, eithr oblegid yr hwn a'i darostyngodd:

21 Dan obaith y rhyddhêir y creadur yntau hefyd, o gaethiwed llygredigaeth, i ryddid gogoniant plant Duw.

22 Canys ni a wyddom fod pob creadur yn cyd-ocheneidio, ac yn cyd-ofidio hyd y pryd hwn.

23 Ac nid yn unig *y creadur,* ond ninnau hefyd, y rhai sydd gennym flaenffrwyth yr Yspryd; yr ydym ninnau ein hunain hefyd yn ocheneidio ynom ein hunain, gan ddisgwyl y mabwysiad, *sef* prynedigaeth ein corph.

24 Canys trwy obaith y'n hiachâwyd. Eithr y gobaith a welir, nid yw obaith: oblegid y peth y mae un yn ei weled, i ba beth y mae etto yn ei obeithio?

25 Ond os ydym ni yn gobeithio yr hyn nid ŷm yn ei weled, yr ydym trwy amynedd yn disgwyl am dano.

26 A'r un ffunud y mae yr Yspryd hefyd yn cynnorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddïom, megis y dylem: eithr y mae yr Yspryd ei hun yn erfyn trosom ni âg ocheneidiau annhraethadwy.

27 A'r hwn sydd yn chwilio y calonnau, a ŵyr beth *yw* meddwl yr Yspryd; canys y mae efe yn ol *ewyllys* Duw yn erfyn dros y saint.

28 Ac ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw; *sef* i'r rhai sydd wedi eu galw yn ol *ei* arfaeth *ef.*

29 Oblegid y rhai a rag-wybu, a ragluniodd efe hefyd *i fod* yn un ffurf â delw ei Fab ef; fel y byddai efe yn gyntaf-anedig ym mhlith brodyr lawer.

30 A'r rhai a ragluniodd efe, y rhai hynny hefyd a alwodd efe; a'r rhai a alwodd efe, y rhai hynny hefyd a gyfiawnhaodd efe; a'r rhai a gyfiawnhaodd efe, y rhai hynny hefyd a ogoneddodd efe.

31 Beth gan hynny a ddywedwn ni wrth y pethau hyn? Os *yw*

Duw trosom, pwy *a all fod* i'n herbyn?
32 Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll; pa wedd gyd âg ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?
33 Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw? Duw *yw* yr hwn sydd yn cyfiawnhâu:
34 Pwy *yw* yr hwn sydd yn damnio? Crist *yw* yr hwn a fu farw, ïe, yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd; yr hwn hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni.
35 Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? *ai* gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf?
36 Megis y mae yn ysgrifenedig, Er dy fwyn di yr ydys yn ein lladd ni ar hyd y dydd; cyfrifwyd ni fel defaid i'r lladdfa.
37 Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr, trwy yr hwn a'n carodd ni.
38 Canys y mae yn ddiogel gennyf, na all nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau presennol, na phethau i ddyfod,
39 Nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

PENNOD 9.

1 *Paul yn ddrwg gynddo dros yr Iuddewon.* 7 *Nad oedd holl had Abraham yn blant yr addewid.* 18 *Bod Duw yn trugarhâu wrth y neb y mynno.* 21 *Y gall y crochenydd newidiar d'i lestri y peth a fynno.* 25 *Darfod rhagfynegi galwediguetb y Cenhedloedd, a gorthodiad yr Iuddewon.* 32 *Yr achos paham y croesawodd cyn lleied o'r Iuddewon gyfiawnder ffydd.*

Y GWIRIONEDD yr wyf fi yn ei ddywedyd yng Nghrist, nid wyf yn dywedyd celwydd, a'm cydwybod hefyd yn cyd-dystiolaethu â mi yn yr Ysbryd Glân,
2 Fod i mi dristyd mawr, a gofid dibaid i'm calon.
3 Canys mi a ddymunwn fy mod fy hun yn anathema oddi wrth Grist dros fy mrodyr, *sef* fy nghenedl yn ol y cnawd:
4 Y rhai sydd Israeliaid; eiddo y rhai yw y mabwysiad, a'r gogoniant, a'r cyfammodau, a dodiad y ddeddf, a'r gwasanaeth, a'r addewidion;
5 Eiddo y rhai *yw* y tadau; ac o'r rhai *yr hanodd* Crist yn ol y cnawd, yr hwn sydd uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. Amen.
6 Eithr nid posibl yw myned gair Duw yn ddirym: canys nid Israel yw pawb a'r sydd o Israel.
7 Ac nid *ydynt*, oblegid eu bod yn had Abraham, i gyd yn blant: eithr, Yn Isaac y gelwir i ti had.
8 Hynny ydyw, Nid plant y cnawd, y rhai hynny *sydd* blant i Dduw; eithr plant yr addewid a gyfrifir yn had.
9 Canys gair yr addewid *yw* hwn; Ar yr amser hwn y deuaf, a bydd mab i Sara.
10 Ac nid *hyn* yn unig; eithr Rebecca hefyd, wedi iddi feichiogi o un, *sef* o'n tad Isaac;
11 (Canys cyn geni *y plant* etto, na gwneuthur o honynt dda na drwg, fel y byddai i'r arfaeth yn ol etholedigaeth Duw sefyll, nid o weithredoedd, eithr o'r hwn sydd yn galw;)
12 Y dywedwyd wrthi, Yr hynaf a wasanaetha yr ieuangaf.
13 Megis yr ysgrifenwyd, Jacob a gerais, eithr Esau a gaseais.
14 Beth gan hynny a ddywedwn ni? *A oes* anghyfiawnder gyd â Duw? Na atto Duw.
15 Canys y mae yn dywedyd wrth Moses, Mi a drugarhâf wrth yr hwn y trugarhâwyf, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf.
16 Felly gan hynny nid o'r hwn sydd yn ewyllysio *y mae*, nac o'r hwn sydd yn rhedeg chwaith; ond o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhâu.
17 Canys y mae yr ysgrythyr yn dywedyd wrth Pharaoh, I hyn yma y'th gyfodais di, fel y dangoswn fy ngallu ynot ti, ac fel y datgenid fy enw trwy yr holl ddaear.
18 Felly gan hynny y neb y mynno y mae efe yn trugarhâu wrtho, a'r neb y mynno y mae efe yn ei galedu.
19 Ti a ddywedi gan hynny wrth-

yf, Paham y mae efe etto yn beio? canys pwy a wrthwynebodd ei ewyllys ef?

20 Yn hytrach, O ddyn, pwy wyt ti yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw? a ddywed y peth ffurfiedig wrth yr hwn a'i ffurfiodd, Paham y'm gwnaethost fel hyn?

21 Onid oes awdurdod i'r crochenydd ar y priddgist, i wneuthur o'r un telpyn pridd un llestr i barch, ac arall i ammharch?

22 *Beth* os Duw, yn ewyllysio dangos *ei* ddigofaint, a pheri adnabod ei allu, a oddefodd trwy hir-ymaros lestri digofaint, wedi eu cymhwyso i golledigaeth:

23 Ac i beri gwybod golud ei ogoniant ar lestri trugaredd, y rhai a rag-barottôdd efe i ogoniant,

24 *Sef* nyni, y rhai a alwodd efe, nid o'r Iuddewon yn unig, eithr hefyd o'r Cenhedloedd?

25 Megis hefyd y mae efe yn dywedyd yn Hosea, Mi a alwaf yr hwn nid yw bobl i mi, yn bobl i mi; a'r hon nid yw anwyl, yn anwyl.

26 A bydd yn y fangre lle y dywedwyd wrthynt, Nid fy mhobl i *ydych* chwi; yno y gelwir hwy yn feibion i'r Duw byw.

27 Hefyd y mae Esaias yn llefain am yr Israel, Cyd byddai nifer meibion Israel fel tywod y môr, gweddill a achubir.

28 Canys *efe* a orphen ac a gwttoga y gwaith mewn cyfiawnder: oblegid byr waith a wna yr Arglwydd ar y ddaear.

29 Ac megis y dywedodd Esaias yn y blaen, Oni buasai i Arglwydd y Sabaoth adael i ni had, megis Sodoma y buasem, a gwnaethid ni yn gyffelyb i Gomorrah.

30 Beth gan hynny a ddywedwn ni? Bod y Cenhedloedd, y rhai nid oeddynt yn dilyn cyfiawnder, wedi derbyn cyfiawnder, sef y cyfiawnder sydd o ffydd:

31 Ac Israel, yr hwn oedd yn dilyn deddf cyfiawnder, ni chyrhaeddodd ddeddf cyfiawnder.

32 Paham? Am nad *oeddynt yn ei cheisio* trwy ffydd, ond megis trwy weithredoedd y ddeddf: canys hwy a dramgwyddasant wrth y maen tramgwydd;

33 Megis y mae yn ysgrifenedig, Wele fi yn gosod yn Sïon faen tramgwydd, a chraig rhwystr: a phob un a gredo ynddo, ni chywilyddir.

PENNOD 10.

5 Bod yr ysgrythyr lân yn dangos y rhagor sydd rhwng cyfiawnder y gyfraith a'r hwn sydd o ffydd; 11 ac na chywilyddir neb a gredo, pa un bynnag ai Iuddew ai cenedl-ddyn fyddo; 18 ac y derbyn y Cenhedloedd y gair, ac y credant. 19 Nad oedd y pethau hyn anhysbys i'r Iuddewon.

O FRODYR, gwir ewyllys fy nghalon, a'm gweddi ar Dduw dros yr Israel, sydd er iachawdwriaeth.

2 Canys yr wyf fi yn dyst iddynt, fod ganddynt sêl Duw, eithr nid ar ol gwybodaeth.

3 Canys hwynt-hwy, heb wybod cyfiawnder Duw, ac yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain, nid ymostyngasant i gyfiawnder Duw.

4 Canys Crist *yw* diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un a'r y sydd yn credu.

5 Canys y mae Moses yn ysgrifenu *am* y cyfiawnder sydd o'r ddeddf, Mai y dyn a wnel y pethau hynny, a fydd byw trwyddynt.

6 Eithr y mae y cyfiawnder sydd o ffydd yn dywedyd fel hyn; Na ddywed yn dy galon, Pwy a esgyn i'r nef? (hynny yw, dwyn Crist i waered *oddi uchod:*)

7 Neu, pwy a ddisgyn i'r dyfnder? (hynny yw, dwyn Crist drachefn i fyny oddi wrth y meirw.)

8 Eithr pa beth y mae efe yn ei ddywedyd? Mae y gair yn agos attat, yn dy enau, ac yn dy galon: hwn yw gair y ffydd, yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu;

9 Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi.

10 Canys â'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth.

11 Oblegid y mae yr ysgrythyr yn dywedyd, Pwy bynnag sydd yn credu ynddo ef, ni chywilyddir.

12 Canys nid oes gwahaniaeth rhwng Iuddew a Groegwr: oblegid

yr un Arglwydd ar bawb, sydd oludog i bawb a'r sydd yn galw arno.

13 Canys pwy bynnag a alwo ar enw yr Arglwydd, cadwedig fydd.

14 Pa fodd gan hynny y galwant ar yr hwn ni chredasant ynddo? a pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano? a pha fodd y clywant, heb bregethwr?

15 A pha fodd y pregethant, onis danfonir hwynt? megis y mae yn ysgrifenedig, Mor brydferth yw traed y rhai sydd yn efengylu tangnefedd, y rhai sydd yn efengylu pethau daionus!

16 Eithr nid ufuddhasant hwy oll i'r efengyl: canys y mae Esaias yn dywedyd, *O* Arglwydd, pwy a gredodd i'n hymadrodd ni?

17 Am hynny ffydd *sydd* trwy glywed, a chlywed trwy air Duw.

18 Eithr meddaf, Oni chlywsant hwy? Yn ddïau i'r holl ddaear yr aeth eu swn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y byd.

19 Eithr meddaf, Oni wybu Israel? Yn gyntaf, y mae Moses yn dywedyd, Mi a baraf i chwi wynfydu trwy *rai* nid *yw* genedl; trwy genedl anneallus y'ch digiaf chwi.

20 Eithr y mae Esaias yn ymhyfhâu, ac yn dywedyd, Cafwyd fi gan y rhai nid oeddynt yn fy ngheisio; *a* gwnaed fi yn eglur i'r rhai nid oeddynt yn ymofyn am danaf.

21 Ac wrth yr Israel y mae yn dywedyd, Ar hyd y dydd yr estynais fy nwylaw at bobl anufudd ac yn gwrth-ddywedyd.

PENNOD 11.

1 *Na fwriodd Duw ynaith holl Israel;* 7 *ond rhai a ddewisiwyd, er darfod caledu y lleill.* 16 *Y mae gobaith y troir hwynt.* 18 *Na ddylai y Cenhedloedd orfoleddu yn eu herbyn hwy;* 26 *oblegid y mae addewid o'u hiachawdwriaeth hwythau.* 33 *Bod barnedigaethau Duw yn anchwiliadwy.*

AM hynny meddaf, A wrthododd Duw ei bobl? Na atto Duw. Canys yr wyf finnau hefyd yn Israeliad, o had Abraham, o lwyth Benjamin.

2 Ni wrthododd Duw ei bobl, yr hwn a adnabu efe o'r blaen. Oni wyddoch chwi pa beth y mae yr ysgrythyr yn ei ddywedyd am Elias? pa fodd y mae efe yn erfyn ar Dduw yn erbyn Israel, gan ddywedyd,

3 *O* Arglwydd, hwy a laddasant dy brophwydi, ac a gloddiasant dy allorau i lawr; ac myfi a adawyd yn unig, ac y maent yn ceisio fy einioes innau.

4 Eithr pa beth y mae atteb Duw yn ei ddywedyd wrtho? Mi a adewais i mi fy hun saith mil o wŷr, y rhai ni phlygasant eu gliniau i Baal.

5 Felly gan hynny y pryd hwn hefyd y mae gweddill yn ol etholedigaeth gras.

6 Ac os o ras, nid o weithredoedd mwyach: *os* amgen, nid yw gras yn ras mwyach. Ac os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach: *os* amgen, nid yw gweithred yn weithred mwyach.

7 Beth gan hynny? Ni chafodd Israel yr hyn y mae yn ei geisio: eithr yr etholedigaeth a'i cafodd, a'r lleill a galedwyd;

8 Megis y mae yn ysgrifenedig, Rhoddes Duw iddynt yspryd trwmgwsg, llygaid fel na welent, a chlustiau fel na chlywent, hyd y dydd heddyw.

9 Ac y mae Dafydd yn dywedyd, Bydded eu bord hwy yn rhwyd, ac yn fagl, ac yn dramgwydd, ac yn daledigaeth iddynt:

10 Tywyller eu llygaid hwy, fel na welant, a chyd-grymma *di* eu cefnau hwy bob amser.

11 Gan hynny meddaf, A dramgwyddasant hwy fel y cwympent? Na atto Duw: eithr trwy eu cwymp hwy *y daeth* iachawdwriaeth i'r Cenhedloedd, i yrru eiddigedd arnynt.

12 O herwydd paham, os *ydyw* eu cwymp hwy yn olud i'r byd, a'u lleihâd hwy yn olud i'r Cenhedloedd; pa faint mwy *y bydd* eu cyflawnder hwy?

13 Canys wrthych chwi y Cenhedloedd yr wyf yn dywedyd, yn gymmaint a'm bod i yn apostol y Cenhedloedd, yr wyf yn mawrhâu fy swydd;

14 Os gallaf ryw fodd yrru eiddigedd ar fy nghig *a'm gwaed fy hun*, ac achub rhai o honynt.

15 Canys os *yw* eu gwrthodiad

hwy yn gymmod i'r byd, beth *fydd eu* derbyniad *hwy* ond bywyd o feirw?

16 Canys os sanctaidd y blaenffrwyth, *y mae* y clamp toes hefyd *yn sanctaidd:* ac os sanctaidd y gwreiddyn, *y mae* y canghennau *hefyd* felly.

17 Ac os rhai o'r canghennau a dorrwyd ymaith, a thydi yn olewwydden wyllt a impiwyd i mewn yn eu plith hwy, ac a'th wnaethpwyd yn gyfrannog o'r gwreiddyn, ac o frasder yr olew-wydden;

18 Na orfoledda yn erbyn y canghennau. Ac os gorfoleddi, nid tydi sydd yn dwyn y gwreiddyn, eithr y gwreiddyn dydi.

19 Ti a ddywedi gan hynny, Torrwyd y canghennau ymaith, fel yr impid fi i mewn.

20 Da; trwy anghrediniaeth y torrwyd hwynt ymaith, a thithau sydd yn sefyll trwy ffydd. Na fydd uchelfryd, eithr ofna.

21 Canys onid arbedodd Duw y canghennau naturiol, *gwylia* rhag nad arbedo dithau chwaith.

22 Gwel am hynny ddaioni a thostter Duw: *sef* i'r rhai a gwympasant, toster; eithr daioni i ti, os arhosi yn *ei* ddaioni *ef: os* amgen, torrir dithau hefyd ymaith.

23 A hwythau, onid arhosant yn anghrediniaeth, a impir i mewn: canys fe all Duw eu himpio hwy i mewn drachefn.

24 Canys os tydi a dorrwyd ymaith o'r olew-wydden yr hon oedd wyllt wrth naturiaeth, a'th impio yn erbyn naturiaeth mewn gwir olewwydden; pa faint mwy y caiff y rhai hyn sydd wrth naturiaeth, eu himpio i mewn yn eu holew-wydden eu hun?

25 Canys ni ewyllysiwn, frodyr, eich bod heb wybod y dirgelwch hwn, (fel na byddoch ddoethion yn eich golwg eich hun,) ddyfod dallineb o ran i Israel, hyd oni ddêl cyflawnder y Cenhedloedd i mewn.

26 Ac felly holl Israel a fydd gadwedig; fel y mae yn ysgrifenedig, Y Gwaredwr a ddaw allan o Sïon, ac a dry ymaith annuwioldeb oddi wrth Jacob.

27 A hyn *yw* yr ammod *sydd* iddynt gennyf fi, pan gymmerwyf ymaith eu pechodau hwynt.

28 Felly o ran yr efengyl, gelynion *ydynt* o'ch plegid chwi: eithr o ran yr etholedigaeth, caredigion *ydynt* oblegid y tadau.

29 Canys dïedifarus *yw* doniau a galwedigaeth Duw.

30 Canys megis y buoch chwithau gynt yn anufudd i Dduw, eithr yr awr hon a gawsoch drugaredd trwy anufudd-dod y rhai hyn;

31 Felly hwythau hefyd yr awr hon a anufuddhasant, fel y caent hwythau drugaredd trwy eich trugaredd chwi.

32 Canys Duw a'u cauodd hwynt oll mewn anufudd-dod, fel y trugarhâi wrth bawb.

33 O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw! mor anchwiliadwy *yw* ei farnau ef! a'i ffyrdd, mor anolrheinadwy *ydynt!*

34 Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd? neu pwy a fu gynghorwr iddo ef?

35 Neu pwy a roddes iddo ef yn gyntaf, ac fe a delir iddo drachefn?

36 Canys o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, *y mae* pob peth. Iddo ef *y byddo* gogoniant yn dragywydd. Amen.

PENNOD 12.

1 Y dylai trugareddau Duw ein cymhyrfu ni i ryngu ei fodd ef. 3 Na ddylai neb feddwl yn rhy dda o hono ei hun; 6 eithr bod yn ddiwyd yn yr alwediyaeth y gosodwyd ef ynddi. 9 Cariad, a llawer eraill o rinweddau, a afynir gennym: 19 a dial yn bendifaddeu a warafunir i ni.

AM hynny yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, er trugareddau Duw, roddi o honoch eich cyrph yn aberth byw, sanctaidd, cymmeradwy gan Dduw; *yr hyn yw* eich rhesymmol wasanaeth chwi.

2 Ac na chyd-ymffurfiwch â'r byd hwn: eithr ymnewidiwch trwy adnewyddiad eich meddwl; fel y profoch beth *yw* daionus, a chymmeradwy, a pherffaith ewyllys Duw.

3 Canys yr wyf yn dywedyd, trwy y gras a roddwyd i mi, wrth bob un a'r sydd yn eich plith, na byddo i neb uchel-synied yn amgen nag y dylid synied; eithr synied i sobr-

wydd, fel y rhannodd Duw i bob un fesur ffydd.

4 Canys megis y mae gennym aelodau lawer mewn un corph, ac nad oes gan yr holl aelodau yr un swydd:

5 Felly ninnau, *a ni* yn llawer, ydym un corph yng Nghrist, a phob un yn aelodau i'w gilydd.

6 A chan fod *i ni* amryw ddoniau yn ol y gras a roddwyd i ni, pa un bynnag ai prophwydoliaeth, *prophwydwn* yn ol cyssondeb y ffydd;

7 Ai gweinidogaeth, *byddwn ddyfal* yn y weinidogaeth; neu yr hwn sydd yn athrawiaethu, yn yr athrawiaeth;

8 Neu yr hwn sydd yn cynghori, yn y cynghor: yr hwn sydd yn cyfrannu, *gwnaed* mewn symlrwydd; yr hwn sydd yn llywodraethu, mewn diwydrwydd; yr hwn sydd yn trugarhâu, mewn llawenydd.

9 *Bydded* cariad yn ddiragrith. Casêwch y drwg, *a* glynwch wrth y da.

10 Mewn cariad brawdol *byddwch* garedig i'ch gilydd; yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd;

11 Nid yn ddïog mewn diwydrwydd; yn wresog yn yr yspryd; yn gwasanaethu yr Arglwydd:

12 Yn llawen mewn gobaith; yn ddïoddefgar mewn cystudd; yn dyfal-barhâu mewn gweddi:

13 Yn cyfrannu i gyfreidiau y saint; ac yn dilyn llettygarwch.

14 Bendithiwch y rhai sydd yn eich ymlid: bendithiwch, ac na felldithiwch.

15 Byddwch lawen gyd â'r rhai sydd lawen, ac wylwch gyd â'r rhai sydd yn wylo.

16 *Byddwch* yn unfryd â'ch gilydd: heb roi eich meddwl ar uchel-bethau; eithr yn gyd-ostyngedig â'r rhai iselradd. Na fyddwch ddoethion yn eich tyb eich hunain.

17 Na thelwch i neb ddrwg am ddrwg. Darperwch bethau onest y'ngolwg pob dyn.

18 Os yw bosibl, hyd y mae ynoch chwi, byddwch heddychlawn â phob dyn.

19 Nac ymddïelwch, rai anwyl, ond rhoddwch le i ddigofaint: canys y mae yn ysgrifenedig, I mi y mae dïal; myfi a dalaf, medd yr Arglwydd.

20 Am hynny, os dy elyn a newyna, portha ef; os sycheda, dyro iddo ddïod: canys wrth wneuthur hyn ti a bentyrri farwor tanllyd ar ei ben ef.

21 Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni.

PENNOD 13.

1 Ymddarostwng, a llawer o bethau eraill, sydd ddyledus i'r llywodraethwyr. 8 Mai cariad yw cyflawnder y ddeddf. 11 Bod glythineb, a meddwdod, a gweithredoedd y tywyllwch, yn annhymhoraidd yn amser yr efengyl.

YMDDAROSTYNGED pob enaid i'r awdurdodau goruchel: canys nid oes awdurdod ond oddi wrth Dduw; a'r awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio.

2 Am hynny pwy bynnag sydd yn ymosod yn erbyn yr awdurdod, sydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw: a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain.

3 Canys tywysogion nid ydynt ofn i weithredoedd da, eithr i'r *rhai* drwg. A fynni di nad ofnech yr awdurdod? gwna yr hyn sydd dda, a thi a gei glod ganddo:

4 Canys gweinidog Duw ydyw efe i ti er daioni. Eithr os gwnei ddrwg, ofna; canys nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer: oblegid gweinidog Duw yw efe, dïalydd llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg.

5 Herwydd paham anghenraid yw ymddarostwng, nid yn unig o herwydd llid, eithr o herwydd cydwybod hefyd.

6 Canys am hyn yr ydych yn talu teyrnged hefyd: oblegid gwasanaethwyr Duw ydynt hwy, yn gwylied ar hyn yma.

7 Telwch gan hynny i bawb eu dyledion: teyrnged i'r hwn *y mae* teyrnged *yn ddyledus*; toll i'r hwn *y mae* toll; ofn i'r hwn *y mae* ofn; parch i'r hwn *y mae* parch *yn ddyledus.*

8 Na fyddwch yn nyled neb o ddim, ond o garu bawb eich gilydd:

canys yr hwn sydd yn caru arall, a gyflawnodd y gyfraith.

9 Canys hyn, Na odineba, Na ladd, Na ladratta, Na ddwg gamdystiolaeth, Na thrachwanta; ac od *oes* un gorchymyn arall, y mae wedi ei gynnwys yn gryno yn yr ymadrodd hwn, Câr dy gymmydog fel ti dy hun.

10 Cariad ni wna ddrwg i'w gymmydog: am hynny cyflawnder y gyfraith *yw* cariad.

11 A hyn, gan wybod yr amser, *ei bod* hi weithian yn bryd i ni ddeffrôi o gysgu: canys yr awr hon *y mae* ein hiachawdwriaeth ni yn nês na phan gredasom.

12 Y nos a gerddodd ym mhell, a'r dydd a nesaodd: am hynny bwriwn oddi wrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgwn arfau y goleuni.

13 Rhodiwn yn weddus, megis wrth liw dydd; nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cyd-orwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynnen a chenfigen.

14 Eithr gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist; ac na wnewch rag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn *cyflawni ei* chwantau *ef.*

PENNOD 14.

3 Na ddylai dynion na dirmygu na chondemnio eu gilydd, am bethau nid ydynt na da na drwg o honynt eu hunain; 13 eithr gochelyd rhoddi achos tramgwydd ynddynt; 15 oblegid hynny y mae yr apostol yn ei brofi ei fod yn anghyfreithlawn, trwy lawer o resymmau.

YR hwn sydd wan yn y ffydd, derbyniwch attoch, nid i ymrafaelion rhesymmau.

2 Canys y mae un yn credu y gall fwytta pob peth; ac y mae arall, yr hwn sydd wan, yn bwytta dail.

3 Yr hwn sydd yn bwytta, na ddirmyged yr hwn nid yw yn bwytta; a'r hwn nid yw yn bwytta, na farned ar yr hwn sydd yn bwytta: canys Duw a'i derbyniodd ef.

4 Pwy wyt ti, yr hwn wyt yn barnu gwas un arall? I'w arglwydd ei hun y mae efe yn sefyll, neu yn syrthio: ac efe a gynhelir; canys fe a all Duw ei gynnal ef.

5 Y mae un yn barnu diwrnod uwch law diwrnod; *ac* arall yn barnu pob diwrnod yn *ogyfuwch.* Bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun.

6 Yr hwn sydd yn ystyried diwrnod, i'r Arglwydd y mae yn *ei* ystyried; a'r hwn sydd heb ystyried diwrnod, i'r Arglwydd y mae heb *ei* ystyried. Yr hwn sydd yn bwytta, i'r Arglwydd y mae yn bwytta; canys y mae yn diolch i Dduw: a'r hwn sydd heb fwytta, i'r Arglwydd y mae heb fwytta; ac y mae yn diolch i Dduw.

7 Canys nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun, ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun.

8 Canys pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw: am hynny, pa un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym.

9 Oblegid er mwyn hyn y bu farw Crist, ac yr adgyfododd, ac y bu fyw drachefn hefyd, fel yr arglwyddiaethai ar y meirw a'r byw hefyd.

10 Eithr paham yr wyt ti yn barnu dy frawd? neu paham yr wyt yn dirmygu dy frawd? canys gosodir ni oll ger bron gorseddfaingc Crist.

11 Canys y mae yn ysgrifenedig, Byw wyf fi, medd yr Arglwydd; pob glin a blyga i mi, a phob tafod a gyffesa i Dduw.

12 Felly gan hynny pob un o honom drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw.

13 Am hynny na farnwn ein gilydd mwyach: ond bernwch hyn yn hytrach, na bo i neb roddi tramgwydd i'*w* frawd, neu rwystr.

14 Mi a wn, ac y mae yn sicr gennyf trwy yr Arglwydd Iesu, nad *oes* dim yn aflan o hono ei hun: ond i'r hwn sydd yn tybied fod peth yn aflan, i hwnnw *y mae* yn aflan.

15 Eithr os o achos bwyd y tristêir dy frawd, nid wyt ti mwyach yn rhodio yn ol cariad. Na ddistrywia ef â'th fwyd, dros yr hwn y bu Crist farw.

16 Na chabler gan hynny eich daioni chwi.

17 Canys nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod; ond cyfiawnder, a

thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân.

18 Canys yr hwn sydd yn gwasanaethu Crist yn y pethau hyn, sydd hoff gan Dduw, a chymmeradwy gan ddynion.

19 Felly gan hynny dilynwn y pethau a berthynant i heddwch, a'r pethau a berthynant i adeiladaeth ein gilydd.

20 O achos bwyd na ddinystria waith Duw. Pob peth yn wir *sydd* lân; eithr drwg *yw* i'r dyn sydd yn bwytta trwy dramgwydd.

21 Da *yw* na fwyttâer cig, ac nad yfer gwin, na *dim* trwy yr hyn y tramgwydder, neu y rhwystrer, neu y gwanhâer dy frawd.

22 A oes ffydd gennyt ti? bydded hi gyd â thi dy hun ger bron Duw. Gwyn ei fyd yr hwn nid yw yn ei farnu ei hun yn yr hyn y mae yn ei dybied yn dda.

23 Eithr yr hwn sydd yn petruso, os bwytty, efe a gondemniwyd, am nad yw *yn bwytta* o ffydd: a pheth bynnag nid *yw* o ffydd, pechod yw.

PENNOD 15.

1 *Rhaid i'r cryf gyd-ddwyn â'r gwan.* 2 *Na ddylem ni ryngu ein bodd ein hunain,* 3 *gan na wnaeth Crist hynny;* 7 *ond derbyn bob un ein gilydd megis y derbyniodd Crist ninnau i gyd,* 8 *Iuddewon,* 9 *a Chenhedloedd.* 15 *Paul yn esgusodi ei ysgrifen,* 28 *ac yn addaw ymweled â hwynt,* 30 *ac yn deisyf eu gweddïau.*

A NYNI y rhai ydym gryfion, a ddylem gynnal gwendid y rhai gweiniaid, ac nid rhyngu ein bodd ein hunain.

2 Boddhâed pob un o honom *ei* gymmydog yn yr hyn sydd dda *iddo* er adeiladaeth.

3 Canys Crist nis boddhaodd ef ei hun; eithr, megis y mae yn ysgrifenedig, Gwaradwyddiadau y rhai a'th waradwyddent di, a syrthiasant arnaf fi.

4 Canys pa bethau bynnag a ysgrifenwyd o'r blaen, er âddysg i ni yr ysgrifenwyd hwynt; fel trwy amynedd a diddanwch yr ysgrythyrau, y gallem gael gobaith.

5 A Duw yr amynedd a'r diddanwch a roddo i chwi synied yr un peth tu ag at eich gilydd yn ol Crist Iesu:

6 Fel y galloch yn unfryd, o un genau, ogoneddu Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.

7 O herwydd paham derbyniwch eich gilydd, megis ag y derbyniodd Crist ninnau i ogoniant Duw.

8 Ac yr wyf yn dywedyd, wneuthur Iesu Grist yn weinidog i'r enwaediad, er mwyn gwirionedd Duw, er mwyn cadarnhâu yr addewidion *a wnaethpwyd* i'r tadau:

9 Ac fel y byddai i'r Cenhedloedd ogoneddu Duw am *ei* drugaredd; fel y mae yn ysgrifenedig, Am hyn y cyffesaf i ti ym mhlith y Cenhedloedd, ac y canaf i'th enw.

10 A thrachefn y mae yn dywedyd, Ymlawenhêwch, Genhedloedd, gyd â'i bobl ef.

11 A thrachefn, Molwch yr Arglwydd, yr holl Genhedloedd; a chlodforwch ef, yr holl bobloedd.

12 A thrachefn y mae Esaias yn dywedyd, Fe fydd gwreiddyn Jesse, a'r hwn a gyfyd i lywodraethu y Cenhedloedd: ynddo ef y gobeithia y Cenhedloedd.

13 A Duw y gobaith a'ch cyflawno o bob llawenydd a thangnefedd gan gredu, fel y cynnyddoch mewn gobaith trwy nerth yr Ysbryd Glân.

14 Ac yr wyf fi fy hun, fy mrodyr, yn credu am danoch chwi, eich bod chwithau yn llawn daioni, wedi eich cyflawni o bob gwybodaeth, ac yn abl i rybuddio eich gilydd hefyd.

15 Eithr mi a ysgrifenais yn hyfach o beth attoch, *O* frodyr, fel un yn dwyn ar gôf i chwi, trwy y gras a roddwyd i mi gan Dduw;

16 Fel y byddwn weinidog i Iesu Grist at y Cenhedloedd, gan weini i efengyl Duw, fel y byddai offrymiad y Cenhedloedd yn gymmeradwy, wedi ei sancteiddio gan yr Ysbryd Glân.

17 Y mae i mi gan hynny orfoledd yng Nghrist Iesu, o ran y pethau a berthyn i Dduw.

18 Canys ni feiddiaf fi ddywedyd dim o'r pethau ni weithredodd Crist trwof fi, i *wneuthur* y Cenhedloedd yn ufudd ar air a gweithred,

19 Trwy nerth arwyddion a rhyfeddodau, gan nerth Ysbryd Duw; hyd pan o Jerusalem, ac o amgylch

hyd Ilyricum, y llenwais efengyl Crist.

20 Ac felly gan ymorchestu i bregethu yr efengyl, nid lle yr enwid Crist: fel nad adeiladwn ar sail un arall:

21 Eithr megis y mae yn ysgrifenedig, I'r rhai ni fynegwyd am dano, hwynt-hwy a'i gwelant *ef;* a'r rhai ni chlywsant, a ddeallant.

22 Am hynny hefyd y'm lluddiwyd yn fynych i ddyfod attoch chwi.

23 Eithr yr awr hon, gan nad oes gennyf le mwyach yn y gwledydd hyn, a hefyd bod arnaf hiraeth er ys llawer o flynyddoedd am ddyfod attoch chwi;

24 Pan elwyf i'r Hispaen, myfi a ddeuaf attoch chwi: canys yr wyf yn gobeithio, wrth fyned heibio, y caf eich gweled, a'm hebrwng gennych yno, os byddaf yn gyntaf o ran wedi fy llenwi o honoch.

25 Ac yr awr hon yr wyf fi yn myned i Jerusalem, i weini i'r saint.

26 Canys rhyngodd bodd i'r rhai o Macedonia ac Achaia wneuthur rhyw gymmorth i'r rhai tlodion o'r saint *sydd* yn Jerusalem.

27 Canys rhyngodd bodd iddynt; a'u dyledwyr hwy ydynt. Oblegid os cafodd y Cenhedloedd gyfran o'u pethau ysprydol hwynt, hwythau hefyd a ddylent weini iddynt hwythau mewn pethau cnawdol.

28 Wedi i mi gan hynny orphen hyn, a selio iddynt y ffrwyth hwn, mi a ddeuaf heibioch i'r Hispaen.

29 Ac mi a wn, pan ddelwyf attoch, y deuaf â chyflawnder bendith efengyl Crist.

30 Eithr yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist, ac er cariad yr Ysprydd, ar gyd-ymdrech o honoch gyd â myfi mewn gweddïau drosof fi at Dduw;

31 Fel y'm gwareder oddi wrth y rhai anufudd yn Judea; ac ar fod fy ngweinidogaeth, yr hon *sydd gennyf* i Jerusalem, yn gymmeradwy gan y saint;

32 Fel y delwyf attoch mewn llawenydd, trwy ewyllys Duw, ac y'm cyd-lonner gyd â chwi.

33 A Duw yr heddwch *fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

PENNOD 16.

3 *Paul yn ewyllysio i'r brodyr annerch llawer;* 17 *ac yn eu cynghori hwy i ochelyd y rhai sydd yn peri anghydfod a rhwystrau;* 21 *ac ar ol amryw anherchion, yn diweddu gyd â moliant a diolch i Dduw.*

YR wyf yn gorchymyn i chwi Phebe ein chwaer, yr hon sydd weinidoges i eglwys Cenchrea:

2 Dderbyn o honoch hi yn yr Arglwydd, *megis y mae* yn addas i saint, a'i chynnorthwyo hi ym mha beth bynnag y byddo rhaid iddi wrthych: canys hithau hefyd a fu gymmorth i lawer, ac i minnau fy hun hefyd.

3 Anherchwch Priscìla ac Acwila, fy nghyd-weithwyr yng Nghrist Iesu;

4 Y rhai dros fy mywyd i a ddodasant eu gyddfau eu hunain i lawr: i'r rhai nid wyf fi yn unig yn dïolch, ond hefyd holl eglwysydd y Cenhedloedd.

5 *Anherchwch* hefyd yr eglwys sydd yn eu tŷ hwy. Anherchwch fy anwyl Epenetus, yr hwn yw blaenffrwyth Achaia yng Nghrist.

6 Anherchwch Mair, yr hon a gymmerodd lawer o boen erom ni.

7 Anherchwch Andronicus a Junia, fy ngheraint a'm cyd-garcharorion, y rhai sydd hynod ym mhlith yr apostolion, y rhai hefyd oeddynt yng Nghrist o'm blaen i.

8 Anherchwch Amplias, fy anwyl-yd yn yr Arglwydd.

9 Anherchwch Urbanus, ein cyd-weithiwr yng Nghrist, a Stachys fy anwylyd.

10 Anherchwch Apèles, y profedig yng Nghrist. Anherchwch y rhai sydd o *dylwyth* Aristobulus.

11 Anherchwch Herodion, fy nghâr. Anherchwch y rhai sydd o *dylwyth* Narcissus, y rhai sydd yn yr Arglwydd.

12 Anherchwch Tryphena a Thryphosa, y rhai a gymmerasant boen yn yr Arglwydd. Anherchwch yr anwyl Persis, yr hon a gymmerodd lawer o boen yn yr Arglwydd.

13 Anherchwch Ruffus etholedig yn yr Arglwydd, a'i fam ef a minnau.

14 Anherchwch Asyncritus, Phlegon, Hermas, Patrobas, Mercurius; a'r brodyr *sydd* gyd â hwynt.
15 Anherchwch Philologus a Julia, Nerëus a'i chwaer, ac Olympas, a'r holl saint y rhai sydd gyd â hwynt.
16 Anherchwch y naill y llall â chusan sanctaidd. Y mae eglwysi Crist yn eich annerch.
17 Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sydd yn peri anghydfod a rhwystrau yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasoch chwi; a chiliwch oddi wrthynt.
18 Canys y rhai sydd gyfryw, nid ydynt yn gwasanaethu ein Harglwydd Iesu Grist, eithr eu bol eu hunain; a thrwy ymadrodd teg a gweniaith, yn twyllo calonnau y rhai diddrwg.
19 Canys eich ufudd-dod chwi a ddaeth ar led at bawb. Yr wyf fi gan hynny yn llawen o'ch rhan chwi: eithr myfi a ewyllysiwn i chwi fod yn ddoethion tu ag at y peth sydd dda, ac yn wirion tu ag at y peth sydd ddrwg.
20 A Duw y tangnefedd a sathr Satan dan eich traed chwi ar frys. Gras ein Harglwydd Iesu Grist *fyddo* gyd â chwi. Amen.
21 Y mae Timothëus fy nghydweithiwr, a Lucius, a Jason, a Sosipater, fy ngheraint, yn eich annerch.
22 Yr wyf fi Tertius, yr hwn a ysgrifenais yr epistol *hwn*, yn eich annerch yn yr Arglwydd.
23 Y mae Gaius fy llettŷwr i, a'r holl eglwys, yn eich annerch. Y mae Erastus, goruchwyliwr y ddinas, yn eich annerch, a'r brawd Cwartus.
24 Gras ein Harglwydd Iesu Grist *a fyddo* gyd â chwi oll. Amen.
25 I'r hwn a ddichon eich cadarnhâu yn ol fy efengyl i a phregethiad Iesu Grist, yn ol datguddiad y dirgelwch yr hwn ni soniwyd am dano er dechreuad y byd,
26 Ac yr awr hon a eglurwyd, a thrwy ysgrythyrau y prophwydi, yn ol gorchymyn y tragywyddol Dduw, a gyhoeddwyd ym mhlith yr holl genhedloedd er mwyn ufudd-dod ffydd;
27 I Dduw *yr* unig ddoeth, *y byddo* gogoniant trwy Iesu Grist yn dragywydd. Amen.

¶ At y Rhufeiniaid yr ysgrifenwyd o Corinth, gyd â Phebe, gweinidoges yr eglwys yn Cenchrea.

EPISTOL CYNTAF PAUL YR APOSTOL AT Y

CORINTHIAID.

PENNOD 1.

Ar ol iddo gyfarch iddynt, a diolch drostynt, 10 *y mae efe yn eu hannog i undeb;* 12 *ac yn beio ar eu hanghytundeb hwy.* 18 *Bod Duw yn difetha doethineb y doethion,* 21 *trwy ffolineb pregethu;* 26 *ac nad yw efe yn galw y doethion, na'r galluog, na'r boneddigion, ond* 27, 28 *y ffol, a'r gwan, a'r distadl.*

PAUL, wedi ei alw *i fod* yn apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, a'r brawd Sosthenes,
2 At eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, at y rhai a sancteiddiwyd yng Nghrist Iesu, a alwyd yn saint, gyd â phawb ag sydd yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist, ym mhob man, o'r eiddynt hwy a ninnau:
3 Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.
4 Yr ydwyf yn diolch i'm Duw bob amser drosoch chwi, am y gras Duw a rodded i chwi yng Nghrist Iesu;
5 Am eich bod ym mhob peth wedi eich cyfoethogi ynddo ef, mewn pob ymadrodd, a phob gwybodaeth;
6 Megis y cadarnhâwyd tystiolaeth Crist ynoch:
7 Fel nad ydych yn ol mewn un dawn, yn disgwyl am ddatguddiad ein Harglwydd Iesu Grist:
8 Yr hwn hefyd a'ch cadarnhâ

chwi hyd y diwedd, yn ddiargyhoedd, yn nydd ein Harglwydd Iesu Grist.

9 Ffyddlawn *yw* Duw, trwy yr hwn y'ch galwyd i gymdeithas ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd ni.

10 Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, trwy enw ein Harglwydd Iesu Grist, ddywedyd o bawb o honoch chwi yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith; eithr bod o honoch wedi eich cyfangyssylltu yn yr un meddwl, ac yn yr un farn.

11 Canys fe ddangoswyd i mi am danoch chwi, fy mrodyr, gan y rhai *sydd o dŷ* Chlöe, fod cynhennau yn eich plith chwi.

12 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, bod pob un o honoch yn dywedyd, Yr ydwyf fi yn eiddo Paul; minnau yn eiddo Apòlos; minnau yn eiddo Cephas; minnau yn eiddo Crist.

13 A rannwyd Crist? ai Paul a groeshoeliwyd drosoch? neu ai yn enw Paul y'ch bedyddiwyd chwi?

14 Yr ydwyf yn diolch i Dduw, na fedyddiais i neb o honoch, ond Crispus a Gaius;

15 Fel na ddywedo neb fedyddio o honof fi yn fy enw fy hun.

16 Mi a fedyddiais hefyd dylwyth Stephanas: heb law hynny nis gwn a fedyddiais i neb arall.

17 Canys ni anfonodd Crist fi i fedyddio, ond i efengylu; nid mewn doethineb ymadrodd, fel na wnelid croes Crist yn ofer.

18 Canys yr ymadrodd am y groes, i'r rhai colledig, ynfydrwydd yw; eithr i ni y rhai cadwedig, nerth Duw ydyw.

19 Canys ysgrifenedig yw, Mi a ddifethaf ddoethineb y doethion, a deall y rhai deallus a ddileaf.

20 Pa le *y mae* y doeth? pa le *mae* yr ysgrifenydd? pa le *y mae* ymholydd y byd hwn? oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd?

21 Canys o herwydd yn noethineb Duw, nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw, fe welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu gadw y rhai sydd yn credu.

22 Oblegid y mae yr Iuddewon yn gofyn arwydd, a'r Groegwyr yn ceisio doethineb:

23 Eithr nyni ydym yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio, i'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb;

24 Ond iddynt hwy y rhai a alwyd, Iuddewon a Groegwyr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw.

25 Canys y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion; a gwendid Duw yn gryfach na dynion.

26 Canys yr ydych yn gweled eich galwedigaeth, frodyr, nad llawer *o rai* doethion yn ol y cnawd, nad llawer *o rai* galluog, nad llawer *o rai* boneddigion, *a alwyd:*

27 Eithr Duw a etholodd ffolbethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion; a gwan-bethau y byd a etholodd Duw, fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn;

28 A phethau distadl y byd, a phethau dirmygus, a ddewisodd Duw, a'r pethau nid ydynt, fel y diddymai y pethau sydd:

29 Fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef.

30 Eithr yr ydych chwi o hono ef yng Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sanctteiddrwydd, ac yn brynedigaeth:

31 Fel, megis ag y mae yn ysgrifenedig, Yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd.

PENNOD 2.

1 *Mae yn dangos fod ei bregeth ef, er nad ydoedd yn dwyn gyd â hi oddidowgrwydd ymadrodd,* 4 *neu ddoethineb ddynol: etto yn sefyll mewn* 4, 5 *nerth Duw; ac yn rhagori cymmaint* 6 *ar ddoethineb y byd yma,* 9 *a symwyr dynol, ag nas* 14 *gall y dyn anianol mo'i deall.*

A MYFI, pan ddeuthum attoch, frodyr, a ddeuthum nid yn ol godidowgrwydd ymadrodd neu ddoethineb, gan fynegi i chwi dystiolaeth Duw.

2 Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio.

3 A mi a fûm yn eich mysg mewn gwendid, ac ofn, a dychryn mawr.

4 A'm hymadrodd a'm pregeth
i, ni *bu* mewn geiriau denu o
ddoethineb ddynol, ond yn eglur-
hâd yr Ysbryd a nerth:
5 Fel na byddai eich ffydd mewn
doethineb dynion, ond mewn nerth
Duw.
6 A doethineb yr ydym ni yn ei
llefaru ym mysg rhai perffaith:
eithr nid doethineb y byd hwn, na
thywysogion y byd hwn, y rhai
sydd yn diflannu.
7 Eithr yr ydym ni yn llefaru
doethineb Duw mewn dirgelwch,
sef y ddoethineb guddiedig, yr hon a
rag-ordeiniodd Duw cyn yr oesoedd
i'n gogoniant ni:
8 Yr hon ni adnabu neb o dywys-
ogion y byd hwn: o herwydd pes
adwaenasent, ni chroeshoeliasent
Arglwydd y gogoniant.
9 Eithr fel y mae yn ysgrifenedig,
Ni welodd llygad, ac ni chlywodd
clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y
pethau a ddarparodd Duw i'r rhai
a'i carant ef.
10 Eithr Duw a'*u* heglurodd i ni
trwy ei Ysbryd: canys yr Ysbryd
sydd yn chwilio pob peth; ïe, dyfn-
ion bethau Duw hefyd.
11 Canys pa ddyn a edwyn beth-
au dyn, ond ysbryd dyn yr hwn
sydd ynddo ef? felly hefyd, pethau
Duw nid edwyn neb, ond Ysbryd
Duw.
12 A nyni a dderbyniasom, nid ys-
pryd y byd, ond yr Ysbryd sydd
o Dduw; fel y gwypom y pethau
a rad-roddwyd i ni gan Dduw.
13 Y rhai yr ydym yn eu llefaru
hefyd, nid â'r geiriau a ddysgir
gan ddoethineb ddynol, ond a
ddysgir gan yr Ysbryd Glân; gan
gyd-farnu pethau ysbrydol â peth-
au ysbrydol.
14 Eithr dyn anianol nid yw yn
derbyn y pethau sydd o Ysbryd
Duw: canys ffolineb ydynt ganddo
ef; ac nis gall *eu* gwybod, oblegid
yn ysbrydol y bernir hwynt.
15 Ond yr hwn sydd ysbrydol,
sydd yn barnu pob peth; eithr efe
nis bernir gan neb.
16 Canys pwy a wybu feddwl yr
Arglwydd, yr hwn a'i cyfarwydda
ef? Ond y mae gennym ni feddwl
Crist.

PENNOD 3.

2 Bod llaeth yn gymmwys i blant. 3 Cynnen ac ymbleidio yn arwyddion o feddwl bydol. 7 Nad yw yr hwn sydd yn planny, na'r hwn sydd yn dyfrhâu, ddim. 9 Bod y gweinidogion yn gyd-weithwyr i Ddduw. 11 Crist yw yr unig sylfaen. 16 Bod dynion yn demlau Duw, y rhai 17 sydd raid eu cadw yn sanctaidd. 19 Nad yw doethineb y byd yma ond ffolineb gyd â Duw.

AMYFI, frodyr, ni allwn lefaru
wrthych megis wrth rai ys-
prydol, ond megis rhai cnawdol,
megis wrth rai bach yng Nghrist.
2 Mi a roddais i chwi laeth i'w
yfed, ac nid bwyd: canys hyd yn
hyn nis gallech, ac nis gellwch
chwaith etto yr awr hon, *ei dderbyn.*
3 Canys cnawdol ydych chwi etto:
canys tra *fyddo* yn eich plith chwi
genfigen, a chynnen, ac ymbleidio;
onid ydych yn gnawdol, ac yn
rhodio yn ddynol?
4 Canys tra dywedo un, Myfi yd-
wyf eiddo Paul; ac arall, Myfi *wyf*
eiddo Apòlos; onid ydych chwi yn
gnawdol?
5 Pwy gan hynny yw Paul, a phwy
Apòlos, ond gweinidogion trwy y
rhai y credasoch chwi, ac fel y
rhoddes yr Arglwydd i bob un?
6 Myfi a blennais, Apòlos a ddyfr-
haodd; ond Duw a roddes y cyn-
nydd.
7 Felly nid yw yr hwn sydd yn
plannu ddim, na'r hwn sydd yn
dyfrhâu; ond Duw, yr hwn sydd
yn rhoi y cynnydd.
8 Eithr yr hwn sydd yn plannu,
a'r hwn sydd yn dyfrhâu, un ydynt:
a phob un a dderbyn ei briod wobr
ei hun, yn ol ei lafur ei hun.
9 Canys cyd-weithwyr Duw ydym
ni: llafurwaith Duw, adeiladaeth
Duw, ydych chwi.
10 Yn ol y gras Duw a roddwyd
i mi, megis pensaer celfydd, myfi a
osodais y sylfaen, ac y mae arall yn
goruwch-adeiladu. Ond edryched
pob un pa wedd y mae yn goruwch-
adeiladu.
11 Canys sylfaen arall nis gall neb
ei osod, heb law yr un a osodwyd,
yr hwn yw Iesu Grist.
12 Eithr os goruwch-adeilada neb
ar y sylfaen hwn, aur, arian, meini
gwerthfawr, coed, gwair, soft;
13 Gwaith pob dyn a wneir yn
amlwg: canys y dydd a'i dengys,

oblegid trwy dân y datguddir ef; a'r tân a brawf waith pawb, pa fath ydyw.

14 Os gwaith neb a erys, yr hwn a oruwch-adeiladodd ef, efe a dderbyn wobr.

15 Os gwaith neb a losgir, efe a gaiff golled: eithr efe ei hun a fydd gadwedig; etto felly megis trwy dân.

16 Oni wyddoch chwi mai teml Duw ydych, a bod Ysbryd Duw yn trigo ynoch?

17 Os llygra neb deml Duw, Duw a lygra hwnnw: canys sanctaidd yw teml Duw, yr hon ydych chwi.

18 Na thwylled neb ei hunan. Od oes neb yn eich mysg yn tybied ei fod ei hun yn ddoeth yn y byd hwn, bydded ffol, fel y byddo doeth.

19 Canys doethineb y byd hwn *sydd* ffolineb gyd â Duw: o herwydd ysgrifenedig yw, Y mae efe yn dal y doethion yn eu cyfrwysdra.

20 A thrachefn, Y mae yr Arglwydd yn gwybod meddyliau y doethion, mai ofer ydynt.

21 Am hynny na orfoledded neb mewn dynion: canys pob peth sydd eiddoch chwi:

22 Pa un bynnag ai Paul, ai Apòlos, ai Cephas, ai y byd, ai bywyd, ai angau, ai pethau presennol, ai pethau i ddyfod; y mae pob peth yn eiddoch chwi;

23 A chwithau yn eiddo Crist; a Christ yn eiddo Duw.

PENNOD 4.

1 *Pa gyfrif a ddylid ei wneuthur o weinidogion.* 7 *Nad oes gennym ni ddim a'r nas derbyniasom.* 9 *Bod yr apostolion yn ddrychau i'r byd, i'r angylion, ac i ddynion;* 13 *yn ysgubion ac yn sorod y byd:* 15 *ac er hynny eu bod yn dadau i ni yng Nghrist,* 16 *ac y dylem ni eu ddlyn hwy.*

FELLY cyfrifed dyn nyni, megis gweinidogion i Grist, a goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw.

2 Am ben hyn, yr ydys yn disgwyl mewn goruchwylwyr, gael un yn ffyddlawn.

3 Eithr gennyf fi bychan iawn yw fy marnu gennych chwi, neu gan farn dyn: ac nid wyf chwaith yn fy marnu fy hun.

4 Canys ni wn i ddim arnaf fy hun; ond yn hyn ni'm cyfiawnhâwyd: eithr yr Arglwydd yw yr hwn sydd yn fy marnu.

5 Am hynny na fernwch ddim cyn yr amser, hyd oni ddelo yr Arglwydd, yr hwn a oleua ddirgelion y tywyllwch, ac a eglura fwriadau y calonnau: ac yna y bydd y clod i bob un gan Dduw.

6 A'r pethau hyn, frodyr, mewn cyffelybiaeth a fwriais i attaf fy hun ac *at* Apòlos, o'ch achos chwi: fel y gallech ddysgu ynom ni, na synier mwy nag sydd ysgrifenedig, fel na byddoch y naill dros y llall yn ymchwyddo yn erbyn arall.

7 Pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti *ac arall?* a pha beth sydd gennyt a'r nas derbyniaist? ac os derbyniaist, paham yr wyt ti yn gorfoleddu, megis pe bait heb dderbyn?

8 Yr ydych chwi yr awr hon wedi eich diwallu, yr ydych chwi yr awr hon wedi eich cyfoethogi, chwi a deyrnasasoch hebddom ni: ac och Dduw na baech yn teyrnasu, fel y caem ninnau deyrnasu gyd â chwi.

9 Canys tybied yr wyf ddarfod i Dduw ein dangos ni, yr apostolion diweddaf, fel rhai wedi eu bwrw i angau: oblegid nyni a wnaethpwyd yn ddrych i'r byd, ac i'r angylion, ac i ddynion.

10 *Yr ydym* ni yn ffyliaid er mwyn Crist, a chwithau yn ddoethion yng Nghrist; nyni yn weiniaid, a chwithau yn gryfion; chwychwi yn anrhydeddus, a ninnau yn ddirmygus.

11 Hyd yr awr hon yr ydym ni yn dwyn newyn a syched, ac yr ydym ni yn noethion, ac yn cael cernodiau, ac yn grwydraidd;

12 Ac yr ydym yn llafurio, gan weithio â'n dwylaw ein hunain. Pan y'n difenwir, yr ydym yn bendithio; pan y'n herlidir, yr ydym yn ei ddïoddef;

13 Pan y'n ceblir, yr ydym yn gweddïo: fel ysgubion y byd y gwnaethpwyd ni, *a* sorod pob dim, hyd yn hyn.

14 Nid i'ch gwaradwyddo chwi yr ydwyf yn ysgrifenu y pethau hyn;

ond *eich* rhybuddio yr wyf fel fy mhlant anwyl.

15 Canys pe byddai i chwi ddeng mil o athrawon yng Nghrist, er hynny nid *oes i chwi* nemmawr o dadau: canys myfi a'ch cenhedlais chwi yng Nghrist Iesu trwy yr efengyl.

16 Am hynny yr wyf yn attolwg i chwi, byddwch ddilynwyr i mi.

17 Oblegid hyn yr anfonais attoch Timothëus, yr hwn yw fy anwyl fab, a ffyddlawn yn yr Arglwydd; yr hwn a ddwg ar gôf i chwi fy ffyrdd i yng Nghrist, megis yr wyf ym mhob man yn athrawiaethu ym mhob eglwys.

18 Ac y mae rhai wedi ymchwyddo, fel pe bawn i heb fod ar fedr dyfod attoch chwi.

19 Eithr mi a ddeuaf attoch ar fyrder, os yr Arglwydd a'i myn; ac a fynnaf wybod, nid ymadrodd y rhai sydd wedi chwyddo, ond *eu* gallu.

20 Canys nid mewn ymadrodd *y mae* teyrnas Dduw; eithr mewn gallu.

21 Beth a fynnwch chwi? ai dyfod o honof fi attoch chwi â gwïalen, ynte mewn cariad, ac ysprŷd addfwynder?

PENNOD 5.

1 *Bod y gŵr godinebus* 6 *yn achos o gywilydd iddynt, ym hytrach nag o orfoledd.* 7 *Rhaid yw ymlanhau oddi wrth yr hen lefain.* 10 *Y dylid cilio oddi wrth anfad ddrwg-weithredwyr.*

MAE y gair yn hollol, *fod* yn eich plith chwi odineb, a chyfryw odineb ag na enwir unwaith ym mysg y Cenhedloedd; *sef* cael o un wraig ei dad.

2 Ac yr ydych chwi wedi ymchwyddo, ac ni alarasoch yn hytrach, fel y tynnid o'ch mysg chwi y neb a wnaeth y weithred hon.

3 Canys myfi yn ddïau, fel absennol yn y corph, etto yn bresennol yn yr ysprŷd, a fernais eisoes, fel pe bawn bresennol, *am* yr hwn a wnaeth y peth hwn felly,

4 Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, pan ymgynhulloch ynghyd, a'm hyspryd innau, gyd â gallu ein Harglwydd Iesu Grist,

5 Draddodi y cyfryw un i Satan, i ddinystr y cnawd, fel y byddo yr ysprŷd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu.

6 Nid da eich gorfoledd chwi. Oni wyddoch chwi fod ´ychydig lefain yn lefeinio yr holl does?

7 Am hynny certhwch allan yr hen lefain, fel y byddoch does newydd, megis yr ydych ddilefeinllyd. Canys Crist ein pasc ni a aberthwyd drosom ni:

8 Am hynny cadwn wyl, nid â hen lefain, nac â lefain malais a drygioni; ond â *bara* croyw purdeb a gwirionedd.

9 Mi a ysgrifenais attoch mewn llythyr, na chyd-ymgymmysgech â godinebwyr:

10 Ac nid yn hollol â godinebwyr y byd hwn, neu â'r cybyddion, neu â'r cribddeilwyr, neu âg eilunaddolwyr; oblegid felly rhaid fyddai i chwi fyned allan o'r byd.

11 Ond yn awr mi a ysgrifenais attoch, na chyd-ymgymmysgech, os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eilun-addolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn gribddeiliwr; gyd â'r cyfryw ddyn na chyd-fwytta chwaith.

12 Canys beth sydd i mi a farnwyf ar y rhai sydd oddi allan? onid y rhai sydd oddi mewn yr ydych chwi yn eu barnu?

13 Eithr y rhai sydd oddi allan, Duw sydd yn eu barnu. Bwriwch chwithau ymaith y dyn drygionus hwnnw o'ch plith chwi.

PENNOD 6.

1 *Na ddylai y Corinthiaid ffeno eu brodyr, trwy fyned i'r gyfraith â hwynt;* 6 *yn enwedig ger bron y rhai digred.* 9 *Na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw.* 15 *Bod ein cyrph ni yn aelodau i Grist,* 19 *ac yn demlau i'r Ysprŷd Glân:* 16, 17 *ac am hynny na ddylid mo'u halogi.*

AFEIDDIA neb o honoch, a chanddo fatter yn erbyn arall, ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn, ac nid o flaen y saint?

2 Oni wyddoch chwi y barna y saint y byd? ac os trwoch chwi y bernir y byd, a ydych chwi yn anaddas i farnu y pethau lleiaf?

3 Oni wyddoch chwi y barnwn ni angylion? pa faint mwy y pethau a berthyn i'r bywyd hwn?

4 Gan hynny, od oes gennych farnedigaethau am bethau a berthyn i'r bywyd hwn, dodwch ar y faingc y rhai gwaelaf yn yr eglwys.
5 Er cywilydd i chwi yr ydwyf yn dywedyd. Felly, onid oes yn eich plith gymmaint ag un doeth, yr hwn a fedro farnu rhwng ei frodyr,
6 Ond bod brawd yn ymgyfreithio â brawd, a hynny ger bron y rhai digred?
7 Yr awr hon gan hynny y mae yn hollol ddiffyg yn eich plith, am eich bod yn ymgyfreithio â'ch gilydd. Paham nad ydych yn hytrach yn dïoddef cam? paham nad ydych yn hytrach mewn colled?
8 Eithr chwychwi sydd yn gwneuthur cam, a cholled, a hynny *i'r* brodyr.
9 Oni wyddoch chwi na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwyr, nac eilun-addolwyr, na thorwyr priodas, na masweddwyr, na gwrryw-gydwyr,
10 Na lladron, na chybyddion, na meddwon, na difenwyr, na chribddeilwyr, etifeddu teyrnas Dduw.
11 A hyn fu rai o honoch chwi: eithr chwi a olchwyd, eithr chwi a sancteiddiwyd, eithr chwi a gyfiawnhâwyd, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni.
12 Pob peth sydd gyfreithlawn i mi, ond nid yw pob peth yn llesâu; pob peth sydd gyfreithlawn i mi, eithr ni'm dygir i dan awdurdod gan ddim.
13 Y bwydydd i'r bol, a'r bol i'r bwydydd: eithr Duw a ddinystria hwn a hwythau. A'r corph nid *yw* i odineb, ond i'r Arglwydd; a'r Arglwydd i'r corph.
14 Eithr Duw a gyfododd yr Arglwydd, ac a'n cyfyd ninnau trwy ei nerth ef.
15 Oni wyddoch chwi fod eich cyrph yn aelodau i Grist? gan hynny a gymmeraf fi aelodau Crist, a'u gwneuthur yn aelodau puttain? Na atto Duw.
16 Oni wyddoch chwi fod yr hwn sydd yn cydio â phuttain, yn un corph? canys y ddau (medd efe) fyddant un cnawd.
17 Ond yr hwn a gyssylltir â'r Arglwydd, un yspryd yw.
18 Gochelwch odineb. Pob pechod a wnelo dyn, oddi allan i'w gorph y mae; ond yr hwn sydd yn godinebu, sydd yn pechu yn erbyn ei gorph ei hun.
19 Oni wyddoch chwi fod eich corph yn deml i'r Ysbryd Glân *sydd* ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, ac nad ydych yn eiddoch eich hunain?
20 Canys er gwerth y prynwyd chwi: gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich yspryd, y rhai sydd eiddo Duw.

PENNOD 7.

1 Y mae efe yn crybwyll am briodas; 4 ac yn dangos mai rhwymedi yw yn erbyn godineb; 10 ac na ddylid dattod y cwlwm hwnnw mewn ysgafnder. 18, 20 Rhaid i bob dyn fod yn foddlawn i'w alwedigaeth. 25 Paham y dylid mawrhau puryrydod: 35 ac ar ba achosion y gallwn ni briodi, neu beidio a phriodi.

AC am y pethau yr ysgrifenasoch attaf: Da i ddyn na chyffyrddai â gwraig.
2 Ond *rhag* godineb, bydded i bob gŵr ei wraig ei hun, a bydded i bob gwraig ei gŵr ei hun.
3 Rhodded y gŵr i'r wraig ddyledus ewyllys da; a'r un wedd y wraig i'r gŵr.
4 Nid oes i'r wraig feddiant ar ei chorph ei hun, ond i'r gŵr; ac yr un ffunud, nid oes i'r gŵr feddiant ar ei gorph ei hun, ond i'r wraig.
5 Na thwyllwch eich gilydd, oddi eithr o gydsyniad dros amser, fel y galloch ymrôi i ympryd a gweddi: a deuwch drachefn ynghyd, rhag temtio o Satan chwi o herwydd eich anlladrwydd.
6 A hyn yr wyf yn ei ddywedyd o ganiattâd, nid o orchymyn.
7 Canys mi a fynnwn fod pob dyn fel fi fy hun: eithr y mae i bob un ei ddawn ei hun gan Dduw; i un fel hyn, ac i arall fel hyn.
8 Dywedyd yr wyf wrth y rhai heb briodi, a'r gwragedd gweddwon, Da yw iddynt os arhosant fel finnau.
9 Eithr oni allant ymgadw, priodant: canys gwell yw priodi nag ymlosgi.
10 Ac i'r rhai a briodwyd yr ydwyf yn gorchymyn, nid myfi *chwaith*,

ond yr Arglwydd, Nad ymadawo gwraig oddi wrth *ei* gŵr:
11 Ac os ymedy hi, arhôed heb brïodi, neu cymmoder hi â'*i* gŵr: ac na ollynged y gŵr *ei* wraig ymaith.
12 Ac wrth y lleill, dywedyd yr wyf fi, nid yr Arglwydd, Os bydd i un brawd wraig ddigred, a hithau yn foddlawn i drigo gyd âg ef, na ollynged hi ymaith.
13 A'r wraig, yr hon y mae iddi ŵr digred, ac yntau yn foddlawn i drigo gyd â hi, na wrthoded hi ef.
14 Canys y gŵr digred a sanctteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a sancteiddir trwy y gŵr: pe amgen, aflan yn ddïau fyddai eich plant; eithr yn awr sanctaidd ydynt.
15 Eithr os yr anghredadyn a ymedy, ymadawed. Nid yw y brawd neu y chwaer gaeth yn y cyfryw *bethau:* eithr Duw a'n galwodd ni i heddwch.
16 Canys beth a wyddost ti, wraig, a gedwi di *dy* ŵr? a pheth a wyddost tithau, ŵr, a gedwi di *dy* wraig?
17 Ond megis y darfu i Dduw rannu i bob un, megis y darfu i'r Arglwydd alw pob un, felly rhodied. Ac fel hyn yr wyf yn ordeinio yn yr eglwysi oll.
18 A alwyd neb wedi ei enwaedu? nac adgeisied *ddïenwaediad.* A alwyd neb mewn dïenwaediad? nac enwaeder arno.
19 Enwaediad nid yw ddim, a dïenwaediad nid yw ddim, ond cadw gorchymynion Duw.
20 Pob un yn yr alwedigaeth y galwyd ef, yn honno arhosed.
21 Ai yn was y'th alwyd? na fydded gwaeth gennyt; etto os gelli gael bod yn rhydd, mwynhâ *hynny* yn hytrach.
22 Canys yr hwn, ac ef yn was, a alwyd yn yr Arglwydd, gŵr rhydd i'r Arglwydd ydyw: a'r un ffunud yr hwn, ac efe yn ŵr rhydd, a alwyd, gwas i Grist yw.
23 Er gwerth y'ch prynwyd; na fyddwch weision dynion.
24 Yn yr hyn y galwyd pob un, frodyr, yn hynny arhosed gyd â Duw.
25 Eithr am wyryfon, nid oes gennyf orchymyn yr Arglwydd: ond barn yr ydwyf yn ei roi, fel un a gafodd drugaredd gan yr Arglwydd i fod yn ffyddlawn.
26 Am hynny yr wyf yn tybied mai da yw hyn, o herwydd yr anghenraid presennol, mai da, *meddaf,* i ddyn fod felly.
27 A wyt ti yn rhwym i wraig? na chais dy ollwng yn rhydd. A wyt ti yn rhydd oddi wrth wraig? na chais wraig.
28 Ac os prïodi hefyd, ni phechaist: ac os prïoda gwyryf, ni phechodd. Er hynny y cyfryw rai a gânt flinder yn y cnawd: eithr yr wyf yn eich arbed chwi.
29 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, frodyr, am fod yr amser yn fyr. Y mae yn ol, fod o'r rhai sydd â gwragedd iddynt, megis pe byddent hebddynt;
30 A'r rhai a wylant, megis heb wylo; a'r rhai a lawenhânt, megis heb lawenhâu; a'r rhai a brynant, megis heb feddu.
31 A'r rhai a arferant y byd hwn, megis heb ei gam-arfer: canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio.
32 Eithr mi a fynnwn i chwi fod yn ddïofal. Yr hwn sydd heb brïodi, sydd yn gofalu am bethau yr Arglwydd, pa wedd y boddlona yr Arglwydd:
33 Ond y neb a wreiccaodd, sydd yn gofalu am bethau y byd, pa wedd y boddlona *ei* wraig.
34 Y mae gwahaniaeth hefyd rhwng gwraig a gwyryf. Y mae yr hon sydd heb brïodi, yn gofalu am y pethau sydd yn perthyn i'r Arglwydd, fel y byddo hi sanctaidd y'nghorph ac ysprydi: ac y mae yr hon sydd wedi prïodi, yn gofalu am bethau bydol, pa fodd y rhynga hi fodd i'*w* gŵr.
35 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd er llesâd i chwi eich hunain; nid i osod magl i chwi, eithr er mwyn gweddeidd-dra, a dyfal-lynu wrth yr Arglwydd yn ddïwahan.
36 Ond os yw neb yn tybied ei fod yn anweddaidd tu ag at ei wyryf, od â hi dros flodau *ei* hoedran, a bod yn rhaid gwneuthur

felly; gwnaed a fynno, nid yw yn pechu; prïodant.

37 Ond yr hwn sydd yn sefyll yn sicr yn ei galon, ac yn afraid iddo, ac â meddiant ganddo ar ei ewyllys ei hun, ac a roddodd ei fryd ar hynny yn ei galon, ar gadw o hono ei wyryf; da y mae yn gwneuthur.

38 Ac am hynny, yr hwn sydd yn *ei* rhoddi yn brïod, sydd yn gwneuthur yn dda; ond yr hwn nid yw yn *ei* rhoddi yn brïod, sydd yn gwneuthur yn well.

39 Y mae gwraig yn rhwym wrth y gyfraith, tra fyddo byw ei gŵr: ond o bydd marw ei gŵr, y mae hi yn rhydd i brïodi y neb a fynno; yn unig yn yr Arglwydd.

40 Eithr dedwyddach yw hi os erys hi felly, yn fy marn i: ac yr ydwyf finnau yn tybied fod Ysproid Duw gennyf.

PENNOD 8.

1 *Bod iddynt ymgadw oddi wrth y bwydydd a offrymmer i eilunod.* 8, 9 *Na ddylem ni gam-arferyd ein rhyddid Cristionogaidd, i rwystro ein brodyr.* 11 *eithr ffrwyno ein gwybodaeth â chariad perfaith.*

EITHR am yr hyn a aberthwyd i eilunod, ni a wyddom fod gan bawb o honom wybodaeth. Gwybodaeth sydd yn chwyddo, eithr cariad sydd yn adeiladu.

2 Eithr os yw neb yn tybied ei fod yn gwybod dim, ni ŵyr efe etto ddim fel y dylai wybod.

3 Ond od oes neb yn caru Duw, hwnnw a adwaenir ganddo ef.

4 Am fwytta gan hynny o'r pethau a aberthir i eilunod, ni a wyddom nad *yw* eilun ddim yn y byd, ac nad *oes* un Duw arall ond un.

5 Canys er bod rhai a elwir yn dduwiau, pa un bynnag ai yn y nef ai ar y ddaear; megis y mae duwiau lawer, ac arglwyddi lawer;

6 Eithr i ni *nid oes ond* un Duw, y Tad, o'r hwn *y mae* pob peth, a ninnau ynddo ef; ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn *y mae* pob peth, a ninnau trwyddo ef.

7 Ond nid *yw* y wybodaeth *hon* gan bawb: canys rhai, â chanddynt gydwybod o'r eilun hyd y pryd hyn, sydd yn bwytta fel peth a aberthwyd i eilunod; a'u cydwybod hwy, a hi yn wan, a halogir.

8 Eithr nid yw bwyd yn ein gwneuthur ni yn gymmeradwy gan Dduw: canys nid ydym, os bwyttâwn, yn helaethach; ac onis bwyttâwn, yn brinach.

9 Ond edrychwch rhag mewn un modd i'ch rhyddid hwn fod yn dramgwydd i'r rhai sydd weiniaid.

10 Canys os gwel neb dydi sydd â gwybodaeth gennyt, yn eistedd i fwytta yn nheml yr eilunod, oni chadarnhêir ei gydwybod ef, ac yntau yn wan, i fwytta y pethau a aberthwyd i eilunod;

11 Ac a ddifethir y brawd gwan trwy dy wybodaeth di, dros yr hwn y bu Crist farw?

12 A chan bechu felly yn erbyn y brodyr, a churo eu gwan gydwybod hwy, yr ydych chwi yn pechu yn erbyn Crist.

13 O herwydd paham, os yw bwyd yn rhwystro fy mrawd, ni fwyttâf fi gig fyth, rhag i mi rwystro fy mrawd.

PENNOD 9.

1 *Y mae efe yn dangos ei ryddid;* 7 *ac y dylai y gweinidog fyw wrth yr efengyl;* 15 *etto ddarfod iddo ef o'i wirfodd-ymgadw,* 18 *rhag na'u gyrru hwy mewn trawl,* 22 *na bod yn achos o rwystr i neb, mewn pethau cyffredin.* 24 *Bod ein bywyd ni yn debyg i yrfa.*

ONID wyf fi yn apostol? onid wyf fi yn rhydd? oni welais i Iesu Grist ein Harglwydd? onid fy ngwaith i ydych chwi yn yr Arglwydd?

2 Onid wyf yn apostol i eraill, etto yr wyf i chwi: canys sêl fy apostoliaeth i ydych chwi yn yr Arglwydd.

3 Fy amddiffyn i, i'r rhai a'm holant, yw hyn;

4 Onid oes i ni awdurdod i fwytta ac i yfed?

5 Onid oes i ni awdurdod i arwain o amgylch wraig *a fyddai* chwaer, megis ag *y mae* i'r apostolion eraill, ac i frodyr yr Arglwydd, ac i Cephas?

6 Ai myfi yn unig a Barnabas, nid oes gennym awdurdod i fod heb weithio?

7 Pwy sydd un amser yn rhyfela ar ei draul ei hun? pwy sydd yn plannu gwinllan, ac nid yw yn bwytta o'i ffrwyth hi? neu pwy

sydd yn porthi praidd, ac nid yw yn bwytta o laeth y praidd?
8 Ai yn ol dyn yr wyf fi yn dywedyd y pethau hyn? neu onid yw y ddeddf hefyd yn dywedyd hyn?
9 Canys ysgrifenedig yw yn neddf Moses, Na chau safn yr ŷch sydd yn dyrnu. Ai dros ychain y mae Duw yn gofalu?
10 Ynte er ein mwyn ni yn hollol y mae yn dywedyd? Canys er ein mwyn ni yr ysgrifenwyd, mai mewn gobaith y dylai yr arddwr aredig, a'r dyrnwr mewn gobaith, i fod yn gyfrannog o'i obaith.
11 Os nyni a hauasom i chwi bethau ysprydol, *ai* mawr *yw* os nyni a fedwn eich pethau cnawdol?
12 Os yw eraill yn gyfrannogion o'r awdurdod *hon* arnoch, onid *ydym* ni yn hytrach? Eithr nid arferasom ni yr awdurdod hon: ond goddef yr ydym bob peth, fel na roddom ddim rhwystr i efengyl Crist.
13 Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn gwneuthur pethau cyssegredig, yn bwytta o'r cyssegr? a'r rhai sydd yn gwasanaethu yr allor, yn gyd-gyfrannogion o'r allor?
14 Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl, fyw wrth yr efengyl.
15 Eithr myfi nid arferais yr un o'r pethau hyn, ac nid ysgrifenais y pethau hyn, fel y gwnelid felly i mi: canys gwell *yw* i mi farw, na gwneuthur o neb fy ngorfoledd yn ofer.
16 Canys os pregethaf yr efengyl, nid oes orfoledd i mi: canys anghenraid a osodwyd arnaf; a gwae fydd i mi, oni phregethaf yr efengyl.
17 Canys os gwnaf hyn o'm bodd, y mae i mi wobr: ond os o'm hanfodd, ymddiriedwyd i mi am y gorchwyl.
18 Pa wobr sydd i mi gan hynny? Bod i mi, pan efengylwyf, osod efengyl Crist yn rhad, fel na chamarferwyf fy awdurdod yn yr efengyl.
19 Canys er fy mod yn rhydd oddi wrth bawb, mi a'm gwneuthum fy hun yn was i bawb, fel yr ennillwn fwy.
20 Ac mi a ymwneuthum i'r Iuddewon megis yn Iuddew, fel yr ennillwn yr Iuddewon: i'r rhai dan y ddeddf, megis dan y ddeddf, fel yr ennillwn y rhai sydd dan y ddeddf;
21 I'r rhai diddeddf, megis diddeddf, a minnau heb fod yn ddiddeddf i Dduw, ond dan y ddeddf i Grist, fel yr ennillwn y rhai diddeddf.
22 Ymwneuthum i'r rhai gweiniaid megis yn wan, fel yr ennillwn y gweiniaid: mi a ymwneuthum yn bob peth i bawb, fel y gallwn yn hollol gadw rhai.
23 A hyn yr wyf fi yn ei wneuthur er mwyn yr efengyl, fel y'm gwneler yn gyd-gyfrannog o honi.
24 Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn rhedeg mewn gyrfa, i gyd yn rhedeg, ond bod un yn derbyn y gamp? Felly rhedwch, fel y caffoch afael.
25 Ac y mae pob un a'r sydd yn ymdrechu, yn ymgadw ym mhob peth: a hwynt-hwy yn wir, fel y derbyniont goron lygredig; eithr nyni, un anllygredig.
26 Yr wyf fi gan hynny felly yn rhedeg, nid megis ar amcan; felly yr wyf yn ymdrechu, nid fel un yn curo yr awyr:
27 Ond yr wyf fi yn cospi fy nghorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth; rhag i mi mewn un modd, wedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymmeradwy.

PENNOD 10.

1 *Bod sacramentau yr Iuddewon* 6 *yn ysgodau i ni,* 7 *a'u cospedigaethau hwy* 11 *yn siamplau i ni.* 14 *Rhaid i ni ochelyd gau-ddiwiaeth.* 21 *Na ddylem ni wneuthur bwrdd yr Arglwydd yn fwrdd cythreuliaid:* 24 *ac y dylem, mewn pethau cyffredin, ystyried ein brodyr.*

AC ni fynnwn i chwi fod heb wybod, frodyr, fod ein tadau oll dan y cwmmwl, a'u myned oll trwy y môr;
2 A'u bedyddio *hwy* oll i Moses, yn y cwmmwl, ac yn y môr;
3 A bwytta o bawb *o honynt* yr un bwyd ysprydol;
4 Ac yfed o bawb *o honynt* yr un ddiod ysprydol: canys hwy a yfasant o'r Graig ysprydol a oedd yn canlyn: a'r Graig oedd Crist.
5 Eithr ni bu Dduw foddlawn i'r

rhan fwyaf o honynt: canys cwympwyd hwynt yn y diffaethwch.
6 A'r pethau hyn a wnaed yn siamplau i ni, fel na chwennychem ddrygioni, megis ag y chwennychasant hwy.
7 Ac na fyddwch eilun-addolwyr, megis rhai o honynt hwy; fel y mae yn ysgrifenedig, Eisteddodd y bobl i fwytta ac i yfed, ac a gyfodasant i chwareu.
8 Ac na odinebwn, fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ac y syrthiodd mewn un dydd dair mil ar hugain.
9 Ac na themtiwn Grist, megis ag y temtiodd rhai o honynt hwy, ac a'u distrywiwyd gan seirph.
10 Ac na rwgnechwch, megis y grwgnachodd rhai o honynt hwy, ac a'u distrywiwyd gan y dinystrydd.
11 A'r pethau hyn oll a ddigwyddasant yn siamplau iddynt hwy; ac a ysgrifenwyd yn rhybudd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd.
12 Am hynny, yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edrychedna syrthio.
13 Nid ymaflodd ynoch demtasiwn, ond un dynol: eithr ffyddlawn *yw* Duw, yr hwn ni âd eich temtio uwch law yr hyn a alloch; eithr a wna ynghyd â'r temtasiwn ddïangfa hefyd, fel y galloch *ei* ddwyn.
14 O herwydd paham, fy anwylyd, ffowch oddi wrth eilun-addoliaeth.
15 Dywedyd yr wyf fel wrth rai synhwyrol: bernwch chwi beth yr wyf fi yn ei ddywedyd.
16 Phïol y fendith, yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Crist ydyw? y bara yr ydym yn ei dorri, onid cymmun corph Crist yw?
17 Oblegid nyni yn llawer ydym un bara, ac un corph: canys yr ydym ni oll yn gyfrannogion o'r un bara.
18 Edrychwch ar yr Israel yn ol y cnawd: onid yw y rhai sydd yn bwytta yr ebyrth yn gyfrannogion o'r allor?
19 Beth gan hynny yr ydwyf yn ei ddywedyd? bod yr eilun yn ddim, neu yr hyn a aberthwyd i eilun yn ddim?
20 Ond y pethau y mae y Cenhedloedd yn eu haberthu, i gythreuliaid y maent yn eu haberthu, ac nid i Dduw. Ni fynnwn i chwi fod yn gyfrannogion â'r cythreuliaid.
21 Ni ellwch yfed o phïol yr Arglwydd, a phïol y cythreuliaid: ni ellwch fod yn gyfrannogion o fwrdd yr Arglwydd, a bord y cythreuliaid.
22 Ai gyrru yr Arglwydd i eiddigedd yr ydym? a ydym ni yn gryfach nag ef?
23 Pob peth sydd gyfreithlawn i mi, eithr nid yw pob peth yn llesâu: pob peth sydd gyfreithlawn i mi, eithr nid yw pob peth yn adeiladu.
24 Na cheisied neb yr eiddo ei hun; ond pob un yr eiddo arall.
25 Beth bynnag a werthir yn y gigfa, bwyttêwch; heb ofyn dim er mwyn cydwybod:
26 Canys eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder.
27 Os bydd i neb o'r rhai digred eich gwahodd, ac os mynnwch fyned; bwyttêwch beth bynnag a rodder ger eich bron, heb ymofyn dim er mwyn cydwybod.
28 Eithr os dywed neb wrthych, Peth wedi ei aberthu i eilunod yw hwn; na fwyttêwch, er mwyn hwnnw yr hwn a'i mynegodd, ac er mwyn cydwybod: canys eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder.
29 Cydwybod, meddaf, nid yr eiddot ti, ond yr eiddo arall: canys paham y bernir fy rhyddid i gan gydwybod un arall?
30 Ac os wyf fi trwy ras yn cymmeryd cyfran, paham y'm ceblir am y peth yr wyf yn rhoddi dïolch am dano?
31 Pa un bynnag gan hynny ai bwytta ai yfed, ai beth bynnag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw.
32 Byddwch ddïachos tramgwydd i'r Iuddewon ac i'r Cenhedloedd hefyd, ac i eglwys Dduw:
33 Megis yr ydwyf finnau yn rhyngu bodd i bawb ym mhob peth; heb geisio fy llesâd fy hun,

ond *llesâd* llaweroedd, fel y byddont hwy gadwedig.

PENNOD 11.

1 *Y mae efe yn eu ceryddu hwy,* 4 *am fod eu gwŷr yn y cymmuleiafaoedd sanctaidd yn gweddïo â pheth am eu pennau,* 6 *a'u gwragedd yn bennoethion:* 17 *ac o ran eu bod hwy yn gyffredin yn cyfarfod, nid er gwell ond er gwaeth;* 21 *gan hafogi swpper yr Arglwydd â'u gweiddoedd eu hunain.* 23 *Yn ddiweddaf, y mae efe yn eu galw hwy yn eu hol, at ordinhâd cyntaf y swpper hwnnw.*

BYDDWCH ddilynwyr i mi, megis *yr wyf* finnau i Grist.

2 Yr ydwyf yn eich canmol, frodyr, eich bod yn fy nghofio i ym mhob peth, ac yn dal y traddodiadau, fel y traddodais i chwi.

3 Eithr mi a fynnwn i chwi wybod, mai pen pob gŵr yw Crist; a phen y wraig *yw* y gŵr; a phen Crist *yw* Duw.

4 Pob gŵr yn gweddïo neu yn prophwydo, â pheth am *ei* ben, sydd yn cywilyddio ei ben.

5 Eithr pob gwraig yn gweddïo neu yn prophwydo, yn bennoeth, sydd yn cywilyddio ei phen: canys yr un yw a phe byddai wedi ei heillio.

6 Canys os y wraig ni wisg *am ei phen,* cneifier hi hefyd: eithr os brwnt i wraig ei chneifio, neu ei heillio, gwisged.

7 Canys gŵr yn wir ni ddylai wisgo *am ei* ben, am ei fod yn ddelw a gogoniant Duw: a'r wraig yw gogoniant y gŵr.

8 Canys nid yw y gŵr o'r wraig; ond y wraig o'r gŵr.

9 Ac ni chrëwyd y gŵr er mwyn y wraig; eithr y wraig er mwyn y gŵr.

10 Am hynny y dylai y wraig fod ganddi awdurdod ar *ei* phen, o herwydd yr angylion.

11 Er hynny nid *yw* na'r gŵr heb y wraig, na'r wraig heb y gŵr, yn yr Arglwydd.

12 Canys yr un wedd ag *y mae* y wraig o'r gŵr, felly *y mae* y gŵr trwy y wraig: a phob peth *sydd* o Dduw.

13 Bernwch ynoch eich hunain: ai hardd yw i wraig weddïo Duw yn bennoeth?

14 Onid yw naturiaeth ei hun yn eich dysgu chwi, os gwallt-laes a fydd gŵr, mai ammharch yw iddo?

15 Eithr os gwraig a fydd gwallt-laes, clod yw iddi: oblegid ei llaeswallt a ddodwyd yn orchudd iddi.

16 Od oes neb a fyn fod yn ymrysongar, nid oes gennym ni gyfryw ddefod, na chan eglwysi Duw.

17 Eithr wrth ddywedyd hyn, nid ydwyf yn *eich* canmol, eich bod yn dyfod ynghyd, nid er gwell, ond er gwaeth.

18 Canys yn gyntaf, pan ddeloch ynghyd yn yr eglwys, yr ydwyf yn clywed fod ymrafaelion yn eich mysg chwi; ac o ran yr wyf fi yn credu.

19 Canys rhaid yw bod hefyd heresiau yn eich mysg, fel y byddo y rhai cymmeradwy yn eglur yn eich plith chwi.

20 Pan fyddoch chwi gan hynny yn dyfod ynghyd i'r un lle, nid bwytta swpper yr Arglwydd ydyw *hyn.*

21 Canys y mae pob un wrth fwytta, yn cymmeryd ei swpper ei hun o'r blaen; ac un sydd â newyn arno, ac arall sydd yn feddw.

22 Onid oes gennych dai i fwytta ac i yfed? ai dirmygu yr ydych chwi eglwys Dduw, a gwaradwyddo y rhai nid oes ganddynt? Pa beth a ddywedaf wrthych? a ganmolaf fi chwi yn hyn? Nid wyf yn *eich* canmol.

23 Canys myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi; Bod i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymmeryd bara:

24 Ac wedi iddo ddïolch, efe a'*i* torrodd, ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttêwch; hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorrir trosoch: gwnewch hyn er coffa am danaf.

25 Yr un modd *efe a gymmerodd* y cwppan, wedi swpperu, gan ddywedyd, Y cwppan hwn yw y testament newydd yn fy ngwaed: gwnewch hyn, cynnifer gwaith bynnag yr yfoch, er coffa am danaf.

26 Canys cynnifer gwaith bynnag y bwyttaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwppan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo.

27 Am hynny, pwy bynnag a fwyttao y bara hwn, neu a yfo gwppan yr Arglwydd, yn annheilwng,

euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd.
28 Eithr holed dyn ef ei hun; ac felly bwyttâed o'r bara, ac yfed o'r cwppan.
29 Canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawnfarnu corph yr Arglwydd.
30 Oblegid hyn *y mae* llawer yn weiniaid ac yn llesg yn eich mysg, a llawer yn huno.
31 Canys pe iawn-farnem ni ein hunain, ni'n bernid.
32 Eithr pan y'n bernir, y'n ceryddir gan yr Arglwydd, fel na'n damnier gyd â'r byd.
33 Am hynny, fy mrodyr, pan ddeloch ynghyd i fwytta, arhoswch eich gilydd.
34 Eithr os bydd newyn ar neb, bwyttâed gartref: fel na ddeloch ynghyd i farnedigaeth. Ond y pethau eraill mi a'u trefnaf pan ddelwyf.

PENNOD 12.

1 *Bod amryw ddoniau ysprydol, 7 eithr y cwbl er llesâd: 8 ac o ran hynny hwy a gyfrennir mewn amryw faddion. 12 Megis y mae aelodau y corph naturiol yn gwasanaethu bob un, 16 er harddwch i'w gilydd, 22 er gwasanaeth, 26 a chymmorth i'r un corph; 27 felly yr un modâ y dylem ni wneuthur y naill er y llall, er mwyn gorphen dirgel gorph Crist.*

EITHR am ysprydol *ddoniau*, frodyr, ni fynnwn i chwi fod heb wybod.
2 Chwi a wyddoch mai Cenhedloedd oeddych, yn eich arwain ymaith at yr eilunod mudion, fel y'ch tywysid.
3 Am hynny yr wyf yn hysbysu i chwi, nad oes neb yn llefaru trwy Ysprydd Duw, yn galw yr Iesu yn ysgymmunbeth: ac ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, eithr trwy yr Ysprydd Glân.
4 Ac y mae amryw ddoniau, eithr yr un Ysprydd.
5 Ac y mae amryw weinidogaethau, eithr yr un Arglwydd.
6 Ac y mae amryw weithrediadau, ond yr un yw Duw, yr hwn sydd yn gweithredu pob peth ym mhawb.
7 Eithr eglurhâd yr Ysprydd a roddir i bob un er llesâd.
8 Canys i un, trwy yr Ysprydd, y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall, ymadrodd gwybodaeth, trwy yr un Ysprydd;
9 Ac i arall ffydd, trwy yr un Ysprydd; ac i arall ddawn i iachâu, trwy yr un Ysprydd;
10 Ac i arall, wneuthur gwyrthiau; ac i arall, brophwydoliaeth; ac i arall, wahaniaeth ysprydoedd; ac i arall, *amryw* dafodau; ac i arall, gyfieithiad tafodau.
11 A'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Ysprydd yn eu gweithredu, gan rannu i bob un o'r neilldu megis y mae yn ewyllysio.
12 Canys fel y mae y corph yn un, ac iddo aelodau lawer, a holl aelodau yr un corph, cyd byddont lawer, ydynt un corph; felly *y mae* Crist hefyd.
13 O herwydd trwy un Ysprydd y bedyddiwyd ni oll yn un corph, pa un bynnag ai Iuddewon ai Groegwyr, ai caethion ai rhyddion; ac *ni* a ddïodwyd oll i un Ysprydd.
14 Canys y corph nid yw un aelod, eithr llawer.
15 Os dywed y troed, Am nad wyf law, nid wyf o'r corph; ai am hynny nid yw efe o'r corph?
16 Ac os dywed y glust, Am nad wyf lygad, nid wyf o'r corph; ai am hynny nid yw hi o'r corph?
17 Pe yr holl gorph *fyddai* lygad, pa le y *byddai* y clywed? pe y cwbl *fyddai* glywed, pa le *y byddai* yr arogliad?
18 Eithr yr awr hon Duw a osododd yr aelodau, bob un o honynt yn y corph, fel yr ewyllysiodd efe.
19 Canys pe baent oll un aelod, pa le *y byddai* y corph?
20 Ond yr awr hon llawer *yw* yr aelodau, eithr un corph.
21 Ac ni all y llygad ddywedyd wrth y llaw, Nid rhaid i mi wrthyt; na'r pen chwaith wrth y traed, Nid rhaid i mi wrthych.
22 Eithr yn hytrach o lawer, yr aelodau o'r corph y rhai a dybir eu bod yn wannaf, ydynt angenrheidiol:
23 A'r rhai a dybiwn ni eu bod yn ammharchediccaf o'r corph, ynghylch y rhai hynny y gosodwn ychwaneg o barch; ac y mae ein

haelodau anhardd yn cael ychwaneg o harddwch.

24 Oblegid ein *haelodau* hardd ni nid rhaid iddynt *wrtho:* eithr Duw a gyd-dymherodd y corph, gan roddi parch ychwaneg i'r hyn oedd ddiffygiol:

25 Fel na byddai anghydfod yn y corph; eithr bod i'r aelodau ofalu yr un peth dros eu gilydd.

26 A pha un bynnag ai dïoddef a wna un aelod, y mae yr holl aelodau yn cyd-ddïoddef; ai anrhydeddu a wneir un aelod, y mae yr holl aelodau yn cyd-lawenhâu.

27 Eithr chwychwi ydych gorph Crist, ac aelodau o ran.

28 A rhai yn wir a osododd Duw yn yr eglwys; yn gyntaf apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon, yna gwyrthiau, wedi hynny doniau i iachâu, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywiogaethau tafodau.

29 Ai apostolion pawb? ai prophwydi pawb? ai athrawon pawb? ai gwneuthurwyr gwyrthiau pawb?

30 A oes gan bawb ddoniau i iachâu? a yw pawb yn llefaru â thafodau? a yw pawb yn cyfieithu?

31 Eithr deisyfwch y doniau goreu: ac etto yr wyf yn dangos i chwi ffordd dra rhagorol.

PENNOD 13.

1 *Nad yw y doniau godidoccaf ddim heb gariad.* 4 *Canmoliaeth cariad perffaith,* 13 *a'i arddechowgrwydd rhagor gobaith a ffydd.*

PE llefarwn â thafodau dynion ac angylion, ac heb fod gennyf gariad, yr wyf *fel* efydd yn seinio, neu symbal yn tingcian.

2 A phe byddai gennyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth; a phe bai gennyf yr holl ffydd, fel y gallwn symmudo mynyddoedd, ac heb gennyf gariad, nid wyf fi ddim.

3 A phe porthwn y tlodion â'm holl ddâ, a phe rhoddwn fy nghorph i'm llosgi, ac heb gariad gennyf, nid yw ddim llesâd i mi.

4 Y mae cariad yn hir-ymaros, yn gymmwynasgar; cariad nid yw yn cenfigennu; nid yw cariad yn ymffrostio, nid yw yn ymchwyddo,

5 Nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg;

6 Nid yw lawen am anghyfiawnder, ond cyd-lawenhâu y mae â'r gwirionedd;

7 Y *mae* yn dïoddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim.

8 Cariad byth ni chwymp ymaith: eithr pa un bynnag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflanna.

9 Canys o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo.

10 Eithr pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddileïr.

11 Pan oeddwn fachgen, fel bachgen y llefarwn, fel bachgen y deallwn, fel bachgen y meddyliwn: ond pan euthum yn ŵr, mi a rois heibio bethau bachgenaidd.

12 Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych, mewn dammeg; ond yna, wyneb yn wyneb: yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir.

13 Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn *yw* cariad.

PENNOD 14.

1 *Canmol prophwydoliaeth,* 2, 3, 4 *a'i osod o flaen llefaru â thafodau,* 6 *trwy gyffelybrwydd oddi wrth offer cerdd:* 12 *rhaid yw cyfeirio pob un o'r ddau i'n ag at adeiladaeth,* 22 *megis tu ag at eu gwir a'u priodol bennod:* 26 *iawnarfer pob un o'r ddau,* 27 *a'u cam-arfer.* 34 *Gwaraſun gurageddi i lefaru yn yr eglwys.*

DILYNWCH gariad, a deisyfwch *ddoniau* ysprydol; ond yn hytrach fel y prophwydoch.

2 Canys yr hwn sydd yn llefaru â thafod *dïeithr,* nid wrth ddynion y mae yn llefaru, ond wrth Dduw: canys nid oes neb yn gwrandaw; er hynny yn yr ysprydy mae efe yn llefaru dirgeledigaethau.

3 Eithr yr hwn sydd yn prophwydo, sydd yn llefaru wrth ddynion er adeiladaeth, a chynghor, a chysur.

4 Yr hwn sydd yn llefaru â thafod *dïeithr,* sydd yn ei adeiladu ei hunan: eithr yr hwn sydd yn pro-

phwydo, sydd yn adeiladu yr eglwys.
5 Mi a fynnwn pettych chwi oll yn llefaru â thafodau *dieithr;* ond yn hytrach brophwydo o honoch: canys mwy *yw* yr hwn sydd yn prophwydo, na'r hwn sydd yn llefaru â thafodau; oddi eithr iddo *ei* gyfieithu, fel y derbynio yr eglwys adeiladaeth.
6 *Ac* yr awr hon, frodyr, os deuaf attoch gan lefaru â thafodau, pa lesâd a wnaf i chwi, oni lefaraf wrthych naill ai trwy weledigaeth, neu trwy wybodaeth, neu trwy brophwydoliaeth, neu trwy athrawiaeth?
7 Hefyd pethau dïenaid wrth roddi sain, pa un bynnag ai pibell ai telyn, oni roddant wahaniaeth yn y sain, pa wedd y gwybyddir y peth a genir ar y bibell neu ar y delyn?
8 Canys os yr udgorn a rydd sain anhynod, pwy a ymbarottoa i ryfel?
9 Felly chwithau, oni roddwch â'r tafod ymadrodd deallus, pa wedd y gwybyddir y peth a leferir? canys chwi a fyddwch yn llefaru wrth yr awyr.
10 Y mae cymmaint, ysgatfydd, o rywiogaethau lleisiau yn y byd, ac nid *oes* un o honynt yn aflafar.
11 Am hynny, oni wn i rym y llais, myfi a fyddaf farbariad i'r hwn sydd yn llefaru, a'r hwn sydd yn llefaru *a fydd* i mi yn farbariad.
12 Felly chwithau, gan eich bod yn awyddus i *ddoniau* ysprydol, ceisiwch ragori tu ag at adeiladaeth yr eglwys.
13 O herwydd paham, yr hwn sydd yn llefaru â thafod *dieithr*, gweddïed ar iddo allu cyfieithu.
14 Canys os gweddïaf â thafod *dieithr*, y mae fy yspryd yn gweddïo, ond y mae fy neall yn ddiffrwyth.
15 Beth gan hynny? Mi a weddïaf â'r yspryd, ac a weddïaf â'r deall hefyd: canaf â'r yspryd, a chanaf â'r deall hefyd.
16 Canys os bendithi â'r yspryd, pa wedd y dywed yr hwn sydd yn cyflawni lle yr anghyfarwydd, Amen, ar dy ddodiad dïolch, gan nas gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedyd?
17 Canys tydi yn ddïau ydwyt yn dïolch yn dda, ond y llall nid yw yn cael ei adeiladu.
18 Yr ydwyf yn dïolch i'm Duw, fy mod i yn llefaru â thafodau yn fwy na chwi oll:
19 Ond yn yr eglwys gwell gennyf lefaru pum gair trwy fy neall, fel y dysgwyf eraill hefyd, na myrddiwn o eiriau mewn tafod *dieithr*.
20 *O* frodyr, na fyddwch fechgyn mewn deall; eithr mewn drygioni byddwch blant; ond mewn deall byddwch berffaith.
21 Yn y ddeddf y mae yn ysgrifenedig, Trwy rai estronieithus, a *thrwy* wefusau estronol, y llefaraf wrth y bobl hyn; ac ni'm gwrandawant felly, medd yr Arglwydd.
22 Am hynny tafodau ydynt arwydd, nid i'r rhai sydd yn credu, ond i'r rhai digred: eithr prophwydoliaeth, nid i'r rhai digred, ond i'r rhai sydd yn credu.
23 Gan hynny os daw yr eglwys oll ynghyd i'r un lle, a llefaru o bawb â thafodau *dieithr*, a dyfod o rai annysgedig neu ddigred i mewn; oni ddywedant eich bod yn ynfydu?
24 Eithr os prophwyda pawb, a dyfod o un digred neu annysgedig i mewn, efe a argyhoeddir gan bawb, a fernir gan bawb:
25 Ac felly y gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg; ac felly gan syrthio ar *ei* wyneb, efe a addola Dduw, gan ddywedyd fod Duw yn wir ynoch.
26 Beth gan hynny, frodyr? pan ddeloch ynghyd, y mae gan bob un o honoch psalm, y mae *ganddo* athrawiaeth, y mae *ganddo* dafodiaith, y mae *ganddo* ddatguddiad, y mae *ganddo* gyfieithiad. Gwneler pob peth er adeiladaeth.
27 Os llefara neb â thafod *dieithr*, *gwneler* bob yn ddau, neu o'r mwyaf *bob yn* dri, a hynny ar gylch; a chyfieithed un.
28 Eithr oni bydd cyfieithydd, tawed yn yr eglwys; eithr llefared wrtho ei hun, ac wrth Dduw.
29 *A* llefared y prophwydi ddau neu dri, a barned y lleill.
30 Ac os datguddir *dim* i un arall a fo yn eistedd yno, tawed y cyntaf.

31 Canys chwi a ellwch oll brophwydo bob yn un, fel y dysgo pawb, ac y cysurer pawb.
32 Ac y mae ysprydoedd y prophwydi yn ddarostyngedig i'r prophwydi.
33 Canys nid yw Duw *awdur* anghydfod, ond tangnefedd, fel yn holl eglwysi y saint.
34 Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi: canys ni chaniattâwyd iddynt lefaru; ond bod yn ddarostyngedig, megis ag y mae y gyfraith yn dywedyd.
35 Ac os mynnant ddysgu dim, ymofynnant â'u gwŷr gartref: oblegid anweddaidd yw i wragedd lefaru yn yr eglwys.
36 Ai oddi wrthych chwi yr aeth gair Duw allan? neu ai attoch chwi yn unig y daeth efe?
37 Os ydyw neb yn tybied ei fod yn brophwyd, neu yn ysprydol, cydnabydded y pethau yr wyf yn eu hysgrifenu attoch, mai gorchymynion yr Arglwydd ydynt.
38 Eithr od yw neb heb wybod, bydded heb wybod.
39 Am hynny, frodyr, byddwch awyddus i brophwydo, ac na waherddwch lefaru â thafodau *dieithr*.
40 Gwneler pob peth yn weddaidd, ac mewn trefn.

PENNOD 15.

3 Wrth adgyfodiad Crist, 12 y mae efe yn profi y bydd rhaid i ninnau adgyfodi, yn erbyn y rhai a wadant adgyfodiad y cnawd. 21 Efrwydh 35 a dull yr adgyfodiad; 51 ac fel y newidir y rhai a gafer yn fyw ar y dydd diweddaf.

HEFYD yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, yr efengyl a bregethais i chwi, yr hon hefyd a dderbyniasoch, ac yn yr hon yr ydych yn sefyll;
2 Trwy yr hon y'ch cedwir hefyd, os ydych yn dal yn eich côf â pha ymadrodd yr efengylais i chwi, oddi eithr darfod i chwi gredu yn ofer.
3 Canys mi a draddodais i chwi ar y cyntaf yr hyn hefyd a dderbyniais, farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ol yr ysgrythyrau;
4 A'i gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ol yr ysgrythyrau;
5 A'i weled ef gan Cephas, yna gan y deuddeg.
6 Wedi hynny y gwelwyd ef gan fwy na phum cant o frodyr ar unwaith: o'r rhai y mae y rhan fwyaf yn aros hyd yr awr hon; eithr rhai a hunasant.
7 Wedi hynny y gwelwyd ef gan Iago; yna gan yr holl apostolion.
8 Ac yn ddiweddaf oll y gwelwyd ef gennyf finnau hefyd, megis gan un annhymmig.
9 Canys myfi yw y lleiaf o'r apostolion, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Dduw.
10 Eithr trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf: a'i ras ef, yr hwn *a roddwyd* i mi, ni bu yn ofer; ond mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll: *ac* nid myfi chwaith, ond gras Duw, yr hwn oedd gyd â mi.
11 Am hynny, pa un bynnag ai myfi ai hwynt-hwy, felly yr ydym yn pregethu, ac felly y credasoch chwi.
12 Ac os pregethir Crist, ei gyfodi ef o feirw; pa fodd y dywed rhai yn eich plith chwi, nad oes adgyfodiad y meirw?
13 Eithr onid oes adgyfodiad y meirw, ni chyfodwyd Crist chwaith:
14 Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer *yn wir yw* ein pregeth ni, ac ofer hefyd *yw* eich ffydd chwithau.
15 Fe a'n ceir hefyd yn gau-dystion i Dduw; canys ni a dystiasom am Dduw, ddarfod iddo gyfodi Crist: yr hwn nis cyfododd efe, os y meirw ni chyfodir.
16 Canys os y meirw ni chyfodir, ni chyfodwyd Crist chwaith.
17 Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer *yw* eich ffydd chwi; yr ydych etto yn eich pechodau.
18 Yna hefyd y cyfrgollwyd y rhai a hunasant yng Nghrist.
19 Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yng Nghrist, truanaf o'r holl ddynion ydym ni.
20 Eithr yn awr Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw, *ac* a wnaed yn flaenffrwyth y rhai a hunasant.
21 Canys gan *fod* marwolaeth trwy ddyn, trwy ddyn hefyd *y mae* adgyfodiad y meirw.
22 Oblegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghrist y bywhêir pawb.
23 Eithr pob un yn ei drefn ei

hun: y blaenffrwyth *yw* Crist; wedi hynny y rhai *ydynt* eiddo Crist, yn ei ddyfodiad ef.

24 Yna *y bydd* y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad: wedi iddo ddilëu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth.

25 Canys rhaid iddo deyrnasu, hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed.

26 Y gelyn diweddaf a ddinystrir *yw* yr angau.

27 Canys efe a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef. Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu darostwng, amlwg *yw* mai oddi eithr yr hwn a ddarostyngodd bob peth iddo.

28 A phan ddarostynger pob peth iddo, yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll.

29 Os amgen, beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw, os y meirw ni chyfodir ddim? paham ynte y bedyddir hwy dros y meirw?

30 A phaham yr ydym ninnau mewn perygl bob awr?

31 Yr ydwyf beunydd yn marw, myn eich gorfoledd yr hon sydd gennyf yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

32 Os yn ol dull dyn yr ymleddais âg anifeiliaid yn Ephesus, pa lesâd *sydd* i mi, oni chyfodir y meirw? Bwyttâwn ac yfwn; canys y fory marw yr ydym.

33 Na thwyller chwi: y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da.

34 Deffrôwch yn gyfiawn, ac na phechwch: canys nid oes gan rai wybodaeth am Dduw: er cywilydd i chwi yr wyf yn dywedyd hyn.

35 Eithr fe a ddywed rhyw un, Pa fodd y cyfodir y meirw? ac â pha *ryw* gorph y deuant?

36 O ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywhêir oni bydd efe marw.

37 A'r peth yr wyt yn ei hau, nid y corph a fydd yr ydwyt yn ei hau, ond gronyn noeth, ysgatfydd o wenith, neu o ryw *rawn* arall.

38 Eithr Duw sydd yn rhoddi iddo gorph fel y mynnodd efe, ac i bob hedyn ei gorph ei hun.

39 Nid *yw* pob cnawd unrhyw gnawd: eithr arall *yw* cnawd dynion, ac arall *yw* cnawd anifeiliaid, a *chnawd* arall *sydd* i bysgod, ac arall i adar.

40 *Y mae* hefyd gyrph nefol, a chyrph daearol: ond arall *yw* gogoniant y rhai nefol, ac arall y rhai daearol.

41 Arall *yw* gogoniant yr haul, ac arall *yw* gogoniant y lloer, ac arall *yw* gogoniant y sêr: canys y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant.

42 Felly hefyd *y mae* adgyfodiad y meirw. Efe a heuir mewn llygredigaeth, *ac* a gyfodir mewn anllygredigaeth:

43 Efe a heuir mewn ammharch, *ac* a gyfodir mewn gogoniant: efe a heuir mewn gwendid, *ac* a gyfodir mewn nerth: efe a heuir yn gorph anianol, *ac* a gyfodir yn gorph ysprydol.

44 Y mae corph anianol, ac y mae corph ysprydol.

45 Felly hefyd y mae yn ysgrifenedig, Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, *a*'r Adda diweddaf yn ysprydyn bywhâu.

46 Eithr nid cyntaf yr ysprydol, ond yr anianol; ac wedi hynny yr ysprydol.

47 Y dyn cyntaf o'r ddaear, yn ddaearol; yr ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef.

48 Fel *y mae* y daearol, felly *y mae* y rhai daearol hefyd; ac fel y mae y nefol, felly *y mae* y rhai nefol hefyd.

49 Ac megis y dygasom ddelw y daearol, ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol.

50 Eithr hyn meddaf, *O* frodyr, na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw; ac nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth.

51 Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch: Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf:

52 Canys yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, a ninnau a newidir.

53 O herwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb.

54 A phan ddarffo i'r llygradwy
hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r
marwol hwn wisgo anfarwoldeb,
yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenwyd, Angau a lyngcwyd mewn
buddugoliaeth.
55 O angau, pa le *mae* dy golyn?
O uffern, pa le *mae* dy fuddugoliaeth?
56 Colyn angau *yw* pechod, a grym
pechod *yw* y gyfraith.
57 Ond i Dduw *y byddo* y dïolch,
yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu
Grist.
58 Am hynny, fy mrodyr anwyl,
byddwch sier, a dïymmod, *a* helaethion y'ngwaith yr Arglwydd yn
wastadol; a chwi yn gwybod nad
yw eich llafur chwi yn ofer yn yr
Arglwydd.

PENNOD 16.

1 *Y mae yn eu hannog i borthi angen y brodyr yn Jerusalem:* 10 *yn canmol Timothêus;* 13 *ac ar ol rhybuddion caredig,* 16 *yn dïweddu ei epistol âg amryw anherchion.*

HEFYD am y gasgl i'r saint;
megis yr ordeiniais i eglwysi
Galatia, felly gwnewch chwithau.
2 Y *dydd* cyntaf o'r wythnos, pob
un o honoch rhodded heibio yn ei
ymyl, gan drysori, fel y llwyddodd
Duw ef, fel na byddo casgl pan
ddelwyf fi.
3 A phan ddelwyf, pa rai bynnag
a ddangosoch eu bod yn gymmeradwy trwy lythyrau, y rhai hynny
a ddanfonaf i ddwyn eich rhodd i
Jerusalem.
4 Ac os bydd y peth yn haeddu
i minnau hefyd fyned, hwy a gânt
fyned gyd â mi.
5 Eithr mi a ddeuaf attoch, gwedi
yr elwyf trwy Macedonia; canys
trwy Macedonia yr wyf yn myned;
6 Ac nid hwyrach yr arhosaf gyd
â chwi, neu y gauafaf hefyd, fel y'm
hebryngoch i ba le bynnag yr elwyf.
7 Canys nid oes i'm bryd eich
gweled yn awr ar fy hynt; ond yr
wyf yn gobeithio yr arhosaf ennyd gyd â chwi, os cenhada yr
Arglwydd.
8 Eithr mi a arhosaf yn Ephesus
hyd y Sulgwyn.
9 Canys agorwyd i mi ddrws
mawr a grymmus, ac *y mae* gwrthwynebwyr lawer.
10 Ac os Timothëus a ddaw, edrychwch ar ei fod yn ddïofn gyd
â chwi: canys gwaith yr Arglwydd y mae yn ei weithio, fel
finnau.
11 Am hynny na ddïystyred neb
ef: ond hebryngwch ef mewn heddwch, fel y delo attaf fi: canys yr
wyf fi yn ei ddisgwyl ef gyd â'r
brodyr.
12 Ac am y brawd Apòlos, mi a
ymbiliais lawer âg ef am ddyfod attoch chwi gyd â'r brodyr: eithr er
dim nid oedd ei ewyllys ef i ddyfod
yr awr hon; ond efe a ddaw pan
gaffo amser cyfaddas.
13 Gwyliwch, sefwch yn y ffydd,
ymwrolwch, ymgryfhêwch.
14 Gwneler eich holl bethau chwi
mewn cariad.
15 Ond yr ydwyf yn attolwg i
chwi, frodyr, (chwi a adwaenoch
dŷ Stephanas, mai blaenffrwyth
Achaia ydyw, ac iddynt ymosod i
weinidogaeth y saint,)
16 Fod o honoch chwithau yn
ddarostyngedig i'r cyfryw, ac i bob
un sydd yn cyd-weithio, ac yn
llafurio.
17 Ac yr ydwyf yn llawen am ddyfodiad Stephanas, Ffortunatus, ac
Achaicus: canys eich diffyg chwi
hwy a'i cyflawnasant;
18 Canys hwy a esmwythasant ar
fy yspryd i, a'r eiddoch chwithau:
cydnabyddwch gan hynny y cyfryw rai.
19 Y mae eglwysi Asia yn eich annerch chwi. Y mae Acwila a Phrisclla, gyd â'r eglwys sydd yn eu tŷ
hwynt, yn eich annerch chwi yn yr
Arglwydd yn fynych.
20 Y mae y brodyr oll yn eich
annerch. Anherchwch eich gilydd
â chusan sancteiddiol.
21 Yr annerch â'm llaw i Paul fy
hun.
22 Od oes neb nid yw yn caru yr
Arglwydd Iesu Grist, bydded anathema. Maranatha.
23 Gras *ein* Harglwydd Iesu Grist
a fyddo gyd â chwi.
24 Fy serch innau *a fo* gyd â chwi
oll yng Nghrist Iesu. Amen.

¶ Yr *epistol* cyntaf at y Corinthiaid a ysgrifenwyd o Philippi, gyd â Stephanas, a Ffortunatus, ac Achaicus, a Thimothëus.

AIL EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT Y CORINTHIAID.

PENNOD 1.

3 Y mae yr apostol yn eu cysuro hwy yn erbyn trallod, trwy y diddanwch a'r ymwared a roisai Duw iddo ef, megis yn ei holl gyfyngderau, 8 felly yn eiwedig yn ei berygl diweddar yn Asia; 12 a chan gymmeryd tystiolaeth ei gydwybod ei hun, a'r eiddynt hwythau, am ei ddidwyll ddull yn pregethu anghyfnewidiol wirioned yr efengyl, 15 y mae yn ei esyusodi ei hun nas daethai aitynt; gan iddo wneuthur hynny nid o ysgafnder meddwl, eithr o'i dynerwch tu ag attynt hwy.

PAUL, apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, a'r brawd Timothëus, at eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, gyd â'r holl seintiau y rhai sydd yn holl Achaia:

2 Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

3 Bendigedig *fyddo* Duw, a Thad ein Harglwydd ni Iesu Grist, Tad y trugareddau, a Duw pob diddanwch;

4 Yr hwn sydd yn ein diddanu ni yn ein holl orthrymder, fel y gallom ninnau ddiddanu y rhai sydd mewn dim gorthrymder, trwy y diddanwch â'r hwn y'n diddenir ni ein hunain gan Dduw.

5 Oblegid fel y mae dïoddefiadau Crist yn amlhâu ynom ni; felly trwy Grist y mae ein diddanwch ni hefyd yn amlhâu.

6 A pha un bynnag ai ein gorthrymmu yr ydys, er diddanwch a iachawdwriaeth i chwi *y mae*, yr hon a weithir trwy ymaros dan yr un dïoddefiadau, y rhai yr ydym ninnau yn eu dïoddef; ai ein diddanu yr ydys, er diddanwch a iachawdwriaeth i chwi *y mae hynny*.

7 Ac *y mae* ein gobaith yn sicr am danoch; gan i ni wybod, mai megis yr ydych yn gyfrannogion o'r dïoddefiadau, felly *y byddwch* hefyd o'r diddanwch.

8 Canys ni fynnem i chwi fod heb wybod, frodyr, am ein cystudd a ddaeth i ni yn Asia, bwyso arnom yn ddirfawr uwch ben *ein* gallu, hyd onid oeddym yn ammeu cael byw hefyd.

9 Eithr ni a gawsom ynom ein hunain farn angau, fel na byddai i ni ymddiried ynom ein hunain, ond yn Nuw, yr hwn sydd yn cyfodi y meirw:

10 Yr hwn a'n gwaredodd ni oddi wrth gyfryw ddirfawr angau, ac sydd yn ein gwaredu; yn yr hwn yr ydym yn gobeithio y gwared *ni* hefyd rhag llaw:

11 A chwithau hefyd yn cydweithio drosom mewn gweddi, fel, am y rhoddiad *a rodded* i ni o herwydd llawer, y rhodder dïolch gan lawer drosom.

12 Canys ein gorfoledd ni yw hyn, *sef* tystiolaeth ein cydwybod, mai mewn symlrwydd, a phurdeb duwiol, nid mewn doethineb cnawdol, ond trwy ras Duw, yr ymddygasom yn y byd, ond yn hytrach tu ag attoch chwi.

13 Canys nid ydym yn ysgrifenu amgen bethau attoch nag yr ydych yn eu darllen, neu yn eu cydnabod, ac yr wyf yn gobeithio a gydnabyddwch hyd y diwedd hefyd;

14 Megis y cydnabuoch ni o ran, mai nyni yw eich gorfoledd chwi, fel chwithau yr eiddom ninnau hefyd yn nydd yr Arglwydd Iesu.

15 Ac yn yr hyder hwn yr oeddwn yn ewyllysio dyfod attoch o'r blaen, fel y caffech ail ras;

16 A myned heb eich llaw chwi i Macedonia, a dyfod drachefn o Macedonia attoch, a chael fy hebrwng gennych i Judea.

17 Gan hynny, pan oeddwn yn bwriadu hyn, a arferais i ysgafnder? neu y pethau yr wyf yn eu bwriadu, ai yn ol y cnawd yr wyf yn eu bwriadu, fel y byddai gyd â mi, ïe, ïe, a nag ê, nag ê?

18 Eithr ffyddlawn *yw* Duw, a'n hymadrodd ni wrthych chwi ni bu ïe, a nag ê.

19 Canys Mab Duw, Iesu Grist, yr

hwn a bregethwyd yn eich plith gennym ni, *sef* gennyf fi, a Silfanus, a Thimothëus, nid ydoedd ïe, a nag ê, eithr ynddo ef ïe ydoedd.

20 Oblegid holl addewidion Duw ynddo ef *ydynt* ïe, ac ynddo ef amen, er gogoniant i Dduw trwom ni.

21 A'r hwn sydd yn ein cadarnhâu ni gyd â chwi yng Nghrist, ac a'n henneiniodd ni, *yw* Duw:

22 Yr hwn hefyd a'n seliodd, ac a roes ernes yr Ysbryd yn ein calonnau.

23 Ac yr wyf fi yn galw Duw yn dyst ar fy enaid, mai er eich arbed chwi na ddeuthum etto i Corinth.

24 Nid am ein bod yn arglwyddiaethu ar eich ffydd chwi, ond yr ydym yn gydweithwyr i'ch llawenydd: oblegid trwy ffydd yr ydych yn sefyll.

PENNOD 2.

1 *Wedi iddo ddangos yr achos na ddaethai efe attynt,* 6 *y mae yn erchi iddynt faddeu i'r dyn a ysgymmunasid, a'i gysuro:* 10 *megis y maddeuasai yntau iddo, ar ei wir edifeirwch:* 12 *gan ddangos hefyd yr achos paham yr aethai efe o Troas i Macedonia;* 14 *a'r llwyddiant a'r fynniant a roisai Duw i'w bregeth ef ym mhob lle.*

EITHR mi a fernais hyn ynof fy hunan, na ddelwn drachefn mewn tristwch attoch.

2 Oblegid os myfi a'ch tristâf chwi, pwy yw yr hwn a'm llawenhâ i, ond yr hwn a dristâwyd gennyf fi?

3 Ac mi a ysgrifenais hyn yma attoch, fel, pan ddelwn, na chawn dristwch oddi wrth y rhai y dylwn lawenhâu; gan hyderu am danoch oll, fod fy llawenydd i *yn llawenydd* i chwi oll.

4 Canys o orthrymder mawr, a chyfyngder calon, yr ysgrifenais attoch â dagrau lawer; nid fel y'ch tristâid chwi, eithr fel y gwybyddech y cariad sydd gennyf yn helaethach tu ag attoch chwi.

5 Ac os gwnaeth neb dristâu, ni wnaeth efe i mi dristâu, ond o ran; rhag i mi bwyso arnoch chwi oll.

6 Digon i'r cyfryw *ddyn* y cerydd yma, *a ddaeth* oddi wrth laweroedd.

7 Yn gymmaint ag *y dylech*, yn y gwrthwyneb, yn hytrach faddeu *iddo*, a'*i* ddiddanu; rhag llyngcu y cyfryw gan ormod tristwch.

8 Am hynny yr ydwyf yn attolwg i chwi gadarnhâu *eich* cariad tu ag atto ef.

9 Canys er mwyn hyn hefyd yr ysgrifenais, fel y gwybyddwn brawf o honoch, a ydych ufudd ym mhob peth.

10 I'r hwn yr ydych yn maddeu dim iddo, *yr wyf* finnau: canys os maddeuais ddim, i'r hwn y maddeuais, er eich mwyn chwi *y maddeuais*, y'ngolwg Crist;

11 Fel na'n siommer gan Satan: canys nid ydym heb wybod ei ddichellion ef.

12 Eithr gwedi i mi ddyfod i Troas i *bregethu* efengyl Crist, ac wedi agoryd i mi ddrws gan yr Arglwydd,

13 Ni chefais lonydd yn fy ysbryd, am na chefais Titus fy mrawd: eithr gan ganu yn iach iddynt, mi a euthum ymaith i Macedonia.

14 Ond i Dduw *y byddo* y diolch, yr hwn yn wastad sydd yn peri i ni oruchafiaeth yng Nghrist, ac sydd yn eglurhâu arogledd ei wybodaeth trwom ni ym mhob lle.

15 Canys pêr-arogl Crist ydym ni i Dduw, yn y rhai cadwedig, ac yn y rhai colledig:

16 I'r naill *yr ydym* yn arogl marwolaeth i farwolaeth; ac i'r lleill, yn arogl bywyd i fywyd: a phwy *sydd* ddigonol i'r pethau hyn?

17 Canys nid ydym ni, megis llawer, yn gwneuthur masnach o air Duw: eithr megis o burdeb, eithr megis o Dduw, y'ngŵydd Duw yr ydym yn llefaru yng Nghrist.

PENNOD 3.

1 *Rhag i'w gau-athrawon hwy roi gwag-orfoledd yn ei erbyn ef, y mae yn dangos fod ffydd a doniau y Corinthiaid yn canmol ei weinidogaeth ef yn ddigon helaeth:* 6 *ac ar hyn, trioy gyffelybrwydd rhwng gweinidogion y ddeddf a'r efengyl,* 12 *y mae yn profi fod ei weinidogaeth ef yn rhagori, o gymmaint ag y mae efengyl y bywyd a rhyddid yn fwy gogoneddus na chyfraith damnedigaeth.*

AI dechreu yr ydym drachefn ein canmol ein hunain? ai rhaid i ni, megis i rai, wrth lythyrau canmoliaeth attoch chwi, neu *rai* canmoliaeth oddi wrthych chwi?

2 Ein llythyr ni ydych chwi, yn ysgrifenedig yn ein calonnau, *yr hwn* a ddeallir ac a ddarllenir gan bob dyn:

3 *Gan fod* yn eglur mai llythyr Crist *ydych*, wedi ei weini gennym ni, wedi ei ysgrifenu nid âg ingc, ond âg Ysbryd y Duw byw; nid mewn llechau cerrig, eithr mewn llechau cnawdol y galon.
4 A chyfryw hyder sydd gennym trwy Grist ar Dduw:
5 Nid o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain i feddwl dim megis o honom ein hunain; eithr ein digonedd ni *sydd* o Dduw;
6 Yr hwn hefyd a'n gwnaeth ni yn weinidogion cymmwys y testament newydd; nid i'r llythyren, ond i'r ysbryd: canys y mae y llythyren yn lladd, ond yr ysbryd sydd yn bywhâu.
7 Ac os bu gweinidogaeth angau, mewn llythyrennau wedi eu hargraphu ar gerrig, mewn gogoniant, fel na allai plant yr Israel edrych yn graff ar wyneb Moses, gan ogoniant ei wynebpryd, yr hwn *ogoniant* a ddilëwyd;
8 Pa fodd yn hytrach na bydd gweinidogaeth yr Ysbryd mewn gogoniant?
9 Canys os *bu* gweinidogaeth damnedigaeth *yn* ogoniant, mwy o lawer y mae gweinidogaeth cyfiawnder yn rhagori mewn gogoniant.
10 Canys hefyd ni ogoneddwyd yr hyn a ogoneddwyd yn y rhan hon, o herwydd y gogoniant tra rhagorol.
11 Oblegid os *bu* yr hyn a ddilëid yn ogoneddus, mwy o lawer *y bydd* yr hyn sydd yn aros yn ogoneddus.
12 Am hynny gan fod gennym gyfryw obaith, yr ydym yn arfer hyfder mawr:
13 Ac nid megis y gosododd Moses orchudd ar ei wyneb, fel nad edrychai plant Israel yn graff ar ddiwedd yr hyn a ddilëid.
14 Eithr dallwyd eu meddyliau hwynt: canys hyd y dydd heddyw y mae yr un gorchudd, wrth ddarllen yn yr hen destament, yn aros heb ei ddatguddio; yr hwn yng Nghrist a ddilëir.
15 Eithr hyd y dydd heddyw, pan ddarllenir Moses, y mae y gorchudd ar eu calon hwynt.
16 Ond pan ymchwelo at yr Arglwydd, tynnir ymaith y gorchudd.
17 Eithr yr Arglwydd yw yr Ysbryd: a lle *mae* Ysbryd yr Arglwydd, yno *y mae* rhyddid.
18 Eithr nyni oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megis gan Ysbryd yr Arglwydd.

PENNOD 4.

1 *Y mae yn dangos arferu o hono ef bob math ar burdeb a diwydrwydd ffyddlawn wrth bregethu yr efengyl; 7 a bod y blinderau a'r ertid yr oedd efe beunydd yn eu dioddef o achos yr efengyl, er moliant i allu Duw,* 12 *a llesâd i'r eglwys,* 16 *a gogoniant tragywyddol iddo ynteu.*

AM hynny gan fod i ni y weinidogaeth hon, megis y cawsom drugaredd, nid ydym yn pallu:
2 Eithr *ni* a ymwrthodasom â chuddiedig bethau cywilydd, heb rodio mewn cyfrwysdra, na thrin gair Duw yn dwyllodrus, eithr trwy eglurhâd y gwirionedd yr ydym yn ein canmol ein hun wrth bob cydwybod dynion y'ngolwg Duw.
3 Ac os cuddiedig yw ein hefengyl ni, yn y rhai colledig y mae yn guddiedig:
4 Yn y rhai y dallodd duw y byd hwn feddyliau y rhai digred, fel na thywynnai iddynt lewyrch efengyl gogoniant Crist, yr hwn yw delw Duw.
5 Canys nid ydym yn ein pregethu ein hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd; a ninnau yn weision i chwi er mwyn Iesu.
6 Canys Duw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, *yw* yr hwn a lewyrchodd yn ein calonnau, i *roddi* goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist.
7 Eithr y mae gennym y trysor hwn mewn llestri pridd, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.
8 Ym mhob peth *yr ym* yn gystuddiol, ond nid mewn ing; *yr ydym* mewn cyfyng-gynghor, ond nid yn ddïobaith;
9 Yn cael *ein* herlid, ond heb *ein*

llwyr adael; yn cael *ein* bwrw i lawr, eithr heb *ein* difetha;
10 Gan gylch-arwain yn y corph bob amser farweiddiad yr Arglwydd Iesu, fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn ein corph ni.
11 Canys yr ydys yn ein rhoddi ni, y rhai ydym yn fyw, yn wastad i farwolaeth er mwyn Iesu, fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn ein marwol gnawd ni.
12 Felly y mae angau yn gweithio ynom ni, ac einioes ynoch chwithau.
13 *A* chan fod gennym yr un yspryd ffydd, yn ol yr hyn a ysgrifenwyd, Credais, am hynny y lleferais; yr ydym ninnau hefyd yn credu, ac am hynny yn llefaru;
14 Gan wybod y bydd i'r hwn a gyfododd yr Arglwydd Iesu, ein cyfodi ninnau hefyd trwy Iesu, a'*n* gosod ger bron gyd â chwi.
15 Canys pob peth *sydd* er eich mwyn chwi, fel y byddo i ras wedi amlhâu, trwy ddïolchgarwch llaweroedd, ymhelaethu i ogoniant Duw.
16 O herwydd paham nid ydym yn pallu; eithr er llygru ein dyn oddi allan, er hynny y dyn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd.
17 Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni;
18 Tra na byddom yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir: canys y pethau a welir *sydd* dros amser, ond y pethau ni welir *sydd* dragywyddol.

PENNOD 5.

1 *Ei fod ef mewn sicr obaith o'r gogoniant tragywyddol, 9 a disgwyl am dano, ac am y farn gyffredinol, yre ymegnio i gadw cydwybod dda; 12 nid er mwyn ymffrostio yn hynny, 14 eithr megis un wedi derbyn bywyd oddi wrth Grist, yn ceisio byw fel creadur newydd i Grist yn unig. 18 a chymmodi craill â Duw yng Nghrist, trwy weinidogaeth y cymmod.*

CANYS ni a wyddom, os ein daearol dŷ o'r babell *hon* a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, *sef* tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd.
2 Canys am hynny yr ydym yn ocheneidio, gan ddeisyfu cael ein harwisgo â'n tŷ sydd o'r nef:
3 Os hefyd wedi ein gwisgo, nid yn noethion y'n ceir.
4 Canys ninnau hefyd y rhai ŷm yn y babell *hon* ydym yn ocheneidio, yn llwythog: yn yr hyn nid ŷm yn chwennych ein dïosg, ond ein harwisgo, fel y llyngcer yr hyn sydd farwol gan fywyd.
5 A'r hwn a'n gweithiodd ni i hyn yma *yw* Duw, yr hwn hefyd a roddodd i ni ernes yr Ysbryd.
6 Am hynny *yr ydym* yn hyderus bob amser, ac yn gwybod, tra yr ydym yn gartrefol yn y corph, ein bod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd:
7 Canys wrth ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid wrth olwg.
8 Ond yr ydym yn hyf, ac yn gweled yn dda yn hytrach fod oddi cartref o'r corph, a chartrefu gyd â'r Arglwydd.
9 Am hynny hefyd yr ydym yn ymorchestu, pa un bynnag ai gartref y byddom, ai oddi cartref, ein bod yn gymmeradwy ganddo ef.
10 Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist; fel y derbynio pob un y pethau *a wnaethpwyd* yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynnag ai da ai drwg.
11 A ni gan hynny yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio dynion; eithr i Dduw y'n gwnaed yn hysbys: ac yr ydwyf yn gobeithio ddarfod ein gwneuthur yn hysbys yn eich cydwybodau chwithau hefyd.
12 Canys nid ydym yn ein canmol ein hunain drachefn wrthych, ond yn rhoddi i chwi achlysur gorfoledd o'n plegid ni, fel y caffoch beth i *atteb* yn erbyn y rhai sydd yn gorfoleddu yn y golwg, ac nid yn y galon.
13 Canys pa un bynnag ai ammhwyllo yr ydym, i Dduw *yr ydym*; ai yn ein pwyll yr ydym, i chwi *yr ydym*.
14 Canys y mae cariad Crist yn ein cymmell ni, gan farnu o honom hyn; os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb:
15 Ac efe a fu farw dros bawb,

fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.

16 Am hynny nyni o hyn allan nid adwaenom neb yn ol y cnawd: ac os buom hefyd yn adnabod Crist yn ol y cnawd, etto yn awr nid ydym yn *ei* adnabod *ef* mwyach.

17 Gan hynny od *oes* neb yng Nghrist, *y mae efe* yn greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.

18 A phob peth *sydd* o Dduw, yr hwn a'n cymmododd ni âg ef ei hun trwy Iesu Grist, ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod;

19 Sef, bod Duw yng Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau; ac wedi gosod ynom ni air y cymmod.

20 Am hynny yr ydym ni yn genhadau dros Grist, megis pe byddai Duw yn deisyf *arnoch* trwom ni: yr ydym yn erfyn dros Grist, Cymmoder chwi â Duw.

21 Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni; fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.

PENNOD 6.

1 *Ddarfod iddo ei ddangos ei hun yn weinidog ffyddlawn i Grist, trwy ei gymhorion,* 3 *a diniweidrwydd ei fuchedd,* 4 *a'i ddioddefgarwch mewn pob math ar gystudd ac amnharch er mwyn yr efengyl:* 11 *am yr hon y mae efe yn hysfach im llefaru yn eu plith, am fod ei galon ef yn agored iddynt:* 13 *ac y mae efe yn disgwyl am y cyfnewid ewyllysgarwch drachefn oddi wrthynt hwy.* 14 *gan eu hannog i ochelyd cymdeithas ac afendid eilun-addolwyr, a hwythau yn demlau y Duw byw.*

A NINNAU, gan gyd-weithio, ydym yn attolwg *i chwi*, na dderbynioch ras Duw yn ofer.

2 (Canys y mae efe yn dywedyd, Mewn amser cymmeradwy y'th wrandewais, ac yn nydd iachawdwriaeth y'th gynnorthwyais: wele yn awr yr amser cymmeradwy; wele yn awr ddydd yr iachawdwriaeth.)

3 Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, fel na feier ar y weinidogaeth:

4 Eithr gan ein dangos ein hunain ym mhob peth fel gweinidogion Duw, mewn amynedd mawr, mewn cystuddiau, mewn anghenion, mewn cyfyngderau,

5 Mewn gwïalennodiau, mewn carcharau, mewn terfysgau, mewn poenau, mewn gwyliadwriaethau, mewn ymprydiau,

6 Mewn purdeb, mewn gwybodaeth, mewn hir-ymaros, mewn tiriondeb, yn yr Ysbryd Glân, mewn cariad diragrith,

7 Y'ngair y gwirionedd, yn nerth Duw, trwy arfau cyfiawnder ar ddehau ac ar aswy,

8 Trwy barch ac ammharch, trwy anghlod a chlod: megis twyllwyr, ac *er hynny* yn eirwir;

9 Megis anadnabyddus, ac *er hynny* yn adnabyddus: megis yn meirw, ac wele, byw ydym; megis wedi ein ceryddu, a heb ein lladd;

10 Megis wedi ein tristâu, ond yn wastad yn llawen; megis yn dlodion, ond yn cyfoethogi llawer; megis heb ddim gennym, ond *etto* yn meddiannu pob peth.

11 Ein genau ni a agorwyd wrthych chwi, O Gorinthiaid, ein calon ni a ehangwyd.

12 Ni chyfyngwyd arnoch ynom ni, eithr cyfyngwyd arnoch yn eich ymysgaroedd eich hunain.

13 Ond am yr un tâl, (yr ydwyf yn dywedyd megis wrth *fy* mhlant,) ehanger chwithau hefyd.

14 Na iauer chwi yn anghymharus gyd â'r rhai digred: canys pa gyfeillach *sydd* rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder? a pha gymmundeb rhwng goleuni a thywyllwch?

15 A pha gyssondeb *sydd* rhwng Crist a Belial? neu pa ran *sydd* i gredadyn gyd âg anghredadyn?

16 A pha gydfod *sydd* rhwng teml Duw ac eilunod? canys teml y Duw byw ydych chwi; fel y dywedodd Duw, Mi a breswyliaf ynddynt, ac a rodiaf yn *eu mysg*, ac a fyddaf yn Dduw iddynt hwy, a hwy a fyddant yn bobl i mi.

17 O herwydd paham deuwch allan *o'u* canol hwy, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd, ac na chyffyrddwch â dim aflan; ac mi a'ch derbyniaf chwi,

18 Ac a fyddaf yn Dad i chwi, a chwithau a fyddwch yn feibion ac yn ferched i mi, medd yr Arglwydd Hollalluog.

PENNOD 7.

1 *Y mae efe ym mhellach ym eu hannog i burdeb buchedd: 2 ac i ddiwyn y cyfryw ewyllys da tu ag atto ef, ag yr oedd ynddu yn ei ddwyn tu ag attynt hwy: 3 a rhag iddynt hwy feddwl ei fod ef ym ammeu hynny, y mae yn dangos pa gysur a gymmerodd efe yn ei flinderau, pan fynegodd Titus y tristwch duwiol a weithiasai ei epistol cyntaf ef ymddynt, 13 a'u caredigrwydd hwynt, a'u hufudd-dod tu ag at Titus, megis y bostiasai efe o'r blaen am danynt hwy.*

AM hynny gan fod gennym yr addewidion hyn, anwylyd, ymlanhâwn oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw.

2 Derbyniwch ni. Ni wnaethom gam i neb; ni lygrasom neb; nid yspeiliasom neb.

3 Nid i'*ch* condemnio yr wyf yn dywedyd: canys mi a ddywedais o'r blaen eich bod chwi yn ein calonnau ni, i farw ac i fyw gyd â *chwi.*

4 *Y mae* hyfder fy ymadrodd yn fawr wrthych. *Y mae gennyf* orfoledd mawr o'ch plegid chwi: yr wyf yn llawn o ddiddanwch, yn dra-chyflawn o lawenydd yn ein holl orthrymder.

5 Canys wedi ein dyfod ni i Macedonia, ni chafodd ein cnawd ni ddim llonydd; eithr ym mhob peth cystuddiedig *fuom:* oddi allan *yr oedd* ymladdau, oddi fewn ofnau.

6 Eithr Duw, yr hwn sydd yn diddanu y rhai cystuddiedig, a'n diddanodd ni wrth ddyfodiad Titus.

7 Ac nid yn unig wrth ei ddyfodiad ef, ond hefyd wrth y diddanwch â'r hwn y diddanwyd ef ynoch chwi, pan fynegodd efe i ni eich awyddfryd chwi, eich galar chwi, eich sêl tu ag attaf fi; fel y llawenheais i yn fwy.

8 Canys er i mi eich tristâu chwi mewn llythyr, nid yw edifar gennyf, er bod yn edifar gennyf; canys yr wyf yn gweled dristâu o'r llythyr hwnnw chwi, er *nad oedd ond* dros amser.

9 Yn awr yr ydwyf yn llawen, nid am eich tristâu chwi, ond am eich tristâu i edifeirwch: canys tristâu a wnaethoch yn dduwiol, fel na chaech golled mewn dim oddi wrthym ni.

10 Canys duwiol dristwch sydd yn gweithio edifeirwch er iachawdwriaeth ni bydd edifeirwch o honi: eithr tristwch y byd sydd yn gweithio angau.

11 Canys wele hyn yma, eich tristâu chwi yn dduwiol, pa astudrwydd ei faint a weithiodd ynoch, ïe, *pa* ymddiffyn, ïe, *pa* sorriant, ïe, *pa* ofn, ïe, *pa* awyddfryd, ïe, *pa* sêl, ïe, *pa* ddïal! Ym mhob peth y dangosasoch eich bod yn bur yn y peth hwn.

12 O herwydd paham, er ysgrifenu o honof attoch, ni *ysgrifenais* o'i blegid ef a wnaethai y cam, nac oblegid yr hwn a gawsai gam, ond er mwyn bod yn eglur i chwi ein gofal drosoch ger bron Duw.

13 Am hynny nyni a ddiddanwyd yn eich diddanwch chwi: a mwy o lawer y buom lawen am lawenydd Titus, oblegid esmwythâu ar ei yspryd ef gennych chwi oll.

14 Oblegid os bostiais ddim wrtho ef am danoch, ni'm cywilyddiwyd: eithr megis y dywedasom wrthych bob dim mewn gwirionedd, felly hefyd gwirionedd oedd ein bost ni, yr hwn *a fu* wrth Titus.

15 Ac y mae ei ymysgaroedd ef yn helaethach tu ag attoch, wrth gofio o hono eich ufudd-dod chwi oll, pa fodd trwy ofn a dychryn y derbyniasoch ef.

16 Am hynny llawen wyf, am fod i mi hyder arnoch ym mhob dim.

PENNOD 8.

1 *Y mae yn eu hannog hwynt i gyfrannu yn helaeth i'r saint iludion yn Jerusalem, trwy siampl y Macedoniaid, 7 trwy gamol eu parodrwydd hwy o'r blaen, 9 trwy siampl Crist, 14 a thrwy y lleshâd ysprydol a ddaw iddynt hwy o hynny: 16 gan ddangos iddynt burdeb ac ewyllysgarwch Titus, ac eraill o'r brodyr, y rhai, ar ei ddeisyfiad, a'i annog, a'i orchymyn ef, a ddaethent attynt hwy yn bwrpasol ynghylch y peth hwn.*

YR ydym ni hefyd yn hysbysu i chwi, frodyr, y gras Duw a roddwyd yn eglwysi Macedonia;

2 Ddarfod, mewn mawr brofiad cystudd, i helaethrwydd eu llawenydd hwy a'u dwfn dlodi, ymhelaethu i gyfoeth eu haelioni hwy.

3 Oblegid yn ol *eu* gallu, yr wyf fi yn dyst, ac uwch law eu gallu,

yr oeddynt yn ewyllysgar o honynt eu hunain;
4 Gan ddeisyfu arnom trwy lawer o ymbil, ar dderbyn o honom ni y rhodd, a chymdeithas gweinidogaeth y saint.
5 A *hyn a wnaethant*, nid fel yr oeddym ni yn gobeithio, ond hwy a'u rhoddasant eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ac i ninnau trwy ewyllys Duw.
6 Fel y dymunasom ni ar Titus, megis y dechreuasai efe o'r blaen, felly hefyd orphen o hono yn eich plith chwi y gras hwn hefyd.
7 Eithr fel yr ydych ym mhob peth yn helaeth, mewn ffydd, a gair, a gwybodaeth, a phob astudrwydd, ac yn eich cariad tu ag attom ni; *edrychwch* ar fod o honoch yn y gras hwn hefyd yn ehelaeth.
8 Nid trwy orchymyn yr ydwyf yn dywedyd, ond oblegid diwydrwydd rhai eraill, a chan brofi gwirionedd eich cariad chwi.
9 Canys chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef.
10 Ac yr ydwyf yn rhoddi cynghor yn hyn: canys hyn sydd dda i chwi, y rhai a rag-ddechreuasoch, nid yn unig wneuthur, ond hefyd ewyllysio er y llynedd.
11 Ac yn awr gorphenwch wneuthur hefyd; fel megis ag *yr oedd* y parodrwydd i ewyllysio, felly *y byddo* i gwblhâu hefyd o'r hyn sydd gennych.
12 Canys os bydd parodrwydd meddwl o'r blaen, yn ol yr hyn sydd gan un, *y mae* yn gymmeradwy, nid yn ol yr hyn nid oes ganddo.
13 Ac nid fel y byddai esmwythdra i eraill, a chystudd i chwithau;
14 Eithr o gymhwysdra: y pryd hwn *bydded* eich helaethrwydd chwi *yn diwallu* eu diffyg hwy, fel y byddo eu helaethrwydd hwythau *yn diwallu* eich diffyg chwithau; fel y byddo cymhwysdra:
15 Megis y mae yn ysgrifenedig, Yr hwn *a gasglodd* lawer, nid oedd ganddo weddill; ac *a gasglodd* ychydig, nid oedd arno eisieu.
16 Eithr i Dduw *y byddo* y diolch, yr hwn a roddodd yr un diwydrwydd trosoch y'nghalon Titus.
17 Oblegid yn wir efe a dderbyniodd y dymuniad; a chan fod yn fwy diwyd, a aeth attoch o'i wirfodd ei hun.
18 Ni a anfonasom hefyd gyd âg ef y brawd, yr hwn *y mae* ei glod yn yr efengyl trwy yr holl eglwysi;
19 Ac nid *hynny* yn unig, eithr hefyd a ddewiswyd gan yr eglwysi i gyd-ymdaith â ni â'r gras hwn, yr hwn a wasanaethir gennym er gogoniant i'r Arglwydd ei hun, ac *i amlygu* parodrwydd eich meddwl chwi:
20 Gan ochelyd hyn, rhag i neb feio arnom yn yr helaethrwydd yma, yr hwn a wasanaethir gennym:
21 Y rhai ydym yn rhag-ddarpar pethau onest, nid yn unig y'ngolwg yr Arglwydd, ond hefyd y'ngolwg dynion.
22 Ac ni a anfonasom gyd â hwynt ein brawd, yr hwn a brofasom mewn llawer o bethau, lawer gwaith, ei fod ef yn ddyfal, ac yn awr yn ddyfalach o lawer, am y mawr ymddiried *y sydd gennyf* ynoch.
23 Os *gofynir* am Titus, fy nghydymmaith *yw*, a chyd-weithydd tu ag attoch chwi; neu *am* ein brodyr, cenhadau yr eglwysi *ydynt*, *a* gogoniant Crist.
24 Am hynny dangoswch iddynt hwy hysbysrwydd o'ch cariad, ac o'n bost ninnau am danoch chwi, y'ngolwg yr eglwysi.

PENNOD 9.

1 *Y mae yn dangos yr achos paham y danfonasai efe Titus a'i frodyr o'r blaen, er ei fod yn gwybod eu parodrwydd hwy:* 6 *ac y mae yn eu cynhyrfu i roddi elusen yn helaeth; gan fod hyn megis math ar hauad hâd,* 10 *yr hwn a ddwg iddynt gynnyrch,* 13 *ac a bair aberth mawr o foliant i Dduw.*

CANYS tu ag at am y weinidogaeth i'r saint, afraid yw i mi ysgrifenu attoch:
2 O herwydd mi a adwaen barodrwydd eich meddwl chwi, yr hwn yr ydwyf yn ei fostio wrth y Macedoniaid am danoch chwi, fod Achaia wedi ymbarottôi er y llynedd; a'r sêl *a ddaeth* oddi wrthych chwi a annogodd lawer iawn.
3 A mi a ddanfonais y brodyr, fel

na byddo ein bost ni am danoch chwi yn ofer yn y rhan hon; fel, megis y dywedais, y byddoch wedi ymbarottôi:

4 Rhag, os y Macedoniaid a ddeuant gyd â mi, a'ch cael chwi yn ammharod, bod i ni, (ni ddywedaf, chwi,) gael cywilydd yn y fost hyderus yma.

5 Mi a dybiais gan hynny yn angenrheidiol attolygu i'r brodyr, ar iddynt ddyfod o'r blaen attoch, a rhag-ddarparu eich bendith chwi yr hon a fynegwyd: fel y byddo barod megis bendith, ac nid megis *o* gybydd-dra.

6 A hyn *yr wyf yn ei ddywedyd*, Yr hwn sydd yn hau yn brin, a fêd hefyd yn brin; a'r hwn sydd yn hau yn helaeth, a fêd hefyd yn helaeth.

7 Pob un megis y mae yn rhagarfaethu yn ei galon, *felly rhodded;* nid yn athrist, neu trwy gymmell: canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu.

8 Ac *y mae* Duw yn abl i beri i bob gras fod yn helaeth tu ag attoch chwi; fel y byddoch chwi ym mhob peth, bob amser, a chennych bob digonoldeb yn helaeth i bob gweithred dda:

9 Megis yr ysgrifenwyd, Efe a wasgarodd; rhoddodd i'r tlodion: ei gyfiawnder ef sydd yn aros yn dragywydd.

10 A'r hwn sydd yn rhoddi had i'r hauwr, rhodded hefyd fara yn ymborth, ac amlhâed eich had, a chwaneged ffrwyth eich cyfiawnder;

11 Wedi eich cyfoethogi ym mhob peth i bob haelioni, yr hwn sydd yn gweithio trwom ni ddïolch i Dduw.

12 Canys y mae gweinidogaeth y swydd hon, nid yn unig yn cyflawni diffygion y saint, ond hefyd yn ymhelaethu trwy aml roddi dïolch i Dduw;

13 Gan eu bod, trwy brofiad y weinidogaeth hon, yn gogoneddu Duw o herwydd darostyngiad eich cyffes chwi i efengyl Crist, ac *o herwydd* haelioni eich cyfraniad iddynt hwy, ac i bawb;

14 A thrwy eu gweddi hwythau drosoch chwi, *y rhai ydynt* yn hiraethu am danoch chwi, am y rhagorol ras Duw *yr hwn sydd* ynoch.

15 Ac i Dduw *y byddo* y dïolch am ei ddawn annhraethol.

PENNOD 10.

1 *Yn erbym y gau-apostolion, y rhai a ddystyrent wendid ei bresennoldeb corphorol ef, y mae yn gosod allan y nerth a'r awdurdod ysprydol y gwisgid ef â hwynt yn erbym pob gwrthwyneb allu; 7 gan eu sicrhau hwy, y ceir ef, ar ei ddyfodiad, mor nerthol mewn gair, ag ydyw efe yr awr hon yn absennol yn ei ysgrifen; 12 a chan feio ar y gau-athrawon, am ymgyrhaeddyd y tu hwnt i'w mesur, ac ymfrostio yn llafur gwŷr eraill.*

AMYFI Paul wyf fy hun yn attolwg i chwi, er addfwynder a hynawsedd Crist, yr hwn yn bresennol *wyf* wael yn eich plith, ond yn absennol ydwyf yn hyf arnoch.

2 Ac yr ydwyf yn dymuno na byddwyf yn bresennol yn hyf â'r hyder yr wyf yn meddwl bod tu ag at rai, y sydd yn ein cyfrif ni megis rhai yn rhodio yn ol y cnawd.

3 Canys er ein bod ni yn rhodio yn y cnawd, nid ydym yn milwrio yn ol y cnawd:

4 (Canys arfau ein milwriaeth ni nid *ydynt* gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr;)

5 Gan fwrw dychymmygion i lawr, a phob uchder a'r sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw, a chan gaethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist;

6 Ac yn barod gennym ddïal ar bob anufudd-dod, pan gyflawner eich ufudd-dod chwi.

7 Ai edrych yr ydych chwi ar bethau yn ol y golwg? Os ymddiried neb ynddo ei hun, ei fod ef yn eiddo Crist, meddylied hyn drachefn o hono ei hun, megis ag *y mae* efe yn eiddo Crist, felly *ein bod* ninnau hefyd yn eiddo Crist.

8 Oblegid pe bostiwn beth ychwaneg hefyd am ein hawdurdod (yr hon a roddodd yr Arglwydd i ni er adeilad, ac nid er eich dinystr chwi), ni'm cywilyddid:

9 Fel na thybier fy mod megis yn eich dychrynu chwi trwy lythyrau.

10 Oblegid y llythyrau yn wir (meddant) *sydd* drymion a chryf-

ion; eithr presennoldeb y corph *sydd* wan, a'r ymadrodd yn ddirmygus.

11 Y cyfryw un meddylied hyn, mai y fath ydym ni ar air trwy lythyrau yn absennol, yr un fath hefyd *a fyddwn* ar weithred yn bresennol.

12 Canys nid ŷm ni yn beiddio ein cystadlu, neu ein cyffelybu ein hunain i rai sydd yn eu canmol eu hunain: eithr hwynt-hwy, gan eu mesur eu hunain wrthynt eu hunain, a'u cyffelybu eu hunain iddynt eu hunain, nid ydynt yn deall.

13 Eithr ni fostiwn ni hyd at bethau allan o'*n* mesur, ond yn ol mesur y rheol a rannodd Duw i ni, mesur i gyrhaeddyd hyd attoch chwi hefyd.

14 Canys nid ydym, megis *rhai* heb gyrhaeddyd hyd attoch chwi, yn ymestyn allan tu hwnt i'*n mesur;* canys hyd attóch chwi hefyd y daethom âg efengyl Crist:

15 Nid gan fostio hyd at bethau allan o'*n* mesur, yn llafur rhai eraill; eithr gan obeithio, pan gynnyddo eich ffydd chwi, gael ynoch chwi ein mawrygu yn ol ein rheol yn ehelaeth,

16 I bregethu yr efengyl tu hwnt i chwi; *ac* nid i fostio yn rheol un arall am bethau parod eisoes.

17 Eithr yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd.

18 Canys nid yr hwn sydd yn ei ganmol ei hun, sydd gymmeradwy; ond yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ganmol.

PENNOD 11.

1 *O'i eiddigedd dros y Corinthiaid, y rhai oedd yn dangos eu bod yn gwneuthur mwy o gyfrif o'r gau-apostolion nag o hono ef, y mae ym gorfod, yn erbyn ei ewyllys, ei ganmol ei hun, 5 trwy ei gystadlu ei hun â'r apostolion penaf, 7 a'i fod yn-pregethu yr efengyl yn rhad ac yn ddigost iddynt hwy: 13 gan ddangos nad oedd efe ddim gwaeth na'r gweithredwyr twyllodrus hynny mewn un rhagorfraint o'r ddeddf, 23 a'i fod yn rhagori arnynt yng ngwasanaeth Crist, ac ym mhob math ar ddioddefiadau o achos ei weinidogaeth.*

ONA chyd-ddygech â myfi ychydig yn *fy* ffolineb; eithr hefyd cyd-ddygwch â myfi.

2 Canys eiddigus wyf trosoch âg eiddigedd duwiol: canys mi a'ch dyweddiais chwi i un gŵr, i'*ch* rhoddi *chwi megis* morwyn bur i Grist.

3 Ond y mae arnaf ofn, rhag mewn modd yn y byd, megis y twyllodd y sarph Efa trwy ei chyfrwysdra, felly bod eich meddyliau chwi wedi eu llygru oddi wrth y symlrwydd sydd yng Nghrist.

4 Canys yn wir os ydyw yr hwn sydd yn dyfod yn pregethu Iesu arall yr hwn ni phregethasom ni, neu *os* ydych yn derbyn yspryd arall yr hwn nis derbyniasoch, neu efengyl arall yr hon ni dderbyniasoch, teg y cyd-ddygech *âg ef.*

5 Canys yr ydwyf yn meddwl na bûm i ddim yn ol i'r apostolion pennaf.

6 Ac os *ydwyf* hefyd yn anghyfarwydd ar ymadrodd, etto nid *wyf felly* mewn gwybodaeth; eithr yn eich plith chwi nyni a eglurhâwyd yn hollol ym mhob dim.

7 A wneuthum i fai wrth fy ngostwng fy hun, fel y dyrchefid chwi, oblegid pregethu o honof i chwi efengyl Duw yn rhad?

8 Eglwysi eraill a yspeiliais, gan gymmeryd cyflog *ganddynt hwy,* i'ch gwasanaethu chwi.

9 A phan oeddwn yn bresennol gyd â chwi, ac arnaf eisieu, ni ormesais ar neb: canys fy eisieu i a gyflawnodd y brodyr a ddaethant o Macedonia: ac ym mhob dim y'm cedwais fy hun heb bwyso arnoch, ac mi a ymgadwaf.

10 Fel y mae gwirionedd Crist ynof, ni argaeir yr ymffrost hwn yn fy erbyn y'ngwledydd Achaia.

11 Paham? *ai* am nad wyf yn eich caru chwi? Duw a'i gŵyr.

12 Eithr yr hyn yr wyf yn ei wneuthur, a wnaf hefyd; fel y torrwyf ymaith achlysur oddi wrth y rhai sydd yn ewyllysio cael achlysur; fel yn yr hyn y maent yn ymffrostio, y ceir hwynt megis ninnau hefyd.

13 Canys y cyfryw gau-apostolion *sydd* weithwyr twyllodrus, wedi ymrithio yn apostolion i Grist.

14 Ac nid rhyfedd: canys y mae Satan yntau yn ymrithio yn angel goleuni.

15 Gan hynny nid mawr *yw,* er ymrithio ei weinidogion ef fel gwein-

idogion cyfiawnder; y rhai y bydd eu diwedd yn ol eu gweithredoedd.
16 Trachefn meddaf, Na thybied neb fy mod i yn ffol: os amgen, etto derbyniwch fi fel ffol, fel y gallwyf finnau hefyd ymffrostio ychydig.
17 Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd, nid ydwyf yn ei ddywedyd yn ol yr Arglwydd, eithr megis mewn ffolineb, yn hyn o fost hyderus.
18 Gan fod llawer yn ymffrostio yn ol y cnawd, minnau a ymffrostiaf hefyd.
19 Canys yr ydych yn goddef ffyliaid yn llawen, gan fod *eich hunain* yn synhwyrol.
20 Canys yr ydych yn goddef, os bydd un i'ch caethiwo, os bydd un i'*ch* llwyr-fwytta, os bydd un yn cymmeryd *gennych*, os bydd un yn ymddyrchafu, os bydd un yn eich taro chwi ar *eich* wyneb.
21 Am ammharch yr ydwyf yn dywedyd, megis pe buasem ni weiniaid: eithr ym mha beth bynnag y mae neb yn hyf, (mewn ffolineb yr wyf yn dywedyd,) hyf wyf finnau hefyd.
22 Ai Hebreaid ydynt hwy? felly finnau: ai Israeliaid ydynt hwy? felly finnau: ai had Abraham ydynt hwy? felly finnau.
23 Ai gweinidogion Crist ydynt hwy? (yr ydwyf yn dywedyd yn ffol,) mwy *wyf* fi; mewn blinderau yn helaethach, mewn gwïalennodiau dros fesur, mewn carcharau yn amlach, mewn marwolaethau yn fynych.
24 Gan yr Iuddewon bumwaith y derbyniais ddeugain *gwïalennod* ond un.
25 Tair gwaith y'm curwyd â gwïail; unwaith y'm llabyddiwyd; teirgwaith y torrodd llong arnaf; noswaith a diwrnod y bûm yn y dyfnfor;
26 Mewn teithiau yn fynych; ym mheryglon llif-ddyfroedd; ym mheryglon lladron; ym mheryglon gan *fy* nghenedl *fy hun*; ym mheryglon gan y cenhedloedd; ym mheryglon yn y ddinas; ym mheryglon yn yr anialwch; ym mheryglon ar y môr; ym mheryglon ym mhlith brodyr gau:
27 Mewn llafur a lludded; mewn anhunedd yn fynych; mewn newyn a syched; mewn ymprydiau yn fynych; mewn anwyd a noethni.
28 Heb law y pethau *sydd yn digwydd* oddi allan, yr ymosod yr hwn *sydd arnaf* beunydd, y gofal dros yr holl eglwysi.
29 Pwy sydd wan, nad wyf finnau wan? pwy a dramgwyddir, nad wyf finnau yn llosgi?
30 Os rhaid ymffrostio, mi a ymffrostiaf am y pethau sydd yn perthyn i'm gwendid.
31 Duw a Thad ein Harglwydd ni Iesu Grist, yr hwn sydd fendigedig yn oes oesoedd, a ŵyr nad wyf yn dywedyd celwydd.
32 Yn Damascus, y llywydd dan Aretas y brenhin a wyliodd ddinas y Damasciaid, gan ewyllysio fy nal i:
33 A thrwy ffenestr mewn basged y'm gollyngwyd ar hyd y mur, ac y dïengais o'i ddwylaw ef.

PENNOD 12.

1 Er gallu o hono ef orfoleddu yn ei ddatguddiadau rhyfeddol, er mwyn gosod allan ei apostoliaeth, 9 etto mae yn well ganddo orfoleddu yn ei wendid: 11 gan fyrru bai arnynt hwy am ei yrru ef i wag-ymddiriedaeth hyn. 14 Mae yn addaw dyfod attynt hwy drachefn, ac er hynny trwy dadol garedigrwydd, 20 er ei fod yn ofni y caiff ynu lawer o ddrwg-weithredwyr, ac annhrefn cyffredinol.

YMFFROSTIO yn ddïau nid yw fuddiol i mi: canys myfi a ddeuaf at weledigaethau a datguddiedigaethau yr Arglwydd.
2 Mi a adwaenwn ddyn yng Nghrist er ys rhagor i bedair blynedd ar ddeg, (pa un ai yn y corph, ni wn; ai allan o'r corph, ni wn i: Duw a ŵyr;) y cyfryw *un* a gipiwyd i fyny hyd y drydedd nef.
3 Ac mi a adwaenwn y cyfryw ddyn, (pa un ai yn y corph, ai allan o'r corph, ni wn i: Duw a ŵyr;)
4 Ei gipio ef i fyny i baradwys, ac iddo glywed geiriau annhraethadwy, y rhai nid yw gyfreithlawn i ddyn eu hadrodd.
5 Am y cyfryw *un* yr ymffrostiaf; eithr am danaf fy hun nid ymffrostiaf, oddi eithr yn fy ngwendid.
6 Canys os ewyllysiaf ymffrostio, ni byddaf ffol; canys mi a ddywedaf y gwir: eithr yr wyf yn

arbed, rhag i neb wneuthur cyfrif o honof fi uwch law y mae yn gweled fy mod, neu yn ei glywed gennyf.

7 Ac fel na'm tra-dyrchafer gan odidowgrwydd y datguddiedigaeth-au, rhoddwyd i mi swmbwl yn y cnawd, cennad Satan, i'm cernodio, fel na'm tra-dyrchefid.

8 Am y peth hwn mi attolygais i'r Arglwydd deirgwaith, ar fod iddo ymadael â mi.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Digon i ti fy ngras i: canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid. Yn llawen iawn gan hynny yr ymffrostiaf fi yn hytrach yn fy ngwendid, fel y preswylio nerth Crist ynof fi.

10 Am hynny yr wyf yn foddlawn mewn gwendid, mewn ammharch, mewn anghenion, mewn erlidiau, mewn cyfyngderau, er mwyn Crist: canys pan wyf wan, yna yr wyf gadarn.

11 Mi a euthum yn ffol wrth ymffrostio; chwychwi a'm gyrrasoch: canys myfi a ddylaswn gael fy nghanmol gennych chwi: canys ni bûm i ddim yn ol i'r apostolion pennaf, er nad ydwyf fi ddim.

12 Arwyddion apostol yn wir a weithredwyd yn eich plith chwi, mewn pob amynedd, mewn arwyddion, a rhyfeddodau, a gweithredoedd nerthol.

13 Canys beth yw yr hyn y buoch chwi yn ol am dano, mwy na'r eglwysi eraill, oddi eithr am na bûm i fy hun ormesol arnoch? maddeuwch i mi hyn o gam.

14 Wele, y drydedd waith yr wyf fi yn barod i ddyfod attoch; ac ni byddaf ormesol arnoch: canys nid ydwyf yn ceisio yr eiddoch chwi, ond chwychwi: canys ni ddylai y plant gasglu trysor i'r rhïeni, ond y rhïeni i'r plant.

15 A myfi yn ewyllysgar iawn a dreuliaf, ac a ymdreuliaf, dros eich eneidiau chwi, er fy mod yn eich caru yn helaethach, ac yn cael fy ngharu yn brinnach.

16 Eithr bid, ni phwysais i arnoch: ond, gan fod yn gyfrwys, mi a'ch deliais chwi trwy ddichell.

17 A wneuthum i elw o honoch chwi trwy neb o'r rhai a ddanfonais attoch?

18 Mi a ddeisyfais ar Titus, a chyd âg *ef* mi a anfonais frawd. A elwodd Titus ddim arnoch? onid yn yr un ysproyd y rhodiasom? onid yn yr un llwybrau?

19 Drachefn, a ydych chwi yn tybied mai ymesgusodi yr ydym wrthych? ger bron Duw yng Nghrist yr ydym yn llefaru; a phob peth, anwylyd, er adeiladaeth i chwi.

20 Canys ofni yr wyf, rhag, pan ddelwyf, na'ch caffwyf yn gyfryw rai ag a fynnwn, a'm cael innau i chwithau yn gyfryw ag nis mynnech: rhag *bod* cynhennau, cenfigennau, llidiau, ymrysonau, goganau, hustyngau, ymchwyddiadau, anghydfyddiaethau;

21 Rhag, pan ddelwyf drachefn, fod i'm Duw fy narostwng yn eich plith, ac i mi ddwyn galar dros lawer, y rhai a bechasant eisoes, ac nid edifarhasant am yr aflendid, a'r godineb, a'r anlladrwydd a wnaethant.

PENNOD 13.

1 *Y mae yn bygwth pechaduriaid diedifeirlol â thoster a gallu ei apostoliaeth. 5 A chan eu cynghori hwynt i brofi eu ffydd, 7 ac i ddiwygio eu beiau cyn ei ddyfod ef,* 11 *y mae yn diweddu ei epistol, trwy eu hannog hwy yn gyffredinol, a gweddio.*

Y DRYDEDD waith hon yr ydwyf yn dyfod attoch. Yng ngenau dau neu dri o dystion y bydd safadwy pob gair.

2 Rhag-ddywedais i chwi, ac yr ydwyf yn rhag-ddywedyd fel *pe bawn* yn bresennol yr ail waith, ac yn absennol yr awr hon yr ydwyf yn ysgrifenu at y rhai a bechasant eisoes, ac at y lleill i gyd, os deuaf drachefn, nad arbedaf:

3 Gan eich bod yn ceisio profiad o Grist, yr hwn sydd yn llefaru ynof, yr hwn tu ag attoch chwi nid yw wan, eithr sydd nerthol ynoch chwi.

4 Canys er ei groeshoelio ef o ran gwendid, etto byw ydyw trwy nerth Duw: canys ninnau hefyd ydym weiniaid ynddo ef, eithr byw fyddwn gyd âg ef trwy nerth Duw tu ag attoch chwi.

5 Profwch chwychwi eich hun-

ain, a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, *sef* bod Iesu Grist ynoch, oddi eithr i chwi fod yn anghymmeradwy?

6 Ond yr wyf yn gobeithio y gwybyddwch nad ydym ni yn anghymmeradwy.

7 Ac yr wyf yn gweddïo ar Dduw na wneloch chwi ddim drwg; nid fel yr ymddangosom ni yn gymmeradwy, ond fel y gwneloch chwi yr hyn sydd dda, er bod o honom ni megis rhai anghymmeradwy.

8 Canys ni allwn ni ddim yn erbyn y gwirionedd, ond dros y gwirionedd.

9 Canys llawen ydym pan fyddom ni yn weiniaid, a chwithau yn gryfion: a hyn hefyd yr ydym yn ei ddymuno, *sef* eich perffeithrwydd chwi.

10 Am hynny myfi yn absennol ydwyf yn ysgrifenu y pethau hyn, fel pan fyddwyf bresennol nad arferwyf doster, yn ol yr awdurdod a roddes yr Arglwydd i mi er adeilad, ac nid er dinystr.

11 Bellach, frodyr, byddwch wych. Byddwch berffaith, diddaner chwi, syniwch yr un peth, byddwch heddychol; a Duw y cariad a'r heddwch a fydd gyd â chwi.

12 Anherchwch eich gilydd â chusan sanctaidd. Y mae yr holl saint yn eich annerch chwi.

13 Gras *ein* Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, *a fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

¶ Yr ail at y Corinthiaid a ysgrifenwyd o Philippi ym Macedonia, gyd â Thitus a Luc.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT Y GALATIAID.

PENNOD 1.

6 Y mae efe yn rhyfeddu iddynt ei adael ef a'r efengyl cyn gynted; 8 ac yn melldithio y rhai a bregethant efengyl amgen na'r hon a bregethai efe. 11 Nad gan ddynion y dysgodd efe yr efengyl, eithr gan Dduw. 13 Ac y-mae yn dangos pa beth ydoedd efe cyn ei alw, 17 a pha beth a wnaeth efe yn y man wedi ei alw.

PAUL, apostol (nid o ddynion, na thrwy ddyn, eithr trwy Iesu Grist, a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw),

2 A'r brodyr oll y rhai sydd gyd â mi, at eglwysi Galatia:

3 Gras *fyddo* i chwi a heddwch oddi wrth Dduw Dad, a'n Harglwydd Iesu Grist;

4 Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau, fel y'n gwaredai ni oddi wrth y byd drwg presennol, yn ol ewyllys Duw a'n Tad ni;

5 I'r hwn *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

6 Y mae yn rhyfedd gennyf eich symmud mor fuan oddi wrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist, at efengyl arall:

7 Yr hon nid yw arall; ond bod rhai yn eich trallodi chwi, ac yn chwennych dattrôi efengyl Crist.

8 Eithr pe byddai i ni, neu i angel o'r nef, efengylu i chwi amgen na'r hyn a efengylasom i chwi, bydded anathema.

9 Megis y rhag-ddywedasom, felly yr ydwyf yr awr hon drachefn yn dywedyd, Os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbyniasoch, bydded anathema.

10 Canys yr awr hon ai peri credu dynion yr wyf, ynte Duw? neu a ydwyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion? canys pe rhyngwn fodd dynion etto, ni byddwn was i Grist.

11 Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, *am* yr efengyl a bregethwyd gennyf fi, nad yw hi ddynol.

12 Canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd; eithr trwy ddatguddiad Iesu Grist.

13 Canys chwi a glywsoch fy

ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig, i mi allan o fesur erlid eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi;
14 Ac i mi gynnyddu yn y grefydd Iuddewig yn fwy na llawer o'm cyfoedion yn fy nghenedl fy hun, gan fod yn fwy awyddus i draddodiadau fy nhadau.
15 Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neilluodd i o groth fy mam, ac a'*m* galwodd *i* trwy ei ras,
16 I ddatguddio ei Fab ef ynof fi, fel y pregethwn ef ym mhlith y cenhedloedd; yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed:
17 Ac nid euthum yn fy ol i Jerusalem at y rhai oedd o'm blaen i yn apostolion; ond mi a euthum i Arabia, a thrachefn y dychwelais i Damascus.
18 Yna ar ol tair blynedd y deuthum yn fy ol i Jerusalem i ymweled â Phedr; ac a arhosais gyd âg ef bymtheng niwrnod.
19 Eithr *neb* arall o'r apostolion nis gwelais, ond Iago brawd yr Arglwydd.
20 A'r pethau yr wyf yn eu hysgrifenu attoch, wele, ger bron Duw, nad wyf yn dywedyd celwydd.
21 Wedi hynny y deuthum i wleddydd Syria a Cilicia;
22 Ac yr oeddwn heb fy adnabod wrth *fy* wyneb yn eglwysi Judea y rhai oedd yng Nghrist:
23 Ond yn unig hwy a glywsent, fod yr hwn oedd gynt yn ein herlid ni, yr awr hon yn pregethu y ffydd, yr hon gynt a anrheithiasai.
24 A hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi.

PENNOD 2.

1 Y mae yn dangos pa bryd yr aeth efe i fyny i Jerusalem, ac i ba beth; 3 ac nad enwaedasid ar Titus; 11 a gwrthwynebu o hono ef Pedr. 14 Paham y mae efe ac eraill, a hwythau yn Iuddewon, yn credu y cânt eu cyfiawnhâu yng Nghrist trwy ffydd, ac nid trwy weithredoedd; 20 ac na bo ddynt hwy, y rhai a gyfiawnhâwyd felly, fyno mewn pechod.

YNA wedi pedair blynedd ar ddeg yr euthum drachefn i fyny i Jerusalem gyd â Barnabas, gan gymmeryd Titus hefyd gyd â mi.
2 Ac mi a euthum i fyny yn ol datguddiad, ac a fynegais iddynt yr efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu ym mhlith y Cenhedloedd; ond o'r neilldu i'r rhai cyfrifol, rhag mewn un modd fy mod yn rhedeg yn ofer, neu ddarfod i mi redeg.
3 Eithr Titus, yr hwn oedd gyd â mi, er ei fod yn Roegwr, ni chymhellwyd chwaith i enwaedu arno:
4 A hynny o herwydd y gaufrodyr a ddygasid i mewn, y rhai a ddaethant i mewn i yspïo ein rhyddid ni yr hon sydd gennym yng Nghrist Iesu, fel y'n caethiwent ni:
5 I ba rai nid ymroisom trwy ddarostyngiad, na ddo dros awr; fel yr arhosai gwirionedd yr efengyl gyd â chwi.
6 A chan y rhai a dybid eu bod yn rhyw beth, (pa fath *gynt* oeddynt, nid yw ddim i mi; nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn;) canys y rhai cyfrifol ni ychwanegasant ddim i mi:
7 Eithr yn y gwrthwyneb, pan welsant ddarfod ymddiriedi i mi am efengyl y dïenwaediad, megis am *efengyl* yr enwaediad i Pedr:
8 (Canys yr hwn oedd yn gweithredu yn nerthol yn Pedr i apostoliaeth yr enwaediad, a nerthol-weithredodd ynof finnau hefyd tu ag at y Cenhedloedd:)
9 A phan wybu Iago, a Cephas, ac Ioan, y rhai a dybid eu bod yn golofnau, y gras a roddwyd i mi, hwy a roddasant i mi ac i Barnabas ddehau-ddwylaw cymdeithas; fel *yr elem* ni at y Cenhedloedd, a hwythau at yr enwaediad.
10 Yn unig ar fod i ni gofio y tlodion; yr hyn hefyd y bûm i ddiwyd i'w wneuthur.
11 A phan ddaeth Pedr i Antiochia, mi a'i gwrthwynebais yn ei wyneb, am ei fod i'w feio.
12 Oblegid cyn dyfod rhai oddi wrth Iago, efe a fwyttaodd gyd â'r Cenhedloedd: ond wedi iddynt ddyfod, efe a giliodd, ac a neilluodd ei hun oddi wrthynt, gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad.
13 A'r Iuddewon eraill hefyd a gyd-ragrithiasant âg ef; yn gymmaint ag y dygwyd Barnabas hefyd i'w rhagrith hwy.
14 Eithr pan welais i nad oedd-

ynt yn iawn-droedio at wirionedd yr efengyl, mi a ddywedais wrth Pedr yn *eu* gŵydd *hwy* oll, Os wyt ti, a thi yn Iuddew, yn byw fel y Cenhedloedd, ac nid fel yr Iuddewon, paham yr wyt ti yn cymmell y Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd?

15 Nyni, *y rhai* wrth naturiaeth *ydym* Iuddewon, ac nid o'r Cenhedloedd yn bechaduriaid,

16 Yn gwybod nad ydys yn cyfiawnhâu dyn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd Iesu Grist, ninnau hefyd a gredasom yng Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnhâer trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf: oblegid ni chyfiawnhêir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf.

17 Ac os, wrth geisio ein cyfiawnhâu yng Nghrist, y'n caed ninnau hefyd yn bechaduriaid, *a ydyw* Crist am hynny yn weinidog pechod? Na atto Duw.

18 Canys os wyf fi yn adeiladu drachefn y pethau a ddistrywiais, yr wyf yn fy ngwneuthur fy hun yn droseddwr.

19 Canys yr wyf fi trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf, fel y byddwn fyw i Dduw.

20 Mi a groeshoeliwyd gyd â Christ: eithr byw ydwyf; etto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi: a'r hyn yr ydwyf yr awr hon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosof fi.

21 Nid wyf yn dirymmu gras Duw: canys os o'r ddeddf *y mae* cyfiawnder, yna y bu Crist farw yn ofer.

PENNOD 3.

1 *Mae efe yn gofyn pa beth a'u cymhyrfodd hwy i ymadael a'r ffydd, ac i lynu wrth y gyfraith.* 6 *Y rhai a credant a gyfiawnhêir,* 9 *ac a fendithir gyd âg Abraham:* 10 *a hyn y mae efe yn ei ddangos trwy lawer o resymmau.*

O *Y* Galatiaid ynfyd, pwy a'ch llygad-dynodd chwi fel nad ufuddhâech i'r gwirionedd, i ba rai o flaen eu llygaid y portreiadwyd Iesu Grist, wedi ei groeshoelio yn eich plith?

2 Hyn yn unig a ewyllysiaf ei ddysgu gennych; Ai wrth weithredoedd y ddeddf y derbyniasoch yr Ysbryd, ynte wrth wrandawiad ffydd?

3 A ydych chwi mor ynfyd? gwedi i chwi ddechreu yn yr Ysbryd, a berffeithir chwi yr awr hon yn y cnawd?

4 A ddïoddefasoch gymmaint yn ofer? os *yw* ofer hefyd.

5 Yr hwn gan hynny sydd yn trefnu i chwi yr Ysbryd, ac yn gwneuthur gwyrthiau yn eich plith, *ai* o weithredoedd y ddeddf, neu o wrandawiad ffydd *y mae?*

6 Megis y credodd Abraham i Dduw, ac y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.

7 Gwybyddwch felly mai y rhai sydd o ffydd, y rhai hynny yw plant Abraham.

8 A'r ysgrythyr yn rhag-weled mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhâu y cenhedloedd, a rag-efengylodd i Abraham, *gan ddywedyd,* Ynot ti y bendithir yr holl genhedloedd.

9 Felly gan hynny, y rhai sydd o ffydd a fendithir gyd âg Abraham ffyddlawn.

10 Canys cynnifer ag y sydd o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent: canys ysgrifenwyd, Melldigedig *yw* pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt.

11 Ac na chyfiawnhêir neb trwy y ddeddf ger bron Duw, eglur *yw:* oblegid, Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.

12 A'r ddeddf nid yw o ffydd: eithr, Y dyn a wna y pethau hynny, a fydd byw ynddynt.

13 Crist a'n llwyr-brynodd oddi wrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith trosom: canys y mae yn ysgrifenedig, Melldigedig *yw* pob un sydd y'nghrôg ar bren:

14 Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd, trwy Grist Iesu; fel y derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd.

15 Y brodyr, dywedyd yr wyf ar wedd ddynol; Cyd na byddo ond ammod dyn, wedi y cadarnhâer,

nid yw neb yn ei ddirymmu neu yn rhoddi atto.

16 I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megis am lawer; ond megis am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist.

17 A hyn yr wyf yn ei ddywedyd, *am* yr ammod a gadarnhâwyd o'r blaen gan Dduw yng Nghrist, nad yw y ddeddf, oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi, yn ei ddirymmu, i wneuthur yr addewid yn ofer.

18 Canys os o'r ddeddf *y mae* yr etifeddiaeth, nid *yw* hayach o'r addewid: ond Duw a'*i* rhad-roddodd i Abraham trwy addewid.

19 Beth gan hynny *yw* y ddeddf? Oblegid troseddau y rhoddwyd hi yn ychwaneg, hyd oni ddelai yr had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid; *a hi* a drefnwyd trwy angylion yn llaw cyfryngwr.

20 A chyfryngwr nid yw i un; ond Duw sydd un.

21 *A ydyw* y ddeddf gan hynny yn erbyn addewidion Duw? Na atto Duw: canys pe rhoisid deddf a allasai fywhâu, yn wir o'r ddeddf y buasai cyfiawnder.

22 Eithr cyd-gauodd yr ysgrythyr bob peth dan bechod, fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd Iesu Grist i'r rhai sydd yn credu.

23 Eithr cyn dyfod ffydd, y'n cadwyd dan y ddeddf, wedi ein cydgau i'r ffydd, yr hon oedd i'w datguddio.

24 Y ddeddf gan hynny oedd ein hathraw ni at Grist, fel y'n cyfiawnhâid trwy ffydd.

25 Eithr wedi dyfod ffydd, nid ydym mwyach dan athraw.

26 Canys chwi oll ydych blant i Dduw trwy ffydd yng Nghrist Iesu.

27 Canys cynnifer o honoch ag a fedyddiwyd yng Nghrist, a wisgasoch Grist.

28 Nid oes nac Iuddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes na gwrryw na benyw: canys chwi oll un ydych yng Nghrist Iesu.

29 Ac os eiddo Crist *ydych*, yna had Abraham ydych, ac etifeddion yn ol yr addewid.

PENNOD 4.

1 *Ein bod ni dan y ddeddf hyd ddyfodiad Crist, fel y mae yr etifedd dan ei ymgeleddwr nes ei ddyfod i'w oed: 5 eithr darfod i Grist ein rhyddhâu ni oddi wrth y ddeddf: 7 nad ydym ni gan hynny weision iddi mwyach. 14 Y mae efe ym cofio eu hewyllys da hwynt tu ag atto ef, a'r eiddo ymtau tu ag attynt hwythau; 22 ac yn dangos mai meibion i Abraham ydym ni, o'r wraig rydd.*

A*HYN* yr wyf yn ei ddywedyd: dros gymmaint o amser ag y mae yr etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhynggdo a gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl;

2 Eithr y mae efe dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, hyd yr amser a osodwyd gan y tad.

3 Felly ninnau hefyd, pan oeddym fechgyn, oeddym gaethion dan wyddorion y byd:

4 Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf;

5 Fel y prynai y rhai *oedd* dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad.

6 Ac o herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonnau chwi, yn llefain, Abba, Dad.

7 Felly nid wyt ti mwy yn was, ond yn fab; ac os mab, etifedd hefyd i Dduw trwy Grist.

8 Eithr y pryd hynny, pan oeddych heb adnabod Duw, chwi a wasanaethasoch y rhai wrth naturiaeth nid ydynt dduwiau.

9 Ac yn awr, a chwi yn adnabod Duw, ond yn hytrach yn adnabyddus gan Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr egwyddorion llesg a thlodion, y rhai yr ydych yn chwennych drachefn o newydd eu gwasanaethu?

10 Cadw yr ydych ddiwrnodau, a misoedd, ac amseroedd, a blynyddoedd.

11 Y mae arnaf ofn am danoch, rhag darfod i mi boeni wrthych yn ofer.

12 Byddwch fel fyfi, canys *yr wyf* fi fel chwi, y brodyr, attolwg i chwi: ni wnaethoch i mi ddim cam.

13 A chwi a wyddoch mai trwy wendid y cnawd yr efengylais i chwi y waith gyntaf.

14 A'm profedigaeth, yr hon *oedd*
yn fy nghnawd, ni ddïystyrasoch,
ac ni ddirmygasoch; eithr chwi
a'm derbyniasoch megis angel Duw,
megis Crist Iesu.
15 Beth wrth hynny oedd eich
dedwyddwch chwi? canys tystio
yr wyf i chwi, pe *buasai* bosibl,
y tynnasech eich llygaid, ac a'u
rhoisech i mi.
16 A euthum i gan hynny yn elyn
i chwi, wrth ddywedyd i chwi y
gwir?
17 Y maent yn rhoi mawr-serch
arnoch, *ond* nid yn dda; eithr
chwennych y maent eich cau chwi
allan, fel y rhoddoch fawr-serch
arnynt hwy.
18 Eithr da *yw* dwyn mawr-serch
mewn peth da yn wastadol, ac nid
yn unig tra fyddwyf bresennol gyd
â chwi.
19 Fy mhlant bychain, y rhai yr
wyf yn eu hesgor drachefn, hyd
oni ffurfier Crist ynoch;
20 *Ac* mi a fynnwn pe bawn yn
awr gyd â chwi, a newidio fy llais;
o herwydd yr wyf yn ammeu o
honoch.
21 Dywedwch i mi, y rhai ydych
yn chwennych bod dan y ddeddf,
onid ydych chwi yn clywed y
ddeddf?
22 Canys y mae yn ysgrifenedig,
fod i Abraham ddau fab; un o'r
wasanaethferch, ac un o'r *wraig*
rydd.
23 Eithr yr hwn *oedd* o'r wasan-
aethferch, a aned yn ol y cnawd;
a'r hwn *oedd* o'r *wraig* rydd, trwy
yr addewid.
24 Yr hyn bethau ydynt mewn
alegori: canys y rhai hyn yw y
ddau destament; un yn ddïau o
fynydd Sina, yn cenhedlu i gaeth-
iwed, yr hon yw Agar:
25 Canys yr Agar yma yw myn-
ydd Sina yn Arabia, ac y mae yn
cyfatteb i'r Jerusalem *sydd* yn
awr; ac y mae yn gaeth, *hi* a'i
phlant.
26 Eithr y Jerusalem *honno* uch-
od sydd rydd, yr hon yw ein mam
ni oll.
27 Canys ysgrifenedig yw, Lla-
wenhâ, di yr ammhlantadwy, yr
hon nid wyt yn eppilio; tor allan
a llefa, yr hon nid wyt yn esgor:
canys i'r unig y mae llawer mwy o
blant nag i'r hon y mae iddi ŵr.
28 A ninnau, frodyr, megis *yr*
oedd Isaac, ydym blant yr add-
ewid.
29 Eithr megis y pryd hwnnw,
yr hwn a anwyd yn ol y cnawd
a erlidiai yr hwn *a anwyd* yn ol yr
Ysbryd, felly yr awr hon hefyd.
30 Ond beth y mae yr ysgrythyr
yn ei ddywedyd? Bwrw allan y
wasanaethferch a'i mab: canys ni
chaiff mab y wasanaethferch eti-
feddu gyd â mab y *wraig* rydd.
31 Felly, frodyr, nid plant i'r
wasanaethferch ydym, ond i'r *wraig*
rydd.

PENNOD 5.

1 Y mae yn eu hannog hwy i sefyll yn eu rhyddid, 3 ac nad arferont enwaediad; 13 eithr yn hytrach cariad, yr hwn yw cyflawnder y gyfraith. 19 Y mae yn rhifo gweithredoedd y cnawd, 22 a ffrwythau yr Ysbryd; 25 ac yn eu hannog i rodio yn yr Ysbryd.

SEFWCH gan hynny yn y rhydd-
id â'r hwn y rhyddhaodd Crist
ni; ac na ddalier chwi drachefn
dan iau caethiwed.
2 Wele, myfi Paul wyf yn dywed-
yd wrthych, Os enwaedir chwi, ni
lesâ Crist ddim i chwi.
3 Ac yr wyf yn tystiolaethu dra-
chefn i bob dyn a'r a enwaedir, ei
fod ef yn ddyledwr i gadw yr holl
ddeddf.
4 Chwi a aethoch yn ddifudd
oddi wrth Grist, y rhai ydych yn
ymgyfiawnhâu yn y ddeddf: chwi
a syrthiasoch ymaith oddi wrth
ras.
5 Canys nyni yn yr Ysbryd trwy
ffydd ydym yn disgwyl gobaith
cyfiawnder.
6 Canys yng Nghrist Iesu ni all
enwaediad ddim, na dïenwaediad;
ond ffydd yn gweithio trwy gar-
iad.
7 Chwi a redasoch yn dda; pwy
a'ch rhwystrodd chwi, fel nad
ufuddhâech i'r gwirionedd?
8 Y cynghor *hwn* nid *yw* oddi
wrth yr hwn sydd yn eich galw
chwi.
9 Y mae ychydig lefain yn lefeinio
yr holl does.
10 Y mae gennyf fi hyder am
danoch yn yr Arglwydd, na syn-

iwch chwi ddim arall: ond y neb
sydd yn eich trallodi a ddwg farn-
edigaeth, pwy bynnag fyddo.
11 A myfi, frodyr, os yr enwaed-
iad etto yr wyf yn ei bregethu,
paham y'm herlidir etto? yn wir
tynnwyd ymaith dramgwydd y
groes.
12 Mi a fynnwn, ïe, pe torrid
ymaith y rhai sydd yn aflonyddu
arnoch.
13 Canys i ryddid y'ch galwyd
chwi, frodyr: yn unig nac *arfer-*
wch y rhyddid yn achlysur i'r
cnawd, ond trwy gariad gwasan-
aethwch eich gilydd.
14 Canys yr holl ddeddf a gyf-
lawnir mewn un gair, *sef* yn hwn;
Câr dy gymmydog fel ti dy hun.
15 Ond os cnoi a thraflyngcu
eich gilydd yr ydych, gwyliwch na
ddifethir chwi gan eich gilydd.
16 Ac yr wyf yn dywedyd, Rhod-
iwch yn yr Ysprvd, ac na chyflawn-
wch drachwant y cnawd.
17 Canys y mae y cnawd yn
chwennychu yn erbyn yr Ysprvd,
a'r Ysprvd yn erbyn y cnawd: a'r
rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd,
fel na alloch wneuthur beth byn-
nag a ewyllysioch.
18 Ond os gan yr Ysprvd y'ch
arweinir, nid ydych dan y ddeddf.
19 Hefyd amlwg yw gweithred-
oedd y cnawd; y rhai yw, tor-
priodas, godineb, aflendid, anllad-
rwydd,
20 Delw-addoliaeth, swyn-gyfar-
edd, casineb, cynhennau, gwyn-
fydau, llid, ymrysonau, ymbleidio,
heresiau,
21 Cenfigennau, llofruddiaeth,
meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb
i'r rhai hyn: am y rhai yr wyf fi
yn rhag-ddywedyd wrthych, megis
ag y rhag-ddywedais, na chaiff y
rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw
bethau etifeddu teyrnas Dduw.
22 Eithr ffrwyth yr Ysprvd yw,
cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-
ymaros, cymmwynasgarwch, daioni,
ffydd, addfwynder, dirwest:
23 Yn erbyn y cyfryw nid oes
ddeddf.
24 A'r rhai *sydd* yn eiddo Crist,
a groeshoeliasant y cnawd, â'i
wŷniau a'i chwantau.
25 Os byw yr ydym yn yr Ys-
prvd, rhodiwn hefyd yn yr Ysprvd.
26 Na fyddwn wag-ogoneddgar,
gan ymannog ein gilydd, gan ym-
genfigennu wrth ein gilydd.

PENNOD 6.

1 Y mae yn ŵu hannog i ymddwyn yn llariaidd tu ag at frawd a lithrodd; 2 ac i ddwyn bob un faich eu gilydd: 6 i fod yn hael tu ag at eu dysgawdwyr; 9 ac na ddiffygiont yn gwneuthur da. 12 Y mae yn dangos pa beth yw amcan y rhai sydd yn pregethu yr enwaediad. 14 Nad yw efe yn gorfoleddu mewn dim, ond ynghroes Crist.

Y BRODYR, os goddiweddir
dyn ar ryw fai, chwychwi y
rhai ysprydol, adgyweiriwch y cyf-
ryw un mewn ysprvd addfwynder;
gan dy ystyried dy hun, rhag dy
demtio dithau.
2 Dygwch feichiau eich gilydd, ac
felly cyflawnwch gyfraith Crist.
3 Oblegid os tybia neb ei fod yn
rhyw beth, ac yntau heb fod yn
ddim, y mae efe yn ei dwyllo ei
hun.
4 Eithr profed pob un ei waith
ei hun; ac yna y caiff orfoledd
ynddo ei hun yn unig, ac nid
mewn arall.
5 Canys pob un a ddwg ei faich
ei hun.
6 A chyfranned yr hwn a ddysg-
wyd yn y gair â'r hwn sydd yn ei
ddysgu, ym mhob peth da.
7 Na thwyller chwi: ni watwarir
Duw: canys beth bynnag a hauo
dyn, hynny hefyd a fêd efe.
8 Oblegid yr hwn sydd yn hau
i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fêd
lygredigaeth: eithr yr hwn sydd
yn hau i'r Ysprvd, o'r Ysprvd a
fêd fywyd tragywyddol.
9 Eithr yn gwneuthur daioni na
ddïogwn: canys yn ei iawn bryd y
medwn, oni ddiffygiwn.
10 Am hynny tra yr ydym yn
cael amser cyfaddas, gwnawn dda i
bawb, ond yn enwedig i'r rhai sydd
o deulu y ffydd.
11 Gwelwch cyhyd y llythyr a ys-
grifenais attoch â'm llaw fy hun.
12 Cynnifer ag sydd yn ewyll-
ysio ymdeccâu yn y cnawd, y rhai
hyn sydd yn eich cymmell i'ch en-
waedu; yn unig fel nad erlidier
hwy oblegid croes Crist.
13 Canys nid yw y rhai a enwaed-
ir, eu hunain yn cadw y ddeddf;

ond ewyllysio y maent enwaedu arnoch chwi, fel y gorfoleddont yn eich cnawd chwi.

14 Eithr na atto Duw i mi ymffrostio ond y'nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd.

15 Canys yng Nghrist Iesu ni ddichon enwaediad ddim, na dïenwaediad, ond creadur newydd.

16 A chynnifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd arnynt a thrugaredd, ac ar Israel Duw.

17 O hyn allan na flined neb fi: canys dwyn yr wyf fi yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Iesu.

18 Gras ein Harglwydd Iesu Grist *a fyddo* gyd â'ch yspryd chwi, frodyr. Amen.

¶ At y Galatiaid yr ysgrifenwyd o Rufain.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT YR EPHESIAID.

PENNOD 1.

1 *Ar ol cyfarch yr Ephesiaid,* 3 *a dïolch drostynt,* 4 *y mae efe yn crybwyll am ein hetholedigaeth ni,* 6 *a'n mabwysiad trwy ras,* 11 *yr hyn yw gwir ffynnon iachawdwriaeth dyn:* 13 *ac am na ellir yn hawdd gynhaeddyd uchder y diraciwch hwn,* 16 *y mae yn gweddïo ar iddynt ddyfod* 18 *i gyfatwn wybodaeth* 20 *a meddiant o hono yng Nghrist.*

PAUL, apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, at y saint sydd yn Ephesus, a'r ffyddloniaid yng Nghrist Iesu:

2 Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

3 Bendigedig *fyddo* Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith ysprydol yn y nefolion *leoedd* yng Nghrist:

4 Megis yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd, fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad:

5 Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef,

6 Er mawl gogoniant ei ras ef, trwy yr hwn y gwnaeth ni yn gymmeradwy yn yr Anwylyd:

7 Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, *sef* maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef;

8 Trwy yr hwn y bu efe helaeth i ni ym mhob doethineb a deall,

9 Gwedi iddo hysbysu i ni ddirgelwch ei ewyllys, yn ol ei foddlonrwydd ei hun, yr hon a arfaethasai efe ynddo ei hun:

10 Fel y'ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd, y gallai grynhôi ynghyd yng Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd, ac ar y ddaear, ynddo ef:

11 Yn yr hwn y'n dewiswyd hefyd, wedi ein rhagluniaethu yn ol arfaeth yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun:

12 Fel y byddem ni er mawl i'w ogoniant ef, y rhai o'r blaen a obeithiasom yng Nghrist.

13 Yn yr hwn *y gobeithiasoch* chwithau hefyd, wedi i chwi glywed gair y gwirionedd, efengyl eich iachawdwriaeth: yn yr hwn hefyd, wedi i chwi gredu, y'ch seliwyd trwy Lân Yspryd yr addewid;

14 Yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd bryniad y pwrcas, i fawl ei ogoniant ef.

15 O herwydd hyn minnau hefyd, wedi clywed eich ffydd yn yr Arglwydd Iesu, a'ch cariad tu ag at yr holl saint,

16 Nid wyf yn peidio â dïolch drosoch, gan wneuthur coffa am danoch yn fy ngweddïau;

17 Ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roddi i chwi Yspryd doethineb a datguddiad, trwy ei adnabod ef:

18 Wedi goleuo llygaid eich medd-

yliau; fel y gwypoch beth yw gobaith ei alwedigaeth ef, a pheth *yw* golud gogoniant ei etifeddiaeth ef yn y saint,

19 A pheth *yw* rhagorol fawredd ei nerth ef tu ag attom ni y rhai ym yn credu, yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef;

20 Yr hon a weithredodd efe yng Nghrist, pan y cyfododd ef o feirw, ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheulaw ei hun yn y nefolion *leoedd*,

21 Goruwch pob tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw:

22 Ac a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef, ac a'i rhoddes ef yn ben uwch law pob peth i'r eglwys,

23 Yr hon yw ei gorph ef, ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll.

PENNOD 2.

1 *Trwy gyffelybu yr hyn oeddym ni wrth 3 naturiaeth d'r hyn ydym ni 5 trwy ras, 10 y mae ym dangos ddarfod ein creu ni i weithredoedd da;* 13 *a chan ein bod ni wedi ein dwyn yn agos trwy Grist, na ddylem ni fyw megis* 11 *Cenhedloedd, ac* 12 *estroniaid gynt; ond megis* 19 *cyd-ddinasyddion d'r saint, a theulu Duw.*

ACHWITHAU *a fywhaodd efe*, pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau;

2 Yn y rhai y rhodiasoch gynt yn ol helynt y byd hwn, yn ol tywysog llywodraeth yr awyr, yr ysbryd sydd yr awr hon yn gweithio ym mhlant anufudd-dod;

3 Ym mysg y rhai hefyd y bu ein hymarweddiad ni oll gynt, yn chwantau ein cnawd, gan wneuthur ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau; ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint, megis eraill.

4 Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni,

5 Ie, pan oeddym feirw mewn camweddau, a'n cyd-fywhaodd ni gyd â Christ (trwy ras yr ydych yn gadwedig),

6 Ac a'*n* cyd-gyfododd, ac a'*n* gosododd i gyd-eistedd yn y nefolion *leoedd* yng Nghrist Iesu:

7 Fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai, ragorol olud ei ras ef, trwy *ei* gymmwynasgarwch i ni yng Nghrist Iesu.

8 Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hynny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw *ydyw:*

9 Nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb.

10 Canys ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a rag-ddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt.

11 Am hynny cofiwch, a chwi gynt yn Genhedloedd yn y cnawd, y rhai a elwid yn ddïenwaediad, gan yr hyn a elwir enwaediad o waith llaw yn y cnawd;

12 Eich bod chwi y pryd hwnnw heb Grist, wedi eich dïeithrio oddi wrth wladwriaeth Israel, ac yn estroniaid oddi wrth ammodau yr addewid, heb obaith gennych, ac heb Dduw yn y byd:

13 Eithr yr awr hon yng Nghrist Iesu, chwychwi, y rhai oeddych gynt ym mhell, a wnaethpwyd yn agos trwy waed Crist.

14 Canys efe yw ein tangnefedd ni, yr hwn a wnaeth y ddau yn un, ac a ddattododd ganolfur y gwahaniaeth rhyngom ni;

15 Ac a ddirymmodd trwy ei gnawd ei hun y gelyniaeth, *sef* deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau, fel y creai y ddau ynddo ei hun yn un dyn newydd, gan wneuthur heddwch;

16 Ac fel y cymmodai y ddau â Duw yn un corph trwy y groes, wedi lladd y gelyniaeth trwyddi hi.

17 Ac efe a ddaeth, ac a bregethodd dangnefedd i chwi y rhai pell, ac i'r rhai agos.

18 Oblegid trwyddo ef y mae i ni ein dau ddyfodfa mewn un Ysbryd at y Tad.

19 Weithian gan hynny nid ydych chwi mwyach yn ddïeithriaid a dyfodiaid, ond yn gyd-ddinasyddion â'r saint, ac yn deulu Duw;

20 Wedi eich goruwch-adeiladu ar sail yr apostolion a'r prophwydi, ac Iesu Grist ei hun yn ben congl-*faen;*

21 Yn yr hwn y mae yr holl adeilad

wedi ei chymmwys gyd-gyssylltu,
yn cynnyddu yn deml sanctaidd yn
yr Arglwydd:
22 Yn yr hwn y'ch cyd-adeiladwyd
chwithau yn breswylfod i Dduw
trwy yr Ysbryd.

PENNOD 3.

1 *Darfod hysbyeu i Paul, trwy ddatguddiad,*
5 *guddiedig ddirgelwch* 6 *cadwedigaeth y*
Cenhedloedd; 8 *ac mai iddo ef y rhoisid y*
gras i'w 9 *bregethu ef.* 13 *Y mae yn dymuno*
arnynt na lwfrhaont oblegid ei finderau ef;
14 *ac yn gweddio* 19 *ar iddynt wybod mawr*
gariad Duw tu ag attynt.

ER mwyn hyn, myfi Paul, carcharor Iesu Grist trosoch chwi y Cenhedloedd;
2 Os clywsoch am oruchwyliaeth gras Duw, yr hon a roddwyd i mi tu ag attoch chwi:
3 Mai trwy ddatguddiad yr hysbysodd efe i mi y dirgelwch, megis yr ysgrifenais o'r blaen ar ychydig *eiriau,*
4 Wrth yr hyn y gellwch, pan ddarllenoch, wybod fy neall i yn nirgelwch Crist,
5 Yr hwn yn oesoedd eraill nid eglurwyd i feibion dynion, fel y mae yr awr hon wedi ei ddatguddio i'w sanctaidd apostolion a'i brophwydi trwy yr Ysbryd;
6 Y byddai y Cenhedloedd yn gyd-etifeddion, ac yn gyd-gorph, ac yn gyd-gyfrannogion o'i addewid ef yng Nghrist, trwy yr efengyl;
7 I'r hon y'm gwnaed i yn weinidog, yn ol rhodd gras Duw yr hwn a roddwyd i mi, yn ol grymmus weithrediad ei allu ef.
8 I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, y rhoddwyd y gras hwn, i efengylu ym mysg y Cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist;
9 Ac i egluro i bawb beth *yw* cymdeithas y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a greodd bob peth trwy Iesu Grist:
10 Fel y byddai yr awr hon yn hysbys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau yn y nefolion *leoedd,* trwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw,
11 Yn ol yr arfaeth dragywyddol yr hon a wnaeth efe yng Nghrist Iesu ein Harglwydd ni:
12 Yn yr hwn y mae i ni hyfdra, a dyfodfa mewn hyder, trwy ei ffydd ef.
13 O herwydd paham yr wyf yn dymuno na lwfrhaoch oblegid fy mlinderau i drosoch, yr hyn yw eich gogoniant chwi.
14 O herwydd hyn yr wyf yn plygu fy ngliniau at Dad ein Harglwydd Iesu Grist,
15 O'r hwn yr enwir yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaear,
16 Ar roddi o hono ef i chwi, yn ol cyfoeth ei ogoniant, fod wedi ymgadarnhâu mewn nerth, trwy ei Ysbryd ef, yn y dyn oddi mewn;
17 Ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonnau chwi;
18 Fel y galloch, wedi eich gwreiddio a'ch seilio mewn cariad, amgyffred gyd â'r holl saint, beth *yw* y lled, a'r hŷd, a'r dyfnder, a'r uchder;
19 A gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwch law gwybodaeth, fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw.
20 Ond i'r hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl, yn ol y nerth sydd yn gweithredu ynom ni,
21 Iddo ef *y byddo* y gogoniant yn yr eglwys trwy Grist Iesu, dros yr holl genhedlaethau, hyd yn oes oesoedd. Amen.

PENNOD 4.

1 *Y mae yn eu hannog hwynt i undeb;* 7 *ac yn*
dangos bod Duw yn rhoddi amryw 11 *ddoniau i ddynion, er mwyn* 13 *adeiladaeth ei*
eglwys, a'i 16 *chynnydd yng Nghrist.* 17 *Y*
mae yn eu galw hwynt oddi wrth ammhurdeb y cenhedloedd, 24 *i wisgo y dyn newydd;*
25 *ac i farw ymaith gelwydd,* 29 *ac ymadrodd llygredig.*

DEISYF gan hynny arnoch yr wyf fi, y carcharor yn yr Arglwydd, ar rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi,
2 Gyd â phob gostyngeiddrwydd ac addfwynder, ynghyd â hir-ymaros, gan oddef eich gilydd mewn cariad;
3 Gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd y'nghwlwm tangnefedd.
4 Un corph *sydd,* ac un Ysbryd, megis ag y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth;

5 Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd,
6 Un Duw a Thad oll, yr hwn *sydd* goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll.
7 Eithr i bob un o honom y rhoed gras, yn ol mesur dawn Crist.
8 O herwydd paham y mae efe yn dywedyd, Pan ddyrchafodd i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion.
9 (Eithr efe a ddyrchafodd, beth yw ond darfod iddo hefyd ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear?
10 Yr hwn a ddisgynodd, yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth.)
11 Ac efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon;
12 I berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist:
13 Hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist:
14 Fel na byddom mwyach yn blantos, yn bwhwmman, ac yn ein cylch-arwain â phob awel dysgeidiaeth, trwy hocced dynion, trwy gyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo:
15 Eithr, gan fod yn gywir mewn cariad, cynnyddu o honom iddo ef ym mhob peth, yr hwn yw y pen, *sef* Crist:
16 O'r hwn y mae yr holl gorph wedi ei gyd-ymgynnull a'i gyd-gyssylltu, trwy bob cymmal cynhaliaeth, yn ol y nerthol weithrediad ym mesur pob rhan, yn gwneuthur cynnydd y corph, i'w adeiladu ei hun mewn cariad.
17 Hyn gan hynny yr wyf yn ei ddywedyd, ac yn ei dystiolaethu yn yr Arglwydd, na rodioch chwi mwyach fel y mae y Cenhedloedd eraill yn rhodio, yn oferedd eu meddwl,
18 Wedi tywyllu *eu* deall, wedi ymddieithrio oddi wrth fuchedd Dduw, trwy yr anwybodaeth sydd ynddynt, trwy ddallineb eu calon:
19 Y rhai wedi diddarbodi, a ymroisant i drythyllwch, i wneuthur pob aflendid yn unchwant.
20 Eithr chwychwi, nid felly y dysgasoch Grist;
21 Os bu i chwi ei glywed ef, ac os dysgwyd chwi ynddo, megis y mae y gwirionedd yn yr Iesu:
22 Dodi o honoch heibio, o ran yr ymarweddiad cyntaf, yr hen ddyn, yr hwn sydd lygredig yn ol y chwantau twyllodrus;
23 Ac ymadnewyddu yn yspryd eich meddwl;
24 A gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd.
25 O herwydd paham, gan fwrw ymaith gelwydd, dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog: oblegid aelodau ydym i'n gilydd.
26 Digiwch, ac na phechwch: na fachluded yr haul ar eich digofaint chwi:
27 Ac na roddwch le i ddiafol.
28 Yr hwn a ladrattaodd, na ladratted mwyach: eithr yn hytrach cymmered boen, gan weithio â'i ddwylaw yr hyn sydd dda; fel y byddo ganddo beth i'w gyfrannu i'r hwn y mae angen arno.
29 Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau chwi, ond y cyfryw un ag a fyddo da i adeiladu yn fuddiol, fel y paro ras i'r gwrandawyr.
30 Ac na thristêwch Lân Yspryd Duw, trwy yr hwn y'ch seliwyd hyd ddydd prynedigaeth.
31 Tynner ymaith oddi wrthych bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabledd, gyd â phob drygioni:
32 A byddwch gymmwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau.

PENNOD 5.

2 Ar ol cynghorion cyffredinol i garu eu gilydd, 3 ac i ochelyd godineb, 4 a phob aflendid, 7 ac i beidio â chyttal â'r annuwiol, 15 ac i rodio yn ddiesgeulus, 18 ac i fod yn llawn o'r Yspryd; 22 y mae efe yn dysfod at ddyletsdon gwaharedol: pa fodd y dylai gwragedd ufuddhau i'w gwŷr, 25 a gwŷr garu eu gwragedd, 32 megis y mae Crist yn caru ei eglwys.

BYDDWCH gan hynny ddilynwyr Duw, fel plant anwyl ;
2 A rhodiwch mewn cariad, megis y carodd Crist ninnau, ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd.
3 Eithr godineb, a phob aflendid, neu gybydd-dra, na enwer chwaith yn eich plith, megis y gweddai i saint ;
4 Na serthedd, nac ymadrodd ffol, na choeg ddigrifwch, pethau nid ydynt weddus : eithr yn hytrach rhoddi diolch.
5 Canys yr ydych chwi yn gwybod hyn, am bob putteiniwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn sydd ddelw-addolwr, nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Crist a Duw.
6 Na thwylled neb chwi â geiriau ofer : canys oblegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod.
7 Na fyddwch gan hynny gyfrannogion â hwynt.
8 Canys yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch, ond yr awr hon goleuni *ydych* yn yr Arglwydd : rhodiwch fel plant y goleuni ;
9 (Canys ffrwyth yr Ysbryd *sydd* ym mhob daioni, a chyfiawnder, a gwirionedd ;)
10 Gan brofi beth sydd gymmeradwy gan yr Arglwydd.
11 Ac na fydded i chwi gyd-gyfeillach â gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch, eithr yn hytrach argyhoeddwch hwynt.
12 Canys brwnt yw adrodd y pethau a wneir ganddynt hwy yn ddirgel.
13 Eithr pob peth, wedi yr argyhoedder, a eglurir gan y goleuni : canys beth bynnag sydd yn egluro, goleuni yw.
14 O herwydd paham y mae efe yn dywedyd, Deffro di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddi wrth y meirw ; a Christ a oleua i ti.
15 Gwelwch gan hynny pa fodd y rhodioch yn ddïesgeulus, nid fel annoethion, ond fel doethion ;
16 Gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sydd ddrwg.
17 Am hynny na fyddwch annoethion, eithr yn deall beth *yw* ewyllys yr Arglwydd.
18 Ac na feddwer chwi gan win, yn yr hyn y mae gormodedd : eithr llanwer chwi â'r Ysbryd ;
19 Gan lefaru wrth eich gilydd mewn psalmau, a hymnau, ac odlau ysprydol ; gan ganu a phyngcio yn eich calon i'r Arglwydd ;
20 Gan ddïolch yn wastad i Dduw a'r Tad am bob peth, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist ;
21 Gan ymddarostwng i'ch gilydd yn ofn Duw.
22 Y gwragedd, ymostyngwch i'ch gwŷr priod, megis i'r Arglwydd.
23 Oblegid y gŵr yw pen y wraig, megis ag *y mae* Crist yn ben i'r eglwys ; ac efe yw Iachawdwr y corph.
24 Ond fel y mae yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist, felly hefyd *bydded* y gwragedd i'w gwŷr priod ym mhob peth.
25 Y gwŷr, cerwch eich gwragedd, megis ag y carodd Crist yr eglwys, ac a'i rhoddes ei hun drosti ;
26 Fel y sancteiddiai efe hi, a'i glanhâu â'r olchfa ddwfr trwy y gair ;
27 Fel y gosodai efe hi yn ogoneddus iddo ei hun, yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw ; ond fel y byddai yn sanctaidd ac yn ddifeius.
28 Felly y dylai y gwŷr garu eu gwragedd, megis eu cyrph eu hunain. Yr hwn a garo ei wraig, sydd yn ei garu ei hun.
29 Canys ni chasaodd neb erioed ei gnawd ei hun ; eithr ei fagu a'i feithrin y mae, megis ag *y mae* yr Arglwydd am yr eglwys :
30 Oblegid aelodau ydym o'i gorph ef, o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef.
31 Am hynny y gâd dyn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig, a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd.
32 Y dirgelwch hwn sydd fawr : eithr am Grist ac *am* yr eglwys yr wyf fi yn dywedyd.
33 Ond chwithau hefyd cymmain un, felly cared pob un o honoch ei wraig, fel ef ei hunan ; a'r wraig *edryched* ar iddi berchi *ei* gŵr.

PENNOD 6.

1 *Dyledswydd plant tu ag at eu rhieni,* 5 *a gweision tu ag at eu harglwyddi.* 10 *Mai milwriaeth yw ein bywyd ni,* 12 *nid yn unig yn erbyn cig a gwaed, eithr hefyd yn erbyn gelynion ysprydol.* 13 *Cyfiawn arfogaeth Cristion,* 18 *a'r modd yr arferir hi.* 21 *Canmol Tychicus.*

Y PLANT, ufuddhêwch i'ch rhieni yn yr Arglwydd: canys hyn sydd gyfiawn.

2 Anrhydedda dy dad a'th fam (yr hwn yw y gorchymyn cyntaf mewn addewid),

3 Fel y byddo yn dda i ti, ac fel y byddech hir-hoedlog ar y ddaear.

4 A chwithau dadau, na yrrwch eich plant i ddigio; ond maethwch hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.

5 Y gweision, ufuddhêwch i'r *rhai sydd* arglwyddi *i chwi* yn ol y cnawd, gyd âg ofn a dychryn, yn symlrwydd eich calon, megis i Grist;

6 Nid â golwg-wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, ond fel gweision Crist, yn gwneuthur ewyllys Duw o'r galon;

7 Trwy ewyllys da yn gwneuthur gwasanaeth megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion:

8 Gan wybod mai pa ddaioni bynnag a wnelo pob un, hynny a dderbyn *efe* gan yr Arglwydd, pa un bynnag ai caeth ai rhydd *fyddo.*

9 A chwithau feistriaid, gwnewch yr un pethau tu ag attynt hwy, gan roddi bygwth heibio: gan wybod fod eich Arglwydd chwi a hwythau yn y nefoedd; ac nid oes derbyn wyneb gyd âg ef.

10 Heb law hyn, fy mrodyr, ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac yng nghadernid ei allu ef.

11 Gwisgwch holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol.

12 Oblegid nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysprydol yn y nefolion *leoedd.*

13 Am hynny cymmerwch attoch holl arfogaeth Duw, fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg; ac wedi gorphen pob peth, sefyll.

14 Sefwch gan hynny, wedi amgylch-wregysu eich lwynau â gwirionedd, a gwisgo dwyfronneg cyfiawnder;

15 A gwisgo am eich traed esgidiau parottoad efengyl tangnefedd:

16 Uwch law pob dim, wedi cymmeryd tarian y ffydd, â'r hon y gellwch ddiffoddi holl biccellau tanllyd y fall.

17 Cymmerwch hefyd helm yr iachawdwriaeth, a chleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw:

18 Gan weddïo bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd, a bod yn wyliadwrus at hyn yma, trwy bob dyfal-bara, a deisyfiad dros yr holl saint;

19 A throsof finnau, fel y rhodder i mi ymadrodd, trwy agoryd fy ngenau yn hyf, i hysbysu dirgelwch yr efengyl;

20 Dros yr hon yr wyf yn gennad mewn cadwyn: fel y traethwyf yn hyf am dani, fel y perthyn i mi draethu.

21 Ond fel y gwypoch chwithau hefyd fy helynt, beth yr wyf yn ei wneuthur, Tychicus, y brawd anwyl a'r gweinidog ffyddlawn yn yr Arglwydd, a hysbysa i chwi bob peth:

22 Yr hwn a anfonais attoch er mwyn hyn yma; fel y caech wybod ein helynt ni, ac fel y diddanai efe eich calonnau chwi.

23 Tangnefedd i'r brodyr, a chariad gyd â ffydd, oddi wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

24 Gras *fyddo* gyd â phawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb. Amen.

¶ At yr Ephesiaid yr ysgrifenwyd o Rufain, gyd â Thychicus.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT Y

PHILIPPIAID.

PENNOD 1.

8 Y mae efe yn tystiolaethu ei ddïolchgarwch i Dduw, a'i serch tu ag attynt hwythau, am ffrwythau eu ffydd hwynt, a'u cymdeithas yn ei ddioddefiadau ef: 9 gan weddïo bewnydd, ar iddynt gynnyddu mewn gras. 12 Y mae yn dangos pa ddaioni a ddaeth i ffydd Crist trwy ei ffinderau ef yn Rhufain; 21 ac mor barod ydyw efe i ogoneddu Crist, pa un bynnag ai trwy fywyd ai trwy farwolaeth: 27 gan eu hannog hwy i undeb, 28 ac i fod yn gryfion mewn erlid.

PAUL a Thimothëus, gweision Iesu Grist, at yr holl saint yng Nghrist Iesu y rhai sydd yn Philippi, gyd â'r esgobion a'r diaconiaid:

2 Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.

3 I'm Duw yr ydwyf yn dïolch ym mhob coffa am danoch,

4 Bob amser ym mhob deisyfiad o'r eiddof drosoch chwi oll, gan wneuthur fy neisyfiad gyd â llawenydd,

5 Oblegid eich cymdeithas chwi yn yr efengyl, o'r dydd cyntaf hyd yr awr hon;

6 Gan fod yn hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da, *e'i* orphen hyd ddydd Iesu Grist:

7 Megis y mae yn iawn i mi synied hyn am danoch oll, am eich bod gennyf yn fy nghalon, yn gymmaint a'ch bod chwi oll, yn gystal yn fy rhwymau, ag yn fy amddiffyn a chadarnhâd yr efengyl, yn gyfrannogion â mi o ras.

8 Canys Duw sydd dyst i mi, mor hiraethus wyf am danoch oll yn ymysgaroedd Iesu Grist.

9 A hyn yr wyf yn ei weddïo, ar amlhâu o'ch cariad chwi etto fwyfwy mewn gwybodaeth a phob synwyr;

10 Fel y profoch y pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt; fel y byddoch bur a didramgwydd hyd ddydd Crist;

11 Wedi eich cyflawni â ffrwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw.

12 Ac mi a ewyllysiwn i chwi wybod, frodyr, am y pethau *a ddiguyddodd* i mi, ddyfod o honynt yn hytrach er llwyddiant i'r efengyl;

13 Yn gymmaint a bod fy rhwymau i yng Nghrist yn eglur yn yr holl lys, ac ym mhob *lle* arall;

14 Ac i lawer o'r brodyr yn yr Arglwydd fyned yn hyderus wrth fy rhwymau i, a bod yn hyfach o lawer i draethu y gair yn ddïofn.

15 Y mae rhai yn wir yn pregethu Crist trwy genfigen ac ymryson; a rhai hefyd o ewyllys da.

16 Y naill sydd yn pregethu Crist o gynnen, nid yn bur, gan feddwl dwyn mwy o flinder i'm rhwymau i:

17 A'r lleill o gariad, gan wybod mai er amddiffyn yr efengyl y'm gosodwyd.

18 Beth er hynny? etto ym mhob modd, pa un bynnag ai mewn rhith, ai mewn gwirionedd, yr ydys yn pregethu Crist: ac yn hyn yr ydwyf fi yn llawen, ïe, a llawen fyddaf.

19 Canys mi a wn y digwydd hyn i mi er iachawdwriaeth, trwy eich gweddi chwi a chynnorthwy Ysbryd Iesu Grist,

20 Yn ol fy awyddfryd a'*m* gobaith, na'm gwaradwyddir mewn dim, eithr mewn pob hyder, fel bob amser, *felly* yr awr hon hefyd, y mawrygir Crist yn fy ngorph i, pa un bynnag ai trwy fywyd, ai trwy farwolaeth.

21 Canys byw i mi *yw* Crist, a marw *sydd* elw.

22 Ac os byw fyddaf yn y cnawd, hyn *yw* ffrwyth fy llafur: a pha beth a ddewisaf, nis gwn.

23 Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeu-*tu*, gan fod gennyf chwant i'm dattod, ac i fod gyd â Christ; canys llawer iawn gwell *ydyw*.

24 Eithr aros yn y cnawd *sydd* fwy angenrheidiol o'ch plegid chwi.

25 A chennyf yr hyder hwn, yr wyf yn gwybod yr arhosaf ac y cyddrigaf gyd â chwi oll, er cynnydd i chwi, a llawenydd y ffydd;
26 Fel y byddo eich gorfoledd chwi yn helaethach yng Nghrist Iesu o'm plegid i, trwy fy nyfodiad i drachefn attoch.
27 Yn unig ymddygwch yn addas i efengyl Crist; fel pa un bynnag *a wnelwyf* ai dyfod a'ch gweled chwi, ai bod yn absennol, y clywyf oddi wrth eich helynt chwi, eich bod yn sefyll yn un yspryd, âg un enaid, gan gyd-ymdrech gyd â ffydd yr efengyl;
28 Ac heb eich dychrynu mewn un dim gan eich gwrthwynebwyr: yr hyn iddynt hwy yn wir sydd arwydd sicr o golledigaeth, ond i chwi o iachawdwriaeth, a hynny gan Dduw.
29 Canys i chwi y rhoddwyd, *bod i chwi*, er Crist, nid yn unig gredu ynddo ef, ond hefyd ddïoddef erddo ef;
30 Gan fod i chwi yr un ymdrin ag a welsoch ynof fi, ac yr awr hon a glywch *ei fod* ynof fi.

PENNOD 2.

1 *Y mae yn eu hannog hwynt i undeb, ac i bob gostyngeiddrwydd meddwl, trwy siampl ufudd-dod a dyrchafiad Crist; 12 ac i fynnedd rhagddynt yn ofalus yn ffordd iachawdwriaeth, fel y byddont megis goleuadau i'r byd annuwiol, 16 ac yn ddiddanwch iddo yntau, eu hapostol hwynt, yr hwn sydd bellach barod i'w offrymmu i Dduw. 19 Y mae yn gobeithio danfon Timotheus attynt, yr hwn y mae efe yn ei ganmol yn fawr; 25 ac felly Epaphroditus, yr hwn y mae efe ar fedr ei ddanfon attynt yn ddiattreg.*

OD *oes* gan hynny ddim diddanwch yng Nghrist, od *oes* dim cysur cariad, od *oes* dim cymdeithas yr Ysprydd, od *oes* dim ymysgaroedd a thosturiaethau,
2 Cyflawnwch fy llawenydd; fel y byddoch yn meddwl yr un peth, a'r un cariad gennych, yn gyttûn, yn synied yr un peth.
3 Na *umeler* dim trwy gynnen neu wag-ogoniant, eithr mewn gostyngeiddrwydd, gan dybied eich gilydd yn well na chwi eich hunain.
4 Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo eraill hefyd.
5 Canys bydded ynoch y meddwl yma, yr hwn *oedd* hefyd yng Nghrist Iesu:
6 Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw;
7 Eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion:
8 A'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ïe, angau y groes.
9 O herwydd paham, Duw a'i tradyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn *sydd* goruwch pob enw;
10 Fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion *bethau;*
11 Ac y cyffesai pob tafod *fod* Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad.
12 Am hynny, fy anwylyd, megis bob amser yr ufuddhasoch, nid fel yn fy ngŵydd yn unig, eithr yr awr hon yn fwy o lawer yn fy absen, gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn.
13 Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'*i* ewyllys da *ef.*
14 Gwnewch bob dim heb rwgnach ac ymddadleu;
15 Fel y byddoch ddïargyhoedd a diniwed, yn blant difeius i Dduw, y'nghanol cenhedlaeth ddrygionus a throfaus, ym mhlith y rhai yr ydych yn disgleirio megis goleuadau yn y byd;
16 Yn cynnal gair y bywyd; er gorfoledd i mi yn nydd Crist, na redais yn ofer, ac na chymmerais boen yn ofer.
17 Ïe, a phe y'm hoffrymmid ar aberth a gwasanaeth eich ffydd, llawenhâu yr wyf, a chyd-lawenhâu â chwi oll.
18 Oblegid yr un *peth* hefyd byddwch chwithau lawen, a chyd-lawenhêwch â minnau.
19 Ac yr wyf yn gobeithio yn yr Arglwydd Iesu, anfon Timotheus ar fyrder attoch, fel y'm cysurer innau hefyd, wedi i mi wybod eich helynt chwi.

20 Canys nid oes gennyf neb o gyffelyb feddwl, yr hwn a wir-ofala am y pethau a berthyn i chwi.
21 Canys pawb sydd yn ceisio yr eiddynt eu hunain, nid yr eiddo Crist Iesu.
22 Eithr y prawf o hono ef chwi a'i gwyddoch, mai fel plentyn gyd â thad, y gwasanaethodd efe gyd â myfi yn yr efengyl.
23 Hwn gan hynny yr ydwyf yn gobeithio ei ddanfon, cyn gynted ag y gwelwyf yr hyn a fydd i mi.
24 Ac y mae gennyf hyder yn yr Arglwydd y deuaf finnau hefyd ar fyrder attoch.
25 Eithr mi a dybiais yn angenrheidiol ddanfon attoch Epaphroditus, fy mrawd, a'm cyd-weithiwr, a'm cyd-filwr, ond eich cennad chwi, a gweinidog i'm cyfreidiau innau.
26 Canys yr oedd efe yn hiraethu am danoch oll, ac yn athrist iawn, oblegid i chwi glywed ei fod ef yn glaf.
27 Canys yn wir efe a fu glaf yn agos i angau: ond Duw a drugarhaodd wrtho ef; ac nid wrtho ef yn unig, ond wrthyf finnau hefyd, rhag cael o honof dristwch ar dristwch.
28 Yn fwy diwyd gan hynny yr anfonais i ef, fel gwedi i chwi ei weled ef drachefn, y byddech chwi lawen, ac y byddwn innau yn llai fy nhristwch.
29 Derbyniwch ef gan hynny yn yr Arglwydd gyd â phob llawenydd; a'r cyfryw rai gwnewch gyfrif o honynt:
30 Canys oblegid gwaith Crist y bu efe yn agos i angau, ac y bu diddarbod am ei einioes, fel y cyflawnai efe eich diffyg chwi o'ch gwasanaeth tu ag attaf fi.

PENNOD 3.

1 Y mae efe yn eu rhybuddio i ochelyd gauathrawon yr enwaediad; ac, 4 yn dangos fod iddo ef fwy o achos nag iddynt hwy, i hyderu y'nghyflawnder y ddeddf: 7 yr hyn, er hynny, y mae efe yn ei gyfrif yn dom ac yn golled, er mwyn enill Crist â'i gyflawnder; 12 gan gydnabod ei amherfeithrwydd ei hun yn hyn. 15 Y mae yn eu hannog hwy i fod o'r meddwl hwn, 17 ac i'w ddynwared ef; 18 ac i ochelyd ffyrdd Cristionogion cnawdol.

WEITHIAN, fy mrodyr, byddwch lawen yn yr Arglwydd. Ysgrifenu yr un pethau attoch, gennyf fi yn wir nid *yw* flin, ac i chwithau *y mae* yn ddïogel.
2 Gochelwch gŵn, gochelwch ddrwg-weithwyr, gochelwch y cyddoriad.
3 Canys yr enwaediad ydym ni, y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr yspryd, ac yn gorfoleddu yng Nghrist Iesu, ac nid yn ymddiried yn y cnawd:
4 *Ac* er bod gennyf *achos i* ymddiried, ïe, yn y cnawd. Os yw neb arall yn tybied *y gall* ymddiried yn y cnawd, myfi yn fwy:
5 Wedi enwaedu arnaf yr wythfed dydd, o genedl Israel, o lwyth Benjamin, yn Hebrëwr o'r Hebreaid; yn ol y ddeddf, yn Pharisead;
6 Yn ol sêl, yn erlid yr eglwys; yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf, yn ddïargyhoedd.
7 Eithr y pethau oedd elw i mi, y rhai hynny a gyfrifais i yn golled er mwyn Crist.
8 Ïe, yn ddïammeu, yr wyf hefyd yn cyfrif pob peth yn golled o herwydd ardderchowgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd: er mwyn yr hwn y'm colledwyd ym mhob peth, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom, fel yr ennillwyf Grist,
9 Ac y'm cair ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn *sydd* o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, *sef* y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd:
10 Fel yr adnabyddwyf ef, a grym ei adgyfodiad ef, a chymdeithas ei ddïoddefiadau ef, gan fod wedi fy nghyddffurfio â'i farwolaeth ef;
11 Os mewn un modd y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw:
12 Nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd eisoes, neu fod eisoes wedi fy mherfeithio; eithr dilyn yr wyf, fel y gallwyf ymaflyd *yn y peth* hwn hefyd yr ymafiwyd ynof gan Grist Iesu.
13 *Y* brodyr, nid wyf fi yn bwrw ddarfod i mi gael gafael: ond un peth, gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen,
14 Yr ydwyf yn cyrchu at y nôd,

am gamp uchel alwedigaeth Duw
yng Nghrist Iesu.
15 Cynnifer gan hynny ag ydym
berffaith, syniwn hyn: ac os ydych
yn synied dim yn amgenach, hyn
hefyd a ddatguddia Duw i chwi.
16 Er hynny, y peth y daethom
atto, cerddwn wrth yr un rheol,
syniwn yr un peth.
17 Byddwch ddilynwyr i mi, frod-
yr, ac edrychwch ar y rhai sydd yn
rhodio felly, megis yr ydym ni yn
siampl i chwi.
18 Canys y mae llawer yn rhod-
io, am y rhai y dywedais i chwi
yn fynych, ac yr ydwyf yr awr hon
hefyd dan wylo yn dywedyd, *mai*
gelynion croes Crist *ydynt*;
19 Diwedd y rhai *yw* distryw,
duw y rhai *yw eu* bol, a'u gogoni-
ant yn eu cywilydd, y rhai sydd
yn synied pethau daearol.
20 Canys ein hymarweddiad ni
sydd yn y nefoedd; o'r lle hefyd
yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr,
yr Arglwydd Iesu Grist:
21 Yr hwn a gyfnewidia ein corph
gwael ni, fel y gwneler ef yr un
ffurf a'i gorph gogoneddus ef, yn
ol y nerthol weithrediad trwy yr
hwn y dichon efe, ïe, ddarostwng
pob peth iddo ei hun.

PENNOD 4.

1 *Ar ol rhybuddion neilltuol,* 4 *y mae yn mynedd rhaggdo at gymghorion cyffredinol:* 10 *ac yn dangos pa fodd y llawenychodd efe wrth eu haelioni hwy tu ag atto, pan oedd y'ngharchar; nid yn gymmaint am iddynt borthi ei anghenion ef, ag am y gras Duw oedd ynddynt hwy:* 19 *ac felly y mae yn diweddu, gan weddïo, a'u hanerch hwy.*

AM hynny, fy mrodyr anwyl a
hoff, fy llawenydd a'm coron,
felly sefwch yn yr Arglwydd, an-
wylyd.
2 Yr ydwyf yn attolwg i Euodias,
ac yn attolwg i Syntyche, synied yr
un peth yn yr Arglwydd.
3 Ac yr ydwyf yn dymuno arnat
tithau, fy ngwir gymmar, cym-
morth y gwragedd hynny y rhai
yn yr efengyl a gyd-lafuriasant â
mi, ynghyd â Chlement hefyd, a'm
cyd-weithwyr eraill, y rhai *y mae*
eu henwau yn llyfr y bywyd.
4 Llawenhêwch yn yr Arglwydd
yn wastadol: *a* thrachefn meddaf,
Llawenhêwch.
5 Bydded eich arafwch yn hysbys
i bob dyn. *Y mae* yr Arglwydd
yn agos.
6 Na ofelwch am ddim: eithr ym
mhob peth mewn gweddi ac ym-
bil gyd â diolchgarwch, gwneler
eich deisyfiadau chwi yn hysbys
ger bron Duw.
7 A thangnefedd Duw, yr hwn
sydd uwch law pob deall, a geidw
eich calonnau a'ch meddyliau yng
Nghrist Iesu.
8 Yn ddiweddaf, frodyr, pa bethau
bynnag sydd wir, pa bethau byn-
nag *sydd* onest, pa bethau bynnag
sydd gyfiawn, pa bethau bynnag
sydd bur, pa bethau bynnag *sydd*
hawddgar, pa bethau bynnag *sydd*
ganmoladwy, od *oes* un rhinwedd,
ac od *oes* dim clod, meddyliwch am
y pethau hyn.
9 Y rhai a ddysgasoch, ac a
dderbyniasoch, ac a glywsoch, ac
a welsoch ynof fi, y pethau hyn
gwnewch: a Duw yr heddwch a
fydd gyd â chwi.
10 Mi a lawenychais hefyd yn yr
Arglwydd yn fawr, oblegid i'ch
gofal chwi am danaf fi yr awr hon
o'r diwedd adnewyddu; yn yr hyn
y buoch ofalus hefyd, ond eisieu
amser cyfaddas oedd arnoch.
11 Nid am fy mod yn dywedyd
o herwydd eisieu: canys myfi a
ddysgais ym mha gyflwr bynnag y
byddwyf, fod yn foddlawn *iddo.*
12 *Ac* mi a fedraf ymostwng, ac
a fedraf ymhelaethu: ym mhob lle
ac ym mhob peth y'm haddysgwyd,
i fod yn llawn ac i fod yn newynog,
i fod mewn helaethrwydd ac i fod
mewn prinder.
13 Yr wyf yn gallu pob peth trwy
Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu i.
14 Er hynny, da y gwnaethoch
gyd-gyfrannu â'm gorthrymder i.
15 A chwithau, Philippiaid, hefyd
a wyddoch yn nechreuad yr efengyl,
pan euthum i ymaith o Macedonia,
na chyfrannodd un eglwys â mi o
ran rhoddi a derbyn, ond chwychwi
yn unig.
16 Oblegid yn Thessalonica hefyd
yr anfonasoch i mi unwaith ac eil-
waith wrth fy anghenraid.
17 Nid o herwydd fy mod i yn
ceisio rhodd: eithr yr ydwyf yn

ceisio ffrwyth yn amlhâu erbyn eich cyfrif chwi.
18 Ond y mae gennyf bob peth, ac y mae gennyf helaethrwydd: mi a gyflawnwyd, wedi i mi dderbyn gan Epaphroditus y pethau *a ddaethant* oddi wrthych chwi; *sef* arogl peraidd, aberth cymmeradwy, boddlawn gan Dduw.
19 A'm Duw i a gyflawna eich holl raid chwi yn ol ei olud ef mewn gogoniant, yng Nghrist Iesu.
20 Ond i Dduw a'n Tad ni *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. Amen.
21 Anherchwch yr holl saint yng Nghrist Iesu. Y mae y brodyr sydd gyd â mi yn eich annerch.
22 Y mae y saint oll yn eich annerch chwi, ac yn bennaf y rhai sydd o deulu Cesar.
23 Gras ein Harglwydd Iesu Grist *fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

¶ At y Philippiaid yr ysgrifenwyd o Rufain, gyd âg Epaphroditus.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT Y COLOSSIAID.

PENNOD 1.

1 *Ar ol cyfarch iddynt, y mae Paul yn diolch i Dduw am eu ffydd hwy; 7 ac yn cadarnhau dysgeidiaeth Epaphras; 9 yn gweddio ym mhellach ar iddynt gynnyddu mewn gras; 14 ym portreiadu y gwir Grist, 21 ac yn eu hannog hwy i dderbyn Iesu Grist; ac yn canmol ei weinidogaeth ei hun.*

PAUL, apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, a Thimothëus *ein* brawd,
2 At y saint a'r ffyddlawn frodyr yng Nghrist y rhai sydd yn Colossa: Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.
3 Yr ydym yn diolch i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, gan weddio drosoch chwi yn wastadol,
4 Er pan glywsom am eich ffydd yng Nghrist Iesu, ac am y cariad *sydd gennych* tu ag at yr holl saint;
5 Er mwyn y gobaith a roddwyd i gadw i chwi yn y nefoedd, am yr hon y clywsoch o'r blaen y'ngair gwirionedd yr efengyl;
6 Yr hon sydd wedi dyfod attoch chwi, megis ag *y mae* yn yr holl fyd; ac sydd yn dwyn ffrwyth, megis ag yn eich plith chwithau, er y dydd y clywsoch, ac y gwybuoch ras Duw mewn gwirionedd:
7 Megis ag y dysgasoch gan Epaphras ein hanwyl gyd-was, yr hwn sydd drosoch chwi yn ffyddlawn weinidog i Grist;
8 Yr hwn hefyd a amlygodd i ni eich cariad chwi yn yr Ysbryd.
9 O herwydd hyn ninnau hefyd, er y dydd y clywsom, nid ydym yn peidio â gweddio drosoch, a deisyf eich cyflawni chwi â gwybodaeth ei ewyllys ef ym mhob doethineb a deall ysprydol;
10 Fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth ym mhob gweithred dda, a chynnyddu y'ngwybodaeth am Dduw;
11 Wedi eich nerthu â phob nerth, yn ol ei gadernid gogoneddus ef, i bob dioddefgarwch a hir-ymaros gyd â llawenydd;
12 Gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymmwys i *gael* rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni:
13 Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y tywyllwch, ac a'*n* symmudodd i deyrnas ei anwyl Fab:
14 Yn yr hwn y mae i ni bryn-edigaeth trwy ei waed ef, *sef* madd-euant pechodau:
15 Yr hwn yw delw y Duw anweledig, cyntaf-anedig pob creadur;
16 Canys trwyddo ef y crëwyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynnag ai thronau, ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau;

pob dim a grëwyd trwyddo ef, ac erddo ef.
17 Ac y mae efe cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cyd-sefyll.
18 Ac efe yw pen corph yr eglwys: *efe*, yr hwn yw y dechreuad, y cyntaf-anedig oddi wrth y meirw; fel y byddai efe yn blaenori ym mhob peth.
19 Oblegid rhyngodd bodd *i'r Tad* drigo o bob cyflawnder ynddo ef;
20 Ac wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef, trwyddo ef gymmodi pob peth âg ef ei hun; trwyddo ef, *meddaf*, pa un bynnag ai pethau ar y ddaear, ai pethau yn y nefoedd.
21 A chwithau, y rhai oeddych ddïeithriaid, a gelynion mewn meddwl trwy weithredoedd drwg, yr awr hon hefyd a gymmododd efe,
22 Y'nghorph ei gnawd ef trwy farwolaeth, i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd, ac yn ddifeius, ac yn ddïargyhoedd, ger ei fron ef:
23 Os ydych yn parhâu yn y ffydd, wedi eich seilio a'ch sicrhâu, ac heb eich symmud oddi wrth obaith yr efengyl, yr hon a glywsoch, *ac* a bregethwyd ym mysg pob creadur a'r sydd dan y nef; i'r hon y'm gwnaethpwyd i Paul yn weinidog:
24 Yr hwn ydwyf yn awr yn llawenychu yn fy nïoddefiadau drosoch, ac yn cyflawni yr hyn sydd yn ol o gystuddiau Crist yn fy nghnawd i, er mwyn ei gorph ef, yr hwn yw yr eglwys:
25 I'r hon y'm gwnaethpwyd i yn weinidog, yn ol goruchwyliaeth Duw, yr hon a roddwyd i mi tu ag attoch chwi, i gyflawni gair Duw;
26 *Sef* y dirgelwch oedd gudd-iedig er oesoedd ac er cenhedlaethau, ond yr awr hon a eglurwyd i'w saint ef:
27 I'r rhai yr ewyllysiodd Duw hysbysu beth yw golud gogoniant y dirgelwch hwn ym mhlith y Cenhedloedd, yr hwn yw Crist ynoch chwi, gobaith y gogoniant:
28 Yr hwn yr ydym ni yn *ei* bregethu, gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn ym mhob doethineb; fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yng Nghrist Iesu:
29 Am yr hyn yr ydwyf hefyd yn llafurio, gan ymdrechu yn ol ei weithrediad ef, yr hwn sydd yn gweithio ynof fi yn nerthol.

PENNOD 2.

1 Y mae efe etto yn eu hannog i fod yn ddïanwadal yng Nghrist; 8 ac i ochelyd philosophyddiaeth a thraddodiadau ofer, 18 ac addoli angylion, 20 a seremoniau y gyfraith, y rhai sydd wedi terfynu yng Nghrist.

CANYS mi a ewyllysiwn i chwi wybod pa faint o ymdrech sydd arnaf er eich *mwyn* chwi, a'r rhai yn Laodicea, a chynnifer ag ni welsant fy wyneb i yn y cnawd;
2 Fel y cysurid eu calonnau hwy, wedi eu cyd-gyssylltu mewn cariad, ac i bob golud sicrwydd deall, i gydnabyddiaeth dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ;
3 Yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn gudd-iedig.
4 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, fel na thwyllo neb chwi âg ymadrodd hygoel.
5 Canys er fy mod i yn absennol yn y cnawd, er hynny yr ydwyf gyd â chwi yn yr ysbryd, yn llawenychu, ac yn gweled eich trefn chwi, a chadernid eich ffydd yng Nghrist.
6 Megis gan hynny y derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd, *felly* rhodiwch ynddo;
7 Wedi *eich* gwreiddio a'ch adeiladu ynddo ef, a'ch cadarnhâu yn y ffydd, megis y'ch dysgwyd, gan gynnyddu ynddi mewn diolchgarwch.
8 Edrychwch na bo neb yn eich anrheithio trwy philosophi a gwag dwyll, yn ol traddodiad dynion, yn ol egwyddorion y byd, ac nid yn ol Crist.
9 Oblegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol.
10 Ac yr ydych chwi wedi eich cyflawni ynddo ef, yr hwn yw pen pob tywysogaeth ac awdurdod:
11 Yn yr hwn hefyd y'ch enwaedwyd âg enwaediad nid o waith llaw, trwy ddïosg corph pechodau y cnawd, yn enwaediad Crist:
12 Wedi eich cyd-gladdu âg ef yn y bedydd, yn yr hwn hefyd y'ch cyd-gyfodwyd trwy ffydd gweith-

rediad Duw, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw.

13 A chwithau, pan oeddych yn feirw mewn camweddau, a dïenwaediad eich cnawd, a gyd-fywhaodd efe gyd âg ef, gan faddeu i chwi yr holl gamweddau;

14 Gan ddileu ysgrifen-law yr ordeiniadau, yr hon oedd i'n herbyn ni, yr hon oedd y'ngwrthwyneb i ni, ac a'i cymmerodd hi oddi ar y ffordd, gan ei hoelio wrth y groes;

15 Gan yspeilio y tywysogaethau a'r awdurdodau, efe a'u harddangosodd hwy ar gyhoedd, gan ymorfoleddu arnynt arni hi.

16 Am hynny na farned neb arnoch chwi am fwyd, neu am ddïod, neu o ran dydd gwyl, neu newyddloer, neu Sabbathau:

17 Y rhai ydynt gysgod pethau i ddyfod; ond y corph *sydd* o Grist.

18 Na thwylled neb chwi am eich gwobr, wrth ei ewyllys, mewn gostyngeiddrwydd, ac addoliad angylion, gan ruthro i bethau nis gwelodd, wedi ymchwyddo yn ofer gan ei feddwl cnawdol ei hun;

19 Ac heb gyfattal y Pen, o'r hwn y mae yr holl gorph, trwy y cymmalau a'r cyssylltiadau, yn derbyn lluniaeth, ac wedi ei gyd-gyssylltu, yn cynnyddu gan gynnydd Duw.

20 Am hynny, os ydych wedi meirw gyd â Christ oddi wrth egwyddorion y byd, paham yr ydych, megis pettych yn byw yn y byd, yn ymrôi i ordeiniadau,

21 (Na chyffwrdd; *ac* na archwaetha; *ac* na theimla;

22 Y rhai ydynt oll yn llygredigaeth wrth eu harfer;) yn ol gorchymynion ac athrawiaethau dynion?

23 Yr hyn bethau sydd ganddynt rith doethineb mewn ewyllys-grefydd, a gostyngeiddrwydd, a bod heb arbed y corph, nid mewn bri i ddigoni y cnawd.

PENNOD 3.

1 *Y mae yn dangos pa le y dylem geisio Crist; 5 ac yn ein hannog i'n marwolaethu ein hunain,* 10 *i ddïosg yr hen ddyn, ac i wisgo Crist am danom;* 12 *yn ein cynghori i gariad perffaith, a gostyngeiddrwydd, ac amryw rinweddau eraill.*

AM hynny os cyd-gyfodasoch gyd â Christ, ceisiwch y pethau *sydd* uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw.

2 Rhoddwch eich serch ar bethau *sydd* uchod, nid ar bethau *sydd* ar y ddaear.

3 Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyd â Christ yn Nuw.

4 Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gyd âg ef mewn gogoniant.

5 Marwhêwch gan hynny eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear; godineb, aflendid, gwŷn, drygchwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eilun-addoliaeth:

6 O achos yr hyn bethau y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod:

7 Yn y rhai hefyd y rhodiasoch chwithau gynt, pan oeddych yn byw ynddynt.

8 Ond yr awr hon rhoddwch chwithau ymaith yr holl bethau hyn; digter, llid, drygioni, cabledd, serthedd, allan o'ch genau.

9 Na ddywedwch gelwydd wrth eich gilydd, gan ddarfod i chwi ddïosg yr hen ddyn ynghyd â'i weithredoedd;

10 A gwisgo y newydd, yr hwn a adnewyddir mewn gwybodaeth, yn ol delw yr hwn a'i creodd ef:

11 Lle nid oes na Groegwr nac Iuddew, enwaediad na dïenwaediad, Barbariad *na* Scythiad, caeth *na* rhydd: ond Crist *sydd* bob peth, ac ym mhob peth.

12 Am hynny, megis etholedigion Duw, sanctaidd ac anwyl, gwisgwch am danoch ymysgaroedd trugareddau, cymmwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros;

13 Gan gyd-ddwyn â'ch gilydd, a maddeu i'ch gilydd, os bydd gan neb gweryl yn erbyn neb: megis ag y maddeuodd Crist i chwi, felly *gwnewch* chwithau.

14 Ac am ben hyn oll, *gwisgwch* gariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd.

15 A llywodraethed tangnefedd Duw yn eich calonnau, i'r hwn hefyd y'ch galwyd yn un corph; a byddwch ddïolchgar.

16 Preswylied gair Crist ynoch yn

y dangos pa le y dylem geisio Crist; 5 ac yn ein hannog i'n marwolaethu ein hunain, 10 i ddïosg yr hen ddyn, ac i wisgo Crist am danom; 12 yn ein cynghori i gariad perffaith, a gostyngeiddrwydd, ac amryw rinweddau eraill.

helaeth ym mhob doethineb; gan ddysgu a rhybuddio bawb eich gilydd mewn psalmau, a hymnau, ac odlau ysprydol, gan ganu trwy ras yn eich calonnau i'r Arglwydd.

17 A pha beth bynnag a wneloch, ar air neu *ar* weithred, *gwnewch* bob peth yn enw yr Arglwydd Iesu, gan ddïolch i Dduw a'r Tad trwyddo ef.

18 *Y* gwragedd, ymostyngwch i'ch gwŷr prïod, megis y mae yn weddus yn yr Arglwydd.

19 *Y* gwŷr, cerwch *eich* gwragedd, ac na fyddwch chwerwon wrthynt.

20 *Y* plant, ufuddhêwch *i'ch* rhïeni ym mhob peth: canys hyn sydd yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda.

21 *Y* tadau, na chyffrôwch eich plant, fel na ddigalonnont.

22 *Y* gweision, ufuddhêwch ym mhob peth i'*ch* meistriaid yn ol y cnawd; nid â llygad-wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, eithr mewn symlrwydd calon, yn ofni Duw:

23 A pha beth bynnag a wneloch, gwnewch o'r galon, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion;

24 Gan wybod mai gan yr Arglwydd y derbyniwch daledigaeth yr etifeddiaeth: canys yr Arglwydd Crist yr ydych yn ei wasanaethu.

25 Ond yr hwn sydd yn gwneuthur cam, a dderbyn *am* y cam a wnaeth: ac nid oes derbyn wyneb.

PENNOD 4.

1 Y mae yn eu hannog i fod yn wresog mewn gweddi; 5 i rodio yn ddoeth tu ag at y rhai ni ddaethant etto i wir wybodaeth am Grist: 10 yn eu hannerch hwy, ac yn ewyllysio iddynt bob rhyw lwyddiant.

Y MEISTRIAID, gwnewch i'*ch* gweision yr hyn *sydd* gyfiawn ac uniawn; gan wybod fod i chwithau Feistr yn y nefoedd.

2 Parhêwch mewn gweddi, gan wylied ynddi gyd â dïolchgarwch;

3 Gan weddïo hefyd drosom ninnau, ar i Dduw agori i ni ddrws ymadrodd, i adrodd dirgelwch Crist, am yr hwn yr ydwyf hefyd mewn rhwymau:

4 Fel yr eglurhâwyf ef, megis y mae yn rhaid i mi *ei* draethu.

5 Rhodiwch mewn doethineb tu ag at y rhai sydd allan, gan brynu yr amser.

6 *Bydded* eich ymadrodd bob amser yn rasol, wedi ei dymheru â halen, fel y gwypoch pa fodd y mae yn rhaid i chwi atteb i bob dyn.

7 Fy holl helynt i a fynega Tychicus i chwi, y brawd anwyl, a'r gweinidog ffyddlawn, a'r cyd-was yn yr Arglwydd:

8 Yr hwn a ddanfonais attoch er mwyn hyn, fel y gwybyddai eich helynt chwi, ac y diddanai eich calonnau chwi;

9 Gyd âg Onesimus, y ffyddlawn a'r anwyl frawd, yr hwn sydd o honoch chwi. Hwy a hysbysant i chwi bob peth *a wneir* yma.

10 Y mae Aristarchus, fy nghydgarcharor, yn eich annerch; a Marc, nai Barnabas fab ei chwaer, (am yr hwn y derbyniasoch orchymynion: os daw efe attoch, derbyniwch ef;)

11 A Jesus, yr hwn a elwir Justus, y rhai ydynt o'r enwaediad. Y rhai hyn yn unig *yw fy* nghyd-weithwyr i deyrnas Dduw, y rhai a fuant yn gysur i mi.

12 Y mae Epaphras, yr hwn sydd o honoch, gwas Crist, yn eich annerch, gan ymdrechu yn wastadol drosoch mewn gweddïau, ar i chwi sefyll yn berffaith ac yn gyflawn y'nghwbl o ewyllys Duw.

13 Canys yr ydwyf yn dyst iddo, fod ganddo sêl mawr trosoch chwi, a'r rhai o Laodicea, a'r rhai o Hïerapolis.

14 Y mae Luc y physygwr anwyl, a Demas, yn eich annerch.

15 Anherchwch y brodyr *sydd* yn Laodicea, a Nymphas, a'r eglwys *sydd* yn ei dŷ ef.

16 Ac wedi darllen yr epistol *hwn* gyd â chwi, perwch ei ddarllen hefyd yn eglwys y Laodiceaid; a darllen o honoch chwithau yr un o Laodicea.

17 A dywedwch wrth Archippus, Edrych at y weinidogaeth a dderbyniaist yn yr Arglwydd, ar i ti ei chyflawni hi.

18 Yr annerch â'm llaw i Paul *fy hun.* Cofiwch fy rhwymau. Gras *fyddo* gyd â chwi. Amen.

¶ At y Colossiaid yr ysgrifenwyd o Rufain, gyd â Thychicus ac Onesimus.

EPISTOL CYNTAF PAUL YR APOSTOL AT Y THESSALONIAID.

PENNOD 1.

1 *Paul yn dwyn ar ddeall i'r Thessaloniaid, nid yn unig mor feddylgar oedd efe am dannynt bob amser, mewn diolchgarwch a gweddi; 5 eithr hefyd gystal yr oedd efe yn tybied am wirioneddau a phurdeb eu ffydd hwynt, a'u dyckweliad at Dduw.*

PAUL, a Silfanus, a Thimothëus, at eglwys y Thessaloniaid, yn Nuw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist: Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

2 Yr ydym yn diolch i Dduw yn wastadol drosoch chwi oll, gan wneuthur coffa am danoch yn ein gweddïau,

3 Gan gofio yn ddibaid waith eich ffydd chwi, a llafur *eich* cariad, ac ymaros *eich* gobaith yn ein Harglwydd Iesu Grist, ger bron Duw a'n Tad;

4 Gan wybod, frodyr anwyl, eich etholedigaeth chwi gan Dduw.

5 Oblegid ni bu ein hefengyl ni tu ag attoch mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr; megis y gwyddoch chwi pa fath rai a fuom ni yn eich plith, er eich mwyn chwi.

6 A chwi a aethoch yn ddilynwyr i ni, ac i'r Arglwydd, wedi derbyn y gair mewn gorthrymder mawr, gyd â llawenydd yr Ysbryd Glân:

7 Hyd onid aethoch yn siamplau i'r rhai oll sydd yn credu ym Macedonia ac *yn* Achaia.

8 Canys oddi wrthych chwi y seiniodd gair yr Arglwydd, nid yn unig ym Macedonia ac *yn* Achaia, ond ym mhob man hefyd eich ffydd chwi ar Dduw a aeth ar led; fel nad rhaid i ni ddywedyd dim.

9 Canys y maent hwy yn mynegi am danom ni, pa ryw ddyfodiad i mewn a gawsom ni attoch chwi, a pha fodd y troisoch at Dduw oddi wrth eilunod, i wasanaethu y bywiol a'r gwir Dduw;

10 Ac i ddisgwyl am ei Fab ef o'r nefoedd, yr hwn a gyfododd efe o feirw, *sef* Iesu, yr hwn a'n gwaredodd ni oddi wrth y digofaint sydd ar ddyfod.

PENNOD 2.

1 *Pa fodd y daeth ac y pregethwyd yr efengyl i'r Thessaloniaid; a pha fodd y derbyniasant hwythau hi. 18 Yr achos paham y bu Paul cyhyd yn absennol oddi wrthynt; a phaham yr ydoedd efe mor chwannog i'w gweled hwynt.*

CANYS chwi eich hunain a wyddoch, frodyr, ein dyfodiad ni i mewn attoch, nad ofer fu:

2 Eithr wedi i ni ddïoddef o'r blaen, a chael ammharch, fel y gwyddoch chwi, yn Philippi, ni a fuom hyf yn ein Duw i lefaru wrthych chwi efengyl Duw trwy fawr ymdrech.

3 Canys ein cynghor ni nid *oedd* o hudoliaeth, nac o afiendid, nac mewn twyll:

4 Eithr megis y'n cyfrifwyd ni gan Dduw yn addas i ymddiried i ni am yr efengyl, felly yr ydym yn llefaru; nid megis yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi ein calonnau ni.

5 Oblegid ni fuom ni un amser mewn ymadrodd gwenhieithus, fel y gwyddoch chwi, nac mewn rhith cybydd-dod; Duw yn dyst:

6 Nac yn ceisio moliant gan ddynion, na chennych chwi, na chan eraill; lle y gallasem bwyso *arnoch*, fel apostolion Crist.

7 Eithr ni a fuom addfwyn yn eich mysg chwi, megis mammaeth yn maethu ei phlant.

8 Felly, gan eich hoffi chwi, ni a welsom yn dda gyfrannu â chwi, nid yn unig efengyl Duw, ond ein heneidiau ein hunain hefyd, am eich bod yn anwyl gennym.

9 Canys côf yw gennych, frodyr, ein llafur a'n lludded ni: canys gan weithio nos a dydd, fel na phwysem ar neb o honoch, ni a bregethasom i chwi efengyl Duw.

10 Tystion *ydych* chwi, a Duw *hefyd*, mor sanctaidd, ac mor gyfiawn, a diargyhoedd, yr ymddygasom yn eich mysg chwi y rhai ydych yn credu:

11 Megis y gwyddoch y modd *y buom* yn eich cynghori, ac yn eich cysuro, bob un o honoch, fel tad ei blant ei hun,

12 Ac yn ymbil, ar rodio o honoch yn deilwng i Dduw, yr hwn a'ch galwodd chwi i'w deyrnas a'i ogoniant.

13 Oblegid hyn yr ydym ninnau hefyd yn diolch i Dduw yn ddibaid, o herwydd i chwi, pan dderbyniasoch air Duw, yr hwn a glywsoch gennym ni, *ei* dderbyn *ef* nid *fel* gair dyn, eithr, fel y mae yn wir, yn air Duw, yr hwn hefyd sydd yn nerthol-weithio ynoch chwi y rhai sydd yn credu.

14 Canys chwychwi, frodyr, a wnaethpwyd yn ddilynwyr i eglwysi Duw, y rhai yn Judea sydd yng Nghrist Iesu; oblegid chwithau a ddioddefasoch y pethau hyn gan eich cyd-genedl, megis hwythau gan yr Iuddewon:

15 Y rhai a laddasant yr Arglwydd Iesu, a'u prophwydi eu hunain, ac a'n herlidiasant ninnau ymaith; ac *ydynt* heb ryngu bodd Duw, ac yn erbyn pob dyn;

16 Gan warafun i ni lefaru wrth y Cenhedloedd, fel yr iachêid hwy, i gyflawni eu pechodau hwynt yn wastadol: canys digofaint *Duw* a ddaeth arnynt hyd yr eithaf.

17 A ninnau, frodyr, wedi ein gwneuthur yn amddifaid am danoch dros ennyd awr, y'ngolwg, nid y'nghalon, a fuom fwy astud i weled eich wyneb chwi mewn awydd mawr.

18 Am hynny yr ewyllysiasom ddyfod attoch (myfi Paul, yn ddïau,) unwaith a dwywaith hefyd; eithr Satan a'n lluddiodd ni.

19 Canys beth *yw* ein gobaith ni, neu *ein* llawenydd, neu goron *ein* gorfoledd? onid chwychwi, ger bron ein Harglwydd Iesu Grist yn ei ddyfodiad ef?

20 Canys chwychwi yw ein gogoniant a'*n* llawenydd ni.

PENNOD 3.

1 *Paul yn tystiolaethu ei favr gariad tu ag at y Thessaloniaid, trwy anfon Timothëus attynt i'w cadarnhâu, ac i'w diddanu: trwy lawenychu yn eu gweithredoedd da hwy;* 10 *a thrwy weddïo drostynt, a dymuno cael dyfod yn ddïogel attynt.*

AM hynny, gan na allem ymattal yn hŵy, ni a welsom yn dda ein gadael ni ein hunain yn Athen;

2 Ac a ddanfonasom Timothëus, ein brawd, a gweinidog Duw, a'n cyd-weithiwr yn efengyl Crist, i'ch cadarnhâu chwi, ac i'ch diddanu ynghylch eich ffydd;

3 Fel na chynhyrfid neb yn y gorthrymderau hyn: canys chwychwi eich hunain a wyddoch mai i hyn y'n gosodwyd ni.

4 Canys yn wir pan oeddym gyd â chwi, ni a rag-ddywedasom i chwi y gorthrymmid ni; megis y bu, ac y gwyddoch chwi.

5 O herwydd hyn, minnau, heb allu ymattal yn hŵy, a ddanfonais i *gael* gwybod eich ffydd chwi; rhag darfod i'r temtiwr eich temtio chwi, a myned ein llafur ni yn ofer.

6 Eithr yr awr hon, wedi dyfod Timothëus attom oddi wrthych, a dywedyd i ni newyddion da am eich ffydd chwi a'ch cariad, a bod gennych goffa da am danom ni yn wastadol, gan hiraethu am ein gweled ni, megis *yr ydym* ninnau *am* eich *gweled* chwithau;

7 Am hynny y cawsom gysur, frodyr, am danoch chwi, yn ein holl orthrymder a'n hangenoctid, trwy eich ffydd chwi.

8 Oblegid yr awr hon byw ydym ni, os ydych chwi yn sefyll yn yr Arglwydd.

9 Canys pa ddïolch a allwn *ni* ei ad-dalu i Dduw am danoch chwi, am yr holl lawenydd â'r hwh yr ydym ni yn llawen o'ch achos chwi ger bron ein Duw ni,

10 Gan weddïo mwy na mwy, nos a dydd, ar *gael* gweled eich wyneb chwi, a chyflawni diffygion eich ffydd chwi?

11 A Duw ei hun a'n Tad ni, a'n Harglwydd Iesu Grist, a gyfarwyddo ein ffordd ni attoch chwi.

12 A'r Arglwydd a'ch lliosogo, ac a'ch chwanego ym mhob cariad i'ch

gilydd, ac i bawb, megis ag *yr ydym* ninnau i chwi:
13 I gadarnhâu eich calonnau chwi yn ddïargyhoedd mewn sancteiddrwydd ger bron Duw a'n Tad, yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist gyd â'i holl saint.

PENNOD 4.

1 *Y mae yn eu hannog i fyned rhagddynt mewn pob math ar ddiwioldeb; 6 i fyw yn sanctaidd ac yn gyfiawn; 9 i garu eu gilydd; 11 a chrwy lonyddwch, i wneuthur y pethau a berthyn iddynt eu hunain; 13 ac yn ddiweddaf, i dristau yn gymmedrol dros y meirw. 15 A chyd a'r cynghor dirceddaf iwn, y mae efe yn cyssylltu dosparth byr o'r adgyfodiad, ac o ail-ddyfodiad Crist i'r farn.*

YM mhellach gan hynny, frodyr, yr ydym yn attolwg i chwi, ac yn deisyf yn yr Arglwydd Iesu, megis y derbyniasoch gennym pa fodd y dylech rodio a boddloni Duw, ar i chwi gynnyddu fwyfwy.
2 Canys chwi a wyddoch pa orchymynion a roddasom i chwi trwy yr Arglwydd Iesu.
3 Canys hyn yw ewyllys Duw, *sef* eich sancteiddiad chwi, ar ymgadw o honoch rhag godineb:
4 Ar fedru o bob un o honoch feddiannu ei lestr ei hun mewn sancteiddrwydd a pharch;
5 Nid mewn gwŷn trachwant, megis y Cenhedloedd y rhai nid adwaenant Dduw:
6 Na byddo *i neb* orthrymmu na thwyllo ei frawd mewn dim: canys dïalydd *yw* yr Arglwydd ar y rhai hyn oll, megis y dywedasom i chwi o'r blaen, ac y tystiasom.
7 Canys ni alwodd Duw nyni i aflendid, ond i sancteiddrwydd.
8 Am hynny y neb sydd yn dirmygu, nid dyn y mae yn ei ddirmygu, ond Duw, yr hwn hefyd a roddes ei Ysbryd Glân ynom ni.
9 Ond am frawdgarwch, nid rhaid i chwi ysgrifenu o honof attoch: canys yr ydych chwi eich hunain wedi eich dysgu gan Dduw i garu eich gilydd.
10 Oblegid yr ydych yn gwneuthur hyn i bawb o'r brodyr y rhai sydd trwy holl Macedonia: ond yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, gynnyddu o honoch fwyfwy;
11 A rhoddi o honoch eich bryd ar fod yn llonydd, a gwneuthur eich gorchwylion eich hunain, a gweithio â'ch dwylaw eich hunain, (megis y gorchymynasom i chwi;)
12 Fel y rhodioch yn weddaidd tu ag at y rhai sydd oddi allan, ac na byddo arnoch eisieu dim.
13 Ond ni ewyllysiwn, frodyr, i chwi fod heb wybod am y rhai a hunasant; na thristaoch, megis eraill y rhai nid oes ganddynt obaith.
14 Canys os ydym yn credu farw Iesu a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddwg Duw hefyd gyd âg ef.
15 Canys hyn yr ydym yn ei ddywedyd wrthych y'ngair yr Arglwydd, na bydd i ni y rhai byw, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr Arglwydd, rag-flaenu y rhai a hunasant.
16 Oblegid yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyd â bloedd, â llef yr arch-angel, ac âg udgorn Duw: a'r meirw yng Nghrist a gyfodant yn gyntaf:
17 Yna ninnau y rhai byw, y rhai a adawyd, a gipir i fyny gyd â hwynt yn y cymmylau, i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr: ac felly y byddwn yn wastadol gyd â'r Arglwydd.
18 Am hynny diddenwch eich gilydd â'r ymadroddion hyn.

PENNOD 5.

1 *Y mae efe yn myned rhagddo, ac yn dangos, fel o'r blaen, ddull dyfodiad Crist i'r farn; 12 ac yn rhoddi amryw orchymynion; 23 ac felly yn diweddu ei epistol.*

EITHR am yr amserau a'r prydiau, frodyr, nid rhaid i chwi ysgrifenu o honof attoch.
2 Oblegid chwi a wyddoch eich hunain yn hysbys, mai felly y daw dydd yr Arglwydd fel lleidr yn y nos.
3 Canys pan ddywedant, Tangnefedd a diogelwch; yna y mae dinystr'disymmwth yn dyfod ar eu gwarthaf, megis gwewyr esgor ar un a fo beichiog; ac ni ddïangant hwy ddim.
4 Ond chwychwi, frodyr, nid ydych mewn tywyllwch, fel y goddiweddo y dydd hwnnw chwi megis lleidr.
5 Chwychwi oll, plant y goleuni

ydych, a phlant y dydd: nid ydym
ni o'r nos, nac o'r tywyllwch.
6 Am hynny na chysgwn, fel rhai
eraill; eithr gwyliwn, a byddwn
sobr.
7 Canys y rhai a gysgant, y nos
y cysgant; a'r rhai a feddwant, y
nos y meddwant.
8 Eithr nyni, gan ein bod o'r
dydd, byddwn sobr, wedi ymwisgo
â dwyfronneg ffydd a chariad, ac
â gobaith iachawdwriaeth yn lle
helm.
9 Canys nid appwyntiodd Duw
nyni i ddigofaint, ond i gaffael
iachawdwriaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
10 Yr hwn a fu farw drosom;
fel pa un bynnag a wnelom ai
gwylied ai cysgu, y byddom fyw
gyd âg ef.
11 O herwydd paham cynghorwch
eich gilydd, ac adeiledwch bob un
eich gilydd, megis ag yr ydych yn
gwneuthur.
12 Ac yr ydym yn attolwg i chwi,
frodyr, adnabod y rhai sydd yn
llafurio yn eich mysg, ac yn eich
llywodraethu chwi yn yr Arglwydd,
ac yn eich rhybuddio;
13 A gwneuthur cyfrif mawr o
honynt mewn cariad, er mwyn eu
gwaith. Byddwch dangnefeddus yn
eich plith eich hunain.
14 Ond yr ydym yn deisyf arnoch,
frodyr, rhybuddiwch y rhai afreolus, diddenwch y gwan eu meddwl,
cynheliwch y gweiniaid, byddwch
ymarhous wrth bawb.
15 Gwelwch na thalo neb ddrwg
dros ddrwg i neb: eithr yn wastadol dilynwch yr hyn sydd dda,
tu ag at eich gilydd, a thu ag at
bawb.
16 Byddwch lawen yn wastadol.
17 Gweddïwch yn ddibaid.
18 Ym mhob dim dïolchwch:
canys hyn *yw* ewyllys Duw yng
Nghrist Iesu tu ag attoch chwi.
19 Na ddiffoddwch yr Ysbryd.
20 Na ddirmygwch brophwydoliaethau.
21 Profwch bob peth: deliwch yr
hyn sydd dda.
22 Ymgedwch rhag pob rhith
drygioni.
23 A gwir Dduw y tangnefedd
a'ch sancteiddio yn gwbl oll: a
chadwer eich ysbryd oll, a'ch enaid,
a'ch corph, yn ddïargyhoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist.
24 Ffyddlawn *yw* yr hwn a'ch
galwodd, yr hwn hefyd a'*i* gwna.
25 *O* frodyr, gweddïwch drosom.
26 Anherchwch yr holl frodyr â
chusan sancteiddiol.
27 Yr ydwyf yn eich tynghedu yn
yr Arglwydd, ar ddarllen y llythyr
hwn i'r holl frodyr sanctaidd.
28 Gras ein Harglwydd Iesu Grist
fyddo gyd â chwi. Amen.

¶ Y cyntaf at y Thessaloniaid a ysgrifenwyd o Athen.

AIL EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT Y THESSALONIAID.

PENNOD 1.

1 Y mae Paul yn hysbysu iddynt ddïegl yr oedd efe yn meddwl am eu ffydd, a'u cariad, a'u hamynedd hwynt: 11 a chyd â hynny yn gosod llawer o resymmau ar lawr, i'w cysuro hwy mewn eriid; a'r pennaf o'r rhai hyn a gymmerir oddi wrth gyfiawn farn Duw.

PAUL, a Silfanus, a Thimothëus,
at eglwys y Thessaloniaid, yn
Nuw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu
Grist:
2 Gras i chwi, a thangnefedd,
oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r
Arglwydd Iesu Grist.
3 Dïolch a ddylem i Dduw yn
wastadol drosoch, frodyr, fel y mae
yn addas, oblegid bod eich ffydd
chwi yn mawr gynnyddu, a chariad
pob un o honoch oll tu ag at eich
gilydd yn ychwanegu;
4 Hyd onid ydym ni ein hunain yn gorfoleddu ynoch chwi yn
eglwysi Duw, o herwydd eich am-

ynedd chwi a'ch ffydd yn eich holl
erlidiau a'r gorthrymderau yr yd-
ych yn eu goddef:
5 *Yr hyn sydd* argoel goleu o
gyfiawn farn Duw, fel y'ch cyfrifer
yn deilwng i deyrnas Dduw, er
mwyn yr hon yr ydych hefyd yn
goddef.
6 Canys cyfiawn *yw* ger bron
Duw, dalu cystudd i'r rhai sydd
yn eich cystuddio chwi;
7 Ac i chwithau, y rhai a gys-
tuddir, esmwythdra gyd â ni,
yn ymddangosiad yr Arglwydd
Iesu o'r nef, gyd â'i angylion
nerthol,
8 A thân fflamllyd, gan roddi dïal
i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac
nid ydynt yn ufuddhâu i efengyl
ein Harglwydd Iesu Grist:
9 Y rhai a ddïoddefant yn gosped-
igaeth, ddinystr tragywyddol oddi
ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth
ogoniant ei gadernid ef;
10 Pan ddêl efe i'w ogoneddu
yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol
yn y rhai oll sydd yn credu, (o
herwydd i'n tystiolaeth ni yn eich
mysg chwi gael ei chredu,) yn y
dydd hwnnw.
11 Am ba achos yr ydym hefyd
yn gweddïo yn wastadol drosoch,
ar fod i'n Duw ni eich cyfrif
chwi yn deilwng o'r alwedigaeth
hon, a chyflawni holl foddlonrwydd
ei ddaioni, a gwaith ffydd, yn
nerthol:
12 Fel y gogonedder enw ein
Harglwydd Iesu Grist ynoch chwi,
a chwithau ynddo yntau, yn ol
gras ein Duw ni, a'r Arglwydd
Iesu Grist.

PENNOD 2.

1 *Mae yn ewyllysio iddynt barhâu yn ddisigl yn y gwirionedd a dderbyniasant;* 3 *yn dangos y bydd ymadawiad oddi wrth y ffydd,* 8 *ac y datguddir anghrist, cyn dyfod dydd yr Arglwydd;* 15 *ac yma yn ail-adrodd ei gymhor o'r blaen, ac yn gweddïo drostynt.*

AC yr ydym yn attolwg i chwi,
frodyr, er dyfodiad ein Har-
glwydd Iesu Grist, a'n cyd-gynhull-
iad ninnau atto ef,
2 Na'ch sigler yn fuan oddi
wrth eich meddwl, ac na'ch cyn-
hyrfer, na chan yspryd, na chan
air, na chan lythyr, megis oddi
wrthym ni, fel pe bai dydd Crist
yn gyfagos.
3 Na thwylled neb chwi mewn un
modd: oblegid *ni ddaw y dydd
hwnnw* hyd oni ddêl ymadawiad yn
gyntaf, a datguddio y dyn pechod,
mab y golledigaeth;
4 Yr hwn sydd yn gwrthwynebu,
ac yn ymddyrchafu goruwch pob
peth a elwir yn Dduw, neu a
addolir; hyd onid yw efe, megis
Duw, yn eistedd yn nheml Duw,
ac yn ei ddangos ei hun mai Duw
ydyw.
5 Onid côf gennych chwi, pan
oeddwn i etto gyd â chwi, ddy-
wedyd o honof y pethau hyn i
chwi?
6 Ac yr awr hon chwi a wyddoch
yr hyn sydd yn attal, fel y datgudd-
ier ef yn ei bryd ei hun.
7 Canys y mae dirgelwch yr an-
wiredd yn gweithio eisoes: yn unig
yr hwn sydd yr awr hon yn attal,
a ettyl nes ei dynnu ymaith.
8 Ac yna y datguddir yr Anwir
hwnnw, yr hwn a ddifetha yr Ar-
glwydd âg yspryd ei enau, ac a
ddilea â disgleirdeb ei ddyfodiad:
9 *Sef* yr hwn y mae ei ddyfodi-
ad yn ol gweithrediad Satan, gyd
â phob nerth, ac arwyddion, a
rhyfeddodau gau,
10 A phob dichell anghyfiawnder
yn y rhai colledig; am na dder-
byniasant gariad y gwirionedd, fel
y byddent gadwedig.
11 Ac am hynny y denfyn Duw
iddynt hwy amryfusedd cadarn, fel
y credont gelwydd;
12 Fel y barner yr holl rai nid
oeddynt yn credu i'r gwirionedd,
ond yn ymfoddloni mewn anghyf-
iawnder.
13 Eithr nyni a ddylem ddïolch
yn wastad i Dduw drosoch chwi,
frodyr caredig gan yr Arglwydd,
oblegid i Dduw o'r dechreuad eich
ethol chwi i iachawdwriaeth, trwy
sancteiddiad yr Yspryd, a ffydd i'r
gwirionedd:
14 I'r hyn y galwodd efe chwi
trwy ein hefengyl ni, i feddian-
nu gogoniant ein Harglwydd Iesu
Grist.
15 Am hynny, frodyr, sefwch, a
deliwch y traddodiadau a ddysg-

asoch, pa un bynnag ai trwy ymadrodd, ai trwy ein hepistol ni.
16 A'n Harglwydd Iesu Grist ei hun, a Duw a'n Tad, yr hwn a'n carodd ni, ac a roddes *i ni* ddiddanwch tragywyddol, a gobaith da trwy ras,
17 A ddiddano eich calonnau chwi, ac a'ch sicrhao ym mhob gair a gweithred dda.

PENNOD 3.

1 Y mae yn deisyfu eu gweddïau hwy drosto ei hun: 3 yn tystiolaethu pa hyder oedd ganddo arnynt: 5 yn gweddïo ar Dduw drostynt; 6 ac yn rhoddi amryw orchymynion; yn enwedig i ochelyd segurydd, a chymdeithas rhai drwg; 16 ac yn diweddu trwy weddïo, a'u hannerch hwy.

BELLACH, frodyr, gweddïwch drosom ni, ar fod i air yr Arglwydd redeg, a chael gogonedd, megis gyd â chwithau;
2 Ac ar ein gwared ni oddi wrth ddynion anhywaith a drygionus: canys nid *oes* ffydd gan bawb.
3 Eithr ffyddlawn yw yr Arglwydd, yr hwn a'ch sicrhâ chwi, ac a'*ch* ceidw rhag drwg.
4 Ac y mae gennym hyder yn yr Arglwydd am danoch, eich bod yn gwneuthur, ac y gwnewch, y pethau yr ydym yn eu gorchymyn i chwi.
5 A'r Arglwydd a gyfarwyddo eich calonnau chwi at gariad Duw, ac i ymaros am Grist.
6 Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi, frodyr, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, dynnu o honoch ymaith oddi wrth bob brawd a'r sydd yn rhodio yn afreolus, ac nid yn ol y traddodiad a dderbyniodd efe gennym ni.
7 Canys chwi a wyddoch eich hunain pa fodd y dylech ein dilyn ni: oblegid ni buom afreolus yn eich plith chwi;
8 Ac ni fwyttasom fara neb yn rhad; ond trwy weithio mewn llafur a lludded, nos a dydd, fel na phwysem ar neb o honoch chwi:
9 Nid o herwydd nad oes gennym awdurdod, ond fel y'n rhoddem ein hunain yn siampl i chwi i'n dilyn.
10 Canys pan oeddym hefyd gyd â chwi, hyn a orchymynasom i chwi, Os byddai neb ni fynnai weithio, na chai fwytta chwaith.
11 Canys yr ydym yn clywed fod rhai yn rhodio yn eich plith chwi yn afreolus, heb weithio dim, ond bod yn rhodresgar.
12 Ond i'r cyfryw gorchymyn yr ydym, a'u hannog trwy ein Harglwydd Iesu Grist, ar *iddynt* weithio trwy lonyddwch, a bwytta eu bara eu hunain.
13 A chwithau, frodyr, na ddiffygiwch yn gwneuthur daioni.
14 Ond od oes neb heb ufuddhâu i'n gair trwy y llythyr *yma*, hysbyswch hwnnw; ac na fydded i chwi gymdeithas âg ef, megis y cywilyddio efe.
15 Er hynny na chymmerwch *ef* megis gelyn, eithr cynghorwch *ef* fel brawd.
16 Ac Arglwydd y tangnefedd ei hun a roddo i chwi dangnefedd yn wastadol ym mhob modd. Yr Arglwydd *a fyddo* gyd â chwi oll.
17 Yr annerch â'm llaw i Paul fy hun; yr hyn sydd arwydd ym mhob epistol: fel hyn yr ydwyf yn ysgrifenu.
18 Gras ein Harglwydd Iesu Grist gyd â chwi oll. Amen.

¶ Yr ail at y Thessaloniaid a ysgrifenwyd o Atheu.

EPISTOL CYNTAF PAUL YR APOSTOL AT TIMOTHEUS.

PENNOD 1.

1 Y mae Paul yn dwyn ar gof i Timothëus y siarc a roddasai efe iddo, wrth fyned i Macedonia. 5 Iawn arfer a diwedd y gyfraith. 11 Ynghylch galw Paul i fod yn apostol. 20 Am Hymenëus ac Alexander.

PAUL, apostol Iesu Grist, yn ol gorchymyn Duw ein Hiachawdwr, a'r Arglwydd Iesu Grist, ein gobaith;

2 At Timothëus, *fy* mab naturiol yn y ffydd: Gras, trugaredd, *a* thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad a Christ Iesu ein Harglwydd.

3 Megis y deisyfais arnat aros yn Ephesus, pan euthum i Macedonia, fel y gellit rybuddio rhai na ddysgont ddim amgen,

4 Ac na ddaliont ar chwedlau, ac achau anorphen, y rhai sydd yn peri cwestiynau yn hytrach nag adeiladaeth ddduwiol, yr hon sydd trwy ffydd; *gwna felly.*

5 Eithr diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiragrith:

6 Oddi wrth yr hyn bethau y gŵyrodd rhai, ac y troisant heibio at ofer-siarad;

7 Gan ewyllysio bod yn athrawon o'r ddeddf, heb ddeall na pha bethau y maent yn eu dywedyd, nac am ba bethau y maent yn taeru.

8 Eithr nyni a wyddom mai da *yw* y gyfraith, os arfer dyn hi yn gyfreithlawn;

9 Gan wybod hyn, nad i'r cyfiawn y rhoddwyd y gyfraith, eithr i'r *rhai* digyfraith ac anufudd, i'r *rhai* annuwiol a phechaduriaid, i'r *rhai* disanctaidd a halogedig, i dadleiddiaid a mam-leiddiaid, i leiddiaid dynion,

10 I butteinwyr, i wrryw-gydwyr, i ladron-dynion, i gelwyddwyr, i anudonwyr, ac os *oes* dim arall yn wrthwyneb i athrawiaeth iachus;

11 Yn ol efengyl gogoniant y bendigedig Dduw, am yr hon yr ymddiriedwyd i mi.

12 Ac yr ydwyf yn diolch i'r hwn a'm nerthodd i, *sef* Crist Iesu ein Harglwydd, am iddo *fy* nghyfrif yn ffyddlawn, gan fy ngosod yn y weinidogaeth;

13 Yr hwn oeddwn o'r blaen yn gablwr, ac yn erlidiwr, ac yn drahaus: eithr mi a gefais drugaredd, am i mi yn ddïarwybod *ei* wneuthur trwy anghrediniaeth.

14 A gras ein Harglwydd ni a draamlhaodd gyd â ffydd a chariad, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu.

15 Gwir *yw* y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; o ba rai, pennaf ydwyf fi.

16 Eithr o achos hyn y cefais drugaredd, fel y dangosai Iesu Grist ynof fi yn gyntaf bob hir-oddef, er siampl i'r rhai a gredant rhag llaw ynddo ef i fywyd tragywyddol.

17 Ac i'r Brenhin tragywyddol, anfarwol, anweledig, i'r Duw unig ddoeth, *y byddo* anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

18 Y gorchymyn hwn yr ydwyf yn ei roddi i ti, *fy* mab Timothëus, yn ol y prophwydoliaethau a gerddasant o'r blaen am danat, ar filwrio o honot ynddynt filwriaeth dda;

19 Gan fod gennyt ffydd, a chydwybod dda; yr hon a wrthododd rhai, ac a wnaethant longddrylliad am y ffydd:

20 O ba rai y mae Hymenëus ac Alexander; y rhai a roddais i Satan, fel y dysgent na chablent.

PENNOD 2.

1 Bod yn iawn gweddio a diolch dros bob dyn. 9 Pa fodd y dylai gwragedd ymddwsio; 12 nad ydys yn caniattau iddynt na dysgu, na bod yn ben: 15 y byddant hwy gadwedig, er bod ynddynt arwydd o ddigofaint Duw, wrth ddwyn plant i'r byd, os hwy a arhosant yn y ffydd.

CYNGHORI yr ydwyf am hynny, ym mlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau, *a* thalu diolch, dros bob dyn;

2 Dros frenhinoedd, a phawb sydd
mewn goruchafiaeth; fel y gallom
ni fyw yn llonydd ac yn heddychol
mewn pob duwioldeb ac onest-
rwydd.
3 Canys hyn *sydd* dda a chymmer-
adwy ger bron Duw ein Ceidwad;
4 Yr hwn sydd yn ewyllysio bod
pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i
wybodaeth y gwirionedd.
5 Canys un Duw *sydd*, ac un
cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dyn-
ion, y dyn Crist Iesu;
6 Yr hwn a'i rhoddes ei hunan
yn bridwerth dros bawb, i'w dyst-
iolaethu yn yr amseroedd priod.
7 I'r hyn y'm gosodwyd i yn
bregethwr ac yn apostol, (y gwir
yr *wyf* yn ei ddywedyd yng Nghrist,
nid wyf yn dywedyd celwydd;) yn
athraw y Cenhedloedd mewn ffydd
a gwirionedd.
8 Am hynny yr wyf yn ewyllysio
i'r gwŷr weddïo ym mhob man,
gan ddyrchafu dwylaw sanctaidd,
heb na digter na dadl.
9 Yr un modd hefyd, bod i'r
gwragedd eu trefnu eu hunain
mewn dillad gweddus, gyd â gwyl-
der a sobrwydd; nid â gwallt
plethedig, neu aur, neu emmau,
neu ddillad gwerthfawr;
10 Ond, (yr hyn sydd yn gweddu
i wragedd a fo yn proffesu duwiol-
deb,) â gweithredoedd da.
11 Dysged gwraig mewn distaw-
rwydd gyd â phob gostyngeidd-
rwydd.
12 Ond nid wyf yn cenhadu i
wraig athrawiaethu, nac ymawd-
urdodi ar y gŵr, eithr bod mewn
distawrwydd.
13 Canys Adda a luniwyd yn
gyntaf, yna Efa.
14 Ac nid Adda a dwyllwyd; eithr
y wraig, wedi ei thwyllo, oedd yn
y camwedd.
15 Etto cadwedig fydd wrth ddwyn
plant, os arhosant hwy mewn ffydd,
a chariad, a sancteiddrwydd, ynghyd
â sobrwydd.

PENNOD 3.

GWIR *yw* y gair, Od yw neb
yn chwennych swydd esgob,
gwaith da y mae yn ei chwennych.
2 Rhaid gan hynny i esgob fod yn
ddïargyhoedd, yn ŵr un wraig, yn
wyliadwrus, yn sobr, yn weddaidd,
yn llettŷgar, yn athrawaidd;
3 Nid yn wingar, nid yn dar-
awydd, nid yn budr-elwa; eithr yn
dirion, yn anymladdgar, yn ddï-
ariangar;
4 Yn llywodraethu ei dŷ ei hun
yn dda, yn dal ei blant mewn
ufudd-dod ynghyd â phob onest-
rwydd;
5 (Oblegid oni fedr un lywodr-
aethu ei dŷ ei hun, pa fodd y cym-
mer efe ofal dros eglwys Dduw?)
6 Nid yn newyddian *yn y ffydd*,
rhag iddo ymchwyddo, a syrthio i
ddamnedigaeth diafol.
7 Ac y mae yn rhaid iddo ef hefyd
gael tystiolaeth dda gan y rhai
oddi allan; rhag iddo syrthio i
waradwydd, ac i fagl diafol.
8 *Rhaid* i'r dïaconiaid yr un
ffunud *fod* yn onest; nid yn ddau-
eiriog, nid yn ymrôi i win lawer,
nid yn budr-elwa;
9 Yn dala dirgelwch y ffydd mewn
cydwybod bur.
10 A phrofer y rhai hynny hef-
yd yn gyntaf; yna gwasanaethant
swydd dïaconiaid, os byddant ddï-
argyhoedd.
11 *Y mae yn rhaid i'w* gwragedd
yr un modd *fod* yn onest, nid yn
enllibaidd, yn sobr, yn ffyddlawn
ym mhob peth.
12 Bydded y dïaconiaid yn wŷr
un wraig, yn llywodraethu eu plant
a'u tai eu hunain yn dda.
13 Canys y rhai a wasanaethant
swydd dïaconiaid yn dda, ydynt yn
ennill iddynt eu hunain radd dda,
a hyfder mawr yn y ffydd *sydd* yng
Nghrist Iesu.
14 Y pethau hyn yr ydwyf yn eu
hysgrifenu attat, gan obeithio dy-
fod attat ar fyrder:
15 Ond os tariaf yn hir, fel y
gwypech pa fodd y mae yn rhaid
i ti ymddwyn yn nhŷ Dduw, yr
hwn yw eglwys y Duw byw, colofn
a sylfaen y gwirionedd.
16 Ac yn ddiddadl, mawr yw dir-
gelwch duwioldeb; Duw a ym-

2 *Cynheddfau esgobion, a dïaconiaid, a'u gwragedd:* 14 *a phaham y mae yr apostol yn ysgrifenu y pethau hyn at Timotheus.* 15 *Ynghylch yr eglwys, a'r gwirionedd a ddysgir ynddi.*

ddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhâwyd yn yr Ysbryd, a welwyd gan angylion, a bregethwyd i'r Cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, a gymmerwyd i fyny mewn gogoniant.

PENNOD 4.

1 *Y mae yn prophwydo ymadawiad oddi wrth y ffydd yn yr amseroedd diweddaf; 6 ac er mwyn na byddai i Timotheus bailu yn ei swydd, y mae yn rhoi iddo amryw gynghorion ynghylch hynny.*

AC y mae yr Ysbryd yn eglur yn dywedyd yr ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddi wrth y ffydd, gan roddi coel i ysprydion cyfeiliornus, ac i athrawiaethau cythreuliaid;

2 Yn dywedyd celwydd mewn rhagrith, a'u cydwybod eu hunain wedi ei serio â haiarn poeth;

3 Yn gwahardd priodi, *ac yn erchi* ymattal oddi wrth fwydydd, y rhai a greodd Duw i'w derbyn, trwy roddi diolch, gan y ffyddloniaid, a'r rhai a adwaenant y gwirionedd.

4 Oblegid *y mae* pob peth a greodd Duw yn dda, ac nid *oes* dim i'w wrthod, os cymmerir trwy dalu diolch:

5 Canys y mae wedi ei sancteiddio gan air Duw a gweddi.

6 Os gosodi y pethau hyn o flaen y brodyr, ti a fyddi weinidog da i Iesu Grist, wedi dy fagu y'ngeiriau y ffydd ac athrawiaeth dda, yr hon a ddilynaist.

7 Eithr gâd heibio halogedig a gwrachïaidd chwedlau, ac ymarfer dy hun i dduwioldeb.

8 Canys i ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol: eithr duwioldeb sydd fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd *y sydd* yr awr hon, ac o'r hwn a fydd.

9 Gwir *yw* y gair, ac yn haeddu pob derbyniad.

10 Canys er mwyn hyn yr ydym yn poeni, ac yn cael ein gwaradwyddo, o herwydd i ni obeithio yn y Duw byw, yr hwn yw Achubydd pob dyn, yn enwedig y ffyddloniaid.

11 Y pethau hyn gorchymyn a dysg.

12 Na ddïystyred neb dy ieuengctid di; eithr bydd yn siampl i'r ffyddloniaid, mewn gair, mewn ymarweddiad, mewn cariad, mewn ysbryd, mewn ffydd, mewn purdeb.

13 Hyd oni ddelwyf, glŷn wrth ddarllen, wrth gynghori, wrth athrawiaethu.

14 Nac esgeulusa y dawn sydd ynot, yr hwn a rodded i ti trwy brophwydoliaeth, gyd âg arddodiad dwylaw yr henuriaeth.

15 Myfyria ar y pethau hyn, *ac* yn y pethau hyn aros; fel y byddo dy gynnydd yn eglur i bawb.

16 Gwylia arnat dy hun, ac ar yr athrawiaeth; aros ynddynt: canys os gwnei hyn, ti a'th gedwi dy hun a'r rhai a wrandawant arnat.

PENNOD 5.

1 *Rheolau i'w dilym wrth geryddu.* 3 *Ynghylch gwragedd gweddwon.* 17 *a henuriaid.* 23 *Cynghor ynghylch iechyd Timotheus.* 24 *Bod pechodau rhai yn myned o'r blaen i farn, a'r eiddo eraill yn caniyn.*

NA cherydda hynafgwr, eithr cynghora *ef* megis tad; *a'r* rhai ieuaingc, megis brodyr;

2 Yr hen wragedd, megis mammau; y rhai ieuaingc, megis chwïorydd, gyd â phob purdeb.

3 Anrhydedda y gwragedd gweddwon, y rhai sydd wir-weddwon.

4 Eithr o bydd un weddw âg iddi blant neu ŵyrion, dysgant yn gyntaf arfer duwioldeb gartref, a thalu y pwyth i'w rhïeni: canys hynny sydd dda a chymmeradwy ger bron Duw.

5 Eithr yr hon sydd wir-weddw ac unig, sydd yn gobeithio yn Nuw, ac yn parhâu mewn ymbiliau a gweddïau nos a dydd.

6 Ond yr hon sydd drythyll, a fu farw, er ei bod yn fyw.

7 A gorchymyn y pethau hyn, fel y byddont ddïargyhoedd.

8 Ac od oes neb heb ddarbod dros yr eiddo, ac yn enwedig ei deulu, efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw na'r di-ffydd.

9 Na ddewiser yn weddw *un* a fo dan dri ugeinmlwydd oed, yr hon fu wraig i un gŵr,

10 Yn dda ei gair am weithredoedd da; os dygodd hi blant i fyny, os bu lettŷgar, o golchodd hi draed y saint, o chynnorthwyodd hi y

rhai cystuddiol, o dilynodd hi bob gorchwyl da.
11 Eithr gwrthod y gweddwon ieuainge: canys pan ddechreuont ymdrythyllu yn erbyn Crist, priodi a fynnant;
12 Gan gael barnedigaeth, am iddynt ddirmygu y ffydd gyntaf.
13 A hefyd y maent yn dysgu *bod* yn segur, gan rodio o amgylch o dŷ i dŷ; ac nid yn segur yn unig, ond hefyd yn wag-siaradus, ac yn rhodresgar, gan adrodd pethau nid ŷnt gymmwys.
14 Yr wyf yn ewyllysio gan hynny i'r rhai ieuainge briodi, planta, gwarchod y tŷ, heb roi dim achlysur i'r gwrthwynebwr i ddifenwi.
15 Canys y mae rhai eisoes wedi gŵyro ar ol Satan.
16 Od oes gan ŵr neu wraig ffyddlawn *wragedd* gweddwon, cynnorthwyant hwynt, ac na phwyser ar yr eglwys; fel y gallo hi ddiwallu y gwir-weddwon.
17 Cyfrifer yr henuriaid sydd yn llywodraethu yn dda, yn deilwng o barch dau-ddyblyg; yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth.
18 Canys y mae yr ysgrythyr yn dywedyd, Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu yr ŷd: ac, *Y mae* y gweithiwr yn haeddu ei gyflog.
19 Yn erbyn henuriad na dderbyn achwyn, oddi eithr dan ddau neu dri o dystion.
20 Y rhai sydd yn pechu, cerydda y'ngŵydd pawb, fel y byddo ofn ar y lleill.
21 Gorchymyn yr ydwyf ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, a'r etholedig angylion, gadw o honot y pethau hyn heb ragfarn, heb wneuthur dim o gyd-bartïaeth.
22 Na ddod ddwylaw yn ebrwydd ar neb, ac na fydd gyfrannog o bechodau rhai eraill: cadw dy hun yn bur.
23 Nac ŷf ddwfr yn hŵy; eithr arfer ychydig win, er mwyn dy gylla a'th fynych wendid.
24 Pechodau rhyw ddynion sydd amlwg o'r blaen, yn rhagflaenu i farn; eithr rhai sydd yn eu canlyn hefyd.
25 Yr un ffunud hefyd y mae gweithredoedd da yn amlwg o'r blaen; a'r rhai sydd amgenach, nis gellir eu cuddio.

PENNOD 6.

1 *Dyled gweision t'w meistriaid.* 3 *Am ochelyd athrawon newydd.* 6 *Duwioldeb sydd elw mawr:* 10 *a chwant arian ydyw gwreiddyn pob drwg.* 11 *Beth a ddylai Timotheus ei ochelyd, a'i ddilyn:* 17 *am ba beth yr oedd iddo rybuddio y cyfoethogion.* 20 *Am gadw yr athrawiaeth lawn, a gochelyd siaradach ofer.*

CYNNIFER ag sydd wasanaethwyr dan yr iau, tybiant eu meistriaid eu hun yn deilwng o bob anrhydedd; fel na chabler enw Duw, a'i athrawiaeth *ef.*
2 A'r rhai sydd â meistriaid ganddynt yn credu, na ddïystyrant *hwynt*, o herwydd eu bod yn frodyr; eithr yn hytrach gwasanaethant *hwynt*, am eu bod yn credu, ac yn anwyl, yn gyfrannogion o'r llesâd. Y pethau hyn dysg a chynghora.
3 Od oes neb yn dysgu yn amgenach, ac heb gyttuno âg iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, ac â'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb;
4 Chwyddo y mae, heb wybod dim, eithr ammhwyllo ynghylch cwestiynau, ac ymryson ynghylch geiriau; o'r rhai y mae cenfigen, ymryson, cableddau, drwg-dybiau, yn dyfod.
5 Cyndyn ddadleu dynion llygredig eu meddwl, heb fod y gwirionedd ganddynt, yn tybied mai elw yw duwioldeb: cilia oddi wrth y cyfryw.
6 Ond elw mawr yw duwioldeb gyd â boddlonrwydd.
7 Canys ni ddygasom ni ddim i'r byd, *ac* eglur *yw* na allwn ddwyn dim allan chwaith.
8 Ac o bydd gennym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hynny.
9 Ond y rhai *sydd* yn ewyllysio ymgyfoethogi, sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth.
10 Canys gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch: yr hon, a rhai yn chwannog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddi wrth y ffydd, ac a'u

gwanasant eu hunain â llawer o ofidiau.

11 Eithr tydi, gŵr Duw, gochel y pethau hyn; a dilyn gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, amynedd, addfwyndra.

12 Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd; cymmer afael ar y bywyd tragywyddol; i'r hwn hefyd y'th alwyd, ac y proffesaist broffes dda ger bron llawer o dystion.

13 Yr ydwyf yn gorchymyn i ti ger bron Duw, yr hwn sydd yn bywhâu pob peth, a *cher bron* Crist Iesu, yr hwn dan Pontius Pilat a dystiodd broffes dda;

14 Gadw o honot y gorchymyn *hwn* yn ddifeius, yn ddïargyhoedd, hyd ymddangosiad ein Harglwydd Iesu Grist:

15 Yr hwn yn ei amserau prïod a ddengys y bendigedig a'r unig Bennaeth, Brenhin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi;

16 Yr hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb, *sydd* yn trigo yn y goleuni ni ellir dyfod atto, yr hwn nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled: i'r hwn *y byddo* anrhydedd a gallu tragywyddol. Amen.

17 Gorchymyn i'r rhai sydd oludog yn y byd yma, na byddont uchelfeddwl, ac na obeithiont mewn golud anwadal, ond yn y Duw byw, yr hwn sydd yn helaeth yn rhoddi i ni bob peth i'w mwynhâu:

18 Ar iddynt wneuthur daioni, ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, fod yn hawdd ganddynt roddi *a* chyfrannu;

19 Yn trysori iddynt eu hunain sail dda erbyn *yr amser* sydd ar ddyfod, fel y caffont afael ar y bywyd tragywyddol.

20 O Timothëus, cadw yr hyn a roddwyd i'w gadw attat, gan droi oddi wrth halogedig ofersain, a gwrthwyneb gwybodaeth, a gamenwir *felly:*

21 Yr hon tra yw rhai yn ei phroffesu, hwy a gyfeiliornasant o ran y ffydd. Gras *fyddo* gyd â thi. Amen.

¶ Y cyntaf at Timothëus a ysgrifenwyd o Laodicea, yr hon yw prif-ddinas Phrygia Pacatiana.

AIL EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT TIMOTHEUS.

PENNOD 1.

1 *Serch Paul tu ag at Timothëus; 5 a'r ffydd ddiffuant oedd yn Timothëus, ac yn ei fam, a'i nain: 9 ei annog ef i gyfrôi rhoddiad Duw oedd ynddo ef; 8 i fod yn ddianwadal, ac yn ddïoddefgar mewn erlid: 13 ac i barhâu yn y wir athrawiaeth a ddysgasai ganddo ef. 15 Ynghylch Phygëlus a Hermogenes a chlod Onesiphorus.*

PAUL, apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, yn ol addewid y bywyd, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu,

2 At Timothëus, *fy* mab anwyl: Gras, trugaredd, *a* thangnefedd, oddi wrth Dduw Dad, a Christ Iesu ein Harglwydd.

3 Y mae gennyf ddïolch i Dduw, yr hwn yr ydwyf yn ei wasanaethu o'*m* rhïeni â chydwybod bur, mor ddibaid y mae gennyf goffa am danat ti yn fy ngweddïau nos a dydd:

4 Gan fawr-ewyllysio dy weled, gan gofio dy ddagrau, fel y'm llanwer o lawenydd;

5 Gan alw i'm côf y ffydd ddiffuant sydd ynot ti, yr hon a drigodd yn gyntaf yn dy nain Loïs, ac yn dy fam Eunice; a dïammeu gennyf *ei bod* ynot tithau hefyd.

6 O herwydd pa achos yr ydwyf yn dy goffâu i ail-ennyn dawn Duw, yr hwn sydd ynot trwy arddodiad fy nwylaw i.

7 Canys ni roddes Duw i ni yspryd ofn; ond *yspryd* nerth, a chariad, a phwyll.

8 Am hynny na fydded arnat gywilydd o dystiolaeth ein Harglwydd, nac o honof finnau ei

garcharor ef: eithr cyd-oddef di gystudd â'r efengyl, yn ol nerth Duw;
9 Yr hwn a'n hachubodd ni, ac a'n galwodd â galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yng Nghrist Iesu, cyn dechreu y byd,
10 Eithr a eglurwyd yr awr hon trwy ymddangosiad ein Hiachawdwr Iesu Grist, yr hwn a ddiddymmodd angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl:
11 I'r hon y'm gosodwyd i yn bregethwr, ac yn apostol, ac yn athraw y Cenhedloedd.
12 Am ba achos yr ydwyf hefyd yn dïoddef y pethau hyn: ond nid oes arnaf gywilydd: canys mi a wn i bwy y credais; ac y mae yn ddïammeu gennyf ei fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais atto erbyn y dydd hwnnw.
13 Bydded gennyt ffurf yr ymadroddion iachus, y rhai a glywaist gennyf fi, yn y ffydd a'r cariad *sydd* yng Nghrist Iesu.
14 Y peth da a rodded i'w gadw attat, cadw trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn preswylio ynom.
15 Ti a wyddost hyn, ddarfod i'r rhai oll sydd yn Asia droi oddi wrthyf fi; o'r sawl y mae Phygèlus a Hermogenes.
16 Rhodded yr Arglwydd drugaredd i dŷ Onesiphorus; canys efe a'm llonnodd i yn fynych, ac nid oedd gywilydd ganddo fy nghadwyn i:
17 Eithr pan oedd yn Rhufain, *efe* a'm ceisiodd yn ddiwyd iawn, ac a'*m* cafodd.
18 Rhodded yr Arglwydd iddo gael trugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnnw: a maint a wnaeth efe o wasanaeth yn Ephesus, goreu y gwyddost ti.

PENNOD 2.

1 Ei annog ef i ddïanwadalwch, ac i barhäu, ac i wneuthur rhan gweinidog ffyddlawn yr Arglwydd, gan gyfrannu gair Duw yn iawn, a gochelyd siaradach ofer. 17 Am Hymenëus a Philetus. 19 Bod sylfaen yr Arglwydd yn sicr. 22 Y mae yn dysgu iddo beth sydd i'w ochelyd, ac i'w ddilyn; a pha fodd y gweddai i weinidog yr Arglwydd ymddwyn.

TYDI gan hynny, fy mab, ymnertha yn y gras sydd yng Nghrist Iesu.
2 A'r pethau a glywaist gennyf trwy lawer o dystion, traddoda y rhai hynny i ddynion ffyddlawn, y rhai a fyddant gymmwys i ddysgu eraill hefyd.
3 Tydi gan hynny goddef gystudd, megis milwr da i Iesu Grist.
4 Nid yw neb a'r sydd yn milwrio, yn ymrwystro â negeseuau y bywyd *hwn;* fel y rhyngo fodd i'r hwn a'i dewisodd yn filwr.
5 Ac od ymdrech neb hefyd, ni choronir ef, onid ymdrech yn gyfreithlawn.
6 Y llafurwr sydd yn llafurio, sydd raid iddo yn gyntaf dderbyn y ffrwythau.
7 Ystyria yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd; a'r Arglwydd a roddo i ti ddeall ym mhob peth.
8 Cofia gyfodi Iesu Grist o had Dafydd, o feirw, yn ol fy efengyl i:
9 Yn yr hon yr ydwyf yn goddef cystudd hyd rwymau, fel drwgweithredwr; eithr gair Duw nis rhwymir.
10 Am hynny yr ydwyf yn goddef pob peth er mwyn yr etholedigion, fel y gallont hwythau gael yr iachawdwriaeth sydd yng Nghrist Iesu, gyd â gogoniant tragywyddol.
11 Gwir *yw* y gair: Canys os buom feirw gyd âg ef, byw fyddwn hefyd gyd âg *ef:*
12 Os dïoddefwn, ni a deyrnaswn gyd âg *ef:* os gwadwn *ef,* yntau hefyd a'n gwad ninnau:
13 Os ŷm ni heb gredu, *etto* y mae efe yn aros yn ffyddlawn: nis gall efe ei wadu ei hun.
14 Dwg y pethau hyn ar gôf, gan orchymyn ger bron yr Arglwydd, na byddo iddynt ymrysON ynghylch geiriau, *yr hyn* nid yw fuddiol i ddim, *ond* i ddadymchwelyd y gwrandawyr.
15 Bydd ddyfal i'th osod dy hun yn brofedig gan Dduw, yn weithiwr difefl, yn iawn-gyfrannu gair y gwirionedd.
16 Ond halogedig ofersain, gochel: canys cynnyddu a wnant i fwy o annuwioldeb.

17 A'u hymadrodd hwy a ysa fel
cancr: ac o'r cyfryw rai y mae
Hymenëus a Philetus;
18 Y rhai o ran y gwirionedd
a gyfeiliornasant, gan ddywedyd
ddarfod yr adgyfodiad eisoes; ac y
maent yn dadymchwelyd ffydd rhai.
19 Eithr y mae cadarn sail Duw
yn sefyll, a chanddo y sêl hon, Yr
Arglwydd a edwyn y rhai sydd
eiddo ef: a, Pob un ȳdd yn enwi
enw Crist, ymadawed oddi wrth
anghyfiawnder.
20 Eithr mewn tŷ mawr nid oes
yn unig lestri o aur ac o arian, ond
hefyd o bren ac o bridd; a rhai i
barch, a rhai i ammharch.
21 Pwy bynnag gan hynny a'i
glanhao ei hun oddi wrth y pethau
hyn, efe a fydd yn llestr i barch,
wedi ei sancteiddio, ac yn gym-
mwys i'r Arglwydd, wedi ei ddar-
paru i bob gweithred dda.
22 Ond chwantau ieuengctid, ffo
oddi wrthynt: a dilyn gyfiawnder,
ffydd, cariad, tangnefedd, gyd â'r
rhai sydd yn galw ar yr Arglwydd
o galon bur.
23 Eithr gochel ynfyd ac an-
nysgedig gwestiynau, gan wybod
eu bod yn magu ymrysonau.
24 Ac ni ddylai gwas yr Ar-
glwydd ymryson; ond bod yn
dirion wrth bawb, yn athrawus, yn
ddïoddefgar,
25 Mewn addfwynder yn dysgu
y rhai gwrthwynebus; *i edrych* a
roddo Duw iddynt hwy ryw amser
edifeirwch i gydnabod y gwirion-
edd;
26 A bod iddynt ddyfod i'r iawn
allan o fagl diafol, y rhai a ddelid
ganddo wrth ei ewyllys ef.

PENNOD 3.

1 *Y mae yn ei rybuddio ef am amseroedd blinion:* 6 *yn dangos pa fath ydyw gelynion y gwirionedd:* 10 *yn ei osod ei hun yn siampl iddo;* 16 *ac yn canmol yr ysgrythyr lân.*

GWYBYDD hyn hefyd, y daw
amseroedd enbyd yn y dydd-
iau diweddaf.
2 Canys bydd dynion â'u serch
arnynt eu hunain, yn ariangar, yn
ymffrostwyr, yn feilchion, yn gabl-
wyr, yn anufuddion i rïeni, yn an-
niolchgar, yn annuwiol,
3 Yn angharedig, yn torri cyfam-
mod, yn enllibaidd, yn anghym-
hesur, yn anfwyn, yn ddiserch i'r
rhai da,
4 Yn fradwyr, yn waedwyllt, yn
chwyddedig, yn caru melus-chwant
yn fwy nag yn caru Duw;
5 A chanddynt rith duwioldeb,
eithr wedi gwadu ei grym hi: a'r
rhai hyn gochel di.
6 Canys o'r rhai hyn y mae y rhai
sydd yn ymlusgo i deiau, ac yn
dwyn yn gaeth wrageddos llwythog
o bechodau, wedi eu harwain gan
amryw chwantau,
7 Yn dysgu bob amser, ac heb
allu dyfod un amser i wybodaeth y
gwirionedd.
8 Eithr megis y safodd Jannes
a Jambres yn erbyn Moses, felly
y mae y rhai hyn hefyd yn sefyll
yn erbyn y gwirionedd; dynion
o feddwl llygredig, yn anghym-
meradwy o ran y ffydd.
9 Eithr nid ânt rhagddynt ym
mhellach: canys eu hynfydrwydd
fydd amlwg i bawb, megis y bu yr
eiddynt hwythau.
10 Eithr ti a lwyr-adwaenost fy
nysgeidiaeth, *fy* muchedd, *fy* ar-
faeth, ffydd, hir-ymaros, cariad,
amynedd,
11 *Yr* erlidiau, y dïoddefiadau, y
rhai a ddigwyddasant i mi yn Anti-
ochia, yn Iconium, yn Lystra; pa
erlidiau a ddïoddefais: eithr oddi
wrthynt oll y'm gwaredodd yr Ar-
glwydd.
12 Ïe, a phawb a'r sydd yn ewyll-
ysio byw yn dduwiol yng Nghrist
Iesu a erlidir.
13 Eithr drwg-ddynion a thwyll-
wyr a ânt rhagddynt waethwaeth,
gan dwyllo, a chael eu twyllo.
14 Eithr aros di yn y pethau a
ddysgaist, ac a ymddiriedwyd i ti
am danynt, gan wybod gan bwy y
dysgaist;
15 Ac i ti er yn fachgen wybod
yr ysgrythyr lân, yr hon sydd abl
i'th wneuthur di yn ddoeth i iach-
awdwriaeth trwy y ffydd sydd yng
Nghrist Iesu.
16 Yr holl ysgrythyr *sydd* wedi
ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw,
ac *sydd* fuddiol i athrawiaethu, i
argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi
mewn cyfiawnder:

17 Fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.

PENNOD 4.

1 *Y mae yn ei annog i fod yn ofalus ac yn ddiwyd i gwblhau ei swydd:* 6 *yn ei rybuddio nesed oedd ei farwolaeth ef:* 9 *yn cwyllysio iddo ddyfod atto ef ar frydr:* 14 *yn ei rybuddio ef i ochelyd Alexander y gôf:* 16 *yn danpos iddo beth a ddigwyddasai iddo wrth ei atteb cyntaf:* 19 *ac ar ol hynny y mae yn dibennu.*

YR ydwyf fi gan hynny yn gorchymyn ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a farna y byw a'r meirw yn ei ymddangosiad a'i deyrnas;

2 Pregetha y gair; bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyd â phob hir-ymaros ac athrawiaeth.

3 Canys daw yr amser pryd na ddïoddefont athrawiaeth iachus; eithr yn ol eu chwantau eu hunain y pentyrrant iddynt eu hunain athrawon, gan fod eu clustiau yn merwino;

4 Ac oddi wrth y gwirionedd y troant ymaith *eu* clustiau, ac at chwedlau y troant.

5 Eithr gwylia di ym mhob peth, dïoddef adfyd, gwna waith efengylwr, cyflawna dy weinidogaeth.

6 Canys myfi yr awr hon a aberthir, ac amser fy ymddattodiad i a nesaodd.

7 Mi a ymdrechais ymdrech dêg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd.

8 O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnnw: ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef.

9 Bydd ddyfal i ddyfod attaf yn ebrwydd:

10 Canys Demas a'm gadawodd, gan garu y byd presennol, ac a aeth ymaith i Thessalonica; Crescens i Galatia, Titus i Dalmatia.

11 Luc yn unig sydd gyd â mi. Cymmer Marc, a dwg gyd â thi: canys buddiol yw efe i mi i'r weinidogaeth.

12 Tychicus hefyd a ddanfonais i Ephesus.

13 Y cochl a adewais i yn Troas gyd â Carpus, pan ddelych, dwg *gyd â thi*, a'r llyfrau, yn enwedig y memrwn.

14 Alexander y gôf copr a wnaeth i mi ddrygau lawer: taled yr Arglwydd iddo yn ol ei weithredoedd:

15 Yr hwn hefyd gochel dithau; canys efe a safodd yn ddirfawr yn erbyn ein hymadroddion ni.

16 Yn fy atteb cyntaf ni safodd neb gyd â mi, eithr pawb a'm gadawsant: *mi a archaf ar Dduw* nas cyfrifer iddynt.

17 Eithr yr Arglwydd a safodd gyd â mi, ac a'm nerthodd; fel trwof fi y byddai y pregethiad yn llawn hysbys, ac y clywai yr holl Genhedloedd: ac mi a waredwyd o enau y llew.

18 A'r Arglwydd a'm gwared i rhag pob gweithred ddrwg, ac a'*m* ceidw i'w deyrnas nefol: i'r hwn *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

19 Annerch Prisca ac Acwila, a theulu Onesiphorus.

20 Erastus a arhosodd yn Corinth: ond Trophimus a adewais ym Miletus yn glaf.

21 Bydd ddyfal i ddyfod cyn y gauaf. Y mae Eubulus yn dy annerch, a Phudens, a Linus, a Chlaudia, a'r brodyr oll.

22 Yr Arglwydd Iesu Grist *fyddo* gyd â'th yspryd di. Gras *fyddo* gyd â chwi. Amen.

¶ Yr ail *epistol* at Timothëus, yr esgob cyntaf a ddewiswyd ar eglwys yr Ephesiaid, a ysgrifenwyd o Rufain, pan ddygwyd Paul yr ail waith ger bron Cesar Nero.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT

TITUS.

PENNOD 1.

5 I ba beth y gadawyd Titus yn Creta. 6 Pa gynheddfau a ddylai fod mewn esgob. 11 Rhaid yw cau safnau y rhai a ddysgant y pethau ni ddylent: 12 a pha fath wŷr ydynt.

PAUL, gwas Duw, ac apostol Iesu Grist, yn ol ffydd etholedigion Duw, ac adnabyddiaeth y gwirionedd, yr hon *sydd* yn ol duwioldeb;

2 I obaith bywyd tragywyddol, yr hon a addawodd y digelwyddog Dduw cyn dechreu y byd;

3 Eithr mewn amseroedd prïodol efe a eglurhaodd ei air trwy bregethu, am yr hyn yr ymddiriedwyd i mi, yn ol gorchymyn Duw ein Hiachawdwr;

4 At Titus, *fy* mab naturiol yn ol y ffydd gyffredinol: Gras, trugaredd, *a* thangnefedd, oddi wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist ein Hiachawdwr ni.

5 Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit henuriaid ym mhob dinas, megis yr ordeiniais i ti:

6 Os yw neb yn ddïargyhoedd, yn ŵr un wraig, a chanddo blant ffyddlawn, heb gael y gair o fod yn afradlon, neu yn anufudd:

7 Canys rhaid i esgob fod yn ddïargyhoedd, fel goruchwyliwr Duw; nid yn gyndyn, nid yn ddigllawn, nid yn wingar, nid yn darawydd, nid yn budr-elwa;

8 Eithr yn llettŷgar, yn caru daioni, yn sobr, yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymherus;

9 Yn dal yn lew y gair ffyddlawn yn ol yr addysg, fel y gallo gynghori yn yr athrawiaeth iachus, ac argyhoeddi y rhai sydd yn gwrth-ddywedyd.

10 Canys y mae llawer yn anufudd, yn ofer-siaradus, ac yn dwyllwyr meddyliau, yn enwedig y rhai o'r enwaediad:

11 Y rhai y mae yn rhaid cau eu safnau, y rhai sydd yn dymchwelyd tai cyfain, gan athrawiaethu y pethau ni ddylid, er mwyn budr-elw.

12 Un o honynt hwy eu hunain, un o'u prophwydi hwy eu hunain, a ddywedodd, Y Cretiaid *sydd* bob amser yn gelwyddog, drwg fwystfilod, boliau gorddïog.

13 Y dystiolaeth hon sydd wir. Am ba achos argyhoedda hwy yn llym, fel y byddont iach yn y ffydd;

14 Heb ddal ar chwedlau Iuddewaidd, a gorchymynion dynion, yn troi oddi wrth y gwirionedd.

15 Pur yn ddïau *yw* pob peth i'r rhai pur: eithr i'r rhai halogedig a'r di-ffydd, nid pur dim; eithr halogedig yw hyd yn nod eu meddwl a'u cydwybod hwy.

16 Y maent yn proffesu yr adwaenant Dduw; eithr ar weithredoedd *ei* wadu y maent, gan fod yn ffiaidd, ac yn anufudd, ac at bob gweithred dda yn anghymmeradwy.

PENNOD 2.

1 Y mae yn hyfforddi Titus yn ei athrawiaeth, ac yn ei fuchedd. 9 Rhan gweision, a pheb math ar Gristionogion.

EITHR llefara di y pethau a weddo i athrawiaeth iachus:

2 Bod o'r hynafgwyr yn sobr, yn onest, yn gymhesur, yn iach yn y ffydd, y'nghariad, mewn amynedd:

3 *Bod* o'r hynaf-wragedd yr un ffunud mewn ymddygiad fel y gweddai i sanctteiddrwydd; nid yn enllibaidd, nid wedi ymrôi i win lawer, yn rhoi athrawiaeth o ddaioni:

4 Fel y gallont wneuthur y gwragedd ieuaingc yn bwyllog, i garu eu gwŷr, i garu eu plant,

5 Yn sobr, yn bur, yn gwarchod gartref, yn dda, yn ddarostyngedig i'w gwŷr prïod, fel na chabler gair Duw.

6 Y gwŷr ieuaingc yr un ffunud cynghora i fod yn sobr:

7 Gan dy ddangos dy hun ym mhob peth yn siampl i weithredoedd da: *a dangos*, mewn athrawiaeth, anllygredigaeth, gweddeidddra, purdeb,
8 Ymadrodd iachus, yr hwn ni aller beio arno; fel y byddo i'r hwn *sydd* yn y gwrthwyneb gywilyddio, heb ganddo ddim drwg i'w ddywedyd am danoch chwi.
9 *Cynghora* weision i fod yn ddarostyngedig i'w meistriaid eu hun, *ac* i ryngu bodd *iddynt* ym mhob peth; nid yn gwrth-ddywedyd;
10 Nid yn darnguddio, ond yn dangos pob ffyddlondeb da; fel yr harddont athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr ym mhob peth.
11 Canys ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn;
12 Gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon;
13 Gan ddisgwyl am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangosiad gogoniant y Duw mawr, a'n Hiachawdwr Iesu Grist;
14 Yr hwn a'i rhoddes ei hun drosom, i'n prynu ni oddi wrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da.
15 Y pethau hyn llefara a chynghora, ac argyhoedda gyd â phob awdurdod. Na ddiystyred neb di.

PENNOD 3.

1 *Y mae Paul yn hyfforddi Titus pa bethau a ddysg, a pha bethau ni ddysg efe iddynt.* 10 *Am ochelyd heretic cyndyn.* 12 *Y mae yn dangos iddo i ba fan, a pha bryd, y deuai atto ef: ac felly y mae yn dibennu.*

DWG ar gôf iddynt fod yn ddarostyngedig i'r tywysogaethau a'r awdurdodau, fod yn ufudd, fod yn barod i bob gweithred dda,
2 Bod heb gablu neb, yn anymladdgar, yn dirion, gan ddangos pob addfwynder tu ag at bob dyn.
3 Canys yr oeddym ninnau hefyd gynt yn annoethion, yn anufudd, yn cyfeiliorni, yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd, gan fyw mewn drygioni a chenfigen, yn ddigasog, yn casâu ein gilydd.
4 Eithr pan ymddangosodd daioni a chariad Duw ein Hachubwr tu ag at ddyn,
5 Nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe ni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân;
6 Yr hwn a dywalltodd efe arnom ni yn helaeth, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr:
7 Fel, gwedi ein cyfiawnhâu trwy ei ras ef, y'n gwneid yn etifeddion yn ol gobaith bywyd tragywyddol.
8 Gwir *yw* y gair, ac am y pethau hyn yr ewyllysiwn i ti fod yn daer, fel y byddo i'r sawl a gredasant i Dduw ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da. Y pethau hyn sydd dda a buddiol i ddynion.
9 Eithr gochel gwestiynau ffol, ac achau, a chynhennau, ac ymrysonau ynghylch y ddeddf: canys anfuddiol ydynt ac ofer.
10 Gochel y dyn a fyddo heretic, wedi un ac ail rybudd:
11 Gan wybod fod y cyfryw un wedi ei ŵyrdroi, ac yn pechu, gan fod yn ei ddamnio ei hunan.
12 Pan ddanfonwyf Artemas attat, neu Tychicus, bydd ddyfal i ddyfod attaf i Nicopolis: canys yno yr arfaethais auafu.
13 Hebrwng Senas y cyfreithiwr, ac Apòlos, yn ddiwyd; fel na byddo arnynt eisieu dim.
14 A dysged yr eiddom ninnau flaenori mewn gweithredoedd da i angenrheidiau, fel na byddont yn ddiffrwyth.
15 Y mae yr holl rai sydd gyd â mi yn dy annerch. Annerch y rhai sydd yn ein caru ni yn y ffydd. Gras *fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

¶ At Titus, yr esgob cyntaf a ddewiswyd ar eglwys y Cretiaid, yr ysgrifenwyd o Nicopolis ym Macedonia.

EPISTOL SANT PAUL AT

PHILEMON.

¶ Y mae yn wych ganddo glywed am ffydd a chariad Philemon; 9 ac yn dymuno arno faddeu i'w was Onesimus, 12 a'i gymmeryd ef adref yn garedig drachefn.

PAUL, carcharor Crist Iesu, a'r brawd Timothëus, at Philemon ein hanwylyd, a'n cyd-weithiwr,
2 Ac at Apphia *ein* hanwylyd, ac at Archippus ein cyd-filwr, ac at yr eglwys sydd yn dy dŷ di:
3 Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.
4 Yr wyf yn diolch i'm Duw, gan wneuthur coffa am danat yn wastadol yn fy ngweddïau,
5 Wrth glywed dy gariad, a'r ffydd sydd gennyt tu ag at yr Arglwydd Iesu, a thu ag at yr holl saint;
6 Fel y gwneler cyfranniad dy ffydd di yn nerthol, trwy adnabod pob peth daionus, a'r sydd ynoch chwi yng Nghrist Iesu.
7 Canys y mae gennym lawer o lawenydd a diddanwch yn dy gariad di, herwydd bod ymysgaroedd y saint wedi eu llonni trwot ti, frawd.
8 O herwydd paham, er bod gennyf hyfdra lawer yng Nghrist, i orchymyn i ti y peth sydd weddus;
9 Etto o ran cariad yr ydwyf yn hytrach yn attolwg, er fy mod yn gyfryw un a Phaul yr hynafgwr, ac yr awr hon hefyd yn garcharor Iesu Grist.
10 Yr ydwyf yn attolwg i ti dros fy mab Onesimus, yr hwn a genhedlais i yn fy rhwymau:
11 Yr hwn gynt *a fu* i tí yn anfuddiol, ond yr awr hon yn fuddiol i ti ac i minnau hefyd;
12 Yr hwn a ddanfonais drachefn: a derbyn dithau ef, yr hwn yw fy ymysgaroedd i:
13 Yr hwn yr oeddwn i yn ewyllysio ei ddal gyd â mi, fel drosot ti y gwasanaethai efe fi yn rhwymau yr efengyl.
14 Eithr heb dy feddwl di ni ewyllysiais wneuthur dim; fel na byddai dy ddaioni di megis o anghenraid, ond o fodd.
15 Canys ysgatfydd er mwyn hyn yr ymadawodd dros amser, fel y derbynit ef yn dragywydd;
16 Nid fel gwas bellach, eithr uwch law gwas, yn frawd anwyl, yn enwedig i mi; eithr pa faint mwy i ti, yn y cnawd ac yn yr Arglwydd hefyd?
17 Os wyt ti gan hynny yn fy nghymmeryd i yn gydymmaith, derbyn ef fel myfi.
18 Ac os gwnaeth efe ddim cam â thi, neu *os* yw yn *dy* ddyled, cyfrif hynny arnaf fi;
19 Myfi Paul a'*i* hysgrifenais â'm llaw fy hun, myfi a'i talaf: fel na ddywedwyf wrthyt, dy fod yn fy nyled i ym mhellach am danat dy hun hefyd.
20 Ië, frawd, gâd i mi dy fwynhâu di yn yr Arglwydd: llonna fy ymysgaroedd i yn yr Arglwydd.
21 Gan hyderu ar dy ufudd-dod yr ysgrifenais attat, gan wybod y gwnei, ïe, fwy nag yr wyf yn ei ddywedyd.
22 Heb law hyn hefyd, parottoa i mi letty: canys yr ydwyf yn gobeithio trwy eich gweddïau chwi y rhoddir fi i chwi.
23 Y mae yn dy annerch, Epaphras, fy nghyd-garcharor yng Nghrist Iesu;
24 Marc, Aristarchus, Demas, Luc, fy nghyd-weithwyr.
25 Gras ein Harglwydd Iesu Grist *fyddo* gyd â'ch yspryd chwi. Amen.

¶ At Philemon yr ysgrifenwyd o Rufain, gyd â'r gwas Onesimus.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT YR

HEBREAID.

PENNOD 1.

1 *Duw yn y dyddiau diweddaf a lefarodd wrthym ni trwy ei Fab ei hun; 4 yr hwn, o ran ei berson a'i swydd, sydd yn rhagori ar yr angylion. 14 Swydd yr angylion.*

DUW, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn *ei* Fab;

2 Yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd:

3 Yr hwn, *ac* efe yn ddisgleirdeb *ei* ogoniant *ef*, ac yn wir lun ei berson ef, ac yn cynnal pob beth trwy air ei nerth, wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd;

4 Wedi *ei* wneuthur o hynny yn well na'r angylion, o gymmaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwynt-hwy.

5 Canys wrth bwy o'r angylion y dywedodd efe un amser, Fy mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genhedlais di? A thrachefn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab?

6 A thrachefn, pan yw yn dwyn y Cyntaf-anedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angylion Duw ef.

7 Ac am yr angylion y mae yn dywedyd, Yr hwn sydd yn gwneuthur ei angylion yn ysprydion, a'i weinidogion yn fflam dân.

8 Ond wrth y Mab, Dy orseddfaingc di, O Dduw, *sydd* yn oes oesoedd: teyrnwïalen uniondeb *yw* teyrnwïalen dy deyrnas di.

9 Ti a geraist gyfiawnder, ac a gaseaist anwiredd: am hynny y'th enneiniodd Duw, *sef* dy Dduw di, âg olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion.

10 Ac, Tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear; a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd:

11 Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond tydi sydd yn parhâu; a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant;

12 Ac megis gwisg y plygi di hwynt, a hwy a newidir: ond tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant.

13 Ond wrth ba un o'r angylion y dywedodd efe un amser, Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfaingc i'th draed?

14 Onid ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?

PENNOD 2.

1 *Y dylem ni fod yn ufudd i Grist Iesu; 5 gan fod yn wiw ganddo ef gymmeryd ein natwriaeth ni arno, 14 fel yr oedd yn anghenraid.*

AM hynny y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom, rhag un amser i ni *eu* gollwng *hwy* i golli.

2 Canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angylion, ac os derbyniodd pob trosedd ac anufuddod gyfiawn daledigaeth;

3 Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymmaint, yr hon, wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd, a sicrhâwyd i ni gan y rhai a'*i* clywsant *ef:*

4 *A* Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu, trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau yr Yspryd Glân, yn ol ei ewyllys ei hun?

5 Canys nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw, am yr hwn yr ydym yn llefaru.

6 Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Pa beth yw dyn, i ti i feddwl am dano? neu fab dyn, i ti i ymweled âg ef?

7 Ti a'i gwnaethost ef ychydig îs na'r angylion; â gogoniant ac anrhydedd y coronaist ti ef, ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw:

8 Ti a ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef. Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo. Ond yr awr hon nid ydym ni etto yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo.

9 Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu, yr hwn a wnaed ychydig yn îs na'r angylion, o herwydd dïoddef marwolaeth, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd: fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn.

10 Canys gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn *y mae* pob peth, a thrwy yr hwn *y mae* pob peth, wedi *iddo* ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddïoddefiadau.

11 Canys yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir, o'r un *y maent* oll. Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr;

12 Gan ddywedyd, Myfi a fynegaf dy enw di i'm brodyr; y'nghanol yr eglwys y'th folaf di.

13 A thrachefn, Myfi a fyddaf yn ymddiried ynddo. A thrachefn, Wele fi a'r plant a roddes Duw i mi.

14 Oblegid hynny, gan fod y plant yn gyfrannogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfrannog o'r un *pethau;* fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hynny yw, diafol;

15 Ac y gwaredai hwynt, y rhai trwy ofn marwolaeth oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed.

16 Canys ni chymmerodd efe *naturiaeth* angylion; eithr had Abraham a gymmerodd efe.

17 Am ba achos y dylai efe ym mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr; fel y byddai drugarog ac Arch-offeiriad ffyddlawn, mewn pethau *yn perthyn* i Dduw, i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl.

18 Canys yn gymmaint a dïoddef o hono ef, gan gael ei demtio, efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir.

PENNOD 3.

1 *Bod Crist yn rhagori ar Moses: 7 am hynny oni chredwn ni iddo ef, yr ydym yn haeddu ychwaney gospedigaeth na'r Iseraeliaid gwrthnysig.*

O HERWYDD paham, frodyr sanctaidd, cyfrannogion o'r galwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu;

2 Yr hwn sydd ffyddlawn i'r hwn a'i hordeiniodd ef, megis ag *y bu* Moses yn ei holl dŷ ef.

3 Canys fe a gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant na Moses, o gymmaint ag y mae yr hwn a adeiladodd y tŷ yn cael mwy o barch na'r tŷ.

4 Canys pob tŷ a adeiledir gan ryw un; ond yr hwn a adeiladodd bob peth *yw* Duw.

5 A Moses yn wir *a fu* ffyddlawn yn ei holl dŷ megis gwas, er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru;

6 Eithr Crist, megis Mab ar ei dŷ ei hun: tŷ yr hwn ydym ni, os nyni a geidw ein hyder a gorfoledd ein gobaith yn sicr hyd y diwedd.

7 Am hynny, megis y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd, Heddyw, os gwrandêwch ar ei leferydd ef,

8 Na chaledwch eich calonnau, megis yn y cyffroad, yn nydd y profedigaeth yn y diffaethwch:

9 Lle y temtiodd eich tadau fyfi, y profasant fi, ac y gwelsant fy ngweithredoedd ddeugain mlynedd.

10 Am hynny y digiais wrth y genhedlaeth honno, ac y dywedais, Y maent bob amser yn cyfeiliorni yn *eu* calonnau; ac ni adnabuant fy ffyrdd i:

11 Fel y tyngais yn fy llid, na chaent ddyfod i mewn i'm gorphwysfa.

12 Edrychwch, frodyr, na byddo un amser yn neb o honoch galon ddrwg anghrediniaeth, gan ymadaw oddi wrth Dduw byw.

13 Eithr cynghorwch eich gilydd bob dydd tra y gelwir hi Heddyw; fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod.

14 Canys fe a'n gwnaed ni yn gyfrannogion o Grist, os daliwn

ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd;
15 Tra y dywedir, Heddyw, os gwrandêwch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonnau, megis yn y cyffroad.
16 Canys rhai, wedi gwrandaw, a'*i* digiasant *ef:* ond nid pawb a'r a ddaethant o'*r* Aipht trwy Moses.
17 Ond wrth bwy y digiodd efe ddeugain mlynedd? onid wrth y rhai a bechasent, y rhai y syrthiodd eu cyrph yn y diffaethwch?
18 Ac wrth bwy y tyngodd efe, na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef? onid wrth y rhai ni chredasant?
19 Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd anghrediniaeth.

PENNOD 4.

1 *Trwy ffydd y mae cael gorphwysfa y Cristionogion.* 12 *Gallu gair Duw.* 14 *Trwy ein Harch-offeiriad Iesu, Mab Duw; yr hwn oedd heb bechod, ond nid heb ei wendid,* 16 *y mae i ni gyrchu yn hyf at orseddfainge y gras.*

OFNWN gan hynny, gan fod addewid wedi ei adael *i ni* i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol.
2 Canys i ninnau y pregethwyd yr efengyl, megis ag iddynt hwythau: eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru â ffydd yn y rhai a'*i* clywsant.
3 Canys yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa, megis y dywedodd efe, Fel y tyngais yn fy llid, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i: er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd.
4 Canys efe a ddywedodd mewn man am y seithfed *dydd* fel hyn; A gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddi wrth ei holl weithredoedd.
5 Ac yma drachefn, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i.
6 Gan hynny, gan fod hyn wedi ei adael, fod rhai yn myned i mewn iddi, ac nad aeth y rhai y pregethwyd yn gyntaf iddynt i mewn, o herwydd anghrediniaeth;
7 Trachefn, y mae efe yn pennu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw, ar ol cymmaint o amser; megis y dywedir, Heddyw, os gwrandêwch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonnau.
8 Canys pe dygasai Jesus hwynt i orphwysfa, ni soniasai efe ar ol hynny am ddiwrnod arall.
9 Y mae gan hynny orphwysfa *etto* yn ol i bobl Dduw.
10 Canys yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, hwnnw hefyd a orphwysodd oddi wrth ei weithredoedd ei hun, megis *y gwnaeth* Duw oddi wrth yr eiddo yntau.
11 Byddwn ddyfal gan hynny i fyned i mewn i'r orphwysfa honno, fel na syrthio neb yn ol yr un siampl o anghrediniaeth.
12 Canys bywiol *yw* gair Duw, a nerthol, a llymmach nag un cleddyf dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r yspryd, a'r cymmalau a'r mêr; ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon.
13 Ac nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef: eithr pob peth *sydd* yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef am yr hwn yr ydym yn sôn.
14 Gan fod wrth hynny i ni Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn *ein* proffes.
15 Canys nid oes i ni Arch-offeiriad heb fedru cyd-ddioddef gyd â'n gwendid ni; ond wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud a ninnau, *etto* heb bechod.
16 Am hynny awn yn hyderus at orseddfainge y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamserol.

PENNOD 5.

1 *Awdurdod a braint offeiriadaeth ein Hachubwr.* 11 *Y mae efe ym beio arnynt, am eu bod mor esgeulus ac mor ddiwybod yn y pethau hynny.*

CANYS pob arch-offeiriad wedi ei gymmeryd o blith dynion, a osodir dros ddynion yn y pethau *sydd* tu ag at Dduw, fel yr offrymmo roddion ac aberthau dros bechodau:
2 Yr hwn a ddichon dosturio wrth y rhai sydd mewn anwybodaeth ac amryfusedd; am ei fod

yntau hefyd wedi ei amgylchu â gwendid.
3 Ac o achos hyn y dylai, megis dros y bobl, felly hefyd drosto ei hun, offrymmu dros bechodau.
4 Ac nid yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megis Aaron.
5 Felly Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i fod yn Arch-offeiriad; ond yr hwn a ddywedodd wrtho, Tydi yw fy Mab; myfi heddyw a'th genhedlais di.
6 Megis y mae yn dywedyd mewn *lle* arall, Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.
7 Yr hwn yn nyddiau ei gnawd, gwedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddïau ac erfyniau at yr hwn oedd abl i'w achub ef oddi wrth farwolaeth, a chael ei wrandaw yn yr hyn a ofnodd;
8 Er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefodd:
9 Ac wedi ei berffeithio, efe a wnaethpwyd yn Awdur iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhânt iddo;
10 Wedi ei gyfenwi gan Dduw yn Arch-offeiriad yn ol urdd Melchisedec.
11 Am yr hwn y mae i ni lawer i'w dywedyd, ac anhawdd eu traethu, o achos eich bod chwi yn hwyrdrwm eich clustiau.
12 Canys lle dylech fod yn athrawon o ran amser, y mae arnoch drachefn eisieu dysgu i chwi beth *ydyw* egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw: ac yr ydych yn rhaid *i chwi* wrth laeth, ac nid bwyd cryf.
13 Canys pob un a'r sydd yn ymarfer â llaeth, *sydd* anghynnefin â gair cyfiawnder; canys maban yw.
14 Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith, y rhai o herwydd cynnefindra y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosparthu drwg a da.

PENNOD 6.

1 *Y mae yn eu cymhori hwy na chilient oddi wrth y ffydd;* 11 *ond bod yn ddianwadal,* 12 *yn ddiwyd, ac yn ddioddefgar i ddisgwyl wrth Dduw,* 13 *am fod Duw yn sicr yn ei addewid.*

AM hynny, gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yng Nghrist, awn rhagom at berffeithrwydd; heb osod i lawr drachefn sail i edifeirwch oddi wrth weithredoedd meirwon, ac i ffydd tu ag at Dduw,
2 I athrawiaeth bedyddiadau, ac arddodiad dwylaw, ac adgyfodiad y meirw, a'r farn dragywyddol.
3 A hyn a wnawn, os caniattâ Duw.
4 Canys ammhosibl *yw* i'r rhai a oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfrannogion o'r Ysbryd Glân,
5 Ac a brofasant ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw,
6 Ac a syrthiant ymaith, ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; gan eu bod yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn *ei* osod yn watwar.
7 Canys y ddaear, yr hon sydd yn yfed y gwlaw sydd yn mynychddyfod arni, ac yn dwyn llysiau cymmwys i'r rhai y llafurir hi ganddynt, sydd yn derbyn bendith gan Dduw:
8 Eithr yr hon sydd yn dwyn drain a mïeri, *sydd* anghymmeradwy, ac agos i felldith; diwedd yr hon *yw*, ei llosgi.
9 Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, bethau gwell, a *phethau* y'nglŷn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn.
10 Canys nid *yw* Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch tu ag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini.
11 Ac yr ydym yn chwennych fod i bob un o honoch ddangos yr un diwydrwydd, er mwyn llawn-sicrwydd gobaith hyd y diwedd:
12 Fel na byddoch fusgrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion.
13 Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham, oblegid na allai dyngu i neb *oedd* fwy, a dyngodd iddo ei hun,
14 Gan ddywedyd, Yn ddïau gan

fendithio y'th fendithiaf, a chan amlhâu y'th amlhâf.

15 Ac felly, wedi iddo hir-ymaros, efe a gafodd yr addewid.

16 Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a fo mwy: a llw er sicrwydd *sydd* derfyn iddynt ar bob ymryson.

17 Yn yr hyn Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddïanwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lw:

18 Fel trwy ddau beth dïanwadal, yn y rhai *yr oedd* yn ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen;

19 Yr hwn sydd gennym ni megis angor yr enaid, yn ddïogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen;

20 I'r man yr aeth y rhag-flaenor drosom ni, *sef* Iesu, yr hwn a wnaethpwyd yn Arch-offeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec.

PENNOD 7.

1 *Crist Iesu sydd Offeiriad yn ol urdd Melchisedec;* 11 *ac felly yn rhagori llawer ar yr offeiriaid oedd yn ol urdd Aaron.*

CANYS y Melchisedec hwn, brenhin Salem, offeiriad y Duw Goruchaf, yr hwn a gyfarfu âg Abraham wrth ddychwelyd o ladd y brenhinoedd, ac a'i bendithiodd ef;

2 I'r hwn hefyd y cyfrannodd Abraham ddegwm o bob peth: yr hwn yn gyntaf, o'i gyfieithu, *yw*, Brenhin cyfiawnder, ac wedi hynny hefyd, Brenhin Salem, yr hyn yw, Brenhin heddwch;

3 Heb dad, heb fam, heb achau, heb fod iddo na dechreu dyddiau, na diwedd einioes; eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw, sydd yn aros yn Offeiriad yn dragywydd.

4 Edrychwch faint *oedd* hwn, i'r hwn hefyd y rhoddodd Abraham y patriarch ddegwm o'r anrhaith.

5 A'r rhai yn wir *sydd* o feibion Lefi yn derbyn swydd yr offeiriadaeth, y mae ganddynt orchymyn i gymmeryd degwm gan y bobl yn ol y gyfraith, sef gan eu brodyr, er eu bod wedi dyfod o lwynau Abraham:

6 Eithr yr hwn nid oedd ei achau o honynt hwy, a gymmerodd ddegwm gan Abraham, ac a fendithiodd yr hwn yr oedd yr addewidion iddo.

7 Ac yn ddiddadl, yr hwn *sydd* leiaf a fendithir gan ei well.

8 Ac yma y mae dynion y rhai sydd yn meirw yn cymmeryd degymmau: eithr yno, yr hwn y tystiolaethwyd am dano ei fod ef yn fyw.

9 Ac, fel y dywedwyf felly, yn Abraham y talodd Lefi hefyd ddegwm, yr hwn oedd yn cymmeryd degymmau.

10 Oblegid yr ydoedd efe etto yn lwynau ei dad, pan gyfarfu Melchisedec âg ef.

11 Os ydoedd gan hynny berffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi (oblegid dan honno y rhoddwyd y gyfraith i'r bobl), pa raid *oedd* mwyach godi Offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec, ac nas gelwid ef yn ol urdd Aaron?

12 Canys wedi newidio yr offeiriadaeth, anghenraid yw bod cyfnewid ar y gyfraith hefyd.

13 Oblegid am yr hwn y dywedir y pethau hyn, efe a berthyn i lwyth arall, o'r hwn nid oedd neb yn gwasanaethu yr allor.

14 Canys hysbys *yw*, mai o Juda y cododd ein Harglwydd ni; am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses ddim tu ag at offeiriadaeth.

15 Ac y mae yn eglurach o lawer etto; od oes yn ol cyffelybrwydd Melchisedec Offeiriad arall yn codi,

16 Yr hwn a wnaed, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, eithr yn ol nerth bywyd annherfynol.

17 Canys tystiolaethu y mae, Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

18 Canys yn ddïau y mae dirymmiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, o herwydd ei lesgedd a'i afles.

19 Oblegid ni pherffeithiodd y gyfraith ddim, namyn dwyn gobaith gwell i mewn *a berffeithiodd;* trwy yr hwn yr ydym yn nesâu at Dduw.

20 Ac yn gymmaint nad heb lw *y gwnaethpwyd ef yn Offeiriad:*
21 (Canys y rhai hynny yn wir ydynt wedi eu gwneuthur yn offeiriaid heb lw: ond hwn trwy lw, gan yr hwn a ddywedodd wrtho, Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, Ti *sydd* Offeiriad yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec:)
22 Ar destament gwell o hynny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd.
23 A'r rhai hynny yn wir, llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid, o herwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhâu:
24 Ond hwn, am ei fod ef yn aros yn dragywydd, sydd âg offeiriadaeth dragywyddol ganddo.
25 Am hynny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.
26 Canys y cyfryw Arch-offeiriad sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddi wrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, oedd weddus i ni;
27 Yr hwn nid yw raid iddo beunydd, megis i'r offeiriaid hynny, offrymmu aberthau yn gyntaf dros ei bechodau ei hun, ac yna dros yr eiddo y bobl: canys hynny a wnaeth efe unwaith, pan offrymmodd efe ef ei hun.
28 Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion â gwendid ynddynt, yn arch-offeiriaid; eithr gair y llw, yr hwn a fu wedi y gyfraith, *sydd yn gwneuthur* y Mab, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.

PENNOD 8.

1 *Offeiriadaeth Aaron a ddiflannodd, pan ddaeth Crist yr Offeiriad tragywyddol: 7 a'r ammod a wnaed â'r tadau dros amser, a roddes le i gyfammod tragywyddol yr efengyl.*

APHEN ar y pethau a ddywedwyd *yw hyn:* Y mae gennym y fath Arch-offeiriad, yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc y Mawredd yn y nefoedd;
2 Yn Weinidog y gyssegrfa, a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn.
3 Canys pob arch-offeiriad a osodir i offrymmu rhoddion ac aberthau: o herwydd paham rhaid *oedd* bod gan hwn hefyd yr hyn a offrymmai.
4 Canys yn wir pe bai efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad chwaith; gan fod offeiriaid y rhai sydd yn offrymmu rhoddion yn ol y ddeddf:
5 Y rhai sydd yn gwasanaethu i siampl a chysgod y pethau nefol, megis y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell: canys, Gwel, medd efe, ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portreiad a ddangoswyd i ti yn y mynydd.
6 Ond yn awr efe a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, o gymmaint ag y mae yn Gyfryngwr cyfammod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell.
7 Oblegid yn wir pe buasai y cyntaf hwnnw yn ddifeius, ni cheisiasid lle i'r ail.
8 Canys yn beio arnynt hwy y dywed *efe*, Wele, y mae y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, ac mi a wnaf â thŷ Israel ac â thŷ Juda gyfammod newydd:
9 Nid fel y cyfammod a wneuthum â'u tadau hwynt, yn y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn hwy o dir yr Aipht: oblegid ni thrigasant hwy yn fy nghyfammod i, minnau a'u hesgeulusais hwythau, medd yr Arglwydd.
10 Oblegid hwn *yw* y cyfammod a ammodaf fi â thŷ Israel ar ol y dyddiau hynny, medd yr Arglwydd; Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonnau yr ysgrifenaf hwynt: a mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant i minnau yn bobl:
11 Ac ni ddysgant bob un ei gymmydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnebydd yr Arglwydd: oblegid hwynt-hwy oll a'm hadnabyddant i, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt.
12 Canys trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach.
13 Wrth ddywedyd, *Cyfammod* newydd, efe a farnodd y cyntaf

yn hen. Eithr yr hwn a aeth yn
hen ac yn oedrannus, *sydd* agos i
ddiflannu.

PENNOD 9.

1 *Y mae yn dangos dull seremoniau ac aberthau gwaedlyd y gyfraith;* 11 *a'u bod yn llai eu teilyngdod a'u perffeithrwydd nag aberth Crist a'i waed.*

AM hynny yn wir yr ydoedd
hefyd i'r tabernacl cyntaf
ddefodau gwasanaeth Duw, a chys-
segr bydol.
2 Canys yr oedd tabernacl wedi ei
wneuthur; y cyntaf, yn yr hwn
yr oedd y canhwyllbren, a'r bwrdd,
a'r bara gosod; yr hwn *dabernacl*
a elwid, Y cyssegr.
3 Ac yn ol yr ail len, *yr oedd* y
babell, yr hon a elwid, Y cyssegr
sancteiddiolaf;
4 Yr hwn yr oedd y thusser aur
ynddo, ac arch y cyfammod wedi
ei goreuro o amgylch; yn yr hon
yr oedd y crochan aur a'r manna
ynddo, a gwïalen Aaron yr hon a
flagurasai, a llechau y cyfammod;
5 Ac uwch ei phen cerubiaid y
gogoniant yn cysgodi y drugaredd-
fa: am y rhai ni ellir yn awr ddy-
wedyd bob yn rhan.
6 A'r pethau hyn wedi eu trefnu
felly, i'r tabernacl cyntaf yn ddïau
yr âi bob amser yr offeiriaid, y
rhai oedd yn cyflawni gwasanaeth
Duw:
7 Ac i'r ail, unwaith bob blwydd-
yn *yr âi* yr arch-offeiriad yn unig;
nid heb waed, yr hwn a offrymmai
efe drosto ei hun, a *thros* anwyb-
odaeth y bobl.
8 A'r Ysbryd Glân yn hysbysu
hyn, nad oedd y ffordd i'r cyssegr
sancteiddiolaf yn agored etto, tra
fyddai y tabernacl cyntaf yn sefyll:
9 Yr hwn *ydoedd* gyffelybiaeth
dros yr amser presennol, yn yr hwn
yr offrymmid rhoddion ac aberthau,
y rhai ni allent o ran cydwybod
berffeithio yr addolydd;
10 *Y rhai oedd yn sefyll* yn unig
ar fwydydd, a dïodydd, ac amryw
olchiadau, a defodau cnawdol, wedi
eu gosod *arnynt* hyd amser y di-
wygiad.
11 Eithr Crist, wedi dyfod yn
Arch-offeiriad y daionus bethau a
fyddent, trwy dabernacl mwy a
pherffeithiach, nid o waith llaw,
hynny yw, nid o'r adeiladaeth yma;
12 Nid chwaith trwy waed geifr
a lloi, eithr trwy ei waed ei hun,
a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr,
gan gael *i ni* dragywyddol ryddhâd.
13 Oblegid os ydyw gwaed teirw
a geifr, a lludw anner wedi ei
daenellu ar y rhai a halogwyd, yn
sancteiddio i bureiddiad y cnawd;
14 Pa faint mwy y bydd i waed
Crist, yr hwn trwy yr Ysbryd tragy-
wyddol a'i hoffrymmodd ei hun yn
ddifai i Dduw, buro eich cyd-
wybod chwi oddi wrth weithred-
oedd meirwon, i wasanaethu y Duw
byw?
15 Ac am hynny y mae efe yn
Gyfryngwr y cyfammod newydd,
megis trwy fod marwolaeth yn
ymwared oddi wrth y troseddau
oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai
y rhai a alwyd dderbyn addewid yr
etifeddiaeth dragywyddol.
16 Oblegid lle *byddo* testament,
rhaid *yw* digwyddo marwolaeth y
testamentwr.
17 Canys wedi marw dynion *y
mae* testament mewn grym: obleg-
id nid oes etto nerth ynddo tra
fyddo y testamentwr yn fyw.
18 O ba achos ni chyssegrwyd y
cyntaf heb waed.
19 Canys wedi i Moses adrodd yr
holl orchyntyn yn ol y gyfraith wrth
yr holl bobl, efe a gymmerodd
waed lloi a geifr, gyd â dwfr, a
gwlan porphor, ac isop, ac a'*i* taen-
ellodd *ar* y llyfr a'r bobl oll,
20 Gan ddywedyd, Hwn yw gwaed
y testament a orchymynodd Duw
i chwi.
21 Y tabernacl hefyd a holl lestri
y gwasanaeth a daenellodd efe â
gwaed yr un modd.
22 A chan mwyaf trwy waed y
purir pob peth wrth y gyfraith; ac
heb ollwng gwaed nid oes madd-
euant.
23 Rhaid *oedd* gan hynny i bor-
treiadau y pethau sydd yn y nef-
oedd gael eu puro â'r pethau hyn;
a'r pethau nefol eu hunain âg a-
berthau gwell na'r rhai hyn.
24 Canys nid i'r cyssegr o waith
llaw, portreiad y gwir *gyssegr*, yr
aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei

hun, i ymddangos yn awr ger bron
Duw trosom ni:
25 Nac fel yr offrymmai efe ei
hun yn fynych, megis y mae yr
arch-offeiriad yn myned i mewn i'r
cyssegr bob blwyddyn, â gwaed
arall:
26 Oblegid yna rhaid fuasai iddo
yn fynych ddïoddef er dechreuad
y byd; eithr yr awr hon unwaith
yn niwedd y byd yr ymddangos-
odd efe, i ddilëu pechod trwy ei
aberthu ei hun.
27 Ac megis y gosodwyd i ddyn-
ion farw unwaith, ac wedi hynny
bod barn:
28 Felly Crist hefyd, wedi ei
offrymmu unwaith i ddwyn ymaith
bechodau llawer, a ymddengys yr
ail waith, heb bechod, i'r rhai
sydd yn ei ddisgwyl, er iachawdwr-
iaeth.

PENNOD 10.

1 *Gwendid aberthau y gyfraith.* 10 *Aberth corph Crist a offrymmwyd unwaith,* 14 *sydd byth yn tynnu ymaith bechodau.* 19 *Cynghor i tynu yn lew yn y ffydd trwy amynedd a dioloch.*

OBLEGID y gyfraith, yr hon
sydd ganddi gysgod daionus
bethau i ddyfod, *ac* nid gwir ddelw
y pethau, nis gall trwy yr aberthau
hynny, y rhai y maent bob blwydd-
yn yn eu hoffrymmu yn wastadol,
byth berffeithio y rhai a ddêl atti.
2 Oblegid yna hwy a beidiasent
â'u hoffrymmu, am na buasai gyd-
wybod pechod mwy gan y rhai a
addolasent, wedi eu glanhâu un-
waith.
3 Eithr yn *yr aberthau* hynny *y*
mae adgoffa pechodau bob blwydd-
yn.
4 Canys ammhosibl *yw* i waed
teirw a geifr dynnu ymaith bech-
odau.
5 O herwydd paham y mae efe,
wrth ddyfod i'r byd, yn dywedyd,
Aberth ac offrwm nis mynnaist,
eithr corph a gymhwysaist i mi:
6 Offrymmau poeth, a thros bech-
od, ni buost foddlawn iddynt.
7 Yna y dywedais, Wele fi yn
dyfod (y mae yn ysgrifenedig yn
nechreu y llyfr am danaf) i wneuth-
ur dy ewyllys di, O Dduw.
8 Wedi iddo ddywedyd uchod,
Aberth ac offrwm, ac offrymmau
poeth, a thros bechod, nis mynnaist,
ac nid ymfoddlonaist *ynddynt* (y
rhai yn ol y gyfraith a offrymmir),
9 Yna ŷ dywedodd, Wele fi yn
dyfod i wneuthur dy ewyllys di, O
Dduw. Y mae yn tynnu ymaith y
cyntaf, fel y gosodai yr ail.
10 Trwy yr hwn ewyllys yr ydym
ni wedi ein sancteiddio, trwy off-
rymmiad corph Iesu Grist un-
waith.
11 Ac y mae pob offeiriad yn sefyll
beunydd yn gwasanaethu, ac yn off-
rymmu yn fynych yr un aberthau,
y rhai ni allant fyth ddilëu pech-
odau:
12 Eithr hwn, wedi offrymmu un
aberth dros bechodau, yn dragy-
wydd a eisteddodd ar ddeheulaw
Duw;
13 O hyn allan yn disgwyl hyd
oni osoder ei elynion ef yn droed-
faingo i'w draed ef.
14 Canys âg un offrwm y perffeith-
iodd efe yn dragywyddol y rhai
sydd wedi eu sancteiddio.
15 *Ac* y mae yr Ysprydd Glân hef-
yd yn tystiolaethu i ni: canys wedi
iddo ddywedyd o'r blaen,
16 Dyma y cyfammod yr hwn a
ammodaf fi â hwynt ar ol y dyddiau
hynny, medd yr Arglwydd; Myfi
a osodaf fy nghyfreithiau yn eu
calonnau, ac a'u hysgrifenaf yn eu
meddyliau;
17 A'u pechodau a'u hanwireddau
ni chofiaf mwyach.
18 A lle *y mae* maddeuant am y
rhai hyn, nid *oes* mwyach offrwm
dros bechod.
19 Am hynny, frodyr, gan fod i
ni ryddid i fyned i mewn i'r cys-
segr trwy waed Iesu,
20 Ar hyd ffordd newydd a byw-
iol, yr hon a gyssegrodd efe i ni,
trwy y llen, sef ei gnawd ef;
21 A *bod i ni* Offeiriad mawr ar
dŷ Dduw;
22 Nesâwn â chalon gywir, mewn
llawn hyder ffydd, wedi glanhâu
ein calonnau oddi wrth gydwybod
ddrwg, a golchi ein corph â dwfr
glân.
23 Daliwn gyffes ein gobaith yn
ddisigl; canys ffyddlawn *yw* yr
hwn a addawodd;
24 A chyd-ystyriwn bawb ein gil-

ydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da:
25 Heb esgeuluso ein cyd-gynhulliad ein hunain, megis *y mae* arfer rhai; ond annog *bawb ein gilydd:* a hynny yn fwy, o gymmaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesâu.
26 Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach;
27 Eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr.
28 Yr un a ddirmygai gyfraith Moses, a fyddai farw heb drugaredd, dan ddau neu dri o dystion:
29 Pa faint mwy cospedigaeth, dybygwch chwi, y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn aflan waed y cyfammod, trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef, ac a ddifenwodd Ysbryd y gras?
30 Canys nyni a adwaenom y neb a ddywedodd, Myfi *bïau* dïal, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd. A thrachefn, Yr Arglwydd a farna ei bobl.
31 Peth ofnadwy *yw* syrthio yn nwylaw y Duw byw.
32 Ond gelwch i'ch côf y dyddiau o'r blaen, yn y rhai, wedi eich goleuo, y dïoddefasoch ymdrech mawr o helbulon:
33 Wedi eich gwneuthur weithiau yn wawd, trwy waradwyddiadau a chystuddiau; ac weithiau yn bod yn gyfrannogion â'r rhai a drinid felly.
34 Canys chwi a gyd-ddïoddefasoch â'm rhwymau i hefyd, ac a gymmerasoch eich yspeilio am y pethau oedd gennych yn llawen; gan wybod fod gennych i chwi eich hunain olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus.
35 Am hynny na fwriwch ymaith eich hyder, yr hwn sydd iddo fawr wobr.
36 Canys rhaid i chwi wrth amynedd; fel, wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid.
37 Oblegid ychydig bachigyn etto, a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda.
38 A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd: eithr o thyn *neb* yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.
39 Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynnu yn ol i golledigaeth; namyn o ffydd, i gadwedigaeth yr enaid.

PENNOD 11.

1 Beth ydyw ffydd. 6 Heb ffydd ni allwn ni rynyu bodd Duw. 7 Ei ffrwythau rhagorol hi yn yr hen dadau gynt.

FFYDD yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.
2 Oblegid trwyddi hi y cafodd yr henuriaid air da.
3 Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.
4 Trwy ffydd yr offrymmodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain; trwy yr hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn, gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef: a thrwyddi hi y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto.
5 Trwy ffydd y symmudwyd Enoch, fel na welai farwolaeth; ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symmud ef: canys cyn ei symmud, efe a gawsai dystiolaeth, ddarfod iddo ryngu bodd Duw.
6 Eithr heb ffydd ammhosibl *yw* rhyngu *ei* fodd *ef:* oblegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef.
7 Trwy ffydd, Nöe, wedi ei rybuddio gan Dduw am y pethau nis gwelsid etto, gyd â pharchedig ofn a ddarparodd arch i achub ei dŷ: trwy yr hon y condemniodd *efe* y byd, ac a wnaethpwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.
8 Trwy ffydd, Abraham, pan ei galwyd, a ufuddhaodd, gan fyned i'r man yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.
9 Trwy ffydd yr ymdeithiodd efe yn nhir yr addewid, megis *mewn* tir dïeithr, gan drigo mewn lluestai

gyd âg Isaac a Jacob, cyd-etifeddion o'r un addewid:
10 Canys disgwyl yr ydoedd am ddinas ag iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon *yw* Duw.
11 Trwy ffydd, Sara, hithau yn ammhlantadwy, a dderbyniodd nerth i ymddŵyn had; ac wedi amser oedran, a esgorodd; oblegid ffyddlawn y barnodd hi yr hwn a addawsai.
12 O herwydd paham hefyd y cenhedlwyd o un, a hwnnw yn gystal a marw, *cynnifer* a sêr y nef mewn lliaws, ac megis y tywod ar lan y môr, *y sydd* yn aneirif.
13 Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll, heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch, a chyfaddef mai dïeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear.
14 Canys y mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau, yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad.
15 Ac yn wir, pe buasent yn meddwl am *y wlad* honno, o'r hon y daethent allan, hwy a allasent gael amser i ddychwelyd:
16 Eithr yn awr *gwlad* well y maent hwy yn ei chweunych, hynny ydyw, *un* nefol: o achos paham nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy: oblegid efe a barottôdd ddinas iddynt.
17 Trwy ffydd yr offrymmodd Abraham Isaac, pan ei profwyd: a'i unig-anedig *fab* a offrymmodd *efe*, yr hwn a dderbyniasai yr addewidion:
18 Wrth yr hwn y dywedasid, Yn Isaac y gelwir i ti had:
19 Gan gyfrif bod Duw yn abl i'*w* gyfodi *ef* o feirw; o ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth.
20 Trwy ffydd y bendithiodd Isaac Jacob ac Esau am bethau a fyddent.
21 Trwy ffydd, Jacob, wrth farw, a fendithiodd bob un o feibion Joseph; ac a addolodd *d'i bwys* ar ben ei ffon.
22 Trwy ffydd, Joseph, wrth farw, a goffaodd am ymadawiad plant Israel; ac a roddodd orchymyn am ei esgyrn.
23 Trwy ffydd, Moses, pan anwyd, a guddiwyd dri mis gan ei rïeni, o achos eu bod yn *ei* weled yn fachgen tlws: ac nid ofnasant orchymyn y brenhin.
24 Trwy ffydd, Moses, wedi myned yn fawr, a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh;
25 Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser;
26 Gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist, na thrysorau yr Aipht: canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy.
27 Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aipht, heb ofni llid y brenhin: canys efe a ymwrolodd fel *un* yn gweled yr anweledig.
28 Trwy ffydd y gwnaeth efe y pasc, a gollyngiad y gwaed, rhag i'r hwn ydoedd yn dinystrio y rhai cyntaf-anedig gyffwrdd â hwynt.
29 Trwy ffydd yr aethant trwy y môr coch, megis ar hyd *tir* sych: yr hyn pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant.
30 Trwy ffydd y syrthiodd caerau Jericho, wedi eu hamgylchu dros saith niwrnod.
31 Trwy ffydd ni ddifethwyd Rahab y buttain gyd â'r rhai ni chredent, pan dderbyniodd hi yr yspïwyr yn heddychol.
32 A pheth mwy a ddywedaf? canys yr amser a ballai i mi i fynegi am Gedeon, *am* Barac, ac *am* Samson, ac *am* Jephthae, *am* Dafydd hefyd, a Samuel, a'r prophwydi;
33 Y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawsant addewidion, a gauasant safnau llewod,
34 A ddiffoddasant angerdd y tân, a ddïangasant rhag min y cleddyf, a nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio.
35 Gwragedd a dderbyniodd eu meirw trwy adgyfodiad: ac eraill a ddirdynnwyd, heb dderbyn ymwared; fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.
36 Ac eraill a gawsant brofedig-

aeth trwy watwar a fflangellau, ïe, trwy rwymau hefyd a charchar:
37 Hwynt-hwy a labyddiwyd, a dorrwyd â llif, a demtiwyd, a laddwyd yn feirw â'r cleddyf; a grwydrasant mewn crwyn defaid, a chrwyn geifr; yn ddiddym, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr,
38 (Y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt,) yn crwydro mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau ac ogofeydd y ddaear.
39 A'r rhai hyn oll, wedi cael tystiolaeth trwy ffydd, ni dderbyniasant yr addewid:
40 Gan fod Duw yn rhag-weled rhyw *beth* gwell am danom ni, fel na pherffeithid hwynt hebom ninnau.

PENNOD 12.

1 *Cynghor i ffydd ddianwadal, amynedd, a duwioldeb.* 22 *Canmol y testament newydd rhagor yr hen.*

OBLEGID hynny ninnau hefyd, gan fod cymmaint cwmmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch, gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'*n* hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni;
2 Gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd *ein* ffydd *ni;* yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddïoddefodd y groes, gan ddïystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainge Duw.
3 Ystyriwch am hynny yr hwn a ddïoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid; fel na flinoch, ac nad ymollyngoch yn eich eneidiau.
4 Ni wrthwynebasoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod.
5 A chwi a ollyngasoch dros gôf y cynghor, yr hwn sydd yn dywedyd wrthych megis wrth blant, Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo:
6 Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu; ac yn fflangellu pob mab a dderbynio.
7 Os goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn tu ag attoch megis tu ag at feibion: canys pa fab sydd, yr hwn nid yw ei dad yn ei geryddu?
8 Eithr os heb gerydd yr ydych, o'r hwn y mae pawb yn gyfrannog; yna bastardiaid ydych, ac nid meibion.
9 Heb law hynny, ni a gawsom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'*u* parchasom *hwy:* onid mwy o lawer y byddwn ddarostyngedig i Dad yr ysprydoedd, a byw?
10 Canys hwynt-hwy yn wir dros ychydig ddyddiau a'*n* ceryddent fel y gwelent hwy yn dda; eithr hwn er llesâd i ni, fel y byddem gyfrannogion o'i sancteiddrwydd ef.
11 Etto ni welir un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, eithr yn anhyfryd: ond gwedi hynny y mae yn rhoi heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi eu cynnefino âg ef.
12 O herwydd paham cyfodwch i fyny y dwylaw a laesasant, a'r gliniau a ymollyngasant.
13 A gwnewch lwybrau uniawn i'ch traed; fel na thröer y cloff allan o'r ffordd, ond yr iachâer efe yn hytrach.
14 Dilynwch heddwch â phawb, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd:
15 Gan edrych yn ddyfal na *bo* neb yn pallu oddi wrth ras Duw; rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fyny, *ac* yn peri blinder, a thrwy hwnnw llygru llawer;
16 Na *bo* un putteiniwr, neu halogedig, megis Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint.
17 Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hynny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi.
18 Canys ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy sydd yn llosgi gan dân, a chwmmwl, a thywyllwch, a thymmestl,
19 A sain udgorn, a llef geiriau; yr hon pwy bynnag a'*i* clywsant, a ddeisyfasant na chwanegid yr ymadrodd wrthynt:
20 Oblegid ni allent hwy oddef

yr hyn a orchymynasid; Ac os bwystfil a gyffyrddai â'r mynydd, efe a labyddir, neu a wenir â phiccell.

21 Ac mor ofnadwy oedd y golwg, *ag* y dywedodd Moses, Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu.

22 Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion,

23 I gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd,

24 Ac at Iesu, Cyfryngwr y testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r *eiddo* Abel.

25 Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru. Oblegid oni ddïangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear, mwy o lawer *nis dïangwn* ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddi wrth yr hwn sydd *yn llefaru* o'r nef:

26 Llef yr hwn y pryd hwnnw a ysgydwodd y ddaear: ac yn awr a addawodd, gan ddywedyd, Etto unwaith yr wyf yn cynhyrfu nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd.

27 A'r Etto unwaith hynny, sydd yn hysbysu symmudiad y pethau a ysgydwir, megis pethau wedi eu gwneuthur, fel yr arhoso y pethau nid ysgydwir.

28 O herwydd paham, gan ein bod ni yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded gennym ras, trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd, gyd â gwylder a pharchedig ofn:

29 Oblegid ein Duw ni *sydd* dân ysol.

PENNOD 13.

1 *Amryw gynghorion; megis i garu ein gilydd;* 4 *i fyw yn onest;* 5 *i ochelyd cybydd-dra;* 7 *i berchi pregethwyr Duw;* 9 *i ochel athrawon dieithr;* 10 *i ymaddef Crist;* 16 *i roi elusen;* 17 *i ufuddhau i swydogion;* 18 *i weddïo dros yr apostol.* 20 *Y diweddd.*

PARHAED brawdgarwch.

2 Nac anghofiwch lettygarwch: canys wrth hynny y llettŷodd rhai angylion yn ddïarwybod.

3 Cofiwch y rhai sydd yn rhwym, fel pettech yn rhwym gyd â hwynt; y rhai cystuddiol, megis yn bod eich hunain hefyd yn y corph.

4 Anrhydeddus *yw* priodas ym mhawb, a'r gwely dihalogedig: eithr putteinwyr a godinebwyr a farna Duw.

5 *Bydded eich* ymarweddiad yn ddïariangar; gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd gennych: canys efe a ddywedodd, Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr-adawaf chwaith.

6 Fel y gallom ddywedyd yn hyf, Yr Arglwydd *sydd* gymmorth i mi, ac nid ofnaf beth a wnel dyn i mi.

7 Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.

8 Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.

9 Na'ch arweinier oddi amgylch âg athrawiaethau amryw a dïeithr: canys da *yw* bod y galon wedi ei chryfhâu â gras, nid â bwydydd, yn y rhai ni chafodd y sawl a rodiasant ynddynt fudd.

10 Y mae gennym ni allor, o'r hon nid oes awdurdod i'r rhai sydd yn gwasanaethu y tabernacl i fwytta.

11 Canys cyrph yr anifeiliaid hynny, y rhai y dygir eu gwaed gan yr arch-offeiriad i'r cyssegr dros bechod, a losgir y tu allan i'r gwersyll.

12 O herwydd paham Iesu hefyd, fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, a ddïoddefodd y tu allan i'r porth.

13 Am hynny awn atto ef o'r tu allan i'r gwersyll, gan ddwyn ei waradwydd ef.

14 Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr ŷm ni yn ei disgwyl.

15 Trwyddo ef gan hynny offrymmwn aberth moliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth *ein* gwefusau yn cyffesu i'w enw ef.

16 Ond gwneuthur daioni, a chyfrannu, nac anghofiwch: canys â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.

17 Ufuddhêwch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: oblegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi, megis rhai a fydd

rhaid iddynt roddi cyfrif; fel y gallont wneuthur hynny yn llawen, ac nid yn drist: canys difudd i chwi *yw* hynny.

18 Gweddïwch drosom ni: canys yr ydym yn credu fod gennym gydwybod dda, gan ewyllysio byw yn onest ym mhob peth.

19 Ond yr ydwyf yn helaethach yn dymuno gwneuthur o honoch hyn, i gael fy rhoddi i chwi drachefn yn gynt.

20 A Duw yr heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfammod tragywyddol,

21 A'ch perffeithio ym mhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef; gan weithio ynoch yr hyn sydd gymmeradwy yn ei olwg ef, trwy Iesu Grist: i'r hwn *y byddo* y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

22 Ac yr ydwyf yn attolwg i chwi, frodyr, goddefwch air y cynghor: oblegid ar fyr eiriau yr ysgrifenais attoch.

23 Gwybyddwch ollwng *ein* brawd Timothëus yn rhydd; gyd â'r hwn, os daw efe ar fyrder, yr ymwelaf â chwi.

24 Anherchwch eich holl flaenoriaid, a'r holl saint. Y mae y rhai o'r Ital yn eich annerch.

25 Gras *fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

¶ At yr Hebreaid yr ysgrifenwyd o'r Ital, gyd â Thimothëus.

EPISTOL CYFFREDINOL

IAGO YR APOSTOL.

PENNOD 1.

2 Cynghor i lawenychu mewn blïnder: 5 i ofyn doethineb gan Dduw: 13 na fwrier y bai arno ef o ran ein gwendid na'n pechodau ni: 22 i wrandaw ac i fyfyrio ar air Duw; ac i wneuthur ar ei ol: 26 os amgen, fe all ;hai ymddangos yn grefyddol oddi allan, ond ni allant fod felly mewn gwirionedd.

IAGO, gwasanaethwr Duw a'r Arglwydd Iesu Grist, at y deuddeg llwyth sydd ar wasgar, annerch.

2 Cyfrifwch yn bob llawenydd, fy mrodyr, pan syrthioch mewn amryw brofedigaethau;

3 Gan wybod fod profiad eich ffydd chwi yn gweithredu amynedd.

4 Ond caffed amynedd *ei* pherffaith waith; fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim.

5 O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod; a hi a roddir iddo ef.

6 Eithr gofyned mewn ffydd, heb ammeu dim: canys yr hwn sydd yn ammeu, sydd gyffelyb i don y môr, a chwelir ac a deflir gan y gwynt.

7 Canys na feddylied y dyn hwnnw y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd.

8 Gŵr dau-ddyblyg ei feddwl *sydd* anwastad yn ei holl ffyrdd.

9 Y brawd o radd isel, llawenyched yn ei oruchafiaeth:

10 A'r cyfoethog, yn ei ddarostyngiad: canys megis blodeuyn y glaswelltyn y diflanna efe.

11 Canys cyfododd yr haul gyd â gwres, a gwywodd y glaswelltyn, a'i flodeuyn a gwympodd, a thegwch ei bryd ef a gollodd: felly hefyd y diflanna y cyfoethog yn ei ffyrdd.

12 Gwyn ei fyd y gŵr sydd yn goddef profedigaeth: canys pan fyddo profedig, efe a dderbyn goron y bywyd, yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef.

13 Na ddyweded neb, pan demtier ef, Gan Dduw y'm temtir: canys Duw nis gellir ei demtio â drygau, ac nid yw efe yn temtio neb.

14 Canys yna y temtir pob un, pan y tynner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun.

15 Yna chwant, wedi ymddŵyn, a esgor ar bechod: pechod hefyd,

pan orphener, a esgor ar farwolaeth.
16 Fy mrodyr anwyl, na chyfeiliornwch.
17 Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddi wrth Dad y goleuni, gyd â'r hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth.
18 O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirionedd, fel y byddem ryw flaenffrwyth o'i greaduriaid ef.
19 O achos hyn, fy mrodyr anwyl, bydded pob dyn esgud i wrandaw, dïog i lefaru, dïog i ddigofaint:
20 Canys digofaint gŵr nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw.
21 O herwydd paham rhoddwch heibio bob budreddi, a helaethrwydd malais; a thrwy addfwynder derbyniwch yr impiedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau.
22 A byddwch wneuthurwyr y gair, ac nid gwrandawyr yn unig, gan eich twyllo eich hunain.
23 Oblegid os yw neb yn wrandâwr y gair, ac heb fod yn wneuthurwr, y mae hwn yn debyg i ŵr yn edrych ei wynebpryd naturiol mewn drych:
24 Canys efe a'i hedrychodd ei hun, ac a aeth ymaith, ac yn y man efe a anghofiodd pa fath ydoedd.
25 Eithr yr hwn a edrych ar berffaith gyfraith rhyddid, ac a barhao *ynddi*, hwn, heb fod yn wrandäwr anghofus, ond gwneuthurwr y weithred, *efe* a fydd ddedwydd yn ei weithred.
26 Os yw neb yn eich mysg yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, heb attal ei dafod, ond twyllo ei galon ei hun, ofer *yw* crefydd hwn.
27 Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad, yw hyn; Ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, *a*'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd.

PENNOD 2.

1 *Nad gweddol i Gristionogion ddïystyru eu brodyr tlodion,* 13 *ond bod yn gariadus ac yn drugarogion.* 14 *Na ddylid ymffrostio o ffydd lle ni byddo gweithredoedd da:* 17 *nad yw y ffydd honno ond ffydd farw,* 19 *a ffydd y cythreuliaid;* 21 *ac nid ffydd Abraham,* 26 *a Rahab.*

FY mrodyr, na fydded gennych ffydd ein Harglwydd ni Iesu Grist, *sef Arglwydd* y gogoniant, gyd â derbyn wyneb.
2 Oblegid os daw i mewn i'ch cynnulleidfa chwi ŵr â modrwy aur, mewn dillad gwychion, a dyfod hefyd *un* tlawd mewn dillad gwael;
3 Ac edrych o honoch ar yr hwn sydd yn gwisgo y dillad gwychion, a dywedyd wrtho, Eistedd di yma mewn lle da; a dywedyd wrth y tlawd, Saf di yna, neu eistedd yma ïs law fy ystol-droed i:
4 Onid ydych chwi dueddol ynoch eich hunain? ac *onid* aethoch yn farnwyr meddyliau drwg?
5 Gwrandêwch, fy mrodyr anwyl; Oni ddewisodd Duw dlodion y byd hwn yn gyfoethogion mewn ffydd, ac yn etifeddion y deyrnas yr hon a addawodd efe i'r rhai sydd yn ei garu ef?
6 Eithr chwithau a ammharchasoch y tlawd. Onid yw y cyfoethogion yn eich gorthrymmu chwi, ac yn eich tynnu ger bron brawdleoedd?
7 Onid ydynt hwy yn cablu yr enw rhagorol, yr hwn a elwir arnoch chwi?
8 Os cyflawni yr ydych y gyfraith frenhinol yn ol yr ysgrythyr, Câr dy gymmydog fel ti dy hun; da yr ydych yn gwneuthur:
9 Eithr os derbyn wyneb yr ydych, yr ydych yn gwneuthur pechod, ac yn cael eich argyhoeddi gan y gyfraith megis troseddwyr.
10 Canys pwy bynnag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un *pwngc*, y mae efe yn euog o'r cwbl.
11 Canys y neb a ddywedodd, Na odineba, a ddywedodd hefyd, Na ladd. Ac os ti ni odinebi, etto a leddi, yr wyt ti yn troseddu y gyfraith.
12 Felly dywedwch, ac felly gwnewch, megis rhai a fernir wrth gyfraith rhyddid.
13 Canys barn ddidrugaredd fydd i'r hwn ni wnaeth drugaredd; ac y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn.
14 Pa fudd *yw*, fy mrodyr, o dywed neb fod ganddo ffydd, ac

heb fod ganddo weithredoedd? a ddichon ffydd ei gadw ef?
15 Eithr os bydd brawd neu chwaer yn noeth, ac mewn eisieu beunyddiol ymborth,
16 A dywedyd o un o honoch wrthynt, Ewch mewn heddwch, ymdwymwch, ac ymddigonwch; etto heb roddi iddynt angenrheidiau y corph; pa les *fydd?*
17 Felly ffydd hefyd, oni bydd ganddi weithredoedd, marw ydyw, *a hi* yn unig.
18 Eithr rhyw un a ddywed, Tydi ffydd sydd gennyt, minnau gweithredoedd sydd gennyf: dangos i mi dy ffydd di heb dy weithredoedd, a minnau wrth fy ngweithredoedd i a ddangosaf i ti fy ffydd innau.
19 Credu yr wyt ti mai un Duw sydd; da yr wyt ti yn gwneuthur: y mae y cythreuliaid hefyd yn credu, ac yn crynu.
20 Eithr a fynni di wybod, O ddyn ofer, am ffydd heb weithredoedd, mai marw yw?
21 Abraham ein tad ni, onid o weithredoedd y cyfiawnhâwyd ef, pan offrymmodd efe Isaac ei fab ar yr allor?
22 Ti a weli fod ffydd yn cydweithio â'i weithredoedd ef, a thrwy weithredoedd fod ffydd wedi ei pherffeithio.
23 A chyflawnwyd yr ysgrythyr yr hon sydd yn dywedyd, Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder: a Chyfaill Duw y galwyd ef.
24 Chwi a welwch gan hynny mai o weithredoedd y cyfiawnhêir dyn, ac nid o ffydd yn unig.
25 Yr un ffunud hefyd, Rahab y buttain, onid o weithredoedd y cyfiawnhâwyd hi, pan dderbyniodd hi y cenhadau, a'u danfon ymaith ffordd arall?
26 Canys megis y mae y corph heb yr ysbryd yn farw, felly hefyd ffydd heb weithredoedd, marw yw.

PENNOD 3.

1 *Na ddylem ni fod yn brysur i feio ar eraill;*
6 *ond yn hytrach ffrwyno y tafod; yr hwn,*
er nad ydyw ond aelod bychan, etto y mae
efe yn achos llawer o addeioni, ac o ddrygioni.
13 *Y rhai sydd wir-synhwyrol, y maent yn*
fwynion, yn heddychlawn, heb genfigennu, ac
heb ymryson.

NA fyddwch feistriaid lawer, fy mrodyr; gan wybod y derbyniwn ni farnedigaeth fwy.
2 Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro. Od oes neb heb lithro ar air, gŵr perffaith *yw* hwnnw, yn gallu ffrwyno yr holl gorph hefyd.
3 Wele, yr ydym ni yn rhoddi ffrwynau ym mhennau y meirch, i'w gwneuthur yn ufudd i ni; ac yr ydym yn troi eu holl gorph hwy oddi amgylch.
4 Wele, y llongau hefyd, er eu maint, ac er eu gyrru gan wyntoedd creulawn, a droir oddi amgylch â llyw bychan, lle y mynno y llywydd.
5 Felly hefyd y tafod, aelod bychan yw, ac yn ffrostio pethau mawrion. Wele, faint o ddefnydd y mae ychydig dân yn ei ennyn!
6 A'r tafod, tân *ydyw*, byd o anghyfiawnder. Felly y mae y tafod wedi ei osod ym mhlith ein haelodau ni, fel y mae yn halogi yr holl gorph, ac yn gosod troell naturiaeth yn fflam; ac wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern.
7 Canys holl natur gwylltfilod, ac adar, ac ymlusgiaid, a'r pethau yn y môr, a ddofir ac a ddofwyd gan natur ddynol:
8 Eithr y tafod ni ddichon un dyn ei ddofi; drwg anllywodraethus *ydyw*, yn llawn gwenwyn marwol.
9 Ag ef yr ydym yn bendithio Duw a'r Tad; âg ef hefyd yr ydym yn melldithio dynion, a wnaethpwyd ar lun Duw.
10 O'r un genau y mae yn dyfod allan fendith a melldith. Fy mrodyr, ni ddylai y pethau hyn fod felly.
11 A ydyw ffynnon o'r un llygad yn rhoi *dwfr* melus a chwerw?
12 A ddichon y pren ffigys, fy mrodyr, ddwyn olifaid? neu winwydden, ffigys? felly ni *ddichon* un ffynnon roddi dwfr hallt a chroyw.
13 Pwy *sydd* ŵr doeth a deallus yn eich plith? dangosed, trwy ymarweddiad da, ei weithredoedd mewn mwyneidd-dra doethineb.
14 Eithr od oes gennych genfigen chwerw ac ymryson yn eich calon,

na fyddwch ffrostwyr a chelwydd-
og yn erbyn y gwirionedd.
15 Nid yw y doethineb hwn yn
disgyn oddi uchod; ond daearol,
anianol, cythreulig *yw.*
16 Canys lle *mae* cenfigen ac ym-
ryson, yno *y mae* terfysg, a phob
gweithred ddrwg.
17 Eithr y ddoethineb sydd oddi
uchod, yn gyntaf pur ydyw, wedi
hynny heddychlawn, boneddigaidd,
hawdd ei thrin, llawn trugaredd a
ffrwythau da, diduedd, a diragrith.
18 A ffrwyth cyfiawnder a heuir
mewn heddwch i'r rhai sydd yn
gwneuthur heddwch.

PENNOD 4.

1 *Rhaid i ni ymryson yn erbyn trachwant,* 4 *ac anghymmedroldeb,* 6 *a balchder,* 11 *ac enllib, a barnu ar eraill;* 13 *ac na roddom ormod hyder ar lwyddiant bydol, nac ar einioes dyn; ond rhoi y cwbl ar Dduw.*

O BA le *y mae* rhyfeloedd ac
ymladdau yn eich plith chwi?
onid oddi wrth hyn, *sef* eich melus-
chwantau y rhai sydd yn rhyfela
yn eich aelodau?
2 Chwennychu yr ydych, ac nid
ydych yn cael; cenfigennu yr
ydych ac eiddigeddu, ac nid yd-
ych yn gallu cyrhaeddyd: ymladd
a rhyfela yr ydych, ond nid ydych
yn cael, am nad ydych yn gofyn.
3 Gofyn yr ydych, ac nid ydych
yn derbyn, o herwydd eich bod
yn gofyn ar gam, fel y galloch eu
treulio ar eich melus-chwantau.
4 Chwi odinebwyr a godineb-
wragedd, oni wyddoch chwi fod
cyfeillach y byd yn elyniaeth i
Dduw? pwy bynnag gan hynny a
ewyllysio fod yn gyfaill i'r byd, y
mae yn elyn i Dduw.
5 A ydych chwi yn tybied fod yr
ysgrythyr yn dywedyd yn ofer, At
genfigen y mae chwant yr ysbryd a
gartrefa ynom ni?
6 Eithr rhoddi gras mwy y mae: o
herwydd paham y mae yn dywed-
yd, Y mae Duw yn gwrthwynebu
y beilchion, ond yn rhoddi gras i'r
rhai gostyngedig.
7 Ymddarostyngwch gan hynny i
Dduw. Gwrthwynebwch ddiafol,
ac efe a ffy oddi wrthych.
8 Nesêwch at Dduw, ac efe a
nesâ attoch chwi. Glanhêwch *eich*
dwylaw, chwi bechaduriaid; a phur-
wch *eich* calonnau, chwi â'r medd-
wl dau-ddyblyg.
9 Ymofidiwch, a galerwch, ac
wylwch: tröer eich chwerthin chwi
yn alar, a'*ch* llawenydd yn drist-
wch.
10 Ymddarostyngwch ger bron
yr Arglwydd, ac efe a'ch dyrchafa
chwi.
11 Na ddywedwch yn erbyn eich
gilydd, frodyr. Y neb sydd yn dy-
wedyd yn erbyn *ei* frawd, ac yn
barnu *ei* frawd, y mae efe yn dywed-
yd yn erbyn y gyfraith, ac yn barnu
y gyfraith: ac od wyt ti yn barnu
y gyfraith, nid wyt ti wneuthurwr
y gyfraith, eithr barnwr.
12 Un gosodwr cyfraith sydd, yr
hwn a ddichon gadw a cholli. Pwy
wyt ti yr hwn wyt yn barnu arall?
13 Iddo yn awr, y rhai ydych yn
dywedyd, Heddyw neu y fory ni a
awn i gyfryw ddinas, ac a arhoswn
yno flwyddyn, ac a farchnattâwn,
ac a ennillwn:
14 Y rhai ni wyddoch beth *a*
fydd y fory. Canys beth *ydyw*
eich einioes chwi? Canys tarth
ydyw, yr hwn sydd dros ychydig
yn ymddangos, ac wedi hynny yn
diflannu.
15 Lle *y dylech* ddywedyd, Os
yr Arglwydd a'i myn, *ac os* bydd-
wn byw, ni a wnawn hyn, neu
hynny.
16 Eithr yn awr gorfoleddu yr
ydych yn eich ymffrost: pob cyf-
ryw orfoledd, drwg ydyw.
17 Am hynny i'r neb a fedr
wneuthur daioni, ac nid yw yn ei
wneuthur, pechod ydyw iddo.

PENNOD 5.

1 *Rhaid i gyfoethogion drygionus ofni dialedd Duw.* 7 *Ni a ddylem fod yn ddioddefgar mewn adfyd, yn ol esampl y prophwydi, a Job;* 12 *a gochelyd tyngu;* 13 *a gweddio mewn adfyd, a chanu mewn hawddfyd;* 16 *a chyfaddef ein beiau i'n gilydd, a gweddio dros ein gilydd;* 19 *a dwyn i'r iawn y brawd a fyddo yn myned ar gyfeiliorn.*

IDDO yn awr, chwi gyfoetheog-
ion, wylwch ac udwch am eich
trueni sydd yn dyfod arnoch.
2 Eich cyfoeth a bydrodd, a'ch
gwisgoedd a fwyttâwyd gan bryfed.
3 Eich aur a'ch arian a rydodd;
a'u rhwd hwynt a fydd yn dystiol-

aeth yn eich erbyn chwi, ac a fwytty eich cnawd chwi fel tân. Chwi a gasglasoch drysor yn y dyddiau diweddaf.

4 Wele, y mae cyflog y gweithwyr a fedasant eich meusydd chwi, yr hwn a gam-attaliwyd gennych, yn llefain: a llefain y rhai a fedasant a ddaeth i mewn i glustiau Arglwydd y lluoedd.

5 Moethus fuoch ar y ddaear, a thrythyll; meithrin eich calonnau a wnaethoch, megis mewn dydd lladdedigaeth.

6 Condemniasoch *a* lladdasoch y cyfiawn; *ac* yntau heb sefyll i'ch erbyn.

7 Byddwch gan hynny yn ymarhous, frodyr, hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Wele, y mae y llafurwr yn disgwyl am werthfawr ffrwyth y ddaear, yn dda ei amynedd am dano, nes iddo dderbyn y gwlaw cynnar a diweddar.

8 Byddwch chwithau hefyd dda eich amynedd; cadarnhêwch eich calonnau: oblegid dyfodiad yr Arglwydd a nesaodd.

9 Na rwgnechwch yn erbyn eich gilydd, frodyr, fel na'ch condemnier: wele, y mae y Barnwr yn sefyll wrth y drws.

10 Cymmerwch, fy mrodyr, y prophwydi, y rhai a lefarasant yn enw yr Arglwydd, yn siampl o ddïoddef blinder, ac o hir-ymaros.

11 Wele, dedwydd yr ydym yn gadael y rhai sydd ddïoddefus. Chwi a glywsoch am amynedd Job, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd: oblegid tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog.

12 Eithr o flaen pob peth, fy mrodyr, na thyngwch, nac i'r nef, nac i'r ddaear, nac un llw arall: eithr bydded eich ïe chwi yn ïe, a'*ch* nag ê yn nag ê; fel na syrthioch i farnedigaeth.

13 A oes neb yn eich plith mewn adfyd? gweddïed. A oes neb yn esmwyth arno? caned psalmau.

14 A oes neb yn eich plith yn glaf? galwed atto henuriaid yr eglwys; a gweddïant hwy drosto, gan ei enneinio ef âg olew yn enw yr Arglwydd:

15 A gweddi y ffydd a iachâ y claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fyny; ac os bydd wedi gwneuthur pechodau, hwy a faddeuir iddo.

16 Cyffeswch *eich* camweddau bawb i'ch gilydd, a gweddïwch dros eich gilydd, fel y'ch iachâer. Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.

17 Elïas oedd ddyn yn rhaid iddo ddïoddef fel ninnau, ac mewn gweddi efe a weddïodd na byddai wlaw: ac ni bu gwlaw ar y ddaear dair blynedd a chwe mis.

18 Ac efe a weddïodd drachefn; a'r nef a roddes wlaw, a'r ddaear a ddug ei ffrwyth.

19 *Fy* mrodyr, od aeth neb o honoch ar gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd, a throi o ryw un ef;

20 Gwybydded, y bydd i'r hwn a drodd bechadur oddi wrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag angau, a chuddio lliaws o bechodau.

EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL

PEDR YR APOSTOL.

PENNOD 1.

1 *Y mae efe yn bendithio Duw am ei amryw rad ysprydol:* 10 *gan ddangos nad ydyw yr iachawdwriaeth yng Nghrist beth newydd, eithr peth a brophwydwyd am dano er ys talm.* 13 *Cynghor i fyw yn ddiwiol, gan eu bod hwy wedi eu geni o newydd trwy air Duw.*

PEDR, apostol Iesu Grist, at y dïeithriaid sydd ar wasgar ar hyd Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia,

2 Etholedigion yn ol rhag-wybodaeth Duw Dad, trwy sanctei ddiad yr Ysbryd, i ufudd-dod a thaenelliad gwaed Iesu Grist: Gras i chwi a heddwch a amlhâer.

3 Bendigedig *fyddo* Duw a Thad

ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yn ol ei fawr drugaredd a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw,

4 I etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac yng nghadw yn y nefoedd i chwi,

5 Y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig trwy ffydd i iachawdwriaeth, parod i'w datguddio yn yr amser diweddaf.

6 Yn yr hyn yr ydych yn mawrlawenhâu, er eich bod ychydig yr awr hon, os rhaid yw, mewn tristwch, trwy amryw brofediggaethau:

7 Fel y caffer profiad eich ffydd chwi, yr hwn sydd werthfawrusach na'r aur colladwy, cyd profer ef trwy dân, er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant, yn ymddangosiad Iesu Grist:

8 Yr hwn, er nas gwelsoch, yr ydych yn ei garu; yn yr hwn, heb fod yr awr hon yn *ei* weled, ond yn credu, yr ydych yn mawr-lawenhâu â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus:

9 Gan dderbyn diwedd eich ffydd, *ef* iachawdwriaeth *eich* eneidiau.

10 Am yr hon iachawdwriaeth yr ymofynodd, ac y manwl-chwiliodd y prophwydi, y rhai a brophwydasant am y gras *a ddeuai* i chwi:

11 Gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dioddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hynny.

12 I'r rhai y datguddiwyd, nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, yr oeddynt yn gweini *yn* y pethau a fynegwyd yn awr i chwi, gan y rhai a efengylasant i chwi trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn a ddanfonwyd o'r nef; ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwennychu edrych.

13 O herwydd paham, gan wregysu lwynau eich meddwl, *a* bod yn sobr, gobeithiwch yn berffaith am y gras a ddygir i chwi yn natguddiad Iesu Grist;

14 Fel plant ufudd-dod, heb gydymagweddu â'r trachwantau o'r blaen yn eich anwybodaeth:

15 Eithr megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, byddwch chwithau hefyd sanctaidd ym mhob ymarweddiad:

16 Oblegid y mae yn ysgrifenedig, Byddwch sanctaidd; canys sanctaidd ydwyf fi.

17 Ac os ydych yn galw ar y Tad, yr hwn sydd heb dderbyn wyneb yn barnu yn ol gweithred pob un, ymddygwch mewn ofn dros amser eich ymdeithiad:

18 Gan wybod nad â phethau llygredig, *megis* arian neu aur, y'ch prynwyd oddi wrth eich ofer ymarweddiad, *yr hwn a gawsoch* trwy draddodiad y tadau;

19 Eithr â gwerthfawr waed Crist, megis oen difeius a difrycheulyd:

20 Yr hwn yn wir a rag-ordeiniwyd cyn sylfaenu y byd, eithr a eglurwyd yn yr amseroedd diweddaf er eich mwyn chwi,

21 Y rhai ydych trwyddo ef yn credu yn Nuw, yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw, ac a roddodd iddo ef ogoniant, fel y byddai eich ffydd chwi a'ch gobaith yn Nuw.

22 Gwedi puro eich eneidiau, gan ufuddhâu i'r gwirionedd trwy yr Ysbryd, i frawdgarwch diragrith, cerwch eich gilydd o galon bur yn helaeth:

23 Wedi eich ail-eni, nid o had llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw, *yr hwn sydd* yn byw ac yn parhâu yn dragywydd.

24 Canys pob cnawd fel glaswelltyn *yw*, a holl ogoniant dyn fel blodeuyn y glaswelltyn. Gwywodd y glaswelltyn, a'i flodeuyn a syrthiodd:

25 Eithr gair yr Arglwydd sydd yn aros yn dragywydd. A hwn yw y gair a bregethwyd i chwi.

PENNOD 2.

1 *Y mae yn eu cynghori na wnelont ddim ym erbyn cariad:* 4 *ac yn dangos mai Crist ydyw y sylfaen yr adeiladwyd hwynt arno:* 11 *ac ym dymuno arnynt ymgadw rhag chwantau cnawdol;* 13 *a bod yn ufudd i awyddogion.* 18 *Y mae yn dysgu i weision ufuddhâu i'w meistriaid,* 20 *a bod yn ddioddefgar, wrth esampl Crist, er eu bod yn cael cam.*

WEDI rhoi heibio gan hynny bob drygioni, a phob twyll,

a rhagrith, a chenfigen, a phob gogan-air,
2 Fel rhai bychain newydd-eni, chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynnyddoch trwyddo ef:
3 Os profasoch *fod* yr Arglwydd yn dirion.
4 At yr hwn *yr ydych* yn dyfod, *megis at* faen bywiol, a wrthodwyd gan ddynion, eithr etholedig gan Dduw, *a* gwerthfawr.
5 A chwithau, megis meini bywiol, ydych wedi eich adeiladu yn dŷ ysprydol, yn offeiriadaeth sanctaidd, i offrymmu aberthau ysprydol, cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist.
6 O herwydd paham y cynhwysir yn yr ysgrythyr, Wele, yr wyf yn gosod yn Sion ben-conglfaen, etholedig, *a* gwerthfawr: a'r hwn a gred ynddo, nis gwaradwyddir.
7 I chwi gan hynny, y rhai ydych yn credu, *y mae* yn urddas: eithr i'r anufuddion, y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwnnw a wnaed yn ben y gongl,
8 Ac yn faen tramgwydd, ac yn graig rhwystr, *i'r rhai* sydd yn tramgwyddo wrth y gair, gan fod yn anufudd; i'r hwn beth yr ordeiniwyd hwynt hefyd.
9 Eithr chwychwi *ydych* rywogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenedl sanctaidd, pobl briodol *i Dduw;* fel y mynegoch rinweddau yr hwn a'ch galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef:
10 Y rhai gynt nid *oeddych* bobl, ond yn awr *ydych* bobl i Dduw: y rhai ni chawsech drugaredd, ond yr awr hon a gawsoch drugaredd.
11 Anwylyd, yr wyf yn attolwg *i chwi,* megis dïeithriaid a phererinion, ymgedwch oddi wrth chwantau cnawdol, y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid;
12 Gan fod â'ch ymarweddiad yn onest ym mysg y Cenhedloedd: fel, lle maent yn eich goganu megis drwg-weithredwyr, y gallont, o herwydd *eich* gweithredoedd da a welant, ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad.
13 Ymddarostyngwch oblegid hyn i bob dynol ordinhâd, o herwydd yr Arglwydd: pa un bynnag ai i'r brenhin, megis goruchaf;
14 Ai i'r llywiawdwyr, megis trwyddo ef wedi eu danfon er dïal ar y drwg-weithredwyr a mawl i'r gweithredwyr da.
15 Canys felly y mae ewyllys Duw, fod i chwi trwy wneuthur daioni ostegu anwybodaeth dynion ffolion:
16 Megis yn rhyddion, ac nid â rhyddid gennych megis cochl malais, eithr fel gwasanaethwyr Duw.
17 Perchwch bawb. Cerwch y brawdoliaeth. Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y brenhin.
18 *Y* gweision, *byddwch* ddarostyngedig gyd â phob ofn i'*ch* meistriaid; nid yn unig i'r *rhai* da a chwaethus, eithr i'r *rhai* anghyweithas hefyd.
19 Canys hyn *sydd* rasol, os yw neb o herwydd cydwybod i Dduw yn dwyn tristwch, gan ddïoddef ar gam.
20 Oblegid pa glod *yw,* os, pan bechoch, a chael eich cernodio, y byddwch dda eich amynedd? eithr os, a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn dïoddef, y byddwch dda eich amynedd, hyn *sydd* rasol ger bron Duw.
21 Canys i hyn y'ch galwyd hefyd: oblegid Crist yntau a ddïoddefodd drosom ni, gan adael i ni esampl, fel y canlynech ei ôl ef:
22 Yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau:
23 Yr hwn, pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddïoddefodd, ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn:
24 Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren; fel, gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder: trwy gleisiau yr hwn yr iachâwyd chwi.
25 Canys yr oeddych megis defaid yn myned ar gyfeiliorn; eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Esgob eich eneidiau.

PENNOD 3.

1 Y mae yn dysgu i wŷr a gwragedd eu dyled i'w gilydd: 8 yn annog pawb i undeb a chariad; 14 ac i ddïoddef erlid; 19 ac yn adrodd daioni Duw i'r hen fyd gynt.

YR un ffunud, *bydded* y gwraged-
edd ostyngedig i'w gwŷr pri-
od; fel, od oes rhai heb gredu i'r
gair, y galler trwy ymarweddiad
y gwragedd, eu hennill hwy heb
y gair,
2 Wrth edrych ar eich ymarwedd-
iad diwair chwi ynghyd âg ofn.
3 Trwsiad y rhai bydded nid yr
un oddi allan, o blethiad gwallt, ac
amgylch-osodiad aur, neu wisgad
dillad;
4 Eithr *bydded* cuddiedig ddyn
y galon, mewn anllygredigaeth ys-
pryd addfwyn a llonydd, yr hwn
sydd ger bron Duw yn werthfawr.
5 Canys felly gynt yr oedd y
gwragedd sanctaidd hefyd, y rhai
oedd yn gobeithio yn Nuw, yn ym-
drwsio, gan fod yn ddarostyngedig
i'w gwŷr priod;
6 Megis yr ufuddhaodd Sara i
Abraham, gan ei alw ef yn ar-
glwydd: merched yr hon ydych
chwi, tra fyddoch yn gwneuthur yn
dda, ac heb ofni dim dychryn.
7 Ŷ gwŷr, yr un ffunud, cyd-gyf-
anneddwch â hwynt yn ol gwybod-
aeth, gan roddi parch i'r wraig
megis i'r llestr gwannaf, fel rhai
sydd gyd-etifeddion gras y bywyd;
rhag rhwystro eich gweddïau.
8 Am ben hyn, *byddwch* oll yn
unfryd, yn cyd-oddef â'ch gilydd,
yn caru fel brodyr, yn drugarog-
ion, yn fwynaidd:
9 Nid yn talu drwg am ddrwg,
neu sen am sen: eithr, y'ngwrth-
wyneb, yn bendithio; gan wybod
mai i hyn y'ch galwyd, fel yr
etifeddoch fendith.
10 Canys y neb a ewyllysio hoffi
bywyd, a gweled dyddiau da, attal-
ied ei dafod oddi wrth ddrwg, a'i
wefusau rhag adrodd twyll:
11 Gocheled y drwg, a gwnaed y
da; ceisied heddwch, a dilyned ef.
12 Canys *y mae* llygaid yr Ar-
glwydd ar y rhai cyfiawn, a'i
glustiau ef tu ag at eu gweddi
hwynt: eithr *y mae* wyneb yr Ar-
glwydd yn erbyn y rhai sydd yn
gwneuthur drwg.
13 A phwy a'ch dryga chwi, os
byddwch yn dilyn yr hyn sydd dda?
14 Eithr o bydd i chwi hefyd
ddïoddef o herwydd cyfiawnder,
dedwydd *ydych:* ond nac ofn-
wch rhag eu hofn hwynt, ac na'ch
cynhyrfer;
15 Eithr sancteiddiwch yr Ar-
glwydd Dduw yn eich calonnau:
a *byddwch* barod bob amser i atteb
i bob un a ofyno i chwi reswm
am y gobaith sydd ynoch, gyd âg
addfwynder ac ofn:
16 A chennych gydwybod dda;
fel yn yr hyn y maent yn eich
goganu megis drwg-weithredwyr, y
cywilyddio y rhai sydd yn beio
ar eich ymarweddiad da chwi yng
Nghrist.
17 Canys gwell *ydyw*, os ewyllys
Duw a'i myn, i chwi ddïoddef yn
gwneuthur daioni, nag yn gwneuth-
ur drygioni.
18 Oblegid Crist hefyd unwaith
a ddïoddefodd dros bechodau, y
Cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y
dygai ni at Dduw, wedi ei farwol-
aethu yn y cnawd, eithr ei fywhâu
yn yr Ysbryd:
19 Trwy yr hwn yr aeth efe hefyd
ac a bregethodd i'r ysprydion yng
ngharchar;
20 Y rhai a fu gynt anufudd, pan
unwaith yr oedd hir-amynedd Duw
yn aros yn nyddiau Nöe, tra y
darperid yr arch, yn yr hon ychydig,
sef wyth enaid, a achubwyd trwy
ddwfr.
21 Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn
sydd yr awr hon yn ein hachub nin-
nau, *sef* bedydd, nid bwrw ymaith
fudreddi y cnawd, eithr ymatteb
cydwybod dda tu ag at Dduw,
trwy adgyfodiad Iesu Grist:
22 Yr hwn sydd ar ddeheulaw
Duw, wedi myned i'r nef; *a'r* ang-
ylion, a'*r* awdurdodau, a'*r* gallu-
oedd, wedi eu darostwng iddo.

PENNOD 4.

1 *Y mae yn eu hannog hwy i beidio â phechu, trwy esampl Crist, a thrwy ystyried fod diwedd pob peth yn prysso yn agos.* 12 *Y mae yn eu cysuro yn erbyn ertid.*

AM hynny gan ddïoddef o Grist
drosom ni yn y cnawd, chwi-
thau hefyd byddwch wedi eich arf-
ogi â'r un meddwl: oblegid yr
hwn a ddïoddefodd yn y cnawd, a
beidiodd â phechod;
2 Fel na byddo mwyach fyw i

chwantau dynion, ond i ewyllys Duw, dros yr amser sydd yn ol yn y cnawd.

3 Canys digon i ni yr amser a aeth heibio o'r einioes i weithredu ewyllys y Cenhedloedd, gan rodio mewn trythyllwch, trachwantau, meddwdod, cyfeddach, dïotta, a ffiaidd eilun-addoliad:

4 Yn yr hyn y maent yn ddïeithr yn *eich* cablu *chwi*, am nad ydych yn cyd-redeg gyd â hwynt i'r unrhyw ormod rhysedd:

5 Y rhai a roddant gyfrif i'r hwn sydd barod i farnu y byw a'r meirw.

6 Canys er mwyn hynny yr efengylwyd i'r meirw hefyd; fel y bernid hwy yn ol dynion yn y cnawd, ac y byddent fyw yn ol Duw yn yr yspryd.

7 Eithr diwedd pob peth a nesaodd: am hynny byddwch sobr, a gwyliadwrus i weddïau.

8 Eithr o flaen pob peth, bydded gennych gariad helaeth tu ag at eich gilydd: canys cariad a guddia lïaws o bechodau.

9 Byddwch lettŷgar y naill i'r llall, heb rwgnach.

10 Pob un, megis y derbyniodd rodd, cyfrennwch â'ch gilydd, fel daïonus oruchwylwyr amryw ras Duw.

11 Os llefaru a wna neb, *llefared* megis geiriau Duw; os gweini y mae neb, *gwnaed* megis o'r gallu y mae Duw yn ei roddi: fel ym mhob peth y gogonedder Duw trwy Iesu Grist; i'r hwn y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.

12 Anwylyd, na fydded ddïeithr gennych am y profiad tanllyd sydd ynoch, yr hwn a wneir er profedigaeth i chwi, fel pe bai beth dïeithr yn digwydd i chwi:

13 Eithr llawenhêwch, yn gymmaint a'ch bod yn gyfrannogion o ddïoddefiadau Crist; fel, pan ddatguddier ei ogoniant ef, y byddoch yn llawen ac yn gorfoleddu.

14 Os difenwir chwi er mwyn enw Crist, gwyn *eich* byd; oblegid y mae Yspryd y gogoniant, ac *Yspryd* Duw yn gorphwys arnoch: ar eu rhan hwynt yn wir efe a geblir, ond ar eich rhan chwi efe a ogoneddir.

15 Eithr na ddïoddefed neb o honoch fel llofrudd, neu leidr, neu ddrwg-weithredwr, neu fel un yn ymyrraeth â matterion rhai eraill:

16 Eithr os fel Cristion, na fydded gywilydd ganddo; ond gogonedded Dduw yn hyn o ran.

17 Canys *daeth* yr amser i ddechreu o'r farn o dŷ Dduw: ac os *dechreu hi* yn gyntaf arnom ni, beth *fydd* diwedd y rhai nid ydynt yn credu i efengyl Duw?

18 Ac os braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?

19 Am hynny y rhai hefyd sydd yn dïoddef yn ol ewyllys Duw, gorchymynant eu heneidiau *iddo ef*, megis i Greawdwr ffyddlawn, gan wneuthur yn dda.

PENNOD 5.

1 Y mae yn annog yr henuriaid i borthi defaid Crist; 5 a'r ieuainge i ufuddhâu; 8 a phawb i wylied, ac i fod yn sobr, ac yn ddïanwadal yn y ffydd; 9 ac i wrthwynebu y cythraul, y gwrthwynebwr creulawn.

YR henuriaid sydd yn eich plith, attolwg iddynt yr ydwyf fi, yr hwn wyf gyd-henuriad, a thyst o ddïoddefiadau Crist, yr hwn hefyd *wyf* gyfrannog o'r gogoniant a ddatguddir:

2 Porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrw golwg *arnynt;* nid trwy gymmell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budrelw, eithr o barodrwydd meddwl;

3 Nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth *Duw*, ond gan fod yn esamplau i'r praidd.

4 A phan ymddangoso y Penbugail, chwi a gewch dderbyn anniflannedig goron y gogoniant.

5 Yr un ffunud yr ieuainge, byddwch ostyngedig i'r henuriaid. A byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwsiwch oddi fewn â gostyngeiddrwydd: oblegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig.

6 Ymddarostyngwch gan hynny dan alluog law Duw, fel y'ch dyrchafo mewn amser cyfaddas:

7 Gan fwrw eich holl ofal arno ef;

canys y mae efe yn gofalu drosoch chwi.

8 Byddwch sobr, gwyliwch: oblegid y mae eich gwrthwynebwr diafol, megis llew rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngcu.

9 Yr hwn gwrthwynebwch yn gadarn yn y ffydd; gan wybod fod yn cyflawni yr un blinderau yn eich brodyr y rhai sydd yn y byd.

10 A Duw pob gras, yr hwn a'ch galwodd chwi i'w dragywyddol ogoniant trwy Grist Iesu, wedi i chwi ddïoddef ychydig, a'ch perffeithio chwi, a'*ch* cadarnhao, a'*ch* cryfhao, a'*ch* sefydlo.

11 Iddo ef *y byddo y* gogoniant a'*r* gallu yn oes oesoedd. Amen.

12 Gyd â Silfanus, brawd ffyddlawn i chwi, fel yr wyf yn tybied, yr ysgrifenais ar ychydig eiriau, gan gynghori, a thystiolaethu mai gwir ras Duw yw yr hwn yr ydych yn sefyll ynddo.

13 Y mae yr *eglwys sydd* yn Babilon, yn gyd-etholedig *â chwi*, yn eich annerch; a Marc, fy mab i.

14 Anherchwch eich gilydd â chusan cariad. Tangnefedd i chwi oll y rhai ydych yng Nghrist Iesu. Amen.

AIL EPISTOL CYFFREDINOL

PEDR YR APOSTOL.

PENNOD 1.

1 *Y mae efe yn eu cadarnhâu mewn gobaith o gynnydd gras Duw; 5 ac yn eu hannog i wneuthur eu galwedigaeth yn sicr trwy ffydd a gweithredoedd. 12 Y mae yn ofalus i ddwyn hynny ar gôf iddynt, gan wybod fod ei farwolaeth ef ei hun yn agos. 16 Y mae yn eu rhybuddio huy i fod yn ddiannwadal yn ffydd Crist, gwiw Fab Duw, trwy dystiolaeth yr apostolion a welsant ei ogoniant ef, a thrwy dystiolaeth y Tad, a'r prophwydi.*

SIMON Pedr, gwasanaethwr ac apostol Iesu Grist, at y rhai a gawsant gyffelyb werthfawr ffydd a ninnau, trwy gyfiawnder ein Duw ni, a'n Hachubwr Iesu Grist:

2 Gras i chwi a thangnefedd a amlhâer, trwy adnabod Duw, a Iesu ein Harglwydd ni,

3 Megis y rhoddes ei dduwiol allu ef i ni bob peth *a berthyn* i fywyd a duwioldeb, trwy ei adnabod ef yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd:

4 Trwy yr hyn y rhoddwyd i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr; fel trwy y rhai hyn y byddech gyfrannogion o'r duwiol anian, wedi dïangc oddi wrth y llygredigaeth sydd yn y byd trwy drachwant.

5 A hyn yma hefyd, gan roddi cwbl-ddiwydrwydd, chwanegwch at eich ffydd, rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth;

6 Ac at wybodaeth, gymmedrolder; ac at gymmedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwioldeb;

7 Ac at dduwioldeb, garedigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, gariad.

8 Canys os yw y pethau hyn gennych, ac yn aml hwynt, y maent yn peri na *byddoch* na segur, na diffrwyth y'ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

9 Oblegid yr hwn nid yw y rhai hyn ganddo, dall ydyw, heb weled ym mhell, wedi gollwng dros gôf ei lanhâu oddi wrth ei bechodau gynt.

10 O herwydd paham yn hytrach, frodyr, byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr: canys, tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim byth:

11 Canys felly yn helaeth y trefnir i chwi fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist.

12 O herwydd paham nid esgeulusaf eich coffâu bob amser am y pethau hyn, er eich bod yn eu gwybod, ac wedi eich sicrhâu yn y gwirionedd presennol.

13 Eithr yr ydwyf yn tybied *fod*

yn iawn, tra fyddwyf yn y tabernacl hwn, eich cyffrôi chwi, trwy ddwyn ar gôf *i chwi;*

14 Gan wybod y bydd i mi ar frys roddi fy nhabernacl *hwn* heibio, megis ag yr hysbysodd ein Harglwydd Iesu Grist i mi.

15 Ac mi a wnaf fy ngoreu hefyd ar allu o honoch bob amser, ar ol fy ymadawiad i, wneuthur coffa am y pethau hyn.

16 Canys nid gan ddilyn chwedlau cyfrwys, yr hysbysasom i chwi nerth a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, eithr wedi gweled ei fawredd ef â'n llygaid.

17 Canys efe a dderbyniodd gan Dduw Dad barch a gogoniant, pan ddaeth y cyfryw lef atto oddi wrth y mawr-ragorol Ogoniant, Hwn yw fy anwyl Fab i, yn yr hwn y'm boddlonwyd.

18 A'r llef yma, yr hon a ddaeth o'r nef, a glywsom ni, pan oeddym gyd âg ef yn y mynydd sanctaidd.

19 Ac y mae gennym air sicrach y prophwydi; yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megis ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio y dydd, ac oni chodo y seren ddydd yn eich calonnau chwi:

20 Gan wybod hyn yn gyntaf, nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddehongliad priod.

21 Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion sanctaidd Duw a lefarasant *megis* y cynhyrfwyd *hwy* gan yr Ysbryd Glân.

PENNOD 2.

1 *Y mae yn prophwydo am athrawon ffeilsion; ac yn dangos eu hanwiredd a'u dialedd hwy a'u dilywyr: 7 oddi wrth y rhai y gwaredir y rhai duwiol, fel y gwaredwyd Lot o Sodom.* 10 *Y mae yn dangos yn helaethach gymhedd'au y twyllwyr hynny, fel y galler eu hadnabod yn hawsa, a'u gochelyd.*

EITHR bu gau-brophwydi hefyd ym mhlith y bobl, megis ag y bydd gau-athrawon yn eich plith chwithau; y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn heresiau dinystriol, a chan wadu yr Arglwydd yr hwn a'u prynodd hwynt, ydynt yn tynnu arnynt eu hunain ddinystr buan.

2 A llawer a ganlynant eu distryw hwynt, o herwydd y rhai y ceblir ffordd y gwirionedd.

3 Ac mewn cybydd-dod, trwy chwedlau gwneuthur, y gwnant farsiandïaeth o honoch; barnedigaeth y rhai er ys talm nid yw segur, a'u colledigaeth hwy nid yw yn hepian.

4 Canys onid arbedodd Duw ŷr angylion a bechasent, eithr *eu* taflu *hwynt* i uffern, a'*u* rhoddi i gadwynau tywyllwch, i'w cadw i farnedigaeth;

5 Ac onid arbedodd efe yr hen fyd, eithr Nöe, pregethwr cyfiawnder, a gadwodd efe ar ei wythfed, pan ddug efe y diluw ar fyd y rhai anwir;

6 A chan droi dinasoedd Sodom a Gomorrah yn lludw, a'u damniodd *hwy* â dymchweliad, gan *eu* gosod yn esampl i'r rhai a fyddent yn annuwiol;

7 Ac a waredodd Lot gyfiawn, yr hwn oedd mewn gofid trwy anniwair ymarweddiad yr anwiriaid:

8 (Canys y cyfiawn hwnnw yn trigo yn eu mysg hwynt, yn gweled ac yn clywed, ydoedd yn poeni ei enaid cyfiawn o ddydd i ddydd trwy *eu* hanghyfreithlawn weithredoedd *hwynt:*)

9 Yr Arglwydd a fedr wared y rhai duwiol rhag profedigaeth, a chadw y rhai anghyfiawn i ddydd y farn i'w poeni:

10 Ac yn bennaf y rhai sydd yn rhodio ar ol y cnawd mewn chwant aflendid, ac yn dïystyru llywodraeth. Rhyfygus *ydynt*, cyndyn; nid ydynt yn arswydo cablu urddas:

11 Lle nid yw yr angylion, y rhai sydd fwy mewn gallu a nerth, yn rhoddi cablaidd farn yn eu herbyn hwynt ger bron yr Arglwydd.

12 Eithr y rhai hyn, megis anifeiliaid anrhesymmol anianol, y rhai a wnaed i'w dal ac i'w difetha, a gablant y pethau ni wyddant oddi wrthynt, ac a ddifethir yn eu llygredigaeth eu hunain;

13 Ac a dderbyniant gyflog anghyfiawnder, a hwy yn cyfrif moethau beunydd yn hyfrydwch. Brychau a meflau *ydynt*, yn ymddigrifo yn eu twyll eu hunain, gan wledda gyd â chwi;

14 A llygaid ganddynt yn llawn godineb, ac heb fedru peidio â phechod; yn llithio eneidiau anwadal: a chanddynt galon wedi ymgynnefino â chybydd-dra; plant *y* felldith:

15 Wedi gadael y ffordd uniawn, *hwy* a aethant ar gyfeiliorn, gan ganlyn ffordd Balaam *mab* Bosor, yr hwn a garodd wobr anghyfiawnder;

16 Ond efe a gafodd gerydd am ei gamwedd: asen fud arferol â'r iau, gan ddywedyd â llef ddynol, a waharddodd ynfydrwydd y prophwyd.

17 Y rhai hyn ydynt ffynhonnau diddwfr, cymmylau a yrrid gan dymmestl; i'r rhai y mae niwl tywyllwch y'nghadw yn dragywydd.

18 Canys gan ddywedyd chwyddedig *eiriau* gorwagedd, y maent hwy, trwy chwantau y cnawd, *a* thrythyllwch, yn llithio y rhai a ddïangasai yn gwbl oddi wrth y rhai sydd yn byw ar gyfeiliorn.

19 Gan addaw rhyddid iddynt, a hwythau eu hunain yn wasanaethwyr llygredigaeth: canys gan bwy bynnag y gorchfygwyd neb, i hwnnw hefyd yr aeth efe yn gaeth.

20 Canys os, wedi iddynt ddïangc oddi wrth halogedigaeth y byd, trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, y rhwystrir hwy drachefn â'r pethau hyn, a'u gorchfygu; aeth diwedd y rhai hynny yn waeth na'u dechreuad.

21 Canys gwell fuasai iddynt fod heb adnabod ffordd cyfiawnder, nag, wedi *ei* hadnabod, troi oddi wrth y gorchymyn sanctaidd yr hwn a draddodwyd iddynt.

22 Eithr digwyddodd iddynt yn ol y wir ddïareb, Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun; a'r hwch wedi ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y dom.

PENNOD 3.

1 Y mae yn eu sicrhau hwy am ddyfodiad Crist i'r farn, yn erbyn y gwatwarwyr a ymresymmai yn y gwrthwyneb; 8 gan rybuddio y rhai duwiol i brysuro eu hedifeirwch, o ran hir-amynedd Duw. 10 Y mae yn dangos pa fodd y dinystrir y byd: 11 ac yn eu hannog i sancteiddrwydd buchedd, trwy ddisgwyl hynny: 15 a hefyd i feddwl, mai er mwyn eu hiachawdwriaeth hwynt y mae Duw yn ddioddefgar, megis yr ysgrifenodd Paul attynt.

YR ail epistol hwn, anwylyd, yr ydwyf yn awr yn ei ysgrifenu attoch; yn yr hwn yr ydwyf yn cyffrôi eich meddwl puraidd, trwy ddwyn ar gôf *i chwi:*

2 Fel y byddo cofus gennych y geiriau a rag-ddywedwyd gan y prophwydi sanctaidd, a'n gorchymyn ninnau, apostolion yr Arglwydd a'r Iachawdwr:

3 Gan wybod hyn yn gyntaf, y daw yn y dyddiau diweddaf watwarwyr, yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain,

4 Ac yn dywedyd, Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef? canys er pan hunodd y tadau, y mae pob peth yn parhâu fel *yr oeddynt* o ddechreuad y creadigaeth.

5 Canys y mae hyn yn ddïarwybod iddynt o'u gwirfodd, mai trwy air Duw yr oedd y nefoedd er ys talm, a'r ddaear yn cyd-sefyll o'r dwfr a thrwy y dwfr.

6 O herwydd paham y byd a oedd y pryd hwnnw, wedi ei orchuddio â dwfr, a ddifethwyd.

7 Eithr y nefoedd a'r ddaear *sydd* yr awr hon, ydynt trwy yr un gair wedi eu rhoddi i gadw i dân, erbyn dydd y farn, a distryw yr anwir ddynion.

8 Eithr yr un peth hwn na fydded yn ddïarwybod i chwi, anwylyd, *fod* un dydd gyd â'r Arglwydd megis mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd megis un dydd.

9 Nid ydyw yr Arglwydd yn oedi ei addewid, fel y mae rhai yn cyfrif oed; ond hir-ymarhous yw efe tu ag attom ni, heb ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch.

10 Eithr dydd yr Arglwydd a ddaw megis lleidr y nos; yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyd â thwrf, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith *a fyddo* ynddi a losgir.

11 A chan fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb,

12 Yn disgwyl ac yn brysio at ddyfodiad dydd Duw, yn yr hwn y nefoedd gan losgi a ymollyng-

ant, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant?

13 Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni, yn ol ei addewid ef, yn eu disgwyl, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu.

14 O herwydd paham, anwylyd, gan eich bod yn disgwyl y pethau hyn, gwnewch eich goreu ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd, yn ddifrycheulyd ac yn ddïargyhoedd.

15 A chyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth; megis ag yr ysgrifenodd ein hanwyl frawd Paul attoch chwi, yn ol y doethineb a rodded iddo ef;

16 Megis yn *ei* holl epistolau hefyd, yn llefaru ynddynt am y pethau hyn: yn y rhai y mae rhyw bethau anhawdd eu deall, y rhai y mae yr annysgedig a'r anwastad yn eu gŵyrdroi, megis yr ysgrythyrau eraill, i'w dinystr eu hunain.

17 Chwychwi gan hynny, anwylyd, a chwi yn gwybod *y pethau hyn* o'r blaen, ymgedwch rhag eich arwain ymaith trwy amryfusedd yr annuwiol, a chwympo o honoch oddi wrth eich sicrwydd eich hun.

18 Eithr cynnyddwch mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Iddo ef *y byddo* gogoniant yr awr hon ac yn dragywyddol. Amen.

EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL

IOAN YR APOSTOL.

PENNOD 1.

1 Y mae efe yn gosod allan berson Crist, yn yr hwn y mae i ni fywyd tragywyddol, trwy gymdeithas â Duw. 5 Rhaid i ni ymrói i sanctaiddrwydd buchedd, i dystiolaethu gwirionedd y gymdeithas honno, a'n ffydd: a hefyd i'n sicrhau ein hunain o faddeuant pechodau, trwy farwolaeth Crist.

YR hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a glywsom, yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylaw am Air y bywyd;

2 (Canys y bywyd a eglurhâwyd, ac ni a welsom, ac ydym yn tystiolaethu, ac yn mynegi i chwi y bywyd tragywyddol, yr hwn oedd gyd â'r Tad, ac a eglurhâwyd i ni;)

3 Yr hyn a welsom ac a glywsom yr ydym yn ei fynegi i chwi, fel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas gyd â ni: a'n cymdeithas ni yn wir *sydd* gyd â'r Tad, a chyd â'i Fab ef Iesu Grist.

4 A'r pethau hyn yr ydym yn eu hysgrifenu attoch, fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.

5 A hon yw y gennadwri a glywsom ganddo ef, ac yr ydym yn ei hadrodd i chwi; Mai goleuni yw Duw, ac nad oes ynddo ddim tywyllwch.

6 Os dywedwn fod i ni gymdeithas âg ef, a rhodio yn y tywyllwch, celwyddog ydym, ac nid ydym yn gwneuthur y gwirionedd:

7 Eithr os rhodiwn yn y goleuni, megis y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd, a gwaed Iesu Grist ei Fab ef, sydd yn ein glanhâu ni oddi wrth bob pechod.

8 Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom.

9 Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder.

10 Os dywedwn na phechasom, yr ydym yn ei wneuthur ef yn gelwyddog, a'i air ef nid yw ynom.

PENNOD 2.

1 Y mae yn eu cysuro hwy yn erbyn pechodau o wendid. 3 Adnabod Duw yn iawn, yw cadw ei orchymynion ef, 9 a charu ein brodyr, 15 ac na roddom ein serch ar y byd. 18 Rhaid i ni ochelyd twyllwyr; 20 y rhai y mae y duwiol yn dderogel oddi wrth eu twyll, trwy barhau yn y ffydd, ac mewn sancteiddrwydd buchedd.

FY mhlant bychain, y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifenu

attoch, fel na phechoch. Ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyd â'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn:
2 Ac efe yw yr iawn dros ein pechodau ni: ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros *bechodau* yr holl fyd.
3 Ac wrth hyn y gwyddom yr adwaenom ef, os cadwn ni ei orchymynion ef.
4 Yr hwn sydd yn dywedyd, Mi a'i hadwaen ef, ac heb gadw ei orchymynion ef, celwyddog yw, a'r gwirionedd nid yw ynddo.
5 Eithr yr hwn a gadwo ei air ef, yn wir yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith: wrth hyn y gwyddom ein bod ynddo ef.
6 Yr hwn a ddywed ei fod yn aros ynddo ef, a ddylai yntau felly rodio, megis ag y rhodiodd ef.
7 Y brodyr, nid gorchymyn newydd yr wyf yn ei ysgrifenu attoch, eithr gorchymyn hen yr hwn oedd gennych o'r dechreuad. Yr hen orchymyn yw y gair a glywsoch o'r dechreuad.
8 Trachefn, gorchymyn newydd yr wyf yn ei ysgrifenu attoch, yr hyn sydd wir ynddo ef, ac ynoch chwithau: oblegid y tywyllwch a aeth heibio, a'r gwir oleuni sydd yr awr hon yn tywynnu.
9 Yr hwn a ddywed ei fod yn y goleuni, ac a gasao ei frawd, yn y tywyllwch y mae hyd y pryd hwn.
10 Yr hwn sydd yn caru ei frawd, sydd yn aros yn y goleuni, ac nid oes rhwystr ynddo.
11 Eithr yr hwn sydd yn casâu ei frawd, yn y tywyllwch y mae, ac yn y tywyllwch y mae yn rhodio; ac ni wyr i ba le y mae yn myned, oblegid y mae y tywyllwch wedi dallu ei lygaid ef.
12 Ysgrifenu yr wyf attoch chwi, blant bychain, oblegid maddeu i chwi eich pechodau er mwyn ei enw ef.
13 Ysgrifenu yr wyf attoch chwi, dadau, am adnabod o honoch yr hwn sydd o'r dechreuad. Ysgrifenu yr wyf attoch chwi, wŷr ieuainge, am orchfygu o honoch yr un drwg. Ysgrifenu yr wyf attoch chwi, rai bychain, am i chwi adnabod y Tad.
14 Ysgrifenais attoch chwi, dadau, am adnabod o honoch yr hwn sydd o'r dechreuad. Ysgrifenais attoch chwi, wŷr ieuainge, am eich bod yn gryfion, a bod gair Duw yn aros ynoch, a gorchfygu o honoch yr un drwg.
15 Na cherwch y byd, na'r pethau sydd yn y byd. O châr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef.
16 Canys pob peth a'r sydd yn y byd, *megis* chwant y cnawd, a chwant y llygaid, a balchder y bywyd, nid yw o'r Tad, eithr o'r byd y mae.
17 A'r byd sydd yn myned heibio, a'i chwant hefyd: ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw, sydd yn aros yn dragywydd.
18 *O* blant bychain, yr awr ddiweddaf ydyw: ac megis y clywsoch y daw anghrist, yr awr hon hefyd y mae anghristiau lawer; wrth yr hyn y gwyddom mai yr awr ddiweddaf ydyw.
19 Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan, eithr nid oeddynt o honom ni: canys pe buasent o honom ni, hwy a arhosasent gyd â ni: eithr *hyn a fu*, fel yr eglurid nad ydynt hwy oll o honom ni.
20 Eithr y mae gennych chwi enneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnnw, a chwi a wyddoch bob peth.
21 Ni ysgrifenais attoch oblegid na wyddech y gwirionedd, eithr oblegid eich bod yn ei wybod, ac nad oes un celwydd o'r gwirionedd.
22 Pwy yw y celwyddog, ond yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist? Efe yw yr anghrist, yr hwn sydd yn gwadu y Tad a'r Mab.
23 Pob un a'r sydd yn gwadu y Mab, nid oes ganddo y Tad chwaith: [*ond*] *yr hwn sydd yn cyffesu y Mab, y mae y Tad ganddo hefyd.*
24 Arhosed gan hynny ynoch chwi yr hyn a glywsoch o'r dechreuad. Od erys ynoch yr hyn a glywsoch o'r dechreuad, chwithau hefyd a gewch aros yn y Mab ac yn y Tad.
25 A hon yw yr addewid a addawodd efe i ni, *sef* bywyd tragywyddol.
26 Y pethau hyn a ysgrifenais

attoch ynghylch y rhai sydd yn eich hudo.

27 Ond y mae yr enneiniad a dderbyniasoch ganddo ef, yn aros ynoch chwi, ac nid oes arnoch eisieu dysgu o neb chwi: eithr fel y mae yr un enneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth, a gwir yw, ac nid yw gelwydd; ac megis y'ch dysgodd chwi, yr arhoswch ynddo.

28 Ac yr awr hon, blant bychain, arhoswch ynddo; fel, pan ymddangoso efe, y byddo hyder gennym, ac na chywilyddiom ger ei fron ef yn ei ddyfodiad.

29 Os gwyddoch ei fod ef yn gyfiawn, chwi a wyddoch fod pob un a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder, wedi ei eni o hono ef.

PÈNNOD 3.

1 Y mae yn dangos rhagorol gariad Duw tu ag attom ni, yn ein gwneuthur yn blant iddo ei hun; 3 ac am hynny y byddai raid i ninnau fod yn ufudd i gadw ei orchymynion, 11 a charu bawb ein gilydd fel brodyr.

GWELWCH pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y'n gelwid yn feibion i Dduw: oblegid hyn nid edwyn y byd chwi, oblegid nad adnabu efe ef.

2 Anwylyd, yr awr hon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae.

3 Ac y mae pob un sydd ganddo y gobaith hwn ynddo ef, yn ei buro ei hun, megis y mae yntau yn bur.

4 Pob un a'r sydd yn gwneuthur pechod, sydd hefyd yn gwneuthur anghyfraith: oblegid anghyfraith yw pechod.

5 A chwi a wyddoch ymddangos o hono ef, fel y dileai ein pechodau ni: ac ynddo ef nid oes pechod.

6 Pob un a'r sydd yn aros ynddo ef, nid yw yn pechu: pob un a'r sydd yn pechu, nis gwelodd ef, ac nis adnabu ef.

7 *O* blant bychain, na thwylled neb chwi: yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, sydd gyfiawn, megis y mae yntau yn gyfiawn.

8 Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod, o ddiafol y mae; canys y mae diafol yn pechu o'r dechreuad. I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd diafol.

9 Pob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod; oblegid y mae ei had ef yn aros ynddo ef: ac ni all efe bechu, am ei eni ef o Dduw.

10 Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw, a phlant diafol: Pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.

11 Oblegid hon yw y gennadwri a glywsoch o'r dechreuad; bod i ni garu ein gilydd.

12 Nid fel Cain, *yr hwn* oedd o'r drwg, ac a laddodd ei frawd. A phaham y lladdodd ef? Oblegid bod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda.

13 Na ryfeddwch, fy mrodyr, os yw y byd yn eich casâu chwi.

14 Nyni a wyddom ddarfod ein symmud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr. Yr hwn nid yw yn caru *ei* frawd, y mae yn aros ym marwolaeth.

15 Pob un a'r sydd yn casâu ei frawd, lleiddiad dyn yw: a chwi a wyddoch nad oes i un lleiddiad dyn fywyd tragywyddol yn aros ynddo.

16 Yn hyn yr adnabuom gariad *Duw*, oblegid dodi o hono ef ei einioes drosom ni: a ninnau a ddylem ddodi *ein* heinioes dros y brodyr.

17 Eithr yr hwn sydd ganddo ddâ y byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisieu, ac a gauo ei dosturi oddi wrtho, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?

18 Fy mhlant bychain, na charwn ar air, nac ar dafod *yn unig*, eithr mewn gweithred a gwirionedd.

19 Ac wrth hyn y gwyddom ein bod o'r gwirionedd, ac y sicrhâwn ein calonnau ger ei fron ef.

20 Oblegid os ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw na'n calon, ac efe a ŵyr bob peth.

21 Anwylyd, os ein calon ni'n condemnia, y mae gennym hyder ar Dduw.

22 A pha beth bynnag a ofynom, yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef; oblegid ein bod yn cadw ei orchymynion ef, ac yn gwneuthur y pethau sydd yn rhyngu bodd yn ei olwg ef.

23 A hwn yw ei orchymyn ef; Gredu o honom yn enw ei Fab ef Iesu Grist, a charu ein gilydd, megis y rhoes efe orchymyn i ni.

24 A'r hwn sydd yn cadw ei orchymynion ef, sydd yn trigo ynddo ef, ac yntau ynddo yntau. Ac wrth hyn y gwyddom ei fod ef yn aros ynom, *sef* o'r Ysbryd a roddes efe i ni.

PENNOD 4.

1 *Y mae yn eu rhybuddio hwynt na unaent goel ar bob athraw sydd yn ymffrostio o'r Ysbryd, eithr eu profi hwy yn hytrach trwy reolau y ffydd gatholig.* 7 *Ac y mae trwy amryw resymmau yn eu hannog i gariad brawdol.*

ANWYLYD, na chredwch bob ysbryd, eithr profwch yr ysprydion ai o Dduw y maent: oblegid y mae gau-brophwydi lawer wedi myned allan i'r byd.

2 Wrth hyn adnabyddwch Ysbryd Duw: Pob ysbryd a'r sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, o Dduw y mae.

3 A phob ysbryd a'r nid yw yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, nid yw o Dduw: eithr hwn yw *ysbryd* anghrist, yr hwn y clywsoch ei fod yn dyfod, a'r awr hon y mae *efe* yn y byd eisoes.

4 Chwychwi ydych o Dduw, blant bychain, ac a'u gorchfygasoch hwy: oblegid mwy yw yr hwn sydd ynoch chwi na'r hwn sydd yn y byd.

5 Hwynt-hwy, o'r byd y maent: am hynny y llefarant am y byd, a'r byd a wrendy arnynt.

6 Nyni o Dduw yr ydym. Yr hwn sydd yn adnabod Duw, sydd yn ein gwrandaw ni: yr hwn nid yw o Dduw, nid yw yn ein gwrandaw ni. Wrth hyn yr adwaenom ysbryd y gwirionedd, ac ysbryd y cyfeiliorni.

7 Anwylyd, carwn ein gilydd: oblegid cariad, o Dduw y mae; a phob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw.

8 Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw: oblegid Duw, cariad yw.

9 Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw tu ag attom ni, oblegid danfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw trwyddo ef.

10 Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab *i fod* yn iawn dros ein pechodau.

11 Anwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninnau hefyd a ddylem garu ein gilydd.

12 Ni welodd neb Dduw erioed. Os carwn ni ein gilydd, y mae Duw yn trigo ynom, ac y mae ei gariad ef yn berffaith ynom.

13 Wrth hyn y gwyddom ein bod yn trigo ynddo ef, ac yntau ynom ninnau, am ddarfod iddo roddi i ni o'i Ysbryd.

14 A ninnau a welsom, ac ydym yn tystiolaethu, ddarfod i'r Tad ddanfon y Mab *i fod* yn Iachawdwr i'r byd.

15 Pwy bynnag a gyffeso fod Iesu yn Fab Duw, y mae Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw.

16 A nyni a adnabuom ac a gredasom y cariad sydd gan Dduw tu ag attom ni. Duw, cariad yw: a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau.

17 Yn hyn y perffeithiwyd ein cariad ni, fel y caffom hyder ddydd y farn: oblegid megis ag y mae efe, yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn.

18 Nid oes ofn mewn cariad; eithr y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn: oblegid y mae i ofn boenedigaeth. *A*'r hwn sydd yn ofni, ni pherffeithiwyd mewn cariad.

19 Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.

20 Os dywed neb, Yr wyf yn caru Duw, ac efe yn casâu ei frawd, celwyddog yw: canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn nis gwelodd?

21 A'r gorchymyn hwn sydd gennym oddi wrtho ef; Bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd.

PENNOD 5.

1 *Y neb sydd yn caru Duw sydd yn caru ei blant ef hefyd, ac yn cadw ei orchymynion ef,* 3 *y rhai sydd ysgafn, ac nid trymion, i'r ffyddloniaid.* 9 *Y mae Iesu yn Fab Duw, ac yn abl i'n hachub ni;* 14 *ac i wrandaw ein gweddiau, y rhai yr ydym yn eu gwneuthur drosom ein hunain, a thros eraill.*

POB un a'r sydd yn credu mai Iesu yw y Crist, o Dduw y ganed ef: a phob un a'r sydd yn caru yr hwn a genhedlodd, sydd yn caru hefyd yr hwn a genhedlwyd o hono.

2 Yn hyn y gwyddom ein bod yn caru plant Duw, pan fyddom yn caru Duw, ac yn cadw ei orchymynion ef.

3 Canys hyn yw cariad Duw; bod i ni gadw ei orchymynion: a'i orchymynion ef nid ydynt drymion.

4 Oblegid beth bynnag a aned o Dduw, y mae yn gorchfygu y byd: a hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, *sef* ein ffydd ni.

5 Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw?

6 Dyma yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, *sef* Iesu Grist; nid trwy ddwfr yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed. A'r Ysbryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu, oblegid yr Ysbryd sydd wirionedd.

7 Oblegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân: a'r tri hyn un ydynt.

8 Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear; yr ysbryd, y dwfr, a'r gwaed: a'r tri hyn, yn un y maent *yn cyttuno.*

9 Os tystiolaeth dynion yr ydym yn ei derbyn, y mae tystiolaeth Duw yn fwy: canys hyn yw tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab.

10 Yr hwn sydd yn credu ym Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun: yr hwn nid yw yn credu yn Nuw, a'i gwnaeth ef yn gelwyddog, oblegid na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab.

11 A hon yw y dystiolaeth; roddi o Dduw i ni fywyd tragywyddol: a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef.

12 Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd.

13 Y pethau hyn a ysgrifenais attoch chwi, y rhai ydych yn credu yn enw Mab Duw; fel y gwypoch fod i chwi fywyd tragywyddol, ac fel y credoch yn enw Mab Duw.

14 A hyn yw yr hyfder sydd gennym tu ag atto ef; ei fod ef yn ein gwrandaw ni, os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef.

15 Ac os gwyddom ei fod ef yn ein gwrandaw ni, pa *beth* bynnag a ddeisyfom, ni a wyddom ein bod yn cael y deisyfiadau a ddeisyfasom ganddo.

16 Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod nid *yw* i farwolaeth, efe a ddeisyf, ac efe a rydd iddo fywyd, i'r rhai sydd yn pechu nid i farwolaeth. Y mae pechod i farwolaeth: nid am hwnnw yr wyf yn dywedyd ar ddeisyf o hono.

17 Pob anghyfiawnder, pechod yw: ac y mae pechod nid *yw* i farwolaeth.

18 Ni a wyddom nad yw y neb a aned o Dduw, yn pechu; eithr y mae yr hwn a aned o Dduw, yn ei gadw ei hun, a'r drwg hwnnw nid yw yn cyffwrdd âg ef.

19 Ni a wyddom ein bod o Dduw, ac y mae yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni.

20 Ac a wyddom ddyfod Mab Duw, ac efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir; ac yr ydym yn y Cywir hwnnw, *sef* yn ei Fab ef Iesu Grist. Hwn yw y gwir Dduw, a'r bywyd tragywyddol.

21 *Y* plant bychain, ymgedwch oddi wrth eilunod. Amen.

AIL EPISTOL CYFFREDINOL

IOAN YR APOSTOL.

1 *Y mae efe yn annog rhyw arglwyddes urddasol a'i phlant i barhau mewn cariad a ffydd Crist,* 8 *rhag iddynt golli gwobr eu proffes o'r blaen:* 10 *ac na byddai iddynt a wnelent â'r twyllwyr nid oeddynt yn dysgu gwir athrawiaeth Crist Iesu.*

YR henuriad at yr etholedig arglwyddes a'i phlant, y rhai yr wyf fi yn eu caru yn y gwirionedd; ac nid myfi yn unig, ond pawb hefyd a adnabuant y gwirionedd;

2 Er mwyn y gwirionedd, yr hwn sydd yn aros ynom ni, ac a fydd gyd â ni yn dragywydd.

3 Bydded gyd â chwi ras, trugaredd, *a* thangnefedd, oddi wrth Dduw Dad, ac oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist, Mab y Tad, mewn gwirionedd a chariad.

4 Bu lawen iawn gennyf i mi gael o'th blant di *rai* yn rhodio mewn gwirionedd, fel y derbyniasom orchymyn gan y Tad.

5 Ac yn awr yr wyf yn attolwg i ti, arglwyddes, nid fel *un* yn ysgrifenu gorchymyn newydd i ti, eithr yr hwn oedd gennym o'r dechreuad, garu o honom ein gilydd.

6 A hyn yw y cariad; bod i ni rodio yn ol ei orchymynion ef. Hwn yw y gorchymyn; Megis y clywsoch o'r dechreuad, fod i chwi rodio ynddo.

7 Oblegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Hwn yw y twyllwr a'r anghrist.

8 Edrychwch arnoch eich hunain, fel na chollom y pethau a wnaethom, ond bod i ni dderbyn llawn wobr.

9 Pob un a'r sydd yn troseddu, ac heb aros yn nysgeidiaeth Crist, nid yw Duw ganddo ef. Yr hwn sydd yn aros yn nysgeidiaeth Crist, hwnnw y mae y Tad a'r Mab ganddo.

10 Od oes neb yn dyfod attoch, ac heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon, na dderbyniwch ef i dŷ, ac na ddywedwch, Duw yn rhwydd, wrtho:

11 Canys yr hwn sydd yn dywedyd wrtho, Duw yn rhwydd, sydd gyfrannog o'i weithredoedd drwg ef.

12 Er bod gennyf lawer o bethau i'w hysgrifenu attoch, nid oeddwn yn ewyllysio *ysgrifenu* â phapur ac inge: eithr gobeithio yr ydwyf ddyfod attoch, a llefaru wyneb yn wyneb, fel y byddo ein llawenydd yn gyflawn.

13 Y mae plant dy chwaer etholedig yn dy annerch. Amen.

TRYDYDD EPISTOL CYFFREDINOL

IOAN YR APOSTOL.

1 *Y mae efe yn canmol Gaius am ei dduwioldeb,* 5 *ac am groesawu pregethwyr.* 9 *Y mae yn achwyn rhag angharedigrwydd ac uchder Diotrephes,* 11 *yr hwn ni ddylid dilyn ei ddrwg esampl.* 12 *Y mae yn rhoi canmoliaeth mawr i Demetrius.*

YR henuriad at yr anwyl Gaius, yr hwn yr wyf yn ei garu mewn gwirionedd.

2 *Yr* anwylyd, yr ydwyf yn bennaf dim yn dymuno dy fod yn llwyddo ac yn iach, fel y mae dy enaid yn llwyddo.

3 Canys mi a lawenychais yn fawr, pan ddaeth y brodyr, a thystiolaethu am dy wirionedd di, megis ag yr ydwyt yn rhodio mewn gwirionedd.

4 Mwy llawenydd na hyn nid oes

gennyf, sef cael clywed bod fy mhlant yn rhodio mewn gwirionedd.

5 *Yr* anwylyd, yr ydwyt yn gwneuthur yn ffyddlawn yr hyn yr ydwyt yn ei wneuthur tu ag at y brodyr, a thu ag at ddïeithriaid;

6 Y rhai a dystiolaethasant am dy gariad di ger bron yr eglwys: y rhai os hebryngi fel y gweddai i Dduw, da y gwnei.

7 Canys er mwyn ei enw yr aethant allan, heb gymmeryd dim gan y Cenhedloedd.

8 Ni a ddylem gan hynny dderbyn y cyfryw rai, fel y byddom gydgynnorthwywyr i'r gwirionedd.

9 Mi a ysgrifenais at yr eglwys: eithr Diotrephes, yr hwn sydd yn chwennych y blaen yn eu plith hwy, ni dderbyn ddim o honom.

10 O herwydd hyn, os deuaf, mi a ddygaf ar gôf ei weithredoedd y mae efe yn eu gwneuthur, gan wagsiarad i'n herbyn â geiriau drygionus: ac hëb fod yn foddlawn ar hynny, nid yw efe ei hun yn derbyn y brodyr; a'r rhai sydd yn ewyllysio, y mae yn eu gwahardd, ac yn *eu* bwrw allan o'r eglwys.

11 Anwylyd, na ddilyn yr hyn sydd ddrwg, ond yr hyn sydd dda. Yr hwn sydd yn gwneuthur daioni, o Dduw y mae: ond yr hwn sydd yn gwneuthur drygioni, ni welodd Dduw.

12 Y mae i Demetrius air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun: a ninnau *hefyd ein hunain* ydym yn tystiolaethu; a chwi a wyddoch fod ein tystiolaeth ni yn wir.

13 Yr oedd gennyf lawer o bethau i'w hysgrifenu, ond nid wyf yn chwennych ysgrifenu âg ingc a phin attat ti:

14 Eithr gobeithio yr ydwyf gael dy weled ar fyrder, ac ni a ymddiddanwn wyneb yn wyneb.

15 Tangnefedd i ti. Y mae y cyfeillion i'th annerch. Annerch y cyfeillion wrth eu henwau.

EPISTOL CYFFREDINOL

JUDAS YR APOSTOL.

Y mae yn eu hannog i broffesu ffydd Crist yn ddiamwadal: 4 bod gau-athrawon wedi ymlusgo i mewn i'w hudo hwynt; a bod dialedd creulawn wedi ei ddarparu i'w hathrawiaeth a'u cynheddfau melldigedig hwynt: 20 ond bod y rhai diwiol, trwy gynnorthwy yr Ysbryd Glân, a thrwy weddïo ar Dduw, yn abl i barhäu, ac i gynnyddu mewn gras, ac i'w cadw eu hunain, ac i achub eraill rhag maglau y twylliwyr hynny.

JUDAS, gwasanaethwr Iesu Grist, a brawd Iago, at y rhai a sancteiddiwyd gan Dduw Dad, ac a gadwyd yn Iesu Grist, *ac* a alwyd:

2 Trugaredd i chwi, a thangnefedd, a chariad, a lïosoger.

3 Anwylyd, pan roddais bob diwydrwydd ar ysgrifenu attoch am yr iachawdwriaeth gyffredinol, anghenraid oedd i mi ysgrifenu attoch, gan eich annog i ymdrech ym mhlaid y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r saint.

4 Canys y mae rhyw ddynion wedi ymlusgo i mewn, y rhai a rag-ordeiniwyd er ys talm i'r farnedigaeth hon; annuwiolion, yn troi gras ein Duw ni i drythyllwch, ac yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw, a'n Harglwydd Iesu Grist.

5 Ewyllysio gan hynny yr ydwyf eich coffäu chwi, gan eich bod unwaith yn gwybod hyn; i'r Arglwydd, wedi iddo waredu y bobl o dir yr Aipht, ddistrywio eilwaith y rhai ni chredasant.

6 Yr angylion hefyd, y rhai ni chadwasant eu dechreuad, eithr a adawsant eu trigfa eu hun, a gadwodd efe mewn cadwynau tragywyddol dan dywyllwch, i farn y dydd mawr.

7 Megis y mae Sodom a Gomorrah, a'r dinasoedd o'u hamgylch mewn cyffelyb fodd a hwynt, wedi putteinio, a myned ar ol cnawd arall, wedi eu gosod yn esampl,

gan ddïoddef dïaledd tân tragywyddol.
8 Yr un ffunud hefyd y mae y breuddwydwyr hyn yn halogi y cnawd, yn dïystyru llywodraeth, ac yn cablu y rhai sydd mewn awdurdod.
9 Eithr Michael yr arch-angel, pan oedd efe, wrth ymddadleu â diafol, yn ymresymmu ynghylch corph Moses, ni feiddiodd ddwyn barn gablaidd arno, eithr *efe* a ddywedodd, Ceryddedd yr Arglwydd dydi.
10 Eithr y rhai hyn sydd yn cablu y pethau nis gwyddant: a pha bethau bynnag y maent yn anianol, fel anifeiliaid direswm, yn *eu* gwybod, yn y rhai hynny ymlygru y maent.
11 Gwae hwynt-hwy! oblegid hwy a gerddasant yn ffordd Cain, ac a'u collwyd trwy dwyll gwobr Balaam, ac a'u difethwyd y'ngwrth-ddywediad Core.
12 Y rhai hyn sydd frychau yn eich cariad-wleddoedd chwi, yn cydwledda â chwi, yn ddïofn yn eu pesgi eu hunain: cymmylau diddwfr *ydynt*, a gylch-arweinir gan wyntoedd; prennau diflannedig, heb ffrwyth, dwywaith yn feirw, wedi eu diwreiddio;
13 Tonnau cynddeiriog y môr, yn ewynnu allan eu cywilydd eu hunain; sêr gwibiog, i'r rhai y cadwyd niwl y tywyllwch yn dragywydd.
14 Ac Enoch hefyd, y seithfed o Adda, a brophwydodd am y rhai hyn, gan ddywedyd, Wele, y mae yr Arglwydd yn dyfod gyd â myrddiwn o'i saint,
15 I wneuthur barn yn erbyn pawb, ac i lwyr-argyhoeddi yr holl rai annuwiol o honynt am holl weithredoedd eu hannuwioldeb, y rhai a wnaethant hwy yn annuwiol, ac am yr holl *eiriau* caledion, y rhai a lefarodd pechaduriaid annuwiol yn ei erbyn ef.
16 Y rhai hyn sydd rwgnachwyr, tuchanwyr, yn cerdded yn ol eu chwantau eu hunain; ac y mae eu genau yn llefaru *geiriau* chwyddedig, yn mawrygu wynebau dynion er mwyn budd.
17 Eithr chwi, *O* rai anwyl, cofiwch y geiriau a rag-ddywedwyd gan apostolion ein Harglwydd Iesu Grist;
18 Ddywedyd o honynt i chwi, y bydd yn yr amser diweddaf watwarwyr, yn cerdded yn ol eu chwantau annuwiol eu hunain.
19 Y rhai hyn yw y rhai sydd yn eu didoli eu hunain, yn anianol, heb fod yr Ysspryd ganddynt.
20 Eithr chwychwi, anwylyd, gan eich adeiladu eich hunain ar eich sancteiddiaf ffydd, a gweddïo yn yr Ysspryd Glân,
21 Ymgedwch y'nghariad Duw, gan ddisgwyl trugaredd ein Harglwydd Iesu Grist i fywyd tragywyddol.
22 A thrugarhêwch wrth rai, gan wneuthur rhagor:
23 Eithr rhai cedwch trwy ofn, gan *eu* cipio *hwy* allan o'r tân; gan gasâu hyd yn nod y wisg a halogwyd gan y cnawd.
24 Eithr i'r hwn a ddichon eich cadw chwi yn ddigwymp, a'*ch* gosod ger bron ei ogoniant ef yn ddifeius mewn gorfoledd,
25 I'r unig ddoeth Dduw, ein Hiachawdwr ni, *y byddo* gogoniant a mawredd, gallu ac awdurdod, yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

DATGUDDIAD

SANT IOAN Y DIFINYDD.

PENNOD 1.

1 Ioan yn ysgrifenu ei Ddatguddiad at saith eglwys Asia, y rhai a arwyddocceir wrth y saith ganhwyllbren aur. 7 Dyfodiad Crist: 14 ei allu gogoneddus, a'i ardderchowgrwydd ef.

DATGUDDIAD Iesu Grist, yr hwn a roddes Duw iddo ef, i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder; a chan ddanfon trwy ei angel, efe a'*i* hysbysodd i'w wasanaethwr Ioan:

2 Yr hwn a dystiolaethodd air Duw, a thystiolaeth Iesu Grist, a'r holl bethau a weloddd.

3 Dedwydd *yw* yr hwn sydd yn darllen, a'r rhai sydd yn gwrandaw geiriau y brophwydoliaeth hon, ac yn cadw y pethau sydd yn ysgrifenedig ynddi: canys *y mae* yr amser yn agos.

4 IOAN at y saith eglwys sydd yn Asia: Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd, oddi wrth yr hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r hwn sydd ar ddyfod; ac oddi wrth y saith Ysbryd sydd ger bron ei orseddfainge ef;

5 Ac oddi wrth Iesu Grist, *yr hwn yw* y Tyst ffyddlawn, y Cyntaf-anedig o'r meirw, a Thywysog brenhinoedd y ddaear. Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun,

6 Ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef; iddo ef *y byddo* y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.

7 Wele, y mae efe yn dyfod gyd â'r cymmylau; a phob llygad a'i gwel ef, ie, y rhai a'i gwanasant ef: a holl lwythau y ddaear a alarant o'i blegid ef. Felly, Amen.

8 Mi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, yr Hollalluog.

9 Myfi Ioan, yr hwn *wyf* hefyd eich brawd, a'ch cydymmaith mewn cystudd, ac yn nheyrnas ac amynedd Iesu Grist, oeddwn yn yr ynys a elwir Patmos, am air Duw, ac am dystiolaeth Iesu Grist.

10 Yr oeddwn i yn yr yspryd ar ddydd yr Arglwydd; ac a glywais o'r tu ol i mi lef fawr fel *llais* udgorn,

11 Yn dywedyd, Mi yw Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf: a'r hyn yr wyt yn ei weled, ysgrifena mewn llyfr, a danfon i'r saith eglwys y rhai sydd yn Asia; i Ephesus, ac i Smyrna, ac i Pergamus, ac i Thyatira, ac i Sardis, a Philadelphia, a Laodicea.

12 Ac mi a droais i weled y llef a lefarai wrthyf. Ac wedi i mi droi, mi a welais saith ganhwyllbren aur;

13 Ac y'nghanol y saith ganhwyllbren, *un* tebyg i Fab y dyn, wedi ymwisgo â gwisg laes hyd ei draed, ac wedi ymwregysu ynghylch ei fronnau â gwregys aur.

14 Ei ben ef a'*i* wallt *oedd* wynion fel gwlan, cyn wynned a'r eira; a'i lygaid fel fflam dân;

15 A'i draed yn debyg i bres coeth, megis yn llosgi mewn ffwrn; a'i lais fel swn llawer o ddyfroedd.

16 Ac *yr oedd* ganddo yn ei law ddehau saith seren: ac o'i enau yr oedd cleddau llym dau-finiog yn dyfod allan: a'i wynebpryd fel yr haul yn disgleirio yn ei nerth.

17 A phan welais ef, mi a syrthiais wrth ei draed ef fel marw. Ac efe a osododd ei law ddehau arnaf fi, gan ddywedyd wrthyf, Nac ofna; myfi yw y cyntaf a'r diweddaf;

18 *A*'r hwn *wyf* fyw, ac a fûm farw; ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd, Amen; ac y mae gennyf agoriadau uffern a marwolaeth.

19 Ysgrifena y pethau a welaist, a'r pethau sydd, a'r pethau a fydd ar ol hyn;

20 Dirgelwch y saith seren a wel-

aist yn fy llaw ddehau, a'r saith ganhwyllbren aur. Y saith seren, angylion y saith eglwys ydynt: a'r saith ganhwyllbren a welaist, y saith eglwys ydynt.

PENNOD 2.

Pa beth a orchymynir ei ysgrifenu at angylion, hymny yw, gweinidogion, eglwysi 1 Ephesus, 8 Smyrna, 12 Pergamus, 18 Thyatira; a pha beth sydd ganmoladwy neu ddiffygiol ynddynt.

AT angel yr eglwys sydd yn Ephesus, ysgrifena; Y pethau hyn y mae yr hwn sydd yn dal y saith seren yn ei law ddehau, yr hwn sydd yn rhodio y'nghanol y saith ganhwyllbren aur, yn eu dywedyd;

2 Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th lafur, a'th amynedd, ac na elli oddef y rhai drwg: a phrofi o honot y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn apostolion, ac nid ydynt; a chael o honot hwynt yn gelwyddog:

3 A thi a oddefaist, ac y mae amynedd gennyt, ac a gymmeraist boen er mwyn fy enw i, ac ni ddiffygiaist.

4 Eithr y mae gennyf *beth* yn dy erbyn, am i ti ymadael â'th gariad cyntaf.

5 Cofia gan hynny o ba le y syrthiaist, ac edifarhâ, a gwna y gweithredoedd cyntaf: ac onid ê, yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganhwyllbren di allan o'i le, oni edifarhêi di.

6 Ond hyn sydd gennyt ti, dy fod di yn casâu gweithredoedd y Nicolaiaid, y rhai yr wyf fi hefyd yn eu casâu.

7 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed pa beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo fwytta o bren y bywyd, yr hwn sydd y'nghanol paradwys Duw.

8 ¶ Ac at angel yr eglwys sydd yn Smyrna, ysgrifena; Y pethau hyn y mae y cyntaf a'r diweddaf, yr hwn a fu farw, ac sydd fyw, yn eu dywedyd;

9 Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th gystudd, a'th dlodi, (eithr cyfoethog wyt,) ac *mi a adwaen* gabledd y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt ond synagog Satan.

10 Nac ofna ddim o'r pethau yr ydwyt i'w dioddef. Wele, y cythraul a fwrw rai o honoch chwi i garchar, fel y'ch profer; a chwi a gewch gystudd ddeng niwrnod. Bydd ffyddlawn hyd angau, ac mi a roddaf i ti goron y bywyd.

11 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; Yr hwn sydd yn gorchfygu, ni chaiff ddim niwed gan yr ail farwolaeth.

12 ¶ Ac at angel yr eglwys sydd yn Pergamus, ysgrifena; Y pethau hyn y mae yr hwn sydd ganddo y cleddyf llym dau-finiog, yn eu dywedyd;

13 Mi a adwaen dy weithredoedd di, a pha le yr wyt yn trigo; *sef* lle *mae* gorseddfaingc Satan: ac yr wyt yn dal fy enw i, ac ni wedaist fy ffydd i, ïe, yn y dyddiau *y bu* Antipas yn ferthyr ffyddlawn i mi, yr hwn a laddwyd yn eich plith chwi, lle y mae Satan yn trigo.

14 Eithr y mae gennyf ychydig bethau yn dy erbyn di, oblegid bod gennyt yno *rai* yn dal athrawiaeth Balaam, yr hwn a ddysgodd i Balac fwrw rhwystr ger bron meibion Israel, i fwytta pethau wedi eu haberthu i eilunod, ac i odinebu.

15 Felly y mae gennyt tithau hefyd *rai* yn dal athrawiaeth y Nicolaiaid, yr hyn beth yr wyf fi yn ei gasâu.

16 Edifarhâ; ac os amgen, yr wyf fi yn dyfod attat ar frys, ac a ryfelaf yn eu herbyn hwynt â chleddyf fy ngenau.

17 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo fwytta o'r manna cuddiedig, ac a roddaf iddo garreg wen, ac ar y garreg enw newydd wedi ei ysgrifenu, yr hwn nid edwyn neb, ond yr hwn sydd yn *ei* dderbyn.

18 ¶ Ac at angel yr eglwys sydd yn Thyatira, ysgrifena; Y pethau hyn y mae Mab Duw yn eu dywedyd, yr hwn sydd a'i lygaid fel

fflam dân, a'i draed yn debyg i bres coeth;

19 Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th gariad, a'th wasanaeth, a'th ffydd, a'th amynedd di, a'th weithredoedd; a *bod* y rhai diweddaf yn fwy na'r rhai cyntaf.

20 Eithr y mae gennyf ychydig bethau yn dy erbyn, oblegid dy fod yn gadael i'r wraig honno Jesebel, yr hon sydd yn ei galw ei hun yn brophwydes, ddysgu a thwyllo fy ngwasanaethwyr i odinebu, ac i fwytta pethau wedi eu haberthu i eilunod.

21 Ac mi a roddais iddi amser i edifarhâu am ei godineb; ac nid edifarhaodd hi.

22 Wele, yr wyf fi yn ei bwrw hi ar wely, a'r rhai sydd yn godinebu gyd â hi, i gystudd mawr, onid edifarhânt am eu gweithredoedd.

23 A'i phlant hi a laddaf â marwolaeth: a'r holl eglwysi a gânt wybod mai myfi yw yr hwn sydd yn chwilio yr arennau a'r calonnau; ac mi a roddaf i bob un o honoch yn ol eich gweithredoedd.

24 Eithr wrthych chwi yr wyf yn dywedyd, ac wrth y lleill yn Thyatira, y sawl nid oes ganddynt y ddysgeidiaeth hon, a'r rhai ni adnabuant ddyfnderau Satan, fel y dywedant; Ni fwriaf arnoch faich arall.

25 Eithr yr hyn sydd gennych, deliwch hyd oni ddelwyf.

26 A'r hwn sydd yn gorchfygu, ac yn cadw fy ngweithredoedd hyd y diwedd, mi a roddaf iddo awdurdod ar y cenhedloedd:

27 Ac *efe* a'u bugeilia hwy â gwialen haiarn; fel llestri pridd y dryllir hwynt: fel y derbyniais innau gan fy Nhad.

28 Ac mi a roddaf iddo y seren fore.

29 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

PENNOD 3.

2 Argyhoeddi angel eglwys Sardis, 3 a'i annog i edifarhau; a'i fygwth oni edifarhâi. 8 Angel eglwys Philadelphia 10 yn cael ei ganmol am ei ddiwydrwydd a'i amynedd. 15 Angel Laodicea yn cael ei geryddu am nad yn na brwd nac oer; 19 a'i rybuddio i fod yn fwy ei sêl. 20 Crist yn sefyll wrth y drws, ac yn curo.

AC at angel yr eglwys sydd yn Sardis, ysgrifena; Y pethau hyn y mae yr hwn sydd a saith Ysbryd Duw a'r saith seren ganddo, yn eu dywedyd; Mi a adwaen dy weithredoedd di, oblegid y mae gennyt enw dy fod yn fyw, a marw ydwyt.

2 Bydd wyliadwrus, a sicrhâ y pethau sydd yn ol, y rhai sydd barod i farw: canys ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn ger bron Duw.

3 Cofia gan hynny pa fodd y derbyniaist ac y clywaist, a chadw, ac edifarhâ. Os tydi gan hynny ni wyli, mi a ddeuaf arnat ti fel lleidr, ac ni chei di wybod pa awr y deuaf attat.

4 Eithr y mae gennyt ychydig enwau, ie, yn Sardis, y rhai ni halogasant eu dillad; a hwy a rodiant gyd â mi mewn *dillad* gwynion: oblegid teilwng ydynt.

5 Yr hwn sydd yn gorchfygu, hwnnw a wisgir mewn dillad gwynion; ac ni ddileaf ei enw ef allan o lyfr y bywyd, ond mi a gyffesaf ei enw ef ger bron fy Nhad, a cher bron ei angylion ef.

6 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

7 ¶ Ac at angel yr eglwys sydd yn Philadelphia, ysgrifena; Y pethau hyn y mae y Sanctaidd, y Cywir, yn eu dywedyd, yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd, yr hwn sydd yn agoryd, ac nid yw neb yn cau; ac yn cau, ac nid yw neb yn agoryd;

8 Mi a adwaen dy weithredoedd: wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau: canys y mae gennyt ychydig nerth, a thi a gedwaist fy ngair, ac ni wedaist fy enw.

9 Wele, mi a wnaf iddynt hwy o synagog Satan, y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt, ond dywedyd celwydd y maent; wele, *meddaf*, gwnaf iddynt ddyfod ac addoli o flaen dy draed, a gwybod fy mod i yn dy garu di.

10 O achos cadw o honot air fy amynedd i, minnau a'th gadwaf di

oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear.

11 Wele, yr wyf yn dyfod ar frys; dal yr hyn sydd gennyt, fel na ddygo neb dy goron di.

12 Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid â efe mwyach: ac mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, *yr hon ydyw* Jerusalem newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i: ac *mi a ysgrifenaf arno ef* fy enw newydd i.

13 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

14 ¶ Ac at angel eglwys y Laodiceaid, ysgrifena; Y pethau hyn y mae Amen yn eu dywedyd, y Tyst ffyddlawn a chywir, dechreuad creadigaeth Duw;

15 Mi a adwaen dy weithredoedd di, nad ydwyt nac oer na brwd: mi a fynnwn pe bait oer neu frwd.

16 Felly, am dy fod yn glaiar, ac nid yn oer nac yn frwd, mi a'th chwydaf di allan o'm genau:

17 Oblegid dy fod yn dywedyd, Goludog wyf, ac mi a gyfoethogais, ac nid oes arnaf eisieu dim; ac ni wyddost dy fod yn druan, ac yn resynol, ac yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth.

18 Yr wyf yn dy gynghori i brynu gennyf fi aur wedi ei buro trwy dân, fel y'th gyfoethoger; a dillad gwynion, fel y'th wisger, ac *fel* nad ymddangoso gwarth dy noethder di; ira hefyd dy lygaid âg eli llygaid, fel y gwelech.

19 Yr wyf fi yn argyhoeddi, ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru: am hynny bydded gennyt sêl, ac edifarhâ.

20 Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo: os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn atto ef, ac a swpperaf gyd âg ef, ac yntau gyd â minnau.

21 Yr hwn sydd yn gorchfygu, rhoddaf iddo ef eistedd gyd â mi ar fy ngorseddfaingc, megis y gorchfygais innau, ac yr eisteddais gyd â'm Tad ar ei orseddfaingc ef.

22 Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

PENNOD 4.

2 *Ioan yn gweled gorseddfaingc Duw yn y nef:* 4 *y pedwar henuriad ar hugain:* 6 *y pedwar anifail yn llawn llygaid ym mlaen ac yn ol:* 10 *yr henuriaid yn bwrw i lawr eu coronau, ac yn addoli yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc.*

AR ol y pethau hyn yr edrychais; ac wele ddrws wedi ei agoryd yn y nef: a'r llais cyntaf a glywais *oedd* fel *llais* udgorn yn ymddiddan â mi, gan ddywedyd, Dring i fyny yma, a mi a ddangosaf i ti y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn.

2 Ac yn y man yr oeddwn yn yr ysbryd: ac wele, yr oedd gorseddfaingc wedi ei gosod yn y nef, ac *un* yn eistedd ar yr orseddfaingc.

3 A'r hwn oedd yn eistedd oedd yn debyg yr olwg arno i faen jaspis a sardin: ac *yr oedd* enfys o amgylch yr orseddfaingc, yn debyg yr olwg arno i smaragdus.

4 Ac ynghylch yr orseddfaingc *yr oedd* pedair gorseddfaingc ar hugain: ac ar y gorsedd-feingciau y gwelais bedwar henuriad ar hugain yn eistedd, wedi eu gwisgo mewn dillad gwynion; ac yr oedd ganddynt ar eu pennau goronau aur.

5 Ac yr oedd yn dyfod allan o'r orseddfaingc fellt, a tharanau, a lleisiau: ac *yr oedd* saith o lampau tân yn llosgi ger bron yr orseddfaingc, y rhai yw saith Ysbryd Duw.

6 Ac o flaen yr orseddfaingc *yr ydoedd* môr o wydr, yn debyg i grystal: ac y'nghanol yr orseddfaingc, ac ynghylch yr orseddfaingc, *yr oedd* pedwar anifail yn llawn o lygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol.

7 A'r anifail cyntaf *oedd* debyg i lew, a'r ail anifail yn debyg i lo, a'r trydydd anifail oedd ganddo wyneb fel dyn, a'r pedwerydd anifail *oedd* debyg i eryr yn ehedeg.

8 A'r pedwar anifail oedd gan-

ddynt, bob un o honynt, chwech o adenydd o'*u* hamgylch; ac *yr oeddynt* oddi fewn yn llawn llygaid: ac nid oeddynt yn gorphwys ddydd a nos, gan ddywedyd, Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn oedd, a'r hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod.

9 A phan fyddo yr anifeiliaid yn rhoddi gogoniant, ac anrhydedd, a diolch, i'r hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc, yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd,

10 Y mae y pedwar henuriad ar hugain yn syrthio ger bron yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac yn addoli yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, ac yn bwrw eu coronau ger bron yr orseddfaingc, gan ddywedyd,

11 Teilwng wyt, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu: canys ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crëwyd hwynt.

PENNOD 5.

1 *Y llyfr wedi ei selio â saith sêl; 9 yr hwn yr oedd yr Oen a laddesid yn unig yn deilwng i'w agoryd. 12 Yr henuriaid o ran hynny yn ei foliannu ef, 9 ac yn cyfaddef mai efe a'u prynasai hwy â'i waed.*

AC mi a welais yn neheulaw yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc, lyfr wedi ei ysgrifenu oddi fewn ac oddi allan, wedi ei selio â saith sêl.

2 Ac mi a welais angel cryf yn cyhoeddi â llef uchel, Pwy sydd deilwng i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei seliau ef?

3 Ac nid oedd neb yn y nef, nac yn y ddaear, na than y ddaear, yn gallu agoryd y llyfr, nac edrych arno.

4 Ac mi a wylais lawer, o achos na chaed neb yn deilwng i agoryd ac i ddarllen y llyfr, nac i edrych arno.

5 Ac un o'r henuriaid a ddywedodd wrthyf, Nac wyla: wele, y Llew yr hwn sydd o lwyth Juda, Gwreiddyn Dafydd, a orchfygodd i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei saith sêl ef.

6 Ac mi a edrychais; ac wele, y'nghanol yr orseddfaingc a'r pedwar anifail, ac y'nghanol yr henuriaid, *yr oedd* Oen yn sefyll megis wedi ei ladd, a chanddo saith gorn, a saith lygad, y rhai ydyw saith Ysbryd Duw, wedi eu danfon allan i'r holl ddaear.

7 Ac efe a ddaeth, ac a gymmerth y llyfr o ddeheulaw yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc.

8 A phan gymmerth efe y llyfr, y pedwar anifail a'r pedwar henuriad ar hugain a syrthiasant ger bron yr Oen; a chan bob un o honynt yr oedd telynau, a phïalau aur yn llawn o arogl-darth, y rhai ydyw gweddïau y saint.

9 A hwy a ganasant ganiad newydd, gan ddywedyd, Teilwng wyt ti i gymmeryd y llyfr, ac i agoryd ei seliau ef: oblegid ti a laddwyd, ac a'n prynaist ni i Dduw trwy dy waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl;

10 Ac a'n gwnaethost ni i'n Duw ni, yn frenhinoedd, ac yn offeiriaid: ac ni a deyrnaswn ar y ddaear.

11 Ac mi a edrychais, ac a glywais lais angylion lawer ynghylch yr orseddfaingc, a'r anifeiliaid, a'r henuriaid; a'u rhifedi hwynt oedd fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd;

12 Yn dywedyd â llef uchel, Teilwng yw yr Oen, yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith.

13 A phob creadur a'r sydd yn y nef, ac ar y ddaear, a than y ddaear, a'r pethau sydd yn y môr, ac oll a'r sydd ynddynt, a glywais i yn dywedyd, I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen, *y byddo* y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd.

14 A'r pedwar anifail a ddywedasant, Amen. A'r pedwar henuriad ar hugain a syrthiasant i lawr, ac a addolasant yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.

PENNOD 6.

1 *Agoryd y seliau, y naill ar ol y llall; a pha beth a ddigwyddodd ar hynny: yr hyn sydd yn cynnwys prophwydoliaeth hyd ddiwedd y byd.*

AC mi a welais pan agorodd yr Oen un o'r seliau, ac mi a glywais un o'r pedwar anifail yn

dywedyd, fel trwst taran, Tyred a gwel.

2 Ac mi a welais; ac wele farch gwyn: a'r hwn oedd yn eistedd arno, a bwa ganddo; a rhoddwyd iddo goron: ac efe a aeth allan yn gorchfygu, ac i orchfygu.

3 A phan agorodd efe yr ail sêl, mi a glywais yr ail anifail yn dywedyd, Tyred a gwel.

4 Ac fe aeth allan farch arall, *un* coch: a'r hwn oedd yn eistedd arno, y rhoddwyd iddo gymmeryd heddwch oddi ar y ddaear, fel y lladdent eu gilydd: a rhoddwyd iddo ef gleddyf mawr.

5 A phan agorodd efe y drydedd sêl, mi a glywais y trydydd anifail yn dywedyd, Tyred a gwel. Ac mi a welais; ac wele farch du: a'r hwn oedd yn eistedd arno, a chlorian ganddo yn ei law.

6 Ac mi a glywais lais y'nghanol y pedwar anifail, yn dywedyd, Mesur o wenith er ceiniog, a thri mesur o haidd er ceiniog; a'r olew a'r gwin, na wna niwed iddynt.

7 A phan agorodd efe y bedwaredd sêl, mi a glywais lais y pedwerydd anifail yn dywedyd, Tyred a gwel.

8 Ac mi a edrychais; ac wele farch gwelw-las: ac enw yr hwn oedd yn eistedd arno oedd Marwolaeth; ac yr oedd Uffern yn canlyn gyd âg ef. A rhoddwyd iddynt awdurdod ar y bedwaredd ran o'r ddaear, i ladd â chleddyf, ac â newyn, ac â marwolaeth, ac â bwystfilod y ddaear.

9 A phan agorodd efe y bummed sêl, mi a welais dan yr allor eneidiau y rhai a laddesid am air Duw, ac am y dystiolaeth oedd ganddynt.

10 A hwy a lefasant â llef uchel, gan ddywedyd, Pa hyd, Arglwydd, sanctaidd a chywir, nad ydwyt yn barnu ac yn dïal ein gwaed ni ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear?

11 A gynau gwynion a roed i bob un o honynt; a dywedwyd wrthynt, ar iddynt orphwys etto ychydig amser, hyd oni chyflawnid *rhif* eu cyd-weision a'u brodyr, y rhai oedd i gael eu lladd, megis ag *y cawsent* hwythau.

12 Ac mi a edrychais pan agorodd efe y chweched sêl; ac wele, bu daeargryn mawr; a'r haul a aeth yn ddu fel sachlen flew, a'r lleuad a aeth fel gwaed;

13 A sêr y nef a syrthiasant ar y ddaear, fel y mae y ffigysbren yn bwrw ei ffigys gleision, pan ei hysgydwer gan wynt mawr.

14 A'r nef a aeth heibio fel llyfr wedi ei blygu ynghyd; a phob mynydd ac ynys a symmudwyd allan o'u lleoedd.

15 A brenhinoedd y ddaear, a'r gwŷr mawr, a'r cyfoethogion, a'r pen-capteniaid, a'r gwŷr cedyrn, a phob gŵr caeth, a phob gŵr rhydd, a ymguddiasant yn yr ogofeydd, ac y'nghreigiau y mynyddoedd;

16 Ac a ddywedasant wrth y mynyddoedd a'r creigiau, Syrthiwch arnom ni, a chuddiwch ni o ŵydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainge, ac oddi wrth lid yr Oen;

17 Canys daeth dydd mawr ei ddigter ef; a phwy a ddichon sefyll?

PENNOD 7.

3 Angel yn selio gwasanaethwyr Duw yn eu talcennau. 4 Nifer y rhai a seliwyd: o lwythau Israel rhifedig hysbysol: 9 o bob cenhedloedd eraill tyrfa aneirif, y rhai sydd yn sefyll ger bron yr orseddfainge, a gynau gwynion am danynt, ac a phalmwydd yn eu dwylaw. 14 Bod eu gynau wedi eu golchi y'ngwaed yr Oen.

AC ar ol y pethau hyn, mi a welais bedwar angel yn sefyll ar bedair congl y ddaear, yn dal pedwar gwynt y ddaear, fel na chwythai y gwynt ar y ddaear, nac ar y môr, nac ar un pren.

2 Ac mi a welais angel arall yn dyfod i fyny oddi wrth godiad haul, a sêl y Duw byw ganddo. Ac efe a lefodd â llef uchel ar y pedwar angel, i'r rhai y rhoddasid *gallu* i ddrygu y ddaear a'r môr,

3 Gan ddywedyd, Na ddrygwch y ddaear, na'r môr, na'r prennau, nes darfod i ni selio gwasanaethwyr ein Duw ni yn eu talcennau.

4 Ac mi a glywais nifer y rhai a seliwyd: *yr oedd* wedi eu selio gant a phedair a deugain o filoedd o holl lwythau meibion Israel.

5 O lwyth Juda *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth

Reuben *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Gad *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

6 O lwyth Aser *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Nephthali *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Manasses *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

7 O lwyth Simeon *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Lefi *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Issachar *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

8 O lwyth Sabulon *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Joseph *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Benjamin *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

9 Wedi hyn mi a edryehais; ac wele dyrfa fawr, yr hon ni allai neb ei rhifo, o bob cenedl, a llwythau, a phobloedd, ac ieithoedd, yn sefyll ger bron yr orseddfaingc, a cher bron yr Oen, wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion, a phalmwydd yn eu dwylaw;

10 Ac yn llefain â llef uchel, gan ddywedyd, Iachawdwriaeth i'n Duw ni, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen.

11 A'r holl angylion a safasant o amgylch yr orseddfaingc, a'r henuriaid, a'r pedwar anifail, ac a syrthiasant ger bron yr orseddfaingc ar eu hwynebau, ac a addolasant Dduw,

12 Gan ddywedyd, Amen: Y fendith, a'r gogoniant, a'r doethineb, a'r diolch, a'r anrhydedd, a'r gallu, a'r nerth, *a fyddo* i'n Duw ni yn oes oesoedd. Amen.

13 Ac un o'r henuriaid a attebodd, gan ddywedyd wrthyf, Pwy ydyw y rhai hyn sydd wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion? ac o ba le y daethant?

14 Ac mi a ddywedais wrtho ef, Arglwydd, ti a wyddost. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Y rhai hyn yw y rhai a ddaethant allan o'r cystudd mawr, ac a olchasant eu gynau, ac a'u cannasant hwy yng ngwaed yr Oen.

15 O herwydd hynny y maent ger bron gorseddfaingc Duw, ac yn ei wasanaethu ef ddydd a nos yn ei deml: a'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc a drig yn eu plith hwynt.

16 Ni fydd arnynt na newyn mwyach, na syched mwyach; ac ni ddisgyn arnynt na'r haul, na dim gwres.

17 Oblegid yr Oen, yr hwn sydd y'nghanol yr orseddfaingc, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynhonnau bywiol o ddyfroedd: a Duw a sych ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt.

PENNOD 8.

1 Wrth agoryd y seithfed sêl, 2 y rhoddwyd saith o udgyrn i saith o angylion. 6 Pedwar o honynt yn udganu a'u hudgyrn; a phlaau mawr yn canlyn. 3 Angel arall yn rhoddi arogl-darth at weddïau y saint ar yr allor aur.

A PHAN agorodd efe y seithfed sêl, yr ydoedd gosteg yn y nef megis dros hanner awr.

2 Ac mi a welais y saith angel y rhai oedd yn sefyll ger bron Duw: a rhoddwyd iddynt saith o udgyrn.

3 Ac angel arall a ddaeth, ac a safodd ger bron yr allor, a thusser aur ganddo: a rhoddwyd iddo arogl-darth lawer, fel yr offrymmai *ef* gyd â gweddïau yr holl saint ar yr allor aur, yr hon oedd ger bron yr orseddfaingc.

4 Ac fe aeth mwg yr arogl-darth gyd â gweddïau y saint, o law yr angel i fyny ger bron Duw.

5 A'r angel a gymmerth y thusser, ac a'i llanwodd hi o dân yr allor, ac a'i bwriodd i'r ddaear: a bu lleisiau, a tharanau, a mellt, a daeargryn.

6 A'r saith angel, y rhai oedd a'r saith udgorn ganddynt, a ymbarottoisant i udganu.

7 A'r angel cyntaf a udganodd; a bu cenllysg a thân wedi eu cymmysgu â gwaed, a hwy a fwriwyd i'r ddaear: a thraian y prennau a losgwyd, a'r holl laswellt a losgwyd.

8 A'r ail angel a udganodd; a megis mynydd mawr yn llosgi gan dân a fwriwyd i'r môr: a thraian y môr a aeth yn waed;

9 A bu farw traian y creaduriaid y rhai oedd yn y môr, ac a byw ynddynt; a thraian y llongau a ddinystriwyd.

10 A'r trydydd angel a udganodd;

a syrthiodd o'r nef seren fawr yn llosgi fel lamp, a hi a syrthiodd ar draian yr afonydd, ac ar ffynhonnau y dyfroedd;

11 Ac enw y seren a elwir Wermod: ac aeth traian y dyfroedd yn wermod; a llawer o ddynion a fuant feirw gan y dyfroedd, oblegid eu myned yn chwerwon.

12 A'r pedwerydd angel a udganodd; a tharawyd traian yr haul, a thraian y lleuad, a thraian y sêr; fel y tywyllwyd eu traian hwynt, ac ni lewyrchodd y dydd ei draian, a'r nos yr un ffunud.

13 Ac mi a edrychais, ac a glywais angel yn ehedeg y'nghanol y nef, gan ddywedyd â llef uchel, Gwae, gwae, gwae, i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear, rhag lleisiau eraill udgorn y tri angel, y rhai sydd etto i udganu.

PENNOD 9.

1 *Seren yn syrthio o'r nef, wrth udganu o'r pummed angel, i'r hwn y rhoddwyd agoriad y pwll heb waelod: 2 yntau yn agoryd y pwll, a locustiaid fel ysgorpionau yn dyfod allan.* 12 *Y mae y wae gyntaf wedi myned heibio.* 13 *Y chweched udgorn yn canu:* 14 *a gollwng pedwar angel yn rhydd, y rhai oedd wedi eu rhwymo.*

A'R pummed angel a udganodd; ac mi a welais seren yn syrthio o'r nef i'r ddaear: a rhoddwyd iddo ef agoriad y pydew heb waelod.

2 Ac efe a agorodd y pydew heb waelod; a chododd mwg o'r pydew, fel mwg ffwrn fawr: a thywyllwyd yr haul a'r awyr gan fwg y pydew.

3 Ac o'r mwg y daeth allan locustiaid ar y ddaear; a rhoddwyd awdurdod iddynt, fel y mae gan ysgorpionau y ddaear awdurdod.

4 A dywedwyd wrthynt, na wnaent niwed i laswellt y ddaear, nac i ddim gwyrddlas, nac i un pren; ond yn unig i'r dynion oedd heb sêl Duw yn eu talcennau.

5 A rhoddwyd iddynt na laddent hwynt, ond bod iddynt eu blino hwy bum mis: ac *y byddai* eu gofid hwy fel gofid oddi wrth ysgorpion, pan ddarfyddai iddi frathu dyn.

6 Ac yn y dyddiau hynny y cais dynion farwolaeth, ac nis cânt; ac a chwennychant farw, a marwolaeth a gilia oddi wrthynt.

7 A dull y locustiaid *oedd* debyg i feirch wedi eu parottôi i ryfel; ac *yr oedd* ar eu pennau megis coronau yn debyg i aur, a'u hwynebau fel wynebau dynion.

8 A gwallt oedd ganddynt fel gwallt gwragedd, a'u dannedd oedd fel *dannedd* llewod.

9 Ac yr oedd ganddynt lurigau fel llurigau haiarn; a llais eu hadenydd *oedd* fel llais cerbydau llawer o feirch yn rhedeg i ryfel.

10 Ac yr oedd ganddynt gynffonnau tebyg i ysgorpionau, ac yr oedd colynnau yn eu cynffonnau hwy: a'u gallu *oedd* i ddrygu dynion bum mis.

11 Ac yr oedd ganddynt frenhin arnynt, *sef* angel y pydew diwaelod: a'i enw ef yn Hebraeg *ydyw* Abàdon, ac yn Roeg y mae iddo enw Apòlyon.

12 Un wae a aeth heibio; wele, y mae yn dyfod etto ddwy wae ar ol hyn.

13 A'r chweched angel a udganodd; ac mi a glywais lef allan o bedwar corn yr allor aur, yr hon sydd ger bron Duw,

14 Yn dywedyd wrth y chweched angel, yr hwn oedd a'r udgorn ganddo, Gollwng yn rhydd y pedwar angel sydd yn rhwym yn yr afon fawr Euphrates.

15 A gollyngwyd y pedwar angel, y rhai oedd wedi eu parottôi erbyn awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn, fel y lladdent y traian o'r dynion.

16 A rhifedi y llu o wŷr meirch *oedd* ddwy fyrddiwn o fyrddiynau: ac mi a glywais eu rhifedi hwynt.

17 Ac fel hyn y gwelais i y meirch yn y weledigaeth, a'r rhai oedd yn eistedd arnynt, a chanddynt lurigau tanllyd, ac o *liw* hyasinth a brwmstan: a phennau y meirch *oedd* fel pennau llewod; ac yr oedd yn myned allan o'u safnau, dân, a mwg, a brwmstan.

18 Gan y tri hyn y llâs traian y dynion, gan y tân, a chan y mwg, a chan y brwmstan, oedd yn dyfod allan o'u safnau hwynt.

19 Canys eu gallu hwy sydd yn eu safn, ac yn eu cynffonnau: canys y cynffonnau *oedd* debyg i seirph, a phennau ganddynt; ac â'r rhai hynny y maent yn drygu.

20 A'r dynion eraill, y rhai ni laddwyd gan y pläau hyn, nid edifarhasant oddi wrth weithredoedd eu dwylaw eu hun, fel nad addolent gythreuliaid, a delwau aur, ac arian, a phres, a main, a phrennau, y rhai ni allant na gweled, na chlywed, na rhodio:

21 Ac nid edifarhasant oddi wrth eu llofruddiaeth, nac oddi wrth eu cyfareddion, nac oddi wrth eu godineb, nac oddi wrth eu lladrad.

PENNOD 10.

1 *Angel cryf cadarn yn ymddangos, a llyfr agored yn ei law:* 6 *ac ym tyngu i'r hwn sydd yn byw yn dragywydd, na bydd amser mwy.* 9 *Gorchymyn i Ioan gymmeryd y llyfr, a'i fwyta.*

AC mi a welais angel cryf arall yn disgyn o'r nef, wedi ei wisgo â chwmmwl: ac enfys *oedd* ar ei ben, a'i wyneb *ydoedd* fel yr haul, a'i draed fel colofnau o dân:

2 Ac yr oedd ganddo yn ei law lyfr bychan wedi ei agoryd. Ac efe a osododd ei droed dehau ar y môr, a'*i* aswy ar y tir;

3 Ac a lefodd â llef uchel, fel y rhua llew: ac wedi iddo lefain, y saith daran a lefarasant eu llefau hwythau.

4 Ac wedi darfod i'r saith daran lefaru eu llefau, yr oeddwn ar fedr ysgrifenu: ac mi a glywais lef o'r nef yn dywedyd wrthyf, Selia y pethau a lefarodd y saith daran, ac na ysgrifena hwynt.

5 A'r angel yr hwn a welais yn sefyll ar y môr, ac ar y tir, a gododd ei law i'r nef,

6 Ac a dyngodd i'r hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, yr hwn a greodd y nef a'r pethau sydd ynddi, a'r ddaear a'r pethau sydd ynddi, a'r môr a'r pethau sydd ynddo, na byddai amser mwyach:

7 Ond yn nyddiau llef y seithfed angel, pan ddechreuo efe udganu, gorphenir dirgelwch Duw, fel y mynegodd efe i'w wasanaethwyr y prophwydi.

8 A'r llef a glywais o'r nef, a lefarodd drachefn wrthyf, ac a ddywedodd, Dos, cymmer y llyfr bychan sydd wedi ei agoryd yn llaw yr angel yr hwn sydd yn sefyll ar y môr ac ar y tir.

9 Ac mi a euthum at yr angel, gan ddywedyd wrtho, Moes i mi y llyfr bychan. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Cymmer, a bwytta ef yn llwyr: ac efe a chwerwa dy fol di, eithr yn dy enau y bydd yn felus fel mêl.

10 Ac mi a gymmerais y llyfr bychan o law yr angel, ac a'i bwytteais ef; ac yr oedd efe yn fy ngenau megis mêl yn felus: ac wedi i mi ei fwytta ef, fy mol a aeth yn chwerw.

11 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Rhaid i ti drachefn brophwydo i bobloedd, a chenhedloedd, ac ieithoedd, a brenhinoedd lawer.

PENNOD 11.

3 *Y ddau dyst yn prophwydo.* 6 *Bod ganddynt awdurdod i gau y nef rhag iddi wlawio:* 7 *yr ymladd y bwystfil yn eu herbyn, ac y lladd hwynt:* 8 *hwythau yn gorwedd heb eu claddu,* 11 *ac ar ol tridiau a hanner yn adgyfodi.* 14 *Yr ail wae yn myned heibio.* 15 *Y seithfed udgorn yn canu.*

ARHODDWYD i mi gorsen debyg i wïalen. A'r angel a safodd, gan ddywedyd, Cyfod, a mesura deml Duw, a'r allor, a'r rhai sydd yn addoli ynddi.

2 Ond y cynted sydd o'r tu allan i'r deml, bwrw allan, ac na fesura ef; oblegid *efe* a roddwyd i'r Cenhedloedd; a'r ddinas sanctaidd a fathrant hwy ddeufis a deugain.

3 Ac mi a roddaf *allu* i'm dau dyst, a hwy a brophwydant fil a deucant *a* thri ugain o ddyddiau, wedi ymwisgo â sachlïan.

4 Y rhai hyn yw y ddwy olewwydden, a'r ddau ganhwyllbren sydd yn sefyll ger bron Duw y ddaear.

5 Ac os ewyllysia neb wneuthur niwed iddynt, y mae tân yn myned allan o'u genau hwy, ac yn difetha eu gelynion: ac os ewyllysia neb eu drygu hwynt, fel hyn y mae yn rhaid ei ladd ef.

6 Y mae gan y rhai hyn awdurdod i gau y nef, fel na wlawio hi yn nyddiau eu prophwydoliaeth hwynt: ac awdurdod sydd ganddynt ar y dyfroedd, i'w troi hwynt yn waed, ac i daro y ddaear â phob pla, cyn fynyched ag y mynnont.

7 A phan ddarfyddo iddynt orphen eu tystiolaeth, y bwystfil, yr

hwn sydd yn dyfod allan o'r pwll diwaelod, a ryfela â hwynt, ac a'u gorchfyga hwynt, ac a'u lladd hwynt.

8 A'u cyrph hwynt *a orwedd* ar heolydd y ddinas fawr, yr hon yn ysprydol a elwir Sodom a'r Aipht; lle hefyd y croeshoeliwyd ein Harglwydd ni.

9 A'r rhai o'r bobloedd, a'r llwythau, a'r ieithoedd, a'r cenhedloedd, a welant eu cyrph hwynt dridiau a hanner, ac ni oddefant roi eu cyrph hwy mewn beddau.

10 A'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear a lawenychant o'u plegid, ac a ymhyfrydant, ac a anfonant roddion i'w gilydd; oblegid y ddau brophwyd hyn oedd yn poeni y rhai oedd yn trigo ar y ddaear.

11 Ac ar ol tridiau a hanner, Ysprydwywyd oddi wrth Dduw a aeth i mewn iddynt hwy, a hwy a safasant ar eu traed; ac ofn mawr a syrthiodd ar y rhai a'u gwelodd hwynt.

12 A hwy a glywsant lef uchel o'r nef yn dywedyd wrthynt, Deuwch i fyny yma. A hwy a aethant i fyny i'r nef mewn cwmmwl; a'u gelynion a edrychasant arnynt.

13 Ac yn yr awr honno y bu daeargryn mawr, a degfed ran y ddinas a syrthiodd; a lladdwyd yn y ddaeargryn saith mil o wŷr: a'r lleill a ddychrynasant, ac a roddasant ogoniant i Dduw y nef.

14 Yr ail wae a aeth heibio; wele, y mae y drydedd wae yn dyfod ar frys.

15 A'r seithfed angel a udganodd; a bu llefau uchel yn y nef, yn dywedyd, Aeth teyrnasoedd y byd *yn eiddo* ein Harglwydd ni, a'i Grist ef; ac efe a deyrnasa yn oes oesoedd.

16 A'r pedwar henuriad ar hugain, y rhai oedd ger bron Duw yn eistedd ar eu gorsedd-feingciau, a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a addolasant Dduw,

17 Gan ddywedyd, Yr ydym yn diolch i ti, O Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn wyt yn dyfod; oblegid ti a gymmeraist dy allu mawr, ac a deyrnesaist.

18 A'r cenhedloedd a ddigiasant; a daeth dy ddig di, a'r amser i farnu y meirw, ac i roi gwobr i'th wasanaethwyr y prophwydi, ac i'r saint, ac i'r rhai sydd yn ofni dy enw, fychain a mawrion; ac i ddifetha y rhai sydd yn difetha y ddaear.

19 Ac agorwyd teml Dduw yn y nef; a gwelwyd arch ei gyfammod ef yn ei deml ef: a bu mellt, a llefau, a tharanau, a daeargryn, a chenllysg mawr.

PENNOD 12.

1 *Gwraig wedi ei gwisgo a'r haul yn trafaelu ar ei thymp i esgor.* 4 *Y ddraig goch fawr yn sefyll o'i blaen hi i ddifa ei phlentyn hi.* 6 *Wedi iddi esgor, y mae hi yn ffoio i'r diffaethwch.* 7 *Michael a'i angylion yn ymladd a'r ddraig, ac yn myned yn drech na hi.* 13 *Y ddraig, wedi ei thafiu i'r ddaear, yn erlid y wraig.*

A RHYFEDDOD mawr a welwyd yn y nef; gwraig wedi ei gwisgo â'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren:

2 A hi yn feichiog, a lefodd, gan fod mewn gwewyr, a gofid i esgor.

3 A gwelwyd rhyfeddod arall yn y nef; ac wele ddraig goch fawr, a saith ben iddi, a deg corn; ac ar ei phennau saith goron.

4 A'i chynffon hi a dynnodd draian sêr y nef, ac a'u bwriodd hwynt i'r ddaear. A'r ddraig a safodd ger bron y wraig yr hon ydoedd yn barod i esgor, i ddifa ei phlentyn hi pan esgorai hi arno.

5 A hi a esgorodd ar fab gwrryw, yr hwn oedd i fugeilio yr holl genhedloedd â gwialen haiarn: a'i phlentyn hi a gymmerwyd i fyny at Dduw, ac *at* ei orseddfainge ef.

6 A'r wraig a ffodd i'r diffaethwch, lle mae ganddi le wedi ei barottôi gan Dduw, fel y porthent hi yno fil a deucant *a* thri ugain o ddyddiau.

7 A bu rhyfel yn y nef: Michael a'i angylion a ryfelasant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd a'i hangylion hithau,

8 Ac ni orfuant; a'u lle hwynt nis cafwyd mwyach yn y nef.

9 A bwriwyd allan y ddraig fawr, yr hen sarph, yr hon a elwir Diafol a Satan, yr hwn sydd yn twyllo

yr holl fyd: efe a fwriwyd allan i'r ddaear, a'i angylion a fwriwyd allan gyd âg ef.

10 Ac mi a glywais lef uchel yn dywedyd yn y nef, Yr awr hon y daeth iachawdwriaeth, a nerth, a theyrnas ein Duw ni, a gallu ei Grist ef: canys cyhuddwr ein brodyr ni a fwriwyd i'r llawr, yr hwn oedd yn eu cyhuddo hwy ger bron ein Duw ni ddydd a nos.

11 A hwy a'i gorchfygasant ef trwy waed yr Oen, a thrwy air eu tystiolaeth hwynt; ac ni charasant eu heinioes hyd angau.

12 O herwydd hyn llawenhêwch, y nefoedd, a'r rhai ydych yn trigo ynddynt. Gwae y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, a'r môr: canys y diafol a ddisgynodd attoch chwi, a chanddo lid mawr, o herwydd ei fod yn gwybod nad oes iddo ond ychydig amser.

13 A phan welodd y ddraig ei bwrw i'r ddaear, hi a erlidiodd y wraig a esgorasai ar y mab.

14 A rhoddwyd i'r wraig ddwy o adenydd eryr mawr, fel yr ehedai hi i'r diffaethwch, i'w lle ei hun; lle yr ydys yn ei maethu hi yno dros amser, ac amseroedd, a hanner amser, oddi wrth wyneb y sarph.

15 A'r sarph a fwriodd allan o'i safn, ar ol y wraig, ddwfr megis afon, fel y gwnai ei dwyn hi ymaith gyd â'r afon.

16 A'r ddaear a gynnorthwyodd y wraig; a'r ddaear a agorodd ei genau, ac a lyngcodd yr afon, yr hon a fwriodd y ddraig allan o'i safn.

17 A llidiodd y ddraig wrth y wraig, ac a aeth i wneuthur rhyfel â'r lleill o'i had hi, y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, ac sydd a thystiolaeth Iesu Grist ganddynt.

PENNOD 13.

1 *Bwystfil yn cyfodi allan o'r môr, a saith ben ganddo, a deg corn: 11 i'r hwn y mae y ddraig yn rhoddi ei gallu.* 11 *Bwystfil arall yn dyfod i fyny allan o'r ddaear;* 14 *ac yn peri gwneuthur delw y bwystfil cyntaf;* 15 *ac yn peri i ddynion ei addoli ef,* 16 *a derbyn ei nod ef.*

AC mi a sefais ar dywod y môr; ac a welais fwystfil yn codi o'r môr, a chanddo saith ben, a deg corn; ac ar ei gyrn ddeg coron, ac ar ei bennau enw cabledd.

2 A'r bwystfil a welais i oedd debyg i lewpard, a'i draed fel *traed* arth, a'i safn fel safn llew: a'r ddraig a roddodd iddo ef ei gallu, a'i gorseddfaingc, ac awdurdod mawr.

3 Ac mi a welais un o'i bennau ef megis wedi ei ladd yn farw; a'i friw marwol ef a iachâwyd: a'r holl ddaear a ryfeddodd ar ol y bwystfil.

4 A hwy a addolasant y ddraig, yr hon a roes allu i'r bwystfil: ac a addolasant y bwystfil, gan ddywedyd, Pwy *sydd* debyg i'r bwystfil? pwy a ddichon ryfela âg ef?

5 A rhoddwyd iddo ef enau yn llefaru pethau mawrion, a chabledd; a rhoddwyd iddo awdurdod i weithio ddau fis *a* deugain.

6 Ac efe a agorodd ei enau mewn cabledd yn erbyn Duw, i gablu ei enw ef, a'i dabernacl, a'r rhai sydd yn trigo yn y nef.

7 A rhoddwyd iddo wneuthur rhyfel â'r saint, a'u gorchfygu hwynt: a rhoddwyd iddo awdurdod ar bob llwyth, ac iaith, a chenedl.

8 A holl drigolion y ddaear a'i haddolant ef, y rhai nid yw eu henwau yn ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen *yr hwn* a laddwyd er dechreuad y byd.

9 Od oes gan neb glust, gwrandawed.

10 Os yw neb yn tywys i gaethiwed, efe a â i gaethiwed: os yw neb yn lladd â chleddyf, rhaid yw ei ladd yntau â chleddyf. Dyma amynedd a ffydd y saint.

11 Ac mi a welais fwystfil arall yn codi o'r ddaear; ac yr oedd ganddo ddau gorn tebyg i oen, a llefaru yr oedd fel draig.

12 A holl allu y bwystfil cyntaf y mae efe yn ei wneuthur ger ei fron ef, ac yn peri i'r ddaear ac i'r rhai sydd yn trigo ynddi addoli y bwystfil cyntaf, yr hwn yr iachâwyd ei glwyf marwol.

13 Ac y mae efe yn gwneuthur rhyfeddodau mawrion, hyd onid yw yn peri i dân ddisgyn o'r nef i'r ddaear, y'ngolwg dynion;

14 Ac y mae *efe* yn twyllo y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, trwy y rhyfeddodau y rhai a rodd-

wyd iddo ef eu gwneuthur ger bron y bwystfil; gan ddywedyd wrth drigolion y ddaear, am iddynt wneuthur delw i'r bwystfil yr hwn a gafodd friw gan gleddyf, ac a fu fyw.

15 A chaniattâwyd iddo ef roddi anadl i ddelw y bwystfil, fel y llefarai delw y bwystfil hefyd, ac y parai gael o'r sawl nid addolent ddelw y bwystfil, eu lladd.

16 Ac y mae yn peri i bawb, fychain a mawrion, cyfoethogion a thlodion, rhyddion a chaethion, dderbyn nôd ar eu llaw ddehau, neu ar eu talcennau:

17 Ac na allai neb na phrynu na gwerthu, ond yr hwn a fyddai ganddo nôd, neu enw y bwystfil, neu rifedi ei enw ef.

18 Yma y mae doethineb. Yr hwn sydd ganddo ddeall, bwried rifedi y bwystfil: canys rhifedi dyn ydyw; a'i rifedi ef yw, Chwe chant a thri ugain *a* chwech.

PENNOD 14.

1 Tra yr oedd yr Oen yn sefyll ar fynydd Sion gyd a'i fintai, 6 angel yn pregethu yr efengyl. 8 Cwymp Babilon. 15 Cynhauaf y byd, a dodiad y crymman i mewn. 20 Gwin-gynhauaf, a gwinwryff digofaint Duw.

AC mi a edrychais, ac wele Oen yn sefyll ar fynydd Sïon, a chyd âg ef bedair mil *a* saith ugeinmil, a chanddynt enw ei Dad ef yn ysgrifenedig yn eu talcennau.

2 Ac mi a glywais lef o'r nef, fel llef dyfroedd lawer, ac fel llef taran fawr: ac mi a glywais lef telynorion yn canu ar eu telynau:

3 A hwy a ganasant megis caniad newydd ger bron yr orseddfaingc, a cher bron y pedwar anifail, a'r henuriaid: ac ni allodd neb ddysgu y gân, ond y pedair mil *a'r* saith ugeinmil, y rhai a brynwyd oddi ar y ddaear.

4 Y rhai hyn yw y rhai ni halogwyd â gwragedd; canys gwyryfon ydynt. Y rhai hyn yw y rhai sydd yn dilyn yr Oen pa le bynnag yr elo. Y rhai hyn a brynwyd oddi wrth ddynion, yn flaenffrwyth i Dduw ac i'r Oen.

5 Ac yn eu genau ni chaed twyll: canys difai ydynt ger bron gorseddfaingc Duw.

6 Ac mi a welais angel arall yn ehedeg y'nghanol y nef, a'r efengyl dragywyddol ganddo, i efengylu i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear, ac i bob cenedl, a llwyth, ac iaith, a phobl;

7 Gan ddywedyd â llef uchel, Ofnwch Dduw, a rhoddwch iddo ogoniant; oblegid daeth awr ei farn ef: ac addolwch yr hwn a wnaeth y nef, a'r ddaear, a'r môr, a'r ffynhonnau dyfroedd.

8 Ac angel arall a ddilynodd, gan ddywedyd, Syrthiodd, syrthiodd Babilon, y ddinas fawr honno; oblegid hi a ddïododd yr holl genhedloedd â gwin llid ei godineb.

9 A'r trydydd angel a'u dilynodd hwynt, gan ddywedyd â llef uchel, Os addola neb y bwystfil a'i ddelw ef, a derbyn *ei* nôd *ef* yn ei dalcen, neu yn ei law,

10 Hwnnw *hefyd* a ŷf o win digofaint Duw, yr hwn yn ddigymmysg a dywalltwyd yn phïol ei lid ef; ac efe a boenir mewn tân a brwmstan y'ngolwg yr angylion sanctaidd, ac y'ngolwg yr Oen:

11 A mwg eu poenedigaeth hwy sydd yn myned i fyny yn oes oesoedd: ac nid ydynt hwy yn cael gorphwysdra ddydd na nos, y rhai sydd yn addoli y bwystfil a'i ddelw ef, ac os yw neb yn derbyn nôd ei enw ef.

12 Yma y mae amynedd y saint: yma *y mae* y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, a ffydd Iesu.

13 Ac mi a glywais lef o'r nef yn dywedyd wrthyf, Ysgrifena, Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Ysbryd, fel y gorphwysont oddi wrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt.

14 Ac mi a edrychais, ac wele gwmmwl gwyn, ac ar y cwmmwl *un* yn eistedd tebyg i Fab y dyn, a chanddo ar ei ben goron o aur, ac yn ei law grymman llym.

15 Ac angel arall a ddaeth allan o'r deml, gan lefain â llef uchel wrth yr hwn oedd yn eistedd ar y cwmmwl, Bwrw dy grymman i mewn, a meda: canys daeth yr amser i ti i fedi; oblegid addfedodd cynhauaf y ddaear.

16 A'r hwn oedd yn eistedd ar y cwmmwl a fwriodd ei grymman ar y ddaear; a'r ddaear a fedwyd.
17 Ac angel arall a ddaeth allan o'r deml sydd yn y nef, a chanddo yntau hefyd grymman llym.
18 Ac angel arall a ddaeth allan oddi wrth yr allor, yr hwn oedd a gallu ganddo ar y tân; ac a lefodd â bloedd uchel ar yr hwn oedd a'r crymman llym ganddo, gan ddywedyd, Bwrw i mewn dy grymman llym, a chasgl ganghennau gwinwydden y ddaear; oblegid addfedodd ei grawn hi.
19 A'r angel a fwriodd ei grymman ar y ddaear, ac a gasglodd winwydden y ddaear, ac a'*i* bwriodd i gerwyn fawr digofaint Duw.
20 A'r gerwyn a sathrwyd o'r tu allan i'r ddinas; a gwaed a ddaeth allan o'r gerwyn, hyd at ffrwynau y meirch, ar hyd mil *a* chwe chant o ystadau.

PENNOD 15.

1 *Y saith angel â'r saith bla diweddaf.* 3 *Caniad y rhai a orchfygant y bwystfil.* 7 *Y saith phïol yn llawn o ddigofaint Duw.*

AC mi a welais arwydd arall yn y nef, mawr a rhyfeddol; saith angel a chanddynt y saith bla diweddaf: oblegid ynddynt hwy y cyflawnwyd llid Duw.
2 Ac mi a welais megis môr o wydr wedi ei gymmysgu â thân; a'r rhai oedd yn cael y maes ar y bwystfil, ac ar ei ddelw ef, ac ar ei nôd ef, *ac* ar rifedi ei enw ef, yn sefyll ar y môr gwydr, a thelynau Duw ganddynt.
3 A chanu y maent gân Moses gwasanaethwr Duw, a chân yr Oen; gan ddywedyd, Mawr a rhyfedd *yw* dy weithredoedd, *O* Arglwydd Dduw Hollalluog; cyfiawn a chywir *yw* dy ffyrdd di, Brenhin y saint.
4 Pwy ni'th ofna di, O Arglwydd, ac *ni* ogonedda dy enw? oblegid *tydi* yn unig *wyt* sanctaidd: oblegid yr holl genhedloedd a ddeuant ac a addolant ger dy fron di; oblegid dy farnau di a eglurwyd.
5 Ac ar ol hyn mi a edrychais, ac wele, yr ydoedd teml pabell y dystiolaeth yn y nef yn agored:
6 A daeth y saith angel, y rhai yr oedd y saith bla ganddynt, allan o'r deml, wedi eu gwisgo mewn llïan pur a disglaer, a gwregysu eu dwyfronnau â gwregysau aur.
7 Ac un o'r pedwar anifail a roddodd i'r saith angel saith phïol aur, yn llawn o ddigofaint Duw, yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.
8 A llanwyd y deml o fwg oddi wrth ogoniant Duw, ac oddi wrth ei nerth ef: ac ni allai neb fyned i mewn i'r deml, nes darfod cyflawni saith bla y saith angel.

PENNOD 16.

1 *Yr angylion yn tywallt allan eu phïoleidiau digofaint.* 2 *Y pladu yn caniyn ar hyn.* 15 *Crist yn dyfod fel lleidr. Gwyn eu byd y rhai a wyliant.*

AC mi a glywais lef uchel allan o'r deml, yn dywedyd wrth y saith angel, Ewch ymaith, a thywelltwch phïolau digofaint Duw ar y ddaear.
2 A'r cyntaf a aeth, ac a dywalltodd ei phïol ar y ddaear; a bu cornwyd drwg a blin ar y dynion oedd a nôd y bwystfil arnynt, a'r rhai a addolasent ei ddelw ef.
3 A'r ail angel a dywalltodd ei phïol ar y môr; ac efe a aeth fel gwaed dyn marw: a phob enaid byw a fu farw yn y môr.
4 A'r trydydd angel a dywalltodd ei phïol ar yr afonydd ac *ar y* ffynhonnau dyfroedd; a hwy a aethant yn waed.
5 Ac mi a glywais angel y dyfroedd yn dywedyd, Cyfiawn, O Arglwydd, ydwyt ti, yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn a fyddi; oblegid barnu o honot y pethau hyn.
6 Oblegid gwaed saint a phrophwydi a dywalltasant hwy, a gwaed a roddaist iddynt i'w yfed; canys y maent yn ei haeddu.
7 Ac mi a glywais un arall allan o'r allor yn dywedyd, Ïe, Arglwydd Dduw Hollalluog, cywir a chyfiawn *yw* dy farnau di.
8 A'r pedwerydd angel a dywalltodd ei phïol ar yr haul; a gallu a roed iddo i boethi dynion â thân.
9 A phoethwyd y dynion â gwres mawr; a hwy a gablasant enw Duw, yr hwn sydd âg awdurdod ganddo ar y pläau hyn: ac nid edifarhasant, i roi gogoniant iddo ef.

10 A'r pummed angel a dywalltodd ei phïol ar orseddfaingc y bwystfil; a'i deyrnas ef a aeth yn dywyll: a hwy a gnoisant eu tafodau gan ofid,
11 Ac a gablasant Dduw y nef, o herwydd eu poenau, ac o herwydd eu cornwydydd; ac nid edifarhasant oddi wrth eu gweithredoedd.
12 A'r chweched angel a dywalltodd ei phïol ar yr afon fawr Euphrates; a sychodd ei dwfr hi, fel y parottôid ffordd brenhinoedd y dwyrain.
13 Ac mi a welais dri yspryd aflan tebyg i lyffaint *yn dyfod* allan o safn y ddraig, ac allan o safn y bwystfil, ac allan o enau y gaubrophwyd.
14 Canys ysprydion cythreuliaid, yn gwneuthur gwyrthiau, ydynt, y rhai sydd yn myned allan at frenhinoedd y ddaear, a'r holl fyd, i'w casglu hwy i ryfel y dydd hwnnw, *dydd* mawr Duw Hollalluog.
15 Wele, yr wyf fi yn dyfod fel lleidr. Gwyn ei fyd yr hwn sydd yn gwylio, ac yn cadw ei ddillad, fel na rodio yn noeth, ac iddynt weled ei anharddwch ef.
16 Ac efe a'u casglodd hwynt ynghyd i le a elwir yn Hebraeg, Armagèdon.
17 A'r seithfed angel a dywalltodd ei phïol i'r awyr; a daeth llef uchel allan o deml y nef, oddi wrth yr orseddfaingc, yn dywedyd, Darfu.
18 Ac yr oedd lleisiau, a tharanau, a mellt; ac yr oedd daeargryn mawr, y fath ni bu er pan yw dynion ar y ddaear, cymmaint daeargryn, *ac* mor fawr.
19 A gwnaethpwyd y ddinas fawr yn dair rhan, a dinasoedd y cenhedloedd a syrthiasant: a Babilon fawr a ddaeth mewn côf ger bron Duw, i roddi iddi gwppan gwin digofaint ei lid ef.
20 A phob ynys a ffodd ymaith, ac ni chafwyd y mynyddoedd.
21 A chenllysg mawr, fel talentau, a syrthiasant o'r nef ar ddynion: a dynion a gablasant Dduw am bla y cenllysg; oblegid mawr iawn ydoedd eu pla hwynt.

PENNOD 17.

3, 4 *Gwraig wedi ei gwisgo â phorphor ac ysgarlad, a chwppan aur yn ei llaw, yn eistedd ar y bwystfil;* 5 *yr hon yw Babilon fawr, mam pob ffeidd-dra.* 9 *Dehongliad y saith ben,* 12 *a'r deg corn.* 14 *Goruchafiaeth yr Oen.* 16 *Cospedigaeth y buttain.*

A DAETH un o'r saith angel oedd a'r saith phïol ganddynt, ac a ymddiddanodd â mi, gan ddywedyd wrthyf, Tyred, mi a ddangosaf i ti farnedigaeth y buttain fawr sydd yn eistedd ar ddyfroedd lawer;
2 Gyd â'r hon y putteiniodd brenhinoedd y ddaear, ac y meddwyd y rhai sydd yn trigo ar y ddaear gan win ei phutteindra hi.
3 Ac efe a'm dygodd i i'r diffaethwch yn yr yspryd: ac mi a welais wraig yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad, yn llawn o enwau cabledd, a saith ben iddo, a deg corn.
4 A'r wraig oedd wedi ei dilladu â phorphor ac ysgarlad, ac wedi ei gwychu âg aur, ac â main gwerthfawr, a pherlau, a chanddi gwppan aur yn ei llaw, yn llawn o ffieidddra ac aflendid ei phutteindra.
5 Ac ar ei thalcen *yr oedd* enw wedi ei ysgrifenu, DIRGELWCH, BABILON FAWR, MAM PUTTEINIAID A FFIEIDD-DRA Y DDAEAR.
6 Ac mi a welais y wraig yn feddw gan waed y saint, a chan waed merthyron Iesu: a phan ei gwelais, mi a ryfeddais â rhyfeddod mawr.
7 A'r angel a ddywedodd wrthyf, Paham y rhyfeddaist? myfi a ddywedaf i ti ddirgelwch y wraig, a'r bwystfil sydd yn ei dwyn hi, yr hwn sydd a'r saith ben ganddo, a'r deg corn.
8 Y bwystfil a welaist, a fu, ac nid yw: a bydd iddo ddyfod i fyny o'r pydew heb waelod, a myned i ddistryw: a rhyfeddu a wna y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, y rhai ni ysgrifenwyd eu henwau yn llyfr y bywyd er seiliad y byd, pan welont y bwystfil, yr hwn a fu, ac nid yw, er ei fod.
9 Dyma y meddwl sydd â doethineb ganddo. Y saith ben, saith fynydd ydynt, lle mae y wraig yn eistedd arnynt.

10 Ac y mae saith frenhin: pump
a gwympasant, ac un sydd, *a'r* llall
ni ddaeth etto; a phan ddêl, rhaid
iddo aros ychydig.
11 A'r bwystfil, yr hwn oedd, ac
nid ydyw, yntau yw yr wythfed, ac
o'r saith y mae, ac i ddistryw y mae
yn myned.
12 A'r deg corn a welaist, deg
brenhin ydynt, y rhai ni dderbyn-
iasant frenhiniaeth etto; eithr awd-
urdod fel brenhinoedd, un awr, y
maent yn ei dderbyn gyd â'r bwyst-
fil.
13 Yr un meddwl sydd i'r rhai
hyn, a *hwy* a roddant eu nerth a'u
hawdurdod i'r bwystfil.
14 Y rhai hyn a ryfelant â'r Oen,
a'r Oen a'u gorchfyga hwynt: o-
blegid Arglwydd arglwyddi ydyw,
a Brenhin brenhinoedd; a'r rhai
sydd gyd âg ef, *sydd* alwedig, ac
etholedig, a ffyddlawn.
15 Ac efe a ddywedodd wrthyf,
Y dyfroedd a welaist, lle mae
y buttain yn eistedd, pobloedd a
thorfeydd ydynt, a chenhedloedd ac
ieithoedd.
16 A'r deg corn a welaist ar y
bwystfil, y rhai hyn a gasânt y
buttain, ac a'i gwnant hi yn unig
ac yn noeth, a'i chnawd hi a fwyt-
tânt hwy, ac a'i llosgant hi â thân.
17 Canys Duw a roddodd yn eu
calonnau hwynt wneuthur ei ewyll-
ys ef, a gwneuthur yr un ewyllys,
a rhoddi eu teyrnas i'r bwystfil,
hyd oni chyflawner geiriau Duw.
18 A'r wraig a welaist, yw y
ddinas fawr, sydd yn teyrnasu ar
frenhinoedd y ddaear.

PENNOD 18.

2 Cwymp Babilon: 4 gorchymyn pobl Dduw i gilio allan o honi: 9 brenhinoedd y ddaear, 11 gyd â'r marsiandwyr, a'r llongwyr, yn dárwg ganddynt drosti. 20 Y saint yn llawenychu o achos barn Duw arni hi.

AC ar ol y pethau hyn mi a welais
angel arall yn dyfod i waered
o'r nef, âg awdurdod mawr ganddo;
a'r ddaear a oleuwyd gan ei ogoni-
ant ef.
2 Ac efe a lefodd yn groch â llef
uchel, gan ddywedyd, Syrthiodd,
syrthiodd Babilon fawr honno, ac
aeth yn drigfa cythreuliaid, ac yn
gadwriaeth pob yspryd aflan, ac yn
gadwriaeth pob aderyn aflan ac
atgas.
3 Oblegid yr holl genhedloedd a
yfasant o win digofaint ei godineb
hi, a brenhinoedd y ddaear a but-
teiniasant gyd â hi, a marchnat-
tâwyr y ddaear a gyfoethogwyd gan
amlder ei moethau hi.
4 Ac mi a glywais lef arall o'r
nef yn dywedyd, Deuwch allan o
honi hi, fy mhobl i, fel na byddoch
gyd-gyfrannogion o'i phechodau hi,
ac na dderbynioch o'i phlâau hi.
5 Oblegid ei phechodau hi a gyr-
haeddasant hyd y nef, a Duw a
gofiodd ei hanwireddau hi.
6 Telwch iddi fel y talodd hithau
i chwi, a dyblwch iddi y dau cym-
maint yn ol ei gweithredoedd: yn
y cwppan a lanwodd hi, llenwch
iddi yn ddau-ddyblyg.
7 Cymmaint ag yr ymogoneddodd hi, ac y bu mewn moethau, y cymmaint arall rhoddwch iddi o ofid a galar: oblegid y mae hi yn dywedyd yn ei chalon, Yr wyf yn eistedd yn frenhines, a gweddw nid ydwyf, a galar nis gwelaf ddim.
8 Am hynny yn un dydd y daw ei plâau hi, *sef* marwolaeth, a galar, a newyn; a hi a lwyr-losgir â than: oblegid cryf *yw* yr Arglwydd Dduw, yr hwn sydd yn ei barnu hi.
9 Ac wylo am dani, a galaru drosti, a wna brenhinoedd y ddaear, y rhai a butteiniasant ac a fuant fyw yn foethus gyd â hi, pan welont fwg ei llosgiad hi,
10 Gan sefyll o hirbell, gan ofn ei gofid hi, a dywedyd, Gwae, gwae, y ddinas fawr honno, Babilon, y ddinas gadarn! oblegid mewn un awr y daeth dy farn di.
11 A marchnattâwyr y ddaear a wylant ac a alarant drosti; oblegid nid oes neb mwyach yn prynu eu marsiandïaeth hwynt:
12 Marsiandïaeth o aur, ac arian, a meini gwerthfawr, a pherlau, a llïan main, a phorphor, a sidan, ac ysgarlad, a phob coed thynon, a phob llestr o ifori, a phob llestr o goed gwerthfawr iawn, ac o bres, ac *o* haiarn, ac *o* faen marmor,
13 A sinamon, a phêr-aroglau, ac ennaint, a thus, a gwin, ac olew, a

pheillied, a gwenith, ac ysgrubliaid, a defaid, a meirch, a cherbydau, a chaethweision, ac eneidiau dynion.

14 A'r aeron a chwennychodd dy enaid a aethant ymaith oddi wrthyt, a phob peth danteithiol a gwych a aethant ymaith oddi wrthyt; ac ni chei hwynt ddim mwyach.

15 Marchnattâwyr y pethau hyn, y rhai a gyfoethogwyd ganddi, a safant o hirbell oddi wrthi, gan ofn ei gofid hi, gan wylo a galaru,

16 A dywedyd, Gwae, gwae, y ddinas fawr honno, yr hon oedd wedi ei gwisgo â llïan main, a phorphor, ac ysgarlad, ac wedi ei gwychu âg aur, a meini gwerthfawr, a pherlau!

17 Oblegid mewn un awr yr anrheithiwyd cymmaint cyfoeth. A phob llong-lywydd, a phob cwmpeini mewn llongau, a llongwyr, a chynnifer ag y sydd â'u gwaith ar y môr, a safasant o hirbell,

18 Ac a lefasant, pan welsant fwg ei llosgiad hi, gan ddywedyd, Pa *ddinas* debyg i'r ddinas fawr honno!

19 A hwy a fwriasant lwch ar eu pennau, ac a lefasant, gan wylo a galaru, *a* dywedyd, Gwae, gwae, y ddinas fawr honno, yn yr hon y cyfoethogodd yr holl rai oedd ganddynt longau ar y môr, trwy ei chost hi! oblegid mewn un awr yr anrheithiwyd *hi.*

20 Llawenhâ o'i phlegid hi, y nef, a *chwi,* apostolion sanctaidd a phrophwydi; oblegid dïalodd Duw arni drosoch chwi.

21 Ac angel cadarn a gododd faen megis maen melin mawr, ac a'i bwriodd i'r môr, gan ddywedyd, Fel hyn gyd â rhuthr y teflir Babilon, y ddinas fawr, ac ni cheir hi mwyach.

22 A llais telynorion, a cherddorion, a phibyddion, ac udganwyr, ni chlywir ynot mwyach; ac un crefftwr, o ba grefft bynnag *y bo,* ni cheir ynot mwyach; a thrwst maen melin ni chlywir ynot mwyach;

23 A llewyrch canwyll ni welir ynot mwyach; a llais prïodasfab a phrïodasferch ni chlywir ynot mwyach: oblegid dy farchnattâwyr di oedd wŷr mawr y ddaear; oblegid trwy dy swyn-gyfaredd di y twyllwyd yr holl genhedloedd.

24 Ac ynddi y caed gwaed prophwydi a saint, a phawb a'r a laddwyd ar y ddaear.

PENNOD 19.

1 *Clodfort Duw yn y nefoedd am farnu y buttain fawr, a dïal gwaed ei saint.* 7 *Priodas yr Oen.* 10 *Yr angel heb fynnu ei addoli.* 17 *Galw yr ehediaid i'r lladdfa fawr.*

AC ar ol y pethau hyn mi a glywais megis llef uchel gan dyrfa fawr yn y nef, yn dywedyd, Aleluia; Iachawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni:

2 Oblegid cywir a chyfiawn *yw* ei farnau ef: oblegid efe a farnodd y buttain fawr, yr hon a lygrodd y ddaear â'i phutteindra, ac a ddïalodd waed ei weision ar ei llaw hi.

3 Ac eilwaith y dywedasant, Aleluia. A'i mwg hi a gododd yn oes oesoedd.

4 A syrthiodd y pedwar henuriad ar hugain a'r pedwar anifail i lawr, ac a addolasant Dduw, yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc; gan ddywedyd, Amen; Aleluia.

5 A llef a ddaeth allan o'r orseddfaingc, yn dywedyd, Moliennwch ein Duw ni, ei holl weision ef, a'r rhai ydych yn ei ofni ef, bychain a mawrion hefyd.

6 Ac mi a glywais megis llef tyrfa fawr, ac megis llef dyfroedd lawer, ac megis llef taranau cryfion, yn dywedyd, Aleluia: oblegid teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog.

7 Llawenychwn, a gorfoleddwn, a rhoddwn ogoniant iddo ef: oblegid daeth prïodas yr Oen, a'i wraig ef a'i parottôdd ei hun.

8 A chaniattâwyd iddi gael ei gwisgo â llïan main glân a disglaer: canys y llïan main ydyw cyfiawnder y saint.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Ysgrifena, Bendigedig *yw* y rhai a elwir i swpper neithior yr Oen. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Gwir eiriau Duw yw y rhai hyn.

10 Ac mi a syrthiais wrth ei draed ef, i'w addoli ef. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Gwel na *wnelych hyn:* cydwas ydwyf i ti, ac i'th frodyr y rhai sydd ganddynt dystiolaeth Iesu. Addola Dduw: canys tystiolaeth Iesu ydyw yspryd y brophwydoliaeth.

11 Ac mi a welais y nef yn agored, ac wele farch gwyn; a'r hwn oedd yn eistedd arno a elwid Ffyddlawn a Chywir, ac mewn cyfiawnder y mae efe yn barnu ac yn rhyfela.

12 A'i lygaid *oedd* fel fflam dân, ac ar ei ben yr oedd coronau lawer: ac yr oedd ganddo enw yn ysgrifenedig, yr hwn ni wyddai neb ond efe ei hun:

13 Ac *yr oedd* wedi ei wisgo â gwisg wedi ei throchi mewn gwaed: a gelwir ei enw ef, Gair Duw.

14 A'r lluoedd oedd yn y nef a'i canlynasant ef ar feirch gwynion, wedi eu gwisgo â llïan main, gwyn a glân.

15 Ac allan o'i enau ef yr oedd yn dyfod gleddyf llym, i daro y cenhedloedd âg ef: ac efe a'u bugeilia hwynt â gwialen haiarn: ac efe sydd yn sathru cerwyn win digofaint a llid Duw Hollalluog.

16 Ac y mae ganddo ar ei wisg, ac ar ei forddwyd, enw wedi ei ysgrifenu, BRENHIN BRENHINOEDD, AC ARGLWYDD ARGLWYDDI.

17 Ac mi a welais angel yn sefyll yn yr haul; ac efe a lefodd â llef uchel, gan ddywedyd wrth yr holl adar oedd yn ehedeg trwy ganol y nef, Deuwch ac ymgesglwch ynghyd i swpper y Duw mawr;

18 Fel y bwyttaoch gig brenhinoedd, a chig pen-capteniaid, a chig y cedyrn, a chig meirch, a'r rhai sydd yn eistedd arnynt, a chig holl ryddion a chaethion, a bychain a mawrion.

19 Ac mi a welais y bwystfil, a brenhinoedd y ddaear, a'u lluoedd, wedi ymgynnull ynghyd i wneuthur rhyfel yn erbyn yr hwn oedd yn eistedd ar y march, ac yn erbyn ei lu ef.

20 A daliwyd y bwystfil, a chyd âg ef y gau-brophwyd, yr hwn a wnaeth wyrthiau ger ei fron ef, trwy y rhai y twyllodd efe y rhai a dderbyniasent nôd y bwystfil, a'r rhai a addolasent ei ddelw ef. Yn fyw y bwriwyd hwy ill dau i'r llyn tân yn llosgi â brwmstan.

21 A'r lleill a laddwyd â chleddyf yr hwn oedd yn eistedd ar y march, yr hwn oedd yn dyfod allan o'i enau ef: a'r holl adar a gawsant eu gwala o'u cig hwynt.

PENNOD 20.

2 Rhwymo Satan dros fil o flynyddoedd. 5 Yr adgyfodiad cyntaf: 6 mai gwyn eu byd y rhai sydd iddynt gyfran ynddo. 7 Gollwng Satan yn rhydd drachefn. 8 Gog a Magog. 10 Bwrw diafol i'r pwll o dân a brwmstan. 12 Yr adgyfodiad diweddaf cyffredinol.

AC mi a welais angel yn disgyn o'r nef, a chanddo agoriad y pydew diwaelod, a chadwyn fawr yn ei law.

2 Ac efe a ddaliodd y ddraig, yr hen sarph, yr hon yw Diafol a Satan, ac a'i rhwymodd ef *dros* fil o flynyddoedd,

3 Ac a'i bwriodd ef i'r pydew diwaelod, ac a gauodd arno, ac a seliodd arno ef, fel na thwyllai efe y cenhedloedd mwyach, nes cyflawni y mil o flynyddoedd: ac ar ol hynny rhaid yw ei ollwng ef yn rhydd *dros* ychydig amser.

4 Ac mi a welais orsedd-feingciau, a hwy a eisteddasant arnynt, a barn a roed iddynt hwy: ac *mi a welais* eneidiau y rhai a dorrwyd eu pennau am dystiolaeth Iesu, ac am air Duw, a'r rhai ni addolasent y bwystfil na'i ddelw ef, ac ni dderbyniasent ei nôd ef ar eu talcennau, neu ar eu dwylaw; a hwy a fuant fyw ac a deyrnasasant gyd â Christ fil o flynyddoedd.

5 Eithr y lleill o'r meirw ni fuant fyw drachefn, nes cyflawni y mil blynyddoedd. Dyma yr adgyfodiad cyntaf.

6 Gwynfydedig a sanctaidd *yw* yr hwn sydd a rhan iddo yn yr adgyfodiad cyntaf: y rhai hyn nid oes i'r ail farwolaeth awdurdod arnynt, eithr hwy a fyddant offeiriaid i Dduw ac i Grist, ac a deyrnasant gyd âg ef fil o flynyddoedd.

7 A phan gyflawner y mil blynyddoedd, gollyngir Satan allan o'i garchar;
8 Ac efe a â allan i dwyllo y cenhedloedd sydd ym mhedair congl y ddaear, Gog a Magog, i'w casglu hwy ynghyd i ryfel; rhif y rhai *sydd* fel tywod y môr.
9 A hwy a aethant i fyny ar led y ddaear, ac a amgylchasant wersyll y saint, a'r ddinas anwyl: a thân a ddaeth oddi wrth Dduw i waered o'r nef, ac a'u hysodd hwynt.
10 A diafol, yr hwn oedd yn eu twyllo hwynt, a fwriwyd i'r llyn o dân a brwmstan, lle *y mae* y bwystfil a'r gau-brophwyd; a hwy a boenir ddydd a nos, yn oes oesoedd.
11 Ac mi a welais orseddfaingc wen fawr, a'r hwn oedd yn eistedd arni, oddi wrth wyneb yr hwn y ffodd y ddaear a'r nef; a lle ni chafwyd iddynt.
12 Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw; a'r llyfrau a agorwyd: a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw *llyfr* y bywyd: a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau, yn ol eu gweithredoedd.
13 A rhoddodd y môr i fyny y meirw oedd ynddo; a marwolaeth ac uffern a roddasant i fyny y meirw oedd ynddynt hwythau: a hwy a farnwyd bob un yn ol eu gweithredoedd.
14 A marwolaeth ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dân. Hon yw yr ail farwolaeth.
15 A phwy bynnag ni chafwyd wedi ei ysgrifenu yn llyfr y bywyd, bwriwyd ef i'r llyn o dân.

PENNOD 21.

1 *Nef newydd, a daear newydd.* 10 *Jerusalem nefol, a'i chyflawn bortreiad.* 23 *Nid rhaid iddi wrth haul: gogoniant Duw yw ei goleuni hi.* 24 *Brenhinoedd y ddaear yn dwyn eu cyfoeth iddi hi.*

AC mi a welais nef newydd a daear newydd: canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio; a'r môr nid oedd mwyach.
2 A myfi Ioan a welais y ddinas sanctaidd, Jerusalem newydd, yn dyfod oddi wrth Dduw i waered o'r nef, wedi ei pharottôi fel priodasferch wedi ei thrwsio i'w gŵr.
3 Ac mi a glywais lef uchel allan o'r nef, yn dywedyd, Wele, *y mae* pabell Duw gyd â dynion, ac efe a drig gyd â hwynt, a hwy a fyddant bobl iddo ef, a Duw ei hun a fydd gyd â hwynt, *ac a fydd* yn Dduw iddynt.
4 Ac fe sych Duw ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt; a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach: oblegid y pethau cyntaf a aeth heibio.
5 A dywedodd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfaingc, Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Ysgrifena: canys y mae y geiriau hyn yn gywir ac yn ffyddlawn.
6 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Darfu. Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd. I'r hwn sydd sychedig y rhoddaf o ffynnon dwfr y bywyd yn rhad.
7 Yr hwn sydd yn gorchfygu a etifedda bob peth: ac mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, ac yntau a fydd i minnau yn fab.
8 Ond i'r rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r putteinwyr, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r eilun-addolwyr, a'r holl gelwyddwyr, *y bydd* eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan: yr hwn yw yr ail farwolaeth.
9 A daeth attaf un o'r saith angel yr oedd y saith phïol ganddynt yn llawn o'r saith bla diweddaf, ac a ymddiddanodd â mi, gan ddywedyd, Tyred, mi a ddangosaf i ti y briodasferch, gwraig yr Oen.
10 Ac efe a'm dug i ymaith yn yr yspryd i fynydd mawr ac uchel, ac a ddangosodd i mi y ddinas fawr, Jerusalem sanctaidd, yn disgyn allan o'r nef oddi wrth Dduw,
11 A gogoniant Duw ganddi: a'i goleu hi *oedd* debyg i faen o'r gwerthfawroccaf, megis maen jaspis, yn loyw fel grisial;
12 Ac iddi fur mawr ac uchel, *ac* iddi ddeuddeg porth, ac wrth y pyrth ddeuddeg angel, ac enwau

wedi eu hysgrifenu arnynt, y rhai yw *enwau* deuddeg llwyth plant Israel.

13 O du y dwyrain, tri phorth; o du y gogledd, tri phorth; o du y dehau, tri phorth; o du y gorllewin, tri phorth.

14 Ac *yr oedd* mur y ddinas a deuddeg sylfaen iddo, ac ynddynt enwau deuddeg apostol yr Oen.

15 A'r hwn oedd yn ymddiddan â mi, oedd a chorsen aur ganddo, i fesuro y ddinas, a'i phyrth hi, a'i mur.

16 A'r ddinas sydd wedi ei gosod yn bedeirongl, a'i hŷd sydd gymmaint a'i lled. Ac efe a fesurodd y ddinas â'r gorsen, yn ddeuddeng mil o ystadau. A'i hŷd, a'i lled, a'i huchder, sydd yn ogymmaint.

17 Ac efe a fesurodd ei mur hi yn gant *a* phedwar cufydd *a* deugain, wrth fesur dyn, hynny yw, eiddo yr angel.

18 Ac adeilad ei mur hi oedd o faen jaspis; a'r ddinas *oedd* aur pur, yn debyg i wydr gloyw.

19 A seiliau mur y ddinas *oedd* wedi eu harddu â phob rhyw faen gwerthfawr. Y sail cyntaf *oedd* faen jaspis; yr ail, saphir; y trydydd, chalsedon; y pedwerydd, smaragdus;

20 Y pummed, sardonyx; y chwched, sardius; y seithfed, chrysolithus; yr wythfed, beryl; y nawfed, topasion; y degfed, chrysoprasus; yr unfed ar ddeg, hyasinthus; y deuddegfed, amethystus.

21 A'r deuddeg porth, deuddeg perl *oeddynt;* a phob un o'r pyrth oedd o un perl: a heol y ddinas *oedd* aur pur, fel gwydr gloyw.

22 A theml ni welais ynddi: canys yr Arglwydd Dduw Hollalluog, a'r Oen, yw ei theml hi.

23 A'r ddinas nid rhaid iddi wrth yr haul, na'r lleuad, i oleuo ynddi: canys gogoniant Duw a'i goleuodd hi, a'i goleuni hi *ydyw* yr Oen.

24 A chenhedloedd y rhai cadwedig a rodiant yn ei goleuni hi: ac y mae brenhinoedd y ddaear yn dwyn eu gogoniant a'u hanrhydedd iddi hi.

25 A'i phyrth hi ni cheuir ddim y dydd: canys ni bydd nos yno.

26 A hwy a ddygant ogoniant ac anrhydedd y cenhedloedd iddi hi.

27 Ac nid â i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra, na chelwydd: ond y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr bywyd yr Oen.

PENNOD 22.

1 *Afon dŵfr y bywyd,* 2 *Pren y bywyd.* 5 *Duw sydd oleuni i'w ddinas ei hun.* 9 *Yr angel heb fynnu ei addoli.* 18 *Ni ellir rhoddi dim at air Duw, na thynnu dim oddi wrtho.*

AC efe a ddangosodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd, disglaer fel grisial, yn dyfod allan o orseddfainge Duw a'r Oen.

2 Y'nghanol ei heol hi, ac o ddau tu yr afon, *yr oedd* pren y bywyd, yn dwyn deuddeg *rhyw* ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth: a dail y pren *oedd* i iachâu y cenhedloedd:

3 A phob melldith ni bydd mwyach: ond gorseddfainge Duw a'r Oen a fydd ynddi hi; a'i weision ef a'i gwasanaethant ef,

4 A hwy a gânt weled ei wyneb ef; a'i enw ef *a fydd* yn eu talcennau hwynt.

5 Ac ni bydd nos yno: ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll, na goleuni haul; oblegid y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt: a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd.

6 Ac efe a ddywedodd wrthyf fi, Y geiriau hyn *sydd* ffyddlawn a chywir: ac Arglwydd Dduw y prophwydi sanctaidd a ddanfonodd ei angel i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid iddynt fod ar frys.

7 Wele, yr wyf yn dyfod ar frys: gwyn ei fyd yr hwn sydd yn cadw geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn.

8 A myfi Ioan a welais y pethau hyn, ac a'*u* clywais. A phan ddarfu i mi glywed a gweled, mi a syrthiais i lawr i addoli ger bron traed yr angel oedd yn dangos i mi y pethau hyn.

9 Ac efe a ddywedodd wrthyf fi, Gwel na *wnelych:* canys cydwas ydwyf i ti, ac i'th frodyr y prophwydi, ac i'r rhai sydd yn cadw geiriau y llyfr hwn. Addola Dduw.

10 Ac efe a ddywedodd wrthyf fi, Na selia eiriau prophwydoliaeth y

llyfr hwn: oblegid y mae yr amser yn agos.

11 Yr hwn sydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn etto; a'r hwn sydd frwnt, bydded frwnt etto; a'r hwn sydd gyfiawn, bydded gyfiawn etto; a'r hwn sydd sanctaidd, bydded sanctaidd etto.

12 Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys; a'm gwobr *sydd* gyd â mi, i roddi i bob un fel y byddo ei waith ef.

13 Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, y cyntaf a'r diweddaf.

14 Gwyn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo iddynt fraint ym mhren y bywyd, ac y gallont fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas.

15 Oddi allan *y mae* y cwn, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r putteinwyr, a'r llofruddion, a'r eilun-addolwyr, a phob un a'r sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd.

16 Myfi Iesu a ddanfonais fy angel i dystiolaethu i chwi y pethau hyn yn yr eglwysi. Myfi yw Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd, a'r Seren fore eglur.

17 Ac y mae yr Ysbryd a'r brïodasferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd a syched arno, deued. A'r hwn sydd yn ewyllysio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad.

18 Canys yr wyf fi yn tystiolaethu i bob un sydd yn clywed geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn, Os rhydd neb *ddim* at y pethau hyn, Duw a rydd atto ef y pläau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn;

19 Ac o thyn neb ymaith *ddim* oddi wrth eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon, Duw a dyn ymaith ei ran ef allan o lyfr y bywyd, ac allan o'r ddinas sanctaidd, ac *oddi wrth* y pethau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn.

20 Yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn, sydd yn dywedyd, Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu.

21 Gras ein Harglwydd ni Iesu Grist *fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

DIWEDD.

CAER GRAWNT:

ARGRAPHWYD GAN J. B. PEACE, M.A.,

YN ARGRAPHDY Y BRIF ATHROFA.

ARMENIA, SYRIA
AND
MESOPOTAMIA
Edited by
Sir C.W. Wilson, K.C.B. F.R.S. & Colonel Conder R.E.
and the Rev. W. Wright D.D.
for the
British & Foreign Bible Society
English Miles
0 50 100 200
THE GREAT SEA
CASPIAN SEA
PERSIAN GULF
ARABIA
ASSYRIA
ARMENIA
MEDIA
EGYPT
MIZRAIM
Nineveh
Babylon
Damascus
Jerusalem
Tyre
Sidon
Tadmor
Ur of the Chaldees
Ararat
Urmia
Van
Euphrates
Tigris
Great River
River of Egypt
Memphis
Noph
Desert of Paran
Wilderness of Shur
Red Sea
Mt. Hor
Sela
Elath
Ezion Geber
Kadesh
Tophel
Beersheba
Gaza
Ashkelon
Ashdod
Joppa
Samaria
Dothan
Mt. Carmel
Megiddo
Jezreel
Bethshan
Tabor
Kedesh
Hamath
Riblah
Aleppo
Carchemish
Haran
Nineveh
Calah
Asshur
Nineveh
Ecbatana
Susa
Shushan
Babylon
Erech
Accad
Sepharvaim
Shinar
Calneh
Ur
Tadmor
Damascus
Ava
Hamath
Arvad
Tyre
Sidon
Zarephath
Tyre
Tripolis
Gebal
Antioch
Daphne
Tarsus
Cilicia
Cyprus
Rhodes
Crete
Mt. Taurus
Mt. Ararat
Mt. Lebanon
Mt. Hermon
Mt. Gilead
Mt. Ephraim
Mt. Gerizim
Mt. Ebal
Mt. Zion
Mt. Moriah
Mt. Olivet
Mt. Nebo
Mt. Pisgah
Mt. Seir
Mt. Sinai
Mt. Horeb


EGYPT
THE SINAI PENINSULA
AND THE
PROMISED LAND
Edited by
Sir C. W. Wilson, K.C.B., F.R.S., Colonel (under) R.E.
and the Rev. W. Wright, D.D.
for the
British & Foreign Bible Society
English Miles
0 20 40 60 80
THE GREAT SEA
(MEDITERRANEAN SEA)
Damietta
(Rosetta)
(Abukir)
Alexandria
MAREOTIS
Mons Casius
River of Egypt
SIRBONIS
LAKE
Port Said
Avaris
Suez
Sin, Pelusium
CAPHTORIM
Zoan, Tanis
(San)
Tahpanhes
Daphnæ
MIZRAIM
LAND OF HAM
LAND OF GOSHEN
(Rameses)
Pithom
Heroopolis
Succoth
Etham
Pi-hahiroth
Wilderness of Shur
Wilderness of Etam
Wilderness of Sin
Wilderness of Zin
Wilderness of Paran
Wilderness of Kadesh
Wilderness of Edom
Wilderness of Moab
Wilderness of Zif
Wilderness of Ziph
Wilderness of Maon
Wilderness of Engedi
Wilderness of Tekoa
Wilderness of Gibeon
Wilderness of Gibeah
Wilderness of Ramah
Wilderness of Jeshimon
Wilderness of Beersheba
Wilderness of Bezek
Wilderness of Bezer
Wilderness of Jabesh
Wilderness of Kedemoth
Wilderness of Kedemoth
Wilderness of Kedemoth

PALESTINE
divided among
THE TWELVE TRIBES
Edited by
Sir C.W.Wilson,K.C.B.F.R.S Colonel Conder R.E.
and the Rev.W.Wright,D.D
for the
British & Foreign Bible Society
English Miles
10 5 0 10 20 30
THE GREAT SEA
THE SALT SEA
Zidon
Zarephath
Tyre
Kanah
Acco
Beth Dagon
Mt Carmel
Hazor
Jokneam
Taanach
Megiddo
Gath Rimmon
Ibleam
Dor
Taanach
Zaphon
Jabesh Gilead
Bozrah
Salcah
Bashan
Argob
Havoth jair
MANASSEH
TRANS JORDAN
GOLAN
Ashtaroth Karnaim
Kenath
Nobah
Edrei
Mt of
Gilgal
Jericho
Ai
Ephraim
Bethel
Shiloh
Ramoth
Tirzah
Shechem
Mt Ephraim
Mt Gilead
Mahanaim
Ramoth Gilead
Jabbok
Succoth
Peniel
Gadara
Hesbon
Heshbon
Beth Peor
Nebo
Medeba
Beth Shemesh
Ashdod
Ashkelon
Gaza
Lachish
Gezer
Ekron
Jabneel
Lod
Joppa
Gibeon
Gibeah
Jerusalem
Bethlehem
Hebron
Ziph
Tekoa
Adullam
Mareshah
Eshtaol
Zorah
Kiriath jearim
Ashdod
Ashkelon
Gath
Ekron
Jabneel
Lod
Joppa
Gezer
Ajalon
Beth horon
Gibeon
Gibeah
Jerusalem
Bethlehem
Hebron
Ziph
Tekoa
Adullam
Mareshah
Eshtaol
Zorah
Kiriath jearim
Beth Zur
Beth Gadd
Ar of Moab
Kir of Moab
Arad
Beersheba
Ar of Salt
Rehoboth
Hebron
Tophel
Bozrah
EDOM
Longitude East of Greenwich
Mt Hermon
Kadesh
Laish
Dan
Beth Rehob
Beth Maacah
Ijon
Abel
Dan
Beth Shean
Jezreel
Hazor
Kedesh
Merom
Waters
Dan
Beth Rehob
Beth Maacah
Ijon
Abel
Laish
Dan
Tyre
Magdiel
Kanah
Acco
Beth Dagon
Mt Carmel
Hazor
Jokneam
Taanach
Megiddo
Gath Rimmon
Ibleam
Dor
Taanach
Zaphon
Jabesh Gilead
Bozrah
Salcah
Bashan
Argob
Havoth jair
MANASSEH
TRANS JORDAN
GOLAN
Ashtaroth Karnaim
Kenath
Nobah
Edrei
Mt of
Gilgal
Jericho
Ai
Ephraim
Bethel
Shiloh
Ramoth
Tirzah
Shechem
Mt Ephraim
Mt Gilead
Mahanaim
Ramoth Gilead
Jabbok
Succoth
Peniel
Gadara
Hesbon
Heshbon
Beth Peor
Nebo
Medeba
Beth Shemesh
Ashdod
Ashkelon
Gaza
Lachish
Gezer
Ekron
Jabneel
Lod
Joppa
Gibeon
Gibeah
Jerusalem
Bethlehem
Hebron
Ziph
Tekoa
Adullam
Mareshah
Eshtaol
Zorah
Kiriath jearim
Beth Zur
Beth Gadd
Ar of Moab
Kir of Moab
Arad
Beersheba
Ar of Salt
Rehoboth
Hebron
Tophel
Bozrah
EDOM
Longitude East of Greenwich
Damascus
R Abana
Nahr el Awaj
Zidon
Zarephath
Tyre
Kanah
Acco
Beth Dagon
Mt Carmel
Hazor
Jokneam
Taanach
Megiddo
Gath Rimmon
Ibleam
Dor
Taanach
Zaphon
Jabesh Gilead
Bozrah
Salcah
Bashan
Argob
Havoth jair
MANASSEH
TRANS JORDAN
GOLAN
Ashtaroth Karnaim
Kenath
Nobah
Edrei
Mt of
Gilgal
Jericho
Ai
Ephraim
Bethel
Shiloh
Ramoth
Tirzah
Shechem
Mt Ephraim
Mt Gilead
Mahanaim
Ramoth Gilead
Jabbok
Succoth
Peniel
Gadara
Hesbon
Heshbon
Beth Peor
Nebo
Medeba
Beth Shemesh
Ashdod
Ashkelon
Gaza
Lachish
Gezer
Ekron
Jabneel
Lod
Joppa
Gibeon
Gibeah
Jerusalem
Bethlehem
Hebron
Ziph
Tekoa
Adullam
Mareshah
Eshtaol
Zorah
Kiriath jearim
Beth Zur
Beth Gadd
Ar of Moab
Kir of Moab
Arad
Beersheba
Ar of Salt
Rehoboth
Hebron
Tophel
Bozrah
EDOM
Longitude East of Greenwich
George Philip & Son Ltd

THE HOLY LAND
IN THE
TIME OF THE KINGS
Edited by
Sir C. W. Wilson, K.C.B., F.R.S., Colonel Conder, R.E.
and the Rev. W. Wright, D.D.
for the
British & Foreign Bible Society
English Miles
20 10 0 20 40 60
Solomon's Dominions bounded by Green lines
The Kingdoms of Judah & Israel by Red lines
THE GREAT SEA
PHŒNICIA
Mt Lebanon
SYRIA
Hamath
Arvad
Zemar
Riblah
Tadmor
Palmyra
Desert
Gebal
Kadesh
Hamath
Zidon
Damascus
Abana
Tyre
Jordan
Mt Hermon
Abel Beth Maacah
Kedesh
Merom
Acco
GALILEE
BASHAN
Mt Carmel
Jabin
Tabor
Nazareth
Megiddo
Kishon
Gilboa
Jezreel
Dothan
Shechem
Ramoth Gilead
Joppa
Mt Ephraim
Jericho
Rabbath Ammon
Ashdon
Jerusalem
Bethlehem
Gaza
Hebron
Beersheba
Dead Sea
Salt
MOAB
AMMON
Edom
Zion
Long East 36° of Greenwich
George Philip & Son, Ltd.

THE HOLY LAND
IN THE TIME OF
OUR SAVIOUR
Edited by
Sir C.W.Wilson K.C.B.F.R.S. Colonel Conder R.E.
and the Rev.d W.Wright, D.D.
for the
British & Foreign Bible Society.
Roman Miles
10 5 0 10 20 30
Cities of the Decapolis
Roman Roads
Longitude East of Greenwich
SYRIA
TETRARCHY OF ABILENE
LYSANIAS
DAMASCUS
Sidon
Sarepta
Zarephath
Tyre
Mt. Hermon 9150
Nahr Awaj
Cæsarea Philippi
Country of the Ituræans
TETRARCHY OF PHILIP
GAULONITIS
TRACHONITIS
AURANITIS
Ecdippa
Ptolemais
Acre
Capharnaum
Chorazin
Bethsaida Julias
GALILEE
Sea of Galilee
Gennesaret
Tiberias
Hippos
Gadara
Kadesh
Naphtali
Zebulun
Nazareth
Mt. Gilboa
Nain
Ginæa
Gaulanitis
Ahila
Kanatha
Mt. of Bashan
Bazrah
Cæsarea
Esdraelon
Bethshean
Scythopolis
BATANÆA
Dion
Raphana
Pella
SAMARIA
Sebaste
Samaria
Mt. Gerizim
Enon
Sychem
Sychar
Mt. Ebal
Caphar Saba
Joppa
Antipatris
Beth Laban
Thaisabis
Arimathæa
Gophna
Lydda
Ephraim
Accaron
Bethhoron
Gezer
Jamnia
Gazara
Nicopolis
Emmaus
Jericho
Mt. of Olives
Philadelphia
Azotus
Ashdod
JERUSALEM
Bethany
Heshbon
Ascalon
Bethlehem
JUDÆA
Rhodam
Bethsura
Hebron
Gaza
Anthedon
DAROMA
Sodom
Salt Sea
Machærus
Masada
Beersheba
IDUMÆA
DEAD SEA
MADIAN
Nabatæa
George Philip & Son. Ltd.

A map to illustrate the
ACTS AND EPISTLES
Edited by
Sir C. W. Wilson K.C.B. F.R.S. Colonel Commr. R.E.
and the Rev. Dr. Wright, D.D.
for the
British & Foreign Bible Society
English Miles
0 50 100 200 300
Seven Churches of Asia
ST PAUL'S JOURNEYS
1st Missionary Journey thus
2nd " " " "
3rd " " " "
Voyage to Rome
BLACK SEA
ADRIATIC SEA
THE GREAT SEA
MEDITERRANEAN
ROME
Three Taverns
Appii Forum
Puteoli
ITALIA
ADRIA
Rhegium
SICILIA
Syracuse
Carthago
Melita
THRACE
MACEDONIA
Philippi
Amphipolis
Thessalonica
Berea
Byzantium
Danube
MOESIA
BITHYNIA
Nicomedia
Nicaea
Chalcedon
Prusa
Apollonia
Pergamos
Troas
Samothrace
Neapolis
Mysia
Assos
Mitylene
Chios
Samos
Miletus
Ephesus
Colossae
Laodicea
Hierapolis
Philadelphia
Sardis
Thyatira
Philomelium
Iconium
Lystra
Derbe
Tarsus
Cilicia
Cyprus
Salamis
Paphos
Perga
Pisidia
Antioch
Pamphylia
Cos
Cnidus
Rhodes
Patara
Lycia
Myra
Cnidus
Phaselis
Rhodes
Cyprus
Salamis
Paphos
Tyre
Ptolemais
Caesarea
Antipatris
Joppa
Ashdod
Gaza
Jerusalem
Jericho
Damascus
Sidon

George Philip & Son, Ltd


MODERN
PALESTINE
showing the
PHYSICAL FEATURES
Edited by
Sir C.W.Wilson, K.C.B.,R.E. Colonel Conder R.E.
and the Rev. S.Wright, D.D.
for the
Brunsh & Foreign Bible Society.
English Miles
Reference
Land below Sea level
" from 0-300 feet
" Over 300 "
Sea from 0-100 feet
" below 100 "
Railways
MEDITERRANEAN SEA
DEAD SEA
BAHR LUT
BEIRUT
Saida (Sidon)
DIMESHEK EH SHEM (DAMASCUS)
J. EDUR
GAULAN
Et Lejah
Jebel Druz
Jebel Hermon
Jebel Esh Sheikh
Jebel Wustani
Jebel Ajlun
Jebel Ephraim
Jebel Gilboa
Jebel Nebo
Jebel Sherah
Jebel Tabor
Jebel Zion
Jebel Ajrud
Jebel Ed Dhahr
Jebel Ed Dhaherieh
Jebel Ed Dhiban
Jebel Ed Dhuhy
Jebel Ed Dirbeh
Jebel Ed Dirweh
Jebel Ed Dumm
Jebel Ed Duwaiyeh
Jebel Ed Dyr
Jebel Ed Fuwaiyeh
Jebel Ed Hadid
Jebel Ed Hamra
Jebel Ed Hawa
Jebel Ed Hawaiyeh
Jebel Ed Hawiyeh
Jebel Ed Hemeh
Jebel Ed Hemeiyeh
Jebel Ed Hemeyeh
Jebel Ed Hemmeh
Jebel Ed Hemmeiyeh
Jebel Ed Hemmeyeh
Jebel Ed Hemmeyeh
Jebel Ed Hemme